NEDL TRANSFER
HN 6SK4 C

Cyc 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

# Y
# GWYDDONIADUR CYMREIG.

Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

**Iaith Gymraeg.**

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY,
A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Digitized by Google

## LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise......I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
*Bognor, Sussex.* *Archdeacon of Cardigan, &c.*

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

*Llundain.* THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

*Llanfyllin.* DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

*Llundain.* OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

*Llanbrynmair.* SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

*Llandeilo.* JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

*Aberdâr.* THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. PARRY estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'tywyd o feirw.'

*Amlwch.* WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*.'.....Daeth allan fel cawr grymus.

*Liverpool.* WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o dafiu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

*Cendl.* THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os ä yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

*Athrofa Pont-y-pool.* T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

*Bangor.* JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

*Liverpool.* HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

*Thrussington.* JOHN OWEN, *Rural Dean.*

## CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

*Yr Amserau.*—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

*Y Bedyddiwr.*—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

*The Carnarvon Herald.*—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*''

*Y Cronicl.*—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

*Y Cylchgrawn Cymreig.*—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur.*'

*Y Diwygiwr.*—'Y mae yn ddiau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

*Y Drysorfa.*—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. PARRY, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

*Y Dysgedydd.*—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

*Yr Eurgrawn.*—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fynu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

*Y Gwron.*—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

*Y Seren Gomer.*—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

*Y Traethodydd.*—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, pupur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

*Y Wasg.*—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur*.''

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

Digitized by Google



Digitized by Google

# The Encyclopædia Cambrensis.

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Cyf. IV.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXC.

Digitized by Google

Cyc 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.

Pierce Fund

Digitized by Google

# CYNNWYSIAD Y BEDWAREDD GYFROL.

---

Dangosys Erthyglau yn y tudalenau hyn ar Bersonau a gwahanol Wledydd y Byd, &c., gyda ffigyrau a llythyrenau o'u blaen. Wrth ddefnyddio y cynllun hwn, yr ydym yn gallu cynnwys y manylion diweddaf am danynt yn y Gwaith hwn.

Yn y gyfrol ddiweddaf, bydd *Taflen lawn* o'r holl Erthyglau fydd yn y Gwaith, wedi eu trefnu yn ol y wyddor, fel y bydd yn hawdd cael pob Erthygl fydd ynddo, yn mha gyfrol bynag yr ymddengys.

---


Tudal.

Duwinyddiaeth Naturiol ... 1
Duwinyddion, Cymmanfa ... 26
Duwioldeb ... ... 26
Duwioliaid ... *Pietists* 27
Dwfr, Dyfroedd .. ... 29
Dwfr a Gwaed ... Gwel Gwaed a Dwfr.. ... 43
Dwight, Timothy ... 43
Dwrn ... ... 44
Dwsmel Gwel Dulsimer 44
Dwthwn ... ... 44
Dwyf ... Gwel Duw 44
Dwyfllywiaeth ... *Theocracy* 44
Dwyfoldeb yr Ysgrythyrau Gwel Ysgrythyrau ... 47
Dwyfroneg ... ... 47
Dwyrain ... ... 48
Dychlamu ... ... 49
Dychwel—iad ... ... 49
Dychymyg ... ... 122
Dydd ... ... 51
Dyddanydd ... ... 52
Dydd-gylch . Gwel Abiah 53
Dyddiau yr Wythnos Gwel Daearyddiaeth ... 53
Dyeithr ... ... 53
Dyferlif ... ... 53
Dyfnder ... ... 53
Dyfnwal Moelmud ... 54
Dyfrglwyf Gwel Dropsi 65
Dyfrig Beneurog (*Dubricius*) 65
Dyffryn Achor ... .. 65
Dyffryn Afen ... ... 66
Dyffryn Aialon ... Gwel Aialon ... ... 66
Dyffryn Bacca ... Gwel Baca 66
Dyffryn Elah ... ... 66
Dyffryn Escol ... ... 66
Dyffryn Hebron... ... 66
Dyffryn Iehosaphat ... 66
Dyffryn Hinnom ... 66
Dyffryn Rephaim ... 67
Dyffryn Sittim ... ... 67
Dyffryn Sorec ... ... 67
Dyffryn Succoth.. ... 67
Dyffryn yr Halen ... 67
Dygyfor ... ... 67
Dyhuddo ... ... 67
Dylanwad Dwyfol ... 68
Dyled—wyr ... ... 68
Dyledswydd ... ... 71
Dylif ... Gwel Noah 71
Dylluan—od ... ... 71
Dymuniant ... ... 72
Dyn-ion ... ... 73
Dyn, Dosbarthiad ac Unoliaeth ... ... 107
Dyn Pechod Gwel Anghrist 113
Dyndod Crist ... Gwel Crist ... ... 113
Dyndoliaid .. *Humanitarians* ... ... 113
Dynddarluniaeth. *Anthropography* ... ... 113
Dyngarwch ... ... 113
Dynofyddiaeth ... *Anthropology* ... ... 113
Dyoddefgarwch ... Gwel Amynedd ... ... 114
Dyoddefiadau Crist ... 114
Dyrchafwyr a Gwrthddyrchafwyr ... *Lifters and Antilifters* ... ... 119
Dyrnfedd ... ... 119
Dyrnu ... ... 119
Dysgawdwr ... ... 120
Dysgybl—ion ... ... 120
Dysgyblion Crist.. (Campbelliaid, neu y Diwygwyr). 120
Dysgyblaeth Eglwysig Gwel Eglwys ... ... 121
Dysgyblwyr ... *Disciplinarians* ... ... 121
Dysgl—au ... ... 121
Dystain ... ... 121
Dyweddïo ... ... 121

Ebadiaid ... *Ebadians* 134
Ebal a Gerizim ... ... 134
Ebed (tad Gaal)... ... 134
Ebed (mab Ionathan) ... 135
Ebed-Melech ... ... 135
Ebed Jesus ... ... 135
Eben-Ezer ... ... 135
Ebenus ... ... 135
Eber, Paul ... ... 136
Eberlin, Anton ... ... 137
Ebioniaid ... *Ebionites* 137
Ecbatana ... Gwel Achmetha ... ... 138
Eclecticiaid ... *Eclectics* 138
Eclecticiaid, neu y Platoniaid diweddar... ... 138
Ecclesiasticus ... Gwel Iesus fab Sirach ... ... 138
Ecclesiastes ... Gwel Pregethwr, a Llyfr y ... 138
Eck neu Esk, John ... 138
Ecron.. ... ... 140
Ed ... ... 140
Edar, Tŵr ... . c 631
Eden.. ... ... 140
Edeyrn Dafod Aur ... 631
Ednyfed Fychan . ... 631
Edom.. .. ... 145
Edifeirwch, Edifar ... 149
Edrei.. ... .. 153
Eduma .. .. 153
Edwards, Charles ... 631
Edwards, Jonathan, A.C. .. 153
Edwards, Thomas (*Caerfallwch*) ... . D 631
Edwards, Thomas (*Twm o'r Nant*) ... . c 631
Edwards, William, Groeswen, Morganwg ... . A 631
Eddi.. .. .. 158
Efa ... ... ... 159
Efengyl—u ... ... 159
Efengylau, Yr ... ... 163
Efengylaidd, Cynghrair. Gw. Cynghrair Efengylaidd ... 194
Efengylau Ffugiol ... 194
Efengylwr—wyr ... 196
Efi ... ... ... 196
Efil-merodach ... ... 196
Efnuch Gwel Eunuch 196
Efrau.. ... ... 196
Efrydd—ion ... ... 197
Efydd.. ... Gwel Pres 197
Eglah.. ... ... 197
Eglaim ... ... 197
Eglon (brenin Moab) ... 197
Eglon (dinas yn Iudah) ... 198
Eglwys ... ... 198
Eglwys Apostolaidd .. 206
Eglwys yr Alban ... 206
Eglwys Asia, Saith Gwel Asia ... ... 222
Eglwys Brydeinig, Yr Gwel Prydain . ... 222
Eglwys Ddwyreiniol ... 222
Eglwys Esgobyddol Gwel Esgobyddiaeth.. ... 222
Eglwys Ffraingc... Gwel Ffraingc ... ... 222
Eglwys Gadeiriol. ... 222
Eglwys Groeg ... Gwel Groeg ... ... 222
Eglwys Henadurol Gwel Henaduriaeth; Eglwys yr Alban ... ... 222
Eglwys Iuddewig Gwel Iuddewiaeth ... ... 222
Eglwys Loegr ... Gwel Lloegr ... ... 222
Eglwys Orllewinol ... 222
Eglwys Rhufain.. Gwel Rhufain ... ... 222
Eglwys Rwssia ... Gwel Rwssia ... 222
Eglwys Sefydledig Gwel Eglwys yr Alban: Lloegr.. 222
Eglwysig, Blwyddyn ... 222
Eglwysig, Côf-lyfrau ... 223
Eglwysig, Cyllidau ... 224
Eglwysig, Cynnadleddau ... 224
Eglwysig, Emynau Gwel Emynau ... ... 224
Eglwysig, Hanesiaeth ... 224
Eglwysig, Llwyrwys *Dict* 225
Eglwysig, Meddiannau 225
Eglwysig, Tadau *Patres Ecclesiæ* ... ... 226
Eglwysig, Ymweliadau ... 226
Egwyddor ... ... 227


Digitized by Google

Tudal.
Egwyddor .. Gwel Gwyodaeth ... 262
Ehediaid ... Gwel Aderyn ... 262
Ehi ... ... ... 262
Ehwd.. ... ... 262
Eichhorn, John Godfrey ... 262
Eidiol Gadarn, Iarll Caerloyw ... . A 631
Eidion .. Gwel Ych 262
Eiddew ... ... 262
Eingion ... ... 263
Eilun—od ... ... 263
Eilunaddoliaeth... ... 265
Eillio.. ... ... 269
Einioes Gwel Bywyd 269
Eira, Eiry ... ... 269
Eiriach ... ... 273
Eiriol—aeth—wr. ... 273
Eistedd .. Gwel Lledorwedd ... ... 276
El Elohe Israel ... ... 280
Eladah ... ... 276
Elah ... ... ... 276
Elam (un o feibion Sem) ... 276
Elam (mab Meselemiah) ... 277
Elam (mab Sasac) ... 277
Elam (offeiriad) .. ... 277
Elamitiaid, neu Elamiaid ... 278
Elasah (mab Pasur) ... 277
Elasah (mab Saphan) ... 277
Elath neu Eloth.. ... 277
El-Bethel ... ... 278
Elcanah ... ... 278
Elcesaitiaid, Elcsaitiaid ... 278
Elcos.. ... ... 279
Eldaah ... ... 279
Eldad a Medad ... ... 279
Elead.. ... ... 279
Elealeh ... ... 279
Eleasa ... ... 279
Eleasah ... ... 279
Eleazar (mab Aaron) ... 279
Eleazar (mab Abinadab) ... 279
Eleazar (mab Dodo) ... 280
Eleazar (mab Mali) ... 280
Eleazar (offeiriad) ... 280
Eleazar (mab Paros) ... 280
Eleazar (mab Phinees) ... 280
Eleazar (mab Mattathias) ... 280
Eleazar (ysgrifenydd nodedig) 280
Eleazar (tad Iason) ... 280
Eleazar (mab Eliud) ... 280
Eleph.. ... ... 280
Elephant—iaid ... ... 280
Eleutheropolis ... ... 283
Eleutherus (afon yn Syria)... 284
Eleutherus (esgob Rhufain).. 285
Elfenau Gwel Gwybodaeth ... ... 285
Elhanan (mab Iaareoregim).. 285
Elhanan (mab Dodo) ... 286
Eli (mab Aaron).. ... 286
Eli (un o hynafiaid ein Hiachawdwr) ... ... 286
Eli (llef Crist ar y groes) ... 287
Eli—on ... ... 287
Eliab (mab Helon) ... 288
Eliab (mab Phalu) ... 288
Eliab (mab Iesse) ... 288
Eliab (Lefiad yn amser Dafydd) 288
Eliab (tywysog rhyfelgar o Gad) ... ... 288
Eliab (mab Nahath) ... 288
Eliacim (mab Hilciah) ... 288
Eliacim (brenin Iudah) ... 288
Eliacim (offeiriad) ... 288
Eliacim (mab Abiad) ... 288
Eliacim (mab Melea) ... 288
Eliada (mab Dafydd) ... 288
Eliada (Beniaminiad) ... 289
Eliada, neu Eliadah ... 289
Eliah (mab Iehoram) ... 289
Eliah (mab Elam) ... 289
Eliahbah ... ... 289
Eliam (tad Bathseba) ... 289
Eliam (mab Ahitophel) ... 289
Elian Geimiad ... ... 289
Elias... ... ... 290
Elias, Harry ... ... 299
Elias, Levita ... ... 299
Elias, John ... ... 300
Eliasaph (mab Deuel) .. 316
Eliasaph (mab Lael) ... 316
Eliasib (offeiriad). ... 316
Eliasib (mab Elioenai) ... 316
Eliasib (archoffeiriad) ... 316
Eliasib (cantwr yn amser Ezra 316
Eliasib (mab Sattu) ... 316
Eliasib (mab Bani) ... 316
Eliasis ... ... 316
Eliathah ... ... 316
Elica... .. ... 316
Elicagary, Dominique ... 316
Elidad ... ... 316
Eliel (9) ... ... 316
Elienai ... ... 316
Eliezer (11) ... ... 316
Eligius ... ... 317
Elihoenai ... ... 318
Elihoreph ... ... 318
Elihu (5) ... ... 318
Elim... ... ... 318
Elimelech ... ... 319
Elined ... ... 319
Elioenai (6) ... ... 319
Eliot, John ... ... 319
Eliphal ... ... 320
Eliphalet ... ... 320
Eliphaz (2) ... ... 320
Elipheleh ... ... 321
Eliphelet (6) ... ... 321
Elisabeth (2) ... ... 321
Elisah ... ... 321
Elisama (7) ... ... 322
Elisaphan (2) ... ... 322
Elisaphat ... ... 322
Eliseba ... ... 322
Eliseus ... ... 322
Elisua ... ... 331
Elisur. ... ... 331
Eliud.. ... ... 331
Elizabeth ... ... 331
Elleriaid = Eleriaid, neu Ronsdorffiaid *Ellerians*, neu *Ronsdorfians* ... ... 344
Ellis, Dafydd ... . B 631
Ellis, Ellis Owen. . B 631
Ellis, John ... . E 631
Ellis, Robert (*Cynddelw*) . E 631
Elmodam ... ... 338
Elnaam ... ... 338
Elnathan (2) ... ... 338
Eloi, Eloi . Gwel Eli 3. 338
Elon (4) ... ... 338
Elon-Beth-Hanan ... 338
Elor—au ... ... 338
Eloth . Gwel Elath 340
Elpaal ... ... 340
Elpalet ... ... 340
Elphin = Elffin ... ... 340
Elsaphan . Gwel Elisaphan ... ... 341
Eltecch ... ... 341
Eltecon ... ... 341
Eltolad ... ... 341
Elul .. ... ... 341
Elusen—gar—wch ... 341
Elusendy—dai ... ... 343
Eluzai ... ... 343
Elvira, Cynghorfa *Concilium Eliberitanum*, neu *Illiberitanum* ... ... 343
Elymas Gwel Bar-Iesu 344
Elys ... ... ... 344
Elzabad (2) ... ... 344
Ellyll—on ... ... 345
Ellyn—au ... ... 346
Em ... ... Gwel Gem 346
Emiaid ... ... 346
Emmanuel ... ... 347
Emmanuel, Victor II. . G 631
Emmaus (3) ... ... 348
Emmor ... ... 349
Ems, Cynghorfa.. ... 349
Emser, Jerome ... ... 350
Emynau Eglwysig ... 350
Enaid . ... ... 353
Enaint ... ... 361
Enam ... ... 363
Enan.. ... ... 363
Encil—io ... ... 363
Encratiaid ... ... 363
Endor. ... ... 363
Eneas (3) ... ... 363
En-Eglaim ... ... 364
Eneiniad Diweddaf ... 365
Eneinio—iad—iog ... 365
Enemessar ... ... 367
Energici = Ynioliaid ... 367
Energumeniaid ... ... 367
Enfield, William. ... 368
Enfys . ... ... 369
En-ganim (2) ... ... 370
Engedi ... ... 370
En-haccore ... ... 371
En-hadah ... ... 371
En-hazor ... ... 371
Enllib—io—iwr .. ... 371
En-Mispat .. ... 375
Ennodius, Magnus Felix ... 375
Enoch (4) ... ... 376
Enoch, Llyfr ... ... 376
Enos... ... ... 380
En-Rimmon ... ... 380
En-Rogel ... ... 380
En-Semes ... . H 631
Enw—au ... ... 381
Enwaediad ... ... 393
Enwoliaeth—iaid. *Nominalism* ... ... 396
Eos (2) ... ... 398
Epa ... ... .. 399
Epaon. ... ... 400
Epaphras ... ... 401
Epaphroditus ... ... 401
Eparchaeth ... *Eparchy* 401
Epenetus ... ... 401
Epicuriaid ... ... 402
Epicurus ... ... 402
Epiphani ... ... 403
Epiphanius (3) ... ... 403
Episcopus, Simon ... 404
Epistol—au ... ... 404
Epistolwr ... ... 409
Epha (4) ... ... 409
Ephai.. ... ... 409
Epher (3) ... ... 409
Ephes-Dammin ... ... 409
Ephesiaid, Yr Epistol at yr.. 409
Ephesus ... ... 411
Ephesus, Cymmanfa Gyffredinol.. ... ... 416
Ephlal ... ... 417
Ephod (2) ... ... 417
Ephphatha ... ... 417
Ephra ... ... 417
Ephram ... ... 417
Ephraim—iaid (3) ... 418
Ephraim, Porth... ... 421

Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Gad—iaid (3) ... | ... 741 |
| Gadara ... | ... 743 |
| Gadi (2) ... | ... 744 |
| Gadiel ... | ... 744 |
| Gafr, Geifr ... | ... 744 |
| Gafr Wyllt ... | ... 747 |
| Gagendor ... | ... 750 |
| Gaham ... | ... 750 |
| Gahar. ... | ... 750 |
| Gair, Geiriau ... | ... 750 |
| Gair Duw . Gwel Beibl; Ysgrythyrau ... | ... 752 |
| Gair Duw ... | ... 752 |
| Gaius.. ... | ... 755 |
| Gâl ... Gwel Ffrainge | 755 |
| Galal (3) ... | ... 755 |
| Galar—u ... | ... 755 |
| Galarnad ... | ... 758 |
| Galarnad Ieremiah Gwel Ieremiah ... | ... 761 |
| Galatia ... | ... 761 |


DIWEDD CYNNWYSIAD Y BEDWAREDD GYFROL.

Digitized by Google

# Y GWYDDONIADUR.



DUWINYDDIAETH NATURIOL. Duwinyddiaeth naturiol ydyw y wybodaeth a ddysgir am Dduw oddi wrth wrthddrychau naturiol, trwy gyfrwng anianeg ac athroniaeth. Cyfyngir cylch y wybodaeth hon gan rai at fodolaeth a phriodoliaethau Duw yn unig; gan olygu ymchwiliadau oddi wrth wrthddrychau naturiol mewn perthynas i'w ewyllys ef, ein gobeithion ninnau oddi wrtho, a'n dyledswyddau tuag ato, fel yn perthyn yn hytrach i grefydd naturiol nag i dduwinyddiaeth naturiol. Ereill, megys Arglwydd Brougham, ydynt yn ystyried fod yn perthyn i dduwinyddiaeth naturiol gylch eangach, a'i bod yn cymmeryd i fyny ddwy o gangenau gwahanol tra phwysig; sef un yn cynnwys y darganfyddiad a'r profion o fodolaeth Duw a'i briodoliaethau, trwy ymchwiliaeth i brofion o fwriad yn ngwaith y greadigaeth, yn faterol a meddyliol; a'r llall yn cynnwys arddangosiad a phrofion o'i ewyllys a'i fwriadau gyda golwg ar ei greaduriaid, yn nghyd â'u dyledswyddau a'u hymddygiadau priodol hwythau. Y mae y gyntaf yn tebygoli yn hytrach i'r gwyddorion anianyddol a meddylegol, yn trafod profion o fwriad, doethineb, a daioni, fel y maent yn cael eu harddangos yn ngwahanol ranau materol a meddyliol y greadigaeth; a'r ddiweddaf yn tebygoli yn hytrach i foesddysg, neu y gangen o athroniaeth er egluro perthynas gwahanol fodau moesol â'u gilydd, a'u dyledswyddau y naill i'r llall, ar wahân oddi wrth feddyleg. Ac felly, mewn ystyr, gellir ystyried duwinyddiaeth naturiol fel gwyddor gasgliadol (*inductive*), yr hon sydd yn cael ei chyfansoddi o dair o elfenau—sef yr anianyddol, y meddylegol, a'r moesol. Rhaid i'r holl brofion er egluro a chadarnhau gwirioneddau duwinyddiaeth naturiol darddu yn hollol oddi wrth adnabyddiaeth o ymddangosiadau a deddfau natur, a dibynu am eu cadernid yn hollol ar y casgliadau a dynir oddi wrthynt. Yn y wyddor hon, rhaid cychwyn yr ymofyniadau am y gwirionedd yn hollol oddi wrth ymchwiliadau i ffeithiau mewn natur, heb gynnyg gwneyd yr appeliad lleiaf at awdurdod neb y tu allan i hyny, na rhoddi y pwys lleiaf ar ddim a ystyrir fel gwirionedd sefydledig.

Rhaid i'r rhesymau a'r casgliadau fod yn seiliedig yn hollol ar ymddangosiadau naturiol, cyn y gellir eu hystyried yn perthyn yn deg i dduwinyddiaeth naturiol. Y mae y dull o resymu a arferir mewn duwinyddiaeth naturiol yn ddeublyg, sef y bydhanegol (*cosmological*) a'r amcanedigol (*teleological*; oddi wrth *telos*, amcan, neu fwriad). Y mae y ddadl fydhanegol yn sylfaenedig ar egwyddorion achos ac effaith, ac yn sylfaenu ei hymresymiad ar y dilyniad difwlch a difeth ag sydd yn wastadol yn cymmeryd lle rhwng y naill ddygwyddiad a'r llall, sef achos ac effaith, yn ymddangosiadau (*phenomena*) y byd naturiol. Y mae pob ymddangosiad yn awgrymu neu yn arwyddocau, yn ol deddf *rationis sufficientis*, fod rhyw reswm digonol, rhyw achos annibynol, neu ryw greawdwr o hono, o angenrheidrwydd yn bodoli. Y mae yr ymresymiad fel y canlyn:—Yn gymmaint ag nad ydys yn canfod rheswm llawn a digonol, neu yr achos o bethau ynddynt eu hunain—pa ham y maent yn bodoli o gwbl, ac yn enwedig pa ham y maent yn bodoli yn y dull neu yn y modd eu gwelir—y mae y meddwl yn cael ei orfodi i ganiatau fod rhyw achos angenrheidiol ac anghyfnewidiol o'r holl ymddangosiadau hyn, neu o'r holl bethau ag sydd yn bodoli. Mewn canlyniad, y mae y ddadl fydhanegol (*cosmological argument*) yn awgrymu dau feddylddrych. Yn gyntaf, y meddylddrych o'r damweiniol neu y dygwyddiadol; hyny yw, o rywbeth, yr achos o'r hwn nid yw ynddo ei hun, ond sydd y tu allan iddo ei hunan yn rhywbeth arall. Ac yn ail, y meddylddrych o'r angenrheidiol; neu rywbeth, yr hwn y mae yr achos o'i fodolaeth ynddo ei hunan; hyny yw, ei fod yn bodoli o hono ei hun, ac yn achos bodolaeth pob peth arall. Y mae y ddadl amcanedigol (*teleological argument*) yn seiliedig ar y prawf o amcan, bwriad, ac achos diweddol (*final cause*), mewn cyssylltiad â phethau. Y mae y ddadl hon yn cymmeryd i fyny, nid yn unig y rhesymiad oddi wrth yr achosion at yr effeithiau, ond hefyd y mae yn amledu ac yn lluosogi ei rhesymiadau trwy ddadleu oddi wrth achosion diweddol pethau. Rhesyma oddi wrth yr anghreifftiau dirif a phrydferth o drefniad, gosodiad, amcan, bwriad, doethineb, a medr, y rhai sydd yn ddadguddiedig yn ymddangosiadau y bydyssawd, y rhaid bod achos anfeidrol, hollalluog, a deallawl iddynt oll; yr hwn ydyw eu Creawdwr a'r unig wir Dduw. Y mae yr hynafiaeth uchaf yn perthyn i'r dull hwn o resymu, oddi wrth yr effaith at yr achos, yn nghyd âg oddi wrth amlygrwydd o fwriad yn ngwaith y greadigaeth fel prawf o fodolaeth Bwriadwr deallus fel Creawdydd o'r cwbl. Gellir barnu fod cyfeiriadau at hyny yn yr ysgrifeniadau ysbrydoledig boreuaf; canys y mae pum pennod o Lyfr Iob (xxxvii—xli) yn ddarlithoedd o'r arucheledd mwyaf ar dduwinyddiaeth naturiol. Ac y mae yn werth sylw, wedi i gyfeillion Iob fethu a chael y maes arno yn y ddadl—pan y daeth yr Hollalluog allan i ddysgu iddo hunanadnabyddiaeth a gostyngeiddrwydd calon—mai y moddion a arferodd efe i hyny oedd cyfeirio ei feddwl at ychydig o ffeithiau mewn duwinydd-



Digitized by Google

iaeth naturiol. Ac y mae y ffaith hon ar unwaith yn gwisgo y wyddor âg anrhydedd mawr. Math o awdlau ar dduwinyddiaeth naturiol yw amrywiol o'r Salmau; yn enwedig yr wythfed, y bedwaredd ar ol y cant, a'r wythfed a deugain ar ol y cant.

Y mae y prophwydi hefyd yn fynych yn defnyddio y rhesymiad sydd yn cyfodi oddi wrth yr arddangosiad o fwriad yn ngwaith y greadigaeth:—*Esa*. xl. 18—26; "Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi?" &c. ac *Esa*. xlii. 5; xlv. 18. *Ier*. xiv. 22; "A oes neb yn mhlith oferedd y Cenedloedd a wna iddi wlawio?" Yr adnodau hyn, a'u cyffelyb, ydynt yn seiliedig ar y ddadl amcanedigol, yr hon a osodir allan mor brydferth yn *Salm* xciv. 9; "Oni chlyw yr hwn a blanodd y glust? Oni wel yr hwn a luniodd y llygad?" Mae yr un ddadl yn rhedeg drwy y Testament Newydd. *Mat*. vi. 25—31, sydd yn gynnwysiad tra phrydferth o honi; "Onid yw y bywyd yn fwy na'r bwyd? Edrychwch ar adar y nefoedd...Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy? Am hyny, os dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyw, ac yfory a fwrir i'r ffwrn, oni ddillada efe chwi yn hytrach o lawer?" Y mae yr apostol yn ei ddefnyddio yn ei anerchiad i wŷr Lystra (*Act*. xiv. 15), ac yn ei araeth i'r Atheniaid ar Fryn Mars (*Act*. xvii. 24, &c). Ac oddi wrth ddadl anianyddol duwinyddiaeth naturiol, y mae efe, yn *Rhuf*. i. 20, yn dangos fod yr athronwyr paganaidd yn anesgusodol, yn gymmaint a bod priodoliaethau anweledig Duw i'w canfod yn amlwg yn y greadigaeth ei hun, ac i'w gweled yn eglur trwy y pethau a wnaed.

Byddai athronwyr paganaidd Groeg a Rhufain yn gwneyd aml gyfeiriad yn eu hysgrifeniadau at y prawf neu y ddadl anianyddol er profi ac egluro bodolaeth a phriodoliaethau y Duwdod. Y mae anghreifftiau nodedig o hyn i'w canfod yn *Memorabilia* Xenophon am Socrates; yn ngwaith Plato ar Gyfreithiau (*De Legibus*); ac yn neillduol yn ngwaith Cicero ar Natur y Duwiau (*De Natura Deorum*), yr hwn y gellir edrych arno fel ymchwiliad gwyddorol a beirniadol i natur duwinyddiaeth naturiol yn ngoleu paganiaeth goeth a dysgedig. Er mai ymbalfalu yn y tywyllwch am y gwir Dduw yr oedd yr athronwyr uchod, eto y mae llawer o sylwadau a rhesymau yn eu hysgrifeniadau ag sydd yn dangos yn eglur fod y ddadl seiliedig ar y cyssylltiad sydd rhwng achos ac effaith, yn gystal a'r ddadl seiliedig ar yr amlygiad o amcan ag sydd yn ngwaith natur, fel y maent yn brofion o ryw brif achos cyntefig, ac o amcanwr deallus o'r cwbl—yn dra eglur i'w meddyliau. Y mae Plato, yn niwedd llyfr xii [*De Legibus*], mor graffus ei sylw fel ag i seilio ei ddadl dros fodolaeth rhyw Dduw deallus o leiaf, fel Creawdwr, oddi ar natur y meddwl dynol; yr hyn sydd yn anghraifft nodedig o rym a chraffder ei alluoedd meddyliol: canys ni chyfarfyddir â'r ddadl hon dros y pwnc ar ol hyny, oddi gerth yn ngwaith Cicero; na chan y tadau Cristionogol, yr ysgolheigwyr (*schoolmen*) athronyddol; nac yn wir yn ngweithiau un o'r ysgrifenwyr diweddar ar dduwinyddiaeth naturiol, megys Ray, Derham, &c., hyd nes y deuwn at draethawd Arglwydd Brougham ar y pwnc.

Am y tadau Cristionogol, yn gymmaint a bod y rhai boreuaf o honynt cyn eu dychweliad yn deilwng o'r enw athronwyr paganaidd, gallesid dysgwyl yn naturiol o'r bron y buasai iddynt barhau i gofleidio rhai o'r golygiadau athronyddol ar ol eu dychweliad at Gristionogaeth, neu o leiaf y buasent yn cymhwyso at athrawiaeth y dadguddiad dwyfol y cyffelyb ddull o feddwl ar bethau ag a arferent gynt wrth ddarllen ysgrifeniadau Plato ac athronwyr ereill. Mewn gwirionedd, yr oedd yn brofedigaeth fawr i'r tadau Alexandriaidd i gymmysgu Platoniaeth a Christionogaeth â'u gilydd; neu i seilio duwinyddiaeth Gristionogol ar athroniaeth Plato. Mewn canlyniad, ceir amrywiol o'r rhai mwyaf dysgedig o honynt yn gwneyd defnydd lled fynych o'r ddadl anianyddol dros fodolaeth Duw, ac er profi hefyd fod rhagluniaeth; ond nid fel eu prif reswm dros y pynciau hyn, canys y mwyafrif o honynt a ystyrient mai allan o'r Ysgrythyrau yn unig yr oedd gwir wybodaeth am Dduw a'i ragluniaeth i'w chael. Eu hoff ddadl hwy dros fodolaeth Duw, oedd y fodegol neu yr ansoddol (*ontological*); sef y rhaid fod Duw yn bod oddi ar fod y meddwl yn gallu ffurfio meddylddrych am dano—yr hyn a alwent hwy yn dystiolaeth yr enaid; a'r hyn sydd yn cyfateb i'r hyn a alwai Descartes wedi hyny yn feddylddrych cynnwynol (*innate idea*). Felly, er mai ar eu teimladau mewnol yn fwyaf cyffredin yr oedd eu duwinyddiaeth naturiol hwy yn seiliedig, eto yr oedd amryw o honynt, y rhai a arferent y ddadl anianyddol. Yn mhlith y rhai hyn, gellir crybwyll Theophilus o Antioch (tua'r flwyddyn 181 B. A.), Mincius Felix (210 B. A.), ac yn neillduol Diodorus o Tarsus (378 B. A.). Yn gyffelyb hefyd ceir fod Athanasius, Gregory o Nazianzen, Gregory o Nyssa, Basil, Lactantius, ac Awstin, yn ffafriol i'r ddadl anianyddol fel prawf o fodolaeth Duw, ei briodoliaethau, a'i ragluniaeth, &c.

Gweithiwyd allan y ddadl anianyddol dros fodolaeth Duw a'i ragluniaeth yn llawer mwy effeithiol gan yr ysgolheigion athronyddol, na chan y tadau eglwysig: gosodwyd hi allan mewn agwedd mwy rhesymegol, ac fel yn arddangos llawer yn rhagor o sicrwydd athronyddol, gan y duwinyddion hyn nag oedd yn perthyn iddi yn y canrifoedd blaenorol. Gosododd John Damascenus (730 B. A.) ddadl fydhanegol (*cosmological*) Diodorus o Tarsus allan gyda galluoedd rhesymegol tra uchel, a chyda llawer o fedrusrwydd gwyddorol. Yn ei waith ar y Ffydd Uniawngred, y mae yn rhoddi tair ffynnonell o brawf o fodolaeth Duw. 1. Y cyfnewidiadau olynol sydd yn cymmeryd lle yn mhob peth. 2. Ceidwadaeth pob peth, a'r rheolaeth dan yr hon y maent yn cael eu cadw. 3. Y drefn a'r cyssondeb ag sydd yn ffynu trwy yr holl greadigaeth. Ymresymai dros fodolaeth Duw oddi wrth yr angenrheidrwydd anhebgorol am achos cyntaf; ond yr oedd efe yn rhoddi pwys neillduol ar yr amlygiadau neillduol o fwriad, amcan, a doethineb, sydd i'w ganfod yn amlwg yn nghyfansoddiad y greadigaeth. Y mae efe yn gosod allan y ddadl anianyddol mewn ffurf hollol Aristotelaidd, ac yn haeru fod pob peth ag oedd mewn symmudiad yn arddangos fod rhyw symmudydd arnynt; a bod rhes o bethau mewn symmudiad yn arwyddocau y rhaid fod symmudydd cyntaf, am fod yn anmhosibl i'r meddwl allu amgyffred am res o achosion ac effeithiau oedd yn ddiderfyn ac heb un dechreuad iddynt.

Bu dadl frwd rhwng Anselm o Gaergaint a Gaunilo o Marmoutier o berthynas i'r ddadl anianyddol dros fodolaeth Duw. Yr oedd Anselm

Digitized by Google

yn dadleu dros y ddadl fodegol er profi bodolaeth Duw; ond yr oedd Gaunilo yn ei gwrthwynebu, ac yn amcanu dangos ei hannigonolrwydd i brofi y pwnc, ac yn dadleu mai y prawf anianyddol oedd yn cadarnhau y ffaith o fodolaeth Duw mewn modd sicr. Yr oedd Duns Scotus hefyd yn gwrthod y ddadl fodegol fel un annigonol i brofi y pwnc.

Thomas Aquinas, Hugo St. Victor, a Richard St. Victor hefyd, oeddynt amddiffynwyr grymus o'r ddadl anianyddol dros y Bod o Dduw a'i briodoliaethau. Ond er yr edrychid ar elfenau duwinyddiaeth naturiol trwy yr oesoedd gan y duwinyddion, ac yr ystyrid hwynt o'r pwys mwyaf yn y ddadl yn erbyn atheistiaeth, eto nid oeddynt wedi eu casglu yn nghyd a'u ffurfio yn gyfundrefn hyd ganol yr ail ganrif ar bymtheg. Dylanwadodd gweithiau athronyddol Arglwydd Bacon a Descartes yn fawr ar efrydiau duwinyddol yn gyffredinol. Galwodd y ddau ysgrifenydd hyn sylw neillduol at y ddadl resymegol dros fodolaeth Duw; ond dibrisiasant pob appeliadau at yr athrawiaeth o achosion diweddol yn nglŷn â'r pwnc. Yr anrhydedd o gasglu yn nghyd elfenau gwasgaredig duwinyddiaeth naturiol, a'u ffurfio yn un gyfundrefn, a syrthiodd i ran yr enwog John Ray, M. A.—y duwinydd Anghydffurfiol o Gaergrawnt. Ganwyd ef yn 1628, a bu farw yn 1705, wedi bod yn efrydu duwinyddiaeth naturiol am tua hanner cant o flyneddoedd. Yn 1653, yr oedd yn ddarlithydd ar feintoniaeth yn y brifysgol; ond trwy y ddeddf o Gydymffurfiad, diarddelwyd ef o'r brifysgol ar ddydd du Bartholomeus, yn 1662. Prif gydlafurwyr Ray yn y gorchwyl hwn oeddynt yr anrhydeddus Robert Boyle a'r Parch. William Derham, D.D. Fe ddyrchafodd yr anrhydeddus Robert Boyle y wyddor yn fawr, o un tu trwy ei ymchwiliadau personol ei hun, ac yn neillduol, y ffordd arall, trwy ei waith yn sefydlu a gwaddoli Darlith Boyle, yr hyn a fu yn achlysur i dynu allan dalentau ysblenydd y Dr. Bentley (y darlithydd cyntaf wedi sefydlu y ddarlith), treiddgarwch arddansoddol y Dr. Samuel Clarke, a gwyddoreg fanwl y Dr. Derham. Fe allai y gellir dyweyd hyn am y Dr. Derham—o'r holl ysgrifenwyr yn y cyfnod hwn o leiaf, os nad wedi hyny, y rhai a wnaethant ymchwiliadaeth i dduwinyddiaeth naturiol fel cyfundrefn, ei fod ef yn sefyll yn un o'r rhai blaenaf yn eu plith. Yn 1711, cyhoeddodd lyfr o'r enw Duwinyddiaeth Anianyddol (*Physico-Theology*); ac yn 1714, cyhoeddodd un arall o'r enw Duwinyddiaeth Seryddol (*Astro-Theology*), y rhai a dynasant sylw neillduol yn y wlad hon, a'r rhai, wedi eu cyfieithu i iaith yr Almaen, a dynasant sylw neillduol yno hefyd, fel y daeth amryw o'r Almaeniaid i ysgrifenu ar gangenau cyffelyb. Ni wnaed dim neillduol yn y deyrnas hon yn nglŷn â duwinyddiaeth naturiol, ar ol marwolaeth y Dr. Derham, hyd amser y Dr. Paley. Yn 1802 y cyhoeddodd y Dr. Paley ei *Dduwinyddiaeth Naturiol:*—gwaith, fel y sylwa y Dr. Wardlaw ar y pwnc, ag y dylai pob un nid yn unig ei ddarllen, ond ei astudio yn fanwl. Cyfleithwyd ef i'r Ffrancaeg gan Pictet, o Geneva, yn 1804, ac i'r Almaenaeg gan Keller. Ond yr oedd gwaith Paley yn rhy gasgliadol (*inductive*), a cheisbrawol (*empirical*) i gyfarfod â chwaeth rhai o'r Almaenwyr, a gwrthwynebwyd ei ddylanwad yn y wlad hono i raddau mawr gan Oruchanianaeth (*Transcendentalism*) Kant.

Amcanai Kant brofi fod yr holl resymau anianyddol a hanesiol er profi bodolaeth Duw wedi methu yn eu hamcan: mewn canlyniad, yr oedd efe yn pwyso yn fwy egniol ar y ddadl foesol, yr hon a ddadblygwyd gan Raymond o Sabunde, allan o weithiau Abelard, fel prawf o fodolaeth Duw. Eto, er hyny, yr oedd yn barnu, er mwyn addysg boblogaidd, y dylesid cadw y ddadl amcanedigol (*teleological*) dros fodolaeth Duw, fel yr un foreuaf, egluraf, a mwyaf cyfaddasol i synwyr cyffredin. Ond wedi y cyfan, casgliad Kant ei hun am y ddadl hon oedd, mai yr eithaf a allai brofi yn foddhaol oedd bodolaeth pensaer (*architect*) y byd—yr hwn ydoedd wedi ei osod wrth ei gilydd fel ei gwelir yn bresennol—ac nid profi bodolaeth Creawdwr defnyddiau y byd; hyny yw, profi bodolaeth trefnwr defnydd, ac nid crewr defnydd. Ond yn y deyrnas hon, cartrefle athroniaeth gasgliadol (*inductive science*), yr oedd dylanwad gwaith Paley yn rymus a chyffredinol. Ac mewn gwirionedd, nis gall dim ddywedyd yn uwch am ragoroldeb y gwaith hwn na'r ffaith iddo ar unwaith osod *Duwinyddiaeth Naturiol* yn ei sefyllfa uchel bresennol yn mhlith y gwahanol wybodaethau, ac nad oes er yr amser y cyhoeddwyd ef nemawr iawn wedi ei wneyd er gwellhau y wyddor. Yn gynnar yn y ganrif hon, tynodd Dr. Chalmers sylw mawr at dduwinyddiaeth naturiol, trwy draethodau ysblenydd ar *Gristionogaeth mewn cyssylltiad â Seryddiaeth.* Gwasanaethodd ei genedl yn dra rhagorol trwy ddwyn i sylw, a gwneyd yn boblogaidd trwy ei ddoniau aruchel, y ddadl ag ydoedd yn gorwedd yn dawel, ac yn ei symledd mawreddog, yn y *Gospel its own Witness*, gan yr hybarch Andrew Fuller. Y mae y byd Cristionogol dan y rhwymau trymaf i ddysg, athrylith, a hyawdledd angerddol y Dr. Chalmers, yn ei amddiffyniadau i'r grefydd Gristionogol; yn y gwaith a nodwyd, ei *Dduwinyddiaeth Naturiol;* ei ddarlithiau arweiniol i *Butler's Analogy;* a'i *Brofion o Gristionogaeth.* Yn gynnar hefyd yn y ganrif hon (1814) y cynnysgaethwyd y cyhoedd â'r *Burnett Prize Essays*, Aberdeen, gan y Dr. Brown a'r Parch. J. B. Sumner, M. A. (wedi hyny Dr. Sumner, ac archesgob presennol Caergaint), yn nghyd âg amryw o'r traethodau aflwyddiannus, megys yr eiddo Dr. Bruce, Samuel Drew, &c., ag oeddynt wedi eu hanfon i'r gystadleuaeth gyntaf ar y pwnc mawreddog, sef "Y prawf o'r Bod o Dduw a'i Briodoliaethau oddi wrth oleuni natur."

Parodd cyhoeddi y cynnyrchion ardderchog hyn gryn gyffroad ar y pryd mewn cyssylltiad â duwinyddiaeth naturiol, yn gyffelyb ag a fu ar gyhoeddiad cynnyrchion y gystadleuaeth ar yr un pwnc yn 1854, pan y daeth y Parch. Robert Anchor Thompson, M.A., a'r Parch. John Tulloch, D. D., allan yn fuddugol. Yn 1835, cyhoeddodd Arglwydd Brougham ei draethawd ar *Dduwinyddiaeth Naturiol.* Yr ydoedd cyhoeddiad y traethawd hwn yn chwanegiad gwerthfawr at y wyddor. Fe ddylanwadodd ysbryd yr oes ar feddwl Iarll Bridgewater, fel y gadawodd efe waddoliad ar ei ol, yr hwn a achlysurodd y *Bridgewater Treatises*, y rhai ydynt oll yn dal rhyw gyssylltiad â'r wyddor hon; ac y maent oll yn gyfoethog o ddefnyddiau er eglurhau ei hegwyddorion. Yn 1840, gwnaed cynnyg er hollol ddadymchwelyd holl seiliau duwinyddiaeth naturiol, yn gystal ag athrawiaeth achosion diweddol mewn athroniaeth, gan ysgrifenydd dienw, yr hwn a gyhoeddodd waith dan yr enw *The Vestiges of the Natural History of Creation.* Credir fod holl ddamcaniaeth y gwaith hwn wedi ei

Digitized by Google

fenthyca o waith Lamarque, athronydd Ffrancaidd; a meddylir fod yr awdwr yn profi ei hun yn llawer mwy cyfarwydd â ffeithiau hanesiaeth naturiol nag yn elfenau uchel gwyddor.

Ei gyfundrefn ydyw, mai nid trwy waith y Creawdwr yn gorchymyn iddynt ddechreu bodoli y daeth llysiau a chreaduriaid i'r ffurf neu yr agwedd sydd arnynt, ond trwy weithrediad deddfau naturiol ar ddefnydd. Y mae yr awdwr hwn yn cymmeryd creadigaeth defnydd fel peth caniataol, ac mai gwaith Duw oedd ei greu, a sefydlu y deddfau naturiol perthynol iddo.

Y mae lledaeniad mawr wedi bod i'r gwaith hwn; ac y mae hyny i'w briodoli yn ddiammheu, mewn rhan, i'r ffaith o'i fod yn cynnwys casgliad tra chyfoethog o ffeithiau mewn hanesiaeth naturiol; ac yn neillduol am fod y cyhoeddiadau anffyddol yn ymdrechu eu goreu i'w osod allan fel llyfr gwyddorol ar y pwnc, o gywirdeb a phwys mawr. Ond fel dadl dros athroniaeth anffyddol, neu yn erbyn duwinyddiaeth naturiol, y mae y gwaith yn fethiant hollol; canys y mae y ffaith o'i fod yn caniatau fod i ddefnydd Greawdwr deallus, a deddfroddwr, yr hwn a osododd iddo y "deddfau naturiol," y rhai sydd yn achlysuro cynnyrchiad y planigion a'r creaduriaid, yn rhoddi y fwyell yn dragywydd ar wreiddyn pob atheistiaeth. Ystyrir y gwaith hwn yn bradychu mwy o ddiffygion ac anghywirdeb gwyddoregol, nag o wendid rhesymegol, y rhai sydd wedi eu dynoethi gyda medr ac eglurder buddugoliaethus yn yr *Edinburgh Review* gan ryw arwr mewn gwyddoniaeth (Proffeswr Sedgwick, o Gaergrawnt, fel y meddylir). Ac y mae Monck Mason, yn y gwaith a elwir *Creation by the Immediate Agency of God*, 1845, wedi llwyr ddinystrio, a hyny gyda llawer o feistrolaeth wyddorol, ei honiad disail, y gall deddf naturiol greu unrhyw beth. Ac y mae ei gasgliadau twyllodrus oddi wrth ffeithiau daiaregol wedi eu chwalu yn yfflon rhwng pedwar gwynt y nefoedd gan Hugh Miller, yn ei waith a elwir *Footprints of the Creator*. Ac y mae dysgeidiaeth ddofn a thrylawn y Dr. Whewell, yn ei *Indications of a Creator*, wedi arddangos y tu hwnt i bob ammheuaeth fod ei egnion rhwysgfawr i wneyd i wyddoniaeth roddi cyfrif am ddechreuad unrhyw beth yn y bydyssawd yn wrthathronyddol ac afresymol. Felly, gellir dyweyd i gyhoeddiad y gwaith hwn, yn lle bod yn foddion i ddadymchwelyd duwinyddiaeth naturiol, fel yr amcenid ef—iddo fod yn achlysur i dynu allan rai o dalentau blaenaf yr oes i egluro a chadarnhau y ddadl amcanedigol dros fodolaeth Duw.

Gan fod y rhesymeg mewn duwinyddiaeth naturiol yn sylfaenedig mor hollol ar y cyssylltiad sydd yn bodoli rhwng achos ac effaith, y mae yn anhebgorol angenrheidiol, cyn y gellir canfod grym y ddadl anianyddol dros fodolaeth a phriodoliaethau Duw, fod gan y meddwl amgyffrediad goleubwyll am achos, achosiaeth, ac effaith, yn eu cyssylltiad â'u gilydd. Am achos ac effaith, y mae y cyssylltiad sydd rhyngddynt â'u gilydd yn cael ei gymmeryd yn ganiataol a dealladwy yn holl ymdrafodaeth dynion, yn feddyliol a llefarol, fel nas gellir mewn un modd gyffwrdd â'r naill na bydd y llall hefyd yn ei gymhell ei hun ac yn ymwthio i'r meddwl.

Beth bynag fyddo yn cymmeryd lle, nis gellir darbwyllo y meddwl i gredu nad oes ryw achos iddo. Mewn gair, y mae enwi neu feddwl am y naill, yn arwyddo neu yn awgrymu fod y llall yn bodoli; ac y mae y grediniaeth mor gref, ac wedi gwreiddio mor ddwfn yn y meddwl, fel nas gall y rhesymiad cadarnaf drosti neu yn ei herbyn gadarnhau na gwanhau dim ar yr ymsyniad yn ei chylch. Felly, yn syml, achos ac effaith yw dau ymddangosiad (*phenomena*) yn arddangos eu hunain mewn cyssylltiad â'u gilydd. Yr ydys yn arfer galw y blaenaf yn achos; a'r olaf, neu yr un fyddo yn canlyn, yn effaith. A pherthynas yr achos a'r effaith â'u gilydd yw yr hyn a elwir achosiaeth (*causation*). Er anghraifft, dywedir mai A yw yr achos o C, pan yr ydys yn canfod nad ydyw C byth yn ymddangos heb i A ymddangos o'i blaen, yn y berthynas a elwir B, a phan ymddangoso A yn B, yna y mae C bob amser yn canlyn. Yma, A ydyw yr achos, B y cyssylltiad sydd yn arwyddo yr achosiaeth, a C ydyw yr effaith. Ond y mae natur y berthynas sydd rhwng achos ac effaith wedi bod yn destyn llawer o ddadleu cywrain, yn benaf rhwng athronwyr rhydd-dybiol (*sceptical*) ac athronwyr Cristionogol. Y mae Hume, y rhydd-dybiwr, yn y seithfed argraffiad o'i draethawd ar y *Deall Dynol*, yn cymmeryd arno ddangos a phrofi nad oes genym feddylddrych cywir am yr hyn yr ydym ni yn arfer ei alw yn achos ac effaith; nad oes genym un meddylddrych, pa fodd bynag, am gyssylltiad (*connexion*), ond cyfuniad neu gyd-doddiad (*conjunction*) yn unig; nad oes genym un amgyffrediad o allu, dim ond dilyniad yn unig. A'r casgliad, i'r hwn y mae yn dyfod, yw hwn:—"Fod pob dygwyddiad yn ymddangos yn hollol rydd, ac ar wahân y naill oddi wrth y llall. Y mae un dygwyddiad yn canlyn y llall; ond nis gallwn byth ganfod un cwlwm rhyngddynt a'u gilydd. Y maent yn ymddangos yn gyfunol neu yn gyd-doddol â'u gilydd, ond nid ydynt byth mewn cyssylltiad y naill â'r llall. Ac megys nas gall fod genym un meddylddrych am ddim nad ymddangosodd erioed i'n synwyrau allanol, nac i'n syniadau mewnol, ymddengys mai y casgliad naturiol ydyw, nad oes genym un meddylddrych am gyssylltiad neu allu mewn un modd, a bod y geiriau hyn yn hollol ddiystyr pan eu harferir naill ai mewn rhesymiad athronyddol neu ynte mewn ymddyddanion cyffredin."—[*Hume's Essays*, cyf. ii., td. 77.]

Athronydd diweddar arall, sef y Dr. Thomas Brown, o Edinburgh, fel y mae yn amlwg wrth ei draethawd ar *Achos ac Effaith*, yn gystal ag oddi wrth ei ddarlithiau ar y *Meddwl Dynol*, yn enwedig oddi wrth ddarlith vii, oedd yn coleddu yr un dyb a Hume, er nad oddi ar yr un egwyddor, am y cyssylltiad rhwng achos ac effaith. Ac ymddengys hefyd mai dyma y dyb a goleddir yn bresennol gan J. Stuart Mill. Yn awr, y mae y pwnc mewn dadl yn ymddangos mewn cylch pur fychan; sef, a ydyw y meddylddrych sydd genym am achos ac effaith yn cynnwys rhywbeth yn rhagor na'r meddylddrych o flaenoriaeth ac olyniaeth gyfunwedd yn unig, ai nid yw? Ac os nad ydyw, yn ol golygiad Hume, Brown, a Mill, yn cynnwys dim arall—dim ond blaenoriaeth ac olyniaeth—yna, onid yw yn cyfodi fel casgliad cyfreithlawn ac anocheladwy oddi wrth hyny, y dylai pob blaenoriaeth ac olyniaeth gyfunwedd, fel eu gilydd, yn mhob man lle y gallant fod, argraffu yn wastadol ar y meddwl yr un meddylddrych o'r hyn a elwir genym yn achos ac effaith, yn gystal a'u gilydd? Ond a ydyw hyny yn bod? Diau nad yw; canys y mae digon o anghreifftiau adnabyddus o'n hamgylch o'r blaenoriaeth a'r olyniaeth mwyaf cysson a difwlch ag sydd yn alluadwy i fod, y

Digitized by Google

rhai nad ydynt er hyny, yn y mesur lleiaf, yn dwyn i'w canlyn y meddylddrych gwanaf o achosiaeth. Y mae tymmorau y flwyddyn yn dilyn eu gilydd gyda'r rheoleidd-dra mwyaf gwastad a difwlch; ond er hyny, pwy fyth sydd yn meddwl mai y gwanwyn sydd yn achosi yr haf, neu yr haf y cynauaf, y cynauaf y gauaf, neu y gauaf y gwanwyn? Y mae y dydd yn dilyn y nos, a'r nos yn dilyn y dydd, gyda'r rheoleidd-dra mwyaf; ond eto, pwy erioed a ddychymygodd mai y dydd yw yr achos o'r nos, a'r nos yn achos o'r dydd?

Byddai yn hawdd chwanegu llawer o anghreifftiau cyffelyb; ond y mae y rhai a nodwyd yn ddigonol. Ymddengys felly, gellid meddwl, yn ddiammheuol, y rhaid fod rhywbeth mwy yn gynnwysedig yn ein syniad o'r hyn a elwir genym yn achos, beth bynag y gall y rhywbeth hwnw fod, na'r dygwyddiad neu y ffaith trwy yr hyn yr arweinir y meddwl yn naturiol i ddysgwyl dygwyddiad neu ffaith arall i'w dilyn; yr hyn, fel y sylwyd, a fyddai bob amser yn dygwydd neu yn cymmeryd lle dan amgylchiadau cyffelyb. Y mae yma yn ddiammheu y meddylddrych o gyssylltiad, yn gystal a chyfuniad; sef y meddylddrych fod yn perthyn i'r dygwyddiad, y ffaith, neu beth bynag y gelwir ef, a fyddo yn blaenori rhyw fath o gyfaddasrwydd, dylanwad, neu rym, neu beth bynag y dewiser ei alw, i gynnyrchu y dygwyddiad neu y ffaith a fyddo yn canlyn. Megys pan y mae presennoldeb yr ehedfaen yn cyffroi neu yn symmud y nydwydd ag oedd o'r blaen yn hollol lonydd, yr ydys yn gofyn i ni ein hunain *pa ham* y mae yr ymddangosiadau hyn yn cymmeryd lle. Y mae genym ryw syniad fod rhyw gyfaddasrwydd, dansawdd, rhinwedd, grym, gallu, dylanwad, neu beth bynag y dewiser ei alw, yn yr ehedfaen—rhywbeth, trwy weithred neu ddylanwad yr hwn y mae y nydwydd yn symmud. Felly, mewn cyssylltiad â'r hyn a elwir neu a ystyrir fel achos, y mae y meddylddrych o'r hyn ag sydd yn gwneyd neu yn achosi i rywbeth arall ddechreu a bod—yr hyn a elwir yn effaith. A phan yr edrychir ar unrhyw beth heb un cyfeiriad at effeithiau yn cyfodi oddi wrtho, nid yw y meddwl yn gallu ei dderbyn fel achos mewn un modd. Eto, gellir sylwi yn mhellach, os cyfagosrwydd (*contiguity*) o ran amser a lleoliaeth ydyw yr unig berthynas sydd yn bodoli rhwng yr hyn a elwir genym achos ac effaith, rhaid ei bod yn canlyn nad oes dim o ran ei natur yn yr effaith fel dibyniad ar yr achos. Y mae hyn yn amlwg; canys os nad oes un cwlwm, un cyssylltiad, nac un ddolen gydiol rhwng y naill a'r llall, rhaid eu bod yn annibynol ar eu gilydd. Ar y tir yma, sef fod y blaenorydd a'r olynydd yn hollol rydd ac annibynol ar eu gilydd, ond yn unig fod agosrwydd rhyngddynt, yna y mae yn canlyn yn naturiol y gallai yr hyn a elwir yn effaith fod yn hanfodi wedi i'r hyn a elwir yn achos gael ei gymmeryd ymaith. Pa ham nad allai, o herwydd yn ol y golygiad uchod, nid oes un cyssylltiad rhyngddynt a'u gilydd? Ac ar yr un tir, pe dywedid fod yr effaith yn dygwydd o flaen yr achos, nis gellid ystyried hyny yn anghyssondeb nac yn wrthddywediad yn ol y syniad nad oes un cyssylltiad rhyngddynt a'u gilydd. Yn ol yr egwyddor uchod, nis gellid ffurfio un meddylddrych na chael un argraff ar y meddwl am achos ac effaith, ond trwy hir sylwi ar yr un dygwyddiadau neu ymddangosiadau yn dilyn eu gilydd. Ac fel y sylwyd eisoes, nid ydyw fod ymddangosiadau yn dilyn eu gilydd yn cyfleu y meddylddrych o fod y naill yn achos o'r llall bob amser. Fel y sylwa y Dr. Wardlaw—nid ydyw y goleuni yn dilyn cyfodiad yr haul yn fwy rheolaidd a difwlch nag y mae yn dilyn y tywyllwch blaenorol i hyny. Ond ai yr un berthynas sydd rhyngddynt a'u gilydd? Onid oes mwy o berthynas rhwng cyfodiad yr haul a'r goleuni sydd yn ei ddilyn nag sydd rhwng y tywyllwch ag oedd yn blaenori ei gyfodiad, er fod y naill yn dilyn eu gilydd mor rheolaidd a'r llall? Ond y mae rhyw argraff o fodolaeth achos ac effaith ar y meddwl, yn fynych, cyn i'r peth megys gael ei sefydlu yn y meddwl trwy fynychrwydd o'r cyffelyb ymddangosiadau yn dilyn eu gilydd. Fel anghraifft gyffredin—Pe gwelid am y tro cyntaf y pylor yn ffrwydro wrth gyffwrdd tân âg ef, onid argreffid ar unwaith ar y meddwl fod rhywbeth yn y pylor o ran ei natur ag a bair iddo ffrwydro, pa bryd bynag y cyffyrdda tân âg ef? Y mae llawer o ddefnyddiau ereill yn dra thebyg o ran eu hymddangosiad i bylor; ond ni chymmer un ffrwydriad le pan syrthio y wreichionen arnynt. Ond pa beth a ddywed y Dr. Brown? —"Pan syrthio gwreichionen ar y pylor, gan ei gynneu ef i ffrwydriad, priodola pawb y grym o gynneu y defnydd hylosg i'r wreichionen. Ond bydded i unrhyw un ofyn iddo ei hun—beth yw yr hyn y mae yn ei olygu wrth y gair? Heb foddloni ei hun âg ychydig o ymadroddion, y rhai sydd heb un ystyr iddynt, bydded iddo ystyried cyn rhoddi ei ateb; ac efe a genfydd nad yw yn golygu dim yn rhagor, ond mai ffrwydriad y pylor a fydd y canlyniad uniongyrchol ac unweddol o gyffyrddiad y wreichionen âg ef dan bob amgylchiad."—[*Dr. Brown's Lectures on the Philos. of the Human Mind*, dar. vii. td. 40.] Ond yn awr, y mae gofyniad naturiol yn cyfodi yn y fan yma, Os nad oes rhywbeth yn natur y pylor ei hun, fel achos, sydd yn peri iddo ffrwydro ar gyffyrddiad gwreichionen âg ef, pa ham hefyd na ffrwydrai had maip, y rhai sydd yn dra thebyg o ran eu hymddangosiad iddo, ar gyffyrddiad gwreichionen â hwy, yn gystal a hyny? Cymmerer anghraifft arall er egluro hyn—Meddylier fod dwy belen, pedair modfedd o dryfesur bob un, yn cael eu crogi yn yr un ystafell, ar gyfer eu gilydd, ac o fewn troedfedd y naill i'r llall—un o haiarn a'r llall o gŵyr. Yn awr, y mae y belen haiarn oer, a'r belen gŵyr, yn crogi ar gyfer eu gilydd, ac o fewn troedfedd y naill i'r llall; ond nid yw y belen haiarn oer yn effeithio dim er toddi y belen gŵyr. Ond pe cymmerid y belen haiarn a'i thwymno yn wynias, a'i gosod yn yr un man ag oedd o'r blaen, sef o fewn troedfedd i'r belen gŵyr, gwelid ochr nesaf i'r belen haiarn o'r belen gŵyr yn dechreu toddi. Yn awr, yn ol syniad Hume, Dr. Brown, a J. S. Mill, os blaenafiaeth ac olafiaeth yw y cyfan ag yr ydys i'w ddeall wrth achos ac effaith, onid yw yn naturiol gofyn, Pa ham na wnai y belen gŵyr, yn yr anghraifft uchod, pan yn crogi o fewn troedfedd i'r belen haiarn, pan yn oer, doddi, yn gystal ag y gwna pan yn yr un pellder oddi wrthi pan yn wynias? Gellid credu yn sicr fod yr anghreifftiau uchod a'u cyffelyb yn brofion diymwad, fel yr hyn a elwir yn achos (heb law ei fod yn sefyll yn flaenorol iddo o ran lle ac amser), yn meddu rhyw rym, gallu, neu ddylanwad, neu beth bynag ei gelwir, ag sydd yn peri neu yn cynnyrchu yr hyn a elwir yn effaith. Gellir sylwi hefyd fod syniad Hume, Dr. Brown, a J. S. Mill, am achosiaeth, yn gwrthdaraw yn hollol yn erbyn tystiolaeth bendant ein hymwybyddiaeth. Pwy bynag

Digitized by Google

a sylwa ar weithrediadau ei feddwl ei hun, efe a genfydd ei fod yn ymwybodol pan y byddo yn rhoddi ysgogiad i'w ysgrifell, ei bwyntel, neu ei arf, ei fod yn meddu y meddylddrych o allu, neu achos, hollol ar wahân oddi wrth y syniad o flaenoriaeth. Nis gall un math o ddadl neu brawf y gellir ei seilio ar ddeddfau perthynol i'r meddwl dynol, na rhesymeg, ddarbwyllo y dyn a fyddo yn ysgrifenu, nad yw efe yn achosi i'w ysgrifell ysgogi, neu nad ydyw efe ei hun, yn feddwl, corff, a llaw, yn ddim ond math o offeryn yn y weithred o ysgrifenu.

Y mae yr wrthddadl hon i'r ddamcaniaeth yn cael ei gosod allan yn rhagorol gan Syr John Herschel, yr hwn a ddywed fod holl gylch dadl y Dr. Brown ar "achos ac effaith yn cael ei llygru gan un amryfusedd neu gamgymmeriad dirfawr, sef ei waith yn gadael allan ymwybyddiaeth benodol ac uniongyrchol o achosiaeth yn ei gyfrifiad o'r canlyniadau hyny o ddygwyddiadau, trwy yr hwn y gwneir i ewyllysiad y meddwl derfynu yn ysgogiad gwrthddrychau naturiol. Yr ymwybyddiaeth o'r egni hwn yr wyf yn olygu ag sydd yn gyssylltiedig â bwriad trwy hyny i gyflawnu amcan, fel peth hollol ar wahân oddi wrth ddymuniad neu ewyllysiad ar un llaw, ac oddi wrth grebachiad dirdynol (*spasmodic contraction*) ar y llaw arall. Ein hymwybyddiaeth uniongyrchol ein hunain o egni (yn cael ei arfer), pan y byddom yn ymdrechu rhoddi mater mewn ysgogiad, neu pan y byddom yn gwrthwynebu neu yn gwrthweithio grym mewn ysgogiad, sydd yn rhoddi i ni yr argyhoeddiad mewnol o rym ac achosiaeth mor belled ag y mae yn dal perthynas â'r byd materol. Y mae hefyd yn ein gorfodi i gredu, pa bryd bynag y gwelom wrthddrychau naturiol wedi eu rhoddi mewn cyflwr o symmudiad, yn lle bod yn aros yn llonydd neu yn cael eu gwyro allan o'u llwybrau cyfliniol ac yn cyfnewid eu cyflymdra, os byddant eisoes mewn symmudiad—mai mewn canlyniad i'r cyfryw *egni* wedi ei roddi rywsut mewn gweithrediad y mae y cyfryw symmudiad wedi cymmeryd lle, er na bydd hyny yn ganlynedig gan ein hymwybyddiaeth ni."—[*Sir John Herschel's Astronomy*, adr. 439, argr. mawr, 1850.]

Y mae yr ymwybodaeth sydd yn wreiddiol yn y meddwl am achos ac effaith yn arddangos ei hun yn amlwg, yn gysson, ac yn anwadadwy, mewn cyssylltiad â'r dygwyddiadau sydd yn cymmeryd lle o'n hamgylch yn barhaus. Pan y dygwydd i ryw ymddangosiad hynod gymmeryd lle, anfynych y clywir neb yn gofyn o ba le y daeth, neu i ateb pa ddyben y mae wedi ymddangos? Ond y gofyniad naturiol a chyffredinol yw, Pa fodd y cymmerodd y peth le? Ar ba egwyddorion y gellir rhoddi cyfrif am dano? &c. Y mae hyn i'w ganfod yn amlwg iawn yn ei gyssylltiad â phlant, canys y maent yn dechreu arfer y rhesymeg reddfol hon yn dra ieuainc. Ceir hwynt, heb i neb erioed eu haddysgu, yn ymchwilgar ac ymofyngar neillduol yn fynych am y rheswm am ddechreuad ac achos y naill beth a'r llall; ac ni foddlonir eu chwilgarwch chwaith trwy gyfeirio eu meddyliau at yr hyn a fyddo ond megys achlysurol neu offerynol yn unig yn nygiad yr ymddangosiad o amgylch; er y gall hyny, fe allai, attal iddynt gwestiyno yn mhellach ar y pryd. Ac fel y mae y plentyn yn addfedu o ran ei sylw, ei brofiad, a'i adfyfyriad, y mae yn teimlo fod ei ymofyngarwch greddfol (*intuitive*) yn cael ei gadarnhau gan y ffaith na welodd efe erioed mewn un man unrhyw beth yn dechreu bod, neu unrhyw ddygwyddiad yn cymmeryd lle, heb ryw achos o hyny. O ganlyniad, ymddengys yn amlwg iawn mai nid sylw, profiad, nac adfyfyriad, ydyw sail yr ymwybyddiaeth reddfol hon, ond mai cadarnhad o honi ydynt. Y mae y sylwadau uchod mewn cyssondeb hollol â gosodiad nodedig Leibnitz; sef, nad oes yn flaenorol i deimlad ddim yn y meddwl dynol (*nisi intellectus ipse*) oddi gerth y meddwl ei hun. Nid meddylddrych cynhenid yn llythyrenol ydyw y teimlad hwn, ond yr *intellectus ipse*—y meddwl ei hun, yn canfod y meddylddrych am y berthynas sydd yn bodoli rhwng gwirionedd, yr hwn sydd o ran ei natur yn angenrheidiol, a'r hwn sydd ddygwyddiadol. Y mae y reddf hon mor hanfodol i'r meddwl ei hun, fel y mae yn anmhosibl i'r cynneddfau mwyaf gwrteithiedig ddychymygu am ddim yn dechreu a bod heb achos iddo. Fe ddeil y gosodiad hwn y prawf wrth ei gymhwyso at y ddadl er profi yr Achos Mawr Cyntaf; o blegid yn y cymhwysiad mwyaf gofalus o hono at y pwnc uchel hwnw, nis gall y meddwl mewn un modd amgyffred y posiblrwydd i'r achos cyntaf ddechreu a bod. Mewn canlyniad, y mae yn wirionedd nas gall y meddwl amgyffred y fath beth a bod peth yn dechreu hanfodi heb un achos iddo.

Pan welom unrhyw beth a fyddwn yn alw yn effaith, yr ydym ar unwaith yn credu fod iddo ryw achos; ac yr ydym yn credu hyny am fod deddf ein dealltwriaeth yn peri ei fod yn anmhosibl i ni beidio. A byddai y cynnyg lleiaf at gredu yn y gwrthwyneb yn wrthdarawiad hollol i ddeddfau ein gwybyddiaeth. Nid oes un resymeg a all ein hargyhoeddi yn y gwrthwyneb, nac un hyawdledd a all ein darbwyllo, nad oes i bob effaith ei achos priodol. Y mae y meddwl yn priodoli pob effaith i ryw achos, heb yr ammheuaeth lleiaf, ac y mae yn gwrthod pob syniad gwrthwynebol i hyny fel yr afresymolrwydd a'r anmhosiblrwydd eithaf; ac y mae mor sicr a phenderfynol yn y dyb hon, fel nas gall pob rheswm a ellid ddwyn drosti, neu bob gwrthddadl a ellid ddwyn yn ei herbyn, newid dim arni. Ac, y mae hefyd holl wrthddrychau gweledig y greadigaeth naturiol yn cyd-daraw yn gysson â'r syniad uchod o eiddo y meddwl, gan ddwyn argraff arnynt mai effeithiau ydynt, wedi eu dwyn i fodolaeth gan ryw achos neu achosion digonol.

Felly, ymddengys oddi wrth yr ystyriaethau uchod, yn eithaf amlwg, fod yr hyn a elwir achos yn cynnwys ynddo ryw rym, effaith, neu ddylanwad, i beri neu achosi yr hyn a elwir yn effaith. Ond er y credir fod yr hyn a elwir yn achos yn meddu y grym neu y dylanwad angenrheidiol er cynnyrchu yr hyn a elwir yn effaith, eto rhaid addef y dichon fod y dull y gall fod yn gweithredu er cynnyrchu yr effaith, neu y *modus operandi*, yn ddirgelwch hollol i ni: ond nid yw hyny yn un achos priodol er peri i ni ammheu y ffaith mewn un modd. Nid yw gwybod a deall y dull, yn hollol, pa fodd y mae y peth yn gweithredu, mewn un modd yn anhebgorol er credu y ffaith. Nid ystyrir hyny yn anhebgorol angenrheidiol mewn cyssylltiad â phethau o ystyr anianyddol, moesol, nac ysbrydol. Gall anianyddion wahaniaethu oddi wrth eu gilydd, a dadleu llawer y naill â'r llall, mewn perthynas i'r modd y mae yr haul yn achosi goleuni; sef, pa un ai trwy ffrydiad o demigion dysglaer o'i arwyneb neu o'r awyrgylch sydd yn ei amgylchynu, ynte trwy fath o gynhyrfiad ysgydwol ar fath o wirfwy

(*ether*), y mae hyny yn cymmeryd lle; ond yn mha ddull bynag y mae yn peri neu yn achosi y peth, nis gellir mewn un modd ddarbwyllo y meddwl nad oes cyssylltiad, fel achos ac effaith, rhwng cyfodiad yr haul a lledaeniad goleuni. Mewn perthynas i attyniad dysgyrchol, mewn anianeg, nid oes neb a all ddyweyd beth ydyw o ran ei natur, ynddo ei hun, na pha fodd y mae y naill ddefnydd yn attynu y llall; ond eto, nis gellir gwadu y peth fel ffaith. Ymddengys fod y cyfan o ymresymiad Hume, yn gystal ag eiddo ereill ar yr un pwnc, yn tarddu i raddau mawr oddi ar y dybiaeth nas gellir cyrhaedd un sicrwydd am wirioneddolrwydd unrhyw allu oddi gerth i ni allu deall neu ddarganfod beth yw yr hyn sydd ynddo, sydd yn ei gyfaddasu neu yn peri iddo gynnyrchu yr effaith; ond y mae yn eithaf amlwg fod y gyfryw dyb yn hollol ddisail.

Nid oes genym un wybodaeth, na'r meddylddrych lleiaf, mewn perthynas i beth ydyw bodolaeth (*essence*) defnydd ynddo ei hun; nis gallwn na deall nac adrodd beth ydyw. Y cyfan a wyddom am dano ydyw ei briodoleddau neu ei ansoddau; ond a ydym ni mewn canlyniad i benderfynu nad oes y fath beth a defnydd yn bod?—nad oes dim ond ansoddau—dim, i'r hwn y mae yr ansoddau yn perthyn? Na: nis gellir lai na chredu fod defnydd yn bodoli mewn gwirionedd, er nas gallwn ni ddeall dim am dano ond ei ansoddau. A'r un modd hefyd gyda golwg ar y meddwl; nis gwyddom ddim am ei hanfod (*essence*) yntau; nid oes dim ond ei ansoddau ef yn adnabyddus i ni. Beth ydyw ynddo ei hun, nis gallwn ddywedyd. Ond a ydym ni yn myned i wadu bodolaeth meddwl o herwydd nad ydym yn gallu deall beth ydyw? Nac ydym, yn ddiau. Gan hyny, os ydym yn gallu credu bodolaeth defnydd a meddwl, pan nad ydym yn gwybod dim beth yw y naill na'r llall o ran ei hanfod—dim ond ansoddau y naill a chynneddfau y llall—pa ham nas gallwn gredu bod achos yn cynnyrchu effaith, er nas gallwn ddeall dirgelwch y gweithrediad?

Wedi bod fel yma yn ymchwilio am brofion sydd yn dangos ac yn profi yn bur amlwg, gellid meddwl, fod cyssylltiad rhwng achos ac effaith, a bod achos yn arwyddo yr hyn sydd yn peri neu yn cynnyrchu effeithiau, neu (*causa causans*) yr hyn sydd yn gwneuthur i rywbeth arall ddechreu a bod—y mae yn werth i ni sylwi fod achosion o ran eu natur yn ddau ddosbarth gwahanol, sef anianyddol a moesol. Pan y gwelom beirianwaith yr agerbeiriant mewn symmudiad ar y ffordd haiarn, yr ydys yn arfer dywedyd mai achos ei symmudiad yw ager. Dyma achos anianyddol. Pan y gwelom saeth yn cael ei saethu oddi ar fwa, ac yn ehedeg ymaith i bellder, yr ydys yn priodoli y symmudiad, nid i linyn y bwa, ond i ewyllys ac egni y dyn ag sydd yn trin y bwa. Dyna achos moesol. Y mae achosion anianyddol eto yn cael eu rhanu yn ddau ddosbarth. Yn gyntaf, Yr achos tybiedig neu yr achos digonol:—yr achos, yr hwn a gymmerir yn dybiaethol, er amcanu rhoddi cyfrif am ymddangosiad anianyddol; ac os bydd iddo roddi cyfrif digonol a boddhaol am y modd y gallai yr ymddangosiad gymmeryd lle; er, fe allai, nad efe yw y gwir achos o'r peth a elwir yn achos digonol: er anghraifft, megys yr ystyrir fod y ddamcaniaeth donweddog (*undulatory*) yn ddigonol er rhoddi cyfrif am ymddangosiadau y goleuni, pa un bynag ai dyna y wir ddamcaniaeth mewn perthynas i'r pwnc, ai peidio. Yn ail, Y gwir achos. Wrth yr achos hwn y golygir yr achos sicr a gwirioneddol a fyddo yn cynnyrchu unrhyw effaith; megys, er anghraifft, mai attyniad yr haul a'r lleuad yw yr achos o lanw a thrai y môr. Am achosion moesol, y maent yn fywiol a gwirfoddol. Er anghraifft, wrth olrhain symmudiad y saeth, a nodwyd yn barod, y mae y peth i'w briodoli yn gyntaf i dyniad (*tension*) y bwa; yna i wrthweidrwydd y llinyn; yna i fraich y dyn, &c., trwy holl gyssylltiadau y mudalluoedd, neu yr achosion anianyddol a ellir ganfod mewn gweithrediad yn yr ymddangosiad. Yr ydys yn y diwedd yn dyfod at ryw allu neu achos tra gwahanol i achos gallofyddol; sef rhyw achos ag oedd yn gallu rhoddi y mudalluoedd yn y cydgyssylltiad â'u gilydd oedd yn gallu achosi y rhes ymddangosiadau a nodid—rhyw achos ag oedd yn gweithredu yn ol deddfau hollol wrthynt eu hunain, ac ar wahân oddi wrth ddeddfau gallofyddol a fferyllol defnydd—rhyw achos oedd mewn gwirionedd yn fywiol—rhyw weithydd oedd yn wirfoddol - ewyllys yr hwn oedd wedi achosi yr holl res o ganlyniadau. Achos moesol y gelwir y gweithrediad gwirfoddol hwn.

Pa beth yw bywyd, neu yr egwyddor fywydol, nis gwyddom; ond gŵyr pawb fod yr hyn a ddeallir wrth y gair *bywyd* yn meddu y gallu i weithredu ar wrthddrych allan o hono ei hun. Y mae bywyd yn arwyddo dealltwriaeth fyddo yn meddu y gallu o ewyllysio ac o ddechreu gweithrediadau. Ac mewn ystyr hollol gaeth, neu yn ol deffiniad hollol briodol, y gweithrediad gwirfoddol (*spontaneous*) hwn o eiddo bodolaeth deallol neu feddwl yn unig, yw yr hyn sydd yn *achos* mewn gwirionedd; canys os cymmerir ymaith y meddylddrych o hunan-wirfoddolrwydd oddi wrth unrhyw weithredydd fel achos, yr ydys ar unwaith yn gwneyd y gweithredydd hwnw i fod yn ddim arall ond offeryn. Felly, mewn olrheiniadau perthynol i achosiaeth, pan y mae unrhyw flaenorydd anianyddol yn cael ei alw yn achos, mewn modd anmhriodol yn ol llefariaeth gyffredin y wyddor yn unig y mae yn cael ei alw felly. Nid ydyw y cyfryw weithydd anianyddol yn achos, ond yn unig pan ei hystyrir gyda golwg ar ei flaenoriaeth, ac nid yn achos mewn ystyr cyfyng yn ei berthynas â meddwl neu ddealltwriaeth. Mae athroniaeth er yr oesoedd boreuaf yn priodoli pob symmudiad i feddwl neu ddealltwriaeth, fel yr achos o hono. Meddylir mai trwy Socrates, ac oddi wrth Anaxagoras, y dysgodd Plato yr athrawiaeth y mae yn ei dysgu yn y *Phædo*, sef mai y *nous*, neu y meddwl, ydyw *αρχη της κινησεως*, dechreuad a tharddiad symmudiad. Y mae pob dyn, anifail, ac hyd yn oed y gwaelaf yn mhlith yr isgreaduriaid, yn ymwybodol o'r gallu hunanewyllysiol hwn. Gweithrediad y gallu hwn ar ddefnydd sydd yn cyfansoddi achosiaeth moesol. Y mae amddiffynwyr blaenoriaeth ac olyniaeth, fel yr unig beth ag y mae achos ac effaith yn gynnwys, ar ol Dr. Brown, wedi bod yn condemnio ac yn dirmygu, fel peth afresymol, y gosodiad fod "gan yr ewyllys awdurdod ar yr aelod." Ond wedi eu holl waith yn cyndynddadleu, a chwareu ar ystyron geiriau, nid oes neb a all haeru ei fod yn beth afresymol i ddywedyd fod gan y dyn a ewyllysio hyny rym i symmud un o'i aelodau. Ail achosion ydyw y rhai hyny ag sydd yn ffurfio rhes o ymddangosiadau rhwng y blaenorydd cyntaf a'r effaith. Wrth sylwi ar weithrediadau achosion anianyddol, pa un bynag ai fferyllol ai gallofyddol fyddant, yr ydys yn canfod fod rhai o honynt

Digitized by Google

wedi eu gosod yn eu perthynas â'u gilydd fel ag i fod yn israddol a chynnorthwyol y naill i'r llall. Gelwir y rhai hyn yn ail achosion. Er anghraifft, oddi wrth olwynion yr agerbeiriant yr ydys yn myned at yr echelydd, ac oddi wrth yr echelydd at y ddiblath, ac oddi wrth y ddiblath at yr ager, ac oddi wrth yr ager at y dwfr, ac oddi wrth y dwfr at y tân—yr achos cyntaf o'r ager. Ail achosion ydyw y lleill oll. Megys yr oedd yn angenrheidiol, fel parotoad at ddeall a theimlo grym y ddadl neu y rhesymiad bydhanegol, i gymmeryd sylw ar athrawiaeth achosiaeth, felly eto, mewn trefn i ddeall a theimlo grym y ddadl, neu y rhesymiad amcanedigol, y mae yn angenrheidiol cymmeryd sylw ar yr athrawiaeth o amcan neu fwriad. Y mae y meddylddrych o amcan neu fwriad yn amrywiog o ran ei natur, yn gymmaint a'i fod yn cyfodi oddi wrth adfyfyriad ar ryw wrthddrych a fyddo dan sylw, a math o gasgliad oddi wrth yr hyn y byddys wedi bod yn sylwi arno yn y meddwl. Nis gall y meddylddrych o amcan fod yn reddfol (*intuitive*); o blegid y mae yn anmhosibl i neb feddu yr ymwybodiad o hono heb yn gyntaf fod ganddo ryw brofiad beth yw amcan neu fwriad; yr hyn a ddysgir yn fwyaf effeithiol trwy ryw weithred o eiddo y dyn ei hun, lle y byddo rhyw amcan neu fwriad ganddo mewn golwg wrth ei chyflawnu. Pan y byddo un yn cyflawnu unrhyw beth yn fwriadol, y mae y peth hwnw i'w ystyried ar unwaith yn perthyn cymmaint i'w ewyllys a'i fwriad yn cynllunio y peth, ag ydyw i'w law a'i allu yn dwyn y bwriad o amgylch yn weithredol. Ac y mae yr un ystyriaeth hefyd yn mynu ei lle yn y meddwl yn ei chyssylltiad â gweithred gyffelyb a gyflawnir gan arall.

Yn mysg yr amrywiaeth mawr o weithrediadau bywyd, y mae llawer o honynt fel y gellir yn ymwybodol ddyweyd am danynt ein bod wedi eu cyflawnu o fwriad, neu yn fwriadol, fel y dywedir; a llawer ereill y gellir dyweyd yn onest am danynt iddynt gael eu cyflawnu yn anfwriadol. Ond pe gofynid i ni, pa brawf a ellid roddi fod y naill ddosbarth o weithrediadau wedi eu cyflawnu yn fwriadol, a'r dosbarth arall wedi eu cyflawnu yn anfwriadol; neu mewn geiriau ereill, beth a ellid edrych arno fel yn brawf rhesymol o fod y naill ddosbarth yn weithrediadau o fwriad, a'r llall yn weithrediadau anfwriadol? Gellid meddwl mai y ffordd fwyaf tebygol o ddwyn argyhoeddiad i feddwl yr ymofynwr ar y pwnc fyddai dangos iddo fod dau neu dri, neu ragor, o bethau wedi eu gosod yn y dull a'r dull fel offerynau, mewn trefn, fel moddion, i ddwyn y peth o amgylch. Y mae yn ddiau y byddai tystiolaeth o fath hon yn ddigon o brawf i bob dyn deallus a diragfarn ar unwaith fod y fath ragdrefniad yn dangos y gwyddid yn mlaen llaw beth oeddid yn ei gylch; ac mewn canlyniad, y rhaid fod y gweithrediadau wedi eu cyflawnu yn fwriadol. A phe byddai rhyw weithred anghyfreithlawn, megys llofruddiaeth, wedi ei chyflawnu gan rywun, byddai prawf fod y drwgweithredwr wedi arfer dau neu dri neu ragor o wahanol bethau, fel cynnifer o offerynau, a'u harfer fel moddion er ei alluogi i gyflawnu y weithred, yn ddigon o sail gan y rheithwyr i benderfynu eu barn yn ei gylch ei fod wedi cyflawnu y weithred yn fwriadol.

Y mae gwahaniaeth mawr rhwng eglurder y prawf o barth i fwriad neu amcan yn ei gyssylltiad â'n gweithredoedd gwirfoddol ein hunain a'r hyn a osodir o'n blaen yn ei gyssylltiad â gweithrediadau ereill. Yn ei gyssylltiad â'n gweithredoedd gwirfoddol ein hunain, ffaith syml ydyw amcan neu fwriad, ac nid rhywbeth a gesglir genym oddi wrth ymddangosiadau pethau: canys nis gall fod ar neb eisieu cadwyn o resymeg mewn trefn i wybod pa un a fydd ganddo amcan neu fwriad yn nglŷn â'i weithred ei hun ai peidio. Ond yn ei gyssylltiad â gweithrediadau ereill, y mae y pwnc yn wahanol; canys nis gellir edrych ar sicrwydd o fodolaeth amcan neu fwriad yn nglŷn âg unrhyw ymddangosiad neu weithred o eiddo arall, ond fel casgliad oddi wrth ymddangosiadau a natur pethau, ac nid fel pwnc o ffaith. Ond wedi y cyfan, pan y canfyddir dau neu dri o bethau wedi eu gosod mewn trefn benodol, nis gall y meddwl lai na chasglu na byddant wedi eu gosod felly yn fwriadol, neu fod gan y gweithredydd, yr hwn a'u gosododd hwy felly, ryw amcan penodol i'w gyrhaedd trwy hyny. Yn y cyfryw amgylchiad a hwn, nid pwnc o ffaith yn hollol yw amcan, ond yn hytrach math o gasgliad; ond eto, y mae yn gasgliad mor naturiol fel y mae yn gadael ei argraff ar ei ol, fel ag i ddwyn cymmaint o sicrwydd i'r meddwl a phe buasai y peth yn bwnc o ffaith yn yr ystyr uchaf. Yn awr, cymhwyser yr egwyddor uchod at adeilad fawr y byd naturiol, neu yn hytrach at y rhanau hyny ag sydd fwyaf adnabyddus i ni o honi, ac nis gall neb yn hawdd wadu nad ydynt, trwy eu trefniad, eu cyfaddasiad, a'u cymhwysiad, yn awgrymu yn eglur, ac yn arddangos bwriad a bwriadwr yn y modd amlycaf. Dangoswyd yn barod, pan y byddo amrywiol ddefnyddiau wedi eu cyfleu a'u gosod yn y fath fodd fel ag i gyrhaedd rhyw nod neu amcan penodol trwy hyny fel effaith oddi wrthynt, fod hyny yn dangos dealltwriath, doethineb, a medrusrwydd. Yr ydys yn gallu canfod hyny yn y twmpath morgrug, y cwch gwenyn, nyth yr aderyn, ac yn y dyfeisiadau a'r adeiladau a ddygir o amgylch gan ddynion.

Ond wrth ddwyn yn mlaen ein hymchwiliadau, yr ydys yn dyfod i gyffyrddiad â llawer o weithrediadau, y rhai sydd o ran eu natur, yn eu holl deithi, yn mhell uwch law dim a ellir ei ystyried o fewn cylch gallu greddf y creaduriaid direswm i'w wneuthur, a llawer hefyd yn mhell uwch law dim y gwyddys am dano y gall y deall dynol ei amgyffred a'i ddwyn o amgylch. Y gweithredoedd hyn ydynt weithredoedd natur—gweithredoedd ag y mae holl ddeddfau y meddwl yn ein gorfodi i'w priodoli, o ran eu creadigaeth a'u gosodiad mewn trefn, i ryw achos neu weithydd; dealltwriaeth, gallu, ac adnoddau yr hwn sydd yn mhell uwch law dim ag y mae un profiad o'n heiddo wedi ein dwyn i adnabyddiaeth o hono.

PROFION O FWRIAD NEU AMCAN.

Rhoddir yma ychydig anghreifftiau amlwg wedi eu dethol o blith y lluaws sydd i'w cael ar hyd meusydd amrywiol natur. Ni chaniata y gofod mewn erthygl o'r fath hon, i gymmeryd ond ychydig iawn; ac o'r rhai hyny, ni ellir rhoddi ond llai fyth yn llawn. [Y neb a ewyllysio weled cyflawnder o honynt, a'r rhai hyny wedi eu dadblygu yn helaeth, darllened weithiau Ray, Derham, Paley gan Arglwydd Brougham, Tracthawd Arglwydd Brougham, y *Bridgewater Treatises*, y gwahanol atebion i'r *Vestiges of Creation*, ar y pwnc, &c.] Y mae yn anhawdd gwybod yn mha le i ddechreu ar y pen hwn, ond edrychwn ar y prawf o fwriad sydd yn cael ei arddangos yn nghyfansoddiad y gwahanol ermigau neu organau mewn gwahanol greaduriaid, i'w cyfaddasu at eu dull o fyw a'u hangenion.

Dyna ben y pysgodyn wedi ei ffurfio yn y modd

Digitized by Google

cywreiniaf, a mwyaf priodol iddo i nofio trwy y dwfr; nis gallasai fod yn fwy cyfaddas o ran ei ddullwedd i fyned trwy y dwfr gyda'r rhwystr lleiaf pe buasai wedi ei ffurfio yn ol rheolau manylaf mesuroniaeth. Ac y mae adenydd a chynffonau y pysg cyffredin wedi eu llunio a'u gosod yn y modd mwyaf cyfaddas ac effeithiol i'w cynnorthwyo i nofio. Edrycher eto ar yr aderyn hedegog—mor gywrain y mae ei adenydd wedi eu ffurfio er ei ddwyn trwy yr awyr; ac adenydd pob aderyn wedi eu haddasu yn briodol at ei rywogaeth ei hun, yn ol ei arferion a'i ddull priodol o fyw. Edrycher eto ar gyfandroed (*webfoot*) yr aderyn dwfr—mor gyfaddas y mae wedi ei lunio er ei gynnorthwyo i nofio. Nid yw holl gywreinrwydd celfyddydol yr oes bresennol wedi llwyddo i lunio rhodlau (*paddles*) i'w cymharu o ran eu cyfaddasrwydd a'u heffeithiolrwydd er cynnorthwyo yr agerlongau i nofio, ag yw cyfandroed yr aderyn dwfr er ei gynnorthwyo ef. Y mae yr ystwythgroen rhwng bysedd traed yr hwyaden wedi ei gyfeirio yn y fath fodd dros benau esgyrn y forddwyd a'r goes, fel y mae yn tynhau pan fyddo y creadur yn plygu ei goes, ac yn llacau pan fyddo y goes yn cael ei hestyn allan. Pan fyddo yr aderyn yn tynu ei droed i fyny, y mae y bysedd yn cael eu tynu at eu gilydd, trwy fod ffurf blygedig esgyrn y goes yn pwyso ar yr ystwythgroen. Ac yn y gwrthwyneb, pan y mae yr aderyn yn gwthio ei goes allan yn union, wrth wneyd yr ergyd, y mae yr ystwythgroen yn cael ei ryddhau oddi wrth wasgiad neu bwysiad asgwrn y sawdl, a'r bysedd yn cael rhyddid i ymestyn ar eu hyd, gan ymagoryd a chan ymledu yn y cyfamser oddi wrth eu gilydd, fel y byddo i'r ystwythgroen rhyngddynt i gyfarfod â gwrthdarawiad corff mawr o ddwfr. Mewn dosbarth arall o adar, y rhai sydd yn arfer cysgu, neu glwydo ar gangenau coed, y mae yr un peirianwaith yn ateb dyben arall. Y mae hyd mawr bysedd yr adar hyn yn eu galluogi hwynt i ymafael yn dŷn yn y gangen y byddont arni. Eto, y maent yn cael eu cynnal yn gwbl heb gwympo gan ddarpariaeth sydd yn hollol naturiol, heb un egni i'r creadur ei hun, onid e buasai perygl i'w afael lacau ac iddo gwympo pan wedi cysgu. Ond nid yw hyny byth yn cymmeryd lle hyd yn oed pan y byddo yn cysgu ar ei untroed. A'r rheswm dros hyny yw, y mae y cyhyr ag sydd yn plygu y bysedd yn rhedeg dros y cymmal ag sydd yn cyfateb i gymmal y glin i ni; ac o'r tu blaen, y mae y gïau yn rhedeg i'r tu ol i'r goes, a thros y cymmal ag sydd yn cyfateb i asgwrn y sawdl i ni; yna y mae yn hollti, ac yn ymestyn ar hyd gwaelod y troed, ac i'r bysedd. Mewn canlyniad i fod y cyhyr yn cymmeryd y rhedfa uchod, y mae pwysau yr aderyn ei hun yn peri i'r ddau gymmal hyn blygu dano; ac y mae y cyhyr yn ymestyn, neu fe wnai ymestyn, pe na byddai ei flaenau rhanedig, yn rhedeg yn mlaen i fysedd y creadur ac yn eu tynu i mewn, fel y maent yn ewtogi, ac yn cymmeryd gafael dŷn yn y gangen y bydd yr aderyn yn gorphwys arni, a hyny yn naturiol, heb un egni na gofal i'r creadur ei hun yn nghylch y peth. Y ffeithiau uchod ydynt yr hyn a ddysgir trwy gasgliad, ac y mae y wyddor gasgliadol o allofyddiaeth yn ein dysgu fod y cyfryw beirianwaith yn gyfaddas at gynnyrchu y cyfryw amcan—yr hyn, mewn gwirionedd, sydd yn cael ei gyrhaedd. Mewn canlyniad, y casgliad hollol naturiol ydyw, fod y peiriannydd a ddyfeisiodd y moddion er cyrhaedd yr amcanion hyn, yn deall y wyddor yn ol yr hon y lluniodd y peiriant, ac felly o angenrheidrwydd ei fod yn fod deallol. Meddylier eto am y breuant (*larynx*), neu gŵr uchaf y corn chwyth, mewn anifeiliaid neu greaduriaid tirol. Yn y rhai hyn, y mae darpariaeth er cadw cŵr uchaf y bibell hon yn gauedig, trwy fod math o gauad yn disgyn arni tra y byddo ymborth yr anifail yn myned i lawr i'w gylla; a phe na buasai y cauad hwn, buasai ymborth y creadur mewn perygl o gwympo trwy y bibell wynt i'w ysgyfaint ef. Wrth edrych i'r peirianwaith hwn, nis gall neb beidio a chanfod yr amcan o'r cyfansoddiad deublyg hwn, sef cludo ymborth i'r cylla, ac awyr i'r ysgyfaint, trwy gyfrwng yr un agoriad o eiddo y genau a'r sefnig. Ond ni buasai y ddarpariaeth hon yn ddigonol i'r creaduriaid hyny, y rhai sydd yn byw yn y dwfr. Mewn canlyniad, yr ydym yn cael ynddynt hwy, megys yn y morfil a'r morfochyn, nad yw y cauad ar y corn chwyth yn wastad, fel yn y creaduriaid tirol, ond ei fod rywbeth yn gonaidd neu bigynaidd, yn cyfodi i fyny at y tu ol i'r trwyn, a bod estyniad y ffroen trwy wasanaeth math o fodrwy ieiog (y *sphyncter*), yn cymmeryd gafael yn nghŵr uchaf y bibell wynt, fel ag i gyfanu y ffordd rhwng yr ysgyfaint a'r chwythdwll, tra y mae yn tori ymaith bob cyssylltiad rhwng yr ysgyfaint a'r genau. Eto, pe gwneid ymchwiliad i gyfansoddiad pen y morfochyn, ceid fod ynddo wagleoedd, y rhai y gall y creadur eu heangu yn fawr, a'u llenwi âg awyr neu ddwfr, fel y byddo ei angen yn gofyn, naill ai at nofio, esgyn i fyny, neu ymsuddo, fel y byddo yn dewis. Yn y fath anghraifft a hon, byddai yn rhy anhawdd i neb, gellid meddwl, fedru gwadu nad oes yma amlygiad tarawiadol o amcan at gyrhaedd dyben, a bod y fath foddion er cyrhaedd y dyben hwnw yn dangos yn eithaf amlwg fod yr amcanwr yn hollol gyfarwydd âg egwyddorion awsafiaeth (*hydrostatics*). Eto, wrth wneyd ymchwiliad i ŵy aderyn (megys ŵy iar, neu ryw aderyn arall), ceir ei fod yn cynnwys tair rhan:—y cyw; y melynŵy, yn yr hwn y mae y cyw wedi ei osod; a'r gwynŵy, yn yr hwn y mae y melynŵy yn nofio. Y mae y melynwy yn ysgafnach na'r gwynŵy, ac wedi ei gyssylltu âg ef mewn dau fan â math o linell, neu yn hytrach lyfnyr, yn cyrhaedd o'r manau hyny i'w gilydd. Y mae y llinell neu y llyfnyr hwn islaw craidd y melynwy. Ac mewn canlyniad i'r trefniad hwn, y mae y cyw yn rhwym o fod yn ochr uchaf yr ŵy yn barhaus, faint bynag a droir arno; ac felly y mae yn cael ei gadw yn barhaus wrth fron neu fol y fam tra y byddo yn eistedd ar yr ŵy. Yn awr, meddylier fod un cyfarwydd â deddfau symmudiaeth yn bwriadu trefnu pethau fel ag i sicrhau i'r ysmotyn neu y llecyn yna o'r ŵy i fod yr ochr uchaf yn barhaus, mewn trefn i sicrhau iddo gael derbyn y gwres angenrheidiol oddi wrth eisteddiad yr iár arno, a allai efe sicrhau dygiad hyny o amgylch mewn rhyw ffordd arall heb law ei roddi mewn hylif ysgafnach nag ef ei hun, a chrogi hwnw mewn hylif trymach, fel ag y byddai ei graidd uwch law y llinell neu llyfnyr y crogid ef wrtho? Diammheu nas gallasai, o blegid nad oes un ffordd arall ag y gellid sicrhau y cyfryw amcan. Cyrhaeddir sicrwydd o'r pwnc hwn trwy gasgliad, ac fe brofir ei wirionedd yn yr un modd ag y profir unrhyw wirionedd anianyddol arall. Y casgliad naturiol o hyn yn ei gyssylltiad â duwinyddiaeth naturiol ydyw, fod yn rhaid fod yr ŵy wedi ei lunio gan ryw law fedrus mewn peirianwaith, a hono yn

Digitized by Google

gweithredu dan reolaeth gwybodaeth ddigonol o rym ufyddiaeth fel gwyddor. Anghraifft hynod a nodedig arall hefyd o arwyddion amcan, a chyfaddasrwydd neillduol yn y gwahanol ranau o'r peirianwaith er cyrhaedd yr amcan hwnw, sydd i'w chael yn ffurfiad y glust. Ond fe allai fod hyn yn fwy amlwg a tharawiadol eto yn ei gyssylltiad â'r llygad. Y mae hi yn ffaith anwadadwy mewn anianeg, yn ystyr cyfyngaf y gair, fod y weithred o welediad yn cael ei chyflawnu gan y llygad trwy ei waith yn attroi neu yn adlewyrchu goleuni, gan wneuthur iddo gydgyfarfod mewn un man ar ei bilen, neu ei rwydlen; a bod cyssylltiad neillduol ei grwmleni *(lenses)*, a'r gwahanol ddefnyddiau o'r rhai y maent yn gyfansoddedig, yn attal yr anamlygder a fuasai yn cyfodi pe heb hyny gan wahanol ddattywyniadau *(refrangibilities)* goleuni; mewn geiriau ereill, yn ei wneyd yn offeryn diliwiadol *(achromatic)*. Yr oedd dynion yn deall, cyn amser Syr Isaac Newton, eu bod yn gweled trwy offerynoliaeth y llygad, a bod y llygad hefyd wedi ei gyfansoddi yn ol egwyddorion tremyddiaeth; ond nid oeddynt yn deall y rheswm o'i gyfluniad neillduol, am eu bod yn anwybodus o wahanol ddattywyniadau goleuni. Ond pan ddysgodd ei ddarganfyddiadau ef y gwirionedd hwn iddynt, hwy a ddeallasant ar unwaith fod y llygad yn gweithredu yn berffaith yn ol y ddeddf hono. Ond eto, yr oedd eu gwybodaeth yn anmherffaith, a chadwyd i Dolland y gorchwyl o ddarganfod deddf arall mewn natur, sef y gwahanol alluoedd gwasgawl perthynol i wahanol ddefnyddiau, yr hyn a'i galluogodd ef i gyfansoddi gwrthddrych-wydr, yr hwn sydd yn cywiro yn fwy effeithiol wahanol ddattywyniadau goleuni. Ac erbyn i'r ddeddf hon ddyfod yn adnabyddus, canfyddwyd ei bod mewn gweithrediad yn y llygad yn llawer perffeithiach nag yn ngwydr diliwiadol Dolland, hyd yn oed wedi iddo gael ei berffeithio gan Blair. Yn awr, os caniateir, wrth gymharu y llygad âg ysbïenddrych (a phwy a all wadu y ffaith), fod y naill a'r llall wedi eu cyfansoddi yn ol y cyffelyb egwyddorion; ac os addefir hefyd, yn mhellach, fod yn rhaid i Galileo, Newton, Dolland, Blair, ac ereill, fod yn hollol gyfarwydd â deddfau tremyddiaeth cyn y gallasent ddyfeisio a gwellhau cymmaint ar wneuthuriad yr ysbienddrych, onid ydyw yn rhaid addef hefyd fod yr hwn a fu yn ffurfio y llygad (yr hwn sydd yn tra rhagori mewn cywreinrwydd ar yr ysbienddrych goreu) yn hollol adnabyddus o ddeddfau tremyddiaeth? Ac yn gymmaint ag nas gallai y llygad ffurfio ei hunan, ac nad oes un celfyddydwr dynol yn ddigon cywrain ei law i ffurfio llygad, er meddu y wybodaeth, y mae yn rhaid fod rhyw Fod ag sydd yn meddu gwybodaeth, cywreinrwydd, a gallu yn mhell y tu hwnt i'r eiddom ni, cyn y gallasai ei greu. Y mae y sylwadau hyn yn wir yn eu perthynas â phob llygad yn gyffredinol; ond y mae llygaid gwahanol greaduriaid wedi eu ffurfio yn bwrpasol at eu dull neillduol hwy o fyw—yn hollol wrthynt eu hunain. Y mae yn perthyn i greaduriaid deurywiog, y rhai sydd ganddynt achos i ddefnyddio eu golygon mewn dau gyfrwng o wahanol ddwysder, megys awyr a dwfr, drefniant neillduol er rheoli gwlybrau y llygaid, fel ag i'w cyfaddasu i weithredu fel llygaid pedwartroediaid ar y tir sych, ac fel llygaid pysg yn y dwfr. Ac y mae yn perthyn i lygad y lysywen, er enghraifft, yr hon sydd ganddi i weithio ei ffordd drwy y llaid a'r graian yn ngwaelodion afonydd a llynau, fath o gauad cromaidd tryloew, er ei ddiogelu rhag y llwtra a'r manro. Ac nis gallasai dim fod yn fwy buddiol ac angenrheidiol iddi na'r ddarpariaeth hon.

Mae cyfaddasiad neillduol hefyd yn ngwneuthuriad llygaid adar at eu sefyllfa neillduol hwynt, nad ydyw i'w ganfod yn llygaid creaduriaid ereill. Yn gyntaf, y mae dau o gyhyrau neillduol yn perthyn iddynt: trwy wasanaeth un o honynt, gall yr aderyn wthio allan belen y llygad yn wysg ei hochr, mewn trefn i'w alluogi i ganfod gwrthddrychau fydd yn agos ato; a thrwy wasanaeth y llall, y mae yn gallu tynu yn ol neu leddfu y crwmleiniau grisialaidd, fel y gallo ganfod gwrthddrychau a fyddo yn mhell oddi wrtho. Yn ail, y mae gan adar ag sydd yn arfer ehedeg trwy lawer o goedydd, drain, a dyrysni, yr hyn a elwir y bilionen ysmiciol, sef math o orchudd tryloew dros y llygad, yr hwn sydd yn gollwng digon o oleuni trwyddo er gwneud gwrthddrychau yn weledig iddynt, ac eto yn diogelu y llygaid rhag cael niwed wrth fyned trwyddynt. Gellid nodi llawer o anghreifftiau yn mhellach yn ngweithredoedd y greadigaeth, lle y mae rhyw ddarbodaethau neillduol wedi cael eu gwneyd ar gyfer angenion penigol rhyw greaduriaid; megys darbod o olew (yr hwn sydd i'w ganfod mewn dwy deth, un o bob tu i gynffon yr aderyn) at daclu ei blu; y chwysigen wynt yn y pysgodyn at ei gynnorthwyo i nofio; ffurfiad neillduol cylla y camel i gludo dwfr ar gyfer ei hirdeithiau mewn anialwch cras, heb ddwfr ynddo; pig a thafod cymmynydd y coed, &c. Ond fe allai mai un o'r anghreifftiau mwyaf nodedig o hyn sydd i'w canfod mewn cyssylltiad â'r creadur a elwir cangaroo, yw y ddarpariaeth sydd ganddo ar gyfer rhoddi sugn i'w rai bach. Y mae y creadur hwn yn frodor o Awstralia; a gwahaniaethir ef yn neillduol o herwydd y bolgwd neu y pwrs hynod sydd ganddo. Pan nad yw yr un bychan ond tra ieuanc, ac heb ei ffurfio eto ond yn dra anmherffaith, y mae yn cael ei fwrw o'r groth i'r bolgwd, o blegid mai yn y bolgwd y mae tethau y creadur. A phan y mae yr ieuanc yn cael ei ddodi yn y bolgwd, y mae yn cael ei ddodi yn gymhwys a'i wefusau ar gyfer un o'r didenau. Ond pan y mae yr ieuanc yn cael ei osod yn y sefyllfa hon, y mae yn llai o faintioli hyd yn oed nag un o'r didenau eu hunain; a than y fath amgylchiadau, pa fodd y gall ef sugno? Gwyddys nad oes yn y cyffredin gan fronfaethiaid (*mammals*) un cyhyr er gwasgu y llaeth o'r didenau; ond y mae yn perthyn i ddidenau y kangaroo gyhyr o'r fath, trwy wasanaeth yr hwn y mae yn gallu ergydio y llaeth allan o'r deth i enau yr un ieuanc. Yn nglyn â'r ddarpariaeth hon, rhaid fod un peth arall yn eisieu, sef rhywbeth i wasgu y deth er gyru y llaeth allan; ac y mae y ddarpariaeth hon hefyd yn perthyn i'r kangaroo, sef math o asgwrn er gwasgu ar y cyhyr er bwrw y llaeth allan, yr hyn nid yw yn perthyn i un creadur adnabyddus arall. Ond os yw y fam fel yma yn gallu bwrw y llaeth i enau yr ieuanc, pa fodd, o dan y cyfryw amgylchiadau, nad yw yr hylif maethlawn yn ei fogi? Wel, i attal hyn, y mae Creawdwr y creadur bach wedi ei gynnysgaethu â math o bibell yn nghwr ol y gwddf, drwy yr hon y mae yr awyr yn gallu myned i'w ysgyfaint mewn ffordd hollol wahanol i'r hon ag y mae yr ymborth yn myned o'r genau i'r cylla. A gellir credu mai iawn y sylwai Dr. Whewell [*Philos. of the Ind. Sciences*, b. ix. c. vi.], nas gall un dyn, beth bynag fyddo ei ragfarn yn erbyn athrawiaeth achosion diweddol lai na chydnabod fod y profion

Digitized by Google

mwyaf sicr a tharawiadol o fwriad a darpariaeth er cyrhaedd yr amcan yn ffurfiad y creadur uchod. Y mae bwriad a threfniad er cyrhaedd amcan hefyd yn cael ei arddangos yn amlwg iawn yn nglyn â'r creaduriad hyny lle y mae math o ddarpariaeth i'w chanfod fel yn perthyn iddynt, er gwneud yn dda rywbeth y byddont megys yn ddiffygiol o hono. Rhydd Dr. Paley yr anghreifftiau canlynol o hyn:—Yn yr elephant, pan y mae ei wddf ef mor fyr ac anhyblyg, fel nas gall gyrhaedd y ddaiar i yfed dwfr, y mae y diffyg wedi cael ei wneyd i fyny gan ei dduryn hir ac ystwyth. Yn yr ystlum, y mae methiantwch ac eiddilwch ei draed yn cael ei wneyd i fyny trwy y bach sydd yn ei asgell; heb yr hwn y buasai y creadur mwyaf diymadferth a digymhorth. Ac y mae gwè y pryf copyn yn ateb y dyben iddo er dal ei ysglyfaeth, yn lle edyn i ehedeg ar ei ol. Y mae coesau byrion y crëyr i gerdded trwy y dwfr, a'i big hir i balfalu am ysglyfaeth, yn gwneyd ei ddiffyg o gyfandraed i fyny, trwy y rhai y gallasai nofio. Ac y mae yr afu glas yn gwneyd diffyg yr adar grawnysol o ddannedd i fyny. Ond yr anghraifft fwyaf nodedig, fe allai, ag sydd yn hawdd ei chyfarfod yn hyn, ydyw yr hyn a elwir y *vis medicatrix naturæ*, neu y grym iachaol hwnw trwy yr hwn y mae y natur anifeilaidd yn gallu iachau ei hunan oddi wrth afiechyd—grym ag sydd yn wrthweithiad i ddylanwad unrhyw afiechyd neu friw a ddygwyddo gymmeryd lle, a grym nad yw byth yn gweithredu ond pan fyddo y creadur mewn angen am dano. Y mae gweithgarwch bywiog yr achos hwn mor neillduol barod, egniol, ac mor gywrain, fel i awgrymu y gellid o'r bron briodoli, nid yn unig fywyd, ond hyd yn oed meddwl a deall i'r gwaed. Mor gynted ag y dechreua unrhyw weithrediad afiachaol gymmeryd lle mewn rhyw ran o'r corff, ni oddefir i'r gweithrediad fyned yn mlaen am fynydyn nad yw natur yn dyfod allan fel meddyg iddi ei hun; neu fe allai, os felly y bydd yr angen, fel llawfeddyg (*surgeon*), ac yn gwneyd pob egni yn ei chyrhaedd er gwrthweithio effaith ymosodiad yr anhwyldeb, adferu iechyd, a diogelu bywyd. Meddylier, er anghraifft, fod asgwrn wedi tori; y mae yn perthyn i bod rhan o'r corff fath o chwarenau penodol, unig orchwyl y rhai ydyw ffurfio defnydd asgwrn, pan fyddo unrhyw greadur mewn angen am gyflenwad neillduol o hono er adferu asgwrn a fyddo wedi tori. Pan ddygwydd i asgwrn dori, y mae natur yn gofyn am roddi yr asgwrn briw yn ei le, mewn trefn i'w asio; ond os na bydd y cynnorthwy hwnw yn dyfod yn mlaen, hi a gymmer y gorchwyl yn ei llaw ei hunan. Fe deifl y chwarenau a fyddo yn agos i'r asgwrn briw yn y corff fath o hylif dros, ac o amgylch y darnau toredig: y mae yr hylif hwn yn ceulo neu yn cyttyru yn y fan, nes myned mor galed a gwydn a mwythyn neu fadryddyn, ac wedi hyny y mae yn troi yn ddefnydd esgyrnaidd. Y mae natur yn amgylchu y rhanau toredig â'r defnydd hwn, braidd yn hollol yn yr un modd ag y mae y llawfeddyg yn cymhwyso ei ddellt a'i ddarpariaethau ereill, mewn trefn i rwymo i fyny, cynnal, a chadw yr esgyrn briw yn eu lle, gan gymhwyso ei hun at bob gwrym a phant a fyddo o amgylch y briw. Y mae natur hefyd yma yn cyflawnu yr hyn nad all y llawfeddyg ei wneyd. Y mae ceuedd o fewn i'r asgwrn briw; a phe gallasai y llawfeddyg osod ei ddellt o fewn yn gystal ag oddi allan i'r briw, buasai yn gallu yn llawer mwy diogel ei iachau; ond nis gall efe wneyd hyn. Ond am natur, y mae yn gallu cymhwyso y defnydd a nodwyd er cynnaliaeth i'r asgwrn briw o'r tu fewn iddo, yn gystal ag o'r tu allan. A phan yr ymeifl y darnau briw o'r asgwrn yn eu gilydd, ac ennill nerth fel ag i allu ymgadw yn nghyd, y mae y defnydd a nodwyd, o'r tu fewn ac o'r tu allan i'r asgwrn, yn toddi ymaith, gan ei adael fel yr oedd cyn cyfarfod â'r anhap. Ac onid yw yn anhawdd, yn wyneb y fath ddarbodaeth a hon, i neb allu gwadu nad oes yma arddangosiad nodedig o ddealltwriaeth, amcan, a medrusrwydd mawr?

Cyfundrefn y planedau eto, yn y ddarbodaeth sydd ynddi er sicrhau ei pharhad a'i sefydlogrwydd, sydd yn dangos bwriad, doethineb, a gallu yn y modd amlycaf. Er cyrhaedd yr amcan gogoneddus uchod, y mae yr holl blanedau wedi eu gwneyd i symmud mewn cylchoedd, y rhai ydynt oll yn fwy neu yn llai yn hirgrynion; a chylchoedd y rhai lleiaf yn fwy hirgrynaidd nag eiddo y rhai mwyaf—y rhai sydd â'u gyrfaoedd braidd yn hollol gylchaidd. Y mae dylanwad attyniad dysgyrchol, yr hwn sydd yn dal cysylltiad annattodol â phob defnydd hyd y gwyddom ni, yn dylanwadu ar yr holl gyfundrefn, fel y mae yr holl fodau hyn yn troi o amgylch yr haul. Y mae'r cyfan yn cael gweithredu arnynt gan ddau fath o rym. Y mae yr ergydiad cyntaf, yn hwn sydd yn eu gyru byth yn mlaen, yn gysylltiedig â'r cyffelyb symmudiad amdroawl yn nghylch eu hechelydd, yn rhai o honynt, yr hwn, y mae yn debygol, sydd yn gyfoesol â'r llall, ac attyniad pob un o honynt ar bob corff arall yn cynnyrchu tri effaith arnynt, cyfddwyso y defnydd yn mhob un o honynt at ei gilydd; ac mewn cyssylltiad â'u symmudiad amdroawl, cyflunio eu dull, a chadw pob planed yn ei llwybr o amgylch yr haul, a phob lleuad yn ei chylch o amgych ei phlaned, gan gyfnewid neu gyffroi yr hyn a fuasai symmudiad pob un o amgylch yr haul, pe na buasai bodau ereill yn y gyfundrefn i'w hattynu neu eu cyffroi. Yn awr, y mae y pwnc wedi ei brofi, yn ol rhesymeg anwadadwy mesuroniaeth, fod yn rhaid fod dylanwad yr holl fodau hyn yn attynu eu gilydd, yn y dull uchod, fel y maent yn gweithio cyfnewidiad parhaus yn nghylchdro pob corff, ac wrth i'r cyfnewidiad hwnw fyned yn mlaen am filoedd o flynyddoedd, fod y cylchdro yn tolcio allan yn araf hyd nes y cyrhaeddo ryw bwnc penodol, ac yna y bydd i'r cyfnewidiad gymmeryd ei droad yn ol; ac felly yn ol a gwrthol byth heb beidio;—yr hyn sydd yn dangos yr amcan amlycaf, y ddoethineb uchaf, a'r gallu mwyaf, yn nhrefniant y planedau gyda golwg ar eu cylchdroadau a pharhad eu symmudiadau hwythau ynddynt.

Y mae amcan neu fwriad hefyd i'w ganfod yn amlwg iawn yn yr anghreifftiau hyny sydd i'w cael o ddeddfau natur yn cael eu hattal i weithredu yn ol eu trefn gyffredin. Y mae dwy anghraifft neillduol o hyn i'w cael mewn cyssylltiad â dwfr. Gellir sylwi yma, mai deddf unffurf a chyffredinol pob hylif yw arledu wrth boethi. Cymmerer dwfr, er anghraifft, o 40° Fahrenheit, i fyny hyd bwynt berwi; a pho fwyaf a dwymnir arno, mwyaf yn y byd yr arleda neu y mwyha yntau o ran ei faintioli neu ei swm. Ond os cymmerir ef mewn unrhyw dymmeredd is law 40°, ceir fod y ddeddf gyffredinol berthynol iddo yn cael ei hattal; o blegid pa un bynag ai ei oeri ai ei boethi yn fwy a gaffo, efe a gynnydda mewn maintioli neu swm, ac a leiha o ran ei bwysau. Y mae y Dr. Prout,

Digitized by Google

yn ei *Bridgewater Treatise*, yn ystyried y neillduolrwydd hwn, neu fel y geilw ef y peth, "yr hawlfraint anianyddol" hon o eiddo dwfr, braidd uwch law dim arall fel amlygiad o fwriad neu amcan, yn gymmaint a'i fod fel cyfansoddiad yr awyrgylch yn gyfeiriedig yn benodol at amcan neillduol. "Fel cyrff ereill," eb efe, "y mae dwfr yn parhau i leihau o ran ei swm, fel y byddo y gwres yn cilio oddi wrtho, hyd nes y delo ei dymmeredd i lawr hyd o fewn 7° neu 8° i bwynt rhewi. Yn y fan hon, y mae y dwfr eilwaith yn dechreu mwyhau ei hun, a pharha i fwyhau hyd nes y byddo yn rhew; ac ar y mynydyn hwnw, pan y bydd yn rhewi, y mae ehangiad mawr ar ei faintioli yn cymmeryd lle megys ar unwaith. Y mae pwysigrwydd yr eithriadau hyn i ddeddfau cyffredin anian yn eu cyssylltiad â dwfr mor bwysig, fel y mae yn ammheus y gallasai trefn bresennol anian fodoli hebddynt, er i bob peth arall yn y byd naturiol aros yr un fath." Ac yna y mae yn myned yn mlaen i ddangos pe na buasai yr attaliad hwn ar ddeddf gyffredin dwfr, y buasai yr holl foroedd yn troi yn un graig o rew. Y mae deddf arall yn cael ei hattal yn ei chyssylltiad â'r dwfr pan yn rhewi. Y mae y rhan fwyaf o hylifau, pan y maent yn troi i fod yn gyfan, yn myned yn llai eu swm, ac mewn canlyniad yn drymach mewn cymharedd i'w maintioli. Gwyddys y sudda plwm oer mewn plwm toddedig. Pa fodd, gan hyny, na wna dwfr, pan wedi ceulo a myned yn rhew, suddo mewn dwfr? Yr oedd attaliad y ddeddf hon yn angenrheidiol er attal y canlyniadau galarus fuasai yn cyfodi oddi wrth fod dyfroedd yr afonydd, y llynoedd, a'r moroedd, yn rhewi yn eu gwaelodion yn lle ar hyd eu gwynebau. "Y mae grym y ddadl," meddai Dr. Prout, "yn gorwedd, yn y lle cyntaf, mewn bod dwfr ac awyr wedi eu creu gyda'r fath briodoleddau afreolaidd; ac yn y lle nesaf, ac yn benaf, *fod y priodoleddau afreolaidd hyn wedi cael eu dwyn i weithrediad yn hollol lle yr oedd angen am danynt.* Yn mhellach, y mae y ddadl yn cael ei chadarnhau yn fawr gan y ffaith mai mewn amgylchiad o *ddau afreoleidd-dra*, yn hytrach na dau amgylchiad cyffredin, sydd fel yma yn cael eu cymmesuro." Anghraifft nodedig arall o attaliad gweithrediad rheolaidd un o ddeddfau natur sydd i'w chanfod mewn cyssylltiad â gweithrediad attyniad dysgyrchol, yr hwn sydd yn cynnyrchu cyfnewidiad parhaus yn llwybr pob planed i fyny hyd rhyw bwynt penodol; ac yna, y mae yn attal ei weithrediad, ac yn dechreu cyfnewid llwybr y blaned mewn cyfeiriad arall; ac felly yn sicrhau sefydlogrwydd parhaus y gyfundrefn heulog.

Sylwir hefyd fod doethineb y Cynlluniwr gwreiddiol mawr yn cael ei arddangos mewn modd neillduol yn y briodoledd o *harddwch* mewn gwrthddrychau bywydol a difywyd. Yma, y mae amcan a bwriad yn eithaf amlwg yn y cyfaddasrwydd neillduol ac eglur ag sydd rhwng chwaeth ac arferiadau creaduriaid, a'r hyn a ellir ei weled â'r llygad. Teimlir y fath bleser i sylwi ar weithredoedd natur, y rhai sydd fwyaf amlwg i'n synwyrau; ac nis gellir lai na sylwi nad yw y gwrthddrychau hyny, y rhai a roddant deimlad o annymunoldeb wrth edrych arnynt, ond yn anfynych yn presennoli eu hunain i'r llygad. Y mae lliwiad ysblenydd y deyrnas lysieuol, a chroen llyfn ysnodenog y greadigaeth anifeilaidd, a phlu hyfryd y llwythau asgellog, oll yn rhoddi i ni hyfrydwch wrth syllu arnynt. Ystyrier eto mor hardd yw ymddangosiad allanol y ffurf ddynol. Meddylier am y rhanau a'r defnyddiau o'r rhai y mae y cyrff mwyaf lluniaidd a phrydferth wedi eu cyfansoddi, ac ni bydd un sylw pellach yn angenrheidiol er dangos mor ragorol y mae y pethau hyn wedi eu gosod yn nghyd, fel ag i ffurfio corff, yr hwn sydd yn alluog i arddangos ffurf a chyflunieiddrwydd yn ei gyfatebiaeth, a phrydferthwch yn yr olwg arno. Y mae yr esgyrn yn cael eu gwisgo, y coluddion yn cael eu cuddio, a garwder y cyhyrau yn cael ei lyfnhau a'i esmwythau; a'r cyfan yn cael ei orchuddio gan y croen, yr hwn sydd yn troi y defnyddiau annymunol yr olwg arnynt wrth dori i mewn iddynt yn wrthddrych o attyniad i'r golwg, neu a dyweyd y lleiaf, yn un ag y gellir edrych arno gyda boddineb a phleser. A pho manylaf y sylwir ar weithredoedd natur, mwyaf oll fydd genym o achos rhyfeddu y perffeithrwydd a'r prydferthwch ag sydd yn ymdaenol ar hyd-ddynt yn mhob lle. A pha ham y mae yr holl bethau hyn yn bod? Am eu bod yn rhoddi pleser i'r golwg, a dymunoldeb i ddyn a chreaduriaid ereill; o blegid nid yw y Creawdwr wedi gommedd y teimlad o hyfrydwch i'r trychfilyn gwaelaf sydd yn rhodio gwyneb y ddaiar. Ond yn yr ymddangosiadau meddyliol a rhesymol, y rhai nis gellir eu cynnyrchu gan unrhyw gyfarfyddiad o weithrediadau fferyllol a gallofyddol, y mae yr amlygiadau egluraf o amcan neu fwriad i'w canfod o holl weithredoedd adnabyddus y greadigaeth. Y mae y dosbarth hwn o ymddangosiadau yn cynnwys y dadblygiadau dirgelaidd a rhyfeddol o reddfau anifeilaidd, yn nghyd â gweithrediadau a chynnyrchion aruthrol y meddwl dynol. Y mae agos i bob ysgrifenydd ar dduwinyddiaeth naturiol wedi cymmeryd sylw o ymddangosiadau lle y mae greddf yn gweithredu; ond am y meddwl dynol, yr hwn ydyw y darganfyddydd mawr o olion meddwl ac amcan mewn gweithredoedd ereill, a'r hwn ynddo ei hun, o ran ei gyfansoddiad a'i weithrediadau, yw y creadur uchaf ar y ddaiar, a'r esboniad penaf o'r Meddwl Anfeidrol ei hun—y mae wedi dianc rhag sylw yr holl ysgrifenwyr ar y ddadl anianyddol, ond Arglwydd Brougham, ar ol dyddiau Plato a Cicero. "Greddf," ebe Paley, "ydyw tuedd, yn flaenorol i brofiad, ac yn annibynol ar addysg. Nid trwy addysg na phrofiad y mae y creaduriaid afresymol yn meithrin ac yn ymgeleddu eu rhai bach. Y mae yr oen yn cael ei gyfeirio ar y cyntaf at deth ei fam; y mae yr aderyn yn adeiladu ei nyth; y gleisiad yn myned i fyny i'r afon i gladdu ei rawn; a'r gwenyn yn adeiladu eu diliau mel. Y mae yn rhy anhawdd peidio synu at amrywiaeth a chywreinrwydd gweithrediadau greddf; a byddai yn anhawdd peidio canfod arddangosiad o amcan neu fwriad yn cael ei arddangos trwyddynt, ond cymmeryd ychydig o ystyriaeth. Y mae pob greddf yn hollol yn y creadur priodol, ac yn cael ei galw allan i weithredu yn ei hamser priodol. Y mae gweithrediadau greddf yn wastad naill ai at ddiogelu y creadur ei hun, neu ynte at genedlu ei ryw. Pe byddai i reddf unrhyw greadur, neu unrhyw rywogaeth o greaduriaid, newid—megys, er anghraifft, pe byddai greddf ci neu ddafad yn cael ei throsglwyddo neu ei phlanu mewn rhyw greadur arall—fe fyddai annhrefn a dinystr yn sicr o gymmeryd lle yn uniongyrchol. Nid oes un berthynas fferyllol ag y gall defnydd fod ynddi, nac un trefniant gallofyddol mewn anifeiliaid, a all gynnyrchu greddf. Ac nid oes un ffordd resymol i roddi cyfrif am yr amryw-

Digitized by Google

laethau, y cyfaddasiadau, yr amcaniadau, y ffugrau mesuregol, a'r peirianwaith cywrain, ag sydd yn perthyn i reddf, ond trwy ei phriodoli hi i fywyd uwch a dealltwriaeth ardderchocach. Os arddangosir greddf fel cynnyrch cyfundrefn, y mae y gofyniadau canlynol yn cyfodi yn uniongyrchol. Pwy a'u creodd yn y cyfansoddiad, a phwy a'u gosododd yn nghyd fel ag i gynnyrchu greddf? Os dywedir mai sigliadau (*vibrations*) gallofyddol sydd yn eu cynnyrchu, yna yr ydys yn barod i ofyn, pwy a luniodd y peiriant ag sydd yn gosod pethau mewn ysgogiad? Edrycher ar y plentyn yn troi y peiriant rhifyddol, ac yn gweithio allan âg ef gynnyrchion rhyfeddol rhifyddiaeth: onid yw yn naturiol gofyn, pa un ai i athrylith y plentyn sydd yn troi y peiriant, ynte i athrylith Mr. Babbage, ei ddyfeisydd, y mae y cynnyrch i'w briodoli? Edrycher eto ar y wenynen yn ffurfio y cwch, ac yn dwyn y gorchwyl yn mlaen gyda golwg ar ddull y diliau, a'u gosodiad yn nghyd, gyda'r cywreinrwydd uchaf—er sicrhau y gofod mwyaf gyda'r swm lleiaf o ddefnydd—ac yn mabwysiadu yr un drefn yn hollol ag y buasai y mesuronydd mwyaf cywrain yn ei wneyd yn ol rheolau manylaf mesuroniaeth—ac onid yw yn rhesymol gofyn, Pa un ai yn y wenynen y mae y ddoethineb mesuregol at y gorchwyl, ynte yn yr hwn a wnaeth y wenynen, ac a'i defnyddiodd hi at y gorchwyl?

Ond y meddwl dynol yw y cynnyrch penaf a'r prawf egluraf o bob peth yn y byd o ddealltwriaeth y Creawdwr. Y mae y profion o fodolaeth bersonol ac annibynol y meddwl mor amlwg, llawn, a boddlonol, ac hyd yn oed yn fwy felly na'r profion a ddygir dros fodolaeth defnydd ei hun. Yr ydym yn hollol ymwybodol ein bod yn meddwl, a bod gweithrediadau y meddwl yn cael eu dwyn yn mlaen yn hollol annibynol ar bob defnydd. Mewn canlyniad, y mae yn rhaid fod gan y meddwl fodolaeth wirioneddol; ac felly, ei fod mor resymol ei gymmeryd fel gwrthddrych mewn duwinyddiaeth naturiol, ag unrhyw wrthddrych teimladwy. Y mae Dugald Stewart, ac ereill, wedi dangos fod cyfansoddiad a gweithrediadau y meddwl yn destynau mor briodol i ymchwiliaeth a rhesymiaeth gasgliadol (*inductive reasoning*) ag ydyw cyfansoddiad a gweithrediadau defnydd; ac y gellir cymmeryd meddwl yn destyn sylw a phrawf yn gystal ag unrhyw ddefnydd materol. Trwy ein hymwybyddiaeth a'n hadfyfyriaeth, yr ydys yn gallu dal ar, sylwi, ac ymchwilio i mewn i weithrediadau ein meddyliau, ac i adnabod eu gwir sefyllfa. A thrwy weithrediad dansoddiaeth (*abstraction*) a sylw, yr ydys yn gallu gwneyd y meddwl yn wrthddrych neu destyn prawf, attal ei weithrediadau—eu troi i ryw arweddiad arall—a'u cymmesuro pan yn gwyro at afreolaeth. Ac felly â'r un rhywogaeth o resymau, trwy y rhai yr ydys yn canfod profion o amcan neu fwriad mewn cyssylltiad â defnydd, yr ydys yn casglu math o ffeithiau deallol er profi arddangosiad o fwriad neu amcan yn nghyfansoddiad a gweithrediadau y meddwl. Mae cyfansoddiad y meddwl yn rhoddi y profion amlycaf o'r bwriad neu yr amcaniad mwyaf cywrain. Cymmerer, er anghraifft, y gallu o resymu; neu yn hytrach, yn gyntaf, y gallu o gymharu meddylddrychau â'u gilydd, a thynu casgliadau oddi wrthynt, ac yna cymharu y casgliadau â'u gilydd. Yr offeryn mawr yn y gwaith hwn ydyw sylw, y gallu trwy yr hwn y mae y meddwl ei yn sefydlu ei hun ar unrhyw wrthddrych; a thrwy yr hyn y mae gweithrediadau ereill yn cael eu rhwyddhau, ac heb yr hwn y byddai yr egni o'u cyflawnu yn boenus, os nad yn anmhosibl. Mae y meddwl wedi ei gynnysgaethu âg amrywiol bethau, i'w gynnorthwyo yn y gorchwyl hwn; megys chwilgarwch, neu syched am wybodaeth, yr hyn sydd yn gwneyd y meddylddrych newydd yn wrthddrych o serch, a thrwy hyny dueddu y meddwl at y pwnc a'i cynhyrfodd yn y dull hwn. Y cof hefyd sydd yn allu meddyliol o wasanaeth neillduol i'r dyn, heb yr hwn nis gellid gwneyd un math o gynnydd deallol. Y mae gafaelgarwch y cof yn fwy neu lai yn ol fel y byddo y sylw wedi cael ei roddir ar y pwnc yn mlaen llaw; canys trwy dalu sylw a chadw y meddwl ar unrhyw bwnc, yr ydys yn peri i'r meddylddrychau am dano wneuthur argraff ddyfnach ar y cof, ac aros yn hwy heb eu hanghofio. Y mae parodrwydd y cof eto mor ddefnyddiol a'i afaelgarwch; ac y mae arferiad yn ein galluogi i drethu ein cof fel ag i'w wneyd yn barod a sicr yn ei weithrediad. Y mae arferiad hefyd yn ddeddf yn ein natur, drwy yr hon y mae unrhyw orchwyl yr ymarferir âg ef yn dyfod yn haws trwy ei arfer; gallasai y peth fod yn y gwrthwyneb, fel ag i beri i fynychiad o'r un peth ei wneyd yn fwy poenus ac anhawdd ei gyflawnu; a phe buasai felly, buasai cynnydd mewn dysgeidiaeth yn nesaf peth i anmhosiblrwydd. Ond yn lle hyny, y mae arferiad gyda ni, yn ol cyfansoddiad pethau fel y maent, yn brif foddion cynnydd; a'r hyn hefyd sydd yn dra effeithiol er gogwyddo ein gwahanol alluoedd er eu gwneyd yn ufudd i'n hewyllys. Edrycher eto ar ein teimladau a'n nwydau, a chanfyddir yn amlwg eu bod wedi eu hamcanu er ateb dybenion penodol. Y mae *cariad* wedi ei amcanu er sicrhau parhad y rhywogaeth. Y mae serch wedi ei phlanu er sicrhau i'r rhai ieuainc gael chwareu teg a meithriniaeth briodol. Y mae cydymdeimlad yn cenedlu serch ac anwyldeb at y rhai a fyddo mewn adfyd a gorthrymder, gan ein tueddu i'w cynnorthwyo a'u diwallu. Y mae gobaith yn ein calonogi yn ein holl lafur, ac yn ein cynnal rhag ymollwng yn nghanol ein holl drallodau. Y mae ofn yn dysgu i ni ochelgarwch a'r angenrheidrwydd o arfer callineb mewn trefn i'n diogelu rhag peryglon. Y mae digter hefyd, er ei fod yn boenus, yn tueddu i'n cynhyrfu i amddiffyn ein hunain yn erbyn cam, ac i'n parotoi o ran ein teimlad, os bydd raid, i gyfarfod âg anghаredigrwydd a cham oddi ar ddwylaw ereill. Felly, gwelir yn amlwg fod y gwahanol deimladau a'r nwydau dynol wedi eu planu yn y meddwl gydag amcanion uchel a phenodol, er llanw eu lleoedd a'u gweithrediadau yn eu cyssylltiad â'r bywyd dynol. A'r gweithrediadau deallol a theimladol hyn, yn ddiau, ydynt ryfeddodau penaf natur, ond eu hystyried yn briodol, er mai wrth y deall, ac nid wrth y synwyrau allanol y maent yn llefaru. Os ydys, gan hyny, yn beiddio dywedyd nas gallasai y llygad gael ei greu ond gan un perffaith gyfarwydd â deddfau manylaf tremyddiaeth, oni ellir dyweyd hefyd nas gallasai y meddwl dynol gael ei lunio a'i ddonio ond gan y medrusrwydd uchaf, yr hwn nis gallasai fod yn llai na doethineb Creawdwr sydd yn anfeidrol mewn gallu?

Yn awr, wedi cymmeryd golwg fer ar achosiaeth, yn nghyd â'r amlygiadau neillduol o amcan neu fwriad yn ngwaith y greadigaeth, yr hyn y rhaid edrych arnynt fel sylfeini neillduol duwinyddiaeth naturiol, ceir bellach fyned yn mlaen at y prif bwnc yn yr ymchwiliad, sef y ddadl,

Digitized by Google

neu y rhesymiad dros fodolaeth Duw. Yn yr ymresymiad hwn, arferir yn fynych ddau ddull o resymu: sef y ddadl neu yr ymresymiad *à priori*, a'r ddadl neu yr ymresymiad *à posteriori*. Y mae y blaenaf yn ymresymu *yn mlaen*, a'r diweddaf yn ymresymu *yn ol*. Y mae y naill yn cychwyn allan oddi wrth syniadau (*conceptions*) y meddwl, a'r llall oddi wrth ffeithiau. Y mae un yn ymresymu oddi wrth yr hyn *sydd*, at yr hyn sydd *raid fod;* a'r llall oddi wrth yr hyn *sydd raid*, sydd *wedi bod*. Y mae y rhesymiad *à priori* yn ymgeisio profi bodolaeth yr achos cyntaf oddi wrth egwyddorion tragwyddol a syniadau gwreiddiol yn y meddwl; a'r ymresymiad *à posteriori* yn amcanu at yr un nod, trwy gychwyn oddi wrth ffeithiau, neu yr amlygiadau o fwriad neu amcan, sydd i'w canfod yn wasgaredig yn ngwaith y greadigaeth faterol a meddyliol. Ond fel y ceir achos i sylwi eto, y mae yn anhawdd canfod fod yr ymresymiad *à priori* yn ddigonol o ran ei natur er cyrhaedd ei amcan. Ac er fod yr ymresymiad *à posteriori* yn cychwyn yn is, ac o safle sicrach, ac yn esgyn ar hyd llwybr eglurach a diogelach at yr Achos Cyntaf, eto, y mae rhywbeth o natur yr *à priori* yn angenrheidiol i'w chyfanu, yn enwedig yn ei chysylltiad âg achosiaeth. Ond am yr ymresymiad *à priori*, y mae hwn, fel y sylwyd eisoes, yn cychwyn gydag egwyddorion ansoddol neu syniadau gwreiddiol y meddwl, gan amcanu profi bodolaeth angenrheidiol yr Achos Cyntaf, a hyny yn annibynol ar brofiad a sylwadaeth. Ac yn ol y dosbarthiad diweddaf o hono, y mae yn cael ei ranu i dri math, sef—

1. Y bodegol (*ontological*). Gelwir ef felly am ei fod yn sylfaenedig ar syniad penodol o eiddo y meddwl am fod neu fodolaeth. Sylwedd y prawf hwn yn fyr ydyw hyn:—Y mae y syniad am y bod perffeithiaf y gall y meddwl ei ddychymygu yn cynnwys ynddo, fel elfen hanfodol, y meddylddrych o fodolaeth angenrheidiol; yn gymmaint felly ag y mae y syniad am ddau a dau yn cynnwys neu yn gwneyd i fyny bedwar. Gan fod y syniad am y bod mwyaf perffaith y gall y meddwl ei ffurfio yn cynnwys ynddo fodolaeth angenrheidiol, dadleuir fod y cyfryw fod angenrheidiol yn bodoli. Felly ceisir profi bodolaeth Duw oddi wrth gynnwys y syniad a ffurfir yn y meddwl am y bod perffeithiaf. Sylfaenwyd y rhesymiad hwn ar egwyddor fawr athroniaeth Descartes; sef, fod pob syniad clir a phendant y gall y meddwl ei ffurfio yn cynnrychioli hanfodiad gwirioneddol o'r hyn a gynnwys y syniad hwnw; neu mewn geiriau ereill, y mae pob peth y gallaf fi ffurfio syniad clir am dano yn bodoli. Pa un bynag ai i Anselm, Thomas Aquinas, ynte i Descartes, ynte i bwy, y perthyn y syniad uchod yn wreiddiol, y mae pob lle i gredu nad yw yn syniad cywir. Canys gellid meddwl, fel y sylwa Mansel [erthygl *Metaphysics*, yn yr *Encyclopædia Britannica*, wythfed argraffiad, cyf. xiv. td. 619] "nas gall un arddangosiad oddi wrth syniadau brofi gwir fodolaeth y gwrthddrych y synir am dano; a hyd nes y gwneir hyn, nid yw arddangosiad o briodoliaethau bod tybiedig yn profi dim yn rhagor na'r cyssylltiad sydd rhwng rhyw syniadau neu ystyriaethau â'u gilydd yn ein meddyliau. Nis gellir byth ddangos gwir fodolaeth gwrthddrych trwy feddwl am dano; canys y mae yn llawn mor hawdd arddangos gwrthddrychau dychymygol a rhai gwirioneddol yn y meddwl. Rhaid i fodoldeb peth gael ei brofi gan gynreddf (*intuition*), ac nid gan syniad; rhaid ein bod yn alluog i gyfeirio at ryw ffeithiau penodol o eiddo ymwybyddiaeth, yn y rhai y byddo y gwrthddrych y byddys yn ymofyn am dano yn cael ei bresennoli o'n blaen." Ac y mae sylw Kant cyn hyny yn dangos yn amlwg fod yr egwyddor hon "yn cymmeryd yn ganiataol yr hyn y dylid ei brofi, ac yn gwneuthur syniadau tu mewnol y meddwl yn fesur ac unig brawf o bob bodolaeth y tu allan; tra mewn gwirionedd nad yw y naill yn ddigon i brofi posiblrwydd y llall, llawer llai i brofi ei fodolaeth gwirioneddol: nid ydyw ond ymresymiad o'r un natur a phe byddai i ddyn oddi ar y syniad clir am y swm o gan dolar yn ei feddiant, i gasglu fod yn rhaid fod y cyfryw swm ganddo." Ac heb law hyny, fel y sylwa Mansel, yn mhellach, "nid ydyw y ddadl hon oddi wrth ffeithiau cynreddf yn ymresymiad *à priori*, ond *à posteriori*, o ran ei natur; nid ydyw yn cychwyn gyda syniad cyffredinol mewn trefn i arddangos trwy ddansoddiad y syniadau israddol cynnwysedig ynddo, neu i gyflunio mewn dychymyg wrthddrych cyferbyniol iddo; ond y mae yn cychwyn gyda ffeithiau penodol profiad, arddangosedig mewn ymwybyddiaeth fewnol neu allanol mewn trefn, i benderfynu natur y gwrthddrych yr hwn y mae y ffeithiau hyn yn ei nodi allan."

2. Y meddyliol neu yr eneidiol (*psychological*). Y mae y rhesymiad hwn yn cael ei alw y meddyliol, neu yr eneidiol, am ei fod yn seiliedig ar un o ffeithiau y meddwl. Ond er fod y rhesymiad hwn yn cael ei osod wrtho ei hun, eto y mae o ran ei natur yn dal perthynas agos, ac yn dwyn tebygrwydd mawr i'r ymresymiad blaenorol, sef y bodegol. Swm yr ymresymiad sydd fel y canlyn:—Yr wyf yn meddu y syniad am Fod anfeidrol, tragwyddol, a pherffaith:— y mae yn rhaid cael achos digonol i roddi cyfrif am y ffaith fy mod yn meddu y fath syniad; nis gallasai ddyfod oddi wrthyf fy hunan na'r byd; nis gallasai ddyfod oddi wrth y meidrol; y mae yn rhaid mai Duw yw awdwr y cyfryw syniad; ac mewn canlyniad, y mae yn rhaid ei fod ef yn bodoli. Felly, ymddengys mai y gwahaniaeth rhwng yr ymresymiad hwn, a'r ymresymiad bodegol yw, fod un yn seiliedig ar y ffaith ein bod yn meddu y cyfryw syniad, a'r llall yn seiliedig ar ei gynnwysiad tu mewnol. Gellid meddwl nad yw y rhesymiad hwn, mwy na'r llall, yn cynnwys nemawr iawn o rym ynddo, nac yn gallu dwyn ond ychydig o argyhoeddiad i'w ganlyn i'r meddwl. Canys ymddengys ei fod yn cymmeryd yn ganiataol yr hyn ag sydd i'w brofi. Peth arall, nis gellir edrych ar y gosodiadau yn yr ymresymiad ar un cyfrif yn hunanbrofedig, amlwg, na sicr. Mewn canlyniad, nis gellir pwyso dim ar y casgliad a dynir oddi wrthynt: canys pwy a all argyhoeddi y meddwl yn hollol, neu brofi tu hwnt i ammheuaeth fod y cyfryw osodiadau mewn perthynas i'r syniad am Fod anfeidrol, tragwyddol, a pherffaith—sef "nas gallasai ddyfod i mi oddi wrthyf fy hunan, na'r byd—nis gallasai ddyfod oddi wrth y meidrol"—yn wirionedd? Wrth briodoli y syniad tu mewnol uchod i Dduw fel ei achos, pa beth sydd genym i brofi hyny? Ac os dywedir, gyda Kant, nad oes gan y syniad un prawf o'i wirioneddolrwydd gwrthddrychol, ond mai cyfodi oddi ar syniadau neu egwyddorion mewnol y meddwl y mae, pwy a all wrthbrofi yr haeriad? Mewn canlyniad, os yw cynseiliau yr ymresymiad yn ammheus, pa sicrwydd a all fod yn ei gasgliadau? A pheth arall, nis gellir edrych ar y prawf fel yn perthyn yn hollol o ran

Digitized by Google

ei natur i'r rhesymiad *à priori*, yn gymmaint a'i fod yn seiliedig ar un o ffeithiau y meddwl.

3. Y rhesymiad bydhanegol neu drefnedigol (*cosmological*). Y mae y rhesymiad hwn yn cael ei alw felly am ei fod yn cychwyn oddi wrth y greadigaeth, neu oddi wrth y gosodiad "fod rhywbeth yn bodoli;" ond nid yw yn cyfeirio at unrhyw briodoledd neillduol berthynol i wrthddrychau teimladwy adnabyddus i ni, a pherthynol i'n byd teimladwy ni. Yn hyn y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y rhesymiad bydhanegol (*cosmological argument*), yn y ddadl *à posteriori*, yr hon sydd yn sylfaenedig ar yr ystyriaeth o gyfansoddiad penodol y byd teimladwy hwn. Y ddadl neu y rhesymiad dan sylw, o ran ei sylwedd, sydd fel y canlyn:—Os oes rhywbeth yn bodoli, yna y mae yn rhaid hefyd fod rhyw Fod perffaith ac angenrheidiol yn bodoli. Yn awr, yr ydwyf fi fy hunan, o leiaf, yn bodoli; mewn canlyniad, y mae yn rhaid fod rhyw Fod perffaith ac angenrheidiol yn bodoli. Y mae y gosodiad lleiaf yma yn cynnwys prawf, a'r mwyaf yn rhesymu oddi wrth brawf cyffredinol at fodolaeth Bod angenrheidiol. Am y rhesymiad hwn, yn y lle cyntaf, nid yw yn perthyn yn hollol i'r ddadl, neu y rhesymiad *à priori*, yn gymmaint a bod y rhan gyntaf o hono yn seiliedig ar ffaith allanol; a chan belled a hyny, y mae yn perthyn i'r rhesymiad *à posteriori*. Gellid barnu, fel y sylwa Kant, mai un amcan mawr wrth ddefnyddio y rhesymiad hwn, yn hytrach na'r rhesymiad bodegol, yw osgoi yr angenrheidrwydd o brofi bodolaeth Bod angenrheidiol *à priori* oddi wrth syniadau yn unig—prawf, yr hwn o ran ei natur sydd yn rhwym o fod yn fodegol; yr hwn hefyd sydd yn hollol aneffeithiol i ddwyn yr argyhoeddiad lleiaf i'r meddwl ymofyngar o'i nerth a'i gywirdeb: yr hyn nis gellir ei wneyd heb allu profi fod y syniadau eu hunain yn' cyfateb o angenrheidrwydd i sylweddau allanol neu wrthddrychol—yr hyn sydd yn anmhosibl. Ond am y rhesymiad hwn, er ei fod yn amcanu osgoi un o brif wendidau y rhesymiad bodegol, heb law ei fod yn y rhan gyntaf yn perthynu i'r ddadl *à posteriori*, y mae yn methu yn hollol yn ei amcan yn y rhan olaf o hono; canys y mae yn seiliedig ar yr egwyddor fod syniadau meddyliol yn cyfateb yn hollol i berthynasau hanfodiad allanol a sylweddol: sef, "fod yn rhaid fod achos i bob peth dygwyddiadol; yr hon sydd yn egwyddor heb ystyr iddi, oddi gerth yn y byd teimladwy, neu anianyddol. O blegid nis gall y syniad deallol pur am y dygwyddiadol gynnyrchu un gosodiad cyfosodol, megys eiddo achosiaeth; yr hon ei hunan sydd heb ystyr iddi, neu heb un nodweddiad gwahanredol iddi ond yn y byd ymddangosiadol. Ond yn yr anghraifft hon, y mae yr egwyddor yn cael ei defnyddio er ein cynnorthwyo y tu hwnt i derfynau ei chylch."—[*Kant's Critique on Pure Reason*, Meiklejohn's *translation*, td. 374].

O barth i ddiffygolrwydd y rhesymiadau uchod, y mae Henry Rogers yn dywedyd fel y canlyn:—"Pa rym bynag a dybir yn perthynu i'r profion o'r Duwdod sydd yn cael eu tynu o'r meddwl—o'r syniad am Dduw yn y meddwl dynol—nis gallwn ni weled dim ynddynt, hyd yn oed pan eu cyflwynir yn y wedd oreu, llawer llai gyda golwg ar y sefyllfa anhapus a roddir iddynt yn athroniaeth Descartes, nis gall yr anffyddiwr gyda'i gynseiliau *ef* eu hosgoi. Wrth edrych hyd yn oed ar y ffurf fwyaf rhesymol o'r ymresymiad, ymddengys yn ddiau yn llawn mor hawdd i un, nad yw yn teimlo dim anhawsder i haeru, nad yw yr holl brofion a arddengys y greadigaetho ddoethineb yn cynllunio ac yn llywodraethu yn ddim ond ffrwyth damwain, i haeru yn union yr un peth am yr hyn a ymddengys yn llais cynreddf (*intuition*) a thueddiadau dieithriad, o'r bron, cyfansoddiad y meddwl dynol. Gall ef ddywedyd am y cyfan yn llawn mor gysson, nad yw hyn oll ond un yn chwaneg o branciau diderfyn damwain!"—[*Henry Rogers' Essays from the Edin. Review*, cyf. i. td. 383.] Ond y mae yn eithaf tebygol mai y ffurf fwyaf adnabyddus o'r hyn a elwir yr ymresymiad *à priori*, yn y wlad hon o leiaf, yw yr hyn a adwaenir wrth yr enw *Dadl neu Resymiad y Dr. Samuel Clarke*. Ond er ei bod yn myned ar enw Clarke yn benaf, fel yr hwn a'i coleddodd yn fwy na neb arall, eto y mae yn amlwg fod awgrymiad o'r cyffelyb ymresymiad yn y *Scholium Generale*; yn y *Principia*, gan Syr Isaac Newton; yn *Locke' sEssay*, llyfr iv. pen. x. adr. iii, iv.; ac yn *Dr. Cudworth's Intellectual System*, llyfr i. pen. v. adr. 3. Y mae yr ymresymiad hwn yn ddosbarthedig i ddwy ran; un yn nacaol, a'r llall yn gadarnhaol. Amcan y rhan nacaol o'r ymresymiad ydyw profi nad yw defnydd, neu y greadigaeth weledig, yn meddu bodolaeth angenrheidiol; hyny ydyw, profi bod dechreuad wedi bod iddi. Ac amcan y rhan gadarnhaol ydyw profi fod rhywbeth yn bodoli erioed, ac felly yn meddu bodolaeth angenrheidiol, ac mai yr hyn sydd felly ydyw Duw. Egwyddor sylfaenol yr holl ymresymiad ydyw *ex nihilo nihil fit*=o ddim nis gall dim ddyfod. Ac y mae cadwyn yr ymresymiad yn myned yn mlaen fel y canlyn:—Y mae rhywbeth yn bodoli yn bresennol; ac mewn canlyniad, yn ol natur yr ymresymiad, y mae rhywbeth yn bod erioed. Y mae yr hyn sydd yn bod erioed yn bod o angenrheidrwydd; hyny yw, nid yw yn dibynu am ei fodolaeth ar ddim y tu allan iddo ei hun. Yn mhellach, y mae yr hyn sydd yn bod fel hyn o angenrheidrwydd yn gyfryw ag y byddai y dybiaeth iddo beidio a bod yn wrthddywediad pendant, y fath fel nas gallai y meddwl, heb roddi trais arno ei hun, dybio y posiblrwydd o'r peth. Ond a oes rhywbeth yn dyfod i fyny â'r ammodau neu y gosodiadau hyn? Nid yw y byd gweledig; canys nid yw y dybiaeth iddo beidio a bod yn cynnwys un gwrthddywediad, nac yn treisio dim ar y meddwl wrth ddyfalu am y peth; felly, nid yw defnydd, neu y byd gweledig, yn meddu bodolaeth angenrheidiol. Ond a oes rhywbeth arall? Oes: medd y rhai a goleddant ac a gredant y rhan nacaol hon o'r ymresymiad hwn; sef gofod (*space*), neu yr eangder diderfyn, a'r parhad diderfyn. Y mae y rhai hyn yn syniadau ag y mae cyfansoddiad y meddwl yn ei orfodi i'w derbyn: nis gall dybio y gwrthwyneb iddynt; nis gall dybio iddynt beidio a bod. Y mae y rhai hyn, gan hyny, yn meddu bodolaeth angenrheidiol: ond nid ydynt yn bod felly arnynt eu hunain, o blegid nid yw eangder a pharhad ond moddau, ffurfiau, neu briodoleddau; ac o ganlyniad, y mae yn anmhosibl iddynt fodoli ond mewn cyssylltiad â rhyw wrthddrych neu fodolaeth, o'r hwn y maent yn briodoleddau. Ac mewn canlyniad, fod yn rhaid fod y cyfryw Fod angenrheidiol a thragwyddol yn bodoli, a bod yn rhaid mai Duw yw y Bod hwnw. Dyna fel y gosodir allan, ac yr amcenir profi, yr ochr nacaol o'r rhesymiad hwn. Ond gyda golwg ar yr ymresymiad ei hunan, addefir, yn y lle cyntaf, erbyn hyn yn lled gyffredinol, nad yw yn perthyn i'r

Digitized by Google

ymresymiad *à priori* o ran ei natur, ond mai agweddiad neillduol o'r ymresymiad *à posteriori* yw, yn gymmaint a'i fod yn cychwyn oddi wrth ac yn sylfaenedig ar y ffaith eglur, fod rhyw-beth yn awr yn bodoli, ac nid oddi wrth y syniad yn y meddwl, yn annibynol ar brofiad, yr hyn sydd wrth wraidd pob ymresymiad *à priori.* Yn nesaf, nid yw yr ymresymiad ei hun, beth bynag yw ei natur, yn cario un argyhoeddiad i'r meddwl, am ei fod yn cymmeryd y cynseiliau yn ganiataol, heb y prawf lleiaf o'u gwirionedd yn y gosodiad: canys y mae holl faich prawf yr ymresymiad yn disgyn ar yr haeriad mai moddau, ffurfiau, neu briodoleddau rhyw fod yw yr eangder diderfyn, a'r parhad diderfyn; ond beth sydd yn dangos hyny? Nis gellir cael un prawf o'r peth. Canys gellir tybied nad oes un gwrthddywediad, nac un anhawsder wrth feddwl am yr eangder a'r parhad diderfyn yn bodoli, heb eu hystyried na moddau na phriodoleddau i un bod pa bynag. Ac y mae gwrthddadl Arglwydd Brougham i'r gosodiad hefyd yn ymddangos yn neillduol deg a phriodol:—"Os golygir eangder neu le yn briodoledd, ac os yw yr eangder diderfyn yn briodoledd bod annherfynol, y mae yn canlyn fod eangder terfynol yn briodoledd bod terfynol. Ond pa fod?"—[*Lord Brougham's Discourse*, adr. iv. td. 85.] A phe meddylier am gyfran benodol o le, rhwng dau wrthddrych, oni byddai yn eithaf cysson a rhesymol, yn ol y dyb uchod, i ofyn, priodoledd berthynol i ba fod y gallai y lle hwnw gael ei ystyried?

Yn awr, trwy fod cynseiliau yr ymresymiad fel yma yn hollol annhebyg i wirionedd, mae y casgliad a dynir oddi wrthynt yn rhwym o fod yn anghywir. Y mae ereill, heb law y Dr. S. Clarke, wedi bod yn amcanu ffurfio ymresymiad *à priori* er profi y Bod o Dduw, yn y wlad hon; yn mhlith y rhai y saif eiddo Moses Lowman [*Argument à priori to prove the Being, the Unity, and Perfections of God, by Moses Lowman, with an Introduction by the Rev. Dr. Pye Smith:* T. Clarke, Edinburgh, 1840] yn dra amlwg ac adnabyddus. Ond er fod y rhesymiad uchod wedi ei osod allan gyda chymmaint o fedr a theg ymddangosiad, fel ag i beri i rai, sydd â'r pwys mwyaf i'w roddi ar eu syniadau mewn pynciau duwinyddol, gael eu tueddu i'w dderbyn, eto y mae y tri gosodiad cyntaf yn yr ymresymiad, ar y rhai y mae y prawf o fodolaeth Duw yn dibynu, yn dangos, gellid tybied, nad yw y rhesymeg yn ddifwlch yn y ddadl. Y gosodiadau ydynt fel y canlyn:—1. Y mae bodolaeth yn ddichonadwy. 2. Y mae pob bodolaeth ddichonadwy naill ai yn angenrheidiol neu ddygwyddiadol. 3. Os oes unrhyw fodolaeth yn ddichonadwy, y mae rhyw fodolaeth yn angenrheidiol. Am y gosodiad cyntaf, addefir ei wirionedd ar unwaith; o blegid addefir fod pob peth, mewn ystyr, yn ddichonadwy, os na bydd hyny yn cynnwys gwrthddywediad; nid yw fod bodolaeth yn ddichonadwy yn cynnwys un gwrthddywediad; mewn canlyniad, y mae yn ddichonadwy. Am yr ail osodiad, nid oes achos fod un ammheuaeth am ei wirionedd; sef "fod pob bodolaeth ddichonadwy naill ai yn angenrheidiol neu ddygwyddiadol." Ond am y trydydd gosodiad—sef "os oes unrhyw fodolaeth yn ddichonadwy, y mae rhyw fodolaeth yn angenrheidiol"—nid yw y rhesymeg yn ymddangos mor gadarn a difwlch. A gellir dywedyd yn ngeiriau y Dr. Wardlaw—"Oddi wrth y gosodiad neu y tyb-osodiad 'fod rhywbeth yn bodoli,' nid yw yn anhawdd canfod pa fodd y gellir cyrhaedd y penderfyniad 'fod yn rhaid fod rhywbeth yn bodoli bob amser,' a hyny trwy gadwyn o arbrofiadau rheolaidd, y rhai y mae eu dolenau yn annattodadwy. Oddi wrth fodolaeth wirioneddol, gallwn yn y modd mwyaf cyfreithlawn ac anwrthwynebadwy gyrhaedd at fodolaeth angenrheidiol. Ond nis gallaf ddeall trwy ba resymeg deg y gellir casglu angenrheidrwydd oddi wrth bosiblrwydd yn unig; pa fodd y gellir profi yr hyn sydd raid fod oddi wrth yr hyn a all fod yn unig. Nis gall y casgliad, yn ddiau, feddu mwy o sicrwydd ynddo nag sydd yn y sail oddi wrth yr hon y mae yn cael ei dynu."—[*Dr. Wardlaw's Theology*, cyf. i. td. 88.] Yn awr, gwelir yn amlwg un o ddau beth:—os cymmerir y posiblrwydd o fodolaeth yn sail, er amcanu profi bodolaeth angenrheidiol oddi wrtho, y mae y rhesymeg yn methu. O'r tu arall, os cymmerir bodolaeth wirioneddol yn sail i brofi bodolaeth angenrheidiol oddi wrtho, yna y mae y rhesymiad ar unwaith yn *à posteriori* o ran ei natur. Er gweled ymresymiad *à priori* Lowman yn cael ei ddymchwelyd yn llwyr, gwel *Dr. Wardlaw's Christian Ethics*, sylw o.

Cyhoeddwyd gwaith arall yn Edinburgh, yn y flwyddyn 1833, dan yr enw *An à priori Argument for the Being and Attributes of God, by William Gillespie.* Ail gyhoeddwyd yr un gwaith, gyda llawer o chwanegiadau ato, yn 1843, dan yr enw *The Necessary Existence of Deity.* Ond trwy fod ymresymiadau y gwaith hwn, mewn rhanau pwysig o honynt o leiaf, yn dwyn llawer o debygolrwydd i eiddo Dr. Clarke, nid oes nemawr o angenrheidrwydd sylwi arnynt yma. Wrth adael yr ymresymiad *à priori*, a chanfod fod y profion o'r natur yma yn annigonol er sefydlu y pwnc o fodolaeth Duw, fe allai nad anfuddiol fyddai crybwyll y rheswm pa ham y maent felly o angenrheidrwydd. "Y mae pob ymresymiad *à priori* i fod yn seiliedig ar ryw egwyddor neu syniad angenrheidiol yn y meddwl—rhywbeth y mae ein cyfansoddiad meddyliol yn ein gorfodi i'w gredu. Y cyfryw ydyw y syniad o'r Anfeidrol; ac ar ryw ffurf neu gilydd o'r syniad hwn y mae pob ymresymiad *à priori* wedi ei seilio; ac nid yw eangder diderfyn, a pharhad diderfyn, &c., ond gwahanol agweddau o'r syniad hwn. Yn awr, yn mha diriogaeth o'r meddwl dynol y mae cartrefle y syniad hwn? Y mae yn rhaid ateb, mai yn yr uchaf a'r fwyaf ysbrydol a fedd y meddwl; sef cynreddf, neu reswm pur yn yr ystyr mwyaf athronyddol o'r gair. Yn awr, dyma gamgymmeriad gwreiddiol pob ymresymiad *à priori*, dybygid, sef gweithio allan egwyddor o gynreddf i eglurhad rhesymegyddol—ceisio dwyn allan egwyddor angenrheidiol o ddyfnder *intuition*, a'i gwasgu i mewn i ffurfiau rhesymegyddol, yr hyn sydd yn anmhosibl.

Y mae sylw Thompson hefyd ar y pwnc hwn yn hynod darawiadol a nerthol:—"Y mae yn amlwg," medd efe, "nas gall fod y fath brawf (sef un *à priori*, oddi ar wybodaeth berffaith o'i natur) o fod Duw. Nis gallwn, trwy unrhyw ehediad o feddwl, gyrhaedd gwybodaeth gynreddfol o'r natur ddwyfol, na darllen dirgeledigaethau ei fodolaeth ef. Nid oes genym unrhyw allu deallol, tremiad yr hwn a all dreiddio i ddysgleirdeb y Mawrhydi tragwyddol. Buasai raid i ni fod yn ogyfuwch â Duw tuag at feddu arbrofiad *à priori* o'i fodolaeth angenrheidiol ef. Yr ydym yn hollol analluog i amgyffred ein bodolaeth ein hunain, neu yr eiddo un o wrthddrychau distadlaf ein synwyrau."—*Christian Theism*, cyf. i.

Digitized by Google

mewn bodolaeth, neu a all dim, neu ddifodolaeth, wneuthur rhywbeth? Rhaid fod gweithydd yn nglŷn â phob gweithred. Mewn canlyniad, rhaid i beth fod mewn bodolaeth cyn y gall weithio dim; ac felly y mae yn canlyn, os cymmerir fod peth wedi dwyn ei hunan i fodolaeth allan o ddim, ei fod yn bodoli cyn ei fod—ei *fod* yn bodoli, eto *nad ydoedd*—ei fod yn rhywbeth eto nad ydoedd yn ddim ar yr un pryd. Ië, ei fod yn amrywiol oddi wrtho ei hun; canys rhaid i achos fod yn beth ar wahân i'r hyn a achosir ganddo. Ond yma, os cymmerir fod peth wedi dwyn ei hunan i fodolaeth allan o ddim, y mae yr un peth yn achos ac yn effaith hefyd—yr hyn sydd annichonadwy.

"Felly, y mae yn eithaf amlwg fod rhyw fod yn bodoli erioed, neu nad yw erioed wedi dechreu a bod. Yn mhellach, y mae yn canlyn yn amlwg fod yn rhaid fod rhyw fod anachosedig, neu fod ag sydd yn bodoli erioed, heb un achos o hono; o blegid ni bu achos erioed i'r hyn nad ydyw wedi tarddu oddi wrth rywbeth arall; yn gymmaint nas gall dim fod yn achos o hono ei hun. Ac y mae rhywbeth yn bodoli, fel yr ymddengys oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, nad yw erioed wedi tarddu oddi wrth arall. Neu gellid ymresymu y pwnc yn amlwg fel hyn: naill ai fod rhyw fod yn anachosedig, neu fod pob bod wedi cael ei achosi. Ond os ydyw pob bod wedi cael ei achosi, yna y mae yn rhaid fod un bod o leiaf yn achos o'i fodolaeth ei hun—yr hyn sydd yn anmhosibl, fel y dangoswyd yn barod. Mewn canlyniad, nid yw yr ymadrodd a arferir yn gyffredin am y bod cyntaf, sef ei fod o hono ei hun, i'w gymmeryd ond yn unig yn nacaol; hyny yw, nad ydyw wedi deilliaw oddi wrth arall: ac nid yn gadarnhaol, megys pe buasai ryw dro wedi creu neu ei ddwyn ei hun i fodolaeth. Neu, nad yw yr hyn sydd yn cael ei arwyddocau fel yn gadarnhaol, yn y ffurf yma o ymadrodd, i'w gymmeryd ond yn unig yn yr ystyr hwn; sef, ei fod ef yn fod o'r natur hwnw, fel ag yr oedd yn anmhosibl byth iddo beidio a bod:—nid ddarfod iddo erioed, o hono ei hun, neidio allan o ddifodolaeth fel ag i fod yn fodolaeth yn bodoli."—*Living Temple*, rhan i, pen. ii, adr. 9, 10.

Ond er osgoi y rhesymiad uchod, a gwanhau ei rym, ceir rhai, er fe allai na ddywedant yn groew nad oes achos cyntaf yn bod, ac fe allai yr addefant ei fod yn wirionedd y rhaid fod rhywbeth yn bodoli o dragwyddoldeb; eto, awgrymant, os na ddywedant yn gryfach, y gallai mai y rhywbeth hwnw yw y rhes ei hun, sef y cyfanswm o achosion ac effeithiau, y rhai sydd yn awr yn myned yn mlaen—yr hon ynddi ei hun, fel yr haerant hwy, nid yw yn cynnwys un prawf o ddechreuad nac un arwydd o ddiweddiad. Neu mewn geiriau ereill, fod pethau neu fodau meidrol yn bodoli yn un gadwen dragwyddol. Ond mae ychydig o ystyriaeth yn ddigon i argyhoeddi pob meddwl diragfarn mai twyll-resymiad hollol yw y cyfryw osodiad: o blegid yn ol y dybiaeth uchod, y mae pob bod unigol ar ei ben ei hun yn dibynu ar yr un blaenorol a nesaf ato, fel yr achos o hono, ac eto y mae y cyfan o honynt yn dibynu ar ddim. Megys pe yr haerid y gallai fod cadwen annherfynol ei hyd, a phob dolen ynddi yn cael ei chynnal gan y nesaf ati, ac felly yn barhaus yn mhob anghraifft; ac eto, fod yr holl ddolenau yn gydiedig â'u gilydd yn dibynu yn hollol ar ddim. Nid ydyw yr anhawsdra o dybied i unrhyw fod ddechreu dyfod i fodoli, heb unrhyw achos, yn lleihau dim trwy y dybiaeth o fodolaeth rhes neu ddilyniad tragwyddol o'r cyfryw fodau; o blegid oddi gerth fod rhyw fod cyntaf, ar yr hwn y byddo y lleill oll yn dibynu, y mae yn amlwg y rhaid fod yr holl res yn dibynu ar ddim—yr hyn sydd yn llawn cymmaint anmhosiblrwydd a phe byddai i un o honynt fodoli yn annibynol ar y lleill. Heb law hyny, y mae y meddylddrych o gadwen dragwyddol o fodau meidrol a dibynol yn gorphwys yn anesmwyth iawn ar y meddwl, neu ymwybodaeth y meddwl; canys os ydyw rhes yn cael ei chyfansoddi o unrhyw rifedi unigol neu unau, nis gall fod ond terfynol o ran nifer y cyfryw unau wedi y cyfan, canys nis gellir coleddu y meddylddrych o'r posiblrwydd o ffurfio rhes dragwyddol o unrhyw rifedi o unau; ac os felly, sef mai terfynol yw y rhes, yna y mae yn rhaid fod rhyw fod meidrol cyntaf o'r rhes sydd yn dibynu y naill ar y llall. Ac os felly, yn mhellach, pa gyfrif ellir ei roddi am fodolaeth hwnw? Gan nas gallodd weithredu cyn iddo fodoli, nis gallodd roddi bodolaeth iddo ei hun; yna rhaid ydoedd iddo dderbyn ei fodolaeth oddi wrth rywun arall. A chan mai efe, yn ol y dybiaeth, yw y cyntaf yn rhestr y dibynolion, rhaid i'r hwn a roddes fodolaeth iddo ef fod yn annibynol, ac hefyd yn dragwyddol, yn gymmaint a'i fod mewn bodolaeth o flaen y cyntaf o ran ei fodolaeth mewn amser. Ond os gwrthodir y rhesymiad uchod ar y tir fod y rhes i'w chymmeryd yn dragwyddol neu yn ddiderfyn, yna y mae yr holl ddadl yn newid; sef, pa un ai bodau tragwyddol, ynte bodau wedi dyfod i fodolaeth mewn amser, yw y rhai sydd yn ffurfio neu yn gwneyd i fyny y rhes? Neu a ydyw rhai o honynt felly, a'r lleill heb fod? Os dywedir eu bod oll yn dragwyddol, yna nid oes creu wedi bod erioed ar un o honynt. Neu os dywedir mai rhyw rai o'r rhes sydd yn dragwyddol, a'r lleill wedi deilliaw oddi wrthynt, yna ar y tir hwnw y mae yn rhaid fod rhyw gynnifer, ychydig neu lawer, o'r bodau neu y pethau a welir, yn dragwyddol. Ac os oes rhai o honynt yn dragwyddol, rhaid, yn ol natur pethau, eu bod yn anachosedig, yn annibynedig, yn fodau o angenrheidrwydd; ac felly, yn fodau neu bethau anghyfnewidiol. Ond yn mha le y mae y cyfryw fodau i'w cael yn y greadigaeth weledig? Nid ydynt yn adnabyddus, ac nid oes un sicrwydd, a dyweyd y lleiaf, eu bod yn bodoli. Ac felly, a chymmeryd pethau yn y golwg mwyaf ffafriol i'r ammheuwr, nis gall ddwyn un prawf yn y mesur lleiaf dros ei dyb—mai rhes o fodau neu bethau yn bodoli yn dragwyddol yw y greadigaeth weledig. Mewn gwirionedd, megys yr awgrymwyd yn barod, y mae cyfansoddiad meddwl dyn yn gosod arno fath o angenrheidrwydd deallol i gredu mewn, a chwilio am, achos i'r ymddangosiadau aneirif a gyflwynir i'w sylw yn y greadigaeth weledig, ac hefyd am achos cyfatebol i'r effeithiau hyny; yr hyn sydd yn gyfystyr a dyweyd fod dyn yn cael ei orfodi megys ganddo ei hun i gredu mewn rhyw achos cyntaf o bob peth. Nis gall y meddwl byth gael ei foddloni, na byth gyrhaedd gorphwysfa, pa mor bell bynag yn ol yr ä yn ei olrheiniad o effeithiau i'w hachosion, hyd nes y cyrhaedda safle sefydlog yn yr Achos Mawr Cyntaf.

Thales, yr athronydd Groegaidd, a ddywed, "fod pob peth sydd yn symmud yn ein cyfeirio at y symmudydd; ac na byddai ond gohiriad diddiwedd o achosion, pe na byddai y symmudydd cyntaf yn ansymmudol." Ac fel y sylwa y Dr. Whewell—"Nis gall ein meddyliau gael eu boddloni gyda chyfres o achosion ac effeithiau olynol

Digitized by Google

a dibynol, heb rywbeth cyntaf ac annibynol. Yr ydys yn symmud oddi wrth effaith at achos, ac oddi wrth hwnw at achos uwch, mewn ymchwiliad am rywbeth ar yr hwn y gall y meddwl orphwys; ond os na allwn wneyd dim ond mynychu y gweithrediad hwn, nid yw o un defnydd. Yr ydys yn symmud ein haelodau, ond heb fyned dim yn mlaen. Nid yw ein gofyniad yn cael ei ateb—dim ond ei osgoi. Nis gall y meddwl gydsynio â'r dynged hon a gynnygir iddo o gael ei gyfeirio o ddygwyddiad i ddygwyddiad, o wrthddrych i wrthddrych, ar hyd golygfa ddiderfyn o achosiaeth ac amser. Yn awr, y mae y dull hwn o roddi yr ateb, sef dyweyd nas gall y meddwl fel hyn gael ei foddloni, yn ymddangos yr un peth a dywedyd fod y meddwl yn ymwybodol o egwyddor, yn rhinwedd yr hon y mae yn rhaid i'r cyfryw olygiad a hwn gael ei wrthod; y mae y meddwl yn cymmeryd yn ganiataol fod Achos Cyntaf, fel noddfa rhag gorchwyl sydd yn anghysson â'i natur ef ei hunan."—[*Dr. Whewell's Indications of the Creator*, td. 198, 199; ail argraff.]

Yn awr, hyderir y gwel y darllenydd yn eglur natur a grym y ddadl anianyddol neu fydhanegol er profi, oddi wrth yr effaith at yr achos, fod yn rhaid fod rhyw Achos Mawr Cyntaf o'r holl greadigaeth. Ond eto, teg yw sylwi mai mor bell ag y mae y rhesymiad neu y ddadl hon yn cyrhaedd, mai profi fod yn rhaid fod y cyfryw achos i'r greadigaeth yw ei hamcan, heb nodi nemawr am natur yr achos hwnw—yr hyn yw prif wasanaeth yr ymresymiad neu y ddadl amcanedigol. Y mae achosion anianyddol, neu ail achosion, yn arddangos i ni yn eglur fod yn perthyn iddynt ddylanwad, grym, a chyfaddasrwydd at gynnyrchu effeithiau penodol yn eu gwahanol gyssylltiadau, nas gallai fod yn perthyn iddynt hwy eu hunain yn wreiddiol. Ac y mae y meddylddrych hwn yn rhwym o'n dwyn yn ol yn mhellach at ryw achos uwch, i'r hwn y perthyn bywyd, meddwl, ac ewyllys; hyny yw, achos moesol, oddi wrth yr hwn y tarddodd grym yr achosion anianyddol, a pherthynasau cymhwysiadol yr ail achosion. Megys y crybwyllwyd yn barod, mewn cyssylltiad â'r agerbeiriant, fel y mae rheswm yn dwyn yn mlaen y meddwl, yn gyntaf, oddi wrth yr olwynion at y tân, yr hwn a achosodd yr ager; felly hefyd y mae yn dwyn y meddwl yn y man oddi wrth y tân at y dyn yr hwn a'i gosododd yno. Yn yr un modd, wrth syllu ar achosion anianyddol yn gweithredu, nis gellir llai na chilio yn ol o ran y meddwl nes ein gorfodir i ganfod, yn nglŷn â'u gweithrediadau, fod yn rhaid fod gweithrediad rhyw achos uwch na'r eiddynt hwy, sef Achos Moesol; hyny ydyw, achos o'r holl achosion ereill—sydd wedi bod yn eu trefnu hwy ac yn eu cynnysgaethu â'r grym a berthyn iddynt, ac yn eu cymhwyso neu yn eu cyfaddasu at eu gwahanol weithrediadau.

Wrth ddyrchafu oddi wrth achosion anianyddol at achos moesol, y mae y meddwl yn ymwybodol fod gwahaniaeth dirfawr rhwng ystyr y gair *achos*, pan ei defnyddir yn yr ystyr anianyddol o hono, a phan y defnyddir ef yn yr ystyr moesol. Wrth ymchwilio i mewn i achosion anianyddol, neu ail achosion, nid yw y meddwl yn cyfeirio ond at eu grym, eu gwahanol drefniadau, eu perthynas â'u gilydd er cynnyrchu eu gwahanol effeithiau, a'r cyfan o honynt yn effeithiau mewn ystyr anianyddol. Ond pan yn cyfeirio at achos moesol, neu yr Achos Cyntaf, y mae y gair yn cael ei ddeall am yr ewyllysiad moesol, yr hwn a greodd ac a gynnysgaethodd yr holl achosion ereill â'u grym perthynasol, sef yr achosion anianyddol, â'r grym a'r dylanwad a berthyn iddynt. Wrth olrhain y cyssylltiad rhwng y tân, yr hwn a gynnyrchodd yr ager yn yr agerbeiriant, a'r dyn yr hwn a osododd y tân yno, nid ydys yn edrych ar y dyn, nac yn ei ystyried ef fel un o'r achosion anianyddol, y rhai a gynnyrchasant yr ager: ond yr ydys yn ei ystyried fel achos o natur tra gwahanol i'r lleill; o blegid efe yw yr achos moesol, yr hwn a ddechreuodd ac a drefnodd yr holl res o'r gwahanol is-achosion yn y peiriant. Hefyd, wrth edrych ar y gwahaniaeth gogoneddus sydd rhwng yr Achos Cyntaf a'r ail achosion, gwelir yn amlwg, wrth son am res o achosion, mai hollol anmhosibl yw ystyried yr Achos Moesol, yr Achos Cyntaf, y Crëwr, megys pe na byddai ond y ddolen gyntaf yn y gadwen. O blegid byddai y cyfryw feddylddrych am Dduw, fel yr Achos Cyntaf, yn ei osod ef allan yn ddim yn rhagor na'r cyntaf yn y rhes o achosion anianyddol, ac heb fod yn gwahaniaethu oddi wrthynt, ond yn unig mai efe oedd y cyntaf. Byddai hyn yn hollol anghywir am yr achos cyntaf, ac yn cymmysgu gweithredoedd moesol *meddwl* a gweithredoedd effeithiol *ewyllys* â'r ymddangosiadau hyny, y rhai nid ydynt ond arddangosiadau o honynt, megys pe byddent yr un peth a'u gilydd. Fe fyddai hyny yr un peth a gwneyd y crefftwr ei hun yn rhan o'r gwaith a gyflawnodd. Wrth edrych, gan hyny, ar yr holl gadwen o ail achosion, dylid edrych ar yr Achos Moesol Mawr fel y celfyddydwr, neu yr awdwr, yr hwn a'u lluniodd hwynt oll; ac nid fel dolen yn y gadwen, hyd yn oed y flaenaf ynddi. Nid yw yr oriadurwr ei hun yn rhan o'r peirianwaith yn yr oriadur, ond awdwr neu wneuthurwr yw o'i wahanol ranau. Y mae y rhan fydhanegol o'r rhesymeg, neu y ddadl anianyddol mewn duwinyddiaeth naturiol, yn edrych ar y greadigaeth fel rhes o achosion ac effeithiau anianyddol, yn perthyn ac yn dibynu y naill ar y llall. Y mae y rhan hon o'r ddadl yn ymfoddloni ar ystyried y gwahanol ranau yn y rhes megys wrthynt eu hunain, heb eu hystyried fel yn anhebgorol i wneyd i fyny rhyw un cyfanwaith amcanedig. Ond y mae y rhan amcanedigol o'r rhesymiad yn cymmeryd i fyny holl gasgliadau y rhan fydhanegol fel y maent yn un ac un, ar wahân, ac mewn cyssylltiad â'u gilydd, ac yn ystyried yr holl ranau yn un cyfansawdd, mewn cyssylltiad âg un cyfanwaith; hyny yw, y mae yn edrych ar yr holl res o achosion cyssylltiedig â rhyw ymddangosiad fel moddion bwriadedig a chyfaddasedig er cyrhaedd rhyw amcan penodol a rhagfwriadedig, yr hwn a elwir yr achos diweddol. Y mae yr ymadrodd *achosion diweddol* wedi tarddu oddi wrth hen resymeg Aristotle, lle ei harferid am yr *amcan* penodol a fyddai unrhyw beth yn ateb, neu y *dyben* er cyrhaedd yr hwn yr oedd unrhyw beth wedi neu yn cael ei wneyd. Ac wrth yr ymadrodd, mewn duwinyddiaeth naturiol, y golygir, y rheswm diweddaf, y defnydd eithaf, neu yr amcan diweddol, er cyrhaedd yr hwn y byddo unrhyw beth neu bethau wedi eu trefnu a'u cyfaddasu. Gelwir y dyben neu yr amcan hwn yn *achos*, o herwydd fod y gwahanol ranau neu yr achosion perthynasol wedi eu rhoddi yn nghyd, a'u trefnu, er mwyn ei gyrhaedd, fel yr amcan mewn golwg. Felly, nid yw athroniaeth achosion diweddol yn ddim amgen na'r athrawiaeth o gyd-drefniad neu gyfaddasiad pethau er ateb neu gyrhaedd rhyw ddyben neu amcan penodol. Er nas gellir dywedyd llawer

Digitized by Google

yn ffafr yr ymadrodd fel un cyfaddas, goleu, a grymus, er gosod allan yr ystyr a amcana yn erbyn y rhai a'i condemniant; eto nid yw yn hollol mor anmhriodol ag y myn rhai ei osod allan. O blegid wrth ystyried yr amcan, er cyrhaedd yr hwn y byddys yn gweithredu, neu y bwriad a fyddo mewn golwg wrth gyfaddasu y naill beth at y llall, oni ddywedir mai y peth neu yr amcan olaf hwnw mewn golwg i'w gyrhaedd a fydd y rheswm neu yr achos o'r blaenaf? Hyny yw, onid yw y weithred gyntaf yn cael ei chyflawnu, neu y trefniant yn cael ei gyfaddasu gyda golwg ar, neu mewn trefn i gyrhaedd y llall, ac mai yr ail yw yr amcan, y defnydd—yr achos diweddol o'r cyntaf. Ond gellid sylwi nad yw y gair *achos* yn y cyssylltiad hwn i'w ddeall yn yr un ystyr ag yn yr ymresymiad bydhanegol, neu achos anianyddol, yn cynnyrchu ei effaith benodol; ond y mae i'w gymmeryd yn gyfystyr â'r rheswm, y cymhelliad, neu yr amcan ag oedd gan yr achos moesol mewn golwg wrth ffurfio a dwyn y cynlluniad o amgylch. Yr amcan neu y bwriad mewn golwg, gan hyny, yw yr achos o'r holl gadwen o weithrediadau.

Megys y sylwyd eisoes, neillduolrwydd penodol achosiaeth foesol ydyw ei fod yn arwyddocau bywyd, dealltwriaeth, ewyllysiad, ac amcan; y rhai a'u gwnant eu hunain yn amlwg yn yr effeithiau a gynnyrchant. Pan y canfyddir rhyw effeithiau neillduol wedi eu cynnyrchu ar ddefnydd, gellir, yn y cyffredin, gasglu oddi wrthynt pa un ai effaith rhywbeth o ddamwain, fel y dywedir, fyddant, neu ynte a fyddant wedi eu dwyn o amgylch yn fwriadol, ac fel moddion er ateb rhyw ddyben, ac er cyrhaedd rhyw amcan. Pan ganfu Robinson Crusoe ol troed dyn ar un o lanau ei ynys unigol, efe a welodd effaith, yr hwn a allasai yn hawdd fod wedi ei achosi yn ddifwriad neu yn ddamweiniol; er ei fod yn awgrymiad pur amlwg fod yn rhaid fod rhyw ddyn arall heb law efe ei hun, naill ai yn bod neu wedi bod yn yr ynys. Ond yr oedd hyn yn amgylchiad tra gwahanol i waith Aristippus, un o ddysgyblion Socrates, pan yr aeth yn llongddrylliad arno ar un o ynysoedd Môr y Canoldir, yn canfod ar un o lanau yr ynys hono amrywiol o luniau mesuregol wedi eu braslunio ar y tywod. Ni feddyliodd yr athronydd am fynyd fod y lluniau hyn yn olion wedi eu gadael yno yn ddamweiniol, ond efe a'u priodolai hwynt ar unwaith i ryw achos moesol—i ddealltwriaeth ac ewyllys. Yr oedd efe ar unwaith mor sicr o ran argyhoeddiad ei feddwl o'r peth, fel y gwaeddodd allan wrth ei gymdeithion, "Yr wyf yn gweled yma olion dyn gwareiddiedig." A rhaid i bawb a ddarlleno yr hanesyn hwn gydsynio â'r athronydd, fod ei gasgliad yn hollol naturiol a chywir. A diammheu y buasai ei gymdeithion mor barod i wneyd yr un casgliad ag yntau, pe buasent yn gallu deall y bwriad a'r amcan mewn golwg wrth dynu y llinellau a'r cromlinellau yn y darluniau hyny, fel yr oedd efe. Cymhwysiad o'r dull yma o ymresymu, oddi wrth y cyfaddasiadau sydd i'w canfod yn y greadigaeth o weithrediad achos deallol, ydyw yr hyn sydd yn cyfansoddi yr ymresymiad hwn, neu y ddadl amcanedigol mewn duwinyddiaeth naturiol. A chredir ei bod mor gadarn, diogel, a sicr, yn ymresymiad duwinyddiaeth naturiol, ag y gallai fod yn y casgliad a dynodd Aristippus oddi wrth olion y lluniau mesuregol a welodd ar y traeth.

Yn awr, y mae yr ymresymiad neu y ddadl hon, er ei bod y fath ag y gellid ei hegluro a'i chadarnhau trwy arddangosiadau dirif, y rhai a geir yn ngwaith y greadigaeth, yn hynod o fer ac amlwg o ran ei natur. Pan y gwelir amrywiol o wrthddrychau wedi eu cyfaddasu y naill at y llall, fel ag i sicrhau rhyw amcan neu fwriad penodol trwy hyny, gorfodir y meddwl i gredu fod yno weithrediad rhyw feddwl neu weithredydd deallus, trwy yr hwn y mae y cyfryw amcan neu fwriad wedi ei lunio, a'r moddion at gyrhaedd y cyfryw fwriad neu amcan wedi eu trefnu a'u cyfaddasu. Ac yn ol natur yr amcan a fyddo mewn golwg, a'r cyfaddasrwydd yn y moddion er cyrhaedd yr amcan neu y bwriad, yr ydys yn gallu barnu am ddoethineb, gallu, &c., y cyfryw luniwr a gweithredydd. Y mae y casgliad hwn mor naturiol a grymus, fel nas gall y meddwl, yn unol â'i natur a'i ddeddfau ei hun, ei wrthod. Yn awr, y mae y greadigaeth yn llawn o'r arddangosiadau mwyaf hynod a tharawiadol o'r cyfryw gyfaddasiadau amlwg, cywrain, a rhyfedd, fel y mae yn rhy anhawdd i'r ammheuwr penaf wadu, fel y dangoswyd eisoes yn yr erthygl hon; ac mewn canlyniad, y mae y casgliad yn anwrthwynebol—sef y rhaid fod rhyw Fod anfeidrol ddoeth a galluog wedi bod yn llunio y greadigaeth, ac yn ei dwyn i fodolaeth.

Fe addefa y mwyafrif o'r athronwyr a'r duwinyddion galluocaf, mai yr ymresymiad uchod yw y mwyaf uniongyrchol ac argyhoeddiadol, ac fe allai yr hynaf, dros yr athrawiaeth sylfaenol o fodolaeth Duw. Yr oedd yn un o resymau hoff Socrates [*Xen. Memorab.*, i. 4; iv. 3], a Cicero [*Tusc. Quæst.*, i. 28, 29]. Yn mhlith y tadau hefyd yr oedd yn cael ei goleddu gan Theophilus [*ad Autolycum*, i. 23], Gregory o Nazianzen [*Orat.* xxviii], Lactantius [*De Opificio Dei*], Awstin [*Confess.*, x. 6], ac Athanasius [*Contr. Gent.*, c. 30, 34]. Yn mhlith ysgrifenwyr diweddar, digon yw crybwyll Paley; gwahanol awdwyr y *Bridgewater Treatises*—Chalmers, Kidd, Whewell, Bell, Roget, Buckland, Kirby, a Prout; *Macculloch's Proofs and Illustrations of the Attributes of God*, &c.; *Dr. Whewell's Indications of the Creator*, *Thompson's Christian Theism; Dr. Tullock's Theism; Dr. Buchanan's Faith in God and Modern Atheism;* a *Dr. Wardlaw's Systematic Theology*, cyf. i. Rhaid addef fod y rhesymiad hwn wedi cael peth cam ar brydiau, trwy waith rhai o'i amddiffynwyr yn haeru ei fod yn ddigonol i brofi mwy nag a berthyn iddo. Y mae yn wirionedd ei fod yn dangos fod rhyw fod yn bodoli, yr hwn sydd yn feddiannol ar ddoethineb, gallu, a haelfrydedd mawr—yr hwn a wnaeth y byd. Ond pa un a ydyw y cyfryw fod yn anghrëedig, a thragwyddol, a'i allu a'i adnoddau yn ddiderfyn, y mae yn eithaf ammheus fod yr ymresymiad amcanedigol, yn annibynol ar un ymresymiad arall yn gyfochrol âg ef i'w gefnogi, yn ddigonol i brofi hyny. Kant, yr hwn a ystyrir yn gyffredin fel gwrthodwr o'r ymresymiad neu y ddadl hon, a ddywed "mai yr effaith a all yr ymresymiad gyrhaedd ydyw profi bodolaeth byd-adeiladydd." Ond gellir bod yn eithaf tawel ar hyny. Os yw yn profi i ni fodolaeth "byd-adeiladydd," neu ryw fod yr hwn a wnaeth neu a adeiladodd y byd, a dywedyd yn ngeiriau Dr. W. L. Alexander, "Gan ein bod wedi ein sicrhau o'i fodolaeth ef, yr ydys yn troi ato, i edrych a sieryd efe wrthym, ac a adrodda efe i ni fwy o'i hanes nag a allwn ei ddysgu am dano oddi wrth ei weithredoedd."

Y mae Hume wedi cynnyg yn deg, trwy dwyllymresymiad tra ymddangosiadol, i ddymchwelyd

yr ymresymiad hwn oddi ar ei sylfaeni. Efe a ddywed, "Er yn ei gyssylltiad â gweithredoedd dyn, y mae arwyddion o fwriad neu amcan yn brawf digonol o ddealltwriaeth amcanol, eto nid yw felly os cymhwysir y prawf oddi wrth y greadigaeth at Dduw; canys ymddangosiad neillduol yw y byd, o wneuthuriad yr hwn nid oes genym un profiad. Yr ydys yn casglu, oddi wrth arwyddion o fwriad yn ngwneuthuriad yr oriawr, y rhaid fod iddo wneuthurwr deallawl; o blegid yr ydys wedi gweled o'r blaen y cyfryw bethau yn cael eu gwneyd: ond ni welsom un byd yn cael ei greu; ac o ganlyniad, nis gallwn gasglu oddi wrth ei ymddangosiadau fod crëwr neu wneuthurwr yn perthyn iddo." Ond y mae y twyll-ymresymiad uchod yn seiliedig ar ddau beth, y rhai a gymmerir yn ganiataol, pan mewn gwirionedd nad ydynt yn ffeithiau. Yn gyntaf, mai oddi ar rym profiad yr ydys yn casglu fod yn rhaid fod bwriadwr deallawl yn bod pan y canfyddir prawf o fwriad neu amcan mewn unrhyw gyflawniad. Ac yn ail, fod genym ni y fath beth a phrofiad o ddealltwriaeth yn cynnyrchu effeithiau yn ngweithredoedd dyn. Ond y mae cymmeryd y ddau beth uchod yn ganiataol yn hollol annheg a chyfeiliornus. Canys nid dysgu tynu y casgliadau uchod, y cyfeirir atynt, yr ydys; ond gwneuthur casgliad o angenrheidrwydd meddyliol nas gallwn lai na'i wneuthur. Yr ydys mor gwbl sicr y tro cyntaf y gwelom arwyddion amlwg o amcan neu fwriad yn nglŷn ag unrhyw beth, fod yn rhaid fod amcanwr neu fwriadwr hefyd o hono ag y gallwn fod byth; canys nis gall un ddadl neu reswm a ddygir dros neu yn erbyn y peth gyfnewid dim ar agwedd y meddwl o barthed iddo. Am yr ail haeriad, sef fod genym y fath beth a phrofiad o ddealltwriaeth yn cynnyrchu effeithiau yn ngweithredoedd dyn, y mae yn ymddangos yn beth hynod iawn, a dywedyd y lleiaf; o blegid wrth sylwi ar weithredoedd dyn, profiad o ba beth sydd genym? Dim ond profiad o symmudiadau rhyw aelodau penodol o'r corff wrth weithio, a rhyw gyfnewidiadau penodol ar ddarnau o ddefnydd yn cael ei effeithio trwy hyny. Ni bu genym erioed brofiad o feddwl yn gweithredu neu yn amcanu yn yr ystyr o'r gair y cyfeiria Hume ato. Ni welsom, ni chlywsom, ni theimlasom, ni aroglasom, ac ni archwaethasom feddwl erioed pan yn gweithio er cynnyrchu unrhyw beth. Casgliad noeth yn unig yw fod y cyfryw feddwl yn llywyddu ac yn tywys y gweithrediad yn ei flaen. Ac os ydyw hwn yn gasgliad cyfreithlawn yn ei gyssylltiad â gweithredoedd dyn, pa ham nad yw hefyd yn ei gyssylltiad â'r greadigaeth, pan yr ydys yn myned oddi wrthi hi at ei Llawdwr? Os gellir dywedyd yn gyfreithlawn am oriawr, "Rhaid fod hwn wedi tarddu oddi wrth feddwl deallol," er nad oes genym un prawf o feddwl yn gwneyd oriawr, pa ham nas gallwn ddweyd hefyd, "Y mae yn rhaid fod rhyw awdwr deallol i'r greadigaeth, y peiriant mawr hwn," er nad oes genym un profiad o wneuthuriad bydoedd. Ac nid yw gwrthddadl Descartes a'i ganlynwyr i'r ymresymiad neu y ddadl hon yn cynnwys nemawr o rym ynddi; sef, "Fod bwriadau Duw mewn natur mor aruchel a gorddwfn, ac mor eang, fel ag i fod yn rhyfygus ac annuwiol yn neb dyn i gymmeryd arno ei fod yn alluog i'w canfod." I hyn, gellir ateb, pan yr ydys yn priodoli amcan neu fwriad i'r Creawdwr yn ei waith, nad ydys wrth hyny yn gwneyd dim yn rhagor na phriodoli doethineb iddo; yr hyn nis gall fod mewn un modd nac anfadrwydd na rhyfyg. Peth arall, er nas gall y meddwl dynol, mae yn wir, ddeall holl fwriadau ac amcanion Duw yn ngwaith y greadigaeth, ac er y gall fod llawer o'i weithredoedd nas gallwn weled na deall ei amcan ynddynt mewn un modd, eto nid yw hyny yn un prawf nas gellir deall ei amcan neu ei fwriad mewn rhai pethau, sef pethau amlwg ac agos atom; megys mai er mwyn gweled y crewyd y llygad, ac mai er mwyn clywed y lluniwyd y glust, &c. Ac heb law hyny, y mae dynion yn dyfod yn fwy galluog i ganfod a deall arwyddion o amcanion a bwriadau yn ngwaith y greadigaeth, fel y mae eu gwybodaeth yn cynnyddu. Y mae yr athronydd yn gallu gweled arwyddion o gyfaddasiad a bwriad mewn llawer o bethau mewn natur, nad yw y diddysg a'r anwybodus yn gallu canfod dim o honynt.

Haerid yn dra bore gan Epicurius a'i ganlynwyr, mai trwy ddamwain y gwnaed neu y crëwyd y byd, ac iddo gael ei ffurfio trwy gyfarfyddiad damweiniol o'r mân ranau ag sydd yn ei gyfansoddi; ac mewn canlyniad, nas gallai un amcan fod yn ffurfiad y greadigaeth. Ond y mae y dyb hon yn hollol anghydweddol â'r gyfatebiaeth sydd i'w gael rhwng gweithredoedd celfyddyd a gweithredoedd natur. A faidd rhywun yn ei synwyr haeru mai o ddamwain y daeth yr holl ddefnyddiau yn nghyd, ac y ffurfiwyd ac y cyflewyd y gwahanol gromleiniau (*lenses*), &c., yn ysbienddrych mawr yr iarll Rosse? Os na faeddir haeru hyny am hwnw, pa fodd y beiddia neb haeru am y llygad dynol, mai o ddamwain y daeth y defnyddiau sydd ynddo, ac eu gosodwyd yn nghyd, yr hwn sydd wedi ei ffurfio yn ol yr un egwyddorion, ond fod y celfyddwaith arno yn annhraethol gywreiniach? A pheth arall, os damwain a fu yn ffurfio y llygad cyntaf, yr hyn nis gall fod, onid yw yn rhyfedd fod y fath beth a bod damwain yn dygwydd ffurfio pob llygad dynol trwy yr oesoedd yn berffaith ar yr un egwyddor y naill a'r llall? Ac yn mhellach, nid yw yr haeriad mai cyfarfyddiad damweiniol o'r mân ranau sydd yn y greadigaeth a'i dygodd i fodolaeth yn rhoddi dim un goleuni pa fodd y daeth y cyfryw fân ranau eu hunain i fodolaeth ar y cyntaf, na pha fodd chwaith y daethant i gyfarfyddiad â'u gilydd. Ac wedi y cyfan, beth yw damwain?—i'r hon y priodolir y fath weithrediadau a chreu y byd a'i osod yn y ffurf ei gwelir. Onid dygwyddiad anllywodraethol ydyw? Canys ar y pryd pan nad oedd dim yn bodoli, pe daethai yr hyn sydd yn bod i fodolaeth, rhaid mai dygwyddiad aflywodraethol a fuasai hyny, yn gymmaint ag nad oedd dim mewn bod i'w lywodraethu. Ond sylwer yma, mai wrth y gair *dim* yn y lle hwn y deallir *difodolaeth hollol*, neu *ddiffyg cyflawn o bob bodolaeth*; ac felly, mewn canlyniad, diffyg cyflawn o weithrediadau, priodoliaethau, tueddiadau, a phob peth perthynol i fodolaeth, pryd yr oedd diffyg cyflawn o bob bodolaeth. Ac yn awr, gyda golwg ar *ddim*, tuedda i aros byth yn ddim: pa fodd ynte y daeth pethau i fodoli allan o ddim trwy ddygwyddiad anllywodraethol?* Onis gellir ateb yn ddibetrus, fod y peth yn annichonadwy? Yn ofer, ynte, y sonir mwyach fod pethau wedi dyfod i fodolaeth trwy ddamwain. Mewn gair, os metha y rhesymiad amcanedigol mewn cyssylltiad â'r rhesymiad bydhanegol mewn duwinyddiaeth naturiol, rhaid i'r hyn oll a ddysgir i ni trwy y gwyddorau ar yr un egwyddorion fethu hefyd; canys fel y sylwa Arglwydd Brougham yn ei draethawd, y mae y wyddor hon yn seil-

Digitized by Google

iedig ar yr un egwyddor o ymchwiliaeth ag yw anianeg neu seryddiaeth.

Hyderir fod y profion uchod, heb son am y profion moesol, megys llais cydwybod a theimlad o'n dibyniad ar arall, dros fodolaeth Duw, yn dwyn digon o rym i'w canlyn er darbwyllo meddwl diragfarn o wirionedd y gosodiad.

Ac er y rhaid addef nad ydyw y rhesymeg mewn duwinyddiaeth naturiol, o ran ei natur, yn gallu bod yn hunanbrofiadol, megys y mae mewn mesuroniaeth, eto gellir dywedyd yn ddibetrus ei bod yn cyrhaedd mor agos at hyny ag y mae y pwnc o ran ei natur yn caniatau; a'i bod yn anfeidrol fwy grymus a boddhaol na dim a all y blaid wrthwynebol ei gynnyrchu. A chymmeryd ynte fod y profion a ddug duwinyddiaeth naturiol dros fodolaeth Duw yn ddigonol, y gofyniad pwysig nesaf yw, A ydyw yn awgrymu neu yn dysgu rhywbeth pa fath fod ydyw Duw? Ac i hyn gellir ateb, y tybir ei bod yn arwyddo neu yn dangos pa fath fod ydyw, yn yr un goleu ag y mae effeithiau yn dangos pa fath yw eu hachosion. Pan yr edrychir ar y greadigaeth fel casgliad o achosion, y mae y meddwl yn naturiol yn ymgymmeryd â'r meddylddrych o achos. A phan yr edrychir ar y rhes o achosion perthynasol, neu ail achosion, yr ydys yn naturiol yn cyfodi at y meddylddrych o Achos Cyntaf. Ac wrth sylwi fod yn y cydgrynhoad o effeithiau, a'r cyfaddasiadau yn yr achosion perthynol iddynt, arwyddion amlwg o gynllun ac ewyllys, yr ydys yn casglu fod yr Achos Cyntaf yn achos deallawl, ac yn meddu y gallu o amcanu a chynllunio. Ac os ystyrir y dealltwriaeth goruchel hwn fel eisteddle bywyd, ewyllys, gallu, ac ymwybodolrwydd, yr ydys ar unwaith yn cael ein harwain i ystyried fod yr Achos Cyntaf yn *berson*. Pan y mae duwinyddiaeth naturiol yn priodoli personoliaeth i'r Achos Cyntaf, yr ystyr yw fod Duw yn fod bywiol, deallol, a phersonol, yr hwn sydd yn ymwybodol o'i fodolaeth ei hun, ac yn meddu bodolaeth wrthddrychol yn annibynol ar ein syniadau ni am dano ef, a'r hwn sydd yn meddu bodolaeth ei hun ar wahân oddi wrth y greadigaeth. Am y rhesymau er profi, oddi wrth y greadigaeth, y rhesymoldeb o briodoli personoliaeth yn yr ystyr uchod i Dduw, mewn gwrthgyferbyniad i holldduwiaeth, gwel HOLLDDUWIAETH. Y mae yn angenrheidiol sylwi yma, pan yn son am dduwinyddiaeth naturiol yn profi fod yr Achos Cyntaf o bob peth yn berson, nad yw hyny mewn un modd yn gwrthddywedyd yr hyn y mae crefydd ddadguddiedig yn ei ddysgu; sef fod tri pherson, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, yn un Duw.

Credir hefyd fod duwinyddiaeth naturiol yn awgrymu yn lled amlwg yr athrawiaeth fawr a phwysig o *unoliaeth* yr Achos Cyntaf. Pan y mae unoliaeth yn cael ei briodoli i'r Achos Cyntaf, hyny yw, i'r Duwdod, yr ystyr a fwriedir ei gyfleu yw, ei fod yn *un* bod dwyfol, hollol wrtho ei hun, ac ar wahân oddi wrth bob bod arall.

Y mae ymresymiad neu ddadl duwinyddiaeth naturiol yn gosod o'n blaen res fawr o achosion ac effeithiau, yr hon a elwir y *byd* neu *drefn natur*, yr hon sydd i'w hystyried megys un cyfanwaith mawr. Y mae yn rhaid fod rhyw achos o'r holl gyfanwaith hwn. Mae yr holl gasgliad o fodau, gwrthddrychau, egwyddorion, deddfau, a dygwyddiadau, yn ffurfio megys un effaith mawr, ac o'r effaith hwn y mae yn rhaid fod rhyw achos. A rhaid fod yr achos hwn yn fwy neu yn uwch na'r holl effeithiau hyn, yn flaenorol iddynt, ac yn annibynol arnynt; o blegid nid ydynt hwy ond casgliad o'r hyn y mae efe yn achos ac yn awdwr o honynt. Yn yr holl amrywiaeth gwrthddrychau, a'r gwahanol weithyddion, yn y cyfan o'r ymddangosiadau a'r dygwyddiadau, y mae yr Achos Cyntaf o honynt oll yn *un* o hyd. Y mae yr undod hwn yn cael ei brofi gan y cyssylltiad agos sydd yn bodoli rhwng gwahanol gangenau gwyddoriaeth anianyddol â'u gilydd, a chan y dull y mae achosion ac ymddangosiadau, y rhai a gymmerir i fyny gan un wyddor, yn gydiedig anysgarol â'r rhai a berthynant i gylch gwyddorau ereill. Y mae yn amlwg mai achos cyntaf y ddaiar a'i hawyrgylch yw yr achos cyntaf o'r planigion sydd yn tyfu arni. Achos cyntaf y planigion ydyw yr achos o'r anifeiliaid. Achos cyntaf y goleuni ydyw hefyd yr achos o'r llygad. Mewn gwirionedd, y mae y cyd-darawiad hollol sydd rhwng un rhan o natur â'r cyfan o honi, mor belled ag y deallir, yn awgrymu yn bur amlwg, os nad yn profi yn hollol, undod yr Achos Cyntaf o'r cyfan. Po fwyaf a chywiraf y mae gwybodaeth o'r greadigaeth yn cyrhaedd, mwyaf amlwg a boddlonol i'r meddwl ymofyngar yw yr ymresymiad neu y ddadl dros *undod* yr Achos Cyntaf yn ymddangos. A phe byddai ein gwybodaeth am y greadigaeth yn eangach a chywirach, y mae pob lle i gredu y byddai yr ymresymiad hwn yn fwy llawn a grymus; o blegid y mae pob cynnydd adnabyddus hyd yma wedi bod yn foddion i chwanegu at ei rym a'i eglurder. Y mae holl rym y ddadl, a dywedyd y lleiaf, yn ol fel y mae sefyllfa gwybodaeth yn awr, yn unllais dros fodolaeth *un* Duw, a dim ond un.

Y mae yr ymresymiad neu y ddadl oddi wrth y cyssylltiad rhwng achos ac effaith hefyd, o ran ei natur, yn profi yr un peth. Mewn cyssylltiad âg ymddangosiadau, y rhai sydd megys yn dibynu y naill ar y llall, yr ydys yn cael cyfundrefn o achosion cyssylltiedig â'u gilydd, y rhai a elwir yn *ail achosion;* ac fel yr olrheinir oddi wrth yr effeithiau at yr achosion, yr ydys yn symmud oddi wrth yr ail achosion at yr Achos Cyntaf. Ac fel y dangoswyd yn barod, y mae yr Achos Cyntaf hwn yn weithredydd bywiol, gwirfoddol, a deallus, ac yn alluog i ffurfio bwriad neu amcan. Y mae yr un ymresymiad ag sydd yn profi fod yr Achos Cyntaf yn fodolaeth bywiol a deallus yn profi hefyd nad yw efe ond un yn ei gyssylltiad â rhif; o blegid nis gall fod ond un Achos Cyntaf. Peth arall, mor belled ag y mae sylwadaeth a therfynau gwybodaeth ddynol wedi cyrhaedd, nid oes un arwydd fod un Duw arall erioed wedi rhoddi un prawf o'i fodolaeth. "Y mae gwledydd newydd," ebe Paley (a gallasai chwanegu a dywedyd, Y mae bydoedd newydd) "yn cael eu darganfod yn barhaus, ond hen ddeddfau natur sydd bob amser i'w cael ynddynt.......Nid ydys byth yn dyfod i fysg moddau gwreiddiol o fodolaeth, neu rai hollol wahanol i'w gilydd o ran eu cyfansoddiad, fel yn arwyddo ein bod wedi dyfod i dalaeth rhyw Greawdwr gwahanol, neu dan arweiniad rhyw ewyllys wahanol. Mewn gwirionedd, yr un drefn o bethau sydd yn ein hamgylchynu, i ba le bynag yr elom." Mor bell ag y mae y meddwl dynol wedi gallu treiddio o ran ei ddeall i weithredoedd y greadigaeth, nid ydyw wedi gallu canfod ond megys un cynllun, gwaith un gweithredydd, a deddfau un ewyllys: yr un ddeddf o attyniad, yr un elfen o oleuni, a'r un deddfau gallofyddol i fywyd organaidd a geir yn mhob man, pa un bynag ai yn mherthynas i hen gloddolion (*fossils*)

Digitized by Google

yr oesoedd pell yn ol, ai y gwahanol ffurfiau o fywiolion ag sydd i'w cael yn yr oes bresennol. Yn mhlith pob amrywiaeth o fodau, y lluosogrwydd amrywiol o ffurfiau, a'r holl wahanol weithyddion, y mae un dealltwriaeth llywyddol, un ewyllys, un gallu arweiniol, ac un achos o fywyd a symmudiad i'w ganfod yn mhob man. Credir fod profion duwinyddiaeth naturiol dros fodolaeth Duw yn llawn; ac nad oes un ran o'r cread, mor belled ag y mae hyny yn adnabyddus, yn rhoddi nac awgrym na phrawf, yn y mesur lleiaf, o fodolaeth mwy nag un Duw. Mewn canlyniad, y mae credu mewn amldduwiaeth yn anghysson ac afresymol; o blegid y mae hyny yn gredu mewn bod neu fodau, o fodolaeth gwrthddrychol yr hwn neu y rhai nid oes genym y prawf lleiaf. Ond yn gymmaint ag nad ydyw y cread mawr oll yn adnabyddus i ni, nid yw duwinyddiaeth naturiol yn cymmeryd arni, mewn ystyr, i brofi nas gall fod mwy nag un Duw, ond nad yw hi yn gwybod dim am danynt. Y mae hi yn hòni yr adwaen hi un Duw, a dim ond un. Ac yn hyny y mae iaith gwyddor a'r dadguddiad dwyfol yn un â'u gilydd. "A oes Duw ond myfi? ie, nid oes Duw: nid adwaen i yr un:" *Esa.* xliv. 8. Mewn canlyniad, y mae yn amlwg fod y gorchwyl o brofi fod mwy nag un gwir Dduw yn bodoli, yn gorphwys ar y rhai sydd yn haeru hyny, ac nid ar efrydwyr duwinyddiaeth naturiol.

Os ydyw duwinyddiaeth naturiol yn ei phroflon yn dangos yr Achos Cyntaf fel bod oddi wrth yr hwn y mae yr holl greadigaeth wedi tarddu, yna y mae yn canlyn, o angenrheidrwydd, fod priodoliaethau y cyfryw fod, ar y dybiaeth fod ei fodolaeth yn brofedig, yn ymddangos, ac yn cael eu gosod allan yn ei waith, fel y mae effaith yn gosod allan ansawdd neu briodoliaethau yr achos. Ac ond cymmeryd gweithredoedd Duw yn y goleu yna, y maent yn awgrymu ei briodoliaethau yn dra grymus a tharawiadol; megys ei dragwyddoldeb. Wrth edrych ar y greadigaeth a'r Creawdwr yn eu perthynas â'u gilydd, fel achos ac effaith, y mae ein syniad ar unwaith yn ein gorfodi i ystyried fod yn rhaid fod yr achos yn bodoli yn flaenorol i'r effaith. A chan mai y pethau a ddygwyd i fodolaeth ar ddechreuad amser oedd yr effaith cyntaf, yna y mae yn canlyn o angenrheidrwydd, fod yn rhaid fod yr achos yn flaenorol i hyny, ac felly yn bodoli cyn dechreuad amser. Ond nid oes genym un gynnail, mewn trefn i ffurfio un math o farn neu feddylddrych pa mor faith y gallai fod yr achos yn bodoli yn flaenorol i'r effaith. Y parhad hwnw, faint bynag ydoedd, ydyw yr unig syniad priodol i dduwinyddiaeth naturiol am dragwyddoldeb Duw. Y mae mewn athroniaeth, ac yn y dadguddiad dwyfol, fath o dragwyddolrwydd arddansoddol yn cael ei briodoli i'r Bod dwyfol, yr hwn sydd yn hollol nacaol yn ei berthynas âg amser; sef parhad heb na diwedd na dechreu iddo. Ond am dragwyddoldeb Duw yn ei berthynas â duwinyddiaeth naturiol, fel gwyddor gasgliadol, y parhad diamser hwnw ydyw, yn yr hwn y bu yr Achos Mawr yn bodoli cyn yr effaith; yr hyn nis gall neb brofi nad ydoedd yn dragwyddol, neu erioed.

Am barhad diddiwedd, neu anfarwoldeb y Bod dwyfol, rhaid fod duwinyddiaeth naturiol yn cyfyngu ei phrawf o hyny i barhad a sefydlogrwydd y greadigaeth. Felly, yn annibynol ar y dadguddiad, nid oes ond y rhesymiad arddansoddol i brofi; megys nad oes dechreuad yn perthyn i'r Achos Cyntaf, nad oes terfyn chwaith yn perthyn iddo. Ond y mae mor anhawdd i'r meddwl ymgymmeryd â'r syniad o'r posiblrwydd i'r Bod dwyfol beidio a bodoli, ag ydyw iddo ymgymmeryd â'r syniad fod yn bosibl iddo ddechreu a bodoli: y mae y naill a'r llall yn anmhosibl. Y mae athrawiaeth achosiaeth yn profi fod yn rhaid fod Duw, yn annibynol ar unrhyw achos yn y bydyssawd; ac felly, y mae y tu allan i'r posiblrwydd i ddim effeithio arno. A chan ei fod yn annibynol ar bob peth darfodedig, nis gall efe ei hun ddarfod. Y mae duwinyddiaeth naturiol wedi cael allan fod Duw yn gallu bodoli yn flaenorol i'r holl ail achosion; ac mewn canlyniad, y mae yn casglu y parhäai ei fodolaeth ef pe byddai yr holl ail achosion yn cwympo i ddifodiaeth.

*Ei hunanfodolaeth a'i hollol annibyniaeth.* Y mae duwinyddiaeth naturiol yn golygu y greadigaeth, er ei bod yn fodolaeth wirioneddol, eto yn fodolaeth achosedig; ac mewn canlyniad, fel y dangoswyd eisoes, y mae yn cael ei hachosi gan ryw fod anachosedig, yr hwn mewn canlyniad oedd yn fod hunan-hanfodol; ac os ydoedd yn hunan-hanfodol, rhaid hefyd ar yr un tir ei fod yn hollol annibynol arno ei hunan.

*Ei hollalluogrwydd.* Yr ydys yn canfod yn ngwaith y greadigaeth, nid yn unig brofion amlwg o gyfaddasiad y naill beth ar gyfer y llall er ateb rhyw amcan penodol, ond y mae yn cynnwys hefyd yr amlygrwydd mwyaf mawreddog o allu. Gofynir weithiau, mae yn wir, mewn gwawd, i efrydwyr duwinyddiaeth naturiol, beth a olygant wrth y fath air a *hollalluogrwydd* mewn cyssylltiad â'r Achos Cyntaf? Ond y mae eu hateb yn barod ganddynt—mai yr ystyr a olygant hwy wrtho yw gallu difesur, yr hwn sydd yn cael ei ddangos yn ngwaith y greadigaeth. Y mae y cread ynddo ei hun mor anfeidrol eang, a'r gweithredoedd ynddo mor aruthrol fawreddog, synfawr, a lluosog, fel y mae yn naturiol i gasglu fod yn rhaid fod y gallu, yr hwn a ddygodd y fath greadigaeth i fodolaeth, ac sydd yn ei chynnal ac yn ei rheoli, yn mhell tu hwnt i un gymhariaeth i un gallu a brofasom ni ein hunain, yn anfeidrol uwch law pob gallu arall a welsom erioed mewn gweithrediad, ac yn mhell uwch law pob amgyffrediad dynol. Mewn gair, y mae ei allu mor ryfeddol a chyffredinol ag yw y gweithyddion a'r galluoedd sydd i'w canfod yn bodoli; ac i'n syniad ni, y mae y gallu a ddygodd yr holl weithyddion a'r galluoedd hyny sydd yn gweithredu mewn ffordd mor eang yn y greadigaeth, mor fawr a diderfyn fel ag i fod yn alluog i gyflawnu unrhyw beth, os ewyllysia, ond yr hyn fyddo ynddo ei hun yn anghyssondeb. Ac am na wyddom eangder y greadigaeth, nis gwyddom pa fodd i gyfrif neu roddi terfyn yn ein meddwl ar allu y Creawdwr; mewn canlyniad, yr ydys yn galw ei allu yn hollalluogrwydd, neu yn allu heb derfyn arno. Ac os oes terfyn ar allu yr hwn a wnaeth y nefoedd a'r ddaiar, a'u holl luoedd hwynt, y rhai sydd yn ammheu hyny, ac nid efrydwyr duwinyddiaeth naturiol, sydd i brofi fod terfyn arno.

*Ei hollwybodaeth.* Pa le bynag yr ydys yn canfod arwyddion o amcan neu fwriad, yr ydys yn casglu fod yno ddealltwriaeth; a dealltwriaeth ydyw y gallu i wybod y peth o'r hyn y mae amcan neu fwriad yn amlygiad. Y mae duwinyddiaeth naturiol yn profi dealltwriaeth yr Achos Cyntaf; ac y mae profiad boddhaol fod y dealltwriaeth hwn yn cyrhaedd mor eang a diderfyn ag ydyw olion y wybodaeth, y ddoethineb, a'r medrusrwydd sydd yn cael eu hamlygu yn holl

Digitized by Google

ymddangosiadau y greadigaeth. Y mae y ddoethineb berffaith a hollol hon yn amlygedig yn mhob man, bob amser, ac yn mhob rhan o'r greadigaeth; ac mewn canlyniad, gelwir hi yn hollwybodaeth. Y mae y meddylddrych arddansoddol am hollwybodaeth Duw yn golygu ei wybodaeth berffaith ef am bob peth galluadwy a allasai gymmeryd lle dan bob math o amgylchiadau o fewn cylch posiblrwydd, er na ddeuant byth i ben; ond am dduwinyddiaeth naturiol, y mae hi yn wahanol, yn ffurfio ei syniadau yn hollol am hollwybodaeth oddi wrth y ffeithiau gwirioneddol sydd i'w cael trwy sylw a phrofiad. Yr hollwybodaeth a briodola hi i Dduw sydd yn arwyddo fod Cynllunydd y bydyssawd yn meddu gwybodaeth berffaith o'r cynlluniau ag ydoedd ganddo mewn golwg, ac o weithrediadau y pethau a gynlluniodd; ei fod yn gwybod yn berffaith beth ydoedd yn ei gylch; fod ei wybodaeth yn gyfatebol i gymmeryd i mewn holl orfawredd ei gynlluniau, a hyny hyd berffeithrwydd, yn y manylion eithaf a berthyn iddynt. Ac mewn canlyniad, fod y wybodaeth ag sydd yn gallu cymmeryd i mewn y fath amrywiaeth, y fath eangder, yn y fath weithredoedd a chynnyrchion dirfawr a gweithredoedd a chynnyrchion yr holl greadigaeth, yn alluog i amgyffred pob peth. Neu, fel y dywed Paley, "Y mae *doethineb* y Duwdod, fel y tystir yn ngwaith y greadigaeth, yn rhagori ar bob meddylddrych ag sydd genym ni am ddoethineb, wedi eu tynu oddi wrth y gweithrediadau deallol uchaf, perthynol i'r dosbarth uchaf o fodau deallol ag yr ydym ni yn adnabyddus â hwynt; a hefyd, yr hyn sydd o'r pwys mwyaf i ni, beth bynag yw ei gylch a'i eangder—yr hyn, fel y mae yn amlwg, sydd yn anmhosibl i ni ei benderfynu—y mae yn rhaid ei fod yn ddigonol er dwyn oddi amgylch y drefn hono o bethau dan yr hon yr ydym ni yn byw; ac y mae hyn yn ddigon. Nid yw o fawr bwys trwy ba eiriau y byddom yn dangos ein syniad, neu yn hytrach ein hedmygedd neu ein rhyfeddod o'r briodoledd hon. Gall fod y geiriau ag y mae duwiolfrydedd ac arferiad iaith wedi eu gwneyd yn gynnefin i ni mor briodol ag unrhyw rai ereill. Gallwn olrhain y briodoledd hon yn mhell y tu hwnt i un casgliad i'r hwn y mae genym un achos i'w gymhwyso. Nis gall y radd o wybodaeth a gallu, angenrheidiol er ffurfio natur yn ei pherthynas â ni, gael ei gwahaniaethu oddi wrth yr hyn a elwir yn wybodaeth ddiderfyn, neu hollwybodaeth."

*Ei hollbresennoldeb.* Y mae y briodoledd hon i Dduw yn cael ei golygu fel y canlyn yn ei chyssylltiad â duwinyddiaeth naturiol. Yr ydys yn canfod gweithrediad gallu yn mhob rhan o'r bydyssawd sydd yn adnabyddus i ni; yr hyn yn ddiammheu sydd yn tarddu oddi wrth Dduw, trwy gyfryngau neu yn ddigyfrwng. Y mae y defnydd o'r hwn y mae y greadigaeth faterol yn gyfansoddedig yn hollol analluog i symmud o hono ei hunan; ac nid oes gymmaint ag un o'r gronynau sydd yn yr holl gorff cyfansawdd yn alluog i weithredu o hono ei hunan ar ereill. Y mae symmudiad, gan hyny, yn awgrymu symmudydd mor sicr ag y mae amcan yn awgrymu amcanydd.

Yr ydys yn gweled fod attyniad, goleuni, trydaniaeth, &c., yn gweithredu yn ol eu rheolau neu eu deddfau penodol yn mhob man o'r greadigaeth y gwyddom ni ddim am danynt. Yn awr, y mae pob deddf yn arwyddo fod deddfroddwr a gallu yn bod; o blegid nis gall deddf neu ddeddfau o honynt eu hunain roddi eu hunain mewn gweithrediad; canys gan rym neu allu y mae effeithiau yn cael eu cynnyrchu, ac nid gan ddeddfau. Y mae y deddfau hyn yn gyffredinol; ac o ganlyniad, y mae gweithrediad y Deddfroddwr yn gyffredinol. "Pa le bynag y mae efe yn gweithredu," ebe Paley, "y mae efe yno; a pha le bynag y mae ei ddeddfau, yno mae yntau." Yn awr, pan y mae y gweithrediad mor gyffredinol fel nas gellir darganfod y fan lle nad yw, y mae yn eithaf priodol—mewn ymadroddion cyffredin o leiaf, ac fe allai heb wahaniaethu ond ychydig iawn oddi wrth yr ystyr athronyddol mwyaf cyfyng o'r gair—y mae yn eithaf priodol, meddwn, i alw y Bod ag sydd yn bodoli ac yn gweithredu yn y fath fodd yn hollbresennol.

*Am ysbrydolrwydd Duw.* Yn gymmaint a bod llawer iawn o amlygiadau sicr o fwriad neu amcan yn ngwaith y greadigaeth, y mae hyny yn profi nas gall y Bwriadwr neu yr Amcanwr fod yn sylwedd neu ddefnydd; canys nid yw sylwedd neu ddefnydd, mewn un ffurf berthynol iddo, yn gallu meddwl neu gynllunio. Yr ydys yn canfod hefyd fod defnydd yn symmud, ond nid ydyw defnydd ynddo ei hun yn meddu un gallu i roddi ei hunan mewn symmudiad, ac felly nis gallasai byth symmud heb i rywbeth tu allan iddo ei hun ei gynhyrfu. A chan nad oes, hyd y gwyddys, ond defnydd ac ysbryd yn bodoli, yna y mae yn canlyn y rhaid mai ysbryd yw yr hyn a roddodd ddefnydd ar y cyntaf mewn symmudiad. Eto yn gymmaint ag nad yw Symmudydd Mawr y cread byth yn weledig, yr ydys yn casglu fod ei bersonoliaeth yn anweledig; ac mewn canlyniad, fod hyny yn awgrymu ei fod ef yn anfaterol (*immaterial*), neu ysbrydol o ran ei natur. Yr ydys yn casglu hyn oddi wrth y dyb pe buasai Symmudydd Mawr y bydyssawd yn fod materol, y buasai, ar ryw dro neu gilydd, ar ryw amgylchiad neu y llall, yn dyfod yn amlwg i ryw un o'n synwyrau corfforol; ond gan nad yw byth felly, y mae y casgliad yn bur naturiol y rhaid mai ysbryd ydyw. Y mae yr holl resymeg mewn anianeg yn gorphwys ar y dyb dderbyniedig fod symmudydd yn golygu meddwl. Yn gymmaint, gan hyny, yn ol ein syniad ni, mai ysbryd ydyw eisteddle y meddwl, yr ydys yn casglu fod yn rhaid mai Ysbryd yw Duw.

*Priodoliaethau moesol Duw.* Am ei ewyllys, ei ryddid, ei ddaioni, ei ffyddlondeb, ei gyfiawnder, ei drugaredd, &c., meddylir fod rhyw awgrymiadau o honynt i'w canfod i ryw raddau yn nrych duwinyddiaeth naturiol. Y mae ein hymwybodaeth yn ein dysgu fod grym ein meddyliau, er cynnyrchu effeithiau yn allanol, yn gorphwys ar yr ewyllys. Ac wrth sylwi ar yr amlygiadau o amcanion sydd yn y greadigaeth, yr ydys yn casglu fod yr Amcanwr Mawr yn meddu meddwl cyffelyb i ninnau o ran ei natur (ond ei fod yn anfeidrol uwch); felly, pan yr ydys yn canfod ei fod ef yn cynnyrchu effeithiau y tu allan iddo ei hun, yr ydys yn casglu fod y gallu i wneuthur hyny yn gorphwys yn ei ewyllys. A beth bynag yw ystyr yr ymadrodd *rhyddid yr ewyllys* mewn arddansoddiaeth, yr ystyr a briodola duwinyddiaeth naturiol iddo ydyw *gallu hunan-benderfynol* hyny ydyw, rhyddid i feddwl peth am ei fod yn ewyllysio hyny. Am *ddaioni* Duw, y mae ei waith yn y greadigaeth feddyliol a materol yn dangos hyny yn amlwg iawn: canys y mae y meddwl wedi ei gyfansoddi ganddo megys o bwrpas i gymmeradwyo, parchu, a rhyfeddu yr

Digitized by Google

hyn a elwir yn ddaioni; ac i anghymmeradwyo ac i gasau yr hyn a elwir yn ddrwg. Ac am y greadigaeth faterol, y mae amcanion y Crëwr ynddi yn sicr yn llawn o fwriadau caredig er ein dedwyddwch. Edrycher ar y corff dynol—y mae ei holl synwyrau wedi eu cymhwyso a'u cyfaddasu yn y fath fodd fel ag i'w lunio megys llestr i fod yn llawn o ddedwyddwch:—y gallasai fod yn wahanol sydd eithaf amlwg, a'r rhesymau pa ham nad ydyw felly ydyw daioni a haelfrydedd y Creawdwr. Y mae rhyw awgrymiadau hefyd o *ffyddlondeb* Duw a'i gyfiawnder i'w canfod yn ei waith yn cadw yn hollol unffurf a pherffaith at ei ddeddfau cyffredinol yn y greadigaeth faterol a meddyliol. Y mae yr un deddfau yn perthyn i'r awyr, dwfr, tân, &c., yn mhob man a'u gilydd, ac ar bob tymmor trwy yr oesoedd; ac y mae hyny yn dangos ei ffyddlondeb i'w ddeddfau ei hun ac i'w greaduriaid, y rhai sydd yn byw ac yn derbyn eu cysur dan eu dylanwad. Os troseddir deddfau natur yn eu cyssylltiad â'r corff—y rhan faterol o'r dyn—y mae pwy bynag a wnelo hyny yn sicr o deimlo y gosp am ei drosedd, yn y canlyniadau, mewn poenau corfforol. Ac mewn perthynas i ddrwg moesol, y mae llais y gydwybod yn edliw i'r dyn ei drosedd yn y fan; ac onid yw y pethau hyn yn awgrymiadau lled amlwg o ffyddlondeb a chyfiawnder Duw fel Llywydd y byd? Am *drugaredd* Duw. Os wrth drugaredd y golygir tuedd i ddarparu a gweithredu er cynnorthwyo mewn cyfyngder, ac esmwythau a symmud ymaith boenedigaeth, gellir meddwl yn sicr fod awgrymiadau pur amlwg o hyny i'w cael yn ngweithredoedd Duw trwy ddrych duwinyddiaeth naturiol. Edrycher ar gynnifer o arfwriadau rhagolygol sydd i'w canfod yn natur er lleddfu poen, gwellhau afiechyd, a diogelu bywyd rhag angeu. Fel anghreifftiau o'r arddangosiadau hyn, digon yw crybwyll ansoddau meddyginiaethol newidiad awyr, dwfr glân, a llysiau a mwnau. Heb law y darpariadau meddyginiaethol hyn, edrycher ar wahanol ffyrdd natur i symmud ymaith ludded a blinderau corfforol, megys cwsg, gorphwysdra, a gwres tân rhag effeithiau oerni, heb son dim am y duedd sydd yn natur i wellhau ei hun o bob afiechyd—*y vis medicatrix* y crybwyllwyd am dano yn barod.

Hefyd, edrycher ar y duedd naturiol sydd yn y meddwl at garedigrwydd a thrugaredd. Y mae y meddwl rhinweddol wedi ei gyfansoddi yn y fath fodd fel nas gall edrych ar drueni heb dosturio wrth ei wrthddrych; ac nid hyny yn unig, ond y mae rhyw deimlad moesol yn mynwes dyn, yr hwn sydd yn dywedyd wrtho mai ei ddyledswydd yw tosturio wrth y truan. Ac yn mhellach na hyny, y mae y meddwl dyngarol sydd yn tosturio wrth y truan, fel ag i ddyfod allan i'w gynnorthwyo, yn derbyn tâl o fwynhad dedwydd ynddo ei hun am ei garedigrwydd, yr hyn sydd yn awgrymiad pur amlwg fod yr hwn a blanodd y cyfryw egwyddorion yn y natur ddynol yn dwyn tystiolaeth iddo ei hun ei fod ef yn un ag sydd yn *hoffi trugaredd.* Felly, gwelir yn amlwg, er nad yw duwinyddiaeth naturiol yn gallu dwyn profion o natur rhai mesuronol dros fodolaeth a phriodoliaethau Duw, yr hyn sydd yn ol natur pethau yn anmhosibl, ac er nad yw chwaith yn gallu dwyn profion hollol orthrechol yn ei holl gyssylltiadau, eto, fel y dywed Pascal, y mae yma ddigon o oleuni i'r hwn a fyno weled; y mae yma gyflawnder o oleuni i'r llygad syml; ond y mae yma hefyd, fel y rhaid addef, ryw bethau, fel y gellid dysgwyl oddi wrth fawredd y pwnc, mewn rhai cyssylltiadau, ag sydd yn anhawdd a dyrus. Ond y mae hyn i'w ddywedyd am dduwinyddiaeth naturiol, mai am y pethau hyny y mae ei thystiolaeth o fwyaf o bwys y mae hithau yn llefaru yn fwyaf eglur a phenodol. Fe allai y gofyn rhywun, Pa fodd y mae cymmaint o wybodaeth am Dduw a'i briodoliaethau yn cael ei dysgu yn awr trwy ddrych y wyddor hon rhagor yr hyn oedd yr hen athronwyr paganaidd yn allu ddysgu gynt oddi wrth yr un peth? I hyn, gellir rhoddi dau reswm o leiaf fel atebiad,—Yn un peth, y mae cynnydd dirfawr wedi ei wneyd yn y gwyddorau naturiol, ac yn y dull o gymmeryd sylw o ymddangosiadau anianyddol, rhagor yr hyn oedd yn eu dyddiau hwy; yr hyn sydd yn gaffaeliad dirfawr i dduwinyddiaeth naturiol. A pheth arall, ac yn ddiammheu y prif beth, y mae adlewyrchiadau oddi wrth y dadguddiad dwyfol wedi hyrwyddo y ffordd yn fawr erbyn hyn i ddarllen llyfr natur rhagor y fantais oedd ganddynt hwy.

Er fod y gwirioneddau am Dduw a'i briodoliaethau ag y mae duwinyddiaeth naturiol yn eu gosod allan i'w dysgu yn codi yn deg oddi ar lyfr natur ei hun, eto y gofyniad pwysig ydyw hwn, Pwy a fuasai yn gallu ei ddeall ef yn bresennol, fel y gwneir, pe na buasai y dadguddiad dwyfol wedi ei roddi?

Y mae perthynas dra phwysig rhwng duwinyddiaeth naturiol a'r un ddadguddiedig. Er fod y ddadguddiedig yn llawer goleuach a rhagorach, eto rhaid ystyried mai gwaith duwinyddiaeth naturiol yn benaf ydyw profi bodolaeth Duw; yr hyn ydyw sail holl oruwchadeiladaeth crefydd ddadguddiedig. Ymddengys fod gwahanol syniadau yn cael eu coleddu o barthed i'r berthynas sydd rhwng duwinyddiaeth naturiol a'r un ddadguddiedig; y rhai, fe allai, y gellir eu trefnu yn dri phrif ddosbarth:—1. Mai peth a ddysgir yn y Beibl yn unig ydyw yr athrawiaeth o fodolaeth Duw a'i phrofion. 2. Ei fod yn wirionedd ag sydd yn gorphwys mewn rhan ar sylfeini naturiol, ac mewn rhan ar y dadguddiad dwyfol. 3. Mai goleuni natur yn unig yw yr hyn sydd yn dwyn prawf yn ei ffurf ddadansoddol o'r gwirionedd pwysig o fodolaeth Duw. Y mae y dosbarth cyntaf yn dal fod rheswm yn hollol annigonol a diymddiried yn mhob ymchwiliad o'r fath, ac felly yn cyfeirio at y dadguddiad dwyfol yn unig fel awdurdod digonol ar y pwnc. Dyma y dyb a goleddir gan yr Eglwys Babaidd yn lled gyffredinol; ond fe allai nad cynnifer o dduwinyddion Protestanaidd goleuedig sydd yn ei derbyn. Am yr ail olygiad, y mae ei goleddwyr, er eu bod yn cydnabod awdurdod rhesymiad duwinyddiaeth naturiol, eto hònant nad yw yn ddigonol i brofi bodolaeth Duw, a mynant gael cynnorthwy dadguddiad i'w gadarnhau. Am y golygiad diweddaf, sef fod duwinyddiaeth naturiol o angenrheidrwydd yn sylfaen pob gwirionedd dadguddiedig, gellid meddwl ei fod yn sylfaenedig ar y dyb nas gellir ymwneyd â'r pwnc o ddadguddiad o gwbl heb gymmeryd yn ganiataol yr hyn a brofir gan dduwinyddiaeth naturiol: nid fod y blaenaf yn cael ei brofi gymmaint gan yr olaf, ond fod y blaenaf yn cynnwys ac yn rhagdybied yr olaf. Y mae yn amlwg fod yr holl bwnc o ddadguddiad dwyfol yn cael ei ddwyn yn mlaen ar y dybiaeth fod y gwirionedd o fodolaeth Duw yn cael ei addef a'i brofi mewn ffyrdd ereill. Mewn perthynas i'r dadguddiad, y mae iddo ei dystiolaethau a'i brofion penodol mewn perthynas i bethau pwysig crefydd; ond y

Digitized by Google

mae yr holl bethau hyny yn cael son am danynt ar y dybiaeth fod Duw yn bod. Ac ar y dybiaeth wrthwynebol, nad oes un Duw yn bod, am yr hwn y mae y dadguddiad yn son cymmaint, ac yn dangos ein dyledswyddau tuag ato, &c., ni byddai na synwyr na chyssondeb ynddo. Ond nis gellir defnyddio awdurdod y Beibl i brofi bodolaeth Duw; o blegid ar y dybiaeth fod Duw yn bodoli y mae y Beibl yn derbyn ei awdurdod. Mewn canlyniad, ni byddai profi bodolaeth Duw trwy awdurdod y Beibl, ac wedi hyny gosod fod holl awdurdod y Beibl yn tarddu o'r ffaith ei fod wedi dyfod oddi wrth Dduw, ddim amgen na'r hyn a elwir yn "rhesymu ar gylch," ac nid atebai un dyben. Gwel *Morell's Hist. of Modern Philosophy*, cyf. ii. td. 640—642, ail argraffiad.

**DUWINYDDION, CYMMANFA.** Cymmanfa o lëygwyr a duwinyddion, a ymgasglasant trwy awdurdod y senedd, yn nghapel y brenin Harri VII, yn Westminster. Ymgynnullasant ar y 1af o Orphenaf, 1643; a'r amcan oedd mewn golwg, meddai rhyw awdurdod yn Buck, oedd "sefydlu llywodraeth a ffurfwasanaeth (*liturgy*) Eglwys Loegr." Yr oedd yn cynnwys, meddai Buck, gant ac ugain o eglwyswyr, a thrigain o lëygwyr, wedi eu dewis o fysg y dynion mwyaf dysgedig a duwiol a feddai y genedl. Ond T. Williams a ddywed mai naw a thrigain oedd nifer y rhai a ymgynnullasant, "yn mysg y rhai yr oedd amryw Esgobyddion, y rhai wedi hyny a aethant ymaith." Dywed Arglwydd Clarendon, "fod yn nghylch ugain o honynt yn ddynion parchedig a theilwng," a bod rhai o honynt yn ddiau y dynion dysgedicaf yn eu hoes; megys Selden, Ainsworth, Gataker, Featley, &c. Danfonwyd dirprwywyr o gymmanfa gyffredinol Eglwys Scotland i gydweithredu â hwynt; ac yr oedd y cydsyniad mwyaf rhyngddynt, meddai Buck, o ran eu syniadau athrawiaethol; a llawnodasant "Y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol;" lluniasant *Gyffes Ffydd*, a'r *Catecismau Hwyaf a Byraf;* ac ymunodd amryw o honynt i gyhoeddi esboniad ar y Beibl, yn ddwy gyfrol unplyg. Yr oedd aelodau y gymmanfa yn gwahaniaethu cymmaint oddi wrth eu gilydd, meddai efe, fel nas gallasent gyttuno ar unrhyw gynllun cyffredinol. Yr oedd rhai o honynt yn hòni eu bod yn breladiaid trwy hawl ddwyfol (*jure divino*), rhai yn Bresbyteriaid y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol, rhai yn Annibynwyr goddefol, a rhai yn Erastiaid rhyddfeddyliol. Am hyny, torodd y gymmanfa i fyny heb gwblhau y prif amcan oedd mewn golwg wrth ei galw yn nghyd.—(*Buck's Theol. Dictionary; Neal's Hist. Purit.*; *Williams' All Religions*).

**DUWIOLDEB,** [*Duw*]: mae ystyr y gair yn briodol yn arwyddo y dymmer neu y teimlad a weddai gael ei feithrin a'i goleddu tuag at Dduw yn y meddwl, yn nghyd â'r gweithredoedd allanol a'r ymddygiad ymarferol tuag ato, a thuag at wahanol wrthddrychau ereill, a fyddont yn cyfodi oddi wrth hyny. Y mae y gair *ευσεβεια*, yr hwn a gyfieithir *duwioldeb* yn y Testament Newydd, yn tarddu o'r gair *ευσεβεω* neu *ευσεβομαι*, yr hyn sydd yn arwyddo *iawn addoli*.

Ond y mae yn amlwg nas gellir iawn addoli Duw heb ei adnabod. Nis gellir teimlo yn weddus tuag ato heb wybod pwy ydyw, a pha beth yw ei berthynas â ni; nac ymddwyn chwaith fel y dylem tuag ato yn ymarferol heb wybod beth yw ein dyledswyddau tuag ato, yn gystal a'r modd i'w cyflawnu. A'r un modd hefyd gyda golwg ar ein perthynas a'n dyledswyddau, mewn cyssylltiad â gwrthddrychau ereill—rhaid i ni eu gwybod cyn y gellir eu cyflawnu. Felly, y mae y golygiad hwn ar dduwioldeb yn ei osod allan yn ddosbarthedig i egwyddor ac ymarferiad. Adnabyddiaeth o Dduw a'i gyfraith yn y deall, teimlad a thymmer briodol at Dduw yn y galon, ac ymddygiad allanol a phriodol tuag ato yn y bywyd a'r ymarweddiad, sydd yn gwneyd i fyny dduwioldeb neu grefydd lawn a gwirioneddol. Duwioldeb o ran ei hegwyddor ydyw cariad diffuant at Dduw; ac o ran ei hymarferiad, y mae yn cynnwys pob rhinwedd a dyledswydd foesol, weithredol, a dioddefol. Ond y mae yn eithaf amlwg nas dichon i'r naill na'r llall—hyny yw, yr egwyddor na'r ymarferiad o grefydd—hanfodi heb wybodaeth o'r gwrthddrych a'i ewyllys. Ffynnonell pob gras Cristionogol, o ran ei weithrediad, ydyw adnabyddiaeth o Dduw, heb yr hyn nis gellir cyflawnu un ddyledswydd yn gymmeradwy, sef ufudd-dod a pharch i'r Arglwydd, heb ei adnabod: *Ioan* xvii. 3. Am agweddiad addas y meddwl at Dduw, yr Ysbryd Glân sydd yn dwyn hyny oddi amgylch trwy ei ddylanwadau grasol yn nychweliad a sancteiddiad y pechadur; fel y mae ei syniad yn cael ei wneyd yn ysbrydol, ei duedd yn sanctaidd, a'i ymhyfrydiad yn wresog at Dduw a'i waith. Ac yn ol graddau a chywirdeb yr adnabyddiaeth o'r gwrthddrych dwyfol a gogoneddus, a dwysder a grym y dylanwadau ysbrydol ar y galon, y mae gweithrediadau y meddwl puraidd tuag ato—yn ei ofni, ei barchu, a'i garu yn ngwyneb ei fawredd, ei ddaioni, a'i hawddgarwch; ac yn ymddiried ynddo yn ngwyneb ei hollddigonolrwydd a'i ffyddlondeb; yn ymostwng iddo yn ngwyneb ei awdurdod a'i freniniaeth; ac yn edifarhau am bechod, yn yr olwg ar ei burdeb, ei gyfiawnder, a'i gariad. Y mae y meddwl sanctaidd, yr hwn sydd wedi cael ei dyneru gan yr Ysbryd Glân, mewn ffordd o ddeffroad i ryw ras ynddo yn derbyn rhyw argraff oddi wrth bob amlygrwydd a roddir iddo o wahanol briodoliaethau neu berffeithderau Duw.

Y mae y parch dyledus i Dduw yn gynnwysedig mewn gradd yn ngweithrediad pob gras tuag ato: 2 *Cor.* i. 12; vii. 9. Y mae yr hyn a nodwyd uchod yn dangos yn amlwg mai nid anwybodaeth ydyw mammaeth duwioldeb, fel yr haera rhai yn yr Eglwys Babaidd; ac nad coelgrefydd, sef cyflawniad manylaidd o ddefodau a seremonïau, ydyw duwioldeb; mai nid hunangyfiawnder Phariseaidd, sef cyflawniad manwl o ryw ddyledswyddau moesol, yw; mai nid rhyfyg Antinomaidd ydyw, sef math o ffydd heb weithredoedd; ac mai nid mewn penboethni disail, megys pwyso ar dymmerau toddedig, gweledigaethau rhyfedd, a nwydau dyeithr, y mae duwioldeb yn gynnwysedig:—ond mai peth hollol resymol ydyw, yn seiliedig ar adnabyddiaeth gywir o Dduw, yr hawl gyfreithlawn sydd ganddo yn serch a gwasanaeth ei holl greaduriaid rhesymol yn mhob man, a'r teilyngdod sydd ynddo i gael ei wasanaethu ganddynt. "Duwioldeb," medd yr hyawdl Saurin, "sy'n cynnwys gwybodaeth, parch, cariad, ymorphwysiad, ymostyngiad, diolchgarwch, ac ufudd-dod; neu mae yn cynnwys y pethau canlynol: — *gwybodaeth* yn y meddwl, yr hyn sydd yn ei gwahaniaethu oddi wrth weledigaethau y coelgrefyddol; *uniondeb* yn y gydwybod, yr hyn sydd yn ei gwahaniaethu oddi wrth ragrith; *hunanymwadiad* yn y

Digitized by Google

fuchedd, neu ymwrthodiad â'r byd, yr hyn sydd yn ei gwahaniaethu oddi wrth ufudd-dod diofal, yr hwn sydd yn cymmeryd ei arwain gan nwydau ac amgylchiadau; ac yn ddiweddaf, *sel* yn y galon, yr hyn sydd yn ei gwahaniaethu oddi wrth gynhyrfiadau dihoenol y clauar-ddyn." "Ymarfer dy hun i dduwioldeb" (1 *Tim.* iv. 7); "Byw yn dduwiol" (2 *Tim.* iii. 12); "Byw yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon" (*Tit.* ii. 12), ac ymadroddion cyffelyb, ydynt yn arwyddo gwir addoli Duw yn ol ei air—yn y dirgel ac yn y cyhoedd; gofalu am achos Duw a'i anrhydedd yn y byd; trafod pob peth yn y byd sydd yr awr hon, gan olygu gogoniant mynegol Duw yn y cyfan: 1 *Cor.* x. 31; 2 *Tim.* ii. 2. "Eithr duwioldeb sydd yn fuddiol i bob peth;" 1 *Tim.* iv. 8: hyny yw, y mae duwioldeb yn fuddiol yn mhob ystyr—yn ei chyssylltiad â phethau y bywyd presennol a'r bywyd yr hwn sydd i fod; y mae crefydd a duwioldeb a'u tuedd i lesoli a dedwyddu dyn yn y byd hwn, a'i barotoi erbyn dedwyddwch byth yn y byd arall. "Yr athrawiaeth yn ol duwioldeb;" 1 *Tim.* vi. 3:—yr athrawiaeth iachus yn ol yr Ysgrythyrau, yr hon sydd â'i thuedd a'i hosgo i gynnyrchu neu fagu duwioldeb yn yr enaid. "Yn tybied mai elw yw duwioldeb;" 1 *Tim.* vi. 5. Cyfeiria cyssylltiad yr ymadrodd at ryw ddynion heb fod yn cytuno âg iachus eiriau y ffydd; rhai yn chwyddo heb wybod dim, eithr yn anmhwyllo yn nghylch cwestiynau ac ymrysson yn nghylch geiriau, heb fod y gwirionedd ganddynt; yn tybied mai elw ydyw duwioldeb; hyny yw, rhai yn tybied mai duwioldeb yw pa beth bynag a atebo y dyben er cyrhaedd elw ac anrhydedd bydol; neu y rhaid fod beth bynag sydd â'i duedd felly i chwanegu elw, yn cael ei gymmeradwyo gan grefydd a duwioldeb. "Ond elw mawr yw duwioldeb gyda boddlonrwydd;" 1 *Tim.* vi. 6:—hyny yw, duwioldeb neu grefydd mewn cyssylltiad â meddwl boddlongar, neu feddwl yn ymdawelu yn ngwyneb troion bywyd, yw yr elw mwyaf, neu sydd yn wir elw. Ac y mae gwir dduwioldeb yn cynnorthwyo ei pherchenog i fod yn foddlawn yn mha gyflwr bynag y byddo: *Phil.* iv. 11. "Eithr tydi, gŵr Duw, gochel y pethau hyn; a dilyn gyfiawnder, duwioldeb, ffydd, cariad, amynedd, addfwynder;" 1 *Tim.* vi. 11. Hyny ydyw, Ti Timotheus, gŵr Duw, gochel y pethau hyn; sef yr awydd anniwalladwy am feddiannau a phleserau cnawdol (y cyfeirir am danynt yn y cyssylltiad), "a dilyn;" hyny yw, ymawydda fel am y gamp uchel, yr arferiad o gyfiawnder cyffredinol at ddynion, duwiolfrydigrwydd tuag at Dduw, ffyddlondeb yn mhob rhan o'r weinidogaeth a ymddiriedwyd i ti, cariad at ddynion, amynedd dan bob croes a ddichon ddyfod i dy gyfarfod, ac addfwynder yn mhob profedigaeth a chyffroad. Yma, y mae duwioldeb yn cael ei gymmeryd i fewn fel un o rasusau yr efengyl sydd yn gwneyd i fyny y cymmeriad Cristionogol, ac nid yr oll o hono yn ei gyfanswm, yr hwn yn fynych a osodir allan yn mhlith dynion dan yr enw. Yr oedd yr apostol yma yn gweled fod yn angenrheidiol annog Timotheus i ragori yn mhob gras, er ymddangos i ddynion oddi allan yn ei wir gymmeriad Cristionogol, fel ag i ennill iddo ei hun hyder yn mhlith y rhai a'i hadwaenant ef fel gŵr Duw, ac arddangos gogoniant yr efengyl. Ond er y sonir am rasusau ereill yn yr un man, mewn cyssylltiad â'r gras o dduwioldeb, fel yn gwneyd i fyny y cymmeriad Cristionogol, eto nid oes un anmhriodoldeb i alw y cyfan wrth yr enw *duwioldeb;* canys lle y byddo y gras hwn yn teyrnasu yn yr enaid, sef parch a thuedd duwiolfrydig at Dduw, y mae yr holl rasau ereill yn sicr o fod yno, megys yn cyfodi oddi ar hyny, ac yn tynu eu grym oddi wrtho. "Canys dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd" (gwel 2 *Pedr* i. 6, 7). "Rhith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi" (2 *Tim.* iii. 5), ydyw gwneyd proffes o honi, neu fod mewn cyssylltiad gweledig â'r eglwys, ond heb fod dan ddylanwad y gwirionedd, na dwyn ffrwyth i Dduw mewn gweithredoedd da. "Ffydd etholedigion Duw...yr hon sydd yn ol duwioldeb," (*Tit.* i. 1) ydyw y ffydd ag sydd yn tueddu er meithrin y teimlad o gariad a duwiolgarwch tuag at Dduw. "Mawr yw dirgelwch duwioldeb;" 1 *Tim.* iii. 16. Wrth dduwioldeb yr ydys yn y cyffredin yn deall duwiolder, duwiolfrydedd, neu barch ac ymhyfrydiad goruchel yn Nuw, yr hyn yw ei ystyr briodol; ond yma y mae y gair yn cael ei ddefnyddio am drefn cadw—yr efengyl fel cyfundrefn; ac mewn perthynas i'r hon y mae yr apostol yn sicrhau mai mawr yw ei dirgelwch, sef fod pethau ynddi na ddaethent byth i galon dyn oni buasai i Dduw eu cyflawnu a'u cyhoeddi trwy bregethiad yr efengyl. Ac nid hyny yn unig, ond er i'r pethau gael eu hysbysu a'u dadguddio yn yr efengyl, eto eu bod ynddynt eu hunain y tu hwnt i'r hyn a allwn ni ei amgyffred; ac yn enwedig fod ffaith fawr yr efengyl, sef fod Duw wedi ymddangos yn y cnawd, felly.

DUWIOLIAID, [*Pietists*]: plaid grefyddol a gyfododd yn mysg Protestaniaid yr Almaen, yn niwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Gosodwyd duwioliaeth ar droed gan y duwiol a'r dysgedig Spener; yr hwn, trwy y cymdeithasau dirgel a ffurfiwyd ganddo yn Frankfort, i'r dyben o ddyrchafu gwir dduwioldeb, a gyffrodd y crefyddwyr marwaidd o'u difaterwch, ac a gyfranodd ysbryd gweithgar a phenderfynol i'r rhai a foddlonent ar ofidio yn ddirgel o blegid cynnydd annuwioldeb. Dwyshawyd effeithiau hynod y cymdeithasau hyn gan lyfr a gyhoeddwyd ganddo, yn dwyn y teitl *Dymuniadau Duwiol;* yn yr hwn y rhoddai ddysgrifiad tarawiadol o annhrefn yr eglwysi, ac y cynnygiai foddion priodol i'w hadferu. Boddheid lluaws o bersonau o egwyddorion cywir ac uniawn yn fawr gan weithrediadau ac ysgrifeniadau Spener; yn wir, cymmeradwyid ei amcanion gan y rhan fwyaf a deimlent yn wirioneddol yn achos rhinwedd a chrefydd ymarferol, er y cedwid nifer mawr o honynt rhag dangos eu cymmeradwyaeth mewn modd cyhoeddus gan ofn i'w gynlluniau gael eu camarfer. Ac yn wir, felly y dygwyddodd. Syrthiodd y moddion a gynnygiwyd gan Spener i adferu yr eglwys o'i hannhrefn i ddwylaw pobl anfedrus, gweinyddwyd hwy yn annoeth; a thrwy hyny, gwnaethant fwy o niwed mewn llawer amgylchiad na'r annhrefn blaenorol. Mewn canlyniad, cyfododd achwyniadau yn erbyn y sefydliadau hyn, megys pe buasent, dan gochl o sancteiddrwydd neillduol, yn lledaenu syniadau cyfeiliornus i'r bobl am grefydd, ac yn taenu hadau ac egwyddorion gwrthryfel a bradwriaeth yn mysg y personau hyny ag oedd o dueddiadau cynnhyrfus a therfysglyd.

Y mae yn ddiddadl y buasai yr achwyniadau hyn, a'r terfysgoedd a achosasant, yn tawelu yn raddol, oni buasai i'r ymrysonau a gyfododd yn Leipsic, yn y flwyddyn 1689, chwanegu tanwydd at y goelcerth. Dechreuodd nifer o broffeswyr

Digitized by Google

athroniaeth, duwiol a dysgedig—ac yn enwedig Franckins, Schadius, a Paulus Antonius, dysgyblion Spener, yr hwn ar y pryd oedd yn arolygwr eglwysig yn llys Saxony—ystyried gyda difrifoldeb y diffygion a ffynent yn y dull cyffredin o weinyddu addysg i ymgeiswyr am y weinidogaeth; a darbwyllwyd hwynt trwy yr adolygiad hwn ei bod yn ddyledswydd arnynt wneyd pob ymdrech er cyflawnu y diffygion, ac er diwygio yr hyn oedd yn feius. Er mwyn hyny, ymgymmerasant âg esbonio yn eu hathrofaau rai llyfrau penodol o'r Beibl, mewn trefn i gynnyrchu ysbryd duwioldeb ymarferol a chrefydd fywiol yn meddyliau eu gwrandawyr. Tynodd newydd-deb y cynllun hwn sylw lliaweroedd; gan hyny, byddai tyrfaoedd yn myned i wrandaw y darlithiau hyn, ac yr oedd eu heffeithiau i'w gweled yn amlwg yn mywydau ac ymddyddanion lluaws o bersonau. Gwneid llawer o bethau, pa fodd bynag, yn ol fel y dywedir, yn y colegau Beiblaidd hyn, fel eu gelwid, ag oeddynt yn groes i arferiad, ac yn mhell o fod yn gysson â doethineb; er y gallasai barnwyr diduedd a chyfiawn, fe allai, edrych arnynt fel pethau ag y gallesid eu goddef. Achosodd hyn gynhwrf a digofaint, a dygwyd y mater o'r diwedd i brawf cyhoeddus, yn mha un y mae yn wir y rhyddhawyd y dynion dysgedig a duwiol a grybwyllwyd oddi wrth y cyfeiliornadau a ddygwyd yn eu herbyn; ond ar yr un pryd, gwaharddwyd iddynt gario yn mlaen eu cynllun o gyfranu addysg grefyddol. Yn ystod yr helbulon a'r ymrafaeliadau hyn y dyfeisiwyd yr enw *Duwioliaid*, fel enw o ddiystyrwch. Cymhwyswyd ef ar y cyntaf at y bobl a fynychent y colegau Beiblaidd, ac a ymddygent yn gyfaddas i'r addysgiadau crefyddol a dderbynient yn y sefydliadau hyny. Aethpwyd drachefn i gymhwyso y gair mewn ystyr eangach, nes yr aeth yn hollol anmhriodol.

Nid oedd yr ymryson hwn mewn un modd yn gyfyngedig i Leipsic; ond ymdaenodd yn gyflym trwy yr holl eglwysi Lutheraidd yn ngwahanol daleithiau a theyrnasoedd Ewrop. O'r pryd hyn allan, yn yr holl ddinasoedd, y trefydd, a'r pentrefydd, yn mha rai y proffesid Lutheriaeth, cyfodai personau i fyny yn ddisymmwth, yn feibion a merched, y rhai a ddadganent eu bod wedi eu galw trwy gymhelliad dwyfol i ddiwreiddio pechod, i adferu crefydd i'w phurdeb cyntefig, a'i lledaenu dros y byd, ac i lywodraethu eglwys Crist trwy reolau doethach. Ffurfiwyd amryw gymdeithasau crefyddol mewn gwahanol leoedd, y rhai, er y gwahaniaethent mewn rhai pethau, ac er nas llywodraethid hwynt oll gyda'r un gofal a doethineb, oeddynt wedi eu bwriadu i ddwyn yn mlaen yr un amcan cyffredinol. Yn y cyfamser, llenwid y gwŷr eglwysig, a swyddogion y llywodraeth, âg ofn a dychryn, trwy y gweithrediadau anghyffredin hyn. Cwblhawyd yr ofnau hyn trwy i'r Duwioliaid dderbyn i'w plith nifer o benboethiaid, y rhai a raghysbysent ddinystr agoshaol Babel (drwy yr hyn y golygent yr Eglwys Lutheraidd), ac a ddychrynent y bobl â gweledigaethau ffugiol; honent eu bod yn meddu awdurdod ddwyfol prophwydi, tywyllent wirioneddau aruchel crefydd trwy fath o gymmysgiaith o'u dyfeisiad eu hunain, ac adnewyddent athrawiaethau ag oedd wedi eu condemnio gan yr eglwys er ys llawer o amser cyn hyny. Cyfododd yr ymddadleuon chwerwaf yn yr holl eglwysi Lutheraidd mewn canlyniad i hyn, ac ymosodai personau na wahaniaethent oddi wrth eu gilydd ond yn unig mewn pethau dibwys, y naill ar y llall gyda'r adgasrwydd penaf; ac o'r diwedd, gwnaethpwyd deddfau llymion mewn amryw wledydd yn erbyn y Duwioliaid.

Yr oedd y bobl hyn yn ddau ddosbarth. Mynai un blaid ddwyn diwygiad crefyddol yn mlaen heb wneyd un cyfnewidiad yn athrawiaethau, dysgyblaeth, na ffurflywodraeth sefydledig yr Eglwys Lutheraidd. Haerai y blaid arall fod yn anmhosibl dwyn yn mlaen ddiwygiad gwirioneddol yn mhlith y Lutheriaid heb wneyd cyfnewidiadau mawrion yn eu hathrawiaethau, ac heb newid holl ffurf eu dysgyblaeth eglwysig. Blaener y blaid gyntaf oedd y duwiol a'r dysgedig Spener; yr hwn, yn y flwyddyn 1691, a symmudodd o Dresden i Berlin, a syniadau yr hwn a fabwysiadwyd gan athrawon athrofa newydd Halle; ac yn neillduol gan Franckins a Paulus Antonius, y rhai a wahoddasid i Halle o Leipsic, lle y dechreuwyd eu drwgdybio o Dduwiolaeth. Er yr edrychid yn ffafriol ar amcanion a dybenion y bobl dda hyn yn lled gyffredinol, eto barnai amryw dduwinyddion enwog, ac yn neillduol gweinidogion a phroffesorion Wittenberg, eu bod wedi mabwysiadu amryw osodiadau, a'u bod yn defnyddio rhai mesurau, ag oeddynt yn niweidiol i'r gwirionedd ac i'r eglwys. Gan hyny, edrychent arnynt eu hunain megys dan rwymau i wrth wynebu Spener yn gyhoeddus, yr hyn a wnaethant yn y flwyddyn 1695; ac wedi hyny, gwrthwynebasant ei ddysgyblion a'i ymlynwyr. Y mae pynciau y dadleuon a gymmerasant le yn dra amrywiol; gan hyny, y mae yn anmhosibl eu cynnwys dan unrhyw benawd cyffredinol. Os edrychwn arnynt, mae yn wir, yn eu perthynas â'u ffynnonell wreiddiol, ac â'r amgylchiadau a'u dygodd i fodolaeth, yna gallwn eu dosbarthu dan ryw egwyddorion penodol. Y mae yn eithaf hysbys bod y personau ag yr oedd cynnydd duwioldeb yn agos at eu calon wedi eu meddiannu gan syniad na thaflai unrhyw ddosbarth o'r bobl fwy o rwystrau ar ffordd ei llwyddiant na'r clerigwyr—dyledswydd neillduol pa rai oedd ei hyrwyddo. Gan edrych ar hyn fel gwraidd y drwg, yr oedd yn naturiol iddynt ddechreu y diwygiad gyda'r clerigwyr; yn ganlynol, gosodasant i lawr fel egwyddor anhebgorol, na dderbynid neb i'r weinidogaeth ond y cyfryw a fyddent wedi derbyn addysg briodol, a fyddent yn nodedig am eu doethineb a sancteiddrwydd eu hymarweddiad, a'r cyfryw y byddai eu calonau yn llawn o gariad Duw. Gan hyny, cynnygiasant, yn y lle cyntaf, ddwyn diwygiad trwyadl oddi amgylch yn yr ysgolion duwinyddol; a dywedent yn eithaf eglur pa beth a olygent wrth y diwygiad hwn:—Bod y dduwinyddiaeth gyfundrefnol a ffynai yn y colegau, ag oedd yn gyfansoddedig o athrawiaethau dyrys ac ammheus, ac o ffurfiau ymadrodd tywyll ac anghyffredin, i gael ei diddymu yn hollol; bod llai o sylw i gael ei dalu i dduwinyddiaeth ddadleuol rhag llaw; bod i dduwinyddiaeth gael ei chadw yn hollol ar wahân oddi wrth athroniaeth a dysgeidiaeth ddynol; bod y rhai a fwriedid at waith y weinidogaeth i gael eu harfer er yn blant i ddarllen a myfyrio yr Ysgrythyrau; bod iddynt gael eu dysgu mewn cyfundrefn syml o dduwinyddiaeth; a bod tuedd eu holl ddysgeidiaeth at eu gwneuthur yn ddefnyddiol yn eu bywyd, trwy nerth ymarferol eu hathrawiaeth a dylanwad eu hesamplau. Gan y lledaenid y gosodiadau hyn gyda'r dyfalwch a'r sel mwyaf, ac heb y gochelgarwch lleiaf, aeth llawer i ddrwgdybio y diwygwyr o amcanion

Digitized by Google

annheilwng. Tybid eu bod yn diystyru athroniaeth a dysgeidiaeth; yn ymwrthod â phob ymholiad i natur a seiliau gwirioneddau crefyddol; eu bod yn anghymmeradwyo sel a llafur y rhai a'u hamddiffynent rhag ymosodiadau cyfeiliornwyr; a bod eu holl dduwinyddiaeth yn gynnwysedig mewn areithiau anghysson a digyssylltiad mewn perthynas i ddyledswyddau moesoldeb. Oddi ar hyn y cyfododd y dadleuon enwog mewn perthynas i ddefnyddioldeb athroniaeth a gwerth dysgeidiaeth ddynol, o'u hystyried mewn cyssylltiad â chrefydd; urddasolrwydd a defnyddioldeb duwinyddiaeth gyfundrefnol; yr angenrheidrwydd am dduwinyddiaeth ddadleuol; rhagoriaeth y gyfundrefn arwyddluniol; ac hefyd mewn perthynas i'r dull priodol o gyfranu addysg i'r bobl. Yr ail amcan mawr mewn golwg gan y bobl hyn oedd, fod yn rhaid i bob ymgeiswyr am y swydd weinidogaethol gyssegru eu hunain i Dduw mewn modd neillduol, a rhoddi esamplau eglur o dduwioldeb a rhinwedd. Bu hyn, er y gellir edrych arno, o'i ystyried wrtho ei hun, yn beth tra chanmoladwy, nid yn unig yn achlysur i wneyd amryw reolau newyddion, i'r dyben o ffrwyno nwydau y myfyrwyr, i fagu ynddynt syniadau duwiolfrydig, ac i'w hannog i wneyd penderfyniadau sanctaidd; ond cynnyrchodd hefyd osodiad arall, yr hwn a fu yn ffynnonell dadleuon hirfaith; sef—"Nad oedd un dyn, oddi eithr ei fod yn gynllun o dduwioldeb a chariad dwyfol ei hunan, yn gymhwys i fod yn athraw cyhoeddus duwioldeb, neu yn arweinydd i ereill yn ffordd iachawdwriaeth." Ystyrid y dybiaeth hon gan lawer megys yn sarhad ar allu a rhinwedd gair Duw, yr hwn y mae yn anmhosibl i ddrygioni ei weinidogion ei amddifadu o'i ddylanwad dwyfol, ac yn adfywiad ar hen gyfeiliornadau y Donatiaid. Bu hyn yn achlysur o ddadleuon dyrys a diddarfod ar y materion canlynol:—"A ellir galw y wybodaeth grefyddol a gasgla dyn drygionus yn dduwinyddiaeth? — A all dyn drygionus gyrhaedd gwybodaeth grefyddol wirioneddol o gwbl? —Pa mor bell y gellir dyweyd fod swydd a gweinidogaeth clerigwyr annuwiol yn rhinweddol?" a llawer o bynciau ereill cyffelyb.

Yn mhellach, barnai y bobl hyn fod dau beth arall yn anhebgorol angenrheidiol er gwneuthur gweinidogaeth eu bugeiliaid mor effeithiol ag yr oedd yn bosibl, i gyffroi dynion o'u difrawder ac i attal ffrydlif llygredigaeth ac anfoesoldeb. Y peth cyntaf oedd, peidio dywedyd ymadroddion, pan yn addysgu yn gyhoeddus, y gallai dynion ymlochesu yn eu cysgod yn eu pechodau. Ymadroddion o'r dysgrifiad hwn, yn ol barn y Duwioliaid, oedd y rhai canlynol:—Nis gall un dyn gyrhaedd y perffeithrwydd ag y mae deddf Duw yn ei ofyn—Nid yw gweithredoedd da yn angenrheidiol er cyrhaedd iachawdwriaeth—Yn y weithred o gyfiawnhad, o du dyn, ffydd yn unig a ofynir, heb weithredoedd da. Yr ail beth a wnaethant, mewn trefn i roddi effeithiolrwydd i'w cynlluniau o ddiwygiad, oedd, ffurfio cyfres o reolau newyddion i fyw wrthynt, llawer llymach na'r rhai oedd ganddynt yn flaenorol; a gosod llawer o bleserau a ystyrid yn ddiniwed ynddynt eu hunain yn mysg pethau anghyfreithlawn a phechadurus. Y trydydd peth a orchymynai y Duwioliaid oedd cynnal cyfarfodydd dirgel, heb law y cyfarfodydd cyhoeddus, i weddïo ac i addoli Duw.

Cynnwysai y dosbarth arall o Dduwioliaid a grybwyllwyd—golygiadau diwygiadol pa rai a ymeangent mor bell ag i gyfnewid cyfundrefn athrawiaethol a ffurflywodraeth yr Eglwys Lutheraidd—bobl o gymmeriadau tra gwahaniaethol. Yr oedd rhai o honynt yn berffaith amddifad o farn; ac edrychid arnynt yn fwy fel lloerigion na chyfeiliornwyr. Yr oedd ereill yn fwy cymmedrol eu syniadau, a dalient rai o athrawiaethau pwysig crefydd, yn gymmysgedig â syniadau dyeithrol.—(*Buck's Theol. Dict.*)

DWFR, DYFROEDD, [Arm., *dour;* Groeg, ὕδωρ; Heb., מים]: dwr, gwy, aw. Hylif tra adnabyddus, sydd yn wasgaredig trwy yr awyrgylch, dros wyneb y ddaiar, ac mewn cyfartaledd penodol mewn anifeiliaid, llysiau, a mwnau. Y mae yn hanfodol i fywyd anifeiliaidd a llysieuol; mae yn hyrwyddo ymdrafodaeth rhwng parthau pellaf y byd a'u gilydd; ac y mae yn un o'r galluoedd mwyaf defnyddiol yn y celfyddydau gallofyddol. Ond ni a edrychwn ar ddwfr, yn mlaenaf, yn ei gyssylltiadau Ysgrythyrol.

Nis gellir darllen ond ychydig o'r Ysgrythyrau heb ganfod fod dwfr o bwys dirfawr i'r Hebreaid yn Mhalestina, ac yn wir yn mhob gwlad y cawn hanes am danynt ynddi; ac yn fwy neillduol yn y diffaethwch, lle y crwydrasant ar ol ymadael o'r Aipht, cystal a'r gwledydd i'r rhai yr oeddynt wedi anfon eu hanifeiliaid i bori cyn ac ar ol hyny. Sylwyd eisoes i raddau ar y dyfroedd naturiol y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau dan y gair AFON a DAIARYDDIAETH; a cheir achlysur i son am rai casgliadau celfyddydol o ddwfr dan y geiriau DYFRGIST, IERUSALEM, a PALESTINA, y cyfeirir atynt yn yr Ysgrythyrau.

Y mae amddifadrwydd y gwledydd dwyreiniol o ddwfr, o ddiffyg gwlaw yn yr haf, yn gosod pobl y gwledydd hyny, cystal a'r anialdiroedd, dan yr angenrheidrwydd o ymddibynu yn hollol ar y dwfr a dardd o ffynnonau, neu a geir mewn pydewau, ac a gedwir mewn dyfrgistiau a chronfäau, yn ystod yr haf a'r hydref. Yr hyn sydd yn rhoddi pwys i'r ychydig gyflenwad a sicrheir fel hyn sydd yn hollol anhysbys i ni yn yr hinsawdd wlybyrog yma.

Wedi cyfeirio at yr erthyglau a nodwyd am eglurhad ar y dyfrgistiau, &c., ni a ddeuwn ar unwaith i sylwi ar y llynau a elwir Llynau Solomon, ger Bethlehem; y rhai, gan eu bod yn cael eu cyflenwi o ffynnonau, sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth ddyfrgistiau, ac yn teilyngu sylw fel hen weithiau, fe allai, sydd yn gynnyrch celfyddyd Hebraeg. Ymddengys fod y traddodiad sydd yn eu priodoli i Solomon wedi ei seilio ar ymadrodd yn Llyfr y Pregethwr, lle y llefara yr ysgrifenydd am ei waith ei hun—"Mi a wnaethum erddi a pherllanau, ac a blenais ynddynt brenau o bob ffrwyth: mi a wnaethum lynau dwfr, i ddyfrhau â hwynt y llwyni sydd yn dwyn coed;" *Preg.* ii. 5, 6. Tybir hefyd mai at y rhai hyn y cyfeirir yn Nghaniad Solomon (iv. 12); "Gardd gauedig yw fy chwaer a'm dyweddi: ffynnon glöedig, ffynnon seliedig yw." Ar fyr, yma yr yr ydym yn cael dyffryn bychan neillduedig, lle yr oedd gardd henafol a chronfäau dwfr yn cael eu cyflenwi o "ffynnon gauedig." Oddi wrth hyn y mae y dyffryn ei hun yn mysg hen deithwyr yn myned dan yr enw *Hortus Conclusus* (Gardd Gauedig). Tybir hefyd mai hwn oedd y lle a grybwyllir gan Josephus, yr hwn a ddywed, "Yr ydoedd lle penodol a elwid Etham, o gylch deg ystâd a deugain o Ierusalem, lle yr ydoedd gerddi hyfryd a phrydferth yn llawn o ffrydiau dwfr, a byddai Solomon yn arfer myned yno yn y bore, gan eistedd yn uchel yn ei gerbyd" —[*Antiq.* viii. 7.] Y mae Maundrell yn meddwl

Digitized by Google

fod yn bur debyg i'r llynau gael eu gwneuthur gan Solomon; ond "am y gerddi," eb efe, "gellir bod yn sicr, os Solomon a'u gwnaeth yn y tir creigiog a briodolir iddynt yn awr, ei fod wedi dangos mwy o allu a chyfoeth yn cwblhau ei amcan nag o ddoethineb yn dewis y lle iddynt." Ond gwell beirniad, sef Hasselquist, a ddywed, "Gellid caniatau yn hawdd, wrth agwedd y lle, y gallai Solomon fod wedi ffurfio gardd yma, er nad ydyw wrth natur yn lle dymunol; ond fe ddichon y gallai y tywysog mawr hwn ddewis gwellhau natur trwy gelfyddyd, fel y gwnaeth llawer o benaduriaid ereill." Y gwir ydyw, fod dyffryn a gedwid bob amser yn lâs ac iraidd gan gyflawnder o ddwfr, yn meddu manteision neillduol yn y wlad hono i fod yn llanerch ddifyrus. Sylwa Mariti, gan ddywedyd, "Y mae natur fyth wedi parhau ei ffrwythlondeb cyntefig i ddyffryn *Hortus Conclusus*. Er nad yw yn cael nemawr ddiwylliad, eto y mae yn dwyn swm gweddol o gotwm, ac amryw fathau o rawn. Gellir gweled yno hefyd blanigfeydd hardd o goed ffrwythau, yn rhoddi y ffrwyth mwyaf iraidd yn y wlad. Y mae llawer o flodau a phlanigion persawrus yn tyfu yno yn naturiol ar bob tymmor o'r flwyddyn, yn mysg y rhai y mae teim, rhosmari, mintys y creigiau, saets, chwerwlys, *persil*, llysiau yr echrysbaint, troed y frân, a llysiau y gwynt." Dygodd De Breves er's hir amser dystiolaeth gyffelyb, er ei fod ef yno ar y mis tra anffafriol hwnw, Gorphenaf. Dysgrifia efe y dyffryn fel un ag oedd bob amser yn lâs; ac heb law y planigion a nodwyd yn barod, a faethir yno gan law dyner natur, chwanega yr eurafal, y llebron, a'r promgranad, fel y ffrwythau a dyfant yno. Dywed Zuallart fod amryw fath o lysiau anghyffredin wedi eu canfod yn y dyffryn, ac awgryma fod yn debyg y tarddant o lysiau tramor a ddygwyd yno gan Solomon i'w erddi.

Rhydd y Dr. Wilde ddarluniad rhagorol o'r llynau:—"Yn mhen pellaf y dyffryn, daethom at dair o ddyfrgistiau anferth eu maint, wedi eu suddo yn ochr gallt, y rhai a ystyrir er cyn cof yn waith Solomon; ac yn ddiau y maent yn dra theilwng o'r dyn i'r hwn y priodola traddodiad eu gwneuthuriad. Mae y dyfrgistiau hyn wedi eu gosod ar wastadle gwahanol, y naill uwch ben y llall, ac mor fawr fel y daliant swm anhygoel o ddwfr. Y maent wedi eu gwneuthur yn y fath fodd, trwy fod dyfrbibelli yn arwain o'r naill i'r llall, a thrwy eu bod yn gydfiniol, fel pan lenwo yr uchaf i ryw uchder penodol, y rhed y gweddill i'r un oddi tano, ac o hwnw i'r trydydd. Yr oedd y mynedfeydd hyn wedi eu hattal, a'r holl ddyfrgistiau allan o gywair, neu yn wir yn adfeiliedig, pan yr ymwelsom ni â hwy, fel mai prin yr oedd dim dwfr yn yr isaf, tra yr oedd yr uchaf bron yn llawn o ddwfr da, pur. Y mae dyfrffosydd bychain yn myned o bob un o'r rhai hyn i brif ddyfrffos sydd yn arwain y dwfr i Ierusalem. Y maent wedi eu gwisgo oll oddi mewn â haen tew o gymrwd (*cement*) gwyn caled, ac y mae rhes o risiau yn myned i waelod pob un o honynt, tebyg i'r rhai sydd yn y ddinas sanctaidd. Lle y mae y ddyfrgist isaf yn ymuno â dyffryn Etham, y mae wedi ei ffurfio âg argau bridd, ac y mae llifddor ynddi i dynu dwfr yn achlysurol. Ychydig bellder oddi wrth y llyn uchaf, mi a ddisgynais i ystafell geryg gul, trwy yr hon yr oedd y dwfr yn myned ar ei ffordd o'r ffynnon i'r dyfrgistiau. Y mae ystori draddodiadol yn cael ei dywedyd am y ffynnon yma. dywedir mai hi ydyw y ffynnon seliedig y cyfeirir ati yn y bedwaredd a'r bummed bennod o Ganiad Solomon. Ymddangosai i mi, trwy yr ymchwiliad a wnaethum o'r lle hwn, fod amryw lygaid (*springs*) neu ffynnonau yn ymarllwys i'r dyfrgistiau hyn, y rhai mewn rhan sydd wedi eu tori yn y graig, ac mewn rhan wedi eu gwneuthur o waith maen.

"Y mae castell ysgwâr mawr yn agos i'r parth uchaf, trefn adeiladaeth yr hwn a berthyn, fel yr ymddengys, i'r cyfnod Cristionogol; ac wedi ei osod, yn ol tebygolrwydd, i wylio y dyfrweithiau hyn yn ystod y "rhyfel sanctaidd;" canys y mae y cyfyngderau y gwasgwyd rhai o'r Croesgadwyr boreuaf iddynt yn hysbys, o blegid i wahanol ffynnonau neu bydewau gael eu gwenwyno gan y gelyn ar eu dynesiad at Ierusalem.

"Gan fod y ffynnonau hyn wedi cael eu dysgrifio eisoes gan Maundrell, Pococke, ac ereill, nid ymdroaf chwaneg gyda hwy, ond i grybwyll dau amgylchiad yr ymddengys yn rhyfedd na buasai teithwyr blaenorol wedi cyfeirio atynt. Y cyntaf ydyw, eu tebygrwydd mawr i'r ffynnonau a briodolir i Solomon yn Ras-el-Ain neu Tyrus; a'r ffaith fod y naill fel y lleill yn ffynnonau natùriol, a'u cyflead uchel y fath fel y cyfyd y dwfr a lifa o honynt i'r un uchder a hwythau yn mhen draw ei yrfa. Yr ail yw, fod y ffynnonau hyn o'r dechreuad wedi eu casglu yn un ffrwd, yr hon y rhaid ei bod y pryd hyny yn gryn afonig; ac wedi rhedeg trwy y dyffryn yma, hwy a arllwysant eu dyfroedd i'r llyn Asphaltine.

"Ar ein dychweliad i'r ddinas, ni a ganlynasom rediad y ddyfrffos cyn belled a Bethlehem, ac a'i croesasom hi wedi hyny amryw weithiau ar y ffordd. Y mae yn bur fechan, ond rhed y dwfr ynddi yn bur chwyrn, fel y gallem ganfod mewn amryw fanau oedd wedi eu gadael yn agored yma ac acw. Wrth sylwi ar y rhediad tra ymnyddog a gymmer y ddyfrffos hon wrth ddilyn gwahanol ystumiau y tir, weithiau uwch law ac weithiau is law y wyneb, y mae yn anhawdd i un berswadio ei hun nad ydyw yn rhedeg weithiau i fyny yr allt, fel y mae llawer wedi tybied. Yn olaf, y mae yn croesi dros ddyffryn Rephaim, ar gyfres o fwäau, i'r gogledd o lyn isaf Gihon, ac yn troelli o amgylch pwynt deheuol Mynydd Sion, gan ymgolli o'r golwg yn adfeilion y ddinas. Y mae yn dra thebygol y cyflenwai Lyn Bethesda, ar ol llifo dim llai yn ddiammheu nag o dair i bedair milltir ar ddeg."

Yr unig beth sydd genym i chwanegu at y darluniad eglur yma, yw mesuriad y Dr. Robinson:—

*Y llyn isaf* (a elwir gan yr haneswyr uchod yn ddyfrgist): ei hyd yw 582 troedfedd; lled yn y pen dwyreiniol, 207 troedfedd; yn y pen gorllewinol, 148 troedfedd; dyfnder yn y pen dwyreiniol, 50 troedfedd, o'r rhai y mae 6 throedfedd o ddwfr (yn mis Mai).


*Y llyn canol.* Pellder uwch law y llyn isaf, 248 troedfedd; hyd, 423 troedfedd; lled yn y pen dwyreiniol, 250 troedfedd; yn y pen gorllewinol, 160 troedfedd; dyfnder yn y pen dwyreiniol, 39 troedfedd, o'r rhai y mae pedair troedfedd ar ddeg o ddwfr.

*Y llyn uchaf.* Pellder uwch law y llyn canol, 160 troedfedd; hyd, 380 troedfedd; lled yn y pen dwyreiniol, 236 troedfedd; yn y pen gorllewinol, 229 troedfedd; dyfnder yn y pen dwyreiniol, 25 troedfedd, o'r rhai y mae 15 troedfedd o ddwfr.

Y mae Arglwydd Nugent yn gwneyd y llynoedd hyn ychydig droedfeddi yn fwy bob ffordd, ond cydnebydd y dichon fod mesuriad Robinson yn fwy manwl na'i eiddo ef.

Digitized by Google

Mewn perthynas i ffynnonau neu bydewau, yr oeddynt o bwys mawr iawn, yn enwedig yn y diffeithwch, lle yr oedd y moddion i'w gwneyd yn bur brin, cystal a'r llafur mawr oedd yn angenrheidiol at y gwaith; ac wedi y cyfan, ni choronid y llafur bob amser â llwyddianttrwy gael dwfr. Yn y fath sefyllfa, gan hyny—ac yn y gwledydd cyfanneddol hefyd, yn wir—y mae pydewau o'r gwerth mwyaf, a defnyddir dwfr, gan amlaf, yn bur gynnil (*Num.* xx. 17—19; *Deut.* ii. 6, 28; *Iob* xxii. 7). Pa fodd bynag, y mae ystyriaethau ereill, heb law gwerth y pydew ei hun, a eglurant yr ymrysonau yn nghylch pydewau a ganfyddwn yn hanes Abraham ac Isaac: *Gen.* xxi. 25—31; xxvi. 15—22. Yma gwelwn fod pobl y wlad yn ymryson yn egniol yn erbyn hawl y patriarchiaid i'r pydewau a gloddiasant; ac nid hyny yn unig, ond llanwasant y pydewau a gloddiasai Abraham â phridd, yn lle eu gadael yn agored at eu gwasanaeth eu hunain. Y gwir yw, fod cloddio pydew y dydd heddyw, mewn sefydliad pell oddi wrth gyflenwad o ddwfr, y gorchwyl anhawddaf a mwyaf llafurus a'r a all penaeth llwyth neu giwdod gymmeryd mewn llaw; ac y mae lles y fath waith yn cael ei brisio mor uchel, fel y rhoddir meddiant yn y pydew iddo ef ac i'w etifeddion am byth. Tra y gwersyllo ei lwyth ef yn agos, ni oddefir i neb na byddo yn perthyn iddo dynu dwfr o'r pydew heb ei ganiatad. Pa fodd bynag, ni bydd yr hawl yma mewn grym ond ar ammod fod y pydew i gael ei gadw mewn sefyllfa dda; canys os gadewir iddo fyned allan o drefn, neu i dagu gan laid neu bridd am ryw ysbaid o amser, syrth y meddiant o hono i'r person neu y llwyth a'i hadfero i sefyllfa wasanaethgar. Dyma gyfraith yr anialwch; ond gan fod y cymhwysiad o honi at y pwnc Ysgrythyrol yn nghylch meddiant ffynnonau neu bydewau yn bwysig, caniataer i ni ddyfynu ymadrodd o'r *Pictorial History of Palestine*, sydd yn dal perthynas agos â'r mater:—"Yr oedd Abraham wedi cloddio pydew yn agos i'w wersyllfa, a rhwystrodd gweision (bugeiliaid, fe allai) Abimelech ef trwy drais i'w ddefnyddio. Gan nad yw dynion yn gweithredu ond anfynych heb ryw reswm, neu rith o reswm, a ystyriant hwy yn foddhaol iddynt eu hunain, ymddengys yn debyg fod pobl Abimelech yn ammheu hawl Abraham i gymhwyso cyfraith yr anialwch at dir cyffredin talaeth wedi ei chyfanneddu, ac i hòni meddiant unigol o bydew a gloddiasant yn y fath dir. Pa fodd bynag, pe buasai eu golygiad hwy yn gywir, nis gallasai roddi hawl iddynt ond




Dar. 240. Llynau Solomon.

i gyfran o'r dwfr yn unig, ac ni buasai yn eu cyfiawnhau am gymmeryd llwyr feddiant, yr hyn ni roddent hwy i'r person oedd wedi myned i'r draul i'w gloddio. Ond os ystyrir dygwyddiadau o amseriad diweddarach, tueddir ni i gredu fod yr achos o'r holl ymrysonau am bydewau, y darllenwn am danynt yn hanes Abraham ac Isaac, yn ddyfnach nag yr awgryma yr hanes yma; a rhaid edrych am dano mewn gwlad debycach o ran amgylchiadau i'r hon yr oedd y patriarch yn trigo ynddi yn awr na'r anialwch agored. Yn Persia y ceir y cyfatebiad goreu. Yno y mae pob tiroedd gwyllt—hyny yw, tiroedd nas gellir eu diwyllio o ddiffyg dwfr—yn cael eu galw "tiroedd Duw;" ac er yr ystyrir y brenin fel perchenog cyffredinol y ddaiar, eto y mae y fath diroedd yn rhydd i wneyd pa ddefnydd bynag a'r a ellir o honynt; a daw pwy bynag a allo gael moddion dyfrhad yn feddiannydd o'r tir a wna efe fel hyn yn ddiwylladwy. Yn awr, gan nad oes yn mysg hen arferion cyn cof yn y dwyrain un hynach na'r arfer yn nghylch dal tir, nid gormod yw tybied fod arfer cyffelyb yn bod yn amser Abraham; ac os felly, y mae yn hawdd penderfynu fod pryder y Philistiaid yn nghylch y pydewau a gloddiasai Abraham yn cyfodi oddi ar ofn y deallid y byddai gwneyd y fath bydewau yn rhoddi hawl neu feddiant annileadwy iddo o'r tiroedd yn y rhan yr oedd y pydewau yn sefyll; a dichon y golygent hwy fod yn anghyfleus i lwyth mor gryf

gael hawl felly yn nhir talaeth mor fechan a'r hon a berthynai iddynt hwy. Hyn oedd yr achos o'u gofal, pan yr ymadawodd Abraham o'u parth hwy o'r wlad, am gau y pydewau a gloddiasai efe; a dyma yr achos hefyd o'u hymryson adnewyddol chwerwach âg Isaac, pan y darfu iddo ef, ar ei ddyfodiad yno, ail agor y pydewau hyny a chloddio rhai o newydd ei hunan. Y mae gwaith Isaac hefyd yn myned yn mlaen, i ryw raddau, i ddiwyllio y tiroedd a sicrhasai efe fel hyn trwy ddyfriad, yn gadarnhad arbenig o'r golygiad a gymmerwn yma, fel y gallasai efe yn ddiau wneuthur ar y cynllun hwn; ond nid ydys yn gwybod pa fodd y gallasai efe mewn un ffordd arall gael hawl feddiannol a fuasai yn rhoddi iddo awdurdod i ddiwyllio y tir.

Y mae Abimelech, mewn atebiad i gŵyn Abraham yn nghylch y pydewau, yn dadgan nad oedd efe wedi awdurdodi ei weision i ymddwyn fel y gwnaethant; ac mewn gwirionedd, mai dyma y tro cyntaf iddo ef glywed dim am y peth; ac ni wnaeth un gwrthwynebiad i gynnyg Abraham, fod i gydnabyddiaeth o'i hawl ef (y patriarch) i'r pydew ffurflo rhan o'r cyfammod a gynnygid. Y mae y cynnygiad yma, a ddarlunir fel hyn megys yr unig beth y cymmerai Abraham ei hun ofal am ei ddarbod yn y cynghrair difrifol â brenin y Philistiaid, yn arwydd mor nodedig, fe allai, o ddirfawr bwysigrwydd dwfr yn y gwledydd dwyreiniol ag a ellir ei gael mewn un man arall. Wedi gosod allan y telerau fel hyn, tyngodd y ddau i'r cynghrair; ac fel cof am yr amgylchiad, ac yn enwedig ei hawl addefedig ef i'r pydew, galwodd ef Beer-seba=*ffynnon y llw*. Rhoddi enwau coffadwriaethol fel hyn ar leoedd oedd y prif ddull yn mysg amryw ereill yn yr oesoedd boreuol i gadw cof parhaus o ddygwyddiadau a chynghreiriau, pan nad oedd cofion ysgrifenedig, y rhai a ganfyddwyd ar ol hyny yn fwy cyfaddas i ateb y dyben.

Ymddengys yn yr Ysgrythyrau yr hònid hawl i bydewau gan nifer o bersonau yn nghyd, a dygid y deadellau iddynt i gael dwfr ar ddyddiau penodedig, mewn trefn a benodid yn mlaen llaw. Gorchuddid pydew yn fynych â maen mawr, ar ol symmud yr hwn y disgynid ar hyd grisiau hyd wyneb y dwfr, ac wedi esgyn yn ol, tywelltid y dwfr i gafn ger llaw: *Gen.* xxiv. 11—15; xxix. 3—10; *Exod.* ii. 16; *Barn.* v. 11. Mewn gwirionedd, nid oes awgrym yn yr Ysgrythyrau am un ffordd arall i dynu dwfr o'r pydewau. Ond gan nas gellid defnyddio y ffordd yma ond pan na byddai y pydew yn ddwfn, rhaid cymmeryd yn ganiataol fod ganddynt gynlluniau ereill, y rhai a ddefnyddir fyth yn y dwyrain, y rhai y gwyddys oddi wrth y cofadeiladau Aiphtaidd eu bod yn hen iawn. Y mae y casgliad yma yn fwy tebyg, am fod pydewau Palestina gan mwyaf yn ddyfnion: *Diar.* xx. 5; *Ioan* iv. 11. Dywedir fod ffynnon Iacob, yn agos i Sichem, yn 120 troedfedd o ddyfnder, heb ddim ond 15 troedfedd o ddwfr ynddi; a dichon mai y llafur i dynu dwfr o ffynnon mor ddofn oedd yr achos o'r dechreu o hwyrfrydigrwydd y wraig o Samaria i dynu dwfr i'r Iesu: "Arglwydd, nid oes genyt ti ddim i godi dwfr, a'r pydew sydd ddwfn." Tynir dwfr o'r mathau dyfnaf hyn o bydewau mewn bwced ledr led ysgafn yn y llaw; bryd arall â dyrwynlath (*windlass*); ond fynychaf, pan na byddo y dwfr ond cymmedrol o ddwfn, âg offeryn a elwir yn y gwledydd hyny yn *shadoof*, yr hwn yw y symlaf o bob peiriant a ddefnyddir yn y dwyrain i godi dwfr, ac a ddefnyddir i'w godi o bydewau, cronfäau, ac afonydd. Gwneir yr offeryn o drosol pren bonbraff, wedi ei led fantoli ar bawl syth; ac wrth ben ysgafnaf y trosol crogir bwced wrth raff. Wedi gostwng hwn i'r pydew, cyfyd yn llawn o ddwfr wrth bwysau y pen trymaf.



Dar. 250.

Trwy y cynllun yma ni bydd eisieu nerth dyn ond i ostwng y bwced i'r pydew yn unig, canys cyfyd yn rhwydd, heb eisieu dim ond ei lywio i fyny. Y mae y peiriant yma yn cael ei ddefnyddio, heb ond ychydig o wahaniaeth ynddo, o'r Baltic hyd y Môr Melyn, ac y mae wedi bod felly o'r oesoedd boreuaf hyd y dydd heddyw. Ceir yr esiampl a ddysgrifir yn y darlun uchod yn nghymmydogaeth Jaffa. Yr oedd dyfroedd pydewau, cystal a ffynnonau, yn cael eu galw gan yr Hebreaid yn "ddyfroedd bywiol," a gyfieithir genym ni yn "ddyfroedd rhedegog," a phrisid hwy yn fawr: *Lef.* xiv. 5; *Num.* xix. 17. Gwahaniaethid hwy fel hyn oddi wrth ddyfroedd a gedwid mewn dyfrgistiau a chronfäau.

Y mae yn amlwg wrth y nodiadau blaenorol, ac ereill cyffelyb, fod prinder dwfr yn un o adfydau y gwledydd dwyreiniol; ac y mae y caledi a deimlir yn fynych gan ddyn ac anifail o'i eisieu yn annisgrifiadwy. Dywed Park, y teithiwr Affricanaidd, ei fod ef, ar ol dioddef syched ac eisiau dros amryw ddyddiau, wedi syrthio i gwsg; a bod ei ddychymyg wedi ei gario at lanau rhyw afon ddysglaer a phrydferth, ar yr hon yr edrychai mewn gorfoledd; a thra y cyflymai ati i dori ei syched angerddol, darfu yr egni dychymygol a roddodd i'w chyrhaedd ei ddeffroi i oddef y siomedigaeth fwyaf alaethus. Mor brydferth yr eglura hyn yr adnod yma: "Ië, bydd megys newynog a freuddwydia, ac wele ef yn bwyta; a phan ddeffrô, gwag fydd ei enaid: ac megys sychedig a freuddwydio, ac wele efe yn yfed; a phan ddeffrô, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwennych diod;" *Esa.* xxix. 8.

Yn *Diar.* xxi. 1, dywedir, "Fel afonydd o ddwfr y mae calon y brenin yn llaw yr Arglwydd." Y mae y gair gwreiddiol (פלג=*peleg*), a gyfieithir yma *afonydd*, yn arwyddo rhaniad, gwahaniad (gadewir ef heb ei gyfieithu yn *Gen.* x. 25; xi. 16—19; a 1 *Cron.* i. 19; ond cyfieithir ef yn *Iob* xxxviii. 25, *rhanodd;* yn *Salm* lv. 9, *gwahân;* yn *Dan.* ii. 41, *rhanedig;* ac yn vii. 25, *rhan*), a chyfeiria at yr hen ddulliau dwyreiniol o drosglwyddo dwfr i berllanau a gerddi. Gwneid hyn trwy gyfrwng camlasau (*canals*), neu ffrydiau yn llifo mewn dyfrffosydd celfyddydol, a elwid yn Hebraeg *rhaniadau;* hyny yw, toriadau neu rigolydd, y rhai a ddosbarthent ddwfr yn mhob cyfeiriad, i helaeth ddyfrhau eu tir, a fuasent heb hyny yn gras a diffrwyth. Cyfeiriad cyffelyb sydd gan y Salmydd (*Salm* i. 3), pan y dywed am hoffwr y gyfraith ddwyfol, y "bydd efe fel pren wedi ei blanu ar lan afonydd dyfroedd (rhaniadau neu wahaniadau dyfroedd), yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; a'i ddalen ni wywa." Cyfeiriad sydd yma, yn ddiau, at y coed a feithrinid gan ddyfr-

Digitized by Google

dwfr. Pan gymhwysir rhyw boethder at ddwfr, megys tân neu lamp, gwyddys yr aiff yn boethach boethach; ond nid yw y cynnydd yma ar boethder yn annherfynol. Yn y gwrthwyneb: ar ol parhad penodol o weithrediad tân neu lamp arno, cyrhaedda radd o boethder neu dymmeredd nad aiff byth yn boethach, pa mor angerddol neu hir bynag y gall gweithrediad y tân fod. Y dymmeredd yma, pan fyddo yr awyrgylch mewn sefyllfa gyffredin, ydyw 212° ar y gwresfesurydd. Os suddir y gwresfesurydd mewn dwfr, erys yn barhaus yn y dymmeredd yma, pa hyd bynag y parhâ gweithrediad y tân ar y dwfr. Pan gyrhaeddo y pwynt sefydlog yma o dymmeredd, cymmer cynhwrf le yn mhob rhan o hono; a chyfyd clychau neu fwrlymiadau o ager yn barhaus drwyddo; a gelwir y sefyllfa yma ar ddwfr yn ddyferwad neu ferwad; a'r dymmeredd sefydlog o 212° y cymmer le, a elwir yn gelfyddydol y Pwynt berwol. Effeithia tân a gymhwysir at ddwfr i'w wneuthur yn boethach nes y cyrhaeddo y pwynt berwol, yna derfydd ei effaith i wneuthur y dwfr yn boethach, er i'r tân barhau i gyfranu yr un gwres iddo; a'r cwestiwn a gyfyd yn naturiol yn awr ydyw, Pa beth a ddaw o'r gwres hwn? Ar ba beth yr effeithia?—gan fod yn sicr nad yw y dwfr yn ei dderbyn. Yr ateb ydyw, Er nad yw y dwfr, ar ol cyrhaedd y pwynt crybwylledig, yn myned yn boethach, er parhau i gymhwyso tân ato, eto y mae yn cyflym droi yn ager; a chyfyd yr ager hwn, a ddianc yn barhaus o wyneb y dwfr, i'r awyr. Aiff swm y dwfr yn y llestr yn llai lai trwy y swm a ddianc ymaith fel hyn yn ager; ac os parheir i gymhwyso tân ato, aiff y dwfr oll ymaith o'r llestr, gan y tröir ef yn ager. Gan hyny, y mae y gwres a gyfrenir gan y tân, yn yr amgylchiad yma, er nad effeithia i fwyhau tymmeredd neu wres y dwfr yn y llestr, yn cael ei sugno oll gan yr ager i'r hwn y tröir y dwfr. Ni bydd yr ager hwn, mae yn wir, yn boethach na'r dwfr yn yr hwn yr ymffurfia, gan mai ei dymmeredd yntau fel y dwfr ydyw 212°; ond cafwyd allan trwy brofion a wnaed gan fferyllwyr ac athronwyr, fod llawer mwy o wres yn ofynol i ddwyn ager i'r dymmeredd o 212° nag a ofyn dwfr er ei ddwyn i'r un dymmeredd; ac i godi yr ager a ffurfir o'r dwfr i'r un dymmeredd a'r dwfr ei hun y mae swm yr holl wres yn myned ar ol codi y dwfr i ferwi. Felly, canfyddir fod pwysau penodol o ddwfr yn y tymmeredd o 212°, pan y trydd yn ager, yn sugno cymmaint o wres ag a fyddai yn ddigon bum waith a hanner i godi yr un swm o ddwfr o'r pwynt rhewllyd i'r pwynt berwol.

Nid pan y cyfodir dwfr i'r pwynt berwol yn unig y mae yn troi yn ager neu darth. Y mae dwfr yn darthadwy, i raddau mwy neu lai, yn mhob tymmeredd; a sicrhawyd y gellir cynnyrchu tarth hyd yn oed o rew. Ond cynnyrchir tarthiad o ddwfr a fyddo dan y pwynt berwol mewn gwahanol ddull, ac ar wahanol ammodau. Yn y pwynt berwol, tröir dwfr yn ager drwyddo, o'i waelod i'w wyneb, ond yn fwyaf helaeth yn y parthau o hono a fyddont mewn cyssylltiad â'r llestr y gweithredo tân arno. Ond mewn tymmerau ereill, mae y tarthiad yn gwbl arwynebol. Ymdreigla y tarth o wyneb uchaf y dwfr, a chyfyd i fyny ac ymgymmysga â'r haen o awyr a fyddo yn gorphwys ar wyneb y dwfr. Ond y mae swm a chyflymder y tarthiad yma yn annhraethol lai na'r tarthiad neu yr ageriad a gynnyrchir trwy gyfodi holl gorff y dwfr i'r pwynt berwol a'i gadw yn y pwynt hwnw. Gellir golygu yr haen o awyr a orphwys ar wyneb y dwfr fel cyfrwng sydd yn meddu peth gallu i sugno tarth o'r dwfr, yn gwbl fel y derbyn ysbwng hylif i'w fân dyllau afrifed. Ond gallu terfynol, fel ysbwng, sydd gan awyr i sugno tarth, a gall fyned mor llawn o darth fel nas medr sugno chwaneg. Dywedir fod awyr yn y sefyllfa yma yn ddiwalledig gan darth. Cymmer tarthiad le, gan hyny, i raddau mwy neu lai, yn ol fel y byddo yr awyr i raddau mwy neu lai is law y pwynt diwalledig; a phan fyddo yr awyr eisoes wedi cyrhaedd y pwynt diwalledig, llwyr dderfydd tarthiad. Y mae y gorchwyl o sychu gwrthddrychau llaith neu wlyb yn esampl o effeithiau tarthiad. Tarthia y lleithder a fyddo ar wyneb neu yn mân dyllau y gwrthddrych a roddir yn agored i'r awyr, a phâr hyny iddo sychu. Cymmer y tarthiad yma le i raddau mwy neu lai cyflym, yn ol y graddau y byddo yr awyr is law y pwynt diwalledig, ac i raddau mwy neu lai araf yn ol agosrwydd yr awyr i'r pwynt hwnw. Yr un ansawdd ar yr awyr a effeithia, o angenrheidrwydd, er sychu ffyrdd, llwybrau, a'r cyffelyb. Y mae gwynt hefyd yn achosi tarthiad, ac am hyny yn rhwyddhau sychiad. Cyn gyflymed ag y daw yr haen o awyr ar wyneb dwfr yn llawn tarth, ac y dynesa i'w bwynt diwalledig, ysgubir ef ymaith gan y gwynt, a dygir cyfran arall o awyr sych i gyssylltiad â'r wyneb gwlyb. Ysgubir hwn ymaith yr un modd, gan roddi lle i gyfran sech arall, &c. Yn y dull yma sychir pob gwrthddrychau a osodir yn agored i wynt neu ffrydiau o awyr yn ebrwydd. Sychir gwrthddrychau hefyd yn fuan a osodir yn agored i wres celfyddydol, gan y tarthia y lleithder a gynnwysant ymaith yn gyflym.

Y mae dwfr cwbl bur heb flas ac yn ferfaidd; ond nid yw dwfr yn ei sefyllfa naturiol byth yn bur. Mae dwfr ffynnon a godir yn isel o'r ddaiar bob amser yn cynnwys amryw sylweddau daiarol a heliaidd yn doddedig ynddo. Mewn gwirionedd, y mae o angenrheidrwydd yn cynnwys rhyw swm o bob rhan doddadwy mewn dwfr o'r haen y cyfodir ef o hono, neu drwy yr hwn y llifa. Y mae dwfr afon yn cynnwys mwy neu lai o'r holl elfenau toddadwy a gyferfydd yn ei tharddellau neu ar welyau a glenydd y rhedleoedd trwy ba rai y llifa, heb law rhanau toddadwy amryw anifeiliaid meirw a sylweddau llysieuol a dderbyn yr afon yn anocheladwy yn ystod ei rhediad.

Y mae pob dwfr yn ei sefyllfa naturiol yn cynnwys mwy neu lai o awyr sefydlog yn gymmysgedig âg ef. Sur carbonig yn fwyaf cyffredin yw hwn. Hwn ydyw y nwy a ferwa mewn dwfr soda, lemonwy, siampên, a diodydd brag wedi eu potelu, ag a rydd ryw flas llym hyfryd i ddwfr.

Y mae i ddwfr amryw wahanol ansoddau a blas, yn ol natur y sylweddau a fyddont doddedig ynddo. Mewn dwfr tarddedig yn gyffredin, hyd yn oed pan fyddo buraf, y mae calch a phridd callestraidd yn doddedig. Hyn sydd yn peri i ddwfr fod, fel y dywedir yn gyffredin, yn galed. Ni chymmysga y fath ddwfr yn rhwydd â sebon; ac nid ydyw yn dda at wasanaeth y gegin. Y dwfr a fyddo yn rhydd oddi wrth yr ansawdd hwn, ac heb gynnwys ond ychydig o sylweddau priddlyd yn doddedig ynddo, a elwir yn y gwrthwyneb yn ddwfr meddal. Y mae dwfr gwlaw a dwfr afon yn gyffredin yn feddal, er nad ydyw y diweddaf byth yn gwbl rydd oddi wrth ryw gyfran o gymmysgedd priddlyd.

Y mae tarddellau (*springs*) mwnol yn esamplau

Digitized by Google

o ddwfr yn cynnwys halenau mwnol neillduol yn doddedig ynddo; ac y mae y rhai hyny o anmoddau mor nodedig, a chymmaint o swm o honynt ynddo, fel y mae yn gwbl anghymhwys i'w ddefnyddio ond fel meddyginiaeth.

Y mae dwfr yn gyffredin yn cynnwys llawer o bethau anmhur heb fod yn doddadwy ynddo. Y mae dwfr lleidiog yn nodedig yn hyn o beth. Ond y mae dwfr yn fynych, heb fod yn wir leidiog, yn cynnwys llawer o bethau anmhur nas toddant ynddo. Symmudir ymaith bob peth anmhur felly trwy hidliad. Y mae yr holl gynlluniau a arferwyd gan fferyllwyr, ac ereill, i buro dwfr trwy hidliad yn dra amrywiol; ond y goreu a ganfuwyd hyd yn hyn ydyw peiriant hidlo celfyddydol a wneir gan mwyaf â haen o raian, tywod, a llwch golosg (*charcoal*), trwy yr hwn y gwesgir dwfr anmhur gan ei bwys ei hun, ac yr hidlir ef yn dra effeithiol oddi wrth ei sylweddau anmhur.

Dywedwyd fod dwfr yn dryloew a diliw; ac mor bell ag yr edrychir ar ddim ond swm cymmedrol o ddwfr, y mae hyn mewn ystyr yn wirionedd. Ond, a siarad yn fanwl, nid yw dwfr yn gwbl dryloew nac yn gwbl amddifad o liw. Os edrychwn i'r môr lle y byddo dyfnder lled fawr o ddwfr, canfyddwn fod ei liw o wawr las arbenig; ond os cymmerwn wydraid o'r dwfr a ymddengys fel hyn yn las, canfyddwn ef yn loew a diliw. Yr achos o hyn ydyw, fod y swm a gynnwys gwydryn yn adlewyrchu swm rhy fychan o liw i'r llygaid i fod yn ganfyddadwy; pan y mae y corff mawr o ddwfr yr edrychir arno yn nyfnder y môr yn taflu y lliw i'r llygaid yn y fath gyflawnder fel y gellir ei amgyffred yn hawdd iawn. Y mae yr un peth yn wir am bob hylifau o liwiau tryloew. Y mae i win sierri mewn trancel (*decanter*) liw euraidd dwfn; ond os edrychir arno mewn gwydryn gwin, fe ymddengys yn myned lwytach lwytach, nes y llwyr gyll ei liw yn y lle meinaf. Y mae yn debyg fod lliw dwfr yn cael ei achosi mewn rhan oddi wrth y sylweddau a fyddont yn doddedig ynddo. Y mae i ddwfr croew llyn liw gwahanol i ddwfr hallt y môr. Y mae yn anhawdd penderfynu pa mor bell yr effeithir ar liw dwfr gan yr amryw sylweddau a fyddont doddedig ynddo, yn gymmaint ag nas gallwn gael swm digonol o ddwfr cwbl bur i'n galluogi i sicrhau ei liw priodol.

O bob dwfr yn ei sefyllfa naturiol, dwfr gwlaw ydyw y puraf. Ond gan fod hwn, fel y ceir ef yn gyffredin, wedi disgyn yn gyntaf ar doau adeiladau, ac yn myned wedi hyny trwy bibellau a phistylloedd i'r cronfäau a'i deil, mae yn sugno ac yn toddi rhyw gymmaint o'r sylweddau anmhur a fyddont ar wyneb y gwahanol redfeydd yr ä trwyddynt. Er mwyn cael dwfr gwlaw yn hollol bur, rhaid ei dderbyn yn uniongyrchol fel y disgyn o'r awyr i lestri glân. Ond hyd yn oed felly, canfyddir y bydd wedi ei nawsio i raddau gan yr awyr, ac yn enwedig gan sur carbonig a sugna o'r awyrgylch. Canfyddir hefyd fod temigau bychain o hal ammonia ynddo; ac os disgyn yn agos i'r môr, ceir ychydig o halen yn doddedig ynddo. Canfyddwyd fod naws sur nitrig yn fynych mewn gwlaw a ddisgyn yn ystod ystorm o daranau, yn cael ei achosi fe allai gan effaith trydaniaeth yr awyrgylch.

Yn nesaf i ddwfr gwlaw, dwfr afon ydyw y puraf. Canfyddwyd nad yw dwfr y Tafwys, pan yn lân oddi wrth aflendid y brifddinas, yn cynnwys mwy na dau ronyn o sylwedd anmhur yn doddedig mewn peint. Y sylwedd hwn yn benaf yw carbon a sylphat calch, halen cyffredin, clorid magnesia, a sylwedd anifeilaidd. Nid yw galwyn o ddwfr y Tafwys, pan yn ei sefyllfa fwyaf anmhur, wedi ei hidlo yn briodol, yn cynnwys mwy na phedwar gronyn ar ugain o sylwedd halenaidd, a dim llai yn ei sefyllfa buraf nag un gronyn ar bymtheg.

Pan fyddo dwfr wedi ei ddifwyno gan sylwedd anifeilaidd neu lysieuol, ymbura yn naturiol, trwy golli ei arogl a'i liw annymunol, gan adael mwy neu lai o waddod yn ei waelod. Y mae yn hysbys fod y cyflenwad o ddwfr a gymmerir i longau yn ymburo fel hyn trwy ymweithiad, a pho mwyaf fyddo y sylwedd pydredig ynddo, cyflawnaf a chyflymaf oll fydd ei buredigaeth. Dyma yr achos y dewisir dwfr y Tafwys yn ystôr llongau, am na ymweithia dwfr pur afon mor gyflym, ac y parhäai yn ddifwynedig am fwy o amser o lawer.

Yr oedd yr hynafiaid yn tybied fod dwfr yn un o'r pedair elfen syml o'r rhai y mae pob peth arall wedi ei wneuthur. Pa fodd bynag, cafwyd sicrwydd, tua diwedd y ganrif olaf, ei fod yn gyfansawdd o ddau sylwedd mor wahanol i ddwfr ei hun ag y gellir dychymygu. Y mae dwfr yn hylif trwm. Nwyon ysgeifn yw ei ranau cyfansawdd: y mae un o honynt y sylwedd materol ysgafnaf a ddarganfuwyd hyd yn hyn. Y mae dwfr yn wrthweithydd i dân; ond y mae un o'i ranau cyfansoddol y sylwedd mwyaf tanllyd sydd mewn natur, a'r llall yn nwy anhebgorol i dân, ac am hyny a elwir yn borthyd cydlosgiad. Er mwyn cael allan gyfansoddiad dwfr, y mae yn angenrheidiol cael yr hylif yn mlaenaf oll yn gwbl bur.

Gellir gwahanu pob awyr sefydlog oddi wrth ddwfr trwy ei ferwi; ond tuag at ei wahanu oddi wrth y sylweddau a fyddont doddedig ynddo, rhaid ei ddwyn trwy ddystylliad.

Gellir deall egwyddor dystylliad wrth yr eglurhad byr a ganlyn:—Os cyfodir dwfr, yn cynnwys sylweddau priddlyd neu halenaidd yn doddedig ynddo, i'w bwynt berwol, trydd yn ager; ond ni thrydd y sylweddau toddedig ynddo felly. Fel yr agera y dwfr yn raddol, erys y sylwedd toddedig ynddo yn ddileihad, a thrydd y sylwedd toddedig ar y dechreu yn gryfach a mwy crynhoawl, gan y tawdd yr un sylwedd halenaidd mewn swm llai o ddwfr. Fel yr aiff y gweithrediad yn mlaen agera holl swm y dwfr ymaith o'r diwedd, ac fe erys y sylweddau priddlyd neu halenaidd a fyddont yn doddedig ynddo yn y llestr yn yr hwn y cymmero yr ageriad le. Gall unrhyw berson wneyd y prawf yma. Dalier llonaid llwy fwrdd o ddwfr, yn yr hwn y toddwyd ychydig halen, uwch ben fflam gwirflamp (*spirit lamp*) am ychydig fynydau. Berwa yr hylif, a buan y tröir ef oll yn ager; ond erys yr halen ar y llwy. Ond os yr amcan fydd, megys mewn dystylliad, nid cael y sylweddau toddedig sydd yn y dwfr, ond y dwfr pur ei hunan, bydd yn angenrheidiol rhwystro i'r ager fyned ymaith, a'i droi yn ddwfr. Hefyd, megys ag y tröir dwfr yn ager trwy boethder, felly, yn y gwrthwyneb, tröir ager yn ddwfr trwy oerni. Gan hyny, os darperir peiriant yn y fath fodd ag i dderbyn yr ager, fel y cyfyd o ddwfr berwedig, i lestr cauad a fyddo mewn cyssylltiad âg oerni, tröir ef i ffurf hylifol; ac wedi ei gasglu yn y sefyllfa hono, ceir cymmaint a hyny o ddwfr pur; pur, o leiaf, cyn belled ag y bydd wedi ei wahanu oddi wrth y sylweddau oedd yn doddedig ynddo cyn ei ageru.

Y mae ager dwfr yn llawer yn ysgafnach, yn ol ei swm, na dwfr ei hun. Cafwyd allan trwy brofion cywir fod galwyn o ddwfr yn y tymmer-

Digitized by Google

edd o 212° yn cynnyrchu yn agos i 1800 o alwyni o ager. Gan hyny, y canlyniad yw, pan yr attroir ager yn ddwfr, trwy oerni, yr aiff swm pur fawr o ager i gynnyrchu swm pur fychan o ddwfr. Fel hyn, os mynir cael galwyn o ddwfr pur, y rhaid cael yn agos i 1800 galwyn o ager i'w gynnyrchu. O blegid hyn y galwyd troad ager yn ddwfr yn *ddwysiad*, a'r peiriant a ddefnyddir i wneyd y cyfnewidiad a elwir *dwysiadur*. Dwysheir yr ager, o blegid y gwneir ei swm yn 1800 yn llai, ac am hyny gwneir ef yn 1800 yn ddwysach neu drymach.

Gelwir y gwaith o droi dwfr yn ager, ac o ddattroi ager yn ddwfr yn ddistylliad. Mewn fferylldai, neu fanau ereill lle y byddo eisiau llawer o ddwfr pur, defnyddir peiriant pwrpasol i'w gynnyrchu. Y mae y peiriant hwn yn gynnwysedig o ferwedydd copr wedi ei roddi mewn gwaith priddfeini uwch ben ffwrnais, â chaead argrwm arno, a phibell hir yn dyfod ar osgo o dop y caead ac yn cael ei chyssylltu â phibell hir arall wedi ei nydd-droelli, a elwir troellbib (*worm*). Rhoddir y droellbib hon mewn dyfrgist hirgron o fettel, a gedwir bod amser yn llawn o ddwfr oer. Pasia rhan isaf y droellbib allan o'r ddyfrgist hon yn agos i'r gwaelod, a therfyna uwch ben genau costrel a osodir i dderbyn y dwfr distylliedig. Aiff yr ager o'r berwedydd trwy y bibell sydd mewn cyssylltiad â'i gaead, ac yna i'r droellbib sydd yn y llestr â'r dwfr oer, lle y dechreu yn ebrwydd ddwyshau yn ei thop; ac erbyn yr ä drwy holl blygion y droellbib i'r gwaelod, bydd wedi ei droi yn hylif, a difera i'r gostrel grybwylledig. Byddai i wres yr ager wrth fyned yn barhaus drwy y droellbib, boethi y dwfr yn y ddyfrgist, heb ddarpariad yn ei thop i ollwng y dwfr clauar allan trwy bibell yn y top, ac i roddi dwfr oer i mewn trwy bibell yn y gwaelod. Er mwyn rhoddi digon o nerth yn y dwfr oer i fyned i'r ddyfrgist yn y gwaelod, y mae pen uchaf y bibell trwy yr hwn y rhoddir y dwfr oer i mewn, yn uwch na thop y ddyfrgist, a thrwy redeg ar hyd yr hon y cychwyna, gweithia ei ffordd i'r ddyfrgist yn ei gwaelod.

Gan fod dwfr poeth yn ysgafnach yn ol ei swm na dwfr oer, nofia ar wyneb yr olaf heb ymgymmysgu âg ef, oddi gerth iddo gael ei gynhyrfu. Bydd i'r dwfr oer, gan hyny, a roddir yn y ddyfrgist yn agos i'r gwaelod, ffurfio yr haen isaf, tra yr ymgasgl y dwfr a boethir yn haen ar ei wyneb, ac y rhed allan trwy y bibell sydd yn nhop y ddyfrgist. Gellir defnyddio y dwfr clauar hwn i borthi y berwedydd: ac felly arbedir tân.

Os bydd rhywun yn dewis gwneyd prawf ar ddistyllio dwfr, ar raddeg fechan, gall wneyd hyny yn y dull syml a ganlyn:—Cymmerer tegell cyffredin; ond yn lle ei big, cyssyllter pibell hir (tua llathen a hanner, neu hwy), wedi ei nydd-droi wrtho; a gyrer dwy ran o dair o'r bibell trwy lestr yn cynnwys dwfr oer, ond gofaler am fod ei phig allan o'r dwfr, dros ymyl y llestr. Neu, gellir gwneyd peiriant tin pwrpasol, yn lle tegell cyffredin. Wedi gwneyd y darpariadau hyn, doder dwfr yn y tegell neu y peiriant ar y tân i ferwi, a phan y try y dwfr yn ager, fe ddianc trwy y bibell; ac ar ei ffordd trwy y rhan o'r bibell fydd yn y dwfr oer, try yr ager yn ddwfr eilwaith, ond yn ddwfr wedi ei ddistyllio, yr hwn y gellir ei dderbyn mewn llestr o enau y bibell.

Pan fyddo eisiau dwfr distylliedig o burdeb mawr, agerir ef mewn tymmeredd is na 212°; o blegid yn y dymmeredd hono, aiff peth o'r sylweddau toddedig ynddo weithiau yn yr ager trwy y droellbib i'r gostrel, lle y gorwedd. Po isaf a fo tymmeredd y dwfr yn y berwedydd, lleiaf oll o anmhuredd a aiff trwy y droellbib.

Gellir egluro natur cyfansawdd dwfr ddwy ffordd; sef, trwy gyssodiad a dadgyssodiad, neu drwy gyfosodiad a dosraniad. Y mae y dull trwy gyfosodiad yn awgrymu gwybodaeth flaenorol o'r rhanau cyfansoddol, ac yn dangos y gellir cynnyrchu dwfr trwy gyfuno y rhanau cyfansoddol hyn.

Y mae y dull dosranol yn awgrymu darganfyddiad blaenorol o ryw weithredydd anianyddol cryfach na'r cydattyniad a ddeil ranau cyfansoddol dwfr yn nghyd, ac a'i dryllia, gan ddangos pob rhan ar wahan oddi wrth eu gilydd, fel y galler gwybod eu hansawdd a'u priodoliaethau.

Gan fod y pwnc yn dra dyddorol a phwysig ynddo ei hun, a bod yn lled hawdd gwneyd y ddau yn ddealladwy, ni a eglurwn y naill a'r llall yn fyr yn y lle yma.

Y mae dau fath o nwy (*gas*), a elwir gan fferyllwyr yn ufelai (*oxygen*) ac ulai (*hydrogen*). Rhoddwyd golygiad cyffredinol ar natur ac ansoddau ufelai eisoes, a'r modd i'w gael, d.g. AWYR.

Y mae ulai, fel nwyon yn gyffredinol, yn anweledig a diliw; a phan yn gwbl bur, y mae heb flas nac arogl. Ond fel y cynnyrchir ef yn gyffredin y mae yn gymmysgedig â thipynau pur fychain o sylweddau anmhur, sydd yn peri iddo fod o arogl tra annymunol, â'r hwn y dichon pawb fod yn adnabyddus, trwy arogli yn achlysurol ddyferion y pibellau a ddefnyddir i drosglwyddo y nwy a arferir i oleuo ein trefydd.

Ulai ydyw y nwy ysgafnaf o bob sylwedd materol; gan ei fod yn ysgafnach, yn ol ei faint, bedair gwaith ar ddeg, ac ychydig yn chwaneg, nag awyr naturiol. O blegid hyn y mae yn dra chymhwys at wasanaeth awyrenau (*air-balloons*). Tuag un pwys ar ddeg yn unig a bwysa dwy fil o droedfeddi cubig o'r nwy hwn, tra y pwysa yr un swm o awyr cyffredin yn nghylch cant a thrigain pwys. Gan hyny, pe cynnwysai awyren ddwy fil o droedfeddi cubig o ulai, byddai ei hynofiad neu ei thuedd i ymgodi, yn cyrhaedd i gant a naw pwys a deugain; a phe byddai y god sidan, y cyrt, y car, a'r llwyth, yn llai na hyny o bwysau, byddai y grym esgynol yn gyfartal i'r gwahaniaeth.

Y mae ulai yn un o'r sylweddau mwyaf tanllyd mewn natur. Llysg yn fflam bur welwlas; ac er nad yw ei oleuni ond pur wan, eto y mae ei wres yn angerddol. Os rhoddir cymmysgedd o ufelai ac ulai mewn llestr gwydr cryf, gan ei gau ynddo yn ddiogel â dwsel (*stop-cock*) y bibell trwy yr hon y rhoddir y nwyon i mewn, ac os gyrir gwreichionen drydanol drwy y cymmysgedd, tania yr ulnwy (*hydrogen-gas*), a chymmer ffrwydriad le, ar ol yr hyn yr ymddengys y llestr gwydr wedi ei lenwi âg ager, a chynnydda ei wres yn fawr. Yn mhen ychydig amser ar ol iddo oeri, ymddengys y tu mewn i'r llestr yn llawn gwlith, yr hwn a ddyfera i lawr ar hyd ei ochrau. Erys swm penodol o'r nwy yn y llestr. Os chwilir y nwy yma yn ol y profion cyffredin, canfyddir na bydd mwyach yn gymmysgedig o ufelai ac ulai, ond y bydd yn un o'r ddau nwy mewn cyflwr gwahanredol a phur. Pa un ai ufelai digymmysg ai ulai digymmysg a fydd, a ddibyna ar y cyfartaledd o'r nwyon a gymmysgwyd o'r dechreu yn y llestr cyn y ffrwydriad.

Y mae llawer math o beiriannau i wneyd y prawf yma. Un ydyw cymmeryd llestr hirgrwn, lletach yn y top na'r gwaelod, a'i lenwi âg arian byw,

Digitized by Google

i'r ufelai, trwy rym yr attyniad yma, ymwahanu oddi wrth yr ulai; ac wedi ymuno â'r potassium neu y sodium, ffurfia botash (gwrthsur) neu soda (llysnur), tra y gellir casglu yr ulai a ddadgyssodwyd yn y ffurf o nwy mewn llestr gwydr i'r perwyl yn y dull cyffredin. Os pwysir y potash neu y soda a gynnyrchir fel hyn, canfyddir y bydd yn drymach na'r potasium neu y sodium o bwysau yr ufelai a ymunodd âg ef, a bydd y chwanegiad yma yn y pwysau yn gymmaint wyth waith union a phwysau yr ulai a ddadgyssylltwyd. Oddi wrth hyn y canfyddir, fel o'r blaen, fod dwfr yn gynnwysedig o wyth ran, wrth bwys, o ufelai ac un o ulai.

Dywedwyd eisoes mai dwfr gwlaw ydyw y puraf o'r holl ddyfroedd naturiol a nodwyd, ac am hyny y mae yn dra chyfaddas at y gorchwyl a drefnwyd iddo mewn natur, yn neillduol gyda golwg ar dyfiant llysiau. Pa fodd bynag, pan y cesglir ef mewn trefydd mawrion i gronfäau, dylid ei ferwi a'i hidlo cyn ei ddefnyddio, o blegid ei fod yn cael ei lygru gan sylweddau toddedig ynddo, fel y sylwyd o'r blaen, yn enwedig gan hâl plwm (*salt of lead*), yr hwn sydd yn beryglus pan fyddo wedi ei gasglu oddi ar doau plwm, a'i drosglwyddo trwy bibellau plwm.—Gwel Plwm.

Ychydig a wahaniaetha gwlith oddi wrth wlaw, oddi eithr ei fod yn cynnwys mwy o awyr. Gwel Gwlith. Y mae dwfr rhew yn gwahaniaethu, pan y ceir ef gyntaf, oddi wrth wlaw, gan ei fod yn amddifad o awyr yr awyrgylch, ac am hyny nis gall feithrin anadliad pysgod; ac o blegid yr un peth y mae yn ferfaidd a diflas; ond trwy ei osod yn agored i'r awyr efe a sugna ei gyfran briodol yn ebrwydd. Cyffelyb ydyw dwfr eira. Dywed rhai ei fod yn achosi chwydd y brefant (*goitre*), ond bernir yn awr fod y dybiaeth yn ddisail; ac mai yr achos o'r dolur yw yr halen calchog, yr hwn a dawdd yn y dwfr eira yn symiau mawrion ar ei ddisgyniad o'r mynyddoedd.

Y mae amryw raddau o burdeb i ddwfr tarddellau (*springs*), yn ol natur yr haenau (*strata*), y rhed trwyddynt. Yr achos cyffredin o'r dyfroedd hyn ydyw gwlaw, yr hwn a lifa drwy ryw haen arwynebol, a thrwy gyfarfod â rhyw rwystr a dardda i'r wyneb. O ganlyniad, fe gynnwys y rhan fwyaf o'r defnyddiau a geir mewn dwfr gwlaw, ac yn aml o amryw ddefnyddiau heliaidd, yn enwedig halen cyffredin a halgalch: pan fyddo helaethrwydd o'r rhai hyn ynddo, bydd y dwfr yn galed, fel y dywedir, er y rhoddir yr ansawdd yma i ddwfr weithiau gan ddefnyddiau halenaidd ereill hefyd. Y mae tarddellau mawrion yn gyffredin yn burach na rhai bychain; ac y mae y rhai a geir mewn gwledydd anniwylliedig, ac mewn creigiau callestr neu welyau o raian, yn cynnwys llai o sylweddau llygredig. Y mae purdeb rhai tarddellau mor fawr fel y cyfrifir hwy yn ddyfroedd iachaol, ac y defnyddir hwy fel y cyfryw. Y penaf o'r rhai hyn yw Malvern. Nid yw priodbwys (*specific gravity*) y dyfroedd hyn ond 1·0002 yn unig; ac y maent yn cynnwys llai o sylweddau anmhur nag un dwfr arall adnabyddus. Y mae grym y ffynnonau cynhes yn cael ei chwanegu gan uchder y dymmeredd; ond y mae eu heffeithiau meddyginiaethol, fel dyfroedd Malvern, i'w priodoli yn benaf i'w purdeb dirfawr; yr hyn a ddengys mor llesol i iechyd yw dwfr pur, mewn cymhariaeth i ddwfr anmhur neu lygredig. Y mae swm mawr o nwy sur carbonig mewn llawer o ddyfroedd tarddellau. Y mae y rhai hyn yn loewon ac yn hyfryd iawn i'r archwaeth; ac y maent yn achosi meddwdod ysgafn pan newydd eu codi o'r ffynnonau; ac eir i rai yn Llundain, megys Holywell yn agos i Shoreditch, er mwyn yr effaith yma, megys yr eir i ffynnonau Pyrmont a Spa gan y cymmydogion. Mae amryw ffynnonau mwnol tra gwerthfawr ac adnabyddus yn Nghymru, ac y maent yn cynnyddu yn eu rhif a'u henwogrwydd yn barhaus, i'r rhai y cyrcha lluoedd yn yr haf o bob parth o'r deyrnas gyfunol er mawr les iddynt eu hunain; megys Ffynnon Cae Coch, Trefriw; Ffynnonau Llandrindod a Llanwrtyd; Ffynnon Cegin Arthur, yn Llanddeiniolen, sir Gaernarfon; a'r ffynnon werthfawr a ddarganfuwyd yn ddiweddar ger llaw Pontardawe.

Y mae dwfr afon yn deilliaw, gan mwyaf, o darddellau, yn cael ei fwyhau gan ddwfr gwlaw. Os llifa dros dywod neu ithfaen (*granite*), ceir ef yn dra phur, gan yr ymedy yn ei yrfa â llawer o'i halenau priddlyd a chalchaidd, trwy i'r sur carbonig ddiflanu o hono. Gwnaiff hyn y dwfr yn fwy diflas ac yn fwy anhyfryd i'w yfed na dwfr tarddedig. Pa fodd bynag, y mae ynddo duedd i sugno llawer o ufelai; am hyny y mae dwfr gwyneb afon a gwyneb y môr yn cynnwys mwy na'r awyrgylch o 29·1 y cant. Y mae hyn yn ei gymhwyso i feithrin anadliad pysgod a chynnydd dwfrblanigion. Anfynych y mae dwfr afon yn gymhwys at wasanaeth teuluaidd, gan ei fod mewn llawer o fanau yn rhy galed.

Ceir dwfr pydewau yn gyffredin o fwy o ddyfnder na dwfr tarddellau neu ffynnonau cyffredin. Mae hefyd gan mwyaf yn galed, neu yn dra thueddol i fyned felly os cedwir ef mewn cronfa wedi ei gwisgo â phriddfeini, oddi gerth ei haenu â chymmrwd nas tawdd yn y dwfr. Y mae dwfr hen bydewau yn burach na dwfr rhai newydd, gan y cludir y sylweddau anmhur ymaith yn raddol. Yr unig ffordd effeithiol i buro pob dwfr yw ei hidlo, fel y dangoswyd eisoes; ac y mae ei ferwi hefyd mewn llestri cyfaddas i raddau pell yn ateb yr un dyben.

Y mae dwfr llynoedd yn amrywio llawer yn eu cyfansoddiad. Y mae y prif wahaniaeth yn ymddibynu ar fod y llyn yn meddu rhedleoedd neu heb yr un. Y mae dwfr y blaenaf yn gyffredin yn cyfateb i ansawdd yr afonydd a lifant iddo. Po arafaf a fyddo y llifiadau hyn, mwyaf oll a fydd effaith y gweddillion anifeilaidd a llysieuol ar y dwfr, gan y cânt fwy o amser i doddi ynddo. Llynau hallt gan mwyaf yw y rhai sydd heb redleoedd, ac y mae eu dwfr o ansawdd cyffelyb i ddwfr y môr ond ei fod yn dewach. Y mae rhai llynoedd yn dra llawn o alcan, megys Llynoedd Baracs Thibet.

Y mae dwfr cors a morfa yn llonydd, ac yn llawn o weddillion anifeilaidd a llysieuol, mewn sefyllfa o ddadgyssodiad, y rhai sydd yn myned dan ail ffurfiad, ac yn gyffredin o rywogaeth isel, megys y mathau isaf o lysieuaeth, a'r dosbarthiadau isaf o anifeiliaid dyfrol gan mwyaf. Mae yr holl ddyfroedd hyn, braidd, yn afiachus i'w hyfed, o blegid y nwyon sydd ynddynt. Gellir lleihau y nwyon afiachus hyn i raddau mawr trwy feithrin llysiau iachus a bywiol, yn lle y rhai niweidiol. Os bydd y rhai hyn o ansawdd chwerw a chyfnerthol, megys ffa cors a'r trestl, tueddant yn fawr i attal afiechyd ar yr anifeiliaid a yfant y dwfr. Cyn i ddynion ddefnyddio dwfr o'r fath yn ddiod, byddai mwydo gwahanol blanhigion ynddo, neu rwbio ochreu y llestri a'i daliant â had chwerwon, yn fuddiol er ei wellhau, er nad ei lwyr buro. Fel hyn, y planigyn tê a ddefnyddir gan frodorion China a Japan, y Strychos

Digitized by Google

Ymddengys y môr yn ymgynhyrfu yn fawr o dan gwmwl tew mewn cylch crwn, yn mesur ar ei draws o 100 i 120 o latheni, tra y rhuthra y tonau yn gyflym tua chanol y llanerch gynhyrfus lle y ffurfir corff mawr o ddwfr neu darth dyfrol, ac y cyfyd colofn bigyrnol, debyg i drwmped a'r pen ffyrfaf i fyny, gan symmud yn nydd-droellog tua'r cwmwl. Ymffurfia colofn arall yn y cwmwl â'i phen ffyrfaf i lawr, yn syth gyferbyn a'r golofn esgynol; a dynesa pen isaf colofn y cwmwl yn raddol at ben uchaf y golofn esgynol, nes o'r diwedd yr ymuna y ddwy: y tryfesur yn y cyssylltiad, yn gyffredin, yw o ddwy i dair troedfedd. Dywedir y dilynir dwfr-bistyll, yn ystod ei ymuniad, gan swn trystfawr; ac wedi iddo ymffurfio yn gyflawn, bydd iddo ymddangosiad ardderchog. Ymddengys yr holl golofn, yn cyrhaedd o'r môr i'r cwmwl, o liw goleu yn agos i'w phegynau, ond tywyll ar hyd ei hochrau, yr hyn a bar iddi ymddangos fel yn wag oddi mewn.

Ysgrifenydd galluog arall a rydd y darluniad canlynol o ymffurfiad dwfr-bistylloedd:—

"Y rhai hyn yw yr ymddangosiadau mwyaf brawychus sydd yn dygwydd ar y moroedd sydd yn gorwedd o bob tu i'r cyhydedd; a'r parth o'r eigion y dygwyddant fynychaf a chreulonaf yw tueddau gorllewinol Affrica. Nid yw dwfr-bistylloedd bob amser yn gwneuthur eu hymddangosiad yn yr un dull a'u gilydd: y maent weithiau yn sefydlog; ond ar amserau ereill, änt rhagddynt gyda mwy neu lai o gyflymdra, fel y byddo amgylchiadau yn gweithredu. Pan y byddo dwfr-bistyll yn ymffurfio, y mae y môr, pa mor dawel bynag a fyddo yn flaenorol, yn dechreu ymgynhyrfu yn raddol mewn rhyw fan benodol; ac fel y bydd y cynhwrf yn cynnyddu, ceir gweled ewyn yn dechreu ymgasglu yn y fan hono, a'r dwfr fel pe byddai yn berwi i fyny ac yn ymdroelli gyda dadwrdd dirfawr. Gyda hyn, ceir gweled colofn ddyfrllyd yn disgyn o'r cymylau uwch ben y fan, y rhai ar y cyfryw achlysuron sydd yn ymhongian yn llaesach nag arferol; cyfeiria pen y golofn hono i waered i'r lle y byddo y môr yn fwyaf terfysglyd, ac yno yr ymgyssylltant â'u gilydd. Cymmer y cyssylltiad hwn le ar rai prydiau yn ddisymmwth, eithr y rhan amlaf yn fwy graddol. Yn y cyfamser y mae terfysg y môr yn cynnyddu, y golofn yn mwyhau, a'r cymylau uwch ben yn llaesu, nes y mae y cwbl o'r diwedd yn ymgyssylltu, gan ffurfio colofn o ddwfr o 50 i 60 troedfedd o uchder, a'i bôn fel pe byddai yn ymorphwys ar y môr, a'i phen uchaf yn treiddio i'r cymylau, nes ei guddio ynddynt. Weithiau y mae y golofn hon yn aros yn sefydlog dros ysbaid byr o amser, ac yn y diwedd yn diflanu; ond brydiau ereill y mae yn rhedeg rhagddi yn gryno, gan beryglu yr hyn oll fyddo yn ei ffordd, ac os dygwydd fod llong o'i blaen, bydd mewn enbydrwydd dirfawr o gael ei suddo."

Ymddengys y pistyll yn symmud gyda'r gwynt, hyd yn oed pan na byddo gwynt i'w deimlo; a bydd weithiau yn amrywio ei sefyllfa gan dueddu yn olynol i wahanol gyfeiriadau. Dygwydd yn fynych fod rhan uchaf a rhan isaf y golofn yn ymsymmud mewn gwahanol gyflymder, ac yna, ar ol i'r golofn gymmeryd sefyllfa ogwyddol, ymwahana y rhanau oddi wrth eu gilydd gyda thwrf uchel. Cyn ymrwygiad y golofn, ymddengys y rhanau tywyll yn ymdynu i fyny yn afreolaidd, gan adael dim ond pibell deneu yn unig mewn cyssylltiad â'r dwfr isod. Llyncir yr holl darth o'r diwedd gan yr awyr, neu disgyna i'r môr yn gawod drom o wlaw. Y mae parhad yr ymddangosiad yn amrywiol: diflana rhai dwfr-bistylloedd cyn gynted ag y byddont wedi ymffurfio, a gwyddys i ereill barhau yn agos i awr: weithiau ymffurfiant, parhant am ychydig amser, diflanant, ac ail ymddangosant drachefn, ac felly yn mlaen, amryw weithiau yn olynol. Dywedir na byddai unrhyw long yn ddiogel pe cerid hi i'r trogylch, ac er mwyn prysuro dinystr y golofn, byddai yr hen forwyr yn saethu ati â magnelau.

Priodolir ffurfiad dwfr-bistylloedd i chwyrnelliad a achosir gan ruthriad rhedlifoedd o awyr i'r un llanerch o wahanol gyfeiriadau: fel hyn tybir fod tipynau o darth yn yr awyr yn cael eu tynu gan rym y trogyrch tuag at ochrau allanol y golofn, gan adael lle gwag yn y canol. Wedi symmud pwys yr awyrgylch, fel hyn, oddi ar wyneb y môr a fyddo yn union oddi tanodd, rhaid y gyr y croeswyntoedd y dwfr o amgylch i ganol y trogylch, gan ei gyfodi yn y gwagle. Y mae yr hanesyn canlynol, o waith y Dr. Franklin, yn tueddu i gadarnhau y dyb, mai rhuthr rhedlifoedd awyrol yn erbyn eu gilydd, sydd yn cael ei ystyried fel achos o ddwfr-bistylloedd:—"Dywedodd dyn deallus o Nantuchet, a fyddai yn arfer pysgota morfilod, wrthyf fi," medd y Dr., "ei fod ef yn cofio, un tro, pan yr ydoedd tair o longau yn perthyn i'r pysgotwyr hyny yn mordwyo o amgylch i chwilio am forfilod, ddarfod i'r gwynt dawelu yn ddisymmwth, tra yr oedd y tair llong yn ngolwg eu gilydd, yn sefyll fel tri throed ystôl, tua thair milldir y naill oddi wrth y llall: yn mhen ennyd, canfyddid dwfr-bistyll yn ymffurfio yn eu canol, ac yn ebrwydd cyfododd awel gref, a phob un o'r llongau a hwyliasant rhagddynt, ac wrth sylwi ar duedd hwyliau y naill a'r llall, a chyfeiriad y llestri, ymddangosai fod pob un fel eu gilydd yn cyfeirio tua'r dwfr-bistyll," yr hyn a brofai fod y gwynt o bob parth yn chwythu tua'r fan yr oedd y golofn yn sefyll.

Y mae tebygolrwydd mawr, oddi wrth y ffaith hon, a'r cyffelyb, fod dyrchafiad y môr dan y cwmwl yn cael ei achosi mewn rhan gan wrthdroad yr awyr; ond gan nas gallai pwysau yr awyrgylch gyfodi y dwfr mewn gwagle perffaith ond yn unig i'r uchder o gylch deg troedfedd ar ugain, a chan y gwyddys fod uchder dwfr-bistyll weithiau yn nghylch hanner milldir, rhaid chwilio am ryw eglurhad arall ar yr ymddangosiad. O blegid fod yr ymddangosiadau hyn yn dygwydd ar dymmorau pan fyddo trydaniaeth yn fwyaf bywiog yn yr awyr; ac o blegid fod arogl brwmstanaidd, mellt, ac ystormydd o wlaw a chenllysg yn eu dilyn, y mae eu ffurfiad yn cael ei briodoli, gyda chryn debygolrwydd hefyd, i weithrediad trydaniaeth. Dichon i'r cwmwl a'r môr, yn amser ymffurfiad y dwfr-bistyll, fod mewn sefyllfaoedd trydanol gwrthwynebus; ac felly y bydd cydattyniad rhyngddynt. Dilynir hyn, o angenrheidrwydd, gan holl ganlyniadau arllwysiad mawr o'r hylif; ond rhaid cyfaddef fod y dull manwl y cynnyrchir yr ymddangosiad gan drydaniaeth heb ei eglurhau yn foddhaol hyd yn hyn.

Tybia y Dr. Franklin, fel amryw ereill, fod dwfr-bistylloedd a chorwyntoedd yn deilliaw o'r un achos; ac mai yr unig wahaniaeth rhyngddynt ydyw, fod un yn dygwydd ar y tir a'r llall ar y môr. Cadarnheir y syniad yma gan M. de la Pryme, yr hwn a ddysgrifia ddau bistyll a gymmersant le ar wahanol amserau yn sir Gaerefrog, ymddangosiad y rhai oedd yn gwbl fel dwfr-bistylloedd ar y môr, a'u heffeithiau yr un yn hollol ag effeithiau corwyntoedd.

Digitized by Google

Rhaid i hylif a symmudo o bob parth yn syth tua chanolbwnc naill ai esgyn neu ddisgyn yn y canolbwnc hwnw. Os agorir twll yn nghanol gwaelod baril yn llawn o ddwfr, llifa y dwfr o bob parth i'r canol, ac yna disgyna yn un pistyll; ond pan y rhedlifa awyr ar wyneb tir neu ddwfr o bob ochr tua chanolbarth, rhaid mai esgyn a wna, gan y rhwystra y tir neu y dwfr iddo ddisgyn.

Wrth egluro ei syniadau ar hyn, y mae y Dr. Franklin yn cymmeryd un neu ddau o bethau yn ganiataol fel sail i'w dybiaeth—1. Fod y parth isaf o'r awyr yn boethach, ac felly yn fwy pur na'r parth uchaf, ac am hyny yn deneuach. Amlygir oerder y parth uchaf, trwy y disgyn cenllysg weithiau ar y tymmor poethaf. 2. Y gall yr awyr dwym fod yn bur llaith, ac eto fod y lleithder wedi ei wasgar a'i deneuo mor gyfartal fel na bydd yn weledig nes yr ymgymmysga âg awyr oerach; pan y dwysha ac y daw yn weledig. Fel hyn, er fod ein hanadl yn anweledig yn yr haf, daw yn weledig yn y gauaf.

Wedi cymmeryd y pethau hyn yn ganiataol, y mae yn tybied am lanerch o fôr neu dir, o gylch trigain milltir o faint, heb gael ei gysgodi gan gymylau na'i adnewyddu gan wynt, am ddiwrnod cyfan yn yr haf, neu fe allai amryw ddyddiau yn olynol, nes yr elo yn dra phoeth, yn nghyd â'r parth isaf o'r awyr a fyddo mewn cyssylltiad âg ef, nes y delo yr olaf yn ysgafnach na'r parth uchaf, lle y mae y cymylau yn nofio: y mae efe yn cymmeryd yn ganiataol hefyd na bydd yr awyr o amgylch y llanerch hwnw wedi ei boethi i'r un graddau yn ystod y dyddiau hyny, ac am hyny ei fod yn aros yn boethach. Y canlyniad o hyn, yn ol ei syniad ef, fyddai i'r awyr ysgafn dwymedig esgyn, a'r awyr drymach ddisgyn; a chan nas gallai yr esgyniad yma weithredu dros yr holl arwynebedd ar unwaith, gan y gadawai hyny wagle rhy fawr, dechreua yr esgyniad yn union yn y golofn hono a ddygwyddo fod yr ysgafnaf neu y deneuaf; a llifa yr awyr gynhes o bob parth i'r golofn hon, lle yr ymgyfarfydd yr amryw redlifoedd, ac yr ymgyssylltant i ymgyfodi, ac ymffurfia chwyldro yn naturiol, yr un modd ag yr ymffurfia chwyldro yn y baril dwfr, trwy ddisgyniad yr hylif o bob ochr i'r twll yn y canol.

Fel y daw yr amryw redlifoedd i ganol y golofn esgynol hon, gyda gradd helaeth o symmudiad llorweddol (*horizontal*), nis gallant gyfnewid yn ddisymmwth i symmudiad syth; am hyny, fel y dynesant yn raddol at y chwyldro, gan ogwyddo tua'r llinellau amdroawl, ac wedi ymuno â'r chwyldro, esgynant trwy symmudiad troellog, yr un fath ag y disgyna y dwfr yn droellog trwy y twll yn ngwaelod y baril crybwylledig.

Yn olaf, po teneuaf a fyddo yr haen isaf o'r awyr, a fyddo nesaf i'r arwyneb, trwy boethder yr haul, mwyaf oll y pwysir arno gan redlif yr awyr oer a throm amgylchynol a gymmer ei le; ac o ganlyniad, bydd ei symmudiad tua'r chwyldro yn gyflymach, ac felly bydd grym y parth isaf o'r chwyldro yn gryfach, a nerth canolffoawl (*centrifugal*) ei ronynau yn fwy. Felly byddai y gwagle a amgylchynai begynau y chwyldro yn fwy yn agos i'r ddaiar neu y môr, a therfynai yn fain erbyn cyrhaedd y cymylau.

Y mae y cylch hwn o amryw faintioli, a bydd weithiau yn bur fawr. Os dygwydd y gwagle ar ddwfr, gall y dwfr gyfodi yn un golofn i'r uchder o ddeuddeg troedfedd ar ugain, mwy neu lai. Gall y chwyldro yma o'r awyr fod mor anweladwy a'r awyr ei hun, er iddo gyrhaedd, mewn gwirionedd, o'r dwfr i ardal yr awyr oer, lle y nofia ein cymylau taranau isel ni yn gyffredin yn yr haf; ond daw yn weladwy yn fuan yn ei eithafoedd. Gwnaiff cynhwrf y dwfr o dan chwyldro y cylch, a chwydd a chyfodiad y dwfr yn nghychwyniad y gwagle, ef yn weladwy yn y parth isaf. Daw yn weladwy i fyny trwy i'r awyr gael ei ddwyn i barth oerach, lle y dechreu ei leithder dewychu yn darth tew gan yr oerder, fel y daw yn weladwy yn gyntaf yn y parth uchaf, a thewycha yr hyn a gyfyd ar ei ol, a gweithreda hwn drachefn yr un modd ar y corff dilynol; lle, trwy gydgyfarfyddiad y tarth, y gweithreda yr oerni yn gyflymach mewn llinell unionsyth tuag i lawr, nag y gall y tarth ei hun esgyn mewn llinell droellog tuag i fyny: pa fodd bynag, esgyn a wna; a thrwy chwanegiad parhaus daw yn ddwysach, ac o ganlyniad cynnydda ei rym canolffoawl, a thrwy gael ei gyfodi yn uwch na'r rhedlifoedd canolbwyntiol, a wnant y chwyldro, hed ymaith a ffurfia gwmwl.

Y mae yn hawdd deall pa fodd, trwy y cydddwysiad olynol yma oddi uchod, yr ymddengys y dwfr-bistyll fel yn disgyn o'r cwmwl, er fod ei ddefnyddiau yn ystod yr holl amser yn esgyn. Gellir tybied fod cyd-ddwysiad y lleithder a gynnwys swm mor fawr o awyr cynhes, a gyfyd mewn ychydig amser yn y chwyldro rhyfeddol yma, yn ddigon fe allai i ffurfio cwmwl o eangder mawr; a dichon i rwbiad yr awyr rhedlifol yn ochrau y golofn wahanu symiau mawrion o'i dwfr, gan eu gwasgar yn ddefnynau, a'u cario i fyny yn y chwyldro troellog yn gymmysgedig â'r awyr. Y mae yn wir y gall y defnynau trymaf hedeg ymaith, a disgyn yn gawod o amgylch y dwfr-bistyll; ond trydd llawer yn darth, ac eto bydd yn weladwy.

Fel y gwanha y chwyldro, dichon yr ymwahana y bibell yn y canol, ac y disgyn y dwfr i lawr, tra yr esgyn y rhan dewychedig i fyny i'r cwmwl. Neu gall y bibell neu y chwyldro awyrol barhau er i'r canol ddyfod yn anweledig, gan na chynnwys sylweddau gweledig.

Gwrthwynebwyd tybiaeth y Dr. Franklin yn egniol a chwerw gan y Dr. Lindsay, yr hwn a ymdrechodd brofi fod dwfr-bistylloedd a chorwyntoedd yn bethau gwahanol; ac nad ydyw y dwfr a ffurfia ddwfr-bistyll yn esgyn o'r môr, fel y tybia Franklin, ond yn disgyn o'r awyrgylch.

Rhaid cyfaddef nad rhyw benderfynol a goleu iawn ydyw profion athronwyr eto ar yr ymddangosiadau rhyfeddol yma; ond cyn belled ag y maent yn myned, nid oes neb eto wedi llwyddo i ddirymu golygiadau yr hen Franklin; ond yn hytrach, y mae golygiadau y rhan fwyaf o ysgrifenwyr diweddar yn eu cadarnhau.

Dyma oedd golygiadau y diweddar enwog Ieuan Glan Geirionydd ar y mater:—

"Yr ydys yn sylwi bob amser fod amrywiol wyntoedd yn ymgyfarfod â'u gilydd yn y lle y byddo y cyfryw golofn yn cael ei ffurfio, a'r rhai hyny yn ymdawelu yn ddisymmwth; ac ar y cyfryw amserau y mae hefyd gryn arwyddion o weithrediadau gwefryddiaeth. Ond tuag at geisio egluro yr achlysur o ddwfr-bistylloedd, gallwn dybio fod rhyw achos, megys gwres yr haul fe allai, yn teneuo y gwynt uwch ben rhyw fan neillduol o'r môr, ac felly yn ffurfio math o wagle yn y fan hono; a'r canlyniad o hyny yw, bod yr awyr dewychus o amgylch y fan hono yn rhuthro yn nghyd i'r lle teneu o bob parth ar

unwaith. Ac os bwriwn fod y rhedlifoedd hyny yn teithio o 70 hyd 80 milldir yn yr awr, fel y bernir fod y gwynt mewn amser o dymmestl yn gwneuthur, y mae yn rhaid eu bod yn ymgyfarfod gyda grym annirnadwy yn y cyfryw ganolbwynt. A'r effaith o'r fath ruthr cynhyrfus a fyddai yn naturiol o ddyrchafu y dwfr mewn dull colofnog, megys un o'r dyfr-bistylloedd yma."

Eglura Ieuan ffurfiad y dwfr-bistyll yn mhellach, gan ddywedyd fod y rhedlifoedd awyrol yn rhuthro i gyfarfod eu gilydd yn nghanolbwynt y llanerch lle yr ymffurfia y dwfr-bistyll. "Wedi iddynt ymgyfarfod yno," eb efe, "y mae yn amlwg fod eu rhediad yn cael ei attal yn y naill gan y llall; ac yna rhaid iddi fyned yn dawelwch yn y fan, neu ynte rhaid i'r rhedlifoedd gyfeirio eu gyrfa ryw ffordd arall. Ac y mae yn dra thebygol y bydd i rai o honynt, yn eu hymgais i ysgoi eu hymdarawiad yn erbyn eu gilydd, bwyso yn ddwys ar wyneb y dwfr; tra y mae ereill yn ymddyrchafu tuag i fyny i'r awyr uwch ben. Yn y cyfamser, y mae y rhai a gyfeiriant i waered o herwydd fod y dwfr yn llesteirio eu mynediad y ffordd hono, yn gorfod troi y ffordd y byddo lleiaf o wrthwynebiad iddynt, sef ar i fyny; ac felly y mae rhyw gymmaint o'r dwfr, yn nghyd â pheth bynag fyddo ar ei wyneb, yn cael ei gipio i fyny gyda'r rhedlifoedd. Pe byddai rhediad y gwynt o bob parth yn gyfartal o rym, fe esgynai y dwfr-bistyll neu y corwynt yn syth i fyny; eithr am mai nid felly y mae, rhaid iddo gylchdroi yn ddolenog wrth esgyn, gan gilio hefyd i'r ochr y byddo lleiaf o wrthwynebiad; ac felly y mae yn ymddangos fel pe byddai y golofn yn cerdded ar hyd wyneb y môr."

Dywed ysgrifenydd yn y *Penny Cyclopædia*, fod dwfr-bistylloedd i'w gweled yn achlysurol ar y tir; ac yn y cyfryw amgylchiad, o angenrheidrwydd, ni bydd colofn o ddwfr na tharth yn esgyn i gyfarfod y golofn a ddisgyn o'r cymylau. Y mae Syr David Brewster yn rhoddi hanes am un a welwyd yn Ffrainc: dywedir iddo ymddangos fel clamp pigyrnol o darth, ac arno arogl brwmstanaidd cryf; ac yr oedd mellt yn saethu o hono, a thaflai allan swm mawr o ddwfr. Yr oedd yn teithio rhagddo mewn un cyfeiriad, dros uchelddiroedd a dyffrynoedd, a chroesodd afon ar ei daith, ond pan aeth at fryniau pigyrnol, aeth o'u hamgylch hwy. Gwelwyd dwfr-bistylloedd rai prydiau yn y wlad hon. Yn 1718, torodd un yn sir Lancaster, pan y rhwygwyd y tir yn y fan y cwympodd, am gryn hanner milldir o hyd, i'r dyfnder o saith droedfedd, hyd at wyneb y graig noeth oddi tanodd.

Gwelir yn awr fod dwfr-bistylloedd, neu yr hyn sydd yn gwbl o'r un natur i'n tyb ni, a elwir gwynt tro, neu gorwynt, yn dygwydd yn achlysurol ar y tir a'r môr. Os ar y môr, y mae yn cymmeryd y dwfr i fyny, fel y dysgrifiwyd, a pha beth bynag arall a ddygwydd fod yn y llanerch yr ymffurfia ynddi; os ar y tir, cymmer i fyny y peth a ddygwyddo fod yn y llanerch oddi ar ei wyneb yntau, os bydd y corwynt yn ddigon nerthol. Gwelodd yr ysgrifenydd gorwynt yn disgyn unwaith mewn cae yd wedi ei fedi, ac yn cyfodi cryn swm o'r yd i fyny i'r uchder o 5 i 10 llath, yr hwn a droellai yn chwyrn wrth esgyn.

Gellir casglu yn naturiol oddi wrth ffeithiau fel hyn, pe disgynai dwfr-bistyll nerthol mewn cors, neu afon, neu lyn, y cyfodai y dwfr a'i holl gynnwysiad i fyny; ac fe allai mai dyma yr unig gyfrif a ellir ei roddi dros fod pysgod, gelod, llyffaint, a'r cyffelyb, yn cael eu gwlawio, ar amserau, mewn gwahanol fanau. Adroddwyd mewn gwahanol newyddiaduron, fod dwfr coch wedi ei wlawio yn Sienna, yn Tuscany, yn mis Rhagfyr, 1860. Y mae yn dra thebyg mai dwfrbistyll a'i cyfododd o ddwfr ar gopr, neu ryw fwn arall.

Y mae amryw o'r werin yn meddwl mai trwy gyfrwng dwfr-bistylloedd y mae dwfr yn cael ei drosglwyddo i'r cymylau at ddefnydd gwlaw; ond gan fod dwfr-bistylloedd yn dygwydd mor anfynych, nid yw yn debyg y rhoddai y cyfryw achlysuron ddigon o ddwfr i'w wlawio dros yr holl ddaiar.

### DWFR-BLANIGION.

Dwfr-blanigion yw y rhai sydd yn tyfu yn hollol mewn dwfr, neu y rhai sydd yn gofyn dwfr fel prif gyfrwng eu tyfiant. Y mae llwythau o blanigion, fel llwythau o anifeiliaid, yn byw mewn dwfr, i'w canfod yn perthyn i bob un o'r cenedloedd y mae planigion wedi eu dosbarthu, er mai y rhai a berthynant i'r cenedloedd isaf yw y mwyaf lluosog. Y mae llawer o'r llwythau o'r cyfansoddiad uchaf yn meddu aelodau sydd yn preswylio yn y dwfr: o'r rhai hyn y mae crafanc y frân dyfrlle, o'r genedl egyllt (*ranunculaceæ*) yn esampl. Y mae yr holl rywogaethau o lwythau lili y dwfr, a brigwlydd y dwfr, a gwygyrnddail (*ceratophyllaceæ*), a rhai rhywogaethau o'r elltyflysiau (*exogens*), yn tyfu yn y dwfr. Yn mysg y mewndyfolion (*endogens*) y mae llwythau yr engraff (*butomaceæ*), y ffrydlysiau (*naiadaceæ*), y dyfrlyriaid (*alismaceæ*), &c., oll yn ddwfr-blanigion; tra y mae un o'r ychydig dylwythau mwyaf i'r rhai y dosberthir y planigion celweddog (*cryptogamic*), y gwmon, yn gynnwysedig bron oll o blanigion sydd yn tyfu yn y dwfr.

Er mwyn myfyrio dosbarthiadau y byd llysieuol, dosberthir dwfr-blanigion yn amryw gyddyriadau (*groups*). Un o'r dosbeirth cyntaf a ymgynnyg ei hun i sylw yr efrydydd o'u ffurf, a ddeillia oddi wrth gyfansoddiad y dwfr yn yr hwn y tyfant. Fel hyn y mae genym y rhai a dyfant yn nwfr hallt y môr, ac yn nwfr croew y tir. Y mae y rhan fwyaf a dyfant yn ngwaelod y môr, neu a nofiant yn ei ddyfroedd, yn perthyn i dylwyth y gwmon. Pa fodd bynag, y mae llawer o blanigion nad ydynt yn perthyn i'r llwyth hwn yn gofyn dylanwad dwfr hallt ar y tir y tyfant ynddo er eu cynnyrchu. Fel hyn, ni thyf amrywiaethau o'r helys (*salsola*), yr wydd-droed (*chenopodeæ*), y llyrlys (*salicornia*), a'r helas (*glaux*), ond lle y teimlant ddylanwad dwfr hallt; am hyny y maent wedi cael eu galw yn blanigion heliaidd. Canfyddir y planigion hyn, nid yn unig yn y manau a olchir gan ddwfr y môr, ond y maent i'w cael hefyd yn y lleoedd y gweithia dwfr hallt ei ffordd i wyneb y tir yn ffynnonau heilltion. Y mae swp arall o blanigion y dibyna eu tyfiant ar ddwfr hallt, a ganfyddir yn wastad ar lanau y môr neu yr afonydd y daw y môr iddynt; sef amrywiaethau o flodau yr haul, briw'r march, boglynon, caerlys, a'r mangl (*mangrove*). Yr enw a roddir i'r rhai hyn yw planigion glanau y môr, neu blanigion arfor.

Y mae y rhan fwyaf o blanigion dwfr croew hefyd yn perthyn i lwyth y gwmon, er fod y rhywogaethau mwyaf pwysig o lawer yn perthyn i lwythau yr elldyflysiau a'r mewndyfolion. Megys y mae agos holl rywogaethau llwyth gwýg y môr (*fucus*) a'i berthynasau yn perthyn i'r môr, felly y mae y rhan fwyaf o rywogaethau hen lwyth y llinwisg neu y llafanog (*conferva*) yn perthyn i'r dwfr croew. Y mae amrywiaethau

Digitized by Google

o dylwyth y llafan neu yslafan (*ulva*) yn y môr ac yn y dwfr croew. Y mae yr holl blanigion a elwir gan Harvey yn wymon llafanog (*algæ confervoideæ*) yn gyfansoddedig o linion (*filaments*), ac y mae yn gygnog neu gymmalog; am hyny, y mae rhai ysgrifenwyr yn eu galw y gwymon cymmalog.

Dyma brif ddosbarthiadau a llwythau y dwfr-blanigion; ond y mae ymdriniad manwl â'u gwahanol dylwythau, rhywogaethau, a'u hamrywiadau, yn fwy cyfaddas i ddosbarth arall o'r *Gwyddoniadur*, neu draethawd rheolaidd ar lysieuaeth yn gyffredinol.

DWFR A GWAED. Gwel GWAED A DWFR.

DWIGHT, TIMOTHY, duwinydd Presbyteraidd enwog o America, a anwyd yn Northampton, yn nhalaeth Massachusetts, Mai 14eg, 1752. Masnachydd enwog a chyfoethog oedd ei dad; a dyn o dduwioldeb diffuant a dirodres, o ddeallttwriaeth ardderchog, ac o gymmeriad difrycheulyd. Ei fam ydoedd trydedd ferch yr enwog Jonathan Edwards. Yr oedd yn wraig o feddwl egniol a threiddgar; ac ychydig wragedd yn yr holl wlad a ragorent arni o ran eangder ac amrywiaeth eu gwybodaeth. Yr oedd hi yn arfer dyweyd fod plant yn colli llawer o flyneddoedd yn gyffredin, trwy fod eu rhieni neu eu cyfeillion yn meddwl eu bod yn rhy ieuainc i'w dysgu, ac yr oedd ei holl fywyd yn brawf ei bod hi yn meddwl yn wahanol. O ganlyniad, dechreuodd hyfforddi ei mab bron cyn gynted ag y gallai siarad; a chymmaint oedd ei awydd a'i allu i ddysgu fel y dysgodd yr egwyddor ar un wers; ac erbyn ei fod yn bedair oed, yr oedd yn medru darllen ei Feibl yn rhwydd ac yn gywir. Ag esampl ei dad o'i flaen, ac yn cael ei gymhell rhagddo gan hyfforddiadau ei fam, efe a addysgwyd yn ofalus yn egwyddorion crefydd, cystal ag yn holl gylch dyledswyddau moesol. Hi a'i dysgodd o'i fabandod i ofni Duw ac i gadw ei orchymynion ef; i fod yn gydwybodol gyfiawn, caredig, serchog, elusengar, a maddeugar; i goleddu y parch mwyaf cyssegredig ar bob achlysur a than bob amgylchiad at y gwirionedd; i helpu yr angenus, ac i gynnorthwyo y tlawd a'r anffodus. Ymdrechodd hefyd i ddeffro ei gydwybod yn fore i osod ofn pechu arno, ac i ddysgu iddo obeithio am faddeuant trwy gyfiawnder Crist yn unig. Ni ddiflanodd yr argraffiadau hyn byth a wnaed ar ei feddwl tra yn ieuanc. Ei hysgol hi oedd yr ystafell fagu. Yr oedd ganddo ef ei oriau rheolaidd at fyfyrio yno fel mewn ysgol; ac yr oedd hi yn gwrandaw arno ddwywaith bob dydd yn adrodd ei wersi. Caniateid iddo ychydig amser wedi hyny i ddarllen y llyfrau a ddewisai ei hun. Byddai y pryd hyn yn darllen y rhanau hanesyddol o'r Beibl yn fynych, ac yn rhoddi cyfrif am danynt i'w fam. Sefydlid y dygwyddiadau lleiaf fel hyn yn ddwfn a gwahanredol yn ei gof; ac i'r amgylchiad yma, fe allai, yr ydym yn ddyledus am ei arwrgerdd *Gorchfygiad Canaan*, os nad am y cyfansoddiad prydferth hwnw, *Traethawd ar Hanesyddiaeth, Hyawdledd, a Phrydyddiaeth y Beibl*, yr hwn a ennillodd iddo gymmaint o anrhydedd cyn bod yn ugain oed.

Gwnaeth y fath gynnydd cyflym a nodedig mewn pob math o wybodaeth, o chwech hyd yn ddeuddeg oed, fel y buasai yn barod i gael ei dderbyn i Goleg Yale yn wyth oed; a phan yr aeth yno yn dair ar ddeg oed, yr oedd yn feistr mewn hanesyddiaeth, daiaryddiaeth, a'r ieithoedd dysgedig. Pan yr ydoedd yn 17 mlwydd oed, yn bur fuan ar ol cael ei raddio yn G.C. yn Ngholeg Yale, Newhaven, appwyntiwyd ef yn athraw ysgol ramadegol yn y dref hono; a chyn bod yn ugain oed, yn un o athrawon Coleg Yale. Cafodd drwydded i bregethu yn 1777. Yn y flwyddyn hono, attaliwyd brawdlysoedd y coleg gan y gwrthryfel, a chynnygiodd yntau ei wasanaeth fel caplan i'r fyddin Americanaidd. Bu farw ei dad yn y flwyddyn ganlynol, a gorfodwyd ef i roddi ei swydd i fyny, ac i ddychwelyd i Northampton i gymmeryd gofal o'i fam a theulu mawr; a threuliodd weddill ei oes yn benaf i gyflawnu dyledswyddau addysgiaeth, yn gyntaf fel athraw athrofa neillduol. Fel hyn y treuliodd bum mlynedd o'i fywyd, yn ystod y rhai y cydsyniodd ddwy waith i wasanaethu ei dref fel cynnrychiolydd yn ei gydgynghorfa. Yn Mai, 1795, etholwyd ef yn llywydd Coleg Yale. Yr oedd hon yn sefyllfa nodedig o gyfaddas iddo, ac yn un a roddodd fantais fawr iddo i hyrwyddo dysg a chrefydd. Pan ymgymmerodd â'i ddyledswyddau pwysig, yr oedd amryw o'r efrydwyr wedi eu gwenwyno gan anffyddiaeth; ond trwy ei ymdrechiadau doeth, pwyllog, selog, a dysgedig ef, yn nglŷn â'i sefydlogrwydd ac iachusrwydd ei egwyddorion, efe a lwyddodd i raddau mawr i ymlid ymaith opiniynau oedd mor niweidiol i gymdeithas. Heb law ei swydd fel llywydd coleg, yr oedd hefyd yn broffeswr mewn duwinyddiaeth.

Yr oedd ei fywyd boreuol yn orlafurus. Dywedir y byddai yn rhanu ei amser yn rheolaidd, tra yr oedd yn cadw yr ysgol yn Newhaven, gan roddi chwe awr bob dydd yn yr ysgol, wyth awr i fyfyrio yn ddiwyd a chaled, a'r deng awr gweddill at rodianna a chysgu. Bu agos i ormod llafur ddwyn dallineb arno: yr ydoedd yn agored, ar ol pasio tair ar ugain oed i boen llym yn ei lygaid; a bu am ysbaid deugain mlynedd yn analluog i ddarllen yn hwy nag am bymtheg mynyd yn y dydd. Y mae hyn yn peri fod helaethder ac amrywiaeth ei wybodaeth, yr hon a gafodd bron yn hollol trwy gyfrwng y glust, yn fwy nodedig fyth: yr oedd y feistrolaeth a gafodd ar ei alluoedd meddyliol, trwy ddysgyblaeth, mor gyflawn fel y gallai eirio dau neu dri o lythyrau i wahanol ysgrifenwyr ar unwaith; ac anfynych y teimlai ddim anhawsder i adgofio unrhyw ffaith a drysorwyd unwaith yn ei gof. Yn 1774, mabwysiadodd gynllun llym o ddirwest mewn ymborth ac ymarferiad, yr hyn a fu agos a bod yn angeu iddo. Adferwyd nerth ac iechyd iddo yn benaf trwy gymmeryd ymarferiad bywiog bob dydd. Parodd y lles a gafodd oddi wrth hyn iddo gyflwyno ei amser hamddenol yn rheolaidd, ar ol myned i dipyn o oed, at gyfres o wibdeithiau, ffrwyth y rhai yw ei *Deithiau i Loegr Newydd ac Efrog Newydd*, yn 4 cyfrol wythplyg, 1823. Y mae y rhai hyn yn cynnwys llawer o hyfforddiadau gwerthfawr, ystadegol, lle-ddarluniol, a hanesyddol; y rhai, wrth i ni ystyried agweddau meddyliol a chyfleusderau y Dr. Dwight, y mae pob lle i feddwl eu bod yn gywir. Y mae yr ystadegau, o angenrheidrwydd, er ys amser wedi myned yn hen gyda golwg ar ansawdd bresennol y wlad; ond y mae y rhanau hanesyddol, yn enwedig y rhai a berthynant i hanes, defodau, a rhyfeloedd yr Indiaid, o werth mawr. Pa fodd bynag, prif waith y Dr. Dwight ydyw *Duwinyddiaeth yn cael ei Hegluro a'i Hamddiffyn, mewn cyfres o Bregethau*, yn 5 cyfrol

Digitized by Google

wythplyg. Y mae yn cynnwys 173 o ddarlithiau a draddodwyd ganddo fel proffeswr duwinyddiaeth ar y Sabbathau yn amser y coleg, a hyny am tua phedair blynedd. Yr oedd yn eu pregethu oddi wrth nodau pur fyrion, gan na oddefai ei lygaid iddo fyned trwy y llafur o ysgrifenu; felly ni thraddodwyd y corff helaeth yma o dduwinyddiaeth i ysgrifen hyd 1805, pan y darparwyd ysgrifenydd iddo ar draul y coleg. Cyhoeddwyd dwy gyfrol arall o bregethau, yn cynnwys deg a deugain o nifer, yn 1827, ac arwydda y cyhoeddwr fod ganddo chwaneg wrth gefn. Cynnwysa y rhai hyn amryw a anerchid ganddo yn flyneddol, fel llywydd, yn ol defod y coleg, i ymgeiswyr am y radd o G. C., y rhai a ddarllenir gyda dyddordeb.

Fel pregethwr, yr oedd meddylddrychau y Dr. Dwight yn nodedig o wreiddiol ac eang; ei iaith yn syml, cyflawn, a grymus; a'i ddull yn fawreddog, priodol, a difrifol. Parhaodd i gyflawnu ei ddyledswyddau fel gweinidog, ac fel llywydd y coleg, a phroffeswr duwinyddiaeth, hyd yr oedran o bump a thrigain; pan, ar ol salwch hir a phoenus, y bu farw Ionawr 11eg, 1817. Ar ol darllen iddo, ar ei ddymuniad, yr wythfed bennod o'r *Epistol at y Rhufeiniaid*, a'r ail ar bymtheg o *Efengyl Ioan*, ei eiriau diweddaf oedd—"O! y fath wirioneddau gogoneddus!"—(*Life, prefixed to his Theol. Expl.; Jones' Christ. Biog.; Penny Cycl.; Encycl. of Rel. Knowl.*)

DWRN: y llaw wedi ei chau: *gwrn* a rydd y Dr. Pughe fel gwreiddyn y gair hwn; ac ystyr *gwrn*, eb efe, ydyw yr hyn a guddia; llestr culenau; math ar lestr coed a gulha at ei enau fel buddai. Y gair Hebraeg ydyw אגרוף (*agerop*), ac arwydda *rwymiad* neu *rwymyn*. "Pwy a gasglodd y gwynt yn ei ddyrnau?" *Diar.* xxx. 4. Hyny yw, pwy sydd yn alluog i gasglu y gwynt, a'i rwymo, a'i oliwng yn rhydd wrth ei ewyllys, heb law yr hwn a'i gwnaeth? "Taraw â dwrn anwiredd" (*Esa.* xlviii. 4), ydyw ymddwyn yn anghyfiawn, yn annhrugarog, ac yn waedlyd

DWSMEL. Gwel DULCIMER.

DWTHWN: dydd, amser, pryd, adeg, cyfwng. Rhyw dymmor byr, yn yr hwn y dywedir fod rhywbeth wedi neu i gymmeryd lle. Arferir y gair fynychaf yn yr Ysgrythyrau am amser rhyw ddygwyddiad, yn y ffurf bwysleisiol i arwyddo fod yr hyn y crybwyllir am dano wedi dygwydd, neu wedi ei wneyd yn llwyr, yn derfynol, a hyny mewn ychydig amser: *Ios.* iv. 14; *Barn.* iii. 30; xx. 21; 2 *Sam.* xviii. 7; *Neh.* xiii. 1; *Esth.* v. 9; ix. 11; *Luc* xiii. 31; xxiii. 12.

DWYF. Gwel DUW.

DWYFLYWIAETH, [*Theocracy*]: gair cyfansawdd ydyw dwyflywiaeth, yn cael ei wneyd i fyny o dwyfol, a llywyddiaeth; ac felly yn ol ei ystyr darddol gallai olygu llywyddiaeth ddwyfol yn gyffredinol, yn ei holl agweddau o anianyddol a moesol, gwyrthiol a rheolaidd. Ond nid dyma yr ystyr lenorol a duwinyddol a roddir i ddwyflywiaeth; eithr cyfyngir ef yn hollol i osod allan yr hyn a olyga y Sais wrth *Theocracy*, sef y berthynas neillduol a fodolai rhwng yr Arglwydd a'r genedl Iuddewig—yr awdurdod neillduol a arferai efe drosti, a'r amddiffyniad neillduol a weinyddai efe iddi o roddiad y ddeddf ar Sinai hyd ddyfodiad y Messïah. Dwyflywiaeth gan hyny yw y cyfansoddiad gwladol, seremonïol, a chrefyddol, a dynwyd allan gan Dduw ei hun i'r Israeliaid, a'r hwn oedd i gael ei ddwyn i weithrediad o dan ei reolaeth uniongyrchol ef fel brenin y genedl. Yr oedd wedi bod yn Dduw i'w tadau, ac wedi gwneyd pethau mawrion, a hyny drwy gyfryngiad gwyrthiol erddynt hwy a'u tadau cyn gosodiad i fyny y ddwyflywiaeth yn nghyfammod Sinai. Ond o hyny allan, aeth i berthynas newydd â hwynt—perthynas ag sydd yn unigol a digymhar yn hanes holl genedloedd a holl deyrnasoedd y ddaiar. "Yr Arglwydd oedd eu barnwr, yr Arglwydd oedd eu deddfwr, yr Arglwydd oedd eu brenin;" *Esa.* xxxiii. 22. "Ni wnaeth efe felly âg un genedl;" *Salm* cxlvii. 20.

Aeth Duw i gyfammod neillduol âg Abraham, tad y genedl, gannoedd o flyneddoedd cyn hyn. Adnewyddwyd a chadarnhawyd y cyfammod hwnw drachefn i Isaac ac i Israel. *Gen.* xxxv. 11, 12; "Myfi yw Duw Hollalluog; cynnydda ac amlha; cenedl a chynnulleidfa cenedloedd a fydd o honot ti; a breninoedd a ddaw allan o'th lwynau di. A'r wlad yr hon a roddais i Abraham ac i Isaac a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di y rhoddaf y wlad." Eto, nid oedd y cyfammod hwn yn dyfod i fyny â'r neillduolion arbenig a berthynent i'r ddwyflywiaeth a sefydlwyd yn Sinai, er fod y blaenaf yn ddarpariad graddol ac yn agoriad ffordd i'r olaf. Fel hyn, y mae holl oruchwyliaethau yr Arglwydd tuag at ei bobl yn ymarllwys i'w ac yn ymdarddu o'u gilydd. Y maent yn gwahaniaethu, ond nid yn gwrthdaraw; uniona y naill y ffordd ar gyfer derbyniad a sefydliad y llall. Cynnwysai y cyfammod Abrahamaidd, neu yr addewid fel y geilw yr apostol hi, ddwy elfen neillduol—y naill yn dymmorol a'r llall yn ysbrydol: un yn perthyn i'w had yn ol y cnawd yn achyddiaeth Isaac, a'r llall yn perthyn i'w had ysbrydol fel tad y ffyddloniaid: y flaenaf i gael ei chyflawniad yn nyfodiad y genedl i feddiant o Wlad yr Addewid, a'r olaf i gael ei gwirioneddoli yn gyflawn yn llwyddiant mawr teyrnas ysbrydol y Messïah. Fe geir profion digonol o fodolaeth y ddwy elfen wahaniaethol a nodwyd yn y cyfammod Abrahamaidd yn y lleoedd canlynol:—*Gen.* xii. 2, 3, 7; xviii. 18; xxii. 17, 18; *Act.* iii. 25; *Gal.* iii. 8. Yr oedd y rhan dymmorol o'r addewid i Abraham yn fath o gynawgrym neu yn fath o hedyn bychan o'r ddwyflywiaeth a sefydlwyd yn Sinai ac a ddygwyd i gyflawn weithrediad yn Nghanaan; ac nid oedd yr addewid i Abraham, na'r cyfammod yn Sinai, ond rhanau gwahanol a chydweithredol o'r un cynllun mawr i ddarparu y byd ar gyfer dyfodiad y Messïah yn nghyflawnder yr amser. Y mae Moses, prif weinidog dynol cyfammod Sinai, Crist, sylfaenydd yr oruchwyliaeth newydd, a Phaul, prif esboniwr ac amddiffynwr yr oruchwyliaeth hono, yn dangos fod gwahaniaeth arbenig rhwng y cyfammod Abrahamaidd a dwyflywiaeth Sinai: *Deut.* v. 3; *Ioan* vii. 22; *Gal.* iii. 14–25. Addurn neillduol o holl gynlluniau a gweithredoedd yr Anfeidrol yw, eu bod yn meddu elfenau nodweddiadol a gwahaniaethol, tra ar yr un pryd, y maent yn ymdoddi i'w gilydd—pob un yn cael cadw ei nodwedd a'i bersonoldeb ei hun, ac eto yr oll o honynt yn cyfeirio i'r un pwynt, ac fel myrdd o olwynion yn cydysgogi yn yr un peiriant. Yr oedd yr addewid i Abraham yn hanfodol fel darpariaeth i gyfammod Sinai, a chyfammod Sinai yn hanfodol i gyflawniad y rhan dymmorol o'r addewid i Abraham, a'r ddau yn hanfodol i arloesi y ffordd ar gyfer dyfodiad

Digitized by Google

y Mab—a dyfodiad y Mab yn hanfodol er cyflawniad llwyr y rhan ysbrydol o'r cyfammod Abrahamaidd, sef bendithiad holl dylwythau y ddaiar yn ei had ef.

Wedi y cyfan, nid ydoedd y rhan foesol o'r addewid i Abraham ond esboniad mwy eglur a chaeth o'r addewid fawr am Had y wraig yn Eden. Yr oedd yr addewid flaenaf yn sicrhau dyndeliaeth y Gwaredwr, a'r ail yn sicrhau ei lwyth neu ei genedl yn ol y cnawd. Fel hyn, y mae holl addewidion a goruchwyliaethau y Llywydd Mawr yn ymarllwys i, ac yn ymblethu am eu gilydd; ac er eu hiawnddeall a chael syniadau cysson am danynt, rhaid i ni edrych arnynt yn eu cyssylltiadau a'u hiswasanaethgarwch y naill i'r llall. Yr ydym bellach wedi arloesi y ffordd i sylwi yn fwy manwl a neillduol ar y ddwyflywiaeth.

I. *Bu darpariaeth faith, bwriadedig, a pherffaith gyfaddas ar ei chyfer.* Nid oedd y genedl yn gwybod cynghor y Goruchaf, a diau nad oedd hi yn ymwybodol o amcanion mawrion y ddysgyblaeth lem ag y dygwyd hi drwyddi. Ond i ni yn awr, y mae yr oll yn eglur, a'r naill beth i'w weled megys wedi ei drefnu i'r dim ar gyfer y llall. Yr oedd ysgariad Abraham oddi wrth ei wlad a'i dylwyth yn fath o ragawgrym o neillduad llwyr y genedl oddi wrth holl genedloedd ereill y ddaiar. Yr oedd cyssylltu adgofion a theimladau y genedl â Gwlad Canaan, trwy ymdeithiad a phreswylfod Abraham, Isaac, a Iacob ynddi, yn ddylanwad cryf i'w chael i ymadael â gwlad yr Aipht, ac i ddal i fyny ei gobaith a'i ffydd yn nghanol peryglon yr anialwch. Nid oedd nac adgof nac addewid gan Abraham pan adawodd wlad ei dadau:—ufuddhau i orchymyn noeth a wnaeth efe; wedi ufuddhau a chychwyn y cafodd efe yr addewid. Ond gyda y genedl yr oedd pethau yn hollol wahanol: myned i wlad eu tadau—gwlad a roddwyd iddynt trwy lw a chyfammod gan berchen yr holl ddaiar, a gwlad a ddysgrifid iddynt fel yn llifeirio o laeth a mel—yr oeddynt hwy. Wedi gosod Canaan yn nod i serchiadau y genedl, yr oedd yn angenrheidiol toddi eu teimladau yn un, eu cydgorffori, gwau a phlethu eu cydymdeimlad, fel ag i wneyd un genedl unedig a chyfanedig o honynt, a'u dwyn dan iau llywodraeth wladol, yn hytrach na thraddodiadau teuluol a phatriarchaidd. Llwythau gwahanedig a chrwydrol oedd eu cyndylwythau; pob teulu yn cydnabod awdurdod y pen, ond yn gwrthod gyda dirmyg bob ymyraeth oddi allan. Newid y lywodraeth deuluol am y lywodraeth wladol, ac unoli y genedl o ran ei theimlad a'i phrotiad fel ag i fod yn addas at y gorfforiaeth ddyfodol, oedd amcan mawr caethiwed yr Aipht: cynnefinwyd hwynt yno â llywodraeth, ac unwyd hwy yn un genedl. Ond dysgasant un peth yno ac yr ydoedd yn rhaid ei ddad-ddysgu a'i ddiwreiddio o honynt; sef, eilunaddoliaeth ac amldduwiaeth. Felly yr ydym yn cael i'r cyfryw ag a feddent adgofion am, ac ymlyniad at, dduwiau yr Aipht syrthio oll yn yr anialwch. Fel hyn y graddol ddarparwyd y genedl ar gyfer y sefydliad ag y bwriadwyd ei gyhoeddi ar Sinai, a'i ddwyn i lawn weithrediad yn Nghanaan.

II. *Yr amgylchiadau allanol cydfynedol â sefydliad y ddwyfywiaeth.* Y mae y darluniad Ysgrythyrol o'r amgylchiadau hyn yn gynhyrfus a mawreddog; "Wele, mi a ddeuaf atat mewn cwmwl tew, fel y clywo y bobl pan ymddyddanwyf â thi, ac fel y credont i ti byth....Gwyliwch arnoch rhag myned i fyny i'r mynydd, neu gyffwrdd â'i gwr ef: pwy bynag a gyffyrddo â'r mynydd, a leddir yn farw. Na chyffyrdded llaw âg ef, onid gan labyddio llabyddier ef, neu gan saethu saether ef: pa un bynag ai dyn ai anifail fyddo, ni chaiff fyw; pan gano yr udgorn yn hirllaes, deuant i'r mynydd....A'r trydydd dydd ar y boreuddydd, yr oedd taranau a mellt a chwmwl tew ar y mynydd, a llais yr udgorn oedd gryf iawn; fel y dychrynodd yr holl bobl oedd yn y gwersyll....A mynydd Sinai oedd i gyd yn mygu ...a'i fwg a ddyrchafodd fel mwg ffwrn, a'r holl fynydd a grynodd yn ddirfawr." Llais yr udgorn oedd gryf, ac yn cryfhau fwyfwy; a'r bobl a welsant y taranau, a'r mellt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu; a phan welodd y bobl, ciliasant a safasant o hirbell. A dywedasant wrth Moses, Llefara di wrthym ni, a nyni a wrandawn; ond na lefared Duw wrthym rhag i ni farw. O blegid pa gnawd oll sydd, yr hwn a glybu lais y Duw Byw yn llefaru o ganol y tân, fel nyni, ac a fu byw! Ac mor ofnadwy oedd y golwg, ag y dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu. Yr oedd amcanion neillduol i'r holl amlygiadau mawreddog, aruthrol, a dychrynfawr hyn.—1. Fe brofwyd drwyddynt fod y gyfundrefn a gyhoeddwyd yno, tu hwnt i bob dadl, o drefniad ac ordeiniad dwyfol, a'i bod yn annhraethol bwysig yn ngolwg ei Sefydlydd. 2. Crewyd y fath ofn a dychryn yn meddwl y genedl fel nas gallasai edrych ar y sefydliad a osodid i fyny ond gyda pharch a chyssegredigrwydd; ac nis gallasai feddwl am ei dori neu anufuddhau iddo, heb osod ei hun yn agored i'r dialeddau mwyaf dychrynllyd. 3. Dadlenwyd iddynt ychydig o allu a mawredd anfeidrol y Duw a wasanaethent. Credai yr Aiphtiaid bod eu duwiau hwy yn meddu llywodraeth ar y tywydd ac ar elfenau natur. Yr oedd y gred hon hefyd yn ffynu yn mysg y Cenedloedd ereill a gylchynent yr Israeliaid; ond nid oedd neb o'u duwiau hwynt wedi rhoddi y prawf lleiaf eu bod yn meddu yr awdurdod a briodolid iddynt. Ond, wele yn awr brawf gweladwy, clywadwy, a theimladwy i Israel fod eu Duw hwy yn llywodraethwr nef a daiar; ac yn yr olygfa ogoneddus a gawsant, galwent ef "Y Duw *Byw*:" dangosai yr ansoddair *Byw* eu bod yn teimlo ei dra-uchafiaeth ar y duwiau meirwon a addolid gan y Cenedloedd ereill. 4. Gan fod y meddwl dynol yn cael ei ddallu a'i hud-ddenu yn aml gan wychder a rhialtwch allanol; a chan fod yr Aiphtiaid, yr Assyriaid, ac ereill, yn ymogoneddu yn ysblenydd-dra a rhwysgfawredd eu breninoedd a'u llysoedd hwy, rhoddwyd prawf ar Sinai i Israel bod eu brenin hwy, er yn anweledig, yn meddu annhraethol uwch mawreddolrwydd a gorwychedd. Yr oedd cread a dyfnhad y syniad hwn yn eu meddyliau yn hanfodol er eu cadw rhag blysio llywodraeth breninoedd ereill. 5. Trwy y waredigaeth o'r Aipht dangoswyd iddynt anallu duwiau y wlad hono, neu ynte gwnaethent rywbeth er arbed bywyd y cyntafanedig ac achub einioes y brenin a'i lu ymlidgar; ac ar Sinai dygwyd hwy i gyssylltiad uniongyrchol â'r amlygiadau rhyfeddaf o allu a mawredd eu Duw hwy. Dangosid diddymdra a gwegi duwiau y Cenedloedd, a hollalluogrwydd a hollbresennoldeb Duw Israel; ac felly darperid hwy ar gyfer eu negeseuon mawr o dystio, yn nghanol byd eilunaddolgar, nad oedd ond *un* gwir a bywiol Dduw, ac mai eu Duw hwy oedd y Duw hwnw. 6. Yn yr hynodrwydd a roddwyd i Moses, gosodwyd mawredd, urddas, a bri, ar brif weinyddwyr presennol, yn gystal ag

Digitized by Google

ar weinyddwyr dyfodol y ddwyflywiaeth. Pan yr oedd y brenin ei hun yn anweledig, yr oedd yn rhaid creu ymddiried yn a pharch tuag at y rhai hyny a weinyddent yn weledig oddi tano. 7. Yn yr amlygiad neillduol a gafodd y genedl o fawredd aruthrol eu Duw, teimlasant yr angenrheidrwydd am gyfryngwr; deisyfasant ar i Moses neidio i'r adwy ofnadwy rhyngddynt a'r Duw byw: ac yr oedd hyn yn barotoad i'w meddyliau i dderbyn a deall y cysgodau a'r aberthau a gyfeirient at y prophwyd uwch, a'r cyfryngwr gwell, na Moses.

Hynodrwydd mawr y ddwyflywiaeth ydoedd, *mai yr Arglwydd ei hun oedd deddfwr, barnwr, a brenin y genedl.* Ni alwyd senedd, ac ni chynnullwyd y doethion a'r henuriaid, er cydymgynghori yn nyfeisiad, cyhoeddiad, a dygiad y deddfau i weithrediad. Yr oedd yr oll wedi eu dyfeisio a'u trefnu gan y brenin ei hun, yn ei lys ei hun, ac yn ol ei ewyllys ei hun. Nid oedd estyn, lleihau, na chyfnewid i fod arnynt. Derbyn gan Dduw, a chyflwyno i'r genedl yr oedd Moses; nid oedd ganddo ran na chyfran yn ffurfiad y cyfreithiau. A gwaith y genedl oedd ufuddhau iddynt a'u dwyn i weithrediad.

Ymranai y deddfau yn dri dosbarth—y moesol, y seremoniol, a'r barnol neu y gwladol. Yr oedd y blaenaf yn hanfodol a digyfnewid; yn ymgodi o natur bur yr Anfeidrol, ac yn dynodi eu perthynas hwy âg ef fel eu Creawdwr. Y ddeddf hon oedd yn dangos yr angenrheidrwydd am y ddeddf seremoniol. Disgynai purdeb y gyfraith foesol mor danbaid ac awchus ar y gydwybod, nes peri i'r meddwl ymaflyd gydag egni a serch yn y cymmod a'r aberth cysgodol a ddarlunid yn y sefydliad seremoniol. Yr oedd yr ail ddosbarth o gyfreithiau, sef y cysgodol neu y seremoniol, yn dynodi perthynas y genedl â'r Arglwydd fel eu Duw. Cynnwysai hon gydnabyddiaeth o'u heuogrwydd a'u pechadurusrwydd hwy, ac o heddychlondeb yr Arglwydd mewn aberth; a chyfeiriai yn mlaen at gyflawnder yr amser, pan yr ymddangosai y Mab yn y byd, ac am bechod, i gondemnio pechod yn y cnawd. Nid yw yn perthyn i ni yn y fan hon i ymhelaethu ar arwyddocâd neillduol y gwahanol gysgodau ac aberthau a ddefnyddiwyd. Ceir esboniad arnynt o dan eu gwahanol enwau yn nghorff y gwaith. Eto gallwn sylwi fod appwyntiad y creaduriaid hyny ag a addolid gan genedloedd ereill cylchynol i'r Iuddewon, i fod yn aberthau, o angenrheidrwydd yn sefydlu canolfyr gwahaniaethol anocheladwy rhyngddynt hwy a'r cyfryw genedloedd. Nis gallasent hwy goleddu syniadau uchel am y cenedloedd a ymostyngent i addoli y creaduriaid a leddid ganddynt hwy i fod yn aberthau i'w Duw. Ac o'r tu arall, nis gallasai y cenedloedd eilunaddolgar goleddu syniadau parchus am danynt hwythau, pan yn lladd ac yn aberthu creaduriaid a ystyrid yn dduwiau ac a addolid fel y cyfryw ganddynt. Y trydydd dosbarth o gyfreithiau oedd y gwladol neu y barnol, y rhai a ddynodent berthynas neillduol yr Arglwydd â'r genedl fel eu brenin. Yr oedd y cyfreithiau hyn y fath ag i sicrhau ysgariaeth hollol y genedl oddi wrth genedloedd ereill, ac i ddiogelu eu lleoliad yn Nghanaan. Gofynent am gyfryngiad gwyrthiol, ac am amddiffyniad dwyfol aml er eu dwyn i lawn weithrediad. Yr oedd gorphwysiad y tir a mynediad y gwrywod o oed a nerth i Ierusalem ar y gwyliau penodedig, yn gofyn am gnydiad anarferol, ac am amddiffyniad dwyfol rhag cynddaredd y cenedloedd cylchynol. Rhenid y tir rhwng y llwythau, a thelid yr ardreth mewn degwm yn ol gorchymyn Duw ei hun. Efe oedd y tirfeddiannydd, ac oddi tano ef yr oedd pob llwyth a phob teulu yn ei ddal. Nid oedd na rhyfel na heddwch i'w gyhoeddi ond yn ol gorchymyn yr Arglwydd fel brenin y genedl. Os cyfodasai rhyw amgylchiad ar gyfer pa un nid oedd deddf wedi ei gwneyd, yr oedd yn rhaid myned at yr offeiriad fel prif weinidog Duw ar y mater; ac nid tracthu ei olygiad ei hun a wnelid gan yr offeiriad, ond ymgynghori a wnelai â'r Arglwydd fel brenin. Nis gallesid llwyr ddyeithro neu werthu y tir; ar yr Iwbili, dychwelai yr oll i achau y perchenog gwreiddiol. Ac nis gallasai estron, er dyfod yn broselyt, a phreswylio yn y tir, feddiannu dim o hono. Nid oedd yn y gyfundrefn hon yr un annogaeth i'r Israeliaid i fod yn ymosodgar ar eu cymmydogion; ond yr oedd ynddi bob annogaeth i beri iddynt fod yn wrol i amddiffyn eu gwlad a'u sefydliadau; o blegid yr oedd gan bob teulu a phob dyn rywbeth i'w golli. Y mae cyfreithiau gwladol yr Iuddewon yn hollol anghymhwys, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, i fod yn gynllun o sefydliad gwladol parhaus i genedloedd ereill. I Israel, yn yr adeg hono, i ateb yr amcanion neillduol oedd gan Dduw mewn golwg, ac o dan lywyddiaeth uniongyrchol yr Arglwydd fel eu brenin, yr oeddynt y pethau cymhwysaf a allasai anfeidrol ddoethineb lunio. Ni ddylid eu dal i fyny fel cynllun o ffurflywodraeth wladol, pan y mae dwyflywiaeth wedi ei dileu. Cyn y gellir dadleu dros eu parhad, na sefydlu cyfansoddiad gwladol arnynt, rhaid cael cenedl yn yr unrhyw amgylchiadau, yn arfaethedig i ateb yr unrhyw amcanion rhagluniaethol, ac yn meddu arolygiad dwyfol a chyfryngiad gwyrthiol uniongyrchol. Eto, fe ddichon fod egwyddorion pwysig yn gorwedd dan y barnedigaethau gwladol a sefydlwyd yn Nghanaan, y byddai yn dda i bob llywodraeth wladol eu hefrydu a thalu sylw iddynt. Yn gydweddol âg amcan y sefydliad gwladol Iuddewig, cosbau a gwobrau tymmorol yn benaf, a braidd yn unig, a gyssylltid â chadw ac â throseddu y deddfau. I oes mor gnawdol, plentynaidd, a materol, ni buasai y syniad o gosbau a gwobrau ysbrydol yn ateb y dyben mor rymus ac uniongyrchol. Hefyd, yr oedd angen i fendithion a barnau yr Israeliaid fod yn adnabyddus i'r cenedloedd cylchynol, er argraffu ar eu meddyliau dra-uwchafiaeth Duw yr Hebreaid ar eu duwiau hwy. Felly, cael aros yn Nghanaan, cael llonyddwch oddi wrth, neu oruchafiaeth ar elynion; mwynhau meusydd cnydiog, anifeiliaid eppilog, coedydd ffrwyddlawn; a chyfranogi yn ddibrin o doraethiwch gwlad yn llifeirio o laeth a mel, oedd y gwobrau cyssylltiedig âg ufudd-dod i'r deddfau a'r barnedigaethau; a'r gwrthwyneb i hyn oedd y cosbau am eu troseddu. Ceir yma awgrymiadau am gosbau a gwobrau ysbrydol: ond y tymmorol a'r uniongyrchol oedd yr amlycaf o ddigon, a hwy oeddynt fwyaf addas i sefydliad cymmysg o fath y ddwyflywiaeth. Yr oedd y fendith fuan, a'r gosp gyflym yn dylanwadu yn nerthol er cadw y genedl rhag myned i eithafion gwrthgiliad, a hyny am amser hir. Ac felly, atebid amcanion y ddwyflywiaeth drwy ddiogelu arosiad y genedl yn neu ger llaw i Ganaan, a sicrhau daliad i fyny yn barhaus y gyfundrefn gysgodol a arddangosai ddyfodiad a dyoddefaint y Messïah. O Iosuah i Samuel cyfodwyd i fyny at yr offeiriaid linell o weinyddwyr y ddeddf o dan yr enw "y barnwyr." Nid oedd yr un o'r

rhai hyn yn gwneyd deddf newydd, nac yn taflu heibio neu yn newid y mymryn lleiaf ar y sefydliad dwyfol cyntefig. Gweinyddwyr yn unig oeddynt. A phan yr aeth y genedl i flysio am freninoedd, er ymdebygu i'r cenedloedd ereill, a phan y caniatawyd y cyfryw iddynt, nid oedd hawl nac awdurdod gan un o honynt i wneud deddf newydd, na gwrthod neu newid hen ddeddf. Gweinyddwyr israddol o dan frenin mawr y genedl oeddynt hwythau. Ychydig o wahaniaeth heb law gwahaniaeth enw oedd rhyngddynt hwy a'r barnwyr. Yr Arglwydd ei hun oedd barnwr, yr Arglwydd oedd deddfwr, a'r Arglwydd oedd brenin y genedl. I sefydliad mor hynod a neillduol a'r ddwyflywiaeth, rhaid bod rhyw nod arbenig ganddo i ymestyn ato, a rhyw ddyben pwysig iddo i'w ateb. Ac er gweled cyfaddasder a rhesymoldeb y sefydliad, rhaid i ni chwilio am yr amcanion mawrion a gyrhaeddwyd drwyddo. Yr oedd y rhai hyn yn driphlyg:—

Cadw yn fyw yn y byd wybodaeth eglur am yr un gwir a bywiol Dduw. Eilunaddoliaeth oedd pechod mawr holl genedloedd y ddaiar; ac oni buasai i'r Arglwydd o'i drugaredd neillduo un genedl iddo ei hun, a llunio cyfansoddiad gwladol a chrefyddol hono y fath fel nas gallasai lwyr anghofio ei Duw, fe gollasid oddi ar y ddaiar bob gwybodaeth am y Duw byw. Er cadw yr Iuddewon rhag cael eu llygru gan genedloedd eilunaddolgar yr oedd yn rhaid eu llwyr neillduo oddi wrth y cenedloedd hyny. Felly cawn y ddwyflywiaeth y fwyaf ddidoledig a neillduedig o bob sefydliad. Ei hamcan mawr ydoedd cadw Israel oddi wrth y llygredd cylchynol, a'u neillduo i fod yn bobl cwbl wahanedig er sicrhau gwrthdystiad gweledig a pharhaol yn erbyn amldduwiaeth.

Amcan mawr arall i sefydliad Sinai ydoedd rhagddangos dyfodiad a dyoddefaint "dymuniant yr holl genedloedd." Cadwai y dysgwyliad am dano o hyd yn fyw. Yr oedd y seremoniau dyddiol yn gysgodol ac arwyddluniol o'i gymmeriad, ei waith, a'i swyddau. Os oedd y sefydliad yn rhwysgfawr, costus, a beichus, tueddai i gryfhau y dymuniad am ymddangosiad y person gogoneddus a gysgodid ynddi, ac a ddygai waredigaeth oddi wrtho. Y fath oedd y cyfeiriad at Grist yn y cyfansoddiad Iuddewig, a'r fath fu argraff y cyfeiriad nerthol hwnw ar y byd, fel yr oedd dysgwyliad cyffredinol am ymddangosiad rhywun mawr o ddeutu adeg genedigaeth y Messïah.

Y trydydd amcan neillduol i'r ddwyflywiaeth oedd, cadw achyddiaeth y Messïah yn eglur, a diogelu cadwraeth dilwgr yr oraclau dwyfol. Er ateb y dyben hwn, yr ydoedd yn angenrheidiol neillduo ac ysgaru y genedl oddi wrth yr holl genedloedd ereill, a chyssylltu ei defodau gwladol a chrefyddol â'r fath seremoniau ag nas tueddent i ymgyfathrachu â hwy. Drwy yr oruchwyliaeth hon y bendithiwyd ni â'r Hen Destament yn ddilwgr, ac y galluogwyd ni i olrhain achyddiaeth ddynol ein Ceidwad.

Y mae yn amlwg oddi wrth natur a dyben y ddwyflywiaeth mai amserol a darfyddol ydoedd. Buasai ei pharhad fel cyfundrefn ddarpariadol a chysgodol, wedi ymddangosiad y sylwedd, yn gwrthdaraw ei hamcan gwreiddiol ac yn arwain sylw y byd oddi wrth y sylwedd at y cysgod, ac oddi wrth yr ysbryd at y llythyren. Afreidiol yw dyfynu adnodau er dangos diddymiad "ysgrifenlaw yr ordinhadau." Y mae y Testament Newydd oll, a'r Epistol at yr Hebreaid yn neillduol, yn esboniad penodol ar ei hamcanion cysgodol, a'i symmudiad ymaith. Yr oedd y ddwyflywiaeth y fath fel nas gellir ei hefelychu na'i mynychu yn wladol nac eglwysig. Chwiliwr y galon oedd y brenin gwladol oddi tani, a Barnwr yr holl ddaiar oedd ei llywydd; ac heb i ni gael yr oruchlywyddiaeth hon eto, oferedd fyddai i ni ddadleu dros adsefydliad o'r oll neu o ranau o'r cyfansoddiad eglwysig Iuddewig. Y mae y seremoniau wedi eu dileu, y cysgodau wedi eu sylweddoli, y Messïah wedi ymddangos, yr oruchwyliaeth wedi newid, brenin tymmorol Israel wedi trosglwyddo pob awdurdod a nerth i'r Mab, a'r Mab wedi tystiolaethu nad breniniaeth ddaiarol yw ei freniniaeth ef. Ymadawodd y deyrnwialen a'r deddfau o Iudah yn adeg ymddangosiad y Messïah. Gwel CYFRAITH MOSES; ISRAEL.

**DWYFOLDEB YR YSGRYTHYRAU.** Gwel YSGRYTHYRAU.

**DWYFRONEG:** [*dwy-bron*]. Rhan ardderchog o wisg swyddogol yr archoffeiriad Iuddewig, yn gorchuddio ei ddwyfron ef, oedd "dwyfroneg y farnedigaeth," wedi ei gweithio yn rhwydwaith prydferth a chywraint, o'r un defnydd a'r ephod, "o aur, sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a lliain main cyfrodedd;" *Exod.* xxviii. 15. Yr oedd wedi ei gweithio yn ddau ddyblyg, fel yr oedd yn fath o bwrs neu god, o rychwant o hyd a rhychwant o led, sef tua deng modfedd ysgwar, yn yr hon, yn ol y Rabbiniaid Iuddewig, meddai Calmet, y rhoddwyd yr Urim a'r Thummim. Yr oedd y plyg allanol wedi ei addurno yn odidog â phedair rhes o feini gwerthfawr, ac enwau deuddeg llwyth Israel wedi eu naddu ynddynt, "o naddiad sêl." Yr oedd y rhesi perl, neu feini gwerthfawr hyn "wedi eu hamgylchu mewn boglynau aur yn eu lleoedd" (*Exod.* xxxix. 13); ac wedi eu trefnu yn y ddwyfroneg, yn ol y Beibl Cymraeg (*Exod.* xxviii. 17—20; xxxix. 10—13), yn y dull canlynol:—

| | | |
|---|---|---|
| IUDAH.<br>SARDIUS. | ISSACHAR.<br>TOPHAS. | ZABULON.<br>SMARAGDUS. |
| REUBEN.<br>CARBUNCL. | SIMEON.<br>SAPHIR. | GAD.<br>ADAMANT. |
| EPHRAIM.<br>LYGUR. | MANASSE.<br>ACAT. | BENIAMIN.<br>AMETHYST. |
| DAN.<br>BERYL. | ASER.<br>ONIX. | NAPHTHALI.<br>IASPIS. |

Yn ol Calmet, fel hyn:—Zabulon, emerald; Iudah, sardonyx; Issachar, tophas; Reuben, carbuncl; Simeon, saphir; Gad, iaspis; Ephraim, lygur; Manasseh, acat; Beniamin, amethyst; Dan, chrysolithus; Aser, onix; Naphthali, beryl.

Yn ol Eadie, fel hyn:—Iudah, tophas; Issachar, sardonyx; Zabulon, emerald; Reuben, carbuncl; Simeon, saphir; Gad, iaspis; Ephraim, lygur; Manasseh, acat; Beniamin, amethyst; Dan, chrysolithus; Aser, onix; Naphthali, beryl.

Am yr enwau a roddir yma i'r meini, dywed Calmet nad ydynt ddiammheuol, am fod ein hadnabyddiaeth ni o'r rhan yma o wyddoriaeth naturiol mor anmherffaith.

Yr oedd y ddwyfroneg yn bedeirongl, gyda

Digitized by Google

modrwy aur ar bob congl iddi; ac yr oedd pedair modrwy aur ar yr ephod yn gyferbyniol iddynt—un ar bob ysgwydd, a'r ddwy arall ar wregys yr ephod ar eu cyfer. Yr oedd cadwyn blethedig o aur coeth, a "boglyn" neu fach aur yn ei phen, wrth ddwy fodrwy uchaf y ddwyfroneg, i'w cyssylltu â'r ddwy fodrwy aur oedd ar ysgwyddau yr ephod; a chyssylltid y ddwy fodrwy aur oedd ar gornelau isaf y ddwyfroneg â'r ddwy fodrwy aur oedd ar wregys yr ephod â llinynau o sidan glas. Nid oedd y ddwyfroneg byth i gael ei gwahanu oddi wrth yr ephod; a galwyd hi "*yn goffadwriaeth*" (*Exod.* xxviii. 12, 29), gan iddi gael ei bwriadu i ddwyn ar gof i'r offeiriad pa mor anwyl iddo ef y dylasai y llwythau fod, enwau y rhai a ddygai ar ei galon. Galwyd hi hefyd yn "ddwyfroneg y farnedigaeth" (*Exod.* xxviii. 15, 29), am mai trwyddi hi, fe allai, y dadguddid barn ac ewyllys Duw; neu o blegid mai trwy yr archoffeiriad, yr hwn a'i gwisgai, yr oeddynt i dderbyn barn a chyfiawnder, gan y gwisgai yr addurn yma yn wastad pan yn gweinyddu yn ei swydd fel barnwr ar faterion pwysig perthynol i'r holl genedl.—Gwel Urim a Thummim; Archoffeiriad.—(*Calmet's Dict.; Eadie's Bibl. Cycl.; Kitto's Cycl. Bibl. Lit.*, &c.)

DWYRAIN, [*dwyr, dwyre;* Heb., מזרח ,קדם]. Y mae y geiriau Hebraeg sydd yn dysgrifio y dwyrain, o wahanol ystyr; ac i ryw raddau y maent felly hefyd yn eu cymhwysiad. Ystyr briodol *cedem* ydyw *o flaen, yn ngŵydd* person; a chymhwysid ef at y dwyrain oddi wrth yr arfer o droi tua'r cyfeiriad hwnw pan yn dysgrifio pegynau y cwmpas, *o flaen, o'r tu ol, y deheu, a'r aswy*, yn arwyddo Dwyrain, Gorllewin, Deheu, a Gogledd: *Iob* xxiii. 8, 9. Ystyr y gair *mizrach* yw lle codiad yr haul, a chyfateba yn fanwl i'r gair Groeg ανατολή (*anatolê*), ac i'r Lladin *oriens*. Defnyddir gair arall (שמש=*shemesh*) weithiau mewn cyssylltiad â *mizrach*, a gyfieithir yn ein Beiblau ni "o du codiad haul," "o gyfodiad haul" (*Barn.* xi. 18; *Esa.* xli. 25): ac weithiau defnyddir *cedem* a *mizrach* yn nghyd, y rhai a gyfieithir yn gyffredin, "tua'r dwyrain o godiad haul," "o du y dwyrain tua chyfodiad haul;" *Exod.* xxvii. 13; *Ios.* xix. 12. Wrth ystyried y gwahaniaeth geiryddol yma, naturiol ydoedd i *cedem* gael ei ddefnyddio pan yn darlunio pedwar chwarter y byd, megys yn *Gen.* xiii. 14; xxviii. 14; *Iob* xxiii. 8, 9; *Ezec.* xlvii. 18—20; a *mizrach* pan yn unig y gwahaniaethir y dwyrain oddi wrth y gorllewin (*Ios.* xi. 3; *Salm* l. 1; ciii. 12; cxiii. 3; *Zech.* viii. 7), neu oddi wrth ryw un chwarter arall o'r byd: *Dan.* viii. 9; xi. 44; *Amos* viii. 12. Ceir eithriadau i'r arfer yma yn *Salm* cvii. 3; *Esa.* xliii. 5; ond gellir egluro yr achos yn y ddau le. Drachefn, defnyddir *cedem* (yn y gwreiddiol) mewn ystyr daiaryddol manwl, i ddynodi lle neu wlad a fyddo yn union o flaen un arall tua'r dwyrain: yna ceir ef yn y fath ymadroddion ag sydd yn *Gen.* ii. 8; iii. 24; xi. 2; xiii. 11; xxv. 6; a dyma yr achos o arfer y gair wedi hyny, fel enw priodol (*Gen.* xxv. 6, "tua'r dwyrain, i dir *cedem*") am y tir oedd nid yn unig yn union tua'r dwyrain o Palestina, megys Arabia Ddiffaith, a Thir Moab, a meibion Ammon, ond hefyd am Armenia, Assyria, Mesopotamia, Babilon, a Chaldea, y rhai a safant yn hytrach i'r gogledd nag i'r dwyrain o Iudea. Y mae ei therfynau daiaryddol yn cynnwys Syria, y gwledydd o'r tu hwnt i'r Tigris a'r Euphrates, glanau Môr yr India, a chulfor Arabia. Yr enw a roddai yr Hebreaid ar yr holl ororau hyn oedd ארץקדם (*Arets cedem*), yr un ag Ανατολή (*Anatolia*) y Groegiaid, neu dir y dwyrain (*cedem*); a'r Babiloniaid a'i galwent Arab neu Arabia. Y boblogaeth amrywiog a alwai yr Hebreaid yn feibion y dwyrain, neu y dwyreinwyr; a'r Babiloniaid a'u galwent yn bobl y gorllewin. Cymhwysodd yr Iuddewon hefyd eu hunain yr enw Babilonaidd atynt mewn rhai o'u llyfrau a ysgrifenwyd ar ol caethiwed Babilon: 2 *Cron.* xxii. 1; *Neh.* ii. 9. Yr enwau hyn hefyd a rydd yr Arabiaid arnynt eu hunain o'r amser gynt hyd yn bresennol. I'r gororau hyn y perthyn y rhai â elwir yn ol yr Hebraeg (*Esa.* xix. 11; *Ier.* xxv. 19—25) breninoedd y dwyrain (*cedem*).

Defnyddir *mizrach* am bellafoedd y dwyrain, ond nid mor benodol (*Esa.* xli. 2, 25; xliii. 5; xlvi. 11); a chyfieithir ef weithiau yn ddwyrain, ac weithiau yn godiad haul. Wrth ddarlunio gol ygfa neu gyfeiriad, defnyddir y geiriau yn ddiwahaniaeth:—cymharer *cedem* yn *Lef.* i. 16, a *Ios.* vii. 2, â *mizrach* yn 1 *Cron.* v. 10, a 2 *Cron.* v. 12. Ymddengys fod y dwyrain yn cael ei ystyried fel arwydd o bellder (*Esa.* xlvi. 11), megys y tir a ymestynai yn y cyfeiriad yma nas gwyddid i ba bellder. Yn *Esa.* ii. 6, ymddengys fel trigle swynyddiaeth a chelfyddydau cyffelyb (cymharer *Iob* xv. 2). Defnyddia y Deg a Thrigain *anatolai* am *cedem* a *mizrach*. Dylid sylwi mai *anatolai* gydag ychydig o eithriadau (*Dan.* viii. 9; *Dad.* xxi. 13; cymharer *Dad.* vii. 2; xvi. 12, oddi wrth y rhai yr ymddengys mai arfer Ioan oedd rhoddi ἡλίου, *êliou*, i mewn) yw yr ymadrodd (*Mat.* ii. 1; viii. 11; xxiv. 27; *Luc* xiii. 29), ac nid *anatolê*. Prin y buasai Matthew yn defnyddio y ddau air yn anmhenderfynol yn yr adnodau dilynol (*Mat.* ii. 1, 2), yn enwedig gan y rhydd y bannod o flaen *anatolê*, tra nad ydyw un amser mewn amgylchiadau ereill: *Dad.* xxi. 13. Ymddengys ei fod yn arwyddo penodiad lle—mai y wlad a elwid *cedem* neu *anatolê* ydoedd (cymharer *anatolia* ddiweddar), ar wahan oddi wrth y parth hwnw (*anatolai*) lle y safai. Er cadarnhau hyn, gellir sylwi am yr unig ymadrodd yn y lle y rhoddir y bannod o flaen *cedem* (*Gen.* x. 30) y defnyddir y gair am le penodol ac arbenig, sef Deheubarth Arabia.

Dengys yr ymadroddion canlynol, fel esamplau, pa fodd y cymhwysir y geiriau dan sylw yn y Beibl at y parth mawr dwyreiniol a nodwyd eisoes. Dywed Balaam fod Balac, brenin Moab, wedi ei gyrchu ef o fynyddoedd y dwyrain (*Num.* xxiii. 7); hyny yw, o Pethor ar yr Euphrates. Rhydd Esaiah (*Esa.* ix. 12) Syria yn y dwyrain —"Y Syriaid o'r dwyrain," medd yr Esgob Lowth. Ymddengys y gwahaniaeth yn amlwg yn *Gen.* xxix. 1; "A Iacob a gymmerth ei daith i wlad meibion y dwyrain." Y mae yr un ymadrodd eto yn *Barn.* vi. 3; "A meibion y dwyrain a ddaethant i fyny yn eu herbyn hwynt." Cynnorthwya y mynegiadau hyn ni i roddi cyfrif am y nifer dirfawr a ymgasglent weithiau i ryfel yn erbyn yr Israeliaid (*Barn.* vi. 5; vii. 12); "A holl feibion y dwyrain oedd yn gorwedd yn y dyffryn fel locustiaid o amldra;" ac am y lladdfa fawr a gofnodir yn *Barn.* viii. 10; "Canys lladdwyd cant ac ugain mil o wŷr yn tynu cleddyf." Ymddengys fod trigolion y parth yma yn nodedig am eu gwybodaeth yn y gwyddorau a'r celfyddydau (1 *Bren.* i. 4, 10), a'u bod yn dra thueddol, yn amser Esaiah, at ofergoeledd: *Esa.* xxvi. Perthyn i'r parth hwn o'r wlad yn ddiau yr oedd y doethion a ddaethant o'r dwyrain

Digitized by Google

dristwch duwiol; ac ymwrthodiad â phechod yn myned yn ymgyssegriad calon ac ewyllys i wasanaeth Duw. Yn awr y mae y pechadur yn awyddu am gael ei godi i heddwch a chymmod â Duw, a'i waredu oddi wrth bechod ac nid awyddu yn unig: y mae ei ewyllys yn cael ei chyfeirio yn ei erbyn, ac y mae yn dechreu bywyd o groeshoelio yr hen ddyn yn nghyd â'i wyniau a'i chwantau. Yn awr y mae yn dechreu caru a chymmeradwyo yr hyn yr ydoedd o'r blaen yn ei gasäu, ac yn casäu yr hyn yr ydoedd o'r blaen yn ei garu. Po fwyaf y mae y pechadur yn casäu ei fywyd blaenorol, yn dyfod i adnabod llygredigaeth ei galon, ac yn cael ei ddal gan ofn digofaint Duw, cryfaf oll yw ei awyddfryd i gymmeryd gafael ar y gobaith a osodwyd o'i flaen, ac uchaf oll yw ei gri, "Ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddi wrth gorff y farwolaeth hon."

Awdwr y gwaith hwn ydyw Ysbryd Duw: "Fe roddes Duw i'r cenedloedd hefyd edifeirwch i fywyd;" *Act.* xi. 15—18. Priodolir y gwaith weithiau i'r Tad: "Ni ddichon neb ddyfod ataf fi oddi eithr i'r Tad yr hwn a'm hanfonodd ei dynu ef......pob un, gan hyny, a glywodd gan y Tad ac a ddysgodd, sydd yn dyfod ataf fi." Ac weithiau i'r Mab: "Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw...i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau;" *Act.* v. 31. Ond yn fynychaf i'r Ysbryd Glân: *Ioan* xiv, xv, xvi. Y mae y gair *dychweliad* ynddo ei hun yn briodol i osod allan waith Ysbryd Duw yn achubiaeth pechadur, ac hefyd gwaith y dyn yn gwrandaw ac yn troi.

Moddion dychweliad pechadur ydyw y Gair. "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd;" *Iago* i. 18. "Wedi eich aileni, nid o had llygredig, eithr anllygredig, trwy air Duw;" 1 *Pedr* i. 23. "Y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt;" *Ioan* vi. 63. "Sancteiddia hwynt trwy dy wirionedd: dy air sydd wirionedd;" *Ioan* xvii. 17; xv. 3; viii. 31, 32; *Eph.* vi. 17; *Heb.* iv. 12; *Salm* xix. 7—9, &c. Y mae y Gair yn cynnwys y *ddeddf* a'r *efengyl*, neu ddadguddiad o ewyllys Duw ac o'i drefn. Y cyntaf yn dangos pa beth y mae yn ofyn genym; a'r ail pa beth y mae wedi ei barotoi ar ein cyfer ac yn addaw i ni. Y mae cnewyllyn y cyntaf yn y Deg Gorchymyn, y rhai a ddadblygir ac a gymhwysir yn helaethach yn yr Hen Destament a'r Newydd. Yr efengyl ydyw cynnwysiad holl addewidion grasol Duw—yr amlygiadau o'i gariad mewn Cyfryngwr—a'i alwadau ar ol pechadur i dderbyn maddeuant a bywyd tragwyddol.

Ymofyniad nas gall dyn gyrhaedd ateb boddhaol iddo ydyw, Pa beth ydyw y berthynas rhwng gwaith Duw a gwaith dyn yn nychweliad pechadur? Yn yr ymofyniad, cymmerir yn ganiatäol nad yw gwaith Ysbryd Duw yn cau allan weithgarwch dyn, ac nad yw dyn yn oddefol yn unig yn ei achubiaeth. Y mae y ddau yn wir; y mae yn oddefol ac yn weithredol. Y mae Duw "yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." "Wrth hyn," medd Calvin, "yr wyf yn deall gras goruwch naturiol, yr hwn y mae Ysbryd Duw fel awdwr ailenedigaeth yn ei blanu yn yr enaid." "Y mae genym," medd efe drachefn, "ewyllys wrth natur; ond gan ei bod wedi myned yn ddrwg trwy bechod, nis gall ddechreu bod yn dda nes y cyfnewidir hi gan Dduw. Nid ydym yn dyweyd y dichon dyn wneuthur yr hyn fo yn dda os na bydd yn ei ewyllysio; ond trwy Ysbryd Duw y mae yn dyfod i ewyllysio. O ganlyniad, y mae yr holl glod yn perthyn iddo ef; ac nid yw yr hyn a ddysgir gan dwyllymresymwyr ond ofer, sef fod gras yn cael ei gynnyg i ni i'w dderbyn os ewyllysiwn. O herwydd oni bai ei fod ef yn gweithio yn effeithiol ynom, ni ellid dyweyd ei fod yn gweithio ynom yr "ewyllysio." Ond y mae yr apostol ar sail hyn yn annog ei ddarllenwyr i "weithio allan eu hiachawdwriaeth eu hunain trwy ofn a dychryn," rhag iddynt yn y diwedd fethu. Nid yw gwaith Duw yn difodi gwaith dyn, ond yn hytrach yn gymhelliad ato; o herwydd pa mor wan bynag ydyw nerth dyn, y mae nerth Duw yn ddigonol i weithio ewyllysio a gweithredu: nid yw gwaith dyn yn gwneuthur gwaith Duw yn afreidiol, o herwydd y mae galwad arno i weithio allan ei iachawdwriaeth trwy ofn a dychryn, er gweithio yn nerth Duw. Mor ofer gan hyny y byddai pob ymdrech yn ei nerth ei hun. Y mae yr oll o ras Duw: a gras sydd yn gogwyddo pechadur i dderbyn a chofleidio yr iachawdwriaeth; eto yn y fath fodd fel y mae yn gwneuthur ymdrech i fyned i mewn trwy y porth cyfyng, yn llafurio am y bwyd a bery i fywyd tragwyddol, yn gwneuthur ei oreu ar ei gael ganddo ef mewn tangnefedd, ac yn gweithio allan ei iachawdwriaeth ei hun. Y mae y gwirionedd rhwng y golygiad sydd yn gwneuthur dyn yn oddefol yn unig yn ei ddychweliad, gan gau allan ei weithgarwch yn hollol, a'r golygiad sydd yn gwadu fod dyn yn oddefol, gan osod ei weithgarwch yn annibynol ar ac yn gyfochrog âg eiddo Duw. Mae hyn yn gysson âg ieithwedd y Beibl ar y mater, gan ei briodoli weithiau i Dduw ac weithiau i ddyn:—"Dychwel ni, a ni a ddychwelir;" "Tyn ni, a ni a redwn ar dy ol." Defnyddir y geiriau weithiau fel ag i ddangos fod dyn yn oddefol:—"I agoryd eu llygaid, ac i'w troi." "Eithr yn awr chwi a ddychwelwyd at Fugail ac Esgob eich eneidiau." "Tro ni...a thor ymaith dy ddigofaint oddi wrthym," &c. Weithiau hefyd fel ag i ddangos ei fod yn weithredol:—"Rhag iddynt weled â'u llygaid...a dychwelyd." "Edifarhewch a dychwelwch," &c. Yr un modd gelwir ar ddynion i edifarhau a chredu:—"Edifarhewch a chredwch yr efengyl." Bryd arall, lleferir am danynt fel rhodd Duw—"I roddi edifeirwch." "Canys trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd, a hyny nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw.

*A oes gwahaniaeth rhwng dychweliad ac ailenedigaeth?* Yn yr ystyr y defnyddir y gair *dychweliad* yn yr erthygl hon, nid oes. Ac yn gyffredin defnyddir hwynt yn gyfystyr. Defnyddia Calvin y gair edifeirwch yn gyfystyr ag ailenedigaeth, ac fel yn cynnwys ffydd a gwir ddychweliad. "Y mae y gair edifeirwch, yn yr Hebraeg, wedi ei gymmeryd oddi wrth ddychweliad neu dröedigaeth; ac yn y Groeg, oddi wrth air yn arwyddo cyfnewidiad meddwl neu amcan; ac y mae yr hyn a osodir allan yn cyfateb i'r ddau ddull o ymadroddi; o herwydd mewn sylwedd, hyn ydyw fod dyn yn troi oddi wrtho ei hun at Dduw, a chan ddodi heibio yr hen feddwl y mae yn gwisgo y newydd. Felly, y mae yn ymddangos i mi y gellir darnodi edifeirwch fel y canlyn:—Dychweliad neu dröedigaeth gwirioneddol at Dduw, yn tarddu oddi wrth ofn didwyll a diragrith; ac yn gynnwysedig mewn marweiddiad y corff — yr hen ddyn—a bywiocâd yr ysbryd." Drachefn: "Mewn un gair, wrth edifeirwch yr wyf yn deall ailenedigaeth; amcan yr hyn ydyw ail ffurfio ynom ddelw Duw, yr hon a anurddwyd, ac o'r bron a gollwyd, yn y cwymp:" *Instit.*, llyfr iii. pen. iii. adr. 5 a 9. Golygai Calvin mai yr un

Digitized by Google

syniadau Derwyddol am y dyfnder, neu Annwn, gwel ANNWN; cyf. i. td. 258.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

DYFNWAL MOELMUD. Y mae dwy farn yn ffynu yn awr yn Nghymru gyda golwg ar Dyfnwal Moelmud. Y mae coleddwyr un farn yn cymmeryd yn ganiataol fod yr hyn oll a ddywedir yn y *Brutiau*, y *Trioedd*, y *Mabinogion*, y *Greal*, ac ysgrifeniadau Cymreig diweddarach, yn wirioneddau llythyrenol am Dyfnwal; tra y mae coleddwyr y farn arall yn cymmeryd arnynt brofi nad yw Dyfnwal ei hun ond ffug a ddychymygwyd gyntaf gan Sieffre o Fynwy, yn y 12fed ganrif, yn ei chwedl ar hanes Prydain, a elwir *Brut y Breninoedd*; ac nad yw ei gyfreithiau yn ddim ond trioedd a ffurfiwyd gan feirdd Morganwg, yn yr 16eg ganrif, allan o gyfreithiau Hywel Dda. Caiff pob un o'r pleidiau siarad yma drostynt eu hunain. Dechreuwn gyda'r farn sydd yn ffafriol i hynafiaeth Dyfnwal Moelmud.

Dyfnwal Moelmud, meddai Williams, yn *Enwogion Cymru*, yn ol *Brut y Breninoedd*, oedd fab Clydno, tywysog Cernyw, yr hwn trwy ei wrhydri, a gafodd feddiant o holl Brydain. Bu farw ar ol teyrnasu deugain mlynedd, a thybir iddo fyw o gylch pedwar can mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol. Hynododd ei hun drwy ei gyfreithiau, y rhai a barhasant mewn grym yn mysg yr hen Frutaniaid, hyd oni adolygwyd hwynt gan Hywel Dda, yn y 10fed ganrif. Yn ol y *Trioedd*, mab ydoedd Dyfnwal i Prydain, ac y mae pedwar o'r *Trioedd* yn perthyn iddo, y rhai a'i darluniant fel cymmwynaswr mawr y bobl. Yn y cyntaf, gelwir ef yn un o "Driphost cenedl Ynys Prydain." Yn yr ail, yn un o'r "Tri chynofydd" (*primary inventors*); ac yn y trydydd, yn un o "Dri matteyrn (*beneficent sovereigns*) Ynys Prydain," am mai efe "a wnaeth ddosbarth gyntaf ar gyfreithiau, a breiniau, a defodau cenedl y Cymry, mal y bai iawn a chyfiawn i bawb yn Ynys Prydain, yn nawdd gwlad a chenedl." Mewn triad arall, gelwir ef yn un o "Dri bancewyddon teyrnedd" (*chief system-former of royalty*), o blegid rhagoroldeb trefn ei lywodraeth.—*Myv. Arch.*, ii. 57, 63, 67; *Tri.* 4, 36, 57, 59.

Gwnaeth Hywel Dda ddefnydd mawr o gyfreithiau Dyfnwal, meddai Mr. Williams; ac y mae rhai o'i ddeddfwriaethau, dan yr enw "Trioedd Cyfraith," wedi eu cadw a'u hargraffu yn y drydedd gyfrol o'r *Myvyrian Archaiology*. Dywedir hefyd i'r brenin Alfred gyfieithu y cyfreithiau hyn i'r Anglo-Saxon.—*Roberts' Chronicle of the Kings.*

Mewn ysgrif yn y *Greal*, td. 5, a argraffwyd o "Lyfyr Hafod Uchdryd," dywedir—"Cyn cred 441, Dyfnwal Moelmud fab Clydno, Iarll Cernyw, a fu frenin cadarn canmoledig; a hwnw a fesurodd hyd a lled yr ynys, ei mynyddoedd, a'i hafonydd, a'i fforestydd, a'i phrif aberoedd; ac ef a wnaeth ddinas ar lan afon Sabrina, ac a'i gelwis hi Caer Odor; canys yr afon fechan a sydd yn myned drwy y dref a elwir Odornant y Bădd; a hi a elwir heddyw, o'r ddwy iaith, Brysto."

Dywed golygydd dysgedig y *Cambro Briton*, y tybir fod Dyfnwal Moelmud yn byw 400 mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol; ac mai mab oedd, yn ol y *Brutiau Brutanaidd*, i Clydno, tywysog Brutaniaid Cernyw. Pan ffurfiodd Hywel Dda ei reithlyfr godidog yn y 10fed ganrif, efe a wnaeth ddefnydd helaeth o'r casgliad a briodolir i Dyfnwal. Canfyddir ef yn y *Brut* fel unfed brenin ar hugain Prydain, dros dri chan mlynedd c.c. Nis gellir disgwyl am hanes dra phenderfynol yn awr am oes mor bell. Pa fodd bynag, cydnabyddir yn gyffredin fod y tywysog hwn yn mysg y rhai cyntaf a wnaeth unrhyw welläd mawr mewn deddfwriaeth, ac mai efe a wnaeth ddosbarthiad rheolaidd gyntaf ar y deyrnas yn gantrefi, a chymmydau; o blegid yr hyn y galwyd ef yn un o "dri bancewyddion" Prydain. Yr oedd ei gyfreithiau yn bod yn amser Gildas, yr hwn a'u cyfieithodd hwy i'r Lladin. Gwnaeth Hywel Dda ddefnydd helaeth o honynt wrth gasglu ei gyfreithiau clodfawr; a thybir hefyd iddynt fod o wasanaeth mawr i Alfred Fawr, yr hwn a'u cafodd gan Aser Mynyw.

Yn awr caiff Mr. Morgan, o Dregynon, adrodd ei farn am Dyfnwal:—"Ar ol ysbaid amryw flyneddoedd, y rhai a dreulid mewn ymrysonau rhwng gwahanol ymhonwyr am yr orsedd, cafodd Dyfnwal Moelmud, duc etifeddol Cernyw, a chynnrychiolydd o ochr tad a mam o linell ieuengach y Brutaniaid, ei gydnabod trwy gydsyniad cyffredinol yn brif benadur. Y gorchwyl cyntaf a wnaeth oedd ffurfio cyfreithiau a threfnu defodau gwlad a chenedl, y rhai a ddyryswyd gan y terfysgoedd diweddar.

Heb law bod yn un o sylfaenwyr deddfwriaeth Prydain, cynlluniodd Dyfnwal y prif-ffyrdd Prydeinaidd a milwrol trwy yr ynys; ac o ran, efe a'u gwnaeth. Yr oedd y rhai hyn yn naw o nifer.—1. Sarn Gwyddelion (a lygrwyd i'r enw *Watling street*), neu y Ffordd Wyddelig, yn ddwy gangen, o Dover i Fon ac i Benfro. 2. Sarn Uchaf (Iknield street), y ffordd o Gaerdroiau (enw dychymygol Sieffre o Fynwy ar Gaerludd neu Lundain), trwy y taleithiau dwyreiniol tua'r Gogledd. 3. Y Sarn Uchaf (Iknield street), o enau yr afon Tain (Tyne) hyd Landdewi. 4. Sarn Ermyn, o Anderida (Pevensey) at Gaereiddyn (Edinburgh). 5. Sarn Achmaen, o Gaerdroiau i Fynwy (Llanddewi). 6. Y Sarn Halen, o gloddfeydd halen sir Gaerlleon hyd enau yr afon Hymmyr (Humber). 7. Y Sarn Halen, o'r cloddfeydd halen i Longborth (Portsmouth). 8. Yr ail Sarn Ermyn, o Torbay i Dunbreton ar yr afon Glwyd (Clyde). 9. Y Sarn Arfor, neu y ffordd filwrol sydd yn dilyn glan y môr o amgylch yr ynys. Yr oedd y ffyrdd hyn wedi eu codi yn drumiau ac wedi eu palmantu, ac yn rhedeg weithiau yn union, a phryd arall yn ddolenog, ar godiad graddol uwch law y ddaiar, ac yn ffurfio rhydd dramwyfeydd rhwng dinasoedd Prydain a'u gilydd. Gan mai Beli a'u gorphenodd, adnabyddir hwy yn Mhrydain fel ffyrdd Beli. Dilynodd y Rhufeiniaid y ffyrdd hyn yn eu rhuthrgyrchiadau cyntaf ac ail; ac ar y rhai hyn, i fesur helaeth y gwnaethant hwythau eu ffyrdd ar ol hyny. O ganlyniad, ceir ffyrdd Beli a ffyrdd y Rhufeiniaid yn rhedeg i mewn ac allan o'u gilydd.

Yr oedd teyrnasiad Dyfnwal yn dra llwyddiannus. Dygid masnach yn mlaen mewn alcam, copr, haiarn, a meirch, trwy gyfrwng y Phœniciaid, â Thyrus ac â'r dwyrain i raddau mor helaeth ag na bu ei gyffelyb cyn hyny. Yr oedd gwneuthuriad cleddyfau (a galedid, trwy ryw ddull sydd yn awr wedi colli, i dymmeredd rhagorach na dur), cerfluniau, addurniadau, dorau, a phyrth pres (yr hwn bres a gynnwysai lawer o alcam), yn cael ei ddwyn yn mlaen i'r fath helaethrwydd, fel yr oedd Asia yn llawn o'r nwyddau

Digitized by Google

Eneit, ap Cyrwyt, ap Crydon, ap Dyfnfarth, ap Prydain, ab Aedd Mawr, ab Antonius, ap Seiriol, ab Gorwst, ap Rhiwallon, ap Cunedda, ap Rhegan, ap Llyr. Pa fodd bynag, y mae anhawsder arall yn cyfodi yma, sydd yn rhwystro i ni wellhau ein rhestrau; canys ar ol Eneit, llemir dros yr holl rai sydd yn dilyn nes cyrhaedd Manogan, tad Beli Mawr.

Yr oedd Carnhuanawc, yr hwn a wnaeth ddefnydd addefedig o waith y gohebydd uchod yn y *Cambrian Quarterly*, yn canfod yr un dyryswch ac anhawsder; a boddloni a wnaeth yntau i adael yr hen chwedlau hyn mor anmhenderfynol a phen agored ag y cafodd hwynt.

Fel hyn y safodd pethau hyd 1854, pan y cymmerodd Mr. Thomas Stephens Dyfnwal Moelmud mewn llaw yn y *Cambrian Journal;* ac yn awr, yr ydym am osod cynnyrch ei ymchwiliadau ef ger bron ein darllenwyr.

Y mae genym, meddai Mr. Stephens, dri o hanesion am Dyfnwal Moelmud; un yn Sieffre o Fynwy a'i gopïwyr, un yn nhrioedd Morganwg, ac un yn y *Mabinogion;* ac y mae pob un o'r tri yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Dyma hanes Sieffre yn ngeiriad *Brut. G. ab Arthur* (Sieffre), ond yn ein llythyraeth ni, er mwyn iddo fod yn fwy dealladwy:—

"Ac wedi hyny yn mhen ysbaid y cyfodes moliant a chlod gwas ieuanc clodfawr, ac ys sef oedd hwnw, Dyfnwal Moelmud (Moel Mud—*Tyssilio*), mab Clydno, tywysog (iarll—*Tys.*) Cernyw; ac o bryd, a thegwch, a glewder, rhagflaenu a wnai rhag holl freninoedd Ynys Prydain. Ac wedi marw ei dad, a chaffael o hono yntau y cyfoeth, cyfodi a orug Dyfnwal yn erbyn Pymet (Piner—*Llyfr P. Panton;* Pymer—*Llyfr Ysgol y Cymry;* Ymner—*Dr. Giles*), brenin Lloegr, a dechreu rhyfelu arno, a'i ladd, a goresgyn ei gyfoeth. Ac wedi lladd Pymer (Preier—*Ll. P. Panton*), cytuno a wnaethant yn nghyd â Nydawc (Nydaws—*Tys.*) frenin Cymry (Cymbry—*Tys.*), a Stater (Tewdwr—*Tys.*) frenin y Gogledd (Ysgotland—*Tys.*), ac wedi ymarfoll onaddynt, dechreu lluddaw am ben cyfoeth Dyfnwal, ac anrheithio y gwladoedd a'u llosgi. Ac yn y lle yn ddiannod, Dyfnwal a ddaeth yn eu herbyn â deng mil ar ugain o wŷr arfog gantho, a rhoddi cad ar faes iddynt. Ac wedi treiliaw llawer o'r dydd, ac na welai Dyfnwal y fuddugoliaeth yn damweiniaw iddo, efe a gymmyrth ato ar neilldu chwechannwr (chweugeinwr—*Tys.*) o'r gweision ieuainc glewaf a wyddai, ac erchi i bob un o hyny wisgo arfau eu gelynion, y rhai ryladdesynt, ac yntau ei hun a wisgws (a ddiosgws) ei arfau, ac a wisgws arfau gŵr lladdedig; a dywedyd wrth ei gydymdeithion fal hyn: Canlynwch chwi fyfi, a gwnewch megys y gweloch finnau yn ei wneuthur. Ac yna cerddant rhagddynt, a gwnaethant trwy eu gelynion megys cyd byddynt rai o naddynt oni ddaethant hyd y lle ydd oeddynt Nydawc a Stater, ac yna annog ei gydymdeithion a orug, ac yn mherfedd eu byddin eu lladd ill dau. Ac wedi hyny yn ddiannod y diodasant (ddiosgasant) hwy eu gelynol arfau i am (oddi am) danynt, a chymryd eu harfau eu hunain, rhag ofn eu cyfarsang o'u gwŷr eu hunain; ac yn y lle ymchwelyd ar y gelynion, a'u lladd, a'u (gyru ar) ffo, a chaffael y fuddugoliaeth. Ac yna cerdded a orug dros wladoedd y breninoedd hyny, gan eu goresgyn, a gwasgaru eu muroedd a'r cestyll, a darostwng y bobl wrth ei arglwyddiaeth ei hun, a chymryd ynys Prydain o'r môr bwygilydd yn eiddo ei hun. Ac wedi darfod iddo heddychu a thangnefeddu pob peth, ef a orug coron iddaw o aur a gemau, ac a ddug yr ynys ar ei hen deilyngdod. Ac o ddyna gosod cyfreithiau arni, o'r rhai yr arferant y Saeson eto. Ac o ddyna rhoddi noddfäau a breiniau i'r dinasoedd ac i'r temlau, megys yr ysgrifenws Gildas trwy lawer o amseroedd wedi hyny, megys y gallai y neb a wnelai gam gaffael diogelwch ynddynt. Ac a roddes yr unrhyw fraint hwnw i erydr y byleiniaid, a'r tir diwyllodrion, ac i'r priffyrdd a gyrchynt ddinasoedd; a'r pethau hyny oll yn gymmaint eu braint a'u rhoddfa a'r rhai ydoedd i'r temlau; ac yn nghyda hyny, yn oes Dyfnwal y pylwyd cleddyfau a gryddeil (cribddail) y treiswyr; ac yn ei oes ef, nid oedd neb a lafasai wneuthur cam na thrais ar eu gilydd. Ac wedi cyflenwi dau ugain mlynedd o hono wedi cymryd coron y frenhiniaeth, y bu farw, ac yn Llundain y claddwyd, ger llaw teml tangnefedd, y rhai a wnaethoedd yntau wrth gadarnhau y cyfreithiau rywnathoedd" Yn ol *Llyfr Hafod Uchdryd*—"Ac yn mhen deugain mlynedd gwedi cymryd y goron y bu farw; ac y claddwyd geir llaw *temyl* a wnathoedd ei hun yn anrhydedd i ddwyes (dduwies) a elwid *Cyttundeb.*"

Yn y copïau Cymreig hyn, gwelir yr ysgrifenir *Ymner* y Dr. Giles, yn Pymet, Piner, Pymer, a Preier; a gelwir *Ruduucus* y Dr. Giles yn Nydawc, a Nydaws; mewn un copi (*Tyssilio*), gelwir Stater yn Tewdwr, ac mewn ereill Yscadyr; a Chlydno, cynnrychiolydd Cymreig Cloten, a elwir weithiau yn iarll ac weithiau yn dywysog Cernyw.

Dywedir yn gyffredin fod Dyfnwal yn byw bedwar can mlynedd cyn Crist; ac mewn llawysgrif ddiawdurdod sydd yn y *Greal*, a ddyfynwyd uchod, amserir ef yn fanwl 441 c.c. Yr amseriad a benoda Mr. Owen (y Dr. Pughe) iddo [*Cambr. Biog.*] yw 400 c.c.; a dyma yr amser a ddewiswyd gan ysgrifenwyr ar ei ol: ond *Llyfr Dinas Basing* (*Basingwork*) a amsera ddechreuad ei deyrnasiad 694 mlynedd c.c.; ac ymddengys y tybiodd y Parch. Peter Roberts yr amseriad hwnw yn foddhaol. Wrth chwilio y mynegiadau uchod, nid yw o bwys pa amseriad a gymmerir, gan y rhaid fod y naill a'r llall yn hollol afresymol. Nid oedd sefyllfa yr ynys hon yn llawn mor flodeuog ag y gosodir hi allan yma cyn dyfodiad y Rhufeiniaid; nis gallasai fod temlau gan y Derwyddon, chwaethach un wedi ei gwneuthur yn anrhydedd i'r dduwies Cyttundeb (*Concord*); ac y mae yn ddiammheuol nad oedd dinasoedd a ffyrdd yr hanes yma mewn bod cyn y cyfnod Cristionogol. Ar ystyriaeth fanylach, daw nodwedd Dyfnwal yn fwy adnabyddus; dylifa adgofion difyrus arnom, ac adnabyddwn ef fel hen gydnabod:—dwylaw Esay ydynt, ond llais Iacob; yr enw yw Dyfnwal, ond gweddnodau Alfred. Ynddo ef yr ydym yn cael y cyffelyb undeb o lewder a phrydferthwch personol—yr un ymdrechion boreuol—gorchfygiad y Lloegriaid, sef brenin y Mers—yr ymdrech dilynol â gelynion gogleddol—darostyngiad yr ynys i'w awdurdod—y nodwedd deddfwriaethol—ac yn olaf, ei gladdu mewn eglwys a sylfaenwyd ganddo ef ei hun; ond yn fwy fyth yr ydym yn sylwi ar y tebygolrwydd yn y canlyniad a briodolir i gyfreithiau y naill a'r llall, yn yr oes euraidd a goronodd lafur pob un o'r ddau. Prin y gall y pethau hyn oll fod yn gyd-darawiadau; a chan fod mynegiadau Sieffre yn gwbl ddiamddiffyn gan awdurdodau ereill, y mae yn dra sicr fod yr awdwr, yn y rhan olaf o'i fynegiad, yn dal ei olwg ar fywyd Alfred.

Y mae gwell hawl gan y rhan gyntaf i gael ei hystyried yn hanesyddol; ond trydd hyd yn oed hono allan yn gymhleth o gamsyniadau a chamfynegiadau. Un Clydno sydd adnabyddus i hanesiaeth Gymraeg, a'i le cyntefig ef oedd Edinburgh (*Edin*burgh—sef Clydno Eiddin). Nid oedd ganddo ef fab o'r enw Dyfnwal, hyd yr ydys yn gwybod; ond achlysurwyd y camsyniad, fe allai, gan y traddodiad fod Urien Rheged wedi cael ei

Digitized by Google

mae oes Plennydd, Alawn, a Gwron, mor anmhenderfynol ag oes Dyfnwal ei hun. Y mae Mr. Taliesin Williams wedi gwadu eu hanfod [*Colyn Dolphyn, Nadau*, td. 113]; ac y mae y Dr. Pughe (yn y *Cambr. Biogra.*) wedi rhoddi Plennydd fil o flyneddoedd cyn Crist, tra y mae yn gwneuthur Alawn yr un ag Olen neu Linus y Groegiaid. Ond os yw ein hymresymiad ni yn gywir, fod Dyfnwal yn byw yn y chweched ganrif, fe ganlyn oddi wrth y triad hwn fod y tri bardd hyn, cynllunwyr barddoniaeth, yn perthyn i'r un cyfnod; a daw hyn yn debycach fyth oddi wrth y ffaith adnabyddus fod Gwgon Gwron, yr arwyddfardd, yn fab Piredur ab Eliffer y gosgorddfardd, a gwympodd mewn brwydr B. A. 584, ac o ganlyniad oedd yn byw o angenrheidrwydd yn yr amser a nodwyd. Y mae hyn yn eglurhad ychwanegol o gywirdeb ein dadl; ond nid dyma y cyfan.

Rhaid sylwi fod y *Trioedd* yn priodoli iddo riant gwahanol; yn lle bod yn fab Clydno, y mae efe yma wedi dyfod yn fab Prydain ab Aedd Mawr. Tybiodd y Parch. P. Roberts ei fod ef wedi darganfod pa fodd i gyssoni hyn. Yn Muchedd Gruffydd ap Cynan [*Myv. Arch.* ii. 584], olrheinir ei achau i fyny hyd Adda; ac yn hwnw fel yn achau teulu y Penrhyn, yr ydym yn cyfarfod âg enw Dyfynfarth mab Prydain. Dyfynodd yr achau yn ei *Early History of the Cymry*, cystal ag yn ei argraffiad o'r hyn a elwir *Chronicle of Tyssilio;* ac heb law y rhai hyn, y mae efe yn dyfynu o un o lawysgrifau Wynnstay hefyd. Y mae achau Dyfnwal yn sefyll fel hyn:—

| *G. ab Cynan.* | *Penrhyn.* | *Wynnstay.* |
|---|---|---|
| Antonius. | Antonius. | Antonius. |
| Aedd. | Aedd Mawr. | Aedd the Great |
| Prydain. | Dyfnfarth Prydain. | Prydain. |
| Dyfnfarth. | | Clydno, yr un fe allai a Crydon. |
| Crydon. | Cyrdon. | |
| Cyrwyt. | Cyrwyd. | Dyfynwal. |
| Eneit. | Enyd. | |
| Manogan. | Dodion. | |
| Beli Mawr. | Dyfynwal. | |
| | Beli Mawr. | |

Dywed Mr. Stephens nas gallai efe gyfeirio at *Gronicle* Roberts ar y pryd; ond oddi wrth gyfeiriad a wneir iddo, ebe efe, gan y proffeswr Schulz, gwelaf ei fod ef yn cadarnhau mai Cyrdon oedd fab Prydain, a thad Dyfnwal, ar awdurdod llawysgrif y Penrhyn. Yn awr, nid yw yr achau hyny, fel y maent yn *Early History of the Cymry*, td. 63, yn dywedyd y fath beth; ac y mae genym ammheuaeth mawr fod unrhyw lawysgrif yn Wynnstay yn haeru fod na Clydno na Crydon yn fab Prydain. Y mae yr hyn a brawf yr achau, mewn gwirionedd, yn gwbl i'r gwrthwyneb. Dyfnwal, a chymmeryd yn ganiataol ei fod yr un a Dyfnarth, oedd fab Prydain, a thad Crydon; ac am hyny, nid yw Crydon yn rhoddi i ni unrhyw benderfyniad, er y gallai ei fod wedi achosi yr holl gyfeiliornad yma, gan nad yw yr enwau Crydon, neu Cyrdon, a Clydno, yn annhebyg. Beth bynag am hyny, y mae enwi Crydon fel mab Dyfnwal yn rhoddi i ni ddadl arall dros gyfleu yr olaf yn y chweched ganrif. Yr oedd i Crydon fab a elwid Cyrwyd neu Cywryd; ac enwir Gwen ferch Cywryd ap Crydon gydag Arianrod ferch Don, a Chreirwy ferch Tegid a Cheridwen, fel "tair gwenrian Ynys Prydain" [*Myvyr. Archai.*, ii. 16. 73]. Arwydda natur yr awgrym fod Gwen (Gwenllian Deg, fe allai, a enwir yn *Cilhwch ac Olwen*) yn perthyn i oes Arthur, hyd yn oed pe nas penderfynai yr enwau ereill yn y triad yr amser; ac yr ydys yn gwybod [*Lit. of the Kymry*, td. 466] mai bardd Dunawd ap Pabo oedd Cywryd. Bu farw Dunawd B. A. 595; a rhaid y bucheddai taid Cywryd yn yr un ganrif.

Mab Prydain oedd Dyfnwal; Prydain oedd fab Aedd Mawr; ac Aedd Mawr oedd fab *Antonius* — enw rhyfedd ar hynafiad deddfroddwr Cymreig, oedd yn byw cyn i Rufain braidd gael ei hadeiladu! Y mae yr achau yn cario y welygordd i fyny trwy Seisyllt neu Seiriol i Brutus ac Adda; ond y mae y dyb y gallasai un Antonius fod yn fab i un Seisyllt neu Seiriol yn wrthun: ac wrth chwilio, daw yn gwbl amlwg fod Antonius yn dechreu llinach newydd; canys o hono ef i fyny, seilir yr achau ar Sieffre, a dilynir ei gam-amseriadau. Y mae yr enw Antonius, pa un ai cywir ai peidio fel tad Aedd, yn arwydd diammheuol fod Dyfnwal yn ddyn o darddiad Rhufeinaidd; ac ymddengys yn fuan fod rhyw brawf mai felly yr oedd. Y mae pob sylw a geir am Prydain yn dangos y rhaid ei fod ef yn byw ar ryw adeg bwysig yn hanes y Cymry; a darlunir ef yn wastad fel y person a ddosbarthodd yr ynys, yn enwedig y parth dwyreiniol o honi, ac a'i trefnodd yn amryw daleithiau; ond nid yw Aedd ei dad, er y gelwir ef yn Fawr, o ddim hynodrwydd yn yr hanes Gymreig. Ymddengys ei fod ef mewn cyssylltiad agos â'r ynys, ac eto safai ar wahan, ac nid oedd yn Frutaniad. Fe fu y fath berson; yr oedd yn un hynod yn hanes Ewrop; ac nid anhawdd nodi yr amser yr oedd efe yn byw. Aedd (Aodh, neu Aodha, yn y Wyddelaeg, yw yr un a'n Hu, neu ein Huw ni) yw yr un ag Actius, fel y dengys Ed. Llwyd [*Arch. Brit.* td. 233]; ac y mae yn debyg nad oedd Aedd Mawr y traddodiad Cymreig neb amgen nag Actius, rhaglaw nodedig Gâl, arwr mawr yr ymherodraeth ddwyreiniol. Danfonodd leng yma i gynnorthwyo y Brutaniaid yn B. A. 435; ac fe allai fod ganddo fab o'r enw neu y cyfenw Britannicus, dull Brutanaidd yr hwn a fyddai Prydain; a bod y mab wedi aros yn yr ynys mewn rhyw sefyllfa ddylanwadol. Y mae genym lawer o resymau dros gredu fod amryw o'r Rhufeiniaid wedi aros yma ar ol ymadawiad y llengoedd yn 446; ac y mae Aurelius Ambrosius, ac Owain ab Maxen Wledig, yn esamplau, i ddangos fod personau o rieni Rhufeinaidd wedi aros yn yr ynys, ac wedi cyrhaedd enwogrwydd gwladyddol o bwys. Yr oedd yr amser yn un o ddirfawr annhrefn; ac yr oedd rhyw waith fel yr un a briodolir i Prydain yn llwyr angenrheidiol. Os oedd Prydain yn fab i'r pendefig *Actius*, nis gallasai ei fab Dyfnwal gyrhaedd llawer o ddylanwad neu enwogrwydd cyn dechreu y chweched ganrif. Yr ydym yn dyfod i'r un penderfyniad yma eto; ac y mae y *Trioedd* a'r *Achau* yn cadarnhau y casgliad blaenorol a wnaethom.

Y tystion nesaf a ddygir ger bron yw y *Mabinogion*. Y mae amryw o'r personau a drodd beirdd Morganwg yn ffugiadau yn cael eu henwi yn y *Mabinogion* fel marchogion a chydoeswyr y brenin Arthur; a chanfyddir wrth ymchwilio fod y rhan fwyaf o'r personau a enwir yn y chwedlau hyny yn byw yn y chweched ganrif neu o gylch yr amser hwnw. Ymddengys hyn oddi wrth y mynegiad canlynol. Yn mysg y personau a enwir yn *Mreuddwyd Rhonabwy*, fel gosgordd Arthur, y mae y rhai canlynol:—

Digitized by Google

gael eu galw *Barddiaid;* oddi wrth ba rai y daeth y *beirdd* presennol. At y barddiaid hyn, eb efe, y danfonid i benderfynu pob peth pwysfawr, o bob rhan o'r wlad, oddi ar y Cyfandir, a hyd yn oed o Athen ddysgedig.

Yr oedd y barddiaid hyn, medd yr ysgrifenydd yma, yn ddynion dysgedig, yn brydyddion godidog, ac yn ddadganwyr soniarus, yn ol tystiolaeth Strabo, Posidonius, Ffestus, Diodorus, Hesychius, ac ereill. [Nid ydyw yn dyfynu eu gwaith, nac yn cyfeirio at eu tystiolaethau.] Am hyny, eb efe, y mae genym le i gredu nad oedd ein hynafiaid, neu gyndrigolion yr ynys hon, mor farbaraidd ag y dywed rhai eu bod, hyd yn oed cyn dyfodiad Brutus yma, sef o ddeutu 1101 o flyneddoedd cyn cred, a 947 ar ol Samothes; nac yn ystod y 667 o flyneddoedd, o amser Brutus hyd Dyfnwal Moelmud.

Wedi mynegu achau Dyfnwal, fel mab Clydno, a'r chwedlau ereill am amser a hyd ei deyrnasiad, a'i wrol-gampau ereill, a'n hannog i edrych Propert, Roberts, y *Myv. Archaiol.* yr *Oes Lyfr*, Fabian, Count Palatine, Sammee, Sheringham, a Selden, dan y *Molutian Laws*, am dystiolaethau o blaid yr hyn a haera, heb nodi y llyfrau na'r tudalenau lle y mae y cyfryw dystiolaethau i'w canfod, dywed y methodd Hywel Dda, ar ol myned i Rufain (a chwilio yno), gael cyfreithiau gwell a godidocach nag eiddo Dyfnwal Moelmud; am hyny, meddai, efe a'u cyfaddasodd hwynt i'r ddegfed ganrif, ac a'u hail sefydlodd hwy. Yna gofyna, Pa le y cafodd Alfred gynllun i lunio ei gyfreithiau godidog, y rhai sydd wedi anfarwoli ei enw ef, ond yn y *Trioedd* dan sylw? y rhai a roddwyd iddo gan *Asserius Menevensis,* neu y *Bardd Glas*, yn ol ei enw Cymraeg, yr hwn y danfonodd Alfred am dano i Dŷ Ddewi, tua'r flwyddyn 880. Fe gyfieithwyd y *Trioedd* hyn, eb efe, i'r Lladin, gan y dysgedig Gildas; ac y mae hyny yn profi nad oedd ganddo ef un ammheuaeth o'u hynafiaeth a'u gwirionedd. Y maent yn cael eu cyfrif yn waith Dyfnwal Moelmud er ys oesoedd lawer gan genedl y Cymry yn gyffredinol; am hyny, pa ham nas gallwn ni eu derbyn fel y cyfryw? Maent yn profi ynddynt eu hunain eu bod wedi eu sefydlu cyn cred; canys nid oes un gair o son am y grefydd Gristionogol ynddynt, ond y mae llawer iawn am y grefydd Dderwyddol. Y mae y gweithrediadau, yr arferion, a'r moddion a welir ynddynt, i oesoedd sydd wedi myned heibio, ac i amseroedd na wyddom ni ddim am danynt.

Rhai a ddywedant, medd yr ysgrifenydd yn mhellach, nas gellir cadw y fath bethau cyhyd: ond pa ham? Fe gadwyd ysgrifeniadau yn mhlith y Groegiaid dros fwy o amser [ond nid oedd y Derwyddon yn arfer ysgrifenu eu cyfreithiau a'u defodau], er llawer o wrthryfeloedd, megys ag y bu yma; am hyny, onid allai ein hynafiaid ninnau gadw eu cyfreithiau? Er i'r anghenfil "Scolan fwrw'r twr llyfrau i'r tân," yr hyn sydd chwedl ddisail, medd Mr. Stephens, [*Lit. Kym.*, td. 345], nid allai ddistrywio eu cyfreithiau heb ddistrywio y genedl oll; o herwydd yr oeddynt wedi eu trysori yn eu cof; ac i'r dyben iddynt fod yn haws i'w cofio a'u dysgu, cyfansoddwyd hwy mewn prydyddiaeth; a'r unig brydyddiaeth oedd mewn arferiad y dyddiau hyn oedd englyn milwr, sef englyn o dair llinell, seithsill bob un; a dyna yr achos eu bod yn cael eu galw yn "drioedd." Y mae trioedd Dyfnwal Moelmud yn bresennol dros 200 [2,200?] oed; eto y maent yn werth i ddysgedigion y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'w chwilio. Pa beth y sonia Sais am dano yn gynt na chyfreithiau ei wlad, profi trwy reithwyr, &c.? Ond pa le y cawsant y cyfryw? Oddi wrth Alfred. Pa le y cafodd Alfred hwy? Gan Hywel Dda. Nag e; canys fe fu Alfred farw chwe blynedd cyn i Hywel ddyfod i'w etifeddiaeth; ond hwy ill dau a'u cawsant o'r un gwreiddyn, sef y *Trioedd* dan sylw. "Yn awr," medd yr ysgrifenydd, "gan fod genym gymmaint o dystion cartrefol a thramor, fod gan ein cyndadau gyfreithau doeth er yn fore—fod trioedd Dyfnwal Moelmud wedi eu sefydlu dros bedwar can mlynedd cyn cred, &c., pa ham y byddwn anghredinwyr mwy? Na: y mae genym seiliau cedyrn, am hyny gallwn gredu yn ddibetrus."—*Y Cymro, neu Drysorfa Celfyddyd a Gwybodaeth:* Llundain, 1830; td. 43.

Er y gall syniadau yr ysgrifenydd hygoel a hyderus hwn ymddangos yn dra chwithig i'r hanesydd pwyllog a'r ymofynydd diragfarn am y gwirionedd, eto fe ddengys y dyfyniadau canlynol o waith Mr. Morgan, Tregynon, fod yr ysgrifenydd blaenorol yn gysgodlun (*type*) digon cywir o'r dosbarth hwn o haneswyr, hyd yn oed yn y dyddiau hyn.

Gweithred gyntaf Dyfnwal Moelmud, meddai Mr. Morgan, "oedd trefnu cyfreithiau a defodau gwlad a chywlad, y rhai a ddyrysasid trwy y terfysgoedd diweddar. Y mae y cyfreithiau a ddosbarthwyd fel hyn yn nodedig o ran eu heg lurder, eu byrdra, eu huniondeb, a'u dyngarwch Y maent wedi ein cyrhaedd ni yn y ffurf Dderwyddol o drioedd. Rhoddwn yma rai esamplau:—

'Tair sail gwladoldeb: braint, meddiant, a chyvraith.

Tair sail cyvraith: amddifyn, cosp, ac anrhydedd, parth ag at â wneler er lles gwlad a chenedyl.

Tri nawdd ac amddifyn gwladoldeb: nawdd bywyd a chorf, nawdd meddiant ac addev, a nawdd braint gynhenid.

Tri pheth â gadarnânt wladoldeb: nawdd gadarn i bob dŷn a'i eiddo; cosp gyviawn lle a'i dylit, a thrugaredd o gyviawnder, lle a'i gweler yn ofyniadawl gan achaws gyviawn.

Tri pheth â ddyvethant wladoldeb: creulonder yn lle cosp; trugaredd, o gariad a pharch, yn gwyraw cyviawnder; a thwyll-gymmrawd, lle nas caffer nawdd gynneddvawl i bob dŷn, a'i brodor a'i allt y bo.

Tair colovn gwladolded: teyrnedd, rhaith gwlâd, ac yngneidiaeth.

Tri devnydd cyvraith: gwybodaeth, iawn cynhenid, a chydwybod.

Tri chadernyd cyvraith: ynad dysgedig, tyst cywir, a rhaith gydwybodawl.

Tri chyswynbwyll y sydd dros gwared llŷs ac ynad ar gosp gadarn: mam yn gwared ei phlant, mâb cyn barv, ac estron anghyviaith â wnel yn erbyn cyvraith a brodoriaeth.

Tri chyfredinion gwlâd a chenedyl: mesgoed, helwriaeth, a chiawdd haiarn; ac nis dylit perchenogaeth wahanredawl ar nac un nac arall o henynt.'

Y mae y cyfreithiau hyn, yn nghyd â chyfreithiau cyntefig ereill Ynys Prydain, nid yn unig yn tra rhagori mewn teimlad neu synwyr dynol ac egwyddor uchel ar gyfreithiau Groeg a Rhufain gynt, ond yn dwyn cywilydd ar ddeddfau cenedloedd a alwant eu hunain y dyddiau hyn yn Gristionogion. Y maent yn cynnwys hanfod cyfraith, crefydd, a gwroniaeth. Nis gallasai un genedl a lywodraethai ei hun yn ol tuedd y cyfreithiau hyn lai na bod yn fawreddog, gwaraidd, a rhydd. Un o'r pethau mwyaf arbenig sydd yn eu gwneuthur yn dra theilwng o dderbyniad yw, eu bod mor eglur fel y maent yn ddealladwy i ddynion o bob graddau."

Digitized by Google

yn gamsyniol yn ei bleidgarwch; ac nis gallaf oddef i awdurdod ei enw ef, medd Mr. Stephens, fy attal i nodi ei wir ansawdd. Y mae ynddo dri gwall na ddylent fod mewn croniel da:—mae yn groes yn gyffredin i groniclau ereill hynach a gwell; y mae yn llawn o gamamseriadau; ac y mae ei wahanol ranau yn groes i'w gilydd. Y mae wedi ei ysgrifenu yn orgraff gyffredin yr amseroedd diweddar; a'r lle pellaf y gellir eu holrhain ydyw, i lyfr sydd yn perthyn i deulu gwladgarol Aberpergwm, o'r hwn y copïwyd ef yn 1764. Rhaid cyfrif y fath gyfansoddiad o awdurdod eilraddol; ac y mae y rhai sydd yn tybied mai hwn ydyw gwir Frut Caradog Llancarfan yn dangos mwy na chyffredin o ddiffyg craffder beirniadol. Nis gallwn dderbyn y mynegiad hwn ar y fath awdurdod. Pe buasai wir, canfyddasid rhyw sylw o'r ffaith mewn rhai o'r rhaglithiau i gyfreithiau Hywel; ond y mae y cyfreithiau hyn, yr awdurdodau goreu, yn ddystaw ar y pwnc, ac o ganlyniad, y mae yr haeriad yn gwbl ddiamddiffyn. Ceir pelydryn arall o oleuni mewn un o'r cyfreithiau Cymreig afreolaidd diweddar, lle y dywedir fod Dyfnwal wedi sefydlu y prawf trwy ddwfr, tân, ac ymornest personol; a bod Hywel wedi dileu hyn, ac wedi rhoddi y prawf trwy "farn gwyr" yn ei le.—[*Owen's Laws of Wales*, ii. 623]. Haeriad pen agored yn unig ydyw hwn hefyd; ac nis gellir ei olrhain yn foddhaol i gyfreithiau Dyfnwal, canys yr oedd profion trwy dân a dwfr yn adnabyddus i oesau tra phell yn ol. Yr oeddynt yn adnabyddus yn India a Siam, yn Bithynia a Sardinia; yr oeddynt yn adnabyddus i'r Hebreaid ac i'r Groegiaid; ac yr oeddynt mewn bri mawr gan yr Anglo-Saxoniaid. Ac ni ddarfuant hyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Arferid y prawf trwy dân yn Nghymru o gylch 1170, pan y rhoddwyd Llywarch ap Llywelyn, Prydydd y Moch, ar ei brawf am lofruddio Madog ab Owain Gwynedd, yr hwn y dywedir iddo ddarganfod America; a chan i Hywel sefydlu ei gyfreithiau o gylch B.A. 914, nid yw yr haeriad uchod yn teilyngu dim cred. Priodolir y prawf trwy ddwfr poeth hefyd i Maelgwn Gwynedd.—*Camb.-Brit. Saints, Buchedd Padarn.*

Ysgrifenwyd y nodiadau blaenorol ar y dyb fod cyfreithiau Dyfnwal wedi colli yn anadferadwy, a dichon mai hyny sydd wir; ond gwrthwynebir y syniad yma yn bendant gan ysgrifenwyr diweddar; gan hyny, rhaid dywedyd gair ar eu mynegiadau. Haerir yn gyffredin fod cyfreithiau Dyfnwal mewn bod yn awr, ac nad ydynt yn cyfeirio dim at Gristionogaeth ac amserau Cristionogol, ond eu bod yn gwbl gydweddol â sefyllfa cymdeithas mewn amseroedd llawer boreuach na'r cyfnod Cristionogol. Y Parch. P. Roberts a Mr. W. Probert yw awdwyr y syniad yma, yr hyn a ail adroddir yn hyderus gan amryw hyd y dydd hwn. Cyn sylwi ar yr haeriad yma, dywedwn air ar natur y cyfreithiau hyn eu hunain.

Cynnwysir hwy mewn cyfres o drioedd Cymreig, a gyhoeddwyd yn y *Myvyrian Archaiology*, y rhai a gyfieithwyd wedi hyny gan y boneddigion a enwyd, ac yn lled ddiweddar gan Mr. Aneurin Owen, yn ei argraffiad o'r cyfreithiau Cymreig. Cyhoeddwyd hwy yn y *Myvyrian*, o adysgrif a wnaeth Iolo Morganwg o lawysgrif a wnaed yn 1685, gan Thomas ab Ifan, o Dre Bryn, yn Morganwg, "o hen lyfrau Syr Edward Mansel, o Fargam." Credir fod Iolo wedi copïo yn ffyddlawn; ond ni wyddys pa un a wnaeth T. ab Ifan ai copïo un llawysgrif ai gwneyd casgliad o amryw. Y mae cyfreithiau Dyfnwal, fel y maent genym ni, yn dwyn dau enw cyferbyniol, sef "Trioedd Cyfraith" a "Thrioedd Doethineb:" ac y mae yn hawdd gweled o ddechreu y drydedd gyfrol o'r *Myvyrian*, mai y doethion hyn oedd beirdd Morganwg, o'r unfed ganrif ar bymtheg, awdwyr agos yr holl "Drioedd Doethineb" sydd yn y gyfrol hono. Chwanegir at y rhai hyn drioedd sydd yn llawn o syniadau gweriniaethol nodedig a ffynent tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a dechreu yr ail ganrif ar bymtheg, a achosasant y weriniaeth Seisonig. Mewn un man [*tri.* 224] cawn yr haeriad pendant yma:—"Sev a'i dywawd cyvraith Dyvnwal Moelmud; a goreu deddvwr o genedyl y Cymry ydoedd ev." Ac mewn lle arall [*tri.* 219], ceir yr esboniad yma ar y "tri chrair twng:"—"Gwedi hyny doded y dengair deddv, ac evengyl Ieuan, a'r groes fendigaid."

Dynodir y trioedd hyn yn y *Myvyrian Archaiology* fel y canlyn:—

1. "Llyma Driodd Dyvnwal Moelmud, â elwir Triodd y Cludau, â Thriodd y Cargludau."—Cyf. iii. 283.
2. "Llyma ereill o Driodd Dyfnwal Moelmud, â elwir *Triodd Gwladoldeb a Chywladoldeb:* sev ydynt hen driodd breiniau a devodau cenedyl y Cymry, cyn colli eu braint a'u coron, o drais a thwyll a brad y Saeson."—Cyf. iii. 285.

Y mae y cyfeiriad at y Seison, a cholli braint a choron y Cymry, yn profi fod y teitl yma yn ddiau yn ddiweddarach na theyrnasiad Athelstan, ac fe allai yn ddiweddarach hefyd na'r bedwaredd flwyddyn ar ddeg ar ugain a'r bymthegfed ar ugain o deyrnasiad Harri VIII; canys hyd yr amser hyny yr oedd Ystatud Rhuddlan yn cadw cyfreithiau a breiniau y Cymry iddynt ar wahan oddi wrth rai y Seison: ac os sylwir ar y teitlau uchod, canfyddir fod y rhai hyn hefyd yn cynnwys dau gyfansoddiad, sef y gwreiddiol, a nodwyd â llythyrenau Italaidd, ac un golygyddol, o chwanegiad diweddarach, sydd mewn llythyrenau cyffredin. Ar ddiwedd y gyfres gyntaf o'r trioedd hyn, ceir y nodiad golygyddol a ganlyn:—

"A Thriodd y Cargludau a'u gelwir; a Dyvnwal Moelmud, *brenin y Cymry*, a'u cadarnâes er dangaws â vai iawn a chyvraith mewn gwlâd a chenedyl; a goreu deddvwr â fu erioed oedd Dyvnwal Moelmud; a goreu am vraint a nawdd i vrodor ac *alltt*, rhag bod neb â wnelai yn ngham ac yn anghyvraith. A gwedy hyny Hywel Dda brenin Cymru oll a'u cadarnâes yn gadwedig yn erbyn a'u gwrthreithiai ac a'u gwrthvreiniai."—cyf. iii. 285.

Ac ar ddiwedd yr ail gyfres y mae nodyn arall cyffelyb:—

"Ac velly hyn tervyna Triodd Dyvnwal Moelmud, â elwir Triodd Gwladoldeb a Chywladoldeb: a phob prydydd ac *achwr* â vynai wybod breiniau a devodau gwlâd a chenedyl y Cymry benbaladyr; a braint bonedd, a'i rhyw o gyviawnder; a *braint arvau* parth bonedd a rhandirodd a braint ac anmraint ar eillion; â ddylai wybod y triodd hyn, cyn y bo iawn iddo radd warantedig yn ngorsedd wrth gerdd davawd wrth vraint a devawd beirdd yr hen Gymry."—Cyf. iii. 318.

Dyma y ffeithiau sydd yn gwneuthur yr hyn a ellir ei alw yn brawf allanol o blaid y dyb fod y trioedd hyn mewn gwirionedd yn gyfreithiau Dyfnwal Moelmud; ond y mae y fath brawf yn anmhenderfynol, os nad yn gwbl annheilwng o ymddiried; canys rhaid yw fod ei nodweddion ymwthgar yn amlwg ar unwaith. Gwaith rhyw

Digitized by Google

**DYFFRYN AFEN**: *Amos* i. 5. Gwastadedd yn Syria, a elwir hefyd Glyn Libanus, o blegid ei fod yn gorwedd rhwng dau o fynyddoedd Libanus: *Ios.* xi. 17. Tybir mai Afen ydyw y lle, yn yr hwn y saif Baal-bek yn bresennol, tua deng milltir ar ugain i'r gogledd o Damascus.

**DYFFRYN AIALON.** Gwel AIALON.

**DYFFRYN BACA.** Gwel BACA.

**DYFFRYN ELAH**: y man yn yr hwn y gwersyllai yr Israeliaid pan y lladdwyd Goliath gan Dafydd: 1 *Sam.* xvii. 2, 19; xxi. 9. Y mae yn debygol i'r dyffryn dderbyn ei enw oddi wrth y coed twrpant (*terebinth*) a dyfent ynddo. Dywed traddodiadau eglwysig mai yr un lle ydyw a dyffryn Beit Hanina, tuag wyth milltir i'r gogledd-orllewin o Ierusalem. Yn y dyffryn hwn, olewydd a choed carob sydd yn ffynu; ac nid coed twrpant, y rhai sydd yn dra anaml; ond fe ddangosir yr afon eto i deithwyr, oddi ar lan yr hon y dewisodd Dafydd ieuanc y " ceryg llyfnion," â pha rai y lladdodd efe y Philistiad. Bydd yr afon yn sych yn yr haf; ond gorlifa dros yr holl ddyffryn yn y gauaf. Y mae Dr. Robinson, pa fodd bynag, yn gwrthod yr hen draddodiad hwn, ac yn dyweyd mai yr un lle ydyw dyffryn Elai a Wady-es-Sumt (Dyffryn draenen yr Aipht), yr hwn sydd ar y ffordd o Ierusalem i Gaza, a thuag un filltir ar ddeg o'r ddinas flaenaf. Ymddengys nad oes un lle i ammheu nad hwn ydyw gwir ddyffryn Elah; ac er ei fod yn cael ei enwi yn bresenol oddi wrth fath arall o bren, fel y crybwyllwyd, eto ymddengys fod cyflawnder o goed twrpant yn y gymmydogaeth.

**DYFFRYN ESCOL**; dyffryn yn nghymmydogaeth Hebron, lle y cafodd yr yspiwyr a anfonwyd gan Moses o Cades-Barnea swp o rawnwin teg, yr hwn a ddygwyd yn ol ganddynt "ar drosol rhwng dau," fel anghraifft o ffrwythau Gwlad yr addewid: *Num.* xiii. 23, 24. Y mae yn ddiau fod y swp yn un mawr; ond nid ydyw y dull yn mha un y cludwyd ef, fel y deallir ef yn gyffredin, yn awgrymu bod y swp yn gymmaint o bwysau ag a allai dau ddun ei gario; o blegid fe all mai rhag niweidio y grawnwin y dewiswyd y dull hwn o'u cludo. Y mae yn debygol mai oddi wrth Escol, yr Amoriad, y derbyniodd y dyffryn yr enw hwn: *Gen.* xiv. 13, 24. Yn *Onomasticon* Eusebius, dodir y dyffryn, ond gydag ychydig o betrusdod, yn Gophna, tua phymtheg milltir i'r gogledd o Ierusalem, ar y ffordd i Neapolis. Dodir ef gan Jerome i'r gogledd o Hebron, ar y ffordd i Bethsur. Sieryd y teithiwr Iuddewig, Ha-Parchi, am dano fel i'r gogledd o'r mynydd ar ba un y safai hen ddinas Hebron; a chanfyddwyd yn ddiweddar fod yr enw yn aros ar ffynnon o ddwfr rhagorol, yr hon a elwir Ain Eshkali, ag sydd mewn glyn sydd yn myned ar draws dyffryn Hebron, a thua dwy filltir i'r gogledd o'r dref.

**DYFFRYN HEBRON**: dyffryn yn nghymmydogaeth dyffryn Escol, lle y bu Abraham (*Gen.* xiii. 18) a Iacob yn preswylio: *Gen.* xxxvii. 14. Yma hefyd yr oedd beddrod teulu Abraham: *Gen.* xxiii. 2, 3, 19; xxv. 10; xlix. 29—33; l. 12, 13. Gwel HEBRON.

**DYFFRYN IEHOSAPHAT.** Glyn dwfn a chul, yn rhedeg o'r gogledd i'r deheu, rhwng Mynydd yr Olewydd a Mynydd Moriah, ydyw dyffryn Iehosaphat. Y mae afon Cedron yn rhedeg trwy ei ganol, yr hon fydd yn sych y rhan fwyaf o'r flwyddyn; ond ar dymmorau gwlawog, bydd yn rhedeg yn ffrwd goch. Dywed y prophwyd Ioel, "Casglaf hefyd yr holl genedloedd, a dygaf hwynt i waered i ddyffryn Iehosaphat; a dadleuaf â hwynt yno dros fy mhobl. Deffroed y cenedloedd, a deuant i fyny i ddyffryn Iehosaphat: o herwydd yno yr eisteddaf i farnu yr holl genedloedd o amgylch;" *Ioel* iii. 2, 12. Y mae rhai yn dal nad oedd yr Hebreaid wedi enwi un lle neillduol yn ddyffryn Iehosaphat; ond mai golygu yr oedd Ioel y lle yn gyffredinol yn yr hwn y barnai Duw y cenedloedd, ac yr ymddangosai yn y dydd diweddaf yn nysgleirdeb ei ogoniant. Ystyr y gair *Iehosaphat*, yn Hebraeg, ydyw "barnedigaeth Duw." Y mae yn dra thebyg mai yn arwyddluniol y defnyddir yr ymadrodd, "dyffryn Iehosophat"—hyny yw, dyffryn barnedigaeth Duw—yn y bennod hon, yn gystal a'r ymadrodd, "glyn terfyniad;" hyny ydyw, glyn y celanedd. Oddi wrth yr adnodau hyn, pa fodd bynag, y mae yr Iuddewon a'r Mahometiaid, ac yn wir, lluaws o Gristionogion, yn credu mai yn nyffryn Iehosaphat y cymmer y farn ddiweddaf le. Y mae y Mahometiaid hyd yn oed yn dangos y maen ar ba un y bydd Mahomet yn eistedd i farnu holl genedloedd y ddaiar.

**DYFFRYN HINNOM**: gelwir y dyffryn hwn wrth amryw enwau yn y Beibl; megys dyffryn meibion Hinnom (*Ios.* xv. 8); dyffryn mab Hinnom (*Ier.* xix. 2, 6); dyffryn Ben-hinnom (hyny yw, mab Hinnom: 2 *Cron.* xxviii. 3); a dyffryn Hinnom (*Ios.* xviii. 16). Glyn dwfn a chul oedd y dyffryn hwn, i'r deheu a'r gorllewin o Ierusalem, gan wahanu Mynydd Sïon i'r gogledd oddi wrth "Fynydd y Demtasiwn." Yn *Ios.* xv. 8, a xviii. 16, y ceir y crybwylliad cyntaf am ddyffryn Hinnom, lle y dysgrifir y terfyn rhwng llwyth Iudah a llwyth Beniamin fel yn rhedeg ar hyd gwaelod y dyffryn. Adeiladodd Solomon, ar fryn sydd yn rhu deheu y dyffryn, ar gyfer Ierusalem, uchelfeydd i Moloch, "ffieidd-dra meibion Ammon" (*Barn.* xi. 7), defodau arswydlawn yr hwn dduw a adnewyddid o bryd i bryd yn yr un gymmydogaeth gan y breninoedd eilunaddolgar a fuont yn teyrnasu ar ei ol ef. Tynodd Ahaz a Manasseh eu meibion "trwy y tân" yn y dyffryn hwn (2 *Bren.* xvi. 3; 2 *Cron.* xxviii. 3; xxxiii. 6), ac ymddengys fod y ddefod greulawn o aberthu plant wedi bod mewn arferiad yn Tophet, yn nghwr de-ddwyreiniol y dyffryn hwn dros amser maith: *Ier.* vii. 31; 2 *Bren.* xxiii. 10. Gwel TOPHET. Er rhoddi pen ar y ffieidd-dra, halogwyd y lle gan Iosiah, yr hwn a wnaeth y lle yn seremoniol aflan trwy daenu esgyrn dynion, a phethau gwaharddedig ereill, ar hyd-ddo (2 *Bren.* xxiii. 10, 13, 14; 2 *Cron.* xxxiv. 4, 5); ac o'r pryd hyn allan, ymddengys mai i'r dyffryn hwn y trosglwyddid holl aflendid y ddinas, pa un a gludid ymaith gan ddyfroedd afon Cedron. Dywed Buxtorf, Lightfoot, a'r rhan fwyaf o esbonwyr, y cedwid tânau parhaus ynddo er difa cyrff drwgweithredwyr, anifeiliaid wedi meirw, a phob peth llosgadwy; ond nid ydyw yr awdurdodau Rabbinaidd a ddygir yn mlaen yn gyffredin er cadarnhau y syniad hwn yn hollol foddhaol; a dywed Robinson (i. 274) "nad oes un prawf y cedwid dim tânau yn y dyffryn hwn ond tânau Moloch." Oddi wrth ei aflendid seremoniol, ac oddi wrth dân ffiaidd ac adgas Moloch—os nad oddi wrth y tânau parhaus tybiedig i losgi drwg-

Digitized by Google

**DYLANWAD DWYFOL**: gair a ddefnyddir i ddynodi gweithrediadau y Bod Dwyfol ar y meddwl. Er maint o ddadleu sydd wedi bod yn nghylch y pwnc yma, tybir nad oes un athrawiaeth yn fwy rhesymol. Nid yw y gweithrediadau a ddygir yn mlaen trwy allu Duw yn y byd naturiol yn ddim mwy cyfriniol na'r hyn a wna yr Ysbryd yn y byd moesol. Os gall dynion ddylanwadu ar feddyliau eu gilydd trwy eu cynghorion a'u hawgrymiadau, oni raid y caiff awgrymiadau dwyfol lawer mwy o effaith? Yn sicr, y mae gan Dad yr ysbrydoedd fil o ffyrdd i nesau at yr ysbrydoedd a wnaethpwyd ganddo ef, fel ag i gyfranu y penderfyniad a'r cynnorthwy iddynt a farno efe yn briodol, heb niweidio nac anmharu eu galluoedd meddyliol.

Bernir hefyd fod y syniad yma yn hollol Ysgrythyrol. Yr oedd dynion enwog, o amser y patriarchiaid hyd Ioan yr Efengylwr, yr ysgrifenydd dwyfol diweddaf, yn credu yr athrawiaeth hon, ac yn priodoli eu teimladau crefyddol i'r ffynnonell yma. Y mae ein Harglwydd yn dirgymhell y gwirionedd yma yn ddwys ac yn fynych; ac mae yn ddigon amlwg mai dylanwad moesol yr Ysbryd a olygai efe, ac nid gwyrthiau: *Ioan* iii. 3; *Mat.* vii. 22, 23; *Ioan* vii. 44, 46. Hefyd, *Ioan* xii. 32, 40; *Rhuf.* viii. 9; 1 *Cor.* ii. 14. Gellir dywedyd nad oes dim mwy angenrheidiol, os ystyrir llygredd naturiol y galon, ac annigonolrwydd pob moddion dynol i'n gwneuthur nac yn sanctaidd nac yn ddedwydd, na'r dylanwad goruwchnaturiol hwn. Gwel YSBRYD GLAN.

DYLED — WYR, [*dyl*]: rhwymedigaeth y rhaid i'r blaid ymrwymedig ei chyflawnu. Gall dyledion o'r fath fod yn neillduol neu gyffredinol. Dyled neillduol sydd pan y cytuno plaid i wneuthur unrhyw beth am wasanaeth a dderbyniwyd: dyledion cyffredinol yw y rhai y byddo sefyllfa berthynasol dyn yn ei rwymo atynt. "Pwy bynag a dwng i aur y deml [trwy y rhodd ar yr allor], y mae efe mewn dyled" (*Mat.* xxiii. 16); y mae efe yn rhwym trwy ei lw; y mae dan angenrhaid i gyflawnu ei adduned. "Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd" (*Rhuf.* i. 14): hyny yw, medd Doddridge, "y mae dyledswydd a diolchgarwch yn fy rhwymo i wneuthur fy ngoreu er troi ac achub dynion o bob cenedl a gradd, o bob anian a chymmeriad." Y mae dyn yn ddyledwr i gyfiawnder gwladol ac i gyfiawnder dwyfol: y mae yn rhwym i ufuddhau, ac os gwrthyd wneuthur hyny, bydd yn rhwym o ddyoddef y gosp gyssylltiedig â'r trosedd.

Yr oedd cyfraith Moses yn dyner mewn cymhariaeth, ac yn wir gymmedrol. Yr ydoedd cyfraith dyledwr a gofynwr yn mysg y Rhufeiniaid yn dra llymdost ar y blaenaf, canys gellid ei roddi ef i farwolaeth; ac yr oedd gormesiadau creulawn y gofynwyr yn arwain, yn dra mynych, i derfysgoedd peryglus yn y wladwriaeth. Mae yn wir fod y gyfraith Iuddewig yn awdurdodi cymmeryd y dyledwr i gaethwasanaeth; ond yr oedd y cyfryw gaethiwed yn cael ei gymmedroli yn bur ddoeth. "A phan dlodo dy frawd gyda thi, a'i werthu ef i ti; na wna iddo wasanaethu yn gaethwas. Bydded gyda thi fel gweinidog cyflog, fel ymdeithydd; hyd flwyddyn yr iwbili y caiff wasanaethu gyda thi. Yna aed oddi wrthyt ti, efe a'i blant gydag ef, a dychweled at ei dylwyth, ac aed drachefn i etifeddiaeth ei dadau;" *Lef.* xxv. 39—41. Gwaith y dyledwr yn rhoddi ei lafur am amser terfynol yn unig, oedd y math yma o gaethiwed, er mwyn dileu ei ddyled. Ac yr oedd y gyfraith mor lem, fel nas gallai Hebread fyned i ddyled ond trwy y gwastraff a'r afradlonedd mwyaf diofal. Am hyny, nis gellid ymaflyd yn mherson y dyledwr tuag at dalu ei ddyledion, ond pan fyddai ei eiddo yn annigonol i ateb y gofynion yn ei erbyn. Yr oedd ei dir i fyned i law y gofynwr hyd flwyddyn yr iwbili. Ni byddai y cyfryw dir byth yn myned i feddiant y gofynwr, ond cael ei ddal yn unig y byddai nes y byddai y swm dyledus iddo wedi ei dalu; a chan y gwyddai y gofynwr y byddai i'r tir ddychwelyd ar amser penodol i'w feddiannydd cyntefig, ei wall ef fyddai rhoi benthyg mwy arno nag a dalai yn rhwydd cyn blwyddyn yr iwbili. Nid oedd carchariad yn cael ei gydnabod gan Moses fel cosp am ddyled; ac y mae y fath gosp wedi bod yn ddianrhydedd i Loegr am hir amser. Pan ddychwelodd yr Iuddewon o Babilon, rhedodd amryw o honynt i ddyled; ac ymddengys y gorthrymid hwy yn dost gan eu gofynwyr: *Neh.* v. 3—5. Ymresymodd Nehemiah â'r gofynwyr; a pharodd iddynt beidio codi y fath ddyled, o blegid sefyllfa nodedig ac amgylchiadau dyrys y wlad. Pe buasai cyfraith Moses yn cael ei chyflawnu yn deg a darbodus, ni chlywsid dim son am gaethiwed y dyledwr na gorthrwm y gofynwr. Yr oedd gan yr holl bobl ddigon o dir yn eu meddiant i'w diogelu rhag tlodi, tra yr ydoedd hefyd yn ddarbodaeth ragorol rhag gorbentyru cyfoeth.

DYLED Y WLAD.

Os ystyrir meddiannau deiliaid Prydain, hi ydyw y wlad gyfoethocaf yn Ewrop. Ar y llaw arall, y mae swm ei dyled gyhoeddus gymmaint mwy na swm dyled unrhyw lywodraeth arall fel yr ymddengys yn arwyddo, wrth ei hystyried ar wahân oddi wrth gyfoeth y deiliaid, mai Prydain yw y dlotaf o'r teyrnasoedd. Ond dyled yr holl bobl—dyled y genedl—ydyw dyled y wlad, er mwyn budd gwirioneddol neu dybiedig y rhai yr aed iddi. Y mae yn cydweddu â'r cyfleusdra cyffredinol, yn cynnwys y gofynwr cyhoeddus, fod i'r genedl yn ei chyfanswm barhau fel hyn i ddangos arwyddion o dlodi mewn cyferbyniad i'r profion o gyfoeth dirfawr: ond pe byddai yn wahanol—pe gofynai cyfleusdra cyhoeddus, ac yn enwedig diogelwch cyhoeddus, i lwybr gwahanol gael ei gymmeryd, gallai yr un awdurdod ag a oddefodd fyned i ddyled orfodi pob person yn y wlad i gyfranu hefyd, yn ol ei allu a'i foddion, at ei dileu. Byddai yn anhawdd dychymygu am amgylchiadau a allent wneyd y fath lwybr yn gyfleus; a dygwyd y syniad hwn yn mlaen yn unig er mwyn egluro natur y ddyled wladol mewn dull syml, a pha fodd y mae pob un o ddeiliaid y llywodraeth yn bersonol dan rwymau i ddwyn y baich, ac i gyfranu, pe byddai angenrheidrwydd, at dalu y ddyled wladol. Dylai fod gan bob dyn syniad cywir ar hyn, gan ei fod yn dylanwadu ar bob amgylchiad a effeithia ar ei sefyllfa a'i gynnydd cymdeithasol. Eto, nid peth anghyffredin mewn un modd ydyw canfod personau yn tybied mai swm o arian—trysor wedi ei ddodi heibio, arwydd o gyfoeth cenedlaethol—yw dyled y wlad: ar fyr, meddyliant ei fod braidd yn bob peth ond y peth yw mewn gwirionedd; sef, diffyg cyfoeth cenedlaethol. Swm o arian ydyw, ar yr hwn y telir llôg blynyddol; ac y mae y benthycwyr yn meddu hawl ar eiddo y deyrnas yn sicrwydd am y benthyg. Dywed rhai, gan fod y ddyled hon, neu y rhan fwyaf o lawer o honi, yn ddyledus i ddeiliaid Prydain, nas gall effeithio

Digitized by Google

ei bod yn ddeunaw modfedd; ac y mae ei chynffon yn mesur dros chwe modfedd. Gelwir hon weithiau yn *hebog-ddylluan*. Y *Surnia nyctea*, yr hon sydd yn bedair neu bum modfedd ar ugain o hyd. Mae y fenyw o'r adar hyn yn llawer mwy na'r gwryw. Y mae y rhai canlynol hefyd yn rhywogaethau Ewropaidd:—*Bubo maximus, Bubo Ascalaphus, Otus vulgaris, Otus brachyotus, Scops Aldrovandi, Surnia Cinerea, Ulula nebulosa, Syrnium Aluco, Noctua nudipes, Noctua Tengmalmi*, a'r *Noctua Passerina*.

*Dylluanod Asia.*—Y *Strix badia:* hyd y rhywogaeth hon, o'r cylfin hyd flaen y gynffon, ydyw tuag un modfedd ar ddeg; hyd yr ewinedd, deuddeng modfedd. *Wowo-wiwi* neu *Kalong-wiwi* y gelwir y ddylluan hon gan drigolion Java. Dywed y Dr. Horsfield fod wyth rhywogaeth o ddylluanod Java wedi eu trefnu yn amgueddfa India House; tair o ddylluanod clustiog, a phump â phenau llyfnion.

*Dylluanod Affrica.*—Y *Strix Capensis*, yr hon sydd yn un modfedd ar bymtheg o hyd, ac yn orchuddiedig â phlu sidanog. Y *Strix flammea*, sef y ddylluan wen gyffredin, yr hon a welir yn aml yn Affrica Ddeheuol. *Athene Capensis*, yr hon a ddysgrifir gan y Dr. Smith dan yr enw *Noctua Capensis*. Hyd y ddylluan hon ydyw tua naw modfedd a hanner. Dysgrifia yr un awdwr ddylluan glustiog hefyd, *Otus Capensis*, yr hon a fesur bymtheng modfedd o flaen ei chylfin hyd flaen ei chynffon.

*Dylluanod America.*—Heb law amryw o'r rhywogaethau sydd wedi eu nodi eisoes, y mae yn America hefyd ddylluan fechan tra hoff o durio a thyllu (*Noctua cunicularia*).

*Dylluanod Awstralia.*—Dysgrifia Mr. Vigors a Dr. Horsfield dair rhywogaeth o ddylluanod fel yn perthyn i'r parth hwn o'r byd, sef y *Noctua Boobook*, enw brodorol yr hon ydyw *Buck-buck;* y *Noctua maculata*, a'r *Strix flammea*, sef rhywogaeth wahanol o'r ddylluan wen gyffredin.

Y mae crybwylliadau mynych yn y Beibl am ddylluanod, y geiriau Hebreig am ba rai ydyw בום—*cos*, a לילית—*lilith*.

Edrychir ar ddau air Hebraeg arall yn ein cyfieithiad ni o'r Beibl fel yn golygu rhywogaeth o ddylluanod, sef ינשוף—*yansuph*, yr hwn a olyga mewn Hebraeg cyffredin, y mae yn rhaid addef, y ddylluan, ond eto, am grëyr y nos yr arferir ef yn fwyaf neillduol; a קפרן—*cipoz*, un ai yr un a קפור—*cephod*, neu ynte wedi ei gymmysgu âg ef, fel yr ymddengys, yr hyn a arweiniodd i ddadleuon hirfaith; canys edrychir gan wahanol ysgrifenwyr ar y ddau air fel yn golygu chwech neu saith o greaduriaid tra annhebyg i'w gilydd, megys y ddylluan, eryr y môr, aderyn y bwn, y draenog (קפד), y dyfrgi (?), a'r crwban. Tybia Bochart, er yr addef fod yn bosibl y defnyddir y gair am fath o ddylluan, mai yr hyn a olyga yn briodol ydyw y *jaculus*, neu y sarff ymneidiol. Y mae tri math o ddylluanod yn adnabyddus yn yr Aipht a Syria:—y *Strix bubo*, "y ddylluan fawrglust;" y *Strix flammea*, y ddylluan wen gyffredin; a'r *Strix passe rina*, y ddylluan fechan. Ni chynnwysa y rhestr hon y *Strix otus*, y ddylluan gorniog; y *Strix brachyotus*, y ddylluan glustiog, a adnabyddir dros yr holl fyd yn mron, na *Strix orientalis* Hasselquist, ac y mae amryw rywogaethau ereill o'r adar crwydrol hyn yn Palestina. Y mae כוס—*cos* neu *chos* (*Lef.* xi. 17; *Deut.* xiv. 16; *Salm* cii. 6), a gyfleithir "dylluan y ddiffaethwch," yn cyfateb yn hollol i'r ddylluan wen neu y ddylluan gyffredin (*Strix flammea*). Priodolodd Bochart yr enw hwn i'r pelican, ar gyfrif ystyr tybiedig *cos*, sef "cwpan," trwy yr hyn y tybiai fod cyfeiriad at y goden sydd dan ei gylfin; ond y mae yn fwy tebygol mai cyfeirio y mae y gair at faintioli anghymesur a gwastadrwydd y pen, o'i gymharu â chorff yr aderyn; canys y mae y pen hyd at y llygad yn mesur hanner maintioli y corff. Y mae y ddylluan gyffredin, neu ddylluan yr ysgubor, yn cael ei hystyried yn cyssegredig yn Asia ogleddol.



Dar. 251.

Ni chanfyddwn yr eryr-ddylluan, neu y ddylluan fawrglust, mewn gweithydd ednofyddol, fel yn un o adar Syria, er fod yn ddiammheu ei bod yn ymwelydd gauafol achlysurol; na'r rhywogaeth leiaf, *Bubo Atheniensis* Gmelin, yr hon ddylluan a all fod yn anaml, ond yn breswylydd parhaus, ac yn ymweled â'r Aipht yn achlysurol y mae yn debygol. Nid y rhywogaeth hon, pa fodd bynag, fel y credir, ond *Otus ascalaphus* Cuvier, sydd yn gyffredin yn yr Aipht; a hon ydyw y ddylluan a arddangosir mor fynych yn y cerfluniau Aiphtaidd, yn ol pob tebygolrwydd. Hwyrach mai hon ydyw y rhywogaeth a olygir wrth yr enw anmhenderfynol o קפוז—*cipoz*, canys y mae yn hollol gymhwysiadwy at *Esa.* xxxiv. 15.

Yn nesaf, y mae genym y *Strix ulula, Strix brachyotus*, neu y ddylluan glustiog, yr hon yr un modd a geir yn yr Aipht ac Arabia, yn gystal ag yn ngogledd-barth Syria—aderyn hyf, ymladdgar, yn preswylio mewn hen adeiladau maluriedig, ac a gamgymmerwyd gan esbonwyr am aderyn y corff—*Strix stridula;* ac y mae yn tra thebygol, לילית—*lilith*, y Beibl (*Esa.* xxxiv. 14). Nid yw yn debygol mai rhywogaeth Passeraidd Ewrop ydyw dylluan fechan yr Aipht, ac y mae yn debygol na ddygwydd dan enw penodol yn y Beibl Hebraeg; ond gellir casglu, a hyny gyda graddau helaeth o sicrwydd, oddi wrth luosogrwydd y llygod, a'r pryfetach ereill a fegid o angenrheidrwydd ar weddillion yr aberthau, fod lluaws mawr o ddylluanod, ac adar ysglyfaethus ereill, yn Palestina.

Yr oedd yr aderyn hwn yn aflan dan y gyfraith seremonïol: *Lef.* xi. 17.—(*Penny Cycl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Eadie's Cycl.*)

DYMUNIANT: *Hag.* ii. 7; "A dymuniant yr holl genedloedd a ddaw." Y mae llawer iawn o wahanol farnau yn nghylch ystyr yr ymadrodd hwn. "Dysgwyliad yr holl genedloedd."—*Preb. Lowth.* Tuag amser Crist, deallai yr Iuddewon yr ymadrodd am y Messïah; a gelwid ef y pryd hyny yn gyffredin, "y gobaith," "y gobaith gwynfydedig," "gobaith Israel," "gobaith yr addewid i'r deuddeg llwyth," "bendith Abraham

Digitized by Google

i'r Cenedloedd" (1 *Tim.* i. 1; *Titus* ii. 13; *Act.* xxviii. 20; xxvi. 7, 8; *Gal.* iii. 14).—*Chandler.* Y mae yn anhawdd cymhwyso y gair gwreiddiol at berson. ובאו חמדת כל הגוים; a pha fodd y gellir galw Crist gyda phriodoldeb yn "ddymuniant yr *holl* genedloedd?" Ymddengys mai dysgrifiad arwyddluniol ydyw y cyfan o Eglwys Crist, ac o'i waith ef yn ei llenwi â holl ragoriaethau y byd Cenedlig, pan ddygir cyflawnder y Cenedloedd i mewn.—*Clarke.* Y Messïah a olygir. Gan fod y gair "a ddaw" yn y rhif luosog, gall olygu ei ddyfodiad yn y cnawd, a'i ddyfodiad yn y dydd diweddaf.—*Gill.* Y mae rhai beirniaid, megys Houbigant, Michaelis, Rosenmüller, Heberden, &c., wedi cyfieithu חמדת—"dymuniant," "pethau gwerthfawr," gan osod allan trwy hyny mai y meddwl ydyw y byddai i'r Cenedloedd ddwyn eu pethau gwerthfawr i addurno y deml. Mae y nifer luosocaf o esbonwyr, pa fodd bynag, yn cymhwyso y geiriau at y Messïah, felly hefyd y gwnai y Rabbiniaid Aquila a Jarchi. Fel hyn y dywed Pye Smith:—"Dysgrifir y Messïah yma fel gwaredwr y byddai y byd yn yr angen mwyaf am dano, a gwrthddrych y byddai dymuniad a dysgwyliad tra eang am ei ymddangosiad. Fel hyn hefyd y dywed Matthew Henry:—"Crist oedd dymuniant yr holl genedloedd. Yr hyn a barodd i'r fath gynnulliad o wŷr bucheddol ddyfod o bob parth i Ierusalem (*Act.* ii. 5) oedd dysgwyliad y byddai i deyrnas y Messïah gael ei sefydlu tua'r pryd hyny. Ymddengys fod y teitl gogoneddus hwn o eiddo Crist yn cyfeirio at brophwydoliaeth Iacob (*Gen.* xlix. 10)—"ato ef y bydd cynnulliad pobloedd."

**DYN—ION**, [Corn., *dên*; Arm., *den*]: dyn, mewn cyferbyniad i blentyn a merch, a elwir *gŵr*; mewn cyferbyniad i fenyw, a elwir *gwryw* a *gŵr*; mewn cyferbyniad i wraig, a elwir *gŵr*; ac mewn cyferbyniad i anifail, a elwir *dyn.* Cyfieithir pedwar o eiriau Hebreig yn ddyn yn y Beibl Cymraeg, sef אדם, איש, אנוש, a גבר. Defnyddir hwy mor fanwl ag y defnyddir geiriau o gyffelyb ystyr yn y Groeg a'r Lladin. Ac nid manyldeb yn unig ydyw y pwnc, ond canfyddir ei fod yn gyssylltiedig â chyfieithiad cywir.

1. Defnyddir y gair אדם (*Adam*, a droid gan yr hen Gymry yn *Addaf*, gan newid *d* i *dd*, ac *m* i *f*=*Adda* y Beibl Cymraeg) yn (1.) Yn enw priodol ar y dyn cyntaf (*Gen.* ii. 7, &c.); er y barna Gesenius mai ystyr gyfenwol, yn hytrach, sydd iddo pan y cymhwysir ef felly, ac, am hyny, y byddai ei alw *y dyn* yn well mewn cyfieithiad. Pa fodd bynag, ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio fel enw priodol gan Luc yn yr achau (*Luc* iii. 38); gan Paul (*Rhuf.* v. 14; 1 *Tim.* ii. 13, 14); a chan Iudas (*adn.* 14). Y mae gwaith Paul yn ei ddefnyddio yn 1 *Cor.* xv. 45, yn dra eglur—"y dyn cyntaf, Adda." Fel hyn hefyd y defnyddir ef trwy yr Apocrypha (2 *Esdras* iii. 5, 10, 21, 26; iv. 30; vi. 54; vii. 11, 46, 48; *Tobit* viii. 6; *Eccles.* xxxiii. 10; xl. 1, "dynion;" ar ymyl y ddalen, *Adda; pen.* xlix. 16); ac felly hefyd gan Josephus. Dadleua Gesenius fod y fannod o flaen y gair yn ddieithriad pan y cymhwysir ef at y dyn cyntaf. Y mae yn ddiammheu ei fod yn cael ei ddefnyddio fel hyn yn fynych fel cyfenw, ond y mae yr eithriadau yn bendant: *Gen.* iii. 17; "hefyd wrth Adda y dywedodd," a gwel y Deg a Thrigain (*Deut.* xxxii. 8), "pan neillduodd efe feibion Adda;" "os cuddiais fy nghamweddau fel Adda" (*Iob* xxxi. 33); "ac wrth ddyn (Heb. *adam*) y dywedodd," &c. (*Iob* xxviii. 28), yr hyn a ymddengys yn cyfeirio, fel yr arwydda y cyd-destynau, at ddadguddiad cyntefig nas cofnodir yn Gesenius (hefyd gwel *Hos.* vi. 7, *dynion:* yn ol yr Hebraeg ac ymyl y ddalen, *Adda*). Dadleua Gesenius yn mhellach fod i'r wraig, אשה (*aishah*), enw priodol, sef חוה (*Chafah*=Efa), ond nad oes i'r dyn yr un. Ond Adda a roddodd yr enw Efa iddi; ac, fel yr ymddengys, ar newidiad amgylchiadau: ac er na chofnodir y tarddiad dwyfol o'r gair Adda, fel enw priodol y dyn cyntaf, megys y gwneir â dydd, nos, nefoedd, daiar, môr, &c. (*Gen.* i. 5, 8, 10); eto cofnodir ei darddiad dwyfol fel cyfenw (cymharer *Gen.* i. 26, "gwnawn *ddyn*"=Heb. *adam; pen.* v. 1): ac oddi wrth y sefyllfa yma, daeth yn fuan i fod yn enw priod, o blegid ei arfer yn fynych, yn ol barn y Dr. Lee; ond tebycach yw mai oddi wrth ei gyfaddasrwydd neillduol at "y dyn," yr hwn yn fwy uniongyrchol sydd "*ddelw* a gogoniant Duw;" 1 *Cor.* xi. 7. Cynnygiwyd rhai ystyron ereill i'r gair; megys "bod yn goch" neu "gochwallt:" ac y mae rhai o'r Rabbiniaid yn casglu oddi wrth hyn mai felly yr oedd y dyn cyntaf. Y mae yr ystyr yma cyn hyned a Josephus, yr hwn a ddywed "i'r dyn cyntaf gael ei alw yn *Adam*, o blegid iddo gael ei ffurfio o ddaiar goch;" a chwanega, trwy ddyweyd, "canys gwir liw cyntefig y ddaiar yw hwn" [*Antiq.* i. 1; adr. 2]. Ond a ydyw hyn yn wir? Pan y dychwel dyn i'r ddaiar drachefn, ai coch fydd hwnw? Tybir fod yr ystyr y cyfeiriwyd ato eisoes (*Gen.* i. 26; v. 1) yn fwy cywir, sef דם (*dam*)—*delw*, o blegid i ddyn gael ei greu ar *ddelw* Duw. (2.) Y mae y gair *Adam* yn enw rhywogaethol ar yr holl hil ddynol, megys y crewyd hwynt ar y dechreu; ac wedi hyny, fel y gair Cymraeg *dyn*, daeth i arwyddo person, pa un bynag ai dyn ai dynes yn gyfystyr i'r gair Lladin *homo*, a'r Groeg *ανθρωπος*: *Gen.* i. 26, 27; v. 2; vi. 3, 5—7; viii. 21; *Deut.* viii. 3; *Iob* xiv. 1; *Mat.* iv. 4; v. 13, 16; 1 *Cor.* vii. 26. Y mae yr ystyr yma i'r gair *dyn* yn gyffredin gan ysgrifenwyr Cymreig, prydyddol a rhyddieithol; megys—

"Noeth, bychan, a gwan y genir—*dyn* byw,
Dyna beth sydd eirwir."—*W. Llŷn.*

"A ddêl a rhad i'w ddilyn
O wyllys Duw yw lles *dyn*."—*S. Fychan.*

"Un naws a dail einioes *dyn*."—*Gr. Owain.*

"Ni eill da byd, ennyd awr,
Estyn einioes *dyn* unawr."—*W. Llŷn.*

"A hauo *dyn* hyd einioes,
A feda ef wedi oes."—*T. Llwyd.*

"Ni a wyddom fod *dyn* gwedi ei gyfansoddi o ddwy ran, sef corff ac enaid."—*Ed. Samuel.*

"*Dyn* ydyw y gadwyndorch yn ngraddfesurfa y greadigaeth."—*T. Charles.*

Defnyddir yr ystyr yma yn y Beibl hyd yn oed heb gyfeirio at oedran; megys *Ioan* xvi. 21.

Cymhwysir y gair hefyd at fenywod yn unig; megys, "Ac o ddynion (*ἀνθρώπων*—y Deg a Thrigain), o fenywaid;" *Num.* xxxi. 35. Fel hyn, arwydda *ἡ ανθρωπος* fenyw [*Herod.* i. 60], ac yn enwedig yn mysg areithyddion: cymharer 1 *Mac.* ii. 38. Mae y gair yn cael ei gymhwyso yn fynych gan hen ysgrifenwyr Cymreig at fenyw, yn enwedig gan y beirdd; ac fe'i goddefir felly mewn barddoniaeth hyd y dydd hwn; megys—

"Fy *nyn* ofni a wnai." Eto:—

"Dan arwydd ddoe, dawn i'r *ddyn*."—*D. ab Gwilym.*

"Y *ddyn* fwyn oedd ddoe'n f' annerch,
Aeth yn fud weithian y ferch:

Digitized by Google

Ni fyn fy *nyn* ofyn iaith,
Nid ery newid araith."—*D. ab Edmwnt.*

"Y *dyn* fwyn addwyn feinael."—*Ieu. Deulwyn.*

"*Dyn* bur wych natur—
*Dyn* lanwaith berffaith burffawd,
*Dyn* dlos ond ei bod yn dlawd."—*W. Llŷn.*

"Canai Efa decca' *dyn,*
Canai Adda, cain wiwddyn."—*Gr. Owain.*

"O! dedwydded yw Adda
Gyda'i *ddyn,* fendigaid dda.
* * *
Mwyn dremynt, myn'd i rwymyn
Y gadwyn aur, gyda' *nyn.*"—*Dewi Wyn.*

Yn y *Llyfr Gweddi Gyffredin,* cymhwysir *deuddyn, dynion,* a *gwasanaethddynion,* at ŵr a gwraig; megys, "Atolygwn i ti gymhorth â'th fendith y ddeuddyn hyn." "Felly gallu o'r dynion hyn." "Anfon dy fendith ar dy wasanaethddynion hyn." (3.) Dynoda y gair *ddyn* mewn cyferbyniad i wraig (*Gen.* iii. 12; *Mat.* xix. 10), er, yn fwy priodol, mai gŵr sydd gyferbyniol i wraig (cymharer 1 *Cor.* iii. 1), fel yr awgrymwyd ar y dechreu. (4.) Defnyddir ef, er yn anfynych, i ddynodi y rhai sydd yn cynnal anrhydedd y natur ddynol i fyny—*dyn,* fel y dywedwn, gan feddwl un teilwng o'r enw, fel *vir* y Lladin, ac ἀνήρ (*anêr*) y Groeg:—"Un gŵr (Heb. *Adam*=Adda) a gefais yn mhlith mil;" *Preg.* vii. 28. Dichon fod y gair yn y lle yma yn awgrymu uniondeb gwreiddiol dyn. (5.) Defnyddir ef yn fynych i ddynodi y rhan fwyaf ddirywiedig a drygionus o ddynolryw: ceir esampl bore o hyn:—"Weled o feibion [neu addolwyr] Duw ferched dynion [neu yr anghrefyddol] mai teg oeddynt hwy; a hwy a gymmerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant;" *Gen.* vi. 2. Dymunir ar y darllenydd wneyd ymchwiliad manwl i'r ymodroddion canlynol a'u cyd-destynau: *Salm* xi. 4; xii. 1, 2, 8; xiv. 2, &c. Dygir yr ymadrodd olaf yn mlaen yn fynych i brofi cwbl ddirywiad yr holl hil ddynol; tra mai cyfeirio y mae at yr Iuddewon mwyaf dirywiedig yn unig, neu, fe allai, at y rhai mwyaf drygionus o'r cenedloedd oedd yn wrthwynebwyr Israel. Darluniad ydyw o'r *ynfyd,* neu y drygionus (*Salm* xiv. 1)—"gweithredwyr anwiredd, y rhai sydd yn bwyta pobl Dduw fel y bwytânt fara; ac ni alwant ar enw yr Arglwydd;" *Salm* iv. 4. Sylwer eto ar ddyfyniadau Paul o'r Salm hon (*Rhuf.* iii. 10), ac o'r defnydd a wneir o'r gair *dyn* neu *ddynion* yn *Luc* v. 20; *Mat.* x. 17. Cymhwysir y gair hefyd at y Cenedloedd: *Mat.* xvii. 22; cymharer â *Marc* x. 33; ix. 31; *Luc* xviii. 32. (6.) Defnyddir y gair i ddynodi dynion ereill, mewn cyferbyniad i'r rhai a nodwyd eisoes; megys, "Yr hwn a osodaist arwyddion a rhyfeddodau yn ngwlad yr Aipht hyd y dydd hwn, ac yn Israel, ac yn mysg dynion ereill" (*Ier.* xxxii. 20); hyny yw, yr Aiphtiaid. "Fel dynion ereill" (*Salm* lxxxiii. 5); sef, dynion cyffredin, mewn cyferbyniad i ddynion gwell (*Salm* lxxxii. 7); dynion o radd isel, mewn cyferbyniad i אִישׁ (*aish*)—dynion o radd uwch: gwel yr Hebraeg yn *Esa.* ii. 9; v. 15; *Salm* xlix. 3; lxii. 10; *Diar.* viii. 4. Mae y geiriau "mab dyn" yn yr Hen Destament yn arwyddo dyn gwael, annheilwng (*Num.* xxiii. 19; *Iob* xxv. 6; *Ezec.* ii. 1, 3); yr hwn a gymhwysir mor fynych at y prophwyd, a'r hwn sydd yn arwyddo, "O! ddyn marwol!"

2. אִישׁ (*aish*) yw dyn mewn ystyr wahanredol; fel *vir* y Lladin, ac *anêr* y Groeg. Defnyddir ef yn ol holl ystyron y *vir* Lladin, ac arwydda ddyn megys yn wahanol i wraig (1 *Sam.* xvii. 23; *Mat.* xiv. 21); fel gŵr priod (*Gen.* iii. 16; *Hos.* ii. 16); ac mewn cyfeiriad at ansoddau meddyliol godidog. Ceir anghraifft brydferth o'r dosbarth olaf yn *Ier.* v. 1; "Rhedwch yma a thraw ar hyd heolydd Ierusalem, ac edrychwch yr awr hon, mynwch wybod hefyd, a cheisiwch yn ei heolydd hi, a chewch ŵr (*aish*), a oes a wnel farn, a gais wirionedd, a myfi a'i harbedaf hi." Adgofia hyn ni o'r philosophydd a aeth trwy heolydd Athen â lamp yn ei law; a phan ofynwyd iddo beth a geisiai, dywedodd yntau, "Yr wyf yn chwilio am ddyn."—[*Herod.*, ii. 120; *Hom. Il.*, v. 529]. Defnyddir y gair hefyd i ddynodi y dosbarthiadau uchaf (*Diar.* viii. 4; *Salm* cxli. 4, &c.); gŵr llys (*Ier.* xxxvi. 9); y gwryw o'r anifeiliaid: *Gen.* vii. 2. Weithiau golyga ddynion yn gyffredinol: *Exod.* xvi. 30; *Marc* vi. 44.

3. אֱנוֹשׁ (*enosh*), marwolion, βροτοι (*brotoi*), megys diflanedig, darfodedig, agored i glefyd, &c. "Na orfydded dyn (ymyl y ddalen, 'dyn marwol') i'th erbyn;" 2 *Cron.* xiv. 11. "Ac ysgrifena arni â phin dyn" (*Esa.* viii. 1); hyny yw, â llythyrenau cyffredin, eglur: *Iob* xv. 14; *Salm* viii. 4; ix. 9, 20; *Esa.* li. 7; *Salm* ciii. 15. Cymhwysir ef at wragedd, cystal a gwŷr: *Ios.* viii. 25.

4. גִּבּוֹר (*gibor*); Lladin, *vir;* dyn gyda golwg ar nerth, &c. Y mae y gair hwn yn gyffredin yn golygu ei fod wedi ei gynnysgaethu â galluoedd a chynneddfau uwch na phob creadur daiarol: felly yr arwydda y Lladin *vir,* o *vis, vires;* a dyma yr ystyr a drosglwyddа y gair Hebraeg hwn. Defnyddir ef am ŵr, mewn cyferbyniad i wraig: "Na wisged gŵr ddillad gwraig" (*Deut.* xxii. 5), fel ανθρωπος (*anthrôpos*) yn *Mat.* viii. 9; *Ioan* i. 6, am ŵr mewn cyferbyniad i blant (*Exod.* xii. 37); am blentyn gwryw mewn cyferbyniad i fenyw: *Iob* iii. 3; y Deg a Thrigain, αρσεν—*arsen.* Defnyddir y gair yn fynych mewn barddoniaeth: "Gwyn ei fyd y gŵr; *Salm* xxix. 8; xl. 4; lii. 9; xciv. 12. Weithiau, fe ddynoda y rhyw yn gyffredinol: *Iob* iv. 17; xiv. 10, 14.

Y mae rhai ystyron hynod yn cael eu rhoddi i'r gair yn y Testament Newydd: "Mab y Dyn," yr hwn a gymhwysir at ein Harglwydd ganddo ef ei hun a chan Stephan (*Act.* vii. 56), ydyw y Messïah mewn ffurf ddynol. Tybia Schleusner fod y gair yn y dull yma bron bob amser yn arwyddo gwraig, ac yn dynodi mai efe oedd y Messïah addawedig, a anwyd o forwyn, ac a gymmerodd arno ein natur ni i gwblhau arfaethau mawrion Duw, fel y gellid achub dyn gan un yn ei ffurf ef ei hunan. "Yr hen ddyn" a'r "dyn newydd," sydd ymadroddion ereill a ddefnyddir—y blaenaf i ddynodi ansawdd ansanctaidd y galon; a'r olaf, yr ansawdd newydd a grëir ac a fegir gan yr efengyl. "Y dyn oddi mewn," a "chuddiedig ddyn y galon," sydd gyferbyniol i'r "dyn oddi allan." "Gŵr Duw" a gymhwyswyd gyntaf at Moses (*Deut.* xxxiii. 1), ac ar ol hyn bob amser at berson yn gweithredu dan awdurdod ddwyfol: 1 *Bren.* xiii. 1; 1 *Tim.* vi. 11. Y geiriau Groeg am yr annuwiol, "y dyn pechod" (2 *Thes.* ii. 3), a ddefnyddir yn y Deg a Thrigain am yr Hebraeg a gyfieithir "gŵr anwir" yn *Esa.* lv. 7. Y mae angelion yn cael eu galw yn wŷr (ανδρες—dynion) yn *Act.* i. 10; "Ac fel yr oeddynt yn edrych yn ddyfal tua'r nef, ac efe yn myned i fyny, wele, dau ŵr a safodd ger llaw iddynt mewn gwisg wen." Am ansawdd a galluoedd meddyliol dyn, gwel ENAID; YSBRYD; CYDWYBOD.

Digitized by Google

sylwedd yn ddiffygiol, y canlyniad fydd ffurf anmhenodol ac afluniaidd. Y mae maintioli sylweddau anorganaidd yn ymddibynu yn hollol ar nifer y gronynau y gellir eu casglu yn nghyd i'w cyfansoddi. Gyda golwg ar ffurfiau cyrff organaidd, canfyddwn hwynt o agweddiad priodol i bob rhywogaeth neu dylwyth; heb fod yn gyfyngedig i arwynebau gwastad, llinellau sythion, nac onglau; ond yn gynnwysedig o arwynebau argrwm, ac yn arddangos amlinellau cylchog. Mae eu maintioli hefyd yn ddarostyngedig i ddeddf bendant fel eu ffurfiau, a hyny oddi mewn i derfynau cymmedrol; ac yn raddol y deuant i'w maintioli. Heb law hyny, y maent yn gyfansoddedig o amryw ranau neu organau annhebyg i'w gilydd, i bob un o ba rai y mae gwneuthuriad arbenig; a'r rhai, wedi eu huno yn nghyd, a ffurfiant gorff annibynol. Nis gall y corff hwn oddef ei dori a'i ddosbarthu yn ddarnau, ac eto fodoli yn gorff anwahanol. Rhaid i blanigyn, er anghraifft, drengu, os amddifedir ef yn hollol o'i wraidd, ei baladr, neu ei ddail, os na bydd ganddo allu mewnol i'w hadgynnyrchu. Ond gellir ystyried pob gronyn o fŵn fel yn meddu hanfod gwahanol, gan fod y llwchyn lleiaf o hono yn cynnwys yr un teithi a'r darn mwyaf y gellir meddwl am dano.

5. Gwahaniaethant mewn perthynas i gyfansoddiad mewnol. Prin y gellir ystyried bod sylweddau anorganaidd yn meddu cyfansoddiad o gwbl, gan eu bod yn gyffelyb tu mewn a thu allan, pa un bynag ai sylweddau celyd, hylifol, ai nwyol a fyddont. Y mae cyrff organaidd yn gyfansoddedig bob amser o hylifau a sylweddau celyd, y blaenaf yn amgauedig mewn celloedd ffurfiedig o lafnau neu fanedafedd. I'r cyfluniad hwn rhoddir yr enw o gyfansoddiant (*organization*). Y mae y cymmysgedd hwn o elfenau celyd a hylifol wedi ei gyfuno a'i drefnu yn y fath fodd, fel ag i roddi y fath neillduolrwydd i'r cymhlethweoedd (*tissues*) na welir byth eu cyffelyb yn mhlith sylweddau mwnawl.

6. Gwahaniaethant yn eu cyfansoddiad elfenol neu fferyllawl. Gall sylwedd mwnawl gael ei ffurfio o ronynau o'r un math yn hollol, megys brwmstan neu haiarn; neu mewn canlyniad i ymuniad dwy neu ragor o'r 55 elfenau fferyllol y gwyddys am danynt. Ond am anifeiliaid a llysiau, nid oes ond ychydig o'r elfenau hyn yn eu cyfansoddiad, ac ymddengys fod llawer o honynt wedi eu dwyn i mewn i ateb rhyw ddybenion fferyllawl neu beiriannol penodol. Y mae y cynnyrchion bywydol a ffurfiadol, megys alwyn (*albumen*), llinednur (*fibrin*), a'r cyffelyb, yn gyfansoddedig o ddim ond tair neu bedair o elfenau; sef, carbon, hydrogen, oxygen, a nitrogen.

Tuag at nodi mewn gair y gwahaniaeth rhwng sylweddau anorganaidd a chyrff bywiol, dywedwn mai hanfodion yn cael eu *maethu* a'u *hadgynnyrchu* ydyw y rhai diweddaf. *Bywyd*, gan hyny, ydyw y peth sydd yn nodweddu planigion ac anifeiliaid yn fwyaf neillduol.

Ar ol egluro y gwahaniaeth rhwng y deyrnas anorganaidd a'r deyrnas organaidd, nid anfuddiol fydd nodi y gwahaniaeth sydd rhwng adraniadau y ddiweddaf, sef y dosbarth llysieuol a'r dosbarth anifeilaidd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, nid oes dim yn haws na gwahaniaethu planigyn oddi wrth anifail; eto, y mae hyn yn anhawdd weithiau, mewn canlyniad i symledd gwneuthuriad rhai anifeiliaid. Gellir dyweyd yn gyffredinol, heb ymdroi yn hwy gyda'r pwnc hwn, bod anifeiliaid yn gwahaniaethu oddi wrth lysiau mewn golygiadau tra phwysig, yn dwyn perthynas â'u dull o fyw, eu gwneuthuriad, ac â chyfansoddiad fferyllawl prif sylweddau sylfaenol eu cyrff.

1. Eu dull o fyw. Ymddengys bod y bywyd llysieuol yn gyfyngedig yn benaf i amaethiad y llysieuyn ac adgynnyrchiad llysiau ereill cyffelyb iddo. Nid ydyw planigion yn meddu *bywyd* megys anifeiliaid. Canfydda, myfyria, a gweithreda anifeiliaid wrth eu hewyllys: nid oes gymmaint ag un o'r galluoedd hyn, a siarad yn briodol, yn perthyn i blanigion. Y mae anifeiliaid yn teimlo ac yn ymsymmud; ond nid ydyw planigion yn teimlo nac yn ymsymmud. Y mae teithi bywyd mewn anifeiliaid yn cael eu dwyn yn mlaen mewn dull gwahanol i'r modd y dygir hwynt yn mlaen mewn planigion.

2. Eu gwneuthuriad. Gan fod cynneddfau anifeiliaid yn fwy amrywiog nag eiddo planigion, y maent yn gofyn mwy o organau o angenrheidrwydd. Y mae yr organau hyn yn gwahaniaethu hefyd o ran eu gwneuthuriad tumewnol: y mae y cymhlethweoedd mewn llysiau o nodwedd mân-gellog (*cellular*) yn gellau perffaith; ond mewn anifeiliaid, y maent yn gyfansoddedig o lafnau neu ddalenau bychain, y rhai a groesant eu gilydd yn y fath fodd nes ffurfio pantleoedd bychain (*lacunæ*) anmherffaith, gan gyfansoddi pilenau neu dalpiau, mwy neu lai yspyngaidd; ond nid ydynt wedi eu dosbarthu i nifer o gellau annibynol ar eu gilydd, megys y maent mewn llysiau. Y mae yn wir y canfyddir y gymhlethwe anifeilaidd yn fynych, tra y byddo yn cael ei ffurfio, yn gyfansoddedig o godenau bychain; ond nid ydyw y trefniad hwn, pa un sydd yn sefydlog mewn planigion yn gyffredin, ond peth dros amser mewn anifeiliaid, ac nid ydyw yn beth parhaol ond mewn nifer bychan o organau, megys; er esampl, yn y chwarenau (*glands*) a'r pilenau croenol.

3. Cyfansoddiad fferyllawl prif sylweddau sylfaenol eu cyrff. Y mae y sylweddau organaidd a ffurfiant seiliau planigion yn gyfansoddedig o garbon, hydrogen, ac oxygen. Mewn anifeiliaid, chwanegir blorai (*nitrogen* neu *azote*) at y rhai hyn. A chaniatau bod sylweddau bloreiddiedig mewn planigion, a bod sylweddau cyfansawdd heb eu bloreiddio mewn anifeiliaid; eto, arddengys y sylweddau organaidd hanfodol i gyfansoddiad yr organau bywiol yn y ddwy deyrnas y cymmysgedd fferyllawl a nodwyd eisoes.

RHANAU ELFENOL CYFANSODDIAD ANIFEILIAID.

Cyfuna gwahanol sylweddau elfenol, ond yn benaf carbon, hydrogen, oxygen, a nitrogen, tuag at gynnyrchu y defnyddiau o ba rai y cyfansoddir cyrff anifeiliaid. Yn mhlith y defnyddiau hyn, gelwir rhai o honynt yn ddefnyddiau ffurfiadol (*plastic*) neu organaidd. Y rhai hyn ydyw y defnyddiau o ba rai y ffurfir safonau (*basis*) yr holl ranau sylweddol bywydol. Nid ydyw y defnyddiau ffurfiadol hyn mor amrywiol ag y gellid tybio ar yr olwg gyntaf; o blegid ymddengys safonau rhanau bywiol pob anifail yn gyfansoddedig o sylwedd a elwir alwyn, neu o sylwedd a elwir llinednur; yr hwn nid ydyw, y mae yn debygol, ond math o alwyn wedi ei dymmeru ychydig. Mae ymchwiliadau fferyllawl diweddar, pa fodd bynag, wedi dangos y gellir ystyried mai cymmysgedd ydyw alwyn o'r sylwedd a elwir cyntain (*proteine*), gyda llosnur (*phosphorus*) a brwmstan.

1. Gellir cael *cyntain* yn mhob rhan yn mron o lysiau yn gystal ag anifeiliaid, mewn amrywiol

Digitized by Google

ddangosiad gronynaidd yn ganfyddadwy; a chymmer cyfnewidiad le yn raddol, yr hwn fydd yn gynnwysedig yn nghydgasgliad y temigau bychain nes y ffurfiant ronynau o faintioli a ffurf mwy penodol. Ymddengys y gronynau hyn ar y cyntaf, y rhai ydynt egin celloedd newyddion, fel yn gyssylltiedig wrth ochr y fam-gell; wedi hyny, ymwahanant oddi wrthi, a symmudant oddi amgylch tu mewn iddi; ac yn mhen ychydig amser, ymddryllia y fam-gell, gan eu gollwng yn rhydd. Yn awr, dyma ddiwedd bywyd y fam-gell; ond dechreuad bywyd cenedlaeth newydd; yn gymmaint ag y gall pob un o'r egin hyn ymddadblygu nes dyfod yn gellau, yn ol y dull blaenorol yn hollol, a chynnyrchu yn ei thro egin ereill.

Yn awr, nid ydyw yr amrywiol ffurfiau o gymhlethweoedd a ganfyddir yn y mathau perffeithiaf o blanigion yn bodoli ynddynt o'r dechreu; ond cynnyrchir hwynt gan gelloedd. Ffurfir y planigyn anelwig, megys yr anifail anelwig, yn ei gyflwr cyntaf, yn hollol o gelloedd tra syml ac unffurf o ran eu nodwedd; a thrwy drawsffurfiad rhai o'r celloedd hyn, yn ngraddau pellach y dadblygiad, y cynnyrchir y cymhlethweoedd ereill, yn gystal a'r amrywiol fathau o gymhlethweoedd cellawg. Y prif foddion trwy ba rai y cyfnewidir y celloedd llysieuol, mor bell ag y gwyddys yn bresennol, ydyw y rhai canlynol:—1. Gall y celloedd gynnyddu mewn maintioli, ar eu penau eu hunain, neu ynte mewn cyssylltiad â rhai o'r cyfnewidiadau ereill y cawn eu dysgrifio yn uniongyrchol. 2. Cyfnewidiant mewn ffurf. Y mae y celloedd yn grynion yn eu sefyllfa gyntaf; a phan, wrth gynnyddu, y tyfant yn mhob ffordd yn gyfartal, neu yn agos felly, ac heb gyfarfod âg un attalfa, cadwant eu ffurf crwn. Pan y cyfarfyddant â chelloedd ereill yn ymeangu yn y cyffelyb fodd, änt i ffurf amlochrog trwy gydwasgiad eu hochrau. Pan y cymmer y tyfiant le yn fwy mewn un cyfeiriad na chyfeiriad arall, änt yn wastad neu yn hirfain. Byddant weithiau ar lun ser, gan daflu allan gangenau pelydrog, y rhai a gyfarfyddant â changenau cyffelyb o gelloedd cyfagos. 3. Bydd y celloedd yn ymuno â chelloedd cyfagos, ac yn agor iddynt. Yn y dull hwn, gall cyfres o gelloedd hirfain, wedi eu dodi yn mhenau eu gilydd, agor y naill yn y llall trwy ddarfyddiad eu pilenau cydlynol, a chynnyrchu trwy hyny lestr pibellog. 4. Cymmer cyfnewidiadau le yn sylwedd ac yn nghynnwysiad y celloedd. Gall y cyfnewidiadau hyn fod yn gyfnewidiadau fferyllol, megys pan y try syth (*starch*) yn gwm, sugr, a gludgaul; neu pan y cynnyrchir amryw sylweddau lliwiedig, olewau pur (*essential oils*), a phethau cyffelyb. Neu ynte gallant effeithio ar ffurf a chyfluniad y sylweddau fydd yn gynnwysedig yn y celloedd; er esampl, gall y sylweddau weithiau newid i ffurf gronynau o amrywiol faintioli; a phrydiau ereill, wedi myned dan gyfnewidiad fferyllol ac wedi tewychu, a hyny ar yr un pryd, glyna y sylwedd wrth ochr dumewnol y gell, fel ag i'w thewhau a'i chryfhau. Gall y gweithrediad hwn fyned yn mlaen hyd nes y bydd y gell wedi ei llenwi bron neu yn hollol. Yn y dull hwn y ffurfir rhanau celyd planigion. Fe all sylwedd newydd gael ei sugno i mewn i'r celloedd; neu fe all cyfran o'u cynnwysiad cyfnewidiol ddianc ymaith fel earthion, un ai trwy ochr y gell ar ffurf chwys, neu ynte trwy ymrwygiad neu ddarfyddiad y bilen. Yn ddiweddaf, fe all celloedd, mewn rhai amgylchiadau, gael eu symmud ymaith mewn rhan, neu yn hollol, trwy sugniad eu sylwedd. 5. Fe all celloedd gynnyrchu neu genedlu celloedd newyddion. Yr ydys wedi cyfeirio eisoes at y modd y cymmer hyn le.

FFURFIAD CYFANSODDIAD ANIFEILIAID.

Wrth fyned at ddadblygiad y cymhlethweoedd anifeilaidd, gellir sylwi, yn gyntaf, mewn ffordd gyffredinol, bod y gweithrediad (*process*), mewn rhai amgylchiadau, yn arddangos cyfatebiaeth eglur i'r hyn a gymmer le mewn llysiau; gan yr ymddengys rhai o'r cymhlethweoedd anifeilaidd, yn eu sefyllfa foreuaf, yn gydgasgliadau o gelloedd tra chyffelyb i'r celloedd llysieuol, a chan eu bod yn myned, yn eu trawsffurfiadau dilynol, trwy gyfres o gyfnewidiadau ag sydd yn cyfateb mewn lluaws o amgylchiadau i'r cyfnewidiadau yr ä llysiau trwyddynt yn eu dadblygiad. Cawn anghraifft nodedig o hyn yn y madruddyn (*cartilage*). Gellir yn briodol gymharu y cyfnewidiad a gymmer le yn nghelloedd y madruddyn i dewychiad ochrau y celloedd llysieuol, pan y tröir hwynt yn sylweddau celyd. Dengys yr esampl hon, yn nghyd âg ereill cyffelyb y gellid eu nodi, y cyffelybrwydd hanfodol sydd rhwng dadblygiad y cymhlethweoedd yn y ddwy deyrnas; ond pan y deuwn i edrych i mewn yn fanwl i'r amrywiol ddulliau a arddangosir yn ffurfiad cymhlethweoedd arbenig, cyfarfyddwn âg anhawsderau mawrion. Y mae y phenomenau weithiau yn anhawdd i'w canfod; a phan y gwelir hwynt, hwyrach y gellir rhoddi mwy nag un esboniad arnynt. Y mae hyn wedi arwain i adroddiadau gwrthwynebus a gwahaniaeth mewn barnau nas gellir eu cyssoni yn bresennol, ac nas gellir eu cywiro ond yn unig trwy ymchwiliad dyfodol; yn y cyfamser, y maent yn rhwystrau mawrion ar ffordd unrhyw gais at drefnu dosbarthiad rheolaidd. Yn yr hyn a ganlyn, ni fwriedir gwneuthur dim ond casglu yn nghyd, dan ychydig benau, y ffeithiau mwyaf cyffredinol sydd hyd yn hyn wedi eu dadguddio mewn perthynas i ffurfiad y cymhlethweoedd anifeilaidd.

Dyna ydyw cell, cyn iddi fyned dan un cyfnewidiad—chwysiglen gron neu hirgron, wedi ei ffurfio o bilen deneu, dryloew, unrhywiol, ac ystwyth; yn gwahaniaethu yn fawr mewn maintioli, ond heb byth ddyfod yn weledig ond trwy chwyddwydr. Cynnwysa hylif neu sylwedd tewach, tryloew, neu annhryloew, a bydd y sylwedd yn yr amgylchiad diweddaf yn gyffredin yn ronynog. Y mae hefyd yn weledig yn y rhan luosocaf o'r celloedd, rywbryd yn ystod eu bodolaeth, demigyn llai fyth, a elwir y cnewyllyn (*nucleus*), yr hwn a gyflawna wasanaeth pwysig. Priodola Schleiden iddo y gwaith o gynnyrchu y gell; am hyny, rhoddodd iddo yr enw *cytoblast*—gair sydd yn gyfystyr â "chell-eginyn." Fe welir yn gyffredin yn y cnewullyn un neu ddau—anaml y bydd chwaneg—o ysmotiau bychain; gelwir y rhai hyn hefyd yn egin (*nucleoli*).

Y mae y cnewullyn o ffurf crwn neu hirgrwn, ac yn fwy unffurf o ran maintioli na'r gell ei hun; ei dryfesur ar gyfartaledd mewn celloedd anifeilaidd ydyw o'r chwe-filfed i'r bedair-filfed ran o fodfedd. Mewn rhai amgylchiadau, y mae yn galed drwyddo; mewn amgylchiadau ereill, yn neillduol mewn anifeiliaid, ymddengys yn geuol tua'i ganol; neu ynte fe all ymddangos fel chwysiglen berffaith, yn cynnwys sylweddau o natur dra amrywiol. Fe all y cnewullyn fod yn rhydd oddi mewn i'r gell; ond yn fwyaf cyffredin, bydd yn gyssylltiedig wrth ochr fewnol

Digitized by Google

cyrhaedd sefyllfa berffaith; ond mewn amgylchiadau ereill, ni chyrhaeddant byth i'r sefyllfa o gelloedd, a siarad yn briodol, ac fe ddechreua y trawsffurfiad tra y gellir dyweyd eu bod hwy mewn cyflwr anorphenol. Yn wir, yn nadblygiad rhai cymhlethweoedd, y mae lle i gredu nad ydyw y gweithrediad rhagbarotoawl o ffurfiad celloedd yn myned ddim yn mhellach na chynnyrchiad egin, a bod y bywull a amgylchyna neu a orwedd rhwng yr egin, tra yr änt hwythau eu hunain trwy drawsffurfiad, yn cael ei gyfnewid ar unwaith nes y ffurfia elfenau y cymhlethweoedd. Y rhai canlynol ydyw y dulliau mwyaf cyffredin trwy ba rai y trawsffurfir y celloedd, yn nghyd â'u helfenau. Fe ddylid deall y gall dau, neu ragor, o'r cyfnewidiadau y cawn eu dysgrifio ddygwydd yn yr un gell, a bod y cnewullyn hefyd yn myned dan gyfnewidiadau y cawn eu hegluro ar ol hyn.

1. Cynnydd mewn maintioli, a chyfnewidiad yn y ffurf. Fe all cell gynnyddu yn gyfartal, neu agos yn gyfartal, yn mhob cyfeiriad; ac os felly, fe geidw yn gron o ran ei ffurf: ond yn fwyaf cyffredin, bydd y tyfiant yn anghyfartal, gyr hyn a bâr i'r gell fyned yn fflat fel coetan (*discoid*), neu yn hirgron, neu yn flaenfain, neu ynte ar ffurf carai.

2. Cyfnewidiad mewn sylwedd a chynnwysiad. Tra y bydd y cyfnewidiadau mewn ffurf a ddysgrifiwyd yn myned yn mlaen, bydd ochrau y celloedd yn cynnyddu yn gyffredin mewn tewder a chryfder; ac mewn cell fflat, a fyddo wedi ymledu i raddau helaeth, glyna yr ochrau cyferbyniol wrth eu gilydd, fel na bydd ceuedd iddi mwyach. Fe all sylwedd celloedd gyfnewid hefyd o ran eu natur fferyllol, megys celloedd y croen uchaf (*cuticle*). Byddant, tra yn ddwfn yn y croen ac yn ieuainc, yn doddadwy mewn sur surig (*acetic acid*), ond y maent yn colli y briodoledd hon wrth agoshau at yr arwyneb, ac o ansawdd caled fel corn.

3. Ymwahaniad yn llinionos (*fibrils*). Yn ffurfiad rhai cymhlethweoedd, ymddengys y celloedd ag fydd wedi cynnyddu mewn maintioli, ac wedi cyfnewid mewn ffurf, yn gyffredin trwy ymestyniad a gwastadrwydd (*flatness*), fel wedi troi yn llinion (*fibres*) mân. Y mae y celloedd a ffurfiant haenau allanol pluen, er anghraifft, yn troi yn gyntaf yn fflat ac yn lled hirgul, ac yna ymwahanant ar eu hyd yn llinion eiddil. Bydd y llinion hyn ar y cyntaf yn gyssylltiedig wrth eu gilydd, ond ymwahanant ar ol hyny: yn ystod y cyfnewidiad hwn, derfydd y cnewullyn yn raddol, nes o'r diwedd y diflana yn llwyr.

4. Cyfnewidiadau yn y berthynas rhwng celloedd a'u gilydd. (1.) Gallant aros ar wahân, megys y maent, er esampl, ar ffurf gronynau, yn y gwaed, y sylwedd llaethog, a'r dyfrnaws (*lymph*); a'r celloedd a ffurfir mewn rhai o'r dydoliadau (*secretions*). Nofia y gronynau a grybwyllwyd yn rhyddion mewn hylif, yr hwn y gellir ei ystyried yn fath o fywull hylifol. (2.) Dichon iddynt, trwy sylwedd rhyng-gellog o dewder cyfaddas, gael eu huno yn nghyd nes ffurfio cymhlethwe; tra yr erys eu hochrau yn weledig. Ceir esampl o hyn yn y croen uchaf (*cuticle*). (3.) Dichon i ochrau celloedd cyfagos gael eu cydgorffori yn anwahanol â'u gilydd, neu gyda'r sylwedd rhyng-gellog; tra y tewychir eu hochrau yn gyffredin, neu y llenwir eu tu mewn â llorion (*deposits*). Ceir anghraifft o hyn yn y madruddyn. (4.) Ymgyssyllta ochrau celloedd cyfagos â'u gilydd mewn rhyw gyrion penodol; a thrwy i sugniad (*absorption*) gymmeryd lle, fe gyssylltir ceuedd y naill â cheuedd y llall. Tybia Schwann mai yn y modd hwn y dechreuir y rhwydwaith o lestri manwythenol. Mewn amgylchiadau ereill, cyfleir y celloedd yn rhesi unionsyth; a thrwy eu hundeb, cyfansoddant bibell ddidor, megys y gwelir hwynt yn nghymhlethweoedd amrywiog llysiau. Tybir mai yn y dull hwn hefyd y tyf pibellau trosglwyddiadol y chwarenau (*glands*). Yn ol Schwann, yn ffurfiad cymhlethwe gyhyrol a gewynog, cynnyrchir pibell i ddechreu trwy ymuniad cyfres o gelloedd; ac oddi mewn i hon, ffurfir y llinionos cyhyrog mewn un amgylchiad, a sylwedd hynod y manedafedd gewynog yn y llall.

5. Ffurfiad pilenau a llinion o'r bywull yn uniongyrchol, heb gymhorth cellau gwirioneddol. Fel y crybwyllwyd eisoes, y mae rhai amgylchiadau, yn mha rai y mae lle i dybio fod y bywull —yn lle ymffurfio yn gelloedd gwahanedig, a'r rhai hyny yn cydgorffori drachefn —yn cynnyrchu pilenau neu linion didor ar unwaith. Yn y cyfryw amgylchiadau, bydd cnewullod yn y bywull, y rhai a ddiflanant neu a ânt dan drawsnewidiad yn y pen draw; ond nis gellir penderfynu pa mor bell yr effeithia eu presennoldeb ar drawsffurfiad y sylwedd amgylchynol.

6. Cyfnewidiadau yn nghnewullod y celloedd. Dichon i'r cnewullyn gynnyddu ychydig i gyfateb i dyfiant y gell, o'r hyn lleiaf yn y dechreu; fel hyn mae y cnewullyn yn tyfu ac yn gwastatau yn nghelloedd manau tyner y corff anifeilaidd, megys y gwefusau. Fe all aros ar ol hyny heb gyfnewidiad pellach, neu fe ddichon ddiflanu: y mae yn barhaol yn y rhan luosocaf o gelloedd y manau tyner, ond y mae yn diflanu yn nghelloedd gwastad y croen uchaf a'r ewinedd.

7. Cyfnewidiadau diweddaf y bywull. Derfydd y bywull yn gyffredin i raddau helaeth yn ngwres y dadblygiad, ond fe erys ychydig o hono rhwng celloedd neu elfenau ereill y cymhlethweoedd, yr hwn yn gyffredin a gynnydda mewn tewychedd, ac a wasanaetha i'w cadw yn nghyd: cyfansodda y pryd hyny y sylwedd rhyng-gellog.

MEITHRINIAD AC ADGYFNERTHIAD Y CYMHLETHWEOEDD.

Y mae y prif gymhlethweoedd organaidd yn bedair o nifer; sef, y gyhyrog, yr ewynog, y gellog a'r godenog.

1. Y gyhyrog sydd yn ffurfio y peth a elwir *y cnawd;* hi ydyw achosydd cynnyrchiol pob ysgogiad, a chyfansoddir hi o linion ag sydd yn agored i grebychu neu leihau. Gellir adnabod y llinion hyn yn mha le bynag y byddont oddi wrth eu hansawdd grebychol, a chanfyddir hwynt bob amser lle y bydd ysgogiad.

2. Y mae y gymhlethwe ewynol yn feddal, ac yn gyffredin o liw gwyn. Cyfansodda yr ymenydd a'r gewynau; a hi ydyw eisteddle y teimlad.

3. Y gymhlethwe gyssylltiol neu gellog, a elwir hefyd y gymhlethwe yspyngaidd. O holl sylweddau elfenol y corff, y gymhlethwe hon ydyw y fwyaf toreithiog. Ymddengys mai y gymhlethwe hon sydd yn ffurfio cyrff rhai o'r anifeiliaid symlaf eu cyfansoddiad yn gyfangwbl; ac mewn anifeiliaid mwy cymhlethedig eu horganau, y mae yn cyssylltu, ac eto yn cadw ar wahân, yr holl organau, ac yn cyfansoddi rhan helaeth o'u defnydd; a thrwy gael ei dullweddu mewn amryw ffyrdd, y mae yn ffurfio pilenau, yn nghyd âg amryw fathau o gymhlethweoedd ereill; ac oddi mewn iddi yr ymgasgl y brasder bob amser. Dyna ydyw y gymhlethwe hon—

Digitized by Google

sylwedd gwyn, hydwyth, hanner-tryloew, yn gyfansoddedig o linion wedi eu cydblethu, a dalenau (*lamellæ*) bychain wedi eu huno yn afreolaidd, fel ag i adael celloedd rhyngddynt o faintioli gwahanol. Ond y mae ochrau y celloedd hyn yn anghyfan, trwy yr hyn y pasia hylifau neu awyr yn rhwydd o'r naill i'r llall: cedwir y celloedd hyn yn llaith gan hylif dyfrol a lled alwynaidd, a elwir meiddwaed (*serum*).

4. Y mae y gymhlethwe godenog yn gyfansoddedig o gelloedd neu chwysigenau bychain, gydag ochrau gwahanredol, wedi eu cyssylltu wrth eu gilydd, un ai yn uniongyrchol neu ynte trwy offerynoliaeth sylwedd organaidd afluniaidd: bydd y chwysigenau hyn weithiau yn grynion, ac yn llawn o ryw sylwedd neillduol, megys brasder, er esampl; brydiau ereill, canfyddir hwynt yn wastadlyfn, ac wedi sychu i fyny, fel ag i ffurfio cen ar wyneb y croen.

Dysgrifir cymhlethweoedd ereill fel yn gynnwysedig yn nghyfansoddiad cyrff anifeiliaid gan ddifynwyr, megys y pilenau meiddog (*serous*) a llysnafeddog (*mucous*), y gwahanol fathau o'r cymhlethweoedd mânedafeddog (*fibrous*), y madruddion, y cymhlethweoedd esgyrnaidd, &c.; ond yn ol pob ymddangosiad, nid yw yr holl wahanol gymhlethweoedd hyn ond ffurfiau neillduol o'r gymhlethwe godenog neu y gymhlethwe gyssylltiol.

Y cymhlethweoedd hyn, wedi eu cyfuno mewn amrywiol ffyrdd a dulliau, a gyfansoddant y gwahanol organau trwy ba rai yr arfera anifeiliaid eu galluoedd. Cymhwysir y gair *peiriant* (*apparatus*) at gynnulliad o'r organau hyn, a'r gair *swyddogaeth* (*function*) at weithrediad un neu luaws o honynt. Er anghraifft, golyga yr ymadrodd, *peiriant ymsymmudiad*, y cynnulliad o organau, pa beth bynag ydynt, sydd yn angenrheidiol tuag at gyflawnu y *swyddogaeth* o ymsymmudiad, neu ysgogiad o'r naill fan i'r llall.

1. *Meithriniaeth.* Y mae cymhlethweoedd ac organau y cyrff anifeilaidd, pan mewn gweithrediad, yn agored i leihad parhaus mewn sylwedd, yr hwn a adferir iddynt trwy feithriniaeth. Y mae yr ymdreuliad hwn yn cymmeryd lle mewn gwahanol ffyrdd a graddau mewn gwahanol gyfluniadau. Yn y cymhlethweoedd croenol, gwisga yr hen sylwedd ymaith, neu bwrir ef allan i'r arwyneb, tra y chwanegir sylwedd newydd oddi tanodd. Yn y gymhlethwe gyhyrog, ar y llaw arall, dygir hyny yn mlaen trwy weithrediad fferyllol; dygir yn mlaen symmudiad gewyn trwy allu ysgogol, a threulir cyfran o sylwedd yn nghynnyrchiad y gallu hwnw; hyny yw, y mae yn myned dan gyfnewidiad fferyllol; a chan ei fod yn myned, trwy hyn, yn anghymhwys i wasanaeth pellach, symmudir ef trwy sugniad (*absorption*). Y mae swm y sylwedd a gyfnewidir mewn ysbaid penodol o amser, neu mewn geiriau ereill, cyflymder y gweithrediad meithrinol, yn llawer mwy yn yr amgylchiadau hyny lle y mae cynnyrchiad a threuliad nerth na'r amgylchiadau lle nad ydyw y cymhlethweoedd yn gwasanaethu ond dybenion peiriannol yn unig. Fel hyn, mewn clefydau dyhysbyddol, nid ydyw yr esgyrn, y giau, a'r cymmalau, yn treulio yn agos gymmaint a'r gewynau neu y brasder, yr hwn a dreulir trwy anadliad, ac a gynnyrcha wres. Hyd ryw dymmor penodol, bydd cynnydd y sylwedd newydd yn fwy na'r hyn a dreulir, ac fe gynnydda yr holl gorff, yn gystal a'i amrywiol ranau, mewn maintioli a phwysau: dyma ydyw *tyfiant*. Pan y cyrhaeddir addfedrwydd oedran, bydd y cynnydd a'r draul yn gyfartal; ac ar ol hyn, ni chymmer un cynnydd sefydlog le, er fod rhai sylweddau yn y corff, yn neillduol y brasder, yn agored i gryn gyfnewidiadau yn mhob tymmor o fywyd. Wrth ymdrin â'r pwnc o feithriniaeth, ni wnawn ond ystyried yn fyr y modd trwy ba un y tybir y dygir adnewyddiad sylwedd yn mlaen. O'r gwaed y deillia y sylwedd meithrinol yn uniongyrchol, yr hwn a gludir gan y gwaedlestri, ac a nawsia allan o'u canghenau; ac y mae yn anhebgorol yn mhob amgylchiad i'r sylwedd hwn gael ei gludo i'r man y bydd meithriniaeth yn myned yn mlaen ynddo, er nad ydyw yn hanfodol, i'r dyben hwn, i'r gwaedlestri fyned i mewn i'r gymhlethwe. Ond nis gellir dangos mor eglur yn mhob amgylchiad fod meithriniaeth yn cymmeryd lle trwy ymffurfiad ac ymdreuliad parhaus elfenau cyfansoddiadol y cymhlethweoedd; ac ni ddylid anghofio bod modd tybiedig arall trwy ba un y dichon i adnewyddiad sylwedd gael ei ddwyn oddi amgylch, sef trwy gyfnewidiad temigol, yr hwn a adnewydda y sylwedd fesur y gronyn, heb effeithio dim ar y ffurf na'r cyfansoddiad. Y mae rhai wedi tybio y dichon bod y cnewullod a ganfyddir yn mhlith llinion amryw gymhlethweoedd yn gwasanaethu tuag at eu meithrin.

Yn amgylchiad y croen uchaf a'r tyner-groen (*epithelium*), nid oes dim o'r llestri yn myned i mewn i'r gymhlethwe; ond treiddia yr hylif maethol a gludir gan y llestri trwy lwybr penodol i mewn i'r sylwedd tyfadwy, a pharhâ y celloedd i gymmathu (*assimilate*) yr hylif hwn, ac i fyned trwy eu cyfnewidiadau mewn pellder oddi wrth, ac yn annibynol ar, y gwaedlestri. Mewn cymhlethweoedd ereill di-lestri, megys y madruddyn cymmalog, trosglwyddir yr hylif maethol mewn cyffelyb fodd trwy sugniad, lle y cymmathir ef wedi hyny. Nid ydyw y dull yn gwbl wahanol hyd yn oed yn y cymhlethweoedd llestrog: y mae y llestri yn y rhai hyn, y mae yn wir, yma ac acw ar hyd y gymhlethwe, ond nid ydynt yn treiddio i mewn i'w helfenau cyfansoddiadol. Fel hyn, y mae mân lestri y cyhyr yn pasio rhwng ac oddi amgylch i'w linion, ond nid ydynt yn myned i mewn iddynt. Y mae yn rhaid i'r hylif maethol, gan hyny, yn yr achos hwn, yr gystal ag yn y cymhlethweoedd di-lestri, ar ol ymadael o'r llestri, dreiddio i mewn i'r clamp cyfagos trwy drychwysiad, fel ag i gyfranu sylwedd newydd yn mhob man lle y bydd adnewyddiad yn cael ei gario yn mlaen. Fe ellir cymharu llestri cymhlethwe i ffosydd wedi eu gwneyd i gludo dwfr dros wyneb maes, er ei ddyfrhau: megys y treiddia y dwfr i'r gweryd a orwedd rhwng y gwahanol ffosydd, felly y treiddia yr hylif maethol, ar ol dianc trwy ochrau y gwaedlestri, i'r clampiau cyfryngol o gymhlethweoedd a orweddant oddi mewn hyd yn oed i'r rhwydwaith llawnaf o lestri. Dangosasom fod y rhanau adfeiliedig yn y croen uchaf yn cael eu bwrw ymaith trwy yr arwyneb: yn y cymhlethweoedd llestrog, o'r ochr arall, rhaid i'r sylwedd diffrwyth gael ei droi yn gyntaf i sefyllfa hylifol, yna rhaid iddo fyned i'r gwaedlestri, neu i'r dyfrlynolion, gyda'r rhan weddilledig o'r hylif maethol, trwy yr hyn y cludir ef ymaith.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, y mae yn eglur nad ydys wedi profi hyd yn hyn bod y llestri yn cyflawnu un rhan yn y gyfres o gyfnewidiadau a ddysgrifiwyd, oddi eithr y gwaith o gludo sylwedd i'r man ac o'r man y cymmer meithriniaeth le ynddo; ac mai nid y rhan han-

fodol o'r gweithrediad, er ei bod yn angenrheidiol, ydyw y rhan hon. Cyflawnir y gwahanol weithrediadau o gymmathu sylwedd newydd, o'i ddwyn i gyflwr a ffurf organol, ac o ddadgyflunio eilwaith y rhan fydd i'w symmud ymaith, tu allan i'r gwaedlestri. Y mae yn eglur hefyd, er i gymhlethwe fod yn amddifad o waed-lestri, ac er iddi fod mewn pellder oddi wrthynt, y dichon iddi eto fod yn sylwedd organol a bywiol, ac oddi mewn i derfynau y gweithrediad maethrinol.

2. *Adgynnyrchiad.* Pan y collir, neu pan y symmudir, rhan o gymhlethwe ymaith, fe all y golled gael ei gwneyd i fyny trwy adgynnyrchiad rhan newydd o'r un math o gymhlethwe; ond y mae graddau yr adnewyddiad hwn yn dra gwahanol mewn gwahanol gymhlethweoedd. Fel hyn, gall toriad mewn cyhyr gael ei adgyweirio trwy dyfiant rhan newydd o gymhlethwe gellog; ond os collir rhan o'r cyhyr, nid ydyw hyny yn adferadwy. Cymmer adgynnyrchiad le i raddau yn y gewynau; ond cymmer le yn llawer iawn rhwyddach ac i raddau helaethach yn yr esgyrn, ac yn fwy fyth felly mewn cymhlethweoedd llinaidd a chellog. Mor bell ag y mae yn wybyddus, dygir adgynnyrchiad cymhlethwe yn mlaen yn yr un dull ag y ffurfir hi ar y dechreu; gwaeloda dyfrlyn neu linednur deilliedig o'r gwaed fel bywull, ac ymddengys elfenau y gymhlethwe yn hwn yn y modd y dysgrifiwyd eisoes.

CYNNEDDFAU BYWYDOL Y CYMHLETHWEOEDD.

Yn nghyflwr presennol gwybodaeth, nis gellir priodoli llawer o gyfnewidiadau a welir mewn cyrff bywiol i weithrediad dim o'r galluoedd a amlygant eu hunain mewn cyrff anorganaidd; priodolir hwynt gan hyny i alluoedd, teithi, neu gynneddfau, ag sydd, mor bell ag y gwyddys, yn perthyn yn neillduol i gyrff bywiol, a'r rhai a elwir mewn canlyniad yn "gynneddfau bywydol." Gelwir y cynneddfau bywydol hyn i weithrediad gan wahanol achosion, allanol a mewnol, anianyddol, fferyllol, a meddyliol; a'r enw sydd wedi ei roddi ar y cydgasgliad o weithrediadau a ddeilliant oddi wrth yr achosion hyn ydyw "Bywyd." Defnyddir y gair "bywyd" hefyd yn fynych i ddynodi yr egwyddor, y gallu, neu y gweithredydd, yr edrychir arno fel ffynnonell gyffredin pob cynneddfau bywydol, ac achos cyffredin pob gweithrediadau bywydol.

1. *Y gynneddf gymmathol.* Y mae y gynneddf hon yn gyffredinol yn mysg cyrff organaidd. Dyna ydyw y gallu a feddant i droi pob defnydd maethlawn i'r un sylwedd a'u cyrff eu hunain, neu i'w cymmathu. Y mae gweithrediad y gallu hwn i'w weled yn adnewyddiad parhaus elfenau y corff trwy feithriniad, ac yn nghynnydd ac eangiad y sylwedd organaidd, yr hyn a gymmer le mewn tyfiant ac adgynnyrchiad. Mewn gwirionedd, cynnyrcha y gweithrediad o gymmathu ddau effaith gwahanol ar y defnydd a gymmathir: yn gyntaf, ä y sylwedd maethol, yr hwn yn flaenorol fydd mewn cyflwr hylifol neu afluniaidd, i ffurf benodol; ac yn ail, ä dan gyfnewidiad, i raddau mwy neu lai, yn gyffredin, o ran ei deithi fferyllol. Priodolir y cyfnewidiadau hyn i ddau allu gwahanol, a rhydd Schwann yr enw *plastic element* (cynneddf ddelwadol) i'r gynneddf a rydd ffurf organaidd bendant i sylwedd; a chynnygia alw y gynneddf arall—yr hon a adnabyddir yn awr yn gyffredinol wrth yr enw cyfuniad bywydol—*metabolic element* (cynneddf drawsnewidiol).

2. *Ymgrynhoad cyhyrog.* Pan y cyffyrddir â chyhyr, neu â chymhlethwe yn cynnwys llinion cyhyrog, mewn anifail byw, neu anifail newydd farw, â blaen cyllell, fe ymgrynhoa y cyhyr. Gelwir y gynneddf hon o ymgrynhoi mewn canlyniad i ddylanwad achos allanol yn "ymgrynhoad bywydol." Fe all y briodoledd hon gael ei galw i weithrediad trwy lawer o achosion ereill, megys trydan, cymhwysiad disymmwth gwres neu oerni, halen, a gwahanol sylweddau fferyllol o ansawdd ysol; ac mewn lluaws mawr o gyhyrau, trwy weithrediad yr ewyllys, neu trwy gynhyrfiadau meddyliol nas gellir dim wrthynt. Gall y symbyliad gael ei gymhwyso naill ai yn uniongyrchol at y cyhyr, neu ynte at y gewynau fydd yn arwain ato, pa rai a drosglwyddant yr effaith i'r llinion cyhyrog; a thrwy y dull diweddaf y trosglwyddir y symbyliadau gwirfoddol, neu y symbyliadau meddyliol ereill, i'r cyhyrau o'r ymenydd. Heb law hyny, y mae yn bosibl effeithio ar gyhyr nes peri iddo ymgrynhoi trwy gyffwrdd â gewyn na byddo mewn cyssylltiad uniongyrchol âg ef. Yn yr achos hwn, trosglwyddir y symbyliad yn gyntaf gan y gewyn i'r ymenydd, neu i fadruddyn y cefn; yna trosglwyddir ef, yn annibynol ar yr ewyllys, ac hyd yn oed yn ddiarwybod i'r creadur, i un arall o'r gewynau, gan yr hon y cludir ef i'r cyhyr; ac felly, yn y diwedd, cynnyrcha ymgrynhoad cyhyrog.

3. *Teimladrwydd.* Deuwn yn ymwybodol o argraffiadau a wneir ar amryw ranau o'r corff, yn allanol ac yn fewnol, trwy y gynneddf o deimlad; a gelwir y rhanau neu y cymhlethweoedd ar ba rai y teimlir argraffiadau, yn rhanau teimladwy, neu dywedir eu bod yn meddu y briodoledd fywydol o "deimladrwydd." Amlyga y gynneddf hon ei hun i raddau tra gwahanol mewn gwahanol ranau; o'r gwallt a'r ewinedd, y rhai sydd yn wir yn gwbl annheimladwy, hyd flaenau y bysedd—teimladrwydd cryf pa rai sydd yn berffaith wybyddus. Priodoledd ydyw y teimlad ag sydd yn ymddibynu mewn gwirionedd ar yr ymenydd a'r gewynau; ac y mae y gwahanol gymhlethweoedd yn ddyledus am y teimlad y maent yn ei feddu i'r gewynau sydd yn rhedeg trwyddynt. Trwy hyn, collir y teimlad o ranau a wahenir oddi wrth y corff; a gellir ei ddiddymu yn uniongyrchol trwy wahanu neu rwymo y gewyn, fel ag i dori y cyssylltiad a fyddo rhyngddo â'r ymenydd. Ymddengys oddi wrth hyn fod y gewynau yn gwasanaethu er trosglwyddo argraffiadau i'r ymenydd, yr hyn a gynnyrcha deimlad, ac hefyd i drosglwyddo symbyliadau i'r cyhyrau, yr hyn a bâr ysgogiad. Nid ydyw yn annhebygol nad yr un ydyw y gynneddf arweiniol yn y ddau amgylchiad, ac mai ar hyn y dibyna y gwahanol effeithiau—mewn un amgylchiad, cludir yr argraff i fyny i'r ymenydd; ac yn y llall, i lawr i'r gymhlethwe, gan beri iddi ymgrynhoi.

Y GWAED.

Mewn anifeiliaid o'r cyfansoddiadau symlaf, y mae holl hylifau eu cyrff yn gyffelyb i'w gilydd. Ymddengys, yn wir, nad ydynt ond dwfr, yn cynnwys swm penodol o demigau organol; ond nid ydyw yr hylifau o'r un natur mewn anifeiliaid uwch yn ngraddfa bodolaeth. Y mae un o honynt wedi ei fwriadu yn neillduol at feithrin y corff; a'r hylif hwnw ydyw y gwaed. Y mae nid yn unig yn meithrin y corff, ond efe ydyw y ffynnonell o ba un y tardd yr holl ddydolion (*secretions*), megys y poer, y trwnc, y bustl, a'r dagrau.

Digitized by Google

Nodwedd allanol mwyaf tarawiadol y gwaed ydyw ei liw coch adnabyddus, yr hwn sydd yn goch dysglaer yn y rhedwelïau, ond o liw glasgoch tywyll yn y gwythenau. Y mae ychydig yn drymach na dwfr — ei briodbwys (*specific gravity*) ydyw o 10.52 i 10.57; y mae ei flas yn hallt, ac y mae arogl gwan arno. Ymddengys yn unrhywiol (*homogeneous*) i'r llygad noeth; ond pan yr edrychir arno trwy chwyddwydr, gwelir ei fod yn gynnwysedig o hylif tryloew diliw, a elwir "dyfrnaws" (*lymph*), a *liquor sanguinis*, neu *plasma*, yn nghyd â gronynau neu demigau bychain yn nofio ynddo. Y mae y temigau hyn o ddau fath; rhai yn gochion, a rhai yn ddiliw: y rhai blaenaf ydyw y rhai lluosocaf o lawer, ac adnabyddir hwynt er ys llawer o amser wrth yr enw "gronynau cochion" neu "gronellau" (*globules*) y gwaed: am y gronynau diliw neu welw, ar y llaw arall, gan eu bod yn fwy anaml mewn nifer, ac yn fwy aneglur, nid oes ond ychydig flyneddoedd er pan y maent wedi dyfod i sylw cyffredinol ymchwilwyr anianyddol. Pan y gollyngir gwaed o'r gwythenau, ymwahana y *liquor sanguinis* yn ddwy ran— yn llinednur (*fibrin*), yr hwn a galeda; ac yn hylif llwydfelyn, a elwir meiddwaed (*serum*). Wrth galedu, cymmer y llinednur y gronynau i mewn, a ffurfia dolchen goch geuledig, oddi wrth yr hon yr ymwahana y meiddwaed yn raddol.

*Cyfansoddiad fferyllol y gwaed.* Y mae y gwaed i raddau yn alcalaidd. Gellir tynu sur carbonic, a'r nwyau oxygen a nitrogen, allan o hono; ond nid yr un swm a ellir gael o'r elfenau hyn o waed y rhedwelïau ag o waed y gwythenau. Wrth ei darthu, ceir mewn 1000 o ranau o waed, ar gyfartaledd, tua 790 o ddwfr, a 210 o ddefnydd sylweddol. Sicrhawyd trwy ddansoddiad fod gwaed yn meddu yr un cyfansoddiad yn y pen draw a chnawd. Y mae y ffaith hon o ddyddordeb mawr gyda golwg ar y gwasanaeth a gyflawnir gan y gwaed mewn meithriniaeth. Y mae ei gyfansoddiad yn dra amrywiol. Yn ngwaed yr anifail uchaf yn ngraddfa bodolaeth, nyni a ganfyddwn ddwfr, llinednur, alwyn, sylwedd lliwiedig yn cynnwys haiarn; amryw sylweddau brasderog, megys geriflawn (*cholesterine*), &c.; amryw halenau, megys halen cyffredin (*chloride of sodium*), ufelawd gwygnur (*sulphate of potash*), ulyf llysnur (*carbonate of soda*), halnwyaint gwygnur ac ammonia (*hydrochlorates of potash and ammonia*), ulyfau calch a magnesia (*carbonates of lime and magnesia*), ffoddhalion llysnur, calch, a magnesia (*phosphates of soda, lime, and magnesia*); llaethludaint llysnur (*lactate of soda*), a sur carbonic, oxygen, a nitrogen rhydd. Y mae yn dra thebygol fod ynddo sylweddau ereill ag sydd hyd yn hyn heb eu darganfod. Y mae y daflen ganlynol o elfenau cyfansoddiadol y gwaed dynol gwythenol wedi ei chymmeryd o Lecanu (Paris, 1837): —

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oxygen, nitrogen, a sur carbonic, rhydd ... ... ... | | | |
| Sylweddau y gellir eu tynu o hono— ... ... ... ... | | | |
| Sylweddau brasderog; sef, | | | |
| Brasder llosnuredig (*phosphuretted*) ... ... ... | | | |
| Geriflawn (*cholesterine*) ... ... ... ... ... | | | |
| *Seroline* ... ... ... .. ... ... ... ... | | | |
| Surion olewig a pherlig (*oleic and margaric acids*) rhydd | | | |
| Etto, wedi eu cyfuno â llysnur (*soda*) ... ... . | | | |
| Sur olewaidd ysgafn aroglber (wedi ei gyfuno â sawd—*base* | | | |
| Halenau :— | | | |
| Halen cyffredin (*chloride of sodium*) ... ... ... | | 10.98 | Meiddwaed (*serum*) ... 869.15 |
| Llosgnur delwygnur (*chloride of potassium*) ... ... | | | |
| Halnwyaint ammonia (*hydrochlorate of ammonia*) ... | | | |
| Ulyf llysnur (*carbonate of soda*) .. ... ... ... | | | |
| Ulyf calch .. ... ... ... ... ... ... | | | |
| Ulyf magnesia ... ... .. ... ... ... ... | | | |
| Ffoddhal llysnur (*phosphate of soda*) ... .. ... | | | |
| Ffoddhal calch ... ... ... ... ... ... ... | | | |
| Ffoddhal magnesia ... ... ... ... ... ... | | | |
| Llaethludiant llysnur (*lactate of soda*) ... ... ... | | | |
| Sylwedd lliwiol melyn ... ... ... ... ... .. | | | |
| Alwyn (*albumen*) ... ... ... ... ... ... ... | | 67.80 | |
| Dwfr ... ... ... ... ... ... ... .. | | 790.37 | |
| Llinednur (*fibrin*) .. ... .. ... ... ... | | 2.95 | Braswaed (*crassament*) 130.85 |
| Gwaedwyddain (*hæmatin*). | 2.27 | Gronynau (*corpuscles*) 127.90 | |
| Alwyn (crynynain—*globuline*), | 125.63 | | |
| | | | 1000.00 |

Y sylweddau a enwyd fel yn cyfansoddi y gwaed, a gyfansoddant hefyd holl ranau y cyfansoddiad anifeilaidd yn mron; ffurfir sodion (*bases*) amryw o'r cymhlethweoedd gan yr alwyn; y llinednur ydyw rhan gyfansoddol y cyhyrau; ac y mae yr halenau yn gwneyd i fyny rai o elfenau yr esgyrn, ac amryw o wlybyron y corff; ac oddi wrth yr holl ffeithiau sydd yn adnabyddus, gellir penderfynu yn ddiogel fod yr holl ddefnyddiau sydd wedi eu bwriadu i ddyfod yn gnawd, yn fustl, &c., yn bodoli eisoes yn y gwaed, ac nad ydyw yr organau sydd wedi eu trefnu i'w cymhwyso yn gwneyd dim ond eu dydoli o'r gwaed, ac nid eu ffurfio; gan hyny, fe ellir galw y gwaed yn gnawd hylifol. Dichon i gyfartaledd elfenau y gwaed amrywio yn fawr mewn gwahanol anifeiliaid; ac mewn perthynas i'r elfenau sylweddol a hylifol, fe allant amrywio yn yr un anifail ar wahanol amserau.

Y mae ychydig wahaniaeth teilwng o sylw rhwng gwaed y rhedwelïau a gwaed y gwythenau. Y mae agos i ddwy radd (Fahr.) yn gynhesach na gwaed y gwythenau. Pan y dygir gwaed y rhedwelïau i gyffyrddiad â'r awyr a anedlir, neu oxygen, y mae o liw coch llawer mwy dysglaer. Y mae ychydig yn ysgafnach; ac fe geula yn gynt na gwaed y gwythenau.

*Gronynau cochion y gwaed.* Nid yw y rhai hyn yn grynellog o ran eu ffurf, fel y gellid tybio oddi wrth yr enw a roddir arnynt, ond yn fflat neu ar

Digitized by Google

lun clawr (*disk*). Y mae y rhai sydd yn y gwaed dynol o'r bron yn grynion, fel arian bathol; ac arddengys y rhan fwyaf o honynt hefyd bantle bas ar eu dau arwyneb; eu ffurf gyffredin, gan hyny, ydyw cloriau deugeuol (*biconcave discs*). Gellir dyweyd mai eu maintioli cyffredin ydyw o dair milfed a phum cant i dair milfed a dau gant rhan o fodfedd o dryfesur, a thuag un rhan o bedair o hyny o dryfesur.

Mewn adar, ymlusgiaid, a'r rhan luosocaf o bysgod, cloriau hirgrynion, yn codi tua'u canol ar eu dau arwyneb, ydyw y gronynau cochion; ond mewn anifeiliaid bronfaethol yn gyffredin, crynion, fel mewn dyn, ydynt o ran eu ffurf. Gwahaniaetha maintioli y gronynau yn ddirfawr mewn gwahanol rywogaethau o anifeiliaid; y maent yn fwy mewn adar nag mewn tethfilod, ac yn fwyaf oll yn y creaduriaid noeth dwyelfenol —tylwyth y llyffant, er anghraifft. Nid ydyw maintioli gronynau gwaed anifeiliaid yn cyfateb yn gyffredin i faintioli eu cyrff. Y mae yn dra anhawdd deall cyfansoddiad temigau y gwaed yn gywir; ond ymddengys eu bod yn gyfansoddedig o gnewullyn (*nucleus*), â gwisg gyffelyb i chwysigen o'i amgylch. Y mae swm o sylwedd o liw coch, meddalach na'r cnewullyn, o'i gwmpas, yr hwn a leinw y cyfwng rhyngddo ef a'r amwisg. Y mae y cnewullyn yn hytrach yn fwy na'r drydedd ran o hyd y gronynau, o ffurf hirgrwn, ac yn gyfansoddedig o demigau.

*Y gronynau gwelw neu ddiliw.* Y mae y rhai hyn yn anaml mewn nifer mewn cymhariaeth, o ffurf crwn a lled fflat, ac yn hytrach yn fwy na'r rhai cochion. Y maent yn amddifad o liw, yn llyfnion eu harwyneb, ac yn ysgafnach na'r gronynau cochion.


*Liquor sanguinis.* Hwn ydyw yr hylif gloew yn mha un y nofia y gronynau yn naturiol. Ei nodwedd penaf ydyw ei duedd gref i geulo, pan y gollyngir y gwaed o'r gwythenau. Trwy gymhorth chwyddwydr, gwelir mewn *plasma* neu ddyfrnaws (*lymph*) ceuledig, luaws mawr o fân wythenau meinion wedi eu cydblethu yn blithdraphlith, fel darn o frethyn llawban (*felt*). Ffurfir y mân wythenau hyn gan y llinednur (*fibrin*), wrth fel yr ymgaleda yn ngheuliad y *liquor sanguinis*. Gellir rhyddhau gwaed oddi wrth y llinednur trwy ei gynhyrfu â sypyn o frigau, trwy yr hyn y cesglir y llinednur yn nghyd wrth fel yr ymgrynhoa.

*Gwasanaeth y gwaed.* Y gwaed ydyw cynnyrchydd arbenig meithriniaeth, ac adferydd cyffredinol yr hyn a dreulir. Ffurfia hefyd gymhellydd hanfodol i weithrediad y galluoedd bywydol. Trwy golli llawer o waed, nyni a deimlwn ein hunain yn gwanychu, nes y byddom feirw mewn ymddangosiad; ond os trosglwyddir gwaed anifail arall i'r gwythenau cyn i angeu gymmeryd lle, fe adferir y bywyd. Profir pwysigrwydd y gronynau hefyd trwy yr un weithred, o blegid os trosglwyddir meiddwaed pur i'r gwythenau, cymmer angeu le. Cyflawnir gwasanaeth pwysig hefyd gan linednur y gwaed, canys fe brofwyd, pan y trosglwyddir gwaed wedi ei amddifadu o'i linednur i wythenau ci, y bydd marw yr anifail gydag arwyddion (*symptoms*) cyffelyb i arwyddion llechedenau pydrol (*putrid*). Gellir dangos dylanwad y gwaed ar feithriniaeth trwy ollwng y gwaed, i raddau mwy neu lai, o unrhyw organ, yr hon a guria ac a ddcrfydd yn raddol, yn gyfatebol i'r gwaed a ollyngir o honi. Trwy weithredu fel hyn ar yr organau, cyll y gwaed ei deithi meithrinol. Pan yr êl iddynt, bydd yn goch dysglaer o ran ei liw; ond wrth eu gadael, yn goch tywyll, ac wedi colli ei briodoledd o gynnal bywyd. Adferir i'r gwaed hwn ei deithi bywydol trwy ei ddwyn i gyffyrddiad â'r awyr. Anadliad y gelwir y gwaith pwysig hwn. Gwaed rhedwelïol y gelwir y gwaed fyddo wedi bod mewn cyffyrddiad â'r awyr; ac ar ol iddo orphen ei waith yn yr organau, gwaed gwythenol y gelwir ef.

CYLCHREDIAD Y GWAED.

Trosglwyddir y gwaed, oddi wrth ba un y derbyn y cymhlethweoedd eu meithriniaeth, drwy y corff gan bibellau a elwir y gwaed-lestri. Hyrddir ef yn mlaen trwy y pibellau hyn trwy weithrediad y galon, yr hon sydd organ wedi ei dodi yn nghanol cyfundrefn y gwaed. Y mae un dosbarth o lestri, a elwir *rhedwelïau*, yn cludo y gwaed oddi wrth y galon i wahanol ranau y corff; a chludir ef yn ol drachefn i'r galon gan lestri ereill, a elwir *gwythenau*. O ganghenau pellaf y rhedwelïau, â y gwaed i ganghenau dechreuol y gwythenau, trwy basio trwy gyfres o lestri mân ag sydd yn eu cyssylltu, am ba rai y siaredir yn gyffredin fel llestri cyfryngol, a'r rhai a elwir, o herwydd eu bychander, yn wythenau *gwalltaidd* (*capillary*). Gan fod y galon wedi ei gosod fel hyn rhwng terfyniad y gwythenau a dechreuad y rhedwelïau, y mae rhediad y gwaed mewn dyn ac yn yr anifeiliaid perffeithiaf yn gylch cyflawn, gan fod y gwaed yn dychwelyd yn wastadol i'r man y cychwyna o hono. Gan fod yn angenrheidiol i'r gwaed fyned trwy yr organau anadliadol yn yr anifeiliaid perffeithiaf, er mwyn myned dan ddylanwad yr awyr, y mae iddo gylchrediad trwy yr ysgyfaint, yr hwn a elwir yn gylchrediad ysgyfeiniol, yn gystal a thrwy y corff.

*Y galon.* Mewn dyn, a phob anifail o gyfansoddiad cyffelyb, saif y galon rhwng dwy ran yr ysgyfaint, ac yn ngheuedd y ddwyfron, yr hwn




Dar. 252.—Yr ysgyfaint, y galon, a'r prif lestri.


[1, 2. Y glusten a'r boten ddeheu. 3. Y boten aswy. 4. Yr orwythen. 5, 5. Rhedwelïau y gwddf. 6. Y bibell fawr isaf. 7, 7. Gwythenau mawr y gwddf. 8. Y corn chwyth. 9. Rhedweli y fraich. 10, 10. Gwythen y fraich.]

le a elwir gan ddifynwyr y *thorax* (y ddwyfron); y mae ei rhan isaf yn osgoi ychydig tua'r ochr aswy, a thuag allan; ac y mae ei rhan uchaf, o

Digitized by Google


ba le y tardd y llestri mawrion, wedi ei chyssylltu wrth y manau cyfagos, o'r bron yn nghanol (*mesial plane*) y corff. Oddi eithr hyn, y mae y galon oll yn rhydd, ond amgylchir hi gan bilionen a elwir llen y galon (*pericardium*), yr hon a wna ei harwyneb yn llwfn, trwy yr hyn y galluogir hi i ymsymmud yn rhwydd yn y gwagle y mae ynddo; a llithrigir hi yn wastadol gan hylif dyfrol, a elwir *liquor pericardii*. Y mae y galon o ran ffurf, yn gyffredin, yn gyffelyb i gôn neu byramid afreolaidd, â'i fôn yn uchaf; y mae yn mron i gyd yn gnawd, yn geuol, ac mewn dyn o gylch maintioli dwrn. Y mae yn cynnwys pedair o gelloedd; sef y glusten (*auricle*) a'r boten (*ventricle*) ddeheu, a'r glusten a'r boten aswy; dosberthir y rhai hyn oddi wrth eu gilydd gan wahanlen unionsyth (*vertical septum*), yr hon a dyr bob cyssylltiad rhwng celloedd yr ochr ddeheu a chelloedd yr ochr aswy.

Y mae y potenau yn nghŵr isaf y galon, ac yn hollol annibynol ar eu gilydd, ond y mae cyssylltiad rhwng pob un o'r ddwy â'i chlusten gyfatebol. Y mae ceueddau ochr aswy y galon yn cynnwys gwaed rhedweliol; a gwaed gwythenol yn ngheuddau yr ochr ddeheu. Gan na raid i'r clustenau yru y gwaed yn ddim pellach na'r potenau, nid ydynt hwy mor gnawdol eu hochrau a'r olaf; ac o'r potenau, yr un aswy ydyw y gryfaf, gan fod yn rhaid iddi hi yru y gwaed trwy yr holl gorff oddi eithr yr ysgyfaint, tra na raid i'r boten ddeheu ei yru ond yn unig trwy yr ysgyfaint.




Dar. 253.—Rhaniad calon dyn.

1. Y brif wythen uchaf. 2. Rhedweli ysgyfeiniol. 3. Yr orwythen. 4. Rhedweli ysgyfeiniol. 5. Gwythenau ysgyfeiniol. 6. Y glusten aswy. 7. Y clawr meitrog. 8. Y boten aswy. 9. Gwythenau ysgyfeiniol. 10. Y glusten ddeheu. 11. Y clawr triphig (*tricuspid*). 12. Y brif wythen isaf. 13. Y boten ddeheu. 14. Y terfyn. 15. Yr orwythen.




Dar. 254.—Cloriau y galon a'r rhedwelïau.

[Rhan uchaf y galon, heb y clustenau. 1. Agoriad y glusten ddeheu geudodol, yn gauedig gan y clawr triphig. 2. Modrwy linaidd yn amgylchu yr agoriad. 3. Agoriad y glusten aswy geudodol, wedi ei amgylchu gan fodrwy, a'i gau i fyny gan y clawr meitrog. 4. Agoriad yn arwain i'r orwythen o'r boten aswy, yn gauedig gan y cloriau hannercrwn. 5. Agoriad yn arwain i'r rhedweli ysgyfeiniol o'r boten ddeheu, yr hwn hefyd sydd yn meddu tri chlawr hannercrwn.]


*Y gwaedlestri.* Dosberthir y llestri hyn yn rhedwelïau ac yn wythenau. Y maent yn gyfansoddedig o bilenau neu gymhlethweoedd. Y mae y rhedwelïau yn gyfansoddedig o dair—y mae y fewnol, yr hon a ymestyn o bilen fewnol y galon, yn gyffelyb i'r pilenau meiddlyd (*serous*); y mae y gymhlethwe ganol yn llinionaidd a hydwyth; ac y mae yr allanol yn gellog a hydwyth. Y mae llinion (*fibres*) y gymhlethwe ganol wedi eu cyfleu yn gylchau. Nid ydyw y gymhlethwe ganol mor amlwg yn y gwythenau, gan nad ydyw yn gyfansoddedig ond o linion wedi eu cyfleu yn afreolaidd; y mae y rhai hyn yn feddal, yn estynadwy, ac yn hydredol. Fel hyn, y mae teithi anianyddol y gwythenau a'r rhedwelïau yn gwahaniaethu yn fawr. Y mae magwyrydd y gwythenau yn deneuon, pa rai a ymollyngant i'w gilydd pan y bydd y llestri yn weigion; ac iachânt yn rhwydd pan y niweidir hwynt. Erys y rhedwelïau, o'r tu arall, pan y torir hwynt ar eu traws, yn agored; a phan y cânt eu niweidio, ni iachânt mor berffaith a'r gwythenau.

*Y gyfundrefn gylchredol.* Oddi wrth un redweli, a elwir *aorta* (gorwythen), yr hon a gychwyn o boten aswy y galon, y cyfyd holl redwelïau y corff. Eglura y darlun canlynol holl daith yr *aorta*, o'i dechreuad yn y galon, hyd i'w therfyniad; yn nghyd â'r holl ganghenau mawrion a ddeilliant o honi.

Dilynir yr un llwybr yn mron gan y gwythenau, y rhai a gychwynant yn y llestri gwalltaidd (*capillary*), lle y terfyna y rhedwelïau; ond y mae y gwythenau yn lluosocach ac yn fwy arwynebol. Y mae rhai o honynt yn uniongyrchol dan y croen, dilynir cwrs y rhedwelïau gan ereill, a therfynant o'r diwedd mewn dwy wythen fawr, a elwir y *vena cava* fwyaf, a'r *vena cava* leiaf, y rhai a ymwaghânt i boten ddeheu y galon. Arddengys y gwythenau mewnol yr anghyfrediad rhyfeddol hwn—eu bod yn ymuno yn un wythen, yr hon, yn lle ymuno â'r gyfundrefn wythenol, a ä yn uniongyrchol tua'r afu, ac a ymganghena trwy yr organ hono megys rhedweli; ond fe ymuna y gwythenau a adawant yr afu â'r *vena cava*

Digitized by Google

leiaf cyn i'r wythen hono ymwaghau i'r boten ddeheu. Heb law y blaenorol, neu y cylchrediad mwyaf, y mae un arall, sef y cylchrediad lleiaf. Pasia y gwaed gwythenol, a gludir i'r glusten (*auricle*) ddeheu, gan y ddwy wythen fawr (*cavæ*), o'r glusten hon i'r boten ddeheu; a thrwy weithrediad yr olaf, gyrir y gwaed ar hyd y rhedweli ysgyfeiniol i'r ysgyfaint. Gelwir hon yn rhedweli, er na chludir ganddi ond gwaed gwythenol yn unig. Yn y rhan ddeheuol o'r ysgyfaint, ymwahana yn dair canghen; ac yn y rhan aswy, yn ddwy: trwy hyn y mae yn cyfateb i nifer dalenau (*lobes*) y ddwy ran o'r ysgyfaint. Cludir yn ol o'r ysgyfaint gan y gwythenau ysgyfeiniol, fel y gelwir hwynt, yr holl waed a drosglwyddir i'r organau hyn gan y rhedweli ysgyfeiniol. Yn y cyfamser, adnewyddir, awyr-ir, a darparir y gwaed eilwaith tuag at gyflawnu ei wasanaeth o adnewyddu yr organau a chynnal bywyd, yn nghyfundrefn walltaidd (*capillary*) y llestri hyn. O'r glusten aswy, yn yr hon y ter-fyna y gwythenau ysgyfeiniol, pasia y gwaed i'r




Dar. 255.—Ygyfundrefn redweliol.

boten aswy; a thrwy ei gweithrediad nerthol, fe'i gyrir trwy yr orwythen (*aorta*) a'i changhenau i bob rhan o'r corff, a dychwel eilwaith trwy y gwythenau i glusten ddeheu y galon. Fel hyn y cwblheir y cylchrediad dyblyg sydd mewn dyn, mewn anifeil'aid bronfaethol (*mammalia*), ac mewn adar. Ni ddygir y cylchrediad yn mlaen trwy yr un dull mewn ymlusgiaid. Nid oes i'r galon ond tri cheuedd, yn lle pedwar, fel mewn tethogion ac adar; sef, dwy glusten ac un boten. Tywelltir y gwaed gwythenol, a red o wahanol ranau y corff, gan y glusten ddeheu i'r boten, yr hon a dderbyn y gwaed rhedweliol hefyd o'r glusten aswy: dychwelir cyfran o'r gwaed cymmysg hwn i'r ysgyfaint, ac ä y gweddill i feithrin y corff. Gellir dyweyd fod y cylchrediad yn fwy syml fyth mewn pysgod. Nid oes i'r galon ond un boten, ac un glusten. Ni dderbyn y glusten hon ond y gwaed gwythenol yn unig, yr hwn a ddychwel iddi o bob rhan o'r corff. Wedi hyny ä i'r boten o'r hon y cychwyna un redweli, trwy yr hon y trosglwyddir ef yn gyntaf i'r tagellau, ac ymuna y llestri a ddychwelant o'r rhai hyn i ffurfio un redweli (yr orwythen—*aorta*), trwy ganghenau yr hon y cludir y gwaed i bob rhan o'r corff, gan ddychwelyd trwy y gwythenau i'r

Digitized by Google


gollyngant yr oxygen yn rhydd. Trwy hyn, tra y cyflenwir llysiau â charbon gan anifeiliaid, cyflenwir hwythau âg oxygen gan y llysiau.

ORGANAU ANADLIAD.

Y mae amrywiaeth mawr rhwng yr organau hyn mewn gwahanol anifeiliaid. Nid oes un organ anadlu arbenig mewn creaduriaid o gyfansoddiad tra syml. Sugnant hwy yr awyr trwy amwisg gyffredinol eu cyrff; ond y mae organ neillduol at gyflawnu hyn yn yr holl anifeiliaid perffeithiaf. Y mae yr organau hyn wedi eu cyflunio i gyfateb i'r elfen yn mha un y bydd y creaduriaid yn byw. Os yn y dwfr, gelwir yr organau yn dagellau; ac os ar y tir, ysgyfaint. Gwahaniaetha tagellau yn fawr o ran eu ffurf. Y maent yn gyffelyb mewn rhai amgylchiadau i siobynau, o ansawdd feddalach na'r gweddill o'r croen, ac wedi eu cyflenwi yn fwy helaeth â gwaed. Y maent yn debyg mewn ereill i goed bychain neu geinciau gwythenol. Mewn ereill drachefn, y maent wedi eu ffurfio yn blygion pilenaidd bychain, wedi eu trefnu fel dalenau llyfr, neu fel dannedd crib. Y ddiweddaf ydyw ffurf tagellau pysgod yn gyffredinol. Yn yr anifeiliaid israddol, y mae y tagellau wedi eu cyfleu yn benaf o'r tu allan, fel ag i nofio yn rhydd a dirwystr yn y dwfr; tra y maent mewn creaduriaid perffeithiach wedi eu hamgau mewn ceuedd, i ba un y rhed y dwfr yn rhwydd. Mae organau anadliad creaduriaid y tir weithiau yn awyrbibellau (*tracheæ*), ac weithiau yn ysgyfaint. Llestri mewn cymundeb â rhanau allanol y corff yw y *tracheæ* neu yr awyrbibellau, gan ymgeincio yn nyfnder yr organau. Cludant awyr i'r organau hyn; a thrwy hyny, dygir yn mlaen anadliad yn mhob rhan o'r corff. Yn y dull hwn yr anadla trychfilod, a rhai creaduriaid o ddosbarth y pryf copyn (*arachnidæ*). Math o godenau yw yr ysgyfaint, wedi eu dosbarthu i raddau mwy neu lai yn gellau, y rhai a dderbyniant awyr, a magwyrydd pa rai a dramwyir gan lestri yn cynnwys gwaed, yr hwn a adnewyddir yn y dull hwn trwy weithrediad yr awyr. Mewn dyn, megys yn yr holl anifeiliaid o ddosbarth y tethogion, y mae yr ysgyfaint, yr hon sydd yn ddwy ran, wedi ei chyfleu mewn ceuedd, a elwir y ddwyfron (*thorax*), yn y rhan uchaf o'r corff. Y mae yr organ hon megys wedi ei chrogi yn y ceuedd hwn, ac wedi ei hamwisgo â philen neu bilenau (un i bob rhan o honi) teneu, a elwir eisbilenau (*pleuræ*). Y mae dwy ran yr ysgyfaint mewn cymundeb â'r tu allan trwy un awyrbibell (*trachea*), yr hon a red trwy y rhan flaenaf o'r gwddf, ac a egyr yn yr arsefnig (*pharynx*), yn mhen draw y genau. Ymwahana yr awyrbibell yn ddwy gainc, y rhai a elwir brefantosglau (*bronchia*), neu y pibellau chwyth; ac ymganghena y rhai hyn yn nwy ran yr ysgyfaint megys gwreiddiau pren yn y ddaiar, fel y gwelir oddi wrth dar. 256.

Y mae ochr fewnol dwy ran yr ysgyfaint yn cynnwys nifer mawr o gelloedd bychain, i bob un o ba rai y rhed cainc fechan o'r bibell chwyth (*bronchus*) gyfatebol. Y mae magwyr y celloedd a'r awyrbibellau hyn wedi eu leinio â philen dyner a llestrog, ac i'r rhai hyn y mae ceinciau y rhedweli ysgyfeiniol wedi eu dosbarthu; a thrwyddynt hwy, gan mai dyma y gwythenau gwalltaidd, y dygir y gwaed tywyll neu wythenol dan weithrediad yr awyr. Ni threiddia yr awyr, megys awyr, mewn tethogion, un amser tu hwnt i'r celloedd, yn mha rai y terfyna yr awyrbibellau. Mewn adar, pa fodd bynag, egyr rhai o'r awyrbibellau i godenau pilenaidd mawrion, y rhai a gyrhaeddant mor bell a'r aelodau, ac a arweiniant yr awyr hyd yn oed i'r tu mewn i'r esgyrn. Hyn ydyw yr achos fod y dosbarth hwn o greaduriaid yn anadlu yn gyflymach nag un dosbarth arall.

Trwy ysgogiad magwyrydd y ddwyfron, yn y weithred o dynu yr anadl i mewn a'i ollwng allan, llenwir a gwagheir yr ysgyfaint yn barhaus




Dar. 256. Yr ysgyfaint a'r corn chwyth.

[Y mae un rhan o'r ysgyfaint (4) yn gyflawn; a'r rhan arall wedi ei dinystrio er dangos y rhan ddeheu o'r corn chwyth, a'i ganghenau yn yr ysgyfaint. 1. Y brefant, a rhan uchaf y corn chwyth. 2. Y corn chwyth. 3. Canghenau y corn chwyth. 4. Un rhan o'r ysgyfaint. 5. Y mângeinciau brefantaidd.]

o awyr. Y mae y magwyrydd hyn yn symmudol, a phan y lledir hwynt trwy weithrediad y cyhyrau, rhuthra yr awyr, tra yn cael ei ddirwasgu gan bwysau yr awyrgylch, i'r gwagle trwy y ffroenau a'r awyrbibell (*trachea*). Er bwrw allan yr awyr o'r ysgyfaint, nid oes dim yn angenrheidiol ond i'r gweithrediad cyhyrog beidio, pan y sudda magwyrydd y ddwyfron, trwy ddirwasgiad yr awyr allanol, ac y gwasgant yr ysgyfaint chwyddedig nes gyru yr awyr allan. Y mae y weithred yn hollol reddfol, gan y cyflawnir hi yn gyffredin yn annibynol ar yr ewyllys. Nid ydyw y swm o awyr a gymmerir i mewn ar anadliad cyffredin ond tua'r seithfed ran o'r hyn y gall yr ysgyfaint ei gynnwys; cyfrifir ei fod tua'r drydedd ran o chwart. Gwahaniaetha yr ysgogiadau anadliadol yn ol yr oed, yn nghyd âg amgylchiadau ereill: yn yr ieuanc y maent fynychaf; mewn rhai wedi tyfu i fyny i oedran, y canolrif ydyw 16 bob mynyd. Fel hyn, mewn amgylchiadau cyffredin, ä i mewn i ysgyfaint dyn wedi tyfu i fyny tua 5½ chwart o awyr bob mynyd, tua 330 bob awr, a thua 7,920 bob dydd.

GWRES ANIFEILIAID.

Y mae cyssylltiad eglur a diammheuol rhwng cynnyrchiad gwres mewn anifeiliaid a llosgiad bywydol (*vital combustion*), ymuniad oxygen â'r gwaed, a chynnyrchiad nwy sur carbonic. Ymddengys ei fod yn cyfateb i'r swm o oxygen a sugnir i'r cyfansoddiad; gan hyny, mewn adar a thethogion y mae mwyaf o hono. Fel y dywedwyd eisoes, yn ngwythenau gwalltaidd y cyfansoddiad y cynnyrchir y nwy sur carbonic, lle hefyd y try y gwaed rhedwelïol yn waed gwyth-


enol; gan hyny, nid mewn un lle, megys yr ysgyfaint, y cynnyrchir gwres yr anifail, ond yn mhob rhan o'r corff. Y mae yn ymddibynu ar ddyfodiad gwaed rhedweliol ffres; a phan yr attelir neu y lleiheir y cyflenwad o hwn, disgyna y tymmeredd yn uniongyrchol. Er fod cynnyrchiad gwres anifail yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy anadliad, yn gymmaint ag mai yn yr ysgyfaint yr ä yr oxygen i'r gwaed, eto, yn yr anifeiliaid perffeithiaf, dylanwedir ar y cydlosgiad hwn ei hunan gan weithredydd (*agent*) anianyddol arall, sef y gyfundrefn ewynol. Y mae y ffaith hon wedi ei chadarnhau tu hwnt i bob ammheuaeth trwy luaws o brawfiadau, canys effeithia sylweddau gwenwynig, a liniarant weithrediad yr ymenydd a'r gyfundrefn ewynol, yn amlwg iawn ar gynnyrchiad gwres anifeilaidd. Y mae anifeiliaid twym-waed yn meddu y briodoledd o wrthsefyll gwres allanol pan y byddo yn boethach na thymmeredd naturiol eu cyrff; dygir hyn oddi amgylch trwy darthiad oddi ar wyneb y croen allanol, trwy yr hyn y cedwir tymmeredd y corff yn yr un sefyllfa yn mron tua'r cyhydedd ag oddi mewn i'r cylch pegynol.

Gwahaniaetha anifeiliaid i'r fath raddau gyda golwg ar eu galluoedd gwres-gynnyrchol, fel y gelwir rhai o honynt, er eu bod oll yn cynnyrchu gwres i ryw raddau, mewn cymhariaeth i ereill, yn anifeiliaid oer-waed (*cold blooded*). Mewn dyn, gwahaniaetha gwres y croen o 97° i 100° Fahr.; y mae gwres tumewnol y corff bob amser yn 100°. Y mae yn gyffelyb yn y rhan luosocaf o dethogion. Cyfyd y tymmeredd i 108° mewn adar. Yn gyffredin, ceidw adar a thethogion yn yr un tymmeredd yn mhob tymmor o'r flwyddyn ac yn mhob hinsawdd; ond y mae rhai creaduriaid y bydd eu tymmeredd yn gostwng yn y gauaf—y rhai hyn ydyw y creaduriaid gauafol (*hybernating*), megys yr ystlum, y draenog, &c. Yn yr ieuainc, nid ydyw cynnyrchiad y gwres anifeilaidd yn gyfartal i'r hyn a fydd. Y mae babanod newydd eni yn dra agored i annwyd; ac os gadewir cathod bychain a chŵn ieuainc yn yr awyr agored, hyd yn oed yn yr haf, trengant yn fuan.

MEITHRINIAETH.

**Y mae** meithriniaeth a chynnaliaeth creaduriaid bywydol yn gynnwysedig mewn arwain sylweddau allanol i mewn i'r cyfansoddiad, ac mewn cymmathu a chyflunio y sylweddau hyny. Y mae yn mhob anifail byw hefyd fath o losgiad araf yn cael ei ddwyn yn mlaen, yr hyn a bâr ddinystr parhaus i gyfran benodol o sylwedd organaidd. A chan na bydd y sylwedd hwn o un buddioldeb i'r cyfansoddiad, neu fe allai yn niweidiol iddo, bwrir ef allan. Y peth cyntaf sydd yn angenrheidiol tuag at ddwyn yn mlaen y cyfuniad a'r dadgyfuniad gronynol hwn, yn briodol, ydyw y briodoledd o *sugniad* (*absorption*), trwy yr hyn yr attynir y gronynau i mewn i ganol y cymhlethweoedd. Y mae y gynneddf hon gan bob creadur byw. Nid oes gan blanigion ond y briodoledd hon yn unig tuag at arwain i mewn i'w cyfansoddiadau bob sylweddau angenrheidiol er eu meithriniaeth. Mewn anifeiliaid, nid arweinir ond cyfran fechan o'r sylweddau meithrinol yn uniongyrchol i'r cymhlethweoedd; canys y mae yn angenrheidiol i'r gyfran helaethaf o honynt gael eu coethi trwy y weithred o dreuliad, cyn y byddant yn faeth cyfaddas. Trosglwyddir y sylwedd hwn i bob rhan o'r cyfansoddiad, yn benaf trwy gymhorth y peiriant cylchredol, yr hwn a wasanaetha hefyd er cludo y gronynau a fwrir ymaith oddi wrth yr organau. Yr ydys wedi cyfeirio at y cydlosgiad a ddygir yn mlaen tu mewn i gyrff anifeiliaid pan yn ymdrin âg anadliad, pryd y sugnir oxygen yr awyr yn ddibaid, ac y cludir ymaith y sylweddau ysedig trwy yr un gweithrediad. Y weithred wrthgyferbyniol i sugniad ydyw *ymgarthiad*. Trwy ymgarthiad y ceir ymadael â'r sylweddau a fwrir ymaith o'r cymhlethweoedd, ac a fyddant wedi myned yn bethau dyeithrol, mewn ystyr, i'r cyfansoddiad. Gwahaniaetha nodwedd y gweithrediad hwn i gyfateb i amgylchiadau. Pan y dianc yr hylifau, megys mewn dull gallofyddol, gelwir ef yn *darthiad* (*exhalation*); pan y ffurfir hylifau penodol, pa rai a wahaniaethant o ran eu natur oddi wrth yr hylif maethol, trwy fath o weithrediad fferyllol, gelwir ef yn *ddydoliad* (*secretion*). Trwy y ddwy ffordd hon, coetha y cyfansoddiad y nodd[illegible]u angenrheidiol tuag at weithrediad yr holl organau, tra y bwrw ymaith ar yr un pryd bob peth a fyddo yn anfuddiol neu yn niweidiol. Y mae creadigaeth y sylwedd bywiol appwyntiedig i fwyhau y cymhlethweoedd, neu ynte i gymmeryd lle y rhanau a fyddo wedi eu dinystrio, yn weithred ag y dylid bod yn ofalus i'w chadw ar wahân oddi wrth bob un o'r gweithrediadau blaenorol; trwyddi hi y sefydla y cyfansoddiad o'i fewn y sylwedd allanol, y trefna y sylwedd hwn, ac y cyfrana fywyd iddo. Yr enw a ddefnyddir am hyn ydyw *cymmathiad* (*assimilation*). Ystyriwn y gweithrediadau hyn yn fwy manwl yn awr.

1. *Sugniad.* Yr hyn a olygir wrth sugniad ydyw y weithred neu y gynneddf trwy ba un y sugna ac y cymmer anifeiliaid i mewn i'w gwlybyron y sylweddau a'u hamgylchynant. Y mae yn hawdd profi bodolaeth y gyfryw gynneddf. Suddwch lyffant i ddwfr, ond gofaler am fod ei ben allan, fel nad ä dim i'w enau; er hyny, chwi a ganfyddwch fod y creadur wedi trymhau o ran




Dar. 257.

ei bwysau yn mhen ychydig amser. Dichon iddo drymhau un rhan o dair o'i bwysau, ac nis gall hyn gael ei achosi gan ddim ond y dwfr fydd wedi myned i mewn i'w gorff trwy arwyneb y croen trwy sugniad. Os gyrir dwfr i mewn i gylla anifail byw, a sicrhau dau ben yr organ trwy eu rhwymo, ä y dwfr o'r cylla er hyny trwy yr ochrau, a chymmysga â'r gwaed; eto, nid oes yn y cylla na'r pilenau mewnol ddim mandyllau yn arwain yn uniongyrchol i'r gwaed-

Digitized by Google

lestri. Ond y mae hyn yn bod gyda golwg ar holl ranau ereill y corff. Y mae y cymhlethweoedd, mewn cyrff byw yn gystal a meirw, yn sugno hylifau, y rhai a redant ar hyd-ddynt gyda mwy neu lai o rwyddineb. Dibyna sugniad ar hydreiddedd rhanau sylweddol (*solid*) cyrff anifeilaidd. Dibyna hefyd mewn rhan ar attyniad gwalltaidd, ac mewn rhan ar allu a ddarganfyddwyd gan Dutrochet, ac a elwir *trynwyad* (*endosmose*, oddi wrth ἐνδον, tu mewn; ac 'ωσμος, hyrddiad). Os tywelltir dwfr wedi ei gymmysgu â gwm i gwd pilenaidd bychan, a phibell wedi ei sicrhau wrtho, a dodi y cwd mewn dwfr glân, yn ol fel y gwelir oddi wrth y darlun blaenorol, fe welir y dwfr yn cyfodi yn y bibell i gryn uchder. Dyma brawf eglur, gan hyny, o sugniad y dwfr trwy ochrau y cwd. Yn nesaf, gwnewch y prawf mewn dull cwbl groes, trwy lenwi y cwd â dwfr glân, a'i ddodi yn y dwfr a'r gwm, ac fe ymwagha y cwd, yn lle sugno chwaneg, tra y pasia y dwfr trwy ei ochrau mewn cyfeiriad gwrthdröedig. Y mae cyfatebiaeth rhwng y ffaith hon a'r hyn a gymmer le mewn cyrff bywiol, ac y mae yn eglurhad ar hyny mewn rhan; canys pasia yr hylifau allanol puraf yn rhwydd trwy gymhlethweoedd ysbyngaidd cyrff anifeiliaid, tra y mae yn anhawddach i'r sylwedd tewach mewnol basio yn y cyfeiriad cyferbyniol. Hyn ydyw yr achos o'r cydgasgliad mewnol, yr hyn nis gallai gymmeryd lle pe pasiai y ddau hylif gyda'r un rhwyddineb. Cynnrychiolir pob cyrff organaidd gan y cwd pilenaidd yn *dar.* 257. Y maent wedi eu cyfleu yn nghanol elfen mwy hylifol na'r un sydd tu mewn iddynt. Sugnant hi, gan hyny. Mewn rhai creaduriaid, isel yn ngraddfa bywyd, y mae sugniad yn gyfyngedig yn hollol i'r hyn a ddysgrifiwyd. Ond mewn dosbarthiadau uwch, pasia yr hylifau a sugnir i ranau mewnol y llestri, a chludir hwynt gyda'r gwaed i ba ran bynag o'r corff y treiddia yr hylif hwnw. Yn mhob anifeiliaid, y prif weithredydd tuag at drosglwyddo y sylweddau a sugnir ydyw y gwaed, ar yr hwn y gweithreda y galon, i'r hon y trosglwyddir yr hylifau gan y gwythenau. Nid oes ond gwaedlestri yn unig mewn rhai creaduriaid, a chyflawnir y gwasanaeth hwn ganddynt hwy eu hunain. Mewn ereill, yn enwedig y creaduriaid perffeithiaf, y mae dosbarth arall o lestri. Yr enw a roddir ar y rhai hyn ydyw *dyfrlynolion* (*lymphatics*), a chyfansoddant gyfundrefn o lestri, y rhai a elwir yn fwy neillduol yn sugneion (*absorbents*). Dechreuant mewn pibellau tra meinion yn y cymhlethweoedd, a chan ymgasglu i lestri mwy, terfynant o'r diwedd yn y gwythenau. Y mae eu magwyrydd yn dra theneu, a rhed y naill i'r llall yn fynych. Y maent yn rhanedig dros yr holl gorff; a therfynant o'r diwedd mewn un wythen fawr, sef y ddwyfronol (*thoracic duct*); yr hon, gan ddechreu yn y ceudod (*abdomen*), a basia trwy y ddwyfron



Dar. 258.—Pibell y ddwyfron.

[C·uedd y ddwyfron a'r rhan uchaf o'r ceudod wedi eu hagor er dangos y tu cefn.—1. Pibell y ddwyfron, yn gorwedd o'r tu blaen i'r glain cefn, yn ochr y wythen unig (*azygos*). 3. Cychwyniad y bibell hon o'r llestri llaeth, ac o'r dyfrlynolion cyffredin a ddeilliant o giglymau dyfrlynol y ceudod. 4. Terfyniad y bibell yn ngwythen pont yr ysgwydd aswy, yn ymyl ei hymuniad â gwythen aswy y gwddf. 2. Llestri dyfrlynol mawrion yn cyfodi yn ochr ddeheu y pen, ac yn terfynu yn ngwythen pont yr ysgwydd ddeheu, ac yn ngwythen ddeheu y gwddf.]

Digitized by Google

(*thorax*), ac a derfyna yn ngwythen pont yr ysgwydd aswy (*subclavian vein*), yn agos i'w chysylltiad â gwythen y gwddf (*jugular vein*), tu ol i drybedd yr ysgwydd aswy. Ond rhed ereill i wythenau yn eu taith, ac fe ymuna amryw yn yr ochr ddeheu i ffurfio un wythen fawr fer, yr hon a derfyna yn ngwythen pont yr ysgwydd ddeheu. Yn ystod eu taith, rhed y llestri hyn trwy gyrff crynion bychain, a elwir y chwarenau dyfrlynol (*lymphatic glands*); ond y mae dyben y rhai hyn yn anhysbys. Y mae cyflawnder o honynt mewn gwahanol ranau o'r corff, megys y ceseiliau, y morddwydydd, y gwddf, a cheueddau y ceudod a'r ddwyfron. Dyfrlyn (*lymph*) ydyw yr enw sydd wedi ei roddi ar yr hylif sydd yn gynnwysedig yn y llestri hyn; a thrwy drefniant clawrog (*valvular*) o'u mewn, rhed yr hylif hwn mewn un cyfeiriad yn unig, sef tua'r galon. Y mae y dyfrlyn braidd yn felyn o ran ei liw, ac yn dryloew. Trwy gymhorth chwyddwydr, fe ganfyddir globynau crynion diliw ynddo, llai na globynau y gwaed; ac ond ei adael i sefyll, fe ymgeula, ond nid mor berffaith a'r gwaed. Ei ranau cyfansawdd, fel y dangosir trwy ddosraniad fferyllol, ydyw dwfr, alwyn, llinednur, ac amryw halenau. Gellir cael eglurhad ar y sugniad a ddygir yn mlaen gan y llestri a'r gwythenau hyn trwy brawfiadau ar anifeiliaid byw. Trwy agor ceudod anifail tra y byddo treuliant yn cymmeryd lle, gwelir y llaethlestri wedi eu llenwi â hylif o liw melynwyn, a elwir caul (*chyle*); gan hyny, gelwir y gyfran hon o'r gyfundrefn ddyfrlynol yn gyfran laethol. Y mae sugniad yn dibynol ar hydreiddrwydd y gymhlethwe sydd rhwng y sylwedd sydd i'w sugno, a'r hylifau sydd i'w gludo i ben ei daith; a chyfetyb rhwyddineb y gweithrediad i yspyngeiddrwydd a meddalwch y gymhlethwe; yn nghyd âg i'r llestri, canys cyflawna y gwythenau wasanaeth pwysig tuag at ddwyn hyn oddi amgylch. Gan nad oes ond ychydig o lestri yn y croen, a chan ei fod hefyd wedi ei orchuddio â rhisgroen (*epidermis*) anhydraidd yn mron, gellir cyffwrdd â gwenwynau peryglus gyda diogelwch, tra na byddo toriad yn y croen uchaf. Dylanwada cyflwr o lawnder (*plethora*) ar raddau gweithrediad sugniad. Po agosaf fyddo anifail i'r pwynt o nawsiant (*saturation*), lleiaf yn y byd a sugna.

2. *Treuliant.* Y prif fodd trwy ba un y dygir yn mlaen sugniad y defnyddiau angenrheidiol at feithriniaeth anifeiliaid ydyw y llestr, mewn cymundeb â'r rhanau mewnol, i'r hwn y trosglwyddir yr ymborth. Ceir yr ymborth o'r byd anifeilaidd a llysieuol, ac y mae yn ffaith brofedig bod nifer penodol o wahanol ddefnyddiau yn anhebgorol tuag at gynnal bywyd. Os na roddir ond un math o ymborth, megys gwair, gwenith, bresych, &c., i gwningod, er esiampl, byddant feirw yn mhen tua phymtheng niwrnod; tra mai cynnyddu a wnant os rhoddir y pethau hyn iddynt yn gymmysgedig, neu ynte y naill ar ol y llall. Yr ydys wedi cael profion na dderbynir un maeth oddi wrth sylweddau amddifad o nitrogen (megys sugr, gwm, brasder), i ba raddau bynag y cymmysger hwynt. Ymddengys fod rhyw nifer penodol o sylweddau, megys cig anifeiliaid, alwyn, a'r gludain sydd mewn gwenith, yn hanfodol tuag at gynnal bywyd. Gwybyddir am angen ymborth trwy y teimlad poenus a elwir newyn. Gellir lleihau yr angen hwn, a'r teimlad o hono, trwy orphwysdra, cwsg, a thrwy unrhyw beth a ettyl yr ysgogiadau bywydol. Y mae yn bosibl ei gryfhau trwy weithio, a thrwy awyr iach, &c. Ni bydd creaduriaid gaeafol yn ymborthi o gwbl tra y pery eu cysgadrwydd; a gall anifeiliaid oer-waed, megys pysgod a llyffaint, fyw yn hir heb un math o ymborth. Ond trenga dyn, a chreaduriaid twym-waed ereill, yn neillduol yr ieuainc, yn dra buan, os amddifedir hwynt o ymborth. Dyben treuliant ydyw dosbarthu y rhan maethol o'r ymborth oddi wrth y rhan anfaethol, a throi y rhan maethol yn hylif cymhwys i gymmysgu â'r gwaed, fel ag i feithrin y corff. Y mae y gwaith hwn, mewn anifeiliaid, yn cymmeryd lle mewn llestr, o faintioli mwy neu lai, i ba un y derbynir yr ymborth, ac o ba le y bwrir ymaith y rhanau anfaethol o hono. Enw y llestr hwnw ydyw *treulbair.* Mewn rhai anifeiliaid, nid ydyw y llestr hwn ond coden syml, heb ond un fynedfa iddi, trwy ba un y derbynir yr ymborth ac y bwrir allan y rhan anfaethol o hono. Ond, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y mae dau agoriad i'r bibell hon; sef, mynedfa a gollyngfa. Oddi mewn i'r bibell y mae y cylla neu yr ystumog. Y mae y llestr hwn weithiau yn unplyg, megys mewn creaduriaid cigysol; ac weithiau yn bedwarplyg, neu o'r hyn lleiaf yn cynnwys mwy nag un plyg, megys mewn creaduriaid yn byw ar lysiau; o blegid y mae yn rhaid i ymborth llysieuol, gan ei fod yn anhawddach i'w dreulio, aros dros fwy o amser yn y cylla. Y mae holl geuedd y treulbair wedi ei leinio â philionen lysnafeddog. Y mae y bilionen hon yn gyfatebol i'r croen, ond y mae yn wahanol iddo yn ei gwneuthuriad. Y mae yn feddal a chwyddedig, ac yn orchuddiedig gan gymhlethwe a elwir tyner-groen (*epithelium*). Mae yn llestrog ac yn llawn o fân dyllau dydoliadol. O'r tu allan i'r bilionen lysnafeddog y mae amwisg gyhyrog, yr hon sydd wedi ei bwriadu i weithredu ar gynnwysiad y bibell. Y mae y rhan o honi sydd yn y ceudod wedi ei hamwisgo â philionen feiddlyd fawr a thryloew, yr hon a'i ceidw yn ei lle, ac a hyrwydda ei hysgogiadau. Dygir treuliad ymborth yn mlaen yn benaf trwy weithrediad gwahanol wlybyron, y rhai a ymgymmysgant âg ef yn ystod ei daith trwy y bibell faeth (*alimentary canal*). Cynnyrchion chwarenau (*glands*) sydd o gwmpas y llestr treuliadol ydyw y gwlybyron hyn, i ba un y tywalltant eu hylifau neu eu dydoliadau (*secretions*). Y rhai pwysicaf o'r rhai hyn ydyw y chwarenau poerol (*salivary*) a chyllëig (*gastric*), a'r iau a'r cefndedyn (*pancreas*). Er hyrwyddo gweithrediad y gwlybyron treuliadol ar yr ymborth, y mae yn angenrheidiol ei falu. Defnyddia natur amryw ffyrdd er dwyn hyn oddi amgylch. Weithiau, gwesgir yr ymborth rhwng magwyrydd y bibell faeth, a dim ond hyny; mewn creaduriaid ereill, megys adar a chrancod, melir yr ymborth yn fân yn yr ystumog; mewn ereill, megys dyn, gwneir hyny trwy gymhorth y dannedd, y rhai sydd yn y geneu. Dyma y peiriant cnoawl. Ymedy y rhan hylifol o'r ymborth o'r genau, a disgyna yn uniongyrchol i'r ystumog trwy y llwnc a chorn y gwddf. Erys y rhan arall am ychydig amser ynddi, er mwyn myned dan weithrediad y dannedd.

*Y dannedd.* Y mae yr organau hyn yn gyfansoddedig o sylwedd tra chaled, tebyg i asgwrn, ac wedi eu gosod yn gadarn yn y ddwy ên yn y fath fodd fel ag i weithredu y naill ar y llall, neu ar unrhyw beth a ddodir rhyngddynt. Fe ffurfir pob dant mewn llestr pilenaidd bychan sydd yn nhewder yr ên. *Eginyn* y dant y gelwir hwn, a gwasanaetha er ffurfio y dant. Tyfa


Digitized by Google

tuag i fyny yn raddol, a thyr yn y diwedd i'r golwg trwy ymyl yr ên, tra yr erys ei wraidd oddi mewn iddi. Gelwir y rhan o'r dant sydd rhwng ei ran uchaf a'i wraidd yn *wddf.* Cyfansoddir y dannedd o amryw sylweddau. Ifori y gelwir y sylwedd o ba un y ffurfir y rhan fwyaf o'r dant oddi tanodd. Gorchuddir gwyneb uchaf y dant gan sylwedd a elwir emliw (*enamel*). Canfyddir trydydd math o sylwedd weithiau, i'r hwn y mae yr enw o gymrwd (*cement*), neu sylwedd rhisgog (*cortical*), wedi ei roddi. Ni welir hwn yn mron mewn dannedd dynol, ond y mae cyflawnder o hono mewn dannedd ychain. Mewn anifeiliaid nad ydynt yn gwneyd dim â'u dannedd ond sicrhau eu hysglyfaeth, megys y crocodeil, ac amryw ymlusgiaid ereill, y mae yr holl ddannedd yn gyffelyb i'w gilydd, ac ar ddull bachau; ond y mae i ddannedd anifeiliaid sydd yn cnoi eu hymborth wahanol ffurfiau a dybenion. Fel hyn, mewn dyn, ac yn y rhan fwyaf o dethogion (*mammals*), y mae tri math o ddannedd: —1. *Y dannedd tori*, i'r rhai y mae ymyl miniog. 2. *Y dannedd pigyrnol*, y rhai sydd yn uwch na'r dannedd ereill mewn llawer o anifeiliaid: y rhai hyn ydyw y dannedd llygaid. 3. *Y cilddannedd;* gwaith pa rai ydyw malu yr ymborth, fel y gwelir oddi wrth eu harwynebau anwastad. Y mae y dull yn mha un y mae y dannedd hyn



Dar.—259.

wedi eu sicrhau yn yr ên yn gwahaniaethu, yn gystal a'u ffurf, i gyfateb i'w gwahanol ddybenion. Nid oes i'r dannedd tori, gan na fwriedir iddynt hwy wneyd dim ond gwahanu yr ymborth, ond un bôn byr; treiddia y dannedd llygaid yn ddyfnach; ac y mae y cilddannedd, gan fod iddynt waith caletach fyth, wedi eu sicrhau yn y ddwy ên trwy ddau neu dri o fonion. Y mae y fath gyfatebiad rhwng gwneuthuriad y dannedd a'u gwasanaeth, fel y mae yn hawdd, yn gyffredin, dyweyd i ba ddosbarth y perthyna anifail, a pha beth ydyw ei natur, wrth edrych ar ei ddannedd, gan eu bod yn cyfateb o ran eu ffurf ac wedi eu cyfaddasu i'r math o ymborth y mae yn byw arno. Anaml y bydd gan faban newydd eni ddannedd wedi tori allan; ymddangosant yn gyffredin yn mhen o chwech i ddeuddeng mis. *Dannedd llaeth*, neu *ddannedd cwympol*, y gelwir y dannedd cyntaf, gan y bwrir hwynt ymaith i wneyd lle i ereill. Y mae ugain o honynt—deg



Dar. 260.—Cyfran o'r genau a'r gwddf.

yn yr ên isaf a deg yn yr ên uchaf, sef pedwar o ddannedd tori, dau ddant llygad, a phedwar cilddant. Pan y bydd y plentyn tua saith mlwydd oed, dechreua y dannedd hyn gwympo ymaith, a thyf ereill yn eu lle, dyfnach yn yr ên; y mae eu bonion gan hyny yn hirach, ac o blegid hyny wedi eu gosod yn gadarnach. Y mae y rhai hyn yn lluosocach na'r dannedd cyntaf, gan fod deuddeg ar ugain o honynt—un ar bymtheg yn mhob gên; sef pedwar o ddannedd tori; dau ddant llygad; pedwar o gilddannedd bychain, yn meddu dau fôn; a chwech o gilddannedd mawrion tudraw i'r rhai hyn, yn meddu tri o fonion. Mewn henaint, cwympa y dannedd hyn hefyd ymaith, megys y dannedd cyntaf, ond ni thyf ereill yn eu lle. Gosodir y dannedd mewn ysgogiad trwy weithrediad y cyhyrau cnoawl ar yr ên isaf. Ni symmuda yr ên uchaf, yr hon sydd yn rhan sef-

Digitized by Google

ydlog o'r pen mewn bronfaethiaid, ond gyda'r pen yn unig; ond gweithreda yr isaf yn rhwydd a nerthol trwy gymhorth ei chymmalau a lluaws o gyhyrau; a chludir yr ymborth yn y fath fodd, trwy gymhorth y tafod a'r bochau, nes myned yn uniongyrchol dan weithrediad y cilddannedd. Y mae y gwaith hwn yn waith pwysig, o blegid po manaf y cnöir yr ymborth, hawddaf yn y byd y cymmer treuliad le. Pan y bydd yr offerynau hyn yn ddiffygiol mewn creaduriaid ag y gofynir i'w hymborth gael ei falu, cyflawnir hyny trwy foddion ereill. Y mae yr afu glas (*gizzard*), er enghraifft, mewn lluaws o adar, yn ddigon cryf i ateb y dyben hwn.

Tra y bydd yr ymborth yn cael ei falu yn y genau, sugna boer (*saliva*), yr hwn hyd yn oed a'i todda weithiau. Ffurfir y poer mewn tyllau bychain yn mhilionen feiddlyd (*mucous*) y genau, ac mewn chwarenau o gwmpas y tyllau hyn, sydd mewn cymundeb â hwy. Y mae tair o chwarenau poer, y rhai sydd wedi eu cyfleu o gwmpas yr ên, ar bob ochr i'r genau. Gelwir un o honynt yn glyfoeren (*parotid*), ac enwir y ddwy ereill oddi wrth eu sefyllfaoedd, sef dan yr ên (*submaxillary*), a than y tafod (*sublingual*). Trwy i wlybyron y chwarenau hyn gymmysgu â'r ymborth, hyrwyddir y gwaith o gnoi a llyncu, a chynnorthwyir y treuliad. Wedi i'r ymborth gael ei gnoi, cludir ef yn mlaen gan y tafod, a chan basio i'r arsefnig (*pharynx*), gwthir ef yn mlaen trwy y weithred o lyncu trwy y corn gwddf i'r ystumog. Attelir yr ymborth rhag myned i'r bibell wynt gan yr afal brefant (*epiglottis*)—clawr neu dafod bychan madruddog, a wasgir i lawr ar enau y bibell, nes ei chau yn ddiogel, yn ystod mynediad yr ymborth i'r gwddf.

*Yr ystumog.* Llestr pilenaidd, wedi ei ddodi ar groes yn y rhan uchaf o geuedd y ceudod, yw yr ystumog: y mae yn gyffelyb o ran ei ffurf i gódbib (*bagpipe*), y pen lleiaf i'r ochr ddeheu, ac yn mwyhau yn raddol tua'r aswy. Y mae iddi ddwy agorfa; sef y sefnig, yn y camedd aswy neu y camedd mwyaf, trwy yr hon y derbynir yr ymborth; a'r agorfa isaf (*pylorus*), yn y camedd deheu neu y lleiaf, trwy yr hon y gollyngir ymaith ei chynnwysiad. Yn ystod treuliad yr ymborth yn yr ystumog, bydd yr agorfa isaf yn gauedig; ond ymegyr ar ol hyny er gollwng y maethsudd (*chyme*) i'r coluddion (*intestines*). Oddi mewn i'r ystumog, ar yr ochr uchaf, y mae lluaws mawr o dyllau mân, a elwir cibau (*follicles*), y rhai a dywalltant yr hylif a gesglir ganddynt ar yr ymborth. Dyma yw sudd y cylla (*gastric juice*)—y pwysicaf o holl weithredyddion treuliant, o blegid trwyddo ef y tröir yr ymborth yn faethsudd. Pan y bydd yr ystumog yn wag, ni ddydolir (*secrete*) ond ychydig iawn o'r sudd hwn; ond pan yn llawn o ymborth, yn enwedig os bydd yn ymborth sylweddol, dydolir cyflawnder o hono. Cedwir yr ymborth yn yr ystumog am ysbaid o amser trwy ymgauad y sefnig a'r agorfa isaf, a bydd wedi ei gasglu yn benaf i'r camedd mwyaf. Sugnir peth o'i chynnwysiad, megys dwfr, a hylifau ereill, gan fagwyrydd (*walls*) yr ystumog ei hun, ac ânt felly i'r gwaed heb un cyfnewidiad pellach. Pasia rhanau ereill trwy yr agorfa isaf yn ddigyfnewidiad, a diangant ymaith gyda'r ysgarthion; ond ä y rhan fwyaf dan weithrediad treuliant, trwy yr hyn y trawsffurfir ef yn sylwedd llwyd, meddal, tyner, a elwir maethsudd. Cynnyrchir y cyfnewidiad hwn trwy weithrediad sudd y cylla ar yr ymborth. A y sudd i wrthdarawiad yn gyntaf oll â'r gronynau arwynebol; ac yn raddol, treiddia trwy y cyfan. Tra y bydd hyn yn myned yn mlaen, bydd llinion cylchog yr ystumog mewn gwaith, gan wthio yr ymborth o'r ochr ddeheu i'r aswy, ac yn mlaen tua'r agorfa isaf, trwy yr hyn yr ä y maethsudd yn mlaen i'r coluddyn bychan. Yr enw a roddir ar y gweithrediad hwn ydyw ysgogiad nydd-droawl (*peristaltic*) yr ystumog.

*Y coluddion.* Y gyfran o'r bibell faeth a ddilyna yn uniongyrchol ydyw y coluddion. Y mae y coluddion, mewn dyn, tua saith gwaith gymmaint a hyd ei gorff. Y maent yn fyrach mewn creaduriaid cigysol hollol, ac yn hirach mewn anifeiliaid yn byw yn hollol ar lysiau, nag mewn dyn, yr hwn a gyfrifir yn anifail ollysol (*omnivorous*), neu yn anifail a all fwyta pob ymborth yn ddiwahaniaeth. Y rheswm a roddir dros y gwahaniaeth yw, fod ymborth llysieuol yn llawer anhawddach i'w dreulio na chig ymborth. Dosrenir y coluddion yn ddau fath, sef y coluddyn mawr a'r coluddyn bychan. Ad-ddosberthir y blaenaf yn dri—y coluddyn deuddeg modfedd (*duodenum*), y coluddyn gwag (*jejunum*), a'r *ileum*, sef y rhan sydd yn terfynu yn ymyl yr agorfa isaf. Dilyna y coluddyn bychan yn uniongyrchol o'r ystumog, ac ynddo ef y cwblheir y treuliant. Ffurfia tua'r bedwaredd ran o holl hyd y coluddion. Y mae llyfnder yr arwyneb allanol yn ddyledus i'r fraslen (*peritoneum*) sydd yn wisg am danynt, yr hon a wasanaetha hefyd i'w cynnal; ac y mae ar du mewnol eu pilen feiddlyd nifer o godenau a chwarenau bychain. Y mae ynddynt hefyd lawer o blygion terfynol, yn taflu i mewn i ranau mewnol y pibellau; tybir mai eu hamcan ydyw attal y sylwedd maethlon i raddau yn ei fynediad, fel ag i roddi amser i'r defnydd llaethog i dreiddio yn fwy llwyr i'r cyfansoddiad. Ystyrir mai y codenau (*villosities*) ydyw y moddion trwy ba rai y cymmer y treiddiad hwn le. Cymmysga y sylweddau maethlon a änt i'r coluddyn bychan â'r hylifau a ddydolir gan ei fagwyrydd, ac â dau fath arbenig o hylif (y bustl a'r sudd cefndedynol) a ddydolir gan yr iau a'r cefndedyn (*pancreas*)—dwy organ chwarenol sydd yn agos i'r coluddion.

*Yr iau.* Yr organ sydd yn dydoli y bustl yw y darn mwyaf o holl ymysgaroedd y corff, a phwysa o dri i bedwar pwys. Y mae wedi ei dodi yn y rhan uchaf o'r ceudod, yn yr ochr ddeheu, ac ymestyna i lawr hyd ymyl isaf yr asenau. Y mae ei harwyneb uchaf yn argrwm, a'r isaf yn argeuol ac anwastad, yn gyssylltiedig â pha un y mae chwysigen y bustl. Lliw yr iau ydyw coch gwineu; y mae ei sylwedd yn feddal, ond eto yn gryno (*compact*); a phan y rhwygir hi, ymddengys ei bod yn ffurfiedig o gydgasgliad o ronynau bychain, yn mha un y mae cyflawnder o lestri gwaed, ac o ba un y cychwyna pibellau arllwysol y bustl. Ymuna y pibellau hyn fel ag i ffurfio rhai mwy a llai yn olynol, hyd nes y terfynant mewn un bibell, yr hon, ar ol dilyn cwrs penodol, a derfyna yn y coluddyn deuddeng modfedd (*duodenum*), yn agos i agorfa isaf yr ystumog. Y mae cymundeb rhwng y bibell hon a chwysigen y bustl trwy bibell fer arall, a elwir crawn bibell (*cystic duct*), a thrwy gymhorth pa un y cedwir hi yn llawn o'r hylif bustlog. Fe wasanaetha chwysigen y bustl er diogelu cymmaint o'r hylif hwn ag na bydd ei eisieu yn uniongyrchol tuag at dreuliant yr ymborth, megys mewn cronfa. Hylif tew ydyw y bustl, gwyrdd o ran ei liw, llinynog, ac y mae yn dra chwerw.

Digitized by Google


Y mae bob amser yn alcalïaidd, ac y mae cyfatebiaeth cryf rhyngddo a sebon.

*Y cefndedyn* (*pancreas*). Chwaren (*gland*) hir, gul, wastad (*flat*), yn gorwedd yn ddwfn yn ngheuedd y ceudod, yn union tu ol i'r ystumog, ydyw y cefndedyn. Mae yn gyffredin o chwech i wyth modfedd o hyd, tua modfedd a hanner o led, ac o hanner modfedd i fodfedd o drwch, a phwysa o ddwy wns a hanner i dair wns a hanner. Swp o sylwedd gronynog ydyw, wedi ei ranu yn ddalenau ac yn llabedau bychain, durfing o ran cyfansoddiad, ac o liw llwyd. Cyfyd pibell fechan o bob un o'r rhaniadau, ac ymuna y pibellau bychain â'u gilydd nes ffurfio pibell fawr, yr hon a red i'r coluddyn deuddeng modfedd yn union yn ymyl ymarllwysiad pibell y bustl. Fel hyn, y mae yn gyffelyb i chwarenau y poer yn ei wneuthuriad. Y mae yr hylif a ddydolir ganddo yn dra thebyg i aiiw, neu boer, yn anianyddol a fferyllol; ond, yn chwanegol at hyny, ymuna yn rhwydd â sylweddau breision nes ffurfio sylwedd llaethlyd (*emulsion*).

*Y ddueg* (*spleen*). Ermig ydyw y ddueg sydd yn ymyl gwaelod aswy, neu y rhan agosaf i'r galon, o'r ystumog, a ddiogelir gan yr asenau. Mae yn feddal, yn llawn llestri, o liw llwyd-dywyll, o ffurf afreolaidd, ac yn pwyso o bump i saith wns. Nid oes iddi bibell arllwysol, ac y mae ei defnyddioldeb yn anhysbys; ond ystyrir fod ganddi ryw ran yn ngwneuthuriad y gwaed, neu ynte fod rhyw gyfnewidiadau yn cymmeryd lle yn yr hylif hwnw tra yn myned trwy yr organ hon. Gan hyny, rhestrir hi gan ddifynwyr fel chwaren lestrog neu chwaren waed.

*Ffurfiad y caul neu y sylwedd llaethog* (*chyle*). Fel y sylwyd eisoes, ä y maethsudd a ffurfir yn yr ystumog i mewn i'r coluddion trwy y gyllisgeg isaf (*pylorus*), a phasia trwy y coluddion trwy ei ysgogiad nydd-droawl. Yn ystod ei daith, ymgymmysga â'r bustl, sudd y cefndedyn, a dydoliadau ymysgarol ereill, a chyfnewidia yn raddol o ran ei deithi; ä yn chwerw, yn felyn, yn llai-lai egr, yna yn alcalïaidd; gweithredir yn awr ar y sylweddau sythol (*starchy*) a brasderog, y

Y rafu. Y gyllisgeg. Y sefnig. Y cefndedyn. Y cylla.




Dar. 261.—Y peiriant treuliadol.


rhai a wrthodent weithrediad sudd y cylla, gan y bustl a sudd y cefndedyn; a rhyddheir amryw nwyau a chwyddent y coluddion o grynswth y sylwedd maethlawn. Yn ddiweddaf, sugnir y rhanau mwyaf hylifol o'r maeth gan y llaethlestri (*lacteals*), y rhai a leihant mewn nifer tua'r rhan isaf: pâr hyn i'r clamp o sylwedd a ffurfir gan weddillion y maethsudd, y bustl, a'r gwlybyroedd ereill a grybwyllwyd, dewychu, a throi yn wineu o ran ei liw; yr hwn, wedi hyny, a drosglwyddir i'r coluddyn mawr. Y mae yn angenrheidiol i'r clamp o sylwedd hwn, pa un sydd yn gynnwysedig yn benaf o ddefnyddiau ymborthol nas gellir eu treulio, gael ei fwrw allan o'r corff; ac i'r dyben hwn, cesglir ef yn nghyd i'r coluddyn mawr.

*Y coluddyn mawr.* Parhad ydyw hwn o'r coluddyn bychan, a rhenir ef yn dri darn, sef y coluddyn dall (*cæcum*), y coluddyn syth (*colon*), a'r herwth (*rectum*). Ymestyna y coluddyn dall, yr hwn sydd uwch ben y forddwyd (*groin*) ddeheu, hyd nes yr ä yn gwdyn cauedig, ychydig is law i'r lle yr ymuna y coluddyn bychan â'r coluddyn mawr. Y mae clawr (*valve*) perffaith, o amryw blygion, wedi ei osod yn yr ymuniad hwn, er attal y sylwedd a drosglwyddir o'r coluddyn bychan i'r coluddyn mawr rhag dychwelyd yn ol. Rhed y coluddyn syth (*colon*) ar draws y ceudod, yn union o dan yr ystumog, nes cyrhaedd i'r ochr aswy; a chan ddisgyn, ymuna â'r herwth (*rectum*). Terfyna yr herwth yn yr *anus*. Erys y sylwedd gweddilliedig, a drosglwyddir i'r herwth o'r coluddyn dall a'r coluddyn syth, yn y bibell hono am ychydig o amser. Bydd wedi

Digitized by Google

myned erbyn hyn yn lled dew; a bydd arogl arbenig arno, yr hyn a gynnyrchir gan yr hydrogen carbonedig a sulphuredig a gyfyd oddi wrtho. Yn yr *anus*, amgylchynir agorfa yr ymysgaroedd gan linion (*fibres*) cigog, y rhai a ffurfiant y tyngyhyr (*sphincter*). Y mae hwn ar waith yn wastadol; a thrwy hyny, diogela gynnwysiad yr herwth hyd amser penodol. Dygir yn mlaen y weithred o ymadael âg ef yn benaf trwy weithrediad cyhyrog yr ymysgaroedd eu hunain, ond derbyniant gymhorth y llengig (*diaphragm*), a chyhyrau y ceudod a'r *anus*.

Rhaid i'r sylwedd maethol a ddydolir o'r ymborth fyned i'r gwaed, yr hwn hylif y mae wedi ei fwriadu i'w adnewyddu. Sugnir rhai o'r hylifau a'r sylweddau toddadwy a drosglwyddir i'r ystumog a'r coluddion yn uniongyrchol gan y gwythenau—lluaws mawr o ba rai sydd yn magwyrydd yr organau hyn; ond y mae y rhan fwyaf o'r llinednur (*fibrin*), a'r sylweddau brasderog a ffurfiant y caul (*chyle*), yn dilyn llwybr gwahanol, ac yn treiddio i gyfundrefn arall o y llestri hyn, y rhai a elwir y llestri llaethol (*lacteals*), yn ffurfio cyfran o gyfundrefn y llestri sugnol neu ddyfrlynol (*lymphatic*). Tarddant o godenau pilionen feiddlyd y coluddyn bychan, ymunant yn geinciau neu yn llestri unigol; ac yn ystod eu taith tua rhedweli y ddwyfron, pasiant trwy giglymau (*ganglions*) a berthynant i'r cefndedyn (*mesenteric*). Cludir y maethsudd a ffurfir fel hyn trwy redweli y ddwyfron i wythen pont yr ysgwydd ddeheu (*subclavian vein*). Fe ymddengys fod sugniad y maethsudd yn cymmeryd lle yn benaf trwy y codenau (*villosities*); o blegid mor fuan ag y dechreua hyn gymmeryd lle, chwydda y codenau yn gyffelyb i yspwng wedi ei lenwi â llaeth. Amrywia y maethsudd mewn ymddangosiad, yn ol yr anifail, a'r math o ymborth a fyddo wedi ei gymmeryd. Mewn dyn, y mae o liw gwyn fel llaeth, o arogl neillduol, ac yn hallt o ran ei flas. Trwy edrych arno gyda chwyddwydr, ymddengys ei fod yn gyfansoddedig o hylif meiddlyd, yn cynnwys dyferion brasderog a gronynau crynion. Y mae y maethsudd




Dar. 262.—Y llestri sydd yn casglu ac yn cludo y caul.

sylweddau brasderog yn oleuach ei liw na'r hyn a gynnyrchir gan ymborth yn cynnwys yr elfenau hyny.

*Tarthiad a dydoliad.* Gan fod y sylwedd maethol wedi ei ddosbarthu fel hyn i bob rhan o'r corff trwy gymhorth y gwaed, y mae yn angenrheidiol ymofyn pa fodd y dianc y sylwedd allan o hono. Cymmer hyn le trwy ddwy ffordd, sef tarthiad a dydoliad (*exhalation and secretion*). Y mae y weithred gyntaf o'r bron yn weithred anianyddol; trwy yr ail, dosberthir a deolir y sylweddau mewn trefn i'w bwrw allan o'r corff. Cwblheir hyn gan yr organau dydoliadol. Y mae yr un berthynas rhwng y weithred hon a tharthiad ag sydd rhwng treuliant a sychiant. Dibyna tarthiad ar hydreiddedd magwyrydd y llestri gwaed i hylifau. Yn y dull hwn, gall y dwfr, y nwyau, a rhanau teneuaf y gwaed yn gyffredinol, ddianc trwy y magwyrydd hyn; ond diogelant y gronynau a rhanau dwysaf y gwaed. Mewn gwirionedd, gweithred wrthgyferbyniol ydyw i anadliad. Y mae yn myned yn mlaen yn barhaus ar arwyneb y corff a'r ysgyfaint fel trydarthiad (*transpiration*) annheimladwy, yr hwn sydd i'w gadw ar wahân oddi wrth chwysiad. Ystyrir fod pum rhan o wyth o'r hyn a gyll dyn o'i sylwedd yn ddyddiol yn dianc ymaith trwy drydarthiad annheimladwy. Y mae tarthiad mewnol yn myned yn mlaen yn barhaus hefyd trwy gymhorth y pilenau meiddlyd sydd tu mewn i geueddau mawrion y corff. Y mae hwn yn gynnwysedig o ddwfr ac ychydig halenau, yn gymmysgedig âg ychydig sylwedd anifeilaidd. Pan yr attelir y tarthiad mewnol hwn, ymgasgla yr hylif, a'r canlyniad fydd dyfrglwyf (*dropsy*).

Gwlybyron wedi eu ffurfio o'r gwaed, gan organau priodol at hyny, ydyw y dydoliadau (*secretions*). Gallant gael eu ffurfio ar arwyneb pilenau, megys ar y croen a'r pilenau llysnafeddog; ond canfyddir hwynt yn benaf mewn cyssylltiad â chwarenau, adeiladwaith hanfodol pa rai a ymddengys fel yn gynnwysedig mewn ceueddau bychain, neu gydau, neu bibellau tra meinion, a'r rhai hyn yn derbyn gwaedlestri a gewynau. Cymmer y rhai diweddaf ran helaeth

yn y weithred o ddydoliad. Gellir dosbarthu y chwarenau gyda golwg ar eu gwneuthuriad i ddau fath; naill ai cydau neu geueddau bychain, gyda safnau mwy neu lai agored, neu bibellau tra meinion. Y mae y rhai hyn oll yn y cyfluniadau (*structures*) chwarenol, naill ai wedi eu pentyru yn nghyd i ffurfio organ yn meddu dim ond un bibell i drosglwyddo y dydoliad; neu ynte yn gelloedd neu godenau bychain, ar eu penau eu hunain, megys eu gwelir ar ochrau allanol y pilenau llysnafeddog. Y mae yr organau dydoliadol wedi eu cyfleu yn wastadol ar ffurf pilenau—un wyneb o ba rai a wlychir gan yr hylif maethol, tra yr erys y wyneb arall, yr hwn a ffurfia ochr fewnol y ceuedd, yn rhydd oddi wrtho. Cyflawna y wyneb hwn, mewn ystyr, y swydd o hidlo (*filter*), gan attal pob sylweddau ond y rhai priodol rhag pasio o'r gwaedlestri i'r bibell ddydoliadol. Nid oes un berthynas ganfyddadwy rhwng natur yr hylif a'r chwaren a'i dydola, ac nid oes dim yn benderfynol wybyddus am natur y briodoledd ddydoliadol, ond y mae yn sicr fod gweithrediad y gyfundrefn ewynol yn effeithio yn fawr arni; canys pan wahenir gewynau yr ystumog mewn anifail byw, attelir dydoliad sudd y cylla. Gwahaniaetha y dydoliadau y naill oddi wrth y llall; ac hefyd oddi wrth y gwaed, o ba un y ffurfir hwynt, trwy eu bod yn cynnwys sylweddau mewn cyflawnder na cheir ond ychydig o honynt yn y gwaed. Y mae yn debygol yn mhob amgylchiad fod y sylwedd dydoliadol yn bod yn y gwaed fyddo wedi ei ffurfio eisoes. Nis gellid darganfod *urea*, sef gwaddod golch, yn y gwaed; gan hyny, tybid mai yn a chan yr elwlenau y ffurfid ef;




Dar. 263.—Gwneuthuriad yr elwlenau.

[A. Cyfran o un o'r elwlenau.—*a.* Sylwedd rhisgog (*cortical*). *b.* Sylwedd pibellog. *c.* Y blodeugib (*calyx*) a'r isgeudod (*pelvis*). *d.* Pibell y rhed y dwfr trwyddi i'r chwysigen, sef yr *ureter*.
B. Gwneuthuriad mewnol y rhan hon.—*a.* Cyfran derfynol pibellau y trwnc. *b.* Cyfran fêrol yr un pibellau. *c.* Eu terfyniad yn y blodeugib.]

ond os distrywir yr ermigau hyn mewn anifail byw, neu os symmudir hwynt ymaith, ffurfir y sylwedd crybwylledig yn mhen amser penodol yn y gwaed, yr hyn a brawf yn eglur mai nid gwaith yr elwlenau ydyw ei ffurfio.


Y mae yn angenrheidiol cyfeirio yn y fan hon at y dydoliad dyfrol (*urinary secretion*), fel un o'r rhai pwysicaf yn y cyfansoddiad, mewn trefn i ddysgrifio difyniaeth ei organau dydoliadol, sef yr elwlenau. Dwy chwaren fawr, wedi eu cyfleu yn y ceudod, ar bob ochr i asgwrn y cefn, ac yn gyffredin wedi eu hamgylchu gan frasder, ydyw yr elwlenau. O ran eu lliw, coch tywyll ydynt, a thebygant yn eu ffurf i ffäen Ffrengig. Y maent yn gyfansoddedig yn benaf o bibellau dydoliadol. Yn ochrau allanol yr organau, y mae y pibellau hyn wedi eu tyru yn nghyd a'u rholio ar eu gilydd, wedi hyny änt yn mlaen trwy ranau mewnol yr organau, a therfynant yn y *calyx*, neu y dderbynfa. Dydolir y dwfr yn yr ochrau allanol; wedi hyny disgyna trwy y rhan bibellog neu fewnol i'r derbynfeydd (*calices*), ac oddi yno i ran isaf (*pelvis*) yr elwlen; terfyna y rhan hon yn y droethell (*ureter*)—pibell hir trwy yr hon y rhed y dwfr i'r chwysigen. Saif y chwysigen yn rhan isaf y ceudod. Ffurfir hi yn fewnol gan bilen lysnafeddog, ac yn allanol gan amwisg gyhyrog a chellog. Gorchuddir rhan o honi hefyd, a chryfheir hi, gan y llengig. Terfyna yn is i lawr yn y droethawell (*urethra*)—y bibell trwy ba un y rhed y dwfr allan o'r corff. Hylif sur melyn ydyw yr hylif hwn, yn gyfansoddedig o tua 93 rhan o 100 o ddwfr, 3 rhan o sylwedd a elwir *urea*, a chyfran fechan o sur troethig (*uric*), a sur llaethig (*lactic*), yn nghyd âg amryw halenau. Y mae yn eithaf hysbys pa mor gyflym yr ä amryw ddiodydd o'r ystumog i'r chwysigen, ac oddi yno trwy bibell y dwfr, ac allan; eto, y mae yn berffaith wybyddus y rhaid i'r hylifau yn gyntaf oll ymgymmysgu â'r gwaed, yr hwn a'u trosglwydda i waedlestri yr elwlenau, lle y dydolir hwynt gan bibellau dydoliadol yr organau hyny. Dianga yr hylifau a gymmerir i'r ystumog, yn neillduol dwfr, un ai trwy darthiad ysgyfeiniol neu groenol, neu ynte trwy yr elwlenau fel trwnc. Chwanegir tarthiad y croen trwy wres; a chwanegir y trwnc trwy oerni. Ymgasgla amryw fathau o waddodion yn mhibellau y trwnc. Gelwir y rhai hyn yn graianwst (*gravel*). Dechreua y gwaddodion hyn yn gyffredin, os nad bob amser, yn yr elwlenau. Disgynant i'r chwysigen, cynnyddant (os na chânt eu cludo ymaith yn flaenorol trwy bibell y dwfr) i faintioli a berygla y bywyd, os na lwyddir i'w cael allan trwy weithred lawfeddygol.

CYMMATHIAD A DADANSODDIAD MEITHRINOL.

*Cymmathiad* (*assimilation*). Y mae dau amcan i'r sylweddau a gymmerir i mewn i'r cyfansoddiad anifeilaidd. Gwasanaethant er ffurfio gwahanol ranau y corff, ac er cynnal y cydlosgiad anadliadol sydd yn myned yn mlaen yn barhaus yn rhanau mewnol pob anifail tra y byddo bywyd ynddo. Y mae yn rhaid i'r sylweddau maethol gynnwys yr holl elfenau angenrheidiol er cynnal y corff; o blegid nis gall anifeiliaid na llysiau, o honynt eu hunain, ffurfio dim o'r sylweddau syml o ba rai y mae eu cyrff yn gyfansoddedig. Prif ddefnyddiau y peirianwaith ydyw carbon, nitrogen, hydrogen, ac oxygen; ond y mae sulphur, phosphorus, calch, &c., yn angenrheidiol; a chan nad ydyw anifeiliaid yn meddu gallu i benderfynu cyfuniad yr amrywiol elfenau hyn, fel ag i gynnyrchu yr amrywiol ddefnyddiau cyfansawdd o ba rai y ffurfir y peirianwaith, y mae yn rhaid bod yr elfenau hyn wedi eu cyfuno cyn eu cymmeryd i'r cyfansoddiad, fel ag i ffurfio elfenau cyfluniadwy neu sylweddau bywadwy. Ni chymmer hyn le ond yn unig trwy ddylanwad bywyd; canys y deyrnas lysieuol sydd yn cyflenwi cyrff anifeilaidd, yn

Digitized by Google

uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, â charbon a nitrogen, yn gystal a chyfran bennodol o hydrogen ac oxygen. Dwfr sydd yn cyflenwi y rhan fwyaf o'r hydrogen a'r oxygen angenrheidiol. O'r deyrnas fwnawl yn uniongyrchol y deillia calch, ac amryw sylweddau mwnawl eraill. Cyn y byddant yn gyfaddas at feithriniaeth, rhaid i bob sylweddau gael eu dwyn i ffurf hylifau neu nwyau. Hyn ydyw dyben treuliad; a thrwy y llwybr hwn yn benaf y trosglwyddir y sylwedd sydd wedi ei fwriadu at ddwyn yn mlaen feithriniaeth i ranau mewnol y corff. Ymgymmysga yr elfenau meithrinol hyn yn gyntaf oll â'r gwaed. Deua yr hylif hwn, trwy ryw foddion nad ydys wedi eu darganfod etto, yn llawn o'r holl elfenau cyfansawdd, o ba rai y ffurfir yn eu tro y cymmhlethweoedd; ac o'r hylif hwn y cymmer holl ermigau y corff y defnyddiau cyfaddas at eu tyfiant a'u cynnaliaeth—pob un yn sugno y rhai a gyfatebant i'w natur ei hun. Y weithred ddi-




Dar. 264.—Cyfundrefn y gewynau. Gwel td. 98.

[*a.* Yr ymenydd. *b.* Yr ymenydd bychan, neu y gorymenydd. *c.* Madruddyn y cefn. *d.* Gewyn y wyneb. *e.* Plygion gewynol y fraich, y rhai a gynnyrchir trwy ymuniad amryw o'r gewynau a redant o fadruddyn y cefn. *f.* Y gewyn canol (*median nerve*). *g.* Gewyn yr iselin. *h.* Gewyn mewnol croenaidd y fraich. *i.* Gewyn gwaell y fraich. *j.* Y gewynau rhyng-asenol. *k.* Plygion gewynol y morddwyd. *l.* Plygion gewynol y glun. *m.* Gewyn y grimog. *n.* Gewyn allanol y grimog. *o.* Gewyn allanol gwythen fawr y goes (*saphenous nerve.*]

weddaf hon ydyw cymmathiad. Nid ydys yn gwybod dim am wir natur y weithred hon—pa fodd y dygir hi oddi amgylch, na pha fodd yr effeithir hi. Y mae y fath gwestiynau yn dwyn cyssylltiad rhy agos â hanfod egwyddor bywyd, yr hwn sydd berffaith anadnabyddus yn ei natur.



Y mae cymmathiad yn meddu y briodoledd o adferu rhanau a fyddont wedi cael eu dinystrio. Er esampl, ail ymuna esgyrn â'u gilydd ar ol eu tori; ac y mae hyd yn oed darnau helaeth o'r corph, a gollwyd, wedi eu hadferu.

*Dadansoddiad meithrinol.* Tra y bydd meith-

riniaeth yn myned yn mlaen, ä dadansoddiad yn mlaen yn gyfatebol; hyny yw, ymwahaniad cyfran o ronynau y cymhlethweoedd, a'u bwriad allan o'r corff. Y mae rhai anianyddwyr wedi bod yn tybio fod yr adnewyddiad hwn ar ranau elfenol cyrff anifeilaidd yn effeithio ar yr holl organau, a bod yr holl gorff yn cael ei adnewyddu yn gyfangwbl bob saith mlynedd. Nid ydyw y syniad hwn wedi ei sylfaenu ar brawf uniongyrchol, ac ymddengys ei fod yn wrthwyneb i'r ffaith. Erys amryw o'r organau am lawer o amser yn hollol ddigyfnewid, er y gellir addef fod yn bosibl, mewn amgylchiadau neillduol, megys ar ol hir gythlwng, i hyd yn oed y cymhlethweoedd cyntefig fyned dan gyfnewidiad. Yn awr, gan mai y gwaed sydd yn cyflenwi, fel y dangoswyd, defnyddiau y gwahanol wlybyron a wrthodir ac a fwrir allan yn barhaus o'r corff anifeilaidd yn y ffurf o ddydoliadau, äi yr hylif hwnw yn rhy deneu, a gallai gymmeryd ymaith o'r organau yr elfenau toddadwy a gynnwysant, oni bai ei fod yn cael ei gadw yn llawn o'r cyfryw elfenau trwy gymhorth y sylweddau ymborthol a gymmerir i mewn i'r cyfansoddiad. Fel hyn, y mae y sylwedd meithrinol a ä i mewn yn feunyddiol i'r gwaed yn angenrheidiol, nid yn unig tuag at dyflant y corff, ond hefyd er cadw yr holl organau yn eu cyfanrwydd, ac er eu hattal rhag cael eu niweidio trwy sugniad (*absorption*).

Y mae y llosgiad araf a gymmer le hefyd yn mhob rhan o'r corff yn dinystrio y sylweddau llosgadwy, ac oni bai fod yr elfenau hyn yn cael eu cyflenwi o newydd yn barhaus, fe ymddengys y gweithredai yr oxygen ar ac y dinystriai yr elfenau a gyfansoddant yr organau eu hunain. O'r lluniaeth y rhaid i'r sylweddau llosgadwy ddyfod ag y mae yr oxygen i weithredu arnynt, trwy yr hyn y cyfnewidir hwynt yn sur carbonic a dwfr, ac yn y ffurf hono y bwrir hwynt allan o'r corff. Gall ymborth na byddo yn cynnwys dim ond carbon, hydrogen, ac oxygen, yn ei gyfansoddiad, megys sugr neu syth (*starch*), gael ei gyfnewid yn sur carbonic a dwfr, heb ddim yn weddill; ond trwy losgiad sylweddau nitrogenaidd, fe gynnyrchir defnyddiau ereill, megys *urea* a sur *uric*, y rhai a geir yn y trwnc. Ymddengys mai o lysiau y deilliaw y sylweddau llosgadwy a fwriedir i'w dinystrio mewn cyrff anifeilaidd, gan mai hwy yn unig sydd yn meddu y gallu i ddyfod â charbon i ffurf cyfansoddion organol. Fe ddianc y nwy sur carbonic o'r dwfr drwy anadliad, a'r sylweddau ereill, megys yr *urea*, drwy y trwnc; tra y mae carthiadau y coluddion yn gyfansoddedig yn mron yn hollol o weddillion annhreuliedig yr ymborth, yn gymmysgedig âg amryw ysgarthion.

CYFUNDREFN Y GEWYNAU.

Cyfansoddir y gyfundrefn bwysig hon gan sylwedd meddal cigog, yr hwn sydd yn hylif o'r bron ar y dechreu, ond tewycha yn raddol yn ol fel yr heneiddia yr anifail. Y mae ymddangosiad y gymhlethwe hon, a elwir yn ewynol, yn gwahaniaethu; y mae weithiau yn wen o ran ei lliw, bryd arall yn llwyd; ffurfia sypiau neu giglymau (*ganglions*) mewn rhai parthau, llinynau hirion mewn ereill. Gelwir y llinynau yn *ewynau;* a'r sypiau yn *giglymau* neu *ganolbwyntiau gewynol.* Mewn dyn, ac yn yr anifeiliaid sydd yn tebygu iddo o ran cyfansoddiad, y mae cyfundrefn y gewynau yn gynnwysedig o ddwy ran—dosbarth yr ymenydd a madruddyn y cefn (*cerebro-spinal*), a dosbarth y giglymau neu y gyfundrefn gytteimladol (*sympathetic*). Y mae pob un o'r ddau ddosbarth hyn yn gyfansoddedig o ddwy ran; sef, y ganol, yr hon a gynnwys y sypiau gewynol; a'r amgylchol, yr hon sydd yn gyfansoddedig o'r gewynau a redant o'r canolbwyntiau hyn i bob parth o'r corff.

Mae canolbwynt y dosbarth *cerebro-spinal* yn gynnwysedig mewn rhan yn ngheuedd asgwrn y pen, ac mewn rhan yn mhibell asgwrn y cefn: y mae yn gyfartal yn ei ffurf a'i wneuthuriad drwyddo draw, ac yn gynnwysedig o ddwy ran—de ac aswy—wedi eu cyssylltu â'u gilydd ar hyd y canol trwy linion gewynol. Trwy y llinion hyn hefyd y cyssylltir yr ymenydd â madruddyn y cefn.

Heb law fod y canolbwynt hwn yn amgauedig yn asgwrn y pen ac yn mhibell asgwrn y cefn, amgylchynir ef gan dair pilionen, y rhai a wasanaethant yn mhellach tuag at ei ddiogelu a'i gynnal, a thuag at ei feithrin. Enwau y rhai hyn yw pilen allanol yr ymenydd (*dura mater*), y bilen gopweaidd (*arachnoid*), a philen isaf yr ymenydd (*pia mater*). Er fod pegwn y dosbarth hwn yn gyfansoddedig o amryw ranau, gellir edrych arno megys un; eto, ymddengys y cyflawnir swyddau gwahanol gan bob cyfran. Y mae cyfran asgwrn y pen yn gynnwysedig o'r ymenydd, y gorymenydd, a phont Varolius: gellir edrych ar gyfran y madruddyn fel yn gynnwysedig o'r madruddyn hirgrwn a madruddyn y cefn.

*Yr ymenydd* ydyw y rhan helaethaf o lawer o'r dosbarth yma mewn dyn. Trwy arbrofion a wnaed, cafwyd mai ei bwysau mwyaf, a chymmeryd i mewn y gorymenydd, mewn cyfres o wrywod mewn oed, oedd 65 wns, ac mai ei bwysau lleiaf oedd 34 wns. Mewn cyfres o fenywod mewn oed, ei bwysau oedd 56 wns a 31 wns. Ond ei bwysau yn gyffredin mewn gwrywod oedd rhwng 46 wns a 53 wns; mewn benywod, rhwng 41 wns a 47 wns. Ymddengys fod yr ymenydd yn cynnyddu yn gyflym mewn pwysau hyd y seithfed flwyddyn—yna yn fwy araf rhwng 16 ac 20—ac yn arafach fyth rhwng 31 a 40, pryd y cyrhaedda i'w faintioli mwyaf. Ar ol yr oed hwn, ymddengys ei fod yn lleihau yn raddol mewn pwysau, sef tuag wns bob deng mlynedd. Cymmer yr un peth le yn y ddau ryw. Os yr un fydd yr amgylchiadau, ymddengys fod perthynas gyffredinol rhwng maintioli yr ymenydd a'r galluoedd meddyliol; er y dygwydd rhai amgylchiadau na bydd y rheol hon yn gymhwysiadwy atynt.

Cyfetyb ffurf asgwrn y pen, mewn dull cyffredinol, i ffurf yr ymenydd. Dosberthir ef yn ddwy ran, a elwir hannergylchau (*hemispheres*) gan agen ganolog (*mesial*) ddofn, yn ymestyn i lawr hyd y *corpus callosum* yn y canol, yr hon a wahana yr hannergylchau i'r tu blaen a'r tu ol—yn hollol oddi wrth eu gilydd. Unir y ddau hannergylch gan y *corpus callosum*—yr hwn y gellir ei ystyried fel cyssylltiad llettraws. I'r agen y cyfeiriwyd ati uchod y disgyn y *falx cerebri*—yr hwn sydd ymestyniad o bilen allanol yr ymenydd, gan ffurfio canolfur. Canfyddir anwastadeddau ar du allanol yr hannergylchau, y rhai a elwir yn ymdorchiadau (*convolutions*). Y maent yn dra eglur mewn dyn, ond yn faesach mewn plant ieuainc, ac yn y rhan fwyaf o anifeiliaid.

Y mae sylwedd yr ymenydd yn gyfansoddedig o ddefnydd gwyn a llwyd. Canfyddir yr olaf yn benaf ar y wyneb, a'r ail oddi tano. Dosberthir yr hannergylchau yn dair cyfran neu ddalen—y

Digitized by Google

flaenaf, y ganol, a'r olaf. Y mae y dosbarthiad hwn yn ganfyddadwy ond edrych ar yr ymenydd oddi tanodd. Y tu isaf i'r ddalen ol (*posterior lobe*), saif y gorymenydd, yn nghyd â phont Varolius, a'r llinion a gyssylltant y bont â'r hannergylchau. Yma hefyd y gellir gweled y gewynau a redant o'r ymenydd, a'r rhedweliau a gyrhaeddant i'r ymenydd trwy y gwaelod.

*Y gorymenydd.* Fel y sylwyd, saif y gorymenydd (*cerebellum*) y tu isaf i ddalen ol yr ymenydd, gan yr hon y gorchuddir ef yn hollol; ond gwahenir hwynt oddi wrth eu gilydd gan gyfran o'r bilen allanol, yr hon gyfran a elwir *tentorium*. Cyssylltir ef â'r gweddill o'r ymenydd, o'r tu blaen, trwy linion cyssylltiadol a elwir *crura*. O'r rhai hyn, esgyn dau o honynt i'r ymenydd, dau i lawr tua'r madruddyn hirgrwn, ac ânt yn mlaen yn gyfredol (*horizontally*), fel ag i gymmeryd i mewn baledrynau (*peduncles*) yr ymenydd, yn ymyl pa rai yr ymunant nes ffurfio pont Varolius. Gor-




Dar. 265.—Cyfran fawr o gyfundrefn y giglymau.

[Prif ewynau y gwddf, yn gystal a giglymau y gwddf a'r ddwyfron, y rhai a berthynent i'r gyfundrefn gytteimladol o ewynau. 1. Gewyn anadl y cylla (*pneumogastric nerve*), prif geingciau yr hwn a ffurfiant blygion (*plexuses*) gyda'r gewynau mawr cytteimladol, er cyflenwi yr ysgyfaint, y galon, yr ystumog, &c. 6, 7. Ceingciau o ewyn anadl y cylla, yn cyflenwi y brefant. 9, 9. Gewyn gwrthredol—caingc o ewyn anadl y cylla—yn rhedeg o fôn y gwddf hyd y brefant. 10, 11. Ceingciau yn rhedeg i'r galon. 12, 13. Plygion ysgyfeiniol. 14. Gewyn y tafod. 15. Rhan derfynol y gewyn mawr is-safnigol (*hypoglossal*). 16. Y tafodewyn arsafnigol (*glossopharyngeal nerve*). 17. Gewyn cyssylltiedig madruddyn y cefn—Willis. 18. Gewyn gyddfol o'r ail bâr o ewynau y glain cefn. 19. Y trydydd pâr gyddfol. 23, 26, 27, 28. Parau o'r gewynau gyddfol, yn ymuno â'r gewyn cefnol cyntaf, ac yn ffurfio plygion gewynol y fraich (*brachial plexus*). 24. Prif giglwm gyddfol y gewynau mawr cytteimladol. 25. Y giglwm gyddfol canol. 26. Y giglwm gyddfol isaf. 27—30. Giglymau y cefn.]


phwys y bont ar ran uchaf rhedweli yr ymenydd, ar y tu blaen; a derbynia y paledrynau ymenyddol oddi fyny; ac y mae llinion canol cyssylltiadol (*crura*) y gorymenydd, o'r tu ol ac yn yr ochrau, a'r madruddyn hirgrwn, wedi eu cyssylltu wrtho oddi tanodd. Disgyna y madruddyn hirgrwn fel hyn o'r bont, dan ganol y gorymenydd, hyd nes cyrhaedd yr agorfa (*foramen magnum*) yn môn asgwrn y pen, lle yr ymuna â madruddyn y cefn.

Oddi mewn i'r ymenydd, wedi eu hamgylchu â sylwedd gewynol, a'u leinio â philen dyner, y mae ceueddau bychain, a elwir *potenau* (*ventricles*). Y mae y rhai hyn yn bump o nifer, ac y

Digitized by Google

mae cymmundeb rhwng y naill a'r llall mewn plentyn pan yn y groth, ac mewn rhai anifeiliaid; ond yn ymenydd dyn mewn oed, ffurfia y bummed boten geuedd gwahanol ac annibynol, tra y parha y lleill mewn cymundeb â'u gilydd.

Gellir ystyried madruddyn y cefn fel parhâd y madruddyn hirgrwn a'r ymenydd. Ymestyna o ymyl agorfa asgwrn y pen (*foramen magnum*) hyd tua'r cymmal lwynol (*lumbra vertebra*) cyntaf yn asgwrn y cefn, yn y rhan isaf o'r corff; yna terfyna mewn edefyn main, yr hwn sydd yn gyssylltiedig wrth waelod asgwrn y cefn. Nid ydyw yn llenwi yr holl wagle yn mhibell asgwrn y cefn. Y mae wedi ei amwisgo gan y bilen isaf (*pia mater*), ac yn amgauedig mewn gwain o'r bilen allanol (*dura mater*), yr hon a gedwir ar wahân oddi wrth ochrau y bibell gan amryw blygion o lestri â chymhlethwe gellog. Y mae y cyfrwng rhwng y bibell isaf a'r bilen allanol wedi ei leinio gan y bilen gopweaidd (*arachnoid membrane*), ac yn llawn o hylif a elwir yr hylif *cerebro-spinal*. Hyd y madruddyn ydyw o bymtheg i ddeunaw modfedd; a chan nad ydyw y nymestyn i waelod y bibell, llenwir y cwrwng hwnw gan wreiddiau estynedig gewynau y cwman a'r lwynau, y rhai a ddisgynant o'r bron yn union-syth o'r madruddyn, ac o fflangell o linynau gewynol a elwir y *cauda equina*. Dosberthir y madruddyn yn ddwy gyfran gyfochrol a chyfartal gan agenau hydredol yn y tu blaen a'r tu ol. Y mae y flaenaf yn amlycach na'r olaf, ac y mae ei dyfnder tua'r drydedd ran o drwch y madruddyn. Canfyddir lliaws o waedlestri yn yr agenau hyn, yn nghyd â phlŷg o'r bilen amwisg-ol. Rhwng y ddwy agen hyn, gellir gweled dau rych ar bob ochr i'r madruddyn, yn cyfateb




Dar. 266.—**Cyfran o'r ymenydd, y gorymenydd, y bont (*pons*), a'r madruddyn hirgrwn (*medulla oblongata*).**


[*a*. Rhan flaenaf yr ymenydd. *b*. Y rhan ganol. *c*. Y rhan ol. *d*. Y gorymenydd. *e*. Madruddyn y cefn. *f*. Darn o'r sylwedd caled (*corpus collosum*). *g*. Llabedau y golwg (*optic lobes*). 1. Gewynau anadliad. 2. Afal y llygad, o'r hwn y gellir olrhain gewyn y golwg mor bell a'r llabedau. Yn ymyl hwn y mae gewyn y trydydd pâr. 4. Y pedwerydd pâr, y rhai a ddosberthir, fel y trydydd, i gyhyrau y llygaid. 5. Y gangen fochgernol uchaf o'r pummed par. 5'. Cangen y llygad o'r un pâr o ewynau. 5". Y gangen fochgernol isaf o'r un pâr. 6. Y chweched pâr, yn rhedeg i'r cyhyr dattynol (*abducent*). 7. Gewyn y wyneb: gwelir darn o ewyn y clyw dan wraidd y gewyn hwn. 9. Y tafodewyn arsafnigol (*glossopharyngeal nerve*). 10. Gewyn anadl y cylla (*pneumogastric nerve*). 12. Gewyn cyssylltiedig madruddyn y cefn (*spinal accessory*). Ystyrir y tri hyn, sef y tafodewyn arsafnigol, gewyn anadl y cylla, a gewyn cyssylltiedig madruddyn y cefn, gan rai megys un pâr. 11. Y nawfed pâr, yn ol barn rhai—a'r unfed ar ddeg, yn ol barn ereill—ac a elwir yn is-safnigol (*hypoglossal*). 14 a 15. Gewynau y gwddf (*cervical nerves.*).]

linellau cyssylltiadol y gewynau, y rhai a elwir yr agenau cyfochrol blaen ac ol. Y mae y madruddyn yn gyfansoddedig, fel yr ymenydd, o sylwedd gewynol gwyn a llwyd. Ond, yn wahanol i'r ymenydd, y sylwedd llwyd ydyw yr isaf yn y madruddyn—tra y mae yn uchaf yno. Os dymuna rhai o'n darllenwyr chwilio difyniaeth yr ymenydd a madruddyn y cefn yn fanwl, rhaid iddynt droi at weithiau y prif awduron Seisonig, a chyfieithiadau o awduron tramor, gan fod y pwnc yn rhy ddyrys ac eang i'w ddwyn i mewn yn ei gyflawnder yn yr erthygl hon.

Y mae nifer y gewynau a darddant o'r pegwn *cerebro-spinal* yn dri a deugain o bârau. Tardd y 12eg cyntaf o badell yr ymenydd (*cranium*), a gadawant y ceuedd trwy dyllau yn yr esgyrn. Tardd yr 31ain pârau ereill o fadruddyn y cefn, a gadawant bibell asgwrn y cefn trwy agoriadau rhwng y gleiniau (*vertebræ*), a elwir rhyng-leiniol (*inter-vertebral*). Ffurfir pob un o'r pârau hyn o ewynau o nifer mawr o linion, yn amgauedig mewn gwain (*neurilemma*). Y mae y llinion elfenol hyn yn nodedig o feinion, ac arosant ar wahân oddi wrth eu gilydd o'u cychwyniad hyd y diwedd. Yn eu tarddiad, gwreiddiau y gelwir y llinion a gyfansoddant y gewynau, a dosberthir hwynt yn y gewynau madruddynol yn wreiddiau blaen ac ol, yn ol yr agen o ba un y tarddant. Y mae giglwm ar y gwreiddyn ol, drwy yr hwn y pasia y llinion, gan ymuno wedi hyny gyda'r gwreiddyn blaen. Y mae gan rai o'r gwreiddiau hefyd giglymau ar ewynau y pen. Darganfydd-

Digitized by Google

wyd trwy arbrofion mai gewynau *teimlad* ydyw y gwreiddiau ol; ac mai gewynau *ysgogiad* yw y gwreiddiau blaen. Pan yr ymuna gewynau




Dar. 267.—Paladr glain y cefn a'r ymenydd.

Paladr glain y cefn a'r ymenydd (*cerebro-spinal axis*) a'r gewynau wedi eu tori yn agos i'r lle y cychwynant o hono. *a*. Yr ymenydd. *b*. Rhan flaenaf hannergylch aswy yr ymenydd. *c*. Y rhan ganol. *d*. Y rhan ol, yn cael ei guddio yn mron yn hollol gan y gorymenydd. *e*. Y gorymenydd. *f*. Y madruddyn hirgrwn (*medulla oblongata*). 1. Y pâr cyntaf, neu ewynau yr arogl. 2. Yr ail bâr, neu ewynau y golwg. 3. Y trydydd pâr, neu ysgogyddion y llygaid (*motores oculorum*). 4. Y pedwerydd pâr, neu y rhai teimladol. 5. Y pummed pâr, neu ewynau y wyneb. 6. Y chweched pâr, neu y gewynau dattynol. 7. Y seithfed pâr, neu ewynau y wyneb; hefyd, gewynau y clyw, y rhai a ystyrir gan rai fel cangen o'r seithfed pâr; geilw ereill hwynt yn wythfed pâr. 9. Y tafodewynau arsafnigol (*glossopharyngeal nerves*), y rhai a elwir y nawfed pâr gan rai, ond a ystyrir gan ereill fel y gangen flaenaf o'r wythfed pâr. 10. Gewyn anadl y cylla (*pneumogastric*), yr hwn a gynnwysir gan rai yn yr wythfed pâr, ac a elwir gan ereill yn ddegfed pâr. 11. Gewynau yr unfed ar ddeg a'r ddeuddegfed pâr; ystyrir y cyntaf gan rai fel cangenau o'r wythfed pâr, a gelwir ef gewyn cyssylltiedig madruddyn y cefn (*spinal accessory*): y diweddaf, a elwir y nawfed gan rai, y deuddegfed gan ereill, ydyw gewynau ysgogol y tafod. 13. Gewynau y trydydd pâr ar ddeg. 14, 15, 16. Y cyntaf, yr ail, a'r trydydd pâr o ewynau y gwddf. *g*. Gewynau gyddfol yn ffurfio plygion gewynol y fraich (*brachial plexus*). 25. Un pâr o ewynau y gyfran gefnol o fadruddyn y cefn. 33. Un pâr o'r gewynau lwynol (*lumbar*). *h*. Y gewynau lwynol a chwmanol (*sacral*), y rhai a ffurfiant y plygion gewynol o ba rai y deillia gewynau y rhanau isaf. *i* a *j*. Terfyniad madruddyn y cefn, yr hwn a elwir *cauda equina*. *k*. Gewyn mawr y glun (*sciatic nerve*), yr hon a red i'r aelodau isaf.]

â'u gilydd trwy yr hyn a elwir cydfiniad (*anastomosis*)—er nad ydyw yr ymuniad yn un gwirioneddol, dim ond cyfnewidiad llinion, cynnyrchir yr hyn a elwir *plexus*—math o rwydwaith. Yn yr amrywiol organau, ymddengys y gewynau fel yn terfynu trwy ffurfio dyblygion (*plexuses*) llydain neu ddolenau. Nid ydyw pob rhan o'r corff wedi ei gyflenwi yn gyfartal â gewynau; ac y mae rhanau lle yr ymddengys nad oes dim gewynau ynddynt. Hyn ydyw y rheswm dros fod rhai manau ar y corff yn dra theimladwy, tra y mae ereill yn llai felly, ac ereill drachefn yn hollol ddideimlad. Y mae pob rhan yn ddyledus am ei theimladrwydd i'r sylwedd gewynol a'i cyssyllta âg organau creiddiol cyfundrefn y gewynau: ond nid y gewynau eu hunain ydyw yr organau trwy ba rai y cynnyrchir y teimlad; ni wneir dim ganddynt hwy ond trosglwyddo yr argraffiadau allanol i'r gyfundrefn greiddiol, lle y trig pob teimlad. Dangoswyd lawer gwaith trwy arbrofion ar anifeiliaid byw, gweithrediadau llawfeddygol, a damweiniau, mai nid madruddyn y cefn ydyw eisteddle y teimlad. Pan y torir hwn ar ei draws mewn anifail byw, ni wneir dim ond dinystrio y teimlad, a marweiddio ysgogiadau yr holl ranau a gyflenwir â gewynau ganddo y tu isaf i'r man a wahenir. Ond y mae yn wahanol gyda'r ymenydd; o blegid pan y symmudir hwn ymaith, ä holl gorff yr anifail yn ddideimlad yn uniongyrchol. Ymddengys fod gweithrediad yr ymenydd mor hanfodol tuag at gynnyrchu teimlad ag ydyw at ddwyn yn mlaen weithredoedd yr ewyllys. Ymddengys, oddi wrth arbrofiadau, mai yn hannergylchau yr ymenydd y mae prif eisteddle y gynneddf hon. Dywedwyd yn flaenorol fod pob un o'r gewynau yn hollol ar wahân o'r naill ben i'r llall; ac i hyn y rhaid priodoli gwahanolrwydd ein teimladau, yn nghyd â'u trosglwyddiad gwastadol i'w heithafion amgylchol (*peripheral*). Wedi i aelod gael ei dori ymaith gan feddyg, cyfeirir y boen a erys weithiau ar ol y gwahaniad gan y meddwl i'r troed neu y llaw, er na bydd y naill neu y llall mewn cyssylltiad â'r corff mwyach.

Nid ydyw yr holl ewynau yn meddu y gallu i drosglwyddo teimladau i'r ymenydd; ond i'r gwrthwyneb, y mae rhai yn ewynau ysgogiad, pa un bynag ai gan yr ewyllys, ai trwy ryw foddion ereill, yr effeithir arnynt. Pan mewn cyflwr o iechyd, cyffröir y gewynau ysgogol yn gyffredin i weithrediad gan yr ewyllys: ond gweithredir arnynt hefyd yn annibynol ar yr ewyllys; canys pan y niweidir madruddyn y cefn trwy afiechyd neu ddamwain, yr hyn a wna y rhanau a gyflenwir â gewynau o'r tu isaf i'r man a niweidir yn annheimladwy i weithrediad yr ewyllys, y mae yn bosibl i ewynau y teimlad gynnyrchu ysgogiadau. Gweithrediadau gwrthblygedig (*reflex*) y gelwir y rhai hyn. Er engraifft, pan y torir pen geneu goeg ymaith, erys y corff ar ei draed, ac fe ymwinga pan y cyffyrddir â'i groen. Os torir y creadur yn ddau, gellir cyffroi y darn isaf yn gystal a'r uchaf i ysgogiad; mewn gwirionedd, ymgrebycha pob rhan y byddo rhyw ychydig o'r madruddyn ynddo ar y cyffyrddiad lleiaf. Presennoldeb y madruddyn yn ddiau ydyw yr achos o'r ysgogiadau a gynnyrchir trwy gyffwrdd â'r tu allanol; canys nis gellir eu cynnyrchu mewn unrhyw ran o'r creadur, pa mor fawr bynag fyddo y rhan hwnw, os na bydd cyfran o'r madruddyn ynddo.

Cyfeiriwyd eisoes at y ffaith mai o'r agenau cyfochrol blaen ac ol y tardd y gewynau madruddynol; a chan fod eu gwreiddiau ar wahân oddi wrth eu gilydd, buwyd yn tybio dros amser maith fod eu swyddau yn wahanol hefyd. Y

Digitized by Google

mae Syr Charles Bell, ac ereill, wedi profi mai felly y mae mewn gwirionedd; sef, fod y gwreiddiau blaen yn gynnwysedig o linion ysgogiadol, a'r gwreiddiau ol o linion teimladol.


Y mae y gyfundrefn ewynol giglymol neu gytteimladol, yr hon hefyd a elwid gynt cyfundrefn ewynol bywyd peiriannol, yn gyfansoddedig o nifer penodol o sypiau bychain o sylwedd gewynol, wedi eu huno â'u gilydd gan giau cymundebol, ac wedi eu huno trwy foddion cyffelyb â'r gewynau *cerebro-spinal.* Rhed gewynau o'r giglymau hyn i luaws o organau bywiol, a thybir eu bod yn dilyn llwybrau yr holl waedlestri mawrion. Y mae y giglymau a ffurfiant y gyfundrefn hon wedi eu trefnu yn rhes ddwbl ar bob ochr i asgwrn y cefn, o'r tu blaen, o'r glain cyntaf hyd y diweddaf; ond y mae lluaws ereill yn wasgaredig trwy y rhanau tu mewnol. Y gwahaniaeth mawr rhwng y gewynau *cerebro-spinal* a'r gewynau cytteimladol ydyw, fod y rhai blaenaf yn rhedeg i'r croen, i organau y synwyrau, y cyhyrau, &c.; a'r rhai diweddaf i'r organau tu mewnol, megys y galon, yr ystumog, yr ymysgaroedd, &c.:—y rhai blaenaf yn ewynau perthynasol, a'r rhai diweddaf yn dwyn cyssylltiad agosach â meithriniaeth. Y mae y gyfundrefn hon i raddau helaeth yn annheimladwy i gymhellyddion (*stimulants*) cyffredin; ac ni effeithir nemawr ar ei gewynau trwy eu tori na'u gwasgu: ac mewn cyflwr o iechyd, y mae yr organau, i ba rai y rhed gewynau y gyfundrefn, yr un mor annheimladwy.

PEIRIANWAITH YMSYMMUDIAD.

Y mae hwn yn gyfansoddedig o'r ysgerbwd (*skeleton*), y cyhyrau, a'r cymmalau.

Gellir dosbarthu yr ysgerbwd fel hyn—y pen, y corff, a'r aelodau. Y mae ysgerbwd y pen yn gyfansoddedig o ddwy ran—y penglog a'r gwyneb. Y mae y penglog yn gyfansoddedig o wyth o esgyrn, y rhai sydd yn gyffredin yn llydain a gwastad—o wneuthuriad cryf, ac wedi eu cyfuno yn ansymmudol â'u gilydd trwy gyssylltiadau peusyth (*dove-tail*). Oddi mewn iddo y mae yr ymenydd, y gorymenydd, y bont, a'r madruddyn (*medulla*), yn nghyd â'r llestri a'r gewynau a redant i ac o'r ymenydd. Y mae y penglog wedi ei gyssylltu trwy gymmal â'r *atlas*, neu y glain cyntaf yn y gwddf, ar ba un y gorphwys; ac y mae yr agorfa (*foramen magnum*) trwy ba un yr ä madruddyn y cefn i'r penglog oddi mewn i'r cymmal. Y mae cyfran y wyneb o'r penglog yn cynnwys deuddeg o esgyrn. Cynnorthwya y rhai hyn i ffurfio amryw geueddau (*cavities*), megys pyllau y llygaid, y ffroenau, a'r genau. Cwblheir y trwyn trwy fadruddynau (*cartilages*), yr hyn a bâr i'r tyllau ymddangos mor fawrion yn yr ysgerbwd wedi y symmuder y madruddynau ymaith. Yn esgyrn yr ên uchaf a'r ên isaf y mae y dannedd wedi eu gosod.

*Ysgerbwd y corff.*—Y rhan bwysicaf ydyw y glain cefn, yr hwn sydd yn gyfansoddedig o esgyrn a elwir gleiniau (*vertebræ*). Y mae yn cynnal y pen, yr hwn y gellir ei ystyried fel parhad o hono. Cyfansoddir ef o 33 o gleiniau neu gymmalau; sef 7 cymmal gyddfol, 12 cymmal cefnol, 5 cymmal lwynol, 5 cymmal cwman, a 4 cymmal cogylfinog (*coccygeal*). Ar y dechreu, bydd y rhai hyn oll ar wahân; ond yn mhen rhai blyneddoedd, rhed rhai o honynt y naill i'r llall; ymuna y pump cymmal cwman yn gyffredin â'u gilydd nes ffurfio un darn; ac y mae y cymmalau cogylfinog yn dueddol i ymffurfio yn un asgwrn wrth heneiddio. Ffurfir y glain cefn o gorff a chainc-esgyrn (*processes*), ac y mae yn meddu pibell o'r tu ol iddo, drwy yr hon y rhed madruddyn y cefn a'r pilenau. Y mae agoriadau, trwy ba rai y rhed y gewynau, yn



Dar. 268.—Un o leiniau y cefn.


ochrau y glain cefn. Ffurfir y rhai hyn trwy undeb dau gymmal, megys yr awgryma yr enw a roddir arnynt (agoriadau rhyng-gymmalog—*intervertebral foramina*). Cyssylltir y cymmalau yn nghyd gan fadruddyn llinynaidd cryf, gwydn, a hydwyth; ac ar hyn yr ymddibyna cryfder ac ysgogrwydd asgwrn y cefn. Cyfrana ceincesgyrn y cymmalau, y rhai sydd yn bedwar o nifer, hefyd at ei gryfder, a chyfyngant ei ysgogiadau i gyfeiriadau penodol. Mae yr asenau wedi eu cyssylltu wrth gymmalau y cefn. Cyssylltir hwynt yn ol a blaen gan fadruddyn wrth asgwrn y ddwyfron (*sternum*). Y maent yn 24 o nifer—12 ar bob ochr. Y mae saith o honynt wedi eu cyssylltu yn uniongyrchol âg asgwrn y ddwyfron, a'r pump ereill yn anuniongyrchol; gan hyny, gelwir hwynt yn asenau priodol, ac yn rhith-asenau.

*Ysgerbwd yr aelodau.* Gellir dosbarthu hwn yn safon ac yn rhan symmudol neu estynedig. Yn y rhan uchaf, y mae y safon neu yr ysgwydd yn gynnwysedig o ddau asgwrn—crafell yr ysgwydd (*scapula*), a phont yr ysgwydd (*clavicle*). Y mae asgwrn y fraich (*humerus*) wedi ei gyssylltu o'r tu uchaf wrth grafell yr ysgwydd, ac o'r tu isaf wrth y penelin. Y mae iddo, yn ei gysswllt uchaf, ysgogiad pel a grain (*ball-and-socket motion*), a symmudir ef gan amryw gyhyrau nerthol yn deilliaw o grafell yr ysgwydd a'r corff. Esgyrn y darn isaf o'r fraich ydyw y *radius* (gwaell y fraich) a'r *ulna* (yr asgwrn mwyaf). Y mwyaf symmudol o'r rhai hyn yw y *radius*, ac ar ei ysgogiad troawl ef y dibyna symmudiad troawl y llaw: ond nid oes un ysgogiad troawl yn nghymmal y penelin—nid oes yno ond plygiad ac estyniad. Yn nghymmal isaf y fraich hefyd, symmudiadau o blygiad ac estyniad ydyw y cyfan a gymmer le. Y mae y llaw yn gyfansoddedig o gyfres o esgyrn, y rhai a ddosberthir fel y canlyn:—yr arddwrn (*carpus*), yr isarddwrn (*metacarpus*), a'r bysedd. Y mae yr arddwrn yn cynnwys wyth o esgyrn bychain, wedi eu gosod yn ddwy res; yr isarddwrn, un res o esgyrn bychain hirion, yn cyfateb i nifer y bysedd. Oddi eithr y fawd, i'r hon nid oes ond dau asgwrn, y mae i bob un o'r bysedd dri o esgyrn, y rhai a elwir y bys-esgyrn 1af, 2il, a 3ydd.

Canfyddir cyfatebiaeth cryf gyda golwg ar eu gwneuthuriad rhwng yr aelodau isaf a'r aelodau uchaf. Y mae perthynas hanfodol rhwng y prif wahaniaeth a welir rhyngddynt a'u gwahanol swyddau. Y maent wedi eu cyfaddasu at ymsymmudiad yn fwy nag at ymafliad; a hyn yn ddiau ydyw y rheswm dros eu bod mor gedyrn o'u cymharu â'r aelodau uchaf. Y mae y gyfran safonol, neu y forddwyd, yn gyfansoddedig o ddau asgwrn (*os innominatum*)—un o bob tu. Y mae y rhai hyn wedi eu cyssylltu yn gadarn âg asgwrn y cwman o'r tu ol, ac â'u gilydd o'r tu blaen. Y mae pob un o'r esgyrn hyn, yn yr ieuanc, yn gyfansoddedig o dri darn, y rhai a

elwir *ilium*, *ischium*, a *pubis*. Gyda cheuedd ar bob ochr, yn caniatau symmudiad amgylchog yn mron, y mae asgwrn y glun wedi ei gymmalu; ac wrth hwn, eilwaith, asgwrn mawr y goes; ac wrth asgwrn y goes, trwy ewyn nerthol, y mae y grimog (*fibula*) yn gyssylltiedig. Dosberthir y troed, fel y llaw, yn dair cyfran: y darn uchaf o gefn y troed (*tarsus*), canol y troed (*metatarsus*), a'r bysedd. Y mae saith o esgyrn yn y darn uchaf, pump yn y darn canol, dau yn y fawd, a thri yn mhob un o'r bysedd.

Y mae yr esgyrn yn gyfansoddedig o sylwedd madruddol a chalchog. Y mae yr ysgerbwd yn fadruddol (*cartilaginous*) yn ei gyflwr cyntaf, a dechreua esgyrneiddio mewn gwahanol fanau, ac ar wahanol adegau. Y mae yr esgyrn, yn




Dar. 269.—Ysgerbwd dyn.

allanol, yn gyfansoddedig o gymhlethwe gadarn, ac yn fewnol o gymhlethwe rwydog neu gellog. Gorchuddir yr arwyneb gan bilionen deneu, a elwir *periosteum*, drwy ba un y meithrinir hwynt; ac y mae ceueddau o'r tu mewn i esgyrn hirion, sydd yn cynnwys mêr.

*Cymmaliad yr esgyrn.* Wrth hyn y golygir ymuniad dau neu ragor o esgyrn. Dosberthir y cymmalau yn ddau fath—sefydlog, a symmudol. Gwneir i fyny y rhai sefydlog trwy gydgyflead (*juxta-position*), trwy wnïad (*suture*), a thrwy impiad (*implantation*). Ceir enghreifftiau o'r cyntaf mewn rhai o esgyrn y wyneb; o'r ail, yn esgyrn y penglog; ac o'r trydydd, yn y dannedd, y rhai

Digitized by Google

sydd wedi eu planu yn eu morteisiau (*alveoli*). Yn y cymmalau symmudol, cedwir yr esgyrn mewn sefyllfa gydgyfleol gan gïau (*ligaments*). Madruddyn llinaidd (*fibro cartilage*) ydyw y rhwymyn o undeb weithiau, yr hwn a oddef i'r esgyrn symmud o blegid ei hydwythedd yn unig; mewn cymmalau ereill, llithra yr esgyrn y naill dros y llall, a chedwir hwynt yn eu lle gan gïau wedi eu cyssylltu wrth bob un o honynt, y rhai a gyfyngant yr ysgogiad i gyfeiriadau penodol. I gyfarfod â'r rhwbiad (*friction*) a achosir gan ysgogiadau y cymmalau, y mae penau yr esgyrn wedi eu darparu â madruddyn hydwyth, a philen reddwyol (*synovial*), a gedwir yn llaith yn wastadol gan hylif seimlyd a elwir rheddwy (*synovia*), neu ddwfr y cymmalau, yr hwn a wasanaetha fel olew. Trwy offerynoldeb y bilen hon, bwrir allan yr awyr o'r cyssylltiadau, fel y sicrheir yr esgyrn yn mhellach yn eu sefyllfaoedd perthynasol y naill â'r llall trwy wasgiad yr awyr allanol ar du allanol yr aelodau.

*Y cyhyrau.* Y mae y rhai hyn mor lluosog ac amrywiol fel na oddef terfynau y gwaith hwn iddynt gael eu henwi a'u trefnu oll. Hwy ydyw offerynau pob math ysgogiad, ac y maent yn gweithredu trwy fod eu llinion yn ymgrebychu. Y mae yr holl gyhyrau sydd wedi eu bwriadu i gyflawnu ysgogiadau helaeth wedi eu cyssylltu â'r esgyrn yn eu dau ben; fel, trwy ymgrynhoi, yr ysgogant yr asgwrn mwyaf symmudol yn nghyfeiriad yr asgwrn sydd yn llai symmudol neu yn sefydlog. Fel hyn, rhed y cyhyrau sydd wedi eu bwriadu i ysgogi y bysedd (a siarad yn gyffredinol) o'r iselin (y fraich o'r penelin i'r arddwrn): mae y rhai a symmudant yr iselin yn gyssylltiedig wrth y fraich neu yr ysgwydd; a'r rhai a weithredant ar y fraich yn gyssylltiedig wrth y corff. Ond gallant, wrth gwrs, ysgogi y rhanau wrth ba rai y maent wedi eu cyssylltu yn y naill ben fel y llall, neu yn y ddau; gan mai yr un cyhyrau yn mron a ddefnyddir wrth ymgodi oddi wrth y ddaiar trwy ymaflyd mewn gwrthddrych sefydlog uwch ben, ag a ddefnyddir pan yn gwrthyru unrhyw wrthddrych tra byddo y traed ar dir cadarn. Gelwir hwynt y plyg-gyhyrau (*flexors*), cyhyrau estynol (*extensors*), &c., yn ol y gwaith a gyflawnir ganddynt; ac i raddau penderfynir eu sefyllfa gan gyfeiriad eu hysgogiadau. Y mae y cyhyrau a blygant y llaw a'r bysedd ar yr ochr uchaf i'r iselin, a gelwir hwynt y plyg-gyhyrau; ac y mae y cyhyrau gwrthweithiol, y rhai a elwir y cyhyrau estynol, ar yr ochr isaf.

Cyfansoddir y cyhyrau o sypynau o linion wedi eu cyssylltu yn nghyd gan gymhlethwe gellol, a'r rhai hyn drachefn o linion manach a manach, hyd nes y cyrhaeddir at linionen elfenol; ond nis gellir canfod hon ond trwy gymhorth chwyddwydr cryf. O'r cyhyrau yr ymffurfia cnawd anifeiliaid, a chyfansoddir hwynt o linednur (*fibrin*), alwyn (*albumen*), chwarwyth (*osmazome*), yn nghyd âg ychydig halenau. Nid ydyw eu lliw, yr hwn a wahaniaetha o goch tywyll hyd wyn, yn hanfodol yn eu cyfansoddiad, ond ymddibyna ar y gwaed a fo ynddynt. Cyssylltir hwynt â'r esgyrn trwy linion cedyrn, dideimlad, ac o liw gwyn, a elwir gïau (*tendons*): pan y byddant yn ymdaenol yn eu cyfluniad, gelwir hwynt yn ymlediadau cyhyrol (*aponeuroses*).

Y cyhyrau ydyw yr unig ranau o anifeiliaid ag sydd yn meddu y briodoledd o ymgrynhoi; ond nid amlygir y gallu hwn ond yn unig trwy ddylanwad cyfundrefn y gewynau. Derbynia pob sypyn cyhyrol amryw fânwreiddiau gewynol, yn cydfyned â'r llinion, y rhai a redant ar draws, ac a derfynant naill ai yn ddolenau o amgylch llinionos (*fibrils*) y cyhyrau, neu ynte trwy ymgeincio ac ymledu dros y llinion cyhyrol. Mai y gyfundrefn ewynol ydyw yr achos o ymgrynhoad y cyhyrau, sydd amlwg oddi wrth y ffaith y gellir merwino cyhyr trwy dori y gewyn a fo mewn cyssylltiad âg ef ar ei draws. Gellir cyffroi y cyhyrau i weithrediad ar ol marwolaeth trwy drydaniaeth; a thybid ar un adeg mai yr achos effeithiol o ymgrynhoad y cyhyrau ydoedd trydaniaeth, yn cael ei gynuyrchu yn yr ymenydd. Gwrthodir y dybiaeth hon yn gyffredinol erbyn hyn. Y mae gwahaniaeth pwysig rhwng y cyhyrau: ufuddha rhai i'r ewyllys; gweithreda ereill, yn chwanegol at hyn, yn annibynol arni; tra y mae ereill drachefn nad oes gan yr ewyllys un lywodraeth arnynt. Gellir nodi cyhyrau yr aelodau fel anghreifftiau o'r dosbarth cyntaf; perthyna cyhyrau yr anadliad i'r ail ddosbarth; a chyhyrau y galon a'r ystumog i'r trydydd. Derbynia y cyhyrau a weithredant mewn ufudd-dod i'r ewyllys eu gewynau o'r dosbarth *cerebro-spinal;* ac ymddengys mai yn yr ymenydd y trig y gallu i reoleiddio eu gweithrediad. Ymddengys y derbyn y cyhyrau a ufuddhant i'r ewyllys, ond eto a weithredant yn annibynol arni, eu dylanwad oddi wrth fadruddyn y cefn. Er esampl, ä yr ysgogiadau anadliadol yn mlaen wedi i'r ymenydd golli ei ddylanwad ar y cyhyrau anadliadol. Derbynia y cyhyrau sydd yn hollol annibynol a. yr ewyllys eu dylanwad gewynol o'r gyfundrefn giglymol (*ganglionic*) neu gytteimladol o ewynau.

ORGANAU NEILLDUOL Y SYNWYRAU.

Y mae y pum synwyr, fel y gelwir hwynt—sef y teimlad, yr archwaeth, yr arogliad, y clyw, a r golwg—wedi eu cynnysgaethu, oddi eithr y cyntaf, âg organau neillduol i drosglwyddo argraffiadau allanol i'r ymenydd.

1. *Y synwyr o deimladrwydd.* Trwy y synwyr hwn yr ydym yn dyfod i ddirnad y rhan fwyaf o deithi naturiol cyrff materol; megys eu ffurf, eu tymmeredd, eu dwysder, &c. Mae y teimlad yn wasgaredig dros yr holl gorff, ond yn mlaenau y bysedd y mae gryfaf o un man. Cyfrana lledneisrwydd y croen, hyd y bysedd, a'r fawd gyferbyniol, oll tuag at gynnyrchu yr effaith hwn. Trig teimladrwydd y croen yn y gwir groen (*dermis*), a dibyna ar y gewynau teimladol sydd yn wasgaredig yn y didenau (*papillæ*).


Y mae y croen yn gyfansoddedig o ddau brif haen; y gwir groen (*dermis*), a'r croen uchaf (*epidermis*) neu y rhisgroen. Y gwir groen yw yr haen isaf a thewaf. Cyssylltir ef â'r rhanau sydd o dano trwy haen o gymhlethwe gellog; ac ar ei arwyneb, gellir gweled, yn neillduol ar gledrau y dwylaw a blaenau y bysedd, y mân gnapiau, a elwir y didenau (*papillæ*), wedi eu trefnu yn rhesi rheolaidd. Cymhlethwe annheimladwy, yn gorchuddio y croen teimladwy, ydyw y rhisgroen, neu y croen uchaf. Y mae yn gyfansoddedig o amryw blygion o godenau (*utricules*) wedi sychu i fyny. Ystyrir y plyg isaf, yr hwn sydd feddal, a'r hwn a gynnwys y sylwedd a rydd liw i'r croen, fel pilen ar wahân, a gelwir hi *rete mucosum.* Bwrir y rhisgroen ymaith fel cen, ac adnewyddir ef yn barhaus oddi tanodd.

2. *Yr archwaeth.* Trwy y synwyr hwn yr ydym yn gallu ffurfio dirnadaeth am flas sylweddau. Trwy yr archwaeth y dewisa y rhan fwyaf o anifeiliaid eu hymborth; a dyma yr

Digitized by Google

achos, yn ddiau, fod y tafod, offeryn archwaeth, wedi ei gyfleu ger llaw y fynedfa i'r bibell dreuliadol. Er mai y tafod yw prif organ archwaeth, y mae rhanau ereill o'r genau yn meddu yr un gallu i raddau mewn rhai amgylchiadau. Sylwedd cyhyrog ydyw y tafod ei hun, ac y mae y bilen lysog a'i gorchuddia wedi ei chyflenwi yn dda â gwaedlestri, ac â gewynau yn rhedeg i'r bidenau. Cangen o'r pummed pâr yw y gewyn chwaethol, yr hwn a elwir weithiau cyhyr y tafod. Os torir y gewyn hwn mewn anifail byw, dinystrir y synwyr o archwaeth; ond fe erys symmudiadau y tafod. Attelir ysgogiad y tafod trwy dori y gewynau sydd o dani (*hypoglossal nerves*); ond ni wna hyny un niwed i'r archwaeth.

3. *Yr arogliad.* Cynnyrchir arogl gan ronynau mân, y rhai a ddiangant o sylweddau aroglus, ac a ymdaenant drwy yr awyr fel tarth. Y mae y swm sydd yn angenrheidiol o rai o'r gronynau aroglus hyn i effeithio ar yr arogliad yn hynod fychan; er esampl, peraroglir ystafell gan ronyn o fwsg dros amser maith heb golli dim yn ei bwysau. Pa mor bell bynag y gellir arogli, y mae yn rhaid i'r gronynau aroglus yn mhob amgylchiad ddyfod i gyffyrddiad â'r organau cyn y gellir gwneyd hyny. Yn yr ystyr hwn, y mae peiriannaeth yr arogliad yn cyfateb i beiriannaeth yr archwaeth a'r teimlad, tra y mae yn hollol wahanol gyda'r golwg a'r clyw. Fe saif organ yr arogliad ger llaw mynedfa y pibellau anadliadol. Y ffroenau ydyw eisteddle y synwyr hwn. Egyr y rhai hyn yn eu pen draw i'r llwnc (*pharynx*). Gwahenir hwynt gan derfyn unionsyth; ffurfir eu hochrau gan amryw o esgyrn y wyneb, a chan fadruddyn y trwyn. Y mae tri haen eglur ar du allanol y ddwy, wedi eu plygu ar eu gilydd, y rhai a ffurfir gan yr esgyrn cogyrnol (*turbinated*), ac a orchuddir gan y bilen




Dar. 270.—Peirlant y clyw.

[Cyfran o beiriant y clyw, wedi ei fwyhau i raddau. *a.* Y rhan allanol o'r glust. *b.* Llabed y glust. *c.* Yr uchder a elwir *antitragus*. *d.* Genau pibell y clyw (*f*). *e e.* Cyfran garegog asgwrn yr arlais. *e'.* Yr asgwrn bronaidd. *e''.* Ceuedd cymmalog i gymmal yr ên isaf. *e'''.* Ongl bigyrnol asgwrn yr arlais. *e''''.* Pen eithaf y bibell trwy yr hon yr â rhedweli y gwddf i mewn i asgwrn y pen. *f.* Pibell y clyw. *g.* Y tabwrdd pilenaidd. *h.* Ceuedd y tabwrdd: y mae mân esgyrn y clyw (*ossicula auditus*) wedi eu symmud ymaith. *i.* Agoriad yn y tabwrdd yn arwain i gelloedd esgyrnog; y mae y ffenestr hirgron a'r ffenestr gron yn ymyl yr agoriad hwn. *k.* Y bibell Eustachaidd. *l.* Y cyntedd. *m.* Pibellau hanner cylchog. *n.* Cogwrn y glust. *o.* Gewyn y clyw.]

lysnafeddol (*pituitary*). Ar y bilen hon y mae y gewynau arogliadol wedi eu dosbarthu. Cyn y gellir arogli, y mae yn rhaid i'r bilen hon fod yn llaith; gan hyny, cedwir hi yn y sefyllfa hon yn barhaus gan wlybaniaeth y trwyn. Ymddengys fod dylanwad mawr gan faintioli y bilen ar nerth yr organ; a chyda golwg ar hyn, y mae amryw o'r anifeiliaid israddol yn hynod am graffder eu harogliad, mewn canlyniad i hyd eu trwyn. Ond y mae lluaws o greaduriaid yn meddu gallu cryf i arogli, megys trychfilod, yn y rhai nid ydys wedi canfod un organ neillduol at arogli.


4. *Y clyw.* Y mae peiriannaeth y clyw yn dra chymhlethedig, eiddil, ac anhawdd ei ddysgrifio; ac y mae ei ran hanfodol yn amgauedig tu mewn i gyfran o asgwrn yr arlais (*temporal bone*). Dosberthir y glust yn dair cyfran—yr allanol, y ganol, a'r dumewnol. Y mae y gyfran allanol yn gyfansoddedig o'r darn sydd tu allan i'r pen, a phibell y clyw, sydd yn arwain at y tabwrdd. Yn y bibell hon y mae chwarenau bychain, y rhai a ddydolant gŵyr y glust. Y mae y gyfran ganol yn gyfansoddedig o'r tabwrdd, ceuedd y tabwrdd, a'r rhanau cyssylltiedig. Gwahenir y ceuedd oddi wrth bibell y clyw gan y tabwrdd ei hunan. Y mae iddo bedwar o agoriadau; dau gyferbyn â'r tabwrdd, y rhai a elwir y ffenestr gron (*fenestra rotunda*), a'r ffenestr hirgron (*fenestra ovalis*); un yn arwain yn ol i'r celloedd didenaidd (*mastoid cells*); ac un oddi tanodd, y bibell Eustachaidd, yn arwain i'r ffroenau, yn mhen draw y genau, trwy ba un yr â yr awyr allanol i'r ceuedd. Y mae pedwar o esgyrn bychain hefyd yn y ceuedd hwn, yn ymestyn o'r tabwrdd i'r ffenestr hirgron. Y mae y gyfran fewnol yn gyfansoddedig o dri darn; y porth (*vestibule*), y pibellau hanner cylchog, a'r cogyrndro (*cochlea*). Y mae y porth yn y canol, ac

Digitized by Google

ymgyssyllta â'r tabwrdd trwy y ffenestr hirgron. Tair o bibellau pilenaidd ac esgyrnog ydyw y pibellau hanner cylchog. Y mae y cogyrndro yn gyffelyb i gragen, a dosberthir ef yn ddau ddarn gan derfyn hydredol, ac y mae cymundeb rhyngddo â'r porth a'r tabwrdd trwy y ffenestr gron. Y mae y gyfran fewnol hefyd yn esgyrnog a philenaidd, a chynnwysa hylif dyfrol. Terfyna gewyn y clyw oddi mewn i godenau y porth, y pibellau hanner cylchog, a'r cogyrndo.

*Peirianwaeth y clyw.* Cynnyrch ysgogiadau sigliadol cyflym gronynau cyrff soniarus, pan eu tarewir, ydyw *sŵn*. Trosglwyddir yr ysgogiadau sigliadol hyn i'r awyr fydd o'u hamgylch, yr hwn a'u cluda yn mlaen. Cyn y byddont yn glywadwy, rhaid iddynt gyrhaedd hylif gewyn y clyw. Cyffyrdda y sigliadau yn gyntaf oll â'r gyfran allanol o'r glust; yna cyfeirir hwynt yn mlaen tua'r gyfran ganol, trwy yr awyr a leinw y bibell, a chyrhaeddant y tabwrdd; trosglwyddir hwynt oddi yno i'r esgyrn bychain sydd yn y gyfran ganol, i'w hochrau, ac i'r awyr a gynnwysa; ac fel hyn, cyrhaeddant bilenau sydd yn arwain i'r gyfran fewnol. Y mae y pilenau hyn mewn cyssylltiad â'r hylif dyfrol a leinw y gyfran fewnol, ac yn yr hylif hwn y nofia y codenau pilenaidd, y rhai sydd yn llawnion o hylif gwahanol, i'r hwn y rhed llinion terfynol gewyn y clyw. Cyrhaedda y sigliadau, yn y ffordd hon, i'r gewyn ei hun, trwy yr hyn y trosglwyddir yr ymsyniad i'r ymenydd. Gwel CLUST.

5. *Y golwg.* Trwy y synwyr hwn y galluogir ni i ddarganfod presennoldeb gwrthddrychau trwy eu lliwiau. Trwyddo ef hefyd yr adnabyddwn eu ffurf, eu maintioli, a'u sefyllfaoedd perthynasol. Y mae y peiriant yn gynnwysedig o gewyn y llygad, afal y llygad, yn nghyd â'i




**Dar. 271.—Afal y llygad wedi ei ddifynu.**

[1. Gleingorn tryloew. 2. Ystafell flaenaf y llygad, yr hon a saif rhwng y gleingorn a'r enfys, a'r hon a red i'r ystafell ol trwy yr agoriad yn yr enfys a elwir canwyll y llygad; cynnwysa yr ystafelloedd hyn y gwlybyron dyfrllyd. 3. Canwyll y llygad—agoriad 'yn yr enfys, trwy yr hwn yr â gronynau y goleuni i ystafelloedd mewnol y llygad. 4. Yr enfys. 5. Cyfran o'r bilen gyssylltiadol. 6. Y gwlybwr crisialaidd neu y gromlain. 7. Y galedai (*sclerotic*). 8. Cyfran o'r galedai wedi ei throi i fyny, er dangos rhanau o'r pilenau sydd o dani. 9. Y gobilen (*choroid*). 10. Y rhwydlen. 11. Gewyn y golwg. 12. Y gwlybwr gwydrol. 13. Geilblygion (*ciliary processes*).]


gyssylltiadau. Pellen geuol ydyw afal y llygad, yn gyfansoddedig o haenau pilenaidd, a gwlybyron mwy neu lai hylifol. Wrth ei ddifynu oddi allan tuag i mewn, canfyddir ei fod yn gyfansoddedig o'r amwisg a elwir caledai (*sclerotic*), yr hon sydd yn wen ei lliw, yn llinaidd, ac yn dra chref. Yn nesaf at hon y mae y gleingorn (*cornea*): trwy hwn y pasia gronynau y goleuni i ranau mewnol y llygad. Trwy symmud cyfran o'r gleingorn, daw yr enfys (*iris*) i'r golwg, yr hon sydd bilen gylchog liwiedig, wedi ei gosod fel terfyn rhwng ystafelloedd blaen ac ystafelloedd ol y gwlybwr hylifol. Fe nofia yr enfys yn y gwlybwr hwn, ac y mae o ran ei natur yn grebychol (*contractile*)—yr hyn a bâr i'r agoriad sydd yn ei chanol, a elwir canwyll y llygad, wahaniaethu yn ei faintioli i gyfateb i nerth y goleuni. Yn nesaf i'r enfys, ac yn ymestyn oddi wrthi yn ol dan y caledai (*sclerotic*), y mae y *choroid*, sef pilen dywyll lestrog sydd mewn cyssylltiad â darparliw (*pigment*) y llygad; ac oddi mewn i hon y mae y rhwydlen (*retina*), yn mha un y terfyna gewyn y llygad (*optic nerve*). Y gwlybyron sydd yn gynnwysedig yn y pilenau hyn ydyw y rhai canlynol:—y gwlybwr dyfrol (*aqueous*), y gromlain (*lens*), a'r gwlybwr gwydrol (*vitreous*). A gewyn y llygad i mewn tua'r rhan ol, gan basio trwy y caledai a'r *choroid*, a therfyna yn y rhwydlen. Y mae gewynau ereill yn y llygad heb law y rhai hyn, ond gewynau symmudiad a theimladrwydd ydynt. Y mae y gwlybyron yn ddiliw a thryloew, ac felly hefyd y mae yr holl ranau sydd ar lwybr y golwg, rhwng y tu allanol a'r rhwydlen. Y mae y gleingorn (*cornea*) yn neillduol yn dryloew, ac felly hefyd y mae y bilen gyssylltiadol (*conjunctiva*) a'i gorchuddia. Y mae y llygad wedi ei osod mewn ceuedd esgyrnog; gorphwysa ar glustog o sylwedd brasderog cellog, a symmuda yn rhwydd trwy gymhorth ei gyhyrau. Y mae un pen o'r rhai hyn yn gyssylltiedig wrth y ceuedd esgyrnog, a'r pen arall wrth y caledai (*sclerotic*). Diogelir y llygad o'r tu blaen gan yr eiliau, yr amrantau, a'r dagrau. Ychydig tu ol i flew yr amrantau, canfyddir chwarenau bychain, y rhai a ddydolant hylif neillduol, yr hwn a ettyl yr amrantau rhag glynu yn eu gilydd yn ystod cwsg. Gorchuddir yr amrantau a'r rhan flaenaf o afal y llygad gan y bilen gyssylltiadol; yr hyn, yn nghyd â'r lleithder a gyflenwir gan chwaren y dagrau, a alluoga yr amrantau i chwareu yn rhwydd y naill ar y llall. Y mae chwaren y dagrau wedi ei chyfleu oddi mewn i'r ceuedd, ond tu allan i afal y llygad, yn yr ongl allanol. Y chwaren hon sydd yn dydoli y dagrau, y rhai a gludir trwy ffosydd bychain i arwyneb afal y llygad. Llithrigant y llygad trwy symmudiadau yr amrantau a'r afal, ac ymgasglant yn nghyd tuag ongl fewnol y llygad, o'r hwn le y trosglwyddir hwynt i'r ffroenau.

*Organ y llais.* Cynnyrchir y llais gan fynediad yr awyr trwy gyfran o'r bibell anadliadol sydd wedi ei threfnu yn y fath fodd fel ag i beri i'r awyr ymdoni (*vibrate*). Y brefant (*larynx*) ydyw organ llais mewn dyn ac mewn tethogion. Gellir ei theimlo o'r tu allan i'r gwddf, a'r enw cyffredin a roddir arni yw "afal Adda." Pibell fer a llydan ydyw, wedi ei chyssylltu â'r esgyrn tu ol i'r tafod, ac yn cydredeg â'r bibell chwyth. Y mae ei magwyrydd yn gyfansoddedig o dri madruddyn, a elwir y tarianaidd (*thyroid*), y modrwyaidd (*cricoid*), a'r pibellaidd (*arytænoid*). Y mae wedi ei leinio gan bilen lysog, yr hon a ymestyn o'r bilen a orchuddia y tafod, y genau, &c., ac a gyrhaedd i lawr i'r ysgyfaint. Cynnwysa y bilen hon bedwar o blygion; dau oddi arnodd, a elwir y llinynau lleisiol gau; a dau oddi tanodd, a elwir y gwir linynau lleisiol. Trwy i'r awyr beri i ymylau y plygion hyn ymsiglo y cynnyrchir llais.

Ffurfir y gwir linynau lleisiol, yn fewnol, o bilen lysog, fel y sylwyd yn flaenorol, ac yn allanol o giau hydwyth, y rhai a ymestynant o

Digitized by Google

ran fewnol ongl y madruddyn tarianaidd o'r tu blaen, hyd y madruddyn pibellaidd o'r tu ol. Trwy y cyhyrau sydd mewn cyssylltiad â'r brefant, gellir, nid yn unig ei symmud oll i fyny ac i lawr yn y gwddf, ond gellir hefyd dynhau neu lacau y gwir linynau lleisiol, fel ag i leihau, mwyhau, neu ynte i gau i fyny yn mron yn llwyr, yr agorfa a elwir "*rima glottides*," trwy ba un y rhaid i'r awyr basio yn ei fynediad i mewn ac allan o'r ysgyfaint. Diogelir y brefant rhag mynediad damweiniol ymborth neu ddiod i mewn




Dar. 272.

(Tu blaen y brefant. Dangosir ffurf y magwyr mewnol trwy y llinellau *a a*, *b b*. *li*. Y gwir linynau lleisiol, neu y rhai isaf. *ls*. Y llinynau gau, neu y rhai uchaf. *v*. Boten y beudag (*glottis*) a'r brefant. *h*. Asgwrn y tafod. *t*. Y madruddyn tarianaidd. *c*. Y madruddyn modrwyaidd. *tr*. Y corn chwyth.

iddo gan yr arfrefant (*epiglottis*), yr hwn sydd glawr (*valve*) madruddynog wedi ei gyfleu uwch ben y bibell, yn mhen draw y genau. Pasia yr awyr yn ol ac yn mlaen trwy y brefant yn gyffredin heb gynnyrchu dim swn; ond pan yr ymgrebycha ei gyhyrau, fel ag i ddylanwadu ar y llinynau lleisiol, ac i effeithio ar dryfesur y "*rima glottides*," cynnyrchir seiniau yn uniongyrchol.

Barna y rhan luosocaf o anianyddwyr mai trwy ymsigliadau y gwir linynau lleisiol, yn gweithredu fel corsen (*reed*) tolgorn (*clarionet*), yn unig y cynnyrchir llais; gwnai hyn offeryn chwyth o organ y llais dynol. Sieryd ereill am dani fel yn debycach i'r crwth, neu mai llinynofferyn ydyw. Yr ydys wedi cael profion diammheuol fod y llinynau lleisiol yn ymsiglo yn gyflym tra y byddo y llais yn cael ei gynnyrchu, a bod y gwagle sydd rhyngddynt yn lleihau yn ddirfawr pan y gwneir llais uchel main. Dibyna nerth y llais, mewn rhan, ar y grym a ddefnyddir i ollwng yr awyr allan o'r ysgyfaint; ac mewn rhan ar faintioli amryw ranau o'r brefant, yn nghyd â'r rhwyddineb gyda pha un yr ymsiglant. Ymddengys y dibyna ansawdd y llais mewn rhan ar deithi anianyddol y llinynau ac ochrau y brefant, ac mewn rhan ar deithi yr awyr-bibellau oddi tanodd. Gwyddys fod ansawdd offerynau cerdd yn gwahaniaethu yn fawr yn ol fel y gwneir hwynt o goed, mettel, neu o ddefnyddiau ereill; ac ymddengys fod rhai dullweddiadau ar y llais i'w priodoli i galedrwydd y cymhlethweddd a gyfansoddant y brefant, ac yn neillduol y madruddynau (*cartilages*). Y mae y madruddynau hyn, mewn merched a phlant, yn feddal ac yn ystwyth; tra y maent wedi esgyrneiddio mewn dynion a merched yn meddu llais cryf. Gellir dosbarthu y seiniau a gynnyrchir gan y peiriant lleisiol yn dri math—y waedd, y gân, a'r llais cyffredin. Gwahaniaetha y llais oddi wrth y waedd reddfol; ond cynnyrchir y naill a'r llall trwy yr un dull, sef trwy seiniau nad ydyw eu perthynasau cydseiniol yn glywadwy i'r glust, o'r hyn lleiaf yn eglur a gwahaniaethol. Y mae canu, o'r tu arall, yn gyfansoddedig o seiniau cerddorol clywadwy a rheolaidd. Y mae dyn yn meddu hefyd y gallu rhyfedd o barablu seiniau ei lais: cynaniad y gelwir y weithred hon. Organau y cynaniad ydyw y sefnig (*pharynx*), rhan uchaf y ffroenau, ac amryw ranau o'r genau. Nid dyn ydyw yr unig anifail sydd yn meddu y gallu hwn, ond efe yw yr unig un a ŵyr pa fodd i gyssylltu ystyr â'r geiriau a leferir ganddo, ac â'r cyfluniad a rydd iddynt: efe yn unig sydd wedi ei ddonio â gallu i ymadroddi.

DYN, DOSBARTHIAD AC UNOLIAETH. Wedi egluro cyfansoddiad dyn, y mae yn angenrheidiol i ni olrhain ychydig eto ar dosbarthiad ac unoliaeth dynolryw. Y mae dyn, o ran ei gyfansoddiad a'i ddull o fyw, yn mhob oes ac yn mhob man, yn meddu cynnulliad o nodweddiadau cyffredin, y rhai sydd yn amlygu unrhywiaeth y corff dynol. Er hyny y mae y fath wahaniaeth gyda golwg ar y nodweddau hyn yn perthyn i bersonau o'r hil ddynol, fel nas gellir eu priodoli i ddygwyddiad yn unig; gan eu bod yn barhaol o'r naill genedlaeth i'r llall mewn llwythau gwahanredol. O'r holl amrywiadau a welir yn nghyfansoddiad dynion, y mwyaf nodedig ydyw lliw y croen. Y mae y gwahaniaeth rhwng y gwyneb gwyn a gwridog Ewropaidd a lliw du y wynebpryd Affricanaidd mor hynod o fawr, fel yr ymddengys ar yr olwg gyntaf fod brodorion y ddau gyfandir, a wahenir gan ddim ond tair milltir ar ddeg yn unig, yn perthyn i ddwy rywogaeth cwbl wahanol o greaduriaid. Pan y chwanegir at hyn y gwahaniaeth sydd rhwng gwynebpryd uchel ac unionsyth y rhai blaenaf, a gwynebpryd isel a gŵyrgam y rhai diweddaf, nis gellir rhyfeddu llawer at y sefyllfa isel a darostyngedig y mae y negroaid wedi bod ynddi er ys oesoedd, a'u bod wedi eu dydoli mewn ystyr oddi wrth yr hil ddynol.

Cynnyrchir lliw du y croen gan blyg o gelloedd amlonglog bychain, dan y croen uchaf, yn cynnwys sylwedd lliwiol du. Nid oes dim o'r celloedd lliwiol hyn dan groen y dyn gwyn, oddi gerth, hwyrach, ambell ysmotyn yma ac acw weithiau; ac ni byddant yn ei groen hyd yn oed pan wedi melynu dan ddylanwad goleuni a gwres yr haul. Yn mhellach, pan y trosglwyddir y negro i hinsawdd dynerach Ewrop, ni ddiflana y celloedd hyn o'i groen. Cyfansodda y sylwedd du hwn sydd dan y croen, gan hyny, mewn golygiad organaidd, un o nodau gwahaniaethol y genedl Ethiopaidd, megys negroaid Affrica a Phapuaniaid Oceanica. Y mae perthynas wastadol gyda golwg ar liw rhwng lliw y croen a'r gwallt, yn nghyd â lliw enfys y llygad. Y mae dau ddosbarth yn mhlith pobl wynion: y dosbarth teg (*blonds*), y rhai sydd yn meddu croen gwyn, gwallt goleu, a llygaid gleision; a'r dosbarth gwineu (*brunettes*), y rhai sydd yn meddu croen gwineu, gwallt du, a llygaid duon. Yn yr Albiniaid y mae y berthynas hon i'w chanfod amlycaf, y rhai a nodweddir gan wynder eu gwallt a'u crwyn, a chochni enfys eu llygaid, yr hyn a gynnyrchir gan lestri gwaed lluosog. Fe gadarnheir y berthynas hon hefyd gan ansawdd neillduol y gwallt yn mhlith pobl dduon, yr hwn sydd yn wlanog, hyny yw, yn fyr ac yn grych, megys yn mhlith negroaid Affrica; neu, yn fyr, yn grych, ac yn arw, megys yn mhlith negroaid Oceanica. Rhwng dosbarth teg Ewrop a dosbarth du Affrica, canfyddir pob gradd dirnadwy o wahaniaeth yn mhlith personau o'r un llinach,

Digitized by Google

a phobl o'r un genedl, gyda golwg ar liw eu crwyn a hyd a swm eu gwallt. Yn mhellach, y mae gwahaniaeth tarawiadol rhwng y ddwy genedl fawr o ddynion—yr Americanaidd, nodwedd yr hon ydyw gwallt du hir a theneu, gyda chroen o liw copr; a'r Fongolaidd, yr hon a breswylia yn Asia, gyda gwallt cyffelyb, ond yn meddu croen o liw melyn.

Y mae pen dyn hefyd yn arddangos gwahaniaethau mor luosog a phwysig a'r rhai sydd yn dwyn perthynas â'r croen, yn enwedig yn maintioli a ffurf asgwrn y pen, yr hwn a agosha, i raddau mwy neu lai, at y cynllun delfrydol (*ideal type*). Pa beth bynag a feddylir am natur y ddadl a duedda i daflu ammheuaeth ar yr athrawiaeth fod cyfatebiaeth rhwng y galluoedd deallol a maintioli yr ymenydd, y mae yn ffaith ddiammheuol fod gwahaniaeth organaidd yn yr ystyr hwn yn safon sicr i fesur cynneddfau meddyliol personau unigol. Ystyrir fyth mai yr ymenydd ydyw organ meddwl, a chanfyddir y gallu deallol yn gwahaniaethu yn ol maintioli yr organ hon. O ddiffyg cynllun manwl i benderfynu pwysau yr ymenydd, y mae yn rhaid boddloni ar fesur asgwrn y pen, yr hwn a'i cynnwys; ac yn wir, ceir syniad lled gywir am ei bwysau trwy y dull hwn. Ond gan nad ydyw gwahanol ranau yr ymenydd yn meddu yr un pwysigrwydd perthynasol a'u gilydd (y rhan uchaf, fel yr ystyrir, ydyw organ yr enaid, a'r rhan flaenaf o'r rhan hon yn fwyaf arbenig yw organ y dealltwriaeth), tybir y rhaid bod cyfatebiaeth rhwng ffurf asgwrn y pen a graddau dadblygiad y cynneddfau deallol; a bod uchder, lled, a maintioli cyffredinol y rhan flaenaf o asgwrn y pen yn arddangosiad o nerth galluoedd y meddwl. Ar y ddamcaniaeth hon y mae y dulliau o fesur maintioli a ffurf asgwrn y pen wedi eu seilio, oddi wrth yr hyn y bernir y gellir penderfynu gallu y cynneddfau deallol. Trwy fesur ongl y wyneb, maintioli asgwrn y pen, a maintioli a ffurfiau amrywiol y wynebpryd, daethpwyd i sylwi bod gwahaniaeth sefydlog rhwng dynion a'u gilydd yn yr ystyron hyn; ond y mae yr holl amrywiaethau yn gynnwysedig rhwng dau eithafnod. Fel hyn, perthyna 85 o raddau, yr hyn a arddengys faintioli mwyaf ongl y wyneb, yn gyffredin i bersonau a chenedloedd o'r dealltwriaeth uchaf, megys yr Ewropiaid; a pherthyna 75 o raddau—yr hyn yw maintioli lleiaf ongl y wyneb, i bersonau o'r dealltwriaeth gwanaf; y cyfryw ag a welir yn mhlith personau unigol o bob cenedl, ac hefyd yn mhlith rhai cenedloedd cyfain, megys negroaid Oceanica ac Affrica. Dengys y daflen ganlynol fesuriadau penau y gwahanol genedloedd:—

| *Llwythau.* | *Tryfesur o'r tu blaen i'r tu ol.* | *Tryfesur o ochr i ochr.* | *Cromlinell y wyneb.* |
|---|---|---|---|
| Caucasiaid | 184 | 125 | 274 |
| Mongoliaid | 173 | 125 | 270 |
| Ethiopiaid | 183 | 112 | 268 |
| Malayaid | 170 | 125 | 266 |
| Americaniaid | 170 | 125 | 266 |

Yr hyn a ddeallir yn y mesuriadau hyn wrth *gromlinell y wyneb* ydyw y llinell a fesurir o ymyl allanol agorfa un glust, ar hyd yr aeliau, i bwynt cyferbyniol y glust arall. Cymmerir y mesuriadau hyn hefyd fel prif fesuriadau amrywiaeth mawr o bersonau unigol yn perthyn i bob un o'r llwythau. Fel anghraifft o genedl yn perthyn i'r llwyth Caucasaidd, cymmerwn y mesuriadau a wnaethpwyd o benau y Ffrancod:—

| | *Y mwyaf.* | *Y lleiaf.* |
|---|---|---|
| Tryfesur o'r tu blaen i'r tu ol | 206 | 171 |
| Tryfesur o ochr i ochr | 155 | 127 |
| Cromlinell y wyneb | 348 | 280 |

Dealler fod y mesuriadau hyn wedi eu gwneyd yn ol y milfedfeidr Ffrengig; ac mai dyna yw yr achos o'r gwahaniaeth mawr sydd rhwng y daflen hon a'r un flaenorol. Rhenir dynolryw trwy y mesuriadau hyn yn bum prif ddosbarth, yn ol maintioli asgwrn y pen, a dadblygiad y talcen; ac o ganlyniad, yn ol galluoedd eu cynneddfau deallol, os oes gwirionedd yn y rhan hon o benofyddiaeth.

Y mae gwahaniaethau ereill heb law yn maintioli a ffurf asgwrn y pen rhwng y gwahanol lwythau, y rhai a nodir pan yn ymdrin â phob llwyth ar wahân.

Bernir yn gyffredinol fod gwneuthur dosbarthiad manwl o wahanol lwythau y teulu dynol, yn ol nodwedd pob llwyth, yn orchwyl tra anhawdd, os nad yn anmhosibl, yn y dyddiau presennol. Y mae y duedd gynnyddol sydd mewn dynolryw i briodi rhai o wahanol genedloedd, a hyd yn ced â rhai o wahanol lwythau a thylwythau, yn gwneuthur y peth yn fwy dyrys bob dydd, trwy ddileu neillduolion cyntefig pob un. Er hyny, y mae celfyddyd, trwy ystyried y gwahaniaeth sydd mewn cyfansoddiad, ieithoedd, ac arferion, a geir mewn traddodiadau hanesyddol a chrefyddol, wedi gwneuthur allan yn lled gywir fod pump o lwythau mawrion yn bod; ac er nad yw y dosbarthiad fe allai yn dra manwl, eto y mae yn gyfleus a defnyddiol. Y mae yn hawdd cyfeirio yr holl adraniadau a wnaed, trwy gynnydd celfyddyd yn hanes cenedloedd, i un o'r dosbarthiadau mawrion hyn. Enwau y pum llwyth gwahanol sydd fel y canlyn:—y Caucasaidd, y Mongolaidd, yr Ethiopaidd, y Malayaidd, a'r Americanaidd.

I. *Y llwyth Causasaidd.* Y neillduolion cyffredin a briodolir i'r llwyth hwn ydyw y rhai canlynol:—croen gwyn, yn nghyd â gwrid yn lliw y cnawd; bydd arliw y croen yn fwy neu lai llychwin yn ol maint dylanwad gwres a go-



Dar. 278.—Y llwyth Caucasaidd.

leuni yr hinsawdd; gwallt hir tònog, o liw goleu neu dywyll; barf helaeth; pen mawr, mewn cymhariaeth i faint y gwyneb; yr ongl wynebol o 80° i 85°; ffurf y creuan (*cranium*) yn llethgrwn,

Digitized by Google

a ffurf y gwyneb yn hirgrwn; y trwyn yn gul, ac yn fwy neu lai argrwm a llawn; y dannedd yn sythion; y gwefusau braidd yn sefyll allan; a'r ên yn amlwg, yn hir, ac yn llawngrwn. [Fe welir cynllun o'r llwyth hwn yn *darlun* 273]. Cenedloedd o'r llwyth hwn sydd yn preswylio holl Ewrop (oddi gerth Lapland, Finland, a rhan o Rwssia), gorllewin Asia, Twrci, Arabia, Persia, Tartary, Affghanistan, a Hindwstan, gogledd a dwyrain Affrica, Barbary, yr Aipht, Nubia, ac Abyssinia.

Tybir mai cyff cyffredin yr holl genedloedd hyn oedd y llwyth neu y llwythau a breswylient o'r dechreu yn y gyfres Gaucasaidd o'r mynyddoedd sydd yn ffurfio rhan o'r terfyn rhwng Ewrop ac Asia; ac mai o'r gororau hyny yr ymdaenasant, trwy ymfudo yn olynol i Ewrop, Asia, a rhan o Affrica. Addefir hefyd fod dylanwadau gwahanol goleuni, gwres, ymborth, arferion ac yn enwedig hinsawdd, yn ddigon i wneuthur y gwahaniaeth sydd rhwng y cenedloedd hyn a'u gilydd; y rhai, er hyny, nid ydynt yn dileu ffurf cyntefig y llwyth. Y mae yr ystyriaeth o'r amrywiadau hyn, ac yn enwedig yr amrywiaeth sydd yn deilliaw oddi wrth wahanol ieithoedd, wedi arwain cenedlofyddion (*ethnologists*) i adranu y teulu mawr hwn o genedloedd yn amryw dylwythau, yn annibynol ar y lle, neu eu sefyllfa leol.

Y mae mamieithoedd Ewrop a gorllewin Asia —y Sanscrit, y Zend, y Groeg, y Slavonaeg, a'r Almaeneg—cyfatebion eu cystrawiad grammadegol, a chyffelybrwydd eu geiriau, wedi cynnyrchu y gred eu bod oll wedi tarddu o un iaith gyntefig;



Dar. 274.—Y Memon ieuanc, yn arddangos y llwyth Coptaidd.

ac felly, cyfunwyd hwynt yn un haib (*group*), a elwir y teulu Ind-Ewropaidd. Felly ymddengys y cysylltir y bobloedd a lefarant yr ieithoedd gwreiddiol neu darddedig hyn gan un berthynas chwanegol, sef perthynas iaith. Y mae y teulu mawr hwn wedi ei adranu yn wahanol ganghenau. Yn Asia, canfyddir mai y gangen Bersiaidd, yr olrheinir ei hieithoedd i'r Zend, yw y bobl a elwid gynt y Persiaid, y Mediaid, a'r Bactrianiaid;—ac yn ddiweddar, y Persiaid, yr Affghaniaid, y Koordiaid, a'r Armeniaid. Y nesaf yw y gangen Hindŵaidd, yr olrheinir ei hieithoedd i'r Sanscrit, sef y bobloedd a lefarant yr adieithoedd canlynol:—y Cashmeriaeg, y Marashdaeg, y Telingaeg, y Tamulaeg, y Malabariaeg, a'r Hindwstanaeg: hefyd, trigolion y Sinde, a'r gwledydd sydd yn terfynu ar y Ganges, y gellir eu galw y Ganghistaniaid, a'r Deccan, ac ynys Ceylon. Y drydedd gangen yw yr hon a ffurfir o'r cenedloedd Ewropaidd—ieithoedd pa rai sydd debycaf, o ran cyfatebion mwy neu lai eglur, i'r Zend, a'r Sanscrit; ac a gynnwysant y Groeg, y Lladin, y Slavonaeg, yr Almaeneg, y Geltaeg, a'r ieithoedd Scandinaviaidd. Dyma y cenedloedd sydd yn ffurfio y rhan benaf o boblogaeth Ewrop, ac a gyfanneddant dir Groeg,

Digitized by Google

Italy, Yspaen, Ffrainc, Rwssia, Poland, yr Almaen, yr ymherodraeth Frutanaidd, y Netherlands, a Sweden, Norway, a Denmarc. Am y cenedloedd sydd yn preswylio y mynyddoedd Caucasaidd y dydd heddyw, ae a ddangosant yn eu cyfansoddiad y neillduolion cyffredinol a briodolir i'r llwyth Caucasaidd, un yn unig, sef yr Ossetiaid, sydd yn gyssylltiedig, o ran yr iaith, â'r teulu Ind-Ewropaidd. Y mae y lleill yn llefaru rhyw ieithoedd nad ydynt hyd yn hyn wedi eu dosbarthu yn ol unrhyw gyfatebion; megys y Circassiaid y Lesghiaid, y Georgiaid, a'r Mingreliaid.

Yr ieithoedd Arameaidd sydd yn meddu, fel eu nodwedd cyffredin, gyflawnder o seiniau sefnigol (*guttural*), geirlechres gyfoethog, lluaws o dreigliadau i'r ferf, a symledd yn eu perthynasau gramadegol ereill, yw y Syriaeg neu yr Aramaeg, y Galdaeg, y Pheniciaeg, yr Hebraeg, yr Arabaeg, y Gheez, a'r Amharicaeg. Perthyn i'r cenedloedd y mae tebygrwydd eu hieithoedd wedi achosi eu gosod yn yr un cynnulliad, dan yr enw y teulu Arameaidd neu Semiticaidd, y mae y rhai a elwid gynt wrth yr enw Assyriaid, Caldeaid, Pheniciaid, Hebreaid, Arabiaid, Lybiaid, Numidiaid, Getuliaid, ac Ethiopiaid; ac, mewn amseroedd diweddar, llwythau Libanus a lefarent y Syriaeg, yr Arabiaid a ganfuwyd yn ngorllewin Asia ac yn ngogledd Affrica, yr Iuddewon a geir yn mhob parth o'r ddaiar, a'r Abyssiniaid sydd yn llefaru y Gheez a'r Amharicaeg.

Ymddengys fod yr hen Aiphtiaid, y rhai yr oedd eu hiaith a'u defodau yn eu dydoli oddi wrth bawb ereill, ac o'r rhai y mae eu cofadeiliau a'u mymïau (cyrff meirw wedi eu perarogli) yn dangos cynllun o'u cyfansoddiad naturiol, yn cael eu cyssylltu â'r llwyth Caucasaidd trwy gyfrwng ffurf eu penau ac agwedd eu wynebau. Neillduolion cyffredinol yr hen Aiphtiaid oedd croen o liw tywyll, talcen helaeth, gên gron, trwyn union, llygaid mawrion, gwefusau tewion, clustiau uchel yn sefyll allan, a phrinder barf; a chanfyddir y cyffelyb eto yn mysg y Coptiaid, sydd yn siarad yr un iaith, ac yn dal cyssylltiad âg amryw o lwythau Nubia ac Abyssinia (*dar.* 274).

II. *Y llwyth Mongolaidd.* Neillduolion cyffredinol y llwyth hwn sydd fel y canlyn:—Croen melyn; gwallt syth, du, a theneu; gwyneb fflat, ac asgwrn y rudd yn uchel; trwyn byr, llydan a fflat; emrynt y llygaid yn ŵyrgam, a lled mawr rhwng y llygaid; y talcen yn isel, a'r creuan yn gyfrgrwn neu bigyrnog. Preswylia y cenedloedd a restrir yn y llwyth yma ogledd a dwyrain Asia, gogledd Ewrop, a gogledd America. Tybir i'r cenedloedd hyn ddeilliaw o'r llwythau crwydrol, y rhai a ymdaenasant o wastadedd mawr canolbarth Asia i'r gogledd, i'r gorllewin, ac i'r dwyrain, ar wahanol amserau; am y sawl y mae rhai cofion hanesyddol yn gadwedig hyd heddyw. Y mae ystyriaethau ieithyddol wedi arwain cenedlofyddion i adranu y cenedloedd hyn yn dair cangen, y rhai hefyd a hynodir gan rai nodweddau cyfansoddiadol. Ymddengys y cyfunir yr ieithoedd Scythico-Samatianaidd, Finnishiaidd, Lapponiaidd, Esthoniaidd, Livoniaidd, Permiaidd, a Magyaraidd, yn un teulu gwahanredol gan berthynas ieithyddol; a phobloedd gogledd Ewrop sydd yn cyfanneddu Finland, Lapland, Esthonia, Livonia, y taleithiau Rwssiaidd yn ngororau y mynyddoedd Ural, a'r afon Volga, Transylvania, a Hungary, ac ereill, a gyssylltir gan neillduolion naturiol, megys y Woguliaid, yr Ostiakiaid, y Samoeidiaid, a Kamschatdaliaid gogledd Asia, ac Esquimaux a Greenlandiaid Gogledd America. Y mae yr ieithoedd Tyrcaidd, Tartaraidd, Mongolaidd, a Mandchuraidd, a gyssylltir mewn rhyw ystyr âg ieithoedd y llwyth Caucasaidd trwy gyfrwng eu cyfansoddiad gramadegol, ac yn enwedig trwy eu bod yn meddu cyfleuadau a threigliadau (*conjugations and declensions*), yn gwahanu pobloedd canolbarth Asia oddi wrth y tŵr cenedloedd a hynodir gan ieithoedd unsillafog, yn mysg y rhai y Mongoliaid a'r Kalmuciaid yw cynllun cyfansoddiadol y llwyth; tra y mae y Tyrciaid, y Buckariaid, a Thartariaid Siberia, yn fwy cyssylltiedig, fe allai, â'r llwyth Caucasaidd o ran neillduolion naturiol. Yn wir, canfyddir holl olion yr hil Mongolaidd i raddau tra nodedig yn y tŵr cenedloedd sydd yn ffurfio yr un llwyth, sydd yn defnyddio yr ieithoedd unsillafog fel eu gelwir—sef y rhai sydd yn defnyddio geiriau unsill yn benaf. Y mae yr ieithoedd hyn, y rhai yn gyffredin sydd yn ddiffygiol o fodd i nodi cyflyrau a rhywiau enwau, a moddau ac amserau y ferf, yn cynnwys y Thibetiaeg, y Chineaeg, y Birmanaeg, y Siamesaeg, a'r Annamicaeg, a siaradir gan drigolion dwyrain Asia, Thibet, China, yr ymherodraeth Birmanaidd, Siam, Cambodia, Tonquin, Cochinchina, a Corea. Ymddengys fod y Japaniaid yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth y tŵr yma, o ran eu hiaith, yr hon sydd o nodwedd mwy diwylliedig, â'r rhai yr ymgyssylltant, er hyny, o ran eu cyfansoddiad naturiol.



Dar. 275.—Y llwyth Mongolaidd.

III. *Y llwyth Ethiopaidd.* Neillduolion y llwyth yma ydyw, croen du, neu gochddu agos i ddu; gwallt du, byr, crychlyd, a gwlanog; creuan estynedig o'r tu blaen i'r tu ol; talcen isel; càr yr ên yn sefyll allan, y dannedd yn ŵyrgam, y gwefusau yn dewion, a'r ên yn cilio yn ol; a'r ongl wynebol yn amrywio o 70° i 75°. Gwelir cynllun o'r llwyth hwn yn ei holl fanylrwydd yn mysg y Negroaid neu y Duantwys, a elwir felly yn briodol, y rhai a alwai yr henafiaid wrth yr enw cyffredin Ethiopiaid, a boblogant Senegambia, Guinea, Soudan neu y Negroland, a Congo. Y mae yr Hottentotiaid a'r Caffrariaid, er yn dra gwahanol mewn amryw bethau, yn gyssylltiedig â thrigolion y gororau hyn i'r fath raddau, fel y gellir ystyried fod y tŵr hwn yn unig yn cynnwys holl Negroaid Affrica. I'r llwyth Ethiopaidd

Digitized by Google

hefyd yr olrheinir Negroaid Oceanica, y rhai a wahaniaethir oddi wrth yr hil Affricanaidd trwy fod eu gwallt yn hwy, a'u barfau heb fod mor wlanog, trwy yr anghyfartaledd rhwng eu haelodau hirion a theneuon a'u cyrff byrion a chyrcydol, y rhai, dan yr enw Papuans, yw trigolion brodorol Awstralia, New Caledonia, Van Diemen's Land, New Guinea, &c.; a'r rhai a ganfyddir



Dar. 276.—Y llwyth Ethiopaidd.

dan enwau ereill yn gymmysgedig â llwythau ereill yn ynysoedd Sunda, y Philippines, a'r Moluccas. Lliosogrwydd ieithweddau (*idioms*) heb un cyssylltiad ymddangosiadol â'u gilydd, nac âg ieithoedd y llwythau ereill, yw nodau cyffredin ieithoedd y Negroaid Affricanaidd ac Oceanicaidd.

IV. *Y llwyth Malayaidd.* Yr oedd holl frodorion Oceanica yn cael eu hystyried ar y cyntaf yn perthyn i'r un llwyth. Nid yw neillduolion gwahaniaethol y cenhedloedd Oceanicaidd mor amlwg fel nas gellir eu rhestru, naill ai yn y llwyth Caucasaidd neu Fongolaidd, yn ol fel y canfyddir hwy yn tebygu i'r Indiaid neu y Chineaid; a gallesid hyd yn oed eu rhestru gyda'r llwyth Ethiopaidd, o blegid rhyw gydweddiadau sydd iddynt, oni buasai fod y llwyth Malayaidd wedi ei wahanu eisoes oddi wrth Negroaid Oceanica. Ond er y gwahaniad yma, nid ydyw y neillduolion a briodolwyd i'r llwyth Malayaidd, rhagor Negroaid Oceanica, mor gwbl wahanredol, fel y gellir eu hystyried yn amgen na rhith o wahaniaeth. Y neillduolion hyny yw y rhai canlynol—croen gwineu; gwallt helaeth, du, crychlyd a thew; creuan lled gul, isel o'r tu blaen, ac yn taflu allan o'r tu ol; trwyn mawr fflat; esgyrn yr ên braidd yn ogwyddol; gwefusau lled dewion; a'r gwyneb braidd yn sefyll allan oddi wrth y creuan, tra nad ydyw esgyrn y bochgernau yn dra uchel. Y berthynas ieithyddol yw y rhwymyn mwyaf uniongyrchol sydd yn cyssylltu y cenhedloedd sydd yn llefaru y Malayaeg, â'r cangen-ieithoedd deilliedig o honi, neu y rhai sydd yn dwyn tebygolrwydd iddi. Adranwyd y llwyth Malayaidd, yn ol cyfathrach yr iaith, yn dair cangen:—1. Y gangen Ind-Malayaidd: —yn cynnwys brodorion yr orynys Malayaidd,



Dar. 277.—Y llwyth Malayaidd.

ac ynysoedd Sumatra, Java, a Celebes, a'r ynysoedd Moluccasaidd, Philippinaidd, a Charolinaidd. 2. Y gangen Bolinesiaidd:—yn cynnwys brodorion yr Ynysoedd Cyfeillgar, yr Ynysoedd Cymdeithasgar, ac Ynysoedd Sandwich. 3. Y gangen Fadagascaidd:—yn cynnwys brodorion Madagascar.

V. *Y llwyth Americanaidd.* I'r un llwyth yr olrheinir holl genhedloedd America. Er fod y cenhedloedd hyn yn dra lliosog, y maent yn gwahaniaethu yn fawr yn eu plith eu hunain; etto nid yw y nodweddau naturiol a berthyn i bob un o honynt yn ddigon neillduol i'w gwneuthur yn wahanol lwythau. Prif neillduolion yr hil

Digitized by Google

Americaidd yw, lliw copr neu wineu y croen; gwallt hir ac union; barf deneu; trwyn yn sefyll allan; gwynebpryd trionglog yn cyfodi gan faint esgyrn y bochgernau a safiad allan yr ên; creuan hir; a gwegil isel. Rhoddwyd cynnyg i egluro tarddiad yr Americiaid trwy ymfudiad o'r hen gyfandir, sef y parth yma o'r byd; yn wir, y mae rhai pethau cyffelyb, sydd yn ffurf eu cyrff a chyfansoddiad eu hiaith, yn rhoi lle i feddwl fod brodorion America yn gyssylltiedig â phobloedd gogledd Ewrop ac Asia. Y mae tebygolrwydd yma y fath, fel y rhestrwyd y Greenlandiaid a'r Esquimaux yn mysg yr hil Mongolaidd sydd yn gyssylltiedig âg aelodau ereill o'r teulu Finnaidd; ond y mae rhai yn barnu fod natur yr ieithoedd a leferir gan y brodorion Americaidd, y rhai ydynt oll yn tebygu i'w gilydd, yn gwahardd y syniad fod un cyssylltiad rhyngddynt â dim o ieithoedd yr hen fyd, ac yn tueddu at brofi mai un llwyth ydyw yr holl genedloedd hyn. Y mae ymwahaniad naturiol cyfandir America yn ddwy ran wedi cynnyrchu dosbarthiad o'r llwythau Americaidd, yn ol y lleoedd y preswyliant.—1. Cenedloedd America Ogleddol, y rhai penaf o ba rai ydyw y Toulteciaid a'r Azteciaid—hynafiaid y tylwythau Mexicaidd; yr Algonquiniaid, yr Iroquois, y Cherokees, y Sioux, y Columbiaid, a'r Califforniaid. 2. Cenedloedd America Ddeheuol, y rhai penaf o ba rai ydyw y Peruviaid, yr Araucaniaid, y Patagoniaid, y Chiquitos, y Guaranis, a'r Caribbeaid.

Gyda golwg ar ddoniau naturiol, pa mor fawr bynag y gall fod y pellder rhwng y graddau o ddyrchafiad meddyliol a moesol a feddiennir gan genedloedd gwareiddiedig a diwylliedig, eto y mae digon o brawf y gellir olrhain yr un doniau meddyliol ynddynt oll, yr un rhagfarnau a syniadau, yr un ymwybodolrwydd, cydymdeimlad, a thuedd;—yn fyr, eu bod oll yn meddu yr un cyfansoddiad naturiol neu feddyliol.

Y mae y cydgordiad yma sydd yn nghynneddfau anianyddol ac eneidiol yr holl genedloedd yn un o'r rhesymau cryfaf o blaid y syniad mai un rhywogaeth ydyw yr holl hil ddynol; canys, fel y sylwa y Dr. Pritchard, "i ychydig o amrywiadau dibwys y mae nodweddau anianyddol rhywogaeth yn agored;" am hyny, pan y canfyddwn nifer o bersonau wedi ymledaenu dros y rhan fwyaf o'r ddaiar, heb ddim gwahaniaeth yn dygwydd, nac yn nghyfartaledd hyd yr oes, heb law gorhenaint achlysurol, na thymmor beichiogiad, na mabandod, nac addfedrwydd oedran, nac amryw gyfnewidiadau ereill mewn bywyd, neu mewn arferion, greddfau, serchiadau, na chynneddfau meddyliol, ond a ellir yn deg eu priodoli i wahaniaeth mewn amgylchiadau allanol, gellir penderfynu ar unwaith eu bod oll yn aelodau o'r un teulu, ac yn hiliogaeth yr un tad cyffredin. Fe gadarnheir yr ymresymiad yma gan y ffaith fod amryw anifeiliaid, y rhai y byddai yn anhawdd penderfynu oddi wrth eu ffurfiau yn unig pa un ai i un rhywogaeth y perthynant ai i rywogaethau gwahanol, oddi gerth fod gwahaniaeth yn eu nodweddau anianyddol yn dygwydd. Fel hyn, y mae y blaidd a'r ci, er eu bod mewn llawer golygiad yn tebygu i'w gilydd, eto y maent yn gwahaniaethu o ran tymmor eu cyfebriad, gan fod y fleiddes yn dwyn ei chenawon am 90 o ddiwrnodau, tra na ddwg yr ast (o bob rhywogaeth) mo honynt ond am 62 neu 63 o ddiwrnodau yn unig. Hefyd, y mae y ci yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth y blaidd yn ei dueddiad, sydd yn bysbys yn mhob man, i gymdeithasu â dyn; ac y mae y llwynog yn gwahaniaethu oddi wrth y blaidd a'r ci, yn ei duedd at unigedd. Eto y mae cymmaint o debygrwydd rhwng y rhai hyn a'u gilydd, fel y mae rhai naturiaethwyr yn eu hystyried yr un rhywogaeth. Canfyddir gwahaniaeth cyffelyb yn rhyw yr ych—rhwng yr ych dof a'r ych gwyllt (*bison*) a'r bual (*buffalo*); y rhai, er eu bod yn dra thebyg o ran ffurf i'r dof, sydd yn gwbl wahanol eu tueddiadau a'u harferion. Felly hefyd y mae y gwahaniaeth mwyaf nodedig yn rhywogaeth y ddafad (yn ei holl amrywion) a'r afr—a ganfyddir yn eu greddfau, ac o ganlyniad eu gwahanol ddulliau o fyw; ac felly am afrifed o anghreifftiau ereill, a dueddant oll i brofi sefydlogrwydd nodweddau anianyddol a greddfol pob rhywogaeth, a'u hannibyniaeth cymhariaethol ar y dylanwadau sydd yn cynnyrchu gwahanol ddulliau ffurf a lliw.

Pa fodd bynag, y mae yn angenrheidiol dangos fod y gwahaniaeth cyfansoddiadol sydd yn ymddangos yn gwahaniaethu yr hiliogaeth ddynol mor amlwg yn cyfateb i amrywiadau cyffelyb mewn anifeiliaid ereill a ddisgynont o'r un cyff cyffredin. Dygwydd y fath wahaniaeth yn nodedig yn yr anifeiliaid a ddofwyd, ac felly a ddarostyngwyd i ddylanwadau sydd yn gyffelyb mewn llawer ystyr i'r rhai yr ä dyn danynt yn ystod cynnydd neu ddirywiad gwareiddiad. Nid oes neb, er enghraifft, a wâd fod llawer mwy o wahaniaeth yn amrywiadau y cŵn (y rhai y mae lle i gredu sydd oll o'r un rhywogaeth), o ran ffurf a lliw, ac mewn rhai parthau o ran arferion a greddfau, nag unrhyw wahaniaeth a ganfyddir mewn dyn. Ac y mae yn deilwng o sylw gyda golwg ar yr amrywiadau a wareiddiwyd fwyaf, megys yr adargi, fod y creuan yn ymddangos yn fwy cyflawn ac yn fwy annhebyg i'r ffurf penglog sydd briodol i'r blaidd, na'r rhai sydd heb fod mor ddiwylliedig, megys y gwaedgi. Fel hyn, gellir olrhain cyfres o amrywiadau tra chyffelyb i rai yr epa, y Negro, a'r Ewropead ucheldiwylliedig.

Y mae enghreifftiau mwy nodedig fyth o amrywiaeth yn llwythau y moch, y rhai a ddarluniwyd yn fanwl gan Blumenbach, ac ereill. Y mae yn sicr fod y rhai hyn oll wedi deilliaw o'r baedd gwyllt; ac y mae mor sicr a hyny fod moch yn anhysbys yn America hyd oni chludwyd hwy yno gan yr Yspaeniaid. Eto y maent wedi dirywio yn y wlad hono i amryw epiliadau tra gwahanol i'w gilydd ac i'r rhywogaeth gyntefig. Y mae y rhai a ddygwyd i Cubagua wedi dyfod yn llwyth sydd yn meddu bodiau traed hanner rhychwant o hyd, ac y mae y rhai sydd yn Cuba wedi dyfod yn fwy na chymmaint arall a'u hynafiaid. Y mae moch Normandy yn nodedig o blegid hyd asgwrn y goes ol. Yr oedd moch yn meddu carnau cyfain yn adnabyddus i'r hynafiaid; a chanfyddir epiliadau mawrion o honynt yn Hungary a Sweden. Y mae carn rhai o honynt hefyd wedi ei ranu yn bum hollt. Y mae clustiau y rhai sydd yn Guinea yn hirion ac yn gorwedd ar eu cefnau; ac y mae y rhai sydd yn China yn meddu boliau mawrion crogedig, a choesau pur fyrion; a'r rhai sydd yn Cape Verd a manau ereill, yn meddu ysgythrddaint pur fawrion a chrwca. Fel hyn, yr ydym yn canfod newidiadau mewn un rhywogaeth sydd hyd yn oed yn fwy na'r rhai sydd yn dygwydd yn mysg dynion; ac fel peth o'r pwys mwyaf, dywed Blumenbach nad ydyw yr holl wahaniaeth sydd rhwng pen Negro a phen Ewropead ddim yn fwy mewn un modd na'r gwahaniaeth sydd

Digitized by Google

colegawl wedi bod yn traddodi darlithiau arno, ac y mae y rhai hyny wedi eu cyhoeddi yn llyfrau. Yr enwocaf o'r llyfrau hyn ydyw gwaith Kant, yr hwn ydyw y diweddaf a'r mwyaf poblogaidd o'i holl lyfrau. Cyhoeddwyd ef ganddo tua'r flwyddyn 1798. Yr ydoedd wedi bod bob blwyddyn, er's deng mlynedd ar hugain yn flaenorol, yn arfer traddodi cyfres o ddarlithiau gauafol ar y pwngc; ac o'r defnyddiau hyn y casglodd ynghyd y llyfr. Ceir, oddi wrth ei sylwadau ef, y syniad goreu am yr hyn a ddylai fod cynnwysiad y fath wyddor, a'r daioni ymarferol a ellid gael oddi wrthi, ond ei harfer yn briodol.

Gellir cyfeirio y wyddor hon naill ai i esbonio egwyddorion a gwneuthuriad ein cyrph—ac os felly, yr enw priodol arni fyddai *dynofyddiaeth anianyddol;* neu ynte gellid ei defnyddio i goethi a diwyllio ein galluoedd deallawl a moesol, a'n gwybodaeth am ddyn fel bod unigol, ac am ddynolryw yn gyffredinol, pryd y dylid ei galw yn *ddynofyddiaeth achosyddol (pragmatical anthropology).* Y mae y gangen gyntaf, fel y mae yn amlwg, yn cynnwys ymchwiliad i'r hyn a wna natur o ddyn; a'r diweddaf yn cynnwys ymchwiliad i'r hyn a wna dyn, fel rhydd weithredydd, neu yr hyn a all ac a ddylai wneyd o hono ei hunan. Os cymmer dyn yn ganiataol mai yr achos o'r côf sydd ynddo ydyw argraphiadau wedi aros ar ei ymenydd, rhaid iddo ymfoddloni ar fod yn ddim ond edrychydd ar beirianwaith natur, heb allu gwneyd un defnydd o gwbl o'r pethau a ddeuant dan ei sylw: ond, o'r ochr arall, os cymmhwysa ef ei brofiad o'r hyn a welodd yn wasanaethgar neu yn niweidiol i'w gôf, er mwyn ei gryfhau, a'i wneyd yn fwy bywiog yn ei weithrediad, cyfansoddai y wybodaeth a ennillai yn y dull hwn, o'i ffurfio yn gyfundrefn, y gangen o ddynofyddiaeth a alwasom yn achosyddol, a'r hon y derbyniai ddaioni oddi wrth ei diwyllio.

Ystyrir y dyn gan y wyddor hon fel dinesydd o'r byd, ond nid oes dim a wnelo hi yn briodol âg amrywiaethau naturiol dynolryw: nid ä chwaith i derfynau yr hyn a elwir y byd mawr, unigolion pa un ydynt yn rhy agos at eu gilydd, ac yn rhy bell oddi wrth y gweddill o'r hiliogaeth, i allu sylwi arnynt yn fanteisiol. Y moddion goreu tuag at ei diwyllio, ar ol casglu ystôr briodol o wybodaeth gyffredinol, ydyw teithio, a darllen hanes teithiau—at yr hyn y gellir chwanegu, fel cynnorthwyon, os nad fel ffynnonellau uniongyrchol dynofyddiaeth, hanesiaeth, bywgraphiaeth, drychfarddas, ac hyd yn oed nofelau a rhamantau.

Y prif rwystrau ar ffordd ei diwyllio, *mewn eraill*, ydyw yr anewyllysgarwch a deimlir i fyned dan ymchwiliad:—*ynom ein hunain,* yr anfantais hon, pan y byddom dan unrhyw gyffroad, byddwn yn peidio sylwi; a phan y dechreuwn sylwi, bydd y cyffroad yn darfod:—ac yn ddiweddaf, grym arferiad, yr hyn a ddyrysa ein barn am yr hyn ydym ni ein hunain a'n cymmydogion wrth natur.

Ceir y dosbarthiad canlynol o'r wyddor hon yn ngwaith Kant:—

RHAN I.

*Dynofyddiaeth addysgiadol, neu gyfarwyddiadau i ddeall dyn yn fewnol ac yn allanol.*

LLYFR I.

Am y gynneddf o wybyddiaeth.
Am hunan-ymwybyddiaeth.
Hunan-gariad.
Gwir ymwybodolrwydd o'n syniadau.
Hunan-sylwadaeth.
Syniadau yr ydym yn eu meddu heb fod yn ymwybodol o honynt.
Eglurder ac aneglurder yn yr ymwybodolrwydd o'n syniadau.
Synwyr, yn wrthgyferbyniol i reswm.
Amddiffyniad i synwyr.
Ein gallu gyda golwg ar y gynneddf o wybyddiaeth yn gyffredinol.
Ymdriniaeth gelfyddydol o edrithiad syniadol.
Cymmhendod moesol caniataol (efelychiad).
Y pum synwyr allanol.
Y synwyr mewnol.
Yr achosion o fwyhâd a lleihâd syniadau mewn graddau.
Llesteiriad, gwanhâd, a darfyddiad ymsyniad yn hollol.
Y gynneddf syniadol ddychymygol yn ei gwahanol raddau.
Y gynneddf o ddwyn ger ein bron yr hyn a aeth heibio a'r dyfodol trwy y dychymyg.
Dychymyg anwirfoddol mewn iechyd; hyny yw, breuddwyd.
Y gynneddf gynlluniol.
Y gynneddf o wybyddiaeth mor bell ag y byddo yn seiliedig ar ddealltwriaeth.
Gwendid ac anhwylderau y meddwl gyda golwg ar ei gynneddf o wybyddiaeth.
Talentau yn y gynneddf o wybyddiaeth—arabedd, callineb, a gwreiddioldeb neu athrylith.

LLYFR II.

Am yr ymsyniad o bleser a phoen.
Am bleser anianol.
A.—Yr ymsyniad o'r *dymunol*, neu y pleser anianol a geir trwy edrych ar wrthddrych.
B.—Yr ymsyniad o'r *prydferth*, neu chwaeth.

LLYFR III.

Am y gynneddf o ddymuniad.
Y serchiadau (cyffroadau).
Y nwydau.
Y daioni anianyddol penaf.
Y daioni moesol anianyddol penaf.

RHAN II.

*Nodweddau dynofyddol, neu y dull i wahaniaethu y mewnol oddi wrth yr allanol.*

A. Am nodwedd y person.
 1. Ei dueddfryd.
 2. Ei dymmer.
 3. Nodwedd ei feddwl.
 Gwynebddysg *(physiognomy).*
B. Nodwedd teulu.
C. Nodwedd cenedl.
D. Nodwedd llwyth.
E. Nodwedd rhywogaethau.

*(Kant's Anthropologie in Pragmatischer hinsicht).*

DYODDEFGARWCH. Gwel AMYNEDD.

DYODDEFIADAU CRIST. Am gyssylltiadau duwinyddol y testyn, ni a gyfeiriwn y darllenydd at yr erthyglau canlynol:—ABERTH, OFFEIRIADAETH; HAEDDIANT; IAWN; MARWOLAETH CRIST, &c. Ein hamcan yn yr erthygl hon ydyw edrych ar y pwngc yn ei berthynas â'r Hen Destament.

A ydyw dyoddefiadau Crist yn cael eu rhagfynegu yn yr Hen Destament? A ydyw *dyoddefiadau* yn hanfodol i ddrychfeddwl y prophwydi am y Messïah? Y mae hwn yn un o'r cwestiynau mawr mewn dadl yn bresennol rhwng duwinyddion uniongred a'r Rhesymolwyr, yn benaf yn yr Almaen; ond y mae rhai llyfrau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y wlad hon yn profi fod syniadau De Wette, Bacon, ac ereill, ar y cwestiwn hwn yn cael graddau helaeth o gymmer-

Digitized by Google

heb edrych yn mhellach; ac fel y byddai i'r rhai a garent y sylwedd fod yn allnog i'w ganfod trwy y darluniad.......Nid oedd yr Iuddewon cnawdol yn deall mawredd na darostyngiad y Messïah. Nid oeddynt yn ei adnabod yn ei fawredd a'i ddyrchafiad; megys, pan sicrheir wrthynt y byddai efe yn Arglwydd Dafydd, er bod yn Fab iddo; ei fod yn hanfodi o flaen Abraham, ac wedi ei weled:—nid oedd ganddynt y fath amgyffred am ei fawredd a'i fod yn bod er tragwyddoldeb. Nid oedd eu camsyniad yn llai am dano chwaith yn ei ddarostyngiad a'i angeu; mae Crist, meddent, yn aros yn dragwyddol; a pha wedd yr wyt ti yn dyweyd fod yn rhaid dyrchafu Mab y dyn." Nid oeddynt felly yn credu ei fod yn farwol nac yn anfarwol. Aethant mor hurt gyda chysgodau y pethau daionus, fel o'r diwedd y camgymmerasant y sylwedd, pan ymddangosodd yn yr amser a'r dull a ddysgrifiwyd gan y prophwydi." Y mae Pascal yn sylwi yn mhellach:—"I'r dyben o sicrhau awdurdod ac anrhydedd i'r Messïah, yr oedd yn angenrheidiol i brophwydoliaethau ragflaenu ei ddyfodiad, a'u bod yn nghadw dan ofal dynion nas gellid eu hammheu—y cyfryw ag oeddynt yn enwog am ddiwydrwydd a ffyddlondeb, ac uwch law pob peth am sel, a'r cyfryw ag oedd yn dra adnabyddus i'r gweddill o ddynolryw. Fel y byddai i bethau ddilyn yn ol hyny, gwelodd Duw yn dda ddewis y bobl anianol hyn, ac ymddiried i'w cadwraeth y prophwydoliaethau am y Messïah, y rhai a'i dysgrifient fel Gwaredwr tymmorol, a gweinyddwr ffafrau allanol—y cyfryw ag yr oedd eu calonau yn dra thueddol atynt. Felly, megys yr oeddynt yn derbyn y prophwydi gyda'r amlygiadau mwyaf o serch a pharch, felly y trosglwyddasant i'r holl genedloedd lyfrau eu prophwydi, y rhai a ragfynegent ddyfodiad yr Un Cadarn; yn eu cadarnhau y deuai efe yn sicr, ac yn yr un dull ag a ddysgrifir yn eu hysgrifeniadau, y rhai a gadwent yn agored o flaen yr holl fyd. Ond trwy gael yn y diwedd eu twyllo gan waelder a gwarth ei sefyllfa ar y ddaiar, aethant yn wrthwynebwyr penaf iddo. Fel hyn, dyma bobl, y rhai o holl ddynolryw y gallwn ni dybied leiaf eu bod yn ffafriol tuag atom ni, eto fel hyn yn rhoddi eu cynnorthwy i gadarnhau ein hachos, a thrwy y sel a ddangosodd eu cyfraith a'u prophwydi, yn cadw, gyda'u ffyddlondeb mwyaf, ein profion ni a'u condemniad eu hunain." Dyfynwn eto un frawddeg:—"Y rheswm pa ham yr oedd y prophwydoliaethau yn cael eu ffurfio mewn ystyr dyblyg—ystyr pell ac ysbrydol, i'r hwn yr oedd y bobl yma yn dra gwrthwynebus, o dan ystyr eglur a chnawdol, i'r hwn yr oeddynt yn dra thueddol—oedd hyn:—pe buasai yr ystyr ysbrydol wedi cael ei ddadlenu yn y dull egluraf iddynt, gan fod yr ystyr hwnw yn gyfryw ag yr oeddynt hwy yn analluog i'w garu, i'w gofleidio, a'i oddef, ni buasai ganddynt ond ychydig o sel i gadw eu hysgrifeniadau a'u sefydliadau; neu, pe y gallasent archwaethu yr addewidion ysbrydol hyn, ac felly gadw eu llyfrau yn ddilwgr hyd amser y Messïah, yna buasai eu profion yn llai eu grym, am mai tystiolaethau cyfeillion fuasent. Yr ydym, gan hyny, yn gweled, ar un llaw, yr angenrheidrwydd oedd am gelu yr ystyr ysbrydol; eto, ar y llaw arall, pe buasai y dirgeliad yma yn rhy ddwfn i bob goleuni a darganfyddiad, buasai y profion mawrion o'r Messïah yn cael eu llethu. Pa lwybr, gan hyny, a ddewiswyd? Cafodd yr ystyr ysbrydol, gan mwyaf, ei guddio o dan yr anianol, eto mewn rhai manau ei ddadlodi yn eglur heb un gorchudd."

Y mae y sylwadau blaenorol, dybygem, yn symmud prif wrthddadl y Rhesymolwyr. Yr oedd yn beth posibl fod gan y genedl yn gyffredinol ryw fath o syniadau anmhenodol a dieffaith am ddyoddefiadau y Messïah, fel yr oedd gan y dysgyblion cyn dydd y Pentecost. Os cadwasant hwy eiriau yr Arglwydd Iesu yn eu cof, er nad oedd y wybodaeth a feddent yn wybodaeth fywiol, pa ham nas gellir meddwl y cyffelyb am gorff y genedl? Os oedd y dysgyblion, er clywed o enau Crist ei hun ragddywediadau eglur am ei farwolaeth, eto yn fyr o gyrhaedd syniadau addfed ac effeithiol am ei ddyoddefiadau, pa faint llai y gallwn ddysgwyl i'r lluaws yn mysg y genedl dan yr Hen Destament fod yn feddiannol ar y cyfryw syniadau, pan oedd y rhagfynegiadau am ddyoddefiadau Crist yn cael eu dirgelu y rhan amlaf dan orchudd cyffelybiaethau daiarol? Y mae hyn yn fwy tebygol fyth, pan gofiom am gnawdolrwydd y genedl, ei hymlyniad cryf wrth yr allanol a'r daiarol, a'i gwrthdarawiad i'r ysbrydol; a phan gofiom fod y duedd hon yn cael ei choledd gan natur y cyfammod yr oeddynt dano. Yr ydym yn canfod, yn null dadleniad yr athrawiaeth am ddyoddefiadau y Messïah, ac yn y derbyniad a roddid iddi gan gorff y genedl, yr un deddfau yn gweithredu ag a welwn ar ol hyny yn ngwaith Iesu Grist yn llefaru mewn dammegion. Yr oedd gwirioneddau ysbrydol yn cael eu dirgelu dan orchudd y naturiol. Yr oedd yr ystyr ysbrydol yn dadguddio ei hun i'r gwrandawyr mwyaf ymofyngar, tra yr oedd y lluaws yn aros gyda'u darluniadau, heb feddu ar yr awyddfryd a'r cymhwysder i dreiddio trwy y cyffelybiaethau at y dirgelwch ysbrydol.

Ond er fod yn hawdd rhoddi cyfrif am dywyllwch y lluaws o'r genedl Iuddewig, heb fyned gyda De Wette ac ereill i wadu hanfodiad yr athrawiaeth yn yr Hen Destament, eto, os ydyw yr athrawiaeth i'w chael yno, y mae yn rhaid fod yr Iuddewon defosiynol a deallus yn mhob oes yn ei chredu; y mae yn rhaid y dysgwylient am y Messïah fel un i ddyoddef a marw. Y mae rhai o amddiffynwyr y farn yr ydym yn dadleu drosti yn cyfeirio at eiriau Simeon ac Ioan Fedyddiwr, fel yn profi fod yr Israeliaid defosiynol yn dysgwyl y Messïah i ddyoddef a marw. Y mae ymadrodd Simeon, "Trwy dy enaid di dy hun hefyd yr ä cleddyf" (*Luc* ii. 35), yn arwyddo yr äi y cleddyf yn gyntaf trwy enaid ei mab; ac y mae yn eglur fod yr ymadrodd yn golygu y dyoddefiadau llymaf a ddichon fod. Yn awr, y mae yn amlwg fod holl ragfynegiadau Simeon am yr Iesu wedi eu seilio ar brophwydoliaethau yr Hen Destament. Iaith y prophwydi am yr hwn oedd ar ddyfod ydyw iaith Simeon pan oedd y baban yn ei freichiau. Fel y mae y gair, "Wedi ei osod yn gwymp ac yn gyfodiad i lawer yn Israel" yn cyfeirio at *Esa.* viii. 14, felly hefyd y mae y cleddyf a drywanai enaid yr Iesu a'i fam yn cyfeirio at "Deffro, gleddyf, yn erbyn fy mugail;" *Zech.* xiii. 7. Y mae Hengstenberg ac ereill yn dadleu yn gryf nad yw geiriau Simeon yn cynnwys dadguddiad uniongyrchol oddi wrth Dduw o barth dyoddefiadau y Messïah; nad yw y geiriau "A'r Ysbryd Glân oedd arno ef," yn arwyddo ei fod yn brophwyd; ond yn unig ddarfod i'r Ysbryd amlygu iddo na welai efe angeu hyd oni welai efe Grist yn y cnawd; ond fod y geiriau a grybwyllwyd yn gosod allan farn pob Israeliad duwiol, yn gystal a Simeon ei hun, am Grist a'i farwolaeth, ac fod y farn hono yn gorphwys ar ddirnadaeth gywir o eiriau y pro-

Digitized by Google

phwydi. Gellir dyweyd yr un peth am ddywediad Ioan Fedyddiwr, "Wele Oen Duw," &c. Y mae Tholuck yn sylwi, Gan fod y fannod ὁ yn sefyll o flaen 'Αμνὸς τοῦ Θεοῦ, fod Ioan yn cyfeirio at ymadrodd oedd yn eithaf hysbys, yn debyg i "gwreiddyn Iesse" (*Esa.* xi. 10; *Rhuf.* xv. 12); ac y mae yn ddiammheu mai at *Esa.* liii. 7 y mae y cyfeiriad. Ac y mae pawb braidd o'r esbonwyr yn addef mai y prif ddrychfeddwl yn y gair yw, oen aberthol, gwrthgysgod yr oen Pasg, ac nid addfwynder cymmeriad yr Iesu. Y mae "yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd" yn ein rhwymo i gredu mai *aberth* ydyw y prif olygiad. Pe y dadleuid fod y wybodaeth hon oedd gan Ioan yn ffrwyth dadguddiad iddo ef yn bersonol, ac nid yn anghraifft o gred a barn yr Israeliaid duwiol yn yr amser hwnw, y mae y ffaith fwyaf pwysig mewn cyssylltiad â'r cwestiwn dan sylw yn aros yn anwadadwy; sef, fod geiriau a chysgodau yr Hen Destament yn cynnwys yr athrawiaeth a ddaeth yn eglurach dan y Newydd am ddyoddefiadau ac aberth y Messïah.

Gellir profi fod yr athrawiaeth am ddyoddefiadau ac aberth Crist yn gorwedd yn yr Hen Destament mewn dwy ffordd:—1. Trwy ddangos fod yr athrawiaeth yn gorwedd dan, ac yn cydymwau â, phob peth arall yn yr Hen Destament ac yn nghrefydd ac addoliad y saint yn yr oesau boreuaf, yn gystal a than oruchwyliaeth Moses. Dybygem y gellid dangos fod y gwirioneddau sydd yn byneiau cred ac yn seiliau crefydd y duwiolion dan y Testament Newydd yn bod felly hefyd i saint yr Hen Destament. Y mae yn wir fod y prif wirioneddau wedi eu dwyn i fwy o oleuni dan yr oruchwyliaeth bresennol; eto nis gellir meddwl fod un gwirionedd a ystyrir yn awr yn hanfodol i athrawiaeth yr efengyl heb fod wedi ei amlygu i saint yr Hen Destament. Ac os oedd yr athrawiaeth dan sylw heb ei hamlygu iddynt, yna yr oeddynt mewn tywyllwch am athrawiaeth benaf yr efengyl—am y gwirionedd sydd yn sylfaen crefydd ac addoliad dynion syrthiedig. Y mae yn amlwg fod yr ymdeimlad âg euogrwydd, yr ymwybyddiaeth o angen am gymmod â Duw, yn gweithio yn ddwfn yn meddyliau dynion yn moreu y byd. Y mae yr un mor amlwg yr edrychid ar heddychiad â Duw yn bosibl, ac mai trwy aberth yr oedd hyny yn gyrhaeddadwy. Y mae y dyn, dan deimlad o euogrwydd, yn yr oesoedd cyntaf, yn arwain creadur byw glân i fod yn aberth; mae yn edrych ar yr anifail fel yn ei gynnrychioli ef ei hun: ei ddwyn *drosto ei hun* y mae. Y mae y trososodiad hwn yn amlwg yn yr aberthau dan y gyfraith; cyfrifid fod yr aberth yn cael ei offrymu yn lle yr addolydd, ac edrychid ar yr hyn a wneid i'r naill fel pe buasai wedi ei wneuthur i'r llall. Gyda'r grediniaeth hon am ystyr cyflwyniad yr anifail, y mae yr addolydd, neu yr offeiriad yn ei le, yn lladd yr anifail ar yr allor. Y mae y farwolaeth a haeddodd yr addolydd yn disgyn ar y creadur diniwed. Y mae y gwaed, yn yr hwn y mae einioes yr anifail, yn llifo ar yr allor. Y mae yr addolydd, yn nrych yr ordeiniad yma, yn gweled fod gan Dduw drefn i arbed yr euog trwy gyfrif ei anwiredd ar arall. Ond y cwestiwn ydyw, A oedd yn bosibl y gallasai yr addolydd gyfrif yr anifail fel y gwir aberth? A allai un Israeliad difrifol feddwl fod digon o rinwedd yn ngwaed y creadur direswm i dynu ymaith ei bechodau ef? Gwyddom fod tuedd yn y lluaws o'r genedl i feddwl felly—i gyssylltu rhyw rinwedd o'r natur yma â'r aberthau; a'r duedd yma oedd yr achos i'r Arglwydd mor fynych trwy y prophwydi osod allan ddiffygion yr aberthau Iuddewig. Ond nis gallwn feddwl fod yr addolydd deallus a difrifol yn priodoli y rhinweddau uchaf iddynt. Yr oedd efe yn gweled yn marwolaeth yr anifail arddangosiad o'r farwolaeth a haeddasai ef ei hun wedi ei dodi ar un arall; a'r un arall hwnw yn berson digon mawr i'w adferu i heddwch Duw. Y mae yn wir fod i'r aberthau dan y gyfraith eu hamcan uniongyrchol. Yr oeddynt yn foddion o ordeiniad Iehofah i barhau y berthynas oedd rhwng yr Israeliaid a'r ddwyflywiaeth. Symmudent yr euogrwydd theocrataidd; a hyd yma yn unig y cyrhaeddai eu rhinwedd a'u heffaith uniongyrchol. Yr oeddynt yn gadael y pechod yn ei gyssylltiadau politicaidd, cymdeithasol, a moesol, ar yr un tir ag o'r blaen. Os oedd y trosedd yn beryglus i'r wladwriaeth, yn wrthryfel beiddgar yn erbyn Iehofah fel brenin y genedl, yr oedd yn cael ei gospi: nid oedd un aberth wedi ei appwyntio i'w ddileu. Os oedd y trosedd yn gam a chymmydog, rhaid oedd i'r troseddwr wneyd iawn neu ad-daliad; ac os ydoedd y trosedd yn bechod yn erbyn Arglwydd yr holl ddaiar, yr oedd yr euogrwydd yn aros hyd oni ddilëid ef ymaith trwy ddarpariaeth o natur foesol, fel natur y trosedd ei hun. Yn awr, y mae yn amlwg fod yr aberthau yn arddangos y drefn i effeithio y cymmod hwn. Nid ystyr theocrataidd yn unig oedd i'r aberthau; a phrawf digonol o hyn ydyw, fod aberth yn rhan o addoliad yr eglwys cyn sefydliad y ddwyflywiaeth Hebreaidd. Ar yr oedd yr aberthau yn cynnwys dwy elfen—*cyflwyniad* a *dyoddefiadau*. Yr oedd yr addolydd yn gweled fod yr aberthau i fod yn rhoddion o'i eiddo ef, yn rhan o'i feddiannau; ac yr oedd hefyd yn gweled mai egwyddor fawr yr aberthau—yr hyn a roddai iddynt eu heffeithiolrwydd—oedd eu hystyr feichnïol neu ddirprwyol; tywallt gwaed yr anifail yn lle ei waed ef—bywyd yr aberth dros ei fywyd ef. Nid rhodd i ddyhuddo Duw digllawn oedd yr aberth Iuddewig, fel yr ebyrth paganaidd; ond ordeiniad o eiddo yr Iehofah trugarog a graslawn, er maddeu yn unol â hawliau ei gyfraith. Ac heb law fod yr aberthau Iuddewig yn foddion gweinyddiad cymmod theocrataidd, yr oeddynt yn gysgodau o aberth yr Arglwydd Iesu, ac o'r drefn trwy ei aberth ef i ddwyn pechaduriaid i gymmod ysbrydol a thragwyddol â Duw. A dyma y drychfeddwl penaf oedd yn gyssylltiedig âg aberthu cyn ac wedi sefydliad y ddwyflywiaeth. Y mae yn ddiammheuol eu bod yn meddu ar ystyr gysgodol yn gystal ag ystyr arwyddluniol; yr oeddynt yn edrych yn mlaen at Grist, heb law eu bod yn cario effaith ar y pryd ar berthynas Israel â'r ddwyflywiaeth. A'u hystyr gysgodol oedd eu hystyr uchaf; gan hyny, y mae yn dra annaturiol meddwl fod eu hystyr uchaf yn cael ei guddio oddi wrth y genedl: os oedd y lluaws yn anwybodus am yr ystyr hwn, yr oedd hyny yn cyfodi oddi ar eu cnawdolrwydd hwy eu hunain, ac nid oddi ar fod yr ystyr yma yn cael ei lwyr guddio o'u golwg. Y mae yn rhaid i bawb, dybygem, gydnabod fod yr aberthau yn gysgodau: hyn ydyw prif wirionedd yr Epistol at yr Hebreaid, ac y mae yr un girwionedd yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y rhan fwyaf o lyfrau y Testament Newydd. Y dull sydd gan rai i esbonio hyn ydyw, fod yr aberthau yn gysgodau *i ni;* ein bod ni dan yr oruchwyliaeth hon yn canfod eu harwyddocâd cysgodol, ond fod yr arwyddocâd hwnw heb ei amlygu i'r Israeliaid dan y gyfraith. Ond y mae y dyb hon yn gwbl

ddisail; o blegid, os oedd yr aberthau yn gysgodau, yr oeddynt wedi eu bwriadu gan Dduw i fod felly; ac os bwriadwyd hwy i fod yn gysgodau, mae yn naturiol casglu eu bod wedi eu bwriadu felly i'r rhai a ymarferent â hwy. Y mae yn wir fod ymddangosiad y sylwedd wedi taflu goleuni ar y cysgod; ond os rhoddwyd yr aberthau i ddysgu dynion am aberth Crist, y mae amcan eu rhoddiad yn colli os nad oeddynt i ryw raddau yn effeithiol i roddi gwybodaeth i'r Iuddew am ei aberth ef. Os oedd yn rhaid deall y gwrthgysgod mewn trefn i ddeall y cysgod, yna pa ddyben oedd y cysgod yn ateb? Yr oedd ystyr uchaf yr aberthau, a phrif amcan eu hordeiniad, felly, yn myned yn ofer, os nad oedd yr Iuddew defosiynol yn gallu canfod aberth yr Arglwydd Iesu trwyddynt. A rhaid ei fod yn edrych yn mlaen at y Messïah fel person i ddyoddef a marw yn lle ereill: o blegid mai meichnïaeth neu ddirprwyaeth a dyoddefiadau y bywyd dros fywyd, oedd y prif ddrychfeddyliau a ddysgid iddo yn yr aberthau Iuddewig.

Drychfeddwl arall yn yr Hen Destament, yn dwyn y cyssylltiad agosaf â'r mater hwn, ydyw y gwrthwynebiad anghymmodlawn sydd rhwng pechod a sancteiddrwydd, a'r angenrhaid sydd yn cyfodi oddi ar hyn i'r cyfiawn ddyoddef. Un o'r ffeithiau cyntaf yn hanes dynion ydyw y gelyniaeth sydd yn bod rhwng y ddau had; a dangosir hefyd fod adgasedd dynion drygionus at y cyflawnion yn cael ei wneuthur yn fwy angerddol trwy weithrediad Satan. "Y mae Llyfr Iob," ebe Hengstenberg, "yn cynnwys prophwydoliaeth anuniongyrchol am ddyoddefiadau y Messïah." Os oedd cyfiawnder anmherffaith Iob yn ennyn y fath adgasedd yn y diafol tuag ato, pa faint cryfach fyddai ei gynddaredd yn rhwym o fod yn erbyn person perffaith ddifai. Ac os ydoedd dynion annuwiol yn methu goddef purdeb pan welent amlygiadau gweiniaid o hono yn eu cyd-ddynion, llawer llai y gallent oddef amlygiad o sancteiddrwydd perffaith felly. Y mae arbenigrwydd mawr yn cael ei roddi i'r gwirionedd, fod cyfiawnder a sancteiddrwydd yn gyssylltiedig ar y ddaiar a dyoddefiadau, yn yr Hen Destament. Fod y cyfiawn yn dyoddef oddi wrth ddynion a welir mewn llawer o'r Salmau: *Salm* vi, xvi, xxii, &c. Felly, os edrychid ar flinderau yn anwahanol gyssylltiedig â rhagoriaeth cymmeriad yn y byd hwn, yr oedd yn anmhosibl peidio cyssylltu dyoddefiadau âg ymddangosiad yr unig berson perffaith ddifai a sanctaidd. Edrycha ar y Messïah fel y person oedd i gynnwys ynddo ei hun holl swyddau yr eglwys—fel prophwyd, offeiriad, a brenin; yr oedd dyoddefiadau yn gyssylltiedig â'r swyddau hyn. Dafydd oedd y prif gysgod o hono fel brenin; ond yr oedd oes Dafydd yn oes o flinderau:—cwynfanau yr helbulus a glywn trwy y salmau; iaith dyn wedi ei amgylchu gan brofedigaethau. "Pwy," gofyna Eichhorn, "a ddyoddefodd fwy, mewn mwy o amrywiaeth dulliau, neu yn fwy anhaeddiannol, na Dafydd?" Yr oedd bywydau y prophwydi hefyd yn llawn o ddyoddefiadau: *Heb*. xi. 37, 38. Gwelir hyn yn mywydau Elias ac Ieremiah. A'r ddinas a laddodd y prophwydi a laddodd hefyd y person oedd yn wrthddrych penaf eu prophwydoliaethau. Yr oedd a fyno swydd yr offeiriad hefyd âg aberthu: dyma oedd prif waith y swydd.

2. Y mae Hengstenberg yn rhanu y cyfeiriadau mwy pendant a geir yn yr Hen Destament at ddyoddefiadau y Messïah i bedwar o ddosbarthiadau—1af. Y rhanau hyny sydd yn arddangos Crist fel yn dyfod mewn adeg pan fyddai ei genedl a'i deulu wedi syrthio i dlodi ac iselder mawr: felly yr oedd tlodi ac iselder ei deulu yn ei osod yntau dan yr angenrhaid i fod yn yr un sefyllfa. Gwel *Esa*. xi. 1; *Ezec*. xvii. 22; *Zech*. ix. 10.

2il. Y rhanau hyny lle y cyfeirir yn bendant at ei iselder a'i ddyoddefiadau. Ni a edrychwn ar rai o'r rhagfynegiadau hyn eto.

3ydd. Rhanau lle y rhagfynegir am farwolaeth Crist: *Esa*. liii; *Dan*. ix. 20; *Zech*. xii. 10.

4ydd. Geiriau sydd yn gosod pwys ar ddyoddefiadau a marwolaeth Crist fel iawn: *Esa*. liii; *Dan*. ix. 24, 25. Dywed Zechariah fod y Messïah yn archoffeiriad (*pen*. vi. 9—15); y symmudai anwiredd y tir mewn un diwrnod (*pen*. iii. 9); y byddai ffynnon wedi ei hagor i bechod ac aflendid (*pen*. xiii. 1) yn y dydd hwnw; sef, dydd ei ymddangosiad.

Y brophwydoliaeth fwyaf cyflawn yn yr Hen Destament am ddyoddefaint, marwolaeth, ac aberth Crist ydyw *Esa*. lii. 13, hyd y diwedd, a *pen*. liii. A *pen*. liii. ydyw prif faes y ddadl rhwng y Rhesymolwyr, yr esbonwyr Iuddewig diweddar, a'r esbonwyr Cristionogol yn gyffredinol. Y mae cynnwysiad y bennod yn yr argraffiadau diweddar o'r Beibl Hebraeg yn dangos beth yw barn yr esbonwyr Iuddewig diweddar. Y mae y cynnwysiad hwnw fel hyn—"Y mae gweision diniweid Iehofah yn cael eu dwyn ger bron, y rhai y mae dynion yn eu hystyried yn bechaduriaid, yn dwyn blinderau arnynt, ac yn eu herlid i farwolaeth; yn gyntaf, dangosir eu cyflwr isel, yna eu sefyllfa ddyrchafedig." Dyma ydyw eglurhad yr Iuddewon diweddar ar y bennod; ond nid ydynt er hyny yn cytuno â'u gilydd o barth i'r personau a osodir allan. Y mae rhai yn dadleu dros Ieremiah, ereill dros y brenin Iosiah, ereill dros gorff y genedl. Cyffelyb o ran sylwedd yw eglurhad lluaws o esbonwyr yr Almaen, y diweddar Farwn Bunsen yn eu mysg, ac y maent hwy yn cael eu dilyn gan rai yn Mhrydain. Y mae hanes y ddadl, a'r gwahanol resymau a ddygir y naill ochr a'r llall, yn faes rhy eang i fyned drosto mewn erthygl o'r natur yma; am ymdriniaeth helaethach â'r mater, cyfeiriwn y darllenydd at *Hengstenberg's Christology*. Yr ydym, fodd bynag, yn ystyried y ddau beth canlynol yn ddigon i brofi mai at y Messïah y mae yr holl bennod yn cyfeirio—(1.) Yr oedd yr esbonwyr Iuddewig hynaf yn lled gyffredinol yn derbyn y bennod fel darluniad prophwydol o'r Messïah. Ac y mae o bwys cofio mai yn yr ystyr yma yr oeddynt yn ei deall, pan nad oedd y genedl wedi suddo i'w chnawdolrwydd dwfn, a phan yr oedd eu dadleuon â'r Cristionogion, y rhai a'u gwnaethant yn fwy cyfyng eu golygiadau, heb ddechreu. Y mae hyn yn cael ei gydnabod gan yr esbonwyr Iuddewig mwyaf diweddar, y rhai sydd yn gwyrdroi y brophwydoliaeth o'i harwyddocad priodol. Dywed Gesenius hefyd, yr hwn nis gellir edrych arno fel yn ffafriol i'r esboniad uniongred, "mai yr Iuddewon diweddar yn unig a wrthodasant yr esboniad hwn, fel canlyniad eu dadleuon â'r Cristionogion." Y mae yr anghreifftiau a ganlyn o eglurhadau yr hen Iuddewon yn profi y derbynid y bennod gan y Rabbiniaid, a chan y dosbarth goreu o'r genedl, fel prophwydoliaeth am Grist, a hyny cyn ei ymddangosiad. Ar y gair, "Wele, fy ngwas a lwydda," dywed Rabbi Jonathan, "Hwn ydyw y Brenin Messïah, yr hwn sydd ddyrchafedig ac

uchel iawn—yn fwy dyrchafedig nag Abraham, uwch law Moses, a goruwch yr angelion gwasanaethgar.' Y mae y geiriau canlynol yn yr hen lyfr a elwir *Peshikta Rabbali* [gwel *Poli Synopsis*]; 'Pan greodd Duw y byd, estynodd ei law o dan orsedd ei ogoniant, a dygodd allan enaid y Messiah. Dywedodd wrtho, A wnei di iachau a phrynu fy mhlant ar ol 6,000 o flynyddoedd. Atebodd yntau, Gwnaf. Yna dywedodd Duw wrtho, A wnei di hefyd y pryd hyny ddwyn y gospedigaeth, i'r dyben o ddileu eu pechodau, megys y mae yn ysgrifenedig: Efe a ddug ein doluriau: *Esa.* liii. 4. Ac efe a atebodd, Gwnaf yn ewyllysgar.' Y mae meichniaeth ac aberth Crist yn cael eu dal yma, a'u harddangos fel yn gynnwysedig yn y dyfyniad o Esaiah. Fe dlywed Rabbi Alsbeck hefyd [*Poli Synopsis*]—"Y mae y Rabbiniaid o fendigedig goffadwriaeth âg un llais, yn ol traddodiad, yn cadarnhau mai y Messiah a ddeallir yma." Yn esboniad yr hen Rabbiniaid ar y geiriau hyny, yn *Gen.* xxii. 17, "A'th had a feddianna borth ei elynion," y mae y geiriau hyn—"Hwn yw y Messiah y brenin, yr hwn a fydd yn nghenedlaeth y drygionus, ac a'u gwrthoda, gan ddewis y Duw bendigedig a'i enw sanctaidd, i'w wasanaethu ef a'i holl galon. Ac efe a rydd ei hun i ymofyn am drugaredd i Israel, i ymprydio ac ymostwng er eu mwyn, megys y dywedir, 'Efe a archollwyd am ein camweddau ni.' A phan bechodd Israel, y mae yn chwilio am drugaredd iddynt, megys y dywedir drachefn, 'Trwy ei gleisiau ef yr iachawyd ni.'" Y mae Hengstenberg yn dyfynu amryw eiriau cyffelyb allan o Lyfr Sohar. Y mae y dyfyniadau hyn yn profi mwy nag un peth: gwelir ynddynt fod yr hen Rabbiniaid yn gyffredinol yn cymhwyso *Esa.* liii. at Grist: arfera yr hen Rabbiniaid ymadroddion perthynol i aberthau; edrychant ar gyfrifiad pechodau ar yr aberthau seremonïol fel cysgod o farwolaeth iawnol yr Arglwydd Iesu. Heb law hyny, y mae unfrydedd mawr yn mhlith yr hen esbonwyr Iuddewig, er yr holl gymmysgedd a welir yn eu syniadau: y maent yn gyffredinol yn deall y bennod hon yn Esaiah fel darlun prophwydol o'r Messïah. Ond nid ydyw yn rhyfedd fod dysgawdwyr yr Iuddewon wedi gwrthod hen olygiadau eu tadau. Mae athrawiaeth dyoddefiadau a marwolaeth y Messïah yn dramgwydd i'r Iuddewon. Yr achos o hyn oedd diffyg ymdeimlad âg euogrwydd eu cyflwr—diffyg y wybodaeth hono am bechod, ac am danynt eu hunain fel pechaduriaid, sydd yn gwneuthur aberth yn angenrheidiol fel elfen fawr crefydd. Yn niffyg y wybodaeth hon, nid oedd arnynt hwy eisieu dim gan y Messïah ond gwaredigaeth dymmorol a dyrchafiad politicaidd. Ac o herwydd hyny, cyfyngent hwy eu sylw at y rhanau hyny o'r Hen Destament sydd yn gosod allan ei ogoniant a'i fawredd, ac esbonient y rhanau hyny yn yr ystyr mwyaf daiarol.

(2.) Un o'r profion cryfaf fod *Esa.* liii. yn ddarluniad prophwydol o ddyoddefaint ac aberth Crist ydyw y defnydd a wneir yn y Testament Newydd o eiriau y prophwyd. Y mae yr Iesu ei hun yn cyfeirio fwy nag unwaith atynt; "Canys yr wyf yn dywedyd i chwi, fod yn rhaid eto gyflawnu ynof fi y pethau hyn a ysgrifenwyd;" sef, "A chyda'r anwir y cyfrifwyd ef" (*Luc* xxii. 37): "A'r modd yr ysgrifenwyd am Fab y dyn, y dyoddefai lawer o bethau, ac y dirmygid ef" (*Marc* ix. 12), gyda chyfeiriad at Esaiah, "dirmygedig yw." Gwel hefyd *Luc* xxiv. 25—27, 44—46. Dywed Hengstenberg fod gwrthwynebwyr yr athrawiaeth hon yn addef, os oes rhyw ran yn yr Hen Destament yn gosod allan ddyoddefiadau ac aberth y Messiah, mai y rhanau hyn yn Esaiah ydynt. Y mae yn ddigon o brawf fod yr Iesu ei hun yn ystyried y geiriau yn brophwydoliaeth am dano, fod y dysgyblion yn cyfeirio yn fynych atynt. Y mae Ioan (*pen.* xii. 37, 38) a Paul (*Rhuf.* x. 16) yn gweled cyflawniad o honynt yn anghrediniaeth y genedl. Y mae Phylip (*Act.* viii. 35) yn esbonio y bennod am Grist. Y mae Pedr yn ymdrin â hwy yn eu cyssylltiad âg aberth Crist: 1 *Pedr* ii. 21—25. Y mae Gesenius yn addef, er gwadu yr athrawiaeth, fod pregethiad yr apostolion am farwolaeth aberthol yr Iesu yn seiliedig ar ddarluniad Esaiah. Felly, y mae gan Hengstenberg y seiliau cadarnaf dros ddyweyd, Os amcan y prophwyd oedd gosod allan athrawiaeth dirprwyaeth yr Arglwydd Iesu, nas gallasai wneuthur hyny yn fwy eglur a chadarn; ac na wnai y rhai sydd yn ceisio esbonio ymaith yr athrawiaethau o'r bennod hon yn Esaiah, adael dim sicr a sefydlog yn yr holl Ysgrythyr.

Gallwn sylwi yn mhellach, gyda golwg ar y Salmau sydd yn cyfeirio at Grist (*Salm* xxxv, xxii, lxix, cix, cxviii—ac yn enwedig xxii), fod y cyfatebiad mwyaf manwl rhyngddynt a dygwyddiadau bywyd a marwolaeth yr Iesu. "Nid oes," fel y sylwa Barrow, "braidd un rhan o flinderau ei fywyd, nac o amgylchiadau ei angeu, na osodir hwy i lawr mewn geiriau eglur ynddynt." Cyfeirir at iselder ei sefyllfa (*Salm* xxii. 6); at atgasedd diachos yr Iuddewon tuag ato (*Salm* lxix. 4; xxxv. 7; cix. 3); eu gwaith yn ymddwyn yn anniolchgar ato am ei gymmwynasgarwch ef tuag atynt hwy, a'u gwrthodiad o hono (*Salm* xxxv. 12; cix. 5; cxviii. 22); eu twyll, eu cabledd, a'u hanudoniaeth yn ei erbyn (*Salm* xxxviii. 7, 11; cix. 2); eu diystyrwch, eu gwawd, a'u traha (*Salm* xxii. 16, 17; cix. 25; xxxv. 16, 21); eu creulonderau (*Salm* xxii. 16, 17); eu hanmharch ato pan y llefai am rywbeth i dori ei syched (*Salm* lxix. 21); rhanu ei ddillad (*Salm* xxii. 18); ei adael gan ei gyfeillion, a'i sefyllfa ddigysur (*Salm* lxix. 8, 20); Duw yn cuddio ei wyneb ac yn ei adael (*Salm* xxii. 1; lxix. 17); ei gymmwynasgarwch i'w gaseion (*Salm* xxxv. 13, 14). Y mae pob darllenydd diragfarn yn sicr o ganfod amgylchiadau marwolaeth yr Iesu yn y darluniadau hyn, a rhyfeddu at y cydgyfarfyddiad rhyfedd rhwng y prophwydoliaethau a'u cyflawniad.


DYRCHAFWYR a GWRTHDDYRCHAFWYR, [*Lifters and Antilifters*]: dwy blaid grefyddol yn Kilmarnock, yn ngorllewin Scotland, y rhai a wahaniaethent oddi wrth eu gilydd, heb law gyda golwg ar amryw bethau ereill, mewn perthynas i'r dull yr oedd y bara a'r gwin i gael eu harddangos cyn eu cyfranu. Daliai un blaid bod yn anhebgorol angenrheidiol i'r gweinidog eu dyrchafu yn ngŵydd y gynnulleidfa; tra y dywedai y blaid arall fod hyny yn hollol ddiangenrhaid. Cymmerodd y ddadl hon le tua'r flwyddyn 1713.

DYRNFEDD, [*dwrn—bedd*]: lled y pedwar bys, sef o dair modfedd i dair modfedd a hanner: 1 *Bren.* vii. 26; 2 *Cron.* iv. 5. Defnyddir y gair gan y Salmydd i osod allan fyrder ei ddyddiau; "Wele, gwnaethost fy nyddiau fel dyrnfedd;" *Salm* xxxix. 5.

DYRNU. Y mae yr hen ddull o ddyrnu, fel y

Digitized by Google

dysgrifir ef yn yr Ysgrythyr, ac fel y gwelir ef yn gerfiedig ar y cofadeiladau Aiphtaidd, mewn arferiad hyd yn bresennol yn Palestina. Yn yr oesoedd gynt, cludid yr ysgubau o'r maes i'r llawr dyrnu mewn meni; ond yn awr, yn gyffredin, ar gefnau camelod ac asynod. Darn o dir gwastad, wedi ei galedu trwy ei guro, o ffurf crwn, tua hanner can troedfedd o dryfesur yn gyffredin, yn yr awyr agored, yw y llawr dyrnu (*Gen.* l. 10; *Barn.* vi. 37; 2 *Sam.* xxiv. 16, 24). Bydd amryw o'r lloriau hyn yn gyssylltiedig â'u gilydd weithiau. Chwelir yr ysgubau ar hyddynt; a methrir hwynt, nes rhyddhau y grawn, gan ychain, gwartheg, ac ysgrubliaid ieuainc, wedi eu trefnu yn bumpau cyfochrog. Dyma oedd y dull cyffredin yn oesoedd y Beibl; ac fe orchymynodd Moses am beidio "cau safn yr ŷch tra fyddo yn dyrnu," fel y gallai gael tamaid yn awr ac eilwaith o'r grawn: *Deut.* xxv. 4; *Esa.* xxviii. 28. Wrth ddyrnu ychydig, neu ddyrnu y math ysgafnaf o rawn, ni arferid ond ffyn neu wialenau: *Ruth.* ii. 17; *Esa.* xxviii. 27. Yr oedd rhyw fath o beiriannau dyrnu, pa fodd bynag, mewn arferiad; ac y maent mewn arferiad hyd yn bresennol yn Palestina a'r Aipht. Y mae un o honynt yn dra chyffredin yn Palestina. Y mae wedi ei wneuthur o ddau blanc tew, wedi eu cyssylltu wrth eu gilydd ochr yn ochr, ac yn plygu tuag i fyny yn y pen blaenaf; gyda lluaws o geryg mân miniog wedi eu sicrhau mewn tyllau yn yr ochr isaf oddi tanodd. Llusgir y peiriant hwn dros yr ŷd gan ychain, a bydd dyn neu fachgen yn eistedd arno weithiau, er chwanegu ei bwysau. Nid yn unig rhyddha y grawn, ond tŷr y gwellt i'w gyfaddasu yn borthiant: 2 *Bren.* xiii. 7. Y mae yn dra thebygol mai y peiriant hwn oedd y "fen ddyrnu ddanneddog" y sonir am dani yn *Esa.* xli. 15; xxviii. 27; a'r "offer dyrnu o heiyrn" a grybwyllir yn *Amos* i. 3; oddi wrth yr hyn y gellir tybio yr arferid pigau heiyrn yn lle ceryg. Crybwyllir yn y Beibl hefyd am beiriant a elwir מורג (*moreg*), yr hwn a gyfieithir "offer ychain," ac "offer dyrnu" (2 *Sam.* xxiv. 22; 1 *Cron.* xxi. 23), a'r hwn yn ddiau ydyw yr un peiriant ag a elwir *noreg* yn yr Arabaeg. Ni chanfyddir y peiriant hwn yn bresennol ond yn anfynych yn Palestina: y mae yn fwy cyffredin mewn rhai parthau o Syria, ac yn yr Aipht. Math o ystram o goed ydyw, yn mha un y mae tair rholen o goed wedi eu gosod, yn meddu dannedd haiarn, &c. Y mae eisteddle ar ei ganol, yn mha un yr eistedd y gyrwr, er mwyn chwanegu y pwysau. Tynir y peiriant yn gyffredin dros yr ŷd gan ddau ych, drwy yr hyn y rhyddheir y grawn ac y torir y gwellt yn fwy effeithiol na thrwy y dulliau blaenorol. Yn yr holl amgylchiadau hyn, tröir yr ŷd yn achlysurol gyda phigfforch; a phan y byddo wedi ei gwbl ddyrnu, teflir ef i fyny gyda'r un bigfforch i'r gwynt er rhyddhau y grawn, yr hwn a gesglir yn nghyd ac a nithir.



Dar. 278.—Peiriant Dyrnu yn y Dwyrain.

Y mae y gwahanol ddulliau o ddyrnu yn y wlad hon mor hysbys i bawb fel nad oes angen dyweyd un gair arnynt.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Calmet's Dict.*)

DYSGAWDWR: un yn cyfranu addysg: 2 *Cron.* xv. 3; *Diar.* v. 13. Priodola Nicodemus y teitl hwn i Grist: *Ioan* iii. 2. Defnyddir ef hefyd yn gyfystyr â Rabbi yn *Ioan* iii. 10. Gwel Athraw; Meistr; Rabbi.

DYSGYBL—ION, [Gr., *μαθητής*; Llad., *discipulus*]: ysgolhaig, un dan addysg, canlynwr. Cymhwysir y gair yn yr Efengylau, nid yn unig at ganlynwyr Crist, ond at ganlynwyr Ioan Fedyddiwr (*Mat.* ix. 14, &c.), a chanlynwyr y Phariseaid (*Mat.* xxii. 19). Er y defnyddir ef yn gyffredinol am ddilynwyr Crist, cymhwysir ef yn arbenig at y deuddeg apostol: *Mat.* x. 1; xi. 1; xx. 17; *Luc* ix. 1. Ar ol marwolaeth Crist, daeth y gair *dysgybl* i gynnwys ystyr eangach; sef credadyn, neu Gristion.


DYSGYBLION CRIST (Campbelliaid, neu Y Diwygwyr): plaid grefyddol a gyfododd yn ddiweddar yn America, yn benaf trwy ymdrechion Alexander Campbell; yr hwn, yn nghyd â'i dad, Thomas Campbell, a ymwrthododd â Henaduriaeth, ac a aeth yn drochiedydd manwl. Y mae y blaid hon yn lled luosog o ran aelodau. Gan edrych ar holl bleidiau ac enwadau y byd Cristionogol fel wedi encilio i raddau mwy neu lai oddi wrth y ffydd a'r arferion boreuol yn

benaf trwy ddylanwad uchanianaeth, credoau, cynnadleddau eglwysig, &c., proffesant ymwrthod yn llwyr âg iaith gelfyddydol duwinyddiaeth, a mabwysiadant iaith yr Ysgrythyrau yn ei lle. Gan ystyried Calviniaeth, Arminiaeth, Trindodiaeth, Undodiaeth, &c., fel pethau yn cael eu cynnyrchu y naill gan y llall, ymwadant â phob un o honynt, gan adeiladu eu ffydd ar athrawiaethau syml y Beibl. Ystyriant fedydd trwy drochiad fel gwystl bod yr holl bechodau a gyflawnodd dyn hyd yr adeg ei bedyddiwyd wedi eu maddeu, a'i fod wedi ei dderbyn i deulu Duw. Y maent yn dra thebyg o ran eu daliadau a'u rheolau dysgyblaethol i'r Bedyddwyr Sandemanaidd.

DYSGYBLAETH EGLWYSIG. Gwel EGLWYS.

DYSGYBLWYR, [*Disciplinarians*]: enw wrth yr hwn yr adnabyddid y bobl a ddadleuent dros ddysgyblaeth eglwysig yn amser Baxter.

DYSGL—AU: crybwyllir am amryw fathau o ddysglau yn y Beibl; ond y mae yn anmhosibl ffurfio un syniad am eu ffurf ond y syniad a geir oddi wrth ddysglau yr Aipht gynt, a dysglau y dwyrain yn bresennol, y rhai sydd yn dra thebyg i'w gilydd. Y mae y lleoedd ar ba rai y safai yr hen ddinasoedd gynt, a adeiladesid o briddfeini wedi eu crasu yn ngwres yr haul, wedi eu gorchuddio â llestri pridd toredig—lluaws o ba rai sydd yn ddigon cyfain i arddangos eu ffurf



Dar. 279.

wreiddiol. Y mae y rhai hyn yn dra thebyg i'r rhai sydd mewn arferiad yn bresennol, ac wedi eu gwneyd yn benaf o bridd bras, wedi eu gorchuddio â barnais cryf, a'u paentio â lliwiau dysglaer—gwyrdd, glas, neu felyn, yn benaf. Mae dysglau, a llestri ereill, o gopr, mewn arferiad mawr y dyddiau hyn yn y dwyrain; ond nis gellir penderfynu a oeddynt felly yn yr hen oesoedd. Y mae y darlun cyntaf (279) yn arddangos caethwas yn cludo dysglau i'r bwrdd; y mae caeadau ar y dysglau; ac yn yr un dull ag y dangosir yn y darlun y cerir y dysglau yn mysg y cenedloedd dwyreiniol yn awr, sef ar gledr y dwylaw. Dysglau dwyreiniol diweddar ydyw yr esamplau a welir yn y darlun canlynol:—



Dar. 280.

"Yr hwn a wlych ei law gyda mi yn y ddysgl, hwnw a'm bradycha i;" *Mat.* xxvi. 23; *Marc* xiv. 20. Yn yr Aipht ac yn Iudea hefyd, byddai gwestwyr, pan wrth y bwrdd, yn arfer eu bysedd i fwyta; ond defnyddid llwyau, pan y byddai yn angenrheidiol, at gawl, neu unrhyw fath arall o ymborth gwlyb. Yr un fath y mae yn bod yn yr Aipht hyd yn bresennol. Bydd pob un o'r gwestwyr yn tori darn bychan o fara, yn ei wlychu yn y ddysgl, ac yna yn ei roddi yn ei enau, yn nghyd âg ychydig o gynnwysiad y ddysgl gydag ef. Edrychir ar bigo tamaid blasus o'r ddysgl a'i estyn i gyfaill fel moesgarwch, ac ystyrir ei wrthod yn drosedd ar foesau da. Yr oedd Iudas, wrth wlychu ei law yn yr un ddysgl a'n Harglwydd, yn dangos cyfeillgarwch mawr.

DYSTAIN: pen swyddwr llys breninol; goruchwyliwr; trefnwr. Yr oedd gan yr hen freninoedd Cymreig eu dystain, fel y gwelir oddi wrth yr hen gyfreithiau:—"Y dystain a ddyly ranu y llettyau; iddo ei hun yn nesaf i'r llys, ac yr holl swyddwyr y gydag ef: Efe y sydd ben ar yr holl swyddwyr." Yr oedd gan Pharaoh hefyd ddystain, i'r hwn y gwerthwyd Ioseph gan y Midianiaid: *Gen.* xxxvii. 36. Ystyr y gair gwreiddiol a gyfieithir *dystain* yn y Beibl Cymraeg, ydyw *pen y cigyddion*, neu *pen y dienyddwyr.* Y cyfieithiad yn y Beibl Seisoneg ydyw "*captain of the guard*" = cadben y gwylwyr. Rhai o'r gwylwyr fyddai yn ddienyddwyr gan y breninoedd gynt. Un o wylwyr Herod oedd dienyddwr Ioan Fedyddiwr: "Y brenin a ddanfonodd ddienyddwr (ymyl y ddalen, "un o'i osgordd"), ac a orchymynodd ddwyn ei ben ef;" *Marc* vi. 27.

DYWEDDIO. Pan y byddai mab a merch wedi ymgyfammodi i briodi, dywedwyd eu bod wedi eu dyweddïo. Yn mhlith yr Iuddewon, penderfynid y dewisiad yn gyffredin gan rieni neu frodyr y pleidiau, heb ddyweyd un gair wrthynt hwy hyd nes y deuent i gael eu dyweddïo; a chymmerai hyn le yn fynych pan y byddent yn dra ieuainc, er na phriodid hwynt yn weithredol hyd nes y byddent o'r hyn lleiaf yn ddeuddeng mlwydd oed. Wrth gyflawnu y ddefod, ni wneid ond ychydig iawn o seremoni. Adroddodd gwas Abraham ei neges wrth dad a brawd Rebeccah, "Yna y dywedasant, Galwn ar y llances, a gofynwn iddi hi. A hwy a alwasant ar Rebeccah, a dywedasant wrthi, A ai di gyda'r gŵr hwn? A hi a ddywedodd, Af. A hwy a ollyngasant Rebeccah eu chwaer, a'i mammaeth, a gwas Abraham, a'i ddynion;" *Gen.* xxiv. 57, 58, 59. Ychydig o seremoni a wnaeth gweision Dafydd hefyd pan yn ceisio gwraig iddo: 1 *Sam.* xxv. 40—42. Nid oedd y weithred o ddyweddïo, yn fynych, mewn ymddangosiad, yn ddim amgen na chytundeb masnachol. Pan yn ceisio unig ferch Iacob yn wraig, dywedai Sichem wrth ei thad a'i brodyr yn ddigon digyffro, "Caffwyf ffafr yn eich golwg, a'r hyn a ddywedoch wrthyf a roddaf. Gosodwch arnaf fi ddirfawr gynnysgaeth a rhodd, a mi a roddaf fel y dywedoch wrthyf: rhoddwch chwithau y llances i mi yn wraig;" *Gen.* xxxiv. 11, 12. Yr oedd Iacob, pan y gadawodd dŷ ei dad, yn dlawd, ac heb arian i'w rhoddi yn gyfnewid am wraig; gan hyny, cynnygiodd yn ostyngedig ac ymddiriedgar wasanaethu saith mlynedd am Rahel. Arferid llai fyth o seremoni wrth geisio gwragedd ailraddol neu ordderch-wragedd. Cyfeiria y prophwyd Hosea, fel y mae yn eglur, at arferiad hollol adnabyddus yn mhlith ei genedl, pan y dyweda, "Mi a'i prynais hi i mi er pymtheg [darn] o arian, ac er homer o haidd, a hanner homer o

Digitized by Google

haidd;" *Hos.* iii. 2. Ffynai arferion cyffelyb yn nghyfnodau boreuaf Groeg a Rhufain; ond bwriwyd hwy o'r neilldu ar ol hyny.

Cyflawnid y dyweddïad ddeuddeng mis neu ragor cyn y briodas, naill ai mewn ysgrifen, neu trwy roddi darn o arian yn ngŵydd tystion i'r pleidiau. Yn ystod yr amser o'r dyweddïad hyd y briodas, pa fodd bynag, ystyrid y ferch yn wraig gyfreithlawn i'r dyn y byddai wedi ei dyweddïo iddo, megys y gwelwn yn achos Ioseph a Mair. Nis gallai y mab chwaith ymryddhau heb roddi llythyr ysgar; ac nis gallai y ferch ymddwyn yn anffyddlawn heb gael ei hystyried yn odinebus.

Dilynir y weithred o ddyweddïo yn mysg Iuddewon yr oesoedd diweddar gan ammodrwym ysgrifenedig tra ffurfiol.

Rhydd Dr. Wilson gyfieithiad o un oedd mewn arferiad yn mhlith y Samariaid mor ddiweddar a'r flwyddyn 1834. Y mae yr ysgrifrwym yn dra geiriog ac amgylchog; eto, hwyrach ei bod yn gyffelyb i hen ysgrifau o'r un natur. Rhoddwn ger bron gyfieithiad Cymraeg o honi:—"Yn enw Iehofah, Duw Israel, yr ydym yn dechreu ac yn diweddu. Gwneir hyn yn enw Iehofah. Bendithion yn enw Iehofah, Brenin yr isel a'r dyrchafedig, yr Hollalluog, y Tragwyddol, yr hwn yn ei undod oedd o flaen pob peth. Bendigedig fyddo ef, a bendigedig fyddo ei enw. Mor lluosog a mawreddog ydyw ei greaduriaid, y rhai a wnaethpwyd ganddo mewn doethineb! Y Trugarog yn mhlith trugarogion, y Cadarn yn mhlith cedyrn, Duw y ddaiar a'r nefoedd, yr hwn a ddadguddiodd i ni ei orchymynion: y Galluog a'r Mawreddog, yr hwn sydd yn cynnal y bydyssawd: nid oes iddo na diwedd na therfynau: bydded i ni ei foli a'i fawrygu: Brenin yr hyn sydd uchod a'r hyn sydd isod—y mae yn alluog ac ofnadwy: cadwn ei orchymynion, a diolchwn iddo am ei ddaioni: y Duw a greodd y creaduriaid mewn chwe diwrnod yn ol ei ddoethineb dwyfol, a'r hwn a sancteiddiodd y seithfed dydd. Creodd Adda wrtho ei hun, gwnaeth ymgeledd gymhwys iddo, unodd hwynt yn nghyd, a gwisgodd ef â'i lun a'i ddelw ei hun, hyd nes y cyfododd cynllun y rhai rhinweddol, cadwyn (olyniad) y rhai pur, y rhai cyfiawn, y rhai ffyddlawn, a'r rhai rhinweddol. Y mae ei drugareddau gyda'r rhai sydd yn Machpelah, â'r rhai yr ydwyt wedi cofio y Cyfammod Halen. Eu tywysog ydyw arglwydd yr enwaediad, Abraham, yr hwn sydd uchel ei deilyngdod. Ymwelodd ei Arglwydd âg Abraham, neillduodd ef, a gwnaeth yn fwy o hono nag y gwnaeth o neb arall. A gofynodd Isaac ganddo, yr hwn yr oedd efe i'w offrymu yn ol ei ddelw sanctaidd. Rhoddodd ei Arglwydd iddo bethau perffaith, a hanodd o hono Iacob—Israel, yr hwn a ddaeth i Bethel ac a gyfododd y golofn, yr hwn a ymadawodd o Beerseba ac a gyfododd y golofn. Ac o hono ef yr hanodd pob dyn da, a'r hwn a ddeonglodd y breuddwyd—Ioseph y cyfiawn, o flaen yr hwn yr ymgrymodd yr un ar ddeg. O'r hwn yr hanodd yr offeiriaid a'r Lefiaid, y rhai y mae yr Arglwydd yn eu hoffi. Ac o hono ef yr hanodd y prophwyd Moses, yr hwn a waredodd ei bobl o law Pharaoh, y creulawn, trwy ryfeddodau ac arwyddion. Ac efe a roddodd iddo y ddeddf a'r gorchymynion, ac amryw osodiadau, yn mhlith pa rai y mae yr ordinhad ddaionus o Briodas, yr hon ydyw y gorchymyn cyntaf. Yn awr, yn y flwyddyn 1250 o deyrnasiad meibion Ismael, yn mis......, dyweddïwyd y priodfab rhinweddol, teilwng, dysgedig, deallgar, a pharchus—gŵr ieuanc rhagorol, y tecaf o'r priodfeibion, yr hwn sydd yn cyflawnu pob gweithred dda......mab hen ŵr rhinweddol, teilwng, dysgedig, a pharchus, medrus mewn ysgrifenu, gwybodus, deallgar, medrus mewn areithyddiaeth, yn gynghorwr, ac yn fedrus mewn dysgeidiaeth yn mhlith henuriaid yr eglwys, ac yn cyflawnu pob gweithred dda......mab hen ŵr rhinweddol, teilwng, dysgedig, deallgar, a pharchus, medrus mewn ysgrifenu, yr enwog, y cynghorwr, colofn y gynnulleidfa, a phenaeth y gynnulleidfa, yr hwn sydd yn cyflawnu pob gweithred dda......o blant Dinaphat a Chahalon, o drigolion Sichem, i'r briodferch......merch hen ŵr rhinweddol, teilwng, dysgedig, deallgar, ac yn benaeth, yn fedrus mewn ysgrifenu, yn un o attegwyr y gynnulleidfa, yn un o henuriaid y gynnulleidfa, yn fedrus mewn areithyddiaeth, yn gynghorwr, ac yn golofn nerthol, yr hwn sydd yn gwneuthur yr hyn sydd dda......mab hen ŵr rhinweddol, teilwng, dysgedig, deallgar, a pharchus, medrus mewn ysgrifenu, yn hyddysg yn y Talmud, yn un o henuriaid y gynnulleidfa, yr hwn a gyflawna bob gweithred dda......o blant Dinaphat a Chahalon, o drigolion Sichem. Wedi hyny, gofynodd y priodfab crybwylledig am y briodferch grybwylledig i'w thad, a chydsyniodd yntau â'i gais yn galonog ac ewyllysgar, tra mai merch ieuanc—morwyn—anhysbys o ffyrdd dynion, oedd y briodferch ar y pryd; ac y mae efe i ymddwyn tuag ati yn ol deddf gwŷr, yn ol arfer merched Israel, yr hen arfer ragorol a hybarch, megys Efa, yr hon a grewyd o asen Adda, yn ymgeledd gymhwys i ffrwythloni ac amlhau—trwy dalu gwaddol o 4,900 o *karits*. Ac efe a'i prioda hi, a chyflwynir hithau yn wraig iddo yntau, a bydd dan rwymau i ymgadw oddi wrth bob dyn arall. Rhaid iddo yntau fel gŵr ymddwyn tuag ati hithau yn ol deddf merched. Megys y llefarodd yr Arglwydd trwy ei was Moses, ni chaiff efe leihau ei hymborth, ei dillad, na'i dyled priodas. Efe sydd i gadarnhau ei haddewidion, a'i hymrwymiadau, neu i'w gwneyd yn ddirym. Rhaid iddi hithau gyflawnu y dyledswyddau hyn tuag ato yntau—ufuddhau i'w eiriau, a pheidio ei wrthwynebu, a bod yn ymgeledd gymhwys iddo. Ac y mae yn aros iddi hi oddi wrtho ef, ar gyfrif y briodas, ddwy fil a phum cant o *karits* Aiphtaidd. Gall eu cymmeryd oddi wrtho pa bryd bynag y bydd arni eu hangen, fel y dewiso, a rhaid iddo yntau lynu wrthi, megys y dywedodd yr Arglwydd, 'O herwydd hyn yr ymedy gŵr â'i dad ac â'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig: a hwy a fyddant yn un cnawd.' A bydd ysgrifenydd yr ysgrifen hon, a'r gynnulleidfa o dystion, yn ei erbyn, fel ag i fod yn dystiolaeth gyfiawn a chyflawn; a'r Arglwydd, yr hwn a rydd lwyddiant i bob un a gerddo yn ei lwybrau ef, ac a gadwo ei farnedigaethau o'u coryn i'w sawdl. A bendigedig fyddo ein Harglwydd Dduw yn oes oesoedd, a bendigedig fyddo ei enw yn oes oesoedd. A bydded tangnefedd i'r prophwyd cyfiawn, perffaith, pur, a ffyddlawn, Moses, mab Amran, gŵr Duw."

Llefara Duw am ddyweddïo ei bobl—sef eu huno âg ef ei hun yn rhwymau tyner serch, ac ymgyfammoda i gyflawnu ei holl addewidion graslawn iddynt: *Hos.* ii. 19, 20. Ac y mae Crist yn galw ei eglwys yn *ddyweddi*: *Can.* iv. 9, 10; v. 1. Gwel PRIODAS.—(*Eadie's Bib. Cycl.*)

DYCHYMYG, [*dy-cymyg*]. Fe allai nad oes odid air yn yr iaith a ddefnyddir mewn mwy o

Digitized by Google

wahanol gyssylltiadau ac ystyron na'r gair dychymyg. Defnyddir y gair hwn yn y Beibl Cymraeg, lle y defnyddia y Seisoneg *invention* (*Salm* xcix. 8; cvi. 29; *Preg.* vii. 29; *Ier.* xviii. 12, 18; *Act.* xvii. 29); *imagination* (1 *Cron.* xxviii. 9; 2 *Cor.* x. 5); *riddle* (*Barn.* xiv. 12—15; *Ezec.* xvii. 2); *endeavour* (*Salm* xxviii. 4); a defnyddir ef yn fynych hefyd mewn cyfansoddiadau cyffredin am y gair Seisoneg *fancy*.

Y mae genym ddigon o eiriau Cymreig i ateb i'r geiriau Seisonig a nodwyd; megys dyfais am *device*, crebwyll am *imagination*, dammeg am *riddle*, a darfelydd am *fancy*, gan rai dychymyg am *invention*; er hyny dychymyg a fŷn y werin, fel cyfieithwyr y Beibl, yn gyffredin, i gynnrychioli yr holl feddyliau hyn, a ddynodir gan gynnifer o eiriau Seisonig.

Fe allai mai y gair Seisoneg *invention* a esyd allan ystyr penaf y gair dychymyg; a thybir fod dyfais (*device*) yn cludo ynddo bron yr ystyr yn hollol.

Wrth ddychymyg, yn yr ystyr yma, y golygir y weithred o ganfod rhywbeth newydd; y weithred o gynllunio peth nad oedd yn bod o'r blaen; am hyny, dychymyg neu ddyfais y gelwir dirprwynion (*logarithms*), argraffu, y serfynag (*orrery*), a'r cyffelyb. Y mae gwahaniaeth o bwys rhwng dychymyg yn yr ystyr yma, neu ddyfais, a darganfyddiad. Dychymyg neu ddyfais a gymhwysir at gynllunio neu gynnyrchu rhyw beth nad oedd yn bod o'r blaen: darganfyddiad a ddwg i'r goleu yr hyn oedd eisoes yn hanfodi, ond ei fod yn anadnabyddus. I ddychymyg neu ddyfais yr ydym yn ddyledus am y gwresfesurydd, a'r awyrfynag, ond i ddarganfyddiad yr ydym dan ddyled am ein gwybodaeth o'r America ac Ynysoedd Môr y De, am galfaniaeth a gwasanaeth ager. Mae y gwahaniaeth hwn yn bwysig, er nas gofelir am sylwi arno bob amser. Y mae rhai yn tybied y byddai y gair Cymraeg *dyfais* yn fwy cyfaddas i osod y meddwl yma allan; ond ymddengys mai *dychymyg* a ddewisai cyfieithwyr y Beibl; megys "Mi a anfonais atat ŵr celfydd, cywraint, a deallus, yn medru gweithio mewn aur, ac mewn arian, mewn pres, mewn haiarn, mewn coed, mewn porphor, ac mewn glas, ac mewn llian, ac mewn ysgarlad; ac i gerfio pob cerfiad, ac i ddychymygu pob dychymyg a roddir ato ef;" 2 *Cron.* ii. 13, 14. Yr un ystyr hefyd, fel y tybir, sydd i'r gair yn *Preg.* ix. 10; "Canys nid oes na gwaith na dychymyg yn y bedd, lle yr wyt ti yn myned."

Defnyddir y gair dychymyg neu ddyfais hefyd i ddynodi yr hyn a ddychymygir; dyfais neu ddychymyg Bell ydyw yr agerfad; dychymyg y Groegiaid yw y dull Dorig, Ionaidd, a Chorinthaidd o adeiladu; a dychymyg y Rhufeiniaid oedd y dull Tuscanaidd a chyfansawdd; a dywed y *Trioedd* mai dychymyg tri o Gymry (Corfinwr, Morddal Gwr Gweilgi, a Choel ap Cyllin ab Bran) oedd llong, hwyl, a llyw; gwaith maen a chalch; a melin, rhod, ac olwyn.—*Myf. Arch.* ii. 71, *Tri.* 91.

Y mae y gair hefyd weithiau yn arwyddo ffug a thwyll. Ymddengys mai dyma ystyr y gair yn *Salm* xxviii. 4; xcix. 8; cvi. 29; *Preg.* vii. 29; *Ier.* xviii. 12, 18.

Yr ystyr nesaf i'r gair dychymyg ydyw dammeg, sef *riddle* y Saeson. Dyma yr ystyr sydd i'r gair yn *Barn.* xiv. 12—19, lle y mae Samson yn cynnyg dychymyg neu ddammeg i'r deg Philistiad ar ugain ieuainc oedd yn ei briodas ef, yr hon a ffurfiodd oddi wrth y dygwyddiad ddarfod iddo ganfod haid o wenyn a mêl yn ysgerbwd y llew, yr hwn a laddasai efe ychydig fisoedd yn ol, pan yn dyfod i ymweled â'i wraig. Yr oedd y dychymyg neu y ddammeg, er ei bod yn an nheg gyda golwg ar y rhai a dderbyniasant yr her i'w mynegu, o blegid eu bod yn anhysbys o'r weithred benodol, trwy wybod yr hon yn unig y gallasent ei mynegu; eto yr oedd yn ateb i ddarnodiad cymmeradwy dammeg neu ddychymyg, am ei bod yn cynnwys cynnyg celfydd a dyrys, wedi ei eirio yn dywyll, amwys, a gwrtheiriol, er mwyn rhoddi ymarferiad i gywreindeb ereill er cael allan yr ystyr.

Y mae hyfrydwch y cynnygiwr yn deilliaw oddi wrth y penbleth a bair i'r gwrandawyr; a'u hyfrydwch hwythau oddi wrth eu gallu i orchfygu yr anhawsder, yr hwn yn gyffredin a adnewyddir trwy iddynt hwythau gynnyg dychymyg arall.

Ymddengys fod y dull yma o ddifyrwch yn cael ei arfer, yn enwedig mewn gwleddoedd, yn mhob oes, yn mysg gwahanol genedloedd; ac wedi bod yn cael ei ystyried hyd yn oed fel celfyddyd, yn ddarostyngedig i reolau penodol. Y prif reolau i ffurfio dammeg neu ddychymyg wrthynt, yw y rhai canlynol:—ei bod yn dywyll; a pho dywyllaf y byddo, goreu oll, ond gofalu ar fod y dysgrifiad o'r peth yn hollol gywir, pa mor geledig a dansoddol bynag, a pha mor bell ac anghynnefin bynag a fyddo y geiriad; ac y mae yn anhebgorol hefyd fod y peth a ddysgrifir fel hyn yn eithaf adnabyddus. Y mae y difyrwch yn gymmysgedig weithiau, yn enwedig mewn dychymyg ffraethbert, mewn dysgrifio y peth trwy gyfres o ddammegion, a amlygant eu hystyr eu hunain, ond a ddyrysant y gwrandawyr trwy iddynt ddysgwyl rhyw ystyr dwfn a dyrys. Gwneir y dychymyg mwyaf yn fwy dyrys ac anhawdd trwy luaws o eiriau; a gall y lleiaf fod yn gynnwysedig o air neu awgrymiad pell pell ac amwys yn unig.

Fe allai mai dull dammegol o fynegu rhyw newydd poenus ydyw araeth Lamech wrth ei wragedd Adah a Silah, yn *Gen.* iv. 23, 24. Dywedir yn 1 *Bren.* x. 1, fod brenines Seba wedi dyfod i brofi Solomon "â chwestiynau caled," neu fel y cyfieitha y Deg a Thrigain a'r Vulgate y gair gwreiddiol, â dammegion neu ddychymygion. Y mae Josephus yn mynegu fod Hiram, brenin Tyrus, wedi profi medr Solomon yn yr un dull; a difyna Dius i brofi fod Solomon wedi anfon dychymygion i Hiram, yr hwn a fforffetiodd lawer o arian i Solomon trwy fod yn analluog i'w hateb, ond iddo eu hennill yn ol trwy iddo gael dyn o'r enw Abdemon yn Tyrus a fedrodd eu deongli [*Antiq.* viii. 5. 3]. Gellir ystyried y darluniad o'r Messiah dan yr enw Blaguryn, wrth ei gymmeryd yn ei gyssylltiad â'r amgylchiad a'r cyd-destynau, medd Lowth, fel math o is-ddychymyg. Gellir ystyried "rhifedi y bwystfil" (*Dad.* xiii. 18) fel dychymyg. Y mae yr esamplau ereill, lle y defnyddir y gair Hebraeg sydd yn arwyddo dychymyg neu ddammeg, yn dwyn yr un ystyr, medd Kitto, i raddau mwy neu lai; megys *Num.* xii. 8—lle yr arwydda oracl neu weledigaeth; *Salm* xlix. 4, cân; lxviii. 2, ymadroddion tywyll; *Diar.* i. 6, Llarebion dyrys; *Ezec.* xvii. 2, dammeg; *Dan.* viii. 23, dichellion; *Hab.* ii. 6, cân. Defnyddir y gair cyferbyniol (αἴνιγμα) unwaith yn y Testament Newydd (1 *Cor.* xiii. 12); a thybia rhai mai dyfyniad ydyw o *Num.* xii. 8; ac y mae yn dra thebyg fod yr apostol yn cyfeirio at y lle. Fel esamplau o'r

Digitized by Google

dull dammegol yn yr Hen Destament, noda Winer *Diar.* xxx. 12—19; *Esa.* xxi. 12. Yn y Newydd, noda Kitto ymddyddan ein Harglwydd â Nicodemus (*Ioan* iii. 3), ac â'r Iuddewon (*Ioan* vi. 51, &c.), lle y defnyddir y dull dammegol er mwyn tynu sylw mewn modd neillduol.

Un o ystyron mawrion ereill y gair hwn ydyw yr un a gynnrychiola y gair Seisoneg *imagination*, a'r hwn a eilw ysgolheigion Cymreig yn *grebwyll.*

Y mae athronwyr, llenorion, a beirdd wedi gwahaniaethu yn fawr yn y darnodiadau a'r dysgrifiadau y maent wedi eu cynnyg i ni o allu a gweithrediadau y gynneddf oruchel a elwir *dychymyg.* Defnyddir ef yn fynych am y gallu i bresennoli gwrthddrychau o flaen y meddwl yn eu habsennoldeb. Fel pan y gosodwn o flaen y meddwl arlun o gyfaill hoff sydd wedi marw er ys blyneddoedd; neu pan yn mhell o'n gwlad enedigol y rhedwn mewn amrantiad yn ol i ganol y golygfeydd oedd yn ein hamgylchynu ac yn ein difyru pan yn blant. Trwy y dychymyg, yn yr ystyr hwn, yr ydym yn gwysio o'n blaen, pan y mynom, bersonau a dygwyddiadau, afonydd a llynoedd, mynyddoedd a dyffrynoedd. Y mae y mynedol yn dyfod unwaith eto yn bresennol. Ond ai nid y cof sydd yn meddu y gallu swynol hwn? Ië: ond medd rhai, nid oes nemawr o wahaniaeth rhwng y cof a'r dychymyg yn y gallu arluniol sydd yn perthyn iddynt. Y mae y ddau yn presennoli yr absennol; ond y mae y cof yn gwneuthur hyny, gan gofio ar y pryd ei fod wedi bod yn wrthddrych canfyddiad y meddwl yn flaenorol. Fel y cyfyd pob darluniad o flaen y meddwl, y mae y cof yn ei gydnabod fel hen gyfaill a welodd o'r blaen. Ond y mae y dychymyg yn llawenychu neu yn brawychu yn mhresennoldeb *presennol* y darluniad, heb wybod nac ymofyn dim am ei achau blaenorol. Ond heb law y gwahaniaeth hwn sydd rhwng y cof a'r dychymyg, nodir gwahaniaeth arall; sef, fod y cof yn rhwym wrth *drefn* amser yn ei holl ddarluniadau; ond am ddychymyg, nid yw hi yn talu gwarogaeth i nac amser nac i drefn amser. Y mae yn wir nas gall dychymyg hòni annibyniaeth ar synwyryddiaeth (*sensation*) a'r cof am ei ddefnyddiau; ond wedi eu cael, y mae hi yn ymhyfrydu mewn amrywio yn ddiderfyn ffurfiad, a chyflead, a chyfuniad, y defnyddiau hyny. Yn yr ystyr hwn, gallwn ddarlunio dychymyg megys yr ewyllys yn gweithredu ar drysorau y cof; ni foddlona ar ddilyn trefn naturiol a dygwyddiadol pethau, ond dethola ranau o wahanol amgyffredion neu wrthddrychau y cof, a ffurfia gyfander mwy prydferth, mwy hyfryd, mwy erchyll, neu fwy ofnadwy, nag a welwyd erioed yn nhrefn gyffredin natur.

Ni cheir geiriau yn cynnwys mwy o athroniaeth ac egwyddorion dyfnaf dychymyg nag a geir gan Bacon. Ni a'u rhoddwn yma yn gyflawn, gan nad oes eu cywirach, eu cyflawnach, na'u prydferthach, i'w cael mewn unrhyw iaith:—"Y mae rhanau dysgeidiaeth ddynol yn cyfeirio at dair rhan deall dyn—yr hwn yw eisteddle dysgeidiaeth. Hanesiaeth at ei gof; barddoniaeth (*poesy*) at ei ddychymyg; ac athroniaeth at ei reswm....Y mae barddoniaeth, o ran geiriau, dan lywodraeth mydr; ond yn mhob ystyr arall yn berffaith rydd, ac yn cyfeirio at y dychymyg, yr hwn nid yw yn ddarostyngedig i ddeddfau mater neu ddefnydd, ond yn hytrach a all uno yr hyn y mae natur wedi eu hysgaru, ac ysgaru yr hyn y mae natur wedi eu huno.....Y mae barddoniaeth i'w chymmeryd mewn dau ystyr — gyda golwg ar y geiriau, a chyda golwg ar y defnyddiau (*matter*). Yn yr ystyr cyntaf, ni pherthyna ond i'r arddull neu i gyflead a chyfansoddiad geiriau. Yn yr ystyr olaf, un o brif adraniadau dysgeidiaeth ydyw, ac nid yw yn amgen nag hanesiaeth ffugiol (*feigned history*), yr hyn a berthyn yn gystal i ryddiaith ag i brydyddiaeth. Gwasanaethgarwch yr hanesiaeth ffugiol hon ydyw rhoddi rhyw gysgod o foddhad i feddwl dyn yn yr hyn y mae natur yn analluog i'w roddi, gan fod y byd is law yr enaid; ac o ganlyniad, y mae yn perthyn i ysbryd dyn ryw fawredd mwy eang, rhyw ddaioni mwy manwl, ac amrywiaeth mwy diderfyn nag a geir mewn natur. Gan na pherthyna, gan hyny, i weithrediadau a dygwyddiadau hanesiaeth wirioneddol y mawredd hwnw sydd yn rhoddi boddhad i feddwl dyn, y mae barddoniaeth (*poesy*) yn dychymygu gweithredoedd a dygwyddiadau mwy a mwy arwraidd:—gan nad yw hanesiaeth wirioneddol yn dosbarthu llwyddiant ac aflwyddiant yn unol â theilyngdod ac annheilyngdod; o ganlyniad, y mae barddoniaeth yn gwneuthur dosbarthiad mwy uniawn ac un mwy unol â Rhagluniaeth ddadguddiedig:—gan fod hanesiaeth wirioneddol yn gosod o'n blaen weithrediadau mwy cyffredin a llai amrywiol, y mae barddoniaeth yn eu gwisgo mewn gwedd mwy anghyffredin: ac felly y mae yn ymddangos fod barddoniaeth yn gwasanaethu i fawrfrydigrwydd moesoldeb a hyfrydwch. Ac o ganlyniad, tybid erioed fod ynddi ryw ddwyfolder, am ei bod yn dyrchafu ac yn eangu y meddwl, gan ddarostwng ymddangosiadau pethau i ddymuniadau y meddwl; tra ar y llaw arall y mae rheswm yn darostwng y meddwl i natur pethau."[1]

Am y dyfyniad uchod, dywed y *North British*, "Mor wir, mor brydferth, mor bruddglwyfus ydyw—prawf yn mhlith llawer o rai ereill ein bod wedi cwympo, a bod y gwirioneddol a'r dychymygol, y rhai oeddynt yn Mharadwys yn chwiorydd, yn cynnal ac yn gogoneddu y naill y llall, yn cydbreswylio, wedi hir ymadael â'u gilydd, a bod ein teimlad o brydferthwch yn cael ei brofi yn hytrach mewn hiraeth nag mewn mwynhad—fel telyn allan o hwyl, yr hon, pan swnia, a ddywed wrthym yn hytrach am yr hyn sydd wedi ei golli nag am yr hyn sydd yn aros; ond yr hwn sydd yn hòni yn barhaus ei darddiad dwyfol, yn adgofio ei breswylfa uchod; ac wedi colli un Baradwys, nis ymfoddlona nes y bydd un arall wedi ei hadennill."

Dylem ddyweyd fod y sylwadau uchod o eiddo Bacon yn gymhwysiadwy at yr holl gelfyddydau dychymygol (*ideal arts*) fel at farddoniaeth, ac yn cael eu bwriadu felly ganddo ef.

Er fod llawer ag sydd wedi ei ysgrifenu ar

[1] Gan nas gall cyfieithiad wneuthur cyfiawnder â'r gwreiddiol, ni a roddwn yma, mewn nodyn, eiriau anghymharol Bacon ei hun; sef y brawddegau sydd yn dwyn perthynas mwy uniongyrchol â'n herthygl:—

"The use of this feigned history hath been to give some shadow of satisfaction to the mind of man on those points wherein the nature of things doth deny it, the world being in proportion inferior to the soul; by reason whereof there is agreeable to the spirit of man, a more ample greatness, a more exact goodness, and a more absolute variety than can be found in the nature of things. Therefore, because true history hath not in its acts and events that magnitude, that justness, poesy feigneth acts and events greater and more heroical, and endueth them with more rareness, so that it appeareth that *poesy serveth and conferreth to magnanimity, morality, and delectation.* And therefore it was ever thought to have some participation of divineness, *because it doth raise and erect the mind by submitting the shows of things to the desires of the mind:* whereas reason doth buckle and bow the mind into the nature of things."—*Advancement of Learning.*

wrth yr ausoddau a'r amgylchiadau sydd yn gysylltiedig â hwynt mewn natur; ac yn drydydd, barn neu chwaeth i wneuthur y detholiad hwn, ac i'w cyfuno mewn un cyfanwaith. At y galluoedd hyn, gellir chwanegu y gallu sydd yn cynnyg i'r dewiniad yr holl ddefnyddiau gwahanol sydd yn wasanaethgar i weithrediadau y dychymyg: a'r hwn, gan hyny, a ellir ei ystyried fel yn ffurfio sylfaen athrylith farddonol. I'r gallu olaf hwn yr ydwyf yn rhoddi yr enw darfelydd *(fancy.)*" Mewn manau ereill yn ngwaith Stewart, gwelir mai yr hyn a ddealla wrth ddarfelydd *(fancy)* yw ymbresennoliad buan drychfeddyliau y synwyrau i'r meddwl. Eglura yn mhellach y darnodiad uchod trwy ddysgrifiad Milton o ardd Eden.[1]

Y mae yn anhawdd cael hyd i ddim yn Gymraeg o barth i natur a gweithrediadau y gallu hwn. Oddi wrth yr unig draethawd y rhoddasom ein llaw arno, sef *Swyddogaeth Barn a Darfelydd,* gan beriglor Nefyn, gwelir fod ei syniadau ef yn cyfateb i'r rhai uchod:—"Darfelydd—yr hwn a ddefnyddir ganddo ef yn gyfystyr âg *imagination*—a ddynoda y gallu meddyliol i weithredu, i gynnyrchu, neu i bresennoli, yr hyn sydd debyg neu yn llun o beth. Anhawdd yw i air arwyddo yn well y gynneddf ag sydd yn ffurfio yn y meddwl ddelweddau o bethau a welwyd neu y clywyd am danynt....Nid yn unig y mae darfelydd yn creu syniadau tebyg i wrthddrychau; ond helaetha gylch ei weithrediadau yn ddiderfyn. Efe a ddethol rithiau a dangosiadau o wahanol bethau, a chan gydosod a chyfleu y rhai hyny, llunia gread."

O'r braidd y caniata Ruskin, beirniad goreu yr oes bresennol ar weithiau dychymyg mewn celfyddydau a barddoniaeth, fod y dysgrifiadau uchod o ddychymyg yn cyffwrdd â gwir hanfod a gweithrediadau y gallu hwn wedi y cwbl. Ni a geisiwn roddi golwg gyffredinol ar ei syniadau ef. Dosbartha weithrediadau y dychymyg i dri dosbarth:—1. Dychymyg gyfunol (*imagination associative*). 2. Dreiddiol (*penetrative*). 3. Adfyfyriol (*contemplative*).

Gallwn gael syniad am ddychymyg gyfunol trwy gyfyngu ein sylw at ein drychfeddyliau neu ein delweddau (*conceptions*) o bethau gweledig. Yn gyntaf, Pa beth yw natur y delweddau hyn? Ni a ddefnyddiwn y gair *delweddau* neu *ddrychfeddyliau,* neu unrhyw air arall a ymddengys yn briodol, i osod allan y pictiwr yn y meddwl a dderbyniwyd oddi wrth wrthddrych allanol. Ar ol sylwi ar y cyfryw wrthddrych, y mae ein gwybodaeth am dano yn hanfodi mewn dwy ffurf. Y mae rhai ffeithiau yn hanfodi yn yr ymenydd mewn ffurf ciriol—yr ydym yn eu gwybod, eto nid oes delw neu bictiwr o honynt yn y meddwl; er anghraifft, fod peth yn drwm neu yn ysgafn. Ni a allwn adgofio pethau fel hyn heb feddu delwedd o honynt o gwbl. Mae ffeithiau ereill yn hanfodi yn yr ymenydd mewn modd neu ffurf weladwy—nid yn weladwy yn wastadol, ond wrth ddewisiad yr ewyllys; megys fod peth yn wyn, neu fod iddo ryw lun penodol. Pan y bydd eisieu cofio y rhai hyn, nid mewn geiriau yr ydym yn eu cofio, ond yr ydym yn galw llun neu ddelwedd y peth o flaen y meddwl. Gwybodaeth yn y ffurf weladwy hon a alwn ni yn bresennol, fodd bynag, yn ddelweddiad (*conception*), ac nid crebwyll; er fod y gair Saesoneg, *imagination*, o ran ei darddiad (*image*), yn ddigon priodol; eto, y mae ei eisieu i ddynodi cynneddf uwch. Pan y mae dyn yn rhoddi dysgrifiad mewn geiriau o'r delweddau sydd yn ei feddwl, nid ydyw ond yn cofio megys y gwna pan yn cofio y gwrthddrych ei hun mewn natur. Nid ydyw y gorchwyl yn cynnwys dim gweithrediad o eiddo y crebwyll o gwbl. Ond etto, y mae ganddo awdurdod ar y delweddau hyn, nad oedd ganddo ei gyffelyb ar natur. Fe ddichon alw yr un a fyno; ac os bydd rhyw gasgliad o wrthddrychau a gafodd oddi wrth natur heb fod wrth

[1] "Yn y fro dirioned ei
Dirionach decach gardd a drefnai Duw
I dyfu perai odd y ffaethus dir
Holl goedydd o oreuon ryw, er sylw,
Arogli, blas, ac yn eu plith oedd pren
Y bywyd, hardd odidawg wedd, ac yn
Balannu aeron diedwinawl o
Eurinawl dwf; at fywyd nesaf, ein
Marwolaeth pren gwybodaeth tyfai ar
Y fan, gwybodaeth da o wybod drwg
Yn ddrud a brynid. Elai afon fawr
Tua de trwy Eden, heb chwaith droi ei rhed,
Ond trwy y bryn cedenawg collai hi;
Can y bwriasai Duw y mynydd hwnw
Yn uchel megis pridd ei ardd oddi ar
Y gweilgi gwyllt, yr hwn trwy weli mân
Y ddaiar fwyn ei syched sugnid fry
Nes tarddu ffynnon groew, ac yn aml
Ridysion dyfrai glawr yr ardd; yn un
Oddiyna syrthiai i lawr y llanerch serth,
A merai idd yr isod lif, y sydd
Ar rithiaw bellach oc ei drwydded wyll,
Ac o ymranu yna yn bedair ffrwd
Amryred hynt i grwydraw llawer gwlad
Nodedig, yma nad yw raid eu cof:
Ond hytrach son, pe son a allai Pwyll,
Mal odd y ffynnon drylas hon ar chwiw
Y crychion nentydd tros ferlerid gwawr
A graian aur, gan astrus droion mas
Is gwyrain gelydd a ddylifent fedd
Nefolaidd, am bob twf, a rhoent faeth
I flodau gwiw i Wynfa, nas gwnai Pwyll
Yn ddestlus glymau, ond amdaenid hwynt
Gan Anian lwys yn hael ar fryn a phant,
Lle tesai bore haul ar dyno, lle
Dylwydai gysgawd hefyd ddeildai nawn;
Elelly dedwydd dirion orsaf oedd
O amryw sylw y fan hon; coed berth,
Yn llwyni, a ddagreuent noddion per
O arogl, ereill llathr eu pilion aur
A hoff ddibynent, ac o felys chwaeth,
Os gwir chwedleuon am Hesperia, gwir
Yn unig yma: rhyngynt oedd aml fron,
Neu dyno brith o ddëadellau gwâr
Yn addien bori; neu flodeuawg ddol
Amddyfrwys taenai ged o flodau cain
Amliwion, ac heb ddraen; tu arall aml
Ogofau oerion a llochesi clyd,
A rhwysant winwydd gan fagwyaw grawn
Gorleision arnynt; rhedant ar y pryd
I lawr hyd lethri bronydd ddyfroedd yn
Orddyar ffrydiau, neu mewn llyn llyfnâant
Eu drych i loni glenydd myrtwydd brwys.
Ban côr yr ednaint; yn awelu chwa
O lwyn a maes, cysona eilon maws
Y dail ergrynawl, tra arweddai Nawd
Teleidion Hinon i decáu y twf
Gwyrenig bythawl. Nid y maes mor gain
O Enna, yn blodeua man yr oedd
Proserpin, tecach bloden hi ei hun
A dyna Dis orddnawg, dosted gnif
I Ceres hyn a oedd am dani trwy
Y byd ei chwiliaw; chwaith na melys lwyn
I Daphne bedd uch ffrwd Castalia wrth
Orontes, a debygai ddim i wemp
Wenydfa Eden; chwaith na Nysa am
Yr hon mae afon Triton, yn y fan
Y celid Amalthëa ac ei mab
Telediw Bacchus rhag trem Rhea daer
Ei lysfam, gan Cham hen, Ammon ac Iou
O Lybia a orenwid gynt yn mhlith
Cenedloedd; chwaith bre Amara, i hil
Breninoedd Abyssinia drefed yw,
Er tybient rai mai hon y Wynfa wir
Is cylch Ethiopia ar flaen Nil, a chraig
Am dani yn loew o uchder cyfan daith
Un dydd, ond draw yn bell oddi wrth yr ardd
Assyriain hon, heb hoffi lle gwŷl y Mallt
Bob hoffiaint, pob bywiolion uthr o wedd
A newydd." *Coll Gwynfa,* td. 103—5.

ei fodd, gall symmud rhai o'r delweddau, chwanegu ereill, ac ail drefnu y cyfan. Felly y ffurfiodd Milton ei ddysgrifiad o ardd Eden. Fe gyflawna dynion y gweithrediadau a ddysgrifir yma gyda mwy neu lai o ddeheurwydd ac effeithiolrwydd yn ol bywiogrwydd eu teimlad, cyflawnder y delweddau yn eu meddiant, eu meistrolaeth yn eu cyfuno â'u gilydd, yn ol graddau eu tebygolrwydd a'u hannhebygolrwydd, eu cydgordiad a'u gwrthgyferbyniad; ac y mae hyn oll eilwaith yn dibynu ar eu gwybodaeth a'u profiad. O'r holl alluoedd hyn, yr uchaf ydyw y gallu cyfunol, trwy yr hwn y mae delweddau cyfaddas a chyffelyb yn cael eu gwysio o flaen y meddwl, yn gryno, ac mewn cyflawnder. Pan y mae y gallu hwn yn ddysglaer iawn, gelwir ef *darfelydd* (*fancy*), er mai nid hwn ydyw yr unig ystyr i'r gair. Y mae iddo ystyr triphlyg, yn ddarostyngedig i dri gweithrediad y dychymyg. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng gwahanol ysgrifenwyr yn y gallu hwn: y mae gan rai luoedd o ddelweddau at eu galwad, tra nad oes gan ereill ond ychydig, a'r rhai hyny yn aneglur ac heb feddu awdurdod ar y cyfryw ag sydd ganddynt. Y mae cyfansoddiad yn mha un y mae gweithrediadau y gallu hwn yn tywynu yn ddysglaer, os bydd y delweddau yn meddu prydferthwch naturiol, ac wedi eu cyfuno yn briodol, ac yn cael eu harddangos yn unol â gwirionedd, yn sicr o fod yn addysgiadol a tharawiadol; ac os byddant wedi eu cyfuno gyda chywreinrwydd, bydd yn ddifyrus a swynol.

Ond yn hyn oll nid oes dim crebwyll. Y mae y cyfan, oddi gerth darfelydd, yn hawdd i'w ddysgu, ei ddadgyfansoddi, a'i ddeall; ond nid yw crebwyll i'w ddysgu trwy unrhyw ymdrech, na'i helfenu na'i hegluro trwy unrhyw gywreinrwydd. Yn y weithred o gyfansoddi delweddau, neu eu rhoddi at eu gilydd, yr hyn oll y mae y meddwl yn cymmeryd sylw o hono ydyw tebygolrwydd neu annhebygolrwydd; ond nid ydyw tebygolrwydd nac annhebygolrwydd yn sicrhau cydgordiad (*harmony*). Nis gall dau neu chwaneg o bethau cyffelyb ffurfio un cyfanwaith. Dau raid iddynt barhau, mewn natur, ac yn ein syniad ni o honynt, tra y maent yn gyffelyb, oddi eithr iddynt gael eu huno gan drydydd, sydd yn wahanol i'r ddau. Y mae breichiau y corff, sydd yn gyffelyb, yn ddwy fraich, ac nis gellir eu huno â thrydedd braich—rhaid eu huno â rhywbeth sydd heb fod yn fraich, yr hwn sydd yn anmherffaith hebddynt hwy fel y maent hwythau hebddo ef; ond y cyfan yn nghyd yn gwneuthur i fyny un corff perffaith. Y mae cyffelybrwydd neu debygolrwydd yn dinystrio cydgoriad, ac nid yw annhebygolrwydd o angenrheidrwydd yn ei sicrhau. Mewn cyfanwaith lle y mae cydgordiad, y mae yn rhaid fod dau neu chwaneg o ranau—tybiwn ddau—a phob un ynddo ei hun yn anmherffaith; ond y mae anmherffeithrwydd y ddau y fath fel y mae y naill yn perffeithio y llall. Os bydd un yn berffaith ynddo ei hun, bydd y llall yn afreidiol. Y mae y ddau yn ddiffygiol ynddynt eu hunain, ond yn eu gilydd y maent yn gyflawn; yn awr, y mae nifer yr anmherffeithderau tybiadwy mewn unrhyw beth yn annherfynol. Y mae yn anmhosibl, gan hyny, i nodi allan ryw anmherffeithrwydd penodol yn y naill wrthddrych, ac yna cymharu â hwn, bob yn un ac un, holl anmherffeithderau gwrthddrych arall, nes cael un fyddo yn cyfateb i gyflawnu anmherffeithrwydd y gwrthddrych arall. Ond y mae yn rhaid i'r ddau anmherffeithrwydd cydberthynasol ymddangos o flaen y meddwl ar unwaith. Hwn ydyw crebwyll cyfunol y gallu sydd yn gwneuthur dyfeisiwr (*inventor*), yn wrthgyferbyniol i saer. Hwn ydyw y gallu peiriannol uchaf sydd yn perthyn i ddeall dyn, a gallu a ddyrchafa ein syndod po mwyaf yr ystyriwn ef. Trwy weithrediad y gallu hwn y dewisir dau ddrychfeddwl o nifer anmhenderfynol sydd ynddynt eu hunain yn anmherffaith, yn anghywir; ond yn nghyd, y maent yn berffaith, yn gywir. Yn eu hundeb, y maent yn berffaith; ac y mae yn rhaid fod yr undeb o flaen y meddwl yn moment y dewisiad; a'r canfyddiad o'r undeb yn y meddwl sydd yn arwain i ddewis, allan o nifer anmhenderfynol, y ddau ddrychfeddwl diffygiol ar wahân, ond cyflawn yn eu gilydd. Gwelir fod yma weithrediad gallu dirgelaidd, ie, prophwydol, sydd yn arwain y meddwl i ddisgyn yr un foment ar ddau wrthddrych, nas gellir eu cymharu bob yn un ac un; o herwydd y mae y nifer sydd yn cyfateb i'w gilydd ac yn cyflawnu eu gilydd yn annherfynol. Y mae gweithrediadau y gallu hwn yn ddigon rhyfedd yn ei gymhwysiad at ddau wrthddrych yn unig. Ond y mae crebwyll cryf yn uno, nid dau, ond holl ddrychfeddyliau pwysig cyfansoddiad barddonol neu arluniol; a thra yn gweithio gydag unrhyw un o honynt, y mae ar unwaith yn gweithio gyda'r lleill oll, ac yn eu cyfaddasu yn eu perthynas i'r un hwnw heb golli golwg ar eu cydberthynas a'u dibyniad; fel y mae ysgogiadau corff sarff yn rhedeg trwy yr holl ranau ar unwaith, a'i hewyllysiad yn gweithredu yr un foment mewn troellau sydd yn myned mewn ffyrdd gwrthgyferbyniol. Y mae dyn yn y gallu hwn fel wedi ei wneuthur ar ddelw Duw. Y mae ynddo rywbeth anamgyffredadwy, rhyfeddol, a dwyfol. Ac eto, y mae yn amlwg nad yw un gallu llai yn alluog i gynnyrchu gwaith mawr; o herwydd nid ydyw yn ddigon fod drychfeddyliau anmherffaith yn perffeithio eu gilydd bob yn ddau, ond y mae *holl* ranau gwaith mawr yn ddiffygiol ynddynt eu hunain; y mae pob un yn rhagdybied ac yn gofyn am y lleill oll, a gogoniant pob un yw eu perthynas i'r oll, a thra y bo un yn ddiffygiol nis gall dim fod yn iawn. Yn unol â hyn, dywed Fuseli, yn ei ddarlithiau o flaen y *Royal Academy*, "Ni chaniateir ail feddyliau mewn arluniad a barddoniaeth, ond yn unig fel addurn i'r drychfeddwl (*conception*) cyntaf; ni ffurfiwyd un drychfeddwl mawr erioed trwy roddi rhanau at eu gilydd. Yr hwn sydd yn gweled y cwbl ar unwaith o'i flaen yn unig a all ffurfio drychfeddwl a chyfansoddi."

Y mae terfyn i allu crebwyll dyn. Pan y mae y perthynasau yn lluosog, yn angenrheidiol, ac yn dra chymhlethedig, nis gall y meddwl eu cynnwys; ac y mae y crebwyll cyfunol yn pallu. O herwydd hyn, ni ddyfeisiodd dyn erioed y drychfeddwl o greadur newydd: o herwydd mewn anifail y mae pob rhan yn tybied y cyfan; hyny yw, y mae ffurf y llygad yn tybied y talcen a'r trwyn, y rhai hyn y gên a'r pen, ac felly yn mlaen, fel y mae yn anmhosibl cael drychfeddwl am un o'r rhai hyn heb fod genym hefyd ddrychfeddwl am ei berthynas â'r holl anifail. A chan fod y berthynas hon yn sicr, yn angenrheidiol, ac yn gymhlethedig, heb ganiatau un gŵyrad o fath yn y byd, y mae y meddwl yn analluog i'r gorchwyl, heb allu gwneyd chwaneg na chyfansoddi yn unig trwy roddi adenydd adar ar ysgwydd dyn, neu hanner corff dyn at hanner corff ceffyl, yn yr hyn nid oes crebwyll, ond darfelydd.

Digitized by Google

Edrychwch ar arlunydd diddychymyg yn tynu llun coeden: y mae yn gosod i lawr ryw amlinelliad cyffredinol i ddechreu; ond yn fuan y mae yn gweled fod rhai o reolau y gelfyddyd yn cael eu troseddu ganddo, a bod yn angenrheidiol tocio a newid, ac felly y mae yn llwyddo i gael ffurf gweddol ddifai. Yna, yn unol â'i reolau, y mae yn dechreu gweithio cyff y pren, gan beri iddo ogwyddo y ffordd yma a'r ffordd arall, gan ofalu na bo i'r cyff sefyll yn union dan ganol y goeden. Ar ol i'r cyff fod yn ddigon uchel, y mae yn angenrheidiol tynu canghenau; ac os bydd pren arall yn yr arlun â dwy gangen iddo, gŵyr, yn ol rheolau cyfansoddiad arluniol, fod yn rhaid fod tair neu bedair, neu ryw nifer arall yn yr ail; gŵyr hefyd os bydd tair neu bedair o gangenau yn cychwyn oddi wrth yr un pwynt, yr edrychant yn ffurfiol; o ganlyniad, y mae yn gwneyd iddynt gychwyn y naill yn uwch na'r llall; a chan fod pellderau cyfartal yn annhriodol, cânt gychwyn yn anghyfartal. Gellir myned yn mlaen i ddangos fod yr holl fanylion hyd at y brigyn uchaf yn ddarostyngedig i reolau pendant. Ac i'r cyfryw arluniwr, ei reolau yw ei ddiogelwch, a rhyddid ydyw y baich trymaf. Y pethau oedd *raid* eu gwneuthur yn unig a wnaethpwyd ganddo. Y mae wedi cerdded fel meddwyn ar ffordd fawr—y gwrychoedd oedd ei arweinyddion; a rhwng y terfynau hyn, po lletaf y ffordd anhawddaf oll ydyw iddo fyned yn mlaen.

Yn hollol i'r gwrthwyneb y mae celfyddydwr dan lywodraeth crebwyll. Ni ŵyr efe am ddim deddfau. Y mae yn sathru ar bob terfynau, ac yn tori i lawr bob gwrychoedd. Fe ŵyr yntau am ddeddfau natur, ond nid ydynt mewn un modd yn ei ymddifadu ef o'i ryddid; o herwydd y maent hefyd yn ddeddfau ei natur ei hun. Y mae efe yn gweled ei ffordd gyda llygad eryr dros y gwastattir disathr, ac yn cyfeirio yn ddiffael at y nod, heb golli cam tuag ato. Gwelodd ef ei goeden, cyff, cangenau, dail, a phob peth o'r mynyd cyntaf; ac nid yn unig y goeden, ond y ffurfafen y tu cefn iddi; ac nid yn unig y goeden hono, ond holl nodweddau yr olygfa i gyd. Ac er nas gellir egluro nerth a chyflymdra melltenawl y gallu sydd yn gwneyd hyn; eto gellir profi gwirionedd ei weithrediadau fel hyn. Os symmudir ymaith ryw ran o goeden yr arluniwr cyntaf teimlir, a chanfyddir fod diffyg yn y gwaith; ond nid yw y rhan a adewir wedi ei hamddifadu o'i chydgordiad â graddau helaeth o brydferthwch. Y mae pob rhan a adewir mor brydferth ag oeddynt cyn symmud dim ymaith: pob cangen, pob brigyn, pob deilen, mor ddymunol ynddynt ag oeddynt cynt. Ond os gwneir yr un prawf ar waith crebwyll, trwy symmud ymaith y brigyn neu y gangen leiaf, y mae prydferthwch y cyfan wedi ei golli. Hyn ydyw yr arwydd cyntaf o wir grebwyll, yn wrthgyferbyniol i gyfansoddiad diddychymyg.

Wedi dywedyd cymmaint a hyn ar grebwyll cyfunol, yr hwn sydd yn dewis ei ddefnyddiau ac yn eu gosod yn nghyd nes creu un cyfanwaith bywiol o honynt, ni a edrychwn eto ar weithrediadau y gallu hwn, nid yn yr egwyddorion yn unol â pha rai y mae yn gwneuthur dewisiad o'i ddefnyddiau, ond yn y modd y mae yn canfod ac yn amgyffred yr hyn y mae yn ei ddewis. Nid yn ol rheolau rhesymeg, nac yn ddarostyngedig i ddeddfau rhif a mesur, nid chwaith trwy bentyru cymhariaethau a delweddau allanol, y mae crebwyll yn cymmeryd meddiant o'i wrthddrychau. Yn hytrach, ysgubo y rhai hyn oll ymaith âg un ysgogiad o'i edyn a wna, a threiddio trwy yr ymddangosiadau allanol a'r cyffelybrwydd gweledig at y gwreiddyn, ac yno yfed o nodd bywiol yr hyn y mae a wnelo â hi. Nid sefyll y tu allan i wrthddrych, gan edrych i'w lygaid, gwrandaw ar ei lais, sylwi ar ei ddiwyg, a rhestru ei holl ysgogiadau; ond treiddio y tu mewn, a gosod ei law ar ei galon, gwrandaw ar ei churiadau hi, ac oddi yno dadgan, a dysgrifio, a barnu, yr hyn oll sydd ganddo i ddyweyd am ei wrthddrych, beth bynag a fo—ysbryd neu sylwedd gweledig. Pan y mae dynion fel Æschylus, Homer, Dante, a Shakespeare, yn cyffwrdd â chymmeriad, y maent yn cyrhaeddyd drwodd hyd "wahaniad yr enaid, a'r ysbryd, y cymmalau, a'r mer;" ac y mae pob amgylchiad, a phob amlygiad o'u bod, mewn gair neu weithred, yn cael eu canfod a'u deall oddi mewn, yn eu cysylltiad â ffynnonell ddirgelaidd y cyfan. Y mae pob dadganiad yn cael ei gymmeryd o'r galon, ac felly yn agor ffordd i ni i'r galon. Gweled i galon peth, a thrwy y galon i holl nodweddau ac amlygiadau y tu allan, ydyw gallu gwahaniaethol y bardd yn nghyfrif bardd mawr yr oes bresennol, sef Tennyson:—

"The poet in a golden clime was born
With golden stars above;
Dowered with the hate of hate the scorn of scorn.
The love of love.

He saw thro' life and death, thro' good and ill,
He saw thro' his own soul;
The moral of the everlasting will,
An open scrowl,
Before him lay."

Y mae y llinellau canlynol o Shakespeare yn dangos gweithrediadau y dychymyg yn well nag unrhyw elfeniad athronyddol a gynnygiwyd erioed—

"The idea of her life shall sweetly creep
Into his study of imagination;
And every lovely organ of her life
Shall come apparelled in more precious habit—
More moving delicate, and full of life,
Into the eye and prospect of his soul,
Than when she lived indeed."

Dyma un a garwyd pan yn fyw yn "felus ymlusgo" i "*study* ei ddychymyg." A phwy a all ddyweyd pa ddrychfeddyliau a aeth i mewn ac allan o ystafell gyfoethog y dychymyg hwnw: gwyddom am rai o honynt—Hamlet ac Imogene; Lear a Jessica; Mercutio; Macbeth, a'i wraig ofnadwy; Ophelia, a'i synwyrau wedi colli; Oberon a Caliban; Coriolanus, a'i fam:—ond y mae y gorchwyl yn ddiddiwedd. Ond pa fodd yn yr amgylchiad dan sylw y mae yr ymadawedig yn ymddangos o flaen ei ddychymyg? Yn gyntaf, y mae yn gweled "drychfeddwl ei bywyd;" nid un edrychiad, na gweithred, na mynydyn—ond ei "bywyd." Ac wedi cael drychfeddwl am ei bywyd cyntaf, yna y mae y drychfeddwl yn myned yn fwy neillduol, ond eto yn ysbrydol ac yn ddychymygol:—*every lovely orga of her life:* nid yn unig y bywyd yn ei hanfod, yn ei eisteddle mewnol; ond holl organau prydferth y bywyd hwnw. Yna ni gawn ei gwisg; y marwol yn gwisgo y corff anfarwol ac ysbrydol, —*shall come apparelled in more precious habit, more moving delicate.* Y mae hyn yn cyfateb i syniad Bacon am y mwy prydferth, "mwy llawn o fywyd"—*more full of life.* Ac y mae hyny oll yn cael ei ddarostwng o flaen "llygad a gwelediad yr enaid;" "*the eye and the prospect of the soul.*" Gan na threiddiodd un ysgrifenydd

di-ddychymyg erioed i'r galon, o ganlyniad nis gall byth ei chyffwrdd. Pan yn desgrifio nwyd neu chwant angerddol, cofio yr arwyddion allanol o hono y mae, casglu ymadroddion am dano o awduron ereill, chwilio am gymhariaethau, pentyru geiriau ar eiriau, ffugrau ar ffugrau, nes y byddwn yn gruddfanu dan y llwyth oer difywyd. Tanwydd a mwg ydyw y cyfan, heb ddim tân byw yn y canol. Nid ydyw ysgrifenwr o'r natur yma yn *gweled* dim o'r gwrthddrych sydd ganddo i'w ddesgrifio; ac o ganlyniad, gan ei fod yn ddall ei hun, nis gall roddi dim o flaen llygaid y darllenydd. Yma eto, ni a allwn weled y gwahaniaeth rhwng darfelydd a chrebwyll. Y mae darfelydd yn gweled y tu allan, ac y mae yn alluog i roddi darlun dysglaer, cyflawn, o fanylion o'r tu allan. Y mae crebwyll yn gweled y tu mewn, ac yn gwneyd i ereill ei deimlo; ond y mae yn fynych yn dywyll, yn gyfriniol, ac yn doredig, yn y darlun allanol. Cymmerer anghraifft:—Y mae ysgrifenwr heb ddarfelydd na chrebwyll, pan yn desgrifio gwefus deg (*fair*)—nid yw yn ei gweled, ond y mae yn meddwl am dani, ac am yr hyn a ddywedir am dani, ac yna geilw hi yn rhosynaidd, yn brydferth, yn hawddgar, neu wrth ryw enw gwan arall. Gwrandawer ar ddarfelydd yn llefaru:—

"Her lips were red, and one was thin."

Rhys ab Rhiccart hefyd, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:—

"Gwefusau mirain liw cain cwrel."

Dewi Wyn o Eifion hefyd:—

"Teneu wefusau iesin."

Y mae y gwefusau yna yn gochion, yn ddysglaer, hardd, a gwirioneddol, mewn moment. Ond y tu allan ydyw y cyfan; nid oes un arwydd o deimlad—nid oes *expression* ynddo. Ond awn gam yn mhellach gyda Warner, pan y mae Rosamond yn cael ei tharaw gan Eleanor:—

"With that she dashed her on the lips
So dyed double red;
Hard was the heart that gave the blow,
Soft were those lips that bled."

Awn gam yn mhellach hefyd gyda Dafydd Ionawr, pan y mae yn portreadu hawddgarwch Eva:—

Ei gwrid oedd lawn mor groewdeg,
Mor gain a lliw 'r Dwyrain deg:
Hael forwyn! pan lefarodd,
Cywir iaith Duw cu a rodd;
Fwyned ei min, f' enaid mau,
O fwsig o'i gwefusau!"

Yma y mae tynerwch teimlad a dillynder mewnol yn ymgymmysgu â phrydferthwch allanol. Y mae crebwyll yn dechreu deffro.

Yn nesaf, dyma Shelley:—

"Lamp of life, thy lips are burning,
Through the veil that seems to hide them,
As the radiant lines of morning
Through thin clouds, ere they divide them."

Y mae yr enaid i gyd yn y bore hwn; eto ni a allwn aros, os dymunwn, gyda'r gymhariaeth allanol—y cymylau rhuddgoch.

Yn ddiweddaf, gwrandewch ar Hamlet:—

"Here hung those lips that I have kissed, I know not how oft. Where be your gibes now, your gambols, your songs, your flashes of merriment that were wont to set the table on a roar."

Yma y mae hanfod gwefus fel cyfrwng meddwl a theimlad a holl nerth y crebwyll.

Drachefn, sylwer ar y llinellau canlynol gan Milton ar flodau, a gwelir fod crebwyll a darfelydd yn cael eu cymmysgu, ambell linell yn anghraifft o'r naill, a llinell arall o'r llall—

"Bring the rath primrose, that forsaken dies [crebwyll],
The tufted crow toe, and pale jessamine [nacaol],
The white pink, and the pans freaked with jet [darfelydd],
The glowing violet [crebwyll],
The musk rose, and the well-attired woodbine [darfelydd o'r cyffredin];
With cowslips wan, that hang the pensive head [crebwyll],
And every flower that sad embroidery weary [cymmysg o grebwyll a darfelydd]."

Cymharer y rhai hyn â'r rhai canlynol gan Perdita—

"O Proserpina! for the flowers now, that frighted thou lets fall
From Dis's waggon. Daffodils
That come before the swallow dares, and take
The winds of March with beauty. Violets, dim,
But sweeter than the lids of Juno's eyes,
Or Cytherea's breath; pale primroses
That die unmarried, ere they can behold
Bright Phœbus in his strength, a malady
Most incident to maids."

Y mae crebwyll yn rhedeg trwy y llinellau hyn, ac yn treiddio i hanfod mewnol pob blodeuyn heb aros ar eu llun allanol, nac ar yr ysmotiau sydd yn eu britho, fel y gwneir yn y llinellau blaenorol gan Milton.

Pan y mae y darfelydd a'r crebwyll yn gosod allan deimlad dwys: mae y darfelydd yn aros yn hytrach gydag arwydd allanol y teimlad, fel yn yr anghraifft ganlynol o Macbeth—

"Where the Norweyan banners flout the sky,
And fan our people cold."

Y mae darfelydd yn disgyn ar gryndod ac oerfel allanol y teimlad o ofn, ac yn ei briodoli i chwifiad y banerau.

Ond yn yr anghraifft ganlynol o ganiad Solomon, y mae y crebwyll yn myned trwy yr arwydd allanol at y teimlad o ofnadwyaeth ei hun—

"Pwy yw hon a welir fel y wawr, yn deg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, yn ofnadwy fel llu banerog."

Yn awr, os hyn ydyw y gwahaniaeth rhwng y ddwy gynneddf, crebwyll a darfelydd, y mae gwahaniaethau ereill yn tarddu o hyn. Gan fod darfelydd yn aros gyda phethau allanol, nis gall efe deimlo. Y mae y gynneddf hon yn un o'r rhai mwyaf dideimlad o'n galluoedd, ac fel canlyniad yn un o'r rhai mwyaf chwareus. Ond y mae crebwyll yn hollol i'r gwrthwyneb. Nis gall lai na bod yn ddifrifol; y mae yn gweled yn rhy bell, ac y mae rhywbeth yn nghalon pob peth, ond i ni allu ei gyrhaedd, nas gallwn chwerthin arno. Y mae perthynas agos rhwng gweithrediadau y crebwyll a dwysder teimlad mewnol. Crebwyll sydd yn treiddio i lawr ddyfnaf a llwyraf, ac y mae golwg ar ddyfnderoedd tywyll a phruddaidd yn llenwi yr enaid â chydymdeimlad tyner, dwys, ac anorchfygol. Gallwn fesur nerth y crebwyll wrth dynerwch y teimlad; ac felly y dywed Byron nad oes dim tynerwch yn gyffelyb i eiddo Dante, na chwaith dim tanbeidrwydd teimlad, a difrifoldeb, yn gyffelyb i'r eiddo ef. Y mae ei ddifrifoldeb mor fawr fel nas gall weled y cyffredin, y digrifol, a'r chwerthingar—y mae yn toddi y cyfan i lawr i'w dân gwynias ei hun. A'r attalfa gryfaf ar ffordd gorchestion y crebwyll, yn yr oes hon, ydyw y duedd i droi pob peth yn wawd.

Canlyniad arall o'r un gwahaniaeth rhwng crebwyll a darfelydd ydyw, gan fod y crebwyll yn treiddio i galon pethau, ac yn mantoli ei hun mewn tawelwch yno, y mae yn amgyffred y cwbl sydd o'i gwmpas â'i edrychiad sefydlog; ond gan mai y tu allan i bethau y mae darfelydd yn chwareu, nis gall efe weled ond mewn rhan; ac o ganlyniad, i wneyd i fyny y diffyg, y mae yn rhedeg o ochr i ochr, yn neidio o bwynt i bwynt; ac os ymsefydla o gwbl, ar un pwynt yn unig yr ymsefydla, heb amgyffred y cwbl. Ac felly y mae y cyffelybiaethau a'r cymhariaethau â pha rai y mae darfelydd yn chwareu yn wir mewn rhan; hyny yw, gyda golwg ar y pwynt unigol sydd o flaen ei lygad, ond peidient a bod felly pe gallai dreiddio trwodd i'r ochr arall.

Gwelir fod crebwyll yn ymddibynu i fesur pell ar gywirdeb a chyflawnder teimlad moesol, ac y mae pob teimlad gwirioneddol a dwfn yn tueddu i redeg i ffurfiau y crebwyll. Trachefn, gan fod bywyd y crebwyll yn gynnwysedig mewn darganfod gwirionedd—y gwirionedd ysbrydol sydd yn cyfansoddi hanfod pethau—nid ydyw yn dibynu nac yn parchu dywediadau ac opiniynau dynion. Y mae yn gwybod ynddo ei hun pan y mae y gwirionedd ganddo, ac y mae y mwynhad yn ddigon o wobr ganddo fel nad ydyw difriaeth yn effeithio dim arno. A'r ochr arall, pan yn ymdeimlo oddi wrth somedigaeth a methiant, nid ydyw canmoliaeth yn un feddyginiaeth i'r ysbryd.

Yn y sylwadau blaenorol yr ydym yn cael nerth a hanfod y crebwyll. Y mae ei weithrediadau a'i briodoliaethau nodweddiadol yn cael eu dadblygu yn y ddwy weithred a nodwyd o gyfuno gwrthddrychau a threiddio i mewn i'w hanfod. Y mae Ruskin yn rhoddi math arall o grebwyll, neu weithrediad arall o eiddo y dychymyg, yn yr hwn yr ymhyfryda yn fynych. Mae y gweithrediad hwn yn sylfaenedig ar aneglurder y delweddau fyddo o flaen y meddwl. Y mae y crebwyll yn amddifadu y gwrthddrych o'i ffurf a'i lun corfforol, ac yn dewis y cyfryw o'i ansoddau ag a ewyllysia i'w ddybenion neillduol ei hun; ac yna, gan uno yr ansoddau hyn el y dymuna, efe a rydd megys fod a chyssondeb ewydd iddynt, trwy argraffu arnynt ddelw yn perthyn i ddefnyddiau ereill, a thrwy rinwedd yr argraff a'r ddelw hon y maent yn cael derbyniad yn eu cymmeriad newydd. Er anghraifft, yn y dysgrifiad a rydd Milton o Satan—"*And like a comet burned*"—y mae ffurf gorfforol yr angel yn cael ei dinystrio, a'r sylw yn cael ei sefydlu ar oddeithiad y fflam wybrenol; ac y mae hyn, yn nghyd â'i nerth er drwg, yn cael eu huno yn un drychfeddwl ofnadwy i roddi eglurder a pharhad iddynt dan y ddelw o gomed. Eto ni allesid gwneuthur hyn oni buasai fod delw y gomed ei hun yn aneglur ac oni buasai fod yn ddichonadwy ei hehangu i raddau dychrynllyd a bygythiol. Y mae Milton yn gyflawn o anghreifftiau cyffelyb. Anghraifft nerthol o'r unrhyw weithrediad o eiddo dychymyg ydyw y ddrychiolaeth gan Glan Geirionydd yn Ngwledd Belsassar—

"Ar y wâl draw e welir,
Ger gwên y canwyllbren hir,
Ryw ddigorff ddelw anelwig,
Deneu, gul, heb gnawd neu gig.
O! mor drwm, ar y mûr draw,
A llesgaidd y mae 'n llusgaw,
Ac â bys, fel fflamawg bin,
Llysg eiriau â llws gerwin.
O! a'r newid wnai 'r neuadd,
Sigla, dygryna pob gradd.
Llewyga gwawl y llugyrn,
Deryw eu chwai belydr chwyrn
Oil, ond rhyw wyrdd-der teryll—
Llewyrn yw 'n lleuern 'n hyll,
I ddangos gweddau ingawl
Ac erchyll, rhwng gwyll a gwawl.
Aeth fferdod trwy 'u haelodau,
Fel caethion mewn cyffion cau.
Dyheu mae mynwes euog—Belsassar,
Fel arth udgar, anwar, newynog.
Mae braw y LLAW alluog—yn berwi
Trwy ei wythi ei waed toreithiog.
Dafnau o annwn sydd yn defnynu
Ac i'w enaid euog, ac yn cynu:
Mewn llewyg drathost mae 'n llygadrythu
Ar yr ysgrifen sydd yn serenu
Rhag ei wyneb ——
Gan boen a gloes mae 'r gwyneb yn glasu,
Dan ymwylltiaw, a'r llygaid yn molltu.
Cyhyr y bochau sydd yn crebachu,
A'r dannedd ifori yn rhydynu,
Diflin y mae ei freichiau yn ymdaflu,
Mal dyn ar foddi.
Mae llinynau llym y llwynau 'n llaınu
Gan ddychryn, a glin mewn glin yn glynu.
Braw 'r canlyniad sy 'n irad fraenaru,
Fel fflamawg eirf miniawg yn ymwanu,
Ei ddiriaid enaid, gan ei ddirdynu."

Yn y gweithrediad hwn mae y crebwyll yn gweled yn y gwrthddrychau sydd o'i flaen bethau gwahanol i'r rhai gwirioneddol. Yn y cyssylltiad hwn y mae darfelydd yn ymgodi yn uwch nag yn y cyssylltiadau blaenorol. Nid ydyw yn ymfoddloni ar gymmeryd llun a delw allanol gwrthddrych, a chwareu gyda hwynt; ond y mae yn galw i fod ddelw ysbrydol y peth, ac yn credu yn ddifrifol ynddo. O'r blaen nid oedd ganddo ond y gwirioneddol, yr *actual*, mewn lliwiau mwy dysglaer na chyffredin; ond yn awr y mae yr hyn sydd heb fod yn *actual* yn ymgodi o'i flaen, sef golwg ysbrydol ar y gwrthddrych; ac i'r graddau y mae teimlad yn cydfyned â hyn ac yn ei ddwyshau, y mae y darfelydd yn ymgodi i grebwyll. Yn y dyfyniad canlynol y mae y ddau bennill cyntaf o eiddo darfelydd myfyriol (yn credu yn ei chreadigaethau), yn cael eu dilyn gan un o eiddo crebwyll nefolaidd, allan o gyfarchiad Wordsworth i lygad y dydd—

"A nun demure—of lowly port,
Or sprightly maiden—of Love's court—
In thy simplicity the sport
Of all temptations.
A queen in crown of rubies drest,
A starving in a scanty vest,
Are all as seems to suit thee best—
Thy appellations.

I see thee glittering from afar,
And then thou art a pretty star—
Not quite so fair as many are
In heaven above thee.
Yet like a star, with glittering crest,
Self-poised in air thou seem'st to rest
May peace come never to his nest
Who shall reprove thee.

Sweet flower—for by that name at last,
When all my reveries are past
I call thee, and to that cleave fast.
Sweet silent creature,
That breath'st with me in sun and air
Do thou, as thou art wont, repair
My heart with gladness, and a share
Of thy meek nature."

Yn yr esboniadau blaenorol ar grebwyll a darfelydd, yn nghyd â'r gwahaniaeth rhyngddynt, defnyddir y geiriau yn yr ystyron uchaf a choethaf; eto defnyddir y gair *dychymyg* mew.

Digitized by Google

ystyr eangach, fel ag i gynnwys y ddau, ac fel ag i gynnwys cynnyrchion barddonol mewn rhyddiaith a phrydyddiaeth—y cyfryw ag a fyddai yn anhawdd eu rhestru dan y penau blaenorol. Ac yma gellid gofyn yr ymofyniad eto, Pa beth ydyw dychymyg yn yr ystyr eangach, ac o ganlyniad is, hwn? Nis gwyddom am ateb gwell na thrwy ddyweyd mai y gallu neu y gynneddf ydyw i drosglwyddo yr anweledig i'r gweledig, yr ysbrydol i'r corfforol, y gosodiadol i'r amgylchiadol, yr *abstract* i'r *concrete*. Amcan gwyddoreg yw cyfleithu neu drosglwyddo ffeithiau ae ymddangosiadau natur i osodiadau cyffredinol a ffurfiau geiriol. Ond amcan barddoniaeth ydyw y gwrthwyneb, sef darlunio ffeithiau neu amlygiadau natur a bywyd fel yr ymddangosant, a ffurfio ymddangosiadau newyddion o honynt. Y mae yn wir mai o'r braidd y caniata Ruskin ein bod yn cyffwrdd â natur a gweithrediadau uchaf dychymyg yn y darnodiad hwn; ond y mae arnom ofn, os nad oes dim i'w ystyried yn farddoniaeth ond a ddeil gymhwysiad ei safon ef, mai ychydig ydyw y farddoniaeth o'r radd uchaf. Rhaid i bawb a ŵyr pa beth ydyw barddoniaeth gyfaddef nad oes dim yn teilyngu ei alw yn gynnyrch dychymyg uchel ond a ddeil y fath brawf. Ar yr un pryd, nid ydym yn meddwl fod y darnodiad uchod yn mhell o'i le, gan y cynnwysa y farddoniaeth uchaf; er hefyd, rhaid cyfaddef ei fod yn gollwng i mewn ymgeiswyr y dywedai yr awen wrthynt, "Nis adnabûm chwi erioed."

Gyda'r darnodiad hwn ynte o ddychymyg, sef gwisgo y dansoddol, y gosodiadol, a'r rhesymegyddol, mewn *amgylchiadau*, ni a gymmerwn ychydig o anghreifftiau eto o weithrediadau dychymyg. Y mae y drychfeddwl o fywyd yn ymddangos o flaen meddwl Keats—pa fodd y mae yn ei wisgo?

"Stop and consider! Life is but a day;
A fragile dew-drop on its perilous way
From a tree's summit; a poor Indian's sleep,
While his boat hastens to the monstrous steep
Of Montmorenci. Why so sad a moan?
Life is the rose's hope while yet unblown;
The reading of an everchanging tale;
The light uplifting of a maiden's veil;
A pigeon tumbling in clear summer air;
A laughing schoolboy without grief or care,
Riding the springy branches of an elm."

Y mae hyn yn wir farddoniaeth—îe yn greadigaeth. Y mae yn ymgodi yn gyntaf yn meddwl y bardd gyda'r drychfeddwl o fywyd, ac yn ymgorffoledig â'r drychfeddwl, y weledigaeth o wlithyn yn syrthio trwy y dail; ac y mae yr amgylchiad dychymygol hwn yn cael ei daflu allan fel y cynnrychiolydd o'r drychfeddwl. Nid yw y gallu creadigol wedi ei ddyhysbyddu ar hyn; ymbresennola y drychfeddwl yn nesaf mewn amgylchiad arall, sef yr Indiad yn ei gwch, a theflir hwn allan eilwaith. Ond parhau i eginio y mae y meddwl, a theflir allan bump yn rhagor o wahanol ddelweddau neu amgylchiadau dychymygol yn arddangosiadol o fywyd. Y cyfryw ydyw meddyliau y bardd am fywyd; ac ar y dybiaeth eu bod oll yn unol â natur, y maent mor wirioneddol ag ydyw darnodiadau gwyddoreg.

Yma y canlyn casgliad o ddelweddau y darfelydd am fywyd, gan Caledfryn—

"Tebyg iawn i syrthiad seren,
Neu fel eryr ar ei aden,
Neu wawr blagur ar ei ddechreu,
Neu arianaidd wlith y boreu,
Neu i wynt gynhyrfa 'r dylif,
Neu 'r crychferwad ar y cefnllif
Yw dyn:—a'r golau a fenthycir
Iddo, gyll, gan nos fe'i llyncir;
Peidia'r gwynt, a sai'r crychferawd,
Cladda'r Gwanwyn bob blaguriad,
Sych y gwlith a'r seren gollwyd,
Yr eryr acth—a dyn anghofiwyd."

Fel y canlyn y mae Spenser yn gwisgo *Bra* âg amgylchiadau:—

"And over them sad Horror with grim hu
Did always soar, beating his iron wings;
And after him owls and night-ravens flew,
The hateful messengers of heavy things,
Of death and dolour telling sad tidings;
Whiles sad Celeno, sitting on a clift,
A song of bale and bitter sorrow sings,
That heart of flint asunder could have rift;
Which having ended, after him she flieth swift."

Cymmerwn ychydig anghreifftiau eto i ddangos pa fodd y mae dychymyg yn cyfieithu ymadroddion, teimladau, a dygwyddiadau cyffredin i amgylchiadau dychymygol. Pe y meddyliem am ddylanwad y byd cyffredin ar feddwl uchel a phur, pa fodd y geiriai bardd ef? Fel hyn y dywed Mr. Smith—

"Although the ocean's inmost heart be pure,
Yet the salt fringe that daily licks the shore
Is gross with sand."

"Y mae tri diwrnod a dwy noswaith wedi myned heibio:" fel y canlyn y cyfieitha y bardd y geiriau cyffredin hyn:—

"Three blue days passed
Full of the sun, loud with a thousand larks;
An evening like a gray child walked 'tween each."

Fel y canlyn y dywed am gyfeillach wedi ei ffurfio yn ddamweiniol â bardd ieuanc:—

"An opulent soul
Dropt in my path like a great cup of gold,
All rich and rough with stories of the gods."

Ond y mae dychymyg nid yn unig yn gwisgo y dansoddiadol mewn amgylchiadau, ond hefyd i'w lygad ef y mae y naill olygfa yn troi yn olygfa arall—

"That night the sky was heaped with clouds;
Through one blue gulph profound,
Begirt with many a cloudy crag,
The moon came rushing like a stag,
And one star like a hound."

Pa beth y mae dychymyg yn ei weled pan y mae yr haul yn machludo a'r lleuad yn edrych arno o'r cŵr arall i'r terfyngylch—

"The sun is dying like a cloven king
In his own blood, the while the distant moon
Like a pale prophetess whom he has wronged
Leans eager forward, with most hungry eyes,
Watching him bleed to death; and as he faints
She brightens and dilates. Revenge complete,
She walks in lonely triumph through the night."

Fel y canlyn y mae Wordsworth yn gwisgo cyfnewidiadau teimladau dyn o fabandod i ganol oed:—

"Our life is but a sleep and a forgetting:
The soul that rises with us, our life's star,
Hath had elsewhere its setting,
And cometh from afar:
Not in entire forgetfulness,
And not in utter nakedness,
But trailing clouds of glory do we come
From God who is our home:
Heaven lies about us in our infancy!

Digitized by Google

Shades of the prison-house begin to close
Upon the growing boy;
But he beholds the light and whence it flows,
He sees it in his joy;
The youth who daily further from the east
Must travel, still is Nature's priest,
And by the vision splendid
Is on his way attended;
At length the Man perceives it die away,
And fade into the light of common day."

Yn awr, oddi wrth y darnodiad olaf a gawsom o ddychymyg, gwelir fod ei weithrediadau yn amrywiol iawn; o herwydd nad oes dim, pa fodd bynag, nas dichon ei wisgo mewn amgylchiadau dychymygol.

Ni a chwanegwn eto ychydig anghreifftiau o weithrediadau y dychymyg o awduron Cymreig.

Gwallt Morfydd, gan Dafydd ab Gwilym:—

"Dros ei deurudd, i'w cuddiaw,
Lloweth yn ddwybleth a ddaw;
Yn gwnfallt, fanwallt, fynwaur,
Yn gangog frig eurog aur:
Aur melyn am ewyn môr,
Tresi mân tros ei mynwor:
Bargod haul goruwch brig ton,
Lluryg euraid, lliw 'r goron.
Canaid ei grudd dan ruddaur,
Cofl aur wen, cyfliw a'r aur;
Eirian rodd arwain ruddaur
Ar ei phen o raffau aur."

Y Dilaw, gan Dafydd Ionawr:—

"Lluoedd mŷr y gorllewin
Glywant, grochfloeddiant yn flin
Gan ddeffro 'r deheufor hyll
O'i dawel annedd dywyll:
Mewn cyffro hwy 'n swnio sydd,
A galwant ar eu gilydd;
Hedodd, ymgasglodd pob gwynt,
Dywibiodd i'r deheubwynt,
I gydweithredu 'n llu llon
A'r gygus ferwawg eigion.
Daear hen, drwy wahanu,
Yn dadmer i'r dyfnder du;
Hi, wrth esgor ar foroedd
Lliosog iawn, yn llesg oedd."

Yr Udgorn Diweddaf, gan y Parch. William Wynn:—

"Udgorn nef yn dolefain,
Y ser a glywant ei sain;
Traidd ei nerth trwodd i nen,
Traidd eirias trwy ddaearen;
A marwor trwy 'r gloewfor glas,
Môr a thân yn mherthynas;
Traidd afrifed blanedau,
Traidd uffern a'r gethern gau:
Haul a hyllt, garwyllt gur,
Yn friwsion o'i fro asur,
A'i anoleu wan eulyn—
Y lloer anwadal ei llun:
Cwymp y ser ar ddisperod,
O wawl a nerth i wael nod;
Rhed filfil rhawd ufelfellt,
Rhua drwy 'r main rheiseidr mellt."

Agwedd Gwyr Môn wrth groesawu Sior IV, gan Dewi Wyn o Eifion:—

"Iddo pengrymu 'r oeddynt
Mal brithlwyn Gwanwyn mewn gwynt."

Y Fedwen, gan Ieuan Deulwyn, 1460:—

"Mae Bedwen yn niben allt
Friglaswyrdd, fawr ei glwyswallt;
Mae yno, yn Mai enwog,
Allorau gwyrdd, a lle 'r gog;
Lle rhoed, llawer o'i hoedaf,
Frialla teg, afrlladd Haf;
Meillion teg, mae llonaid twyn
Man serliw, mynwes irlwyn.
Y Fedwen ydyw f' adail,
Wybren deg o bren a dail;
Teml yr Haf, tŷ aml y rhyw,
Tŷ o goedwig teg ydyw."

Agwedd Rhyfelwyr, gan Taliesin:—

"Gwelais wŷr gorffawr,
A ddygyrchynt awr;
Gwelais waed ar lawr
Rhag rhuthr cleddyfawr,
Glesynt esgyll gwawr,
Esgorynt yn waewawr."

Fel y canlyn y cyfieithwyd y ddwy linell olaf gan Gwenffrwd:—

"They tinged with blue the wings of the morning
When they flung forth their gleaming lances."

Eto, gan Llywarch Hen:—

"Esgyll gwawr oedd waewawr Duawg."

Cyfieithedig gan Gwenffrwd:—

"Like wings of dawn was the gleaming lance of Duawg."

Y Ddeilen Grin, gan Llywarch Hen:—

"Y ddeilen drefyd gwynt,
Gwae hi o'i thynged!
Hen hi—eleni y ganed."

Benyw yn cael ei chyffelybu i'r Ees, gan Alun:—

"Er dichon fod ei chalon wan
Yn delwi dan y dulid,
Ni chwyna, i flino 'i hanwyl rai,
Ei gwên a guddia 'i gofid;
Ni pheidia ei chân trwy ddunos faith
Nes gweled gobaith golau
Yn t'wynu megis llygad aur
Trwy bur amrantau 'r borau."

Yr Haul, gan Daniel Ddu o Geredigion:—

"I'r golwg dacw 'n dechreu d'od
Glân lygad cawr y nef,
A phelydrau disglaer hardd
Yn wallt ei amrant ef."

Cwyn ar ol cyfaill, gan Alun:—

"Mae peraidd flodau d' ardd
Yn gwywo, fel dy fardd,
A'th ddefaid hyd y ddôl,
A'u gwirion ŵyn hol,
Yn gofyn ddoi di 'n ol,
Sior anwylaf.

Galar yr Indiad ar farwolaeth yr esgob Heber, gan Alun:—

"Fy ngwlad! O fy ngwlad! yn ofer yr hidlwyd
I th fynwes fendithion rhagorach nag un;
Yn ofer âg urdd, bryd a phryd, y'th anrhegwyd,
Cywreindeb i fab a phrydferthwch i fun;
Yn ofer tywyni mewn gwedd ddigyfartal,
A blodau amryliw yn hulio dy anial,
A nentydd yn siarad ar wely o risial,
A phob peth yn ddwyfol ond ysbryd y dyn.
* * * *

Yn ofer rho'i awen o Nef i dy adar,
A gwythi o berl i fritho dy ddaear.
* * *

Llaith oedd dy' fin gan wlithoedd Castalia
O Helicon yfaist yn moreu dy oes,
Ond hoffaist wlith Hermon, a ffrydiau Siloa,
A swyn pob testynau daearol a ffoes;
Athrylith, Athroniaeth, a dysg ar Awenau,
A blethent eu llawryf o gylch dy arleisiau;
Tithau, 'n ddifost, a dderbyniaist eu cedau
I'w hongian yn offrwm ar drostan y Groes."

Dull Môn ar fore Haf, gan Cawrdaf:—

"Haul euraidd, awel araf,
Llwyni heirdd o feillion Haf;

Heber.

Ag adar yn y goedwig,
Eilient eu cerdd trwy 'r werdd wig;
Llun gerddi 'n llenau gwyrddwawr
Orchuddiai y Fenai fawr;
Gorheulog awyr wiwlon
A welid hyd waelod hon."

Dysgrifiad o'r Cariad dwyfol yn canfod y ddaiar am y tro cyntaf, gan Gwilym Hiraethog:—

"Pan y gelwid yn y boreu
Restr enwau ser y nen,
Deuent oll, dan ganu a dawnsio,
Heibio i'r orseddfainc wen;
Yn ei thro, ymhlith y lluaws,
Ymddangosai 'n daiar ni—
Cododd gwrid i wyneb cariad
Dwyfol, pan y gwelodd hi!"

Yr Haul ar fore cyntaf y greadigaeth, gan Emrys:—

"Gwisg o dân, ei gysgod oedd
Ar ddwyfron y clir ddyfroedd."

Agwedd Adda wrth ddyfod i fywyd o dan law ei Greawdwr, gan Nicander:—

"Yna 'r dyn oer a dynai—ochenaid,
A chynhes y deuai.
* * *

Dacw 'r wên ar ei enau—a gwiw ras
Y gwrid ar ei fochau;
A'r chwys mân, gloywlan, yn glau
Ireiddiol, ar ei ruddiau."

Ystorm drydan, gan Eben Vardd:—

"Rhwygo, cloddio coluddion,
Agor bru y wig o'r bron,
Camu ystum y cwmwl,
Lle bwriai dawch 'r oedd llwybr dwl;
Dwyn talpiau o'r creigiau crog,
Torchi y bryn tywarchog,
A'i ergydiad mor gadarn,
Naddai y ddôl yn ddwy ddarn."

Efa, gan Dewi Wyn o Esyllt:—

"Ac Efa dlos—mor ddestlus oedd ei ffurf,
Mor delaid oedd ei hysgogiadau hoew;
Ei grudd oedd decach na'r blodeuyn tirf,
A'i gwrid na'r wawr ar li 'r Euphrates loew."

# E.



EBADIAID, [*Ebadians*]: Cristionogion Arabaidd, a ymsefydlasant yn Hirah, tref yn Irack, ac yn ei chymmydogaeth, lle y cyfodasant fythynod, ac y ffurfiasant bentrefydd, er mwyn cael rhyddid i ddilyn argyhoeddiadau eu cydwybod. Ystyr yr enw ydyw, "Gwasanaethwyr Duw."

EBAL a GERIZIM: dau fynydd yn Samaria, yn ffurfio ochrau cyferbyniol y dyffryn a gynnwysai hen ddinas Sichem, enw presennol yr hon ydyw Nabulus. O blegid y cyssylltiad hwn, y ffordd oreu ydyw sylwi ar y ddau gyda'u gilydd. Y mae y dyffryn a orwedd rhwng y mynyddoedd hyn tua 200 neu 300 o gamrau o led, a thros dair milltir o hyd; a chyfyd Mynydd Ebal ar yr ochr ddeheu, a Gerizim ar yr ochr aswy, wrth fel y dynesir i Sichem o Ierusalem. Ar Fynydd Ebal y gorchymynodd yr Arglwydd adeiladu allor, a cholofn â'r ddeddf yn gerfiedig arni; ac yr oedd y llwythau i gael eu cynnull yn nghyd, eu hanner ar Ebal a'r hanner arall ar Gerizim, i wrandaw y melldithion ofnadwy a gyhoeddid gan y Lefiaid ar bawb a droseddent eiriau y gyfraith sanctaidd, a'r bendithion a addewid i bawb a'u cadwent. Yr oedd y llwythau, y rhai oedd i ateb y melldithion â'u "Hamen," i gael eu trefnu ar Fynydd Ebal, a'r llwythau oedd i ateb y bendithion ar Fynydd Gerizim. Nid oedd yn bosibl cael lle mwy cyfaddas i'r fath seremoni ardderchog — yr ardderchocaf, y mae yn debygol, yn hanesyddiaeth y byd; a chyflawnwyd hi yn ffyddlawn gan Iosuah mor fuan ag yr ennillodd Wlad yr Addewid: *Deut.* xxvii; *Ios.* viii. 30—35. Dywed Dr. Robinson, "Ymgyfyd Mynydd Gerizim a Mynydd Ebal yn glogwyni creigiog serth, tuag 800 o droedfeddi o uchder, yn uniongyrchol o'r dyffryn, gyferbyn â'u gilydd. Yr oedd ochrau y ddau fynydd, fel y maent yn weledig oddi yma (Nabulus), yn ymddangos i'n llygaid ni yr un mor noethlwm ac anffrwythlawn, er fod rhai teithwyr wedi gweled yn dda ddysgrifio Gerizim fel yn ffrwythlawn, gan gyfyngu yr anffrwythlondeb i Ebal. Yr unig eithrad yn ffafr y blaenaf, mor bell ag y gallem ni ganfod, oedd ceunant bychan gyferbyn â phen gorllewinol y dref, yr hwn yn wir sydd yn llawn o ffynnonau a choed; yn mhob golygiad arall, y mae y naill a'r llall o'r mynyddoedd, yn ol fel y gwelir hwynt oddi yma, yn noeth a diffrwyth, oddi eithr fod ychydig goed olewydd yma ac acw ar hyd-ddynt. Y mae ochr y mynydd gogleddol, Ebal, tua'i odreu, yn llawn o hen feddrodau claddiedig. Gelwir y mynydd deheuol yn awr gan y preswylwyr, Jebel-et-Tûr, er fod yr enw Gerizim yn adnabyddus, o'r hyn lleiaf i'r Samariaid. Ni chawsom wybod pa beth ydyw enw diweddar Ebal."—*Bib. Researches*, iii. 96.

Aeth teithiwr Americanaidd diweddarach, Dr. Ollin, i ben Mynydd Gerizim, yr hwn, medd efe, sydd ychydig uwch nag Ebal. Y mae y fynedfa i'w ben yn hen ffordd, wedi ei chloddio trwy lafur dirfawr yn ochr y mynydd; ac yn y lleoedd serthaf, y mae y graig wedi ei naddu yn risiau llydain rheolaidd. Y mae yn debygol mai hon oedd y brif fynedfa i'r hen dref a'r amddiffynfa, adfeilion pa rai sydd yn gorchuddio pen y mynydd, a'r hon a deithid gan y gorymdeithiau crefyddol ar eu ffordd o ddyffryn Sichem i'r deml a adeiladwyd gan y Samariaid ar y mynydd hwn, i'r dyben o wrthweithio y deml yn Ierusalem. [Gwel SAMARIAID.] Y mae parth eang o'r wlad oddi amgylch yn weledig o ben Gerizim, yn gynnwysedig yn benaf o fynyddoedd, a lluaws o ddyffrynoedd ffrwythlawn, yn neillduol dyffryn Nabulus a Wady Sahl—trwy ba rai y rhed y ffordd sydd yn arwain i Ierusalem. Y mae nifer mawr o bentrefydd yn weledig ar hyd ei ochr ogledd-ddwyrain, ar ddarnau o'r mynydd yn taflu allan i'r dyffryn (Wady Sahl). Tystiai Dr. Ollin mai y parth mwyaf poblogaidd a ffrwythlawn a welsai efe yn holl Palestina oedd yr un a ganfu o ben Gerizim. Dygir meithriniaeth y tir yn mlaen hyd yn oed i benau y mynyddoedd, y rhai sydd wedi eu haddurno â phlanigfeydd o goed ffrwythydd, tra yr oedd pob llecyn gwastad, a nifer mawr o feusydd bychain, wedi eu hau â gwenith. Ac yr oedd cyfran fawr o'r tir gwastad sydd hyd yn oed ar ben Gerizim ei hunan wedi ei drin. Ymestyna Mynydd Ebal allan, wrth fel yr edrychir arno o Gerizim, megys yntau, ond ymddengys yn fwy creigiog ac anwastad, ac yn anghymhwysach i dderbyn meithriniaeth. Gwelodd Dr. Ollin—neu ynte dychymygodd iddo weled—adfeilion ar Fynydd Ebal, yn agos gyferbyn a Nabulus; ond nis gallodd foddloni ei hun wrth edrych arnynt yn agosach atynt [*Travels in the East*, ii. td. 340—347]. Os ymddengys unrhyw anghyssondeb rhwng hanesion y ddau ysgrifenydd Americaidd, gellir ei symmud trwy sylwi fod Dr. Ollin wedi ymweled â'r lle yn mis blodeuog Ebrill; a Dr. Robinson yn mis crasboeth Mehefin:—bod Dr. Ollin yn siarad am yr olygfa o ben Gerizim, tra yn edrych, nid i ddyffryn Nabulus, ond *allan* o hono, dros ochr gyferbyniol y mynydd, a'r bryniau is a'r gwastadedd teg (Wady Sahl) oddi tanodd, ac yna try i edrych ar yr ochr o Ebal sydd yn wynebu dyffryn Nabulus; tra y cyfeiria dysgrifiad Dr. Robinson at y ddau fynydd fel y maent yn weledig o'r dyffryn cul hwnw. Gellid symmud lluaws o anghyssonderau ymddangosiadol rhwng hanesion teithwyr yn gyffredinol trwy sylwi ar wahaniaethau cyffelyb i'r rhai hyn. — (*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

1. EBED, [עבד=*caethwas*; ond עבר (EBER)

Digitized by Google

ydyw y gair mewn amryw ysgriflyfrau, ac yn y cyfieithiad Syriaeg ac Arabaeg]: tad Gaal, yr hwn, yn nghyd â'i frodyr, a gynnorthwyodd wŷr Sichem yn eu gwrthryfel yn erbyn Abimelech: *Barn.* ix. 26, 28, 30, 31, 35.

2. EBED, [עבד; 'Ωβήθ]: mab Ionathan; un o'r rhai a ddychwelasant gydag Ezra o Babilon: *Ezra* viii. 6.

**EBED-MELECH**, [עבד־מלך; 'Αβδεμέλεχ—*Abdemelech*]: eunuch Ethiopaidd yn ngwasanaeth Zedeciah, brenin Iudah, trwy gyfryngiad yr hwn y rhyddhawyd Ieremiah o garchar, ac y gwaredwyd ef rhag marw o newyn: *Ier.* xxxviii. 7—13. O blegid ei garedigrwydd at y prophwyd, addawodd yr Arglwydd ei waredu yn nghwymp Ierusalem o ddwylaw ei gelynion: *Ier.* xxxix. 16—18. Ymddengys mai teitl swyddol oedd ei enw =*Caethwas y Brenin*, hyny yw, *gweinidog*.

**EBED JESUS**, a gyfenwid Bar Barika: duwinydd Nestoriaidd galluog, a anwyd tua'r flwyddyn 1250, yn ynys Gozarta, ar yr afon Tigris. Yn mha le y bu yn myfyrio sydd anhysbys; ond arddengys ei ysgrifeniadau gydnabyddiaeth âg athroniaeth a rhesymeg. Yr oedd yn feistr ar yr Arabaeg, a gallai ddarllen Groeg. Cafodd ei appwyntio yn fore yn esgob Sindschar ac Arabia, a dalai y swydd hono yn y flwyddyn 1285. Tra yno, ysgrifenodd lyfr ar gyssondeb yr Efengylau. Ar ol treulio oes ddefnyddiol a gwasanaethgar, bu farw yn Tachwedd, 1318. Cyfansoddodd ugain o wahanol weithiau, duwinyddol yn benaf; yn eu plith, esboniad ar yr Hen Destament a'r Newydd; tri o lyfrau ar ymgnawdoliad y Gair, ar sacramentau yr eglwys, yn nghyd âg un tra athronyddol — "Llyfr y maen gwerthfawr, ar wirionedd ffydd," yr hwn a gyfieithwyd i'r Syriaeg, y Lladin, a'r Arabaeg. Y mae ei lythyrau hefyd yn cynnwys ymchwiliadau duwinyddol. Y mae ei weithiau ar ddeddfau eglwysig yn ymarferol. Cyfansoddodd 50 o ganiadau hefyd yn ddwy ran—Enoch ac Elias, y rhai sydd yn dduwinyddol hollol, 'gan ddechreu gyda'r Drindod, a diweddu gyda'r adgyfodiad. Heb law y rhai hyn, ysgrifenodd 12 o draethodau barddonol ar yr holl wyddorau (math o wyddoniadur), llyfr ar "Athroniaeth y Groegiaid," ac esboniad ar lythyr Aristotle at Alexander. Ysgrifenodd hefyd lechres o tua 200 o awdwyr Syriaidd o gryn werth llenyddol. —(*Bertholdt's Krit. Journal; Biogr. univers.; Herzog's Real Encycl.*)

**EBEN-EZER**, [אבן העזר=*maen y cymhorth*]: defnyddir y gair yn 1 *Sam.* iv. 1; v. 1; ond ar ol hyn y cymhwyswyd ef fel enw ar y lle y cyfeirir ato yn yr adnodau hyn. Tra yr oedd yr Israeliaid yn addoli Duw yn Mispah, clywsant fod y Philistiaid yn agoshau gyda byddin gref. Yn y cyfyngder hwn, troisant i weddïo ac aberthu, a chyfryngodd Duw byddinoedd Israel mewn modd nodedig er eu gwaredu; "A'r Arglwydd a daranodd â tharanau mawr yn erbyn y Philistiaid y diwrnod hwnw, ac a'u drylliodd hwynt, a lladdwyd hwynt o flaen Israel;" 1 *Sam.* vii. 5–12. Er coffadwriaeth am y waredigaeth hon, cyfododd Samuel faen yn agos i faes y frwydr, a galwodd ef "Eben-ezer," neu "maen y cymhorth," gan ddyweyd, "Hyd yma y cynnorthwyodd yr Arglwydd nyni." Oddi wrth y maen, galwyd y maes, *Eben-ezer*. Nodir ei sefyllfa yn fanwl, sef rhwng Mispah — "y gwyldwr," bryn uchel, ychydig filltiroedd i'r gogledd o Ierusalem—a Sin, "y clogwyn." Nid oes un wybodaeth sicr wedi ei chael am sefyllfa y naill na'r llall o'r lleoedd hyn—yn wir, y mae y diweddaf yn hollol anhysbys. Yn ol yr hanes a rydd Josephus am yr amgylchiad [*Hyn.*, vi. 2, 2], cyfodwyd y maen i nodi terfyn y fuddugoliaeth—lle a elwir ganddo ef Korraia, ond Bethcar yn ol yr Hebraeg.

**EBENUS**, [הובנים—*hobnim*]: math o goed tra adnabyddus. Mewn un adnod yn unig yn y Beibl y defnyddir y gair, lle y dywed y prophwyd Ezeciel, pan yn cyfeirio at Tyrus, "Meibion Dedan oedd dy farchnadwyr; ynysoedd lawer oedd farchnadoedd dy law: dygasant gyrn ifori ac ebenus yn anrheg i ti;" *Ezec.* xxvii. 15. Yr oedd coed ebenus (*ebony*) yn dra gwerthfawr yn ngolwg yr hynafiaid, a defnyddient ef at luaws mawr o ddybenion, megys at wneuthur offerynau cerdd a dodrefn addurniadol. Sonir am ifori ac ebenus gyda'u gilydd yn yr adnod a ddyfynwyd, y mae yn debygol, o blegid mai o'r un gwledydd y derbynid hwynt, sef o Ethiopia ac India; ac o blegid y defnyddid y naill a'r llall, gan fod y fath wrthdarawiad rhwng eu lliwiau, mewn gweithiau addurniadol.



Dar. 281.—Diospyros Ebenum.

Ond nid yn Ezeciel yn unig y crybwyllir am ebenus ac ifori gyda'u gilydd. Dywed Diodorus, yn ol fel y dyfynir ef gan Bochart, fod un o hen freninoedd yr Aipht wedi gosod treth ar yr Ethiopiaid ag yr oedd yn rhaid iddynt ei thalu mewn ebenus, aur, a dannedd elephantod. Dywed Herodotus hefyd, yn ol Bochart, ei bod yn arferiad gan yr Ethiopiaid i dalu teyrnged i freninoedd Persia, yn gynnwysedig o aur, ebenus, ac ifori. Pan yn cyfeirio at dystiolaeth Herodotus ar y pwnc, dywed Pliny, "Ond priodola Herodotus ef yn hytrach i Ethiopia, a dywed y byddai yr Ethiopiaid yn arfer talu, bob tair blynedd, mewn ffordd o deyrnged, i freninoedd Persia, 100 darn o goed y pren hwnw (sef ebenus), yn nghyd âg aur ac ifori;" a thrachefn, "O Syene (yr hwn le a noda derfynau ein hymherodraeth) hyd ynys Meroë, dros bellder o 996 o filltiroedd, nid oes ond ychydig goed ebenus i'w canfod: ac ni cheir ond ychydig o un math o goed yn yr holl barthau hyny ond coed palmwydd, yr hyn efallai, oedd y

rheswm dros gyfrif ebenus yn deyrnged werthfawr, a thros ei ystyried yn drydydd ar ol aur ac ifori."—*Holland's Pliny*, xii. 4.

Dywedir weithiau y byddai yr hynafiaid yn cyfyngu ebenus yn hollol i'r India. Ond yr oedd ystyr tra eang yn fynych i'r gair "India," a chynnwysai hyd yn oed Ethiopia. Crybwylla amryw o'r hynafiaid, pa fodd bynag, megys Dioscorides a Pliny, am ebenus Indiaidd ac Ethiopaidd; tra yr enwa rhai y math Indiaidd yn unig, ac ereill y math Ethiopaidd. Yr unig wrthddadl o ddim pwys yn erbyn hyn ydyw, bod y gair Hebraeg *hobnim* yn y ffurf luosog. Yn ateb i hyn, dywed Bochart ac ereill fod dau fath ó ebenus, megys y crybwylla Theophrastus, Dioscorides, &c.—un yn Ethiopaidd a'r llall yn Indiaidd. Haera Fuller, ac ereill, mai yr achos o ddefnyddiad y ffurf luosog oedd, fod yr ebenus yn ddarnau gwahanedig. Ond defnyddir enwau amryw goed tramor gwerthfawr ereill, megys sittim ac almuggim, yn y ffurf luosog hefyd. Heb law *abnoos*, crybwylla awdwyr Arabaidd, yn ôl tystiolaeth Bochart, am goed ereill fel yn gyffelyb i ebenus, ac yn cael eu defnyddio yn ei le: enw un o'r rhai hyn ydyw *sheez*, *sheezee*; hefyd, *sasem* a *semsem*—*semasim* yn y ffurf luosog.

Os edrychwn i hanes diweddar ebenus, cawn ei fod yn deilliaw o chwaneg nag un ffynnonell eto. Dysgrifir tri math gan Mr. Holtzappfel, yn ei waith diweddar ar "Durnio." 1. Y math a geir o'r Mauritius, yn ffyn crynion fel polion ysgaffaldiau, heb fod ond anfynych dros bedair modfedd ar ddeg o dryfesur. Hwn ydyw y math duaf, a mnaaf ei raen, y caletaf a'r prydferthaf. 2. Y math Indiaidd, yr hwn a dyf yn Ceylon a'r Orynys Indiaidd, ac a allforir o Madras a Bombay, yn foncyffion o chwech i ugain, ac weithiau hyd yn oed wyth ar ugain, o fodfeddi o dryfesur, ac hefyd yn blanciau. Gellir gweithio hwn yn fwy diwastraff, ond y mae o ansawdd waelach o ran graen a lliw na'r math cyntaf. 3. Y math Affricanaidd, yr hwn a anfonir o Benrhyn Gobaith Da yn ddarnau—maintioli cyffredin pa rai ydyw o dair i chwe throedfedd o hyd, o dair i chwe modfedd o led, ac o ddwy i bedair modfedd o drwch. Gyda'r math hwn y mae lleiaf o wastraff, gan y gadewir yr holl ranau diwerth o hono ar ol; ond efe ydyw y garwaf ei raen a'r gwaelaf ei liw. Ni allforir dim ebenus o Abyssinia yn bresennol: y mae yn fwy tebygol, pa fodd bynag, mai yr achos o hyn ydyw, fod trafnidiaeth wedi newid ei llwybrau, ac nid fod ebenus yn brin yn yr hen Ethiopia. Oddi wrth natur yr hinsawdd, a bod yno goedwigoedd a chyflawnder o elephantiaid ynddynt, nis gall fod ammheuaeth nad ydyw y wlad yn dra chyfaddas i dyfiant y dosbarth o goed o blith pa rai y ceir ebenus y Mauritius, Ceylon, a'r India, sef y dosbarth a elwir *diospyros* gan lysieuwyr. Mae amryw rywogaethau yn y dosbarth, y rhai a gynnyrchant wahanol fathau o ebenus, megys y *diospyros ebenum* yn y Mauritius a Ceylon, lle y gelwir ef *caluwara;* y *diospyros ebenaster*, o'r hwn y ceir ebenus Ceylon; a'r *Diospyros hirsuta*, sef coed Calamander yr un ynys, yr hwn a gyfrifir gan Mr. Holtzappfel fel math o ebenus. *Diospyros melanoxylon* Dr. Roxburgh ydyw pren ebenus Coromandel. Tyf nes myned yn bren mawr yn mharthau mynyddig Ceylon, ac yn yr Orynys Indiaidd—yn Malabar, Coromandel, ac Orissa. Y rhan dywyll o goed y pren hwn yn unig ydyw yr ebenus, ac ni cheir ef ond yn nghanol prenau mawrion, a gwahaniaetha mewn swm yn ol maintioli ac oedran y pren. Y mae y coed agosaf allan yn wyn a meddal, yr hwn a ddistrywir yn fuan gan y tywydd a chan drychfilod; ond gadewir y rhan dywyll heb ei chyffwrdd. Heb law y rhai hyn, y mae math o goed yn yr Orynys Indiaidd a elwir *blackwood* gan y Seison, a *sit-sal* gan y brodorion. Tyf i faintioli anferth; y mae yn drwm o ran ei bwysau, yn meddu graen mân, o liw gwyrdd tywyll, llinellau goleuach yn rhedeg i wahanol gyfeiriadau. I'r un rhywogaeth y perthyn y *sissoo*—un o'r coed mwyaf gwerthfawr a fedd India. Y mae yn dra chryf, o liw llwyd goleu, gyda gwythenau tywyllach yn rhedeg trwyddo. *Sissoo* a *sheeshum* y gelwir ef gan y brodorion.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Smith's Dict.*)

**EBER, PAUL:** duwinydd, yn byw yn yr unfed ganrif ar bymtheg, nodedig o blegid ei gyfeillgarwch âg arweinwyr y Diwygiad Protestanaidd, ac am ei ymdrechion i'w ddwyn yn mlaen. Dinesydd o Kitzingen, a dilladydd wrth ei alwedigaeth, oedd ei dad, John Eber. Ganwyd Paul Tachwedd 8fed, 1511. Yn 1523, anfonwyd ef i'r ysgol yn Ansbach. Yn ystod y flwyddyn hon bu farw ei fam, a dychwelodd yntau at ei dad. Ar ei ffordd adref, niweidiwyd asgwrn ei gefn trwy gwympo oddi ar geffyl, a chaethiwyd ef i'r tŷ am flwyddyn gyfan. Yn 1526, aeth i'r athrofa newydd yn Nuremberg, lle yr ydoedd Joachim Camerar, John Kezmann, E. Hess, ac M. Roting, yn feistriaid. Daeth yn mlaen mor gyflym yn ei ddysgeidiaeth fel y symmudwyd ef i Brifysgol Wittenberg yn 1532. Ei athrawon yn Wittenberg oedd Luther, Melanchthon, Jonas, &c. Aeth Melanchthon ac yntau yn dra hoff o'u gilydd. Derbyniodd y gradd o Feistr yn 1536, a derbyniwyd ef i'r frawdoliaeth athronyddol yn 1537. Ar ol hyny, ffurfiwyd y fath gyfeillgarwch rhwng Melanchthon ac yntau, fel mai anaml yr ymgymmerai Melanchthon âg unrhyw orchwyl heb ymgynghori yn gyntaf âg Eber. Rhoddai Luther hefyd ymddiried mawr ynddo. Gwaith Eber yn benaf y pryd hyn oedd cyfranu addysg anghyhoedd mewn cangenau o athroniaeth, a rhoddi gwersi mewn dadleuaeth; yr adeg hon hefyd y dechreuodd ar ei esboniad ar epistolau Paul. Yn 1544, daeth yn broffeswr gramadeg Lladin, a darlithiau hefyd ar athroniaeth naturiol. Dewiswyd ef yn ddeon y frawdoliaeth athronyddol yn 1550, ac o 1551 hyd 1552, efe oedd periglor y brifysgol, ac yna ei rhag-beriglor hyd 1553. Ar farwolaeth J. Förster (1556), appwyntiwyd ef yn bregethwr Eglwys y Castell, Wittenberg, ac yn broffeswr Hebraeg yn y brifysgol yn 1557. Rhoddodd y swydd flaenaf i fyny yn 1559, gan iddo gael ei appwyntio yn bregethwr y ddinas yn Wittenberg, ac yn oruchwyliwr cyffredinol yr Etholyddiaeth. Yn 1559, dyrchafwyd ef i'r ddoctoriaeth dduwinyddol; ac yn Mawrth, 1560, derbyniwyd ef i'r frawdoliaeth dduwinyddol. Ar ol hyn, cyfyngodd ei lafur athrofaol yn benaf at dduwinyddiaeth. Cymmerai ran yn mhynciau mawrion a dadleuon cyhoeddus y dydd. Yn 1548, cymmerodd ran yn nghymmanfa Pegau; yn 1557, yn nghynnadledd Worms; aeth i Jena yn 1564, ar neges yn dwyn perthynas â'r brifysgol; anfonodd y Margrave George Frederick o Bradenburg am dano yn 1568, i roddi cymhorth i derfynu ymrafaelion eglwysig ag oedd yn Ansbach; ynaeth i gynnadledd Attenburg, lle yr arosodd hyd Mawrth, 1569. Cyn ymuno â'r frawdoliaeth dduwinyddol, hanesyddol ac athronyddol yn benaf,

Digitized by Google

Hebraeg Matthew, yr hon a elwid hefyd Efengyl y Deuddeg Apostol; ond llygrasant eu copi mewn amryw fanau; a gadawsant allan achyddiaeth ein Iachawdwr, yr hwn a gedwid yn gyflawn yn yr un a ddefnyddid gan y Nazareaid, ac hyd yn oed yn y copïau a ddefnyddid gan y Cerinthiaid. Heb law Efengyl Hebraeg Matthew, yr oedd yr Ebioniaid wedi mabwysiadu amryw lyfrau ereill dan enwau Iago, Ioan, a'r apostolion ereill; fe wnaent ddefnydd hefyd o deithiau Pedr, y rhai fel y tybir a ysgrifenwyd gan Clement; ond yr oeddynt wedi eu cyfnewid i'r fath raddau fel nad oedd dim gwirionedd yn mron yn aros ynddynt. Gwnaethant hyd yn oed i'r tad hwnw ddyweyd amryw anwireddau er mwyn awdurdodi eu harferiadau hwy.—(*Mosheim's Eccl. Hist.; Williams' Dict. of All Rel.*)

ECBATANA. Gwel ACHMETHA.

1. ECLECTICIAID, [*Eclectics*]: enw a roddid ar ddosbarth o athronwyr yn yr hen oesoedd, y rhai, heb ymuno âg unrhyw blaid neillduol, a gymmerent yr hyn a farnent yn dda a chanmoladwy oddi ar y naill a'r llall. Dyn o'r enw Potamon, o Alexandria, yn byw dan deyrnasiad Augustus a Tiberius, ac wedi blino ar ammheu pob peth gyda'r Pyrrhoniaid a'r Ammheuwyr (*Sceptics*), oedd y neb a ffurfiodd y blaid hon.

2. ECLECTICIAID, neu y Platoniaid diweddar: plaid a gyfododd yn yr Eglwys Gristionogol tua diwedd yr ail ganrif. Proffesent mai y gwirionedd oedd unig bwnc eu hymchwiliad, a'u bod yn barod i fabwysiadu o blith y gwahanol gyfundrefnau a phleidiau bob peth a dybient hwy yn gysson â gwirionedd. Hoffent Plato yn fwy na'r athronwyr ereill, ac edrychent ar ei opiniynau mewn perthynas i Dduw, i'r enaid dynol, a phethau anweledig, fel yn gysson âg ysbryd Cristionogaeth. Un o brif noddwyr y gyfundrefn hon oedd Ammonias Saccas, yr hwn y pryd hyn a osododd sail y blaid hono a adnabyddid ar ol hyny wrth yr enw, y Platoniaid Newydd, yn yr ysgol Alexandriaidd.

ECCLESIASTICUS. Gwel IESUS FAB SIRACH.

ECCLESIASTES. Gwel PREGETHWR, a LLYFR Y.

ECK neu ESK, JOHN: gwrthwynebwr mwyaf nodedig Luther a'r Diwygiad Protestanaidd. Ganwyd ef Tachwedd 13eg, 1486, yn Eck, sir Mindelheim, Suabia. Oddi wrth le ei enedigaeth y gelwir ef John Eck—ei enw priodol oedd John Maier. O'i nawfed hyd ei ddeuddegfed flwydd, bu yn cartrefu gyda'i ewythr, Martin Maier, offeiriad Rothenburg, lle y darllenodd yr holl Feibl yn mron, medd efe, cyn diwedd ei ddeuddegfed flwydd. Pan yn ddeuddeg oed, aeth i Heidelberg, i fyfyrio yr hen ieithoedd ac athroniaeth. Ymadawodd o Heidelberg i Tübingen, lle y bu yn myfyrio yr hen ieithoedd dan Reuchlin a J. Agricola. Derbyniodd y teitl o Athraw y Celfyddydau yn bedair ar ddeg oed, a dechreuodd ddysgu duwinyddiaeth. Enwa naw o dduwinyddion y bu yn derbyn addysg ganddynt, ac yn eu plith y mae J. Lemp a P. Scriptoris. Yn 1501, gyrwyd ef gan y pla o Tübingen i Cologne, lle y darllenodd Aquinas. Gyrwyd ef eilwaith gan y pla i Freiburg, lle y bu yn myfyrio rheithofyddiaeth, mesuroniaeth, a bydoniaeth (*cosmography*), ac y dechreuodd fod yn athraw athroniaeth. Yn 1506, dechreuodd ei yrfa lenyddol gyda'i *Logices Exercitamenta.* Ymddengys ei fod wedi cyfyngu ei hun yn fwy neillduol ar ol hyn at dduwinyddiaeth, yn mha un yr ennillodd yn fuan y radd o Wyryf. Ar gymmeradwyaeth C. Pentinger, o Augsburg, cafodd sefyllfa yn Ingolstadt, lle y daeth mor nodedig fel ymresymwr, fel y rhoddodd William, duc Bavaria, broffeswriaeth dduwinyddol iddo, â'r hon swydd yr ymgymmerodd yn Tachwedd, 1510, ar ol derbyn yn flaenorol y gradd o D.D. Prif amcan ei holl ymdrechion, fel yr ymddengys, ydoedd enwogrwydd, anrhydedd, ac elw bydol. Llwyddodd i ennill canoniaeth yn eglwys gadeiriol esgob Eichstädt, a'r swydd o rag-ganghellydd yn mhrifysgol Ingolstadt (1512). Ymenwogodd hefyd trwy luaws mawr o weithiau llenyddol tra gwahanol—duwinyddol, moesol, athronyddol, rhesymegol, a chyfriniol. Yr oedd yn dra diffygiol, pa fodd bynag, yn yr ymdrechion hyn, mewn gwreiddioldeb; ac ni cheir dim arwydd, yn ei holl weithiau, o ddifrifoldeb cydwybodol a chariad pur at wirionedd.

Wrth gwrs, yr oedd y fath ddyn yn hollol anmharod i gyfarfod âg ysgogiadau cyntaf y Diwygiad. Dywed yn ymffrostgar am dano ei hun, ei fod ef yn brysur mewn ymchwiliadau athronyddol pan y dechreuodd Carlstadt a Luther hwylio llong Pedr tua distryw. Cyn cyhoeddiad y gosodiadau (*theses*), yr oedd Eck a Luther eisoes yn gydnabyddus â'u gilydd; yr oedd y diweddaf wedi ysgrifenu llythyr cyfeillgar ato, a geilw Eck Luther, mewn llythyr a ysgrifenodd at Carlstadt, Mai 28ain, 1518, "y cyfaill cyffredinol." Ni bu hyn yn attalfa iddo, pa fodd bynag, rhag ysgrifenu yn erbyn gosodiadau Luther, gyda'r bwriad o'i gyhuddo o heresi; canys yr oedd Eck y pryd hyny yn chwiliedydd heresi dros Bavaria a Franconia. Prif amcan ei ysgrifeniadau oedd arddangos Luther fel distrywiwr trefn eglwysig, ac fel un yn cloddio dan awdurdod gyfreithlawn yr eglwys, trwy brysur daenu y gwenwyn Bohemiaidd. Cyhudda Eck Luther hefyd o ddiffyg parch i'r "tad sanctaidd;" a geilw ef yn brophwyd newydd a chwennychai fod yn ddoethach na'r tadau. Derbyniodd gerydd llym, pa fodd bynag, am feiddio anturio yn erbyn y fath wrthwynebwr a Luther. Yn ol dewisiad Luther, ymgymmerodd Carlstadt ar y cyntaf â'r gwaith o'i amddiffyn, yr hwn, mewn darlith athrofaol, Mai 9fed, 1518, a gynnygiodd i sylw 380 o osodiadau, yn nghyd â 26 ereill yn dwyn perthynas â rhyddid yr ewyllys. Eu hamcan oedd amddiffyn iawngrededd *Beiblaidd*, nid *Pabaidd*, proffeswyr Wittenberg. Ymosyd Carlstadt ar ysgrifeniadau dysgedig Eck megys "opiniynau duwinyddol newyddion," a dadgana ei fwriad o brofi y pwnc wrth "osodiadau Crist a Phaul." Wrth ddwyn awdurdod yr Ysgrythyrau fel hyn yn erbyn ei wrthwynebydd, profa Carlstadt oddi wrthynt yr un pryd mai oddi wrth Dduw yn unig y del gwir gyfiawnhad dyn; nad oes dim rhinwedd yn ein gweithredoedd da ger bron Duw, ond yr hyn a ddel oddi wrth Dduw ei hun; o ganlyniad, bod ein iachawdwriaeth yn dibynu ar etholedigaeth Duw, ac nid ar ein gweithredoedd da ni ein hunain; bod yr ewyllys yn gaeth gan bechod; a bod heresi yn gynnwysedig, nid mewn pechu yn erbyn eglwys y pab, ond yn erbyn gair Duw, fel y deonglir ef gan yr Ysbryd. Trwy y gosodiad diweddaf, amcanai Carlstadt nid yn unig ddirymu y cyhuddia-

Digitized by Google

dano, pan y dywedodd, "Y mae Eck mor gymhwys at dduwinyddiaeth ag asyn at delyn."

Ar ddiwedd y ddadl, ymdrechodd Eck, wrth reswm, trwy bob dull a modd, i fedi ffrwyth ei fuddugoliaeth ddychymygol, a'i chyhoeddi i'r byd. Siaradai yn y modd mwyaf diystyrllyd am Luther a Carlstadt. Mewn llythyr at etholydd Saxony, ceisiodd gyffroi digofaint ei noddwr yn erbyn Luther, trwy ei gyhoeddi fel heretic, yr hwn a wadai awdurdod y pab. Dilynwyd hyn gan ddadl chwerw, yn yr hon y cymmerodd Melanchthon ran. Wedi i Eck geisio yn ofer gan etholydd Saxony losgi llyfrau Luther, gwnaeth barotoadau at wneyd hyny ei hun yn gyhoeddus yn Ingolstadt; ond attaliwyd ef gan J. Reuchlin. Llwyddodd, pa fodd bynag, i gael gan dduwinyddion Cologne a Louvain gondemnio Luther, ac yn neillduol i gyffroi digofaint yr hynafgwr Hochstraaten yn ei erbyn. Wedi cwblhau llyfr a elwid ganddo *De Primatu Petri*, yn 1520, ymddangosai iddo fod yr adeg wedi dyfod pryd y gallai roddi dyrnod effeithiol a phenderfynol. Aeth i Rufain er cyflwyno ei lyfr i'r pab, ac er mwyn cael awdurdod i ymosod ar "heretic" Wittenburg. Gan fod Rhufain eisoes yn ddig wrth Luther, gwrandawodd y llys Pabaidd yn rhwydd ar achwynion Eck. Penderfynwyd condemnio Luther: ac ar y 15fed o Mehefin, cyhoeddwyd y faneb nodedig a elwid "pabarcheb Eck," yn mha un y dynodid 41 o erthyglau o ysgrifeniadau Luther fel yn "hereticaidd, yn gyfeiliornus, yn dwyllodrus, ac yn dramgwyddus." Ar y 3ydd o Fai, ysgrifenodd Eck mewn ymffrost fod cyhoeddiad a gweinyddiad y pabarcheb yn yr Almaen wedi ei ymddiried iddo ef. Bu y camgymmeriad hwn o eiddo y pab yn foddion i droi pethau yn ffafr Luther. Ar ei ddychweliad i'r Almaen, yn Awst, 1520, ni chafodd Eck ond derbyniad oeraidd. Er ei fod wedi gosod y pabarcheb i fyny ar y muriau yn Meissen, Merseburg, a Brandenburg, eto petrusai yr esgobion ei gyhoeddi. Gwaharddodd hyd yn oed y duc George, noddwr Eck, ei gyhoeddi, ond yn unig trwy ganiatad arbenig esgob Merseburg. Yn Erfurt, llosgodd y myfyrwyr y faneb o flaen llygaid Eck, a bu gorfod iddo ddianc am ddiogelwch i Freiburg. Ond er fod y faneb fel hyn wedi troi allan yn fethiant, llwyddodd Eck er hyny i ddwyn oddi amgylch y rhwyg rhwng Luther a'r pab; yr hyn a sefydlodd yr ymraniad yn yr Eglwys Orllewinol. O'r pryd hyn hyd ddiwedd ei oes, treuliodd Eck ei holl nerth i filwrio yn erbyn y Diwygiad, ac ystyrid ef yn un o brif golofnau yr Eglwys Babaidd, er fod ei gymmeriad yn isel hyd yn oed yn nghyfrif ei frodyr crefyddol. Ar ol bod yn Rhufain amryw weithiau yn ngwasanaeth duc Bavaria, cymmerodd ran, yn 1524, yn nghynnadledd Ratisbon, yr hon ni chafodd un dylanwad ar y bobl, namyn cyffroi eu gwatwaredd. Ni ennillodd ond ychydig at ei enwogrwydd chwaith yn ystod ei daith trwy Loegr. Er adferu ei enwogrwydd enciliedig, ac er cynnal eglwys sigledig Switzerland, cynnygiodd ei wasanaeth yn nghynnadledd Baden, yr hon oedd i gael ei chynnal yn Mai, 1524; yn yr hon yr amddiffynodd yr athrawiaethau Pabaidd yn dra anghelfydd. Bu mewn dadl gyffelyb yn Augsburg, yn 1527, âg Urb. Rhegius. Yr oedd hefyd yn un o'r rhai mwyaf gweithgar yn nghynghrair Augsburg, yn 1530; ac yn un o awdwyr gwrthbrawf Cyffes Augsburg. Yr oedd yn bresennol hefyd yn nghynnadleddau Worms a Ratisbon, ychydig yn ddiweddarach; a bu farw yn 1553. Yr ydoedd yn awdwr cynnyrchiol a dysgedig; ond ni chyhoeddodd un gwaith, pa fodd bynag, ag sydd wedi ennill lle sefydlog mewn llenyddiaeth. Ysgrifenodd lawer iawn yn erbyn y Diwygiad. Methiant hollol oedd ei gyfieithiad Almaenaidd o'r Ysgrythyrau (1537), yr hwn a gyhoeddwyd ganddo er gwrthweithio cyfieithiad Luther. Amddiffynodd, mewn gwaith arbenig, losgiad Huss a Jerome o Prague gan gynnadledd Constance. Un o'i weithiau mwyaf adnabyddus ydyw ei *De Sacrificio Missæ*, 1526; *Amddiffyniad i'r Purdan*, 1530; nodiadau eglurhaol ar yr efengylau, a chasgliadau o bregethau. Ymgymmerodd ef ei hun â gwneyd casgliadau o'i weithiau, 1530—35.—(*Herzog's Real. Encycl.*)

ECRON, [עֶקְרוֹן=*diffrwyth*; Deg a Thrigain, Ἀκκαρών]: y benaf o'r pum talaeth Philistaidd (*Jos.* xiii. 3), a'r fwyaf gogleddol o'r pump. Yn rhaniad cyffredinol y tir, rhoddwyd Ecron i Iudah, gan ei bod ar gyffiniau y llwyth hwnw (*Jos.* xiii. 3; xv. 11, 45); ond ymddengys ei bod wedi ei rhoddi ar ol hyny i Dan, er mai Iudah a'i hennillodd (*Jos.* xv. 11, 45; xix. 43; *Barn.* i. 18; cymharer *Hynafiaethau Josephus*, v. 1, 22; v. 2, 4). Yr amgylchiad Ysgrythyrol mwyaf nodedig mewn perthynas i Ecron yw, fod yr arch wedi ei hanfon oddi yno ar fen newydd, yn cael ei thynu gan ddwy fuwch flith: 1 *Sam.* v. 10; vi. 1—8. Mewn amseroedd diweddarach, enwir hi gan y prophwydi yn mysg y dinasoedd Philistaidd ag oedd i fyned dan farn Duw: *Ier.* xxv. 20; *Amos* i. 8; *Seph.* ii. 4; *Zech.* ix. 5. Dysgrifir Ecron gan Eusebius a Jerome fel pentref Iuddewig rhwng Azotus a Jamnia tua'r dwyrain, neu ar yr ochr ddwyreiniol i linell wedi ei thynu rhwng y lleoedd hyn [*Onomast.*, d.g. Accaron]. Dygwydd yr enw Ecron, neu yn hytrach Accaron, yn awr ac eilwaith yn hanes y Croesgadau; ac adnabyddwyd ef yn ddiweddar gan Dr. Robinson [*Bib. Researches*, iii. 24] yn yr enw Akri, yr hwn le sydd mewn sefyllfa yn cyfateb i bob peth a wyddom am Ecron. Y mae llythyrenau hanfodol yr enw Arabaidd yr un a llythyrenau yr enw Hebrëig, ac ystyria y Cristionogion a'r Mahometiaid hefyd mai yr un man ydyw a'r hen Ecron. Pentref Mahometaidd bychan ydyw Akri, tua phum milltir i'r deheu o Ramleh. Y mae wedi ei adeiladu o briddfeini heb eu llosgi; a chan nad oes yno adfeilion gweledig, y mae yn debygol mai yr un oedd defnyddiau yr hen ddinas. Hònir, pa fodd bynag, y bydd dyfrgistiau a meini llaw-felinau yn cael eu darganfod yn fynych yn y meusydd o amgylch Akri.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

ED, [עֵד=*tystiolaeth*]: yr enw a roddwyd ar yr allor a adeiladwyd gan y ddau lwyth a hanner oedd wedi ymsefydlu tu hwnt i'r Iorddonen: *Jos.* xx. 34. Mae yn debygol mai eilun (*copy*) oedd o'r allor a ddefnyddid yn mysg yr Hebreaid, eu brodyr; a chyfodwyd hi yn dystiolaeth i'r oesoedd a ddeuai o'r dyddordeb a deimlai y llwythau hyn yn allor gyffredin hiliogaeth y patriarch Israel.

EDEN. Dyma yr enw hynaf mewn daiaryddiaeth—enw y parth cyntaf o'r ddaiar y gallasai yr hil ddynol wybod dim yn ei gylch. Canfyddir y gair yn yr Arabaeg yn gystal a'r Hebraeg. Esbonir ef gan Firuzabadi, yn ei eirlyfr Arabaidd enwog [*Kamûs*], fel yn golygu *hyfrydwch, tynerwch, hawddgarwch.* Cenfydd y milwriad Wilford

esampl Origen, a dododd y baradwys ddaiarol yn y drydedd nef, ar sail ymadrodd Paul (2 *Cor.* xii. 2, 4): ond y mae yn tynu llinell o wahaniaeth rhwng y baradwys ddaiarol a'r un y cymmerwyd Paul iddi mewn man arall [*De Parad.*, c. 3]. Esbonir hyn oll mewn ymadrodd arall [*Ep. ad Sabinam*] fel iaith allegawl. Yn mysg y traddodiadau Iuddewig sydd wedi eu cofnodi gan Jerome [*Trad. Hebr. in Gen.*], dywed un fod paradwys wedi ei chreu cyn ffurfio y byd, a'i bod gan hyny tu allan i'w derfynau. Dodir ei sefyllfa gan Moses Bar Cepha [*De Parad.*] yn y canol, rhwng y ddaiar a'r ffurfafen. Dadleuai amryw mai ar ben mynydd uchel, yn cyrhaedd yn mron i'r lleuad, yr oedd paradwys: tra yr haerai ereill mai yn nhrydydd parth yr awyrgylch yr ydoedd, a'i bod yn uwch na holl fynyddoedd y ddaiar o ugain cufydd, fel nas gallai dyfroedd y dylif ei chyrhaedd. Bu ereill drachefn yn meddwl fod paradwys yn cynnwys dwy ran—un han yn faterol a'r llall yn anfaterol: ac ereill yn barnu ei bod wedi bod unwaith ar y ddaiar, ond iddi gael ei symmud ymaith trwy farn Duw. Yn mysg yr opiniynau a gofnodir gan Morinus, y mae un a ddywed fod yr holl ddaiar cyn y cwymp yn baradwys, a'i bod mewn gwirionedd yn Eden, yn nghanol pob math o bleserau. Dadgana Ephraem Syrus [*Comm. in Gen.*] ammheuaeth ar y mater hwn. Gan mai coed ysbrydol ydoedd coed paradwys, ni chymmer arno benderfynu mai dwfr ysbrydol a yfent; ond ymddengys ei fod o'r farn fod y pedair afon wedi colli eu rhinwedd cyntefig mewn canlyniad i'r felldith a gyhoeddwyd ar y ddaiar am anufudd-dod Adda.

Y mae y dyfaliadau yn nghylch maintioli yr ardd hefyd wedi bod mor amrywiol a'r opiniynau yn nghylch y lle y safai. Haerai Ephraem Syrus ei bod yn amgylchu yr holl ddaiar, tra y cyfyngai Johannes Tostatus ei hamgylchedd i tua deugain milltir. Dywedai ereill drachefn ei bod yn ymestyn dros Syria, Arabia, a Mesopotamia.

Pa beth ydyw yr afon sydd yn dyfod allan o Eden i ddyfrhau yr hardd sydd gwestiwn ag y mae llawer o ofyn wedi bod arno, ond nid oes un atebiad boddhaol wedi ei gael iddo eto. Barn Josephus a Johannes Damascenus ydoedd, mai y môr a amgylchai y ddaiar oedd ffynnonell y pedair afon. Yn ol barn y rhai a osodant ardd Eden y tu isaf i ymuniad y Tigris â'r Euphrates, y Shat-el-Arab oedd eu ffynnonell, a buasai eu tybiaeth yn deilwng o ystyriaeth oni buasai nas gellir dyweyd, gydag un gradd o debygolrwydd, fod yr afon hono yn cyfodi yn Eden. Golyga y rhai a osodant sefyllfa Eden yn ucheldir Armenia mai "cydgasgliad o ffynnonau" ydyw yr "afon" o ba un y deilliaw y pedair cainc. Ond nid yw hyn yn gysson â'r dysgrifiad Ysgrythyrol. Esbonir yr anhawsder gan Sickler [Augusti, *Theol. Monatschrift*, i. 1], yr hwn a dybia mai chwedl ddychymygol ydyw yr hanes, trwy briodoli anwybodaeth i'r awdwr. Yr "afon" oedd y Môr Caspiaidd; yr hwn, yn ol ei farn ef, oedd yr afon gref yn rhedeg o'r dwyrain. Daeth Bertheau, trwy gymmeryd gwybodaeth ddaiaryddol yr hynafiaid fel safon i brofi gwybodaeth ddaiaryddol yr Hebreaid, i'r un penderfyniad, ar y tir fod yr holl genedloedd i'r deheu o ucheldiroedd Armenia a Phersia yn gosod trigfan y duwiau yn eithaf y gogledd, a'r cyffiniau Caspiaidd ydoedd terfynau gogleddol yr Israeliaid. Ond caniata efe fod pedair afon Eden yn wir afonydd, ac nid yn foroedd, fel y tybiai Sickler, yn terfynu y daiar i'r dwyrain a'r gorllewin o'r afon Nile.

Ni bu neb erioed yn gwadu nad Hidecel ydyw y Tigris, ac nad Phrath ydyw yr Euphrates, ond yn unig y rhai a haerant mai chwedl wedi ei chynllunio yn rhywle arall, a'i chymhwyso gan yr Hebreaid at eu syniadau daiaryddol hwy eu hunain, ydyw yr holl hanes. Gan mai y blaenaf ydyw enw yr afon fawr y safai Daniel ar ei glan (*Dan.* x. 4), ac mai yr olaf ydyw yr enw a gymhwysir trwy yr holl Hen Destament at yr Euphrates, ni ymddengys fod un rheswm dros dybio y dylid deall yr enwau a ddefnyddir yn *Gen.* ii. 14, yn amgen nag yn eu hystyr gyffredin. Y mae un peth yn y dysgrifiad ag sydd yn deilwng o sylw. O'r pedair afon, un, sef yr Euphrates, a grybwyllir wrth ei henw yn unig, megys pe buasai hyny yn ddigon i'w dynodi. Dysgrifir y tair ereill yn ol eu sefyllfaoedd daiaryddol; oddi wrth hyn, gan hyny, y mae yn deg casglu eu bod yn ddyeithrach i'r Hebreaid na'r Euphrates. Os ydyw hyn yn gywir, o'r bron y mae yn bosibl tybio mai Gihon (neu fel y dywed rhai) y Pison ydyw y Nile; canys y mae yn rhaid fod yr afon hono yn fwy hysbys i'r Israeliaid nag hyd yn oed yr Euphrates. Gyda golwg ar y Pison, y dybiaeth hynaf, a'r un a gafodd y derbyniad mwyaf cyffredinol, ydyw—mai hi yw y Ganges. Felly y credai Josephus, Eusebius, Ambrosius, Epiphanius, Jerome, ac Awstin. Ond haerai Jarchi, Saadiah Gaon, R. Moses ben Nachman, ac Abr. Peritsol, mai y Nile oedd y Pison. Dywed y cyntaf o'r ysgrifenwyr hyn fod y gair yn tarddu o wreiddyn yn golygu "cynnyddu," "gorlifo;" ond ar yr un pryd, dyfyna darddiad i'r gair a roddir yn *Bereshith rabba*, adr. 16, yn yr hwn yr haerir fod yr afon yn cael ei galw *Pison*, "o herwydd ei bod yn peri i'r llin (פשתן) dyfu." Meddylir y derbyn y dybiaeth mai y Ganges ydyw y Pison ychydig gadarnhâd oddi wrth awdwr Llyfr Ecclesiasticus, yr hwn a grybwylla (*pen.* xxiv. 25, 27) y Pison, y Tigris, yr Euphrates, yr Iorddonen, a Gihon; gan y tybir mai y drefn a ddilynai wrth eu henwi oedd o'r dwyrain i'r gorllewin. Mai yr Indus oedd y Pison sydd opiniwn a goleddid lawer o amser cyn iddo gael ei adfywio gan Ewald [*Gesch. d. Volk. Isr.* i. 331, sylw 2], a'i fabwysiadu gan Kalisch [*Genesis*, td. 96]. Fe dybiai Philostorgius mai yr Hydaspes ydoedd; a chenfydd Wilford [*As. Res.* cyf. vi.], trwy ddilyn traddodiad Hindwaidd mewn perthynas i ddechreuad dynolryw, y Pison yn y Landi-Sindh, Ganges Isidorus, a elwir hefyd Nilab oddi wrth liw ei dyfroedd, ac a adnabyddir yn mysg yr Hindwaid wrth yr enw Nilá-Gangá neu Ganga yn unig. Cytuna Severianus ac Ephraem Syrus a Cæsarius, mai yr un ydyw y Pison a'r Danube. Ymddengys fod gan y diweddaf, megys amryw ereill, ryw syniadau hynod mewn perthynas i gyfeiriad llwybr yr afon. Barnai mai hi hefyd oedd y Ganges a'r Indus, a'i bod, ar ol teithio Ethiopia ac Elymas—sef Hafilah, medd efe—yn ymarllwys i'r môr ger llaw Cadiz. Dyna hefyd oedd barn Epiphanius am gyfeiriad y Pison, a dywed mai hi oedd Ganges yr Ethiopiaid a'r Indiaid, ac Indus y Groegiaid [*Ancor.* c. 58]. Hònai rhai, megys Hopkinson, mai y Pison oedd y Naharmalca, un o'r camlesydd celfyddydol a unai yr Euphrates a'r Tigris gynt. Ystyriai Grotius, o'r tu arall, mai yr afon hon oedd Gihon. Nid ydyw hyd yn oed yr esbonwyr hyny a gytunant i osod y baradwys ddaiarol ar lan Shat-el-Arab—yr afon a ffurfir trwy uniad y Tigris a'r Euphrates, rhwng Ctesiphon ac Apamea—yn unfryd eu barn yn nghylch at ba rai o geinciau yr afon

Digitized by Google

hon y dylid cymhwyso yr enwau Pison a Gihon. Calvin [*Comm. in Gen.*] oedd y cyntaf a dybiodd mai y fwyaf ddwyreiniol o'r ceinciau hyn oedd y Pison, ond dilynwyd ef gan Scaliger a rhai ereill. Tybiai Huet, o'r tu arall, mai y Pison ydoedd y fwyaf gorllewinol o'r ddwy gainc trwy ba rai y rhed dyfroedd unedig yr Euphrates a'r Tigris i'r Llynclyn Persiaidd. Cadarnhawyd ei farn gan Bochart. Canfyddodd Junius a Raskolion yr enw Pison yn y Pasitigris. Arweiniwyd amddiffynwyr y dybiaeth mai yn mynyddoedd Armenia y dylid chwilio am Eden, oddi wrth y tebygrwydd sydd rhwng y ddau enw, i haeru mai yr un ydyw y Pison a'r Phasis, yr hon a dardd yn ymyl troed Mynydd Ararat, yn agos i darddiadau y Tigris a'r Euphrates. Pleidir y dybiaeth hon gan Reland, Calmet, Link, Rosenmüller, a Hartmann. Ymdrechodd Raumer brofi mai y Pison ydoedd Phasis Xenophon, sef yr Aras neu Araxes, yr hon a red i'r Môr Caspiaidd. Tybiai Le Clerc [*Comm. in Gen.*] mai y Pison ydoedd y Chrysorrhoas, neu y Barada ddiweddar, yr hon a dardd ger llaw Damascus; a dadleuai Buttmann mai y Besynga neu yr Irabatti, afon yn Ava, ydoedd. Crybwylla Mendelssohn [*Comm. on Gen.*] y sicrheir gan rai mai y Pison ydoedd Gozan 2 *Bren.* xvii. 6, a 1 *Cron.* v. 26—yr un fel y tybir ag afon Kizil-Uzen, yn Hyrcania. Arweiniwyd y Milwriad Chesney, trwy ymchwiliadau manwl yn Armenia, i gasglu mai yr afonydd a adnabyddir wrth yr enwau diweddar Halys ac Araxes ydyw yr afonydd a elwir Pison a Gihon yn Llyfr Genesis; ac mai y wlad a amgylchir gan y flaenaf ydyw gwlad Hafilah; tra mai yr hon a amgylchir gan y ddiweddaf ydyw gwlad Cus.—[*Exp. to Euphr. and Tigris*, i. 267.]

Dyna, yn fyr, grynodeb o'r amrywiol dybiau a ddygwyd yn mlaen gan yr ysgrifenwyr a geisiasant benderfynu sefyllfa Eden. Nodir y rhan luosocaf o honynt gan un gwall cyffredin. Yn yr hanes a gawn yn Genesis, dysgrifir yr afon Pison fel yr un sydd yn amgylchu holl wlad Hafilah. Gan hyny, y mae yn anhebgorol angenrheidiol penderfynu sefyllfa Hafilah cyn myned yn mlaen i benderfynu pa afon ydyw y Pison. Ond y llwybr a ddilynwyd gan y rhan fwyaf o feirniaid ydoedd chwilio allan yn gyntaf am y Pison, ac yna edrych o gwmpas am wlad Hafilah. Dyma y dull chwithig hefyd a gymmerasant i drin yr holl bwnc. Nodent sefyllfa yr ardd i ddechreu, yna chwilient am afonydd, ac yn ddiweddaf am wledydd, i gyfateb yn ol eu tybiau hwy i'r dysgrifiad Ysgrythyrol.

Gyda'r fath wahaniaeth barnau mewn perthynas i'r afon Pison, o'r bron yr oedd yn bosibl i ysgrifenwyr ar y pwnc hwn fod yn unfryd yn eu dewisiad o wlad yn meddu neillduolion Hafilah. Yn *Gen.* ii. 11, 12, dysgrifir hi fel y wlad "lle y mae yr aur" i'w gael; ac heb law hyny, yr oedd yn gyfoethog o *b'dolach* (bdeliwm) a'r maen *shoham* (onix). Crybwyllir am wlad o'r un enw fel yn ffurfio un o gyffiniau hiliogaeth Ismael (*Gen.* xxv. 18), ac fel yr hon y bu Saul yn ymladd â'r Amaleciaid ynddi: 1 *Sam.* xv. 7. Yn yr adnodau hyn, ymddengys fod Hafilah yn dynodi y wlad ddiffaith i'r de-ddwyrain o Wlad Canaan. Ond dygwydd y gair hefyd fel enw priodol un o feibion Ioctan, mewn agos berthynas â Seba ac Ophir, y rhai hefyd oeddynt yn feibion Ioctan ac o hiliogaeth Sem (*Gen.* x. 29), a'r rhai a roddasant eu henwau i wlad perlysiau a gwlad aur y deheu. Eto, nodir Hafilah yn mhlith hiliogaeth Ham, fel un o feibion Cus; ac yn yr amgylchiad hwn, saif ei enw mewn perthynas agos â Seba, Sheba, a Dedan, sefydlwyr cyntaf tiriogaethau yn Ethiopia ac Arabia, a alwyd wedi hyny wrth eu henwau hwy. Gan hyny, os un o'r gwledydd hyn ydyw Hafilah yr ail bennod o Genesis, y mae yn rhaid i ni chwilio am dani i'r dwyrain neu y deheu o Arabia, ac nid yn mhell, y mae yn debygol, oddi wrth y Llynclyn Persiaidd. Y mae y wlad hon yn cyfateb mewn golygiadau ereill i'r dysgrifiad o Hafilah. Meddylia Bochart mai yr un a Chaula ydoedd, yr hon a safai ar du dwyreiniol y Llynclyn Arabaidd, ac yn yr hon y dywedai efe y preswyliai y Joctaniaid Semitaidd. Y mae yn amlwg oddi wrth y dysgrifiad fod yr enw yn deilliaw oddi wrth ryw neillduolrwydd naturiol. Pa beth bynag a all fod gwir ystyr y gair *b'dolach*—pa un ai carbwncl, grisial, bdeliwm, ebenus, pupyr, clows, beryl, perl, adamant, neu smaragdus—canfyddir ei bresennoldeb, dan y naill neu y llall o'r ffurfiau hyn, gan yr holl feirniaid, yn y wlad a ddetholir gan bob un o honynt fel yr un a gyfetyb oreu i'w gwahanol dybiau am y wlad a olygir. Ychydig iawn hefyd ydyw yr anhawsder sydd yn nglŷn â'r gair *shoham*: galwer ef yn onix, sardonyx, smaragdus, saphir, beryl, neu yn sardis, byddai yn syndod yn wir os nad ellid cael rhai o'r meini gwerthfawr hyn mewn unrhyw wlad y gellid ei henwi, pa mor annhebyg bynag fyddo. Mai Hafilah ydyw y rhan hono o India trwy ba un y rhed y Ganges, ac yn fwyaf cyffredinol y rhan ddwyreiniol o'r ddaiar; ei bod i'w chanfod yn Susiana (Hopkinson), yn Ava (Buttmann), neu tua'r Ural (Raumer), sydd gasgliadau yn dilyn o angenrheidrwydd oddi wrth y gwahanol opiniynau yn nghylch y Pison. Y mae Hartmann, Reland, a Rosemüller, yn fwy ffafriol i Colchis, golygfa y chwedl am y Cnu Euraidd. Dywedid fod y Phasis yn rhedeg dros dywod euraidd, ac y cludid aur i lawr gan ffrydiau y mynyddoedd [*Strabo*, xi. 2, adr. 19.] Yr oedd grisial (*b'dolach*) Scythia yn enwog [*Solinus*, c. xx.], ac yr oedd smaragdus (*shoham*) y wlad hon yn rhagori cymmaint ar smaragdus pob gwlad arall ag oedd o wahaniaeth rhwng y diweddaf a meini gwerthfawr ereill [*Plin. Nat. Hist.* xxxvii. 17]; ac y mae hyn oll, meddant hwy, yn profi mai Colchis ydyw Hafilah. Ymresyma Rosenmüller, *os* y Phasis ydyw y Pison, y mae yn *rhaid* mai Colchis ydyw gwlad Hafilah—a thybio fod gan yr Hebreaid ryw syniad oddi wrth y wlad hon am India Ogleddol. Felly Le Clerc, ar ol penderfynu yn gyntaf fod yn rhaid mai y Chrysorrhoas oedd y Pison, a genfydd Hafilah yn agos i Cœle Syria. Cymhara Hasse Hafilah âg Ὑλαία Herodotus [iv. 9], yn nghymmydogaeth yr Arimaspiaid a'r ddraig a warchodai wlad yr aur. Nid oes un sail i'r holl opiniynau hyn ond tybiaeth yn unig.

Nid yw yr anhawsderau sydd mewn cyssylltiad âg ail afon Paradwys yn ddim llai anhawdd eu hegluro. Dadleuai y rhai a haerent mai y Ganges ydoedd y Pison mai y Nilus hefyd ydoedd y Gihon. Dygwyd un wrthddadl yn mlaen eisoes yn erbyn y dybiaeth hon. Y mae un arall mor gref a hithau; sef, er fod cyfeiriadau mynych yn yr Hen Destament at yr afon hon, nid ymddengys yn un man ei bod yn adnabyddus i'r Hebreaid dan yr enw Gihon. Ymddengys mai yr hyn a gynnyrchodd y syniad hwn oedd gwaith y Deg a Thrigain yn cyfleithu y gair gwreiddiol שיחור yn Γηῶν yn *Ier.* ii. 18; ond y mae yn eglur oddi wrth y dull y mae y cyfleithwyr wedi geirio y rhan ddiweddaf o'r adnod nad oedd ganddynt un

Digitized by Google

drychfeddwl am y gwir ystyr. Yn mhlith ysgrifenwyr diweddar, amddiffynwyd y deongliad hwn gan Bertheau a Kalisch, yn unol â'r cgwyddor a fabwysiadwyd ganddynt; sef, fod y dysgrifiad o ardd Eden i'w egluro yn gyfatebol i'r syniadau hynaf am arwyneb y ddaiar, heb wneyd un cyfeiriad at y cynnydd a wnaethpwyd mewn gwybodaeth ddaiarol mewn oesoedd diweddarach. Os derbynir y golygiad hwn, y mae yn ddiammheu yr eglura rai o nodweddion yr hanes; ond yn lle symmud ymaith yr anhawsder, dwg i mewn anhawsder arall llawn mor ddyryslyd. Y mae hyd yn hyn heb ei brofi fod opiniynau yr Hebreaid ar y pwnc hwn mor groes i'r gwirionedd, gyda golwg ar berthynasau tir a dwfr, a syniadau cenedloedd ereill llawer diweddarach. Nid oes genym ddim yn bresennol ond haeriadau yn unig. Cofnodir chwedl, y mae yn wir, gan Pausanius [ii. 5], yr hon a ddywed fod yr Euphrates, ar ol diflanu mewn cors, yn tarddu drachefn tu hwnt i Ethiopia, ac yn rhedeg trwy yr Aipht dan yr enw Nilus. Adrodda Arrian [*Exp. Alex.*, vi. 1] ddarfod i Alexander, trwy weled crocodiliaid yn yr Indus, a ffa fel ffa yr Aipht ar lanau yr Acesines, dybio ei fod wedi darganfod tarddiad y Nilus; ond chwanega yr un awdwr, am yr hyn ni chrybwyllir gair gan y personau a ddyfynant yr ymadrodd uchod, bod Alexander, pan y cafodd wybodaeth fanylach, wedi ymwrthod â'i ddamcaniaeth, a galw yn ol lythyr a ysgrifenodd ar y pwnc at ei fam, Olympias.

Ymddengys fod gwraidd y gair (גיח=*ymruthro yn mlaen*) yn dynodi mai afon yn rhedeg yn gyflym a gorwyllt oedd Gihon. Yn ol tystiolaeth Golius [*Lex. Arab.*], *Jichoon* yw enw Arabaidd yr afon Oxus; ac o blegid hyn, haerai Rosenmüller, Hartmann, a Michaelis, mai hi ydoedd Gihon yr Ysgrythyr. Ond gelwir yr Araxes hefyd gan y Persiaid *Jichoon ar-Ras;* ac oddi wrth yr amgylchiad hwn, fe ddadleuai Reland, Calmet, a'r Milwriad Chesney, mai *hi* oedd Gihon. Y mae yn amlwg, gan hyny, nad ydyw y pwnc i'w benderfynu trwy eirdarddiad yn unig, gan y gellir cymhwyso yr enw gyda phriodoldeb at lawer o afonydd. Yr ydoedd yn hanfodol i'r ddamcaniaeth a osodai ardd Eden ar y Shat-el-Arab, mai y Gihon a ddylasai fod un o'r ceinciau trwy ba rai y rhed dyfroedd unedig y Tigris a'r Euphrates i'r Llynclyn Persiaidd. Dadleuai Bochart a Huet mai y fwyaf dwyreiniol o'r ceinciau hyn ydoedd; tra yr ystyriai Calvin mai hi oedd y fwyaf gorllewinol. Gorfodid Hopkinson a Junias, trwy ddychymygu mai yn ngwlad Auranitis yr oedd Eden, i wneyd i Gihon gyfateb i'r afon Naharsar. Mai hi a ddylasai fod yr Orontes (Le Clerc), y Ganges (Buttmann ac Ewald), y Kur, neu Cyrus, yr hon a dardd o 'ochr mynydd Saghanlou, ychydig filltiroedd i'r gogledd oddi wrth darddiad yr Araxes (Link), a gyfodai o angenrheidrwydd oddi wrth y gwahanol opiniynau am sefyllfa yr ardd. Y mae Rask a Verbrugge yn ffafriol i Gyndes yr hynafiaid [*Her.* i. 189], yr hon a elwir yn awr Diyàlah—un o'r afonydd a redant i'r Tigris. Barnai Abraham Peritsol [*Ugol.* cyf. vii.] mai yn nghymmydogaeth Mynyddoedd y Lleuad yr ydoedd gardd Eden. Gan ddyweyd mai y Nilus oedd Pison, ac mai y Niger—yn ol fel y dywed ei olygydd, Hyde—oedd Gihon, y mae yn gochel yr anhawsder a gyfyd oddi wrth y ffaith, mai afonydd yn Asia oedd yr Hidecel a'r P'rath, trwy dybio y gall fod yn bosibl fod yr afonydd hyn yn tarddu yn Mynyddoedd y Lleuad, a'u bod yn rhedeg dan y ddaiar hyd nes ymddangos yn Assyria. Cyffelyb hefyd ydyw esboniad Ephraem Syrus; sef, fod y pedair afon yn tarddu yn Mharadwys, yr hon a saif ar le uchel iawn, ond eu bod yn cael eu llyncu i fyny yn y cymmydogaethau cylchynol; ac ar ol teithio dan y moroedd, eu bod yn dyfod i oleuni eilwaith yn ngwahanol barthau y byd.

Oddi wrth ystyriaethau geirdarddol, tueddwyd Huet i ddodi Cus yn Chusistan (yr hon a elwir Cuthah yn 2 *Bren.* xvii. 24), Le Clerc yn Cassiotis yn Syria, a Reland yn y "*regio Cossaeorum.*" Dywedai Bochart mai Susiana ydoedd, Link mai y wlad o amgylch y Caucasus, a Hartmann mai Bactria neu Bálkh: gan hyny, sefyllfa Paradwys, yn ol y dybiaeth ddiweddaf, fyddai dyffryn enwog Kashmir. Cymhwysir y gair Cus yn gyffredin yn yr Hen Destament at y gwledydd oedd ar y tu deheuol i'r Israeliaid. Hi ydoedd terfyn deheuol yr Aipht (*Ezec.* xxix. 10); ac y mae yn debygol, y fwyaf gorllewinol o'r taleithiau yr ymestynai llywodraeth Ahasferus drostynt, "o India hyd Ethiopia," sef Cus (*Esther* i. 1; viii. 9). Yn y rhan luosocaf o'r manau y dygwydd y gair, crybwyllir yr un pryd am yr Aipht (*Salm* lxviii. 31; *Esa.* xviii. 1; *Ier.* xlvi. 9, &c.); ond mewn dau amgylchiad, y mae wedi ei gydgyfleu âg Elam (*Esa.* xi. 11), a Phersia (*Ezec.* xxxviii. 5). Gorchfygwyd y brenin Cusaidd Zerah yn Maresah gan Asa, ac erlidiwyd ef hyd Gerar—un o ddinasoedd y Philistiaid, ar gyffiniau deheuol Palestina, yr hon y mae yn debygol oedd dan ei lywodraeth (2 *Cron.* xiv. 9, &c.). Yn 2 *Cron.* xix. 16, dysgrifir yr Arabiaid fel yn preswylio "ger llaw yr Ethiopiaid," neu y Cusiaid; a chrybwyllir y naill a'r llall mewn cyssylltiad â'r Philistiaid. Gelwir gwraig Moses—yr hon, fel y deallwn oddi wrth *Exod.* ii, oedd ferch i dywysog Midianaidd, yn *Num.* xii. 1—yn Ethiopes. Yn mhellach, cyplysir Cus a Seba (*Esa.* xliii. 3), a Cus a'r Sabeaid (*Esa.* xlv. 14), mewn dull ag sydd yn gysson âg achyddiaeth hiliogaeth Ham (*Gen.* x. 7), yn yr hon y nodir Seba fel mab i Cus. Oddi wrth yr holl amgylchiadau hyn, y mae yn amlwg y cynnwysid Arabia, yn gystal a'r wlad i'r deheu o'r Aipht, ar arfordir gorllewinol y Môr Coch, dan yr enw Cus. Y mae yn bosibl hefyd fod y tiroedd diffaeth eang i'r gorllewin o'r Aipht yn adnabyddus i'r Hebreaid dan yr enw Gwlad Cus; ond nid oes genym un prawf pendant o hyn. Yn ngwyneb yr holl brofion hyn, mai yn y deheu yr oedd Cus, ar ba dir y cyfiawnheir gwaith Rosenmüller ac ereill yn cymhwyso y gair at wlad ogleddol ar lanau yr Oxus. Yn y chwedloniaeth Hindwaidd, gosodir sefyllfa gerddi a phrifddinas Indra o amgylch mynydd Méru, y pegwn nenawl gogleddol; credai y Babiloniaid a'r Persiaid Mediaidd fod mynydd y duwiau, Albordj, "mynydd y gynnulleidfa," yn "ystlysau y gogledd" (*Esa.* xiv. 13); ac y mae y traddodiadau Groegaidd hynaf yn pwyntio at y gogledd fel lle genedigaeth duwiau a dynion. Oddi wrth yr ystyriaethau hyn, tybir yn lled gyffredinol mai mewn rhyw wlad ogleddol bellenig y dylid chwilio am Baradwys yr Hebreaid. Ni phetrusodd Hasse, er boddhau ei deimlad cenedlaethol, i ddodi gardd Eden yn nghymmydogaeth y Baltic; dodwyd hi gan Rudbeck, Swediad, yn Scandinavia; ac y mae rhai wedi bod yn dweyd hyd yn oed mai yn Siberia yr ydoedd. Ond er cymmaint o bethau sydd yn ffafriol i'r dybiaeth mai yn y gogledd yr oedd gardd Eden, dodwyd gerddi yr Hesperides gan y Groegiaid yn eithaf y gorllewin.

Yn nghanol yr holl amrywiaeth opiniynau h


wrth yr hwn y gall ei bod wedi derbyn ei henw cyntaf. Gelwir parth o'r wlad hyd yn bresennol Esh-*Sherah*, a dywed rhai fod tebygolrwydd rhwng y gair hwn a *Seir*, ond nid oes un berthynas eirddarddol rhyngddynt. Yn *Gen*. xiv. 6 y ceir y crybwylliad cyntaf am Fynydd Seir, lle y dywedir fod Cedorlaomer a'i gynghreiriaid wedi gorchfygu "yr Horiaid yn eu mynydd Seir." Un o'r mathau cyntaf o breswylfeydd dynol oedd ogofäau—naill ai wedi eu ffurfio gan natur, neu ynte gan gelfyddyd; ac at y gwasanaeth hwn yr oedd mynyddoedd Edom yn dra chymhwys. Oddi wrth yr amgylchiad hwn y gelwid brodorion y wlad yn *Horiaid;* hyny ydyw, rhai yn preswylio mewn ogofäau. Hyd yn oed yn nyddiau Jerome, "yr ydoedd holl barth deheuol Idumea, o Leutheropolis i Petra ac Aila, yn llawn o ogofäau a ddefnyddid fel preswylfeydd, ar gyfrif gwres mawr yr haul" [Jerome ar *Obadiah, adn*. 1]; ac y mae lle i gredu mai mewn trigfanau cyffelyb y preswyliai trigolion y wlad yn mhob oes—olion llawer o ba rai sydd eto yn weledig yn ac o amgylch Petra, y brif ddinas enwog.

Dywedir wrthym yn *Deut*. ii. 12; "Yr Horiaid hefyd a breswyliasant yn Seir o'r blaen; a meibion Esau a ddaeth ar eu hol hwynt [ymyl y ddalen, 'a'i hetifeddasant'], ac a'u difethasant o'u blaen, a thrigasant yn eu lle hwynt, fel y gwnaeth Israel i wlad ei etifeddiaeth yntau, yr hon a roddes yr Arglwydd iddynt." Oddi wrth hyn, gellir casglu mai yn araf a graddol, megys y bwriwyd y Canaaneaid o'u gwlad gan yr Israeliaid, y bwriwyd ymaith yr Horiaid gan feibion Esau. Tybia rhai y cadarnheir y dybiaeth hon gan y daflen achyddol sydd yn *Gen*. xxxvi (cymharer 1 *Cron*. i), lle y cawn, heb law rhestr o dduciaid Edom, restr gyffelyb o dduciaid Seir. Pa fodd bynag am hyny, gallwn ddysgu hyn am gyfundrefn wleidyddol brodorion Seir oddi wrth y daflen hon eu bod, fel meibion Esau a'r Israeliaid, wedi eu dosbarthu yn llwythau, a bod y llwythau drachefn wedi eu his-ddosbarthu yn deuluoedd; a dyma y drefn sydd yn ffynu hyd yn bresennol yn mhlith yr Arabiaid, gan ba rai y poblogir Edom yn awr. Y mae pob llwyth yn meddu ei *alluf* (tywysog)—yr hwn air, yn anffodus, sydd wedi ei gyfieithu yn y Beibl Cymraeg, "duc." O'r tywysogion Horiaidd hyn, enwir *saith*, sef Lotan, Sobal, Sibeon, Anah, Dison, Eser, a Disan. Yr unig un o'r rhai hyn y sonir am dano fel yn perthyn i arall ydyw Anah, mab Sibeon. Dygir nodwedd fugeiliol y bobl hyn i'r golwg yn ddamweiniol trwy y cofnodiad o'r ffaith fod yr Anah hwn, er ei fod yn fab i dywysog, yn arfer gwylio asynod ei dad. Pan yr oedd wrth y gorchwyl hwn y darganfu efe yn yr anialwch *ethha-yemin*, yr hyn a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg, "y mulod;" ond a olyga, y mae yn debygol, "y ffynnonau poethion:" ac os ydyw hyn yn gywir, ymddengys mai awgrymiad ydyw yr adnod mai efe oedd y cyntaf i ddarganfod y gallu hwnw ag y mae asynod, ac anifeiliaid ereill, wedi eu cynysgaethu âg ef, i sawru lleithder yr awyr, a thrwy hyny i arwain at ddyfroedd dirgeledig yn yr anialwch. Y mae lle i'r de-ddwyrain o'r Môr Marw (yr hwn barth a ffurfiai ran o diriogaethau Mynydd Seir), sef Kallirhöe, ag sydd yn enwog yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid am ei faddonau cynhes, â'r hwn y bu amryw deithwyr pan yn y wlad hono yn ddiweddar yn ymweled [*Josephus, De Bell. Jud*., i. 33, 5; *Pliny's Hist. Nat*. v. 5. 17; *Legh's Travels*].

Priododd Esau i ddechreu i ddau deulu Canaaneaidd, o'r llwythau Hethiaidd a Hefiaidd (*Gen*. xxvi. 34; a xxxvi. 2; ond ymddengys, pa fodd bynag, fod y testyn wedi ei lygru yn y naill neu y llall o'r adnodau hyn); ond gan ei fod yn awyddus i ymgymmodi â'i rieni, priododd un o hiliogaeth Abraham drachefn, sef Mahalath, yr hon a elwid hefyd Basemath, merch Ismael, a chwaer Nabaioth—hiliogaeth pa un, y Nebaiothiaid, fel y mae yn rhyfedd, a ddaethant i feddiant o wlad Edom mewn amseroedd dilynol (*Gen*. xxviii. 9). Cyntafanedig Esau (o Adah neu Basemath, o ferched Heth) oedd Eliphaz; mab yr hwn, Teman, a roddodd ei enw i dalaeth o'r wlad (*Gen*. xxxvi. 11, 34; 1 *Cron*. i. 45; *Ezec*. xxv. 13; *Obad*. 9). Yr oedd y Temaniaid yn enwog am eu doethineb (*Ier*. xlix. 7, 20; *Baruch*. iii. 22, 23). Eliphaz arall, Temaniad, yw y prif siaradwr yn Llyfr Iob; ac arweiniwyd amryw gan yr amgylchiad hwn i ddodi golygfa yr hanes yn ngwlad Edom. Diogelwyd enw Teman hyd ddyddiau Eusebius yn yr enw Thaiman—tref fechan bum milltir Rhufeinig o Petra. Mab arall i'r Eliphaz a grybwyllwyd gyntaf oedd Amalec; ond dylid cofio, pa fodd bynag, mai nid efe ydoedd tad yr Amaleciaid, am y rhai y darllenwn mor fore ag oes Abraham: *Gen*. xiv. 7. Megys ag y canfyddir y Seikiaid Arabaidd diweddar yn fynych yn meddu dylanwad tu hwnt i'w tiriogaethau neillduol eu hunain, felly hefyd, nid oes genym, hwyrach, yn y rhestr sydd wedi ei diogelu gan Moses o Emiriaid Edom, ond enwau y rhai hyny yn unig ag yr oedd eu dylanwad yn cyrhaedd, i raddau mwy neu lai, dros yr holl lwythau. Ymddengys fod y ffurflywodraeth hon wedi cyfnewid yn raddol nes y daeth yn unbenaeth, megys ag y bu hefyd yn mysg yr Israeliaid; canys yn chwanegol at y rhestrau crybwylledig o dywysogion Horiaidd ac Esauaidd, y mae genym, yn *Gen* xxxvi. 31, restr o wyth o freninoedd (Bela, Iobab Husam, Hadad, Samlah, Saul, Baalhanan, a Hadar neu Hadad), y rhai "a deyrnasasant yn Ngwlad Edom cyn teyrnasu brenin ar feibion Israel." Nid ydyw yn angenrheidiol tybio bod hyn wedi ei ddywedyd gan Moses yn *brophwydoliaethol*. Un o'r adnodau ydyw y gall fod Ezra wedi eu dodi i mewn wrth gasglu yn nghyd lyfrau yr Hen Destament, yn gymmaint ag y dygwydd hefyd yn Llyfr Cyntaf y Cronicl, yr hwn a briodolir iddo ef. Nis gellir penderfynu pa bryd y cymmerodd y cyfnewidiad crybwylledig le yn ffurflywodraeth Idumea. Yn ngân Moses (*Exod*. xv. 15), dywedir bod dychryn wedi dal "duciaid Edom," pan y clywsant am fynediad buddugoliaethus yr Israeliaid drwy y Môr Coch; ond yn mhen tua deugain mlynedd ar ol hyny, pan yr oedd ar yr Israeliaid eisieu croesi Gwlad Edom, yr oedd yn rhaid iddynt ofyn caniatâd i'r brenin (Melec): *Num*. xx. 14. Enw y ffordd ar hyd pa un y dymunent gael teithio oedd "prif-ffordd y brenin" (*adn*. 17); yr hon, fel y tybia Robinson, oedd y Wady el-Ghuweir; canys dyma yr unig ddyffryn yn mron ar hyd yr hwn y gellir myned trwy y mynyddoedd hyny. Trwy gymharu yr amgylchiadau hyn, gellir casglu mai yn ystod ymdaith yr Israeliaid trwy yr anialwch y cymmerodd y cyfnewidiad le yn y ffurflywodraeth; os na thybiwn, gyda Rosenmüller, nad oedd ond y parth gogledd-ddwyreiniol hwn o Edom dan lywodraeth brenin, tra yr arosai y gweddill o'r wlad, megys gynt, dan lywyddiaeth duciaid neu dywysogion. Ond pa un bynag a oedd yr holl wlad ai peidio y pryd hyn yn ddarostyngedig i un penadur, fe allai na wnaed dim wrth

Digitized by Google

llyfrau y prophwydi yn erbyn "merch Edom;" *Salm* cxxxvii. 7—9; *Obad.* 1—21; *Ier.* xlix. 7; *Esec.* xxv a xxxv. Oddi wrth iaith Malachi (i. 2, 3), ac oddi wrth yr hyn a ddywed Josephus [*Hynaf.* x. 9. 7], y mae lle i feddwl na ddiangodd yr Edomiaid yn hollol oddi wrth effeithiau rhuthrgyrchol y Caldeaid; ond yn lle cael eu cymmeryd i gaethiwed, fel yr Iuddewon, gadawyd hwynt mewn meddiant, nid yn unig o'u tiriogaethau eu hunain, ond daethant yn feistriaid y parth deheuol o Iudah mor bell a Hebron: 1 *Macc.* v. 65; cymharer *Ezec.* xxxv. 10; xxxvi. 5. Yna, pa fodd bynag, yn mhen ysbaid o amser, ymosododd y Maccabeaid arnynt yn llwyddiannus; a thua 125 c.c. goresgynwyd hwynt yn llwyr gan John Hyrcanus, yr hwn a'u gorfododd i ymostwng i'r enwaediad, yn nghyd âg amryw ddefodau Iuddewig ereill, gyda'r amcan o'u corffoli yn un â'r genedl (1 *Macc.* v. 3, 65; 2 *Macc.* x. 16; xii. 32; *Hynaf. Joseph.*, xiii. 9 1; 15. 4). Ond ymddengys, pa fodd bynag, na chymmerodd uniad y ddwy genedl byth le, er y cyfan; canys darllenwn am un, Antipater, Edomiad o enedigaeth, yn cael ei wneyd yn Cæsar dirprwyol ar



Dar. 282.—Ceunant yn Idumea.

holl Iudea ar ol hyny; ac yr oedd ei fab, a elwir yn gyffredin Herod Fawr, ar adeg genedigaeth Crist, yn frenin Iudea, gan gynnwys Idumea; ac o blegid hyn y ceir fod ysgri enwyr Rhufeinig yn siarad yn fynych am Palestina dan yr enw hwnw [*Hynaf. Joseph.*, xiv. 1. 3; 8. 5; xv. 7. 9; xvii. 11. 4]. Ychydig cyn gwarchauad Ierusalem gan Titus, galwyd 20,000 o Idumeaid i mewn i'r ddinas i'w hamddiffyn gan y Zealotiaid; ond ymrodd y naill blaid a'r llall i anrhaith a llofruddiaeth [*Joseph.*, *De Bell. Iudd.*, iv. 4. 5; 6. 1; vii. 8. 1]. Hwn ydyw y cryhwylliad diweddaf a geir am yr Edomiaid mewn hanesyddiaeth. Dywed awdwr gwaith ar Iob, a briodolid unwaith i Origen, bod eu hiaith a'u henw wedi darfod, a'u bod oll wedi troi yn Arabiaid, megys yr Amoriaid a'r Moabiaid. Yn yr ail ganrif, cyfyngai Ptolemy yr enw Idumea i'r wlad i'r gorllewin o'r Iorddonen.

Ond tra—yn ystod caethiwed yr Iuddewon yn Babilon—yr eangai yr Edomiaid, fel y crybwyllwyd, derfynau eu tiriogaethau i'r gogledd-orllewin, meddiannwyd y parth deheuol o'u gwlad gan y Nebaiothiaid, hiliogaeth mab hynaf Ismael. Gan hyny, cyfeiriwn y darllenydd am y gweddill o hanes Edom at y gair Nebaioth.

O amser y Croesgadau hyd y ganrif bresennol, yr oedd gwlad Esau yn hollol anadnabyddus i Ewropiaid. Gosodid ei sefyllfa ar y mapiau goreu dros gan milltir o'r lle priodol, ac megys yn gorwedd mewn cyfeiriad ag y gwyddys yn awr nad oes yno ddim ond anialwch eang. Y teithiwr diweddar cyntaf a fu drwy wlad Edom oedd Burckhardt, yn y flwyddyn 1812, yr hwn a wnaeth ddarganfyddiadau pwysig yno. Aeth i mewn i'r wlad o'r tu gogleddol; ac yn y flwyddyn 1818, dilynwyd ef yn yr un cyfeiriad gan Legh, Bankes, Irby, a Mangles. Yn 1828, darganfyddodd Laborde a Linant fynedfa iddi o'r tu deheuol; ac er y pryd hyny, y mae cymmaint wedi bod yn ymweled â hi, ac wedi ei dysgrifio, fel y mae enwau ei lleoedd yn eiriau cynnefin.

Terfyn crwydriadau yr Israeliaid yn yr anialwch oedd afon Zared, ar ol croesi yr hon y cawsant eu hunain yn nhir Moab: *Deut.* ii. 13—18. Tybir mai yr un ydyw yr afon hon a Wady-el-Ahsy, yr hon a dardd yn agos i Gastell el-Ahsy, ar y ffordd i Mecca trwy yr anialwch uchel dwyreiniol, ac a dreiddia trwy yr holl gyfres o fynyddoedd yn mron hyd gongl de-ddwyreiniol y Môr Marw. Fel hyn, yr afon hon oedd terfyn deheuol Moab a therfyn gogleddol Edom, o ba le yr ymestynai y wlad ddiweddaf i'r deheu mor bell ag Elath, ar y Môr Coch. Y mae y dyffryn sydd rhwng y ddau fôr yn cynnwys yn gyntaf El-Ghor, yr hwn sydd braidd yn isel, ond cyfyd yn raddol nes cyrhaedd gwastadedd uwch El-Arabah, ar y tu deheu. Y wlad a orwedd ar y tu *dwyreiniol* i'r dyffryn mawr hwn ydyw Idumea. Gwlad fynyddig ydyw, yn gynnwysedig tua'r gwaelodion o fryniau isel o geryg calch neu greigiau cleilyd, yna mynyddoedd uchel o feini myldardd (*porphyry*); uwch law y rhai hyn, haenau toredig ac afreolaidd o dywodfaen; ac yn uwch na'r cwbl, trumau uchel hir on o geryg calch heb glogwyni. Ar y tu dwyreiniol i'r rhai hyn oll, ymestyna gwastattir uchel yr anialwch dwyreiniol mawr yn mlaen yn ddiderfyn. Mesurodd Robinson a Smith uchder y clogwyni myldardd, a chafodd eu bod tua 2000 o droedfeddi yn uwch na'r Arabah; y mae y Wady Mûsa yn uwch hefyd na'r Arabah hwyrach 2000 neu 2200 o droedfeddi, tra y cyrhaedd y trumau ceryg calch, y mae yn debyg, i'r uchder o 3000 o droedfeddi. Nid yw holl led y wlad rhwng yr Arabah a'r anialwch dwyreiniol yn mesur dros bymtheng neu ugain o filltiroedd daiaryddol. O'r holl fynyddoedd, yr hynotaf ydyw Mynydd Hor, yn agos i'r Wady Mûsa. [Gwel Hor, Mynydd.] Er fod y mynyddoedd ar y tu gorllewinol i'r Arabah yn hollol ddiffrwyth, ymddengys fod mynyddoedd Idumea yn mwynhau gwlaw, a gorchuddir hwyn gan ychydig o lysiau a choed achlysurol. Mae yn y dyffrynoedd (*wadys*) hefyd goed, prysgwydd, a blodau, tra yr amaethir y parthau dwyreiniol ac uchel, ac y ceir cnydau o honynt. Y mae y wlad fynyddig hon wedi ei dosbarthu yn awr yn ddwy dalaeth. Enw yr ogleddol yw *Jebâl*, hyny yw, "Y Mynydd;" sef Gebal yr Hebreaid (*Salm* lxxxiii. 7), a Gebalene y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Gan ddechreu yn Wady el-Ahsy, terfyna, yn ol Burckhardt, yn y Wady el-Ghuweir. Y lle mwyaf ynddi ydyw Tufileh—yr un lle y

Digitized by Google

hwy ond dechreuad eu cosp. Ni gawn anghreifftiau o edifeirwch efengylaidd yn y rhai oll sydd wedi eu hargyhoeddi o bechod, ac yn troi at yr Arglwydd trwy ymddiried yn ei drugaredd. Y mae edifeirwch hefyd yn cael ei ddeall weithiau mewn ystyr culach, ac weithiau mewn ystyr eangach. Defnyddir ef weithiau gan Calvin yn gyfystyr âg ailenedigaeth a gwir ddychweliad. Ei ddarnodiad o hono sydd fel hyn:—"Gwir ddychweliad at Dduw yn tarddu oddi ar ofn didwyll a gwirioneddol, ac yn gynnwysedig mewn marweiddiad y cnawd, a chroeshoeliad yr hen ddyn, ac adnewyddiad yr Ysbryd." Drachefn, "Mewn gair, gan hyny, wrth edifeirwch yr wyf yn deall ailenedigaeth—unig amcan yr hyn yw ein ffurfio o newydd ar ddelw Duw, yr hon a anurddwyd ac o'r bron a gwbl gollwyd trwy drosedd Adda." "Nid ydwyf heb ddeall fod y gair *edifeirwch* yn cynnwys holl ddychweliad pechadur at Dduw, o'r hyn nid y rhan leiaf ydyw ffydd." Er fod edifeirwch yn cael ei ddefnyddio ganddo yn yr ystyr eang hwn fel ag i gynnwys ffydd, eto y mae yn ei ddefnyddio mewn ystyr culach, fel yn wahaniaethol oddi wrth ffydd; ac yn yr ystyr hwn i'r gair, y mae yn ofalus i beidio cynnwys ffydd dan edifeirwch, ac yn dweyd fod y rhai sydd yn cynnwys ffydd dan edifeirwch yn anghysson â'r hyn a ddywedir gan Paul am ei waith yn "tystiolaethu.....yr edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist;" *Act*. xx. 21. Yma, y mae yn enwi ffydd ac edifeirwch fel dau beth gwahanol. Pa beth, gan hyny, A ddichon i wir edifeirwch fod heb ffydd? Na ddichon, mewn un modd. Ond er nas gellir eu gwahanu, dylid eu gwahaniaethu. Fel nad oes ffydd heb obaith, ac eto y mae ffydd a gobaith yn wahanol; felly edifeirwch a ffydd, y maent i'w huno â'u gilydd, ond nid i'w cymmysgu."

Y mae Calvin yn gosod allan ffydd ac edifeirwch (*fides et resipiscentia*) fel elfenau gwir ddychweliad; felly hefyd y mae y Lutheriaid; ond y mae Calvin yn rhoi ffydd o flaen edifeirwch; a'r Lutheriaid, yn y gwrthwyneb, yn rhoddi edifeirwch yn gyntaf. Y mae y gwahaniaeth yn ymddangos i'r ddwy ochr yn un pwysig. Dywed Calvin, "y dylai fod uwch law dadl, nid yn unig fod edifeirwch bob amser yn dilyn ffydd, ond hefyd ei fod yn effaith ffydd." Drachefn, "Y mae y rhai sydd yn meddwl fod edifeirwch yn blaenori yn lle bod yn tarddu o ffydd, heb ddeall ei natur, ac yn mabwysiadu y cyfryw syniad ar seiliau annigonol." Er mwyn egluro ei olygiadau ei hun yn mhellach, fe ddywed, "Nid ydym, wrth briodoli dechreuad edifeirwch i ffydd yn breuddwydio am ryw amser pan y mae ffydd i roddi dechreuad gweithredol iddo; y cyfan a ewyllysiwn ddangos ydyw, nas gall dyn edifarhau yn wirioneddol oddi eithr ei fod yn gwybod ei fod o Dduw. Ond nid oes neb yn gwybod ei fod o Dduw oddi eithr ei fod wedi derbyn ei heddwch." I'r gwrthwyneb, dywed y Lutheriaid mai effaith goruchwyliaeth y ddeddf ar y gydwybod yn ein dwyn i deimlo ei manylder a'i hysbrydolrwydd, ac erchylldra pechod yn ei gwyneb, a'n sefyllfa ein hunain fel rhai euog a chondemniedig, ydyw edifeirwch (*contritio*). Eto, addefant hwythau nad ydyw edifeirwch yn dristwch duwiol nes y byddo yn dybenu mewn ffydd. Ymddengys y gwahaniaeth, gan hyny, yn wahaniaeth mewn geiriau i fesur mawr. Addefa y ddau fod yn rhaid i bechadur deimlo ei angen yn ngwyneb y ddeddf, a bod yn rhaid iddo hefyd gredu yn Nghrist fel Ceidwad; ond priodolir y gair edifeirwch gan y Lutheriaid i'r teimlad o euogrwydd a'r ofn sydd yn canlyn hyny; tra na chaniata Calvin fod pechadur yn brofiadol o wir edifeirwch nes iddo ymddiried yn nhrugaredd Duw yn Nghrist. Y mae yn wir fod yr ymofyniad yn un pwysig, yn mha ystyr y defnyddir y gair yn yr Ysgrythyrau; ac yr ydym wedi cynnorthwyo y darllenydd i wneuthur hyn yn yr erthygl hon.

Y mae Calvin yn gwneuthur hanfod edifeirwch yn gynnwysedig mewn marweiddiad pechod a bywiocâd yr ysbryd; ond y mae Gerhard [iii. s. 211.], duwinydd Lutheraidd, yn eu gwneuthur yn *ffrwythau* edifeirwch, ac yn chwanegu "fod ffydd yn rhagflaenu *metanoia*, mewn trefn, yn y rhai sydd wedi eu haileni a'u cyfiawnhau, y rhai sydd yn cael eu cymhell trwy wir ffydd i ddiosg yr hen ddyn a'i farweiddio. Ond yn y rhai sydd yn cael eu galw i ymadael â'u ffyrdd drygionus am y waith gyntaf, y mae y drefn ganlynol yn cael ei dilyn: sef, eu bod yn cael eu dychryn yn gyntaf trwy daranau y ddeddf cyn cael eu codi trwy lais yr efengyl." Y mae y Pabyddion yn gosod ffydd o flaen edifeirwch, ond nid ydynt hwy yn deall ond yr ystyr mwyaf cyffredinol am grediniaeth yn Nuw, ac yn yr ystyr hwn, rhaid i bawb weled mai effaith ffydd ydyw edifeirwch. Fel hyn y dywed Melanchthon yn yr *Apology*. "Pan y mae ein gwrthwynebwyr (sef y Pabyddion) yn llefaru am ffydd, ac yn dyweyd fod ffydd yn rhagflaenu edifeirwch, nid ydynt hwy yn deall ffydd sydd yn cyfiawnhau, ond yn hytrach y ffydd sydd yn credu fod Duw, a'i fod yn cospi yr annuwiol. Ond heb law y ffydd hono, yr ydym ni yn dal fod ffydd neillduol, sef yr hon sydd yn credu fod ein pechodau wedi eu maddeu. Ac am hon yr ydym yn dyweyd ei bod hi yn dilyn dychrynfeydd y gydwybod yn y fath fodd fel y mae hi yn eu gorchfygu ac yn adferu heddwch i'r gydwybod." Ni ddywedai Calvin ddim yn erbyn hyn ond yn unig mai nid priodol ydyw galw dychrynfeydd cydwybod yn edifeirwch yn ystyr Ysgrythyrol y gair, a dyweyd fod edifeirwch, hyny yw, gwir edifeirwch, yn rhagflaenu ffydd, yn lle ei dilyn. Gwelir fod y Lutheriaid yn deall fod edifeirwch yn rhagflaenu ffydd a chyfiawnhad, ac yn gynnwysedig mewn dychryn cydwybod, yr hyn a weithir gan Ysbryd Duw trwy y ddeddf, ac mai *ffrwythau* gwir edifeirwch ydyw marweiddiad a bywiocâd. Ar y llaw arall, y mae Calviniaid yn edrych ar yr hyder (*fiducia*), neu y sicrwydd, y mae y Lutheriaid yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyfiawnhad, yn ffrwyth ffydd, ac nid ei hanfod. Y mae duwinyddion diweddar wedi defnyddio gwahanol eiriau Lladin am edifeirwch, fel y rhai mwyaf cymhwys i'w gwahanol olygiadau, sef, *contritio*, *resipiscentia*, *pœnitentia*. Ac y mae rhai yn dosbarthu edifeirwch dan y pedwar pen canlynol:—1. Argyhoeddiad y gydwybod trwy y ddeddf; yr hyn a ddichon fod heb ffydd. Y mae hyn i'w wahaniaethu oddi wrth edifeirwch efengylaidd, yn yr hwn y mae y pechadur yn derbyn Crist fel Ceidwad; ac yn yr ystyr hwn y mae edifeirwch a ffydd yn anwahanol, ac yn myned law yn llaw â'u gilydd, ac yn cyfansoddi gwir ddychweliad. 2. Defnyddir edifeirwch yn gyfystyr â dychweliad (*conversio*), ac yn gynnwysedig, fel y dywedir, yn y frawddeg flaenorol, yn gyntaf mewn edifeirwch yn ystyr cyfyngaf y gair, sef adnabyddiaeth o'n pechod, cydnabyddiaeth o gyfiawn farn Duw yn ei erbyn, galaru o'i herwydd, a chasineb tuag ato; ac yn ail, ffydd, trwy yr hon y mae y pechadur yn derbyn Crist, a maddeuant trwyddo.

Digitized by Google

Stoddard, o Northampton; yr hon oedd mor nodedig am ei galluoedd meddyliol a'i rhinweddau ag ydoedd ar gyfrif ei harddwch a'i glendid personol. Bu i'r pâr urddasol hwn un ar ddeg o blant—deg o ferched ac un mab—a Jonathan, yr unig fab, oedd y pummed plentyn yn y teulu. Ac yn niffyg bod un ysgol gyfleus yr hoffai ei rieni ei anfon i gael addysg ynddi, efe a dderbyniodd ei addysg foreuol dan ofal ei dad - yr hwn oedd yn enwog ar gyfrif ei ddysgeidiaeth. Efe a ddechreuodd ddysgu y Lladin pan nad ydoedd ond tua chwe blwydd oed, ac y mae ei safle uchel fel ysgolhaig ar ei fynediad i'r coleg (Medi, 1716), pan nad oedd eto yn dair biwydd ar ddeg oed, yn gystal a'i wybodaeth drylawn o'r Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg, yn ol llaw, yn brawf o'i ddiwydrwydd a'i lwyddiant dan addysgiaeth ei dad.

Nid oedd Coleg Yale y pryd hwn ond sefydliad lled newydd, a llawer o amgylchiadau lled annedwydd mewn cyssylltiad ag ef, yr hyn ydoedd yn anfantais fawr i'r efrydwyr. Wedi treulio ei amser fel efrydydd yn y coleg, a chymmeryd ei radd gyntaf, efe a dderbyniodd alwad i fod yn weinidog i gynnulleidfa fechan o Henaduriaethwyr yn New York, ac a aeth i'r ddinas hono yn nechreu Awst, 1722, ac a fu yno yn gweinidogaethu gyda chymmeradwyaeth mawr am tuag wyth mis. Ymddengys iddo fod yn ddedwydd a defnyddiol iawn yn ystod y misoedd uchod, am fod cydnawsedd neillduol rhwng llawer o bobl ei ofal ag ef, ac mai rhwygiad chwerw i deimladau y ddwy blaid oedd ymadael â'u gilydd. Ymadawodd o New York Ebrill 26ain, a chyrhaeddodd dŷ ei dad Mai 1af, 1723. Yn mis Medi, yn yr un flwyddyn, efe a aeth i New Haven, ac wedi ei raddio yn A.C. gan Goleg Yale, etholwyd ef i fod yn athraw ynddo; ond gan nad oedd y lle iddo fel athraw yn y coleg y pryd hwnw yn hollol barod, efe a dreuliodd y gauaf a'r gwanwyn canlynol yn New Haven, gan ddilyn ei efrydiau; ac yn nechreu Mehefin, 1724, efe a ddechreuodd ar ei swydd fel athraw yn Ngholeg Yale. Ond nid arosodd efe yn y swydd hon ond am tua dwy flynedd, canys derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys a'r gynnulleidfa yn Northampton i fod yn gydweinidog â'i daid, y Parch. S. Stoddard; ac ar y 15fed o Chwefror, 1727, sefydlwyd ef yn nghylch ei weinidogaeth newydd, i gydlafurio â'i daid. Yr oedd efe yn awr yn 23 mlwydd oed, a'i gyfansoddiad yn naturiol mor dyner a gwanaidd fel yr oedd yn rhaid arfer y gofal mwyaf dibaid am dano i'w gadw mewn iechyd canolig. Ond yr oedd ei ymddygiad llariaidd, gostyngedig, a duwiolfrydig, yn wastadol trwy ei holl faboed a'i ieuenctid, wedi sicrhau iddo barch uchel a chymmeradwyaeth pawb a'i hadwaenai. Yr oedd ei ufudd-dod a'i barch gwastadol i'w rieni, a'i serch a'i anwyldeb at ei chwiorydd, wedi ei osod fel canolbwnc hoffder yr holl deulu. Anfynych y gwelwyd un mor ieuanc yn gwisgo crefydd mor amlwg, ymarferol, a hollol ag ef. Yr oedd wedi ymroddi at ddarllen ac efrydiaeth o'i fabandod; ac fel yr ymddengys, wedi ffurfio yr ymarferiad o astudio gyda'r dyfalwch a'r ymroddiad mwyaf. Yr oedd ei feddwl, yr hwn yn naturiol oedd o alluoedd anghyffredin, ac yn dirfawr sychedu am wybodaeth, wedi ei gyfaddasu at gyrhaedd enwogrwydd, nid mewn rhyw un cylch yn unig, ond yn mha gylch bynag mewn llenyddiaeth neu wyddor y buasai yn troi ynddo. Er, fel yr ymddengys, ei fod yr ieuengaf yn ei ddosbarth yn y coleg, eto yr oedd yn sefyll y blaenaf yn eu plith, nid yn unig yn ei wybodaeth o'r ieithoedd, ond hefyd yn neillduol yn yr efrydiau hyny ag oeddynt yn gofyn galluoedd uchaf y meddwl i'w deall; megys meintoniaeth, anianeg, athroniaeth, a duwinyddiaeth. Yr ydoedd wedi gosod ei feddwl ar weinidogaeth yr efengyl, ac wedi cymmeryd duwinyddiaeth yn awr yn brif bwnc ei efrydiau er ys blyneddoedd. Yr oedd yn awr yn gyfoethog o ran ei gyrhaeddiadau, ei olygiadau ar bethau yn eang a chynnwysfawr, a'i alluoedd meddyliol grymus dan y ddysgyblaeth oreu. Nid yn fynych y gwelwyd yr un gweinidog ieuanc yn dechreu ar ei weinidogaeth yn meddu teimladau mwy efengylaidd, golygiadau mwy cywir ar ei swydd bwysig, a chymhwysderau mwy cyfaddas i'w chyflawnu. Yr oedd Northampton hefyd, y lle yr ymsefydlodd ynddo, yn sefyllfa hyfryd a manteisiol, ac yntau yn gydnabyddus â'r lle a'r bobl o'i febyd. Ac y mae yn debygol hefyd ei fod yntau yr hwn a hoffai ei daid fwyaf o bawb ereill i fod yn gydweinidog ac olynydd iddo yn y lle, yr hwn oedd yn awr yn ei 84 mlwydd o'i oedran, ac yn y 55 mlwydd o'i weinidogaeth. Ac yma, yn Northampton, y bu Mr. Edwards yn gweinidogaethu am ychydig yn rhagor na thair ar ugain o flyneddoedd.

Bendithiwyd ei lafur â llwyddiant mawr, yn enwedig yn y flwyddyn 1735, pan dorodd allan y diwygiad mawr, pryd yr oedd Ysbryd yr Arglwydd wedi ei dywallt mor helaeth fel nad oedd braidd un person, mewn oedran a synwyr, trwy yr holl dref, heb deimlo yr effeithiau; yn gystal a lluaws o drigolion y gwledydd a'r trefi cymmydogaethol. Ond er fod gweinidogaeth rymus Edwards wedi bod yn foddion i ddychwelyd miloedd at yr Arglwydd, ac i lawenychu calonau lluaws o saint y Goruchaf yn Northampton; ac er fod lluaws yn ei barchu â'u holl galon gyda'r ymlyniad serchus hwnw ag y mae teimlad o gariad at rinwedd, a theimlad o ddyledswydd yn ei greu; ac er fe allai nad oedd un gydwybod yn y lle yn gallu ammheu nad dyn Duw ydoedd; eto o herwydd ei onestrwydd, ei sel danbaid dros burdeb crefydd, a'i wroldeb anhyblyg dros y gwirionedd, efe a gafodd dywydd chwerw iawn i fyned trwyddo. Fe achlysurwyd y profedigaethau tanllyd, y rhai a gyfarfu â Mr. Edwards yn Northampton, gan ddau beth yn neillduol. Yn un peth, nis gallasai oddef anfoesoldeb a llygredigaeth rhai o'r aelodau heb sylw a dysgyblaeth yr eglwys arnynt. A'r peth arall oedd, ei olygiad na ddylasai neb ond y rhai y byddai arwyddion gobeithiol eu bod yn wir Gristionogion fod yn gyfranogion o Swper yr Arglwydd. Yn groes i olygiad a'r arferiad yn eglwysi cyntefig Lloegr Newydd, yr oedd Mr. Stoddard, rhagflaenydd Mr. Edwards, wedi newid ei farn, ac yn hòni y dylid edrych ar yr ordinhad fel moddion gras cyffredin, i'w harfer er dychwelyd pechaduriaid; ac felly fod pawb yn ddiwahân yn ddeiliaid addas i gyfranogi o honi. Ac yn unol â'r dyb hon yr oedd yr arferiad yn yr eglwys yn Northampton er ys rhagor nag ugain mlynedd cyn dyfod Mr. Edwards yno. Yr oedd y peth yn ammheus yn ei feddwl ef ar y cyntaf; ond bu yn cyd-ddwyn â'r arferiad am flyneddoedd cyn i'w argyhoeddiad o'i annhriodoldeb a'i ddrygedd fyned mor ddwfn fel ag i'w wrthwynebu. Ond yn 1749, daeth allan yn benderfynol yn erbyn yr arferiad; yr hyn a roddodd dramgwydd dirfawr, nid yn unig i'r eglwys, ond hefyd i'r holl dref yn gyffredinol. Ac mewn canlyniad, ar ol llawer o ddadwrdd annymunol, mewn pwyllgor eglwysig, yr hwn a

mhlith prif feistriaid y meddwl dynol. Fel Paul yn Athen, y mae efe trwy ddyfnder a gwreiddiolrwydd ei syniadau wedi gorfodi hyd yn oed i'r Stoiciaid a'r Epicuriaid wrandaw arno." Canys cydnabyddir nerthoedd dirfawr ei alluoedd, nid yn unig gan dduwinyddion Cristionogol, megys Robert Hall a Chalmers, ond hyd yn oed gan yr athronwyr blaenaf; megys Hume, Mackintosh, a Dugald Steward. Eto ni bu un duwinydd yn yr oesoedd diweddar, yr hwn yr oedd ei olygiadau duwinyddol yn fwy iawngred ac Ysgrythyrol, ei dduwioldeb yn fwy dwfn a diffuant, na neb mwy ymroddol i gynnal i fyny egnïon ymarferol crefydd ysbrydol. Ni wyddys yn sicr ddyddiad ei ddychweliad at Dduw. Pan nad oedd ond pur ieuanc, wyth neu naw mlwydd oed, bu adfywiad grymus ar grefydd yn nghynnulleidfa ei dad, pryd y deffrowyd ef i ryw bryder yn nghylch achos ei enaid; yn gymmaint felly ag i beri iddo ef a dau fachgen arall gyfodi iddynt eu hunain fath o gaban bychan mewn lle dirgelaidd yn yr anialwch, i fyned o'r neilldu i weddïo. Ond ymddengys iddo golli y teimladau ieuengaidd hyny yn llwyr, a syrthio eilwaith i sefyllfa o hollol ddifaterwch am bethau crefydd. Pan yn y coleg, fel y tybir, y teimlodd ef gyntaf waith gras mewn gwirionedd ar ei ysbryd. Dyma ei dystiolaeth ef ei hun ar y mater:—"Yr anghraifft gyntaf wyf yn gofio o'r fath hyny o bleser mewnol a dirgelaidd yn Nuw a phethau dwyfol ag wyf wedi bod yn byw llawer ynddynt ar ol hyny, oedd wrth ddarllen y geiriau hyny yn 1 *Tim*. i. 17; 'Ac i'r Brenin tragwyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth, y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. Amen.' Fel yr oeddwn yn darllen y geiriau hyn, daeth teimlad o ogoniant y Bod dwyfol i'm henaid, nes yr oedd megys yn treiddio trwyddo deimlad newydd, hollol wahanol i ddim erioed a deimlaswn o'r blaen. Yr oeddwn yn meddwl wrthyf fy hun, y fath Fod ardderchog oedd, ac mor ddedwydd y byddwn pe gallwn fwynhau y Duw hwnw—bod wedi fy newid i'w ddelw yn y nefoedd, a bod megys wedi fy llyncu i fyny ynddo am byth! Yr oeddwn yn parhau i adrodd, ac megys i ganu geiriau yr Ysgrythyr hon drosodd i mi fy hun, ac aethum i weddïo ar Dduw ar fod i mi gael ei fwynhau ef; a gweddïais mewn modd hollol wahanol i'r hyn a arferwn wneyd, a chyda serchiadau hollol newydd: o blegid o ddeutu yr amser hwnw y dechreuais gael amgyffredion a meddylddrychau newyddion am Grist, gwaith y prynedigaeth, a ffordd ogoneddus iachawdwriaeth trwyddo ef. Yr oedd teimlad mewnol dedwydd o'r pethau hyn yn dyfod ar brydiau i'm calon, a dygid fy enaid ymaith mewn myfyrdodau hyfrydol am dano." Ymddengys yn amlwg oddi wrth hyn mai nid ei yru, ond mai ei dynu i deyrnas gras yr efengyl a gafodd Edwards; ac fel yr oedd efe wedi hyny yn hynod ar gyfrif ei alluoedd meddyliol, yn gystal a'i ddyfalwch a'i egni difwlch yn eu rhoddi mewn gweithrediad; felly hefyd, anfynych y ceir neb yn mhlith Cristionogion yn teimlo dylanwad hawddgarwch a chariad Crist yn eu cymhell mor nerthol a gwastadol ag yr oedd ar ei feddwl ef; canys yr oedd tynerwch ei galon a gwres ei serchiadau crefyddol braidd yn fwy amlwg na threiddgarwch a gafaelgarwch ei alluoedd meddyliol. A thra y mae doethion y byd yn barod i dalu gwarogaeth iddo fel un o'r rhai blaenaf yn mhlith yr athronwyr diweddar, a'r duwinyddion yn barod i'w ystyried fel tywysog yn eu plith, nid peth bychan ydyw y gellir dyweyd am dano ei fod yn un o'r Cristionogion mwyaf llariaidd a gostyngedig a addurnodd y ddeunawfed ganrif. Ond wrth ddyweyd hyn am dano, nid ydys yn meddwl awgrymu fod yr holl rasau Cristionogol wedi eu dadblygu yn berffaith yn ei nodweddiad moesol. Yn nodweddiad y Gwaredwr yn unig y cafwyd hyny yn y byd hwn. Ond eto yr oedd prif linellau nodwedd moesol Edwards mor neillduol o amlwg a phenodol a llinellau ei nodwedd meddyliol; ac fel yr oedd yn naturiol dysgwyl, yr oedd llawer o gyferbyniad rhyngddynt a'u gilydd hefyd. Un linell nodedig yn ei nodwedd foesol ef oedd ei ymestyniad parhaus, a'i benderfyniad i gyflawnu beth bynag a ystyriai efe yn ddyledswydd. Yr oedd hyn yn nodweddu holl weithrediadau ei fywyd. Wedi iddo unwaith wneyd ei feddwl i fyny beth oedd ei ddyledswydd ar unrhyw amgylchiad, nid oedd dim a'i tarfai rhag ymosod ar ei chyflawnu.

Y mae hanes ei holl fywyd yn eglurhad ymarferol ar hyn, ac yn neillduol amryw o'i benderfyniadau, y rhai yr oedd efe wedi tynghedu ei hun hyd yr oedd ynddo i'w cadw. Yr ydoedd y penderfyniadau hyn o ddeg a thrigain i bedwar ugain o rifedi, a byddai yn eu darllen drosodd bob wythnos, mewn trefn i gadarnhau y cyfammod âg ef ei hun i'w cadw. Llinell nodedig arall yn ei nodwedd foesol ef oedd *cydwybodolrwydd;* â'r hwn y byddai yn ymchwilio i seiliau dyledswydd, ac yn dadansoddi y cymhellion, y rhai a fyddent yn argymhell y cyflawniad o honi. Nid digon ganddo ef oedd *teimlo* bod peth yn ddyledswydd, ond yr oedd yn rhaid iddo gael *gweled* neu ddeall hefyd pa fodd yr ydoedd hyny yn bod—byddai yn rhaid iddo ef gael rhesymu y peth yn deg allan. A'r un modd wrth gyflawnu dyledswydd—nid oedd y cyflawniad o'r peth yn unig yn ddigon ganddo ef, heb chwilio allan hefyd natur y cymhelliadau i hyny. Yr ydoedd gofal Edwards i chwilio allan beth ydoedd yn ddyledswydd, a'i fanylwch i chwilio allan i natur y cymhellion hyny a fyddent yn argymhell i'w chyflawnu, mor nodedig a'i benderfyniad diysgog i gyflawnu yr hyn a ystyriai yn ddyledswydd. I arfer un o ymadroddion grymus a phrydferth John Howe, gellir dyweyd am dano—"Ni chyffroai efe byth nes yn gyntaf y byddai y rheswm manylaf wedi bod yn chwilio i mewn i'r mater, a chyhoeddi y pwnc yn un cyfiawn a rhesymol." A phryd bynag y byddai wedi cyflawnu unrhyw orchwyl pwysig, ni orphwysai efe heb gael disgyn i lawr megys i waelodion peirianwaith yr enaid, a rhoddi ei alluoedd darddansoddol grymus i chwilio i ddyfnderoedd y cymhelliadau y rhai a'i hargymhellasai ef i'w chyflawnu. Mewn gair, wedi llwyr argyhoeddi meddwl mawr ac ymchwilgar Edwards fod peth yn ddyledswydd, efe a'i cyflawnai beth bynag a fyddai y draul a'r anhawsder o hyny iddo. Ac wedi cyflawnu dyledswydd o ran y llythyren, mynai wybod a fyddai y cyflawniad yn iawn yn ol yr ysbryd hefyd. Llinell nodedig arall yn nodwedd y dyn rhyfedd hwn ydoedd ei feistrolaeth berffaith ar ei nwydau. Yr oedd hyn i'w briodoli, mae yn wir, i ryw raddau i arucheledd ei alluoedd meddyliol, ond yn benaf y mae yn ddiau i ddyfnder a grym ei dduwiolfrydedd. Am nwydau ei natur anifeilaidd, ymddengys ei fod yn feistr mor berffaith arnynt fel mai prin y byddent yn meiddio anufuddhau. Gallai fod ucheledd ei alluoedd meddyliol yn ddigon i roddi cyfrif i raddau am hyn. Ond am ei feistrolaeth ryfeddol ar ei

Digitized by Google

nwydau ereill, y rhai ydynt yn fwy dirgelaidd ac yn fwy o elynion ysbrydol, megys balchder, hunanolrwydd, llid, digofaint, &c., y rhai sydd yn llechu yn nghelloedd dyfnaf ein natur, gellir dywedyd am yr ysbrydion aflan hyn nas gellir eu bwrw allan ond trwy "ympryd a gweddi." Mewn trefn i'w darostwng mor llwyr ag y gwelir eu bod yn Edwards, rhaid ei fod yn nodedig am ei wyliadwriaeth ar ei ysbryd, a'i agosrwydd at Dduw. Y mae yr arafwch a'r feistrolaeth hon ar ei nwydau yn ymddangos yn ei holl ysgrifeniadau dadleuol mewn modd neillduol, canys y mae yn ymestyn trwy gadwen o resymeg i gyrhaedd beth ydyw y gwir mor araf, pwyllog, a phenderfynol, fel pe buasai ei holl natur wedi ei ffurfio o ddealltwriaeth yn unig, heb un dafn o nwyd yn perthyn iddi. Fe allai y gellir sylwi yma fod y feistrolaeth oedd gan Jonathan Edwards ar ei nwydau naturiol wedi ei dwyn yn mlaen i ormodedd, a'i chario mor bell fel ag i anurddo y dyn o ran ei gyflawniadau i ryw raddau. Y mae darostwng y teimladau hyn yn ormodol yn sicr o wneyd eu heffaith i ymddangos megys pe byddai yn oer a diserch o ran ei foes a'i ymddygiad at ereill, a pheri i'w gyflawniadau llenyddol, os bydd ganddo rai, i fod yn llai ystwyth, bywiog, a chynhes. Mae hyn i'w ganfod yn amlwg yn ysgrifeniadau meistrolaidd Edwards, wrth eu cymharu â rhai o gyfansoddiadau ysblenydd John Howe neu John Milton. Gwyddai pawb a adwaenai Edwards ei fod yn llawn o'r teimladau mwyaf dyngarol, hynaws, a charedig—uwch law y cyffredin; eto, cymmaint oedd ei arglwyddiaeth ar ei nwydau, mewn arafwch, tawedogrwydd, ac ymbwylledd, nes y buasai un dyeithr iddo mewn perygl o ffurfio cam farn hollol am dano.

Os oedd ei nwydau naturiol ef yn gaeth, nid yn fynych y gwelwyd y nwydau neu y serchiadau crefyddol mor fywiog a chryfion ag ynddo ef. Os gellir dywedyd fod dyn ffaeledig erioed yn caru Duw â'i holl galon; ac os gellir dywedyd fod un dyn erioed wedi cyflwyno ei hun mewn gostyngeiddrwydd, hunan-ffieiddiad, ac ymaberthiad hollol ger bron Duw, gellir dywedyd hyny am Jonathan Edwards. Canys pan y mae yn ysgrifenu am Dduw—ei fawredd, ei ogoniant, ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd—yn nghyd â rhwymedigaeth dyn i'w garu a'i wasanaethu, y mae yn ymgynhesu, yn ymloewi, ac yn ymdoddi gyda'i bwnc. Y mae ei arddull yn hollol arbenig pan yn ysgrifenu am Dduw, a'i nwyd a'i deimladau angerddol dan ei lywodraeth, a gloewder teilwng a chyfartal i'w alluoedd goruchel ereill. Yr oedd ei ostyngeiddrwydd yn amlwg yn ei holl ymarweddiad. Mae gwylder yn peri i lawer un ymddwyn yn weddaidd; ond am dano ef, yr oedd yn wastad yn cadw ei olwg ar yr ardderchogrwydd Anfeidrol, heb gofio dim am ei alluoedd ei hun, nes teimlo fel plentyn yn ngŵydd Duw a dynion. Y mae braidd yr holl enwogion yn ngwahanol gangenau gwybodaeth a chelfyddyd yn hynod o herwydd rhyw un dalent, neu ryw un gallu meddyliol fyddo ganddynt. Pa fodd bynag y rhoddir cyfrif am hyn, nis gellir gwadu y ffaith. Anfynych, ie anfynych iawn, y cyfarfyddir â neb sydd yn rhagori mewn un gangen o wybodaeth, a pherffaith gydraddolrwydd rhwng ei holl alluoedd meddyliol a'u gilydd. Y mae gan un alluoedd mwy cyrhaeddgar at un peth, a'r llall alluoedd mwy cyrhaeddgar at beth arall. Ac felly y mae un yn gallu rhagori yn y peth hyn, a'r llall yn y peth arall; yr hyn sydd yn arddangos mawr ddaioni a doethineb y Creawdwr yn cyfranu ei ddoniau: canys y mae hyn yn fath o raniad llafur, yr hyn sydd yn anhebgorol mewn trefn i gyrhaedd cynnydd a gwelliant mawr mewn unrhyw beth; o blegid rhaid casglu holl rym y galluoedd yn nghyd megys i'r un pwnc cyn y gellir gwneyd ymchwiliad trylwyr i un gangen o wybodaeth. Ac anghraifft nodedig o hyn sydd i'w chael yn Jonathan Edwards; canys y mae y dadblygiad mwyaf rhyfeddol o un gallu meddyliol neillduol i'w gael ynddo—gallu sydd yn dirfawr ragori cymmaint ar ei alluoedd ereill fel y gellid braidd ar ryw olwg ddyweyd mai un gallu oedd yn ei feddiant. Ac ni raid myned yn mhell i ymofyn pa allu oedd hwnw; canys y mae yn argraffedig ar bob rhan o'i ysgrifeniadau, sef ei *allu rhesymiadol.* Fe allai mai nid gormod dywedyd y meddiannai y gallu hwn i raddau mor uchel, os nad yn uwch, na neb adnabyddus a fu o'i flaen ef yn y byd trwy yr oesoedd. Ac yn y golwg yma arno, fe allai fod yr hyn a ddywedai y diweddar Robert Hall am dano yn eithaf cywir; sef, mai efe "oedd y mwyaf o feibion dynion." Ond pan yr ydys yn sylwi fel hyn, nid ydys yn awgrymu nad oedd yn perthyn i Mr. Edwards alluoedd ereill heb law y rhai rhesymiadol, a hyny i raddau helaeth; ond eu bod yn cael eu taflu i'r cysgod mewn rhan fawr gan y galluoedd mwy rhagorol hyn. Wrth y galluoedd rhesymiadol hyn, yr ydys i ddeall y galluoedd i dynu casgliad neu gasgliadau cyfreithlawn oddi wrth gynseiliau. Dylid sylwi yma, nad oes a fyno y gweithrediad rhesymegol, ynddo ei hun, ddim mewn ystyr briodol â pha un ai gwir ai gau fydd cynseiliau y rhesymeg; ond gofalu fod y casgliad neu y casgliadau yn cyfodi yn naturiol a theg oddi wrthynt. A mwy na hyny, y mae yn eithaf posibl i'r rhesymeg fod yn hollol gadarn a difwlch, pan na byddo y cynseiliau yn gywir; ond pan fyddo yr anffawd hono yn dygwydd, pa mor gywir a grymus bynag a fyddo, fe fydd y casgliad neu y casgliadau yn rhwym o fod yn anghywir. Ac y mae chwilio i mewn i natur y cynseiliau, a'u cadarnhau, a rhesymu yn deg a chadarn fel ag i dynu y casgliad neu y casgliadau cywir oddi wrthynt, yn ddau beth hollol ar wahân oddi wrth eu gilydd; ac nid ydyw yn canlyn mewn un modd fod yr hwn sydd yn rhagori yn y naill yn rhwym o ragori yn y llall hefyd. Y mae yn wir fod y galluoedd meddyliol angenrheidiol i'r naill a'r llall yn cyfarfod yn y cyffredin i ryw raddau yn yr un person, ond nid yn yr un cyfartaledd. A phan y mae yn eithaf amlwg fod galluoedd Edwards yn fwy grymus at resymu y gwirionedd allan oddi wrth y cynseiliau, nag i brofi a chadarnhau y cynseiliau eu hunain, peth dedwyddol iawn ydoedd iddo ddewis pynciau i'w alluoedd nerthol i weithredu arnynt yn benaf nad oedd y perygl lleiaf i gamgymmeryd yn eu cylch; ac unwaith y caffai ef y cynseiliau yn safadwy, nid oedd un perygl am ei resymeg ef yn yr oruwchadeiladaeth. Am y galluoedd ereill perthynol i feddwl anghyffredin Edwards, fel yr awgrymwyd yn barod, nid oeddynt yn gallu ymddangos yn fanteisiol o herwydd gorucheledd ei alluoedd rhesymegol. A thrwy fod y cyfryw allu wedi cymmeryd y llywodraeth mor lwyr ar orsedd ei feddwl, nid ydyw yn debygol fod y lleill wedi cael fawr o chwareu teg i ennill nerth ac ymagor i fod yr hyn a fuasent pe heb hyny. Ofer ydyw chwilio cyfansoddiadau Edwards, gan ddysgwyl i'r meddwl gael ei gynhyrfu ynddynt gan y mawreddog, ei ddifyru gan y ffraethebol, na'i swyno gan y barddonol; canys

Digitized by Google

Y mae yr *ufudd-dod* y mae yr efengyl yn ei ofyn oddi wrth y rhai oll y mae ei chenadwri yn dyfod atynt yn ddeublyg. 1. Yr ufudd-dod y mae hi yn ei ofyn *mewn trefn* i ddyfod yn gyfranog o'i bendithion. Y mae hwn yn cael ei grynhoi i'r ddwy ddyledswydd fawr o edifarhau a chredu yr efengyl (*Marc* i. 15)—y mae yn cael ei symio i fyny yn yr "edifeirwch sydd tuag at Dduw, a'r ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist;" *Act.* xx. 21. 2. Yr ufudd-dod y mae hi yn ei ofyn *mewn canlyniad* i ddyfod yn gyfranog o'i bendithion. Gellir cynnwys y rhan hon, fe allai, yn y pethau canlynol:—(1.) Proffes gyhoeddus o Grist a'i grefydd. Y mae yr ufudd-dod i gymmeryd y ffurf o broffes; a'r broffes yn cynnwys ymarferiad cysson a difrifol â holl ordinhadau addoliad Duw dan yr efengyl. (2.) Y dyledswyddau ysbrydol tuag at Dduw, y rhai sydd yn cyfateb i orchymynion y llech gyntaf o'r gyfraith. (3.) Y dyledswyddau cyffredinol neu allanol tuag at ddynion, y rhai sydd yn cyfateb i orchymynion yr ail lech o'r gyfraith. (4.) Dyledswyddau Cristionogion tuag at eu gilydd, yn eu ffurf gorfforedig, neu yn eu hystâd eglwysig o dan yr efengyl: *Heb.* xii. 13—17.

Fel hyn y mae gras Duw yn yr efengyl i gynnyrchu ufudd-dod efengylaidd. Gweithrediad cyntaf yr ufudd-dod hwn ydyw dwyn ei berchen i dderbyn, credu, a phroffesu yr efengyl; wedi hyny, y mae yr ufudd-dod yn amlygu ei hunan mewn ymddygiadau addas i'r efengyl, yn tori allan i bob ymarferiadau duwiol, ac yn ymganghenu i holl ddyledswyddau y fuchedd Gristionogol: *Tit.* ii. 11—14.

I grynhoi y golygiadau uchod—mae yr efengyl yn wynebu ar y byd fel cyhoeddiad awdurdodol o orsedd Duw, fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi ei wneyd gan Dduw yn bob peth er iachawdwriaeth pechadur, "yn ddoethineb, yn gyfiawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth" (1 *Cor.* i. 30); o ganlyniad, ei fod yn Waredwr addas a digonol i'r penaf o bechaduriaid, a bod iachawdwriaeth gyflawn a thragwyddol yn cael ei chynnyg i bwy bynag a gredo ynddo. Tystiolaeth Duw am ei Fab ydyw—tystiolaeth yn yr hon y mae dwyfol awdurdod a graslonrwydd yn ymgyfarfod - fod bywyd tragwyddol i bechadur yn Mab Duw; a bod y bywyd hwn yn cael ei dderbyn trwy gredu y dystiolaeth ac ymddiried yn ei gwrthddrych mawr—"y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab. A hon yw y dystiolaeth; roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol: a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef. Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo; a'r hwn nid yw ganddo Fab Duw, nid oes ganddo fywyd;" 1 *Ioan.* v. 10—12. Y mae credu y dystiolaeth hon drachefn, o du y pechadur, yn cynnyrchu cyfnewidiad hollol, nid yn unig yn ei gyflwr ger bron Duw, ond hefyd yn ansawdd ei galon tuag at Dduw: y mae yn cynnyrchu cariad ac ufudd-dod, ymestyniad at sancteiddrwydd, ac ymgyssegriad i wasanaethu Duw: *Col.* iii. 1—5; *Gal.* ii. 19, 20.

Y mae mater neu sylwedd cenadwri yr efengyl yn cael ei grynhoi yn fynych yn y Testament Newydd i gylch bychan. Y mae ein Iachawdwr, yn ei ymddyddan â Nicodemus, yn rhoddi y crynodeb canlynol o'r efengyl:—"Ac megys y dyrchafodd Moses y sarff yn y diffaethwch, felly y mae yn rhaid dyrchafu Mab y dyn; fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol. Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol;" *Ioan* iii. 14—16. Y mae yr apostol Paul amryw weithiau yn rhoddi crynodeb o genadwri yr efengyl, megys yn y rhanau canlynol:—"Hefyd, yr ydwyf yn hysbysu i chwi, frodyr, yr efengyl a bregethais i chwi......trwy yr hon y'ch cedwir hefyd......farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr Ysgrythyrau; a'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ol yr Ysgrythyrau;" 1 *Cor.* xv. 1—5. "Bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau......Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef;" 2 *Cor.* v. 19, 21. "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; o ba rai, penaf ydwyf fi;" 1 *Tim.* i. 15. Y mae Ioan yn rhoddi crynodeb o genadwri yr efengyl yn y geiriau canlynol:—"A hon yw y dystiolaeth; roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol: a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef;" 1 *Ioan* v. 11.

TREFN YR EFENGYL.

Nid yw yr efengyl mewn un modd yn dirymu y ddeddf, ond yn ei chadarnhau: "Wrth hyny" (sef trwy y drefn o gyfiawnhad trwy ffydd yn unig) "a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na ato Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf;" *Rhuf.* iii. 31. Mor bell o fod yr efengyl yn dirymu y ddeddf, fel ag mai y drefn a ddadguddir ynddi hi ydyw yr arddangosiad penaf a wnaed erioed yn llywodraeth Duw o fawrhydi ac anghyfnewidioldeb y ddeddf, a'r atteg cryfaf sydd yn bosibl i deyrnasiad ei hegwyddorion. Mae trefn yr efengyl yn ei hegwyddorion cyntaf yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o hawliau tragwyddol deddf Duw, ac yn ei holl ddarpariadau grasol y mae yn rhagdybied gafaelion digyfnewid y ddeddf yn y creadur a'i troseddodd. Cydnabyddiaeth o hawliau cyfiawn y ddeddf ydyw y syniad yn mha un y mae trefn yr efengyl yn gwreiddio—y syniad oddi wrth ba un y mae yn cychwyn allan gyntaf. Heb hyn, buasai holl ddarpariaeth yr efengyl, nid yn unig yn ddiystyr, ond yn anmhosibl. Ac heb law fod trefn yr efengyl yn ei syniad cyntaf oll fel hyn yn rhagdybied hawliau y ddeddf, trwy y cyfarfyddiad llwyraf â'r hawliau hyny y gweithiwyd allan y drefn ei hunan gan y Cyfryngwr. "Efe a fawrhaodd y gyfraith ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus" trwy roddi ufudd-dod perffaith i'w holl ofynion yn ei fywyd, a thrwy ddyoddef yn llwyr ei holl felldithion yn ei ddyoddefaint a'i angeu—yr ufudd-dod a'r aberth hwn yn cyfansoddi un cyfiawnder cyflawn i bechadur, trwy yr hwn, pan yr ymeifl ynddo mewn ffydd, y mae yn cael ei ryddhau yn gyfreithlawn oddi wrth felldith y ddeddf, ac yn derbyn hawl i fywyd tragwyddol, perffaith gysson âg anrhydedd a holl iawnderau y ddeddf. Ië, y cyfryw ydyw buddugoliaeth doethineb Duw ar ddichellion y diafol —y cyfryw ydyw y modd ag y mae gras yn "rhagor-amlhau" ar bechod yn yr iachawdwriaeth—fel y mae annhraethol fwy o anrhydedd yn cael ei osod ar y gyfraith, attegion cryfach yn cael eu ffurfio i sancteiddrwydd ac iawn drefn yn y llywodraeth ddwyfol, a mwy o ogoniant yn deilliaw i enw Duw, trwy ufudd-dod ac aberth yr Arglwydd Iesu Grist, na phe buasai dyn, ar un llaw, wedi ufuddhau yn berffaith i holl ofynion y ddeddf, neu ynte, ar y llaw arall, yn dyoddef ei melldithion yn uffern dros byth! Y mae yr efengyl yn cadarnhau y ddeddf drachefn yn



Digitized by Google

nghymhwysiad y drefn hon at gyflwr y pechadur, a'r holl effeithiau a ganlynant hyny. Y mae y cymhwysiad hwn o honi yn gynnwysedig mewn symmud melldith y ddeddf oddi arno, ac ar yr un pryd dodi egwyddor y ddeddf ynddo:—ei symmud oddi arno fel ammod bywyd, ond yn unig i'r dyben o'i rhoddi ynddo yn fwy effeithiol fel egwyddor o fywyd, a cher ei fron fel rheol bywyd. Dyben eithaf yr holl drefn ogoneddus ydyw adferu dyn i berffaith a thragwyddol gydymffurfiad â deddf Duw.

Fel hyn, nis gall athrawiaeth gras Duw yn yr efengyl byth arwain i benrhyddid. Y mae y cyfryw gyhuddiad yn gabldraeth ar ddwyfol ddoethineb. Y mae "mawr amryw ddoethineb Duw" yn dysgleirio yn y drefn hon, yn mhlith pethau ereill, yn ei chyfaddasrwydd perffaith i egwyddorion a chyfansoddiad meddwl dyn. Y mae y drefn hon yn diogelu sancteiddrwydd, fel y mae yn ddadguddiad o gariad yn gystal ag yn ddadguddiad o burdeb. Dirgelwch mawr ei dylanwad, o ran ei chyfaddasrwydd mewnol, ydyw ei bod yn ddadguddiad o anfeidrol gariad Duw yn Nghrist tuag at y byd. Y mae y cariad hwn, y fynyd y dirnedir ef yn grediniol gan feddwl y pechadur, yn rhwym, oddi ar egwyddorion ei natur ef ei hunan, o ladd ei elyniaeth ac o'i ennill yntau i garu Duw yn ol; ac wedi i'r galon fel hyn gael ei dwyn o dan lywodraeth cariad at Dduw, y mae wedi ei dwyn ar unwaith o dan lywodraeth egwyddor fawr sancteiddrwydd. O blegid cariad at Dduw yw hanfod sancteiddrwydd: cariad ydyw y *bywyd*, ac ufudddod ydyw *ffurf* y bywyd hwnw: a "chyflawnder y gyfraith yw cariad." Ond y mae yr efengyl yn ddadguddiad o gyfiawnder a sancteiddrwydd Duw yn gystal ag o'i gariad. Marwolaeth Crist ydyw yr arddangosiad mwyaf a wnaed erioed neu a wneir byth, o bosibl, o ddrwg pechod; yma y mae y casineb mwyaf o eiddo Duw at bechod yn cael ei amlygu ar unwaith a'r cariad mwyaf at y pechadur; ac y mae cymundeb crediniol â'r arddangosiad mawr hwn o sancteiddrwydd Duw yn angeu y groes yn newid yr enaid "i'r unrhyw ddelw." Fel hyn, trefn gras Duw yn yr efengyl ydyw atteg gryfaf sancteiddrwydd yr ymherodraeth ddwyfol.

Y mae braidd bob cyfeiliornad mewn athrawiaeth yn cyfodi oddi ar olygiadau unochrog ar yr efengyl. Y mae un golygiad arni yn ei gwneuthur yn amlygiad o gariad yn unig, heb gyfiawnder; un arall yn tueddu i ddangos cyfiawnder ar draul cymylu cariad. Y mae un blaid, wrth gyfyngu eu sylw yn hollol at athrawiaeth gras a phenarglwyddiaeth Duw, yn colli golwg ar gyfrifoldeb a dyledswydd dyn; a'r blaid arall, wrth edrych yn unig ar berthynas yr efengyl â dyn, yn colli golwg ar ei gwreiddiau tragwyddol, ei nerth, a'i sicrwydd, yn ngras a bwriadau a chyfammod Duw. Y mae edrych yn unig ar yr ochr ddwyfol i'r drefn yn arwain i Antinomiaeth; tra y mae edrych yn unig ar yr ochr ddynol ar y llaw arall yn arwain i Arminiaeth eithafol. Yr hyn sydd yn cael ei anghofio gan y naill blaid a'r llall ydyw—fod gwahanol ochrau i'r gwirionedd dwyfol—fod yr efengyl yn cynnwys gwirioneddau gwrthgyferbyniol, y rhai er y gallant ymddangos i'n golwg anmherffaith ni yn anghysson â'u gilydd, ydynt er hyny yn cydsefyll mewn tragwyddol gyssondeb a gogoniant yn Nghrist, canolbwynt mawr yr efengyl. Y mae pob gwirionedd i'w dderbyn a'i gredu ar ei dystiolaeth annibynol ei hunan fel rhan o'r dadguddiad dwyfol; ac nid ar yr ammod i ni allu ei wasgu i mewn i gyfundraethau bychain dynion, a'i ddirdynu i ymddangosiad arwynebol o gyssondeb â gwirioneddau ereill.

FFURF YR EFENGYL.

I. *Y ffurf ysgrifenedig.*

1. Y mae yr efengyl, o ran ei ffurf, yn golygu yn yr ystyr cyfyngaf, *yr hanes ysgrifenedig am fywyd ein Harglwydd Iesu Grist*, fel y mae wedi ei groniclo gan y pedwar efengylwr. Yn yr ystyr yma y dywedir, "Dechreu *efengyl* Iesu Grist;" *Marc* i. 1. Fel hyn y galwai yr eglwys gyntefig y pedwar hanes wrth yr enw *evangelium*—"Yr efengyl." Gwel EFENGYLAU.

2. *Yr holl ddadguddiad dwyfol*, fel y mae yn ddadguddiad o drefn iachawdwriaeth, ac yn cynnwys hanes ei dadblygiad graddol i'r byd, mewn gwahanol oesoedd, trwy wahanol ffurfiau, a than wahanol oruchwyliaethau. Fel hyn y mae llyfrau yr Hen Destament yn cynnwys hanes dadblygiad graddol yr efengyl i'r Eglwys Iuddewig, trwy addewidion, cysgodau, a phrophwydoliaethau—gyda goleuni cynnyddol o oesoedd boreuaf y byd hyd ymddangosiad y Messiah. Mae llyfrau y Testament Newydd drachefn yn cynnwys hanes cyflawniad gweithredol gwaith y prynedigaeth gan Grist, yn nghyd â'i ddysgeidiaeth ef a'i apostolion o berthynas i athrawiaethau a dyledswyddau Cristionogaeth; ac yn olaf, darluniadau prophwydoliaethol o helyntion yr Eglwys Gristionogol hyd ddiwedd amser.

II. *Y ffurf lafaredig.* Wrth yr efengyl yn y ffurf yma yr ydys yn golygu *gweinidogaeth yr efengyl*, neu y cyhoeddiad o'r iachawdwriaeth a ddadguddir yn ngair Duw, *trwy bregethu.* Y mae gweinidogaeth yr efengyl yn swydd ordeiniedig gan Grist, pen yr eglwys, ac i barhau yn yr eglwys hyd ddiwedd amser: *Mat.* xxviii. 19, 20; *Marc* xvi. 15, 16, 20; *Rhuf.* xi. 13. Y mae y weinidogaeth hon, neu y pregethiad o'r efengyl, y prif foddion, o drefniad dwyfol, i ddychwelyd pechaduriaid at Dduw, ac i adeiladu y saint mewn gras a sancteiddrwydd, ac felly i ddwyn yn mlaen amcanion mawr teyrnas yr Arglwydd Iesu ar y ddaiar: 1 *Cor.* i. 18, 21, 23, 24; ix. 18; 2 *Cor.* ii. 14—17; iii a iv; *Eph.* iv. 11, 12, 13; 1 *Tim.* iii. 1; 2 *Tim.* i. 8, 11; iv. 1, 2; *Titus* i. 3.

Y mae yr enwau mwyaf gogoneddus yn cael eu rhoddi yn y Beibl ar yr efengyl a'i gweinidogaeth. Y mae pob un o'r enwau canlynol, fel y gwelir, yn gosod allan ryw ansawdd amlwg a berthyn iddi:—"efengyl y tangnefedd" (*Eph.* vi. 15); "efengyl Duw" (*Rhuf.* i. 1; 1 *Thes.* ii. 8: 1 *Pedr* iv. 17); "efengyl Iesu Grist" (*Rhuf.* i. 9, 16; 2 *Cor.* ii. 12; 1 *Thes.* iii. 2); "efengyl gras Duw" (*Act.* xx. 24); "efengyl y deyrnas" (*Mat.* xxiv. 14); "efengyl iachawdwriaeth" (*Eph.* i. 13); "efengyl gogoniant (ogoneddus) Crist" (2 *Cor.* iv. 4); "pregethu Iesu Grist" (*Rhuf.* xvi. 25); "dirgelwch Crist" (*Eph.* iii. 4); "dirgelwch yr efengyl" (*Eph.* vi. 19); "gair Duw" (1 *Thes.* ii. 13); "gair Crist" (*Col.* iii. 16); "gair ei ras" (*Act.* xiv. 3; xx. 32); "gair iachawdwriaeth" (*Act.* xiii. 26); "gair y cymmod" (2 *Cor.* v. 19); "gair y gwirionedd" (*Eph.* i. 13; 2 *Cor.* vi. 7); "gair y ffydd" (*Rhuf.* x. 8); "gair y bywyd" (*Phil.* ii. 16); "gweinidogaeth yr Ysbryd" (2 *Cor.* iii. 8); "gweinidogaeth cyfiawnder" (2 *Cor.* iii. 9); "yr athrawiaeth yn ol duwioldeb" (1 *Tim.* vi. 3); "ffurf yr ymadroddion iachus" (2 *Tim.* i. 13).

Gan mai yr efengyl ydyw y dadguddiad mwyaf a wnaed erioed o Dduw, y mae ymddygiadau

Digitized by Google

dynion tuag at yr efengyl yn dyfod i fod y prawf egluraf o ansawdd eu calonau tuag at Dduw; ac o blegid hyn, yr efengyl, gyda golwg ar bawb y daw ei chenadwri atynt, fydd rheol fawr y farn ddiweddaf: *Rhuf.* ii. 16; *Ioan* iii. 19.

**EFENGYLAU, YR.** Wrth "yr efengylau" yr ydys yn deall yr hanes ysgrifenedig am fywyd a gweithredoedd ein Hiachawdwr, o'i enedigaeth hyd y dydd y derbyniwyd ef i fyny i'r nef (*Act.* i. 2), fel y mae y cyfryw wedi eu croniclo dan ddwyfol arweiniad ac ysbrydoliaeth gan y pedwar efengylwr—Matthew, Marc, Luc, ac Ioan. Yn unol â hyn y mae Marc yn galw ei hanes yn efengyl: "Dechreu *efengyl* Iesu Grist, Fab Duw;" *Marc* i. 1. Y mae pwysigrwydd y lle y mae yr efengylau yn ei ddal yn y dadguddiad dwyfol, yn cyfateb i bwysigrwydd y lle sydd i'r ffeithiau a gofnodir ynddynt yn nghyfundrefn Cristionogaeth. Megys ag mai Mab Duw, yn ei berson a'i waith fel Cyfryngwr, yw canolbwynt yr efengyl, felly yr hanes am dano fel y cyfryw sydd yn ffurfio canolbwynt y dadguddiad dwyfol. O'r canolbwynt hwn, fel haul, y mae goleuni yn cael ei daflu yn ol ac yn mlaen. Y mae y pelydrau sydd wedi eu gwasgaru trwy yr Hen Destament yn y ffurf o addewidion, cysgodau, a phrophwydoliaethau, i gyd yn cyfeirio ato, ac yn ymgrynhoi ynddo, o blegid yn yr hanes am Grist y maent oll yn derbyn eu harwyddocâd a'u cyflawniad; ac o'r hanes dwyfol hwn drachefn y mae yr un pelydrau yn ymwasgaru yn oleuni a bywyd i'r Eglwys Gristionogol o'r oes apostolaidd hyd ddiwedd amser. Y mae yr hanes am Grist hefyd nid yn unig yn taflu goleuni ar bob rhan o'r dadguddiad dwyfol, ond yn esboniad, a'r unig esboniad, ar hanes y byd, ac ar ystyr a dyben yr oruchwyliaeth ddwyfol tuag ato, o'i ddechreu i'w ddiwedd. Ymddangosiad Mab Duw yn y cnawd ydyw y ffaith fawr sydd yn ganolbwynt i hanes y ddynoliaeth, ac sydd ar unwaith yn rhanu oes y byd i ddau gyfnod; sef y cyfnod *o flaen*, a'r cyfnod *ar ol*, ymddangosiad Gwaredwr dynion ar y ddaiar—fel nad ydyw y cyfnodau amseryddol mewn hanesyddiaeth, a adnabyddir wrth yr arwyddion c. c. ac o. c., yn rhaniadau celfyddydol neu fympwyol, ond yn seiliedig ar egwyddor ddwfn o wirionedd. Yn ngoleuni hanes bywyd y Gwaredwr, canfyddir nad ydoedd holl hanes blaenorol ein byd ond cyfres o oruchwyliaethau, yn y rhai yr oedd Rhagluniaeth yn cydweithredu â'r Iachawdwriaeth, gyda'r amcan o barotoi y ffordd i "oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd," yn yr hon yr oedd Ceidwad dyn i ymddangos. Ac yn ngoleuni yr un hanes drachefn, y gwelir nad yw yr holl gyfnod dilynol i'w ymddangosiad ond graddol ddadblygiad effeithiau y gwaith a wnaeth efe ar y ddaiar, yr hwn a ddygir yn mlaen hyd ei berffeithiad yn niwedd amser.

Y mae Cristionogaeth, o ran y prawf hanesiol o'i gwirionedd, yn grefydd sydd yn gorphwys ar ffeithiau—a'r ffeithiau hyny yn gyssylltiedig â bywyd ei sylfaenydd. Yn ffeithiau mawrion bywyd y Gwaredwr y mae sylfeini llydain a thragwyddol ein crefydd wedi eu gosod i lawr, ac ar y sylfeini diysgog hyn y mae ei phrif amddiffynfa wedi ei chyfodi. Addefer gwirionedd y ffeithiau hyn, ac y mae gwirionedd yr holl gyfundrefn yn canlyn o angenrheidrwydd; a phe y gellid unwaith wrthbrofi y ffeithiau hyn, y mae yr holl adeilad, am yr un rheswm, yn rhwym o syrthio i'r llawr. Ac o ganlyniad, fel y gallesid dysgwyl, at yr amddiffynfa hon y mae prif nerth ymosodiadau anffyddiaeth yn cael ei gyfeirio; a hyny, fe allai, yn fwy egniol a phenderfynol yn ein hoes ni nag mewn unrhyw adeg flaenorol. Fel hyn y dywed Ellicott ar y mater hwn:—"Y mae genyf argyhoeddiad dwfn, mai at y cwestiynau mawrion cyssylltiedig â bywyd ein Gwaredwr, Iesu Grist, fab Adda, fab Duw, y mae holl ddadleuon y dyddiau diweddaf hyn i'w gweled yn amlwg yn cydgyfeirio. Yma y mae yn rhaid hyd yn oed i'r cwestiynau mwy dansoddol sydd yn profi ffydd ein hamserau ni ein hunain—cwestiynau mor ddansoddol a graddau ysbrydoliaeth y gair ysgrifenedig, neu natur haeddiannau yr iawn ag y mae y gair hwnw yn ei ddadguddio i ni—yma y mae yn rhaid iddynt ddyfod yn y pen draw i gael eu penderfynu. Dyma faesbrwydr y presennol, a dyma o bosibl Armagedon gyfriniol yr ymdrechfa sydd eto i ddyfod."—[*Ellicott's Hulsean Lectures on the Life of our Lord Jesus Christ*, dar. i. td. 3, 4]. Fel hyn, y mae yr efengylau—y cofrestr ysbrydoledig o ffeithiau bywyd y Gwaredwr—yn ymwisgo â phwysigrwydd arbenig yn eu perthynas â'r profion o ddwyfoldeb Cristionogaeth ar gyfer holl ymosodiadau anffyddiaeth, yn gystal ag ar gyfrif cyfoeth hanfodol eu cynnwysiad, a'u teilyngdod annibynol o'r efrydiaeth fanylaf, fel y gyfran bwysicaf, ar rai golygiadau, o'r holl ddadguddiad dwyfol. Mewn cylch un erthygl fel hon, nis gallwn, wrth gwrs, wneuthur nemawr heb law cymmeryd bras olwg ar rai o'r prif gwestiynau cyssylltiedig â'r efengylau, sydd wedi ac yn parhau i fod yn ddefnyddiau dyddorol o ddadl ac ymchwiliad.

AWDURIAETH A CHYFANSODDIAD YR EFENGYLAU.

I. *Yr efengyl draddodiadol—yn sail neu ddefnydd yr efengylau ysgrifenedig.* Tuag at i ni gael dirnadaeth a syniad cywir ar y gangen hon o'r testyn, y mae yn angenrheidiol gwneuthur ymchwiliad i natur y defnyddiau gwreiddiol ag ydynt yn ffurfio mater yr efengylau, ac hefyd olrhain yr achlysuron, y rhai oedd yn cydweithredu i'w dwyn i'r ffurf bresennol yn yr hon y trosglwyddwyd hwynt i ni. Y mae profiad wedi dangos mor amlwg gyflawnder a chymhwysder yr ysgrifeniadau sanctaidd hyn, fel ag y mae yn naturiol i ni dybied eu bod o'r dechreuad yn llenwi yr un lle ag y mae yr eglwys yn ddilynol wedi ei roddi iddynt. Ond y mae hyn yn gamsyniad. Y mae ymchwiliad i'r mater yn sicr o'n hargyhoeddi na ddarfu i gyfansoddiad yr hanes efengylaidd wreiddio mewn unrhyw amcan o du ei awdwyr i gyflwyno hanes cyflawn a chyssylltiol am fywyd a gweinidogaeth ein Hiachawdwr, ond yn hytrach ei fod wedi tyfu yn raddol allan o gyfres o hanesion traddodiadol am wahanol gyfnodau ac amgylchiadau yn ei fywyd. Yr oedd sefyllfa ysbrydol neu ansawdd meddwl yr apostolion eu hunain yn hollol anghydweddol â'r bwriad o ffurfio llenyddiaeth Gristionogol sefydlog a pharhaus. Yr oedd geiriau a gweithredoedd y Gwaredwr yn parhau o hyd iddynt hwy yn ffeithiau bywiol a phresennol yn eu plith; ac yn y teimlad hwn nis gallasent roddi nemawr bwys ar unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig i'r ffeithiau a'r gweithredoedd hyny. Yr oedd eu sefyllfa hefyd yn anffafriol iddynt i allu sylweddoli angenion yr Eglwys Gristionogol mewn oesoedd i ddyfod. Yr oedd eu gobaith hwy yn gweithredu yn fywiog—gyda holl rymusder y bywyd newydd yr oeddynt wedi ei ddwyn i'w afael. Yr oeddynt hwy, yn ngrym a gwres eu cariad cyntaf, yn edrych yn mlaen at fuddugol-

Digitized by Google

laeth lwyr ac ebrwydd Cristionogaeth ar y byd. Yr ydoedd terfyn yr hen oruchwyliaeth a pherffeithiad y newydd yn ymuno o flaen eu meddyliau hwy mewn un weledigaeth; ac fel hyn nid oeddynt mewn sefyllfa i wneuthur ymdrech ymwybodol mewn ffordd o ddarpariaeth i'r eglwys ar gyfer yr oesoedd meithion o ymladdfeydd oedd yn ei haros âg anghrediniaeth yn ei wahanol ffurfiau.

Yr oedd eu cymmeriad cenedlaethol hefyd yn anffafriol i'r cyfryw fwriad. Yr oedd holl gyfundrefn eu dygiad i fyny, yn benaf, os nad yn unig, yn y ffurf lefaredig (*oral*), ac y mae yn dra annhebygol y buasai dynion wedi bod ar hyd eu hoes o dan y cyfryw feithriniaeth yn ffurfio y bwriad o ysgrifenu crynodeb cyflawn o hanes ac athrawiaethau yr efengyl. Yr oedd holl ddylanwad arferion Palestinaidd yn anghydnaws â'r gyfryw anturiaeth. Yr oedd rheolau deongliadaeth Ysgrythyrol, gwahanol esboniadau y gyfraith, a dysgeidiaeth yr henuriaid, oll yn cael eu cadw a'u trosglwyddo mewn traddodiad, ac i ryw raddau bychain, fe allai, mewn cof-rolau dirgeledig, hyd nes yr arweiniodd gwasgariad llwyr y genedl Iuddewig yn y pen draw i gyfansoddiad y Mishna. "Na ddod ddim mewn ysgrifen," oedd egwyddor nodweddiadol y rabbiniaid boreuaf. Edrychid ar yr Hen Destament fel unig a digonol ffynnonell gwirionedd crefyddol; ac ystyrid deongliadau y dysgawdwyr, a defodau Iuddewiaeth fel yr unig esboniad awdurdodedig arno. Yr oedd uchafiaeth traddodiad yn cario ei ddylanwad hefyd oddi wrth ddysgawdwyr y bobl at gorff y genedl: ac yn eu hamgylchiad hwy, yr ydoedd diffyg moddion yn cael ei chwanegu at ddiffyg tuedd. Yr oedd moddion yr addysg symlaf yn nodedig o brin yn eu plith; yr oedd y gelfyddyd o ysgrifenu o angenrheidrwydd yn brin yn mhlith y werin, a'r duedd i gyfansoddi yn brinach fyth. Yr ydoedd yr holl amgylchiadau hyn ynte—eu cenedl, eu dosbarth, eu trigfan, eu haddysg, a'u holl arferion—yn peri fod y Cristionogion cyntaf yn hollol anaddfed i ffurfio unrhyw gynllun cynnwysfawr o lenyddiaeth grefyddol. Daethant yn ysgrifenwyr trwy ddylanwad rhagluniaethol amgylchiadau, tra yr oeddynt yn athrawon geiriol (*oral*) trwy duedd a dygiad i fyny.

Yr ydoedd yr holl anfanteision allanol hyn i ffurfiad llenyddiaeth Gristionogol yn cael eu chwanegu yn ddirfawr hefyd yn eu hachos hwy, oddi wrth eu gwaith neillduol fel apostolion. Yr ydoedd natur eu commisiwn a chymmeriad eu gwrandawyr yn eu harwain yn anocheladwy at ryw ffurf o addysgu heb law trwy ysgrifen. Commisiwn mawr eu meistr iddynt, tra yr oedd gyda hwynt ac ar fin ei ymadawiad oddi wrthynt, oedd—"Pregethwch yr efengyl." "A pha fodd y credant heb bregethwr?" ydyw yr esboniad goreu o bob un ar deimlad yr apostolion. Nis gallent gredu ar y pryd fod dim yn chwaneg na hyn yn eisieu tuag at sefydliad parhaol y gymdeithas Gristionogol. Yr ydoedd delw eu meistr mawr wedi ei gerfio ar eu calonau hwy eu hunain, heb dderbyn unrhyw amlinelliad ysgrifenedig o'i law; ac yr oedd yn naturiol iddynt dybied y gwnai yr un Ysbryd ag a'i cadwodd ar eu calonau hwy ei gerfio a'i sefydlu yn nghalonau ereill. Yr oeddynt yn edrych ar Gristionogaeth yn gyferbyniol i Iuddewiaeth, fel goruchwyliaeth yr Ysbryd, ac nid y llythyren; a'i chyfreithiau yn cael eu hysgrifenu, nid ar lechau ceryg, ond ar eneidiau credinwyr. Profiad oesoedd sydd wedi dysgu i ni yr angenrheidrwydd am gofrestr ddigyfnewid i gydhanfodi â chorff bywiol: ond yn nechreuad Cristionogaeth yr oedd y dystiolaeth neu y profion o wirionedd yr efengyl a'i hymgorfforiad mewn bywyd ac ymarweddiad wedi eu cyssylltu yn nghyd yn yr un personau.

Ond wedi y cwbl, y mae o bwys i ni gofio nad oedd y duedd gref hon yn yr apostolion i bregethu yn hytrach nag i ysgrifenu, yn un rhwystr yn y pen draw i gyflawnder yr hanes ysgrifenedig am y Gwaredwr fel y mae wedi ei gofrestru yn yr efengylau. Fel y dywed Westcott, "Dyma mewn gwirionedd ydoedd ammod a gwystl y cyflawnder hwnw. A siarad yn ddynol, yr oedd y profiad a gafwyd mewn addysgu trwy lefaru yn angenrheidiol tuag at ddwyn pwnc mor eangfawr a bywyd Crist o fewn cyrhaedd ysgrifenu; ac nis gellir dadleu fod unrhyw ddarpariaeth anghyffredin wedi ei gwneuthur er cyflawniad gwaith ag yr ydys yn awr yn briodol yn teimlo ei fod o'r pwys mwyaf. Tyfiant oedd yr efengyl, ac nid creadigaeth uniongyrchol a disymmwth. Yr oedd yr efengylau yn ffrwyth, ac nid yn sail, y pregethu apostolaidd. Heb gymmeryd arnom i benderfynu pa mor bell y buasai yn bosibl, yn unol â deddfau gweithrediad dwyfol, i gynnyrchu yn yr apostolion deimlad uniongyrchol o'r berthynas ag yr oedd yr hanes am fywyd Crist yn ei ddal â'r eglwys ddyfodol, y mae yn amlwg fod yr achlysur a'r dull yn y rhai y darfu iddynt ysgrifenu yn ffrwyth amser a llafur blaenorol. Yr oedd ymledaeniad a chynnydd mawr yr eglwys yn eu cynnysgaethu â chymhelliadau digonol i chwanegu cofrestr ysgrifenedig at dystiolaeth eu geiriau bywiol; ac yr oedd hyd yn oed ffurf yr efengylau yn cael ei phenderfynu yn hollol gan y profiad a gawsent mewn addysgu. Yr ydoedd gwaith yr efengylwr fel hyn, nid yn ffrwyth dwyfol ysbrydoliaeth yn unig, nac yn ffrwyth meddwl dynol yn unig, ond yn hytrach yn ganlyniad cymhlethedig y ddau, yn cael ei gymhwyso at wneuthur y cyfryw ddetholiad o eiriau a gweithredoedd Crist ag yr oedd amrywiol agweddau y pregethu apostolaidd wedi ei brofi i fod yn fwyaf cyfaddas at angenion dynion. Fel hyn, a defnyddio y cyfryw ddull o lefaru, fe gafodd yr efengyl gyntefig ei phrofi mewn bywyd cyn iddi gael ei sefydlu mewn ysgrifen. Allan o luaws afrifed gweithredoedd Crist, detholwyd y rhai hyny ag yr oeddynt wedi gweled, mewn ugain mlynedd o weinidogaeth, oedd yn meddu yr ystyr llawnaf er cynnrychioli ac arddangos ei fywyd dwyfol ef. Daeth y casgliad llefaredig, a ffurfiwyd fel hyn, i fod yn mhob modd yn gyfystyr â'r 'efengyl;' a'n hefengylau ni ydynt y crynodeb arosol o'i chynnwysiad."—*Westcott's Intr. to the Study of the Gospels*, pen. iii. td. 154, 155.

Y mae yn amlwg ynte mai sylwedd yr efengyl lefaredig neu draddodiadol, a gyhoeddid i'r byd yn ngweinidogaeth yr apostolion, sef ffeithiau mawrion bywyd y Gwaredwr, ydoedd y defnydd o ba un y ffurfiwyd ein hefengylau ysgrifenedig ni. Eu gwaith arbenig hwy ydoedd cyhoeddi yr efengyl hon *trwy bregethu*. Ac yn ngwaith eu gweinidogaeth hwy yr ydym yn cael y parotoadau cyntaf at gyfansoddiad yr efengylau, sef cyfaddasu y gwersi a ddysgasent am a chyda Christ at angenion cynnyddol yr eglwys. Os oedd eisieu tystiolaeth ysgrifenedig i ffeithiau yr efengyl, yr oeddynt yn cael hyny yn ymadroddion dyfnion y prophwydi. Wrth groesi drosodd at Gristionogaeth, nid oedd yr Iuddew yn dodi heibio ei barch i Ysgrythyrau yr Hen Destament, ond yn hytrach yn teimlo ei fod yn awr wedi dyfod o

Digitized by Google

nis gall λόγια=*oraclau*, olygu dim llai), yn adnabyddus ac arferedig, o'r hon yr oedd efe yn awdwr. Yn yr oes ddilynol, yr efengyl Roeg a arferid fynychaf gan Justin, er ei fod yn ddystaw o barth i'w hawduriaeth; ac yn amser Clement o Alexandria, Tertullian, ac Irenæus, yr oedd yr efengyl bresennol yn cael ei chydnabod gan yr eglwys fel gwaith dilys Matthew. Ond ni ddarfu i dderbyniad y testyn Groeg ymyraeth â'r grediniaeth flaenorol. Y mae hanfodiad efengyl Hebreig wreiddiol yn cael ei gadarnhau gan dystiolaethau Irenæus ac Origen, ar awdurdod *traddodiad*, a chan gydsyniad cyffredinol barnau diweddarach, yn gystal a chan hanes Pantænus, yr hwn y dywedir iddo gael yn India, "ysgrifen Hebraeg St. Matthew, yr hon a adewsid yno gan yr apostol Bartholomeus."—[*Euseb. H. E.* v. 10]. Ond nid oes un o'r awdwyr hyn yn cyfeirio at ddechreuad neu achlysuron cyfansoddiad yr efengyl. Yr hanes cyntaf am hyn yw yr un a geir gan Eusebius mewn dernyn sydd yn dwyn profion tufewnol cryfion o debygolrwydd, er fod yn anmhosibl nodi allan yr awdurdodau ar y rhai y mae yn pwyso. Dywed fel y canlyn:—"Wedi i Matthew bregethu hyd yma i Hebreaid, pan oedd efe ar fyned at ereill hefyd, wedi iddo roddi mewn ysgrifen yn ei iaith enedigol yr efengyl yn ei ol ef (neu yr un sydd ar ei enw), efe a lanwodd i fyny trwy ei ysgrifen yr hyn oedd yn ddiffygiol yn ei bresennoldeb (hyny yw, y golled a deimlent am nad oedd mwyach gyda hwynt) iddynt hwy oddi wrth y rhai yr aeth efe allan."—[*Euseb. H. E.*, iii. 24]. Gall nad ydyw hyn ond tybiaeth, drwy yr hon y mae Eusebius yn esbonio y traddodiad boreuach; ond yn absennoldeb pob tystiolaeth i'r gwrthwyneb, rhaid caniatau ei fod yn meddu rhyw bwysau.

Ar y tystiolaethau hyn o eiddo yr eglwys foreuol y mae y rhai sydd yn amddiffyn *ysgrif Hebreig wreiddiol* o'r efengyl hon yn seilio eu crediniaeth.

Y mae y rhai sydd yn dal allan mai yn yr iaith Roeg yr ysgrifenwyd yr efengyl hon yn wreiddiol yn seilio eu golygiadau yn benaf ar y profion *tufewnol* sydd i'w cael o hyn yn yr efengyl ei hunan. Ond y maent hefyd yn gwrthddadleu yn erbyn digonolrwydd y tystiolaethau *allanol* a nodwyd uchod o blaid ysgrif Hebreig wreiddiol; yn un peth, am fod rhan fawr o'r dystiolaeth hono yn dyfod oddi wrth Papias; yr hwn, o herwydd gwendid naturiol ei feddwl, oedd yn gyfryw nas gallesid rhoddi pwys mawr ar ei farn.[1] Ac hefyd am yr ymddengys yn lled amlwg fod yr ysgrif Hebreig wreiddiol, dybiedig, o eiddo Matthew wedi ei chamgymmeryd am yr efengyl ffugiol neu hereticaidd a elwid "Yr Efengyl yn ol yr Hebreaid." Dywed Jerome [*de Viris illus.* 3] ei fod ef wedi gweled yr ysgrif Hebreig wreiddiol o eiddo Matthew yn Berœa trwy ffafr y Nazareaid, ac wedi ei chopïo. Ond yn ei esboniad ar Efengyl Matthew, a ysgrifenwyd yn mhen blyneddoedd ar ol y traethawd crybwylledig, y mae yn ymddangos fod ei farn wedi ei siglo o barth i ddilysrwydd yr ysgrif Hebreig fel yr eiddo Matthew; ac wrth gymharu y gwahanol grybwyllion yn ei weithiau ef â chrybwyllion ereill a geir am y Nazareaid y cyfeirir atynt, megys yr eiddo Epiphanius [*Haer.* xxix. 9], arweinir ni yn lled sicr i'r casgliad ei fod wedi cael ei gamarwain gan y Nazareaid â'r Ebioniaid i dybied mai eu hefengyl hwy, yr hon yr ydym wedi cyfeirio ati uchod, oedd efengyl wirioneddol Matthew.

Ond y mae amddiffynwyr yr ysgrif Roeg wreiddiol yn seilio eu golygiad yn benaf ar *nodweddion* yr efengyl ei hunan. Dygant y rhesymau canlynol yn mlaen dros y farn hon:—1. Fod y testyn Groeg presennol yn sefyll yn hollol ar yr un tir a'r eiddo yr efengylau ereill—yn cael ei ddyfynu mor gynar ac mor gyffredinol a'r lleill. 2. Fod y golygiad o gyfieithiad o'r Hebraeg yn hollol annigonol i roddi cyfrif am yr unrhywiaeth sydd i'w ganfod mewn amryw ranau o destyn y tair efengyl gyfochrog (*synoptic*), sef yr eiddo Matthew, Marc, a Luc. O blegid buasai raid i'r cyfieithydd naill ai bod yn gydnabyddus â'r ddwy efengyl arall—ac ar y dybiaeth hon y mae yn anmhosibl meddwl y gallasai y fath amrywiaethau ddygwydd yn nghanol y cyd-darawiadau presennol mewn lluaws o fanau—neu ynte, nad oedd yn gydnabyddus â hwynt; ac ar y tir hwn drachefn byddai yr unrhywiaeth, neu y tebygolrwydd, yn hollol anesboniadwy. 3. Fod sylwadaeth fanylach ar y cyd-darawiadau a'r gwahaniaethau yn cadarnhau y golygiad o destyn Groeg gwreiddiol. Mae yr efengylau cyfochrog yn cyd-daraw yn benaf yn mhregethau a geiriau ein Harglwydd, ond yn amrywio yn eu rhanau hanesiol; a thra y gwelir unffurfiaeth geiriol yn benaf yn y blaenaf, y mae yr olaf yn arddangos naill ai cyfieithiadau annibynol o'r un ysgrif wreiddiol, neu ynte gwahanol hanesion annibynol ar eu gilydd. 4. Tra y mae yr efengylwyr eu hunain, wrth ddyfynu o'r Hen Destament, yn gyffredin yn dyfynu y testyn Hebreig, fod ein Hiachawdwr yn ei bregethau bron yn ddieithriad yn dyfynu o gyfieithiad y Deg a Thrigain, hyd yn oed pan y mae yn gwahaniaethu oddi wrth yr Hebraeg. Rhoddir pwys ar hyn fel yn tueddu i gadarnhau y golygiad mai yn y Groeg yr ysgrifenodd Matthew ei efengyl yn wreiddiol: o blegid os ysgrifenwyd yr efengyl yn yr Hebraeg er mwyn Iuddewon, nis gellir dychymygu y buasai y dyfyniadau yn cael eu rhoddi mewn unrhyw ffurf ond yn y testyn Hebreig: ac y mae mor afresymol a hyny drachefn i dybied y buasai y cyfieithydd yn eu troi i iaith y Deg a Thrigain yn mhregethau Crist, tra yr oedd yn cadw y darlleniadau Hebreig yn y rhanau hanesiol. 5. Y mae y ffaith uchod eto yn tueddu i brofi mai yn yr iaith Roeg yr oedd ein Iachawdwr yn arfer siarad yn gyffredin—mai yr iaith Roeg oedd yr un a arferid ac a ddeallid yn gyffredinol gan Iuddewon Palestina; ac o ganlyniad, y buasai cyfansoddi efengyl Hebreig i'r Cristionogion Iuddewaidd boreuol yn ddiangenrhaid, ac i'r graddau eithaf yn annhebygol.

Ymddengys i ni fod y rhesymau uchod yn fwy na digon i droi y fantol o blaid y farn fod Matthew wedi ysgrifenu ei efengyl yn wreiddiol yn yr iaith Roeg. Y mae Alford yn yr argraffiadau cyntaf o'r *Greek Testament*, yn amddiffyn y golygiad arall, o destyn Hebreig gwreiddiol; ond yn y trydydd argraffiad, y mae yn tynu yn ol y golygiad hwnw ac yn dadgan ei fod, ar ol ymchwiliad manylach, wedi newid ei farn. Fel hyn y dywed y beirniad dysgedig hwnw:—"Yn yr argraffiad blaenorol o'r gwaith hwn, cydsyniais â'r hyn oedd yn ymddangos i mi yn bwysau anwrthwynebol tystiolaeth hynafiaeth. Yr wyf ar ol hyny wedi efrydu y testyn ei hunan yn bur fanwl, yn neillduol gyda golwg ar ei ddiwygio yn y rhanau hyny ag y mae ymadroddion cyfatebol iddynt yn yr efengylau ereill: ac yr wyf o dan rwymau i

[1] Dywedir hyn am Papias ar sail tystiolaeth Eusebius —[*Hist. Eccl.*, iii. 39].

yr hanesion a roddir am gydymaith Paul, a'r rhai a geir am gyfleithydd Pedr, yn cyduno mewn dim ond yr enw Marc, neu Marcus; yr hyn sydd gyddarawiad llawer rhy ddibwys i ffurfio prawf o unoliaeth y ddau, gan fod yr enw yn un tra chyffredin yn Rhufain, a bod yr Iuddewon yn yr oes hono yn arfer cymmeryd enwau Rhufeinig arnynt yn gyffredin wedi myned i Rufain.—[*Campbell's Works*, cyf. iv. td. 150, 151.] Y mae yr ysgrifenwyr diweddaraf ar yr Efengylau, megys Alford a Westcott, &c., yn gryf dros y golygiad blaenaf, sef mai yr un oeddynt: dywed Westcott fod llais cyffredinol traddodiad yn erbyn eu gwahaniaethu.

Mae tystiolaethau yr ysgrifenwyr Cristionogol hynaf yn unfrydol ar gyssylltiad yr efengylwr â'r apostol Pedr. Dylynai Marc ef fel ei "gyfieithydd" (ἑρμηνευτής); hyny ydyw, ysgrifenydd; gwaith yr hwn oedd rhoddi i lawr mewn ysgrifen yr hanesion a'r adroddiadau a draddodid mewn llafar gan yr apostol. Y mae traddodiad yn hysbysu ei fod wedi dyfod gyda Phedr o Rufain (yn unig, y mae yn ymddangos, ar sail 1 *Pedr* v. 13). Ac wedi marwolaeth Pedr ei fod wedi myned i Alexandria; ei fod wedi dyfod yn esgob cyntaf yr eglwys yn y ddinas hono, a dyoddef merthyrdod. Ond y mae hyn oll yn dra ansicr.

2. Yr hanes boreuaf sydd ar gael am *wreiddyn* neu ddechreuad *yr efengyl* ydyw yr un a geir am yr eiddo Marc, yr hwn a ddyry Papias, ar awdurdod Ioan yr henuriad.

Yr oedd Papias ei hunan yn un o wrandawyr personol yr Ioan hwn, ac yr oedd Ioan yn un o "ddysgyblion yr Arglwydd," yn ol awdurdod Papias; neu, pa fodd bynag, yn byw yn y cyfnod diweddaraf o'r oes apostolaidd. Y mae y crybwylliad hwn yn cael ei wneuthur am Efengyl Marc:—"Dyma hefyd, gan hyny, oedd adroddiad yr henuriad. Wedi i Marc ddyfod yn gyfieithydd i Pedr, efe a ysgrifenodd yn fanwl yr oll a gyhoeddai efe; er na chofrestrodd mewn trefn yr hyn a ddywedwyd neu a wnaethpwyd gan Grist. Canys ni chlybu efe ac ni chanlynodd yr Arglwydd; ond yn ddilynol, fel y dywedais, efe a ymgyssylltodd â Phedr, yr hwn a arferai ffurfio ei addysg fel ag i gyfarfod âg angenion ei wrandawyr; ond nid fel ag i roddi hanes cyssylltiol am bregethau yr Arglwydd. Felly, ni chyflawnodd Marc unrhyw amryfusedd, yn ei waith yn ysgrifenu rhyw bethau fel yr oedd efe yn eu hadrodd; canys efe a gymmerodd ofal am un peth—i beidio gadael allan ddim o'r pethau a glywai, ac i beidio gwneuthur unrhyw adroddiad anghywir yn ei hanes am danynt."—[*Eusebius' H. E.* iii. 39; *Routh's Rel. Sacr.*, i. td. 13.] Y mae y dystiolaeth dra phwysig hon yn cyffwrdd â'r tri phwynt yr ydys eisoes wedi galw sylw atynt—ffurf hanesyddol yr efengyl bregethedig neu draddodiadol, yr amcan arbenig yn ei ffurfiad, a nodwedd ranedig ei chynnwysiad; ac ar y cyfryw sylfaen draddodiadol y dywedir fod yr efengyl bresennol o'r eiddom ni gan Marc wedi ei chyfansoddi, yn ol tystiolaeth un yr ydoedd yn rhaid ei fod yn adnabod yr apostolion.

Y mae ysgrifenwyr diweddarach—mewn rhan, y mae yn ymddangos, oddi wrth draddodiad annibynol, ac mewn rhan oddi wrth y dystiolaeth uchod o eiddo Papias—yn ail adrodd yr un hysbysiad cyffredinol am berthynas Marc a Phedr, gyda rhai amrywiaethau yn y manylion. Y mae Irenæus yn nodi yn fwy manwl amser cyhoeddiad yr efengyl, er fod y darlleniad yn ansicr. "Wedi marwolaeth y rhai hyn (Pedr a Phaul) darfu i Marc ei hunan hefyd, dysgybl a chyfieithydd Pedr, drosglwyddo i lawr i ni mewn ysgrifen y pethau a bregethasid gan Pedr [*Iren. adv. Haer.*, iii. 1]. Y mae Clement o Alexandria hefyd yn cofnodi, fel "traddodiad o eiddo henuriaid yr amser a aeth heibio," hanes—yr hwn, er yn dra chyffelyb i'r eiddo Papias, eto a ymddengys yn un annibynol arno. "Fe ddywedir, wedi i Pedr bregethu y gair ar gyhoedd yn Rhufain, a chyhoeddi yr efengyl trwy ysbrydoliaeth, fod y lluaws oedd yn bresennol, wedi cymhell Marc, fel un ag oedd wedi bod yn ei ganlyn er's llawer o amser, ac yn cofio yr hyn a ddywedasai, i ysgrifenu yr hyn a draethai efe; a'i fod yntau, ar ol iddo gyfansoddi ei efengyl, wedi ei rhoddi i'r rhai oeddynt wedi ei gymhell; a bod Pedr, pan y gwybu hyn, wedi cymmeryd gofal i beidio ei rwystro, nac ychwaith ei gefnogi yn y gwaith." [*Clem. Alex. Fragm. Hypotyp.*, td. 1016; *Euseb., H. E.*, vi. 14, &c]. Dywed Origen eto, yn fwy pendant fyth, "fod Marc wedi gwneuthur ei efengyl fel yr oedd Pedr yn ei arwain" [*Comm. in Matt.* i. *Euseb. H. E.* vi. 25]. Tertullian yr un modd a grybwylla "y dywedir fod efengyl Marc yn eiddo i Pedr, cyfieithydd yr hwn ydoedd efe; . . . . canys y mae yn bosibl fod i'r hyn a gyhoedda dysgyblion gael edrych arno fel gwaith eu meistr." [*Contr. Marc* iv. 5.] Gellir chwanegu Justin Ferthyr at yr ysgrifenwyr hyn, yr hwn a sonia am "gofnodion Pedr," gan gyfeirio yn amlwg at efengyl Marc: *Dial.* c. 106; *Hist. of N. T. Canon*, td. 130.

Gwelir oddi wrth y tystiolaethau uchod ei bod yn grediniaeth unfrydol yn yr eglwys gyntefig fod Efengyl Marc wedi ei hysgrifenu o dan ddylanwad, a bron oddi wrth draethiad (*dictation*) yr apostol Pedr. Ond y mae yn angenrheidiol derbyn y farn hon gyda gradd o ochelgarwch. Y mae y tystiolaethau crybwylledig, dybygem, yn cadarnhau, y tu hwnt i ammheuaeth, y ffaith o gyssylltiad yr efengylwr â'r apostol; ac yn rhinwedd y cyssylltiad hwnw, nis gallwn lai na chasglu fod gan yr olaf ryw ddylanwad anuniongyrchol ar gyfansoddiad yr efengyl hon. Ond y mae y tystiolaethau hyn yn hollol annigonol i benderfynu natur a graddau y dylanwad hwn, ac yn anghysson â'u gilydd o berthynas iddo. Dywed rhai o honynt nad ydoedd yn ddim pellach na bod Pedr yn pregethu, a bod Marc, ar ol ei farwolaeth, wedi casglu a rhoddi mewn ysgrifen sylwedd ei weinidogaeth, oddi ar ei gof. Gwna ereill y dylanwad mor bell fel ag i roddi ar ddeall fod hyd yn oed y geiriau yn cael eu rhoddi i lawr o dan gyfarwyddyd uniongyrchol Pedr. Coleddid y grediniaeth olaf hon gan rai i raddau mor bell fel na phetrusent alw yr efengyl hon "yr Efengyl yn ol Pedr." Nid oeddynt yn hyn yn bwriadu rhoddi ammheuaeth ar hawl Marc i gael ei ystyried yn awdwr iddi, ond i awgrymu mewn modd cryfach fod yr hyn oll a adroddir ynddi wedi derbyn awdurdod uniongyrchol yr apostol hwnw.

Ond gallwn sylwi ar hyn, fod y mater, o ran ei natur ei hunan, yn gyfryw ag nas gallasai fod yn wybyddus ond i ychydig iawn o bersonau; sef dylanwad dirgelaidd ac anaddefedig apostol ar yr ysgrifenydd. Am y golygiad fod yr efengyl wedi ei chyhoeddi neu ei hysgrifenu o dan awdurdod Pedr, y mae yn ddiau y gallwn ei wrthod ar unwaith, o blegid nid oes un prawf o'r cyfryw awdurdod i'w gael; ac y mae yn ddiau y buasai profion o hono pe buasai y cyfryw beth erioed wedi bod. Am natur neu raddau dylanwad yr apostol Pedr ar Marc, yn nghyfansoddiad yr

Digitized by Google

y dyb hon. Yn yr amseroedd diweddar, y mae Storr wedi cynnyg tybiaeth arall—fod Marc wedi ysgrifenu yn Antioch. Y mae yn seilio hyn, ond yn annigonol, dybygem, ar gymhariaeth o *pen.* xv. 21, o'r efengyl, âg *Act.* xi. 20.

6. Y mae yn ddiammheuol mai y dosbarth o ddarllenwyr oedd mewn golwg gan yr efengylwr hwn yn nghyfansoddiad ei efengyl, oedd y Cristionogion Cenedlig. Y mae y profion tufewnol o hyn yn dra lluosog a phendant, y rhai a ddygir dan ein sylw eto yn yr ymdriniaeth â *nodweddau gwahaniaethol yr efengylau.*

*Yr Efengyl yn ol Luc:*—1. Mewn perthynas i *awdwr* yr efengyl hon, y drydedd o ran trefn, mae y tystiolaethau eglwysig hynaf yn unfrydol yn ei phriodoli i Lucas neu Luc, yr hwn y lleferir am dano yn *Col.* iv. 14; *Philem.* 24; a 2 *Tim.* iv. 11. Yr oll a wyddys am dano i sicrwydd ydyw yr hyn a ellir ei gasglu oddi wrth y crybwylliadau uchod, ac oddi wrth Actau yr Apostolion, yr hwn lyfr hefyd a ysgrifenwyd ganddo fel parhad o'r hanes a gynnwysir yn yr efengyl. Fe ymddengys, oddi wrth *Col.* iv. 11, 14, nad oedd wedi ei eni yn Iuddew, gan ei fod yno yn cael ei enwi ar wahân oddi wrth "y rhai ydynt o'r enwaediad." Y mae Dr. Campbell yn dadleu nad yw y geiriau, "y rhai ydynt o'r enwaediad," i'w deall fel yn gyferbyniol i'r rhai nad oeddynt o'r enwaediad, ond fod y crybwylliad yn cael ei wneyd yn unig am fod y personau y cyfeirir atynt yn ddyeithr i'r Colossiaid; tra am y lleill a enwir yn ddilynol, yn mhlith y rhai y mae Luc, nad oedd angen crybwyll dim ar y pen hwnw, yn gymmaint a'u bod yn adnabyddus i'r Colossiaid o'r blaen. Y mae yn wir y gallesid yn briodol ddefnyddio y geiriau uchod mewn cyferbyniad i broselytiaid o'r Cenedloedd; ac yr oedd yn farn gyffredin yn amser Jerome mai proselyt ydoedd Luc i'r grefydd Iuddewig yn flaenorol i'w ddychweliad at Gristionogaeth [*Westcott's Intr. to the Study of the Gospels,* pen. iv. td. 215]; ond y mae hyn yn hollol ansicr. Ei alwedigaeth fydol oedd physygwr. Gelwir ef gan Paul, "Luc y physygwr anwyl;" *Col.* iv. 14. Y mae traddodiad pur ddiweddar, yr hwn a dderbynir yn gyffredin gan Eglwys Rhufain, yn ei wneyd hefyd yn lluniedydd; ond nid yw yn deilwng o unrhyw ymddiried. Dywed Eusebius a Jerome ei fod yn enedigol o Antioch; ond oddi ar draddodiad yn unig, ac fel y tybia rhai oddi ar dyb gyfeiliornus ei fod yr un a Lucius: *Act.* xiii. 1. Dywed traddodiad, yn ol tystiolaeth Epiphanius ac ereill, ei fod yn un o'r deg a thrigain (*Luc* x. 1); ond gwrthbrofir hyn gan ei dystiolaeth ef ei hunan, yn ei ragymadrodd i'w efengyl, lle y mae yn amlwg yn ei wahaniaethu ei hunan oddi wrth "y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion y gair;" *Luc* i. 2. Tybir fod y dyb hon wedi cyfodi oddi ar mai efe yn unig o'r efengylwyr sydd wedi rhoddi hanes anfoniad y deg a thrigain.

Y mae yn ymddangos fod Luc wedi ymuno â'r apostol Paul fel ei gyfaill a'i gydymaith yn ei ail daith genadol, ac yn Troas: *Act.* xvi. 10. Gellir casglu hyn oddi wrth ei waith yn y rhan yna o'r hanes yn defnyddio am y tro cyntaf y person cyntaf yn y rhif luosog; wedi dyweyd yn *adn.* 8, "hwy a aethant i wared i Troas," â yn mlaen i ddyweyd yn *adn.* 10, "yn ebrwydd ni a geisiasom fyned i Macedonia." Ymddengys iddo ymuno â Phaul yn Troas, ac yna ei ganlyn i Macedonia; ac ar ol i Paul a Silas adael Philippi wedi eu carchariad, y mae yn ymddangos iddo ef aros yno, hyd nes i Paul ddyfod yno eilwaith ar ddiwedd ei ail ymweliad â Groeg, wedi y cythrwfl yn Ephesus. Oddi yno (*Act.* xx. 5) ni a'i cawn ef eto yn canlyn Paul i Asia ac Ierusalem (*Act.* xxi. 17); gan fod gydag ef y mae yn debyg yn Cesarea yn ystod ei garchariad (*Act.* xxiv. 23); a theithio gydag ef i Rufain: *Act.* xxvii. 1; xxviii. 16. Yr ydym yn ei gael hefyd yn aros yno gyda'r apostol am dymmor hir, bron hyd ei ferthyrdod: 2 *Tim.* iv. 11. Nid oes dim gwybodaeth sicr am amser na dull ei farwolaeth, ac y mae y traddodiadau ar hyn yn anghysson â'u gilydd: y mae rhai, megys Gregory Nazianzen, yn haeru iddo ddyoddef merthyrdod, tra mai yr adroddiad cyffredin ydyw iddo farw o farwolaeth naturiol.

2. Y mae yr hanesion boreuaf am *darddiad* neu gyfansoddiad Efengyl Luc yn hollol gydredol â'r rhai a gawn am yr eiddo Marc, ond yn llai manwl. "Luc, canlynwr Paul," meddai Irenæus [*adv. Haer.* iii, i, i], "a roddes i lawr mewn llyfr yr efengyl yr hon a arferai efe [Paul] bregethu." Tertullian hefyd a sonia am Luc fel wedi derbyn sylwedd ei hanes oddi wrth yr apostol Paul. Darfu i'r cyfeiriadau a wnaeth Paul at ei efengyl ef ei hunan: *Rhuf.* ii. 16; xvi. 25; 2 *Tim.* ii. 8; 2 *Cor.* viii. 18—ac at Luc, yn fuan roddi achlysur i'r dybiaeth ei fod ef ei hun yn gwneuthur defnydd o Efengyl Luc. Y mae hyd yn oed Origen yn son am "Efengyl Luc fel yr un a ganmolid gan Paul;" ac y mae y traddodiad fod Efengyl Luc yn cynnwys sylwedd gweinidogaeth Paul yn cymmeryd ffurf mwy pendant yn ysgrifeniadau Jerome ac ereill.

Ond yn erbyn y syniad hwn, gellir nodi fod Eusebius yn cyfeirio ato fel tybiaeth (φασι) yn unig, heb roddi unrhyw arwydd o gymmeradwyaeth iddo; er fod y traddodiad arall cyfatebol am awdurdodiad Pedr i Efengyl Marc yn gorphwys ar ei dystiolaeth ef. Ond heb law hyn, fel y sylwa Alford, y mae y dybiaeth yn cael ei dadymchwelyd ar unwaith gan hysbysiad pendant yr efengylwr ei hunan yn ei ragymadrodd—fod yr efengyl wedi ei chasglu a'i threfnu ganddo ef oddi wrth dystiolaeth y rhai oeddynt, o ddechreuad gweinidogaeth ein Harglwydd, eu hunain yn llygaid-dystion neu yn weinidogion y gair: *Luc* i. 1—4.

Y mae y rhagymadrodd hwn, gan hyny, yn cynnwys hysbysiad eglur o eiddo yr awdwr ei hunan am achlysur a defnyddiau cyfansoddiad yr efengyl hon. Y mae efe yno yn hysbysu fod lluaws wedi cymmeryd mewn llaw wneuthur adroddiad, oddi ar dystiolaeth y rhai oeddynt o'r dechreuad yn llygaid-dystion ac yn weinidogion y gair, o'r pethau a gymmerasant le ac a gredid yn mhlith Cristionogion; ac o blegid hyny ei fod yntau wedi gweled yn dda, wedi iddo olrhain yn fanwl yr amgylchiadau o'r dechreuad, ysgrifenu hanes trefnus o'r cyfryw i'w gyfaill, neu ei noddwr, Theophilus.

Oddi wrth hyn yr ydys yn casglu—1. Nad oedd Luc ei hunan yn llygad-dyst nac yn weinidog y gair o'r dechreuad. 2. Ei fod wedi cyfansoddi ei efengyl oddi ar dystiolaethau llygaid-dystion ac apostolion, y rhai yr oedd efe wedi eu casglu a'u trefnu yn ofalus, o blegid y mae yn cau ei hunan allan oddi wrth "y rhai oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled ac yn weinidogion y gair;" ac hefyd, trwy y gair *minnau* y mae yn rhoddi ei hunan yn mhlith y llawer ag oeddynt wedi gwneuthur defnydd o dystiolaeth llygaid-dystion ac apostolion. Nis gellir meddwl

Digitized by Google

fod Efengylau Matthew a Marc yn mhlith y "traethodau" hyn y cyfeiria Luc atynt. O blegid pe buasai Luc wedi gweled un o'r efengylau hyn, neu y ddwy, ac wedi eu derbyn fel yn meddu awdurdod apostolaidd, yna nis gellir ar ei ddangosiad ef ei hunan roddi cyfrif am ei waith yn amrywio oddi wrthynt; tra ar y llaw arall, pe buasai wedi eu gweled, ac heb eu derbyn fel rhai awdurdodedig, buasai yr un mor anhawdd rhoddi cyfrif am y cyd-darawiadau â hwynt sydd yn ei efengyl.

Y mae ymchwiliad i'r efengyl ei hunan yn ein harwain i'r casgliad canlynol am ei ffynnonell neu ei defnyddiau:—Fod Luc, dan arweiniad yr Ysbryd Glân, wedi cyfansoddi ei efengyl yn annibynol ar, ac heb wybodaeth am, yr eiddo Matthew a Marc; ei fod, ar y cyfan, wedi syrthio i mewn â'r un cylch o addysgiaeth apostolaidd ag a gofrestrwyd gan yr efengylwyr ereill; sef, yr un a gynnwysai yn benaf fywyd a gweinidogaeth ein Harglwydd yn Galilea, heb gymmeryd i mewn y rhan hono o'i fywyd a dreuliwyd yn Ierusalem cyn galwad y deuddeg apostol; ond ei fod yn meddu ffynnonellau ereill o hysbysrwydd nad oeddynt gan y ddau efengylwr arall.

I'r amgylchiad olaf hwn y gellir priodoli y pethau canlynol:—Fod ganddo at ei wasanaeth gofrestr ysgrifenedig, fel y barna rhai, o'r amgylchiadau blaenorol a chydfynedol â genedigaeth ein Hiachawdwr; yr hwn y mae yn debyg oedd wedi ei seilio ar dystiolaeth mam yr Iesu, yr hon yn unig oedd yn alluog i hysbysbu amryw fanylion a gynnwysid ynddo; ei waith yn cadw y cylch tra gwerthfawr a phwysig o bregethau a dammegion Crist, y rhai a gynnwysir yn y gyfran helaeth hono o'i efengyl (*Luc* ix. 51; xviii. 5), a'r rhai gan mwyaf a adroddir ganddo ef yn unig; amryw hysbysiadau ereill wedi eu gwasgaru yma a thraw ar hyd yr hanes, yn dangos fod y wybodaeth wedi ei chael oddi wrth lygad-dystion; ac hefyd, ei adroddiad helaeth am ryw amgylchiadau a gymmerasant le ar ol adgyfodiad Crist, yn nghyd â'r hanes, ganddo ef yn unig, am yr amgylchiadau cydfynedol â'i esgyniad i'r nef.

Y mae y mynegiad a wna yr efengylwr hwn hefyd, am y defnyddiau o ba rai y cyfansoddodd ei efengyl, yn cadarnhau yn dra eglur y sylwadau a wnaethpwyd yn flaenorol am berthynas yr efengylau ysgrifenedig â'r efengyl lefaredig, neu y cylch o ffeithiau a draddodid yn ngweinidogaeth yr apostolion—fel eu defnydd a'u ffynnonell.

3. Ni bu erioed unrhyw ammheuaeth nad ysgrifenodd Luc ei efengyl yn yr *iaith Roeg.* Y mae ei gydnabyddiaeth â thermau a dullweddau Groegaidd, ac yn neillduol arddull clasurol ei ragymadrodd, ynddynt eu hunain yn brofion tufewnol digonol o hyn.

4. Yr ydys yn alluog i benderfynu *amser* cyhoeddiad yr efengyl hon gyda mwy o sicrwydd nag un o'r lleill. Gallwn gymmeryd yn ganiataol, heb ddim petrusder, nas gall "y traethawd blaenorol," yn *Act.* i. 1, fod yn cyfeirio at ddim ond yr efengyl hon. O ganlyniad, rhaid ei bod wedi ei chyhoeddi o flaen Actau yr Apostolion. Yn awr, yr amgylchiad olaf a gofnodir yn yr Actau ydyw ymweliad o eiddo Paul â'r Iuddewon, yn fuan wedi iddo gyrhaedd Rhufain. Yn mhellach, yr ydym yn deall, oddi wrth y geiriad yn *Act.* xxviii. 30, fod cyhoeddiad yr Actau wedi ei ohirio am ddwy flynedd gyflawn ar ol yr ymweliad crybwylledig, ond nid yn hwy na hyny; o blegid pe buasai Paul wedi aros yn hwy na'r amser yna yn ei dŷ ardrethol cyn cyhoeddiad y llyfr, buasai hyny yn sicr o gael ei grybwyll; a phe buasai wedi gadael Rhufain neu y tŷ, neu pe buasai rhyw amgylchiad hynod wedi dygwydd iddo cyn cyhoeddiad y llyfr, nis gallwn feddwl y buasai hanesydd mor fanwl a Luc yn peidio dwyn ei waith i lawr i'r amser presennol hwnw, trwy goffau y cyfryw ymadawiad neu ddygwyddiad. Gallwn gasglu, gan hyny, fod Llyfr yr Actau wedi ei gyhoeddi yn mhen dwy flynedd wedi dyfodiad Paul i Rufain; hyny ydyw, yn ol Wieseler, yn ngwanwyn y flwyddyn B. A. 63.

Y mae genym, gan hyny, amseriad sefydlog cyn yr hwn yr oedd yn rhaid fod yr efengyl wedi ei chyhoeddi. Ond y mae yn ymddangos fod profion tufewnol yn amlygu i ni fod adeg ei chyhoeddiad ryw gymmaint o amser penodol, o leiaf, yn flaenorol i'r amseriad yma. Nid yw yn debyg y buasai Luc yn defnyddio y geiriau "y traethawd cyntaf" am waith ag yr oedd efe ar y pryd hwnw, neu yn bur ddiweddar cyn hyny, yn ei ysgrifenu. Ond er i ni addef yn wyneb hyn y gallasai brawddegau y cyflwyniad, neu y rhagymadrodd, ddyfod o law yr awdwr yn olaf, y mae yr hanes am yr esgyniad sydd yn canlyn yn uniongyrchol yn profi yn bur eglur fod yn rhaid fod yr efengyl wedi ei chyhoeddi gryn ysbaid o amser yn flaenorol i hyny. O blegid, er fod yr adroddiad yn grynodeb o'r hanes yn yr efengyl, mor bell ag i'n galluogi i adnabod llaw yr un ysgrifenydd yn y ddau (cymharer *Act.* i. 4 â *Luc* xxiv. 49), eto, y mae yn eglur ei fod yn adroddiad gwahanol—yn llawer cyflawnach yn y manylion, ac yn ddiammheu heb fod yn hysbys i'r efengylwr pan yn ysgrifenu ei efengyl. Yn awr, y mae yn rhaid i ni gredu, oddi wrth eiriau Luc yn ei ragymadrodd i'r efengyl, ei fod wedi chwilio allan am bob ffynnonell o hysbysrwydd o fewn ei gyrhaedd pan yn ysgrifenu ei efengyl; ac felly, y mae ei waith fel hyn yn dyfod yn gydnabyddus â hanes newydd am yr esgyniad, yn rhoddi ar ddeall fod defnyddiau newyddion o hysbysrwydd yn y cyfamser wedi eu hagor iddo. A'r ffordd fwyaf naturiol tuag at ddwyn hyn o amgylch fuasai trwy newidiad lle, gan y buasai cylchoedd sefydlog ac amrywiol o addysg apostolaidd yn debyg o fod yn ffynu yn, ac oddi amgylch, y gwahanol fam-eglwysi. Yn awr, y newidiad lleoedd yn hanes diweddar Luc oeddynt y rhai canlynol:—ddwy flynedd yn flaenorol, o Cesarea i Rufain (*Act.* xxvii. 1); ddwy flynedd a hanner cyn hyny, o Philippi i Ierusalem (*Act.* xx. 6; xxi. 15), a Cesarea. Gellir casglu hyn oddi wrth ei waith yn gadael Cesarea gyda Paul (*Act.* xxvii. 1): pa fodd bynag, yr oedd efe yn ystod yr amser hwn yn Palestina, gyda neu yn agos at yr apostol Paul. Profir gan Alford [*Prolegomena to vol.* ii. *of the Greek Testament*] fod yn dra thebygol fod Luc, yn ystod yr amser crybwylledig, yn casglu defnyddiau at Lyfr yr Actau, ac yn ei gyfansoddi; ac o ganlyniad, yn ol pob tebygolrwydd, fod yr efengyl wedi ei hysgrifenu a'i chyhoeddi cyn yr adeg hono. Gwnai hyn osod adeg ei chyhoeddiad yn flaenorol i'r flwyddyn B. A. 58, ac o ganlyniad, o flaen amseriad traddodiadol Efengyl Matthew.

Eto, y mae yn dra thebyg nad oedd yr efengylau presennol wedi eu cyhoeddi hyd nes yr ymwasgarodd yr oll, neu y rhan fwyaf, o'r apostolion i'w gwahanol deithiau cenadol. Yn awr, y mae yn ddiammheuol fod yr apostolion, neu y rhan fwyaf o honynt, yn Ierusalem yn amser y cynghor yn *Act.* xv. 1—5; hyny yw, tua'r flwyddyn

Digitized by Google

B. A. 50. Pa mor fuan wedi hyn y cymmerodd y gwasgariad le, y mae yn anmhosibl penderfynu; ond y mae genym yr amseriad hwn fel ein terfyn cychwynol (*terminus a quo*) cyn yr hwn y mae bron yn sicr nas gallasai un o'r efengylau fod wedi eu cyhoeddi.

Wedi yr ymwasgariad hwn o eiddo yr apostolion, y mae yn angenrheidiol caniatau rhyw gymmaint o amser—dim llai yn ddiau na blwyddyn neu ddwy, neu fe allai chwaneg—tuag at gyfansoddi a lledaenu y "traethodau" y cyfeiria Luc atynt yn ei ragymadrodd (*Luc* i. 1); a dygai hyn ni bron at yr amser y gadawyd Luc ar ol gan Paul yn Philippi.

Y mae genym fel hyn wyth mlynedd—o B. A. 50 hyd 58—fel y terfynau o fewn pa rai y mae yn debygol fod yr efengyl hon wedi ei chyhoeddi.

5. Y farn fwyaf gyffredin ydyw fod yr efengyl hon, yn nghyd âg Actau yr Apostolion, wedi eu hysgrifenu yn ngwlad Groeg. Y mae Jerome yn adrodd traddodiad boreuol i'r perwyl hwn. Nid yw yn ymddangos fod dim sail i'r dyb ei bod wedi ei hysgrifenu yn Alexandria.

6. Mewn perthynas i'r ymofyniad, Ar gyfer pa ddosbarth o ddarllenwyr yn benaf y cyfansoddwyd efengyl Luc? dywedir i ni gan yr efengylwr ei hunan yn ei ragymadrodd (*Luc* i. 3) ei bod wedi ei hysgrifenu, yn gyntaf oll, er mwyn un Theophilus, "fel y cai wybod sicrwydd am y pethau" yn y rhai yr oedd efe wedi ei addysgu. Ond prin y gallwn dybied mai dyma yr unig amcan er mwyn pa un yr ymgymmerodd Luc â'r gwaith mawr hwn. Yr oedd yn arferiad hyd yn oed y pryd hwnw i awdwyr gyflwyno eu gwaith i bersonau neillduol; ac y mae yn ddiammheu fod Luc wrth wneuthur hyny yn ystyried ei gyfaill fel cynnrychiolydd dosbarth o ddarllenwyr, er mwyn y rhai yr oedd efe yn benaf yn bwriadu ei efengyl. Y mae y nodwedd o gyffredinolrwydd sydd mor amlwg yn rhedeg drwy yr efengyl hon yn dangos na fwriadwyd hi ar gyfer Iuddewon yn benaf, fel yr eiddo Matthew, na chwaith ar gyfer y Cenedloedd yn benodol, fel yr eiddo Marc, ond at wasanaeth cyffredinol Cristionogion, pa un bynag ai Iuddewon ai Cenedloedd; ac yn israddol i'r amcan cyffredinol hwn, ar gyfer y darllenwyr hyny yr oedd eu cydnabyddiaeth âg arferion a lleoedd Iuddewig yn gyfryw ag a'i galluogai i wneyd heb yr eglurhadau hyny o honynt a roddir gan Marc a Ioan, ond y rhai ni cheir yn Matthew a Luc.

*Yr Efengyl yn ol Ioan.*—1. Y mae crediniaeth unfryd yr Eglwys Gristionogol wedi priodoli yr efengyl hon i'r apostol Ioan. Ioan ydoedd fab Zebedeus a Salome, a brawd ieuangaf Iago. Ei dad oedd Galilead, ac wrth ei alwedigaeth yn bysgotwr ar fôr Galilea. Nid oes sicrwydd yn mha le yr oeddynt yn trigo; fe allai yn Bethsaida. Ymddengys nad oedd teulu Ioan o'r dosbarth isaf; o blegid yr ydym yn cael fod gan Zebedeus weision cyflogedig yn y llong gydag ef; *Marc* i. 20. Ei fam, Salome, oedd un o'r gwragedd a ddaethant gyda'r Iesu o Galilea, "y rhai oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt;" *Luc* viii. 3 (cymharer *Luc* xxiii. 55, â *Marc* xvi. 1): yr un Salome oedd un o'r rhai a brynasant beraroglau gwerthfawr ac enaint i'w eneinio ef: ac yn *Ioan* xix. 27, yr ydym yn cael Ioan ei hunan yn cymmeryd mam yr Iesu i'w gartref. Os Ioan a feddylir wrth "y dysgybl arall" yn *Ioan* xviii. 15, fel y mae yn fwyaf tebyg, yr oedd ganddo gydnabyddiaeth bersonol â'r archoffeiriad Caiaphas. Y casgliad oddi wrth yr holl ffeithiau hyn ydyw, fod ei deulu yn perthyn i ganolradd cymdeithas—y dosbarth uchaf o'r rhai oedd yn dilyn yr alwedigaeth barchus ac ennillfawr o bysgotwyr ar fôr Galilea.

Os Ioan ei hunan (fel y mae yn fwyaf tebyg) oedd un o'r ddau ddysgybl a glywsant dystiolaeth Ioan Fedyddiwr am Grist, ac a aethant ar ei ol mewn canlyniad i hyny, yr ydys yn cael ei gydnabyddiaet' â'r Arglwydd Iesu yn cychwyn o ddechreuad cyntaf ei weinidogaeth. Ac â hyn y mae cynnwys *Ioan* ii, iii, iv, v, yn cytuno; y rhai ydynt yn rhoddi hanes am ranau o'i weinidogaeth yn Ierusalem a Galilea, wedi cymmeryd lle yn flaenorol i ddechreuad yr adroddiad swyddol gan yr efengylwyr ereill. Ynddengys fod Ioan wedi canlyn ein Hiachawdwr i Ierusalem, gyda y lleill fe allai o'r apostolion oeddynt y pryd yma wedi eu galw, a'i fod yn dyst o'r amgylchiadau a gofnodir ganddo yn y rhan hono o'i efengyl.

Yn yr adegau rhwng cylchdeithiau cyntaf y Gwaredwr, fe ymddengys fod yr apostolion yn dychwelyd at eu teuluoedd a'u galwedigaethau. Fel hyn, yn *Luc* v. 1—11, ni a gawn feibion Zebedeus, yn gystal a Simon Pedr, eilwaith yn pysgota, ac yn cael eu galw gan Grist yn ddiffrifol, ac o hyny allan i'w ganlyn ef; yr hwn amgylchiad, fel y mae Lücke yn addef, na buasai hyd yn oed y wyrth yn ei esbonio, oni buasai fod cydnabyddiaeth flaenorol rhyngddynt a'n Hiachawdwr.

O hyny allan, perthynsai Ioan i'r nifer etholedig hwnw a adwaenid fel "y deuddeg;" y rhai oeddynt agosaf at berson yr Iesu yn ystod ei weinidogaeth. Ac o'r nifer hwnw, ymddengys mai efe oedd yr un y teimlai ein Harglwydd y cariad personol cryfaf tuag ato. [Gwel tudal. 180.]

III. *Yr efengylau ysgrifenedig—eu perthynas â'u gilydd—y cyd-darawiadau rhwng y tair efengyl cyntaf, &c.* Yr ydym wedi gweled fod yr holl dystiolaeth a ellir eu casglu am amgylchiadau yr eglwys foreuol, a'r traddodiadau a ddaethant i lawr atom o berthynas i ddechreuad neu gyfansoddiad yr efengylau, yn cytuno i brofi hanfodiad efengyl lefaredig wreiddiol, bendant o ran cynllun cyffredinol, ac hyd yn oed o ran iaith, yr hon yn nhreigliad amser a drosglwyddwyd i ysgrifen mewn gwahanol ddulliau neillduol, yn ol yr amrywiol ffurfiau a gymmerai yn mhregethau y gwahanol apostolion. Y mae yn debygol fod yr efengyl lefaredig hon wedi hanfodi o'r dechreuad yn yr Aramaeg a'r Groeg, fel y buasai yn naturiol dysgwyl mewn gwlad lle yr oedd dwy iaith yn cael eu siarad yn gyffredin. Dywedir yn benodol fod addysgiaeth Matthew "yn mysg ei gydwladwyr ei hun" yn yr Hebraeg, ac y mae yr un mor sicr mai y Groeg oedd y cyfrwng cyffredin o gymundeb â'r Hellenistiaid. Y mae y cam oddi wrth yr hanesion llafaredig hyn at gofrestrau ysgrifenedig yn y cyfryw ieithoedd yn syml a naturiol; ond yr un pryd y mae yn rhaid i'r cwestiwn am ddefnyddiau dechreuol yr efengylau a hanes eu cyfansoddiad ymddibynu yn benaf oll ar ymchwiliad i'r efengylau eu hunain—nodwedd dufewnol y llyfrau, natur eu perthynas â'u gilydd, graddau y cyffelybrwydd a'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt, a'r unoliaeth sydd yn rhedeg drwyddynt sy yn rhwymo y cyfan yn nghyd. Dyma, gan hyny, y cwestiynau pwysig sydd yn cyfodi ger ein bron yn y rhan yma o'n hymchwiliad—A oes rhyw gyssylltiad allanol agos rhwng yr efengylau a'u gilydd? Pa beth sydd i roddi cyfrif am y tebygolrwydd sydd rhyngddynt—pa un ai tynu yr

Er yr holl debygolrwydd cyffredinol sydd rhyngddynt, y maent bob un ar wahan i'w gilydd o ran arddull ac effeithioldeb. Y mae unrhywiaeth yn y trefniant yn cael ei gyssylltu â gwahaniaeth yn yr ymdriniaeth: neillduolion o ran iaith yn cael eu cyssylltu âg unoliaeth o ran rhediad. Y mae y cyd-darawiadau geiriol rhwng y gwahanol efengylau, tra yn ddigon hynod ynddynt eu hunain, eto yn llawer llai nag y gellid casglu oddi wrth y dull cyffredin a gymmerir i alw sylw at y ffeithiau hyn. Y mae y rhanau sydd yn gyffredin i Matthew a rhyw un arall o'r efengylau cyfochrog yn ffurfio ychydig yn fwy na phedair rhan o saith (sef ychydig yn chwaneg na'r hanner) o'r cyfan; ond nid yw y cyd-darawiadau geiriol sydd yn cyfateb i hyn ond llai nag un ran o chwech. Yn yr efengylau ereill y mae cyfartaledd y cyd-darawiadau geiriol yn llai fyth. Nid yw y rhai yn Luc yn ffurfio ond tuag un ran o ddeg, ac yn Marc tuag un ran o chwech, o'r holl efengylau; tra y mae y cyd-darawiadau cyffredinol yn ffurfio yn y naill ddwy ran o bump, ac yn y llall dair rhan ar ddeg o bedair ar ddeg. Fel hyn, gellir gosod allan (yn agos) y berthynas rhwng y cyd-darawiadau cyffredinol a'r rhai geiriol yn yr efengylau, mewn ffurf daflenol, fel hyn:—

| Matthew. | Luc. | Marc. |
|---|---|---|
| 24.7 | 4.1 | 39.7 |

[*Norton's Genuine. of the Gospels*, dyfynedig gan Westcott]. Ac nid hyn yw y cwbl: mae deddf bur eglur yn cael ei hamlygu yn nosbarthiad y cyd-darawiadau geiriol. Y maent yn dygwydd yn fwyaf cyffredin yn yr adroddiad o eiriau ein Hiachawdwr neu yr eiddo ereill, ac nid ydynt ond anfynych mewn cymhariaeth yn yr hanes noeth. Fel hyn y mae saith ran o wyth o'r cyd-darawiadau geiriol yn Matthew, pedair rhan o bump yn Marc, a phedair rhan ar bymtheg o ugain yn Luc, yn dygwydd yn yr adroddiad o eiriau rhai ereill.

Os chwiliwn i mewn yn mhellach i'r cyd-darawiadau geiriol hyn, yr ydym yn dyfod o hyd i amryw neillduolion dyddorol. Yn yr adranau ag sydd yn gyffredin i'r holl efengylwyr hyn, y mae tuag un ran o chwech yn gynnwysedig o gyd-darawiadau geiriol; ac o'r rhai hyn y mae un rhan o bump yn dygwydd yn y rhanau hanesiol, a phedair rhan o bump yn y rhai adroddiadol (*recitative*). Yn yr un adranau y mae y chwanegiadau ag sydd yn gyffredin i Matthew a Marc yn cynnwys pum rhan o chwech o'u cyd-darawiadau geiriol yn y rhanau adroddiadol; ac nid yw y rhai sydd yn gyffredin i Marc a Luc,[1] ac i Matthew a Luc (heb law mewn dau eithriad dibwys) yn amlygu cyd-darawiad geiriol ond yn unig yn y cyfryw ranau.[2] Yn yr adranau sydd yn gyffredin i ddau efengylwr, y mae deddf gyffelyb yn ffynu. Y mae y cyd-darawiadau geiriol rhwng Matthew a Luc yn dra lluosog yn yr adroddiad o eiriau ein Harglwydd; ond nis gellir cyfrif y cyd-darawiadau yn yr hanes yn ol mwy nag un rhan o gant o'r lleill. Nid oes ond un anghraifft o gyd-darawiad geiriol yn dygwydd yn y lluaws o adranau ag sydd yn gyffredin yn unig i Marc a Luc, ac yn hon y mae y cyd-darawiadau yn y rhan hanesiol, o'u cymharu â'r rhai yn y rhan adroddiadol, yn y cyfartaledd o bump i un. Yn yr adranau cyffredin i Matthew a Marc yn unig, y mae cyfartaledd gwahanol yn ffynu. Yn y rhai hyn y mae y cyd-darawiadau geiriol yn y rhan hanesiol yn rhyw gymmaint mwy na'r drydedd ran o'r cyfan; ond y mae yn hynod mai yr unig beth tebyg i gyd-darawiad geiriol a geir mewn un adran bwysig (*Marc* vi. 17—29; *Mat.* xiv. 3—12) ydyw yr un sydd yn dygwydd yn y geiriau a briodolir i Ioan Fedyddiwr.

Ond tuag at beidio rhoddi mwy o bwys i'r cyfartaleddau hyn nag y maent yn ei deilyngu, dylid cymmeryd i mewn i'r cyfrif y cyfartaledd ag y mae y rhanau hanesiol ac adroddiadol o'r efengylau yn ei ddwyn y naill i'r llall. Gellir dywedyd ynte yn fras fod y rhan hanesiol yn Matthew yn ffurfio tua'r bedwaredd ran o'r efengyl, yn Marc tua'r hanner, yn Luc tua'r drydedd ran. Os cyfunir y cyfartaliadau hyn â'r cyfanswm o gyd-darawiadau yn yr amrywiol efengylau, a gadael i gynnwysiad pob efengyl gael ei gynnrychioli gan y ffugr 100, ceir y daflen ganlynol:—

| | (*a*) Hanesiol. | (*b*) Adroddiadol. | (*c*) Cyd-darawiadau yn (*a*). | (*d*) Cyd-darawiadau yn (*b*). |
|---|---|---|---|---|
| Matthew | 25 | 75 | 2.08 | 14.56 |
| Marc | 50 | 50 | 3.33 | 13.33 |
| Luc | 34 | 66 | .50 | 9.50 |

Neu, mewn geiriau ereill, y mae cyd-darawiadau geiriol yn fwy mynych yn y rhanau adroddiadol nag yn y rhanau hanesiol o Efengyl Matthew, yn y cyfartaledd (yn agos) o 12:5; Marc o 4:1; a Luc o 9:1.

Y mae y cyssondeb cyffredinol a'r eglurdeb sicr sydd yn perthyn i ffrwyth y gwahanol ymchwiliadau hyn yn dangos fod yn rhaid gwneuthur cyfrif o honynt wrth ystyried y cwestiwn cyffredinol o'r cydgordiad neu y tebygolrwydd sydd rhwng yr efengylwyr cyfochrog a'u gilydd. Y mae gwahaniaeth amlwg rhwng cyfansoddiad y rhanau adroddiadol a hanesiol o'r efengylau. Yn y blaenaf, mae egwyddor o undeb neu unoliaeth yn ffynu; yn yr olaf, mae arddull wahaniaethol yn dyfod i'r golwg. Y mae y trawsfudiad o'r naill i'r llall yn fynych yn eglur a phendant, ac mewn lluaws o anghreifftiau y mae y cyd-darawiadau mwyaf nodedig yn cael eu blaenori gan y gwahaniaethau mwyaf arbenigol. Y mae yn amlwg ynte fod y cwestiwn sydd o'n blaen yn cynnwys ynddo ddau ammod gwahanol; ac y mae yn rhaid i'r eglurhad arno, tuag at fod yn foddhaol, roddi cyfrif, nid yn unig am y cyffelybrwydd cyffredinol y mae yr efengylau yn ei amlygu yn eu cyfansoddiad a'u cynnwysiad, ond hefyd am y dosbarthiad neillduol ar eu cyd-darawiadau geiriol ag yr ydys wedi galw sylw ato. Rhaid ystyried pob trefniant a edy y naill neu y llall o'r ddau bwynt yma heb ei egluro yn annigonol ac anghywir.

Y mae y gwahaniaeth yn yr iaith rhwng y rhanau hanesiol ac adroddiadol o'r efengylau yn ein rhoddi ar y ffordd i gyfeirio ein sylw at y neillduolion nodweddiadol ag sydd yn perthynu i bob un, a'r rhai sydd bron mor darawiadol a'u tebygolrwydd cyffredinol. Y mae y tri chofrestr yn wahanol, yn gystal ag yn gyffelyb, mewn cynllun, ac amgylchiadau, ac arddull. Y mae pob un yn ymddangos i ni ar wedd cyfanwaith cyflawn, gwahanol ranau yr hwn sydd wedi eu darostwng i gynnyrchiad un effaith mawr. Cyn-

[1] Yr anghraifft fwyaf hynod o debygrwydd mewn ffaith a 'gwahaniaeth mewn iaith, ydyw *Marc* v. 3, &c., *Luc* viii. 27, &c.

[2] Y mae Marsh [*Michaelis Intro. to the New Test.*, v. 317] wedi gwneuthur y sylw pwysig canlynol:—"Pan y mae Matthew a Luc yn cytuno o ran y geiriad yn yr adranau sydd yn gyffredin i'r tri, fod Marc hefyd yn cytuno â hwynt. Nid oes gymmaint ag un anghraifft o gytundeb geiriol yn yr adranau hyn rhwng Matthew a Luc yn unig.

Digitized by Google

eto yn y rhai y mae hi yn eu cofnodi, y mae y lawnaf a'r fwyaf manwl o'r tair. Eilwaith, nis gallai Luc fod wedi cyflenwi Matthew; o blegid y mae rhai rhanau tra phwysig o Matthew ag y mae Luc wedi eu gadael allan yn hollol; er esampl, *pen*. xxv, a llawer o *pen*. xiii, a xv. Ac nis gallai Matthew chwaith fod wedi cyflenwi Luc, am yr un rheswm, gan ei fod wedi gadael allan bron yr oll o'r adran bwysig, *Luc* ix. 51, a xviii. 15, heb law llawer iawn o fater mewn rhanau ereill. Gellir crybwyll hefyd fod y dybiaeth hon yn gadael yr holl anhawsderau yn nglŷn â gwahanol drefniad ac anghyssonderau bychain ymddangosiadol, heb roddi unrhyw gyfrif am danynt.

2. Neu ynte yr oeddynt yn credu fod yr efengylau ereill yn anghywir, ac yn bwriadu cywiro yr hyn oedd o'i le. Ond os felly, nis gallasai yr efengylwyr wneuthur dim mwy anghyfaddas i ateb y dyben na'r hyn a wnaethant; o blegid nid yw eu hanesion yn gwahaniaethu mewn unrhyw fater o bwys, ond yn unig mewn trefniad a chyflawnder; ac y mae hyd yn oed y gwahaniaeth yn hyn yn gyfryw fel nad oes un o honynt yn cymmeryd dim trafferth i wneuthur ei hanes ei hunan i ymddangos yn gywir o ran trefniad amseryddol. Nid oes unrhyw amseriadau pendant i'w cael hyd yn oed yn y lleoedd hyny ag y maent yn gwahaniaethu, na dim i awgrymu fod unrhyw drefniad arall a gwahanol erioed wedi ei gyhoeddi. Yn ddiau nid yw hyn yn ymddangos yn debyg i waith un yn *cywiro* hanes a gyhoeddesid yn flaenorol. Er i ni dybied na buasai yn debyg o ddwyn yn mlaen mewn modd ffurfiol gyhuddiad o anghywirdeb yn erbyn ei ragflaenwyr, eto buasem yn sicr yn dysgwyl iddo fod yn fanwl a phendant yn y pethau yr oedd yn gwahaniaethu oddi wrthynt, pe na buasai i un dyben ond i gyfiawnhau ei ddygwyddiadau ei hunan i'w ddarllenwyr.

3. Neu, yr oeddynt yn awyddus i gyfaddasu cynnwysiad yr hyn a ysgrifenasid yn flaenorol i ddosbarth gwahanol o ddarllenwyr, gan gorffori gydag ef yr un pryd unrhyw ddefnyddiau chwanegol a allasai fod yn eu meddiant. Ond nid yw hyn eto yn rhoddi cyfrif am nodweddion ein hefengylau presennol ni. Er i ni addef cywirdeb y farn gyffredin fod Matthew wedi ysgrifenu i Hebrewyr, Marc i Ladinwyr, a Luc i Genedl-ddynion yn gyffredinol, eto nid yw yr amcan hwn yn cael cadw ato mor gaeth ac unffurf ag y buasai y gwaith o newid ac ail ysgrifenu efengyl yn benodol i'r pwrpas yma, yn ein gorfodi i'w ddysgwyl. Dyna ymweliad y doethion cenedlig yn cael ei groniclo yn unig gan yr efengylwr Hebreig, Matthew; ac enwaediad y bachgen Iesu, yn nghyd â'i hanes yn myned i Ierusalem i gadw gŵyliau y Pasg, yn cael ei gofnodi yn unig gan yr efengylwr cenedlig Luc. Pe buasai yr amcan a nodwyd yn cael ei gadw yn ccfydlog o flaen meddyliau yr efengylwyr, nis gallasent adael allan amgylchiadau oedd mor uniongyrchol yn wasanaethgar i'r amcan hwnw.

4. Neu, tra yn derbyn yr efengylau blaenorol fel rhai cywir, yr oeddynt yn benthyca oddi wrthynt y cyfryw ranau ag y bwriadent eu cofnodi mewn undeb â'r efengylwyr ereill. Ond y mae hyn drachefn yn groes i ffeithiau. Nid oes un o'r efengylwyr mewn unrhyw amgylchiad yn benthyca oddi ar un arall unrhyw gyfran faith neu bwysig hyd yn oed o un hanes; o blegid buasai y cyfryw fenthyciad yn tybied cyd-darawiad geiriol, oddi gerth yn yr amgylchiad o ddulliaith Hebreig gref, neu ryw neillduolrwydd nodadwy arall. Pan y mae un o'r ysgrifenwyr yn benthyca oddi ar un arall rywbeth ag y mae efe yn addef ei fod o'r pwys mwyaf, ac yn gwneyd hyny gyda diffuantrwydd a chymmeradwyaeth, y mae yn anmhosibl meddwl y byddai iddo gyfnewid iaith y cyfryw un mewn dull mor hynod a mympwyol ag yr ydym yn cael fod testyn yr adranau cyfochrog o'n hefengylau ni, ar y dybiaeth hon, wedi eu cyfnewid. Gadewch i ni gymmeryd unrhyw gyfran a adroddir gan bob un o'r tri efengylwr i'w rhoddi i'r prawf, a'i barnu wrth ystyriaethau cyffredin o debygolrwydd. Byddai yr hyn a gyflwynid ger ein bron rywbeth yn debyg i hyn:—Yn y lle cyntaf, ni a gaem fe allai dri, neu bump, neu chwaneg o eiriau yn *hollol yr un fath*; yna cynnifer a hyny yn *hollol wahanol*; yna dwy frawddeg neu fwy *yn yr un geiriau*, ond mewn trefn wahanol; yna ymadrodd mewn un neu ddwy efengyl heb fod yn y drydedd; yna amryw eiriau yn hollol yr un; yna brawddeg nid yn unig yn hollol wahanol, ond mewn ymddangosiad yn anghysson â'r llall neu y lleill: ac felly yn y blaen, yr un cyfnewidiadau, cyd-darawiadau, a thrawsddodiadau mympwyol a dyrus, ar y dybiaeth hon, yn dilyn eu gilydd yn barhaus. Ac nid ydyw y dysgrifiad hwn i'w gyfyngu at drefniad y geiriau a'r brawddegau; gellir ei gymhwyso hefyd, gydag ychydig o wahaniaeth, at drefniad y rhanau helaethach o'r hanesion. Yr un mor fympwyol a fyddai cyflead y mater sydd yn ffurfio defnydd yr hanes. Weithiau, tra yn cyd-daraw yn y pethau a adroddir, y mae yr efengylau yn eu gosod yn y drefn fwyaf gwahanol i'w gilydd—pob un yn ei thro yn eu cysylltu â'u gilydd âg arwyddion ymddangosiadol o olyniad amseryddol; er esampl, yr ymweliad â Galilea yn *Mat.* viii. 28, &c., o'i gymharu â'r un hanes yn *Marc* v. 1, &c.; *Luc* viii. 26, &c., a lluaws ereill o fanau y gellid eu nodi. Gellir gofyn, A oes rhyw gysgod o debygolrwydd y buasai ysgrifenydd yn cyfnewid mater ac ieithwedd yr hyn fuasai o'i flaen mewn dull mor hynod ac afresymol, ac yntau, yn ol y dybiaeth hon, heb un bwriad i wneyd hyny, ond yn amcanu yn deg a chyda chymmeradwyaeth i gorffori gwaith un arall i mewn i'r eiddo ei hunan? Diau nas gellir nodi allan mewn un man esampl o ysgrifenydd yn benthyca ac yn cyfaddasu gwaith un arall, a'r cyfryw fenthyciad yn dwyn nodau cyffelyb i'r hyn a ddarluniwyd uchod.

Nid oes ond un dybiaeth arall a all mewn un modd, ar y golygiad o ymddibyniad yr efengylwyr ar eu gilydd, roddi cyfrif am yr amrywiol wahaniaethau bychain yn nhrefn a chynnwys yr hanes, ag ydynt i'w gweled yn y gwahanol efengylau, sef—5. Eu bod wedi bod yn euog o lenladrad twyllodrus y naill oddi ar y llall, gan gelu a gwahaniaethu yn achlysurol yr hyn a adroddid ganddynt mewn undeb â'u gilydd, er mwyn i bob un allu ei wneuthur i ymddangos fel ei eiddo

[1] Y mae Mr. Smith o Jordan hill, ysgrifenydd diweddar ar yr efengylau, yn proffesu dwyn angreifftiau o haneswyr diweddar yn cyfateb i'r hyn a nodir uchod. Ond fel y sylwa Alford, nid ydynt at y pwynt. "Yn mhob un o'r rhai hyn yn mron, gellir rhoddi rhesymau am waith yr ysgrifenydd diweddaraf yn defnyddio neu yn gwrthod geiriau ac ymadroddion yr un blaenorol....... Os ydyw Matthew Marc, a Luc, i'w barnu mewn cyfatebiaeth i Suchet, Alison, a Napier, dyna raid fod y casgliad—tra yr oedd yr haneswyr yn ddynion deallus, yn gweithredu wrth reolau cymdeithasiad meddyliol a detholiad, yr oedd yr efengylwyr yn hollol at drugaredd mympwy, a'r cyfryw fympwy nad oedd braidd yn gyson â'r meddiant o iawn bwyll."

Digitized by Google

iad yr oes gyntaf oddi ar yr ansicrwydd a berthyn i draddodiad yn awr. 2. Yr oedd y traddodiad yr ydym ni yn son am dano yn un o nodwedd neillduol ac eithriadol—yn un *sui generis*—hollol ar ei ben ei hunan. Yr oedd y traddodiad llefaredig, neu yn hytrach yr addysg lefaredig, â'r hon y mae a wnelom, yn gynnwysedig mewn *dwyn tystiolaeth* bwyllog a gofalus i ffeithiau o'r pwys mwyaf; ac fel y cyfryw, yr oedd y traddodiad yn cymmeryd y ffurf o addysg gysson a dyddiol i'r *catechumens*, sef y dysgyblion a egwyddorid yn y ffydd Gristionogol yn y gwahanol eglwysi. Y mae traddodiad llefaredig cyffredin yn hollol wahanol i hyn yn ei natur; y mae hwnw yn esgeulus a chymmysglyd—nid yw yn cael ei ddiogelu gyda'r un gofal, ac nid ydyw yn ffurfio defnydd o addysgiaeth ddifrifol. 3. Y mae yr wrthddadl yn colli golwg ar barhad byr tymmor y traddodiad. Ni ddarfu i'r traddodiad efengylaidd hanfodi yn y ffurf o draddodiad ond yn unig yn ystod oes y rhai oedd yn awdwyr o hono. Nid oedd yma ddim amser wedi ei adael i'w lygru na chwanegu ato—nid oedd yma ddim amser i addurniadau ffug-chwedleuol (*mythic*) i dyfu o'i amgylch. Cyhyd ag yr oedd y tystion cyntaf eu hunain yn fyw, cyhyd a hyny yr oedd y traddodiad wedi ei ddiogelu o fewn cylch eu tystiolaeth hwy; a phan aethant hwy ymaith oddi ar y ddaiar, dyna y dystiolaeth erbyn hyny wedi ei sefydlu mewn ysgrifen.

Gellid dwyn yn mlaen wrthddadleuon ereill, fe allai, yn erbyn y golygiad o efengyl lefaredig yn wreiddyn cyffredin yr efengylau, yn cyfodi yn benaf oddi ar gamsyniad am ysbryd a gwaith neillduol y cyfnod apostolaidd; ond heb gymmeryd arnom hòni fod y golygiad hwn yn symmud pob anhawsder yn nglŷn â pherthynasau yr efengylau ysgrifenedig â'u gilydd, gellir dywedyd ei fod yn egluro cymmaint mor berffaith syml a naturiol, fel y byddai yn afresymol peidio addef yn rhwydd fod rhai anhawsderau yn aros. Rhaid i hyn gael ei addef gan amddiffynwyr pob golygiad. Fel yr ydys wedi crybwyll yn barod, gall rhanau o'r traddodiad fod wedi eu trosglwyddo i ysgrifen o bryd i bryd; gall llawer, fel yr awgryma yr efengylwr Luc, fod wedi gwneuthur ymgais i drefnu yr oll yn un hanes olynol; ond eto arosai yn hanfodol yn draddodiad yn yr oes gyntaf, ac fel y cyfryw trosglwyddwyd ef i ffurf awdurdodedig ac arosol yn ein hefengylau ysgrifenedig ni.

*Yr Efengyl yn ol Ioan.*—Gwnaethom ychydig o sylwadau yn td. 172 ar awdwr yr efengyl hon; ond ni a roddwn yma rai ffeithiau yn mhellach am ei hanes personol ac amgylchiadau perthynol i'w efengyl cyn symmud yn mlaen i sylwi ar ddilysrwydd a gwiredd yr efengylau. Efe, fel y dywedasom yn barod, ydoedd y "dysgybl yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu," a goffeir mor fynych ynddi: *Ioan* xiii. 23; xix. 26; xx. 2; xxi. 7, 20, 24. Yr oedd efe, yn nghyd â'i frawd Iago, a Phedr, yn dyst o gyfodi merch Iairus o farw (*Marc* v. 37); o'r gweddnewidiad (*Mat.* xvii. 1, &c.); ac o'r ing yn Gethsemane: efe a bwysai ar fynwes yr Iesu yn y swper diweddaf: a chydnabyddai Pedr mai efe ydoedd y cyfaill yr ymddiriedai yr Iesu fwyaf o'i gyfrinach iddo: *Ioan* xiii. 23. Iddo ef y darfu i'r Iesu ei hunan, pan yn marw ar y groes, gyflwyno gofal ei fam: *Ioan* xix. 26, 27. Ac ymddengys fod y cariad neillduol hwn o eiddo y Gwaredwr at Ioan yn cael ei ateb ganddo yntau â serchogrwydd a ffyddlondeb tra ymroddedig. Mae yn wir iddo ffoi gyda'r lleill yn yr awr bruddaidd pan ddaliwyd yr Iesu ond yr ydym yn ei gael ef a Phedr yn fuan yn ymgryfhau eilwaith; ac o'r pryd hwnw (*Ioan* xviii. 15, 16) hyd y diwedd (*Ioan* xix. 25, &c.), yr oedd yn llygad-dyst o ddyoddefiadau ei Feistr mawr. Yn *Ioan* xxi, ni a gawn yr un arbenigrwydd yn cael ei osod ar y dysgybl anwyl gan ein Iachawdwr ar ol ei adgyfodiad.

Nid yw Ioan yn dyfod ger ein bron ond yn dra anfynych yn Actau yr Apostolion, a phob amser mewn cyssylltiad â Phedr, ac yn cael ei daflu megys i'r cysgod ganddo: *Act.* iii. 1, &c.; viii. 14—25. Y mae yr hanes yn ei adael ef yn Ierusalem: ond nid ymddengys ei fod yno yn ymweliad cyntaf Paul âg Ierusalem (*Gal.* i. 18, &c.), B. A. 38—40, o blegid dywed na welsai yr un o'r apostolion oddi eithr Pedr ac Iago; ond ar ei ail ymweliad (*Gal.* ii. 1), o ddeutu B. A. 43, 44, yr oedd Ioan yno: *adn.* 9. Os oedd y daith i benderfynu y cwestiwn yn nghylch yr enwaediad yn un wahanol (*Act.* xv. 1) ac yn ddiweddarach na'r ail daith hon (yr hyn y mae Alford yn ei ddal allan yn ei *Prolegomena to Acts*, cyf. ii. td. 26), yna yr oedd Ioan yn Ierusalem ar yr adeg hono hefyd, o ddeutu B. A. 50. Wedi hyn, yr ydym yn colli golwg ar yr apostolion; ac nis gallwn gyda dim sicrwydd nodi amser eu hymwasgariad diweddaf. Cymmerodd le fe allai rywbryd rhwng y cynghor hwn ac ymweliad olaf Paul âg Ierusalem (*Act.* xxi. 18), o ddeutu B. A. 60, pryd yr ydym yn cael fod Iago yn unig yn trigo yno.

Am hanes Ioan yn ddilynol i hyn, yr ydys yn dibynu ar draddodiad. Ac yma y mae genym dystiolaethau mwy credadwy nag mewn cyssylltiad âg un o'r apostolion ereill. Dywedir gan Polycrates, esgob Ephesus, yn niwedd yr ail ganrif, yn ei epistol at Victor, esgob Rhufain, fod Ioan, yr hwn a restrir ganddo yn mysg goleuadau mawr Asia, wedi marw, a'i gladdu yn Ephesus. Y mae Irenæus hefyd, dysgybl Polycarp, yr hwn oedd ei hunan yn ddysgybl Ioan, yn dywedyd fod Ioan wedi aros yn Ephesus hyd amser Trajan. Tystir yr un peth gan Clement o Alexandria, Origen, Eusebius, a Jerome. Ond a chaniatau preswyliad maith a marwolaeth yr apostol yn Ephesus, nid oes genym ddim gwybodaeth pa bryd, nac o ba le y daethai yno. Yr oedd eglwysi Asia wedi eu planu gan Paul, ac yr oedd yn rheol gydag ef i beidio gormesu ar faes llafur un apostol arall (*Rhuf.* xv. 20): nid ydyw chwaith byth, yn ei lythyrau at eglwysi Asia, yn gwneuthur unrhyw gyfeiriad nac yn anfon unrhyw gyfarchiad at Ioan: ac y mae yn eglur, oddi wrth ei araeth ymadawol i henuriaid Eglwys Ephesus yn Miletus (*Act.* xx), nad oedd ganddo unrhyw ddysgwyliad y buasai apostol yn dyfod i'w mysg. Y mae y ffeithiau hyn ynte yn sicrhau fod yn rhaid fod dyfodiad Ioan i Asia wedi cymmeryd lle ar ol marwolaeth yr apostol Paul.

Y mae yn debyg y gellir casglu gyda gradd o debygolrwydd fod y peryglon, y rhai oedd yn bygwth yr eglwysi Asiaidd—fel y mae yn hawdd gweled yn ystod bywyd Paul, ac at y rhai y mae Pedr yn cyfeirio yn lled eglur yn ei epistol cyntaf, yr hwn a ysgrifenwyd atynt (gwel 1 *Pedr* i. 14; ii. 1, 2, 7, 8, 12, 16, &c.)—fod y peryglon hyn wedi cymmeryd ffurf mor bwysig ar ol ymadawiad Paul, eu tad yn yr efengyl, fel ag y darfu i Ioan weled yn angenrheidiol ymsefydlu ac arfer ei awdurdod apostolaidd yn eu plith. Tybir hyn gan Lücke a Neander. Ond nid yw hyn yn ein dwyn yn ddim nes at allu rhoddi cyfrif am yr ysbaid rhwng ymadawiad Ioan âg

Digitized by Google

fwy naturiol na'r dybiaeth fod Cristionogion Ierusalem yn fuan iawn wedi trosglwyddo Efengyl Matthew, yr hon oedd wedi ei chyfansoddi yn eu plith hwy, i Rufain, Ephesus, Alexandria, a manau ereill; ac ar y llaw arall, fod Cristionogion Rhufain ac Ephesus wedi anfon copïau o'r ysgrifeniadau oedd wedi eu cyfansoddi yn eu plith hwythau i'r eglwysi ereill. Yr oedd yn mhob eglwys ysgrif-gelloedd, yn y rhai y cedwid ysgrifau pwysig. Yn y trysor-gelloedd hyn o eiddo yr eglwys y dodid yr efengylau; a chan nad oedd ond y pedair efengyl hyn wedi eu cyfansoddi a'u harddelwi gan apostolion, fe ymffurfiodd y casgliad o'r efengylau, nid yn y lle yma neu y lle acw, ond yn mhob parth ar yr un adeg. Y mae yr eglurhad hwn ar y mater, yn un peth, yn hollol gysson â'r amgylchiadau gwybyddus i ni o berthynas i'r eglwys gyntefig; ac hefyd yr unig un sydd yn rhoddi cyfrif boddhaol am y ffaith fod y casgliad yn nwylaw pawb, tra nad oedd neb yn gwybod yn mha fodd, nac yn mha le y ffurfiwyd ef. Heb law hyny, gan nad ydys yn cael un efengyl arall heb law y rhai hyn yn cael eu defnyddio yn gyffredinol, y mae yn dra eglur nad oedd ond y pedair efengyl hyn o darddiad apostolaidd.

Oddi ar hyd yn oed yr olwg frysiog hon ar y profion allanol o ddilysrwydd yr efengylau, y mae yn rhaid addef nad oes un llyfr o fewn holl gylch llenyddiaeth henafol yn meddu tystiolaethau henafol mor luosog ac mor benderfynol o'i blaid ag sydd ganddynt hwy. Ni oddef ein terfynau i ni ymhelaethu ar y profion hyn yn bresennol; gellir eu gweled yn cael eu trafod yn dra helaeth gan Lardner, Davidson, Horne, &c. Ond po fwyaf a astudir arnynt, cryfaf oll fydd yr argyhoeddiad fod yr efengylau, pa un bynag a edrychir arnynt fel casgliad, ynte pob un yn unigol, yn cael eu hattegu a'u cadarnhau â phrofion allanol a thufewnol lluosocach a chryfach nag unrhyw lyfr henafol sydd mewn bod. Ychydig o ysgrifeniadau sydd yn meddu tystiolaeth mor hyned o'u plaid, yn cyrhaedd yn ol hyd at oes eu hawdwyr; ond nid oes un yn meddu cynnifer o honynt, mor hollol annibynol ar eu gilydd, ac mor gyd-gadarnhaol y naill o'r llall.

Fel esamplau o'r profion tufewnol o ddilysrwydd yr efengylau, gellir nodi yr *iaith* yr ysgrifenwyd hwynt ynddi. Y mae yn hysbys mai Groeg oedd yr iaith hono, yr hon oedd y pryd hwnw yn debyg i'r hyn ydyw y Ffrancaeg yn Ewrop yn awr, yn fath o iaith gyffredinol. Ond nid y Roeg bur, glasurol, a ffynai yn amseroedd coethaf yr iaith, ydyw. Math o Roeg Hebreaidd ydyw; hyny ydyw, Groeg yn gymmysgedig â dulliaith Hebreig, neu yn hytrach ddulliaith Syriaidd-Galdeaidd, sef cymmysgedd o'r Syriaeg a'r Galdaeg, yr hon oedd yr iaith lefaredig gyffredin yn mysg Iuddewon Palestina yn yr oes hono. Yn awr, y mae iaith fel hon yn cyfateb yn berffaith i'r lle, a'r amser, a'r amgylchiadau ag yr ydys yn hòni fod y cyfansoddiadau hyn wedi eu hysgrifenu ynddynt. Ac nid yn unig y mae yr iaith yn cyfateb i sefyllfa y personau i'r rhai y priodolir y llyfrau, ond nis gallasai fod wedi ei defnyddio gan unrhyw berson neu bersonau mewn amgylchiadau gwahanol i'r apostolion a'r efengylwyr. Yr oedd yn angenrheidiol bod yn byw yn y ganrif gyntaf, a bod wedi cael dygiad i fyny yn Iudea neu Galilea, neu un o'r gwledydd cymmydogaethol, i allu ysgrifenu iaith gyfansawdd fel un y Testament Groeg. Ac ni buasai y cyfryw iaith a hon yn ymddangos mewn un o lyfrau y Testament Newydd, er i'r ysgrifenwyr fod yn byw yn Iudea, heb iddynt hefyd fod yn byw yn yr un oes a'r apostolion a'r efengylwyr. Nis gallasai Iudea ei hunan gynnyrchu, yn yr ail ganrif, y cyfansoddiadau a geir yn y Testament Newydd. Darfu i ddinystr Ierusalem, a llwyr ddymchweliad y wladwriaeth Iuddewig, ddwyn i mewn ffurfiau newyddion, a pherthynasau newyddion, mewn iaith yn gystal a gwleidiadaeth; fel, pe buasai rhyw un yn cynnyg ar gyhoeddi cyfansoddiadau twyllodrus yn yr ail ganrif, buasai eu hiaith yn rhwym o ddwyn nodwedd wahanol i'r eiddo ysgrifeniadau wedi eu cyfansoddi yn y cyfnod o flaen dinystr Ierusalem, hyd yn oed yn yr un wlad.—*Horne's Intro. to the New Test.*, cyf. i. td. 104.

Gellir crybwyll hefyd fod y cyfansoddiadau hyn yn amlwg yn waith dynion cyffredin, heb wneuthur unrhyw ymhoniad i ddysgeidiaeth, oddi eithr mesur o gydnabyddiaeth âg ysgrifeniadau Iuddewig; y mae yr hanes ei hunan yn eu dangos hefyd fel rhai yn ymwneyd â gwahanol alwedigaethau. Y mae hyn eto yn cyfateb yn hollol i'r hyn a honir am eu hawduriaeth; sef eu bod wedi eu hysgrifenu gan Iuddewon brodorol, o darddiad a sefyllfa werinol, heb fod wedi derbyn unrhyw addysg lenyddol, ond yn adrodd naill ai fel llygaid-dystion, neu trwy gyfrwng llygaid-dystion, yr amgylchiadau a ddysgrifir ganddynt.

2. Eu *gwiredd*. Y mae o bwys i ni gofio fod y prif resymau a ddygwyd yn mlaen i gadarnhau dilysrwydd yr efengylau yr un mor wasanaethgar i brofi gwirionedd eu cynnwysiad. Pa beth bynag sydd yn profi eu bod wedi eu lledaenu a'u derbyn yn gyffredinol fel cyfansoddiadau y rhai y mae eu henwau wrthynt, a hyny yn yr oes a'r wlad y dywedir eu bod wedi eu cyhoeddi ynddynt —y mae yr un rhesymau, meddwn, yn rhwym o brofi fod eu cynnwys yn wirionedd; o blegid ar y dybiaeth nad oedd yn wirionedd, y mae fod iddynt gael eu lledaenu, eu derbyn, a'u credu yn gyffredinol fel gwirionedd, yn y cyfryw oes a gwlad, ac amgylchiadau, nid yn unig yn beth anesboniadwy, ond yn beth anmhosibl.

(1.) Tuag at deimlo llawn nerth yr ymresymiad hwn, dylid cadw mewn cof fod y ffeithiau a gofrestrir yn yr efengylau yn rhai o nodwedd arbenig—fod yr hynodrwydd a'r neillduolrwydd mwyaf yn perthyn iddynt. Mewn gair, yr oeddynt (os cymmerasant le o gwbl) yn wyrthiau; yn weithredoedd goruwchnaturiol; yn gyfres o'r dygwyddiadau rhyfeddaf a gymmerasant le ar y ddaiar erioed. Genedigaeth ein Iachawdwr, ei gyssegriad cyhoeddus i'w weinidogaeth, y gwyrthiau lluosog o drugaredd a gyflawnodd yn ei fywyd, amgylchiadau ei farwolaeth, ei adgyfodiad o'r bedd, ei esgyniad i'r nefoedd—yr oedd yr amgylchiadau hyn y fath na chymmerodd dim cyffelyb iddynt le o'u blaen nac ar eu hol, ac yr oeddynt yn annhraethol bell uwch law pob gallu dynol i'w dwyn oddi amgylch.

Yn awr, yr ydys eisoes wedi dangos fod tystiolaethau lluosog ac anwadadwy yn profi fod y llyfrau sydd yn proffesu rhoddi hanes am yr holl amgylchiadau rhyfeddol yma, wedi eu cyhoeddi yn, neu o ddeutu yr adeg pan y cymmerasant le, ac hefyd yn y wlad yn yr hon y cymmerasant le. Appelid atynt fel cyfansoddiadau dilys a gwirioneddol gan bob plaid fel eu gilydd—uniongred a hereticaidd, Cristionogol a phaganaidd—mor foreu a'r ail ganrif; hyny yw, yn mhen ychydig flyneddoedd wedi i'r amgylchiadau a gofnodir

darawiad hwn[1] yn cael eu dwyn yn mlaen gan Paley; ac nid yw y rhai hyn ond talfyriad byr iawn o'r rhestr luosocach a roddir gan yr awdwr manwl a llafurus hwnw, Dr. Lardner, yn ei *Credibility of the Gospel History*. Y mae y Dr. Wardlaw yn sylwi fod y cywirdeb hanesiol hwn, yn dyfod fel yr ydoedd oddi wrth ddynion diddysg, nid yn unig yn cadarnhau gwirionedd yr hanes, ond yn profi yn mhellach arweiniad ac ysbrydoliaeth ddwyfol yr ysgrifenwyr.

(3.) Ni oddef ein terfynau i ni ymhelaethu yn mhellach ar y profion tumewnol o wirionedd yr efengylau; ond gallwn enwi y rhai canlynol:—Cymmeriad yr Arglwydd Iesu Grist, gwrthddrych mawr yr hanes. Megys na bu neb cyffelyb iddo ef ei hunan yn mysg meibion dynion, felly nis gallasai y meddwl dynol roddi bod i'r darlun a roddir o'i gymmeriad perffaith yn yr efengylau; y mae yn mhell uwch law pob dychymyg dynol; mae y darlun hwn o gymmeriad perffaith wedi myned yn annhraethol bell y tu hwnt i freuddwydion dynoliaeth, ïe yn ei chediadau uchaf. Ni buasai y fath ddarlun o "berffeithrwydd tegwch" i'w gael ar y ddaiar oni buasai fod y gwrthgysgod mawr ei hunan wedi bod ar y ddaiar—oni buasai i'r "Gair gael ei wneuthur yn gnawd a thrigo yn ein plith ni—yn llawn gras a gwirionedd."

(4.) Gonestrwydd a symledd perffaith yr ysgrifenwyr. Amlygir hyn mewn amrywiol ffyrdd: er esampl, yn eu gwaith yn adrodd cenadwri Ioan Fedyddiwr, yr hon a awgrymai ammheuaeth yn ei feddwl am Fessïaeth Crist—eu gwaith yn cofnodi eu hanghrediniaeth, eu hammheuon, a'u tywyllwch eu hunain, yn nghyd â'r dadleuon annheilwng a gymmerasant le yn eu plith o bryd i bryd am yr uchafiaeth neu y flaenoriaeth ar eu gilydd—yr hyn bethau ydynt oll yn anghysson â chymmeriad twyllwyr, ac i gyfrif am danynt yn unig trwy addef y didwylledd a'r unplygrwydd meddwl mwyaf hollol yn yr ysgrifenwyr. Gellir chwanegu at hyn yr absennoldeb o bob amlygiad o deimlad cryf neu nwydau, hyd yn oed pan yn adrodd hanes yr amgylchiadau mwyaf rhyfeddol; nid ydynt byth yn dangos amcan unochrog i wneyd argraff ar feddwl y darllenydd—nac un amser yn chwanegu sylwadau o'r eiddynt eu hunain at yr hanes, ond yn gwneyd adroddiad noeth, syml, a dirodres, o'r amgylchiadau yn hollol fel y cymmerasant le.

(5.) Purdeb ac arucheledd y gyfundrefn o foesoldeb sydd yn cael ei dadguddio a'i hargymhell yn yr ysgrifeniadau hyn. Y mae hyn eto, fel cymmeriad gwrthddrych yr hanes, yn gyfryw ag na "welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac na ddaeth i galon dyn," hyd yn oed yn yr ystâd fwyaf coethedig a fu ar y ddynoliaeth erioed, i ddychymygu dim yn gyffelyb iddo.

(6.) Gallwn nodi, yn olaf, y cyssondeb hanfodol sydd rhwng yr ysgrifenwyr a'u gilydd, yn nghanol holl amrywiaethau yr arddull a'r gwahanol amgylchiadau cyssylltiedig â chyfansoddiad yr efengylau. Y mae fod pedwar hanesydd fel hyn yn ysgrifenu yr un hanes yn hollol annibynol ar eu gilydd, a'r hanes hwnw yn cynnwys cynnifer o amgylchiadau gwahanol yn y rhai y gallasent ddyfod i wrthdarawiad â'u gilydd, ac eto y cyfan yn amlygu cyssondeb sylweddol o dan bob ymddangosiad arwynebol neu achlysurol o anghyssondeb mewn pethau bychain a dibwys—y mae hyn yn beth nas gellir rhoddi cyfrif am dano, ac yn ol natur pethau nas gallasai gymmeryd lle, oni buasai fod pob un o'r hanesion yn gorphwys ar sylfaen gyffredin o wirionedd.

NODWEDDION GWAHANIAETHOL YR EFENGYLAU.

Er fod pob un o'r efengylwyr yn ysbrydoledig ac yn ysgrifenu o dan arweiniad anffaeledig Ysbryd Duw, nid oedd hyn yn gosod trais ar eu rhyddid personol, nac yn dinystrio teithi neillduol a gwahaniaethol meddwl pob un. Yr oedd ffynnonell yr ysbrydoliaeth yn ddwyfol, tra yr oedd y cyfrwng trwy yr hwn y rhedai y dyfroedd yn un dynol; ac er fod y ffrwd yn cael ei diogelu rhag llwgr yn y trosglwyddiad, eto yr ydoedd yn cymmeryd ffurf y cyfrwng trwy ba un yr oedd y trosglwyddiad yn cael ei wneuthur. Ac heb law neillduolrwydd cyfansoddiad meddyliol yr efengylwyr, yr oedd amgylchiadau hanes personol pob un yn neillduol a gwahanol, ac felly hefyd yr oedd y dosbarth o ddarllenwyr yr oeddynt yn ysgrifenu yn benaf ar eu cyfer, yn nghyd â'r amcan cyffredinol a gedwid yn benaf mewn golwg ganddynt wrth ysgrifenu. Y canlyniad naturiol o hyn ydyw fod genym yn yr efengylau bedwar hanes gwahanol o'r Gwaredwr; ac eto y pedwar, mewn undeb prydferth â'u gilydd, yn ffurfio un darlun gogoneddus o'r Gwrthddrych mawr. Y mae genym fel hyn, nid yn unig undeb, ond unoliaeth, mewn amrywiaeth. Y mae y darluniau yn wahanol, ac eto yn gyffelyb—oll yn wahanol i'w gilydd, ac er hyny oll yn gyffelyb i'r gwrthddrych a bortrëadent. Yr ydoedd y gwrthddrych mawr hwn a'i ogoniant yn anfeidrol, er dyfod o hono mewn un ystyr y tu fewn i gylch meidroldeb:—nis gellir ei gael byth i berffeithrwydd, na'i gynnwys yn llawn mewn unrhyw ddarlun; y mae yn aros byth yn newydd a byth yr un. Ac fel hyn y mae yr efengylwyr yn ei arlunio, pob un o'i bwynt neillduol ei hunan, fel y byddai i ninnau, trwy newid ein safleoedd, fod mewn gwell mantais i dderbyn amlygiadau newyddion parhaus o'i ogoniant. Fel y mae Da Costa yn sylwi:—"Tuag at bortrëadu Crist ger bron y llygad mewn *cyflawnder* cyfartal—hyny yw, fel *un* gwirioneddol gyfan, a hyny yn ei holl agweddion—yr oedd un tyst yn mhell iawn o fod yn ddigonol; ond gallai doethineb ddwyfol gyrhaedd ei hamcan yma trwy gyfrwng tystiolaeth bedwar-plyg, a darluniad pedwar-plyg. Mewn trefn i gael hyn, yr oedd yn briodol i bob un o'r pedwar efengylwr osod allan i ni, nid yn unig weithredoedd a dywediadau, ond hyd yn oed berson y Gwaredwr o'i bwynt neillduol ei hunan o olygiad, ac mewn cydweddiad â'i gymmeriad a'i dueddfryd personol ei hun."—[*Four Witnesses*, td. 118.]

Yn unol â hyn, y mae teitlau ein hefengylau yn hynod hapus—"Yr Efengyl *yn ol* Matthew," &c.; hyny yw, y darluniad o wrthddrych mawr yr efengyl, fel yr ymddangosai i bob ysgrifenydd o'i safle neillduol ei hunan. Yr oedd yr unoliaeth a'r amrywiaeth hwn yn cael eu cydnabod gan yr eglwys gyntefig. Galwent y casgliad o'r pedair efengyl wrth yr enw hwn, "Yr Efengyl."

[1] Yn mhlith y lluaws cyd-darawiadau hyn y mae ychydig o annghyssonderau ymddangosiadol, ac y mae anffyddwyr wedi gwneyd defnydd mawr o honynt er ceisio taflu ammheuaeth ar wirionedd yr hanes. Er esampl, y crybwylliad a wneir am "y trethiad" yn *Luc* ii. 1, 2; yn nghyd âg ychydig bethau ereill. Byddai yn hawdd eu rhoddi yma, yn nghyd â'r attebion hollol foddhaol a roddwyd iddynt, pe buasai ein terfynau yn caniatau. Digon yw crybwyll fod cymhwyso atynt reolau addefedig beirniadaeth deg yn tori grym pob gwrthddadl a ellir ei chyfodi oddi wrthynt, yn y fan. Gall y darllenydd eu gweled yn cael eu hegluro a'u hateb yn rhagorol gan y Dr. Wardlaw, yn ei *Systematic Theology*, cyf. i., td. 441—449.

Digitized by Google

Geilw Irenæus y casgliad yn "Efengyl bedwarplyg," gan ei ddesgrifio fel darlun, yn portrëadu yr un gwrthddrych goruchel mewn gwahanol agweddion. Y mae syniad yr eglwys foreuol am neillduolion gwahaniaethol yr efengylau yn cael ei osod allan yn hynod gryf ac eglur yn y gymhariaeth a arferid mor fynych o'r pedair efengyl i'r pedwar anifail y sonir am danynt yn Llyfr y Datguddiad. Mae Irenæus yn priodoli y *dyn* i Matthew, yr *eryr* i Marc, y *llew* i Ioan, a'r *ych* i Luc.

Gan fod yr erthygl hon eisoes wedi rhedeg yn faith, nis gallwn yma roddi dim mwy na'r crynodeb byr a ganlyn o neillduolion yr efengylau, gan gyfeirio y darllenydd, am ymdriniaeth helaethach â hwynt, at yr erthyglau a ymddangosant eto o dan enwau y gwahanol efengylwyr.

1. *Llinellau a nodweddion allanol yr efengylau.*

(1.) Y mae yn amlwg mai y safle o ba un yr ysgrifenai Matthew ydoedd yr un Iuddewaidd; Marc, un Genedlig; Luc, un gyffredinol; Ioan, un Gristionogol.

(2.) Y mae *gwedd gyffredinol* neu *brydwedd* Efengyl Matthew gan mwyaf yn ddwyreiniol; yr eiddo Marc yn Rhufeinig; yr eiddo Luc yn Roegaidd; a'r eiddo Ioan yn ysbrydol.

(3.) Y mae *arddull* Efengyl Matthew yn fawreddog a chynghaneddol; yr eiddo Marc yn fywiog a manwl; yr eiddo Luc yn dawel a chyflawn; yr eiddo Ioan yn rhwydd ac ymddyddanol.

(4.) *Y nodwedd neillduol* sydd yn fwyaf eglur yn perthyn i Efengyl Matthew ydyw cymmesuredd; Marc, crynoad; Luc, trefn; ac Ioan, cyfundraeth.

(5.) O ran y *meddwl* a'r *iaith*—yn Efengyl Matthew, y mae y ddau yn dwyn delw Hebreaidd; yn Luc, y ddau yn Roegaidd; tra yn Efengyl Marc, y mae y meddwl yn fynych o ddelw Orllewinol, er fod yr iaith yn dwyn argraff Hebreaidd; ac yn Ioan, y mae yr iaith yn Roegaidd, ond y meddwl yn Hebreaidd.

2. *Mater a chynnwysiad yr efengylau.*

(1.) Yn Efengyl Matthew yr ydym yn cael adroddiad (*narrative*); yn Marc, cofion (*memoirs*); yn Luc, hanes (*history*); ac yn Ioan, bortreadiad dramayddol.

(2.) Yn Efengyl Matthew fe geir yn fynych ddygwyddiadau yn cael eu cofnodi yn eu cyflawnder; yn Marc, ddygwyddiadau yn eu manylion, yn Luc, ddygwyddiadau yn eu cyssylltiad; ac yn Ioan, ddygwyddiadau yn eu perthynas â'r athrawiaeth a gyfodai o honynt:—

(3.) Ac o ganlyniad yr ydym yn cyfarfod yn fwy mynych yn Efengyl Matthew â'r hysbysiaeth am argraffiadau; yn Marc, am ffeithiau; yn Luc am gymhelliadau; ac yn Ioan, am eiriau wedi eu llefaru.

(4.) Y mae yr hanes a roddir gan Matthew yn benaf yn gasgliadol, ac yn fynych yn gyferbyniol; Marc, yn ddesgrifiadol ac amgylchiadol; Luc, yn addysgiadol ac adfyfyriol; ac Ioan yn ddethol a chyflawnwol.

3. *Portread o'r Gwaredwr yn yr efengylau.*

Y mae Efengyl Matthew yn ei gyflwyno i ni yn benaf fel y Messiah Iuddewig y prophwydasid am dano; Efengyl Marc, fel y Duw-ddyn yn cyflawnu gwyrthiau rhyfeddol; Efengyl Luc, fel Gwaredwr cyffredinol y byd neu y ddynoliaeth; a'r Efengyl Ioan, fel uniganedig Fab Duw, yn amgylchion dyfnion ei berson, a'i berthynasau â'r Tad, â'r Ysbryd, ac â'r bobl.

Fel un anghraifft fechan i egluro rhan o'r crynodeb uchod, dodwn yma yr esampl ganlynol o'r manylrwydd bywiog a darluniadol a berthyn i *arddull* Marc mewn cyferbyniad i'r eiddo Matthew:—

| Mat. viii. 28—31. | Marc v. 1—19. |
|---|---|
| 28 "Ac wedi ei ddyfod ef i'r lan arall, i wlad y Gergesiaid, dau ddieflig a gyfarfuant âg ef, y rhai a ddeuent o'r beddau, yn dra ffyrnig, fel na allai neb fyned y ffordd hono." 29 "Ac wele, hwy a lefasant, gan ddywedyd, &c., &c." | 1 "A hwy a ddaethant i'r tu hwnt i'r môr, i wlad y Gadareniaid. 2 Ac ar ei ddyfodiad ef allan o'r llong, yn y man cyfarfu âg ef o blith y beddau, ddyn âg ysbryd aflan ynddo, 3 Yr hwn oedd â'i drigfan yn mhlith y beddau; *ac ni allai neb, ïe, â chadwynau, ei rwymo ef:* 4 *O herwydd ei rwymo ef yn fynych â llyffetheiriau, ac â chadwynau, a darnio o hono y cadwynau, a dryllio y llyffetheiriau: ac ni allai neb ei ddofi ef.* 5 *Ac yn wastad nos a dydd yr oedd efe yn llefain yn y mynyddoedd, ac yn mhlith y beddau, ac yn ei dori ei hun â cherig.* 6 *Ond pan ganfu efe yr Iesu o hirbell, efe a redodd ac a'i haddolodd ef;* 7 *A chan waeddi â llef uchel, efe a ddywedodd, Beth sydd i mi a wnelwyf â thi, Iesu Mab y Duw goruchaf? yr ydwyf yn dy dynghedu trwy Dduw, na phoenech fi.* |
| Nid ydyw Matthew yn dyweyd dim am eu gwellhad, heb law (*adn.* 32). "Ac efe a ddywedodd wrthynt, Ewch. A hwy wedi myned allan, a aethant i'r genfaint foch. Ac wele, yr holl genfaint foch," &c., &c. | Am ei wellhad, dywed Marc (*adn.* 13. &c.,) "Ac yn y man y caniataodd yr Iesu iddynt. A'r ysprydion aflan, wedi myned allan, a aethant i mewn i'r moch: &c., &c. 14 A'r rhai a borthent y moch a ffoisant, ac a fynegasant *y peth* yn y ddinas, ac yn y wlad: a hwy a aethant allan i weled beth oedd hyn a wnaethid. 15 A hwy a ddaethant at yr Iesu, ac a welsant y cythreulig, yr hwn y buasai y lleng ynddo, *yn eistedd, ac yn ei ddillad, ac yn ei iawn bwyll;*" |
| Mat. ix. 18—26. | Marc v. 21—43. |
| 20 "(Ac wele, gwraig y buasai gwaedlif arni ddeuddeng mlynedd, a ddaeth o'r tu cefn *iddo*, ac a gyffyrddodd â'g ymyl ei wisg ef." | 25 "A rhyw wraig, yr hon a fuasai mewn diferlif gwaed ddeuddeng mlynedd, 26 *Ac a oddefasai lawer gan lawerodd o feddygon, ac a dreuliasai gymmaint ag oedd or ei heiddo, ac ni chawsai ddim lles, eithr yn hytrach myned waeth-waeth,* 27 Pan glybu hi am yr Iesu, hi a ddaeth yn y dyrfa o'r tu ol, ac a gyffyrddodd â'i wisg ef." Ac nid yw yr oll o'r hanes o *adn.* 29 hyd *adn.* 33 i'w gael ond gan Marc yn unig. |

Digitized by Google

| **Mat.** xiv. 1—12. | **Marc** vi. 14—20. |
| --- | --- |
| Hanes dienyddiad Ioan Fedyddiwr gan Herod. | Y mae yr holl hanes yn cael ei roddi gan Marc gyda llawer iawn mwy o fanylrwydd a bywiogrwydd. |

Wrth adael y mater hwn, dymunem gyfeirio y darllenydd at y sylwadau rhagorol a wneir gan y Parch. Lewis Edwards, ar yr efengylau, ac yn enwedig ar neillduolion Efengyl Ioan, yn ei draethawd arweiniol i *Gyssondeb y Pedair Efengyl*, o'r rhai yr ydym yn rhoddi y dyfyniad canlynol:—

"Y ddau a gafodd yr anrhydedd o ysgrifenu mwyaf o gyfrol y Testament Newydd, a'r ddau trwy y rhai y trosglwyddwyd y wybodaeth helaethaf i ddyn o feddwl Crist, yw Ioan a Phaul. Nid yw yn iawn eu cymmharu â'u gilydd er mwyn dyrchafu y naill, a diraddio y llall: ac nis gellir yn gyfiawn eu cymmharu o gwbl, gan eu bod yn hanfodol wahanol i'w gilydd. Paul oedd y mwyaf gweithgar—Ioan y mwyaf dwfn-feddylgar. Yr oedd gan bob un o honynt ei le, y naill mor angenrheidiol a'r llall: un i ddwyn allan athrawiaeth yr efengyl fel cyfundrefn gadarn, a'r llall i ddangos pob gwirionedd yn ei gyssylltiad â pherson y Gwaredwr. Yr oeddynt yn gynnrychiolwyr y ddwy egwyddor fawr a ganfyddir mor amlwg yn holl waith Duw mewn natur a gras, ac sydd mor anhebgorol, nid yn unig i gydsafiad, ond i hanfodiad y byd a'r eglwys; y ddwy egwyddor sydd mewn effaith yn cynnwys pob egwyddor arall ynddynt eu hunain, sef *trefn* a *bywyd*. Paul a gafodd ei ddysgu i osod holl bynciau yr efengyl mewn *trefn*, pob cymmal yn ei le priodol, yn athrawiaethol ac ymarferol: ond Ioan oedd yr ysgrifenydd a ddefnyddiodd Ysbryd Duw i alw sylw yn benaf at *fywyd* yr holl gyfundrefn—y bywyd hwnw, yr hwn a wel bob peth arall, a'r hwn ei hun nis gellir ei weled: 'Ynddo ef yr oedd bywyd; a'r bywyd oedd oleuni dynion.' * * *

"Os gofynir, yn mha gyfansoddiad er dechreu y byd y ceir y darnau mwyaf arddunol a mawreddus, atebwn mai yn ysgrifeniadau Ioan. Os gofynir, pa le y ceir anghreifftiau o'r dysgrifiadau mwyaf toddedig a chalon-dreiddiol, atebwn mai yn ysgrifeniadau Ioan. Os gofynir am y meddyliau mwyaf cynnwysfawr, y llewyrchiadau tanbeidiaf o wirionedd pur yn agor o'n blaen olygfeydd sydd yn cyrhaedd i bellderoedd nas gall y meddwl ei hun ganfod terfyn iddynt, a'r cwbl yn yr iaith fwyaf dirodres a lefarwyd gan ddyn erioed, y mae yn rhaid ateb eto fod hyn oll i'w gael yn ysgrifeniadau Ioan. Y mae yr holl ragoriaethau hyn i'w canfod, i ryw raddau, yn Llyfr y Dadguddiad: ac i'r darllenydd cyffredin y maent yn fwy amlwg yn y llyfr hwnw nag yn yr un arall o'i ysgrifeniadau ef. Fel yr oedd y Galileaid yn derbyn Crist 'wedi iddynt weled yr holl bethau a wnaeth efe yn Ierusalem ar yr ŵyl' (*Ioan* iv. 45), felly yr addefa llawer fod rhyw ardderchawgrwydd yn ngweledigaethau pell a dyeithrol y Dadguddiad, pan nas gwelant unrhyw fawredd neillduol yn y bedwaredd efengyl. Ond o holl lyfrau y Beibl, Efengyl Ioan yw y dyfnaf: ac os yw y dysgybl anwyl yn dangos mawredd, fel y mae yn ddiau ei fod, yn Llyfr y Dadguddiad, dengys lawer mwy o fawredd yn ei efengyl."

CYSSONDEB YR EFENGYLAU.

Gellir rhanu yr ysgrifenwyr ar gyssondeb yr efengylau i dri dosbarth:—1. Y rhai sydd yn ceisio dwyn holl gynnwys yr efengylau i gyssylltiad amseryddol ac i gyssondeb ymddangosiadol â'u gilydd. Yn y dosbarth hwn yr oedd yr hen gyssonwyr, o amser Awstin hyd yn lled ddiweddar. Cymmerid rhyw un efengyl yn safon amseryddol gan rai, megys yr eiddo Luc neu Ioan, a cheisid tynu i mewn gynnwys yr efengylau ereill, a sefydlu pob rhan o honynt mewn trefn amseryddol yn unol â'r safon hono. Golygai ereill nad allesid cymmeryd un o'r efengylau fel hyn yn safon, yn gymmaint ag nad oedd un o'r efengylwyr yn cadw yn berffaith at drefn amseryddol, ond fod hyny yn cael ei adael yn ddarostyngedig i ddybenion pwysicach. Ond y mae y dosbarth hwn o gyssonwyr yn myned yn mlaen oll, i fesur mwy neu lai, wrth yr un cynllun; sef trawsgyfleu cynnwys yr efengylau, a'u cydweu megys i'w gilydd, fel ag i gyfansoddi un hanes cyflawn, olynol, ac mewn trefn amseryddol o'r cwbl. 2. Dosbarth arall, yn yr hwn y mae rhai o'r beirniaid goreu a diweddaf, megys Alford, Westcott, &c., ydyw y rhai sydd yn dal allan fod yn anmhosibl cyfansoddi y cyfryw gyssondeb ffurfiol o'r efengylau, yn gymmaint a bod pob efengyl yn gyfanwaith annibynol—yn cyflwyno yr hanes mewn gwedd neillduol iddi ei hunan, a gwahanol i'r lleill; ac na fwriadwyd erioed iddynt gael eu darnio megys, a'u hail asio yn nghyd drachefn yn un hanes cyflawn. Y mae yr ysgrifenwyr hyn yn dal fod cyssondeb sylweddol eisoes yn hanfodi rhwng yr efengylau a'u gilydd yn eu holl brif linellau; fod yr amrywiadau yn y trefniant neu yr hanes i'w priodoli i'n hanwybodaeth ni o'r holl amgylchiadau; ac yn niffyg y wybodaeth gyflawn yna, nad yw pob ymgais i gyssoni yr efengylau yn y wedd a nodwyd ond dirdyniad annaturiol arnynt. Fod yr efengylwyr, pan yn adrodd 'yr un hanes, yn cyflwyno i ni wahanol ochrau o'r hanes hwnw, ac nid defnyddiau y gellid eu hasio yn eu gilydd i ffurfio un hanes o'r cyfan. 3. Ond y mae dosbarth arall o ysgrifenwyr yn golygu fod y ddwy farn a nodwyd mewn eithafion cyferbyniol, a bod y gwirionedd yn gorwedd rhwng y ddwy. Fel hyn y dywed Ellicott ar hyn:—"Y mae yn ddrwg genyf nas gallaf gytuno â rhai ymadroddion o eiddo fy nghyfaill, y deon Alford, yn ei arweiniad i'w Destament Newydd. Fe ymddengys fod ymchwiliad gofalus yn cyfiawnhau y farn, fod, rhwng y cyssondebau annaturiol (*forced*), y rhai oeddynt mewn bri yn yr hen amseroedd, a'r gwrthodiad hollol o gyssondeb efengylaidd, heb law yn ei amlinellau mwyaf, yr hwn sydd wedi cael ei amddiffyn gymmaint yn ein hamser ni—fod, rhwng y rhai hyn, ryw lwybr canol, diogel; yr hwn, os dilynir ef yn feddylgar ac amyneddgar, a'n harweinia yn fynych at arweddion o'r hanes cyssegredig, y rhai ydynt i'r gradd uchaf yn ddyddorol ac addysgiadol. Nid ydyw awgrymiadau 'o angenrheidrwydd yn anghywirdebau' [y mae yn dyfynu y geiriau hyn o Alford]. Pe gallem ni ond symmud ein hunain i'r iawn bwynt i edrych, ni a welem bethau yn eu gwir oleuni; ac y gallem wneyd hyny yn amlach nag y tybir yn gyffredin, sydd, yr wyf fi yn beiddio meddwl, wedi ei wadu yn llawer rhy gyffredinol."

Ni oddef ein terfynau i ni fyned i mewn i'r cwestiwn hwn o gwbl, heb law crybwyll yn fyr fel yna ystâd bresennol barnau ysgrifenwyr dysgedig ar y mater.

Yr ydym yn tybied y cyfrifir y Dr. Robinson o New York yn sefyll gyda'r blaenaf yn mysg cyfansoddwyr diweddar cyssondebau. Ni a roddwn, gan hyny, yr anghraifft ganlynol o'i Gyssondeb, a Thaflen Amseryddol Gresswell.

Digitized by Google

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| **AMGYLCHIADAU CYSSYLLTIEDIG A GENEDIGAETH A BORE OES EIN HARGLWYDD.** | | | | |
| YSPAID—*tua* 13½ *mlynedd.* | | | | |
| Rhagymadrodd Efengyl Luc. ... .. ... | | | 1. 1—4 | |
| Angel yn ymddangos i Zacharïas.—Ierusalem. ... | | | 1. 5—25 | |
| Angel yn ymddangos i Mair.—Nazareth. ... ... | | | 1. 26—38 | |
| Mair yn ymweled âg Elizabeth.—Iutta. ... | | | 1. 39—56 | |
| Genedigaeth Ioan Fedyddiwr.—Iutta. ... ... | | | 1. 57—80 | |
| Angel yn ymddangos i Ioseph.—Nazareth. ... | 1. 18—25 | | | |
| Genedigaeth yr Iesu.—Bethlehem. ... ... | | | 2. 1—7 | |
| Angel yn ymddangos i'r bugeiliaid.—Gerllaw Bethlehem. ... ... ... ... | | | 2. 8—20 | |
| Enwaediad yr Iesu, a'i gyflwyniad yn y deml.—Bethlehem, Ierusalem. ... ... ... ... | | | 2. 21—38 | |
| Y doethion.—Ierusalem, Bethlehem ... ... | 2. 1—12 | | | |
| Y ffoad i'r Aipht. Creulondeb Herod. Y dychweliad. —Bethlehem, Nazareth. ... ... ... | 2. 13—23 | | 2. 39, 40 | |
| Yr Iesu yn ddeuddeng mlwydd oed yn myned i ŵyl y pasc.—Ierusalem. ... ... ... | | | 2. 41—52 | |
| Yr ach-restrau. ... ... ... ... | 1. 1—17 | | 3. 23—38 | |
| **CYHOEDDIAD A DYGIAD I MEWN WEINIDOGAETH GYHOEDDUS EIN HARGLWYDD.** | | | | |
| YSPAID—*tuag un flwyddyn.* | | | | |
| Gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr.—Y Diffaethwch, Yr Iorddonen. ... ... ... ... | 3. 1—12 | 1. 1—8 | 3. 1—18 | |
| Bedydd yr Iesu.—Yr Iorddonen. ... ... | 3. 13—17 | 1. 9—11 | 3. 21—23 | |
| Y temtiad.—Diffaethwch Iudea. ... ... | 4. 1—11 | 1. 12, 13 | 4. 1—13 | |
| Rhagymadrodd Efengyl Ioan. ... ... | | | | 1. 1—18 |
| Tystiolaeth Ioan Fedyddiwr am yr Iesu.—Bethabara, tu hwnt i'r Iorddonen. ... ... | | | | 1. 19—34 |
| Yr Iesu yn ennill dysgyblion.—Yr Iorddonen, Galilea? | | | | 1. 35—51 |
| Y briodas yn Cana Galilea. ... ... ... | | | | 2. 1—12 |
| **Y PASC CYNTAF EIN HARGLWYDD, A'R AMGYLCHIADAU DILYNOL, HYD YR AIL.** | | | | |
| YSPAID—*un flwyddyn.* | | | | |
| Yr Iesu yn ngŵyl y pasc yn gyru y marchnatwyr allan o'r deml.—Ierusalem. ... ... | | | | 2. 13—25. |
| Ymddyddan ein Harglwydd â Nicodemus.—Ierusalem. | | | | 3. 1—21 |
| Yr Iesu yn aros yn Iudea, ac yn bedyddio. Tystiolaeth chwanegol Ioan Fedyddiwr.—Ainon. ... ... | | | | 3. 22—36 |
| Yr Iesu yn ymadael i Galilea ar ol carchariad Ioan. | 4. 12 / 14. 3—5 | 1. 14 / 6. 17—20 | 4. 14 / 3. 19, 20 | 4. 1—3 |
| Ymddyddan ein Harglwydd â'r wraig o Samaria. Llawer o'r Samariaid yn credu ynddo.—Sichar neu Neapolis. ... ... ... ... | | | | 4. 4—42 |
| Yr Iesu yn dysgu yn gyhoeddus yn Galilea. ... | 4. 17 | 1. 14, 15 | 4. 14, 15 | 4. 43—45 |
| Yr Iesu eto yn Cana, yn iachau mab pendefig oedd yn glaf yn Capernaum.—Cana Galilea. ... | | | | 4. 46—54 |
| Yr Iesu yn Nazareth, yn cael ei erlid ymaith, ac yn myned i fyw i Capernaum. ... ... ... | 4. 13—16 | | 4. 16—31 | |
| Galw Simon Pedr ac Andreas, ac Iago ac Ioan, a'r ddalfa wyrthiol o bysgod.—Gerllaw Capernaum. | 4. 18—22 | 1. 16—20 | 5. 1—11 | |
| Iachâd dyn âg ysbryd aflan yn y synagog.—Capernaum. | | 1. 21—28 | 4. 31—37 | |
| Iachâd chwegr Pedr, a llawer ereill.—Capernaum. | 8. 14—17 | 1. 29—34 | 4. 38—41 | |
| Yr Iesu a'i ddysgyblion yn myned o Capernaum oddiamgylch Galilea. ... ... ... | 4. 23—25 | 1. 35—39 | 4. 42—44 | |
| Iachâd un gwahanglwyfus.—Galilea. ... ... | 8. 2—4 | 1. 40—45 | 5. 12—16 | |
| Iachâd un claf o'r parlys.—Capernaum. ... | 9. 2—8 | 2. 1—12 | 5. 17—26 | |
| Galwad Matthew.—Capernaum. ... ... | 9. 9 | 2. 13, 14 | 5. 27, 28 | |
| **AIL BASC EIN HARGLWYDD, A'R AMGYLCHIADAU DILYNOL, HYD Y TRYDYDD.** | | | | |
| YSPAID—*un flwyddyn.* | | | | |
| Llyn Bethesda; iachâd y dyn claf, ac anerchiad dilynol ein Harglwydd.—Ierusalem. ... .. | | | | 5. 1—47 |
| Y dysgyblion yn tynu tywys ar y Sabbath.—Ar y ffordd i Galilea. ... ... ... ... | 12. 1—8 | 2. 23—28 | 6. 1—5 | |
| Iachâd dyn â llaw wedi gwywo ar y Sabbath.—Galilea. | 12. 9—14 | 3. 1—6 | 6. 6—11 | |
| Yr Iesu yn dyfod at Fôr Tiberias, a thorfeydd yn ei ganlyn.—Môr Galilea. ... ... .. | 12. 15—21 | 3. 7—12 | | |
| Yr Iesu yn cilio i'r mynydd, ac yn ethol y deuddeg; y torfeydd yn ei ganlyn.—Gerllaw Capernaum. ... | 10. 2—4 | 3. 13—19 | 6. 12—19 | |

Digitized by Google

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| Y bregeth ar y mynydd.—Gerllaw Capernaum. | 5. 1—8. 1 | | 6. 20—49 | |
| Iachâd gwas y Canwriad.—Capernaum. | 8. 5—13 | | 7, 1—10 | |
| Bywhad mab y weddw.—Nain. | | | 7. 11—17 | |
| Ioan Fedyddiwr yn y carchar yn anfon dysgyblion at yr Iesu.—Galilea: Capernaum? | 11. 2—19 | | 7. 18—35 | |
| Anerchiad yr Iesu wrth iddo appelio at ei weithredoedd nerthol.—Capernaum? | 11. 20—30 | | | |
| Yr Iesu, tra yn eistedd i fwyta gyda Pharisead, yn cael ei eneinio gan wraig a fuasai yn bechadures —Capernaum. | | | 7. 36—50 | |
| Yr Iesu gyda'r deuddeg yn myned ar ail gylchdaith yn Galilea | | | 8. 1—3 | |
| Iachad dyn cythreulig. Yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn cablu.—Galilea. | 12. 22—37 | 3. 19—30 | 11. 14, 15, 17—23 | |
| Yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn gofyn arwydd.—Sylwadau ein Harglwydd.—Galilea. | 12. 38—45 | | 11. 16, 24—36 | |
| Gwir ddysgyblion Crist ei berthynasau agosaf.—Galilea. | 12. 46—50 | 3. 31—35 | 8. 19—21 | |
| Yr Iesu wrth fwrdd Pharisead yn cyhoeddi gwaeau ar y Phariseaid ac ereill.—Galilea. | | | 11. 37—54 | |
| Yr Iesu yn dysgu ei ddysgyblion a'r dyrfa.—Galilea. | | | 12. 1—59 | |
| Llofruddiad y Galileaid. Dammeg y ffigysbren diffrwyth. Galilea. | | | 13. 1—9 | |
| Dammeg yr hauwr.—Llyn Galilea: gerllaw Capernaum? | 13. 1—23 | 4. 1—25 | 8. 4—18 | |
| Dammeg yr efrau, ac ereill.—Gerllaw Capernaum? | 13. 24—53 | 4. 26—34 | | |
| Yr Iesu yn peri croesi y llyn. Dygwyddiadau. Tawelu y dymmestl.—Môr Galilea. | 8. 18—27 | 4. 35—41 | 8. 22—25<br>9. 57—62 | |
| Y ddau ddieflig o Gadara.—Glan ddwyreiniol Llyn Galilea | 8. 28—34<br>9. 1. | 5. 1—21 | 8. 26—40 | |
| Gwledd Lefi, a'r ymddyddan yn nghylch ymprydio.—Capernaum. | 9. 10—17 | 2. 15—22 | 5. 29—39 | |
| Bywhad merch Iairus. Y wraig â'r gwaedlif.—Capernaum. | 9. 18—26 | 5. 22—43 | 8. 41—56 | |
| Iachâd dau ddeillion, a bwrw ysbryd mud allan.—Capernaum? | 9. 27—34 | | | |
| Yr Iesu etto yn Nazareth, ac yn cael ei erlid ymaith. | 13. 54—58 | 6. 1—6 | | |
| Trydedd gylchdaith yn Galilea. Hyfforddi ac anfon allan y deuddeg.—Galilea. | 9. 35—38<br>10. 1. 5—42<br>11. 1 | 6. 6—13 | 9. 1—6 | |
| Herod yn tybied mai Ioan Fedyddiwr, yr hwn y torasai efe yn ddiweddar ei ben, oedd yr Iesu.—Galilea? Perea. | 14. 1, 2, 6—12 | 6. 14—16, 21—29 | 9. 7—9 | |
| Y deuddeg yn dychwelyd, a'r Iesu yn ymneillduo gyda hwynt dros y llyn. Porthi 5,000.—Capernaum. Glan ogledd-ddwyreiniol Llyn Galilea. | 14. 13—21 | 6. 30—44 | 9. 10—17 | 6. 1—14 |
| Yr Iesu yn cerdded ar y dwfr.—Llyn Galilea. Gennesaret. | 14. 22—36 | 6. 45—56 | | 6. 15—21 |
| Anerchiad ein Harglwydd i'r dyrfa yn y synagog yn Capernaum. Llawer o'i ddysgyblion yn troi yn ol. Proffes Pedr o'i ffydd.—Capernaum. | | | | 6. 22—71<br>7. 1 |

O DRYDYDD PASC EIN HARGLWYDD HYD EI YMADAWIAD OLAF A GALILEA AR WYL Y PEBYLL.

YSPAID—*chwe mis.*

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| Ein Harglwydd yn cyfiawnhau ei ddysgyblion am fwyta â dwylaw heb olchi. Y traddodiadau Phariseaidd.—Capernaum. | 15. 1—20 | 7. 1—23 | | |
| Iachad merch y wraig o Syro-Phenicia.—Tueddau Tyrus a Sidon. | 15. 21—28 | 7. 24—30 | | |
| Iachad dyn mud a byddar, a llawer ereill. Porthi 4,000.—Decapolis. | 15. 29—38 | 7. 31—37 | | |
| Y Phariseaid a'r Saduceaid etto yn gofyn arwydd.—Gerllaw Magdala. | 15. 39<br>16. 1—4 | 8. 1—9<br>8. 10—12 | | |
| Rhybuddio y dysgyblion rhag surdoes y Phariseaid. Glan ogledd-ddwyreiniol Llyn Galilea. | 16. 4—12 | 8. 13—21 | | |
| Iachad dyn dall.—Bethsaida (Julias.) | | 8. 22—26 | | |
| Pedr a'r dysgyblion ereill etto yn proffesu eu ffydd yn Nghrist.—Tueddau Cesarea Philippi. | 16. 13—20 | 8. 27—30 | 9. 18—21 | |
| Ein Harglwydd yn rhagfynegu ei farwolaeth a'i adgyfodiad, a phrofedigaethau ei ddilynwyr.—Tueddau Cesarea Philippi. | 16. 21—28 | 8. 31—38<br>9. 1 | 9. 22—27 | |
| Y Gweddnewidiad. Ymddyddan dilynol ein Harglwydd â'r tri dysgybl.—Tueddau Ceserea Philippi. | 17. 1—13 | 9. 2—13 | 9. 28—36 | |
| Iachad un dieflig nad allai y dysgyblion ei iachau.—Tueddau Cesarea Philippi. | 17. 14—21 | 9. 14—29 | 9. 37—43 | |

Digitized by Google

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| Yr Iesu etto yn rhagfynegu ei farwolaeth a'i adgyfodiad.—Galilea. .. .. .. | 17. 22, 23 | 9. 30—32 | 9. 43—45 | |
| Cyfaeliad gwyrthiol arian y deyrnged.—Capernaum. | 17. 24—27 | 9. 33 | | |
| Y dysgyblion yn ymryson pwy fyddai fwyaf. Yr Iesu yn eu hannog i ostyngeiddrwydd, maddeugarwch, a chariad brawdol.—Capernaum. ... ... | 18. 1—35 | 9. 33—50 | 9. 46—50 | |
| Hyfforddi ac anfon allan y deg a thrigain.—Capernaum. | | | 10. 1—16 | |
| Yr Iesu yn myned i fyny i ŵyl y pebyll. Ei ymadawiad olaf o Galilea. Dygwyddiadau yn Samaria. | | | 9. 51—62 | 7. 2—10 |
| Iachau y deg o wahanglwyfion.—Samaria. | | | 17. 11—19 | |

GWYL Y PEBYLL, A'R AMGYLCHIADAU DILYNOL, HYD DDYFODIAD EIN HARGLWYDD I BETHANIA, CHWE DIWRNOD CYN Y PEDWERYDD PASC.

YSPAID—*chwe mis, ond chwe diwrnod.*

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| Yr Iesu yn ngŵyl y pebyll. Ei addysg gyhoeddus.—Ierusalem. ... .. ... ... | | | | 7. 11—53, 8. 1 |
| Y wraig a ddaliesid mewn godineb.—Ierusalem. | | | | 8. 2—11 |
| Addysg gyhoeddus ychwanegol ein Harglwydd. Y mae yn argyhoeddi yr Iuddewon anghredinol, ac yn dianc o'u dwylaw. Ierusalem. ... .. | | | | 8. 12—59 |
| Dysgu cyfreithiwr. Esbonio cariad at ein cymydog. Dammeg y Samariad da.—Gerllaw Ierusalem. | | | 10. 25—37 | |
| Yr Iesu yn nhŷ Martha a Mair.—Bethania. ... | | | 10. 38—42 | |
| Dysgu y dysgyblion etto i weddio.—Gerllaw Ierusalem. | | | 11. 1—13 | |
| Y deg a thrigain yn dychwelyd.—Ierusalem? ... | | | 10. 17—24 | |
| Iachau y dyn a anesid yn ddall ar y Sabbath. Anerchiadau dilynol ein Harglwydd.—Ierusalem. .. | | | | 9. 1—41, 10. 1—21 |
| Yr Iesu yn Ierusalem ar y gyssegr-ŵyl. Yn cilio tuhwnt i'r Iorddonen.—Ierusalem. Bethabara, tuhwnt i'r Iorddonen. ... ... ... | | | | 10. 22—42 |
| Cyfodi Lazarus.—Bethania. ... ... | | | | 11. 1—46 |
| Cynghor Caiaphas yn erbyn yr Iesu. Yntau yn cilio o Ierusalem. Ierusalem. Ephraim. ... ... | | | | 11. 47—54 |
| Yr Iesu tuhwnt i'r Iorddonen yn cael ei ddilyn gan dorfeydd. Iachâd gwraig âg ysbryd gwendid ar y Sabbath.—Dyffryn yr Iorddonen.—Perea. .. | 19. 1, 2 | 10. 1 | 13. 10—21 | |
| Ein Harglwydd yn myned gan deithio a dysgu tuag Ierusalem. Ei rybuddio rhag Herod.—Perea. ... | | | 13. 22—35 | |
| Ein Harglwydd yn ciniawa gydag un o benaethiaid y Phariseaid ar y Sabbath. Dygwyddiadau.—Perea. | | | 14. 1—24 | |
| Dyledswyddau gwir ddysgyblion.—Perea. .. | | | 14. 25—35 | |
| Dammeg y ddafad a gollasid, &c. Dammeg y mab afradlon.—Perea. ... ... | | | 15. 1—32 | |
| Dammeg y goruchwyliwr anghyfiawn.—Perea. | | | 16. 1—13 | |
| Argyhoeddi y Phariseaid. Dammeg y goludog a Lazarus.—Perea. ... ... ... | | | 16. 14—31 | |
| Yr Iesu yn annog i faddeugarwch, ffydd, a gostyngeiddrwydd.—Perea. ... ... .. | | | 17. 1—10 | |
| Y bydd dyfodiad Crist yn ddisymwth.—Perea. ... | | | 17. 20—37 | |
| Dammegion: Y weddw daer. Y Pharisead a'r Publican. Perea. ... .. ... ... | | | 18. 1—14 | |
| Egwyddorion ysgariaeth.—Perea. ... .. | 19. 3—12 | 10. 2—12 | | |
| Yr Iesu yn derbyn a bendithio plant bychain.—Perea. | 19. 13—15 | 10. 13—16 | 18. 15—17 | |
| Y gwr ieuanc goludog. Dammeg y gweithwyr yn y winllan.—Perea. ... ... ... | 19. 16—30, 20. 1—16 | 10. 17—31 | 18. 18—30 | |
| Yr Iesu y drydedd waith yn rhagfynegu ei farwolaeth a'i adgyfodiad.—Perea ... | 20. 17—19 | 10. 32—34 | 18. 31—34 | |
| Iago ac Ioan yn gwneud eu deisyfiad uchelgeisiol.—Perea. ... ... ... ... | 20. 20—28 | 10. 35—45 | 18. 35—43 | |
| Iachad dau ddeillion gerllaw Iericho. .. ... | 20. 29—34 | 10, 46—52 | 19. 1 | |
| Yr ymweliad â Zaccheus. Dammeg y deg punt.—Iericho. | | | 19. 2—28 | |
| Yr Iesu yn dyfod i Bethania, chwe diwrnod cyn y pasc.—Bethania. .... .. ... | | | | 11. 55—57, 12. 1, 9—11 |

MYNEDIAD CYHOEDDUS EIN HARGLWYDD I IERUSALEM, A'R AMGYLCHIADAU DILYNOL CYN Y PEDWERYDD PASC.

YSPAID—*pedwar diwrnod.*

Dydd Llun, Ebrill 2.

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| Mynediad cyhoeddus ein Harglwydd i Ierusalem.—Bethania, Ierusalem. .. ... ... | 21. 1—11, 14—17 | 11. 1—11 | 19. 29—44 | 12. 12—19 |

Digitized by Google

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| **Dydd Mawrth, Ebrill 3.** | | | | |
| Y ffigysbren diffrwyth. Glanhad y deml.—Bethania, Ierusalem. | 21. 12, 13, 18, 19 | 11. 12—19 | 19. 45—48<br>21. 37, 38 | |
| **Dydd Mercher, Ebrill 4.** | | | | |
| Y ffigysbren diffrwyth wedi gwywo.—Rhwng Bethania ac Ierusalem. | 21. 20—22 | 11. 20—26 | | |
| Holi Crist am ei awdurdod. Dammeg y ddau fab.—Ierusalem. | 21. 23—32 | 11. 27—33 | 20. 1—8 | |
| Dammeg y gwinllanwyr drygionus.—Ierusalem. | 21. 33—46 | 12. 1—12 | 20. 9—19 | |
| Dammeg priodas mab y brenin.—Ierusalem. | 22. 1—14 | | | |
| Gofyniad dichellgar y Phariseaid a'r Herodianiaid: y deyrnged i Cæsar.—Ierusalem. | 22. 15—22 | 12. 13—17 | 20. 20—26 | |
| Gofyniad dichellgar y Saduceaid: yr adgyfodiad.—Ierusalem. | 22. 23—33 | 12. 18—27 | 20. 27—40 | |
| Cyfreithiwr yn holi yr Iesu: y ddau orchymyn mawr.—Ierusalem. | 22. 34—40 | 12. 28—34 | | |
| Pa fodd y mae Crist yn fab Dafydd?—Ierusalem. | 22. 41—46 | 12. 35—37 | 20. 41—44 | |
| Rhybuddion rhag esampl ddrwg yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid.—Ierusalem. | 23. 1—12 | 12. 38, 39 | 20. 45, 46 | |
| Gwaeau yn erbyn yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Galarnad dros Ierusalem.—Ierusalem. | 23. 13—39 | 12. 40 | 20. 47 | |
| Hatling y wraig weddw.—Ierusalem. | | 12. 41—44 | 21. 1—4 | |
| Groegiaid yn ewyllysio gweled yr Iesu.—Ierusalem. | | | | 12. 20—36 |
| Sylwadau ar anghrediniaeth yr Iuddewon.—Ierusalem. | | | | 12. 37—50 |
| Yr Iesu, wrth ymadael o'r deml, yn rhagfynegu ei dinystr, ac erledigaeth ei ddysgyblion.—Ierusalem. Mynydd yr Olewydd. | 24. 1—14 | 13. 1—13 | 21. 5—19 | |
| Arwyddion dyfodiad Crist i ddinystrio Ierusalem, ac i ddiddymu y wladwriaeth a'r oruchwyliaeth Iuddewig. Mynydd yr Olewydd. | 24. 15—42 | 13. 14—37 | 21. 20—36 | |
| Traws-symmudiad i ddyfodiad olaf Crist yn nydd y farn. | | | | |
| Annog i wyliadwriaeth. Dammegion: y deg morwyn: y pum talent.—Mynydd yr Olewydd. | 24. 43—51<br>25. 1—30 | | | |
| Golygfeydd dydd y farn.—Mynydd yr Olewydd. | 25. 31—46 | | | |
| **Dydd Iau, Ebrill 5.** | | | | |
| Y penaethiaid yn ymgynghori yn nghyd. Y swper yn Bethania. Brad Iudas.—Ierusalem. Bethania. | 26. 1—16 | 14. 1—11 | 22. 1—6 | 12. 2 8 |
| Parotoad y pasc.—Bethania. Ierusalem. | 26. 17—19 | 14. 12—16 | 22. 7—13 | |
| Y PEDWERYDD PASC; DYODDEFAINT EIN HARGLWYDD, A'R AMGYLCHIADAU CYDFYNEDOL HYD DDIWEDD Y SABBATH IUDDEWIG. | | | | |
| YSPAID—*dau ddiwrnod.* | | | | |
| Bwyta y pasc. Y deuddeg yn ymryson.—Ierusalem. | 26. 20 | 14. 17 | 22. 14—18, 24—30 | |
| Yr Iesu yn golchi traed ei ddysgyblion.—Ierusalem. | | | | 13. 1—20 |
| Yr Iesu yn nodi y bradwr allan. Iudas yn myned allan.—Ierusalem. | 26. 21—25 | 14. 18—21 | 22. 21—23 | 13. 21—35 |
| Yr Iesu yn rhagfynegu cwymp Pedr, a gwasgariad y deuddeg.—Ierusalem. | 26. 31—35 | 14. 27—31 | 22. 31—38 | 13. 36—38 |
| Swper yr Arglwydd.—Ierusalem. | 26. 26—29 | 14. 22—25 | 22. 19, 20 | 1 COR. 11. 23—25 |
| Yr Iesu yn cysuro ei ddysgyblion. Addaw yr Ysbryd Glân.—Ierusalem. | | | | IOAN 14. 1—13 |
| Crist y wir winwydden. Y byd yn casâu ei ddysgyblion ef.—Ierusalem. | | | | 15. 1—27 |
| Rhagfynegu erledigaeth. Addewid etto o'r Ysbryd Glân. Gweddïo yn enw Crist.—Ierusalem. | | | | 16. 1—33 |
| Gweddi ymadawol yr Iesu gyda'i ddysgyblion.—Ierusalem. | | | | 17. 1—26 |
| Ing Gethsemane.—Mynydd yr Olewydd. | 26. 30, 36—46 | 14. 26, 32. 42 | 22. 39—46 | 18. 1 |
| Bradychu yr Iesu, a'i wneud yn garcharor.—Gethsemane. | 26. 47—56 | 14. 43—52 | 22. 47—53 | 18. 2—12 |
| Yr Iesu ger bron Caiaphas. Pedr yn ei wadu deirgwaith.—Ierusalem. | 26. 57, 58, 69—75 | 14. 53, 54 66—72 | 22. 54—62 | 18. 13—18, 25—27 |
| **Dydd Sadwrn, Ebrill 7.** | | | | |
| Yr Iesu ger bron Caiaphas a'r Sanhedrim. Yn proffesu mai efe oedd y Crist; ei gondemnio a'i watwar.—Ierusalem. | 26. 59—68 | 14. 55—65 | 22. 63—71 | 18. 19—24 |
| Y Sanhedrim yn dwyn yr Iesu at Pilat. Pilat yn ceisio ei ryddhau.—Ierusalem. | 27. 1, 2 11—14 | 15. 1—5 | 23. 1—5 | 18. 28—38 |
| Yr Iesu ger bron Herod.—Ierusalem. | | | 23. 6—12 | |

Digitized by Google

| CYNNWYSIAD. | MAT. | MARC. | LUC. | IOAN. |
|---|---|---|---|---|
| Pilat eto yn ceisio rhyddhau yr Iesu. Yr Iuddewon yn mynu Barabbas.—Ierusalem. ... ... | 27. 15—26 | 15. 6—15 | 23. 13—25 | 18. 39, 40 |
| Pilat yn traddodi yr Iesu i farw. Ei fflangellu a'i watwar.—Ierusalem. ... ... ... ... | 27. 26—30 | 15. 15—19 | | 19. 1—3<br>19. 4—16 |
| Pilat etto yn ceisio rhyddhau yr Iesu.—Ierusalem.<br>Iudas yn edifarhau ac yn ymgrogi.—Ierusalem. ... | 27. 3—10 | | | ACTAU<br>1. 18, 19<br>IOAN |
| Dwyn yr Iesu ymaith i'w groeshoelio.—Ierusalem. | 27. 31—34 | 15. 20—23 | 23. 26—33 | 19. 16, 17 |
| Y croeshoeliad.—Ierusalem. ... ... ... | 27. 35—38 | 15. 24—28 | 23. 33, 34, 38 | 19. 18—24 |
| Yr Iuddewon yn gwatwar yr Iesu ar y groes. Y mae yn cyflwyno ei fam i ofal Ioan.—Ierusalem. ... | 27. 39—44 | 15. 29—32 | 23. 35—37, 39—43 | 19. 25—27 |
| Tywyllwch yn ymdaenu. Crist yn trengu ar y groes. Ierusalem. ... ... .. ... | 27. 45—50 | 15. 33—37 | 23. 44—46 | 19. 28—30 |
| Llen y deml yn rhwygo, a'r beddau yn agor. Barn y canwriad. Y gwragedd wrth y groes.—Ierusalem. | 27. 51—56 | 15. 38—41 | { 23. 45, 47—49 | |
| Tynu y corff oddi ar y groes. Y claddedigaeth.—Ierusalem. ... .. ... ... ... | 27. 57—61 | 15. 42—47 | 23. 50—56 | 19. 31—42 |
| Y wyliadwriaeth wrth y bedd.—Ierusalem. | 27. 62—66 | | | |
| **ADGYFODIAD EIN HARGLWYDD, EI YMDDANGOSIADAU DILYNOL, A'I ESGYNIAD.** | | | | |
| "YSPAID—*dros ddeugain niwrnod.*" | | | | |
| Dygwyddiadau y dydd cyntaf o'r wythnos, Ebrill 9. | | | | |
| Boreu yr adgyfodiad.—Ierusalem. ... ... | 28. 2—4 | 16. 8 | | |
| Ymweliad y gwragedd â'r bedd. Mair Magdalen yn dychwelyd.—Ierusalem. ... ... ... | 28. 1 | 16. 2—4 | 24. 1—3 | 20. 1, 2 |
| Y weledigaeth o angylion yn y bedd.—Ierusalem. | 28. 5—7 | 16. 5—7 | 24. 4—8 | |
| Y gwragedd yn dychwelyd i'r ddinas. Yr Iesu yn eu cyfarfod.—Ierusalem. ... ... ... | 28. 8—10 | 16. 8 | 24. 9—11 | |
| Pedr ac Ioan yn rhedeg at y bedd.—Ierusalem. ... | | | 24. 12 | 20. 3—10 |
| Ein Harglwydd yn ymddangos i Mair Magdalen wrth y bedd.—Ierusalem.... ... ... ... | | 16. 9—11 | | 20. 11—18 |
| Adroddiad y gwylwyr.—Ierusalem. ... ... | 28. 11—15 | | | |
| Ein Harglwydd yn ymddangos i Pedr. Yna i ddau ddysgybl ereill ar y ffordd i Emmaus.—Ierusalem. Emmaus. ... ... ... ... | 1 COR. 15. 5 | 16. 12, 13 | 24. 13—35 | |
| Yr Iesu yn ymddangos yn mhlith yr apostolion, a Thomas yn absennol.—Ierusalem. ... ... | 15. 5 | 16. 14—18 | 24. 36—49 | 20. 19—23 |
| Y Sabbath Cristionogol cyntaf, Ebrill 16. | | | | |
| Yr Iesu yn ymddangos yn mhlith yr apostolion, a Thomas yn bresennol.—Ierusalem. ... ... | | | | 20. 24—29 |
| Yr apostolion yn myned i Galilea. Yr Iesu yn ymddangos i saith o honynt wrth Fôr Tiberias.—Galilea. | MAT.<br>28. 16 | | | 21. 1—24 |
| Yr Iesu yn cyfarfod â'i apostolion ac uwchlaw 500 brodyr ar fynydd Galilea. ... ... ... | 28. 16—20 | | | 1 COR. 15. 6 |
| Ein Harglwydd yn ymddangos i Iago, yna i'r holl apostolion.—Ierusalem. ... ... ... | ACT.<br>1. 3—8 | | | 15. 7 |
| Yr esgyniad.—Bethania. ... ... ... | 1. 9—12 | 16. 19, 20 | 24. 50—53 | |
| Diweddglo Ioan. ... ... ... ... | | | | IOAN<br>{ 20. 30—31<br>21. 25 |

---

AMSERIAD TEBYGOL Y PRIF DDYGWYDDIADAU YN YR HANESION EFENGYLAIDD, YN OL Y PARCH. E. GRESSWELL, G. D.,[1] YN EI "DISSERTATIONS ON A GOSPEL HARMONY," cyf. iv. td. 744—6.

| | C. C. | | B. A. |
|---|---|---|---|
| Ymddangosiad yr angel i Zacharïas, dydd Iau, Hydref 5, .. ... ... ... | 6 | Yr Iesu yn Ierusalem yn ngŵyl y Pasc yn 12 mlwydd oed, Ebrill 8, ... ... | 8 |
| Geni Ioan Fedyddiwr, Sadwrn, Hydref 5: ei enwaedu, Hydr. 12, ... ... ... | 5 | Dechreuad gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, Llun Hydref 5, ... ... ... | 26 |
| Geni yr Iesu, Sadwrn, Ebrill 5: ei enwaedu, Sadwrn, Ebrill 12, ... ... ... | 4 | Bedydd Iesu Grist, diwedd Ionawr, ... | 27 |
| Y cyflwyniad yn y deml, Gwener, Mai 16, ... | 4 | Dechreuad ei weinidogaeth, a glanhad y deml, Llun, Ebrill 5, ... ... ... | 27 |
| Ymweliad y Magiaid, tuag Awst 2, ... | 4 | Ei Basc cyntaf, Gwener, Ebrill 9, ... | 27 |
| Y ffoad i'r Aipht, tuag Awst 9, ... ... | 4 | Ei ddyfodiad i Sichar, Iau, Mai 13, ... | 27 |
| Y dychweliad o'r Aipht, tua Mawrth 31, ... | 3 | Carcharu Ioan, Sabbath, Mai 16, ... ... | 27 |

[1] Dilyna Mr. Gresswell Efengyl Luc fel ei safon amseryddol, ac felly gwahaniaetha oddi wrth y Dr. Robinson yn nhrefn lad ac amseriad yr hanesion, fel y gwelir uchod. Dilyna hefyd gyfundrefn amseryddol yr archesgob Usher, yr hon a amsera enedigaeth Crist bedair blynedd yn gynt na'r cyfrif cyffredin. Tyner pedair blynedd allan o'r amseriad uchod yn C. C., a chwaneger pedair blynedd ato yn B.A., ceir yr amseriad cyffredin arferedig yn ein Beiblau cyfeiriol

DOSB. I. CYF. IV]. O

Digitized by Google

Y Pentecost cyntaf, Sabbath, Mai 30, ... 27
Galw pedwar dysgybl, Gwener, Mehefin 4, ... 27
Dechreuad gweinidogaeth Crist yn Capernaum, Sadwrn, Mehefin 5, ... ... 27
Ei gychwyniad i'w gylchdaith gyffredinol gyntaf yn Galilea, Sabbath, Mehefin 6, ... 27
Gwyl y pebyll gyntaf, Llun, Hydref 4, ... 27
Y Gyssegr-wyl gyntaf, Sabbath, Rhag 12, ... 27
Y wyrth wrth lyn Bethesda, Sadwrn, Mawrth 25, ... ... ... 28
Yr ail Basc, Mercher, Mawrth 29, ... 28
Myned drwy y caeau ŷd, Sadwrn, Ebrill 1, ... 28
Y gylchdaith gyntaf drwy ran o Galilea, ... 28
Yr ail Bentecost, Gwener, Mai 19, ... 28
Ordeiniad y deuddeg apostol, ... ... 28
Yr ail gylchdaith gyffredinol yn Galilea, ... 28
Ail ŵyl y Pebyll, Sadwrn, Medi 23, ... 28
Dïenyddiad Ioan Fedyddiwr, ... ... 28
Y drydedd gylchdaith gyffredinol yn Galilea, ... 28
Yr ail Gyssegr-wyl, Gwener, Rhagfyr 1, ... 28
Anfoniad y deuddeg apostol allan, Chwefror, ... 29
Yr ail Gylchdaith trwy ran o Galilea, ... 29
Porthi 5000, Iau, Ebrill 5, ... ... 29
Yr anerchiad yn synagog Capernaum, Sadwrn, Ebrill 7, ... ... ... 29
Y trydydd Pasc, Llun, Ebrill 16, ... 29
Cyffes Pedr, Sabbath, Mai 20, ... ... 29
Y gweddnewidiad, Sabbath, Mai 27, ... 29
Y trydydd Pentecost, Mercher, Mehefin 6, ... 29
Trydedd ŵyl y Pebyll, Iau, Hydr. 11, ... 29
Ymddangosiad yr Iesu yn yr ŵyl, Llun, Hydref 15, ... ... ... 29
Iachâd y dall, Hydref 18, ... ... 29
Y drydedd Gyssegr-ŵyl, Mercher, Rhagfyr 19, 29
Cyfodiad Lazarus, a'r enciliad i Ephraim, Ionawr, ... ... ... ... 30
Y dychweliad i Capernaum, ac anfoniad y 70 allan, Chwefror, ... ... ... 30
Y bedwaredd gylchdaith gyffredinol yn Galilea, Mawrth, ... ... ... 30
Myned trwy Iericho, Gwener, Mawrth 29, ... 30
Dyfod i Bethania, Sadwrn, Mawrth 30, ... 30
Yr eneiniad yn Bethania, Sadwrn, Mawrth 30, 30
Yr Iuddewon yn dyfod i Bethania, Sabbath, Mawrth 31, ... ... 30
Yr orymdaith i'r deml, prydnawn Llun, Ebrill 1, 30
Ail lanhad y deml, bore Mawrth, Ebrill 2, ... 30
Terfyniad gweinidogaeth gyhoeddus Crist, hwyr Mercher, } Ebrill 3, 30
Y brophwydoliaeth ar fynydd yr Olew. } Ebrill 3, 30
Cytundeb Iudas â'r Sanhedrim, } Ebrill 3, 30
Sefydliad y Swper Sanctaidd, hwyr Iau, Ebrill 4, 30
Y pedwerydd Pasc, a dyoddefaint Crist, Gwener, Ebrill 5, ... ... ... 30
Adgyfodiad Crist, Sabbath, Ebrill 7, ... 30
Ei esgyniad i'r nef, Iau, Mai 16, ... 30

—(*Westcott's Intro. to the Study of the Gospels; Alford's Greek Testament—Prolegomena; Ellicott's Historical Lectures on the Life of our Lord Jesus Christ; Olshausen's Commentaries—Indroductions; Carpenter's Biblical Companion; Paley's Works; Wardlaw's Systematic Theology, &c., &c.*)

EFENGYLAIDD, CYNGHRAIR. Gwel CYNGHRAIR EFENGYLAIDD.

EFENGYLAU FFUGIOL. Cwblhawyd canon y Testament Newydd cyn diwedd y bedwaredd ganrif; ac mewn canlyniad, aeth yr ysgrifeniadau gwrthodedig ag oedd ar enwau yr apostolion a'r efengylwyr cyn hir i dir anghof, fel nad oes ond ychydig, os oes rhai, wedi dyfod i lawr i'n hamser ni yn eu ffurf wreiddiol. Sylwn yn gyntaf ar y rhai sydd eto ar gael.

*Hanes Ioseph y Saer*, yr hwn sydd wedi ei gadw yn y dwyrain mewn cyfieithiad Arabaidd. Y neb a'i dygodd i sylw gyntaf yn Ewrop oedd Isidore de Isolanis, yn ei *Summa de donis Sti. Josephi*, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Sylwa ef ei bod yn arferiad gan "Babyddion y dwyrain" gadw coffadwriaeth Ioseph ar y 19eg o Fawrth, ac y byddent yn arfer darllen llyfr buchedd y sant, oddi eithr rhyw ranau penodol o hono, na chymmeradwyir hwynt gan yr Eglwys Babaidd. Cyhoeddwyd y gwaith hwn gan Wallin, yn Leipsic, yn 1722, o lawysgrif Arabaidd o'r drydedd ganrif ar ddeg, yn y *Bibliotheque du Roi*, gyda chyfieithiad Lladin. Dosbarthwyd ef gan Wallin yn bennodau ac yn adnodau. Ceir ef hefyd yn y Coptic, y Sahidic, a'r Memphic. Perchir ef yn fawr gan y Coptiaid. Ail gyhoeddwyd y cyfieithiad Lladin gan Fabricius.

*Efengyl y Babandod.* Cyhoeddwyd yr efengyl hon am y waith gyntaf gan Henry Sike, yn Utrecht, yn 1697, oddi wrth lawysgrif Arabaidd. Ail gyhoeddwyd cyfieithiad Lladin Sike gan Fabricius, yr hwn a'i dosbarthodd yn bennodau. Dosbarthwyd y darlleniad Arabaidd yn bennodau cyfatebol gan Thilo, yn 1832. Y mae amryw gopïau ysgrifenedig o'r efengyl hon ar gael—yr hynaf o ba rai ydyw yr un sydd yn y Llyfrgell Mediceaidd, yr hwn a ysgrifenwyd yn 1299. Yr oedd y chwedlau sydd yn gynnwysedig ynddi yn bethau cyffredin yn yr ail ganrif; a dywed Irenæus [*Adv. Hæres.* i. 20] am yr hanes sydd yn yr efengyl hon am Grist yn dysgu yr egwyddor, mai chwedl ydoedd o ddyfeisiad y Marcosiaid. Canfyddir Efengyl y Babandod yn rhestr Gelosius; a'r hyn sydd yn ei gwneyd yn fwy hynod fyth ydyw y ffaith fod yn dra thebygol fod Mohammed yn gydnabyddus â hi, gan yr ymddengys ei fod wedi defnyddio rhanau o honi yn y Coran. Y mae y *Sepher Toldoth Jesu*, sef cyhoeddiad tra hysbys yn mysg yr Iuddewon, yn cynnwys chwedlau cyffelyb i'r rhai sydd yn yr efengyl hon [*Wagenseil's Sota*]. Derbyniwyd y gwaith hwn fel gwaith anffugiol gan amryw o'r eglwysi dwyreiniol, yn enwedig y Nestoriaid a'r Monophysiaid. Darganfyddwyd y byddai yn cael ei ddarllen yn gyffredinol gan Syriaid St. Thomas, yn Travancore, a chondemniwyd ef yn Nghynnadledd Diamper, yn 1599, gan yr archesgob Menezes, yr hwn a'i dysgrifia, "y llyfr a elwir Efengyl y Babandod, a gondemniwyd eisoes gan yr hynafiaid am ei heresiau cableddus a'i chwedlau dychymygol." Derbyniwyd yr efengyl hon hefyd gan y Persiaid a'r Coptiaid. Y mae yn debygol mai yn y Syriaeg yr ysgrifenwyd yr efengyl yn wreiddiol. Gelwir hi weithiau yn Efengyl Pedr, neu Efengyl Thomas.

*Efengyl Thomas yr Israeliad* (Groeg). Deilliodd y gwaith hwn o'r un ffynnonell a'r blaenorol, a chyhoeddwyd ef y waith gyntaf gan Cotelerius [*Notes on the Constitutions of the Apostles*, l. vi. c. 17, llyfr i. td. 348], oddi wrth lawysgrif anmherffaith o'r bymthegfed ganrif. Ail gyhoeddwyd, a dosbarthwyd ef yn bennodau gan Fabricius. Yr argraffiad perffeithiaf oedd eiddo Mingarelli, yn y *Nuova Raccolta d' Opusculi scientifice e filosofice*, Venet, 1764, o lawysgrif Bologna, o'r bymthegfed ganrif. Chwanegodd Mingarelli (yr hwn a gredai mai ffug o waith y Manicheaid ydoedd) gyfieithiad Lladin ato. Y mae Philo hefyd wedi cyhoeddi argraffiad cyflawn ar ol cymharu argraffiad Mingarelli â dau gopi ysgrifenedig a gedwir yn Bonn a Dresden. Adrodda yr efengyl hon y chwedl am Grist yn dysgu yr egwyddor Roeg, yn yr hyn y cytuna â'r hanes a rydd Irenæus. Mewn Efengylau y Babandod ereill (megys yn yr hon a gyhoeddwyd

bwyllir am dani gan Epiphanius, Awstin, a Gelasius. Ceisiodd y Gnosticiaid a'r Manicheaid seilio rhai o'u hopiniynau dyeithr ar ei hawdurdod (megys nad oedd Crist yn Fab Duw cyn ei fedyddio, ac mai nid o lwyth Iudah yr ydoedd efe wedi deilliaw, ond o lwyth Lefi); felly hefyd y gwnaeth y Collyridiaid, y rhai a ddalient nad oedd yn bosibl rhoddi gormod o anrhydedd i'r Forwyn Fendigaid, a'i bod hithau ei hun wedi ei geni o forwyn, ac y dylesid ei haddoli trwy aberthau.

Er nad ydyw *Efengyl Marcion*, neu yn hytrach y llygriad o Efengyl Luc a wnaethpwyd gan yr heretic hwnw yn yr eilfed ganrif, yn awr ar gael, y mae y proffeswr Hahn wedi gwneyd ymdrech i'w hadferu o'r dyfyniadau a geir yn ysgrifeniadau yr hynafiaid, yn enwedig Tertullian ac Epiphanius. Y mae y gwaith hwn wedi ei gyhoeddi gan Thilo.

Y mae Thilo hefyd wedi cyhoeddi argraffiad o lawysgrif lygredig o Efengyl Ioan yn Groeg, a ganfyddwyd yn mysg ysgrifau y *Knight's Templars* yn Paris. Bernir ei bod wedi ei hysgrifenu yn y drydedd ganrif ar ddeg neu y bedwaredd ar ddeg, o gopi o'r ddeuddegfed ganrif a gafwyd yn Mynydd Athos. Y mae yr ysgrifen mewn llythyrenau aur. Y mae y gwaith wedi ei ddosbarthu yn bedair adran ar bymtheg, y rhai a elwir yn *efengylau*. Y mae yr adranau hyn, y rhai a gyfatebant yn lled agos i'n pennodau ni (ond fod yr ugeinfed a'r unfed ar ugain wedi eu gadael allan), wedi eu hail ddosbarthu yn adnodau, fel y rhai sydd mewn arferiad yn bresennol. Ystyria Thilo mai gwaith diweddar ydyw, ac iddo gael ei gynnyrchu ar ol dechreu y ddeunawfed ganrif.

Un o'r rhai hynotaf o'r efengylau anghanonaidd ydyw *Efengyl Nicodemus*, neu *Actau Pilat*. Am ei hanes, gwel dan y gair Actau Pilat.

Ni wyddom nemawr am yr efengylau ffugiol sydd wedi myned ar goll, ond eu henwau yn unig. Darllenwn yn Irenæus, Epiphanius, Origen, Eusebius, ac ysgrifenwyr eglwysig ereill, am *Efengyl Efa*, neu *Efengyl Perffeithrwydd*, *Efengyl Barnabas* (hen a diweddar), ac *Efengyl Bartholomeus*, *Efengyl Basilides*, *Efengyl Hesychius*, *Efengyl Iudas Iscariot*, *Efengyl y Valentiniaid*, *Efengyl Apolos*, *Efengyl Cerinthus*, *Efengyl y Deuddeg Apostol*, yn nghyd âg amryw o rai ereill. Deilliodd rhai o honynt oddi wrth y Gnosticiaid, a chyfeiliornwyr ereill; a thybia Mill, Grabe, ac ysgrifenwyr dysgedig ereill, bod ychydig yn eu plith, megys *Efengyl Matthïas* yn efengylau diledrith, ond eu bod erbyn hyn wedi myned ar ddifancoll. Y rhai y mae genym yr hanes cyflawnaf am danynt ydyw *Efengyl yr Aiphtiaid* ac *Efengyl y Nazareaid*. Yr un ydyw y ddiweddaf, y mae yn debygol, ag *Efengyl yr Hebreaid*, yr hon a ddefnyddid gan yr Ebioniaid. Tybiai Jerome mai efengyl anffugiol o waith Matthew ydoedd; yr hwn, meddai ef, a'i hysgrifenodd yn yr iaith Hebraeg. Efe a'i copïodd ei hunan oddi wrth y gwreiddiol yn llyfrgell Cæsarea; cyfieithodd hi i'r Groeg a'r Lladin, a rhoddodd amryw ddyfyniadau o honi. Barnai Grabe mai gan Iuddewon dychweledig y cyfansoddwyd yr efengyl hon, yn fuan ar ol esgyniad ein Harglwydd, a chyn i efengyl ganonaidd Matthew gael ei chyfansoddi. Ystyriai Baronius, Grotius, y Tad Simon, a Du Pin, mai efengyl o waith Matthew ydoedd, ond ei bod wedi ei llygru gan y Nazareaid. Meddyliai Baronius a Grabe iddi gael ei dyfynu gan Ignatius, neu gan awdwr yr epistolau a briodolir iddo. Edrych ereill arni fel cyfieithiad wedi ei lygru o gopi Groeg Matthew. Barnai Mr. Jones fod Paul yn cyfeirio at yr efengyl hon yn ei Epistol at y Galatiaid. Cyfeirir ati gan Hegesippus [*Euseb. Eccl. Hist.*, iv. 22], Clemens Alexandrinus [*Strom.*, ii, td. 280], Origen [*Commen. on John*], ac Eusebius [*Hist. Eccl.* iii. 25, 27, 39]. Dywed Epiphanius [*Hær.* adr. 29, 30] wrthym y perchid hi yn fawr gan yr hen Gristionogion Iuddewig, a'i bod yn dechreu fel hyn:—"Ac yn nyddiau Herod, brenin Iudea, daeth Ioan gan fedyddio â bedydd edifeirwch yn afon yr Iorddonen," &c. Gan hyny, yr oedd yn ddiffygiol o daflen yr achau a'r ddwy bennod gyntaf.

Dyfynir *Efengyl yr Aiphtiaid* gan Clemens Alexandrinus, Origen, Ambrose, Jerome, ac Epiphanius. Edrycha Grabe, Mill, Du Pin, a'r tad Simon, y rhai a goleddent farn uchel am yr efengyl hon, arni fel un o'r gweithiau y cyfeiria Luc atynt yn nechreu ei efengyl. Priodolir hi gan Mill i'r Esseniaid, a thybiai i hon a'r flaenorol gael eu cyfansoddi yn B. A. 58, neu ychydig cyn hyny. Dyfynir hi hefyd gan y ffug-Glement [*Yr ail Epistol at y Corinthiaid*, neu gyfleithiad Chevallier, 1833], yr hwn a ysgrifenodd, fel y bernir yn gyffredin, cyn y drydedd ganrif.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

EFENGYLWR—WYR: un yn cyhoeddi neu yn pregethu newyddion da. Yr oedd y personau a elwid yn *efengylwyr* yn nesaf mewn gradd i'r apostolion; a chawsant eu hanfon allan ganddynt hwy, nid i ymsefydlu mewn unrhyw le penodol, ond i deithio yn mysg yr eglwysi ieuainc, i ordeinio swyddogion, ac i gwblhau yr hyn a ddechreuasid gan yr apostolion. Rhai o'r dosbarth hwn oedd Phylip y diacon, Marc, Silas, &c.: *Act.* xxi. 8. Cyfyngir y teitl yn fwyaf neillduol at y pedwar ysgrifenydd ysbrydoledig o fywyd ein Hiachawdwr.

EFI, [אִוִי; Εὐί; *Hevaeas*]: un o'r breninoedd neu y tywysogion Midianaidd a laddwyd gan yr Israeliaid yn y rhyfel a gymmerodd le yn achos Baal-Peor, a thir pa rai a roddwyd wedi hyny i lwyth Reuben: *Num.* xxxi. 8; *Ios.* xiii. 21.

EFIL-MERODACH, [אֵויל מְרֹדַךְ; Εὐιαλμαρωδὲκ =*yr ynfyd Merodach*]: mab ac olynydd Nebuchodonosor, brenin Babilon. Bernir iddo lywodraethu yr ymherodraeth am y tro cyntaf yn amser alltudiaeth ei dad o gymdeithas dynion; ond yn mhen saith mlynedd, ar adferiad ei dad, carcharwyd ef ganddo, fel y tybir. Yn ystod ei garchariad, daeth i gydnabyddiaeth âg Iehoiacin, brenin Iudah, yr hwn a garcharesid er ys dwy flynedd ar bymtheg ar ugain; ac yn uniongyrchol ar ei ail esgyniad i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, rhyddhaodd y brenin Iehoiacin o garchar, a gosododd ef uwch law yr holl freninoedd ereill ag oedd yn gaethion yn Babilon: *Ier.* lii. 31. Yn ol Josephus a Prideaux, teyrnasodd am ddwy flynedd; pryd y ffurfiwyd bradwriaeth yn ei erbyn gan ei berthynasau i'w ladd, yr hon a flaenorid gan Neriglissar, ei frawd yn nghyfraith, yr hwn hefyd a'i dilynodd ar yr orsedd.

EFNUCH. Gwel Eunuch.

EFRAU, [Ζιζάνιον=*Zizanion*]: dygwydd y gair yn *Mat.* xiii. 25, ac mewn amryw o'r adnodau dilynol, a chyfieithir ef *chwyn* gan Luther; ond ni chyfarfyddir âg ef o gwbl mewn ysgrifen-

Digitized by Google

hadau Groegaidd. Tybir, gan hyny, gan mai yn y Syro-Galdaeg, fel y dywed rhai, yr ysgrifenwyd Efengyl Matthew yn wreiddiol, mai enw brodorol rhyw blanigyn ydyw, a fabwysiadwyd ac a ddygwyd i mewn fel hyn i'r cyfleithiad Groegaidd. Ymddengys y derbyn y dybiaeth hon gadarnhad oddi wrth y ffaith fod planigyn i'w gael yn bresennol sydd yn cyfateb i'r adnodau crybwylledig, enw Arabaidd yr hwn sydd yn dra thebyg i *zizanion*. Yn nammeg y dyn a hauodd had da yn ei faes, dywedir, "A thra yr oedd y dynion yn cysgu, daeth ei elyn ef, ac a hauodd *efrau* yn mhlith y gwenith: ac wedi i'r eginyn dyfu, a dwyn ffrwyth, yna yr ymddangosodd yr efrau hefyd." Y mae yn amlwg oddi wrth hyn, yn nghyd âg *adn*. 29, fod tebygolrwydd mawr rhwng y gwenith a'r *zizanion*, neu yr efrau, yr hyn nis gallasai fod o'r braidd oni buasai eu bod yn perthyn i'r un dosbarth o laswellt. Mai felly y mae yn bod sydd eglur, pa fodd bynag, oddi wrth yr hyn a ddywed Volney; sef, na bydd llafurwyr Palestina a Syria yn glanhau eu grawn oddi wrth hadau chwyn, ond y byddant yn gadael hyd yn oed y math a elwir *siwan* gan yr Arabiaid, yr hwn a effeithia ar ddynion nes eu meddwi, o'r hyn y cafodd efe ei hun brawf. Y mae yn ddiammheu mai hwn ydyw *zawan*, neu *ziwan*, Avicenna, a'r hwn a elwid gan yr Iuddewon diweddar *zouin*, yn ol fel y dywed Buxtorf, yn ei Eirlyfr Rabbinaidd. Dysgrifir dau fath o *ziwan* gan Avicenna; a dywed y gwneir bara o un o honynt. Cydnabyddir mai *efrau* y Cymry, *darnel* y Seison, *ivraie* y Ffrancod, a *lolium tenulentum* llysieuwyr, ydyw *ziwan* yr Arabiaid. "Yn



Dar. 283.

mhlith y llysiau niweidiol," medd Johnson, "*darnel* [efrau] ydyw y blaenaf. Dygant ddail tebyg i ddail gwenith neu haidd, ond garwach, gyda thwysen hir, yn cynnwys amryw o rai mân; pob un o ba rai a gynnwysant ddau neu dri o ronynau llai na gronynau gwenith, ond heb ddim us yn aron yn wisg iddynt: mewn canlyniad i hyn, y maent yn hawdd iawn i'w chwalu o gwmpas. Tyfant mewn meusydd yn mhlith gwenith a haidd; a bydd eu had yn addfed yn Awst." Dywed Forskal, yn ol fel y dyfynir ef gan Taylor, "fod y *darnel* yn dra adnabyddus i drigolion Aleppo. Tyfant yn mhlith ŷd. Os erys yr hadau yn gymmysgedig â'r blawd, meddwant y neb a fwyty y bara. *Ni bydd y medelwyr yn casglu y planigion hyn yn nghyd wrth fedi*; ond, ar ol dyrnu, byddant yn neillduo eu hadau oddi wrth y grawn trwy wyntyll neu ogr." "Nis gall dim," medd Taylor, "ddangos yn eglurach na'r dyfyniad hwn pa blanigyn a olygai ein Harglwydd. Tyf yn mhlith ŷd:—felly yn y ddammeg. Ni bydd y medelwyr yn eu casglu yn nghyd:—felly yn y ddammeg; a bydd y naill a'r llall yn tyfu hyd y cynauaf. Ar ol dyrnu, dosberthir hwynt:—yn y ddammeg, cesglir a dosberthir hwynt â llaw, a rhwymir hwynt yn ysgubau. Gwahenir yr hadau, os bydd ychydig yn weddill, trwy nithio; yr hyn a wneir, wrth gwrs, fel goruchwyliaeth rhagbarotoawl i gasglu yr ŷd i'r ysgubor neu i'r ystordy, a'r planigion niweidiol yn bentyrau i'w llwyr losgi, megys y llosgir chwyn.—(*Kitto's Cyclo. Bibli. Lit.; Calmet's Dict.; Eadie's Bib. Cycl.*)

EFRYDD—ION, [*brydd*]: anafus, cloff; yn fynychaf, dyn wedi colli un o'i aelodau yn hollol; ac nid gwasanaeth yr aelod yn unig trwy grebychiad neu leihad. Y mae yn eglur mai hyn ydyw ystyr y gair gwreiddiol, "Os dy law neu dy droed a'th rwystra, tor hwynt ymaith, a thafl oddi wrthyt; gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, neu yn anafus," &c.; *Mat.* xviii. 8. Dylid sylwi ar hyn hefyd, er mwyn gwahaniaethu rhwng efrydd a dyn wedi colli gwasanaeth aelod trwy wywdra, neu trwy ryw achosion ereill. Hwyrach na bydd genym syniadau digon eang bob amser am ystyr y gair hwn pan yn darllen hanes y gwyrthiau rhyfeddol a gyflawnodd ein Harglwydd ar efryddion.

EFYDD. Gwel PRES.

EGLAH, [עגלה="*anner*"]: un o wragedd Dafydd yn ystod ei deyrnasiad yn Hebron, a mam ei fab Ithream: 2 *Sam*. iii. 5; 1 *Cron*. iii. 3. Cedwir yr un drefn yn y ddwy restr—Eglah yn chweched ac yn ddiweddaf, a gelwir hi yn y naill fel y llall yn "wraig Dafydd." Yn ol yr hen draddodiad Hebraeg sydd wedi ei gofnodi gan Jerome, hi oedd Michal, gwraig ei ieuenctid; a bu farw ar enedigaeth Ithream. Y mae enw priodol o'r ystyr hwn yn gyffredin yn mysg yr Arabiaid hyd yn bresennol.

EGLAIM, [אגלים=*dan lŷn*; 'Αγαλείμ; *Gallim*]: lle a grybwyllir yn *Esa*. xv. 8, ac yno yn unig. Safai, fel yr ymddengys, ar derfyn eithaf Moab. Y mae yn debygol mai yr un lle ydoedd ag Eneglaim. Yr oedd tref o'r enw hwn yn adnabyddus i Eusebius, yr hwn a'i rhydd wyth milltir i'r deheu o Areopolis, sef Ar-Moab (Rabba). Dyna y lle yn gymhwys, pa fodd bynag, y saif Kerah, sef yr hen Kir Moab. Crybwylla Josephus am dref o'r enw Agalla, yn nghyd â Zoar, ac amryw leoedd ereill, fel yn Arabia.—[*Hyn. Iudd.*, xiv. 1, adr. 4].

1. EGLON, [עגלון; 'Εγλώμ; Joseph., 'Εγλών]: ystyr yr enw ydyw "cerbyd crwn." Un o freninoedd Moab (*Barn.* iii. 12, 13, 15); yr hwn, trwy gymhorth yr Ammoniaid a'r Amaleciaid, a groesodd yr Iorddonen, ac a gymmerodd "ddinas y palmwydd," sef Iericho [Josephus]. Adeiladodd balas iddo ei hun yn y lle hwn [*Hyn. Iudd. Jos.*, v. 4, adr. 1, &c.], ac efe a orthrymodd Israel am

Digitized by Google

ddeunaw mlynedd [Barnwyr a Josephus], y rhai a dalent deyrnged iddo [Josephus]. Pa un bynag ai yn barhaus, ynte yn ystod yr haf, y preswyliai yn Iericho (*Barn.* iii. 20), ymddengys oddi wrth Josephus ei fod wedi ffurfio cyfeillgarwch mynwesol âg Ehwd, Israeliad ieuanc [Josephus], yr hwn a breswyliai yn Iericho [Josephus], a'r hwn a ennillodd serch y brenin trwy anrhegion mynych. Dywed Josephus fod y cyfeillgarwch hwn wedi parhau dros amser maith; ond ni chrybwyllir un gair am dano yn Llyfr y Barnwyr, ac ni sonir ond am un anrheg, sef yr hon a roddwyd yn uniongyrchol cyn marwolaeth Eglon. Adroddir yr amgylchiadau a ddilynent y dygwyddiad hwn ychydig yn wahanol gan y Barnwyr ac yn Josephus. Awgrymir yn y Barnwyr fod i Ehwd fynediad rhydd i'r palas (*pen.* iii. 19, 20), ond dywedir hyny yn bendant yn Josephus. Yn y Barnwyr, enfyn yr Israeliaid anrheg trwy Ehwd (*pen.* iii. 15); yn ol Josephus, ennilla Ehwd ffafr y brenin trwy anrhegion mynych o'i eiddo ei hun. Yn y Barnwyr, mae genym ddwy olygfa—cyflwyniad yr anrheg a marwolaeth y brenin, ac ychydig gyfwng rhwng y naill a'r llall (*adn.* 18, 19); nid oes yn Josephus ond un olygfa. Cyflwynir yr anrheg, gyrir ymaith y gweinyddwyr, ac ä y brenin i ymddyddan cyfeillgar âg Ehwd. Yn y Barnwyr, ymddengys fod y lle yn cyfnewid o'r ystafell gyfarch i'r "ystafell haf" (*adn.* 18—20). Yn ol Josephus, cymmer y cyfan le yn yr "ystafell haf." Yn y Barnwyr, gesyd y brenin ei hun yn agored i'r ddagr trwy gyfodi oddi ar ei orseddfa o barch ymddangosiadol i'r genadwri ddwyfol y proffesai Ehwd ei fod yn myned i'w dadgan: yn Josephus, *breuddwyd* yw yr hyn y cymmerai Ehwd arno ei ddadguddio; a chyfyd y brenin oddi ar ei orsedd yn ei awydd cryf am ei glywed. Ni chrybwyllir am ddewrder Eglon, a'r anhawsder i gael y ddagr allan o'i gorff, yn Josephus.

Wedi yr amgylchiad hwn, aeth Ehwd i Seirath, yn mynydd Ephraim: *Barn.* iii. 26, 27; *Ios.* xix. 20. Casglodd yr Israeliaid yn nghyd i'r mynydd trwy sain udgorn; a chan ddisgyn o'r mynydd, ac yntau yn eu blaenori, rhuthrasant ar y Moabiaid. Lladdwyd y nifer luosocaf o honynt ar unwaith, ond enciliodd yn nghylch deng mil o wŷr tua'r Iorddonen, gyda'r bwriad o'i chroesi i'w gwlad eu hunain. Yr oedd yr Israeliaid, pa fodd bynag, yn flaenorol i hyny, wedi cymmeryd meddiant o'r rhydau, ac ni ddiangodd gymmaint ag un o'r deng mil: *Barn.* iii. 28, 29.

2. EGLON: dinas yn y parth isel o Iudah: *Ios.* x. 36, 37; xv. 39. Yr oedd Eglon yn un o'r pum dinas a gytunasant â'u gilydd i ymosod ar y Gibeoniaid, ar ol i'r bobl hyny, trwy dwyll, wneyd cyfammod âg Iosuah, ac â meibion Israel. Perthynai Eglon y pryd hyny i'r Amoriaid, ac enw ei brenin oedd Debir: *Ios.* x. 3—5. Y mae hanes buddugoliaeth hynod yr Israeliaid ar yr amgylchiad hwn, pan yn amddiffyn Gibeon, mor hysbys fel nad oes eisiau gwneyd dim ond cyfeirio ati: *Ios.* x. 6—27. Ymwelodd Iosuah yn mhen ychydig ar ol hyn âg Eglon, a dinystriwyd hi ganddo: *Ios.* x. 34, 35; xii. 12. Y mae yn debygol mai enw presennol y lle ydyw Ajlan, pentwr o adfeilion, tua deng milltir o Eleutheropolis, a phedair milltir ar ddeg o Gaza.—(*Smith's Dict. of the Bible; Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

EGLWYS. Y mae y Dr. W. O. Pughe yn deall y gair fel Cymraeg gwreiddiol, yn gyfansoddedig o *eg* a *glwys*, ac yn arwyddo yr hyn sydd *deg, hawddgar, pur, sanctaidd.* Ond y mae yn ddiammheuol fod y tarddiad yna yn anghywir. Y mae y gair yn amlwg yn llygriad neu yn amrywiad o'r gair Groeg 'εκκλησια (*ecclêsia*), yr hwn sydd drachefn yn deilliaw o ddau air ἐκ a καλέω, yn arwyddo *galw allan.* Yn llythyrenol, ac yn ol y defnydd arferol o hono gan yr ysgrifenwyr Groegaidd, y mae yn arwyddo cynnulleidfa reolaidd o'r dinasyddion, wedi ei gwysio yn nghyd gan y crïwr cyhoeddus, i ymdrin âg achosion cyffredin y ddinas. Yr ydym yn cael y gair unwaith o leiaf yn y Testament Newydd yn yr ystyr hwnw. Felly y mae i'w ddeall yn nghyfarchiad "ysgolhaig," neu ysgrifenydd "y ddinas," i'r dorf derfysglyd yn Ephesus, a gynhyrfasid yn erbyn Paul gan Demetrius, y gôf arian: "Ac os gofynwch ddim am bethau ereill, mewn cynnulleidfa gyfreithlawn y terfynir hyny" (*Act.* xix. 39); neu yn hytrach, "*yn y* gynnulleidfa gyfreithlawn"—y gynnulleidfa gyffredin oedd hollol adnabyddus iddynt, ac a gyfarfyddai yn gysson deirgwaith neu bedair yn y mis, mewn llawn awdurdod i ymdrin â'r fath achosion. Y mae y gair, yn wir, yn cael ei ddefnyddio yn hanes y cynhwrf y cyfeiriwyd ato, am y dorf derfysglyd ei hunan—"y *gynnulleidfa* oedd yn gymmysg" (*adn.* 32); "efe a ollyngodd y *gynnulleidfa* ymaith" (*adn.* 41). Y mae y fath ddefnydd o'r gair yn dra anghyffredin. Fe allai ei fod yn cael ei arfer felly yma; o blegid fod y lluaws wedi cyfarfod yn nghyd trwy *alwad* Demetrius, ac yn ymddangosiadol i benderfynu achos dinesig yn y θέατρον (*theatron*)—y chwareule mawr yn Ephesus, a elwir yn y cyfieithiad Cymraeg "yr orsedd" (*adn.* 29, 31); y lle, dybygid, yr arferai yr *ecclêsia* reolaidd, awdurdodedig, gyfarfod. Y mae y gair yn cael ei arfer yn gyffredin yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain o'r Hen Destament am yr Hebraeg קהל (*kâhâl*), i arwyddo naill ai holl genedl Israel mewn undeb â'u gilydd, megys corff cyffredinol, yn ffurfio un gynnulleidfa i'r Arglwydd; neu ynte y rhai o honynt a ddygwyddent fod ar unrhyw amgylchiad neillduol yn bresennol yn addoliad a gwasanaeth eu Duw, yn y lle a benodasid ganddo ef i hyny. Y mae yn amlwg fod y gair yn y Testament Newydd yn ei gyssylltiad â Christionogion yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr cyfatebol. Y mae yn fynych yn cael ei arfer am holl deulu Duw megys un corff yn Nghrist Iesu, ac yn cyfansoddi yn ei holl aelodau, o ddechreu amser i'w ddiwedd, un eglwys iddo ei hun. Fel ag y mae y corff dynol yr *un*, er cyfnewidiad gwastadol y gronynau y cyfansoddir ef o honynt; a'r afon yr *un*, er dyliflad cyson ei dyfroedd, a chyfnewidiad parhaus ei sylwedd; felly, er fod marwolaeth yn lluddias i wahanol aelodau yr eglwys barhau ar y ddaiar, ac yn ganlynol, fod y personau neillduol sydd yn ei chyfansoddi o oes i oes yn amrywio, eto—gan fod trwy ras olyniad gwastadol o honynt, ac na bu pall erioed ar yr had sanctaidd, a'u bod, er pob gwahaniaeth, yn dwyn y tebygolrwydd mwyaf i'w gilydd, ac er pob tebygolrwydd yn gwbl wahanol i bawb ereill—fe edrychir arnynt fel yn cyfansoddi un genedl sanctaidd i'r Arglwydd, yn rhedeg trwy holl oesoedd amser a holl genedlaethau y ddaiar. Yn wir, y mae y cymhariaethau sydd wedi cael eu defnyddio, nid yn unig yn anmherffaith, ond hefyd yn anghywir, i osod allan yr eglwys yn undeb ei holl aelodau megys un i Grist yn y golygiad hwn; o blegid nis gall un cyfnewidiad a ddichon gymmeryd lle hyd yn oed trwy angeu, ar berthynas

Digitized by Google

weledig, bresennol, credadyn â chredinwyr ereill, effeithio un cyfnewidiad ar ei berthynas â theulu Duw, ac felly â'r eglwys gyffredinol. Yn yr ystyr cyffredinol hwn y mae yn amlwg y mae y gair i'w ddeall yn yr Ysgrythyrau hyny sydd yn gosod allan *y cariad rhyfedd a ddangoswyd gan Grist tuag at ei eglwys, a'r aberth a wnaed ganddo er ei mwyn:* "Y gwyr cerwch eich gwragedd megys y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti" (*Eph.* v. 25); "Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed" (*Act.* xx. 28):—yn yr Ysgrythyrau hyny sydd yn gosod allan *y berthynas agos a rhyfedd sydd rhyngddi â Christ:* "Efe yw Pen corff yr eglwys" (*Col.* i. 18); "Yr hon yw ei gorff ef, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawnu oll yn oll" (*Eph.* i. 23):—yr Ysgrythyrau hyny sydd yn gosod allan *yr amcanion gogoneddus sydd gan Grist o berthynas iddi:* "Fel y gosodai efe hi yn ogoneddus iddo ei hun, yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw, ond fel y byddai yn sanctaidd ac yn ddifeius" (*Eph.* v. 27):—yr Ysgrythyrau hyny sydd yn ei gosod allan *fel cyfrwng yr amlygiadau o'r gogoniant dwyfol sydd yn cael eu harddangos drwyddi:* "Fel y byddai yr awr hon yn hysbys i'r tywysogaethau ac i'r awdurdodau yn y nefolion leoedd, trwy yr eglwys, fawr amryw ddoethineb Duw" (*Eph.* iii. 10):—yr Ysgrythyrau hyny sydd yn gosod allan *dynerwch Crist tuag ati, a'i ofal parhaus am dani:* "Ei fagu a'i feithrin y mae, megys ag y mae yr Arglwydd am yr eglwys" (*Eph.* v. 29):—ac heb luosogi chwaneg, yr Ysgrythyrau hyny sydd *yn sicrhau ei diogelwch a'i llwyddiant er holl ymosodiadau ei gelynion i'w herbyn:* "Ac ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, a phyrth uffern nis gorchfygant hi" (*Mat.* xvi. 18). Dyma yr eglwys *anweledig,* fel ag y mae rhai duwinyddion yn ei galw, am y rheswm nad oes ond y Duw mawr ei hunan a wyr i berffeithrwydd pwy sydd yn aelodau o honi. Y mae undeb â'r eglwys, yn y golygiad hwn arni, yn sicrhau iachawdwriaeth pawb a fyddo ynddo; a thu allan iddi, yn yr ystyr hwn, nid oes ond colledigaeth.

Ond y mae defnydd arall i'r gair yn y Testament Newydd, a mwy uniongyrchol i destyn ein herthygl bresennol, yn ol yr hwn y golygir trwyddo, fel ag yr ydym ni yn ei ddeall, unrhyw nifer o'r rhai y gellir gobeithio am danynt eu bod yn feddiannol ar y cynneddfau sydd yn gwahaniaethu y cymundeb cyffredinol y cyfeiriasom ato, mewn undeb â'u gilydd, yn cydymgyfammodi i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab ef, mewn ymarferiad â'i holl ordinhadau, ac ymgyssegredigaeth i'w sancteiddrwydd hi. Y mae y gair yn cymmeryd yn naturiol yr ystyr hwn am fod pob cynnulleidfa o'r fath yn cael ei thybied yn cael ei gwneyd i fyny yn unig o'r rhai a berthynant fel aelodau i'r eglwys yn yr ystyr gyffredinol iddi; felly, nid oes rhwng yr eglwys, yn y naill olygiad a'r llall, fwy o wahaniaeth nag sydd rhwng rhan hanfodol o unrhyw beth a'r oll o hono. Yn yr ystyr diweddaf yma y mae yn amlwg y mae y gair i'w ddeall pan y sonir am "yr eglwys" yn Ierusalem, yn Antiochia, yn Nghorinth, yn Ephesus, a'r cyffelyb. Yr un meddwl sydd iddo, yn ddiammheu, yn yr holl Ysgrythyrau hyny lle y mae yn cael ei gosod allan neu ei thybied megys cymundeb neu gorff gweledig, ac ymdrafod cymdeithasol rhwng ei hamrywiol aelodau, pa un bynag ai er mwyn adeiladaeth eu gilydd, ai gyda golwg ar y byd o'u hamgylch: megys "cynnull yr eglwys yn nghyd" (*Act.* xiv. 23); "ordeinio henuriaid yn mhob eglwys" (*Act.* xiv. 23); "athrawiaethu yn mhob eglwys" (1 *Cor.* iv. 17); "dweyd i'r eglwys" a "gwrando ar yr eglwys" (*Mat.* xviii. 17); "tewi yn yr eglwys," a "llefaru yn yr eglwys" (1 *Cor.* xiv. 28, 35); "drygu rhai o'r eglwys," a "gweddi ddyfal gan yr eglwys" (*Act.* xii. 1, 5); "ysgrifenu at yr eglwys," a "bwrw allan o'r eglwys" (3 *Ioan* 9, 10); ac amrywiol ymadroddion cyffelyb.

Y mae yn deilwng o sylw nad yw y gair byth yn cael ei ddefnyddio yn y Testament Newydd mewn ystyr daleithiol neu wladol, fel yr arferir ef yn gyffredin yn ein mysg ni. Nid oes yno ddim yn cyfateb i Eglwys Loegr, Eglwys Scotland, Eglwys yr Iwerddon, &c.; ond pa bryd bynag y cyfeirir at y cymundeb Cristionogol mewn talaeth neu wlad, y mae y gair yn wastadol yn y rhif luosog; hyny yw, nid Eglwys Iudea, Eglwys Syria, Eglwys Galatia, Eglwys Asia, Eglwys Macedonia; eithr, Eglwysi Iudea, Eglwysi Galatia, Eglwysi Macedonia, Eglwysi Asia, &c.—yn arwyddo, dybygid, yn dra phenderfynol, mai rhywbeth diweddarach na'r oes apostolaidd yw y syniad a gyssylltir yn gyffredin â'r gair pan y bydd yn cael ei ddefnyddio yn daleithiol.

Yr un pryd, nid ydym byth yn darllen am fwy nag un eglwys yn yr un ddinas; tra y mae yn amlwg y rhaid fod nifer y Cristionogion mewn rhai dinasoedd, megys Ierusalem, Antiochia, Corinth, Rhufain, a manau ereill, mor fawr, fel nad oedd yn bosibl iddynt, yn enwedig dan yr amgylchiadau, ymgyfarfod oll yn yr un ystafell, a'u bod yn ganlynol dan yr angenrheidrwydd i ymwahanu yn amrywiol gymdeithasau, dan arolygiaeth henuriaid neillduol; fel yr ydym, yn wir, yn darllen unwaith ac eilwaith am "yr eglwys yn eu tŷ hwynt," "yr eglwys yn ei dŷ ef," "yr eglwys sydd yn dy dŷ di;" yr hyn sydd yn arwyddo, dybygid, mor benderfynol, fod elfen o undeb rhwng Cristionogion a'u gilydd yn yr oes apostolaidd, yn eu hamrywiol gynnulliadau crefyddol, yr hon a waharddai iddynt beth bynag i ymffurfio yn eglwysi annibynol y naill ar y llall, pan mewn cyfleusdra i fod dan fugeiliaeth corff o swyddogion yn gallu cydgyfarfod, a chydymgynghori, a chydbenderfynu ar yr amrywiol achosion a ddeient yn angenrheidiol dan eu sylw mewn cyssylltiad â hwynt.

Y mae y cwestiwn, pa fodd bynag, yn nghylch natur, cyfansoddiad, a llywodraethiad yr eglwys, yn un o'r rhai ag y mae yr amrywiaeth mwyaf yn ngolygiadau Cristionogion arno; ac yn un, ysywaeth, sydd wedi achlysuro, nid yn unig y dyeithrwch mwyaf, ond yn fynych iawn y dygasedd mwyaf anghymmodol rhyngddynt a'u gilydd. Yn wir, y mae y gwahaniaeth rhyngddynt ar hyn y fath, fel y mae lluaws mawr o'r rhai sydd yn eu galw eu hunain yn Gristionogion yn gwadu hawl y rhai a amrywiant oddi wrthynt arno i gael eu cydnabod mewn un modd yn dal perthynas âg Eglwys Crist, ac felly i'r bendithion ysbrydol hyny sydd yn unig yn eiddo i'w gwir aelodau hi.

Y golygiad *Pabaidd* ar yr eglwys ydyw, mai un corff gweledig, cyffredinol, ydyw, yn gynnwysedig yn unig o'r rhai a broffesant ei ffydd hi, ac a fedyddir i'w chymundeb—yn cael ei llywodraethu yn gwbl gan esgob Rhufain, fel olynydd gwirioneddol yr apostol Pedr, ac fel cynnrychiolydd awdurdodedig Iesu Grist ar y ddaiar, trwy esgobion y gwahanol daleithiau, ac offeiriaid a diaconiaid yr amrywiol gynnulleidfaoedd a berth-

Digitized by Google

ynant iddi. Y mae yr eglwys hon yn eu golygiad hwy yn anffaeledig yn ei holl benderfyniadau, ac yn unig gyfrwng undeb â Christ er bywyd tragwyddol i bechadur; ac felly, y mae pawb oddi allan iddi o angenrheidrwydd yn golledig.

Y golygiad cyffredinol yn mhlith *Protestaniaid* ydyw—fod yr eglwys i'w hystyried naill ai yn gynnwysedig yn unig o gredinwyr gwasgaredig trwy yr holl fyd, a thrwy holl oesoedd amser, yn eu hundeb dirgeledig âg Iesu Grist fel eu Pen, pa amrywiaeth bynag a ddichon fod rhyngddynt o ran eu golygiadau ar rai o bynciau eu ffydd, a pha wahaniaeth bynag a ddichon fod rhwng eu ffurfiau gweledig, cynnulleidfaol; neu ynte, o gynnulleidfa neillduol o Gristionogion mewn undeb â'u gilydd, ac yn cydgyfarfod yn rheolaidd dan broffes o'u ffydd yn Nghrist, i ymarfer â'r ordinhadau a sefydlwyd ganddo ac i gydymffurfiad â'i ewyllys yn eu holl ymarweddiad. Ond er fod Protestaniaid yn cytuno yn gyffredin am yr hyn sydd hanfodol i eglwys, y maent yn gwahaniaethu yn ddirfawr yn nghylch natur yr undeb a ddylai fod rhwng eglwysi neillduol a'u gilydd, a'r drefn ddwyfol i'w llywodraethu ar wahan.

Y golygiad *Esgobol* ydyw, fod tri dosbarth o swyddogion yn perthyn i'r eglwys—yr esgobion, yr henuriaid, a'r diaconiaid; a bod llywodraethiad yr eglwys yn hollol yn eiddo i'r esgobion; mai iddynt hwy yn unig y perthyna y gallu i dderbyn i mewn i gyflawn aelodaeth o honi, ac i ordeinio i swyddi gweinidogaethol ynddi, ac nad oes neb yn weinidog *rheolaidd* i Grist heb y cyfryw ordeiniad; ac yn ol y syniad uchel-eglwysaidd, nid oes neb yn *wir* weinidog iddo, pa beth bynag fyddo ei gymhwysderau ereill, os heb ei neillduo felly, yn gymmaint ag mai dyma unig gyfrwng trosglwyddiad yr hawl o oes i oes oddi wrth Grist a'i apostolion i bwy bynag a chwennycho ymgymmeryd â'r swydd. Fe ddylid cofio, pa fodd bynag, nad yw yr honiad diweddaf yn hanfodol i'r syniad am Esgobyddiaeth fel ffurflywodraeth eglwysig.

Yn ol *Henaduriaeth*, y mae hefyd dri dosbarth o swyddogion yn yr eglwys, henuriaid athrawiaethol, henuriaid llywodraethol, a diaconiaid. Nid oes dim a fyno y diaconiaid â llywodraethiad yr eglwys; a'r oll a ddysgwylir oddi wrthynt hwy ydyw gofal am y tlodion, ac arolygiaeth elusenau y gynnulleidfa. Y mae un henuriad athrawiaethol neu weinidog yn mhob eglwys, ac weithiau chwaneg, a rhyw nifer o henuriaid llywodraethol, wedi eu dewis yn rheolaidd gan yr aelodau cyffredin. Y mae y gweinidog a'r henuriaid llywodraethol yn cyfansoddi llys eglwysig cynnulleidfaol, â holl lywodraeth yr eglwys mewn derbyn aelodau i mewn, a bwrw rhai drygionus allan, neu weinyddu ceryddon llai ar aelodau a fyddont yn rhodio yn afreolus, yn eiddo iddo. Y mae llys arall, pa fodd bynag, uwch law i hwn, a elwir *yr Henuriaeth*, yn gynnwysedig o'r holl weinidogion neu yr henuriaid athrawiaethol, a fyddont o fewn y cylch a berthyn iddo, ac un henuriad llywodraethol dros bob eglwys, ac yn cyfarfod yn gyffredin bob mis. Y mae awdurdod hollol gan y llys hwn i arolygu gweithrediadau y llys cynnulleidfaol, ac i dderbyn cwynion a wneler gan berson neu bersonau neillduol yn erbyn ei benderfyniadau. Gan y llys hwn hefyd y mae yr hawl i brofi cymhwysderau y rhai a fyddont yn ymgeiswyr am y weinidogaeth; ac os bernir hwy yn gymmeradwy, i awdurdodi eu hurddiad i'r swydd, ar yr amser a benodir i hyny, gan ryw nifer o'r gweinidogion, yn mhresennoldeb y rhai a fyddont yn eu galw i lafurio ac ymsefydlu yn eu plith. Y mae y ffurf eglwysig yn gyflawn, yn ol Henaduriaeth, gyda y ddau lys hyn:—yr un cynnulleidfaol, cyssylltiedig â phob eglwys ar wahan, a'r un corfforiaethol, cynnwysedig o gynnrychiolwyr y gwahanol eglwysi, yn undeb eu gilydd, gyda'u gweinidogion a elwir yr Henuriaeth. Ond os bydd naill ai nifer yr eglwysi, neu y pellder rhyngddynt a'u gilydd, yn ei gwneuthur yn angenrheidiol sefydlu mwy nag un Henuriaeth, y mae llys arall yn cael ei ffurfio, a elwir y Gymmanfa, yn gynnwysedig o un henuriad llywodraethol dros bob eglwys berthynol i'r amrywiol Henuriaethau, a'r holl weinidogion, ac yn cyfarfod naill ai yn flyneddol neu yn hanner blyneddol, fel y penderfynir gan yr aelodau. Os cynnydda yr achos nes peri bod angen am fwy nag un Gymmanfa, fe ffurfir llys arall uwch drachefn, a elwir y Gymmanfa Gyffredinol, â'r Cymmanfaoedd, a'r Henuriaethau, a'r eglwysi yn cael eu cynnrychioli yn rheolaidd ynddi yn ol rhifedi yr eglwysi cyssylltiedig â phob Henuriaeth. Yn ol Henaduriaeth, gan hyny, fel trefniant eglwysig, fe welir fod holl weinidogion yr efengyl yn gydradd o ran swydd, a bod llywodraeth yr eglwys yn cael ei gweinyddu trwy gynnrychioliad teg; hyny ydyw, gan swyddogion wedi derbyn yr ymddiried gan yr eglwys, ac wedi bod dan brawf manwl ar eu cymhwysderau i hyny.

Yn ol *Annibyniaeth*, nid oes ond dau ddosbarth o swyddogion yn perthyn i'r eglwys; sef gweinidogion neu henuriaid neu esgobion, a diaconiaid; y naill yn ymgymmeryd â'i hachosion ysbrydol, a'r lleill â'i hamgylchiadau allanol: ac y mae ei llywodraethiad yn hollol ynddi ei hun, yn ol golygiad y mwyafrif o'r aelodau ar unrhyw achos a ddelo dan eu sylw, heb gydnabod unrhyw reol ond gair Duw, ac heb fod yn gyfrifol i un eglwys nac i un llys arall ar y ddaiar am ei gweithrediadau. Yr un pryd, fe gydnabyddir rhwymedigaeth pob eglwys i feithrin y teimladau mwyaf tyner a charuaidd tuag at ei chydeglwysi, ac i fod bob amser yn barod i gydweithredu â hwynt yn mhob peth a fyddo yn tueddu at helaethiad terfynau teyrnas y Gwaredwr, cyn belled ag na byddo hyny yn gormesu ar ei hannibyniaeth hollol ei hunan, yn mhob peth perthynol i'r achosion tufewnol priodol iddi ei hun.

Yn ol *Trefnyddiaeth Galvinaidd Cymru*, nid oes hefyd ond dau ddosbarth o swyddogion yn yr eglwys; sef gweinidogion a diaconiaid, y rhai a elwir ganddynt hwy yn gyffredin blaenoriaid, a'r rhai sydd bob amser yn cymmeryd rhan helaeth yn achosion ysbrydol yr eglwys, yn llawer mwy felly na'u cydswyddogion yn yr eglwysi Annibynol. Y mae llywodraeth yr eglwys yn eu plith hwy yn fath o gyfuniad o Annibyniaeth a Henaduriaeth. Y mae hawl hollol gan bob eglwys i benderfynu ei holl achosion ei hunan, yn unol â golygiadau y cyfundeb yn gyffredinol, yr hyn a wneir bob amser gan yr holl eglwys, ac nid gan y swyddogion, yn cyfansoddi llys cynnulleidfaol fel cynnrychiolwyr iddi; ond os bydd gwahaniaeth barn yn cyfodi ar unrhyw achos pwysig, ac os methir dyfod i benderfyniad heddychol arno gan yr eglwys ei hun, y mae, yn ol egwyddor Henaduriaeth, i'w gyflwyno i gynnrychiolwyr y gwahanol eglwysi yn y Cyfarfod Misol; ac os methir cytuno arno yno, y mae i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa Chwarterol—penderfyniad yr hon sydd i fod yn ddiwedd arno.

Mae yn gwestiwn ag y mae amrywiaeth mawr

Digitized by Google

ar eu cyfrifoldeb yn y cyflawniad o'u swydd. Os meddylir, drachefn, am y gwasanaeth a'r addoliad cynnulleidfaol, nid oes yma un reol i benderfynu pa mor fynych y mae i'w gynnal, yn mha drefn y mae i'w ddwyn yn mlaen, pa faint o amser y mae i barhau, nac, yn hollol, pwy sydd i weinyddu ynddo; ond fe sicrheir i ni y *rhaid* iddo fod "mewn ysbryd ac mewn gwirionedd" (*Ioan* iv. 23, 24); "gyda gwylder a pharchedig ofn (*Heb.* xii. 28); ac "mewn prydferthwch sancteiddrwydd" (*Salm* xcvi. 9). Ac felly am wahanol ranau yr addoliad. Nid oes yma ddim yn nghylch ffurf gweddi; ond rhaid "galw ar yr Arglwydd o galon bur" (2 *Tim.* ii. 22), "nesau â chalon gywir" (*Heb.* x. 22), a "gweddïo yn yr Ysbryd Glân" (*Iudas* 20). Ni ddywedir dim yn nghylch y beroriaeth yn y canu—pa un ai gyda nodau ai hebddynt, pa un a ellir defnyddio offerynau i gynnorthwyo y lleisiau ai nis gellir; ond nis gall fod yn gymmeradwy os na bydd yn "ganu a phyncio trwy ras yn y galon i'r Arglwydd;" *Eph.* v. 19. Yr un modd am yr ordinhadau arwyddol. Nid oes yma ddim pendant pwy sydd i fedyddio, pa fodd i fedyddio—ai trwy drochiad ai taenelliad, nac mor bendant ag i'w wneuthur yn ddiddadl, pwy sydd i'w bedyddio; ond y mae yn amlwg ei fod i'w wneuthur yn enw y Drindod, a bod y rhwymau cryfaf ar y rhai bedyddiedig i ymgyssegru i sancteiddrwydd. Ni ddywedir am Swper yr Arglwydd pwy sydd i weinyddu ynddo, pa mor fynych y mae cyfranogi o hono, pa agwedd ddylai fod ar ein cyrff wrth gyfranogi, pa faint o fara ac o win sydd i'w ddefnyddio, na pha fath fara a gwin; ond y mae y rhwymedigaeth yn hollol i'r ymarferiad, ac y mae y rheol yn bendant yn nghylch yr agwedd meddwl a ofynir yn y rhai na chyfranogont yn annheilwng; "Holed dyn ef ei hun; ac felly bwytäed o'r bara ac yfed o'r cwpan;" 1 *Cor.* xi. 28. Fel hyn, y mae yn amlwg, mai agwedd dufewnol yr ysbryd yw yr hyn a olygir yn bwysig mewn cyssylltiad âg eglwys y Testament Newydd, a bod gwerth pa ffurfiau bynag a berthyn iddi yn cyfodi oddi ar y cymhwysder a fyddo ynddynt i wasanaethu hyny. Nid ydym yn dyweyd nad oes, gyda golwg ar yr holl bethau y cyfeiriasom yn awr atynt, awgrymiadau ag sydd yn ddigonol er cyfansoddi rheolau cyffredinol: yr hyn a ddadleuir genym ydyw, nad ydyw ysbrydoliaeth wedi rhoddi i ni reolau pendant, mewn cynnifer o eiriau, yn rhwymo yr eglwys trwy yr oesoedd i ymgadw atynt fel yr unig drefn Feiblaidd ac anffaeledig.

Y mae yn ymddangos i ni fod y pethau hyn, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, yn penderfynu yn hollol nad ydyw y Testament Newydd yn gosod ger ein bron un cynllun neillduol gyda golwg ar ffurflywodraeth eglwysig, ac nad oes genym ynddo ond rhyw reolau ac egwyddorion mawr cyffredinol, i'w cyfaddasu gan yr eglwys ei hunan, yn ol y gwahanol amgylchiadau y byddo ynddynt, ac yn caniatau, fel y byddo y rhai hyny yn amrywio, o fewn eu terfynau eu hunain, pa amrywiaeth bynag a wasanaetho yn mhlaid llwyddiant crefydd. Yn wir, yr ydym yn gweled fod yr egwyddor y cyfeiriwn ati yn cael ei chydnabod, i ryw fesur, yn hanes yr eglwys trwy yr holl oesoedd, ac hyd yn oed dan oruchwyliaeth Moses, dan yr hon y gallesid meddwl fod pob peth wedi ei benodi gyda'r fath fanylder ag i gau allan yn hollol bob amrywiad neu chwanegiad. Fel hyn y sefydlwyd y barnwyr yn Israel, trwy gyfarwyddyd Iethro, i gynnorthwyo Moses: yr un modd y sefydlwyd ysgolion meibion y prophwydi yn mhlith y genedl: felly hefyd yr adeiladwyd y deml yn lle y tabernacl: felly y sefydlwyd y synagogau a'u gwasanaeth yn mhob parth o'r wlad: ac felly y sefydlwyd y gyssegr-ŵyl, er coffadwriaeth am lanhâd y deml gan Iudas Maccabeus, wedi ei halogiad gan Antiochus—gŵyl a anrhydeddwyd yn arbenig gan ein Harglwydd ei hunan â'i bresennoldeb. Ac nid oes dim eglurach i ni nag mai yn ol yr un egwyddor yr amcana y Goruchaf i achos crefydd gael ei ddwyn yn mlaen yn y byd hyd ei ddiwedd.

Ond, os hyn yw y cynllun dwyfol, y mae o bwys i ni gael allan y rheolau a'r egwyddorion cyffredinol hyny a roddwyd i'r eglwys i ymgadw atynt, a'r rhai nas gall amgen na cholli yn ei llysgrythyroldeb i'r graddau yr elo dros eu terfynau. Yn mhlith y cyfryw y mae y rhai canlynol:—

I. *Mai rhai yn credu yn Iesu Grist am iachawdwriaeth, ac yn ymgyssegru yn gwbl i fywyd duwiol, sydd yn unig i fod yn aelodau o honi.* Fe ddeallir nad ydyw y sylw hwn, yn ein bryd ni, mewn un modd yn gwadu hawl plant credinwyr i'w magu ynddi, ac i gael cyfranogi o'i breintiau, hyd oni phrofant eu hunain yn amddifad o ffydd eu rhieni. Yr ydym yn awr yn golygu yn unig y rhai a fyddont mewn oedran. Ac ni a dybygem nas gall fod, yn ngwyneb y Testament Newydd, unrhyw ammheuaeth nad y fath rai ag y cyfeiriwyd atynt sydd yn unig i'w hystyried yn aelodau cymhwys yn eglwys Crist. Y mae y gair *eglwys* ei hunan yn penderfynu hyny, yn ol y defnydd Beiblaidd o hono. Y mae yn amlwg yn arwyddo rhai wedi eu galw allan—wedi eu didoli, wedi eu neillduo—o blith ereill, yn bobl briodol i ryw amcan neillduol ac arbenig, ar wahan oddi wrth y byd yn gyffredinol. Y mae yr alwedigaeth hono yn "alwedigaeth nefol" (*Heb.* iii. 1), yn "alwedigaeth sanctaidd" (2 *Tim.* i. 9), ac yn alwedigaeth yn gosod ar ei deiliaid rwymau neillduol i "rodio yn addas iddi" (*Eph.* iv. 1.) Y mae pob cyfeiriad a wneir at aelodau yr eglwys apostolaidd yn profi eu bod yn cael eu tybied yn rhai didoledig i'r Arglwydd, a chwbl ymroddedig i grefydd. Os sylwir ar y llythyrau apostolaidd atynt, fe welir eu bod, braidd oll, yn cael eu cyfeirio yn benodol at y rhai a dybid felly; "At bawb sydd yn Rhufain, yn anwyl gan Dduw, wedi eu galw i fod yn saint" (*Rhuf.* i. 7); "At eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, at y rhai a sancteiddiwyd yn Nghrist Iesu, a alwyd yn saint" (1 *Cor.* i. 2); "At eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, gyda'r holl seintiau y rhai sydd yn holl Achaia" (2 *Cor.* i. 1); "At y saint sydd yn Ephesus, a'r ffyddloniaid yn Nghrist Iesu" (*Eph.* i. 1); "At yr holl saint yn Nghrist Iesu y rhai sydd yn Philippi" (*Phil.* i. 1); "At y saint a'r ffyddlawn frodyr yn Nghrist y rhai sydd yn Colossa" (*Colos.* i. 2); "At eglwys y Thessaloniaid yn Nuw Dad," hyny yw, yr hon sydd "yn Nuw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist" (1 *Thes.* i. 1); "At y dyeithriaid sydd ar wasgar ar hyd Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia, etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist" (1 *Pedr* i. 1, 2); "At y rhai a gawsant gyffelyb werthfawr ffydd a ninnau, trwy gyfiawnder ein Duw ni, a'n Hachubwr Iesu Grist" (2 *Pedr* i. 1); "At y rhai a sancteiddiwyd gan Dduw Dad, ac a gadwyd yn Iesu Grist, ac a alwyd" (*Iudas* 1). Y mae yn wir nad ydyw hyn yn cynnwys nas gallai fod

Digitized by Google

rhai o gymmeriadau gwahanol mewn cyssylltiad â'r amrywiol eglwysi a gyferchid fel hyn; ond y mae yn profi yn amlwg ac yn ddiddadl mai hyn oedd eu proffes gyffredinol.

Os edrychwn drachefn i gynnwysiad yr epistolau, y mae y desgrifiad a roddir o aelodau y gwahanol eglwysi, a'r tir a gymmerir gan yr ysgrifenwyr apostolaidd i'w cymhell i sancteidd-rwydd cyffredinol, yn arwyddo yn gwbl yr un peth. Y maent yma "yn alwedigion Iesu Grist" (*Rhuf.* i. 6), "wedi eu rhyddhau oddi wrth bechod, a'u gwneuthur yn weision i Dduw, â'u ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragwyddol" (*Rhuf.* vi. 22); ac felly, fe'u cymhellir "er trugareddau Duw i roddi eu cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw" (*Rhuf.* xii. 1); ac yn mhob modd i ochel "cydymffurfio â'r byd hwn" (*adn.* 3). Fe'u golygir yn "deml Duw" (1 *Cor.* iii. 16), "wedi eu galw i gymdeithas ei Fab ef, ein Harglwydd ni" (1 *Cor.* i. 9); ac "wedi eu golchi, eu cyflawnhau, a'u sancteiddio, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni" (1 *Cor.* vi. 11); ac fel y cyfryw, fe'u rhybuddir rhag "gyru yr Arglwydd i eiddigedd" (1 *Cor.* x. 22), a rhag "temtio Crist" (1 *Cor.* x. 9); ac fe'u hannogir "i ymlanhau oddi wrth bob halogrwydd, cnawd ac ysbryd, ac i berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw" (2 *Cor.* vii. 1). Fe'u gosodir allan fel rhai "wedi eu bywhau, pan oeddynt feirw mewn camweddau a phechodau" (*Eph.* ii. 1); ac "wedi eu cydgyfodi, a'u gosod i gydeistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist" (*Eph.* ii. 6); "ac wedi eu selio hyd ddydd prynedigaeth" (*Eph.* iv. 30); ac, yn ganlynol i hyn, fe ddysgwylir iddynt "ddodi heibio yr hen ddyn yr hwn sydd lygredig, a gwisgo y dyn newydd" (*Eph.* iv. 22, 24); hefyd "rhodio mewn cariad megys y carodd Crist hwythau (*Eph.* v. 2); a gochel "tristäu Glân Ysbryd Duw" (*Eph.* iv. 30). Fe ddywedir am danynt eu bod "yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd, yn gorfoleddu yn Nghrist Iesu" (*Phil.* iii. 3), a'u "hymarweddiad yn y nefoedd" (*Phil.* iii. 20); ac felly fe ddodir arnynt fod yn "ddiargyhoedd, a diniweid, yn blant difeius i Dduw, yn nghanol cenedlaeth ddrygionus a throfaus, yn dysgleirio megys goleuadau yn y byd, yn cynnal gair y bywyd" (*Phil.* ii. 15, 16); ac yn "feddylgar yn wastadol am bob peth gwir, gonest, cyfiawn, pur, hawddgar, canmoladwy, pob rhinwedd a phob clod" (*Phil.* iv. 8), er "ymddwyn yn addas i efengyl Crist" (*Phil.* i. 27). Fe'u dysgrifir yn rhai "wedi eu gwaredu allan o feddiant y tywyllwch" (*Col.* i. 13); "wedi derbyn Crist Iesu yr Arglwydd" (*Col.* ii. 6); "wedi eu cymmodi â Duw yn nghorff ei gnawd ef" (*Col.* i. 21, 22); ac "wedi eu cyflawnu ynddo ef" (*Col.* ii. 10); ac fel y cyfryw, i fod "â'u serch ar bethau sydd uchod" (*Col.* iii. 2), "i farwhau eu haelodau ar y ddaiar" (*adn.* 5), ac i ymwisgo â phob rhinwedd. Fe'u canmolir am "waith eu ffydd, llafur eu cariad, ac ymaros eu gobaith" (1 *Thes.* i. 3); ac fe'u cymhellir i "gynnyddu fwyfwy" (1 *Thes.* iv. 10), ac "ymgadw oddi wrth bob rhith drygioni" (1 *Thes.* v. 22). Fe'u gosodir allan megys "rhywogaeth etholedig, breninol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl briodol i Dduw, wedi eu galw allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef," ac felly, "i fynegu ei rinweddau" (1 *Pedr* ii. 9), i "ymgadw oddi wrth chwantau cnawdol" (*adn.* 11), ac i fod "yn sanctaidd yn mhob ymarweddiad" (1 *Pedr* i. 15). Ac heb i ni luosogi chwaneg o anghreifftiau, y maent yma yn rhai wedi derbyn gan Dduw "bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb" (2 *Pedr* i. 3); ac felly, fe'u hannogir, megys cyfranogion o'r "werthfawr ffydd" (*adn.* 1), "gan roddi cwbl ddiwydrwydd, i chwanegu at eu ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad" (2 *Pedr* i. 5, 6, 7). Gallesid yn hawdd iawn chwanegu at y tystiolaethau hyn; ond y mae hyny, ni a dybygem, yn afreidiol tuag at brofi ei bod yn rheol ddwyfol, bendant, sefydlog, a digyfnewid, i'r eglwys, nad oes neb i gael derbyniad i aelodaeth ynddi ond a fyddo yn proffesu ffydd yn Iesu Grist yn unig er iachawdwriaeth, ac yn ymgyssegru yn gwbl yn ei ymarweddiad cyffredinol i sancteiddrwydd.

II. Rheol arall i'r eglwys ydyw, *Ei bod i fod dan ofal, ymgeledd, a llywodraeth, swyddogion wedi eu dewis yn rheolaidd i'w gwaith, ac yn meddiannu i ryw fesur y cymhwysderau angenrheidiol i'r cyflawniad priodol o hono.* Ni a allasem gasglu y rheol hon fel un hanfodol iddi oddi wrth natur yr eglwys ei hunan, megys cymdeithas wedi ei bwriadu i'r fath amcanion pwysig gyda golwg ar ei haelodau ei hunan, ac ar y byd oddi allan iddi. "Nid ydyw Duw awdwr anghydfod, ond tangnefedd" yn ei holl ymherodraeth eang i gyd, "ac," yn arbenig, "felly yn holl eglwysi y saint" (1 *Cor.* xiv. 33). Y rheol ddwyfol ydyw, "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn" (1 *Cor.* xiv. 40). Yn awr, y mae *trefn cymdeithas* yn angenrheidiol yn golygu fod swyddogion yn perthyn iddi, i arolygu ei gweithrediadau, ac i weinyddu ei chyfreithiau. Ond nid ydym wedi ein gadael i'n casgliadau ein hunain ar hyn: y mae y peth yn amlwg yn y Testament Newydd. Yr oedd llywodraeth yr eglwys, ar y cyntaf, yn nwylaw yr apostolion, a'u hawdurdod yn ymestyn dros yr holl gymundeb Cristionogol. Ond yn fuan fe welodd yr apostolion eu hunain yn angenrheidiol drefnu swyddogion neillduol i'r gwahanol eglwysi, ac felly yr ydym yn cael fod *henuriaid* hyd yn oed yn yr eglwys yn Ierusalem gyda'r apostolion (*Act.* xv. 4), a bod Paul a Barnabas "yn ordeinio iddynt henuriaid yn mhob eglwys" (*Act.* xiv. 23). Yr oedd henuriaid yn eglwys Ephesus, "wedi eu gosod gan yr Ysbryd Glân yn olygwyr, i'w bugeilio" (*Act.* xx. 17, 28). Yr oedd yn eglwys Philippi "esgobion a diaconiaid" (*Phil.* i. 1). Yr oedd yn eglwys y Thessaloniaid "rai yn llafurio yn eu mysg, yn eu llywodraethu yn yr Arglwydd, ac yn eu rhybuddio," fel ag y gosodai yr apostol ar yr holl aelodau "wneuthur cyfrif mawr o honynt, mewn cariad, er mwyn eu gwaith" (1 *Thes.* v. 12, 13). Yr oedd gan yr Hebreaid Cristionogol, er colli rhai o'u "blaenoriaid, a draethasent iddynt air Duw," rai eto "yn gwylio dros eu heneidiau," i'r rhai yr oeddynt i "ufuddhau ac ymddarostwng" (*Heb.* xiii. 7, 17). Yr oedd i'r "dyeithriaid ar wasgar" 'henuriaid,' i'r rhai yr ymddiriedasid y gorchwyl o'u porthi megys praidd Duw" (1 *Pedr* v. 1, 2). Gadawsid Titus yn Creta, "fel y gosodai henuriaid yn mhob dinas" (*Tit.* i. 5). Yr oedd Paul yn gorchymyn i Timotheus draddodi y pethau a glywsai ganddo ef i ddynion ffyddlawn, y rhai a fyddent gymhwys i ddysgu ereill hefyd" (2 *Tim.* ii. 2); ac y mae yn rhoddi cyfarwyddiadau manwl iddo yn nghylch y cymhwysderau gofynol mewn esgobion a diaconiaid (1 *Tim.* iii. 1—12); yr hyn sydd yn amlwg yn arwyddo fod ef yn

golygu y swyddau fel pethau hanfodol i iawn drefn eglwys, a phethau i barhau ynddi. Nid oes eisieu i ni chwanegu profion fod yn gwbl eglur, yn ngwyneb y Testament Newydd, ei bod yn rheol arosol, ddisigl, i'r Eglwys Gristionogol, fod swyddogion o ddewisiad a neillduad rheolaidd yn perthyn iddi, i'w harolygu a'i llywodraethu yn yr Arglwydd.

III. Rheol arall o'r un natur i'r eglwys ydyw, *Mai dynion wedi eu cyfnewid trwy ras, ac wedi derbyn gan Ysbryd Duw ei hunan y cymhwysderau angenrheidiol at y gwaith, sydd yn unig i'w gosod i weinyddu mewn swyddau sanctaidd ynddi.* Y mae y Testament Newydd yn gwbl benderfynol a diamwys ar hyn. Yn wir, nid yw yn cyfeirio at ddim arall cyssylltiedig â hwynt fel peth hanfodol. Nid oes un llwyth neillduol yn cael ei nodi ganddo y rhaid eu galw o hono; nid ydyw yn enwi un oedran neillduol ag y rhaid cyfyngu eu dewisiad a'u gwasanaeth iddo, nac yn rhoddi un pwys ar urddiad fel peth angenrheidiol er effeithiolrwydd eu gweinyddiad o'u swyddau; ond y mae yn helaeth, ac yn fanwl, ac yn awdurdodol, ar y cymhwysderau a nodir yn ein gosodiad fel rhai anhebgorol ynddynt er eu haddasu i'w gwaith, ac er eu gwneuthur yn gymmeradwy gan Dduw ac yn fendithiol i'r eglwys ynddo. Os edrychir ar weinidogion yr efengyl *yn yr enwau sydd yma arnynt, y gwaith a ymddiriedir iddynt, y cymhelliadau sydd i ddylanwadu ar eu meddyliau yn y cyflawniad o hono, a'r cymmeriad cyffredinol a ofynir ynddynt,* fe ymddengys hyn yn amlwg iawn. Y maent yn "weinidogion Crist a goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw" (1 *Cor.* iv. 1); "yn genadau dros Grist" (2 *Cor.* v. 20); a phob un cywir mewn modd arbenig yn "ŵr Duw" (1 *Tim.* vi. 11), ac yn "was yr Arglwydd" (2 *Tim.* ii. 24). Y maent, fel y cyfryw, "mewn addfwynder i ddysgu y rhai gwrthwynebus" (2 *Tim.* ii. 25); i "iawn gyfranu gair y gwirionedd" (2 *Tim.* ii. 16); i "argyhoeddi, ceryddu, annog gyda phob hir-ymaros ac athrawiaeth" (2 *Tim.* iv. 2); i "fugeilio eglwys Dduw" (*Act.* xx. 28); i "wylio dros eneidiau" (*Heb.* xiii. 17); i "wylio yn mhob peth" (2 *Tim.* iv. 5); "gwylio arnynt eu hunain ac ar eu hathrawiaeth, ac aros ynddynt" (1 *Tim.* iv. 16); "perswadio dynion" (2 *Cor.* v. 11); ac "megys pe byddai Duw yn deisyf trwyddynt, i erfyn dros Grist" ar fyd gwrthryfelgar, "Cymmoder chwi â Duw" (2 *Cor.* v. 20). Y maent i wneuthur hyn "gan gredu, ac am hyny yn llefaru" (2 *Cor.* iv. 13), "gan wybod ofn yr Arglwydd" (2 *Cor.* v. 11); yn cael eu "cymhell gan gariad Crist" (2 *Cor.* v. 14); "megys rhai a fydd raid iddynt roddi cyfrif" (*Heb.* xiii. 17); a bod mewn ymdrech i'w "cadw eu hunain a'r rhai a wrandawant arnynt" (1 *Tim.* iv. 16). Tuag at wneuthur hyn yn effeithiol y mae yn gwbl angenrheidiol eu bod yn meddiannu gwir grefydd eu hunain. Y rhai y mae Duw yn "rhoddi gweinidogaeth y cymmod iddynt," y mae yn gyntaf yn eu "cymmodi âg ef ei hun trwy Iesu Grist" (2 *Cor.* v. 18). Pan y mae efe yn gwneuthur un yn bregethwr, y mae yn gyntaf yn ei "alw trwy ei ras, i ddadguddio ei fab ynddo" (*Gal.* i. 15, 16). "Rhaid gan hyny i esgob fod yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig, yn wyliadwrus, yn sobr, yn weddaidd, yn lletygar, yn athrawaidd; nid yn wingar, nid yn darawydd, nid yn budr-elwa; eithr yn dirion, yn anymladdgar, yn ddiariangar; yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudddod, yn nghyd â phob onestrwydd; nid yn newyddian yn y ffydd, rhag iddo ymchwyddo a syrthio i ddamnedigaeth diafol. Ac y mae yn rhaid iddo ef hefyd gael tystiolaeth dda gan y rhai oddi allan; rhag iddo syrthio i waradwydd, ac i fagl diafol" (1 *Tim.* iii. 2—7). Fe ganfyddir fod y rhinweddau a nodir yma yn cael eu gosod allan, nid fel pethau dymunol neu ffanteisiol, ond fel pethau angenrheidiol. "*Rhaid,* gan hyny, i esgob fod," &c. Iaith i'r un perwyl a arferir gan yr apostol pan yn ysgrifenu at Titus (*Tit.* i. 5—9), a'r un ydyw ysbryd pob cyfeiriad arall a gawn yn y Testament Newydd at y cymhwysderau gofynol yn ngweinidogion y gair. Ac y mae yr un cymhwysderau moesol ac ysbrydol yn cael eu nodi mor bendant fel yn hanfodol i'r rhai a wasanaethant swydd diaconiaid (1 *Tim.* iii. 8—12), yn gydweddol â'r hyn sydd yn amlwg yn rheol ddigyfnewid i eglwys Crist trwy yr holl oesoedd, ac hyd ddiwedd amser, yn nghylch y rhai sydd i weinyddu mewn swyddau sanctaidd ynddi.

IV. Rheol arall o'r un nodwedd ydyw, *Fod y swyddogion hyn, yn undeb yr eglwys, i ofalu na byddo i ddim anghydweddol â'i phurdeb hi gael ei oddef ynddi, ac yn meddu y gallu, ac yn rhwym i'w arfer, pan na thycia unrhyw foddion arall er diwygio y beius neu i ddiogelu ei hanrhydedd ei hunan, i dori pob cyssylltiad crefyddol âg ef, a'i fwrw allan yn hollol o'i chymundeb, hyd oni chaffer prawf amlwg o'i edifeirwch.* Mae hyn eto yn gwbl amlwg i ni yn ngwyneb y Testament Newydd—ac yn cynnwys awdurdodiad dwyfol i'r hyn a olygir yn gyffredin wrth *Ddysgyblaeth Eglwysig.* Er mai "cymundeb y saint" yw yr eglwys, eto nid ydynt yn y byd hwn ond saint amherffaith. Mae llygredigaeth yn aros yn y rhai goreu, tra yma, ac yn gofyn gwyliadwriaeth ofalus, fanwl, a chysson er ei farwhau. Nis gellir amgen felly na dysgwyl iddo yn achlysurol, hyd yn oed mewn duwiolion, dori allan mewn gweithredoedd cydnaws â'i natur, er tristwch i'r eglwys. Mewn amgylchiadau o'r fath, y mae yn gorphwys ar swyddogion yr eglwys i arfer pob doethineb er ceisio ymddwyn tuag at y troseddwr yn ol natur neillduol yr amgylchiad. Y mae yn amlwg iawn fod y cyfarwyddiadau dwyfol ar hyn yn tybied amrywiol amgylchiadau. Weithiau, dybygid, nid ydynt yn golygu mwy na chwymp achlysurol, disymmwth, i bechod; ac fe gyfarwyddir yno i'r tynerwch mwyaf, er sicrhau adferiad buan y troseddwr: "Y brodyr, os goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan dy ystyried dy hun rhag dy demtio dithau;" *Gal.* vi. 1. Weithiau, fe olygir un yn rhoddi prawf, dybygid, unwaith ac eilwaith, o duedd i encilio oddi wrth yr ymddygiad gweddus i'r efengyl, ond heb dori allan unwaith eto i unrhyw weithredoedd amlwg ag y gellid cymmeryd gafael uniongyrchol ynddynt; ac mewn amgylchiad felly y ddyledswydd eglur ydyw, "Rhybuddiwch y rhai afreolus;" 1 *Thes.* v. 14. Weithiau, y mae yn golygu un â'r duedd y cyfeiriwyd ato wedi ennill y fath lywodraeth arno nes ei wneuthur o ran ei fuchedd gyffredin yn gwbl wahanol i'r hyn sydd yn gweddu i un yn proffesu duwioldeb; ac mewn amgylchiad felly, fe elwir ar yr eglwys yn y modd mwyaf difrifol i wrthod ei gydnabod yn perthyn iddi hi: "Ac yr ydym yn gorchymyn i chwi, frodyr, yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, dynu o honoch ymaith oddi wrth bob brawd a'r sydd yn rhodio yn afreolus, ac nid yn ol y traddodiad a dderbyniodd efe genym ni;" 2 *Thes.* iii. 6. Mae yn ammheus,

Digitized by Google

Y mae yn gorphwys yn neillduol ar swyddogion yr eglwys mewn pob ymdriniaethau o'r fath i arfer y pwyll, y gochelgarwch, a'r tynerwch mwyaf. Ni ddylent weithredu byth oddi ar ammheuaeth, neu dybiaeth, nac heb y dystiolaeth fwyaf eglur a diamwys, ac yn enwedig hwy ddylent gymmeryd gofal neillduol i beidio mewn un modd a *gwrandaw ar gyhuddiad* yn erbyn neb o'u cyd-swyddogion ond yn ol y rheol apostolaidd: "yn erbyn henuriad na dderbyn achwyn, oddi eithr dan ddau neu dri o dystion;" 1 *Tim.* v. 19.

V. Rheol arall, a'r olaf y cyfeiriwn ati, sydd wedi ei gadael i'r eglwys, ac nas gall amrywio byth oddi wrthi ydyw, *Ei bod i gydnabod awdurdod Iesu Grist yn oruchaf ynddi, ac i'w hystyried ei hunan yn gwbl annibynol yn y gweinyddiad o'r cyfreithiau a roddwyd ganddo ef iddi, ar holl awdurdodau y ddaiar hon.* Y mae yn ymddangos i ni fod y Testament Newydd wedi gadael hyn yn fater cwbl ddiddadl. Eglwys Crist ydyw. Efe yw ei llywodraethwr a'i Phen. Y mae wedi addaw ei bresennoldeb gyda hi hyd ddiwedd y byd: *Mat.* xviii. 20. Efe ydyw Arglwydd y cynauaf, ac efe yn unig a all anfon gweision iddo: *Mat.* ix. 38. Dawn Crist sydd yn mesur y gras a roddir i bob un at wasanaeth yr eglwys: *Eph.* iv. 7. Y mae efe "yn rhodio yn nghanol y saith ganwyllbren aur" (*Dad.* ii. 1), a'i ewyllys ydyw fod i'w ddysgyblion hyd ddiwedd y byd gadw pob peth a orchymynwyd ganddo: *Mat.* xxviii. 20. Y mae ei awdurdod yn ei eglwys yn hollol. Nid yw yn caniatau i un gallu arall ymyraeth â'i hawliau. "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn. Pe o'r byd hwn y byddai fy mreniniaeth i, fy ngweision i a ymdrechent, fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awr hon nid yw fy mreniniaeth i oddi yma;" *Ioan* xviii. 36. Breniniaeth ysbrydol ydyw, â'i heisteddle yn y galon —"teyrnas Dduw, o'ch mewn chwi y mae;" *Luc* xvii. 21—ac nis gall gydnabod unrhyw awdurdod arall yno. Nid yw yn dibynu ar awdurdodau y byd hwn am gynnaliaeth, ac nis gall ganiatau un ymyraeth o'r eiddynt â'i llywodraeth hi. Y cwbl y mae yn ofyn yw *rhyddid*—na byddo un attaliad yn cael ei roddi arni, nac un rhwystr yn cael ei ddodi yn ei ffordd, i ennill y dylanwad sydd sicr iddi fel teyrnas gwirionedd ar reswm a chydwybod y byd.

Y mae y rheolau y cyfeiriasom atynt, ni a dybygem, yn hanfodol yn ol ordeiniad Crist ei hunan i'w eglwys, ac yn gyfryw ag nas gall un eglwys neillduol gilio oddi wrth gymmaint ag un o honynt, heb golli i'r un graddau yn ei Hysgrythyroldeb. Fe ddichon y darllenydd, hwyrach, nodi iddo ei hunan ryw rai ereill o'r un nodwedd, gan na ddarfu i ni amcanu at ddim mwy na rhoddi ychydig esamplau o'r rhai mwyaf amlwg a hawdd eu canfod yn nysgeidiaeth y Testament Newydd. Tu mewn i derfynau y rheolau hyn, fe ganiateir, fel y mae yn ymddangos i ni, yr amrywiaeth mwyaf—amrywiaeth sydd, yr un pryd, yn gwbl gydweddol â'r undeb puraf. Ac yn nghydnabyddiaeth Cristionogion yn gyffredin o'r egwyddorion hyn yr ydym ni yn unig yn gallu gobeithio am gyflawniad gweddi yr Eiriolwr mawr ei hunan ar eu rhan. "*Fel y byddont oll yn un.*"

**EGLWYS APOSTOLAIDD.** Y cymdeithasau a ffurfiwyd yn nyddiau a thrwy awdurdod yr apostolion. Ymddengys yn amlwg nad oedd y fath eglwysi yn genedlaethol: nid oeddynt hyd yn oed yn daleithiol; canys, er bod lluaws o gredinwyr a Christionogion proffesedig yn Iudea, yn Galilea, yn Samaria, yn Mesopotamia, yn Galatia, ac mewn taleithiau ereill, eto, nid ydym byth yn darllen am eglwys daleithiol yn un o'r lleoedd hyny. Crybwyllir am gymdeithasau neillduol y Cristionogion yn y parthau hyn yn y rhif luosog: 2 *Cor.* viii. 1; *Gal.* i. 2; *Act.* ix. 31. Nid yw y Testament Newydd yn crybwyll gair am eglwysi esgobol neu gadeiriol. Yr oedd esgobion, yn nyddiau yr apostolion, mor bell o fod yn llywyddu dros fwy nag un eglwys, fel yr oedd amryw esgobion yn fynych yn yr un eglwys; canys addefir yn gyffredin fod *henuriaid* ac *esgobion* yn eiriau cyfystyr yn y Testament Newydd: *Act.* xiv. 23; xx. 17, 28; *Phil.* i. 1; *Tit.* i. 5, 7. Nid ydym chwaith yn canfod dim crybwylliad yn "Llyfr Cyfraith yr Eglwys"—y Testament Newydd—am eglwysi plwyfol. Gall rhai o drigolion ambell blwyf fod yn Inffideliaid, Mahometiaid, neu Iuddewon; ond nid oedd neb yn yr eglwysi apostolaidd ond y rhai a wnaent broffes gyhoeddus o'u ffydd yn Nghrist, ac o'u hymostyngiad i'r efengyl: *Rhuf.* i. 7; 1 *Cor.* xiv. 33. O blegid hyn, tybiai Buck, King, ac ereill, mai cynnulleidfaol oedd yr eglwysi cyntefig neu apostolaidd; trwy fod yr eglwys gyntaf yn Ierusalem yn ymgynnull yn nghyd yn yr un lle, ar yr un amser: *Act.* i. 14, 15. Yr un modd y gwnai eglwys Antiochia: *Act.* xiv. 22. Felly hefyd eglwys Corinth: 1 *Cor.* xiv. 23. Yr un fath y gwnai yr eglwys oedd yn Troas: *Act.* xx. 7. Yr oedd eglwys yn Cenchrea, porthladd yn Corinth, ar wahan oddi wrth yr eglwys oedd yn y ddinas hono: *Rhuf.* xvi. 1. Nid oedd yr hwn a fyddai yn aelod mewn un eglwys, medd Buck, yn aelod o eglwys arall; canys dywed Paul wrth ysgrifenu at eglwys Colossa, "Y mae Epaphras, yr hwn sydd un o honoch, gwas Crist, yn eich anerch;" *Col.* iv. 12.

Y mae y fath eglwys yn gorff a wahaniaethir oddi wrth gymdeithasau gwladol y byd gan natur ysbrydol ei llywodraeth; canys er y myn Crist gadw trefn yn ei eglwys, eto, gwneir hyny trwy ddylanwad ei awdurdod ef yn unig, heb unrhyw rym gorfodol; peth anghysson â gwir natur y fath gymdeithas, dyben yr hon yw hyfforddiad ac ymarferiad cyfaddas iddi, pethau nas gellir byth eu cyflawnu trwy rym cyfreithiau cospawl, neu orfodaeth allanol: *Esa.* xxxiii. 22; *Mat.* xxiii. 8, 10; *Ioan* xviii. 36; *Salm* ii. 6; 2 *Cor.* x. 4, 5; *Zech.* iv. 6, &c.

**EGLWYS YR ALBAN.** Yr enw a roddir i hon yn gyffredin yw *kirk*—gair o'r un ystyr a'r Seisoneg *church*, yr hwn a ddeillia o'r Saxonaeg, *circe*, *circ*, neu *cyric*, perthynas agos i'r Groeg *κυριακον*—*teml Dduw.* Ymddengys nas gellir olrhain hanes Eglwys yr Alban yn mhellach yn ol gyda nemawr o sicrwydd na Columba, yr hwn, yn D. A. 563, a ymsefydlodd yn Ynys Iona. Gwel Iona. Pa ham y dewisodd efe y fath lanerch ddiffrwyth a thymmestlog, nid yw hysbys. Dymuniad ei galon ef oedd adnewyddu yr Alban, a'i chynnysgaethu â'r Gristionogaeth bur a chyntefig hono, yr hon yr oedd ei wlad ei hun, yr Iwerddon, oedd y pryd hyny yn "ynys y saint," wedi ei mwynhau am gynnifer o flynyddoedd. Tosturiodd yr Iwerddon wrth yr Alban, ac anfonodd iddi genad y gwirionedd. Ymdaenodd cenadon o Iona i bob man, a sefydlodd dysgyblion Columba ysgolion mewn llawer parth o'r wlad:—yn Abernethy, St. Andrews, Brechin,

Digitized by Google

gofleidient; ond yr oedd yn fwy Presbyteraidd nag esgobyddol. Bu hyn yn achos dadl boeth yn mysg llawer o'r rhai a bleidiant esgobyddiaeth. Eto y mae hyd yn oed Bede yn sicrhau am benaeth y sefydliad Culdeaidd, mai "mynach neu bresbyteriad ydoedd, ac nid esgob." Yr oedd ganddynt abad yn Iona, a ystyrid yn rhaglaw cyffredinol y sefydliad; ond nid oedd yn meddu urddas neu oruchafiaeth esgob. Gelwid aelodau eu cymmanfa yn henaduriaid, a'u braint fel corff oedd ordeinio eu brodyr at ryw swydd neillduol neu faes llafur. Gelwid y personau a neillduid felly yn "esgobion"—arolygwyr y gwaith penodol y byddent wedi eu cyssegru iddo. Nis gallasent fod yn esgobion yn yr ystyr esgobyddol; canys gan Bresbyteriaid y byddent wedi eu hordeinio; ac ni allasai y Presbyteriaid hyn gyflwyno swydd nad oeddynt yn ei meddu eu hunain. Byddai yr esgobion a ordeinid ganddynt hwy yn para yn ddarostyngedig iddynt hwy, ac yn dal gohebiaeth â hwy. Ac yr oedd yr urddasolion Culdeaidd hyny yn cael eu dewis, heb unrhyw archiad breninol i gymhell nac i gadarnhau yr etholiad. Ni chafodd yr hawl i ethol ei chymmeryd oddi arnynt a'i rhoddi i archesgob St. Andrews hyd y flwyddyn 1109. Yr oedd y pryd hyny yn ganol nos yr oesau tywyll: yr oedd yr awyr wedi ei gorchuddio gan dywyllwch dudew: prin y cai seren dywynu na byddai wedi ei chuddio gan gwmwl ouchiog; ac yn mysg hil wasgaredig a diflanedig y Culdeaid, gellid clywed rhyw hen sant yn ail adrodd y gofyniad pruddaidd, yn wan a llethedig—"Y gwyliedydd, beth am y nos?"

Yr oedd y Culdeaid eu hunain yn hòni fod eu ffydd a'u haddoliad hwy wedi dyfod yn uniongyrchol oddi wrth yr apostol Ioan. Er nas gellir profi hyn, addefir fod gwedd dra chyntefig ar eu heglwys, a bod llawer o burdeb a ffyddlondeb Ysgrythyrol yn eu mysg. Bernir nad hwy oedd y rhai cyntaf a ddygasent yr efengyl i'r Alban neu Brydain; canys yr oedd hi wedi treiddio i'r tu gogleddol i glawdd mawr y Rhufeiniaid yn amser Tertullian, B. A. 200. Y mae rhai yn meddwl nad oedd Derwyddiaeth wedi llwyr ddiflanu pan ddechreuodd Columba ei genadaeth. Ond nid oes nemawr o sail i'r dybiaeth yma; canys fe lwyr ddifrododd Suetonius Paulinus, o gylch B. A. 58, a'i olynwyr, y Derwyddon o'r tir, fel nad oedd dim olion o honynt, na dim son am danynt hwy na'u defodau, yn amser Gildas, yr hwn oedd yn cydoesi â Columba. Parhaodd y Culdeaid heb ddiflanu o hanesiaeth hyd yn agos i'r amser y cyfododd Wicliffe ei lais yn Lloegr, o gylch B. A. 1360. Ond o'r diwedd, darostyngodd Pabyddiaeth y Culdeaid yn yr Iwerddon a'r Alban. Defnyddiwyd pob moddion i lethu y tystion hyn dros y gwirionedd. Yr oedd twyll a grym yn cael eu defnyddio hyd yr eithaf. Yr oeddynt yn cael eu hudo, a phlygodd rhai i'r weniaeth; ac yr oeddynt yn cael eu bygwth, a dychrynodd rhai, gan laesu dwylaw rhag ofn y canlyniadau. Defnyddiodd y brenin Dafydd I. ei holl allu breninol yn eu herbyn, a threfnodd ei holl nawddogaeth i'r dyben o'u gwasgar a'u dadwreiddio. Daeth y Canoniaid rheolaidd yn gydymgeiswyr â hwy mewn sancteiddrwydd, a denasant y lluaws â swyn addoliad rhwysgfawr. Defnyddid gorthrech weithiau i'w difeddiannu o'u tiroedd; ac ar un achlysur, pan ymosodwyd yn y modd mwyaf direol i drawsfeddiannu eu tiriogaethau yn Fife, ymarfogodd Macbeth, Barwn Falkland, i ymladd yn erbyn eu gorthrymwyr. Medrodd twyll Pabyddol wneyd ei ffordd i Iona mor fore a B. A. 716, ac alltudiwyd lluaws o fynachod anufudd dros y Drum-Albin, sef dros ucheldiroedd Breadalbane, i lawr i'r iseldiroedd dwyreiniol. Wedi eu gwanhau a'u digaloni fel hyn, am rai oesau, diflanasant yn raddol o'r tir; a phan fu farw y Culdead diweddaf, medd Eadie, ymdaenodd cysgod angeu dros yr Alban, yn dew, trwm, a heintus, hyd oni oleuodd fflamau merthyrdod Patrick Hamilton, y rhai a saethasant trwy y caddug, gan gyhoeddi fod y tywyllwch yn ymchwalu, a bod gwawr y bore ar dywynu. Yr oedd ychydig o bersonau, ar ddechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, i'w cael yn yr Alban, yn dwyn yr enw Culdeaid; ac yr oedd Iona yn meddu math o reolaeth dros yr Iwerddon mor ddiweddar a'r ddegfed ganrif. Y mae Usher (B. A. 1601) yn dangos fod Culdeaid yn ei amser ef, ac yn dyweyd fod amryw o eglwysi Ulster yn dwyn yr enw, ac yn cynnal addoliad dwyfol mewn dull priodol iddynt eu hunain. Nid oedd y rhai hyn ond gweddillion o'r fyddin ardderchog —yr hen ŵr megys yn ei ail fabandod.

Yr oedd Pabyddiaeth wedi cael goruchafiaeth yn yr Alban er ys rhai canrifoedd bellach, er i'r Eglwys Albanaidd wneyd ymdrechiadau egniol, dro ar ol tro, i gadw ei hannibyniaeth yn ngwyneb honiadau yr esgobaeth sanctaidd. Yr oedd y pab Honorius, cyn belled yn ol a B. A. 1225, yn adgofio Eglwys yr Alban o'i hymostyngiad i'r esgobaeth sanctaidd; ond ni wrandawai yr esgobion gogleddol. Yn 1242, pasiodd Eglwys yr Alban nifer o ganonau ar ei chyfrifoldeb ei hun, y rhai a gadarnhawyd gan y brenin a'r senedd. Mae rhai o'r lxxxiv canon hyn yn dra nodedig. Dywed canon x, "Gan y dylai y rhai sydd yn gwasanaethu yr allor fyw wrth yr allor, y derbyn pob ficer gynnaliaeth weddus o ardrethion yr eglwysydd, ac y rhaid i ran rydd a chlir pob un, ar ol tynu pob costau allan, fod yn ddeng morc (*merk*), o leiaf, os bydd moddion yn caniatau, gan ddarparu bob amser fod rhanau y ficeriaid yn fwy mewn bywiolaethau cyfoethocach." Swm lleiaf taliadau ficeriaid yn Lloegr o gylch yr amser yma oedd tua phum morc; oddi gerth mewn rhai parthau o Gymru, lle yr oedd yn rhaid iddynt foddloni ar lai. Ymddengys oddi wrth amryw dystiolaethau, mai o ddeg i ddeuddeg morc Seisonig oedd y darpariad cyffredin i'r ficeriaid yn Lloegr. Gwel CYLLIDAU YR EGLWYS. Y mae canon xiii. yn ordeinio fod i bob plwyf ddarparu tŷ annedd yn agos i'r eglwys, yn yr hwn y gallai yr esgob neu yr archddiacon gael derbyniad parchus; a bod y fath anneddle i gael ei adeiladu yn ystod y flwyddyn, ar draul gyfartal y parsoniaid a'u ficeriaid; ond mai baich y ficeriaid a fydd cynnal y cyfryw adeiladau, am mai hwynthwy a gânt fwynhau y fantais o honynt. Y mae y ddeunawfed canon yn fwy nodedig fyth. Mynega fod harddwch yr eglwys yn cael ei halogi gan bla a nwydau llygredig; a bod yn angenrheidiol rhoddi gosodiadau pabau Rhufain mewn grym ar y pen hwn, rhag i'r eglwys gael ei chyhuddo o gau ei llygad rhag gweled y fath afreoleiddiwch nwyfus. Am hyny, ordeinia, "fod yn rhaid i bob parson a fyddo yn cadw gordderchwraig gyhoeddus yn ei dŷ ei hun, neu mewn rhyw dŷ arall, ei gyru ymaith yn hollol yn nghorff mis o amser, ac na chaiff gadw ereill yn ei lle, dan boen colli ei swydd a'i fywoliaeth. Y gofynir i'r archddeoniaid a'r deoniaid gwladol wneyd ymchwiliad manwl i'r holl amgylchiadau hyn, fel y gallont eu cyhuddo, gan sefyll at y rheol yn

meibion ordderch, a rhoi eu merched ordderch yn wragedd i feibion y boneddigion a'r pendefigion penaf—llawer o'r rhai oedd yn ddigon dirywiedig i lychwino gwaedoliaeth eu teuluoedd trwy ymgymmysgu â'r fath hiliogaeth fastarddol, er mwyn y gwaddolau mawrion a ddygent i'w plant. Yr ydoedd y mynachlogydd—magwrfeydd allan pob ofergoeledd, seguryd, a thrythyllwch—trwy ddall ddefosiwn a haelioni tywysogion a phendefigion wedi amlhau yn ddirfawr yn y tir; ac er eu bod yn ddiareb fel cyrchfaoedd puteindra a meddwdod, eto, ystyrid y buasai lleihau eu rhif, cwtogi eu rhagorfreintiau, neu attal eu taliadau, yn annuwioldeb a chyssegr-ysbail. Yr ydoedd y deyrnas yn heidio gan luoedd o fynachod anwybodus, segur, moethus, a llygredig; y rhai, fel locustiaid, a ddifäent gnwd y maes, ac a lanwent yr awyr â gwenwyn heintus eu trythyllwch. Yr oedd anwybodaeth grefyddol y clerigwyr mor druenus ag ydoedd eu bucheddau o warthus. Nid oedd ar hyd yn oed esgobion gywilydd cyfaddef eu bod yn anadnabyddus o ganonau eu ffydd, ac heb ddarllen un rhan erioed o'r Ysgrythyrau Sanctaidd ond yr hyn a gyfarfyddent yn eu llyfrau offeren. Yr oedd y bobl dan y fath fugeiliaid yn meirw o eisieu gwybodaeth. Yr oedd y llyfr oedd yn abl i'w gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, ac a fwriedid i fod yn nwylaw pawb fel eu gilydd, yn cael ei gloi i fyny rhagddynt; a gwaherddid iddynt ei ddarllen yn iaith eu mam, dan boen y cospedigaethau tostaf. Yr oedd y gwasanaeth crefyddol yn cael ei fwngial drosodd mewn ieithoedd meirwon, y rhai nid oedd hyd yn oed llawer o'r offeiriaid yn eu deall, ac nid allai rhai o honynt eu darllen. Nid oedd dim o'r athrawiaeth Gristionogol yn aros ond yr enw yn unig. Yr oedd y gwasanaeth dwyfol yn cael ei esgeuluso, oddigerth ar ychydig o ddyddiau gwyliau, fel nad ydoedd tai addoliad dda i ddim mewn llawer parth o'r wlad, ond fel nawddleoedd i droseddwyr, lleoedd masnach, a chyrchfaoedd i chwareuwyr."

Ar ol i Harri VIII. ymryddhau oddi wrth y pab, defnyddiodd ei holl ddylanwad gyda James V. o'r Alban, ei nai, er mwyn iddo yntau hefyd dori pob cyssylltiad â'r pab o Rufain. Danfonodd genad i ddarbwyllo James i wneyd hyny, gan ddal y tebygolrwydd o'i flaen y gallai esgyn i orsedd Lloegr, pe dygwyddai i Edward farw. Appwyntiodd gyfarfod hefyd â James yn York, a ffyrnigodd Harri yn greulawn o blegid absennoldeb James, a chyhoeddodd ryfel yn ei erbyn. Yr oedd Harri wedi trefnu i James V. briodi ei ferch Elizabeth; ond sicrhaodd Beaton a'r offeiriaid ei briodas â merch brenin Ffrainc; ac ar ol iddi hi farw, efe a briododd Mary o Lorraine. Gwnaed Beaton, o blegid ei ymdrech egniol gyda golwg ar briodas y brenin, yn archesgob St. Andrews. Yr oedd Patrick Hamilton, cefnder i James V, gŵr ieuanc pendefigaidd a duwiol, wedi coleidio Lutheriaeth; ac ar ol teithio ar y Cyfandir, a dal cymdeithas â Melancthon, a chael gwybodaeth o egwyddorion y Diwygiad, efe a ddychwelodd, gan ymdrechu gwneyd y gwirioneddau hyny yn hysbys; ond trwy ddylanwad y cardinal Beaton, efe a gondemniwyd am heresi; a phan oedd yn 24 mlwydd oed, llosgwyd ef—y merthyr cyntaf yn yr Alban—wrth yr ystanc. Yn 1538, llosgwyd pump o ddynion yn un pentwr, yn Castle hill, Edinburgh. Galwyd un o honynt, Thomas Forrest, i gyfrif gan esgob Dunkeld, am bregethu; a dywedodd yr esgob wrtho, os gallai efe gael rhyw efengyl neu epistol da, y gallai ei bregethu

Dywedodd Thomas Forrest ei fod wedi darllen yr Hen Destament a'r Newydd, ac na welodd efe erioed ddim drwg ynddynt. Diolchodd yr esgob i Dduw ei fod ef wedi byw cryn lawer o flynyddoedd, ond na ddarllenodd erioed na'r Hen Destament na'r Newydd. Gwel MORTUARY. Pan oeddynt yn parotoi y gludair i losgi Thomas Forrest, ac wedi trefnu lle amlwg i'r perwyl, fel y gellid gweled y fflamau o ororau yr Angus, dywedodd cyfaill ffraeth wrth yr archesgob, "Fy arglwydd, os ydych am losgi rhagor, os na chymmerwch fy nghynghor i chwi a lwyr ddinystriwch eich hunain. Os llosgwch hwy, gwnewch hyny yn nghanol seleryddl; canys y mae mwg Master Patrick Hamilton wedi magu yr haint ar bob un y disgynodd arno." Dechreuodd y cardinal Beaton ei erlidigaethau yn awr yn Perth: condemniwyd pump o ddynion ac un wraig—y dynion i gael eu crogi, a'r wraig i gael ei boddi. Enw y wraig oedd Helen Stark. Pan yr oedd mewn gwewyr esgor, ac yn cael ei chymhell gan y fammaeth i weddio ar y Forwyn, dywedodd hithau mai ar Dduw yn unig y gweddïai hi trwy Iesu Grist. Aberth nesaf y cardinal oedd George Wishart, gweinidog gwrol a sanctaidd. Yr oedd y cardinal yn ymogoneddu, yn ffenestr ei ystafell, wrth weled dyoddefiadau arteithiol y merthyr yn y fflamau; ac yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyny, dangosid ei gorff marw yntau ei hun o'r un ffenestr, wedi ei wanu âg amryw archollion gan haid o leiddiaid. Bu hyn yn 1546. O gylch y pryd hyn, cymmerodd dadl le rhwng John Rough ac un o'r enw Arran—offeiriad Pabaidd; ac o herwydd fod yr olaf yn drech na Rough, galwodd hwn am gymhorth John Knox. O hyny allan, cymmerodd Knox y flaenoriaeth yn yr holl Ddiwygiad.

Am gynnydd cyflym y Diwygiad ar ol hyn, a'r rhan arbenig a gymmerodd Knox a'i gefnogwyr ynddo, yr anhawsderau dirfawr yr aethant trwyddynt, a'r llwyddiant ardderchog a goronodd eu hymdrechion, nes iddynt sefydlu Protestaniaeth yn grefydd y wlad, gwel DIWYGIAD.

Ymgynnullodd cymmanfa gyffredinol eglwysydd diwygiadol yr Alban, yn ol deddfau seneddol a basiwyd i'r perwyl, ar yr 20fed dydd o Ragfyr, 1560. Ni chynnwysai ond deuddeg yn unig o weinidogion, a deg ar ugain o henuriaid llywodraethol; ond canfyddir iddynt gynnyddu yn 1567 i 257 o weinidogion ordeiniedig, 151 o gynghorwyr, a 455 o ddarllenwyr; ac yn 1581, sefydlwyd rhif yr eglwysydd plwyfol i fod yn 600, gyda gweinidog ordeiniedig i fod yn mhob un. "Mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd."

Yn ebrwydd ar ol cyfarfod y gymmanfa gyntaf, ffurfiodd Knox a phum gweinidog arall *Lyfr Cyntaf y Ddysgyblaeth.* Gwel DYSGYBLAETH (d.g. hwn, EGLWYS). Yn y cyfamser, aed yn mlaen i sefydlu gweinidogion y grefydd Brotestanaidd, a threfniadau ereill er gwneyd yr Eglwys Brotestanaidd yn sefydliad cenedlaethol. Trwy ddeddf seneddol, 1567, penderfynwyd "fod arholi a derbyn gweinidogion o fewn y deyrnas i fod yn ngallu y kirk yn unig, a broffesir yn awr yn ddigudd a chyhoeddus yn y deyrnas," "gan adael cyflwyno nawdd lleygol bob amser i'r hen noddwyr cyfiawn." Parhaodd y gymmanfa gyffredinol i gyfarfod ddwywaith yn y flwyddyn yn gyffredin; ac am amser, yn ystod sefyllfa ansefydlog yr eglwys, appwyntiwyd arolygwyr dros y gwahanol ddosbarthiadau, swydd y rhai oedd trefnu yr holl achosion eglwysig yn eu hamryw

Digitized by Google

gadael dan y gwarth a fwrid arnynt yn yr erlidigaeth ddiweddar; fod personau oedd wedi cydymffurfio â phreladiaeth, â chanddynt law yn yr erlidigaeth, yn cael eu derbyn i'r uchel lys. O blegid hyn, a phethau ereill cyffelyb, ymneillduodd ychydig nifer oddi wrth ymddygiadau yr eglwys, a gwrthdystiasant yn erbyn gweithrediadau y llywodraeth; ac wrth wneuthur hyny, ymdeimlent eu bod mewn sefyllfa dra thebyg i'r rhai hyny gynt pan osodwyd sylfaen yr ail deml, oedd wedi gweled y tŷ cyntaf yn ei ogoniant, ac yn wylo tra yr oedd y lluaws yn bloeddio gan orfoledd. Ymunodd tri o weinidogion o'r un golygiadau â'r ychydig nifer hyny, y rhai a bregethent ac a weinyddent yr ordinhadau iddynt dros amser. Cytunodd y gweinidogion hyn i gyflwyno papyr i'r gymmanfa gyffredinol, yn mynegu eu cwynion, ac yn erfyn am gynnorthwy, yr hwn y gwrthododd pwyllgor yr ysgrifau ei gyflwyno. Gwnaed rhyw oddefiadau ac eglurhadau i dawelu cydwybodau y gweinidogion oedd yn cwyno, a chydsyniasant hwythau â'r sefydliad. Fel hyn gadawyd yr ychydig Ymneillduwyr heb yr ordinhadau cyhoeddus; ac ymgyfarfyddent yn gymdeithasau i gydymddyddan, a chadwent ohebiaeth â'u gilydd. Parotoisant ddeiseb i'r gymmanfa gyffredinol, yr hon y gwrthododd pwyllgor yr ysgrifau ei gosod o'i blaen. Cyhoeddasant eu dadganiad a'u gwrthdystiad, a pharasant eu cyfarfodydd cymdeithasol a'u gohebiaeth â'u gilydd, mewn gobaith y byddai i Ben yr Eglwys anfon gweinidogion iddynt a weinyddent ordinhadau crefydd yn ol eu golygiadau hwy ar y gwirionedd a'u dyledswydd. Ar ol prawf maith ar eu ffydd a'u hamynedd, cawsant eu dymuniad o'r diwedd trwy ymuniad y Parch. John Macmillan, gweinidog Balmaghie, o henadurfa Kirkcudbright, yr hwn a dueddai lawer at eu golygiadau. Wedi iddo ef, a dau frawd arall o'r henadurfa, roddi papyr i mewn, yn erfyn am gael symmud gormesau, llwyddwyd i gael gan y ddau frawd dynu eu cwynion yn ol, ac ymostyngasant i'r annogiad. Gwrthododd Mr. Macmillan roddi i fyny ei gwynion, protestiodd yn erbyn y gormesau, ac appeliodd at y gymmanfa rydd gyntaf. Wedi hyny, bwriwyd ef allan mewn ffordd afreolaidd a diymgynghoriad. Gwrthododd yntau gydnabod y ddedfryd; ac wedi aros ychydig yn hwy i ddysgwyl diwygiad, a chanfod nad oedd gobaith am hyny, ond ar ammodau nas gallai efe ymostwng iddynt, efe a ail ymaflodd yn ei weinidogaeth gyhoeddus, er llawenydd calon i'w bobl. Wedi i gymdeithas y bobl gael ei boddloni fod ei olygiadau am ddiwygiad yn yr eglwys a'r wladwriaeth, ac am ddrygau y chwyldroad, yn cytuno â'u golygiadau hwythau, rhoddasant alwad unfrydol iddo, yn 1706, i ddyfod yn fugail iddynt, â'r hon y cydsyniodd yntau yn ffyddlawn. Ymunwyd â Mr. Macmillan gan Mr. John M'Neil, trwyddedog o Eglwys yr Alban, yr hwn a gofleidiai yr un golygiadau ag ef a'i bobl, a chydlafuriasant trwy bregethu yr efengyl. Yn 1708, cytunasant i osod gwrthdystiad ac ymneillduad ger bron dirprwyaeth y gymmanfa, yn mynegu yn bendant ar ba seiliau yr oeddynt yn ymneillduo oddi wrth y sefydliad. Yn 1712, adnewyddasant y cyfammodau cyhoeddus. Bu Mr. M'Neil farw yn 1732. Parhaodd Mr. Macmillan i weinyddu yn unig hyd oni ymunwyd âg ef gan y Parch. Mr. Nairne, pan y ffurfiodd y ddau weinidog, mewn undeb â'r henuriaid llywodraethol, henadurfa yn 1743, dan yr enw hwn—Henadurfa Ddiwygiadol. Yn fuan ar ol hyn, trwyddedwyd Mr. Alexander Marshal, yr hwn oedd wedi derbyn addysg reolaidd astudiwr mewn duwinyddiaeth; ac wedi derbyn galwad, ordeiniwyd ef yn rheolaidd, a chymmerodd ei le fel cydhenuriad. Chwanegwyd ychydig at yr henadurfa o bryd i bryd, a chawsant sefydliad yn fuan yn yr Iwerddon ac America.

Yma, rhoddir talfyriad byr o'u hegwyddorion neillduol yn eu mynegiad hwy eu hunain:—"Y mae yr Eglwys Bresbyteraidd Ddiwygiedig wedi ei seilio ar ymlyniad wrth egwyddorion Eglwys Brotestanaidd Bresbyteraidd Gyfammodol yr Alban. Y mae yr egwyddorion hyny yn cael eu hegluro yn y *Cyfammodau, Cyffes Westminster, Y Catecismau, Ffurf Llywodraeth yr Eglwys Bresbyteraidd, Y Cyfarwyddwr i'r Addoliad, a Thystiolaeth y Merthyron*; a chredwn eu bod wedi eu seilio yn sylweddol ar y Beibl. Nid ydym, wrth nodi yr ysgrifeniadau hyn, yn ymrwymo wrth bob syniad neu ymadrodd a ganfyddir ynddynt. Yr ydym wedi rhoddi dadganiad o'r egwyddorion Ysgrythyrol yr ymlynwn ni wrthynt; a thra yr ymdrechwn roddi rheswm am ein ffydd o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, yr ydym yn cyfeirio yn llawen at dystiolaethau Eglwys yr Alban, er prawf fod yr egwyddorion hyn yn cael eu cofleidio ganddi hithau, ac er tystiolaeth o'n cymmeradwyaeth o'i sel a'i ffyddlondeb." Y mae y Dr. Symington yn chwanegu, "Y mae yr Eglwys Bresbyteraidd Ddiwygiedig yn amcanu at gadw cyssylltiad âg Eglwys Ddiwygiedig yr Alban, yn yr ail Ddiwygiad, gan ddilyn y merthyron a ymlynent wrth ei hegwyddorion hi. Ystyriant fod yr egwyddorion hyn wedi eu hesgeuluso, ac yr ymddygwyd yn anffyddlawn atynt yn y Chwyldroad, trwy i'r llywodraeth roddi, yn 1690, a'r eglwys dderbyn, deddf 1592 fel breinlen ei henadurfa, heb un cyfeiriad at ddeddf y gymmanfa, 1647. Y maent yn seilio eu hymddygiad ar yr egwyddor addefedig hon; sef, pan fyddo rhan orfodol o eglwys yn gwneyd rhyw chwanegiadau at, neu gyfnewidiadau yn y gyfundrefn Ysgrythyrol o ffydd, addoliad, neu lywodraeth, fel ammod hanfodol o gymundeb â hwy, mai y rhan orfodol yn yr amgylchiad yma ydyw y gwir ymranwyr, a bod y rhai a orfodir i ymneillduo o'u cymundeb, nid yn pechu, ond yn wir ymlynwyr wrth yr eglwys, ac yn coleddu ei deddfau cyfansoddol. Nid ydyw sism—gwarth a deflir yn fynych i wyneb yr ychydig—i'w brofi wrth rifyddiaeth: nid pwnc o rif ydyw, ond gwirionedd ac egwyddor. Y mae yr Eglwys Bresbyteraidd Ddiwygiedig, tra yn cydnabod fod llawer o les wedi dyfod trwy y Chwyldroad, yn teimlo yr euogrwydd a ddygodd i'w ganlyn hefyd, ac am hyny nis gallant ei gymmeradwyo yn ddieithriad, fel y gwna rhai, gan siarad am dano fel dygwyddiad gogoneddus. Yr oedd adnewyddu yr uchafiaeth Erastiaidd [gwel Erastiaeth] ar yr eglwys, sefydlu preladiaeth yn Lloegr a'r Iwerddon, a phethau cyssylltiedig â hwy, yn drosedd o wirionedd Ysgrythyrol, o ddiwygiad oedd wedi ei gael, ac o ymrwymiad difrifol; ac os edrychir ar y Chwyldroad yn ngoleuni hanesiaeth, yn sefyllfa ddilynol crefydd yn Lloegr a'r Iwerddon, ac hyd yn oed yn yr Alban, nid oes ynddo sail i foddhad digymmysg. Teimlodd yr eglwys hefyd fod yn ddyledswydd arni gydnabod y cyfammodau o ran eu sylwedd a'u rhwymedigaeth." Y mae gan yr Eglwys Bresbyteraidd Ddiwygiedig o gylch deugain o weinidogion, wedi eu dosbarthu yn chwech henadurfa, ac yn agos i gymmaint o weinidogion yn yr Iwerddon. Y mae yn yr

Digitized by Google

Wilson o Perth, Moncrieff o Abernethy, a Fisher o Kinclaven. Am 11 o'r gloch y nos, derbyniodd y pedwar brodyr wŷs bendant i ymddangos o flaen y fainc dranoeth. Ymddygwyd atynt yn fyr a diseremoni, a throsglwyddwyd hwy drosodd i drugaredd y ddirprwyaeth; gan yr hon, yn Awst, y gorfodwyd hwy yn gyntaf i beidio gwasanaethu eu swyddi gweinidogaethol; ac yna, yn Tachwedd, llwyr amddifadwyd hwy o'u bywiolaethau gweinidogaethol. Dyma y ddedfryd a roddwyd arnynt:—"Y mae dirprwyaeth y gymmanfa gyffredinol, trwy y dadganiad yma, wedi, ac hefyd yn rhyddhau Mr. Ebenezer Erskine, gweinidog yn Stirling; Mr. William Wilson, gweinidog yn Perth; Mr. Alexander Moncrieff, gweinidog yn Abernethy; a Mr. James Fisher, gweinidog yn Kinclaven; oddi wrth eu gwahanol swyddogaethau, ac yn mynegu nad ydynt mwyach yn weinidogion o'r eglwys hon: ac yma yn gwahardd i holl weinidogion yr eglwys hon eu defnyddio hwy, na dim un o honynt, mewn unrhyw swydd eglwysig; ac y mae y ddirprwyaeth yn dadgan fod eglwysydd y dywededig Mr. Erskine, Mr. Wilson, Mr. Moncrieff, a Mr. Fisher, yn wag, o ddyddiad y ddedfryd hon allan; ac yn appwyntio bod llythyrau oddi wrth y cymmedrolwr, a rhanau o'r ddedfryd hon, yn cael eu hanfon i'r gwahanol henadurfäau o fewn terfynau y rhai yr oedd y gweinidogion dywededig yn meddu eu swyddogaethau, ac yn appwyntio, megys ag yr appwyntiwyd iddynt yma, ddadgan y ddedfryd hon yn y gwahanol ragddywededig eglwysydd, unrhyw amser rhwng hyn a'r cyntaf o Ionawr nesaf; ac hefyd, bod rhybudd o'r ddedfryd hon i gael ei anfon trwy lythyr oddi wrth gymmedrolwr y ddirprwyaeth hon, at ynadon Perth a Stirling, at sirydd penaf Perth, ac at faer bwrdeisdref Abernethy."

Protestiodd y pedwar brodyr yn erbyn y gyfryw ddedfryd yn y dull mawreddog a ganlyn:—"Yr ydym ni trwy hyn yn ymlynu wrth y gwrthdystiad blaenorol a roddwyd o flaen y llys yn eu cyfarfod diweddaf yn Awst, a phan yr ymddangosasom gyntaf o flaen y cyfarfod hwn; ac yn mhellach, yr ydym yn gwrthdystio yn ein henwau ein hunain, ac yn enw pawb a phob un sydd yn ein gwahanol gynnulleidfaoedd yn ymlynu wrthym ni, er y ddedfryd hon a basiwyd yn ein herbyn ni, y bydd i'n perthynas fugeiliol gael ei dal a'i chyfrif yn gadarn a chyfreithlawn; ac yr ydym yn protestio hefyd, er i ni gael ein bwrw allan o gymundeb gweinidogaethol Eglwys Sefydledig yr Alban, y bydd i ni ddal cymundeb â phawb ac â phob un a ddymunant ymlynu gyda ni wrth egwyddorion gwir Eglwys Bresbyteraidd yr Alban, yn ei hathrawiaeth, ei haddoliad, ei llywodraeth, a'i dysgyblaeth; ac yn neillduol gyda phob un sydd yn gruddfan dan y drygau, ac yn cael eu blino gan y gorthrymderau yr ydym wedi bod yn cwyno rhagddynt, a'r rhai sydd yn ymdrechu yn eu gwahanol gylchoedd yn erbyn yr unrhyw. Ond gyda golwg ar y blaid sydd yn ffynu yn yr Eglwys Sefydledig hon, a'r rhai a'n bwriodd ni allan yn awr o gymundeb gweinidogaethol â hwynt, y maent yn ymddwyn yn groes i'n hegwyddorion diwygiedig a chyfammodol ni, ac yn gwahardd rhyddid a ffyddlondeb gweinidogaethol i dystio yn erbyn gwrthgiliadau presennol yr eglwys, ac yn gweinyddu ceryddon ar weinidogion am dystio trwy wrthdystiadau a'r cyffelyb yn erbyn y cyfryw: a'r un modd, yr ydym yn protestio y bydd yn gyfreithlawn ac yn warantedig i ni arfer agoriadau yr athrawiaeth, y ddysgyblaeth, a'r llywodraeth eglwysig, yn ol gair Duw, *Cyffes y Ffydd*, ac egwyddorion a chyfansoddiad Eglwys Gyfammodol yr Alban, megys pe na buasai y fath gerydd wedi ei weinyddu arnom. Yn ol y pethau hyn yr ydym ni yn gweithredu; ac yr ydym yn appelio at gymmanfa gyffredinol, rydd, ffyddlawn, a diwygiedig gyntaf Eglwys yr Alban."

Aeth rhai blyneddoedd heibio—ac yr oedd yr ymwahaniad (*secession*) yn ymffurfio—pan, yn 1740, y pasiodd y gymmanfa gyffredinol y ddedfryd ganlynol:—"Ac am hyny mae y gymmanfa gyffredinol, gyda golwg ar erthyglau a gafwyd yn wir ac a brofwyd yn erbyn y personau a enwir ynddynt rhag llaw gan y gymmanfa olaf, a chan hon, megys y rhagddywedwyd, yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, unig Frenin a Phen yr Eglwys, a thrwy rinwedd y gallu a'r awdurdod a roddodd efe iddynt, yn gweithredol ddiswyddo y Meistriaid Ebenezer Erskine o Stirling, William Wilson o Perth, Alexander Moncrieff o Abernethy, James Fisher o Kinclaven, Ralph Erskine o Dunfermline, Thomas Mair o Orwell, Thomas Nairn o Abbotshall, a James Thomson o Burntisland—gweinidogion, o swydd sanctaidd y weinidogaeth, gan eu gwahardd a'u rhwystro hwy, a phob un o honynt, i arfer y gyfryw swydd, nac un rhan o honi, o fewn yr eglwys hon byth mwy; ac y mae y gymmanfa wedi dadgan, a thrwy hyn yn dadgan, fod holl blwyfydd neu fywiolaethau y personau a enwyd uchod yn wag, o amser dyddiad y ddedfryd yma allan: ac yr ydym yn ordeinio i gopïau o'r unrhyw gael eu hanfon i wahanol henadurfäau Stirling, Perth, Dunkeld, Dunfermline, a Kirkaldy; a gorchymynir yma i'r rhagddywededig henadurfäau anfon copïau i eisteddfäau eglwys Perth a Dumfermline, ac i ysgrifenwyr eisteddfaol y plwyfydd ereill y dadgenir yma eu bod yn wag, fel y mynegont i'r henuriaid. Ac appwyntia y gymmanfa fod llythyrau i gael eu hysgrifenu gan eu cymmedrolwr i ynadon y gwahanol fwrdeisdrefi y perthyna iddynt, gyda chopïau o'r ddedfryd hon; ac y mae y gymmanfa yn annog yr henadurfäau sydd yn cynnwys y plwyfydd neu y swyddogaethau y dadganwyd eu bod yn wag, i ddefnyddio eu hymdrechion goreu i'w cyflenwi yn ystod eu gwagder, ac i hyrwyddo sefydliad buan a chysurus yr unrhyw."

Erbyn y flwyddyn 1745, yr oedd yr Ymwahanwyr wedi ffurfio cynghorfa, ac yn meddu 30 o gynnulleidfaoedd, a 13 o leoedd gweigion. Ond daeth dadl anghysurus i'r gynghorfa yn nghylch y priodoldeb o'r llw a roddid i fwrdeisiaid y wlad hono. Nis gallent gytuno yn eu heglurhad ar un o'i adranau. Yr oedd rhai yn dal, yn naturiol, fod tyngu y fath lw yn gymmeradwyad mewn gwirionedd o'r Eglwys Sefydledig, gyda'i holl lygriadau: canys yr oedd y grefydd a broffesid yn awr gan y dynion a ffurfiasant y llw yn "grefydd sefydledig trwy gyfraith." Yr oedd ereill yn honi mai cyfeirio yr oedd y llw at wir grefydd fel y proffesid hi, ond nad oedd yn arwyddo unrhyw gymmeradwyad o ddull ei sefydliad. Barnai rhai fod y llw yn ddrwg yn mhob ystyr, gan y gwnai i ddinasyddiaeth ddibynu ar seintyddiaeth, ac y dibynai hawliau gwladol ar broffes grefyddol. Ar ol ymryson hir a chwerw, ac nid ychydig o dwrw eglwysyddol, terfynodd yr ymgiprws llym mewn ymneillduad yn 17·7. Galwyd y blaid a anghymmeradwyai yr adran grefyddol yn y llw yn Gynghorfa Gyfunol Gyffredin (*General Associate Synod*), a chan y werin, y Gwrthfwrdeiswyr. Cadwodd y blaid arall yr hen

Digitized by Google

(*quorum*); a gorchymynwyd iddynt hefyd ymddangos ddydd Gwener, i roddi cyfrif o'u goruchwyliaeth. Yr oedd hyn yn ddigon ymhongar; ac yr oedd hefyd yn ormodiaeth diachos o ormes. Yr oedd tri yn ddigon i weithredu yn el y gyfraith; ac fe wyddid yn dda fod tri o aelodau yr henadurfa yn hollol barod i gymmeryd rhan yn ngosodiad Mr. Richardson mewn swydd; ond eto, er mwyn gorfodi dynion da i gyflawnu gweithred a anghymmeradwyent, cangwyd y nifer yma trwy drais. Ymddangosodd henadurfa Dunfermline ddydd Gwener ger bron brawdle y gymmanfa. Nid oedd sefydliad wedi cymmeryd lle yn Inverkeithing y diwrnod blaenorol. Yr oedd tri gweinidog yn bresennol; ond gan nad oedd y rhai hyn yn swyddfrawdwriaeth, yn ol penderfyniad y gymmanfa, ni wnaethpwyd dim. Yr oedd chwech yn parhau i wrthod cydsynio âg appwyntiad y llys goruchel, a darllenasant ddadganiad yn mynegu "eu bod hwy wedi gweithredu fel dynion gonest, parod i ymwrthod â phob mantais wladol er mwyn cydwybod." Penderfynwyd y byddai i un o'r chwech hyn gael ei ddiswyddo, ond yr oedid detholiad yr aberth hyd y dydd canlynol. Dydd Sadwrn, gosodwyd pob un o'r chwech o flaen brawdle y tŷ. Ymddangosai fod tri yn ddigon barod i blygu, ond safodd dau yn ddisigl: daeth Gillespie yn mlaen gyda gwrthdystiad arall i amddiffyn ei ymddygiad. Nid oedd dim dadl yn awr, os bu erioed, gyda golwg ar y canlyniad. Offrymwyd gweddi am gyfarwyddyd dwyfol, yn ol y ddefod, yna cymmerwyd y pleidleisiau: pleidleisiodd 56 dros y diswyddiad, a pheidiodd 102 a phleidleisio. Traddododd y Dr. Cumming, y cymmedrolwr, y ddedfryd ganlynol:—"Y mae y gymmanfa gyffredinol, yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, unig Frenin neu Ben yr Eglwys, trwy rinwedd y gallu a'r awdurdod a roddwyd iddynt ganddo ef, wedi, a thrwy hyn, yn eich diswyddo chwi, Mr. Thomas Gillespie, gweinidog yn Carnock, o swydd y weinidogaeth sanctaidd, gan eich gwahardd a'ch diawdurdodi chwi i arfer yr unrhyw, nac un rhan o honi, o fewn yr eglwys hon byth mwyach; ac y mae y gymmanfa wedi, a thrwy hyn yn dadgan y bydd eglwys a phlwyf Carnock yn wag, o ddyddiad ac amseriad y ddedfryd hon, ac ar ol hyny." Gwrandawodd y proffeswr Cristionogol y ddedfryd hon o ddiswyddiad yn dirion a thawel, a dywedodd—"Gymmedrolwr: yr wyf yn dymuno derbyn y ddedfryd hon o eiddo Cymmanfa Gyffredinol Eglwys yr Alban, a draddodwyd yn fy erbyn, gyda gwir bryder ac ymsyniadau arswydlawn am y ddedfryd sydd ynddi; ond yr wyf yn llawenychu ei bod yn rhoddi i mi, ar ran Crist, nid yn unig gredu o honof ynddo ef, ond hefyd ddyoddef o honof er ei fwyn ef." Dywed yr hanesydd fod yn anhawdd ysgrifenu sylwadau pwyllog ar y drafodaeth yma, a chyfeiria ni at yr hyn a ysgrifenodd y Dr. Erskine, gweinidog duwiol a galluog o Eglwys Sefydledig yr Alban. "Yn ystod pedair awr ar ugain," eb efe, "cyhuddwyd, condemniwyd, a diswyddwyd ef, heb gabledd nac unrhyw gŵyn ffurfiol, ond yn unig am wrthod cyflawnu gorchymyn neillduol o eiddo y gymmanfa a'i appwyntiodd ef i roddi dedfryd mewn grym; yr hyn, yn ol ei farn ef, nis gallasai ei wneuthur heb esgeuluso gwir les, a chyfansoddiad, a chyfreithiau sefydlog yr eglwys, a thrwy hyny fod yn anffyddlawn i'r addunedau difrifol a wnaethai efe pan yn cael ei dderbyn yn weinidog Carnock."

Gan y barnai Mr. Gillespie, a hyny yn gywir, fod ei ddiswyddiad yn anghyfreithlawn ac anghyfiawn, efe a bregethodd ar y Sabbath canlynol, allan, yn Carnock. Symmudodd yn mhen ychydig fisoedd ar ol hyny i gymmydogaeth Dunfermline; ac fel hyn, efe a osododd sylfaen ymwahaniad (*secession*) newydd yn yr Alban. Ar weinyddiad cyntaf Swper yr Arglwydd yn y flwyddyn ganlynol, efe a ddadganodd ei egwyddorion rhyddfrydig, gan ddywedyd,—"Yr wyf yn dal cymundeb â phawb sydd yn cyfattal y Pen yn weledig, ac â'r rhai hyny yn unig." Yr oedd hon yn llwybr newydd i'w dilyn yn yr Alban; canys er nad yw y dadganiad yma ond talfyriad o athrawiaeth y chweched bennod ar ugain o'r *Gyffes Ffydd*, ar gymmundeb y saint, yr hon a gyfansoddwyd dros gan mlynedd cyn hyny, eto nid oedd yn cael ei deall yn gyffredinol yn yr ystyr yma, ac yr oedd y gwirionedd gwerthfawr hwn braidd wedi ei wrthod. Safodd Mr. Gillespie am chwe blynedd yn unig, heb fod neb o'i gyfeillion blaenorol yn yr Eglwys Sefydledig yn rhoddi cymhorth iddo, ar achlysuron cymundeb, er iddo ei daer geisio ganddynt. Gwnaed cynnyg y flwyddyn ganlynol i symmud dedfryd y diswyddiad gan yr uchel lys; ond yr oedd dau beth yn ofynol, i'r rhai nis gallai efe byth ymostwng; sef, "appeliad personol am adferiad," a "chydnabyddiad ac ymostyngiad fel brawd wedi troseddu." Bu y cynnyg, wrth gwrs, yn aflwyddiannus. Ar ol chwe blynedd o lafur ymdrechgar ac unigol, daeth cynnorthwy i Mr. Gillespie o'r diwedd o le tra dyddorol; sef, oddi wrth fab ei dad ysbrydol ef ei hun, Thomas Boston, o Jedburgh. Ar ei dderbyniad i'r swydd fugeiliol yn Jedburgh, cyfansoddwyd henadurfa trwy gynnorthwy Mr. M'Kenzie, gweinidog ymneillduol diweddar o Loegr, a "rhoddwyd yr holiadau arferol i weinidogion ar eu derbyniad i Mr. Boston ar yr achlysur hwn, gydag ychydig amrywiad mewn un neu ddau o honynt, o blegid neillduolrwydd ei amgylchiad ef, fel ag i'w rwymo i ddal cymundeb â'i frodyr yn yr Arglwydd, ac i fod yn ddarostyngedig iddynt, cyn belled ag y caniatâai cyfleusdra iddo."

Ffurfiwyd yr Henadurfa Rydd gyntaf yn y fl. 1761. Ffurfiwyd hi ar ordeiniad y Parch. Thomas Colier yn Collinsburgh, ac felly cafodd ei dechreuad mewn penodiad yr oedd dadl yn ei gylch. Yr oedd y trefniad eglwysig yma yn gam pwysig yn hanes yr Eglwys Rydd. Rhoddodd iddi undeb a nerth. Yr oedd ymofyniadau lluosog am bregethu yn cael eu hanfon, trwy fod cynnulleidfaoedd yn cael eu ffurfio oedd yn awyddus am fwynhau yr efengyl bur mewn cyssylltiad âg egwyddorion rhyddfrydig yr enwad newydd, y rhai ar y dechreu nis gellid eu diwallu. Daeth cymhorth o'r diwedd trwy ymuniad lluaws o weinidogion oddi wrth yr holl bleidiau crefyddol yn yr Alban, ac oddi wrth Ymneillduwyr Presbyteraidd Lloegr. Sefydlwyd llawer o eglwysi blodeuog. Ffurfiwyd dwy henadurfa yn ebrwydd, a alwyd y Ddwyreiniol a'r Orllewinol; ac ymgyfarfu y rhai hyn, yn 1773, am y tro cyntaf fel cynghorfa yn Edinburgh. Cynhyrfodd llwyddiant y symmudiad crefyddol newydd hwn nid ychydig o wrthwynebiad. Nis gellir celu fod y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiad a gafodd yr Eglwys Rydd wedi ei achosi gan ei gwaith yn hòni brawdoliaeth Gristionogol rydd, a'i hymwrthodiad â rhwymedigaeth ddall y cyfammodau cenedlaethol. Yn 1794, rhoddodd y gynghorfa ei hawdurdod i *Lyfr Hymnau*, er

Digitized by Google

eu dadgyssylltu oddi wrth yr angenrheidrwydd am fywyd sanctaidd fel eu ffrwyth. Y mae yn rhoddi pwys arbenig hefyd ar ddylanwad dwyfol, gan gredu fod cyfnewidiad achubol yn cael ei effeithio yn unig gan yr Ysbryd Glân. Presbyteriaeth neu henaduriaeth fanwl, ydyw ei threfn eglwysig, fel y mae yn amlwg wrth yr hyn oll a ddywedwyd uchod; ond nid oes yr un o'i llysoedd, fel ag y gelwir hwy, yn meddu unrhyw awdurdod ond un ysbrydol, yn cynnwys gweinidogion a henaduriaid, wedi ymgynnull yn nghyd i ymgynghori a barnu. Nid oes gan yr Eglwys Bresbyteraidd Unedig gymmanfa gyffredinol na chynghorau taleithiol hyd yn hyn; ond barna rhai fod eu trefn yn galw am y cyfryw, ac y gorfodir hi i'w cynnal yn fuan. Y mae cangen helaeth, ddylanwadol, a chynnyddol o'r Eglwys Bresbyteraidd Unedig yn Canada—a ddechreuwyd ac a gynnaliwyd am hir amser gan y fam eglwys yn yr Alban. Y mae Eglwys Bresbyteraidd Unedig Canada yn awr yn cynnwys naw o henaduriaethau a phedwar ugain o gynnulleidfaoedd. Y mae gan rai gweinidogion yn Canada ddwy gynnulleidfa dan eu gofal: ond yn ystod y flwyddyn hon (1861), y mae wedi ymuno â'r corff a ymlynai wrth Eglwys Rydd yr Alban. Y mae deunaw o eglwysi cenadol yn Jamaica mewn undeb â'r Eglwys Bresbyteraidd Unedig; ac y mae yn yr eglwysi hyny, heb law bugeiliaid, bymtheg o holwyddorwyr ac athrawon. Y mae ganddi brifysgol flodeuog yn Montego Bay, yn meddu athraw clasurol a dysgawdwr duwinyddol. Y mae ganddi ddwy eglwys genadol yn Trinidad, ac amryw o orsafau yn Caffraria. Y mae ganddi fyddin yn cynnwys chwech o genadon, chwech o holwyddorwyr ac athrawon, a chwech o is-ddirprwywyr o amryw fath yn yr Hen Galabar, ar oror orllewinol Affrica. Y mae ganddi sefydliad hefyd yn Neheubarth Awstralia, lle y mae wyth neu ddeg o gynnulleidfaoedd wedi ymffurfio yn gyflym. Y mae undeb wedi cael ei ffurfio yn ddiweddar yn y drefedigaeth hono rhwng y gwahanol enwadau crefyddol â'u gilydd.

Heb law y gwahanol bleidiau a nodwyd eisoes, pan ymunodd cynghorau y Gwrthfwrdeiswyr â'r Bwrdeiswyr yn 1820, gwrthdystiodd corff bychan o weinidogion Gwrthfwrdeisiol, dan arweiniad y Dr. Paxton, yn erbyn yr undeb, ac nid ymunent âg ef, ond ymffurfiasant yn gorff gwahanol dan yr enw Protestaniaid. Yn 1827, darfu i'r ddau gorff Gwrthfwrdeisiol o ymwahanwyr, sef yr Henuriaeth Gymdeithasol Gyfansoddol a'r Protestiaid, ffurfio undeb, a galwodd y corff newydd ei hun, Cynghorfa Gymdeithasol yr Ymwahanwyr Cyntefig. Yn 1842, chwanegwyd ato blaid fechan o'r Bwrdeiswyr Cyntefig, a wrthododd ymuno â'r Eglwys Sefydledig, pan yr ymunodd y rhan fwyaf yn 1840. Ar ol yr undeb yma, a'r corff byth yn fychan, galwodd ei hun Cynghorfa yr Ymwahanwyr Cyntefig Unol. Y mae ganddynt tua deg ar ugain o eglwysydd, ond y mae amryw o honynt yn weigion.

EGLWYS RYDD YR ALBAN.

Proffes yr enwad crefyddol galluog yma ydyw, mai Eglwys yr Alban ydyw, wedi ei bwrw allan yn anghyfreithlawn o'i sefyllfa briodol. Yr hyn a achlysurodd y rhwygiad mawr hwn yn Eglwys yr Alban, yn 1843, oedd yr ymrysonau yn nghylch hawliau y rhai a benodent bersonau yn weinidogion ar blwyfydd, a hawliau y plwyfolion i'w gwrthod os byddent yn anfoddlawn i'r rhai a benodid. Dadganodd y llysoedd gwladol fod yr honiad o annibyniaeth ysbrydol, a hawlid gan yr eglwys, yn anghysson â pherthynasau yr eglwys fel yr oedd yn sefydledig trwy gyfraith. Arferodd y llys gwladol, sef Llys yr Eisteddfa (*Court of Session*) ei awdurdod mewn gwahanol ddulliau. Fel hyn, gwaharddodd i henuriaeth Dunkeld dderbyn trwyddedog yr eglwys i gymmeryd gofal plwyf Dethendy, pan ar gael ei dderbyn yn annibynol ar y fywoliaeth wladol. Cafodd henuriaeth Irvine ei gwahardd gan Lys yr Eisteddfa i dderbyn trwyddedog yr eglwys i ofal bugeiliol yn Stewarton, "pan nad oedd yno na bywoliaeth, na hawl nawddogaeth, na chyflog, na thŷ gweinidog, na thir eglwys, na lle addoliad, nac unrhyw hawl etifeddol yn nglŷn â'r lle mewn un modd." Cyhoeddodd Llys yr Eisteddfa "ddeddf yn erchi ac yn ordeinio i henuriaeth Strathbogie gymmeryd ar brawf a derbyn i'r weinidogaeth sanctaidd," yn Marnoch, "newyddian neu ymgeisydd anordeiniedig i'r weinidogaeth, yn groes i ewyllys y bobl," yr hon a amlygwyd amryw weithiau yn eglur. Trwy waharddiadau mynych a roddwyd gan Lys yr Eisteddfa, ar ddymuniad gweinidogion o henuriaeth Strathbogie, y rhai yn gyntaf a waharddwyd, ac wedi hyny a drowyd o'u swydd, rhwystrwyd i weinidogion yr eglwys sefydledig, dan boen cyfraith, i bregethu yr efengyl na gweinyddu y sacramentau yn y plwyfydd hyny. Gwaharddwyd i saith o weinidogion yn henuriaeth Strathbogie weinyddu swyddi y weinidogaeth gan lysoedd yr eglwys. Nid oedd y ddedfryd hon yn ymyryd mewn un modd â hawliau gwladol neu gyflogau y gweinidogion. Pan appeliwyd at Lys yr Eisteddfa, symmudwyd y ddedfryd eglwysig, a pharhaodd y saith gweinidog i weinyddu eu swyddi fel pe na buasai wedi pasio. Mewn amser diweddarach, diswyddwyd y saith gweinidog gan lysoedd yr eglwys yn unol â dysgyblaeth yr eglwys; ond gwaharddodd Llys yr Eisteddfa i'r ddedfryd gael ei rhoddi mewn grym, a chymmerodd yr awdurdod o'u hail osod yn y sefyllfaoedd yr amddifadwyd hwy o honynt, ac awdurdododd hwy i barhau i weinyddu eu swyddi gweinidogaethol. Fel hyn cafodd y saith gweinidog o Strathbogie, a ddiswyddasid gan y gymmanfa gyffredinol, eu hail roddi yn eu swyddi gan Lys yr Eisteddfa. Y mae dosbarth helaeth yn credu, tra y mae gan yr eglwys hawl i annibyniaeth ysbrydol fel etifeddiaeth ddwyfol, nas gellir ei fwynhau yn gyflawn gan un eglwys a fyddo wedi ei sefydlu gan y llywodraeth, ac yn cael tâl a nawdd ganddi; ac am hyny, y maent yn condemnio yr undeb rhwng yr eglwys fel peth marwol i ryddid swyddogaeth eglwysig. Ond nid oedd y dosbarth poblogaidd yn Eglwys Sefydledig yr Alban yn dal y golygiadau hyn, ac eto ymdrechent yn wrol o blaid yr hyn a dybient hwy oedd hawliau a rhagorfreintiau naturiol yr eglwys, gan farnu nad oeddynt yn fforffedu dim o honynt trwy yr undeb â'r llywodraeth. Gan eu bod yn cael eu cadw danodd ar bob llaw gan yr awdurdod wladol, a bod yr awdurdodau cyfreithiol uwchaf yn eu herbyn, a gwladweinyddion yr amser yn nacau rhoddi dim cefnogaeth iddynt, teimlasant nas gallent ymostwng; ac am hyny rhoddodd yn agos i bum cant o weinidogion eu sefyllfaoedd a'u cyflogau i fyny yn yr Eglwys Sefydledig yn wirfoddol ac yn benderfynol. Yr oedd ymgynghoriad blaenorol wedi bod yn nghylch y cam pwysig, a chynnadledd bwysig wedi ei chynnal; ac ar hyn y cytunent.

Darlunir golygfa olaf yr ymwahaniad fel y canlyn gan flaenor yn yr ymdrechfa, a'i hanesydd galluog, y Dr. Buchanan. Y diwrnod oedd y

Digitized by Google

wrth wŷr mewn awdurdod, â'r ffeithiau anhyblyg a welai yn awr ger ei fron. Gwelid y Dr. Cunningham, Mr. Campbell o Monzie, Mr. Dunlop, ac ereill—enwau cynnefin yn yr ymrysonfa oedd yn awr wedi cyrhaedd ei therfyn—yn ymsymmud ar ol y rhai oedd eisoes wedi blaenu. Yr oedd y gwŷr hyn yn rhai a gymmerwyd i mewn, ac y deuwyd hanner y ffordd i'w cyfarfod, yn y rhan amlwg a gymmerasant yn y rhyfel hon—nis gallant wneyd yn amgenach—nis gallant dynu yn ol—a bydd y sefydliad yn llonyddach ar ol iddynt hwy ymadael. Ond am weinidogion llonydd y wlad sydd yn llenwi y meinciau ol hyn—ni ddichon eu bod hwy yn bwriadu taflu eu hunain a'u teuluoedd i ganol tlodi ac eisieu. Dyma y meddyliau, efallai, oedd yn hoelio edrychiad pryderus mwy nag un uchel-swyddog cyfreithiol ar y gwagle oedd yn ymagor yn barhaus mor ddrwg argoelus ar ochr chwith y tŷ, fel yr oedd mainc ar ol mainc yn arllwys ei heisteddwyr i'r ffrwd oedd yn myned yn barhaus tua drws yr eglwys. Nid oedd yno ddim brys—dim rhuthro—dim dyrysweh. Yr oedd rhes ar ol rhes o'r gwrthdystwyr yn myned allan mor drefnus a dianwadal a rhengau olynol llu milwrol. Gadawyd un ochr gyfan o'r gymmanfa yn wag, yn nghyd â'r holl feinciau croesion. Yr oedd y bywyd wedi ymadael o'r sefydliad; ac yr oedd y rhai oedd wedi aros yn edrych ar y gwagle megys ped edrychasent i fedd agored. Ond pa le yn awr yr oedd pen colofn y cyffeswyr a rodiodd allan o Eglwys St. Andrew? Fel yr oedd y rhai oedd yn arwain y golofn yn dyfod i'r heol—fel yr oedd gwn a rhwymynau y cymmedrolwr, gwallt gwyn pen mawr Chalmers, ac aelgerth fawreddog Gordon, i'w gweled trwy y dorf agored, gwelwyd fod y weithred fawr wedi ei chyflawnu—rhedodd si fel tân gwyllt trwy y miloedd ymgynnulledig, 'Y maent yn dyfod! Y maent yn dyfod!'—a rhwygwyd yr awyr gan floedd o edmygedd a mawrygiad, â'r hon y rhoddodd y bobl groesaw yr Alban i amddiffynwyr rhyddid a rhagorfreintiau Eglwys yr Alban. Nid oedd yn mwriad, nac yn unol â dymuniad y corff gwrthdystiol, i fyned yn orymdaith i'r lle y bwriadent ymgyfarfod, ond gorfodwyd hwy i wneyd hyny gan y dyrfa. Ffurfiodd y tyrfaoedd anferth oedd yn llenwi yr heolydd, ac yn cydymsymmud, ffordd agored yn eu canol; a thrwy y môr tonog o luoedd cyffröedig—ond llawn o barch cyssegredig—yr aeth y llu allan o'r Aipht i gymmeryd meddiant o'r 'lle eang a chyfoethog,' a ddarparasai yr Arglwydd iddynt. Yn y dull a ddysgrifiwyd yr ymsymmudodd yr orymdaith tua Canonmills—pentref yn eithaf cwr gogleddol y ddinas. Yno yr oedd neuadd anferth ei maint, digon eang i gynnal 3,000 o leiaf o bersonau, wedi ei darparu, ac wedi ei threfnu ar frys i dderbyn y gymmanfa oedd i gael ei sefydlu. Yr oedd yr holl fan, oddigerth y llanerch a neillduasid i'r aelodau, wedi ei orlenwi er yn fore: ac o'r diwedd, pan ddaeth y foment a ddysgwyliwyd mor angerddol, pryd y gwelid cynnrychiolwyr yr Eglwys Wrthdystiol yn dyfod i'r neuadd, yr oedd brwdfrydedd y dyrfa ddirfawr oedd wedi dyfod yno i wrandaw yn annherfynol. A phan dawelodd ymdoriad anocheladwy y teimlad cyffredin, cyfododd y Dr. Welsh, yr hwn yn y cyfamser a gymmerodd y gadair, a dyrchafodd ei ddwylaw fel arwydd o weddi."

Etholwyd y Dr. Chalmers yn gymmedrolwr, a dechreuodd y gymmanfa ar ei gwaith. Yr oedd **Honiad yr Hawl—breintlen yr Eglwys Rydd—** wedi ei chyflwyno i'r senedd yn 1842. Rhoddwn yma rai adranau o honi. Y mae iddi ragarweiniad ac amddiffyniad maith; a phan y daw i ymdrin â nawddogaeth dan y frenines Anne, dywed —"Ac yn gymmaint a bod yr eglwys hon wedi protestio yn erbyn pasio y ddeddf grybwylledig o eiddo y frenines Anne, fel un 'groes i gyfansoddiad yr eglwys, yr hon oedd wedi ei diogelu mor dda trwy yr undeb diweddar, ac a gadarnhawyd yn ddifrifol trwy ddeddfau seneddol yn y ddwy deyrnas,' yr hon y bu yr eglwys am fwy na deng mlynedd a thrigain yn erfyn yn barhaus am ei diddymu, yr oedd y pryd hyny, heb ammheuaeth na chwestiwn o un man, yn myntumio ac yn arfer awdurdod ei llysoedd i benderfynu yn hollol ac yn gwbl dan ba amgylchiadau y derbynid ymgeisydd am swydd y weinidogaeth sanctaidd, neu i drefnu y berthynas fugeiliol rhwng gweinidog a phobl, ac i drefnu a phenderfynu rhestriad gweinidogion penodol.' Ac yn gymmaint a bod yr eglwys yn gofyn, mewn modd arbenig, fel peth anhebgorol angenrheidiol i dderbyniad gweinidog i ofalu dros eneidiau, ei fod wedi derbyn galwad oddi wrth y bobl yr appwyntid ef i ofalu am danynt, ac nad oedd yn awdurdodi nac yn caniatau i neb gael ei dderbyn nes i'r gyfryw alwad gael ei gymmeradwyo gan lysoedd yr eglwys; a'i bod, cyn, ac ar ol i'r ddeddf ddywededig o eiddo y frenines Anne basio, wedi dadgan mai un o egwyddorion sylfaenol yr eglwys, fel y dangosir yn ei llyfrau awdurdodedig, ac yn neillduol yn *Ail Lyfr y Ddysgyblaeth* (*pen.* iii. adr. 5), ac a gadarnhawyd eilwaith gan ddeddf cymmanfa yn 1638, ydyw, na byddo i un gweinidog gael ei osod ar unrhyw gynnulleidfa yn erbyn ewyllys y bobl:—ac yn gymmaint, mewn modd neillduol, a bod yr egwyddor sylfaenol hon, trwy 14eg ddeddf y gymmanfa gyffredinol, 1736 (*pen.* xiv), wedi cael ei hail ddadgan, a bod gorchymyn wedi ei roddi i sefyll ati wrth sefydlu gweinidogion mewn plwyfi gweigion, ond bod hyny wedi ei esgeuluso, mewn amser wedi hyny, yn ngweinyddiad yr eglwys, ond iddi unwaith eto gael ei hail ddadgan, gan y gymmanfa gyffredinol, 1834 (*pen.* ix), yr hon a sefydlodd ddarpariadau a rheolau penodol i'w rhoddi mewn gweithrediad yn yr amser dyfodol:—ac yn gymmaint a bod y ddedfryd wedi cael ei dadgan gan Dŷ yr Arglwyddi, 1839, yn mynegu, am y tro cyntaf, fod yn anghyfreithlawn gwrthod cymmeryd un ar brawf, neu wrthod un a gyflwyner gan noddwr (er na byddo ond gŵr lleyg, ac ymgeisydd yn unig am dderbyniad i swydd y weinidogaeth), ar gyfrif yr egwyddor sylfaenol hon o eiddo yr eglwys, ac o herwydd anghydsyniad y gynnulleidfa—plygodd yr eglwys hon heb ymholi i awdurdod y ddedfryd hono, cyn belled ag y perthynai i bethau gwladol, a rhoddodd i fyny ar unwaith yr hawl, a elwir *jus devolutum*,[1] i fywoliaeth y bugail a benoder ganddi hi, ac i bob hawl neu ragorfraint wladol arall, y gallai hòni ei bod yn perthyn i'r eglwys neu i'w llysoedd; a chan ei bod yn dra awyddus, ar yr un pryd, am ochel pob anghytundeb â'r llysoedd gwladol, ymattaliodd cyn belled, rhag rhoddi y ddeddf grybwylledig o eiddo y gymmanfa mewn grym, fel y cyfarwyddodd ar fod i bob achos a fyddai yn dal perthynas âg anghydsyniad mwyafrif cynnulleidfa gael ei fynegu i'r gymmanfa

[1] Yr hawl a ddisgyn i ddwylaw henadurfa i osod gweinidog ar gynnulleidfa yn wyneb i noddwr *patron* esgeuluso cynnyg ymgeisydd yn ystod chwe mis ar ol i'r eglwys fyned yn wag.

Digitized by Google

bynag y dichon iddynt gael eu gosod; ac ar iddo, yn ei amser da ei hun, adferu iddynt y meddiannau hyn, sydd yn ffrwyth ymdrech a dyoddefiadau eu tadau gynt o blaid yr un achos; ac, wedi hyny, ar iddo roddi gras iddynt i'w ddefnyddio yn fwy effeithiol nag y gwnaethant hyd yn hyn er mawl i'w ogoniant ef."

Y mae Eglwys Rydd yr Alban wedi dal ei ffordd yn rymus er ei dechreuad, ac y mae ei haelioni tu hwnt i bob canmoliaeth er cynnal ei thrysorfa tuag at adeiladu tai gweinidogion, ac at ddybenion cenadol gartref ac oddi cartref. Y mae cynghorfa o saith henadurfa mewn cyssylltiad â hi yn Lloegr, a chymmanfa gyffredinol yn yr Iwerddon. Y mae y corff oedd yn ei chynnrychioli yn Nova Scotia, Canada, ac Awstralia, wedi ymuno yn ddiweddar â'r Eglwys Bresbyteraidd Unedig. Am nifer yr eglwysi Presbyteraidd sydd wedi eu sefydlu yn America a'r Alban yn wreiddiol, a'r rhai a sefydlwyd yno gan yr ymherawdwyr mor fore a 1753, gwel PRESBYTERIAETH. Nis gall y rhifedi fod yn gywir am fwy nag un flwyddyn, am hyny y mae yn hawdd rhoddi cyfrif am yr anghyssondeb a ddichon fod, gyda golwg ar hyny, yn yr erthyglau hyn. Gwel ESGOBYDDIAETH.—(*Lee's Lectures; Cunningham's Hist.; Booke of the Univ. Kirk.; Cycl. of Rel. Denom.; Eadie's Eccles. Cycl.; Buchanan's Ten Years Conflict; Bryce's Ten Years of the Church of Scot.; Buck's Theol. Dict.*, &c.)

EGLWYS ASIA, SAITH. Gwel ASIA.

EGLWYS BRYDEINIG, YR. Gwel PRYDAIN.

EGLWYS DDWYREINIOL. Yr Eglwys Ddwyreiniol, mewn cyferbyniad i'r Eglwys Orllewinol, yw yr enw a roddir i'r eglwysi sydd yn coleddu credo y Monophysiaid [Un-naturiaid: rhai yn dal nad oedd gan Iesu Grist ond un natur], a'r eglwys sydd yn Groeg a Rwssia. Aeth yr Eglwysi Dwyreiniol a Gorllewinol yn groes i'w gilydd yn fore—1. Gyda golwg ar amser cadw y Pasc. 2. Yn nghylch uchafiaeth esgobion Caer Cystenyn a Rhufain. 3. Ar y pwnc o ddelwaddoliad: yr oedd yr Eglwys Ddwyreiniol yn groes i'r arfer newydd hono. 4. Ac yn nghylch deilliad yr Ysbryd Glân; arweiniodd y chwanegiad o'r gair *filioque* (ac o'r Mab) at Gredo Nicaia i'r naill o'r eglwysi hyn ymwahanu yn hollol oddi wrth y llall. Gwel CREDO.

ESGOBYDDOL, YR EGLWYS. Gwel ESGOBYDDIAETH.

FFRAINC, EGLWYS. Gwel FFRAINC.

EGLWYS GADEIRIOL, [Seis., *cathedral*]: prif eglwys esgobaeth; eglwys esgob. Tardd y gair oddi wrth καθέδρα, "cadair." Ymddengys fod y gair wedi deilliaw oddi wrth y dull o eistedd yn eglwysi y cynoesoedd, neu yn nghynnulliadau y Cristionogion boreuol. Yn y rhai hyn, yr enw a roddid ar y cynghor, yr hwn a gynnwysai yr henuriaid a'r offeiriaid, oedd *henadurfa*: y prif swyddogion oedd yr esgob, yr hwn a weithredai fel cadeirydd, a'r henaduriaid—y rhai a eisteddent ar bob ochr i'r esgob, ac a elwid gan y tadau "cynnorthwywyr yr esgob." Nid yn nwylaw yr esgob ei hun yr ydoedd yr awdurdod, ond yn nwylaw yr holl henaduriaid, cadeirydd pa rai oedd yr esgob. Yr oedd y sefydliad hwn yn dra gwahanol, gan hyny, ar y dechreu, i'r hyn ydyw yn awr; canys nid oedd ryddid i Gristionogion, hyd amser Cystenyn, i adeiladu un math o deml. Ni olygent hwy ddim wrth eu heglwysi ond cynnulliadau, nac wrth eu *cathedrals* ond cynghorfäau eglwysig.—(*Buck's Theol. Dict.*)

EGLWYS GROEG. Gwel GROEG.

EGLWYS HENADUROL. Gwel HENADURIAETH: EGLWYS YR ALBAN.

EGLWYS IUDDEWIG. Gwel IUDDEWIAETH.

EGLWYS ORLLEWINOL. Yr un yw hon a'r Eglwys Ladinaidd neu Babaidd, yn cynnwys yr eglwysi sydd yn Italy, Portugal, Yspaen, Affrica, y gogledd, a'r holl wledydd yr aeth y Rhufeiniaid â'u hiaith iddynt. Y mae Prydain Fawr, rhanau o'r Iseldiroedd a'r Almaen, ac o ogledd Ewrop, wedi ymneillduo oddi wrthi bron er amser y Diwygiad.

EGLWYS RWSSIA. Gwel RWSSIA.

EGLWYS SEFYDLEDIG. Gwel EGLWYS YR ALBAN: LLOEGR.

EGLWYS LOEGR. Gwel LLOEGR.

EGLWYS RHUFAIN. Gwel RHUFAIN.

EGLWYSIG, BLWYDDYN: y mae gwahaniaeth rhwng y flwyddyn eglwysig a'r flwyddyn *naturiol* a *gwladol*. Canfyddir gwahaniaeth cyffelyb yn y calaniaduron Rhufeinig, ac yn y calaniadur Iuddewig diweddar. Nid oes sail yn y Testament Newydd i'r flwyddyn eglwysig. Nid cynnyrch cyfrifiad ffurfiol ydyw chwaith; ond dadblygiad hanesyddol, yn cynnwys gwahanol gyfnodau. Yn ystod y cyfnod apostolaidd, glynai y Cristionogion Iuddewig yn gadarn wrth ddyddiau gŵyl eu calaniadur; ond ni byddai y cynnulleidfaoedd Cristionogol cenedlig yn cadw math yn y byd o ŵyliau ar y cyntaf. Ar ol y flwyddyn 150, daethpwyd i gadw y Pasc a'r Pentecost—yr ŵyl flaenaf er coffadwriaeth am ddyoddefaint Crist, yr hon a estynwyd yn raddol hyd chwe diwrnod; a'r ail er coffadwriaeth am ei adgyfodiad, ei esgyniad, a thywalltiad yr Ysbryd Glân; parhâai am ddeg a deugain o ddyddiau ar ol Dydd Gwener y Croeshoeliad, a dyma oedd tymmor Sabbathol y flwyddyn eglwysig—adeg o lawenydd ysbrydol. Dygwyd ail drefniad o'r flwyddyn eglwysig yn mlaen fel y canlyn. Daeth y Dyrchafael yn ŵyl arbenig; trwy hyn, neillduwyd Sabbath yr adgyfodiad yn meddyliau Cristionogion oddi wrth dymmor y Pentecost, a chyssylltwyd ef â gŵyl y Pasc; a chwanegwyd gŵyliau y Nadolig a'r Ystwyll. Fel hyn, ffurfiwyd tair o brif ŵyliau; sef, y Nadolig, y Pasc, a'r Sulgwyn neu y Pentecost—pob un o ba rai a ddilynid gan eu *hwythawd* (*octave*); a blaenorid y Nadolig a'r Pasc gan dymmorau rhagbarotoawl, sef yr *Advent* a'r Grawys.

Byddai yr eglwys foreuol yn cadw dyddiau dyoddefaint ei merthyron trwy ŵyliau lleol neu gymmydogaethol. Pan y llygrodd y defodau hyn, ac yr aethant yn dymmorau i addoli seintiau, daethant yn ŵyliau eglwysig cyffredinol. Sefydlwyd Gŵyl y Cyfarchiad a Gŵyl y Puredigaeth ar y cyntaf er anrhydedd Crist; ond fel y cynnyddai Mair-addoliaeth, troid hwynt

Digitized by Google

yn achlysuron i anrhydeddu Mair. Y syniad mawr gwreiddiol a orphwysai wrth wraidd y flwyddyn eglwysig oedd hyn—y dylasai bywyd pob Cristion fod yn ŵyl barhaus i weddïo a moliannu Duw. Arweiniwyd yr eglwys trwy hyn i gyssylltu rhyw ffaith neu ddygwyddiad â phob diwrnod. Cyrhaeddodd y syniad hwn i'w eithafnod yn yr Eglwys Babaidd, trwy sefydliad Gŵyl y Cymun (*Corpus Christi*).

Er mai y Sul cyntaf o'r *Advent* yw dechreuad mwyaf naturiol y flwyddyn eglwysig, aeth cryn amser heibio cyn i'r arfer hon gael ei mabwysiadu yn gyffredinol. Canfyddwn y dyrysweh mwyaf yn bodoli hyd yn mhell i'r canol oesoedd. Ystyriai y duwinyddion eglwysig hynaf mai mis y Pasc oedd y cyntaf o'r flwyddyn; dechreuai y flwyddyn yn y gorllewin, yn ol y calaniadur Rhufeinig y mae yn debyg, ar y dydd cyntaf o Fawrth. Tra y cyfrifai Dionysius Exiguus y flwyddyn o Ionawr 1af, yn yr Almaen, Italy, &c., dyddid hi yn ystod y canol oesoedd o Rhagfyr 25ain (sef y Nadolig), neu, megys yn Florence a Pisa hyd 1749, o Mawrth 25ain (Gŵyl Fair). Y cyfrif mwyaf anghyfleus oedd yr un a ddechreuai yn y Pasc, yr hon sydd ŵyl symmudol; &c eto, dilynwyd y dull hwn yn yr ymherodraeth Ffrengig o'r bedwaredd ganrif hyd ddiwedd y canoloesoedd. Dechreua Eglwys Groeg ei blwyddyn Medi 1af. Y Nestoriaid ydoedd y rhai cyntaf i ddechreu cyfrif y flwyddyn o'r Sul cyntaf o'r *Advent;* ac y mae yn bosibl mai hyn ydoedd yr achos i Eglwys Rhufain wrthod mabwysiadu y dull yma o gyfrif.

Petrusai y Diwygwyr, ac hyd yn oed Luther ar y cyntaf, pa un a fuasai oreu iddynt, gyda golwg ar y gŵyliau, ai dychwelyd at symlrwydd yr oes apostolaidd, a chaethiwo yr eglwys at gadwraeth y Sabbath yn unig, ai ymlynu wrth yr hen ddefodau; ond ymgymmerasant cyn hir â'u gwahanol sefyllfaoedd mewn perthynas i'r flwyddyn eglwysig; ac yn eu golygiadau ar y mater hwn y canfyddir prif neillduolrwydd y ddwy blaid fawr efengylaidd. Cynlluniai yr Eglwys Ddiwygiedig neu Brotestanaidd, lle bynag y caffai ryddid i weithredu yn hollol yn ol ei hegwyddorion, ei threfniadau ar y pwnc hwn, fel pynciau ereill, yn fanwl yn ol esampl y cynnulleidfaoedd apostolaidd, gan wrthod pob traddodiadau dynol. Fel hyn, yn Geneva, yn amser Calvin, ni chedwid un ŵyl ond y Sabbath yn unig; mewn gwledydd ereill, yr unig ŵyl a gedwid heb law y Sabbath oedd y Nadolig. Glynai Eglwys Ddiwygiedig yr Almaen yn fanylach wrth y flwyddyn eglwysig. Cadwai yr Eglwys Lutheraidd at yr hen drefniant, oddi eithr Gŵyl y Cymun a dyddiau y saint, gan gynnwys hyd yn oed gŵyliau Mair, megys Gŵyl y Cyfarchiad, &c., mor bell ag yr oedd sail hanesyddol iddynt yn yr efengylau, gŵyliau yr apostolion, a gŵyl yr archangel Michael. Ni chedwir y rhai diweddaf, pa fodd bynag, yn bresennol.

Dosberthir y flwyddyn eglwysig yn dymmor gŵyliau ac yn dymmor di-ŵyliau. Cynnwysa y blaenaf (*semestre Domini*) dymmorau y Nadolig, y Pasc, a'r Sulgwyn, y rhai a ystyrir fel yn cydgyfarfod yn Sul y Drindod, wythawd y Sulgwyn. Arddengys y gŵyliau hyn, medd eu pleidwyr, wirioneddau sylfaenol y prynedigaeth, sef ymgnawdoliad, dyoddefaint, ac esgyniad Crist. Yn ystod y tymmor di-ŵyliau (*semestre ecclesiæ*), gwaith yr eglwys ydyw ystyried effeithiau a chyfaddasiad y brynedigaeth hon. Yr offeren ydyw canolbwynt mawr holl drefniadau yr Eglwys Babaidd; ond ystyria yr Eglwys Brotestanaidd mai y moddion, dan fendith yr Ysbryd Glân, er dwyn pechaduriaid i afael iachawdwriaeth, ydyw gair Duw ac ordinhadau crefydd.

Ni chedwir un ŵyl gan Ymneillduwyr ond y Sabbath. Am y gwahanol olygiadau ar ba un, cyfeiriwn y darllenydd at yr erthyglau SABBATH; SABBATHWYR; GWRTH-SABBATHWYR.—(*Herzog's Real Encycl.*)

EGLWYSIG, COFLYFRAU: llyfrau yn mha rai y cedwir cofnodion swyddol o weinyddiad ordinhadau crefydd, ac o gyflawniad dyledswyddau cyssegredig ereill. Gan fod cael sierwydd o weinyddiad priodol y cyfryw o bwys mewn materion gwladol, yn gystal ag eglwysig, gwnaethpwyd deddfau gwladol ac eglwysig mewn amryw wledydd mewn perthynas i'r dull priodol o gadw y llyfrau hyn. Gan ddilyn y ddeddf Rufeinig, yr hon a ofynai gofnodiaeth o enedigaethau, cadwai yr eglwys yn dra bore restrau o enwau ei haelodau byw, yn gystal a'r rhai a fyddent feirw; ond gan nad ydoedd un ddeddf gyffredinol, nid oedd un cynllun unffurf yn cael ei ddilyn. Dechreuwyd cadw coflyfr bedyddiadau yn Florence yn 1540. Ar ol y flwyddyn 1590, fe anfonodd offeiriaid esgobaeth Florence gopïau o'u cofnodion bedyddiadol i'r llys archesgobol. Dechreuwyd cadw cofnodion o farwolaethau yn Ffrainc tua'r flwyddyn 1515. Yn 1539, rhoddodd Francis I. orchymyn cyffredinol i gadw cofnodion o enedigaethau. Cynlluniwyd deddfau yn Nghynnadledd Trent, yn gorchymyn cofnodi priodasau a genedigaethau; ond canfyddwn fod yr Eglwys Brotestanaidd yn meddu cyfraith i'r un amcan yn flaenorol, yr hon a ofynai i'r clerigwyr gofnodi y bedyddiadau a'r priodasau yn fanwl. Fe edrychai yr ymwelwyr eglwysig bob amser ar fod y cofnodion hyn yn cael eu cadw yn briodol. Ychydig yn ddiweddarach y gorchymynid cadw cofnodion o farwolaethau, &c. Dyledswydd y gweinidogion oedd cadw y cofnodion hyn. Yr oedd yn wahanol yn Scotland. Gan nad ydoedd cyflawniad y ddefod o briodas yn gyfyngedig i'r clerigwyr yn y wlad hono, nid ydoedd yn angenrheidiol ei chofnodi yn y coflyfr eglwysig. Yn yr Iseldiroedd, dyledswydd yr ynad gwladol oedd cadw y coflyfr, gan nad oedd awdurdod gyfreithiol yn nghoflyfrau unrhyw blaid grefyddol oddi eithr eiddo yr Eglwys Ddiwygiedig. Yn Ffrainc, cedwid coflyfrau y genedigaethau, y priodasau, a'r marwolaethau, gan y llysoedd gwladol; ond ar y cyntaf, ni chymmerid y Pabyddion i mewn i'r cyfrif, gan y cadwent hwy eu coflyfrau eu hunain (deddf Tachwedd 27ain, 1787): eangwyd y cylch, pa fodd bynag, yn fuan ar ol hyny, nes cynnwys pawb yn ddiwahaniaeth (deddf Chwef. 17eg, 1800). Y mae y coflyfrau hyd yn bresennol yn ngofal swyddogion gwladol, ac y mae yn rhaid i bob cofnodiad gael ei wneyd oddi ar wybodaeth bersonol. Mabwysiadwyd cynllun Ffrainc mewn gwledydd ereill, megys yn nheyrnas Westphalia, ac yn Baden. Yn Lloegr a Chymru, cedwir coflyfrau yr Ymneillduwyr gan y swyddogion gwladol hefyd, yn ol deddfau Awst 17eg, 1836, a Mehefin 30ain, 1847. Dilynir yr un reol yn Prwssia. Yn Lloegr a Phrwssia, y mae y cofnodion a gedwir gan glerigwyr yr Eglwys Sefydiedig mor gadarn mewn ystyr gyfreithiol a'r cofnodion gwladol. Yn Ffrainc, nid oes dim grym cyfreithiol yn nghoflyfrau y clerigwyr, oddi eithr eu bod yn swyddogion gwladol.—(*Herzog's Real Encycl.*)

Digitized by Google

**EGLWYSIG, CYLLIDAU.** Yr oedd gweinidogion a sefydliadau yr eglwys yn cael eu cynnal ar y dechreu trwy gyfraniadau gwirfoddol. Ni ddaeth yr eglwys i berchenogi meddiannau hyd y bedwaredd ganrif. Trwy gyfraith Cystenyn, yn B.A. 321, gallai y clerigwyr dderbyn cymynroddion; a rhoddodd yr un ymherawdwr anrhegion haelionus i'r eglwys. Pan ddiddymwyd paganiaeth, yn amser Theodosius a'i feibion, cyflwynid meddiannau y temlau a'r offeiriaid paganaidd a syrthient i afael y llywodraeth drosodd i'r clerigwyr Cristionogol, neu cymhwysid hwy at achosion eglwysig. Attafaelid meddiannau eglwysig hereticiaid, a chyflwynid hwy i'r eglwys. Hefyd, syrthiai meddiannau clerigwyr a fyddent feirw heb etifeddion, a'r rhai a adawent eu dyledswyddau heb achos digonol, i'r eglwys. Daeth yr eglwys hefyd yn etifeddes yr holl ferthyron a'r cyffeswyr a fyddent feirw heb berthynasau agos. Telid degymau hefyd ar yr adeg hono. Y mae cyflogau clerigwyr boreuol yr Alban wedi bod yn fynych yn destyn dadl, ac y mae yn anhawdd ffurfio cyfrifiad cymhariaethol o honynt. Cyflog John Knox oedd 400 o forcau. Yr oedd hyny, yn ol un cyfrifiad, yn 22*p.* 4*s.* 5*c.* Ond y gwir yw, nid ydoedd arian yr Alban y pryd hyny wedi gostwng cymmaint yn eu gwerth, er iddynt syrthio yn y diwedd i yn agos i'r ddeuddegfed ran o werth arian Lloegr, fel nad oedd punt o'r naill yn fwy o werth na 1*s.* 8*c.* o'r llall. Ond ar yr amser dan sylw, nid ydoedd arian yr Alban, yn eu cwymp i lawr, wedi cyrhaedd ond tua hanner y ffordd i'w gostyngiad, ac efalai fod y 400 morc yn gyfartal i 44*p.* 8*s.* 10*c.* o arian Lloegr. Wrth ei gymharu â phris grawn, dywed y Llywydd Lee fod cyflog Knox yn gyfartal i werth tua phymtheg calloraid (*chalder*), yr hyn sydd fwy na chyfartaledd y bywiolaethau yn yr Alban. Pris dafad yn yr Alban oedd 1*s.* 8*c.* Lloegr; a gwerthid ymenyn am 16*c.* y maen (sef 14 pwys). Felly, a chymmeryd pob peth i ystyriaeth, ymddengys fod 44*p.* yn nghanol yr unfed ganrif ar bymtheg yn bur agos yn gyfartal i 600*p.* yn nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd cyflogau barnwyr y llys yn y dyddiau hyny yn llai na chyflog Knox—pob un o ba rai nid oedd ganddo hawl i fwy na 30*p.* o arian Lloegr. Cyflog prif ynad llys y penadur yn Lloegr yn 1545 oedd 70*p.* Yn mrawdlys Harri, ni dderbyniai pob barwn ond 46*p.* 13*s.* 4*c.*—y prif farwn 100*p.*—a changhellydd y trysorlys 26*p.* 13*s.* 4*c.* Cyflog Roger Ascham, ysgrifenydd Lladin y frenines Mari, oedd 20*p.* O gylch yr un amser, cyflog proffeswr Groeg yn Ngholeg y Brenin, Caergrawnt, oedd 40*p.*; a'r un swm oedd cyflog proffeswr duwinyddiaeth y brenin yn Rhydychain. Gwelir, gan hyny, wrth gymharu Knox â'i gydoeswyr, ei fod ef yn cael tâl haelionus. Heb law hyny, yr oedd efe yn cael ei dŷ yn rhad; ïe, a mwy—yn chwanegol at y cyllid crybwylledig, yr oedd efe yn cael tâl arall o 500 morc yn arian, a rhyw ddeuddeg celyrnaid o rawn, fel tâl chwanegol am wasanaeth chwanegol.

**EGLWYSIG, CYNNADLEDDAU.** Wrth gynnadledd eglwysig y deallir unrhyw gynnulliad neu nifer wedi ymgasglu yn nghyd i ymgynghori a gweithredu ar faterion eglwysig, pa un bynag ai dros yr holl eglwys, dros dalaeth, ynte dros un gynnulleidfa yn unig. Appwyntir y gynnadledd gan y gynnulleidfa, a chynnwysa fwy neu lai o aelodau, yn ol rhifedi y gynnulleidfa; tra y perthyn y gweinidog iddi yn rhinwedd ei swydd. Y mae yn anghysson âg ysbryd yr Eglwys Babaidd i ganiatau i neb ond clerigwyr gael llais yn rheoleiddiad ei materion eglwysig, nac hyd yn oed ei materion gwladol. Ond y mae wedi ei gorfodi gan amgylchiadau, erbyn hyn, i fod yn fwy rhyddfrydig yn y golygiad hwn. Caniataodd yr Eglwys Efengylaidd ar unwaith i lëygwyr gael llais yn nhrefniad pob materion eglwysig, trwy gael gan y cynnulleidfaoedd ethol personau (henuriaid neu ddiaconiaid) o blith eu haelodau i'w cynnrychioli yn y cynnadleddau; y rhai, yn nghyd â'r gweinidogion, a reoleiddient holl achosion yr eglwys.

**EMYNAU EGLWYSIG.** Gwel EMYNAU.

**EGLWYSIG, HANESIAETH.** Yr hanesydd eglwysig hynaf ag y mae ei waith wedi cyrhaedd i lawr i'n hoes ni yw Eusebius o Cæsarea—yr hwn, pa fodd bynag, a ddefnyddiodd waith Hegesippus. Yn nesaf i Eusebius y mae Socrates, Sozomen, Theodoret, Philostorgius, Theodorus Lector, ac Evagrius—ysgrifeniadau pa rai a gyhoeddwyd gydag eiddo Eusebius yn argraffiadau Valois (a Reading). Dilynwyd y rhai hyn gan y *Chronicon paschale;* yr hwn a gyhoeddwyd ddiweddaf gan Dingdorf. Yn mhlith yr ysgrifenwyr gorllewinol boreuaf, gwnaeth Rufinus wasanaeth pwysig trwy gyfieithu a chwanegu at waith Eusebius, a Jerome trwy gyhoeddi *Chronicon* Rufinus, yn nghyd â'i waith ei hun—*Scriptores eccles.* Gellir crybwyll hefyd Sulpicius Severus ac Orosius o'r bummed ganrif, a Cassiodorus, Epiph. Scholasticus; y Gothiad, Jornandes, a'r Ffranciad, Gregory o Tours, o'r chweched ganrif. Y prif awdurdod yn y canol oesoedd oedd gwaith Eusebius gan Rufinus. Cyfyngai ysgrifenwyr y cyfnod hwn eu hunain yn benaf at hanes eglwysi gwledydd neillduol, mynachlogydd, bywgraffiadau, a dygwyddiadau arbenig. I'r dosbarth hwn y perthyn Bede, Alcuin, Paul Diaconus, Einhard, Walafried, Strabo, Haymo o Halberstadt, o'r wythfed a'r nawfed ganrif; Lambert o Aschaffenburg, Adam Bremensis, Glaber-Radulfus, Herman, Contractus, Odericus Vitalis, Sigebert o Gemblours, &c., o'r unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed. Yr oedd y ddau ganlynol yn enwog yn yr Eglwys Byzantiaidd—Eutychius, patriarch y Melchitiaid, o'r ddegfed ganrif, a Nicephorus Callisti, o'r bedwaredd ar ddeg. Ar ol ysbaid maith o orthrymder, adfywiwyd llenyddiaeth feirniadol gan Laurentius Valla yn y bymthegfed ganrif; ond ni chafodd ei hadferu yn hollol hyd y Diwygiad Protestanaidd. Ond i seiliau hanesiol Cristionogaeth a'r eglwys, yn nghyd â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, y telid y sylw penaf y pryd hyny. Flacius oedd y cyntaf; yr hwn, mewn undeb â duwinyddion Lutheraidd ereill, a gyhoeddodd y *Magdeburg Centuries* (1559—74), yn erbyn pa rai y cyhoeddodd Baronius ei *Annals* (1588—1607). Nis gallai y cyfnod hwnw gynnyrchu hanesiaeth ddiduedd. Ac eto, cynnyrchodd ysbryd plaid yr oes hono ddefnyddiau gwerthfawr. O'r ochr Lutheraidd, y prif awdwyr oeddynt Korthold, Ittig, Sagittarius, &c.: o ochr y Diwygwyr, Gerdesius, Basnage, J. J. Hottinger, &c. Ymgystadlai y duwinyddion Seisonig, yn ystod yr eilfed ganrif ar bymtheg, â'r Benedictiaid, mewn perthynas i athrawiaethau tadau yr eglwys, a hynafiaeth. Yn y cyfnod hwn, cyhoeddwyd argraffiadau prydferth o'r tadau, a thraethodau dysgedig ar amryw byneiau; megys

Digitized by Google

eiddo Montfaucon, Mabillon, Tillemont, Usher Bingham, &c. Gwnaethpwyd ymgais i ryddhau hanesiaeth eglwysig oddi wrth lyffetheiriau y gyffesgell gan J. G. Arnold. Ond Laurentius von Mosheim (1755) oedd y cyntaf a osododd hanesiaeth eglwysig ar seiliau diduedd hollol; a gellir ei alw yn gywir yn dad hanesiaeth eglwysig ddiweddar, o amser yr hwn y daeth yn gangen arbenig o ddysgeidiaeth yn y prifysgolion Almaenaidd. Os cynnyrchodd Mosheim, trwy ei feirniadaeth fanwl ar amryw hen bleidiau eglwysig, ymchwiliad beirniadol, bu agos i J. S. Semler a myned i eithafion gormodol ar y tir hwn. Bu hyn yn foddion i ennill sylw ereill heb law duwinyddion at y pwnc; a daeth L. T. Spittler (1782) i'r maes. Dylanwadodd ysbryd bydol yr oes hefyd ar y duwinyddion rhesymolig (*rationalistic*), y rhai a gynnrychiolid gan Henke. Mabwysiadodd G. J. Planck dir canol, a dilynwyd ef gan Ständlin, a Münscher, &c. Yna, cyhoeddwyd gweithiau llafurfawr gan Schröckh (1768—1803), Marheinecke, o Heidelberg; Schmidt, o Giessen; Danz; a Gieseler. Yna'r pryd hyn, crewyd dyddordeb newydd mewn hanesiaeth eglwysig gan Neander. Yr oedd Mosheim wedi ei dyrchafu i'r anrhydedd o fod yn wyddor dduwinyddol: yr oedd Spittler wedi sefydlu ei hawl i sefyllfa uwch mewn llenyddiaeth gyffredinol: ond dygwyd hi gan Neander i mewn i'r eglwysi eu hunain, lle y mae wedi bod yn dra bendithiol. Y mae lluaws mawr o awdwyr enwog ereill wedi ysgrifenu llyfrau ar y mater hwn yn y blyneddoedd diweddaf, y rhai y mae yn anmhosibl hebgor lle i'w henwi. Ond gellir bod yn sicr o hyn, fod y gangen hon o wybodaeth yn cydredeg â'r holl wyddorion ereill. Y mae ymosodiadau anffyddiaeth (yn neillduol eiddo Strauss) wedi gwneyd llawer tuag at ddwyn hyn oddi amgylch, trwy gyffroi ymchwiliad manylach i gyfnodau boreuaf Cristionogaeth.—(*Herzog's Real. Encycl.*)

EGLWYSIG, LLWYRWYS [*Diet*]: cyfarfod blyneddol cyfeillion yr Eglwys Efengylaidd yn yr Almaen, yr hon a gynnwys y Lutheriaid, yr Eglwys Ddiwygiedig, a'r Undebwyr. Gan wrthryfeloedd gwleidyddol 1848 y cynnyrchwyd y llwyrwys. Yn mhlith y gwahanol gynlluniau er cael undeb agosach rhwng y Cristionogion efengylaidd, i'r dyben o ystyried y peryglon a'u hamgylchent, y mae un yn dra theilwng o sylw arbenig, sef cynllun Dr. von Bethmann-Hollweg, yr hwn a gynnwysai gynnygiad fod i gynnadledd o'r Eglwys Efengylaidd ymgynnull yn nghyd yn ystod y flwyddyn 1848, yn nghyd â dymuniad ar i holl Gristionogion efengylaidd yr Almaen arddangos eu hunoliaeth cyffredinol yn y dull hwn. Yr oedd amryw wŷr ag oedd yn uchel yn ymddiried yr eglwys i fod yn arweinwyr yn yr ysgogiad, ac i anfon gwahoddiadau at y rhai a ystyrient eu hunain megys yn un yn Mhen yr Eglwys, Iesu Grist. Yr amcanion mewn golwg wrth ffurfio y llwyrwys oedd cymhell i edifeirwch, cael undeb mewn gweddi, a chytuno ar ganolbwynt sefydlog i Eglwys Efengylaidd yr Almaen.

Yn ngwanwyn 1848, penderfynwyd yn Sandhof, ger Frankfort ar y Main, i appwyntio dirprwyaeth i barotoi y ffordd at sefydlu llwyrwys eglwysig, neu Gynghrair Efengylaidd Almaenaidd. Dewiswyd Dr. Philip Wackernagel, o Elberfeld—yr hwn a deimlai yn ddirfawr o blegid sefyllfa ranedig y Cristionogion—yn llywydd. Y rhai canlynol oeddynt yr egwyddorion i weithredu wrthynt:—1. Yr oedd y gymmanfa i gael ei seilio ar y credoau ag oedd yn bodoli eisoes. 2. Nid oedd dim yn gyffelyb i'r Undeb i gael ei ffurfio. 3. Bod y Cynghrair i gymmeryd lle yr Undeb. 4. Ond nid fel peth newydd, ond fel adferiad o awdurdod ac unoliaeth Protestaniaeth. 5. Bod y Cynghrair i wrthwynebu Pabyddiaeth ar un llaw, ac anffyddiaeth a gwrthgiliad ar y llaw arall. Cynnaliwyd y llwyrwys y ddau dro cyntaf yn Wittenberg; yn Stuttgard yn 1850; yn Elberfeld yn 1851; yn Bremen yn 1852; yn Berlin yn 1853; yn Frankfort ar y Main yn 1854; yr oedd i gael ei gynnal yn Halle yn 1855, ond attaliwyd ef gan y geri; yn Lübeck yn 1856; ac yn Stuttgard yn 1857. Trwy ddwyn yn mlaen fwy o unffurfiaeth yn nefnyddiad emynau yn yr eglwysi, gwnaeth lawer o ddaioni; ond niweidiodd y llwyrwys ei hun trwy ymgeisio at wneyd deddfau a rheolau i eglwysi neillduol, âg amgylchiadau pa rai nid oedd yn ddigon cynnefin. Trwy fod cyssylltiad rhyngddo âg amryw gynnadleddau eglwysig, cymdeithasau er lledaenu yr Ysgrythyrau, a chenadaethau cartrefol a thramor, estynodd ei ddylanwad tu hwnt i'r Almaen, ac ennillodd amryw o bleidwyr galluog yn Lloegr, Ffrainc, Belgium, yr Iseldiroedd, Switzerland, a'r Unol Daleithiau. Ymdriniai â phynciau pwysicaf y dydd, megys cyssylltiad yr eglwys â'r wladwriaeth, sancteiddrwydd y Sabbath, priodas, a'r llw, ad-sefydliad y ddiaconiaeth, eiddo a dysgyblaeth yr eglwys, perthynas Protestaniaeth â Phabyddiaeth, ac â sectau a heresiau, a materoliaeth yr oes. Dyma y pynciau yr ymdrinid â hwynt.—(*Herzog's Real. Encycl.*)

EGLWYSIG, MEDDIANNAU. Cynnwysir, dan yr enw, bob meddiannau gweledig sydd yn angenrheidiol i'r eglwys er dwyn ei gwaith yn mlaen. Y mae ei hawl i fodoli yn cynnwys ei hawl a'i chymhwysder i feddu eiddo bydol; eto, os ymostynga i fod yn sefydliad gwladol, y mae yn ddarostyngedig i ddeddfau gwladol. Tra nad oedd goddefiad i Gristionogaeth gan y llywodraeth, ni chaniateid i eglwysi hawl gyfreithiol i feddu eiddo, er fod ganddynt feddiannau yn fynych. Wedi i'r eglwys gael ei chydnabod gan y llywodraeth, dychwelwyd iddi y meddiannau a attafaelwyd yn ystod ei herlidigaethau. O hyny allan, cyfoethogodd yr eglwys, a daeth amryw demlau paganaidd, yn nghyd â'u holl drysorau a'u meddiannau, i'w dwylaw [*Tit. Cod. Theod. de Paganis.*, xvi. 10]. Yn ganlynol, gwnaethpwyd deddfau yr etifeddiaethau eglwysig mewn ffurf mwy pendant, yn mha rai y rhoddid hawl i'r eglwys i bob cymunroddion, os byddent wedi eu gwneyd yn ol y ffurf briodol.

Y mae gwahanol farnau gyda golwg ar y cwestiwn hwn—i bwy y perthyn eiddo eglwysig yn y wlad hon? Dywed rhai fod hawl yr eglwys iddo yn ddiammheuol; ac eto, y mae awdwyr galluog ereill yn hòni mai i'r llywodraeth y perthyn. Er fod yr eglwys a'r llywodraeth yn sefydliadau gwahanol, ni all y meddiannau eglwysig berthyn i'r eglwys, gan iddi eu derbyn gan y llywodraeth. I'r eglwysi anghydffurfiol eu hunain yn unig y perthyn eu meddiannau hwy. Ond gan fod yr Eglwys Esgobyddol yn sefydliad gwladol, y mae cytundeb wedi ei ddeall ganddynt—y wladwriaeth i roddi cyllidau, a'r Eglwys i roddi ei gwasanaeth. Nis gallesid gwneuthur hyn heb ddealltwriaeth yn nghylch y telerau o bob tu; ac y mae y telerau hyny, fel y gallesid dysgwyl, wedi amddifadu yr Eglwys o'i hannibyniaeth i fesur mawr. Y mae yn yr Eglwys Babaidd feddiannau yn perthyn



Digitized by Google

i sefydliadau, ac esgobaethau, a gwledydd neillduol, a meddiannau yn perthyn i'r holl eglwys. Felly hefyd y mae yn yr Eglwys Brotestanaidd. Gan mai i hyrwyddo achosion eglwysig y bwriedir eiddo eglwysig, y mae ei ddefnyddiad yn ddarostyngedig i ddeddfau penodol. Ar y cyntaf, gofalai pob cynnulleidfa am ei hachosion ei hun. Trefnid ei materion arianol gan ei hesgob a'i henuriaid. Wedi hyn, appwyntiodd yr henuriaid wŷr o'u plith eu hunain i ofalu am hyn, y rhai a elwid *œconomi*. Gwnaethpwyd hyn yn ddeddf gan Gynnadledd Chalcedon, yn y fl. 451. Yn yr eglwysydd cadeiriol, y blaenor (*provost*) ydoedd gweinyddwr y cyllid; yn y plwyfydd, y clerigwr a'r llys eglwysig. Rhoddid yr holl gyllid ar y cyntaf yn yr un drysorfa, yr hon a ddosberthid yn wahanol ranau. Yn Italy, derbyniai yr esgob, y clerigwyr, yr eglwysydd at eu cynnaliaeth, a'r tlodion, bob un bedwaredd ran. Yn yr Yspaen, dosberthid y drysorfa yn gyfartal rhwng yr esgob, y clerigwyr, a'r eglwysydd; yn yr ymherodraeth Ffrancaidd, rhwng y tlodion a theithwyr, y clerigwyr, a'r eglwysydd. Aeth y drefn hon o arferiad trwy neillduo cyllidau arbenig at wasanaeth pob dosbarth.

Yn Lloegr, deil pob eglwysydd, oddi eithr y rhai Sefydledig, a holl eglwysydd yr Unol Daleithiau, eu meddiannau, naill ai yn rhinwedd cydgorfforiad breintiedig, neu yn enw ymddiriedolwyr. Y mae ganddynt yr un reolaeth annibynol ar eu heiddo ag sydd gan ddinasyddion unigol. Y mae pob adeiladau a ddefnyddir at ddybenion eglwysig, a phob arian a roddir allan ar lôg, cyllid pa rai a ddefnyddir at ddybenion elusengar, yn rhydd oddi wrth bob treth.—(*Herzog's Real Encycl.*).

EGLWYSIG, TADAU, [*Patres ecclesiæ*]. Yn ol y syniad Protestanaidd, y tadau eglwysig oedd y gwŷr hyny, yn ystod y chwe chanrif cyntaf, ag oeddynt yn brif offerynau diwylliaeth eglwysig; ond estynir yr amser gan yr Eglwys Babaidd i lawr hyd y drydedd ganrif ar ddeg. Cyfyngir yr enw "tadau" at y rhai ag oeddynt wedi ennill enwogrwydd uchel yn yr eglwys ar gyfrif eu hathrylith ac iachusrwydd eu barn. Gwna yr Eglwys Babaidd wahaniaeth rhwng y *tadau* eglwysig a'r *awdwyr* eglwysig. Yn ol y dosbarthiad hwn, dylid ystyried mai awdwyr eglwysig, ac nid *tadau* eglwysig, oedd Tertullian, Origen, Rufinus, y ddau Eusebius, Theodore o Mopsuestia, Theodoret, &c. Yn mhlith y rhai oedd yn enwog fel *athrawon* eglwysig yn yr Eglwys Ddwyreiniol uniongred, gellir enwi Athanasius, Basil, Chrysostom, a Gregory o Nazianzen; yn yr Eglwys Orllewinol, Ambrose, Awstin, Jerome, a Gregory Fawr.—(*Herzog's Real Encycl.*)

EGLWYSIG, YMWELIADAU. Amcan ymweliadau eglwysig yw diogelu purdeb yr athrawiaeth, sicrhau gweinyddiad priodol y sacramentau, a dysgyblaeth; arolygu adeiladau eglwysig, a bwrw golwg dros sefyllfa fewnol ac allanol yr eglwysi. Fel anghreifftiau o ymweliadau eglwysig, gellir crybwyll ymweliadau Samuel, Elias, Eliseus, a'r brenin Iehosaphat: 1 *Sam.* xvii. 20; 2 *Bren.* ii. 2—7; 2 *Cron.* xvii. 7. Dan oruchwyliaeth y Testament Newydd, Crist, yr hwn sydd bob amser yn bresennol yn ei eglwys, ydyw yr Ymwelydd (κατ' ἐξοχήν): *Dad.* i—iii. Fe geir esamplau mynych o ymweliadau eglwysig yn oes yr apostolion. Darllenwn am Pedr a Phaul ar deithiau ymweliadol: *Act.* xi. 32; xv. 36, 41; xviii. 23; xx. 16, 17; 1 *Cor.* iv. 19; xvi. 5; a 2 *Cor.* xii. 13. Aeth yr apostol Ioan i Asia Leiaf i arolygu dros yr eglwysi yn y wlad hono. Wedi i'r elfen esgobyddol ymddadblygu i'w chyflawn faintioli, cyfran o ddyledswydd yr esgobion, pan yn ymweled â'u hesgobaethau, oedd ymholi o berthynas i sefyllfa y cynnulleidfaoedd, a rhoddi cefnogaeth neu weinyddu ceryddon, yn ol fel y byddai yr achosion yn gofyn, i'r clerigwyr a'r bobl fel eu gilydd. Pan y dirywiodd yr eglwys, ac y trosglwyddodd yr esgobion eu dyledswyddau i swyddogion annheilwng a hunangar, llygrodd yr arfer hon i'r fath raddau nes cynnyrchu trawslywodraeth a chwil-lysoedd. Wrth fel yr eangai y Diwygiad Protestanaidd ei derfynau, deuai ymweliadau eglwysig yn fwy angenrheidiol. Dilynwyd rhwygiad yr hen hualau eglwysig gan annhrefn mawr, ac aeth y weinidogaeth yn anmharchus. Darfyddodd y cyllid pan y diddymwyd yr offerenau dros y meirw; ac yr oedd y bobl un ai yn rhy dlawd ai yn rhy anewyllysgar i gyfranu at gynnaliaeth gweinidogion, amryw o ba rai oeddynt yn analluog, ac ereill yn ddrwg eu moesau, tra y goddefid i'r ieuenctyd dyfu i fynu yn hollol ddilywodraeth. Gwnaeth annogaethau difrifol Luther i dywysogion a phendefigion, dinasoedd a chynnulleidfaoedd, ychydig ddaioni. Yn llwyrwys 1523, penderfynwyd nad ydoedd dim i gael ei ddysgu ond yr efengyl bur, yn ol athrawiaeth ac ysgrifeniadau yr Eglwys Gristionogol. Cadarnhawyd y penderfyniad hwn gan lwyrwys 1524: tra y penderfynwyd yn Spire, yn 1526, bod i reitharch (*edict*) Worms gael ei dwyn i weithrediad yn mhob talaeth, yn ol ei theimlad o'i chyfrifoldeb i Dduw ac i'r ymherawdwr. Y tywysogion a'u deiliaid oedd i benderfynu pa un a wneid—ai gwrthod, ynte derbyn y gosodiad hwn. Lle y byddai cynnulleidfaoedd yn analluog i'w llywodraethu eu hunain, a lle y byddai yr esgobion yn anewyllysgar i ddwyn diwygiad yn mlaen, gwahoddid y tywysogion yn mlaen i ymaflyd yn y gorchwyl. Er dwyn hyn oddi amgylch, yr oedd yn angenrheidiol cael ymweliad eglwysig trwyadl, yr hwn a gymmerodd le yn gyntaf oll yn Saxony. Cyn ei farwolaeth, Mai 25ain, 1525, bu Frederick, y Doeth, yn ymgynghori â Luther ar y pwnc, yr hwn a fynych gymhellodd ar ei olynydd, John, y Sefydlog, yr angenrheidrwydd o drefnu ymweliad eglwysig. Ar ol hir ddysgwyl ac ymdrechu, a'r cwbl yn ofer, anfonodd Luther, yn 1527, ei gŵynion i'r etholydd yn Wittenberg, yr hwn o'r diwedd a gydsyniodd â'i gais. Ar ol dangos i'r pendefigion, y gweinidogion, y diaconiaid, yr athrawon, a'r bobl, y daioni mawr a ddeilliai oddi wrth bregethiad yr efengyl, a'r drygau mawr a gynnyrchid trwy ei hesgeuluso, yr oedd yr ymwelwyr i chwilio i mewn i athrawiaethau a bywydau y pregethwyr, i ddiswyddo y rhai anfedrus, i wneyd darpariaeth ar gyfer y rhai nad allent ofalu am danynt eu hunain, a gosod yn eu lle wŷr duwiol a dysgedig, a chwanegu at nifer y gweinidogion a'r athrawon. Talwyd costau yr ymweliad, yr hwn a barhaodd am tua thair blynedd, gan yr etholydd. Dilynwyd ef â llwyddiant mawr ac anarferol. Cynnyrchwyd dau draethawd pwysig gan yr ysgogiad hwn;—*Holwyddoreg Byraf* a *Hwyaf* Luther, a gwaith gan Melanchthon, a elwid "Llyfr yr Ymweliad," ar "gyfarwyddyd yr ymwelwyr at y pregethwyr yn Saxony," 1528. Sefydlwyd trefniadau cyffelyb mewn gwledydd Cristionogol ereill, megys yn Nuciaeth Prwssia (1525), lle y gorchymynwyd fod i gymmanfaoedd eglwysig gael eu gwysio i

Digitized by Google

ymgyfarfod unwaith yn y flwyddyn, neu yn fynychach, fel y byddai yn angenrheidiol, yn mhob esgobaeth, i chwilio i mewn i athrawiaethau a bywydau y clerigwyr, ac i ymdrin â materion ereill mewn cyssylltiad â llwyddiant yr eglwys; ac yn y flwyddyn ddilynol, penderfynwyd fod i'r holl eglwysi gael ymweliad blyneddol gan dri o wŷr a appwyntid gan y gymmanfa, y rhai oeddynt i wneyd ymholiad mewn perthynas i deilyngdod yr esgobion (pregethwyr), i ddiswyddo y rhai annheilwng, ac i ofalu bod gair Duw, a rheolau y tywysog mewn perthynas iddo, yn cael eu parchu. Gan ddilyn yr hen arfer hon, gofynai Cyfarwyddiadur Strasburg i ymweliad blyneddol gael ei wneyd gan dri o wŷr wedi eu hethol gan y cynghor—dau warden ac un pregethwr—dyledswydd pa rai oedd gofalu bod gofynion Cristionogaeth yn cael eu cwblhau, bod y Sabbath yn cael ei gadw yn briodol, bod bedydd yn cael ei weinyddu ar Ddydd yr Arglwydd, a'r cymun bob pedair wythnos, neu o'r fan bellaf bob dau fis, &c. [*Richter.* i. 236, &c.] Po debycaf fyddai yr ymweliadau o ran nodweddiad i ymweliadau yr oes apostolaidd a dyddiau y Diwygiad Protestanaidd mwyaf yn y byd fyddai y daioni, a lluosocaf yn y byd fyddai y bendithion a ddeilliai oddi wrthynt.—(*Herzog's Real Encycl.*)

**EGWYDDOR** ydyw yr enw cyffredin a roddir ar y gyfres o lythyrenau a ddefnyddir yn orgraff iaith, mewn ysgrifen ac argraff. Gwraidd y gair, yn ol y Dr. Pughe, ydyw *eg* a *gŵydd.* Ystyr *eg*, eb efe, ydyw *yr hyn sydd agored=agoriad.* Un ystyr i *gŵydd* ydyw *gwybodaeth.* Felly, ystyr y gair *egwyddor* ydyw *agoriad gwybodaeth*—enw tra chymhwys ar elfenau iaith. Y mae ereill yn tarddu y gair *egwyddor* o *gwŷdd*=coed, am y tybiant mai ar goed yr ysgrifenai y Cymry gyntaf. Ceir eglurhad helaeth ar hyn yn y gwaith hwn d.g. COELBREN Y BEIRDD; *Dosb. Edeyrn Dafod Aur*, gan Ab Ithel; *Coelbren y Beirdd*, gan Tal. Williams (Ab Iolo). Gelwir elfenau y Gymraeg hefyd weithiau "Y Wyddor Gymraeg," "Agwyddor," "Yr A B C," a'r "Pedair ar ugain."

Dywed Ledwich [*Antiq. of Ireland*] fod gan y Gwyddelod dair cyfres o lythyrenau i'w hiaith. Yr hynaf yw *Bobeloth*; a elwid felly meddant hwy oddi wrth ryw athrawon a drefnasant yr iaith Iaphetaidd; ond tybia Ledwich (td. 99), fod yr enw yn deilliaw yn amlwg o'r ddwy lythyren flaenaf yn yr hen egwyddor Wyddelaeg, *bobel* a *loth.* Y llall yw cyfres anmherffaith o lythyrenau a elwid *Marcomannic Runes;* llythyrenau y dywedir eu bod yn cytuno â'r *Runic* o ran dull ac enw (td. 97). Y drydedd ydyw *Bethluisnion na ogma*, neu "Egwyddor y llythyrenau cyfriniol," oddi wrth y tair llythyren flaenaf yn yr egwyddor, *beth, luis, nion* (td. 99).

Enw yr egwyddor Seisonig yw *alphabet*—a fenthyciwyd oddi wrth y ddwy lythyren gyntaf yn yr egwyddor Roeg, *alpha, beta;* neu os eir gam yn ol, daw oddi wrth y ddwy flaenaf yn yr egwyddor Hebraeg, *aleph, beth.* Felly, cytuna y gair yn hollol â'r enw teuluaidd a roddwn ni i'r egwyddor, sef A B C; ac y mae rhai awdwyr yn canfod gwraidd cyffelyb yn enw Lladin y llythyrenau, sef *elementa*—gair y mae yn rhaid addef ei fod o sain tra thebyg i'r tair llythyren dawdd *l, m, n.* Ond cyn y gall y tarddiad yma fod yn foddhaol, dylid profi fod y llythyrenau hyn wedi bod ryw bryd y rhai blaenaf yn yr egwyddor; os amgen, anhawdd rhoddi rheswm pa ham y dewiswyd y rhai hyn i roddi enw ar yr egwyddor yn hytrach na rhai o'r lleill. Yr egwyddor Wyddelaeg a ddaw yn nesaf i'r syniad o'r un y gwyddys am dani—yr hon, fel yr awgrymwyd, sydd yn dechreu â *b, l, n.*

O bob moddion a fu yn offerynol i wareiddio dynolryw, diau y gellir ystyried ysgrifeniad egwyddorol fel y penaf; o ganlyniad, y mae cael allan ei ddechreuad wedi bod, ac yn para i fod, yn destyn ymchwiliad dwysaf a dyfalaf lluaws mawr o ddysgedigion enwocaf y byd. Ond y mae dechreuad y gelfyddyd ardderchog hon yn perthyn i gyfnod llawer cynnarach nag amser unrhyw dystiolaethau hanesiol, neu hen gofnodau a ddaethant i lawr hyd ein hamser ni, fel y mae ei gwreiddyn isaf yn rhy ddwfn yn nghaddug henafol y cynoesoedd i un dyn gael gafael arno hyd foddlonrwydd, os na foddlona ar yr awgrymiadau a geir ar y mater yn yr Ysgrythyrau. Er hyny, ymddengys fod yr ymchwiliadau i hen hanesion Cenedlig, cofadeiladau, bathodau, a hen lawysgrifeniadau, wedi llwyddo i raddau tra boddhaol, ar y cyfan, i olrhain pob ysgrifeniad egwyddorol sydd yn awr ar arfer yn y byd i'r hen egwyddor Phœniciaidd (*Phœnician*).

Cyn rhoddi cynnyrch yr ymchwiliadau hyn o flaen y darllenydd, cymmerwn olwg ar y gwahanol arwyddion a ddichon gael eu harfer mewn iaith ysgrifenedig. Y mae y rhai hyn yn dra amrywiol, ond gellir eu rhanu yn dri dosbarth:—arwyddion arwyddocaol ac arbenig; arwyddion o eiriau, sef o seiniau llefarol; ac arwyddion o bethau.

I. Y mae y dosbarth hwn yn cynnwys arwyddion sydd yn naturiol arwyddocaol, neu rai addas i amlygu eu hystyr eu hunain. O'r dosbarth yma gellir cyfrif,

1. Ardebau neu ddarluniau o wrthddrychau allanol a gweledig. Y mae llun ceffyl yn nod arwyddocaol o geffyl; ac os dychymyg dynol ydyw ysgrifenu, y mae yn dra diammheuol y rhaid mai lluniau oedd yr esamplau diaddurn cyntaf o'r gelfyddyd. Pan ddarganfyddwyd yr America, dywedir mai dyma yr unig ddull o ysgrifenu a arferid yn nheyrnas Mexico. Sicrheir mai trwy ddarluniau hanesiol y cadwai y Mexicoiaid gof am weithrediadau pwysicaf eu hymherodraeth.

2. I'r dosbarth yma hefyd y perthyn batheiniau (*hieroglyphics*). Y mae o bwys cofio nad yw yr arwyddion a ddefnyddir yn y dull hwn o ysgrifenu ddim yn wahanol i rai yr adran flaenorol—lluniau yw y rhai hyn hefyd o wrthddrychau allanol a gweledig. Nid yn yr arwydd y mae y gwahaniaeth, ond yn yr ystyr. Mewn ysgrifeniad ardebol, mae y lluniau a fyddont yn gwneyd i fyny yr arwyddion ysgrifeniadol yn arwyddo y *gwrthddrychau* y byddont yn ddarluniau o honynt. Mewn ysgrifeniad batheiniol, y maent yn arwyddo rhywbeth anweledig, o'r hwn nis gellir tynu darlun, ond â'r hwn, er hyny, y tybir fod y gwrthddrych a ddarlunir yn dal rhyw berthynas neu gyfatebiad. Yn y dull cyntaf o ysgrifenu, byddai llun llygad yn arwyddo *llygad;* hyny yw, bwriedid ef i ddynodi llygad, a dim arall. Yn y dull olaf, gallai arwyddo *gwybodaeth,* o'r hon y tybir fod llygad yn arwyddlun; neu o ragluniaeth, yr hon sydd yn gwylio trosom megys â llygad effro, ddydd a nos. Myfyriwyd y dull yma o ysgrifenu yn yr Aipht i'r fath raddau fel y dygwyd ef yno yn gelfyddyd reolaidd. Trwy yr arwyddion batheiniol yr oedd holl wybodaeth fostfawr yr offeiriaid yn cael ei throsglwyddo—neu, fel y gellir dywedyd yn fwy priodol, ynddynt

Digitized by Google

hwy yr oedd yn cael ei chloi i fyny. Mae yn amlwg, gan hyny, nad oedd arwyddion yr ysgrifeniad ardebol a batheiniol yn rhai mympwyol. Nis gellid defnyddio un arwydd yn y flaenaf, er anghraifft, am lew ond *llun* llew; nac un arwydd yn yr olaf am dragwyddoldeb, ond llun cylch, neu ryw wrthddrych gweledig y tybid ei fod yn arwyddlun o dragwyddoldeb.

II. Y dosbarth hwn a gynnwys arwyddion mympwyol; sef, arwyddion yn dynodi gwrthddrychau heb fod na thebygoldeb na chyfatebiad rhyngddynt. I'r dosbarth hwn y perthynai y dull o ysgrifenu a arferai y Peruviaid (*Peruvians*). Yr oedd ymdrafodaeth ohebol yn cael ei ddwyn yn mlaen yn eu plith hwy trwy gyfrwng llinynau bychain o wahanol liwiau, gyda chlymau arnynt o wahanol faintioli a threfniad—y llinynau, y lliwiau, &c., yn dwyn arwyddocâd mympwyol neu ammodol.

Yn y dosbarth yma hefyd y rhaid cyfleu arwyddion ysgrifeniadol y rhan fwyaf o'r cenedloedd diweddar. Arwyddion mympwyol ydynt, heb feddu ystyr penodol; ond i'w deall trwy gytundeb yn unig.

Ein hamcan yma ydyw egluro natur iaith ysgrifeniadol, neu ddangos yn fyr y modd y gallai lluniau a batheiniau lithro yn raddol—ac yn wir, prin y gallasent beidio llithro — i arwyddion mympwyol neu ammodol. Er mwyn lleihau llafur, gallai fod rhanau o'r arwydd cyntefig yn cael eu gadael allan, nes iddo ddyfod o'r diwedd, trwy fynych gwtogiad o'r fath, yn arwydd mympwyol yn unig.

Pa fodd bynag, y gwahaniaeth y mae mwyaf o bwys i'r darllenydd sylwi arno, yw yr hwn sydd rhwng yr arwyddion ysgrifeniadol a osodir, er mewn eu dangos yn gyferbyniol, yn y dosbarth nesaf.

III. Y mae y dosbarth hwn yn cynnwys arwyddion o bethau, ac arwyddion o eiriau, sef seiniau llefarol. Arwyddion o'r darluniad cyntaf yw lluniau, batheiniau, a chysgodluniau hen genedloedd, ac arwyddion ysgrifeniadol y Chineaid Y rhai a berthynant i'r olaf yw yr arwyddion egwyddorol a ddefnyddir gan yr holl Ewropiaid, cystal a chan y rhan fwyaf o genedloedd gwareiddiedig y cynoesoedd. Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau fath hyn o arwyddion yn amlwg a hanfodol. Y mae y sain llefarol a wneir trwy ynganu yr arwyddion ysgrifenedig *d, y, n,* yn arwydd uniongyrchol o'r peth neu y bod—*dyn.* Felly hefyd y mae llun dyn—arwydd a ddyn. Ond y llythyrenau ysgrifeniadol (*d, y, n*) a ffurfiant yn nghyd arwydd, nid o'r bod dyn, ond o'r sain dyn. Y mae y sain a'r llun yn arwyddo y peth neu y bod; ond y llythyrenau a arwyddant y sain. Ac o blegid nad yw llythyrenau ysgrifenedig yn arwyddo dim ond seiniau yn unig, y mae yn bosibl i berson anhysbys o'r iaith Ladin, er esampl, ddarllen llyfr wedi ei ysgrifenu yn yr iaith hono heb ei ddeall, sef heb gael unrhyw wybodaeth am y pethau neu y testynau y traetha arnynt. A phan y dywedir y gall efe ddarllen y llyfr, y meddwl yw ei fod yn adnabod yr arwyddion, neu y llythyrenau sydd yn dynodi y seiniau, ac y gall ynganu y seiniau hyny ar wahan neu mewn cyssylltiad â'u gilydd yn eiriau; ond gan nas gŵyr ystyr y seiniau hyny wedi eu cyssylltu fel y maent yn yr iaith Ladin—hyny yw, am nas gŵyr am ba bethau neu feddylddrychau y saif y cyfryw gyssylltiad o seiniau y mae efe yn eu hynganu fel plentyn neu barrot, heb feddu un amgyffred o'u hystyr. Fel hyn, tybier fod dechreu cân anfarwol Virgil o'i flaen; efe a edrych ar yr arwyddion, y llythyrenau, a'r geiriau sydd o flaen ei lygaid; y mae yn eu deall (yr hyn nis gallai, hwyrach, pe buasent lythyrenau Groeg), hyny yw, y mae yn gwybod y seiniau llefarol o'r rhai y maent wedi eu cyfansoddi. Efe a ddarllen "*Arma virumque cano.*" Y mae yn cael yr holl ystyr a fedd y llythyrenau, ond am ystyr y seiniau cyfansawdd—y geiriau, nid ydyw yn medru arnynt. Efe a ddarllena yr ymadrodd, fel y dywedir, er fe allai nad yn hollol gywir, heb ei ddeall.

Pa fodd bynag, nid yr amcan yma yw gwadu y gall yr egwyddor fawr awgrymiadol, neu gymdeithasiad syniadau fel ei gelwir, ar ol cyssylltu y peth, y sain lefarol a'r llythyrenau ysgrifenedig, mewn rhwymau annattodol â'u gilydd, alw i gof, trwy gyfrwng y llythyrenau yn uniongyrchol, y peth neu y syniad heb y dolenau cydiadol. Yn hytrach, yr amcan yw, egluro natur arwyddion egwyddorol, neu y dyben uniongyrchol a atebant, yn fwy nag egluro yr hyfforddiad a ellir ei gael oddi wrthynt.

Dywedwyd mai arwyddion o bethau, ac nid geiriau, yw arwyddion ysgrifenedig y Chineaid. Y mae pawb sydd wedi ysgrifenu ar y pwnc yn cytuno yn hyn, er fod gwahanol farnau yn nghylch pa un ai marciau mympwyol yn unig oeddynt o'r dechreu, ai ynte a oeddynt wedi eu seilio ar debygrwydd, gwirioneddol neu ddychymygol, rhwng yr arwydd a'r peth a arwyddai. Y mae pob arwydd neu farc, yn ol tystiolaeth unfryd dysgedigion, yn dynodi peth neu syniad (*idea*), ac nid sain lefarol. Mewn canlyniad i hyn, meddyliwyd y buasai yn fanteisiol cyfieithu llyfr Chinaeg, fel y gellid ei ddarllen yn Groeg, Lladin, neu ryw iaith arall, cystal ag yn Chinaeg. Ond, byddai yn fwy cywir dyweyd nas gellir darllen llyfr Chinaeg o gwbl. Darllen llyfr, fel y dangoswyd, yw rhoddi eu seiniau priodol i'r llythyrenau a gyfansoddant ranau ansoddol seiniau cyfansawdd neu eiriau. Gan nad yw yr arwyddion Chineaidd yn arwyddion o eiriau, ond o bethau, gellir eu deall; ond, a siarad yn briodol, nis gellir eu darllen.

Dylai iaith wedi ei chyfansoddi yn ol dull y Chinaeg feddu cymmaint o arwyddion gwahanol ag o eiriau. Ond y mae yn nodedig gyda golwg ar y Chinaeg, yn ol yr hanes sydd genym am dani, fod yr arwyddion yn llawer lluosocach na'i geiriau. Dywedir nad yw ei geiriau dros 1500, tra y mae ei harwyddion yn 80,000, yn gwneuthur ar gyfartaledd 53 o arwyddion am bob gair. Nis gall yr amgylchiad yma lai nag achlysuro dirfawr amwysedd mewn cydgyfeillach; a dywedir y gorfodir personau yn fynych, wrth ymddyddan, i ysgrifenu neu dynu llun yr arwydd er symmud yr amwysedd, yr hyn sydd hollol groes i'n harfer ni. Yr ydym ni yn llefaru i egluro ein hysgrifen; y maent hwythau yn ysgrifenu i egluro eu llefariad. Nis gall y Chineaid gyda'r fath iaith, sydd yn gofyn cymmaint o lafur i ddysgu ei harwyddion, fod yn amgen na chorod mewn gwybodaeth gyffredinol. Yn wir, prin y byddai yn ormod dyweyd y byddai bron yn annhosibl i un genedl gyrhaedd enwogrwydd meddyliol heb arwyddion egwyddorol wedi eu seilio ar ddosraniad seiniau cyfansawdd, os gallai y gyfryw genedl beidio a bod yn farbariaid.

O'r dosbarth o arwyddion sydd yn dynodi seiniau ac nid pethau, yr arwyddion egwyddorol, fel yr awgrymwyd, ydyw y cynllun perffeithiaf, os nad yr unig gynllun a ddichon fod. Yn awr,

Digitized by Google

er cael amgyffred cywir o natur yr arwyddion hyn, sylwn, gyda golwg ar ieithoedd ysgrifenedig wedi eu ffurfio ar yr egwyddor o ddefnyddio arwyddion i ddynodi seiniau ac nid pethau, fod tri dull yn ddichonadwy. Nid ydys yn gwybod fod anghreifftiau perffaith o'r amrywiadau hyn yn bod mewn un iaith: digon i ateb yr amcan mewn golwg ydyw, y gallent fod. Gelwir hwy yma, er mwyn eglurder, yn arwyddion geiriol, sillebol, ac egwyddorol.

1. Yn ol y dull cyntaf, defnyddid arwyddion unigol i ddynodi geiriau gwahanol, neu seiniau cyfansawdd yn arwyddo pethau neu syniadau, neu ddosbarthiadau o'r cyfryw. Yn ol y cynllun yma byddai arwydd unigol i ddynodi pob sain geiriol sydd gan ddynolryw.

2. Yn yr ail amrywiad defnyddid arwyddion unigol i ddynodi, nid geiriau cyfain fel o'r blaen, ond y sillau neu y rhanau o ba rai y mae geiriau wedi eu cyfansoddi. Fel hyn byddai genym ddau arwydd i ddynodi y sain cyfansawdd *dyndod;* un arwydd am y sain *dyn*, a'r arwydd arall am y sain *dod*.

3. Yn y trydydd amrywiad, defnyddid arwyddion gwahanol, nid i ddynodi geiriau cyfain, fel yn yr amrywiad cyntaf, nac hyd yn oed sillau, fel yn yr ail, ond seiniau elfenol syml. Fel hyn, byddai chwe arwydd i ddynodi yr holl sain cyfansawdd *dyndod*. Yr amrywiad cyntaf, fel y nodwyd, a gynnwys arwyddion geiriol; yr ail, sillebol; a'r trydydd, egwyddorol.

Yn awr, y mae y dull egwyddorol o ysgrifenu wedi ei sylfaenu ar yr un egwyddorion (*principles*) yn gymhwys a'r dull sillebol: yr unig wahaniaeth yw, fod y blaenaf yn dwyn yr egwyddorion hyny yn llawer nes at berffeithrwydd. Y mae y dull sillebol yn myned yn mlaen ar ddosraniad anmherffaith o sain. Mae y dull egwyddorol yn arwyddo ac yn gofyn dosraniad perffaith. Cymmerwn y gair y cyfeiriwyd ato fwy nag unwaith o'r blaen—y gair *dyndod*. Gallai dosraniad arwynebol ganiatau i ni dybied ei fod yn gynnwysedig o ddwy sain elfenol—y sain *dyn*, a'r sain *dod*. Pa fodd bynag, dengys olrheiniad manylach fod hyd yn oed y seiniau olaf hyn, sydd seiniau sillebol, yn ddarostyngedig i ddosraniad manylach fyth; ac os cymhwysir yr olrheiniad at holl sillebau iaith, canfyddir eu bod yn gyfansawdd (oddi gerth, bid sicr, y sillau a gynnwysant ddim ond llafariad unigol) o ychydig o seiniau elfenol, y rhai, o'u cyfuno, fel y gellir gwneyd, mewn afrifed wahanol ddulliau, a ffurfiant y rhifedi dirfawr o eiriau a gynnwys iaith lefaredig gwlad. Wedi cael y dosraniad yn gyflawn, cymhwysir nôd arbenig at bob un o'r seiniau elfenol dan sylw, yr hwn nôd a saif fel arwydd neu gynnrychiolydd y cyfryw sain syml; a gelwir cyfres gyflawn o'r nodau arbenig hyny a elwir llythyrenau, yn egwyddor. Dywedir am y genedl y byddo ei hiaith wedi ei chyfansoddi o'r nodau arbenig hyn fel arwyddion ei seiniau elfenol, ei bod yn defnyddio y dull egwyddorol o ysgrifenu.

Y mae un peth neu ddau tra theilwng o sylw cyn myned yn mhellach ar y pwnc dyddorol yma.

Y peth cyntaf ydyw, symledd prydferth y dull egwyddorol o ysgrifenu. Y mae yn werth nodi yma y graddau tebygol trwy ba rai y gallasai y symledd eithafol gael ei gyrhaedd. Y radd gyntaf yn y tebygiad (canys nis gallwn ni dderbyn y syniad Germanaidd, mai tarddiad dynol sydd i'r gelfyddyd o ysgrifenu) ydyw y defnyddiad o arwyddion i ddynodi seiniau neu eiriau yn lle pethau. Y mae yr holl ieithoedd Ewropaidd, o blegid hyn, yn symlach na'r Chineaeg. Yr ail radd, ydyw y defnyddiad o arwyddion i ddynodi sillau, yn lle geiriau; o blegid, gan fod nifer y sillau yn llawer llai na'r geiriau yn mhob iaith, trwy fyned yn mlaen ar yr egwyddor yma, lleiheid nifer yr arwyddion arbenig, y rhai sydd bob amser yn flinderus i'r cof. Y drydedd radd, a'r olaf, ydyw y defnyddiad o arwyddion egwyddorol yn lle rhai sillebol; gan fod nifer y seiniau elfenol sydd yn holl ieithoedd y byd yn afrifed lai na nifer y sillau, chwaethach y geiriau. Yn wir, dywedir nad oes un iaith neillduol yn cynnwys mwy o seiniau syml elfenol nag o ugain i wyth ar ugain. Nid yw gwybod seiniau y llythyrenau a ddefnyddir fel arwyddion arbenig y cyfryw seiniau ond gorchwyl bychan: ac wedi cael y wybodaeth hono, bydd yr agoriad i ynganiad holl eiriau unrhyw iaith yn llaw yr efrydydd ar unwaith.

Yr ail sylw ar ddirfawr ardderchogrwydd y dosraniad a amlygir mewn ysgrifeniad egwyddorol, yw hwn:—Y mae llythyrenau, sef arwyddion arbenig neu ammodol seiniau (canys nid y seiniau eu hunain yw y llythyrenau, er nas cedwir at y gwahaniaeth cywir yma bob amser) yn arwyddo naill ai seiniau y llafariaid neu seiniau y cydseiniaid. Y mae y llafariaid yn seiniau syml a pherffaith elfenol, y gellir eu hynganu âg un anadliad; ac am hyny gelwir y llythyrenau sydd yn eu dynodi hwy yn llafariaid. Nid ymddengys, ar y llaw arall, fod y cydseiniaid yn seiniau cyflawn a pherffaith elfenol. Rhanau o seiniau yn hytrach ydynt hwy—elfenau o elfenau, os goddefir y dywediad. Nis gellir clywed grym llawer o honynt hwy yn eglur, heb iddynt gael eu rhagflaenu neu eu dilyn gan lafariad. Am hyny y gelwir y llythyrenau sydd yn eu dynodi hwy yn gydseiniaid; sef, llythyrenau yn seinio gyda llafariaid. Mor ddirfawr fanwl a threiddiol y rhaid i'r dosraniad hwnw fod, sydd nid yn unig yn cyrhaedd hyd at y seiniau syml elfenol, ond sydd yn ymosod hyd yn oed ar y rhai hyny hefyd, ac megys yn cynnyg ar ddattod ymadrodd llefaredig i elfenau o elfenau! Y mae yn amlwg fod y fath ddosraniad yn gofyn y wybodaeth ddyfnaf o ymadrodd llefaredig, a'r adnabyddiaeth berffeithiaf o natur a gallu y peiriannau sydd yn ei gynnyrchu.

Yn awr, y mae yn werth ystyried, a ydyw yn debyg fod y ddyfais fawr hon o fewn cylch gallu dynol, digymhorth. Y mae llawer o'r rhai a gymmerasant yn ganiataol fod ysgrifenu o darddiad dynol, wedi ymdrechu olrhain ei chynnydd graddol, o ris i ris, trwy yr ysgrifeniad ardebol, batheiniol, a'r arwyddion mympwyol, nes y dygwyd y ddyfais i berffeithrwydd, yn y darganfyddiad a'r defnyddiad o arwyddion egwyddorol. Yn awr, pe gofynid, A ydyw dilyn y graddau olynol hyn y tu hwnt i allu dyn, heb gyfarwyddyd dwyfol? atebem nad ydyw, yn ddiau, oddi gerth yr olaf yn unig. Wrth ystyried y duedd ddynwaredol sydd yn hynodi dyn, mae yn hawdd caniatau y gallasai ei gywreinrwydd ef ei hun ei gynhyrfu a'i alluogi i dynu brasddarluniau o unrhyw wrthddrychau gweledig y dymunai gyfeirio meddyliau ereill atynt; y gallasai rhai o'r brasluniau hyn, mewn amser, gael eu defnyddio fel batheiniau [gwel *dosb.* ii], gan roddi ystyr helaethach felly i'r unig arwyddion oedd yn ei feddiant; y gallasai y brasddarluniau hyn, o blegid yr anhawsder i'w ffurfio, drwy dalfyriadau olynol, yn cael eu hachosi gan awydd at rwydd-

Digitized by Google

ineb a phrysurdeb, golli pob tebygrwydd o'r diwedd i'r gwrthddrychau, ac felly newid yn anfwriadol i arwyddion mympwyol; ac yn olaf, wedi i'r newidiad hwnw gymmeryd lle yn yr arwydd cyntefig, gallasai chwanegiad yn eu nifer gael ei wneuthur, er mwyn gwneyd iaith yn fwy cyflawn. Nid oes dim anmhosibl i ddyn yn yr holl raddau a ddarluniwyd yn bresennol. Yn y rhai canlynol y mae yr anhawsder: y cyntaf yw, y symmudiad pwysig o arwyddion yn arwyddo pethau i arwyddion yn arwyddo seiniau; ac yn enwedig yn y radd eithafol a roddodd ddechreuad i ysgrifeniad egwyddorol trwy ddefnyddio arwyddion arbenig, nid i ddynodi geiriau neu seiniau cyfansawdd, yr hyn nad yw mor anhawdd, ond i ddynodi seiniau elfenol! Dyma yr anhawsder mawr uchaf sydd yn y dull egwyddorol o ysgrifenu: dyma y ddyfais ryfeddol sydd yn cael ei hamlygu—dyfais sydd yn taflu gogidogrwydd holl ddyfeisiau yr amseroedd diweddar i'r cysgod. Nis gallwn lai na meddwl fod yr ystyriaethau hyn yn dra ffafriol i'r farn mai rhodd uniongyrchol Duw i ddyn ydyw ysgrifeniad egwyddorol. Cadarnheir y tebygolrwydd yma gan y ffeithiau canlynol:—

1. Cydnabyddir yn gyffredin mai Pum Llyfr Moses ydyw y cyfansoddiadau hynaf sydd mewn bod, ac felly yr esamplau boreuaf o ysgrifeniad egwyddorol sydd wedi ein cyrhaedd ni. Yn awr, y mae yr esamplau hyn yn dwyn y gelfyddyd i'n gŵydd mewn sefyllfa berffaith, gan yr ymddengys, fel y dywed un awdwr, fod "yn anmhosibl gwneyd unrhyw ddiwygiad gwreiddiol ar yr egwyddor Hebraeg." Pa fodd, gan hyny, y mae rhoddi cyfrif am y gwahaniaeth nodedig yma sydd rhwng y gelfyddyd o ysgrifenu a phob celfyddyd arall? Pa fodd y mae egluro yr achos tra y mae yr esamplau cyntaf o bob celfyddyd arall yn arw ac anmherffaith, fod ysgrifeniad egwyddorol wedi cyrhaeddyd ei berffeithrwydd eithaf ar unwaith? Addefer fod y gelfyddyd wedi dyfod oddi wrth Dduw, a cheir eglurhad cyflawn o'r achos: gwader hyn, ac erys byth yn ddirgelwch.

Y mae rhai yn barnu fod Llyfr Iob yn henach na Llyfrau Moses. Os ydyw hyny yn wir, nid ydyw ddim mantais i bleidwyr ysgrifeniad fel dyfais dyn; canys y mae Llyfr Iob yn mynegu am ysgrifenu fel celfyddyd hollol adnabyddus ar y pryd. Gwel *Iob* xiii. 26; xix. 24; xxxi. 35.

2. Y mae y rhan fwyaf o ddysgedigion yn barnu y gellir olrhain pob arwyddion egwyddorol sydd yn y byd i un gwreiddyn cyffredin. "Y mae yr Ewropiaid," medd un awdwr, "wedi cael eu gwybodaeth o lythyrenau oddi wrth y Rhufeiniaid; y Rhufeiniaid oddi wrth y Groegiaid; y Groegiaid oddi wrth y Phœniciaid, y rhai, fel eu trefedigwyr, y Carthaginiaid, a lefarent gangen o'r Hebraeg heb fod yn gwahaniaethu braidd ddim oddi wrth y wreiddiol. Yn wir, y mae pob iaith sydd yn mysg dynion a drosglwyddwyd mewn arwyddion egwyddorol wedi bod yn iaith pobl yn dal cyssylltiad, o agos neu o bell, â'r Hebreaid; y rhai, fel y gwelsom, a drosglwyddasant yr esamplau boreuaf o ysgrifeniad egwyddorol i oesoedd dyfodol."

3. Nid ydyw hanesiaeth yn proffesu olrhain tarddiad ysgrifeniad egwyddorol i unrhyw amser, na lle, na pherson penodol; yr hyn yn ddiau y buasai genym bob rheswm i'w ddysgwyl pe buasai y gelfyddyd o ddyfais dyn. Nid ydym wedi ein gadael fel hyn mewn tywyllwch hollol am gelfyddydau ereill a gawsant eu dechreuad trwy fedrusrwydd dyn. Gwir fod cydymgeiswyr wedi cael eu dwyn yn mlaen i hòni yr anrhydedd o ddyfeisio rhai, megys paentio, &c.; ond nid oes cymmaint ag un hawliwr am yr anrhydedd o ddyfeisio ysgrifeniad egwyddorol. Nid oes neb, hyd y gwyddys, yn proffesu cymmaint a dyfalu pa le nac yn nghylch pa amser y daeth y gelfyddyd hon i hanfodi. Pa fodd y gellir rhoddi cyfrif am hyn pe buasai iddi ddyfeisiwr yn mysg dynion? A ydyw yn bosibl meddwl na buasai dim olion coffadwriaethol am y meddwl mawr hwnw y mae ffrwyth anmhrisiadwy ei athrylith nerthol wedi ein gosod dan y fath rwymedigaethau diddarfod iddo? Eto, dim olion o'r fath nid oes genym. Y cwbl a wyddom ydyw, ei bod ar arfer er yn bur fore ar oes y byd; fod yr anghreifftiau hynaf o honi yn berffaith; ei bod wedi ei chael yn y perffeithrwydd hwnw yn mysg pobl heb fod yn nodedig am eu galluoedd dyfeisiadol, ond hynod am y dadguddiadau dwyfol a fwynhaent. Y casgliad, gan hyny, nas gallwn ei ochel ydyw, fod y gelfyddyd anmhrisiadwy hon yn un o'r bendithion afrifed a roddwyd gan Dduw i'r hiliogaeth ddynol, mewn modd ac ar amser nad ydyw yn awr, ac na bydd byth yn y byd hwn yn hysbys.

Y mae Astle [*Origin and Prog. of Writing*], ar ol chwilio a phwyso barnau ac awdurdodau ei ragflaenoriaid yn ddiwyd a gofalus, yn dywedyd "y byddai yn anmhriodol haeru nad oedd llythyrenau yn adnabyddus cyn y diluw, a gofnodir gan Moses" [td. 46].

Barn E. Davies (y Celtig) ydyw, fod pob cenedl ar y dechreu wedi cael ei hysgrifeniad gan ei chyff cenedl cyntefig, pan yn ymadael o Asia i gymmeryd meddiant o'r gwledydd a ragordeiniwyd iddi pan ranwyd y ddaiar yn amser Peleg. Beth bynag a feddylir am y farn yma, mae yn ffaith fod ysgrifenyddiaeth o ryw fath yn mysg pob cenedl wareiddiedig, er yn foreuach nag y gall ei haneswyr ei hun, nac unrhyw haneswyr ereill, roddi un math o gyfrif boddhaol am ei dechreuad.

Er mwyn canfod natur a chymhwysder y gwahanol arwyddion egwyddorol a ddefnyddir gan wahanol genedloedd, i gynnrychioli seiniau elfenol eu priod-ieithoedd, byddai yn angenrheidiol i ni wneyd ymchwiliad manwl i'r nifer penodol o seiniau neu elfenau syml a ddefnyddir yn mhob iaith a gymmerir dan sylw. Pe gwnelid olrheiniad fel hyn i ieithoedd Ewrop yn unig, heb son am ieithoedd afrifed parthau ereill y byd, llanwai y cynnyrch lawer o gyfrolau, chwaethach erthygl briodol o ran hyd i'w rhoddi yn y *Gwyddoniadur*. Yn lle hyny, ynte, ymdrechir gosod cynnyrch olrheiniad ieithyddion i'r nifer cyffredinol o seiniau syml a ddichon y peiriannau llafar dynol eu hynganu. Yna rhoddwn amryw o'r hen egwyddorau ger bron, o'r sawl y tarddodd y rhai diweddar; ac wedi gwneyd ymchwiliad byr i briodoldeb y rhai hyny, sylwir yn fanylach ar egwyddorau dwy brif iaith ein gwlad ein hunain—y Seisoneg a'r Gymraeg, yn enwedig yr olaf.

Awgrymwyd eisoes fod holl seiniau syml neu elfenau iaith, yn cael eu trefnu yn ddau brif ddosbarth—llafariaid a chydseiniaid.

*Dosbarth* I.—*Y Llafariaid.* Y llafariaid yw y seiniau syml a ffurfir heb ddwyn unrhyw ranau o'r genau i gyffyrddiad â'u gilydd er rhwystro ffrwd yr awyr o'r ysgyfaint, tra y gyrir allan yr anadliad llafarog, neu y llais, trwy y genau neu trwy y genau a'r trwyn, yn eglur, seinyddol, a

Digitized by Google

diattal, tra y byddo yr holl beiriannau llafar mewn agwedd sefydlog a phenodol: am hyny y mae y llafariaid o ddau fath; sef y geneuol a'r trwynol.

Y mae yr holl wahanol agweddau sefydlog y gellir rhoddi y peiriannau llafar ynddynt wrth ffurfio seiniau yn anhysbys; gan hyny, nis gwyddys yn fanwl pa nifer o lafariaid a ellir eu ffurfio. Tybir eu bod yn afrifed.

Ffurfir y llafariaid oll yn naturiol, medd y Dr. Rapp, o'r gwddf, ar hyd y gorchfant a'r taflod, hyd y gwefusau. Y seiniau mwyaf gwahanredol yn yr holl raddeg (*scale*) yw y rhai a gynnrychiolir yn y Gymraeg gan y llythyrenau *y, i, u, w*.

Trefna Rapp y llafariaid yn dair cyfres; a geilw *i, u, w*, yn begynau y cyfresau; ac ystyria mai *y* ydyw y llafariad wreiddiol neu gyntefig, o'r hon y mae y lleill oll yn deilliaw. Y mae yn wir nad yw ei lafariad isaf ef mor ddofn yn y sefnig a'n *y* ni, na'i lafariad uchaf (*u* yn *gewühl*), mor uchel ar y dannedd a'n *u* ni; ond y mae y naill y ddyfnaf a'r llall yr uchaf a wyddai efe am danynt. Dywed A. J. Ellis mai *y* Gymraeg yw y ddyfnaf yn y sefnig sydd yn adnabyddus, ac felly y fwyaf gwreiddiol; ac mai yr *u* Gymraeg ydyw yr uchaf, a'r unig lafariad ddeintiol sydd yn hysbys.

Gelwir cyfres *i*, y gyfres uchaf; cyfres *u*, y gyfres ganol; a chyfres *w*, y gyfres isaf—oll, fel y sylwyd, yn deilliaw o *y*, y llafariad wreiddiol neu gyntefig, yn ol y cynllun isod:—

Y llafariad gyntefig:—*y* < *i*—Cyfres uchaf. / *u*—Cyfres ganol. / *w*—Cyfres isaf.

Pa nifer bynag o lafariaid a ddichon y peiriannau llafar eu hynganu, rhaid eu bod oll rhwng *y* ac *i*, rhwng *y* ac *u*, neu rhwng *y* ac *w*.

*Y gyfres uchaf—Cyfres I.* Y mae y seiniau canlynol o'r gyfres uchaf yn hysbys:—*i* (y pegwn), yn y gair Cymraeg *lli; i* Rwssiaeg, yn y gair *yeri*, a ddynodir yma âg ι Roeg; e, yn y gair Cymraeg *lle; ê* yn y gair Ffrancaeg *fête* (yr un sain bron a'r *a* Seisoneg yn *care*), a ddynodir âg ε Roeg; a, yn y gair Cymraeg *pa; a*, yn y gair Seisoneg *father*, a ddynodir âg α Roeg—y cwbl yn chwech o nifer, y rhai a safant olynol, gan ddechreu yn y fwyaf meinllais, a diweddu yn y fwyaf dyfnllais, fel hyn:—

i ι, e ε, a α—6.

Ffurfia y gyfres hon dri phâr o seiniau, yr olaf o bob pâr yn ddyfnllais i'r flaenaf. Yr *i* yw y fwyaf meinllais, nid yn unig o'r gyfres hon, ond o'r holl lafariaid a ellir eu hynganu. Ffurfir *i* ar y taflod yn agos i'r dannedd, â'r genau bron yn gauad. Yr ι a ffurfir ychydig bach yn mhellach yn ol, â'r genau yn fymryn mwy agored; yr ε yn mhellach fyth yn ol, a'r genau yn parhaus agoryd nes cyrhaeddyd *a*, yr hon a ffurfir yn nghwr pellaf y gorchfant, â'r genau yn llydan agored. O ran eu safle yn y peiriannau llafar, seiniau taflodol yw i ι, oldaflodol yw e ε, a gorchfantol yw a α.

Wrth lefaru seiniau y gyfres hon, gan ddechreu yn *i*, a myned i lawr o un i un hyd *y* yn y gwddf, teimlir toriad yn ansawdd y dôn wrth fyned o *a* i *y*, gan y symmudir felly, ar unwaith, o gyfres eglurllais o seiniau i gyfres aneglurllais neu amwys, o'r hon y mae *y* yn un sain; ond os gadewir yr *y* allan, gan fyned o *a*, sain ddyfnaf y gyfres uchaf, i *a*, sain ddyfnaf y gyfres isaf, ni theimlir y fath doriad yn ansawdd y dôn. Yna, y gyfres isaf, ac nid y ganol, sydd yn dilyn yr uchaf yn naturiol.

2. *Y gyfres isaf — Cyfres W.* Cynnwys y gyfres hon y seiniau canlynol:—*a*, yn y gair Almaeneg *ahnen*, yr hon a ddynodir genym âg **a** Almaeneg; *a* yn y gair Seisoneg *all*, a ddynodir âg **o** Almaeneg; *o* yn y gair Cymraeg *to*, a ddynodir âg *o* Gymraeg; *o* yn y gair Seisoneg *note*, a ddynodir ag ο Roeg; *o* yn y gair Italaeg *soli*, a ddynodir âg ω Roeg; *w* (y pegwn) yn y gair Cymraeg *llw*—chwech o nifer, fel yn y gyfres uchaf, y rhai, gan ddechreu yn awr yn y fwyaf dyfnllais, a diweddu yn y fwyaf meinllais, a safant olynol yn dri phâr eto, fel hyn:—

**a o**, o *o*, ω w—6.

Yn y gyfres yma, y flaenaf o bob pâr ydyw dyfnllais y nesaf ati. Y mae **a o**, yn seiniau gorchfantol o *o*, yn olwefusol; ac ω *w* yn wefusol.

*Y gyfres ganol — Cyfres U.* Seiniau y gyfres hon ydyw *u* Gymraeg yn y gair *llu; u* yn y gair Almaeneg *uhel*, a ddynodir âg *ü; u* Yswedaeg, medd Rask, rhwng ω y gyfres isaf ac ι y gyfres uchaf, a ddynodir âg *u̇*; *ö* yn y gair Almaeneg *mögen; æ* Daeneg, medd Ellis, sydd yn debyg, yn ol ei farn ef i'r *i* Seisoneg yn y gair *bird*, a ddynodir âg *ȯ*; *u* yn y gair Seisoneg *urge*, a ddynodir âg υ Roeg; a'r *y* Gymraeg yn y gair *dy*.

Y mae y gyfres hon yn cynnwys saith o seiniau; sef tri phâr ac un sain chwanegol, sef sain yr u Gymraeg, yr hon sain yw pegwn y gyfres, fel hyn:—

u, ü ů, ö ȯ, υ y—7.

Y sain olaf o bob pâr yn y gyfres hon, ydyw dyfnllais y flaenaf.

*Graddfa gyffredinol y llafariaid.* Ffurfia llafariaid y tair cyfres uchod un raddfa gyffredinol o seiniau syml annibynol, y rhai a ddilynant eu gilydd yn rheolaidd a naturiol o'r sain fwyaf meinllais, sef yr *i* Gymraeg, hyd y sain fwyaf dyfnllais, sef yr *y* Gymraeg, yn un gadwen ddidor, gyssylltiedig, fel hyn:—

i ι, e ε, a *a*; **a o**, o *o*, ω w; u, ü ů, ö ȯ, υ y—19.


Os llefara y darllenydd yr holl seiniau hyn yn olynol, neu gynnifer o honynt ag a allo lefaru, cenfydd y ffurfiant gadwen gysson o seiniau llefarog, pob dolen o'r hon a gydia yn ei chymhares, o bob tu yn naturiol; a chenfydd y llithra y llais yn esmwyth ar hyd y gadwen, heb deimlo fod braidd ddim llai o gyssylltiad rhwng y naill ddolen a'r llall o'r naill ben i'r llall o'r gadwen. Dangosir ffurfiad peiriannol a pherthynas y llafariaid â'u gilydd yn bur amlwg a naturiol, trwy drefnu y raddeg fel y gwelir isod.

Gwelir yn y daflen ganlynol fod y tair cyfres, megys yn hanu o'r llafariad gyntefig *y;* a bod pob llafariad o'r gyfres ganol ond *u* ac *y* yn sefyll rhwng ei dwy riant, o natur y rhai y mae yn cyfranogi: mewn gwirionedd, amwys, o ran eu natur, ydyw holl seiniau y gyfres ganol. Y

Digitized by Google

rheswm dros osod *u* ac *y* megys o'r tu allan i'r raddeg yw, fod ieithyddion heb ganfod unrhyw seiniau cyferbyniol iddynt yn y gyfres uchaf ac isaf mewn un iaith adnabyddus. Sain Gymraeg neillduol ac arbenig ydyw yr *u*, heb fod, hyd y gwyddys, mewn un iaith arall.

Os seinir y llafariaid yn rhyddion neu ar eu pen eu hunain, megys yn y raddeg *i ι*, *e ε*, &c.; neu ar ol cydsain, megys lli, lle, &c., heb gael eu dilyn gan na chydsain na llafariad i attal eu sain, ymddengys fod tuedd naturiol yn eu sain i fod yn hir; gan hyny, yr ydym yn casglu mai y sain hir ydyw eu sain naturiol, er fod rhai ieithyddion enwog yn barnu yn wahanol; a'r sain hir, seml, cofier, sydd i'r holl lafariaid yn y raddeg ganlynol.




Dechreuer darllen y raddeg yma yn *i*, ac i lawr hyd *a*; yna croeser y gyfres ganol gyda'r llinell at *a*, ac i fyny hyd *w*; yna o *w* gyda'r llinell hyd *u*, ac i lawr hyd *y*, y llafariad gyntefig.

*Maint y llafariaid.* Wrth faint y llafariaid y golygir *parhad* neu *hyd* eu sain. Yn yr ystyr yma y dywedir fod y llafariaid yn "hir a byr." Nid oes dim gwahaniaeth canfyddadwy yn maint hir y llafariaid mewn un amgylchiad, am hyny nid yw y maint yma yn adranadwy.

Y mae maint byr y llafariaid o ddau fath: un yn terfynu yn esmwyth a diegni, megys yn *canu*, yr hwn a elwir y *maint canolig;* a'r llall yn terfynu yn sydyn, egnïol, a chwta, megys yn *capan*, yr hwn a elwir y *maint attaledig*, am ei fod bob amser yn cael ei attal gan y gydsain ddilynol. Yna y mae i'r llafariaid oll dri maint gwahanol o leiaf—hir, canolig, ac attaledig. Tuag at i orgraff (*orthography*) iaith fod yn fanwl gywir ac athronyddol, dylai pob llafariad yn mhob iaith gael tair llythyren wahanol i'w chynnrychioli, un am y sain hir, un am y sain ganolig, ac un am y sain attaledig. Fel hyn, er esampl, dylai yr *a* Gymraeg gael ei chynnrychioli gan dair llythyren wahanol, un am ei sain yn *tân*, y llall yn *tan* (*under*), a'r llall yn *capan*. Y mae gan wahanol ieithoedd wahanol ddulliau i geisio cynnrychioli y tri maint dan sylw yn eu horgraffau, y byddai yn rhy faith i ni gynnyg rhoddi esampl o honynt; ond nid oes dim cymmaint ag un iaith adnabyddus yn gysson ac athronyddol, yn ol yr eglurhad yma; ac ni chynnygir cynnrychioli dim mwy nag un o feintiolaethau y llafariaid yn egwyddor unrhyw iaith, oddi gerth fel eithriad yn unig. Y mae rhai yn meddwl mai amcan dechreuol yr *ε* a'r *η*, a'r *o* a'r *ω* Roeg, oedd dynodi gwahanol hydau y seiniau hyny; ac y mae anghreifftiau cyffelyb yn egwyddor ambell iaith arall gyda golwg ar rai o'r seiniau: ond nid oes un yn gysson gyda'u holl seiniau llafarol.

Pe caffai tri maint yr holl seiniau llafarol sydd yn y raddeg gyffredinol uchod eu cynnrychioli yn ddyladwy, byddai yn angenrheidiol cael 57 o lythyrenau i gynnrychioli y llafariaid yn unig; a byddai raid i'r Gymraeg gael 21 o lythyrenau i'w llafariaid, sef tair llythyren i ateb i dri hyd neu faint pob un o'i saith llafariad.

Os ystyrir hydau y llafariaid yn ddim ond dau, "hir a byr," y mae hydau neu feintiolaethau y llafariaid yn cyfateb yn gywir i leddfiadau y cydseiniaid. Fel hyn, megys y mae *â* ac *à* yn dynodi sain hir a ber *a*, felly y mae *p* a *b* yn dynodi sain gras a lleddf *p*:—ac yn gyffelyb am y lleill.

*Llafariaid trwynol.* Nid oes un o'r rhai hyn yn yr ieithoedd Celtaidd na'r Seisoneg. Ffurfir y llafariaid trwynol trwy y genau a'r ffroenau ar unwaith. Bernir y dichon i'r rhai hyn fod mor luosog a'r llafariaid geneuol y sylwyd arnynt yn barod. Dengys Bopp, yn ei Ramadeg Cymhariaethol, eu bod yn dra lluosog yn yr ieithoedd Indiaidd, yn enwedig y Sanscrit. Yr ieithoedd Ewropaidd a'u defnyddiant fynychaf ydyw y Bwylaeg, y Bortugaeg, a'r Ffrancaeg: yn yr olaf y maent y seiniau llafarog mynychaf yn yr iaith, ac yn rhoddi iddi lediaith drwynol dra dyeithr i'r Cymry.

Arwydd y llafariaid trwynol yn orgraff y Ffrancaeg ydyw *m* neu *n*; ond nid ydynt yn cael eu cynnrychioli yn benodol yn yr egwyddor; am hyny, ni sylwir yma ond yn bur fyr arnynt. Dengys Dalahaye-Beauliue (Dalaha-Bôlio) fod sain hir a ber y llafariaid trwynol Ffrancaeg yn y geiriau canlynol:—

Hir { pai*n*tre, cha*n*tre, bo*n*de, empru*n*te.
Byr { pai*n*, cha*n*t, bo*n*, empru*n*t.

*Dosbarth* II.—*Y cydseiniaid.* Y mae y dosbarth yma o seiniau yn cynnwys cymmaint o amrywiaeth, fel y mae yn bur anhawdd ffurfio deffiniad (*definition*) cywir a manwl o honynt: ond fel eglurhad cyffredinol arnynt, gellir dyweyd y ffurfir y cydseiniaid, naill ai trwy brin gyffwrdd rhyw ranau o geufanau y genau neu y trwyn â'u gilydd, fel nas gadewir ond rhedle pur gyfyng i'r sis lleisiol fyned trwyddo; megys wrth ffurfio *ff* yn *aff* neu *ffa*; *ng*, yn *ang* neu *nga*; *ll* yn *all* neu *lla*; *ch*, yn *ach* neu *chwi*: neu trwy gwbl gyffwrdd rhanau o'r ceufanau â'u gilydd, ond yn ysgafn, fel y clywir sibrwd grymialog yn nglŷn â'r effaith; megys wrth ffurfio *b* yn *ab* neu *ba*; *d* yn *ad* neu *da*; *g* yn *ag* neu *ga*: neu ynte trwy dŷn wasgu y ceufanau yn nghyd, fel nas clywir dim ond effaith y cyffyrddiad yn unig; megys wrth ffurfio *p* yn *ap* neu *pa*; *t* yn *it* neu *ti*; *c* yn *ac* neu *ca*.

Y cydseiniaid yn benaf sydd yn cynnyrchu dullweddiadau neu agweddau penodol yn sain y llafariaid, gan eu tori, megys, yn y fath fodd ag i ffurfio ymadrodd dealladwy. Yingais ydyw y cydseiniaid, fel y dywed y Dr. Payne, i ddosranu elfenau; ac y maent yn rhoddi addurn ac arbenigrwydd ac amrywiaeth i leferydd dyn, nas ceir y cyffelyb yn yr holl fyd. Gall y ddafad frefu *a*, a'r fuwch *y*, a'r tarw *w*; ac amryw greaduriaid ereill wahanol lafariaid, o'r fath ag ydynt; ond

Digitized by Google

gogoniant dyn yn unig ydyw amrywio ei lafariaid, a'u dosranu yn gysson a rheolaidd â chydseiniaid er ffurfio geiriau. Dyma y rhyfeddod fwyaf mewn natur, medd y Dr. Dewar: digon i daflu holl "gelfyddydau a gwybodau byd" i'r cysgodion am byth—arwydd amlwg o fys Duw!

Dywed ieithyddion fod y cydseiniaid yn cyfateb yn fanwl, mewn ystyr athronyddol, o ran rhif, a rhyw, a dosbarthiad, i'r llafariaid. Y mae rhai o'r cydseiniaid, fel y llafariaid, yn eneuol, a'r lleill yn drwynol; rhai yn wefusol a'r lleill yn ddeintiol; rhai yn daflodol a'r lleill yn orchfantol a sefnigol; ac, i gyfateb i faint hir a byr y llafariaid, fel y sylwyd, y mae rhai o'r cydseiniaid yn gras a lleddf, neu galed a meddal, neu lafar a sisialog. O blegid hyn, nid oes ond tua hanner rhif y cydseiniaid, fel y llafariaid, o ffurfiad gwir wahanol; canys nid yw *b*, er esampl, yn gwahaniaethu dim, o ran ffurfiad, oddi wrth ei chymhares gras *p*.

Sylwyd eisoes fod y llafariaid yn tarddu o'r *y* naturiol (y symlaf o'r cyfan) yn y sefnig, gan ddyfod rhagddynt ar hyd y gorchfant a'r taflod, hyd y gwefusau; ond am y cydseiniaid, yn y gwrthwyneb, dechreua pob haib (*group*) neu dwr o honynt hwy yn y gwefusau (*p* yw y symlaf o'r cyfan), gan fyned rhagddynt ar hyd y taflod a'r gorchfant hyd y sefnig.

Hefyd, y mae cymmaint o wahaniaeth rhwng llythyren cydsain a sain neu rym cydsain, ag sydd rhwng llythyren a sain neu rym llafariad, ond gyda hyn o wahaniaeth—mae y llafariaid, yn eu sefyllfa naturiol, yn annibynol, tra y mae y cydseiniaid yn mhob sefyllfa braidd yn ddibynol: o blegid hyn, y mae mwy o angenrheidrwydd, mewn ystyr, am lythyrenau i gynnrychioli y cydseiniaid mewn iaith, nag i gynnrychioli y llafariaid. Hyn, y mae yn dra thebyg, ydyw yr achos fod orgraff rhai hen ieithoedd, megys yr Hebraeg, y Galdaeg, a'r Arabaeg, heb lythyrenau i gynnrychioli eu llafariaid, tra y mae pob iaith ysgrifenedig adnabyddus yn defnyddio llythyrenau i gynnrychioli eu cydseiniaid. Mewn gwirionedd, y cydseiniaid, fel y dywed Grimm, ydyw "esgyrn geiriau."

*Y cyfunolion.* Ffurfir y dosbarth yma o seiniau syml, trwy ddwyn rhanau penodol o geufanau y genau a'r trwyn bron i gwbl gydgyffyrddiad, heb adael ond agorfa gyfyng i'r llais neu y sis fyned drwyddi.

Os cymherir y deffiniad yma â'r deffiniadau a roddasom o'r llafariaid a'r cydseiniaid, canfyddir fod yn bur anhawdd penderfynu i ba un o'r ddau ddosbarth mawr o seiniau syml y perthynant agosaf. Mewn gwirionedd, seiniau o natur wir amwys ydynt; y dolenau cywrain sydd yn cydio y ddwy gadwen fawr seinyddol (y llafariaid a'r cydseiniaid) yn nghyd; a gweinyddant mewn modd arbenig i ffurfio seiniau cymhlyg (*complex*) a chyfansawdd (*compound*) iaith; o blegid hyn yr ydym ni wedi anturio eu galw yn gyfunolion (*coalescents*). Y mae rhai o'r ieithyddion Seisonig yn eu galw yn golafariaid (*semi-vowels*); ond gellid eu galw mor briodol yn gogydseiniaid, gan eu bod yn dal perthynas mor agos, fel y dangoswyd â'r cydseiniaid ag â'r llafariaid. Nid oes gan ramadegwyr Cymreig enw penodol arnynt; ond gwelsom ysgrifenydd yn yr hen *Seren Gomer* yn galw dwy o honynt yn "*i* gydsain, ac yn *w* gydsain." Heb law hyn, y mae rhai o'r gramadegwyr Cymreig yn defnyddio y gair "golafariaid," er yn anmhriodol, fel y tybir, i ddynodi rhai o'r *parhadolion*, megys *ch, dd, ff, ng, l, ll, m, n, r, s, th*. O herwydd hyn, anturiasom ddefnyddio enw newydd.

Y mae tri math o'r seiniau hyn, a ffurfir yn y tri phrif ddosbarth o'r genau fel peiriant ymadrodd, sef y gwefusau, y taflod, a'r sefnig: ac y mae y prif seinyddion, Rapp ac Ellis, yn rhanu pob un o'r sefyllfaoedd hyn yn dair adran, sef, allanol, canol, a mewnol; ond y dull mwyaf syml ydyw ymdrin â hwy yn dri dosbarth, yn ol tair prif sefyllfa y peirannau llafar, yn y rhai y ffurfir hwynt.

1. *Y cyfunoliaid gwefusol.* Ffurfir y sain gyntaf o'r rhai hyn yn y parth allanol o'r sefyllfa wefusol; a hon ydyw y sain a gynnrychiolir yn y Gymraeg â'r llythyren *w* yn cael ei dilyn yn gyffredin gan lafariad yn yr un sill; megys *wi*, *we*di, *wa*b, g*wo*br, g*wy*ll, g*wy*rddion. Yn Seisoneg, *we*, *way*, qualm, *war*, *woe*, *woo*.

Ceir y sain yn y Gymraeg mewn amryw sefyllfaoedd ereill; megys rhwng *g* ac *l*—*gwla*d; rhwng *g* ac *n*—*gwne*uthur; rhwng *g* ac *r*—*gwra*ig; ac mewn cyfansoddiad—fy *ngwlad*, fy *ngwn*eadur, fy *ngwraig*; ei *wlad*, ei *wneu*thurwr, ei *wraig*.

Hefyd, mewn geiriau fel hyn:—gwedd*w*dod, gwel*w*las, llaeth*w*raig, &c.

Hefyd, ar ol *ch* gyntefig bob amser; megys *chw*ith, *chw*edl, *chwa*er, *chwy*rn, &c.

Y mae yn brawf fod y sain hon yn cyfranogi o natur cydsain yn y sefyllfaoedd a nodwyd, am nad yw yn chwanegu sill at y geiriau. Y mae y sain hon yn cyfateb mewn modd nodedig i'r "*shefa* syml" Hebraeg, pan y dygwydd y *shefa* yn nechreu geiriau; megys קטל (=*c'tol*), מלא (=*m'male*), מקטל (=*m'cattêl*), &c. Y gwahaniaeth rhyngddynt ydyw mai hanner *w* yw y gyfunoliad Gymraeg, pan mai "hanner *e*," medd Gesenius, ydyw y *shefa* Hebraeg, fel yr ymddengys wrth ei bod yn troi yn *seghol* pan gaffo ei hwyhau.

Prawf arall fod y gyfunoliad dan sylw yn cyfranogi o natur cydsain ydyw, y cymmer y fannod *y* yn hytrach nag *yr* o'i blaen mewn cyfansoddiad Cymraeg; megys, *y wib*, *y wedd*, *y wawch*, *y wobr*; *y wlad*, *y wraig*, &c.; nid *yr wib*, *yr wedd*, *yr wraig*, &c.

Y mae yn hysbys nad oes gan y Seison na'r Cymry lythyren wahanol i ddynodi y sain hon (*w* sydd gan y naill a'r llall); gan hyny, defnyddir 𝔟 Almaeneg yma i'w gwahaniaethu.

Ffurfir y gyfunoliad nesaf yn y parth canol o'r sefyllfa wefusol, a cheir hi yn fynych yn yr Almaeneg, mewn geiriau fel hyn:—*wie*, *weh*, *wo*, *wund*.

Ymdebyga y gyfunoliad yma i sain *w* a *b*, am y ffurfir hi gan y gwefusau yn unig; tra yr ymdebyga i *f* Gymraeg yn y dull a gymmer y wefus isaf wrth ei ffurfio; canys pe tynid hon ychydig fwy yn ol, tarawai finion y dannedd uchaf, ac felly ffurfid *f*. Ystyria y Dr. Rapp y sain yma yn un bur bwysig mewn seinyddiaeth. Dynodir hi yma âg 𝔲 Almaeneg.

Y mae cyfunoliad arall yn y Gymraeg, a ffurfir yn y parth mewnol o'r sefyllfa wefusol, bron ar y dannedd, yn yr un fan ag *u* lafariad, megys yn c*au*, h*au*l; a dywedir fod *uâ* yn sain arferedig gan y Negroaid; ac y mae *uê*, *uô*, *uŵ*, yn seiniau hollol ynganadwy i Gymro. Dynodir hi yma â ו Hebraeg.

Ffurfia y tair hyn gyfres gysson a chyflawn, fel y tybir, o gyfunoliaid gwefusol, fel hyn:—

𝔟, 𝔲, ו—3.

Cyssyllta y ddwy flaenaf y llafariaid a'r cydseiniaid yn nghyd, fel yma:—

o *w*—𝔟 𝔲—*f b*, &c.

Digitized by Google

Cyssyllta yr olaf y llafariaid â'r cydseiniaid, fel hyn:—

*y* u—ι—*dd th*, &c.

2. *Y cyfunoliaid taflodol a gorchfantol.* Y gyntaf o'r rhai hyn (y daflodol) a gynnrychiolir yn awr yn y Gymraeg â'r llythyren *i*, yn cael ei dilyn bob amser gan lafariad yn yr un sill; megys yn *i*echyd, *i*aith, *I*or, *i*wrch, *I*uddew, *i*yrchod. Yn y Seisoneg—*ye, yea, yard, yawn, yearn, yoke, you.*

Galwyd hon gan rai o'r Cymry, fel yr awgrymwyd, yn "*i* gydsain," mewn cyferbyniad i "*i* lafariad," yn tor*i*, &c. Gellid cynnrychioli y sain yma yn hwylus yn y Gymraeg â *j*, yr hyn a wneid yn weithredol yn nghyfieithiad Salesbury, Morgan, a Parry; ac yn ngwaith Edmund Prys, Morus Cyffin, Ellis Wynn, Charles Edwards, E. Samuel, ac ereill, hyd o fewn oes neu ddwy yn ol; canys y mae gwaith y gwŷr hyn yn frith o honi mewn geiriau o fath jawn, jechawdjwrjaeth, jajth, Juddewon, Jesu, Jachawdwr, Jehofah, Jah, heb son am Job, Josua, Joseph, Jerusalem, Jeremiah, &c. Hyn a roddodd achlysur i'r anwybodus o'r Cymry, a ddaethant i feddu crap ar y Seisoneg, i ddyweyd dzehofah, dzah, dzob, dzoseph, dzerusalem, &c. Dylent felly ddywedyd, wrth ddarllen gwaith y gwŷr a nodwyd, pe gwelent ef, dzawn, dzachawdwrdzaeth, dzuddewon, dzachawdwr, &c.; canys y mae yr un sail yn union i'r naill a'r llall; er fod lle i ofni fod yr amryfusedd wedi myned yn awr yn rhy hen i'w feddyginiaethu. Nid ydyw y sain gyfansawdd *dz* (*j* Seisonig) yn yr Hebraeg, y Groeg, na'r hen Ladin, mwy nag yn y Gymraeg; a gwyddai y gwŷr a enwyd hyn yn dda; a diau na ddaeth erioed i'w meddwl fod perygl i'r Cymry ei harfer, pan y defnyddient hi i gynnrychioli "yr *i* gydsain." Y sain yma sydd i'r *j* yn yr Almaeneg, yr Hungaraeg, y Gothaeg, &c. Gan hyny, defnyddiwn ninnau hi yn awr i gynnrychioli yr un sain.

Ceir y gyfunoliad daflodol dan sylw yn fynych heb law yn nechreu geiriau; ond bydd yn wastad yn dechreu sill, ac yn cael ei dilyn gan lafariad; megys gwyljed, gwerthjad, syrthjo, carjadus, &c. Ni chwanega y sain yma sill at y gair mewn un sefyllfa, fel y gwna yr "*i* lafariad" yn gwedd*i*, gwedd*ï*o, &c.

Ymddengys, ar y cyfan, fod mwy o ansawdd llafariad yn yr "*i* gydsain" nag sydd yn yr "*w* gydsain;" canys y mae y fannod *yr* yn fwy hysain, braidd, o flaen hon, nag *y*, megys *yr j*echyd, *yr j*ajth, (iaith), *yr J*or, *yr J*uddewon, *yr j*wrch, &c., er mai *y j*echyd, *y j*ajth, &c., oedd fynychaf yn yr hen amseroedd, yn enwedig yn y Deheubarth, os nad ydyw ar arfer yno hyd eto. Pa fodd bynag, nid yw y dewisiad yma i'w gael mewn un modd gyda'r *w* gydsain, fel gyda'r *j* neu yr *i* gydsain.

Y mae cyfunoliad arall o ffurfiad pur debyg i'r *j*—*i*, ond ei bod yn fwy gorchfantol—bron yn sefnigol—a glywir yn lled fynych yn yr Almaeneg a'r Ffrancaeg; megys, *Alm.* ber*g*, eini*g*; *Ffr.* fill*e*, a*il*, pere*il*.

Gellir defnyddio ȷ heb y nodyn uwch ei phen, i gynnrychioli hon, er mwyn ei gwahaniaethu yma oddi wrth y llall (*j*). Yna, gellir dangos cynaniad yr anghreifftiau uchod yn lled gywir, fel hyn:—berȷy, ainȷy; ffiljy, aiȷ, periȷ.

Ffurfir y sain yma yn ngwir sefyllfa *g*, â'r hon y mae yn dwyn perthynas agos. Dwy sain o'r gyfres yma o gyfunoliaid taflodol sydd yn adnabyddus, sef y ddwy a nodwyd—

j ȷ.

Cyssyllta y rhai hyn y llafariaid a'r cydseiniaid ynghyd, fel yma—

*e i*—*j ȷ*—*g c*.

Nis gall neb a fedr seinio y pedair sill isod yn briodol, lai na chlywed y cyssylltiad—

*ie, jê, ȷê, gê.*

3. *Y cyfunoliaid sefnigol.* Ar ol rhoddi y peiriannau llafar mewn agwedd addas i seinio rhyw lafariad, ac i'r brefant (*larynx*) gael ei barotoi i ynganu sain lafarog, gall y sain lafarog a ynganer gael ei rhagflaenu, ac megys ei chymmysgu âg amryw wahanol ddulliau o seiniau ebychiol, a elwir yma yn "gyfunoliaid sefnigol," am mai yn y sefnig, yn benaf, y maent yn cael eu ffurfio yn wreiddiol, yn yr un sefyllfa a'r "llafariad gyntefig," *y*, ond eu bod hwy yn meddu rhyw ansawdd amwys sydd yn eu cymhwyso i ymgyfuno â phob un o'r llafariaid, ac âg amryw o'r cydseiniaid hefyd, i ffurfio seiniau cymhlyg a chyfansawdd, a hyny yn y fath fodd, fel y bydd yn anhawdd eu gwahaniaethu oddi wrth sefyllfa beiriannol y sain â'r hon y byddont yn gyssylltiedig, pa un bynag ai sefnigol, taflodol, ai gwefusol a fyddo hono. Prif gynnrychiolydd y seiniau amwys hyn, yn yr ieithoedd Ewropaidd, yw y llythyren *h*, sain yr hon a glywir mewn cyssylltiad â llafariaid yn y geiriau Cymraeg *h*ir, *h*en, *h*ad, *h*oll, *h*wy, *h*un, *h*ynaf; ac mewn cyssylltiad â rhai o'r cydseiniaid yn (fy) *ngh*lun, (fy) *ngh*nawd, (fy) *ngh*roen; (fy) *mh*lant, (fy) *mh*ryd; (fy) *nh*lws, (fy) *nh*raed, &c.

Dywed seinyddion fod wyth neu naw o amrywiadau canfyddadwy i'r sain yma yn ngwahanol ieithoedd y byd, yn benaf yn yr ieithoedd dwyreiniol. Ni wneir yma ond eu crybwyll.

*a. Yr anadleb feddal.* Perthyn hon i'r Roeg a'r ieithoedd Semitaidd.

*b. Yr anadleb sisialog.* Nid ydyw Rapp yn rhoddi esampl o hon, ond traetha yn helaeth arni.

*c. Yr anadleb arw.* Perthyn hon yn benaf i'r Sanscrit a'i changenieithoedd Indiaidd.

*d. Yr ebychsain sisialog.* Hon ydyw sain yr *h* Gymraeg a Seisoneg, ac amryw ieithoedd Ewropaidd ereill.

*e. Yr anadleb ysgyfeintig.* Ceir hon yn fynych yn yr Arabaeg.

*f. Yr ebychsain ysgyfeintig.* Sain Arabaidd yn benaf ydyw hon hefyd.

*g. Yr anadleb hybiol.* Ceir hon yn fynych yn yr Arabaeg a'r Almaeneg.

*h. Y ddyheueb.* Clywir hon yn aml, medd Volney, mewn parth o Syria, yn enwedig yn Damascus, Beyrout, ac Acre.

*i. Yr anadleb gydwasyedig—y cydwasgiad.* Hon ydyw y fwyaf sefnigol o'r cwbl, ac y mae yn yr Arabaeg, yr Hebraeg, a'r Roeg.

Nid cywir hen ddywediad Sion Rhydderch, a ailadroddir gan amryw o'r gramadegwyr Cymreig, sef, "nad ydyw *h* yn llythyren" (sain, a feddylir, mae yn debyg); canys prawf prif seinyddion y byd fod mwy o sain yn hon nag sydd mewn odid un sain arall ond y llafariaid yn unig.

Cyssyllta y gyfunoliad yma (heb son am ei hamrywiadau) y llafariaid a'r cydseiniaid yn nghyd, yn benaf fel hyn:—

*u y*—*h*—*ch c*, &c.

Cynnrychiolir yr holl gyfunoliaid, o'r rhai gwefusol hyd y sefnigol, yn ein cynllun yma, fel hyn:—

b u, ι, *j ȷ*, *h*—6.

*Y parhadoliaid.*[1] Wrth ffurfio y dosbarth yma

[1] Fel enw dynodol neu gefyddydol (*technical*) yn unig y gellir cyflawnhau yr arfer o alw y seiniau hyn yn *bar-*

Digitized by Google

o seiniau, dygir gwahanol ranau ceufanol y genau mor agos i gydgyffyrddiad, fel na chlywir ond sis yn unig wrth i'r anadliad llafarog fyned trwy y peiriannau. Y mae i'r rhai hyn sain ynddynt eu hunain, medd y Dr. Beard, er nad ydyw mor berffaith a sain y llafariaid, nac hyd yn oed a sain y cyfunoliaid.

Y parhadolion gwefusol yw *ff*, *f*, yn y geiriau Cymraeg *caff*, *ffa*; *caf*, *fi*. Seisoneg, *reef*, *feel*; *leave*, *veal*.

Prin y mae eisieu coffa fod sain *ff* mor syml a sain *f*, er fod y llythyren yn ddyblyg. Nid yw *f* yn dechreu un gair Cymraeg cyntefig, pur, ond mewn cyfansoddiad yn unig, pan yn lleddfiad o *b* neu *m*, er fod amryw yn awr ar arfer, megys *fel*, *felly* (tarddedig o *mal*), &c.

*Y parhadoliaid deintiol* yw *th*, *dd*, yn y geiriau Cymraeg *llith*, *ethol*; *bodd*, *addef*. Seisoneg, *doth*, *thin*; *breathing*, *then*. Y mae sain y ddwy lythyren ddyblyg hyn eto yn berffaith symi. Ni cheir nac *th* nac *dd* yn nechreu geiriau Cymraeg, ond fel lleddfiadau o *t* a *d*.

*Y parhadoliaid taflodol* yw *s*, *z*. Ceir y flaenaf yn y geiriau Cymraeg *sis*, *sain*; a'r olaf yn Seisoneg, *buzz*, *zeal*. Nid ystyrir *z* yn llythyren Gymraeg. Y mae lluaws o ieithoedd heb rai seiniau lleddf, a lluaws ereill heb rai seiniau cras.

*Y parhadoliaid gorchfantol*. Cynnrychiolir y rhai hyn yma â *sh* a *zh*, am nad yw y llythyrenau sengl a ddefnyddir gan seinysgrifwyr yn adnabyddus i'r cyffredin. Defnyddir *sh* yn yr orgraff Seisoneg yn fynych am sain y flaenaf; megys tra*sh*, *sh*all; a rhoddir sain yr olaf yn aml i *s*, megys plea*s*ure, vi*s*ion. Y mae y ddwy sain yn berffaith syml, er y dynodir hwy yma â llythyrenau dyblyg. Ffurfir y seiniau hyn yn sefyllfa *g*, trwy osod y tafod yn yr un ystum ag wrth ynganu *s*, gan ostwng ei fôn, tra y gyrer y sain sisialog trwy y genau. Clywir sain gyffelyb i'r gras yn fynych yn mharabliad y Gymraeg bresennol, pan ddilynir *s* gan *ie*, *ia*, *io*, *iw*; megys yn *si*eryd, *si*arad, *si*ol, cei*siw*n. Nid yw y sain hon mor ddwfn yn y genau a'r sain Seisonig. Cynnrychiolir hi unwaith yn y Beibl Cymraeg âg *sh* yn "Shibboleth" (*Barn.* xii. 6). Nid yw y sain leddf (*zh*) yn dygwydd yn y Gymraeg o gwbl hyd yr ydys yn cofio.

*Y parhadoliaid sefnigol* yw *ch*, *gh*. Ceir y flaenaf yn y geiriau Cymraeg gwi*ch*, *ch*we*ch*; a'r olaf yn y geiriau Almaeneg coni*g*e, re*g*ierung. Seiniau syml ydyw y ddwy hyn eto, er fod y llythyrenau yn ddyblyg. Nid ydyw sain leddf *ch*, sef *gh*, yn seml yn y Gymraeg: y debycaf iddi ydyw *gh* yn gwa*gh*au, coe*gh*olion; ond y mae hon yn gyfansawdd; *g*—*h*, tra y mae yr *gh* uchod yn gwbl syml. Dywed Rapp ac ereill, mai y sain seml dan sylw yw sain briodol y ג (gimel) Hebraeg ac Arabaeg, a'r γ (gamma) Roeg; ac mai yr un sain a roddir yn fynych i'r *g* Bortugaeg ac Isdiraeg. Y mae y sain gras (*ch*) yn holl ieithoedd Ewrop (heb son am y rhai dwyreiniol), ond y Lladin, yr Italaeg, y Ffrancaeg, a'r Seisoneg.

Cynnrychiolir y parhadoliaid, o'r rhai gwefusol hyd y sefnigol, yn ein cynllun ni, fel hyn:—

*ff f*, *th dd*, *s z*, *sh zh*, *ch gh*—10.

*Y tawddleddfiaid.* Y mae y tawddleddfiaid o ddau fath—geneuol a thrwynol.

1. *Y tawddleddfiaid geneuol.* Ffurfir y rhai hyn trwy ddwyn ceufanau y genau yn bur agos i gydgyffyrddiad, ond nid yn llwyr mor agos ag wrth ffurfio y parhadolion; canys tuedda sain y tawddleddfiaid at lais yn hytrach na sis, ar fynediad yr anadl lafarog trwy y genau.

Y mae amryw ddosbarthiadau o'r rhai hyn; megys,

*a. Deintiol.* Ffurfir y rhai hyn trwy roddi blaen y tafod yn dỳn wrth fôn y dannedd uchaf, gan wthio yr anadl sisialog heibio i ochr chwith y tafod wrth ynganu y sain gras. Hon ydyw yr *l* Bwylaidd â llinell ar ei thraws. Dynodir hi yma â λ (lambda) Roeg. Y mae hon yn dra thebyg i'r *ll* Gymraeg, ond fod hon yn gwbl ddeintiol. Gall fod sain leddf iddi, ond nid ydys yn gwybod fod ond y gras yn cael ei harfer.

*b. Taflodol.* Dyma seiniau Cymraeg yr *ll* a'r *l* yn ho*ll*, *ll*awn; (ei) *l*aw, wy*l*o. Y mae y ddwy sain hyn yn hollol syml, er y cynnrychiolir y flaenaf â llythyren ddyblyg. Nid yw *l* yn dechreu un gair Cymraeg cyntefig ond fel lleddfiad o *ll*. Credwn fod yr *l* Gymraeg yn cael ei ffurfio yn nes i'r dannedd ar y taflod, na'r *l* Seisonig; a bod hyn yn un achos o lediaith y Cymry wrth siarad Seisoneg.

*c. Blaendaflodol.* Clywir y sain benaf o'r twr yma yn y geiriau Cymraeg câ*r*, e*r*w; ac ar ddechreu geiriau Seisonig, neu rhwng dwy lafariad; megys *r*ow, spi*r*it. Cynnrychiolir hon yn y rhan fwyaf o ieithoedd Ewrop âg *r*. Nid yw y sain yma yn dechreu geiriau Cymraeg ond fel lleddfiad o *rh*. Rhestra rhai seinyddion enwog *rh* fel sain syml sisialog *r*; ond nis gallwn ni ganfod ei bod yn fwy syml nag *ngh*, *mh*, neu *nh*; ac ymddengys mai felly y barnai yr hen seinyddion Cymreig, pan y gadawsant hi allan o'r egwyddor.

Rhestra Rapp ac ereill sain ddyrys yr *rz* Bwylaidd yn y dosbarth yma yn mysg y seiniau syml. ond cyn belled ag y deallwn ni yr anghreifftiau (b*rz*mi, t*rz*cinie) a'r eglurhad arnynt, sain gymhlyg neu gyfansawdd ydyw hono hefyd.

*d. Bondaflodol.* Rhydd Rapp ac Ellis amryw seiniau yn y dosbarth yma: ond nis gallwn ni ddirnad fod un o honynt yn gwbl syml ond y sain a glywir yn y geiriau Seisonig co*r*d, moo*r*, a'r cyffelyb, yr hon a ffurfir yn y gwddf, yn sefyllfa *ch* neu *h*. Y mae y sain yma yn dra gwahanol i sain yr *r* Gymraeg; ac y mae peidio ei seinio yn briodol yn un o brif nodweddau llediaith Gymreig wrth siarad Seisoneg. Er mwyn gwahaniaethu yma rhwng hon a'r sain Gymreig, dynodir hi ag ρ (rho) Roeg. Yna saif y tawddleddfiaid syml yn ein cynllun ni fel hyn:—

λ, *ll l*, *r* ρ—5.

2. *Tawddleddfiaid trwynol.* Y gwahaniaeth rhwng ffurfiad y rhai hyn a'r tawddleddfiaid geneuol yw, y gyrir yr anadl lafarog drwy y trwyn, tra y clywir rhan o honi megys yn dianc trwy y genau hefyd. Y mae amryw fath o'r rhai hyn eto.

*a. Y drwynoliad wefusol*, sef *m*, yn y geiriau Cymraeg ca*m*, *m*i. Y mae hon agos yn mhob iaith yn lled gyffelyb.

*b. Y drwynoliad ddeintiol.* Dengys Bopp mai sain Sanscrit ydyw hon, a elwir yn yr iaith hono yn *n ymenyddol*. Dynodir hi yma â ν (nu) Roeg.

*c. Y drwynoliad olddeintiol.* Hon ydyw yr *n* Gymraeg yn câ*n*, *n*ai*n*. Bernir fod hon yn nes i'r dannedd ar y taflod o gryn lawer na'r nesaf.

*d. Y drwynoliad daflodol* neu *oldaflodol*. Dyma yr *n* Seisoneg yn ca*n*, *n*o*n*e. Dynodir hon âg y

*hadoliaid*; o blegid y mae y llafariaid, y cyfunoliaid, a'r tawddleddfiaid yn barhaol eu sain, cystal a hwythau. Y mae y gair yma yn rhy eang am y seiniau hyn, fel y mae y gair *cydseiniaid* yn rhy gyfyng i ddynodi yr holl seiniau ond y llafariaid.

Digitized by Google

Italaidd; ac y mae defnyddio yr *n* olddeintiol Gymraeg yn ei lle yn peri llediaith.

*e. Y drwynoliad sefnigol.* Hon ydyw **sain *ng*** yn y geiriau Cymreig, llo*ng*, a*n*gel. Nid ydyw y sain hon yn dechreu geiriau Cymreig ond fel lleddfiad o *g*—*g*wg, (fy) *ng*wg. **Dyma restr o'r** trwynoliaid:—

m, *ν* n *n*, ng—5.

*Y ffrwydroliaid.* Gelwir hwy **gan rai yn** ***fudseiniaid***, ac ereill **a** eilw y rhai hyn a'r parhadoliaid yn fudseiniaid; ond y mae natur y ddau ddosbarth yn dra gwahanol, ac y mae eisieu rhyw enw gwahanol arnynt: a ffrwydroliaid (*explodents*) y maent yn cael eu galw gan y prif seinyddion.

Wrth **ffurfio y rhai hyn, dygir** ceufanau y genau i gwbl gydgyffyrddiad, fel, wrth ynganu y naill hanner o honynt, na chlywir dim ond effaith y cydgyffyrddiad yn unig; ac wrth ynganu y lleill, na chlywir ond sibrwd grymialog, megys yn rhagflaenu y cydgyffyrddiad.

*a. Y ffrwydroliaid gwefusol* yw **sain *p*, *b*,** yn y geiriau Cymreig ha*p*, *p*en; ma*b*, *b*ach.

*b. Y ffrwydroliaid taflodol.* Y mae y rhai hyn yn dri dosbarth, yn ol tair adran y parth yma o'r peiriannau llafar.

(1.) *Allanol—wrth y dannedd.* Yma y ffurfir t, d, yn y geiriau Cymreig pa*t*, *t*ad; ca*d*, *d*a.

(2.) *Canol—gwir daflodol.* Ffurfir y rhai hyn trwy osod blaen y tafod yn erbyn canol y taflod, yn dŷn wrth ynganu y sain gras, ac yn llacach wrth ynganu y leddf. Dyma seiniau priodol *t*, *d*, Seisoneg, megys yn y geiriau fa*t*, *t*all; ba*d*, *d*irt. Y mae cynanu y rhai hyn, yn enwedig *d*, yn wir dafiodol, yn un o neillduolion y Seisoneg rhagor y Gymraeg. Dynodir hwy yma **â** *t*, *d*, Italaidd.

(3.) *Mewnol—gorchfantol.* Ffurfir y seiniau hyn trwy wrthdroi y tafod fel y cyffyrddo ei waelod â'r gorchfant, ac yr ynganir seiniau dwfn, tebyg i'r *t*, *d*, Seisoneg, ond llawer mwy gorchfantol. Dywedir mai seiniau Sanscrit ac Arabaidd yw y rhai hyn; a hysbysa Oberleinter yr ystyria yr Arabiaid wir ynganiad y sain leddf yma yn arwydd o nodwedd Arabiad brodorol, yr hyn a ddengys fod gwahanol ynganiad y sain yn adnabyddus i'r genedl. Dynodir y seiniau hyn genym ni â'r *τ* (*tau*), *δ* (*delta*) Roeg.

*c. Y ffrwydroliaid sefnigol.* Y mae tri amrywiad o'r rhai hyn eto.

(1.) *Allanol—gorchfantol.* Hon ydyw y sain a rydd y Ffrancod bob amser i'r *q*, pan yn cael ei dilyn yn yr un sill gan lafariad daflodol neu oldaflodol, megys yn *q*uelque, *q*uête, *q*uene. Dyma y sain yn ddiau a roddir yn gyffredin i'r *c* yn y geiriau Cymreig *c*i, *c*ig, *c*effyl, *c*eg, &c. Hon ydyw y sain a roddir yn Meirion a Maldwyn i'r *c* yn mhob amgylchiad. Sain leddf y pâr yma a roddid i'r *g* yn hen gynaniad y Seisoneg, yn y gair *g*arden, a'r cyffelyb; a dyma y sain a roddir yn gyffredin i'r *g* yn y geiriau Cymreig (ei) *g*ist, (ei) *g*efn, &c., cystal a sain *g* Meirion a Maldwyn. Dynodir y ddwy sain yma genym âg *c* a *g* Italaidd.

(2.) *Canol*, sef sain yr c a'r g Gymraeg yn **câ**n, côr, cur, cwn, cynnyg, &c.; *g*alar, *g*olwg, *g*ubain, *g*wr, *g*yru, &c., sef yn gyssylltiedig â'r holl lafariaid ond *i* ac *e*.

(3.) *Mewnol.* Hon ydyw gwir sain y *caph* Arabaeg a'r *cappa* Roeg: mae yn fwy gyddfol na'r *c* flaenorol. Dynodir hi yma â'r *κ* Roeg. Nid yw y sain leddf gyferbyniol yn adnabyddus. Dyma daflen o'r ffrwydroliaid:—

p b, t d, *t d*, *τ δ*, *c g*, c g, k—13.

Yn awr, yr ydym yn alluog i roddi golwg gryno a chyflawn i'r darllenydd o bob dosbarth o leiaf, o seiniau syml, os nad o bob sain unigol, a all y tafod dynol eu hynganu. Os trefnir y seiniau hyn—sef, y cyfunoliaid, y parhadoliaid, y tawddleddfiaid, a'r ffrwydroliaid—yn gyfres yn ol eu ffurfiad mwyaf naturiol, tybir y safant fel hyn:—

**Ffrwydroliaid.**

| | *Mudion.* | *Gofudion.* |
|---|---|---|
| Cras | p, t, *t*, *τ*; | *c*, c, k; |
| Lleddf | b, d, *d*, *δ*; | *g*, g,—. |

**Parhadoliaid.**

ff, th, s, sh, ch;
f, dd, z, zh, gh.

**Tawddleddfiaid.**

| | *Geneuol.* | | *Trwynol.* |
|---|---|---|---|
| Cras | *λ*, ll, | r, *ρ*; | m, *ν*, n, *n*, ng. |
| Lleddf | —  l, | | |

**Cyfunoliaid.**

ŀ, u, ı, ȷ, ȷ, h—27.

Gwelir fod 12 o'r seiniau hyn yn gras a lleddf; 13 yn amwys, heb fod na chras na lleddf; a dwy gras heb rai lleddf cyfatebol, oll yn 27. Os cyfrifir y 12 lleddf yn seiniau gwahanol, bydd y nifer oll yn 39, rhwng cras, lleddf, ac amwys.

Rhydd y daflen sydd ar y td. canlynol olwg gryno ar berthynas beiriannol a threfniad athronyddol gwahanol ddosbarthiadau y cydseiniaid.

Gwelir yn y daflen y gellir ystyried ff, f, yn ddeintiol cystal a gwefusol; t, d, th, ı, dd, λ, ν, yn ddeintiol cystal a thaflodol; ac c, g, ȷ, a, ȷ, yn orchfantol cystal a sefnigol. Mewn gwirionedd, seiniau amwys o ran peiriannaeth ydyw yr holl seiniau allanol a mewnol—y dolenau sydd yn cyssylltu y naill ddosbarth peiriannol wrth y llall; a gellid eu cyfleu yn y naill ddosbarth bron mor briodol ag yn y llall.

Yn awr, gellir sicrhau am y cydseiniaid a'r cyfunoliaid, megys y gwnaed am y llafariaid, pa nifer bynag a ddichon fod o honynt yn ngwahanol ieithoedd y byd, y rhaid eu bod oll yn perthyn i un o'r tri phrif ddosbarth sydd yn y daflen dan sylw—y gwefusoliaid, y taflodoliaid, neu y sefnigoliaid, ac i'w hadraniadau—allanol, canol, neu fewnol; ac nis gallant fod ond amrywiadau o'r seiniau sydd yn un o'r deuddeg pedryfal sydd yn y daflen.

Os trefnir yr holl seiniau syml a nodwyd, yn llafariaid, cyfunoliaid, a chydseiniaid, yn un gyfres, gellir galw y gyfryw gyfres, yn briodol, yn Egwyddor Gyffredinol. Y mae amryw ddulliau y gellid eu dilyn wrth gynllunio trefniad egwyddor, megys y dull cylchynol a welir yn nhrefniad yr egwyddor Hebreig, a eglurir yn fanwl, td. 247. Neu, gellid trefnu yr egwyddor, yn ol ffurfiad peiriannol y gwahanol seiniau, gan roddi llafar-

Digitized by Google

laid priodol rhwng pob dosbarth o seiniau: ond yn yr Egwyddor Gyffredinol isod, dilynwn ni y dull syml trwy osod y llafariaid yn mlaenaf, yna y cyfunoliaid, ac wedi hyny y cydseiniaid, yn ol eu cyflead yn y daflen ganlynol, heb amcanu at unrhyw gyfundrefn egwyddorol fanylach a ellid ei ffurfio yn ol cyssylltiad priodol y gwahanol seiniau â'u gilydd.

| DOSBARTHIAD PEIRIANNOL. | | DOSBARTHIAD SEINYDDOL. | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | FFRWYDROLIAID. | | PARHADOLIAID. | | | TAWDDLEDDFIAID. | | | |
| | | | | | | | GENEUOL. | | | TRWYNOL. |
| | | Cras. | Lleddf. | Cras. | | Lleddf. | Cras. | | Lleddf. | Amwys. |
| GWEFUSOLIAID - | Allanol | p | b | | ƀ | | | | | m |
| | Canol | | | | ŭ | | | | | |
| | Mewnol | | | ff | | f | | | | |
| Deintoliaid | | | | | ɿ | | | | | |
| TAFLODOLIAID - | Allanol | t | d | th | | dd | λ | | | ν |
| | Canol | *t* | *d* | s | | z | ll | | l | n |
| | Mewnol | τ | δ | sh | | zh | | r | | *n* |
| Gorchfantoliaid | | | | | j | | | | | |
| SEFNIGOLIAID - | Allanol | *c* | *g* | | ȷ | | | | | |
| | Canol | c | g | ch | | gh | | | | ng |
| | Mewnol | k | | | h | | | ρ | | |

EGWYDDOR GYFFREDINOL O'R HOLL SEINIAU SYML CRYBWYLLEDIG.

i ɩ e ε a *a* ă ŏ o *o* ω w u ü ü ö ȯ υ y; h ȷ j; ɿ ƀ ŭ; p b m ff f t d th dd λ ν *t* *d* s z ll l n τ δ sh zh *r* *n* *c* *g* c g ch gh ng k ρ—58.

Yn awr, ni a edrychwn pa seiniau o'r gyfres gyffredinol hon a gynnrychiolid yn egwyddorau rhai o'r hen genedloedd y dengys hanes eu bod yn mysg y rhai boreuaf a arferent lythyrenau egwyddorol i ysgrifenu eu hieithoedd; ac a sylwn hefyd yn fyr ar rai o'u hegwyddorau.

Y mae ieithwyr yn barnu yn gyffredin, fel yr awgrymwyd eisoes, fod pob llythyrenau sydd yn cael eu defnyddio yn awr yn Ewrop wedi tarddu yn ddechreuol o lythyrenau y Phœniciaid—un o lwythau boreuaf tir Groeg. "Y mae tair barn," medd Astle [td. 66, nodiad], "yn cael eu coleddu am ddechreuad llythyrenau Groeg: y gyntaf yw, mai Cadmus oedd y dyfeisiwr; yr ail a'u priodola i Cecrops; a'r drydedd yn fwy tebygol i'r Pelasgiaid." Y Pelasgiaid ydoedd preswylwyr hynaf Groeg, cyn belled ag y gwyddai y Groegiaid eu hunain. Yr oedd teyrnach penaethiaid Pelasgiaidd yn Ngroeg cyn bod crybwylliad am unrhyw deyrnach arall yn nhraddodiadau y Groegiaid. Y mae Danaus yn y nawfed, Deucalion yn yr wythfed, a Chadmus yn y seithfed genedlaeth o flaen rhyfel Troia; ond y mae Phoroneus y Pelasgiad yn y ddeunawfed genedlaeth o flaen y cyfnod hwnw. Y mae y traddodiadau Groegaidd yn dangos fod hiliogaeth y Pelasgiaid wedi ymledaenu yn y modd eangaf dros agos i holl diriogaethau Groeg a'r ynysoedd Groegaidd yn yr Ynysfor (*Archipelago*). Yr oedd holl Hellas, ar y dechreu, yn ol Herodotus [ii. 56], yn cael ei galw yn Pelasgia; ac y mae Æschylus [*Attod.* 250], yn dyweyd fod Pelasgus, brenin Argos, yn höni yr holl wlad, drwy yr hon y llifa yr Algus, i'r bobl oedd yn dwyn ei enw ef arnynt, hyd orllewin y Strymon. Y mae Strabo [vii. 321], a Herodotus [viii. 44], yn crybwyll fod y Pelasgiaid yn y Peloponnesus, Thracia, Thesprotia, Attica, Bœotia, a Phocis. Dywed y ddau hanesydd hyn hefyd mai Pelasgiaidd oedd oraclau Delphi a Dodona ar y dechreu; ac y mae Clinton [*Fast. Hell.* i. 22], a Niebühr [*Rom. Hist.* i. 27], yn dwyn rhesymau dros gredu mai Pelasgiaid hefyd oedd y Macedoniaid. Canfyddir olion y Pelasgiaid yn amryw o ynysoedd y Môr Ægeaidd, megys yn Lemnos, Imbros, Lesbos, Chios, &c. [*Strab.* xiii. 621]; a dywed Herodotus [vii. 95] mai hiliogaeth y Pelasgiaid oedd yn preswylio yn yr ynysoedd hyny hyd oni ddarostyngwyd hwy gan yr Ioniaid. Pelasgiaid hefyd oedd yn preswylio llawer o ororau cyferbyniol Asia Leiaf [*Strab.* xiii. 621]. Gan y Pelasgiaid hefyd y perchenogid y wlad a alwyd wedi hyny Æolis [*Herod.* vii. 95]; ac am hyny gelwid Antandros yn Belasgaidd yn amser Herodotus [vii. 42]. Tref Belasgaidd hefyd oedd Tralles [*Nieb. Rom. Hist.*, i. 33]; ac yr oedd dwy o'u trefydd yn sefyll fyth ar yr Hellespont yn amser Herodotus [i. 57].

Y mae yr awdurdodau blaenorol yn ddigon i ddangos fod yr hiliogaeth Belasgiaidd wedi ymledaenu yn dra eang; ond pwnc anhawdd ydyw penderfynu o ba barth y daethant yn ddechreuol. Y mae amryw ysgrifenwyr diweddar yn barnu, wrth ystyried sefyllfa gyntefig yr hil ddynol, fod y Pelasgiaid wedi ymfudo o Asia i Ewrop, dros yr Hellespont, ac o amgylch gororau gogleddol y Môr Ægeaidd [*Mald. Hist. of Rome*, 69; *Marsh, Hor. Pelasg.* i]; er fod y syniad yma yn groes i amryw o hen draddodiadau Groegaidd, y rhai a ddarluniant y Peloponnesus fel preswylfa gyntefig y Pelasgiaid, o'r lle yr ymdaenasant i Thessaly, ac oddi yno i ynysoedd Groegaidd yr Ynysfor ac i ororau Asia.

Y mae yr un awdurdodau yn dangos fod y Pelasgiaid wedi ymdaenu yn helaeth hefyd yn neheubarth Italy. Y mae Davies (y Celtig) yn casglu mai yr un hiliogaeth oedd y Pelasgiaid a'r Tudaniaid (*Titans*), a'r Celt-ysgythiaid; a'u bod wedi deilliaw yn uniongyrchol oddi wrth Iapheth; a dywed fod enwau amryw o'u llwythau yn cadarnhau y syniad yma; megys Thesprotiaid, Cauconiaid, Macareaid, Ægeoniaid, Cynoethiaid, Tudaniaid, &c. [*Apollod.* iii. 8]. Y mae ereill yn meddwl fod y Pelasgiaid, yr Etrusciaid, a'r Phœniciaid, oll wedi hanu o'r un hiliogaeth; yr hyn, ar y cyfan, sydd dra thebyg; neu, o leiaf, eu bod wedi ymgymmysgu i raddau mawr er cyn cof. O ganlyniad, y mae y tair egwyddor, sef y Belasgiaidd, yr Etruscaidd, a'r Phœniciaidd wedi deilliaw o'r un ffynnonell.

Digitized by Google

Y mae hen awdwyr yn dyweyd, medd Davies, fod dwy egwyddor yn adnabyddus i drigolion Groeg, mewn gwahanol oesoedd. Yr oedd y gyntaf yn cael ei galw y Belasgaidd, yr Attig, yr Argivaidd, neu yr Arcadiaidd, yn ol enwau y gwahanol bobl a fyddent yn eu defnyddio. Ymddengys mai yr un ydoedd hon a'r Etruscaidd, neu yr hen egwyddor Italaidd, yr hon hefyd a elwid yr egwyddor Arcadiaidd, o blegid iddi hi gael ei dwyn, fel y dywedant hwy, o Arcadia i Latium gan Evander. Y mae Astle hefyd yn dyweyd [td. 53] mai Pelasgiaidd ydoedd yr hen egwyddor Etruscaidd, ac yn dyfynu awdurdod Herodotus i brofi fod trefedigaeth o'r Pelasgiaid wedi myned dros y môr o Lydia i Italy, dan arweiniad Tyrrhenus; ac y mae yn amseru y llyngesgyrch yma yn O.B. 2011, neu yn C.C. 1993.

Y mae rhai dysgedigion yn sylwi fod tebygrwydd nodedig rhwng y gair *Pelasgi*, a'r gair Hebraeg פלגים (*pelegim*), ac yn tybied ei fod o'r un ystyr, yn arwyddo y *rhanwyr*, neu *rhanedig*. "Os ydyw hyn yn gywir," medd Davies, "gellir ei ystyried fel enw cyffredinol am hiliogaeth Iapheth, y rhai a ranasant ynysoedd y cenedloedd. Ond boed hyny fel y byddo, ymddengys i'r Pelasgiaid ddwyn eu llythyrenau gyda hwy i Ewrop, ar eu hymfudiad cyntaf yno; canys y mae Eustathius, ysgrifenydd nid anenwog, yn ei gofnodau ar yr ail Iliad [v. 841], yn dyweyd mai un rheswm dros alw y Pelasgiaid yn δῖοι (*dwyfol*) oedd, o blegid mai hwynt-hwy yn unig, o'r holl Roegiaid, a gadwasant yr arferiad o lythyrenau ar ol y diluw."

Dywed Davies na chyfyngwyd y llythyrenau Pelasgiaidd i'r rhai a elwid y Groegiaid Priodol, mwy nag y cyfyngwyd yr enw Pelasgiaid ei hun at y genedl hono; canys dywedir fod Orpheus a Linus, neu offeiriaid Thracia, yn eu defnyddio yn eu hysgrifeniadau hwy [*Dio. Sic.*, iii]. O blegid hyn, tybia Davies y gellir edrych ar y llythyrenau Pelasgiaidd yn eu ffurf gwreiddiol, fel egwyddor gyffredinol cenedloedd cyntaf Ewrop, ac o'r un oedran a'r cenedloedd hyny eu hunain. O'r un cyff hefyd, medd efe, y tarddodd hen lythyrenau y Rhufeiniaid, y rhai a elwid Etruscaidd, y rhai y cydnebydd Pliny ac ereill eu bod yr un a'r rhai Pelasgaidd.

Ychydig iawn a wyddys am Cecrops yn nglŷn â llenyddiaeth Roegaidd, er y priodola un hen draddodiad ddyfeisiad y llythyrenau iddo. Dywed un chwedl mai Aiphtwr oedd Cecrops, ac mai efe a ddygodd y celfyddydau cymdeithasol o'r Aipht i dir Groeg, ac a osododd i lawr sylfaen cyfundrefn grefyddol a gwladol yr Atheniaid. Os oes sail i'r chwedl yma, gallai fod cysylltiad rhwng hen lythyrenau y Groegiaid a llythyrenau cyfriniol a batheiniol yr Aipht.

Yr Egwyddor Roegaidd arall, a'r hon sydd ar arfer fyth mewn gwahanol ffurf, a adnabyddid dan yr amryw enwau Ioniaidd, Phœnicaidd, Cadmeaidd, ac Æolaidd. Dywedir iddi gael ei throsglwyddo i Bœotia gan lwyth Asiaidd, o gylch 1500 C.C. Yr enw a rydd y Groegiaid i arweinydd y llwyth hwn yw Cadmus, tra y galwant y llwyth ei hun yn Phœniciaid. Dengys Ptolemy [v. 15], Pliny [*Hist. Nat.*, v. 13, 17], a Josephus [*Apion.* ii. 9], mai gwlad fechan oedd Phœnice, yn ymestyn ar hyd yr oror ddwyreiniol i Fôr y Canoldir, o'r ddinas Aradus a'r afon Eleutherus, o'r tu gogleddol, i fynydd Carmel neu Dora, o'r tu deheu. Eu prif ddinasoedd, heb son am luaws o rai mwy dinôd, oedd Tyrus a Sidon. Cytunir mai cangen oedd y Pheniciaid o'r cyff mawr Semitaidd, a'u bod wedi tarddu o hiliogaeth yr hen Ganaaneaid.

Dywed Buttmann, yn ei hanes o'r egwyddor Roeg, mai yr hen draddodiad oedd, fod Cadmus wedi dwyn un ar bymtheg o lythyrenau o Phœnicia i Groeg, at y rhai y chwanegodd Palamedes bedair llythyren wedi hyny, sef ϑ ξ φ χ; ac yn ddiweddarach fyth chwanegodd Simonides bedair ereill, sef ζ η ψ ω [*Pliny*, vii. 56]. Wrth gymharu yr egwyddor Phœniciaidd, medd efe, fel y cyrhaeddodd ni yn yr Hebraeg, ymddengys y rhaid deall y chwedl yma fel hyn; sef, fod yr egwyddor Phœniciaidd wedi cael ei dwyn i'r gwledydd gorllewinol hyn mewn sefyllfa fwy neu lai perffaith; fod rhai llwythau, yn Groeg Briodol fe allai wedi boddloni ar un ar bymtheg o lythyrenau; ond nad oeddynt, er hyny, yn anadnabyddus o gyfundrefn berffeithiach llwythau ereill, ac wedi mabwysiadu yn raddol rai llythyrenau ereill fel y canfyddent yn gyfleus iddynt; a bod hyn wedi dygwydd, yn ol y traddodiad, ar ddau wahanol amser.

Felly, os gadewir allan y llythyrenau a briodola Pliny i Palamedes a Simonides, bydd yn weddill yr un lythyren ar bymtheg hyn:—

α β γ δ ε ι κ λ μ ν ο π ρ σ τ υ.

Rhoddir yr un llythyrenau hefyd yn *Schol. ad Dionys. Thr.* 781, 1. Ond gan y terfynai yr egwyddor hon, yn ddiau, fel yr un ddwyreiniol, âg τ, diammheu i'r υ gael ei throsglwyddo i'w lle presennol o egwyddorau diweddarach, gan mai yr un ydoedd o'r dechreu a Βαῦ, sef Ϝαῦ.—[*Aarius Vict.*, 2468].

Os adferir yr Ϝ neu Υ hon, a ddefnyddiwyd mewn amseroedd diweddar fel rhifnod yn unig, barna Buttmann yn benderfynol mai egwyddor draddodiadol Cadmus oedd hon:—

Α Β Γ Δ Ε Ϝ Ι Κ Λ Μ Ν Ο Π Ρ Σ Τ.

Rhoddwyd y llythyrenau oedd ar arfer yn mysg llwythau ereill, a fabwysiadwyd wedi hyny, cyn belled ag y perthynent i'r egwyddor Phœniciaidd gyntefig, sef ζ, η, ϑ, ξ, yn eu lleoedd dechreuol. Rhoddwyd y lleill, a chwanegwyd yn ddiweddarach, a ffurfiwyd trwy newid yr hen lythyrenau, neu mewn rhyw ffordd arall, ar ol y Τ. Fel hyn, daeth y Τ i fod y bedwaredd lythyren ar bymtheg; gan fod Υ, yr hon a ffurfiwyd o'r Ϝαῦ, trwy docio y rhan uchaf ymaith, wedi ei gosod eisoes ar ol y Τ, tra y gadewid yr Ϝ ei hunan allan. Mewn gwirionedd, ychydig o lwythau yn unig a arferent yr Ϝ fel llythyren reolaidd o'r egwyddor: defnyddiwyd hi wedi hyny gan ereill, gyda'r *coppa*, yn mysg y ffugrau yn unig, a gadawyd hi allan o'r egwyddor. Yn awr, os cyfrifir y ddwy hyn (*Fau* a *Coppa*), gan gyfrif *Sigma* a *San* hefyd yn ddwy, fel yr oeddynt o'r dechreu, ceir y ddwy lythyren ar ugain Hebraeg-Phœniciaidd, yn fanwl, rhwng Α a Τ, gan gymmeryd y ddwy hyn hefyd, wrth gwrs, i'r cyfrif; a chanfyddir eu bod yr un lythyrenau yn hollol.

Y mae ysgrifenydd galluog, yn *Kitto's Cyclopædia*, yn dyweyd mai y seiliau boreuaf a sicraf i adeiladu ymchwiliad o'r natur yma arnynt yw cofarwyddion henysgrifol cyntefig y Phœniciaid; gan fod yn amlwg mai oddi wrth y rhai hyn y mae pob llythyrenau Arabaidd-Syriaeg ereill, os nad pob llythyrenau Ewropaidd hefyd, braidd wedi tarddu, cyn belled ag y mae tystiolaeth hanesyddol yn myned, gyda golwg ar ddefnyddiad a thraws-symmudiad ysgrifeniad egwyddorol. Darganfyddiad lled ddiweddar ydyw y gwir gynllun o gymharu henysgrifiaeth Arabaidd-Syriaeg. Nid ydoedd Bochart, Bernard, ac ereill, pan yn

Digitized by Google

cynnyg ar y gorchwyl, yn meddu yr egwyddor Phœniciaidd o gwbl: yr egwyddor Samaritanaidd yn unig oedd ganddynt hwy, yr hon a gaffent mewn llyfrau argraffedig ac ar y bathodau Hasmoneaidd; canys Rhenferd oedd y cyntaf a ddygodd y wir egwyddor ger bron, yn 1705. Heb law hyny, yr oedd dysgedigion yn gyffredin dan ddylanwad rhagfarn, mai y llythyren gornelog Hebraeg bresennol oedd y gwir arwydd ysgrifenyddol cyntefig; ac yr oedd diffyg prawfysgrifau yn cydweithredu â hyny i rwystro pob ymdrech pwysig er cael y pwnc i eglurdeb. Kopp oedd y gŵr a wnaeth arddangosiad dosbarthus gyntaf o achau yr hen egwyddorau Arabaidd-Syriaeg, yn 1819. Gwnaeth ef daflenau llafurfawr o lythyrenau llawer o genedloedd, wedi eu trefnu yn ol agosrwydd eu perthynas i'r llythyrenau cyntefig; a llwyddodd, yn gyntaf o bawb, trwy eangder ei gymhariaethau, cystal a thrwy ei gasgliadau naturiol oddi wrth y deddfau sydd yn rheoli y gelfyddyd o ysgrifenu, i sefydlu llawer o wirioneddau newyddion ac annysgwyliadwy, y rhai a gawsant effaith barhaus ar bob ymchwiliad dilynol. Ar ol Kopp daeth Gesenius, yr hwn oedd yn meddu afrifed o fanteision ieithyddol nad oedd gan y blaenaf, yr hwn hefyd a ymroddodd am hir amser i wneyd yr ymchwiliadau dyfalaf i weddillion Phœniciaidd, ac a roddodd gopïau cywir o'r casgliad cyflawnaf o honynt a gyhoeddwyd erioed, gan egluro y llythyrenau ac iaith y cofarwyddion eu hunain, cystal a henysgrifiaeth yn gyffredinol.

Y mae 77 o gerfiadau a llawer o fathodau—a gafwyd gan mwyaf yn Tyrus a Sidon, yn Malta, a Cyprus, yn Sicily, yn ngogledd Affrica, ac ar ororau Yspaen—wedi cadw i ni ffurf foreuaf yr egwyddor hono, o'r hon y barna rhai fod pob un arall wedi deilliaw. Y mae y gweddillion hyn yn perthyn bron oll i'r cyfnod oedd rhwng Alexander Fawr a theyrnasiad Augustus; ond tybir fod un o honynt yn perthyn i'r flwyddyn 394 C.C., a bod y diweddaf i B.A. 203. Fel hyn, y maent yn llawer diweddarach na'r cerfiadau Groeg hynaf; ond eto dywedir nad yw hyny yn effeithio dim ar eu hawl o gadw i ni y ffurf hynaf sydd yn adnabyddus o'r egwyddor gyntefig.


Y mae llythyrenau yr egwyddor hon, fel y maent i'w gweled ar y cofarwyddion hyn, yn nodedig o ran eu ffurf gornelog, a dyrys mewn cymhariaeth. Y mae hyn yn brawf o'u henafiaeth; o blegid fod yr agwedd hono yn beth y mae tuedd naturiol yn myrysgrifiaeth a defnyddiau ysgrifenu meddalach oesoedd diweddarach i'w dileu. Y mae eu ffurf hefyd yn debycach i ddarluniau anorphenol o'r gwrthddrychau naturiol y gelwir eu henwau arnynt, na llythyrenau unrhyw egwyddor Arabaidd-Syriaeg arall; a phrawf arall o'u hynafiaeth ydyw eu tebygrwydd agos i'r llythyrenau a'u dilynasant gyntaf, sef y llythyrenau Groeg hynaf. Dywedir hefyd mai cydseiniaid yn unig ydyw yr egwyddor hon, gan nad ydyw א ו י braidd un amser yn dynodi na lle nac ansawdd llafariaid, fel y gwnant yn yr Hebraeg. Y mae y dull o ysgrifenu yn fwy diffygiol, yn mhob ystyr, nag yn yr Hebraeg, yn enwedig yn nghanol gair. Nid oes yn yr ysgrifeniad ddim olion o'r llafarnodau (*vowel-points*), na'r llythyrenau terfynol. Ysgrifenir y geiriau fynychaf yn un rhes gyfynlyn, er y gadewir toriad yn achlysurol, gyda math o attalnodiad anaddfed. Ymddengys fod nodau gwahaniadol yn adnabyddus; ac y mae nodau talfyrol yn dra mynych. O dde i chwith y mae rhediad yr ysgrifen, ac nid oes ynddi ddim olion o'r dull ol a blaen, a elwir y *βουστροφηδὸν—ychdroawl*, sef o dde i chwith ac o chwith i dde, fel y troa ych wrth aredig. Y mae yn amlwg fod yr egwyddor hon wedi cael ei dyfeisio neu ei defnyddio gyntaf gan bobl oedd yn siarad yr iaith Arabaidd-Syriaeg; gan nad yw egwyddor mor lwyr amddifad o lafariaid yn bosibl, ond yn y llwyth hwnw o ieithoedd, lle nad yw y llafariaid yn dynodi ond rhan achlysurol yn unig o air, dim ond amrywiad a chyssylltiad y meddylddrych, ac nid ei hanfod. Hefyd, y mae yn berffaith gyfaddas i ddynodi holl seiniau eu hymadrodd; canys y mae yn cynnrychioli y gyfres nodedig hono o seiniau gorchfantol, nad ydynt mewn un iaith ond iaith yr Arabiaid Syriaidd; ac y mae yn alluog i amlygu pob sain heb lythyrenau cyfansawdd, y rhai y mae y cenedloedd a gymhwysasant y llythyrenau Phœniciaidd at eu seiniau eu hunain, yn gorfod eu defnyddio. Yr unig ffordd i ddyfalu beth oedd enwau a threfn y ddwy lythyren ar ugain yw, trwy eu cymharu (yr hyn a ellir ei wneyd gyda chryn sicrwydd) âg egwyddorau yr Hebraeg a'r Groeg. Y mae yn amlwg mai Arabaidd-Syriaidd yw yr enwau; a thybir eu bod, fel yr ymddangosant yn Hebraeg, yn perthyn o ran eu ffurf i gyfnod cynnarach nag ymddadblygiad yr iaith hono, fel y mae i'w chanfod yn llyfrau hynaf yr Hen Destament: ac y maent, fel yr ymddangosant yn y Groeg, wedi myned trwy newidiadau, y rhai y dengys Gesenius iddynt gael eu hachosi yn benaf gan ddylanwad a welir mewn amryw eiriau, megys נבל, *νάβλα*; מלט, *μάλθα*, y rhai a gafodd y Groegiaid oddi wrth y Phœniciaid; tra yr ystyria ereill hwy yn arwyddo agwedd benodol ar yr Aramaeg.

Wrth olrhain tarddiad egwyddorau o'r Phœniciaeg, medd yr un ysgrifenydd, mae yn wir fod hanes cydgyfeillach cenedloedd, a chynnydd graddol celfyddydau a gwareiddiad, yn ein cynnysgaethu â phrawf pwysig; ond y llygad, yn enwedig pan fyddo wedi ei arfer yn dda, ydyw y prif offeryn i brofi hyd yn oed casgliadau hanesyddol ar y fath destyn a hwn. Am hyny y mae cyfresau cyferbyniol cywir o'r egwyddorau hynaf, megys y rhai canlynol, yn gynnorthwy rhagorol i ddeall achau llythyrenau. Cynlluniodd Gesenius daflen dra chywrain ac eang i egluro achau hen egwyddorau, yr hon a ddengys ar un golwg gynnyrch ymchwiliad dyfal y gŵr dysgedig hwnw i'r pwnc am hir amser. Gwelir y daflen hono wedi ei Chymreigio ar y tudalen 343.

Y mae y llinellau sydd yn rhedeg rhwng y gwahanol enwau yn y daflen wedi eu bwriadu i ddynodi y rhedle, ac weithiau y gwahanol redleoedd cydgyfarfyddol y byddo rhyw egwyddor wedi dyfod trwyddynt. Fel hyn, er esampl, dangosir fod Hebraeg gornelog y llyfrau argraffedig wedi disgyn oddi wrth hen Aramaeg yr Aipht, ond ei bod wedi ei dullweddu gan ddylanwad y Balmyrenaeg.

Y mae dysgedigion yn methu cytuno i ba un o dair cenedl y dylid priodoli dechreuad y dull presennol o ysgrifenu—pa un ai i'r Babiloniaid, i'r Phœniciaid, ai i'r Aiphtiaid; gan fod tystiolaeth hen haneswyr bron yn gyfartal o blaid y naill a'r llall. Y mae amryw o wŷr dysgedig, ac yn eu plith Kopp a Hoffmann, yn amddiffyn hawl y Babiloniaid. Y maent yn seilio eu prif resymau ar wareiddiad tra bore Babilon; ar amryw ymadroddion (a ddyfynir gan Hoffmann) sydd yn priodoli y darganfyddiad i'r Syriaid a'r

Digitized by Google


ENW.
PHENICIAEG. A gafwyd ar ddeg a thrigain o gerfiadau a bathodau.
HEBRAEG. Ar y bathodau Has-moneaidd.
SAMARITANAEG. Hen gopi o Bum Llyfr Moses.
ARAMAEG. Ar hen gofadeiliau yr Aipht.
PALMYRENAEG. Mewn hen gerfiadau o ddinas Palmyra.
YR HEBRAEG GORNELOG. A ddefnyddir mewn llyfrau.
RABBINAEG. Yn ysgrifeniadau y Rabbiniaid Iuddewig.
Aleph ...
Beth ...
Gimel ...
Daleth ...
He ...
Faw ...
Zain ...
Cheth ...
Teth ...
Iod ...
Caph ...
Lamed ...
Mem ...
Nun ...
Samech ...
Ain ...
Pe ...
Tsadi ...
Coph ...
Resh ...
Sin ...
Shin ...
Tau ...
terf.
terfyn.
terf.
terfyn
terfyn
terfynol
terf.
terf.

| ENW. | Y PESHITO SYRIAEG |
|---|---|
| Aleph ... | ܐ |
| Beth ... | ܒ |
| Gimel ... | ܓ |
| Daleth ... | ܕ |
| He ... | ܗ |
| Faw ... | ܘ |
| Zain ... | ܙ |
| Cheth ... | ܚ |
| Teth ... | ܛ |
| Iod ... | ܝ |
| Caph ... | ܟ |
| Lamed .. | ܠ |
| Mem ... | ܡ |
| Nun ... | ܢ |
| Samech | ܣ |
| Ain ... | ܥ |
| Pe ... | ܦ |
| Tsadi ... | ܨ |
| Coph ... | ܩ |
| Resh ... | ܪ |
| Sin ... | ... |
| Shin ... | ܫ |
| Tau ... | ܬ |

| Y NISCHI ARABAEG. | |
|---|---|
| Eliff ... | ا |
| Be ... | ب |
| Te ... | ت |
| The ... | ث |
| Gim ... | ج |
| Ha ... | ح |
| Cha ... | خ |
| Dal ... | د |
| Dsal ... | ذ |
| Re ... | ر |
| Ze ... | ز |
| Sin ... | س |
| Shin ... | ش |
| Sad ... | ص |
| Ddad ... | ض |
| Ta ... | ط |
| Tza ... | ظ |
| Ain ... | ع |
| rGhain | غ |
| Ffe ... | ف |
| Caff ... | ق |
| Ceff ... | ك |
| Lam ... | ل |
| Mim ... | م |
| Nun ... | ن |
| He ... | ه |
| Waw ... | و |
| Ie ... | ي |

| YR ETHIOPAEG. | | |
|---|---|---|
| Hoi ... | ሀ | ha |
| Lawi ... | ለ | la |
| Hawt ... | ሐ | ha |
| Mai ... | መ | ma |
| Sawt ... | ሠ | sa |
| Res ... | ረ | ra |
| Sat ... | ሰ | sa |
| Shaat ... | .. | sha |
| Caff ... | ቀ | ca |
| Beth ... | በ | ba |
| Thawi ... | ተ | tha |
| Tiawi ... | .. | tia |
| Harm ... | ኀ | cha |
| Nahas ... | ነ | na |
| Gnahas | .. | gna |
| Alph ... | አ | a |
| Caff ... | ከ | ca |
| Chaff ... | .. | cha |
| Wawe ... | ወ | wa |
| Ain ... | ዐ | a |
| Zai ... | ዘ | za |
| Iai ... | .. | ia |
| Iaman ... | የ | ia |
| Dent ... | ደ | da |
| Din ... | .. | dia |
| Geml ... | ገ | ga |
| Tait ... | ጠ | ta |
| Tshait | .. | tsha |
| Pait ... | ጰ | pa |
| Tzadai ... | ጸ | tza |
| Zappa ... | ፀ | za |
| Aff ... | ፈ | ffa |
| Psa ... | ፐ | pa |

| Y COPTAEG. | |
|---|---|
| Ⲁ ⲁ | Alpha. |
| Ⲃ ⲃ | Fida. |
| Ⲅ ⲅ | Gamma. |
| Ⲇ ⲇ | Dalda. |
| Ⲉ ⲉ | Ei. |
| Ⲍ ⲍ | Zida. |
| Ⲏ ⲏ | Hida. |
| Ⲑ ⲑ | Thida. |
| Ⲓ ⲓ | Iawda. |
| Ⲕ ⲕ | Cabba. |
| Ⲗ ⲗ | Lawla. |
| Ⲙ ⲙ | Mi. |
| Ⲛ ⲛ | Ni. |
| Ⲝ ⲝ | Exi. |
| Ⲟ ⲟ | O. |
| Ⲡ ⲡ | Pi. |
| Ⲣ ⲣ | Ro. |
| Ⲥ ⲥ | Sima. |
| Ⲧ ⲧ | Daw. |
| Ⲩ ⲩ | He. |
| Ⲫ ⲫ | Phi. |
| Ⲭ ⲭ | Chi. |
| Ⲯ ⲯ | Ebsi. |
| Ⲱ ⲱ | O. |
| Ϥ ϥ | Ffei. |
| Ϫ ϫ | Giangia. |
| Ϭ ϭ | Scima. |
| Ϣ ϣ | Scei. |
| Ϩ ϩ | Hori. |
| Ϧ ϧ | Chei. |
| Ϯ ϯ | Dei Ligatur |
| Ϛ ϛ | So. |

DOSB. I. CYF. IV.] R

Caldeaid; ac yn enwedig ar fod priddfaen (*brick*) Babilonig ar gael yn cynnwys cerfiad mewn llythyrenau tebyg i'r rhai Phœniciaidd. Y mae Gesenius wedi ateb y dadleuon hyn yn dra helaeth. Ymdrecha yn arbenig i ddirymu y prawf yn nghylch y priddfaen; a sicrha mai Phœniciaidd ydyw y llythyrenau, ond nad ydynt mewn un modd y rhai hynaf eu dull. Ystyria efe mai Aramaeg ydyw iaith y cerfiad; a dadleua mai yr unig gasgliad teg a ellir ei dynu oddi wrth hanfod y fath gerfiad ydyw, fod y Babiloniaid yn amser y breninoedd Persiaidd yn meddu egwyddor gyffredinol oedd yn cytuno bron yn hollol â'r egwyddor Phœniciaidd. Dywedir mai saith llythyren yn unig a gynnwys cerfiad y priddfaen; o ganlyniad, boed y cerfiad hwnw y peth y byddo, nas gall ddirymu hawl yr egwyddor Phœniciaidd i fod yr hynaf sydd yn adnabyddus.

Y mae nifer yr hen awdurdodau sydd yn pleidio hawl cyntefigrwydd egwyddor y Phœniciaid a'r Aiphtiaid bron yn gyfartal; ac y mae Gesenius yn tueddu i bleidio eu cyfartalrwydd. Dywed ef, y gellir tybied mai batheiniol oedd y dull boreuaf o ysgrifenu; oud fod masnach y Phœniciaid wedi eu harwain i'r Aipht, ac y dichon iddynt fenthyca cnewullyn eu hysgrifeniad egwyddorol oddi wrth y batheiniau seinyddol. Pa fodd bynag, dywed fod tebygrwydd nodedig rhwng yr egwyddor Arabaidd-Syriaeg a'r batheiniau seinyddol, gan fod ffurf y gwrthddrych sylweddol yn y naill a'r llall yn cael ei wneyd yn arwydd o'r sain a ddechreuai enw y gwrthddrych. Er caniatau hyn, fel y sylwa y Dr. Nicholson, mae y tebygolrwydd fyth o blaid y Phœniciaid, fel y rhai boreuaf y gellir olrhain y dull presennol o ysgrifenu iddynt.

Ond er cydnabod nas gellir, hyd yn hyn, olrhain yr egwyddorau sydd weithian yn adnabyddus yn mhellach na bathodau hynafol y Phœniciaid, yr hynaf o ba rai a amserir 394 c. c.; eto, fel y sylwa S.P. yn *Kitto's Cyclopædia*, nid yw yr angreifftiau henafol hyn o gerfiad neu ysgrifeniad yn profi dim gyda golwg ar ddechreuad cyntaf y gelfyddyd o ysgrifenu. Heb law y tystiolaethau a ddygwyd eisoes o Lyfr Iob [yr oedd Iob yn byw, medd Hales, 1520 c. c.], y mae llawer o rai ereill yn y Beibl ac mewn hen hanesion Cenedlig yn profi fod ysgrifenu yn adnabyddus gannoedd os nad miloedd o flyneddoedd cyn amser y bathodau hynaf a briodolir i'r Phœniciaid. Yn *Gen.* v. 1, dywedir, "Dyma *lyfr* cenedlaethau Adda;" ymadrodd cwbl gyfatebol i "*Llyfr* cenedliad Iesu Grist;" *Mat.* i. 1. Yr ydoedd Duw wedi gorchymyn i Moses *ysgrifenu* hanes y dygwyddiadau pwysig a gymmerasant le yn ystod taith Israel o'r Aipht i Ganaan, cyn rhoddiad y gyfraith ar Sinai; canys, yn *Exod.* xvii. 14, dywedir, "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Ysgrifena hyn mewn llyfr, yn goffadwriaeth." Yr oedd y gyfraith "wedi ei hysgrifenu â bys Duw" (*Exod.* xxxi. 18) 1491 c.c.; ac er y pryd hyny, nid oes dim dadl i fod yn meddwl neb sydd yn credu y Beibl yn nghylch hanfod ysgrifen. Yn fuan ar ol ysgrifeniad y

1. Hen Roeg ...
2. Hen Roeg eto ...
3. Etruscaeg ...
4. Hen Ladin ...
5. Rhwnaeg ...
6. Coelbren y Beirdd



HEN EGWYDDORAU.—Tabl iii.

llechau, dywed Moses, wrth ymbil â Duw dros Israel, "Dilea fi, attolwg, o'th lyfr a ysgrifenaist;" *Exod.* xxxii. 32. Pe na buasai Moses wedi gweled llythyrenau egwyddorol cyn yr ysgrifen ar y ddwy lech faen, nis gallasai fod ganddo un amgyffred am lyfr; canys gwneid llyfrau, yn ei amser ef, o ddail neu rolau, am y rhai ni buasai y llechau yn rhoddi iddo un syniad. Yn mhen deugain mlynedd ar ol ysgrifeniad y ddeddf cymmerodd Israel feddiant o Wlad Canaan, lle yr oedd y "dinasoedd yn gaerog ac yn fawrion iawn;" *Num.* xiii. 28. Yn mysg ereill a orchfygwyd, yr oedd un a alwent hwy Debir; enw cyntefig yr hon oedd Ciriath-sepher=dinas y llyfrau, neu Ciriath-Sannath=dinas y llythyrenau: *Ios.* xv. 49; *Barnwyr* i. 11. Nis gallasai y Canaaneaid gael eu gwybodaeth o lythyrenau neu lyfrau oddi wrth yr Hebreaid, gan eu bod yn gwbl anadnabyddus o honynt, neu mewn rhyfel â hwy; am hyny rhaid eu bod wedi eu cael o ryw ffynnonell arall. Hiliogaeth Canaan mab Ham oedd y Canaaneaid; ac y mae yn debyg eu bod wedi cadw a diwyllio yr un gwybodau a chelfyddydau ag a ddygodd Misraim, mab arall i Ham, i'r Aipht: *Gen.* x. 6. Hefyd, y mae Iosuah (*pen.* x. 13), yn son am "Lyfr yr Uniawn" (Heb., "Llyfr Iasher," ac felly hefyd yn Seisoneg); ond pa un ai fel cronicl o'r pethau a aethant heibio, ai o bethau presennol, nid yw yn hysbys.

Heb law y tystiolaethau Ysgrythyrol pendant hyn, a lluaws o'r cyffelyb, y mae tystiolaethau hynafol yn profi yr un peth. Tybir gan hynafiaethwyr fod Pyramid mawr yr Aipht wedi ei adeiladu 2123 o flyneddoedd o leiaf c.c.; ac yn y flwyddyn 1837, canfu y milwriad Howard Vyse enw Suphis (Cheops) wedi ei gerfio mewn maen coch ar geryg geirwon o'r tu ol i wyneb allanol yr ystafell isel [*Gliddon's Anc. Egypt*]. Dywed Hales, yn unol â Josephus, fod Menes, brenin cyntaf y deyrnach Aiphtaidd, wedi dechreu teyrnasu 2412 c.c.; ond fod yr Aipht wedi bod yn cael eu llywodraethu gan restr olynol o offeiriaid am oesau cyn iddo ef gymmeryd yr awrhydedd breninol, ac yn eu dwyflywiaeth hwy ystyrir mai Thoth neu Hermes (duw) ydoedd dyfeisiwr cyntaf llythyrenau; ac nid oes dim esampl fod yr hynafiaid byth yn priodoli darganfyddiad y gelfyddyd o ysgrifenu i ddynion [*Wilkinson's Anc. Egypt*, v. 2]. Dywedir fod y Memnonium wedi cael ei adeiladu o gylch amser Moses (1571 c.c.); ac wrth ben y fynedfa i'r llyfrgell fod y


Digitized by Google

cerfiad yma—"Meddyginiaeth, neu falm i eneidfau." Hefyd, dywed Champollion iddo ef ddarllen y geiriau hyn—"Llywydd y Llyfrfa," a "Boneddiges Llythyrenau"—wedi eu hysgrifenu uwch law penau Thoth a Safkh (duwiau gwryw a benyw y gwybodau, y celfyddydau, a llenoriaeth), uwch ben y drws adfeiliedig oedd yn arwain i'r llyfrgell. Dywedir fod cerfiad uwch ben Thoth yn y cyssegr yn Luxor (Thebes), a adeiladwyd 200 mlynedd cyn genedigaeth Moses yn dechreu fel hyn:—"Ymadrodd Arglwydd yr *ysgrifeniadau* Dwyfol." Mynegir fod y cyfansoddiadau a briodolir i Thoth yn 36,525.

Ond er fod sicrwydd fel hyn, cyn belled ag y mae hen hanesyddiaeth, ie, a chyn belled yn wir ag y mae tystiolaeth y Beibl ei hun yn sicr, fod ysgrifenu yn bod am ysbaid hwy nag a ŵyr neb yn fanwl, cyn bathodau hynaf y Phœniciaid, eto, y mae yn ddigon posibl, fel y dywed S.P., nas gellir olrhain llythyrenau ysgrifenedig, yn awr, yn mhellach yn ol na'r cyff Phœniciaidd, canys yr oeddynt hwy yn hiliogaeth ddigyfrwng teulu Noah: ond nid yw hyn yn profi mewn un modd nad yw ysgrifenu cyn hyned ag iaith ei hunan, nac yn profi mai y Phœniciaid oedd darganfyddwyr cyntaf llythyrenau egwyddorol.

Yn awr, tybir y gellir cydsynio, yn ddidramgwydd, fod pob dull adnabyddus o ysgrifenu, oddi gerth ychydig o eithriadau (y Chineaid, y Batheiniol, y Coreaidd? y Cheroceaidd? y Burmeaidd? a rhai ereill fe allai), wedi deilliaw yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol o'r egwyddor

**Y Phœniciaeg Hynaf.**




Tarddiad yr Hen Egwyddorau.

Phœniciaidd, Hebreaidd, neu Semitaidd—ond cyn dechreu olrhain treigliad yr egwyddor estronol hono o'r dwyrain i Brydain, nes ei chael yn y Seisoneg a'r Gymraeg, rhoddwn ger bron ychydig reolau neu ammodau cynllun o egwyddor ac orgraff gyflawn a pherffaith, o waith y Dr Latham, y rhai sydd fel y canlyn:—

1. Y dylai pob sain syml unigol gael ei dynodi â llythyren syml unigol.

2 Y dylai seiniau, y byddo graddau o debygolrwydd rhyngddynt a'u gilydd, gael eu dynodi â llythyrenau y byddo graddau o debygolrwydd rhyngddynt a'u gilydd; tra y dylai seiniau heb ddwyn graddau penodol o debygolrwydd i'w gilydd gael eu dynodi â llythyrenau cwbl wahanol, a hyny yn gysson.

3. Na byddo i un sain gael mwy nag un lythyren i'w dynodi.

4. Na byddo i un lythyren ddynodi mwy nag un sain.

5. Mai dyben naturiol orgraff ydyw amlygu seiniau geiriau, ac nid eu hanesion neu eu tarddiadau.

6. Y dylai newidiadau mewn ymadrodd gael eu dilyn gan newidiadau cyferbynlol mewn sillebiad.

Os cedwir y rheolau hyn yn y cof, cynnorthwyant ni i fesur anmherffeithrwydd ein hegwyddor ein hunain ac egwyddorau ereill hefyd. Yn awr, yr ydym yn barod i olrhain treigliad yr hen egwyddor tua'r gorllewin; ac wrth wneyd hyny, galluoga yr ychydig reolau blaenorol ni i ganfod y diffygion ar yr un pryd. Sylwn ar yr egwyddor, mor fyr ag y gellir, dan wahanol gyfnodau, yn ol cynllun y Dr. Latham—yn benaf, er mwyn canfod, yn fwyaf neillduol, yr achos o'r diffygion sydd yn mhob egwyddor arferedig sydd yn adnabyddus hyd yn hyn.

I. *Y cyfnod Phœniciaidd, Hebreaidd, neu Semitaidd.* Yr oedd egwyddor Palestina, Phœnicia, ac

Digitized by Google

ieithoedd cyfagos y llwyth Semitaidd, ar amser penodol, yn cynnwys dwy ar ugain o lythyrenau gwahanol. Gwel yr hen egwyddorau sydd yn yr erthygl hon, td. 240, 241, 242.

Y tebygolrwydd yw, bydded i iaith gynnwys cyn lleied o seiniau syml llefarol ag y byddo modd, fod egwyddor o ddwy lythyren ar ugain yn annigonol. Yn awr, gyda golwg ar yr ieithoedd Semitaidd dan sylw, yr ydys yn gwybod, oddi wrth yr Arabaeg bresennol, fod rhif y seiniau elfenol yn fwy na dau ar ugain. Gan hyny, gellir hòni fod yr egwyddor Semitaidd gyntefig yn annigonol hyd yn oed i ieithoedd y llwyth hwnw.

Yn mhellach, yr oedd yr hen egwyddor dan sylw yn anghysson: o blegid yr oedd seiniau mor debyg ag ydyw sain *teth* a *tau* (amrywiad yn unig o'r un sain) yn cael eu hamlygu â llythyrenau mor annhebyg ag ydyw ט a ת; tra yr oedd seiniau mor annhebyg ag ydyw *beth* gyda nôd a *beth* heb nôd (*b* a *v*) yn cael eu hamlygu (os eu hamlygu o gwbl) â llythyrenau mor debyg ag yw ב a בּ â nod yn ei chanol. Yn y sefyllfa yma y trosglwyddwyd yr egwyddor i dir Groeg. Gan mai tra anfynych y dygwydd fod dwy iaith wahanol yn meddu yr un seiniau syml elfenol yn fanwl, felly pur anaml y gellir trosglwyddo egwyddor y naill iaith i'r llall a'u cael ar yr un pryd i gyddaraw. Y mae yn debygol fod gan y Groegiaid seiniau oedd heb fod yn Mhalestina a Phœnicia: pa fodd bynag, mae yn sicr fod yn Palestina a Phœnicia seiniau nad oeddynt yn Groeg. O'r ddwy lythyren ar ugain Phœniciaidd, ni chymmerodd y Groegiaid ond un ar ugain. Ni throsglwyddwyd y ddeunawfed lythyren, *tsadi*, צ, erioed i Ewrop.

II. *Y cyfnod Groegaidd.* Yr oedd yr hen egwyddor Roeg, mewn cymhariaeth â'r Semitaidd, yn rhedeg fel hyn:—

| | Hebraeg. | | Groeg. |
|---|---|---|---|
| 1. | א Aleph | ... | Α Alpha. |
| 2. | ב Beth | ... | Β Beta. |
| 3. | ג Gimel | ... | Γ Gamma. |
| 4. | ד Daleth | ... | Δ Delta. |
| 5. | ה He ... | ... | Ε E,*psilon* |
| 6. | ו Faw | ... | F *Digamma* |
| 7. | ז Zain ... | ... | Ζ Zeta. |
| 8. | ח Heth | ... | Η Heta. |
| 9. | ט Teth... | ... | Θ Theta |
| 10. | י Iod | ... | Ι Iota. |
| 11. | כ Caph | ... | Κ Cappa. |
| 12. | ל Lamed | ... | Λ Lambda. |
| 13. | מ Mem | ... | Μ Mu. |
| 14. | נ Nun | ... | Ν Nu. |
| 15. | ס Samech | ... | Σ Sigma? |
| 16. | ע Ain | ... | Ο Omicron. |
| 17. | פ Pi ... | ... | Π Phi. |
| 18. | צ Tsadi. | | |
| 19. | ק Coff... | ... | Llythyren a elwid Coppa—a wrthodwyd wedi hyny). |
| 20. | ר Resh | ... | Ρ Rho. |
| 21. | ש Sin M. wedi hyny | | San, *Dorig.* |
| 22. | ת Tau | ... | Τ Tau |

Dyma rif, trefn, a ffurf y llythyrenau Hebraeg a Groeg. Rhaid sylwi mai y ffurf ddiweddar yn unig o'r ddwy egwyddor a gymharir yma; ond wrth eu cymharu yn eu hen agweddau y gwelir tebygrwydd eu ffurf amlycaf. Gwelir y ffurf Hebraeg henaf yn yr hen egwyddorau, *tabl* i, *col.* 3; a'r ffurf Roeg henaf, *tabl* ii, *col.* i.

Dyma egwyddor Asiaidd Phœnicia a Phalestina yn awr wedi ei chymhwyso at iaith Ewropaidd Groeg; a gwelir fod y naill yn ateb i'r llall, yn eu dulliau henaf, o ran enw, ffurf, a threfn. Yr oedd yr egwyddor Roeg, ar y dechreu, yn cael ei hysgrifenu o dde i chwith, fel y gwelir yn yr hen egwyddorau, *tabl* ii. 1; a dywed Gesenius fod hyd yn oed rhediad yr ysgrifen felly, ar y cychwyn, mewn cerfladau byrion. Wedi hyny dilynwyd y drefn hono mewn rhan, yn y dull ol a blaen, neu ych-droawl (*βουστροφηδον*), fel y gelwid ef; ac o'r diwedd daeth y drefn o chwith i dde yn safon, a daeth gwrthdroad cysson o'r llythyrenau yn rheol. Dyma y cyfnewidiad mawr, trwyadl, a gymmerodd le, wrth drosglwyddo yr egwyddor Asiaidd i Ewrop.

Heb law hyn, cydnabyddid yr egwyddorion (*principles*) canlynol yn wastadol, pan y trosglwyddid egwyddor y naill iaith i'r llall:—

1. Gadewid llythyrenau na byddai angen am danynt allan. Gwnaed hyn, fel y gwelir uchod, gyda'r ddeunawfed lythyren—*tsadi.*

2. Defnyddid llythyrenau nad oedd seiniau cwbl gyfartal iddynt yn y Roeg, i ddynodi seiniau ereill. Dyma fel y gwnaed gyda'r 5, 8, 16, llythyren, ac fe allai gyda rhai ereill.

3. Gadewid i lythyrenau a newidient eu sain cyntefig yn ystod amser, lithro, megys, o'r egwyddor. Felly fu gyda'r 6 a'r 19.

4. Pan fyddai seiniau elfenol syml heb lythyrenau i'w cynnrychioli, dyfeisid llythyrenau newyddion. Dyma yr egwyddor neu y rheol a roddodd y llythyrenau newyddion φ, χ, υ, ω i'r egwyddor Roeg.

5. Nid amrywiadau yn unig o'r hen lythyrenau a fyddai y rhai newyddion (cymharer y rhai Groeg â'r פ, ף, בּ, &c., Hebraeg), ond rhai newyddion, gwahanol, ac annibynol.

Yr ydoedd hyn oll yn wellhâd. Gwall yr egwyddor Roeg ddiweddaf yw, ei bod wedi cymmeryd i mewn lythyrenau i ddynodi seiniau cyfansawdd, megys y ψ—*ps*, a'r ξ—*cs.*

III. *Y cyfnod Italaidd neu Latinaidd.* Un prawf a ddygir yn mlaen i ddangos fod yr hen egwyddor Italaidd neu Latinaidd wedi ei throsglwyddo, naill ai o'r egwyddor Phœniciaidd wreiddiol neu o'r hen Roeg, ydyw, ei bod yn cynnwys y llythyrenau *f* a *q*—yn cyfateb i'r llythyrenau 6 a 19. Bwriwyd y rhai hyn ymaith o'r egwyddor Roeg yn ei hail sefyllfa.

Yr egwyddor gyntaf a drosglwyddwyd i Italy, oedd yr Etruscaidd: gwel yr hen egwyddorau, *tabl* ii. 3. Yn yr egwyddor Etruscaidd henaf, dywedir i'r B, Δ, a'r O, gael eu bwrw ymaith, o blegid, fel y dywedir, nad oedd eu seiniau hwy yn yr iaith Etruscaidd. Sylwer mai lleddf ydyw sain y B a'r Δ; ac ymddengys mai y sain gras oedd fynychaf yn yr Etruscaeg. Yr oedd hyn yn parotoi y ffordd i newidiad y teimlir ei effaith agos yn holl egwyddorion Ewrop. Yn y Roeg a'r Hebraeg grym yr *g* leddf yn *gwn* ydoedd i'r drydedd lythyren, *gimel, gamma.* Yn yr Etruscaeg, grym *c* oedd iddi. Dilynodd y Rhufeiniaid yr Etrusciaid gyda golwg ar y sain yma o'r drydedd lythyren; ond o blegid fod ganddynt hwy sain *g* (megys yn *gwn*) hefyd yn eu hiaith, defnyddiasant y drydedd lythyren, sef *c*, i ddynodi y ddwy sain, hyd ail ryfel y Carthaginiaid (*Punic War*), o gylch 264 c.c. Ar golofn Duillius ceir *Macestratos Carthacinienses.* Pa fodd bynag, dyfeisiwyd llythyren wahanol wedi hyn am *g*, heb fod ar y dechreu ond dullweddiad o *c*. Y mae hanes *lle g* yn yr egwyddor yn gyffelyb i hanes *z*.

Digitized by Google

Yr oedd dau haniad i'r egwyddor Rufeinaidd. Yr egwyddor a ddefnyddid am ddau gan mlynedd ar ol adeiladu y ddinas (sylfaenwyd Rhufain, yn ol y cyfnod Varronaidd, 753 c.c.), ydoedd yr Etruscaidd, a ddeilliodd yn ddigyfrwng o'r hen Roeg. Rhydd hyn gyfrif am hanfod yr *f* a'r *q* ynddi. Ond dullweddodd y Rhufeiniaid eu hegwyddor wedi hyny trwy gyfrwng egwyddor y Groegiaid Italaidd: yr oedd y Groegiaid Italaidd hyny yn defnyddio yr egwyddor Roeg ddiweddar. Rhydd hyn gyfrif am hanfod y *v*, a gafodd ei dechreuad yn yr *ypsilon* Roeg.

Wrth gyfaddasu yr egwyddor Roeg at eu hiaith eu hunain, cydnabyddai y Latiniaid yr egwyddorion canlynol:—

1. Gwrthod y llythyrenau na byddai eu heisieu. Fel hyn y taflwyd y seithfed lythyren (*zain, zeta*), allan o'r egwyddor, ac y rhoddwyd y lythyren newydd *g* yn ei lle. Wedi hyny adferwyd y *z*, er mwyn sillebu geiriau Groeg yn gywir; ond cyflewyd hi ar ddiwedd yr egwyddor. Fel hyn hefyd y bu, ddarfod i'r *theta* a'r *cappa* (cyfartal yw *c* i *k*), a'r bymthegfed lythyren, gael eu gwrthod, tra na chymmerwyd y $\psi$ a'r $\chi$ erioed i mewn. Mewn amseroedd diweddarach adferwyd y bymthegfed lythyren (y *xi* bresennol), o blegid yr un peth ag yr adferwyd *z*; a rhoddwyd hithau, fel y *z*, ar ddiwedd yr egwyddor.

2. Defnyddio llythyrenau wedi eu trosglwyddo o egwyddor arall gyda sain newydd. Yna cymmerodd y chweched lythyren, nid sain *v* neu *w*, ond sain *f*, a'r wythfed *h*. Heb law hyn ni wnaeth y Rhufeiniaid ond cyfnewidiadau dibwys. Gwnaethant niwed trwy wrthod *cappa, theta*, a *chi*; a thrwy newid sain *c*. Yr oedd cynnrychioli $\phi$ â *ph*, a $\theta$ â *th* yn gyfeiliornad mawr. Yr oedd cadw *x* ac *g* yn afreidiol. Dullweddiadau yn unig o *u* ac *i* oedd *v* a *j*—dwy lythyren oedd yn wir gyfoeth i'r egwyddor. Ymddengys hefyd mai dullweddiad o *v* oedd *y*. Nid oes nemawr o gyfaddasrwydd yn orgraffau y Lladin, y Groeg, na'r Hebraeg at amcanion geirdarddol.

Fe welir yn awr fod yn fanteisiol i'r rhai sydd yn meddu iaith yn cynnwys y fath seiniau ag *th* yn *thin* neu *eithin*, ac *th* yn *thine*, neu *dd* yn *addaw*, fel y Seisoneg a'r Gymraeg, ac *ch* yn *auch* neu *chwech*, fel yr Almaeneg a'r Gymraeg, gael eu hegwyddorau o'r Groeg; tra mai mantais y rhai sydd yn meddu iaith yn cynnwys y fath seiniau ag *k* a *v*, ydyw tynu eu hegwyddorau o'r Lladin. Gwelir hefyd nas gall egwyddor y naill wlad, heb gyfnewidiadau a chwanegiadau priodol, wasanaethu fel egwyddor gwlad arall.

IV. *Yr egwyddor Meso-Gothig.* Yn y drydedd ganrif, cymhwyswyd yr egwyddorau classicaidd at yr iaith Gothig. Defnyddir y gair *egwyddorau*, am fod y llythyrenau Meso-Gothig wedi eu benthyca o'r Lladin a'r Roeg. Nid ydyw yn gyfleus i ni roddi eu llun a'u trefn ger bron yma. Yr oeddynt yn cytuno â'r Roeg yn y pethau canlynol:—

1. Am nad sain *k* (*c*) oedd i'r drydedd lythyren, ond *g* yn *gwn*.
2. Trwy gadw *cappa* a *chi*.
3. Trwy ddynodi sain syml unigol *th* â llythyren syml unigol. Ond nid ffurf na chyflead egwyddorol y *theta* Roeg oedd i'r lythyren hono.

Yr oeddynt yn cytuno â'r Lladin—

1. Trwy feddu llythyrenau cyfatebol i *f, g, h, q, y*.
2. Trwy roddi y *z* ar ddiwedd yr egwyddor.

Ymddengys i'r egwyddor Meso-Gothig gael ei ffurfio yn ol rheolau detholedig. Nid oes nemawr o ol amcanion geirdarddol chwaith i'w ganfod yn ei chymhwysiad. Y mae yn anhawdd olrhain ei dylanwad ar unrhyw egwyddor arall, oddi gerth, fe allai, trwy gyfrwng y llythyrenau a ddefnyddiai y Saxonaeg i ddynodi *th* ac *w*; ac nid ymddengys y gweithredwyd arni hithau gan unrhyw egwyddor Gothig gynarach.

V. *Yr egwyddor Anglo-Saxonaidd.* Y mae y naill neu y llall, ac weithiau y ddwy iaith glassicaidd, yn ddiffygiol o lythyrenau cyferbyniol am y seiniau canlynol (yn mysg ereill) oedd yn y Gothaeg.

1. Yr *th* yn *thin*. Llythyren yn y Roeg ($\theta$) ond heb yr un yn y Lladin.
2. Yr *th* yn *thine* (yr *dd* Gymraeg). Dim llythyren yn y Roeg na'r Lladin.
3. Yr *ch* megys yn *auch* Almaeneg neu yn *chwech* Gymraeg. Llythyren yn y Roeg ($\chi$), heb yr un yn Lladin.
4. Sain leddf yr un lythyren, neu fe allai sain yr *h* thur*h*, leo*h*t. Dim llythyren yn y Roeg na'r Lladin.
5. Yr *sh* yn *shine*. Dim llythyren yn y Roeg na'r Lladin.
6. Y *z* (=*zh*) yn *azure*. Dim llythyren yn y Roeg na'r Lladin.
7. Yr *ch* (=*tsh*) yn *chest*. Dim llythyren yn y Roeg na'r Lladin i'w chynnrychioli, os na thybir fod i *c*, yn yr amser y ffurfiwyd yr egwyddor Anglo-Saxonaidd, y sain gyfansawdd hono mewn geiriau fel *civitas*, yr hon sain sydd iddi yn yr Italaeg bresennol.
8. Y *j* (=*dzh*) yn *jest*. Nid oedd lythyren yn y Roeg na'r Lladin i'w dynodi, os na thybir fod y sain gyfansawdd yma i'r *g*, megys y tybiwyd am *c* gyda golwg ar y sain gyfansawdd uchod.
9. Sain y *kj* yn y gair Norwegiaidd *kjenner*, sef sain gyfansawdd gyffelyb i *csh*. Dim llythyren am dani yn y Lladin na'r Roeg.
10. Sain Seisoneg yr *w*. Dim llythyren yn y Roeg na'r Lladin am dani.
11. Sain yr *ü* Almaeneg, yr *y* Daenaeg. Dim llythyren yn y Lladin am dani. Dichon fod un yn y Roeg, sef *v*.
12. Llythyrenau i ddynodi sain hir a byr y llafariaid, megys $\epsilon$ ac $\eta$, *o* ac $\omega$, yn y Roeg: y Lladin yn ddiffygiol.

Yr ydoedd y naill neu y llall o'r egwyddorau classicaidd yn ddiffygiol yn yr holl bethau hyn. Er mwyn gwneyd eu diffyg hwy i fyny, yr oedd un o ddau beth yn angenrheidiol; sef, naill ai gwneyd llythyrenau newyddion, neu ddefnyddio cyfuniadau o'r hen lythyrenau.

Yn yr egwyddor Anglo-Saxonaidd (a ddeilliodd o'r Lladin), ceir y prydweddau canlynol:—

1. Defnyddid *c* heb y *k*.
2. Absennoldeb y llythyren *j*, nac fel *y* ($\iota$ yn *ia*), megys yn yr Almaeneg, nac fel *zh*, megys yn y Ffrancaeg, neu *dzh*, megys yn y Seisoneg.
3. Absennoldeb *q*; ac yr oedd ei gadael allan yn ddoeth, gan y gwna *c* yn ei lle.
4. Absennoldeb *v*: *u*, yn unigol neu ddyblyg a arferid yn ei lle.
5. Defnyddio *y* fel llafariad, ac *e* fel *y* olafariad.
6. Absennoldeb *z*.
7. Defnyddio *uu* fel *w* neu *v*: yr hen Saxon.
8. Defnyddio *f* am *v*, mewn rhai amgylchiadau.
9. Defnyddio llythyren sengl am *th* yn *thin* (*peth*), ac *th* yn *thine* (*dd* yn *hedd*).

Gellir dywedyd yn ddibetrus am yr egwyddor Anglo-Saxonaidd, medd Latham, ei bod yn ddiffygiol. Hon ydyw ffynnonell neu fam yr

Digitized by Google

egwyddor Seisoneg; a chan fod y fam yn ddiffygiol, nid rhyfedd fod y ferch felly hefyd. Y mae mwy o berthynas hefyd rhwng yr egwyddor Gymraeg arferedig a'r egwyddor Anglo-Saxonaidd nag y myn llawer fe allai gydnabod. Fe welir hyny yn bur amlwg os cymharir yr hen egwyddor Gymraeg (nid Coelbren y Beirdd), â'r sylwadau sydd dan 4, 5, 7, ac 8 uchod.

Y pethau a ddiwygiwyd wrth gymhwyso yr egwyddor Ladin at yr ieithoedd Gothaidd yw—
1. Defnyddio llythyren sengl i ddynodi *th* ac *dd.*
2. Llunio *w* o *u*.

VI. *Yr Egwyddor Anglo-Normanaidd.*—Y mae gwahaniaeth mewn rhai pethau rhwng cymhwysiad yr egwyddor Ladin at yr Anglo-Saxonaeg a'i chymhwysiad at yr Anglo-Ffrancaeg. Yn un peth, y mae trefn seinyddol yr ieithoedd (megys y Ffrancaeg) a darddasant o'r Lladin yn debycach i iaith y Rhufeiniaid na'r drefn a geir yn yr ieithoedd Gothaidd. Ac yr oedd yr egwyddorau hyny yn fwy hollol Latinaidd. Y mae y Ffrancaeg, yr Italaeg, yr Yspaenaeg, a'r Bortuguaeg bresennol, yn cau *k* allan. Nid felly y gwnai yr Anglo-Normanaeg. Ystyriai yr Anglo-Normaniaid, fel y Lladiniaid, y cynnrychiolid y sain *θ* Roeg gan *th;* ond gan nad oedd y sain yma yn eu hiaith hwy, nid oedd llythyren gyfatebol yn eu hegwyddor. Y niwed mwyaf a wnaed trwy ddylanwad Normanaidd oedd bwrw y ddwy lythyren sengl oedd yn sefyll am *th* ac *dd* o'r egwyddor Seisonig. Mewn ystyriaethau ereill, fe wellawyd yr egwyddor. Dygwyd y llythyrenau *z, k, j,* i mewn, neu cydnabyddid hwy yn fwy cyffredinol. Rhoddwyd grym golafariad i *y*, a gynnrychiolid cyn hyny gan *e*, tra yr oedd hithau ei hun yn meddu sain *i*. Ymddengys hefyd mai yn yr ysbaid Normanaidd dan sylw y ffurfiwyd y sain gyfansawdd a roddir yn awr i *ch* (tsh), yr hon a gynnyrchwyd, yn ol barn Latham, yn debyg i hyn:—Ar ryw adeg benodol, daeth sain y *ce* yn *ceaster*, oedd o'r dechreu yn *ke*, yn gyntaf i fod yn *ksh*, ac yn ail yn *tsh;* a ysgrifenid fyth yn *ce*—yr *e*, yn ngolwg yr Anglo-Saxoniaid, yr un sain ag *y* olafariad y Seison. Nid oedd y sain gyfansawdd *ksh* neu *tsh*, gan hyny, yn gwahaniaethu dim, yn ngolwg yr Anglo-Saxoniaid, oddi wrth *k*, ond a wnai y chwanegiad o *y* ati. Yr oedd yr Anglo-Normaniaid yn edrych ar y peth yn wahanol. Ystyrient hwy fod *ksh* neu *tsh*, trwy yr effaith a gai *h*, megys yn *th*, yn gwahaniaethu oddi wrth *k*, nid trwy y chwanegiad o *y* (a ddynodid âg *e*), ond trwy y chwanegiad o *h*. Dyma ddechreu y cyfansawdd *ch*, a seinir yn *chest* (=tshest.) Cyffelyb oedd dechreuad yr *sh* hefyd yn *shall.*

Dylanwad yr iaith Anglo-Normanaidd (yr hon a ddeilliodd o'r Lladin), a barodd i'r egwyddor (*principle*) eirdarddol gael ei chydnabod a'i sefydlu yn ei llawn rym. Wrth yr egwyddor eirdarddol (*etymological principle*) y meddylir, y defnyddiad o lythyrenau yn orgraff geiriau, nad ydynt i'w seinio—ac weithiau nas gellir eu seinio—wrth lefaru y geiriau, er mwyn dangos tarddiad neu hanes y cyfryw eiriau, megys y gwneir i raddau dirfawr yn orgraff y Ffrancaeg, y Seisoneg, a'r Wyddelaeg, ac i raddau mwy neu lai bron yn holl ieithoedd Ewrop.

Y mae egwyddor arall, medd Latham, sydd yn wahanol, neu o leiaf yn ymddangos yn wahanol, i egwyddor y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a'r Hebreaid, ac y mae yn wahanol hefyd i egwyddor pob cenedl ddiweddar. Cafwyd yr egwyddor hon mewn nifer mawr o gerfiadau—rhai ar greigiau, ac ereill ar geryg o wahanol ffurfiau. Y mae holl lythyrenau yr egwyddor yma, braidd, wedi eu ffurfio o linellau union, tra chymhwys i'w cerfio yn hytrach nag i'w hysgrifenu. Yr enw a roddir i gyfres yn cynnwys y llythyrenau hyn yw, yr Egwyddor Rwnig (*Runic Alphabet*). Trwy eangu ystyr y gair, gelwir yr hen iaith Norse, yn yr hon y mae y llythyrenau hyn yn dygwydd fynychaf, weithiau, yr *Iaith Rwnig.* Y mae hyn mor anghywir a phe gelwid iaith yn Iaith Egwyddorol. Y mae yr egwyddor Rwnig, medd Latham, pa un bynag ai ei benthyca ai ei dyfeisio gan yr hen Gothiaid a gafodd, yn hynach na'r egwyddorau Teutonig neu Meso-Gothig hynaf.

Dywed ysgrifenydd yn y *Penny Cyclopædia*, y barna rhai fod y llythyrenau Rhwnig yn cael eu harfer gan y cenedloedd Almaenaidd yn mhell cyn y cyfnod Cristionogol. Mae Davies (y Celtig yn dadleu hyn yn egnïol. Tybia ereill mai dyfais oes llawer diweddarach ydynt. Barna Schlegel ac ereill, oddi wrth debygolrwydd a rhifedi cyntefig (un ar bymtheg) y llythyrenau hyn i'r hen lythyrenau Groeg a Lladin, iddynt gael eu dwyn ar y cyntaf i ororau y Baltic gan fasnachwyr Phœniciaidd; a bod eu hoffeiriaid wedi eu cadw yn gyfrinach, a'u defnyddio at wahanol amcanion dewiniol; a bod Tacitus yn berffaith gywir wrth ddywedyd fod ysgrifenu yn anhysbys i'r hen Almaeniaid. Ceir yr hen lythyrenau hyn wedi eu cerfio ar feini yn Norway, Sweden, Denmarc, gogledd yr Almaen, ac mewn rhai parthau o Ffrainc ac Yspaen: ar fyr, y maent i'w cael bron yn mhob gwlad y bu y cenedloedd Teutonaidd yn preswylio yn ystod y bedwaredd a'r bummed ganrif o'r cyfnod Cristionogol.

Mae yr holl lythyrenau Rhwnig wedi eu rhanu yn dri phrif ddosbarth: 1. Y Gogleddol neu y Scandinaviaidd: 2. Yr Almaenaidd (gan arfer y gair mewn ystyr cyfyng): ac yn 3. Yr Anglo-Saxonaidd. Mae Grimm yn barnu mai amrywiad diweddar yn unig ydyw y llythyrenau Rhwnig Almaenaidd o'r rhai Scandinaviaidd, fel y mae y rhai Anglo-Saxonaidd o'r rhai Almaenaidd. Beth bynag am hyn, ymddengys i'r llythyrenau Rhwnig gael eu defnyddio yn llawer hwy yn Scandinavia nag mewn un wlad arall. Yr oeddynt yn cael eu hysgrifenu yno hyd ganol y bymthegfed ganrif, er fod yr egwyddor gyffredin yn adnabyddus yno yn mhell cyn hyny. Y mae llawer o ysgriflyfrau (*MSS.*) Scandinavia mewn llythyrenau Rhwnig; ond nid ymddengys fod un o honynt yn hynach na'r drydedd ganrif ar ddeg, ac ysgrifenwyd y rhai diweddaraf cyn 1450.

Rhifedi cyntefig y llythyrenau Rhwnig, medd Latham, oedd un ar bymtheg, yn amlygu seiniau f, u, th, o, r, k, h, n, a, i, s, t, b, l, m, y[1]—16.

Chwanegwyd pedair o lythyrenau ffugiol at y rhai hyn, yn dynodi *c, x, æ, ö;* ac wyth o rai ereill ar lun y llythyrenau Hebraeg llafarnodol. Dengys hyn oll ddylanwad yr egwyddor a drosglwyddwyd i Ewrop ar y llythyrenau Rhwnig gwreiddiol, yn hytrach na'u dylanwad hwy ar yr egwyddor drosglwyddedig. Pa fodd bynag, dylid sylwi fod sain *th* yn cael ei dynodi â llythyren sengl yn yr egwyddor Rwnig, a hono heb fod yn annhebyg i *th* yr Anglo-Saxonaeg. Gwelir ffurf y llythyrenau Rhwnig yn yr hen Egwyddorau, *tabl* iii. *cyfr.* 5, td. 242. Y mae y llythyrenau Rhwnig wedi eu cyfleu yn y daflen grybwylledig, gan y Dr. Pughe, yn ol trefn egwyddor Coelbren y Beirdd: ac y mae y gyfres yn cynnwys dwy lythyren ffugiol, sef *g* a *p*.

Methasom gael eglurhad boddhaol gyda golwg

[1] Sain *y* Seisoneg yn *young*, neu *i* Gymraeg yn *iâr*.

ar awdurdod yr hen Egwyddorau Celtig, yr Ogham a'r Bobel-Loth; canys ofnwn nad ydyw dyfaliadau Davies (y Celtig) yn eu cylch yn ddigon awdurdodol i ymddibynu arnynt. Ond tybir y gellir dywedyd yn bendant nas gellir olrhain dim o'u dylanwad ar agweddau hynaf yr egwyddor arferedig.

*Trefn yr egwyddor.*—Cyn sylwi yn neillduol ar ddwy brif egwyddor Ynys Prydain, sef y Seisoneg a'r Gymraeg, diau yr hoffa amryw o ddarllenwyr y *Gwyddoniadnr* gael eglurhad byr ar *drefn yr egwyddor.* Wrth olrhain hanes yr egwyddor, ceir hanes am newidiadau yn ei threfn, cystal ag am newidiadau yn rhif a sain ei llythyrenau. Tua saith mlynedd ar ugain yn ol (1835), yr oedd tri o lenorion enwog yn Lloegr yn myfyrio y pwnc yma ar unwaith, yn hollol ddiarwybod i'w gilydd, sef y Dr. Latham, y Parch. W. Hervey, a Mr. Donaldson. Pan gyhoeddasant ffrwyth eu hymchwiliadau, canfyddwyd fod penderfyniadau y tri yn cytuno bron yn hollol; sef, fod trefn cyflead llythyrenau yr egwyddor Hebraeg, prif ffynnonell pob ysgrifeniad egwyddorol, yn bur gelfyddydol; ac nid wedi eu taraw yn nghyd ar amcan, heb na rheol na threfn. Rhoddwn yma grynoad byr o gynnyrch eu hymchwiliadau ar y pwnc.

Yn awr, craffer ar drefn ac enwau y llythyrenau Hebraeg, td. 244.

Y mae *beth, faw,* a *pe,* yn gwneyd y rhestr a elwir Rhestr P: *gimel, cheth,* a *coph,* yn gwneyd Rhestr C (K): *daleth, teth,* a *tau,* yn gwneyd Rhestr T: *aleph, he,* ac *ain,* yn gwneyd y rhestr a elwir Rhestr y Llafariaid. Cymmerer y pedair llythyren gyntaf yn eu trefn:—

1. Aleph .........o Restr y Llafariaid.
2. Beth............o Restr P.
3. Gimel .........o Restr C.
4. Daleth........ o Restr T.

Yma rhoddir cydsain (*beth*) o Restr P yn nesaf i lythyren (*aleph*) o Restr y Llafariaid; yna, llythyren (*gimel*) o Restr C; ac yn olaf llythyren (*daleth*) o Restr T. Wedi hyny, y mae y drefn yn newid: dilynir *daleth* gan *he* o Restr y Llafariaid:—

5. He ............o Restr y Llafariaid.
6. Faw .........o Restr P.
7. Zain .........————
8. Cheth.........o Restr C.
9. Teth ......... amrywiad o T.

Yn yr ail ddosbarth yma, y mae sefyllfaoedd *perthynol f, ch,* a *t,* yr un yn eu perthynas i'w gilydd, a'r un yn eu perthynas i Restr y Llafariaid. Torir y dilyniad ei hun gan y llythyren *zain*, ond y mae yn nodedig fod egwyddor (*principle*) y dilyniad yr un. Y mae y Rhestr P yn dilyn y llafariad, a Rhestr T yn bellaf oddi wrthi. Wedi hyn nid yw trefn yr olyniad ond darniog. Er hyny, y mae *pe,* o Restr P, fyth, yn dilyn *ain: tau,* o Restr T, yn bellaf oddi wrthi; a *coph,* o Restr C, yn y canol. Ar y cyfan, mae yn amlwg fod yn yr egwyddor Hebraeg, ac yn mhob egwyddor sydd wedi deilliaw o honi (o ganlyniad, yn y Gymraeg a'r Seisoneg), os nad cyfundrefn gywir, elfenau cyfundrefn; ac mai *trefn gylchynol* ydyw hono.

"Y gwirionedd yw," medd Donaldson, "mai un llythyren ar bymtheg yn unig oedd yn yr egwyddor Semitaidd gyntefig. Cynfyddir hyn oddi wrth drefn beiriannol eu llythyrenau. Ymddengys yr un ar bymtheg hyny yn y drefn ganlynol:—

*Aleph, beth, gimel, daleth, he, faw, cheth, teth, lamed, mem, nun, samech, ain, pe, coph, tau.*

"Os olrheinir y drefn yma yn fanwl, canfyddir nad dygwyddiadol neu ddamweiniol ydyw; ond ei bod yn fanwl yn ol dull peiriannol y llefariad Semitaidd. Y mae yma bedwar dosbarth, pob un yn cynnwys pedair llythyren: y cyntaf a'r ail a gynnwysant dair mudsain (*mute*) bob un, yn cael eu rhagflaenu gan anadleb neu ebychsain: y trydydd a gynnwys dair sain dawdd (*liquid*) a'r sain sisialog (*sibilant*), yr hon, fe allai, a derfynai yr egwyddor hynaf oll; a'r pedwerydd dosbarth a gynnwys dair mudsain chwanegol [o'r un rhyw a'r dosbarth cyntaf], yn cael eu rhagflaenu gan anadleb. Dangosir hwy yma, yn gyntaf, mewn trefn golofnog, fel hyn:—

Aleph............ א ............ Yr anadleb gyntaf.
Beth ............ ב ............ B }
Gimel............ ג ............ G } Lleddf.
Daleth ......... ד ............ D }
He ............... ה ............ Yr ail anadleb
Faw ............ ו ............ Bh }
Cheth............ ח ............ Gh } Chwyrn.
Teth ............ ט ............ Dh }
Lamed ......... ל ............ L }
Mem ............ מ ............ M } Tawddleddf.
Nun.............. נ ............ N }
Samech ......... ס ............ S Sisialog.
Ain .............. ע ............ Y drydedd anadleb.
Pe .............. פ ............ P }
Coph ............ ק ............ C } Cras.
Tau.............. ת ............ T }

"Yn y trefniad cydwastad isod, gadewir y tawddleddfiaid a'r sain sisialog allan, er mwyn symledd: yna y ceir y seiniau fel hyn:—

| Anadlebau. | Gwefusolion. | Taflodolion. | Tafodolion. |
|---|---|---|---|
| א | ב | ג | ד |
| ה | ו | ח | ט |
| ע | פ | ק | ת |

"Gwelir yma, tra y mae y llinellau cydwastad yn dangos trefn y mudseiniaid yn eu perthynas â'r anadlebion, fod y colofnau union yn dangos eu trefn yn ol y peiriant llafar sydd yn eu cynnyrchu. Y mae yn amlwg mai celfyddydol ydyw y fath ddosbarthiad."

*Yr Egwyddor Ladin.* Sylwir ar yr egwyddor hon yn y fan yma, er mwyn dangos pa mor uniongyrchol y mae yr egwyddor Seisoneg a Chymraeg wedi deilliaw o honi. Ceir hanes ffurfiad yr egwyddor yma o'r Roeg a'r Etruscaeg, a'i chynnydd graddol dan y "Cyfnod Italaidd," td. 244.

Sylwyd eisoes mai yr egwyddor gyntaf a ddefnyddiodd y Lladinwyr oedd yr Etruscaeg, yr hon a gynnwysai un lythyren ar bymtheg, yn ateb yn bur agos i un lythyren ar bymtheg Cadmus, sef, rhai yn cynnrychioli sain y llythyrenau canlynol:—

a b c d e f h i l m n o p r s t—16.

Gwelir ffurf yr hen lythyrenau Lladin a gynnrychiolent y seiniau uchod yn yr hen egwyddorau, *tabl* iii. 3, td. 242, ond bod *k* a *v* yn y daflen hono, y rhai y tybir eu bod yn llythyrenau diweddarach na'r un ar bymtheg uchod. Bernir i'r rhai hyn, neu y cyffelyb, barhau ar arfer yn eu mysg hyd tua 550 c.c.

Yn fuan ar ol hyn, dechreuodd y Rhufeiniaid ddiwygio eu hegwyddor, gan fenthyca llythyrenau Groeg fyth, a'u cymhwyso at eu hiaith eu hunain; ac erbyn 186 c.c. yr oedd eu hegwyddor yn cynnwys ugain o lythyrenau, fel y gwelir ar y cerfiadau Bacchanalaidd; sef llythyrenau yn cynnrychioli y seiniau canlynol:—

Digitized by Google

pryd hyny i'w gilydd, ond hefyd, fod y ddwy wlad yn proffesu yr un grefydd, sef Derwyddiaeth. Hefyd, mynega Cæsar yn bendant [*De Bell. Gall.* vi. 14], mai y llythyrenau Groeg a ddefnyddiai y Galiaid yn eu gweithrediadau cyhoeddus a neillduol. Gan fod y Galiaid a'r Prydeiniaid wedi tarddu o'r un cyff cenedl, ac yn arfer yr un iaith, neu o leiaf wahanol gangenau o'r un iaith, ac yn dilyn yr un grefydd; a chan fod y Galiaid, hyd yn oed mor ddiweddar ag amser Cæsar, yn anfon eu plant i Brydain i gael eu haddysgu, mae yn naturiol casglu mai yr un llythyrenau a arferai y ddwy genedl yn eu hysgrifeniadau, sef y *llythyrenau Groeg.* Y mae y Dr. Jones [*Hist. of Wales*, td. 2], yn cofnodi hen hanes sydd yn cadarnhau y casgliad yma yn nodedig; ac, yn wir, os yw gywir, mae yn ei brofi yn ffaith. "O gylch 420 mlynedd C. C.," medd efe, "anfonwyd llyngesydd Carthaginiaidd, o'r enw Hamilco, gan senedd Carthage, i chwilio arfordiroedd gorllewinol Ewrop. Yn ystod ei fordaith, ymwelodd Hamilco â'r ynysoedd Prydeinig; ac y mae yn crybwyll am danynt yn ei ddyddiadur, wrth yr enw Œstrymnides." Dywed rhai y gall yr enw yma arwyddo "Ynys y Gwenyn;" a barna Jones fod sail dda i'r syniad, gan fod yr hen Frutaniaid yn galw Prydain, "Y Fel Ynys;" a galwai y Gwyddelod yr Iwerddon yn "Innis Fael," neu Ynys y Mel.

"Bu yr ymweliad damweiniol yma o eiddo Hamilco â Brydain, yn achlysur i fasnach gael ei dechreu rhwng Carthage a Brydain, a fu o les i'r ddwy wlad. Cafodd y Brutaniaid wybodaeth o fasnach y Canoldir, Phœnicia neu Carthage; dull y Groegiaid o ryfela â cherbydau; a dull Alexandria o gadw cyfrifon cyhoeddus a neillduol â'r hen *lythyrenau Groeg*, fel y maent wedi eu cadw yn *Thesaurus of Muratori*, iv. 2093." Y maent i'w gweled yn yr Hen Egwyddorau, *tabl* iii. 2.

Nid ydys yn gwybod am unrhyw dystiolaethau cadarnach na'r rhai hyn fod gan yr hen Frutaniaid lythyrenau; canys nid oes un lythyren o gerfiad na llawysgrif o'u gwaith, cyn dyfodiad y Rhufeiniaid i'r ynys, wedi ein cyrhaeddyd ni. Os credir y tystiolaethau hyn a'u cyffelyb rhaid credu mai llythyrenau Groeg oedd gan yr hen Frutaniaid; ac os gwedir hwy, byddys, mewn effaith, yn gwadu fod ganddynt lythyrenau o fath yn y byd; canys nis gellir profi ar awdurdod gredadwy fod llythyrenau Coelbren y Beirdd, heb law y rhai o honynt a geir yn yr hen egwyddorau Groegaidd, Etruscaidd, Lladinaidd, a Rhwnig, wedi bod erioed ar arfer yn eu plith.

Nid yw y cerfiadau hynaf a'r a feddwn, y rhai a welir yn ngwaith Camden, y Dr. Jones, yr *Archæologia Cambrensis*, &c., yn cyrhaedd yn mhellach yn ol nag amser y Rhufeiniaid yn Ynys Prydain; ac y mae yn hysbys fod y rhai hyny oll, nid yn unig yn y llythyrenau a ddefnyddiai y Rhufeiniaid ar y pryd, ond yn yr iaith Lladin, neu yn gymmysgedig â Lladin. Ac am y cerfiadau diweddarach, cystal a'u holl hen lawysgrifau, y maent yn y llythyrenau a arferai y Saxoniaid ar y pryd; ac yr ydym wedi dangos eisoes nad oedd y rhai hyny yn ddim amgen na'r llythyrenau Rhufeinig.

Y llawysgrifau hynaf a'r a feddwn yw y rhai sydd yn y ddau *Oxford Codex*, a gedwir yn Llyfrfa y Bodleian, y rhai sydd yn cynnwys, yn mysg pethau ereill,

Rhan o draethawd Eutychius y gramadegydd, gyda geiriau Brutanaidd wedi eu hysgrifenu rhwng y llinellau.

Rhan o *Ars Amatoria* Ovid, gyda geiriau Brutanaidd rhwng y llinellau.

Dyma y gweddillion hynaf o'r hen iaith Frutanaidd, medd y Proff. Zeuss; ac ysgrifenwyd hwy, na ŵyr neb gan bwy, tua diwedd yr 8fed ganrif, neu ddechreu y 9fed. Mae y rhai hyn wedi eu hysgrifenu â'r llythyrenau Rhufeinig a arferai y Saxoniaid y pryd hyny.

Y mae dwy ysgrif arall yn yr un *Codex*— Hen egwyddor a elwir Egwyddor Nemnivus, yr hon sydd ddynwarediad trwsgl o'r llythyrenau Rhwnig, gydag enwau y llythyrenau ar eu hol.

Hefyd, darn o draethawd ar Bwysau a Mesurau, wedi ei ysgrifenu yn gymmysg o Ladin a Brutanaeg. Fe allai fod y rhai hyn mor hen a'r ddwy lawysgrif arall a nodwyd; ond nid ystyrir hwy mor werthfawr.

Y mae *Codex* arall hefyd yn Llyfrfa y Bodleian, yn cynnwys cyfres o eiriau Lladin wedi eu heg luro â geiriau Cymraeg.

Y mae *Codex Lichfield* hefyd, a elwir Efengy Llandaf, neu Lyfr St. Chad, sydd yn cofno rhoddion i Eglwys Llandaf, yn cynnwys amry. eiriau a brawddegau yn yr iaith Frutanaidd, yn dysgrifio terfynau y tiroedd a roddwyd i'r eglwys. Bernir fod y llawysgrif yma cyn hyned a dechreu y 9fed ganrif.

Cafwyd dalen hefyd, wedi ei chysylltu wrth glawr *Codex* yn Llyfrfa Luxembourg, o'r un oes.

Y mae Zeuss wedi cyhoeddi y rhai hyn mewn attodiad i'w *Rammatica Celtica;* a dywed eu bod yn hen gofion awdurdodol, wedi eu cadw mewn ysgrifen, sydd yn dangos dull hynaf yr iaith Frutanaidd.

Llyfr Llandaf (*Liber Landavensis*), a elwir hefyd Llyfr Teilo, yr hwn a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, yn 1840, sydd hen ysgriflyfr a gasglwyd, yn ol barn Zeuss a'r golygydd, yn y rhan gyntaf o'r 12fed ganrif, ond o ddefnyddiau hynach fyth. Mae y braintysgrifau (*charters*) a gynnwysa, yn adrodd am diroedd a roddwyd i'r eglwys gan bersonau y dywedir eu bod yn byw yn y chweched ganrif.

Mae y llyfr argraffedig yn cynnwys amryw daflenau cerfiedig gwerthfawr o'r hen lawysgrif, yn yr hon yr ysgrifenwyd y llyfr o'r dechreu. Mae y rhai hyn oll yn y llythyrenau Rhufeinig, a arferid gan y Saeson, cystal a'r Cymry, yn yr amseroedd hyny; sef gwahanol ffurfiau o'r llythyrenau Rhufeinig, a elwir y llythyrenau Anglo-Saxonaidd.

Yr un peth sydd i'w ddywedyd am wahanol lawysgrifau o Gyfreithiau Hywel Dda, a ysgrifenwyd yn y 12fed ganrif; a Llyfr Du Caerfyrddin, a ysgrifenwyd yn yr un ganrif; a'r Llyfr Coch o Hergest, a ysgrifenwyd yn y 15fed ganrif. Mae y llythyrenau a ddefnyddid yn hwn, wrth gwrs, wedi newid llawer; ond y llythyrenau Rhufeinig oeddynt fyth, y rhai a arferid trwy yr holl deyrnas ar y pryd.

Y *cyfansoddiad* Brutanaidd hynaf sydd ar gael —o leiaf, yr hynaf, hyd y gwyddys, a ysgrifenwyd—yw tri phennill a gafodd Edward Lhwyd ar glawr hen gopi o *Juvencus;* yr hwn y tybiai Edward Lhwyd, a ysgrifenwyd yn y 7fed ganrif; a barna Nash y gall fod cyn hyned a'r 9fed ganrif, mewn gwirionedd, gan fod ffurf y geiriau yn debyg i'r rhai Brutanaidd sydd yn ysgriflyfrau y Bodleian.

Ymddengys i ni mai prin y gellir ystyried yr hen ysgrifau a nodwyd, o'r wythfed a'r nawfed ganrif, yn Gymraeg Cymru, ond yn hytrach, fel gweddillion o'r hen iaith Frutanaidd, a leferid

Digitized by Google

mewn gwahanol barthau o'r wlad, cystal ag yn Nghymru, yr hon, yn ddiau, oedd mamiaith y Gymraeg bresennol; a dyma y rheswm ein bod yn galw yr hen ysgrifau hyny yn Frutanaidd, yn hytrach na Chymraeg.

Yr Egwyddorau Brutanaidd hynaf, gan hyny, sydd ar gael yw y rhai a ddefnyddid i ysgrifenu ysgriflyfrau y Bodleian a'r tri phennill cryb-wylledig a gafodd Edward Lhwyd ar glawr *Juvencus.*

Egwyddor y tri phennill a gynnwys lythyren-au yn dynodi y seiniau hyn:—

**a b c d e f g h i l m n o p r s t u—18.**

Egwyddor ysgriflyfrau y Bodleian a gynnwys lythyrenau yn cyfateb i'r seiniau canlynol:—

**a b c ch d e f g h i l m n o p r s t th u w—21.**

Egwyddor Nemnivus (Nyniaw) a gynnwys lythyrenau cyfatebol i'r rhai hyn:—

**a b c d e f g h j k l m n o p q r s t u x y z—23:** sef, yr Egwyddor Lladin, yn ei chrynswth, fel yr oedd yn cael ei harfer yn Lloegr yn ei oes ef. Gadawodd rai llythyrenau allan o'i egwyddor, a ddefnyddiodd yn orgraff enwau ei lythyrenau; megys *ch* yn fi*ch*, gui*ch*ir, ie*ch*uit, zeir*ch*; ac *th* yn qui*th*. Rhydd sain *ch* i *x* yn enw *d*—dexu (= de*ch*u neu te*ch*u); sain *g* i *q*,—quith (*g*wyth, medd Ab Ithel); a sain *s* i *z*,—zeirch (=seirch). Beth a feddyliai wrth alw *x* yn "*eil*," nis gwyddom ni.

Tua diwedd y ddeuddegfed ganrif a dechreu y drydedd ar ddeg, dygwyd *ff*, *k*, *ll*, *v*, ac *w* i'r or-graff. Yr oedd rhai o'r llythyrenau hyn, yn en-wedig *v* ac *w*, yn cael eu defnyddio am wahanol seiniau; megys *v* am sain *f*, *u*, *w* ac *y*; ac *w*, am *f*, *b*, *u*, ac *w*; ond nid oes a fynom ni â'r *seiniau* yma, yn gymmaint ag â'r *llythyrenau*.

Erbyn yr amser a nodwyd, yr oedd yr Egwyddor, o leiaf yr Orgraff Gymraeg (tua'r pryd hyn yr ydys yn golygu fod y Gymraeg bresennol yn dechreu ymffurfio), yn cynnwys llythyrenau cyfatebol i sain y rhai canlynol:—

**a b c ch d e f ff g h i k l ll m n o p r s t th u v w—25.**

Tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg (1260, yn ol Lhwyd), dygwyd *y* i'r orgraff; a defnyddid hi am sain *i*, *u*, ac *y* yn achlysurol.

O gylch 1400, cyfarfyddir âg *dd*, yn ddamwein-iol yn yr hen lawysgrifau, a daw yn fynychach fel y dirwyn amser yn mlaen.

Ychydig yn ddiweddarach, ceir *ng* yn sefyll am ei sain bresennol, pryd mai *g*, *gg*, neu *gh*, a safai am y sain cyn hyny.

Yn fuan wedi hyny, defnyddiwyd *ph*, fel y gwneir yn bresennol: *f*, *ff*, neu *p*, a ddefnyddid cyn hyny.

Yna, yr oedd yr egwyddor (o leiaf, yr orgraff) Gymraeg, yn cynnwys y llythyrenau canlynol, neu rai lled debyg iddynt:—

**a b c ch d dd e f ff g ngh i k l ll m n o p ph r s t th u v w y—29.**

Mae yn wir fod seiniau amryw o honynt, y pryd hyny, yn dra ansefydlog; er hyny, yr oedd y *llythyrenau oll* yn yr orgraff; a dylasent fod, os nad oeddynt, yn yr egwyddor.

Dywed Edward Lhwyd na bu y Cymry na'r Gwyddelod erioed yn arfer *q*, *x*, a *z*; er hyny, cyfarfyddir â phob un o honynt, yn achlysurol, mewn llawysgrifau pur hen, megys y gwelwyd eisoes yn enwau llythyrenau Nemnivus, cystal ag mewn rhai ereill. Dywed Lhwyd ei hun fod yr enw *Cyneddaf* wedi ei gerfio ar faen yn Golval, ger llaw Pensanz, Cernyw, yn QVENETAV. Yr oedd *x* hefyd, yn amser Nemnivus, a chyn ddi-weddarcd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn cae ei defnyddio fel *ch* Gymraeg neu χ Roeg, yn enwedig mewn enwau priod; megys, *Dunnvarx*, (Dyfnfarch), *Cunturx* (Cyntwrch), *Doxrael* (Dochfael). Felly hefyd yr oedd *z*: ac yn wir, yr ydym yn cael y tair llythyren hyn (*q*, *x*, *z*), yn yr egwyddor a briodolir i Edeyrn Dafod Aur, yn y copi a gyhoeddodd *Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig*, dan olygiad Ab Ithel, yn 1856, fel *Dosbarth Edeyrn Dafod Aur.* Ceir yr egwyddor grybwylledig, td. xvii, yr hon sydd fel y canlyn:—

**a b c d e f g h i k l m n o p q r s t u w x y z—24.**

Yr egwyddor Ladin ydyw hon yn ei hagwedd ddiweddaraf, gyda'r chwanegiad o *w*, fel y defn-yddiai y Seison hi, o gylch diwedd yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg. Y mae yr egwyddor dan sylw, a briodolir i Edeyrn, yn cynnwys amryw lythyrenau nas defnyddir o gwbl yn orgraff y copi cyhoeddedig sydd yn dwyn ei enw; ac y mae yr orgraff yn cynnwys lluaws o seiniau a llythyrenau syml, nad ydynt yn yr egwyddor Lladin-Seisoneg sydd ar ddechreu y copi. Y mae y copi ei hun wedi ei ysgrifenu yn llythyraeth gynnar yr ail ganrif ar bymtheg: ac am hyny y mae mor hawdd i'w ddarllen a'r Beibl Cymraeg. Dywedir i Edeyrn gasglu ei rammadeg o gylch B. A. 1270, wedi ei seilio ar ddosbarth "a wnaeth Einion Offeiriad."

Cyffelyb yw yr egwyddor a briodolir i Dafydd Ddu Athraw, yn y Pum Llyfr Cerddwriaeth, sydd wedi ei gyhoeddi yn gyssylltiedig â *Dosparth Edeyrn:* ond fod yr egwyddor hon yn cynnwys *ll*, yn gadael *z* allan, ac yn defnyddio *v* yn lle *u*. [Gwel *Dosp. Edeyrn Dafod Aur*, td. 42.] Dyma yr egwyddor:—

**a b c d e f g h i k l ll m n o p q r s t v w x y—24.**

Y mae hon eto yn cynnwys rhai llythyrenau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn orgraff y Pum Llyfr, a defnyddir amryw yn yr orgraff nad ydynt yn yr egwyddor. Y mae yn amlwg mai yr egwyddor Ladin a Seisoneg oedd cynllun awdwr y Pum Llyfr i wneyd ei egwyddor, fel ei ragflaenor, ac nid cyfansoddiad y Gymraeg yn ei amser. Dywedir fod Dafydd Ddu, i'r hwn y priodolir y Pum Llyfr Cerddwriaeth dan sylw, yn byw o gylch B. A. 1340; er hyny, y mae llythyr-aeth ei Bum Llyfr ef yn llawer hynach na llyth-yraeth *Dosparth Edeyrn*, y dywedir iddo gael ei gasglu ddeng mlynedd a thrigain o'i flaen. Ym-ddengys i'r copi hwn, a briodolir i Dafydd Ddu, gael ei ysgrifenu tua diwedd y bymthegfed gan-rif neu ddechreu yr unfed ganrif ar bymtheg.

Yn mysg amryw ereill, y mae yr hen egwydd-or a gopiodd Mr. T. Stephens o hen ramadeg W. Lleyn, mewn llawysgrif sydd yn y *Cambrian Journal*, ii. 58, yn deilwng o sylw. Dyma y dy-fyniad a rydd Mr. Stephens:—"Pedair llythyren ar higain Kymraeg y ssydd nid amgen.

**A B c d e ff g h i k l m n o p z f t v x y w—22.** O rhai hynny saith y ssydd bogeliaid ereill y gyssoniaid."

*Dwy* lythyren ar ugain sydd yn yr egwyddor hon, o'r "pedair llythyren ar higain Kymraeg" y sonia yr hen fardd am danynt. Y mae hyd yn oed y dyfyniad byr uchod yn dangos, heb son y gwyddom trwy hanes, fod amryw seiniau a llyth-yrenau Cymraeg yn hysbys i W. Lleyn, na rodd-odd efe yn ei egwyddor, megys *dd*, *r*, *s*, ac *th*; yr hyn a ddengys yn amlwg nad y llythyrenau a ddefnyddiai hyd yn oed efe ei hunan mewn cyf-ansoddiad Cymraeg, eithr yr egwyddor Ladin

Digitized by Google

Seisoneg, oedd ei safonau yntau hefyd i lunio egwyddor wrthynt. Nis gwyddom amcan pa reol oedd ganddo i gyfleu y llythyrenau yn yr egwyddor, fel y gwnaeth. Nid ydym yn cofio chwaith i ni weled unrhyw egwyddor o'r blaen, mewn un iaith, yn gadael yr *r* allan. Credu yr ydym mai yr hen fardd, neu ei adysgrifenwyr, a adawodd ddwy lythyren allan, mewn amryfusedd. Dichon mai *s* oedd y llythyren arall a adawyd allan, os nad oedd yn bwriadu i *z* sefyll am sain *s*. Ond nid yw hyn yn newid ansawdd yr egwyddor, o ran ei tharddiad Lladinaidd a Seisonig. Bucheddai W. Lleyn o gylch 1537.

Tua'r un amser (1546), cyhoeddodd W. Salesbury ei *Wyddor Gymraeg*, &c. Dynodai efe *dd* â *d* a dotyn uwch ei phen, ac *ll* âg *l* a dotyn uwch ei phen; ac felly y gwnai Humphrey Llwyd, o gylch yr un pryd.

Yn ebrwydd ar eu hol hwy (1567), cyhoeddodd Gruffydd Rhotbert (y Dr. Griffith Roberts), ei *Ddosbarth Byr ar y rhann gyntaf i Ramadeg Cymraeg*, &c., yr hwn ydoedd y gramadeg Cymraeg cyntaf erioed a argraffwyd. Dilynodd ef yr un cynllun yn ei egwyddor a'i gydoeswyr, Salesbury a Llwyd; ond defnyddiai efe y dotiau o dan y llythyrenau, yn lle arnynt. Dyma lythyrenau yn ateb i'w egwyddor ef:—

a b c ch d dd e f g h i l ll m n o p r s t
th u w y—24.

Gwelir fod yr hen bobl hyd yn hyn yn sefyll yn fanwl iawn at y "Pedair ar ugain" yn eu hegwyddorau, heb ofalu cymmaint pa un a fyddai y llythyrenau yn eu hegwyddorau yn cynnrychioli y seiniau a ddefnyddient yn eu horgraffau ai peidio.

"Wedi hyny" (1578, neu gynnarach), medd Edward Lhwyd, "Dr. T. Williams, y meddyg, wrth ganfod mai *k* oedd y canllofiad yn yr hen orgraph Rufeinaidd, megys *ch*, *ph*, *th*, a ddygodd *lh* i mewn, a pharhaodd hon ar arfer nes y gwrthodwyd hi gan y Dr. Dafis, o Fallwyd, ac y defnyddiodd *ll* yn ei ramadeg a argraffwyd A. D. 1621, ac yn ei Eiriadur."

Yn y flwyddyn 1592, cyhoeddodd y Dr. Ioan Dafydd Rhys ei ramadeg Cymraeg yn Lladin; a'r egwyddor sydd ganddo ef yn hwnw sydd fel hyn:—

a. b. bh. c. ch. d. dh. e. g. gh. ghh. h. i. lh. l.
m. mh. n. nh. o. p. ph. rh. r. s. t. th.
u. ʋ. y. Y.—31.

Yn yr egwyddor hon y mae *bh* yn sefyll am *f*, *dh* am *dd*, *gh* am *ng*, *ghh* am *ngh*, *lh* am *ll*, *ph* am *ff* ac *ph*, ʋ am *w*, *y* am *u*, a Y am y.

Y mae y Dr. Rhys wedi cyfleu amryw seiniau cyfansawdd (*compound*) yn ei egwyddor; megys ghh=ng—h, mh=m—h, nh=n—h, rh=r—h, pan na ddylai egwyddor gynnwys ond llythyrenau yn dynodi seiniau syml yn unig; canys os dylai rhai seiniau cyfansawdd fod i mewn, pa ham na ddylai y cwbl fod? Ac, os dylai y rhai cyfansawdd fod, pa ham na ddylai y rhai cymhlyg (*complex*), sef y deuseiniaid a'r triseiniaid, fod? Yna, byddai genym egwyddor yn cynnwys cryn gant neu chwaneg o lythyrenau! Ni chyhoeddwyd dim yn orgraff y Dr. Rhys, ond ei ragymadrodd Cymraeg ef ei hun i'r gramadeg, a'i esamplau yn y gramadeg.

Fel hyn, parhaodd yr egwyddor yn dra ansefydlog hyd B. A. 1621, pan y cyhoeddodd y Dr. Davies o Fallwyd ei *Antiquæ Linguæ Britannicæ*—gramadeg Cymraeg yn Lladin. Yn hwn, td. 27, o'r ail argraffiad, ceir yr egwyddor ganlynol:—

Y LLYTHYRENAU PENIGOL.

A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL
M N O P PH R S T TH U W Y.—27.

Y MANLYTHYRENAU.

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p
ph r s t th u w y—27.

Yr egwyddor hon, gydag ychydig eithriadau, a ddaeth yn safon yr orgraff Gymraeg hyd y dydd hwn. Ymddengys i Davies seilio ei egwyddor ar lythyraeth *Beibl*[1] y Dr. Morgan, a gyhoeddasid B. A. 1588. Yr unig lythyren sydd yn egwyddor Davies na ddaeth i ymarferiad, ydyw yr Y benigol (llythyren debyg i'r Y benigol Roeg). Yn anghreifftiau ei ramadeg yn unig y defnyddiodd Davies yr Y yma, nid yn unig fel llythyren benigol, ond yn nghanol geiriau hefyd, pan y dygwyddai sain briodol yr *y*, megys yn y sill flaenaf yn cymmydd, prydydd, &c., fel hyn:—

"CYmmydd a'th brYdydd, ni bydd bas."

Bwriodd Davies allan o'i egwyddor y *k* q, v, x, z, oedd yn yr hen egwyddorau o'i flaen; a dywed am bedair o honynt—*k q x a z*—eu bod yn ymddangos yn estronol mewn geiriau Cymraeg; ac y gwna *c* am *k*, *cw* am *q* [*qu?*], ac *cs* am *x*. Nid yw efe yn rhoddi dim eglurhad ar *z*, nac yn son am *j* o gwbl; ond dywed Richards, cyfleithydd Davies, y gwna *si* neu *i*, y tro am *j*; megys *Siencyn*; Iago, Ioan; ac y gwna *s* am *z*; megys *Sadoc*, *Eseciel*.

Ymddengys mai prin yr oedd *j* wedi cael ei dwyn i'r llythyraeth Gymraeg o gwbl, oddi gerth ar ddamwain hollol, yn amser y Dr. Davies, nac mewn enwau priod nac fel *i* yn *ia*. Unwaith yr ydym yn cofio ei gweled yn nghyfieithiad y Dr. Morgan am *Julius* (*Act.* xxvii. 1); a chredwn mai gwall argraff ydyw yno, gan fod yr un enw yn *I*ulius yn y drydedd adnod. *I* a ddefnyddiai efe yn wastad mewn enwau fel hyn, yn yr Hen Destament a'r Newydd; megys Iosuah, Iob, Ieremi, Iacob, Iudas, Ierusalem, &c. Felly hefyd y gwnai y Dr. Parry yn ei argraffiad o'r Beibl, 1620, a'r Dr. Davies ei hun, yn ei argraffiad yntau o'r Beibl, 1630.

Ond fe ddefnyddiodd y Dr. Morgan, Parry, a Davies, y *z* a'r *x* mewn enwau priod; megys E*z*eciel, *Z*acharias, Aha*z*, Boa*z*, &c., ac yn y gair *z*el; E*x*odus, Ale*x*andria, Ale*x*ander, &c.

Nid ydyw *v* yn Meibl y Dr. Morgan o gwbl, hyd y canfyddasom, nac yn lle *f* nac *u*; ond y mae y Dr. Davies yn ei harfer yn lled fynych yn lle *u* (nid am *f* o gwbl), yn ei argraffiad o'r Bibl, yn ei anghreifftiau yn ei Ramadeg, yn ei Eiriadur, ac yn ei gyfieithiad o *Lyfr y Resolution*: megys *vn*, *vnic*, neu *vnig*, *adnev*, &c.; er nad ydyw yn ei egwyddor.

Am estronoliaeth y llythyrenau dan sylw i'r Gymraeg, y maent ar yr un tir yn hollol, o ran hyny, ag ydyw *a b c*; canys estronol oll ydynt i'r Gymraeg a'r Seisoneg, mewn ystyr manwl; o blegid mai o'r Groeg a'r Lladin, fel y dangoswyd, y mae y cwbl wedi tarddu.

Yn mhen deng mlynedd ar ol y Dr. Davies (a fu farw yn 1644), cyhoeddwyd egwyddor Gymraeg mewn argraffiad o'r Testament Newydd Cymraeg [*London, printed by M. S. for John Allen*, 1654]. Yn yr egwyddor hono, chwanegwyd *v* a *z* at egwydddor y Dr. Davies, fel hyn:—

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p
ph r s t th v u w y—29.

Nid ydyw y chwanegiadau hyn yn newid dim

[1] Dyma ddull y Dr. Morgan o lythyrenu y gair *Beibl*. Trôdd y Dr. Parry *Feibl* y Dr. Morgan yn *Bibl*.

Digitized by Google

ar ansawdd egwyddor Davies. Yn lle *u* ar ddechreu geiriau yn unig, hyd y canfyddasom, y defnyddir *v* yn yr argraffiad hwn o'r Testament, fel y gwnai Morgan, Parry, a Davies o'r blaen; megys, *v*chel, *v*do, *v*fydd, *v*n, *v*rddas, *v*s, *v*wch, a'r cyffelyb.

Mewn enwau priod ac yn y gair *zel*, defnyddir *z*; megys, *Zara*, *Zelotes*, *Azor*, *Achaz*, &c.

Heb law y ddwy lythyren hyn, defnyddir *j* hefyd yn fynych yn yr argraffiad yma o'r Testament Newydd, yn lle *I*, yn benaf yn nechreu enwau priod; megys *J*esu, *J*acob, *J*udas, *J*esse, *J*osaphat, *J*oram, *J*osias, *J*echonias, *J*oseph, *J*oan, *J*aco (=Iago), *J*orddonen, *J*erusalem, &c.

Credir mai dyma y tro cyntaf i *j* gael ei dwyn i gyfansoddiad Cymreig argraffedig o ddim pwys; ac y mae yn amlwg mai i gynnrychioli sain *i* gyfunoliad ("*i* gydsain") yn *i*a, *i*echyd, *I*ôn, y defnyddid hi, ac nid y *j* (dzh) Seisonig, gan y defnyddir hi yn *J*aco, *J*esu, *J*oan, *J*orddonen, cystal ag yn *J*acob, *J*esse, *J*oseph, &c., heb son y ceir *I*ericho, Ierusalem, *I*esu, *I*uda, &c., yn ddamweiniol yn yr un argraffiad.

Defnyddir *k* yn yr argraffiad hwn yn ddamweiniol mewn enwau priod, fel Eze*k*ias, Elia*k*im.

Hefyd, defnyddia *x* fel yr argraffiadau blaenorol, yn Ale*x*ander ac Ale*x*andria.

Ond nid ydyw yn rhoddi *k*, er ei bod yn dynodi sain syml cystal a *v*, *z*, i mewn yn yr egwyddor, fel y gwelir, mwy na'r ddwy lythyren *j* ac *x*, sydd yn dynodi seiniau cyfansawdd.

Yn mhen tua dwy flynedd ar bymtheg (yn 1671), argraffodd Charles Edwardes yr un egwyddor yn ei argraffiad ef o *Ddadseiniad Meibion y Daran*, gan Morus Cyffin, yn cynnwys *v* a *z*: a defnyddiai hwy yn gwbl yr un fath a'r Testament a nodwyd.

Fe gyhoeddwyd amryw lyfrau lled bwysig heb law y Beibl yn ystod y ganrif hon, ar ol y *Dadseiniad*, megys *Y Ffydd Ddiffuant*, *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, *Trysor y Cymru*, *Y Llwybr Hyfforddd*, &c.; a digon tebyg fod yr egwyddor yn rhai o honynt; ond y cyntaf ar ol y *Dadseiniad* sydd wrth law yn ei chynnwys, ydyw *Rheol Buchedd Sanctaidd*, o gyfieithiad Ellis Wynn (y Bardd Cwsg). Dyma egwyddor Ellis Wynn:—

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r s t th u w y z—28.

Gwelir yma fod Ellis Wynn wedi bwrw y *v* allan; ac nid yw yn ei defnyddio mewn un modd yn ei gyfieithiad: *z* yn unig sydd ganddo ef yn chwanegol at egwyddor y Dr. Davies.

Y gwaith nesaf sydd genym ni yn cynnwys yr egwyddor Gymraeg, yw *Grammadeg Cymraeg John Rhydderch*, a gyhoeddwyd yn 1728. Yr oedd y Parch. W. Gambold wedi cyhoeddi Gramadeg Cymraeg yn Seisoneg flwyddyn cyn hyny (1727); a dichon mai yr un egwyddor ag ef a gymmerodd John Rhydderch: pa fodd bynag, yr egwyddor sydd yn Ngrammadeg Rhydderch, ac yn y trydydd argraffiad o *Compendious Welsh Grammar* Gambold, ydyw yr un ganlynol, yr hon y gellir ei galw

YR EGWYDDOR GYMRAEG.

*Y prif lythyrenau.*

A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL M N O P PH R S T TH U W Y—27.

*Y mân lythyrenau.*

a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r s t th u w y—27.

YR EGWYDDOR ITALAIDD.

*Y prif lythyrenau.*

*A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL M N O P PH R S T TH U W Y*—27.

*Y mân lythyrenau.*

*a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r s t th u w y*—27.

Dyma yr egwyddor a roddodd y Parch. T. Richards o Langrallo yn ei *Brief Introduction to the Welsh*, sydd o flaen ei *Antiquæ Linguæ Britannicæ Thesaurus, or a Welsh English Dictionary:* a hon ydyw yr egwyddor a fabwysiadwyd gan y genedl yn gyffredinol byth ar ol hyny, yr hon sydd yn ein holl ramadegau Cymraeg, a'n llyfrau ysgolion diweddar.

Y mae gwir hanes yr egwyddor Gymraeg yn dechreu gydag egwyddor y Tri Phennill a gafodd Edward Lhwyd ar glawr yr hen gopi o *Juvencus*, a'r geiriau a'r ymadroddion Cymraeg sydd yn y ddau *Oxford Codex* sydd yn Llyfrfa y Bodleian, yn yr wythfed neu y nawfed ganrif; ac yn terfynu gydag egwyddor Gambold, Rhydderch, a Richards, yn nechreu y ddeunawfed ganrif. Dangoswyd ei bod yn tarddu yn uniongyrchol, fel yr egwyddor Seisonig, o'r egwyddor Rufeinaidd a elwid yr Anglo-Saxonaidd, ac i fyny, trwy egwyddorau y Rhufeiniaid a'r Groegiaid, hyd y Phœniciaidd a'r Semitaidd.

Gwelir trefn y saith llafariad sydd yn yr egwyddor uchod, yn ol y peiriannau llafar sydd yn eu cynnyrchu yn y daflen td. 232; a threfn beiriannol y pedair cydsain ar bymtheg sydd ynddi (yr un sain sydd i *ff* ac *ph*), yn y daflen, td. 237.

Os daliwn ein hegwyddor ein hunain yn wyneb rheolau ac ammodau egwyddor berffaith, y rhai a welir yn td. 243, canfyddwn ei bod hithau yn syrthio yn fyr mewn rhai pethau, er ei bod oll yn oll yn rhagorach, fe allai, nag egwyddor un iaith adnabyddus, oddi gerth egwyddor yr Hungaraeg, yr hon, medd ieithyddion, ydyw y egwyddor gyflawnaf a mwyaf seinysgrifiol (*phonographic*) sydd yn Ewrop.

Yn wyneb y rheol gyntaf—"y dylai pob sain syml unigol gael ei dynodi â llythyren syml unigol"—y mae yr egwyddor Gymraeg yn dyfod i fyny i raddau helaeth; canys er nad oes ynddi lythyren syml i ddynodi pob sain, y mae ynddi lythyren syml neu ddyblyg i gynnrychioli pob sain syml sydd yn yr iaith. Y mae yr egwyddor Gymraeg yn rhagori yn fawr ar yr egwyddor Seisonig yn hyn o beth; canys y mae yn y Seisoneg bump o seiniau syml heb un math o lythyrenau yn yr egwyddor i'w cynnrychioli (gwel td. 249, 1, *b*). Y llythyrenau dyblyg sydd yn yr egwyddor Gymraeg yn dynodi seiniau syml, yw—

ch dd ff ng ll ph(=ff) th—7.

Dylid cofio fod seiniau y llythyrenau dyblyg hyn mor syml ag ydyw seiniau y llythyrenau sengl neu unplyg sydd yn yr egwyddor: y mae sain *dd*, er esampl, mor syml ag ydyw sain *d*.

Rheol arall ydyw, "Na byddo i un sain gael mwy nag un lythyren i'w dynodi." Os ystyrir pob un o'r llythyrenau dyblyg a nodwyd fel "un llythyren," mae y cydseiniaid Cymraeg yn ateb i'r rheol hon, oddi gerth sain *ff* yn unig, i'r hon y mae dwy lythyren ddyblyg, sef *ff* ac *ph*. Un eithriad i'r rheol hon a berthyn i'r llafariaid hefyd, oddi eithr pan y byddont mewn cyssylltiad â llafariaid ereill, yn ffurfio seiniau cymhlyg (deuseiniaid), fel y dangosir eto. Yr eithriad yw sain *u*, i'r hon y mae dwy lythyren i'w chynnrychioli, sef *u* ac *y*.

Rheol arall a ofyn, "Na byddo i un lythyren ddynodi mwy nag un sain." Yr unig eithriad,

Digitized by Google

mewn ystyr egwyddorol, i'r rheol hon ydyw *y;* yr hon a ddynoda sain *u* ac *y*, ond dan reolau penodol, fel y dangosir yn fuan. Nid ydyw y seiniau cymhlyg, neu y "deuseiniaid," fel eu gelwir, mewn ystyr manwl, yn perthyn i'r egwyddor; heb law nad yw yr eithriadau a berthynant i'r seiniau cymhlyg ond ychydig a dibwys.

Y mae yr egwyddor Gymraeg, gan hyny, yn nghyd â'r ychydig reolau pendant a berthynant i'r eithriadau syml a nodwyd, yn agoriad cyflawn a chywir i sain holl eiriau yr iaith, fel y mae dysgu sain llythyrenau yr egwyddor yn fanwl, a chofio y rheolau eithriadol, yn ddigon o gyfarwyddyd yn mhob amgylchiad i ddarllen yr iaith yn gywir a phriodol. Ymddengys, gan hyny, i'r Cymry fod yn llawer mwy gofalus na'r Seison wrth gymhwyso y llythyrenau Lladin at seiniau eu hiaith; canys nid yw dysgu yr egwyddor Seisonig ond ychydig o gynnorthwy, mewn gwirionedd, i ddarllen yr iaith hono yn gywir a phriodol.

Sylwir yma ar anmherffeithder yr egwyddor Gymraeg, yn ol y cynllun a ddilynwyd wrth ymdrin â'r egwyddor Seisonig.

1. *Am ei diffygion.* Os cymmerir enwau priod a geiriau ereill o ieithoedd estronol, fel y bernir y dylid gwneuthur, mae yr egwyddor Gymraeg yn ddiffygiol gyda golwg ar y llafariaid, y cyfunoliaid, a'r cydseiniaid.

*a. Y llafariaid.* Fe allai mai yr unig ddiffyg gyda golwg ar y llafariaid ydyw, diffyg llythyrenau gwahanol i ddynodi seiniau byrion y llafariaid—diffyg sydd yn mhob iaith adnabyddus, i ryw raddau, mwy neu lai. Er mwyn gwneyd y diffyg yma i fyny, arferir amryw gynlluniau; megys, defnyddio yr *acen hirsain*, mewn rhai geiriau, i ddangos sain hir y llafariaid, fel yn *tân, llên, tôn, gŵn, hŷn*, &c.; a defnyddio *acen fyrsain*, mewn geiriau ereill, i amlygu y sain fer; megys yn *bràn, cwr, mòch, tànau, cỳrau, hòno.* Y mae ereill yn defnyddio dwy o rai o'r cydseiniaid i ddynodi y sain fer mewn geiriau amrysill; megys, *tannau, cyrrau, honno.* Fe allai nad oes gwell a byrach rheolau genym ar hyn nag a geir yn *Orgraff y Gymraeg*, gan R. I. Prys a Thomas Stephens, td. 8, *adr.* iv.

*b. Y cyfunoliaid.* Y gyntaf o'r rhai hyn, yn ol trefn yr egwyddor, yw y sain a gynnrychiolir gan *i* yn y seiniau cymhlyg *ia, ie, io, iu, iw, iy.* Dylai yr *i* yma gael llythyren yn dwyn gradd o debygrwydd i'r *i lafariad*, megys *ɩ*, i'w dynodi. Gwel td. 234. 2.

Y gyfunoliad arall yw y sain a ddynodir âg *w* yn y seiniau cymhlyg *wa, we, wi, wo, wu, wy.* Dylai yr *w* yma gael llythyren yn dwyn gradd o debygrwydd i'r *w lafariad*, megys **b**, i'w chynnrychioli. Gwel td. 233. 1.

*c. Y cydseiniaid.* Y mae amryw wŷr dysgedig yn barnu y dylid ysgrifenu enwau priod, a rhai geiriau ereill, a fenthycir o ieithoedd estronol, â'r llythyrenau a arferir yn yr ieithoedd y perthyn y cyfryw enwau a geiriau iddynt; ac yn wir, dyma "arfer gwlad" er ys rhai ugeiniau o flynyddoedd bellach; ac y mae yn cynnyddu yn barhaus, yn enwedig gyda golwg ar enwau priod, fel y mae ymdrafodaeth y genedl â chenedloedd ereill a chyfieithiadau o lyfrau estronol yn cynnyddu. Yr oedd cyfieithwyr y Beibl, a'u cydoeswyr, fel y sylwyd, yn defnyddio *x* a *z*, mewn enwau a rhai geiriau ereill; megys E*x*odus, Ale*x*ander; E*z*eciel, Elea*z*ar, *z*êl; ac y mae Ri*ch*ard, *J*ohn, *J*ane, a Wi*ll*iam, yn hytrach na *Rhisiart*, *S*ion, *S*ian, a Wi*l*iam neu *Gwilym*, yn rhai canrifoedd o oedran. Ysgrifenir, er esampl, Æneas, Albuquerque, Bayley, Beauchamp, Beaufort, Calvin, Calviniaeth, Colquhoun, Charles, Dwight, Dyer, Franklin, George, Humphrey, Karakoolan, Kholyvan, Knox, Phœnice neu Phœnicia, Quincy, Scandinavia, Shakspeare, Stephen, Sweden, Theodore, Thomas, Urbicus, Utica, Venice, Virgil, Xenophon, Yamaska, Yauca, Yberg, Youcatan, yn hytrach nag Eiantis, Eineas neu Einws, Albwcercy, Beli, Bisiam, Boffort, Calfin, Calfiniaeth, Cohŵn, Carl (Carlo neu Siarl), Dweit, Deier, Ffrangclin ("Ffranglyn,") Sior, Wmffre, Caracwlan, Colifan, Nocs, Phenig neu Phenicia, Cwinsi, Yscandinafia, Siacspyr, Ystephan ("Ystyffan") Tewdwr, Tomas ("Twm,") Yrbicws, Iwtica ("Iwtig,") Ffenig, (Fenis) Fyrsil, Senophon, Iamasg, Ioca, Eiberg, Iwcatan, &c.

Gan y *rhaid* i'r genedl wrth y fath eiriau, a miloedd o'r cyffelyb, yn awr, doethineb, yn ddiammheu, fyddai i ni chwanegu y llythyrenau sydd yn sefyll am y seiniau syml sydd yn y cyfryw eiriau, at ein hegwyddor, yn ol esampl y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, gan y rhai y cawsom ni, cystal a'r Seison, ein hegwyddor. Y llythyrenau y cyfeirir atynt, y mae yr egwyddor Gymraeg yn ddiffygiol o honynt, yw,—*k, q, v, z.*

Er fod *u* (=w) yn dilyn *q* yn y rhan fwyaf o ieithoedd, fel y mae *w* yn dilyn *ch* Gymraeg bob amser pan yn dechreu gair gwreiddiol, eto nid yw hyny yn profi fod *q* yn arwyddo sain gyfansawdd, mwy nag y mae dilyniad *ch* wreiddiol gan *w* yn profi fod yr *ch* yn gyfansawdd.

Gellid rhoddi rhestr o'r llythyrenau sydd yn arwyddo seiniau cyfansawdd, gydag eglurhad arnynt, ar ol yr egwyddor; megys *ch* (=tsh) *j* (=dzh) *x* (=cs, gz, z).

Dylid egluro hefyd, yn nglyn â'r egwyddor, fod *f*, mewn enwau estronol, yn gyffredin, yn gyfartal i *ff;* megys *Franklin;* ac *ll* yn gyfartal i *l;* megys *William.* Yna safai ein hegwyddor fel hyn:

**a b c ch d dd e f ff g ng h i k l ll m n**
**o p ph q r s t th u v w y z—31.**
**ch tsh, j=dzh x=cs, gz, z—3**
**f=ff, ll=l—2**

Dylid chwanegu y seiniau cymhlyg estronol at ein "deuseiniaid" a'n "triseiniaid," gan eu hegluro yn nglyn â'r rhai hyny; megys aa, æ, ai, &c., awe, aye, eau, &c.

Os dywedir y gwnai hyn ein hegwyddor a'n horgraff yn ddyrys, dywedwn ninnau fod eu defnyddio, fel y gwneir yn awr yn mhob llyfr Cymraeg sydd yn cael ei gyhoeddi, heb eu hegluro, yn gwneyd y naill a'r llall yn llawer mwy dyrys.

2. *Anghyssondeb yr egwyddor.* Y rheol gyda golwg ar hyn ydyw—Y dylai seiniau y byddo graddau o debygolrwydd rhyngddynt a'u gilydd, gael eu dynodi â llythyrenau y byddo graddau o debygolrwydd rhyngddynt a'u gilydd; tra y dylai seiniau heb ddwyn graddau penodol o debygolrwydd i'w gilydd gael eu dynodi â llythyrenau cwbl wahanol, a hyny yn gysson.

Mae y seiniau Cymraeg a roddir i'r llythyrenau sydd yn mhob un o'r pum cyfres ganlynol yn dwyn tebygolrwydd amlwg i'w gilydd:—

1. p b ff (=ph) f (=v)—4.
2. t d th dd—4.
3. c g ch ng—4.
4. s z—2.
5. ll l—2.

Dynodir y ddwy sain olaf o'r gyfres gyntaf â llythyrenau mor annhebyg ag ydyw *ff* ac *f* (*v*) i *p* a *b.*

Digitized by Google

Dynodir yr ail a'r bedwaredd sain o'r ail gyfres â llythyrenau mor annhebyg ag ydyw *d, dd* i *t, th*.

Dynodir yr ail a'r drydedd sain o'r drydedd gyfres, â llythyrenau mor annhebyg ag ydyw *g, ng*, i *c, ch*.

Mae y bedwaredd gyfres, *s, z*, yn lled debyg i'w gilydd, er nad yn ddigon tebyg, fe allai, i fod yn berffaith gysson.

Mae y bummed gyfres, *ll, l*, yn berffaith *gysson*, er nad yn gywir, am fod sain *ll* yn syml, tra y mae y llythyren yn ddyblyg.

3. *Cyfeiliornad yr egwyddor.* Y mae cyfeiliornad yr egwyddor (neu yn hytrach yr orgraff) Gymraeg, yn nglyn â'r defnydd a wneir o'r llafariaid. Saith o seiniau llafarol syml gwahanol sydd yn yr iaith: ac y mae yn yr egwyddor saith o lythyrenau syml gwahanol i'w cynnrychioli; sef,

a e i o u w y.

Seiniau priodol y llythyrenau hyn yw eu seiniau hirion, annibynol, fel y safant yn yr egwyddor, neu ar ol cydsain; megys, *a* yn *ca*, *e* yn *lle*, *i* yn *lli*, *o* yn *to*, *w* yn *llw*, ac *y* yn *fy*.

Mae y llythyrenau hyn oll, ond *y*, yn cadw y seiniau yna, yn hir neu fyr, bob amser pan heb fod mewn cyssylltiad â llafariad arall yn yr un sill; megys *ca*, *cân*, *càn*, *capan*; *lle*, *llên*, *llèn*, *mellteu*; *lli*, *llín*, *pìn*, *cribìn*; *to*, *tôn*, *tòn*, *colomenod*; *llu*, *llûn*, *trùm*, *buddug*; *llw*, *gŵn*, *gẁn*, *cwmwl*.

Mae *y* yn wahanol. Y mae i'r llythyren hon ddwy sain, ac anhawdd gwybod pa un o'r ddwy a ddygwydd amlaf mewn cyfansoddiad, sef ei sain yn *fy*, *cynnal*; a'i sain yn *dyn* (*dûn*), *hyn* (*hùn*), *cerydd* (*cerudd*), yr un a sain *u*. Galwn ei sain yn *fy*, yn *sain briodol y*, am mai hon ydyw ei sain yn yr egwyddor, pan yn annibynol; a galwn ei sain yn *dyn* (*dûn*) yn *sain fenthyciol y*. Rhoddir y sain fenthyciol i *y*,

*a*. Yn holl eiriau unsill yr iaith, oddi eithr *y*, *ydd*, *ym*, *yn*, *yr*, *ys*; *by* (pan yn newidiad o *py*=if), *dy*, *dyt*, *fy*, *myn*, *syr*.

*b*. O flaen *w*, pan yn ffurfio y sain gymhlyg neu y deuseiniaid *yw*, mewn geiriau unsill; megys, *byw*, *cyw*, *llyw*. Pan dreiglir y geiriau hyn a'u cyffelyb, cymmer *y* ei sain briodol yn gyffredin; megys, b*y*wyd, c*y*wion, ll*y*wydd.

*c*. Ar ol *w hirsain*, mewn geiriau unsill ac amrysill; megys, bl*w*ydd, ll*w*ydd, m*wyn*; bl*w*yddyn, ll*w*yddiant, m*w*ynder.

*d*. Yn y *sill olaf* o eiriau amrysill; megys, cynn*y*dd (cynn*u*dd), myn*y*dd (myn*u*dd), a hyn*y* (hyn*u*). Pan roddir sill neu chwaneg at y geiriau, cymmer yr *y* ei sain briodol; megys, myn*y*ddoedd, cynn*y*ddiadau. Yr un modd, cymmer yr *y* a seinir yn *u* mewn geiriau unsill ei sain briodol wrth eu treiglo; megys, h*y*n (h*ù*n), hyny, d*y*n (d*û*n), d*y*nol, d*y*noliaeth.

*e*. Yn y blaenddod *cyd*; megys, *cyd*weled, *cyd*gyfarfod.

Tybia rhai mai y sain hon hefyd sydd i'r blaenddod *cyn*, pan yn arwyddo *cyntaf*; megys, *cyn*oesoedd, *cyn*amseroedd; ond ereill a roddant ei sain briodol i'r *y* yn y blaenddod yma.

Y sain fenthyciol hefyd a ddylid ei rhoddi i'r *y* yn y blaenddod *dy*, pan y mynir ei ddefnyddio o flaen llafariad; megys *dy*oddef, *dy*olch; ond o'n rhan ein hunain, nis gallwn *ddioddef* y fath ddyhenad aflafar—*dioddef* a *diolch* ydyw y ffurfiau awdurdodol.

*e*. Yn y blaenddodau ansoddeiriol *cryf* a *syn*; megys *cryf*arfog, *syn*fyfyrio.

Y mae *a* yn cadw ei sain egwyddorol, yn hir neu fer, yn mhob sefyllfa yn ddieithriad

Y mae i *e* amryw seiniau pan yn ffurfio seiniau cymhlyg (deuseiniaid) â gwahanol seiniau ereill; megys—

*a*. Pan ar ol *a* neu *o*, mewn sain gymhlyg, seinir *e* yn *u*; megys m*ae* (m*âu*), c*ae*r (c*âu*r), c*ae*th (c*âu*th); bl*oe*dd (bl*ôu*dd), c*oe*d (c*ôu*d). Yr un sain a roddir wrth dreiglo y geiriau, ond y bydd y seiniau cymhlyg—*ae* (*au*) ac *oe* (*ou*) yn fyrach; megys, c*ae*rau (c*au*rau), c*ae*thion (c*au*thion); bl*oe*ddio (bl*ou*ddio, c*oe*dydd (c*ou*dydd).

*b*. Pan o flaen *i*, *u*, neu *y*, mewn seiniau cymhlyg, seinir *e* yn *y*; megys, *ei* (*yi*); c*ei*sio (c*yi*sio), p*ei*dio (p*yi*dio), *eu* (*yu*), ll*eu*ad (ll*yu*ad), cr*eu*lawn (cr*yu*lawn); t*ey*rn (t*yu*rn), t*ey*rnas (t*yu*rnas).

Y mae rhai yn ystumio eu genau i geisio cadw y seiniau syml annibynol a gyfansoddant y seiniau cymhlyg crybwylledig, ar wahan, yn enwedig wrth ddarllen neu areithio, gan eu llefaru yn m*a*-*e*, c*a*-*e*rau; bl*o*-*e*dd, bl*o*-*e*ddio; *e*-*i*, c*e*-isio; *e*-*u*, ll*e*-*u*ad; t*e*-*y*rn, t*e*-*y*rnas (ereill "*tyrnas*").

Trwy hyn, dangosant eu hanwybodaeth o natur y seiniau, a diflasant eu gwrandawyr â rhodres.

Seinir *o* o flaen *w* yn *y* pan yn ffurfio sain gymhlyg; megys, *ow* (*yw*), c*ow*ydd (c*yw*ydd), H*ow*el (H*yw*el). Ysgrifenir y ddau air olaf, yn fynych, a hyny yn fwy priodol hefyd, yn *cywydd* a *Hywel*.

Yn yr holl bethau hyn, mae yr egwyddor neu yr orgraff Gymraeg yn gyfeiliornus.

4. *Gormodedd yr egwyddor.* Un lythyren ormodol neu afreidiol sydd yn yr egwyddor Gymraeg, a hono yw naill ai *ff* neu *ph*; canys yr un sain yn hollol sydd i'r ddwy lythyren hyn yn mhob cyssylltiad. *Ff* a fwriodd Ioan Dafydd Rhys allan o'i egwyddor, am fod *ph* yn debycach i'w rhiant *p*.

5. *Ansefydlogrwydd.* Yr unig lythyren ansefydlog yn yr egwyddor Gymraeg ydyw *y*; megys yn *fy*, d*y*n (d*û*n), a eglurwyd eisoes dan y pen *cyfeiliornad yr egwyddor*.

Seiniau cymhlyg ydyw *ae*, *oe*, *ei*, *eu*, *ey*, *ow*; am hyny, nid ydynt, mewn ystyr cyfyng, yn seiniau yr egwyddor, ond perthynant yn hytrach i orgraff yr iaith.

*Newidiad y seiniau Cymraeg.* Mae y deddfau cyffredinol sydd yn rheoli newidiad seiniau yn nghyfansoddiad a threigliad geiriau, ac yn nghystrawen neu gyfosodiad ymadroddion, wedi eu seilio, mewn rhan, ar neillduolion rhyw seiniau penodol, a dosbarthau o seiniau, pan yn unigol neu gyfunol, mewn sillau ac ymadroddion; ac mewn rhan, ar arferion penodol iaith gyda golwg ar sillau, ymadroddion, a phersain.

Yn ol yr egwyddorion neu y deddfau hyny, y mae llafariaid, yn gyffredinol, yn newid i lafariaid, neu i'r seiniau cymhlyg ("deuseiniaid" neu "driseiniaid"), a chydseiniaid yn newid i gydseiniaid neu seiniau cyfansawdd. Seiniau cyfansawdd yw *ngh*, *mh*, *nh*, a'r cyffelyb.

Y mae dau fath o newidiadau i'r holl seiniau; sef newidiadau *cystrawenol* (*syntactical*), a newidiadau *geiryddol* (*etymological*). Geilw rhai y newidiadau cystrawenol yn newidiadau *rheolaidd*, a'r rhai geiryddol yn *ddamweiniol*.

Dyben yr holl newidiadau yw *pereiddio sain* geiriau ac ymadroddion; *gwahaniaethu ystyr* geiriau; a *phereiddio sain a gwahaniaethu ystyr ar* unwaith.

Y mae newidiad cystrawenol neu reolaidd y seiniau oll—y llafariaid a'r cydseiniaid—yn gyffredin yn dygwydd yn nghystrawen neu gyfan-

Digitized by Google

soddiad ymadroddion. Cymmer newidiad cystrawenol y llafariaid, gan mwyaf, le yn *nherfyniad* geiriau, a newidiad cystrawenol cydseiniaid yn *nechreu* geiriau.

Gan mai newidion y cydseiniaid, yn enwedig y rhai cystrawenol, a ystyrir yn fwyaf pwysig, a chan fod yr erthygl eisoes wedi myned yn faith, ni wneir ond sylwadau byrion, cyffredinol, yn unig ar newidion y llafariaid a'r seiniau cymhlyg.

Y mae y llafariaid oll, a'r rhan fwyaf o'r seiniau cymhlyg (y deuseiniaid a'r triseiniaid), yn gyfnewidiol. Dywed rhai gramadegwyr mai pedair llafariad sydd yn newid—*a, e, o, w;* ereill, mai pump—*a, e, o, w. y.* Dywedwn ninnau fod y saith yn newid; ac y mae awdurdod Ioan Dafydd Rhys genym wrth gefn.

Dywedir mai yr *i* a'r *u* yw y llafariaid anghyfnewidiol; am hyny, ni wneir yma ond dangos rhai o newidion y ddwy hyn yn unig; gan y ceir amryw o newidion y lleill yn y gramadegau cyffredin.

Newid *i* yn rheolaidd mewn cystrawen (*syntax*) i *a, e, o, w, y=u; ai, wy*:—tori, tor*af*, tor*ent*, tor*o*, tor*wn*, tor*ynt*; tor*ai*, tor*wyf*.

Newid *i* yn ddamweiniol, yn nghyfansoddiad geiriau, i *w, y; ai, ei, wy*:—c*w*n (o c*i*), c*y*nydd, c*y*nyn (o c*i*), tr*y*dydd (o tr*i*), chw*y*chwi (o chw*i*-chwi); br*ai*th, br*ei*than (o br*i*th), h*wy* (o h*i*r).

Newid *u* yn rheolaidd, mewn cystrawen, i *a, e, i, o, w, y=u* ; *ai, wy*:—can*u*—can*af*, can*ent*, can*i*, can*o*, can*wn*, can*ynt*; can*ai*, can*wyf*.

Newidia *u* yn ddamweiniol i *y*:—p*u*mp—p*y*mtheg.

Dywed rhai nad yw y deuseiniaid yn newid, pan na newidio ond *un* o ddwy lafariad y deuseiniad; megys *cael*—*cawn*; ond dylid sylwi nad fel dwy lafariad y tery deuseiniad ar y glust, ond fel un sain gymhlyg; gan hyny, mae y sain gymhlyg, *æ*, er esampl, yn newid mor wirioneddol yn c*aw*n, ag y newidia yn c*ew*ch.

Y mae newidion cyffelyb yn perthyn i lafariaid a seiniau cymhlyg pob iaith adnabyddus; er, fe allai nad ydynt mor luosog nac mor gysson ag y maent yn y Gymraeg.

Newidia *a* y Seisoneg, er esampl, i *e, oo, u*:—m*a*n, m*e*n; st*a*nd, st*oo*d; d*a*re, d*u*rst.

Newidia *o* y Lladin i *a, e, i, u*:—am*o*, am*as*; reg*o*r, reg*e*ris; reg*o*, reg*i*s, reg*u*nt.

Gwelir oddi wrth yr ychydig esamplau a roddwyd, y newidia y llafariaid oll i'w gilydd, yn ddiwahaniaeth, heb olygu na chyfres na sefyllfa beiriannol. Fel hyn, newidia *i* y gyfres uchaf i *o* y gyfres isaf, cystal ag i *e* yn yr un gyfres a hi ei hun; a newidia i *a* orchfantol, cystal ag i *w* wefusol neu *e* oldaflodol: ond y mae y cydseiniaid yn fynychach o beth gyda golwg ar hyn, yn enwedig y newidion cystrawenol, fel y dangosir yn awr.

*Newidiad y cydseiniaid.* Y mae yr holl gydseiniaid syml, oddi gerth *ng* (a dichon fod hon hefyd) yn gyfnewidiol; ac y mae amryw o'r seiniau cyfansawdd felly hefyd.

Newidia seiniau syml a chyfansawdd y cydseiniaid, yn gyffredin, i'r un dosbarth peiriannol a hwy eu hunain; sef gwefusoliaid i wefusoliaid; taflodoliaid i daflodoliaid; a sefnigoliaid i sefnigoliaid. Y newidiadau pwysicaf a berthyn i'r seiniau, fel y crybwyllwyd, yw newidiadau cystrawenol y cydseiniaid; ac ar y rhai hyny y sylwir yma yn gyntaf a manylaf.

*Newidiad cystrawenol y cydseiniaid.* Y mae wyth o seiniau syml yr egwyddor yn ddarostyngedig i'r newidiad yma; sef *b, c, d, g, ll, m, p, t;* ac un sain gyfansawdd, heb fod yn yr egwyddor, sef *rh*.

Dosberthir y naw sain hyn, yn ol sefyllfa eu ffurfiad yn y peiriannau llafar, fel y canlyn:—

Gwefusoliaid:—*p, b, m,* - 3.
Taflodoliaid:—*t, d, ll,* - 3.
Amwys:—*rh*, - - - 1.
Sefnigoliaid:—*c, g*, - - 2.

Saif y sain amwys, fel y gwelir yma ac yn y daflen, td. 237, rhwng y taflodoliaid a'r sefnigoliaid; a pherthyna bron mor agos i'r naill ddosbarth a'r llall.

| Dosbarthau. | | Cyn-tefig. | Lleddf. dy | Trwynol. fy | Chwyrn. ei |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosb i. | Gwefusoliaid | P | b | mh | ph |
| | Taflodoliaid | T | d | nh | th |
| | Sefnigoliaid | C | g | ngh | ch |
| Dosb. ii. | Gwefusoliaid | B | f | m | |
| | Taflodoliaid | D | dd | n | |
| | Sefnigoliaid | G | * | ng | |
| Dosb. iii. | Gwefusoliaid | M | f | | |
| | Taflodoliaid | LL | l | | |
| | Amwys | RH | r | | |

Y mae tair o'r seiniau yna yn newid neu yn treiglo i dri math o seiniau gwahanol iddynt eu hunain; sef i sain leddf, drwynol, a chwyrn. Gelwir y dosbarth yma trithreigliaid. Tair arall a dreiglant i ddwy o'r seiniau crybwylledig—i'r leddf a'r drwynol: gelwir y dosbarth yma, deudreigliaid; a'r tair arall a dreiglant i ddim ond un o'r seiniau a nodwyd—i'r leddf; ac a elwir untreigliaid. Fel hyn, gan hyny, y saif y tri dosbarth:—

Dosb. 1.—Trithreigliaid:—*p, t, c,* - 3.
Dosb. 2.—Deudreigliaid:—*b, d, g,* - 3.
Dosb. 3.—Untreigliaid:—*m, ll, rh,* - 3.

Treigla y trithreigliaid fel hyn:—*p*en—dy *b*en fy *mh*en, ei *ph*en; *t*ad—dy *d*ad, fy *nh*ad, ei *th*ad; *c*oes—dy *g*oes, fy *ngh*oes, ei *ch*oes.

Y deudreigliaid fel hyn:—*b*uwch—dy *f*uwch, fy *m*uwch; *d*afad—dy *dd*afad, fy *n*afad; *g*afr—dy afr, fy *ng*afr.

Yr untreigliaid fel hyn:—*m*am—dy *f*am; *ll*aw—dy *l*aw; *rh*an—dy *r*an.

Gwelir yr holl bethau hyn ar unwaith yn y daflen uchod:—

* Yr achos fod *g* heb lythyren i'w chynnrychioli yn ei threigliad cyntaf—*gafr*, dy *afr*—yw, nad oes sain dawddleddf, sefnigol, o'r un ffurfiad ag *g* yn yr iaith; canys nid yw *gh*, yn awr o leiaf, yn arferedig. Gwel y daflen, td. [illegible].

Digitized by Google

Mae y daflen flaenorol, heb law ei bod yn ddefnyddiol, yn dra chywrain hefyd. Gwelir fod y dosbarth cyntaf—y trithreigliaid—yn cynnwys un sain o bob un o'r tri phrif ddosbarth peiriannol—y gwefusol, y taflodol, a'r sefnigol; a bod yr ail ddosbarth—y deudreigliaid—yr un modd; tra y cynnwys y trydydd dosbarth—un llythyren wefusol, un daflodol, yn nghyd â'r sain amwys, gyfansawdd.

Agwedd arall, tra nodedig a chywrain, perthynol i'r treigliadau cystrawenol hyn, y cyfeiriwyd ato eisoes, ydyw, nad yw gwefusoliaid byth yn treiglo i daflodoliaid na sefnigoliaid; na thaflodoliaid byth i wefusoliaid na sefnigoliaid; na sefnigoliaid byth i wefusoliaid na thaflodoliaid; ond treigla pob sain, yn fanwl, i'w dosbarth peiriannol ei hun, fel y dengys y daflen ganlynol yn eglur:—

| Dosbarthau Treigliadol. | Gwefusol-iaid. | | | Taflodol-iaid. | | | Sefnigoliaid. | | Amwys. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyntefig | P | B | M | T | D | Ll | C | G | Rh |
| Lleddf | b | f | f | d | dd | l | g | * | r |
| Trwynol | mh | m | | nh | n | | ngh | ng | |
| Chwyrn | ph | | | th | | | ch | | |

Os cymharir y ddwy daflen flaenorol â'r daflen sydd yn amlygu dosbarthiad naturiol y seiniau (td. 237), canfyddir y cyfatebiadau canlynol, heb gymmeryd i ystyriaeth y gwahaniaeth manwl rhwng y gwefusoliaid mewnol a'r taflodoliaid allanol, a'r taflodoliaid mewnol a'r sefnigoliaid allanol.

1. Y mae


*p* i *b* fel y mae *t* i *d* ac fel y mae *c* i *g*
*p* i *mh* ... *t* i *nh* ... *c* i *ngh*
*p* i *ph* ... *t* i *th* ... *c* i *ch*
*b* i *f* ... *d* i *dd* ... *g* i *
*b* i *m* ... *d* i *n* ... *g* i *ng*

ac os cymmerir pob llinell ar wahan, gwneir y newidiadau yn yr un dull yn hollol: er esampl, newidir *p*en i *b*en, pan y newidir *t*ad i *d*ad.

2. Y mae

*p* i *ph* fel y mae *b* i *f*
*t* i *th* ... *d* i *dd*
*c* i *ch* ... *g* i *

Ond ni wneir y newidiadau mewn amgylchiadau cyffelyb; canys newidiadau *chwyrn p, t, c*, yw *ph, th, ch*, pan mai newidiadau *lleddf b, d, g* yw *f, dd*, *; canys pan y dywedir *dy f*uwch, o *b*uwch, dywedir *dy b*en (nid *dy ph*en), o *p*en.




3. Y mae

*p*, *t*, *b* } fel y mae { *ff, th, ll, rh, ch*, i *f dd l r gh*, } bob un;

ond, tra y mae *ll* ac *rh* yn newid i *l* ac *r*, pan y mae *p* yn newid i *b*, y mae y tair llythyren arall—*ff, th, ch*—yn annewidiol mewn cystrawen. Fe allesid newid *ff* i *f*, ac *th* i *dd;* ond nid yw *th* byth yn sain gyntefig yn y Gymraeg: y mae *ch* yn sain gyntefig, ond nid yw ei chydberthynas *gh* yn yr iaith.

4. Y mae

*m* i *f* fel y mae *n* i *dd*, ac fel y mae *ng* i *gh*, ond tra y mae *m* yn newid i *f*, mae y lleill yn annewidiol mewn cystrawen. Gallasai y newidiad *n* i *dd* ddygwydd; ond pe buasai y sain *gh* yn yr iaith, nis gallasai *ng* newid i *gh*, am nad yw *ng* byth yn sain gyntefig yn y Gymraeg.

5. Nid yw y newidiadau cystrawenol hyn byth, fel y sylwyd, yn anghydryw: nid yw gwefusoliaid yn newid i daflodoliaid, na thaflodoliaid i sefnigoliaid, &c. Y mae tuedd naturiol seiniau cyntefig cras, hefyd, i newid i rai cras, a lleddf i leddf.

6. *B, d*, ac *g* yw cydberthynasau *p, t, g*, hwynthwy yw eu newidiad lleddf: *ph, th*, ac *ch* yw cydberthynasau chwyrn *p, t, c*, a hwynt-hwy yw eu newidion chwyrn. Pan y mae *b, d*, ac *g* yn gyntefig, eu newidiadau lleddf yw cydberthynasau lleddf *ph, th*, ac *ch*, sef *f, dd*, a *, yn arwyddo di-

*b.* Llywodraetha *tra* sain chwyrn y *trithreigliaid*, a sain gyntefig y *deudreigliaid* a'r *untreigliaid;* megys, tra *ph*ur: tra *b*uan: tra *m*awr.

*c.* Mae *digon* hefyd yn eithriad i'r rheol; a llywodraetha y sain gyntefig; megys, digon *p*ur: digon *b*ychan: digon *m*ân. Pan wrthdroir y gystrawen, cymmer *digon* ei hun y sain leddf; megys, mae yn wir *dd*igon.

*d.* Defnyddir sain leddf neu gyntefig *ll* ac *rh*, ar ol *pur;* megys, pur *l*on; pur *l*ydan: neu pur *ll*on; pur *ll*ydan: pur *r*ad; pur *r*ydlyd: neu, pur *rh*ad; pur *rh*ydlyd.

27. Y mae *ni, na,* orchymynol, *ai ni,* ac *oni,* yn llywodraethu sain leddf y *deudreigliaid* a'r *untreigliaid,* a sain chwyrn y *trithreigliaid;* megys ni *f*wria; ni *dd*ysg; ni *w*lawia; ni *f*yn; ni *l*einw; ni *r*odia: na *f*wria; na *dd*ysg, &c.: ai ni *f*wria, &c.: oni *f*wria, &c.: ni *ph*ryn; ni *th*eimla; ni *ch*âr: na *ph*ryn, &c.; ai ni *ph*ryn? &c.: oni *ph*ryn? &c.

28. Mae y banyn *a,* pa un bynag ai cyflenwol ai gofynol a fyddo, a'r cyssylltiad gwahaniadol *neu,* yn llywodraethu y sain leddf; megys, efe a *b*rynodd: hwy a *d*ynasant y to: hi a *g*arodd yn fawr: efe a *f*arnodd: hwy a *dd*ywedasant: hi a *w*eludd: efe a *f*ynodd: hwy a *l*edasant eu pebyll, ac a *r*anasant yr ysbail: dyn neu *b*ren: dwfr neu *d*àn: coed neu *g*eryg: cyfiawnder neu *f*arn: dyn neu *dd*ynes: gwlaw neu *w*ynt: troed neu *l*aw: dosbarth neu *r*an.

29. Mae yr *yn* atosodol a'r *yn* ragferfol yn llywodraethu y sain leddf; megys, y mae efe yn *b*rynwr da: mae Owain yn *d*yddynwr gonest. mae efe yn *g*urwr creulawn: mae yn *f*arnwr cyfiawn: mae yn *dd*yddiwr ffyddlawn: mae yn *W*arcdwr cryf: mae hi yn *f*orwyn onest: ysgrifena yn *b*rydferth: mae yn *d*anllyd: mae yn *g*yflym: rhed yn *f*uan: gweithia yn *dd*a: argraffa yn *w*ych: ofna yn *f*awr.

*a.* Mae yr "yn atosodol" a "rhagferfol," yn gyffredin, yn eithriad i'r rheol gyda golwg ar *ll* ac *rh;* megys, mae yn *ll*ywydd medrus; mae yn *rh*wyfwr da: yn *ll*awen; yn *rh*yfygus.

30. Mae y cyssylltiaid *am, gan, pan, er pan,* a *tan* (*dan*), yn llywodraethu y sain leddf; megys, am *b*rynu o hono; pan *d*anio yr odyn: am *f*arnu o hono: pan *dd*aw: pan *w*elais ef, &c.

31. Cymmer enwau, neu eiriau cydfynedol â hwy, y sain leddf ar ol cyfryngiad (*interjections*), pan yn adroddedig neu ddealledig; megys O! *b*archedig syr; *b*archedig syr: O! *d*rugarog Dad; *d*rugarog Dad: O! *g*aredig gyfaill; *g*aredig gyfaill, &c., am y *deudreigliaid* a'r *untreigliaid,* pa gyfryngiad bynag a'u rhagflaenont neu a ddeallir; megys *Ha! f*ab; *Ha! f*erch; *O! F*rutaniaid.

*a* Gadewir yrhyfeddnod (!) allan weithiau; megys, Ha fab; Ha ferch; O Frutaniaid. Rhoddir ef bryd arall ar ol y frawddeg; megys, Ha *f*ab! O *F*rutaniaid!

*b* Defnyddir y sain gyntefig weithiau, pan adewir y cyfryngiad allan; megys, *D*uw dad.

32. Gall geiriau gadw eu sain leddf, pan adewir y geiriau a lywodraethant y sain hono allan; megys, y cwningod nid ydynt (*yn*) *b*obl nerthol; nid wyf (*yn*) *b*rysur: pob coed sydd (*yn*) *d*anwydd; nid wyf fi (*yn*) *d*eilwng i ddwyn ei esgidiau: efe oedd (*yn*) *g*anwyll yn llosgi; nid yw hi (*yn*) *g*ariadus: Arthur sy (*yn*) *f*renin; tydi wyt (*yn*) *f*reninol: ac efe oedd (*yn*) *dd*yn cyfiawn; nid yw efe (*yn*) *dd*oniol: nid yw (*yn*) *w*r i ti; nid yw efe (*yn*) *w*an: ti wyt (*yn*) *f*am iddo; yn tueddu (*yn*) *f*wyaf: efe sydd (*yn*) *l*ywydd doeth; a'r ddinas sydd (*yn*) *l*awn o drais; daeth at yr Iesu (*wrth*) *l*iw nos; nid ydoedd (*yn*) *r*an helaeth; nid yw efe (*yn*) *r*anog â hwy: (*pa*) *b*eth (*a*) *f*u y canlyniad? pwy (*a*) *b*rynodd y llyfr? gwelais ef (*ar*) *dd*ydd Sadwrn: yr wyf yn ei weled (*ar*) *r*ai prydiau.

*a.* Priodwedd (*idiom*) y Gymraeg yw gadael yr *yn* allan, a lleddfu y llythyren ddechreuol, yn yr esamplau uchod a'u cyffelyb: felly y gwneir yn y Beibl Cymraeg, a chan holl ysgrifenwyr goreu y genedl, yn enwedig ar ol negydd (*negative*), *nid, ni,* &c. Nid ydym yn gwybod ond am un eithriad i'r rheol yn yr holl Feibl; sef, "*nid* yw gras *yn* ras mwyach;" ac y mae un esampl o'r fath yn y *Llyfr Gweddi;* sef, "ac nad yw eu priodas *yn g*yfreithlawn."

*b.* Cymmer *ll* ac *rh* eu sain gyntefig pan ddodir yr *yn* i mewn, er mai y sain leddf a gymmerant pan adewir yr *yn* allan; megys, a'r ddinas sydd yn *ll*awn o drais; efe oedd yn *ll*ywydd: a'r nwyddau sydd yn *rh*ad; nid yw hyn yn *rh*an fawr. Eithriadau yw y dull yma.

*c,* Cymmer geiriau eu sain gyntefig ar ddechreu brawddegau, pan adewir y geiriau a lywodraethant y sain leddf allan; megys, *p*ybyr y rhyfelasant: *t*anllyd y llosgodd: cywir y dywedodd, &c.: *ll*awn yw'r ddinas o'th drugaredd; *ll*iw nos y daeth: *rh*ad yw y nwyddau.

*d.* Rhoddir honawd (*predicate*) brawddeg weithiau yn y sain gyntefig, er i'r *yn* fod allan; megys, i'r dyn a fyddo *d*a: gŵr da a fydd *t*rugarog fwyn: pan fyddo cyfansawdd.

*e.* Y mae y berfau *bod, mae,* a *maent,* yn eithriadau i'r rheol, gan na oddefant adael yr *yn* allan; megys, am ei fod yn *f*ychan o gorffolaeth (nid am ei fod *f*ychan): y mae yn *rh*ydd i mi ddywedyd: y maent yn *f*awrion.

*f.* Eithriad arall i'r rheol sydd yn gofyn cadw *yn* i mewn, ydyw, pan fyddo y testyn yn enw, a threfn y frawddeg yn gofyn i'r ferf fod yn mlaenaf; megys, bydd Dafydd yn *f*renin; ac nid, bydd Dafydd *f*renin; gan yr achosai hyn amwysedd.

33. Y mae geiriau a arwyddant *barhad* ac *ystod o amser, pellder lle,* a *mesur,* yn cadw eu sain gyntefig pan safont yn mlaenaf mewn brawddeg; ond os dilynant y ferf, cymmerant y sain leddf; megys, *d*eng wythnos yr arosais yno; arosais yno *dd*eng wythnos; *ll*iw nos y daethum; daethum *l*iw nos: pymtheg cufydd yr ymgryfhaodd y dyfroedd; ymgryfhaodd y dyfroedd *b*ymtheg cufydd.

II. *Y sain drwynol.* Cymmer geiriau y sain drwynol,

1. Ar ol yr arddodiad *yn;* megys, yn *Mh*rydain; yn *mh*erthynas: yn *Nh*refdraeth; yn *nh*ir Cymru: yn *Ngh*ymru; yn *ngh*ilfach y graig: yn *M*erwyn; yn *m*arn llawer: yn *N*yfed; yn *n*yfnder y nos: yn *Ng*wynedd: angylion yn *ng*oleu.

*a.* Mae y prif ysgrifenwyr yn newid yr *yn* yma i *ym,* er mwyn persain, pan o flaen geiriau yn dechreu âg *mh* neu *m;* a newidiant *yn* i *yng,* pan o flaen geiriau yn dechreu âg *ngh* neu *ng;* megys ym *Mh*rydain; ym *mh*erthynas: ym *M*erwyn; ym *M*ôn; ym *m*ro Gwent; yng *Ngh*ymru; yng *ngh*ilfach y graig: yng *Ng*wynedd; angylion yng *ng*oleu. Nid yw yr *yn* gyfraniadol yn dyfod dan y rheol hon; megys yn myned; yn myfyrio, &c.

*b.* Mae argraffiadau diweddar y Beibl yn cadw llythyrenau dechreuol enwau priod, gan mwyaf, yn annewidiol ar ol yr arddodiad *yn;* megys, yn *P*adan Aram: yn *T*abbaoth: yn *C*ana Galilea: yn *B*abilon: yn *D*othan: yn *G*alilea: ac nid yn ol y rheol ym *Mh*adan Aram: yn *Nh*abbaoth: yng *Ngh*ana Galilea: ym *M*abilon: yn *N*othan: yng *Ng*alilea. Cedwir at yr un cynllun, yn y Beibl, gyda golwg ar *arddodiaid* ereill, yn enwedig o flaen enwau priod; megys, i *P*edr; i *P*aul; i *T*abitha: i *B*abel: o *P*amphylia; o *T*abor: o *C*anaan; o *B*erea, &c.; ac nid yn ol y rheol —i *B*edr; i *B*aul; i *D*abitha; i *F*abel: o Bamphylia: o *D*abor; o *G*anaan; o *F*erea.

2. Ar ol y rhagenw *fy;* megys, fy *mh*en: fy *nh*ad: fy *ngh*ariad: fy *m*rawd: fy *N*uw: fy *ng*wraig.

Digitized by Google

*a.* Barna y rhan fwyaf o brif lenorion Cymru yn awr fod *cym* yn fwy cytunol â sain a chyfaledd (*analogy*) o flaen sain drwynol *p*, a *cyn* o flaen sain drwynol *t*, na *cy*; megys—*cymm*horth; *cynn*hes. Ac y mae awdurdod y prif awduron Cymreig o blaid hyn.

5. Tuedda *gor* i lywodraethu sain leddf a chwyrn y trithreigliaid; sain leddf a chyntefig *ll*, *rh*; a sain leddf y newidolion ereill; megys, gor*b*wyso, gor*ph*wyso (*p*wys); gor*d*rwm, gor*th*rwm (*t*rwm); gor*g*anu, gor*ch*anu (*c*ân); gor*fl*in (*bl*in); gor*l*og (*ll*og); gor*ll*ewin (*ll*ewin).

6. *Tra* a gymmer sain chwyrn y trithreigliaid ar ei ol; a thuedda i lywodraethu sain gyntefig y newidolion ereill; megys, tra*ph*wyll (*p*wyll); tra*th*rwm (*t*rwm); tra*ch*wsg (*c*wsg).

*a.* Effeithia *tra* yr un modd ar y *trithreigliaid* pan yn anghyfansawdd; megys—tra *ph*wyllog; tra *th*anllyd; tra *ch*ysglyd.

*b.* Cymmer sain leddf rhai o'r *deudreigliaid* ar ei ol; megys—tra*dd*odi; tra*dd*ygyd, &c.

Hoffasem ymhelaethu llawer ar y treigliadau hyn, a lluaws o dreigliadau geiryddol ereill; ond rhaid terfynu.—(*Astle's Orig. of Writing; Sammes, Brit. Antiq.; Cæs. De Bell Gall.; Davies' Celtic Res. and Myth.; Encycl. Metrop.; Encycl. Brit.; Penny Cycl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Rapp; Versuch einer Physiol. der sprache; Bopp. Vergl. Gram. der Sanscrit, Zend, &c.; Grimm. Deutsche Gram.; Ellis' Alph. of Nature, Essence of Phonet. &c.; Latham's Engl. Lang.; Buttmans' Greek Gram.; Zumpt's Lat. Gram.; Pughe's Welsh. Gram.; a Chadwed. yr Iaith Gym.; Rowland's Welsh Gram. Spurrell's Welsh Gram.; Gram. J. M. Jones; Myv. Arch.; Nash's Taliesin, &c.*)

**EGWYDDOR.** Gwel GWYBODAETH.

**EHEDIAID.** Gwel ADERYN.

**EHI,** [אחי=*fy mrawd; 'Αγχίς; Echi*]: yn ol *Gen.* xlvi. 21, un o feibion Beniamin; ond yn ol darlleniad y Deg a Thrigain o'r un adnod, mab ydoedd i Belah. Ymddengys mai yr un person ydoedd ag Ahiram, am yr hwn y sonir yn *Num.* xxvi. 38; ac os felly, *Ahiram* ydyw yr enw yn gywir, y mae yn debygol, gan mai *Ahiramiaid* y gelwid y tylwyth.

**EHWD.** [אהוד=*moliannwr*: 'Αώδ]: mab Gera, fab Iemini (*Barn.* iii. 15), o lwyth Beniamin, yr ail o farnwyr Israel (c.c. 1336). Nis gelwir ef yn farnwr yn y Beibl, ond *achubwr*: felly Othniel (*Barn.* iii. 9), yn nghyd â'r holl farnwyr (*Neh.* ix. 27). Fel Beniaminiad, dewiswyd ef yn offeryn i ladd Eglon, yr hwn ydoedd wedi ymsefydlu yn Iericho, yr hon a gynnwysid oddi mewn i derfynau llwyth Beniamin. [Gwel EGLON]. Ymddengys oddi wrth Josephus mai dyn ieuanc ydoedd. Yr oedd yn nerthol iawn, ac yn llaw-chwith. Felly y dywedir yn y cyfieithiad awdurdodedig; ond y cyfieithiad mwyaf llythyrenol ydyw yr hwn sydd ar ymyl y ddalen, "anafus o'i law ddeheu." Cyfieithir yr ymadrodd mewn dau ddull:—1. Yn llaw-chwith, ac yn analluog i ddefnyddio ei law ddeheu. 2. Yn defnyddio ei law chwith a'i law ddeheu gyda'r un rhwyddineb. Pleidwyr y darlleniad cyntaf ydyw y *Targum*, Josephus, ac ysgrifenwyr Iuddewig yn gyffredin; Buxtorf, Parkhurst, Gesenius, &c.; ac amddiffynwyr yr ail ydyw y Deg a Thrigain, y *Vulgate*, &c. Cymhwysir yr un neillduolrwydd at saith gant o Beniaminiaid yn *Barn.* xx. 16, y rhai a ystyrid fel goreuwŷr y fyddin; gan hyny, y mae yn ddiammheu nad oedd un anaf arnynt. Am anturiaethau Ehwd, gwel EGLON.

Yr oedd Ehwd, megys Gera, yn enw cyffredin yn mysg y Beniaminiaid. Cawn grybwylliad am un arall o'r enw yn 1 *Cron.* vii. 10; viii. 6, sef mab Bilhan, a gorŵyr i'r patriarch Beniamin.

**EICHHORN, JOHN GODFREY:** un o dduwinyddion mwyaf poblogaidd yr Almaen yn ei ddydd. Ganwyd ef Hydref 16eg, 1752, yn Dörrenzimmern, Hohenlohe-Oehringen, lle y pregethai ei dad ar y pryd. Ar ol gwneyd pob darpariadau angenrheidiol, aeth i brifysgol Göttingen yn 1770, a dilynodd ddarlithiau J. D. Michaelis, Walch, Miller, Schlötzer, a Heyne. Yn 1774, appwyntiwyd ef yn beriglor athrofa Ohrdruff, Gotha; ac yn 1775, nodwyd ef yn broffeswr ieithoedd dwyreiniol yn Jena. Yn 1788, galwyd ef i Göttingen, i fod yn olynydd J. D. Michaelis fel athraw athroniaeth, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Mehefin 27ain, 1827. Yr oedd yn ddyn o wybodaeth amrywiol ac eang, ond rhagorai yn benaf fel beirniad yr Hen Destament. Yr oedd ei lafur yn fawr, a'i ffrwythlondeb fel awdwr yn rhyfeddol; ond yr oedd ei lyfrau yn fwy nodedig am eu harddull ddeniadol a llithrig nag am ddyfnder eu hymchwiliadau. Er eu bod yn dra phoblogaidd ar y pryd, ni feddent mewn cymhariaeth ond ychydig werth gwirioneddol. Fel ysgrifen ydd esboniadol, yn ei ymdrechion i amddiffyn y Beibl yn ngwyneb ymosodiadau anffyddiaeth, cydsyniai yn ormodol â syniadau llywodraethol yr oes, ac yr oedd yn rhy dueddol i ddeongli anhawsderau beirniadol trwy yr egwyddor o gyfaddasiad. Cyhoeddodd ffrwyth ei ymchwiliadau yn ei *Universal Library of Biblical Literature*, ei *Repertory of Biblical and Oriental Literature*, ac yn ei *Introduction to the Old and New Testaments*, yn nghyd â lluaws mawr o lyfrau ereill.—(*Herzog's Real Encycl., Rel. Encycl.*)

**EIDION.** Gwel YCH.

**EIDDEW,** [Groeg, *κισσός*]: yn yr Apocrypha yn unig, a hyny ond unwaith, y crybwyllir am eiddew (2 *Macc.* vi. 7), lle y dysgrifir y deml fel yn cael ei halogi gan y Cenedloedd, a'r Iuddewon yn cael eu gorfodi i ymadael oddi wrth ddeddfau eu tadau: "A phan gedwid gwyl Bacchus, fe a orfyddai iddynt fyned yn orfoleddus, âg eiddew ganddynt, er anrhydedd i Bacchus." Ymddengys y defnyddid y gair *κισσός* neu *κιττός* gan y Groegiaid mewn ystyr gyffredinol, a'i fod yn cynnwys amryw blanigion, ac yn eu plith rai planigion dringol heb law yr eiddew cyffredin, yr hwn oedd wedi ei neillduo i Bacchus. Y mae yn wybyddus hefyd y byddai benywod, yn y gwyliau a gedwid er anrhydedd Dionysius, yn ymddyeithro fel Baccyddesau, Naiadiaid, &c., ac yn ymuno â'r gorymdeithiau a elwid *θίασοι* yn addurnedig â garlandau o eiddew, &c. Tybir yn gyffredin mai yn India y derbyniodd Bacchus ei ddysgeidiaeth, ac mai ei enw gwreiddiol ydoedd Bâghês. Ymddengys y cadarnheir y syniad hwn gan y ffaith fod Bâghês yn gyfansoddedig o ddau air, yn golygu teigr, a meistr neu arglwydd, o blegid arddangosir Bacchus yn gyffredin fel yn cael ei dynu mewn cerbyd gan deigr a llew, a dysgrifir teigrod, &c., fel yn ei ddilyn yn ei ymdaith Indiaidd. Pa fodd bynag, gan mai nid planigyn o India ydyw yr eiddew, y mae yn bosibl dadleu

Digitized by Google

nad ydoedd yn nodweddiadol o dduw Indiaidd. Ond gellir canfod eiddew a gwinwydd yn y mynyddoedd sydd yn cyssylltu India â'r gogledd; ac yr oedd y Groegiaid yn wybyddus o'r ffaith mai yr unig barth o India lle y tyfai eiddew ydoedd



Dar. 284.—Eiddew.

mynydd Mero. Yn wir, dywedir fod Alexander a'i gymdeithion wedi coroni eu hunain âg eiddew er anrhydedd Bacchus. Y mae yr eiddew mor gyffredin yn y wlad hon fel nad oes angen ei ddysgrifio.—(*Kitto*).

EINGION, [Gr, *ακμον*; Llad., *incus*; Gwydd., *inneon*]: clamp o haiarn, yn meddu gwyneb llyfn a gwastad, a ddefnyddir gan ofaint i forthwylio eu gwaith nes ei ddwyn i ffurf benodol. Crybwyllir am yr offeryn hwn yn y Beibl: *Esa.* xli. 7.

EILUN—OD. Gan fod cynnifer ag un ar ugain o eiriau Hebraeg yn cael eu defnyddio yn yr Hen Destament i osod allan eilunod a delwau, fe allai mai y ffordd oreu i ni yn yr erthygl hon ydyw rhoddi adolygiad byr arnynt oll, er ceisio dwyn allan eu hystyr a'u cyfeiriad gwahaniaethol yn eu perthynas â'r delwau a'r eilunod amrywiol y cyfeirir atynt. Y mae dau ddosbarth o honynt—un yn cael ei ddefnyddio yn uniongyrchol i osod allan *wrthddrychau* eilunaddoliaeth, a'r llall i'w ystyried fel ymadroddion *cyffredinol*, â chyfeiriad arbenig ynddynt at ddelwau eilunaddoliaeth, y rhai a ddefnyddir trwy eu hystyr ddwfn a bwriadol, i ddynoethi ffolineb, gwagedd, ffieidd-dra, a phechadurusrwydd addoliad gan eilunod gwag a meirw.

און (*âven.*) Yr ystyr gyntefig, dybygid, ydyw gwagder, diddym; ac yn foesol defnyddir ef i osod allan ddrygioni yn ei wedd nacaol fel amddifadrwydd o bob peth gwir, prydferth, a llesol; a chymhwysir ef yn neillduol i osod allan natur hanfodol eilun, a chanlyniadau diles eilunaddoliaeth. Yn *Hos.* iv. 15, gelwir Bethel, o herwydd ei heilunaddoliaeth, yn Bethafen: yn lle bod yn dŷ Dduw (Bethel), yr oedd wedi ymddarostwng i fod yn dŷ gwagedd (Bethafen).

עצב (*'atsab*) neu עצב (*'etseb, Ier.* xxii. 28), ac עצב (*'ôtseb*). Gwreiddyn y tri ydyw עצב (*'atsab*) *gweithio, ffurfio.* Defnyddir yr enwau hyn i osod allan eilun fel peth o ffurfiad dychymyg a chelfyddyd dyn, fel y dywed Paul yn yr Actau.

בשת (*bôsheth*); sef *cywilydd.* Gwel *Ier.* xi. 13; *Hos.* ix. 10. Cymhwysir ef at Baal, i ddynoethi aflendid yr addoliad a delid iddo. Yr oedd felly, nid yn unig fel anffyddlondeb i gyfammod Duw â'r genedl, ond am fod yr addoliad hwnw yn fynych yn gyssylltiedig â ffieidd-dra na ddylid ei enwi (גלולים: *Exod.* xxx. 13). Fe allai ei fod, fel y barna Ieremïah, yn tarddu o גל (*gal*)—"twr o geryg." Y mae yn amlwg yn gosod allan ddiystyrwch, a chymhwysir ef yn benaf yn Ezeciel at dduwiau gau, a'u harwyddluniau: *Deut.* xxix. 17; *Ezec.* viii. 10, &c.

אליל (*elîl*). Yn ol Fürst, arwydda *duw bychan,* mewn ffordd o wawd; oddi wrth אל (*al*) *duw*; a dynoda ddelw fechau o'r llun a addolid gan yr Aiphtiaid a'r Phœniciaid: *Esa.* xix. 3; *Ier.* xiv. 14. Yn *Exod.* xxx. 13, defnyddir ef am eilunod Noph neu Memphis.

אימה (*êmâh*): *braw, dychryn*; ac oddi wrth hyn daeth i arwyddo yr hyn sydd yn cynnyrchu braw neu ddychryn. Defnyddir ef, gan hyny, i osod allan ymddangosiad dychrynllyd eilunod, yn nghyd â nodwedd anfoesol yr addoliad a'r gwasanaeth a delid iddynt, yr hwn oedd yn ddigon i frawychu rhai yn meddu ar gydwybod dyner a meddwl goleuedig i ryw fesur am wirionedd a rhinwedd.

חמנים (*chammânîm*). Y mae cryn lawer o ansicrwydd yn nghylch gwir ystyr y gair hwn. Ar ymyl y ddalen, darllenir gan fynychaf, "haulddelwau." Yn y Vulgate a'r Deg a Thrigain, cyfieithir ef weithiau bob modd. Yn y Syriaeg, darllenir ef "ofnau" ac "eilunod." Y Targum a'i cyfieitha yn mhob man "tai i addoli cerfddelwau." Gesenius, "lleni." Rosenmüller, "temlau cyssegredig i addoli y ser." Barna Movers mai yr un ydyw yr eilun *chamman* a haul-dduw Baal, ac felly fod y *chammânîm* yn arwyddo delwau y duw Chamman. Oddi wrth *Ez.* vi. 46; a *Lef.* xxvi. 30, gellid meddwl mai colofnau o goed neu geryg ar lun fflam o dân oeddynt yn gorwedd ar allor Baal. Y mae yr arysgrif Palmyraidd yn Oxford, efallai, yn cadarnhau y golygiad hwn, "Y golofn hon (*chamana*) a'r allor hon, a gyssegrwyd gan feibion Malchu i'r haul."

משכית (*mascîth*). Gwel *Lef.* xxvi. 1; *Num.* xxiii. 52; *Ez.* viii. 12. Mae yr ystyr, "dyfais," yn ateb yn well, efallai, na dim arall i'r holl fanau uchod. Bernir fod *eben mascîth* yn arwyddo careg wedi ei cherfio â lluniau. Cyfeiria y gair, y mae yn debyg, at geryg, neu yn fwy tebyg, colofnau wedi eu cerfiunio â lluniau gau-dduwiau, neu o leiaf â'u henwau.

מפלצת (*miphletseth*). Dychryn, neu wrthddrych yn cynnyrchu dychryn. Yr un ag eilun Maachah: 1 *Bren.* xv. 13; 2 *Cron.* xv. 16, yr hwn oedd yr un a *Phallus* y Groegiaid, sef gallu ffrwythlawn natur. Bernir fod cyfeiriad at hyn yn *Ier.* x. 5.

מצבה (*matstsêbâh*) a arwydda unrhyw beth wedi ei osod i fyny, ac oddi wrth hyny arwydda colofn-ddelw. Gwel *Gen.* xxviii. 18: xxxv. 14,

Digitized by Google

15; *Ios.* iv. 9; **xxiv.** 26; 1 *Sam.* vii. 12. Pan yn cael eu cyssegru, eneinid hwy âg olew, a thywelltid diod-offrymau arnynt. Cymhwysir ef at y pigadeiladau (*obelisks*) a safent wrth y fynedfa i deml yr haul yn Heliopolis: *Ier.* xliii. 13. Hefyd, am gerf-ddelwau Baal: 2 *Bren.* iii. 2; x. 26, 27. Y mae Movers yn tybied mai cerf-ddelwau oedd y rhai diweddaf, ar wahan oddi wrth un Baal, yr hon oedd o faen ac o ffurf blaenfain. Cyssegrai ac eneiniai y Phœniciaid geryg, y rhai a alwent *Baetylia.* Y Groegiaid hefyd yn yr amseroedd boreuaf a arferent geryg yn lle delwau yn eu haddoliad.

גלולים (*gillûlîm*). Gair yn arwyddo diystyrwch, ond o darddiad anhysbys: *Ezec.* xxx. 13. Mae y Rabbiniaid, wrth gyfeirio at y fath ymadroddion ag sydd yn *Ezec.* iv. 9; *Zeph.* i. 17, yn pleidio y cyfieithiad a roddir ar ymyl y ddalen yn *Deut.* xxix. 47, "tom-dduwiau" [Vulg. "sordes," "sordes idolorum"]; 1 *Bren.* xv. 12. Y mae Jahn yn ei gyssylltu â גלל (*gâlal*), treiglo, a chymhwysa ef at y boncyffion coed o'r rhai y gwnelid eilunod, a elwid mewn gwawd *gililum*, pethau treigledig. Y mae Gesenius yn gwrthod y tarddiad o'r Arabaeg *julla*, bod yn fawr, godidog, ac yn dewis y darlleniad "maen, duwiau meini," gan ei darddu o'r Hebraeg *gal*=ẅr o geryg, yr hyn hefyd yw barn Fürst. Cymhwysir y gair, yn benaf gan Ezeciel, at dduwiau a'r lluniau oedd yn eu cynnyrchu: *Deut.* xxix. 17; *Ezec* viii. 10, &c. Y mae mewn cyssylltiad âg amryw eiriau gwawdus ereill: *Ezec.* xvi. 36· xx. 8; megys, er esampl, aflan, ffieidd-dra: *Ezec.* viii. 10.

נסך (*nesec*) neu נסך (*nêsec*) a מסכה (*massêcâh*). Y mae y ddau air uchod yn gyfystyr, ac yn arwyddo delw dawdd. Gwel *Esa.* xli. 29; xlviii. 5. Defnyddir *massêcâh* yn fynych yn wahaniaethol oddi wrth *pesel* neu *pesîlîm.* Gwel *Barn.* xvii. 3, &c.

פסל (*pesel*) a פסילים (*pesîlîm*) a arwyddant cerfddelwau. Yn *Barn.* iii. 19, 26, cyfieithir *pesîlîm* yn chwarelau, ond yn anghywir. Y mae y gwreiddair yn dynodi y gorpheniad a roddid ar y meini gan y seiri ar ol iddynt gael eu cloddio a'u tori yn y chwarelau. Y mae genym ddysgrifiad hynod o fywiog ac effeithiol o'r cerfddelwau eilun-addolgar yn *Esa.* xliv. Gwnelid hwy o goed, haiarn, neu feini, a goreurid a gwychid hwy yn y modd mwyaf treulfawr.

סמל (*semel*) neu סמל (*sêmel.* Cydrywiol â'r Hebraeg *mâshâl* a *tselem*, Lladin *similis*, a'r Groeg ὁμαλός, ac arwydda cyffelybrwydd. Gesyd allan y cyffelybrwydd sydd rhwng yr eilun a'r duw y mae yn ddelw o hono. Fel y mae y plentyn yn dwyn delw a chyffelybrwydd ei dad, felly yr eilun y gau-dduw. Y maent yn gydryw a chyffelyb; ac am hyny y cyfieithir y gair yn *Deut.* yn y Syraeg yn "rhyw gaeth."

שקוץ (*shikkûts*). Aflendid, anmhuredd. Defnyddir y gair yn enwedig i arwyddo yr hyn a gynnyrchai aflendid seremonïol, megys ymborth wedi ei offrymu yn aberth i eilunod: *Zech.* ix. 7; cymharer *Act.* xv. 20, 29. Pan yn cyfeirio at yr eilunod eu hunain, yr ystyr ydyw gosod allan eu halogrwydd yn eu perthynas â'r genedl Iuddewig fel pobl gyfammodol i'r Iehofah.

צלם (*tselem*). Yr hwn a gyssylltir â'r gair *tsêl* (cysgod). Efallai fod y gair delw mor briodol ag un i osod allan ei wir ystyr yn mhob man. Pan yn cael ei ddefnyddio i osod allan eilun, y mae yn bosibl ei fod yn cyfeirio yn neillduol at ffurf a gwedd yr eilun, o herwydd yn wir defnyddir ef i osod allan wedd ddynol yn *Dan.* iii. 19, fel y defnyddir y gair Groeg ἰδέα yn *Mat.* xxviii. 3.

תמונה (*temûnâh*). Gwel *Iob* iv. 16; *Deut.* iv. 12; 2 *Bren.* xvi. 10; *Deut.* v. 8; *Exod.* xx. 4. Ei ystyr, dybygid, ydyw ffurf, cynllun, neu wneuthuriad. Defnyddir ef yn gyfochrog â *tabnîth* (gwneuthuriad). yn *Deut.* 4. 16. Gesyd allan eilun fel ffrwyth cynlluniad, ffurfiad meddwl, a dyfais dyn.

ציר (*tsîr*). Gwel *Esa.* xlv. 16. Ystyr gyffredin y gair ydyw "loes." Y mae yn anhawdd gwybod pa fodd y daeth i gael ei ddefnyddio am eilun. Cyssylltir ef gan Wright â צור (*tsûr*) a (*yâtsar*), i arwyddo ffurf neu fold, ac oddi wrth hyny eilun.

תרפים (*terâphîm*), sydd air arall yn arwyddo gwrthddrych neu wrthddrychau eilunaddoliaeth. Gwel Teraphim.

Y gair εἰκών, a ddefnyddir yn y Testament Newydd, a arwydda ddelw neu argraff yr ymherawdwr ar yr arian bathol: *Mat.* xxii. 20.

Yr oedd yr awyrfeini yn mysg y gwrthddrychau boreuaf a addolid, megys arwyddion o'r duwdod, y rhai y credai yr hynafiaid eu bod yn ddelwau o'r duwiau, ac a ddanfonid i lawr ganddynt o'r nefoedd. Troisant yn raddol hefyd eu parch at dalpiau o feini garw, annaddedig, ac at golofnau o feini neu goed, yn y rhai y tybient fod y duwdod a addolid ganddynt yn preswylio; a chyssegrent hwy, megys y maen cyssegredig oedd yn Delphi, trwy eu heneinio âg olew, a'u coroni â gwlan ar eu gwyliau arbenig. Y mae Tavernier yn crybwyll am faen du oedd yn nheml eilunod Benares, a eneinid bob dydd âg olew perarogl; a rhai cyffelyb ydyw y "Lingams" a ddefnyddir yn ddyddiol yn addoliad Siva Bengal. Y mae y cyfryw arferion yn eglurhad nodedig o waith Iacob yn cyssegru y golofn faen yn ddifrifol yn Bethel (*Gen.* xxxv. 14, 15), ac yn dangos pa mor barchus yr edrychid ar y cofgolofnau hyn. Ac nid meini unigol yn unig a berchid fel hyn, ond aed i ystyried carneddau ceryg hefyd, mewn amseroedd diweddarach, o leiaf, megys yn gyssegredig i Hermes [*Hom. Od.* xvi. 471; *Vulg. Diar.* xxvi. 8]; a byddai pob teithiwr wrth fyned heibio yn cyfiwyno ei offrwm iddynt [*Creuzer, Zymb.* i. 24]. Mae y garnedd geryg a gyfododd Laban, er tystiolaeth ddifrifol o'r cyfammod rhyngddo ef a Iacob, ac ar yr hon y galwodd ar Dduw ei dadau, yn esampl o'r sefyllfa ganol, pan yr ystyrid y carneddau hyn mewn cyssylltiad â gwasanaeth crefyddol, cyn iddynt ddyfod yn wrthddrychau addoliad. Un maen a gyflwynodd Iacob, o'i du ef, fel coffadwriaeth, a galwodd Iehofah yn dyst, gan gadw ei hun fel hyn ar wahan oddi wrth y defodau a arferai Laban, y rhai a ddichon fod yn cyfranogi o eilunaddoliaeth ei hynafiaid. Gwel Iegar-Sahadutha.

Ychydig o awgrymiadau sydd genym yn y Beibl am y ffurfiau a roddid i'r eilun-dduwiau. Dagon, pysg-dduw y Philistiaid, oedd ben dyn, yn terfynu mewn pysgodyn (Gwel Dagon). Y mae sicrwydd fod y Syriaid, mewn amseroedd diweddarach, yn ffurfio eu duwiau ar ben dyn. Dynwaredodd yr Israeliaid eu cymmydogion yn y peth hyn, fel mewn pethau ereill (*Exod.* xliv. 13; *Doeth. Sol.* xiii. 13); a gellir casglu oddi wrth amryw awgrymiadau, fod eilunod ar lun dyn yn beth cyffredin yn eu plith, er mai ar lun anifeiliaid yr arferid hwy mewn amseroedd cynnarach (*Doeth. Sol.* xiii. 14), megys lloi Aaron a Iereboam, a gwnaed defnydd hefyd o'r sarff bres fel eilun: 2 *Bren.* xviii. 4; *Rhuf.* i. 23. Pan ddelai yr

Digitized by Google

eilun o dan law ei wneuthurwr, addurnid ef yn orwych âg aur ac arian, ac weithiau rhoddid coron ar ei ben (*Epist. Ier.* 9); a gwisgid ef mewn glas a phorphor (*Ier.* x. 9), fel delwau gwisgedig Pallas a Hera [*Müller, Hand. d. Arch. d. Kunst*, adr. 69], a gosodid ef wrth fur, lle y sicrheid ef â chadwyni a hoelion (*Doeth. Sol.* xiii. 15), er mwyn diogelu dylanwad y duw a gynnrychiolai i'r fan. Felly yr Ephesiaid, pan warchauwyd arnynt gan Croesus, a gyssylltasant fur eu dinas â rhaff wrth deml Diana, er mwyn sicrhau cymhorth y dduwies (*Herod.* i. 26); ac i'r un dyben, cadwynodd trigolion Tyrus ddelw-faen Apollo wrth allor Hercules [*Curt.* iv. 3. adr. 15]. Yr oedd rhai delwau yn cael eu paentio yn goch (*Doeth. Sol.* xiii. 14), megys Dionysus a Bacchantes Hermes, a'r duw Pan [*Müller, Hand. d. Arch. d, Kunst*, adr. 69]. Yr oedd y lliw yma gynt yn cael ei ystyried yn gyssegredig. Dywed Pliny, ar awdurdod Verrius, fod paentio gwyneb delw Jupiter yn goch, ar ddyddiau gŵyl, yn arfer gyffredin, a chochliwid cyrff y rhai a fawrygid ar ol buddugoliaeth. Addurnid delw Priapus, duw y gerddi, yn yr un dull [*Tibull.* i. 1, 18]. Dywed Arnobius [i. 39,] fod esgyrn elephantiaid, lluniau, a garlantau wedi eu crogi wrth goed, yn cael eu hystyried yn wrthddrychau addoliad.

Ar ol gorphen addurno yr eilun, gosodid ef mewn teml neu gyssegrfa appwyntiedig (*Epist. Ier.* 12, 19; *Doeth. Sol* xiii. 15; 1 *Cor.* viii. 10). Tybia rhai fod y gair *οἴκημα* (*oicima*) sydd yn *Doeth. Sol.* xiii. 15, yn cael ei arfer mewn dirmyg. Cludid yr eilunod o'r temlau hyn weithiau, ar ddyddiau gŵyl, ar ysgwyddau mewn gorymdaith: *Epist. Ier.* iv. 26. Cynnelid yr offeiriaid o drysorfa yr eilun, ac ymborthent ar y bwyd a gyssegrid at wasanaeth yr eilunod, *Bel a'r Ddraig*, iv. 13. Yr oedd aberthau y gŵyliau hyn yn rhan bwysig o ddefodau eilunaddoliaeth; ac yr oeddynt yn dramgwydd mawr i'r dychweledigion Cristionogol boreuol. Yr oeddynt yr un modd i'r cenedloedd, fel y sylwa y Proff. Stanley yn briodol, ag ydoedd yr enwaediad a defodau deddf Moses i'r dychweledigion Iuddewig. Dyma yr achos fod yr apostol Paul wedi sylwi mor fanwl ar y pwnc, ac wedi gosod rheolau ymddygiad yn ei gylch i lawr mor ofalus, yn ei Ail Epistol at y Corinthiaid: viii—x.

**EILUNADDOLIAETH.** Mae eilunaddoliaeth yn y weithred o briodoli i bethau ac i wrthddrychau briodoleddau a gweithredoedd a berthynant i Dduw yn unig. Y prif achosion o ba rai y deillia, ydynt dywyllwch y meddwl, llygredd y galon, a'r parch gormodol a deimlir gan ddynion tuag at bersonau neu wrthddrychau, oddi wrth ba rai y dychymygant y derbyniant dda neu yr ofnant ddrwg. Gwahaniaetha yn ei ddull a'i wedd, yn ol natur a nodweddau ei eilun. Y gwrthddrychau cyntaf a addolid, y mae yn debyg, oeddynt yr haul, y lloer, a'r ser. Ystyrid y rhai hyn fel cysgodluniau o'r Duwdod—delwau y Creawdwr, a pherchid hwy fel y cyfryw. Yn rhwysg amser, gwladgarwyr enwog, gwroniaid dewr, areithwyr hyawdl, a breninoedd ymadawedig, a ddaethant yn wrthddrychau addoliad; wedi hyny, anifeiliaid o amryw fathau, ymlusgiaid, ehediaid, bwystfilod, prenau, a meini; yn fyr, unrhyw beth a gerid neu a ofnid, a wneid yn wrthddrych addoliad, ac a berchid gyda'r teimladau mwyaf coelgrefyddol. Yr Aiphtiaid, er cymmaint eu hymffrost mewn dysgeidiaeth, a'u hawl-honiad o ddoethineb, a addolent ddirw a seirff, adar a gwybed, cenin a wynwyn; mewn gair, y pethau iselaf a mwyaf dirmygedig o fewn holl gylch naturiaeth. Yr oedd gan y Groegiaid yn y cyfnod mwyaf efrydgar a goleuedig o'u hanesyddiaeth yn nghylch deng mil ar ugain o wahanol dduwiau; ac o'r diwedd, wedi iddynt waghau natur, a dyhysbyddu dychymyg, adeiladasant allor "I'r Duw nid adwaenir;" *Act.* xvii. 23. Yn ol Morus, crefydd yr holl genedloedd Syro-Arabaidd ydoedd duweiddio galluoedd a deddfau natur. Y gwahanol wrthddrychau yn mha rai y tybid fod nerthoedd natur yn preswylio, a thrwy ba rai y gweithredent, a ystyrid yn ddwyfol, ac a addolid fel y cyfryw. Y mae y dyb hon i'w chael yn bresennol mewn rhai parthau o'r byd. Y mae iddi yn awr, fel ag yr oedd yn yr oesoedd gynt, ddwy ddullweddiad—un ydyw, fod y gallu anweledig sydd mewn natur, yn allu anwahanedig ac anwahanadwy, oddi eithr fel y gwahaniaetha yn y gwrthddrychau trwy ba rai y gwna ei hun yn adnabyddus. Ystyrir ef fel enaid y corff creadigol, a'r gwahanol ddullweddau yn mha rai yr ymddengys ei hun, ddim yn amgen na dadblygiadau o'r un gallu tragwyddol ac anfeidrol. Y llall ydyw, fod nerthoedd natur yn gwahaniaethu ynddynt eu hunain, ac y dylid eu hystyried fel cynnifer o wahanol dduwiau, a'r gwrthddrychau drwy ba rai y dadguddiant eu hunain fel eu delwau neillduedig: y mae y ddwy hyn yn cydfodoli, mwy neu lai, agos yn holl gau grefyddau y byd. Fe allai mai y dyb hynaf a mwyaf syml a goleddid mewn perthynas i gau dduwiaeth ydoedd yr un hono a osodai allan y Duwdod mewn agweddau dynol fel gwryw a benyw, ac a edrychai ar y cyntaf fel cysgod o allu gweithgar natur, a'r olaf fel cysgod o'i gallu goddefol; y syniad hwn a arweiniai ei choleddwyr yn naturiol i ffurfio dychymygion am wahanol oed a dullweddau y personau hyn, yn nghyd â'r dygwyddiadau a gymmerent le yn eu bywydau, y gorchestion a gyflawnid ganddynt, a'r plant deilliedig o honynt. Ar y tir hwn y gellir esbonio tarddiad lluaws o ffug-chwedlau eilunaddoliaeth. Yn wir, nid yw y ffugchwedlau a'r miloedd o rith hanesion a ddarluniant gyfnewidiadau a deddfau, perthynasau a galluoedd natur yn hanes y duwiau hyn, ddim yn amgen na dadblygiad cysson a manwl o'r gyfundrefn grefyddol dan sylw.

Nis gallai y cyfryw a ystyrient y Duwdod fel un a breswyliai mewn gwrthddrychau naturiol, lai na theimlo teimladau coelgrefyddol tuag at yr haul—llywodraethwr y dydd, a'r lleuad, llywodraethydd y nos; a ffynnonellau y dylanwadau hyny, ar ba rai y gwna i'r holl greadigaeth ymddibynu am ei thegwch a'i bywyd. O ganlyniad, fel y gellid dysgwyl yn naturiol, ser-addoliaeth a gyfansoddai ran helaeth a neillduol o'r holl gau grefyddau ag y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Hyn ydoedd prif gymmeriad crefyddau y Caldeaid a'r Canaaneaid; hyn hefyd oedd un o brif nodweddau crefydd y Persiaid. Ond yr oedd un peth yn perthyn i ser-addoliad y Persiaid a'i gwnai yn hynod, ac a'i neillduai oddi wrth yr un grefydd arall—y ffaith na wnai ganiatau i'w duw na delw na theml, ond y gwnai gyflwyno iddo ei haddoliad yn ei arwyddlun penaf a mwyaf ofnadwy—*tân fflamllyd.* Bernir gan y dysgedigion mwyaf ymchwilgar mai at y dull hwn o addoli y cyfeirir yn y rhan luosocaf, os nid yn yr oll o'r adnodau hyny yn y gyfrol sanctaidd a gyfeiriant at addoliad yr haul, y lloer, y planedau, ac at holl lu y nefoedd trwy arogl-

Digitized by Google

darth ar uchelfeydd y ddaiar: 2 *Bren.* xxiii. 5, 12; *Ier.* xix. 13. Y Gomeriaid a ddwyfolent eu breninoedd a'u cadfridogion, ac offryment iddynt hwy: y Rhufeiniaid a'r Chineaid a wnelent yr un peth.

Yr oedd gan eilunaddoliaeth, fel crefydd y nefoedd, ei defodau a'i hordinhadau; y rhai hyn a wahaniaethent yn ol ymarferiadau y wlad, tybiau yr addolwyr, a chymmeriad yr eilun. Un cynllun poblogaidd oedd arogldarthu ac offrymu ebyrth difywyd, megys y teisenau a'r ddiodoffrwm yn *Ier.* vii. 18, a'r costrelau gwin yn *Hos.* iii. 1. Cynllun arall oedd offrymu ebyrth gwaedlyd o'r deyrnas anifeilaidd, megys ŷch, ŵyn, &c.: 1 *Bren.* xviii. 26. Brydiau ereill, offrymid ebyrth dynol. Ni wnai Moloch, prif dduw yr Ammoriaid, ymddarostwng i dderbyn un aberth llai ei werth na bywyd dyn. Y gwrthddrychau a gofleidiai yn fwyaf cynhes yn ei freichiau tanllyd oeddynt fabanod diniwed. Y gwaed o ba un yr ymddrachdiai helaethaf ydoedd gwaed meibion hoenus, a merched serchog; a'r unig beroriaeth a swynai ei glustiau trymion, ydoedd cwynfanau ac ysgrechiadau ei ebyrth gresynol fel y llosgent yn ei dân difaol: *Ier.* vii. 31; *Ezec.* xvi. 20. Mewn amseroedd diweddarach, mewn rhan o America, aberthwyd 64,080 o bersonau mewn pedwar diwrnod, yn nghyssegriad un deml i dduw yr ardal. Y mae eilunaddoliaeth yr India yn y dyddiau hyn o'r un cymmeriad gwaedlyd. Dull arall a nodweddid gan ei anlladrwydd:—Ni wnai Astoreth—"brenines y nefoedd"—a phrif dduwies y Sidoniaid, y Philistiaid, yr Assyriaid, a'r Phœniciaid, dderbyn ond ychydig o ebyrth o un math. Ei gwasanaeth hi a wneid i fyny gan mwyaf o'r gwyliau trythyll, a'r rhempau cnawdol ac aflan a ddysgrifir gan Awstin, yr hwn oedd yn llygad-dyst o honynt yn Carthage, gyda'r fath ddirmyg, casineb, a digllonedd: *Hos.* iv. 13; *Ier.* ii. 20; iii. 13. Dewiniaeth hefyd, oraclau, &c., a gyfansoddent ran o ddefodau y crefyddau hyn: 2 *Bren.* i. 2; *Hos.* iv. 12.

Yr oedd gan eilunaddoliaeth ei lleoedd dewisedig er cynnal ei gwasanaeth. Meddai ar dai costfawr, ac ar demlau helaeth a gorwych. Breninoedd, tywysogion, a chyfoethogion y ddaiar a gyfranent o'u trysorau helaeth gyda'r haelfrydedd mwyaf er adeiladu ei phalasau, a'i haddurno yn y modd mwyaf drudfawr ac ysblenydd: 1 *Sam.* xxxi. 10. Brydiau ereill, dygid ei gwasanaeth yn mlaen ar uchelfeydd; aberthent ar benau y mynyddoedd, ac ar y bryniau y llosgent arogldarth: coedwigoedd cysgodol a dyffrynoedd hyfryd hefyd oeddynt leoedd dewisol ac etholedig. O dan y dderwen, yr hoplysen, a'r llwyfen, am fod yn dda cael eu cysgod, yr addolid yn aml: *Hos.* iv. 13. Rai gweithiau, offrymid aberthau ar nen tai ac ar bob maen uchel. Yr oedd eilunaddoliaeth yn meddu ei hoffeiriadaeth: yr offeiriaid gan amlaf a gyfansoddent gorff lluosog; egwyddorid a dysgid hwy i'r gwaith, rhagarweinid hwy i mewn yn raddol i'r dirgelion a gedwid mor wyliadwrus oddi wrth y cyhoedd, urddid hwy i'w swydd, a thelid iddynt y parch a deilyngai eu galwad. Rhenid hwy, o ran gradd, i amryw ddosbarthiadau; o ran rhyw, i dri—y gwrywaidd, y menywaidd, a'r eunuchaidd. Rai gweithiau, cedwid y dosbarthiadau hyn ar wahan; brydiau ereill, unid hwy yn nghyd, a gwasanaethent yn yr un addoliad; a pha bryd bynag y cymmerai hyny le, byddai yr addoliad hwnw yn warthus yn ei anfoesgarwch, ac yn gywilyddus yn ei ffieidd-dra.

Y genedl Iuddewig a syrthiai yn aml i'r pechod hwn: eilunaddoliaeth ydoedd un o'r prif hudoliaethau a'i llithiai; y fagl fwyaf llwyddiannus a'i daliai. Nid ymddengys iddi erioed gael duwiau o'i heiddo ei hun, eithr mabwysiadai yn awyddus eilunod y gwahanol genedloedd a'i hamgylchynai; a thrwy hyny ymblygai yn agos i bob gau dduw a addolid yn unrhyw iaith, neu lwyth, neu genedl o dan y nef. Cawn ar ddeall oddi wrth *Ios.* xxiv. 14; *Ezec.* xx. 8, i'r Israeliaid yn ystod eu hymdaith trwy yr Aipht, gael eu hudo i addoli delwau y wlad hono. Ni ddysgrifir gyda manylwch y trosedd, ond dygir y cyhuddiad yn eu herbyn o addoli duwiau yr Aipht. Dywedir yn *Amos* v. 25; *Num.* xxvi; ac yn *Act.* vii. 42, 43, iddynt fod yn euog o eilunaddoliaeth tra ar eu taith trwy yr anialwch; cymmerasant babell Moloch, a seren Remphan, lluniau y rhai a addolasant; gwasanaethasant hefyd lu y nef, ac ymblygasant i eilundduw y Moabiaid—Baalpeor, yn Sittim. Ar ol iddynt gael eu sefydlu gan fraich yr Arglwydd yn Ngwlad yr Addewid, hudid hwy yn barhaus i fabwysiadu addoliadau y cenedloedd cymmydogaethol, â pha rai yr ymgymdeithasent. Llyfr y Barnwyr a gyfrifa nifer luosog o adlithriadau olynol i'r pechod hwn. Y duwiau a addolent y pryd hwn oeddynt Baal ac Astoreth, brenin a brenines y nefoedd, yn nghyd â'u gwahanol fân ffurfiau. Y lleoedd o ba rai y dygasant eu heilunaddoliadau ar y pryd oeddynt Syria, Sidon, Moab, Ammon, a Philistia: *Barn.* x. 6. Defnyddiodd Samuel ddylanwadau ffafriol a grymus er ennill y bobl oddi wrth eu ffolineb; a darfu i addoliad y gwir Dduw ymaflyd yn raddol, ond yn gynnyddol, yn serch y genedl; ail adeiladwyd ei allorau, a chyflwynwyd iddo unwaith yn chwaneg gân a mawl: ond nid oedd hyn o hir barhad; eu mwynder a ymadawodd fel cwmwl y bore, neu wlith y wawr. Darbwyllwyd Solomon yn ei henaint i fyned ar ol Astoreth (1 *Bren.* xi. 5), ac i roddi caniatâd i eilunaddoliaeth gael ei sefydlu yn Ierusalem. Ar raniad y genedl, teyrnas Israel a ymddangosai yn hoff neillduol o Baal, ac yn llwyr ymroddedig i'w wasanaeth. Yr oedd hwn wedi ei ddwyn yn awr trwy ymdrechion Ahab i boblogrwydd a chlod anarferol, ei wasanaeth wedi cael ei adnewyddu, a'r genedl yn wallgof mewn perthynas iddo. Darfu i Iehu, ac ar ol hyny, Iehoiada yr offeiriad, ddefnyddio mesurau grymus a phenderfynol er gosod i lawr y brwdfrydedd hwn, a gyru eilunaddoliaeth allan o'r wlad: buont i ryw raddau yn llwyddiannus, o herwydd ni ddarllenwn yn chwaneg am Baal; er hyny, y mae yn eglur oddi wrth 2 *Bren.* xiii. 6, a xvii. 10, i addoliad Astoreth barhau hyd alltudiaeth y deg llwyth. Darfu i'r dygwyddiad hwn arwain i mewn i Samaria eilunaddoliadau neillduol Assyria a'i threfedigaethau. Yn nheyrnas Iudah, o'r tu arall, parhaodd eilunaddoliaeth trwy ddwy deyrnasiad olynol; fe'i darlethwyd am amser gan Asa (1 *Bren.* xv. 12); bywhawyd hi drachefn trwy i Ioram briodi i deulu Ahab; codwyd hi i fyny gan Ahaz; derbyniodd attaliad oddi wrth Hezeciah; torodd allan drachefn yn fwy grymus a thanllyd nag o'r blaen o dan Manasseh. Gwnaeth Iosiah yr ymdrechion mwyaf penderfynol, dioed, a galluog, er ei dinystrio, ei hymlid allan o'r deyrnas, ac adferu addoliad Duw Israel; ond mor ddwfn yr oedd wedi gwreiddio yn serchiadau y bobl, ac wedi ymblethu o amgylch calonau ac ymarferiadau yr Israeliaid, fel yr ydoedd ymdrechion grymus Iosiah yn aneffeithiol i'w dymchwelyd, a'i ddylanwad cryf ef

Digitized by Google

yn rhy wan i adferu addoliad y Iehofah; o herwydd y prophwydi diweddarach, megys Zephaniah, Ieremïah, ac Ezeciel, a barhant i ddyrchafu eu llais fel llef udgorn yn erbyn annuwioldeb moesol y genedl, a dal uwch eu penau fygythion trymion y nef, o herwydd eu hymlyniad âg eilunod. Ni ddarfu chwaith cymmeriad Ierusalem gan Nebuchodonozor, o dan deyrnasiad Iehoiacim, a'r blinderau a'r barnedigaethau a ganlynasant, eu deffroi o'u cnawdolrwydd a'u hanffyddlondeb, a'u dwyn i ystyriaeth, o herwydd ymddengys yn eglur oddi wrth *Ezec.* viii, fod y cyfryw a adawyd yn Ierusalem o dan lywodraeth Zedecïah mor hoff o eilunaddoliaeth ag erioed, ac yn ymroddi eu hunain i'w wasanaeth gyda math o frwdfrydedd penboeth, a chyssondeb gwallgofus. Fe gyhudda Ieremïah hefyd y cyfryw o breswylwyr Iudah ag oedd wedi cael noddfa yn yr Aipht, yn Migdol, ac yn Pathros, o lynu wrth eu hen ymarferiad, ac o barhau i arogldarthu i dduwiau dyeithr, ac aberthu i eilunod y wlad yn mha un y trigent: *Ier.* xliv. 1—10. Ar ol eu hadferiad o gaethglud Babilon yr ymddengys yr Iuddewon am y tro cyntaf yn eu hanes rhyfeddol a dygwyddlawn fel wedi eu hiachau a'u puro o'r mawrddrwg hwn. O'r diwedd, ymddangosant yn argyhoeddedig o ddrwg hanfodol eilunaddoliaeth, o'r sarhad a daflai ar Dduw y nefoedd, y dirmyg a'r diraddiad i'w dealltwriaeth eu hunain, y difrod moesol a chymdeithasol a wnelai pa le bynag y teyrnasai, a phenderfynent, un ac oll, i ymwrthod âg ef am byth. Yn ddiau, darfu 'r casineb anghymmodlawn a deimlid gan y Persiaid tuag at eilunod—yr ymwybodolrwydd a feddent o gyflwr presennol gwlad eu genedigaeth, anghyfannedd-dra eu dinasoedd heirdd, a difrodiad eu bröydd teg, yn nghyd â gerwindeb y cerydd—deg a thrigain mlynedd o gaethiwed creulawn mewn gwlad estronol, oll o herwydd y ffieiddbeth hwn—blethu eu dylanwadau, ac uno eu heffeithiau er dwyn oddi amgylch y fath benderfyniad, i gwblhau y fath orchestwaith gogoneddus. Yn y cyflwr hwn y parhasant yn ffyddlawn hyd nes y darfu i Antiochus Epiphanes wneuthur yr ymdrech ddiweddaf er eu llithio oddi wrth addoliad y gwir Dduw, a'u dwyn unwaith yn rhagor i gofleidio eilunaddoliaeth; ond methodd yn ei amcan mewn modd nodedig, glynodd y bobl wrth Dduw y nefoedd, ac ni ddarllenwn byth wedi hyny am eilunaddoliaeth yn mhlith y genedl Iuddewig.

Y mae eilunaddoliaeth yn bresennol yn dra eang; ysgydwa ei theyrnwialen dros barthau helaethaf a phrydferthaf y ddaiar. Cyfrifir fod yn bresennol dros 600,000,000 o eilunaddolwyr proffesedig. Gellir rhanu eilunaddoliaeth presennol y byd i bedwar o ddosbarthiadau:—

1. *Brahminiaeth.* Hon ydyw crefydd yr Hindwaid; yn ol hon, Brahm oedd y bôd cyntaf, yr hwn oedd dduw tragwyddol, hollalluog, a hollbresennol. O'i fynwes ef y daeth Brahma, y person cyntaf yn y *Triad Hindwaidd*, a'r hwn ydyw creawdwr pob peth. Wedi hyny, Vishnu: cynnalydd pob peth. Wedi hyny, Shiva: dinystrydd pob peth. Bramha ydyw creawdwr y bydysawd, ac oddi wrtho ef y mae yr holl dduwiau ereill wedi deilliaw, ac ynddo ef yr ymgolla pob peth yn y diwedd. Yr enaid dynol sydd ran o hono, fel gwreichionen yn rhan o'r tanllwyth; yr enaid rhinweddol a ä iddo yn uniongyrchol yn angeu, fel yr afon yn yr aber yn ymgolli yn y môr; yr enaid anrhinweddol a wrthodir nes yr ä trwy lawer o drawsfudiadau yn gyntaf. Yn ei luniau cerfiedig, dangosir ef fel yn meddu ar bedwar o wynebau a phedair llaw. Yn un llaw, deil lyfr yn cynnwys rhan o'r Vedas; yn yr ail, llestr er dal dwfr; yn y drydedd, rhosbleth; yn y bedwaredd, llwy aberthol. Y mae y Bramhiniaid yn ei addoli y bore, hwyr, a chanol dydd. Yn mis Magha (Ionawr), pan y byddo y lleuad yn llawn, dangosir ef yn ei ogoniant mwyaf; Shiva ar ei law ddeheu, a Vishnu ar ei aswy, ac addolir ef mewn cân, a cherdd, a dawns, &c. Pan y mae y wledd drosodd, teflir y duwiau i ddyfroedd y Ganges. Heb law y tri duw hyn, y mae yn India 330,000,000 o dduwiau ereill is na Brahma, Shiva, a Vishnu. Cyflwynir iddynt luaws o wahanol aberthau; yn mhlith ereill, aberthau dynol, megys ar ŵyliau Juggernaut, pan y tafla lluaws eu hunain o dan olwynion ei gerbyd; mamau a daflant eu babanod hefyd i'r Ganges; y cleifion yn aml a orweddant ar dorlanau afonydd y Ganges, Nerbuddah, a Krishna, er cael eu dwyn ymaith gan y llifeiriant, pan y llifa yr afonydd hyn dros eu ceulanau. Y mae yn mhlith yr Hindwaid bedwar *caste*—y Brahminiaid, y Kshattrya, y Vaishya, y Shudra. Daeth y cyntaf o enau Brahma, cyfansoddant yr offeiriadaeth; yr ail o'i freichiau, hwy yw y *caste* milwraidd; y trydydd o'i fron, hwy yw y *caste* masnachol; y pedwerydd o'i draed, hwy yw y *caste* gweithgar. Y mae eu pagodau neu eu temlau yn lluosog, yn fawr, ac yn orwych. Eu prif lyfr ydyw *Vedas*, yn ysgrifenedig yn y Sanscrit—iaith gyssegredig India, yr hon nis deallir ond gan ychydig heb law y Brahminiaid. Y mae yn mhlith y Brahminiaid luaws o raddau, ond nid oes un weithred a all eu diswyddo.

2. *Buddhïaeth.* Hon yw y grefydd a gofleidir yn India tu draw i'r Ganges; yn Ceylon, Japan, Burmah, Siam, Mongolia, Thibet, Corea, Tartari, Nepaul, a lleoedd ereill. Budha Gotoma ydyw duw y grefydd hon. Ymgnawdolodd er goleuo y dynion mewn pethau o bwys; eu gwaredu o afaelion eu gofidiau a'u gelynion, a'u harwain i ddedwyddwch. Ganwyd ef yn Kapilawastu, 624 o flyneddoedd cyn Crist; ymddyrchafodd i'w awdurdod ddwyfol, a gwnaed ef yn brif Budha, o dan gysgod pren Bo, yn nghoedwig Uruwela; ac y mae efe yn bresennol yn uwch na'r uchaf, ac yn ddoethach na'r doethaf. Ei orchymynion a'i addysgiadau a gasglwyd yn nghyd yn mhen 450 o flyneddoedd ar ol ei ymadawiad, a gwnant yn bresennol 108 o gyfrolau mawrion. Bu farw yn bedwar ugain mlwydd oed, esgynodd i'r uchelder mewn mawredd a rhwysg; gadawodd ol ei droed yn y graig ar ben mynydd uchel, 7,240 o droedfeddi uwch law y môr, yn ynys Ceylon; ac y mae un o'i gilddannedd hyd heddyw gan y Kandiaid, yr hwn a brisiant tu hwnt i ddirnadaeth. Y mae ei ddynoliaeth yn awr wedi ymgolli yn ei ddwyfoldeb. Y mae y Budhistiaid yn credu mewn cyfres o nefoedd ac uffern, y naill yn canlyn y llall; hefyd, mewn lluaws o drawsfudiadau eneidiol—yr abwydyn yn ei dro yn dyfod yn Budha galluog a gogoneddus. Ni chydnabyddant, fel y gwna yr Hindwaid, greawdwr, cynnaliwr, na dinystrydd, na chwaith bodoldeb *castes.* Y mae eu crefydd yn llawn o ddidduwiaeth a defnyddiaeth, ac ar yr un pryd yn llawn o eilunaddoliaeth. Ni wyddent ddim am eilunod yn China hyd nes y cymmerwyd Buddhïaeth yno tuag amser genedigaeth Crist. Gotama Budha ydyw y prif un a addolir. Adeiledir iddo y temlau gwychaf, a llenwir hwy â delwau drudfawr, er dangos hanes a bywyd Budha, a thrawsfudiadau eu gwahanol

Digitized by Google

*lamas.* Y mae yr un yn Ava yn 600 troedfedd o hyd, ac ynddi 200 o golofnau 60 troedfedd o uchder; oll wedi eu gorchuddio âg aur coeth. Y mae miloedd yn cael eu bywoliaeth trwy wneyd delwau o Gotoma; a rhai o'r delwau hyn ydynt o fawredd braidd anghredadwy. Y mae yr un yn Ava yn fawr. Y mae pen y duw hwn yn wyth troedfedd yn ei ganolfesur; deg troedfedd dros ei fron; ei freichiau yn bum troedfedd o hyd; ei uchder yn bedair troedfedd ar ugain; a'r cyfan wedi ei wneuthur o un blocyn cyfangrwn o faen mynor. Gelwir temlau Gotoma yn *iamasery*, a chedwir hwy gyda llawer o urddas a chost. Yr archoffeiriaid a elwir yn *lamas*, ac a ystyrir fel cynnifer o Budhïaid ymgnawdoledig; o herwydd hyny, gelwir hwy *lamas* byw, neu *chaberons.* Y maent oll yn fynachod; trigant yn eu temlau, a threuliant eu bywydau mewn cyflwr o anweddogaeth (*celibacy*). Eu Beibl a elwir *Bana;* y mae wedi ei ysgrifenu yn iaith Pali, yr hon ni ddeallir gan y bobl. Proffesir y grefydd hon gan o ddeutu 369,000,000 o'r teulu dynol. Ei hunig nefoedd yw Nirwana, sefyllfa o ddifodiad; i hyn yr arweinia ei thrawseneidiad hi yn y diwedd. Nefoedd y Brahmin yw ymgolliad yn y duwdod; nefoedd y Budhïad yw diddymiaeth. Fod ynddi lawer o bethau da, y mae yn ddiammheu; ond o ran ei phrif egwyddorion, nid yw yn amgen na chyfundraeth gawraidd ac anferth o ddidduwiaeth, anffyddiaeth, ac ofergoeledd, pa un a geidw filiynau o eneidiau anfarwol mewn tywyllwch a thrueni yn y byd hwn, ac a'u harweinia mewn anwybodaeth a llygredd i'r byd anweledig. Er hyny, hon yw y grefydd a ymdaena ei hun fel y pren Upas dros ororau eang o Asia Ddwyreiniol, gan wasgaru malldod difaol ac angerddol ar bawb a drigant dan ei chysgod.

3. *Y Ffetishaidd.* Hon ydyw y ffurf iselaf o eilunaddoliaeth yn ein dyddiau ni. Ymdaena yn agos dros yr oll o barthau gorllewinol Affrica; cofleidir hi hefyd gan luaws o wahanol lwythau o'r Indiaid yn nhaleithiau gogleddol America. Y mae y Ffetishaidd yn cynnwys y grediniaeth fod y Duw mawr yn ei drugaredd a'i dosturi wedi cynnysgaeddu lluaws o bethau a gwrthddrychau ar y ddaiar â phrioleddau dwyfoliaeth; o ganlyniad, gwnant iddynt eu hunain dduwiau o unrhyw beth mewn natur neu gelfyddyd, yn mhlith bywolion neu farwolion, yn y byd sylweddol, llysieuog, asgellog, neu anifeilaidd. Y mae eu duwiau agos mor aml a'r glaswellt dan eu traed—duwiau at bob peth, ac i bob dyben. Y rhai hyn a dderbyniant eu haddoliad, diolchgarwch, neu gerydd, fel y byddo teimlad yr addolwr ar y pryd. Y duwiau gwladol a berchir yn fawr, a chyflwynir iddynt yn aml ar eu halloraü gwaedlyd aberthau dynol. Y trueiniaid hyn a gredant yn modolaeth dau ysbryd mawr, gogyfartal yn eu gallu a'u dylanwad, un yn pleidio daioni a'r llall ddrygioni. Credant hefyd yn anfarwoldeb yr enaid, ond bod yr anfarwoldeb hwnw yn cael ei wneuthur i fyny o luaws o drawsfudiadau olynol. Cospant eu hunain yn ddidrugaredd yn eu gwasanaeth er heddychu a chymmodi eu duwiau. Rai gweithiau, torant ddarnau o'u cnawd, a fflangellant eu hunain yn greulawn; a phan offrymant eu cyd-ddynion fel aberthau, gwnant hyny yn y modd mwyaf poenus—cadwant hwynt yn ngloesion angeu cyhyd ag y medrant, gan gredu na wna eu duw ymbleseru yn gymmaint mewn dim ag mewn poen a gwewyr. Gwna y grefydd a gofleidir yn Malaysia wahaniaeth i ryw raddau oddi wrth yr un dan sylw; ond o ran ei phrif nodweddau, ymdebygola i Ffetishaeth Affrica. Maraes yw eu duwiau yno, ac ennillir eu serch, eu nodded, a'u tiriondeb, trwy gyflwyno iddynt yr aberthau mwyaf gwaedlyd a gwerthfawr, a'r poenau mwyaf arteithiol. Mae yn Persia hyd heddyw rhyw gymmaint o dânaddolwyr.

4. *Confuciusaidd.* Rhai a wadant fod y grefydd hon yn euog o eilunaddoliaeth; ond caniateir nad oedd felly pan y cyhoeddwyd ac y sefydlwyd hi gyntaf gan Confucius ei hun, ond ei bod hi felly yn awr sydd wirionedd anwadadwy. Y mae y sefydlwr ei hun erbyn heddyw wedi dyfod yn dduw, ac addolir ef trwy holl China. Ganwyd Confucius, athronydd enwog y Chineaid, yn nhywysogaeth Loo, 551 c. c. Pan yn ieuanc, rhoddodd ei hun ddydd a nos i ddarllen a myfyrio; a phenderfynodd ddwyn oddi amgylch ddiwygiad yn nhybiau, moesau, ac ymarferiadau ei gydwladwyr. Ymgododd yn raddol mewn dylanwad cymdeithasol a gwladwriaethol; ymdeithiodd o le i le; ymwelodd â phrif ddinasoedd a theuluoedd yr ymherodraeth, gan ymdrechu yn galed a diwyd i wasgaru ei egwyddorion gwladol a moesol. Methodd i ryw raddau yn ei amcan, teimlodd yn annedwydd o herwydd ei aflwyddiant; dychwelodd i fywyd anghyhoedd, a phenderfynodd dreulio gweddill ei ddyddiau i berffeithio ei gyfundrefn athronyddol, ac i gyflawnu trwy ei ysgrifell yr hyn a fethodd trwy ei wefusau. Bu farw 479 c.c. yn dair ar ddeg a thrigain mlwydd oed. Gadawodd ar ei ol argraffiadau na ddileir tra y parhao amser. Anrhydeddwyd ef yn ei fywyd, a pharchwyd ac addolwyd ef fel duw wedi iddo farw. Yr oedd ei ddamcaniaeth yn fwy o athroniaeth wladol a moesol nag o grefydd: ond creodd chwyldroad cyffredinol yn mhlith y werin: ar ol ei ymadawiad, gwnaed ef yn dduw. Yn bresennol, y mae ei ddarlun i'w weled yn mhob lle; temlau wedi eu hadeiladu i'w enw yn mhob dinas, tref, a phentref; a thair miliwn o ddynion âg un llais yn ei gyhoeddi yn wrthddrych teilwng o addoliad. Y mae yn China yn bresennol 1,560 o demlau wedi eu cyssegru i'w wasanaeth, ac offrymir iddo bob blwyddyn gan y llywodraeth 62,606 o anifeiliaid, ac anrhegir ef â 27,000 corn o sidan, heb law yr hyn a gyflwynir iddo gan y trigolion yn unigol. Y mae ei ddysgyblion yn credu yn modolaeth ysbrydion da a drwg; credant hefyd yn neddf ad-daliad mewn cyssylltiad â'r fuchedd bresennol, naill ai yn mhersonau y troseddwyr neu eu plant ar eu hol. Ni wyddant fawr am y gwir Dduw, nag am sefyllfa ddyfodol, tu draw i drawseneidiad; er hyny, canfyddir yn eu plith luaws o ofergoelion y Budhïaid a'r Hindwaid.

Y mae llawer yn synu fod dynion yn mhob oes mor dueddol i gofleidio eilunaddoliaeth; ond byddai edrych i mewn i natur pethau yn foddion i leihau, i ryw raddau, y syndod hwn. Y mae gan eilunaddoliaeth bedwar o bethau yn mha rai y gall ymffrostio ac ymfalchïo yn fwy nag un grefydd arall dan y nef:—1. Hynafiaeth. Y mae yn hynach nag un grefydd arall a feddwn. Y mae y grefydd Iuddewig yn hen, ond y mae eilunaddoliaeth yn hynach. Ymddangosodd yn mhlith dynolryw yn fuan ar ol y dylif. Yr oedd Abraham a'i gyndadau, pa rai a drigent tu hwnt i'r afon Euphrates, yn eilunaddolwyr; hwy a wasanaethent, meddai Iosuah (*Ios.* xxiv. 2), dduwiau dyeithr. Yr oedd gan Laban ei dduwiau, pa rai a ladratawyd gan Rahel. 2. Helaethder ei hymdaeniad. Ni fu, ac nid oes gan un gref-

Digitized by Google

ydd y fath diriogaethau eang i'w llywyddu. Hon oedd crefydd y Cenedloedd mwyaf galluog, dysgedig, boneddigaidd, a moesgar, yn yr oesoedd boreuol; wedi hyny, y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, rhiaint y celfyddydau a'r gwyddorau, a gydnabyddent ei hawdurdod. Yn ein dyddiau ni, y mae yn meddu ar ymledaeniad helaethach nag un grefydd arall. 3. Ei chyfaddasrwydd i dueddfryd y meddwl dynol at wrthddrychau gweledig a syniadol. Y mae dynion yn caru duwiau a allant ganfod a'u teimlo—duwiau a änt o'u blaen, ac a drigant yn eu plith; y mae yr agos yn fwy swynol na'r pell, y gweledig na'r anweledig, y teimladwy na'r annheimladwy. 4. Ei chydweddiad â nwydau a serchiadau ei haddolwyr; meithrina a boddha bob nwyd; ni ofyn am un moesoldeb. Ei hymarferiadau crefyddol a wneir i fyny o ddefodau hudoliaethus a rhodresgar, gloddestau a glythineb, cyfeddachau nosawl, dirgelion anfad, ac arwyddluniau gwarthus a chywilyddus. Ei duwiau oeddynt ymgeleddwyr pob anlladrwydd a ffieidd-dra, a'i hoffeiriaid oeddynt weision i bob chwant a llygredd.

Yr oedd eilunaddoliaeth yn un o'r pechodau mwyaf anfad yn erbyn cyfraith Moses. Nis gallai y gyfraith fod yn fwy manwl a chywir yn ei dysgrifiad o'r gweithredoedd a gyfansoddent y trosedd, na chwaith yn fwy llym ac eglur yn mhenodiad a chyhoeddiad y gosp. Gwaherddid i genedl Israel wneuthur iddynt eu hunain un ddelw gerfiedig na chyffelybrwydd un ddelw, llun gwryw na benyw, llun un anifail sydd ar y ddaiar, llun un aderyn asgellog a eheda yn yr awyr, llun un ymlusgiad ar y ddaiar, llun un pysgodyn ag sydd yn y dyfroedd. Gwaherddid hwy hefyd rhag dyrchafu eu llygaid tua'r nefoedd, ac ymgrymu i'r gwrthddrychau hyny a addolid heb ddelwau; megys yr haul, y lleuad, y ser, a holl lu y nefoedd: *Deut.* iv. 16—19. Nid oeddynt i oddef allorau a themlau eilunod i aros yn yr un wlad a hwy, ond yn hytrach yr oeddynt i ddinystrio eu hallorau, a thori i lawr eu llwynau hwynt: *Exod.* xxxiv. 13. Yr aur a'r arian a redai o'r delwau toddedig nid oeddynt i'w chwennych na'i gymmeryd i'w tai, rhag y byddai yn fagl iddynt: *Deut.* vii. 25, 26. Nid oeddynt o dan un amgylchiad i aberthu i eilunod, nac ychwaith i fwyta o'r aberthau a offrymid gan ereill i dduwiau dyeithr. Nid oeddynt i brophwydo yn eu henwau, na gwrandaw ar y prophwydi neu y breuddwydwyr a wnelent hyny. Nid oedd neb i fabwysiadu y defodau a arferid yn ngwasanaeth eilunaddoliaeth, nac mewn un modd eu trosglwyddo i wasanaeth yr Arglwydd. Os byddai i ryw un, pa mor agos bynag fel cyfathrach, neu anwyl fel cyfaill, eu hannog yn ddirgel i wasanaethu duwiau y bobl o'u hamgylch, yr oeddynt yn y fan i'w llabyddio â meini: *Deut.* xiii.

Yr oedd y gosp a gyhoeddid gan y gyfraith uwchben eilunaddoliaeth yn llym ac yn erwin. Os byddai i ŵr neu wraig, mab neu ferch, gael eu profi yn euog o addoli delw gerfiedig, neu o ymgrymu i un o lu y nefoedd, yr oedd i gael ei arwain tu allan i byrth y ddinas; ac yno, ar dystiolaeth dau neu dri o dystion, i gael ei labyddio â meini nes y byddai farw. Os byddai i ddinas fod yn euog o'r pechod hwn, yr oedd ei thrigolion i gael eu taraw â min y cleddyf, a'i hanifeiliaid yr un modd i gael eu dinystrio, ei hysbail i gael ei gasglu i'w phrif heol; ac yno eu llosgi, yn nghyd â'r ddinas ei hun, ac nid oedd cymmaint a rhan o'r diofrydbeth i gael ei arbed na'i gadw: *Deut.* xiii. 13—17; xvii. 2—5. Yr oedd holl ysbryd yr Hen Destament yn groes i eilunaddoliaeth; ac yr oedd ei waharddiadau cyfreithiol, ei fygythion prophwydoliaethol, ei achwyniadau twymngalon, a'i dystiolaethau pendant, yn rhagddangos cchryslonrwydd y gosp a ddisgynai ar y troseddwr.

Heb law yr eilunaddoliaeth a ystyrir mewn modd llythyrenol, y mae math arall yn y Beibl yn cael ei ddefnyddio mewn modd ffugrol. Y mae *mammon* yn cael ei ddwyn o'n blaen fel gau dduw, a'r addoliad a delir iddo fel eilunaddoliaeth. Cyfrifir unrhyw serch anghymmedrol, pa un bynag ai at gyfoeth neu anrhydedd, at wagedd neu fwyniant, trwy ba rai y gwneir nwydau a chwantau dyn yn uwch nag yr ewyllysia y Goruchaf, yn eilunaddoliaeth. Gwna dyn, trwy hunan-wasanaeth o'r fath yma, ei hun yn dduw, tâl i'w nwydau ei hun yr addoliad a ddylai yr Hollalluog dderbyn.

EILLIO: yr ydoedd yr arfer o eillio y farf a'r gwallt, ac weithiau yr holl gorff, yn dra chyffredin yn mhlith yr Hebreaid: *Num.* viii. 7; *Lef.* xiv. 8, 9. Eilliai y Lefiaid ar ddydd eu cyssegriad, a'r gwahangleifion ar ddydd eu puredigaeth, eu holl gyrff. Pan y priodai Iuddew wraig wedi ei chymmeryd yn gaeth mewn rhyfel, byddai raid iddo eillio ei phen (*Deut.* xxi. 12), a byddai yr Hebreaid yn gyffredinol, yn nghyd â'r cenedloedd a breswylient ar gyffiniau Palestina, yn arfer eillio eu hunain pan yn galaru, neu ar adegau o gyfyngder mawr, pa un bynag ai cyhoeddus ai teuluaidd: *Esa.* xv. 2; *Ier.* xli. 5; xlviii. 37; *Baruch* vi. 30. Cyfeirir at yr un ddefod yn *Iob* i. 20. Gorchymynodd yr Arglwydd i'r offeiriaid beidio eillio eu gwallt na'u barfau pan yn galaru: *Lef.* xxi. 5. Eillio gwallt benyw oedd y gospedigaeth fwyaf diystyrllyd y gallesid ei gweinyddu arni; cyfeiria yr apostol Paul at hyn, a dywed, "Eithr os brwnt i wraig ei chneifio, neu ei heillio," &c.; 1 *Cor.* xi. 1.

Byddai yr hen Aiphtiaid yn arfer eillio eu barfau, ac felly yr oeddynt yn eithriad i genedloedd dwyreiniol ereill. Pan y gwysiwyd Ioseph ger bron Pharaoh, efe a "eilliodd ei wallt;" *Gen.* xli. 5. Crybwylla Herodotus am y ddefod hon o eiddo yr Aiphtiaid; a phrofir hi hefyd gan ddarluniau a cherfiadau hynafol. "Yr oeddynt mor fanwl ar y pwnc hwn," ebe Wilkinson, "fel y byddai esgeuluso eillio yn destyn cabledd a gwawd; a pha bryd bynag y dymunent drosglwyddo y syniad o ddyn isel ei sefyllfa, neu ddyn annhaclus ac annhrefnus, arddangosid ef gan yr arlunwyr fel yn meddu barf." Pan y dygid dyeithriaid barfog o wledydd ereill i'r Aipht fel caethweision, dywed yr un awdwr wrthym y byddent yn cael eu gorfodi gan eu meistriaid i eillio eu barfau, yn nghyd â'u penau. Y mae yr amgylchiad y cyfeiriwyd ato yn Genesis mewn perthynas i Ioseph, a'r cyfatebiad sydd rhyngddo â'r nodiadau blaenorol, yn brawf nodedig o wirionedd pum llyfr Moses.

Defnyddir y gair yn gyffelybiaethol yn *Esa.* vii. 20, am anrheithiad hollol Iudah gan frenin Assyria. Gwel Barf; Gwallt.—(*Calmet's Dict.*; *Eadie's Bib. Cycl.*)

EINIOES. Gwel Bywyd.

EIRA, EIRY, [Heb., שֶׁלֶג=*dysglaer, claerwyn*]: ôd. Cyfeirir yn aml yn yr Ysgrythyrau at eira, ac yn enwedig at ei wyndra: *Exod.* iv. 6; *Num.*

Digitized by Google

xii. 10; 2 *Bren.* v. 27; *Salm* li. 7; *Esa.* i. 18; *Galar.* iv. 7. Rhestrir ef yn mysg trysorau Duw: *Iob* xxxviiii. 22. "Megys oerder eira yn amser cynauaf, yw cenad ffyddlawn i'r rhai a'i gyrant: canys efe a lawenycha enaid ei feistriaid;" *Diar.* xxv. 13. Ymddengys y cyfeiria hyn at yr hen arfer o oeri gwinoedd yn y dwyrain, cyn eu hyfed, â dwfr eira. Symmuda hyn yr anghyssondeb ymddangosiadol sydd rhwng yr adnod hon a'r adnod flaenaf o'r bennod ddilynol. Megys y mae eira—hyny yw, cawod o eira—yn annaturiol ac yn anamserol yn yr haf, "felly nid cymhwys i'r ffol anrhydedd." Y mae dwfr eira yn feddalach ac yn fwy glanhaol na dwfr cyffredin; at hyn y cyfeirir yn *Iob* ix. 30: "Os ymolchaf mewn dwfr eira, ac os glanhaf fy nwylaw yn lân." "A wrthyd dyn eira Libanus, yr hwn sydd yn dyfod o graig y maes? neu a wrthodir y dyfroedd oerion rhedegog sydd yn dyfod o le arall?" *Ier.* xviii. 14. Ymyl y ddalen: "A wrthyd dyn fy meusydd am graig, neu am eira Libanus? a wrthyd y dyfroedd rhedegog, am y dyfroedd dyeithr oerion?" Y mae Boothroyd yn cyfieithu y geirfel hyn:—

"A wrthyd dyn eira Libanus am graig y maes?
Neu a edy dynion ffrydiau oerion am ddyfroedd dyeithr?"

Neu fe ellir ei ddarllen fel hyn—"A wrthyd un leithder y maes [am] ddwfr eira Libanus, neu a adewir y dyfroedd rhedegog am y dyfroedd lleidiog?" Ystyr y geiriau, medd y Preb. Lowth, ydyw, "Y mae gwaith pobl yn gadael y gwir Dduw am eilunod yn beth mor hynod ac anghredadwy ag a fyddai i deithiwr sychedig adael y ffrydiau oerion adlonol a ddygwyddant yn ei lwybr." Ac eto, felly fu, fel y gwelwn oddi wrth yr adnod nesaf—"O herwydd i'm pobl fy anghofio i, hwy a arogldarthasant i wagedd, ac a wnaethant iddynt dramgwyddo yn eu ffyrdd, allan o'r hen lwybrau, i gerdded llwybrau ffordd ddisathr."

Tarth rhewedig ydyw eira; gronynau o ddwfr wedi rhewi yn yr awyrgylch ar ffurf grisial. Ffurfir eira pan y disgyn tymmeredd yr awyrgylch yn is na'r rhew-bwynt. Y pryd hyny, rhewa y tarth a fydd yn gynnwysedig yn yr awyrgylch—weithiau yn ronynau crynion (cenllusg), ac weithiau yn dafellau neu blu crisialog (eira), y rhai a ddisgynant i'r ddaiar yn gawodydd. Gyda golwg ar grisialiad eira, dywed M. Monge [*Annales de Chimie*, cyf. v. td. 1] fod crisialiad hal ammonia (*sal ammoniac*) yn dra thebyg. Os dodir toddfygiad (*solution*) cynhes o hal ammonia i oeri mewn lle llonydd a thawel, ar y wyneb yr ymffurfia y crisialau gyntaf; sudda y rhai hyn yn uniongyrchol; ac wrth ddisgyn, ymunant â chrisialau cyffelyb fydd wedi ymffurfio yn nghorff y gwlybwr, fel y byddant yn dafellau gwynion erbyn y cyrhaeddant i waelod y llestr. Felly hefyd, disgyna y grisialau eira elfenol, y rhai a ffurfir yn gyffredin yn mharthau uchel yr awyrgylch, yn raddol wrth eu pwysau, ac ar eu ffordd tua'r ddaiar, parant i leithder yr awyr, trwy ddeddf cyfuniad, grisialu, yr hyn a chwanega eu maintioli. Pe byddai yr awyrgylch yn dawel, a'r tymmeredd yn dra isel, disgynai y rhai hyn, y mae yn debygol, yn dafellau bychain o ffurfiau rheolaidd; ond os bydd yr awyrgylch yn gynhyrfus, ymgyssyllta y tafellau gwreiddiol trwy daraw yn erbyn eu gilydd, yr hyn a ddinystria eu ffurf gyntefig. Mewn parthau o'r ddaiar, yn uchel i'r gogledd neu i'r deheu, os gadewir i'r awyr allanol fyned i mewn i ystafell dwymn, trwy dwll bychan, try ei lleithder yn eira yn uniongyrchol.

Bydd eira yn disgyn weithiau fel llwch mân, heb ddim crisialiad yn perthyn iddo; tybir, gan hyny, mai yn agos i arwyneb y ddaiar y bydd y math hwn yn cael ei ffurfio, ac mai eira yn ei sefyllfa gyntaf ydyw. Ffurf crisialau eira yn gyffredin ydyw serenol; a phriodolir rheoleiddra eu ffurf i drydaniaeth. Fe ddarganfyddodd Becaria, trwy gymhorth ei beiriant at brofi sefyllfa drydanol yr awyrgylch, fod trydan mewn eira yn gystal ag mewn gwlaw. Yr achos fod eira mor ysgafn yw, am fod arwyneb y tafellau mor fawr mewn cymhariaeth i swm eu sylwedd. Y mae pwysau eira yn dra amrywiol; ac yn ol Musschenbrock, nid oedd y math serenol ond y bedwaredd ran ar ugain o bwysau dwfr; ond darganfyddodd M. Quetelet ar ol hyny bod y math dwysaf ychydig dros hanner pwysau dwfr, a'i dymmeredd yn 34.5° (Fahr.). Cafodd allan hefyd mai tua'r seithfed ran o bwysau dwfr oedd pwysau eira mân, heb un ffurf benodol, a'i dymmeredd yn 32°; a bod y math ysgafnaf yn amrywio o'r ddegfed i'r ddeuddegfed ran, a bod yr eira y pryd hyny ar ffurf ser bychain, a'i dymmeredd yn amrywio o 29.7° i 18.5°.

Y mae i blu eira, hyd yn oed yn yr hinsoddau tymmerus, luaws o wahanol ffurfiau, a byddant yn aml yn dra phryferth; ond yn yr hinsoddau pegynol y mae yr amrywiaeth mwyaf, ac yno y maent berffeithiaf. Mae y teithiwr Mr. Scoresby, yn ei waith ar y *Parthau Gogleddol*, yn rhoddi darluniau o 96 o wahanol fathau o honynt, cyfran o ba rai a welir yn y darlun canlynol; ac nid yn unig y mae wedi eu trefnu yn ddosbarthiadau, ond rhydd eu maintioli, a noda sefyllfa yr hinraddur a'r gwresfesurydd pan y disgynodd yr eira.

O'r dosbarthiadau hyn, gelwir y cyntaf yn ddosbarth "dalenol" (*lamellar*), yr hwn a gynnwys amryw rywogaethau: un o honynt sydd ddalen deneu dryloew chweochrog, neu ddalen chweochrog gyda llinellau gwynion yn rhedeg yn gyfystlysol âg ochrau yr onglau, ac weithiau bydd seren fechan yn y canol; amrywia eu maintioli—mesura y rhai mwyaf tua'r ddegfed ran o fodfedd ar eu traws. Math arall, a hon ydyw ffurf gyffredin eira, yw y math serenol. (Gwelir amryw o honynt yn y darlun canlynol). Eu tryfesur mwyaf ydyw tua'r drydedd ran o fodfedd, a'r amser y dygwyddant fynychaf, yw pan y bydd y dymmeredd yn agos i rew-bwynt dwfr. Ymddengys y ser weithiau fel yn meddu deuddeg pwynt, ond tybia Mr. Scoresby nad ydyw y rhai hyn yn ddim amgen na dwy seren wedi ymgyssylltu. Y mae amryw o'r mathau chweochrog i'w gweled yn y darlun.

Dalenol hefyd yw yr ail ddosbarth, ond gwahaniaetha oddi wrth y dosbarth cyntaf trwy fod y dalenau yn meddu cnewyllyn crwn tryloew neu wyn, tua chwarter modfedd o dryfesur, o'r hwn y tardd llinellau bychain meinion weithiau i wahanol gyfeiriadau. Amrywia tymmeredd yr adeg y ffurfir y rhai hyn hefyd o'r rhew-bwynt hyd 20° (Fahr.).

Y mae y trydydd dosbarth yn gynnwysedig o reiddellau (*prisms*) chweochrog; o'r rhai hyn, y mae y rhai manaf, y rhai a ffurfir pan y bydd y dymmeredd yn 28°, yn gyffelyb i wallt gwyn main, tua chwarter modfedd o hyd; ffurfir y rhai mwyaf yn mharthau isaf yr awyrgylch, pan y bydd y dymmeredd tua'r rhew-bwynt.


Y mae y pedwerydd dosbarth o'r ffurf byram-

ldaidd, ac yn mesur tua'r ddegfed ran ar ugain o fodfedd o uchder, ond nis gallodd Mr. Scoresby ddyfod i benderfyniad pa un ai tri onglog ai chweonglog oedd eu gwaelod.

Y mae y pummed dosbarth yn gynnwysedig o risialau chweochrog wedi eu cyssylltu yn nghyd gan risielyn picellog main, yr hyn a bar iddynt ymddangos yn gyffelyb i ddwy olwyn ac echel. Anaml iawn y gwelir eira o'r dosbarth hwn a'r dosbarth blaenorol.

Dywed M. Huber Burnand, pan yn ysgrifenu am ansawdd yr eira a ddisgynodd yn Yverdun, yn 1829 a 1830, ei fod wedi grisialu yn ddalenau serenog gyda chwech o bwyntiau, ar hyd pob un o ba rai yr oedd llinion tyner wedi eu trefnu fel plu, ac yr oedd llinion manach yn gorphwys ar y rhai hyny drachefn wedi eu trefnu yn gyffelyb.

Gwelwyd eira yn Ngogledd America yn rholiau ac yn gronellau. Cynnyrchwyd y math cyntaf fel hyn—disgynodd ail gawod ar gawod flaenorol, dros wyneb yr hon yr oedd caenen deneu o rew. Yna, gyrwyd yr eira dros wyneb y rhew gan wynt cryf, yr hwn, trwy dreiglo yn mlaen, a aeth yn rholiau perffaith o amrywiol faintioli—mesurai y rhai mwyaf o ddwy droedfedd a hanner i dair troedfedd o dryfesur; ac yr oeddynt yn geuol yn eu dau ben. Yr oedd y cronellau o fodfedd i bymtheng modfedd o dryfesur, a ffurfiwyd hwythau hefyd yn benaf trwy dreiglo; ond cafwyd rhai o honynt mewn cilfachau, lle yr



Dar. 285.

ydoedd yn anmhosibl eu bod wedi treiglo; gan hyny, tybid mai yn yr awyrgylch yr oedd y rhai hyny wedi ymffurfio. Yr oeddynt yn ysgeifn iawn, ac yn gyfansoddedig o risialau wedi eu cyssylltu yn afreolaidd. Gwelodd Mr. Sheriff gronellau cyffelyb yn East Lothian, yn 1830; a dywed ef mai eira yn gwbl oeddynt.—[*Edin. Phil. Journal*, ii. 88].

Oddi wrth sylw a adroddir yn *Silliman's Journal* [cyf. xviii], profir yn eglur bod milionos (*animalcula*) mewn eira. Dywedir yno bod Dr. Mure wedi gwneyd y prawf canlynol:—Dododd ddwfr glân mewn gwydryn; ac wedi cael sicrwydd trwy y mwyadur nad ydoedd ynddo gymmaint ag un milionyn, dododd eira yn y llestr; wedi i'r eira doddi, yr oedd y dwfr yn llawn o filionos, y rhai a ymddangosent trwy y mwyadur yn debyg i berdys (*shrimps*) bychain. Gellir sylwi yn y fan hon yn briodol nad ystyrir fod dwfr eira yn iach i'r cyfansoddiad fel diod gyffredin; a thybir mai efe sydd yn cynnyrchu yr anhwylderau gyddfol ag y mae trigolion rhai parthau o Switzerland yn agored iddynt.

Y mae yn debyg mai cynnyrch symmudiad gwres o ronynau tarth yr awyrgylch, trwy drydaniaeth, neu trwy ryw ddull arall, ydyw ffurfiad cenllusg. Tybia Volta y gall y cenllusg, wedi unwaith eu ffurfier, barhau i gynnyddu mewn maintioli hyd nes yr ä eu pwysau yn ddigon i wrthweithio yr attyniad trydanol a'u ceidw i fyny—rhydd hyn gyfrif am genllusg mawr. Priodolir cyflymder eu disgyniad, a hyny weithiau,

pan na bydd gwynt yn eu gyru, yn gyfredol yn mron â'r terfyngylch, gan yr un athronydd, i gyfuniad grym dysgyrchiant â'r grym a achosir gan wrth-darawiad dau gwmwl trydanol, trwy yr hyn y dichon y cynnyrchwyd y cenllusg. Ond gwrthwynebwyd y ddamcaniaeth hon, pa fodd bynag, am ffurfiad cenllusg trwy wrthdarawiad cymylau trydanol, gan M. Arago; ac ystyrir bod damcaniaeth Hutton mewn perthynas i ffurfiad gwlaw [gwel GWLAW] yn foddhaol hefyd mewn perthynas i ffurfiad eira a chenllusg. Mewn ab-sennoldeb gwres y mae yr holl wahaniaeth. Cyll y gronynau tarth disgynol fwy o'u gwres pan y ffurfiant genllusg na phan y dygir hwynt i'r sefyllfa o wlaw neu eira. Ymddengys y derbyn y dybiaeth hon gadarnhad oddi wrth y ffaith y gwelwyd yr un cwmwl weithiau yn cynnyrchu gwlaw a chenllusg.

EIRA COCH.

Y mae y math yma o eira, yr hwn a ddygwydd yn awr ac eilwaith, wedi bod yn bwnc o ddyddordeb mawr ac ymchwiliadau lluosog yn mysg dysgedigion er ys oesoedd. Ymofynwyd i'w natur gan y fferyllydd, y llysieuwr, a'r milofydd, a phriodolai y naill fel y llall ei liw coch i wrthddrychau a berthynant i'w gangen neillduol ef ei hun o efrydiaeth.

Ymddengys ddarfod i Aristotle sylwi arno, canys crybwylla bod i anifeiliaid bychain oedd i'w gweled mewn hen eira liw coch yn fynych, a thybiai eu bod yn derbyn y lliw hwnw oddi wrth yr eira [*Hist. Anim.*, v., pen. 19]. Ni chrybwylla un ysgrifenydd arall am eira coch hyd 1760, pryd y darganfyddwyd ef gan Saussure ar y Brevent, a mynyddoedd ereill, ond yn fwyaf arbenig ar fynydd St. Bernard, lle yr oedd cyflawnder o hono. Gwnaeth ymchwiliad fferyllol i ansawdd yr eira hwn, a daeth i'r penderfyniad fod ei liw coch yn cael ei gynnyrchu gan achos llysieuol; sef, fel y tybiai, trwy fod llwch blodau (*pollen*) yn gymmysgedig â gronynau yr eira, gan y gwyddid fod yr achos hwn yn lliwio dwfr, ac yn cynnyrchu yr hyn a elwid "cawod frwmstanaidd" [De Sauss. *Voy.* ii. td. 646].

Ni chafodd y sylwedd hwn, pa fodd bynag, ei chwilio yn fanwl, gyda'r amcan o ddarganfod yr achos o'i liw anghyffredin, hyd y flwyddyn 1819, pryd y dychwelodd y Cadben Ross o'i fordaith ogleddol. Tra yn Baffin's Bay, 75° 54′ lled. gog., a 67° 15′ hyd. gor., gwelodd y Cadben Ross res o greigiau yn orchuddiedig gan eira o liw porffor. Yr oedd y creigiau tua 600 o droedfeddi o uchder, ac yn lliwiedig am tuag wyth milltir o ffordd. Yn ol fel y dywed y cadben, canfu y dynion a anfonwyd i'r tir "bod y sylwedd lliwiedig yn cyrhaedd i lawr trwy yr eira—yr hwn oedd mewn lluaws o fanau yn ddeuddeg troedfedd o ddyfnder—hyd at y graig, a'i fod yn ymddangos fel pe buasai wedi bod yn y sefyllfa hono er ys amser maith."

Sylw fferyllwyr a dynwyd yn mlaenaf gan sylwedd lliwiedig eira coch, a'r cyntaf a'i dadansoddodd oedd Peschier, fferyllydd Italaidd; dadansoddwyd ef wedi hyny gan Wollaston a Thénard. Daeth y tri yn mron i'r un penderfyniad. Y canlynol ydyw dadansoddiad Peschier:—

| | |
|---|---|
| Sylwedd callestrol - - - | 65·5 |
| Sawd allog (*alumina*) - - - | 6·35 |
| Tryegrid haiarn (*peroxide of iron*) | 21·35 |
| Calch - - - - - | 1·17 |
| Sylwedd organaidd - - | 6·8 |
| | 100·00 |

Ond gan nas gallai y fferyllydd, er ei holl lafur, roddi eglurhad boddhaol ar natur y sylwedd hwn, dodwyd ef yn nwylaw y llysieuwr, ac yn yr Attodiad i hanes mordaith ogleddol Cadben Ross, dysgrifir sylwedd lliwiol eira gan Mr. Robert Brown fel rhywogaeth debygol o wymon, a nodir allan ei debygrwydd i *fremella cruenta* y llysieuaeth Seisonig. Ar yr un pryd, fe anfonwyd ychydig o ddwfr yr eira coch a ddygasid o Baffin's Bay i Francis Bauer, yr hwn a wnaeth ymchwiliad tra manwl i'w ansawdd. Canfyddodd fod y dwfr yn cynnwys nifer o gronellau tywyll neu gochion, y rhai oeddynt yn ngwaelod y botel, am eu bod yn drymach na'r dwfr; yn nghyd â nifer o chwysigenau tryloew, y rhai a nofient yn yr hylif. Trwy sylwi ar y cronellau cochion, canfu eu bod yn meddu coesau (*pedical*) cyffelyb i eiddo rhai rhywogaethau o fallder (*uredo*), ac ystyriai hwynt fel rhywogaeth yn perthyn i'r dosbarth hwn. Canfyddodd hefyd, wrth gymharu elfenau dadansoddol y mallder drewedig (*uredo fœtida*) âg elfenau eira coch, fod y naill a'r llall yn cyfateb i'w gilydd i fesur helaeth; gan hyny, daeth i'r penderfyniad mai math o fwyd ellyllon (*fungus*) ydyw sylwedd lliwiol eira coch.

Ond ni chafodd y pwnc orphwysdra yn y fan hon. Yn 1823, rhoddodd y Barwn Wrangel ddysgrifiad o blanigion o liw coch, yr hwn a elwid ganddo *lepraria kermasina*. Ar wyneb creigiau calch gwynion y cafwyd y planigion hyn, yn orchudd coch, teneu, drostynt; canfyddwyd hwynt hefyd mewn dwfr gwlaw ag oedd yn aros ar y creigiau. Yn ystod yr un flwyddyn, derbyniodd y Prosffeswr Agardh, o Lund, yr hwn yn flaenorol a awgrymasai fod yn bosibl mai yr un ydoedd y *lepraria* a phlanigyn yr eira coch, esampl o hono oddi wrth y Barwn Wrangel, ac esampl o'r llall o Loegr oddi wrth Bauer, ac ar ol ymchwiliad dyfal, daeth i'r penderfyniad mai dau blanigyn o'r un rhywogaeth yn hollol oeddynt; a dywed ef mai y dull y cynnyrchir hwynt ydyw, dadmeriad graddol yr eira, a thanbeidrwydd y goleuni yn eu gwahanol sefyllfaoedd. Rhestra Agardh y planigyn yn mysg ei ddosbarth o wymon (*algæ*), dan yr enw *protococcus nivalis*. Gwnaeth Dr. Greville, o Edinburgh, yn 1825, ymchwiliad cyffelyb ar esampl o blanigion eira coch a dderbyniodd o'r parthau pegynol, ac o Ynys Lismore, yn Ysgotland, a daeth i'r un penderfyniad yn mron ag Agardh.

Yn nghorff yr un flwyddyn, dysgrifiodd Syr William Hooker, yn yr *Attodiad i Ail Daith Parry i'r Parthau Gogleddol*, y planigion eira coch a gasglwyd yn ystod y fordaith hono dan yr enw *Palmella nivalis*. Rhestrai Syr William y planigyn yn y dosbarth hwn, am mai yr unig wahaniaeth rhyngddo oedd, fod ei gronellau yn gorphwys ar wyneb sylwedd gludiog, yn lle bod yn soddedig ynddo.

O'r pryd hyn hyd 1838, cyhoeddwyd amryw weithiau a sylwadau ar eira coch, ond yn benaf ar y Cyfandir, gan Kunze, Unger, Martius, ac ereill, ond ni chafwyd nemawr wybodaeth newydd ar y mater.

Deuwn yn awr at bwnc, a phwnc pwysig iawn, yn hanes eira coch. Hyd yn hyn, ar hen esamplau o eira coch, wedi eu cludo yn mhell o'r lle y cafwyd hwynt yn wreiddiol, yr oedd pob ymchwiliadau wedi cael eu dwyn yn mlaen. Yn Awst, 1839, deallodd boneddwr Seisonig o'r enw Mr. Shuttleworth, a breswyliai yn Switzerland, tra yr oedd yn Grimsel, bod yno eira coch yn y gymmydogaeth; a chan fod ganddo fwyadur yn

Digitized by Google

ei feddiant, gwnaeth ymchwiliad ar esampl o'r eira hwnw. Wedi toddi yr eira, a dodi ychydig o'r sylwedd dan wydr y mwyadur, synwyd ef wrth ganfod, nid cronellau ansymmudol o wymon, ond nifer aruthrol o filionos byw, nid o un ffurf yn unig, ond o ffurfiau a maintioli gwahanol. Y rhai canlynol yw y milithod (*infusoria*) a ddynodir ganddo:—1. Milionos yn perthyn i ddosbarth *Astasia* Ehrenberg, y rhai a elwir ganddo *Atsasia nivalis*. 2. Milionos yn perthyn i'r dosbarth *Gyges*, a elwir ganddo *Gyges sanguineus*, y rhai sydd yn gochion tu mewn, ac yn amgauedig mewn cragen dryloew. 3. Rhai manach o lawer na'r ddau fath blaenorol, yn ymsymmud, ond yn dra thebyg i gronellau *Protococcus*. 4. Milionos yn perthyn i'r dosbarth *Volvox*. Canfyddwyd amryw rywogaethau ereill diliw, ond ystyrid mai rhai damweiniol oeddynt. Yn chwanegol at y milionos, canfyddodd Mr. Shuttleworth, fel y barnai, blanigion gwirioneddol, y rhai y tybiai mai *Protococcus nivalis* Agardh oeddynt.

Yn 1840, ymwelodd y proffeswr Agassiz, o Neufchâtel, âg alprew (*glacier*) Aar, lle y cafodd amryw gyfleusderau i edrych i mewn i ansawdd eira coch. Anfonodd draethawd ar y pwnc, yn nghorff yr un flwyddyn, i gyfarfod y Gymdeithasia Brydeinig yn Glasgow, yn cynnwys ffrwyth ei ymchwiliadau. Cadarnhaodd ymchwiliadau Shuttleworth, gan iddo weled yr holl filionos a grybwyllid ganddo; ond chwanegodd bedwar o fathau ereill at y rhestr. Nid oes fawr o bwys yn perthyn i dri o'r mathau hyn, ond y mae y pedwerydd math yn dra gwahanol, gan y tybia Agassiz mai wyau y milionos hyn ydyw y cronellau a gymmerwyd am blanigion, ac a elwid *Protococcus*, &c. Y milionyn hwn ydyw *Philodina roseola* Ehrenberg. Yr oedd cyflawnder o'r milionos hyn yn alprew isaf yr Aar. Y maent yn llawer mwy cymhlethedig eu cyfansoddiad na'r mathau ereill, a chynnwysant nifer o gronellau cochion o'u mewn, y rhai sydd yn weledig trwy eu cyrff tryloew. Y cronellau hyn ydyw eu wyau; a phan eu dodwyir, y maent yn dra thebyg i gronellau y *Protococcus*, fel eu dysgrifir gan Shuttleworth ac ereill.

Ni wneir un awgrymiad gan y dysgedigion y cyfeiriwyd atynt am eira o liw yn y byd ond coch. Crybwylla Martus—naturiaethwr a aeth gyda'r hynt Ffrengig i Spitzbergen—pa fodd bynag, ei fod, ar un amgylchiad, wedi gweled eira gwyrdd. Ond yr oedd iddo wawr goch heb law hyny. Wedi gwneyd lluaws o ymchwiliadau, daeth Martius i benderfyniad fod yr eira gwyrdd a'r eira coch o'r un ansawdd, ond eu bod mewn gwahanol sefyllfaoedd o ddadblygiad. Dywed y proffeswr Meyen [*Taylor's Ann. Nat. Hist.*, Awst, 1841], mai y rheswm dros fod y milionos sydd mewn eira yn cael eu camgymmeryd mor fynych am blanigion, ydyw, eu bod yn naturiol yn treulio rhan fawr o'u hoes mewn cyflwr goddefol, ac na byddant yn dangos un arwydd o fywyd ond yn unig yn achlysurol, dan amgylchiadau ffafriol. Pan yn gwyneyd hyn, byddant yn ymestyn o ran eu hyd nes colli eu ffurf gronellog.—(*Eadie's Bib. Cycl.*; *Calmet's Dict.*; *Penny Cycl.*)

**EIRIACH**, [*air*]: arbed, tosturio wrth, goddef i un fyned yn ddigosp: *Deut.* xiii. 8; 1 *Sam.* xv. 3; *Esa.* ix. 10; xiii. 18.

**EIRIOL—AETH—WR** Y mae dynion i eiriol dros ddynion. Y mae ein perthynas naturiol â'n gilydd yn ein rhwymo i hyny; ac y mae y gair dwyfol yn cynghori fod "ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau (ἐντεύξεις=*eiriolaethau*), a thalu diolch dros bob dyn." Dyma arfer duwiolion yn mhob oes. Eiriolodd Abraham dros Sodoma, Moses dros Israel, Samuel dros Saul, Iob dros ei gyfeillion: *Gen.* xviii. 23; xvii. 18; *Num.* xii. 13; *Iob* i. 5; *Ier.* xviii. 20; *Dan.* ix. 16. Yr oedd hyny yn gymmeradwy gan Dduw, yn fendith i'r byd, ac yn elw iddynt hwythau. "Yr Arglwydd a ddychwelodd gaethiwed Iob pan weddïodd efe dros ei gyfeillion." Tra y bu yn dadleu â hwynt, parhaodd ei adfyd; ond pan yr eiriolodd drostynt, dychwelodd ei hawddfyd.

1. *Eiriolaeth Crist.* Lle y byddo eiriol, y mae yn rhaid fod yno dair plaid—un i roddi, arall i dderbyn, a'r drydydd i erfyn ar y naill yn achos y llall. Y pleidiau â pha rai y mae a wnelom yn awr ydynt y Barnwr, y troseddwr, a'r Cyfryngwr. Barnydd yr holl ddaiar yw Duw; ac "fe wna Barnydd yr holl ddaiar farn." Cyflawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef. Y mae dyn o'r groth yn droseddwr—wedi troseddu pob gorchymyn a roddes Duw iddo erioed, mewn meddwl, gair, neu weithred; ac fel y cyfryw yn euog o'r cwbl. Y mae Crist yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion: y mae yn ceisio ffafrau i'r naill blaid heb niweidio dim o hawliau y blaid arall, yn gwaredu y troseddwr heb ddianrhydeddu y Barnwr. Dyma waith Crist fel Archoffeiriad yn y nef: ei waith mawr ar y ddaiar oedd ufuddhau a dyoddef, rhoddi ei hun drosom yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd. Ac wedi gorphen ar y ddaiar, dechreuodd yn y nef. Felly y gwnai yr archoffeiriad yn Israel ar Ddydd mawr y Cymmod: wedi lladd y pechaberth, äi i mewn i'r cyssegr sancteiddiolaf â gwaed yr aberth hwnw i'w daenellu ar y drugareddfa ger bron yr Arglwyd; ac felly yr aeth Crist i mewn, 'nid i'r cyssegr o waith llaw, portread y gwir gyssegr, ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw drosom ni: *Heb.* ix. 24; vii. 25; *Rhuf.* viii. 34; 1 *Ioan* ii. 1. Y mae ei eiriolaeth yn cynnwys, nid yn unig fod ei waed yn llefaru drosom yn y nefoedd (*Heb.* xii. 24); ac nid yn unig fod y Tad, pan yn cyfiawnhau ac yn gwrandaw gweddi, yn gwneuthur hyny ar gyfrif haeddiant y Cyfryngwr, yr hwn a ddaeth i'n deddfle, a thrwy yr hwn un unig y mae ein gweddïau yn esgyn at Dduw; ond yr ydym i ddeall fod eiriolaeth barhaus, wirioneddol, sylfaenedig ar ei haeddiant. Yn sefyllfa ei ddarostyngiad, efe a offrymodd weddïau ac erfyniau trwy lefain cryf a dagrau; *Heb.* v. 7. Cymharer *Marc* vi. 34; *Luc* xxii. 42; *Mat.* xxvi. 39. Gweddïodd dros y rhai a'i croeshoeliasant (*Luc* xxiii. 34); gweddïodd dros Pedr a'i gwadodd (*Luc* xxii. 32); dros droseddwyr yn gyffredinol (*Esa* lxiii. 12). Yn sefyllfa ei ddyrchafiad y mae yn gweddïo dros ei bobl: "Nid dros y byd yr wyf yn gweddïo, ond dros y rhai a roddaist i mi;" *Ioan* xvii. 9. Y mae yn beryglus i ni ddyweyd dim am *y modd* y mae yr Archoffeiriad Mawr yn cyflwyno ei eiriolaeth i'w Dad, gan nad yw yr Ysgrythyr yn dyweyd dim ar y mater.

Tybia rhai, nad yw yn anghydweddol âg urddasolrwydd ei eiriolaeth i ddefnyddio geiriau. Ond y mae ereill yn tybied mai *ymddangos* yn unig y mae, yn debyg i Amyntas yn ymddangos dros Æschylus. Yr oedd Æschylus wedi troseddu cyfraith ei wlad, ac yn debyg o golli ei fywyd o herwydd hyny. Yr oedd Amyntas wedi bod yn ymladd dros ei wlad, ac wedi colli ei fraich wrth hyny; ar ddydd prawf ei frawd, aeth Amyntas i'r llys ei hunan i ddadleu am arbediad iddo;



Digitized by Google

safodd yn y canol, ond ni ddywedodd un gair; dangosodd y darn braich, ac yr oedd hyny yn ddigon. Teimlodd y barnwr, a theimlodd y llys; ac er mwyn y brawd fu yn y frwydr, arbedwyd y brawd oedd yn y gadwyn. Y mae ymddangosiad Aaron yn y sancteiddiolaf yn ffafrio y golygiad hwn, o herwydd y mae yn debygol nad oedd yr archoffeiriad yn dyweyd dim y tu mewn i'r wahanlen ond mai y gwaed yn unig oedd yn llefaru.

Fe ddichon nad oes dim yn rhoddi cymmaint o hysbysrwydd i ni am y modd mae yr Iesu yn eiriol yn y nefoedd ag ydyw y geiriau hyn: "Yr wyf yn *ewyllysio* lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi;" *Ioan* xvii. 24. Onid allwn gasglu oddi wrth y geiriau hyn fod y Tad yn cyfranu pob bendith, yn gweinyddu pob dylanwad, mewn rhagluniaeth ac mewn iachawdwriaeth, mewn canlyniad i ewyllys a dymuniad dadganedig y Duw-ddyn yn ei sefyllfa o ogoniant yn y nefoedd. Fel hyn yr amddiffynir anrhydedd y llywodraeth ddwyfol. Nid oes un fendith yn cael ei chyfranu ond ar gyfrif yr hwn y mae y Tad wedi ei foddloni ynddo. Yn mhellach hefyd, y mae anrhydedd uchel yn cael ei roddi ar y Cyfryngwr, o gymmaint ag mai trwy ei eiriolaeth ef—sylfaene lig ar yr iawn—yn unig y mae bendithion cadwedigol yn cael eu cyfranu i bechaduriaid. Ac yn chwanegol at hyn, y mae gwerth newydd, megys, yn cael ei roddi i'r bendithion hyn yn nghytrif y rhai sydd yn eu derbyn, gan eu bod yn atebiad i weddi y Cyfryngwr, yn gystal ag yn ffrwyth ei aberth. Yn ngeiriau M'Laurin, swydd dra boddhaol i natur drugarog y Gwaredwr ydyw bod yn cyfranu yn barhaus o fywyd, a nerth, a llawenydd ysbrydol i'w bobl; ac y mae yn rhaid fod pob dyn sydd yn credu yn derbyn llawenydd chwanegol mewn bendithion ysbrydol wrth ystyried pa fodd y maent yn dyfod—eu bod yn dwyn ynddynt eu hunain nid yn unig berarogl ei haeddiant, ond hefyd blas ei gyfeillgarwch.

Yr hysbysiad egluraf a chyflawnaf a gawn yn yr Ysgrythyr am eiriolaeth y Gwaredwr ydyw yr hyn a geir yn y weddi ryfeddol a gynnwysir yn *Ioan* xvii; yn yr hon y mae yn gweddïo drosto ei hun, ei apostolion, a'i bobl, yn mhob oes, ar y tir ei fod wedi cwblhau y gwaith a roddes y Tad iddo i'w wneuthur. Y mae yn anmhosibl darllen y weddi hon heb deimlo ei bod wedi ei bwriadu yn gynllun o'i eiriolaeth yn y nef. Dylem fod yn ofalus i beidio cyssylltu â'i eiriolaeth syniadau anghysson â'r dedwyddwch perffaith a'r anrhydedd goruchel y mae yn eu mwynhau yn awr yn y nef. Nid ydym i ddychymygu am dano, fel yn nyddiau ei gnawd, yn "offrwm gweddïau ac erfyniau gyda llefain cryf a dagrau;" ar y llaw arall dylem fod yn ofalus i beidio esbonio ymaith yr hyn sydd yn hanfodol i eiriolaeth. Y mae yn beryglus i esbonio pob peth yn yr Ysgrythyrau am drefn cadwedigaeth yn llythyrenol, ac y mae dynion da wedi ei chymmylu yn fynych yn y modd hyn; ond y mae perygl hefyd i ni ddarnio yr Ysgrythyrau trwy ddeall pob peth ynddynt fel ffugrau neu droell-ymadroddion.

Y mae eiriolaeth Crist yn *wir angenrheidiol:* y mae mor angenrheidiol er ein cadw ag ydoedd ei farwolaeth. "Felly yr ysgrifenwyd, ac felly yr oedd yn rhaid i Grist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant." Rhaid wrth y naill fel y llall; nid am fod anmharodrwydd yn Nuw i dosturio, ac nid am fod perygl iddo anghofio trugarhau—ond i ddangos fod dybenion yr aberth wedi eu hatteb ganddo, a bod Duw Dad yn foddlawn iddo. Mae yr eiriolaeth yn goffadwriaeth oesol o'r aberth a offrymwyd ar Galfaria, ac yn arddangosiad effeithiol o natur a llywodraeth Iehofah fel Duw cyfiawn ac Achubydd; ac felly yn tueddu i feithrin ynom deimladau cymmysg o hyder a gwylder wrth nesau ato—teimladau a weddai i ni yn mhresennoldeb *Goleuni* pur a *Chariad* perffaith; ac y mae yn ddiammheu ei fod yn cynnyrchu teimladau tebyg yn nheulu glân y nef wrth edrych ar yr Archoffeiriad yno yn gweini yn y gyssegrfa, a gwe'ed nad yw neb yn dyfod at y Tad ond trwyddo ef.

Am *fuddioldeb* ei eiriolaeth, fe ddywedodd Crist ei hun, "Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith." Yn y byd hwn yn unig y mae yn bosibl i ni fod yn fuddiol i'n gilydd: hyn oedd yn ei gwneyd yn gyfyng ar Paul. Myned ymaith fuasai yn "llawer iawn gwell" ganddo ef; "eithr aros yn y cnawd, eb efe, sydd fwy angenrheidiol o'ch plegid chwi." Yn y cnawd yn unig y gallasai fod yn fuddiol iddynt. Ond yr oedd Crist yn fuddiol tra yma yn y cnawd, ac y mae yn fwy buddiol fyth wedi myned ymaith na phe buasai yn aros. Addawodd a chyflawnodd—"Mi a weddïaf ar y Tad ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall" (παράκλητος—*paraclētos*); hyny yw, arall fel myfi, arall i'ch dysgu a'ch argyhoeddi, a'ch cyfnerthu a'ch lloni, fel y gwneuthum i fy hunan. *Paraclētos* gyda y Tad fyddaf fi bellach: 1 *Ioan* ii. 1. *Paraclētos* gyda chwi, ac ynoch, fydd yr Ysbryd Glân yn dragwyddol; "Ac os myfi a äf, mi a'i hanfonaf ef:—mwy buddiol fydd hyny—ei fod ef gyda chwi ar y ddaiar, a minnau gyda'r Tad yn y nef." Cyn gwybod pa mor fuddiol yw eiriolaeth Crist, rhaid gwybod pa mor fuddiol yw holl weinidogaeth yr Ysbryd; pa mor fuddiol yw pob bendith ysbrydol—maddeuant pechodau, parhad mewn gras, nerth yn ol y dydd, gorfoledd mewn gorthrymderau, buddugoliaeth ar angeu a'r bedd, hyfdra ddydd y farn, a bywyd tragwyddol yn y diwedd: ffrwyth yr eiriolaeth yw y cwbl. Y mae genym gynllun godidog o honi yn *Ioan* xvii.—gweddi y gellir ei galw yn Weddi yr Arglwydd gyda mwy o briodoldeb nag un arall. Y mae yno yn gweddïo, nid am eu cymmeryd allan o'r byd, ond am eu cadw rhag y drwg sydd yn y byd; am eu sancteiddio yn y gwirionedd; am eu bod yn un â'r Tad ac âg yntau mewn barn, mewn cariad, mewn gwaith, ac mewn dyben; ac yn un â'u gilydd fel aelodau o'r un teulu mawr. Ac yn ddiweddaf oll, y mae yn gweddïo am eu tragwyddol ogoneddiad yn y nef: "Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi." Ni ddiwellir mo hono hyd nes y gwel ei frodyr bob un wedi cyrhaedd adref i gydfwynhau yr etifeddiaeth; ac hyd hyny ni phaid ag erfyn ar eu rhan.

Y mae yn Nghrist *bob cymmhwysder angenrheidiol* i fod mewn eiriolwr. Y mae yn un wedi ei alw. "Nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hon iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megys Aaron; felly Crist, nis gogoneddodd ei hun i fod yn archoffeiriad." Nid ymgymmeryd â'r gwaith o hono ei hun a ddarfu iddo; ond fe'i hetholwyd, fe'i neillduwyd, fe'i gosodwyd, fe'i galwyd gan Dduw, yn ol trefn cyfammod tragwyddol. Y mae yn eiriol fel un âg awdurdod ganddo; y mae wrth y gwaith y mynai Duw iddo fod; y mae yn dywedyd wrtho, "Gofyn i mi, a rhoddaf..."

Y mae yn *gyfiawn*. Ni wna yr euog i eiriol dros

Digitized by Google

yr euog, yr aflan dros yr aflan, gelyn dros elyn. Ond gwna yr Iesu i ciriol dros y ddynoliaeth; y mae yn gyflaill mynwesol y Tad—yn sanctaidd, diddrwg, a dihalog; "Iesu Grist y *cyfiawn*" yw ei enw; ac y mae nid yn unig yn gyfiawn ei gymmeriad, ond y mae hefyd yn eiriol ar sail gyfiawn. Nid diniweidrwydd y gwrthddrychau, ac nid trugarogrwydd ei natur, ydyw ei sail; ond teilyngdod anfeidrol ei aberth. Y mae yn eiriol gyda y Tad, am mai "Efe yw iyr iawn dros ein pechodau ni." Yr oedd Aaron i daenellu allor yr arogldarth â gwaed, ac yr oedd yr arogldarth ei hunan i gael ei losgi â marwor tanllyd a gymmerid mewn thuser oddi ar allor y poethoffrwm. Yr oedd hyn yn arwyddo y cyssylltiad rhwng aberth Crist a'i eiriolaeth yntau: y mae ger bron yr allor à thuser aur ganddo; a rhoddwyd iddo arogldarth lawer, "fel yr offrymai ef gyda gweddïau yr holl saint ar y allor aur, yr hon sydd ger bron yr orseddifaingc."

Y mae yn *drugarog*. "Fel y byddai drugarog ...y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffe yb i'w frodyr." Y mae yn drugarog erioed fel Duw; ac fel Emmanuel, Duw-ddyn, y mae yn awr yn drugarog oddi ar brofiad o wendidau ein natur, a'r amryw brofedigaethau sydd yn ein cyfarfod. Dichon dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth ac amryfusedd, am ei fod yn medru cydddyoddef. Dyoddefodd holl gystuddiau y byd drwg presennol, a dyoddefodd hefyd holl ymosodiadau yr un drwg arno i'w demtio i wneuthur drwg; "Ac yn gymmaint a dyoddef o hono ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir."

Y mae yn *ddoeth*. Y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo. Y mae yn berffaith adnabyddus o'r pleidiau ag y mae yn cyfryngu rhyngddynt. Y mae yn adnabod y Tad erioed; "ac ni raid iddo dystiolaethu o neb iddo am ddyn, o herwydd y mae efe yn gwybod beth sydd mewn dyn." Gŵyr am ei holl golliadau. O ddiffyg gwybod y gwaethaf am ei gyssylydd (*client*), y mae llawer dadleuwr wedi colli ei achos yn y brawdlys; ond nid oes gan gyflawnder ddim yn ein herbyn ni na ŵyr yr Eiriolwr am dano; "Pe buasai hwn brophwyd, meddai Simon, efe a wybuasai pwy, a pha fath wraig, yw hon sydd yn cyffwrdd âg ef: canys pechadures yw hi." Dangosodd ei fod yn gwybod: dadleuodd ei hachos nes y maddeuwyd yn y fan ei haml bechodau hi. Gŵyr hefyd am ein holl angenrheidiau: gan faint ein hanwybodaeth am danom ein hunain, "ni wyddom ni beth weddïom megys y dylem;" ond y mae efe yn gwybod yn mhob amgylchiad beth i ofyn ar ein rhan; "Myfi a weddïais (eb efe) fel na ddiffygiai dy ffydd di," cyn i Pedr wybod dim am wyntyll Satan oedd am ei nithio.

Y mae yn *barhaus*. Yr oedd marwolaeth yn lluddias i'r offeiriaid Iuddewig barhau; "ond Hwn, am ei fod yn aros yn dragywydd, sydd âg offeiriadaeth dragwyddol ganddo." A thra yr oeddynt hwy yn parhau, unwaith yn y flwyddyn yr ânt i mewn i'r cyssegr i wneuthur cymmod dros feibion Israel. Ond y mae Archoffeiriad ein cyffes ni yn wastad tu mewn i'r wahanlen, yn ei swydd ac wrth ei waith; "Am hyny efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy."

Y mae yn *llwyddiannus*. Mae "gyda y Tad." Y mae yn anwyl gan y Tad; y mae yn gofyn pethau wrth fodd y Tad; y mae yn eiriol dros wrthddrychau cariad y Tad; ac y mae yn gwneyd hyny yn y fath fodd ag i ddiogelu teyrnged o ogoniant tragwyddol i'r Tad. Nid rhyfedd, gan hyny, iddo ddywedyd wrth y Tad, "Myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser." Ac os oedd y Tad yn ei wrandaw ar y ddaiar, cyn iddo gwblhau ei waith, pa faint mwy yn awr ar "ddeheulaw y Mawredd yn y goruchleoedd."

Y mae yn *unig*. Gan fod i ni y fath Offeiriad mawr ar dŷ Dduw, nid oes yma le i offeiriad arall. Cabledd ydyw galw neb yn offeiriad yn yr eglwys ond efe. "Un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion." Ac nid oes un cyfryngwr rhwng dynion a'r Cyfryngwr hwnw; er hyny, mŷn Eglwys Rhufain fod llawer. Y mae ganddynt angelion a saint, ac uwchlaw pawb y Forwyn Fair, i gyfryngu ac i eiriol drostynt. Ni raid i ni ddim dyweyd wrth ddarllenwyr y Beibl nad oes ynddo ddim i gyfiawnhau, ond pob peth i gondemnio, y fath gyfeiliornad. Yr unig anghraifft Ysgrythyrol o weddïo ar un o'r seintiau ymadawedig yw hono yn *Luc* xvi. 24; ac nid ydyw yn galondid mawr i neb arall gynnyg ar y fath orchwyl. Y mae yn ofer, a gwaeth nag ofer; y mae yn dirmygu Mab Duw trwy ranu ei waith a rhoddi ei ogoniant cyfryngol i arall; y mae hefyd yn dwyfoli y creadur. Cyn y gall Mair na Gabriel, na neb arall, wrandaw gweddïau miliynau ar unwaith, rhaid eu bod yn hollbresennol ac yn hollwybodol; galw arnynt, o ganlyniad, yw eu gosod megys duw i eistedd yn nheml Duw. Y mae ymddygiad felly yn eilunaddoliaeth noeth. Nid ydyw son am addoliad israddol ac uwchraddol (λατρεία a δουλεία, &c.) yn ddim ond tywyllu cynghor âg ymadroddion heb wybodaeth. Y maent yn addoli ac yn gwasanaethu y creadur fel, ac yn aml yn fwy na'r Creawdwr, yr hwn sydd yn fendigedig yn oes oesoedd. Pe gwelai pagan, am y tro cyntaf erioed, yr ymarferiadau defosiynol hyn o eiddo y Pabyddion, penderfynai yn y fan fod iddynt "dduwiau lawer ac arglwyddi lawer." Pan anfonodd Ffrainc ei hoffeiriaid Pabaidd i Tahiti, i argymhell y cyfryw arferiadau ar ei thrigolion, ag sydd yn awr wedi eu goleuo i adnabod y bywiol a'r gwir Dduw, eu rheswm dros eu gwrthod ydoedd, eu bod eisoes wedi cael hen ddigon ar eilunaddoliaeth. Gŵyr yr Ysbryd am duedd eilunaddolgar calon lygredig dan yr efengyl fel dan y gyfraith, yn mhlith Cristionogion fel yn mhlith Iuddewon; ac am hyny y mae yn dywedyd, wrth son am y Cywir hwnw, sef ei Fab ef Iesu Grist, "Y plant bychain, ymgedwch oddi wrth eilunod." Dysgwn—

1. Mor fawr yw cariad Crist. I weled mawredd ei gariad, byddwn yn fynych, er nad yn ddigon mynych, yn tramwy i Fethlehem, Gethsemane, a Chalfaria; ac nid oes yn y greadigaeth lanerchau mor fanteisiol i gael golwg arno. "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef bod i un roddi ei einioes dros ei gyfeillion." "Yn hyn y mae cariad." Ond wrth edrych yno, nac anghofiwn edrych i ganol yr orseddfaine i weled yr Hwn fu farw drosom yn byw eto drosom yn dragywydd. Yn hyn hefyd y mae cariad. Yr oedd y Dr. Owen yn cwyno er ys talm ein bod, wrth gofio ei farwolaeth, yn rhy duedddol i anghofio ei fywyd presennol. Y mae yn uchel iawn, goruwch pawb oll, ar ddeheulaw y Tad; a'r angelion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd wedi eu darostwng iddo. Y mae ar ei ben goronau lawer, a phob peth dan ei draed ef. "Mil o filoedd a'i gwasanaethant ef, myrdd myrddiynau a safant

Digitized by Google

lywodraethol yn Mesopotamia Isaf, yr adeg foreuol hon, oedd Elam, yr hon a fwynhäai y pryd hyn y sefyllfa ag yr oedd Babilon wedi bod ynddi yn flaenorol (*Gen.* x. 10), a'r hon y daeth Babilon neu Assyria iddi yn ddiweddarach. Cadarnheir y golygiad hwn gan ddarganfyddiadau a wnaethpwyd yn y wlad ei hunan, y rhai a ddangosant fod Susan, y brif ddinas Elamitaidd, yn un o ddinasoedd hynaf y dwyrain. Ni pharhaodd yr ymherodaeth Elamitaidd a sefydlwyd y pryd hyn, pa fodd bynag, ond dros ychydig. Profodd Babilon ac Assyria eu bod, ar y cyfan, yn alluoedd cryfach; ac nis gellir edrych ar Elam ond megys y wlad fwyaf galluog ag ydoedd dan deyrnged iddynt. Megys y cenedloedd ereill ag oedd dan deyrnged, cadwai ei breninoedd ei hun, ac ennillai ei hannibyniaeth yn awr ac eilwaith, yr hwn a fwynhäai dros dymmor mwy neu lai. Ond yn gyffredin, boddlonai ar gydnabod goruchafiaeth y naill neu y llall o'r ddau allu llywodraethol. Tua diwedd y cyfnod Assyriaidd, canfyddir hi mewn cynghrair â Babilon, yn rhyfela yn erbyn Assyria; ond ymddengys ei bod wedi myned i ddirywiad mewn gallu ar ol i ymherodraeth Assyria gael ei dinystrio, a chyfododd yr ymherodraeth Fediaidd a Babilonaidd ar ei hadfeilion. Yn amser Belsassar, mae yn amlwg mai talaeth o Babilon oedd Elam (*Dan.* viii. 2), ac y mae yn dra thebyg ei bod yn ddarostyngedig iddi o'r hyn lleiaf er amser Nebuchodonosor. Y mae yn bosibl mai buddugoliaeth Nebuchodonosor ar Elam, drwy yr hyn y dinystriwyd ei hannibyniaeth yn llwyr, oedd yr anrheithiad a ragfynegwyd gan Ieremïah (*pen.* xlix. 30—34) ac Ezeciel (*pen.* xxxii. 24, 25). Y mae yr amser y chwanegodd y Persiaid Elam at eu hymherodraeth yn ansicr. Y mae yn bosibl na ddaeth dan eu llywodraeth hyd nes y darostyngwyd Babilon; ond y mae lle i feddwl iddi wrthryfela, ac ymuno â'r Persiaid cyn eu hymosodiad diweddaf ar y ddinas. Llefara y prophwyd Esaiah (*pen.* xxi. 2; xxii. 6), fel yr ymddengys, am Elam fel yn cymmeryd rhan yn ninystr Babilon; ac os nad mewn dull rhydd am Persia yr arferir y gair, y mae yn rhaid i ni gasglu ddarfod i Elam ymuno â'r ymosodwyr. Ar ol hyn, gwnaethwyd hi yn dalaeth o'r ymherodraeth Bersiaidd, a thalai 300 o dalentau yn flyneddol fel teyrnged. Gwnaethpwyd Susan, ei phrif ddinas, yn brif ddinas yr holl ymherodraeth. [Gwel SUSAN]. Ond ni bu hyn, pa fodd bynag, yn attalfa i wrthryfeloedd. Nid yn unig fe gynlluniwyd yn Susan ac fe gariwyd i weithrediad y gwrthryfel Magïaidd, ond ymddengys fod yno ddau wrthryfel Elamitaidd wedi cymmeryd lle yn y blyneddoedd cyntaf o deyrnasiad Darius Hystaspes. Ar ol yr ymdrechion ofer hyn, boddlonodd Elam i'w darostyngiad; ac fel talaeth Bersiaidd, glynodd wrth dynged yr ymherodraeth. O ran maintioli, y mae Elam ychydig yn llai na Lloegr. Dychwelodd 1254 o "feibion Elam" gyda Zorobabel o Babilon (*Ezra* ii. 7; *Neh.* vii. 12), yn nghyd â 71 yn rhagor gydag Ezra ar ol hyny (*Ezra* viii. 7; 1 *Esdr.* viii. 33). Un o'r rhai hyn, Sechanïah, mab Iehïel, oedd yr hwn a gefnogodd Ezra yn ei ymdrechion yn erbyn gwaith y bobl yn priodi gwragedd dyeithr (*Ezra* x. 2); ac mewn canlyniad, bwriodd chwech o feibion Elam eu gwragedd ymaith. Elam oedd enw un o'r penaethiaid a seliasant y cyfammod rhwng Duw a'r bobl gyda Nehemïah: *Neh.* x. 14. Y mae y rhestrau sydd yn *Ezra.* ii. a *Neh.* vii, yn cynnwys, fel yr ymddengys, gymmysgedd afreolaidd o enwau lleoedd a phersonau. Yn *adn.* 21—34 o'r flaenaf, enwau lleoedd ydyw y cyfan, oddi eithr un neu ddau; yn *adn.* 3—19, ar y llaw arall, cawn enwau personau, y mae yn debygol, gan na wyddys am leoedd o'r un enwau. Ni chrybwyllir fod y fath le ag Elam yn Palestina mewn un man yn y Beibl, nag yn *Ouomasticon* Eusebius; gan hyny, gallwn benderfynu mai enw dyn ydyw. Yn yr un rhestr, cawn ail Elam, yr un nifer o feibion pa un a ddychwelasant gyda Zorobabel (*Ezra* ii. 31; *Neh.* vii. 34), a'r hwn a elwir, er ei wahaniaethu oddi wrth y blaenaf, "yr Elam arall."—(*Kitto's Cycl. Bibl. Liter.; Smith's Dict.; Eadie's Bibl. Cycl.*)

2. ELAM: Leflad Corhïaidd, pummed mab Meselemïah; un o'r porthorion yn amser y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxvi. 3.

3. ELAM: un o benaethiaid llwyth Beniamin, ac un o feibion Sasac: 1 *Cron.* viii. 24.

4. ELAM: un o'r offeiriaid ag oedd gyda Nehemïah yn nghyssegriad muriau Ierusalem: *Neh.* xii. 42.

ELAMITIAID, neu ELAMIAID, [עלמיא; 'Ελυμαῖοι; *Aelamitae*]: trigolion cyntefig y wlad a elwir Elam, hiliogaeth Sem oeddynt; a derbyniasant eu henw, fe allai, oddi wrth yr Elam y sonir am dano yn *Gen.* x. 22. Ni wyddys ond ychydig am eu harferion na'u defodau. Dywed Strabo eu bod yn fwäwyr medrus [xv. 3, adr. 10], a chydsyniad awgrymiadau Esaiah ac Ieremïah â hyn, y diweddaf o ba rai a lefara am "fwa Elam" (*pen.* xlix. 35), tra y dywed y cyntaf, "Elam a ddug y cawell saethau" (*pen.* xxii. 6). Chwanega Esaiah hefyd yn y fan hon eu bod yn ymladd ar feirch ac mewn cerbydau. Ymddengys ddarfod iddynt fod yn dra ymlyngar wrth eu cenedlaetholdeb, canys y mae yn eglur oddi wrth y crybwylliad a wneir am danynt ar ddydd y Pentecost (*Act.* ii. 9), eu bod yn genedl wahaniaethol hyd yn oed y pryd hyny.

1. ELASAH, [אלעשה=*gweithredoedd Duw*]: un o feibion Pasur, offeiriad yn amser Ezra, a briododd wraig o blith y Cenedloedd: *pen.* x. 22.

2. ELASAH: mab Saphan. Un o'r ddau wr a anfonwyd ar genadwri gan y brenin Sedeciah i Babilon at Nebuchodonozor, wedi trosglwyddiad y gaethglud gyntaf o Ierusalem, ac a ddygasant ar yr un pryd lythyr Ieremïah y prophwyd at y rhai a gaethgludasid: *Ier.* xxix. 3.

ELATH neu ELOTH, [אילת=*nerth*; y Deg a Thrigain, *Αἰλών*; Josephus, *Αἰλανή*; Jerome, *Ailath*; y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, '*Ελάνα*; yr enw presennol yw *Ailah*]: dinas yn Edom, yn meddu porthladd yn mraich ddwyreiniol y Môr Coch. Yn ol Eusebius, yr oedd y ddinas o fewn deng milltir i Petra. Saif yn mhen eithaf dyffryn Elghor, yr hwn a red rhwng dwy res o fynyddoedd, trwy Arabia Garegog, o'r Môr Marw hyd barthau gogleddol Morgainc Akaba.

Yn *Deut.* ii. 8, y ceir y crybwylliad cyntaf am Elath yn y Beibl, yn hanes taith yr Israeliaid tua Chanaan, lle y dygwydd y geiriau hyn—"Wedi ein myned heibio oddi wrth ein brodyr, meibion Esau, y rhai ydynt yn trigo yn Seir, o ffordd y rhos o Elath, ac o Esion-Gaber." Enwir y ddau le hyn yn nghyd eto yn 1 *Bren.* ix. 26, a hyny yn y fath fodd ag i ddangos fod Elath yn lle hynach nag Esion-Gaber. Nodir sefyllfa Elath hefyd yn yr adnod: "A'r brenin Solomon a wnaeth longau yn Esion-Gaber, yr hon sydd

Digitized by Google

elfen Iuddewig yn eu gwaith yn ystyried eu hunain dan rwymau i gadw y ddeddf, y Sabbath, a'r enwaediad. Ar y llaw arall, gwrthodent aberthau [*Epiph.*, xix. 3], a rhanau neillduol o'r Hen Destament. Gwrthodent lawer hefyd o'r Testament Newydd, yn enwedig epistolau Paul. Y mae eu syniadau am berson Crist yn dra aneglur ac amwys. Ar un ochr, ymddengys y dychymygir am Grist fel angel nerthol; o'r tu arall, dysgent yr athrawiaeth o ymgnawdoliad mynych a pharhaus, er y glynent yn ddiysgog wrth y ffaith o'i enedigaeth o Mair. Mewn perthynas i'w defodau crefyddol, yr oedd bedydd megys yn chwareu rhwng y ddefod gyntaf a'r mynych buredigaethau dilynol, yn mhlith pa rai yr oedd enwaediad; bara a halen a ddefnyddid yn y cymun; gwaherddid bwyta pob math o gigfwyd; perchid priodas yn fawr; a chaniateid i'r aelodau wadu eu ffydd ar adegau o erlidigaeth.

Gyda golwg ar darddiad eu cyfundrefn o athrawiaethau, y mae yn dra thebyg fod llawer o honi wedi ei chymmeryd oddi wrth yr Esseniaid. Cyfododd y blaid yn mhlith y Cristionogion Iuddewig ag oeddynt yn preswylio yn mysg yr Esseniaid ar lanau y Môr Marw, a'r rhai oeddynt yn agored i ddylanwad paganiaeth ddwyreiniol. Yn B. A. 274, gwelodd Origen un o'u hapostolion yn Cæsarea; ond yr oedd dyn o'r enw Alcibiades, o Apamea, wedi bod yn llafurio cyn hyny yn Rhufain, dan deyrnasiad Calixtus (221—226). Ymddengys, pa fodd bynag, mai ychydig o lwyddiant a ddilynodd yr holl ymdrechion hyn. O'r diwedd, llyncwyd eu syniadau athrawiaethol gan yr Homiliau Clementaidd.—(*Herzog's Real Encycl*).

ELCOS: gelwir y prophwyd Nahum yn Elcosiad (אלקשי); hyny yw, brodor o ryw le a elwir Elcos: *Nahum* i. 1. Yr oedd pentref o'r enw hwn yn Galilea yn amser Jerome; ond y mae yn fwy tebygol fod y prophwyd wedi ei eni o deulu Iuddewig alltudiedig yn Elcos neu Alcas, yn Assyria, ger Mosul. Cred yr Iuddewon eu hunain mai yno y ganwyd ac y claddwyd ef; ac ymwel pererinion Iuddewig o bob parth â'i feddrod tybiedig hyd y dydd hwn. Y mae Alcos bedair milltir ar ddeg ar ugain i'r gogledd o Mosul (Ninefeh), a saif ar lechwedd mynydd. Preswylir ef yn hollol gan Gristionogion Caldeaidd, gan ba rai y mae mynachlog yn uwch i fyny ar y mynyddoedd.—(*Kitto*).

ELDAAH, [אלדעה=*yr hwn a alwyd gan Dduw*; 'Ελδαγά, 'Ελδα δά]: yr olaf mewn trefn o feibion Midian. Ni ddygwydd yr enw mewn un man ond yn y ddwy restr o hiliogaeth Midian: *Gen.* xxv. 4; 1 *Cron.* i. 33.

ELDAD a MEDAD, [אלדד=*anwylyd Duw*; 'Ελδὰδ καὶ Μωδάδ]: dau o'r deg a thrigain henuriaid, i ba rai y trosglwyddwyd dawn prophwydol Moses: *Num.* xi. 16, 26. Er fod eu henwau ar y rhestr a drefnwyd gan Moses (*pen.* xi. 26), nid aethant gyda'r lleill o'u brodyr i'r babell, ond arosasant i brophwydo yn y gwersyll. Pan y ceisiodd Iosuah gan Moses wahardd hyn, gwrthododd wneuthur hyny, a chwanegodd, "O! na byddai holl bobl yr Arglwydd yn brophwydi, a rhoddi o'r Arglwydd ei Ysbryd arnynt!" *adn*, 29. Athrawiaeth fawr yr adnod hon ydyw, dosbarthiad mwy cyffredinol o ysbryd prophwydoliaeth, yr hwn oedd wedi bod yn gyfyngedig hyd yn hyn i Moses yn unig; a chymmeradwyaeth o'r duedd i wahanu yr ymarferiad o'r ddawn hon oddi wrth wasanaeth y babell, fel ag i'w gwneyd o ddefnyddioldeb mwy cyffredinol, yr hon duedd a arweiniodd wedi hyny i sefydliad "ysgolion y prophwydi."

ELEAD, [אלעד; 'Ελεάδ]: un o hiliogaeth Ephraim: 1 *Cron.* vii. 21.

ELEALEH, [אלעלה; 'Ελεαλή]: lle ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen. Meddiannwyd ac adeiladwyd ef gan lwyth Reuben: *Num.* xxxii. 3, 37. Ni chlywir un gair am y lle drachefn hyd amser Esaiah a Ieremiah, pob un o ba rai a'i crybwylla fel dinas yn perthyn i'r Moabiaid, ac fel mewn cyssylltiad agos â Hesbon: *Esa.* xv. 4; xvi. 9; *Ier* xlviii. 34. Y mae adfeilion eang yr hen ddinas yn weledig hyd y dydd hyn, o fewn tua milltir i'r gogledd o Hesbon; ac y mae yr un enw yn mron ar y lle, sef *El-A'al*, ond fod ystyr diweddar iddo —"yr uchel." Saif ar goryn bryn crwn, o ben yr hwn y ceir golwg eang ar y gwastadedd a'r holl Belka ddeheuol [*Burckh.*, *Syr.*, 865; *Seetzen*, 1854, td. 407]. Y mae yn debygol mai oddi wrth ei sefyllfa uchel y derbyniodd ei henw.

ELEASA, ['Ελεασά: *Laisa*]: lle yn mha un y gwersyllodd Iudas Maccabeus cyn y frwydr â Bacchides, yn yr hon y collodd efe ei fywyd: 1 *Macc.* ix. 5. Y mae lle i feddwl nad oedd yn neppell o Azotus: *adn.* 15.

ELEASAH, [אלעשה]. Crybwyllir am ddau o'r enw hwn:—1. Mab Heles, o hiliogaeth Iudah, o dylwyth Hesron: 1 *Cron.* ii. 39. 2. Mab Rapha, neu Rephaiah: un o hiliogaeth Saul trwy Ionathan a Merib-baal neu Mephiboseth: 1 *Cron.* viii. 37; ix. 43.

ELEAZAR, [אלעזר=*Duw, y Cynnorthwywr*]. 1. Trydydd Mab Aaron, o Eliseba, merch Aminadab, o lwyth Iudah: *Exod.* vi. 23, 25; xxviii. 1. Wedi marwolaeth Nadab ac Abihu yn ddiblant (*Lef.* x. 1; *Num.* iii. 4), cafodd Eleazar ei benodi yn benaeth ar y prif Lefiaid, ac yn llywodraethwr ar "geidwaid cadwraeth y cyssegr;" *Num.* iii. 32. Bu yn gweinidogaethu fel offeiriad yn ystod oes ei dad; ac yn uniongyrchol cyn marwolaeth ei dad, ar Fynydd Hor, penodwyd ef yn olynydd iddo fel archoffeiriad gan Moses: *Num.* xx. 28. Un o'r dyledswyddau cyntaf a gyflawnodd oedd arolygu rhifiad y bobl gyda Moses: *Num.* xxvi. 9. Cymmerodd ran hefyd yn appwyntiad Iosuah i lanw lle Moses, ac yn rhaniad yr ysbail a gymmerwyd oddi ar y Midianiaid: *Num.* xxvii. 22; xxxi. 21. Wedi i Iosuah ennill Gwlad Cannan, cymmerodd ran yn nosbarthiad y tir: *Ios.* xiv. 1. Ni chrybwyllir adeg ei farwolaeth yn y Beibl; ond dywed Iosephus i hyny gymmeryd lle tua'r un adeg ag y bu farw Iosuah; sef, yn mhen pum mlynedd ar ugain ar ol marwolaeth Moses. Claddwyd ef "yn mryn Phinees ei fab" (*Ios.* xxiv. 33), lle y dywed Iosephus fod beddrod iddo *Hynaf.*, v. 1, adr. 29. Dywedir fod yr archoffeiriadaeth wedi aros yn nhylwyth Eleazar hyd amser Eli, un o hiliogaeth Ithamar, i dylwyth yr hwn y trosglwyddwyd hi o blegid rhyw reswm anadnabyddus hyd nes yr adferwyd hi i dylwyth Eleazar, yn mherson Sadoc: 2 *Sam.* xv. 27; 1 *Cron.* vi. 8; xxiv. 3; 1 *Bren.* ii. 27.

2 ELEAZAR: mab Abinadab, o Ciriath-iearim yr hwn a benodwyd gan drigolion y lle crybwylledig i ofalu am arch yr Arglwydd ar ol ei dychweliad o wlad y Philistiaid: 1 *Sam.* vii. 1.

Digitized by Google

3. ELEAZAR: mab Dodo, yr Ahohiad (אחהי-דר); hyny yw, y mae yn bosibl, un o hiliogaeth Ahoah, o lwyth Beniamin (1 *Cron*. viii. 4); un o dri chedyrn byddin Dafydd, gorchestion yr hwn sydd wedi eu cofnodi: 2 *Sam*. xxiii. 9; 1 *Cron*. xi. 12.

4. ELEAZAR: Lefiad Merariaidd, mab Mali, mab Merari. Nid oedd ganddo feibion, ond merched, y rhai a briodasant eu "brodyr;" (ymyl y ddalen "ceraint"): 1 *Cron*. xxiii. 21, 22; xxiv. 28.

5. ELEAZAR: offeiriad a gymmerodd ran yn ngŵyl cyssegriad muriau Ierusalem dan Nehemïah: *Neh*. xii. 42.

6. ELEAZAR: un o feibion Paros; Israeliad a briododd wraig ddyeithr, yr hon y bu raid iddo ei bwrw ymaith: *Ezra* x. 25; 1 *Esdr*. ix. 26.

7. ELEAZAR: Lefiad; mab i Phinees: *Ezra* viii. 33; 1 *Esdr*. viii. 63.

8. ELEAZAR: pedwerydd mab Mattathïas, yr hwn a gyfarfu â'i farwolaeth trwy i elephant a laddasai mewn brwydr âg Antiochus Eupator ddisgyn arno, B. A. 164: 1 *Macc*. vi 43; *Hyn. Ios*. xii. 19, adr. 9. Mewn brwydr flaenorol â Nicanor, appwyntiwyd Eleazar gan Iudas i ddarllen "y llyfr sanctaidd" cyn yr ymosodiad; a'i enw ef—"Trwy help Duw"—oedd yr arwyddair yn y frwydr: 2 *Macc*. viii. 23.

9. ELEAZAR: ysgrifenydd nodedig, tra oedranus, yr hwn a ddyoddefodd ferthyrdod yn ystod erlidigaeth yr Iuddewon dan Antiochus Epiphanes: 2 *Macc*. vi. 18—31. Dangosodd wroldeb a phenderfyniad mawr yn ei boenau.

10. ELEAZAR: tad Iason; un o'r cenadon a anfonwyd gan Iudas Maccabeus i Rufain, "i wneuthur cyfammod caredigrwydd a chydymdeithas;" 1 *Mac*. viii. 18.

11. ELEAZAR: mab Elïud, tair cenedlaeth o flaen Ioseph, gŵr Mair: *Mat*. i. 15.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Smith's Dict.*)

EL ELOHE ISRAEL, [אל אלחי ישראל=*Yr Hollalluog Dduw Israel*]: yr enw a roddodd Iacob ar yr allor a gyfododd efe ar y maes "y lledasai ei babell ynddo," ar gyfer dinas Sichem, a'r hwn faes a brynodd efe ar ol hyny gan feibion Hemor: *Gen*. xxxiii. 19, 20.

ELEPH, [האלף=*yr ych*]: un o'r dinasoedd a roddwyd i lwyth Beniamin, yr hon a enwir yn nesaf at Iebus, sef Ierusalem: *Ios*. xviii. 28. Gellir edrych ar ystyr enw y lle fel arddangosiad o orchwylion bugeiliol y preswylwyr. Yn y Deg a Thrigain, cyssylltir Selah ac Eleph â'u gilydd fel un enw; ond os gwneir hyn, nis gellir gwneyd y nifer o bedair dinas ar ddeg i fyny.

ELEPHANT—IAID, Groeg, ἐλέφας; Llad. *elephas* ac *elephantus*]: y mwyaf o holl anifeiliaid y tir. Yn 1 *Macc*. vi. yn unig y sonir am dano dan ei enw priodol; ond yn ol y darlleniadau ar ymyl y ddalen, cyfeirir ato dan y gair "ifori" yn 1 *Bren*. x. 22 (cymharer 2 *Cron*. ix. 21), a than y gair "behemoth" yn *Iob* xl. 15.

Un o'r pethau rhyfeddaf sydd yn perthyn i'r elephant ydyw ei drwyn anferth, yr hwn sydd yn debyg i bibell gron hir; yn cynnwys, medd Cuvier, yn agos i 40,000 o gyhyrau bychain wedi eu cydblethu yn y fath fodd fel ag y gall y creadur ei estyn, ei fyrhau, a'i symmud yn mhob cyfeiriad. Y mae dwy ffroen neu ffos wahanedig trwy ei ganol ar ei hyd. Ar ei flaen, yn union uwchben parthiad y ffroenau, y mae dernyn bychan yn taflu allan, yr hwn y gellir ei ystyried megys bys; ac ar yr ochr isaf, y mae math o gnap, yr hwn a weithreda megys bawd. Trwy gymhorth yr offeryn hwn, gall yr anifail gyrhaedd y llawr, a chyrhaedd ceinciau coed uwch ei ben o gryn uchder. Ei hyd yn ei sefyllfa naturiol yw tuag wyth troedfedd; ond gall yr anifail wrth ei ewyllys ei fyrhau tua dwy droedfedd, neu ynte ei estyn tua thair troedfedd. Trwy ei gymhorth, gall elephant godi sylweddau yn pwyso yn lled agos i ddau gant o bwysau; a chyda'r offeryn hwn y casgl ei ymborth oddi ar goed ac oddi ar y llawr, y sugna ddwfr i'w ollwng i lawr i'w wddf, neu ynte i'w fwrw allan yn gawod dros ei gorff mawr, y tŷn gyrc o botelau, yr egyr gylymau bychain, ac y cyflawna luaws o weithredoedd cywrain ereill; ac os bydd yn angenrheidiol, y tŷr ganghenau o goed yn mesur dros bum modfedd o amgylchedd.

*Eu dannedd a'u hesgyrn*.—Y mae olyniad y *cilddannedd* mewn elephantiaid yn cymmeryd lle mewn cyfeiriad allanol; a chan y gwthir y dant blaenorol, nes ei rhyddhau mewn amser gan y dant a dŷr allan yn ddilynol iddo, ni bydd un amser fwy na dau gilddant ar bob ochr, a dim ond un ar brydiau, sef pan y bydd y dant blaenorol wedi ei fwrw allan yn hollol gan yr un dilynol, yr hwn hefyd yn ei dro a fwrir allan gan ei ddilynydd yntau. Dygwydd hyn amryw weithiau yn ystod oes yr anifail: sylwodd Mr. Corse iddo gymmeryd lle wyth o weithiau mewn elephant Asiaidd. Yn awr, gan mai y rhan flaenaf o'r dannedd hyn a ymddengys yn gyntaf, a chan y dechreua y rhan hono dreulio lawer o amser cyn i'r pen arall ddyfod i'r golwg, y mae yn canlyn o angenrheidrwydd y bydd y dant blaenaf, pan y bwrir ef ymaith, yn llawer llai mewn maint nag yr ydoedd unwaith, ac y bydd ei ffurf wedi cyfnewid yn hollol.

Ni bydd ond un cilddant, a rhan o un arall, un amser yn weledig trwy ddeintle (*gum*) yr elephant, fel y crybwyllwyd. Tra y bydd y dant blaenorol yn treulio ymaith yn raddol yn ei waith, a'i wraidd yn darfod o honynt eu hunain, bob yn ychydig, bydd y dant dilynol yn ymwthio yn mlaen i gymmeryd ei le; yna daw trydydd dant i gymmeryd lle yr ail, ac felly yn mlaen hyd wyth waith, fel y dywedwyd eisoes. Y maent oll yn gyfansoddedig o amryw fân ddarnau, y rhai a elwir yn blygion (*denticuli*), wedi eu cydgorffori. Bydd pob un o'r dannedd yn fwy na'i flaenorydd. Fel hyn, ni bydd y cilddant cyntaf, yr hwn a dŷr allan pan y bydd yr anifail yn dra ieuanc, yn cynnwys ond pedwar o blygion; cynnwysa yr ail, yr hwn a ymddengys pan y bydd yr anifail yn ddwy flwydd oed, wyth neu naw; cynnwysa y trydydd, yr hwn a ddel i'r amlwg pan y bydd yr elephant yn chwech oed, ddeuddeg neu dri ar ddeg; ac o'r pedwerydd cilddant hyd yr wythfed, gwahaniaetha nifer y deintigion o bymtheg hyd dri ar ugain. Ymddengys y cymmer pob dant newydd flwyddyn o'r hyn lleiaf chwaneg o amser i ymffurfio na'i ragflaenor. Ni bydd ond ychydig mewn cymhariaeth o'r dant yn y golwg ar yr un amser. Ni welir o gilddant yn cynnwys deuddeg neu bedwar ar ddeg o ddeintigion ond dau neu dri o honynt, tra y bydd y gweddill yn soddedig yn y deintle; mewn gwirionedd, bydd rhan flaenaf y dant wedi ei berffeithio, tra y bydd y rhan ol mewn sefyllfa dra anmherffaith. Gan hyny, fe welir nad ydyw yn bosibl canfod cilddant elephant mewn cyflwr gorphenedig, canys bydd y rhan flaenaf wedi treulio ymaith cyn i'r rhan ol ymffurfio.

Digitized by Google

Nid oes gan yr elephant ddannedd llygaid (*canine teeth*); ond y mae ganddo yn ei ên isaf ddau ysgythrddant, y rhai a adnabyddir yn well wrth yr enw Seisoneg, *tusks*. Y mae yr arfau anferth hyn yn grynion, yn fwyaog, ac yn terfynu yn fiaenfain, a pharhant i dyfu trwy ystod oes yr anifail. Gellir ffurfio barn am eu maintioli dirfawr oddi wrth y daflen a gyflewyd gan Cuvier yn ei *Ossemens Fossiles*, llyfr i. td. 57. Ystyrir yn gyffredin mai ysgythrddaint yr elephant Affricanaidd ydyw y rhai mwyaf; ond gyda golwg ar y daflen grybwylledig, sylwa Cuvier nad oedd yn bosibl gwahaniaethu y rhai Affricanaidd oddi wrth y rhai Indiaidd. Yn ol tystiolaeth Mr. Corse, anaml y bydd ysgythrddant yr elephant Indiaidd yn pwyso dros 72 pwys, ac nid ydynt yn pwyso dros 50 pwys yn nhalaeth Tiperah, yr hon a gynnyrcha filoedd o elephantiaid. Y mae esamplau o ysgythrddaint yn Llundain, pa fodd bynag, yn pwyso 150 pwys, wedi eu cael, y mae yn debygol, o Pegu; canys oddi yno, a Cochin China, y dygir yr elephantiaid â'r ysgythrddaint mwyaf. Y mwyaf a gofnodir yn rhestr Cuvier ydoedd ysgrythrddant a werthwyd, yn ol tystiolaeth Klokner, yn Amsterdam, yr hwn a bwysai 350 pwys: dywedir hyn ar awdurdod Camper. Y nesaf ato ydyw un ag oedd gan farsiandwr yn Venice, yr hwn a fesurai 14 troedfedd o hyd. Y mae y mwyaf yn Amgueddfa Paris agos yn saith troedfedd o hyd, ac yn bum modfedd a hanner o dryfesur yn ei fôn. Pan yn siarad am yr elephant Asiaidd, dywed Mr. Corse na bydd yr ysgythrddaint cyntaf un amser yn tyfu yn fawr, ond y byddant yn cael eu bwrw ymaith rhwng y flwydd gyntaf a'r ail. Y mae ysgythrddaint parhaus y fenyw yn fychain iawn mewn cymhariaeth i eiddo y gwryw, ac nid ydyw eu gwraidd mor ddwfn yn yr ên; ond defnyddia hwynt yn yr un dull a'r gwryw er hunanamddiffyniad, sef trwy godi y pen, a'u gwthio i lawr gyda grym i gorff ei gwrthwynebydd. Nid oes na dannedd tori na dannedd llygaid yn yr ên isaf, ac y mae y cilddannedd yn gyffelyb i gilddannedd yr ên uchaf.

Y mae cryn wahaniaeth rhwng ffurf penglogau y rhywogaeth Affricanaidd a'r rhywogaeth Indiaidd. Y mae penglog yr elephant Affricanaidd yn llawer crynach na phenglog yr Indiaidd; y mae tu blaen penglog yr Indiaidd hefyd yn geuol, a'r un man i benglog yr Asiaidd braidd yn argrwn. Ond nid y pethau hyn ydyw yr holl wahaniaeth.

Y rhanau ereill o'r penglog ag sydd yn fwyaf teilwng o sylw ydyw esgyrn y trwyn, o ba rai nid ydyw yr elephant yn meddu ond math o efelychiad; ac y mae yn amddifad hollol o esgyrn y dagrau (*lachrymal*). Ffurfia y gyfran yddfol o asgwrn y cefn res fer ac anhyblyg o gymmalau, y rhai ni alluogant y pen i symmud i nemawr gyfeiriad ond o ochr i ochr; gwneir y diffyg i fyny, pa fodd bynag, gan drwyn yr anifail, yr hwn sydd yn hynod o hydwyth, fel y sylwasom yn flaenorol. Dywed Blumenbach mai nifer yr asenau ydyw 19 o barau; o'r hyn lleiaf, mai dyna ydyw eu nifer yn ysgerbwd yr elephant Asiaidd sydd yn nghadw yn Cassel. Sylwa hefyd bod Blair wedi darganfod mai dyna oedd eu nifer yn y rhai a ddysgrifir ganddo ef; a chadarnheir yr un adroddiad mewn dysgrifiad Italaidd ysgrifenedig o elephant a fu farw yn Florence, yn 1657. O'r tu arall, dywed Allen Moulins, a Daubenton, mai eu nifer ydyw ugain o barau. Pedwar pâr ar bymtheg sydd gan yr elephant sydd yn Amgueddfa Coleg Breninol y Llawfeddygon; a'r un nifer sydd gan yr un sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig—14 o rai gwirioneddol, a 5 o rai gau; ond hysbysir ni gan Mr. Gray bod 20 o barau mewn ail esampl o elephant ieuanc, esgyrn yr hwn oedd heb eu gwahanu oddi wrth eu gilydd, sef 15 o rai gwirioneddol a 5 o rai gau. Nid oes iddynt ond tri chymmal llwynol.

*Gwneuthuriad y rhanau meddal mewnol.* Y rhanau teilyngaf o sylw ydyw y rhai canlynol:—*Yr ymenydd*, &c. Gellir gweled cyfran o arbilen ymenydd (*dura mater*) elephant Asiaidd yn Amgueddfa Coleg Breninol y Llawfeddygon, Llundain [Oriel, Rhif. 1346], lle y dangosir terfyniad yr asgwrn crymanog (*falx*) a dechreu yr asgwrn (*tentorium*) a wahana yr ymenydd oddi wrth y gorymenydd. Gwahenir dau blyg llinaidd yr arbilen gan sylwedd cellog meddalach, yn mha un yr ymganghena y llestri; a gellir sylwi bod tewder yr arbilen yn cyfateb i faintioli y penglog, a maintioli yr holl anifail, ond nid i faintioli yr ymenydd, yr hwn sydd heb fod yn nemawr fwy nag ymenydd dyn. Y mae y ddau hanner cylch yn llydain ac yn fyrion; ac ymdorchiadau yr ymenydd, mewn cymhariaeth, yn fychan a lluosog. Maintioli ymenydd dyn ydyw o un rhan o ddwy ar ugain i un rhan o dair ar ddeg ar ugain o'i gorff, a maintioli ymenydd elephant yw un rhan o bum cant. Y mae yr *ystumog* yn syml, a'r coluddion yn anferth eu maintioli. Y mae y *galon* hefyd yn deilwg o sylw. Gellir gweled cyfran o glusten a boten ddeheu calon elephant Asiaidd yn yr amgueddfa a grybwyllwyd eisoes [Oriel, Rhif. 924]. Yn yr anifail hwn, y mae tair gwythïen fawr yn terfynu yn y glusten ddeheu. Heb law y clawr Eustachaidd, yr hwn a saif rhwng geneuau y wythïen leiaf a'r wythïen aswy fwyaf, y mae hefyd, megys yn y draenog mawr (*porcupine*), glawr mwy, yn ymestyn o ochr ol genau y wythïen ddeheu fwyaf. Y mae yn meddu hefyd y clawr tri onglog, yn nghyd â'i holl berthynasau.


*Lluosogiad, &c.* Tymmor cyfebriad yw ugain mis ac ychydig ddyddiau. Bwriodd y fenyw y crybwylla Mr. Corse am dani gyw gwrywaidd, yn mesur llathen o daldra o fewn hanner modfedd, yn mhen ugain mis a deunaw niwrnod o gyfebriad. Y mae llestri llaeth y fenyw yn union o dan ei dwyfron, a sugna yr ieuanc, nid gyda'i drwyn neu ei *drunk*, ond gyda'i enau, yr hyn a wna yn fuan iawn ar ol ei eni; ac er rhwyddhau dyfodiad y llaeth, gwasga ei drwyn yn erbyn y pwrs. Ni bydd elephantiaid un amser yn gorwedd i lawr er rhoddi llaeth i'w rhai bach; a dygwydd yn fynych, pan y bydd y famog yn dal, y bydd raid iddi blygu am beth amser cyn y gall y bychan gyrhaedd ei thethau. Mewn canlyniad i hyn, bydd ceidwaid elephantiaid yn darparu lle priodol, trwy godi y llawr chwech neu wyth modfedd, i'r rhai bychain i sugno, er arbed y famog rhag gorfod plygu i lawr, yr hyn fyddai yn orchwyl poenus iddi pe yn rhwym wrth stanc. Ymddengys nad ydyw serch mamol y fenyw yn gryf, o'r hyn lleiaf pan y byddo mewn caethiwed; canys dywed Mr. Corse na bydd elephantiaid dofion un amser yn cael eu gadael yn rhyddion, gan fod anghreifftiau wedi dygwydd o famogiaid yn gadael eu rhai bach, ac yn dianc i'r coedwigoedd.

RHYWOGAETHAU.

*Yr elephant Asiaidd.*—Gwahaniaetha yr elephant Asiaidd oddi wrth y rhywogaeth Affricaidd, nid yn unig o ran ei faintioli mwy, ac o ran nodwedd ei ddannedd a'i ben, ond yn mychander

Digitized by Google

cymhariaethol ei glustiau, lliw gwineu goleuach ei groen, a thrwy ei fod yn meddu pedwar o ewinedd ar y traed ol, yn lle tri. Tybir hefyd fod y rhywogaeth hon yn gyfrwysach na'r elephantiaid Affricanaidd; ond er y dywedir llawer o chwedlau hynod, ac y mae llawer o honynt yn eithaf gwir, am feithder yr amser y deil yn ei gof weithred garedig, neu ynte angharedig, ac er fod yr anghreifftiau hen a diweddar o'i barodrwydd i dderbyn addysg yn dra rhyfeddol, eto, ar y cyfan, dywed y Barwn Cuvier, yr hwn a fu dros amser maith yn chwilio i mewn i natur y creaduriaid hyn, na chanfyddodd ef erioed fod eu cyfrwysdra yn rhagori ar eiddo y ci; a bod amryw anifeiliaid cigysol ereill mor gyfrwys a hwythau.



Dar. 268.

Rhydd Mr. Corse y dysgrifiad canlynol o elephant Asiaidd:—"Dywedir y bydd elephant wedi cyrhaedd i'w gyflawn faintioli pan y bydd ei glustiau yn fawrion ac yn grynion, ac heb fod yn fylchog yn eu hymylau; ei lygaid o liw collen (*hazel*) tywyll, heb frychau; taflod ei enau a'i dafod yn rhydd oddi wrth ysmotiau tywyll neu dduon o unrhyw faintioli; ei drwyn yn fawr, a'i gynffon yn hir, gyda siobyn o flew yn cyrhaedd yn mron hyd y llawr; pump o ewinedd ar bob un o'r ddau droed blaen, a phedwar ar bob un o'r ddau ol, yn gwneuthur deunaw oll gyda'u gilydd; ei ben wedi ei osod yn ei le yn dda, ac yn cael ei gario braidd yn uchel; bwa ei gefn yn codi yn raddol o'r ysgwydd hyd y canol, ac yna yn disgyn hyd at fon y gynffon, a'i holl gymmalau yn gryfion a chadarn."

Sylwa Mr. Corse ar yr amrywiaethau canlynol o elephantiaid Asiaidd. Dosberthir y rhai gwrywaidd a'r rhai benywaidd yn ddau ddosbarth gan drigolion Bengal, sef y *Koomareah* (o hiliogaeth dywysogaidd), a'r *Merghee* (elephant helwriaethol); a gwneir y dosbarthiad hwn yn hollol annibynol ar ymddangosiad, ffurf, na maintioli yr ysgythrddaint yn y gwrywaidd, gan na wasanaetha y rhai hyn ond yn unig i ddynodi amrywiaethau yn y ddau ddosbarth. Y mae y *Koomareah* yn ddwfn ei gorff, yn gryf, ac yn gryno; ac yn meddu trwyn mawr, a choesau byrion, ond tewion. Y mae y *Merghee* yn gyffredin yn dalach, ond nid mor gryno a chryf; teithiau yn gyflymach, y mae ei gorff yn ysgafnach, ac y mae ei drwyn yn fyr ac yn eiddil mewn cymhariaeth i'w daldra. Gan yr ystyrir fod trwyn mawr yn harddwch mewn elephant, dewisir y *Koomareah*; ond dewisir ef, nid o herwydd hyn yn unig, ond o herwydd ei gryfder rhagorach, a'i allu i ddyoddef mwy o galedi a blinder. Y mae mathau cymmysgedig hefyd o'r ddau ddosbarth hyn, y rhai a elwir *Sunkareah* a *Merghabouliah*. Heb law y *Koomareah*, y *Merghee*, a'r *Sunkareah*, canfyddir amryw fathau cymmysgedig yn yr un gŷr; ond po debycaf fyddo elephant i'r *Koomareah*, uchaf yn y byd fydd ei bris a'i werth, yn enwedig yn mysg y brodorion. Y mae o'r gwrywod a elwir *Dauntelah* (deintiog, yn meddu dannedd mawr prydferth) sydd yn cynnyrchu yr ysgythrddaint (*tusks*) mwyaf, a'r ifori goreu. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng ei ben a phen y math a elwir *Mooknah*, yr hwn nis gellir ei wahaniaethu yn mron oddi wrth ben elephant benywaidd, ac y mae ysgythrddaint rhai o'r elephantesau mor fychain fel nas gellir eu gweled tu allan i'w gwefusau, tra y maent mewn ereill mor fawrion yn mron ag ysgythrddaint y math gwrywaidd a elwir *Mooknuh*. Y mae y *Dauntelah* yn gyffredin yn fwy beiddgar ac yn fwy anhydrin na'r *Mookuah*. Y mae amryw fathau rhwng y *Mookuah* a'r *Dauntelah*, y rhai a wahaniaethir yn ol ffurf eu hysgythrddaint. Un o honynt yw y *Goneish* neu *Gunesa*, yr hwn sydd *Dauntelah* yn meddu ond un ysgythrddaint. Derbyniodd ei enw oddi wrth *Gencsa*—duw doethineb yr Hindwaid—yr hwn a arddangosir fel yn meddu pen elephant gydag un ysgythrddant. Gwerthwyd un o'r math hwn yn amser Mr. Corse am bris uchel i'r tywysogion Hindwaidd, i'w gadw yn anrhydeddus, a'i addoli fel duw. Y mae mathau ereill a elwir *Soor* neu *Choordaunt*, *Putteldauntee*, *Ankoos Dountee*, &c. Ymddengys y defnyddir yr enw *Goondah* i ddynodi yr elephantiaid gwrywaidd crwydrol, y rhai sydd yn llawer mwy ac yn gryfach na'r rhai fydd yn gyffredin yn dilyn y gyroedd. Anaml y bydd y rhai hyn yn cael eu dal, fel y tybir; a phan y dygwydd hyny, byddant yn dra chreulawn a dinystriol.

Awgryma Mr. Hodgson, yn ei draethawd ar *Dethfilod Nepâl* [*Zool. Proc.*, 1834], bod dau fath, neu yn hytrach, fe allai, dau rywogaethau, o'r elephant Indiaidd, sef elephant Ceylon ac elephant Coedwig Saul. Y mae elephant Ceylon yn meddu pen llai ac ysgafnach, yr hwn a gerir ganddo yn fwy dyrchafedig; ac y mae ei barthau blaen hefyd yn uwch. Y mae elephant Coedwig Saul weithiau yn meddu ewinedd ar ei draed ol.

Y mae lluaws o adroddiadau gormodol wedi bod yn ffynu gyda golwg ar faintioli ac uchder yr elephant Asiaidd. Yr oedd yr elephant gwrywaidd y sonia Mr. Corse am dano yn llathen o fewn modfedd o daldra pan y bwriwyd ef.

| | Mod | | | Tro. | Mod. | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mewn blwyddyn, tyfodd | 11, | ac yr oedd | yn | 3 | 10 | o daldra. |
| Yn yr ail flwyddyn.. | 8, | .. | .. | 4 | 6 | " |
| Yn y drydedd .. | 6, | .. | .. | 5 | 0 | " |
| Yn y bedwaredd .. | 5, | .. | .. | 5 | 5 | " |
| Yn y bummed .. | 5, | .. | .. | 5 | 10 | " |
| Yn y chweched .. | 3½, | .. | .. | 6 | 1½ | " |
| Yn y seithfed .. | 2½, | .. | .. | 6 | 4 | " |

Yr oedd elephantes yn chwe throedfedd a naw modfedd o daldra pan y daeth i feddiant Mr. Corse, a thybiai yr helwyr ei bod yn 14 mlwydd oed; ond yn ol barn Mr. Corse, nid oedd ond 11 mlwydd oed. Yn ystod y pum mlynedd nesaf, ni thyfodd ond chwe modfedd; ond tra yn gyfebr, tyfodd bum modfedd mewn un mis ar ugain; ac yn y ddau fis ar bymtheg dilynol, er ei bod eilwaith yn gyfebr, ni thyfodd ond hanner modfedd. Yna, ymadawodd Mr. Corse â hi. Yr oedd y pryd hyn tua 19 mlwydd oed, ac wedi cyrhaedd, fe allai, i'w llawn faintioli. Gyda golwg ar daldra, safon y Cwmpeini Indiaidd, yn amser Mr. Corse pan yn dewis elephantiaid at

eu gwasanaeth, oedd saith troedfedd ac uchod, a'u mesur wrth eu hysgwyddau, fel y gwneir gyda cheffylau. Yn ystod y rhyfel â Tippoo Sultanu, o'r 150 elephantiaid ag oedd dan lywyddiaeth y Cadben Sandys, nid ydoedd gymmaint ag un o honynt yn ddeg troedfedd o daldra, ac nid oedd ond ychydig o elephantiaid gwrywaidd yn naw troedfedd a hanner.

Yr unig elephant ag y clywodd Mr. Corse am dano, ar sail dda, fel dros ddeg troedfedd, oedd un gwrywaidd ag oedd yn meddiant Asaph Ul Dowlah, yr hwn a fuasai gynt yn brifweinidog yn Oude. Dyma ydoedd ei faintioli:—

| | Troed. | Mod. |
|---|---|---|
| O'r troed blaen i'r troed ol, dros yr ysgwydd - - - | 22 | 10½ |
| O ben yr ysgwydd hyd y llawr - | 10 | 6 |
| O goryn y pen, pan yn ei sefyllfa naturiol, hyd y llawr - - | 12 | 2 |
| O du blaen y pen hyd fon y gynffon | 15 | 11 |

Ac eto, dywed chwedlau bod elephantiaid Madras yn mesur o 17 i 20 troedfedd o uchder. Yn awr, gadewch i ni weled pa faint o sail sydd i'r chwedlau hyn. Clywodd Mr. Corse gan amryw foneddigion a fuant yn Decca fod gan y Nabob yno elephant yn mesur tua 14 troedfedd o uchder. Cynhyrchodd hyn awydd yn Mr. Corse am gael ei fesur, yn enwedig gan ei fod wedi ei weled yn fynych yn flaenorol, a thybiai y pryd hyny nad oedd ond tua 12 troedfedd. Gan hyny, aeth i Decca. Anfonodd yn gyntaf am yrwr yr elephant, yr hwn a'i sicrhaodd yn ddibetrus ei fod o 15 i 18 troedfedd o uchder; ond dywedodd nas gallai ganiatau i Mr. Corse weled yr anifail heb ganiatad y Nabob. Gofynwyd a chafwyd caniatad. Mesurodd Mr. Corse yr elephant yn fanwl, a chanfu er ei syndod nad oedd yr anifail yn mesur dros 10 troedfedd.

Nid oes un gwahaniaeth rhwng yr *elephantiaid mygnion*, y rhai a berchir mor fawr gan y breninoedd Indiaidd, a'r rhywogaethau cyffredin, ond yn unig o ran eu lliw.

*Dosbarthiad daiaryddol.*—Preswylir y rhan fwyaf o wledydd poethion Asia, ac ynysoedd mawrion yr Ynysfor Indiaidd, gan yr elephant Asiaidd. Dywed Mr. Corse mai yn nhaleithiau Chittagong a Tiperah yn gyffredin y delid yr elephantiaid a ddefnyddid yn ngwasanaeth Cwmpeini yr India Ddwyreiniol; ond oddi wrth yr hyn a glywodd gan ereill, yr oedd y rhai oedd i'r deheu o Chittagong, yn y tiriogaethau Burmaidd, ac yn nheyrnas Pegu, o rywogaeth ragorach. Hyd y flwyddyn 1790, yr oedd Tiperah yn rhan o dalaeth Chittagong; ac yr oedd llywodraeth Bengal mor ymwybodol o ragoriaeth yr elephantiaid deheuol at gludo beichiau, dyoddef caledi a blinder, a'u bod yn llai agored i ddamweiniau, fel y rhwymid y dyn a gyflenwai y fyddin y pryd hyny âg elephantiaid i beidio anfon un elephant i'r sefydliadau milwraidd wedi ei ddal i'r gogledd o dalaeth Chittagong. Oddi wrth hyn, penderfyna Mr. Corse mai y terfyngylch poeth ydyw hinsawdd naturiol yr elephant, lle y ceir y rhai mwyaf, y rhai goreu, a'r rhai caletaf; a bod y rhywogaethau yn gwaelu yn ol graddau eu pellder oddi wrth y trofegau.

*Eu harferion a'u defnyddioldeb i ddyn*, &c. Yn eu cyflwr naturiol, fe ganfyddir yr elephantiaid Asiaidd yn yroedd mawrion, dan arweiniad yr elephantiaid gwrywaidd hynaf yn gyffredin. Y mae dynion, er cyn cof, yn arfer dwyn yr anifeiliaid hyn dan eu llywodraeth, ac yn eu haddysgu i ymuno â gorymdeithiau, er chwanegu at eu rhwysg, i ymladd mewn rhyfeloedd, i ddienyddio drwgweithredwyr, yn gystal ag i gludo beichiau, llusgo menau, &c. Y mae yn hen arferiad hefyd gan y tywysogion dwyreiniol, er eu difyrwch creulawn, i osod yr anifeiliaid hyn i ymladd, nid yn unig âg anifeiliaid o'r un rhywogaeth a hwy eu hunain, ond âg amryw anifeiliai anwar ereill; a defnyddir hwynt gan y dwyreinwyr yn eu hyntiau helwriaethol mawrion.

Prisir ysgythrddant y naill rywogaeth fel y llall yn awr, megys yn yr oesoedd boreuaf, fel nwydd masnachol gwerthfawr. Yr oedd gofyn mawr am yr ifori a geisir yn y dyddiau hyn at ddybenion gwasanaethgar ac addurniadol, yn mhlith yr hen Roegiaid a'r Rhufeiniaid, at amryw ddybenion teuluaidd, yn gystal ag at wneyd y delwau ifori ac aur yr ymenwogodd Phidias mewn cyssylltiad â hwynt. O'r delwau gwerthfawr hyn, ymddengys mai y rhai goreu ydoedd Minerva y Parthenon, ac yn neillduol yr Iau Olympaidd.

*Yr elephant Affricanaidd.*—Y mae yr elephant Affricanaidd yn llai na'r un Asiaidd. Y mae y pen yn grwn, y tu blaen yn argrwm, yn lle yn geuol; y clustiau yn llawer mwy na clustiau y rhywogaethau Asiaidd; ac nid ydyw nifer ewinedd y traed ol yn gyffredin ond tri, yn lle pedwar.

*Dosbarthiad daiaryddol.*—O Senegal hyd Benrhyn Gobaith Da. Dywed Cuvier nad ydyw yn wybyddus pa un a ydyw y rhywogaethau hyn i'w cael yn mhob cwr o barth dwyreiniol Affrica, ynte a gymmerir eu lle yn y manau hyny gan y rhywogaethau blaenorol.

*Eu harferion, a'u defnyddioldeb i ddyn*, &c.—Defnyddir eu cig fel ymborth gan drigolion amryw barthau o Affrica. Dywed yr uchgadben Denham ei fod yn gymmeradwy gan bawb, ac y bwyteid ef yn ddirgel hyd yn oed gan brif swyddogion y *sheikh*; a thystia, er fod golwg anffafriol arno, ei fod yn well ei flas na dim biff a welodd efe yn y wlad. Ystyria yr hen Rufeiniaid mai y rhan dyneraf a goreu o'r anifail oedd ei drwyn; ond sieryd Le Vailiant am ei draed fel dysglaid i frenin. Meddylir fod tymmer naturiol y rhywogaethau hyn yn greulonach na thymmer yr elephantiaid Asiaidd; ond nid oes lawer o wahaniaeth rhwng eu harferion. Y mae lle cryf i gredu y byddai y Carthaginiaid yn defnyddio y rhywogaeth hon, yn yr un dull ag y defnyddid y rhywogaeth Asiaidd gan yr Indiaid. Ymddengys mai elephantiaid Affricanaidd oedd y rhai a arddangosid gan Cæsar a Pompey yn y chwareulo Rhufeinig, ac y mae yn debygol mai oddi wrthynt hwy yn benaf, os nad yn hollol, y ceid yr ifori at y delwau y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol, ac at ddybenion addurniadol. Y mae ysgythrddaint y rhywogaeth hon yn fawrion iawn.—(*Penny Cycl.*; *Kitto's Cycl.*)

ELEUTHEROPOLIS, [Ἐλευθεροπόλις=*y ddinas rydd*]: tref yn Palestina ddeheuol, ar odreu mynydd Iudah, ac ar gyffiniau gwastadedd mawr Philistia. Y mae tua 25 o filltiroedd o Ierusalem, ar y ffordd i Gaza. Ni chrybwyllir am dani yn y Beibl: ond yn ystod canrifoedd boreuaf Cristionogaeth, daeth yn un o'r dinasoedd pwysicaf a mwyaf blodeuog yn y wlad. Ei henw gynt oedd Betogabra (=*Tŷ Gabra* neu *Gabvael*), yr hwn a ddygwydd yn ysgrifeniadau Ptolemy, yn nechreu yr ail ganrif (*pen.* xvi). Cyfeiria Josephus at bentref mawr a elwid Βήταρις (*Betaris*) yn y parth hwn, yr hwn a all fod yr un lle [*Rufia*

v. 8, adr. 1]. Dygwydd enw newydd y lle hwn, Eleutheropolis, y tro cyntaf, ar fathodau yn amser yr ymherawdwr Septimius Severus, yn B. A. 202, 203. Yn ystod ei ymweliad â Phalestina, cynnysgaethodd yr ymherawdwr amryw ddinasoedd â breintiau pwysig, ac yr oedd y ddinas hon yn un o honynt. Eusebius ydyw yr ysgrifenydd cyntaf a grybwylla am Eleutheropolis, yr hon oedd brif ddinas talaeth eang yn ei amser ef. Yr ydoedd yn eisteddle esgob, ac yr oedd yn dref mor adnabyddus yn Palestina Ddeheuol, fel y gwnaethpwyd hi yn ganolbwynt gan yr esgob i fesur pellder ac i benderfynu sefyllfaoedd 20 o drefydd ereill. Ganwyd Epiphanius, yr awdwr enwog, mewn pentref, dair milltir o'r ddinas, yn nechreu y bedwaredd ganrif; a gelwir ef yn fynych yn Eleutheropoliad [*Reland*, td. 751—2. Yn y flwyddyn B. A. 796—ychydig dros gant a hanner o flynyddoedd ar ol y buddugoliaethau Saracenaidd—anrheithiwyd a dinystriwyd Eleutheropolis yn llwyr, a gadawyd hi yn anghyfannedd. Cymmerwyd lle yr iaith Roeg yn awr gan yr Arabaeg; a chollodd y ddinas hon ei henw ymffrostgar a'i sefyllfa anrhydeddus ar yr un adeg [*Reland*, td. 987]. Yn y ddeuddegfed ganrif, canfyddodd y Croesgadwyr y lle yn adfeilion, ac adeiladasant amddiffynfa ar yr hen sylfeini; olion pa un, yn nghyd â'r capel oedd mewn cyssylltiad â hi, sydd yn weledig hyd heddyw. Ar ol brwydr Hattin, disgynodd *Beit Jibrin*, canys dyna ydyw ei henw Arabaidd, i feddiant y Saraceniaid. Ail gymmerwyd hi gan y brenin Richard, o Loegr; ond darostyngwyd hi o'r diwedd gan Bibars. Er y pryd hyny, y mae wedi myned yn adfeilion dan ddylanwad difaol y llywodraeth Fahometaidd.

Dywed un awdwr bod yn y lle ffynnon wyrthiol, yr hon a darddodd o'r asgwrn gên y gwnaeth Samson y fath ddinystr âg ef yn mhlith y Philistiaid [*Anton. Mant. Itin.*, 30, 32].

Cynnwysa y pentref diweddar tua 50 neu 60 o dai. Saif mewn cilfach fechan, yn ochr dyffryn hir gwyrddlas. Y mae yr hen adfeilion yn lled eang; y maent yn gynnwysedig o olion amddiffynfa gadarn, yn sefyll yn nghanol cyttir cauedig, a amgylchir gan fur trwchus. Y mae y rhan allanol o'r mur hwn wedi llwyr adfeilio; ond y mae yr ochr ogleddol, sydd ar gŵr y dyffryn, yn amryw droedfeddi o uchder eto. Y mae y cyttir cauedig o gylch 600 troedfedd ar draws ei ganol. Mesur yr amddiffynfa yw tua 200 troedfedd ysgwâr, ac y mae yn llawer diweddarach na'r mur allanol. Y mae cerfiad uwch ben y porth wedi ei amseru A. H. 958 (B. A. 1551). Y mae muriau a rhan o ben gwerddyrog (*groined roof*) hen gapel prydferth, ar hyd ochr ddeheuol y mur. Adeiladwyd y capel hwn yn ddiau gan y Croesgadwyr.

Mae y dyffryn, ar ochr pa un y saif gweddillion Eleutheropolis, yn rhedeg rhwng bryniau am ddwy filltir neu chwaneg tua'r de-ddwyrain. Ar bob ochr iddo y mae trumau o gareg galch feddal, yn cyfodi eu penau gwynion moelion, yma ac acw, uwch ben y prysgoed tywyll. Cynnwys y trumau hyn rhai o'r ogofäau rhyfeddaf sydd yn Palestina. Maent i'w cael, gan mwyaf, mewn cyssylltiad â'u gilydd yn dra lluosog, fel pentrefydd tanddaiarol. Y mae rhai o honynt yn gyfonglog, ac yn 100 troedfedd neu fwy o hyd, yn meddu ochrau llyfnion hardd, a nenfydau uchel. Y mae ereill ar lun cloch, a 40 i 70 troedfedd o draws fesur, wrth yn agos i 60 troedfedd o uchder, ac oll wedi eu cyssylltu yn nghyd gan byrth bwaog a mynedfeydd tanddaiarol troellog. Y mae ychydig o honynt yn gwbl dywyll; on goleuir y rhan fwyaf o honynt gan agoriadau cylchog uwch ben. Y maent i'w cael o fewn ychydig bellder i'w gilydd ar hyd dwy ochr yr holl ddyffryn; a gwelir amryw o rai cyffelyb mewn ardaloedd cyfagos. Dengys hanesiaeth fod yr Idumeaid [gwel EDOM] wedi dyfod, yn ystod caethiwed Babilon, a meddiannu y rhan fwyaf o ddeheubarth Palestina. Dywed Jerome y preswylient yr holl wlad o Eleutheropolis hyd Petra ac Elah, ac y *cyfanneddent mewn ogofäau*, gan eu dewis er mwyn diogelwch, gystal ag er mwyn eu hoerder yn ystod poethder yr haf. Y mae yn ddiammheuol, gan hyny, meddai Porter, mai gwaith yr Idumeaid oedd yr ogofäau nodedig hyn. Pa fodd bynag, mae yn hysbys fod lluaws afrifed braidd o ogofäau mawrion a rhyfeddol, yn ngwahanol barthau y byd, heb un arwydd fod gwaith llaw dyn erioed wedi bod arnynt. Y mae lluaws o'r cyfryw yn Nghymru, yn Nghernyw, yn yr Iwerddon, &c., heb son am America, a gwledydd tramor ereill; a dywedir fod llaw natur wedi addurno rhai o honynt â chrisialau a meini gwerthfawr, yn annhraethol mwy mawreddog nag y gallai dynion wneuthur. Y mae yn nodedig hefyd fod yr ogofäau hyn yn dygwydd yn fynych mewn creigiau calch. Bu yr ysgrifenydd ei hunan mewn ogofäau tra ardderchog o'r fath, sydd yn nghreigiau calch Cefn Meiriadog, o fewn pedair milltir i Ddinbych, ar y rhai nid oes un arwydd mewnol o waith llaw dyn. Y mae yn wir fod y Milwriad Wynn (brawd Syr W. W. Wynn), perchenog presennol yr ogofäau hyn, yn adgyweirio ac yn rheilio y creigiau serth sydd o'u hamgylch, er cysur a diogelwch i ymwelwyr, am yr hyn y mae yn dra theilwng o glod; ond y mae yr ogofäau yn cael eu gadael fyth, fel y gwnaed hwy gan natur. Fe ddichon yn hawdd mai y cyfryw ogofäau naturiol ydyw y rhai sydd yn nghreigiau calch meddal bryniau Eleutheropolis, a'r cymmydogaethau cyfagos, er y gallai fod yr Idumeaid wedi eu hadgyweirio a'u llyfnhau, er eu gwneyd yn fwy cyfaddas i fod yn breswylfeydd dynion yn ystod yr haf.—(*Herzog's Real Encycl.*; *Kitto's Cycl. of Bibl. Liter.*; *Smith's Dict. of the Bible*; *Porter's Land of Syria & Palest.*)

1. **ELEUTHERUS**, [Gr., Ἐλεύθερος]: afon yn Syria, a grybwyllir yn 1 *Mac.* xi. 7; a xii. 30. Yr oedd yn ffrwd derfyn nodedig yn yr oesoedd boreuol. Yn ol Strabo [xvi. 753], gwahana Syria oddi wrth Phœnicia, a ffurfia derfyn gogleddol Cœlo-Syria. Hysbysa Josephus, fod Anthony wedi rhoddi "y dinasoedd a amgylchid gan yr afon Eleutherus, cyn belled a'r Aipht, oddigerth Tyrus a Sidon," i Cleopatra [*Jos. Ant.* xv. 4]. Dywed Porter, fod cymharu yr ymadroddion sydd yn *Num.* xxxiv. 8—10, ac *Ezec.* xlvii. 15—17, â gwyneb y wlad, yn ei arwain ef i gasglu fod yr afon hefyd, cyn belled ag y cyrhaeddai, yn ffurfio terfyn gogleddol Gwlad yr Addewid. Dywed Pliny [ix. 10] ei fod ar dymmor penodol o'r flwyddyn yn heigio gan grwbanod (*tortoise*).

Y mae yn sicr yn awr mai yr un ydyw Eleutherus a'r Nahr-el-Kebir (yr Afon Fawr) ddiweddar. Y mae ei tharddiad uchaf yn ngodreu Libanus; llifa o amgylch trwyn gogleddol y mynydd, trwy agoriad a elwir yn y Beibl Seisoneg, "mynediad Hamath" (*the entrance of Hamath*: *Num.* xxxiv. 8); ac ar ol derbyn amryw ffrydiau bychain o ucheldерau Libanus, disgyna i Fôr y Canoldir, o gylch 18 milldir i'r gogledd o Tripolis.

Digitized by Google

Yr afon yma yw y terfyn hyd heddyw rhwng taleithiau Akkâr ac el-Husn. Nid ydyw ond afonig fechan, hawdd ei ffrydio, yn yr haf a'r gwanwyn; ond yn y gauaf, ymchwydda yn afon fawr a chwyrn.

2. ELEUTHERUS: Groegiad oedd o enedigaeth, ac a fu am ysbaid yn ddiacon Anicet, ac a ddyrchafwyd i esgobaeth Rhufain o gylch B. A. 177; a bu ynddi hyd yn agos i 193. Dygwyddodd dau amgylchiad nodedig tra y bu yn esgob. Yn ei amser ef yr anfonodd eglwysi Lyons a Vienne y presbyteriad (wedi hyny yr esgob) Irenæus ato gyda gweithredoedd y merthyron a ddioddefasant yno (*Eus.* v. 4]. Yr amgylchiad arall yw traddodiad sydd wedi ei gadw gan Bede [iii. 25], yn mynegu fod y brenin Prydeinaidd Lleufer (Lucius) wedi ysgrifenu at Eleutherus, i fynegu ei fod ef yn barod i gofleidio Cristionogaeth, ac yn dymuno arno anfon athrawon i Brydain i ddysgu egwyddorion y grefydd Gristionogol; a bod Eleutherus wedi cydsynio â'r dymuniad. Mae yn hawdd canfod mai gwreiddyn y chwedl yma oedd ymdrech yr esgobion Pabyddol, yn Italy a Phrydain Fawr, i brofi mai Pabyddiaeth oedd ffurf gyntefig Cristionogaeth yn Mhrydain Fawr, a thrwy hyny, diogelu ei goruchafiaeth yn yr ynys. Dyma yr achos i Bede, ac ysgrifenwyr Pabaidd ereill, fabwysiadu y traddodiad, yr hwn hefyd sydd yn y *Liber Pontificalis*. Y mae hyd yn oed hyn yn dangos nad yw y traddodiad ond chwedl; heb law fod y rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr credadwy yn sicrhau nad Pabyddiaeth ydoedd ffurf gyntaf Cristionogaeth yn Ynys Prydain.

**ELFENAU.** Gwel GWYBODAETH.

**ELHANAN,** [אלחנן=*trugaredd Duw*; Ἐλεανάν]: crybwyllir am ddau o'r enw yma yn yr Ysgrythyrau:—

1. ELHANAN y cyntaf, fel y gellid ei alw, oedd wron rhagorol yn amser y brenin Dafydd, yr hwn a gyflawnodd lawer o wrhydri canmoladwy yn erbyn y Philistiaid, er fod yn anhawdd penderfynu pa beth oedd y gwrhydri a gyflawnodd, na phwy oedd y gwron ei hunan.

Yn 2 *Sam.* xxi. 19, dywedir mai "mab Iaareoregim, y Bethlehemiad," ydoedd, ac mai efe "a darawodd Goliath y Gethiad; a phren ei waywffon ef oedd fel carfan gwehydd." Yma, y mae y cyfieithiad Cymraeg (a Seisoneg) yn rhoddi y gair *brawd* i mewn, er mwyn cyssoni yr ymadrodd â 1 *Cron.* xx. 5, lle y dywedir, "Ac Elhanan mab Iair (neu Iaor) a laddodd Lami, brawd Goliath y Gethiad, â phaladr ei waywffon ef," &c. O'r ddau fynegiad yma, y mae yn debyg mai yr olaf yw y cywiraf; a dywedir fod y gwahaniaeth rhyngddynt yn y gwreiddiol yn llawer llai nag yw yn y cyfieithiadau; ac nad ydyw yr anghydweddiad ddim mwy nag a ganfyddir yn fynych mewn ymadroddion wedi eu camysgrifenu. Seilir y penderfyniad yn nghylch y pwnc yma ar y pethau canlynol:—

(1). Y mae y gair *oregim* ddwy waith yn yr adnod yn Samuel, ac hefyd ar ddiwedd yr adnod am *wehydd*. Y mae yn debyg i'r blaenaf gael ei gymmeryd oddi wrth yr olaf gan adysgrifenydd boreuol, sef o ben y llinell ganlynol yn y llawysgrif. Y mae yn sicr mai i ddiwedd yr adnod y perthyn, gan y ceir ef yn yr adnod gyferbyniol yn y Cronicl, ac ymddengys hefyd ei fod yn rhan o ymadrodd oedd yn ddiareb am Goliath (cymharer 1 *Sam.* xvii. 7). Y mae y tebygolrwydd yn gryf yn erbyn fod yr un gair—a hwnw yn air anarferedig—yn dygwydd ddwywaith yn yr un adnod mewn dau ystyr.

(2.) Y mae y mynegiad yn Ail Samuel yn groes i'r hanes yn 1 *Sam.* xvii, lle y dywedir fod Goliath y Gethiad wedi cael ei ladd gan Dafydd. Y mae yn wir fod Ewald [*Gesch.* iii. 91, 2] yn awgrymu mai Elhanan oedd gwir orchfygwr Goliath, o blegid mai "y Philistiad" y gelwir gwrthwynebydd Dafydd, oddigerth tri eithriad (a dygwydd un o'r eithriadau yn yr adnodau ammheus: xvii. 12—32); ac y mae yn dwyn rhai rhesymau ieithyddol ereill dros yr un syniad. Tybia Ewald mai ar ol i Dafydd gael ei wneyd yn frenin y rhoddwyd yr enw Goliath i'r gwron dienw a laddwyd ganddo yn ei ieuenctid. Ond fel prawf yn erbyn y syniad yma, y gwir yw fod Goliath yn cael ei enwi dair gwaith yn 1 *Sam.* xvii. a'r xxi, er mai tair gwaith yn unig y gwneir hyny; heb law fod yn amlwg wrth sefyllfa Elhanan yn Samuel a'r Cronicl, ac awgrymiadau ereill i'w wrhydri ef gymmeryd lle yn ddiweddar ar deyrnasiad Dafydd, ar ol iddo fod yn frenin ardderchog am hir o amser; a rhaid fod holl wrolgampau ei ieuenctid wedi eu dwyn i'r amlwg yn mhell cyn hyny, a'u bod yn eithaf adnabyddus i'w bobl. Cofnodir gorchest Elhana yn y frwydr olaf ond un o gyfres o ymosodiadau yr ymddengys eu bod i derfynu yr ymdrech â'r Philistiad. Yr oedd mor ddiweddar, fel yr oedd Dafydd wedi ennill iddo ei hun yn mysg ei filwyr yr enw hoff o "oleuni Israel" (2 *Sam.* xxi. 17), ac fel yr oedd Ionathan ei nai yn ddigon hen i gyflawnu gorchest gyffelyb i'w ewyrth ardderchog flynyddoedd cyn hyny: 2 *Sam.* xxi. 20, 21. Y mae yn sicr i hyn oll ddygwydd ar ol i Dafydd gael ei wneyd yn frenin; canys efe a aeth i'r rhyfel yma, nid gyda'i *wŷr ieuainc* (נערי),[1] fel yr äi pan yn arwain ei lu yn ystod bywyd Saul, ond gyda'i weision (עבדי), yn llythyrenol *caethweision*—enw a gyfyngid bron yn hollol at ddeiliaid brenin. Y mae llw ei wŷr, ar un o'r achlysuron hyn (2 *Sam.* xxi. 17), na chai efe mwyach fyned gyda hwy i faes y gwaed, yn dangos y rhaid fod gwrhydri Elhanan wedi dygwydd ar ol y rhyfel fawr gyda'r Ammoniaid, yn yr hon yr oedd Dafydd ei hun yn arwain ei lu yn erbyn Rabbah: 2 *Sam.* xii. 29. Dichon i wrolgamp Elhanan gymmeryd lle rhwng yr amgylchiad olaf hwn a brwydr Absalom, y tu hwnt i'r Iorddonen, er bod rhesymau amlwg ereill paham yr arosai Dafydd rhwng caerau Mahanaim ar yr amgylchiad hwnw.

Ar y cyfan, gan hyny, er fod llawer o anhawsderau yn nglŷn â'r pwnc, ymddengys mai y casgliad teg ydyw, mai y darlleniad sydd yn y Cronicl ydyw y cywiraf; yn ol yr hwn, mab ydoedd Elhanan i Iair, ac efe a laddodd Lami, brawd Goliath.

Y mae Jerome, yn ei *Quest. Hebr.* ar y ddau ymadrodd, yn cyfieithu Elhanan yn Adeodatus, ac yn chwanegu *filius saltûs Polymitarius Bethlehemites*="mab coed, gwehydd, Bethlehemiad." Nid yw yn mynegu pa un ai oddi wrth hen draddodiad, ai amgen, y cafodd efe y fath eglurhad. Adeodatus, medd ef, yw Dafydd; yr hyn a brawf efe, nid yn unig trwy resymau a geir yn ystyr pob un o'r geiriau uchod, ond hefyd oddi wrth y mynegiad sydd yn yr adnod a derfyna yr hanes

[1] Nis gall dim fod yn fwy pendant na'r gwahaniaeth yma. *Na'ar* a ddefnyddir bron yn ddieithriad am ddilynwyr Dafydd hyd farwolaeth Saul, ac yna newidir yr enw ar unwaith, ac *Ebed*, "caethwas," ydyw yr unig air a ddefnyddir wedi hyny. Yr oedd hyd yn oed dilynwyr Absalom yn myned wrth yr enw blaenaf.

Digitized by Google

sydd yn dywedyd fod yr holl gawri hyn "wedi cwympo trwy law Dafydd, a thrwy law ei weision ef" (2 *Sam.* xxi. 22); a chan mai Elhanan a laddodd Goliah, rhaid mai Elhanan yw Dafydd.

2. ELHANAN: fab Dodo y Bethlehemiad. Un o "ddeg gard ar ugain Dafydd," yr hwn a enwir gyntaf ar y gyfres: 2 *Sam.* xxiii. 24; 1 *Cron.* xi. 26.

1. ELI, [עֵלִי, *dyrchafael;* Sept. Ἡλί; *Joseph.* Ἡλεί], ydoedd o hiliogaeth Aaron trwy Ithamar, sef yr ieuengaf o'i ddau fab a fuant fyw (*Lef.* x. 1, 2, 12), fel yr ymddengys oddi wrth y ffaith fod Abiathar, yr hwn yn ddiau oedd o hiliogaeth uniongyrchol Eli (1 *Bren.* ii. 27), yn meddu mab a elwid Ahimelech, yr hwn y dywedir yn bendant ei fod "o feibion Ithamar: 1 *Cron.* xxiv. 3; cymharer 2 *Sam.* viii. 17. A hyn y cytuna yr amgylchiad fod enwau Eli a'i olynwyr yn yr archoffeiriadaeth, i fyny hyd Abiathar, heb fod yn achau Eleazar: 1 *Cron.* vi. 4—15; cymharer *Ezra* vii. 1—5. Gan nad yw yr hanes yn crybwyll am unrhyw archoffeiriad o hiliogaeth Ithamar cyn Eli, tybir yn gyffredinol mai efe oedd y cyntaf o'r llinach hono a fu yn y swydd: *Joseph. Ant.* viii. i. 3. Ymddengys i'r swydd fyned oddi wrtho ef, gan i'w feibion feirw o'i flaen, i'w ŵyr, Ahitub (1 *Sam.* xiv. 3), a diau iddo aros yn ei deulu ef hyd Abiathar, ei ŵyr, yr hwn "a fwriwyd ymaith o fod yn offeiriad i'r Arglwydd, gan Solomon, o blegid y rhan a gymmerodd efe yn ngwrthryfel Adoniah (1 *Bren.* ii. 26; i. 7); ac aeth yr archoffeiriadaeth yn ol drachefn i deulu Eleazar yn mherson Zadoc: 1 *Bren.* ii. 35. Pa fodd y daeth y swydd erioed i'r gangen ieuengaf o dŷ Aaron, nid ydyw yn hysbys, er fod lle i dybied ddarfod i hyny gael ei awdurdodi gan Dduw: 1 *Sam.* ii. 30. Yr oedd dychweliad y swydd i'r gangen hynaf yn un rhan o'r gosp a fygythiwyd yn erbyn Eli yn ysto l ei fywyd, o blegid ei esgeulusdod beius yn ymfoddloni ar geryddu mewn geiriau yn unig (1 *Sam.* ii. 22—25), yn lle arfer ei awdurdod fel tad ac fel barnwr (iii. 13), pan yr oedd ei feibion, trwy eu cybydd-dod a'u hanlladrwydd, yn gwneuthur defodau crefydd yn ffiaidd yn mysg y bobl: 1 *Sam.* ii.27—36; 1 *Bren.* ii. 27. Ymddengys i ran arall o'r ddedfryd (1 *Sam.* ii. 31—33) gael ei chyflawnu dan deyrnasiad Dafydd, pan y darllenwn "y cafwyd mwy o feibion Eleazar yn y llywodraeth nag o feibion Ithamar" (1 *Cron.* xxiv. 4)—un ar bymtheg o'r blaenaf, a dim ond wyth yn unig o'r olaf.

Ond, er yr un bai mawr a nodwyd yn Eli, yr oedd yn ddyn nodedig o dduwiol, fel y dengys ei ymostyngiad tawel i'r farn ddwyfol a gyhoeddwyd yn erbyn ei dŷ (1 *Sam.* iii. 18), a'i ofal pryderus am arch Duw (iv. 13, 18). Heb law fod Eli yn archoffeiriad, yr oedd yn farnwr hefyd ar Israel, sef rhagflaenor digyfrwng i'w ddysgybl Samuel (1 *Sam.* vii. 6, 15—17)—y diweddaf o'r barnwyr. Hyd yr amser y bu yn barnu Israel, yn ol y copiau Hebraeg presennol, oedd 40 mlynedd; ond dywed y Deg a Thrigain mai 20 mlynedd oedd yr amser: 1 *Sam.* iv. 18. Er mwyn cyssoni yr anghydweddiad ymddangosiadol yma, bernir iddo fod yn farnwr *unigol* am 20 mlynedd, ar ol bod yn gydfarnwr â Samson am yr 20 mlynedd arall: *Barn.* xvi. 31. Bu farw yn yr oedran mawr o 98 mlwydd (1 *Sam.* iv. 15), wedi ei lethu gan ddychryn trwy y newydd cyffrous fod arch Duw wedi ei dal yn y frwydr gan y Philistiaid, y rhai hefyd a laddasant ei ddau fab ef, Hophni a Phinees. Gwel ABIATHER ITHAMAR.

2. ELI: y diweddaf o hynafiaid ein Iachawdwr yn ol y cnawd, a'r un, fe allai, medd Calmet, ag Ioachim, tad Mair (*Luc* iii. 23), gan fod pob tebygrwydd mai gwahanol enwau ar yr un person oedd Eli, Eliacim, Hilciah, ac Ioachim. "Mab (fel y tybid) i Ioseph, fab Eli," medd yr adnod. Y mae yn amlwg fod yr efengylwr yn geirio yma yn ochelgar: "mab (fel y *tybid*, heb fod felly mewn gwirionedd) i Ioseph;" canys y mae genym sicrwydd yn *Mat.* i. 16 (yr hwn a rydd achau gwirioneddol Ioseph, tra y tybia y beirniaid yn gyffredin mai achau Mair a rydd Luc) mai tad gwirioneddol Ioseph, gŵr Mair oedd Iacob, fab Matthan, fab Eleazar, &c. O blegid hyn, gellir casglu yn deg fod y geiriau, "fel y tybid," i'w deall o flaen Eli yn gystal ag o flaen Ioseph, fel hyn:—"Mab (fel y tybid) i Ioseph, mab (fel y tybid) i Eli." Y mae Clarke, ac amryw ereill hefyd yn wir, yn rhoddi rheswm dros waith yr efengylwr yn cymmeryd y dull yma o gofnodi achau Mair; sef, "am na chaniatäai yr Hebreaid byth i wragedd ddyfod i mewn i'w tafleni achyddol hwy; gan hyny, pa bryd bynag y dygwyddai i deulu derfynu mewn merch, yn lle ei henwi hi yn yr achau, hwy a roddant ei gŵr i mewn, fel mab i un nad oedd mewn gwirionedd ond tad yn nghyfraith iddo." Dengys yr esgob Pearce yn helaeth, medd Clarke, mai dyma ystyr y gair νομίζεται (*nomizetai*) mewn llawer o fanau, "Yr Iesu a ystyrid yn ol y gyfraith, neu y ddefod arferedig," gan hyny, "fel mab i Ioseph, fel yr oedd yntau yn cael ei ystyried yn fab i Eli."

Y mae aralleiriad y Dr. Doddridge yn rhoddi goleuni tra dymunol ar yr adnod hon; yr hwn sydd fel y canlyn:—"Ond, er ein bod fel hyn wedi rhoddi achyddiaeth gyfreithiol Crist (yn *Mat.* i), o Abraham, megys yn deilliaw o Ioseph ei dad cyfrifol, rhoddwn eto un arall sydd yn esgyn i Adda; a dyma yr hanes a roddodd Luc i ni yn ei efengyl; lle, ar ol llefaru am fedydd Iesu pan oedd yn dechreu ei weinidogaeth gyhoeddus, ac yn nghylch deg ar ugain oed, yr olrhain efe ei ddisganiad yn llinach Mair; tad yr hon, sef Eli, a fabwysiadodd Ioseph, trwy ei wneyd yn fab yn nghyfraith iddo; ac o blegid hyny, gellir cyfrif y disgyniad o hono ef, ac felly yr un, o ran effaith, a disgyniad Mair. Gan i Grist gael ei eni o Mair ar ol ei dyweddïo, gellid ei ystyried ef, o blegid hyny (fel yr oedd yn cael ei gyfrif yn gyffredin), yn fab i Ioseph, yr hwn, trwy fabwysiad, neu yn hytrach trwy briodi ei ferch, oedd fab i Eli."

"Yr wyf yn gwybod," medd Doddridge, "fod Le Clerc, ac amryw o wŷr dysgedig ereill, wedi meddwl i Ioseph gael ei genedlu gan Eli, a'i fabwysiadu gan Iacob: ond llawer haws genyf gasglu yn hytrach iddo gael ei fabwysiadu gan Eli, neu yn hytrach ddarfod iddo ei gymmeryd ef yn fab pan y priododd ei ferch ef; ac mai tad Mair ydoedd Eli, o blegid y mae hen Rabbi Iuddewig yn ei galw hi yn bendant yn ferch Eli: ac yn benaf, yn wir, am na byddai genym, heb gymmeryd y golygiad yma, un achyddiaeth wirioneddol i Iesu Grist o gwbl, namyn dau ddull gwahanol o linach Ioseph, ei dad cyfrifol ef; yr hyn na phrofai mewn un modd fod Crist, yr hwn nid oedd ond mab cyfrifol i Ioseph yn unig, wedi disgyn o had Abraham, ac o dylwyth Dafydd. Eto, y mae yr apostol yn llefaru am hyn fel peth hysbys, fod Crist wedi cyfodi o Iudah: *Heb.* vii. 44. Os ysgrifenwyd yr efengyl hon (fel y sicrha hynafiaethwyr) dan gyfarwyddyd Paul, fe allai ei fod yn cyfeirio yn y lle uchod at y llinach hon yn benodol"

Digitized by Google

"Y mae *Matthew*," medd Lightfoot, "yn olrhain achau Crist trwy Ioseph, a *Luc* trwy Mair. Y mae yn sicr nad oedd Eli yn dad naturiol Ioseph; canys dywed Matthew yn bendant mai 'Iacob a genhedlodd Ioseph;' gan hyny, cesglir mai Eli oedd tad Mair, a thad yn nghyfraith yn unig i Ioseph. Nid oedd benywaid yn cael eu crybwyll yn achau yr Iuddewon; gan hyny, ni wneir ond awgrymu yn unig fod Mair yn cael ei hystyried yn gynnwysedig ynddynt, pan y dechreuir y llinach gyda'i thad Eli. Profi y mai *Luc*, yr hwn a ysgrifenai i'r Cenedloedd, mai Crist oedd 'had y wraig;' ond *Matthew*, yr hwn a ysgrifenai i'r Iuddewon, a olrheinia ei ddisgyniad achyddol o Dafydd ac Abraham." Dywed Boothroyd hefyd, y gellid galw Ioseph yn briodol yn fab Eli, gan fod y rhai a briodent etifeddesau yn gorfod myned i deulu eu tad yn nghyfraith, a chymmeryd eu cyfrif fel eu meibion.

3. ELI, [*fy Nuw*]: y gair cyntaf o ymadrodd pwysfawr a lefarodd yr Arglwydd Iesu Grist ar y groes. Yr ymadrodd yn gyflawn, yn ol Matthew (*pen.* xxvii. 46), sydd fel hyn:—"Eli, Eli, lama sabachthani;" ac yn ol Marc (*pen.* xv. 34), Eloi, Eloi, lama sabachthani." Y mae rhai yn meddwl, medd Clarke, mai Hebraeg ydyw y geiriau; ereill, mai y Syriaeg; ond dywed efe nad ydynt, fal y dyfynir hwy gan yr efengylwyr, na'r naill na'r llall. Matthew sydd yn dyfod agosaf i'r ymadrodd Hebraeg, fel y mae yn *Salm* xxii. 1:—*Eli, Eli, lamah azabthani;*" a Marc sydd yn dyfod agosaf i'r cyfieithiad Syriaeg:—"*Alohi, Alohi, l'mono shebachtheni.*" Y mae un hen ysgriflyfr Hebraeg o'r 12fed ganrif, medd Clarke, yn lle *azabthani*="y'm gadewaist," yn defnyddio *Shechachthani*="y'm *hanghofiaist*." Cymmeradwya efe y gair hwn fel un yn cyfleu "synwyr da;" a sylwa ei fod yn dyfod yn nes i *sabachthani* yr efengylwyr. Sylwa hefyd fod yr ymadrodd, "Pa ham y'm *hanghofiaist*," yn cael ei arfer yn fynych gan Dafydd, ac ereill, mewn amseroedd o orthrymder a chyni dirfawr: *Salm* xlii. 9.

Y mae Wilson yn barnu mai ymadrodd o arddull Syriaeg-Caldeaidd ydyw; yr hyn a barodd i'r rhai oedd yn sefyll ger llaw fethu ei ddeall (*Mat.* xxvii. 47), y rhai, fe allai, oedd wedi dyfod yno o bellder o ffordd, ac heb ddeall yn gywir y dafodiaith a leferid ar y pryd yn Ierusalem. Felly hefyd y barna Dr. Doddridge.

Y mae y Dr. Edwards yn meddwl fod ein Harglwydd, yn ei gyfyngder mawr, wedi adrodd y geiriau ddwy waith, gan ddywedyd, *Eloi, Eloi* unwaith, ac yna *Eli, Eli*. Y mae hyn yn ddigon tebyg, medd Doddridge; ac os felly, tybia efe i Marc roddi y dull cywir o'r geiriau, a Matthew ddim ond math o dalfyriad.

Pa fodd bynag, y mae gwir ystyr yr ymadrodd pwysig wedi ei roddi i ni gan yr efengylwyr sanctaidd, y rhai a'i deallent ef yn berffaith, "Hyny yw," medd Matthew, "yr hyn o'i gyfieithu yw," medd Marc, "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist?"

Dywed Clarke fod rhai wedi cymmeryd achlysur oddi wrth y geiriau hyn i ddifrïo cymmeriad ein Harglwydd bendigedig, gan haeru eu "bod yn annheilwng o ddyn yn dyoddef yn gydwybodol o'i ddiniweidrwydd; a'u bod yn dangos gwendid, diamyneddgarwch, ac anobaith." Y mae hwn yn gasgliad mor annheg oddi wrth y geiriau hyn ag a allai malais ei awgrymu; pa fodd bynag, y mae rhai dysgedigion enwog, fel y sylwa Clarke, yn barnu y goddef y geiriau, fel y maent yn yr Hebraeg a'r Syriaeg, eu cyfieithu yn y fath fodd ag a lwyr ddymchwel y casgliad annheg a nodwyd. Y mae y rhagferf *lamah* yn arwyddo, i ba beth, i beth, i bwy, i ba fath neu ryw, i ba ddyben neu i ba les; megys, *Gen.* xxv. 32; xxxii. 29; xxxiii. 15; *Iob* ix. 29; *Ier.* vi. 20; xx. 18; *Amos* v. 18. Arwydda y ferf *azab*, gadael, dodi heibio, rhoi yn ngofal: *Gen.* xxxix. 6; *Iob* xxxix. 11; *Salm* x. 14; *Ier.* xlix. 11. Ges. עָזַב. Yna goddef y geiriau eu cyfieithu fel hyn:—"Fy Nuw, fy Nuw, i ba fath ddynion y'm gadewaist?" Y mae y geiriau, wrth eu deall fel hyn, medd Clarke, i'w cyfeirio at yr Iuddewon, yn hytrach nag at ein Harglwydd; ac y maent yn ddolef fynegol o gyndyn ddrygioni y rhai a'i croeshoeliasant ef; ac yn gyfystyr i'r ymadrodd yma:—"Mor ryfedd yw drygioni y dynion i ddwylaw y rhai yr wyf wedi syrthio!" Y mae Clarke yn cyfeirio at amryw awdurdodau hen a diweddar sydd yn pleidio y deongliad yma.

Tybir y gall aralleiriad brydferth Doddridge roddi peth boddhad ar yr ymadrodd mawreddog hwn:—"Ond yn nghylch y nawfed awr y llefodd yr Iesu â llef uchel, yn yr Hebraeg, neu yn hytrach yn yr iaith Syriaeg, Eloi, Eloi (Eli, Eli) lama sabachthani? hyny yw, o'i gyfieithu i eiriau ereill, Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist? megys pe dywedasai, O! fy Nhad nefol, pa ham y chwanegi at fy holl ddyoddefiadau ereill, y rhai a achosir gan ddiffyg y syniad cysurus o'th bresennoldeb? Pa ham y'm gadewi fel hyn yn unig yn yr ymdrech, yn amddifad o'r cysuron sanctaidd y byddai yn hawdd i ti eu tywallt ar fy enaid, y rhai, ti a wyddost, na wnaethum ddim yn achos i ti eu hattal rhagof."

Y dull Hebraeg unigol ydyw Eli o un o brif enwau hanfodol Duw. Y prif enw Hebraeg hanfodol arall am Dduw ydyw Iehofa. Y dull lluosog o Eli neu Eloi, sef Elohim, a arferir fynychaf yn y Beibl Hebraeg; gair yn arwyddo, nid lluosogrwydd, ond cyflawnder o hollgyfoethogrwydd y Bod Dwyfol. Gair dansoddol am Dduwdod ydyw Elohim, medd y Dr. Hävernick, ar wahan oddi wrth unoliaeth, sancteiddrwydd, sylwedd, &c. Gan hyny, awgryma hyn y syniad i ni, mai at hanfod mawr ei Dduwdod yr appeliai yr Arglwydd Iesu yn y geiriau difrifddwys, pwysig hyn:—"Eloi, Eloi, lama sabachthani?" Gwel ARGLWYDD, DUW. (*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Lightfoot's Works; Smith's Dict. of the Bible; Bloomfield, Recen. Synop.; Wilson's Bible; Clarke's Expos.*, &c.)

4. ELI, ON, (Saes. *salve*): nid ydym yn gwybod iddo gael ei ddefnyddio yn y Beibl ond unwaith, yn nglyn â llygaid—"eli llygaid;" *Dad.* iii. 18; "Ira hefyd dy lygaid âg eli llygaid, fel y gwelych." Y gair Groeg yw κολλούριον (*collourion*), o κωλύω, attal, rhwystro; a ῥοῦς, hylif, rhediad; neu ῥέω, llifo. Math o feddyginiaeth leol a gymhwysid at y llygaid, i attal hylif poenus, ac i glirio y llygaid. Dengys hyn brydferthwch digyffelyb y ffugr yn yr adnod. Dengys yr adnodau blaenorol nad oedd yr eglwys yn Laodicea yn gweled pethau, mewn ystyr ysbrydol, yn ol eu lliwiau priodol. Yr oedd hi, dan ddylanwad ei hunanoldeb, yn ei gweled ei hun yn oludog, ac wedi cyfoethogi, heb arni eisieu dim: tra yr oedd mewn gwirionedd yn druan, yn resynol, yn dlawd, yn *ddall*, ac yn noeth (*adn.* 17). Mor werthfawr, gan hyny, a fuasai meddyginiaeth anffaeledig i un yn y cyflwr truenus yma, a attaliasai yr hylif aflachus, hunan, oedd yn llenwi llygaid eu meddwl, ac a gliriasai ei golwg, fel y gwelsai ei gwir sef-

Digitized by Google

yllfa druenus, fel yr oedd "Amen, y tyst ffyddlawn a chywir," yn ei gweled.

1 ELIAB, [אליאב, *i'r hwn y mae Duw yn Dad;* Ἐλιάβ]: mab Helon, cadben neu dywysog meibion Zabulon ar amser y cyfrifiad yn anialwch Sinai: *Num.* i. 9; ii. 7; vii. 24, 29; x. 16.

2. ELIAB: Reubeniad, mab Phalu, teulu yr hwn oedd un o'r rhai penaf yn y llwyth. Efe oedd dad neu gyff cenedl Dathan ac Abiram, arweinwyr y gwrthryfel yn erbyn Moses: *Num.* xxvi. 8, 9; xvi. 1, 13; *Deut.* xi. 6. Yr oedd gan Elïab fab arall o'r enw Nemuel, a thorir ar draws rhestr yr achau yn *Num.* xxvi. er mwyn rhoddi mynegiad pendant yn nghylch ei feibion ef i mewn.

3. ELIAB: fab Iesse, brawd hynaf Dafydd. Priododd ei ferch Abihail ei chyfyrder, Rehoboam, ac a ymddug iddo dri o feibion (2 *Cron.* xi. 18); er, wrth ystyried hyd teyrnasiad Dafydd a Solomon, fod yn anhawdd peidio tybied fod y gair "merch" yn cael ei ddefnyddio yma mewn ystyr gyffredinol am wyres neu un o'i hiliogaeth. Yn 1 *Cron.* xxvii. 18, ceir crybwylliad am "Elihu, un o frodyr Dafydd," fel penaeth neu dywysog llwyth Iudah. Yn ol hen draddodiad Hebreig sydd yn Jerome, yr un oedd yr Elihu hwn ag Elïab. Pa fodd bynag, yr oedd y gair "brodyr" yn cael ei ddefnyddio yn fynych am berthynasau; megys, 1 *Cron.* xii. 2.

4. ELIAB: Lefiad yn amser Dafydd, yr hwn oedd "ddrysor" a cherddor ar y nabl: 1 *Cron* xv. 18, 20; xvi. 5.

5. ELIAB: tywysog rhyfelgar o Gad, yr hwn a ddaeth at Dafydd pan ydoedd yn yr anialwch, yn ymguddio rhag Saul: 1 *Cron.* xii. 9.

6. ELIAB: un o hynafiaid Samuel y prophwyd, Cohathiad o lwyth Lefi, mab Nahath: 1 *Cron.* vi. 27. Gelwir hwn yn Elihu yn 1 *Sam.* i. 1; ac yn Eliel yn 1 *Cron.* vi. 34.

1. ELIACIM, [אליקים, *yr hwn a sefydla Duw* neu, *yr hwn a esyd Duw i fyny;* Ἐλιακίμ ac Ἐλιακείμ]: mab Hilcïah: 2 *Bren.* xviii. 18, 26, 37; *Esa* xxxvi. 3. Bwriwyd Sebnah o'r swydd hon (o blegid ei wahanglwyf, fel y tybia Grotius), fel cosp am ei falchder (*Esa.* xxii. 15—20), ac Elïacim a'i dilynodd ef ynddi. Yr oedd Elïacim yn ddyn rhinweddol, fel yr ymddengys wrth yr enw pwysig a roddodd Duw iddo—"fy ngwas Elïacim," (*Esa.* xxii. 20), yr hyn a amlygir yn mhellach wrth ei ymddygiad ar ymosodiad Senacherib (2 *Bren.* xviii. 27; xix. 1—5), ac hefyd wrth ei gyflawniad ffyddlawn o ddyledswyddau ei swydd uchel, yn yr hon yr ymddygai fel "tad i breswylwyr Ierusalem, ac i dŷ Iudah;" *Esa.* xxii. 21. Yr oedd ei gyfodiad i'r sefyllfa uchel o awdurdod ac anrhydedd, yn yr hon yr oedd ar amser yr ymosodiad Assyriaidd, yn arwydd neillduol o gymmeradwyaeth dwyfol i'w gymmeriad a'i ymddygiad; am ba rai, pa fodd bynag, nid oes un hanes manwl wedi ei drosglwyddo i ni. Y mae natur y swydd hon wedi bod o gryn ddyryswch i'r esbonwyr. Yr oedd yr hynafiaid, yn mysg pa rai yr oedd y Deg a Thrigain, a Jerome, yn tybied mai swydd offeiriadol ydoedd, fel yr ymddengys oddi wrth eu gwaith yn cyfieithu סכן (*Esa.* xxii. 15, Cymraeg, trysorydd), yn *παστοφόριον*, "ystafell yr offeiriad," gan y blaenaf, על־הבית, yn *præpositus templi* gan yr olaf. Yna y mae Nicephorus, cystal ag awdwr y Cronicl Alexandriaidd, yn rhoddi Somnas neu Sobnas, *h. y.* Sebna, ac Elïacim yn rhestr yr archoffeiriaid, gan ddangos mai yr un oedd yr olaf a Shallum neu Meshullam. Ond y mae yn sicr wrth y dysgrifiad o'r swydd sydd yn *Esa.* xxii., ac yn enwedig wrth yr ymadrodd yn *adn.* 22, "Rhoddaf hefyd agoriad tŷ Dafydd ar ei ysgwydd ef," mai pen teulu tŷ y brenin, ac nid Tŷ Dduw, oedd Elïacim, fel yr oedd Ahisar wedi bod dan deyrnasiad Solomon (1 *Bren.* iv. 6), ac Azricam dan deyrnasiad Ahazi: 2 *Cron.* xxviii. 7. Yr oedd swydd Elïacim yn cytuno â'r hyn oll a ddywedir am y ddau hyny. Ymddengys fod y swydd yr uchaf dan y brenin, megys yr ydoedd yn yr Aipht pan ddywedodd Pharoah wrth Ioseph, "Tydi a fyddi ar fy nhŷ...yn y deyrn-gadair yn unig y byddaf fwy na thydi;" *Gen.* xli. 40: cymharer xxxix. 4. Yn 2 *Cron.* xxviii. 7, gelwir y swyddwr yn "llywodraethwr y tŷ." Mae yn wir fod yr ysgrifenydd is law iddo ef, canys pan ddiraddiwyd Sebnah[1] o fod yn benteulu, gweithredodd fel ysgrifenydd dan Elïacim: 2 *Bren.* xviii. 37. Y mae yr holl ddarluniad a rydd Esaiah hefyd yn arwyddo fod y lle o gyfrifoldeb ac awdurdod mawr. Cymhwysir y darluniad yma mewn ystyr gyfriniol neu ysbrydol at Grist, mab Dafydd, yn *Dad.* iii. 7, gan wneuthur Elïacim fel hyn, mewn rhyw ystyr, yn gysgod o Grist. Hyn, fe allai, a barodd fod enw Elïacim yn cael ei egluro fel y crybwyllir gan Origen, *ὁ Θεός μου ἀνέστη*, neu fel y mae gan Jerome, *Dei Resurrectio*, neu *Resurgens Deus;* a thuedda hefyd i bleidio yr eglurhad cyfriniol a roddir i'r ymadrodd yn *Esaiah* gan Jerome, wedi ei seilio ar y cyfieithiad o סכן (cymharer "trysorydd") fel *habitans in tabernaculo*, megys pe yr arwyddai symmudiad yr oruchwyliaeth Iuddewig, a gosodiad i fyny yr efengyl yn ei lle. Y mae gwir ystyr סכן yn bur ammheus. "Cyfaill," *h. y.*, i'r brenin, a "goruchwyliwr yr ymborth," yw y ddau ystyr tebycaf. Dangosir fod holl ymddygiadau Elïacim yn anrhydeddus a rhinweddol. Cytuna y rhan fwyaf o'r esbonwyr nad ato ef, ond at Sebnah, y cyfeiria *Esa.* xxii. 25. Heb law y manau a nodwyd, ceir enw Elïacim yn 2 *Bren.* xix. 2; *Esa.* xxxvi. 3, 11, 22; xxxvii. 2.

2. ELIACIM oedd yr enw cyntaf a roddwyd i Iehoiacim, brenin Iudah: 2 *Bren.* xix. 2; 2 *Cron.* xxxvi. 4.—Gwel IEHOIACIM.

3. ELIACIM: offeiriad yn amser Nehemïah, yr hwn a gynnorthwyai yn nghyssegriad mur newydd Ierusalem: *Neh.* xii. 41.

4. ELIACIM: fab Abïad, neu Iudah; brawd Ioseph, a thad Azor: *Mat.* i. 13.

5. ELIACIM: fab Melea, a thad Ionan: *Luc* iii. 30, 31.

1. ELIADA, [אלידע=*yr hwn a adnebydd Duw*, sef, *y gofelir am dano*]: un o feibion Dafydd; ac yn ol y rhestr, yr ieuengaf o'r teulu a anwyd iddo ar ol ei ymsefydliad yn Ierusalem: 2 *Sam.* v. 16; 1 *Cron.* iii. 8, 9. Ymddengys oddi wrth yr adnod olaf ei fod yn fab i wraig, ac nid i ordderchwraig. Mewn rhestr arall o deulu Dafydd, ceir enw Eliada wedi ei newid i Beelida, gan roddi Baal yn lle 'El, enw gau dduw yn lle enw y gwir Dduw: 1 *Cron.* xiv. 7. Pa arwyddocâd a ddichon fod i'r newidiad yma, y mae yn anmhosibl dywedyd; pa fodd bynag, dyma yr unig esampl o'r fath sydd ar gael, ac y mae yr enw hyd yn oed yma yn Eliada mewn un llawysgrif Hebreig; ac felly hefyd y mae yn y Deg a Thrigain ac yn y cyfieithiadau Syriaeg. Ymddengys i Josephus adael yr enw allan o'i achres ef o deulu Dafydd: *Hyn.* vii. 3, adr. 3.

[1] Barna yr esgob Lowth fod y Sebnah hwn yn berson gwahanol i'r llall; ond nid yw ei resymau yn boddhau y beirniaid.

Digitized by Google

2. **ELIADA,** Beniaminiad, a rhyfelwr cadarn nerthol, yr hwn a arweiniai 200,000 o'i lwyth yn myddin Iehosophat: 2 *Cron.* xvii. 17.

3. **ELIADA,** neu Eliadah: Aramiad, fel yr ymddengys, o Sobah; tad Rezon, yr hwn a aeth yn dywysog ar fyddin ysbeilgar; "ac efe a fu yn wrthwynebwr i Israel holl ddyddiau Solomon;" 1 *Bren.* xi. 23—25.

1. **ELIAH,** [אליה, *Eliah=fy Nuw yw Iehofah; Ἐρία*; Alex. Ἠλία]: Beniaminiad; un o feibion Iehoram, ac un o benaethiaid (Hebr. *pen*) y llwyth: 1 *Cron.* viii. 27.

2. **ELIAH,** [Ἡλία, *Eliah*]: un o feibion Elam. Ismaeliad (*h. y.*, gŵr lleyg), yn amser Ezra, yr hwn a briododd wraig ddyeithr: *Ezra* x. 26.

Dywedir mai hwn yw y dull cywir o enw Hebraeg Elias, ac y mae y cyfieithwyr Seisonig yn ei ysgrifenu yr un fath ag enw y prophwyd (*Elijah*, a ysgrifenir yn Hebraeg fynychaf gydag ו=*u*) yn *Ezra* x. 21.

**ELIAHBAH,** [אליהבא, *yr hwn a gysgoda Duw; Ἐλιαβά, Eliaba*): Saalboniad; sef, fe allai, un o Saalbim. Un o ddeg cedyrn ar ugain Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 32; 1 *Cron.* xi. 33.

1. **ELIAM,** [אליעם, *pobl Dduw; Ἐλιάβ*]: tad Bathseba, gwraig Dafydd, a'r hon a fuasai wraig Urias yr Hethiad: 2 *Sam.* xi. 3. Yn y rhestr yn 1 *Cron.* iii. 5, newidir enw y tad a'r ferch, y cyntaf i Ammiel, a'r olaf i Bathsua; a dywedir mai enwau an-Israelaidd oedd y ddau hyn, tra mai Hethiad oedd Urias. Cymharer *Gen.* xxxviii. 12; 1 *Cron.* ii. 3; a cheir "mai merch Sua," בת שוע, Bath-Sua, ydyw yn mhob un o'r ddau le. Hefyd, 2 *Sam.* xvii. 27. Dywedir nad yw trawsosodiad yr enw El-i-am i Amm-i-el, yn newid dim ar ei ystyr Hebraeg.

2. **ELIAM:** fab Ahitophel y Giloniad; un o ddeg cedyrn ar ugain Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 34. Gadewir yr enw allan o'r rhestr yn 1 *Cron.* xi; ond tybia rhai mai yr un ydoedd ag "Ahiah y Peloniad;" *adn.* 36. Yr hen draddodiad Iuddewig, yn ol Jerome [*Qu. Hebr.* ar 2 *Sam.* xi. 3; 1 *Cron.* iii. 5], ydyw, mai yr un person ydyw y ddau Eliam. Y mae rhai yn tybied y canfyddant reswm yn hyn dros ddigofaint Ahitophel at y brenin Dafydd, o blegid iddo ddianrhydeddu ei dŷ ef, ac achosi marwolaeth ei fab yn nghyfraith [*Blunt. Coin.*, Ph. ii. x]. Ond seilier y fath ymresymiadau yn fynych ar anwybodaeth o arferion a theimladau y Dwyreinwyr, y rhai yn fynych nad ydynt yn gweled dim anmharch yn yr hyn a ystyriwn ni y dianrhydedd mwyaf.

**ELIAN GEIMIAD,** neu Elian y Pererin, oedd sant Cymreig a fucheddai yn y chweched ganrif. Mab ydoedd, yn ol yr achau, i Gallgu Rieddawg, ap Carcludwys, ap Cyngu (Cymgen), ab Yspwys, ap Cadrod Calfynydd (Calchwynydd), ap Cynwyd Cynwydion, ap Cynfelyn, ab Garthwys, ab Mor, ap Ceneu, ap Coel Godhebog. Ei fam oedd Cana ferch Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw, a gweddw Sadwrn. Y mae rhai wedi meddwl mai yr un ydoedd a St. Hilary; pan y tybia ereill, ar seiliau cadarnach, fe allai, eu bod yn ddau berson gwahanol. Efe a adeiladodd eglwys Llanelian yn Môn, a Llanelian yn sir Ddinbych. Dywed ei chwedl iddo ddyfod o Rufain ac ymsefydlu yn Ynys Môn, yn amser Caswallon Law Hir, yr hwn a roddodd lawer o dirioedd a rhagorfreintiau i'w eglwys yn Môn, yn mysg y rhai yr oedd noddfa neu gyssegrfa. Dywedir fod Gwilym Gwyn, bardd a fucheddai tua diwedd yr 16eg ganrif, wedi cyfansoddi cân ar chwedl Elian. Byddai tyrfaoedd mawrion o bobl yn ymgasglu i eglwys Llanelian yn Môn, yn yr hen amseroedd, i weddïo am gynnorthwy y sant rhag amryw glefydau ac anhwylderau; ac er mwyn ennill ei ffafr, byddai symiau mawrion o arian yn cael eu hoffrwm iddo, y rhai a gedwid mewn hen gwppwrdd derw, cul, at uchder dyn, sydd yn yr eglwys hyd heddyw, a elwir "Cyff Elian."

Priodolid rhinweddau, neu yn hytrach felldithion lawer i'r hen gwppwrdd hwn gan y werin anwybodus, a chan glochyddion Llanelian, mor ddiweddar a dechreu y ganrif bresennol. Os gallai dyn neu ddynes, wedi myned i'r "cyff," neu i'r cwppwrdd hwn, roddi tro ynddo, wedi cau y drws arno byddai yn arwydd sicr y cai y cyfryw un fyw hyd ddiwedd y flwyddyn hono, o leiaf; ond os methai roddi tro yn y "cyff," byddai farw cyn diwedd y flwyddyn mor sicr ag y byddai y llall byw! Byddai raid offrwm darn o arian i'r "cyff," a chwech neu swllt i'r clochydd, wrth gwrs, am gael chwareu y campau anfad hyn yn yr eglwys; a chlywsom fod rhai wedi meirw, mewn gwirionedd, cyn pen y flwyddyn, gan ddychryn, wedi methu troi yn y "cyff" ofergoelus!

Heb law hyn, byddai y werin yn offrymu eu gelynion i'r "cyff" hwn yn fynych, er mwyn eu niweidio yn eu cyrff neu eu meddiannau; yr hyn a wnelid trwy roddi llythyrenau dechreuol enw y gelyn ar ddarn o femrwn, a'i fwrw, yn nghyd â darn o arian, bid sicr, gan adrodd rhyw weddïau ofergoelus, i'r "cyff melldithiol;" ac wrth reswm byddai raid talu i'r clochydd hefyd, am ganiatad i gyflawnu y ddefod anwar. Wedi cyflawnu yr ofergoel yma, byddai raid defnyddio rhyw foddion priodol i hysbysu y gelyn, o angenrheidrwydd, ei fod wedi ei offrymu i "gyff Elian," er mwyn i'r offrymiad gael effaith arno; a byddai y dychryn a ddilynai y fath hysbysiad yn annisgrifiadwy, ac weithiau yn angeuol. Y peth penaf a orphwysai ar feddwl yr offrymedig anffodus a'i deulu, fyddai myned at glochydd Llanelian er mwyn cael ei ddadoffrymu; a thelid symiau mawrion, yn ol amgylchiadau yr offrymedig, am y fath ffafr.

Cedwid arian yr *offrymau* oll yn y "cyff" (heb son dim, bid sicr, am yr arian a delid i'r clochydd); ac aeth y swm mor fawr, ryw amser yn ol, fel y prynwyd tri o dyddynod eang â'r cynnyrch halogedig, y rhai sydd yn perthyn i fywoliaeth Llanelian hyd y dydd hwn: a phe buasai yr holl arian a dalwyd i glochyddion Llanelian, gyda'u gilydd, am chwareu y campau ofergoelus a barbaraidd hyn, er pan adeiladwyd yr hen eglwys hono hyd yn ddiweddar, diau y buasent yn ddigon i brynu tri, os nad chwech o dyddynod ereill hefyd at "fywoliaeth yr eglwys!"

Ond nid i sir Fôn yn unig, ysywaeth, y cyfyngwyd effaith felldithiol tybiedig enw y "sant" hwn. Y mae ffynnon fechan yn mhlwyf Llandrillo, yn agos i Lanelian yn Rhos, sir Ddinbych, heb fod yn mhell o'r ffordd sydd yn arwain o Gonwy i Gaer, a elwir "Ffynnon Elian;" rhag effeithiau melldithiol yr hon y dychrynai gwerin sir Ddinbych, Fflint, a rhan helaeth o Arfon, hyd yn bur ddiweddar, nes y byddai eu gliniau yn curo yn nghyd. "Ar un amser," medd awdwr *Nodweddau y Cymry fel Cenedl*, "yr oedd mur o'i hamgylch, a llwyn ynddo, ond yn bresennol nid oes dim o'u hol. I'r lle hwn y cyrchai y sawl a



Digitized by Google

dybiai iddo gael ei niweidio, i'r dyben o felldithio ei wrthwynebydd. Y ddefod a arferid oedd debyg i'r hyn a ganlyn. Yn gyntaf dim, rhaid fyddai i geidwad y ffynnon gael ei dâl; yna ysgrifenai enw y dyn a offrymid ar femrwn: plygai hwn mewn darn bychan a theneu o blwm, wrth yr hwn y rhwymai lechen, ac ysgrifenai lythyrenau dechreuol yr enw arni. Yna bwriai y cyfan i'r ffynnon, gan ail draethu melldith yr offrymydd, a chodi i fyny a gollwng i lawr ychydig o'r dwfr. Yn fuan iawn byddai yr hwn a offrymid yn sicr o glywed am y gorchwyl, ac annogid ef i fyned a chymmeryd ei enw allan o'r ffynnon. Gwedi a myned at y dewin, holai a offrymasid ef; atebai yntau bob amser y gwnaed, a gofalai am fod ei enw i mewn cyn yr elent eu deuoedd at y ffynnon, er mwyn y wobr am ei dynu allan. Ar yr achlysur hwnw arferid y defodau a ganlyn:—Mewn tŷ cyfagos, darllenai yr hwn a offrymasid, neu darllenid iddo, ddwy Salm; yna cerddai deirgwaith o amgylch y ffynnon, a darllenai eilwaith ranau o'r Beibl; yna dyhysbyddid y ffynnon, a rhoddid iddo y plwm a'r llechen gyda'r enw. Yna, dychwelai adref gyda gorchymyn i ddarllen rhanau helaeth o Lyfr Iob a'r Salmau am dri dydd Gwener wedi hyny. Mor ofnadwy yw cymmysgu y Beibl â'r cyfryw ddefodau uffernol! Weithiau, offrymid tyddynod [ac anifeiliaid] yn gystal a dynion, un ai er anffawd 'ai er llwydd. Cymmaint oedd ofn effeithiau y ffynnon ar feddyliau rhan fawr o werin Gwynedd a Phowys, fel y mae llawer wedi myned i'r bedd, am y pwysai dychrynfeydd yr offrymiad a'r rheg hon ar eu meddyliau. Pan y byddai un mewn nychdod, y peth mwyaf a barai iddo anobeithio am adferiad fyddai y dyb fod ei enw yn Ffynnon Elian. Mae ergyd y llofrudd yn ddiattreg, ond pwy all ddarlunio trueni fel hwn?—ofni yr hwyr 'rhag rhyw drallod dirybudd—ofni y boreu na ddeuai dydd newydd â dim ond blinderau newyddion iddo ef! Pa feddwl anwybodus a allai ddal dan faich fel hyn?" Gwnaeth yr ynadon ymdrechion canmoladwy, tua dechreu y ganrif hon, i ddileu y gwarth ofergoelus yma oddi ar y genedl: er hyny, parhaodd yr anfadwaith i gael ei ddwyn yn mlaen yn ddirgel, hyd o fewn pedair neu bum mlynedd yn ol, pan y cafodd perchenog olaf y tyddyn y saif y ffynnon arno ei argyhoeddi o bechadurusrwydd yr ofergoel a'r twyll dychrynllyd a ddygai yn mlaen; ac ymunodd â chrefydd, gan gyffaddef yr holl dwyll a'r hoced a arferai yn nglyn â'r ofergoeliaeth, ac edifarhau, yn ol pob argoelion, yn briodol o'u plegid. Yn awr, y mae yr efengyl wedi gwneuthur yr hyn y llwyr fethodd ynadon heddwch y gymmydogaeth, er eu holl ymdrech clodwiw, ei gyflawnu. Y mae capel cyfleus yn awr gan y Methodistiaid Calvinaidd o fewn lled y ffordd fawr i'r hen ffynnon swyngyfareddol; ac aiff pobl yr ardal heibio iddi yn bresennol mor ddifraw a difeddwl am dani ag yr änt heibio ryw ffynnon ddiniwed arall.

1. ELIAS, [אליהו, *Eliahw*, gan amlaf, ac weithiau, אליה, *Eliah=fy Nuw yw Iehofah*; 'Ηλιαύ; Aquil., 'Ηλία; Testa. Newydd, 'Ηλίας; Chrysos., 'Ηλιος, megys pe yn arwyddo *dysgleirdeb yr haul*]: dyma y ffurf (Elias) a roddir i'r enw yn Gymraeg, yn yr Hen Destament a'r Newydd; ond *Elijah* ydyw y ffurf Seisoneg o'r enw yn yr Hen Destament, ac *Elias* yn yr Apocrypha (*Eccl.* xlviii. 1, 4, 12; 1 *Macc.* ii. 28), ac yn y Testament Newydd.

Dywed Stanley, yn ddigon priodol mai Elias y Thesbiad ydyw y cymmeriad ardderchocaf a mwyaf rhammantus a gyfododd erioed yn mysg yr Israeliaid. Y mae yn sicr nad oes un person yn yr Hen Destament y rhoddir darluniad mwy bywiog o'i yrfa, nac un y gweithreda ei hanes yn fwy grymus ar ddychymyg y darllenydd. Y mae ei ymddangosiadau anaml, sydyn, a byrion, ei wroldeb diarswyd, a'i sel danllyd, ei fuddugoliaethau ysblenydd, angerddoldeb ei anobaith, gogoniant ei ymadawiad, a phrydferthwch tawel ei ail ymddangosiad ar Fynydd y Gweddnewidiad, yn ei amgylchynu â'r fath ddysgleirdeb na cheir darluniad o'i gyffelyb am neb arall o'i gydbrophwydi yn yr hanes sanctaidd. Y mae y darluniad a rydd yr Apocrypha o hono (wedi ei gasglu wrth gwrs o'r Ysgrythyrau), yn dra bywiog a tharawiadol; yr hwn, gan nad yw ond byr, a ddodwn yma yn gyflawn:—"Yna," yn ebrwydd ar ol ynfydrwydd Rehoboam a throseddau adgas Ieroboam, fab Nebat—"y cododd Elias y prophwyd fel tân, a'i air ef a losgai fel llusern. Yr hwn a ddug arnynt hwy newyn mawr, a thrwy ei sel a'u gwnaeth hwy yn ychydig. Efe a gauodd y nefoedd trwy air yr Arglwydd, a thair gwaith y dug efe dân i waered. O Elias! mor ogoneddus fuost ti yn dy ryfeddodau! A phwy a ddichon ymffrostio fel tydi?—yr hwn a gyfodaist y marw o farwolaeth, a dyn o'r bedd, trwy air y Goruchaf; yr hwn a ddygaist freninoedd i ddinystr, a phendefigion o'u heisteddfa; yr hwn a glywaist gerydd yr Arglwydd yn Sinai, a barnedigaethau dialedd yn Horeb; yr hwn a eneiniodd freninoedd i dalu y pwyth, a phrophwydi i ddilyn ar ei ol ef; yr hwn a godwyd i fyny mewn tro-wynt o dân, ac mewn cerbyd meirch tanllyd; yr hwn a ordeiniwyd i geryddu mewn pryd, ac i ostegu digder barn yr Arglwydd, cyn iddo dori allan yn llid, ac i droi calon y tad at y mab, ac i gyweirio llwythau Iacob. Gwyn eu byd hwy a'th welsant di, ac a hunasant mewn cariad; canys nyni a fyddwn byw yn ddiau. Elias a orchuddiwyd â thro-wynt: ac Eliseus a lanwyd o'i ysbryd ef;" *Eccl.* xlviii. 1—12.

Dygir y prophwyd hwn, a'i weithredoedd nerthol, i'n sylw fel rhyw ail Felchisedec (*Gen.* xiv. 18; *Heb.* vii. 3), heb un crybwylliad am ei dad, na'i fam, na dechreu ei ddyddiau; megys pe disgynasai o'r cerbyd tanllyd, yn yr hwn, ar ol iddo orphen ei waith ar y ddaiar, y cymmerwyd ef yn ol i'r nefoedd. Y mae yn ddiammheu fod y tywyllwch y'n gadewir ynddo am amgylchiadau a dygwyddiadau blaenorol y gŵr a wnaeth gymmaint, ac a ddyoddefodd gymmaint, yn tueddu i fwyhau ein dyddordeb yn ei hanes a'i gymmeriad. "Elias y Thesbiad, un o breswylwyr Gilead," yw y cwbl a wyddom, mewn gwirionedd, am ei haniad a'i breswylfod. Mae dystawrwydd yr Ysgrythyrau am y pethau hyn wedi achosi llawer o ddyfaliad ofer yn ei gylch. Y mae rhai o'r Rabbiniaid wedi tybied mai Phineas, ŵyr Aaron, ydoedd; tra y meddyliodd ereill mai angel oedd, yr hwn, er mwyn diwygio y brenin drygionus Ahab, a'i ddeiliaid annuwiol, a gymmerodd arno agwedd dyn. Y mae rhai yn tybied i Elias gael ei alw yn Thesbiad oddi wrth Tisbeh—dinas, meddir, o'r tu hwnt i'r Iorddonen. Ereill a farnant fod Thesbiad yn arwyddo *argyhoeddwr* neu *ddiwygiwr*, gan ei darddu o'r gwreiddyn Heb. שוב. Y testyn Hebraeg yw ויאמר אליהו התשבי מתשבי גלעד (sic) — התשבי מתשבי גלעד אליהו. Gall y trydydd gair gael ei lafarnodi, megys yn y testyn Masoretig presennol, i arwyddo "o breswylwyr Gilead," neu "o Tisbi Gilead." yr hwn, gydag ychydig o wahaniaeth yn y ffurf,

sydd gan y Deg a Thrigain. Y dull olaf a ddilynir gan Ewald. Dywed Lightfoot, ond heb ddwyn awdurdod dros ei ddywediad, mai un o Iabes Gilead oedd Elias. Dywed Josephus iddo ddyfod o Thesbon. Dichon y gallasai y gair yma gael ei ddarllen yn Hesbon, dinas yr offeiriaid; yr hyn a barodd i Epiphanius fynegu mai un o lwyth Aaron ydoedd, ac ŵyr i Zadoc. Tybir mai yr achos o'r traddodiad Iuddewig, mai yr un oedd Elias a Phineas, oedd, tebygrwydd sel danllyd y ddau i'w gilydd. Dywedai rhai o'r Rabbiniaid, mai angel Iehofah ydoedd, a ymddangosodd mewn tân i Gideon [*Light.* ar *Ioan* i. 21; *Esien.* i. 686]. Rhydd traddodiad Arabaidd le ei enedigaeth yn Gilhad Gilhood, ychydig o filltiroedd i'r gogledd o *es-Salt* [*Irluy*, 98], a'i feddrod yn agos i Damascus [*Mislin.* i. 490]. Y mae diffyg hollol o achau Elias, a helaethder manwl achau y prophwydi ereill, yn wahaniaeth tra nodedig, fel nad yw ryfedd iddo achosi cymmaint o ddyfaliadau a thraddodiadau Iuddewig. Yn mha fan yr oedd y lle, os oedd, a roddodd yr enw Thesbiad i Elias, nid ydys yn gwybod, nac yn debyg o wybod chwaith. Nid yw y Beibl yn son am dano mewn un lle arall, ac nid yw teithwyr a hynafiaethwyr wedi canfod un enw cyfatebol iddo hyd yn hyn. Tybir i'r dyfaliad disail, a grybwyllwyd eisoes, ei fod wedi ei eni yn nhref Thisbe neu Tisbeh, a grybwyllir yn *Tobit* i. 2, gael ei ddechreuad gyda Hiller [*Onom*, 947], neu Relan [*Pal.* 1035]. Ond heb son am y ffaith nad yn Gilead yr ydoedd y Thisbe yma, ond yn Naphtali, y mae bron yn sicr nad oes i'r enw sydd yn yr ymadrodd hwnw wir hanfod, ond iddo gael ei achosi gan gamgyfieithiad o'r gair Hebraeg a gyfleithir yn y Beibl yn "breswylwyr;" 1 *Bren.* xvii. 1. Gwel THISBE.

Pa fodd bynag, y mae y crybwylliad am Gilead yn agoriad i lawer o'r pethau mwyaf nodedig sydd yn hanes y prophwyd. Gwlad oedd Gilead o'r tu hwnt i'r Iorddonen; gwlad helwriaeth a phorfa; gwlad pentrefydd o bebyll a chestyll y mynyddoedd, yn cael ei phreswylio gan bobl heb ymsefydlu a gwareiddio, fel y rhai a ffurfient lwythau Ephraim ac Iudah; ond rhai o arferion crwydraidd, afreolaidd, yn agored i ymosodiadau parhaus oddi wrth lwythau anwar yr anialwch, ag arferion y rhai yr oeddynt yn cydymffurfio fwyfwy; y rhai a wnaethant ryfel yn erbyn yr Hagariaid, gan gaethgludo miloedd afrifed o'u hanifeiliaid, a phreswylio yn eu pebyll hwynt: 1 *Cron.* v. 10, 19—22. Rhaid fod yr enw *Gileadiaid* i Israeliaid o'r llwythau a breswylient o'r tu gorllewinol i'r Iorddonen, yn trosglwyddo syniad cyffelyb i Israeliaid ereill, ond llawer cryfach, ag a drosglwydda yr enw *Celtiaid* i ninnau yn y dyddiau hyn. Rhaid fod Gilead, mewn cymhariaeth i Samaria ac Ierusalem, yr hyn ydoedd yr Ucheldiroedd ganrif yn ol mewn cymhariaeth i drefydd Iseldiroedd yr Alban; ac y mae lle cryf i gasglu fod y gwahaniaeth yn fwy. Un o wroniaid ardderchocaf cofnodau boreuol Israel oedd Iephtha y Gileadiad, yn yr hwn yr oedd yr holl hynodion hyn yn amlwg; a sylwa y proffeswr Stanley yn briodol fod yn anmhosibl cael syniad cywir am ei gymmeriad ef heb gofio hyn.

Y mae cofio hyn yn fwy angenrheidiol fyth gyda golwg ar Elias; am yr hwn y dywedir cymmaint, ac i'r hwn y rhoddir cymmaint mwy o bwys yn yr hanes sanctaidd. Dichon y gallwn gael rhyw syniadau oddi wrth yr awgrymiadau nerthol, er nad ydynt ond ychydig, sydd yn yr hanes, am ei ymddangosiad fel y safai ger bron Ahab, gyda'r sydynrwydd sydd yn nodedig hyd y dydd hwn i'r Bedouin a breswylient ei fryniau brodorol ef. Ychydig a ellir ei gasglu am ei faintioli; ond y mae yr ychydig hyny yn arwyddo ei fod yn fwy na'r cyffredin. Cymharer 2 *Bren.* iv. 34, â 1 *Bren.* xvii. 21. Mae Chrysostom yn cymhwyso yr un ymadrodd ato ef ag at yr apostol Paul. Ymddengys mai ei brif hynodrwydd allanol oedd ei flew hirion a thewion, yn crogi dros ei gefn. Yn 1 *Bren.* i. 8, dywedir mai "gŵr blewog oedd efe;" yn llythyrenol, "arglwydd y blew." Cymhwysir yr un gair at Esau yn *Gen.* xxvii. 11. Ond tybir mai at flew ei ben y cyfeirir yn benaf, oddi wrth waith plant Bethel yn defnyddio yr un gair wrth watwar Eliseus, "Moelyn" (קֵרֵחַ), oedd air a gymhwysid yn unig at diffyg blew o'r tu ol i'r pen; a dichon i'r gwawd gael ei achosi gan y gwahaniaeth ydoedd rhwng ysgwyddau moelion y prophwyd newydd a chudynau cedenog yr hen brophwyd. Gwel ELISEUS. Os nad oedd gwallt llaes Elias yn arwyddo dirfawr nerth Samson, y mae yn sicr fod ei berchenog yn meddu gallu digyffelyb i ddyoddef. Yr oedd ei waith yn rhedeg o flaen cerbyd Ahab, y caledi wrth afon Cerith, a'r deugain niwrnod ympryd, yn brofion diammheuol o hyn. Ei wisg gyffredin oedd gwregys croen am ei lwynau (2 *Bren.* i. 8), yr hwn a dynhäai pan y byddai am fyned yn gyflym: 1 *Bren.* xviii. 46. Heb law hyny, byddai weithiau yn gwisgo mantell o groen dafad; yr hyn a roddodd achlysur i un o'r ffugrau ymadrodd mwyaf adnabyddus. Y gair a ddefnyddir yn wastad am fantell Elias, yw אדרת (*dereth*); yr hwn nid arferid am wisg unrhyw brophwyd o'i flaen ef. Fe allai mai hyn a roddodd achlysur i rai Iuddewon dybied ar ol hyny fod gwisg flewog yn un o neillduolion prophwyd i'r Arglwydd. Cyfieithir yr un gair ag a gymhwysir at fantell Elias yn "grys o rawn" yn *Zech.* xiii. 4. Pan fyddai mewn cythrwfl meddwl, byddai yn goblygu ei wyneb yn y fantell hon; neu pan wedi ei gynhyrfu, byddai yn ei phlygu yn nghyd fel math o ffon: 2 *Bren.* ii. 8. Canfyddir ef unwaith yn ymostwng ar y ddaiar, â'i wyneb rhwng ei liniau: 1 *Bren.* xviii. 42. Ystyrir yn gyffredin fod hyn yn arwydd ei fod yn gweddïo; ond nid ymostwng fel hyn, medd Grove, oedd (o leiaf ydyw) agwedd gweddi yn y dwyrain, "A phan *safoch* i weddïo, maddeuwch;" *Marc* xi. 25; *Mat.* vi. 5, &c. Rhywbeth o'r fath yma, cyn belled ag y gellir casglu oddi wrth yr ychydig grybwyllion a geir yn y cofnodau Ysgrythyrol, oedd ymddangosiad cyffredinol y prophwyd mawr hwn:—ymddangosiad, fel y mae pob lle i gasglu, oedd yn anghyffredin hyd yn oed yn yr amseroedd hyny; canys yr ydym yn cael fod Ahaziah wedi ei adnabod, fel y gwelir eto, wrth y dysgrifiad allanol yn unig o hono.

Yr oedd y bywyd unigol a arweiniai y prophwyd, a'r neillduolion ereill a berthynent iddo, yn tueddu i fagu angerddoldeb ei sêl, a'r cyfeirioldeb hyf a hynodai ei gyfarchiadau. Yn nghanol unigrwydd bryniau a chromlechydd creigiau Gilead yr argraffwyd gyntaf ar ei feddwl bywiog ef y wybodaeth hono am yr Iehofah a gwir Dduw Israel, oedd i fod yn destyn ei genadwri at lys a gwlad eilunaddolgar Israel. Yr oedd y deyrnas ogleddol y pryd hyn bron wedi llwyr ymwrthod â chrefydd Iehofah. Yr oedd addoliad y lloi yn ymadawiad oddi wrtho ef, gan ei fod yn drosedd o'i orchymyn pendant ef yn erbyn addoli delwau cerfiedig, neu ddelwau o

Digitized by Google

sylweddau naturiol, megys pren a maen, aur ac arian, a'r cyffelyb: er hyn oll, fe ymddengys fod Iehofah yn cael ei gydnabod hyd yn oed yn mhresennoldeb y lloi; yr oeddynt hefyd yn sefydliadau cenedlaethol, ac nid wedi eu cymmeryd oddi wrth eilunaddoliaeth y gwledydd o amgylch. [Gwel Llo. Cyhoeddwyd hwy gan Ieroboam fel amddiffynwyr y genedl yn amser o berygl mawr: "Wele dy dduwiau di, O Israel, y rhai a'th ddug di i fyny o dir yr Aipht;" 1 *Bren.* xii. 28. Ond yr oedd yr achos yn gwbl wahanol gyda golwg ar Ahab, o blegid nid digon oedd ganddo ef addoli y lloi, "canys ysgafn oedd ganddo ef rodio yn mhechodau Ieroboam mab Nebat" (1 *Bren.* xvi. 31); ac efe a briododd ferch brenin Sidon, ac a ddygodd grefydd estronol ei wraig, addoliad Baal y Phœniciaid, i'r ymarferiad helaethaf yn mysg y genedl [*Joseph. Ant.*, ix. 6, 86]. Pa fath oedd yr addoliad hwn sydd anhysbys, ond mae yn sicr ei fod yn wammal, ardderchog, a glwth, ac am hyny yn gwbl groes i ddefodau difrifol, syml, a llymion Moses. Yr ydys yn gwybod fod defodau aflan a ffiaidd yn gyssylltiedig âg addoliad Aserah (a gyfieithir yn y Beibl *Astaroth*, a *llwyni*), y rhai yn yr amser gynt a ddygasant y barnedigaethau trymaf ar y genedl: *Num.* xxv; *Barn.* ii. 13, 14; iii. 7, 8. Ond yr hyn oedd yn gwneyd crefydd Baal ffieiddiaf a mwyaf drygionus oedd, ei bod yn addoliad gallu, addoliad nerth yn unig, yn wrthwyneb i addoliad Duw cyfiawnder a daioni. Crefydd estronol ydoedd, wedi ei chymmeryd oddi wrth y Cenedloedd, adgasrwydd y rhai a gondemnir yn mhob rhan o'r gyfraith, fel rhai croes i grefydd y Duw hwnw a ddug genedl Israel o gaethiwed yr Aipht, ac a "yrasai y Cenedloedd allan â'i law, ac a'u planasai hwythau yn eu lle," a thrwy yr hwn y bu i'w tadau hwy "sathru eu gelynion dan eu traed, a dystrywio y rhai a gyfodasent i'w herbyn." Fel tyst yn erbyn y ddau ddrwg hyn yr ymddangosodd Elias.

Ymddengys fod y rhan gyntaf o'i genadwri (neu, fel y myn rhai ystyried y peth yn farddonol, *act gyntaf* ei fywyd) yn cymmeryd i mewn rhwng tair a phedair blynedd:—tair blynedd a chwe mis i ystod y sychder a'r newyn, yn ol mynegiad y Testament Newydd (*Luc* iv. 23; *Iago* v. 17), a thri neu bedwar mis at y daith i Horeb, a'i ddychweliad i Gilead: 1 *Bren.* xvii. 1; xix. 21. Y mae ei arweiniad, neu ei ragymadrodd, yn un o'r fath fwyaf cyffrous: y mae yn ymddangos yn ddisymmwth ger bron Ahab, gan nad ydoedd un anhawsder iddo wneyd hyny yn ol rhyddid diattal y defodau dwyreiniol, a chyhoedda ddialedd Iehofah am wrthgiliad y brenin. Y mae yn gwneuthur hyn mewn dull cwbl briodol iddo ei hun, yr hwn a fabwysiadwyd ar ol ei ymadawiad gan ei ddilynydd Eliseus; dull oedd yn cynnwys pob peth oedd mewn dadl rhyngddo a'r brenin; enw Iehofah, mai efe oedd Duw Israel, ei fod yn Dduw byw, ei fod yntau (Elias) yn genad iddo ef; ac yna, gwers yr amgylchiad, sef bod Duw gallu a natur i gael ei orchfygu â'i arfau ei hun: —"Fel mai byw Arglwydd Dduw Israel"—yn hytrach, "Fel mai byw Iehofah, Duw Israel"— "yr hwn yr wyf yn sefyll ger ei fron," i'r hwn yr wyf yn was parhaus, "ni bydd y blyneddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i;" 1 *Bren.* xvii. 1. Pa weithred a ddilynodd hyn yn ddioed, ni ddywedir; ond y mae yn amlwg y bu raid i Elias ffoi rhag rhyw ddialedd a fygythiai y brenin, neu, fel y mae yn fwyaf tebyg, y frenines: cymharer 1 *Bren.* xix. 2. Fe allai mai y pryd hwn y "distrywiodd Iezebel brophwydi Iehofah;" 1 *Bren.* xviii. 4. Cyfarwyddwyd ef yn y fan i fyned at afon Cerith—un o'r ddwy ffrwd oedd yn dal cyssylltiad âg ucheldir ei fryniau genedigol, neu ar y tu gorllewin i'r Iorddonen, ar gyfer cymmydogaeth Samaria. [Gwel Cerith.] Y mae rhai yn meddwl mai yn *ngwely* yr afon yr ymguddiodd yno; ond "*wrth* yr afon," medd y Beibl: 1 *Bren.* xvii. 3, 5. Pa fodd bynag, yno yr arosodd, yn cael ei borthi mewn modd gwyrthiol gan gigfrain, y rhai a ddygent iddo "fara a chig y bore, a bara a chig y prydnawn; ac efe a yfai o'r afon;" *adn.* 6. Pa hyd yr arosodd efe wrth afon Cerith, nid yw yn hysbys. Y cwbl a ddywedir yw "talm o ddyddiau" (Heb., "ar ddiwedd y dyddiau;" 1 *Bren.* xvii. 7); ac nid yw Josephus yn rhoddi unrhyw eglurhad manylach ar y pwnc.

Cymmerodd rhai lawer o drafferth i geisio profi nad *cigfrain* oedd yn porthi Elias wrth afon Cerith; ac fel un ddadl dros eu barn, sylwant fod y gair עֹרְבִים (*orebim*), a gyfieithir *cigfrain* genym ni, yn arwyddo *marchnadwyr* yn *Ezec.* xxvii. 27; ac felly, ymdrechant ddiddymu cadwedigaeth wyrthiol y prophwyd. Meddylia ereill fod y gair gwreiddiol yn arwyddo "Arabaidd," megys yn 2 *Cron.* xxi. 16, a *Neh.* iv. 7, lle y defnyddir gair cyffelyb, yn arwyddo trigolion y ddinas Arabah, ger llaw Beth-san neu Beth-hogla (*Jos.* xv. 6; xviii. 18, &c.); tra y tybia ereill mai trigolion rhyw dref yn Orbo neu Orbi, a feddylir; ac y mae rhai wedi myned mor bell, neu yn hytrach mor ffol, a thybied mai ysbeilio nyth cigfran yr oedd Elias, a hyny yn gysson am lawer o fisoedd! Pa fodd bynag, ymddengys i ni fod yn anmhosibl osgoi yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair, sef *cigfrain*, yr hwn sydd yn dygwydd ddwywaith yn yr un ymadrodd; a phe rhoddid i'r gair ryw ystyr arall, dileid pob arwydd o wyrth o'r amgylchiad yn llwyr; heb son fod yr holl lawysgrifau Hebreig yn gysson yr un fath, gystal a'r holl hen gyfieithiadau, a Josephus. Ond, y mae llawer o ymofyn wedi bod, pa fodd y gallasai yr adar hyn gael ymborth cyfaddas ("bara a chig"), a chael digon o hono, i ddiwallu angen dyddiol y prophwyd. Y mae yr ateb i'r gofyniad yma yn bur syml. Nis gellir dywedyd. Digon i ni ydyw, fod Duw wedi addaw darparu ar ei gyfer, a'i fod wedi cyflawnu ei addewid. Ofer ydyw dyfalu, fel y gwnaeth rhai, mai oddi ar fwrdd Ahab, neu Iehosaphat, neu fyrddau rhai o'r saith mil oedd yn Israel na phlygasant eu gliniau i Baal, yr oedd y cigfrain yn cael yr ymborth. Yr oedd gan yr hwn a wlawiodd fanna i holl genedl Israel am ddeugain mlynedd yn yr anialwch, ac a wlawiodd iddynt soflieir i dori eu blys, ddigon o wahanol ffyrdd i ddarparu ar gyfer y prophwyd.

Yr oedd prawf newydd eto yn aros y gwas hwn i Dduw; ac y mae y modd yr aeth drwyddo yn amlygiad tra nodedig o gryfder ei ffydd; canys, "yn ol talm o ddyddiau, sychodd yr afon: o blegid na buasai wlaw yn y wlad" (1 *Bren.* xvii. 7); ac felly, darfu am ei obaith i gael dwfr yno i dori ei syched. Nid oes yma air o son fod Elias wedi grwgnach yn ngwyneb hyn, fel y gwnaeth Israel yn yr anialwch o blegid prinder dwfr; ond ymddengys iddo ef ddysgwyl yn amyneddgar a hyderus wrth yr hwn a barasai i'r cigfrain ei borthi ef; ac yn ol arfer Iehofah i'r rhai a ymddiriedant ynddo, daeth yr ymwared yn ei phryd. "A gair yr Arglwydd a ddaeth ato ef, gan ddywedyd, Cyfod, dos i Sarephtah, yr hon sydd yn perthyn i Sidon, ac aros yno: wele, gorchymyn-

sis i wraig weddw dy borthi di yno;" *adn.* 8, 9. Dywedir mai tref Phœniciaidd oedd hon, rhwng Tyrus a Sidon: y lle olaf, yn sicr, y buasai neb yn dysgwyl cael gelyn i Baal ynddo. Pa fodd bynag, y mae rhai yn barnu mai Israeliad oedd y wraig weddw yr arosodd Elias yn ei thŷ, a bod ei chyfarchiad i'r prophwyd—"Fel mai byw yr Arglwydd dy Dduw"—yn arwyddo nad oedd yn addoli Baal. Ond ymddengys na ddylid ymddibynu yn hollol ar hyny, canys ceir fod Sedeciah, mab Cenaanah, yn arfer yr un ffurf o ymadrodd, "Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd;" 1 *Bren.* xxii. 11. Er hyny, y mae rhai yn casglu oddi wrth *Luc* iv. 26, mai un o weddwon Israel ydoedd hon; a'i mab hi, yn ol traddodiad Iuddewig, oedd y Messïah.—*Esien. Entd. Judenth*, ii. 725. Y mae Lightfoot yn sylwi yn bert ar ymweliad Elias â'r weddw hon, mai efe ydoedd yr apostol cyntaf at y Cenedloedd. Cymmerodd cyfarfyddiad cyntaf Elias â'r wraig weddw hon le, yn ol y traddodiad [*Mislin*, i. 532], mewn coed ar y tu deheu i'r dref. Yr oedd tŵr wedi ei godi i ddynodi y fan yn amser Jerome.—*Ep. Paulæ*. Mewn amser diweddarach, adeiladwyd eglwys ar sylfaen tŷ y wraig weddw, yr hon a gyssegrwyd i'r prophwyd; yn yr hon y dangosid ei ystafell, a chafn pobi y wraig weddw.—*Anton. Martyr.*, a *Phocas* yn *Reland*, 985. Galwyd yr eglwys, (yn ol yr *Acta Sanctorum*, τὸ χηρεῖον (*y weddw*). Heb law parhad gwyrthiol yr olew a'r blawd, cyflawnodd Elias wyrth arall tra nodedig yn ystod ei arosiad gyda'r wraig weddw hon, trwy adfera ei mab, yr hwn yr ymddangosai ei fod wedi marw, os nad ydoedd mewn gwirionedd. Y mae ffurf yr ymadrodd (ffurf nas defnyddir mewn un man arall) yn arwyddo ei fod wedi marw: "Ac yr oedd ei glefyd ef mor gryf fel na thrigodd anadl ynddo;" 1 *Bren.* xvii. 17. Ymddengys wrth iaith Josephus (viii. 13. 63), nad ystyriai efe fod y bachgen wedi marw yn hollol; a rhaid cyfaddef fod gwahaniaeth rhwng yr ymadrodd yn hanes y bachgen hwn a hanes mab y Sunamees, am yr hwn y dywedir yn bendant, "ac a fu farw;" 2 *Bren.* iv. 21. Dywed y traddodiad Iuddewig a ddyfynir gan Jerome, mai mab y wraig weddw yma oedd y gwas a ddilynodd Elias wedi hyny; ac mai efe hefyd, ar ol hyny, oedd y prophwyd Ionah.—*Jerome, Pref. to Ionah; Talm.* in *Eisen. Entd. Jud.*, ii. 725. Gan y wraig weddw hon y cyfarchwyd Elias gyntaf, wrth yr enw "gŵr Duw" ( 1 *Bren.* xvii. 18, 24), yr hwn, er iddo gael ei gymhwyso yn achlysurol at rai ereill o'r blaen, a ddaeth yn enw cyffredin a gwahaniaethol ar Elias a'i olynydd Eliseus.

Yn y lle hwn, neu ryw ymguddfa arall, arosodd Elias am chwaneg na dwy flynedd o amser. "Ysbaid blwyddyn" y dywed ein cyfieithiad ni, y bu y wraig weddw, ei thylwyth, ac Elias yn bwyta o'r blawd a'r olew (1 *Bren.* xvii. 15); ond ystyr y geiriau Hebraeg, a gyfieithir "ysbaid blwyddyn," ydyw "llawer o ddyddiau," fel ar ymyl y ddalen. Am hyny, fe ddichon mai yma yr arosodd Elias nes i'r newyn tost ddyfod i'w lawn nerth, pan y parodd diffyg cnwd y maes iddo ddisgyn yn ei holl ddychrynfeydd ar Samaria hefyd. Yr oedd y brenin a phrif swyddog ei dŷ, "y penteulu," wedi rhanu rhyngddynt y ddyledswydd alarus o chwilio a oedd y sychder mawr wedi gadael rhywfaint o laswellt o amgylch y ffynnonau dwfr, at y rhai y cyrchir mor fynych yn nghanolbarth Palestina, neu yn nghilfachau cysgodol a gwelyau yr afonydd—prif fanau lleithder yn y gwledydd dwyreiniol. Nid ymddiriedid yr ymchwiliad pwysig yma, ar yr hwn yr ymddibynai bywyd neu angeu, i neb llai na'r ddau berson uchaf yn y llywodraeth: "Ahab a aeth y naill ffordd ei hunan, ac Obadiah a aeth y ffordd arall ei hunan;" 1 *Bren.* xviii. 6. Dyma yr adeg bwysig i'r prophwyd wneyd ei ymddangosiad. Y mae yn ymddangos gyntaf i'r swyddog. Tra yr oedd hwnw yn myned i'w ffordd, yn ol gorchymyn ei arglwydd, gwelai ddyn yn ddisymmwth yn sefyll ar ei lwybr, am yr hwn yr oedd efe a'i feistr wedi bod yn chwilio yn ddyfal dros dair blynedd o amser. "Nid oes genedl na breniniaeth," medd Obadiah, mewn gormodiaith wir ddwyreiniol, "yr hon ni ddanfonodd fy arglwydd iddi i'th geisio di" (1 *B en.* xviii. 10): ac yma yr oedd efe yn sefyll, lle y dysgwylid lleiaf am dano. Yr oedd ymddangosiad y prophwyd mor sydyn, yr olwg arno mor wyllt, a'i wyneb mor eofn ac awdurdodol, fel nas gallai Obadiah lai na syrthio ar ei wyneb ger ei fron. Y mae y geiriau *arglwydd, gwas* (Heb., *caethwas*), a ddefnyddia Obadiah, yn dangos fod arno ofn Elias; canys dyma y geiriau a arferid yn gyffredin wrth gyfarch penaduriaid. Pa fodd bynag, y mae Elias yn tawelu ei gyffro yn fuan: "Fel mai byw Arglwydd (Iehofah) y lluoedd, yr hwn yr wyf yn sefyll ger ei fron, heddyw yn ddiau yr ymddangosaf i Ahab" (1 *Bren.* xviii. 15); ac wedi ei ryddhau fel hyn o'i ofnau, na byddai i Elias gael ei gipio ymaith, fel ar achlysuron blaenorol, cyn y gallai efe ddychwelyd oddi wrth Ahab, y mae Obadiah yn ymadael i hysbysu Ahab fod y dyn y chwilient am dano yn sefyll yno. Yna y mae Ahab yn dyfod ato, ac Elias yn ei gyhuddo o wrthod gorchymynion yr Iehofah, a rhodio ar ol Baalim: *adn.* 18. Yna y mae yn gorchymyn ar i holl Israel ymgasglu i Fynydd Carmel, yn nghyd â'r pedwar cant a deg a deugain o brophwydi Baal, a'r pedwar cant o brophwydi y llwyni (Astaroth): y rhai olaf hyn oeddynt dan nawdd arbenig y frenines. Pa ham y dewiswyd Mynydd Carmel, am yr hwn nid ydym wedi clywed dim o'r blaen, yn hytrach na Mynydd Ebal neu Fynydd Gerizim, oedd yn nes, nid yw hysbys. Fe allai fod y prophwyd yn dewis symmud lle y cyfarfod i bellder oddi wrth Samaria; neu hwyrach ei fod yn dewis y lle o blegid fod yno hen allor i'r Arglwydd, oedd weithian wedi adfeilio (*adn* 30), gan yr ymddengys fod hen gyssegrfa yn perthyn i'r fan. Y mae haneswyr a theithwyr yn dra phenderfynol yn awr mai yn y parth dwyreiniol o drumau Carmel y cymmerodd y cyfarfod mawr dan sylw le. Dywedir fod yn anhawdd canfod un lle arall ar y mynydd yn cyfateb mor fanwl i'r hyn oll a gymmerodd le, a'r rhan yma o hono. Y mae y traddodiad sydd wedi ei gadw yn y fynachlog, ac yn mysg Drusiaid y pentrefydd cymmydogaethol—enwau y lleoedd, y pellder o Iezreel, natur y llanerch, a phresennoldeb y ffynnon anhysbydd—oll yn cyd-dystiolaethu o blaid y lle hwn. Pa fodd bynag, y mae yn nodedig mai yn ddiweddar y gwnaed y darganfyddiadau hyn, a hyny gan ddau deithiwr bron ar yr un amser, sef y Cadweinydd Van de Velde, yn 1852, a'r proffeswr Stanley, yn 1853. Nis gellir darlunio yr olygfa ddyddorol yma yn well nag yn ngeiriau y teithiwr olaf.

"Mae y traddodiad yn nodedig o gredadwy: fe allai mai dyma yr unig esiampl yn Palestina y mae coffadwriaeth am amgylchiad honedig wedi ei gadw yn yr enwadur Arabaidd brodorol. Y mae enwau llawer o drefydd wedi eu cadw felly; ond nid oes yma un dref—dim ond adfeilion

Digitized by Google

afluniaidd, eto y mae i'r lle enw nodedig, sef El-Maharrakah='y llosgiad' neu 'yr aberthiad.' Y mae y Drusiaid yn cyrchu yma o bellder mawr i offrymu aberth blynyddol; ac er y dichon mai yr arfer yma a roddodd ddechreuad i'r enw, eto y mae yn debycach i'r arfer ei hun gael ei hachosi gan draddodiad hynach fyth......Ond bydded y traddodiad yma fel y byddo, y mae cyfaddasrwydd y lle yn cyfateb bron yn mhob peth i'r amgylchiad. Y trum a nodir allan fel hyn yw pwynt dwyreiniol eithaf y mynydd, lle y ceir yr olwg olaf ar y môr o'r tu ol, a'r olwg gyntaf ar y dyffryn eang o'r tu blaen.........Yno, ar drum uchaf y mynydd, y dichon yn hawdd fod allor Iehofah yn sefyll ar yr uchelaf gyssegredig, yr hon a fwriasai Iezebel i lawr. O'r tu isaf, yn agos i'r lle, ar lethr o ucheldir eang, dan hen olewydd sydd o amgylch ffynnon ddwfr, yr hon y dywedir ei bod yn anhysbydd, ac am hyny a allasai roddi digon o ddwfr, er maint y sychder, i lenwi y ffos o amgylch yr allor—yn y fan hono y rhaid fod y brenin a'r bobl, a'r 850 o brophwydi Baal ac Astaroth wedi eu trefnu, tra y safai prophwyd awdurdodol Iehofah yn unigol ar yr ochr arall. O'u blaen y llawn ymddangosai holl ddyffryn Esdraelon; hefyd, yr oedd dinas Iezreel, yn nghyd â phalas Ahab a theml Iezebel, yn gwbl weledig iddynt: o'u blaen yn nes fyth, yn union o dan odrau y mynydd, y gwelid gwely dolenog yr afon Cison yn gwbl amlwg." Gellir chwanegu at hyn y nodir bryncyn allan rhwng y trumau a'r dyffryn, a elwir Tell Kasis="bryn yr offeiriaid;" ac mai enw diweddar y Cison ydyw, *Nahr el Mukatta*="afon y gyflafan." "Y mae yr olygfa derfynol eto yn ol. Aeth y brenin o'r gyflafan wrth afon Cison i lechweddau Carmel i ymuno yn y wledd aberthol. Esgynodd Elias hefyd 'i ben Carmel;' ac yno, â'i wyneb ar y ddaiar rhwng ei liniau mewn gweddi, yr ydoedd Elias, tra yr aeth ei lanc i ben y bryncyn uchaf oll, lle gallai gael golwg helaeth ar eangder glas Môr y Canoldir, dros ysgwydd orllewinol y trumau. Dringodd y llanc saith waith ac edrychodd; a'r saith waith hyny 'nid oedd dim.' O'r diwedd, cyfododd cwmwl bychan yn eithafoedd yr awyrgylch, a chynnyddodd dan gysgodau yr hwyr, nes y duodd yr holl nefoedd, ac ysgydwai coedwigoedd Carmel yn sŵn croesawgar y gwyntoedd nerthol; yr hyn, yn y gwledydd dwyreiniol, sydd yn rhagflaenu tymmestl ddyfodol."—*Sinai and Palestine*, td. 353—6.

Ychydig iawn o gofnodau mewn hanesyddiaeth sydd mor fawreddog a'r olygfa hon ar ben Carmel o'i dechreu i'w diwedd. Ar y naill ochr, gwelir gwas unigol Iehofah, heb neb yn ei ddilyn ond un llanc yn unig; â'i wallt llaes cudynog, ei wisg brin ddiaddurn, a'i fantell o groen dafad, ond o ymddygiad tawel mawreddog, yn myned yn mlaen yn y modd mwyaf rheolaidd i adgyweirio allor Iehofah â deuddeg careg, yn ol rhifedi deuddeg pen cenedl y llwythau, gan grybwyll yn ei weddi enwau rhagorach fyth—Abraham, Isaac, ac Israel. Ar yr ochr arall, yr oedd 850 o brophwydi Baal ac Astaroth—oll, yn ddiau, wedi ymddilladu yn ysblenydd yn eu gwisgoedd offeiriadol (2 *Bren*. x. 22), gyda thwrf a therfysg eu hofer ail adroddion a gwallgofrwydd gorphwyllog eu gobeithion somedig, a'r bobl yn sefyll yn fud o'u hamgylch. Mae y pethau hyn yn gwneyd darlun, â'r hwn yr ydym oll yn gydnabyddus; ond y mae rhyw ddysgleirdeb hanfodol ynddo sydd yn ei wneyd yn newydd bob tro yr ystyriom ef. Y mae cipolwg ar derfyn y diwrnod pwysig hwn yn ddigon. Tân Iehofah yn ysu yr aberth a'r allor; prophwydi Baal yn cael eu lladd, fel yr ymddengys, gan law Elias ei hun (1 *Bren*. xviii. 40); y brenin mewn annheimladrwydd annirnadwy braidd, yn bwyta ac yn yfed yn nghanol cyflafan ei ddilynwyr ei hun; y dymmestl yn cyfodi; y daith ar draws y dyffryn i Iezreel, pellder o 16 milldir o leiaf; y prophwyd, gyda gwir gyflymder Arabiad yn rhedeg, ond, gyda gwir reddf Arabiad hefyd, yn sefyll, cyn myned i'r ddinas; canys "nes ei ddyfod i Iezreel (Seis., "hyd fynedfa Iezreel") y rhedodd efe."

Hyd yn hyn yr oedd y fuddugoliaeth yn gyflawn; ond nid mor hawdd oedd gorchfygu ysbryd Iezebel; a'r weithred gyntaf a gyflawnodd oedd tyngu y dialai ar awdwr y dinystr hwn. "Fel hyn y gwnelo y duwiau i mi," medd hi, "ac fel hyn y chwanegont, oni wnaf erbyn y pryd hwn yfory dy einioes di fel einioes un o honynt hwy;" 1 *Bren*. xix. 2. Nid ydoedd yn ddyledswydd ar Elias roddi ei fywyd mewn perygl yn ddiangenrhaid; ac, fel ar ei ymddangosiad cyntaf, efe a achubodd ei hun trwy ffoi ymaith. Yr oedd y perygl hwn yn fawr, a rhaid i'w ymguddfa yntau fod yn mhell. Y safle gyntaf ar y daith oedd Beerseba—"Beerseba, yr hon sydd yn Iudah," medd yr hanes, gan awgrymu mai Israeliad oedd efe o genedl. Yma, yn hen gyrchfa tadau ei genedl, coffadwriaeth y rhai oedd mor anwyl ganddo, ar derfyn y wlad ddiwylliedig, y safodd Elias. Gadawodd ei lanc—mab y weddw o Sarephtah, yn ol y traddodiad Iuddewig—tra yr aeth efe ei hun yn mlaen yn unig i'r anialwch—y tir gwyllt anghyfannedd sydd yn amgylchynu deheubarth Palestina. Yr ydoedd llafur, pryder, a chyffro yr ychydig ddyddiau a aethant heibio yn ormod hyd yn oed i gyfansoddiad haiarnaidd a phenderfyniad anhyblyg Elias. Yr oedd ei ysbryd gwrol wedi ei lwyr lethu; a thra y crwydrai yn unigol dros y llethri ysgythrog a'r bryniau creigiog hyny, efe a flinodd ar ei einioes, ac a lefodd—"Digon yw! Yn awr, Arglwydd, cymmer fy einioes; canys nid ydwyf fi well na'm tadau;" 1 *Bren*. xix. 4. Y mae braidd yn anmhosibl peidio casglu, oddi wrth eiriad yr hanes, ei fod ar y daith hon, fel y lleill, bron yn gwbl amddifad o ymborth. Ond darparodd Duw, er mwyn yr hwn y daeth i'r cyfyngder presennol, foddion i'w waredu. Anfonodd ei angel i arlwy bwrdd iddo yn yr anialwch; canys tra yr oedd efe yn cysgu dan ferywen gysgodfawr, ar ol taith hir, flinedig, yn yr anialwch poeth, cyffyrddodd yr angel âg ef, a gorchymynodd iddo gyfodi, a bwyta; a phan agorodd ei lygaid, gwelai deisen wedi ei chrasu ar farwor (Seis., "ar y glo;" "ar geryg poethion," medd Bochart), a phiolaid o ddwfr wrth ei ben:"—yr unig ymborth (bara a dwfr), medd teithwyr, a ystyria y Bedouin yn angenrheidiol hyd y dydd hwn. Ac wedi iddo fwyta, efe a gysgodd drachefn; a daeth angel yr Arglwydd ato yr ail waith, ac a gyffyrddodd âg ef, gan erchi iddo gyfodi a bwyta drachefn, a'i hysbysu fod iddo lawer o ffordd. Ufuddhaodd Elias yn y fan i'r angel, gan fwyta ac yfed eilwaith; "a thrwy rym y bwyd hwnw y cerddodd efe ddeugain niwrnod a deugain nos, hyd Horeb, mynydd Duw;" 1 *Bren*. xix. 4—8. Dywedir y goddef y gair מלאך (*malaca*) ei gyfieithu yn *genad*, gystal ag *angel;* ac, yn wir, mae yn cael ei gyfieithu felly yn fynych; megys yn *Iob* i. 14; 1 *Sam*. xi. 3, ac amryw fanau ereill. Ond ni wna hyny un niwed i'r wyrth ryfeddol hon; canys *cenad* penodol a anfonodd Duw i waredu ei was

Digitized by Google

eedd yr *angel* hwn; heb law y cyfieithir y gair yn fynychach yn *angel*, *yr angel*, nag yn *genad*, &c.; megys *Gen.* xvi. 9, 10, 11; *Exod.* iii. 2; *Barn.* ii. 1, 4, a llawer o fanau ereill.

Wedi iddo gyrhaedd Horeb, ar ol y daith hirfaith a nodwyd, efe a aeth i ogof, "ac a lettyodd yno;" 1 *Bren.* xix. 9. Y mae y mynydd-oedd dychrynllyd hyny, medd teithwyr, yn llawn o ogofäau o amryw faintioli; a dichon, fel y sylwa un, fod yr hon a ddewisodd Elias yn un yr oedd rhyw draddodiad cyssegredig yn nglŷn â hi. Tybia rhai, y cadarnheir y syniad yma o blegid fod y fannod o flaen y gair Hebraeg, ac yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, yn arwyddo *yr ogof*. Y mae yr ogof yn cael ei dangos yn awr "yn y gwastadle sydd dan fryncyn uchaf Jebel Mussa:" "twll ydyw, bron yr un faint a chorff dyn," ger llaw yr allor yn nghapel Elias [*Stanley*, 49; *Rob.* i. 103]. Ni ddywedir yn bendant yn y Beibl pa hyd yr arosodd yn yr ogof hono; ond bernir iddo aros yno un noson o leiaf, gan fod y gair Hebraeg a gyfieithir yma yn *llettya*, yn cael ei gyfieithu yn *Gen.* xix. 2, yn "llettŷwch *heno*" (Seis., *tarry all night*=llettŷwch trwy y nos," neu, "llettŷwch dros nos"). Yn y bore, gan hyny, "daeth gair yr Arglwydd (Iehofah) ato ef," gan ofyn iddo, "Beth a wnai di yma Elias?" Pa drychineb a barodd i ti ddyfod i'r llanerch hon, lle, yn yr amser gynt, y dangoswyd gogoniant Iehofah mor nodedig? Yn yr ateb i'r holiad difrifol hwn, mae y prophwyd yn agor ei fynwes ger bron ei Dduw, ac yn mynegu ei ddirfawr ofidiau. Dengys ei fod ef wedi bod yn dra selog dros Iehofah; ond fod ei holl ymdrech i ddiwygio Israel a'u brenin drygionus yn ofer: na ddilynodd neb ef, ond iddo gael ei adael yn unig; a'i fod yn awr yn gorfod ffoi am ei einioes rhag y cleddyf oedd wedi lladd ei frodyr. Y mae yr ateb yn cael ei wneyd yn y dull amwys ac anghyfeiriol hwnw a ymddengys yn fwyaf effeithiol er argraffu pethau pwysig ar y meddwl dynol. Gorchymynir iddo fyned allan o'r ogof, a sefyll ar y mynydd yn yr awyr agored, wyneb yn wyneb (לפני, *lipene*) âg Iehofah. Yna, fel gynt gyda Moses (*Exod.* xxxiv. 6), "wele yr Arglwydd yn myned heibio," yn holl ddychrynfeydd ei amlygiadau mawreddog ei hun. Yr oedd y gwynt nerthol yn rhwygo y mynydd ac yn dryllio creigiau ithfaen Sinai: y ddaiargryn yn rhuo nes adseinio trwy eithfaoedd y dyffrynoedd noethion hyny; a'r tân yn llosgi yn un fflam barhaus fel y gwna y mellt dwyreiniol. Cylfelyb, i raddau, oedd yr olygfa ger bron Elias; ond deallodd ef nad oedd Iehofah yn un o'r pethau hyn. Yna daeth y pedwerydd arwydd, gan dreiddio trwy y tawelwch mud a ddilynodd yr amlygiadau ereill, sef, y "llef ddystaw fain." Pa fath lef ydoedd hon—pa un ai llais, ai sain, nis gellir dyfalu; ond er ised a dystawed ydoedd, llefarodd yn uwch wrth galon friwedig Elias na'r holl dwrf, y rhuadau, a'r fflamau a'i rhagflaenodd. Cyhoeddodd iddo ef mor wirioneddol ag y gwnaeth i Moses ganrifoedd yn ol, fod Iehofah yn "Dduw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd." Yr oedd Elias yn adnabod yr alwad; ac aeth allan ar unwaith o'r ogof, gan guddio ei wyneb yn ei fantell, a sefyll i ddysgwyl am y cyfarwyddyd dwyfol. Rhoddir ef yn yr un holiad ag o'r blaen, ac felly y mae ei atebiad yntau; ond mor wahanol y rhaid fod grym yr holiad wedi disgyn ar ei glustiau, ac y daeth yr atebiad allan o'i enau ef! "Cyn iddo fyned i'r ogof," medd Maurice, "nid oedd Elias mewn cymhariaeth ond dibrofiad: ond pan y daeth allan o hon yr oedd wedi ei ddysgyblu. Yr oedd efe wedi meddwl y rhaid mai y ddaiargryn, y tân, a'r gwynt, oedd tystion mawr yr Arglwydd; ond nid oedd efe ynddynt hwy, eithr yn y llef ddystaw fain yr oedd yr awdurdod a wnaeth i'r prophwyd blygu ei wyneb yn ei fantell. Y fath gasgliad oddi wrth yr holl hanes oedd wedi pasio! Y fath eglurhad o ystyr y cyfan!" Nid yn erlidigaethaethau Ahab ac Iezebel, nac yn nghyflafan prophwydi Baal, ond yn y saith mil addolwyr anhysbys, y rhai ni phlygasent eu gliniau i Baal, yr oedd y sicrwydd nad oedd Elias wedi ei adael ei hun yn unig, fel yr ymddengys ddarfod iddo ei dybied.

Rhoddwyd tri gorchymyn iddo: yr oedd tri o gyfnewidiadau i gael eu gwneuthur. Yn lle Benhadad, yr oedd Hazael i fod yn frenin Syria; yn lle Ahab, yr oedd Iehu mab Nimsi i fod yn frenin Israel; ac Eliseus mab Saphat oedd i fod yn olynydd iddo yntau ei hun. O'r tri gorchymyn hyn, yr oedd y ddau gyntaf i gael eu cadw i Eliseus i'w cyflawnu, fel mai yr olaf yn unig oedd yn disgyn i ran Elias ei hun i'w gyflawnu. Ymddengys braidd fel pe buasai ei brofedigaethau diweddar wedi magu hiraeth ynddo am y gymdeithas serchiadol hono, o'r hon yr oedd efe hyd yn hyn wedi ei amddifadu. Yna ei ymchwiliad cyntaf oedd am Eliseus. Ymddengys iddo ei ganfod yn lled fuan, yn ei ardal enedigol, fel y gellir casglu, Abel-Mehola, yn rhywle tua chanol dyffryn yr Iorddonen. Gwel ABEL-MEHOLA. Yr oedd Eliseus ar y pryd "yn aredig, â deuddeg cwpl o ychain o'i flaen, ac efe oedd gyda'r deuddegfed;" 1 *Bren.* xix. 9. Dywedir fod rhoddiad y gair *ychain*, a roddwyd gan y cyfieithwyr, yn tueddu i dywyllu yr adnod hon; ac yn ol y cynaniad Masoraidd, mai fel hyn y mae yr adnod:—"Ac efe a aeth oddi yno, ac a gafodd Eliseus mab Saphat, yr hwn oedd yn aredig. Yr oedd deuddeg iau o'i flaen ef (sef, naill ai deuddeg aradr oedd o'i flaen ef gyda'r gweision, neu ddeuddeg iau o dir wedi ei aredig eisoes), ac efe oedd gyda'r olaf." Dengys hyn ar unwaith fod Eliseus mewn sefyllfa dda, a bod y tir âr oedd ganddo yn helaeth. Pa fodd bynag, aeth Elias ato, gan groesi yr afon (sef yr Iorddonen), fel y tybia rhai fod y gair gwreiddiol yn arwyddocau; ac wrth ei basio, bwriodd ei fantell arno ef—yr hen fantell adnabyddus o groen dafad, megys pe buasai, trwy y weithred gyfeillgar hono, yn honi hawl ynddo fel ei fab. Ar ol petruso ychydig amser, derbyniodd yr alwad, a dechreuodd ar yrfa o wasanaeth a chyfeillgarwch a barhaodd yn ddidor hyd symmudiad Elias, ar yr hyn yr edrychid fel un o'i brif hawliau i anrhydedd a pharch—"Eliseus mab Saphat, yr hwn a dywalltodd ddwfr ar ddwylaw Elias;" 2 *Bren.* iii. 11.

Y mae yn debyg fod Ahab ac Iezebel yn credu yn awr fod eu bygythion wedi bod yn effeithiol, a'u bod wedi gweled eu gofidiwr am y tro diweddaf. O leiaf, gellir casglu hyn oddi wrth y dygwyddiadau a geir yn *pen.* xxi. Wedi methu llwyddo i gael Gwinllan Naboth trwy deg, gan i'r gwerinwr gwrol hwnw wrthod ymadael â threftadaeth ei hynafiaid, aeth Ahab ac Iezebel yn mlaen i'w meddiannu trwy drais, a thrwy yr anghyfiawnder mwyaf dychrynllyd; yr hyn a ddengys yn amlwg pa mor lwyr yr oedd henuriaid Iezreel wedi anghofio cyfreithiau yr Iehofah, a pha mor ddarostyngedig oeddynt i ewyllys eu meistres ddrygionus. Ar ei gorchymyn hi, cyhuddwyd Naboth ar gam o gablu Duw a'r brenin,

Digitized by Google

a llabuddiwyd ef a'i feibion (2 *Bren*. ix. 26; cymharer *Ios*. vii. 24) i farwolaeth; ac yna daeth ei winllan ar unwaith, gan yr edrychid arni bellach fel eiddo teyrnfradwr, yn berchenogaeth i'r brenin. Gwel NABOTH.

Nid ydyw Ahab yn oedi dim cyn cymmeryd meddiant o'i randir newydd. Ymddengys iddo fyned dranoeth ar ol y dienyddiad yn ei gerbyd i berchenogi y winllan a chwennychodd mor drachwantus. Ar ei ol (o'r tu ol i'r cerbyd, fe allai) y marchogai ei ddau was, Iehu a Bidcar: 2 *Bren*. ix. 25. Ond ni bu y fuddugoliaeth ond un fer. Cafodd Elias air oddi wrth Iehofah, yn mynegu yr hyn a gymmerodd le; ac er mor fuan y prysurwyd cyhuddiad a llofruddiad Naboth drosodd, yr oedd efe yno yn cyfarfod ei hen elyn, ac fel gelyn y mae yn ei gyfarfod—fel y cyfarfyddai Dafydd â Goliath, canys yr un gair gwreiddiol a arferir—ar yr un llanerch ag y cyflawnodd ei gyflafan: yn ddisymmwth, pan y dysgwylid lleiaf am dano, y mae efe yn sefyll ger bron y brenin truenus. Yna y mae efe yn cyhoeddi y felldith, mewn ymadroddion a fuasent yn ddychrynllyd i unrhyw ddwyreiniwr, ond yn nodedig felly i Iuddew, a mwy felly fyth i olynwr tywysogion gwrthgiliedig y freniniaeth ogleddol:—"Mi a dynaf ymaith dy hiliogaeth di, ac a doraf oddi wrth Ahab yr hwn a biso ar bared; a mi a wnaf dy dŷ di fel tŷ Ieroboam mab Nebat, ac fel tŷ Baasa mab Ahiah: y cŵn a fwyty Iezebel wrth fur Iezreel. Y cŵn a fwyty yr hwn a fyddo marw o'r eiddo Ahab yn y ddinas; a'r hwn a fyddo marw yn y maes a fwyty adar y nefoedd." Gellir dyfalu pa mor arswydlawn oedd yr olygfa hon, wrth fod Iehu, yn mhen ugain mlynedd o leiaf, yn gallu cofio y brophwydoliaeth yn yr un geiriau bron ag y llefarwyd hi, pan oedd ef a'i gydymaith yn sefyll o'r tu ol i gerbyd ei feistr. Dichon y gellir cael holl fygythiad Elias, trwy gyssylltu y geiriau a adgofiodd Iehu yn 2 *Bren*. ix. 26, 36, 37, â'r geiriau sydd yn 1 *Bren*. xxi. 19—25.

Yn awr, aiff dwy neu dair blynedd heibio (cymharer 1 *Bren*. xxii. 1, 51; 2 *Bren*. i. 17), cyn i ni gael un golwg eto ar Elias. Yr oedd y bygythion a gyhoeddwyd yn ngwinllan Naboth mewn rhan wedi eu cyflawnu. Y mae Ahab wedi marw, ac y mae ei fab a'i olynydd, Ahaziah, wedi cyfarfod â damwain angeuol, ac y mae ar ei wely angeu, ar ol teyrnasiad byr a blinderus o lai na dwy flynedd o amser: 2 *Bren*. i. 1, 2; 1 *Bren*. xxii. 51. Yn ei gyfyngder, y mae yn anfon at oracl Baal oedd yn ninas y Philistiaid, Ecron, i gael gwybod pa beth a fyddai y canlyniad o'i afiechyd. Ond yr oedd yr oracl yn nes ato na'r ddinas bellenig Ecron. Hysbyswyd yr amgylchiad gan angel yr Arglwydd i'r prophwyd, yr hwn a drigai ar y pryd, mae yn debygol, yn un o gilfachau Carmel, ac, fel ar yr achlysuron blaenorol, y mae yn ymddangos yn ddisymmwth ar y ffordd i'r cenadau, ac heb na rhagymadrodd nac ymholiad, cyhoedda genadwri angeu, ac ä ymaith yr un mor ddiymaros. Y mae tôn ei eiriau mor wladgarol y waith hon ag ar unrhyw achlysur blaenorol, ac awdurdodir hwy gan Iehofah:—"Fel hyn y dywed Iehofah, Ai am nad oedd Duw yn Israel yr ydych chwi yn myned i ymofyn â Baalzebub, duw Ecron?" Dychwelodd y cenadau at y brenin yn rhy fuan i fod wedi cyflawnu eu cenadwri. Dichon mai dyeithriaid oeddynt: o leiaf, nid oeddynt yn gwybod enw y gŵr a dorodd fel hyn ar eu taith. Ond yr oedd ei ymddangosiad wedi ei argraffu ar eu meddwl, a gwybu Ahaziah ar unwaith, wrth eu dysgrifiad, pwy oedd yr hwn a ddymchwelasai fel hyn y genadwri ffafriol y gobeithiai ei chael oddi wrth oracl Ecron. Rhaid fod Ahaziah wedi gweled y prophwyd o ddeutu llys ei dad, neu wedi clywed darluniad manwl o hono yn llys y gordderchadon, pan yr adnabu ef mor benderfynol wrth ddysgrifiad y cenadau. Nis gallasai y "gŵr blewog" (Hebr. "arglwydd y blew") â gwregys croen am ei lwynau, yr hwn a ddaeth ac a aeth ymaith yn y dull dirgelaidd hwn, fod yn neb amgen na hen elyn ei dad a'i fam, Elias y Thesbiad. Ond er mor glaf oedd Ahaziah, ni wnaeth yr attalfa yma ond cynhyrfu ei ddigofaint; a phenderfynodd, yn ngwir ysbryd ei fam, gymmeryd y cyfleusdra i ddal y person oedd wedi bod cyhyd o amser yn ddaroganwr drwg i'w dŷ. Anfonwyd tywysog ar unwaith, gyda gosgordd o ddeg a deugain, i gymmeryd Elias yn garcharor. Yr oedd efe yn eistedd ar ben "y mynydd" (ההר, a gamgyfleithir "bryn;" 2 *Bren*. i. 9) sef Carmel, y mae yn debyg. Y mae y swyddog yn dynesu ac yn anerch y prophwyd wrth yr enw, fel y sylwyd o'r blaen, a gymhwysid mor fynych ato ef ac Eliseus, gan ddywedyd, "Ti ŵr Duw, y brenin a lefarodd: Tyred i waered." "Ac Elias a atebodd ac a ddywedodd, Os gŵr Duw ydwyf fi, disgyned tân o'r nefoedd, ac ysed di a'th ddeg a deugain! A thân a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a'i hysodd ef a'i ddeg a deugain. Anfonwyd tywysog arall, yr hwn a gyfarfu â'r un dynged. Llwyddodd gwaith arweinydd y drydedd osgordd, yn nghyd â sicrwydd oddi wrth Dduw nad oedd achos i'w was ofni, i ddwyn Elias i waered. Ond ni ennillodd y brenin ddim. Traddodwyd yr un genadwri, yn yr un geiriau ag wrth y cenadau, yn ei wyneb; a rhaid casglu fod Elias wedi cael myned ymaith heb ei niweidio. Hwn oedd ei ymweliad olaf â thŷ Ahab, a hwn hefyd oedd yr ymddangosiad olaf o'i eiddo a gofnodir yn erbyn addolwyr Baal. Rhaid fod y dygwyddiad a ddilynodd yr ymddygiad yma o eiddo Elias, megys ar achlysuron blaenorol, wedi rhoddi dyrnod trwm i elynion Iehofah. Ond er dwysed ydoedd yn ddiau i gydoeswyr y prophwyd, y mae i'r hanes arwyddocâd dyfnach i ni nag y gallasai fod iddynt hwy. Tra y mae yr amlygiad mwyaf cyfaddas o ddychrynfeydd yr oruchwyliaeth gyntaf, dan yr hon yr oedd dynion y pryd hyny yn byw, y mae hefyd wedi bod yn achlysur i ddwyn allan eglurhad mor gyfaddas, o enau un mwy nag hyd yn oed Elias, o'r gwahaniaeth rhwng yr oruchwyliaeth lem hono a'r oruchwyliaeth dynerach y daeth Efe i'r byd i'w sefydlu. Dygwyddodd hyn pan oedd ein Harglwydd a'i ddysgyblion ar eu taith trwy y rhan yma o'r wlad, o Galilea i Ierusalem, a phan y cythruddwyd y dysgyblion gan anhynawsedd taiog rhai o bentrefwyr Samaria, ac yn cael eu cynhyrfu hefyd, fe allai, gan olygfa bellenig pen Carmel, neu ryw enw traddodiadol ar y ffordd—cynneuodd y pethau hyn sel danllyd "meibion y daran" nes tori allan, a dywedyd, "Arglwydd, a fyni di ddywedyd o honom am ddyfod tân i lawr o'r nef, a'u difa hwynt, megys y gwnaeth Elias?" Ond ychydig a wyddent hyd yn hyn am yr athraw a gyfarchent. "Efe a drodd, ac a'u ceryddodd hwynt, ac a ddywedodd, Ni wyddoch o ba ysbryd yr ydych chwi. Canys ni ddaeth Mab y dyn i ddystrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw;" *Luc* ix. 51—56. Megys pe dywedasai, "Yr ydych yn camsynied ac yn cymmysgu gwahanol safleoedd yr hen gyfammod a'r newydd: yr ydych chwi yn camgymmeryd eich safle ar yr Hen—

Digitized by Google

ansawdd yr hwn oedd cyflawnder dialeddol, pan y dylech lawenychu am gael cyfleusdra i gymmeryd eich safle ar y newydd—ansawdd yr hwn yw cariad maddeuol."

Y mae yn rhaid fod Elias wedi gwneyd cydnabyddiaeth yn fuan ar ol marwolaeth Ahaziah â'r deyrnas ogleddol. Yr unig hanes a geir am hyn sydd yn Llyfr y Cronicl, yr unig fan yn llyfrau y Cronicl y cyfarfyddir âg enw y prophwyd o gwbl. Nid ydyw hyn mor ryfedd, pan gofir mai at amgylchiadau breninoedd Iudah, yn benaf, y mae y llyfrau hyny wedi eu cyfyngu. Nis gallasai fod y cynghrair rhwng ei elyn Ahab ac Iehosaphat yn anhysbys i'r prophwyd; a rhaid yr edrychai ar weithrediadau breninoedd Iudah gyda graddau mawr o bryder a gofal calon. Gan hyny, pan glywodd fod Iehoram mab Iehosaphat, yr hwn a briodasai ferch Ahab, wedi dechreu "rhodio yn ffordd breninoedd Israel, fel y gwnelsai tŷ Ahab, a gwneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd" (Iehofah), efe a anfonodd ysgrifen ato, yn condemnio ei weithredoedd drwg, ac yn rhagfynegu ei farwolaeth: 2 *Cron.* xxi. 12—15. Y mae yr ysgrifen hon wedi peri dyryswch mawr i esbonwyr, o blegid y rhaid fod Elias (yn ol y crybwylliad a wneir am Eliseus: 2 *Bren.* iii. 11) wedi cael ei symmud cyn marwolaeth Iehosaphat; ac am hyny, cyn esgyniad Iehoram i orsedd Iudah. Ond os caniateir fod Elias wedi ei symmud cyn mynediad Iehosaphat yn erbyn Moab, ni phrofai hyny nad oedd Iehoram ar y pryd, a chyn marwolaeth ei dad, yn frenin Iudah, gan mai y gorchwyl a gymmerai Iehosaphat ei hun yn ystod y chwech neu y saith mlynedd olaf o'i oes, oedd myned o amgylch y deyrnas (2 *Cron.* xix. 4—11), a threfnu rhyw ryfeloedd pwysig, megys yr ymgyrch yn erbyn Moab, tra yr oedd Iehoram i drefnu amgylchiadau mwy canolbarthol y deyrnas: 2 *Bren.* iii. 7, &c. Fod Iehoram wedi dechreu teyrnasu yn ystod bywyd ei dad sydd amlwg oddi wrth 2 *Bren.* viii. 16. Yn ol un hanes (2 *Bren.* i. 17) sydd yn rhagflaenu yr hanes am weithredoedd olaf Elias ar y ddaiar, yr oedd Iehoram ar orsedd Iudah yn amser ymweliad Elias âg Ahaziah; ac er y cymmedrolir hyn gan hysbysiadau mewn manau ereill (2 *Bren.* iii. 1; viii. 16), eto nid yw yn cael ei ddirymu; a'r casgliad sydd bron yn anocheladwy ydyw, fel y crybwyllwyd, fod Iehoram wedi esgyn yr orsedd rai blynyddoedd cyn marwolaeth ei dad. Tybia rhai fod yr ail hysbysiad am fynediad Iehoram yn frenin ar Israel (2 *Bren.* iii. 1) wedi cael ei roddi i mewn yno er mwyn gwneuthur yr hanes yn fwy cyflawn. Pa fodd bynag, y mae sefyllfa yr hysbysiad fel hyn ar ol hanes esgyniad Elias, wedi chwanegu at yr anhawsder a wel rhai gyda golwg ar yr "ysgrifen" a briodolir i Elias. Gwel Ioram, Iehosaphat, Iudah. Y mae cynnwys yr "ysgrifen" yn dwyn tebygrwydd mawr i ymadroddion Elias, tra y mae dull y mynegiad yn dra nodedig, ac yn gwbl wahanol i'r hanes sydd o'i hamgylch. Y mae yr hen esbonwyr Iuddewig yn myned dros yr anhawsder ymddangosiadol yma, trwy ddywedyd fod yr ysgrifen wedi ei hysgrifenu a'i hanfon ar ol esgyniad Elias. Cred ereill mai gwaith Eliseus ydoedd, ond fod yr adysgrifenwyr wedi rhoddi enw Elias i mewn yn lle enw Eliseus. Nid yw y cyntaf o'r tybiau hyn yn gofyn atebiad. Am yr ail, bernir fod llymder tôn yr ysgrifen, fel y sylwyd uchod, yn atebiad digonol. Dywed Iosephus [*Hyn.* ix. 5, adr. 2], fod yr ysgrifen wedi ei hanfon tra yr oedd Elias ar y ddaiar.—*Lightfoot, Cron.* "*Iehoram.*"

Y mae amgylchiad terfynol bywyd Elias yn ein dwyn i le oedd hyd yn hyn yn anghyssylltiedig âg ef. Yn nghymmydogaeth Samaria, Iezreel, a Charmel, y ceir ef hyd yn bresennol; ac ni byddai yn myned o'r gororau gogleddol hyny, ond pan y byddai yn cael ei orfodi: ond yn awr yr ydym yn ei gael ar derfyn y ddwy deyrnas, yn ninas gyssegredig Bethel, gyda meibion y prophwydi yn Iericho, ac yn nyffryn yr Iorddonen: 2 *Bren.* ii. 1, &c.

Yn Gilgal y derbyniodd y prophwyd yr hysbysiad dwyfol fod yr ymadawiad ger llaw. Nid yr un Gilgal, fe allai, oedd hon, a hen breswylfa Iosuah a Samuel; ond un arall o'r un enw sydd fyth yn aros ar derfyn gorllewinol mynyddoedd Ephraim. Gwelir y seiliau i'r casgliad yma dan Eliseus. Hefyd, Gilgal. Yr oedd Elias, pan fynegwyd am ei ymadawiad, gydag Eliseus, yr hwn oedd wedi dyfod yn awr, fel yr ymddengys, yn gydymaith gwastadol iddo. Y mae yn anhawdd gwybod beth oedd yr achos fod Elias mor bryderus am i Eliseus beidio bod gydag ef ar yr amgylchiad nodedig yma; fe allai fod ei hen hoffder at unigrwydd wedi dychwelyd ato, neu ei fod yn dymuno i'w gyfaill gael osgoi y boen o'u hymadawiad disymmwth: beth bynag oedd yr achos, ymdrechodd gael gan Eliseus aros yn ol tra yr elai yntau ar neges Iehofah. "Aros, attolwg, yma: canys Iehofah a'm hanfonodd i Bethel." Ond ni rydd Eliseus ei athraw i fyny yn rhwydd: "Fel y mae byw Iehofah, ac mai byw dy enaid dithau, nid ymadawaf â thi. Felly hwy a aethant yn nghyd i Bethel;" 2 *Bren.* ii. 2. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir yma "i waered" yn anhawsder pwysig, os cymmerir yn ganiataol mai yr un Gilgal oedd hon a gwersyllfa Iosuah a lle gorphwysfa yr arch, gan fod hono dros 3,000 o droedfeddi yn is na Bethel. Ond gochelir hyn os cymmerir y Gilgal arall sydd i'r gogledd-orllewin o Bethel, ac ar uwch tir na Bethel; yr hon hefyd sydd yn fwy cyfleus i'r daith ganlynol i'r Iorddonen [*Stanley, S.* a *P.* 308, *nod.*]: hefyd, gwel Eliseus. Ymddengys fod yr amgylchiad pwysig oedd i ddygwydd wedi cael ei ddadguddio i feibion y prophwydi yn Bethel, ac y maent yn gofyn i Eliseus a wyddai efe am y golled oedd yn ei aros. Y mae ei atebiad yn dangos pa mor berffaith hysbys oedd o'r peth:—"Mi a wn hefyd," eb efe, gyda'r pwyslais mwyaf, "tewch chwi a son." Ond er ei fod wrth y drws, nid oedd i ddygwydd y diwrnod hwnw. Drachefn, y mae Elias yn cynnyg dianc i Iericho, ac y mae Eliseus yn tystio eto nad ymedy efe âg ef. Yn Iericho drachefn, y mae meibion y prophwydi yn gwneuthur yr un ymholion afreidiol âg Eliseus, ac yntau yn ateb yr un mor benderfynol ag o'r blaen. Y mae Elias yn gwneyd yr ymdrech olaf, yn y lle hwn, i ochel yr hyn a ofnai y ddau gymmaint. "Aros yma, attolwg, canys Iehofah a'm hanfonodd i'r Iorddonen;" *adn.* 6. Ond nis gellid gorchfygu Eliseus; ac y mae y ddau yn cychwyn dros y gwastadedd tywodlyd poeth, tua'r afon bellenig draw; Elias yn ei fantell o groen dafad, ac Eliseus yn ei ddillad cyffredin: *adn.* 12. Y mae deg a deugain o feibion y prophwydi yn esgyn i fryn serth o'r tu ol i'r dref, ar yr hon, yn ol traddodiad diweddar, y dygwyddodd temtasiwn ein Harglwydd, lle y gallent weled y gwastadedd oedd is law; a chyda chraffineb golwg dwyreiniol, y maent yn gwylio beth a ddygwyddai yn y pellder draw. Y mae y ddau o'r diwedd, gan ymddyddan wrth fyned, yn cyrhaedd yr afon, ac yn sefyll ar y lan ysgwyddog, wrth ochr y ffrydlif ruddgoch

Digitized by Google

gwyllt. Ond ymddengys fel pe nas gallai y Galilead oedranus aros nes rhoddi ei draed ar ei ochr ei hun o'r afon. Y mae yn plygu ei fantell fel ffon (fel yr arwydda y gair Hebraeg גלם), ac â'i hen egni yn taraw y dyfroedd—yn taro fel pe byddent elyn (arwydda y gair נכה, taro fel mewn rhyfel); ac y mae y dyfroedd yn ymwahanu yma ac acw, ac y maent hwythau eill dau yn myned trwodd ar dir sych. Nis gellir mynegu yr hyn a ddygwyddodd wedi hyny gystal ag yn ngeiriau syml yr hanes. "Ac wedi iddynt fyned drosodd ('fel yr oeddynt yn myned drosodd,' medd y Deg a Thrigain) Elias a ddywedodd wrth Eliseus, Gofyn y peth a wnelwyf i ti, cyn fy nghymmeryd oddi wrthyt. A dywedodd Eliseus, Bydded gan hyny, attolwg, ddau parth o'th ysbryd di arnaf fi. Dywedodd yntau, Gofynaist beth anhawdd: os gweli fi wrth fy nghymmeryd oddi wrthyt, fe fydd i ti felly; ac onid e, ni bydd. Ac fel yr oeddynt hwy yn myned, dan rodio ac ymddiddan, wele gerbyd tanllyd, a meirch tanllyd, a hwy a'u gwahanasant hwynt ill dau. Ac Elias a ddyrchafodd mewn corwynt i'r awyr;" 2 *Bren.* ii. 9—11. Prin y goddef y testyn y syniad cyffredin am ddyrchafiad Elias, fel y darlunir ef gan baentyddion ac mewn traethodau poblogaidd. Nid yn y cerbyd tanllyd yr aeth efe i fyny i'r awyr. Yr hyn a wnaeth y tân oedd gwahanu yr athraw oddi wrth y dysgybl, i ddangos fod yr ymadawiad wedi dyfod; ond yn ngwynt nerthol y dymmestl y cymmerwyd Elias i fyny. Nid yw y gair סערה (*soarah*) yn cynnwys y syniad o *drowynt*, a chyfieithir ef yn fynych yn y Beibl Cymraeg yn "dymmestl." Defnyddiwyd y gair "awyr" uchod i gyfieithu y gair Hebraeg השמים (*hashamaim*), am yr ymddengys ein bod ni yn cyssylltu syniad â'r gair "nefoedd" nad oedd yn meddwl yr hen Hebreaid wrth arfer y gair. Ond, at yr olygfa. Nid rhyfedd oedd i Eliseus, wrth syllu ar y fath weledigaeth, lefain mewn tristwch, "Fy nhad, fy nhad." Yr oedd yr hwn a ymddangosai i lygad craffus a chalon dyner ei ddisgybl, yn "gerbyd Israel a'i farchogion" am gyhyd o flynyddoedd, wedi myned ymaith; ac yr oedd yntau, Eliseus, wedi ei adael ei hunan i gyflawnu gorchwyl y rhaid ei fod wedi bod yn edrych yn mlaen ato yn fynych, a'r hwn y teimlai ei hun yn yr adeg yma o dristwch yn dra annigonol ar ei gyfer. Nis gwelodd ef mwyach: ond syrthiodd ei fantell oddi wrtho, yr hon yn ddiammheu a ystyriai Eliseus fel cof personol gystal ag arwydd ei fod i gael ei wisgo â deuparth o ysbryd Elias. Prin y gallasai ef gredu y pryd hyn, yn ddiammheu, pe dywedasid wrtho, mai efe, prif hawl yr hwn i sylw oedd, ei fod wedi "tywallt dwfr ar ddwylaw Elias," a fyddai ar ol hyn yn perchen dylanwad na roddwyd i'w feistr; ac yn lle bod yn ddychryn i freninoedd a phobloedd, a fyddai yn gysurwr, cynghorwr, a chyfaill iddynt, ac y canfyddid brenin Israel yn galaru uwch ben ei wely angeu yn yr un geiriau yn hollol ag a ddaethant o'i enau ef ei hun ar ymadawiad ei feistr gerwin a thawedog, "O fy nhad, fy nhad, cerbyd Israel, a'i farchogion!" 2 *Bren.* xiii. 14.

Yma y terfyna yr holl hanes uniongyrchol a ganiatawyd i ni am fywyd a gweithredoedd y prophwyd mawr hwn. Gwir ydyw ddarfod iddo ef godi fel tân, ac i'w air losgi fel llusern: *Eccl.* xlviii. 1. Gellir barnu pa mor ddwys yr effeithiodd efe ar feddwl y genedl oddi wrth y gred sefydlog a ffynai yn eu mysg am ganrifoedd, y byddai i Elias ail ymddangos i adferu a gwaredu ei wlad. Fe ddichon fod prophwydoliaeth Malachi (*pen.* iv. 6) yn achos ac yn eglurhad o nerth y grediniaeth yma. Ymadrodd Malachi ydyw, "Elias y prophwyd." Tybiodd rhai oddi wrth yr enw cyffredinol yma mai rhyw Elias arall a feddylid; ond y Deg a Thrigain, naill ai trwy ddilyn testyn Hebraeg gwahanol i'r un sydd genym ni, neu trwy syrthio i'r gred gyffredin yn eu hamser, a roddasant "y Thesbiad" i mewn: *Lightfoot, Exerc. on Luke* i. 17. Ni raid i ni wrth dystiolaeth y Talmud er profi fel y cynnyddodd y dyb yma erbyn amser ein Harglwydd, ac fel y parhaodd y prophwyd mawr yn nysgwyliadau y bobl, gan fod y peth yn eithaf amlwg ar ddalenau yr efengylau. Dywed y chwedlau, ei fod wedi ymddangos yn fynych i'r Rabbiniaid daionus, pan yn gweddio yn yr anialwch, neu ar eu teithiau, gan mwyaf fel marsiandwr Arabaidd: *Eisenmenger,* i. 11; ii. 402—7. Pan fyddid yn enwaedu plentyn, rhoddid eisteddle i Elias yn wastad ger llaw, fel y gallai efe, fel arwr a chenad selog "cyfammod" yr enwaediad (1 *Bren.* xix. 14; *Mal.* iii), wylio dros gyflawniad priodol y ddefod. Gadewid drws y tŷ yn ystod rhai gweddïau yn agored, fel y gallai Elias ddyfod i mewn i hysbysu dyfodiad y Messïah: *Eisen.* i. 685. Mor gadarn oedd y dyb o'i ddyfodiad buan, fel, pan ganfyddid eiddo heb neb i'w hawlio, mai y dywediad cyffredin oedd, "Rhodder hwy heibio nes y delo Elias."—*Lightfoot, Exerc. Mat.* xvii. 10; *Ioan.* i. 21. Dywedir fod yr un defodau ac ymadroddion ar arfer fyth yn mysg Iuddewon manylaf y wlad hon a gwledydd ereill: *Revue des deux Mond.,* xxiv. 131, &c. Y mae pob person nodedig a ymddangosodd, bydded ei arferion a'i nodweddau y fath ag y byddent, hyd yn oed y gerwin Ioan Fedyddiwr, gystal a'i olynydd llariaidd, y Gwaredwr, wedi cael ei gymmeryd fel Elias: *Mat.* xvi. 14; *Marc* vi. 15; *Ioan* i. 21. Nid ymddengys fod hyd yn oed ei ymddangosiad mewn gogoniant ar Fynydd y Gweddnewidiad wedi synu dim ar y dysgyblion. Hwy "a ofnasant yn ddirfawr;" ond nid oes dim arwydd eu bod wedi synu. Yn y gwrthwyneb, cynnygiodd Pedr yn ddioed gyfodi pabell i'r prophwyd, dyfodiad yr hwn yr oeddynt wedi bod cyhyd yn ei ddysgwyl. Darfu hyd yn oed i lef ein Harglwydd ar y groes, er lleied o debygrwydd oedd yn yr enw a grybwyllodd efe i enw Elias, gyfeirio meddyliau y rhai oedd yn sefyll ger llaw yn y fan at y prophwyd. "Y mae hwn yn galw am Elias." "Paid: edrychwn a ddaw Elias i'w waredu ef:" *Mat.* xxvii. 47, 49.

Ystyrir pa mor bell y cyflawnwyd y dysgwyliad yma yn Ioan, a pha mor nodedig y cyttunai nodweddau y ddau ŵr hyn, yn erthygl ar Ioan Fedyddiwr.

Ond ar y llaw arall, y mae yr argraff ddofn a wnaeth Elias ar ei genedl, a'r gwahaniaeth rhwng y darlun a drosglwyddir i ni gan gyfeiriadau diweddarach ato, a'r darlun llym o hono sydd yn ngwir hanes ei fywyd, yn dra nodedig. Nid oes yr un o'r crybwylliadau diweddar hyn yn cyfeirio at weithredoedd llymion a dinystriol y prophwyd; oddi gerth y "clod" a geir iddo yn rhestr y gwroniaid yn *Noethineb Iesu Mab Zirach* (xlviii) a 1 *Mac.* ii. 58, a'r cyfeiriad achlysurol sydd yn *Luc* ix. 54. Y maent oll yn gosod gwedd dra gwahanol i'w nodwedd i'r hyn a geir yn hanes cyntefig ei fywyd. Gosodir ef allan yn "ddyn fel ninnau" (*Iago* v. 17); sonir am ei garedigrwydd i'r wraig weddw o Sarephtah (*Luc* iv. 25, 26); am ei waith yn "edfryd pob peth" (*Mat.* xvii. 11); "yn troi calonau y tadau at y plant, a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn:" *Mal.*

Digitized by Google

v. 5, 6; *Luc* i. 17. Heb ymhelaethu yma ar yr amryw addysgiadau moesol y gellid eu tynu oddi wrth y ffeithiau hyn, digon yw sylwi yn fyr ar y gwahaniaeth mawr a ddichon fod rhwng y golygiad poblogaidd am unrhyw berson enwog, a golygiad ei gydoeswyr, a'r wir farn sefydlog a ffurfir yn ystod amser, pan fyddo y cyffro yn nghylch ei weithredoedd mwyaf aruthrol, cystal a mwyaf diflanedig, wedi myned heibio. Y mae y crybwylliadau gwasgaredig, a'r cyfeiriadau achlysurol a'n cynnorthwyant fel hyn i dyneru amlin arw neu liwiau anghydgord y darlun boreuaf, yn wir werthfawr. Y maent yn nodedig felly ar yr amgylchiad presennol. Y mae yr agwedd wyllt, y llais sarug, a'r gweithredoedd gwaedlyd a osodir allan mor gyffrous ger ein bron yn yr hen gofion am Elias, yn awr wedi eu "cànu" gan oleuni dysglaer Mynydd y Gweddnewidiad. Pan safai olaf ar ddaiar ei fro enedigol, Gilead, yr oedd yn amddifad, yn ofidus, ac erlidiedig, yn crwydro oddi amgylch "mewn crwyn defaid a chrwyn geifr, mewn anialwch, a mynyddoedd, a thyllau, ac ogofeydd y ddaiar;" *Heb*. xi. 37, 38. Ond y mae y pethau hyn yn myned ymaith i'r pellder, ac mae y sel danllyd a'r digofaint dinystriol a'u dilynent wedi cilio ymaith gyda hwynt. Y mae y goleuni nefol a geir arnynt yn y Testament Newydd yn gwneud i ni edrych arnynt yn eu maint priodol; ac yr ydym yn anghofio Ahab, a Iezebel, Baal, ac Astaroth, wrth wrandaw ar y prophwyd yn ymddyddan â'n Harglwydd—yn ymddyddan am y dygwyddiad mawr oedd i fod yn gyflawniad ei holl ddyoddefiadau—"yn ymddyddan am ei farwolaeth ef, a'r hyn a gyflawnai efe yn Ierusalem."

Cafodd Elias ei ganoneiddio yn yr eglwysi Groeg a Lladin. Y mae *Mar Elyâs* yn noddwr manau dyrchafedig yn mysg y Groegiaid, ac y mae llawer bryn amlwg yn Groeg yn dwyn ei enw. —*Clarke's Pol. and Morea*, 190. Canfyddir gwasanaeth ei ŵyl yn y *Menaion* ar Gor. 20fed, y dydd a gydnabyddir gan yr Eglwys Ladinaidd hefyd. —*Acta. Sanctorum, Gor*. 20. Dadleua Cornelius a Lapide mai ar y dydd hwnw yr esgynodd, yn y 19eg flwyddyn o deyrnasiad Iehosaphat: *Keil*, 331. Y mae y mynachdy sydd yn dwyn ei enw, *Deier Mar Elyâs* rhwng Ierusalem a Bethlehem, yn eithaf adnabyddus i deithwyr yn Palestina. Dywedir, fel yr awgrymwyd eisoes, ei fod yn sefyll yn y fan lle y ganwyd ef. Yr oedd mynachdai ereill yn dwyn ei enw gynt yn Palestina; megys yn *Jebel Ajlûn*, yr hen Gilead; yn *Ezra*, yn yr *Hauran*; heb law y sefydliad ardderchocaf oll ar ben Carmel.

Mewn cyssylltiad âg urdd fawr y Carmeliaid troednoeth y mawrygir Elias yn Eglwys Rhufain. Yr achlysur o'r cyssylltiad, yn ol mynegiadau y *Breviary*, oedd, fod y capel a gyfodwyd ar y lle y gwelodd Elias y cwmwl (arwyddlun meddant hwy o'r Forwyn Fair) yn cyfodi o'r môr, wedi ei gyflwyno i'r Forwyn. Ond tardda chwedlau ereill ddechreuad yr urdd i'r prophwyd mawr ei hun, fel pen cymdeithas y mynachod a breswylient Carmel; a haerir hyd yn oed ei fod ef ei hun wedi cyflwyno y capel yn yr hwn yr addolai i'r Forwyn! *Lieux Saints*, ii. 49. Y mae y chwedlau hyn yn bynciau o ddadl yn Eglwys Rhufain ei hun, gan fod Baronius ac ereill wedi profi mai yn B. A. 1181 y sefydlwyd yr urdd gyntaf—amseriad a ddirmygir gan y Carmeliaid.

Dywedir yn y traddodiadau Mahometaidd fod *Elyâs* wedi yfed o Ffynnon Bywyd, "trwy rinwedd yr hyn y mae yn fyw byth, ac y bydd fyw hyd ddydd y farn." Y mae rhai o honynt yn ei ystyried yr un a St. George a'r cyfriniol *el-Khidr* —un o'r saint Moslemaidd mwyaf nodedig. Dywedir fod *Sofis* Persia yn olrhain eu hachau i Elias.—*Fabricius*, 1077.

Yn mysg traddodiadau ereill, ni wiw anghofio y geiriau "Ni welodd llygad," &c. (1 *Cor*. ii. 9)—y rhai yn ddiammheuol a ddyfyna yr apostol o *Esa*. lxiv. 4, ond a gymmerwyd, yn ol y chwedl, o "Ddadguddiad, neu gyfrinion Elias." Ceir y crybwylliad cyntaf am hyn yn Origen [*Hom. on Mat*. xxvii. 9], a sylwir arno gydag anghymmeradwyaeth gan Jerome [*ad Pammachium: Fabr*. 1072].

Y mae Epiphanius yn haeru yn anghywir fod y geiriau, "Deffro di, yr hwn wyt yn cysgu," &c., *Eph*. v. 14, wedi eu dyfynu "o Elias;" sef, y rhan o'r Hen Destament sydd yn cynnwys ei hanes. Cymharer *Rhuf*. xi. 2.

Y mae dau hen goflant nodedig wedi eu hysgrifenu ar Elias: un gan Frischmuth, *De Eliae Prophetae Nom*., &c, yn y *Critici Sacri*; a'r llall gan Aegidius Camartus, *Elias Thesbites*. Y mae traethodau nodedig hefyd ar y cigfrain, y fantell, a Naboth, yn y *Critici Sacri*. (*Smith's Dict. of the Bible; Kitto's Cycl. Bibl. Lit*. &c.)

ELIAS, HARRY: a fwriwyd allan o Patrishw, ger llaw Crughywel, yn Mrycheiniog, dan effaith Deddf yr Uuffurfiad. Mae y Dr. Walker yn ei alw yn wehydd. Pa beth a ddaeth o hono ar ol ei fwriad allan, sydd anhysbys.—(*Rees' Hist. of Prot. Noncon. in Wales*).

ELIAS LEVITA: un o ramadegwyr Iuddewig rhagoraf yr unfed ganrif ar bymtheg: mab y Rabbi Ascher Levita, a anwyd yn Neustadt, heb fod yn mhell o Nürnberg, yn B. A. 1472. Addysgwyd ef yn ei dref enedigol; ac ymroddodd â'r fath awyddfryd i fyfyrdodau gramadegol yn yr Hebraeg, fel y cafodd y ffugenw, "Y Gramadegydd, yr athraw ieithyddol." Pan alltudiwyd ef ac Iuddewon ereill o Neustadt, ar ol marwolaeth ardalydd Neustadt, aeth i Italy; a bu fyw yno mewn gwahanol fanau, yn athraw Hebraeg, yn enwedig yn Padua, lle yr aeth, yn 1504, a lle y bu yn dysgu gramadeg Hebraeg y Rabbi Moses Kimchi; ac ysgrifenodd eglurhad arno, yr hwn a gyhoeddwyd wedi hyny, gyda chyfleithiad Lladin gan Sebas, yn Münster, 1531. Arosodd yn Padua hyd 1509; ac wedi colli ei holl gyfoeth, pan anrheithiwyd y lle, efe a aeth i Venice; ac yn 1512 i Rufain, lle y derbyniwyd ef yn dra charedig gan y Cardinal Aegidius o Viterbo. Magodd cyfeillach fynwesol rhyngddo ef ac Aegidius, yr hwn a'i cymmerodd ef a'i deulu i'w dŷ ei hun, ac a ddarparodd yn haelionus ar eu cyfer. Bu Elias yn dysgu Hebraeg i'w gyfaill am rai blynyddoedd, yr hwn a'i dysgodd yntau yn y Lladin a'r Groeg. Yn ystod ei arosiad yn Rhufain, hyd 1518, ysgrifenodd ddau gyfansoddiad Hebraeg godidog. Parodd ei arosiad yn Rhufain, ei gyfeillgarwch nodedig â'r Cardinal Aegidius, ei gyssylltiadau â chardinaliaid ac esgobion ereill, a'r clod mawr a gaffai ganddynt hwy ac amryw Gristionogion dysgedig yn gyffredinol, i'w frodyr Iuddewig gynhyrfu ammheuaeth yn ei erbyn, ei fod yn Gristion dirgel. Pan anrheithiwyd Rhufain, dan Charles v, 1527, collodd Elias ei holl feddiannau unwaith eto. Yna, efe a aeth drachefn i Venice, lle yr arosodd hyd 1540, a chyhoeddodd ei waith godidog ar yr acen Hebraeg; a gwaith arall ar feirniadaeth yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gwaith olaf yn yr

Digitized by Google

Almaeneg, gan Semler, 1772. Yn rhagymadrodd y gwaith olaf, mae yn ei amddiffyn ei hun yr erbyn y dyb ei fod wedi gwrthgilio oddi wrth Iuddewiaeth. Gadawodd Venice yn 1540, a derbyniodd alwad Paul Fajius i'w ddilyn ei i Isny, yn Swabia, i'w gynnorthwyo i sefydlu argraffdy Hebraeg i gyhoeddi llyfrau Hebraeg. Arosodd yno hyd 1547, ac ysgrifenodd amryw lyfrau newyddion, yn enwedig ei Eiriadur Caldeaidd-Rabbinaidd, a gyhoeddwyd Ionawr, 1581, tra y cyhoeddodd Fajius eiriadur arall o waith Elias yn Lladin. Ymadawodd Fajius o Isny yn 1547, ac aeth Elias drachefn i Venice, lle, yn mhen dwy flynedd (1549), y bu farw.—(*Herz. Prot. Theol. and Eccl. Encycl.*)

**ELIAS, JOHN.** Y mae enw John Elias mor hysbys yn mhob man yn Nghymru, ac mewn rhanau o Loegr, a pharthau ereill o'r byd, fel y teilynga sylw helaethach na'r cyffredin. Yr oedd ei dalentau dysglaer, ei dduwiolfrydedd cyssegredig, a'i fuchedd difrycheulyd, wedi ennill iddo "radd dda," a pharch cyffredinol, nid yn unig gan y rhai hyny a gydolygent â'i syniadau neillduol, ond hefyd gan y cyfryw ag oedd yn gwahaniaethu oddi wrtho, o ran tuedd a barn. Yr oedd yn ddyn y genedl. Coronid ef â'r ganmoliaeth uchaf yn ystod ei fywyd, yr hyn ni fynai efe ei hun ei dderbyn er dim; ond yr oedd ei wir deilyngdod yn aros heb ddyfod i'r golwg yn ei holl gyflawnder hyd wedi ei farwolaeth. Trwy ei fod wedi cael "gair da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun," yr oedd wedi ei brofi ei hun yn "un o rai rhagorol y ddaiar" yn ystyr helaethaf yr ymadrodd. Y mae yn wir na bu odid neb, o'i gyhoeddusrwydd, ag a orfu gyfarfod â mwy o wrthwynebiadau nag ef; ond troai y cyfan bob amser yn y diwedd yn wir anrhydedd iddo, yn nheimlad a mynwes ei wrthwynebwyr penaf, yn gystal a'i gyfeillion goreu. Edrychir arno, yn ei fywgraffiad, erbyn hyn, gan y cyhoedd, nid fel dyn plaid, nac fel gŵr i un oes neu wlad, ond yn hytrach fel eiddo cyhoeddus, wedi ei godi gan Ragluniaeth y nef i'r dyben o fendithio y byd.

Bydd yn fanteisiol i ni edrych ar fywyd Mr. Elias fel dau gyfnod: *ei faboed a'i ieuenctid*—o'i enedigaeth hyd ei gyfodiad rheolaidd i bregethu; *a'i yrfa weinidogaethol*—o'i gyfodiad i bregethu hyd ei fedd. Y mae mor anhawdd dywedyd pa un o'r ddau gyfnod hyn yn mywyd Mr. Elias oedd y mwyaf pwysig i'r Eglwys Gristionogol a chenedl y Cymry, ag a fyddai dywedyd pa un ai tymmor gwrteithio, hau, ac addfedu, ynte tymmor medi, cywain i ysguboriau, a mwynhau y ffrwyth, ydyw y pwysicaf o dymmorau y flwyddyn i'r wlad. Y mae yn wir mai tymmor y mwynhad ydyw amcan eithaf pob ymgais, crefyddol cystal a thymmorol; ond os esgeulusir tymmor y darparu, nis gall y ffrwyth fod ond prin, disylwedd, ac fe allai afiachus hefyd. Yn ystod tymmor gweinidogaeth Mr. Elias y cafodd cannoedd, os nad miloedd, o bechaduriaid Cymru eu hargyhoeddi drwyddo, ac y cafodd yr eglwys ei hadgyweirio, ei glanhau, a'i haddurno; a dyma y tymmor a gofir gyda hyfrydwch a diolchgarwch gan filoedd yn Nghymru, sydd o 40 mlwydd ac uchod, hyd y dydd hwn. Ond yn ystod maboed ac ieuenctid yr agorwyd ei feddwl, y llanwyd ei gof digyffelyb â'r Ysgrythyrau, yr argyhoeddwyd ei gydwybod, ac y gwrteithiwyd ei dalentau cryfion ac ysblenydd; a diau mai y tymmor hwn ydyw y mwyaf addysgiadol i rieni, plant, ac ieuenctyd yr oes hon, o'u holl yrfa ryfedd.

1. *Maboed ac ieuenctid Mr. Elias:*—o'i enedigaeth hyd ei gyfodiad rheolaidd i bregethu yr efengyl. Y peth cyntaf a phenaf a dery y meddwl ystyriol sydd yn adnabyddus o dymmor boreuol Mr. Elias, ydyw yr anfanteision mawrion oedd ar ei ffordd i gyrhaedd ac i gynnyddu mewn gwybodaeth, fel ag i ddyfod yn ddyn mawr, fel y daeth mewn gwirionedd.

Yr ydym ni, fel y sylwa Bleddyn yn dra tharawiadol, yn dueddol i edrych ar bethau yn eu prydferthwch a'u defnyddioldeb. Llenwir ni â syndod wrth edrych ar y llongau mawrion yn aredig tònau y moroedd, ac yn ymhwylio gyda mawrhydi tua'r porthladdoedd a ddymunant, heb feddwl fawr am y trafferthion a gafwyd i'w hadeiladu. Mae yr olygfa hardd sydd arnynt, yn cadw draw eu dechreuad yn y coedwigoedd; ac ni ddilynir hwy yn y meddwl yn mhellach nag fel cynnyrchion y môr yn unig. Yr ydym yn synu at odidogrwydd adeiladau ein trefydd, ac ardderchogrwydd ein palasau—y colofnau, y bwäau, a phob cywreinwaith—nes y byddom yn gwbl oll wedi cael ein llyncu yn wyneb syllu ar y drem hardd sydd arnynt: ond mae y chwarelau o ba rai y cloddiwyd y meini, a'r dyffryn o ba un y cloddiwyd y defnyddiau, yn myned o'r golwg. Gall dyn sefyll ddyddiau ei oes ar lan y môr, a dysgwyl yn ofer am i'r dyfroedd cythryblus gannyrchu llong iddo; a gall sefyll am flynyddoedd ar ael y bryn, i ddysgwyl i'r llanerch dymunol gynnyrchu palas iddo, ond yn ofer; o blegid y mae trafferthion i'w cymmeryd, a rhwystrau i'w gorfod, cyn y gallom gyrhaedd gwrthddrychau ein gobeithion a'n dymuniadau. Fel hyn y mae gyda golwg ar bob gorchwyl dynol o bwys a wel ein llygaid—arwyddion ymegniadau a thrafferthion a ganfyddir ar bob llaw. Wedi i ddyn gyrhaedd campusrwydd mewn unrhyw orchwyl, a phan edrychir arno yn gwneuthur campwaith, gellid meddwl mai y gorchwyl hawddaf yn y byd a fyddai ei ddynwared i berffeithrwydd, a'i gyflawnu mor rwydd ag yntau. Dywedodd un o'r hen feirdd y canai efe yn y fath fodd, fel y tybia pawb a ddarllenont ei waith y gallent hwythau ganu cystal ag yntau; "ond," ebe fe, "os gwnant gynnyg, cânt weled yn fuan y rhaid iddynt chwysu." Felly hefyd, pwy bynag a fyn fod yn dduwinydd dwfn, yn ieithydd dysgedig, yn areithiwr hyawdl, neu yn unrhyw gelfyddydwr medrus, "rhaid iddo chwysu"—rhaid iddo roddi ei holl feddwl ar waith, a dwyn holl alluoedd ei enaid i weithrediad; rhaid iddo ddarllen llawer, myfyrio yn ddyfal, cofio yn afaelgar, ac ymarfer yn galed; a rhaid iddo wneuthur hyny yn barhaus a di-ildio, nes gorfod pob rhwystrau, a myned drwy bob anhawsderau; os amgen, ni ddaw i sylw, ac ni wel wir enwogrwydd. Nid balchder yw ymdrechu rhagori mewn diwydrwydd, a blaenori ein gilydd; ond cydsyniad âg egwyddor amlwg y Beibl, ac â gofynion anorfod cymdeithas. Dywed y naill, "Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni;" ac y mae y llall yn rhoddi gwaith i'r crefftwr goreu, yn ymgynghori â'r cyfreithiwr goreu, yn ymofyn â'r meddyg goreu, yn llogi yr ysgrifenydd goreu, ac, fel y gŵyr pawb, yn hoffi gwrandaw y pregethwr goreu.

Rhaid i bawb, o bob sefyllfa, a fynont fod yn fawr, wneuthur ymdrechiadau cyn y cyrhaeddant y nôd; er hyny, nid yw mawredd rhai yn gymmaint rhyfeddod o lawer a mawredd ereill. Y mae gwaedoliaeth rhai, swyddau perthynasau ereill a chyfoeth ereill wedi arloesi y ffyrdd, a

Digitized by Google

gwneyd eu llwybrau hwy yn bur unjawn ac esmwyth, mewn cymhariaeth, i ddyrchafiadau ac enwogrwydd mewn byd ac eglwys. Nid peth anhawdd ydyw i fab y pendefig fyned yn ddadleuwr neu gadlywydd; neu i fab yr esgob fyned yn ddeon neu beriglor; ac mae'n ddiau fod drws y pulpud yn llawn mor agored i fab y gweinidog neu y diacon dylanwadol, ag i fab yr aelod cyffredin dinôd. Y mae cyfoeth hefyd yn fantais ddirfawr i gyrhaedd gwybodaeth, trwy roddi pob llyfrau, pob ysgolion, a phob seibiant i feddwl a chorff yr ymgeisydd er cyrhaedd ei amcan.

Ni chafodd John Elias yr un o'r manteision hyn, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Ymddengys fod ei dad a'i fam yn hollol ddifeddwl am grefydd, ac yn gwbl ddiofal am addysg eu plant—o leiaf, yn ystod yr holl amser y bu dan eu cronglwyd. Ei daid yn unig a ddysgodd iddo ddarllen Cymraeg: ac ymddengys nad oedd yr hen ŵr ei hun ond digon tywyll yn athrawiaethau crefydd a duwioldeb: er hyny, y mae yn deilwng cofio mai i'r taid hwnw (gresyn na buasai ei enw ar gof a chadw), dan oruwchreolaeth Rhagluniaeth, y mae y Cymry yn ddyledus am roddi yr iawn gyfeiriad cyntaf i feddwl un o'r dynion mwyaf, mewn llawer ystyriaeth, a gynnyrchodd ein cenedl ni erioed. Ac wedi i John Elias ymuno â'r Methodistiaid, a phan oedd awydd pregethu yn tanio ei feddwl nerthol, nid yn unig yr oedd yn gwbl amddifad o berthynasau crefyddol a chyfeillion dylanwadol, ond yr oedd yn hollol anadnabyddus i holl bregethwyr enwog ei gyfundeb; yr hyn a ystyriai, hyd yn oed yn ei flynyddoedd olaf, pan yn ysgrifenu crynodeb o hanes ei fywyd ei hun, yn anfanteision dirfawr; a diau fod yn anhawdd iawn i'r rhai sydd yn meddu y manteision hyn wybod eu gwerth, a'r golled o fod hebddynt.

Heb law hyn, ni chafodd Elias ddim cynnorthwy oddi wrth gyfoeth i gyrhaedd gwybodaeth. Ni chafodd ddim ysgol, na dyddiol na Sabbathol (nid oedd Ysgol Sabbathol yn y wlad y dyddiau hyny), pan yn fachgen; ac wedi iddo dyfu yn llanc, o ddeuddeg i un ar ugain a hanner oed, pan ddechreuodd bregethu, yr oedd ei ymborth a'i ddillad yn gofyn ei holl ennill; fel nas gallai hebgor dim amser i ddarllen a myfyrio, ond amser cysgu, na dim arian i brynu llyfrau, heb son nad oedd nemawr o lyfrau addas i'w alwad ef, fel pregethwr, i'w cael yn y dyddiau hyny yn yr iaith Gymraeg. Ymddengys yn amlwg nad oedd yn medru dim Seisoneg, hyd nes oedd o ddeutu dwy ar ugain oed, pan aeth i'r ysgol am ysbaid byr at y Parch. Evan Richardson, Caernarfon. Beth a feddyliai myfyriwr duwinyddol y dyddiau hyn, yr hwn y byddai ei feddwl yn sychedu ddydd a nos am wybodaeth, a'i holl enaid ar dân am bregethu yr efengyl i bechaduriad yn deilwng o'i gwrthddrych gogoneddus, pe cyfyngid ef yn hollol, nes iddo fod yn ddwy ar ugain oed, at y Beibl, y Llyfr Gweddi Cyffredin, Catecism G. Jones, Landdowror, Gwaith Eliseus Cole, a Mêr Duwinyddiaeth. Y fath, mewn gwirionedd, ydoedd cyssylltiadau teuluol John Elias, ei sefyllfa ddiennill pan yn llanc, a phrinder llyfrau a manteision gwybodaeth yn Gymraeg yn ei oes, fel y buasai pob un o'r anhawsderau oedd ar ei ffordd ef yn ddigon i gwbl lethu pob meddwl ond un hollol anorchfygol. Ond trwy rym dirfawr ei athrylith, penderfyniad anhyblyg ei feddwl, a llwyr ymroddiad didroi yn ol, gorchfygodd John Elias bob rhwystrau ac anhawsderau, ac agorodd y ffordd iddo ei hun yn raddol i gyrhaedd gwybodaeth gyffredinol oedd yn llawer eangach na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion yn y weinidogaeth. Yn fyr, yn y cyfnod tywyll ac anfanteisiol yma o'i oes, y gosododd John Elias i lawr seiliau ei enwogrwydd mawr, a ddysgleiriodd mor ysblenydd yn y cyfnod dilynol o'i fywyd gwir ddefnyddiol, pan y treiddiodd yn ddwfn i amryw wybodaethau a chelfyddydau, heb law duwinyddiaeth, y ceir achlysur eto i sylwi yn fyr arnynt.

Wrth edrych ar y cyfnod anfanteisiol a diobaith yma o fywyd y gŵr mawr hwn, a meddwl am ei enwogrwydd digyffelyb yn y cyfnod nesaf, fe allai y bydd llawer yn barod i ddyweyd—"Y fath resyn fod John Elias yn fab i wehydd tlawd, annysgedig! Beth a fuasai y dyn hwn pe buasai yn fab i foneddwr?—neu, o leiaf, pe buasai wedi ei eni yn nghyrhaedd manteision dysg boreuol?" Dywedwyd yr un fath yn gymhwys am brif enwogion y byd—"Y fath resyn fod Milton yn weriniaethwr, fod Dante wedi cweryla â Gemma, fod Burns yn fab i arddwr tlawd, a bod Keats wedi ei rwymo yn brentis o feddyg! Mor wahanol y gallasent fod pe mewn sefyllfaoedd amgenach!" Pa fodd bynag, fe weithiodd eu hathrylith fawr ei hun, nid yn unig i'r amlwg, ond i uchder dysgleirdeb yn y sefyllfaoedd yr oeddynt; a thueddir ni i gredu (a chaniatau ar gyfer beiau gwirfoddol, bid sicr) fod sefyllfa, amgylchiadau, a galwedigaethau gwŷr o athrylith yn gywir y fath ag y fyddai oreu iddynt fod er dadblygu eu meddyliau, er eu cymhwyso i gyflawnu eu cenadwri, ac er llawn addfedu eu natur oruchel. Pe na buasai gan Milton law mewn gweriniaeth a theyrnladdiad, medd Gilfillan, ni buasai mor gymhwys i ysgrifenu *Paradise Lost* a *Samson Agonistes*. Chwanegodd priodas annedwydd Dante surni a min at ansawdd ei feddwl, a'i cymhwysodd i dwymno ffwrnais ei *Hell* (Uffern) yn saith boethach nag y buasai heb hyny. Cafodd natur ewynog Burns nerth ac egni o'r gymmydogaeth wladaidd y ganwyd ac y magwyd ef ynddi. Cynnorthwyodd cartrefiad Keats, yn Llundain, ef, pan welodd y wlad, i dynu darluniadau hoenus, dyfnion, ac arosol o natur—y cyfryw, yn gyffredin, nas gall neb ond plentyn eu teimlo, y rhai nid amlygwyd mor gyflawn a naturiol yn marddoniaeth neb arall. A diammheuol genym ni i sefyllfa isel Elias, a'r anhawsderau dirfawr a'i cyfarfu ac a orchfygodd yn ystod y y cyfnod yma o'i fywyd, awchlymu ei athrylith oruchel, a nerthu penderfyniad anhyblyg ei feddwl mawreddog, er ei gymhwyso i drefnu a llywodraethu y cyfundeb y bu efe yn addurn iddo yn ystod y cyfnod olaf o'i oes. Yn fyr, yr oedd yr holl amgylchiadau dyrys ac anfanteisiol a'i cyfarfu yn ysbaid ei faboed a'i ieuenctid, yn anhebgorol angenrheidiol, yn ol ein tyb ni, i'w wneuthur yr hyn ydoedd.

Prysurwn yn awr at ffeithiau a manylion y cyfnod hwn o fuchedd gwrthddrych ein sylw. Y mae y pethau lleiaf o bwys, o'u hystyried mewn cyssylltiad â'r hyn a ddaeth, yn hynod a mawreddog. Ni buasai sefydliad cyntaf gwerinaidd Romulus ond amgylchiad dibwys, y buasai yn ddigon cyfiawn ei ollwng i ebargofiant, oni buasai i Rufain wedi hyny ddyfod i lywodraethu y byd. Y mae y ffrwd fechan ar darddiad un o afonydd mawrion yr America, yn dyfod yn wrthddrych o ddyddordeb nid bychan i'r teithiwr, pan yr hysbysir ef, fel y llama drosti, neu y rhodia ychydig filltiroedd ar hyd ei glan, mai hon yw y ffrwd sydd yn llifo am gynnifer mil o

Digitized by Google

filltiroedd, ac a ymchwydda yn raddol i'r fath gorff aruthrol o ddwfr ag a welir yn yr Amazon neu y Missouri. Y mae yr ysgrifenydd yn cofio ei fod ef yn nghymdeithas cyfaill, tua deunaw mlynedd ar ugain yn ol, yn pasio hen dŷ to gwellt, digon llwydaidd yr olwg arno, yn mhlwyf Llansannan, na buasai yn tynu dim mwy o'n sylw ato na rhyw hen dŷ to gwellt arall, oni buasai i'r cyfaill ddywedyd—"Mewn ystafell fechan yn yr hen dŷ yma y bu William Salesbury, tua 250 o flyneddoedd yn ol, yn cyfieithu y Testament Newydd o'r Groeg i'r Gymraeg!" "Pa beth?" meddem ninnau, mewn cyffro, "nid hwn ydyw y *Cae Du!*" "Dyna y *Cae Du*," medd y cyfaill, "a dyna gartref Dafydd Rees, tad Henry Rees, Amwythig!" Nid tasg fechan, erbyn hyn, fuasai sefyll yno am awr gron i syllu ar yr hen dŷ heb symud o'r fan. Y mae mwy o swynion llenyddol yn perthyn i'r hen dŷ hwnw, erbyn hyn, gan iddo fod yn gartref, nid yn unig i W. Salesbury, Dafydd Rees [*Fy Nhad*], a Henry Rees, ond Gwilym Hiraethog hefyd. Yr oedd tŷ bychan, tlodaidd, yn sefyll tua 88 mlynedd yn ol (ofnwn ei fod wedi ei chwalu erbyn hyn), ar dyddyn bychan, yn mhlwyf anghysbell Abererch, o fewn tua phedair milltir i Bwllheli, yr hwn dŷ bychan yr hoffai miloedd yn Nghymru syllu arno am oriau, o blegid mai yn hwnw y ganwyd John Elias.

Ganwyd John Elias ar y chweched dydd o fis Mai, 1774, yn y tyddyn bychan a elwid Brynllwyn bach, yn mhlwyf Abererch, ger llaw Pwllheli, yn sir Gaernarfon. Preswyliai ei rieni mewn tŷ annedd bychan, cyfagos i breswylfod ei daid. Yr oeddynt, er bod mewn sefyllfa lled isel o ran eu hamgylchiadau, yn byw yn gysurus a pharchus yn ngolwg pawb. Cymmerai y taid hoffder mawr yn ei ŵyr, o'i fabandod. Yn chwanegol at yr addysg a gaffai ganddo yn ei gelfyddyd, fel gwehydd, dysgai ddarllen Cymraeg iddo yn fore. Yr oedd ei daid yn ŵr moesol iawn, yn rhagori ar ei holl gymmydogion y dyddiau hyny. Ymroddodd i ddysgu ac egwyddori ei ŵyr bychan mor bell ag y gallai ef, yn llwybrau rhinwedd. Rhybuddiai ef yn ddwys, cyn gynted ag y dechreuodd siarad, am y perygl o ddyweyd geiriau drwg, celwydd, llwon, ac arfer enw Duw yn ofer; a cheisiai ei ddysgu i gadw y Sabbath, ac i barchu addoliad Duw. Pan y daeth yn alluog i gerdded, byddai raid iddo fyned gyda'i daid bob Sabbath i eglwys y plwyf. Gwnaeth yr hen ŵr parchus hwn ymdrech deilwng iawn i ddysgu "John bach" i ddarllen, fel yr awgrymwyd; a daeth John yn fuan i gymmeryd hyfrydwch mawr yn y gorchwyl, fel yr oedd yn gallu darllen ei Feibl yn lled rwydd rhwng pedair a phum mlwydd oed. Erbyn ei fod yn saith oed, yr oedd wedi myned dros y Beibl o'r dechreu hyd ganol Llyfr Ieremiah. Byddai ystyriaethau difrifol yn dyfod i'w feddwl, hyd yn oed mor fore a hyny, am Dduw, y farn, a byd arall: byddai yn cael ei frawychu yn aml gan freuddwydion am ddydd y farn a thragwyddoldeb; ac ofnai yn fawr rhag myned i uffern. Pan ar ben ei saith mlwydd oed, cafodd y frech wen yn drom iawn, fel y buwyd am wythnosau yn ammheu am ei adferiad. Collodd ei synwyrau am rai dyddiau; a bu heb weled dim dros bythefnos. Pan y trodd i wella, ac y dechreuodd agor ei lygaid, daeth ei daid at ei wely dan wylo, a gofynodd "Fy machgen bach i, a wyt ti yn cofio pa le y mae dy wers?" Atebodd yntau, "Ydwyf," ac enwodd rhyw bennod yn Llyfr Ieremiah. Llawenychodd yr hen ŵr yn fawr pan ddeallodd fod y bachgen bach, er ei gystudd blin, heb anghofio pa ran o'r Beibl a ddarllenai pan y cymmerwyd ef yn glaf; ac am fod gobaith iddo gael ei lygaid i ddarllen yr Ysgrythyrau drachefn. Bu am dair neu bedair blynedd ar ol hyn yn wan ac yn lled afiach.

Wedi iddo ddyfod yn alluog, byddai yn myned gyda'i daid i eglwys y plwyf bob Sabbath, fel o'r blaen. Arferai ei daid ei godi i le amlwg yn yr eglwys, i ddarllen bob yn ail a'r gweinidog, yn ol y ddefod. Byddai yr hen ŵr hybarch yn arfer ei ddysgu ar hyd y ffordd wrth fyned a dyfod i'r eglwys, i ochel pob anfoesoldeb, megys tyngu, dywedyd celwydd, tori y Sabbath, a'r cyffelyb. Hudid ef weithiau gan ei gyfoedion, a phlant hynach nag ef, ar ol iddo ddychwelyd o'r eglwys ar y Sabbathau, i'w dilyn yn yr hyn a alwn yn "chwareu diniwed;" ond teimlai mor euog ar ol hyny, fel y methai weithiau ddyweyd Gweddi yr Arglwydd wrth fyned i'w wely, ac nis gallai gysgu gan ddychryn. Clywodd fachgen unwaith yn tyngu—yr hyn oedd dra dyeithr iddo ef: tybiodd i'r bachgen hwnw wneyd gorchest, ac ymneillduodd yntau ar ei ben ei hun, i'w ddynwared; ond cyn gynted ag yr ail adroddodd y llwon, syrthiodd y fath ddychryn arno, rhag i'r ddaiar ei lyncu yn fyw i uffern, fel na ddaeth llw byth mwyach allan o'i enau.

Yr oedd ei barch i'r Sabbath yn rhyfeddol. Byddai ei dueddiadau a'i gyfeillion yn ei gymhell i fynu ychydig o ddifyrwch; ond ni oddefai ei gydwybod iddo dori y Sabbath. Ymddengys nad oedd ei dad a'i fam, y pryd hwnw, yn gofalu nemawr am gadw y Sabbath. Weithiau, deuai cymmydogion atynt i ymddyddan am bethau anaddas i Ddydd yr Arglwydd, yr hyn a achosai lawer o wylo i Elias ieuanc; ac weithiau, anturiai ddyweyd gair wrthynt ar ddrygioni yr arfer. Anfonodd ei rieni ef un Sabbath ar neges i dŷ ei daid o du ei fam, gryn bedair milltir o'i gartref. Fel yr oedd yn myned, canfyddai un o'r mynyddoedd o'i flaen yn ddu ac yn mygu, canys yr oeddid wedi bod yn llosgi grug arno nos Sadwrn: meddyliodd John fod dydd y farn wedi dyfod, a'r ddaiar yn dechreu llosgi, tra yr oedd efe ar y weithred ysgeler o dori y Sabbath. Dychrynodd i'r fath raddau, fel y gorfu iddo lefain yn uchel; a cheisiodd weddïo am gael ei arbed rhag myned i'r farn yn ei bechodau.

Yr ydoedd wedi clywed er yn dra ieuanc, y byddai rhai pregethwyr tra hynod o'r Deheudir, a manau ereill, yn arfer dyfod i Bwllheli, Pentre uchaf, a lleoedd ereill yn y gymmydogaeth. Ennynwyd awydd mawr ynddo am i'w daid fyned gydag ef i wrandaw y cyfryw rai; ac o hoffder at ei ŵyr, äi yr hen ŵr yn fynych gydag ef, yn y prydnawn neu yr hwyr, ar ol bod yn yr eglwys y bore, i wrandaw rhyw bregethwyr Methodistaidd yn y lleoedd a enwyd. Byddai yn flin gan ei daid weled y bobl yn gwag siarad o ddeutu y lle addoliad, tra yn aros am y pregethwr; ac annogai John i ddarllen yn rhywle yn ochr y cloddiau, lle y byddai y bobl. Yr oedd clywed bachgen bychan yn darllen yn dda yn beth rhyfedd iawn yn y dyddiau hyny. Un Sabbath, yn y Pentre uchaf, wedi i'r bobl fod yn hir ddysgwyl am y pregethwr, daeth ei daid ato, a dywedodd, "Y mae yn drueni fod y bobl yn segur fel hyn: dos i'r pulpud yma, a darllen bennod o'r Beibl iddynt!" Yna, agorodd y drws, gwthiodd ef i mewn, a chauodd arno. Darllenodd yntau ran o bregeth Crist ar y mynydd; ac yr oedd pawb yn

Digitized by Google

gwrandaw yn dra difrifol; ond wedi myned yn mlaen am ysbaid, edrychodd dros ei ysgwydd, a phwy a welai yn sefyll wrth ddrws y pulpud ond y pregethwr: dychrynodd yn ddirfawr, cauodd y Beibl, ac aeth i lawr yn gyflym. Yr oedd y pryd hyn yn rhywle rhwng naw a deuddeng mlwydd oed. Dyma y tro cyntaf i John Elias fyned i'r pulpud! Nid oedd ef, na neb arall, yn meddwl, ar y pryd, y cawsai y fraint o fyned yno wedi hyny mor fynych, a bod mor ddefnyddiol ynddo. Yr oedd efe yn yr oedran hwn yn awyddus am wneyd daioni; a dywedir y byddai amryw o blant y gymmydogaeth yn ymgasglu ato ar y Sabbathau i gael eu dysgu i ddarllen. Y mae yn debyg mai hon oedd yr Ysgol Sabbathol gyntaf yn sir Gaernarfon.

Collodd ei daid fel arweinydd i'r pregethau pan yn lled ieuanc. Nis gallai yr hen ŵr fyned, gan lesgedd, am rai blynyddoedd cyn ei farwolaeth. Yna nid oedd ganddo nac arweinydd na chyfaill i fyned i wrandaw pregethau; er hyny, parhau a chynnyddu yr oedd awydd gwrandaw ynddo. Ar ei ben ei hun yr oedd yn arfer myned i foddion gras, ac yn dychwelyd oddi yno. Ystyriai ei hun yn rhy annheilwng i nesau at broffeswyr crefydd; ac nis gallai oddef ymddyddanion ieuenctyd anghrefyddol. Byddai yn fynych yn gwrndaw tair pregeth ar y Sabbath, er pelled yr oedd raid teithio y dyddiau hyny i'w cael. Pan y byddai rhyw bregethwr enwog o'r Deheudir yn dyfod i'r wlad, cerddai weithiau ddeng milltir ar foreu Sabbath i gael y bregeth gyntaf, a dilynai y pregethwr hyd yr hwyr; a hyny yn fynych heb ond ychydig iawn o ymborth trwy y dydd. Yr oedd yn cael hyfrydwch mawr yn gwrandaw, er mai ychydig o oleuni ysbrydol ac efengylaidd oedd eto wedi tywynu i'w feddwl.

Erbyn cyrhaedd ei ddegfed, neu ei ddeuddegfed mlwydd oed, yr oedd yn ddarllenwr medrus, ac yn gwbl alluog i ddefnyddio yr ychydig lyfrau y caffai afael arnynt; megys gweithiau Gruffydd Jones, Llanddowror; Eliseus Cole; John Bunyan, a'r cyffelyb, gyda rhwyddineb mawr, er ei adeiladaeth ei hun. Fel hyn y cyfeirid ei gamrau i lwybrau crefydd a rhinwedd yn ei gychwyniad cyntaf i'r byd.

Pan oedd o bedair ar ddeg i un ar bymtheg oed, profodd ymdrechfeydd tu mewnol grymus. Teimlai dueddiadau i ymwylltio fel ei gyfeillion; ond dyfnhaodd argraffiadau y Beibl ar ei feddwl, a chafodd fuddugoliaeth ar ei lygredd. Dechreuodd yn awr nesau at rai o'r proffeswyr, wrth fyned i foddion gras; a bu eu hymddyddanion crefyddol a'u hymarweddiad duwiol o les mawr iddo; a theimlai awydd cryf am gael myned i'w cymdeithas eglwysig. Ond cadwodd ofn am ei gyflwr, a golwg ar ei anghymhwysder, ef yn ol, er maint oedd ymrysoniadau ei feddwl, am dros dair blynedd.

O gylch y pryd hwn, llwyddodd i gyfodi addoliad teuluaidd yn nhŷ ei dad. Un noswaith, pan yn gwrandaw pregeth, daeth yr adnod ganlynol i'w feddwl gyda grym mawr:—"Canys pwy bynag a fyddo cywilydd o honof fi a'm geiriau yn yr odinebus a'r bechadurus genedlaeth hon, bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddel yn ngogoniant ei Dad, gyda'r angylion sanctaidd;" *Marc* viii. 38. Aeth adref â'i feddwl yn derfysglyd iawn, gan weddïo am i'r Arglwydd faddeu iddo, a'i nerthu i arddel Crist o hyny allan. Pan gyrhaeddodd adref, yr oedd ei dad a'i fam ar eu traed. Dywedodd wrthynt am y trallod blin oedd ar ei feddwl, a gofynodd genad i geisio darllen a gweddïo yn y teulu. Cafodd ganiatâd, a dechreuodd yr awr hono. Parhaodd i wneuthur bob cyfle a gaffai, ond nid oedd yn cael nemawr o galondid gan ei deulu y pryd hwnw.

Pan oedd ychydig dros un ar bymtheg oed, teimlodd awydd cryf am fyned i Langeitho—Ierusalem y Methodistiaid Cymreig y dyddiau hyny—i gael clywed Daniel Rowlands. Wedi clywed cymmaint o son am dano, dysgwyliai, ond cael ei glywed, y derbyniai rywbeth rhyfeddol trwy ei weinidogaeth. Un Sabbath y pryd hyn, aeth i Bwllheli i wrandaw rhyw bregethwr; a chan ei fod yno yn rhy fuan i oedfa y Methodistiaid, aeth i wrandaw y Parch. Beniamin Jones, i gapel yr Annibynwyr. Ei destyn oedd 2 *Sam.* iii. 38; "Oni wyddoch chwi i dywysog ac i ŵr mawr syrthio heddyw yn Israel." Dywedodd mai yr achlysur iddo gymmeryd y testyn hwnw oedd, ei fod wedi clywed y newydd galarus fod y Parch. Daniel Rowlands, yr hwn oedd dywysog a gŵr mawr yn Israel Duw yn Nghymru, wedi syrthio yn angeu. Effeithiodd yr hysbysiad yn ddwys iawn ar feddwl Elias ieuanc. Gan iddo fwriadu mor gryf cael gweled a chlywed y gweinidog enwog hwnw, a chael bendith fawr drwyddo, yr oedd y fath newydd yn somedigaeth chwerw iddo; ac nis gallai ymattal rhag wylo llawer.

Wedi hyn, pan oedd tua deunaw oed, daeth awydd arno am fyned i Gymdeithasfa y Bala, gan ddysgwyl cael bendith yno gan Dduw. Mae yn rhoddi darluniad bywiol o'r daith hon, yn ei fywgraffiad, a ysgrifenodd yn mhen agos i naw mlynedd a deugain ar ol hyny:—"Ymddyddenais â gwŷr ieuainc crefyddol; a gofynais a gawn ddyfod gyda hwy i'r Bala. Dywedasant y cawn; a chytunwyd i gyfarfod yn Mhwllheli, i gydgychwyn. Cyfarfu lluaws o bobl ieuainc crefyddol, o amryw leoedd o Lleyn: yr oeddynt hwy yn gwybod am leoedd i gael pregethau ar y ffordd. Cychwynasom dan ymddyddan am y Beibl a phregethau: bryd arall, byddem yn canu salmau a hymnau: weithiau, gorphwysem, a byddai i un neu ddau fyned i weddi: yna cychwynem drachefn, dan ganu. Nid oedd nemawr air yn ein mysg trwy y daith, ond am y Beibl, pregethau, a phethau crefyddol. Er fod yno luaws mawr o feibion a merched ieuainc, nid wyf yn cofio gweled edrychiad gwamal, na chlywed gair ysgafn gan neb trwy y daith. Yr oeddynt fel yn ystyried eu bod yn myned i gymmanfa, i ddysgwyl cael cyfarfod â Duw! O! na byddai ieuenctyd proffesedig yr oes hon yn gyffelyb! Felly, o nerth i nerth, cyrhaeddasom y Bala. Erbyn myned yno, yr oedd minteioedd o amryw leoedd yn ymgyfarfod, a'r lluaws yn ymddangos fel rhai o'r un feddwl, â'r un neges ganddynt. Yr oedd sobrwydd a gweddeidd-dra mawr yn nodedig ar hyd yr heolydd, ac yn mhob lle. Nid oedd y ddefod gan y diafol y pryd hwnw i ddwyn ei luaws o ynfydion rhyfygus i'r fath leoedd. Yr oedd y weinidogaeth mor danllyd, a'r arddeliad mor nerthol, fel yr oedd y diafol yn arswydo gollwng ei rai dewisol i'r fath le. Yr oedd y gymmanfa hon yn un hynod (B. A. 1792): yr oedd llewyrch tân fflamllyd arni; bywyd a nerth yn y weinidogaeth; a gwlith nefol ar y dyrfa. Ar ol diwedd y gymmanfa, aethom tua'n cantrefi yn llawen, gan ymddyddan am y pregethau, canu, a gweddïo, fel yr oedd y daith (dros ddeugain milltir) yn darfod yn rhy fuan genym, er mai ar ein traed yr oeddym oll. Cefais y fath hyfrydwch yn nghymdeithas y bobl grefyddol ar y

Digitized by Google

daith hon, fel y penderfynais na allwn fyw heb fod gyda hwy."

O ddeutu y pryd hwn, gwelodd yr Arglwydd yn dda anfon llewyrchiadau cryfach i'w feddwl am ogoniant athrawiaeth gras, nes y teimlai ei ysbryd yn ymorphwys arni. Un diwrnod, tra ar y ffordd i Bwllheli, daeth y geiriau am "weinidogaeth y cymmod" (2 *Cor.* v. 18, 19) i'w feddwl, gyda goleuni a grym rhyfeddol, nes yr oedd yn teimlo y carasai gael pregethu ar y geiriau i'w genedl yn mhob man. Ond ystyriai drachefn fod awydd pregethu y cymmod i ereill, ac yntau ei hun heb fod yn aelod eglwysig, yn anghyssondeb ac ynfydrwydd. Bu pregeth gan yr enwog Robert Roberts, Clynog, tua'r pryd hyn, yn effeithiol i ddwyn ei enaid i eangder.

Yr oedd ei feddwl yn myned yn fwy poenus a thrallodedig yn barhaus; am nad oedd yn aelod mewn cymdeithas Gristionogol. Meddyliodd y buasai yn lles mawr iddo pe cawsai le i weithio ei gelfyddyd mewn teulu crefyddol. Deallodd fod pregethwr Methodistaidd o'r un gelfyddyd a'i dad, yn arfer cadw gweithiwr; sef un Griffith Jones, Ynys y Pandy, yn agos i Benmorfa, ger llaw Tremadog. Erfyniodd ar ei dad a'i fam am gael myned ato am ychydig amser, os agorai y drws iddo gael gwaith ganddo; a rhwng bodd ac anfodd, cafodd genad. Felly efe a aeth yno, o ddeutu pedair milltir ar ddeg o ffordd, a llwyddodd i gael gwaith yno. Bu Griffith Jones a'i wraig yn dirion iawn wrtho. "Y mae genyf," ebe fe, yn ei fywgraffiad ei hun, "achos i fod yn ddiolchgar am ei ddaioni tuag ataf, yn trefnu yn ei ragluniaeth i mi gael myned i'r teulu duwiol hwnw." Ymdeimlai yn ddedwydd iawn yno: yr unig beth a'i gofidiai ydoedd, ei fod yn methu myned gyda hwy i'r *society.* Ymddyddanent lawer âg ef am grefydd, a gofynent iddo yn fynych, pa ham yr oedd yn sefyll allan; ond ni cheisient ei hudo yn mlaen. Unwaith, pan yr oedd y gŵr oddi cartref, gwnaeth y wraig iddo ddarllen a gweddïo yn y teulu. Aeth son mawr trwy yr ardal yn fuan, fod bachgen heb fod yn y *society* yn gweddïo yn y teulu—yr hyn oedd beth pur anarferol. Dygwyddodd fod pregeth un boreu, yn nhŷ Griffith Jones: ac wedi gorphen y bregeth, yr oedd yr aelodau eglwysig i sefyll ar ol; a chan nad oedd ef yn aelod, dywedodd G. Jones wrtho, "Dos gyda'r forwyn, John, i droi y gwair, hyd oni ddelwyf fi atoch." Pan yr aeth G. Jones i'r cae, ar ol darfod y *society*, gwelodd fod John yn athrist dros ben, a gofynodd beth oedd yr achos o'i dristwch. "O! fy ewythr," meddai yntau, "mae y gair hwnw bron wedi tori fy nghalon,—'A'r rhai oedd barod a aethant i mewn gydag ef i'r briodas, a chauwyd y drws:' darfu i chwithau gau y drws, a minnau allan y dydd heddyw!" Cynghorodd G. Jones ef yn dirion, gan ddywedyd fod drws trugaredd yn agored i bob pechadur trallodedig, yr hyn, ar y pryd, a esmwythaodd raddau ar ei feddwl; ond parhau yn anghysurus yr ydoedd, rhwng awydd ac ofn rhoddi ei hun i eglwys Crist. Yr oedd ef a morwyn G. Jones allan, un diwrnod, yn trin yr ŷd. Yr oedd mater ei enaid, a'i anesmwythder yn nghylch aelodaeth eglwysig, bron wedi ei syfrdanu: nid elai adref i ginio; ac yr oedd ei holl ysgogiadau yn dra hynod. Ni wyddai yr eneth yn y byd beth oedd arno. Dywedodd wrth ei meistr fod rhywbeth pur hynod ar John: y byddai weithiau yn gweithio â'i holl egni; bryd arall yn sefyll fel un mewn syn fyfyrdod; wedi hyny yn wylo yn hidl; ac yna yr äi dros y gwrych, gan ruddfan mor ddwys yno, fel pe buasai bron marw. Deallodd G. Jones beth oedd ei glwyf, a dywedodd, "Daioni a ddaw o hyn." Prydnawn y diwrnod hwnw, yr oedd G. Jones a'i wraig yn myned i'r cyfarfod eglwysig, a gynnelid yn Hendref Howel: ac yr oeddynt yn myned trwy y cae yr oedd John Elias yn gweithio ynddo. Dywedodd G. Jones wrtho, "Yr ydym ni yn myned i'r *society;* ond gwna di yn ol dy feddwl dy hun." Anturiodd fyned ar eu hol yno, mewn ofnau a than wylo. Erbyn myned i'r lle, yr oedd yno dri o bregethwyr; sef G. Jones, a John Edwards, o Blas yn Nghaerwys wedi hyny, a John Griffith Ellis. Yr oedd yn ofni yr holai y pregethwyr ef yn galed, ac y gwelent ei brofiadau mor ddiffygiol fel na byddai modd iddynt ei dderbyn. "Ond er fy mawr syndod," ebe fe, "buont yn dirion iawn wrthyf: cefais yr hyn yr hiraethais am dano flynyddoedd meithion, ac yr ofnais na chawn ef byth, sef lle yn nhŷ Dduw." Yr oedd hyn tua diwedd Medi, 1793, pan oedd efe tua phedair blwydd ar bymtheg a phedwar mis oed.

Yr oedd yn yr eglwys fechan yn Hendref Howel bobl dduwiol iawn: rhai iselfryd, calonddrylliog, tawel, a charedig; a chafodd John Elias adeiladaeth a hyfrydwch mawr yn eu mysg. Cymhellent ef i arfer ei ddoniau yn lled fuan ar ol iddo ymuno â hwy, gan ei fod yn well darllenydd na neb oedd yno, ac yn dra nodedig mewn gweddi. Cynnelid cyfarfodydd gweddio yn fynych yn yr ardal; a chymhellid yntau i fyned yno; ac annogid ef yn fynych i ddechreu y gwasanaeth, ac weithiau i ddywedyd gair fel cynghor wrth ddarllen y bennod. Cynneuodd hyn awydd ynddo yn lled fuan i wneuthur hyny; a dechreuodd twrf yn yr ardal, fod y bachgen oedd gyda Griffith Jones yn dechreu pregethu. Bu hen bregethwr o Lanllyfni, o'r enw William Dafydd, yn dirion iawn wrtho, ac yn dra chefnogol iddo i feithrin yr ysbryd a'r awydd oedd ynddo i bregethu. Yn fuan ar ol hyn, fel y gwelir yn yr adran nesaf, cafodd John Elias ei gyfodi yn rheolaidd i bregethu yr efengyl.

II. *Gyrfa weinidogaethol Mr. Elias*—o'i gyfodiad yn rheolaidd i bregethu hyd ei fedd. Yn mhen tua blwyddyn a chwarter wedi iddo ymuno â chrefydd yn gyhoeddus, pan nad oedd ond ugain mlwydd a hanner oed, annogwyd ef gan ei frodyr yn Hendref Howel, a chan flaenoriaid y cymdeithasau cymmydogaethol, ac yn enwedig gan un John Richards, Garn, Dolbenmaen, i fyned i gyfarfod misol oedd i fod yn Bryn yr Odyn, ger llaw Caernarfon, ddydd Nadolig, 1794, i ofyn caniatad i bregethu yn gyhoeddus. Cyhoeddodd J. Richards ef i bregethu yn nghapel y Garn, mewn plygain, fore y dydd Nadolig hwnw, ar ei ffordd i Bryn yr Odyn, yr hyn a wnaeth yntau; a chwynai Mr. Elias yn dost, yn ei ddyddiau olaf, pan yn ysgrifenu hanes ei fywyd, fod hyny "yn afreolus iawn." Pa fodd bynag, ymddengys nad oedd ddim mwy afreolus nag Apollos (*Act.* xviii. 24—28); ac aeth pawb a wasgarwyd o'r eglwys oedd yn Ierusalem i bregethu yn llawn mor ddiseremoni ag yntau, os nad yn fwy felly: *Act.* viii. 1, 4; xi. 19, 20.

Yr oedd Elias yn dra digalon wrth fyned i'r cyfarfod misol hwn, rhag ofn cael ei gollfarnu am ei ryfyg. Cysurai y brodyr ef, trwy ddywedyd fod gŵr ieuanc wedi cael ei dderbyn yn dirion iawn yn y cyfarfod misol o'r blaen; sef Richard Jones o'r Coedgae (o'r Wern wedi hyny); a gŵr ieuanc arall yn y cyfarfod misol cyn hyny —Evan Jones o'r Waen Fawr. "Ond," medd

Digitized by Google

Elias yn ei ddyddiau olaf, "gwyddom fod y gwŷr ieuainc hyny yn gydnabyddus â holl bregethwyr y sir, ac yn llawer mwy eu gwybodaeth, eu dawn, a'u profiad, nag oeddwn i." Yn mysg y pregethwyr oedd yn Mryn yr Odyn, lle y derbyniwyd Elias yn aelod o'r cyfarfod misol, y rhai oeddynt fel angylion Duw yn ei olwg ef, yr oedd Robert Jones, Ty-bwlcyn; John a Robert Roberts, Llanllyfni; Evan Richardson, Caernarfon; John Jones o Edeyrn, &c. Wedi ei holi yn ddifrifol a manwl iawn, rhoddasant dderbyniad croesawus iddo ar dystiolaeth Griffith Jones, John Edwards, a John Richards; a chafodd ganiatad i bregethu ar y Sabbathau pan y gelwid am dano. Yr oedd y galwadau am ei wasanaeth, yn y naill fan a'r llall, erbyn hyn, yn dyfod yn amlach na'r attaliadau a osodid ar ei ffordd; ac nid oedd dim yn ofynol tuag at sicrhau cael gwahoddiad i dalu ail ymweliad, ond cael y cyntaf, yn mhob man. Byddai yn teithio yn mhell i bregethu y pryd hyn, i Feirionydd, a Dinbych, a manau ereill. Priodolai ef, yn ei ddyddiau olaf, y galwadau mynych oedd am dano, y pryd hyny, i gywreinrwydd y bobl, a blys clywed bachgen mor ieuanc yn pregethu; a chwynai yn aml rhag afreolaeth ei ymddygiad; a chafodd ei geryddu hefyd o'r plegid gan rai o'r hen frodyr. Ond y gwir yw fod ei bregethau y pryd hyny, gystal ag ar ol hyny, fel tân, yn goddeithio annuwioldeb, yn dychrynu yr anystyriol a'r rhyfygus, ac yn chwanegu at yr eglwysi y ffordd y cerddai. Hyn oedd y gwir achos o'i wahoddiadau i bregethu, ac nid "cywreinrwydd y bobl," fel y tybiai efe, yn ol ei ostyngeiddrwydd arferol. Yn fuan ar ol hyn, caniatawyd iddo roddi cyhoeddiadau trwy amrywiol siroedd Gwynedd, ac i Liverpool a Manchester; "ac yr oeddwn innau erbyn hyn," eb efe, "yn deall y drefn, fel nad awn i un lle yn mhell oddi cartref, heb ofyn caniatad y brodyr."

Cafodd brofedigaeth lem o gylch yr amser yma, a fuasai yn taflu pawb yn ol yn mhell ond gwron Cristionogol o'i fath ef. Yr oedd wedi cael galwad i'r Bala i bregethu un Sabbath; ond erbyn iddo fyned yno ar ei draed, yr holl ffordd o Benmorfa, "yr oedd y Parch. John Roberts, Llanllyfni (Llangwm, wedi hyny)," medd ei fywgraffwyr, "yno o'i flaen, yr hwn a'i cyfarchodd mewn dull oeraidd a digon annymunol; a'r canlyniad ydoedd, na chafodd Mr. Elias wneyd ond ychydig y Sabbath hwnw. Y dydd Llun canlynol, yr oedd ganddo gyhoeddiad yn un o'r cymoedd yn agos i'r Bala. Cychwynodd tua'r oedfa y bore hwnw yn dra digalon a thrwm ei feddwl, ac aeth Mr. Roberts ar ei ol yn ddirgelaidd." Wedi gweddïo yn daer a difrifol dros ben am arweiniad a nerth, cafodd hwylusdod a llewyrch anarferol ar y bregeth hono. "Nis gwyddai efe fod Mr. Roberts yn bresennol; ond bu yr oedfa hynod hon yn foddion i'w argyhoeddi ef yn llwyr o'i gamsyniad am Mr. Elias." Dychwelodd Roberts at ei frodyr, a dywedodd fod yr Arglwydd yn wir gyda John bach; ac mai efe oedd ar yr iawn, a hwythau ar y cam. Symmudodd yr amgylchiad yma ofnau Roberts a'i frodyr yn nghylch Elias yn llwyr; a chydlafuriodd y ddau yn ffyddlawn a chyfeillgar o hyny allan yn ngwinllan eu Harglwydd.

Yr oedd pwys y gwaith mawr yn dyfod yn ddwysach beunydd ar feddwl Elias, a'i anghymhwysder i'w gyflawnu yn ddyladwy yn dyfod yn amlycach iddo yn barhaus; a daeth awydd mawr arno am gael myned i'r ysgol i ddysgu y Seisoneg, er mwyn helaethu ei wybodaeth gyffredinol. Yn y cyfamser, cynnygiodd rai o Gymry Manchester ei gynnal yno yn yr ysgol, er mwyn iddo bregethu iddynt ar y Sabbathau; ond pan ofynodd yn ostyngedig yn nghyfarfod misol sir Gaernarfon am ganiatad i fyned yno, "yn lle caniatau fy nymuniad," eb efe ei hun, "ceryddasant fi yn llym am ofyn y fath beth; gan haeru mai balchder fy nghalon, ac awydd am fyned yn bregethwr mawr oedd yn peri i mi son am ysgol a dysgeidiaeth." Yr oedd y somedigaeth yn dra chwerw iddo ar y pryd; ond credai mai gofal ei frodyr am dano ef ac achos yr Arglwydd oedd yr achos o'u gwaharddiad; a dywed y bu eu rhybuddion dwys yn erbyn balchder, ymchwydd, a'r cyffelyb, o les mawr iddo.

Ond er yr holl attalfeydd a'r somedigaethau hyn, yr oedd llygad craff Elias wedi canfod gormod o werth mewn gwybodaeth, ei enaid mawr yn sychedu gormod am dani, a'i benderfyniad i'w chael yn rhy anhyblyg i oddef i ddim anhawsderau ei amddifadu o honi; ac uwch law y cwbl, fel y dywed ei hun, yr oedd y pryder mawr oedd ar ei feddwl rhag i'r eglwysi a'r cynnulleidfoedd y pregethai iddynt fod yn golledwyr o herwydd yr anfanteision y buasai efe danynt i gael dysgeidiaeth a gwybodaeth yn ei ieuenctid. "Yn ngwyneb hyn," eb efe, "penderfynais ymroddi, os cynnorthwyai yr Arglwydd fi, i wneyd y diffyg hwnw i fyny trwy ddiwydrwydd a llafur." Ië, dyma un o ddirgelion mawredd digyffelyb John Elias—*penderfyniad* Buasai ceryddon llymion gwŷr yr oedd ganddo ef gymmaint o feddwl am danynt; a'u hawgrymiadau edliwgar mai balchder ac awydd bod yn bregethwr mawr, a'r cyffelyb bethau, oedd yr achos fod arno eisieu ysgol a dysgeidiaeth, yn ddigon i lethu llawer ysbryd lled wrol, ac i beri iddo beidio meddwl am ddysgeidiaeth byth mwy: ond nid oedd dim yn alluog i lethu ysbryd John Elias—yr oedd efe wedi penderfynu mynu gafael ar ddysg a gwybodaeth. Derbyniodd y cerydd yn ostyngedig, a daliodd y somedigaeth yn amyneddgar; ond cyn gynted ag y canfu y drws, wedi hyny, yn cil-agor o'i flaen, adnewyddodd ei gais yn ddioedi: yr oedd yn "gwaeddi ar ol gwybodaeth, ac yn cyfodi ei lef am ddeall...yn ei cheisio hi fel arian, ac yn chwilio am dani fel am drysorau cuddiedig;" ac, yn ol yr addewid, efe a'i cafodd hi; ond nid heb lafur caled, ddydd a nos, am hir flynyddoedd.

"Cyn pen hir wedi hyny," eb efe, "gofynais i'r brodyr drachefn mewn cyfarfod misol, a roddent hwy genad i mi fyned i'r ysgol at y Parch. Evan Richardson, yn Nghaernarfon, am ychydig amser; a hwy a ganiatasant hyny i mi. Bum yno gydag ef am rai misoedd [dim ond ychydig fisoedd!] "a chefais diriondeb mawr ganddo, a lles nid bychan o fod dan ei addysgiadau buddiol. Dysgais yn fuan gymmaint o'r iaith Seisonig ag y gallwn ddeall synwedd yr hyn a ddarllenwn yn yr iaith hono; yr hyn a deimlwn yn dra manteisiol i mi. Ac er na ddysgais ddim i berffeithrwydd, eto, cefais fy rhoddi ar ben y ffordd i ddysgu amryw bethau fy hunan trwy gyfrwng llyfrau. Cefais gymhorth i ymroddi yn ddiflino, ddydd a nos, nes i mi gyrhaedd rhyw raddau o wybodaeth gyffredinol am y pethau mwyaf angenrheidiol i mi eu gwybod gyda golwg ar y gwaith mawr yr ymaflaswn ynddo. Ond dysgu yr wyf fi eto (yn awr yn 67 mlwydd oed), ac yn gweled mwy o angen am ddysgu bob dydd."

Yr oedd Mr. Richardson yn wr dysgedig mewn amryw ieithoedd heb law y Gymraeg a'r Seis-

oneg, megys y Groeg, y Lladin, y Ffrancaeg, a'r Hebraeg; ac yr oedd ei wybodaeth gyffredinol yn y celfyddydau yn dra eang. Yr oedd y gweinidog a'r ysgolhaig godidog hwn yn dra hoff o'i ddysgybl Elias, fel yn wir yr oedd yn naturiol iddo fod—mewn gwirionedd, yr oedd yn gymmaint o anrhydedd i Richardson gael bod yn athraw i Elias, ag ydoedd i Plato gael bod yn athraw i Aristotle; ac megys yr arferai Plato ddyweyd mai Aristotle oedd *meddwl* ei ysgol ef, arferai Richardson ddyweyd am Elias—"Ni bu genyf neb tebyg iddo erioed, mor awyddus am wybodaeth, ac mor naturiol i ddysgu ieithoedd. Nid yn unig yr oedd efe yn alluog i ddeall yr iaith Seisoneg mewn byr amser, ond hefyd ei rhanau gramadegol." Dan addysg y gŵr rhagorol yma, yn ystod yr *ychydig fisoedd* y bu gydag ef, y gosododd Elias i lawr seiliau y wybodaeth gyffredinol dra eang a gyrhaeddodd wedi hyny, trwy "ymroddi i lafurio yn ddiflino, ddydd a nos," ar ol ymsefydlu yn Ynys Mon, fel y ceir achlysur i sylwi eto. Nid fel athraw ieithyddol yn unig y bu Richardson yn fendith i Elias; ond bu yn foddion i ddiwygio ei ystum areithyddol, ac i'w roddi ar ben y ffordd i fod yn brif areithiwr a phregethwr Cymru, os bu rhywun mwy mewn rhyw wlad arall. Dywedir fod ystum tra annymunol ar gorff Elias, a rhwnc anhyfryd a phoenus yn ei wddf ar brydiau wrth bregethu, yn tarddu oddi ar danbeidrwydd anarferol ei feddwl, cyn myned at Mr. Richardson; yr hyn a lwyr ddiwygiwyd bron ar unwaith, trwy i'w athraw ei ddynwared a'i hyfforddi; a gwnaed y diwygiadau hyn ynddo, heb oeri dim ar ei frwdfrydedd; ac, fel y dywed ei fywgraffwyr yn briodol —"Yn fuan wedi hyny, yr oedd ei holl agweddau yn yr areithfa yn dra phrydferth a theilwng, ac yn gynllun addas i bob pregethwr ei efelychu."

O gylch yr amser yma, llwyddodd y Parch. Ebenezer Morris i gael ganddo roddi taith drwy y Deheubarth am y tro cyntaf. Yr oedd ar rai o'i hen frodyr gwyliadwrus ofn mawr i'r daith hon wneuthur niwed i'w ysbryd ef ac i'r achos crefyddol; yn benaf, am fod yn afreolaidd i bregethwr mor ieuanc fyned mor bell, ar antur mor fawr: ond tystiai Mr. Morris i'w bregethau tanllyd ar y daith hono wneyd un o'r cyffroadau mwyaf nerthol a bendithfawr a wyddai efe am danynt. Ar ol pregethu yn hyawdl, tanllyd, ac effeithiol dros ben i gynnulleidfa luosog, ger llaw Merthyr Tydfil, am ddau o'r gloch, tra ar y daith hono, fel y tybir, ceisiwyd ganddo bregethu am chwech wedi hyny, mewn ardal boblogaidd arall oedd ger llaw, â'r hyn y cydsyniodd yntau. Ond o herwydd rhyw achos anhysbys, yn lle pregethu ar destyn a ragbarotoasai, cymmerodd destyn newydd, heb fyfyrio dim arno yn mlaen llaw, gan anturio ymddiried i'w alluoedd a'i hyawdledd. Canfu yn fuan ar ol dechreu pregethu, iddo gyflawnu amryfusedd cadarn; canys yr oedd ei feddwl yn dywyll a diafael yn ei bwnc, ei alluoedd wedi ei somi, a'r bregeth yn ddieffaith, fel y gorfu iddo derfynu yn gynt nag y dysgwyliai. Credai ei fod wedi pechu yn ysgeler yn erbyn ei Arglwydd, am iddo ryfygu pregethu ei air ef i bechaduriaid, heb ragymbarotoi yn briodol, trwy fyfyrdod a gweddi; ac ar ol dybenu ei bregeth, syrthiodd ar ei liniau yn y pulpud mewn gweddi daer a dagrau lawer am faddeuant o'i amryfusedd, ac am ras i beidio troseddu felly mwy.

Pan oedd Mr. Elias yn yr ysgol yn Nghaernarfon, aeth brawd o'r Bryn du, sir Fôn, yno i erfyn ar Mr. Richardson ddyfod i'r cyfarfod misol oedd i fod yn y Bryn du ar amser penodol. Dywedodd Mr. Richardson nas gallai efe fyned ar y pryd, ond fod ganddo fachgen yn yr ysgol a ddanfonai yn ei le, gan dystio wrtho y pregethai yn dda odiaeth. Nid oedd dim a foddlonai y brawd ond cael y prophwyd ei hunan yno; ac er mwyn cael terfyn ar y ddadl, dywedodd Mr. Richardson wrtho y deuai os gallai; yn amgen, yr anfonai John Elias yn ei le. Yr oedd cyfarfodydd misol Môn y pryd hyny (ac eto yn wir) yn dra phoblogaidd, yn enwedig os byddai gŵr dyeithr o enwogrwydd Evan Richardson, Caernarfon, i fod yno. Byddai, nid yn unig y blaenoriaid, ond nifer mawr o aelodau yr holl eglwysi yn cyrchu yno; a chlywsom hen flaenor oedd yno yn dywedyd fod y cyfarfod hwnw yn nodedig felly, gan nad oedd y brawd a fu yn Nghaernarfon wedi awgrymu dim fod un ammheuaeth na byddai Richardson yn bresennol. Pa fodd bynag, pan ddaeth y cyfarfod, bachgen ieuanc, tua 22 mlwydd oed, llwydaidd, garw ei bryd, tal, esgyrnog, oedd yno, o'r enw John Elias, ar yr hwn y teflid aml gildrem wagelog ac ammheugar—er nas gallai neb syllu ond ychydig yn ei lygaid tanbaid—yn lle y Parchedig Evan Richardson! Y fath somedigaeth! Yr oedd amryw o'r hen frodyr mwyaf gochelgar yn dra ammheus a ddylasid goddef i'r fath fachgenyn dinôd gael pregethu o gwbl mewn cyfarfod misol mor hynod o luosog; ond rhag iddynt dramgwyddo ei athraw, penderfynwyd o'r diwedd iddo ddyweyd gair o flaen rhywun; nis gwyddom pwy—credwn fod pawb wedi anghofio. Yr oedd y cyfarfod misol hwn yn ddechreuad cyfnod newydd yn mywyd Elias, er nas gwyddai efe, na neb ond Un, hyny ar y pryd: nid oedd efe yn gofalu am hyny —pregethu yn deilwng o'i Benathraw (nid Richardson) oedd wedi llyncu ei holl enaid mawreddog ef i fyny. Fel yr oedd yn dringo grisiau y pulpud yn arafaidd a gorddifrifol, fel y byddai efe yn gwneyd, yr ydoedd cannoedd o lygaid yn tremio yn bryderus arno. Yr oedd rhywbeth hyd yn oed yn y sangiad hwnw, na welwyd erioed o'r blaen ei gyffelyb yn Ynys Môn. Yna y weddi ddwys, ddystaw, ddofn, â'i wyneb ar gefn y pulpud am ddau fynyd neu dri—y fath ddystawrwydd! Y drem danllyd, ddifrifddwys, fawreddog, dros yr holl gynnulleidfa oedd y nesaf. Yr oedd y bobl eisoes yn dechreu dal eu hanadl. Ni welwyd yno erioed y fath agwedd o'r blaen. Agoriad y Beibl oedd y peth nesaf. Y fath barch a gwyliadwriaeth! Gweddi eto uwch ei ben, a'r wyneb yn y cadach poced, am fynyd neu ddau —dystawrwydd dyfnddwys eto. Dim edrych o amgylch mwyach, na dim troi dalenau, oddigerth un neu ddwy—pob peth yn barod! Tynu yr anadl yn gryf, unwaith neu ddwy, trwy y ffroenau, fel pe ar wylo, tra yn ysgwyd bys blaen y llaw ddeheu yn ddestlus uwch ben y bennod. Beth! A ydyw y bachgen am ddarllen pennod na chlywyd erioed o'r blaen mo honi? Ydyw— na chlywyd ac na welwyd erioed mo honi, yn yr un goleuni a nerth. Yr oedd y gynnulleidfa yn glust i gyd, a phob enaid wedi ei rwymo yn ddiogel wrth wefusau y llefarwr cyn iddo eu hagor! Aed trwy hyn i gyd mewn llai o'r hanner o amser nag y buom ni yn ei ysgrifenu. Yn awr, dyma ddarlleniad y bennod yn dechreu, mewn llais gwylaidd, soniarus, a chadarngryf, fel y clywai y neb oedd yn y gornel bellaf i'r capel mor eglur a'r rhai oedd wrth y pulpud; a thystiai y rhai oedd yn gwrandaw, na chlywsant y

Digitized by Google

fath ddarlleniad difrifddwys, pwysleisiol, a goleu, gan neb arall yn ystod eu holl oes—fod y darlleniad hwnw yn fwy addysgiadol na hanner dwsin o bregethau cyffredin. Yna, rhoddiad y pennill: y fath eneiniad oedd ar bob peth cyssegredig yr ymaflai y dyn rhyfedd hwn ynddo! Ond y weddi ddifrifddwys, afaelgar, hyawdl, a ddilynodd! Mae pob darluniad yn pallu: yr oedd y bachgen dinôd, yr edrychid arno ar y dechreu gyda'r fath ammheuaeth diymddiried, wedi myned eisoes yn seraph yn ngolwg pawb oedd yn bresennol. Yr oedd yn amlwg fod Duw yn wir yn y lle, ac yn sefyll ar ddeheulaw ei genad ieuanc; ac erbyn iddo orphen gweddïo, yr oedd pob llygad yn y lle yn ffynnon o ddagrau, a phob genau yn llawn o ocheneidiau duwiolfrydig. Nid gorchwyl anhawdd oedd pregethu bellach: a'r fath bregeth a gafwyd, y byddai ceisio ei darlunio mor ofer a chynnyg paentio yr enfys. Yr oedd arddeliad dwyfol ar yr holl wasanaeth. Yr oedd "y peth hwnw"—"ysbryd y peth byw"—yn y cyfan. Yr oedd effeithiau yr addoliad hwnw, yr hwn y cafodd Elias gannoedd cyffelyb yn Môn wedi hyny, wedi eu hargraffu mor ddwfn yn meddyliau y rhai oedd yn bresennol, fel yr oedd y dwfr yn neidio i lygaid yr hen flaenor a adroddai yr hanes wrthym ni yn mhen y deng mlynedd ar ugain ar ol iddo basio. Pan ddiweddodd yr oedfa ryfeddol hono, ymdyrodd lluaws o flaenoriaid o wahanol barthau y sir o amgylch y pregethwr ieuanc, i ddymuno cael cyhoeddiad ganddo: yr hyn a ganiataodd i amryw o honynt. Dyma ddyfodiad cyntaf John Elias i Ynys Môn—prif faes ei lafur o hyny hyd ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

Nid oedd ammheuaeth pawb o'r hen bregethwyr wedi diflanu eto yn nghylch ei gymhwysder fel pregethwr yr efengyl; ac y mae yn rhy debyg y gallai fod ychydig eiddigedd ar rai hefyd, o blegid ei lwyddiant rhyfeddol yn mhob man lle yr elai. Cyfarfu âg ymosodiad llym iawn, a fuasai yn ddigon i hanner tori calon llawer dyn ieuanc, yn Mryn yr Odyn, medd rhai o'i fywgraffwyr—y capel y cafodd ei dderbyn gyntaf ynddo yn aelod o'r cyfarfod misol. Dygwyddodd fod Elias ieuanc a Mr. John Jones o Edeyrn yn cyfarfod eu gilydd yno yn eu cylch. Yr oedd Elias wedi cerdded o bell, ar hyd ffyrdd geirwon, a thrwy wlawogydd trymion; ac yr oedd yn dra lluddedig pan y cyrhaeddodd dŷ y capel, lle y derbyniwyd ef yn oeraidd iawn. Yr oedd Mr. Jones wedi cyrhaedd yno o'i flaen; ac edrychodd yn sarug arno pan ddaeth i mewn, a phrin y gwnai un sylw o hono. Ni chyfododd neb o'r cyfeillion i'w gyfarch; ac ni ofynwyd iddo eistedd i lawr, o blegid y dylanwad a gawsai ymddygiad Mr. Jones arnynt. Tynodd Elias ei gôb wlyb, a dywedodd yr äi efe i ddechreu yr oedfa. Yn mhen ennyd, aeth Mr. Jones ar ei ol i'r pulpud; ac yr oedd Elias erbyn hyny wedi dechreu gweddïo, ac wedi gafael o ddifrif yn y gorchwyl pwysig. Ceisiai ei gydymaith annynad, o'r tu cefn iddo, ei ddyrysu a'i aflonyddu hyd y gallai! Ymysgydwai yn ol a chyn mlaen, gan sych besychu a charthu ei beiriannau llafar. Ond nid peth felly oedd ddigonol i rwystro gweddi John Elias. Yr oedd ei feddwl ef wedi ei lwyr lyncu i fyny yn y gwaith o alw ar Dduw, fel nas gallai dim o'r fath ei anhwyluso. Yr oedd rhyw enneiniad nefol yn cydfyned â'i weddi, fel yr oedd y gynnulleidfa drwyddi yn cael ei hystwytho yn hyfryd. Pan ddechreuodd Elias bregethu, yr oedd yr ymgais i'w ddyrysu yn parhau yn y modd mwyaf annymunol; ond yr oedd y pregethwr ieuanc yn arbenig y tro hwn yn llawn o rym gan Ysbryd yr Arglwydd: cafodd rwyddineb anarferol i fyned yn mlaen; ac yr oedd arddeliad hynod ar ei genadwri. Yn wir, yr oedd meddwl John Elias yn anorchfygol gan ddyn; fel y profodd ganwaith yn ei oes ar ol hyn. Wedi iddo orphen, cyfododd Mr. Jones i bregethu ar ei ol, ond yr oedd cyn dywylled a'r fagddu arno: er ei fod yn nodedig am ei ddawn parod, yr oedd y pryd hwn bron a methu cael dim i'w ddyweyd; ac felly yr oedd yr oedfa hon, oedd wedi dechreu yn hyfryd a goleu, yn terfynu yn anhyfryd a chymylog. Erbyn hyn, yr oedd ar y gwr da o Edeyrn gywilydd o hono ei hun; a phan y daeth i lawr o'r pulpud, cydnabyddodd ei fod ar fai. O'r pryd hwnw allan, yr oedd Mr. Jones yn coleddu y meddyliau uchaf am Mr. Elias; a dywedai y byddai iddo ddyfod yn bregethwr enwog a defnyddiol. Dangosodd iddo ar ol hyn bob tiriondeb a chyfeillgarwch. Daioni yr Arglwydd yn unig a roddodd i Elias yr oruchafiaeth hon, fel llawer o'i blaen ac ar ei hol—"Arhôdd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwylaw a gryfhasant trwy ddwylaw grymus Dduw Iacob."

Yr oedd enwogrwydd Elias fel pregethwr yr efengyl yn dyfod yn fwy hysbys a chyhoeddus yn barhaus. Yr oedd pob parth o'r wlad yn galw am ei wasanaeth; a rhoddid ef yn fuan i bregethu yn yr oedfaon mwyaf cyhoeddus yn y cymmanfoedd chwarterol. Mynych iawn y byddai y nerthoedd oddi uchod yn cydfyned â'i bregethau; ac yr oedd llaweroedd yn cael eu troi at yr Arglwydd drwy ei genadwri danllyd ac effeithiol.

Yn nechreu y flwyddyn 1799, trefnodd Rhagluniaeth iddo symmud o sir Gaernarfon i sir Fôn; ac, eb efe, "er ei bod yn ofidus iawn i mi ymadael â'm cyfeillion, cawsom wneyd hyny mewn cariad a thangnefedd." Ar yr 22ain o Chwefror, yr un flwyddyn, priododd Elizabeth, merch hynaf Mr. Richard Broadhead, Tre'r gof, Llanbadrig, Mon. Yr oedd hi y pryd hwn yn byw ac yn cadw siop yn Llanfechell. Ymsymmudodd yntau o sir Gaernarfon, fel yr awgrymwyd, a daeth i fyw at ei wraig i Lanfechell, lle y bu yn preswylio am un mlynedd ar ddeg ar hugain; sef, hyd yn mhen o ddeutu dwy flynedd ar ol marwolaeth ei wraig. Yr oedd tad Mrs. Elias yn dirfeddiannydd lled helaeth, er nad cyfoethog iawn; a sorodd yn chwerw wrthi am gryn amser o blegid priodi John Elias; a meddyliodd am dori yr holl etifeddiaeth oddi wrthi. O herwydd hyn ni roddai ddim cynnorthwy i'w ferch yn ei sefyllfa, os oedd yn alluog i wneuthur hyny. Pa fodd bynag, gwelodd yr hen Broadhead, cyn marw, fod John Elias yn ŵr boneddig yn mhob ystyr o'r gair, ond ei gyfoeth: ac yn ei ewyllys ddiweddaf, rhoddodd ei rhan o'r etifeddiaeth iddi, fel ei chwiorydd ereill—pump o nifer, hyd yr ydys yn cofio. Ar ei thir hi yr adeiladwyd capel eang a destlus Bethesda, Cemmaes, yn mhlwyf Llanbadrig.

Ganwyd iddynt bedwar o blant. Bu y ddau ieuangaf feirw yn fabanod; ond y mae y ddau hynaf—Phœbe a John—yn fyw eto, ac mewn cyssylltiad cynhes âg achos yr Arglwydd. Dewiswyd Mr. Elias ieuangaf yn flaenor pan yn bur ieuanc, yn nghapel Bethlehem (Y Gareg Lefn), tua milltir a hanner o Lanfechell—y capel nesaf i'w anneddle y pryd hwnw. Parodd ei ddewisiad bore i'r swydd bwysig bryder meddwl nid bychan i'w dad a'i fam dduwiol; a llawer gweddi daer a gydoffrymwyd ar ei ran, heb law y cynghorion dwys-bryderus a roddid iddo ganddynt

Digitized by Google

adrodd hanner yr hyn a ddywedir am Mr. Elias yn yr ystyr yma.

Pan aeth efe i Fôn, nid oedd ond ychydig o gapelydd yn y wlad, a rhai o honynt yn fychain ac yn bur anghyfleus. Nid oedd nifer y gwrandawyr yn lluosog, ond ar achlysuron neillduol, ac mewn ychydig o fanau penodol; a bychain oedd y cymdeithasau eglwysig yn gyffredinol. Bu mynediad Elias i'r wlad yn fendithiol iawn i'r achos yn mhob cŵr o honi. Byddai galwad mynych iawn arno i bregethu, nid yn unig ar y Sabbathau, ond ar nosweithiau yr wythnos, mewn tai annedd. Pregethai allan hefyd yn fynych, ar lethr y mynydd, ar lan y môr, neu ochr y ffordd. Bu hyn yn foddion arbenig i ddenu y bobl i leoedd o addoliad; a diau yr achubwyd llawer yn y cyfryw oedfaon. Deuai mwy i wrandaw arno ef i bregethu nag ar neb, cartrefol na dyeithrol: byddai yr holl gymmydogaeth, a lluoedd o'r cymmydogaethau amgylchynol, yn dyfod ar ei ol i ba le bynag y byddai yn pregethu; ac yr oedd y Methodistiaid trwy hyn wedi dyfod i sylw pobl fwyaf y wlad. Daeth sir Fôn, trwy ei offerynoliaeth ef yn benaf, yn wlad hollol wahanol i'r hyn oedd cyn ei fynediad ef yno. Llanwyd y wlad âg efengyl Crist, ymlidiwyd llawer o weithredoedd y tywyllwch ymaith, a daeth Môn ar y blaen yn mysg siroedd Cymru, nid yn unig mewn Methodistiaeth, ond mewn ymdrechion Cristionogol yn gyffredinol.

Yr oedd Mr. Elias yn hynod am gymhwyso ei bregethau a'i holl ddylanwad at amgylchiadau ei amser a'i wlad, pa un bynag ai er dyrchafu rhinweddau, ai darostwng ac ymlid ymaith bechodau a hen arferion llygredig. Yn fuan ar ol ei fynediad i Fôn, cafwyd amryw gynhauafau gwlybion iawn olynol, fel yr aeth yr ymborth yn brin, drud, ac afiach; yr hyn fu yn achlysur o ddyrchafiad rhwysgfawr i rai, a darostyngiad i ereill, hyd gyfyngder ac eisieu mawr, yn enwedig y gweithwyr. Yn ngwyneb hyn, ymroddodd Mr. Elias â'i holl egni i bregethu yn erbyn cybydddod, ac o blaid haelioni ac elusengarwch; a llwyddodd i gael ymwared i luaws oedd ar ddarfod am danynt, amryw o ba rai sydd yn fyw eto, ac a gofiant am ei ymdrechion a'i lwyddiant gyda diolchgarwch.

Pan yr aeth efe i Fôn, yr oedd amryw o hen arferion llygredig yn dra uchel eu penau yno; megys cynnal gŵyl mabsantau ar y Sabbathau, cicio pêl droed, malu yn y melinau gwynt ar y Sabbathau, ymladd ceiliogod, chwareu *interludes*, &c. Yr oedd amryw bersonau yn nghymmydogaeth Llanrhyddlad (lle yr oedd efe yn aelod yn ystod ei holl arosiad yn Llanfechell), wedi dysgu *interlude;* a bwriadent ei chwareu ar esgynlawr cyhoeddus ar ddydd Llun y Pasc, 1801. Clywodd Mr. Elias am eu bwriad; a'r Sabbath hwnw, pregethodd yn erbyn yr arfer annuwiol gyda'r fath nerth, oddi ar ail adeiladu Iericho (*Ios.* vi. 26), nes yr oedd yr holl gynnulleidfa mewn braw a dychryn dirfawr. Aeth y rhai oedd wedi dysgu yr *interlude* adref ar frys; llosgasant eu llyfrau; ac ni bu son byth mwy am gynnal y chwareyddiaeth hwnw yn y gymmydogaeth. Cafodd yr un bregeth effaith gyffelyb, yn erbyn yr un llygredigaeth a fwriedid ei gynnal yn Mhentir, ger llaw Bangor, yn sir Gaernarfon, o gylch yr un amser. Bu Mr. Elias hefyd yn foddion effeithiol i ymlid y gwylmabsantau a gynnelid ar y Sabbathau, yn llwyr allan o'r wlad. Y mae rhai sydd yn fyw eto, a allant dystio na rusai efe fyned i ganol y cyfryw gynnulliadau i bregethu, ac i hyny lwyddo i chwalu y tyrfaoedd a fyddai wedi ymgynnull yn nghyd, ac i roddi terfyn ar yr arferiad rhag llaw. Gwnaeth ymdrechion mawrion a lled lwyddiannus yn erbyn dull llygredig ieuenctyd yr ynys o rag gyfeillachu, ac yn erbyn y cynnulliadau meddwol, halogedig, a elwid neithiorau a phriodasau gwahodd; a llwyr ymlidiodd hwy ymaith o fysg y Trefnyddion Calvinaidd yn y wlad; a gwelodd lwyr ddiddymiad malu ar y Sabbath yn holl felinau gwynt Ynys Môn.

Er mwyn ceisio ennill y rhai tywyllaf a gwylltaf, y rhai nad elent i un lle o addoliad, i wrandaw yr efengyl, byddai yn llefaru yn fynych yn yr heolydd, yn y meusydd, ac ar y ffyrdd, yn mhob parth o Gymru. Bu mewn cryn berygl rai gweithiau: ond yr oedd uwch law ofn dyn. Pan yr oedd yn pregethu unwaith ar yr heol yn nhref Fflint, bwriadodd rhyw erlidwyr yn y lle ollwng tarw gwyllt i ganol y gynnulleidfa: ond siomwyd hwy yn eu hamcan gwallgofus; canys syrthiodd yr anifail i lawr, a thorodd ei glun. Yn Rhuddlan, mewn ffair fyddai yno ar y Sabbath yn amser cynauaf nerthodd yr Arglwydd ef i sefyll yn erbyn yr arferiad llygredig, a rhoddodd iddo lwyr oruchafiaeth arno. Yr oedd y ffair hono yn hen arfer gwlad; a byddai cannoedd, os nad miloedd, yn cyrchu iddi o bob parth o'r wlad o amgylch. Gwerthid pladuriau, crymanau, cribiniau, a phethau ereill at y cynauaf, ar ddydd yr Arglwydd; a byddai amaethwyr yn cyflogi medelwyr ar yr un pryd. Safodd Elias ar risiau y Gwestty Newydd yn y dref hono, a dechreuodd yr oedfa yn nghanol sŵn telynau a chrythau, ac yn cael ei amgylchynu gan ddynion yn dwyn pladuriau, a chrymanau, a phigffyrch, a chribiniau ar eu breichiau a'u hysgwyddau. Yr oedd ei weddi yn daer a chynhyrfiol, a'r dagrau yn llifo ar hyd ei ruddiau; ac yr oedd y rhai gwylltaf oedd yn y lle yn dechreu cael eu sobri. Ei destyn oedd *Exod.* xxxiv. 21; "Chwe diwrnod y gweithi; ac ar y seithfed dydd y gorphwysi: yn amser aredig, ac yn y cynauaf y gorphwysi." Yr oedd ei sylwadau eglur, pwysig, a nerthol, perthynol i amgylchiad ei wrandawyr, yn disgyn fel tân byw i'w cydwybodau fel halogwyr y Sabbath. Ymddangosai y bobl fel rhai euog o'i flaen; a gwelid y crymanau a'r pladuriau yn cael eu cuddio yn brysur o'r golwg. Cafodd y ffair bechadurus hon ergyd marwol y tro yma, a chafodd yr arfer annuwiol ei dileu. Dywedir hefyd ddarfod i lawer gael eu gwir ddychwelyd at Dduw trwy y bregeth ryfeddol hono. Dychrynodd un dyn gymmaint wrth wrandaw y pethau cyffrous a ddywedid gan y pregethwr am ddrygioni halogwyr Sabbathau, fel y dychymygodd, wrth fyned adref, fod ei fraich, ar ba un yr oedd y cryman yn gorwedd, wedi gwywo: syrthiodd y cryman, o gaulyniad, i lawr; ac ni chymmerasai lawer am ei godi, rhag ofn i'r fraich arall wywo hefyd. Collodd ei gryman, ond cafodd ei ddwy fraich yn iach; a mwy na'r cyfan, yr oedd yn greadur newydd byth ar ol y bregeth hono. Cymmerodd yr amgylchiad yma le yn nghynauaf y flwyddyn 1802.

Yr oedd poblogrwydd a dylanwad Mr. Elias yn cynnyddu yn gyflym a pharhaus gyda'r cyfundeb y perthynai iddo; a deuwyd i edrych arno yn fuan, o blegid ei ddoniau, ei dalentau, a'i weithgarwch, fel y penaf o'r cawri oedd yn mysg y Methodistiaid y dyddiau hyny. Bu yr hybarch Charles o'r Bala, fel tad yn yr efengyl, yn noddwr da iawn iddo: parchai ef ei hun, a gwnai i

Digitized by Google

ereill ei barchu fel gweinidog cymhwys y Testament Newydd: dygai ef yn mlaen yn y cynnadleddau neillduol yn y cymmanfaoedd; ac, yn y modd mwyaf serchiadol a ffyddlawn, rhoddai gyfarwyddiadau a chynghorion addas iddo, fel un oedd yn debyg o lanw lle pwysig yn ei oes.

Yr oedd yr erlid mawr a fu ar yr hen Fethodistiaid bron wedi llwyr lonyddu cyn iddo ef ddechreu pregethu; pe amgen, diau y cawsai efe gyfran helaeth o hono. Pa fodd bynag, cafodd brofi ychydig o'i olion, trwy i ddau ynad heddwch ei aflonyddu, pan yn pregethu ar yr heolydd; un yn Llanfair Caereinion, a'r llall yn Llanidloes. Ond er eu bygythion, ni chafodd ddim niwed oddi wrthynt; gollyngasant ef yn rhydd heb na charchar na dirwy. Yr oedd ar derfynu ei bregeth yn Llanidloes, pan y daeth yr ynad heddwch i'r bedrolfen lle yr ydoedd, ac y cymmerodd afael yn ei fraich, gan erchi iddo beidio pregethu, a myned gydag ef. Gofynodd Elias am ei awdurdod. Pan ddeallodd ei fod yn heddynad, dywedodd yr ufuddhäai efe iddo; ond erfyniodd am ganiatad i derfynu y gwasanaeth yn gyntaf trwy weddi a mawl, yr hyn a ganiatawyd iddo. Yr oedd y gŵr wedi arafu yn fawr erbyn darfod yr oedfa, a dywedodd wrth Elias fod yn ddrwg ganddo ef ddarfod iddo ei rwystro, ond mai ei berswadio a gafodd i wneuthur hyny gan ereill.

Cyfarfu Mr. Elias âg aml berygl ac anghyfleusdra yn ystod ei deithiau meithion a mynych i bregethu yr efengyl; ond cuddiodd ei Arglwydd ef yn nghysgod ei law yn rhyfedd ynddynt oll. Pan oedd unwaith yn croesi afon Menai, o Fôn i Gaernarfon, dymunodd ar y cychwyr, wrth gychwyn, beidio codi yr hwyl, rhag dychryn ei geffyl, a rhoddi eu bywydau mewn enbydrwydd. Ond wedi iddynt fyned gryn ffordd oddi wrth y tir, codi yr hwyl a wnaethant; brawychodd yr anifail, a neidiodd i'r môr, gan wthio Mr. Elias o'i flaen i'r dwfr. Neidiodd un o'r cychwyr ar ei ol yn y fan; ond yr oedd Elias wedi dyfod i'r wyneb, ac yn nofio yn esmwyth ar ei gefn; a dygwyd ef yn ebrwydd i'r cwch. Teimlai y dòn, medd yr adroddydd, fel gobenydd dan ei ben. Dywedir iddo bregethu yn Nghaernarfon yn hynod o effeithiol y noson hono.

Yr oedd ganddo afon i'w chroesi wrth fyned i bregethu i le arall yn sir Gaernarfon, ger llaw Cricerth: yr oedd y dwfr yn uchel ar y pryd, ac nid oedd ei anifail yntau ond bychan ac eiddil; ac wrth geisio myned trwodd, cariwyd ef oddi ar y ceffyl gan y ffrwd; ond wrth gael ei gludo ymaith gyda'r llif, cafodd afael mewn helyg oedd ar fin yr afon, a daeth i'r lan yn ddiogel.

Yn nghymmanfa y Bala, a gynnaliwyd Mehefin, 1811, ordeiniwyd Mr. Elias yn mysg y rhai cyntaf a neillduwyd yn nghymmundeb y Methodistiaid Calvinaidd Cymreig, i weinyddu y sacramentau. Yr oedd yr eglwysi yn awr yn dra lluosog, ac yn amlhau yn barhaus; am hyny, yr oedd yr ychydig weinidogion o'r Eglwys Sefydledig a weinyddent yn y cyfundeb yn annigonol i wasanaethu y cynnulleidfaoedd gyda dim cysondeb: o blegid hyn, yr oedd yn angenrheidiol i nifer o'r pregethwyr gael eu neillduo i weinyddu yr ordinhadau. Yr oedd y gweinidogion o Eglwys Loegr, a rhai ereill, ar y dechreu, yn dra anfoddlawn i hyn gael ei wneuthur; ond dadleuai Mr. Elias a Mr. Jones o Ddinbych, yn y gogledd, a Mr. Ebenezer Morris, yn y Deheudir, yn wrol dros yr eglwysi; a thueddwyd Mr. Charles, o'r diwedd, i ffurfio cynllun i ddwyn y peth oddi amgylch, yr hyn a gymmeradwywyd gan gymmanfaoedd y gogledd a'r de. Ymadawodd rhai o'r offeiriaid â'r cyfundeb o blegid yr ysgogiad; er hyny, bu y trefniad hwn yn foddion i sefydlu heddwch, a pheri adeiladaeth mawr i'r eglwysi yn gyffredinol.

Byddai Mr. Elias yn yr holl gymmanfaoedd yn y gogledd, ac yn myned i'r deheudir unwaith bob dwy flynedd, ac i Lundain y flwyddyn arall. Ar ol marwolaeth Mr. Charles, yn Hydref 1814, disgynodd y flaenoriaeth yn y cymmanfaoedd chwarterol yn Ngwynedd yn naturiol ar Elias. Gwelid yn amlwg yn nghyfarfodydd dirgel y cyfarfodydd hyny ei fod ef yn ŵr o feddwl cyflym a chyflawn ryfeddol: gosodai bob mater i lawr yn y modd mwyaf eglur a chynnwysfawr; ac yr oedd ei holl eiriau fel hoelion wedi eu sicrhau gan feistr y gynnulleidfa.

Yn nechreu Ebrill, 1828, cafodd ergyd chwerw iawn i'w deimladau trwy farwolaeth ei anwyl wraig, ar ol cydfyw yn gysurus dros naw mlynedd ar ugain. Effeithiodd yr amgylchiad yma mor ddwys arno, nes achosi iselder ysbryd peryglus arno; ac annogodd y meddyg a'i gyfeillion ef i fyned i gymmanfaoedd Llanidloes, Aberystwyth, Liverpool, Manchester, a'r Bala, gan bregethu ar hyd y wlad yn y cyfamser. Gwnaeth hyn lesad mawr iddo.

Yn fuan ar ol hyn, rhoddodd y fasnach i fyny i'w blant, fel y gallai gyssegru y gweddill o'i oes yn llwyr i wasanaeth yr Arglwydd. Yn mis Chwefror, 1830, priododd yr arglwyddes Bulkeley, gweddw Syr John Bulkeley, Barwnig, o Bresaddfed, ger llaw Bodedern, Môn. Aethant i fyw i'r Fron, ger llaw Llangefni, lle y buont hyd ei farwolaeth ef.

Cafodd ardal Llanfechell a'r amgylchynoedd, ac yn enwedig hen eglwys y Methodistiaid yn Llanrhyddlad, lle yr oedd efe wedi bod yn aelod dros un mlynedd ar ddeg ar ugain, golled ddirfawr, anadferadwy, yn symmudiad Mr. Elias o'u plith; ac yr ydym yn gwybod fod hiraeth dwys am dano yn mysg yr hen aelodau yno, sydd yn ei gofio, hyd y dydd hwn. Y gwir ydyw, fod Mr. Elias yn llawn mor hynod yn y gymdeithas eglwysig ag ydoedd yn y pulpud; ac nid ydym yn cael fod neb o'i fywgraffwyr wedi sylwi yn briodol ar y rhinwedd uchel yma oedd ynddo. Y ddwy brif elfen fawr oedd yn ei lywodraethu ef yn y *society*, fel yn y pulpud, oedd tynerwch ac awdurdod: yr olaf, yn sicr, oedd y gryfaf yn ei natur oruchel ef. Rhoddwn ddwy esampl i egluro hyn, o luaws a allem nodi, yn ystod y pymtheng mlynedd y cawsom yr anrhydedd o fod yn perthyn i'r un eglwys ag ef.

Ei gynllun yn yr eglwys oedd, gadael arweiniad y cyfarfod yn nwylaw yr henuriaid, y rhai, bron bob amser, a'i galwent ef i ddechreu, am nas gallai efe fod yno ond lled anaml o blegid ei deithiau mynych a hirfeithion, heb son am alwadau aml a fyddai am dano i eglwysi ereill; ond credwn na chollodd gymdeithas eglwysig braidd erioed, yn ei gapel ei hun, os byddai gartref, er fod y capel hwnw lawn dair milltir oddi wrth ei anneddle. Yn gyffredin, byddai yr holl eglwys yn gwybod pa bryd y byddai John Elias yn bresennol; a gwyddom na byddai "ewin yn ol" o'r gymdeithas hono (tua 190 o aelodau, yn nghanol y wlad), oddigerth amgylchiadau anorfod; a byddai pawb yno ychydig cyn y dechreu, rhag ofn colli gair o ddarlleniad y bennod a'r weddi annysgrifiadwy a offrymid ar y dechreu; canys yr oedd ei ddarlleniad a'i weddi ef, a hyd

yn oed adroddiad yr emyn, yn llawn mor hynod ac effeithiol a'i bregethau, heb son am ei ymddyddanion yn yr eglwys. Y mae yn wir y byddai weithiau yn fwy na hyd yn oed John Elias; a byddai ambell dro (pur anfynych) ychydig yn llai. Yr oedd, y tro y cyfeiriwn ato, yn fwy nag ef ei hun:—nis gallwn ddywedyd chwaneg. Yr oedd yr holl aelodau yn nghyd; ac yr oedd y dystawrwydd, pan y cymmerodd y Beibl o law yr henadur, gyda pharch nas gellir byth ei ddarlunio—yr oedd y dystawrwydd yn ddwfn—yn ofnadwy felly. Yr oeddym yn credu fod "ei wyneb yn dysgleirio." Darllenodd y bummed bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid; a'r fath ddarlleniad ydoedd! Yna adroddiad y pennill:—

"Dyma babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed."

Ofer fyddai ceisio darlunio yr effaith. Ond y weddi—y weddi hono! Yr oedd y difrifwch yn ddwfn gyssegredig, yr hyawdledd yn seraphaidd, a'r effeithiau yn wir nefol; yr ocheneidiau dwysion — cynnyrch ofn a llawenydd duwiol — yn gweithio eu ffordd yn naturiol o bob enaid dyn oedd yn bresennol: yr amenau cynhes, a'r diolchiadau egniol: yr oedd ei "athrawiaeth yn defnynu fel gwlaw: ei ymadrodd yn diferu fel gwlith; fel gwlithwlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt." Ni theimlodd un gynnulleidfa erioed ar y ddaiar rym yr adnod ganlynol yn fwy sylweddol na'r tro hwnw—"Mor ofnadwy yw y lle hwn! nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth y nefoedd!" *Gen.* xxviii. 17.

Wedi i'r "hen flaenor," J. J.—hysbys trwy holl sir Fôn, a llawer parth arall o Gymru, am ei ddifrifwch a'i dduwioldeb — ddywedyd gair yn fyr ac i'r pwrpas, fel agoriad (yr oedd teimlad yr hen ŵr, ar y pryd, yn rhy ddwys, heb law ei fod yntau yn rhy gall, i helaethu), galwodd ar Mr. Elias i roddi anerchiad i'r eglwys, ac i ymddyddan â'r cyfeillion:—a'r fath anerchiad ac ymddyddan, nis clywsom gan neb arall.

Ei ddull o ymddyddan yn yr eglwys oedd cymmeryd gafael yn yr adnod a adroddid gan berson fel sail profiad: ar ol i'r adroddwr ddyweyd ei syniad arni, a'i hegluro yn drwyadl, yn ol ei holl gyssylltiadau a'i hystyr, mor oleu a syml, fel y byddai y gwanaf ei ddeall yn yr eglwys yn synu na buasai wedi ei gweled yr un fath o'r blaen; ac yn lled gyffredin, byddai yn ei hegluro yn mhellach â rhyw hanesyn tarawiadol. Yr adnod a adroddwyd yn y gymdeithas dan sylw oedd y ganlynol, o'r bennod a ddarllenwyd ar y dechreu:—"Canys Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol."

Wedi egluro yr adnod, fel arferol, a'r olwg arno yn wir seraphaidd, dywedodd fod gŵr a gwraig ieuanc—boneddigion mawrion—yn Italy unwaith, wedi cael eu cymmeryd i fyny, a'u carcharu yn Rhufain, yn bur bell o'u cartref, am deyrnfradwriaeth. Ar ddydd y prawf ofnadwy, gollyngwyd y boneddwr yn rhydd; ond dedfrydwyd y foneddiges ieuanc, gyfoethog, brydferth, i'w dienyddio! Pan glywodd y boneddwr ieuanc hyn, cyfododd ar ei draed, fel gwron tywysogaidd, ac anerchodd y llys yn y fath fodd, nes yr oedd pob calon yn teimlo i'r byw dros ei foneddiges angylaidd; yna trodd at yr ymherawdwr, ac erfyniodd gael myned i'r dienyddle yn ei lle—mai yr unig ffafr a ofynai oedd ei hanfon hi adref yn ddiogel at ei theulu. Derbyniodd yr ymherawdwr y cynnyg; ond cododd y llys eu llef, fel taran, am gael rhyddhau y ddau; â'r hyn hefyd y cydsyniodd yntau yn llawen, o blegid ffyddlondeb digymhar y priodasfab. Fel yr oedd y ddau yn ymdeithio, fraich yn mraich, o'r llys, a thrwy ystrydoedd godidog Rhufain, a'r foneddiges â'i phen i lawr, yn ocheneidio yn ddwys a thrwmlwythog, dywedodd y boneddwr ieuanc wrthi—"Dyrchefwch eich pen, fy anwylyd; a syllwch ar yr adeiladau ysblenydd hyn, na welsoch o'r blaen." Ar hyn, cyfododd y foneddiges ei llygaid, oedd yn nofio mewn dagrau, a syllodd ar ei wedd gan ddywedyd, "O! fy anwylyd! ni wêl y llygaid hyn neb na dim heddyw, ond y gŵr a *gynnygiodd ei fywyd drosof!*" Erbyn hyn, yr oedd pob llygad yn yr eglwys yn llifo drosodd, fel eiddo y foneddiges ei hunan, a phob mynwes ar ymdori, wrth ddal eu hanadl; pan y dyrchafodd Elias yn ddisymmwth ei lais fel udgorn, ac y dywedodd—"Nid *cynnyg* ei fywyd a wnaeth yr Arglwydd Iesu dros ei eglwys; ond, 'Crist, pan oeddym ni eto yn weiniaid, *mewn pryd, a fu farw dros yr annuwiol!*'"

Dyna ddigon! Neidiodd ugeiniau ar eu traed, gyda llef gorfoledd a diolch—cwbl annysgrifiadwy: eisteddodd yntau i lawr mewn perlewyg nefolaidd; a'r olwg arno yn llawn mor annysgrifiadwy a'r olygfa o'i amgylch. Parhaodd y gymdeithas o un o'r gloch prydnawn, hyd chwarter wedi pedwar (pryd y darfyddai yn gyffredin dri o'r gloch); ac oni buasai iddo ef gyfodi y pryd hwnw, wedi i'r tymmerau leddfu ychydig, trwy ddywedyd, *yn ei ddull ei hun*, mai yn y byd yr oeddym hyd yn hyn, ond y daw amser na bydd raid ymadael mwy, gan derfynu, yn fyr, trwy weddi briodol ar y fath amgylchiad rhyfeddol, am a wyddys nad yno yr arosasai yr eglwys "hyd hanner nos," a "hyd doriad y dydd," fel gyda Phaul gynt yn Troas.

Dyna ddarlun eiddil, anmherffaith, o ddull efengylaidd Elias o Fôn yn "cadw seiat"—ei ddull hoff arferol, er nad bob amser mor hynod a'r tro yna. Rhoddwn un esampl eto, fel y crybwyllwyd, o'i ddull awdurdodol o ddysgyblu.

Yr oedd mewn eglwys fawr, flodeuog, yn nghanol sir Fôn, dri o aelodau mwy dysgedig, gwybodus, a hunanol, na'r cyffredin o'u cydaelodau; ac yr oeddynt o duedd pur goegaidd a therfysglyd, ac yn peri blinder nid bychan i'r eglwys hono. Nid oeddynt foddlawn ar drefn yr eglwys, na dim a berthynai iddi; er hyny, nid ymadawent o honi, ac ni fyddent lonydd. Daeth yr eglwys o'r diwedd i benderfyniad i alw Mr. Elias yno, i geisio eu dwyn i drefn. Yr oedd y tri yn gwybod hyn; a chytunasant i ddadleu âg ef, a'i guro ar ymresymu! Er mwyn bod yn gyfleus, safasant yn lled agos i'w gilydd, gyferbyn a'r lle y gwyddent y safai Elias. Yr oeddym yn dygwydd bod yn y gymmydogaeth ar y pryd yn llettya dros nos; a phan ddeallasom fod Elias yno yn cadw seiat, heb wybod yr achos, prysurasom i'r capel; canys yr oedd colli cyfeillach eglwysig lle y byddai ef yn llawn gyfartal i golli un o'i bregethau. Yr oedd ar ganol gweddïo pan aethom i mewn. Er fod y weddi yn daer, yn ddifrifol, ac yn dra gostyngedig, eto, yr oeddym yn teimlo fod ynddi ryw fath o lymder annysgrifiadwy, a greai arswyd arnom, heb wybod pa ham: yr oedd ynddi gyfeiriadau mynych at rai yn "chwennych y blaen;" "un ac ail rybudd;" "synied yr un peth;" "tynu oddi wrth rai yn rhodio yn afreolus," ac ymadroddion cyffelyb. Ar ol terfynu y weddi bwysig, yr oedd dystawrwydd dyfnddwys, yn ymylu ar fod yn boenus, yn teyrnasu dros yr holl gynnulleidfa fawr, dros

Digitized by Google

300 o aelodau. Galwyd ar Mr. Elias i gyfarch yr eglwys; rhoddodd anerchiad lled faith, ar ddysgyblaeth eglwysig—yr angenrheidrwydd iddi fod yn bur, yn onest, ac yn benderfynol. Yna anerchodd y troseddwyr (y rhai a adwaenai yn dda), yn barchus, yn llariaidd, ac yn ddeniadol, ond yn wir fawreddus, awdurdodol, ac mewn cwbl hunanfeddiant. Dywedodd lawer am y ddyledswydd o gyssegru pob dysg, dawn, a dylanwad, at wasanaeth crefydd; am yr angen o edifeirwch, ffydd, a chariad; ac yn neillduol gostyngeiddrwydd, hunanymwadiad, a meddwl ein gilydd yn well na ni ein hunain. Ar hyn, galwodd un o'r tri—yr hyfaf—arno at y pwnc! Aeth cwmwl dros wynebpryd mawreddog Elias: saethodd tân o'i lygaid, nes yr oedd arswyd yn ymdaenu dros yr holl gynnulleidfa; ond ni chollodd ddim o'i hunanfeddiant. Newidiodd ei wedd eto mewn mynyd, a gofynodd yn ddigon llariaidd, ond mawreddog a phenderfynol, beth oedd ganddynt i'w ddywedyd. Dechreuodd un o honynt ymddadleu âg ef: atebodd yntau yn bwyllog a meistrolgar; ond cyn iddo ef orphen ateb hwnw, cymmerodd yr ail ef mewn llaw; a phan yr oedd Elias yn dechreu ateb hwnw, torodd y trydydd ar ei draws. Tawodd Elias yn fawreddog, fel mewn synfyfyrdod difrifol: canfu y ddichell, a deallodd mai ei faglu, ei ddyrysu, a'i yru ef o'i dymmer oedd yr amcan, ac nid gwellhau y clwyf; ond, methasant eu nod: yr oedd efe yn eu deall hwy yn well nag yr oeddynt hwy yn ei ddeall ef. Wedi i'r olaf dewi, ni chynnygiodd efe ei ateb; ond dywedodd yn bwyllog, a chwbl hunanfeddiannol, os oedd gan y lleill rywbeth chwaneg, am iddynt fyned yn mlaen—ac eisteddodd yntau i lawr. Tarawyd hwy â syndod: yr oedd yn amlwg eu bod wedi colli eu hamcan; ac ni ddywedasant air. Ar ol mynyd neu ddau o ddystawrwydd, cyfododd Elias ar ei draed, fel tywysog, â gwir fawredd yn eistedd ar ei wedd, â'i lygaid yn tanio, a dywedodd mewn llais uchel, penderfynol, ac awdurdodol, fod yn amlwg i'r holl eglwys mai amcan y dynion hyn oedd codi terfysg, ac nid cymmodi â'u brodyr; a bod gair Duw yn gorchymyn tynu oddi wrth y cyfryw rai; ac archodd gydag awdurdod ar i bawb oedd yn barnu mai hyny oedd dyledswydd yr eglwys wneyd arwydd trwy godi llaw. Yr oedd yr eglwys bron yn unfrydol. Yna, cyhoeddodd yntau eu diarddeliad gyda difrifwch ac awdurdod dychrynadwy; a dywedodd y gair canlynol gyda'r fath nerth, gan wneyd arwydd ar yr un pryd â'i law—"Ciliwch oddi wrth y dynion drygionus hyn!" nes yr oedd y bobl oedd o'u hamgylch yn chwalu oddi wrthynt, fel pe buasent ofn i'r llanerch y safai y troseddwyr arni eu llyncu; a gadawyd hwy yn hollol ar eu pen eu hunain. Yna llithrodd y tri allan yn ddystaw, "a chauwyd y drws!"

Er nad oedd gorchfygu i fod arno, pan yn gweithredu fel gwas Crist a'r eglwys; a bod ei awdurdod penderfynol yn ofnadwy i'r euog, anedifeiriol; eto, credir nas gall neb nodi un esampl o'i waith yn tra-arglwyddiaethu ar eglwys Dduw, yn groes i syniadau ei frodyr yn gyffredin. Yr oedd efe yn llym—yn llym ofnadwy—yn erbyn pechod, terfysg, ac aflywodraeth; ond pa bryd y profodd amser ei fod wedi myned dros derfynau priodol.

Nid oedd neb parotach na chymhwysach nag ef i galonogi y gwan, i gysuro yr ofnus, i helpu y gostyngedig, "i rwymo y rhai ysig eu calon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai oedd yn rhwym." Gallesid nodi ugeiniau o brofion a welodd ac a deimlodd llawer oedd yn preswylio yn ystod yr amser hwnw yn sir Fôn

Hwyrach y dywedir fod gan John Elias ei feiau a'i wendidau, fel dyn arall. Y mae yn ddiammheu fod; ond nid oedd neb ond "yr hwn y mae ei lygaid fel y fflam dân, yn cynniwair trwy yr holl ddaiar," yn adnabod llawer o honynt Ni wyddai ei deulu a'i gymmydogion ond ychydig am danynt. Dywedodd un o'r gwragedd duwiolaf a chraffaf yn sir Fôn wrthym, lawer gwaith, a fu yn ei deulu, fel y crybwyllwyd o'r blaen, am ugain mlynedd, a hyny yn yr amser mwyaf trafferthus arno, pan yn magu ei blant, na welodd hi neb cyffelyb iddo erioed:—na welodd ef gymmaint ag unwaith, yn ystod yr holl amser, wedi colli ei dymmer, ei ddifrifwch, a'i hunanlywodraeth. Yr oedd yn llawn cymmaint meistr arno ei hun, ag ydoedd ar ereill o'i amgylch. Yr oedd ei wraig gyntaf, er ei bod yn ddynes dduwiol iawn, yn bur sydyn o ran ei thymmer, ac yn dueddol weithiau i fyned yn rhy bell. Yr oedd gofal mawr y fasnach eang a'r holl fywoliaeth ar ei hysgwyddau hi, bron yn hollol, nes y tyfodd y plant i fyny; yr hyn oedd yn esgusawd da iddi dros fod dipyn yn brysur. Ond, pan fyddai hi fwyaf tanbaid, dygai difrifwch syml, gwên serchus, a "Betsan bach" ei phriod, hi i dymmer ddymunol mewn moment.

Y gwir yw, yr oedd duwioldeb pur a moesoldeb coethedig John Elias yn safon yn ngolwg pob dosbarth o wŷr Mon, fel yr oedd ei bregethu yn safon yn ngolwg Cymru. Edrychid arno felly gan bob dosbarth a sefyllfa a'i hadwaenai, ac yr oedd yn fwy adnabyddus yn y sir, cystal a thrwy holl Gymru, nag un dyn arall. Gellir dywedyd am dano yn ddibetrus, ddarfod iddo fod, yn ei deulu, yn ei gymmydogaeth, ac yn ei gyssylltiadau, fel y cynghorai Paul Timotheus i fod—"yn esampl i'r ffyddloniaid, mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb."

Ond rhaid diweddu: yn Mehefin 1832, cyfarfu Mr. Elias â damwain ofidus wrth fyned mewn cerbyd gyda J. Davies, Ysw., o'r Fronheulog, a boneddwr arall, i'r Bala, ar ddydd mawr y gymdeithasfa, lle yr oedd efe i bregethu am ddeg y bore. Aeth yr anifail yn aflywodraethus, a neidiodd Mr. Elias allan, gan syrthio ar ei ben, fel y gwna pawb wrth neidio o gerbyd pan yn rhuthro yn mlaen yn gyflym. Cludwyd ef i Fronheulog mewn cyflwr o ddideimladrwydd. Daeth meddyg yno yn ebrwydd, yr hwn a'i gwaedodd, ac a roddodd iddo gyfferiau priodol· adferwyd ef i deimlad yn fuan; ond bu heb ddyfod ato ei hun yn hollol am lawer o ddyddiau. Afraid dyweyd i'r ddamwain adfydus hon doi yr holl gymdeithasfa â thristwch dwys; a bod y gynnulleidfa fawr yn drallodus iawn o blegid yr anffawd chwerw a gyfarfu eu hoff bregethwr; a iddo gael y cydymdeimlad helaethaf gan bawb Yr oedd yn bwriadu pregethu yn y gymmanfa oddi ar *Ezec.* x. 13; "O olwyn!" Ond yn lle llefaru am droadau rhyfedd "*olwyn*" fawr Rhagluniaeth, yr oedd yn gorfod bod yn ddystaw dan ei gweithrediad anolrheinadwy. Attaliodd y ddamwain ofidus hon ef yn hir oddi wrth ei wasanaeth cyhoeddus; ac ni chafodd ymadael â'i heffeithiau yn llwyr hyd derfyn ei oes. Pa fodd bynag, cryfhaodd yn raddol fel y daeth i allu defnyddio ei bin i ysgrifenu yn araf. Erbyn dechreu 1833, yr oedd yn alluog drachefn i ymaflyd

Digitized by Google

yn ei weinidogaeth gyhoeddus, gyda'i ragoriaethau arferol, er nad gyda'r un nerth ac egni dirfawr ag o'r blaen; canys ni bu byth yn iach a chryf ar ol y tro hwn; a byddai yn ddarostyngedig i boenau mawrion ar amserau. Nid oedd ei lafur gyda'r weinidogaeth, hyd y caniatäai ei nerth, yn ddim llai; ac yr oedd ei boblogrwydd, o ran gwrandawyr, yn gyfartal hyd ddiwedd ei oes.

Y gymmanfa chwarterol olaf y bu ynddi a gynnelid yn Nolgellau, Hydref 21ain a'r 22ain, 1840. Pregethodd ar y maes oddi ar 1 *Ioan* iii. 10; "Yn hyn y mae yn amlwg, plant Duw a phlant diafol," &c. Yr oedd mor fywiog ac ymdrechgar ag erioed, fel yr oedd pawb yn dysgwyl y cawsid ei fwynhau am hir amser wedi hyny. Ond yr oedd ei waith ar derfynu, a'i Arglwydd ar anfon am dano i'r "digonolrwydd llawenydd sydd ger ei fron, a'r digrifwch sydd ar ei ddeheulaw yn dragywydd."

Tua diwedd 1840, ymaflodd poen yn ei droed, fel effaith anwyd. Ar y cyntaf, nid ydoedd yn teimlo llawer oddi wrtho; ond cynnyddu wnaeth nes rhoddi terfyn ar ei fywyd gwerthfawr a defnyddiol. Ymddengys fod Mr. Elias yn deall y genadwri hon ato yn well na neb arall. Yr oedd cyfaill iddo yn llettya yn ei dŷ, tua diwedd y flwyddyn hono, pan yr edrychai mor siriol a chyfeillgar ag erioed; ond wrth ei hebrwng am ychydig bore dranoeth, dywedodd wrtho—"Y mae rhywbeth ar fy nhroed er ys tipyn o amser. Wn i ddim—gall peth fel hyn fod yn angeu i mi." Dyna y tro diweddaf i'r cyfaill hwnw ffarwelio â John Elias.

Cryfhaodd yr anhwyldeb nes ei gaethiwo o'r diwedd i'w ystafell, lle y bu am gryn dri mis o amser. Byddai yn dyweyd yn fynych yn ystod y tymmor hwnw, fod ei lafur yn ngwinllan Crist wedi darfod: ei reswm dros feddwl felly ydoedd, nad oedd yn derbyn oddi wrth yr Arglwydd y pethau a arferai gael yn ystod ei lafur ar gyfer y weinidogaeth, er ei fod yn cael mwy o gysur iddo ei hun fel pechadur, wrth ddarllen y Beibl, nag a gawsai erioed. Pan y tracthodd cyfaill ei obaith wrtho, nad oedd yr anhwyldeb ar ei droed ond peth a giliai yn raddol ymaith: "Na:" medd yntau, "angeu sydd yma yn gweithio." Sylwai ei briod fod ei glywed yn dyweyd felly yn ddigalondid tost iddi hi. "O!" medd yntau, "dylem gydnabod fod tiriondeb yr Arglwydd yn fawr iawn tuag atom, yn anfon angeu i ddechreu gweithio yn y troed—y man pellaf o eisteddle y bywyd: lle y gallasai ei anfon i'r pen neu i'r galon rhag ei flaen, i beri marwolaeth ddisymmwth, gan ladd ar un ergyd. Ond fel hyn, dattodir y cwlwm sydd rhyngom â'n gilydd yn raddol, a dattodir finnau yn raddol oddi wrth y ddaiar. Mor drugarog ydyw! yn rhoddi rhybudd ac amser, trwy y byr ysgafn gystudd hwn, i barotoi y meddwl yn gyfaddas, i ddal tragwyddol bwys gogoniant!" Dyma John Elias, pan wyneb yn wyneb âg angeu! Sylwodd wrth gyfaill arall fod y boen yn ei droed yn dyrysu ei gwsg, ond y byddai yn rhyfedd ar amserau, yn nhrymder y nos. "Y bore heddyw," medd efe, "cefais ryw gof bywiog am rai o weision yr Arglwydd wedi bod â'u traed yn y cyffion: nid oes genyf fi ond un troed yn rhwym. Canfyddaf hefyd y bydd rhwymo traed a dwylaw ar y gwas anfuddiol, a'i daflu i'r tywyllwch eithaf; ond yr wyf yn meddwl na wna fy Nhad Nefol hyny â mi byth." Yr oedd un noswaith, pan mewn poen mawr, yn teimlo mor ddedwydd o ran ei feddwl fel y tybiodd ei fod yn y nefoedd. Pan yr anfonwyd gan frawd hoff iddo, er gwybod pa fodd yr oedd agwedd ei feddwl ar ddiwedd ei oes ar y ddaiar, dywedodd yntau—"Yr wyf wedi rhoddi fy nghorff a'm henaid yn ngofal y Gwaredwr Mawr er ys deng mlynedd a deugain: ac yno y maent eto." Bryd arall, dywedodd "Nid oes un cwmwl yn myned rhwng fy enaid a'm Duw: y mae y cysuron hyny yr arferwn eu mwynhau yn moddion gras, ac yn y weinidogaeth, yn dylifo eto i'm henaid: ïe, y maent weithiau yn gryfach ac yn fwy bywiog yn awr nag y buont erioed." Dywedodd wrth frodyr a ddaethent i ymweled âg ef y dydd Sadwrn olaf y bu fyw, na chawsai erioed noswaith mor boenus o ran ei gorff, na chysuron mor gryfion i'w ysbryd, ag a gawsai y noswaith flaenorol. Fel hyn, pan yr oedd ei gnawd a'i galon yn pallu, cafodd ei Dduw "yn nerth i'w galon ac yn rhan iddo yn dragywydd." Ei ddiwedd yn mhob ystyr oedd tangnefedd. Hunodd yn yr Iesu, heb ruddfaniad nac ochenaid, ddydd Mawrth, yr 8fed o Fehefin, 1841, yn 67 mlwydd oed. Ymdaenodd y newydd galarus fel tân gwyllt trwy Ogledd a Deheudir Cymru, ac yn mron trwy yr holl fyd Cristionogol, a miloedd o leisiau a syn adseinient —"John Elias wedi marw! Ai gwir?"

Traddododd y Parch. William Roberts, Amlwch, bregeth ragorol a phriodol i'r achlysur y noson o flaen ei gladdedigaeth oddi ar 2 *Bren.* ii. 11—14, yn nghapel Llangefni, i gynnulleidfa dra lluosog. Y bore canlynol, Mehefin 15fed, daeth tyrfa ddirfawr yn nghyd i hebrwng ei ran farwol i fynwent Llanfaes, o ddeutu pedair milltir ar ddeg o Langefni; canys yr oedd Mr. Elias wedi dymuno cael ei gladdu wrth ochr gweddillion ei gyfaill serchocaf, y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris. Am naw o'r gloch, dygwyd ei gorff allan i'r drws, a darllenodd y Parch. H. Griffith, periglor Llandrygarn, *Phil.* i. 18—24, 27; ac wedi gwneyd rhai sylwadau cyfaddas a difrifol, terfynodd trwy weddi. Yna, wedi dodi y corff yn yr elor-gerbyd ymffurfiwyd yn orymdaith: tri o barsoniaid, yn mlaenaf, a phedwar o feddygon yn nesaf atynt: yna, yr elor-gerbyd; cerbyd y teulu a'r perthynasau; pregethwyr, bob yn ddau, ar feirch; o ddeutu deugain o gerbydau; a chant a hanner, o leiaf, o wŷr ar feirch, bob yn ddau. Heb law hyn, yr oedd yr orymdaith yn cael ei blaenu gan dyrfa ddirfawr o feibion a merched ar draed, bob yn bedwar. Erbyn cyrhaedd Beaumaris, yr oedd y dorf wedi chwyddo yn orfawr, ac ymddangosai pawb yn y teimlad mwyaf difrifol. Yr oedd yr orymdaith yma tua milltir a hanner o hyd, yn cynnwys o ddeutu deng mil o bobl oll yn awyddus i dalu y deyrnged olaf o barch i goffadwriaeth un a hoffent mor fawr, ac a fu mor enwog a defnyddiol yn eu mysg. Wedi cyrhaedd eglwys Llanfaes, darllenwyd gwasanaeth y claddedigaeth gan y Parch. H. Griffith; yna dychwelodd y bobl i'w cartrefi, gan deimlo fel plant amddifaid wedi claddu eu tad. Traddodwyd pregeth angladdol y noson hono yn Beaumaris, gan y Parch. John Foulkes, Abergele (yn awr o Liverpool), oddi ar *Heb.* xiii. 7.

Yr oedd marwolaeth y gwas anrhydeddus hwn i Grist yn golled i Gymru ac i'r byd. Dywedodd cyfeisteddfod y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, yn eu hadroddiad blyneddol am 1842: —"Y mae mwy na theyrnged gyffredin o serchogrwydd a galar yn ddyledus i goffadwriaeth y Parch. J. Elias oddi wrth y Feibl Gymdeithas. Wedi marwolaeth yr hybarch Charles o'r Bala, yr oedd Elias, a llefaru yn ddynol, yn brif gynnalydd y gymdeithas, ac yn ddadleuwr diflino

Duw: mor felus, hyfryd, a gwerthfawr ydyw y gwirioneddau efengylaidd a bregethech yn awr! Dyma yr hen wirioneddau ardderchog; hwy a gynnaliant, a ddiwallant, ac a lawenychant ein heneidiau dros byth." Arferai y Parch Ebenezer Richards ddywedyd am Elias, gyda golwg ar ei ddyfodiad trwy sir Aberteifi, "Byddwn weithiau braidd yn ofni rhag clywed am ei ddyfodiad trwy y wlad, gan fod cymmaint o siarad yn nghylch hyny, a phawb yn dysgwyl am y cyfleusdra i'w bwyso, fel pe byddai, yn eu cloriannau. Byddwn yn ofni rhag iddo gael ei iselu yn eu golwg, ac na byddai iddo ateb y dysgwyliadau wrtho. Fel hyn, byddai braidd yn ddrwg genyf ei weled, a chanfod yr holl bobl yn dyfod i'w wrandaw. Ond wedi i'r naill ddyfod yn nghyd at y llall, byddai yn dda iawn genyf weled y ddwy blaid yno. Galluogid Elias i fyned yn mlaen i bregethu yr efengyl mewn goruchafiaeth: byddai pawb dan argraff ddofn, a rhai, gobeithir, dan argraff achubol: byddai hyd yn oed y rhai na fyddent wedi eu hargyhoeddi wedi eu synu yn ddirfawr. Erioed ni welais achos crefydd yn cael ei ddyrchafu gymmaint trwy bregethiad un dyn arall!"

Honir i Elias gan bron bawb, os nad gan bawb oedd yn gydnabyddus â'i weinidogaeth yn ei ddyddiau goreu, y lle uchaf a blaenaf fel pregethwr o un a fagodd Cymru o gwbl. Ac yr ydym ninnau yn tueddu yn gryf i feddwl nad ydym wrth roddi y cyfryw le iddo yn gwneuthur cam â neb o'r enwogion fu yn cynoesi neu yn cydoesi âg ef. Wrth ysgrifenu hyn, nid ydym yn anghofio y rhestr faith o gewri y pulpud a'r gymmanfa fawr sydd wedi ymddangos yn ngwahanol enwadau Cymru yn y can mlynedd diweddaf. Ond er mwyn cyflawnhau yr hyn a dybiwn ni yn gyflawnder â chymmeriad Elias fel pregethwr, y mae yn angenrheidiol gwneuthur gwahaniaeth neu ddau. Nid ydym yn meddwl mai efe oedd y *meddyliwr dyfnaf*, nac mai ganddo ef yr oedd y *dychymyg* cyflawnaf a chyfoethocaf. Yr oedd dynion o feddwl mwy treiddgar, megys Charles o Gaerfyrddin; yr oedd dynion o feddwl mwy hedegog a barddonol, megys Christmas Evans; a dynion o arabedd athronyddol, megys Williams y Wern—o'r hyn yr oedd Elias yn hollol amddifad. Nid ydym chwaith wedi bod heb anghraifft o bregethwr yn uno ynddo ei hun fwy o dreiddgarwch yr athronydd, a nerth creadigol y bardd, a chynnyrchion y ddau wedi eu cyd-doddi yn fynych i ffrwd o hyawdledd byw na chlywyd o enau Elias ei gyffelyb, sef John Jones, Talsarn. Y mae dynion hefyd wedi bod yn ein mysg yn meddu mwy o ddysgeidiaeth a gwybodaeth dduwinyddol a chyffredinol, megys Charles y Bala, a Thomas Jones, Dinbych. Eto, ni ddylai hyn fyned heb air o eglurhad. Y mae yn ammheus genym a all Cymru ddangos un anghraifft o ddyn mewn unrhyw oes wedi casglu cymmaint o wybodaeth gyffredinol a duwinyddol dan yr un anfanteision ag Elias. Yn yr ystyr hwn yr ydoedd yn hynod, ac yn un o'r esamplau dysgleiriaf o lwyddiant i'w gyfoethogi ei hun â thrysorau gwybodaeth. Yn ein barn ni, meddai y fantais yn mhell yn eangder ei wybodaeth ar ei holl gydoeswyr, oddi eithr yr ychydig a gafodd ddysgeidiaeth reolaidd o'u hieuenctyd i fyny—Charles y Bala, a Jones, Dinbych; ac hyd yn oed mewn duwinyddiaeth, hanesiaeth eglwysig, a gwybodaeth gyffredinol, ar y cyfryw, os nad oeddynt fel y ddau uchod yn dilyn i fyny eu manteision boreuol â llafur caled a chysson ar hyd eu hoes. Yr oedd Elias yn gosod ei wybodaeth eang dan dreth wastadol i amcan mawr ei fywyd. Nid oedd yn rhy wylaidd i gyfeirio at enwau, i fenthyca cymhariaethau, i ddefnyddio arferion a darganfyddiadau o bob cyfeiriad. Yr oedd aur ac arian, perlau a thlysau, yr Aiphtiaid, yn ysbail gyfreithlawn yn ei olwg ef at waith y tabernacl.

Ond er i ni wneuthur yr addefiad uchod yn ffafr rhyw dri neu bedwar o gydoeswyr Elias, nid ydyw hyny yn anghysson â'r lle yr ydym yn hawlio iddo fel prif bregethwr Cymru, fel y mae Whitfield yn brif bregethwr Lloegr. Fel prawf o hyn, nid rhaid i ni ond appelio at deimlad y miloedd fyddai yn ei wrandaw. Pwy bynag fyddai yn pregethu yn yr un gymmanfa ag ef, fel rheol gyffredin, John Elias a deimlid y prif bregethwr. Pan y mae dyn yn ymddangos am ddeng mlynedd ar ugain yn holl gynnulliadau mwyaf y genedl, lle y byddai prif dalent y genedl yn ymgasglu, eto yn cael ei deimlo fel yn meddu hawl i'r lle cyntaf—ac ni buasai y teimlad cyffredin yn caniatau i neb fyned o'i flaen, pe buasai rhyw un mor ryfygus ag anturio, yr hyn ni anturiasai neb —y mae yn rhaid i ddyn fel yna fod yn meddu ar y dalent flaenaf mewn gwlad lle y mae talent boblogaidd yn cymmeryd y flaenoriaeth ar bob rhyw arall o dalent. Fel pregethwr, ac nid fel cyfansoddwr pregethau, yr oedd y rhagoriaeth hwn yn perthyn iddo. Ynddo ef, y traddodwr, yr oedd y rhagoriaeth, yn hytrach nag yn y bregeth. Y prawf o hyn ydyw y somedigaeth a deimla y rhai a'i clywsant ef ei hun wrth ddarllen ei bregethau. Yn hyn eto y mae ei dynged yn gyffelyb i'r eiddo Whitfield. Y mae pregethau argraffedig y ddau yn anffafriol i barhad eu cymmeriad fel pregethwyr. Hwy eu hunain oedd yn anadlu enaid byw i'r hyn a deimlir ond cynnyrchion cyffredin yn eu gwedd argraffedig. Yr hyn a darawai wrandawr craff fel un o brif nodweddion gallu areithyddol Elias oedd cydfantoliad yr hunanfeddiant uwchaf a'r teimlad mwyaf angerddol. Y mae y ddau hyn yn fynych yn anghysson â'u gilydd. Teimlir fod y dyn yn rhy hunanfeddiannol i fod yn hyawdl, a phryd arall gwelir areithiwr gydag un gorlifiad o feddwl a theimlad yn cael ei ddyhysbyddu, neu ynte yn cael ei gario ymaith. Nid oes dim yn haeddu cael ei restru yn mhlith anghreifftiau o hyawdledd meistrolgar, dyrchafedig, yn y naill na'r llall. Ond am Elias, pan y byddai ei holl deimladau yn byrlymu allan trwy bob ysgogiad o'i gorff, pob ysgydwad o'i law, pob cyfeiriad o'i fys—pan fyddai ei eiriau yn pallu, ei ddagrau yn llifo, a'i holl agweddau a'i ystumiau yn arddangosiadau o'r ymweithiad ofnadwy oedd o'i fewn, ac yn arweinyddion yr elfen drydanol yr oedd efe ei hun wedi ei lwytho â hi—pan fyddai y gynnulleidfa yn foddfa wedi colli pob llywodraeth, yn ysgwyd fel coedwig dan ymruthriad y corwynt—eto yr oedd Elias fel ysbryd yr ystorm yn nghanol y cwbl, yn feistr arno ei hun, ac yn feistr ar y gynnulleidfa. Teimlid gan y neb a allai wrandaw fod y priodoldeb mwyaf yn ei eiriau, y gweddeiddra mwyaf yn ei holl ysgogiadau, "fod hyd yn oed ei attal dywedyd yn gyfwng o hyawdledd pur," fod ei lais yn llawn o'r teimlad tyneraf a'r gwroldeb mwyaf awdurdodol, fod ei aceniadau yn berffaith—na chyrhaeddodd *art* erioed y fath arddangosiad diwall, ac eto nid *art* nac arddangosiad mo hono, ond gwirionedd a sobrwydd. Fel areithiwr i'r pulpud, rhaid i ni weled un yn rhagori cyn y gallwn gredu y gwelir ef yn fuan.—

Digitized by Google

(*Cofiant y Parch. John Elias, gan J. Roberts a J. Jones, Liverpool; Eliasiaeth, gan Bleddyn; John Elias, yn y Traethodydd; Adgofion am John Elias, gan R. Parry; Morgan's Memoir of the Rev. John Elias; Elias' Letters, Essays &c., by the Rev. E. Morgan*, &c.]

1. ELIASAPH, [אליסף, 'Ελισάφ=*yr hwn a chwanegodd Duw*]: mab Deuel, tywysog llwyth Gad ar amser y cyfrifiad yn anialwch Sinai: *Num.* i. 14; vii. 42, 47; x. 20. Yn *Num.* ii. 14, gelwir ef yn fab Reuel.

2. ELIASAPH, mab Lael: Lefiad, "a phenaeth tŷ tad y Gersoniaid," ar yr un amser a'r blaenaf: *Num.* iii. 24.

1. ELIASIB, [אלישיב, *Eliashib*; 'Ελιασειβών, 'Ελιαβί, 'Ελιασειβ=*yr hwn a adferodd Duw*]: offeiriad yn amser y brenin Dafydd—yr unfed ar ddeg yn nosbarth llywodraethwyr y cyssegr: 1 *Cron.* xxiv. 12. Yr oedd hwn yn enw tra chyffredin tua diwedd hanes yr Hen Destament.

2. ELIASIB: mab Elioenai—un o hiliogaeth olaf teulu breninol Iudah: 1 *Cron.* iii. 24.

3. ELIASIB: archoffeiriad yn Ierusalem yn amser ail adeiladiad y mur dan Nehemiah: *Neh.* iii. 1, 20, 21. Rhoddir ei achau yn *pen.* xii. 10, 22, 23. Yr oedd Eliasib yn dal rhyw berthynas â Tobiah yr Ammoniad, i'r hwn y parotodd efe ystafell yn y deml—halogiad a gynhyrfodd ddigofaint Nehemiah yn fawr: *Neh.* xiii. 4, 7. Hefyd, priododd un o ŵyrion Eliasib, ferch Sanbalat yr Horoniad: *pen.* xiii. 28. Ymddengys nad oes ammheuaeth mai at yr un Eliasib y cyfeirir yn *Ezra* x. 6.

4. ELIASIB: cantwr yn amser Ezra, yr hwn a briodasai wraig ddyeithr: *Ezra* x. 24.

5. ELIASIB: mab Zattu, yr hwn hefyd a briodasai wraig ddyeithr: *Ezra* x. 27.

6. ELIASIB: mab Bani, yr hwn a droseddodd fel y ddau olaf: *Ezra* x. 36.

ELIASIS, ['Ελιάσις, 'Ελιάσεις]: 1 *Esd.* ix. 3. Etyb yr enw hwn i Mattenai yn *Ezra* x. 33; ond fe allai mai ail adroddiad ydyw o Enasibos, sydd o'i flaen. Yr oedd yn un o'r rhai a briodasent wragedd dyeithr, ac a roddasant eu llaw i ymadael â hwynt.

ELIATHAH, [אליאתה, אליתה=*at yr hwn y mae Duw yn dyfod*; *'Eliatha, Eliatha*): un o feibion Heman—yr wythfed, medd Charles, gan eu cyfrif fel y safent yn 1 *Cron.* xxv. 4. Cantwr yn y deml ydoedd yn amser y brenin Dafydd. Iddo ef a deuddeg o'i feibion y rhoddwyd yr ugeinfed cylch o wasanaeth y deml: 1 *Cron.* xxv. 27. Yn *Jerome's Quæst. Hebr.* ar *adn.* 27, yr enw a roddir yw Eliaha, ac felly yr eglurir ef; ond nid felly yn y Vulgate.

ELICA, [אליקא=*pelican Duw*, medd Charles; ond y tarddiad yn anhysbys medd Gesenius; *Alex.*, *'Enaka*]: Herodiad, sef o ryw le a elwid Chad. Un o gedyrn Dafydd ydoedd: 2 *Sam.* xxiii. 25. Gadawyd yr enw allan o'r rhestr gyferbyniol sydd yn 1 *Cron.* xi; ac y mae Kennicott yn ymdrin yn lled helaeth â hyny yn ei *Conjectures: Ken. Dis.*, 182.

ELICAGARY, DOMINIQUE: eglwyswr oedd o Ffrainc, a anwyd yn Bayonne, yn B. A. 1760. Gadawodd Ffrainc yn 1791, am na chydsyniai i roddi ei law wrth gyfansoddiad newydd yr eglwys, ond fe ddychwelodd yno dan y llywodraeth gyfarwyddol, a chymmerodd swydd periglor yn y brifysgol. Dilynodd y duces o Angoulême i Loegr am gant o ddyddiau, fel alwerydd (*almoner*). Bu farw, 1822.—(*Maun. Biog.*)

ELIDAD, [אלידד=*yr hwn a gerir gan Dduw; Eldad*]: mab Cislon; y gŵr a ddewiswyd i gynnrychioli llwyth Beniamin wrth ranu tir Canaan rhwng y llwythau: *Num.* xxxiv. 21.

1. ELIEL [אליאל, *i'r hwn y mae Duw yn nerth*, Ges.; *fy Nuw sy Dduw*, Charl.; 'Ελιήλ]: un o benaethiaid y rhan hono o lwyth Manasseh oedd o'r tu dwyrain i'r Iorddonen: 1 *Cron.* v. 24.

2. ELIEL: mab Zoah, cyndad Samuel y prophwyd: 1 *Cron.* vi. 34, cymharer 19. Yr un, fe allai, ag Elihu 2, ac ELIAB 6.

3. ELIEL ['Ελιηλί]: un o Bene-Simhi, pen cenedl llwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 20.

4. ELIEL: ['Ελεήλ]: Beniaminiad, fel y blaenorol, ond yn perthyn i Bene-Sacac: 1 *Cron.* viii. 22.

5. ELIEL, [Alex. 'Ιελιήλ]: y Nahafiad, un o'r cedyrn yn rhestr hirfaith Dafydd: 1 *Cron.* xi. 46.

6. ELIEL [Εαλιήλ, Alex. 'Ελιήλ]: un o gedyrn Dafydd, ond heb un dynodiad penodol iddo: 1 *Cron.* xl. 47.

7. ELIEL ['Ελιάβ]: un o'r cedyrn o Gad a ddaethant dros yr Iorddonen at Dafydd, pan oedd efe yn anialwch Iudah yn ymguddio rhag Saul: 1 *Cron.* xii. 11.

8. ELIEL: Lefiad Cohathaidd, penaeth o Bene-Chebron, yn yr amser y symmudwyd yr arch o dŷ Obed-Edom i Ierusalem: 1 *Cron.* xv. 9, 11.

9. ELIEL: Lefiad yn amser Hezeciah—un o swyddogion yr offrymau a wneid yn y deml: 1 *Cron.* xxxi. 13.

ELIENAI [אליעיני, *Elioenai*=*fy llygaid ato ef*; 'Ελιωναί]: un o Bene-Simhi: hiliogaeth Beniamin, a phenaeth yn y llwyth: 1 *Cron.* viii. 20.

1. ELIEZER, [אליעזר, *Duw ei gymhorth*, Ges.; *fy Nuw* (yw fy) *nghymhorth*, Smith; 'Ελιέζερ]: caethwas Abraham a goruchwyliwr ei dŷ: *Gen.* xv. 2, 3. Yn y Beibl Cymraeg cyffredin, troir yr enw Hebraeg *Eliezer* yn y lle hwn, yn *Eleazar* (Dr. Mor., *Eliazer*); ond mewn manau ereill, fel y gwelir isod, sillebir yr enw yn gyffredin, yn ol llythyreniad yr enw Hebraeg, yn Eliezer. Y mae gwahaniaeth pwysig rhwng llythyreniad Hebraeg ac ystyr yr enw hwn, a'r un a droir yn gyffredin yn y Beibl Cymraeg yn Eleazar. Gwel ELEAZAR. Y mae Abraham yn galw ei was (*Gen.* xv. 2) yn "Eleazar (Eliezer) yma o Damascus;" ac yn *adn.* 3, y mae yn ei alw, yn ol y cyfieithiad Cymraeg, "fy nghaethwas." Y mae hyn yn ddigon cysson; canys gallasai fod wedi ei gymmeryd o Damascus, neu wedi ei brynu yno i fod yn gaethwas, yn ol arfer yr oes hono. Ond yn y Seisoneg dywedir mai yn nhŷ Abraham y ganwyd ef—"*one born in my house.*" Felly, y mae gwrthddywediad hynod yn y cyfieithiad Seisoneg; canys os un "o Damascus" oedd Eliezer, nid ymddengys pa fodd y gallasai fod "wedi ei eni yn nhŷ" Abraham." Ystyr llythyrenol y gair Hebraeg, בן־ביתי *ben-béthi*, a gyfieithir yn Seisoneg, "*one born in my house,*" ac yn Gymraeg, "fy nghaethwas," ydyw, "mab fy nhŷ"—yn arwyddo yn unig ei fod yn un o dylwyth Abraham, ac nid ei fod wedi ei

Digitized by Google

yn ei esgobaeth ei hun, cymmerodd y flaenoriaeth yn Eglwys Ffrainc. Efe a'i gyfaill Audoenus, esgob Rouen, oedd yn llywyddu cynnadleddau Chalons, 644, a Clichy, 652; a llwyddasant hefyd, trwy ddylanwad yr esgob Galicaidd, i gondemnio ac erlyn yr heresi Monothelitig.

Ar ol hir ddyeithrwch i'r llys breninol, adferwyd Eligius drachefn i ffafr y llys, a chadwodd ei fraint hyd ei farwolaeth; yr hyn a ddygwyddodd yn Noyon, Tach. 30ain, 658 neu 659. Claddwyd ef trwy orchymyn y frenines Bathilde, gyda rhwysg mawr, yn Noyon, yn eglwys St. Lupus (Bleiddian Sant?), a alwyd wedi hyny yn St. Eligius. Yn fuan ar ol ei farwolaeth, dywedid fod gwyrthiau yn cael eu cyflawnu wrth ei fedd, priodolid gallu iachaol i'w greiriau, ac anrhydeddid ef fel sant.

Yr unig hysbysiad a geir am dano sydd yn *Vita S. Eligii*, lle y dywedir iddo gael ei ysgrifenu gan Audoenus; ond yr hwn nis gall ei fod wedi ei gyfansoddi ganddo yn ei ffurf bresennol.—*D' Acher. Spicel.* ii. 76—124. Cynnwysa y bywgraffiad hwn ddyfyniadau o'i bregethau, y rhai hefyd sydd ar gael fel traethodyn dan yr enw *De rectitudine catholicæ conversationis;* y rhai, pa fodd bynag, y profodd cyhoeddwyr gwaith Augustine [ii. 745, *Append.*] iddynt gael eu cymmeryd yn llythyrenol o bregethau Cæsarius o Arles. Am yr un bregeth ar bymtheg ereill a briodolir iddo [*Bibl. Max. Patr.*, ii. 300—322], y mae yn dra thebyg nad ydynt hynach nag amser y Carlovingiaid. Y mae epistol, y dywedir i Eligius ei anfon at Desederius, esgob Cahors, yn *Canisii, Ant. Lec.* i. 646.—[*Herz. Real Encyl.*]

ELIHOENAI [אליהועיני, *at Iehofah y mae fy llygaid*, Ελιαvα]: mab Zerahiah, un o feibion Pahath-Moab; yr hwn, gyda 200 o wŷr, a ddychwelasant gydag Ezra o'r caethiwed: *Ezra*. viii. 4.

ELIHOREPH [אליחרף, *Duw* (yw) *ei dâl;* 'Ελιάφ, *Alex.* 'Ενaρέφ]: mab Sisa. Yr oedd efe a'i frawd Ahiah yn ysgrifenyddion i Solomon ar ddechreuad ei deyrnasiad: 1 *Bren*. iv. 3.

1. ELIHU [אליהוא, *Duw—Iehofah:* Ελιοῦς]: un o gyfeillion Iob, a ddynodir fel "mab Barachel, y Buziad, o genedl Ram;" *Iob* xxxii. 2. Credir yn gyffredin fod hyn yn arwyddo mai un o hiliogaeth Buz mab Nachor brawd Abraham oedd: *Gen*. xxii. 21. Y mae hyn yn cyd-daraw â'r darluniad a roddir o'r personau ereill (Eliphas a Bildad), ac yn awgrymu amser yr olygfa a gofnodir. Y mae yn dra thebyg mai oddi wrth yr un Buz y cafodd y ddinas a elwid felly ei henw: *Ier*. xxv. 23. Nid yw enw Elihu yn ymddangos yn mysg y cyfeillion a ddaethant gyntaf i gydofidio â Iob (*pen*. ii. 11), ac ni ddywedir ei fod yn bresennol nes dygwyd y ddadl rhwng Iob a'i dri chyfaill i derfyniad. Yna, pan nas gallai ystyried fod dadl ddiweddaf Iob wedi ei hateb, y mae efe yn dyfod yn mlaen yn dra gwylaidd ar y cychwyn; yr hyn, pa fodd bynag, a gyll fel yr ä yn mlaen i sylwi ar y ddadl, ac i draddodi ei syniadau ar y pwnc. Ceir dysgrifiad manylach o'i areithiau (*pen*. xxxii —xxxvii) dan y gair IOB, LLYFR. Ymddengys oddi wrth ddull Elihu yn ei gyflwyno ei hun ei fod yn llawer ieuengach na neb o'r gymdeithas; ond y mae yn amlwg wrth ei areithiau ei fod gyda hwy er dechreuad y gynnadledd, a'i fod wedi sylwi yn fanwl ar yr holl ddadleuaeth. Awgryma hyn fod y ddadl rhwng Iob a'i gyfeillion wedi ei dwyn yn mlaen yn nghlyw gwrandawyr oedd yn cymmeryd y dyddordeb dyfnaf yn yr holl ymdrafodaeth; yn mysg y rhai yr oedd Elihu, yr hwn nis gallai ymattal heb ymyryd, pan yr ymddangosodd iddo fod y ddadl wedi ei dwyn i derfyniad anfoddhaol. Ei ddyimuniad, fel yr amlyga, ydoedd cyfryngu rhwng y dadleuwyr; a rhediad ei areithiau ydyw dangos fod cystuddiau o natur ddysgyblaethol, yr hyn yw yr agoriad i ddyrysweh ac ammheuon Iob; ond, megys yn yr holl lyfr, rhoddir y pwys mwyaf ar ddoethineb anchwiliadwy Duw, a'r ffydd ddiammodol a ofyn Efe gan ddyn.

2. ELIHU ['Ηλιού], mab Tohu, taid Samuel y prophwyd: 1 *Sam*. i. 1. Yn y mynegiad a roddir o achau Samuel yn 1 *Cron*. vi. y mae enw Eliel yn dygwydd yn yr un sefyllfa—mab Toah a thad Iehoram (*pen*. vi. 34, cymharer 19); ac Eliab hefyd (*pen*. vi. 27, cymharer 12), tad Iehoram ac ŵyr Zophai. Y farn gyffredin yw mai Elihu oedd yr enw cyntefig, ac mai amrywiaeth o eiddo adysgrifenwyr yw y ddau arall.

3. ELIHU [*Alex*. Ελιάβ]: ceir amrywiad cyffelyb, fe allai, o'r enw Eliab, mab hynaf Iesse, yn 1 *Cron*. xxvii. 27, lle y crybwyllir am "Elihu, un o frodyr Dafydd," fel penaeth llwyth Iudah. Ond gwel 1 *Cron*. xii. 2, lle y defnyddir y gair *brodyr*, mewn cyssylltiad cyffelyb, yn ei ystyr eangaf. Eliab a geidw y Deg a Thrigain [gwel Eliab 3]. Y mae yr enw yn y lle hwn heb yr Aleph derfynol—אליהו.

4. ELIHU [Ελιμούθ; Alex. Ελιούδ]: un o "benaethiaid y miloedd yn Manasseh" (1 *Cron*. xii. 20), y rhai a ddilynasant Dafydd i Siclag ar ol iddo adael byddin y Philistiaid ar fin brwydr Gilboa; a'r rhai a'i cynnorthwyasant yn erbyn ciwdod ysbeilgar yr Amaleciaid: cymharer 1 *Sam*. xxx.

5. ELIHU [אליהו; 'Ελιοῦ]: Lefiad o'r Corhïaid yn amser Dafydd; un o "borthorion" tŷ Iehofah. Mab ydoedd efe i Semaiah, o deulu Obed-edom: 1 *Cron*. xxvi. 7. Cymhwysir geiriau at yr holl borthorion hyn a ymddengys yn arwyddo, nid yn unig eu bod yn "wŷr nerthol," ond hefyd eu bod yn rhyfelwyr. Gwel *adn*. 6, 7, 8, 12, lle y ceir geiriau Hebraeg am y gair byddin, ac am wroniaid.

ELIM [אילים, *coed—palmwydd*, fe allai, Ges.: arwydda y gwreiddair, אול neu איל, medd Smith, bod yn gryf, yna pren cryf; naill ai derw, fe allai, neu y terebinth; yma yn lluosog, coed y diffeithwch; Αἰλείμ]: a grybwyllir yn *Exod*. xv. 27; *Num*. xxxiii. 9, fel yr ail orsaf lle y gwersyllodd yr Israeliaid ar ol dyfod trwy y Môr Coch. Hynodid y lle "gan ddeuddeg o ffynnonau dwfr, a deg a thrigain o balmwydd." Tybia Laborde [*Geog. Com. on Exod*. xv. 27] mai y Wady Useit oedd Elim, yr ail o bedair Wady[1] sydd rhwng 29° 7', a 29° 20', wrth odre trumiau et Tih (bron yn gydwastad yn y lle hwn â'r arfordir), wrth y môr, i'r rhai y deuai yr Israeliaid wrth fyned o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain, ar hyd yr arfodir, yn y drefn ganlynol:— W. Ghurundel (lle y dechreu "y bryniau isel:"—*Stanley S. a P.* 35), W. Useit, W. Shâl, a W. Shubeikeh: gelwir y rhan isaf o'r Wady yma yn W. Taiyibeh hefyd, neu y mae mewn cyssylltiad âg un o'r enw hwnw. Y mae goror y trumau hyn, rhwng Useit a Taiyibeh, yn cyfodi hyd Gebel Hummam "yn uchel ac yn serth, gan ymestyn yn amryw bigyrnau ar

[1] *Wady* a arwydda ffos neu redle dwfr a fyddo yn sych, oddi gerth ar dywydd gwlawog: mewn ystyr helaethach, arwydda ddyffryn sych, ac weithiau unrhyw ddyffryn.

Digitized by Google

hyd yr oror, o gareg galch farmaidd fel yr ymddengys, yn cael eu gorchuddio gan mwyaf â cheryg callestr; ac y mae y serth bigyrnau hyny yn tori ymaith y ffordd yn llwyr ar hyd yr oror o'r ffynnonau poethion (sydd ychydig i'r de-orllewin o enau y Wady Useit, ar hyd yr oror) hyd enau y W. Taiyibeh.—*Rob.* i. 102, cymharer *Stan. S.* a *P.* 35. Yna rhaid fod taith yr Israeliaid, yn ol rhediad y Wadyaid hyn, o'r tu nesaf i'r tir iddynt. Dywed Dr. Stanley "y rhaid mai Ghurundel, Useit, neu Taiyibeh oedd Elim (35): "rhaid mai un o'r ddau ddyffryn hyn," medd efe, mewn lle arall (66), "neu fe allai y ddau, oedd Elim." Y mae Lepsius yn cymmeryd golwg wahanol arnynt: dywed mai Mara yw Ghurundel, a elwir gan ereill yn Howara; ac mai yn yr olaf a enwyd yn y rhestr uchod, sef W. Shubeikeh, y canfyddir Elim.--*Leps. Travels*, viii. 1, adr. 27.

ELIMELECH [אלימלך, *Duw y brenin*, Kitto; *Duw ei frenin*, Ges.; 'Ελιμέλεκ]: gŵr o lwyth Iudah, ac o deulu yr Hesroniaid, ac yr oedd yn gâr i Boaz, yr hwn a breswyliai yn Bethlehem Ephratah yn nyddiau y barnwyr. O blegid newyn mawr a ddygwyddodd yn y tir, aeth efe a'i wraig Naomi, a'i ddau fab Mahlon a Chilion, i breswylio i Moab, lle y bu efe a'i feibion feirw heb hiliogaeth. Dychwelodd Naomi i Bethlehem gyda Ruth ei gwaudd (merch yn nghyfraith), priodas yr hon â Boaz, "gŵr cadarn nerthol, o 'ylwyth Elimelech," "cyfathrachwr ei gŵr," yw testyn llyfr Ruth: *Ruth* i. 2, 3; ii. 1, 3; iv. 3, 9.

ELINED: un o ferched Brychan Brycheiniog, tywysog yn Neheubarth Cymru, yr hon a elwir weithiau yn Eluned, Elfetha, ac Aled; ond yn y rhestr o blant Brychan sydd yn y *Myv. Arch.*, yr enw ydyw Elined. Santes hynod ydoedd, a ucheddai yn fore yn y bummed ganrif. Ysgrifena Giraldus Cambrensis am dani dan yr enw *Almedha*, a dywed ei bod wedi ymgyssegru o'i hieuenctid at grefydd, ac wedi gwrthod priodi tywysog a gynnygiasai am undeb â hi, a'i bod wedi marw yn ferthyres ddedwydd. Dyoddefodd ar fryn a elwir Penginger, ger llaw Aberhonddu, lle yr adeiladwyd eglwys wedi hyny, a gyflwynwyd iddi hi; a chedwid ei chofwyl gynt ar y dydd 1af o Awst, gyda difrifwch mawr, pan yr ymgasglai tyrfaoedd lluosog o bob parth, er mwyn derbyn meddyginiaeth i'w hamryw glefydau trwy rinwedd eiriolaeth y forwyn.—(*Hoare's Girald.*, i. 35; *Will. Biog.*, d.g. ALMEDHA).

1. ELIOENAI [אליועני, *at Iehofah y mae fy llygaid*; 'Ελιωηναί, Alex. 'Ελιωναί]: pen cenedl un o deuluoedd meibion Becher, mab Beniamin: 1 *Cron.* vii. 8.

2. ELIOENAI: pen cenedl teulu y Simeoniaid: 1 *Cron.* iv. 36.

3. ELIOENAI [*Elihoenai* ydyw y gair hwn yn yr Hebraeg]: seithfed mab Meselemiah, mab Core, o feibion Asaph, Lefiad Coreaidd, ac un o borthorion "tŷ Iehofah:" 1 *Cron.* xxvi. 3. Ymddengys, oddi wrth *adn.* 14, i'r coelbren syrthio ar Selemiah (Meselemiah) i gael porth y dwyrain; ac oddi wrth *adn.* 9, sydd yn dyweyd fod ganddo "dri ar bymtheg o wŷr nerthol" o'i feibion a'i frodyr dano, gellir casglu fod ei holl feibion, ond Zechariah, ei gyntafanedig (*adn.* 14), yn gwasanaethu gydag ef, ac am hyny Elioenai hefyd. Yr oedd chwech o Lefiaid yn cadw porth y dwyrain bob dydd; am hyny, byddai eu tro ar gylch yn fod bob trydydd dydd.

4. ELIOENAI: mab Neariah, mab Semiah: 1 *Cron.* iii. 23, 24. Yn ol y testyn Hebraeg presennol, y seithfed ach oedd efe o Zorobabel, sef o gylch Alexander Fawr; ond y mae sail gref i gasglu mai yr un oedd Semaiah a Simei (*adn.* 13), brawd Zorobabel.

5. ELIOENAI: offeiriad o feibion Pasur, yn nyddiau Ezra; un o'r rhai a briodasant wraig ddyeithr, ond, trwy annogaeth Ezra, a'u bwriasant hwy a'u plant ymaith, ac a offrymasant hwrdd dros eu camwedd: *Ezra* x. 22. Fe allai mai yr un ydoedd a'r hwn a grybwyllir yn *Neh.* xii. 41, fel un o'r offeiriaid a ddilynasant Nehemiah gydag udgyrn ar gyssegriad mur Ierusalem. Gelwir ef Elionas yn 1 *Esdr.* ix. 22.

6. ELIOENAI: Israeliad o feibion Zattu, yr hwn hefyd a briodasai wraig ddyeithr: *Ezra* x. 27. Ymddengys, oddi wrth sefyllfa Zattu yn y rhestrau (*Ezra* ii. 8, a *Neh.* vii. 13; x. 14), ei fod o deulu uchelradd. Y mae yr enw wedi ei lygru i Eliadas yn 1 *Esdr.* ix. 28.

ELIOT, JOHN: a elwid yn gyffredin apostol yr Iudiaid, ydoedd frodor o Loegr, ac a anwyd yno yn B. A. 1604. Cafodd ei addysg yn mhrifysgol Caergrawnt, a hynododd ei hun yn fuan mewn duwinyddiaeth ac yn yr hen ieithoedd. Wedi neillduo oddi wrth yr Eglwys Sefydledig, cytunodd â nifer o Annibynwyr i fod yn fugail iddynt yn Lloegr Newydd, yn America; i'r lle yr ymfudasant hwy, fel llawer ereill, o blegid yr erlidigaeth dost oedd yn ffynu yn y wlad hon y pryd hyny yn erbyn pawb a feiddient farnu yn wahanol i'r Eglwys Sefydledig ar bethau crefyddol. Ymfudodd Eliot tua blwyddyn o flaen ei gyfeillion, a chyrhaeddodd Boston yn 1631. Yn ystod y flwyddyn hono, gwasanaethodd yn Boston yn lle clerigwr a ddychwelasai i Loegr, a phriododd wraig yno, a fu yn gysur personol ac yn gynnorthwy godidog iddo yn ei lafur Cristionogol bron hyd ddiwedd ei oes. Pan groesodd ei gyfeillion yr Atlantig ar ei ol, aeth gyda hwy, yn ol ei addewid iddynt yn Lloegr, i Roxbury. Pan gyrhaeddodd yno, dechreuodd ar ei waith yn dra egniol, er maint yr anhawsderau a'r anfanteision oedd ar y ffordd, ac er fod ei iechyd yn dra ammheus, o blegid pwys dyledswyddau lluosog ei swydd. Sefydlodd ysgol yno i addysgu plant ei gydwladwyr, yr hon a arolygai ei hun yn ystod yr wythnos, a phregethai iddynt ddwywaith neu dair bob Sabbath. Ond ni foddlonodd Eliot ar addysgu a phregethu i'w genedl ei hun yn unig; ond fel "gweinidog da i Iesu Grist," penderfynodd bregethu yr efengyl i'r Indiaid hefyd oedd yn y cymmydogaethau cyfagos. Wedi dyfod i'r penderfyniad yma, ymosododd â'i holl egni i barotoi ei hun i'r gwaith trwy ddysgu iaith yr Indiaid, gan barhau, ar yr un pryd, i addysgu ei genedl ei hun, a phregethu iddynt yr un mor egniol.

Wedi ymbarotoi fel hyn, aeth efe ac ychydig gyfeillion i'w ganlyn, ar yr 28ain o Hydref, 1646, i bregethu yr efengyl i'r llwyth nesaf at ei sefydliad ei hun o'r Indiaid. Gwnaeth ei ymdrech cyntaf argraff ddofn a nerthol ar feddyliau llaweroedd o'i wrandawyr Indiaidd; yr hyn a gadarnhawyd tu hwnt i'w ddysgwyliad trwy ei ymdrechion dilynol. Cafodd brawf yn fuan, trwy y cwestiynau a ofynid iddo, fod dealltwriaeth ei gymmydogion Indiaidd, yn gystal a'u teimladau, wedi ei gynhyrfu. Yn mis Tachwedd, cynnygid amryw blant iddo i'w haddysgu, a dymunai llawer o bobl mewn oed arno ddyfod atynt i'w bugeilio.

Digitized by Google

yr enw "ynysoedd Elisah" (איים=*y gororau arforawl*), o'r lle y byddai y Phœniciaid yn cael eu lliw porphor a glâs. Y mae Iosephus yn gwneyd hiliogaeth Elisah yr un rhai a'r Aeoliaid [*Ant.* i. 6, adr. 1]. Dyma olygiad Knobel (*Völk.* 81), yn hytrach na'r farn gyffredin, mai yr un yw Elisha ac Elis, ac mewn ystyr eangach, Peloponnesus neu hyd yn oed Hellas. Diau fod yn gywir edrych arno fel enw ar hiliogaeth, yn hytrach na lle; ac os ydyw Iafan yn cynnrychioli yr Ioniaid, gall fod Elisah yn cynnrychioli yr Aeoliaid, gan fod yr enwau yn wreiddiol yn dra thebyg i'w gilydd, a dichon eu bod o'r dechreu yn debycach nag ydynt yn awr, gan y gallasai *Aéoleis* fod yn *Aéleis;* ac yr oedd tueddiadau yr Aeoliaid at sefyllfaoedd arfordirol yn cwbl gytuno âg ymadrodd Ezeciel. Yr oedd yr Aeoliaid yn yr oesoedd boreuol wedi ymsefydlu yn ngwahanol barthau Groeg, Thessaly, Bœotia, Aetolia, Elis, a Messenia. Ymfudasant o Groeg i Asia Leiaf; ac yn amser Ezeciel, yr oeddynt yn preswylio dosbarth arfordirol gogleddorllewin y wlad hono, a enwyd wedi hyny oddi wrthynt hwy yn Aeolis, yn nghyd âg ynysoedd Lesbos a Zenedos. Yr oedd y cragenbysg porphor i'w cael ar yr arfordir yma, yn enwedig yn Abydus, Phocaea, Sigeum, a Lectum [*Virg. Geor.* i. 207; *Ovid. Metam.*, vi. 9; *Athen.*, iii. 88]. Pa fodd bynag, nis gellir penderfynu nemawr oddi wrth hyn am sefyllfa "ynysoedd Elisah," gan fod y cragenbysg hyny i'w cael mewn llawer parth o'r Canoldir hefyd, yn enwedig arfordir Laconia [*Pausan.*, iii. 21, adr. 6].

ELISAMA [אלישמע=*yr hwn a wrendy Duw;* 'Ελισαμά, 'Ελισαμί]: mab Amnihu, tywysog ar lwyth Ephraim yn anialwch Sinai: *Num.* i. 10; ii. 18; vii. 48; x. 22. Canfyddir, oddi wrth yr achyddiaeth sydd yn 1 *Cron.* vii. 26, ei fod yn daid i Iosuah mab Nun.

2. ELISAMA: mab y brenin Dafydd. Un o'r tri mab ar ddeg—neu yn ol y gyfres yn Samuel, un ar ddeg—a anwyd iddo o'i wragedd ar ol ymsefydlu yn Ierusalem: 2 *Sam.* v. 16; 1 *Cron.* iii. 8; xiv. 7.

3. ELISAMA ['Ελισά]. Yn 1 *Cron.* iii. 6, rhoddir mab arall o'r un teulu wrth yr enw yma (yn y testyn Hebraeg), yr hwn a elwir mewn rhestrau ereill yn Elisua: 1 *Cron.* iii. 6, 8.

4. ELISAMA: un o hiliogaeth Iudah; mab Iecamiah: 1 *Cron.* ii. 41. Ymddengys oddi wrth y traddodiadau Iuddewig sydd yn Jerome [*Qu. Hebr.* ar 1 *Cron.* ii. 41], mai yr un ydyw hwn a'r Elisama nesaf.

5. ELISAMA: tad Nethaniah, a thaid Ismael, "o'r had breninol," yr hwn oedd yn byw yn amser y caethiwed mawr: 2 *Bren.* xxv. 25; *Ier.* xli. 1.

6. ELISAMA: ysgrifenydd i Iehoiacim: *Ier.* xxxvi. 12, 20, 21.

7. ELISAMA: offeiriad yn amser Iehosaphat. Un o'r rhai a anfonwyd gan y brenin trwy ddinasoedd Iudah, gyda llyfr y gyfraith i ddysgu y bobl: 2 *Cron.* xvii. 8.

1. ELISAPHAN, [אליצפן=*yr hwn a amddiffynai Duw,* 'Ελισαφάν]: Lefiad, mab Uzziel, penaeth tŷ y Cohathiaid yn amser y cyfrifiad yn anialwch Sinai: *Num.* iii. 30. Yr oedd ei deulu yn adnabyddus ac yn cael eu cynnrychioli yn amser Dafydd (1 *Cron.* xv. 8), a chymmerasant ran yn niwygiadau Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 12. Ysgrifenid yr enw weithiau yn Elsaphan.

2. ELISAPHAN: mab Pharnach penaeth llwyth Zabulon; un o'r rhai a appwyntiwyd yn amser Moses i ranu tir Canaan: *Num.* xxxiv. 25.

ELISAPHAT [אלישפט=*yr hwn a farna Duw;* ὁ Ελισαφάν; Alex. Ελισαφάτ]: mab Zichri; un o "dywysogion y cannoedd," a roddodd Iehoiada yr offeiriad ar waith i gynnull y Lefiaid ac ereill o benaethiaid pobl Ierusalem cyn dwyn Ioas yn mlaen: 2 *Cron.* xxiii. 1.

ELISEBA [אלישבע=*Duw ei llw;* sef, *addolydd Duw;* 'Ελισαβέθ): gwraig Aaron: *Exod.* vi. 23. Merch ydoedd i Amminadab, a chwaer Nahason, "capten meibion Iudah;" *Num.* ii. 3. Trwy ei phriodas hi âg Aaron, unwyd y llwyth breninol a'r llwyth offeiriadol yn nghyd.

ELISEUS, [אלישע (*Elisha*); Kitto, *Duw y Gwaredwr;* Ges., *Duw ei iachawdwriaeth;* Char., *iachawdwriaeth Duw;* 'Ελισαιέ; Alex., 'Ελισαιού; Jos., Ελισσαῖος]: mab Saphat o Abel-meholah. Dywed chwedl, sydd yn y *Chron. Paschale*, ac Epiphanius, fod y llo aur oedd yn Gilgal, wedi brefu mor uchel, pan anwyd Eliseus, fel y clywyd ef yn Ierusalem. "Efe a ddystrywia eu delwau cerfiedig a thoddedig hwynt." [*Fabricius*, 1071]. Gwas a dysgybl Elias oedd Eliseus, a'i ddilynydd wedi hyny fel prophwyd teyrnas Israel. Y crybwylliad cyntaf a geir am ei enw sydd yn y gorchymyn a gafodd Elias yn yr ogof yn Horeb: 1 *Bren.* xix. 16, 17. Ond y lle y canfyddwn y prophwyd dyfodol gyntaf ydyw yn meusydd ei fro enedigol. Y mae yn debyg mai yn nyffryn yr Iorddonen yr oedd Abel-meholah ("gweirglodd y dawns"), a'i bod mewn lle llaith neu wlyb, fel y mae yr enw yn arwyddocau. Pan yr oedd Elias ar ei ffordd o Sinai i Damascus, yn nyffryn yr Iorddonen, cyfarfu ei olynydd yn llafurio y maes â deuddeg cwpl o ychain o'i flaen; sef, naill ai deuddeg aradr ar waith mewn rhan arall o'r maes, neu ddeuddeg iau o dir wedi ei aredig, ac yntau ei hun gyda'r olaf. Nid oedd ei basio a thaflu y fantell arw dros ei ysgwyddau—arwydd o urddiad prophwyd ac o fabwysiad fel mab—ond gwaith mynyd i Elias—"Dychwel; canys beth a wnaethum i ti?"

Nid rhyfedd i alwad mor ddisymmwth a phwysig, oedd ar unwaith yn gorfodi Eliseus i adael y sefyllfa gysurus yr ymddengys ei fod ynddi, cystal ag i dori pob rhwymau teuluol, achosi peth petrusdod. Ond am ysbaid byr yn unig y parhaodd yr ammheuaeth. I arfer ffugr ein Harglwydd, a achlysurwyd, fe allai gan y dygwyddiad yma, nid oedd Eliseus yn un tebyg, ar ol iddo roddi ei law ar yr aradr, yr edrychai ar y pethau o'i ol. Dywed Josephus [*Ant.* viii. 13, adr. 7] iddo ddechreu prophwydo yn y fan: pa fodd bynag, mae yn amlwg nad oedodd efe ddim yn hwy nag y bu yn canu yn iach i'w dad a'i fam, ac yn llywyddu y wledd a wnaeth i'w bobl (1 *Bren.* xix. 20, 21): yna dilynodd y prophwyd mawr yn ddioed, a bu iddo ef yr un modd ag yr oedd Iosuah o'i flaen wedi bod i Moses. Yn wir, yr un gair Hebraeg a ddefnyddir yma (a gyfieithir *gwasanaethu*), ag a ddefnyddiwyd am Iosuah.

Ychydig iawn a wyddom am natur y cyssylltiad yma. Cymmaint ag a ddywedir arno ydyw —"Eliseus mab Saphat, yr hwn a dywalltodd ddwfr ar ddwylaw Elias." Yr oedd cymmeriad y ddau yn hollol wahanol; ond canfyddir ar rai achlysuron fod cryn lawer o hyfdra a dewrder llewaidd, y naill wedi ymweithio i'r llall; ac y

mae pob llinell o hanes oriau olaf Elias ar y ddaiar yn profi pa mor ddwfn yr oedd serchiadau y meistr sarug, garw, a digyfeillach, at ei ddysgybl addfwyn ac ymroddgar.

Y mae'n rhaid fod saith neu wyth mlynedd wedi pasio rhwng galwad Eliseus a symmudiad ei feistr; ond nid oes dim hanes am dano yn ystod yr amser hwnw. Ond wedi hyny, y mae yn dyfod y dyn mwyaf cyhoeddus yn hanes ei wlad ar hyd y gweddill o'i oes hir. Yr oedd Eliseus bron yn mhob peth yn gwbl wahanol i Elias. Y mae y casgliad helaeth o'i ddywediadau a'i weithrediadau, sydd yn y drydedd a'r nawfed bennod o'r 2 *Breninoedd*, yn dangos y gwahaniaeth yma yn y modd mwyaf nodedig. Gwir blentyn yr anialwch oedd Elias. Y manau yr oedd efe hoffaf o gyrchu iddynt, a phreswylio ynddynt, oedd cilfachau y Cerith, coedwigoedd gwylltion yr anialwch, ogofäau Horeb, a phen Carmel. Nid oes genym hanes y byddai efe byth yn myned i ddinas ond i draddodi ei genadwri danllyd a bygythiol; ac yna, ymaith âg ef, fel rhyw seren wib arswydus a mawreddog. Yn y gwrthwyneb, yr oedd Eliseus yn ddyn gwaraidd ac yn breswylydd dinasoedd. Ar ol symmudiad ei feistr, efe a aeth i "aros yn Iericho (2 *Bren.* ii. 18); oddi yno efe a ddychwelodd i Samaria;" *adn.* 25. Ymddengys y preswyliai yn rheolaidd yn Samaria (v. 3; vi. 32: cymharer *adn.* 24), ac yn Dothan (vi. 14) mewn tŷ (vi. 9, 24; vi. 32; xiii. 17), yn meddu drysau a ffenestri, ac y byddai yn cyfeillachu â meibion y prophwydi a'r henuriaid (vi. 32), â boneddiges o Sunem, â thywysog Damascus, ac â brenin Israel. Ymddengys hefyd fod ganddo ddylanwad arbenig ar "dywysog y llu," cystal ag ar y brenin; ac y gallasai wneyd hyny yn fanteisiol i'w gymmwynaswyr (2 *Bren.* iv. 13). Yr oedd ei ymddangosiad hefyd mor wahanol i'w feistr mawr, Elias, ag oedd ei arferion. Er mor brin yw y manylion am dano, eto gallwn gasglu oddi wrth yr awgrymiadau sydd yn yr hanes, ei fod ef yn ymwisgo fel rhyw Israeliad arall (2 *Bren.* ii. 13); ei fod yn gwisgo ei wallt wedi ei drefnu yn daclus o'r tu ol, yn gwbl wahanol i gudynau gwasgaredig Elias (2 *Bren.* ii. 23, fel yr eglurir isod); a'i fod yn defnyddio ffon, yn ol arfer gwŷr parchus ac oedranus: *Zech.* viii. 4. Ni hysbysir mewn un man pa ddefnydd a wnaeth o fantell arw Elias, a ddaeth i'w ran ar eu hymadawiad â'u gilydd; ond nid oes un awgrym ei fod erioed wedi ei gwisgo.

Os tröir eto oddi wrth yr hynodion allanol hyn at nodweddau meddyliol a mewnol y ddau, a'r effeithiau a gynnyrchasant ar eu cydwladwyr, canfyddir eu bod yn dra addysgiadol. Dystrywiwr penderfynol oedd Elias. Ei genadwri ef oedd lladd a difrodi pa beth bynag a wrthwynebai neu a ymyrai â hawliau Iehofah, Arglwydd y lluoedd. Yr oedd y genedl wedi cofleidio duw y gallu a'r grym, a phrofwyd iddynt gan Elias nad oedd hwnw ond gwendid ei hun mewn cymhariaeth i'r gwir Dduw a wrthodasant. Ond ar ol Elias y dystrywiwr, daeth Eliseus yr iachäwr. "Ni bydd na gwlith na gwlaw y tair blynedd hyn," ydyw cyhoeddiad un. "Ni bydd o hyny allan na sychder na thir diffrwyth," yw gwyrth gyntaf y llall. Pa fath oedd arferion Elias pan na byddai yn cyflawnu ei genadwri, nid yw yn hysbys: a phe yr elid i dynu casgliadau oddi wrth yr hyn a hysbysir am ei agwedd anhyblyg a llym pan yn traddodi ei genadwri, dichon na chesglid yn gywir. ond y mae yn dra anhawdd meddwl yr arferasai efe y goddefgarwch at berson neu grefydd estronol ag oedd mor nodedig yn Eliseus; megys, er esampl, yr ymddyddan â Naaman neu Hazael. Yn y naill amgylchiad, cyhoeddodd heddwch i broselyt newydd, oedd yn bryderus am faddeuant pan y gorfodid ef i blygu i Rimmon, tra y cydnabyddai yn ei galon mai yr Iehofah oedd yr unig wir Dduw (2 *Bren.* v. 17—19): yn yr amgylchiad arall, efe a wylodd, ond ni wnaeth ddim ond wylo, yn y rhagolwg o'r drwg a ddygai brenin dyfodol Syria ar feibion Israel: 2 *Bren.* ix. 11, 12. Y mae genym brawf yn hanes Iehu (2 *Bren.* x. 18—27), fod addoliad Baal yn ffynu yn Israel, hyd yn oed ar ol ymdrechiadau Elias i'w ddiddymu; ac y mae yn amlwg mai Samaria oedd ei brif safle: ond y mae yn syn nad oes dim wedi ei gofnodi i ddangos fod Eliseus wedi ymdrechu i'w ddiddymu, fel y gwnaethai ei ragflaenor selog a llymdost. Y mae yn wir y gallai yntau fod mor selog yn ei deimladau, ac mor llym yn ei eiriau, ag Elias. "Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?" medd efe wrth fab Ahab—"mab y llofrudd hwn," fel y geilw ef ar achlysur arall—"Beth sydd i mi a wnelwyf â thi? dos at brophwydi dy dad, ac at brophwydi dy fam. Fel mai byw Arglwydd y lluoedd, yr hwn yr wyf yn sefyll ger ei fron"—yr un ffurf ymadrodd yn hollol ag Elias—"oni bai fy mod i yn parchu wyneb Iehosaphat brenin Iudah, nid edrychaswn i arnat ti, ac ni'th welswn;" 2 *Bren.* iii. 13, 14. Ond er yr amlygiad yma o ddigofaint, y mae efe yn cymmeryd ei dawelu gan beroriaeth cerddor, ac yn terfynu trwy brophwydo daioni a llwyddiant i'r tri brenin, yr hyn a gyflawnwyd yn fuan: *adn.* 15—27. Ar amgylchiad arall, yr ydym yn cael iddo weddïo ar i'r Arglwydd daraw llu y Syriaid â dallineb; ond dallineb amserol yn unig ydoedd, a hyny at amcan penodol: a phan gyrhaeddwyd yr amcan, gweddïodd Eliseus drachefn ar i'r Arglwydd agor eu llygaid hwynt; a therfynodd y cyfan trwy iddo erchi i'r brenin wneuthur arlwy fawr i'r gelynion hyny, gan eu hanfon yn ol at eu meistr heb wneyd niwed iddynt: 2 *Bren.* xvi. 18—23.

Wrth ystyried y gwahanol bethau hyn, dylid cofio, er fod y mynegiadau am Eliseus yn cymmeryd llawer mwy o le, eto nad ydynt yn trosglwyddo syniad mor fanwl i ni am y dyn ag a geir yn hanes byr Elias am dano ef. Darlunir prophwydi cenedl Israel yn gyffredinol—y rhai a fu o flaen Eliseus, megys Samuel ac Elias, a'r rhai a fu ar ei ol, megys Esaiah ac Ieremïah—fel pregethwyr cyfiawnder neu bleidwyr achos Iehofah yn erbyn gau dduwiau, neu fel barnwyr a gwaredwyr eu gwlad, neu gynghorwyr brenin mewn amseroedd o berygl neu ddyryswch. Yr oedd eu gwyrthiau a'u gweithredoedd nerthol yn gyffredin yn cael eu cyflawnu er cyrhaedd yr amcanion hyn. Ond y mae y darlun a roddir o Eliseus yn ei osod allan yn wahanol. Y gwyrthiau, gyda golwg arno ef yw ei brif nodwedd. Ymddengys y gŵr a fu am flyneddoedd yn gyfaill mynwesol i Elias, ar yr hwn y disgynodd ei fantell, a'r hwn a gynnysgaethwyd â deuparth o'i ysbryd—fe ymddengys yn yr hanes hwn yn benaf fel gwneuthurwr gwyrthiau, rhagfynegwr dygwyddiadau dyfodol, dadguddiwr cyfrinachau, a phethau yn dygwydd allan o'r golwg neu yn y pellder. Wrth "ddeuparth" o ysbryd Elias, y meddylir yn gyffredin fod Eliseus yn meddu cymmaint ddwy waith o allu prophwydol ag Elias. Er yr ymddengys fod cyfieithiad y Vulgate a chyfieithiad Luther yn cefnogi y syniad yma, ac er fod rhestr hirfaith o esbonwyr, o Ephraim

Digitized by Google

Syrus hyd Krummacner wedi ei fabwysiadu, eto, tybir nad ydyw yn dangos gwir ystyr y geiriau Hebraeg פי שנים (*pi shenim*) llythyrenol, "safn dau;" hyny yw, dau lonaid safn, a gyfieithir yn *Deut.* xxi. 17, fel yma, yn *deuparth*, gan ddynodi y swm o eiddo tad a ddisgynai i'r rhan y cyntafanedig. Felly, nid oedd y *deuparth* o ysbryd Elias ond canlyniad cyfreithlawn i'r weithred o fabwysiad a ddechreuodd gyda bwriad y fantell dros Eliseus flynyddoedd yn ol yn Abel-meholah. Dyma yr eglurhad a rydd Grotius ac ereill [*Keil* d.g.]. "Dwy ran o dair, a phrin hyny," sydd gan Ewald [*Gesch.* iii. 507]. Dywed Peter Damianus [*Acta Sanct. July* 20] mai deuddeg o wyrthiau a wnaeth Elias, pan y gwnaeth Eliseus bedair ar ugain. Ymddengys fod gwneuthur gwyrthiau ffugiol yn ganlyniad naturiol gau grefyddau; a gellir bod yn sicr nad oedd addoliad Baal yn Samaria ac Iezreel yn rhydd oddi wrth y twyll hwn. Y mae yr hanes, yn 1 *Bren.* xxii, yn dangos fod prophwydi, cyn amser Elias, yn cael edrych arnynt fel daroganwyr neu ragfynegwyr, ac yr ymgynghorid â hwy, nid yn unig ar byneiau o wirionedd a chyfiawnder, neu fel rhai yn gwybod bwriadau ac ewyllys y Duwdod, ond fel rhai a allent ragfynegu pa fodd y troai rhyw antur neu gynllun allan, a pha un a ellid cymmeryd y fath antur mewn llaw ai peidio, heb gyfarfod â pherygl personol. I gyfarfod y twyll yma o ddaroganiaeth gau, oedd yn nglŷn âg eilunaddoliaeth y paganiaid a amgylchynent Israel, cynysgaethodd Iehofah ei weision y prophwydi â gallu i ddarganfod pethau cuddiedig, ac i ragfynegu gwirioneddau dyfodol. Cafodd Eliseus, mewn modd arbenig, y gallu goruchnaturiol hwn. Cyflawnai wyrthiau nodedig, a hyny heb na thâl na seremoni, er iachau ac adferu—pethau a geisid yn ofer gan ddewiniaid a daroganwyr Baalzebub, duw Ecron: rhybuddiodd ei benadur rhag y perygl yr oedd ynddo oddi wrth ymosodiad y Syriaid, yr hyn y methodd y pedwar cant o brophwydi Baal ei ragddywedyd wrth Ahab: fel hyn gellir dywedyd mewn un ystyr ei fod ef wedi gorchfygu y gau dduwiau ar eu tir eu hunain, mor hynod ag y gorchfygodd Elias hwynt.

Yn nghlod yr enwogion, sydd yn *Eccles.* xlviii. 12—14, dywedir am Eliseus—"Ni syflodd efe er tywysogion yn ei ddyddiau, ac ni allodd neb ei ddarostwng ef. Ni orchfygodd dim ef: ac wedi ei huno, ei gorff ef a brophwydodd. Efe a wnaeth ryfeddodau yn ei fywyd; ac yn ei ddiwedd rhyfedd oedd ei weithredoedd." Ni cheir unrhyw gyfeiriad arall o bwys at Eliseus, oddigerth y crybwylliad achlysurol am dano sydd yn *Luc* iv. 27.

Wrth ddarllen a myfyrio hanes Eliseus yn fanwl, yr ydys yn teimlo, yn un peth, ei bod yn ddiffygiol o nodau pendant i arwyddo amseroedd yr amryw ddygwyddiadau. Crybwyllir yn barhaus am "frenin Israel," ond gadewir ni i gasglu pa frenin a feddylir; megys 2 *Bren.* v. 5—7, &c.: vi. 8, 9, 21, 26; vii. 2; viii. 3, 5, 6, &c. Dyma fel y mae yr hanes gyda golwg ar yr amgylchiad pwysig o iachad Naaman, a chymmeriad llu y Syriaid yn Dothan. Yr unig eithriadau ydynt yr hyn a gofnodir yn 2 *Bren.* iii. 12 (cymharer 6), a'r hanes am ymweliad Ioas (xiii. 14, &c.); ond y mae yr hanes olaf hwn ei hun yn brawf nad yw y cofnodau hyn wedi eu trefnu yn amseryddol, gan eu bod yn dygwydd fel y maent ar ol marwolaeth Ioas (*adn.* 13), ac yn cael eu dilyn gan hanes dygwyddiadau dan deyrnasiad ei dad Ioahaz: *adn.* 22, 23. Peth arall a deimlir ydyw diffyg dilyniad hanesyddol yn y cofnodau. Y mae hanes y Sunamees yn cymmeryd i fyny amser lled faith, sef o ryw hyd cyn geni y bachgen hyd onid oedd yn gryn nifer o flyneddoedd o oedran. Mae'n rhaid fod cydnabyddiaeth Gehazi â'r brenin, ac am hyny yr hanes a'i rhagflaena (2 *Bren.* viii. 1, 2), wedi dygwydd cyn iddo gael ei daraw â'r gwahanglwyf, er ei bod wedi ei chyfleu yn mhell ar ol yr hyn a berthyn i'r dygwyddiad hwnw: 2 *Bren.* v. 27. Gellir sylwi hefyd nad yw y gwahanol hanesion am Eliseus wedi eu cyssylltu yn nghyd yn yr un ffurf o ymadroddi ag a arferir yn gyffredin yn y llyfrau hyn [*Keil, Kings*, 348]. Wedi rhoddi hyn o ragarweiniad, sylwir bellach yn fwy rheolaidd ar yr amryw ddygwyddiadau a drosglwyddwyd i ni yn y cofnodau ysgrythyrol o hanes bywyd y prophwyd nodedig hwn.

Ymddengys i alwad Eliseus gymmeryd lle tua phedair blynedd cyn marwolaeth Ahab. Bu farw dan deyrnasiad Ioas, ŵyr Iehu. Yr oedd hyn yn cynnwys yr ysbaid o ddim llai na 65 o flyneddoedd, ac o'r rhai hyn y mae yn sicr iddo ef fod yn brophwyd yn Israel am 55 mlynedd: 2 *Bren.* v. 8. Gwneir y cyfrif yma allan fel y canlyn:—

| | | |
|---|---|---|
| Teyrnasiad Ahab ar ol galwad Eliseus ... ... ... | 4 | blynedd. |
| Teyrnasiad Ahaziah ... | 2 | " |
| Teyrnasiad Ioram ... ... | 12 | " |
| Teyrnasiad Iehu... ... | 28 | " |
| Teyrnasiad Ioahaz ... ... | 17 | " |
| Teyrnasiad Ioas ... ... | 2 | " |
| | 65 | |

Fe ddichon fod Elias wedi byw naw mlynedd o'r cyfrif yma; Ahab bedair blynedd; a dyfaler dair blynedd i Ioram, a bydd y gweddill ar ol esgyniad Elias hyd farwolaeth Eliseus yn 56 o flyneddoedd.

Ar ol ymadawiad ei feistr, dychwelodd Eliseus i drigo yn Iericho: 2 *Bren.* ii. 18. Yr ydoedd y dref wedi cael ei hail adeiladu yn ddiweddar (1 *Bren.* xvi. 34), ac yno y preswyliai "meibion y prophwydi;" 2 *Bren.* ii. 5, 15. Dywed teithwyr mai un o'r golygfeydd hynotaf yn nghymmydogaeth Iericho—golygfa nas gellir byth ei hanghofio ar ol ei gweled—ydyw y ddwy ffynnon anhysbys sydd yn cyfodi wrth odreu bryniau serth Quarantania, o'r tu cefn i'r dref—dwy ffrwd y rhai sydd yn croesi y dyffryn tua'r Iorddonen, gan wasgar, hyd yn oed ar y tymmorau sychaf a phoethaf, y llysiau ffrwythlonaf a phrydferthaf dros wyneb lle na buasai hebddynt ond diffeithwch llwm a thywodlyd. Yn yr amser dan sylw, pan aeth Eliseus i'r ddinas, yr oedd rhan o leiaf o'r fendith yma yn ddiffygiol. Yr oedd un o'r ffynnonau hyn yn niweidiol, gan y cynnwysai y dwfr ryw sylweddau ydoedd, nid yn unig yn ei wneyd yn anghymhwys i'w yfed, ond yr oedd hefyd yn niweidio y tir—yr oedd "y dyfroedd yn ddrwg, a'r tir yn ddiffaeth"—yn *erthylu* ar ymyl y ddalen: 2 *Bren.* ii. 19. Ar ddymuniad gwŷr Iericho, meddyginiaethodd Eliseus y niwed yma. Cymmerodd halen mewn phiol newydd, a bwriodd ef yn enw Iehofah i lygad y ffynnon, ac "iachawyd y dyfroedd hyd y dydd hwn;" *adn.* 22. Y mae traddodiad o amser Josephus hyd yn awr, yn cymhwyso yr iachad yma at y ffynnon fawr sydd i'r gogledd-orllewin o'r dref bresennol, yr hon a elwir yn awr, mewn cyfeiriad, fe allai, at ryw ddygwyddiad diweddarach, yn *Ain es-Sultân* [*Jos, B. J.* iv. 8, adr. 3; *Saewulf, Mod. Trav.* 17;

Digitized by Google

*Rob.* i. 554, 5]. Hon, neu *Ain Hajla*, yn yr un gymmydogaeth, fe allai, ydyw y ffynnon y cyfeiria Scott ati yn y bennod gyntaf o'r *Talisman*, dan yr enw "Perl y Diffeithwch" (*the Diamond of the Desert*). Ond y mae yn amlwg fod ei wybodaeth ef o ddaiaryddiaeth y lle yn dra diffygiol.

Yn Bethel y cyfarfyddir nesaf âg Eliseus, yn nghanol y wlad, ar ei ffordd o Iericho i Fynydd Carmel: 2 *Bren.* ii. 23. Yr oedd Elias gydag ef yn ei ymweliad diweddaf â'r lle, pan ar ei ffordd tua'r Iorddonen: *adn.* 2. Yr oedd meibion y prophwydi yn trigo yno; er hyny mae yn amlwg fod addoliad y llo aur fyth yn cael ei ddwyn yn mlaen yno, ac am hyny gallasai prophwyd Iehofah ddysgwyl cyfarfod â rhyw sarhad yno, yn enwedig un heb fod mor adnabyddus ac mor arswydol ag Elias. Y mae y ffordd sydd yn arwain i'r dref yn ymdroelli ar i fyny i fwlch Wady (dyffryn) *Suweinit*, dan y bryn sydd hyd eto, fel y bernir, yn arddangos adfeilion Ai—ar yr hwn hyd yn oed yn awr y mae rhai coed—a gysgodid y pryd hyny gan goedwig dew, lle y trigai amryw greaduriaid rheibus. Crybwyllir am y llew a'r arth gan Amos fel bwystfilod eithaf adnabyddus iddo (*Amos* v. 19); ac y mae yn amlwg ei fod ef wedi bod yn preswylio am ryw ysbaid o leiaf yn nghymmydogaeth Bethel: vii. 10; hefyd, iv. 4; v. 5, 6, Fel yr oedd Eliseus yn myned i fyny at Bethel, fel y sylwyd, ymgasglodd plant y ddinas, fel y maent yn arfer hyd heddyw yn y mynedfeydd i ddinasoedd Palestina, i wylio y rhai a fyddent yn myned heibio. Yr oedd gwallt byr trefnus Eliseus yn peri iddynt ei adnabod ar unwaith, fel olynydd y prophwyd, yr hwn yr oedd ei wallt llaes, a ddisgynai yn gudynau didrefn dros ei ysgwyddau, yn ei wneyd mor hysbys i bawb yn y ddinas. Felly, yn ol arfer plant y dwyrain, dechreuasant watwar y prophwyd, gan ddywedyd, "Dos i fyny, moelyn, dos i fyny, moelyn;" 2 *Bren.* ii. 23. Dywed Ewald, mai gair penodol yw yr Hebraeg, a gyfleithir yma *moelyn* genym ni, yn arwyddo byrder gwallt o'r tu ol i'r pen. Pa fodd bynag, ymddengys i Eliseus am unwaith ddilyn llymder ei hen feistr Elias; ac efe a drodd at y plant a'i gwatwarent ef, ac a'u melldithiodd hwynt yn enw Iehofah; a gŵyr pawb am y trychineb a ganlynodd—"A dwy arth a ddaeth allan o'r goedwig, ac a ddrylliodd o honynt ddau blentyn a deugain;" 2 *Bren.* ii. 24. Y mae rhai yn teimlo anhawsder mawr i gyssoni dystrywiad y plant hyn âg ymddygiad llariaidd cyffredin Eliseus; ac y maent yn tybied y dichon fod rhyw ymadroddion ar goll, a fuasent yn cyssoni llymder y gosp â bychander ymddangosiadol y trosedd. Ond dylid cofio yn wastad fod yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi i ni yn y dull y barnodd doethineb anfeidrol yn oreu ei rhoddi. Dywed Kitto, y gellir casglu fod y plant hyn wedi eu hannog gan eu rhieni eilunaddolgar i watwar y prophwyd fel y gwnaethant, gan erchi iddo yn wawdus esgyn i'r nef, fel y gwnaethai ei feistr, Elias! Yr oedd cymmysgedd o farbareidd-dra, annuwiaeth, ac annuwioldeb, yn eu hymadroddion. Ond yr oedd trigolion Bethel i gael gwybod, trwy brofiad chwerw, fod dianrhydeddu prophwyd Duw yn ddianrhydedd iddo ef ei hun; canys ysbrydolwyd y prophwyd yn y fan i gyhoeddi barn a gymmerodd le yn ddioed.

Yr oedd Iehoram, yr hwn oedd yn teyrnasu yn awr ar Israel, er nad yn addolwr Baal, eto yn dueddol i bechod Ieroboam: ond yr oedd mewn cyfeillach âg Iehosaphat, brenin daionus Iudah, trwy annogaeth yr hwn, mae yn debyg, y rhoddodd heibio, i ryw raddau o leiaf, eilunaddollaeth adgasaf ei dad Ahab. Yr oedd yn awr yn dymuno gorfodi Moab i dalu ei gwarogaeth arferol i Israel; a phenderfynodd Iehosaphat fyned i ryfel yn ei erbyn, gyda Iehoram, yn nghyd â brenin Edom, ydoedd dan deyrnged iddo yntau. Cyfarfu y byddinoedd hyn eu gilydd yn nyffryn Edom. Yn llawn hyder yn eu nerth eu hunain, pwysasant yn mlaen yn erbyn y gelyn; ond er na chyfarfuant âg ef, cyfododd un arall tra pheryglus o'u blaen; canys, tra yr oeddynt yn nghanol anialdiroedd crasboeth Arabia Garegog, nis gallent gael dim dwfr. Y mae Iehoram yn galaru o blegid y trychineb arswydus oedd yn eu haros, ond y mae Iehosaphat yn troi ei wyneb at Dduw ei dadau, ac yn ymofyn am brophwyd i'r Iehofah. Ar hyn y mae un o wŷr llys Iehoram yn dywedyd wrtho, "Y mae yma Eliseus mab Saphat, yr hwn a dywalltodd ddwfr ar ddwylaw Elias;" 2 *Bren.* iii. 11. Ymddengys fod y prophwyd gyda'r fyddin ar y pryd: yn ol Josephus [*Ant.* ix. 3; adr. 1], "Yr oedd yn dygwydd bod mewn pabell o'r tu allan i wersyll Israel." Cyn gynted ag y gwybuwyd fod Eliseus ger llaw, aeth y tri brenin yn ddioed ato. Credai Eliseus yn ddiau nad oedd ond ofn ofergoelus, yn nghyd â dylanwad Iehosaphat, a barai i Iehoram fel hyn ymofyn âg ef, ac annogodd ef yn sarug ac edliwgar i fyned at brophwydi ei dad Ahab, a phrophwydi ei fam Iezebel, i ofyn cynnorthwy. Dygodd y cerydd yma y penadur i gydnabod annigonolrwydd y rhai hyny, a gallu y Duw a esgeulusasai. Wrth ganfod gwagder ymostyngiad Iehoram, dywed y prophwyd y geiriau llymion a ddyfynwyd unwaith eisoes—"Fel mai byw Arglwydd y lluoedd, yr hwn yr wyf yn sefyll ger ei fron, oni bai fy mod i yn perchi wyneb Iehosaphat, brenin Iudah, nid edrychaswn i arnat ti." Ar ol cyfarch Iehoram fel hyn, mae y prophwyd yn galw am gerddor ato; ac yn awr, wedi i'w ysbryd dawelu, wrth wrandaw, fe allai, un o ganiadau Seion, y mae Iehofah yn nesau at ei was, ac yn ei gynnysgaethu â gallu prophwydol, fel y dywed yr hanes, "A daeth llaw yr Arglwydd arno ef." Y mae y cerddor yn tewi, ac Elias yn mynegu y newydd gorfoleddus, nid yn unig y byddai iddynt gael cyflawnder o ddwfr mewn modd gwyrthiol, ond hefyd y byddai iddynt lwyr orchfygu Moab. "Fel hyn y dywedodd Iehofah, Gwna y dyffryn hwn yn llawn ffosydd; ni welwch wynt, ac ni welwch wlaw; eto y dyffryn hwn a lenwir o ddwfr, fel yr yfoch chwi." A'r boreu canlynol, cawsant brawf fod y rhagddywediad yma yn wirionedd. Ond bu yr un dwfr ag a gadwodd eu bywyd hwy yn ddinystr i'w gelynion. Yr oedd y Moabiaid a glywsant am ddyfodiad y byddinoedd cynghreiriol yn brysur yn ymgasglu yn awr ar eu gororau. Pan gyfododd yr haul, ac y disgynodd ei oleuni rhosynaidd ar y dyfroedd, tybiodd eu rhagwylwyr, wrth edrych arno o'r pellder, mai gwaed ydoedd. Rhedodd y dyb yma yn ebrwydd o'r naill i'r llall, fod y breninoedd hyny wedi eu lladd—eu bod wedi cweryla, ac felly wedi taraw bawb eu gilydd. Yna rhoddasant floedd gyffredinol—"At yr anrhaith, Moab!" ac aethant rhagddynt, mewn anhrefn, fel y gellir tybied, ond yn llawn hyder fod y fuddugoliaeth eisoes wedi ei hennill. Ond pwy a all ddysgrifio eu dychryn a'u somedigaeth pan ganfyddent fyddin yr Israeliaid yn eu cyfarfod yn eu llawn rym, â'u cleddyf yn eu dwylaw.

Digitized by Google

Troisant eu cefnau ar unwaith yn yr annhrefn mwyaf; ac ofer y ceisient amddiffyn eu hunain, canys yr oedd Duw wedi arfaethu iddynt gael eu cospi gan Israel, a'u darostwng iddynt: 2 *Bren.* iii. 20, &c. Y mae yn debyg i'r dygwyddiad hynod yma gymmeryd lle ar ochr dde-ddwyreiniol y Môr Marw.

Wedi i'r rhyfel hon derfynu yn hollol orchfygiad y gwrthryfelwyr, ac wedi i Eliseus ddychwelyd adref, ceir ef eto wrth ei hoff orchwyl o weinyddu bendithion. Daeth gwraig weddw prophwyd duwiol—Obadiah, penteulu Ahab, yn ol Josephus—i'w hysbysu fod ei gŵr wedi marw mewn dyled, a bod yr echwynwr ar werthu ei dau fab i fod yn gaethweision; yr hyn, yn ol y gyfraith (*Exod.* xxi. 7; *Lef.* xxv. 39) y gallai ei wneuthur (*Exod.* xxii. 3); a rhag y fath drychineb, y mae hi yn erfyn cymhorth y prophwyd. Nid ymedy Duw â gweinyddiad ei gyfreithiau cyffredinol heb achos: am hyny y mae Eliseus yn gofyn pa cyn belled yr oedd yn ei gallu hi i osgoi y drwg oedd yn ei bygwth: etyb hithau mai yr unig beth oedd yn ei meddiant oedd ystenaid o olew. Trwy chwanegu hwnw yn wyrthiol y mae efe yn ei galluogi ar unwaith i dalu ei dyled, a thrwy hyny ddiogelu rhyddid ei meibion: 2 *Bren.* iv. 1—7. Nid oes genym na hanes, nac amser, na lle, y wyrth hon.

Yr amgylchiad nesaf a gymmer le yn Sunem (*Shunem*) a Mynydd Carmel: 2 *Bren.* iv. 8—37. Y mae yr hanes yma yn ddwy ran, ac yr oedd ysbaid o amryw flyneddoedd rhyngddynt.

1. Ymddengys y byddai Eliseus yn galw yn achlysurol, wrth fyned o Carmel i ddyffryn yr Iorddonen, i ymweled â meibion y prophwydi, yn Sunem, a elwir yn awr *Solam*, pentref ar lethrau deheuol Jebel ed Duhy, sef Hermon Fychan teithwyr diweddar. Trodd Eliseus yma yn ddamweiniol ar y dechreu, fel yr ymddengys, a chafodd ei groesawu yn dirion gan wraig oludog a haelionus, cyn i'w wir gymmeriad, fe allai, fod yn hysbys iddi. Ond y mae yn amlwg na bu yn hir cyn gwybod mai "gŵr sanctaidd i Dduw" oedd ei hymwelydd, a pharodd hyny i'w gofal am dano gynnyddu; a thrwy gydsyniad parod ei gŵr, hi a barotodd ystafell gyfleus iddo i fwyta ac i orphwys pan yn cynniwair heibio. Y mae yr hanes prydferth yma mor hysbys, fel nad oes achos ei ddyfynu, na mynegu y modd yr ad-dalwyd i'r wraig haelionus hon o blegid ei gofal caredig am y prophwyd, trwy gael ei hachub o'r sefyllfa o fod yn anmhlantadwy, yr hyn a ystyriai y gwragedd Iuddewig yn drychineb mawr, a pheri iddi gael cofleidio mab.

2. Yn awr aeth amryw flyneddoedd heibio. Yr oedd y bachgen weithian yn ddigon hen i ganlyn ei dad i'r meusydd ŷd yn y cynauaf. Yr oedd pelydr tanbaid haul y bore yn rhy nerthol iddo, a chariwyd ef adref at ei fam i farw yn y prydnawn. Nid ydyw hi yn dyweyd dim am eu colled wrth ei gŵr; ond gesyd y plentyn ar wely gŵr Duw, a chychwyn ar unwaith i ymofyn am dano i Fynydd Carmel. Y mae y pellder yn bymtheg neu un ar bymtheg o filltiroedd, ac yn waith pedair awr o leiaf o farchogaeth; ond cymmer yr asen oreu yn yr ystabl (asenod oedd ac ydyw prif ddewisiad y dwyreinwyr), ac ymddengys iddi farchogaeth yn gyflym nes cyrhaedd pen ei thaith. Yr oedd Eliseus ar ben un o fryniau Carmel, yn ngolwg y ffordd oedd yn arwain i Sunem; ac adnabu o bell y wraig ddefosiynol a fyddai yn arfer bod yn yr addoliad a gedwid yno, fel yr ymddengys, ar y "newyddloer a'r Sabbath:" cymharer *adn.* 23. Y mae efe yn anfon Gehazi i lawr i'w chyfarfod, i ofyn beth oedd yr achos o'r ymweliad annysgwyliadwy. Ond wrth y meistr, ac nid y gwas, yr oedd hi yn penderfynu adrodd ei chwyn alarus; felly gŷr yn mlaen nes cyrhaedd y fan lle yr ydoedd Eliseus ei hun yn trigo: yna hi a ymostyngodd mewn cyfyngder gan gofleidio traed y prophwyd. Cynnygiodd Gehazi, naill ai am nad ydoedd yn deall y weithred hon, neu oddi ar deimlad fod y wraig yn rhy hyf, ei gwthio hi ymaith. Ond yr oedd y prophwyd yn gweled yn llawer pellach na'i was hwn, a deallodd yn y fan mai "gwraig galed arni" ydoedd hon: "Gad hi yn llonydd," eb efe; "canys ei henaid sydd ofidus ynddi; a'r Iehofah a'i celodd oddi wrthyf fi, ac nis mynegodd i mi." "Yna hi a ddywedodd," yn null ymadrodd dammegol y dwyrain, "a ddymunais i fab gan fy arglwydd? oni ddywedais, Na thwylla fi?" Nid oedd eisieu dim eglurhad chwanegol i wneyd i Eliseus ddeall yr holl amgylchiad. Gorchymynodd y prophwyd yn y fan i Gehazi gymmeryd ei ffon ef, gan fyned ymaith ar ffrwst, a'i gosod ar wyneb y bachgen. Ymddengys nad oedd y prophwyd, y pryd hyn, yn bwriadu myned i'r daith, gan y tybiai y byddai y ffon yn llaw y gwas yn ddigon effeithiol i ateb y dyben. Ond nid ymadawai y fam heb y prophwyd ei hunan; a chychwynodd y ddau i'r daith ar ol Gehazi. Rhaid fod haul y prydnawn hir, pryderus, hwnw wedi hen fachludo cyn iddynt hwy gyrhaedd y pentref. Cyfarfu Gehazi hwy ar y ffordd, ond nid oedd ganddo newydd cysurus i'w adrodd; canys er iddo osod y ffon ar wyneb y bachgen marw, nid oedd un arwydd ei fod yn dadebru. Yna aeth Eliseus yn ebrwydd i'r tŷ, ac oddi yno i'w hen ystafell, lle yr oedd y plentyn marw wedi ei osod gan ei fam ar wely y prophwyd; ac wedi iddo fyned i mewn, efe "a gauodd y drws arnynt ill dau, ac a weddïodd ar Iehofah." Moddion naturiol a berthyn i ddyn; ond i Dduw yn unig y perthyn y goruchnaturiol: dylem ni gyflawnu ein rhan, gan weddïo ar Dduw wneuthur ei ran yntau. Yn ol yr egwyddor hon yn hollol yr ymddygodd y prophwyd ar yr amgylchiad difrifol yma. Bendithiodd Duw y moddion a ddefnyddiwyd, ac atebodd y weddi a gyflwynwyd iddo gan Eliseus. Adferwyd bywyd i'r bachgen, galwyd y fam i mewn, y mae hithau yn syrthio unwaith eto wrth draed y prophwyd; ond yn wahanol iawn ei theimladau i'r tro o'r blaen; a hi "a gymmerodd ei mab ac a aeth allan."

Nid oes yn yr hanes ddim i benderfynu yr amseriad gyda golwg ar ddygwyddiadau ereill. Yma yr ydym yn cyfarfod gyntaf â Gehazi, *gwas gŵr* Duw. *Bachgen*, neu *ŵr ieuanc*, ydyw ystyr y gair gwreiddiol a gyfieithir yma *gwas*. Gair hollol wahanol a ddefnyddir i arwyddo perthynas Eliseus âg Elias, er y cymhwysir hwnw hefyd weithiau at Gehazi. Rhaid fod y dygwyddiad yma wedi cymmeryd lle cyn y dygwyddiadau a nodir yn *pen.* viii. 1—6; ac am hyny, cyn iachad Naaman, pan y daeth Gehazi yn wahanglwyfus.

Y mae yr olygfa yn awr yn newid i Gilgal, ar amser, fel yr ymddengys, pan y preswyliai Eliseus yno: iv. 38—41. Yr oedd meibion y prophwydi yn eistedd ger ei fron ef. Amser newyn ydoedd: yr un, fe allai, a'r saith mlynedd a grybwyllir yn viii. 1, 2, yn ystod y rhai yr ymfudodd Sunamees yr hanes blaenorol i dir y Philistiaid. Ymddengys fod yr ymborth yn cynnwys rhyw lysiau a ellid gael yn y tir. Gorchymynai Eliseus i'w was drefnu y crochan mawr, i ferwi

Digitized by Google

cawl i feibion y prophwydi, a daeth un o honynt â llonaid ei wisg o fresych gwylltion, a gafodd ar winwydden wyllt [gwel GWINWYDDEN WYLLT], ac a'u bwriodd i'r crochan cawl. Ond cyn gynted ag y dechreuasant fwyta, deallasant wrth flas y cawl fod rhyw lysiau niweidiol ynddo, a llefasant—"O ŵr Duw! y mae angeu yn y crochan." Yn ngwyneb hyn, bwriodd Eliseus flawd i'r cawl, ac iachawyd ef yn y fan, mewn modd gwyrthiol.

Yr amgylchiad nesaf a geir yn iv. 42—44: dygwyddodd, yn ol pob tebygolrwydd, yr un amser ac yn yr un lle a'r amgylchiad blaenorol. Dygodd gŵr o Baal-salisa anrheg i ŵr Duw o fara blaenffrwyth, yr hyn, yn ol y gyfraith (*Num.* xviii. 8, 12; *Deut.* xviii. 3, 4), oedd deilwng i weinidogion y cyssegr—"ugain torth haidd, a thwysenau o ŷd newydd yn ei gibau." *Gwisg* sydd ar ymyl y ddalen am *cibau;* ac ystyr y gair Hebraeg, medd Gesenius, yw *côd* neu *ysgrepan.* Y meddwl yw, fod y gŵr wedi dwyn y torthau a'r twysenau i'r prophwyd yn ofalus mewn côd neu ysgrepan, ac nid dwyn yr ŷd iddo yn ei *gibau*, fel y dywed ein cyfieithiad ni. Gwnaeth y prophwyd y rhodd fechan hon, trwy air Iehofah, yn fwy na digon o ymborth i gant o wŷr. Mae y wyrth hon yn tebygu mewn mesur i wyrth fawr y Gwaredwr, pan y parodd i bum torth a dau bysgodyn fod yn ddigon i borthi pum mil o wŷr, heb law gwragedd a phlant; a dichon fod y flaenaf yn gysgod o'r olaf.

Y mae y crybwylliad am Baal-salisa yn rhoddi cefnogaeth fawr i'r dyb am y Gilgal a grybwyllir yma (*adn.* 38), fel yr un a fynychid gan feibion y prophwydi; ac am hyny yr un a'r lle ag y sonir am dano yn *pen.* ii. 1, nad y Gilgal oedd ger llaw Iericho ydoedd; gan fod Baal-salisa neu Beth-shalisha yn cael ei gosod gan Eusebius bymtheng milltir Rufeinig i'r gogledd o Lydda—yn yr un sefyllfa yn gymhwys ag y ceir adsain o'r enw Gilgal fyth fel Jiljilieh. Gwel GILGAL.

Y mae y cofnodau syml am y dygwyddiadau hyn yn mysg meibion y prophwydi yn cael eu tori yn awr gan amgylchiad o ansawdd mwy pwysig: 2 *Bren.* v. 1—27. Yr oedd tywysog llu brenin Syria, i'r hwn yr oedd ei wlad yn ddyledus am ryw lwyddiant arbenig (lladd Ahab, yn ol y traddodiad Iuddewig), yn cael ei flino yn dost gan y gwahanglwyf, a hwnw yn ei ddull gwaethaf; sef, y rhyw gwyn o hono: *adn.* 27. Buasai hyn yn ei amddifadu yn Israel o bob galwedigaeth a phob cyfeillach: 2 *Bren.* xv. 5; 2 *Cron.* xxvi. 20, 21. Ond yn Syria, ymddengys nad oedd y fath arfer yn ffynu: yno, yr oedd efe fyth yn "ŵr mawr yn ngolwg ei arglwydd, ac yn anrhydeddus. Yr oedd yn ngwasanaeth ei wraig ef lances fechan o Israel, a gaethgludasid yno gan yr ysbeilwyr (Heb., *difrodwyr*) yn un o'u hymosodiadau ar y gororau, yr hon a fynegodd yn y teulu Syriaidd hwnw am enwogrwydd a medr Eliseus y prophwyd. "O! na byddai fy arglwydd o flaen (Heb., "wyneb yn wyneb") y prophwyd sydd yn Samaria"—y prophwyd a gyfodasai y marw—"canys efe a'i hiachâai ef o'i wahanglwyf." Mynegwyd y newydd gan Naaman ei hun (medd yr Hebraeg) i'r brenin. Yr oedd ar Benhadad eisieu cael gwybod mwy eto am wir sefyllfa a chymmeriad Eliseus. Efe a ysgrifenodd lythyr tra nodedig, o lythyr tywysog milwraidd, at frenin Israel, yr hwn lythyr a ddwg ar gof i ni mewn modd hynod eiriau milwr arall, a lefarwyd yn mhen llawer o ganrifoedd yn ddiweddarach, yn nghylch iachau gwas iddo oedd yn glaf—"Dywedaf wrth hwn, Cerdda, ac efe a â; ac wrth fy ngwas, Gwna hyn, ac efe a'i gwna" (*Mat.* viii. 9). "Yn awr," medd llythyr Benhadad, ar ol cyfarchiad priodol, fe allai—"Yn awr, pan ddel y llythyr hwn atat ti, wele, anfonais atat ti Naaman fy ngwas (Heb., *fy nghaethwas*), fel yr iacheit ef o'i wahanglwyf." Cychwynodd Naaman gyda'r llythyr hwn, yn nghyd â'r anrheg, prif arbenigrwydd yr hon ydoedd y gwisgoedd gwerthfawr, am y rhai y mae Damascus wedi bod bob amser mor hynod, a chyda gosgordd gyflawn (*adn.* 13, 15, 23), ac efe a ddaeth i Samaria. Brawychodd brenin Israel yn ddirfawr pan glywodd y genadwri. Ni fynegir enw y brenin: mae yn debyg mai Ioram ydoedd. Nid oedd ganddo ef ond un syniad ar y pwnc, a achoswyd yn ddiau gan aml brofiad blaenorol—"Gwybyddwch gan hyny, attolwg, a gwelwch mai ceisio achos y mae efe i'm herbyn i." Aeth y newydd yn fuan i glustiau y prophwyd; a chydag urddas penodol, "efe a anfonodd at y brenin"—"Deued yn awr ataf fi, ac efe a gaiff wybod fod prophwyd yn Israel." At dŷ Eliseus yr aeth Naaman, yn nghyd â'i holl osgordd; "â'i feirch, ac â'i gerbydau," fel y mynega y Croniclwr yn bendant. Ymgadwodd Eliseus o'r golwg, a thra y safai Naaman a'i osgordd fawreddog wrth y drws; a chymmaint ag a wnaeth y prophwyd oedd anfon cenad ato i'w gyfarwyddo yn syml i ymdrochi seithwaith yn yr Iorddonen. Parodd ymddygiad annibynol y prophwyd, a symledd y cyfarwyddyd—oedd, nid yn unig yn gwbl amddifad o bob seremoni, ond hefyd yn sarhad i frodor o ddinas, rhagoroldeb dyfroedd yr hon oedd, ag sydd eto, yn brif ymffrost y trigolion, yn anad un ddinas yn y dwyrain—parodd hyn oll i Naaman ffromi yn aruthr. Ond gwyddai ei gaethweision pa fodd i ymddwyn at dymmer brysur, er nad anhaelfrydig eu meistr; a'r canlyniad fu iddo fyned i'r Iorddonen, ac ymdrochi ynddi saith waith, "a'i gnawd a ddychwelodd fel cnawd dyn bach, ac efe a lanhawyd." Ei orchwyl cyntaf ar ol cael ei iachau oedd diolch i'w gymmwynaswr. Yna dychwelodd a'i holl fintai at dŷ Eliseus; ac ni chymmerodd ei rwystro y waith hon i weled y y prophwyd, ond efe a aeth i mewn ac a safodd ger bron gŵr Duw, gan gydnabod yn ddiolchgar allu Duw Israel; ac erfyniodd yn daer ar y prophwyd dderbyn yr anrheg a ddygasai efe o Damascus. Ond yr oedd Eliseus yn benderfynol: llwyr wrthododd y cynnyg, er iddo gael ei ddirgymhell i'w derbyn fwy nag unwaith. Wedi i Naaman gydnabod Iehofah fel ei Dduw, dymunodd gael "llwyth cwpl o fulod o ddaiar" gwlad gyssegredig y prophwyd, i adeiladu allor i Iehofah. Yna ymgynghorodd âg Eliseus yn nghylch anhawsder a ragwelai, sef pa fodd yr oedd efe, ac yntau yn awr yn was Iehofah, i ymddwyn pan ddilynai efe y brenin i deml y duw Syriaidd, Rimmon. Rhaid iddo ymgrymu o flaen y duw; a faddeu Iehofah yr anffyddlondeb hwn? Ateb Eliseus oedd, "Dos mewn heddwch;" a chyda'r caniatad yma yr aeth efe a'i holl fintai ymaith. Ond nis gallasai Gehazi, gwas Eliseus, oddef i'r fath drysor ddianc fel hyn heb iddo ef gael cyfranogi o hono. "Fel mai byw Iehofah," eb ebe—ymadrodd yn ngenau yr Israeliad cyffredin cwbl debyg i *Walla*, "myn Duw," a ddywedir mor fynych gan yr Arabiaid diweddar—"mi a redaf ar ol y Syriad hwn, ac a gymmeraf rywbeth ganddo ef." Wedi iddo lunio chwedl, fe wnaeth i Naaman haelfrydig anfon anrheg helaeth o arian a dillad yn ol at dŷ Eliseus. Yna aeth i mewn, a safodd o flaen ei feistr, fel pe na

Digitized by Google

buasai dim wedi dygwydd. Ond nid oedd y prophwyd yn un i'w dwyllo felly. Yr ydoedd ei galon ef wedi myned gyda'i was yn yr holl ymddygiad, fel yr oedd yn gwybod hyd yn oed fanylion y weithred ysgeler; ac efe a gospodd Gehazi â'r gwahanglwyf dychrynllyd, yr hwn yr oedd efe newydd waredu Naaman oddi wrtho.

Yr oedd iachad y gwahanglwyf yma—yr unig dro iddo ef iachau y gwahanglwyf (*Luc* iv. 27)—yn ail wyrth o eiddo Eliseus a gyfeiriai yn uniongyrchol at wyrthiau ein Harglwydd: *Mat.* viii. 2, 3; *Luc* xvii. 12—14.

Rhaid fod yr amser y cymmerodd yr amgylchiadau hyn le saith mlynedd, o leiaf, ar ol cyfodiad mab y Sunamees. Y mae hyn yn amlwg wrth gymharu 2 *Bren.* viii. 4, â'r 1, 2, 3. Rhaid hefyd fod ymddyddan Gehazi â'r brenin wedi dygwydd cyn iddo gael ei daraw â'r gwahanglwyf.

Rhaid dychwelyd eto at feibion y prophwydi. Ond ymddengys fod yr olygfa y waith hon yn newid i Iericho, yn ystod yr amser y bu Eliseus yn preswylio yno: 2 *Bren.* vi. 1—7; "A meibion y prophwydi a ddywedasant wrth Eliseus, Wele yn awr, y lle yr hwn yr ydym ni yn trigo ynddo ger dy fron di sydd ry gyfyng i ni." Pa un ai o blegid i'w rhifedi gynnyddu y tu hwnt i ddysgwyliad yr athraw, ai rhywbeth arall oedd yr achos i'r lle fyned yn rhy gyfyng, nid ydyw hysbys. Pa fodd bynag, cynnygiasant ar iddynt fyned hyd yr Iorddonen, gan gymmeryd oddi yno bawb ei drawst (mor fanwl y mynega yr hanes), er mwyn gwneuthur lle newydd i gyfanneddu ynddo. Pa ham y dewisasant yr Iorddonen, nid yw hysbys. Fe allai mai am ei bod yn mhellach o ddwndwr Iericho; fe allai mai y lle a gyssegrwyd gan yr arch, pan groesodd Israel gynt ydoedd; neu y lle a groesodd Elias ychydig flyneddoedd yn ol. Cydsyniodd gŵr Duw, trwy gymhelliad ei ddysgyblion, i fyned gyda hwy. Wedi cyrhaedd yr Iorddonen, fel yr oedd un o'r dysgyblion yn tori pren oedd uwch ben y ffrwd, syrthiodd pen (Heb., *haiarn*) y fwyell i'r dwfr. Ac i wneyd y drwg yn waeth, bwyell fenthyg ydoedd. Pan ddygwyddodd yr anffawd, gwaeddodd y gŵr ieuanc ar ei feistr, yr hwn a ddaeth yn fuan i'w gynnorthwyo. Y mae ffrwd yr Iorddonen yn ddofn hyd at y lan, yn enwedig pan fyddo yr afon mor isel ag i adael y coed ar dir sych; ac heb law hyny, y mae mor lleidiog fel mai cwbl ofer fyddai chwilio am beth a syrth i ddwfr. Dangoswyd y fan lle y syrthiodd y fwyell i ŵr Duw, "Ac efe a dorodd (â'i law, fel yr arwydda y Deg a Thrigain) bren, ac a'i taflodd yno; a'r haiarn a nofiodd."

Yn Dothan, lle y preswyliai Eliseus, y ceir yr olygfa nesaf—hanner y ffordd rhwng Samaria ac Iezreel: 2 *Bren.* vi. 8—23. Yr oedd rhuthriadau minteioedd ysbeilgar y Syriaid (v. 2) yn parhau; ac ymddengys eu bod yn myned yn hyfach, gan ymwthio i fanau yr arferai brenin Israel eu gyru iddynt yn fynych. Y mae rhybudd y prophwyd i'r brenin yn nodedig—"Ymgadw (gochel) rhag myned i'r lle a'r lle." Dywed Josephus [*Hen.* ix. 4, adr. 3], fod y brenin wedi gorfod peidio myned allan i hela o'r achos. Nid oedd eu cynllwynion yn guddiedig rhag gŵr Duw; a thrwy ei rybuddion achubodd y brenin, nid unwaith ac nid dwywaith. Dyryswyd y Syriaid i'r fath raddau gan y methiadau hyn, fel y tybiodd eu brenin fod bradwriaeth yn ei wersyll ef ei hun. Ond rhoddwyd yr eglurhad iddo yn fuan gan un o'i wŷr, yr hwn, fe allai, oedd wedi bod yn llygad-dyst o iachad Naaman, ac am hyny nis gallai ddychymygu am ddim rhy fawr i'w briodoli i berson mor alluog:—"Eliseus y prophwyd, yr hwn sydd yn Israel, a fynega i frenin Israel y geiriau a leferi di yn nghanol dy ystafell wely." Yr oedd yn rhaid dal y fath ddewin galluog yn ddioed, ac anfonwyd meirch a cherbydau a llu mawr i'w gyrchu ef. Aethant ymaith liw nos; a chyn y bore yr oeddynt wedi ymwersyllu o amgylch yr uchelfa ar ba un y saif adfeilion Dothan hyd y dydd hwn. Gwas Eliseus—nid Gehazi, ond un newydd, fel yr ymddengys—oedd y cyntaf i ganfod y perygl. Ond nid ysgogid "Eliseus gan ei ofnau ef; ac efe a weddïodd ar i Iehofah agor llygaid y llanc i weled yr osgordd ysbrydol oedd yn eu hamddiffyn—meirch a cherbydau tanllyd yn llenwi yr holl fynydd. Ond nid dyma y cyfan. Gweddïodd Eliseus drachefn ar Iehofah, a tharawyd holl lu y Syriaid â dallineb. Yna efe a aeth i lawr atynt, gan gynnyg eu harwain i'r lle ac at y gŵr yr ymofynent am dano. Yno, trwy weddi y prophwyd eto, adferir iddynt eu golwg, a chanfyddent eu hunain, nid mewn pentref gwledig tawel, ond yn nghanol prif ddinas Israel, ac yn ngŵydd y brenin a'i filwyr. Wedi cael ei elynion fel hyn yn hollol i'w afael, yr oedd y brenin yn awyddus am eu dystrywio: "Gan daraw, a darawaf hwynt, fy nhad?" Ond yr oedd amcan Eliseus wedi ei ateb pan y dangosodd i'r Syriaid pa mor ofer oedd eu holl ymdrechiadau i'w drechu ef fel gwarchweidwad Israel: "Na tharaw: ti a ellit daraw y rhai a gaethiwaist mewn brwydr gyfreithlawn, ond nid y rhai hyn: dyro ymborth iddynt, a gollwng hwy ymaith at eu harglwydd." Dyma gyfieithiad y Targum, De Wette, ac ereill; ac ymddengys yr ystyr fel hyn yn gyssonach â'r amgylchiad na'r cyfieithiad cyffredin. Dywedir y goddef yr Hebraeg y ddau gyfieithiad. Ar ol y somedigaeth, nid rhyfedd i'r Syriaid roddi i fyny eu rhuthrgyrchau ysbeilgar arferol ar wlad Israel.

Ond nis gallai brenin Syria orphwys dan y fath ddianrhydedd: 2 *Bren.* vi. 24; vii. 2. Rhoddodd i fyny ei gynllun rhuthrgyrchol, a chasglodd ei fyddin reolaidd—ei holl lu—ac a warchaeodd ar Samaria. Nid oes achos i ni yma fyned dros hanes y cyfyngder dychrynllyd y gwasgwyd y trigolion iddo mewn canlyniad, yr hwn a ddarlunir mor fywiog yn y rhan o'r Ysgrythyrau a nodwyd. Ond dygwyddodd i'r brenin gael hanes mwy ofnadwy na'r cyfan, yr hwn sydd heb ei gyffelyb yn nghofnodau yr Iuddewon, oddigerth erchyllderau annhraethadwy dyddiau diweddaf Ierusalem [*Jos. B. J.* v. 10, adr. 3; 13, adr. 7, &c.], o blegid yr hyn y llwyr fwriadodd ddial ei lid ar y prophwyd, gan feddwl, mae yn debyg, fod y weithred olaf a wnaeth Eliseus [*Jos.* ix. 4, adr. 4], neu rywbeth arall nas cofnodir, wedi cynhyrfu Benhadad i warchae ar Samaria: neu fe allai fod cenfigen yn ei gynhyrfu, yr hon a goleddir yn fynych gan ddynion gweiniaid, drygionus, at eu trech a'u rhagorach. Nid yw y Beibl yn nodi enw y brenin hwn; ond prin y gellir ammheu fod Josephus yn gywir wrth ddywedyd mai Ioram ydoedd; ac y mae ei waith yn defnyddio yr un llw a'i fam Iezebel ar achos lled gyffelyb, yn ddigon cysson â'r syniad yma (1 *Bren.* xix. 2): "Fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego, os saif pen Eliseus mab Saphat arno ef heddyw." Cyn gynted ag yr aeth y gair o enau y brenin, anfonodd ei gelgenad i roddi y ddedfryd mewn grym. Yr oedd Eliseus yn ei dŷ ar y pryd, a henuriaid Samaria yn eistedd o'i amgylch, yn derbyn rhyw gynghor neu gyfar-

Digitized by Google

wyddyd, mae yn debyg, yn eu cyfyngder mawr presennol. Yn y fan, cafodd rybudd gwyrthiol o'r perygl yr oedd ynddo. Cyn i'r genad gyrhaedd y tŷ, dywedodd wrth ei gyfeillion, "Gwelwch fel yr anfonodd mab y llofrudd hwn (gan gyfeirio yn ddiau at Ahab [tad Ioram] llofrudd Naboth) i gymmeryd ymaith fy mhen! Cauwch y drws rhag iddo ddyfod i mewn: yr wyf yn clywed trwst traed ei arglwydd ar ei ol ef, yn prysuro i amddiffyn y cyflawniad o'i lw rhyfygus!" [*Jos. Ant.* ix. 4, adr. 4.] Tra yr oedd efe eto yn llefaru, daeth y genad at y drws, yn cael ei ddilyn yn ddioed, fel y rhagddywedasai y prophwyd, gan y brenin ac un o'i swyddogion, ar law yr hwn y pwysai efe. Y mae yr hyn a ganlynodd yn dra darluniadol. Tarddodd ymlyniad greddfol y brenin wrth Baal allan, a llefodd, "Wele y drwg hwn sydd oddi wrth Iehofah," hen elyn fy nheulu i, "pa ham y dysgwyliaf wrth Iehofah mwy?" I'r hyn yr atebodd Eliseus, "Gwrandewch air Iehofah"—gall yr hwn a anfonodd newyn anfon llawnder hefyd—"Yn nghylch y pryd hwn yfory y gwerthir sat (mesur) o beilliaid er sicl, a dau sat o haidd er sicl, yn mhorth Samaria." "Mae hyn yn ffolineb," meddai y swyddog; "Wele, pe gwnai Iehofah ffenestri yn y nefoedd i wlawio ymborth, nis gallai hyn fod." "Gall:—fe fydd," meddai Eliseus, "a thydi, tydi a'i gweli oll, ond ni byddi byw i fwyta o hono."

Yn awr, rhaid i ni fyned yn ol lawer o flynyddoedd, at amgylchiad cyssylltiedig â'r Sunamees (2 *Bren.* viii. 1—6), at gyfnod o flaen iachad Naaman, a throsglwyddiad ei wahanglwyf ef i Gehazi: v. 1, 27.

Yr oedd Eliseus wedi cael ei raghysbysu am newyn a ddygai Iehofah ar y tir am saith mlynedd; a rhybuddiodd ei gyfeilles y Sunamees o'r trychineb fel y gallai hi ddianc o'r perygl. Am hyny, ymadawodd hi a'i theulu o Sunem, a chymmerodd nawdd yn nhir y Philistiaid, mewn dyffryn cnydfawr oedd ar ororau Iudah, lle y trigodd yn ddiogel rhag angen yn ystod y sychder mawr. Ar ddiwedd y saith mlynedd, dychwelodd i'w lle genedigol, lle y gwelai fod ei thŷ a'r tir llafur a berthynai iddo—meusydd ŷd yr hanes blaenorol—wedi cael eu meddiannu yn ei habsennoldeb gan ryw berson arall. Yr oedd y ffordd yn rhydd i'r deiliaid iselaf i fyned at freninoedd gwledydd y dwyrain i adrodd eu cŵyn i'r fath raddau ag sydd yn anhysbys i'r rhan fwyaf o drigolion gwledydd y gorllewin. Y mae esamplau o hyn yn cael eu nodi yn fynych yn yr *Arabian Nights*. Arferai Ibrahim Pacha, mab enwog Mehemet Ali, gynnal ei lys agored mewn gardd wrth ei balas yn Akka (Acre), i wrandaw cwynion o bob math, ac oddi wrth bob dosbarth o'i ddeiliaid. Yr oedd gan y Sunamees, gan hyny, fynedfa rwydd at y brenin, fel yr oedd gan y wraig weddw o Tecoa ar achlysur blaenorol at y brenin Dafydd: 2 *Sam.* xiv. 4. Ac yn awr dygwyddodd amgylchiad mor hynod, yr hwn y mae braidd yn anmhosibl peidio ei briodoli i rywbeth mwy na damwain yn unig. Ar y foment y daeth y wraig a'i mab i lefain (yn ol arfer ymbilwyr dwyreiniol yn unig o lefain) am ei thŷ a'i thir, yr oedd y brenin yn gwrandaw ar Gehazi yn adrodd "yr holl bethau mawr a wnaeth Eliseus;" ac i goroni y cwbl, y weithred fawr o fywhau mab y Sunamees! Adnabu Gehazi y wraig yn y fan, a llefodd, "Fy arglwydd frenin! dyma y wraig, a dyma y mab yr hwn a ddarfu i Eliseus ei fywhau." Gwrandawodd y brenin ail adroddiad o'r hanes rhyfeddol o enau y wraig ei hun; ac o barch at Eliseus, neu wedi synu at y fath gyddarawiad, rhoddodd orchymyn yn y fan ar i'r tir gael ei adferu iddi, yn nghyd â holl werth y cynnyrch yn ystod ei habsennoldeb.

Hyd yn hyn, yr ydym wedi cyfarfod y prophwyd yn ei wlad ei hun yn unig. Canfyddwn ef yn awr yn Damascus: 2 *Bren.* viii. 7—15. Dangosir llanerch draddodiadol ei breswylfod ar yr achlysur yma yn y synagog yn *Jobor* (Hobah?), pentref tua dwy filldir i'r dwyrain o Damascus. Y mae yr un pentref hefyd, os nad yr un adeilad, yn cynnwys yr ogof yn yr hon y porthwyd Elias gan y cigfrain, a beddfan Gehazi [*Stanley*, 412; *Quares*, ii. 881], Yr oedd Eliseus yn Damascus yn awr, er mwyn cyflawnu y gorchynyn a roddasid i Elias ar ben Horeb, i "enneinio Hazael yn frenin ar Syria." Pan aeth yno, yr oedd Benhadad yn gorwedd dan ei glefyd olaf. Y mae hyn yn nodi yr amser, ac yn dangos ei fod, ar ol gwarchae Samaria, yr hwn a ddygid yn mlaen gan Benhadad ei hunan (cymharer vi. 24). Y mae yn ddiau fod iachad Naaman, ac ymddygiad anhunanol y prophwyd, yn cael eu cofio yn dda yn Damascus ar y pryd; a chyn gynted ag yr aeth efe i'r ddinas, dygwyd y newydd i'r brenin—"Daeth gŵr Duw yma." Pryder cyntaf y brenin oedd cael sicrwydd am ei dynged ei hun; a danfonodd Hazael, yr hwn, fel yr ymddengys, a ddilynodd Naaman yn y swydd, i ddwyn i'r prophwyd, ac i ofyn dros ei arglwydd, "A fyddaf fi byw o'r clefyd hwn?" Yr oedd yr anrheg o fraint breninol, yn llwyth deugain o gamelod, yn cynnwys y cyfryw *bethau da* nas gallai ond Damascus yn unig eu cynnyrchu. Y mae anerch Hazael yn dangos pa mor barchus oedd y prophwyd yn y wlad estronol a gelynol hon. Y mae yn gyffelyb i'r hyn a arferai caethweision; Naaman wrth ei gyfarch ef, a'r rhai a ddefnyddiodd brenin Israel hefyd unwaith wrth Eliseus ei hun, pan dan ddylanwad parch a diolchgarwch iddo. "Benhadad brenin Syria *dy fab* a'm hanfonodd atat, gan ddywedyd, A fyddaf fi byw o'r clefyd hwn?" Y mae yr atteb yn dra amwys, hyd yn oed yn yr iaith Hebraeg; ond nis gellid camgymmeryd y canlyniad: "Iehofah a ddangosodd i mi y bydd efe marw yn ddiau." Ond nid hyn oedd y cyfan a ddadguddiwyd i'r prophwyd. Os byddai Benhadad farw, pwy oedd i fod yn frenin yn ei le ond y dyn a safai yn awr o'i flaen ef. Yr oedd y rhagolygiad y fath fel y tynodd ddagrau o lygaid gŵr Duw. Nid arweinydd rhyfygus anochelgar oedd y dyn hwn, fel y byddai yn hawdd ei ddyrysu a'i somi fel y gwnaed yn fynych â Benhadad. Yn y dyn gwrol a phenderfynol hwn, rhagwelai y perygl mwyaf i'w wlad: un, wedi iddo gael yr awdurdod, a orthrymai ac a ddrylliai Israel; un a "ddyrnai Gilead â gefynau heiyrn," ac "a'u gwnai hwynt fel llwch llawr dyrnu haf," yn y fath fodd ag na wnaethai un o freninoedd blaenorol Syria, a hyny mewn amser pan na byddai efe byw i rybuddio ac i gynghori ei genedl. Ar ddymuniad Hazael, cyffesodd y prophwyd yr achos o'i ddagrau; ond yr oedd y rhagolygiad yn un na pharai ofid i Hazael. Y mae yr ateb yn arwyddo pa fodd yr ymddangosai y fath yrfa rwysgfawr iddo ef. Ei unig ammheuaeth oedd, pa fodd y gallai y fath ffawd dda ddygwydd i un mor iselradd. "Pa beth! ai ci yw dy gaethwas, fel y gwnelai efe y mawr beth hyn?" I'r hyn yr atebodd Eliseus, "Iehofah a ddangosodd i mi y byddi di yn frenin ar Syria." Ar ol dychwelyd at y brenin, rhan yn unig o ragfynegiad tywyll

Digitized by Google

gŵr Duw a ddywedodd Hazael—"Efe a ddywedodd wrthyf y byddit ti byw yn ddiau." Ond hwnw oedd diwrnod olaf bywyd Benhadad. Y mae amryw yn tybied nad Hazael oedd yr "efe" hwnw a ledodd y gwrthban gwlyb ar wyneb Benhadad fel y bu efe farw; ac maent yn casglu hyny oddi wrth fod enw Hazael yn cael ei grybwyll mewn ystyr arall ar ddiwedd yr hanes. Y casgliad cyffredinol a dynir oddi wrth yr hanes a rydd Josephus o'r amgylchiad ydyw, mai Hazael ei hun oedd y llofrudd. Gyda golwg ar y gwrthban hefyd, ystyr y gair Hebraeg ydyw *brethyn tew*. Y mae rhai yn casglu hefyd mai wrth ymdrochi y bu efe farw, ac mai carped neu fatras y badd (*bath*) oedd y *brethyn tew*. Felly yr awgryma Ewald; ac wrth gymmeryd hyn mewn cyssylltiad â'r gair *dwfr*, ac wrth ystyried fod y fannod mewn cyssylltiad â'r gair Hebraeg, dywedir fod y syniad yma yn debycach na'r lleill. Dywedir i Abbas Pacha gael ei lofruddio yn yr un dull. Gyda golwg ar y person a gyflawnodd y llofruddiaeth, sylwa Ewald yn briodol nad oedd gan swyddog uchel o sefyllfa Hazael ddim achlysur i fyned i ystafell y brenin. Y mae rhai yn meddwl mai Benhadad a laddodd ei hun trwy ddamwain, trwy adael llian gwlyb ar ei wyneb tra yn cysgu. Dyma fel y tybia Keil.

Yr oedd dau o'r gorchymynion a roddwyd i Elias yn awr wedi eu cyflawnu; ond y mae y trydydd eto yn aros: 2 *Bren*. ix. 1—10. Yr oedd Hazael wedi dechreu ymosod eisoes ar Israel, trwy geisio ennill amddiffynfa Ramoth-Gilead (viii. 28), neu Ramah, yn y mynyddoedd, ar du dwyrain yr Iorddonen. Ond daliwyd yr amddiffynfa gan freninoedd Israel ac Iudah trwy gydymdrech; ac er i'r Syriaid glwyfo brenin Israel, ni lwyddasant i ennill y lle: viii. 28; ix. 15. Un o gadbeniaid byddin Israel yn yr amddiffynfa oedd Iehu, mab Iehosaphat, mab Nimsi. Rhaid nad oedd ond llanc ieuanc pan y crybwyllwyd ei enw wrth Elias ar ben Horeb; ond yn awr yr oedd efe yn un o'r rhai gwrolaf a mwyaf adnabyddus o holl gedyrn Israel. Yr ydoedd wedi gweled y prophwyd mawr ei hun unwaith, pan yr oedd efe gyda'i gydymaith Bidcar yn dilyn Ahab i gymmeryd meddiant o winllan Naboth; ac ni bu unrhyw ddygwyddiad dyfodol a'i cyfarfu yn effeithiol i ddileu y diwrnod hwnw o'i gof, na geiriau y felldith a draddodwyd gan y prophwyd: ix. 25, 36. Yr oedd yr amser yn awr wedi dyfod i gyflawnu y felldith hono, trwy iddo ef gael ei enneinio yn frenin ar Israel. Cyfran bersonol Eliseus yn y gorchwyl yma oedd rhoddi cyfarwyddyd i un o feibion y prophwydi; ond bydd yn addasach manylu ar yr amgylchiad mewn lle arall. Gwel Iehu.

Nid oes genym ddim chwaneg o hanes y rhan a gymmerodd Eliseus yn chwyldroad Iehu, na'r amgylchiadau a ddilynasant hyny. Nid ydym yn ei ganfod ef mwyach hyd onid ydoedd ar ei wely angeu yn ei dŷ ei hun: 2 *Bren*. xiii. 14—19. Yr oedd Ioas, ŵyr Iehu, yn awr yn frenin, ac yr oedd wedi dyfod i wylo o blegid dynesiad marwolaeth y prophwyd mawr a daionus. Y mae ei eiriau yr un rhai ag a lefarodd Eliseus ei hun pan y cymmerwyd Elias ymaith—"Fy nhad! fy nhad! cerbyd Israel a'i farchogion!" Ond nid amser i wylo ydoedd. Yr un syniad oedd yn llenwi meddwl y brenin a'r prophwyd. Yr oedd Syria yn elyn ffyrnig a ddystrywiai y wlad yn raddol; ac yr oedd yn rhaid gwneyd un egni gorchestol cyn colli cynnorthwy Eliseus. Gorchymynodd y prophwyd iddo agor y ffenestr ar gyfer y wlad elynol, gan annelu y bwa yn yr un cyfeiriad; a rhoddodd y prophwyd ei ddwylaw ar ddwylaw y brenin oedd ar linyn y bwa, megys i roddi mwy o nerth i'r saeth, a dywedodd, "Saeth ymwared Iehofah, a saeth ymwared rhag Syria." Wedi hyny, casglodd y brenin y saethau; ac ar orchymyn Eliseus, efe a darawodd y ddaiar â hwynt. Ond ni wnaeth hyny ond tair gwaith, pan y dylasai ei tharaw bump neu chwech o weithiau, yr hyn a fuasai yn llwyr ddifa y gelyn; ac am na wnaeth hyny, cyfyngwyd ei lwyddiant i dair buddugoliaeth, yn ol y rhif y tarawodd efe y ddaiar â'r saethau.

Pa fodd bynag, ni therfynodd gallu y prophwyd hwn gyda'i fywyd: 2 *Bren*. xiii. 20—22. Bu hyd yn oed ei esgyrn yn ei fedd yn foddion i adferu bywyd i ddyn marw. Yr oedd y Moabiaid yn awr wedi ymadferu ar ol cael eu gorchfygu mor llwyr gan y tri brenin ar ddechreuad gyrfa Eliseus (2 *Bren*. iii), ac yr oedd eu lluoedd ysbeilgar wedi ail ddechreu y gwaith o ddifrodi, yr hwn a ddygwyd yn mlaen mor hir gan Syria: 2 *Bren*. v. 2; vi. 23. Ymddengys oddi wrth y testyn mai amser cyffredin yr ymosodiadau hyn oedd pan y byddai y cnydau yn dechreu addfedu —"ar ddechreu y flwyddyn," yn ol y cyfieithiad Seisoneg. Yr oedd dyn yn cael ei gladdu yn y gladdfa oedd yn cynnwys beddrod Eliseus. Wrth ganfod torf ysbeilgar y Moabiaid yn y pellder, prysurodd cyfeillion y marw yn y lle agosaf atynt. Ac o fwriad neu ddamwain, dewisasant feddrod y prophwyd; ac fel yr oeddynt yn gwthio y corff i'r gell oedd wedi ei naddu yn y graig, yn ol dull y beddrodau Iuddewig,[1] daeth i gyffyrddiad âg esgyrn y prophwyd, ac "efe a ddadebrodd ac a gyfododd ar ei draed."

Cyn terfynu hanes Eliseus, tybir nad anfuddiol fyddai sylw byr ar y tebygrwydd nodedig oedd rhwng Eliseus a'i olynwr mawr, yr Arglwydd Iesu Grist. Gallem ni feddwl fod y tebygrwydd hwn yn fwy na'r tebygrwydd oedd rhwng Elias ac Ioan Fedyddiwr, er na chrybwyllir am dano yn y Testament Newydd. Yr oedd Eliseus yn debyg i'r Arglwydd Iesu, nid yn unig am ei fod wedi iachau y gwahanglwyf, cyfodi y marw, a mwyhau y torthau; ond yn hytrach o blegid addfwynder ei dymmer a lledneisrwydd ei dueddiad, yn yr hyn yr oedd yn rhagori ar holl saint yr Hen Destament: yr oedd bob amser yn barod i gydymdeimlo, iachau, a chysuro; yr hyn a barodd iddo gael ei gydnabod fel cyfaill cyffredinol a thad—â'r hwn yr ymgynghorai, nid breninoedd a thywysogion yn unig, ond gwragedd gweddwon a phrophwydi tlodion yn eu cyfyngder; a byddai yntau yn barod bob amser i gynnorthwyo.

Y mae Eliseus wedi ei seintio yn Eglwys Groeg; a'i ddydd gŵyl ydyw y 14eg o Fehefin. Ceir ychydig draddodiadau yn ei gylch—ychydig mewn cymhariaeth i Elias—dan amseriad ei enedigaeth yn yr *Acta Sanctorum*. Yn amser Jerome dangosid beddadail (*mausoleum*) yn Samaria yn cynnwys ei weddillion.—*Reland*, 980. Cymmerwyd ei esgyrn o'r beddrod yn amser Julian, a llosgwyd hwynt. Ond clywir son am weddillion Eliseus ar ol hyny; a bostia eglwys St. Apollinaris, yn Ravenna, fod ei ben ganddi hi. Y mae gan y Carmeliaid wasanaeth neillduol er

[1] Y mae yr ymadrodd "bwriasant . . i lawr," sydd yn ein cyfieithiad ni, wedi ei seilio ar gamsyniad am ddull beddrodau y dwyrain, y rhai a neddid yn wyneb syth craig, ac yr elid i mewn iddynt trwy ddrws; ac nid rhai wedi eu cloddio yn y ddaiar, fel ein beddau ni.

Digitized by Google

anrhydedd i Eliseus.—(*Kitto's Cycl. of Bib. Lit.; Smith's Dict.; Eadie's Bibl. Cycl.*, &c.)

**ELISUA**, [אלישוע=*Duw ei iachawdwriaeth;* Ελισοοε, Ἐλισά; Alex., Ἐλισαύ]: un o deulu Dafydd o'i wragedd diweddaf, a anwyd iddo ar ol ei ymsefydliad yn Ierusalem: 2 *Sam.* v. 15; 1 *Cron.* xiv. 5. Yn y rhestr yn 1 *Cron.* iii. 6, ceir yr enw yn ELISAMA.

**ELISUR**, [אליצור=*Duw ei 'graig;* 'Ελιοορ]: mab Sedeur, penaeth y llwyth, a chadben meibion Reuben, pan y gwnaed y cyfrifiad yn anialwch Sinai: *Num.* i. 5; ii. 10; vii. 30, 35; x. 18.

**ELIUD**, ['Ελιούδ, o'r Heb., אליהוד=*Duw yr Iuddewon*—gair nas ceir yn yr Hen Destament]: mab Achim, yn achau Crist (*Mat.* i. 15), bedair cenedlaeth o flaen Ioseph. Y mae ei enw o'r un cyfansoddiad ag Abiud, a dichon yr arwydda ei fod wedi disgyn oddi wrtho ef.

**ELIZABETH**: brenines Lloegr, oedd ferch i Henry VIII. o'i ail wraig, Anne Boleyn; a anwyd Medi 7fed, 1533, medd un hanes; Medi 13eg, medd hanes arall; yn mhen tuag wyth mis ar ol priodas ei rhieni, yr hon a weinyddwyd yn ddirgel gan y Dr. Rowland Lee, esgob Litchfield wedi hyny, ar, neu o gylch Ionawr 25ain, yn yr un flwyddyn. Dyma ddydd y briodas, yn ol Cranmer a Burnet; pan y tybia Hall, Holinshed, a Speed, na weinyddwyd y briodas hyd Tachwedd 13eg, y flwyddyn hono. Ni chyhoeddwyd ysgariad ei thad â'r frenines Catherine, ei wraig gyntaf, hyd Mai 23ain, 1533. Yn mhen tua thair blynedd ar ol geni Elizabeth, llwyddodd y brenin trwy ei ddichellion ei hun, ac anwadalwch ei lys llygredig, i ddienyddio ei mam, am fod ei serch yn awr wedi syrthio ar un arall—Jane Seymour. Deddfwyd yn fuan ar ol geni Elizabeth, os na enid mab i'r brenin o'r frenines Anne, y byddai y goron ar ol ei farwolaeth ef yn myned i Elizabeth. Ar ol i Henry briodi Jane Seymour, cyhoeddwyd ei ddwy briodas flaenorol yn anghyfreithlawn ac ofer: a thrwy hyny, gwnaed hi a'i hanner chwaer Mary (merch Catherine o Arragon) yn fastardiaid. Ond yn fuan ar ol i'r brenin briodi Catherine Parr, ei chweched gwraig, deddfwyd, os byddai y tywysog Edward farw heb etifeddion, yr elai y goron yn gyntaf i Mary; ac os byddai hithau farw, yr elai wedi hyny i Elizabeth. Dyma y sefydliad cyfreithiol olaf a wnaed oedd yn effeithio ar sefyllfa freninol Elizabeth cyn ei hesgyniad i'r orsedd.

Yn 1535, dechreuwyd negeswriaeth er priodi Elizabeth â'r Dug o Angoulême, trydydd mab Francis I. o Ffrainc; ond darfu yr ymdrafodaeth cyn dyfod i gyttundeb. Yn 1546, cynnygiodd Henry i'r ymherawdwr Charles V., ar i Philip ei fab (Philip II. wedi hyny) briodi Elizabeth, er mwyn dirymu priodas Philip, oedd mewn rhagolwg y pryd hyny â merch brenin Ffrainc; ond ni lwyddodd Henry yn hyn chwaith. Yr ymgeisydd arall am law Elizabeth oedd yr anffodus Arglwydd Seymour o Sudley. Dywedir iddo ef wneyd rhyw gynnygion iddi hyd yn oed cyn priodi â'r frenines Catherine Parr, pan nad oedd Elizabeth eto ond tua 14 oed. Dywedir fod Catherine, yr hon a fu farw yn mhen ychydig fisoedd ar ol priodi, trwy gael ei gwenwyno, fel y tybid, gan ei gŵr, yn dra anghysurus o blegid y rhyddid a oddefid i Sudley gyda'r dywysoges Elizabeth, o'r hwn, fel yr ymddengys, yr oedd Elizabeth yn llawer rhy hoff. Ar ol marwolaeth ei wraig, cyhuddwyd ef o fradfwriadu yn erbyn y brenin, er mwyn ei orfodi i roddi ei ferch iddo; ond rhoddodd ei ddienyddiad derfyn ar yr ymdrafodaeth. Yn 1550, dan deyrnasiad ei brawd, Edward VI., cynnygiwyd i Elizabeth briodi mab hynaf Christian III. o Denmarc, ond gwrthododd gydsynio.

Dywed Camden i Dudley geisio hudo Elizabeth i roddi i fyny ei hawl i'r goron ar farwolaeth Edward, am swm o arian a thiroedd a sefydlid iddi; ac iddi hithau ateb mai ei chwaer hynaf Mary oedd y gyntaf oll i wneyd cytundeb â hi, gan nad oedd ganddi hi unrhyw hawl i'w hòni yn ystod bywyd ei chwaer. Dywed Burnet fod Mary, ar ei thaith i'r ddinas, wedi cael ei hudo gan genadon oddi wrth Dudley, yr hwn a ddymunai gael y ddwy chwaer dan ei awdurdod, pan y clywodd y newydd fod Edward wedi marw. Pan yr aeth Mary gyntaf i Lundain ar ol ei chyhoeddi yn frenines, cyfarfu Elizabeth hi â 500 o wŷr meirch, yn ol Camden; 2,000, medd ereill. Dywed Fox, awdwr y Merthyrdraith, nad elai Mary i unlle pan y gwnaed hi yn frenines gyntaf, cyn ei choroni, heb fod ei chwaer ger llaw iddi. Ar ddydd coroniad Mary, Hydref, 1553, yn ol Holinshed, yr oedd Elizabeth a'r foneddiges Anne o Cleve, yn marchogaeth yn yr ail gerbyd ar ei hol trwy y ddinas tua Westminster; a dywed hanes arall mai Elizabeth oedd yn cario y goron ar yr achlysur.

Yr oedd Elizabeth wedi ei dwyn i fyny yn y grefydd Brotestanaidd, ac yn ymddangos yn dra ymlyngar wrthi, fel y daeth, dan freniniaeth Mary, i fod yn unig obaith y Protestaniaid rhag erlidiau creulawn y frenines waedlyd hono.

Ar y cyntaf, gwrthododd Elizabeth fyned gyda'i chwaer i'r offeren, gan ymdrechu denu Mary trwy appelio at ei chydymdeimlad: pa fodd bynag, bu raid iddi, yn mhen ysbaid, wneyd cydymffurfiad allanol dros ryw ysbaid o amser. Yn fuan ar ol hyn, pasiwyd deddf yn y senedd yn dirymu ysgariad Henry â'i wraig gyntaf, mam Mary, a thrwy hyny, diraddiwyd Elizabeth eilwaith fel bastardd. Yn wyneb hyn, cafodd ganiatad i ymneillduo o'r llys i'w thŷ ei hun yn Ashridge, Buckinghamshire. O gylch y pryd hyn, tybir i Mary dramgwyddo wrth ei chwaer, o blegid fod ei chefnder, Edward Courtenay, ar ol ei rhyddhad o'r Tŵr, yn dangos tuedd i'w phriodi. Ymddengys mai un o gynlluniau Wyatt oedd hyn, yr hyn a ddygodd Elizabeth i'r perygl mwyaf, o blegid y terfysg hwnw. Tranoeth ar ol darostwng y terfysg, ar yr 8fed o Chwefror, 1554, anfonwyd rhai o aelodau y cynghor gyda gosgordd o 250 o wŷr meirch (600, medd rhai) i Ashridge, gyda gorchymyn i ddwyn Elizabeth i Lundain "yn fyw neu farw." Yr oedd y dywysoges yn glaf iawn ar y pryd, ond gorfodwyd hi i gychwyn dranoeth yn ddioed tua Llundain; ac wedi hir ddadleu gan gyfreithwyr y goron, methwyd profi fod ganddi law yn nherfysg Wyatt a Courtenay; er hyny, traddodwyd hi i'r Tŵr; a thystiai hi ei hun ar ol hyny, er ei fod yn gwbl ddieuog, y dysgwyliai am wys i'r dienyddle. Yn mhen tua mis ar ol ei charchariad yn y Tŵr, symmudwyd hi, Mai 19eg, dan ofal Syr Henry Bedington, i Woodstock, lle y gwyliwyd hi gyda'r manylwch a'r gerwindeb mwyaf gan geidwad y carchar yno. Dywed Camden iddi dderbyn llythyrau cyfrinachol y pryd hyn oddi wrth Henry II. o Ffrainc, yn ei gwahodd i'r wlad hono, ac oddi wrth Christian III o Denmarc (yr hwn yn awr oedd

Digitized by Google

wedi cofleidio y grefydd Brotestanaidd), yn dymuno arni briodi ei fab Frederick. Pan ddaeth hyn i glustiau ei gelynion Pabaidd, yr oedd ei bywyd unwaith eto mewn perygl dirfawr. Cadwyd hi yn Woodstock hyd Ebrill, 1555, pan y caniatawyd iddi, ar gais y brenin Philip, fel yr ymddengys, gymmeryd ei thrigfod yn mhalas breninol Hatfield, dan arolygiad boneddwr Pabaidd o'r enw Syr Thomas Pope, yr hwn a ymddygodd ati gyda pharch a charedigrwydd.

Cadwyd Elizabeth yn Hatfield hyd farwolaeth Mary; yr hyn a ddygwyddodd Tachwedd 17eg, 1558. Eisteddodd Tŷ yr Arglwyddi yn y fan ar yr amgylchiad, ac yn y diwedd daethant i benderfyniad unfryd i gyhoeddi fod y foneddiges Elizabeth yn wir etifeddes gyfreithlawn y deyrnas yn ol deddf olyniad 38 Henry VIII; yr hyn a barodd lawenydd cyffredinol trwy yr holl deyrnas, yn enwedig i Brotestaniaid. Cyrchwyd hi i Lundain yr ddydd Mercher, y 23ain: cyfarfu yr holl esgobion yn un corff â hi yn Highgate, a hebryngwyd hi gan osgordd afrifed o bobl o bob gradd i'r brifddinas, lle y cymmerodd ei lletty yn annedd yr Arglwydd North, yn y Charter House. Prydnawn ddydd Llun, yr 28ain, ymdeithiodd trwy y ddinas i balas breninol y Tŵr, lle yr arosodd hyd ddydd Llun, y 5ed o Ragfyr, pryd y cludwyd hi ar hyd y dwfr i Somerset House.

Dangosodd Elizabeth gyfrwysder uwch law ei hoedran yn newisiad ei chyfringynghor—y weithred freninol gyntaf a gyflawnodd. Cadwodd dri ar ddeg o Babyddion oedd yn aelodau o gyfringynghor ei chwaer, yn mysg y rhai yr oedd yr arglwydd ganghellydd Heath, archesgob York; yr arglwydd ben-trysorydd, William Paulett, ardalydd Winchester; yr arglwydd benllyngesydd, Edward, yr arglwydd Clinton; yr arglwydd benystafellydd, William, yr arglwydd Howard o Effingham. At y rhai hyn, chwanegodd saith o Brotestaniaid; yn mysg pa rai yr enwocaf oedd William Cecil—a wnaed wedi hyny yn arglwydd Burleigh, yr hwn a appwyntiodd yn ysgrifenydd y llywodraeth, yr hon swydd a ddaliodd efe dan Edward VI. Yn fuan wedi hyny, chwanegodd at y prif gynghorwyr, Nicholas Bacon (tad y cyngynghorydd mawr, Bacon), ac a'i gwnaeth ef yn arglwydd y gyfrin-sêl, ac yn nesaf yn arglwydd geidwad y sêl fawr, ar ymddiswyddiad yr archesgob Heath. Fel yr oedd ei swyddogion Pabaddol yn meirw neu yn rhoddi eu swyddi i fyny, yr oedd hithau yn gofalu am lenwi eu lleoedd â Phrotestaniaid; yn mysg y rhai, fel prif enwogion yr oes hono, gellir nodi Thomas Sackville, yr arglwydd Buckhurst; Syr Francis Walsingham; Robert Cecil, wedi hyny iarll Salisbury, mab Burleigh; Syr Thomas Throckmorton; Syr Thomas Smith; Syr Christopher Hatton, &c.

Y pwnc cyntaf y trodd Elizabeth ei sylw ato o ddifrif ar ol ei hesgyniad i'r orsedd, mewn cyssylltiad â'r hon y rhaid edrych ar holl weithrediadau ei theyrnasiad, oedd sefydlu y grefydd wladol. Yr oedd y senedd wedi canfod er sylfaeniad cyntaf yr unbenaeth Seisonig, fod yn ddyledswydd arnynt, er eu gofid, attal rhwysg y rhagorfraint freninol. Yr oedd y tywysogion llywodraethol wedi dangos tuedd bob amser i estyn eu hawdurdod mor bell, fel y gorfodid y senedd i roddi attalfa arnynt; ac nis gellir edrych ar Elizabeth fel eithriad. Rheoli y cyfan yn ol ei hewyllys ei hun yr oedd hithau; ac, oddigerth ei phoblogrwydd mawr, rhaid y buasai ei mesurau afreolus ac eithafol, a'i mynych ymyriadau trahaus â hawliau y bobl, wedi ei dwyn i beryglon difrifol. Cariodd ei rhagorfraint mor bell ag i'w gosod ei hun uwch law pob cyfraith. Ei hawdurdod hi oedd yn penderfynu pob peth. Ond cariodd hi ei hawdurdod yn mlaen gyda'r fath gyfrwysder mawr, fel yr oedd hyd yn oed ei mesurau mwyaf trawdurdodol yn ymddangos yn is-wasanaethgar i les y bobl. Yr oedd hi hyd yn oed yn rheoli gweithrediadau y ddeddfwriaeth. Tra y gwyliai yn eiddigus bob ymyriad bach â'i rhagorfraint ei hun, ni phetrusai ddim i ymyryd yn y modd mwyaf hyf â rhagorfreintiau penodol a neillduol y senedd. Pan yr aeth y senedd i ymdrin â'r pwnc o'i phriodas, er mwyn sicrhau olynydd Protestanaidd i'r goron, rhoddodd attalfa a gwaharddiad ar eu gorchwyl ar unwaith; a dywedodd wrth un o'i gweinidogion, yr hwn a'i cymhellai i ddewis priod, "Na, na; ni chymmeraf fi neb yn feistr yma: ac yr wyf yn tystio wrthych na bydd yma ddim ond un feistres chwaith." Pa fodd bynag, aeth y sefyllfa a honodd iddi ei hun mor beryglus, fel y gorfodwyd hi fwy nag unwaith i ymattal, ac ymostwng i ewyllys y senedd. Aeth y senedd yn mlaen mewn ysbryd annibynol, yn groes i'w hewyllys hi, a gwnaed deddf yn diddymu hawl ddigyfnewid ei theulu i'r goron, a chadarnhawyd y gallu i newid yr hawl hono; a bod yr hawl i ddadgan hyny, nid gan y llywydd yn unig, ond gan y llywydd trwy gydsyniad y senedd. Wedi hyny, gwnaed mesurau i drefnu diwygiad eglwysig.

Yr oedd syniadau Cecil, gyda golwg ar athrawiaethau diwygiadol, yn dra chyttunol, ar y cyfan, â golygiadau y frenines. Cadwodd ei bwriadau yn gyfrinach am beth amser oddi wrth y rhan fwyaf o'i chynghor, heb amlygu ei chynlluniau i neb ond Cecil, a rhyw nifer bychan o'i chynghor Dechreuodd trwy gyhoeddi caniatad i ddarllen rhanau o wasanaeth yr eglwys yn Seisoneg, gan wahardd pob egluriadau yn gaeth, a phob math o bregethau ar byncia dadleuol. Ond yr oedd hyn yn ddigon i'r blaid Babyddol weled beth oedd i ddilyn; am hyny, gwrthododd yr esgobion yn gyffredinol gynnorthwyo ar ddydd ei choroniad, Ionawr 15fed, 1559; a chydag anhawsder mawr y llwyddwyd i gael gan un o honynt, Oglethorp, o Carlisle, i roddi y goron ar ei phen. Cadwyd y prif gyfnewidiadau i'w gwneuthur gan y senedd, a gyfarfu ar y 25ain o'r un mis. Un o'r deddfau cyntaf a wnaethant gyda golwg ar grefydd, oedd adferu y llywodraeth eglwysig ac ysbrydol i'r goron, a sefydlwyd dan deyrnasiad Henry VIII, a diddymu hefyd pob awdurdod tramor oedd yn wrthwyneb i hyny. Hefyd, adferwyd y defnyddiad o *Lyfr Gweddi Gyffredin* Edward VI, gyda rhai cyfnewidiadau, a awgrymid gan ddirprwyaeth freninol oedd dan lywyddiaeth Parker—a wnaed wedi hyny yn archesgob Caergrawnt. Yn unol â'r ddeddfwriaeth hon, dechreuwyd gweinyddu addoliad cyhoeddus yn yr iaith Seisonig drwy yr holl deyrnas ar ddydd Sabbath y Sulgwyn, a ddygwyddai ar yr 8fed o Fai. Trwy drydedd deddf, adferwyd y blaenffrwyth a'r ddegfed ran o'r bywoliaethau eglwysig i'r goron; a thrwy bedwaredd deddf, awdurdodwyd ei mawrhydi, ar waghad rhyw archesgobaeth neu esgobaeth, i gymmeryd gofal y cyllid i'w dwylaw ei hun; a gwnaed trosglwyddiad pethau tymmorol am ysbaid mwy nag un mlynedd ar ugain, neu dair oes, yn ddirym. Effaith y deddfau hyn yn gyffredinol, oedd adferu yr eglwys i'r un sefyllfa ag yr ydoedd ynddi dan deyrnasiad Edward VI, gan fod yr uchafiaeth breninol yn ddigonol i wneyd unrhyw gyfnewidiad pellach a fyddai yn

Digitized by Google

angenrheidiol nad oedd darpariad yn y gyfraith ar ei gyfer. Gwnaed gwrthwynebiad cryf i'r deddfwriaethau hyn yn Nhŷ yr Arglwyddi gan yr esgobion; a difuddiwyd pedwar ar ddeg o honynt o'u bywoliaethau—sef yr holl nifer, ond Anthony, esgob Llandaf—am wrthod tyngu i'r uwchafiaeth. Trowyd allan tua chant o brebenderiaid, deoniaid, archddeoniaid, a llywyddion colegau. Nid oedd nifer yr isglerigwyr a wrthsafasant yr awdurdodau ond ychydig mewn cymhariaeth; sef, tua phedwar ugain o berigloriaid a gweinidogion plwyfol ereill, allan o rhwng naw a deng mil.

At Elizabeth a Cecil y mae Eglwys Loegr i edrych fel gwir sylfaenwyr ac adeiladwyr ei hawdurdod. Y mae yn amlwg mai rhyw fath o ad-drefniad o Eglwys Rhufain oedd Eglwys Loegr yn hytrach na sefydliad newydd ac annibynol. Yr oedd ynddi lawer o hen gyfundrefn ei llywodraeth eglwysig, ei gwasanaeth ffurfweddïol, ei seremoniau allanol, gwahanol raddau ei hoffeiriaid, ei diffyg o'r elfen boblogaidd, ac, o ganlyniad, ei hanghyfaddasder i ddiwallu angenion mawrion y genedl mewn ystyr gymdeithasol ac ysbrydol. Yr oedd y Diwygiad wedi bod yn cynnyddu yn raddol yn Lloegr er ys dau gan mlynedd bellach, sef er amser Wickliff. Yr oedd hyn yn amlwg i bawb. Yr oedd yn y wlad ar y pryd luaws yn cloffi rhwng dau feddwl—yn hanner Pabyddion ac yn hanner Protestaniaid; ac yn mysg y rhai hyn yr oedd Elizabeth a'i phencynghorwr, Cecil, a'r rhan fwyaf o wŷr mawr ei llys. Tybiai y rhai hyn mai rhyw lwybr canol esmwyth oedd y goreu, rhwng yr hen goelgrefydd a'r ffydd ddiwygiedig; a meddylient mai trwy gadw at y llwybr hwnw y byddent debycaf o gadw heddwch a llesau y deiliaid. Yr oedd yma lawer, o'r ochr arall, yn meddwl fod amser cynauaf y diwygiad wedi gwawrio; ac yr oeddynt yn tueddu yn gryf o blaid yr athrawiaeth a'r ddysgyblaeth a amddiffynid gan Calvin yn Geneva, ac a gofleidid gan Knox yn yr Alban. Gelwid y rhai hyn yn *Buritaniaid*—y rhai, fel y dywed un ysgrifenydd, "ni chydnabyddent hawl i unrhyw uwchafiaeth yn eglwys Crist ond nawdd ddwyfol;" a chan hyderu eu bod yn mwynhau y nawdd hono, yr oedd pob gwychder a phob urddas bydol yn yr eglwys yn ddiystyr yn eu golwg. Os nad oeddynt yn gydnabyddus â gwaith athronwyr a phrydyddion, yr oeddynt yn ddarllenwyr dwys a myfyrgar yn oraclau Duw; os na chanfyddid eu henwau ar gofrestr cadbeniaid a gwroniaid yr oes, yr oeddynt yn hyderus eu bod wedi eu hysgrifenu ar lyfr y bywyd; ac os na ddilynid eu camrau gan osgordd odidog o isweision, credent fod llengoedd o ysbrydion gwasanaethgar yn gwylio drostynt. Yr oeddynt yn edrych i lawr ar y cyfoethog a'r moethus, ar y pendefigion a'r offeiriaid; canys ystyrient eu bod hwy yn gyfoethog mewn ystyr uwch, yn bendefigion trwy greadigaeth newydd, "ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef." Yr oedd pethau dibwys ynddynt eu hunain yn arwydd, yn ngolwg y dynion hyn, o gyfeiliornad yr anghrist. Tra y gwrthodai un y twyg esgobol, tynai y llall yr allor i lawr o'r mur, a chyfodai fwrdd cymmundeb diaddurn yn ei lle yn yr eglwys: tra y dibrisiai un y wisg glerigol, brawychid y llall gan dwyll a ffug y cyssegriad; a thra y rhoddai un ei urddau esgobol i fyny, amddiffynai y llall berffaith gyfartaledd yn mysg gweinidogion y gair. Yr oedd y gwŷr hyn yn uchel eu llais am ddiwygiad trwyadl yn yr eglwys. Ac nid oedd y cynghorau gwladol yn amddifad o rai oedd yn gallu cydymdeimlo â'u dymuniadau difrifol. Yr oedd Elizabeth yn gwybod fod cadernid ei gorsedd yn gorwedd yn zel y bobl dros y grefydd Brotestanaidd, ac yr oedd yn ddigon cyfrwys i gelu dros amser ei thueddiadau ei hun, y rhai oedd yn fwy, yn hytrach nag yn llai, at y defodau Pabaidd.

O blegid y syniadau a'r tueddiadau hyn, a lywodraethent feddwl ei mawrhydi, ymroddodd hi a'i hymlynwyr pendefigol gwasaidd, i amddiffyn ei chrefydd newydd, gymmysg, hyd at waed; ac ymddygodd mor drahaus, erledigaethus, a chreulawn at y Pabyddion ar y naill law, ag at y Puritaniaid ar y llaw arall. Yr amser cyntaf yr ymddangosodd y Puritaniaid gyda nerth arbenig oedd yn y senedd a ymgyfarfu yn 1570. Cyfarfyddid eu cais ar y dechreu gan y goron â mesurau amwys a dichellgar, ac attaliadau ysgeifn. Yr oedd un aelod Puritanaidd nodedig yn y senedd y pryd hyn, o'r enw Peter Wentworth, yr hwn oedd wedi hynodi ei hun mewn seneddau blaenorol trwy ei ysbryd rhydd a diarswyd; ond yn 1576, efe a agorodd y senedd âg araeth yn cynnwys cnewullyn yr egwyddorion a ystyrir yn awr yn hawliau cyffredinol dyn. Tynodd yr araeth ardderchog hono [*Hume's Hist.*, vi. 194—196] ddigofaint y tŷ a'i feistres ar yr areithiwr cydwybodol. Traddodwyd ef i ofal rhingyll y frenines; holwyd ef gan bwyllgor a ymgyfarfu yn Ystafell y Seren (*Star Chamber*); a charcharwyd ef am fis o blegid traddodi yr araeth: ond trwy orchymyn neillduol oddi wrth y frenines, cafodd ei ryddhau, a chymmerodd ei le eilwaith yn y tŷ. Dangosai gochelgarwch canlynol y tŷ, yn ei ysbryd a'i weithrediadau, nad oedd rhyddid, yn oes Elizabeth, ddim ond enw yn unig, heb ly sylwedd. Er mwyn cadw yn fanwl a defosiynol at ei chrefydd newydd ei hun—y cymmysgbeth a luniodd, rhwng Pabyddiaeth a Phuritaniaeth—sefydlodd y frenines ddirprwyaeth eglwysig, ac arfogodd hi â'r awdurdod fwyaf caethiwus a thraarglwyddaidd. Yr oedd Parker, yr archesgob, ar esgyniad Elizabeth i'r orsedd, nid yn unig yn trawsgymhell y cydymffurfiad caethaf â'r addoliad sefydledig, ond cospai yr holl glerigwyr Puritanaidd a gynnygient ddwyn unrhyw newydd-deb i ddefodau, seremoniau, a *liturgy* yr eglwys, trwy ddirwy, amddifadiad, a charchar. Yr oedd Grindall, ei olynwr, yr hwn a gydymdeimlai i raddau pell â'r Puritaniaid, yn dra hwyrfrydig i roddi cyfreithiau llymion y frenines mewn grym yn eu herbyn; am hyny, dyoddefodd erlidigaeth a charchariad. Ar ei farwolaeth ef, yn 1583, dyrchafodd y frenines Whitgift i'r archesgobaeth—yr hwn, gan iddo fethu argyhoeddi y Puritaniaid trwy ymresymu, a benderfynodd eu llethu trwy gyfreithiau poenydiol. Wedi hysbysu y frenines fod pob awdurdod ysbrydol oedd yn y preladiaid yn ddirym ac aneffeithiol, heb awdurdod y goron, cynghorodd hi i sefydlu dirprwyaeth. Yr oedd yn cynnwys pedwar a deugain o aelodau, y rhai a awdurdodwyd i reoleiddio pob syniadau crefyddol, ac i gospi pob troseddau yn erbyn eu rheolau hwy am yr addoliad cyhoeddus. Yr oeddynt at eu rhyddid i ddefnyddio pob arteithiau er mwyn llithio troseddwyr i gyffesu. Gallent lunio erthyglau newyddion i'w llawnodi, gosod dirwyon, yn ol eu hewyllys, poenydio gwrthddrychau eu dialedd wrth eu pleser, a'r cyfan heb roddi cyfrif am eu goruchwyliaeth i unrhyw lys barn! Yr oedd y ddirprwyaeth hon, yn mhob ystyr ac amcan, yn ail chwil-lys—yn offeryn o'r creulondeb mwyaf ofnadwy. Er nad ydoedd y

Digitized by Google

Puritaniaid yn amddifaid o ran nawdd na gallu, eto coleddai ei mawrhydi gasineb mawr atynt, a gwrthwynebiad mwy iddynt. Er mwyn chwerwi eu hysbrydoedd a gorfodi eu cydwybodau yn mhellach, cyhoeddwyd dadganiadau yn gorchymyn cydymffurfiad dan boen carchar, alltudiaeth, ac angeu ; ac ni rusai y frenines hon un amser roddi ei bygythion eithaf mewn grym, pan y beiddiai wneuthur hyny yn ddiberygl iddi ei hun a'i gorsedd. Pan awgrymodd Tŷ y Cyffredin unwaith wrthi y byddai ymddygiad mwy llariaidd yn ddoeth tuag at y Puritaniaid—ymlyniad y rhai wrth y gwirionedd a'u gwlad oedd yn ddiammheuol—"ceryddodd Elizabeth hwy mewn tôn o benarglwyddiaeth eglwysig, na ragorwyd erioed arno gan y pab." Nis gellir dangos ffyddlondeb didwyll y Puritaniaid yn gyffredinol i'w brenines ac i'w gwlad, cystal a'u hymlyniad penderfynol a diysgog wrth y gwirionedd a hawliau cydwybod, yn wyneb creulonderau y llywodraeth hon, yn well nac yn fyrach nag yn ngeiriau anerchiad gweinidogion Norfolk i'r orsedd, yn yr hwn yr erfyniant am gyfiawnder ac ymwared:—"Gyda golwg ar eich llythyrau pwysig, yn y rhai y mynegwch fod ei mawrhydi yn llwyr fwriadu symmud yr holl rai nas gellir eu darbwyllo i gydymffurfio â'r holl osodiadau sefydledig, tristeir ein heneidiau ni yn ddirfawr wrth ystyried yr anrheithiad sydd yn debyg o ddisgyn ar braidd tlawd y Gwaredwr, trwy ei amddifadu fel hyn o gynnifer o fugeiliaid ardderchog, y rhai nas beiddiant droseddu yn erbyn eu cydwybodau trwy gydymffurfio. Eto, gan wybod fod calonau breninoedd yn llaw Duw, yr ydym yn cyflwyno ein hachos, yr hwn sydd achos Duw, iddo ef, gan ddisgwyl am ganlyniad dedwyddach o'i ddwylaw ef. Yn y cyfamser, ni a dywalltwn ein gweddïau ger bron gorsedd ei drugaredd ef, ar ryngu bodd iddo gyfarwyddo ei mawrhydi i ddyrchafu ei ogoniant ef, gan ddwys alaru o blegid ein pechodau ein hunain a phechodau ein gwlad, fel yr achos fod ein tywysoges yn ymosod yn erbyn achos mor dduwiol. Am danom ein hunain, er ein bod yn ewyllysgar i aberthu ein cyrff, ein meddiannau, a'n bywydau dros ein tywysoges freninol, eto nis beiddiwn gydsynio â'r cydymffurfiad hwn. Er y dichon i'w mawrhydi ymlidio yn ein herbyn, eto yr ydym yn galw Arglwydd nef a daiar yn dyst, ein bod yn cydnabod, o eigion ein calonau, ei mawrhydi fel ein brenines gyfreithlawn, a osodwyd arnom gan Dduw er daioni; ac yr ydym yn cyflwyno y diolchgarwch mwyaf gostyngedig a diffuant i Dduw am ei llywodraeth ddedwydd, gan weddïo yn ddibaid, yn gyhoeddus a dirgel, am ei llwyddiant. Yr ydym ni yn ymwrthod â phob awdurdod dramor, ac yn cydnabod fod uchafiaeth ei mawrhydi yn gyfreithlawn a chyfiawn. Yr ydym yn ffieiddio pob heresi a chyfeiliornad. Eto yr ydym yn erfyn na feddylio ei mawrhydi ein bod yn anufudd, o blegid y goddefwn gymmeryd ein difuddio o'n bywoliaethau yn hytrach na chydymffurfio â phob peth a ofynir. Y mae ein cyrff, ein meddiannau, a'r hyn oll a feddwn yn nwylaw ei mawrhydi—ein heneidiau yn unig a gadwn i'n Duw, yr hwn yn unig a ddichon gadw neu golli." Ac er hyn i gyd, dyma y dynion a ddirwywyd, a garcharwyd, a alltudiwyd, neu a drosglwyddwyd i'r fflamau! Dyoddefasant a gweithredasant mewn ysbryd addfwyn ac edifeiriol. Yr oedd cyfiawnder yn eu gwneuthur yn rymus a galluog. Ymwrolasant fel rhai yn gweled yr anweledig. Yr oedd hawliau cydwybod a gwirionedd yn anwylach ganddynt na'u bywyd. Yn 1587, cyflwynodd pedwar aelod o Dŷ y Cyffredin ysgrif i'r tŷ er mwyn sefydlu Hyfforddwr (*Directory*) newydd gyda golwg ar addoliad cyhoeddus, pan y gorchymynodd y frenines ar unwaith eu dal, a'u trosglwyddo i'r Tŵr, lle y buont am beth amser. Y mae y frenines yn dadgan yn drahaus a phenarglwyddaidd, mewn llythyr at archesgob Caergaint, "na wiw goddef i un dyn wyro dim ar y llaw aswy na'r llaw ddeheu oddi wrth y llinell derfyn a dynwyd trwy ei hawdurdod hi, a chan ei chyfreithiau a'i gwaharddiadau."

Cadwodd y frenines at y penderfyniad yma mor bell byth ag y gallai. Bu mor greulawn (nid oedd modd iddi fod yn fwy creulawn) at y Pabyddion ag at y Puritaniaid. Yr oedd ganddi ryw fath o esgus dros fod felly at y Pabyddion, o blegid iddi ddarganfod rhyw gynlluniau a bradwriaethau a wnelid ganddynt yn erbyn ei bywyd a'i gorsedd. Annogwyd un Parry, yr hwn a dderbyniasai faddeuant breninol am drosedd marwol, ac a ymadawsai i Milan, annogwyd hwn gan Jesuit i geisio lladd ei frenines, fel un o'r gweithredoedd mwyaf teilwng a allai gyflawnu. Canmolwyd yr amcan yn fawr gan Compeggio a Coma, y cardinaliaid, a hyd yn oed gan y pab ei hunan; a daeth yntau drosodd i Loegr er mwyn dwyn ei amcan i ben; ac nid oes un achos i ammheu na buasai wedi llwyddo oddigerth i'w fradwriaeth gael ei darganfod. Yn ebrwydd ar ol dienyddiad Parry, fel teyrnfradwr, canfyddwyd fod boneddwr o sir Warwick, o'r enw Somerville, yn cynllunio i gyflawnu yr un amcan ysgeler, yr hwn hefyd a fwriwyd i'r carchar, ac a fu farw trwy hunanladdiad. Yr oedd yn un o athrawiaethau y Pabyddion, pwy bynag a fyddai farw wrth geisio cyflawnu yr amcan duwiol o ddinystrio bywyd tywysogion hereticaidd, y byddai yn sicr o dderbyn coron ogoneddus ac annifianedig merthyrdod. Dan ddylanwad yr un athrawiaeth, cymhellwyd un John Savage, dyn o wroldeb rhyfygus, i gynnyg llofruddio y frenines. Ar yr un pryd, yr oedd offeiriad o'r enw Ballard yn cynllunio i ddiorseddu ei mawrhydi, ac adferu yr hen grefydd trwy rym arfau. Daeth ef drosodd o Paris i Loegr dan y ffug o filwr cyffredin, a galwai ei hun wrth y ffugenw Fortescue. Amlygodd ei hun i Babington, boneddwr ieuanc o deulu uchel yn sir Derby. Cymmerodd Babington y cynllun i fyny yn frwdfrydig, ac mewn undeb âg amryw foneddigion Pabyddol ereill, llwyddodd yn ddirgel i lunio bradwriaeth a allasai fod yn dra pheryglus i'r llywodraeth. Tra yr oedd y blaid yma wedi cynnyddu yn fawr, ac yn gwbl barod i roddi eu hantur mewn gweithrediad, cafodd Walsingham, ysgrifenydd y llywodraeth, awgrym o'r bwriad gan offeiriad oedd wedi ei gadw dan dâl yn ngwasanaeth y llywodraeth. Ond Giffard, yr hwn a ddaethai drosodd o goleg Rheims, a'r hwn a gyflogasai Babington a'i gydfradwyr i hysbysu Mary, brenines yr Alban, o'r amcan, oedd y dyn i ddadguddio yr holl gyfrinach i Walsingham. Yr oedd y fradwriaeth hon yn cynnwys ymosodiad tramor, gwrthryfel cartrefol, gwaredigaeth Mary, a llofruddiad Elizabeth. Rhoddwyd gwarant allan i attafaelu Ballard ar unwaith, yr hyn a darawodd yr holl gydfradwyr â dychryn. Y pwnc i'w benderfynu yn awr gan y cydfradwyr oedd, pa un ai ymdrechu dianc a wnaent, ai ymosod yn angerddol ar unwaith er ceisio llofruddio y frenines. Dianc a ddewisasant; ond daliwyd hwy yn fuan, a bwriwyd hwy oll i'r carchar. Collfarnwyd a dienyddiwyd pedwar ar

ddeg o honynt. Fe ddichon pe buasai ei mawrhydi yn goddef yr addoliad Pabaidd, y buasai ei bywyd yn fwy diogel. Gosodwyd yr holl blaid yn ngafael y cyfreithiau poenydiol mwyaf echryslawn. Rhoddwyd hwy ar yr arteithglwyd, a dirdynwyd hwy: yn fyr, gwnaed hwy yn ebyrth i'r cyfreithiau mwyaf barbaraidd ac anwar; a'r hyn oedd yn gwneyd y cyfan yn fwy ysgeler ac anfad fyth oedd, fod y frenines a'u cyflawnai yn proffesu egwyddorion rhyddid cyffredinol a hawliau crefyddol pob dyn! Y fath oedd y creulonderau a gyflawnwyd er porthi nwydau aflywodraethus y frenines drahaus ac uchelfrydig hon, fel y brawychwyd ac y cythruddwyd dynoliaeth yr holl genedl. Nid oes dim a all gyfiawnhau ymddygiad anfad y frenines a'i llywodraeth at y Puritaniaid a'r Pabyddion. Y gwir yw, fod llywodraeth Elizabeth, mewn cymhariaeth, yn fwy tywyll a gwaedlyd nag hyd yn oed breniniaeth Mary ei hunan. Yr oedd agweddau i'w cael yn y naill nad oeddynt yn y llall, a roddent iddi liw duach, adgasach, a mwy annioddefol. Os darfu iddi, mewn nwyd digyffelyb o hynawsedd, orchymyn rhyddhau 70 o offeiriaid Pabaidd oedd wedi eu dedfrydu i feirw ar yr arteithglwyd a'r dienyddle, beth oedd hyny mewn cymhariaeth i'r aberthau a wnaed i'w hanoddefgarwch, ei thraawdurdod, a'i chreulondeb? Yr oedd y trysor cyssegredig hwn—bywyd—yn cael ei luchio ymaith ganddi gyda diystyrwch y barbariad, ac yr oedd ansawdd oruchel Cristionogaeth ddwyfol yn cael ei gwatwar a'i sarhau ganddi yn wyneb yr holl fyd. Fe basiwyd deddf, trwy ei gorchymyn hi, yn 1585, yn ordeinio fod i bob Jesuit ac offeiriad Pabaidd adael y deyrnas yn yr ysbaid o ddeugain niwrnod; fod y rhai a arosent, neu a ddychwelent ar ol hyny, yn euog o fradwriaeth; fod y rhai a roddent achles neu gynnorthwy i'r cyfryw, yn euog o gyflafan; fod y rhai a addysgwyd mewn colegau, os na ddychwelent yn mhen chwe mis ar ol y rhybudd a roddwyd, i ymostwng i'r frenines, ger bron esgob neu ddau ynad, yn euog o fradwriaeth; ac os byddai i neb, wedi ymostwng felly, ddyfod, yn mhen deng mlynedd ar ol hyny, yn agos at y llys, neu o fewn deng milltir iddo, yr ystyrid ei ymostyngiad yn ofer! A gwnelid hyn i gyd gan frenines a llys yn proffesu goddefiad crefyddol! Rhoddwyd y gyfraith greulawn hon yn ei grym eithaf, trwy ddienyddio, neu yn hytrach trwy lofruddio offeiriaid yn ddiarbed; ac er y ceisiwyd rhoddi cochl dros yr ymddygiad hwn, trwy haeru fod y swyddogion hyn yn dyoddef, nid o blegid eu crefydd, ond o blegid eu bradwriaeth, gwyddai llawer y pryd hyny, a gŵyr mwy yn awr, nad oedd y fath haeriad ond twyll i geisio cuddio amcan y frenines a'i llys.

Pan esgynodd Elizabeth i'r orsedd, cafodd y wlad mewn heddwch âg Yspaen, ar yr hon yr oedd gŵr ei chwaer Mary yn frenin; ond yr oedd mewn rhyfel â Ffrainc, prif elyn Yspaen. Cynnygiodd Philip, yn fuan ar ol esgyniad Elizabeth, ei hun yn ŵr iddi, er mwyn cadw ei gynghrair Seisonig; ond wedi ystyried y cynnyg â'i holl ganlyniadau, gwrthododd Elizabeth yn benderfynol. Sefydlwyd heddwch cyffredinol â'r holl alluoedd, a'r Alban hefyd, yn Ebrill, 1559, trwy gyttundeb Cateau Cambresis. Trwy rinwedd y cytundeb yma, penderfynwyd ar i Ffrainc adferu Calais, yr hon a attafaelwyd yn amser Mary, i Loegr, yn mhen wyth mlynedd, dan yr ammod na byddai i Elizabeth wneyd ymosodiad ar Ffrainc yn ystod yr amser. Ond cyn gynted ag y cafodd y cyttundeb yn brin ei lawnodi, ennynwyd rhyfel yn ddisymmwth, o blegid i Francis II., o Ffrainc, gymmeryd pais arfau a theitl breninol Lloegr, dan yr esgus fod ganddo hawl iddynt trwy ei briodas â Mary, brenines yr Alban. Gwrthwynebodd Elizabeth hyn ar unwaith, fel gweithred ymosodol, trwy anfon 5,000 o filwyr i'r Alban, i gydweithredu â'r dug o Chatelherault ac arglwyddi y gymdeithasfa, a blaenoriaid y blaid Brotestanaidd, fel y galwent eu hunain, yn erbyn llywodraeth y frenines a'i mam, y rhaglaw, Mary o Guise. Plygodd yr Alban yn fuan o flaen y gallu yma, a gorfodwyd brenin Ffrainc i ymwrthod â honiadau ei wraig i orsedd Lloegr, ac i gymmeryd ei filwyr o'r Alban, trwy gyttundeb Edinburgh, Gorphenaf 7fed, 1560. Ond ni chadarnhawyd y cytundeb na chan Francis na'i frenines; ac o ganlyniad, parhaodd perthynas y tair teyrnas yn yr un sefyllfa anfoddhaol. Dilynodd Charles IX. ei frawd ar orsedd Ffrainc cyn diwedd y flwyddyn hon; a dychwelodd Mary yn mhen ychydig fisoedd ar ol hyny i'r Alban, ei gwlad ei hun. Yn y cyfamser, yr oedd ymddygiad Elizabeth gyda golwg ar yr eglwys, wedi llwyr ddyeithro Philip o Yspaen ati. Edrychid ar y frenines Elizabeth erbyn hyn, fel pen yr achos Protestanaidd trwy holl Ewrop, cystal ag yn ei gwlad ei hun. Gan hyny, pan y terfynodd yr ymryson rhwng y Pabyddion a'r Huguenotiaid, neu y blaid ddiwygiadol yn Ffrainc, mewn rhyfel, yn 1562, anfonodd y diwygwyr yn ddioed am gymhorth at Elizabeth, yr hon a wnaeth gyttundeb â hwy, ac a ddanfonodd iddynt wŷr ac arian. Ni bu y rhyfel hon o bwys i Loegr, a therfynodd trwy gyttundeb a lawnodwyd yn Troyes, Ebrill 11eg, 1564. Yr oedd yr holl Brotestaniaid yn awr yn yr Alban, Ffrainc, a'r Iseldiroedd (y rhai oedd y pryd hyn dan deyrnasiad Philip), yn ystyried fod Elizabeth yn rhwym wrth eu hachos hwy er ei mwyn ei hunan. Yr oedd mewn cynghrair agos â Phrotestaniaid ac â llywodraeth yr Alban, y rhai yn awr oedd wedi diorseddu a charcharu y frenines, a chyda golwg ar Huguenotiaid Ffrainc, byddai weithiau yn cylafareddu â hwy, a phryd arall yn eu bygwth; a phan y cyfododd gwŷr yr Iseldiroedd mewn gwrthryfel yn erbyn llywodraeth orthrymus Philip, er iddi wrthod llywodraeth eu gwlad, yr hyn a gynnygiasant iddi, rhoddodd fenthyg arian iddynt, a dangosodd ei hewyllys da atynt mewn gwahanol ffyrdd. Ar y llaw arall, yr oedd Philip, er yn ymattal rhag rhyfel, ac er fod cymundeb masnachol a gwladyddol yn cael ei ddwyn yn mlaen rhwng y ddwy wlad, eto yr oedd yn ymdrechu yn barhaus i niweidio gorsedd y frenines ac i ddyrysu ei chynlluniau, trwy gefnogi bradwriaethau a chynhenau yn erbyn ei hawdurdod yn ei llywodraethau hi ei hun. Ymdrechodd wneyd y defnydd yma o achos y Pabyddion, yr hwn oedd fyth yn bur gryf yn Lloegr a'r Iwerddon; a gwnaeth ddefnydd neillduol o gyfrinwaith brenines yr Alban yn yr un ffordd. Yr oedd gan Mary honiadau cryfion a pheryglus i goron Lloegr, nid yn unig fel pen y blaid Babyddol yn yr Alban, ond hefyd fel un o hiliogaeth merch hynaf Henry VII. Er ei bod yn cael ei chadw mewn carchar, yn greulawn, gan lywodraeth Lloegr, ar ol iddi ddianc yno am noddfa rhag ei deiliaid ei hun, yn 1568, ni roddodd ei charchariad derfyn ar obaith ei hymlynwyr. Yr oedd y cynhyrfiadau parhaus yn yr Iwerddon, a gefnogid weithiau yn amlwg gan Yspaen; y cynnyg a wnaed gan y dug o Alva yn 1569, trwy offerynoliaeth Vitteli, i gynllunio

Digitized by Google

â'r blaid Babyddol er ymosod ar Loegr; ymgyfodiad Pabyddion y siroedd gogleddol dan iarllod Northumberland a Westmorland yn yr un flwyddyn; brad y dug o Norfolk mewn cyssylltiad â Ridolfi yn 1571, o blegid yr hyn y collodd y boneddwr anffodus hwnw ei ben; bradwriaethau Throgmorton a Creichton yn 1584, a Babington yn 1586; a llawer o gynnygion llai o'r cyffelyb:—yr oedd y cyfan yn dangos pa mor selog a phenderfynol yr oedd gelynion y drefn sefydledig i gyrhaedd eu hamcan.

Er nad oedd gan frenines Lloegr un hawl gyfreithlawn i garcharu brenines yr Alban, mwy nag y buasai gan hono hawl i'w charcharu hithau, canys yr oedd y ddwy wlad y pryd hyn ar wahan; er hyny, cadwodd Elizabeth ei chyfnither ieuanc, Mary o'r Alban, mewn carchar caeth am yr ysbaid hirfaith o ddeunaw mlynedd; a rhoddodd luaws o bersonau i farwolaeth yn y cyfamser am geisio ei rhyddhad; canys gwyddai Elizabeth yn dda y buasai yn llawer gwell gan holl Babyddion y deyrnas gael Mary i'r orsedd na hi; ac yr oedd yn bur anhawdd gwybod y pryd hyn pwy oedd yn Babyddion, a phwy oedd heb fod; o blegid yr oedd lluaws yn celu eu gwir syniadau, er mwyn cadw eu tiroedd a'u rhyddid, heb law nad oedd *bywyd* neb yn ddiogel, ond cydymffurfwyr trwyadl yr Eglwys Sefydledig. O'r diwedd, gwnaeth cyflafan ofnadwy y Protestaniaid yn Paris, ar noswyl St. Bartholomeus, i Elizabeth fod yn fwy awyddus am lofruddio ei chydymgeisydd anffodus; yn enwedigol, gan fod y dug o Guise, penaeth y blaid Babyddol yn Paris, yn ewythr i Mary; a chadarnhawyd ei nerth mor fawr yn y wlad hono trwy y weithred greulawn a nodwyd, fel y dechreuodd Elizabeth feddwl y gallai Mary gael ei rhyddhau eto, a dyfod yn gydymgeisydd peryglus iddi hi am goron Lloegr. O ganlyniad, cadwodd hi mewn carchar caethach nag o'r blaen; ac o'r diwedd, cafodd ryw fath o ffug esgus, am yr hwn yr hiraethai er ys talm, i'w rhoddi i farwolaeth. Penderfynodd nifer o wŷr ieuainc o waedoliaeth uchel, dan ddylanwad ysbryd arwrol, wneyd ymdrech egniol i ryddhau brenines yr Alban. Yr oedd eu cynlluniau wedi eu trefnu, a phob peth yn barod i roddi yr amcan mewn gweithrediad, pan y bradychwyd hwy gan ryw ysbïwyr a gyflogasid i hyny gan y llywodraeth, y rhai a gymmerent arnynt gymmeryd rhan yn y gydfradwriaeth; a dienyddiwyd yr holl wŷr ieuainc anturiaethus yn nghyd â brenines ddiniwed yr Alban yn 1587.

O gylch y pryd hwn hefyd, er nad oedd rhyfel wedi ei chyhoeddi yn weithredol gan na Lloegr nac Yspaen, eto, yr oedd Elizabeth wedi cofleidio achos trigolion yr Iseldiroedd yn gyhoeddus, ac yr oedd ei chadlywydd, yr iarll o Leicester, yn awr yn arwain byddinoedd y Taleithiau Unol, fel yr oedd y gwrthryfelwyr yn galw eu hunain. Hefyd, yr oedd llynges Lloegr, ar yr un pryd, wedi ymosod a difrodi sefydliadau Yspaen yn yr India Ddwyreiniol. O'r diwedd, yn 1588, mordwyodd llynges fawr Yspaen, a elwid yn drahausfalch, y Llynges Anorchfygol (*the Invincible Armada*), i ymosod ar Loegr. Ar y 19eg o fis Gorphenaf, daeth y llynges ymffrostgar i olwg Plymouth; ac yn y fan ymbarotodd y llyngesydd Seisonig, yr arglwydd Howard o Effingham, i'r frwydr: ond canfyddwyd yn fuan nas gallai efe effeithio ond ychydig ar longau pedwar bwrdd llynges gyfunol fawr yr Yspaeniaid. Cynghorwyd ef gan Syr Francis Drake i geisio eu dystrywio, neu eu gwasgaru, trwy y cynllun canlynol:—gorchymyn i wyth o'i longau ysgafnaf gael eu pygu yn dda drostynt oll, a'u llenwi â phethau hylosg; ac yn nghanol y nos, yr hon a ddygwyddodd fod yn bur dywyll, rhoddwyd hwy ar dân, a gyrwyd hwy o flaen y gwynt i ganol llongau y gelyn. Gwelai yr Yspaenlaid, y rhai oedd wrth angor ar gyfer Calais, y llongau fflamllyd hyn yn rhuthro tuag atynt, torasant eu rhaffau, ac ymollyngasant o flaen y gwynt, yn y dychryn mwyaf annysgrifiadwy—rhai yn ffoi un ffordd a'r lleill y ffordd arall; yr hyn a roddodd y fantais fwyaf i'r llyngesydd Seisonig. Canys pan wasgarwyd y llynges fel hyn, ymlidid ac ymosodid arnynt ar wahân gan lyngesoedd bychain o'r llongau Seisonig, y rhai, cyn gynted ag y dystrywient un tŵr, a ymosodent ar un arall. Fel hyn ennillwyd buddugoliaeth fawr trwy gyfrwysder a medr y llyngeswyr, y rhai nis gallasent lwyddo i orchfygu llynges o'r fath longau mawrion, pe buasent yn nghyd.

Ymddangosodd Elizabeth yn hynod o wrol a doeth ar yr amgylchiad yma: yn yr hyn bethau yn wir nid oedd hi ddiffygiol un amser. Aeth ei hunan at y milwyr oedd yn gwylio y lan lle yr oeddynt yn dysgwyl i'r llynges ddychrynllyd dirio; a chefnogai a chysurai hwy â'i hareithiau, gan roddi gorchymynion a chyfarwyddiadau pa fodd yr oeddynt i ymddwyn os dygwyddai i'r Yspaeniaid lanio. Pa fodd bynag, ni chymmerodd hyny le, fel y crybwyllwyd, ac ni welodd y rhan fwyaf o honynt lan byth mwyach; canys rhwng y dystryw a wnaeth y Seison a'r ystormydd, ni ddychwelodd ond rhan fechan iawn o'r "Llynges Anorchfygol" i'w gwlad ei hun. O'r amser hwnw allan, ymosododd y ddwy wlad ar eu gilydd, gyda mwy neu lai o egni, hyd ddiwedd teyrnasiad Elizabeth. Yn y cyfamser, yr oedd Henry III—ac, ar ol ei lofruddiad ef yn 1589, cymmerodd brenin ieuanc Navarre yr enw o Henry IV:—yr oedd y rhai hyn yn arwain yr Huguenotiaid, mewn ymrysonfa angerddol yn Ffrainc, yn erbyn y dug o Guise a'r Cynghrair. Arosodd Elizabeth a Philip am ysbaid o flynyddoedd yn edrychwyr yn unig ar yr ymrysonfa; ond o'r diwedd tynwyd y ddau i mewn i chwareu y rhan benaf ynddi. Pa fodd bynag, rhaid ystyried y rhyfel Ffrengig, cyn belled ag yr oedd a fynai Elizabeth â hi, fel chwanegiad yn unig at y rhyfel âg Yspaen: Philip yn benaf, ac nid y Cynghrair, a wrthwynebai hi yn Ffrainc. Bron yr un fath ag yn yr Iseldiroedd, ac yn yr Alban cyn hyny, nid achos rhyddid yn erbyn gorthrwm, neu achos deiliaid gwrthryfelgar yn erbyn eu llywydd cyfreithlawn a gynnorthwyai hi, na chwaith achos Protestaniaeth yn erbyn Pabyddiaeth, ond ei hachos ei hun yn erbyn Philip—ei hawl ei hun i orsedd Lloegr yn ei erbyn ef. Er pan lofruddiwyd Mary o'r Alban gan Elizabeth, proffesai Philip ei fod yn ystyried ei hun yn frenin cyfreithlawn Lloegr—mewn rhan, ar y sail ei fod yn ddisgynydd uniongyrchol o John o Gaunt, ac mewn rhan, o blegid i Mary yn ei hewyllys drosglwyddo ei hawliau ei hun iddo ef os parhâai ei mab i fod yn heretic. Darfu i Henry IV, ar ol cofleiddio Pabyddiaeth, wneuthur heddwch â Philip trwy gyttundeb Vervins, a orphenwyd Mai, 1589; a bu Philip farw yn y mis Medi canlynol. Er hyny, yr oedd y rhyfel yn cael ei dwyn yn mlaen fyth rhwng Lloegr a'r Yspaen. Yn 1601, anfonodd Philip III. lu nerthol i'r Iwerddon, y rhai a diriasant yn y wlad hono, ac a gymmerasant dref Kinsale; a'r flwyddyn ganlynol, addalodd Elizabeth am y sarhad, trwy anfon llynges

Digitized by Google

gref allan yn erbyn ei gelyn, yr hon a gymmerodd amryw o'i longau goreu, a blinodd yr Yspaeniaid mewn llawer dull arall. Parhaodd ei lluoedd hi hefyd i weithredu gyda milwyr y Saith Dalaeth Unol, ar fôr a thir.

Yn fuan ar ol marwolaeth y boneddwr llygredig hwnw, iarll Leicester, yn 1588, prif hoffddyn y frenines yn ei phalas a'i hystafell, syrthiodd mewn cariad angerddol â boneddwr ieuanc arall, er ei fod yn ŵr priod, sef Robert Devereux, iarll Essex. Yr oedd y gŵr ieuanc hwn yn dra phrydferth o ran ei berson, yn hynod o dalentog, a hoff o lenyddiaeth, ac yn bur gymmeradwy gan y bobl. Yr oedd hefyd yn gyfaill calon i ryddid crefyddol, yr hwn a bleidiai â'i holl egni. Cerid y boneddwr hoff hwn yn ddirfawr gan y Puritaniaid, ac nid oedd yn anghymmeradwy hyd yn oed gan y Pabyddion, o blegid ei ddirfawr wrthwynebiad i lofruddio neb o achos ei grefydd. Dyma y gwrthddrych anffodus y rhoddodd y frenines ei serch arno; ond ymddengys ei fod ef yn rhy bur ei foesau i lenwi lle y llygredig Leicester. Dechreuodd y frenines nwyfus ddangos ei chariad ato trwy ei ddyrchafu i swyddau pwysig. Anfonwyd ef yn gyntaf i Ffrainc, yn llywydd ar blaid o wirfoddolwyr (*volunteers*), i gynnorthwyo Henry IV. mewn rhyfel yn erbyn y Pabyddion. Yn fuan ar ol ei ddychweliad o Ffrainc, anfonodd ef i'r Iwerddon i roddi terfyn ar wrthryfel a gyfodasai yno, dan arweiniad Hugh O'Neal, nai Nani O'Neal Fawr: ond gan i Essex fethu darostwng y gwrthryfelwyr, camddarluniwyd ei ymddygiad gan elynion rhyddid wrth y frenines—yr hon a ysgrifenodd lythyr digofus ato. Ar hyny, dychwelodd yntau i Loegr, heb ganiatad, i gyfiawnhau ei hun wrth y frenines. Pan yr aeth i wydd Elizabeth, dangosodd hi ar unwaith ei bod yn barod i faddeu iddo. Ond heb law fod iddo elynion creulawn yn y llys o blegid ei dueddiadau rhyddfrydig, ymddengys fod telerau y frenines yn rhy debyg i delerau gwraig Putiphar, a bod Essex ieuanc yn rhy debyg i Ioseph i'w derbyn. Yr oedd Elizabeth mor hunanol a thräarglwyddiaethol, fel yr oedd yr anghydsyniad lleiaf â'i hewyllys yn ddigon i'w gyru yn farbaraidd; ac ni rusai hi, mwy na'i thad o'i blaen, ddienyddio dynion wrth y cannoedd, fel ebyrth i'w chynddaredd. Erfyniodd y gŵr ieuanc gael caniatad i ymadael â'r llys, a threulio ei oes gyda'i wraig a'i lyfrau, mewn bywyd anghyhoedd. Ond na: yr oedd wedi troseddu yn erbyn nwydau ei mawrhydi, ac yr oedd hyny yn ddigon i selio ei dynged anffodus. Gofynodd y frenines i Bacon, a ellid dim cael cyhuddiad o fradwriaeth yn erbyn rhywbeth a ddywedodd neu a gyhoeddodd y gŵr ieuanc hwn. Dygwyd tri o ffug-gyhuddiadau yn ei erbyn; ac wedi iddo yntau amddiffyn ei hun, dedfrydwyd ef i fod yn garcharor yn ei dŷ ei hun dan y wyliadwriaeth gaethaf, nes y gwelai ei mawrhydi yn dda alw am dano, neu roddi dedfryd drymach mewn grym arno. Tueddodd yr anghyfiawnder a gafodd, a'r camwri a ddioddefodd, i'w wneyd yn anwylach fyth yn ngolwg y bobl; a chyhoeddid y melldithion chwerwaf gan bawb yn erbyn ei orthrymwyr. Rhyddhawyd ef am ychydig amser ar ol hyn; ac ymddengys i'r frenines wneyd ail gais i'w hudo i'w chyfrinach, trwy ddeniadau a bygythion; ond iddo ef, er pob peth, gadw ei burdeb. O'r diwedd, chwerwodd ei ysbryd ati hi a'i llys; a phan nacawyd adnewyddu rhyw freinlen yr appeliasai am dani, dywedodd mewn cyffro, "Y mae y frenines wedi fy ngwthio i fywyd dirgel; ond ni byddaf fi yn gaethwas gwael a gorufudd. Y mae fy ngelynion wedi planu eu dagr ynof hyd y carn; ond ni rwymir fi wrth gerbyd eu goruchafiaeth." Yn ganlynol i hyn, dygwyd cyhuddiadau dibrawf o fradwriaeth yn ei erbyn; yna daliwyd ef, bwriwyd ef i'r Tŵr, dygwyd ef i brawf, a chollfarnwyd ef i farwolaeth. Pan yr awgrymwyd y gallai llofruddiad cyhoeddus dyn oedd mor anwyl gan y bobl, y rhai nid oeddynt eto wedi anghofio y creulondeb at Mary o'r Alban), gael ei ddilyn gan ganlyniadau mwy pwysig i'r llywodraeth, dienyddiwyd ef yn ddirgel yn y Tŵr. Dywedir nas gallodd hyd yn oed Elizabeth galon-galadarn byth ymadnewyddu ar ol llaw-arwyddo llythyr dienyddiad Essex, yr hyn a wnaeth gyda'r pryder a'r dychryn meddwl mwyaf cyffrous; a'i bod, trwy y weithred hono, wedi selio ei dedfryd ei hunan. Syrthiodd y frenines, yn fuan wedi hyn, i brudd-der dwfn; a dechreuodd ei hiechyd adfeilio yn gyflym. Yn niwedd Ionawr, 1603, ymsymmudodd i Richmond, er mwyn llonyddwch a newidiad awyr; ond suddo yn ddyfnach fyth a wnaeth dan effaith cnofeydd cydwybod a chythrudd meddwl. Yn Mawrth, aeth ei sefyllfa yn anobeithiol. Pan holwyd hi yn nghylch yr olyniad i'r orsedd, atebodd hithau, "Dilynir fi gan frenin: a phwy a ddylai hwnw fod ond ein cefnder o'r Alban?" Y dydd canlynol, yr oedd yn analluog i siarad; ac ar y 25ain o Fawrth, 1603, bu Elizabeth farw, dros naw a thrigain oed, ar ol teyrnasu pum mlynedd a deugain. Hi oedd yr olaf o hiliogaeth uniongyrchol Owain Tudur o Benmynydd, Môn, a eisteddodd ar orsedd Prydain Fawr.

Gyda golwg ar nodweddau personol Elizabeth, y mae yn sier ei bod yn berchen ar feddwl cryf, bywiog, ac anhyblyg. Yr oedd ei hunanoldeb, ei balchder, a'i thrahausder yn angerddol: ac fel ei thad, Henry VIII, yr oedd yn meddu nwydau cryfion ac aflywodraethus; ac nid oedd mewn un modd yn amddifad o'i greulondeb a'i anfaddeugarwch: ac yr oedd, medd ei bywgraffwyr mwyaf diragfarn, bron yn gwbl ddiffygiol o gynneddfau tyner a llednais ei rhyw. Ystyrid ei bod yn fwy dysgedig, o'i rhyw, nag odid neb yn ei hamser. Dywed Camden, ei bod yn deall Lladin, Ffrancaeg, ac Italaeg yn dda, ac yn deall Groeg yn ganolig. Nid oedd chwaith wedi esgeuluso cerddoriaeth; a gallai ganu yn beraidd, a hefyd chwareu y dwsmel (*lute*) yn rhagorol. Yr oedd, dan arweiniad Roger Ascham, ei hathraw, wedi darllen *Common Places* Melanchthon drosto; holl waith Tully; rhan fawr o hanesion Titus Livius; detholiad o areithiau Isocrates (dwy o ba rai a droes i'r Lladin); *Tragedies* Sophocles; a'r Testament Newydd oll yn Groeg. Dywedir iddi gyfansoddi rhai darnau byrion o farddoniaeth, y rhai nid ydynt o nemawr werth, nac yn amlygu ond ychydig o allu meddyliol. Yr areithiau i'r senedd a briodolir iddi ydyw y cyfansoddiadau goreu a ysgrifenodd.

Gyda golwg ar ei llywodraeth, er mor gaethiwus, erlidgar, a chreulawn ydoedd hi at bawb na chydymffurfient â'i chrefydd, ac nad ymostyngent iddi yn mhob peth arall, mae yn sier, er hyny, fod Prydain wedi ymddyrchafu llawer yn ystod ei theyrnasiad. Cyrhaeddodd y deyrnas fwy o ddylanwad nag erioed o'r blaen yn mysg llywodraethau Ewrop; a diau fod ei gwladlywiad hi wedi gwneyd mwy tuag at hyny nag a wnaeth holl ymdrechion y penaduriaid a'i rhagflaenasant hi. Gwnaeth masnach gynnydd mawr yn ei hamser; a chynnyddodd corff y genedl lawer mwy mewn cyfoeth nag mewn cyfnod blaenorol.



Digitized by Google

Gwnaed rhai darganfyddiadau buddiol hefyd yn ei hamser. Dyma y pryd y dygwyd cludgerbydau (*coaches*) gyntaf i arferiad, gan ŵr o'r Iseldiroedd. Dan deyrnasiad Elizabeth hefyd y sefydlwyd gweithfa nydwyddau gyntaf yn Lloegr gan frodor o'r Almaen; a'r oriawr gyntaf a welwyd yn y wlad hon oedd un a gyflwynwyd gan Almaenwr arall i'r frenines Elizabeth. Yn y flwyddyn 1588, cyfodwyd y felin bapyr gyntaf yn Lloegr, yr hon a wnaed yn Dartford, Kent. Yr oedd gwneyd papyr wedi bod yn brif fasnach yn Ffrainc er ys hir amser; a chludwyd y gelfyddyd werthfawr yma, yn gystal ag amryw gelfyddydau buddiol ereill, drosodd i Loegr gan y Protestaniaid Ffrengig a Ffleminaidd a yrid o'u gwledydd eu hunain gan erlidigaethau, y rhai a dderbynid ac a noddid yn llawen gan y frenines; canys yr oedd Elizabeth yn ddigon craffus i weled y fantais a ddeilliai oddi wrth ymsefydliad y celfyddydwyr tramor medrus hyn, y rhai a allent ddysgu y Seison yn eu gwahanol gelfyddydau, a thrwy hyny roddi gorchwylion newydd iddynt; yr hyn oedd o bwys mawr, gan fod y wlad yn awr yn rhydd oddi wrth ryfel, a'r boblogaeth yn cynnyddu yn gyflym. Ymsefydlodd lluaws o'r ymnoddwyr yn Nghaergaint, Norwich, Colchester, Maidstone, a Southampton; y rhai, yn nghyd âg amryw ereill o'r hen ddinasoedd caerog, oedd wedi syrthio i adfeiliad, mewn canlyniad i'r rhyfeloedd cartrefol; ond yn awr yr oeddynt yn dyfod yn lleoedd poblogaidd masnach: a thrwy ymsefydliad y cyfryw dramoriaid y sefydlwyd gweithfeydd cotwm yn Manchester, ac amryw drefydd ereill. Dan y teyrnasiad yma hefyd y dyfeisiodd Mr. Lee, myfyriwr o Gaergrawnt, wneyd hosanau ar wehydd: ond ni chefnogwyd y gelfyddyd werthfawr hon am hir amser wedi hyny, gan y parhäai y bobl yn gyffredin i wisgo hosanau brethyn, neu rai wedi eu gweu â gweyll. Y pâr cyntaf o hosanau sidan a wnaed yn Lloegr, a wëwyd â gweyll gan Mrs. Montague, masnachydd sidan, a roddwyd yn anrheg i'r frenines Elizabeth, yr hon a'u hoffai yn fawr; ac ni wisgodd hosanau gwlân byth wedi hyny. Yn fuan ar ol hyn, gwnaeth un, Thomas Burdet, bâr o hosanau *worsted*, ac a'i rhoddodd yn anrheg i'r arglwydd Pembroke, yr hwn a'i ystyriai o werth mawr.

Yn oes Elizabeth hefyd y blodeuodd y llenorion Seisonig enwog, Spenser, Shakspeare, Beaumont, Fletcher, Raleigh, Bacon, &c.; a'r llenorion Cymreig godidog, W. Salesbury; y Dr. Richard Davies, esgob Mynwy; y Dr. William Morgan, esgob Llanelwy; y Dr. John Davies, o Fallwyd; yr Archddiacon Prys; y Cadben William Myddelton (Gwilym Ganoldref)—cyfieithwyr y Beibl: a William Cynwal; y Dr. Sion Dafydd Rhys; y Dr. Thomas Williams; Henry Salesbury, awdwr *Egluryn Ffraethineb;* Henri Perri, golygydd a chyhoeddwr yr *Egluryn;* William Lleyn; Llewelyn Sion, o Langewydd; Sion Brwynog; Lewis Dwn; Morus Cyffin; Rowland Fychan o Gaergai; Robert Fychan o'r Hengwrt; Humphrey Llwyd o Ddinbych; Simwnt Fychan; Sion Tudur, o Wigwair; Tomas Prys, o Blasiolyn; Rees Pritchard, o Lanymddyfri; Syr Edward Stradling; Thomas Lewis, o Lechau; Edward Dafydd, o Fargam; Gruffydd Hiraethog; Huw Llwyd, o Gynwal; Twm Sion Cati (Thomas Jones); Lewis Morganwg; Meirig Dafydd; Sion Phylip, a thros 250 o feirdd a llenorion Cymreig ereill.—[*Camden's Hist., Gibbon's Hist.; Fox's Mart.; Penny Cycl; Ferguson's Hist., &c.*]

ELMODAM, ['Ελμωδάμ, neu Ελμαδάμ: yr un, fe allai, a'r Heb. אלמודד: *Gen.* x. 26; Deg a Thrigain, 'Ελμωδὰδ]: mab Er, yn y chweched genedlaeth o flaen Zorobabel, yn achyddiaeth Ioseph: *Luc* iii. 28.

ELNAAM, [אלנעם=*Duw ei hyfrydwch*, Ges.; *harddwch Duw*, Charl.; 'Ελλααμ; Alex., 'Ελνααμ]; tad Ieribai a Iosafiah, dau o gedyrn Dafydd: 1 *Cron.* xi. 46. Yn y Deg a Thrigain, rhoddir yr ail fel mab y cyntaf, a gosodir Elnaam ei hun fel un o'r cedyrn.

1. ELNATHAN, [אלנתן=*yr hwn a roddodd Duw*, Ges.; *rhodd Duw*, Charl.; 'Ελνασθαν, 'Ιωνάθαν, Νάθάν]: taid o dŷ ei fam i Ioachin, a ddynodir fel "Elnathan o Ierusalem;" 2 *Bren.* xxiv. 8. Diammheu mai yr un person oedd ag "Elnathan mab Achbor," un o benaethiaid Ierusalem dan deyrnasiad Iehoiacim: *Ier.* xxvi. 22; xxxvi. 12, 25. Yr achos o amrywiaeth yr enw yn y Deg a Thrigain ydyw, fod Elnathan, Ionathan, a Nathan, o'r un ystyr.

2. ELNATHAN: enw tri o Lefiaid yn amser Ezra: *Ezra* viii. 16.

ELOI, ELOI. Gwel Eli 3.

1. ELON, [Cald., אילן=*pren*, *Dan.* iv. 8, &c., cyfetyb i'r Heb., אלון; ond defnyddir y Caldaeg mewn ystyr eangach; 'Ελὼν, Αιλὼμ; Alex., 'Ελωμ]: Hethiad, tad Basemath, un o wragedd Esau: *Gen.* xxvi. 34.

2. ELON, [אילון=*derwen; 'Αλλὼν; 'Ασρων*]: yr ail o'r tri mab a briodolir i Zabulon (*Gen.* xlvi. 14; *Num.* xxvi. 26); a sefydlydd teulu yr Eloniaid.

3. ELON, [Αιλωμ; Jos., Ηλων]: un o deulu yr Eloniaid, a elwid "Elon y Zabuloniad," yr hwn a farnodd Israel ddeng mlynedd, ac a gladdwyd yn Aialon, yn ngwlad Zabulon: *Barn.* xii. 11, 12. Ysgrifenir yr enwau Elon ac Aialon yn yr Hebraeg â'r un llythyrenau: yn y nodau llafarol yn unig y mae y gwahaniaeth; gan hyny, dichon i le claddedigaeth Elon gael ei alw ar y cyntaf oddi wrth ei enw ef. Nid yw y *Vulgate* yn gwahaniaethu y ddau.

4. ELON, ['Ελων]: un o'r dinasoedd oedd ar derfyn llwyth Dan: *Ios.* xix. 43. Bernir oddi wrth drefn y rhestr, y rhaid ei bod yn sefyll rhwng Aialon (*Yâlo*) ac Ecron (*Akir*); ond nid yw teithwyr hyd yn hyn wedi darganfod dinas yn cyfateb i'r enw. Arwydda yr enw yn Hebraeg dderwen fawr, neu ryw bren cryf arall; ac am hyny gall fod yn arwyddo nodwedd goediog y lle y safai y ddinas arno. Dichon mai yr un ddinas ydoedd a'r nesaf a roddwn yma.

ELON-BETH-HANAN, [א'בית־הנן=*derw tŷ y gras*; 'Ελὼν εως Βηθανάν; Alex., Αιαλωμ]: yr hon a enwir gyda dwy ddinas arall oedd yn llwyth Dan, ac fel un o ddinasoedd rhaglawiadol Solomon: 1 *Bren.* iv. 9. "Benhanan" sydd yn rhai o'r llawysgrifau Hebraeg am "Beth-hanan;" ac mewn rhai dywedir "a Beth-hanan:" dyma y darlleniad a ddilyna y *Vulgate*.

ELOR—AU, [*elawr*, o *llawr*, medd y Dr. Pughe; Corn., *elar*; Arm., *gueler*; Ir., *eleathrain*]; Y mae i'r gair hwn ddau ystyr yn y Beibl Cymraeg:—

1. Arwydda ystram neu garfan goed, i gludo cyrff y meirw i'r beddrod. Y gair a ddefnyddir

Digitized by Google

yn y Beibl Seisoneg am yr offeryn yma ydyw *bier*, yr hwn a geir ddwywaith yn y cyfieithiad Seisoneg, sef yn 2 *Sam.* iii. 31, ac yn *Luc* vii. 14; ac *elor* ydyw y gair a ddefnyddir yn y cyfieithiad Cymraeg yn y ddau le. Fel enw ar yr offeryn hwnw, y gair *elor* sydd yn fwyaf cynnefin ac arferedig yn y wlad.


Y mae ffurf a gwneuthuriad elor claddu ein gwlad ni yn ddigon hysbys, ar yr hwn y gosodir yr arch; ac wedi ei sicrhau â chortynau, cludir yr elor ar ysgwyddau pedwar o ddynion tua'r gladdfa.

Yr oedd elor claddu y bobl gyffredin yn y dwyrain o wneuthuriad tra syml, medd Kitto; dim ond bwrdd coed teneu, wedi ei hoelio wrth ddau bawl, y rhai a wasanaethent fel pedair braich, yn debyg i freichiau ein helorau ninnau. Wedi gosod y corff ar yr offeryn syml yma, gan ei orchuddio â huling teneu yn unig, er ei guddio o olwg y gwyddfodolion, cludid ef i'r gladdfa yn gyffelyb ag y gwneir yn y wlad hon. Ar offeryn fel hyn, yn ol pob tebygolrwydd, y cludid mab y wraig weddw o Nain tua'r gladdfa (*Luc* vii. 14); canys dyma y dull cyffredin o gludo cyrff y werin bobl i'r beddrod yn y dwyrain, hyd y dydd hwn, yn mysg Iuddewon, Mahometiaid, a Christionogion. Y gair Groeg a ddefnyddir am yr offeryn dan sylw yn yr adnod y cyfeiriwyd ati uchod, yw σορος (*soros*); a dyma yr unig fan y defnyddir y gair Groeg hwn yn y Testament Newydd, cystal a'r unig le y ceir ein gair Cymraeg ninnau. Y gair Cymraeg a roddir ar ymyl y ddalen fel un cyfystyr â'r Groeg ydyw *arch;* ond deillia, medd Rose, o'r gair Hebraeg סור (*sor*), *symmud;* megys y deillia yr enw Lladin *feretrum* o *fero*, cario neu gludo; a bernir yn gyffredinol fod yr enw Seisoneg, *bier*, o'r un gwreiddyn a'r ferf *to bear*, dwyn, cario. Felly, mae yn debycach fod y gair Groeg yn arwyddo yr elor ddwyreiniol a ddarluniwyd, na'i fod yn arwyddo *arch*, fel yr awgrymir ar ymyl y ddalen. Anfynych y defnyddid eirch yn ngwledydd y dwyrain, medd Smith; a phan y defnyddid hwy, byddent yn agored: ond yr oedd meini wedi eu gosod ar lun arch yn bethau cyffredin yn meddrodau y mawrion.

Ceir y gair *elor* unwaith yn ein cyfieithiad ni o'r Hen Destament, mewn ystyr lled gyffelyb; sef yn 2 *Sam.* iii. 31, fel yr awgrymwyd eisoes, lle y dywedir, "A'r brenin Dafydd oedd yn myned ar ol yr *elor*" (*gwely* ar ymyl y ddalen), yn nghladdedigaeth Abner. Y gair a gyfieithir yma yn *elor* ydyw מטה (*mîtah*)—gair cyffredinol, fel yr ymddengys, yn arwyddo pob math o orphwysle i orwedd arno. Yn *Gen.* xlvii. 31; xlviii. 2; xlix. 33, arwydda *gwely*, yn ystyr cyffredin y gair; yn *Esth.* i. 6; *Ezec.* xxiii. 41, arwydda le i ledorwedd wrth fwrdd, yn ol arfer y dwyrain; yn 1 *Sam.* xxviii. 23; *Diar.* xxvi. 14; *Amos* iii. 12; vi. 4, arwydda esmwythfainc, glwth, neu orweddfainc; ac yn *Can.* iii. 7, arwydda elorglud, cludwely (*litter*), neu ysgwyddglud (*palanquin*)

Y mae amryw yn meddwl y cludid gwŷr mawr, weithiau o leiaf, i'r gladdfa ar eu gwelyau priodol eu hunain, y rhai a addurnid yn orwych. Felly y tybir ddarfod i Asa (2 *Cron.* xvi. 14) a Herod [*Jos. Ant.*, xvii. 8, adr. 3] gael eu cludo i'w beddrodau; a dichon mai felly y cafodd Abner hefyd (2 *Sam.* iii. 31) ei gludo i'w fedd; ac mai hyny oedd yr achos i'r gair Hebraeg dan sylw, sydd yn arwyddo *gwely*, a gyfieithir genym ni yn *elor*, gael ei ddefnyddio yn y lle.

**2.** Y lle arall y ceir y gair *elor* yn y Beibl Cymraeg ydyw *Esa.* lxvi. 20, lle y mae yn ei ddull lluosog, yn gyssylltiedig â'r gair *meirch* —"elorau meirch." Y gair Hebraeg yn y lle hwn ydyw צב (*tsab*), ac a gyfieithir yn y Beibl Seisoneg *litter*—gair yn arwyddo gwely wedi ei sicrhau wrth bolion, yn yr hwn y cludid person gan ddynion ar eu hysgwyddau; cludwely, cludwâl. Yn *Num.* vii. 3, cyfieithir y gair *tsab* genym ni yn "feni diddos," a chan y Seison yn *covered waggons*, y rhai a dynid gan ychain, yn y rhai y cludid defnyddiau y tabernacl o le i le. Gan hyny, nid cludwely (*litter*), yr hwn a gerid ar ysgwyddau, oedd y *tsab*, yr hwn a dynid gan ychain neu feirch. Ond nid ydys i gasglu oddi wrth hyn nad oedd gan yr Hebreaid gludwelyau. Y mae yn hysbys eu bod yn arferedig yn mysg yr hen Aiphtiaid. Yr oedd y rhai hyny weithiau o wneuthuriad hardd a gorwych, a chludid hwy gan ddynion ar eu hysgwyddau, megys y gwelir yn y darlun canlynol: a defnyddid hwy,



Dar. 287.

fel yr ymddengys, i gario cyfoethogion i deithiau ac ymweliadau byrion, megys y cludgadeiriau (*sedan chair*) gynt yn Lloegr, y rhai sydd eto ar arfer yn rhai o'r gwledydd dwyreiniol. Y mae yn ammheus a oedd gan yr Hebreaid y dull yma o gludwelyau, gan mai prin y cytunent â'u dull syml ac anfoethus hwy o fyw; ond y mae y tebygolrwydd mwyaf fod ganddynt gludwelyau neu gludgadeiriau a dynid neu a gerid gan anifeiliaid, megys y *tsab*, a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg yn "elorau meirch."

Yn *Can.* iii. 9, ceir y gair אפריון (*aphirion;* Deg a Thrigain, ορειον; *Vulg. ferculum*), yr hwn nis ceir mewn un man arall yn yr Ysgrythyrau, ac a gymhwysir at fath o gludai a ddefnyddid gan y brenin Solomon. Cyfieithir y gair yn ein Beibl ni yn gerbyd (Seisoneg, *chariot*), er ei fod yn annhebyg i bob gair arall a gyfieithir felly. Ar ymyl y ddalen, rhoddir y gair *gwely* fel un cyfystyr iddo. Ei ystyr yw *glwth* neu *orweddle symmudol*, a golyga fath o gludgadair, neu y *palanquin* dwyreiniol, yn yr hwn y cludid boneddigion o fan i fan. Y mae yr enw, cystal ag amcan yr offer, yn awgrymu y gallai fod bron yr un peth a *tact-ravan* y Persiaid, sef math ar orsedd neu eisteddfa symmudol. Math o ystram (*frame*) ysgafn ydyw, wedi ei sicrhau wrth ddau bawl cryf, tebyg i'r hen gludgadair Seisonig. Gorchuddir yr ystram yn gyffredin â brethyn ysgafn; ac y mae iddi ddrws rhidyllog ar bob ochr. Cludir yr ystram yma gan ddau o fulod—un yn mlaen a'r llall yn ol, rhwng y ddau bawl, fel y gwelir yn y darlun isod. Defnyddir y cludeiriau yma gan gyfoethogion, pan yr ewyllysiant gael esmwythyd ar eu teithiau, neu pan yn egwan gan afiechyd neu henaint. Ond gan foneddigesau

Digitized by Google


y defnyddir hwy fynychaf ar eu teithiau. Nid enw Cymraeg diystyr ar y rhai hyn ydyw "elorau meirch."



Dar. 288.

Ymddengys nad ydyw darlunwyr cyffredin yr Ysgrythyrau yn adnabyddus o'r math yma o gludgadeiriau a chludwelyau ereill sydd yn Asia Orllewinol; am hyny, y maent hwy yn myned i'r India, ac yn cymmeryd eu darluniau oddi wrth ysgwydd-gadeiriau (*palanquins*) ac eisteddfâau (*howdahs*) a gludir ar gamelod ac elephantiaid. Ond y mae hyn yn afreidiol, gan fod yn Asia Orllewinol gyflawnder o gludgadeiriau o'r fath yma, y rhai sydd yn fwy cyfaddas, ac yn debycach o fod ar hen arfer yn amser ysgrifeniad y Beibl na'r rhai a geir yn awr yn eithafoedd y dwyrain. Os ystyrir y rhai a ddarluniwyd eisoes yn rhy syml, y mae clusteisteddfâau (*tacht-ravans*) mwy golygus ac ardderchog i'w cael yn Asia. Sonir yn y Nosweithiau Arabaidd (*Lane's Arab. Nights*, i. 528) am "gludgadair (*litter*) o frethyn coch, wedi ei haddurno â pherlau a thlysau," a barotoisid gan Zahr-Shah ar gyfer taith ei ferch, a dynid gan ddeg o fulod bob yn ail. Rhai o'r dull yma yn ddiau a dynir gan bedwar o fulod: dau o'u blaen a dau ar eu hol.

Yn Arabia, lle y mae yr arfer yn ffynu, defnyddir dau gamel yn gyffredin i gario y clusteisteddfâau (*tacht-ravans*); ac weithiau cludir hwy gan ddau o feirch. Pan y cludir hwy gan gamelod, bydd raid i'r olaf blygu ei ben yn y modd mwyaf poenus o dan yr offeryn, fel y gwelir yn y darlun canlynol. Dyma y gludgadair fwyaf



Dar. 289.

cysurus a feddant; a gall dau o bersonau lled ysgeifn deithio ynddi.

Y mae math arall o gadair gamel, a elwir



Dar. 290.

*shibreeyeh*, yr hon sydd debyg i *howdah* yr Indiaid, a gelwir hi felly weithiau, neu yn hytrach yn *hodai*. Math o esgynlawr ysgwâr bychan ydyw y gludgadair yma, â gorchudd bwaog drosti. Cludir yr offeryn hwn ar gefn camel, fel y gwelir yn y darlun olaf; lle y gorphwys ar ddau goffr ysgwâr, un o bob tu yr anifail. Ni chludir mwy nag un person yn y cludoffer hyn un amser.

Y mae yn dra amlwg, nid yn unig wrth y testyn a nodwyd, ond oddi wrth rai ereill hefyd, fod yr Hebreaid gynt yn arfer math o gludwelyau neu gludgadeiriau; ac y mae yn dra thebyg eu bod yn gyffelyb i'r rhai a ddefnyddir yn awr yn Palestina a'r gwledydd cymmydogaethol, lle y mae yr un hinsawdd fyth, yr un anifeiliaid gwâr, ac o ran sylwedd, yr un arferion bywyd, ag oedd yn y cyfnod Beiblaidd.—(*Rose's Lex.*; *Jos. Antiq.*; *Kitto's Cycl.*, &c.)

ELOTH. Gwel ELATH.

ELPAAL, [אלפעל=*Duw ei wobr*, Ges.; *gwaith Duw*, Charles; 'Αλφαάλ]: Beniaminiad, mab i Husim, a brawd Ahitub: 1 *Cron.* viii. 11. Yr oedd efe yn ben teulu lluosog. Ymddengys fod meibion Elpaal yn byw yn nghymmydogaeth Lyda (*Lod*), ar ororau mynyddoedd Beniamin, cyn belled ag Aialon (*Yâlo*), yn agos i oror y Daniaid: 1 *Cron.* viii. 12—18. Husim oedd enw un o benteulu llwyth Dan. Os yr un person oedd cyndad Elpaal, y mae fod coffa am dano yn achau y Beniaminiaid yn arwyddo fod cydbriodasau wedi cymmeryd lle rhwng y ddau lwyth.

ELPALET, [אלפלט, gwel ELIPHELET; 'Ελιφαλῆθ]: un o feibion Dafydd, a anwyd iddo yn Ierusalem: 1 *Cron.* xiv. 5. Yn y rhestr gyferbyniol, a roddir yn 1 *Cron.* iii. 6, rhoddir yr enw yn fwy cyflawn yn ELIPHELET.

ELPHIN=ELFFIN ab Gwyddno, ab Garboniawn (Gerfynion), ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig, oedd sant o gôr Illtud, yn y chweched ganrif. Dywedir fod gored bysgod gan ei dad Gwyddno, yn nglan y môr rhwng Dyfi ac Aberystwyth, yr hon a ddygai elw mawr bob blwyddyn i'w pherchenog. Ond un tra anffodus oedd Elphin, ac ni lwyddai dim a gymmerai mewn llaw; o blegid yr hyn yr oedd ei dad yn bur ofidus, ac yn ofni ei fod wedi ei eni ar blaned ddrwg. Pa fodd bynag, gan ei fod yn awyddus i roddi un cynnyg pellach am lwyddiant ei fab, cytunodd iddo gael cynnyrch y gored am un flwyddyn gyfan. Tranoeth, aeth i ymweled â'r gored; ond canfyddai mai y cyfan oedd ynddi oedd bol croen wedi glynu ar un o bolion y gored. Dechreuwyd dannod ei aflwyddiant iddo yn y fan gan y rhai oedd gydag ef, o blegid iddo andwyo llwyddiant y gored, yn yr hon y ceffid bob amser o'r blaen werth can punt o bysgod bob dydd Calanmai. "Cymmerwch bwyll," meddai Elphin; "fe allai fod mwy na gwerth can punt yn y bol croen yma." Yna agorwyd ef, pan y gwelai yr hwn a'i hagorodd dalcen plentyn ynddo, ac y llefodd, "Llyma dal iesin!" (=gwelwch, dyma dalcen prydferth!) "Taliesin bydded ei enw, ynte," meddai Elphin; a chan gymmeryd y plentyn yn ei freichiau, efe a'i dygodd ef i'w wraig, yr hon a'i magodd yn serchus: ac o'r awr hono allan, efe a ddechreuodd lwyddo yn y byd. Dywed chwedl arall, mai i dŷ ei dad Gwyddno y dug Elphin y bachgen Taliesin—"is ei gil" ar gefn march, yr hwn a'i dygai mor esmwyth a

Digitized by Google

phe buasai "mewn cadair esmwytha o'r byd," pan y canodd y plentyn "Ddyhuddiant Elphin," gan brophwydo urddas iddo, sef y gân sydd yn dechreu fel hyn:—

> "Gognawd gyrru
> A gwawd dyfyrru
> A thraethawd gedu," &c.
> *Myv. Arch.*, td. 25, argr. Dinbych.

Wedi i Elphin gyrhaedd y tŷ, gofynodd ei dad Gwyddno iddo, "Ai da 'r caffaeliad yn y gored? Yntau a ddywawd wrtho gaffael peth oedd well na physgod. 'Beth oedd?' eb Gwyddno. 'Bardd,' eb yr yntau, Elphin. Yna y dywawd Gwyddno, 'Och druan! beth a dâl hwnw i ti?' Yno yr attebawdd Taliesin ei hunan, ac a ddywawd, 'Efe a dâl hwn iddo ef fwy nag a dalodd y gored erioed i ti.' Yno y gofynnodd Gwyddno, 'A fedri di ddywedyd, a chyn fychaned wyt?' 'Medraf i ddywedyd mwy nag a fedri di ofyn imi.' 'Moes imi glywed beth a fedri,' eb yr Gwyddno. Yno y canodd Taliesin—

> "Ar ddwr mae cyflwr can fendigaw," &c.
> *Myv. Arch.*, td. 64.

Yn mhen ysbaid ar ol hyn, medd y chwedl, pan oedd Taliesin tua thair ar ddeg neu bedair ar ddeg mlwydd oed, gwahoddwyd Elphin i lys ei ewythr, Maelgwn Gwynedd, i dreulio y Nadolig, lle y canmolodd Elphin ei fardd; a rhoddwyd Elphin yn ngharchar, hyd oni ddaeth Taliesin yno i'w ollwng allan â'i gerdd. "Ac yno," meddai un chwedl, "i canodd Taliesin osteg y Beirdd ger bron 33 Beirdd Maelgwn: ac o hynny allan y galwyd ef Taliesin. Gwel ddyhuddiant Elphin (td. 25, 35), a Hanes Taliesin" (td. 22, &c.). Chwedl arall a ddywed, "Ac yno (yn llys Maelgwn) i canodd Taliesin Orchest y Beirdd, ger bron y tri bardd ar ddeg; ac o hyny allan i gelwid ef Taliesin Ben Beirdd."

Dywedir mai ar yr achlysur yma y canwyd "Kanu y Medd" (td. 26); "I'r Gwynt" (td. 26), gan weddio arno dori carach Elphin; "Bustl y Beirdd," a "Buarth Beirdd" (td. 29); a'r gân sydd yn terfynu, "Ac a ollwng Elphin o'i Hual Eurin" (td. 45); ac, yn ol un chwedl, "Dyhuddiant Elphin" hefyd (td. 25), yn nghyd â "Hanes Taliesin" (td. 22 hyd 24). Fe allai fod yr holl ddarnau yn nghyd mewn un gerdd ar y dechreu, ac mai math o arwrgerdd ydoedd, prif arwyr yr hon oedd Elphin a Thaliesin. Yr enw a roddir ar y caniadau hyn ydyw "Mabinogi Taliesin." Awdwr y rhamawnt (*romance*), fel y gelwir y caniadau hyn, yn ol yr *Iolo MSS.*, 72, oedd Tomas ap Einion Offeiriad, o wehelyth Gruff. Gwyr.

Yr oedd Elphin arall, yn ol y chwedl yn yr *Iolo MSS.*, 71, yr hwn oedd fab Urien Reged yn Aber Llychwr; a phan oedd efe a Thaliesin mewn bol croen (math ar gwch croen) ar y môr yn pysgota, cymmerwyd y ddau, yn nghyd â'u bol croen, gan long morleidr tua'r Iwerddon. Wedi i'r lladron feddwi, cafodd Taliesin gyfle i wthio ei fol croen i'r môr, yn ddystaw, a rhwyfodd ef gyda tharian a gafodd yn y llong, nes y daeth o flaen y gwynt a'r tonau; ac o'r diwedd, glynodd y bol croen ar flaen pawl gored Gwyddno Garanhir, arglwydd Cantre 'r Gwaelod, i'r hwn hefyd yr oedd mab o'r enw Elphin. Wedi i Taliesin adrodd ei helynt; ac mai athraw i Elphin ab Urien ydoedd, cymmerodd Gwyddno ef yn athraw i'w fab yntau, Elphin, lle y bu hyd nes y boddwyd ei dir, Cantre 'r Gwaelod, gan y môr. Ar ol y dygwyddiad hwnw, aeth Taliesin i lys yr ymherawdwr Arthur, yn Nghaerlleon ar Wysg, lle y bu efe yn glodfawr am awen a gwybodau daionus a moliannus hyd farwolaeth Arthur. Yna aeth i'w dir ei hun, a gafodd gan Gwyddno; a chymmerodd Elphin ab Gwyddno yn ei nawdd. "O'r gyfarwydd (chwedl) hyn," medd yr hanes, "y cymmeres Tomas ap Einion Offeiriad, o wehelyth Gruff. Gwyr, ei ramawnt (*romance*) am Daliesin ap Cariadwen, ac Elffin ab Goddnou, a Rhun ab Maelgwn Gwynedd, a Gwaith Pair Ceridwen."—(*Myv. Arch.*; *Iolo MSS.*; *Nash's Taliesin*; *Williams' Biog. Dict.*, &c.)

ELSAPHAN, [Gwel ELISAPHAN]: ail fab Uliezz, mab Cohath, mab Lefi: *Exod.* vi. 22. Yr oedd efe fel hyn yn gefnder i Moses ac Aaron. Elsaphan a gynnorthwyodd ei frawd Misael i ddwyn Nadab ac Abihu, yn eu peisiau, allan o'r gwersyll: *Lef.* x. 4. Talfyriad ydyw yr enw o Elisaphan, yr hwn a gyfarfyddir fynychaf.

ELTECEH, [אלתקה=*Duw ei ofn*. Ges.; *arch*, neu *arfogaeth Duw*, Charl.; 'Αλκαθὰ, ac ἡ 'Ελκωθαιμ; Alex., 'Ελθεκω]: un o'r dinasoedd ar gyffiniau llwyth Dan (*Ios.* xix. 44), yr hon, yn nghyd â'i meusydd pentrefol (xxi. 23), a roddwyd i feibion Cohath, y Lefiad. Gadawyd yr enw allan o'r rhestr gyferbyniol yn 1 *Cron* vi. Nid oes dim olion o le yn dwyn yr enw wedi eu canfod hyd yn hyn.

ELTECON, [אלתקן=*Duw ei sylfaen*, Ges.; *mae Duw wedi ei sicrhau*, Charl. Θέκους; Alex., Ελθεκὲν]: un o ddinasoedd llwyth Iudah, yn y mynydd-dir: *Ios.* xv. 59. Gan y crybwyllir am dani mewn cyssylltiad â Halul a Bethsur, fe allai ei bod tua chanol gwlad Iudah, tair neu bedair milltir i'r gogledd o Hebron; ond nid ydyw eto wedi ei darganfod.

ELTOLAD, [אלתולד=*Duw ei hiliogaeth*, Ges.] Yr oedd yn un o ddinasoedd deheuol Iudah (*Ios.* xv. 30), a roddwyd i lwyth Simeon (*Ios.* xix. 4); ac a fu yn meddiant y llwyth hwnw hyd amser Dafydd: 1 *Cron.* iv. 29. Enwir hi gyda Beersheba a dinasoedd ereill y gwyddys eu bod yn eithafion y deheu, ar derfyn y wlad; ond nid yw wedi cael ei darganfod hyd yn hyn, Yr enw a roddir iddi yn yr ymadrodd y cyfeiriwyd ato uchod yn y Cronicl ydyw Tolad.

ELUL, [אלול=*diddym, gwagedd*; 'Ελοὺλ; Γορπιαῖος y Macedoniaid]: enw y chweched mis o flwyddyn eglwysig, a'r deuddegfed o flwyddyn wladol yr Iuddewon, yr hwn a ddechreuai ar newyddloer ein Medi ni, ac a derfynai ar newyddloer ein Hydref. Ar y pummed dydd ar ugain o'r mis hwn y gorphenodd Nehemiah adeiladu y mur: *Neh.* vi. 27. Ar y deunawfed o'r mis hwn hefyd yr ysgrifenodd yr Iuddewon goffadwriaeth o weithredoedd da Simon yr archoffeiriad i'w wlad a'i genedl, "ar lechau pres" (1 *Mac.* xiv. 27). Cedwid yr ail ar bymtheg o'r mis hwn yn ŵyl gyhoeddus, yn ol Megillah Taanith, er coffadwriaeth am farwolaeth y deg ysbïwyr hyny a ddygasant anair i'r tir: *Num.* xiv. 37.

ELUSEN—GAR—WCH, [elus=*rhodd*; Gr., ἐλεημοσύνη; Llad., *eleemosyna*; Seis., *alms*]. Y mae y tri gair crybwylledig, yn nghyd hefyd â'r gwreiddyn Cymraeg *elus*, wedi tarddu o'r Groeg (ελεος=*trugaredd* neu *dosturi*; ac wedi hyny yn dyfod i arwyddo yr amlygiad o dosturi mewn rhoddion i'r angenog. Gwelir oddi wrth hyn fod

Digitized by Google

y gair yn ei ystyr cyntefig yn golygu mewn ffordd gyffredinol deimladau a gweithredoedd o dosturi tuag at wrthddrych mewn cyfyngder; ond gyda threigliad amser, daeth y gair i feddu ail ystyr, ac i gael ei gyfyngu at un math penodol yn unig o weithredoedd trugarog, sef rhoddion neu gardodau i'r tlawd.

Yr oedd trefniadau y gyfraith Iuddewig o berthynas i feddiannau, yn nghyd â'r ysbryd o dirionded tuag at y tlawd a redai drwyddi, yn myned yn mhell i attal tlodi y pryd hwnw fel cyflwr sefydlog mewn cymdeithas; ac felly trwy ragflaenu cardota, yr oedd yr angen am gyfranu elusenau i fesur yn cael ei gau allan. Ond yr un pryd, ymddengys fod Moses, dan gyfarwyddyd dwyfol, wedi rhagweled y tebygolrwydd o hanfodiad tlodi, fel sefyllfa o angen cymhariaethol, yn y cyfansoddiad cymdeithasol hwnw; ac o ganlyniad, gwnaed darpariaeth i attal angenoctyd a'i effeithiau niweidiol, trwy ffurfio gosodiadau pendant i'r perwyl hwnw, yn gystal a thrwy gymhell, mewn ffordd gyffredinol, ysbryd o gydymdeimlad a thosturi tuag at y tlawd. Gwelir gosodiad y gyfraith Iuddewig ar y pen hwn yn *Lef.* xxv. 35; "A phan dlodo dy frawd gyda thi, a llesgau o'i law; cynnorthwya ef, fel y byddo byw gyda thi." Ac y mae ysbryd haelfrydig y cyfreithiau Iuddewig yn cymmeryd i mewn yr estron o genedl arall yn gystal a'r *brawd*, o blegid chwanegir, "er ei fod yn ddyeithrddyn neu yn alltud." Y mae y rhan fwyaf o'r bennod hon yn cynnwys gosodiadau o gyffelyb natur, ac oll yn amlygu yr un gofal tyner am y tlawd. Er mwyn grymuso y gorchymynion hyn, dygir ar gof i'r Israeliaid eu sefyllfa resynus eu hunain gynt yn y caethiwed, a'u gwaredigaeth o honi: "Myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi, yr hwn a'ch dygais allan o dir yr Aipht, i roddi i chwi dir Canaan, ac i fod yn Dduw i chwi;" *adn.* 38. Y mae yr un ysbryd yn cael ei amlygu yn nodedig yn *Deut.* xv. 7—11; "Os bydd yn dy fysg di un o'th frodyr yn dlawd o fewn un o'th byrth, yn dy dir, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, na chaleda dy galon, ac na chau dy law oddi wrth dy frawd tlawd: ond gan agoryd agor dy law iddo, a chan fenthycio, benthycia ddigon i'w angen ef, yr hyn fyddo arno ei eisieu. Gwylia arnat, rhag fod yn dy galon ddrwg feddwl i ddywedyd, Agos yw y seithfed flwyddyn, blwyddyn y gollyngdod; a bod dy lygad yn ddrwg yn erbyn dy frawd tlawd, rhag rhoddi iddo, a llefain o hono ef ar yr Arglwydd rhagot, a'i fod yn bechod i ti. Gan roddi, dod iddo, ac na fydded drwg gan dy galon pan roddych iddo: canys o achos y peth hyn y'th fendithia yr Arglwydd dy Dduw yn dy holl waith, ac yn yr hyn oll y dodych dy law arno. Canys ni dderfydd y tlawd o ganol y tir: am hyny yr ydwyf fi yn gorchymyn i ti, gan ddywedyd, Gan agoryd, agor dy law i'th frawd, i'th angenus, ac i'th dlawd yn dy dir." Gwelir hynafiaeth mawr yr arferiad o gyfranu elusen i'r tlawd oddi wrth yr ymadroddion prydferth hyny o eiddo Iob:—"Bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano, a ddeuai arnaf; a gwnawn i galon y wraig weddw lawenychu ........Llygaid oeddwn i'r dall, a thraed oeddwn i'r cloff. Tad oeddwn i'r angenog; a'r cwyn ni wyddwn, a chwiliwn allan;" *Iob* xxix. 13—16. Gellir gweled mor uchel ei fri y parhâai y rhinwedd hwn yn amser y wladwriaeth Iuddewig, oddi wrth *Salm* xli. 1, "Gwyn ei fyd a ystyria wrth y tlawd; yr Arglwydd a'i gwared ef yn amser adfyd." Gwel hefyd *Salm* cxii. 9; *Diar.* xiv. 31. Pa fodd bynag mewn amser, darfu i ymlygriad cynnyddol cymdeithas arwain i'r pechod o orthrymu y tlodion. Ceryddid y bai hwn gyda llymder mawr gan y prophwydi (*Esa.* lviii. 3, &c.), lle, yn mysg dyledswyddau ereill a esgeulusid ganddynt, y cymhellir yr Israeliaid i roddi eu bara i'r newynog, ac i ddwyn y crwydriaid tlodion i'w tai. Gwel hefyd *Esa.* x. 2; *Amos* ii. 7; *Ier.* v. 28; *Ezec.* xxii. 29.

Ond er mor ffafriol i'r tlawd oedd y sefydliadau Mosenaidd, nid yw yn ymddangos eu bod wedi attal cardota yn hollol. Gwelir oddi wrth un o'r melldithion yn *Salm* cix, fod cardota yn cael ei gydnabod fel sefyllfa adnabyddus mewn cymdeithas y pryd hwnw: "Gan grwydro hefyd crwydred ei blant ef, a chardotant; ceisiant hefyd eu bara o'u hanghyfanedd-leoedd;" *adn.* 10. Yr oedd cardota yn arwain yn naturiol i roddi bod i'r arferiad o gyfranu elusen; er nad yw iaith y Beibl yn ein cynnysgaethu â gair am *elusen* hyd gyfnod y caethiwed yn Babilon, pryd y mae yn debyg y darfu i'r cyfyngderau a ddilynent y caethiwed hwnw roddi bod i'r angen a gynnyrchodd yr arferiad. Y gair Hebraeg *tsedacah* sydd yn cyfateb i'r Groeg ἐλεημοσύνη, ac yn arwyddo yn wreiddiol yr hyn sydd uniawn neu gyfiawn: wedi hyny, y mae yn dyfod i arwyddo trugaredd, a gweithredoedd o dosturi. Y mae hyn yn ffurfio esampl brydferth o ysbryd tyner y sefydliadau Iuddewig, yn gymmaint a bod y ddau ddrychfeddwl o gyfiawnder a thrugaredd, y rhai yr ydym ni yn edrych arnynt yn gyffredin fel yn wrthgyferbyniol i'w gilydd, yn cael eu gosod allan fel yn tarddu o'r un syniad gwreiddiol. Fe allai mai yn *Salm* cxlv. 7, yr ydym yn cyfarfod â'r anghraifft gyntaf lle y mae y gair yn eglur yn arwyddo cariad neu drugaredd: "Coffadwriaeth amlder dy ddaioni a draethant, a'th *gyfiawnder* a ddadganant." Dengys y gyfochreb (*parallelism*) yma mai yr un peth a olygir wrth y *cyfiawnder* a'r *daioni*. Yr ydym yn cael yn *Dan.* iv. 27, y gair yn cael ei gyfieithu gan y Deg a Thrigain yn ἐλεημοσύνη= *elusen*, er mai *cyfiawnder* a roddir yn y Seisoneg a'r Gymraeg: y mae yn amlwg pa fodd bynag oddi wrth ddiwedd yr adnod mai *trugaredd* neu *elusen* a feddylir: "Am hyny, frenin, bydded foddlawn genyt fy nghynghor, a thor ymaith dy bechodau trwy gyfiawnder, a'th anwireddau trwy drugarhau wrth drueiniaid, i edrych a fydd estyniad ar dy heddwch." Dygir i mewn yma y syniad o gyfansoddi teilyngdod neu bwrcas (mewn ystyr israddol, wrth gwrs), trwy weithredoedd elusengar; gosodir y meddwl yma allan yn gryfach yn y cyfieithiad Groeg ἁμαρτιας σου εν ἐλεημοσυναις λυτρωσαι. Yr oedd gwneyd elusen wedi dyfod i gael ei ystyried fel moddion i ennill ffafr Duw, ac i ddiogelu oddi wrth ddrwg. Gwelir hefyd oddi wrth Lyfr yr Apocrypha fod y syniad hwn mewn amser diweddarach wedi gwreiddio yn ddwfn yn meddwl y genedl, a bod yr ymarferiad o elusengarwch yn cael edrych arno fel rhinwedd neillduol: *Tobit.* ii. 5; iv. 11.

Y mae yn hawdd gweled fod cardota yn arferedig yn amser ein Iachawdwr oddi wrth *Marc* x. 46; "Bartimeus ddall......oedd yn eistedd ar fin y ffordd, yn cardota." Yn *Act.* iii. hefyd yr ydym yn cael hanes gŵr cloff yn cael "ei ddodi beunydd wrth borth y deml, yr hwn a elwid Prydferth, i ofyn elusen gan y rhai a elai i mewn i'r deml." Dengys yr hanes, ac yn neillduol atebiad Pedr, fod yr addolwyr, wrth fyned i mewn i'r deml, yn arfer rhoddi elusen i'r tlodion a ddeuent yno i'r pwrpas hwnw.

Digitized by Google

Y mae elusengarwch yn ddyledswydd orchymynedig yn y Beibl. Nid oes un rhinwedd yn fwy cydnaws âg egwyddorion yr efengyl, ac âg ysbryd Cristionogaeth: "Eithr yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisieu, ac a gauo ei dosturi oddi wrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?" 1 *Ioan* iii. 17. Ond tra y mae Cristionogaeth yn wastad yn argymhell ufudd-dod ffyddlawn a chydwybodol i gyfraith freninol cariad, y mae wedi gadael dull a graddau yr amlygiadau neillduol o'r egwyddor fawr hon mewn cyfranu elusen i gael eu penderfynu gan amser, lle, ac amgylchiadau. Nis gellir tybied fod y grefydd hono, un o egwyddorion yr hon ydyw "y neb ni fynai weithio, na chai fwyta chwaith" (2 *Thes.* iii. 10), yn rhoddi cefnogaeth mewn un modd i gyfranu elusen mewn ffordd ddireol a diwahaniaeth, nac yn rhoddi un math o achles i'r dosbarth lluosog o grwydriaid segur sydd yn dewis byw trwy gardota, yn hytrach na thrwy lafur gonest. Y mae yr ymadroddion cryfion a ddefnyddid gan ein Iachawdwr ac ereill (*Luc* iii. 11; vi. 30; xi. 41; xii. 33; *Mat.* vi. 1; *Act.* ix. 37; a x. 2, 4, &c.) wedi eu bwriadu i argymhell y ddyledswydd gyffredinol o ystyriaeth drugarog ac ymarferol o gyfyngderau yr angenus —dyledswydd ag y mae hanes y byd yn dangos fod dynion yn dra thueddol i'w hesgeuluso. Y mae y cyfarwyddiadau a rydd ein Iachawdwr gyda golwg ar y dull o wneuthur elusen wedi eu cyfaddasu i ddiwygio beiau ag oeddynt y pryd hwnw yn llygru y rhinwedd hwn, ac i ddwyn yr ymarferiad i fwy o gydweddiad âg ysbryd yr efengyl. Dengys sylwadau ein Harglwydd ar rodd y wraig weddw (*Marc* xii. 42) egwyddor dra phwysig mewn cyssylltiad â'r rhinwedd hwn, sef fod offrymau dynion i'r Arglwydd i'w barnu yn ol yr ansawdd meddwl oddi ar ba un y maent yn tarddu. Y mae yr egwyddor hon ar unwaith yn dinystrio y dybiaeth fod teilyngdod yn perthyn i elusen fel y cyfryw, a bod y teilyngdod yn cynnyddu mewn cyfatebiaeth i luosogrwydd a gwerth yr elusenau.

Wrth roddi elusen, dylem gofio ein bod i roddi yn gyfiawn; hyny yw, rhoddi yr eiddom ein hunain—yr hyn yn unig sydd genym hawl i'w roddi; yn ol yr hen ddiareb, yr ydym i fod "yn gyfiawn cyn bod yn hael" (*Esa.* lvi. 8). Dylem roddi yn ol yr angen, ac hyd y mae ynom yn ei teilyngdod y gwrthddrychau (*Esa.* lviii. 6, 7; *Deut.* xv. 8); ac mewn doethineb, yn y ffordd oreu er eu llesad (*Act.* iv. 35); yn yr amser mwyaf prydlawn a chyfaddas (*Gal.* vi. 10; *Diar.* iii. 28); yn ddirwgnach, yn wirfoddol, a llawen (2 *Cor.* ix. 7; *Diar.* xi. 24; xxii. 9; *Deut.* xv. 7; *Col.* iii. 12); yn syml a diragrith (*Rhuf.* xii. 8); mewn cariad a thosturi (*Esa.* lviii. 10; 1 *Ioan* iii. 17); yn helaeth a ffyddlawn megys y llwyddodd Duw bob un (1 *Cor.* xvi. 2; 1 *Tim.* vi. 18); yn ostyngedig a diymffrost (*Mat* vi. 1—4.)

Un o effeithiau cyntaf Cristionogaeth ar ei deiliaid yn yr oesoedd boreuol oedd eu harwain i ofalu am y tlodion a'r rhai angenog a berthynent i deulu y ffydd. Tra yn cael eu hesgeuluso a'u dirmygu gan y byd, eu cau allan o'i gydymdeimlad, a'u hamddifadu o bob swcr a allasai roddi iddynt, yr oedd aelodau yr eglwysi boreuol yn ofalus, nid yn unig i ddarparu ar gyfer eu tlodion eu hunain, ond hefyd i gyfranu i gyfreidiau eglwysi ereill a phellenig (*Act.* xi. 29; xxiv. 17; 2 *Cor.* ix. 12). Tybia rhai fod yr arferiad ganmoladwy hon wedi tarddu o'r ffaith ddyddorol fod ein Iachawdwr a'i ddysgyblion, er yn dlodion eu hunain mewn cymhariaeth, yn arfer cyfranu rhywbeth allan o'r ychydig oedd ganddynt i gynnorthwyo y rhai angenus. Gwel *Ioan* xiii. 29. Penodid dosbarth o ddynion yn yr oesoedd boreuol i arolygu a rhanu elusen yr eglwys—"i wasanaethu byrddau," yn mhlith y rhai yr oedd bwrdd y tlodion—yn yr hyn yr ydym yn cael gwreiddyn y swydd ddiaconaidd. Sefydlwyd y swydd hon yn unol â phenderfyniad a chyfarwyddyd yr apostolion:—"Edrychwch yn eich plith am seithwyr da eu gair, yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb, y rhai a osodom ar hyn o orchwyl;" *Act.* vi. 3.—(*Kitto's Cycl. of Bibl. Lit.*, &c.)

ELUSENDY—DAI: adeilad, neu amryw adeiladau yn gyssylltiedig, wedi eu rhoddi gan bersonau neillduol, a'u gwaddoli i gynnal nifer o bobl dlodion, hen, neu fethedig. Lloegr a Chymru ydyw yr unig wlad lle y mae lluaws o elusendai ynddi; er fod amryw yn Italy. Ymddengys mai ar ol yr ysbyttai corfforedig er nawdd i'r tlawd a'r methedig, y rhai a ddilewyd gan Harri VIII, y sefydlwyd yr elusendai. Rheolau llywodraeth elusendai yw y rhai a wnaed gan eu gwahanol sefydlwyr, neu gan y rhai a ordeiniwyd ganddynt hwy i'w gwneuthur.—(*Penny Cycl.*; *Polit. Cycl.*)

ELUZAI, [אלעוזי=*Duw yw fy moliant*: hyny yw, *gwrthddrych fy moliant*, Ges.; *Duw yw fy nerth*, Charl.; 'Αζαι; Alex., 'Ελιωζι]: un o gedyrn Beniamin, a ymunodd â Dafydd yn Siclag tra yn cael ei ymlid gan Saul: 1 *Cron.* xii. 5.

ELVIRA, CYNGHORFA, [*Conc. Eliberitanum*, neu *Illiberatanum*]: Illiberis, Iliberi, neu Liberini, oedd dref yn y dalaeth Yspaenaidd Bætica (Andalusia), ger llaw Granada, lle y mae porth fyth yn dwyn yr enw *de Elbira*. Y mae y dref wedi ei dinystrio er ys talm o amser. Nis gall mai Illiberis yn Gallia Narbonensis oedd y lle yn yr hwn y cynnaliwyd y gynghorfa dan sylw ynddi. Hon oedd y gymmanfa foreuaf yn Yspaen, a chynnaliwyd hi yn B.A. 303, 305, neu 309. Y mae yn sicr nad oedd Cristionogaeth eto yn fuddugoliaethus, ond fod Cristionogion yn cael eu herlid a'u denu i wrthgilio, fel y prawf llawer o esamplau. Y mae Hosius, esgob Cordova, yn profi na chynnaliwyd y gynghorfa hon cyn y bedwaredd ganrif. Camgasgliad rhai ysgrifenwyr Protestanaidd ydyw fod y gynghorfa hon yn perthyn i gyfnod llawer diweddarach, am ei bod yn condemnio arfer delwau yn yr eglwysydd, a goleu canwyllau yn y mynwentydd, a'i bod yn gwahardd priodi—pethau nad oeddynt yn bod mor foreu a 303—309. Yn y gwrthwyneb, y mae ysgrifenwyr Pabyddol, megys Baronius a Bellarmine, yn gwrthwynebu cyfreithlondeb deddfau Elvira, am eu bod yn gwahardd delwau ac wedi adferu rhai troseddwyr. Dywed Bellarmine mai cymmanfa daleithiol yn unig ydoedd.

Y mae gwerth hanesyddol mawr i benderfyniadau y gymmanfa hon: maent yn dangos ysbryd difrifol, llym, ac weithiau gerwin, yr Eglwys Yspaenaidd, yr hon oedd wedi ei chyffroi gan ryw eithafion crefyddol; a chanfyddir hefyd pa mor bell yr oedd egwyddorion Montanus a Novatian yn ffynu, neu o leiaf, fod yr eglwysi gorllewinol yn feusydd deniadol i'r tueddiadau hyny. Byddai yn gwbl anghywir egluro y 33ain ganon, fel un yn gorchymyn i'r clerigwyr briodi, megys y mae rhai wedi gwneuthur:—"*Placuit in totum*

Digitized by Google

*prohiberi episcopis, presbyteris et diaconibus, vel omnibus clericis positis in ministerio abstinere se a conjugibus et non generare filios; quinque vero fecerit, ab honore clericatus extermin͏etur."* Gall y geiriau yn bytrach arwyddo nad ydoedd priodas mewn gwirionedd yn cael ei gwahardd i'r clerigwyr, fel y gall y gair *conjuges* arwyddo, ond eu bod i ymattal oddi wrth ymgyfeillach briodasol yn ystod amser gweinyddiad eu swydd (*positis in ministerio*); gan arwyddo fod y swyddi gweinidogaethol yn cael eu cyflawnu yn yr Yspaen ar gylch, yn debyg i ddull yr Iuddewon. Ond os ystyrir llymder canonau ereill, ymddengys yn fwy annhebyg fod ymattal oddi wrth briodas yn cael ei orchymyn. Montanaidd ydyw gwahardd priodi: a Montanaidd-Novataidd ydyw esgymundod parhaus o'r eglwys.

Y mae y 34ain canon yn cyfeirio at ofergoeledd, ac yn dangos nad oedd y tadau a ymgynnullent yn y gymmanfa hono eu hunain yn lân oddi wrth ofergoeledd. Y mae y 36ain canon yn bwysig, gan y dengys fod defnyddio delwau yn yr eglwysydd eisoes ar arfer yn y gorllewin, a bod yr arfer hono yn gwbl gyssylltiedig âg ofergoelion. Ymdrechodd yr ysgrifenwyr Pabaidd, yn annheg, ddirymu y canon yma.

Yn olaf, y mae lluaws o'r canonau hyn yn gorchymyn esgymundod hollol a diadfer, mewn amryw amgylchiadau, yn y ffurf arferol—"*nec in fine dandam communionem*"=na byddo cymmundeb byth i gael ei roddi.—(*Mansi; Routh; Mendoza; Herzog*, &c.)

**ELYMAS.** Gwel BAR-IESU.

**ELYS**, ['Ηλύσιον; Ll., *Elysium*; 'Ηλύσιον πέδιον=*Y meusydd Elysiaidd*]: nefoedd y paganiaid. Yr enw a roddai yr hen Groegiaid a'r Rhufeiniaid i breswylfa y cyfiawnion ar ol marw. Nid oedd Elys, yn ol Homer [*Od.* iv. 563], yn un rhan o deyrnas y meirw; ond rhydd y lle o du gorllewin y ddaiar, ger llaw y cyfanfor (*ocean*); a darlunia ef fel tir dedwydd, heb nac eira nac oerni, na gwlaw, ac yn cael ei awyro yn barhaus gan awelon hyfryd Zephurus. I'r lle hwn yr oedd gwroniaid da a godidog, fel Menelaus, yn myned heb farw, lle y byddent fyw yn ddedwydd dan reolaeth Rhadamanthys. Yn Ynysoedd y Gwynfydedigion y mae Elys Hesiod a Pindar, y rhai a roddant hwy yn y cyfanfor. Y chwedlau hyn a roddasant fod i'r ynys ddychymygol a elwir Atlantis. Rhan o'r byd isaf yw Elys Virgil, lle y preswylia cysgodion y Gwynfydedigion.

Oddi wrth y syniadau hyn, rhoddwyd yr enw Meusydd Elysiaidd i ryw lanerchau hyfryd a neillduedig, megys y llain tir sydd ar oror ogleddol y Môr Marw, neu y rhan fewnol o borthladd Misemim, yn agos i Naples, a gysgodir rhag y gwyntoedd gan y bryniau sydd yn eu hamgylchu, lle na theimlir oerder y gauaf. Dywedir mai claddedigaeth eang oedd Elys ar y dechreu, wedi ei haddurno â choed a beddrodau; ond fod dychymygion y beirdd wedi cymmysgu syniadau am orphwysle y corff darfodedig â phreswylfod yr enaid anfarwol. Yr oedd yr hen athronwyr, a goleddent syniadau mwy ysbrydol am natur yr enaid, yn gwrthod y syniad fod Elys yn un rhan o'n daiar ni, ac yn gosod cartref eneidiau ymadawedig yn y nefoedd neu y ffurfafen [*Cic. Somn. Scip.*] Rhoddodd trigolion Paris yr enw Champ Elysees i rodfa goediog a dra mynychir, sydd ar du gorllewin eithaf Paris, sydd yn cyrhaedd o Place Louis xv. hyd Barriere de l'Etoile, yr hon nid yw yn meddu dim, oddi gerth cysgod y coed, o'r pethau a briodolid i'r hen Elys; canys lle llychlyd, terfysglyd, a gwladaidd ydyw; ac nid ydyw yn agos mor gysurus a chymmydogaeth gerddi y Tuileries.—(*Hesiod; Homer; Pindar; Virgil*, &c.)

1. **ELZABAD**, [אלזבד=*yr hwn a roddodd Duw*; 'Ελιαζέρ, 'Ελζαβάδ; Al., Ελεζαβάδ]: y nawfed o'r un ar ddeg cedyrn o feibion Gad a ddaethant dros yr Iorddonen at Dafydd, pan yr oedd efe mewn cyfyngder yn niffaethwch Iudah: 1 *Cron.* xii. 12.

2. **ELZABAD**: Lefiad o'r Corhiaid, mab Semaiah, o deulu Obededom—un o borthorion tŷ Iehofah: 1 *Cron.* xxvi. 7.

**ELLERIAID = ELERIAID**, neu **RONSDORFFIAID**, [*Ellerians*, neu *Ronsdorfians*]. Cyfododd y sect yma tua'r flwyddyn 1726, yn nugiaeth Berg, ac ymledaenodd yn fuan trwy y gymmydogaeth. Ei sylfaenydd oedd Elias Eller, yr hwn a anwyd o gylch 1690, ger llaw Elberfeld, yn Ronsdorf, lle, nad ydoedd y pryd hyny nemawr fwy na thyddyn. Honai Eller ei fod wedi deilliaw o Iudah, a phriododd dair o wragedd olynol; y gyntaf o blegid ei duwioldeb, yr ail o blegid ei hieuenctid, a'r drydedd o blegid ei harian. Yr olaf, Ann o Buchel, ydoedd ferch i gogydd pasteiod o Elberfeld. Haerai y ddwy wraig hyn, mai hwy oedd y ddau dyst y crybwyllir am danynt yn yr unfed bennod ar ddeg o'r *Dadguddiad*. Ymddyddanai Eller, "Tad Seion," yn gyfeillgar â Duw, fel yr ymddyddan gŵr â'i gyfaill, yn nghylch dirywiad yr eglwys, a phethau cyffelyb. Duw, yr hwn a breswyliai ynddo, a'i hanfonodd ef i ffurfio eglwys newydd, yn yr hwn orchwyl yr oedd ei wraig, "Mam Seion," i gydweithredu; canys yr ydoedd holl ddirgelion rhagarfaethiad wedi eu dadguddio iddi hi. Cyhoeddodd ei fympwyon mewn gwaith Almaeneg a elwid *Côd y Bugail*, mewn cyfeiriad at gôd Dafydd, yr hon a gynnwysai bump o geryg i ymosod ar Goliath.


Casglodd Eller ei ddysgyblion o fysg diwygwyr Elberfeld, y rhai a aethant yn benboethiaid gydag ef. Ymadawodd ef a hwythau o'r dref hono yn 1728, gan y rhagfynegai y byddai iddi gael ei dinystrio â thân, fel Sodom. Yr oedd y dydd y cymmerai y dystryw le wedi ei nodi ganddo; am hyny ymadawsant oll yn fore y diwrnod hwnw i ben Mynydd Ronsdorf, o'r lle y dysgwylient weled y diluw tân yn goddeithio y ddinas. Dysgwyliasant yn ofer hyd yr hwyr am gyflawniad o'r brophwydoliaeth ynfyd. Bu y somedigaeth yma yn foddion i farweiddio eu sel, ond nid i'w didwyllo. Adeiladasant dai yn Ronsdorf, y rhai a gyfleasid yn y fath fodd, fel y gallai eu noddwr eu gweled oll o'i dŷ ei hun. Yr oedd Eller, yr hwn ar y dechreu oedd unbenaeth, wedi hyny yn ormesdeyrn y llywodraeth fechan hon, yn ddyn craffus ac uchelgais. Gosododd ysbïwyr trwy holl ranau ei sect; canys y mae ysbïyddiaeth yn hanfodol i unbenaeth. Yr oedd efe yn dra hoff o loddestau a chyfeddach: nid yn gymmaint, fe allai, o ran ei fod yn caru meddwdod a gloddest, ag er mwyn cael allan y cyfrinachau a adroddid ar y fath amgylchiadau. Meddai ddigon o ochelgarwch i beidio ymddiried ei athrawiaeth i neb ond rhai medrus o'i ffyddloniaid; ac un o'i brif erthyglau oedd gwadu pob peth pan fernid hyny yn angenrheidiol er mwyn yr achos.

Mewn cymmanfa o ddiwygwyr, a gynnaliwyd yn 1750, condemniwyd Eller a'i ddilynwyr, y rhai hefyd a gondemniwyd gan gôr duwinyddol

yn Marpurg; ac mewn cymmanfa o ddiwygwyr ar ol hyny, cawsant eu hesgymuno. Bu marwolaeth Eller, yn 1750, yn foddion i oeri y penboethder, a chafodd lluaws o'r rhai a hudwyd ganddo eu didwyllo.—(*Buck's Theol. Dict.; Williams' All. Rel.*, &c.)

ELLYLL—ON, [*ell—yll*, Pughe; yn hytrach, *ell—hyll=tra hyll*]. Y gair Hebraeg שעירים (*sairim*) a gyfieithir yn *ellyll* mewn dau fan yn yr Ysgrythyrau (*Esa.* xiii. 21; xxxiv. 14), a arwydda "y rhai blewog," a thybir ei fod yn cyfeirio at rywogaeth o epaod, a addolid gan yr Aiphtiaid a chenedloedd amgylchynol. Yn *Lef.* xvii. 7, cyfieithir yr un gair yn *gythreuliaid*, gan gyfeirio yn amlwg at ryw eilunod o eiddo yr Aiphtiaid, y mae yn bur debyg, y gwaherddid i Israel aberthu iddynt. *Satyr* ydyw y gair Seisoneg yn y ddau le y mae *ellyll* genym ni—gair yn arwyddo anifeilddwy, sef anghenfil rhwng gafr a dyn; ac y mae rhai yn meddwl mai *geifr* a olygid wrth "y rhai blewog" a arwydda y gair gwreiddiol. Ond barn yr hynafiaethwyr Ysgrythyrol penaf ydyw, mai at fath o epaod mawrion y cyfeiria y gair, y rhai a addolid gan yr Aiphtiaid ac ereill.

Y mae yn sicr fod amryw o rywogaethau yr epa yn hysbys i'r Hebreaid, yr Arabiaid, a'r



Dar. 292.—Epaod o Monumenti dell' Egitto Rosellini.

Aiphtiaid, yn cynnwys y Cercopithecus, y Macacus, y Cynocephalus, a'r ci-epaod (*baboons*); hyny yw, holl anifeiliaid pedeirllaw y gwledydd hyny. Am hyny, ceir fod Pliny a Solinus yn son am Cephi Ethiopaidd yn cael eu dangos yn Rhufain. Y mae delwau o epaod yn y rhan uchaf o'r brithwaith Prænestaidd ardderchog sydd yn darlunio gorlifiant y Nile. Y mae y delwau hyn yn y parth sydd yn dynodi Nubia; ac yn mysg ereill, y mae un mewn pren, a'r enw ΚΗΙΠΕΝ wrtho, yr hwn y gellir ei gymmeryd am rywogaeth y Cercopithecus. Ond yn ngorymdaith orfoleddus Thothmes III, yn Thebes, y mae cenedloedd o ganolbarth Affrica—o Nubia, fe allai—yn dwyn cywreinion a theyrnged; yn mysg y rhai y gellir canfod y Camelopardalis neu y Giraffe, a chwech o twystfilod pedwarllawog. Dichon mai epaod yw y creaduriaid lleiaf a mwyaf aneglur sydd yn y darlun; ond am y lleill, ac yn enwedig y tri llun sydd wedi eu lliwio yn *darlun* xxi yn ngwaith Rosellin, y mae yn sicr mai y Macaci neu y Cynocephali ydynt, sef rhywogaeth o'r ci-epa (*baboon*). Y mae naturiaethwyr ac eglurhawyr yn awyddus, gan mwyaf, a hyny yn afreidiol, i gymhwyso enwau yr anifeiliaid a nodir yn yr Ysgrythyrau ac mewn hen awdwyr, at rywogaethau a ddynodir gan ysgrifenwyr diweddar; er fod y dynodiad gwreiddiol i'w gymmeryd mewn ystyr cyffredinol, ac yn cyrhaedd weithiau yn mhellach nag hyd yn oed y dosbarth a ddynodir. Ceir amlygiad arbenig o'r dull diofal yma yn yr esampl dan sylw; o blegid y mae Buffon yn golygu mai ei Mona (Cercopithecus Mona) ef ydyw Kebos y Groegiaid; ac nid yn gwbl ddisail, gan fod yr Arabiaid, fel yr ymddengys, yn cymhwyso y gair Moune at bob epaod hirgynffonog. Y mae Linnæus yn gwneyd Cephus yr un â'i Simia Cephus ef, sef y Cercopithecus Cephus, neu y Moustache Guenon presennol, sydd o rywogaeth gwahanol; tra y gwna Lichtenstein ef yn un â'i Simia ef, neu yn hytrach, yn ol y trefniad presennol, y Cercopithecus Diana. Ond gan nad oes yr un o'r rhai hyn yn adnabyddus i drigolion Affrica ddwyreiniol, mae yn fwy tebyg mai Cercopithecus Griseovirides, neu Grivet Cuvier, mewn gwirionedd, ydyw Cëipen y brithwaith Prænestaidd, yr hwn, heb law ei fod mor debyg o ran ei ffurf, sydd yn meddu y fantais o fod yn frodor o Ethiopia a Nubia, ac yn perthyn, fel y ddau a grybwyllwyd olaf, i rywogaeth a alwyd y Callitrix.

Heb law yr epaod y cyfieithir eu henwau yn y Beibl Cymraeg yn *ellyllon*, ceir math arall, fel yr ydys yn tybied, mewn dau le yn y Beibl (1 *Bren.* x. 22; 2 *Cron.* ix. 21), a gyfieithir yn *epaod* (קוף=*coph*); ond nid y rhai hyn a olygir yn y sylwadau blaenorol. Cyssylltir y rhai hyn yn y ddau le a nodwyd â תוכיים=*thouciim*, a gyfieithir fe allai yn anmhriodol yn *beunod*. Yn awr, nid yw na pheunod na choedieir (*pheasants*) yn frodorol o Affrica. I India a mynyddoedd uchel Asia y maent hwy yn perthyn; am hyny mae y cyfieithiad *peunod*, os ydyw yn gywir, yn penderfynu yn ddiammheuol, nid yn unig nad ydyw Coph yn dynodi yr un o'r Simidæ (simachod) a ddynodwyd uchod, ond hefyd fod llongau Tarsis yn ymweled âg India neu yr ynysoedd Awstraliaidd. Os oedd y fordaith yn cyrhaedd cyn belled a'r Ynysoedd Spice, yna yr ydoedd *peunod* ac owrang-owtaniaid wrth law. Ymddengys ar y cyfan mai ystyr *thouciim* ydyw cribog, yn arwyddo adar—y parrot, fe allai; ond nis gall gyfeirio at y Pintado neu iar Guinea, sef Numidia y naturiaethwyr a Meleagris yr hynafiaid; nac at y Pterocles neu iâr y tywod (*sandgrouse*)—pob un o'r rhai sydd hysbys yn yr Aipht uchaf, ac y mae cyflawnder o'r olaf yn Arabia a Phalestina. Y mae y cyfieithiad a gynnygir gan Hase, o droi Cophim yn Succim—*preswylwyr ogofâau*—yn gwbl anghyfaddas, gan y byddai y fath ddysgrifiad yn hollol anghymhwys o epaod hirgynffonog. Maent hwy, fel y dosbarth pedeirllaw, wedi eu cymhwyso, nid i fyw mewn ogofeydd, ond mewn coedydd: y ci-epa (*baboon*) yn unig a anturia fyned o'r goedwig i gromlechydd y creigiau, ac ymlecha weithiau mewn ogofeydd. O blegid y rhesymau hyn, yr ydys yn casglu fod y Coph Hebraeg, ac enwau o'r un tarddiad, yn cael ei ddefnyddio weithiau mewn

Digitized by Google

ystyr cyffredinol, ac weithiau mewn ystyr neillduol, ac nad ydyw yn dynodi y rhywogaethau yn fanwl yn y naill amgylchiad na'r llall.

Yr oedd y ci-epaod, fel yr awgrymwyd eisoes, yn hysbys i'r Aiphtiaid; ac nid hawdd oedd iddynt osgoi sylw pobl Palestina, gan eu bod yn preswylio yn agos i gyrchfaoedd y clud-deithwyr mawrion, y rhai, fel y mae yn hysbys, a arferent er yr amser boreuaf ddangos anifeiliaid gwylltion. Pa fodd bynag, yr oedd y ci-epa yn arwyddlun yn yr Aipht o ryw allu cyfriniol mewn natur neu arddansoddiaeth (*metaphysics*); ac fel y cyfryw, yr oedd yr anifail yn cael ei addoli; a gosodid delwau o'r Cynocephalus yn wastad ar ben clorianau pwyso, lle y gwelir hwy eto ar y cofadeiliau.



**Dar.** 291.—Macacus Arabicus.

Os gwir ydyw, fel y dengys yr awdurdodau canlynol, fod epa neu gi-epa mawr yn Yemen, ac hyd yn oed yn Mesopotamia, y mae natur aflywodraethus a bwystfilaidd yr holl lwyth yn ddigon i awdurdodi yr enw Arabaidd *saadan*, a'r Hebraeg שדים (*sadim*), yn arwyddo ellyllon (*satyrs*) yr anialwch, a nodir yn *Mr. Rich's Memoir on the Ruins of Babilon*, lle y gelwir hwy yn *siea assad*, ac y dangosir eu bod i'w canfod mewn lleoedd coediog ger llaw Samana ar yr Euphrates. Fel hyn, gyda golwg ar שעירים (*sairim*), neu "rai blewog" (*cythreuliaid*), *Lef.* xvii. 7, canfyddir yr ystyriai Pliny mai epaod mawrion oedd yr *ellyllon* (*satyrs*). Sicrheir i ni fod yr enw Catypoc, neu ellyll, wrth y ci-epa a ddarlunir yn y brithwaith Palestrinaidd y cyfeiriwyd ato. Yr unig rywogaeth o'r ci-epa sydd yn adnabyddus yn Arabia yw yr un a elwir Mocko gan Edwards, o'r hwn y ceir darlun yma dan yr enw Macacus Arabicus—rhywogaeth sydd yn dwyn perthynas â'r Cynocephalus Hamadryas ar un llaw, ac â'r Macacus Silenus ar y llall—pob un o'r tri yn greadur nerthol, ffyrnig, a nwyfus. Dichon mai yr un o ran rhywogaeth yw y Macacus Arabicus a'r gwir gi-epa (*baboon*), sef Simia Cynomolgus y teithiwr Hasselquist. Y mae yn rhywogaeth nodedig o ran maint ac edrychiad: mae ei drwyn yn debyg i drwyn ci, a'i lygaid yn debyg i gi-epa; croen ei wyneb o liw rhuddgoch; ei drwyn, ei wefusau, a'i ên yn ddu; ei dalcen yn isel, ac ochrau ei ben yn orchuddiedig gan flew gwynion trwch a hirion; y ddwyfron, y breichiau, a'r ysgwyddau wedi eu gorchuddio yn gyffelyb, ond y lwynau a'r parthau isaf o liw castanwydd (*chestnut*) hardd; y gynffon o'r un lliw, heb fod yn hir, a siobyn ar ei blaen, a'r dwylaw oll yn dduon. Y mae i'w gael o gulfor Babel-Mandeb, trwy Arabia Ddeheuol, hyd yr Euphrates, ac hyd yn oed tu hwnt i uniad yr afon hono â'r Tigris. Nid ydyw, mwy nag epaod mawrion ffyrnig ereill, mor ofalus am ymgadw yn hollol yn y coedwigoedd, gan ei fod wedi ei arfogi â dannedd tra nerthol: deil ei elyn yn gadarn yn ei afael, ac ymladda, nid ar ei ben ei hun, ond yn cael ei gynnorthwyo gan yr holl osgordd. Y mae yn bur hoff o goed mân trwch yn agos i ddwfr. Lled anfynych y canfyddir ef o'r tu dwyrain i'r Yemen. Wrth gymharu nodweddau y rhywogaeth yma, canfyddir eu bod yn dra chyfaddas o ran eu ffurf, eu lliw, a'u harferion i fod yn wrthddrychau eilunaddoliaeth o'r fath isaf a mwyaf dirywiedig. Dichon i'r Hebreaid, y rhai oedd yn hysbys o'r fath addoliad eisoes yn yr Aipht, gopïo lluniau y rhywogaeth brodorol yn yr anialwch, a thrwy hyny rhoddi achos pendant ac uniongyrchol o'r gwaharddiad sydd yn *Lef.* xvii. 7, lle y mae y cyfeiriad at y creaduriaid hyn yn dra darluniadol, megys hefyd y mae yr un yn *Esa.* xiii. 21; a thrachefn, xxxiv. 14, lle y mae y darlun yn berffaith, pan y dychymygom weled y rhai blewog hyn yn llechian wrth yr afon yn y prysglwyni meryw a gwylys (*liquorice*), yn ol darluniad Mr. Rich o honynt.

Nid ydyw yn annhebyg fod gan yr eilun ellyllaidd gyrn gafr, gan fod y cyfryw ar ben delwau meheryn yn yr Aipht, ar ben llewod ar fathodau Tarsis, ac ar ben meirch ac elephantiaid ar fathodau breninoedd Syria. Dichon fod eilunaddolwyr Groeg, gan eu bod yn anhysbys o lun yr ellyll, wedi dewis llun cyfansawdd dychymygol o ddyn a gafr, yn hytrach na'r Cynocephalus, yr hwn a ystyrient hwy yr un a'r udgi (*hyæna*); neu, o blegid eu hoffder o brydferthwch dychymygol, fe allai eu bod yn ystyried yr ellyll yn rhy adgas hyd yn oed i fod yn eilun. Fe allai mai ffurf hynaf yr Urolalt Arabaidd oedd llun ellyll (*baboon*), gwryw neu fenyw, gan yr ymddengys fod rhyw gyfeiriad yn yr enw at goch, ac at ellyll-addoliad India. Cyssylltir Urolalt ac ellyll-addoliad âg eilun perthynol i'r haul.—(*Rich's Mem. on the Ruins of Babylon; Edwards' Gleanings; Kitto's Cycl.; Pennant's Hist. of Quadrupeds,* &c.)

ELLYN—AU: cyllell eillio; offeryn i eillio blew y wyneb, y pen, &c. Y mae y Salmydd yn cymharu tafod Doeg i "ellyn llym" (*Salm* lii. 2) a gamddefnyddir yn dwyllodrus i amcanion gwaedlyd. Bygythia Esaiah (vii. 20), y byddai i Iudah gael ei eillio âg ellyn cyflogedig, yr hwn nid arbedai na'r pen, na'r farf, na'r traed; hyny yw, y byddai i ddinasoedd a thaleithiau Iudah gael eu difrodi yn anmharchus, llym, a diarbed, gan un a ymladdai i'w herbyn er mwyn ysbail, fel cyflogddyn. Gwel Barf; Eillio.

EM. Gwel Gem.

EMIAID, [אימים = *dychrynfeydd;* 'Ομμαῖοι, 'Ομμιν]: llwyth neu giwdod o faintioli cawraidd a breswylient ar y dechreu yn yr ardal ar ochr ddwyreiniol y Môr Marw. Ymddengys wrth gymharu *Gen.* xiv. 5—7, â *Deut.* ii. 10—12, 20, 23, fod yr holl wlad o'r tu dwyreiniol i'r Iorddonen yn cael ei pherchenogi yn yr hen amseroedd gan genedl o gawri—y cwbl, fe allai, wedi deilliaw o'r un cyff cenedl, yn cynnwys y Rephaimiaid tua'r gogledd, yna y Zuziaid, wedi hyny yr Emiaid, ac yna yr Horiaid tua'r deheu; a bod breniniaeth Basan wedi hyny yn cynnwys tiriogaethau y cyntaf; gwlad yr Ammoniaid, yr ail; a gwlad y Moabiaid, y trydydd; tra y cynnwysai Edom fynyddoedd yr Horiaid. Ymosodwyd arnynt oll

Digitized by Google

ac ysbeiliwyd hwy gan y breninoedd dwyreiniol a ddinystriasant Sodom a Gomorrah.

Yr oedd yr Emiaid yn perthyn i'r Anaciaid, a gelwid hwy yn gyffredin ar yr un enw; ond eu gorchfygwyr, y Moabiaid, a'u galwasant yn Emiaid—"y dynion dychrynllyd" (*Deut.* ii. 11)–a hyny, mae yn debyg, o blegid eu hagwedd ffyrnig. Gwel REPHAIM.

**EMMANUEL**, [עִמָּנוּאֵל—*Duw gyda ni;* Gr., Ἐμμανουήλ]: gair Hebraeg cyfansawdd, sydd yn arwyddo "Duw gyda ni;" *Mat.* i. 23. "Wele, morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Emmanuel;" *Esa.* vii. 14. Llefarwyd y brophwydoliaeth hon ar adeg o gyfyngder mawr. Yn ol 2 *Cron.* xxviii, tarawyd Iudah â lladdfa fawr; syrthiodd mewn un diwrnod ddim llai na chwech ugain mil (120,000); rhuthrodd yr Edomiaid a'r Philistiaid arnynt, ennillasant eu dinasoedd a chaethgludasant gaethglud o honynt. Ymunodd breninoedd Israel a Syria hefyd yn eu herbyn fel nad oedd dim yn ymddangos mor debyg ag i deyrnas Iudah gael ei hollol ddarostwng, ac i'w hawdurdod gael ei chymmeryd yn llwyr oddi arni, ac i Ierusalem, y ddinas sanctaidd, fyned i ddwylaw dyeithriaid. Yn ei gyfyngder, y mae Ahaz, brenin Iudah, yn myned at yr Assyriaid am gymhorth: 2 *Bren.* xvi. 7. Y pryd hwn yr anfonwyd Esaiah ato gyda chynnygiad ac addewid o gymhorth iddo oddi wrth yr Arglwydd (*Esa.* vii. 4—7); ond y mae Ahaz, yn rhyfyg ei galon anghrediniol, yn gwrthod yr arwydd a gynnygiasai yr Arglwydd iddo, dan gysgod rhagrithiol gostyngeiddrwydd—"Ni ofynaf ac ni themtiaf yr Arglwydd." Ond mewn ffyddlondeb i'w gyfammod, y mae yr Arglwydd yn rhoddi arwydd iddo, sef yr addewid am enedigaeth yr Emmanuel. Y mae i'r addewid hon ystyr ddeublyg—un yn bresennol ac agos, y llall yn y dyfodol, ac yn cyfeirio yn uniongyrchol at enedigaeth y Ceidwad. Nis gallai dyn fel Ahaz, oedd yn rhoi mwy o ymddiried yn yr Assyriaid nag yn yr Arglwydd, ddeall a theimlo prif ystyr a chyfeiriad yr addewid; sef mor sicr ac y genid y Messïah addawedig, ac ar sail ei enedigaeth a'i fuddugoliaeth ef, ni ddinystrid teyrnas Dafydd; ond ar helaethrwydd ei lywodraeth a'i dangnefedd ni byddai diwedd. Mae Ahaz yn cael ei gyfeirio at gyflawniad o'r brophwydoliaeth, mewn dygwyddiad a gymmerai le yn ddioed:—cyn pen y flwyddyn yr esgorai morwyn ar fab, yr hwn a alwent yn Emmanuel. Y mae yr enw yn wystl o'r waredigaeth a'r cymhorth a estynai yr Arglwydd i Iudah yn ei gyfyngder, ac yn brawf mai diedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw: *Rhuf.* xi. 29. Yn fuan y gwaredid y wlad trwy fraich Hollalluog oddi wrth angerdd llid ei gelynion (*Esa.* vii. 4); ond yn nghyd âg addewid a sicrwydd am waredigaeth, y mae hefyd farn yn cael ei chyhoeddi o herwydd eu hanghrediniaeth. Defnyddiai yr Arglwydd yr Assyriaid a'r Aiphtiaid, ar y rhai yr ymddiriedai Ahaz, i'w fflangellu ef a'i bobl: *adn.* 17—19. Ond mai nid yr ystyr is yma ydyw ei brif ystyr sydd amlwg oddi wrth *Esa.* viii. 8, 10, lle y gelwir tir Iudah yn dir Emmanuel, ac fel esboniad ar hyny y dywedir, "Canys y mae Duw gyda ni." Cymharer y geiriau canlynol (*Esa.* ix. 6, 7), "Canys Bachgen a aned i ni," &c., â *pen.* xi, "Yna y daw allan wialen o gyff Iesse." Ond y mae y Testament Newydd yn hollol benderfynol: *Mat.* i. 22, 23. Nid oedd y plentyn a elwid wrth yr enw hwn yn amser Esaiah ond cysgod o'r person gogoneddus y llefara (*Esa.* ix. 9) am dano; na'r waredigaeth oddi wrth orthrwm Resin a Syria, ond cysgod o waredigaeth oddi wrth bechod, diafol, marwolaeth, ac uffern. Trwy yr hyn oedd yn agos, ac yn fach mewn cymhariaeth, y mae llygad y prophwyd yn edrych yn mlaen ar ymgnawdoliad Mab Duw yn nghyflawnder yr amser.

Y mae yr enw gogoneddus hwn ar y Gwaredwr yn cynnwys yn—1. Mai ynddo ef y mae Duw a dyn wedi dyfod yn un—fod Mab Duw wedi gwisgo cnawd: *Ioan* i. 14; *Rhuf.* ix. 5; 2 *Cor.* v. 19. 2. Trwy ei ymgnawdoliad ef y mae yn bosibl i Dduw ddyfod i'r berthynas agosaf â dynion. Efe yw yr Ysgol, ar hyd pa un y dichon i Dduw ddisgyn at ddyn, ac i ddyn esgyn at Dduw. Allan o Grist y mae pellder tragwyddol rhwng Duw a dynion. 3. Y mae yr enw hwn hefyd yn dangos fod Duw am ddyfod i gymdeithasu â dyn, a'i fod nid yn unig yn foddlawn i ddyfod o'u plaid, ac i estyn ymwared i ni, ond hefyd y bydd iddo aros yn ein mysg—preswylio yn ein calon: *Salm* xlvi. 8, 12; lxxxix. 27; *Ioan* i. 14; xiv. 23; xvii. 26; *Eph.* iii. 17. Yn y nef a'r ddaiar newydd y cyflawnir hyn yn ei berffeithrwydd: "Wele y mae pabell Duw gyda dynion;" *Deut.* xxi. 3.

Y mae y gair yn Efengyl Matthew yn profi fod y geiriau yn Esaiah yn brophwydoliaeth am y Messïah; ac yn yr ystyr hwn y maent wedi cael eu deall gan dduwinyddion yn mhob oes: eto y mae rhai beirniaid yn codi gwrthddadleuon i'r cymhwysiad hwn o honynt. Heb law fod rhai yn dadleu yn erbyn ystyr Fessïaidd y brophwydoliaeth, y mae ereill yn canfod ei chyflawniad cyntaf yn mhlentyn y prophwyd Esaiah: *Esa.* viii. 18. Wrth y *forwyn* y deallant y brophwydes y nesaodd y prophwyd ati (*Esa.* viii. 3), o'r hon y ganwyd mab, enw yr hwn a alwyd Maher-salal-has-baz. Eto, gan fod y plentyn hwn yn gysgod o Grist, yr oedd prif gyfeiriad y brophwydoliaeth ato ef. Prif ddadleuon yr ysgrifenwyr Iuddewig a'r rhesymolwyr diweddar, yn erbyn ystyr Fessïaidd y brophwydoliaeth, ydynt y rhai canlynol:—Fod gwneyd cyfeiriad at y Messïah, yr hwn yn mhen cannoedd o flyneddoedd oedd i gael ei eni o forwyn, yn afreidiol a difudd. Ond y mae yr wrthddadl hon, fel y mae Hengstenberg yn sylwi, yn profi gormod, ac felly heb fod yn profi dim. Gallai, gyda llawn cymmaint o briodoldeb, filwrio yn erbyn yr holl brophwydoliaethau am Grist. Y mae yr hyn y dadleuir yn y dull yma yn ei erbyn yn perthyn i'r holl brophwydi. Pan yr oedd cenedl Israel yn cael ei dwyn i'r caethiwed i Babilon, y cysur penaf a weinyddid iddi gan Ieremiah ac Ezeciel oedd rhagfynegiadau am ogoniant a llwyddiant teyrnas Dduw dan y Messïah; er hyny, yr oedd cannoedd o flyneddoedd o'r amser y rhoddid hyn fel cysur i'r genedl hyd ymddangosiad y Messïah. "Y prawf uchaf o urddas ac etholedigaeth Israel, oedd yr addewid y byddai i'r Messïah gael ei eni yn eu mysg." A pha fodd y gallasai Duw attal y cynnorthwyon bychain oddi wrth ei bobl yn eu hadfyd presennol, ac yntau ar fedr rhoddi yr amlygiad penaf o hono ei hun yn eu mysg yn mherson yr Emmanuel? Os rhoddai Duw ei Fab i'r genedl yn mhen oesoedd i ddyfod, pa beth a attaliai oddi wrthi hyd yr adeg hono? Gwrthddadl arall a ddygir yn mlaen ydyw, fod y cysur a weinyddir trwy y brophwydoliaeth, wrth ei chymhwyso at Grist, yn rhy anmhenodol. Gallai y Messïah, fe ddywedir, gael ei eni o deulu Ahaz, heb fod i'r wladwriaeth Iuddewig gael ei diogelu yn ei sefyllfa bresennol, ac heb fod un sicrhad yn cael ei

Digitized by Google

roddi am barhad Ahaz ar yr orsedd. Mewn atebiad i hyn, dywedir, mai yr hyn a ofnai y genedl ar y pryd oedd dinystr llwyr ac anadferadwy. Yn awr, os oedd yr Iachawdwr i ymddangos yn eu plith, gan nad pa mor bell yn yr amser i ddyfod, yr oedd hyny yn wystl iddynt o amddiffyn y Goruchaf. Pa flinderau bynag oedd i'w cyfarfod, yr oedd yn anmhosibl eu llwyr ddyfetha; a'r cadarnhad mwyaf effeithiol a allasent gael o hyny ydoedd, yr ymddangosai y Messiah yn eu plith. Cyffelyb o ran grym ydyw y gwrthddadleuon ereill, y rhai a wrthbrofir i foddlonrwydd gan Hengstenberg ac ereill.

Ni a gawn olwg gryno ar esboniadaeth y geiriau yn y nodyn canlynol o eiddo Henderson:— "Y mae yr adnod hon wedi bod am amser maith yn destyn dadl rhwng Iuddewon ac ysgrifenwyr Cristionogol, a rhwng Cristionogion a'u gilydd. Y mae yr Iuddewon yn ymwrthod yn gwbl â'i chymhwysiad at y Messiah. Esbonir hi gan y Rabbiniaid boreuaf am frenines Ahaz a genedigaeth Hezeciah; a chan y Rabbiniaid diweddar, megys Kimchi ac Abarbanel, am y prophwyd a'i wraig; ond y mae yn mron bawb o'r awdwyr Cristionogol yn dal allan mai prophwydoliaeth am yr Iachawdwr yn unig ydyw, ac yn ystyried fod defnyddiad Matthew o'r geiriau yn cadarnhau hyny. Eithr y mae rhai yn ymadael oddi wrth y farn gyffredin hon. Y mae Grotius, Faber, Isenbiche, Hezel, Bolten, Fritzchez, &c., yn barnu mai gwraig bresennol, neu un a fyddai ganddo rhagllaw, a feddylir wrth *almah*—a gyfieithir *morwyn*. Y mae Eichhorn, Paulus, Henslen, ac Ammon, yn tybied nad oedd gan y prophwyd ddim mwy mewn golwg na morwyn ddychymygol, ac mai personau dychymygol yn unig ydyw hi a'i mab, yn cael eu dwyn ger bron er mwyn arddangosiad prophwydol. Barna Bauer ac ereill mai cyfeirio yr ydoedd y prophwyd at ferch ieuanc yn mhresennoldeb y brenin a gwŷr ei lys. Y mae pedwerydd dosbarth, yn yr hwn y mae Lowth, Olshausen, Pye Smith, ac ereill, yn credu fod ystyr dyblyg i'r geiriau: un ydyw, fod y geiriau yn cyfeirio yn gyntaf at ryw fenyw yn amser y prophwyd, yr hon a roddai enedigaeth i fab, yn ol cwrs cyffredin natur; neu, fel y mae Dathe yn barnu, at ryw forwyn y pryd hyny, yr hon a ymddygai yn wyrthiol ar fab; a'r ystyr arall i'r geiriau ydyw, y derbynient gyflawniad llwyr yn nghenedliad gwyrthiol a genedigaeth Iesu Grist."

Gyda golwg ar y gair Hebraeg *almah*, y mae tu hwnt i bob ammheuaeth mai morwyn ieuanc ydyw ei ystyr. Y mae haeriad Luther heb ei wrthbrofi eto: "Os gall Iuddew neu Gristion brofi i mi fod y gair *almah* yn arwyddo gwraig briod mewn rhyw ran o'r Ysgrythyr, mi a roddaf iddo gan *fflorin*." Nid yw y geiriau cyfatebol iddo yn yr Arabaeg a'r Syriaeg byth yn cael eu harfer am fenywod priod. Y mae y gair *almah* i'w gael mewn chwech o fanau heb law yn y lle dan sylw (*Gen.* xxiv. 43; *Exod.* ii. 8; *Salm* lxviii. 26; *Can.* i. 3); ac yn yr holl fanau hyny benywod dibriod a olygir. Heb law hyny, y mae y geiriau cyfredol yn *pen.* ix. "Bachgen a aned i ni," &c.—y rhai a gydnabyddir yn gyffredin yn brophwydoliaeth am Grist; ac yn wir, y rhai nad yw mewn un modd yn bosibl eu cymhwyso at neb ond at berson sydd yn wir Dduw ac yn wir ddyn—yn myned yn mhell i brofi mai yr un person sydd hefyd mewn golwg yn y geiriau hyn. Y mae Hengstenberg yn dangos yn eglur, dybygem, nas gellir ysgaru y ddwy adran oddi wrth eu gilydd; ac y rhaid mai at yr un person y cyfeiria yn y ddwy.

EMMAUS, ['Εμμαους]: tref i'r hon yr oedd dau o'r dysgyblion yn myned pan ymddangosodd ein Harglwydd iddynt ar y ffordd y diwrnod yr adgyfododd: *Luc* xxiv. 13. Dywed Luc ei bod yn nghylch trigain ystad (*furlong*) o Ierusalem, sef tua saith milltir a hanner; ac y mae Josephus [*B.J.* vii. 6, adr. 6], yn crybwyll am dref o'r enw yn yr un pellder. Y mae yr hysbysiad yn ymddangos yn ddigon penodol, a gellid meddwl y byddai yn anhawdd i ddaiaryddwyr wneyd camsyniad o bwys gyda golwg ar ei safle. Mae yn hynod fod ysgrifenwyr Cristionogol yn tybied er yn dra bore mai yr un Emmaus oedd un Luc a'r Emmaus sydd ar oror dyffryn Philistia, a alwyd wedi hyny yn Nicopolis, yr hon ydoedd yn nghylch ugain milltir oddi wrth Ierusalem. Dyma oedd golygiad Eusebius a Jerome; a dilynwyd hwy gan bob daiaryddwr hyd ddechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yna, o blegid rhyw reswm anhysbys, dechreuwyd tybied y safai Emmaus yn y lle y mae pentref bychan Kubeibeh, tua thair milldir i'r gorllewin o Neby Samwil (yr hen Mizeph), a naw milldir o Ierusalem. Ond nid oes gysgod o brawf i'r dybiaeth yma. Y gwir yw fod safle Emmaus heb ei ganfod hyd yn hyn.

Adnewyddodd y Dr. Robinson yr hen dybiaeth yn ddiweddar, mai yr un ydoedd Emmaus Luc a Nicopolis; ac amddiffynodd y syniad yn ol ei ddysgeidiaeth arferol, ond nid mor benderfynol ag arferol. Ymdrecha daflu ammheuaeth ar gywirdeb y darlleniad ἑξήκοντα (*ecsêconta*) yn *Luc* xxiv. 13, o blegid fod dwy lawysgrif unigol (K ac N), ac ychydig o rai ereill dibwys, yn rhoddi ἑκατον (*ecaton*) i mewn, a thrwy hyny wneyd y pellder yn 160 o ystadiau; yr hyn a gyfetyb yn agos i bellder Nicopolis. Ond nid ydyw y gair yma yn y llawysgrifau goreu, ac y mae y beirniaid goreu yn meddwl mai llygriad ydyw. Tybia rhai mai rhyw adysgrifenydd, oedd yn hysbys o'r ddinas, ond nid o'r pentref Emmaus, a roddodd y gair i mewn er mwyn cyssoni yr Ysgrythyr â'i syniad daiaryddol ei hun. Nid ystyrir fod syniadau Eusebius, Jerome, a'u dilynwyr, o awdurdod mawr ar bwnc fel hyn. Pan ddygwyddai *enw* rhyw le penodol gytuno âg enw yn y Beibl, ni byddent hwy ofalus bob amser am edrych a fyddai y *sefyllfa* yn cytuno yn yr un modd. Gan fod Emmaus-Nicopolis yn ddinas enwog yn eu hamser hwy, arweiniwyd hwy braidd yn fyrbwyll i gymmeryd hono am Emmaus yr efengyl. Y mae amgylchiadau yr hanes yn erbyn y dybiaeth mai yr un yw y ddau le. Yr oedd y ddau ddysgybl wedi teithio o Ierusalem i Emmaus mewn darn o ddiwrnod (*Luc* xxiv. 28, 29); gadawsant y lle olaf drachefn ar ol y pryd prydnawnol, a chyrhaeddasant Ierusalem cyn ei bod yn bur hwyr: *adn.* 33, 42, 43. Yn awr, os cymmerir y pellder i ystyriaeth, a natur y ffordd, yr hon a äi i fyny mynydd anhawdd ei ddringo, rhaid cyfaddef nas gallasai y fath daith gael ei chyflawnu mewn llai nag o chwech i saith awr; felly nis gallasent gyrhaeddyd Ierusalem hyd yn mhell ar ol hanner nos. Ystyrir y ffaith yma yn benderfynol nad yr un yw Nicopolis ac Emmaus Luc—(*Josephus; Reland; Maund; Ludolph; Smith; Kitto*, &c.)

2. EMMAUS, neu NICOPOLIS, [Apoc., 'Εμμαους; Jos., 'Εμμαους]: tref yn nyffryn Philistia, wrth odre mynyddoedd Iudah, ddwy filldir ar ugain Rufeinig o Ierusalem, a deng milldir o

Lydda. Nid ydyw yr enw yn yr Hen Destament, ond ymddyrchafodd y dref i fri a phwys yn ystod hanes diweddar yr Iuddewon; ac yr oedd yn lle enwog yn amser rhyfeloedd yr Asmoneaid. Amgaerwyd y dref gan Bacchides, cadlywydd Antiochus Epiphanes, pan yr oedd efe mewn rhyfel â Jonathan Maccabeus: 1 *Mac.* ix. 50. Yn y dyffryn ger llaw y ddinas hon y gorchfygodd Iudas Maccabeus mor hynod gyda dim ond dyrnaid o wŷr, fel y mynegir yn 1 *Mac.* iii. 57; iv. 3, &c. Daeth Emmaus yn brif ddinas penardalwr dan y Rhufeiniaid [*Jos. B. J.*, iii. 3, adr. 5; *Plin.* v. 14]. Llosgwyd hi gan y cadlywydd Rhufeinig Varus o gylch B.A. 4. Yn y drydedd ganrif (o gylch B.A. 220), ail adeiladwyd hi trwy ymdrechiadau yr ysgrifenydd adnabyddus hwn, Julius Africanus; ac yna cafodd yr enw Nicopolis. Y mae Eusebius a Jerome yn cyfeirio ati yn fynych wrth ddarlunio y trefydd a'r pentrefydd cymmydogaethol. Y mae ysgrifenwyr boreuol yn crybwyll am ffynnon yn Emmaus, oedd yn hynod dros yr holl wlad o blegid ei rhinweddau iachaol: priodola Theophanus [*Chron.* 41] yr achos o hyn i waith ein Harglwydd unwaith yn golchi ei draed ynddi. Yr oedd y croesgadwyr yn tybied Emmaus yr un âg amddiffynfa fechan bellach i'r deheu, ar ffordd Ierusalem, a elwir yn awr Latrôn. Y mae pentref bychan gwael, o'r enw Amwâs, yn y lle yr oedd yr hen ddinas. Y mae yn sefyll ar lethr gorllewinol bryn isel, ac yn cynnwys adfeilion hen eglwys.—(*Joseph.; Chron. Pas. Reland; Will. Tyr. History; Smith's and Kitto's Cycl.*, &c.)

3. EMMAUS, [Jos., Ἀμμους]: pentref yn Galilea yn ymyl Tiberias: yr un, fe allai, a'r hen Hammath="y ffynnonau poethion," o'r hwn enw nid ystyrir Emmaus ond llygriad. Yr oedd y ffynnonau poethion yn bod yn amser Josephus, a chrybwylla am danynt yn achos o enw y lle. Dywed teithwyr fod cyrchu mynych i'r ffynnonau hyn eto; ac mai eu tymmeredd ydyw 130 Fahrenheit. Nid yw enw yr Emmaus yma mwy na'r Emmaus arall (2), yn yr Ysgrythyrau.—(*Josephus; Kitto; Smith*, &c.)

**EMMOR**, [Ἐμμορ; Lachm., Ἐμμώρ]: tad Sichem: *Act.* vii. 16. Gwel HAMOR.

**EMS, CYNGHORFA.** Er mwyn cyflawnu deddfau Cymmanfa Trent, yr oedd y Babaeth, er diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, wedi cyfleu pabgenadon (*nuncios*) yn Switzerland, Belgium, a'r Almaen. Yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, penderfynodd ymherawdwr yr Almaen attal eu gormes ar y llywodraeth; a hysbysodd Leopold I., y pab Innocent XI. nad oedd ganddo hawl i osod pabgenadon yn meddu gallu deddfwrol ar y cenedloedd; a bygythiodd wrthryfela os na alwai y pab hwy yn ol. Er yr ymddangosai Innocent yn barod i blygu i amgylchiadau, dilyn ei hen lwybr a wnaeth efe yn ddystaw, tra y gwawdiai y llywodraeth Babaidd amynedd yr Almaeniaid. O'r diwedd, hawliodd yr archesgob etholyddol o Mayence, Franz Lothar, yn hyf gan Innocent, ar fod i faterion ysbrydol yn yr Almaen, megys yn Ffrainc, yn Venice, ac yn Genoa, gael eu rheoleiddio gan ei deiliaid a'i chyfreithiau ei hun. Dilynwyd yr un llwybr hefyd gan yr archesgob etholyddol, John Hugo, o Treves, a'r côr offeiriadol, tra yr ysgrifenodd yr ymherawdwr Charles V. at y pab, yn 1736, na byddai iddo ef mwyach gefnogi pabgenadon yn Cologne. Mewn canlyniad i hyn, anfonwyd cylchlythyr yn 1764, gan Etholydd y Palatinate at yr ymherawdwr, yn cwyno fod ymosodiadau newyddion o Rufain ar hawliau esgobion yr Almaen; a ffurfiwyd cynghrair, yr hwn a gydnabu y pab Clement XIII. mewn breintlythyr, Medi 16eg, 1764. Pa fodd bynag, llwyddodd dylanwad Rhesymoliaeth (*Rationalism*) a gwladlywiaeth Frederick Fawr a Joseph II. i aflonyddu yr heddwch yn fuan, a honodd yr Eglwys Babaidd yn yr Almaen na oddefid i Rufain gwtogi hawliau ei hesgobion. Ond ysgrifenodd John Nich. von Hontheim, dan yr enw Justinus Fabronius, draethawd ar ysgariad yr eglwys yn yr Almaen oddi wrth esgobaeth Rhufain, a chefnogwyd ef gan amryw ereill, megys Ickstädt, o Ingolstadt; Barthel, o Würsburg; Eubel, o Vienna; a Koller, &c.

Aeth pethau yn fuan ar ol hyn i eithafoedd. Yr oedd yr etholydd Charles Theodore, o Palatinate-Bavaria, yn awyddus am gael pabgenad yn ei lys. Gwelodd Jerome, archesgob Salzburg, y perygl; ac yn 1786, galwodd ar Frederic Chas. Joseph, archesgob Mayence, fel penadur Eglwys yr Almaen, i ragflaenu y perygl bygythiol. Gan nad oedd yr urddasolion hyn yn cael dim cefnogaeth gan y pab, appeliasant at Joseph II, fel amddiffynwr Eglwys yr Almaen; yr hwn a gofleidiodd eu hachos ar unwaith, ac a ddadganodd na oddefai efe i archesgob ac esgobion ei deyrnas gael eu haflonyddu yn eu hawliau esgobyddol, ac mai fel swyddogion gwladyddol yn unig y cydnabyddai efe y pabgenadon, ac na oddefai iddynt arfer unrhyw awdurdod ysbrydol. Er hyny, aeth Zoglio fel pabgenad i Munich, yn Mawrth, 1786; ac arferodd ei awdurdod yno, trwy ganiatau maddeuant a goddefiadau, ac appwyntiodd isbabgenad yn Düsseldorf, a hyd yn oed sefydlodd frawdlys ysbrydol newydd mewn esgobaeth dramor. Gwnaeth y pabgenad Pacca hefyd yr un modd yn Cologne. Gwaharddodd y brenin iddynt arfer y fath awdurdod, a gwaharddodd yr archesgobion hefyd i'w haelodau hwy ddal unrhyw gymundeb â'r pabgenadau.

Er mwyn rhoddi attalfa derfynol ar yr ymosodiadau Pabyddol hyn, appwyntiodd yr archesgobion Gynghorfa Ems, Awst, 1786. Yr oedd yn bresennol yr esgob Heimes, o Mayence; y swyddog Joseph Judwig Beck, o Trier, o Cologne; y swyddog George Henry v. Tautphäus; a John Michael Bönike, o Salzburg. Awst 25ain, 1786, ffurfiasant ddedflyfr, yn cynnwys tair ar ugain o bennodau, sylwedd y rhai sydd fel y canlyn:— 1. Tra yr ystyrir y pab bob amser fel penadur yr holl eglwys, nad ydyw yr holl ragorfreintiau ereill oedd heb fod mewn cyssylltiad â'i benaduriaeth yn yr oesoedd cyntefig, ond a honwyd gan ddeddflyfrau ffugiol Isidore, yn perthyn i'w awdurdod ef. 2. Gan fod Crist wedi rhoddi awdurdod diderfyn i'w apostolion a'u holynwyr, yr esgobion, i rwymo a rhyddhau, y mae pob person a fyddo yn byw o fewn cylch eglwysig yr esgobion yn ddeiliaid iddynt hwy; gan hyny, ni oddefir i urddasolion yr eglwys fyned i Rufain heibio i'w huchraddolion ysbrydol eu hunain, oddi gerth y rhai a elwir *comparium*, a allant gael caniatad gan yr ymherawdwr. Na all swyddogion mynachlogydd dderbyn eu rheolau oddi wrth Gabidyliaid Cyffredinol (*General Chapters*), nac unrhyw uchraddolion na byddont yn preswylio yn yr Almaen. 3. Gall pob esgob roddi cyfreithiau ac eithriadau gyda golwg ar ymattaliad â phriodas; gall hefyd ddileu rhwymau a achosir gan ordeiniad, rhyddhau personau crefyddol oddi wrth eu haddunedau, newid gosodiadau eglwysig, a gosod

Digitized by Google

cynnyrchu cyfansoddiadau digyffelyb am arddunedd a phrydferthwch, rhaid addef hefyd na ddaeth y cyfansoddiadau mawreddog hyny erioed i gael eu defnyddio gan ei phobl; fel pe na byddai gan y werin na rhan na chyfran yn yr addoliad dwyfol. Ond un o brif anhebgorion addoliad ydyw, ar fod i'r emynau gael eu cyfansoddi mewn mesurau cyfaddas i alluogi yr holl gynnulleidfa i ymuno yn y mawl: *Salm* lxvii. 3.

Nid oes genym esampl anffaeledig yn nghylch arddull cyfansoddiad emynau wedi ei adael i ni gan Grist na'i apostolion—dim ond y ffaith eu bod yn canu emynau. Bu rhai yn dadleu yn nghylch *pa* hymn a ganodd ein Harglwydd a'i apostolion ar achlysur y swper olaf; a'r farn fwyaf unfrydol ydyw, mai yr hyn a ganasant ydoedd y rhan olaf o'r *Hallel*, neu gyfres o Salmau a genid gan yr Iuddewon ar nos Gŵyl y Pasg, yn cynnwys *Salm* cxiii, cxviii. Yr oedd *Salm* xvi, a cxiv, yn cael eu canu o flaen, a'r lleill ar ol y Pasc. Nid yw y weddi yn *Act*. iv. 24—30 yn emyn, os na chyfaddefwn fod emynau yn ddifydr yn gystal ag yn fydrol. Dichon ei bod yn emyn ganadwy fel y cafodd ei chyfansoddi gyntaf; ond nis gallwn ni farnu ond oddi wrth y cyfieithiad Groegaidd, ac nid oes fydr nac odl yn hwnw; ac o ganlyniad, nid ydyw yn briodol yn emyn.

Nid yw yn debyg y buasai unrhyw aralleiriad Groegaidd o'r Salmau yn gwreiddio yn serchiadau y dychweledigion Cenedlig boreuaf, hyd yn oed pe buasai y cyfryw aralleiriad wedi ei droi i'r mesurau Groegaidd. Nid yn unig fe fuasai pwnc y mesur yn milwrio yn erbyn hyny, ond buasai pwnc tôn hefyd, o blegid yr oedd yn rhaid i dônau Groegaidd gael emynau Groegaidd. Felly hefyd yr ydoedd yn Syria, gan fod Syria yn gyfoethocach mewn tônau na Groeg; canys nid oedd gan Groeg ond wyth, tra yr oedd gan Syria 275 [*Benedict*., rhagymadrodd, cyf. v; *Op. Eph. Syr*.]. Yr oedd yr emynwyr Syriaidd yn ymhyfrydu yn ngolud amrywiol eu cerddoriaeth frodorol, a daeth eu hemynau eglwysig yn enwog trwy yr holl fyd Cristionogol. Yn mhlith y Groegiaid, ymddengys fod yr wyth dôn a feddent at ddybenion eglwysig yn cael eu cyfaddasu at fesurau sefydlog—pob mesur wedi ei briodi â thôn benodol. Dyma fel y mae mewn emyniaeth eglwysig Germanaidd hefyd, lle y mae rhai hen dônau neillduol yn cael eu cydnabod fel cynlluniau i fesurau o gyfansoddiad diweddarach; ac y mae eu henwau bob amser yn cael eu cyssylltu âg emynau a arferid yn gyffredin.

Y mae yn werth ymholi, yn ol pa gynllun gwladol, neu baganaidd, y dewisodd yr emynwyr Groegaidd weithio. Yn hen grefydd gwlad Groeg, yr oedd y gair *emyn* eisoes wedi ennill ystyr cyssegredig; yr hyn oedd yn sicr o awgrymu y dymunoldeb o'i gyfaddasu at gynnyrchion yr awen Gristionogol.

Yr oedd *ffurfiau* arbenig yr emyn Roegaidd yn amrywiol. Ysgrifenid yr emynau Homeraidd ac Orphaidd yn yr arddull arwrol, ac yn y mesur chwebanog (*hexameter*). Nid ydoedd y mesur hwnw yn gyfaddas i'w ganu; ac o ganlyniad, er y gall eu bod yn cael eu hadrodd, nid yw yn debyg fod emynau o'r arddull hwnw wedi dyfod i arferiad yn yr addoliad. Os trown at yr emynau Pindaraidd, ni a ganfyddwn ynddynt ddigon o amrywiaeth mydr, a pherthynas arbenig â pheroriaeth. Yr oedd yr emynau hyn yn cael eu canu gyda chyfeiliant ar y math hwnw o delyn a elwid *lyre*; ac y mae yn dra thebyg fod cyfansoddwyr yr emynau boreuaf wedi defnyddio y math yma o brydyddiaeth. Am y mydr dithyrambaidd, yr oedd hwnw yn dwyn digon o gyssylltiad â thraddodiadau cerddorol i'w wneyd yn gyfrwng addas i farddoniaeth Gristionogol; ac yn ddiddadl, y mae sawyr dithyrambaidd ar yr emynau Cristionogol cyntaf sydd yn adnabyddus, fel yr ymddengys yn *Clem. Alex*., td. 312, 313, arg. Potter. Gyda golwg ar fesurau emynol yr Eglwys Ladinaidd, mae yn debyg mai y mesurau trochaidd ac iambaidd a ddaethant i fwyaf o arferiad. Yr oeddynt yn llawer mwy cyfaddas i fod yn gyfryngau dadganiad o deimlad Cristionogol. Dywedir yn fynych mai y tad Emrys a ddygodd emynau gyntaf i'r Eglwys Ladinaidd. Ond nid yw yn debyg fod yr eglwys hono wedi bod am gymmaint o amser heb emynau, ac felly bod gymmaint yn ol i'r Eglwys yn y Dwyrain; ac y mae yn sicr genym mai yr achos fod Emrys wedi dyfod i'r fath enwogrwydd fel emynwr ydoedd mai efe oedd y mwyaf o'r holl emynwyr Lladin, a bod enwau ei ragflaenwyr gan hyny wedi myned o'r golwg. Y mae y mesurau trochaidd ac iambaidd a ddygwyd i mewn yn moreuddydd yr eglwys, wedi parhau i ddal eu tir hyd ein dyddiau ni: yn wir, y mesurau hyny ydynt 7au, M. B., M. C., a M. H., ein hemynau diweddar—llawer o ba rai nid ydynt amgen na chyfieithiadau, neu efelychiadau o leiaf, o'r emynau Lladin gwreidd iol. Yr oedd y mesurau hyn yn arbenigol gyfaddas i ysbryd difrifddwys Cristionogaeth Lladinaidd. Gan nad oeddynt mor orfoleddus a chydganau amrywiol Eglwys Groeg, nid oeddynt yn ehedeg ar edyn moliant aruchel a mawreddog, yn gymmaint ag yr oeddynt yn suddo i ddyfnderau gofid dwys. Yr oeddynt yn ymwneyd mwy â'r galon nag â'r deall; ac os cynnwysent lai o dduwinyddiaeth, yr oeddynt yn gyflawnach o ysbryd Cristionogol.

Yr oedd canu emynau yn un o'r pethau a hynodent y Cristionogion boreuaf. Yn y ganrif gyntaf a'r ail, ysgrifenodd Pliny at yr ymherawdwr Trajan, gan ddywedyd—"Y mae y Cristionogion yn cyfodi cyn y dydd i ganu i Grist eu Duw." Tertullian, yn ei waith [*Ad. Uxor*, ii. 9], a ddywed am y Cristionogion—"Y maent yn rhanu eu hamser i ganu salmau a hymnau, ond cadwant y rhai goreu erbyn Dydd yr Arglwydd." Crybwylla Lucianus hefyd am y "sect newydd yn canu hymnau i'w Duw."

Tua'r bedwaredd ganrif, gwnaeth anffyddwyr ddefnydd o ganu emynau i fod yn niweidiol i grefydd. Sefydlodd canlynwyr Manichi, Yspaenwr hereticaidd, sect newydd ar eu hegwyddorion eu hunain. Y mae un o emynau y sect hono ar gael eto. Yr oedd eu llyfrau yn cynnwys hefyd yr emynau hyny a alltudiwyd o'r eglwys gan Paul o Samosata. Dywed Neander, yn ei *Hanes yr Eglwys*, "Condemniwyd Paul o Samosata, gan Gymmanfa Syria am heresi, dan y cyhuddiad o ysgrifenu emynau mewn mawl iddo ei hun, ac nid i foli yr Arglwydd, a'i fod ef yn dadleu fod emynau i Dduw yn meddu tuedd ddrygionus." Nid oes gerddoriaeth nac emynau eglwysig perthynol i'r bedwaredd ganrif ar gael yn awr; ond y mae digon o dystiolaethau fod hereticiaid, yn enwedig y Donatiaid, yn arfer defnyddio emynau o'r eiddynt eu hunain i gynhyrfu nwydau gwaethaf eu canlynwyr:—*Donatista nos reprehendunt, quod sobrie psallimus in ecclesiâ divina Cantica Prophetarum, cum ipsi ebrietates suas ad canticum psalmorum humano ingenio compositorum, quasi tubas exortationes inflammant*."—*St. August. Confes.*

Digitized by Google

Canfyddodd Gregory, yn y flwyddyn 604, lawer i'w wellhau yn ngherddoriaeth a barddoniaeth yr eglwys, ac yn neillduol efe a roddodd amryw reolau newyddion at astudio a chanu y côr-ganiadau Emrysaidd. Y mae y côr-ganiadau Groegaidd yn dra adnabyddus am eu sylweddolrwydd, eu mawredd eglwysig, a'u symledd arddunol; ond i Emrys y mae'n rhaid rhoddi y clod o ddyfeisio y gyfundraeth gôr-ganiadol hono. Prawf athrylith ydyw y dechreuad, a llafur doethineb ydyw y gwelliant. Ac y mae Gregory yn cadw y nodweddiad a roddodd Emrys i'w emynau. Yr oedd gan y Benedictiaid, yn Paris, yn y flwyddyn 1705, yn eu meddiant waith o eiddo Gregory, a gynnwysai wyth emyn. Yn ei *Hymni ad nocturnum diebus*, mae un emyn i'w chanu wrth ddeffroi ar fore Sabbath, yr hon a genid gan y mynachod; ac un arall o'i waith yn weddi foreuol a hwyrol. Y mae yno un i'r Pasc—emyn arddunol; sef, *Rex Christe, factor Omnium.* Ysgrifenedd Isidorus o Seville, yn y flwyddyn 636, emynau ar Agatha. Ysgrifenodd yr hybarch Bede emynau ar Wyliau yr Eglwys, ar Pedr a Phaul, ac ar y Gwirioniaid Bendigaid. Ysgrifenodd Paulus Diaconus, yn y flwyddyn 800, awdlau crefyddol. Yn yr Eglwys Ddwyreiniol, ysgrifenodd Cosmas o Ierusalem, yn y flwyddyn 730, ac ereill, yr emynau goreu a berthynant i Eglwys Groeg, y rhai a gasglwyd gan Suidas. Yn y nawfed ganrif, ysgrifenwyd amryw emynau gan Theodorus Studites, a chan ei frawd Josephus, archesgob Thessalonia.

Gellid dysgwyl i erthygl fel hon ar emynau yr eglwys drafod cerddoriaeth yr eglwys hefyd. Ond ychydig a wnaeth neb o'r haneswyr dros y gangen hon. Nid oedd alawon y caniadau cyntaf yn wreiddiol bob amser; yr oeddynt weithiau yn alawon gwladol, ac weithiau yn hen alawon Lladinaidd. Gallwn olrhain yr alawon cyssegredig cyn belled yn ol a'r bedwaredd ganrif, a gallwn, ar ol amser Gregory, wneuthur gwahaniaeth sicr rhwng cerddoriaeth gyssegredig a gwladol; ond nid yn gynt na hyny.

Nid oes dim sicr yn wybyddus am sefyllfa emyniaeth na cherddoriaeth eglwysig yn Mhrydain o'r amseroedd boreuaf hyd gyfnod lled ddiweddar; er y gallwn gasglu fod ein hemynau, fel ein hiaith, yn adnabyddus trwy Ewrop. Tua'r canol-oesoedd, yr oedd y *Lays* Eglwysig mewn bri mawr; ac os ydyw esboniad yr enwog Wolf ar y gair *lay* yn gywir, gallwn gasglu fod iaith ac emynau y Cymry yn meddu cryn ddylanwad ar y Cyfandir. Dywed Wolf, "Y mae y gair *Lay* yn tarddu o'r Gymraeg; ac yr oedd yn cael ei sillebu yn wreiddiol yn *llais*, gan olygu tôn, neu gân." Yn y Gaelaeg, ystyr *laoidh* neu *laidh* ydyw pennill, neu emyn, neu fydr; ac yr oedd yn cael ei arfer am y naill a'r llall yn ddiwahaniaeth. Yn niffyg gwybodaeth sicr i'r gwrthwyneb, tueddir ni i goleddu y syniad mai yr hen alawon cenedlaethol, wedi eu cyfaddasu at emynau crefyddol, a ddefnyddiai ein tadau, fel cenedloedd ereill. Arferiad y Cristionogion yn mhob gwlad oedd benthyca eu tônau oddi ar yr hen gelfyddydau. Yr oedd dau reswm dros wneyd hyn:—1. Yr anhawsder i ddyfeisio llenyddiaeth gerddfarddonol. 2. Yr anhawsder i altudio hen gerddoriaeth ddefosiynol o'r galon, hyd yn oed wedi i'r pen gael ei argyhoeddi, a'r grediniaeth ei newid. Byddai yr hen dônau yn angenrheidiol i'r bywyd newydd; a byddai yn dda gan yr alltud o'i hen gredo glywed, ar ddaiar dramor ei grefydd newydd, hen alawon adnabyddus ei gartref gynt. Dyna, mae'n debyg, a wnaed gan y Cymry—defnyddio hen alawon eu Barddas gynt i fywiogi eu gwasanaeth crefyddol Cristionogol. Ond wedi i ganrifoedd fyned heibio, i hen draddodiadau gael eu hanghofio, a'n hynafiaid nid yn unig gael crefydd newydd, ond dynoliaeth gymdeithasol newydd, y mae yn debyg eu bod wedi ymryddhau oddi wrth y rhwymau a'u clyment wrth holl weddillion eu hen Farddas, gan wneuthur eu hemynau a'u halawon yn gwbl ddigyssylltiad â hen adgofion.

Gwnaeth y Diwygiad Protestanaidd gyfnewidiad dirfawr ar emyniaeth eglwysig trwy holl Ewrop. Gwyddai Luther am bwysigrwydd barddoniaeth a cherddoriaeth grefyddol, ac yn yr ymwybyddiaeth o hyny y cyhoeddodd ef ei *Emynau Duwiol.* Efe a gyfieithodd y *Veni Creator*, a chyfansoddodd *Byddwch lawen, Gristionogion.* Cenid yr olaf trwy yr holl Almaen, ac ennillodd luoedd o ganlynwyr i Luther, gan chwanegu yn ddirfawr at ei lwyddiant. Mae amryw o emynau cyssegredig Luther yn ein meddiant yn yr oes hon, ac yn cael eu canu yn gyffredin yn nghynnulleidfaoedd Cymru.

Lled amddifad o emynau eglwysig da, cyfaddas i ddadgan teimladau duwiolfrydig dyfnddwys, a fu y Cymry hyd amser Williams, Pantycelyn. Cyfodwyd y gwr hwnw gan Ben yr Eglwys yn bwrpasol i gyfansoddi emynau i'r eglwys yn Nghymru. Dylai pob dyn a ymgymmero â chyfansoddi emynau fod yn llawn o ysbryd yr efengyl, a'i enaid wedi ei lyncu gan gariad at y gwaith. Rhaid i ysbryd barddoniaeth gyssegredig aros yn yr eglwys fel dawn ddwyfol. Gall un cyfnod dderbyn mwy o'r ddawn yma, a chyfnod arall lai, yn hollol annibynol ar gynnydd y ddawn farddonol mewn cylchoedd ereill. Y mae yn debyg na fu barddoniaeth Gymreig erioed yn uwch nag ydyw yn ein dyddiau ni—na chafodd Cymru erioed gynnifer o feirdd o'r dosbarth aruchel; ac eto, nid yw y ddawn i gyfansoddi emynau duwiolfrydig yn un o nodweddion ein cyfnod barddonol—perthynai hyny yn arbenig i adeg y Diwygiad Methodistaidd, pan oedd mathau ereill o farddoniaeth mewn cyflwr dadfeiliedig iawn. Prif orchwyl emynwyr ein hoes ni ydyw casglu a chyfnewid emynau "yr hen bobl." Dichon fod gormod o ysbryd cyfnewid wedi syrthio ar ein casglwyr emynau. Byddai yn llawn mor anmhriodol, yn ein bryd ni, i fardd gynnyg newid darn o un o arwrgerddi Milton, neu i gerddor newid *symphony* o waith Beethoven, ag yw i emynwr gynnyg cyfnewid hen emyn anwyl i gyfateb i chwaeth ddiweddar. Gwel dan y gair Hymn.

ENAID, [Heb., נפש=*nephesh*; Groeg, ψυχη=*psuche*; Lladin, *anima*]. Y mae y geiriau Hebraeg a Groeg yn arwyddo anadl (*Iob* xli); creadur byw neu greadur yn byw trwy anadlu; un yn meddu anadl einioes, o ba rywogaeth bynag (*Gen.* i. 20, 21, 24; ii. 7; ix. 10, 12, 15); ond yn arbenig, dyn yw y creadur uchaf sydd yn meddu anadl einioes; "a'r eneidiau a ennillasent;" *Gen.* xii. 5; xiv. 21; xvii. 14. Wrth *enaid*, mewn ystyr cyffredinol, y meddylir egwyddor y bywyd corphorol mewn dyn (*Gen.* ii. 7; *Deut.* xix. 11); ac hefyd mewn anifail (*Gen.* i. 20, 21; ii. 19); ac yn *Deut.* xvi. 3, defnyddir "pob enaid byw" i gynnwys pob creadur yn y môr. Yn gyffelyb yn *Ios.* x. 28, gwahaniaethir rhwng y brenin a'r trigolion, "a phob enaid byw ag oedd ynddi." Mewn ystyr caethach, arwydda einioes, bywyd, bywyd yn ei gyssylltiad â chorff: *Gen.* xix. 17; 1 *Sam.* xxvi. 21; *Iob* xii. 10; *Salm* xxii. 20; xxxiii.



Digitized by Google

19; *Luc* xvii. 33; *Act.* xv. 26; 1 *Bren.* xix. 4, 10; 2 *Sam.* i. 9; *Gen.* xix. 17; *Deut.* x. 22.

Er bod yr enaid yn treiddio trwy ac yn preswylio yn mhob rhan o'r corff mewn modd anrhanedig, eto ei eisteddle neillduol ydyw yn y gwaed—ffynnonell y bywyd corfforol, a'r anadl. O herwydd hyny y dywedir, "einioes (enaid) y cnawd sydd yn y gwaed" (*Lef.* xvii. 11); ac *adn.* 14, "Einioes pob cnawd yw ei waed," tra y bydd byw; ac y mae hyn yn wir am ddyn ac anifail. Y mae holl weithgarwch y corff yn y synwyrau a'r aelodau yn ymddibynu ar rediad y gwaed; a phan y saif y gwaed neu y paid yr anadl, yna y mae terfyn ar y bywyd naturiol. Ar y berthynas agos hon rhwng gwaed yr aberth a bywyd y seiliwyd offrymiad y gwaed yn lle enaid yr aberthwr. Ac am fod gwaed yr aberth yn cael ei dywallt, yr oedd einioes yn cael ei roddi dros einioes: *Exod.* xxi. 23. Oddi ar yr un cyssylltiad yr eglurir yr ymadroddion sydd yn llefaru am y gwaed diniwed a dywelltir yn gwaeddi i'r nefoedd: *Gen.* i. 10; *Heb.* xii. 24; *Iob* xxiv. 12; *Dad.* vi. 9; *Deut.* xxvii. 25; *Ier.* ii. 34, 35.

Nid yw *nephesh* (enaid) yn cael ei ddefnyddio ond am enaid yn ei gyssylltiad â chorff, yn yr ystyr o fywyd yn mhob creadur byw; ac nid am y rhan ysbrydol o ddyn, yn anghyssylltiol â'r corff. Y gair Hebraeg am *ysbryd* ydyw רוח (*rooach*) yn gyffredinol; yn Groeg, *πνευμα;* yn Lladin, *animus, spiritus.* Defnyddir *enaid* (*psuche*) yn y Testament Newydd yn fynych am y rhan anfarwol; ond yn y manau hyny dylid ei ddeall am fywyd yn ei ystyr uchaf. Oddi wrth y ffaith fod enaid yn yr Hebraeg a'r Groeg yn cael ei osod allan trwy eiriau gwahanol i ysbryd, y mae yr ymofyniad wedi ei fynych ofyn a'i ddadleu, Onid *tair* rhan sydd mewn dyn, ac nid *dwy?* Ymddengys y Testament Newydd fel yn cadarnhau hyn trwy eiriau pendant:—"Cadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid, a'ch corff;" 1 *Thes.* v. 23: "Ac yn cyrhaedd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd;" *Heb.* iv. 13. Y mae ymadroddion ereill llawn mor bendant dros y farn gyffredin mai dwy ran sydd mewn dyn:—"Yna y dychwel y pridd i'r ddaiar fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw" (*Preg.* xii. 7): "Gogoneddwch Dduw yn eich corff ac yn eich ysbryd;" 1 *Cor.* vi. 20; *Iago* ii. 26. Er fod y ddau ddull yma o ymadroddi i'w cael yn yr Ysgrythyrau, eto y mae yn hollol amlwg fod y gwrthgyferbyniad rhwng *ysbryd* a *chorff*, fel sylweddau hanfodol—y cyntaf yn anrhanadwy ac yn annheimladwy i'r synwyrau corfforol; a'r llall yn rhanadwy, yn deimladwy, ac yn meddu holl ansoddau ereill defnydd—yn gorwedd wrth wraidd yr holl ddysgeidiaeth ddwyfol am natur dyn. Yn yr ystyr cyntefig gwreiddiol hwn, nid oes ond dwy ran hanfodol wahaniaethol mewn dyn. Nid yw y gair *mater* neu *ddefnydd* i'w cael yn yr Ysgrythyrau; ond y mae y syniad yno. Y mae pob bywyd yn cael ei osod allan fel gweithgarwch ysbryd—naill ai yr Ysbryd Tragwyddol, ffynnonell pob bywyd (cymharer *Esa.* xxxi. 3, a *Ioan* iv. 24); neu yr angelion, y rhai a elwir yn ysbrydion (*Heb.* i. 14); neu ddynion fel creaduriaid rhesymol ac anfarwol. Y mae yr Ysgrythyr yn gwahaniaethu rhwng yr ysbryd sydd yn egwyddor bywyd ar y naill law, a'r corff sydd ynddo ei hun yn amddifad o fywyd. Y mae y gwrthgyferbyniad hwn i'w gael yn y tu dalen cyntaf o'r Beibl—rhwng y ddaiar, yr hon oedd afluniaidd a gwag, yn *chaos* tywyll, marw, didrefn, ac Ysbryd Duw oedd yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd (*Gen.* i. 2); rhwng corff dyn, yr hwn a luniwyd o bridd y ddaiar, a'r anadl einioes a anadlasid yn ei ffroenau, trwy yr hwn y daeth yn enaid byw; rhwng corff yr anifail a'r bywyd anifeilaidd; rhwng y nerthoedd bywiol sydd yn egwyddor ysgogiadau y greadigaeth, a'r defnyddiau naturiol trwy ba rai y maent yn dyfod i amlygrwydd. Y mae y gwrthgyferbyniad, gan hyny, rhwng byd yr ysbryd a byd y corff yn amlwg, ac y mae pob peth creedig a digreedig yn perthyn i'r naill neu y llall. Y mae i ddyn, gan hyny, ddwy ochr megys i'w fod—corff ac ysbryd: trwy y cyntaf y mae yn perthyn i'r byd materawl, yn ddarostyngedig i'w holl gyfnewidiadau; trwy yr ail y mae yn meddu bywyd personol yn annibynol ar y corff, ac heb fod yn ddarostyngedig i'w gyfnewidiadau. Y mae crefydd yn seiliedig ar uchafiaeth hanfodol gwreiddiol yr ysbryd ar y corff, y bywyd personol ac ysbrydol ar fywyd corfforol ac organaidd. Ac y mae pob cyfundrefn athronyddol a phob esboniadaeth Ysgrythyrol sydd yn dyrchafu mater uwchlaw ysbryd, neu yn ei wneuthur yn ogyfuwch, neu yn ceisio esbonio ysbryd fel un o amlygiadau uchaf mater, yn anghristionogol yn eu tuedd.

Ysbryd ydyw dyn o ran ei wir hanfod fel creadur i fyw byth; ac fel ysbryd y mae iddo *bersonoliaeth.* Y mae yn gwahaniaethu rhyngddo ei hun fel bod personol a phob peth arall trwy *ymwybyddiaeth bersonol*—o'r hyn y mae gan bob dyn brofiad ynddo ei hun; o ganlyniad, nid yw yn sefyll mewn angen am brawf ymresymiadol o hono, ac nid yw y cyfryw yn bosibl chwaith, o herwydd nas gall fod dim yn eglurach na'r gosodiad ei hun, i'w brofi. Y mae hanfodiad ysbryd mor eglur ag yw hanfodiad corff neu fater, o herwydd y mae genym ymwybyddiaeth bersonol o hono. Ymwybyddiaeth bersonol ydyw y dull o amlygu ei hun sydd yn hanfodol i ysbryd y dadguddiad o bersonoliaeth. Fel ysbryd personol sydd yn meddu hunan-ymwybyddiaeth, y mae dyn yn gwahaniaethu rhyngddo ei hun a phob creadur arall, yn penderfynu ei weithrediadau ei hun, ac fel bod yn meddu annibyniaeth hyd derfyn ei gyfrifoldeb, yn gosod ei hun yn nod agosaf ato ei hun. Nodwedd mwyaf cyffredinol personoliaeth ydyw ei fod o werth ynddo ei hun ac er ei fwyn ei hun. Y mae dyn trwy ei ymwybyddiaeth bersonol yn dyfod i adnabyddiaeth o hono ei hun fel un cymhwys dan ei Greawdwr i fod yn nod iddo ei hun, yn gyfrifol am yr hyn ydyw a'r hyn y mae yn ei wneuthur, ac yn dyfod i ddirnadaeth brofiadol o'i neillduolrwydd a'i annibyniaeth fel deiliad personol llywodraeth Duw. Trwy ei hunanymwybyddiaeth hefyd y mae yn canfod ei berthynas â'r hyn sydd tu allan iddo ei hun, ei wahaniaeth ef oddi wrthynt hwy, a'u dylanwad hwy arno ef. Y mae yn teimlo math o annibyniaeth mewnol, ac eto y mae yn ddibynol allanol; y mae yn ddeddf iddo ei hun, ac eto yn ddarostyngedig i ddeddfau oddi allan iddo ei hun. Trwy ei berthynas â'r allanol, y mae dyn yn ffrwyth yr hyn sydd yn annibynol arno ef, sef natur a'r byd; trwy ei annibyniaeth mewnol, y mae yn gynnyrch yn gyntaf oll iddo ei hun. Y mae dirgelwch ac anghyssondeb ymddangosiadol wrth wreiddyn personoliaeth dyn. Heb gyfeirio at y dirgelwch sydd yn tarddu o berthynas dyn fel person cyfrifol, ac o ganlyniad annibynol, â'i Greawdwr, ac o ganlyniad yr hwn y mae yn byw, yn symmud, ac yn bod ynddo—y mae yn ddirgelwch yn ei berthynas âg ef ei hun a'r byd sydd o'i gwmpas.

Y mae y naill yn tystio i'w annibyniaeth a'r llall i'w ddibyniaeth. Y mae yr ysbryd fel am gau allan y corff, a'r corff am gau allan yr ysbryd; ond y mae profiad dyn yn cynnwys y ddau. Er mwyn esbonio ymaith y dirgelwch a'r angbyssondeb ymddangosiadol, y mae rhai yn haeru mai ysbryd yn unig sydd mewn bod, a hyny o herwydd nid yn unig fod ysbryd a defnydd yn annhebyg i'w gilydd, ond hefyd eu bod yn hollol anghysson a chroes i'w gilydd. Ond y mae profiad yn ddigon o ateb i hyn; o herwydd yr ydym yn teimlo mai *un bywyd personol* sydd yn tarddu o undeb corff ac ysbryd. Nid fel aderyn yn y *cage* y mae yr ysbryd yn y corff. Ond wrth ddilyn profiad, yr ydym yn canfod mai nid mewn darostyngiad i drais y mae deddfau yr ysbryd a'r corff yn cydweithredu, ond mewn cydgordiad bywiol a heddychol â'u gilydd. Ereill drachefn a haerant nad yw ysbryd a natur ond un o ran eu hanfod, ac mai un o gynnyrchion corff ydyw meddwl. Y mae hyn yn groes i brofiad ac i ymwybyddiaeth bersonol. I brofiad; o herwydd na chafwyd allan eto un sylwedd materawl yn meddu ar y briodoledd o hunanymwybyddiaeth; ni chafwyd chwaith hunanymwybyddiaeth yn meddu ynddo y gronyn lleiaf o fater. I ymwybyddiaeth; o herwydd yr ydym yn gwahaniaethu o angenrheidrwydd rhwng y peiriant corfforol ac ymwybyddiaeth; ac heb law hyny, os collir aelod, ni theimlir fod yr ysbryd wedi cael colled gyfatebol; nid yw cynnydd y corff chwaith yn cynnwys cynnydd cyfatebol yn y meddwl. Nis gellir trwy wadu corff ac olrhain y cwbl i ysbryd, na chwaith trwy wadu ysbryd ac olrhain y cwbl i gorff, egluro a chyssoni ffeithiau yr ysbryd mewn ymwybyddiaeth, a ffeithiau sylwedd materawl mewn corff byw. Y maent yn wahanol yn eu natur; eto nid oes gwrthwynebiad diammodol a gelynol rhyngddynt, fel nas gall y naill wasanaethu y llall; onid e nis gallent yn eu hundeb ffurfio yr un a'r unrhyw fywyd personol. Yn ngwasanaethgarwch y naill i'r llall y mae un peth yn amlwg, sef mai nodwedd y sylwedd corfforol ydyw *derbyn*, a nodwedd yr ysbryd yw *cyfranu*. Derbynydd goddefol ydyw y naill: cyfranydd gweithredol ydyw y llall. Yr ysbryd sydd yn ffurfio y corff, a'r corff sydd yn derbyn argraffiadau yr ysbryd. Yr ysbryd sydd yn adeiladu y corff, a'r corff sydd yn offeryn yn llaw yr ysbryd. Y mae yn eglur, gan hyny, mai i'r ysbryd y priodolir bod bywiol, yn hytrach nag i'r corff. A pho mwyaf o argraffiadau yr ysbryd a fyddo ar y corff, i'r graddau hyny y mae urddas ei fod. Y mae y corff yn sefyll yn y berthynas o ymddibyniad ar yr ysbryd, ac y mae yr ysbryd yn ymwybodol o'i uchafiaeth ar y corff. Gan mai nid ansawdd yr ysbryd ydyw llenwi lle—yn hytrach bod pur ydyw—ei duedd ydyw ymestyn tu hwnt i derfynau lle penodol. Y mae hyn i'w ganfod yn ngweithrediadau yr ysbryd yn ei gyssylltiad â'r corff. Y mae y llygad yn tramwy i eithafoedd y ddaear, y glust yn ymwrandaw â'r swn pellaf, ac hyd yn oed y llaw a'r troed, er eu bod yn rhwym o fewn cylch bychan, eto y maent yn barod i roddi unrhyw gynnorthwy i'r ysbryd i ymryddhau oddi wrth derfynau un ysmotyn penodol. Y mae profiad hefyd yn dangos mai po uchaf y dichon i'r ysbryd ymgodi uwch law pwysau y peiriant corfforol, y mae yn nesau at berffeithrwydd ei fod.

Y mae y sylwadau hyn yn dangos mor dra phwysig ydyw dal yr hen wirionedd, mai *dwy ran sydd mewn dyn fel sylweddau hanfodol ei fod*. Ac os defnyddir y gair *enaid* yn gyfystyr âg *ysbryd*, fel y gwneir yn gyffredin, yna gellir dywedyd mai *enaid a chorff ydynt.*

Cyfeiriwyd yn flaenorol at y ddwy ddadl wrthgyferbyniol, y rhai ydynt mor hen a dyfaliadau dynion ar y mater, ac mor bell yn awr ag erioed oddi wrth benderfyniad boddhaol. Y mae y ddwy ochr yn seiliedig ar dybiaethau nas gellir eu profi na'u dadbrofi; a thrwy fygwth y naill y llall, y maent yn difodi dylanwad eu gilydd ar gwrs syniadau cywir am y mater mewn dadl. Ar un llaw, y mae wedi cael ei haeru nad ydyw yr enaid a'i holl weithrediadau—ymwybyddiaeth, teimlad, rheswm, &c.—ond hylifau corfforol; effaith gweithrediad yr ymenydd a'r giau; ac o ganlyniad, nad oes dim gwahaniaeth rhwng bywyd anifeilaidd ac enaid, ac nad yw y ddau ond amlygiadau mwyaf treiddgar a choeth sylwedd materawl. Yn ol y dybiaeth hon, nid yw athroniaeth y meddwl ond cangen o anianddysg anifeilaidd. Y mae yr eithafoedd arall yn meddu llawn cystal rheswm dros ei honiadau a'r un flaenorol; sef nad yw y byd materawl a'i holl ffurfiau corfforol ond gwahanol amlygiadau o feddwl neu enaid—mai yr unig sylwedd gwirioneddol ydyw enaid, ac mai ffrwyth gweithrediad yr enaid yw corff. Er nad oes dim wedi ei wneuthur trwy ddadleuon canrifoedd i gymmodi amddiffynwyr y golygiadau eithafol hyn â'u gilydd, eto y mae dynion wedi dyfod i ddirnadaeth led glir o bob ochr, pa beth bynag a ddaw o'u tybiaethau fod *yr un ffeithiau* yn parhau i hawlio sylw a chrediniaeth dynion; a bod yn rhaid i ni ymresymu o barth iddynt ar yr un egwyddorion; ac o'r diwedd, fod yn rhaid i ni ddyfod i'r un penderfyniadau.

Nid oes genym ddim gwybodaeth *uniongyrchol* o enaid ond mewn corff; hyny yw, y mae dylanwad y corff ar yr enaid, a'r enaid ar y corff, mor agos a pharhaus, fel nas gallwn gymmeryd unrhyw ddosbarth o ffeithiau perthynol i'r naill neu y llall gyda hollol sicrwydd nad oes ynddynt gyfarfyddiad o ddylanwadau corff ac enaid. Neu, mewn geiriau ereill, tra y dichon fod llawer yn perthyn i'r peiriant bywydol nad yw dylanwad y meddwl ond anuniongyrchol arno; ac ar y llaw arall, tra y dichon fod llawer yn perthyn i'r meddwl nad yw dylanwad y corff ond anuniongyrchol a phrin iawn arno; y mae llawer mwy o'r ddwy ochr ag y mae eu dylanwad unedig yn hollol ddiammheuol ynddynt. Trwy gyfrwng y corff yn unig y mae yr enaid yn effeithio ar y byd allanol. Nis gall corff neu fater ei roddi ei hun mewn ysgogiad: rhagorfraint ysbryd ydyw hyny. Ar y llaw arall, y mae y meddwl yn ddyledus i'r corff ac i'w brofiad mewn cyssylltiad â'r corff am ei gynhyrfiadau a'i awgrymiadau cyntaf i ymarfer ei alluoedd neillduol ei hun, ac i ymgodi trwy yr ymarferiad hwnw i ganfyddiad o wirioneddau uwch law y corff. Y mae y corff, heb yr enaid, yn farw i bob peth sydd yn perthyn i'r byd ysbrydol; ond y mae yr ysbryd ar y llaw arall yn derbyn gwasanaethgarwch y corff mewn trefn i ymwthio i'w diriogaeth briodol ei hun.[1] Fel nas gall y llygad ddyweyd wrth y llaw neu y troed,

[1] "That all our knowledge begins with experience there is no doubt, for how otherwise should the faculty of cognition be awakened into exercise if this did not occur through objects which affect our senses, and partly of themselves produce representations, and partly bring out understanding—capacity into action to compare them, or connect, or to separate them; and in this way to work up the rude matter of sensible impression into a cognition of objects which is termed experience."—*Kant.*

Digitized by Google

Nid rhaid i mi wrthyt; felly nis gall yr enaid ddywedyd wrth y corff, nid yn unig yn ei berthynas â'r byd hwn, ond yn ei berthynas â byd uwch, Nid rhaid i mi wrthyt. Mae y berthynas yn nes nag y mae y gymhariaeth rhwng preswylydd a phreswylfa yn rhoddi lle i ni gasglu. Y mae y corff yn breswylfa i'r enaid; ond y mae hefyd yn chwaneg, y mae yn beiriant byw at ei wasanaeth. Pe perthynas preswylydd i'w breswylfa yn unig fyddai perthynas yr enaid i'r corff, yna byddai at ei ddewisiad i'w adael a dychwelyd pan y mynai. Unig breswylfa yr enaid yn y fuchedd hon ydyw y corff. Lle nad yw y corff, nis gall yr enaid fod. Ac nid yn unig y mae y corff yn wasanaethgar i'r enaid fel cyfrwng trosglwyddiad ei weithgarwch y tu allan iddo ei hun, nac fel cyfrwng derbyniad argraffiadau o'r byd allanol iddo ei hun, ond hefyd mewn trefn i ddadblygiad a meithriniad bywyd mewnol a phriodol yr enaid neu yr ysbryd ei hun: ond pa mor agos bynag ydyw cyssylltiad enaid â chorff, neu feddwl â mater, y maent yn ddwy natur wahanol—ac nid un. Y mae i'r ddwy eu priodoliaethau neillduol a gwahaniaethol. Y mae i'r enaid ymwybyddiaeth o briodoliaethau y corff; ond nid oes i'r corff ymwybyddiaeth o'i ansoddau ei hun. Y mae gallu ysgogiadol yn perthyn i enaid; y mae y corff yn amddifad o'r cyfryw allu—nis gall roddi ei hun mewn ysgogiad. Nid oes i feddwl briodoliaethau corff; nid ydyw yn galed, yn hylifol, nac yn awyrol; nid oes iddo na ffurf na llun; nid yw yn wyn nac yn ddu, yn goch nac yn las; ni pherthyn lliw iddo o gwbl. Y mae yn anrhanadwy, fel nas gellir priodoli i obaith ac ofn, i dristwch a llawenydd, yr ymadroddion *hanner* a *chwarter*, neu unrhyw gyfartaledd arall.

Er nad ydym yn bwriadu yn yr erthygl hon wneuthur mwy na phrin gyffwrdd â'r defnyddiau a ddaw dan y gair hwn, MEDDYLEG, eto nid yw sylw neu ddau, fe allai, yn afreidiol o barth i sylfeini ein gwybodaeth am y byd materol a byd y meddwl. Dengys hyny i ni nad oes un angenrheidrwydd i ni geisio profi hanfodiad yr enaid mwy nag hanfodiad y corff:—fod y ddau yn gorphwys ar yr un tir. Nis gall fod un ffordd gryfach i ddangos i'r lluaws fod ganddynt ran ysbrydol, a'u bod yn gyfrifol am y fath ymddiriedaeth bwysig, na'u darbwyllo i ystyried nad oes gan y corff na'r byd gweledig ddim gwell hawl ar eu crediniaeth nag hanfodiad eu henaid. Yn y lle cyntaf ynte, y mae i'w gofio ein bod yn credu yn ngwirionedd a hanfodiad annibynol y byd materol—nid am ein bod yn gallu ei brofi trwy resymeg. Wrth ddwyn prawf rhesymegyddol yn mlaen dros unrhyw osodiad, yr ydym yn myned yn ol yn mhellach na'r gosodiad sydd i'w brofi, at elfenau blaenorol, ac yn casglu gwirionedd ein gosodiad o'r elfenau hyny. Os nad allwn gael dim sydd yn flaenorol iddo, yna y mae prawf o'i wirionedd trwy resymeg yn anmhosibl. Ond mor amlwg a hyn y mae yn rhaid i egwyddorion cyntaf fod yn anmhrofadwy; o herwydd gan mai egwyddorion cyntaf ydynt, nis gellir myned yn ol at rai cynt trwy gyfrwng pa rai y gellir eu profi. Felly nid oes ond derbyn egwyddorion cyntaf yn eu goleuni eu hunain: y maent mor eglur fel nas gellir cael dim amlycach i'w profi. Y mae hanfodiad y byd naturiol yn perthyn i'r dosbarth hwn o wirioneddau. Yr ydym yn ei gredu, nid am ein bod yn gallu ei brofi trwy gasgliad oddi wrth gynseiliau priodol, ond am nad oes genym ddim amlycach nag ef i'w brofi trwyddo. Y mae ceisio *profi* fod y byd naturiol yn bod yn rhagdybied y gallwn fyned yn ol at safle blaenorol i neu esgyn at safle uwch law ein hymwybyddiaeth o briodoliaethau mater; ac felly edrych i lawr megys ar yr ymwybyddiaeth hon, ei helfenu, a threiddio i gyfansoddiad mewnol yr elfenau hyn, a gwneuthur ein casgliadau am y dyfodol oddi wrthynt. Ond y mae hyn yn anmhosibl. Mae'n rhaid i ni gychwyn oddi wrth ein hymwybyddiaeth o briodoliaethau mater, ac ymorphwys ynddynt trwy grediniaeth anmhrofadwy.

Y mae dau neu dri o osodiadau angenrheidiol eu crybwyll, yn ein cyfarfod ar drothwy pob ymofyniad i enaid neu feddwl dyn. Y cyntaf ydyw fod canfatad o wirionedd y byd allanol a materol, yn cynnwys ynddo ganiatad o wirionedd ein hymwybyddiaeth ein hunain, o herwydd y mae yr ymwybyddiaeth hwnw yn cynnwys gwybodaeth o'r byd hwnw. Os na wadwn wirionedd ein hymwybyddiaeth, rhaid i ni dderbyn hanfodiad y byd naturiol fel gwirionedd anwadadwy, o herwydd yr ydym yn teimlo ein bod yn sefyll wyneb yn wyneb âg ef. Ac ar y llaw arall, os credwn fod daiar a nefoedd, mynydd a môr, yn bod, am eu bod yn rhan o'n gwybodaeth uniongyrchol, anmhrofadwy, yr ydym yn credu mwy; ac o ganlyniad y mae gwirionedd ein teimladau, a'n hymwybyddiaeth yn gyffredinol, yn sefyll, a dyweyd y lleiaf, ar yr un tir a bodolaeth pethau allanol i ni.

Yr ail gam tuag at wybodaeth reolaidd ac athronyddol o enaid dyn ydyw crediniaeth hollol a diammodol o'i hanfodiad gwirioneddol, ar wahân oddi wrth fater neu ddefnydd; ac hefyd heb gyfranogi dim o'i briodoliaethau. Am wirionedd y gosodiad hwn eto, fel yr un blaenorol, yr ydym yn gorphwys ar ymwybyddiaeth uniongyrchol o hono. Yr ydym yn ymwybyddus o feddwl, teimlad, gallu, ac o fodolaeth gwahaniaethol i bob un arall: ond am natur y *sylwedd* y perthyna meddwl, teimlad, gallu, gwahanfodaeth, a rheswm iddo, neu y maent yn amlygiadau o hono, nid oes genym un math o wybodaeth uniongyrchol nac yn allanol nac yn fewnol. Ac yma, yn absennoldeb pob gwybodaeth, y mae dynion wedi gollwng y ffrwyn i'w dychymyg; o herwydd ffrwyth dychymyg yn unig ydyw haeru fod i'r sylwedd hwn hyd a lled, neu ei fod o natur awyrol, neu hylifol, o unrhyw fath. Y mae gwahanol gyfundraethau wedi llefaru am dano fel hylif awyrol, a phriodoli iddo ysgogiadau tonog, a throellog, ac ymsigladwy (*vibrations, undulations*). Y cwbl sydd i'w ddyweyd am y cyfryw honiadau neu haeriadau ydyw, mai dychymygol ydynt; ac hefyd nas gellir ffurfio un math o syniad am hylifau neu unrhyw ffurf arall o fater pan y llefarir am danynt yn eu cyssylltiad âg ymwybyddiaeth, teimlad, rheswm, cydwybod, yn absennoldeb pob gwybodaeth uniongyrchol am natur sylwedd yr enaid. Yr unig lwybr diogel ydyw casglu fod natur y sylwedd yn cyfateb i natur ei weithrediadau. A chan fod holl briodoliaethau teimlad a meddwl yn hollol wrthgyferbyniol i briodoliaethau pob ffurfiau o fater, yr unig gasgliad sydd yn ymddangos yn ddichonadwy ydyw fod sylwedd y meddwl yn cyfateb i natur ei weithrediadau, fel y mae sylwedd mater yn cyfateb i'w amlygiadau yntau. Er mwyn dynodi y gwahaniaeth hwn, galwn y naill yn *sylwedd materol*, a'r llall yn *sylwedd ysbrydol*. Sylwer fodd bynag mai casgliad ydyw hyn o barth sylwedd yr enaid, tra y mae ein gwybodaeth o'i

weithrediadau yn ymwybyddiaeth uniongyrchol. Sylwer, yn mhellach, ein bod ar dir hollol ddiogel pan yn rhoi derbyniad i'r grediniaeth am hanfodiad gwirioneddol ac annibynol enaid a chorff—heb fod y naill yn gynnyrch y llall. Wrth roddi derbyniad i'r grediniaeth am hanfodiad byd y meddwl a byd y corff fel gwirionedd eithaf ac anesboniadwy, fe'n harbedir y drafferth o geisio esbonio dirgeledigaethau meddwl trwy ddeddfau corphorol, ac hefyd o geisio egluro y berthynas sydd rhyngddynt.

Y trydydd gosodiad sydd wrth wraidd pob gwybodaeth gywir am natur yr enaid, ydyw y briodoledd achosol neu gynnyrchiol sydd yn perthyn iddo. Y mae ganddynt ymwybyddiaeth o allu a rhyddid fel priodoliaethau ei feddwl. Un o'r pethau cyntaf a briodolwn i feddwl ydyw gallu; a hyny, nid fel casgliad, ond fel teimlad. Gwyddom trwy brofiad fod i'r meddwl allu arno ei hun, ac ar y byd allanol, o fewn rhyw derfynau priodol; a bod mater heb y gallu hwn. Nid dolen, gan hyny, yn nghadwen achosyddiaeth anianyddol ydyw dyn o ran ei enaid, fel y mae o ran ei gorff. Y mae yr ysbryd yn ymgodi uwch law anian, ac yn gadael argraff ei allu ei hun arni. Y mae dyn yn effaith: ond yr hyn a honir iddo yn y gosodiad hwn ydyw, ei fod yn achos hefyd. Y mae hyn yn ei gymhwyso ef i fod yn ddeiliad llywodraeth uwch law llywodraeth greddf ac anianaeth, gallofyddiaeth a fferylliaeth. Hyn ydyw sail llywodraeth foesol a phosiblrwydd crefydd i ddyn.

Teflid ychydig oleu ar rai o'r sylwadau blaenorol pe y cymherid enaid dyn âg enaid anifail. Y mae y dull y defnyddir y gair *enaid* yn yr Ysgrythyrau yn cyfiawnhau i ni eu dwyn i cymhariaeth â'u gilydd. Heb law fod dosbarthiadau o anifeiliaid yn rhoddi amlygiadau o ansoddau cyffelyb i'r cyfryw ag a ganfyddir mewn dyn. Mewn trefn i gael defnyddiau cymhariaeth rhyngddynt, rhaid i ni gymmeryd y dosbarthiadau uchaf o anifeiliaid, a gweithrediadau uchaf y dosbarthiadau hyny. Er fod dyn, o ran prif hanfodion y bywyd anianyddol, ar dir cyffelyb i'r anifail [gwel DYN]; ac yn wir, y mae rhywogaethau o greaduriaid direswm yn tra rhagori arno mewn nerth, cyflymder, treiddgarwch, a llymder eu synwyrau corfforol; ond er hyny, y mae i gorff dyn ragoriaethau amlwg ar eiddo yr anifail fel cyfrwng trosglwyddiad gallu meddyliol. Ni raid i ni ond cyfeirio at ei wynebpryd, ei beiriant ymadroddol, a'i law.—Gwel *The Bridgewater Treatise on the Hand.*

Y mae dyn yn nghyflwr ei fabandod yn hollol dan lywodraeth greddf, a nwyd, ac angen; eto y pryd hwnw y mae awgrymiadau yn cael eu rhoddi o ragbarotoad ar gyfer sefyllfa uwch. Creadur nwyd a greddf ydyw yr anifail israddol, ac y mae ei weithrediadau o foment i foment yn ymddibynu ar y gwrthddrychau a ymgyflwynant i'w synwyrau corfforol; ac eto y mae rhywbeth tebyg yn yr anifail i weithrediadau yn tarddu oddi ar ddrychfeddwl neu ddychymyg, ond nid yn debyg i'r hyn a ganfyddir yn mabandod dyn. Dyma wahaniaeth pwysig rhwng gweithred oddi ar reddf a nwyd, a gweithred oddi ar ddrychfeddwl. Nid yw yr anifail yn hollol heb yr olaf yn y graddau uchaf o greaduriaid; ac eto, bywyd greddf ydyw bywyd yr anifail yn benaf, a hyny yn ei ddiwylliad uchaf. Yn ei fabandod y mae dyn pan yn hollol dan addysg natur yn derbyn argraffiadau trwy ei synwyrau yn barhaus—yn eu cyfuno a'u trawsffurfio yn ddiddiwedd: ac oddi wrth bob ymddangosiad y mae y trysorau a sugnir i mewn pan yn effro yn parhau i gael eu troi a'u huno yn nghwsg. Onid hyn yw yr esboniad sydd i'w roddi ar wenau y baban pan yn cysgu?—

"That murmur of the outer Infinite
Which unweaned babies smile at in their sleep
When wondered at for smiling."
*Aurora Leigh.*

Yn y plentyn, y mae teimladau o bob natur yn bywiogi; y mae y gwaith o drysori y meddwl yn myned yn mlaen yn fwy cyflym, fel y mae yn dysgu mwy, fe ddichon, mewn ffordd o adnabod y gwrthddrychau sydd o'i gwmpas yn y pum mlynedd cyntaf o'i oes, nag y mae yn holl ystod ei oes wedi hyny. Y mae y meddwl yn awr yn deffro i sylwi ar bob peth sydd yn cymmeryd lle o fewn cylch ei weledigaeth; ac y mae ei deimladau yn ymuno â hwynt, yn derbyn oddi wrthynt, ac yn cyfranu iddynt. Nid ar unwaith y mae dyn yn dysgu dyddio ei argraffiadau, ei deimladau, a'i ddrychfeddyliau. Y mae hyn yn beth sydd yn myned yn mlaen trwy ei holl flyneddoedd cyntaf; ac yn raddol y mae elfenau ei brofiad yn syrthio i'w trefn amseryddol; ac wrth wneuthur felly, y mae eu perchenog yn cyrhaedd teimlad llawn, ac ymwybyddus, ei fod ef yr un trwyddynt oll. Nid ydyw dyn yn ddyn, nes y bydd wedi dysgu edrych arno ei hun o'r safle hanesyddol. A ydyw yr anifeiliaid yn ymgodi i safle ag y maent yn teimlo rhyw fath o hunaniaeth, nis gallwn wybod; ac os ydynt, yn ol pob tebygolrwydd, prin ac o'r braidd ydyw. Wrth sylwi ar ddyn yn y sefyllfa ragbaratoawl hon, ni a welwn ei fod yn dysgu mwynhau ac ymarfer rhyddid nad oes i'r anifail ei gyffelyb:—rhyddid i ddewis a gwrthod yn nghanol cymhelliadau o bob math. Nid oes dim yn fwy gwrthwynebol i natur y bachgen na chael ei ddwyn yn gaeth i ddim. Y mae yn dyfod i fwynhad o'i ragorfraint, ac y mae am ei defnyddio wrth ei ewyllys. Y mae ei feddwl yn llawn dychymygion a mympwyon, ac y mae ei holl natur yn llawn ysbryd ac yni, ac y mae am ddilyn y naill a threulio y llall yn ddinacâd; ond dysgu mwynhau ac arfer rhyddid y mae, heb yr hyn ni allai byth gyrhaedd rhagoriaeth meddyliol na moesol. Y mae i'r anifeiliaid israddol ryddid nad oes gan y llysiau ei fath, ond y mae rhyddid dyn yn uwch o ran ei raddau a'i natur nag ydyw eiddo yr anifail. Gadewch i ni egluro hyn ychydig yn mhellach. Y mae ewyllysiadau yr anifail yn cymmeryd lle bron yn hollol dan ddylanwad ei reddf a'i nwyd. Ond y mae ewyllysiadau dyn yn amrywiol yn null eu tarddiad a'u llywodraethiad:—weithiau, mewn canlyniad i reddf, ar ymddangosiad y gwrthddrych priodol i'w gynhyrfu, fel yn yr anifail—ac weithiau, mewn canlyniad i ddrychfeddwl, neu syniad, neu deimlad, a ymgyfyd ar unwaith yn y meddwl mewn canlyniad i arferiad, neu mewn canlyniad i ryw undeb blaenorol rhwng ein meddyliau a'n teimladau a'u gilydd. Weithiau, y mae ewyllysiad yn cymmeryd lle nas gwyddom pa fodd: y mae ei darddiad allan o olwg a sylw y meddwl, a gallwn ymfoddloni i ddyweyd mai y cryfaf o ddau gymhelliad a ennillodd y fuddugoliaeth; o herwydd ni a ystyriwn hwnw y cryfaf a gafodd ufudd-dod. Ond y mae ewyllysiad yn cymmeryd lle weithiau hefyd heb fod un achos iddo y tu allan i'r ewyllys ei hun. Hyny yw, y mae gan ddyn allu hollol rydd oddi wrth reddfau a nwydau heb fod dan lywodraeth achos na chymhelliad allanol. Y gallu hwn yw sail ei gynnydd mewn pob

rhagoriaeth meddwl, a phob rhinwedd moesol a chrefyddol. Nid oes yn perthyn i natur yr anifail ond y cysgod gwanaf o'r gallu a'r rhyddid hwnw sydd yn ymgodi uwch law i nwydau a greddfau anifeiliaid, ac uwch law i bob ystyriaeth o hunanlesiant—yr hyn yw nodwedd uchaf yr anifail direswm. Yma ni a welwn fod dyn ac anifail yn ymwahanu oddi wrth eu gilydd. Tra y mae dyn yn profi ei feddiant o allu sydd yn ei godi uwch law blysiau, a nwydau, a greddfau anifeilaidd, y mae yr anifail yn cael ei gaethiwo ganddynt. Y mae dyn yn gallu tynu ei gymhelliadau o hono ei hun, a'u creu iddo ei hun. Mae yr anifail yn ymddibynu ar y gwrthddrychau allanol a bresennolir am y fynyd o'i flaen.

Y mae pleser a phoen, drwg a da, yn ei gyssylltiad â bywyd, yn gweithredu ar ddyn ac anifail. Y mae bywyd yn beth sydd i'w amddiffyn trwy gadw draw bob peryglon sydd yn ei fygwth. Rhaid ymladd law-law, mewn trefn i'w gadw, â'r hyn sydd am ei ddinystrio. Heb hyn, ni buasai dim cynhyrfiadau digon cryfion, hyd y gallwn ni weled, i beri i feddwl ddeffro, ac ymddadblygu: mor bell a hyn y mae bywyd dyn a'r anifail yn ymddangos yn gydwastad; ond yma y mae y gwahaniaeth eto yn dyfod i'r amlwg. I'r anifail, y mae pleser a phoen yn bresennol ac yn gweithredu yn uniongyrchol; ond y mae dyn, i'r graddau y mae wedi diwyllio ei feddwl, yn edrych arnynt yn agos neu yn mhell; yn y mynedol neu yn y dyfodol. Mae yn eu cofio, yn eu cymharu, ac yn eu cyfartalu: y maent yn ymffurfio yn ddrychfeddwl iddo ef; a thrwy gyfrwng y drychfeddwl, yn gweithredu arno. Fel hyn y mae yn gweithredu dan ddylanwad y mynedol neu y dyfodol, gan ddiystyru hudoliaethau y presennol. O'r braidd y mae yr anifail yn dyfod o fewn cylch y bywyd eneidiol hwn, o herwydd y mae yn cynnwys yr elfen foesol; a phe byddai hon yn ei feddiant, amlygai ei hun mewn ffyrdd ereill. Y mae anifeiliaid dan addysg a dylanwad dyn yn rhoi amlygiadau o deimlad uwch law greddf; eto, yn eu cyssylltiad â dynion y maent yn gwneuthur hyn. Mor bell ag y mae y ci yn dangos fod ganddo enaid, yn ei berthynas â'i feistr y mae yn gwneuthur hyn, ac nid yn ei berthynas â'i rywogaeth ei hun. Tuag at ei rywogaeth ei hun y mae yn hollol dan lywodraeth greddf; ond yn ei gyssylltiad â'i feistr, y mae yn amlygu ymlyniad a ffyddlondeb sydd yn terfynu ar y teimladau a briodolir i ddyn. Y mae ymlyniad y ci wrth ei feistr yn rhydd oddi wrth bob peth tebyg i hunanoldeb; ond y mae hyn i'w briodoli i anmherffeithrwydd ei natur a'i anallu i wneuthur ei hun yn wrthddrych adfyfyrdod. Y mae yr anifail yn amddifad o'r gallu i adfyfyrio arno ei hun, ac i gymharu ei hun â chreaduriaid ereill, ac i ffurfio barn am ei sefyllfa ei hun fel yn well neu yn waeth nag ereill. Nid ydyw y ci yn meddwl am dano ei hun fel yr hapusaf na'r truenusaf o'i rywogaeth. Er fod cyfeiriad yn ngreddfau ei natur ato ei hun, eto nid ydyw yr hyn a alwn yn hunanoldeb yn perthyn iddo.

Y mae dyn yn rhoddi amlygiad o'r duedd adfyfyriol yn gref o'i fewn, ac y mae cynnydd mewn diwylliad yn ei chryfhau yn fwy. Yn holl gylch ei weithrediadau, y mae dyn yn cymharu ei hun âg ef ei hun, ac âg ereill. Y mae holl elfenau ei deimlad, amrywiaeth diorphwys ei brofiad, ei adgofion a'i ragolygon, yn troi o'i gwmpas ei hun. Fel hyn y mae y teimlad o fodolaeth gwahanol, annibynol, a phersonol, yn ymffurfio o'i fewn; ac o'r teimlad hwn eto y cyfyd y teimlad o gyfrifoldeb moesol. Gellir gofyn pa fodd y gwyddom nad yw yr anifail yn greadur a all sefydlu ei fyfyrdod arno ei hun? Mewn un ystyr, nis gwyddom, ac nis gallwn wybod hyn, o herwydd nis gallwn fyned i mewn i ymwybyddiaeth creadur arall; eto nid ydym yn hollol yn y tywyllwch ar hyn. Y mae yr enaid yn rhoddi amlygiadau o hono ei hun. Nis gallwn feddwl fod enaid yn bod nad yw yn rhoddi amlygiadau o'i fod mewn rhyw ffyrdd neu gilydd. Pa beth bynag sydd yn neillduol yn nghymmeriad neu ymddygiadau dynion, y mae hyny yn ddadguddiad o neillduolrwydd cyfatebol yn y meddwl. Y mae dyn yn gwahaniaethu oddi wrth ei gyd-ddyn yn llawer mwy nag ydyw anifeiliaid yr isrywogaethau yn gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd: ac i'r graddau y mae yr arferiad o adfyfyrdod wedi ei gryfhau, y mae neillduolrwydd y cymmeriad yn sefyll allan gyda mwy o arbenigrwydd.

Cymmerwn olygiad arall eto. Y mae yn naturiol i ddyn ac anifail gilio yn ol yn mhresennoldeb perygl: y mae hyn yn reddf yn y peiriant anifeilaidd. Y mae rhyw gysgod gwan o hyn mewn rhai rhywogaethau o lysiau. Yn y ffurfiau isaf o hyn, nid yw yn amlygiad o feddwl hyd yn oed o'r gradd isaf; effaith naturiol cynhyrfiad y gïau yn mhresennoldeb perygl ydyw; ond y mae rhywbeth uwch na'r gïau mewn gweithrediad pan y defnyddir moddion i ddianc neu i gadw draw y perygl trwy ddyfais briodol. Y mae rhai creaduriaid yn dangos cyfrwysdra ac ystyriaeth sydd yn amlygiad o feddwl, yn y modd a ddewisant i osgoi perygl—weithiau trwy ddianc, bryd arall trwy dwyll, a phryd arall trwy amddiffyniad gwrol o honynt eu hunain yn y fan. Mae y llwynog a'r llygoden fawr yn anghreifftiau o hyn: pan y mae y creadur yn penderfynu amddiffyn ei hun, y mae yn priodoli bwriad i'w niweidio yn ngwrthddrych ei ofn, ac y mae hyn yn cyffroi ei ddigofaint—teimlad a fwriadwyd i fod yn nerth iddo yn ngwyneb ymosodiad. Yma eto ni ganfyddwn wahaniaeth rhwng dyn ac anifail. Y mae yr anifail yn gwahaniaethu rhwng ymosodiad arno gan greadur byw, a disgyniad careg neu rywbeth marw arno, nes ei niweidio. Y mae y cyntaf yn cyffroi ei ddigofaint; ond yn ngwyneb yr olaf dyoddef ei boen yn fud ac amyneddgar y mae, fel pe na byddai yn priodoli i'r gareg fwriad i'w niweidio. Ond y mae y plentyn yn priodoli bwriad i bob peth—y gadair, neu y bwrdd, y dichon iddo ef daro yn ei erbyn, a chael ei niweidio. Ac er iddo gael ei annog i hyny gan rai hynach nag ef, y mae rhywbeth ynddo ei hun i ymgymmeryd â hyny, ac yn raddol y mae yn ymryddhau oddi wrth ei wiriondeb. Y mae hyn yn tarddu oddi wrth y duedd sydd mewn dyn i briodoli bywyd a bwriad i bob peth, a hyny oddi ar y cyflawnder o deimlad o'r cyfryw ynddo ei hun. Y mae y nwyd o ddigofaint yn ymuno mewn dyn â theimladau cymdeithasgar, ac yn casglu nerth mawr trwy hyny. Nid yw yr anifail yn teimlo, fel rheol, yn yr olwg ar ddyoddefiadau creaduriaid ereill, hyd yn oed o'r un rhywogaeth; nac o gwbl yn yr olwg ar ddyoddefiadau rhywogaethau ereill. Nid yw dyn byth yn cael ei gyffroi i gynddaredd uwch na phan yn rhuthro yn mlaen i amddiffyn y gwan a'r diniwed o grafangau y cryf a'r creulawn. Y mae dyn, nid yn unig yn teimlo oddi wrth boenau a dyoddefiadau ei gyd-ddynion, ond hefyd oddi wrth boenau creaduriaid direswm. Y mae y cyfiawn yn drugarog wrth ei anifail: teimladau ydyw y rhai hyn

sydd yn perthyn yn unig i'r natur ddynol. Y mae bywiogrwydd a nerth y teimladau hyn yn cael eu cryfhau yn fawr oddi wrth eu cyssylltiad âg elfen newydd o natur foesol. Y mae y bwriad i'n niweidio, a briodolir genym, yn cyffroi digofaint: ond nid digofaint yn unig; ond yr ydym yn myned yn mlaen, o fodd neu anfodd, i edrych ar ymddygiad yr hwn sydd yn ymosod arnom fel *camwri*—nid fel creulondeb yn unig, ond hefyd fel drygioni. Y mae yr elfen gymdeithasgar yn cryfhau ac yn dyrchafu y reddf naturiol, a'r elfen foesol drachefn yn cyflawnu yr un gwasanaeth i'r teimlad cymdeithasgar. Y mae y reddf yn gyffelyb i ddyn ac anifail; ond yn y dyn y mae yn cael ei chymhlethu yn fwy-fwy âg elfenau nad yw yr anifail yn cyfranogi o honynt, ac felly y mae yn cryfhau ac yn dyfnhau yn ei gweithrediad. Ffrwyth y cymhlethiad hwn yw yr ansoddau sydd yn rhoddi gwerth a phrydferthwch a mawrfrydigrwydd i'r bywyd dynol. Y canlyniad ydyw, fod y teimladau naturiol, sydd yn perthyn i'r anifail fel i'r dyn, yn y dyn yn ymbriodi âg elfenau uwch, ac felly yn ennill nerth a choethder ar unwaith.

Pe cymmerem ddosbarth arall o weithrediadau meddwl dyn, sef yr ymresymiadol, a'i gymharu â gweithrediadau o'r un natur yn yr anifail, ni a gaem anghreifftiau eto yn brawf o'r sylw:—er fod dyn ac anifail fel yn cychwyn oddi ar yr un *level;* tra y mae yr anifail yn aros arno, y mae dyn yn ymgodi yn uwch, ac eto yn uwch. Yn ngwyneb y cyfrolau o hanesion a geir am gyfrwysdra, a challineb, a chof, a gallu ymresymiadol yr anifail, nis gallwn wadu rheswm iddo, neu o'r hyn lleiaf gallu i gyflawnu llawer o weithrediadau a briodolir i reswm neu ddeall pan y cyflawnir eu cyffelyb gan ddyn; ond sylwer ar y gwahaniaeth sydd rhwng y gallu hwn yn y dyn a'r anifail. Rhoddir symbyliad i reswm yn y dyn a'r anifail, gan angenion corfforol; ond gyda diflaniad yr achlysur neu y cymhelliad i weithredu ei ddeall yn yr anifail, y mae y gallu fel yn marw. Nid yw rheswm yn yr anifail yn ymddangos fel yn ateb un dyben uwch na gwasanaethu ei angenion ei hun ac angenion ei hiliogaeth. Er fod rheswm mewn dyn yn cael ei alw i weithrediad mewn amgylchiadau aneirif yn yr un modd, eto nid ydyw y cymhelliad allanol ond symbyliad arno i weithgarwch nad yw yn sefyll ar ddiflaniad y cymhelliad; ond yn hytrach yn myned rhagddo, yn casglu nerth newydd, yn eangu ei derfynau, yn ymgodi o fod yn wasanaethydd y nwydau cnawdol, yr angenion anifeilaidd, fel y mae yn yr anifail, i fod yn llywydd ac yn arweinydd arnynt oll; ac yn chwanegol, i feddiannu tiriogaethau nad yw teimladau anifeilaidd yn cael lle ynddynt. Yn mhlith y galluoedd cyntaf, os nad y cyntaf oll o natur ymresymiadol, y mae y gallu i drefnu a dosbarthu gwrthddrychau yn ol eu tebygolrwydd, eu gwrthgyferbyniad, a'u cyfatebiaeth; ac y mae y gallu hwn yn ei ddadblygiadau pellaf yn arwain dynion i ffurfio cyfundraethau sydd yn cymmeryd i mewn y greadigaeth. Ni a alwn hwn y *gallu dansoddol.* Mae y plentyn yn dysgu ei wersi cyntaf yn yr ymarferiad o'r gallu hwn, pan yn chwareu â'i *farbles* a'i gregin—yn eu trefnu yn rhesi ac yn gylchoedd, yn gwneyd llun ci a cheffyl, yn gwneyd ei dŷ bach a'i ardd. Y mae y dyn sydd yn gallu syllu ar un dosparth o wrthddrychau, neu un dosbarth o deimladau, gan esgeuluso dosbarthiadau ereill, er mwyn cyrhaedd amcan penodedig ganddo ei hun, yn cyflawnu gweithred ddansoddol. Ac yn enwedig felly pan na byddo y gwrthddrychau dewisedig yn cael y flaenoriaeth, am y fynyd, o herwydd unrhyw arbenigrwydd ynddynt eu hunain, yn eu dysgleirdeb, os lliwiedig fyddant; yn ei nerth, os swn fyddo; ond yn unig mewn canlyniad i benderfyniad y meddwl i ddewis y mwyaf dinôd, os bydd hyny yn ateb dyben neillduol ar y pryd. Yn y gorchwyl hwn y mae plentyn bach yn gadael y ci mwyaf profiadol yn mhell ar ol. Y gallu hwn yn ei gyssylltiad â galluoedd ereill sydd yn rhoddi bod i *athroniaeth naturiol,* yr hon sydd yn cynnwys y gwahanol wyddorau. Y mae y gwyddorau yn ddosbarthedig i ddwy wyddor, sydd yn cynnwys ereill ynddynt. Y mae y cyntaf a'r perffeithiaf o'r ddwy yn seiliedig ar *berthynasau* rhif a mesur, neu ni a ddywedwn mewn dull sydd yn cynnwys y ddau—perthynasau maintiolaeth. Dechreuodd y wyddor hon, fel y celfyddydau yn gyffredinol, trwy wasanaethu angenrheidiau bywyd. Ac y mae y nifer luosocaf o lawer yn parhau i'w meithrin ar y tir hwn. Ond y mae lluaws o'r meddyliau uchaf, er wedi myned i'w gwasanaeth er mwyn y cymhorth a allai hi roddi iddynt yn eu gorchwylion bydol, wedi cael eu hennill ganddi i'w dilyn yn mlaen i'r uchelderau mwyaf dansoddol. Y mae meddwl dyn yn yr ymchwiliad am y gwirioneddau sydd yn ymeangu o'i flaen yn y gangen hono o athroniaeth yn teimlo ei fod yn dyfod i fyd o oleuni a threfn berffaith. Y mae ei gwirioneddau yn anghyfnewidiol, yn ddieithriad, yn dragwyddol. Y mae y dosbarth arall o wyddorau yn seiliedig ar *achosyddiaeth.* Ac yn y rhai hyn y mae dyn yn myned yn mhellach na chwilio am y tebygolrwydd a'r cyfatebiaethau sydd rhwng pethau a'u gilydd. Nid yw yn aros gyda phethau gweledig a theimladwy; y mae yn treiddio dan yr arwyneb, ac yn chwilio, nid am gyffelybrwydd ffurfiau, ond unoliaeth galluoedd a deddfau. Gan mai yr amcan mewn golwg yn y sylwadau hyn ydyw taflu awgrymiadau yn unig ar y modd y mae enaid dynol yn ymgodi uwch law enaid yr anifail, er i'r ddau ymddangos fel yn eydgychwyn, nid oes galwad arnom i ymhelaethu. Os edrychwn eto ar ddyn fel creadur dyfeisgar, yn gallu cyfaddasu moddion i ddyben, er ei fod yn cael ei gymhelliadau allanol yn ei angenion, fel yr anifail, eto y mae dyn yn parhau i ddefnyddio, a thrwy hyny i gryfhau a pherffeithio y gallu hwnw yn ddiderfyn, wedi iddo gyflawnu yr angenion a roddes y gallu hwnw mewn gweithrediad. Y mae dyn yn cychwyn ei yrfa fel gweithiwr yn mhellach yn ol, yn fwy amddifad a diamddiffyn na'r anifail, nes iddo yn gyntaf ddyfeisio ei beiriannau; ond er hyny, aros y mae y creadur direswm wedi iddo gyrhaedd ei amcan uniongyrchol. Terfynu y mae dyfais yr anifail gydag amddiffyniad ei fywyd ei hun a pharhad ei hiliogaeth: ond am ddyn, wedi iddo unwaith gael ei roddi mewn gweithrediad trwy symbyliad ei angen, y mae yn myned rhagddo trwy nerth ymhyfrydiad ei feddwl nes iddo weithio ac ailweithio, trefnu ac ail drefnu, holl ddefnyddiau natur, a darostwng ei holl alluoedd i'w ddybenion, a hyny i'r fath raddau nas dichon ddychymygu am unrhyw ffurfiau newyddion i'w troi iddynt.

Y mae y sylwadau hyn yn dangos cymmaint uwch law yr anifail ydyw dyn o ran gallu ei ddeall yn unig, heb gyfeirio oll at y teimladau hyny sydd wedi eu rhoddi iddo i lywodraethu ei ddeall—sef y syched cynnwynol sydd ynddo i wybod; ymorphwysiad tawel ei feddwl yn yr hyn sydd yn ymddangos iddo fel gwirionedd;

Digitized by Google

ymdrech am gynnydd parhaus; ac uwch law y cwbl, o herwydd ei fod yn cynnwys ynddo elfen o natur foesol—"cariad at wirionedd."

Ar y tir hwn, ac heb gyfeirio at yr elfenau moesol sydd yn natur dyn, gallwn gael cadarnhad o gyfansoddiad deall a rheswm dyn o dystiolaeth yr Ysgrythyr, fod dyn wedi ei wneuthur ar "ddelw Duw." Y mae bod meddwl dyn yn cael ei arwain gam a cham o'r naill wirionedd i'r llall, trwy holl gylch athroniaeth naturiol, yn y ddwy gangen sydd yn sylfaenedig ar briodoliaethau meintonol (*mathematical*), ac hefyd ar achosyddiaeth, gan ymorphwys ynddynt oll, yn brawf fod meddwl dyn yn cyfateb i feddwl Duw. Y mae gwirioneddau creadigaeth Duw yn cael derbyniad gan feddwl dyn; y mae hyn yn brawf fod cyfaddasiad rhwng meddwl dyn a'r gwirioneddau hyn, onid e nis gallai roddi derbyniad iddynt. Y mae dyn wrth ddilyn egwyddorion ei feddwl ei hun, ei ganfyddiad o briodoliaethau llinell unionsyth, triongl, cylch, a gwahanol ffugrau meintoniaeth, a'i ymresymiad arnynt, yn cael ei arwain i gasgliad o wirioneddau hunangynnwysol, cysson, ac angenrheidiol. Mae cynseiliau y gwirioneddau hyn yn meddwl dyn; a thrwy ei allu ymresymiadol yn unig, heb un golwg ar ddim ond eu cyssondeb mewnol eu hunain, y mae cyfundraeth eang, ddofn, ddieithriad, o wirioneddau wedi eu ffurfio. Ymofyniad naturiol ydyw, A ydyw y gosodiadau hyn yn cynnwys gwirioneddau i feddwl Duw? A ydynt yr un i Dduw ag ydynt i ddyn? A ydyw meddwl dyn wedi ei greu ar gynllun neu ar *ddelw* meddwl Duw? Y mae yr ateb yn hawdd. Y mae y nefoedd a'r ddaiar wedi eu creu, ac yn parhau i gyflawnu eu holl ysgogiadau yn unol â chyfundrefn o feintoniaeth (*geometry*); ac erbyn cymharu meintoniaeth dyn, elfenau Euclid, *Principia* Newton, â meintoniaeth y greadigaeth, y maent yn berffaith gyfateb. Byddai yn ddigon hawdd cymhwyso yr un ymresymiad at y gwirioneddau sydd yn seiliedig ar y drychfeddwl o achosiaeth. Mae'n rhaid i beiriant cywrain fod mewn cydgordiad â gwirioneddau meintoniaeth a deddfau gallofyddol cyn yr etyb ei ddyben. Nis gall dyn wneuthur peiriant i fyned os na bydd yn unol âg egwyddorion y gyfundrefn y perthyna ein daiar iddi. Mewn trefn i gyflawnu ei waith, rhaid i beirianwaith dyn fod yn arddangosiad o'r un egwyddorion a than lywodraeth yr un deddfau a pheirianwaith Duw. Pa beth ynte a brawf lwyddiant dyn fel peiriannydd? Pa beth ydyw y casgliad anocheladwy oddi wrth hyn? Nid dim llai na bod meddwl dyn, o ran *natur*—nid *graddau*—wedi ei wneuthur ar ddelw Duw o barth i egwyddorion a deddfau gallofyddiaeth y nefoedd a'r ddaiar. Nid ydyw yr awgrymiadau hyn ond y cyfryw ag y gellid eu holrhain gyda chyflawnder mawr at wahanol wyddorau a chelfyddydau gyda'r un canlyniad.

Y mae ymchwiliadau o'r natur yma yn ein harwain yn anocheladwy i'r penderfyniad fod rheswm dyn yn cyfateb o ran natur i'r Rheswm a luniodd y greadigaeth weledig; o herwydd pan y dywedir ein bod, o fewn rhyw derfynau, yn deall gweithredoedd y greadigaeth, eu cyfansoddiad, a'u deddfau, yr ydym yn hòni fod y meddwl sydd yn deall, a'r Meddwl sydd wedi cynllunio, mewn cydgordiad â'u gilydd.

Mewn canlyniad i'r cydgordiad hwn, y mae dyn yn cael ei arwain hefyd i ymestyn yn mlaen yn ddiddiwedd o ran parhad. Dyn yn unig, o'r holl greaduriaid sydd ar y ddaiar, sydd yn edrych yn ol ac yn mlaen ac y mae pob chwanegiad at ei wybodaeth o barhad yn ddyrchafiad arno. Po eangaf y byddo gwelediad dyn dros feusydd amser, lleiaf oll y dygir ef yn gaeth i bleserau mynyd awr. Y mae daiareg, yn ystod y blyneddoedd diweddaf, wedi agor llygad dyn ar barhad mor faith yn ol, na allasai edrych arno oni buasai yn etifedd parhad meithach yn mlaen. Y mae gwyddor yn arwain dyn i ffurfio dysgwyliadau am anfarwoldeb, gan ei bod yn ei gynnefino â pharhad nas dichon i ddychymyg dyn briodoli dechreuad pendant iddo. Y mae y dysgwyliad a feithrinir, ar y tir yma, yn cael ei gryfhau yn annhraethol gan syched angerddol y galon ddynol—o herwydd ei hangen cyntaf hi ydyw anfarwoldeb. Yn chwanegol at hyn hefyd y mae teimladau moesol dyn, yn eu bywiogrwydd anniflanedig, yn galw am y dyfodol, ac yn dyweyd wrthym fod y dyfodol hwnw yn ddiddiwedd.

Y ddau gwestiwn o berthynas i'r enaid yr ydym wedi nodi yn y sylwadau hyn ydynt, Yn gyntaf, Fod *enaid* dyn yn wahanol yn ei holl briodoliaethiaethau i'r *corff*, neu fod priodoliaethau *ysbryd* yn wahanol i briodoliaethau *mater*. Ac yn ail, Fod *enaid dyn* yn wahanol i *enaid yr anifail*. Nid ydym wedi rhoddi ond awgrymiadau yn unig, heb ddyweyd nemawr ddim, am reddfau anifeiliaid, y rhai a helaethir arnynt yn gyffredin ar y mater hwn. Gwel GREDDF. O'r ddau gwestiwn uchod, y pwysicaf ydyw y gwahaniaeth hollol a diammodol sydd rhwng meddwl a mater, neu gorff ac enaid. Y mae holl briodoliaethau y naill yn wahanol i briodoliaethau y llall. Y mae gwahaniaeth hollol, heb un gradd o debygolrwydd rhyngddynt, o'r dechreu i'r diwedd. Rhwng enaid dyn ac anifail y mae y tebygolrwydd yn fawr, yn nechreuad eu bod, a'r gwahaniaeth yn ymddangos yn fach; ond dan ddylanwadau priodol, y mae y tebygolrwydd yn myned yn llai lai, a'r gwahaniaeth yn myned yn fwy fwy. "Dan ddylanwadau priodol," o herwydd y mae yr anifail dan bob amgylchiadau yn cyrhaedd yr hyn sydd yn gyrhaeddadwy iddo; ond nid felly dyn. Nid yw yr anifail byth, yn ei ymestyniad at y daioni uchaf y dichon ei natur ei fwynhau, yn syrthio yn fyr o gyrhaedd hyny; ond, ysywaeth, y mae dyn. Y mae chwaneg yn bosibl iddo; ond fe ddichon iddo fethu ei gyrhaedd, o herwydd nid ydyw ei ddaioni uchaf ef wedi ei roddi dan gadwraeth ei nwydau a'i reddfau. Iè, y mae daioni uchaf dyn yn ei gyssylltiadau corfforol yn beth nas dichon iddo byth ei gyrhaedd ond trwy iddo ymgyrhaedd at ddaioni uwch na daioni corfforol.

Mewn perthynas i'r gwahaniaeth rhwng meddwl dyn a meddwl yr anifail, y mae awgrymiadau wedi eu rhoddi sydd yn dangos ei fod yn annhraethadwy. Y mae yn wir nad oes dim yn nghyfansoddiad dyn, o ran ei gorff na'i feddwl, nad oes gysgod o hono yn y creaduriaid is law i ddyn. Y mae rhai rhywogaethau o anifeiliaid yn meddu rhyw gysgod gwan o elfenau moesol—rhyw ymwybyddiaeth o ddaioni, a'r gwrthwyneb. Felly hefyd y mae cyffelybrwydd i reswm ganddynt. Ond y mae y gallu o ymddadblygiad a chynnydd yn perthyn i'r naill, nad yw yn perthyn i'r llall; ac y mae y gwahaniaeth hwn yn sail digonol i'r casgliad fod gwahaniaeth *natur* a *rhywogaeth* rhwng dyn a'r anifail. Wrth ddywedyd hyn, y mae o bwys i ni beidio gwneuthur gwahaniaeth rhwng enaid dyn ac enaid anifail o'r fath natur ag a'n harweinia i sylfaenu anfarwoldeb dyn ar symlrwydd anghyfansawdd ac ysbrydolrwydd pur ei natur. Rheswm a glywir

Digitized by Google

yn fynych dros anfarwoldeb yr enaid ydyw hyn —ei fod yn anfarwol yn ei *natur, o angenrheidrwydd.* Ac er mwyn bod yn gysson wrth ymresymu yn erbyn anfarwoldeb enaid yr anifail, rhaid gwadu ei fod ef yn berchenog ar enaid, o'r un cyfansoddiad a hanfod mewnol ag ydyw enaid dyn. Mewn geiriau ereill, rhaid i ni ddywedyd nad ydyw enaid yr anifail ond cynnyrch y peiriant corfforol; ac o ganlyniad, ar ddadgyfansoddiad y peiriant, y mae yr enaid anifeilaidd yn diflanu. Y mae hyn yn dir peryglus i amddiffyn ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb yr enaid dynol arno; o herwydd os addefir y dichon i'r arwyddion o feddwl, a theimlad, ac ewyllysiad, a amlygir yn y creaduriaid direswm fod yn gynnyrch gweithrediad yr ymenydd a'r gïau, bydd yn anhawdd i ni wrthsefyll y rhai a ddywed y dichon i'r arwyddion o feddwl, a theimlad, ac ewyllysiad, mewn dyn hefyd, fod yn gynnyrch yr ymenydd a'r gïau, onl wedi eu gweithio a'u *refinio* yn uwch. Mae y profion priodol o anfarwoldeb yr enaid yn ddigon lluosog a chryfion fel na raid i ni ddefnyddio dim sydd yn ammheus ac yn arwain i gasgliadau nas gallwn eu derbyn. Y mae priodoli yr amlygiadau o feddwl sydd yn yr anifail direswm i fywyd organaidd a chorfforol yn unig, yn ein gwanhau i amddiffyn gwir ysbrydolrwydd ac anfarwoldeb enaid dyn. Os caniatawn y dichon i'r amlygiadau o feddwl ag a ganfyddir mewn anifeiliaid direswm fod yn ffrwyth bywyd organaidd yn unig, ni a roddwn fantais i'r gelyn i wadu ysbrydolrwydd enaid dyn, a chyda hyny, hanfodiad byd ysbrydol o gwbl. Ni raid i ni ofni, wrth addef fod yr anifail yn berchen rhywbeth uwch na'r ymenydd—mewn gair, fod ganddo enaid neu feddwl—y'n gorfodir i addef anfarwoldeb yr anifail. O herwydd y profion priodol o anfarwoldeb enaid dyn ydynt ei syched am anfarwoldeb, ei gymhwysder i gynnydd diddiwedd; ac yn enwedig, ei gydwybod, a holl elfenau moesol ei natur; yn nghyd â chymhwysder ei natur i wasanaethu, i addoli, ac i fwynhau Duw. Yn annibynol ar yr Ysgrythyrau, y rhai hyn ydynt y profion priodol o'r gosodiad dan sylw; ac nid yr hyn a allwn ni gasglu am symledd a natur ddigyfansawdd yr enaid. Y mae y gwahaniaeth rhwng dyn ac anifail yn amlwg ac yn anghyfnewidiol yn y pethau cyntaf, ond yr ydym ar dir tywyll ac ansicr i ddyweyd dim am yr olaf.

**ENAINT,** [ên=*essence*, Pughe; שמן; μῦρον]: eli perarogl. Y mae y gair Hebraeg weithiau yn arwyddo *brasder*, pa un bynag ai brasder enawd ynte brasder tir a daiar. Ceir y gair yn yr ystyr cyntaf yn *Esa.* xxv. 6; x. 27. Yn yr adnod olaf cyfieithir y gair yn *eneiniad:* "a dryllir yr iau (sef iau Israel) o herwydd yr *eneiniad*" (llythyr., *brasder*): ffugr wedi ei gymmeryd oddi wrth ŷch bras neu dew, medd Gesenius, yn dryllio ac yn bwrw ymaith yr iau oddi ar ei war. Cymharer *Deut.* xxxii. 15; *Hos.* iv. 16. Arwydda y gair *frasder* neu ffrwythlonrwydd tir, yn *Esa.* xxviii. 1—"dyffrynoedd breision," sef, dyffrynoedd tra ffrwythlawn: ac yn *pen.* v. 1 "bryn tra ffrwythlawn"—llyth., "bryn bras."

Y mae y gair (*shemen*) hefyd yn fynych yn arwyddo "olew yr olewydden," sef *brasder* yr olewydden: *Exod.* xxvii. 20; xxx. 24; *Lef.* xxiv. 2; cymharer *Deut.* viii 8; xxviii. 40; yn syml, heb ei gyssylltu â'r gair *olewydden: Deut.* xxxii. 13; 2 *Bren.* iv. 2, 6, 7; *Ier.* xl. 10; *Iob* xxix. 6; fel y cludid ef i Tyrus o'r Aipht: (*Ezec.* xxvii. 17; *Hos.* xii. 1); fel y cymhwysid ef at friwiau (*Esa.* i. 6; cymharer *Luc* x. 34); at wasanaeth y lamp neu y canwyllbren cyssegredig (*Exod.* xxvii. 20; xxxv. 8, 14, 28; *Num.* iv. 16); at barotoi ymborth (1 *Bren.* xvii. 12; *Ezec.* xvi. 13, 19); ac hefyd mewn offrymau (*Micah* vi. 7; *Lef.* viii. 26; *Num.* vi. 15); yn enwedig offrymau heb waed (*Ezec.* xxiii. 41; *Lef.* ii. 1, &c.); ac fel diod offrwm (*Gen.* xxviii. 18; xxxv. 14).

Defnyddir yr un gair (*shemen*) hefyd, mewn llawer o fanau, i arwyddo *olew perarogl*, neu *enaint*, er eneinio yr hyn a'n dwg at destyn penodol yr erthygl hon. Cyfieithir y gair yn yr ystyr yma genym ni weithiau yn olew: 2 *Bren.* ix. 6; *Salm.* xxiii. 5; *Preg.* ix. 8. Weithiau, cyssylltir gair arall wrtho, i ddangos ei ansawdd; megys, *olew llawenydd* (*Esa.* lxi. 3; *Salm* xlv. 7); yr *olew goreu* (2 *Bren.* xx. 13); *enaint daionus a thywalltedig* (*Can.* i. 3); *enaint gwerthfawr* (*Salm* xxiii. 2; *Preg.* vii. 1).

Yr enaint hwn, neu y cyffelyb, oedd "enaint yr apothecari" (*Preg.* x. 1), yr hwn a gyfansoddid o amryw sylweddau, fel y gwelir wrth gymharu *Iob* xli. 31, â *Plin. Hist. Nat.* xxix. 8. Cyfansoddid yr enaint hwn yn y dwyrain, yn enwedig gan yr Israeliaid, o olew yr olewydden, cynnyrch gwerthfawr Palestina (*Deut.* xxviii. 40; *Micah* vi. 15), ac amryw berlysiau ereill—rhai tramor yn benaf (1 *Bren.* x. 10; *Ezec.* xxvii. 22), yn enwedig balsam, myrr, a nard. Yr oedd yr enaint yma, gan amlaf, yn werthfawr (*Amos* vi. 6), ac yn foethusrwydd a chwennychid yn fawr yn y dwyrain. Yr oedd parotoi yr enaint goreu (o'r hyn y ceir darluniad yn *Pliny's Hist. Nat.* xiii. 2), yn gofyn medr arbenig; ac am hyny yr oedd yn orchwyl neu broffes neillduol. Nid oedd y *roechim* (*Exod.* xxx. 25, 35; *Neh.* iii. 8; *Preg.* x. 1), a gyfieithir genym ni yn *apothecari*, neb amgen, medd Kitto, na gwneuthurwr yr enaint hwn, a pheraroglau cyffelyb. Yr oedd y math goreu o enaint yn cael ei wneuthur mor gryf, a'i wahanol ddefnyddiau yn cael eu cymmysgu mor berffaith, fel y gwyddys iddo gadw ei arogl am gannoedd o flynyddoedd. Y mae un o'r blychau alabaster yn yr amgueddfa yn Nghastell Alnwick yn cynnwys peth o hen enaint yr Aipht, sydd rhwng dwy a thair mil o flynyddoedd o oedran, ac y mae yn cadw ei arogl hyd y dydd hwn.—*Wilkinson, Anc. Egypt*, ii. 314.

Cedwid yr enaint hwn, yn yr hen amseroedd, weithiau mewn phiolau (1 *Sam.* x. 1; 2 *Bren.* ix. 1, 3), neu mewn cyrn: 1 *Sam.* xvi. 1, 3; 1 *Bren.* i. 39. Byddid yn cael y defnyddiau, ac yn fynych yr enaint wedi ei barotoi yn barod i'w ddefnyddio, oddi wrth y Phœniciaid yn benaf, y rhai a'i trosglwyddent mewn blychau alabaster bychain, yn y rhai y cadwai yr enaint peraroglus hwyaf a goreu. Y mae cyfeiriad at y blychau alabaster hyn mewn tri lle yn y Testament Newydd, sef *Mat.* xxvi. 7; *Marc* xiv. 3; *Luc* vii. 37. Gadawyd *alabastron* (*alabaster*), enw defnydd y blwch, allan o'n cyfieithiad ni:—"blwch o enaint gwerthfawr," medd Matthew; "blwch o enaint o nard gwlyb gwerthfawr," medd Marc; a "blwch o enaint," medd Luc; yn lle "blwch alabaster o enaint," &c. Y mae y gair *alabaster* i mewn yn y cyfieithiad Seisoneg; ac y mae yn well o hyny na'r cyfieithiad Cymraeg yn y manau dan sylw. Mae yn sier mai enw *defnydd* y blwch a dorodd y wraig, er tywallt ei gynnwysiad ar ben (*Mat.* xxvi. 7; *Marc* xiv) a thraed (*Luc* vii. 37, 38; *Ioan* xii. 3) yr Arglwydd Iesu, ydyw alabaster; ac yna y mae y Deg a Thrigain yn

Digitized by Google

defnyddio y gair *alabastros* yn 2 *Bren.* xxi. 13, am y gair Hebraeg צלחת (*alachath*), a gyfieithir genym yn *gwpan*. Y mae Horace [*Od.* iv. 12] yn defnyddio y gair *onyx* yn yr un modd: "Nardi parvus *onyx* eliciet cadum." Math o grisfaen calchaidd ydyw alabaster, tebyg i farmor, ond ei fod yn feddalach a haws ei weithio; ac am hyny yr oedd yn dra chyfaddas i'w wneyd yn flychau bychain i ddal yr enaint gwerthfawr dwyreiniol, fel y sylwa *Pliny*, xiii. 2, 20. Yr oedd gweithfa yn Alabastron yn yr Aipht, i wneuthur y blychau hyn i ddal peraroglau; a chloddid y defnydd a ddarluniwyd yn y mynyddoedd cyfagos. Galwodd y Groegiaid y llestri hyn ar enw y ddinas yn



293.—Blychau Alabaster.

yr hon y gweithid hwy. Yn mhen amser wedi hyny, glynodd yr enw wrth ddefnydd y llestri, sef y grisfaen a ddarluniwyd eisoes; ac o'r diwedd, galwyd pob llestri a wneid i ddal peraroglau. yn *alabaster*. Y mae Theocritus yn son am *alabaster euraidd* [*Idyl.* xv. 114]; a chafwyd llestri perarogl o wahanol fathau o feini, o wydr, ifori, asgwrn, a chregyn, yn hen feddrodau yr Aipht.—*Wilk.*, iii. 379. Gan hyny, nid yw yn canlyn, o angenrheidrwydd, fod y blwch a ddefnyddiodd y wraig yn Bethania yn wir alabaster; ond y mae tebygolrwydd ei fod felly, gan mai blychau a wneid o'r maen hwnw a ystyrid y rhai cyfaddasaf i ddal peraroglau cryfion a gwerthfawr [*Plin. Hist. Nat.*, xiii. 2; xxxvi. 8, 247], y fath ag y dywed yr efengylwyr yn bendant fod yr enaint a dywalltodd y wraig ar yr Arglwydd Iesu. Dywedir i'r wraig *dori* y blwch: yr hyn a eglurir trwy dybied mai un ar ddull costrel olew Florence ydoedd, yn meddu gwddf hir a chul, â'r genau wedi ei selio yn gywrain a diogel; a'r ffordd fwyaf arferol, a rhwyddaf i gael y cynnwysiad, oedd tori y rhan uchaf o'r gwddf.

Yr oedd gan yr Hebreaid enaint arall at wasanaeth sanctaidd, i eneinio llestri cyssegredig, yr offeiriaid, ac yn enwedig yr archoffeiriad. Gelwir hwn yn Hebraeg yn *such shemen*, a chyfieithir ef yn *olew yr enaint* (*Exod.* xxv. 6); *olew yr eneiniad* (*Exod.* xxix. 7; xl. 9; *Lef.* viii. 2, 10; *Num.* iv. 16); *olew cyssegredig* (*Num.* xxxv. 25); *olew sanctaidd* (*Salm* lxxxix. 20); *olew eneiniad sanctaidd* (*Exod.* xxx. 25); *olew eneiniad yr Arglwydd* (*Lef.* x. 7); ac *olew eneiniad ei Dduw* (*Lef.* xxi. 12). Cyfansoddid hwn o'r defnyddiau gwerthfawr a pherarogl canlynol:—*myrr*, dwy ran—pum can sicl; *cassia*, dwy ran—pum can sicl; *sinamon peraidd*, un ran—deucant a deg a deugain o siclau; *calamus peraidd*, un ran—deucant a deg a deugain o siclau; a swm digonol—hin—o *olew olewydden:* y cwbl i gael eu cymmysgu yn gyfaddas, o waith yr apothecari: *Exod.* xxx. 23—25. Gwaherddid yn bendant, dan boen y gospedigaeth drymaf, i neb wneuthur enaint o fath hwn at wasanaeth cyffredin; ac yn wir, nid oedd i gael ei wneuthur o gwbl, ond at wasanaeth cyssegredig yn unig: *Exod.* xxx. 32, 33. Ac y mae y llwybr a gymmerwyd i sicrhau ufudddod i'r gwaharddiad yn deilwng o'r Deddfroddwr ei hunan. Nid oedd cyfansoddiad yr enaint cyssegredig i gael ei gadw yn ddirgel oddi wrth y bobl gyffredin; ond gwnaed ei ddefnyddiau a'i wneuthuriad yn gyhoeddus i bawb, yn yr ymadroddion egluraf; a chyhoeddwyd y gwaharddiad i wneyd ei gyffelyb yn y modd mwyaf pendant ac awdurdodol. Dywed Maimonides mai yr achos yn ddiammheu o'r gwaharddiad hwn oedd, cynhyrfu mwy o barch ac ymlyniad at y cyssegr; a hefyd, attal y drygau mawrion a allent gyfodi, trwy ganiatau i ddynion a ystyrient eu hunain yn fwy ardderchog nag ereill ymiro â'r fath enaint cyssegredig.—*More Novechim*, xx.

Gall y swm dirfawr a wnaed o'r enaint sanctaidd hwn ar yr achlysur dan sylw—dim llai na saith gant a hanner (750) o wnsiau o lysiau peraidd, wedi eu cymmysgu â phum chwart o olew pur—gall hyn roddi rhyw syniad i'r darllenydd o'r defnydd helaeth a wneid gan yr Hebreaid o beraroglau. Yn wir, dywed y Salmydd (cxxxiii. 2) yn eglur fod yr enaint sanctaidd a dywalltwyd ar ben Aaron yn llifo dros ei farf a'i ddillad, nes cyrhaedd hyd yn oed ymyl ei wisgoedd ef. Wedi sylwi pa mor afradus ydyw benywod y dwyrain o beraroglau, dywed Chardin [*Voyages*, iv. 43], "Yr wyf yn cofio ar weinyddiad priodas tair o dywysogesau breninol Golconda, y rhai y darfu i'r brenin, eu tad, yr hwn ni feddai blant ereill, eu rhoddi i'w priodi yr un diwrnod, yn 1679, fod peraroglau yn cael eu gwastraffu ar bob un o'r gwahoddedigion fel y cyrhaeddai y lle. Yr oeddynt yn eu taenellu ar y rhai a wisgasid mewn gwyn; ond rhoddent hwy ar ddwylaw y rhai a wisgent ddillad lliwiedig, gan y buasid yn difwyno y dillad trwy eu tywallt arnynt. Dygid y ddefod yn mlaen fel hyn:—tywelltid ar y person botelaid o ddwfr rhosynau, yn cynnwys tua hanner peint; ac yna, potelaid fwy o ddwfr wedi ei gymmysgu â saffrwm, nes lleitho yr holl wisg âg ef. Wedi hyny, rhwbid y breichiau a'r corff â pherarogl o laudanum ac ambergris; ac yna rhoddent dorch dew o iasmin (math ar flodeu perarogl) o amgylch y gwddf. Peraroglwyd fi fel hyn â saffrwm mewn amryw o dai mawrion yn y wlad hon a manau ereill. Y mae yr anrhydedd yma yn arfer gyffredin yn mysg y benywod sydd yn meddu moddion i'w gyrhaedd."

Y mae yn anhawdd, medd Calmet, i rai heb fod yn gydnabyddus â'r defodau dwyreiniol, ac â defnyddiau gwerthfawr eu henaint perarogl hwy, ddirnad prydferthwch llawer o'r cymhariaethau Ysgrythyrol sydd yn crybwyll am enaint. "Gwybed meirw (er nad ydynt ond trychfilod bychain) a wnant i enaint (enaint perarogl) yr apothecari ddrewi: felly y gwna ychydig ffolineb (neu gildynrwydd, trwy ei arogl drwg, orchfygu pereidd-der doethineb ac anrhydedd);" *Preg.* x. 1. Y mae Calmet yn nodi ymadrodd arall sydd yn crybwyll am enaint, a ymddengys yn ddigon dyrys; ac y mae efe yn cynnyg yr eglurhad

Digitized by Google

ganlyn arno, fel un a all arwain i wir ystyr y gymhariaeth:—"Defni parhaus ar ddiwrnod gwlawog, a gwraig anynad (gwreiddiol, gwraig hoff o wychderau — un yn ymhyfrydu mewn dillad gwychion), cyffelyb ydynt (neu, yn ol y Deg a Thrigain, 'a yrant ddyn allan o'i dŷ'): y mae yr hwn a'i cuddia hi (a'i cyfynga—a'i ceidw hi o'r golwg), yn cuddio (yn cyfyngu) y gwynt—yr ysbryd; hyny yw, mae yn orchwyl pur flinderus: ac olew (enaint, brasder, digonolrwydd, yr hyn a gasglodd) ei ddeheulaw (ei lafur, ei ymdrechiadau), a ymddengys (a fydd anrhydedd, mewn modd arbenig):" hyny yw, os gall efe attal ei hynfydrwydd a'i thraul, gall gyrhaedd cyfoeth ac anrhydedd. Y mae yn amlwg, medd Calmet, fod dull y geiriad yn yr ymadrodd hwn wedi achosi penbleth i'n cyfieithwyr ni; "a dichon," eb efe, "y tueddai chwilio beth yw 'olew ei ddeheulaw ef,' fel y cyfieithasant hwy yr ymadrodd, i chwanegu y dyryswch.—(*Calmet*; *Kitto*; *Eadie*; *Smith*, &c.)

ENAM, [gyda'r fannod העינם=*y ffynnon ddyblyg*; Alex., Ἠναειμ]: un o ddinasoedd Iudah yn y dyffryn: *Ios.* xv. 34. Gan y crybwyllir am dani mewn cyssylltiad â dinasoedd ereill (Iarmuth ac Esthaol), y rhai y gwyddys eu bod yn agos i Timnath, mae yn dra thebyg mai dyma y lle yn nrws pa un yr eisteddai Tamar cyn ymweliad ei thad yn nghyfraith â hi: *Gen.* xxxviii. 14. Nid ydyw y cyfieithiad Seisoneg yn cymeryd y geiriau gwreiddiol, *Pathach enayim*, fel enw priodol, ond yn ei gyfieithu yn "lle agored;" ond cyfieithiad y Deg a Thrigain, fel y Gymraeg, ydyw "drwg Enaim," neu y ffynnon ddyblyg, yr hwn a ddilynir yn awr yn gyffredinol. Yn *Ios.* xv. 34, darlleniad y Peshito am "Tappuah ac Enam" ydyw, "Pathuch-Elam;" yr hyn a duedda i gadarnhau mai yr un yw Enam Iosuah ac Enaim Genesis, fel yr awgrymwyd uchod.

ENAN, [עינן=*yn meddu llygaid*; Αἰνάν]: Ahira mab Enan oedd dywysog llwyth Naphthali yn amser cyfrifiad Israel yn anialwch Sinai: *Num.* i. 15.

ENCIL—IO, [*en—cil*]: gwrthgil, tynu yn ol: *Esa.* lxvi. 5; *Ier.* vii. 5. Arwydda y gair yn yr Ysgrythyrau ymadawiad oddi wrth ffydd a chariad yr efengyl, ac oddi wrth wirioneddau ac athrawiaethau dwyfol. Yr un ystyr sydd i'r gair *gwrthdro*, yn *Ier.* ii. 19; *gwrthnysigrwydd*, yn *Ier.* iii. 22; *cildynrwydd*, yn *Ier.* xiv. 7; *anhyweithdra*, yn *Hos.* iv. 16; *cilio*, yn *Hos.* xi. 4; ac yn *Hos.* xiv. 4, defnyddir y gair *ymchwiliad* yn yr un ystyr: yn yr holl fanau hyn, *backsliding*=gwrthgiliad, a ddefnyddir yn y Beibl Seisoneg.

ENCRATIAID, [ἐγκρατής=*ymattalwyr*]: enw a roddid i amryw sectau i ddynodi eu hymattaliad llym, yn enwedig y sect Gnosticaidd a sefydlwyd gan Saturnin, Marcion, a Tatian, i'r hon y bu Severus wedi hyny yn arweiniwr. Yn ol Epiphanius ac ereill, yr oeddynt yn ystyried fod priodi, bwyta cig, ac yfed gwin, yn anghyfreithlawn. Arweiniodd y syniad olaf hwy i arfer dwfr yn lle gwin yn Swper yr Arglwydd; o herwydd yr hyn y condemniwyd hwy gan Augustine fel Dyfryddion (*Aquarii*); a galwyd hwy gan Theodoret yn offrymwyr dwfr (*hydroparastatæ*). Ymddengys nad yw yr enw i'w ystyried yn gymmaint fel arwydd o unrhyw sylfaenydd neillduol, ag fel arwydd o duedd Gnosticaidd i ysbrydoli bywyd dyn yn y byd hwn, trwy ei wahanu oddi wrth sylwedd neu fater fel egwyddor y drwg, yn ol eu tyb hwy; ac aeth yr Encratiaid yn mhellach yn y syniadau eithafol hyn nag hyd yn oed y feudwyacth fwyaf manwl a goleddid yn yr eglwys yn y dyddiau hyny. Fe allai mai Tatian ydoedd y cyntaf a sefydlodd gymdeithas o'r penboethiaid hyn, yr hon a ddygid yn mlaen yn debyg i'r meudwyaid diweddar; y rhai a lywyddwyd wedi hyny gan Cassianus, Severus, ac ereill. Yn y ddeuddegfed ganrif, condemniwyd hwy, yn mysg ereill, fel hereticiaid.—(*Herzog's Real. Encycl.*; *Eadie's Eccl. Cycl.* &c.)

ENDOR, [עין־דר, neu עין־דאר=*ffynnon y preswyliad*, Ges.; *ffynnon Dor*, Smith; *ffynnon tŷ*, Kitto; *ffynnon cenedlaeth*, Charl.; Ἀενδώρ]: "Endor a'i threfydd," (llyth., "a'i chwaer-drefydd") ydoedd yn nhiriogaeth Issachar, ac eto a berchenogid gan Manasseh: *Ios.* xvii. 11. Fel hyn hefyd yr oedd pump o leoedd ereill oedd yn sefyll mewn rhan yn Aser, ac mewn rhan yn Issachar; ac ymddengys eu bod yn fath o ddosbarth eu hunain, a elwid "tair talaeth," neu y "dalaeth driphlyg—*Nepheth*."

Cedwid Endor mewn cof gan yr Iuddewon am hir amser, fel lle hynod, o blegid y fuddugoliaeth a gafwyd yno ar Sisera ac Iabin. Yr oedd Taanach, Megido, ac afon Cison, oll yn dystion o orchfygiad y llu dirfawr (*Barn.* v. 19—21), ond wrth Endor yn fwyaf penodol y cyssylltodd traddodiad farwolaeth y ddau benadur anrheithgar: *Salm* lxxxiii. 9, 10. Fe allai mai rhyw gof am hyn, rhyw syniad am y llwyddiant a gafodd Israel gynt yn Endor, a barodd i'r gwrthgiliwr Saul fyned yno at y ddewines ar fin ei frwydr olaf â gelyn oedd yn llawn mor ddygasog, ac yn llawn mor ddinystriol ag ydoedd y Midianiaid eu hunain: 1 *Sam.* xxviii. 7. Pa fodd bynag, fel preswylfa y ddewines hono y mae Endor yn fwyaf hynod, lle y cafodd Saul, am y tro olaf, ei geryddu gan Samuel am ei bechodau atgas, a'i rybuddio o'i orchfygiad a'i ddinystr buan.—Gwel DEWINES. Ni chrybwyllir mwyach am Endor yn yr Ysgrythyrau; ond yr oedd yn adnabyddus i Eusebius, yr hwn a'i darluniai fel pentref mawr bedair milldir i'r deheu o Tabor. Y mae yr enw yn aros yma fyth mewn cyssylltiad â phentref mawr, ond sydd yn awr yn anghyfannedd, ar y tu gogleddol i *Jebel Duhy*—"Hermon Fychan" y teithwyr. Y mae craig y mynydd, ar lethr yr hwn y saif *Endûr*, yn llawn ogofäau mawrion; un o'r rhai, yn ol barn teithwyr, a allasai yn hawdd fod yn olygfa ymweliad Saul â'r ddewines. Y pellder o lethrau Gilboa, lle y lladdwyd Saul gan y Philistiaid, i Endor, ydyw o saith i wyth milldir, dros dir garw ac anhygyrch. Nid yw yr enw yn y Testament Newydd.—(*Van de Velde*; *Robinson*, *Stanley*, *Kitto*, *Smith*, &c.)

1. ENEAS, [Αἰνέας]: *Act.* ix. 33, 34. Gwel AENEAS.

2. ENEAS, [Αἰνειας]: a elwir yn y *Brutiau Cymraeg*, yn y *Myv. Arch.*, yn "Eneas Ysgwydwyn" (=Eneas Darian wen); yn yr *Iolo MSS.*, gelwir ef "Annyn Dro," ac "yn llyfr Ieuan Deulwyn, Enion Dro," yr hwn, medd y *Brutiau* "gwedi ymladd Tro (Caerdroiau) a dystrywedigaeth y gaer, a ffoes gyda'i fab Esgannys (Esganiws, Ascanus), yr hwn a aned iddo o Creusa, merch Priaf, brenin Tro, ac y daethant mewn llongau hyd yn Ngwlad yr Eidal, yr hon a elwir Gwlad Rufain. A'r llongau a gafodd ydoedd y

Digitized by Google

rhai a aethant gydag Alexander Paris i Roeg; a'u rhif oedd dwy ar ugain; a rhif y dynion a aethant gydag ef, wyth mil ar ugain, rhwng gwŷr, a gwragedd, a hen, ac ieuanc. Ac yn yr amser hwnw yr oedd Latinus yn frenin yn yr Eidal; a hwnw a arfolles Eneas yn anrhydeddus. Ac wedi hyny Twrn (Tyrru), brenin Rwytyl (yr Yttyl) a gynghorfynws (a genfigenodd) wrtho, ac a ymladdodd âg ef: ac wedi ymladd o honynt a lladd Twrn gan Eneas, Eneas a gafodd freniniaeth yr Eidal, a Lavinia merch Latinus yn wraig iddo (yn ol Brut arall, Esgannys, mab Eneas, a gafodd Lavinia yn wraig); ac o enw hono y galwodd efe ei gastell, Lavinium. Ac Eneas a wladychodd ar wlad yr Eidal bedair blynedd." . Dyna chwedl y Brutiau am Eneas.

Y chwedl yn yr *Iolo MSS.* a ddywed—"Annyn Dro (Einion Dro) a fu 'r brenin cyntaf ar Gymru: efe oedd fab i Brydain ab Aedd Mawr. Aedd Mawr oedd frenin ar genedl y Cymry cyn eu dyfod i Ynys Prydain: a llyma (dyma) yr enwau a fu ar yr ynys hon cyn ei chyfanneddu; sef Clas Merddin; ac wedi dyfod o rai Cymry iddi, y gelwid hi 'r Fel Ynys, gan amled y mel a gafwyd ynddi. A phan wybu Aedd Mawr am hyny, a theced ydoedd, efe a roddes wŷr a moddion i oresgyn y Fel Ynys; a hyny a wnaeth efe, a'i galw yn ol ei enw ei hun, Prydain. Efe a ranodd yr ynys yn dair rhan; ac un rhan a gafodd ei fab hynaf a elwid Lloegr (Locrinus), a hwn a roddes ei enw ar ei wlad. A mab arall, sef yr ieuangaf, a gafodd y rhan ogleddol o'r ynys; a dywedir mai ynwallon oedd enw y mab hwnw. A'r mab canol, a elwid Annyn Dro, a gafodd dir Cymru, o afon Hafren hyd Fôr y Werddon...... Gwr glewfryd oedd Annyn."

Yn ol chwedl Homer, Eneas oedd fab Anchises ac Aphrodite, ac a anwyd ar fynydd Ida. Yr oedd o du ei dad yn or-ŵyr i Tros; ac felly yr oedd yn perthyn i deulu breninol Tro (*Troy*), gan mai ŵyr i Tros oedd Priam ei hun. Addysgwyd ef o'i febyd yn Dardanus, yn nhŷ Alcathons, gŵr ei chwaer. Ar y cyntaf, ni chymmerodd ran yn rhyfel Tro; ac ni arweiniodd efe ei Ddardaniaid yn erbyn y Groegiaid, hyd oni ymosododd Achilles arno ar fynydd Ida, gan yru ymaith ei ddeadelloedd. O hyny allan, efe a Hector ydoedd amddiffynwyr mawrion y Troiaid yn erbyn y Groegiaid; ac ymddengys yr hoffid Eneas gan dduwiau a dynion. Achubwyd ef fwy nag unwaith gan y duwiau pan yn nghanol y rhyfel: cludodd Aphrodite ef ymaith pan y clwyfwyd ef gan Diomedes, a chan Poseidon, pan yr oedd ar fin cael ei ladd gan Achilles. Nid yw Homer yn crybwyll dim am ymfudiad Eneas i'r Eidal ar ol "dystrywiedigaeth Tro;" ond yn y gwrthwyneb, ystyriai Homer fod Eneas a'i hiliogaeth yn llywodraethu Tro ar ol dilead teulu Priam.

Y mae chwedlau diweddarach yn dra amrywiol gyda golwg ar ymddygiad Eneas ar ol darostyngiad Tro, a'r dygwyddiadau a ganlynasant hyny. Pa fodd bynag, mae y rhan fwyaf yn cytuno ei fod wedi ymneillduo i fynydd Ida ar ol cwymp y ddinas, gyda'i gyfeillion a delwau y duwiau, ac yn enwedig delw Pallas (*Palladium*); a'i fod wedi croesi oddi yno i Ewrop, ac wedi ymsefydlu yn Latium, yn Italy, lle y daeth efe yn arwr cenedlaethol y Rhufeiniaid. Rhoddir darluniad manwl o grwydriadau Eneas, yn nghyd â'r amryw ddinasoedd a themlau y credir iddo eu sylfaenu yn ystod ei wibdeithiau, cyn cyrhaedd Latium, gan Dionysius o Halicarnassus [i. 50, &c.]—hanes yr hwn sydd yr un, ar y cyfan, ag a ddilynwyd gan Virgil yn ei *Æneid*, er fod yr olaf wedi gwneuthur amryw addurniadau a chwanegiadau; ac y mae rhai o honynt, megys ei laniad yn Carthage, a'i gyfarfyddiad â Dido, yn gwbl anghydweddol â hanesiaeth chwedlonol. O Pallene, lle y ganafodd Eneas ar ol cwymp Tro, mordwyodd gyda'i gyfeillion i Delos, Cythera, Boiae yn Laconia, Zacynthus, Leucas, Actium, Ambracia, ac i Dodona, lle y cyfarfu â Helenus o Tro. O Epirus, moriodd ar draws Môr Ionia i Italy, lle y glaniodd ar benrhyn Iapygian. Oddi yno, croesodd drosodd i Sicily, lle y cyfarfu y Troianiaid Elymas ac Aegestus (Acestes) ac yr adeiladodd ddinasoedd Elyme ac Aegesta. O Sicily hwyliodd yn ol drachefn i Italy, glaniodd yn mhorthladd Palinurus, daeth i ynys Leucasia, ac o'r diwedd i oror Latium. Yr ydoedd amryw arwyddion wedi dynodi y lle hwn fel terfyn ei grwydriadau; ac o ganlyniad, ymsefydlodd ef a'i Droianiaid yn Latium. Galwyd y lle y glaniasant ynddo yn Tro. Ymbarotodd Latinus, brenin y cynfrodorion, i ryfel; ond wedi hyny daeth i gynghrair â'r alltudion, rhoddodd ran o'i diriogaethau iddynt, a chynnorthwyodd i orchfygu y Rutuliaid. Sylfaenodd Eneas ddinas Lavinium, a galwodd hi Lavinium, ar enw Lavinia, merch Latinus, yr hon a briododd. Yn y cyfamser, torodd rhyfel newydd allan rhwng Latinus a Turnus, yn yr hon y cwympodd y ddau dywysog; ar yr hyn y daeth Eneas yn unig reolwr ar y cynfrodorion a'r Troianaid, a gwnaed y ddwy genedl o hyny allan yn un. Yn fuan ar ol hyn, lladdwyd Eneas mewn rhyfel â'r Rutuliaid, y rhai a gynnorthwyid gan Mezentius, brenin yr Etrusciaid. Gan na chanfuwyd ei gorff ar ol y frwydr, credid iddo gael ei gludo i'r nefoedd, neu ei fod wedi darfod am dano yn yr afon Numicius. Cyfododd y Latiniaid feddadail iddo, ar yr hon yr ysgrifenwyd, "I'r Tad a duw y genedl." Darlunia Virgil Eneas yn glanio yn Italy yn mhen saith mlynedd ar ol cwymp Tro, a chrynoa yr holl ddygwyddiadau yn Italy, o'r glaniad hyd farwolaeth Turnus, i ystod ugain niwrnod. Credid yn nisgyniad y Rhufeiniaid o'r Troianiaid trwy Eneas er yn fore, ond mae yn debyg nad oes i'r cyfan un sail hanesyddol. Ymddengys mai ar y chwedlau diweddaraf gan Dionysius, Virgil, ac ereill, ac nid ar hen chwedl Homer y seiliodd Sieffre o Fynwy ei chwedl am Eneas Ysgwydwyn, &c., yn y Brutiau Cymreig.

3. ENEAS SILVIUS: mab Silvius, ac ŵyr Ascanius, ydyw y trydydd ar restr breninoedd chwedlonol Alba yn Latium. Ystyria y Silviaid ef fel sylfaenydd eu llwyth.—(*Myv. Arch.*; *Iolo MSS.*; *Dionysius*; *Virgil*; *Smith*, &c.)

EN-EGLAIM, [עין־ענלים=*ffynnon dau lo*, oddi gerth, fe allai, fod ע am אנלים – *dau lyn*, Gesen.; *ffynnon dwy anner*, Smith; *ffynnon y cerbydau*, Charl.; Ἐναγαλλείμ]: lle a enwir gan Ezeciel yn unig (*Ezec.* xlvii. 10), ar lan y Môr Marw, fel yr ymddengys; ond pa un ai yn agos ai yn mhell o Engedi, ar y gorllewin ai ar y dwyrain i'r môr, y mae yn anmhosibl penderfynu oddi wrth y testyn. Y mae Jerome, yn ei esboniad ar yr ymadrodd, yn ei roddi yn ngenau yr Iorddonen; ond nid yw y dyb yma yn cael ei hamddiffyn gan brofion ereill. Y mae ereill [er esampl, *Ges. Thes.*, 1019] yn meddwl mai yr un ydoedd ag Eglaim; ond y mae y ddau air yn wahanol, gan fod En-eglaim yn cynnwys yr Ain, yr hon nid ydyw braidd un amser yn newid i unrhyw sain chwerw arall.

Digitized by Google

ENEINIAD DIWEDDAF, [*extreme unction*]: y ddefod yn Eglwys Rhufain o gymhwyso olew sanctaidd at bersonau cleifion y tybir eu bod mewn perygl o farw. Dywed y defodlyfrau Pabaidd ei bod "yn sacrament sydd yn rhoddi i'r holl Gristionogion a flinir gan unrhyw ymosodiad o glefyd peryglus, faddeuant cyflawn o weddill eu pechodau, ac yn eu cynnysgaethu â gras i ddyoddef poenau a blinderau eu gwendid mewn amynedd, ac yn rhoddi iddynt nerth dignol i farw marwolaeth y cyfiawn, ac i'w hadferyd i iechyd, os bydd hyny yn well er lles eu heneidiau." Y mae Alet yn gwneuthur yr eneiniad diweddaf yn sacrament o iawn am ddiffygion edifeirwch blaenorol; canys dywed ei ddefodlyfr ef ei bod hi "yn carthu ymaith ein sothach moesol, neu y pechodau na buom yn ddigon gofalus i edifarhau o'u plegid."

Rhoddwn yn awr hanes byr am y dull y cyflawnir y ddefod:—Wedi i'r offeiriad drochi bawd ei law ddeheu yn yr olew sanctaidd, aiff yn mlaen i nodi peiriannau ei bum synwyr âg arwydd y groes; ac ar ol pob cyffyrddiad, sych y rhan a gyffyrddodd â phelen gotwm, er mwyn yr hyn y dwg saith o belenau gydag ef i'r perwyl. Y drefn a ddilynir yw hon:—eneinir y llygad deheu yn gyntaf; yna y llygad chwith, y clustiau, ac wedi hyny y ffroenau (nid blaen y trwyn) yn yr un drefn, yna y gwefusau; ac ar ol hyny cyffyrddir â chledr y dwylaw a gwadnau y traed â'r olew cyssegredig. Eneinir elwlenau (*reins*) dynion hefyd; ond ni wneir hyn â merched. Wrth wneyd pob cyffyrddiad, dywed yr offeiriad—"*Hanc sacram unctionem, et suam piissimam misericordiam indulgeat tibi Deus quicquid peccâsti, per visum*," neu "*auditum, olfactum, gustum, et tactum*," fel y byddo yr achos—"Rhynged bodd i Dduw, trwy yr eneiniad sanctaidd hwn, a thrwy ei dduwiolaf drugaredd, faddeu i ti y pechodau a gyflawnaist trwy *y llygaid, y clustiau, y trwyn, yr archwaeth, a'r teimlad.*"

Wedi gorphen yr eneiniad, rhwbia yr offeiriad ei fysedd a gyffyrddasant yr olew â darnau bychain o fara, ac yna gylch ei ddwylaw. Yn nesaf bwrir y briwsion bara a'r dwfr i'r tân; a chymmerir y pelenau cotwm a ddefnyddiwyd yn y seremoni i'r eglwys i'w llosgi, a rhaid bwrw eu lludw i'r *sacrarium* (y gyssegrfa). Rhaid i bob peth cyssylltiedig â'r seremoni gael ei gyflawnu gan offeiriad; os amgen, cyll y cyfan ei effaith. Ni weinyddir y sacrament yma i droseddwyr wedi eu condemnio i farw, gan nad clefyd a fydd yr achos o farwolaeth y cyfryw rai. Gwrthodir ei rhoddi hefyd i'r rhai a fyddant feirw yn anedifeiriol; ond ystyrir fod pawb a flinir gan ryw glefyd marwol, a'r rhai a fyddont mewn sefyllfa beryglus o blegid oedran mawr a'i ganlyniadau, yn ddeiliaid cyfaddas i'r seremoni yma.

Llefaru y mae yr ymadrodd yn *Iago* v. 14, 15, y cyfeiria y Pabyddion ato, am adferu dyn claf i fywyd; ac nid ei barotoi i ymadael o hono. Ni phenderfynwyd fod cymhwyso olew at ddyn claf yn sacrament hyd yr unfed ganrif ar ddeg; a pherthyn yr anrhydedd o'r weithred i'r pab Eugenius. Wedi i offeiriaid yr Eglwys Babaidd fod yn parhau am lawer canrif i gymhwyso olew er gwellhau cleifion yn aflwyddiannus, ymddengys iddynt droi o'r diwedd i lefaru am ei rinweddau ysbrydol i adgyfodi y claf neu y marw ysbrydol. Gwellhaodd yr ysgolheigion y meddylddrych yma yn ol eu cyfrwysdra cyffredin, nes yr ymlynodd y syniad o'r diwedd wrth yr eglwysi dwyreiniol a gorllewinol fel peth angenrheidiol—fel defod mewn un, ac fel sacrament yn y llall. Felly yn nghymmanfa Trent [eisteddiad xiv], cyhoeddwyd y canonau canlynol:—"Os dywed neb nad yw eneiniad diweddaf yn sacrament, wedi ei gosod gan Grist ein Harglwydd, a'i harfer gan y bendigaid apostol Iago, neu mai defod yn unig ydyw, wedi ei chael gan y tadau, neu o ddychymyg dyn, bydded anathema. 2. Os dywed neb nad yw eneiniad cyssegredig y claf yn cyfranu gras, neu yn maddeu pechodau, neu yn esmwythau y claf; a bod ei rinwedd wedi darfod, megys pe na byddai y gras o iachau ond peth a gyflawnid gynt yn unig, bydded anathema. 3. Os dywed neb fod y ddefod a'r arfer o eneiniad diweddaf, yr hyn a arferir gan Eglwys sanctaidd Rhufain, yn groes i ddadganiad y bendigaid apostol Iago, ac am hyny y gellir ei newid, ac y gall Cristionogion ei ddibrisio yn ddibechod, bydded anathema. 4. Os dywed neb am henuriaid yr eglwys y cynghora y bendigaid Iago eu dwyn i eneinio y claf, nad offeiriaid oeddynt wedi eu hordeinio gan esgob, ond mai gwŷr mewn oedran yn mhob cymdeithas oeddynt, ac am hyny nad offeiriad yn unig ydyw gweinyddwr priodol eneiniad diweddaf, bydded anathema."

Y mae Eglwys Groeg hefyd yn ystyried yr olew cyssegredig yn un o saith gyfrinach neu sacrament yr eglwys, "yn yr hon y bydd i was yr eglwys eneinio y claf âg olew, gan weddïo Duw am ei adferiad o'r clefyd, ac am faddeuant o'i bechodau." Mae yr eglwys hon, fel Eglwys Rhufain, yn seilio y ddefod ar *Iago* v. 14, 15. Olew pur, digymmysg, yn unig a ddefnyddir ganddynt yn y ddefod. Y maent yn cyssegru digon o'r olew hwn dros yr holl flwyddyn, ar ddydd Mercher yn "wythnos y dyoddefaint;" sef yr wythnos olaf o'r Grawys. Ystyrir y ddefod ganddynt hwy yn gyfartal i eneiniad diweddaf Eglwys Rhufain. Ond er y cyfrifa Eglwys Groeg y ddefod yn mysg ei chyfrinion, eto nid oes dim yn yr holl wasanaeth ar yr achlysur yn arwyddo nas dylid ei gweinyddu i neb ond i un ar ei wely angeu, fel yr ordeinir yn nefodlyfr yr Eglwys Babaidd. Yn y gwrthwyneb, y mae Eglwys Groeg yn dal y gellir ei defnyddio mewn unrhyw afiechyd, fel gwaith duwiol a chymunrhyw... unrhyw afiechyd, fel gwaith duwiol a chymmwynasgar, ond nid fel gwaith anhebgorol angenrheidiol. Yn ol defodlyfr Eglwys Groeg, y mae yn angenrheidiol cael saith o offeiriaid i gyflawnu y ddefod neu y cyfrin, yn llaw pob un o ba rai y bydd gwialen fechan ac ychydig gotwm ar ei phen; ac y mae pob un o honynt, ar gylch, yn ystod y gweddïau, i drochi y cotwm ar flaen y wialen yn yr olew cyssegredig, â'r hwn yr eneiniant y claf ar wahanol ranau o'i gorff. Cyflawnir y ddefod yn awr gan nifer llai o offeiriaid, gan y bydd yn anhawdd yn gyffredin cael y nifer cyflawn yn nghyd, yn ol gofyniad manwl yr eglwys.—(*Buck, Eadie, Pinkerton*, &c.)

ENEINIO—IAD—IOG, [משח=*taenu ar, lledaenu; χρίω; L., ungo*]: taenu enaint ar (beth neu berson). Ymddengys fod eneinio âg olew, perarogl, neu enaint, yn arfer tra chyffredin yn mysg yr Hebreaid, fel yr oedd hefyd yn mhlith yr hen Aiphtiaid. Y mae dau fath o eneiniad yn cael eu dynodi yn y Beibl; sef, *eneiniad sylweddol*, âg olew neu enaint, ac *eneiniad ysbrydol*, â'r Ysbryd Glân.


I. ENEINIAD SYLWEDDOL.

Y mae amryw fathau o'r eneiniad yma yn cael eu crybwyll yn yr Ysgrythyrau.

1. *Eneiniad cyffredin.* Yr oedd eneinio y corff

neu y pen yn arfer gyffredin yn mysg yr Iuddewon, yn gystal ag yn mhlith cenedloedd dwyreiniol ereill: *Deut.* xxviii. 40; *Ruth* iii. 3; *Micah* vi. 17. Ymddengys fod yr Aiphtiaid, yn gystal a'r Groegiaid a'r Iuddewon yn ymeneinio gartref, cyn myned ar ymweliad, er y dysgwylient gael yr arfer yma o groesawiad gan y rhai y byddent yn ymweled â hwy. Y mae yr ymadrodd sydd yn *Salm* civ. 15, "olew a bâr i'r wyneb ddysgleirio," yn dangos yn amlwg fod nid yn unig y gwallt yn cael ei eneinio, ond y croen hefyd. Nid yw yr arfer yma yn ymddangos i ni, yn yr hinsawdd ogleddol hon, yn un hyfryd; ond canfyddir, ar ymchwiliad manwl, fod arferion neillduol y rhan fwyaf o genedloedd yn effaith neillduolion eu hinsawdd a'u sefyllfa; a gallwn fod yn sicr fod y duedd ddwyreiniol yma at eneiniad allanol yn tarddu oddi ar gred y trigolion ei fod yn dra angenrheidiol er iechyd a glanweithdra. Dywed Niebühr, y credir yn Yemen fod eneinio y corff yn ei gryfhau ac yn ei amddiffyn rhag poethder yr haul; oddi wrth yr hyn y mae trigolion y dalaeth hono, o blegid eu bod yn ymwisgo mor brin, yn dra agored i ddyoddef. Y maent yn tybied fod olew, trwy gau chwysdyllau y corff, yn attal gormod chwysiad, yr hyn sydd yn gwanhau y cyfansoddiad. Fe allai hefyd fod yr Arabiaid yn meddwl fod dysgleirdeb y croen yn brydferthwch. Y maent yn eneinio eu cyrff âg olew bob amser ar y tymmor y byddo poethder yr haul yn danbaid. Yr oedd ymattal oddi wrth y ddefod o ymeneinio yn arwydd o alar: 2 *Sam.* xiv. 2; *Dan.* x. 3; *Mat.* vi. 17. Oddi wrth yr arfer o beidio ymiro âg olew mewn amseroedd o alar a thrallod, daeth y weithred o ymeneinio âg olew i arwyddo, yn gyffelybiaethol, bod mewn mwynhad o gysur a llwyddiant: *Salm* xciii. 10; cymharer *Preg.* ix. 8.

Mae rhai yn barnu oddi wrth waith "y wraig yr hon oedd bechadures" (*Luc* vii. 38) yn eneinio traed yr Arglwydd Iesu, fod ei wahoddydd wedi esgeuluso eneinio ei ben ef (*Luc* vii. 46); am



Dar. 294.

hyny, gellir casglu fod hyn yn arwydd o garedigrwydd a delid i ymwelwyr gan y rhai a'u croesawent. Gan mai dyma yr unig grybwylliad uniongyrchol am yr arfer, tybia rhai i'r Iuddewon ei benthyca gan y Rhufeiniaid; ac y mae Wetstein ac ereill wedi gwastraffu swm mawr o ddysgeidiaeth ar y pwnc. Ond gŵyr darllenydd gofalus yr Hen Destament ei bod yn hen arfer, at yr hon y mae yno amryw gyfeiriadau anuniongyrchol. Y mae yn wir nad awgrymir at yr arfer ond anfynych yn ei chyssylltiad â gwleddau a chroesawiadau; ac na buasai y cyfeiriad uniongyrchol dan sylw yn cael ei wneuthur, oddi gerth mewn canlyniad i'r sylwadau ar weithred y wraig yn eneinio traed yr Arglwydd Iesu. Pa fodd bynag, gellir ystyried fod yr Ysgrythyrau canlynol, gystal ag ereill, lle y mae y *mwynhad* o olew a gwin yn cael eu cyssylltu yn nghyd, yn cynnwys awgrymiadau cyffelyb; megys *Salm* xxiii. 5; *Diar.* xxiv. 17; xxvii. 9; *Doeth. Sol.* ii. 7. Gan hyny, y mae yn fwy diogel priodoli dechreuad yr arfer yn mysg yr Hebreaid i'w cymmydogion yr Aiphtiaid, oedd yn hynach ac yn nes atynt na'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid, y rhai eu hunain, y mae yn dra thebyg, a'i cawsant oddi wrth yr un bobl. Y mae hynafiaeth yr arfer yn mysg yr Aiphtiaid yn amlwg



Dar. 295.

ar eu cofadeiliau, ac y mae yn llawer tebycach i arfer yr Hebreaid na dim a geir yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hen na diweddar. Y mae rhai o gerfiadau yr Aiphtiaid yn dangos yr offeiriad yn tywallt olew ar y penadur, megys y darlun uchod. Nid oedd yr Aiphtiaid yn cyfyngu eu heneiniad, medd Wilkinson, at appwyntiad breninoedd ac offeiriaid i'w swyddi cyssegredig. Yr oedd yn arwydd o groesaw i ymwelwyr o bob math mewn tai cyfeillion; ac yr oedd yr ymadrodd arwyddluniol, "eneinio âg olew llawenydd," yn llawn mor ddealladwy yn yr Aipht ag oedd yn Iudea, ac yn cael ei gymhwyso at ddygwyddiadau cyffredin bywyd. Yr oedd yn arfer i was y tŷ weinyddu ar bob ymwelydd cyn gynted ag yr eisteddai, gan eneinio ei ben, fel y gwelir yn yr ail ddarlun.

Y mae yr arfer o eneinio cyrff y meirw yn cael ei awgrymu yn *Marc* xiv. 8, a *Luc* xxiii. 56. Cyflawnid y ddefod hon ar ol i'r corff gael ei olchi; yr hyn a fwriedid i attal cynnydd llygredigaeth. Er fod hyn, o blegid y dull o'i gymhwyso, yn cael ei alw yn eneinio, eto ymddengys mai y sylwedd a ddefnyddid oedd trwyth amryw gyfferi peraroglaidd. Hyn, yn nghyd â rhoddi y corff mewn peraroglau, oedd yr unig ddull o berarogli a arferid yn mysg yr Iuddewon. Gwel PERAROGLI.

2. *Eneiniad swyddol.* Yr oedd eneinio âg olew yn ddefod a arferid wrth gyssegru i bob un o'r tair swydd arwyddluniol yn y wladwriaeth Iuddewig; ac yr oedd y gwrthddrychau a eneinid felly yn gysgodau o'r Eneiniog Mawr—y Messïah, Crist. (1.) Byddai prophwydi weithiau yn cael eu heneinio i'w swydd (1 *Bren.* xix. 16), ac yn cael eu galw yn eneiniog (*messiah*): 1 *Cron.* xvi. 22; *Salm* cv. 15. (2.) Yr oedd yr offeiriaid

Digitized by Google

oll, ar sefydliad cyntaf yr offeiriadaeth Lefiticaidd, yn cael eu heneinio i'w swydd—meibion Aaron, gystal ag Aaron ei hun (*Exod.* xl. 15; *Num.* iii. 3); ond wedi hyny, nid ymddengys i offeiriaid cyffredin gael eu cyssegru trwy eneiniad, ond cyfyngid y ddefod mewn modd neillduol at yr archoffeiriad (*Exod.* xxix. 29; *Lef.* xvi. 32); felly, tybir mai wrth "offeiriad eneiniog" (*Lef.* iv. 3) y golygir yn gyffredin yr archoffeiriad; ac felly y cyfieithir yr ymadrodd gan y Deg a Thrigain: *Lef.* iv. 5, 16; vi. 22. (3.) Breninoedd. Yr oedd yr Iuddewon yn gynnefin â gwneuthur breninoedd trwy eneiniad, cyn sefydlu eu hunbenaeth eu hunain: *Barn.* ix. 8, 15. Yr oedd eneiniad y ddefod benaf, ac o appwyntiad dwyfol, yn nghyssegriad eu breninoedd eu hunain (1 *Sam.* ix. 16; x. 1; 1 *Bren.* i. 34, 39); yn wir, yr oedd yn perthyn mor nodedig i'r swydd freninol, fel mai enw cyffredin ar eu brenin hwy oedd "eneiniog yr Arglwydd;" 1 *Sam.* xii. 3, 5; 2 *Sam.* i. 14, 16. Cyflawnid y ddefod weithiau fwy nag unwaith. Fe eneiniwyd Dafydd dair gwaith yn frenin: yn gyntaf, yn gyfrinachol gan Samuel, cyn marwolaeth Saul, er mwyn rhoddi hawl iddo i'r orsedd (1 *Sam.* xvi. 1, 13); a thrachefn, ar dŷ Iudah yn Hebron (2 *Sam.* ii. 4); ac yn olaf, ar dŷ Israel: 2 *Sam.* v. 3. Ar ol ymwahanu yn ddwy deyrnas, ymddengys y parheid i eneinio breninoedd Iudah ac Israel: 2 *Bren.* ix. 3; xi. 12. Yr oedd y brenin yn cael ei alw yn "eneiniog yr Arglwydd" mor ddiweddar a'r caethgludiad: *Salm* lxxxix. 38, 51; *Galar.* iv. 20. Pa fodd bynag, y mae rhai yn meddwl nad eneinid y breninoedd a ddilynasant Dafydd, ond pan yr ammheuid neu y trosglwyddid eu hawl i'r orsedd, megys yn amgylchiadau Solomon, ac Ioas, a Iehu [*Jahn*, *Arch. Bibl.*, adr. 223]. Heb law breninoedd Iuddewig, canfyddir fod Hazael wedi ei eneinio yn frenin ar Syria: 1 *Bren.* xix. 5. Y mae Cyrus hefyd yn cael ei alw yn eneiniog yr Arglwydd, megys un oedd wedi ei godi gan Dduw i'r orsedd i'r dyben penodol o waredu yr Iuddewon o'r caethiwed: *Esa.* xlv. 1. (4.) Yr oedd gwrthddrychau difywyd hefyd yn cael eu heneinio âg olew, fel arwydd eu bod yn cael eu neillduo at wasanaeth crefyddol. Fel hyn yr eneiniodd Iacob y golofn yn Bethel (*Gen.* xxxi. 13); a phan y dygwyd goruchwyliaeth Moses i mewn, cyssegrwyd y tabernacl a'i holl lestri trwy eneiniad: *Exod.* xxx. 26—28. Y mae yr ymadrodd "eneiniwch y darian" (*Esa.* xxi. 5), yn arwyddo rhwbio olew i'r croen, a estynid ar ystram, o'r hwn y gwneid y darian, er mwyn ei wneyd yn ystwyth ac yn gyfaddas at orchwyl.

3. *Eneiniad eglwysig.* Yr oedd yr "eneinio âg olew yn enw yr Arglwydd," a grybwyllir gan Iago, i gael ei wneuthur mewn cyssylltiad â gweddi gan henuriaid yr eglwys, er iachau y y claf: *Iago* v. 14. Cyffelyb i hyn ydoedd yr "eliad âg olew" a arferwyd gan y deuddeg (*Marc* vi. 13); ac irodd ein Harglwydd lygaid y dyn dall â chlai wedi ei wneyd â phoeryn, er rhoddi ei olwg iddo yn wyrthiol: *Ioan* ix. 6, 11. Dengys y dyfyniadau Talmudaidd a rydd Lightfoot ar *Mat.* vi. 16, 17, fod yr Iuddewon diweddar yn cyssylltu swynion a hustyngiadau ofergoelus â'r fath eneiniadau; a dichon am hyny ei fod ef yn gywir wrth ddeall fod y testyn yn arwyddo—"Arfer yr Iuddewon anghredadwy yw cyssylltu y ddefod o eneinio y claf â hustyngiau swyngyfareddol a rhiniol; ond mor annhraethol well ydyw cyssylltu gweddïau duwiol henuriaid yr eglwys wrth eneiniad y claf." Mae Niebühr yn sicrhau fod yr Iuddewon yn Sana (a diau eu bod mewn amryw barthau ereill o Arabia), gystal a llawer o'r Mahometiaid, yn eneinio eu cyrff âg olew pa bryd bynag y teimlant ryw anhwylder.

II. ENEINIAD YSBRYDOL.

1. Yn yr Hen Destament y mae Gwaredwr yn cael ei addaw dan yr enw Messïah neu Eneiniog (*Salm* ii. 2; *Dan.* ix. 25, 26); a rhoddir dysgrifiad o natur ysbrydol ei eneiniad â'r Ysbryd Glân: *Esa.* lxi. 1; *Luc* iv. 18. Gan fod eneinio âg olew yn arwydd o llwyddiant, ac yn cynnyrchu golwg siriol (*Salm* civ. 15), felly y dysgrifir yr eneiniad ysbrydol hwn, yn ffugrol, fel eneiniad "âg olew llawenydd;" *Salm* xlv. 7; *Heb.* i. 9. Yn y Testament Newydd, dangosir mai Iesu o Nazareth yw Messïah, Crist, neu Eneiniog yr Hen Destament (*Ioan* i. 41; *Act.* ix. 22; xvii. 2, 3; xviii. 5, 28); ac y mae y ffaith hanesyddol ei fod ef wedi ei eneinio â'r Ysbryd Glân yn cael ei chofnodi a'i chadarnhau: *Ioan* i. 32, 33; *Act.* iv. 27, a x. 38. 2. Rhoddir eneiniad â'r Ysbryd Glân i'r Cristionogion hefyd gan Dduw (2 *Cor.* i. 21); a dysgrifir hwy fel rhai yn meddu yr eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw, trwy yr hwn y gwyddant bob peth: 1 *Ioan.* ii. 20, 27. Y mae iro (eneinio) y llygaid âg eli llygaid yn cael ei ddefnyddio yn ffugrol i ddynodi y fraint o gael amgyffred ysbrydol: *Dad.* iii. 18.

Y mae cymhwyso yr enw *Eneiniog* (yr hyn yw ystyr y gair Hebraeg *Messiah*, a'r gair Groeg *Christos*) at yr Arglwydd Iesu, yn arwyddo ei fod ef wedi ei neillduo, ei gyssegru, a'i gyfaddasu gan yr Iehofah at waith mawr prynedigaeth dyn. —(*Kitto*, *Smith*, *Eadie*, &c.)

ENEMESSAR, ['Ἐνεμεσσάρ,'Ἐνεμεσσαρος], yw yr enw dan yr hwn yr ymddengys Salmaneser yn *Llyfr Tobit* (i. 2, 15, &c.). Nid oes un awdurdod hanesyddol i'r llyfr hwn, gan nad ydyw ond gwaith dychymyg yn unig, wedi ei gyfansoddi gan Iuddew o Alexandria; ac nid ydyw yn hynach na diwedd y drydedd ganrif, neu ddechreu y bedwaredd. Llygriad ydyw newidiad yr enw, trwy adael y sill gyntaf, *sal*, allan, a newid lle y ddwy lythyren *m* ac *n*. Enemessar, yn ol awdwr *Tobit*, a gaethgludodd Israel i wlad yr Assyriaid (i. 2, 3), gan ddilyn yr hanes, fel yr ymddengys, sydd yn Llyfr y Breninoedd: 2 *Bren.* xvii. 3—6; xviii. 9—11. Y mae awdwr *Tobit* yn golygu Senacherib nid yn unig yn olynwr Enemessar, ond yn fab iddo (i. 15), heb fod ganddo un awdurdod dros hyny, fel yr ymddengys, ond ei ddyfaliad ei hun yn unig ar destyn yr Ysgrythyr. Gan fod y cerfiadau Assyriaidd yn profi mai Sargon oedd Senacherib, ni ddylid rhoddi dim coel ar fynegiadau hanesyddol *Tobit*.—(*Smith*).

ENERGICI=YNIOLIAID: plaid grefyddol yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a ddalient mai *yni* neu rinwedd Iesu Grist ydyw Swper yr Arglwydd; ac nid ei gorff ef, na chynnrychioliad o hono.—(*Buck*, *Eadie*).

ENERGUMENIAID, [ἐνεργούμενοι = *rhai a berchenogid*]: personau y tybiai yr eglwys, yn yr oesoedd tywyll, eu bod yn cael eu perchenogi gan ysbrydion aflan, ar gyfer y rhai y darparai Cristionogion y pryd hyny lawer o drefniadau. Trosglwyddid hwy i ofal neillduol y consurwyr, y rhai oedd i weddïo drostynt, ac i'w rhoddi mewn rhyw waith diniwed, megys ysgubo yr eglwys, a gorchwylion cyffelyb [*Congr. Carthag.*, iv. 91], "er

Digitized by Google

mwyn gochel cynhyrfiadau mwy cyffrous Satan, rhag i ddiogi demtio y temtiwr:" yr oeddynt hefyd i ddarparu ymborth iddynt yn yr eglwys, eu prif drigfan. Yr oedd ganddynt ffurf o weddi benodol drostynt yn y gwasanaeth cyhoeddus, yr hon sydd ar gof a chadw yn y *Canonau Apostolaidd* hyn y dydd hwn. Cyflwynid hi i Grist, yr hon sydd fel y canlyn:—"Tydi, O! uniganedig Dduw, Mab y Tad Mawr; yr hwn a rwymi y cryfarfog, ac a'i hysbeili o'i ddodrefn; yr hwn a roddi nerth i ni i sathru ar seirff, ysgorpionau, a holl gryfder y gelyn; ti a gyflwynaist y sarff lofruddiog i ni yn garcharor, fel aderyn y tô i blant; tydi, o flaen yr hwn yr ysgwyd ac y cryna pob peth ger bron dy allu; yr hwn a wnei i Satan gwympo o'r nefoedd i'r ddaiar fel mellten, nid gan gwymp lleol, ond gan gwymp o anrhydedd i ddiystyrwch, o blegid ei falais gwirfoddol; tydi, edrychiad yr hwn a sych y dyfnder, a cheryddon yr hwn a wnant i'r mynyddoedd doddi; gwirionedd yr hwn a bery yn dragywydd; yr hwn a foliennir gan blant bychain a rhai yn sngno, a ddyrchefir ac a addolir gan angelion; yr hwn a edrychi ar y ddaiar, ac a wnei iddi grynu; a gyffyrddi â'r mynyddoedd, a hwy a fygant; a geryddi y môr, ac a'i sychi, ac a droi yr afonydd i'r anialwch; yr hwn a wnei y cymylau yn llwch dy draed, ac a rodi ar y môr fel ar balmant; yr hwn a geryddi yr ysbrydion drwg, ac a waredi waith dy ddwylaw rhag gorthrymder yr ysbryd gwrthnysig: canys i ti y perthyn gogoniant, anrhydedd, ac addoliad, a thrwot ti, i'th Dad, yn yr Ysbryd Glân, yn oes oesoedd. Amen."

Cyfleid y gwrthddrychau hyn, y tybid eu bod wedi eu meddiannu gan ysbrydion aflan, yn ystod y gwasanaeth, yn y rhan isaf o'r eglwys. Caniatawyd iddynt gan gynghorfa Eliberis i gael eu bedyddio mewn amgylchiadau cyfyng, a phan yn agos i angeu. Eangodd cynghorfa Orange y goddefiad yma fel peth angenrheidiol, neu fel y caniatäai cyfleusderau. Felly, gallent dderbyn y cymun yn ystod y dysbeidiad. Gorchymynodd cynghorfa Orange hefyd na byddai iddynt gael eu hordeinio; ac os derbyniwyd rhai o honynt i'r offeiriadaeth, ar iddynt gael eu diswyddo yn ddioed. Gwel Exorcistiaid.—(*Buck*, *Eadie*, &c.)

**ENFIELD, WILLIAM:** aanwyd yn Sudburg, yn Suffolk, Mawrth 29ain, 1741, o rieni isel eu sefyllfa, ond gwir barchus eu cymmeriad. Fe wnaed y diffyg ò addysg foreuol i fyny ganddo, i raddau mawr, trwy ei ddiwydrwydd dirfawr, a'i awydd tanbaid a pharhaus i ddarllen a diwyllio ei feddwl. Bu ei duedd mawr at lenyddiaeth yn foddion i'w ddwyn i sylw Mr. Hextall, gweinidog Annibynwyr y lle, yr hwn yn garedig a doeth a'i rhoddodd ar ben y ffordd i fyfyrio yn rheolaidd. Bu cefnogaeth a chynghorion Mr. Hextall, yn nghyd â'i duedd dduwiolfrydig ef ei hun, yn foddion i'w arwain i'r weinidogaeth Gristionogol. Pan ydoedd yn 17 mlwydd oed, derbyniwyd ef i'r coleg Annibynol yn Daventry, a lywyddid ar y pryd gan y Parch. Dr. Ashworth. Yma aeth trwy yr yrfa efrydol gyffredin o bum mlynedd, ac enwogodd ei hun yn fawr fel myfyriwr a chyfansoddwr destlus. Yma hefyd bu yn un o'r rhai cyntaf o weinidogion yr Annibynwyr, i ffurfio cynllun, mewn cyssylltiad â rhai o'i gydfyfyrwyr, er gwneyd moesoldeb Cristionogol yn brif bwnc eu darlithiau, yn hytrach na phynciau ffydd ac opiniynau sectaidd.

Yn ebrwydd ar ol ymadael o'r athrofa, derbyniodd alwad i fod yn weinidog i gynnulleidfa Benn's Garden, yn Liverpool. Yn 1767, priododd Mary, unig ferch Mr. Holland, brethynwr o dref Liverpool; cyssylltiad a fu yn brif ddedwyddwch iddo hyd ddiwedd ei oes. Yn y flwyddyn 1768 a 1770, cyhoeddodd ddwy gyfrol o bregethau, y rhai a gawsant dderbyniad croesawgar. Yr oedd un o'r cyfrolau hyn—sydd yn awr yn brin—wedi ei haddurno yn nodedig â cherfaddurnau er egluro pwnc pob pregeth, o waith yr enwog Fuseli.

Ymadawodd o Liverpool trwy gael gwahoddiad i fod yn athraw y celfyddydau dysgedig (*belles lettres*), a llywydd trigannol dysgyblaeth yn athrofa Warrington. Cafodd hefyd alwad i fod yn weinidog i gynnulleidfayr Annibynwyr yn Warrington. Yr oedd ei gymhwysderau i fod yn athraw y celfyddydau dysgedig yn ddiammheuol; ond bernir ei fod o duedd rhy lariaidd braidd i fod yn ddysgyblwr gwych. Wedi iddo dyfod yma, cafodd y radd o ddoethor yn y gyfraith, o Edinburgh, trwy gyfrwng athrawon ac ymddiriedolwyr yr athrofa.

Gellir cael rhyw syniad am faint llafur a diwydrwydd y Dr. Enfield, wrth ystyried ddarfod iddo gyhoeddi dim llai nag un ar bymtheg o gyfrolau yn ystod yr amser y bu yn Warrington, heb law amryw o bregethau achlysurol. Y mae yn wir, fel y sylwa y Dr. Aikin, mai perthyn i'r dosbarth syml, ond defnyddiol, o gasgliadau y mae amryw o'r cyfrolau a gyhoeddodd y Dr. Enfield: eto y mae y cyfan yn amlygrwydd o ddestlusrwydd, chwaeth, barn, a diwydrwydd tra nodedig. Y *Speaker* oedd un o'r detholiadau cyntaf, ac, fe allai, y goreu a wnaed eto, o ysgrifeniadau prif awduron y Seison.

Arosodd Dr. Enfield yn nghylch dwy flynedd yn Warrington ar ol dadgorfforiad yr athrofa, yn addysgu dysgyblion neillduol, ac yn gweinyddu ei swydd fel gweinidog i'r gynnulleidfa. Yn 1785, derbyniodd alwad oddi wrth gynnulleidfa Annibynwyr yr Octagon, yn Norwich. Ymsefydlodd ar y cyntaf yn mhentref Thorpe, lle y derbyniai ddysgyblion neillduol i'w haddysgu; ac wedi hyny symmudodd i Norwich, lle yr ymroddodd yn hollol at orchwylion llenyddol a dyledswyddau ei swydd fel gweinidog. Yn ystod ei arosiad yn Norwich, heb law ei fod yn ysgrifenu yn gysson i'r *Monthly* a'r *Analytical Reviews*, cyhoeddodd dalfyriad o *Brucker's History of Philosophy*, yn ddwy gyfrol 4plyg. Cynnorthwyid ef yn garedig yn y gorchwyl hwn gan y Dr. Bagot, oedd y pryd hyny yn esgob Norwich; yr hwn hefyd a roddodd fenthyg llyfrau iddo at ei orchwyl o lyfrgell Caergrawnt, ac o'i lyfrgell ei hun.

Dywed y Dr. Aikin ei fod wedi parotoi cyfres o ddarlithiau, tra yn Warrington, ar brif ddygwyddiadau a gorchymynion moesol yr efengyl, yn y rhai y dengys dalentau cymhwys fel eglurhäwr, a medr gwych i dynu gwersi buddiol oddi wrth ddygwyddiadau yr hanes sanctaidd. Ni chyhoeddwyd y gwaith hwn; ond y mae detholiad o ugain pregeth o hono yn yr olaf o dair cyfrol o bregethau a gyhoeddwyd trwy danysgrifiadau ar ol ei farwolaeth, er cynnorthwyo ei weddw; a chanfyddir fod y rhai hyn, a gyfansoddwyd ganddo yn addfedrwydd ei oedran, yn rhagori llawer ar y pregethau a gyhoeddodd yn ei ddyddiau boreuaf.

Yr oedd y Dr. Enfield hefyd yn gohebu yn fynych i'r *Monthly Magazine;* canys ei waith ef

Digitized by Google

yw agos yr holl erthyglau sydd ynddo dan yr enw "*Enquirer.*" Ei orchwyl llenyddol olaf ydoedd y *General Biographical Dictionary*, mewn cyssylltiad âg un o'i gyfeillion hynaf a gwerthfawrocaf, y Dr. John Aikin. Preswyliodd yn Norwich hyd ei farwolaeth; yr hyn a ddygwyddodd ar ol selni byr a phoenus, ar y 3ydd o Dachwedd, 1797, yn yr eilfed flwyddyn ar bymtheg a deugain o'i oedran.—(*Penny Cycl.; Maunder's Biog.*)

ENFYS. [*en—bys*, Dr. P.; קשתי=*bwa, bwa y gwlaw; ιρις*]: enfysg, bwa yr arch, bwa y Drindod, bwa y cwmwl, y bwa gwlaw, y bwa. Bwa cylchog o amryw liwiau goleu ydyw yr enfys, a welir yn yr wybren pan fyddo yr haul neu y lleuad yn tywynu, a phan fyddo cawod o wlaw yn disgyn ar yr un pryd ar ochr gyferbyniol yr edrychydd. Pan fyddo y gwlaw yn helaeth, gwelir ail enfys yn gyffredin, yn gydganolbwnc â'r gyntaf. Y mae eu canolbwnc yn gyffredin mewn llinell union o lygad yr edrychydd tua'r goleuad yn y parth cyferbyniol o'r wybren. Dau rwymyn cydganolbwnc ydyw y ddwy enfys o wahanol liwiau gwydraidd, wedi eu trefnu fel yr ymddangosant yn ngoleuni yr haul; ond y mae trefn gosodiad y lliwiau yn y bwa cyntaf yn wrthgyferbyniol yn yr ail. Y mae ymyl isaf y bwa mewnol yn ddugochlas (lliw y gwiolydd=*violet*), a'r ymyl uchaf yn goch; ond yn y gwrthwyneb, coch ydyw ymyl isaf y bwa allanol, a'r ymyl uchaf yn ddugochlas.

Yr oeddys yn deall bob amser, fel yr ymddengys, mai ymddangosiad yn ymddibynu ar oleuni yr haul neu y lleuad, a disgyniad y defnynau gwlaw, ydyw yr enfys; ond y cyntaf a roddodd eglurhad cyflawn ar yr amgylchiadau cyssylltiedig â'r enfys oedd Syr Isaac Newton [*Optices* i. 9]. Y syniad am achos yr ymddangosiad, yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, oedd, mai adlewyrchiad gŵyrog o ffurf yr haul oddi ar wyneb cwmwl ydyw y bwa mewnol, ac mai adlewyrchiad o ffurf hwnw drachefn ydyw y bwa allanol. Ond nis gall adlewyrchiad goleuni gynnyrchu gwahanol liwiau; a dywedir mai Fleischer o Breslau, yn 1571, oedd y cyntaf i goleddu y syniad fod gronynau o oleuni oddi wrth yr haul yn myned i ddefnynau o wlaw. Ei farn ef oedd, fod pelydryn o oleuni yn myned dan un cyfnewidiad wrth fyned i'r defnyn ac un arall wrth fyned allan o hono; a'i fod yn myned i lygad yr edrychydd ar ol cael adlewyrchiad oddi wrth wyneb defnyn arall. Ymddengys fod Kepler, mewn llythyr at Harriot, 1606, wedi awgrymu y gallai gronynau o oleuni, mewn paladr a gyffyrdda â gwyneb defnyn o wlaw, fyned i'r defnyn yn wrthdroawl, ac y gallai y paladr hwn, trwy adlewyrchiad o fewn y defnyn, fyned i lygad yr edrychydd ar ol myned dan wrthdroad arall wrth adael y defnyn. Y mae y dyb yn deilwng o graffder Kepler, a dywedir nad yw yn camsynied ond yn unig gyda golwg ar y dull y tybir fod y pelydryn goleuni yn disgyn ar y defnyn gwlaw. Y mae Newton yn priodoli y syniad cyntaf am wir achos yr enfys i Antonio de Dominis, esgob o Spalatro, gwaith yr hwn a gyhoeddwyd yn 1612; ond dywed fod y gwaith hwnw wedi ei ysgrifenu mor dywyll, a bod yr awdwr yn dangos cymaint o anwybodaeth o ddeddfau tremyddiaeth (*optics*), fel y mae yn ammheus a oedd ganddo fwy na rhyw amgyffred aneglur am wir achos lliwiau yr enfys.

Y mae yn sicr mai Descartes oedd y cyntaf a eglurodd yr achosion a gynnyrchant y ddau fwa gwlaw; a dywed iddo ganfod yr achosion hyny trwy sylwi ar ymddangosiadau a welai mewn pelen o wydr wedi ei llenwi â dwfr, yr hon a osodai mewn gwahanol sefyllfaoedd gyda golwg ar yr haul.—*Desc. Meteora*, viii. Dengys fod y bwa mewnol, neu y prif fwa, yn cael ei ffurfio gan ddisgyniad pelydr yr haul ar y defnynau gwlaw yn agos i'w harwynebedd uchaf, lle, wedi iddynt wrthdori, yr änt i'r ochr bellaf oddi wrth yr haul a'r edrychydd i'r defnyn; oddi yno, adlewyrchant tua'r arwynebedd isaf, ac wrth fyned allan o'r defnyn, änt dan wrthdoriad eilwaith. Dengys ef hefyd fod y bwa allanol, neu yr ail fwa, yn cael ei ffurfio gan ddisgyniad pelydr yr haul ar y defnynau gwlaw yn agos i'w harwynebedd isaf, lle, wedi iddynt wrthdori, yr änt, fel o'r blaen, i'r ochr bellaf o'r defnyn; oddi yno adlewyrchant tua'r arwynebedd uchaf, lle y goddefant ail wrthdoriad. Ar ol hyn, änt i'r ochr nesaf i'r haul o'r defnyn, ac oddi yno adymddangosant ar ol ail wrthdoriad. Yn awr, nid yw yn ddigon i'r cynnulliad o belydrau goleuni a ddygwyddant saethu i'r defnynau gwlaw wrthdori ac adlewyrchu, fel y nodwyd, ond rhaid i bob cynnulliad ar ei fynediad o'r defnyn gynnwys amryw o belydrau goleuni yn gyfochrog, fel y byddo i'r cynnulliad, ar ei fynediad i lygad yr edrychydd, gynnyrchu amgyffred o ddysgleirdeb yn y meddwl. Y mae Descartes wedi egluro hyn yn fanwl a helaeth trwy amryw ddarluniau cywrain a chelfyddgar; ond dyna ydyw sylwedd ei eglurhad.

Ond Newton a eglurodd yr achos o wahanol liwiau yr enfys yn fwyaf boddhaol o bawb. Priodola ef y rhai hyny i wahanol liwiau y pelydrau a änt i'r defnynau gwlaw mewn gwahanol fanau; ac i sefyllfa yr edrychydd a'r haul ar y pryd; ac eglura y pwnc yn helaeth trwy ddarluniau.

Nis gall enfys byth fod yn fwy na hanner cylch, heb i'r edrychydd fod ar dir uchel; canys pe byddai yr enfys yn fwy na hanner cylch, byddai raid i ganolbwnc yr enfys fod yn uwch na'r terfyngylch, a byddai raid i'r haul, yr hwn sydd i fod mewn llinell union i'r canolbwnc a'r llygad, fod yn is na'r terfyngylch; ond pe felly, nis gallai yr haul dywynu ar y defnynau gwlaw, ac o ganlyniad nis gallai enfys fod. Pan fyddo y cwmwl gwlaw yn fychan, ni welir ond darn o enfys, cyfartal i faint y cwmwl; eto, gwelir enfys weithiau gyferbyn a'r awyr las, pan na byddo tarth yr awyr yn ddigon tew i fod yn weledig ar ffurf cwmwl. Hefyd, gwelir enfys ambell waith mewn ffurf wrthdorawl ar y ddaiar, trwy wrthdoriad y goleuni yn y defnynau gwlaw a fyddont ar laswellt a dail coed. Canfyddwyd bwa lliwiog, cyffelyb i'r un a gynnyrchir gan wlaw, yn yr ewyn a gwyd o ffynnon pan gynhyrfid y pistyll dwfr gan y gwynt; ac hefyd yn y tarth a erys ar amserau ar diroedd isel.

Gwyn, yn gyffredin, yr ymddengys yr enfys leuadol; a phan fyddo lliwiau ynddi, yr unig wahaniaeth rhyngddi a'r enfys a gynnyrchir gan yr haul ydyw, y bydd y lliwiau yn llawer gwanach.

*Bwa* yw y gair Cymraeg a Hebraeg a ddefnyddir yn yr Hen Destament i ddynodi enfys; a phedair gwaith y cyfarfyddir âg ef yn yr ystyr yma; sef yn *Gen.* ix. 13, 14, 16; *Ezec.* i. 28; "Fy mwa a roddais yn y cwmwl, ac efe â fydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a'r ddaiar;" *Gen.* ix. 13. "Rhoddaf fy mwa yn y cwmwl," medd y Seisoneg. "Yn hytrach," meddai Warburton, "rhoddais fy mwa" (fel y Gymraeg). "Nid y pryd hwnw y rhoddwyd y bwa gyntaf yn y cwmwl,



Digitized by Google

ond yn unig mai hwnw oedd y tro cyntaf y gosodwyd ef yn arwydd." "Gan mai effaith naturiol disgyniad pelydr yr haul ar ddefnynau gwlaw, ac o'u gwrthdoriad a'u hadlewyrchiad ynddynt hwy, ydyw yr enfys," medd A. Clarke, "rhaid ei bod yn ymddangos ar wahanol amserau er creadigaeth y byd. Nid yn awr y crewyd neu yr achoswyd y bwa, gan yr ymddengys oddi wrth achosion naturiol yn yr wybren; ond yn awr y gosodwyd ef yn arwydd: a chyn sicred ag y bydd i'r bwa ymddangos yn y cwmwl o bryd i bryd, mor sicr a hyny ydyw y gair a addawa na bydd diluw mwy i ddyfetha y ddaiar." Y mae Eadie yn cyfieithu "sylwedd iaith y cyfammod" fel hyn:—"Mor sicr a bod y bwa hwn yn effaith deddfau sefydledig natur, y rhai a barhant o angenrheidrwydd cyhyd a'r haul a'r wybren, mor sicr a hyny yw y cedwir y byd rhag dinystr trwy ddiluw. Bydd ei gadwraeth yn effaith mor angenrheidiol o'm haddewid i, ag ydyw y bwa hwn yn effaith angenrheidiol tywyniad yr haul ar ddisgyniad y defnynau gwlaw.

*Enfys* ydyw y gair Cymraeg yn y Testament Newydd, i'r hwn y cyfleithir y gair gwreiddiol *iris*, a geir yn unig yn *Dad.* iv. 3, a x. 1. "Ar ol y diluw cyffredinol," medd Parkhurst, (d.g. *iris*), appwyntiodd Duw yr enfys fel arwydd o'r purwr (בּרית) a gyfodai efe, ac a roddai yn arwydd i Noah a'i hiliogaeth, na byddai iddo ef mwyach dori ymaith bob cnawd, na dyfetha y ddaiar â dwfr diluw:" *Gen.* ix. 11—17. Gan fod y fath ddadganiad dwyfol o gymmaint pwys i ddynolryw, gallesid dysgwyl y byddai i ryw draddodiad am arwyddocad cyfriniol y fath arwyddlun pwysig gael ei gadw yn hir yn mysg hiliogaeth eilunaddolgar Noah; am hyny nid rhyfedd fod Homer [*Il.*, xi. 27, 28], mewn cyssondeb mor nodedig â'r hanes Ysgrythyrol (*Gen.* ix. 13), yn llefaru am yr enfys a osododd Jove (Iau) yn y cwmwl yn arwydd i ddynion. Ymddengys fod yr hen Roegiaid, oedd yn rhagflaenu y bardd, yn cyfeirio yn bendant at ei ddynodiad arwyddluniol pan y galwasant ef yn Iris, enw a ddeillia yn rhwydd o'r Hebraeg *iarah*=dysgu, dangos; neu os olrheinir yr enw gydag Eustathius [*Il.*, iii], o'r ferf Roeg *eirô*=dywedyd, dwyn cenadwri, bydd yr ystyr fyth yr un o ran syniad. Y mae Homer, mewn rhai ymadroddion, fel y beirdd Groegaidd a Lladinaidd a'i dilynasant ef, yn gwneyd Iris yn dduwies, ac yn genad Jupiter (Iau) a Juno (Gweno). Ymddengys i'r darfelydd (*fancy*) yma ddeilliaw mewn rhan oddi wrth ystyr gwreiddiol y gair; mewn rhan oddi wrth ystyr arwyddluniol yr enfys; ac mewn rhan oddi wrth ddull alegoraidd o ymadroddi, a gyfeiriai at sefyllfa yr awyr a newidiad tywydd [*Il.*, xvii. 548, 549]. Yr oedd Iris, neu yr enfys, yn cael ei haddoli, nid yn unig gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, ond hefyd gan y Peruviaid yn Neheubarth America, pan yr aeth yr Yspaeniaid yno [*Lambert*, xiii]. Dywedai y Groegiaid ofergoelus mai merch ydoedd Iris i Thaumas (am hyny galwyd hi Thaumantias) ac Electra, a chwaer yr Harpiaid, yr hon a gerid yn hoff gan ddynion, ac y rhyfeddid yn fawr ati. Y mae rhai prydyddion Paganaidd, medd Smith, yn dysgrifio Iris fel yr enfys ei hunan; ond darlunia ereill yr enfys fel y ffordd yn unig, ar yr hon y rhodia Iris—yr hon, am hyny, a ymddengys pan fyddo ar y dduwies ei heisieu, ac a ddiflana pan na byddo ar y dduwies angen am dani. Yn y prydyddion hynaf, ymddengys Iris fel gwyryfdduwies, ond mewn rhai diweddarach, fel gwraig Zephyrus, a mam Eros. Mewn darluniadau celfyddydol, ymddengys Iris mewn hugan eang, dros yr hon yr hongia gwisg uchaf ysgafn. Cyssylltir adenydd wrth ei hysgwyddau, a charia ffon cenadwr yn ei llaw chwith, ac weithiau deil biser yn ei llaw hefyd.

Os ystyrir mor brydferth a rhyfeddol yr ymddengys yr enfys, gwelir priodoldeb destlus y weledigaeth fawr yn *Ezec.* i. 28, pan y gwelai y prophwyd orseddfainc Duw yn cael ei hamgylchynu âg enfys; gystal a'r weledigaeth yn *Dad.* x. 1, lle y gwelai Ioan "angel cryf, wedi ei wisgo â chwmwl, ac enfys ar ei ben."—(*Homer*, *Plutarch*, *Vossius*, *Eustathius*, *Descartes*, *Newton*, *Parkh.*, *Penny Cycl.*, *Smith*, &c.)

1. EN-GANIM, [עין גנים=*ffynnon y gerddi*]: dinas yn nyffryn Iudah, a enwir rhwng Zanoah a Tappuah. Y mae y Deg a Thrigain mor wahanol i'r Hebraeg yn y lle hwn fel nas gellir adnabod yr enw. Aen Gaimim ydyw enw y *Vulgate* ar y lle. Y mae Jerome yn ei chyfleu yn agos i Bethel.

2. EN-GANNIM: dinas ar derfyn Issachar: *Jos.* xix. 21. Rhoddwyd y ddinas hon a'i meusydd pentrefol i'r Gersoniaid o lwyth Lefi: *Jos.* xxi. 19. Nid yw y crybwylliadau hyn yn cynnwys dim i arwyddo sefyllfa En-gannim yn ei pherthynas âg unrhyw le adnabyddus; ond y mae cryn debygolrwydd yn nyfaliad Robinson, sydd yn ei gwneyd yr un a Ginaia Josephus; ac, yn ol pob tebygolrwydd, yr un ydyw hono drachefn a Jenîn ddiweddar, y pentref cyntaf y cyfarfyddir âg ef wrth esgyn o ddyffryn mawr Esdraelon i fryniau canol y wlad. Amgylchynir Jenîn hyd heddyw gan winllanoedd neu erddi, y rhai sydd yn egluro ei hen enw; ac y mae y *ffynnon* yn un o brif wrthddrychau y lle hyd y dydd hwn. Y mae sefyllfa Jenîn hefyd yn cytuno yn nodedig â sefyllfa Beth-hag-Gan (a gyfieithir genym ni "tŷ yr ardd"), tua'r lle y ffodd Ahaziah rhag Iehu: 2 *Bren.* ix. 27. Y mae yn debyg fod ffordd arw yr esgyniad yn rhy glogyrnog i'w gerbyd ef, am hyny cymmerodd y ffordd wastad oedd yn arwain tua Megido, lle y bu farw, ar ol cael ei daraw yn "rhiw Gur" gan filwyr Iehu.

Yn y rhestr o ddinasoedd y Lefiaid sydd yn 1 *Cron.* vi, rhoddir *Anem* yn lle En-gannim. Fe allai mai talfyriad yn unig ydyw yr enw.—*Josephus*, *Robinson*, *Stanley*, *Velde*, *Smith*.)

ENGEDI, [עין גדי=*ffynnon y myn*, Ges., Smith; *ffynnon dedwyddwch*, Charl.; 'Εγγαδδι]: dinas yn anialwch Iudah (*Jos.* xv. 62), ar làn dwyreiniol y Môr Marw, oddi wrth yr hon y galwyd y rhan yma o'r anialwch, i'r lle yr ymgiliodd Dafydd rhag ofn Saul: 1 *Bren.* xxiv. 1—4. Ei henw cyntefig oedd Hazazon-Tamar (=*ysgythriad y palmwydd*), a elwid felly yn ddiau, fel y dywed Josephus, o blegid y llwyni palmwydd a'i hamgylchynent: 2 *Cron.* xx. 2; *Eccles.* xxiv. 14; *Hyn. Jos.*, ix. 1, adr. 2. Ymddengys fod peth ammheuaeth yn bod yn y canrifoedd Cristionogol boreuaf gyda golwg ar ei sefyllfa. Rhydd Stephanus hi yn agos i Sodom; Jerome, ar y tu deheu i'r Môr Marw; ond Josephus, yn fwy cywir, yn y pellder o 300 o ystadiau o Ierusalem. Y mae ei sefyllfa yn awr yn eithaf adnabyddus. Y mae tua chanol glan ddwyreiniol y llyn Asphaltites. Y mae yma ddyffryn bras, hanner milltir o led, ar osgo prydferth o odreu y mynyddoedd hyd at y dwfr, ac yn cael ei gau i mewn

Digitized by Google

o'r tu gogleddol gan bentir uchel. Tua milltir i fyny ar y llethr ddwyreiniol, yn yr uchder o ryw bedwar can troedfedd uwch law y dyffryn, y mae y ffynnon *Ain Jidy*, oddi wrth yr hon y rhoddir yr enw i'r lle. Y mae yn tarddu o graig galch, ac yn rhuthro i lawr dros lechwedd serth, yn cael ei chynhyrfu gan aml glogwyn garw, a thaena ei hewyn dros lwyni prydferth o ddrain yr Aipht, munudlys, a lotus. Wedi cyrhaedd y dyffryn, croesa y ffrwd bron ar ei hunion i'r môr; ond yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn, llyncir y ffrwd i fyny gan y tir sychedig. Diwyllir ei glenydd yn awr gan ychydig deuluoedd Arabaidd, y rhai yn gyffredin a osodant eu pebyll yn agos i'r llanerch hon. Y mae y tir yn dra ffrwythlawn; ac yn y fath hinsawdd, gellid gwneyd iddo gynnyrchu ffrwythau gwerthfawrocaf y trofanau. Y mae gweddillion yr hen ddinas yn y dyffryn, ar lethr isaf y mynydd, ac ar lan ddeheu y ffrwd. Nid ydynt ond garw ac annyddorol—dim ond y sylfaeni a phentyrau diaddurn o geryg. Tynwyd cynllun prydferth o'r ffynnon, yn nghyd â'r dyffryn, a rhan o lan ddeheuol y Môr Marw, gan M. Belly.

Nid yw hanes Engedi ond byr, er ei bod yn cyrhaedd yn agos i 4,000 o flyneddoedd yn ol. Yn ebrwydd ar ol taraw "yr Ammoriaid, y rhai oedd yn trigo yn Haseson-Tamar," fe ymosodwyd ar bum brenin Mesopotamia gan dywysogion dyffryn Sodom: *Gen.* xiv. 7; 2 *Cron.* xx. 2. Mae yn debyg mai Engedi y gelwid y ffynnon bob amser, ac mai oddi wrthi hi, bob amser, y cafodd yr hen ddinas a adeiladwyd ar y dyffryn oddi tani yr un enw. Dywedwyd wrth Saul fod Dafydd yn anialwch Engedi; a chymmerodd yntau "dair mil o wŷr etholedig, o holl Israel; ac efe a aeth i geisio Dafydd a'i wŷr, ar hyd copa creigiau y *geifr gwylltion*." Y mae y creaduriaid hyn i'w cael yn fynych eto ar y llechweddi uwch law y ffynnon ac o'i hamgylch, y rhai a eilw yr Arabiaid yn *Beden*. Mewn amser diweddarach, bu Engedi yn lle cyfarfod gan y Moabiaid a'r Ammoriaid, y rhai a aethant yn erbyn Ierusalem, ac a gwympasant yn "nyffryn y fendith" (*Berachah*): 2 *Cron.* xx. 2, 26. Y mae yn nodedig mai hon ydyw y ffordd gyffredin a gymmerir yn awr gan y lluoedd ysbeilgar o Moab a ymosodasant ar ddeheubarth Palestina. Ant o gylch pen deheuol y Mor Marw, yna i fyny ar hyd ei lan ddwyreiniol i Ain Jidy, ac oddi yno tua Hebron, Tecoa, neu Ierusalem, yn ol y cyfleusdra goreu a welant i ysbeilio.

Canmolid gwinllanoedd Engedi gan Solomon (*Can.* i. 14); ei balsam gan Josephus [*Ant.* ix. 1, adr. 2]; a'i phalmwydd gan Pliny [v. 17]. Ond nid oes gwinllanoedd mwyach yn gwisgo ochr y mynydd, na phalmwydd na balsam i'w gweled yn y dyffryn. Yr oedd pentref eang yn y bedwaredd ganrif yn Engedi; ond rhaid ei fod wedi cael ei adael yn anghyfannedd yn fuan ar ol hyny, canys nid oes dim cyfeiriad ato mewn hanesion dilynol, na dim olion o breswyliad diweddar i'w gweled yn y lle. Y mae cyfeiriad hynod at y lle yn nheithiau boreuol Mandeville, yr hwn a ddywed mai "tir Dengadda" ydyw y llanerch rhwng Iericho a'r Mor Marw; a bod y palmwydd oedd yno yn cael eu galw fyth yn "winwydd Gady."—(*Josephus*, *Pliny*, *Porter*, *Kitto*, *Mandeville*, &c.)

EN-HACCORE, [עין הקורא=*ffynnon y llefwr*, Smith; *ffynnon y geilwad*, Charl.]: y ffynnon a ddrodd allan yn atebiad i lef Samson pan sychedodd ar ol ei wrolwaith â'r gên asyn: *Barn.* xv. 19. Dywed Smith mai gair mwys ydyw yr enw, wedi ei seilio ar y gair Hebraeg *yikera*, sydd yn *adn.* 18, a gyfleithir genym ni "a lefodd." Y mae y gair *mactesh* sydd yn yr hanes yn arwyddo *ceudwll* neu *geule* (yn llythyrenol, *mortar*, fel y cyfieithir ef yn *Diar.* xxvii. 22) yn yr ên, a'r gair *lehi*, a saif am yr ên ei hun, yn enwau lleoedd. Dywed Charles y gellir cyfleithu y geiriau, "Duw a holltodd y ceudwll oedd yn Lehi." Y mae Van de Velde yn ymdrechu gwneyd Lehi yr un lle a Tell-el-Lekiych, sydd bedair milltir i'r gogledd o Beersebah, ac En haccore, lle y mae y ffynnon fawr rhwng y Tell a Khewelfeh. Ond ymddengys i weithredoedd nerthol Samson gael eu cyflawnu mewn lle heb fod yn eang iawn; ac nad oes un sail i'w lledaenu dros ryw ddeng milldir ar ugain o Gaza, fel y mae Lekiych, hyd yn oed pe mesurid y pellder mewn llinell union.—(*Velde*, *Smith*, &c.)

EN-HADAH, [עין הדה=*ffynnon gyflym*, Ges.; *ffynnon lawenydd*, Charl.; ἠν "Αδδα, Alex.]: un o'r dinasoedd ar gyffiniau Issachar a enwir yn nesaf i En-Ganim: *Ios.* xix. 21. Tybia Van de Velde mai yr un oedd ag Ainhaud ar ochr orllewinol Carmel, tua dwy filltir yn unig oddi wrth y môr; ond y mae yn sicr nad oedd y fan hono o fewn terfynau Issachar, ond yn hytrach yn Aser neu Manasseh.

EN-HAZOR, [עין חצור=*ffynnon y faesdref*, Smith; *ffynnon y llys*, Charl.; πηγὴ Ασορ]: un o'r dinasoedd caerog yn rhandir Naphthali, gwahanol i Hazer, a enwir rhwng Edrei ac Iron, heb fod yn mhell, fel yr ymddengys, o Cades: *Ios.* xix. 37. Nid ydyw ei gweddillion eto wedi eu darganfod.

ENLLIB—IO—IWR, [Heb., רכיל; Groeg, *διαβολος*: Seis., *slanderer*, *slander*]: "cabl, athrod, trawsgyhuddiad, drwg-absen, drygair, cablu, athrodi, absennu," &c.—*Charles.* 2 *Tim.* iii. 3. "Gau-gyhuddwyr."—*William Salesbury.* "Hortwyr."—*Dr. Morgan.* Y mae yr holl eiriau uchod o gyffelyb ystyr, ac yn perthyn mor agos i'w gilydd, fel mai lled anhawdd ydyw ysgrifenu arnynt ar wahân. Yr hyn a ddywedir am y naill a ellir hefyd ei ddywedyd am y llall. Ond yn gymmaint ag nad oes ond nodiad byr wedi ei wneyd ar amryw o honynt yn y gwaith hwn, a bod y nodiadau hyny yn cyfeirio y darllenydd at y gair *enllib*, ni a sylwn yn lled helaeth ar y pwnc yn y fan hon.

Mewn trefn i gael golwg briodol ar y drwg hwn, y mae yn gweddu i ni gyfyngu ein hunain i ryw ddarnodiad clir o'r gair. Nid yw dyweyd am enllib mai athrod yw, ac am athrod mai enllib ydyw, ond arfer un gair aneglur i egluro y llall, ac felly y mae yn rhaid i'r ddau gael eu gadael yn y tywyllwch. Y darnodiad a roddir o'r gair *enllib* gan Blackstone yn ei *Commentaries* yw, "*anything that is a defamation of character*:" a'r un a roddir gan Dwight yn ei *Theology* yw, "*It is that conduct which injuriously lessens or destroys another's reputation.*" A chymmeryd y gair yn y goleuni hwn, dywedwn mai enllib ydyw y sarhad hwnw a roddir, mewn gair neu ymddygiad, trwy yr hwn y gwneir niwed i un arall yn ei enw, ac mewn canlyniad, yn ei amgylchiadau, pa un bynag a fyddo hyny yn cael ei fwriadu ai peidio. Os peth fel hyn yw enllib, nis gall fod dadl am ei ddrygedd.

Digitized by Google

Y ffynnonell o ba un y mae y drwg hwn, fel pob drwg cymdeithasol arall, yn tarddu, ydyw y galon; ac y mae yn gorwedd yn ddwfn yn y naill neu y llall o'r teimladau iselaf a berthyn iddi. Y mae weithiau yn cyfodi oddi ar lid a malais; bryd arall oddi ar ryw awydd anniwall i ymyraeth â materion ereill; neu bryd arall, oddi ar feddwl cysglyd, dwl, y mae dyn, o ddiffyg rhywbeth gwell i'w ddyweyd, yn llunio ac yn adrodd chwedl wag, i beri difyrwch ar y tro, heb feddwl am y drwg sydd wedi hyny yn sicr o ganlyn oddi wrthi. Fel hyn, y mae enllib bob amser yn cyfodi oddi ar ryw deimlad gwael, ac yn aml oddi ar y teimladau gwaethaf y gall dyn fod yn euog o honynt. Yn y modd hwn y dysgrifir ef yn y Beibl, ac yr edrychir arno gan ddynion da yn mhob oes o'r byd.

Y mae gan enllib lawer o gyfryngau trwy ba rai y mae yn ei amlygu ei hun. Y mwyaf arbenig o'r cyfryngau hyn ydyw *iaith*. Y mae dyn yn enllibio ei gyd-ddyn yn amlaf trwy arfer geiriau cyflawn neu hanneroeg, gwir neu gau, ar lafar neu ysgrifen, trwy y rhai y mae yn ei warthruddo a'i niweidio. "Y tafod tân ydyw, byd o anghyfiawnder...Ni ddichon un dyn ei ddofi; drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol. Ag ef yr ydym yn bendithio Duw a'r Tad; âg ef hefyd yr ydym yn melldithio dynion, a wnaethpwyd ar lun Duw." Y peth olaf hwn a wneir gan yr enllibiwr. Ond gall dyn fod yn euog o enllib wrth dewi, yn gystal ag wrth siarad—wrth beidio ag amddiffyn, yn gystal ag wrth gamgyhuddo; os bydd yn peidio pan y dylai wneyd, a phan y bydd enw a chysur ei gyd-ddyn yn galw am hyny oddi ar ei law. Y mae yn bosibl i ni fel hyn, heb ddyweyd dim, trwy fil o ystrywiau, roddi y fath arwyddion o anymddiried mewn dyn nes y byddo ei holl gydnabod o un i un yn cilio oddi wrtho heb yn wybod iddo ef nac iddynt hwythau chwaith pa ham.

Mae yr ysgrifell a'r wasg hefyd yn ein dyddiau ni wedi dyfod yn offerynau cyfleus iawn i'r enllibiwr, ac nid yw yntau yn rhuso eu defnyddio i gyrhaedd amcanion duaf y galon fwyaf llygredig. Y mae enllib bob amser yn fwriadol neu yn anfwriadol: os y blaenaf, y mae yn cyfodi oddi ar falais; os yr olaf, oddi ar anystyriaeth—ac nid yw y naill yn ddim gwell na'r llall. Os oes rhyw wahaniaeth rhyngddynt, yr olaf sydd i'w ofni fwyaf. Yr ydym yn barod [gwel d.g. Difenwi] wedi ei gosod i lawr fel rheol fod y difeddwlddrwg yn fwy peryglus na'r bwriadol ddrwg; o blegid tra nad yw yr olaf yn gwneyd niwed i neb ond y rhai yr ewyllysia ddrwg iddynt, y mae y blaenaf, o ddiogi meddwl yn unig, yn gwneuthur drwg i bawb yn ddiwahaniaeth. Nid yw cyfeillion mwy na gelynion yn ddiberygl oddi wrtho.

Wedi gwneyd y crybwyllion uchod am y drwg hwn yn ei natur, byddai yn fuddiol i ni edrych arno yn ei waith. Y mae yr enllibiwr bob amser yn amcanu dwyn ei waith i ben mor gudd a llechwraidd ag y byddo modd, ac o herwydd hyny y mae ei ddichellion yn aneirif. Nid un llinyn sydd ganddo i'w fwa, ac nid un saeth sydd ganddo i'w linyn. Os metha un cynllun, y mae ganddo un arall yn barod; ac nid ydyw byth yn llwfrhau nes y byddo wedi cyrhaedd ei amcan. Ni a nodwn yma rai o lawer o'r ffyrdd sydd gan yr enllibiwr i ddwyn ei waith yn mlaen, a gellir edrych ar y rhai hyn fel esamplau teg o'r gweddill.

Er niweidio ei gymmydog, y mae yr enllibiwr yn dechreu yn gyffredin *trwy awgrymu yr hyn na faidd ei ddyweyd*. Y mae yn llefaru ar ddammegion, ac yn siarad trwy arwyddion. Y mae troad y llygaid a symmudiad y llaw; y wefus grych, y wedd sarug, a'r ochenaid drom, yn siarad cyfrolau, ac yn gwneyd hyny, yn aml, yn fwy effeithiol na'r geiriau mwyaf pendant. Am y math hwn o enllib dywed un ei fod yn debyg i fol-lafariaeth (*ventriloquism*), yr hwn sydd yn llefaru yn un man, ac a bair ei glywed mewn man arall. Gall yr enllibiwr, yn y dull yma, âg un ystum, greu cymmaint o ddrwg-dybiaeth am ddyn, na bydd digon o resymau mewn gwlad i'w wisgo i ffwrdd. Nis gellir ei gospi trwy gyfraith, na'i wrthweithio trwy hunan-amddiffyniad. Os bydd i'r enllibiedig fyned i ymholi yn ei gylch, y mae yr enllibiwr yn ei gyfarch yn y dull mwyaf moesgar, gan ddyweyd, "Os oedd yr het yn eich ffitio, gwisgwch hi." "Os nad oeddych chwi yn euog, pa ham yr oedd raid i chwi deimlo?" Y mae geiriau fel hyn yn dyfnhau yr archoll, ac yn gwneyd y drwg yn waeth nag o'r blaen. Math o hunllef ydyw yr enllib hwn, sydd yn gorwedd ar ddynion, nas gallant ymsymmud dano. Nis gwyddant o ba le y mae yn dyfod nac i ba le y mae yn myned. Teimlant oddi wrtho, ond nis gallant, er pob ymdrech, gael gafael ynddo.

Ond er cyrhaedd yr un amcan, yr enllibiwr, bryd arall, *a ddywed yr hyn nid yw wir*. Unwaith y byddo dyn wedi ymgymmeryd â rhyw un ffurf o bechod, mae yn myned rhagddo yn raddol o un drwg i un gwaeth, nes o'r diwedd y mae yn cael ei anwiredd yn atgas. Fel hyn y mae yr enllibiwr, o feddwl drwg, yn ei lunio; ac o'i lunio, yn ei adrodd. Y mae yn gwylio ei gymmydog fel y mae y llew yn hela ei ysglyfaeth; a phan nad yw yn cael achlysur, y mae yn ei wneyd: "Anwiredd a ddychymyg efe ar ei wely." "Ni chysgant nes iddynt wneuthur drwg, a'u cwsg a gollant nes iddynt gwympo rhyw ddyn." Nis gellir yn hawdd meddwl am gyflwr mwy difrifol i ddyn fyned iddo, na chyflwr y dyn hwnw sydd mewn gwaed oer yn eistedd i lawr i lunio chwedlau drwg am ei gymmydog diniwed sydd yn trigo yn ddiofal yn ei ymyl, ac yn cerdded o dŷ i dŷ i'w hadrodd drachefn, er gwneyd i ddynion gredu yr hyn y gŵyr ef ei hun yn dda nad ydyw ond celwydd: eto y mae lle i ofni fod llawer yn ei wneuthur. Yn y dull hwn y mae enllib yn arfer mwy o hyfdra nag o ddichell; mwy o ryfyg nag o wyliadwriaeth; canys y mae yn dyfod yn nes i derfynau cyfraith, ac yn gosod yr enllibiwr ei hun yn agored i fwy o berygl. Ond beth y mae efe ar y pryd yn gofalu am hyny? Nid oes un dychymyg yn rhy aflan i'w lunio, un chwedl yn rhy wrachiaidd i'w hadrodd, nac un celwydd yn rhy ddieflig i'w sicrhau ganddo, os gall efe drwy hyny ddwyn ei amcan ysgeler i ben. Efe a gyfyd enllib ac a rydd ei law gyda'r annuwiol i fod yn dyst yn erbyn y cyfiawn.

Ond yr enllibiwr eto mewn rhai amgylchiadau a ddywed *yr hyn sydd wir mewn dull ac i ddybenion croes i wir*, a thrwy hyny y mae yn euog o enllib o'r fath waethaf; o blegid agosrwydd y chwedl ddrwg i wir sydd yn ei gwneyd yn beryglus yn y pen draw. Nid oes un esgusawd yn fwy parod gan yr enllibiwr na dyweyd fod yr oll a ddywedodd ef yn wir. Pa ddrwg bynag a achoswyd trwy hyny, ni ddywedodd ef ond y gwir: ac yn hyn y mae yn ymgyflawnhau. Ond nid yw fod peth yn wir yn ddigon o *warrant* i ni bob amser dros ei adrodd. Y mae llawer gwir yn cael ei adrodd nas gall yr adroddiad o hono ond gwneyd drwg i'r person y byddo yn cael ei

Digitized by Google

ddyweyd am dano, a hyny heb wneyd lles yn y byd i neb arall. Nid oes neb yn deall hyn yn well na'r enllibiwr ei hun. Tybier am ddyn mewn masnach, yr hwn sydd yn ddyn gonest a chyfrifol; ond y mae yn cael ei hunan mewn gradd o ddyryswch. Mae ei gymmydog wedi ei gael allan, ac yn gwneyd y peth yn hysbys. Y mae hyn yn ddigon i wneyd ei ofynwyr yn anesmwyth; y rhai, mewn trefn i ddiogelu eu hunain, a redant arno yn y modd mwyaf diarbed. Fel hyn y mae y masnachwr wedi ei ddinystrio, a'i ofynwyr hefyd wedi cael eu colledu. Yr oedd y chwedl a adroddwyd am dano yn wir; ond er hyny, pe cawsai hamdden i ddirwyn ei amgylchiadau ei hun i ben, buasai yn gallu talu yn llawn ei holl ofynion, a sicrhau sefyllfa gysurus iddo ei hun a'i deulu ar yr un pryd.

Fel hyn, gall dyn fod yn euog o enllib heb ddywedyd dim ond yr hyn sydd fanwl wir; ond y mae gan yr enllibiwr fwy nag un ffordd o ddywedyd yr hyn sydd wir. Y mae weithiau yn ei fwyhau. Yr oedd Absalom yn euog o bechod ysgeler trwy ladd Amnon; ond gwnaeth yr hwn a gariodd y newydd i Dafydd i'r drwg ymddangos yn llawn mwy trwy ddyweyd fod Absalom wedi lladd holl feibion y brenin i gyd. Cyfarfyddir â phethau cyffelyb eto. Os dygwydd i un o deulu, neu o gyfundeb o bobl, wneyd rhywbeth allan o'i le, y mae yr enllibiwr yn dyweyd fod yr holl deulu neu yr holl gyfundeb yn euog o'r un peth. Efe a ddywed, "Y mae nhw yr un fath i gyd." Ac yn ei berthynas â'r troseddwr, efe a wna y coll bychan yn drosedd mawr, a'r diffyg mwyaf maddeuol yn bechod ysgeler ac anfaddeuadwy. Yr enllibiwr fel hyn a wna y gwyn yn ddu, a'r du yn dduach. Nid yw mwyhau yr hyn sydd, yn llai o enllib, na chyfrif yr hyn nid yw. Y mae y naill a'r llall yn ymadawiad cyffelyb oddi wrth wirionedd. Bryd arall, y mae yn ei leihau. "Gwae," medd hen air, "y neb a wnelo chwedl yn llai;" ac y mae amgylchiadau dan ba rai y mae yn gymmaint o niwed i wneyd un chwedl yn llai, ag a fyddai dan amgylchiadau ereill i wneyd un arall yn fwy. Os dygwydd i'r enllibiwr gael achos i son rhywbeth am rinweddau ei gymmydog, ac y mae hyny weithiau yn ateb i'w bwrpas, y mae yn gofalu am eu gwneyd yn llai. Bydd ei adroddiad mor garpiog nes gwneyd i'r gwir ymddangos mor debyg i gelwydd, a'r rhinwedd mor debyg i ddrwg ag y byddo modd. Y mae peidio dyweyd yr holl wir mor niweidiol yn aml ag ydyw dyweyd chwaneg na'r gwir. Dywedai yr Iuddewon am Grist gynt, ei fod yn "derbyn pechaduriaid," ond ni ddywedent i ba beth. Dywed yr enllibiwr fod chwedl fel hyn ac fel hyn, am hwn a hwn; ond ni ddywed yr hyn a ŵyr yn gystal a hyny, fod y chwedl hono yn hollol ddisail. Y mae melldith Duw uwch ben yr hwn a dyno oddi wrth y gwirionedd yn gystal a'r hwn a chwanego ato. Bryd arall, y mae yn rhoddi ystyr i eiriau na pherthyn iddynt. Nid oes dim yn haws i'w wneyd na hyn. Y mae i eiriau lawer o ystyriaethau; a gall dyn drwg roddi ystyr i eiriau mwyaf gofalus dyn arall na bydd efe erioed wedi meddwl am dano. Dywedodd Iesu Grist unwaith, "Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi." Ar ei brawf yn Ierusalem dygwyd y geiriau hyn yn ei erbyn. Yr oedd geiriau y cyhuddiad yn wir: nid oedd yma ddim wedi ei roddi ato, na dim wedi ei dynu oddi wrtho; ond yr oedd yn cael ei arfer mewn ystyr mor wahanol fel nad ydoedd ddim yn amgen na'r celwydd mwyaf maleisddrwg. "Efe a ddywedasai am deml ei gorff." Bryd arall, y mae yn olrhain rhinwedd i ddyben drwg. Try yr enllibiwr ei glust rhag clywed tystiolaeth, ond hona wybodaeth ddwyfol i farnu meddyliau a bwriadau y galon. Pan fyddo rhinwedd yn rhy amlwg i'w wadu, y mae efe yn sicr ei fod yn cyfodi oddi ar ryw ddybenion gau. Os bydd y ffrwyth yn dda, fe ddywed efe fod y pren yn ddrwg. Os bydd ei gymmydog yn ddyn hael, fe ddywed mai cael clod gan ddynion yw y dyben. Os bydd yn ddyn sobr a gofalus, efe a ddywed mai cybydd-dod yw yr achos. Os bydd yn ddyn o ymarweddiad sanctaidd, fe ddywed mai hunangyflawnder yw y rheswm, ac mai llwyr fwyta tai gwragedd gweddwon yw y dyben. Yr oedd Mab Duw yn brin yn ei glorian ef; ac efe a ddywedodd am dano, "mai trwy Beelzebub penaeth y cythreuliaid yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid." Ond bryd arall, y mae yn barnu cymmeriad dyn, ac yn ei gondemnio, oddi wrth ymddygiadau Rhagluniaeth tuag ato. Y mae yr enllibiwr yn fynych yn ddaroganwr drwg. Mae yn rhyfedd ganddo ef "os na ddaw rhywbeth yn fuan i gyfarfod â'r dyn yna," ac "os bydd y dyn hwnw farw fel dyn arall," yn nghyd â llawer o bethau cyffelyb. Ac os daw rhyw drallod i gyfarfod y person hwnw, mae yr enllibiwr yn llawenhau yn y sel a roddwyd gan Ragluniaeth ar ei eiriau ef, ac yn sylwi yn chwyddedig iawn, "Yr oeddwn i yn dyweyd mai fel yna y byddai arno." "Fe wel pawb bellach." Gellid meddwl ei fod ef yn un sydd yn byw yn nghyfrinach y duwiau, ac mai wrth ei ewyllys y mae barnau tymmorol ac ysbrydol yn cael eu trefnu. Y cloffni a roddodd yr Arglwydd ar Iacob yn arwydd cyfammod âg Israel, sydd iddo ef yn ymweliad am anwiredd. Yr adfyd a ddygodd Duw ar Iob, i ddangos ei werth a'i buredd, sydd iddo ef yn brawf o'i ragrith. A'r swmbwl yn nghnawd Paul sydd yn brawf o dwyll ei apostolaeth. Os dygwydd iddo weled Lazarus yn y porth, efe a ddywed, "Ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i had yn cardota bara;" neu os gwel yr etholedig arglwyddes yn gweini i'r saint, efe a ddywed, "Nid llawer o rai boneddigion a alwyd, eithr Duw a etholodd ffol bethau y byd." Fel hyn y mae ganddo esboniad parod i'w roddi ar bob peth. Ni wêl dda yn neb, ond efe a genfydd y drwg yn mhawb, ac a wna y defnydd creulonaf o hono.

Ond cyn gadael yr ystrywiau hyn o eiddo yr enllibiwr, nis gallwn lai na dyfynu y dernyn canlynol o draethawd bychan gorchestol ar y pwnc:—"Y mae gan yr enllibiwr lawer gwisg i ymddyeithro....o blegid ni fyn i neb ei adnabod. Ymrithia gydymdeimlad â'r gwan, fel y gallo ddangos gwendid y rhai gweiniaid; ffugia wylo gyda'r rhai a wylant, fel y gallo ddangos testynau galar y rhai galarus; ie, newidia ei wisg gyda phob croes, a'i deimlad gyda phob amgylchiad; ac a wna ei hun yn bob peth i bawb, fel y gallo enllibio rhai. Enllibia drwy bob peth, yn mhob modd, ac yn mhob man. Y mae enllib yn ei wg, ac enllib yn ei wên; enllib yn ei glod, ac enllib yn ei anghlod; enllibia wrth lefaru, enllibia wrth dewi; a gellir dyweyd am yr enllibiwr ymarferol mai o'r braidd y bydd farw heb enllibio. Y mae nwydau gwreiddiol enllib mor angerddol, fel y dymunai yr enllibiwr fod ei dafod yn fil o dafodau, a gallu o hono lefaru yn mhob iaith, i ollwng allan o'i fynwes wenwynig, yr hon sydd ar ymhollti, bob drwg-anwydau yn ddiluw dros y byd, nes boddi pob rhinwedd a lladd pob daioni. Gan na chafodd yr enllibiwr ond un tafod gan natur,

Digitized by Google

myn, os gall, fil o dafodau gan gelfyddyd; ac wedi llefaru hyd flinder â'r un a gafodd, mi a'i gwelaf yn eistedd i lawr, ac yn galw ei holl alluoedd yn nghyd i gyfansoddi enllibiaeth drefnus, o wir ac anwir, a'r gwir yn fwy celwydd na'r anwir; yn ei hanfon i'r wasg a'i gyru i'r byd yn enw gwirionedd, fel y gallo wenwyno cenedl ar unwaith; a rhag ofn i'w chylchrediad fod yn rhy gyfyng trwy bryniad, rhoddir hi yn rhad; a chan boethder y sel enllibaidd, nis gall arafu i ddysgwyl archebion, rhag iddynt fod yn rhy hir cyn dyfod a rhy brin pan y deuant; ond gyrir yn mhell ac yn agos, a disgyna yn ddisymmwth fel cawod o locustiaid dros y wlad, fel y bydd pob dyngarwr yn barod i ddiolch am yr hen gymmysgiad gynt yn Babel."

Dengys y crybwylliadau uchod rai o lawer o'r ffyrdd sydd gan yr enllibiwr i ddwyn ei amcanion drygionus i ben. Ond y mae yn deilwng o'n sylw yma, fod yn ddichonadwy i ni fod yn gyfranog o enllib yn y modd mwyaf effeithiol, heb fod yn euog o un o'r ystrywiau uchod. Y mae dyn yn cyfranogi o enllib wrth *ei wrandaw*. Er nad oedd ganddo ef un llaw yn lluniad y chwedl a adroddir wrtho, eto os ydyw yn gwrandaw arni heb ei hanghymmeradwyo, y mae efe yn rhoddi cefnogaeth effeithiol iddi, heb yr hyn nis gall yr enllibiwr ei hun wneyd llawer o ddrwg. Y mae y neb sydd yn derbyn nwyddau anghyfreithlawn yn cael ei ystyried gan bob cyfraith mor feius, os nad yn fwy felly, na'r hwn sydd yn eu gwerthu: felly y mae y glust a wrandawo ar enllibiwr yn dyfod yn gyfranog o'i ddrwg. Trwy wrandaw ar un chwedl, y mae yn rhoddi calondid i'r enllibiwr i wneyd un arall, ac fel hyn y mae enllib yn cael ei barhau yn y byd. Nid oes dim yn fwy rhesymol i ddyn ei wneyd pan y mae yn clywed cymmeriad ei gymmydog yn cael ei warthruddo na gwneyd yr hyn a allo yn y fan er ei amddiffyn. Y mae efe ei hun wrth reswm yn absennol, ac nid oes ganddo un cyfle i wneyd amddiffyniad iddo ei hun: os na wnawn hyn, mae yn rhaid iddo ef deimlo. Gall ein dystawrwydd beri niwed pwysig iddo. Pwy, yn y fath achos, na fynai i'w gymmeriad gael ei amddiffyn? A phwy sydd nad ydyw dan rwymau i wneyd i arall yr hyn y mae yn ei ewyllysio iddo ei hun? Ond os ydyw ein dystawrwydd yn y fath achos yn beryglus, y mae ein cydsyniad yn fwy felly. Os yw gwaith dyn yn peidio dangos anghymmeradwyaeth i chwedl ddrwg yn galondid i'r enllibiwr, y mae rhoddi ar ddeall iddo fod y chwedl yn gymmeradwy, ac yn cael ei chredu, yn galondid llawer mwy: y mae llawer a wnant hyn. Mae y chwedl yn boddhau, ac am hyny yn cael ei derbyn; credir hi, nid am fod ganddynt brawf ei bod yn wir, ond am y mynant hwy iddi fod yn wir. Nid yw y bobl hyn ond yn anfynych yn blino yr enllibiwr drwy ofyn iddo am ei brofion: cymmerant ef ar ei air, cadwant gyfrinach, ni ddywedant i neb, a chyhyd ag y cadwant at hyn nid ydynt byth yn meddwl fod yr enllibiedig yn derbyn un cam oddi ar eu llaw hwy. Ond y mae dyn yn cyfranogi o enllib eto yn fwy effeithiol wrth ei *ail adrodd a'i ledaenu*. Saif yr ail adroddwr o chwedl ddrwg yn yr un berthynas â'r enllibiwr ag y saif yr hwn sydd yn lledaenu arian drwg â'r hwn sydd yn eu gwneyd. Nis gall y naill, mae yn wir, eu lledaenu, heb i'r llall eu gwneyd; ond er eu gwneyd nis gallant fod o lawer o niwed i neb heb eu lledaenu. Fel hyn, gall yr ail adroddwr wneyd mwy o ddrwg na'r lluniwr, fel y gall yr hwn sydd yn lledaenu arian drwg wneyd mwy o ddrwg ymarferol na'r hwn a'u bathodd. Gall yr enllibiwr ei hun fod yn ddigon adnabyddus yn ei gymmydogaeth, a dichon y buasai yn anhawdd gan lawer dderbyn chwedl oddi wrtho ef, ond erbyn iddi gael ei hadrodd gan un arall, a hwnw fe allai o gymmeriad parchus, y mae trwy hyny yn cael ei derbyn gan bawb. Yr esgus tlawd sydd gan ddyn fel hyn yn aml dros ei glêr yw dweyd, "nad yw ef yn adrodd dim ond a glywodd." Ond hyn yw ei ddrwg, a thrwy hyn y mae yn dyfod yn gyfranog â'r enllibwyr.

Fel y mae rhai i lunio enllib, y mae ereill i'w adrodd; fel y mae rhai i ysgrifenu a chyhoeddi enllib, y mae ereill i'w ddarllen ac i'w ledaenu; ac nis gallwn weled fod y naill nemawr, os dim, gwell na'r llall. Yr oedd deddf mewn grym yn amser yr ymherawdwyr Valentinian a Valens i roddi dyn i farwolaeth, nid yn unig am ysgrifenu enllib, ond am beidio dyfetha yr enllib a ysgrifenwyd gan arall pan ddeuai hyny yn ei ffordd. Gregory, pan yr esgymunodd yr ysgrifenwyr hyny oeddynt wedi dianrhydeddu Castoricus, a esgymunai hefyd y rhai a ddarllenent eu gwaith, o blegid, medd efe, fod y rhai a fedrent ymbleseru i ddarllen y fath ysgrifeniadau yn llawn mor ddrwg a'r rhai a fedrent ymbleseru i'w hysgrifenu. Y mae yn arwireb annadleuadwy mewn moesau, y gwnai y dyn sydd yn cymmeradwyo gweithred, ei chyflawnu hefyd pe gallai. Nid oes dim gwahaniaeth, medd Cicero, rhwng yr hwn sydd yn gwneyd drwg a'r hwn sydd yn ei gymmeradwyo ar ol ei wneyd. Cadarnhawyd hyn gan gyfraith Rhufain yr hon a ddarostyngai y rhai a gymmeradwyent enllib i'r un gosp a'r rhai a'u llunient. Y mae yn ddichonadwy i ni fel hyn, mewn llawer ffordd, ddyfod yn gyfranog mewn enllib, a gwneyd mwy o ddrwg weithiau drwy hyny na'r gwir enllibiwr ei hun.

Y mae drygau enllib yn ysgeler ac yn aneirif. Gellir edrych arnynt yn bersonol a chymdeithasol. Ymddengys drygedd enllib yn fawr yn ei berthynas â'r enllibiedig. Y mae yn ei amddifadu o'i enw da, ac yn dwyn arno trwy hyny lawer o'r canlyniadau mwyaf annymunol. "Gwell yw enw da," meddai Solomon, "nag enaint gwerthfawr;" *Preg.* vii. 1. Ac mewn man arall, efe a ddywed, "Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer; a gwell yw ffafr dda nag arian, ac nag aur;" *Diar.* xxii. 1. Mae aur, ac arian, a chyfoeth lawer, yn bethau y mae yr holl fyd yn eu dymuno fel y pethau penaf. Yr enaint â'r hwn yr oedd offeiriaid a breninoedd yr Iuddewon gynt yn cael eu heneinio a ystyrid yn werthfawrocach na'r aur pur: ond gwell ydyw enw da na'r cyfan yn nghyd. Ag ef gall y tlawd eu hennill hwy, ond hebddo ef y mae y meddiant o honynt hwy ac o bob peth arall yn ddiwerth. Y mae enw da dyn yn un o ffynnonau penaf ei gysur. Yn nesaf at fod mewn heddwch âg ef ei hun, y mae pob dyn rhinweddol am fod mewn heddwch â'i gymmydogion, ac am fod yn gymmeradwy yn eu golwg. Mwynhad cyflawn o'r hyfrydwch hwn ar un llaw, ac amddifadrwydd hollol o hono ar y llaw arall, fydd un o brif elfenau dedwyddwch a thrueni dyn mewn byd i ddyfod; ond y mae yr enllibiedig yn cael blaenbrawf o'r trueni hwnw yn y byd hwn: y mae yn uffern arno ar y ddaiar. Wedi i ddyn golli ei enw da, y mae yn colli ymddiried ei gyd-ddynion, a thrwy hyny y mae yn colli un o'r elfenau mwyaf angenrheidiol i yrfa o ddefnyddioldeb yn y byd; ac nid efe yn unig sydd yn teimlo oddi wrth hyn, ond pob un â'r hwn y mae yn dal rhyw gyssylltiad. O blegid hyn, gwelsom

Digitized by Google

gyfeillion a pherthynasau trallodus yr enllibiedig weithiau yn gorfod dyoddef mwy na'r enllibiedig ei hun. Yr oedd ef, yn gweled fod y drwg wedi ei wneyd, yn gallu ymddigio ac ymddial; ond yr oeddynt hwy yn rhagweled yr holl ganlyniadau, yn ymofidio o'i blegid ef, ac heb ddim i'w cysuro. Yn y cyflwr hwn y mae yr enllibiedig mewn perygl o wneyd mwy o niwed iddo ei hun na'r hyn a wnaed iddo mewn gwirionedd gan yr enllibiwr ei hunan. Wrth weled ei hun wedi colli ei enw da—y trysor penaf a feddai yn y byd—y mae yn ymollwng i ddifaterwch, ac yn dibrisio ei hun i'r fath raddau nes y mae yn dyfod mewn amser i fod yn euog o bethaû gwaeth, efallai, na'r pethau y drwgdybid ef unwaith o honynt. Ond cofied yr enllibiwr ei fod ef yn gyfrifol am y canlyniadau hyn i gyd.

Ond y mae y drygau cymdeithasol a achosir gan enllib yn amlach eto nag y gellir eu henwi. Pa uchaf fyddo y person neu yr achos a enllibir, mwyaf oll o niwed a wneir drwyddo i gymdeithas yn gyffredinol. I weled hyn, ni raid i ddyn ond edrych ar ddylanwad enllib yn y cylch cymdeithasol y mae efe yn troi ynddo. Mewn cymmydogaethau bychain, lle nad oes llawer o newyddion cyhoeddus i'w cael, nac ond llai na hyny i'w ceisio, y mae rhyw chwilfrydedd mewn dynion am ymyraeth â'r hyn nad yw yn perthyn iddynt, ac fel hyn y mae chwedl ar ol chwedl yn cael ei llunio, a drwg nas gŵyr neb pa faint yn cael ei wneyd. O un chwedl ddrwg, y mae drwg-dybiaeth wedi cael ei gyffroi, ac y mae y naill gymmydog yn ymddigio wrth y llall; ac o ymddigio y maent yn ymrafaelio, ac o ymrafaelio y maent yn ymgyfreithio, nes o'r diwedd y mae yr holl ardal wedi myned i annhrefn ac anghysur. Y lle o'r blaen yr oedd heddwch a chymmydogaeth dda, sydd erbyn hyn yn drigfa dreigiau ac yn gartref pob annedwyddwch. Ac os yw enllib yn effeithio yn ddrwg fel hyn ar ddynion yn eu cyssylltiadau tymmorol, pa faint mwy y rhaid iddo wneyd ar eu cyssylltiadau crefyddol? Fel hyn y mae enllib wedi yfed i fyny gysur llawer teulu. Pa sawl tad a mam sydd yn wylo dagrau heilltion, a'u calon ar dori, o herwydd i'r enllibiwr ar gam gyhuddo eu mab o anonestrwydd neu eu merch o anniweirdeb? A pha sawl plentyn tyner sydd yn disgyn yn anamserol i'r bedd, neu i'r hyn sydd waeth na hyny, o herwydd rhyw chwedlau anwireddus a disail sydd wedi eu lledaenu gan ryw ellyll dideimlad am eu rhieni? A mwy na hyn eto: y mae enllib wedi rhwygo eglwysi, aflonyddu cymmydogaethau, a dryllio teyrnasoedd lawer, nes eu gwneyd yn garneddau anadferadwy. Ond gwybydded yr enllibiwr, pa ddrwg bynag a wna efe i arall, y mae yn sicr o wneyd mwy o ddrwg iddo ei hun yn y diwedd; "Cenfigen a ladd ei pherchenog." Felly enllib hefyd. Yr enllibiwr yn fuan a ddelir yn y rhwyd a osododd efe i arall; ac fe ddygwydd iddo fel i Haaman gynt—efe a grogir ar ei grogbren ei hun.

Y mae yr holl enllibwyr yn gelwyddwyr, a rhaid gan hyny fod y drwg o enllib yn fawr yn nghyfrif Duw. "Toraf ymaith," medd Dafydd, "yr hwn a enllibio ei gymmydog yn ddirgel." Ac mewn man arall, efe a ddywed fod yr enllibiwr yn cael ei gau allan o ffafr ac o bresennoldeb Duw. Pan yn gofyn, "Arglwydd, pwy a drig yn dy babell, a phwy a breswylia yn mynydd dy sancteiddrwydd," efe a ddywed, "Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon. Heb absenu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymmydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog." Nid oes i'r enllibiwr na rhan na chyfran gyda Duw; o herwydd hyn y mae yr Ysgrythyrau yn llefaru yn arw yn ei erbyn. Ieremïah a ddywed, "Gochelwch bawb ei gymmydog, ac na choelied neb ei frawd: canys pob brawd gan ddisodli a ddisodla, a phob cymmydog a rodia yn dwyllodrus. Pob un hefyd a dwylla ei gymmydog, a'r gwir nis dywedant: hwy a ddysgasant eu tafodau i ddywedyd celwydd, ymflinasant yn gwneuthur anwiredd;" *Ier.* ix. 4, 5. Y Salmydd hefyd a ddywed, "Gollyngaist dy safn i ddrygioni, a'th dafod a gydbletha ddichell. Eisteddaist a dywedaist yn erbyn dy frawd: rhoddaist enllib i fab dy fam. Hyn a wnaethost, a mi a dewais: tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun: ond mi a'th argyhoeddaf, ac a'u trefnaf o flaen dy lygaid;" *Salm* l. 19—21. Eto efe a chwanega, "Ymwrolant mewn peth drygionus: ymchwedleuant am osod maglau yn ddirgel; dywedant, Pwy a'u gwel hwynt? Chwiliant allan anwireddau; gorphenant ddyfal chwilio: ceudod a chalon pob un o honynt sydd ddofn. Eithr Duw a'u saetha hwynt; â saeth ddisymmwth yr archollir hwynt. Felly hwy a wnant i'w tafodau eu hun syrthio arnynt: pob un a'u gwelo a gilia;" *Salm* lxiv. 5—8. "Hoffaist bob geiriau dystryw, O dafod twyllodus. Duw a'th ddistrywia dithau yn dragywydd: efe a'th gipia di ymaith, ac a'th dyn allan o'th babell, ac a'th ddiwreiddia o dir y rhai byw. Y cyfiawn hefyd a welant, ac a ofnant, ac a chwarddant am ei ben;" *Salm* lii. 4—6. Yn y llythyr at Timotheus, y mae Paul yn gosod yr enllibiwr gyda'r cwmni gwaethaf—gyda'r ariangar, y beilchion, y cablwyr, yr annuwiol, y bradwyr, a'r cyffelyb y mae ei ran: 2 *Tim.* iii. 2—5. Yn Llyfr y Datguddiad hefyd, cyffelyb ydyw yno—gyda'r ofnog, y digred, y ffiaidd, y llofruddion, y putteinwyr, y swyngyfareddwyr, a'r eilunaddolwyr, "yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan: yr hwn yw yr ail farwolaeth;" *Dad.* xxi. 8.

Ond er mor ddrwg yw enllib, ac mor ofnadwy yw diwedd yr enllibiwr, nid ydyw ei gyflwr yn y byd hwn yn anobeithiol: "Peidied a gwneuthur drwg; dysged wneuthur daioni; dyweded y gwir wrth ei gymmydog ac am ei gymmydog," a gall Duw wneyd i'r hwn sydd yn chwythu bygythion a chelanedd ddyfod i weddïo am drugaredd. Cofied yr enllibiwr gynghor gwerthfawr yr esgob Beveridge, i beidio a siarad am feiau neb ond o flaen ei wyneb; a chofied pawb gynghor Solomon, "Gwynt y gogledd a ŷr y gwlaw ymaith; felly y gŷr wynebpryd digllawn dafod athrodgar;" *Diar.* xxv. 23.—(*Geir. Charles; Geir. Jones: Wilson's Dict.; Drych yr Enllibiwr; Dwight's Theology; The Spectator.*)

**EN-MISPAT**, [עֵין מִשְׁפָּט=*ffynnon y farn*]: yr un lle a Cades: *Gen.* xiv. 7. Gwel CADES.

**ENNODIUS, MAGNUS FELIX**: esgob Ticinum (Pavia), a anwyd B.A. 473, yn Arles neu Milan, o rieni tlodion, ond wedi deilliaw o deulu Galaidd enwog. Gadawyd ef yn amddifad pan yn bur ieuanc dan ofal modryb iddo yn Milan, yr hon a roddodd iddo ei addysg foreuaf. Pan fu hi farw yn 489, priododd wraig gyfoethog; ac yn fuan ar ol hyny cafodd glefyd peryglus, yr hyn a barodd iddo benderfynu cyssegru ei fywyd, os cai adferiad, at wasanaeth crefyddol. Yna, wedi iddo wellhau, aeth yn offeiriad, ac aeth ei wraig yn lleian (*nun*). Yn 494, dilynodd yr esgob Epiphanius o Pavia, yn ei genadaeth i Burgundy;

Digitized by Google

ac yn 502, ysgrifenodd amddiffyniad i'r pab Symmachus yn erbyn Laurentius. Efe oedd y cyntaf a gyfarchodd esgob Rhufain, yn ei lythyrau, fel *papa*, ac aeth yn dra selog dros uchafiaeth y pab. Yn 510 neu 511, dilynodd Maximus fel esgob Pavia; ac yn 515 a 517, anfonwyd ef gan y pab Hormidas ar ddwy genadwri at yr ymherawdwr Anastasius, i Constantinople, er mwyn cadw undeb rhwng eglwysi y dwyrain a'r gorllewin. Methodd yn ei amcan yn y ddau amgylchiad; a'r ail dro, anfonwyd ef a'i gydymaith, yr esgob Peregrinus, allan o'r wlad. Ysgrifenodd lawer o blaid ei grefydd, ei opiniynau, a'i gyfeillion; a bu farw yn y flwyddyn 520. Argraffwyd ei waith gyntaf yn 1569. Yr argraffiad goreu o'i waith yw yr un a gyhoeddwyd gan Sirmond, yn Paris, 1696.—(*Herzog's Real. Encycl*).

1. ENOCH, [חנוך, *Chanôch — cyflwynedig*; 'Ενώχ]: mab hynaf Cain, yr hwn a alwodd y ddinas a adeiladodd ar ei enw ei hun: *Gen.* iv. 17. Y mae Ewald yn tybied fod cyfeiriad at hon yn enw Iconium Phrygia, yn yr hon ddinas y cadwyd chwedl am Annacos, a gymmerwyd yn amlwg o'r hanes Ysgrythyrol am dad Methuselah. Y mae amryw ddinasoedd ereill wedi cael eu nodi fel rhai yn sefyll yn yr un fan a'r hen Enoch, heb nemawr o sail, megys Anuchta yn Suisana, Heniochi yn y Caucasus, &c.

2. ENOCH: mab Iared, a thad Methuselah: *Gen.* v. 21, &c.; *Luc* iii. 37. Yn Epistol Iudas (*adn.* 14; *Llyfr Enoch*, lx. 8), dynodir ef fel "y seithfed o Adda;" ac y mae rhai yn meddwl fod y rhif yn arwyddo cyflawnder a gorphwysfa ddwyfol [*August. C. Faust.* xii. 14]; tra y tybia ereill fod Enoch ei hun yn gynllun o ddynoliaeth berffaith, "gŵr a ddyrchafwyd i'r nef trwy ewyllys Duw, tra y cwympodd angelion i'r ddaiar trwy eu trosedd" [*Iren.* iv. 16, adr. 2]. Y mae rhai yn tybied hefyd fod y rhifau ereill sydd yn gyssylltiedig â'i hanes yn rhy gyfartal neu gymmesurol i fod heb ystyr iddynt. Ganwyd ef pan oedd Iared yn 162 mlwydd oed; ac ar ol genedigaeth ei fab hynaf yn y 65 mlwydd o'i oedran, efe a fu fyw 300 mlynedd. Y mae yn golygu, ar sail bur wan, fel y tybir, oddi wrth yr ysbaid o 365 o flyneddoedd a roddir i fywyd Enoch, mai efe oedd "duw y flwyddyn newydd" gan y paganiaid: ond dichon fod gan y rhif ryw ddylanwad ar y traddodiadau a briodolant i Enoch y darganfyddiad o wyddor seryddiaeth [*Eupol. ap. Euseb. Præp. Ev.*, ix. 17, lle y gwneir ef yr un ag Atlas]. Ar ol genedigaeth Methuselah, dywedir yn *Gen.* v. 22—24, fod Enoch "wedi rhodio gyda Duw dri chant o flyneddoedd...ac na welwyd ef; canys Duw a'i cymmerodd ef." "Y mae 'rhodio gyda Duw' yn arwyddo," medd Kitto, "y gymdeithas agosaf âg Iehofah y mae yn bosibl i ddyn ei mwynhau ar y ddaiar." Ac fel gwobr am ei sancteiddrwydd tra rhagorol, efe a symmudwyd i'r nef heb brofi marwolaeth. Symmudwyd Elias yn yr un modd; ac felly yr oedd yr athrawiaeth o anfarwoldeb yn cael ei dysgu yn amlwg dan yr hen oruchwyliaeth. Yr unig berson arall y cymhwysir yr ymadrodd, "rhodio gyda Duw," ato ydyw Noah: *Gen.* vi. 9; cymharer xvii. 1, &c. Y mae rhai yn meddwl mai yr ystyr yw, ei fod wedi treulio bywyd prophwydol mewn cymdeithas uniongyrchol â'r byd ysbrydol. "Yr oedd ei holl ymddygiad ef gyda'r sanctaidd, a chyda'r gwyliedyddion yn ystod ei fywyd" [*Llyfr Enoch*, xii. 2]. Ni sonir am dano yn yr Hen Destament ond yn y manau a nodwyd, ond dygir ef ger ein bron yn yr Apocrypha fel un o ragorolion penaf yr Iuddewon, "canys efe a gyfodwyd i fyny oddi ar y ddaiar;" *Eccl.* xlix. 14. "Efe a ryglyddodd foddio Duw, ac a fudwyd ymaith (i Baradwys, *Vulgate*), yn esampl o edifeirwch i'r cenedlaethau oll;" *Eccl.* xliv. 16. Yn yr Epistol at yr Hebreaid (xi. 5), dangosir yr achos a'r effaith o fywyd sanctaidd Enoch yn dra eglur: "Trwy ffydd y symmudwyd Enoch, fel na welai farwolaeth, am ddarfod i Dduw ei symmud ef; canys cyn ei symmud, efe a gawsai dystiolaeth ddarfod iddo ryngu bodd Duw." Ceir syniad cyferbyniol i hyn yn ymadrodd cyfyngedig Josephus [*Hynaf.*, i. 3, 4], "Ymadawodd Enoch at y Duwdod, am hyny ni chofnodir ei farwolaeth" (yn yr ysgrifeniadau cyssegredig).

Y mae y crybwylliadau Ysgrythyrol am Enoch wedi bod yn ffynnonell ffrwythlawn iddychymyg mewn amseroedd diweddarach. Y mae rhai duwinyddion wedi bod yn dadleu yn dra chywrain gyda golwg ar y lle i'r hwn y symmudwyd ef; pa un ai i baradwys ynte i bresennoldeb digyfrwng Duw [cymharer *Fenarden. ad. Iren.* v. 5]; er yr ystyria ereill mai doethach ydyw peidio trafod y pwnc. Yr oeddynt yn cytuno yn well gyda golwg ar bynciau ereill perthynol iddo. Yr oedd y tadau Groegaidd a Rhufeinaidd yn gyffredin yn cyssylltu Enoch âg Elias fel tystion hanesyddol fod yn bosibl adgyfodi y corff, ac fod yn bosibl iddo fod yn sylweddol mewn gogoniant; ac y mae hen draddodiadau eglwysig bron yn unllais yn eu golygu fel "y ddau dyst" (*Dad.* xi. 3, &c.), y rhai a gwympent o flaen y bwystfil, ac wedi hyny a gyfodid i'r nef cyn y farn fawr. Dyma olygiadau Irenæus, Tertullian, ac amryw ereill.

Mewn amseroedd diweddarach, mawrygwyd Enoch fel dyfeisydd ysgrifen, rhifyddiaeth, a seryddiaeth [*Euseb. Præp. Ep.*, ix. 17]. Dywedir iddo lenwi tri chant o lyfrau â'r dadguddiadau a dderbyniodd, a thybid mai yr un oedd ag Edris (Idris—"y dysgedig"), yr hwn a gofnodir yn yr Alcoran fel un "a ddyrchafwyd [gan Dduw] i'r uchelder." Ond y mae yn debyg mai y llyfr ffugiol sydd yn dwyn ei enw a achosodd y rhan fwyaf o'r traddodiadau hyn a'u cyffelyb.

Y mae rhai yn tybied eu bod yn canfod olion o hanes Enoch yn chwedl y Phrygiaid am Annacus, yr hwn oedd nodedig o blegid ei dduwioldeb, a fu byw dri chan mlynedd, ac a brophwydodd am ddylif Deucalion. Yn yr hen argraffiadau o'r Beibl Cymraeg, fel y rhai Seisonig, Henoch yw yr enw yn 1 *Cron.* i. 2; ond yn yr argraffiadau diweddar y mae wedi ei droi yn Enoch.

3. ENOCH: trydydd mab Midian, mab Abraham o Ceturah. Hanoch ydyw hwn, yn ol ein cyfieithiad ni, yn *Gen.* xxv. 4; a Henoch ydyw yn 1 *Cron.* i. 33. Yr un ydyw y gair gwreiddiol ag Enoch.

4. ENOCH: mab hynaf Reuben. Hanoch yw hwn hefyd yn ein cyfieithiad ni bob amser: *Gen.* xlvi. 9; *Exod.* vi. 14; 1 *Cron.* v. 3. O hwn yr hanodd "tylwyth yr Hanochiaid;" *Num.* xxvi. 5.

ENOCH, LLYFR: y mae y sylw mawr a roddid unwaith i lyfr anghanonaidd Enoch wedi lleihau i raddau mawr erbyn hyn; eto, nis gall cyfansoddiad y tybir mor gyffredinol iddo gael ei ddyfynu gan apostol ysbrydoledig, fod yn gwbl amddifad o bwys a dyddordeb mewn llenyddiaeth gyssegredig. Dywed Smith fod egni arddull ac eangder rhagolygiad y llyfr hwn yn ei wneyd yn dra theilwng o'r sylw a roddwyd iddo yn yr

Digitized by Google

oesoedd boreuol; a bod amryw bethau perthynol iddo yn deilwng o ymchwiliad chwanegol.

Y mae hanes y llyfr yn nodedig. Tybia rhai mai yn Epistol Iudas (14, 15; cymharer *Enoch* i. 9) y mae yr awgrym cyntaf fod y fath lyfr yn bod; ond nis gellir bod yn sicr oddi wrth eiriad yr apostol pa un ai o draddodiad ai o ysgrifen y cymmerodd efe ei ddyfyniad, er fod lledaeniad helaeth y llyfr yn yr ail ganrif yn rhoddi lle i gasglu y gallai yn hawdd ddyfynu o hono ef; ac y mae rhai yn tybio yn gryf mai felly y gwnaeth. Ymddengys fod y llyfr yn hysbys i Justin Ferthyr, Irenæus, Clement o Alexandria, Tertullian, Origen, Augustine, Jerome, Hilary, ac Eusebius. Dyfynir o hono hefyd ar amryw achlysuron yn *Nhestament y Deuddeg Patriarch*—gwaith y dangosodd Nitzsch ei fod yn perthyn i ddiwedd y ganrif gyntaf neu ddechreu yr ail ganrif. Mae Tertullian yn dyfynu o'r llyfr yn benodol fel un "nas derbynid gan rai, ac nas cydnabyddid yn nghanon yr Iuddewon;" ond y mae efe yn ei amddiffyn am ei fod yn cyfeirio at Grist. Ymddengys nad oedd yr Eglwys Orllewinol yn adnabyddus o'r llyfr o amser Jerome, am amryw o ganrifoedd, ond yn unig wrth y dyfyniad y tybir i Iudas ei gymmeryd o hono [*Dillmann, Einl.* lvi. Yr oedd yn adnabyddus yn yr Eglwys Ddwyreiniol am rai canrifoedd yn ddiweddarach. Y mae darnau lled heláeth o hono yn y *Chronographia*, gan Georgius Syncellus, o gylch B. A. 792; a'r rhai hyn, yn nghyd â'r cyfeiriadau achlysurol iddo a geir mewn ysgrifenwyr boreuach, oedd yr holl weddillion o'r llyfr oedd yn adnabyddus yn Ewrop hyd ddiwedd y ganrif olaf. Pa fodd bynag, yr oedd y gair ar led yn y cyfamser fod yr holl lyfr wedi ei gadw yn Abyssinia; ac o'r diwedd, yn 1773, dygodd Bruce dair llawysgrif gydag ef, ar ei ddychweliad o'r Aipht, yn cynnwys cyfieithiad Ethiopaeg cyflawn o hono. Ond er maint y dyddordeb a achosodd y darganfyddiad yma, Silvestre de Sacy, yn 1800, a wnaeth sylwadau manwl ar y cyfieithiad hwn gyntaf; ac ni chyhoeddwyd ef hyd 1838, gan yr archesgob Laurence. Yn y cyfamser, cyhoeddodd Laurence gyfieithiad Seisoneg o hono, yr hwn a aeth trwy dri o argraffiadau, 1821, 1833, 1838. Cyfieithiad Seisoneg Laurence oedd sylfaen argraffiad Almaenaidd Hoffmann, 1833—38; ac yn 1840, cyhoeddodd Gfrörer gyfieithiad Lladin o hono wedi ei seilio ar gyfieithiadau Laurence a Hoffmann. Rhagorwyd ar yr holl argraffiadau hyn gan y rhai a gyhoeddwyd gan Dillmann, yr hwn a gymharodd y testyn Ethiopaeg yn ofalus â phump o lawysgrifau gwahanol yn 1851, ac wedi hyny (1853) a gyhoeddodd gyfieithiad Almaenaidd o'r llyfr, gydag arweiniad iddo ac esboniad rhagorol arno. Rhoddodd argraffiad Dillmann gynhwrf newydd mewn ysgolheigion i fyfyrio y llyfr. Yn mysg y traethodau a gyhoeddwyd arno, y rhai mwyaf pwysig yw eiddo Ewald, yn 1856, a Hilgenfeld, yn 1857. Adolygwyd yr hen ysgrifeniadau ar y pwnc yn ofalus gan Fabricius.

Credir yn ddiammheuol gan y dysgedigion sydd wedi chwilio y pwnc yn fanwl, fod y cyfieithiad Ethiopaeg yn cynnrychioli yr un llyfr ag y tybia y rhan fwyaf i Iudas ddyfynu o hono, a'r hwn hefyd a grybwyllir ac a ddyfynir gan amryw o'r tadau. Y mae yn amlwg fod y darnau a gadwyd gan Syncellus yr un a *pen.* vii., &c.; ac nad yw yr amrywiadau ond dibwys; ac, fe allai, damweiniol. Y mae yn amlwg hefyd i bwy bynag a gymharo y dyfyniadau a wnaed gan y tadau â'r cyfieithiad Ethiopaeg, fod y naill a'r llall yn cyfeirio at yr un gwaith gwreiddiol. Nis gall y dyfyniadau dan sylw fod yn llygriadau neu ffug, gan eu bod yn hanfodol i'r cyssylltiadau y ceir hwy ynddynt. Gwnaed y cyfieithiad Ethiopaeg o'r Groeg; ac fe allai iddo gael ei wneuthur o gylch yr un amser ag y cyfieithwyd y Beibl, â'r hwn y cyssylltwyd ef wedi hyny, sef tua chanol y bedwaredd ganrif. Pa fodd bynag, y mae yn ansicr hyd heddyw pa un ai gwreiddiol oedd y testyn Groeg ei hunan, ai cyfieithiad ydoedd. Y mae un o'r cyfeiriadau boreuaf i'r llyfr yn Hebraeg, sef yn *Llyfr y Jubili*; a deillia enwau yr angylion a'r gwyntoedd o wraidd Aramaeg. Heb law hyn, yr oedd llyfr Hebraeg Enoch yn adnabyddus ac yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgrifenwyr Iuddewig hyd ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg; ac o blegid hyn, a phethau cyffelyb, y mae amryw wedi barnu mai yn Hebraeg (Aramaidd) y cyfansoddwyd y llyfr gyntaf. Yn y fath amgylchiad nis gellir ymddibynu ar yr arddull Hebreig, gan y gellir canfod hyny mewn awdwr gystal ag mewn cyfieithydd; a chan nad oes brawf uniongyrchol i'w gael, y mae yn anhawdd penderfynu y naill ffordd na'r llall. Ar y naill law, pe buasai y llyfr wedi ei ysgrifenu yn wreiddiol yn Hebraeg, ymddengys yn debygol y buasai yr athrawon Rabbinaidd yn gwneuthur defnydd mwy cyffredinol o hono: ond ar y llaw arall, fe ymddengys yn sicr mai brodor o Palestina oedd yr ysgrifenydd, ac am hyny yr oedd yn debyg o ddefnyddio yr iaith fwyaf arferedig yno ar y pryd. Os y dyb mai Hebraeg oedd yn wreiddiol a dderbynir, yr hon, fel tyb, a ymddengys yn fwyaf tebygol, yna y mae i hanes y gwreiddiol a'r cyfieithiad gyfatebolrwydd nodedig yn *Noethineb Iesus mab Sirach*, neu *Ecclesiasticus.*

Y mae y llyfr yn ei ddull presennol yn gynnwysedig o gyfres o ddadguddiadau, y tybir iddynt gael eu rhoddi i Enoch a Noah; y rhai a gymmerant olwg ar agweddau mwyaf amrywiol natur a buchedd, ac a fwriadwyd fel amddiffyniad eang i weithrediadau Rhagluniaeth. Dosberthir y llyfr yn bum rhan. Y rhan gyntaf, ar ol arweiniad cyffredinol, a gynnwys hanes am gwymp yr angylion (*Gen.* vi. 1), a'r farn a fydd arnynt hwy ac ar y cawri, eu hiliogaeth; a chanlynir hyn gan ddysgrifiad o daith Enoch trwy y ddaiar a'r nef isaf yn nghymdeithas angel, yr hwn a ddangosodd iddo lawer o ddirgeledigaethau mawrion natur, trysordai yr ystormydd a'r gwyntoedd, a thânau y nefoedd, carchar y colledig, a thir y gwynfydedig. Yr *ail ran* a elwir "Gweledigaeth Doethineb," ac a gynnwysa dair dammeg, yn y rhai yr adrodda Enoch weledigaethau cyfrinion uchaf y nef a'r byd ysbrydol, y rhai a roddwyd iddo ef. Y ddammeg gyntaf a rydd ddarlun yn benaf o wynfydedigrwydd ac o ymddygiadau y cyfiawnion, gydag eglurhad chwanegol ar y cyrff nefol: yr ail, mewn dychymyg godidog, a ddysgrifia ddyfodiad y Messiah, a'r canlyniadau a ddilynant hyny ar "yr etholedig" a'r gwrthwynebwyr: y drydedd a helaetha ar wynfydedigrwydd "yr etholedig a'r sanctaidd," ac ar derfysg a thrueni tywysogion annuwiol y byd. Y drydedd ran a elwir "Llyfr Cylchoedd Goleuadau y Nef," ac a draetha ar symmudiadau yr haul a'r lleuad, ac ar newidion y tymmorau; a chyda hyn y terfyna hanes taith Enoch. Y bedwaredd ran, i'r hon nid oes unrhyw enw penodol, a gynnwys hanes breuddwyd y rhyngodd bodd i Dduw ei roddi i Enoch yn ei ieuenctid, yn yr hon y gwelodd hanes teyrnasoedd Duw a'r byd hyd sefydliad gorseddfainc y

Digitized by Google

Messïah. Y bummed ran a gynnwys gyfarchiad olaf Enoch i'w blant, yn yr hwn y gwneir athrawiaeth y pennodau blaenorol yn sail cynghor tra difrifol. Yn nesaf, gwna sylw ar yr arwyddion oedd yn cydfyned â genedigaeth Noah; a therfyna y llyfr gydag ysgrif fer arall o waith Enoch.

Y mae yr unrhywiaeth cyffredinol sydd i'r llyfr yn ei ffurf bresennol, yn ei ddynodi, ar y cyfan, fel gwaith un dyn. Y mae y gwahanol ranau, er eu bod yn gyflawn ynddynt eu hunain, yn dangos fod cyssylltiad arbenig rhyngddynt â'u gilydd, trwy fod yr un amcan cyffredinol yn amlwg ynddynt oll. Ond y mae cyd-darawiad mewnol y cyfansoddiad yn dangos yr un mor amlwg fod darnau gwahanol wedi cael eu rhoddi i mewn yn y gwaith gan yr awdwr, ac fe allai fod rhai chwanegiadau wedi cael eu gwneyd ato ar ol hyny. Y mae hen awdwyr yn crybwyll fod y gwaith yn wahanol lyfrau; ac y mae gwahanol arddull ac ieithwedd yn ddigon amlwg yn y gwaith fel y mae yn bresennol. Y pwnc mawr y dylid cyfeirio ato yw, gwahaniaethu rhwng yr elfenau gwreiddiol a'r llygriadau diweddarach; canys nid ydyw y gwahanol ffyrdd a ddilynwyd hyd yn hyn yn debyg o ateb y dyben yn foddhaol. Yn y ddau amgylchiad yma, ymddengys fod y beirniaid yn myned yn mlaen dan ddylanwad syniadau blaenorol gyda golwg ar yr hyn oedd i'w ddysgwyl ar amser penodol, a bod pob un yn tynu ei gasgliadau yn ol ei ragfarnau ei hun. Y mae Hoffmann a Wisse yn gosod yr holl waith yn y cyfnod Cristionogol; o blegid y mae y naill yn meddwl nas gallasai Iudas ddyfynu o lyfr anghanonaidd, neu lyfr o awdurdod ammheus; tra y ceisia y llall ddidoli Cristionogaeth yn hollol oddi wrth Iuddewiaeth. Ymddengys i Stuart ragweled rheswm Wisse, fel y golyga efe fod yr hyn sydd ar Gristionogaeth yn y llyfr yn arwydd amlwg ei fod wedi ei gyfansoddi cyn y cyfnod Cristionogol. Y mae Ewald, yn ol ei arfer, yn nodi allan y gwahanol elfenau gyda hyder gwrol; ond y mae yn gadael yr olrheiniad mewn sefyllfa mor ddyrus ac annhenderfynol, fel nas gellir ei dderbyn yn ddibetrus, er fod y cyfan yn cael ei hynodi gan farn a chraffder meistrolgar. Mae efe yn gosod cyfansoddiad sylfaen y gwaith mewn gwahanol amserau, rhwng 144 c.c. a 120 c.c., ac yn tybied fod yr holl lyfr wedi cael ei osod yn ei ffurf bresennol yn ystod y rhan gyntaf o'r ganrif olaf cyn Crist. Y mae Lücke yn ystyried y gwaith yn ddwy brif ran. Y mae yn amseru y rhan hynaf tua dechreu ymdrech y Maccabeaid, a'r ddiweddaf a briodola i amser cyfodiad Herod Fawr. Pa fodd bynag, tybia efe i'r llygriadau neu y chwanegiadau gael eu gwneuthur heb un amcan at benderfynu ei amseriad. Y mae Dillmann yn sefyll yn fwy penderfynol dros unoliaeth y llyfr, a phriodola gorff y gwaith i ysgrifenydd Arameaidd o amser John Hyrcanus, o gylch 110 c.c. Gwnaed y chwanegiadau hanesyddol, a hefyd ar Noah, yn ol ei farn ef, yn y cyfieithiad Groeg. Lled debyg ydyw barn Köstlin a Hilgenfeld, a amserant y llyfr gwreiddiol tua dechreu y ganrif olaf cyn Crist. Barna efe i'r llyfr hwn fyned trwy ddwylaw ysgrifenydd Cristionogol, yr hwn a fucheddai rhwng amserau Saturnius a Marcion; yr hwn a roddodd y chwanegiadau ato, yn cynnwys yr adran fawr yn nghylch y Messïah. Yn ngwyneb yr holl dybiau amrywiol hyn, mae yn amlwg fod yn anmhosibl penderfynu dim yn awdurdodol, gan fod y profion yn annigonol. Y mae un peth, fel y tybir, yn ymddangos yn ddigon amlwg; sef, fod y gwaith o darddiad Iuddewig. Dichon fod rhai chwanegiadau wedi eu gwneuthur yn y gwahanol gyfieithiadau; a diau i ranau helaeth hynach gael eu corffoli yn y gwaith; ond fel cyfanwaith, gellir ystyried ei fod yn cynnwys arddangosiad pwysig o opiniynau Iuddewig, ychydig o amser cyn dyfodiad Crist.

Y mae lle preswylfod yr awdwr, pan yn ysgrifenu ei lyfr, yn cael ei benderfynu gan Laurence, oddi wrth *pen.* lxxi, lle y rhoddir hyd y dyddiau ar wahanol dymmorau y flwyddyn. Y mae yn rhaid ei fod rhwng y bummed radd a'r nawfed radd a deugain o'r lledred gogleddol, yn mharthau gogleddol Môr Caspian a'r Mor Du. Fe allai gan hyny mai un o'r Iuddewon a gaethgludasid gan Salmaneser oedd yr awdwr, yr hwn ni ddychwelodd o'i gaethiwed. Er hyny y mae *pen.* xiii. 8—10, yn cyfeirio i ran ogleddol Palestina. Y mae Murray wedi dangos hefyd fod un ymadrodd yn pleidio y dyb mai yn Abyssinia yr oedd yr awdwr yn byw. Yna y mae efe yn casglu mai gwaith amryw awdwyr, oedd yn byw mewn gwahanol wledydd pell oddi wrth eu gilydd, wedi eu cyfuno yn nghyd, ydyw *Llyfr Enoch.* Ond sylwodd De Sacy yn briodol, gan yr ymddengys mai dychymygol mewn rhan ydyw cyfundrefn seryddol yr awdwr, y gall mai felly hefyd y mae ei ddaiaryddiaeth. Nid ydyw yr Aipht, Caldea, na Phalestina, yn cyfateb i'r seryddiaeth sydd ynddo. Mae yn wir fod y cyfeiriadau at dduwinyddiaeth ddwyreiniol a syniadau Zoroaster o blaid tarddiad Caldeaidd—o leiaf y rhan seryddol; ond gellir rhoddi cyfrif am duedd yr awdwr at ddelweddau *tân, dysgleirdeb, goleuni*, ac arwyddluniau dwyreiniol ereill, ar ryw dyb heb law ei fod yn preswylio yn Caldea. Pa fodd y daeth yn gydnabyddus â'r Zend-Avesta, neu y syniadau sydd yn y llyfr hwnw, nis gellir dyfalu, er fod yn lled amlwg fod effaith athroniaeth ddwyreiniol canolbarth Asia ar amryw ranau o'i lyfr.

Y mae yn amlwg mai prif amcan yr ysgrifenydd, yr hwn yr ymddengys ei fod o duedd dra duwiolfrydig, oedd cysuro a chalonogi ei gydoeswyr. Yr oedd efe yn byw mewn amseroedd o gyfyngder ac erlidigaeth, pan yr oedd gelynion crefydd yn gorthrymu y cyfiawn. Yr oedd amgylchiadau allanol y duwiolion y fath ag i achosi ammheuaeth yn eu meddyliau am gyfiawnder Duw, neu o leiaf, i gael y fath effaith ar eu ffydd ag oedd yn angenrheidiol i'w cynnal yn awr y brofedigaeth. Am hyny y mae yr ysgrifenydd, mewn modd galluog, yn dangos gwobr y cyfiawn a chosp y drygionus. Er mwyn rhoddi mwy o awdurdod i'w gymhellion, y mae yn eu rhoddi yn ngenau Enoch. Fel hyn, tybiai y rhoddid iddynt yr holl bwys a berthynai i gymmeriad y prophwyd a'r sant enwog hwnw. Y mae hanes yr angylion syrthiedig, a'u cospedigaeth, a hanes y dylif, yn dangos cyfiawnder cospawl Iehofah; tra y dengys parhad o hanes yr Iuddewon hyd y Maccabeaid, goruchafiaeth ei bobl ef yn y diwedd, er eu holl orthrymderau. Y mae yn ddiau fod yr awdwr yn byw yn nghanol profedigaethau tanllyd; a chan edrych o'i amgylch ar y difrod mawr, ymdrecha gysuro y dyoddefwyr â'r ystyriaeth o daledigaeth mewn byd arall. Gyda golwg ar y gorthrymwyr drygionus, yr oeddynt i brofi barnedigaethau dychrynllyd. Ymddengys fod yr ysgrifenydd yn ymhyfrydu yn y gorchwyl o gyhoeddi anathemau arswydlawn yn erbyn y drygionus. Mae yn amlwg fod y llyfr wedi ei

Digitized by Google

seilio ar yr amgylchiadau a gymmerasant le yn ystod bywyd yr awdwr, a'r dygwyddiadau oedd yn ei amgylchynu. Rhydd y llyfr hwn gipolwg i ni, nid yn unig ar y syniadau crefyddol, ond hefyd ar agwedd gyffredinol yr amser neu yr adeg yr ysgrifenwyd ef ynddo.

Gyda golwg ar ddefnyddioldeb y llyfr, os cymmerir yn ganiataol iddo gael ei ysgrifenu gan Iuddew, y mae yn hyfforddiad pwysig yn hanes syniadau Iuddewig. Y mae yn arddangos cyfran hanfodol o'r gred Iuddewig cyn ymddangosiad Crist, a chynnorthwya ni i gymharu golygiadau duwinyddol Iuddewon diweddarach â golygiadau rhai boreuach. Gwasanaetha hefyd i gadarnhau y ffaith na ddylid priodoli rhai athrawiaethau sydd o bwys mawr yn ngolwg Cristionogion fel cynnyrch oes yn yr hon yr oedd Cristionogaeth wedi cael ei llygru gan ddychymygion dynion. Ni ddylai neb gyfeirio ato fel awdurdod. I'r Beibl yn unig y perthyn awdurdod. Nid oes i unrhyw gyfansoddiad dynol, pa mor werthfawr bynag y byddo, hawl i lywodraethu dealltwriaeth a chydwybodau dynion. Ond ar wahan oddi wrth bob awdurdod, gellir edrych arno yn deg fel arddangosiad o'r syniadau oedd yn ffynu pan yr ysgrifenwyd ef. Am hyny, gall fod o iswasanaeth i gadarnhau rhai syniadau, ond gofalu am allu dangos fod iddynt sylfaen dda yn Ngair Duw. Fe gydnabyddir yn gyffredin fod rhai athrawiaethau yn cael eu hamlygu yn y Beibl trwy ddadganiad pendant, ac ereill yn cael eu deall trwy gasgliad teg oddi wrth gynnwys y gyfrol sanctaidd; ac fe addefir yn sicr fod cael tystiolaeth amlwg o blaid gwirionedd y cyfryw athrawiaethau mewn hen lyfr o oedran hwn, o gryn bwys. Goddefer i ni gyfeirio, yn fyr, at rai o ddadganiadau yr hen lyfr gyda golwg ar y cyfryw bynciau.

Gyda golwg ar natur y Duwdod, y mae rhai yn credu ei fod yn cyfeirio at luosogedd yn yr ymadroddion canlynol:—"Efe a eilw bob gallu yn y nefoedd, ar bob sant sydd uchod, ac ar allu Duw. Y Cerubiaid, y Seraphiaid, a'r Ophaniaid, holl angylion y gallu, a holl angylion yr Arglwyddi, sef yr Etholedig a'r Gallu arall, yr hwn oedd ar y ddaiar ar wyneb y dyfroedd yn y dydd hwnw, a gyfodant eu llef yn unllais; a fendithiant, a ogoneddant, a foliannant, ac a ddyrchafant gydag ysbryd ffydd, gydag ysbryd doethineb ac amynedd," &c.; lx. 13, 14. Yma, bernir y cyfeiria "yr Etholedig" yn amlwg at y Messiah, a'r "Gallu arall, yr hwn oedd ar y ddaiar ar wyneb y dyfroedd yn y dydd hwnw," at yr Ysbryd Glân.

Yn unol â'r ymadrodd yma, darlunir Crist—1. *Fel yn bod er tragwyddoldeb;* fel hyn:—"Yn yr awr hono yr ymbilid ar Fab y dyn ger bron Arglwydd yr Ysbrydion, ac ar ei enw ef yn mhresennoldeb yr Hen Ddihenydd. Cyn creu yr haul a'r arwyddion, cyn ffurfio ser y nefoedd, ymbilid ar ei enw ef yn mhresennoldeb Arglwydd yr Ysbrydion. Am hyny yr oedd yr Etholedig a'r Dirgeledig yn bod yn ei bresennoldeb ef cyn creu y byd, ac yn oes oesoedd;" xlviii. 2, 3, 5. "Yna y breninoedd, y tywysogion, a holl berchenogion y ddaiar, a ogoneddant yr Hwn sydd yn llywodraethu ar bob peth, yr Hwn oedd ddirgeledig; canys yr oedd Mab y dyn yn bod mewn dirgelwch o'r dechreuad, yr hwn a gadwodd y Goruchaf yn mhresennoldeb ei allu, ac a'i dadguddiodd i'r etholedigion. Yr holl freninoedd, y pendefigion, y dyrchafedig, a'r rhai sydd yn llywodraethu y ddaiar, a syrthiant ar eu hwynebau ger ei fron Ef, ac a'i haddolant Ef. Hwy a osodant eu gobaith ar Fab y dyn, a gweddïant arno Ef, ac a ymbiliant am ei drugaredd Ef;" lxi. 10, 12, 13. 2. *Fel gwrthddrych gweddi ac addoliad:*—Y mae y dyfyniad olaf yn cadarnhau y mynegiad yma, ac felly hefyd y mae *pen.* xlviii. 3, 4; "Cyn creu yr haul a'r arwyddion, cyn ffurfio ser y nefoedd, ymbilid ar ei enw ef ger bron Arglwydd yr Ysbrydion. Yr holl rai a breswyliant ar y ddaiar a ymgrymant ac a addolant ger ei fron Ef, a chanant fawl i enw Arglwydd yr Ysbrydion." 3. *Fel Barnwr goruchaf dynion ac angylion:*—"Chwi freninoedd, chwi rai galluog, y rhai a breswyliwch y byd, chwi a welwch Fy Etholedig yn eistedd ar orsedd Fy ngogoniant. Ac efe a farn Azazeel, a'i holl gydweinyddion, a'i holl luoedd ef, yn enw Arglwydd yr Ysbrydion;" liv. 5. "Yna Arglwydd yr Ysbrydion a osyd ei Etholedig i eistedd ar orsedd Ei ogoniant; yr hwn a farn holl weithredoedd y saint yn y nefoedd uchod, ac Efe a bwysa eu gweithredoedd hwynt mewn clorian. A phan y dyrchaif Ef ei wynebpryd i farnu eu ffyrdd dirgel hwynt yn ol y gair yn enw Arglwydd yr Ysbrydion," &c.; lx. 10, 11. "Hwy a fendithiwyd, a ogoneddwyd, ac a ddyrchafwyd, canys enw Mab y dyn a ddadguddiwyd iddynt hwy. Efe a eisteddodd ar orsedd Ei ogoniant; a'r gyfran benaf o'r farn a roddwyd iddo ef, Mab y dyn;" lxviii. 38, 39.

Y mae yr athrawiaeth o daledigaeth mewn sefyllfa ddyfodol hefyd yn cael ei awgrymu mewn amryw ymadroddion yn yr hen lyfr hwn; megys "Chwi a gablasoch ac a wnaethoch anwiredd; a chedwir chwi hyd ddydd tywallt gwaed, hyd ddydd tywyllwch, a hyd ddydd y farn fawr. Hyn a fynegaf ac a nodaf allan i chwi, y bydd i'r Hwn a'ch creodd eich dinystrio chwi;" xciii. 8, 9. Pwy a oddefodd i chwi gasau a throseddu? Barn a'ch goddiwedda chwi bechaduriaid. Gwae chwi, y rhai a delwch ddrwg i'ch cymmydog; canys telir i chwithau yn ol eich gweithredoedd;" xciv. 2, 4; cymharer xcv, xcvi, xcix, ciii.

Hefyd, mae yr athrawiaeth o gosp dragwyddol mewn sefyllfa ddyfodol yn *Llyfr Enoch:*—"Yn mhellach, digon yw eu dyoddefaint hyd amser y farn fawr, cospedigaeth a phoen y rhai a lwyr felldithir, eneidiau y rhai a gospir ac a rwymir yn oes oesoedd. Dyma y lle a barotowyd i eneidiau yr anghyflawnion a'r pechaduriaid; y rhai a wnaethant ddrygioni, ac a gadwasant gyfeillach â'r annuwiolion gan ymdebygu iddynt. Ni ddiddymir eu heneidiau yn nydd y farn, ac ni chyfodant chwaith o'r lle poenus hwn;" xxii. 12, 14. "Ni chânt byth drugaredd, medd Arglwydd yr ysbrydion;" xxxix. 2. "Wynebau y galluog hefyd a fwrw Efe i lawr, gan eu llenwi â gwaradwydd. Tywyllwch a fydd eu preswylfa, a phryfaid fydd eu gwely; ac ni bydd iddynt obaith byth y cânt gyfodi oddi ar eu gwely; canys ni ddyrchafasant enw Arglwydd yr Ysbrydion;" xlvi. 4. "Ond oni ddangoswyd iddynt pan y gwneir i'w heneidiau ddisgyn i dderbynfa y meirw, mai eu gweithredoedd drwg a fydd eu poenedigaeth fwyaf? Aiff eu hysbrydoedd i dywyllwch, i'r fagl ac i'r fflam a lysg hyd y farn fawr; a bydd effaith y farn fawr byth ac yn oes oesoedd;" ciii. 5.

Y mae ystyr yr ymadroddion hyn mor eglur, ac y maent mor uniongyrchol ar y pynciau a nodwyd, fel nad ydynt yn gofyn unrhyw eglurhad. Pa werth bynag sydd i'r syniadau duwinyddol a draethir yn *Llyfr Enoch,* y mae yn amlwg oddi wrth y dyfyniadau blaenorol fod rhai syniadau a

Digitized by Google

ystyrir gan Gristionogion efengylaidd o bwys mawr, am eu bod yn yr Ysgrythyrau, yn cael eu coleddu ar ddechreu y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, os nad yn foreuach.

Ni chafodd y llyfr erioed ei dderbyn i gyfres yr ysgrifeniadau canonaidd. Y mae yr *Apostolical Constitutions* [vi. 16] yn ei alw yn bendant yn *apocryphal* (ammheus), tra y cadarnha Origen na chafodd erioed ei ystyried yn ddwyfol gan yr eglwysi, er yr awgryma mewn un man arall fod rhai o'i gydoeswyr yn tybied yn wahanol. Y mae y *Synopsis of Scripture* a gyhoeddwyd gyda gwaith Athanasius yn mynegu yn bendant ei fod yn anghanonaidd. Yr unig hen ysgrifenydd a'i ystyriai o awdurdod ddwyfol oedd Tertullian, yr hwn a'i amddiffynai yn erbyn y rhai a wadent ei ddwyfoldeb y pryd hwnw; ond nid ystyrir ei resymau gan y prif ysgrifenwyr ond eiddil ac annigonol.—(*Bohn's Classics; Smith; Kitto;* a'u hawdurdodau).

ENOS, [אנוש=*dyn*, Ges.; *dyn marwol*, Charl.; 'Ενώς]: mab Seth, ŵyr Adda, a thad i Cenan. Ganwyd ef o. B. 235. Dywed Moses mai y pryd hwnw "y dechreuwyd galw ar enw yr Arglwydd" (*Gen.* iv. 26); hyny yw, darfu i'r rhai a gasäent yr annuwioldeb a'r anfoesoldeb a ffynai yn mysg hiliogaeth Cain, ddechreu addoli Duw yn gyhoeddus, ac ymgynnull yn nghyd er mwyn hyny. Dechreuodd dynion da ymwahanu oddi wrth y drygionus, gan gymmeryd yr enw o feibion neu weision Duw; am hyny dywed Moses (*Gen.* vi. 1, 2), fod "meibion Duw," neu hiliogaeth Enos, "wedi gweled merched dynion," &c.

Y mae gan y dwyreinwyr chwedl am Enos, fod Seth, ei dad, wedi ei benodi yn benadur ac archoffeiriad holl ddynolryw, yn nesaf ato ei hun; mai Enos oedd y cyntaf a sefydlodd elusen cyhoeddus i'r tlodion, a sefydlodd lysoedd barn cyhoeddus i weinyddu cyfiawnder, ac a blanodd, neu yn hytrach a ddiwylliodd, y balmwydden.—(*Watson; Encycl. Rel. Knowl.*)

EN-RIMMON, [עין רמון=*ffynnon y pomgranadau; ἐν 'Ρεμμων*, Alex.]: un o'r lleoedd a ail gyfanneddwyd gan wŷr Iudah, ar ol eu dychweliad o'r caethiwed: *Neh.* xi. 29. Ymddengys yn bur debyg, oddi wrth y dinasoedd a grybwyllir mewn cyssylltiad âg En-Rimmon, mai yr un ydyw ag a roddir ar wahan mewn llyfrau boreuach o'r Beibl, megys "Ain, a Rhimmon" (*Ios.* xv. 32); "Ain, Rimmon" (xix. 7, a 1 *Cron.* iv. 32); ond yn y Deg a Thrigain cyssylltir y ddau enw, fel yn Nehemïah.

EN-ROGEL, [עין רגל=*ffynnon yr ysblwr*, Ges.; *ffynnon y panwr*, Targ.; *ffynnon y troed*, Kitto; 'Ενρωγήλ]: ffynnon, yr hon oedd yn un o'r nodau terfyn rhwng Iudah (*Ios.* xv. 7) a Beniamin (*pen.* xviii. 16). Yr oedd yn y cyfeiriad nesaf i Ierusalem, ac ar dir isel, fel y mae yn hawdd deall wrth y geiriau *i fyny* a *disgyn*, sydd yn yr ymadroddion hyn. Yma, allan o olwg y ddinas, yr oedd Ionathan ac Ahimaas yn sefyll, ar ol ffoad Dafydd, i ddysgwyl newyddion o'r ddinas (2 *Sam.* xvii. 17); ac yma, "wrth faen Zohelith, yr hwn sydd wrth En-rogel," y cynnaliodd Adoniah wledd, ar ei unig ymgais am y goron yn lle Solomon: 1 *Bren.* i. 9. Dyma yr holl fanau y ceir yr enw yn y Beibl. Y mae Josephus, yn ei sylwadau ar y dygwyddiad olaf, yn barnu sefyllfa En-rogel "o'r tu allan i'r ddinas, yn y gerddi breninol [*Hynaf.*, vii. 14, adr. 4]; ac y mae yn ddiammheu mai at y ffynnon yma y cyfeiria yn yr un cyssylltiad, yn ei ddysgrifiad o'r ddaiargryn a ddilynodd gyssegr-ysbeiliad Uzzïah [*Hen. Ios.*, ix. 14, adr. 4], a'r hon, "yn y lle a elwir En-rogel," a ysgydwodd ran o'r bryn dwyreiniol i lawr, "fel y cauodd y ffyrdd a'r gerddi breninol."

Yn y *Targum*, ac yn y cyfieithiadau Arabaidd a Syriaidd, rhoddir yr enw yn gyffredin fel "ffynnon y panwr;" a derbynir hyn yn gyffredinol fel ystyr yr enw Hebraeg, gan y deillia y gair *Rogel* o *Ragal*, sangu, mewn cyfeiriad at arfer y dwyreinwyr wrth olchi llian.

Mewn amseroedd diweddarach, y mae traddodiad, a gofnodwyd gyntaf, fel yr ymddengys, gan Brocardus, yn gwneuthur En-rogel yr un a ffynnon Iob, neu Nehemïah (*Bîr-Eyûb*), is law cyssylltiad y ddau ddyffryn, Cedron a Hinnom, ac i'r deheu o Lyn Siloam. Y mae y ffaith mai yr enw Ain-Eyub, neu "ffynnon Iob," a roddir yn y cyfieithiad Arabaidd o *Ios.* xv. 7, am En-rogel, o blaid hyn; a hefyd, yr enw a roddir mewn hen deithlyfr Iuddewig ydyw "ffynnon Ioab," megys i gadw cof am gyssylltiad Ioab âg Adonïah—enw a gedwir hyd heddyw yn nhraddodiadau y Cristionogion Groegaidd. Y mae rhai rhesymau cryfion yn erbyn y gred gyffredinol yma gan y Dr. Bonar, ac o blaid mai yr un yw En-rogel a'r ffynnon a elwir yn bresennol, "Ffynnon y Forwyn"="ffynnon mam y grisiau," y ffynnon barhaus sydd yn cyflenwi Llyn Siloam. Y rhesymau hyn yn fyr sydd fel y canlyn:—

1. Pydew ydyw *Bîr-Eyûb*, ac nid ffynnon (*en*); tra, ar y llaw arall, mai "Ffynnon y Forwyn" ydyw yr unig wir ffynnon (*spring*) sydd yn agos i Ierusalem. Felly, os nad yr olaf yw En-rogel, nid yw y Beibl yn crybwyll am yr unig ffynnon sydd yn y gymmydogaeth.

2. Y mae sefyllfa Ffynnon y Forwyn yn cytuno yn well â rhediad terfyn Beniamin, na sefyllfa Bîr-Eyûb, yr hon sydd yn rhy bell i'r de.

3. Nid yw Bîr-Eyûb yn ateb i'r darluniad yn 2 *Sam.* xvii. 17. Y mae yn rhy bell o'r ddinas ac o'r ffordd uniawn dros yr Olewydd i'r Iorddonen, heb law ei bod yn gwbl amlwg o'r ddinas; yr hyn nid yw y llanerch arall.

4. Merthyrwyd yr apostol Iago trwy ei daflu i lawr oddi ar fur y deml i ddyffryn Cedron, lle y lladdwyd ef gan banwr â'i olchbren. Y casgliad naturiol ydyw, fod yr apostol wedi syrthio yn agos i'r lle yr oedd y panwyr yn gweithio. Yn awr y mae *Bîr-Eyûb* yn rhy bell oddi wrth sefyllfa y deml i ganiatau hyn, tra y gallasai ddygwydd yn hawdd wrth Ffynnon y Forwyn.

5. Y mae *Daraj* a *Rogel* yn tarddu o'r un gwreiddyn; a gellir tarddu yr enw diweddar gan hyny o'r hen enw, hyd yn oed er caniatau ei fod yn bresennol yn cyfeirio at y *grisiau* sydd yn arwain i gronfa y ffynnon.

6. Chwaneger at yr ystyriaethau hyn (a bydd hyn yn fwy pwysig pan gofir arferion parhaus y dwyrain), fod Ffynnon y Forwyn hyd heddyw yn gyrchfa barhaus y gwragedd o Ierusalem i olchi a sangu eu dillad.

7. Ac yn olaf, y rhaid fod gwastadle gerddi y brenin yn uwch na *Bîr-Eyûb*, hyd yn oed pan fyddai y dwfr yn cyrhaedd hyd enau y pydew, ond byddai yn gyffredin gryn ddeg a thrigain neu bedwar ugain troedfedd yn is na'r genau; tra y rhaid eu bod yn is na Ffynnon y Forwyn, yr hon felly y gellid yn hawdd ei defnyddio i'w dyfrhau. Gwel IERUSALEM.—(*Josephus; Kitto; Stanley: Smith; Williams' Holy City*, &c.)

Digitized by Google

ENW—AU, [ow, ὄνομα; L. *nomen*]: enw yw y gair a ddefnyddir i wahaniaethu y naill wrthddrych oddi wrth y llall. Enw, mewn ystyr ieithyddol, yn gyffredin a ddynoda destyn (*subject*) neb wrthddrych ymadrodd, y peth y llefarir am dano; megys march, hwrdd, tywyllwch; ond gellir ei ddefnyddio hefyd yn yr adroddol (*predicate*) megys yn yr ymadrodd, "haiarn sydd fettel," neu "mettel ydyw haiarn," lle y mae "haiarn" a "mettel" yn enwau. "Trwy gyfrwng enwau," medd Cour De Gebelin, "yr ydym yn dynodi pob hanfod sydd yn bod. Gallwn eu gwneyd yn adnabyddus ar unwaith trwy gyfrwng y rhai hyn, fel pe gosodid hwy o flaen ein llygaid. Fel hyn, yn yr ymneilldued mwyaf unigol, yn yr unigedd mwyaf dwys, gallwn adolygu cyffredinolrwydd bodau a phethau; gallwn ddarlunio i ni ein hunain ein rhieni, ein cyfeillion, pob peth sydd anwylaf genym, pob peth a effeithiodd fwyaf arnom, pob peth a all ein hyfforddi neu ein difyru; a thrwy adrodd eu henwau, gallwn ymresymu arnynt wrth ein cyfeillion. Yr ydym fel hyn yn cadw cofrestr o bob peth sydd yn bod, ac o bob peth a'r a wyddom; hyd yn oed pethau nas gwelsom, ond a wnaed yn hysbys trwy gyfrwng eu perthynas â phethau a wyddom eisoes. Nid oes achos rhyfeddu, gan hyny, fod yr hwn sydd yn llefaru am bob peth, yn cymmeryd sylw o bob peth, yn rhoddi enw ar bob peth sydd yn bod, ar ei gorff a'i wahanol ranau, ar ei enaid, ar ei gynneddfau, ar y nifer afrifed o fodau sydd yn hilio wyneb y ddaiar, neu yn ymguddio yn ei mynwes, y rhai fydd yn llenwi y dyfroedd, ac yn symmud yn yr awyr—ei fod yn rhoddi enwau i'r mynyddoedd, i'r afonydd, i'r creigiau, i'r coed, i'r ser, i'w breswylfeydd ei hun, i'w feusydd, i'r ffrwythau yr ymbortha arnynt, i bob math o offerynau â'r rhai y cyflawna ei orchwylion mwyaf, i'r holl fodau sydd yn gwneyd i fyny ei gymdeithas: a chedwir cof parhaus o oes i oes, trwy eu henwau, am y personau ardderchog hyny a haeddant barch y ddynoliaeth o blegid eu cymmwynasau a'u talentau. Y mae dyn yn gwneyd mwy: y mae yn rhoddi enwau i wrthddrychau nad ydynt yn bod —i amryw o fodau megys pe byddent yn bod, ac weithiau i ansoddau gwrthddrychau—er mwyn iddo allu llefaru am danynt yn yr un dull ag y gwna am wrthddrychau sydd yn bod mewn gwirionedd."

Y mae y gallu mawr yma a roddir i enw i'w briodoli i'r gynneddf hono yn y meddwl sydd yn ei ffurfio, a elwir amgyffred. Y mae pob gweithred o eiddo y gynneddf yma yn cynnyrchu un syniad, yn cyflwyno i'n golwg un gwrthddrych, mewn modd mwy neu lai penodol. Yr ydym yn amgyffred rhyw syniad neillduol, i'r hwn y rhoddwn enw, megys "coch" neu "wyn," "Dafydd" neu "Solomon," "dyn" neu "ddynes," "anifail" neu lysieuyn," "rhinwedd" neu "ddrygioni;" neu pa beth bynag arall a allwn wahaniaethu oddi wrth gyfanswm yr ymsyniad parhaus a gyfansodda ein hanfod.

Nid ydym yn enwi pob syniad a dderbyniwn, na phob gweithred a gyflawnwn. Mewn gwirionedd, nid ydym yn enwi yr un yn wahanol a neillduol oddi wrth yr holl rai ereill. Byddai yn afreidrol gwneuthur hyny mewn amgylchiad unigol; a byddai yn anmhosibl hefyd ei wneuthur yn mhob amgylchiad. Ond enwi y peth a gyfarfyddwn yn fynych yr ydym ni. Y mae genym syniad mynych am liw; ac yr ydym yn ei alw yn "wyn:" y mae genym deimlad mynych o hyfrydwch; ac yr ydym yn ei alw yn "llawenydd:" yr ydym yn gweled gwrthddrych yn aml a gynnyrcha ynom y syniad neillduol o barch neu gasineb; ac yr ydym yn ei alw yn "dad" neu "elyn:" yr ydym yn myfyrio yn fynych ar syniadau a ymddangosant i ni yn ddymunol neu yn anhymunol; ac yr ydym yn eu galw yn "garedigrwydd" neu yn "gasineb." Dyma y dull yr ydym yn ffurfio ein cyfres o enwau.

Mae i bob un o'r syniadau neu yr amgyffredion hyn ei derfynau naturiol a phriodol; ond nid ydym yn sylwi ar y rhai hyn bob amser yn bur fanwl. Nid oes neb yn camsynied "coch" am "wyn," pan yn enwau; ond dywedir fod yn hawdd camsynied am danynt pan yn ansoddeiriau. Nid ydyw plentyn yn meddwl fod ei gylch yn ysgwâr, ond ni ŵyr pa un ai crwn ai hirgrwn ydyw. Fel hyn, er nad yw dynion yn cytuno yn eu barnau am lawer o bethau, er hyny y maent yn cytuno i roddi iddynt ryw enwau cyffredinol; pe amgen, byddai yn anmhosibl iddynt gyflwyno dim tebyg i'r syniadau neu y teimladau a goleddant yn eu cylch i'w gilydd.

Y mae y berthynas sydd rhwng geiriau a meddyliau yn cael ei fynegu gan ysgrifenwyr ieithyddol mewn gwahanol ffyrdd. Y mae Plato yn galw y ferf yn *dêlôma*, "arddangosiad," a'r enw yn *sêmeion*, "arwydd." Y mae Aristotle yn galw gair weithiau yn *sêmeion*=arwydd, ac weithiau yn *symbolon*, arwyddlun: "gair (neu ymadrodd) yn y llais sydd ddynwarediad o hyny yn yr enaid," medd Plotinus. Y mae Cicero yn cyfieithu *symbolon* â'r gair Lladin *nota*=nôd neu farc. Y mae ysgrifenwyr diweddarach yn dysgrifio geiriau fel lluniau, adseiniau, neu liwiau meddyliau, gwisgoedd meddyliau, cynnrychiolwyr meddyliau, syniadau, a gweithrediadau meddyliol. Mae awdwr *The Discovery of the Science of Language* yn gwrthwynebu pob ymadroddion sydd yn arwyddo fod geiriau mewn un modd yn cynnrychioli meddyliau. Sylwa efe, pe byddai y gallu yma i eiriau, "y byddai genym gynnifer am yr un gwrthddrych ag a dderbyniwn o wahanol syniadau oddi wrtho;" nas gall yr un person byth weled yr un gwrthddrych ddwywaith yn yr un dull;" ac, "nas gall dau berson byth gael syniad cyffredinol am dano;" o ganlyniad, byddai iaith ddealladwy, yn ol y tyb yma, yn beth hollol anmhosibl. Byddai y gwrthwynebiad yn deg, pe cymmerid y fath ymadroddion ag a ddyfynwyd uchod yn eu hystyr lythyrenol; ond y mae yn amlwg mai ffugrol ydynt; o blegid nid oes genym un moddion i amlygu gweithrediadau meddyliol ond trwy y cyfatebion a ddygant, fel y tybir, â gweithrediadau a gwrthddrychau teimladwy. Yr hyn a olyga yr awdwyr dan sylw yw, nid fod pob gair, fel yrynganir ef gan lefarwr, yn gynnrychiolydd manwl o syniad a fydd yn y meddwl ar y pryd; ond fod geiriau yn gyffredinol yn gwasanaethu i arwyddo yr hyn sydd yn y meddwl dynol. A hyn yn wir a wna geiriau, mewn rhan trwy eu harwyddocad neillduol, ond yn fwy trwy eu trefniad gramadegol.

Yn ol y lle a gymmer gair penodol yn y fath drefniad, a'r swydd a weinydda yn y lle hwnw, y derbyn ei ddynodiad gramadegol fel rhan ymadrodd. Gelwir gair yn enw pan y gwasanaetha yn unig mewn ymadrodd syml i enwi syniad, ac nid i sicrhau dim yn ei gylch. Yn wir, defnyddir y gair Groeg *onoma*, yr hwn yw gwreiddyn y gair Lladin *nomen*, a'r gair Italaeg *nome*, a'r Ffrancaeg *nom*, a'r Seisoneg *noun*; a dichon ei fod yn dal perthynas agos â'r gair Cymraeg *enw* hefyd—

Digitized by Google

defnyddir y gair *onoma* yn yr *Iliad* a'r *Odyssey* i arwyddo enw trwy yr hwn y dynodir person oddi wrth ereill; gwreiddyn yr hwn yw y ferf *nemo*, penodi, priodoli, neu ddosbarthu. Ac fel enw personol, dynoda y dyn, at yr hwn y priodolir ef: felly hefyd dynoda y peth neu y meddwl at yr hwn y cymhwysir ef oddi wrth beth neu feddyliau ereill. Mae y darnodiad sathredig o enw, fel "enw *peth* y gellir ei weled, ei deimlo ei glywed, neu ei *ddeall*," yn amwys; canys gall gynnwys ansoddeiriau, a'r enwau a elwir yn gyffredin yn enwau dansoddol, neu gall beidio eu cynnwys, yn ol cyfyngder neu eangder yr ystyr a roddir i'r geiriau "peth" a "deall." Y mae darnodi enw, gan hyny, fel enw syniad, yn well; ac wrth syniad y golygir yr hyn y gellir ei amgyffred yn y meddwl fel un hanfod, naill ai fel testyn yn y meddwl, neu fel gwrthddrych yn y byd allanol, ac fel sylwedd neu briodoledd; canys y mae *coch* yn enw ar liw penodol, cystal ag y mae *Arthur* yn enw ar ddyn penodol, neu *Gymru* ar wlad benodol; ac yn yr un modd y mae *rhinwedd* yn enw ar deimlad penodol, cystal ag y mae *llong* yn enw ar beth penodol. Y mae y rhai hyn, gan hyny, a pha eiriau bynag ereill a wasanaethant, mewn ymadrodd syml, i enwi rhyw syniad o eiddo y meddwl, yn enwau.

Cyfrenir enw yn wahanol ddosbarthiadau, yn ol y gwahanol fathau o syniadau a enwant. Y mae rhai gramadegwyr enwog, medd Vossius, yn eu dosbarthu yn *enwau priodol* ac *enwau cyffredin*, ac yna yn *sylweddeiriau* ac *ansoddeiriau*; ond yn anghywir. Y mae Aristotle yn dosbarthu yr hyn sydd (*ro 'oὐ*) i'r hyn sydd yn bod o hono ei hun, ac am hyny a elwir *sylwedd*, ac i'r hyn sydd yn bod mewn peth arall fel ei wrthddrych, ac am hyny a elwir *priodoledd*. Yna, y mae yn gwahaniaethu sylwedd yn gyntefig ac eilraddol: y cyntefig ydyw gwahanfod (*individual*), a'r eilraddol yw rhyw neu fath. Yn ol yr un ymresymiad, gan hyny, gellir dosbarthu enw i'r hyn sydd yn bod wrtho ei hun mewn ymadrodd, ac a elwir *sylweddair*, a'r hyn y rhaid iddo wrth y chwanegiad o sylweddair mewn ymadrodd, ac a elwir *ansoddair*; ac yna, dylid adranu sylweddair i'r hyn a berthyn i beth unigol, ac a elwir *priodol*, ac i'r hyn a gynnwys luaws, ac a elwir *cyffredin*.

Yn awr, gyda golwg ar *enwau priodol*, y mae gwybod eu tarddiad a'u harwyddocad mor fuddhaol a buddiol, fel y byddai olrheiniad gofalus i'w natur yn dra manteisiol. Y prif les a ddeillia o wybodaeth fanwl o honynt yw, eu bod yn ein galluogi i gael amgyffred mwy bywiog o wirionedd hen hanesyddiaeth.

Y mae yn wir fod llawer rhan o'r pwnc yma yn dra thywyll, gan nad yw enwau priodol yn fynych ond adfeilion gwasgaredig a dirywiedig o oes bellenig. Ond pan gymmerom olwg eang ar yr holl weddillion a gadwyd i ni, gan eu cymmaru yn ofalus âg arferion cenedloedd ereill, galluogir ni i amgyffred eu hagweddau mwyaf cyffredinol a phwysig o leiaf, gyda sicrwydd rhesymol.

Y mae dau ddosbarth mawr o enwau priodol, sef enwau dynion, ac enwau pob peth arall heb law dyn, megys anifeiliaid, lleoedd, a'r cyffelyb. Y mae enwau y dosbarth olaf yn llawer mwy parhaus yn eu ffurf, gan mai dyn yn unig sydd yn newid yn barhaus; ac y maent hefyd o bwys mewn hanesyddiaeth, a byddai yn ddymunol sicrhau eu tarddiad a'u harwyddocad cyn belled ag y byddai yn bosibl: ond y mae enwau priodol hiliogaeth gyfnewidiol dyn yn llawer mwy pwysig yn eu perthynas â chyfnewidion hanesiaeth, heb law eu bod hefyd y dosbarth mwyaf lluosog. O blegid y rhesymau hyn, ni a ymgadwn yn bresennol at enwau priodol dynion; a chan fod achau yr Iuddewon yn esgyn yn uwch o lawer na dim o'r fath a all un genedl arall hawlio ar dir safadwy a diymwad, gyda'u henwau priodol hwy y mae yn gweddu i ni ddechreu, yn enwedig y rhai a gyfarfyddir yn yr Hen Destament; ac ni chaniata hyd ein herthygl i ni wneyd nemawr chwaneg, gan y byddai ymdrin yn fanwl â'r holl bwnc yn rhwym o'n harwain i fod yn llawer rhy faith.

Y gwirionedd cyntaf a dŷn ein sylw, wrth daflu golwg gyffredinol drostynt oll ydyw, fod yr hen Hebreaid bob amser yn cadw at y symledd mwyaf wrth ddefnyddio enwau. Mewn gwirionedd, un enw syml unigol sydd ganddynt hwy bob amser i wahaniaethu un person. Pan fyddo yn angenrheidiol, chwanegir enw y tad; ac weithiau enw y fam yn lle y tad, pan ddygwyddo hi fod yn fwy nodedig: gelwir y tri brawd arwrol Ioab, Abisai, ac Asahel, bob amser ar enw eu mam Serfiah: 1 *Cron*. ii. 16. Weithiau olrheinid llinach y tad yn ol, yn fynych hyd y bedwaredd genedlaeth, neu yn mhellach. Y mae ymadroddion neu enwau cyfansawdd (*epithets*), megys "Dafydd frenin," "Esaiah y prophwyd," yn arwyddo swydd weithredol dyn. Achlysurol ac anfynych ydyw yr esamplau pan y rhoddir dau enw yn olynol i berson; megys Iacob-Israel, Gedeon-Ierubbaal (*Barn*. vi—ix), ac nis gellir eu priodoli i arfer gyffredinol y bobl. Wrth gymharu y dull y defnyddia yr Arabiaid enwau cyffredin, canfyddir gwahaniaeth nodedig: heb law enw priodol, a llysenw hefyd fe allai, y mae i bob dyn o ddim pwys gyda hwy bob amser gyfenw, yr hwn y gellid ei alw yn briodol yn enw o foesgarwch, neu enw teuluaidd, megys yn dynodi y dyn yn ei berthynas o dad, megys *Abu Zaid*, "tad Zaid." Ac yn chwanegol at hyn, enw o anrhydedd yn y byd, yr hyn sydd yn ffynu yn gyffredinol o leiaf er amser Abbassides: amcan hwn yn gyffredin ydyw dyrchafu y person, mewn geiriau chwyddedig, yn ei berthynas â chrefydd; megys *Salah-Eddin*, "llwyddiant crefydd;" neu â'r llywodraeth; megys *Saif-Eddaula*, "cleddyf y llywodraeth." Yn hyn yn ddiau y mae yr Arabiaid yn bobl ddiweddar, ac yn ymfawrygu cymmaint mewn pethau allanol ag Ewropiaid y dydd heddyw. Pa mor wahanol oedd yr Hebreaid yn yr ystod mwyaf llwyddiannus o gyfnod eu hanesyddiaeth. Canys, yn y golygiad yma hefyd, y mae dull enwau yn brawf o arferion oedd yn ffynu am gyfnodau cyfain.

Pan yr ystyriom enwau priodol, gan hyny, gyda golwg ar brif wahaniaeth yr amseroedd, gellir canfod yn eu gwahanol ddefnyddiad hwy wahaniaeth cyfatebol y tri chyfnod a ddynodent hanes y bobl hyn yn mhob golygiad arall. Dynodir y tri chyfnod gwahanol hyn yn syml gan y tri enw a gymmerai y genedl yn mhob un o honynt: mabwysiadodd yr Hebreaid, fel y gelwid hwy yn yr amseroedd boreuaf, yr enw *Israeliaid* yn raddol, yn yr ail gyfnod, a newidiasant yr enw hwn, yn y trydydd, am yr enw *Iuddewon*. Y mae yn nodedig, er ei fod yn wir, mewn cydarawiad â hyn, fel yr oedd enw y genedl yn amrywio yn y tri chyfnod hyn, fod agwedd enwau personau unigol yn newid yr un modd, yn ol y tueddiadau gwahanol a ddynodent yr amseroedd.

I. Yn y cyfnod cyntaf, yr hwn a ddechreuwn, o blegid y rhesymau a roddir isod, gyda dechreu

Digitized by Google

goruchwyliaeth Moses, gallwn weled yr holl gynllun o ffurfio enwau yn mysg y bobl hyn. Parhaodd y dull arbenig o ffurfio enwau a sefydlwyd yn y cyfnod cyntefig hwn, yr un o ran sylwedd yn y cyfnod dyfodol, er i'r elfenau o'r rhai y ffurfid yr enwau fyned dan radd o gyfnewidiad. O blegid hyn, mewn ymadroddion o gymhwysiad cyffredinol yn unig y gellir egluro deddfau y ffurfiad yma.

Yn awr, y mae enwau yn eiriau *syml* neu *gyfansawdd*, neu yn eiriau a ffurfir o un o'r ddau fath hyn *trwy darddiad*.

1. Y mae enwau *syml* yn dra lluosog, ac y mae eu harwyddocâd, o ran y gair ei hun, yn gyffredinol, yn amlwg: megys *Dan*, "barnwr:" *Iamin*, "deheulaw," sydd hen enw, yn ol *Gen.* xlvi. 10; 1 *Cron.* ii. 27: *Saul* (*Shaul*), "gofynedig, dymunedig," sydd hen enw yn ol *Gen.* xlvi. 10; cymharer xxxvi. 37: *Geber*, "arwr," 1 *Bren.* iv. 19, cymharer 13. Fel hyn y mae y rhan fwyaf o honynt yn amlygu ystyr anrhydeddus, er fod digon o esamplau hollol i'r gwrthwyneb; megys *Icces*, "cam;" 2 *Sam.* xxiii. 24. Dangosir hefyd mor hawdd y gwneid geiriau benywaidd yn enwau dynion, gan esamplau, fel *Aiah*, "fwltur;" 2 *Sam.* iii. 7; xxi. 8; cymharer *Gen.* xxxvi. 24: *Ionah*, "colomen," yr hwn sydd mor gymhwys i fod yn enw dyn a'r gair gwrywaidd *Sual*, "llwynog;" 1 *Cron.* vii. 36. Anfynych y defnyddir geiriau yn arwyddo bychanigion yn enwau gan yr Hebreaid, y rhai sydd mor fynych yn enwau priodol gan yr Arabiaid, er fod amryw esamplau i'w cael, megys Zabulon, enw mab Iacob, ac Ieduthun, enw un o gantorion Dafydd. Y mae yr holl enwau sydd yn dechreu â'r llythyren *iod* (י), i'w hystyried yn nodedig o hen, o blegid daeth geiriau o'r ffurfiad yma yn hollol ddiarfer yn yr iaith, fel nas ceir hwy braidd un amser ond mewn enwau priodol yn unig, megys y gwelir nid yn unig yn yr enwau tra adnabyddus, Iacob, Ioseph, Iudah, Isaac, ond hefyd mewn nifer o rai anfynychach, megys *Iasub* (*Num.* xxvi. 24); *Iarib* (1 *Cron.* iv. 24); *Iamlech* (iv. 34); *Iacan* (v. 13); *Ishar* (*Exod.* vi. 18); *Ibhar* (2 *Sam.* v. 15); *Iephuneh* (*Num.* xiii. 6; 1 *Cron.* vii. 38); *Ieroham* (1 *Sam.* i. 1; 1 *Cron.* viii. 27), ac ereill. Y mae hen derfyniad ansoddeiriol, sef *âm* neu *ôm*, wedi ymlynu yn gadarn wrth enwau priodol, megys *Ahuzam* (1 *Cron.* iv. 6); *Gazzam* (*Ezra* ii. 48); *Miriam*, chwaer Moses, a *Gersom* ei fab ef; *Chimham* (2 *Sam.* xix. 38); yr hwn a geir nid yn unig yn y ffurf o *Chimhom*, ond hefyd yn *Chimhan* (2 *Sam.* xix. 40), yn ol y newidion arferedig. Heb flino y darllenydd â gormod o sylwadau ieithyddol fel hyn, eto gellir ei sicrhau yr arweiniai ymchwiliad dyfnach i'r pynciau difywyd hyn i ddarganfod llawer o bethau a eglurent yr hen iaith ac arferion y bobl.

2. Pa fodd bynag, y mae yr enwau *cyfansawdd* yn fwy pwysig mewn hanesiaeth, gan yr amlygant y syniadau yn fwy cyflawn a gwahanredol na'r enwau syml. Y mae rhai o honynt yn gwbl ar wahan, megys *Phinehas*—yn briodol, "safn y sarff," ŵyr Aaron: *Issachar*, mab Iacob; *Aholiab*, "pabell y tad" (*Exod.* xxxi. 6)—enw yn ymdebygu i "Patrocles" y Groeg. Ond y mae y rhan fwyaf o honynt yn dwyn tebygolrwydd cyffredinol i'w gilydd, ac yn dilyn rhyw brif opiniynau ac arferion; ac fe ddylid gwneyd sylw neillduol o'r rhai olaf hyn.

Y mae tarddiad nifer mawr o honynt i'w olrhain i berthynasau y teulu, fel y dengys ystyr y gair cyntaf o'r enw cyfansawdd. *Abi*, "tad," ydyw y rhan gyntaf o'r nifer fwyaf o'r rhai hyn, megys Abiezer, Abital, Abigail. Talfyrwyd yr *abi* yma yn raddol i *ab*, megys y prawf *Abner* heb law *Abiner* (1 *Sam.* xiv. 50; 2 *Sam.* ii. 8), a llawer o esamplau ereill. Yr unig leddfiad pellach o'r *ab* yma i *eb* sydd bosibl ydyw, pan fyddo *iad* yn dilyn, megys Ebiathar (1 *Sam.* xxii. 20); Ebiasaph (1 *Cron.* vi. 22), heb law y ffurf hynaf Abiasaph (*Exod.* vi. 24). Y farn sydd yn ffynu yn mysg ysgolheigion diweddar gyda golwg ar y dosbarth yma yw, mai ymadroddion ydynt mewn gwirionedd, wedi eu gwneyd yn ddamweiniol wedi hyny yn enwau priodol: mai Abigail, er esampl, yn llythyrenol, yw "tad llawenydd," neu "tad yr hwn yw llawenydd"—yr hyn a arwydda *hyfrydwch;* ac fel hyn iddo ddyfod yn enw priodol: ac er prawf o hyn, appeliant at yr iaith Arabaeg, yn yr hon y mae amgylchiaith o'r fath gydag *abi* yn gyffredin. Ond y mae y dyb yma mewn gwirionedd yn dra ansicr a chyfeiliornus. Y mae'n ddiau fod yr Arabaeg yn meddu nifer mawr o'r fath enwau; megys, *Abul-Ma'âli*, "tad yr urddasolion," sef, yr anrhydeddus; *Abul-husni*, "tad prydferthwch," sef y paen; *Abul-hussaini*, "tad yr amddiffynfa fechan," sef y llwynog, yr hwn sydd yn byw mewn tyllau; *Abu-Aiiûba*, "tad Iob," sef y camel, am ei fod yn amyneddgar fe Iob. Ond y mae y fath enwau, y rhai y gellid eu ffurfio wrth y cannoedd, yn perthyn yn yr Arabaeg yn hytrach i'r iaith gelfyddydol, ac yn fynych i'r iaith helwriaethol, ac yn gyffredinol i'r iaith yn ei sefyllfa ddiweddaraf, gan nad oedd y fath ddull yn bosibl hyd oni fabwysiadodd yr Arabiaid yr arfer o ddefnyddio cyfenw, neu enw teuluaidd bob amser, megys y sylwyd eisoes, mewn cyssylltiad â'u prif enw. Cyn gynted ag y gwnaed rhoddi dau enw i ddyn yn arferiad, cymhwyswyd yr arfer at wrthddrychau ereill; ac felly y cafodd yr enwau tra amgylcheiriog hyn eu dechreuad gyda'r Arabiaid. Ond ni bu y fath enwau teuluaidd erioed ar arfer yn mysg yr Hebreaid; ïe, ac ni chyfarfyddir â'r fath enwau amgylcheiriog o gwbl, hyd yn oed yn eu cyfansoddiadau prydyddol; gan nad yw yr unig ymadrodd y gellid ei ddwyn o blaid y dull (*Iob* xvii. 14), pan y cymmerir yr ymadrodd yn ei wir ystyr, ddim mewn un modd yn esampl i'r pwrpas. Y mae yn ddiammheu fod galw y camel yn "dad Iob," yn fath o iaith helwriaethol; ond a ydym i feddwl fod arfer gellweirus fel hyn yn ffynu yn mysg yr Hebreaid boreuaf? Dyma esampl nodedig arall o'r perygl a ddilyn cymharu yr Arabaeg yn arwynebol â'r Hebraeg; canys y mae golygiadau fel hyn yn bethau nas gallant byth gael eu coleddu gan rai sydd yn wir adnabyddus o lenyddiaeth Arabaidd. Credir nad oedd y rhan flaenaf o'r cyfryw enwau cyfansawdd, pan y ffurfiwyd hwy gyntaf yn yr amseroedd boreuol, yn dynodi dim ond tad y mab a enwid yn yr ail ran o'r gair; ond wedi hyny, fod y cyfryw enwau, o blegid rheswm neillduol, yn cael eu defnyddio fel math o anrhydedd. Os cymherir y cofrestrau achyddol lluosog sydd yn llyfrau y Croniel, y rhai, er eu sychedd, sydd yn cynnwys llawer o hyfforddiad, fe welir fod dyn yn fynych yn cael ei alw yn *dad*, sef *arglwydd* dinas neu bentref, megys, "Assur tad Tecoa" (1 *Cron.* ii. 24); "Mesa tad Ziph" (*adn.* 42); "Maon tad Bethsur" (*adn.* 45); "Sobal tad Ciriath-iearim" (*adn.* 50), &c. Y mae yn anmhosibl i'r ystyr fod yn dywyll yn y rhai hyn, gan fod yr ail ran yn wastad yn arwyddo lle; ond

Digitized by Google

y mae hyn ar yr un pryd yn wir arfer Hebreig, na cheir bron un amser yn mysg y cenedloedd Semitaidd ereill. Cyn gynted gan hyny ag y daeth defnyddio y gair "tad" yn arfer i ddynodi math o urddas yn y teulu ac yn y genedl, yr oedd yn hawdd rhagddodi gair mor fyr, fel gair o anrhydedd yn unig, at ryw enw, er mwyn gwahaniaethu y mab hynaf, neu fab hoff. Y mae amryw resymau cedyrn o blaid y golygiad yma. Yn gyntaf, gellir profi bron bob amser, hyd yn oed er prined ydyw y defnyddiau, fod yr ail ran o'r cyfryw enwau cyfansawdd yn cael ei defnyddio hefyd ar wahân, fel enw priodol, megys *Dân*, heb law *Abidân*, *Num.* i. 11; *Ezer*, 1 *Cron.* vii. 21, *Neh.* iii. 19, heb law *Abiezer*; *Asaph*, heb law *Abiasaph*, neu *Ebiasaph*; *Nadab*, *Exod.* vi. 33, heb law *Abinadab*; *Naam* neu *Noam*, 1 *Cron.* iv. 15, heb law *Abinoam*; *Iathar* neu *Iether*, enw pur gyffredin, heb law *Ebiathar*; ie, ac y maent i'w canfod hyd yn oed yn yr un teulu, megys *Abiner* neu *Abner*, mab *Ner*, 1 *Sam.* xiv. 50, 2 *Sam.* ii. 8. Yn mhellach, dengys hyn pa fodd y rhagddodir geiriau perthynasol ereill yn yr un dull; pan y bydd y rhan olaf bob amsér yn air a ddefnyddid ar y dechreu yn enw priodol, yr hwn a luosogir yn unig trwy gyfrwng y mân ragddodiadau hyn, ac yn yr hwn, yn wir, o'r diwedd, nis gellir gwybod pa ham y rhagddodir y gair *tad* mewn un esampl, a'r gair *brawd* yn y llall. Rhagddodir y gair *archi*, sef brawd, yn fynych yn y dull yma: sef, galwyd un *Râm*: 1 *Cron.* ii. 9, 25, 27; *Ruth* iv. 19: y llall *Abirâm*, *Num.* xvi. 1; a'r trydydd *Ahirâm*, *Num* xxvi. 38. Mae yn hawdd rhoddi cyfrif am *Achinoam*, *Achiezer*, ac ereill hefyd o'r cyfansoddiad yma. Lled anfynych y defnyddir *Chamu*, sef "brawd yn nghyfraith;" megys *Chamutal* neu *Chamital* (Cymraeg, *Hamutal*), 2 *Bren.* xxiv. 18; *Ier.* lii. 1; heb law *Abital*, 2 *Sam.* iii. 4. Yn y dosbarth yma hefyd y gellir cyfleu אִישׁ = *îsh*, "dyn," â'r hwn y mae amryw enwau wedi eu cyfansoddi. Yn gymmaint a bod gan yr Hebreaid enw *Hûd* neu *Hôd*, sef "dysgleirdeb" (cymharer *Iehûdah*), 1 *Cron.* vii. 37, ac *Abihud*, 1 *Cron.* viii. 3, ac *Achihud* (Ahihud), *Num.* xxxiv. 27, felly hefyd y ffurfiasant *Ishehôd* (Isod), 1 *Cron.* vii. 18; ac fel yr oedd ganddynt *Abitûb* ac *Achitob*, felly hefyd yr oedd ganddynt *Ishtob* (Istob), 2 *Sam.* x. 6; ac megys ag yr oedd hen enw *Chûr* (Hur), "rhydd," yr hwn a grybwyllir yn *Exod.* xvii. 10, fel cyfaill Moses, felly ymddengys *Ash-chûr* (Assur) fel yn perthyn i deulu *Chûr*, 1 *Cron.* iv. 5; cymharer *adn.* 1. Gyda golwg ar yr *ash* yma, a'r *esh* hefyd yn *Eshbaal* (Esbaal) 1 *Cron.* viii. 33, mae yn ddiammheuol mai talfyriad ydyw o *îsh*. Nid oes unrhyw eiriau yn fwy agored i gael eu talfyru yn raddol nag enwau priodol, yn enwedig rhai lled hirion. Byrhawyd hyd yn oed *abi*, fel y dangoswyd, i *i*, o blegid ei fod yn cael ei arfer mor fynych, fel y dangosir trwy gymharu *Iezer* (Ieezer), yr hwn a geir ddwywaith yn *Num* xxvi. 30, âg *Abiezer* yn *Ios.* xvii. 2, a *Barn.* vi. 11; a rhaid egluro yr ychydig enwau ereill o'r cyfansoddiad yma yr un modd, megys *Ithamar*, *Exod.* vi. 23; *Izebel* (Iezebel), 1 *Bren.* xvi. 31; ac *Ichabod*, 1 *Sam.* iv. 21.

Y mae dosbarth arall, llai, yn cynnwys enwau a gyfansoddir âg עַם (*am*), "pobl," yn tebygu i lawer o enwau Groeg a gyfansoddir â *laos* a *dêmos*; ac megys yn y Groeg, y rhoddir *demos* yn mlaenaf neu yn olaf (*Demos*thenes, ac Aristo*demos*), felly hefyd canfyddir *am* mewn un man yn mlaenaf, ac mewn man arall yn olaf; ond yn unig, yn ol deddfau yr iaith Semitaidd, fod yr ystyr mewn un sefyllfa yn hollol wahanol rhagor y llall. Y mae o bwys i sylwi yma, megys yn y dosbarth blaenorol, fod un rhan yn gyffredin yn air a ddefnyddir wrtho ei hun yn enw priodol; yn lle bod yma, gan hyny, gyfeiriad at deulu unigol, fod yr ystyr yn eangach, yn golygu yr holl bobl, ac yr ystyrir person unigol yma yn ei berthynas â'i genedl. Fel hyn, yr enw cyffredin Aminadab (*Exod.* vi. 23), yr Almaeneg Edelvolk, sef un yn perthyn i'r bobl anrhydeddus, a etyb i'r Groeg Aristodemos; Amihud, Almaen. Gianzvolk, yr hwn hefyd sydd enw o hoffder, a fyddai yn y Groeg yn Phaidrodemos. Yn y gwrthwyneb, Ithream (2 *Sam.* iii. 5), Volkhart yr Almaeneg, fe allai, a Demosthenes y Groeg; Rechabeam (Rehoboam), Volkbreit; Iorcoam, Volkgrün, yr hwn a ddygwydd yn 1 *Cron.* ii. 44, fel enw lle, ond yn ddechreuol rhaid mai enw sylfaenydd y lle hwnw ydoedd. Gan y rhaid ystyried y rhai hyn oll yn eu sefyllfa gyfansawdd, felly hefyd fe allai y dylid cymmeryd yr enw Ieroboam, yn briodol "cynnyddwr y bobl," enw tra chyfaddas i dywysog, ac Ieshoboam, "tröwr y bobl," neu "arweinydd;" canys, fel y sylwyd uchod, ffurfir yr enwau syml yn fynych gydag *iod* o'u blaen; ac yr ydym yn cael Iashub (Iasub) mewn gwirionedd, yn *Num.* xxvi. 24, ac 1 *Cron.* vii. 1.

Pa fodd bynag, mae y rhan fwyaf o'r enwau cyfansawdd wedi eu bwriadu i amlygu ystyr crefyddol, ac am hyny y maent yn fynych yn cynnwys yr enw dwyfol. Ac yma ar yr un pryd, canfyddir deddf newydd o ffurfiad. Gan y bwriedir i'r cyfansoddion hyn amlygu meddwl cyflawn, yn ol fel y gofyn y syniad crefyddol, gall enw fod yn gynnwysedig o ymadrodd cyfan gyda berf, ond mewn cwmpas mor fyr, wrth gwrs, ag y byddo modd; ac yn wir, gwneir cyfansoddion byrach gyda berf na chyda chyfraniad goddefol, gan y swnia *Nethaneel* (yn y Testament Newydd, *Nathanäel*, yn briodol, "Duw-roddodd," yr hwn a roddodd Duw, a roddwyd gan Dduw—Theodotos neu Theodôros) neu Nethuniel gyda'r cyfraniad, yr hwn yn ddiau a amlygai yr un ystyr. Ond gan y gall y ferf derfynol, fel pob honawd (*predicate*) arall, ragflaenu, cystal a dilyn, y mae rhyddid mawr gyda golwg ar sefyllfa yr enw dwyfol yn bod yn y dosbarth yma; a chedwir y neillduoledd yma, yn yr un amgylchiad, yn y cyfnod canlynol: ond y mae yn wir y defnyddia y Groegiaid Dôrotheos cystal a Theodoros. Fel hyn, Nethaneel (1 *Cron.* ii. 14), neu Elnathan (*Ier.* xxxvi. 12). Rhoddir y ddau enw gan hyny yn gyffredinol i ddau berson gwahanol; er y gall y ddau ffurf fod yn enw i'r un person, megys y mae Ammiel (1 *Cron.* iii. 5), ac Eliam (2 *Sam.* xi. 3), yn perthyn i'r un person. Yn awr, gan fod yn amlwg fod enwau cyfansawdd wedi dyfod yn dra chyffredin, nid rhyfedd, yn ngwyneb fod enwau yn afrifed wedi eu ffurfio i gyfateb i nifer afrifed o bersonau, fod rhai enwau priodol wedi cael eu ffurfio o'r diwedd yn gyfan o ddau enw Duw ei hun, er mwyn dangos yr enw annhraethadwy sanctaidd i'r hwn yr ymgyflwynai y person, megys y gair Abiel ac Eliab, ïe, a hyd yn oed Eliel: 1 *Cron.* v. 24, a viii. 20; 2 *Cron.* xxxi. 13. Yn ngwyneb hyn, y mae holiad traphwysig yn ymgynnyg; sef, pa enwau dwyfol a ddefnyddid fel hyn yn yr amseroedd boreuaf hyd Moses? Canfyddir mai *el* ydoedd y mwyaf cyffredin y pryd hyny, a *shaddai* yn anfynychach; a chanfyddir yr olaf ond yn unig yn *Tsurishaddai* (Surisadai), "craig yr Hollalluog" (sef, yr hwn a gais nawdd yn yr Hollalluog, fel

Digitized by Google

*crates* y Groeg: *Num.* i. 6; ii. 12), ac *Ammishaddai* (Ammisàdai), "pobl yr Hollalluog;" *Num.* i. 12: anamlach fyth y defnyddid *tsur*, "craig," ei hun fel enw dwyfol, megys *Pedahtur* (Pedasur: *Num.* i. 10), yr hwn sydd bron yn gyfartal i *Pedaheel*, "Duw a wared." Os ystyrir yn awr, yn ol y dystiolaeth sydd yn *Exod.* vi. 3, nad oedd yr enw *Iahfe* (Iehofah) yn adnabyddus y pryd hwnw, ond mai yr unig enw arall i Dduw oedd yn bod, heb law yr enw cyffredin *El* ac *Elohim*, oedd yr un mwy anaml ac ofnadwy *Shaddai;* mae yr olrheiniadau hanesyddol yma a ddarganfyddir mewn enwau priodol yn cytuno yn berffaith â'r mynegiad hwnw, ac yn gadarnhad neillduol iddo.

Wrth adolygu yr holl gyfundrefn yma o ffurfio enwau priodol, y mae yn amlwg eu bod o'r diwedd wedi dyfod yn dra chyffredin, megys pe buasai eu sain fawreddog yn cael ei hystyried yn fwy anrhydeddus a deniadol; er hyny, eu prif duedd oedd amlygu y tair perthynas fwyaf ac eangaf y gall dyn sefyll ynddynt; sef, ei gartref, ei bobl, a'i Dduw. Y mae cyflawnder gwreiddiol pob iaith eto yn ymgasglu yn nghyd mewn enwau, megys mewn tir ffrwythlawn; ac am hyny fe fu amseroedd, hyd yn oed o fewn cylch y cyfnod hanesyddol, pan yr oedd holl alluoedd cyntefig iaith yn brysur hyd yn oed yn ffurfiad enwau, er diffrwythed yr ymddengys (gan fod pob math o gyfansoddion yn cael eu cynnyg, er mwyn cael nifer afrifed o enwau i gyfateb i'r nifer afrifed o bersonau), fel yr oedd rhai enwau yn cael eu dyfeisio a scinient yn dra hynod ar y cyntaf, megys *Abihua* (Abihu), "hunandad;" *Elihua* (Elihu—*Autatheos*) "hunan-dduw,"—enw a all fod yn hen, er mai yn Llyfr Iob yn unig y canfyddir ef. Ac os cymharir y dull Hebreig yma o ffurfio enwau â dull y Groegiaid a'r Arabiaid, fel yr esamplau mwyaf cynnefin, canfyddir, yn mysg llawer o bethau hynod ereill, ei fod yn ymdebygu mwy i'r dull Groegaidd nag Arabaidd; ond yn unig fod y Groegiaid yn cyfeirio yn amlach, yn eu henwau, at y *bobl*—yr hyn sydd gysson â holl nodwedd y Groegiaid; tra nad yw yr Arabiaid byth yn cyfeirio at y bobl, gan nad ydynt hwy ond teuluoedd yn unig, heb fod erioed yn genedl; ac nid yw cyfansoddiad eu hiaith hwy yn meddu y fath ryddid mawr a'r Groeg gyda golwg ar osodiad a chyssylltiad y geiriau.

3. Y mae llawer o enwau priodol yn cymmeryd y sill darddiadol *-i* (neu *ai*, a wahaniaetha oddi wrth *-i* yn unig mewn ystyr cangenieithol, ac a ganfyddir yn benaf yn y cyfnodau olaf); a rhaid ystyried y gall y sill yma, mewn rhai amgylchiadau, ffurfio ansoddeiriau yn unig, ac yna enwau syml, megys *Amithai*, "gwiriwr," o *emeth*, "gwir;" a *Barzilai*, "haiarn," neu "haiarnwr," enw teulu anrhydeddus o Gilead (*Ezra* ii. 6; 2 *Sam.* xvii. 27); neu ei fod wedi deilliaw o le, megys *Beeri* (*Hos.* i. 1; 1 *Cron.* vii. 36), "efe o'r pydew," neu, efe o le a elwir pydew. Ond y mae yn ddiammheu ei fod yn fynych yn amlygu perthynas achyddol, fel y terfyniad Groeg *-idês*, ac yn cyfeirio at enw priodol blaenorol o'r hwn y deillia: fel hyn, y mae yr enw *Churi* (Huri: 1 *Cron.* v. 14) mor sicr o fod yn cyfeirio at *Chûr* (Hur), a grybwyllwyd uchod, a bod *Philippides* y Groeg yn cyfeirio at *Philippos*, a bod *Chetubai* (Chelubai: 1 *Cron.* ii. 9), un o hiliogaeth Iudah, yn gyssylltiedig â *Chetûb* (Chelub) yn iv. 11. Y mae yn nodedig fod y berthynas achyddol yn cael ei hamlygu weithiau trwy yr ה- (*ah*) derfynol yn unig, megys *Iaacobah* (1 *Cron.* iv. 36), yr hyn a amlygid yn gyfartal trwy yr enw Almaenaidd *Zu-Iacob; Iesharelah, De Israel* (1 *Cron.* xxv. 14; cymharer *Asharelah: adn.* 2); ac yn y modd mwyaf gwahanredol yn *Chashbadanah* (Hasbadanah), "a gyfrifir i Dan;" *Neh.* viii. 4; cymharer *Iashbecashah* (Iosbecasah) yn 1 *Cron.* xxv. 4.

Yn mysg enwau benywod, y rhai hynaf, cystal a symlaf, yw y rhai sydd gymhwys i fenywod yn unig, megys *Rachel* (Rahel) "ewig;" *Deborah*, "gwenynen;" *Tamar* (Thamar), "palmwydden;" *Hannah*, "ffafr," mam Samuel. Y mae y rhai a rydd y fath ystyr llednais a hoff a *Cerenhappûc*, "blwch o eli llygaid" (*Iob* xlii. 14), a *Hephtsibah* (Hephsibah), "fy hyfrydwch sydd ynddi hi" (2 *Bren.* xxi. 1), yn dangos eu bod wedi eu ffurfio mewn amseroedd llawer diweddarach; canys, er fod y cyntaf yn Llyfr Iob, yn yr hwn y mae hen ddull yr iaith yn cael ei chadw yn ddichlyn, er hyny y mae yn perthyn i'r un amser a'r olaf. Ymddengys, yn wir, mai yr arferiad yn y cyfnod boreuaf ydoedd ffurfio enwau merched o enwau dynion, trwy gyfrwng y terfyniad benywol, megys *Chaggith* (Haggith: 2 *Sam.* iii. 4), heb law *Chaggi* (Haggi: *Num.* xxvi. 15); Meshulemeth, *Pia* (2 *Bren.* xxi. 19), heb law Meshulam, *Pius* (1 *Cron.* v. 13; viii. 17); a Shelomith, *Friedrike* (*Lef.* xxiv. 11), heb law Shelomih, *Friedrich*. Ond rhaid cofio mai esamplau yw yr holl rai hyn o enwau syml, neu o rai gwrywol y byddo eu hail rif wedi ei fwrw ymaith eisoes; canys talfyrir *Chanani*, a *Zabdi*, fel y dangosir isod, o Chananiah, Zabdiah: nid oes un esampl i'w chael wedi ei chymmeryd o enw cyfansawdd dyn. Pa fodd bynag, gan fod yr un enwau cyfansawdd yn cael eu defnyddio weithiau am feibion a merched, a chan fod hyd yn oed yr un enwau yn cael eu cymhwyso at ferched nas gallasent fod yn addas o'r dechreu ond i ddynion, megys Abigail, Achinoam, rhaid i ni gymmeryd yn ganiataol fod gallu lluniadol yr iaith wedi ei ddyhysbyddu gyda golwg ar hyn, ac am hyny fod y gwahaniaeth benywaidd yn cael ei adael heb ei nodi—bron yr un fath ag y mae yr ansoddeiriau Sanscrit a Groeg o'r ffurf *eudaimôn*, *eutuchês*, yn analluog i wahaniaethu y ffurf fenywaidd.

II. Dyma yr holl egwyddor sydd yn rheoli ffurfiad enwau Hebraeg, fel yr ymddangosant yn yr amseroedd boreuaf, ac fel yr ymestynant i'r cyfnodau dilynol, pan y rhoddir iddynt agweddau newyddion o ran ymddangosiad, ond nid o ran sylwedd.

Canys os ymofynir pa elfen newydd a ddygodd y cyfnod Moesenaidd i mewn i enwau, canfyddir, ar y cyfan, mai dylanwad y grefydd newydd sydd yn ymddangos gryfaf, ac yn achosi y newidiadau hynotaf. Nid yn Llyfr y Salmau, a llyfrau ereill, yn unig y canfyddir pa mor ddwfn yr effeithiodd y grefydd hon ar ddynion; ond cesglir yr un peth oddi wrth yr enwau a ddaethant yn arferedig yn y cyfnod hwnw. Ië, y mae y geiriau hyn, a ddaethant i arfer gyffredin, yn dangos i'n synwyrau gyda pha fath rym y treiddiodd y grefydd hon i holl ddyfnderau y meddwl cenedlaethol, a pha mor selog yr ymdrechai pob un yn Israel i "ymogoneddu yn enw *Iahfe*" (Iehofah), yn ol geiriau y prophwyd: *Esa.* xliv. 5; cymharer *Salm* cv. 3.

Gan i'r holl genedl gael ei hadnewyddu gan grefydd newydd mor ddylanwadol, dychwelwyd at yr hen ddull cyntefig o roddi enwau; ac nid yn unig gwnaed enwau newyddion, ond cymhwyswyd ymadroddion byrion hefyd, yn amlygu y



Digitized by Google

syniadau nerthol a gynhyrfent yr amseroedd, fel enwau. Fel hyn, yn enwedig pan oedd dylanwad y grefydd Foesenaidd yn fwyaf bywiog, ffurfid enwau o frawddegau cyfain, yn mynegu rhai o wirioneddau mwyaf pwysig y grefydd hono, megys *Iusab-hesed*, "trugaredd-a-wobrwyir" (1 *Cron.* iii. 20); *Elioenai*, "Iahfe-yw-fy-llygaid" (megys pe byddai wedi ei gymmeryd o emynau tebyg i *Salm* cxxiii): 1 *Cron.* iv. 36; vii. 8; viii. 20; *Ezra* x. 22, 27; *Neh.* xii. 41; *Hodafiah*[1] (Hodaiah), "molwch-yr-Iah" (o ymadrodd eithaf hysbys o'r Salmau): 1 *Cron.* iii. 24; *Ezra* ii. 40; fel enw merch *Hatselelponi* (Haselelponi), "dyrogysgod-ti-yr-hwn-a'm-gweli" (Duw): 1 *Cron.* iv. 3. Ond ymddengys fel pe byddem yn cael ymadroddion prophwyd mawr, wedi eu trefnu yn enwau o wahanol berthynasau, yn y geiriau hyn:—

> Giddalti a Romamtiezer,
> Malothi, Hothir, Mahazioth.

hyny yw,

> "Rhoddais gymhorth mawr a dyrchafedig,
> Lleferais wirioneddau yn lluosog :"

(hen bennill, fel y mae yn ymddangos, a allasai fod yn dechreu rhyw hen brophwydoliaeth), wedi eu cymhwyso at bump o feibion cerddorol Heman: 1 *Cron.* xxv. 4; cymharer *adn.* 26, 28—31. Y mae hon yn esampl wir nodedig. Yr ydym yn gweled hefyd unwaith, yn *Esa.* vii, amlygiad nodedig o'r modd y daeth y fath enwau a *Sheâr-iashûb* (Seariasub) ac Immanuel i arferiad.

Ond yn y grefydd hon, enw Duw yn benaf, *Iahfe* (Iehofah), a ddefnyddid i ffurfio enwau (yn yr un modd ag yr oedd yr enwau dwyfol boreuaf); a byrheid ef pan yn y rhan olaf o'r enw, i *-iahu*; neu yn fyrach fyth, i *-iah*; a phan yn y rhan gyntaf o'r enw, i *Ieho-*, neu *Io-*. Ceir ef yn y dull yma yn fynych (aeth yr hen enw *Shaddai* yn ddiarfer, ac ni pharhawyd i ddefnyddio ond *El* yn unig), tra y ceidw y rhan arall o'r enw yr un ffurf ag yn yr amseroedd cyntefig, megys Neriah fel Ner, ac Abner. Mam Moses, Iochebed (*Exod.* vi. 20), yn ol pob tebygolrwydd, yw y gyntaf y mae ei henw yn dwyn prawf o addoliad y Duw hwn (yr hyn sydd dystiolaeth dra phwysig o wirionedd yr holl hanes); a dygwyddiad prydferth ydyw gwaith Moses, â'i enau ei hun, yn newid enw y gwrolaf o'i wŷr cedyrn *Hoshea*=help, i *Iehoshua*=help Duw; a rhoddodd Mohammed, yn yr un modd, enwau cytunol â'i grefydd newydd yntau i rai o'i ddilynwyr.

Gellir cael rhyw syniad am fynychder y fath gyfansoddion â'r enw *Iafeh* wrth ystyried y talfyriadau a ddaethant mor gyffredin yn y fath enwau. Fel hyn, byrhawyd Michaiahu, neu Micheahu (fel y llafarnodir ef weithiau), nid yn unig i Michaiah, ond i Micah (*Barn.* xvii. 5, 9—13; cymharer *adn.* 1, 4; 2 *Cron.* xviii. 14; cymharer 7—13); ac yn yr un dull hefyd y rhaid egluro enw y prophwyd Micah. Fel hyn hefyd, talfyrir yr enw cyffredin Abiiahu neu Abiia, a roddir i feibion ac i ferched, unwaith i Abi: 2 *Bren.* xviii. 2. Yr un modd y mae Phalti (1 *Sam.* xxv. 44), yn dalfyriad o Phaltiel: 2 *Sam.* iii. 15. Pa fodd bynag, y mae dau amgylchiad na ddylid eu cymmysgu â'r talfyriadau dygwyddadol a graddol hyn. Yn gyntaf, canfyddir yr esampl anfynych, fod yr enw a gadwyd yn annewidiol, yn cael ei ffurfio er hyny yn achlysurol trwy adael allan y sill *Io-*, neu *Iah-*; o blegid y mae yn amlwg fod Nathan wedi ei dalfyru o Nethaniah neu Ionathan; megys hefyd y mae Mattan (2 *Bren.* xi. 18), o Mattaniah; a Zacher (1 *Cron.* viii. 31), o Zachariah; o blegid nad yw yr enwau sydd yn arwyddo *rhoddodd, rhodd, cof*, wrthynt eu hunain yn cynnyrchu ystyr priodol, ac o blegid na cheir hwy byth mewn cyssylltiad âg *Abi-*, *Achi-*, a chwanegiadau cyffelyb, ac nas gellir eu holrhain yn ol i amseroedd cyntefig. Rhaid i ni, gan hyny, yn yr amgylchiad yma, gymmeryd yn ganiataol fod yr enwau hyn wedi eu talfyru yn fwriadol er mwyn llunio cymmaint o enwau ag a ellid; ac am nad ydoedd yn beth anghyffredin i ddau frawd gael enwau cyffelyb, diddon mai hyny oedd yr achos uniongyrchol o ffurfio yr enw Nathan heb law Nethaniah. Y mae hyn yn dygwydd yr un modd yn mysg yr Arabiaid, megys y mae Hasan a Husain, dau fab Ali, yn esampl. Perthyn i'r rheol yma hefyd y mae Uzziel ac Uzzi (1 *Cron.* vii. 7); Iishfa ac Iishfi (Isuah ac Iisui): *Gen.* xlvi. 17. Dwg tad a mab hefyd, o blegid yr un rheswm, enwau o gyffelyb sain. Yn ail, pa bryd bynag y ffurfir enw tarddedig yn *-i*, bydd y chwanegiad *Iah-*, neu *Io-*, ar y dechreu yn diflanu; ac yn yr amgylchiad yma hefyd canfyddir *Chanani* (Hanani) heb law *Chananiah* (Hananiah), fel enw ei frawd ef: 1 *Cron.* xxv. 4, 23, 25.

III. Dyma gynllun o enwau cyn ddiweddared a'r amseroedd ar ol dinystr cyntaf Ierusalem. Gellir olrhain dylanwad y gwasgariad yn mysg cenedloedd estronol, yn wir, yn ddigyfrwng i'r enwau newyddion sydd yn cyfeirio at y caethiwed, megys Zeru*babel* ei hun, yr hwn sydd gyfansoddiad o "zeru Babel," yn arwyddo "gwasgariad i Babilon." Eto nid oedd y dylanwad estronol hwn ond amserol; ac yn y canrifoedd nesaf ar ol yr alltudiad, yn y rhai yr ysgrifenwyd llyfrau olaf yr Hen Destament, canfyddir, yn y gwrthwyneb, fod yr hen ddull o roddi enwau yn cael ei gadw bron yn ddigyfnewid.

Pa fodd bynag, yr oedd gwahaniaeth hollol, gyda golwg ar hyn, yn yr amseroedd rhwng gorpheniad yr Hen Destament a dechreuad y Newydd. Canys wedi i fyfyrdod dysgedig pur o'r Hen Destament ddyfod i fri, a thra nad oedd yr holl genedl, megys, i'w chanfod ond yn ei llyfrau cyssegredig, dechreuodd y bobl ymhyfrydu mewn rhoddi hen enwau Ysgrythyrol i'w plant; ie, chwilient am y fath enwau ag oeddynt mewn arferiad cyffredin yn yr amseroedd cyn Moses, y rhai oedd wedi myned allan o arfer er ys hir amser: enwau o fath Iacob, Ioseph, Maria. Ond tra yr adnewyddid hen enwau fel hyn, ac y chwilid hwynt allan yn ddyfal, daeth y gallu i ffurfio enwau newyddion o radd i radd yn wanach. Ac fel yr oedd hoffder at newydd-deb fyth yn eu plith, a'r bobl yn colli eu hannibyniaeth fwyfwy, daeth llawer o enwau estronol yn hoff ganddynt, y rhai a arferent yn gystal a'r enwau Ysgrythyrol. Yn y dull yma, yr ydoedd ffurf enwau wedi dyfod, erbyn amser y Testament Newydd, i sefyllfa debyg i'r un sydd yn ffynu yn ein plith ninnau.

Yn olaf, gyda golwg ar enwau personau a berthynent i'r cenedloedd israddol a amgylchynent yr Israeliaid, megys yr Edomiaid, y Phœniciaid, y Damasciaid, &c., y mae yn wir fod eu ffurf yn bur debyg i ffurf enwau Hebreaidd, gan fod yr holl genedloedd hyn yn llefaru yr iaith Semitaidd; ond y mae y defnyddiau o'r rhai y ffurfir hwy mor wahanol, fel y gellir braidd adnabod y cenedloedd estronol hyn wrth eu henwau yn unig. Fel hyn, y mae y fath enwau a Hadad,

[1] Dealler nad ydyw yr enwau hyn oll fel y maent yn y Beibl Cymraeg, gan fod llawer o honynt fel yn yr Hebraeg.

Ben-hadad, Hadad-ezer, yn hollol ddyeithr i'r Israeliaid, ac yn cyfeirio at lwythau o'r tu dwyrain i Palestina, lle yr oedd duw o'r enw *Hadad* yn cael ei addoli.

Wedi sylwi cymmaint a hyn ar yr enwau hynaf yn y byd—yr enwau Ysgrythyrol—cymmerwn olwg mor gryno ag y gallwn ar y dull y defnyddio enwau priodol dynion yn ein gwlad ein hunain, mewn cyferbyniad i genedloedd ereill.

Yr ydym wedi gweled eisoes mai arfer yr Hebreaid, yn eu sefyllfa fwyaf syml a chyntefig, oedd defnyddio dim ond un enw i un dyn. Yn wir, ymddengys mai dyma yr arfer yn mysg pob cenedl wareiddiedig, cystal ac anwareiddiedig, yn eu sefyllfa gyntaf. Hon oedd y rheol; a phan y dygwyddai eithriad, byddai rhyw achos penodol o hyny.

Yr un arfer oedd yn ffynu yn mysg y cenedloedd y derbyniodd Ewrop ei gwareiddiad oddi wrthynt—yr Aipht, Syria, Persia, a Groeg; "un enw i un dyn" oedd yn eu plith hwy oll: ac yn y cyfnodau hynaf y gellir eu holrhain gyda golwg ar y genedl Rufeinig, anfynych y ceir mwy nag un gair i ddynodi un person; ac os defnyddid gair arall yn achlysurol, canfyddir iddo gael ei ddechreuad mewn rhywbeth heb law enwi y person yn syml.

Yr un cynllun a ddilynid, fel yr ymddengys, gan yr hen Geltiaid a'r Almaeniaid; Arminius, Ariovistus, a'r cyffelyb.

Y mae yn amlwg hefyd mai yr un dull oedd gan y Brytaniaid, fel y dengys yr enwau a Ladineiddiwyd gan Cæsar, pan ddaeth i Ynys Prydain (c.c. 55), megys *Cassivellaunus* (Caswallon), *Imanuentius* (Ymenwynydd — Lludd, medd Davies), *Mandubratius* (Afarwy, meddai rhai, Llefelus, medd ereill), *Cingetorix* (Cynghedd-awr), *Carnilius* (Carneilydd), &c. Mae esamplau cyffelyb, a geir yn amseroedd dilynwyr Cæsar, yn profi yr un peth; megys *Caractacus* (Caradog), *Cartismandua* (Aregwedd Foeddog—dyma eithriad, os ydyw cyfieithiad yr enw yn gywir), *Boadicea* (Buddug), *Cunobeline* (Cynfelyn), *Arviragus* (Gweirydd), a *Brennus* (Bran), &c.

Ar ol i'r Rhufeiniaid ddyfod i'r Ynys, y rhai a ddilynwyd gan y Saxoniaid a chenedloedd ereill oddi ar y Cyfandir, y rhai oll y pryd hyny oedd yn defnyddio "un enw i un dyn," trôdd y Brutaniaid i Gymreigio enwau eu cymmydogion estronol, ac weithiau i'w defnyddio bron yn gwbl ddinewidiad; a phan ddaeth y Beibl yma, hwy wnaethant yr un modd â'r enwau Ysgrythyrol. Gwnaeth yr estroniaid hefyd yn gyffelyb â'n henwau ninnau; ac y mae y cymmysgedd y fath, fel y mae yn gofyn cryn graffder i wybod pa un ai Brutanaidd, estronol, ynte Ysgrythyrol yw yr enwau a ddefnyddid gan ein cenedl ni o amser Cæsar hyd amser Elizabeth, neu ddiweddarach. Rhoddwn yma ychydig esamplau o'r cyfryw enwau:—

Abram, Abram, Abraham, Efream.
Achel, Achilles.
Addaf, Adam.
Aedd, Aidius.
Aeddan, Aidanus.
Aeddwlff, Adolphus.
Aelferth, Albert.
Aelfryd, Alfred.
Afarwy, Mandubratius.
Afel, Abel.
Ailfyw, Elvius.
Alawn, Alinus, Olen, Linus.
Aleth, Allectus.
Alisander, Alexander.
Anarawd Gethin, Andragathus.
Andras, Andreas, } Andrew.
Aneurin, Gildas.
Anllech, Aulach.
Anllech Goronog, Aulach mac Gormuc.
Annes, *ben.* Agnes.
Annyn, Einion, Einydd, Eneas, } Aeneas.
Aregwedd Foeddog, *ben.* Cartismandua.
Aron, Aaron.
Arthur, Riothamur.
Arwystli, Aristobulus.
Awstin, Augustin, Augustus.
Baldwyn, Haldwyn, } Baldwin.
Beli, Belinus, Bellus, Belgius.
Bened, Bennet.
Benwyll, Benoilt.
Berned, Bernard.
Bleiddian, Bleiddyn, Bleddyn, } Lupus.
Brasydog, Prasutagus.
Bran, Brennus.
Brochfael, Brochmaelus.
Brwth Brutus.
Buddug, *ben.* Boadicea, Victoria.
Cadfan, Catamanus.
Cadwgan, Caddocus.
Caisar, Cæsar.
Calystan, Calixtus.
Caradog, Caractacus.
Carl, Carlo, } Charles.
Carlo Mawr, Carlymaen, } Charlemagne.
Caron, Caraucius.
Catrin, *ben* Catherine.
Creuddyled. *ben.* Cordelia.
Cyllin, Linus.
Cyndeyrn, Kattigern.
Cynfelyn, Cunobelinus.
Cyrig, Cyrique.
Cysteint, Constantius.
Cystenyn, Constantinus.
Dafydd, Dewi, } David.
Deina, *ben.* Diana.
Didi Gawr, Aulus Didius.
Doli, *ben.* Dorothy.
Dunawd, Donat, Dionothuth.
Dyfeddawg Aeddon, Dyfeiddiawg Aeddon, } Dividiacus Aedius.
Dyfrawd, Tevravti.
Dyfrig, Dubricus.
Dyfynawl Frych, Donald Brec, Dovenal Varius.
Eiddyn, Edwin.
Eirwg, Erricus.
Elen, *ben.* Helena.
Elfod, Elbodius.
Elian, Hilarius.
Elid, Eleutherius.
Elidr, Ethelfridus.
Elin, Eleanor.
Elsbeth, Elizabeth.
Elystan, Athelstane.
Emmwnt, Edmund.
Emrys, Ambrose.
Ercwlff, Herculus
Eudaf, Octavius.
Euddog, Oudocius.
Ffwg, Foulke.
Ffwg ab Gwarin, Foulke Fitzwarin.
Gainor, *ben.* Juno.
Garmon, Germanus.
Geraint, Germinus.
Gerallt, Giraldus.

Digitized by Google

Goronwy, Gorono.
Gras, Grasi, *ben.* Grace.
Gruffydd, Griffith, Galfridus.
Grugor, Gregory.
Gwalchmai, Gualganus, Walweyn.
Gwalentin, Valentinus.
Gwallawg, Galgacus, Walloc.
Gwallter, Walter.
Gwawl, *ben.* Julia.
Gwawlgwn, Walwin.
Gweirydd, Arviragus, Gueguerius, Quidquerius.
Gwenfrewi, *ben.* Winifred.
Gweno, Gwener, *ben.* Venus.
Gwilym, Willielmus, William.
Gwladus, *ben.* Claudia.
Gwrawn, Goron.
Gwrfan, Urban.
Gwrthefyr, Wortiporius.
Gwrtheyrn, Vortigern.
Gwythelin, Guitelinus.
Harallt, Hallt Harold.
Harri, Henry.
Hengys, Hengist.
Herwallt, Herveus.
Hors, Horsa.
Hu, Huw, Hugh.
Hywel, Howell.
Iago, Iacobos, James.
Iustin, Justinian.
Ifor, Eborrius.
Igmwnt, Igmond.
Ioan, Ieuan, Ifan, Joannes, John, Evan.
Iorwerth, Edward.
Iorys, Sior, Siors, George.
Iolo, Iwl Wl, Julius.
Iolo Foel, Iwl Caisar, Wl Casar, Julius Cæsar.
Lladys, *ben.* Letitia.
Lleon, Llew, Leo.
Lleon Gawr, Leo Valens.
Lles, Lleufer, Lucius.
Lleucil, Lucilian.
Lleucu, *ben.* Lucia, Lucy.
Llewelyn, Leolinus, Louis, Lewis.
Lloegrin, Locrinus.
Llyr, Lear.
Llywarch, Lamarchus.
Llywarch Hen, Lamarchus Senex.
Macsen, Maximinus.
Macsen Wledig, Maximinus Magnus.
Macht, Malctus, Maccus.
Madog, Maidocus, Maddock.
Maelgun, Maelgwn, Vulcanus.
Marged, Margaret.
Meirig, Bericus.
Morgan, Pelagius.
Morys, Mars, Mavors, Maurice.
Nemrwth, Nimrod
Nest, *ben.* Agnes.
Niclas, Nicolas.
Odrig, Odoric.
Olfyr, Oliver.
Oswallt, Yswallt, Oswa
Owain, Ywain, Owen.
Padarn, Paternus.
Padrig, Patricus, Patrick.
Pawl, Paul.
Pascen, Pacentus.
Pedr, Petros, Peter.
Peredur, Percival.
Plennydd, Belin, Apollo.
Polion, Paulinus.
Priaf, Priam.
Prydain, Britannica; Brutus.
Phylip, Philipos, Philip.
Rhaff, Rhondol, Radolph, Ralph, Ranulph, Randal
Rhedyw, Ridigus.
Rhemwnt, Reymond.
Rhicart, Rhisiart, Richard.
Rhismwnt, Richmond.
Rhodbert, Robert.
Rhodri, Rhydderch, Roderick.
Rhonwen, *ben.* Rowen, Ronixen.
Rhuawn, Rione.
Rhun Baladrbras, Hudibras.
Rhystyd, Restitutus.
Sandd, Xanthus.
Sedd, Seth.
Seisyll, Seisyllt, Sitsyllt, Cecilius, Cecil.
Sefer, Severus.
Selyf, Solomon.
Sian, *ben.* Janne, Joan, Jane, benywaidd o John.
Siarom, Jerome.
Simwnt, Simeon.
Sion, John = Ioan.
Sioned, Jeannette, Janet = Sian fechan.
Suddas, Judas.
Swlfyw, Sulpicius.
Sywidw, Suetonius.
Sywidw Polion, Suetonius Paulinus.
Tegidon, Tacitus.
Tewdrig, Theodoric.
Tewdwr, Theodorius.
Tewdws, Theodosius.
Tudur, Theodore.

Nid yw hyn ond esampl yn unig o rai o'r prif enwau Brytanaidd a arferai y Cymry, pan yn arfer, fel rheol, rhoddi dim ond "un enw i un dyn;" ac o'u dull o Gymreigio enwau Hebreaidd, Groegaidd, Lladinaidd, Saxonaidd, Almaenaidd, &c., cystal ag o ddull y cenedloedd hyny o ystumio ein henwau ninnau at eu hieithoedd hwy.

Fel yr oedd y Brytaniaid yn gwareiddio ac yn lluosogi, yr oedd angen mwy o enwau yn cynnyddu yn eu plith; ac yr oedd ar eu gwŷr mawr, yn enwedig, eisieu rhyw arwydd penodol yn nglŷn â'u henwau i ddangos eu perthynas â'u hynafiaid, er mwyn profi eu hawl i'w meddiannau, cystal ag i ddangos ardderchogrwydd eu hachau. Er mwyn hyn, byddid yn rhoddi y sill *ab* neu *ap* (rhan o'r gair *mab*, neu, yn ol yr hen orgraff, *map*) rhwng enw y mab a'r tad; megys, Caswallon ap Lludd; Caradog ab Bran. Yr arfer gyffredin, er mwyn rheol, ydyw rhoddi *ab* o flaen enw yn dechreu â llafariad neu gydsain feddal, gan roddi *ap* o flaen enw yn dechreu â chydsain galed neu *h;* megys, Hywel ab Idwal, ab Anarawd; Tudur ab Madog, ab Dafydd; Merfyn ap Cynan, ap Rhodri; Idwal ap Hywel, ap Hwleyn.

Cerid y cynllun yma, o roddi *ab* neu *ap* rhwng enw y mab a'r tad, i bellafoedd dirfawr yn y canoloesoedd. Y mae llinach Gruffydd ap Cynan, er esampl (yn yr hon y cynnwysir *ab*, *ap* a *mab*) yn cyrhaedd o Gruffydd ei hun hyd "Addaf mab Duw" (!) fel hyn:—" Mab oedd Gruffydd i

Gynan frenin mab Iago mab Idwal ab Elised mab Meuric mab Idwal foel, mab Anarawt, mab Rhodri Mawr (mab Essyllt ferch Cynan o gastell Tindaethwy, mab Idwal Dyre, mab Cadwaladr fendigaid mab Cadwallawn mab Catvan ap Iago ap Beli ap Rhun ap Maelgwn Gwynedd, mab Caswallawn Lawhir, Mab Einiawn Yrth mab Cunedda frenhin, mab Edern, mab Padarn Peisrydd, mab Tegit, mab Iago, mab Gwidawg, mab Cein, mab Gwrgein, mab Doli mab Gwrddoli, mab Dwfyn mab Gorddwfyn, mab Anwerit, mab Onwedd mab Dwywng, mab Brychwein, mab Ywein, mab Afallach, mab Aflech mab Beli Mawr, &c.), mab Merfyn frych mab Gwyryat, mab Elidir, mab Sanddef, mab Alcwn, mab Tagit, mab Gweir mab Diwg, mab Llywarch Hen, mab Elidir Lydanwyn, mab Meirchiawn gul, mab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu mab Coel Godebawc, mab Tegvan gloff, mab Deheuweint, mab Urban, mab Gradd, mab Rifedel, mab Rhideyrn, mab Endeyrn, mab Endigant, mab Enid, mab Endos, mab Endoleu, mab Afalach, mab Aflech mab Beli mawr, mab Manogan, mab Eneit, mab Cyrwyt, mab Crydon, mab Dyfnfarch, mab Prydein, mab Aedd mawr, mab Antonius, mab Seirioel, mab Gwrwst, mab Rhiwallawn mab Cunedda, mab Rhegau ferch Llyr, mab Rhund, mab Bleiddyd mab Llywelyt, mab Brutus Darianlas, mab Efroc, mab Membyr, mab Madawc, mab Locrinus, mab Bruttus tywyssauc o Rufein mab Silvius, mab Ascanius, mab Eneas Ysgwyddwyn, mab Anchises, mab Capis, mab Assaracus, mab Trois mab Hericthonius, nab Dardanus, mab Jubiter mab Sadwrn, mab Cælus mab Cretus mab Sipirus, mab Cetyn, mab Ieuan, mab Japheth, mab Noe hên, mab Lamech, mab Methusalem, mab Enoc, mab Jareth, mab Malaleel, mab Cainan mab Enos, mab Seth mab Addaf, mab Duw.—[*Myv. Arch. Buch. Gruf. ap Cynan*, argr. Dinbych].

Casglodd Abad Llanegwestl, y Dr. Owen Pool, y Dr. John King, Syr John Leiaf, Guttyn Owain, Gruffydd ap Llywelyn ab Ieuan Fychan, Madog ap Llywelyn ap Hywel, a Robert ap Hywel ap Tomas, linach gyffelyb hyd Brutus, i Harri VII, tua B.A. 1485, pan yr oedd rhai yn difrïo haniad Harri, gan hòni nad oedd ei daid, Owain Tudur o Benmynydd, Mon, ond gŵr o waedoliaeth isel. Rhoddwn y llinach yma eto ger bron, o blegid ei hynodrwydd, ac am fod goreugwyr Cymru yn rhedeg eu hachau i'r llinach hon neu un Gruffydd ap Cynan:—"Henri VII, mab Edmund Iarll Richmond, mab Owain ab Meredydd, ap Tudur, ab Gronw, ap Tudur, ap Gronw, ab Ednyfed, Fychan, ap Cyner, ab Iers, ab Gwgan, ab Marchudd, ap Cynan, ab Elfyn, ab Mor, ab Mynan, ab Isbwys Newintyrch, ab Isbwys, ap Cadrod Calfynydd, ap Cywyd, ap Cindion, ap Cynfelyn, ab Arthwys, ab Morydd, ap Canaw, ap Coel Godhebog, brenin Prydain, ap Tegfan, ab Deheufraint, ap Tudbwyll, ab Urban, ab Gradd, ap Rhyfedel, ap Rhydeyrn, ab Endigant, ab Endeyrn, ab Enid, ab Endos, ab Enddolaw, ab Afalach, ab Afflech, ab Beli Mawr brenin Prydain, ab Manogan frenin, ap Caesor frenin, ap Pyr frenin, ap Sawyl Beniseld, ap Rhydderch, ap Rhydion, ab Eidiol, ab Arthafel, ap Seisyllt, ab Owain, ap Caesho, ab Bleiddyd, ab Meirion, ab Gwrgwst, ab Elydno, ap Clydawc, ab Ithel, ab Urien, ab Andrew, ap Cereni, ap Porrees, ap Coel, ap Cadell, ab Geraint, ab Elider, ab Morydd, ab Dan, ap Seisyllt, ap Cyhelyn, ab Gwrgan Farfdrwch, ab Beli, ab Dyfnwal, ab Dodion, ab Enyd, ap Cwrwyd, ap Cyrdor, ab Dyfnfarth Prydain, ab Aedd Mawr, ab Antonius, ab Seisyllt, ap Rhegan merch y brenin Llyr a gwraig Henwyn, tywysog Cernyw; Llyr oedd fab i Bleuddyd ap Rhun Baladrbras, ap Lleon, ab Brutus Darianlas, ab Efrawg Gadarn, ab Mymbyr, ab Madawg, ab Locrin, ab Brutus, yr hwn oedd y cyntaf a feddiannodd y wlad hon."

Heb law y llinach hon, casglodd y gwŷr a enwyd achau mam Owain Tudur, ac amryw ereill o'i berthynasau, yn gyflawn, fel y llinach uchod. Gyda golwg ar yr achau hyn, dywed Carnhuanawc nad oedd ef yn ammheu eu cywirdeb dros amryw genedlaethau. Fe ddichon eu bod yn lled gywir hyd amser Caradog neu Caswallon; ond wedi hyny, y mae yn sicr nad yw y rhan fwyaf o honynt ond dychymyg noeth. "Dadl gadarn yn erbyn cywirdra llinach y breninoedd Cymreig," medd Carnhuanawc, "ydyw, mai anhebygol ydyw fod cynnifer o ddynion wedi meddiannu yr orsedd, o dad i fab, neu yn yr un achau, heb doriad; ac yn ganlynol, dywedir wrthym y rhaid i ni naill ai rhoddi i fyny ein brenhindawd neu ynte eu hachau, oddi eithr ein bod yn dewis ymwrthod â phob cyssondeb â hanesion gwledydd y byd yn gyffredinol." Pa fodd bynag, y mae yn ddiammheuol fod y Cymry er amser Hywel Dda, os nad cynt, yn dra gofalus am eu hachau, gan fod y cyfreithiau Cymreig, fel y sylwa Carnhuanawc, yn eu gofyn fel profion i sefydlu hawl etifeddiaethol mewn tiroedd; ac y mae yn ffaith hanesyddol fod yr arwyddfeirdd, ac ereill, yn cadw yr achau mewn modd tra manwl a chywir, yn mhen hir amser ar ol Gutyn Owain a Harri VII; ac nid oedd yn haws y pryd hyny i ddyn ffurfio achrestr anghywir iddo ei hun nag ydyw yn awr iddo ffurfio gau weithred o hawl i diroedd un arall: o blegid y pethau hyn, fel y dywed Carnhuanawc, yr oedd y Cymry y pryd hyny yn llawn mor eiddigeddus o'u hachau ag y gallwn ninnau fod o'n tiroedd.

Y canlyniad i hyn oedd, fod gan bob teulu o fri a meddiannau yn y Dywysogaeth eu hachrestrau, wedi eu ffurfio yn y dull a nodwyd gydag *ab*, *ap*, neu *mab*, ar ol enw yr etifedd, nes cyrhaedd rhyw gyff cenedl o fri yn y prif achau tywysogaidd a breninol, megys Beli Mawr, Rhodri Mawr, Coel Godhebog, Cunedda Wledig, Gruffydd ap Cynan, Bleddyn ap Cynfyn, Owain Gwynedd, Owain Brygontyn, Ednyfed Fychan, neu ryw gyff o'r fath. Aeth achrestrau y boneddigion Cymreig mor hirion; a byddai cynnifer o'r geiriau *ab* neu *ap* ynddynt, fel y diflasodd y senedd Seisonig arnynt o'r diwedd; a gorchymynwyd iddynt eu rhoddi heibio, gan ddefnyddio enw eu preswylfod yn eu lle. Fel hyn, er esampl, rhoddodd etifeddion Mostyn y geiriau heibio, gan gymmeryd enw syml eu prif breswylfod, Mostyn, yn eu lle: felly hefyd y gwnaeth etifeddion Pen y Nant=Pennant, a lluaws ereill, trwy yr holl Dywysogaeth. Yn ganlynol i hyn, daeth, "er pan ddeolwyd yr abiau" yn ddiareb yn mysg y Cymry.

Ar ol hyn hefyd, daeth y Cymry yn raddol i ddilyn y Seison, trwy gymmeryd cyfenw (*surname*) at eu henw bedydd (*Christian name*); a ffurfient y cyfenw, ar y dechreu, o enw bedydd y tad, trwy gyssylltu *b* neu *p*, yr *ab* neu yr *ap*, wrth yr enw. Fel hyn ffurfiwyd Bowen, o ab Owain; Powel, o ap Hywel; Prys, Prees, Preece, Pryse, Price, Pyrs, Pierce, Breece, Brese, &c., o ap Rhys; heb son am Rees, Rice, &c., sydd yn tarddu o'r un enw; ac y mae llawer o'r cyffelyb yn awr ar arfer gwlad.

Digitized by Google

Parhaodd yr arfer o ddefnyddio enw bedydd y tad fel cyfenw yn mysg y Cymry hyd yn ddiweddar iawn; ac yn wir y mae eto ar arfer yn mysg lluaws o deuluoedd Cymreig: fel hyn, er esampl, os enw y tad fydd Morgan Lloyd, neu Robert Powell, geilw y mab ei hun yn Henry Morgans, neu Owen Roberts, yn lle Henry Lloyd, neu Owen Powell.

Yr hen ddull Cymreig o ddangos perthynas merch â'i thad, cyfatebol i *ab* neu *ap* y meibion, oedd rhoddi *uch* neu *ach* (rhan o'r gair *merch*) rhwng enw y ferch a'i thad; fel hyn, er esampl: --Aranwen uch Brychan; Gwenassed ach Rhun. Mynych hefyd y rhoddid dim ond *'ch* neu *ch*, ac weithiau rhoddid y gair *merch* yn gyflawn; megys, Marchell 'ch Tewdrig; Gwenaseth ch Rhein; Danadlwen ferch Ynyr. Yr ydym yn cofio hen wraig, tua deng mlynedd ar ugain yn ol, a elwid "Marged Chrisiat"=Marged 'ch Rhisiat.

Pan ddaeth yr arfer o gyfenwau (*surnames*) i blith trigolion Prydain, yr hyn a ddaeth yn bur gyffredin yn ebrwydd ar ol y goresgyniad Normanaidd, byddai y Cymry yn Cymreigio y rhai hyny yr un modd a'r enwau, fel y dengys gwaith y beirdd, o Dafydd ab Gwilym a chyn hyny, hyd Huw Morus, neu yn ddiweddarach; megys, er esampl yn unig, Basged, Baskete; Clwch, Clough; Chwitnai, Whitney; Dafis, Davies; Dalfyr, De la more; Delfyg, Del Peke; Defras, Devereux; Dolfyn, Doulben; Dreias, Dryhurst; Dwdlai, Dudley; Dylys, De Lacy; Dyfynfryd, Du Pontefract; Dyswynfwr, De Swinemor; Edwarts, Edwards; Eutyn, Etwn, Eyton, Heaton; Fychan, Vaughan; Miltwn, Myddelton, Middleton (Middle-town: galwai William Myddelton ei hun yn Gwilym Ganoldref); Massi, Massey; Nefel, Neville; Nowls, Knowles; Pari, Parri, Perri, ap Harri=Henry; Pilstwn, Puleston; Prisiart, ap Richard; Proser, ap Rogir; Salbri, Salesbury; Twrbil, Turberville; Wgawn, Wogan. Y mae yn amlwg mai prif safon y Cymry wrth Gymreigio enwau estronol oedd sain y geiriau, ac nid yr ystyr.

Byddai y Seison hefyd yn Seisonigo enwau y Cymry er ffurfio cyfenwau, cystal ag enwau o honynt; megys, Bevan, o ab Ifan; Bowen, o ab Owain; Parry, o ap Harri; Powell, o ap Hywel; Price, Prees, Pierce, Brese, o ap Rhys; Prytherch, o ap Rhydderch, a mil o'r cyffelyb.

Yn ddiweddar, y mae y Cymry wedi dyfod i ddefnyddio enwau a chyfenwau Seisonig, neu y dull Seisonig o'r rhai Cymreig; megys, Arthur Jones, Cadwalader Williams, Evan Hughes, Howell Parry, John Evans, Lewis Roberts, Maurice (Morris) Price, Owen Pierce, &c.; heb son am y lluaws enwau a chyfenwau Seisonig ac estronol pur sydd yn ein mysg; megys, William Basset, Thomas Bellat, Robert Fletcher, Hugh Puleston, Henry Holland, Roger Hastings, Simon Thelwall, &c. Ar fyr, gellir ystyried fod y Cymry yn awr, o ran eu henwau, eu cyfenwau, a'u hachau yn mhob ystyr, wedi ymgymmysgu bron yn hollol â'r Seison; a dichon fod hyny yn fantais iddynt mewn llawer golygiad; am hyny, rhoddwn olwg mor gryno ag y gallwn yn bresennol ar enwau y Seison.

Y mae yn ddigon amlwg mai yr un cynllun oedd yn mysg yr hen Saxoniaid, fel pob cenedl arall braidd, yn ddechreuol; sef "un enw i un dyn," nid yn unig pan yr ymsefydlasant gyntaf yn Mhrydain, ond yn ystod yr holl gyfnod y bu hiliogaeth Hengist yn dal y llywodraeth yn yr ynys hon. Y mae yn wir y gwelir rhai personau ar ddalenau hanesyddiaeth yn meddu chwanegiadau o fath Harefoot, Ironside, wrth eu henwau; ond y mae yn ammheus a ellir ystyried y cyfryw chwanegiadau fel *enwau;* ac os honir hyny, rhaid cyfaddef nad oedd y cyfryw ond eithriadau; canys y mae yn ddiammheu mai un enw i un person oedd gan gorff y genedl Saxonaidd o bob gradd; megys, Edwin, Alfred, Gurth, Ulf, Tosti, Harold, a'r cyffelyb.

Fel yr oedd cenedloedd yn cynnyddu mewn coethder, yr oedd mwy o enwau a chyfenwau yn cael eu rhoddi i'r un person. Yn mysg y Rhufeiniaid, er esampl, yr ydym yn cael Publius Cornelius Scipio Africanus, Caius Julius Cæsar, Publius Ovidius Naso, ac enwau o'r dosbarth yma oedd mewn arfer gyffredin, o leiaf yn mysg teuluoedd rhyddion. Dichon mai un enw yn unig a roddid i'r caethion, hyd yn oed yn y cyfnod yma ar y genedl.

Ymddengys yn ddigon amlwg, oddi wrth hanesion hen a diweddar, mai cynllun diweddar yw rhoddi amryw enwau i'r un person; a diau fod amryw fanteision yn nglŷn â'r cynllun, ond peidio ei gario i eithafion, fel y gwneir gan rai. Egwyddor y cynllun a arferir yn Mhrydain yn awr yw hyn: rhoddi un enw i un person, a rhoddi ail enw at hwnw, a fyddo yn perthyn yn gyffredin i ryw gyff cenedl arbenig o'r teulu y byddo y person a enwir yn aelod o hono. Gelwir y cyntaf yn *enw*, neu "enw bedydd," a'r ail yn gyfenw (*surname*); a meddylir llawer mwy yn y dyddiau hyn yn gyffredin o'r olaf nag o'r blaenaf. Ond yn y gweithrediadau mwyaf pwysig a difrifol a berthyn i fywyd, yr ydys yn rhoddi ei bwys priodol i'r enw cyntaf—y gwir enw: mewn bedydd, ac mewn priodas, yr enw ac nid y cyfenw a grybwyllir; megys Owen, Robert, Anna, Mary. Canfyddir mewn coflyfrau, cyn ddiweddared a diwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg, mai yr enwau, ac nid y cyfenwau, fel yn awr, a drefnid yn egwyddorol (*alphabetical*). Gwelir anghraifft ddiweddar o hyn yn *Phillips' Theatrum Poetarum.*

Mae amryw fanteision yn perthyn i'r egwyddor yma: mae yn dangos, i ryw raddau, mewn dull syml a rhwydd, i ba deulu y bydd person yn perthyn, y mae yn tueddu i fagu undeb teuluaidd; ond ei phrif fantais ydyw rhwyddhau y ffordd i wneuthur ymchwiliad i ansawdd hynafiaid y personau a hoffant wybod hyny; yr hyn y byddai yn dra anhawdd ei wybod heb y cynnorthwy a rydd unrhywiaeth cyfenwau, yn mhellach yn ol na chof rhai yn cydoesi â'r ymofynwyr. Y mae y cynllun yn ffynu yn yr oesoedd diweddaraf hyn, yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, a pharthau gwareiddiedig ereill o'r byd. Y mae bron yn gyffredinol yn awr yn Mhrydain. Y mae teulu breninol Lloegr yn eithriad i'r rheol, gan na fabwysiadwyd cyfenw anghyfnewidiol erioed ganddynt hwy. Y mae teulu Brunswick yn hyn fel teuluoedd Saxe, Nassau, Bourbon, Orleans, ac ychydig ereill, y rhai a ddeilliant o bersonau oedd mor anrhydeddus mewn cymdeithas pan oedd "un enw i un dyn" yn rheol, a'r rhai ar ol hyny sydd yn rhy amlwg o ran gradd a sefyllfa i dderbyn dim chwanego hynodrwydd oddi wrth y dull cyffredin o roddi cyfenw sefydlog ar ol eu henw cyssefin. Nid oedd hyn gynt yn gyfyngedig i'r teulu breninol yn unig yn yr ynys hon (yr oedd y Stuarts, y Tudors, a'r Plantagenets yn eithriadau, y rhai a ystyrid o deuluoedd israddol a gyfodwyd gan amgylchiadau i'r anrhydedd freninol), canys ymddengys yr ystyriai iarllod y ddwy neu y dair canrif cyntaf

Digitized by Google

Trout, Ray, Herring, Cod, a mil o'r cyffelyb; canys nid oes odid i dref, na phentref, nac afon, na ffrwd, nac anifail, na physgodyn, nac aderyn, nad ydyw wedi rhoddi enw i ryw deulu o Seison.

3. Enwau swyddi a galwedigaethau. Y mae rhifedi mawr o'r dosbarth yma, megys Brewer, Barber, Carpenter, Mason, Smith, Taylor, Draper, Gardener; ar fyr, pob crefft a galwedigaeth a ddilynir gan ddynion. Y mae masnachau a gorchwylion sydd wedi colli neu newid eu henwau yn cael eu cadw fyth yn enwau y teuluoedd, y rhai yr oedd eu hynafiaid yn eu dilyn, pan y mabwysiadodd eu teuluoedd y cynllun. Fel hyn y mae ganddynt Fletcher, Girdler, Furbisher, Stringfellow, Lister, Walker, Pargiter, Webster, Taverner, a'r cyffelyb; hefyd, Palliser, Lander, Foster, Palfreyman, Page, Woodruffe, Reeve, Hunter—y rhai y mae yn amlwg ydoedd enwau galwedigaethau ar y dechreuad. Y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am enwau o fath Bishop, Baron, Earl, Lord, Priest, King, &c.

4. Y mae lluaws o'r cyfenwau Seisonig hefyd wedi eu ffurfio o'r rhai a elwir "enwau bedydd" (*Christian names*). Yr oedd y rhai hyn oll braidd ar y dechreu yn ymddangos gyda'r gair *filius*, &c., megys John son of William. Fel hyn, ar yr enw William seilir Williams, Williamson, Wills, Wilson, Wilks, Wilkins, Wilkinson, Willis, Willison, Bill, Bilson, Willet, Willimot, Willmot, Till, Tilly, Tillot, Tilson, Tillotson, Willy—pob un o'r rhai a ysgrifenasid yn y canoloesoedd yn Lladin yn *Filius Willielmi*. Y mae hiliogaeth amryw o enwau ereill yn llawn mor luosog a William. I'r dosbarth yma y perthyn Jones, Jonson, Johns, Johnson, Johnston, Johnstone, Jack, Jacks, Jackson—oll yn dyfod o *John*. Clarkson, Cookson, Wrightson, Matterson, Stewardson, &c., ydynt wedi eu seilio, nid ar enwau, ond ar orchwylion eu cyndadau. Dywedir gan Harries mai plant o dadau anadnabyddus, ac am hyny yn gorfod cymmeryd eu cyfenwau oddi wrth eu mamau, oedd Misson, Goodyson, Mollyson, Anson, Jennison, Bettison, Nelson, &c. Ond äi yr erthygl yn llawer rhy hir hyd yn oed pe cyffyrddid â holl wahanol adraniadau y pum prif ddosbarth.

5. Y dosbarth hwn, a'r olaf, a gynnwys gyfenwau yn cyfeirio at ryw hynodrwydd neu neillduolrwydd yn ymddangosiad personol neu ansoddau meddyliol y personau y cymhwyswyd hwy atynt gyntaf. Y fath yw Black, White, Brown, Scarlet, Bigg, Small, Crump, Crookshanks, Swift, Lightfoot, Prettyman, Goodman, Goodenough, Wise, Rouse, Hopper, Jumper, Heavisides, Saunter, Onslow, Waddle, Pain, Akinhead, Akinside, Anguish, Headache, Wild, Sanguine, Joy, Joys, Merry, Merryman, a lluaws o'r fath.

Gellir cael rhyw syniad am gyfartaledd yr enwau o'r pum dosbarth a ddefnyddir gan y Seison oddi wrth y dosraniad canlynol o 896 o enwau, a ganfyddir yn yr hyn a elwir "y dosbarth anrhydeddus" o drigolion dinas Bath. Wedi bwrw ymaith 162, fel rhai o darddiad anhysbys, bydd 730 o gyfenwau yn ngweddill, y rhai a ddosberthir fel y canlyn:—

1. Enwau estronol, 142.
2. Enwau lleoedd, &c. Cyffredin, 57; neillduol, 249=306.
3. Enwau gorchwylion, 79.
4. Tadenwau, 172, o'r rhai yr oedd 43 yn enwau Saxonaidd.
5. Enwau dysgrifiadol, 35.

Byddai y cynnyrch ychydig yn wahanol mewn poblogaeth o natur wahanol. Y mae chwech o deuluoedd yn dwyn enwau gorchwylion yn y bendefigaeth Seisonig. Y mae rhif y personau ddygant y gwahanol enwau yn gwahaniaethu yn fawr yn y pum dosbarth.

Y cenedloedd y cafwyd 142 o'r enwau estronol ganddynt yw y rhai hyn:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgotiaid, | 44 | Cymry, | 5 |
| Ffrancod, | 39 | Italiaid, | 2 |
| Gwyddelod, | 32 | Portiguaid, | 2 |
| Almaeniaid, | 9 | Cernywiaid, | 2 |
| Isdirwyr, | 6 | Pwyliaid, | 1 |

Cymmaint a hyn yna a ddywedwn am y cyfenwau Seisonig.

Yr oedd enwau yr hen Saxoniaid bron oll, fel enwau yr hen Frytaniaid o'u blaen, yn ddysgrifiad o ryw ansawdd corff neu feddwl. Fel hyn, Alfred, holl dangnefedd; Ailwin, holl garedig; Bede, gweddi; Cuthbert, hysbys ardderchog; Dunstan, goruchaf; Edgar, anrhydedd dedwydd; Edmund, heddwch dedwydd; Edward, ceidwad dedwydd; Eleanor, *ben.* holl ffrwythlawn; Gerard, holl hyddysgrwydd; Gilbert, dysglaer fel aur; Harold, gwron; Mildred, *ben.* addfwyn lafar; Oswald, llywydd tŷ; Randal neu Ranulph, cymhorth pur; Richard, galluog, Rosamund, *ben.* rhosyn heddwch; Swithin, tra uchel; Theobald, hyf ar y bobl; Ulf, blaidd; Walburg, *ben.* graslawn; Winifred, *ben.* tangnefedd deniadol. Yn hyn, mewn gwirionedd, yr ydoedd enwau yr hen Saxoniaid yr un modd ag enwau cyntefig pob hen genedloedd. Pan ddaeth y Normaniaid i'r ynys, canfyddir i'w henwau hwy ddyfod yn hoff enwau y genedl am lawer o oesoedd; megys Roger, Ralph, Hugh, Humphrey, Geoffrey, &c. Iddynt hwy hefyd y dywedir fod y Seison yn ddyledus am ddygiad enwau crefyddol i'w mysg. Dywedir fod y rhai hyn yn dra anfynych, os oeddynt yn eu mysg o gwbl, cyn y Goresgyniad. Ni cheir dim un yn rhestr yr esgobion Saxonaidd; ond yr oeddynt yn dra lluosog hyd yn oed yn mysg y Normaniaid cyntaf a ddaeth i'r ynys; megys Adam, John, Stephen, David, Peter, Matthew, &c. Daeth enwau o'r dosbarth yma yn dra lluosog yn mysg y genedl mor fore a'r ganrif a hanner gyntaf ar ol y Goresgyniad. Yr oedd y cyfnod hwn yn nodedig o ddefosiynol, fel y prawf yr ymdrechiadau mawr i sefydlu mynachlogydd, adeiladu eglwysydd, a chynnal rhyfel yn erbyn yr anghred. Yr oedd eu sel, mae yn wir, yn rhedeg ar bethau tra gwahanol i'r hyn a ystyriwn ni yn awr yn grefydd bur y Testament Newydd; er hyny, hwy ddygent fawr sel. Yr oedd y sefyllfa yma ar feddwl y genedl yn tueddu yn fawr i helaethu a chadarnhau y cynllun newydd o gymmeryd enwau crefyddol. Cymmerid yr enwau hyn oll bron o'r Hen Destament: fe gymmerid ambell un hefyd oddi wrth bersonau diweddarach oedd wedi bod yn hynod am eu rhinweddau Cristionogol.

Ychydig o gyfnewidiad a gymmerodd le ar ol hyny: aeth rhai enwau oedd unwaith yn boblogaidd braidd allan o arfer, a dygwyd rhyw ychydig ereill i mewn yn eu lle. Fe fu amserau pan yr oedd enwau tra mympwyol yn boblogaidd; megys enwau rhinweddau, y fath ag ydyw Patience, Truth, Prudence, Faith, a roddid i ferched; a Thankful, Faithful, Sabbath, ac ereill hynotach fyth, a roddid i ddynion. Aeth rhai dros ryw ysbaid i eithafoedd arall, a defnyddient Hannibal, Scipio, Cæsar, a Hercules.

Digitized by Google

Pa fodd bynag, y mae y Seison yn cwyno na buont yn ddigon gofalus i gadw cyflawnder o enwau bedydd, fel y gelwir hwy, at eu gwasanaeth; ac er fod y genedl yn cynnyddu yn gyflym, fod nifer y cyfenwau hefyd yn lleihau, yn hytrach nag yn cynnyddu—yr hyn a ystyriant yn golled ac anghyfleusdra. Gyda phoblogaeth o gylch deng miliwn ar ugain, nid oes yn yr holl wlad fwy nag o ddeutu 53 o enwau dynion y gellir eu defnyddio heb radd o hynodrwydd. O'r rhai hyn, y mae 12 yn cael eu defnyddio yn llawer mynychach na'r lleill; sef, John, William, Henry, George, James, Robert, Thomas, Francis, Charles, Edward, Richard, Samuel.

O'r rhai hyn y mae pedwar yn enwau crefyddol—pedwar wedi eu dwyn yma ar ol y Goresgyniad – tri wedi eu cael yn ddiweddarach o wledydd ereill—ac un yn enw Saxonaidd pur. O'r 41 o enwau eilraddol, sef y rhai a arferir fynychaf yn nesaf i'r deuddeg uchod, y mae 28 yn enwau crefyddol; felly, o'r 53 enwau dynion sydd mewn ymarferiad cyffredin, y mae 32 yn enwau crefyddol—cryn lawer mwy na'r hanner—ac oll wedi eu cymmeryd o'r Ysgrythyrau.

Eto, os edrychir ar y 53 gyda golwg ar yr ieithoedd y maent wedi eu cymmeryd o honynt, ymddengys fod

25 o darddiad Hebreaidd.
19 o wahanol ieithoedd gorllewinol Ewrop.
5 o'r Groeg.
4 o'r Lladin.

Y mae llawer o enwau a fu unwaith ar arfer yn Mhrydain, y byddai yn hawdd eu dwyn eto i ymarferiad, a byddai gwneuthur hyny yn gyfleusdra lled bwysig i'r cyhoedd. Ychydig o bersonau cyhoeddus, o leiaf, sydd, na phrofasant beth anghyfleusdra oddi wrth y diffyg gwahaniaeth yn yr enwau a ddygent. Fel hyn, ychydig amser yn ol, yr oedd dau Chalmers yn hynafiaethwyr; dau Parker ar yr un fainc gyfreithiol; dau Whittaker yn wŷr llên, a'r ddau wedi ysgrifenu ar ddosbarthiad lleol Lancashire; dau Ddr. John Thomas yn gaplanwyr i'r brenin, a'r ddau yn esgobion; dau Ddr. Gray yn ysgrifenwyr duwinyddol—y ddau hefyd mewn cyssylltiad â llenyddiaeth hanesyddol a barddonol, a phob un o'r ddau wedi bod yn dadleu yn erbyn Warburton; ac y mae llawer dau John Jones yn yr un dref, yn yr un fasnach neu alwedigaeth, ac fe allai yn yr un heol, a hono heb ei rhifnodi. Y mae pethau fel hyn weithiau yn achos o ddyryswch a llawer o anghyfleusdra. Y mae newid cyfenw, hyd yn hyn, yn orchwyl anhawdd a chostus; ac y mae yn ddrwg genym fod y cynnyg a ddygwyd yn ddiweddar i senedd Brydain i awdurdodi dyn i newid ei gyfenw yn rhad, wedi ei wrthod. Y cynllun rhataf a symlaf sydd at alwad y genedl yn gyffredinol hyd yn hyn, ydyw, rhoddi rhyw enw a chyfenw ar blant wrth eu bedyddio, a fyddo yn ddigon gwahanredol a chofiadwy, megys Arthur Powel, Basil Hall. Y mae llawer o hen enwau Cymreig ystwyth ac ystyrlawn wedi myned allan o arfer yn awr, ysywaeth, yn mysg y Cymry; a llawer o rai cyffelyb hefyd yn mysg y Seison; megys Arthur, Bleddyn, Caradog, Catwg, Caswallon, Cadwaladr, Cynfael, Dyfnwal, Dyfrig, Llewelyn, Morys, Morgan; Awstin, Allan, Aubrey, Arnold, Baldwin, Blase, Barnard, Fabian, Ferdinand, Josceline, Miles, Sylvester, Theobald, Theodore, a llawer ereill. Ac ni ddylai y llywodraeth yn sicr, yn ol ein barn ni, roddi un rhwystr ar fford y genedl i chwanegu nifer eu henwau a'u cyfenwau, trwy eu hattal i chwanegu at eu henwau, a newid eu cyfenwau hefyd, fel y gwelont eu hamgylchiadau a'u cyfleusderau yn gofyn; ac y mae yn dda genym fod rhai o'n sengeddwyr yn dechreu canfod yr angenrheidrwydd o hyny.

Yr oedd y Dwyreinwyr yn newid eu henwau yn dra mynych, a hyny weithiau heb ond ychydig iawn o achos; yr hyn, pe'i dygid i arferiad cyffredin yn y wlad hon, a barai gymmaint o ddyryswch a pheidio newid yr enw pan fyddo gwir achos neu gyfleusdra yn gofyn am hyny. O blegid yr arfer yma yn y dwyrain, canfyddir amryw bersonau yn meddu enwau gwahanol yn yr Ysgrythyrau, megys yn *Ruth* i. 20, 21; 1 *Sam.* xiv. 49; xxxi. 2; 1 *Cron.* x. 2; *Barn.* vi. 32; vii. 1; 2 *Sam.* xxiii. 8. Yr oedd breninoedd a thywysogion yn fynych yn newid enwau y rhai a fyddent mewn swyddi danynt, yn enwedig pan y tynid eu sylw gyntaf atynt, ac y cymmerid hwy i'w gwasanaeth; a phan y dyrchefid hwy wedi hyny i ryw sefyllfa newydd, ac y rhoddid rhagor o anrhydedd iddynt: *Gen.* xli. 45; xvii. 5; xxxii. 28; xxxv. 10; 2 *Bren.* xxiii. 34, 35; xxiv. 7; *Dan.* i. 7; *Ioan* i. 42; *Marc* iii. 17. Yna, y mae *enw*, neu *enw newydd*, yn ffugrol, yn arwydd neu brawf o ddyrchafiad neu anrhydedd yn y manau canlynol, yn mysg lleoedd ereill: *Phil.* ii. 9; *Heb.* i. 4; *Dad.* ii. 17. Weithiau, byddai enw y marw yn cael ei newid: bernir mai ar ol iddo farw y galwyd Abel ar yr enw hwnw, i arwyddo byrder ei fywyd: *Gen.* iv. 8.

"Enw da," yn y Beibl (*Preg.* vii. 1; *Diar.* xxii. 1), a arwydda gymmeriad, neu nodweddiad da; buchedd dda: ac "enw drwg," ydyw cymmeriad drwg.—(*Kitto; Myv. Arch.; Iolo MSS.; Gweithiau Harries; Penny Cycl; Religious Encycl.*, &c.)

ENWAEDIAD, [מולה, *mwloh=tori ymaith; περιτομη, peritomê=tori oddi amgylch:* yr un ystyr sydd i'r Lladin, *circumcisio*]. Cymmerir y gair Cymraeg oddi wrth yr arferiad o enwi yr enwaededig ar achlysur ei enwaediad. Y mae y weithred yn gynnwysedig mewn symmud ymaith y blaengroen trwy ei dori. Cyflawnir hi weithiau er mwyn dybenion meddygol; ond y mae yn adnabyddus yn mhlith rhai cenedloedd fel arferiad cenedlaethol, ac yn mysg ereill fel defod grefyddol. Y cyfeiriad cyntaf at enwaediad sydd yn *Gen.* xvii. 9—14; "A Duw a ddywedodd wrth Abraham, Cadw dithau fy nghyfammod i, ti a'th had ar dy ol, trwy eu hoesoedd. Dyma fy nghyfammod a gedwch rhyngof fi a chwi, a'th had ar dy ol di: enwaeder pob gwryw o honoch chwi. A chwi a enwaedwch gnawd eich dienwaediad: a bydd yn arwydd cyfammod rhyngof fi a chwithau. Pob gwryw yn wyth niwrnod oed a enwaedir i chwi trwy eich cenedlaethau: yr hwn a aner yn tŷ, ac a bryner am arian gan neb dyeithr, yr hwn nid yw o'th had di ......a bydd fy nghyfammod yn eich cnawd chwi yn gyfammod tragwyddol. A'r gwryw dienwaededig, yr hwn ni enwaeder cnawd ei ddienwaediad, torir ymaith yr enaid hwnw o fysg ei bobl: *o blegid* efe a dorodd fy nghyfammod i." Nis gall fod ammheuaeth nad hwn yw yr hanes cyntaf am osodiad enwaediad fel ordinhad dwyfol ac arwydd cyfammod rhwng Duw a'i bobl. Ond nid ydyw mor amlwg mai y gorchymyn hwn i Abraham oedd dechreuad yr arferiad o enwaediad, fel y cyfryw, er mai hwn ydyw y crybwylliad cyntaf am enwaedu. Wrth gymharu sefydliad y Pasc (*Exod.* xii), yr hwn nid oedd mewn

lluaws o drigolion y Môr Tawel. Y mae bod yr arferiad o enwaedu wedi ffynu mor gyffredinol, ac wedi parhau mor hir, yn gwneuthur yn dra thebyg iddo ffynu cyn amser Abraham, ac iddo wreiddio yn nheimladau naturiol dynion, fel y gwahaniaeth rhwng glân ac aflan—yr hyn oedd yn ei gymhwyso i wasanaeth y wir grefydd. Ar yr un pryd, gan ei fod yn cael ei gymmeryd i fod yn arwydd gwahaniaethol cyfammod Duw âg Israel, nis gallasai fod mewn arferiad cyffredinol yn y wlad lle yr oedd y teulu etholedig i drigiannu. Gellir casglu oddi wrth y defnydd a wneir o hono ei fod i wahaniaethu pobl y cyfammod oddi wrth ereill.

Y mae cyffredinolrwydd yr enwaediad yn mhlith hiliogaeth Abraham yn deilwng o sylw neillduol. Nid ei hiliogaeth trwy Isaac yn unig a enwaedwyd, ond ei hiliogaeth trwy Ismael hefyd, yn nghyd â holl wrywiaid teulu Abraham, pa un bynag ai o'i had ef ai peidio. Cyfansoddwyd Ismael yn hen genedl fawr nad oedd yn y cyfammod; eto, gorchymynir gweinyddu arnynt arwydd y cyfammod. Pa beth, gan hyny, a allasai fod ystyr yr enwaediad i'r cyfryw? Yr ydoedd yn foddion i appelio at eu calonau a'u cydwybodau o blaid hawl Duw ynddynt; ac hefyd, yr oedd yn ddangosiad, er fod y cyfammod yn ei bethau lleiaf yn gyfyngedig i un genedl, ac i un wlad, eto yn ei fendithion ysbrydol ac uchaf, eu bod yn gyffredinol, ac yn agored i bawb a'u ceisient yn y ffordd appwyntiedig. Dewiswyd hiliogaeth Iacob yn gynnrychiolwyr natur a bendithion y cyfammod, ac hefyd yn oleuadau er addysg a llesad ereill. Gwnaethpwyd cyfammod âg Israel, nid er mwyn cau allan ereill, ond er mwyn eu sicrhau hwy. Felly, amcan neillduolrwydd y cyfammod oedd er mwyn hyrwyddo a sicrhau ei amcanion cyffredinol. Amcan cyffredinol y cyfammod oedd i sicrhau had i Abraham, trwy yr hwn y bendithid holl genedloedd y ddaiar. Nis gallasai, gan hyny, fod arwydd mwy priodol i'r cyfryw gyfammod nag enwaediad, yr hyn oedd yn gyssylltiedig â chenedliad naturiol, ac hefyd yn amlygiad o'r angenrheidrwydd i symmud ymaith aflendid y cnawd er mwyn sicrhau had sanctaidd. Trwy genedliad naturiol y trosglwyddir llygredigaeth y cwymp: gan mai amcan y cyfammod ydyw gwrthweithio y llygredigaeth hwnw, cyssylltir arwydd âg ef sydd yn meddu priodoldeb i ddangos mai nid trwy rym natur y cyrhaeddir yr amcan hwnw, ond trwy ddyrchafu natur uwch law iddi ei hun—trwy undeb natur a gras. Fel deiliaid y cyfammod hwnw, yr ydoedd cenedl Israel yn sefyll mewn perthynas neillduol â Duw fel cenedl sanctaidd, trysor priodol iddo o flaen yr holl bobl, yn freniniaeth o offeiriaid: *Exod.* xix. 6; *Deut.* vii. 6, 7; *Lef.* xi. 44. Yr oedd y neillduolrwydd yma yn cael ei osod allan yn holl osodiadau y gyfraith, ac yn enwedig yn yr archoffeiriad fel cynnrychiolydd cyffredinol y genedl; ac yn enwedig yn y goron sanctaidd o aur pur a wisgai, ar dalaith yr hon yr ysgrifenwyd, "Sancteiddrwydd i'r Arglwydd." Yr oedd sancteiddrwydd yr holl genedl i fod yn ffrwyth sancteiddrwydd personol; ac felly yr ydoedd pob un i osod yn mhell oddi wrtho bob aflendid. Er mwyn cadw y teimlad hwn yn fyw yn y genedl y gwasanaethai y ddwy ordinhad arwyddol, sef y Pasc a'r enwaediad —y rhai oeddynt mewn cyssylltiad agos â'r cyfammod, ac yn cyfateb i'r ddau sacrament dan y Testament Newydd. Dangosai y Pasc yr angenrheidrwydd am buredigaeth iawnol dros *bob teulu,* a'r angenrheidrwydd am adnewyddiad mynych o'r cyfammod. Dangosai enwaediad yr angenrheidrwydd am i *bob un* gael ei buro oddi wrth yr euogrwydd a'r aflendid sydd yn nglŷn â ni o'r groth, a'r angenrheidrwydd am ymgyssegriad i wasanaeth Duw.

Yr oedd y sancteiddiad hwn hefyd i fod yn ysbrydol a gwirioneddol: *Rhuf.* ii. 28, 29; "Nid enwaediad yw yr hyn sydd yn yr amlwg yn y cnawd;" am hyny gelwir ar y bobl i "enwaedu dienwaediad y galon;" *Deut.* x. 16. "Yr Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon, a chalon dy had, i garu yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon;" *Deut.* xxx. 6. "Rhoddwch heibio ddienwaediad eich calon;" *Ier.* iv. 4. "Calon ddienwaededig" ydyw calon wrthnysig a chaled: *Lef.* xxvi. 41; *Ier.* ix. 26. "Chwi rai gwargaled a dienwaededig o galon;" *Act.* vii. 51. "Yr enwaediad ydym ni, *y rhai ydym yn gwasanaethu Duw yn yr ysbryd;*" *Phil.* iii. 3. Nis gall fod ammheuaeth yn ngwyneb y sylwadau blaenorol mai nid fel nôd o wahaniaeth cenedlaethol y mae enwaediad yn cael ei olygu yn y Beibl, ond fel ordinhad o osodiad dwyfol, o natur sacramentaidd. Y mae yn sefyll yn yr un berthynas â chyfammod Duw â'i bobl ag ydyw bedydd. Y mae y ddwy yn ordinhadau arwyddocaol, ac y mae i'r ddwy ffurf allanol a sylwedd mewnol. Y mae y gwahaniaeth yn y ffurf allanol wedi ei achosi gan y gwahaniaeth yn yr amgylchiadau. Yr oedd yr enwaediad yn dangos fod y cyfammod yn cymmeryd mantais o genedliad naturiol i sicrhau had sanctaidd hyd nes y delai Crist—yr had yn ei ystyr cyflawnaf—a ffynnonell bendithion i holl ddeiliaid y cyfammod. Ond ar ol dyfodiad Crist, pan nad oedd amcanion y cyfammod yn ymddibynu mwy ar genedliad naturiol, ond eu bod i'w cyrhaedd yn hollol trwy foddion ysbrydol, sef ffydd yn Nghrist, cyfnewidiwyd yr ordinhad arwyddocaol i ffurf gymhwysach, i ddangos y cyfnewidiad ysbrydol a ofynir oddi ar ddeiliaid y cyfammod.

Y mae yn amlwg yn mha beth y cytuna ac yr anghytuna enwaediad â bedydd. Pan orchymynodd yr Arglwydd i Abraham enwaedu arno ei hun a'i had, efe a addawodd y byddai yn Dduw iddo ef ac i'w had (*Gen.* xvii); ac y mae yr addewid hon yn cynnwys yr addewid am fywyd tragwyddol: "Nid yw Duw yn Dduw y rhai meirw, ond y rhai byw;" *Mat.* xxii. 32. Yr oedd eu hamddifadrwydd o enwaediad fel arwydd cyfammod Duw yn cynnwys eu bod yn ddyeithriaid i ammodau yr addewid, heb obaith, ac heb Dduw yn y byd: *Eph.* ii. 11, 12. Y mae cael Duw yn Dduw yn cynnwys cael ein dwyn i'w heddwch trwy faddeuant a chyfiawnhad, a'n dwyn ar ei ddelw trwy ailenedigaeth a sancteiddiad. Y mae y bendithion hyn yn cael eu harddangos a'u sicrhau i holl ddeiliaid y cyfammod trwy enwaediad: "Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaediad yn insel cyfiawnder y ffydd;" *Rhuf.* iv. 11. Yr un bendithion a osodir allan hefyd yn y bedydd; y mae yr addewid a gyssylltir âg enwaediad ac â bedydd yr un—y mae yr un bendithion yn cael eu gosod allan drwyddynt, sef maddeuant ac ailenedigaeth—y mae sail cyfraniad y bendithion hyn yr un yn y ddwy. Felly, nid oes dim gwahaniaeth yn ystyr a sylwedd mewnol y ddwy: yr unig wahaniaeth rhyngddynt ydyw yn yr arwydd allanol—y rhan fwyaf ddibwys; ac y mae y cyfnewidiad yn hyn yn cyfateb i wahaniaeth yr amgylchiadau. Pan y mae yr apostol yn egluro natur ysbrydol bedydd, y mae yn ei alw yn

Digitized by Google

"enwaediad Crist;" *Col.* ii. 11, 12. Nid oedd y Colossiaid yn sefyll mewn angen am enwaediad er mwyn eu cyflawnu yn Nghrist, o herwydd yr oeddynt wedi derbyn y sylwedd ysbrydol a osodir oll yn yr enwaediad; "Yn yr hwn y'ch enwaedwyd âg enwaediad nid o waith llaw." Yr oeddynt wedi eu bedyddio ac wedi eu gwneuthur yn gyfranogion o'r bendithion ysbrydol a osodir allan trwy hyny: ond dynodir hyny, nid trwy ddyweyd eu bod wedi eu bedyddio, ond eu bod wedi eu henwaedu "trwy ddiosg corff pechodau y cnawd yn enwaediad Crist:"—"enwaediad Crist," am ei fod yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy undeb â Christ. Nis gall fod prawf sicrach o unoliaeth ystyr a sylwedd ysbrydol enwaediad a bedydd. Rhoddir y naill yn lle y llall.

Enwaedwyd ar Iesu Grist pan yn wyth niwrnod oed; ac yn ol arfer y genedl o enwi, galwyd ei enw ef Iesu: *Luc* ii. 21. Yr esboniad ar hyn ydyw, ei fod wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf (*Gal.* iv. 4, 5); yr ydoedd yn angenrheidiol gan hyny iddo ddyfod dani yn ei holl gyssylltiadau o ddechreu ei fywyd. Trwy enwaediad y daeth i undeb â'r genedl etholedig—rhoddodd wystl i'r gyfraith o'r taliad cyflawn a dderbyniai ganddo yn ei offrymiad unwaith dros bechodau ei bobl—gan iddo gael ei wneuthur yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus (*Rhuf.* viii. 3), y mae yn myned trwy enwaediad fel arwydd o buredigaeth—yr oedd yn mhob dim yn gyffelyb i'w frodyr, eto heb bechod: *Heb.* iv. 15. Er mwyn gwaredu y rhai oedd dan y ddeddf, disgynodd i holl ddyfnderoedd trueni dyn. Nid er mwyn ymddangosiad diystyr y cyfranogodd y Gwaredwr o ddefodau glanhaol yr Hen Destament, ond i ddangos ei fod wedi ei amgylchynu â gwendid y ddynoliaeth, heb bechod. Yr oedd ei enwaediad yn rhan o'i ymddarostyngiad:—er ei fod yn "ffurf Duw," fe ddaeth i "agwedd gwas." Felly hefyd yr aeth, yn arwyddocaol, dan y rhwymedigaeth i gadw yr holl ddeddf.

**ENWOLIAETH—IAID**, [*Nominalism*]. Y mae dyeithrwch yr enwau hyn, Enwoliaid a Sylweddoliaid (*Nominalists and Realists*) mor fawr i lawer o ddarllenwyr yn y dyddiau hyn, fel mai gydag anhawsder mawr y gallant ddwyn eu hunain i ymdeimlo â'r pwysigrwydd sydd yn perthyn mewn hanesiaeth athronyddol, duwinyddol, ac eglwysig, i'r dadleuon sydd wedi cael eu hymladd gyda'r fath eiddigedd a gwrthnysigrwydd gan y pleidiau hyn, dan yr enw *Enwoliaeth a Sylweddoliaeth.* Mae y cwestiwn rhyngddynt yn ymgynnyg yn gyntaf oll mewn ffurf athronyddol. Ac yn y ffurf hon y mae yn ymwthio ar sylw yr athronydd er pan y dechreuodd yn Groeg gynt i ymofyn am y rheswm o'r hyn sydd yn ymgynnyg o flaen ei synwyrau corfforol, hyd at ein hoes ni ein hunain. Y cwestiwn ydyw hyn. Pan ddefnyddiwn eiriau cyffredinol, megys rhosyn, cylch, dyn, &c., ar wahan neu mewn brawddeg, pa beth sydd o flaen y meddwl ar y pryd? Rhyw rosyn neillduol, unigol—ai ynte nid rhosyn neillduol ac unigol, ond un cyffredinol? Y mae y gair *rhosyn*, y mae yn amlwg, yn gyffredinol; o herwydd dywedir rhosyn am bob lliw, a llun, a maint o rosyn. A oes chwaneg yn bod na'r *gair* cyffredinol rhosyn, ac hefyd yr holl aneirif rosynau unigol sydd yn tyfu yn ein gerddi a'n gwrychoedd? A oes rhosyn cyffredinol yn cyfateb i'r gair cyffredinol? Neu yn fwy priodol, A oes drychfeddwl cyffredinol o rosyn sydd yn cyfateb i'r gair cyffredinol? Neu, a chymmeryd anghraifft arall, dywedwch fod "dyn yn gyfrifol,"—am ba beth yr ydych yn meddwl? Ai am ryw un dyn yn neillduol, neu am ryw nifer o ddynion o fewn cylch eich adnabyddiaeth, ynte am na'r naill na'r llall, ond am ddyn yn gyffredinol? Heb law y dynion unigol, John, William, Thomas, ac felly yn mlaen hyd y diwedd, o'r holl ddynion a fu, y sydd, ac a ddaw i'r byd, A oes rhywbeth arall a alwn yn ddyn, sef dyn yn gyffredinol?—dyn sydd yn cyfateb i bob dyn, ac eto heb fod yn un dyn neillduol? Ateb yr Enwoliaid ydyw, Nad oes yr un dyn cyffredinol, yn chwanegol at, neu yn flaenorol i, nac ar wahan oddi wrth y dynion unigol. Pe rhoddech orchymyn i arluniwr dynu llun dyn; hyny yw, dyn yn gyffredinol, y cwbl a allech feddwl fyddai i'r arluniwr dynu llun unrhyw ddyn a ddewisai, yr hwn fyddai rhaid fod naill ai dyn sydd yn bod, neu sydd wedi bod, neu a allai fod; ac nid dyn yn gyffredinol. Nis gwelsom ddyn yn gyffredinol erioed; nis gallwn ddychymygu am un. Ymdrechwn:—ac yn y fan, gyda'i fod yn dechreu ymrithio o flaen y meddwl, y mae iddo wynebpryd, maintioli, ac agweddiad neillduol. Os oes ganddo ffurf o gwbl—ac heb ffurf nis gall fod yn ddyn—y mae yn rhaid mai ffurf neillduol sydd ganddo. Ac yn gyffelyb am bob ansawdd arall sydd yn perthyn iddo. Yn y modd yma yr ymresyma yr Enwoliaid. Ateb y Sylweddoliaid ydyw, Gan fod enwau cyffredinol, megys *dyn*, rhaid fod drychfeddyliau neu sylweddau cyffredinol yn cyfateb iddynt. Pan ddywedoch fod dyn yn gyfrifol, rhaid eich bod yn meddwl fod y drychfeddwl cyffredinol, *dyn*, yn gyfrifol, neu ynte fod y *gair* dyn yn gyfrifol; hyny yw, fod yr hyn nad yw yn bod yn gyfrifol. Mae y Sylweddolwr am eich gorfodi i dderbyn ei ddrychfeddyliau cyffredinol ef, neu ynte i ymborthi ar eiriau; hyny yw, ar wynt. Ateb yr Enwolwr i hyn fyddai, nad ydyw y gair, *dyn*, yn y gosodiad uchod ond o'r un ystyr a phe dywedech fod *dynion* yn gyfrifol, ac felly fod grym yr wrthddadl yn diflanu; o herwydd nad oes yr un dyn cyffredinol i fod yn gyfrifol yn chwanegol at y dynion sydd yn gyfrifol.

Priodolai y Sylweddolwyr ansoddau uchel i'w drychfeddyliau; credent fod un drychfeddwl neu ffurf i ddyn, i rosyn, ac i bob rhywogaeth o beth ag sydd mewn bod—fod y drychfeddwl hwnw yn dragwyddol—mai y drychfeddwl hwn ydyw y cynllun neu bortread yn ol pa un y crewyd pob gwrthddrych neillduol a berthynai i'r rhywogaeth—fod pob gwrthddrych o'r rhywogaeth yn cyfranogi o'r drychfeddwl, ac mai hyn sydd yn cyfansoddi ei hanfod; ac mai y drychfeddwl hwn ydyw gwrthddrych priodol gwyddoriaeth pan y byddo dyn wedi llwyddo trwy ddadansoddiad (*abstraction*) i'w ddarganfod yn holl unigolion y rhywogaeth.

Fel holl gwestiynau dyfnaf athroniaeth, felly hwn:—derbyniodd sylw, ac yn wir gorweddai wrth wraidd cyfundrefnau Plato ac Aristotle. Dechreuodd y ddwy ffrwd, a adnabyddid mewn oesoedd diweddarach dan yr enwau Enwoliaeth a Sylweddoliaeth, ymwahanu yn eu hamser hwy. Credai Plato nad oedd dim gwirioneddol a sefydlog mewn bod ond drychfeddyliau, a gellid eu hystyried mewn tri golygiad. Yn *gyntaf*, eu bod yn dragwyddol cyn hanfodiad un o unigolion y rhywogaeth y perthynant iddi; yn *ail*, eu bod yn hanfodi heb raniad na lluosogiad yn mhob un o unigolion y rhywogaeth; ac yn *drydydd*, eu bod

yn wrthddrychau rheswm mewn dyn. Gwrthodai Aristotle y cyntaf o'r golygiadau hyn, ond cytunai heb nemawr o wahaniaeth â'r ddau olaf. Ond nid oes hollol sicrwydd ar hyn; o herwydd dywed Syr W. Hamilton fod gwahanol athronwyr wedi dadleu fod Aristotle yn Sylweddolwr ac yn Enwolwr; ac ereill nad oedd na'r naill na'r llall, ond ei fod rhyngddynt; hyny yw, ei fod yn dal fod gan y meddwl allu i ffurfio drychfeddyliau cyffredinol, yn cyfateb i eiriau cyffredinol. Gellir galw y cyfryw yn gyffrediedydd (*conceptualist*). Ni a roddwn un frawddeg yn unig i lawr yma o Plato, er mwyn i'r darllenydd gael mantais i sefyll uwch ei phen a cheisio casglu ei hystyr:—"Drychfeddwl peth ydyw yr hyn sydd yn gwneuthur *un* o'r *llawer;* yr hwn, er cadw undeb ac unoliaeth ei natur ei hun, sydd er hyny yn rhedeg trwy, ac yn ymgymmysgu â gwrthddrychau afrifed; ac er mor amrywiol yr ymddengys, y mae yn wastad yr un: ac felly yr ydym yn darganfod ac yn gwahaniaethu y gwrthddrych yr hanfoda ynddo pa mor amrywiol bynag ei ffurf, a pha mor ddyeithrol bynag ei ymddangosiad allanol."—*Plato yn y Philebo.* Fel y canlyn y mae Stewart yn deall y gwahaniaeth rhwng Plato ac Aristotle ar y mater dan sylw. Yr oedd gwahaniaeth yn yr iaith a ddefnyddient, ac yr oedd hyn yn rhoddi ymddangosiad o wahaniaeth mwy nag oedd mewn gwirionedd yn eu syniadau. Tra yr ydoedd Plato, dan ddylanwad ei deimlad angerddol am y rhyfeddol a'r dirgeledig, yn gosod y mawr bwys ar undeb anamgyffredadwy yr un drychfeddwl neu hanfod[1] a gwrthddrychau unigol; yr oedd Aristotle yn fwy gochelgar, ac yn amcanu yn fwy at eglurder, yn ymfoddloni trwy ddyweyd fod pob gwrthddrych wedi ei gyfansoddi o ddefnydd a ffurf, ac am fod yr un ffurf yn perthyn i wahanol wrthddrychau y perthynant i'r un rhywogaeth. Cytunai y ddau i ddyweyd fod y drychfeddwl, neu yr hanfod, neu y ffurf,[2] yn cael ei ganfod gan y meddwl yn unig fel y mae y defnydd yn cael ei ganfod gan y synwyrau. Y prif wahaniaeth rhwng Plato ac Aristotle o barth i ddrychfeddyliau ydoedd yn nghylch dull eu hanfodiad. Cytunai y ddau fod defnydd yn hanfodi er tragwyddoldeb; ond yn chwanegol at hyny, dysgai Plato fod drychfeddwl pob rhywogaeth yn hanfodi er tragwyddoldeb, ac mai hwn oedd y portreiad yn ol pa un y gwnaethpwyd pob gwahanfod (*individual*) a berthynai i'r rhywogaeth. Hònai Aristotle, er y gallai defnydd hanfodi heb ffurf, eto nas gallai ffurfiau neu ddrychfeddyliau hanfodi heb ddefnydd. Dysgai y Stoiciaid athrawiaeth wahanol i'r eiddo Plato ac Aristotle o barth i gyffredinolion (*universals*), neu yr hyn sydd o flaen y meddwl pan yn defnyddio geiriau cyffredinol, ac athrawiaeth gyffelyb i eiddo yr Enwoliaid.

Yn y canoloesoedd, agorwyd yr holl gwestiynau hyn eilwaith, nid yn unig yn eu gwedd athronyddol, ond dygwyd hwynt i mewn i diriogaeth duwinyddiaeth. Dan yr enw Sylweddoliaeth ac Enwoliaeth yr ymgynnygiai yr ymofyniad yn nghylch perthynas athroniaeth a duwinyddiaeth yn yr oesoedd hyny. Cynnwysai hyn gwestiwn hollol athronyddol yn gyntaf; sef, o barth i wirionedd neu sylweddolrwydd drychfeddyliau cyffredinol, yn yr ystyr a eglurwyd uchod; ac yn hyn denai i mewn yr ymofyniad o berthynas i gywirdeb cyfundraethau Plato ac Aristotle. Fe agorai hyn eilwaith yr ymofyniadau dyfnaf o berthynas i natur gwybodaeth a natur bodolaeth. Y rhai hyn ydynt gwestiynau sylfaenol uchanianaeth (*metaphysics*). Priodolir Enwoliaeth y canoloesoedd i Roscelin tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg. Er fod ei phrif gwestiynau wedi dyfod i lawr oddi wrth Plato ac Aristotle, Roscelin oedd y cyntaf a'i cymhwysodd at athrawiaethau duwinyddol, a thrwy yr ymgyrch dadleuol a fu rhyngddo ef ac Anselm, a roddes gyfeiriad i, a phwysigrwydd ar, holl dduwinyddiaeth yr oesoedd hyny. Deallir, fe allai, yn well, y cwestiwn sydd wrth wraidd y dadleuon hyn, wrth edrych arno yn y wedd yma: rhoddir tri ateb i'r ymofyniad, Pa beth yw natur syniadau cyffredinol? neu, gan fod y gair bellach yn ddealladwy, Pa beth yw natur cyffredinolion? Yn gyntaf, ateb Plato, Eu bod o *flaen* pethau neillduol (*universalia ante rem*); yn ail, ateb Aristotle, Eu bod *mewn* pethau neillduol (*in re*); ac yn drydedd, ateb y Stoiciaid, Eu bod *ar ol* pethau neillduol (*post rem*). Yn ol yr ateb cyntaf, y mae y cyffredinol o flaen y neillduol yn y meddwl dwyfol, ac yn gynllun iddo; a'r cyffredinol sydd yn meddu gwir fodolaeth a pherffeithrwydd, tra nad yw y neillduol ond deilliedig, terfynol, ac anmherffaith. Yn ol yr ail, y mae y cyffredinol *yn* y neillduol, yn cyfansoddi ei hanfod; ond nis gall dyn ei gael ond o'r neillduol trwy ddadansoddiad. Y mae i'w gael yn wirioneddol ynddo, ond nid ar wahan oddi wrtho. Yn ol y trydydd, nid oes dim cyffredinol mewn gwirionedd yn bod, ond enwau cyffredinol. Nid oes dyn cyffredinol yn bod yn chwanegol at ddynion neillduol. Hyn ydyw Enwoliaeth bur. Nid yw yr Enwoliaid yn gwadu fod gan ddyn allu i ffurfio syniadau cyffredinol, neu ddosbarthiadau cyffredinol, i ateb ei ddybenion ei hun; ond nid ydyw y syniadau hyn ond ffrwyth ei feddwl ef ei hun. Y maent yn adlewyrchiad yr unigol, ac yn eu rhwymo megys yn ddosbarthiadau. Er mwyn gwneyd yn sicr o ystyr y trydydd golygiad, tybiwch eich bod mewn llyfrgell ag sydd yn cynnwys cannoedd o gyfrolau mewn gwahanol ieithoedd, ar wahanol faterion, ac o wahanol faintioli. Y maent i gyd yn llyfrau; ond nid oes un llyfr cyffredinol yn chwanegol at y llyfrau neillduol. Gellir eu dosbarthu, os mynir, i lyfrau o'r un maintioli—dyna ddosbarthiad cyffredinol; ond eto, llyfrau neillduol sydd yn eu gwneuthur i fyny.

Gwelir yn amlwg oddi wrth hyn fod dau gwestiwn mawr yn cyfodi mewn athroniaeth, sef, fel y dywedwyd o'r blaen, un o barth i *natur gwybodaeth;* a'r llall o barth i *natur bod.* Yn mha le y mae y sylweddol i'w gael—yn y cyffredinol ai ynte y neillduol; a pha beth yw y berthynas sydd rhyngddynt? Gwadai Roscelin hanfodiad y cyffredinol. Nid oes dim mewn bod ond y neillduol. Nid yw geiriau cyffredinol ond dysgrifiadau cyfleus am gasgliad o bethau neillduol. Y mae pob dyn ar ei ben ei hun yn byw, ond creadigaeth y meddwl ydyw dynolryw yn chwanegol at y dynion sydd yn cyfansoddi y rhywogaeth. Y mae yn bosibl yma gael cipolwg ar gyssylltiad y gwahaniaethau hyn â duwinyddiaeth. A oes

[1] Fe allai fod y gair *hanfod* yn well na'r gair *drychfeddwl* i drosglwyddo syniad cywir am feddwl Plato i'r darllenydd diweddar. Dywedir fod y gair *essentia*—hanfod, wedi ei ddefnyddio yn gyntaf gan Cicero; ac iddo gael ei ddefnyddio yn ddiweddarach gan ysgolorwyr yn yr un ystyr ag y defnyddiai y Platoniaid y gair *idea*—drychfeddwl.

[2] Gwel y darllenydd mai nid y ffurf allanol a feddylir yma wrth ffurf yn iaith Aristotle, ond fel yr eglurir ef gan Hooker:—"Ffurf mewn creaduriaid ereill sydd yn cyfateb i'r enaid mewn creaduriaid byw. Nid ydyw yn ganfyddadwy trwy y synwyrau, nac yn adnabyddus yn amgen na thrwy ei effeithiau. Yn ol yr amrywiaeth yn eu ffurfiau mewnol, gwahaniaethir pethau i'w rhywogaethau priodol.

Digitized by Google

y fath beth ag eglwys yn bod ar wahân oddi wrth gredinwyr neillduol? Y mae yn hawdd gweled mor eiddigeddus y byddai y Babaeth i ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol, ac i wisgo yr eglwys hono â holl briodoliaethau anghyfnewidioldeb ac anffaeledigrwydd.

Nid ar athroniaeth y mae duwinyddiaeth yn gorphwys—o'r hyn lleiaf ni ddylai wneyd – ond ar air Duw. Ond parod iawn ydyw duwinyddion i neidio at arfau cnawdol athroniaeth i amddiffyn yr hyn a dybiant hwy yn arch Duw. Felly, dadleuwyd holl bynciau duwinyddiaeth o'r Drindod, pechod gwreiddiol, &c., hyd at y sacramentau, ar dir Sylweddoliaeth ac Enwoliaeth. Y mae yn hawdd gweled pa ddefnydd a wnai Roscelin o Enwoliaeth mewn amddiffyniad i'w gyfeiliornadau am y Drindod. Ond nid yw fod y Babaeth yn gweled ei mantais mewn Sylweddoliaeth yn gwrthbrofi yr athroniaeth hono; ac nid yw fod Enwoliaeth yn cael ei defnyddio yn erbyn y Drindod yn gwrthbrofi yr athroniaeth wrthwynebol. Y mae y ddwy yn sefyll neu yn syrthio ar eu tir eu hunain. Nid yw bod y ddwy wedi cael eu defnyddio yn erbyn y gwirionedd yn brawf eu bod hwy eu hunain yn gyfeiliornus. Ac nid yw bod y ddwy wedi cael eu defnyddio lawer gwaith o blaid y gwirionedd yn brawf eu bod hwy yn wir. Ond pa un bynag sydd yn wir, y mae y Beibl yn sicr o gydsefyll â hono. Gwel YSGOLORIAETH; SYLWEDDOLIAETH; yn nghyd âg amryw o'r enwau y cyfeirir atynt yn yr erthygl hon.

1. EOS, [Ἠώς: Att., Ἕως; Ll. *Aurora*]: duwies y bore rhuddgoch, merch Hyperion a Thia, neu Euryphassa; neu o Pallas, yn ol Ovid. Cyfodai ar derfyn pob nos oddi ar lwth ei phriod Tithonus, ac esgynai mewn cerbyd, yn cael ei dynu gan feirch cyflym Lampus a Phäeton; i'r nefoedd o afon Oceanus, i hysbysu dyfodiad goleuni yr haul i'r duwiau cystal ag i farwolion. Yn ol y Caniadau Homeraidd, byddai Eos, nid yn unig yn mynegu dyfodiad yr haul, ond canlynai ef trwy y dydd, ac ni therfynai ei gyrfa hyd yr hwyr; am hyny, ystyriwyd hi fel duwies y boreuddydd; ac ystyrid hi yr un yn hollol a Hemera gan ysgrifenwyr prudd gerddi. Byddai yn cymmeryd amryw ieuenctyd hynod o ran eu prydferthwch ymaith, megys Orion, Cephalus, a Tithonus; am hyny galwyd hi gan Ovid, *Tithonia conjux*, "priod Tithonus." Hi a ymddûg Memnon i Tithonus; ac o Astræus daeth yn fam i Zephyrus, Boreas, Notus, Heosphorus, ac ereill o'r ser.—(*Lempriere; Smith*).

2. EOS, [ἀήδων; L. *lucinia*; Seis., *nightingale*]: yr aderyn canu godidocaf sydd yn Ewrop, yr hwn a gân yn y nos yn unig, wedi i bob adar ereill ddystewi; ac y mae rhai yn barnu mai y prif achos fod ei chân i'w chlywed mor eglur ac mor uchel, ydyw dystawrwydd y nos; a bernir pe canai yn y dydd, na ragorai nemawr ar y fronfraith a'r fwyalch.

Aderyn ymfudol ydyw yr eos, yn ymweled â ni yn gynnar yn y gwanwyn, tua chanol Ebrill, ac yn ymadael tuag Awst neu Medi. Yr adar gwryw sydd yn dyfod yma gyntaf; ac y mae yr adarwyr yn gwneyd y goreu o'r deng niwrnod neu y pythefnos y deuant yma o flaen y rhai benyw, i'w dal, gan y gwyddant yn dda na bydd y gwrywod byw ond anfynych ar ol cymharu. Y mae hoffwyr cân adar yn tybied mai ansawdd tôn eos Surrey ydyw yr oreu yn y deyrnas hon. Afreidiol fyddai helaethu yma ar ragoroldeb ac amrywiaeth cân yr eos—pwnc y mae prif ysgrifenwyr a beirdd pob oes a gwlad, lle y mae yr aderyn yn adnabyddus, wedi ei ddyhysbyddu; ond y mae amryw bethau perthynol i arferion a sefyllfa ddaiaryddol yr aderyn yn gofyn ychydig o sylw.

Dywed Temminck, mai hoff gyrchleoedd yr eos yw coedwigoedd, dyrysiwyni, a gerddi; ei bod yn ymweled â phob parth o Ewrop, hyd yn oed Sweden; ac yn ymfudo yn y gauaf i'r Aipht a Syria. Gwelodd Hasselquist yr eos yn mysg helyg yr Iorddonen, ac olewydd Iudea. Gwelodd Strickland hi yn Smyrna ar y pummed o Ebrill. Sylwa y tywysog Musignano ei bod yn gyffredin yn Rhufain, heb ymadael ond dros y gauaf yn unig.

Dywed Pennant, ei bod yn ymweled â pharthau tymmerus Rwssia, ac hyd yn oed rhai parthau o Siberia. Sylwa yr un awdwr, nad ydyw i'w chanfod yn mhob rhan o Ynys Prydain. "Nid ydyw i'w chanfod," eb efe, "yn Ngogledd Cymru, nac mewn un o'r siroedd Seisonig sydd yn mhellach i'r gogledd, oddi gerth Yorkshire, lle y ceir hi yn fynych o amgylch Doncaster." Camsyniad y naturiaethwr Pennant oedd, nad yw yr eos byth yn ymweled â Gogledd Cymru: gwelwyd a chlywyd hi yn canu ychydig flyneddoedd yn ol yn nghoedwigoedd Marchwiail, ger Gwrecsam, yn sir Fflint: bu hefyd yn ymweled â Choed Alun, ar lan afon Menai, ger llaw Caernarfon, am ddau haf neu dri olynol, yn nghylch deg neu bymtheng mlynedd yn ol: a gwelwyd hi eleni (1862), mewn coedwig ger llaw y Penmaen Mawr, yn sir Gaernarfon. "Clywyd hi hefyd," medd Pennant, "ond yn anfynych, yn agos i'r Amwythig. Y mae yn nodedig hefyd," eb efe, "nad yw yr aderyn hwn yn ymfudo cyn belled i'r gorllewin a Dyfnaint (*Devonshire*) a Chernyw—gwledydd lle y mae y tymmorau mor hynod o dyner, fel y tyf myrtwydd ynddynt yn yr awyr agored trwy gydol y flwyddyn. Nid yw chwaith i'w chanfod yn yr Iwerddon. Y mae Sibbal yn gosod yr eos yn mysg yr adar Ysgotaidd; ond diammheu ei bod yn anadnabyddus yn y parth hwnw o Brydain Fawr, a hyny, fe allai, o blegid prinder gwrychoedd yno hyd yn ddiweddar; er ei bod yn ymweled â Sweden, lle y mae yr hinsawdd yn llawer mwy gerwin." Dywed golygydd y *British Zoology*, y clywyd yr eos amryw weithiau yn 1808, yn ngerddi iarll Lonsdale, yn Fisher street, Carlisle. Sylwa Nilsson ei bod yn ymweled â Sweden ar y cyntaf o Fai. Dywed Montagu, nad ydyw i'w chanfod yn mhellach i'r gogledd na Yorkshire yn unig, a dim pellach yn ddiau i'r gorllewin na therfynau dwyreiniol Dyfnaint, er ei bod yn aml yn Somersetshire a Dorsetshire. "Pa ham," medd Montagu, "nas canfyddid hi yn Dyfnaint a Chernyw—a ymddengys yn lle mor briodol iddi o ran tynerwch yr awyr ac amrywiaeth y tir, sy tu hwnt i amgyffred y naturiaethwr. Y mae y terfynau a benodwyd i bob anifeiliaid, a hyd yn oed llysiau, yn ffaith nodedig a phwysig yn ngweithredoedd mawrion natur. Sylwyd gan rai nad yw yr eos i'w gweled mewn un man ond lle tyf y symwl (*cowslip*) yn helaeth. Y mae hyn beth bynag yn wir gyda golwg ar Dyfnaint a Chernyw." Tybia Mr. Blyth fod yr eos yn ymfudo ar ei hunion bron o'r de i'r gogledd, ac o'r gogledd i'r de, heb osgoi ond ychydig i'r naill ochr na'r llall. Dywed yntau nad oes un i'w gweled yn Llydaw nac yn ynysoedd y Môr Udd (*English Channel*), Jersey, Guernsey, &c. Tybia Blyth y gallai fod y rhai mwyaf

Digitized by Google

gorllewinol yn croesi y meinfor yn Cape La Hogue, gan ddyfod drosodd ar oror Dorsetshire, a myned yn mlaen fel yr ymddengys yn hytrach tua'r gogledd na'r gorllewin, fel nad ydynt i'w gweled ond fel crwydriaid damweiniol yn unig y tu hwnt i'r drydedd radd o'r hydred gorllewinol, y fan bellaf. Dywed Gould, wrth sylwi ar bapyrau Blyth, ei bod yn lluosog yn y gwledydd deheuol a dwyreiniol, tra yr ymddengys mai Dyfnaint yw ei therfyn gorllewinol, a Doncaster yn Yorkshire yn y cyfeiriad gogleddol, gan mai ychydig o dystiolaethau credadwy sydd ar gof iddi fod tu hwnt i'r dref hono, yr hyn sydd hynotach gan fod yr eos i'w chanfod yn fynych yn Sweden a gwledydd ereill pellach i'r gogledd na Lloegr. "Yr ydym wedi sylwi ein hunain," medd Gould, "gyda golwg ar ymfudiadau yr eos, ei bod, ar ol gadael yr ynys hon, yn glanio ar ororau cyferbyniol y Cyfandir, gan fyned rhagddi yn raddol tua'r deheu, nes cyrhaedd Affrica, lle y mae ei gorphwysle eithaf yn ystod ein misoedd gauaf ni. Derbyniasom amryw ein hunain o honi wedi eu lladd yn mharthau gogleddol Affrica, ond ni chawsom un erioed o barthau canol na deheuol y rhan hono o'r ddaiar; ymddengys gan hyny nad ydyw ei lledaeniad dros y cyfandir eang hwn ond cyfyng mewn cymhariaeth. Nid ydyw yn fwy lluosog mewn un parth o Ewrop nag yn Yspaen ac Italy; o ba le y mae yn ymfudo yn rheolaidd er hyny, cystal ag o'n hynys ninnau, ar ddynesiad y gauaf." Mae ynysoedd yr Ynysfor Groegaidd yn mysg hoff fanau ymweliad yr eos.

O ran ei lliw, y mae oddi arni yn llwydgoch bardd; ei chwman a'i chynffon braidd yn rhuddgoch; ei gwddf a chanol ei bol yn llwydwyn budr; ochrau ei gwddf, ei brest, a'i hystlysau, yn llwyd; ei phig a'i choesau yn wineu. Ac y mae y ddau ryw yr un fath.

Y mae yr eos yn dra hoff o neillduedd; am hyny trig yn y coedwigoedd tewaf, ac yno y gesyd ei nyth, ar fforch isel weithiau, ond yn fynychach ar y ddaiar. Dail crinion, yn enwedig dail derw, wedi eu gosod yn nghyd yn llac, gydag ychydig gawn a brwyn sychion, a'i hulio oddi mewn â mânwraidd meinion, sydd yn gwneyd i fyny yr holl adeilad. Rhif yr wyau, y rhai sydd wineulwyd, ydyw pedwar neu bump. Wedi i'r cywion ddeor, yr hyn a ddygwydd yn gyffredin yn Mehefin, y mae cân berorol y gwryw yn darfod, ac yn cael ei dilyn gan grawc isel, yn cael ei hamrywio yn achlysurol â swn sarug: y cyntaf a ystyrir fel rhybudd o'r ymadawiad, a'r llall fel her. Yr ymborth yw trychfilod, megys gwybed a chopynod, gwyfon a chwilenod. Llindys gwyrdd oedd yr ymborth a ddygai yr hen adar i'r nythaid cywion a gymmerwyd gan y milwriad Montagu. Nid ydyw yn annhebyg fod y lleoedd a ddewisir gan yr aderyn yn ymddibynu i raddau ar brinder neu helaethder yr ymborth trychfilaidd a hoffa.

Y mae math arall o eos (*the thrush nightingale — lucinia major*), a breswylia ganolbarth Ewrop. Y mae cân y rhywogaeth yn uchel, ond nid yw yn agos mor odidog a chân y wir eos. Dywedir fod hon yn gyffredin yn yr Aipht.—(*Pennant; Penny Cycl.*, &c.)

**EPA**, [קוֹף, *coph*; Gr., *cêpos*, *cebos*, *cephos*; oddi wrth ba un y tardd y Lladin, *cephus*]. Crybwyllir am yr epa yn 1 *Bren.* x. 22, ac yn 2 *Cron.* ix. 21, yn mhlith yr anifeiliaid a ddygai llongau Solomon o Hiram unwaith bob tair blynedd. Mae y Deg a Thrigain yn cyfieithu y gair i'r Groeg *p thêcos*, yr hwn sydd gyfystyr â'r Lladin *simnia*. Arferai y Groegiaid y gair *cêbos* neu *cêpos* am y rhywogaeth hirgynffonog o'r mwnci, ac y mae Pliny yn arfer y gair *cephus*. Derbyniodd y Groegiaid a'r Hebreaid y gair i ganlyn yr anifail o'r India; canys gelwir yr epa yn y Sanscrit a'r Malabar yn *capi*=cyflym, bywiog. Oddi yma y deillia yr Al. *affe*, yr Anglo-Saxon. *apa*, y Seis. *ape*, a'r Cym. *epa*. Darlunir cephiaid Ethiopia fel creaduriaid heb gynffonau, yn dringo y creigiau, yn bwyta magïod a morgrug, ac yn amddiffyn eu hunain rhag ymosodiadau llewod trwy fwrw llwch i'w llygaid. Sonir yn *Shaw's Travels* am balmant moesenaidd a gafwyd yn Praeneste, yn yr hwn y mae epa yn cael ei ddarlunio, a'r enw ΚΗΙΠΕΝ wrtho.

Yn ol y dosbarthiad milofyddol diweddar, y mae rhywogaeth yr epa yn cynnwys y tethogion pedeirllaw hyny sydd yn meddu dannedd o'r un rhif a ffurf a dyn, ac heb gynffonau na bochgydau. Y mae y darnodiad hwn, tra ar un llaw yn cau allan rai o'r ci-epaod (*baboons*) digynffon, yn cynnwys ar y llaw arall y tair isrywogaeth o orangiaid, chimpanzeeaid, a gibboniaid, y rhai—er fod llawer o filhaneswyr da yn eu hystyried fel rhywogaethau gwahanol—nid ydynt yn meddu digon o nodweddau neillduol i'w gwahanu. Ac nid y rhai hyn ydyw yr unig nodweddau sydd yn perthyn i'r epaod yn gyffredin. Hwy, o'r holl anifeiliaid, ydyw y rhai tebycaf i ddyn o gyfansoddiad. Yn wir, mor bell ag y gellir barnu oddi wrth y rhai ieuainc a ddygir drosodd i Ewrop, y mae eu gwahaniaeth mwyaf hanfodol yn yr ystyr yma yn gynnwysedig yn agweddiad neillduol y rhanau isaf, y rhai sydd yn lleihau eu gallu i gerdded ar dir gwastad, ond yn gyfaddas iawn i'w galluogi i ddringo gyda rhwyddineb mawr. Y mae y breichiau yn ddigon hir i gyrhaedd y ddaiar bron pan y saif yr anifeiliaid yn unionsyth ar eu traed ol; ond nid yw y coesau yn cael eu hestyn y pryd hwnw dros un ran o dair o'u cyflawn hyd. Heb law hyny, nid yw y coesau yn gyflinellog â'r cluniau; y mae penau y cluniau yn troi allan, ac y mae y traed yn cymmalu wrth y fferau yn y fath fodd fel y mae y gwadnau yn cael eu troi o mewn i wynebu eu gilydd. Trwy hyn, cynnorthwyir yr epaod i ymaflyd yn moncyffion a changenau y coed gyda llawer mwy o rym na phe buasai eu haelodau fel yr eiddom ni. Y maent fel hyn yn greaduriaid coediog; ac ni byddant un amser yn gadael y coedwigoedd o'u bodd, gan eu bod yno yn cael digonedd o fwyd cyfaddas, a diogelwch cyflawn ar yr un pryd.

Y mae cryn amrywiaeth yn nodweddau ac arferion yr epaod. Mor bell, fodd bynag, ag y sylwyd ar eu harferion cyffredinol, y maent yn ymddangos o duedd ddwys a thyner, yn hollol rydd oddi wrth yr anniddigrwydd a'r cywreinrwydd dichellgar hwnw sydd yn perthyn mor amlwg i'r cyffredin o rywogaeth y mwnci. Y maent yn bur serchus o'r rhai a ymddygant yn dyner tuag atynt, yn dra difrifol a phwyllog yn eu holl weithrediadau, ac yn neillduol iawn o ochelgar a deallus. Anfynych y cyffroir hwynt i nwydau ffyrnig, ond y maent yn anfoddog a chroes pan y digir neu y somir hwynt. Nid ydynt un amser yn cerdded ar eu deudroed ond pan y bydd angen arnynt gario rhywbeth yn eu dwylaw blaen. Gan nad ydynt yn groengaled, fel y dosbarth lleiaf yn y rhywogaeth, ni byddant un amser yn cysgu o'u heistedd fel hwy, ond ymestynant fel bodau dynol ar eu hochrau, gan roddi eu dwylaw dan eu penau;

Digitized by Google

neu, defnyddiant rywbeth arall fel gobenydd. Rhoddwn ddysgrifiad byr yn awr o'r gwahanol rywogaethau o honynt.

1. *Y chimpanzee*, ydyw y dosbarth hwnw o'r epa a ystyrir yn gyffredin fel y nesaf i ddyn; er fod y barwn Cuvier yn dadleu yn gryf yn mhlaid yr orang-outang. Y mae pen y chimpanzee, hyd yn oed pan yn ieuanc, yn wastad ar ei ranau uchaf; y mae y talcen yn ymgolli yn ol, gan adael trum esgyrnog uwch ben yr aeliau. Y mae yn yr ystyr yma yn israddol i'r orang-outang ieuanc, yr hwn sydd yn meddu talcen dyrchafedig, a phenglog llawn crynach nag hyd yn oed baban dynol; ond nid yw y gallu deallol yn cyfateb i'r ymddangosiadau allanol hyn, ac y mae dadblygiad helaeth y wyneb a'r safn yn ei ostwng yn gydwastad bron a'r anifeiliaid isaf. O'r tu arall, nid yw wyneb y chimpanzee yn fwy hirgrwn, yn ol cyfartaledd y penglog, na'r eiddo dyn. Y mae y safn ei hun yn llydan, y clustiau yn neillduol fawr, y trwyn yn wastad, y breichiau a'r coesau yn lled gyfartal i'r eiddo dyn. Nid ydyw y bysedd blaen prin yn cyrhaedd pen y glin pan y bydd yr anifail yn sefyll yn unionsyth; ond y mae breichiau yr orang-outang y pryd hwnw bron yn cyrhaedd y ddaiar. Mae corff y chimpanzee wedi ei orchuddio â blew hir, bras, a du, ond ar y pen, yr ysgwyddau, a'r cefn y mae dewaf; y mae ei wyneb o liw llwyd-ddu, ac fel y clustiau, yn noeth. Sicrheir ni gan deithwyr fod yr anifail yn ei gyflawn oed yn cyrhaedd maintioli cyffredin dyn, a'i fod yn meddu gradd helaethach o lawer o ddeall na chreaduriaid ereill. Y mae yn preswylio y gwledydd o Sierra Leone hyd barthau deheuol Angola, hwyrach o'r Gambia hyd Benrhyn Negro.

2. *Yr orang-outang* ydyw yr hynotaf o'r holl epaod, ac y mae yn preswylio y coedwigoedd mwyaf pellenig yn Borneo, Java, a Sumatra. Nodwedd mwyaf arbenig yr anifail hwn yw hyd ei freichiau, ac y mae hyny yn ymddangos yn fwy felly pan eu cymherir â byrdra ei gorff a'i goesau. Y mae hyn yn peri fod cerdded ar ei ddeudroed yn llawer mwy anfanteisiol i'r creadur hwn nag i'r chimpanzee. Y mae ei safn yn fawr ac anffurfiol, y gwefusau yn deneu ac yn ymdaflu allan, yr ên yn ymgolli ymaith bron, y clustiau yn fychain iawn, a'r trwyn mor wastad fel mai prin y gellir ei adnabod ond wrth y ffroenau. Y mae y wyneb, y clustiau, a'r dwylaw, yn noeth; ond y pen, yr ysgwyddau, y cefn, a'r rhanau ereill, ydynt yn orchuddiedig â blew tywyll a hir. Nodweddir yr orang-outang yn lled gryf gan dynerwch. Yr oedd yr un a ddygwyd gan Dr. Tyson o Angola, yn Affrica, yn dyner, serchus, a diniwed. Ar y fordaith i Loegr byddai yn arfer chwareu â'r llongwyr, gan eu cofleidio gyda'r hoffder mwyaf. Ar ol iddo gael ei ddal, a'i ddwyn i ymarfer ychydig â dillad, daeth yn bur hoff o honynt; gorweddai mewn gwely, rhoddai obenydd dan ei ben, a thynai y dillad drosto fel dyn.

3. *Y siamang*. Dosbarth dyddorol o epaod yw hwn, a ddarganfyddwyd ar y cyntaf gan Syr Stamford Raffles, a'r naturiaethwyr Ffrengig, Diard a Duvaucelle. Nid yw yr anifail hwn yn agos mor ddeallus a'r ddau arall a nodwyd. Y mae ei ben yn fach a gwasgedig; ei wyneb yn noeth a du, gydag ychydig flew coch i nodi y talcen a'r ên; y llygaid wedi suddo yn ddwfn dan aeliau mawr; y trwyn yn llydan a fflat, gyda ffroenau agored llydain, a'r bochau yn suddedig dan gernesgyrn mawr. Dan yr ên y mae sach noeth fawr, o liw olew. Llenwir hon âg awyr pan y gwaedda yr anifail, ac y mae y pryd hwnw yn debyg iawn i chwydd anferth yn y brefant. Ei nodwedd cyffredin yw ystyfnigrwydd, mus grellni, a bonglerwch. Nis gellir byth, er pob ymdrech, ei ddwyn mor ddof a chartrefol a'r ddau ddosbarth cyntaf.

4. *Y wouwou*. Y mae wyneb hwn o liw glasddu, y llygaid yn ddwfn yn y pen dan aeliau mawr, a'r talcen wedi ymgolli yn llwyr bron. Nid ydyw y trwyn mor hollol fflat ag eiddo y siamang. Mae dan yr ên ychydig flew fel barf, ac y mae y clustiau yn llwyr orchuddedig gan flew gwynion hirion. Y mae ei liwiau yn amrywio yn fawr yn ol fel y mae yn heneiddio. Y mae yn preswylio yr un gwledydd a'r siamang; ond anfynych y mae i'w weled, gan mor gyflym ydyw i ymguddio a ffoi rhag erlynwyr. Ei faintioli cyflawn, o wadn y troed hyd goryn y pen, ydyw dwy droedfedd a saith neu wyth modfedd. Y mae ei freichiau yn cyrhaedd y llawr pan y saif yn unionsyth; y mae bodiau y dwylaw yn bur fyrion, ond y mae bodiau y traed yn hirion. Y mae yn gwbl amddifad o gynffon a bochgydau; ac mewn ystyron ereill y mae yn bur debyg i'r epaod cyffredin yn y dosbarth gibbonaidd.

5. *Yr ounko*. 6. *Y gibbon*. 7. *Y pithicus cuciscus*. Y mae pob un o'r rhai hyn yn ymdebygu yn fawr i'w gilydd, ac ychydig o wahaniaeth sydd rhyngddynt a'r siamang a'r wouwou. Y mae pob un o honynt ychydig yn wahanol o ran maint a lliw, ond ceir eu prif nodweddau yn y dysgrifiad a roddwyd o'r dosbarthiadau ereill. Gwel ELLYLL.—(*Smith; Penny Cycl.*)

EPAON. Er mwyn gwellhau llygriadau ag oedd wedi ymlusgo i Eglwys Babaidd Burgundy ac er mwyn sefyll at ei llywodraeth yn gyffredinol, galwodd Viventiolus, archesgob Lyons, ac Avitus, esgob Vienne, gynghor yn nghyd o esgobion Burgundy, ar y chweched dydd o Fedi, B.A. 517, yn Epaon. Gorphenodd y pedwar esgob ar ugain a ufuddhasant i'r rhybudd eu penderfyniadau yn fuan; ac ar y 14eg o Fedi, 517, rhoddasant eu henwau wrth gofeb a wnaethant "dan ddwyfol ysbrydoliaeth." Mewn 40 o ganonau, penderfynasant y perthynasau oedd i fod o hyny allan rhwng esgobion, clerigwyr, mynachod, personau neillduol, a'r llywodraeth a hereticiaid; a gwnaethant reolau perthynol i feddiannau a dysgyblaeth yr eglwys. Teilwng o'u ffurfwyr yw y rheolau perthynol i Ariaid Burgundy, sydd yn y canonau 15, 16, 29, a 33, y rhai sydd yn gwahardd i'r clerigwyr gydfwyta â hereticiaid. Ni feiddiai gŵr lleyg chwaith giniawa gydag Iuddew, dan boen peidio cael ei wahodd byth mwy i eistedd wrth fwrdd offeiriad Pabaidd. Pe byddai heretic yn glaf i farwolaeth, ac yn dymuno cael y sacrament, gallai offeiriad ei weinyddu iddo; os yn iach, byddai raid iddo fyned at esgob. Er fod y brenin Siegmund ychydig amser cyn y cynghor wedi ymuno â'r Eglwys Babaidd, eto nid oedd ei gweithrediadau yn gyfaddas i gymmodi ei ddeiliaid Ariaidd, y rhai fel yr ymddengys oedd y mwyafrif. Ac nid oedd yntau ei hun yn foddlon mewn un modd ar dymmer awdurdodol yr esgobion a gymmerent arnynt lywodraethu yr eglwys heb ymgynghori dim âg ef. Rhoddodd amgylchiadau gyfleusdra o'r diwedd iddo fwrw arnynt ei anfoddlonrwydd. Yr oedd y 30ain canon yn gwahardd priodas rhwng perthynasau, ac hefyd rhwng gŵr â chwaer ei

Digitized by Google

wraig drancedig. Yr oedd Stephanus, gŵr mawr a hoff yn y llys, wedi priodi ei chwaer yn nghyfraith, ac eto yn dal ei swydd. Gan fod y cynghor yn ofni dial y brenin, rhoddodd derfyn ar ei eisteddiadau ar frys. Pa fodd bynag, ymneillduodd un ar ddeg o'r esgobion i Lyons; ac o dan lywyddiaeth Viventiolus, ail gadarnhasant gondemniad Stephanus a Palladia, gan ei gyhoeddi yn erbyn pawb oedd yn euog o'r un pechod; ac ymrwymasant i gynnorthwyo eu gilydd os dygwyddai erlidigaeth. Ac os ymwahanai y brenin oddi wrth yr eglwys, byddai iddynt hwythau ymneillduo i fynachdai, ac aros yno nes y dygai eu gweddïau ef i ail dalu gwarogaeth i'r eglwys. Yn y 4ydd canon, cyhoeddid esgymundod yn erbyn pob esgob a weinyddai eu swyddi hwy yn eu habsennoldeb. Yr oedd y 5ed canon yn rhoddi yr un gospedigaeth ar bwy bynag a gyssegrid i lenwi eu lle. Pa fodd bynag, yr oedd y 6ed canon yn dadgan y dylid ufuddhau i'r brenin, ac y dylid caniatau i Stephanus a Palladia weddïo yn y lleoedd cyssegredig nes gorphen darllen yr efengyl. Yn y diwedd, daeth Siegmund yn was ystwyth ac ufudd iddynt. Er fod rhyddid eglwys Burgundy wedi myned heibio gyda chydgorfforiad Burgundy â Ffrainc, rhoddwyd 13 o ganonau Epaon yn y 24 canon a chwanegwyd at y 47 a fabwysiadwyd gan gynghor Agde, yn B.A. 506.

Y mae ymdrechiadau am lawer canrif wedi cael eu gwneyd i geisio penderfynu pa dref a olygir wrth Epaon, gan nad oes un lle mwyach yn dwyn yr enw hwnw. Y mae yn sicr ei bod yn dynodi rhyw dref yn nheyrnas Burgundy. Yr oedd Claudius Castellanus yn dadleu, mor fore a 519, mai wrth Epaon y meddylid y dref Savoyaidd fechan Yenne, neu Hyenne, ar lan arall y Rhone, gyferbyn a Beley. Mae Ukert yn meddwl mai Etanna, a enwir ar ail daflen Peutinger megys ar lan dde y Rhone, ydyw yr Yenne bresennol. Yn ol Chorier, y dref fechan Ponas ydyw, sydd rhwng Vienne a Lyons; ac yn y *Memoires de Trevoux*, gwneir crybwylliad am *Epaona sine Tortilianum*, yn agos i Vienne.—(*Herz. Real. Encycl.*)

**EPAPHRAS**, [Ἐπαφρᾶς=*gorchuddiedig âg ewyn*]: cydwas â'r apostol Paul, a grybwyllir yn *Col.* i. 7, fel un a ddysgodd ras Duw mewn gwirionedd i eglwys Colossa, yr hwn hefyd a elwir yn "ffyddlawn was" (*diaconos*) i Grist drostynt hwy. Yr oedd efe y pryd hyny gyda'r apostol Paul yn Rhufain (*Col.* iv. 12); ac ymddengys oddi wrth yr ymadrodd, "yr hwn sydd un o honoch," a ddefnyddir yno, mai brodor o Colossa ydoedd. Crybwyllir am dano drachefn yn yr epistol at Philemon (*adn.* 23), yr hwn a anfonwyd yr un pryd at y Colossiaid. Y mae Paul yno yn ei alw "fy nghydgarcharor;" ond y mae rhai yn tybied mai ymadrodd o gymmeradwyaeth i Epaphras oedd hwn, o blegid y gofal a ddangosodd efe at yr apostol tra yr oedd yn ngharchar; ond nis gwelwn ni un sail i'r dyb yma, heb law y gwyddom fod lluaws wedi eu carcharu mewn gwirionedd o gylch y pryd hyny heb law yr apostol Paul.

Y mae rhai yn casglu, oddi wrth *Col.* i. 7, mai Epaphras oedd sylfaenydd eglwys Colossa; a thybia y Dr. Neander fod yr apostol yn ei alw yn "was i Grist yn ein lle ni," o blegid ei fod wedi cyflwyno iddo ef y swydd o gyhoeddi yr efengyl yn y tair dinas Phrygiaidd—Colossa, Hierapolis, a Laodicea—y rhai nas gallai efe ei hun ymweled â hwynt. mae Lardner yn meddwl fod yr ymadrodd yn nghylch Epaphras yn *Col.* iv. 12, "yr hwn sydd un o honoch," yn hollol anghysson â'r dyb ei fod yn sylfaenydd yr eglwys, gan fod yr un ymadrodd yn cael ei gymhwyso at Onesimus, oedd newydd ddychwelyd yn ddiweddar i'r ffydd. Ond ymddengys fod yr ymadrodd dan sylw wedi ei fwriadu i ddangos fod y ddau berson hyn yn gydwladwyr i'r Colossiaid, cystal ag er eu gwahaniaethu oddi wrth ereill oedd o'r un enw yn Rhufain.

Gyda golwg ar sylfaeniad yr eglwys, y mae yn debycach, oddi wrth *Col.* ii. 5, a i. 7, mai Paul a wnaeth hyny, naill ai ar ol ei daith gyntaf o Ephesus (*Act* xviii. 23), neu yn ystod ei ail arosiad yno: *Act.* xix. 8.

**EPAPHRODITUS**, [Ἐπαφρόδιτος=*prydferth*]: "cenad" (*apostolos*) yr eglwys yn Philippi at yr apostol Paul yn ystod ei garchariad yn Rhufain, i'r hwn yr ymddiriedasant eu cyfraniadau at gynnal yr apostol: *Phil.* ii. 25; iv. 18. Y mae barn uchel yr apostol am dano i'w gweled yn yr ymadroddion anrhydeddus aml a gymhwysa ato, megys "fy mrawd, a'm cydfilwr, a'm cydweithiwr;" ac y mae yr un peth i'w ganfod yn y diolchgarwch gwresog a amlyga yr apostol o blegid ei adferiad o'r afiechyd peryglus a ddygwyd arno mewn rhan wrth wasanaethu arno ef: *Phil.* ii. 30. Epaphroditus, ar ei ddychweliad i Philippi, oedd dygiedydd yr epistol at yr eglwys hon—yr hwn sydd yn un o lyfrau canonaidd y Testament Newydd.

Y mae Grotius, a rhai ereill, yn meddwl mai yr un oedd Epaphroditus ag Epaphras, y crybwyllir am dano yn yr Epistol at y Colossiaid. Ond er y gallai yr enw olaf yn hawdd fod yn dalfyriad o'r llall, eto y mae y ffaith fod Epaphras, yn ol pob tebygrwydd, yn y carchar ar y pryd, yn ddigon i wahaniaethu rhwng y personau; heb law mai yn Colossa, Hierapolis, a Laodicea, y llafuriai Epaphras, tra mai Philippi a Macedonia ydoedd prif feusydd llafur Epaphroditus. Dengys Wetstein fod hwn yn enw tra chyffredin yn y dyddiau hyny.

**EPARCHAETH**, [*Eparchy*]: talaeth yn cynnwys amryw ddosbarthiadau, ac yn ffurfio rhan o esgobaeth. Mabwysiadwyd y rhaniad gwladol yma o'r ymherodraeth Rufeinig pan ffurfiwyd yr eglwys. Daeth y rhai oedd yn meddu gofal dosbarthiadau, yn esgobion; y rhai oedd yn gofalu am yr eparchaethau yn y prif ddinasoedd, yn archesgobion; a'r rhai oedd yn meddu gofal esgobaethau, yn batriarchiaid. Ymddengys hyn oddi wrth y 4ydd canon o gynghor Nice. Eparchaeth yn Eglwys Roeg Rwssia yw esgobaeth; ac y mae yn y wlad hono un ar bymtheg ar ugain o'r cyfryw; a gelwir llywydd eglwysig pob un o honynt yn eparch.—(*Herzog; Eadie.*)

**EPENETUS**, [Ἐπαίνετος=*canmoladwy*]: trigiannydd Cristionogol yn Rhufain ar y pryd yr ysgrifenai Paul ei epistol at yr eglwys yn y ddinas hono, ac un o'r personau yr anfonodd efe anerchiadau penodol atynt: *Rhuf.* xvi. 5. Yn y testyn cyffredin, lleferir am dano fel "blaenffrwyth Achaia:" ond "blaenffrwyth Asia" yw y darlleniad yn y llawysgrifau goreu—y Coptaeg, Armeniaeg, Ethiopaeg, y Vulgate, y Lladinwyr, ac Origen. Dyma y darlleniad a ddewisir hefyd gan Grotius, Mill, Bengel, Whitby, Koppe, Rosenmüller, Rückert, Olshausen, a Tholuck; ac a gymmerir i'r testyn gan Griesbach, Knapp,



Digitized by Google

Tittmann, Scholz, Lachmann, a Tischendorff. Y mae Dr. Bloomfield, yr hwn hefyd a'i defnyddiodd yn ei Destament Groeg, yn sylwi "fod natur y gair *aparchê* (blaenffrwyth) yn arwyddo *un* person yn unig (gwel 1 *Cor.* xv. 20); ac, megys yn 1 *Cor.* xvi. 15, y gelwir Stephanas yn 'flaenffrwyth Achaia,' nis gallasai fod gan Epenetus hawl i'r enw." Gyda golwg ar y rhan gyntaf o'r sylw yma, mae yn rhyfedd fod yr ysgrifenydd dysgedig wedi anghofio ymadroddion o fath y rhai a welir yn *Iago* i. 18, "fel y *byddem* yn rhyw flaenffrwyth;" a *Dad.* xiv. 4, "Y *rhai hyn* a brynwyd oddi wrth ddynion, yn flaenffrwyth:" ac am y rhan olaf o'r sylw, ni ddywedir mai Stephanas yn unig, ond mai ei *dŷ* ef, oedd y blaenffrwyth, ac iddynt ymosod yn ymroddgar i wasanaeth y saint. Coegfeirniadaeth braidd ydyw dywedyd, fel y gwna Macknight, wrth amddiffyn y darlleniad cyffredin, sef, os oedd Epenetus yn un o'r teulu, mai rhan o flaenffrwyth Achaia ydoedd—(*Kitto.*)

EPICURIAID, [Ἐπικουρεῖοι]: dilynwyr Epicurus, athronydd enwog, yr hwn y ceir hanes manylach am dano yn yr erthygl nesaf. Cafodd ei athrawiaeth dderbyniad helaeth yn Asia Leiaf ac Alexandria, a chafodd amddiffynydd godidog yn Rhufain yn Lucretius, c. c. 95 – 50. Amcan Epicurus oedd canfod arweinydd ymarferol i ddedwyddwch mewn athroniaeth. Gwir hyfrydwch, ac nid gwirionedd pendant, ydoedd y nod y cyrchai efe ato; a phrofiad, ac nid rheswm, oedd y safon yr ymorphwysai efe arni. Bwriai resymeg o'r neilldu, wrth gwrs, fel gwyddor anfuddiol; a honai hawl y synwyrau, yn ystyr helaethaf y gair, i gymmeryd ei lle, a'r synwyrau a ystyriai efe yn safon gwirionedd. Troai fyfyrio anianyddiaeth i fod o wasanaeth mewn bywyd, ac yn enwedig i symmud ymaith ofnau ofergoelus; a honai mai moesddysg oedd efrydiaeth briodol dyn, gan yr arweinia ef at hyfrydwch goruchel a pharhaus, yr hyn yw amcan cyffredinol pawb.

Y mae yn amlwg fod cyfundrefn fel hyn yn dueddol i ddirywio yn naturiol i sylweddoliaeth; ac Epicuriaeth yn y ffurf yma oedd yr athroniaeth boblogaidd ar ddechreu y cyfnod Cristionogol. Pan yr oedd yr apostol Paul yn cyfarch yr Epicuriaid a'r Stoiciaid (*Act.* xvii. 18) yn Athen, yr oedd athroniaeth bywyd wedi ei dwyn yn ymarferol i gylch addysg y ddwy ysgol wrthwynebus hyn, y rhai a gynnrychiolent yr elfenau gwahanredol a moesol a gyfunwyd yn yr efengyl. Canys annheg, meddai Westcott, ydyw golygu Epicuriaeth fel gwrthwynebiad cnawdol yn unig i grefydd. Barna efe ei bod yn gam angenrheidiol yn nadblygiad y meddwl, ac wedi parotoi y ffordd i dderbyn Cristionogaeth—nid yn unig yn nacaol, ond yn benodol. Nid yn unig gwanhaodd yr afael a ddaliai amldduwiaeth yn meddwl y lluaws—trwy herio beirniadaeth—ond honai yn benderfynol hawliau y corff i gael ei ystyried yn rhan angenrheidiol o natur dyn, cystal a'r enaid, ac amddiffynai ryddid personol yn erbyn yr athrawiaethau Stoicaidd o ysbrydoliaeth pur a thynged anorfod. Eto ymddengys Epicuriaeth yn allanol yn mhellach oddi wrth Gristionogaeth na Stoiciaeth, er ei byd yn hanfodol yn llawn cyn nesed o leiaf, ac ymddengys fod yr apostol Paul yn ei anerchiad (*Act.* xvii 22, &c.), yn amddiffyn yr athrawiaethau ogreadigaeth (*adn.* 24), rhagluniaeth (*adn.* 26), ysbrydolrwydd (*adn.* 28), adgyfodiad a barn (*adn.* 31), yn erbyn cyfeiliornadau gwreiddiol Epicuria th.

Nid ydyw y duedd a gynnyrchodd Epicuriaeth Roegaidd, pan y gweithiwyd hi allan i'w phellafoedd, ddim i'w briodoli i unrhyw wlad nac oes neillduol. Yn mysg yr Iuddewon, arweiniodd i Saduceaeth; ac ymddengys fod Josephus wedi tynu ei ddarlun o'r sect â'r cynllun Groeg o flaen ei lygaid.

Y prif awdurdod gwreiddiol dros athroniaeth Epicurus yw Diogenes Laertius, yr hwn a gadwodd rai o'i lythyrau, a rhestr o'i brif ysgrifeniadau. Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio Cân Lucretius, ac y mae yn amlwg fod nodiadau Cicero Seneca, a Phlutarch, yn elyniaethus iddi.—(*Diog. Laert.*; *Smith*, &c.)

EPICURUS, [Ἐπικουρος]: athronydd Groegaidd enwog, a sefydlydd yr ysgol athronyddol a elwid yn ol ei enw ef yn Epicuriaeth. Mab ydoedd i Neocles a Chæristrata, a ganwyd ef c. c. 342, yn ynys Samos, lle yr oedd ei dad wedi ymsefydlu fel un o'r trefedigwyr Athenaidd; ond perthynai i boblogaeth Atticaidd Gargettus, ac am hyny gelwid ef weithiau y Gargettiad. Pan y 18 mlwydd oed, daeth Epicurus i Athen, a myfyriodd yno, fe allai, dan Xenocrates, yr hwn y pryd hwnw oedd yn llywydd yn yr athrofa. Ar ol aros ychydig yn Athen efe a aeth i Colophon, ac a arosodd wedi hyny yn Mytilene a Lampascus, lle y bu efe am bum mlynedd yn addysgu athroniaeth. Yn 306, pan yn 35 mlwydd oed, daeth drachefn i Athen, lle y prynodd ardd am 80 *minæ* (yr oedd pob *mina* ychydig dros 3*p.*). Hon oedd yr *ardd* ardderchog, yn yr hon y sefydlodd efe ei ysgol athronyddol. Yma y treuliodd weddill ei oes, yn cael ei amgylchynu gan luaws o gyfeillion a dysgyblion. Yr oedd ei ddull o fyw yn syml, cymmedrol, a siriol; ac nid yw enllibiau prydyddion tuchanol ac athronyddion diweddar, y rhai a'i darluniant fel person wedi ymroddi i bleserau cnawdol, yn deilwng o'r gredimiaeth leiaf. Nid oedd efe yn cymmeryd na rhan na chyfran mewn gorchwylion cyhoeddus. Bu farw c. c. 270, yn 72 mlwydd oed, dan glefyd hir a phoenus, yr hwn a ddyoddefodd gydag amynedd a gwroldeb gwir athronyddol.

Dywedir i Epicurus ysgrifenu 300 o gyfrolau. Y fwyaf pwysig oedd yr un a ysgrifenodd ar *Natur*, yn 27 o lyfrau. Y mae ei holl waith wedi colli; ond canfuwyd rhai darnau o'r gwaith ar *Natur* yn mysg y rholau yn Herculaneum, a chyhoeddwyd hwy gan Orelli yn 1818. Ymffrostiai Epicurus fod ei gyfundrefn athronyddol yn annibynol ar waith pawb o'i ragflaenoriaid; ond yr oedd efe yn ddyledus mewn gwirionedd i Democritus a'r Cyreniciaid. Moesolaeth a wnaeth Epicurus fel y rhan fwyaf hanfodol o'i athroniaeth, gan yr ystyriai ddedwyddwch dynol fel amcan eithaf pob athroniaeth. Yr oedd ei gynllun moesyddol wedi ei seilio ar egwyddor y Cyreniciaid, mai pleser ydyw y dedwyddwch uchaf, yr hwn o ganlyniad a raid fod yn amcan pob ymdrech dynol. Pa fodd bynag, yr ydoedd eglurhad Epicurus ar y cynllun yma mor ardderchog fel y dangosodd fod yn ei athroniaeth lawer o wir deilyngdod, ac ennillodd iddo luaws o gyfeillion ac edmygwyr mewn amseroedd hen a diweddar. Nid syniad amserol a diflanedig yn unig oedd pleser yn ei gyfrif ef, ond ystyriai ef yn rhywbeth parhaus a diddarfod, yn cynnwys mwynhad meddyliol pur a godidog; sef, rhyddid oddi wrth boen ac oddi wrth bob dylanwad a derfysga heddwch ein meddwl, a thrwy hyny ein dedwyddwch, yr hyn yw y canlyniad o hono. Y

Digitized by Google

prif ddaioni, yn ol ei syniad ef, oedd yr heddwch meddwl yma; ac yr oedd hyn yn seiliedig ar ddoethineb, yr hon a ddarluniai fel dechreuad pob peth da, fel gwreiddyn pob rhinwedd, ac a drinid ganddo ef, gan hyny, yn achlysurol fel y daioni penaf ei hunan.

Yn y rhan anianyddol o'i athroniaeth, dilynai athrawiaeth demigol (*atomical*) Democritus a Diagoras. Gellir cael golwg lled gryno ar ei olygiadau yn Nghân Lucretius a elwir *De Rerum Natura.* Yr ydym yn derbyn ein gwybodaeth ac yn ffurfio ein hamgyffred am bethau, medd efe, trwy gyfrwng delweddau (*ειδωλα=images*) o bethau a adlewyrchant oddi wrthynt, ac a änt trwy ein synwyrau i'n meddyliau. Y mae y fath athrawiaeth yn ddinystr i bob gwirionedd pendant, gan roddi argraff amserol yn unig ar y synwyrau neu y teimladau yn ei le. Ei olygiadau am y duwiau sydd yn gwneyd diffygion ei gyfundrefn yn fwyaf nodedig, yr hyn a barodd iddo gael ei gyhuddo o annuwiaeth. Temigau (*atoms*) oedd ei dduwiau ef, fel pob peth arall; ac y mae ein syniadau am danynt, yn ol ei farn ef, wedi eu seilio ar y delweddau a adlewyrchant oddi wrthynt, ac a änt i'n meddyliau. Y maent bob amser wedi bod yn mwynhau dedwyddwch perffaith, yr hwn ni chafodd ei aflonyddu erioed yn y llafur mawr o greu y byd; a chan yr ymyrai llywodraethiad y byd â'u dedwyddwch tawel, nid ydynt yn ol ei dyb ef yn arfer un dylanwad ar y byd nac ar ddyn.

Yr oedd dysgyblion Epicurus yn dra lluosog; ac yr oedd eu hymlyniad wrth eu hathraw y fath ag nas gwelwyd ei gyfartal ond anfynych mewn amseroedd hen na diweddar. Ond er mor ymroddgar iddo oedd ei ddysgyblion, nid oes un hen athronydd yr ymosodwyd arno yn erwinach nag Epicurus. Achoswyd hyn i raddau bychain, mae yn wir, gan wybodaeth arwynebol o'i athroniaeth, ac i raddau gan ymddygiad y rhai a alwent eu hunain yn Epicuriaid, ac a gymmerent achlysur oddi wrth gamsyniad o'i gynllun moesol ef i fyw yn benrhydd a dilywodraeth.—(*Penny Cycl.; Smith,* &c.)

EPIPHANI, [*επιφανεια=ymddangosiad*]: gŵyl a gynnelir ar y chweched dydd o Ionawr, y deuddegfed dydd ar ol y Nadolig, er cof am ymddangosiad ein Harglwydd i'r doethion neu y philosophyddion o'r dwyrain, y rhai a ddaethant i'w addoli ef, ac i offrymu anrhegion iddo: neu, fel yr hòna ereill, er cof am ymddangosiad y seren i'r doethion; neu, y dadguddiad o Grist i'r Cenedloedd. Dydd bedydd ein Harglwydd, yn ol Jerome a Chrysostom, ydyw yr Epiphani, pan y daeth llef o'r nef yn dywedyd, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Y mae y tadau Groegaidd yn defnyddio y gair am ymddangosiad Crist yn y byd, fel y defnyddia yr apostol Paul ef yn 2 *Tim.* i. 4. Yn yr Almaen, gelwir yr ŵyl hon "Dydd y tri brenin sanctaidd."—(*Buck; Ogilvie.*)

1. EPIPHANIUS, ['Επιφάνιος]: un o'r tadau Groegaidd, fel y gelwir hwy, a anwyd yn agos i Eleutheropolis, yn Palestina, o gylch B. A. 320, o rieni Iuddewig. Aeth i'r Aipht yn ieuanc, ac ymddengys iddo gael ei lygru i raddau gan y cyfeiliornadau Gnosticaidd; ond wedi hyny, efe a syrthiodd i ddwylaw rhyw fynachod, y rhai a'i gwnaethant yn amddiffynwr selog i fywyd mynachol. O'r diwedd, efe a ddychwelodd i Palestina; ac wedi byw yno am ysbaid fel mynach, efe a adeiladodd fynachlog yn agos i'w le genedigol. Yn 367, dewiswyd ef yn esgob Constantia, prif ddinas Cyprus, a elwid gynt Salamis.

Dengys ei ysgrifeniadau ei fod yn ddarllenwr mawr, a'i fod yn gydnabyddus â'r Hebraeg, y Syriaeg, y Roeg, yr Aiphtaeg, a'r Lladin. Ond yr oedd yn dra amddifad o allu beirniadol a rhesymegol; yr oedd yn bur ddefosiynol, a hefyd yn dra rhagfarnllyd a chyndyn. Hynododd ei hun trwy ei wrthwynebiad i heresiaeth, yn enwedig cyfeiliornadau Origen. Yn 402, bu farw. Ei waith mwyaf pwysig a elwir *Panarium,* sef tracthawd yn erbyn heresiau.

2. EPIPHANIUS: esgob Pavia, a anwyd o deulu anrhydeddus, yn B. A. 439, ac a ddygwyd i fyny i'r weinidogaeth dan ofal esgob y ddinas hono. Urddwyd ef yn is-ddiacon pan yr oedd yn 18 mlwydd oed; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, gwnaed ef yn ddiacon, ac ymddiriedwyd trefniad eiddo yr eglwys iddo, fel cynnorthwywr yr esgob yn ei hen ddyddiau; a phan fu farw yr esgob, yn B.A. 466, dewiswyd Epiphanius yn olynydd iddo. Wedi ei sefydlu yn ei swydd, traddododd ddarlith i'w offeiriaid, yn yr hon y dymunai ar i bob un o honynt ei alw i gyfrif os gwelent ddim allan o le ynddo. O hyny allan, yr oedd yn bucheddu yn hynod o fanwl; ac yn ol defodau coelgrefyddol yr oes, ymddygai ato ei hun yn erwin, gan beidio bwyta ond unwaith yn y dydd, llwyr ymattal oddi wrth gig; a phan yn addoli, dywedir y byddai yn rhoddi ei draed yn wastad mewn llyffetheiriau!

Yr oedd Theodoric y pryd hwn wedi ei ddiorseddu, ac yr oedd yr ymherodraeth Rufeinig orllewinol yn gruddfan dan fflangell Odoacer. Yn yr amgylchiadau terfysglyd a dyrys hyn, ymddygodd Epiphanius yn ddoeth, gwladgarol, a chrefyddol. Ymdrechodd a llwyddodd i wneyd heddwch rhwng Ricimer a'i dad yn nghyfraith, yr ymherawdwr Anthemius. Pan y bygythiai Eurich, brenin y Gothiaid gorllewinol, yn 474, ddwyn peryglon newydd ar yr ymherodraeth orllewinol, anfonwyd Epiphanius ato gan yr ymherawdwr Nepos; a llwyddodd yr esgob i gael gan Eurich ddyfod i ammodau heddwch. Hefyd, pan ddarostyngwyd Pavia, yn yr un flwyddyn, gan Odoacer, ac y dinystriwyd yr eglwys gadeiriol, llwyddodd Epiphanius i gael ei hail adeiladu; a thrwy ei ddylanwad ef, dychwelodd Odoacer eu trethi am bum mlynedd i drigolion Pavia ar ol eu darostwng. Ymddygodd yn dra ardderchog yn ystod y rhyfel rhwng Odoacer a Theodoric, a bu yn foddion i wellhau tynged miloedd. Yr oedd gan Theodoric barch mawr iddo; ac ar ei ddymuniad ef, aeth Epiphanius at Gundobald, brenin Burgundy, er mwyn prynu rhyddid nifer o garcharorion Liguria, fel y gallent drachefn boblogi Italy Uchaf. Bu yn nodedig o lwyddiannus yn ei genadwri: rhyddhawyd yr holl Liguriaid na chymmerasant i fyny arfau heb dâl; a rhyddhawyd y lleill am bris isel. Bu ei ymdrech ar ol hyn o blaid y Liguriaid gorthrymedig yn fwy llwyddiannus fyth. Bu Epiphanius farw mewn canlyniad i erwindeb ei daith at Theodoric o blaid y gorthrymedig, yn y 55ain flwyddyn o'i oedran.

3. EPIPHANIUS: ysgolhaig (*scholasticus*), cyfaill Cassiodorus, ar ddymuniad yr hwn y cyfieithodd *Hanesion Eglwysig* Socrates, Sozomen, a Theodoret, y rhai, wedi eu talfyru a'u gwellhau i raddau gan Cassiodorus, a ystyrid mor odidog yn y canol oesoedd, fel yr *Historia Tripartia.* Hefyd, ar ddymuniad Cassiodorus, cyfieithodd

Digitized by Google

amryw lyfrau ereill, a elwid *Codex Encyclicus*—casgliad o lythyrau cymmanfaol at yr ymherawdwr Leo I, er amddiffyn cymmanfa Chalcedon yn erbyn Timotheus Aelurus; Esboniadau Epiphanius, esgob Cyprus, ar Ganiad Solomon; Esboniad Didymus ar y Diarebion; yr Epistolau Catholig, &c.—(*Herzog: Smith; Pen. Cycl.*)

EPISCOPUS, SIMON, [gwir enw iseldirol yr hwn oedd Bisschop]: oedd un o wŷr dysgedicaf yr eilfed ganrif ar bymtheg, ac un o brif amddiffynwyr yr athrawiaethau gwrth-Galvinaidd a ddadleuid gan ei gydoeswr Arminius. Ganwyd ef yn 1583, yn Amsterdam, lle y derbyniodd ei addysg foreuol. Yn 1600, aeth i'r brifysgol oedd newydd ei sefydlu yn Leyden, o'r hon y daeth yn aelod anrhydeddus; ac ymroddodd gyda sel a gallu mawr i'r ddadl ragarfaethol rhwng yr Arminiaid a'r Gomariaid, yn nghylch yr hon yr oedd cymmaint o bryder cyffredinol ar y pryd. Ordeiniwyd ef yn 1610, fel gweinidog pentref Bleyswyck, ger Rotterdam; ac yn y flwyddyn ganlynol, etholwyd ef i'r swydd o amddiffynydd Arminiaidd yn y gynnadledd a gynnaliwyd yn yr Hague rhwng y Gwrthfynegwyr (*Remonstrants*) a'u gwrthwynebwyr, y Calviniaid. Prawf o'i ddylanwad, a bod rhagoroldeb ei ddysgeidiaeth dduwinyddol yn cael ei chydnabod yw, ei fod wedi ei ddewis yn brif broffeswr duwinyddiaeth yn mhrifysgol Leyden, fel olynydd y proffeswr enwog Gomar—athrawiaeth yr hwn a wrthwynebasai efe mor alluog. Dygwyd y ddadl yn nghylch rhagarfaeth yn mlaen yn fuan ar ol hyn gyda'r fath ffyrnigrwydd a chyffro, fel, nid yn unig y difrïid ac y sarheid Episcopus ar yr heol ac yn y pulpud, ond mai prin y diangodd ar un achlysur rhag cael ei labyddio â meini i farwolaeth. Ymddygodd y blaid gryfaf ato, sef y Calviniaid, neu y Gomariaid, gyda anghyfiawnder a gorthrwm mawr yn nghymmanfa Dort, i'r hon yr aeth efe fel cenadwr o dalaithiau yr Iseldir. Gwrthodwyd gwrandaw arno dros yr Arminiaid oedd yn y lleiafrif: dywedwyd wrtho nad wedi ymgyfarfod i ddadleu yr oedd y gymmanfa, ond i farnu; ac wedi iddynt benderfynu na chai efe na'r proffeswyr ereill oedd yn genadon dros y blaid Arminiaidd nac egluro nac amddiffyn unrhyw bwnc heb ofyn iddynt lefaru; gwrthododd Episcopus a'i gydgenadwyr ymostwng. Am hyny, diarddelwyd hwy o'r gymmanfa; ac yn ganlynol, diswyddwyd hwy o'r weinidogaeth, ac alltudiwyd hwy o'r diriogaeth. Ymneillduodd Episcopus i Ffrainc, a pharhaodd i ysgrifenu o blaid Arminiaeth, ac i gysuro a chefnogi ei frodyr anffodus. Yn 1626, pan yr oedd chwerwder sectaidd i raddau wedi oeri, efe a ddychwelodd i'r Iseldir, lle yr aeth yn weinidog eglwys y Gwrthfynegwyr yn Rotterdam. Wedi hyny, cafodd ei wneyd yn beriglor coleg a sefydlwyd gan y blaid Wrthfynegol yn Amsterdam; lle y bu farw, yn 1643, yn 60 mlwydd oed. Cyhoeddwyd casgliad o'i waith gyntaf, yn 1650, yn Amsterdam, yn ddwy gyfrol unplyg.

Rhoddwyd y ganmoliaeth uchaf i alluoedd Episcopus gan Le Clerc, Mabillon, Grotius, yr esgob Hall, a llawer o ysgolheigion enwog ereill o wahanol sectau. Dilynwyd ef yn agos yn Lloegr gan y Dr. Hammond a'r archesgob Tillotson.—(*Pen. Cycl.*)

EPISTOL—AU, [ἐπιστολή; L., *epistola*; Seis., *epistle*]: llythyr. Prin y mae yn angenrheidiol crybwyll fod defnyddio llythyrau ysgrifenedig, yn arwyddo graddau pell o wareiddiad a diwylliad. Lle y byddo llythyrau yn arferedig, rhaid fod yno gynllun rheolaidd o lythyrenau, seinyddol neu arwyddocaol, yn cael ei gydnabod; rhaid fod dynion wedi eu dysgu i ysgrifenu, a rhaid eu bod yn perchen defnyddiau ysgrifenu. Nid ydym gan hyny yn canfod arwyddion o unrhyw gynllun i drosglwyddo cenadwri o'r naill i'r llall yn sefyllfa grwydredig foreuaf cymdeithas, megys cyfnod patriarchiaid yr Hen Destament; ond trwy gyfrwng geiriau yn ngenau cenadon yn unig. Anfonid cenadon, wedi eu cyfarwyddo pa beth i'w ddywedyd, oddi wrth Iacob at Esau (*Gen.* xxxii. 3), ac oddi wrth Balac at Balaam (*Num.* xxii. 5, 7, 16), gan ddwyn yn ol atebiad geiriol, ac nid ysgrifenedig: *Num.* xxiv. 12. Dygwyd y negeswriaeth rhwng Iephthah a brenin yr Amoriaid yn mlaen yn yr un dull: *Barn.* xi. 12, 13. Yr un cynllun oedd ar arfer fyth yn amser Saul: 1 *Sam.* xi. 7, 9. Yn mreniniaeth Dafydd, pan ddygwyd yr Israeliaid i gyssylltiad â'r Phœniciaid gwareiddiedig a chelfyddydol, cawn fod y dull yma o gyfeillachu wedi newid hefyd. Y llythyr neu yr epistol (ספר=*llyfr*, cymharer y defnydd a wneir o βιβλίον yn *Herod.* i. 123) cyntaf a gofnodwyd yn hanes yr Hen Destament, oedd yr hwn a "ysgrifenodd Dafydd at Ioab, ac a anfonodd yn llaw Urias" (2 *Sam.* xi. 14); ac y mae yn amlwg y rhaid fod hwn, fel llythyrau a geir mewn hanes trosedd arall (lle hefyd y gellir olrhain cyssylltiad a dylanwad Phœnicaidd: 1 *Bren.* xxi. 8, 9), wedi ei selio â sel y brenin, fel gwarant ar unwaith o'i awdurdod, a sicrwydd na byddai iddo gael ei ddarllen gan neb ond y person y cyfeiriwyd ef ato. Y sylwedd a ddefnyddid i selio ar y dechreu, fel yr ymddengys, oedd *clai*: *Iob* xxxviii. 14. Pa fodd bynag, gweithred freninol, mewn modd arbenig, a chyfyng, ydoedd anfon y fath lythyr, lle yr oedd awdurdod a dirgelwch yn angenrheidiol. Y mae Ioab, er esampl, yn ateb y llythyr a anfonodd Dafydd ato yn ol, yn yr hen gynllun, ac yn derbyn cenadwri eneuol yn ol drachefn. Yn yr un dull y trosglwyddwyd honiadau Benhadad ac ateb Ahab: 1 *Bren.* xx. 2, 5. Ond yn ddiweddarach, daeth gohebiaethau ysgrifenedig yn fwy mynych. Anfonodd brenin Syria lythyr at frenin Israel: 2 *Bren.* v. 5, 6. Fe anfonodd Elias hefyd ysgrifen at Iehoram: 2 *Cron.* xxi. 12. Trefnodd Hezeciah redegwyr i gludo newyddion a chenadwriaethau, tebyg i'r cynllun rheolaidd a wnaed wedi hyny gan freninoedd Persia (2 *Cron.* xxx. 6, 10; cymharer *Herod.* viii. 98, ac *Esth.* viii. 10, 14), a derbyniodd lythyrau oddi wrth Senacherib, y rhai "a ledodd efe ger bron yr Arglwydd;" 2 *Bren.* xix. 14. Ysgrifenodd Ieremiah lythyr at yr alltudion yn Babilon: *Ier.* xxix. 1, 3. Y mae llyfrau Ezra a Nehemiah yn cynnwys neu yn cyfeirio at amryw ysgrifeniadau o'r fath: *Ezra* iv. 6, 7, 10; v. 6; vi. 11; *Neh.* ii. 7, 9; a vi. 5. Y mae y pwys a roddir ar y llythyr agored a ddanfonwyd gan Sanbalat (*Neh.* vi. 5) yn arwyddo fod hyny yn groes i foesgarwch cyffredin llys Persia. Bu dylanwad diwylliad Persiaidd, ac yn enwedig diwylliad Groegaidd, yn foddion i ddwyn llythyrau fel cyfrwng cymdeithasiad i arferiad mynychach. Beth bynag a feddylir am awdurdod yr epistolau eu hunain, y mae eu bod yn 1 *Mac.* xi. 30; xii. 6, 20; xv. 1, 16; 2 *Mac.* xi. 16, 34, yn arwyddo eu bod yn cael eu cydnabod yn tra rhagori ar yr hen ddull o drosglwyddo cenadwri ar dafod leferydd.

Y mae dwy sefyllfa hanes y Testament New-

Digitized by Google

ydd yn dangos gwahaniaeth nodedig gyda golwg ar hyn. Y mae rhestr y llyfrau canonaidd yn dangos pa mor helaeth y defnyddid epistolau er lledaenu a threfnu yr eglwysi Cristionogol; ac y mae rhai yn barnu nad yw y rhai sydd ar gael ond ychydig mewn cymhariaeth i'r nifer a gollwyd; tra y tybia ereill, pa nifer bynag o lythyrau a ysgrifenodd yr apostolion, na chollwyd un o'r rhai gwir ganonaidd neu ysbrydoledig. Y mae yn nodedig nad oes grybwylliad am lythyrau neu epistolau crefyddol o gwbl yn yr hanes efengylaidd, o ddechreu Matthew hyd ddiwedd yr Actau, oddigerth y llythyr byr a anfonodd yr eglwys yn Ierusalem, gyda Phaul a Silas, at yr eglwys yn Antiochia: *Act.* xv. 23—29. Nid oes unrhyw epistolau yn cael eu priodoli i'r Arglwydd Iesu, ond y llythyr ffugiol at Abgarus o Edessa. —*Euseb. H. E.*, i. 13. Yr eglurhad a rydd rhai ar hyn yw, mai dynion o amgylchiadau cyffredin fel efe ei hun oedd ei ddysgyblion; a hefyd, am mai trwy addysg bersonol, ac nid ysgrifenedig, yr oedd efe i orphen a pherffeithio y swydd brophwydol. Dywed Plumptre fod epistolau y Testament Newydd, o ran eu ffurf allanol, yr hyn y gellid dysgwyl eu bod oddi wrth rai a ddygwyd i gyssylltiad âg arferion Groegaidd a Rhufeinaidd, ond heb hanu eu hunain o'r cenedloedd hyny, ac heb ddilyn eu cynllun ond mewn rhan yn unig. Y mae yr epistolau yn dechreu yn gyffredin (oddigerth yr un at yr Hebreaid ac 1 Ioan), gydag enw yr ysgrifenydd ac enw derbynydd y llythyr. Yna daw y cyfarchiad, yr hwn a gyssylltir yn wastad yn epistolau Paul â rhyw fendith, megys, "Gras fyddo i chwi," neu y cyffelyb. Wedi hyny, dechreu y llythyr ei hun, yn y person cyntaf, gan ddefnyddio yr unig a'r lluosog, megys y gwna Cicero yn ei lythyrau, yn ddiwahaniaeth. Cymharer 1 *Cor.* ii; 2 *Cor.* i. 8, 15; 1 *Thes.* iii. 1, 2; ac amryw fanau ereill. Wedi gorphen sylwedd y llythyr, ateb holiadau, a chadarnhau y gwirioneddau a fyddai ynddo, deuai y cyfarchiadau personol; canys ni byddai Paul yn euwedig byth yn gadael i fawredd ei bwnc lyncu serchiadau personol o'r golwg. Byddai terfyniad y llythyrau yn cael eu cymmedroli i raddau gyda golwg ar hyn, o blegid yr ymddengys mai adrodd y llythyrau y byddai yr awdwr wrth ysgrifenydd. Ar ol gorphen y gwaith, byddai yr apostol yn cymmeryd y pin neu y gorsen, ac yn rhoddi ei enw yn ei lythyrenau breision ei hunan (*Gal.* vi. 11), a byddai yn rhoddi pwys neillduol weithiau ar y ffaith mai gwaith ei law ef ei hun fyddai hyn (1 *Cor.* xvi. 21; *Gal.* vi. 11; *Col.* iv. 18; 2 *Thes.* iii. 17), gan gloi y llythyr yn wastad gyda'r anerch, "Gras fyddo gyda thi"—"Gras fyddo gyda'ch ysbryd chwi," &c. Mewn un amgylchiad (*Rhuf.* xvi. 22), mae yr ysgrifenydd yn chwanegu cyfarchiad yn ei enw ei hun.

Y mae crybwylliad, yn 2 *Cor.* iii. 1, yn dwyn dosbarth arall o lythyrau ger bron, y rhai y tybir eu bod ar arfer yn gyffredin yn amser boreuaf yr Eglwys Gristionogol, sef llythyrau cymmeradwyol, trwy y rhai y cyflwynid brodyr gan un eglwys i sylw a gofal eglwys neu eglwysi ereill. Yr oedd rhai (dichon fod yma gyfeiriad at Apolos: *Act.* xviii. 27) wedi dyfod i eglwys Corinth ar gymmeradwyaeth y llythyrau hyn. Ond y mae Paul yn appelio at y rhai a ddychwelwyd trwyddo ef, fel "llythyr Crist, wedi ei ysgrifenu nid âg inc, ond âg Ysbryd y Duw byw;" 2 *Cor.* iii. 3.

Gyda golwg ar y berthynas yn yr hon y saif yr epistolau â rhanau ereill y Testament Newydd, canfyddir fod yr Hen Destament a'r Newydd wedi eu trefnu gan ddoethineb ddwyfol yn ol yr un a'r unrhyw gynllun. Y mae holl ddadguddiadau Duw i ddyn yn ymddibynu ar hanesiaeth. Am hyny, y mae hanes holl weithredoedd Duw yn gorwedd, yn yr Hen Destament cystal a'r Newydd, yn mlaenaf fel sylfaen yr Ysgrythyrau Sanctaidd: yna, dilyna y llyfrau sydd yn amlygu athrawiaethau a bywyd mewnol pobl Dduw—yn yr Hen Destament, y Salmau, ac ysgrifeniadau Solomon, &c., ac yn y Newydd, epistolau yr apostolion: ac yn olaf, yn yr Hen Destament, y dilyna ysgrifeniadau y prophwydi, gweledigaethau y rhai sydd yn ymestyn hyd amser y Testament Newydd; ac ar ddiwedd y Testament Newydd hefyd y mae yr unig lyfr prophwydol sydd ynddo, sef Dadguddiad Ioan.

Ymrana epistolau y Testament Newydd yn ddau ddosbarth—Epistolau Paul, a'r rhai a elwir yr Epistolau Cyffredinol.

Y mae Epistolau Paul yn dri ar ddeg o nifer; ac, os rhoddir yr Epistol at yr Hebreaid yn eu mysg, y maent yn bedwar ar ddeg. Yr oedd eu hawdurdod yn cael ei gydnabod bron yn gyffredinol yn yr Almaen hyd ein dyddiau ni, oddigerth yr epistolau cenadol yn unig, ac yn fwyaf arbenig yr Epistol Cyntaf at Timotheus. Ymosododd Eichhorn a Bauer ar awdurdod y tri epistol cenadol, a Schleiermacher ar y Cyntaf at Timotheus. Yn wir, y mae nodwedd neillduol epistolau Paul mor nodedig fel nas gallant adael dim ammheuaeth yn meddwl neb am eu hawdurdod, ond rhai cwbl anhysbys o'r diffyg rhwyddineb a gwreiddioldeb sydd yn amlwg yn ysgrifeniadau ffugiol yr amseroedd boreuol. Y mae dyfnder meddwl, tanbeidrwydd ymadrodd, sefydlogrwydd cymmeriad, yn nghyd â'r ymroddiad cyflawnaf i deimladau o gariad a serch, yn dynodi yr holl epistolau hyn. Gellir olrhain cymmeriad personol addfwyn yr apostol yn y modd mwyaf prydferth yn ei epistolau at y Philippiaid ac at Philemon.

Achoswyd yr holl epistolau gan amgylchiadau ac achlysuron neillduol yn sefyllfaoedd yr eglwysi at y rhai yr anfonwyd hwynt. Pa fodd bynag, ni chadwyd y cyfan a ysgrifenwyd: mae yn amlwg, o leiaf, oddi wrth 1 *Cor.* v. 9, fod llythyr at y Corinthiaid wedi colli; ac fe gasglwyd hefyd, oddi wrth *Col.* iv. 16, fod llythyr arall at eglwys y Laodiceaid wedi colli; ond fe allai mai camsyniad yw hyny, gan y dichon mai at yr Epistol at yr Ephesiaid y cyfeirir. Yr oedd amledd gorchwylion yn gorfodi Paul i ddefnyddio rhai o'i gyfeillion fel ysgrifenwyr, heb law nad oedd y peth yn anarferol yn y dyddiau hyny. Y mae yn crybwyll, yn *Gal.* vi. 11, fel peth anghyffredin, ei fod wedi ysgrifenu y llythyr hwnw â'i law ei hun. Dichon fod y ffaith ei fod yn defnyddio ysgrifenwyr yn rhoddi mantais i rai i ysgrifenu llythyrau ffugiol yn ei enw; canys nid peth anghyffredin er y cyfnod llenyddol Alexandriaidd oedd cyfansoddi llyfrau ffugiol, fel y mae yn amlwg oddi wrth Eusebius [*Hist. Eccl.*, i. 23] y bu hyd yn oed esgobion Cristionogol yn cwyno o blegid ffugio eu llythyrau. Y mae Paul yn cyfeirio at hyn (2 *Thes.* ii. 2), ac am hyny yn ysgrifenu yr anerch â'i law ei hun: 2 *Thes.* iii. 17. Y mae Paul ei hun yn annog yr eglwysi yr ysgrifenai efe atynt i anfon ei lythyrau ef at eu gilydd, a'u darllen yn gyhoeddus yn eu cynnulliadau: *Col.* iv. 16. Y mae yn debyg, gan hyny, fod copiau o'r epistolau hyn wedi eu gwneuthur yn fore gan y gwahanol eglwysi, a'u cadw mewn ffurf o gasgliadau. Cyhyd gan hyny ag y tros-

Digitized by Google

glwyddai yr eglwysi y llawysgrifau i'w gilydd, y mae yn amlwg nas gallasai unrhyw lythyrau ddyfod i'r casgliadau heb law y rhai y tystiai yr eglwysi yr anfonwyd hwy atynt gyntaf eu bod yn awdurdodol. Ymddengys fod hyd yn oed gan Pedr nifer o lythyrau Paul o'i flaen (2 *Pedr* iii. 16); megys, yn mhen rhyw ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, y trosglwyddwyd nifer o lythyrau Ignatius gan Polycarp i Smyrna, tra yr anfonodd eglwys Philippi iddo yntau y rhai a gyfeiriwyd atynt hwy. Byddai y casgliad yma o Epistolau Paul, mewn cyferbyniad i'r efengylau, yn cael ei adnabod wrth yr enw *o ἀποστολος*—yr apostol.

Gellir trefnu epistolau Paul yn amseryddol i'r rhai a ysgrifenwyd cyn ei garchariad yn Rhufain, a'r rhai a ysgrifenwyd yn ystod y carchariad hwnw, ac ar ol hyny: gan ddechreu fel hyn gyda'r Epistol Cyntaf at y Thessaloniaid, a therfynu gyda'r Ail at Timotheus, yn cymmeryd i mewn yr ysbaid o gylch deng mlynedd, B. A. 54—64. Ond y mae yr epistolau wedi eu trefnu yn ein Beiblau ni yn ol enwogrwydd a sefyllfaoedd yr eglwysi at y rhai y cyfeirid hwy, ac yn terfynu gyda'r epistolau at y ddau genadwr, Timotheus a Titus, ac epistol cyfrinachol at Philemon.

Yr oedd anhawsder yn cael ei deimlo gyda golwg ar epistolau Paul er yr amser boreuaf: 2 *Pedr* iii. 16. Collwyd eu gwir ystyr yn Eglwys Rhufain, yn benaf am y tybid mai wrth *y gyfraith* y meddylid cyflawniad angenrheidiol y ddeddf seremonïol yn unig: o ganlyniad, nis gallai Eglwys Rhufain ddeall cyfiawnhad trwy ffydd, ac yn ei le dysgai gyfiawnhad trwy weithredoedd. Cyn gynted, gan hyny, ag y tywynodd gwir ddealltwriaeth o Epistolau Paul ar feddwl Luther, yr oedd ei ymadawiad âg Eglwys Rhufain wedi ei benderfynu.

Yn mysg hen esbonwyr Epistolau Paul, gellir ystyried Chrysostom a Chalvin fel y rhai penaf; er fod y blaenaf, gyda'i holl sel a'i dreiddgarwch i natur yr enaid, yn analluog i esbonio yn ol egwyddorion cywir esboniadaeth.

Mewn perthynas i'r Epistolau Cyffredinol, y mae gwahaniaeth barn, yn y lle cyntaf, gyda golwg ar eu henwau: cyfeiria rhai at eu hysgrifenwyr (llythyrau oddi wrth yr holl apostolion ereill a ddaethant i'r maes fel awdwyr gyda'r apostol Paul); rhai, eto, at eu cynnwysiad (llythyrau heb fod yn benodol, ond o duedd Gristionogol yn gyffredinol); ac ereill, drachefn, at y derbynwyr (llythyrau heb eu cyfeirio at unrhyw eglwys yn neillduol). Pa fodd bynag, nid oes un o'r golygiadau hyn yn rhydd oddi wrth anhawsder. Nis gellir dwyn y golygiad cyntaf a'r ail—yn enwedig y cyntaf—i gyd-daraw âg ymadroddion arbenig sydd ar ddalenau hen ysgrifenwyr; mae yr ail yn cael ei wrthdaraw, nid yn unig am fod Epistol Iago o duedd neillduol, ond yn y gwrthwyneb, am fod ansawdd yr Epistol at y Rhufeiniaid y fath, fel y teilynga gael ei alw, mewn ystyr, yn *gyffredinol*. Y drydedd farn, yn ddiammheu, sydd yn cael ei chadarnhau fwyaf gan ddyfyniadau o hen ysgrifenwyr; megys *Euseb. Hist. Eccl.*, v. 18; *Clem. Alex. Strom.*, iv. 15; *Orig. c. Cels.*, i. 63, &c. Yr oedd gwrthddrychau penodol i holl epistolau Paul; tra mai cylchlythyrau oedd epistolau Pedr, Iago, 1 Ioan, ac Iudas. Chwanegwyd ail a thrydydd epistol Ioan wedi hyny, y rhai a roddwyd i mewn o blegid eu byrder; ac i'r casgliad hwn, rhoddwyd yr enw *Epistolau Cyffredinol*, mewn cyferbyniad i Epistolau Paul; y rhai a elwid, "yr apostol."

EPISTOLAU Y TADAU APOSTOLAIDD.

Ymdrinir yn fyr dan yr enwad yma â'r hen weddillion Cristionogol hyny a briodolir i'r ysgrifenwyr a elwir yn gyffredin y "Tadau Apostolaidd," am y tybir eu bod wedi eu troi i'r ffydd Gristionogol yn oes yr apostolion; ac, fe allai, trwyddynt hwy fel offerynau. Yr ydym eisoes wedi ymdrin yn helaeth â Barnabas, a'r epistol sydd yn dwyn ei enw, d. g. BARNABAS.

1. *Clement* neu *Clement Romanus.* Fe allai y cydnabyddir yn gyffredinol nad oes un cyfansoddiad yn dynesu mor agos at yr ysgrifeniadau apostolaidd, o ran undeb teimlad defosiynol a chywirdeb a sobrwydd meddwl, ag ydyw yr hwn a elwir *Epistol Cyntaf Clement at y Corinthiaid,* ond a gyfeiriwyd yn enw "yr eglwys sydd yn ymdaith yn Rhufain at eglwys Duw sydd yn ymdaith yn Corinth." Y mae Eusebius yn ei alw yn "fawr a rhyfedd," ac yn dywedyd ei fod yn cael ei ddarllen yn ei amser ef, a chyn hyny, gan y rhan fwyaf o'r eglwysi. Y mae Irenæus yn ei alw "yr ysgrif fwyaf nerthol." Difynir o hono yn fynych gan Clemens Alexandrinus.

Yr unig lawysgrif adnabyddus o'r epistol hwn ydyw yr un a chwanegwyd at yr Ysgriflyfr Alexandriaidd (*Alexandrian Codex*) enwog a roddwyd yn anrheg i Charles I. gan Cyrillus Lucaris, y patriarch o Gaer Cystenyn. Y mae yr un llawysgrif yn cynnwys dernyn hefyd o'r hyn a elwir "ail epistol." Cyhoeddwyd hwy gyntaf yn Rhydychain, yn 1633, gan Patrick Young, y llyfrgellydd breninol. Ail chwiliodd Syr Henry Wotton y llawysgrif, a gwellhaodd gopi Young mewn mwy na phedwar ugain o fanau, a chyhoeddodd argraffiad tra chywir yn Nghaergrawnt, yn 1718. Barnwyd fod rhai rhanau o'r epistol cyntaf yn dwyn profion mewnol o ffugiant. Nododd Bignonius, mewn llythyr at Grotius, *pen.* xl, yr hon a draetha am gyflwyniad offrymau ar amseroedd gosodedig, yn yr hon y dygwydd y gair *laicos*; ac y cymhwysir y gair *hen* at eglwys Corinth yn *pen.* xlvii. Sicrha Mosheim fod rhai ymadroddion wedi eu cymmeryd yn amlwg o Clement o Alexandria.

Prif amcan yr epistol hwn ydoedd lliniaru yr ymrysonau oedd wedi cyfodi yn eglwys Corinth, ac yn enwedig darostwng yr ysbryd aflywodraethus a ddangosid gan lawer yn erbyn eu hathrawon. Y mae yn deilwng o sylw mai am wrthwynebiad y Corinthiaid i'w henuriaid y llefara Clement yn wastad, heb son byth am eu hanymostyngiad i'w hesgob: y mae yn eu dirgymhell i ymostwng i'r henuriaid, ond byth i'r esgob. Fel hyn, yn *pen.* xlvii; "Y mae yn anmharchus, anwylyd, ac yn annheilwng o'ch addysg yn Nghrist, fod un neu ddau wedi cynhyrfu hen eglwys Corinth, sydd wedi ei sefydlu mor dda, i wrthryfela yn erbyn yr henuriaid." *Pen.* liv; "Yn unig bydded i braidd Crist fod mewn heddwch â'r henuriaid a osodwyd arno." *Pen.* lvii; "Bydded i chwi, y rhai a ddechreuasoch yr ymryson, ymostwng i'r henuriaid." Mewn dau ymadrodd arall, y mae Clement yn defnyddio y gair *presbuteroi* (henuriaid), i ddynodi hynafgwyr neu hen aelodau yn yr eglwys, tra y defnyddia y gair *egoumenoi* (*Heb.* xiii. 7, 17, 24) am eu hathrawon neu eu harolygwyr. *Pen.* i; "Gan ymostwng i'r rhai sydd yn eich llywodraethu, a rhoddi parch dyledus i'r hynafgwyr sydd yn eich plith." *Pen.* xxi; "Anrhydeddwn ein harolygwyr; parchwn yr hynafgwyr sydd yn ein plith; addysgwn yr ieuenctyd," &c. Yn *pen.* xlii, llefara am esgobion a diaconiaid yn y fath fodd ag i ddangos ei

fod ef yn ystyried mai yr un rhai oedd esgobion a henuriaid (felly hefyd yr oedd yr apostolion yn eu hystyried: *Act.* xx. 17, 28; *Tit.* i. 5—7; 1 *Pedr* v. 1, 2). "Hwy (yr apostolion) a appwyntient y blaenffrwyth, yn esgobion a diaconiaid, i'r rhai a gredent." Nid oedd hyn yn beth newydd, gan iddo gael ei ysgrifenu er ys talm o'r blaen am esgobion a diaconiaid. Fel hyn y dywed yr Ysgrythyr mewn un man: "A mi a appwyntiaf eu hesgobion a'u diaconiaid yn y ffydd." Y mae rhai wedi tybied, mae yn wir, mai wedi marw yr oedd esgob eglwys Corinth, ac mai cyn appwyntio ei olynwr y cododd yr annhrefn y ceisia Clement ei ddarostwng. Ond pe felly, dros yr hyn nid oes y prawf lleiaf, y mae bron yn anmhosibl credu na buasai rhyw gyfeiriad yn cael ei wneyd at yr amgylchiad. Yr unig gasgliad teg, fel y dywed y Dr. Arnold, ydyw, "fod cyfansoddiad cyntefig eglwys Corinth yn parhau yn amser Clement; gan fod ei llywodraethiad fyth, nid yn nwylaw un dyn, ond yn nwylaw amryw."—*Arnold's Serm. on Christian Life, Introduction*, td. xlvi.

Un llyfr o'r Testament Newydd yn unig a enwir yn benodol yn Epistol Clement, sef Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid; ond er na enwir yr efengylwyr, y mae llawer o ddywediadau Crist sydd yn yr efengylau yn cael eu hadrodd. Y mae ynddo gyfeiriadau amlwg hefyd at yr Actau, holl epistolau Paul (ond 1 Thessaloniaid), epistolau Pedr ac Iago, a'r Epistol at yr Hebreaid. Rhoddir taflen o'r ymadroddion hyn gan Dr. Lardner [*Credibility of the Gosp. Hist.*, rhan ii, pen. ii; *Works*, cyf. ii. 35—53]. Wrth gyfeirio at Epistol Clement, dywed Eusebius, "Rhoddodd ynddo lawer o syniadau wedi eu cymmeryd o'r Epistol at yr Hebreaid, a gwna ddefnydd, weithiau, o'r un ymadroddion; oddi wrth yr hyn y mae yn amlwg nad cyfansoddiad diweddar yw hwnw. .........Wedi i Paul gyfarch yr Hebreaid yn eu hiaith genedlaethol, dywed rhai mai yr efengylwr Luc, ac ereill mai y Clement hwn, a gyfieithodd yr unrhyw ysgrif [yr Epistol at yr Hebreaid]:—barn a gadarnheir gan y ffaith fod Epistol Clement a'r un at yr Hebreaid yn cael eu dynodi gan yr un arddull neillduol, ac nad ydyw y syniadau sydd yn y ddau gyfansoddiad yn annhebyg."—*Hist. Eccl.*, iii. 38.

Am amser ysgrifeniad yr epistol hwn, y mae Grabe, Galland, Wotton, a Hefele wedi tybio mai o gylch B. A. 68; ond meddylia Cotelerius, Tillemont, a Lardner, iddo gael ei ysgrifenu tua diwedd erlidigaeth Diocletian, yn 96 neu 97. Tybiwyd fod ymadrodd sydd yn *pen.* xli, lle y mae Clement yn ysgrifenu yn yr amser presennol am aberthau cyfraith Moses, yn pleidio yr amser boreuaf; ond y mae Josephus yn arfer yr un dull ymadrodd yn ei *Hynafiaethau*, y rhai ni orphenwyd hyd yn mhen ugain mlynedd ar ol dinystr Ierusalem.

Yr ysgrifenydd hynaf a gymmer sylw o Ail Epistol Clement yw Eusebius, yr hwn nid ydyw yn dyweyd yn bendant ei fod yn ffugiol, ond dywed ei fod yn fwy anadnabyddus na'r cyntaf, ac na ddyfynir o hono gan hen ysgrifenwyr.—*Hist. Eccl.*, iii. 38. Mynega Photius yn bendant iddo gael ei wrthod fel un ffugiol. Dernyn yn unig ydyw; ac y mae ei arddull yn debycach i homili nag epistol. Dyfynir yr efengylau ynddo amryw weithiau, yn fwy penodol nag yn yr epistol cyntaf, ac y mae ynddo un ymadrodd o ysgrif apocryphaol a elwir *Yr Efengyl yn ol yr Aiphtiaid.* Yn 1752, cyhoeddodd John James Wetstein, ar ddiwedd ei argraffiad o'r Testament Groeg, ddau epistol yn Syriaeg (gyda chyfieithiad Lladin), y rhai a briodola efe i Clement, ac a ddarganfuwyd ar ddiwedd llawysgrif o'r Testament Newydd Syriaeg. Yn ebrwydd ar ol eu cyhoeddi, archwiliodd y Dr. Lardner i'w hawdurdod, ac mewn traethawd galluog ar y pwnc [*Works*, cyf. x. 186—212], dengys fod holl rediad y cyfansoddiadau hyn, a'r cyfeiriadau sydd ynddynt at arferion oedd yn ffynu ar y pryd, yn brofion digonol eu bod wedi eu hysgrifenu yn mhell ar ol amser Clement.

Priodolwyd y cyfansoddiadau canlynol hefyd i Clement; ond gan fod yn sicr mai tybiau ydynt, ni wneir yma ond eu henwi.—1. *Y Cyfansoddiadau Apostolaidd*, yn wyth llyfr. 2. *Y Canonau Apostolaidd.* 3. *Cydnabyddiaeth Clement.* 4. *Y Clementia.* Y maent oll wedi eu hargraffu yn y *Patres Apostolici*, gan Cotelerius, cyf. i.

2. *Ignatius*, yn ol Eusebius ac Origen, oedd ail esgob, neu, yn ol Jerome, trydydd esgob Antioch yn Syria. Y mae pymtheg o epistolau yn dwyn ei enw. Tri o'r rhai hyn yn unig sydd wedi eu cadw mewn cyfieithiad Lladin, un wedi ei gyfeirio at y Forwyn Fair, a'r ddau arall at yr efengylwr Ioan. Yn Groeg ac mewn hen Ladin y mae y lleill, ac wedi eu cyfeirio at Mair o Cassabolis neu Neapolis, at Hero, at yr eglwysi yn Tarsis, Antioch, Philippi, Ephesus, Magnesia, Trallium, Rhufain, Philadelphia, Smyrna, ac at Polycarp. Cytunir yn unfrydol fod yr wyth cyntaf yn ffugiol. Am y saith ereill, y rhai a ysgrifenwyd ar ei daith o Antioch i Rufain, lle y merthyrwyd ef trwy ei daflu at anifeiliaid gwylltion, y mae dau gopi o honynt—un yn hwy na'r llall. Y mae dadl frwd wedi bod, pa un ai yr hwyaf sydd helaethiad ar y byraf, ynte y byraf sydd dalfyriad o'r hwyaf. Y mae Mr. Whiston yn dadleu yn ddifrifol o blaid yr hwyaf, sydd yn cynnwys yr epistolau i Tarsis, Antioch, a Hero; a chynnygiodd brofi mai dyfyniadau hereticaidd yn unig ydyw y byraf, wedi eu gwneuthur yn y bedwaredd ganrif. Cyhoeddodd ef y ddau gopi gyda chyfieithiadau, ac amryw ddarlleniadau, yn y gyfrol gyntaf o'i *Primitive Christianity Revived*, yn 1711. Coleddwyd yr un syniad yn ddiweddar gan y Dr. Charles Meier, o brifysgol Giessen, rhesymau yr hwn a atebwyd gan y Dr. Richard Rothe, mewn traethawd ar awdurdod Epistolau Ignatius, a attodwyd ganddo at waith a gyhoeddwyd ganddo yn yr Almaeneg, yn 1837. Y copi byraf a fabwysiedir gan Lardner a'r beirniaid diweddaraf. Y mae Mosheim yn dra ammheus ar y pwnc; a thra y cydnebydd fod i'r saith "ryw ansawdd gyntefig," cyffesa ei fod ef yn analluog i benderfynu pa faint a ellir ei ystyried yn awdurdodol. Tra y cydnebydd Dr. Lardner fod llawer o'r ymadroddion yn dwyn argraff o hynafiaeth arnynt, eto efe a ystyria nad yw hyd yn oed y copi byraf ond ffug trwyadl. Bu y gefnogaeth a ellid gael yn y llythyrau hyn i esgobyddiaeth, fel y tybid ar eu cyhoeddiad, yn achlysur i roddi pwys gormodol i'w hawdurdodaeth; a dygodd allan fedr dadleuol amryw o dduwinyddion enwog yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yn 1666, ymddangosodd gwaith Lladin gan Dallæus (Jean Daillé), yn yr hwn yr hona mai tua diwedd y drydedd, neu ddechreu y bedwaredd ganrif y ffugiwyd Epistolau Ignatius. Yn atebiad i hwn, ac ysgrifenwyr ereill, y cyhoeddodd yr esgob Pearson ei *Vindiciæ Ignatianæ* enwog, yn 1672, yr hwn a ail argraffwyd gan Cotelerius yn ei argraffiad o'r *Apostolic Fathers.*

Digitized by Google

3. *Epistol Polycarp at y Philippiaid.* Mae Irenæus, mewn llythyr at Florinus y Valentiniad, a gadwyd mewn rhan gan Eusebius, yn rhoddi hanes dyddorol o'i gofion boreuol am Polycarp, ac yn cyfeirio i'r epistolau a ddanfonodd efe at yr eglwysi cymmydogaethol. Pa fodd bynag, un yn unig a gadwyd: yr oedd wedi ei gyfeirio at y Philippiaid, a darllenid ef yn gyhoeddus yn amser Jerome yn nghymdeithasfa Asia. Crybwyllir am dano hefyd gan Eusebius, yr hwn a ddyfyna ddau ymadrodd o hono, perthynol i Ignatius; ac a sylwa fod ynddo amryw ddyfyniadau o Epistol Cyntaf Pedr. Dosberthir ef yn bedair adran ar ddeg; o'r rhai y mae y naw cyntaf, a'r drydedd ar ddeg, wedi eu cadw gan Eusebius yn y Groeg wreiddiol, a'r gweddill mewn hen gyfieithiad Lladin yn unig. Argraffwyd yr holl epistol yn y wisg yma gyntaf yn Paris, 1498. Cyhoeddodd Peter Halloix yr epistol yn Groeg a Lladin yn 1633, o gopi a anfonwyd gan y Jesuit Sirmond i Turrianus. Yn mhen pedair blynedd ar ddeg ar ol hyny, cafodd yr archesgob Usher gopi arall, o'r hwn y parotodd yntau argraffiad yn 1647. Ymddangosodd argraffiad godidog o hono, dan olygiad Syr Thomas Smith, yn 1709.

4. *Bugail Hermas.* Gwel HERMAS.

EPISTOLAU FFUGIOL.

Dywedir fod llawer o'r rhai hyn wedi colli; ond y mae amryw ar gael eto. Y rhai penaf yw *Epistol Paul at y Laodiceaid; Trydydd Epistol Paul at y Corinthiaid; Epistol Pedr at Iago; Epistolau Paul* a *Seneca.*

Yr oedd *Epistol at y Laodiceaid* ar gael yn nechreu yr ail ganrif, yr hwn a dderbyniwyd gan Marcion; ond y mae braidd yn fwy nag ammheus ai yr un ydyw hwn a'r un sydd ar gael yn awr yn yr iaith Lladin. "Y mae rhai," medd Jerome, "yn darllen yr Epistol at y Laodiceaid; ond yn gyffredinol, gwrthodir ef." Y peth tebycaf yw mai ffug oedd yr epistol cyntefig, wedi ei seilio ar *Col.* iv. 16; "Ac wedi darllen yr epistol hwn gyda chwi, perwch ei ddarllen hefyd yn eglwys y Laodiceaid; *a darllen o honoch chwithau yr un o Laodicea.*" Y mae amwysedd ymddangosiadol y geiriau olaf hyn wedi peri i rai ddeall fod Paul yn llefaru am epistol a ysgrifenwyd ganddo ef at y Laodiceaid, yr hwn yr arch efe i'r Colossiaid ei geisio o Laodicea, a'i ddarllen yn eu heglwys. "Y mae rhai yn meddwl," medd Theodoret, "fod Paul wedi ysgrifenu epistol at y Laodiceaid, ac o ganlyniad, yn dwyn llythyr ffugiol yn mlaen; ond nid yw yr apostol yn dywedyd, yr epistol *at* y Laodiceaid, ond yr epistol *o* Laodicea." Y mae Bellarmine, yn mysg y Pabyddion, a Le Clerc ac ereill yn mhlith y Protestaniaid, yn tybied fod yr ymadrodd yn yr Epistol at y Colossiaid yn cyfeirio at epistol o waith Paul sydd yn awr wedi colli; ac ymddengys fod y cyfieithiad yn y Vulgate yn pleidio y golygiad yma. Pa fodd bynag, dywed Grotius mai yr Epistol at yr Ephesiaid a feddylir yma, a dilynir ef gan Hammond, Whitby, a Mill, a hefyd gan yr archesgob Wake. Mae Theophylact, yr hwn a ddilynir gan Lightfoot, yn tybied mai yr epistol y cyfeirir ato ydyw y Cyntaf at Timotheus. Ereill a dybiant ei fod yn cyfeirio at 1 Ioan, Philemon, &c. Tybia Mr. Jones am yr epistol sydd yn cael ei ystyried yn awr fel yr un at y Laodiceaid (yr hwn sydd wedi ei gasglu yn hollol o'r Epistol at y Philippiaid), mai cyfansoddiad rhyw fynach segur ydyw, a wnaed ychydig cyn y Diwygiad; ond prin y mae y syniad yma yn gyssou â'r ffaith a grybwylla Mr. Jones ei hun; sef, pan y cyhoeddodd Sixtus o Sienna ei *Bibliotheca Sancta* (B. A. 1560), fod llawysgrif bur hen o'r epistol hwn yn llyfrgell Sorbonne. Cyhoeddwyd yr epistol yma gyntaf gan James, Le Fevre o Estaples, yn 1517. Barn Calvin, Louis Capell, ac amryw ereill, oedd, fod yr apostol Paul wedi ysgrifenu amryw epistolau heb law y rhai sydd genym ni yn awr. Un o brif seiliau y syniad yma ydyw yr ymadrodd sydd yn 1 *Cor.* v. 9. Y mae yn yr iaith Armeniaidd hyd y dydd hwn epistol oddi wrth y Corinthiaid at Paul, yn nghyd âg atebiad yr apostol iddynt. Y mae La Croze yn ystyried mai ffug o'r unfed ganrif ar ddeg yw y rhai hyny, ac yn sicrhau na ddyfynwyd hwy erioed gan neb o'r ysgrifenwyr Cristionogol boreuol. Pa fodd bynag, y mae yn camsynied yn hyn; canys dyfynir yr epistol hwn yn bendant fel gwaith Paul gan Gregory yr Eglurydd yn y drydedd ganrif, Theodore Chrethenor yn y seithfed, a Niersis yn y ddeuddegfed ganrif. Ond nid oes un o honynt yn cael eu dyfynu gan neb o'r hen ysgrifenwyr Groeg na Lladin.

Y mae *Epistol Pedr at Iago* yn ffugiad tra hen. Cyhoeddwyd ef gyntaf gan Cotelerius, a thybir iddo fod yn rhagymadrodd i *Bregethiad Pedr,* oedd mewn bri mawr yn mysg rhai ysgrifenwyr Cristionogol bore, ac a ddyfynir amryw weithiau fel gwaith awdurdodol gan Clement o Alexandria, Theodotus o Byzantium, ac ereill. Gwnaed defnydd o hono hefyd gan yr heretic Heracleon, yn yr eilfed ganrif. Sylwa Origen, gyda golwg arno, nad yw i gael ei gyfrif yn mysg y llyfrau eglwysig, ac nad ydyw nac wedi ei ysgrifenu gan unrhyw berson ysbrydoledig arall. Tybia Mr. Jones mai ffug rhai o'r Ebioniaid ydyw, yn nechreu yr eilfed ganrif.

*Epistolau Paul a Seneca* ydynt wyth o ffuglythyrau Lladin oddi wrth yr athronydd Seneca at Paul, a chwech oddi wrth Paul at Seneca. Y mae eu hynafiaeth yn ddiammheuol. Yr oedd gan Jerome gymmaint o feddwl am werth y llythyrau hyn, fel y tueddwyd ef i ddywedyd, "Ni buaswn i yn rhestru Seneca yn fy nghyfres o saint, oni buasai i mi gael fy nwyn i benderfynu hyny gan epistolau Paul at Seneca, a Seneca at Paul, y rhai a ddarllenir yn awr gan lawer........ Lladdwyd ef gan Nero, ddwy flynedd cyn i Pedr a Phaul gael eu hanrhydeddu â merthyrdod." Cyfeirir at yr epistolau hefyd yn Actau ffugiol Linus, esgob cyntaf Rhufain, ar ol dydd yr apostolion. Ond ffug amlwg yw yr Actau hyn, y rhai y cyfeiriwyd atynt gyntaf gan fynach o'r unfed ganrif ar ddeg. Nid ymddengys i'r llythyrau gael eu crybwyll gan unrhyw hen ysgrifenydd arall; ond y mae yn sicr mai yr un ydyw y rhai sydd yn awr ar gael a'r rhai oedd adnabyddus i Jerome ac Awstin. Y mae rhai dynion dysgedig wedi bod yn amddiffyn awdurdod y llythyrau hyn; ond y mae y rhan fwyaf o lawer yn eu gwrthod fel rhai ffugiol. Tybia Mr. Jones mai ffug o'r bedwaredd ganrif ydynt, wedi eu seilio ar *Phil.* iv. 20. Yn wir, ni chrybwyllir ond am ychydig bersonau yn y Testament Newydd, ar y rhai ni thadogir rhyw gyfansoddiadau ffugiol.

Dyma y rhai penaf o'r hen epistolau ffugiol. Yn mysg y rhai a wrthodir yn awr yn gyffredinol y mae yr un tra adnabyddus hwnw, a elwir *Epistol Lentulus* at senedd Rhufain, yn rhoddi dysgrifiad o berson Crist, a rhai rhith-lythyrau a briodolir i Mair y Forwyn. Dywedir fod un o'r rhai hyn wedi ei ysgrifenu yn Hebraeg, a'i gyfeirio at Gristionogion Messina yn Sicily, o'r hwn y cyhoeddwyd cyfieithiad Lladin, ac awdurdod

Digitized by Google

yr hwn a amddiffynwyd yn ddifrifol yn 1692. Amserwyd ef o Ierusalem, yn y 42ain flwyddyn "o'n Mab," Gorphenaf 27fed, *Luna* 17, *Feria quinta*. Y mae eglwys archesgobol Arglwyddes y *Llythyr*, yn Messina, yn cymmeryd ei henw oddi wrth ei bod yn perchenogi y llythyr hynod hwn, am yr hwn y cymmer rhai arnynt haeru fod y llawnodiad fyth ar gael. Hònir hefyd fod y Forwyn wedi anfon llythyr at y Florentiniaid; ac y mae llythyr ffugiol ar gael oddi wrthi at Ignatius, yn nghyd â'i atebiad yntau.—(*Eusebius*; *Josephus*; *Lardner*; *Kitto*.)

EPISTOLWR: swyddog; yr hwn, yn ol archiad y frenines Elizabeth, oedd i ddarllen yr epistol yn yr eglwysi cadeiriol, am yr hwn hefyd y crybwyllir yn y pedwerydd canon ar ugain.

1. EPHA, [עֵיפָה=*tywyllwch*; Γαιφά]: y cyntaf o ran trefn o feibion Midian (*Gen*. xxv. 4; 1 *Cron*. i. 33), a grybwyllir wedi hyny gan Esaiah yn y geiriau hyn:—"Lluaws y camelod a'th orchuddiant, sef cyflym gamelod Midian ac Epha; hwynt oll o Seba a ddeuant; aur a thus a ddygant; a moliant yr Arglwydd a fynegant. Holl ddefaid Cedar a ymgasglant atat ti, hyrddod Nebaioth a'th wasanaethant: hwy a ddeuant i fyny yn gymmeradwy ar fy allor, a mi a anrhydeddaf dŷ fy ngogoniant;" *Esa*. lx. 6, 7. Y mae yr ymadrodd yma yn cyssylltu hiliogaeth Epha yn amlwg â'r Midianiaid, y Seba Ceturiaidd, a'r Ismaeliaid—y naill fel y lleill yn dilyn arferion crwydraidd—ac yn dangos, fel arferol, eu bod yn ffurfio llwyth yn dwyn ei enw. Ond nid yw teithwyr wedi canfod eto hyd foddlonrwydd un llwyth yn cyfateb iddo. Y mae y gair Arabaidd *Gheyfeh*, y tybir ei fod yr un ag Epha, yn enw ar dref neu bentref yn agos i *Bulbeys* (y Bilbeys diweddar)—lle yn yr Aipht, yn nhalaeth y Sharkeeyeh, heb fod yn mhell o Cairo. Ond nid oes digon o awdurdod i'r traddodiad fod Epha wedi ymsefydlu yn Affrica. Gwel MIDIAN; SEBA.

2. EPHA: gordderchwraig Caleb, yn llinach Iudah: 1 *Cron*. ii. 46.

3. EPHA: mab Iadai, yr hwn hefyd ydoedd o linach Iudah: 1 *Cron*. ii. 47.

4. EPHA: sychfesur Iuddewig, cyfartal i ddau bath yn y gwlybfesurau. Cynnwysai dri phecaid a thri pheint. Gwel PWYSAU A MESURAU.

EPHAI, [עֵיפַי=*blin*, *diffygiol*; Ἰωφί]: Netophathiad, meibion yr hwn oedd yn mysg "tywysogion y lluoedd" a adawsid yn Iudah ar ol yr alltudiad i Babilon: *Ier*. xl. 8. Ymostyngasant i Gedaliah, y llywydd Babilonaidd, ac ymddengys iddynt gael eu llofruddio gydag ef gan Ismael: *Ier*. xli. 3; cymharer xl. 13.

1. EPHER, [עֵפֶר=*llwch*; *elain*; Ἀφείρ]: yr ail o ran trefn o feibion Midian, nas crybwyllir yn y Beibl ond yn yr ymadroddion achyddol hyn: *Gen*. xxv. 4; 1 *Cron*. i. 33. Nid ydyw y lleoedd yr ymsefydlodd ynddynt wedi eu canfod eto gyda dim sicrwydd. Y mae yr enw, yn ol Gesenius, yn gyfystyr â'r gair Arabaeg *Ghifr*, yn arwyddo *llo*, a "rhyw anifail bychan, neu drychfilyn, neu filionyn." Y mae dau lwyth yn dwyn enw cyffelyb, *Ghifar*; ond cangen oedd un o'r Amalec cyntaf, a'r llall o'r Cinaneh Ismaelaidd: ni phriodolir y naill na'r llall i Midian. Ymsefydlodd y cyntaf tua Yethrib (El-Medeeneh); a'r ail yn nghymmydogaeth Meccah.

2. EPHER: mab Ezra, yn mysg hiliogaeth Iudah. Fe allai mai un o deulu yr hynod Caleb ydoedd, er nad ydyw hyny yn amlwg: 1 *Cron*. iv. 17.

3. EPHER: un o benau cenedl Manasseh, ar du dwyrain yr Iorddonen: 1 *Cron*. v. 24. Gellir cymharu yr enw âg Ophra, lle genedigol Gedeon, yn Manasseh, ar du gorllewin yr Iorddonen.

EPHES-DAMMIM, [אֶפֶס דַּמִּים; Ἐφερμέν]: cyfieithir y rhan gyntaf o'r gair yn y Beibl Cymraeg yn *cwr*—"yn nghwr Dammim" (1 *Sam*. xvii. 1), ond yn y Beibl Seisoneg gadewir ef oll heb ei gyfieithu, a defnyddir "Ephes-Dammim." Ceir yr enw yn y ffurf o *Pasdammim* yn 1 *Cron*. xi. 13, yn y Beibl Cymraeg a Seisoneg. Lle ydoedd rhwng Socoh ac Azecah, lle y gwersyllai y Philistiaid cyn yr ymosodiad pan laddwyd Goliath: 1 *Sam*. xvii. 1. Y mae ystyr y gair yn ansicr, ond eglurir ef yn gyffredin fel *cwr* neu "derfyn y gwaed" ("defnyn o waed," medd Charles); yn cael ei alw felly, hwyrach, o blegid i'r lle fod yn fynych yn olygfa ymrysonau gwaedlyd rhwng Israel a'r Philistiaid.

EPHESIAID, YR EPISTOL AT: a ysgrifenwyd gan yr apostol Paul yn ystod ei garchariad cyntaf yn Rhufain (*Act*. xxviii. 16), yn fuan, fel yr ymddengys, ar ol iddo ysgrifenu yr Epistol at y Colossiaid; ac yn ystod y cyfnod hwnw (yn gynnar fe allai yn B.A. 62), pan nad oedd ei garchariad yn ei agwedd gaethaf; yr hyn, fel yr ymddengys, oedd yn hynodi y rhan olaf o hono.

Cyfeiriwyd yr epistol godidog yma at yr Eglwys Gristionogol oedd yn hen ddinas glodfawr Ephesus [gwel isod], yr eglwys a blanodd yr apostol ei hunan (*Act*. xix. 1, &c.; cymharer xviii. 19)—gyda'r hon yr arosodd efe mor hir (*Act*. xx. 31)—ac â henuriaid yr hon y canai yn iach mor galon-gynhes a serchog: *Act*. xx. 17—38. Nid ymddengys fod unrhyw amgylchiad neillduol yn galw am ei ysgrifenu, na'i fod yn cynnwys unrhyw gyfarwyddiadau gocheliadol arbenig, nac yn erbyn y ddwyfyddiaeth ddwyreiniol nac Iuddewig; ond ei fod wedi ei achosi gan y cariad dwfn a deimlai yr apostol at ei ddychweledigion yn Ephesus, a'r hwn y rhoddodd cenadaeth Tychicus, gydag epistol at eglwys Colossa, gyfleusdra iddo i'w ddangos trwy hyfforddiadau ac annogaethau ysgrifenedig. Fel hyn, y mae yr epistol yn cynnwys amryw syniadau oedd yn treiddio trwy yr epistol ydoedd wedi ei ysgrifenu yn agos yr un amser ag ef at y Colossiaid, yn ail adrodd amryw o'r un rhybuddion ac annogaethau ymarferol, yn dwyn tebygrwydd o'r un ymadroddiad, ond ar yr un pryd yn helaethu ar ddirgeledigaethau y cynghor dwyfol, yn amlygu mor helaeth ddechreuad a chynnydd yr eglwys yn Nghrist, ei hundeb, ei chymundeb, a'i chydymgyfarfyddiad ynddo ef, fel nas gellir byth edrych yn briodol ar yr epistol mawreddog hwn heb ei ystyried yn un o'r amlygiadau mwyaf goruchel a chysurlawn i feibion dynion o waith Ysbryd Duw. I Gristion yn Ephesus, oedd yn byw dan gysgod teml fawr Diana, yn gweled ei harddderchogrwydd bob dydd, ac yn clywed bron mor aml a hyny am ei defodau rhwysgfawr, rhaid fod grym, priodoldeb, a nerth, nad ydyw yn hawdd i ni ei amgyffred yn y cyfeiriadau sydd yn yr epistol hwn at yr adeilad ysbrydol hwnw, o'r hwn yr oedd Crist yn ben conglfaen, yr apostolion yn sylfeini, ac

yntau ei hun a'i gyd-Gristionogion yn rhanau o'r adeilad fawreddog: *pen.* ii. 19—22.

Ymrana cynnwysiad yr epistol hwn yn rhwydd ddau ddosbarth: y cyntaf gan mwyaf yn athrawiaethol (*pen.* i—iii), yr ail yn annogaethol ac ymarferol.

Dechreua y rhan athrawiaethol gyda chyfarchiad byr i'r saint yn Ephesus, ac ä yn mlaen yn ebrwydd i roddi mawl dyrchafedig i Dduw y Tad, yr hwn a'n rhagluniaethodd ni i fabwysiad, a'n bendithiodd ac a'n gwaredodd ni trwy Iesu Grist, ac a hysbysodd i ni ei ewyllys dragwyddol i'n huno ni oll ynddo ef: *pen.* i. 3—14. Y mae hyn yn arwain yr apostol yn naturiol i weddio dros y dychweledigion, ar iddynt gael eu goleuo i adnabod beth ydyw gobaith galwedigaeth Duw, cyfoeth ei ras, a rhagorol fawredd ei nerth ef, yr hwn a amlygodd yn adgyfodiad a dyrchafiad gogoneddus yr Arglwydd Iesu, pen ei gorff ef, sef yr eglwys: *pen.* i. 15—23. Yna, gan gyfarch y dychweledigion yn fwy uniongyrchol, mae yr apostol yn eu hadgofio y modd y darfu i Dduw, pan oeddynt hwy feirw mewn camweddau a phechodau, eu bywhau hwynt, eu cyfodi, a'u rhoddi i gydeistedd gyda Christ; gan ddangos mai trwy ras y gwneid y cwbl, ac nid trwy weithredoedd: *pen.* ii. 1—10. Yr oeddynt i gofio hefyd y modd yr oeddynt unwaith wedi bod yn estroniaid, ac iddynt yn awr gael eu dwyn yn agos trwy waed Crist; y modd yr ydoedd efe yn dangnefedd iddynt; y modd yr oeddynt hwy a'r Iuddewon i gael dyfodfa trwyddo ef at y Tad; a'r modd yr oeddynt wedi eu hadeiladu arno ef fel pen conglfaen, yn deml ysbrydol i Dduw: *pen.* ii. 11—22. O blegid hyn, wedi clywed, fel y rhaid eu bod, pa fodd y dadguddiwyd y dirgelwch mawr hwn, am alwad y Cenedloedd, i'r apostol, y mae efe yn dymuno na byddai iddynt lwfrhau o blegid ei flinderau ef (*pen.* iii. 1—13); ie, efe a weddïai at Dad pawb oll ar iddo eu nerthu i wybod cariad Crist, a'u cyflawni â holl gyflawnder Duw: *pen.* iii. 14—19. Terfynir y weddi gan foliant goruchel (*pen.* iii 20, 21), a wasanaetha fel arweiniad priodol i'r rhan ymarferol o'r epistol.

Dechreua yr apostol ar hyn trwy ddymuno arnynt rodio yn addas i'r alwedigaeth hon, ac ymgadw yn undeb yr Ysbryd: gan mai un corff sydd, un Ysbryd, un Arglwydd, ac un Duw: *pen.* iv. 1—6. Yr oedd i bob un hefyd ei ran o ras gan Dduw (*pen.* iv. 7—10), yr hwn oedd wedi trefnu pob graddau yn yr eglwys, er eu dwyn oll i undeb ffydd, ac i gynnyddu nes y delont i undeb â'r Pen bywiol, sef Crist: *pen.* iv. 11—16. Yna, yn ddiau, nid oeddynt i rodio mwyach fel y Cenedloedd tywyll, dideimlad; ond yr oeddynt i roddi heibio yr hen ddyn, ac i wisgo y newydd: *pen.* iv. 17—24. Yr oedd hyn hefyd i gael ei ddangos yn eu gweithredoedd allanol: yr oeddynt i fod yn eirwir, yn addfwyn, yn onest, yn bur, ac yn faddeugar; ac yr oeddynt i rodio mewn cariad: *pen.* iv. 25; v. 2. Nid ydoedd godineb, cybydd-dra, ac aflendid, hyd yn oed i gael eu henwi yn eu plith: yr oeddynt unwaith mewn tywyllwch paganaidd, ond yn awr yr oeddynt yn oleuni, ac yr oedd yn rhaid iddynt argyhoeddi gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch: *pennod* v. 3—14. Fel hyn yr ydoedd yn rhaid iddynt rodio yn dra diesgeulus, ymlenwi â llawenydd, canu, a rhoddi diolch: *pen.* v. 15—21. Yr oedd y gwragedd i ymostwng i'w gwŷr priod, a'r gwŷr i garu, ac amddiffyn, a glynu wrth eu gwragedd (*pen.* v. 22—33); y plant i ufuddhau ac anrhydeddu eu rhieni, a'r rhieni i ddwyn eu plant i fyny yn sanctaidd (*pen.* vi. 1—4); ac yr oedd y gweision a'r meistriaid i gyflawnu eu dyledswyddau tuag at eu gilydd o barch i grefydd eu Gwaredwr: *pen.* vi. 5—9.

Wedi rhoddi annogaeth ardderchog a bywiog i'r Ephesiaid i ymarfogi yn erbyn eu gelynion ysbrydol âg arfogaeth Duw (*pen.* vi. 10—20), gwneyd sylw byr ar ddyfodiad Tychicus (*pen.* vi. 21, 22), ac offrymu gweddi ddyblyg ar eu rhan (*pen.* vi. 23, 24), y mae yr epistol godidog ac arddunol hwn yn cael ei derfynu.

Gyda golwg ar *awdurdod* a *phurdeb* yr epistol hwn, gellir dywedyd yn ddibetrus nad oes un achos teg i'w hammheu. Y mae tystiolaethau hynafiaeth yn anghyffredin o gadarn. Hyd yn oed pe gadewid cyfeiriadau tybiedig Ignatius a Pholycarp heibio, y mae genym dystiolaethau pendant Irenæus, Clemens o Alexandria, Origen, Tertullian, heb law tystiolaeth unfrydol a pharhaus yr eglwysi hynafiaethol. Ni wadai hyd yn oed Marcion fod yr epistol wedi ei ysgrifenu gan Paul, ac ni wrthodai hereticiaid ei ddyfynu yn achlysurol fel gwaith addefedig yr apostol [cymharer *Iren. Haer.*, i. 8, 5]. Pa fodd bynag, daeth rhai yn mlaen yn benderfynol mewn amseroedd diweddarach i alw ei awdurdod i gyfrif. Y mae De Wette, yn ei arweiniad i'w esboniadar yr epistol hwn [argr. 2, 1847], ac yn ei arweiniad i'r Testament Newydd [argr. 5, 1848], yn ymdrechu profi mai helaethiad marwaidd yn unig ydyw o'r Epistol at y Colossiaid, er ei fod wedi ei gasglu yn yr oes apostolaidd. Y mae Schwegler, Baur, a rhai ereill, yn myned gam yn mhellach, ac yn gwrthod y ddau epistol, gan haeru nad ydynt hynach na'r oesoedd yr oedd Montaniaeth a Gnosticiaeth yn blodeuo. Heb fanylu, mae yn deg dywedyd fod y rhesymau gwrthwynebol wedi eu dwyn yn mlaen yn fedrus, ond fod yr atebion iddynt mor eglur, boddhaol, a llwyr orchfygol, mewn rhai amgylchiadau, fel nad oes gan yr ymofynydd rhesymol a diduedd ddim achos i ammheu awdurdod yr epistol. Ar un llaw, barnau perthynol i'r testyn yn unig a roddir i ni, heb fod yn gwbl lân oddi wrth drahausder, gan bwyso yn benaf ar wyrdroadau tybiedig o ran athrawiaeth a geiriad, ond y cwbl heb seiliau hanesyddol cedyrn: ar y llaw arall, y mae genym olrheiniadau gwrthwynebol tra argyhoeddiadol, heb law tystiolaeth unfrydol yr eglwysi hynafol. Os ydyw anghyssonderau y mater a'r arddull mor amlwg fel ag i arwain ysgrifenydd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg i wadu awdurdod yr epistol gyda hyfder, pa fodd yr ydym i roddi cyfrif am ei dderbyniad cyffredinol gan ysgrifenwyr o'r ail a'r drydedd ganrif, y rhai oedd yn llefaru yr iaith yn yr hon yr ysgrifenwyd ef, a'r rhai nid oeddynt gyfarwydd mewn un modd â thwyll crefyddol a hoced llenyddol? Am y rhai sydd wedi sylwi yn fanwl a helaeth ar wrthddadleuon De Wette a Baur, gellir nodi yn mysg ereill Meyer [*Enleit. Z. Eph.*], Davidson [*Introd. to N. Test.*], ac Alford [*Prolegomena*].

Y mae rhai bethau eto y dylid gwneyd sylwadau byrion arnynt.

1. Y *darllenwyr*, i'r rhai y bwriadwyd yr epistol hwn. Yn yr arweiniad—"Paul, apostol Iesu Grist trwy ewyllys Duw, at y saint sydd yn Ephesus, a'r ffyddloniaid yn Nghrist Iesu"—y mae y geiriau, "yn Ephesus" (ἐν Ἐφέσῳ), wedi eu gadael allan gan B. 67, sef Basil, ac fe allai

Digitized by Google

Tertullian. Y mae hyn, yn nghyd â'r ffaith sydd braidd yn hynod, fod pob anerchiadau at aelodau yr eglwys, y rhai y gwyddys eu bod mor hoff gan yr apostol, a rhai gwrthddadleuon ereill oddi wrth brofion mewnol, wedi codi ammheuaeth yn meddyliau rhai a oedd y geiriau dan sylw mewn gwirionedd yn y testyn gwreiddiol, ai peidio. Nid yw yr ammheuon hyn, ar yr olwg gyntaf, yn annhebygol; ond pan osodir ar eu cyfer (1.) y profion credadwy pwysig eu bod i mewn; (2.) tystiolaethau yr holl hen gyfieithiadau; (3.) enwad cyffredinol yr epistol hwn gan yr hen eglwysi (y mae haeriad Marcion mai at Eglwys Laodicea yr ysgrifenwyd ef yn gwbl ar ei ben ei hun) fel yr Epistol at yr Ephesiaid; (4.) yr anhawsder mawr o roddi ystyr boddhaol i rangymmeriad (*participle*), pan yn unigol, a'r diffyg o unrhyw esampl gyffelyb yn ysgrifeniadau yr apostol:—wrth ystyried y pethau hyn, tybia y prif feirniaid fod yn gwbl briodol bwrw ymaith y cromfachau (*brackets*) sydd am y geiriau hyn yn ail argraffiad Tischendorf, a'u hystyried yn rhan o'r testyn gwreiddiol. Pe byddai achos ateb ac egluro y gwrthddadleuon mewnol a ddygir yn erbyn yr epistol hwn, gellid sylwi nad oes yr un anhawddach ei wrthwynebu na'r un a ddeil fod yr epistol wedi ei fwriadu er budd eglwysi cyfagos i eglwys Ephesus, neu rai mewn cyssylltiad â hi. Nid ydyw gwrthresymau Meyer, er mor alluog y trinia efe hwy, ddim yn argyhoeddi y meddwl eu bod yn safadwy; ac nis gellir ystyried fod rhyw bwys arbenig yn yr appeliad a wneir at ddystawrwydd ysgrifenwyr yr eglwysi hynafol gyda golwg ar y pwnc, gan nad yw eu cyfeiriadau hwy yn golygu dim ond *enwad* cyffredin yr epistol, heb gymmeryd eangder neu gyfyngder ei amcan i sylw o gwbl. Nid yw yn annaturiol tybied y gallai fod yr anerchiadau wedi cael eu hymddiried ar wahan i'r dygiedydd, Tychicus, yr hwn, fe allai, ydoedd ei hun yn Ephesiad, a'r hwn y gwyddys fod yr apostol wedi ei gyfarwyddo (*pen.* vi. 22) i'w hysbysu am ei sefyllfa a'i amgylchiadau ef yn bersonol.

2. Y mae yn anhawdd iawn penderfynu pa un ai yr epistol hwn ynte yr un at y Colossiaid a gyfansoddwyd gyntaf, er maint a chwiliwyd i mewn i'r pwnc. Ar y cyfan, y mae ystyriaethau, allanol a mewnol, yn ymddangos braidd o blaid blaenoriaeth yr Epistol at y Colossiaid, fel y dadleua Neander, Schleiermacher, a Wieseler.

3. Y mae y tebygrwydd hynod sydd rhwng amryw ranau o'r epistol hwn a'r un at y Colossiaid wedi bod yn achos llawer o ddyfalu gyda golwg ar y tebygrwydd dan sylw, a pha un ai hwn ai yr Epistol at y Colossiaid a ysgrifenwyd gyntaf. Heb helaethu rhoddwn gynnyrch yr ymchwiliad ger bron. Tybir y gellir rhoddi cyfrif am y tebygrwydd sydd rhwng y ddau epistol—(1.) O blegid fod y ddau wedi eu hysgrifenu yn agos i'r un amser. (2). O blegid y tebygrwydd mawr fod llawer o ragfarnau athrawiaethol, ac amryw bethau ereill cyffelyb, mewn dwy ddinas fel hyn yn Asia, heb fod yn mhell iawn oddi wrth eu gilydd, yn gofyn yr un annogaethau, a hyny mewn ymadroddion cyffelyb. Gyda golwg ar flaenoriaeth y ddau epistol, y mae rhesymau y naill blaid yn ymddangos bron mor gedyrn a'r llall: pa fodd bynag, braidd na thueddem ni, gydag Ellicott, ac ereill, i feddwl mai y byraf, sef yr Epistol at y Colossiaid, a ysgrifenwyd gyntaf; yn yr hwn y dywedir fod yr iaith hefyd yn fwy bywiog ac egniol: a thebycach, fe allai, ydyw mai y byraf a awgrymodd yr hwyaf i feddwl yr apostol. Dywedir hefyd fod mwy o ol cyfundrefn ar yr hwyaf hwn (yr Ephesiaid), ac nad ydyw mor bersonol a'r llall.

4. Y mae y farn fod yr epistol hwn, a'r rhai at y Colossiaid ac at Philemon, wedi eu hysgrifenu yn ystod carchariad cyntaf yr apostol yn Cesarea (*Act.* xxi. 27—xxvi. 32), sef rhwng Pentecost B. A. 58 a gauaf B. A. 60—mae y farn yma wedi cael ei hamddiffyn yn ddiweddar gan amryw ysgrifenwyr galluog, ac wedi ei gosod ger bron gyda'r fath nerth ac eglurdeb gan Meyer, fel y mae yn teilyngu peth sylw. Pa fodd bynag, tybir fod y farn dan sylw yn ymddibynu ar dybiau wedi eu trefnu yn fedrus, ac nid ar brofion eglur a safadwy. Y mae y sylwadau sydd yn *Col.* iv. 3, 4, 11, gyda golwg ar garchariad yr apostol, yn ymddangos yn anghysson â natur ei garchariad yn Cesarea. Prin y gellir ystyried fod caniatâd Felix (*Act.* xxiv. 23) yn un radd o ryddid i'r apostol i bregethu yr efengyl, tra y mae y ffeithiau a gofnodir am ei garchariad yn Rhufain (*Act.* xxviii. 23, 31) yn hollol gysson â'r rhyddid a ganiateid iddo ef a'i gyfeillion, yn ol fel y gellir casglu oddi wrth yr Epistol at y Colossiaid. Y mae pob tebygolrwydd, gan hyny, o blaid barn yr hen eglwysi, fod yr epistol hwn wedi ei ysgrifenu yn ystod carchariad cyntaf yr apostol yn Rhufain.


Yn mysg y prif argraffiadau ac eglurhadau penodol o'r epistol hwn, gellir nodi rhai Seb. Schmid [Stras., 1684]; Rückert [Leips., 1834]; Matthias [Greif., 1834]; Harless [Erl., 1834]; Olshausen [Königsb., 1840]; De Wette [Leipz., 1847]; Stier [Berl., 1848]; Meyer [Gött., 1853]; Eadie [Glasg., 1854]; Ellicott [Llund., 1855], ac Alford [Llundain, 1857].—(*Kitto; Eadie; Smith*, &c.)

EPHESUS, ['Εφεσος=*dymuniad*]: dinas odidog yn nhalaeth Ionia, bron gyferbyn ag ynys Samos, yn agos i ganol Asia Leiaf, yr hon a elwir yn awr yn orynys. Nid oedd yr enw yma yn arferedig ar Asia Leiaf yn yr hen amseroedd. Y dalaeth Rufeinig yn unig, yr hon oedd yn cynnwys y parth gorllewinol o'r orynys, oedd Asia y Testament Newydd. Ephesus oedd prif ddinas y dalaeth yma.

Yn mysg prif hynodion anianyddol yr orynys, cyfrifir y ddwy afon fawr, Hermus a Maeander, y rhai sydd yn llifo o eithafoedd y canolbarth tua'r gorllewin i'r Ynysfor (*Archipelago*); ac y mae Smyrna (*Dad.* ii. 8) yn agos i enau un o'r ddwy, a Miletus (*Act.* xx. 17) yn agos i enau y llall. Rhwng y dyffrynoedd a ddyfrheir gan y ddwy afon hyn, y mae ffrwd ferach a phantle llai y Cayster, a elwir gan y Tyrciaid *Kutschuk-Mendere*, neu y Maeander fechan. Y mae ei wastadle uchaf, a elwir yn fynych yn ddolydd Cayster, yn cael ei derfynu gan y gwddf sydd rhwng Gallesus a Pactyas. Parhad ydyw y mynydd olaf hwn o drum y Messogis, sydd yn terfynu dyffryn y Maeander ar y tu gogleddol; tra y mae y llall (Gallesus) yn dal cyssylltiad pell â thrum y Tmolus sydd yn terfynu dyffryn yr Hermus o'r tu deheu. Y mae y dyffryn, tu hwnt i'r gwddf crybwylledig, tua'r môr, yn ymledu yn fariandir gwastad, a bryniau sythion yn ymgodi o hono. Y mae y dyffryn yn awr tua phum milldir o led; ond dywedir y rhaid ei fod gynt yn gulach; ac y dichon fod rhai o'r bryniau wedi bod gynt yn ynysoedd. Yma y safai Ephesus—mewn rhan ar y tir gwastad, ac mewn rhan ar y bryniau.

Digitized by Google

Y ddau fwyaf pwysig o'r bryniau hyn, ar y rhai yr oedd rhan fawr o'r ddinas wedi ei hadeiladu, oedd Prion a Cressus—yr olaf ar y tu deheu i'r dyffryn, ac yn dal cyssylltiad mewn gwirionedd â'r Pactyas; a'r blaenaf gyferbyn a'r Coressus ac yn agos ato, er fod dyffryn dwfn yn eu gwahanu. Yn mhellach i'r gogledd-ddwyrain, y mae ucheldir amlwg arall: ymddengys mai y bryn a grybwyllir gan Procopius ydyw, ar yr hwn yr adeiladwyd eglwys wedi ei chyflwyno i Ioan yr Efengylwr; a meddylir fod ei henw presennol, Ayasaluk, yn llygriad o'r Groeg, *ho agios theologos* =y duwinydd sanctaidd. Y mae Ephesus yn dal cyssylltiad agos â'r apostol hwn; nid yn unig am mai yma yr oedd un o eglwysi mwyaf nodedig y Dadguddiad (*Dad.* i. 11; ii. 1), ond hefyd o blegid ei chyssylltiad â'r hanes hynod am ddiwedd ei oes, a roddir gan Eusebius. Y mae rhai yn barnu mai yma hefyd yr ysgrifenodd efe ei Efengyl a'i Epistolau. Y mae hen draddodiad mai yn Ephesus y claddwyd mam ein Harglwydd, Timotheus, a'r apostol Ioan ei hunan. Y mae yn dra thebyg mai yr achos o'r traddodiad fod Timotheus wedi ei gladdu yma, yw traddodiad arall sydd yn mysg y Pabyddion a'r Esgobyddwyr; sef, fod Timotheus wedi ei osod yn esgob yn Ephesus gan yr apostol Paul. Ond y mae yn amlwg mai fel cenadwr y gadawodd yr apostol ef yno, a hyny am amser penodol, sef dros un tymmor haf yn unig; canys y mae yn gorchymyn iddo fod yn ddyfal i ddyfod ato ef i Rufain, "yn ebrwydd...cyn y gauaf;" 2 *Tim.* iv. 9, 21. Dywedir i Ignatius gyfeirio un o'i lythyrau at yr eglwys oedd yn Ephesus, yr hon, fel yr ymddengys, oedd yn dra enwog yn oesoedd boreuol Cristionogaeth yn y parth yma o Asia. Yn awr, er mwyn cael eglurhad Ysgrythyrol uniongyrchol gyda golwg ar Ephesus, rhaid i ni droi i hanes bywyd ac ysgrifeniadau yr apostol Paul; wrth ddilyn pa rai yn fanwl, y mae yn nodedig fel y daw gwahanol agweddau yr hen Ephesus i'r golwg y naill ar ol y llall.



Dar. 296.—EPHESUS.

1. *Ei pherthynasau daiaryddol.* Gellir sylwi ar y rhai hyn yn eu cyssylltiad yn gyntaf â'r môr, ac yna â'r tir.

Yr oedd holl ddinasoedd Ionia mewn sefyllfaoedd tra manteisiol i gynnydd eu llwyddiant masnachol [*Herod.* i. 142], ond nid oedd yr un mewn gwell sefyllfa nag Ephesus. Heb law ei bod mewn cymmydogaeth ffrwythlawn, ac yn meddu hinsawdd ardderchog, yr oedd wedi ei gosod yn y sefyllfa mwyaf manteisiol i fasnachu â holl barthau cymmydogaethol y Levant. Yn amser Augustus, hi oedd marchnadfa fawr holl ardaloedd Asia, o fewn y Taurus. Yr oedd ei phorthladd (a elwid Panormus) yn ngenau y Cayster, wedi ei adeiladu yn orchestol, er fod pridd morfaol wedi achosi anhawsderau mawrion yn amser Attalus, ac yn amser yr apostol Paul ei hun [*Tacit. Am.*, xvi. 23], Y mae hanes bywyd a theithiau yr apostol yn unig yn dangos fod masnach helaeth rhyngddi ag Achia ar y tu gorllewin iddi, Macedonia ar y tu gogleddol, a Syria ar y tu dwyreiniol. Tua diwedd ei ail daith genadol, moriodd yr apostol ar draws o Corinth i Ephesus (*Act.* xviii. 19), pan ar ei ffordd i Syria (*adn.* 21, 22); ac y mae lle i gasglu ei fod wedi gwneyd yr un fordaith fer yn y gwrthwyneb unwaith yn ddiweddarach, dros yr Ægean, sef o Ephesus i Corinth. Ar y drydedd daith genadol, heb law y sylw ar y daith o Ephesus i Macedonia (*Act.* xix. 21; xx. 1), ceir hanes manwl o'r fordaith ar hyd y glenydd wrth ddychwelyd i Syria (*Act.* xx, xxi), yn nghyd â pherthynasau daiaryddol y ddinas hon â'r ynysoedd ac â pharthau cymmydogaethol yr arfordir: *Act.* xx. 15—17. Hefyd, rhaid chwanegu at yr ymadroddion yna 1 *Tim.* i. 3, a 2 *Tim.* iv. 12, 20 er fod yn anhawdd dywedyd yn bendant pa un ai at deithiau ar hyd y tir, ynte y dwfr, y cyfeirir yn y manau hyn. Heb law hyn, gwel *Act.* xix. 17; xx. 1.

Y mae perthynasau Ephesus â chanolbarthau y Cyfandir yn cael eu dwyn ger bron yn dra

Digitized by Google

amlwg yn ngwahanol deithiau yr apostol. Y pirthau uchaf (*Act.* xix. 1), trwy y rhai y tramwyodd efe pan ar ymsefydlu yn y ddinas hon, oedd ucheldiroedd Phrygiaidd y canolbarth; ac y mae yn debyg mai yn yr un lle (*Act.* xvi. 6) y tynodd efe ei gynllun aflwyddiannus, pan y gwarafunwyd gan yr Ysbryd Glân iddo bregethu yr efengyl yn Asia. Yr oedd dwy ffordd fawr, o leiaf, yn amser y Rhufeiniaid, yn arwain o Ephesus: un trwy fynedfeydd Tmolus i Sardis *Dad.* iii. 1), ac oddi yno i Galatia a'r gogledd-dwyrain; a'r llall heibio i ben uchaf Pactyas i Magnesia, ac felly i fyny i ddyffryn Macander i Iconium, o'r lle yr ydoedd ffordd uniawn i'r Euphrates ac i Antioch yn Syria. Ymddengys fod pyrth a dorau iddynt ar ochr ddwyreiniol Ephesus ar fynedfa y ddwy ffordd grybwylledig oedd yn myned i Sardis a Magnesia. Yr oedd ffyrdd arfordirol hefyd yn arwain tua'r gogledd i Smyrna a thua'r deheu i Miletus. Ar hyd yr olaf o'r rhai hyn y mae yn debyg y teithiai henuriaid Ephesus, pan y galwodd am danynt ato i Miletus: *Act.* xx. 17, 18. Canfuwyd rhan o balmant ffordd Sardis gan deithwyr wrth odrau clogwyni Gallesus.

2. *Teml ac addoliad Diana.* Ar ben porthladd Ephesus, mewn lle amlwg, yr oedd teml fawr Diana neu Artemis—duwies warcheidiol y ddinas. Yr oedd yr adeilad yma wedi ei osod ar sylfeini o geryg o faintioli aruthrol; yr hyn ydoedd yn angenrheidiol er cynnal yr adeilad rhag suddo o blegid natur forfaol neu gorslyd y tir. Cafodd y deml gyntaf, yr hon y dechreuasid ei hadeiladu cyn y rhyfel Persiaidd, ei llosgi hyd lawr ar noswaith genedigaeth Alexander Fawr, gan berson anghyhoedd a elwid Eratostratus, yr hwn a wnaeth y galanasdra er mwyn trosglwyddo ei enw i'r oesau dyfodol. Gan yr ymddangosai yn beth tra hynod i'r cyffredin bobl fod y dduwies wedi caniatau i le oedd mor gyssylltiedig â'i hanrhydedd hi gael ei ddystrywio fel hyn mor ddibris, taenwyd gan yr offeiriaid, y rhai bob amser sydd yn rhy barod i dwyllo a marchogaeth y bobl, fod Diana yn rhy brysur gydag Olympias y noson hono, yn dwyn Alexander i'r byd, fel nas gallasai feddwl am ddim arall. Mewn amser dyfodol cynnygiodd Alexander ail adeiladu y deml, os caniateid iddo gerfio ei enw ar wyneb yr adeilad; yr hyn a wrthododd yr Ephesiaid. Pa fodd bynag, llwyddasant trwy gael cynnorthwy brwdfrydig, penboeth, holl Asia Leiaf, i gyfodi teml fwy ardderchog fyth na'r gyntaf. Dywed Pliny [*Hist. Nat.*, xxxvi. 21], yr hwn a rydd ddysgrifiad o honi, ei bod yn 425 troedfedd o hyd, 220 troedfedd o led, ac yn cael ei chynnal gan 127 o golofnau—pob un o honynt wedi cael ei roddi gan ryw dywysog, ac yn 60 troedfedd o uchder: yr oedd 36 o honynt wedi eu cerfio yn orwych. Ffurfiodd ei harddull gyfnod i gelfyddyd yn Groeg, gan mai dyma yr amser cyntaf y perffeithiwyd y dull Ionig prydferth. Chersiphron yr archadeiladydd, oedd yn llywyddu y gorchwyl mawreddog; a phan oedd ar gyflawnu hunanladdiad, o blegid yr anhawsderau a'i cyfarfyddent i gyflawnu ei gynllun mawrwych, rhwystrwyd ef i wneyd y gyflafan trwy gyfrwng y dduwies ei hunan, yr hon a ymddangosodd iddo yn y nos, gan ei sicrhau mai hi ei hun a gyflawnasai yr hyn a ddygodd arno y fath anobaith. Yr allor ydoedd waith Praxiteles. Naddodd yr ardderchog gerfiwr Scopas, medd Pliny, un o'r colofnau. Adeiladwyd y deml o gedrwydd, cypryswydd, marmor gwyn, ac hyd yn oed o aur, â'r hwn yr oedd yn dysgleirio. Cymmerodd adeiladu y deml hon gant ac ugain mlynedd o amser; ac yr oedd ei hardderchogrwydd digyffelyb yn ddiareb trwy yr holl fyd gwareiddiedig, fel y cyfrifai yr hynafiaid hi bob amser yn un o saith rhyfeddod y byd. Rhoddwyd nawdd cyssegr hefyd i'r pellder o ystâd gyfan o amgylch ogylch y deml hon; yr hyn a ddiddymodd yr ymherawdwr Tiberias, o blegid y camddefnydd a wneid o'r gyfryw nawdd. Yr oedd pethau drudfawr a godidog, o amryw fathau, yn cael eu hoffrymu i'r dduwies; megys darluniau, cerfluniau, &c., y rhai a drysorid yn y deml, gwerth y rhai oedd bron yn ddiderfyn. Yr oedd yr holl amgylchiadau cyssylltiedig â'r adeilad ardderchog dan sylw yn rhoddi grym neillduol yn y gyffelybiaeth adeiladol sydd yn yr epistol nodedig a ysgrifenodd Paul yn y lle hwn (1 *Cor.* iii. 9—17)—i'r ymadroddion lle y defnyddir dychymyg o'r natur yma yn yr epistolau a gyfeiriwyd i Ephesus (*Eph.* ii. 19—22; 1 *Tim.* iii. 15; vi. 19; 2 *Tim.* ii. 19, 20)—ac i'r geiriau a lefarwyd wrth henuriaid eglwys Ephesus yn Miletus: *Act.* xx. 32.

Y mae amryw ffyrdd i egluro gwaith y werin bobl yn llefain (*Act.* xix. 28) "Mawr yw Diana yr Ephesiaid!" a'r ymadrodd grymus yn *adn.* 17, "yr hon y mae Asia oll a'r byd yn ei haddoli." Y mae yn amlwg fod y gair Groeg *megale* =" mawr," yn cael ei gydnabod fel teitl o anrhydedd oedd yn perthyn i dduwies yr Ephesiaid. Canfyddir ef mewn cerfiadau, ac yn *Xenophon's Ephesiaca*, i. 11. Am frwdfrydedd Asia oll, gyda golwg ar yr addoliad hwn, heb law y ffaith fod Ephesus yn brif ddinas y dalaeth, gellir cyfeirio at amryw ymadroddion cyffelyb yn Livy a Pliny [*Liv.* i. 45; *Plin.* xvi. 79; xxxvi. 21]. Gyda golwg ar hynodrwydd yr addoliad trwy *y byd*, dywed Pausanias (iv. 31) fod Diana yr Ephesiaid yn cael mwy o anrhydedd anghyhoedd nag unrhyw dduw arall—yr hyn oedd yr achos fod cymmaint o'r temlau arian y sonia Luc (*Act.* xix. 24) ac ereill am danynt, yn cael eu gwneuthur a'u gwerthu yn Ephesus. O blegid y fasnach grefyddol yma, yr oedd dinas Ephesus yn cael ei galw yn *neocoros* (*Act.* xix. 35) neu *warcheidwad* Diana. Cydnabyddid fod hwn yn enw a gymhwysid yn y fath amgylchiadau, nid yn unig at bersonau unigol, ond at gymdeithasau. Canfyddir yr enw mewn cyssylltiad âg Ephesus yn fynych ar fathodau ac mewn cerfiadau. Yr oedd ei gwarcheidwadaeth, mewn gwirionedd, fel y dywedodd "ysgolhaig y ddinas" (*town clerk*), yn ddiareb. Yr oedd yr hynodrwydd yma, a berthynai i Ephesus yn addoliad Diana, yn achos i'r fasnach yn y temlau arian, fel y crybwyllwyd, gynnyddu yn ddirfawr yno, gan y cyrchai y dyeithriaid o bob parth i'r ddinas i'w prynu; a byddai y pwrcaswyr crefyddol yn cludo y temlau arian hyn gyda hwy ar eu teithiau, ac yn eu gosod i fyny yn eu tai. Fe allai mai gyda y gorchwyl yma yr oedd "Alexander y gof copr," y sonia Paul am dano yn 2 *Tim.* iv. 14. Y mae yn amlwg mai dyma oedd gwaith "Demetrius y gof arian;" *Act.* xix. 24. Dychrynodd hwn yn aruthr dros ei grefft, wrth weled yr efengyl, trwy bregethiad Paul, yn ennill tir yn y ddinas ar eilunaddoliaeth a choelgrefydd; a thaenodd y dychryn yn mysg yr holl grefftwyr o bob graddau, o'r cynllunwyr (*technitai: Act.* xix. 24) hyd y gweithwyr cyffredin (*ergatai: adn.* 25), fel "y llanwyd yr holl ddinas o gythrwfl;" *adn.* 29.

3. *Y Campolygwyr* (*Asiarchs*) Yr oedd campau cyhoeddus mewn cyssylltiad âg addoliad

Digitized by Google

Diana yn Ephesus. Yr oedd mis Mai wedi ei gyssegru i'r dduwies hon; ac y mae yn debyg mai ar y tymmor hwnw y cyfodwyd y cythrwfl a ddarlunir yn *Act.* xix. 23—41. Y mae yn sicr fod Paul yn Ephesus o gylch yr amser yma ar y flwyddyn (1 *Cor.* xvi. 8); ac nid rhyfedd fod Demetrius yn gyffrous wrth weled ei fasnach yn pallu, a hyny ar yr adeg yr oedd mwyaf o gyrchfa pobloedd i'r ddinas. Beth bynag am hyn, yr oedd y Campolygwyr (*Asiarchai*—"penaethiaid Asia," yn ein cyfieithiad ni) yn bresennol: *Act.* xix. 31. Swyddogion ydoedd y rhai hyn, a appwyntid, yn ol dull golygwyr yr adeiladau yn Rhufain, i lywyddu y campau a gynnelid mewn gwahanol barthau o dalaeth Asia. Byddai amryw ddinasoedd yn gofyn presennoldeb y swyddogion hyn yn eu tro. Dengys hanes merthyrdod Polycarp yn Smyrna fod rhan bwysig yn cael ei chymmeryd ynddo gan y Campolygwr Philip. Prawf nodedig o'r dylanwad a ennillodd yr apostol Paul yn Ephesus ydyw, fod y Campolygwyr ("penboethiaid Asia") yn cymmeryd ei blaid yn y cythrwfl: *Act.* xix. 31.

4. *Consuriaeth.* Mewn cyssylltiad â'r pwnc blaenorol, mae yn deilwng o sylw fod consuriaeth neu swynyddiaeth mewn bri mawr yn Ephesus. Y mae hyn yn dra amlwg yn yr hanes a rydd Luc i ni yn *Act.* xix. 13—19. Ymddengys fod y "gwyrthiau rhagorol" a wnaethpwyd gan yr apostol Paul (*adn.* 11), o duedd benodol i wrthweithio yr ofergoeliaeth yma oedd yn ffynu yn y ddinas. Gyda golwg ar y llyfrau a losgwyd dan ddylanwad pregethiad yr apostol Paul (*adn.* 19), digon yw cyfeirio yma at yr *Ephesia grammata* ("y llythyrenau Ephesiaidd" y sonir am danynt gan Plutarch ac ereill), y rhai wedi eu llefaru a ystyrid yn hudoliaeth, ac wedi eu hysgrifenu a gerid o amgylch fel cyfareddion. Dywedir i ffydd yn y llythyrenau neu y sillau cyfriniol yma barhau, i raddau mwy neu lai, hyd y chweched ganrif.

5. *Llywodraeth daleithiol a dinasol.* Y mae yn hysbys mai talaeth raglawiadol oedd Asia; ac yn unol â hyn yr ydym yn cael fod rhaglawiaid (*anthupatoi*) yn cael eu crybwyll yn benodol: *Act.* xix. 38. Dywed Pliny (v. 38) fod Ephesus yn dref frawdlysol; ac y mae yr ymadrodd, "y mae cyfraith i'w chael" (*agoraioi agontai*—sydd yn yr hanes sanctaidd: *adn.* 39), yn dangos fod brawdlysoedd yn cael eu cynnal yn ystod y cythrwfl; er, fe allai, fel y sylwa Wordsworth, nad yw yn anhebgorol angenrheidiol rhoddi yr ystyr yma, gyda golwg ar amser, i'r ymadrodd. Yr oedd Ephesus yn ddinas rydd, ac yn meddu ei chynnulleidfaoedd a'i hynadon ei hun. Crybwyllir am y senedd (*gerowsia*, neu *bowle*), nid yn unig gan Strabo, ond gan Josephus; ac y mae Luc, yn yr hanes dan sylw, yn llefaru am y *demos* (y bobl: *adn.* 30, 33), ac am *ennomoi ecclesiai* ("cynnulleidfa gyfreithlawn;" *adn.* 39). Nid oedd yn beth anghyffredin, mewn un modd, fod y cyfarfod cythryblus a achlysurwyd gan Demetrius wedi ymgynnull yn y chwareule (*theatron*—a gyfieithir genym ni, *yr orsedd: adn.* 29, 30). Mewn cyfarfod yn y *theatron*, yn Cesarea, y derbyniodd Agrippa I. ei ddyrnod marwol (*Act.* xii. 23); a dengys Tacitus ac ereill, fod cynnulliadau mawrion yn arfer ymgasglu yn fynych yn y chwareuleoedd yn ninasoedd Groeg.

Y mae yn nodedig fel y mae yr holl neillduolion gwladyddol a chrefyddol hyn, perthynol i Ephesus, a grybwyllir yn yr hanes sanctaidd, yn cael eu hegluro gan hen gerfiadau a bathodau Groegaidd. Crybwyllir am *archeion*, neu swyddfa y papyrau gwladol, mewn cerfiad yn Chishull. Gwelir y *grammateus* yn fynych: felly hefyd yr *Asiarchai* a'r *anthupatoi*. Byddai y geiriau hyn yn cael eu cyfuno weithiau yn yr un cerfiad. Y mae bathodau Ephesus hefyd yn llawn o gyfeiriadau at addoliad Diana mewn gwahanol agweddau. Fe geir y gair *neocoros* (gwarcheidwad) arnynt yn fynych. Cafwyd rhai hefyd o'r gair *anthypatos*, llun y deml, llun pen Nero, a'i enw arnynt, y rhai y rhaid eu bod wedi eu bathu o gylch yr amser yr ydoedd yr apostol Paul yn aros yn Ephesus.

Dengys hanesion fod amryw heresiau a chyfeiliornadau, megys Gnosticiaeth, athrawiaeth y Nicolaiaid (yr hon, yn ol barn rhai, oedd gangen o Gnosticiaeth), ac ereill, wedi ymlusgo i eglwys Ephesus tua diwedd oes yr apostolion, y rhai, yn wir, a ragfynegwyd gan yr apostol Paul yn ei anerchiad i henuriaid eglwys Ephesus yn Miletus, ac a awgrymodd yn yr Epistol at yr Ephesiaid, ac yn fwy pendant fyth yn yr epistolau at Timotheus. Ond yn hytrach na myned i'r tir ammheus yma, i olrhain yr hen hereticiaid a'u cyfeiliornadau, y mae yn fwy cysson â'n hamcan ni i osod i lawr yn fyr y ffeithiau a gofnodir yn y Testament Newydd, yn eu cyssylltiad â chyfodiad a chynnydd Cristionogaeth yn y ddinas hon.

Y mae yn amlwg wrth Josephus fod lluaws o'r Iuddewon wedi ymsefydlu yno, fel y gellid casglu oddi wrth ei henwogrwydd masnachol, heb law fod y ffaith yn amlwg oddi wrth *Act.* ii. 9; vi. 9. Yn unol â nodwedd Ephesus fel lle cyrchfa pobloedd a masnach, yma, ac yma yn unig, y canfyddwn ddysgyblion Ioan Fedyddiwr yn cael son am danynt ar ol esgyniad yr Arglwydd Iesu: *Act.* xviii. 25; xix. 3. Y mae amgylchiad Apollos (xviii. 24) yn amlygiad pellach o'r ymdrafodaeth rhwng y lle hwn ac Alexandria. Fe allai fod hadau cyntaf y gwirionedd Cristionogol wedi eu hau yn Ephesus yn ebrwydd ar ol dydd y Pentecost: *Act.* ii. Pa gynlluniau blaenorol bynag a ddichon fod gan yr apostol Paul (xvi. 9), ei ymweliad cyntaf âg Ephesus oedd pan yn dychwelyd o'i ail daith genadol (xviii. 19—21); a byr iawn a fu ei arosiad yno ar yr achlysur hwnw: ac nid oes dim prawf ei fod wedi cael unrhyw Gristionogion yno: ond gadawodd Acwila a Phriscila (*adn.* 19), yn y lle, a bu pob un o honynt y pryd hwnw ac ar ol hyny (2 *Tim.* iv. 19) o wasanaeth arbenig i'r efengyl. Yn ystod arosiad yr apostol Paul ei hun dros ddwy flynedd (xix. 8, 10; xx. 31), yr hyn a ffurfiai y rhan fwyaf pwysig o'i drydedd gylchdaith—yn ystod pa amser y llafuriai yn gyntaf yn y synagog (xix. 8), ac yna yn ysgol Tyrannus (*adn.* 9), ac hefyd o dŷ i dŷ (xx. 20), pan hefyd yr ysgrifenodd yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid—y cawn gyfnod penaf efengyleiddiad y lan yma o'r Môr Ægeaidd. Ychydig o eglurhad ar yr hanes uniongyrchol sydd yn *Act.* xix. a geir oddi wrth yr Epistol at yr Ephesiaid, yr hwn a ysgrifenwyd yn mhen llawer o flynyddoedd o Rufain; ond ceir chwanegiad o rai pethau pwysig (yn enwedig gyda golwg ar arferion personol yr apostol o hunan-ymwadiad: xx. 34) yn yr anerchiad yn Miletus. Dengys yr anerchiad yma fod eglwys Ephesus wedi ei threfnu yn rheolaidd ar y pryd; a bod ynddi amryw esgobion neu henuriaid—dau enw, fel y mae yn amlwg oddi wrth yr Ysgrythyrau canlynol, ar yr un swydd: *Act.* xx. 17, 28; *Tit.* i. 5—7; 1 *Pedr* v. 1, 2. Dywed rhai fod

Digitized by Google

Timotheus wedi ei osod yn esgob arolygol (*diocesian bishop*) yn Ephesus gan Paul; ac fel y cyfryw, fod yr apostol wedi ei gyfarwyddo i ordeinio henuriaid neu bresbyteriaid yn eglwysi y ddinas; ond nis gellir profi fod Timotheus yn esgob mewn un ystyr o'r gair yn Ephesus, llawer llai yn yr ystyr arolygol (*diocesian*), gan nad ydyw yr Ysgrythyrau yn awgrymu fod y fath beth mewn un man. Dywed Dr. Whitby, yr hwn oedd amddiffynwr selog i esgobyddiaeth, nas gallai efe "ganfod dim mewn unrhyw ysgrifenydd o'r tair canrif gyntaf am esgobawd Timotheus a Titus, nac unrhyw awgrymiad eu bod erioed wedi bod yn dwyn yr enw." Y mae yn sicr mai *efengylwr* oedd Timotheus yr amser yr oedd Paul yn ysgrifenu ei ail epistol ato; canys y mae yr apostol yn ei annog yn hwnw i "wneuthur gwaith efengylwr" (2 *Tim*. iv. 5); ac yn erchi iddo, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ddyfod ato ef i Rufain: 2 *Tim*. iv. 9, 21. Gwaith efengylwr, fel y mae yn hysbys, oedd teithio i bregethu; ac nis gallai y cyfryw un fod yn esgob arolygol, gwaith yr hwn yw llywodraethu, ac aros yn barhaus yn ei esgobaeth ei hun. Heb law hyn, yr oedd amryw esgobion ereill (nis gwyddys eu nifer) yn Ephesus, pan yr ysgrifenwyd yr Epistol Cyntaf at Timotheus, sef y rhai a alwodd Paul ato i Miletus. Y gwirionedd safadwy yw, mai gadael Timotheus yn Ephesus, fel efengylwyr ysbrydol ac enwog, a wnaeth yr apostol, dros amser yn unig, i wneyd gwaith arbenig—rhan o'r hwn oedd "rhybuddio rhai na ddysgont ddim amgen, ac na ddaliont ar chwedlau ac achau anorphen;" 1 *Tim*. i. 3, 4. Pan orphenodd efe y gorchwyl yma, a phethau ereill oedd yn gyssylltiedig âg ef, dychwelodd at Paul drachefn; a chymmerodd bob peth oedd ganddo yn Ephesus i'w ganlyn. Yn fyr, ymfudodd oddi yno yn hollol at yr apostol (2 *Tim*. iv. 11, 13); ac nid oes un hanes iddo ddychwelyd byth i Ephesus drachefn. Yn mysg cyfeillion ereill Paul, yr oedd dau o honynt, Trophimus a Tychicus, yn frodorion o Asia (*Act*. xx. 4); a dichon fod yr olaf (2 *Tim*. iv. 12), ac y mae yn sicr fod y blaenaf (*Act*. xxi. 29), yn frodor o Ephesus. Dylid crybwyll hefyd am Onesiphorus yn yr un cyssylltiad (2 *Tim*. i. 16—18), yn nghyd â'i deulu: iv. 19. Ar y llaw arall, dylid crybwyll am wrthwynebwyr penodol oedd i'r apostol yn Ephesus, yn mysg y rhai yr ydoedd meibion Scefa a'u plaid (*Act* xix. 14), Hymeneus ac Alexander (1 *Tim*. i. 20; 2 *Tim*. iv. 14), a Phygelus a Hermogenes: 2 *Tim*. i. 15.

Yn mysg brodorion enwog o Ephesus yn yr hen amseroedd, gellir crybwyll Apelles a Parrhasius, cydymgeiswyr enwog fel darlunwyr. Yr oedd y blaenaf yn gydoeswr ac yn gyfaill i Alexander Fawr; a'r llall yn ddysgybl enwog i Evenor. Ereill o enwogion Ephesus oedd Heraclitus, yr athronydd dyn-gasâol; Hipponax, bardd duchanol (*satirical*); Artemidorus, yr hwn oedd hanesydd a daiaryddwr. Gwnaeth amryw fordeithiau ymchwiliadol yn Môr y Canoldir, y Môr Coch, ac hyd yn oed, fel y tybir, yn Môr y De, &c. Yr oedd y gwaith a gynnwysai ffrwyth ei ymchwiliadau yn un ar ddeg o lyfrau, yr hwn a dalfyrwyd gan Marcianus. Y mae y gwaith gwreiddiol wedi colli, ond y mae darnau o dalfyriad Marcianus ar gael hyd heddyw. Nid ydyw hawl Ephesus i glod am wreiddioldeb yn y celfyddydau coeth ond bychan, medd y Dr. Beard; ac y mae fyniant dirfawr swyngyfaredd yn y ddinas yn dangos nad oedd gwreiddiad ond arwynebol yno, nes yr aeth Paul a'i gydlafurwyr yno.

Ymwelwyd ac archwiliwyd safle yr hen Ephesus gan amryw deithwyr yn ystod y ddau gan mlynedd diweddaf; a rhoddwyd dysgrifiadau mwy neu lai helaeth a manwl o'r lle a'i adfeilion gan Pococke, Turnefort, Spon a Wheler, Chandler, Poujoulat, Prokesch, Beaujour, Schubert, Arundell, Fellows, a Hamilton. Yn mysg yr hen deithwyr, Chandler a rydd yr hanes cyflawnaf; ac yn mysg y rhai diweddaf, Hamilton ydyw y mwyaf cyflawn. Ceir rhai golygiadau rhagorol yn yr ail gyfrol o'r *Ionian Antiquities*, a gyhoeddwyd gan y Dilettanti Society. Y mae gan Leake, yn ei *Asia Minor*, ddadl ar faint ac arddull y deml. Y mae yr holl fangre yn awr yn gwbl anghyfannedd, oddi gerth y pentref Tyrcaidd bychan yn Ayasaluk. Y mae yr adfeilion yn dra eang, ar y Coressus ac ar y dyffryn; ond y mae ammheuaeth mawr yn ffynu gyda golwg ar amryw fanylion lleol.

Pa fodd bynag, y mae yn dra boddhaol fod sefyllfa y chwareufa (*theatron*), ar Fryn Prion yn hollol sicr. Dywed Fellows y rhaid ei bod yn un o'r rhai mwyaf yn y byd. Y mae sefyllfa y deml yn ammheus; ond y mae yn debyg y safai lle y mae pentyrau mawrion o adfeilion ar y tir isel, mewn llawn olwg ar y chwareufa. Gellir rhoddi cyfrif am ddiflaniad y deml o'r golwg mor llwyr, mewn rhan o blegid cyfodiad y tir, ac mewn rhan am fod ei hadfeilion yn cael eu defnyddio yn barhaus mewn adeiladau yn y canol oesoedd. Dywedir fod rhai o'i cholofnau yn St. Sophia, yn Caer Cystenyn, ac hyd yn oed yn eglwysydd cadeiriol Italy.

Pa mor deilwng bynag y gall yr eglwys oedd yn Ephesus fod, yn ei dyddiau boreuaf, o'r clod a roddwyd iddi am ei "gweithredoedd, ei llafur, a'i hamynedd" (*Dad*. ii. 2), ymddengys iddi "adael ei chariad cyntaf" (*adn*. 4), ac mai ofer y dywedwyd wrthi—"Cofia, gan hyny, o ba le y syrthiaist, ac edifarha, a gwna y gweithredoedd cyntaf; ac onid e, yr wyf fi yn dyfod atat ti ar frys, ac mi a symmudaf dy ganwyllbren di allan o'i le, onid edifarhei di;" *adn*. 5. Os bu y rhybudd difrifol hwn yn achos o ryw fath o edifeirwch, ni bu ei effeithiau yn barhaol; canys y mae y lle yn brawf arswydus, er ys hir amser, o wirionedd y brophwydoliaeth, ac o sicrwydd y bygythion dwyfol, cystal ag yn destyn priodol o fyfyrdod dwys i bob Cristion. Y mae ei thynged wedi bod yr un a'r saith eglwys oedd unwaith yn flodeuog yn Asia—yr un, yr wir, a'r holl wlad, yr hon unwaith ydoedd fel gardd, ond a aeth wedi hyny yn ddiffaethwch anghyfanneddol. Y mae canolbarthau gwareiddiad, y manau lle yr oedd cydgasgliad o bob peth dymunol a choeth, yn awr wedi myned yn ysglyfaeth i ddystawrwydd, dinystr, ac angeu. Fel hyn y mae Ephesus—a gyssegrwyd yn gyntaf oll i eilunaddoliaeth mawreddog a rhodresgar, ac wedi hyny i Gristionogaeth, yr hon a feddai demlau bron mor ardderchog yno a'r un baganaidd, lle y cwmpodd delw Diana fawr o flaen y groes; ac yn mhen ychydig ganrifoedd wedi hyny, rhoddodd Iesu le i Mahomed, a dysgleiriai lluman y Twrc ar ucheldérau diweddar yr Eglwys Gristionogol. Ac yn mhen ychydig ugeiniau chwaneg o flyneddoedd, gwelwyd Ephesus heb na theml, na chroes, na lluman Tyrcaidd, na dinas—dim ond "anghyfannedd-dra, tir cras, ac anialwch." Fe enciliodd hyd yn oed y môr o olygfa y difrod, a chymmerodd corsle heintus, llawn llaid a brwyn, le y dyfroedd prydferth a ddygent longau godidog, llawn o nwyddau masnachol, i'r ddinas o bob parth o'r

Digitized by Google

byd adnabyddus.—(*Herodotus: Livius; Pausanias; Philo; Creuzer; Arundell; Perry; Guhl; Biscoe; Smith; Kitto; Penny Cycl.*, &c.)

EPHESUS, CYMMANFA GYFFREDINOL. Cymmanfa oedd hon a gynnaliwyd yn Ephesus, yn y flwyddyn 449 B. A., mewn cyssylltiad âg athrawiaeth Eutychus am ddynoliaeth Crist. Yn gymmaint ag i'w gwir amcan gael ei wyrdroi er dyrchafu golygiadau plaid neillduol, er mai cyffredinol a ddylasai fod, fe'i dilewyd hi oddi ar daflen y cymmanfaoedd eglwysig rheolaidd gan y gymmanfa a gynnaliwyd yn Chalcedon ar ei hol. Yr oedd ei hysbryd a'i chanlyniadau yn cael eu cysgodi yn lled eglur yn y mesurau a gymmerwyd i'w dwyn oddi amgylch. Yr oedd y cyhoeddiad ymherodrol, yn yr hwn y mynegid mai ei gwir ddyben fyddai llwyr ddiarddel yr arch-heresi Nestoriaidd, ac na oddefid i neb siarad heb ei fod yn hollol gydsynio â'r credoau Niceaidd ac Ephesiaidd, ac yn barod i ymostwng yn llwyr ac ebrwydd i farn y llywyddion—y gorchymyn i ddal pawb a geisient godi rhagfarn at y ffydd sanctaidd, yn nghyd â'r awdurdod a roddwyd i'r llywydd i alw milwyr at ei wasanaeth—diarddeliad llwyr pob un a gymmeradwyai y ffurf o athrawiaeth a benderfynwyd yn Antioch, yn enwedig yr eiddo Theodoret, a hyny yn unig am ddarfod iddo ef siarad yn erbyn golygiadau Cyril; ac ar y llaw arall, derbynid yr abad penboeth Barsumas, fel cynnrychiolydd mynachaeth y dwyrain:—yr oedd y rhagdrefniadau hyn, ac ereill, yn dangos yn eglur na fwriadwyd i'r gymmanfa ddyfod i benderfyniad anmhleidgar yn nghylch Eutychus, nac i amddiffyn a llwyddo y gwirionedd mewn un modd; ond yn unig er mwyn cymmeradwyo cuddamcanion blaenorol y blaid lywodraethol. Rhoddwyd y llywyddiaeth i'r patriarch Dioscurus o Alexandria. Efe a ddilynodd Cyril yn y flwyddyn B. A. 444, ac yr oedd yn ddyn o uchelgais a threisgarwch dihefelydd. Gan ei fod yn arfer ystyried yr Aipht fel ei dalaeth neillduol ei hun, rhoddai orchymyn am bob peth yn ol ei ewyllys, ac edrychai ar ledaeniad yr athrawiaethau Alexandriaidd, a hwy yn unig, fel moddion i gryfhau a llwyddo ei gynlluniau dwfn ei hun; a meddyliai fod pob peth yn iawn oedd yn angenrheidiol er eu cwblhad. Gan ei fod yn arfer ei hun fathru bob deddf, wladol ac eglwysig, ni oddefai i neb ddadgan ei feddwl yn rhydd heb ei gospi. Mewn trefn iddo ef allu ar unwaith osod lliw o heresiaeth groes i addysgiadau y tadau ar bob peth a wahaniaethai oddi wrth yr athrawiaeth Alexandriaidd, cafodd yr anerchiad ar agoriad y gymmanfa ei gyhoeddi y byddai pob cyfnewidiad ar y credoau Niceaidd ac Ephesiaidd, fel y derbynid hwynt yn gyffredinol, neu unrhyw ymchwiliad iddynt neu ymdriniaeth arnynt, yn anoddefadwy; yn gymmaint ag y taflai hyny anmheuaeth ar ras yr Ysbryd Glân, dan ysbrydoliaeth yr hwn y ffurfiwyd y credoau. Derbyniodd y ddichell hon gymmeradwyaeth uchaf y gynnulleidfa ddi-bwyll. Ar ol i Eutyches gael ei wysio yn mlaen, darllenwyd un o'i ddeisebau, yn yr hon, ar ol dadgan yn ddifrifol ei ymlyniad cryf wrth y gyffes a dderbyniwyd yn Nice ac Ephesus, gan gondemnio pob heretic, o Simon y swynwr hyd Nestorius, y gofynai yn daer am amddiffyniad ac ymchwiliad o'r newydd. Mor fach oedd gofal y gymmanfa am ymddangos yn anmhleidgar, fel y gwrthodasant roddi gwrandawiad priodol i Eusebius, esgob Dorylaum, a chyhuddwr Eutychus. Gyda deheurwydd mawr hefyd y llwyddodd Dioscurus i attal gohebiaeth yr esgob Leo o Rufain, yr hon oedd wedi ei sicrhau trwy lw, rhag cyrhaedd y gymmanfa. Ar ddarlleniad actau y gymmanfa daleithiol a gynnaliwyd yn Nghaer Cystenyn, yn B. A. 448, pan y daethpwyd i'r man lle y cydnabyddid dwy natur yn Nghrist ar ol ei ymgnawdoliad, ymdorodd y cyfarfod i'r annhrefn mwyaf, a gwaeddai y dyrfa: "Ymaith âg Eusebius! llosger ef yn fyw! fel y mae efe wedi rhanu Crist, felly rhwyger yntau yn ddau ddarn!" Cafodd Eutychus, yr hwn a gydnabyddid yn uniongred, yn ol y cyffesiadau Alexandriaidd, ei adferyd i'w swydd a'i urddas; a'r un pryd cafodd mynachod ei glasordai, ar ol adnewyddu eu proffes o ffydd, eu derbyn drachefn i gymundeb yr eglwys. Yr oedd yr ail gadarnhad hwn o'r athrawiaethau Ephesiaidd yn effeithio mewn modd anuniongyrchol i sefydlu yr athrawiaeth Alexandriaidd am un natur fel yr unig olygiad uniongred, a hefyd i adgyweirio y ddeddf Ephesiaidd, na oddefid i neb ddysgu dim gwrthwyneb, na chyfnewid dim mewn un modd ar y ffydd addefedig. Annelwyd y dyrnod hwn yn uniongyrchol at Flavianus ac Eusebius o Dorylaum, er bod ereill o esgobion enwog y dwyrain, megys Theoderet, Domnus o Antioch, ac Ibas o Edessa, yn cael eu cymmeryd dan yr anathema hon. Cariwyd y bleidlais drwy gymmeradwyaeth unfrydol; yr unig lais gwrthwynebol a glywyd oedd yr eiddo Hilarus, un o genadwyr y pab. Gwnaeth Flavianus appeliad llafarol ac ysgrifenedig at esgob Rhufain, ac at gymmanfa arall, a gynnullwyd ganddo ef yn Italy. Llywodraethodd Dioscurus y gynnulleidfa ddychrynedig o'r dechreu i'r diwedd trwy fygythion. Pan na byddai pleidlais o'r genau wrth ei fodd, galwai ef am godiad dwylaw. Bu llawer o'r aelodau yn ddigon gwan i alw yn ol y gyffes o ddwy natur a wnaethent yn Nghaer Cystenyn, nes peri fod y gwarthrudd o fod wedi ffugio yr actau yn cael ei daflu ar Flavianus. Dywedid wrth y rhai a lefarent ar ol iddo ef gael ei gondemnio—"Yr hwn ni chydsynia, caiff fi yn elyn." Ar ol i'r ddedfryd gael ei darllen, pan y cyfododd am ryw o'r esgobion, gan gofleidio ei liniau ac erfyn arno beidio bod yn euog o'r fath weithred anghyfiawn tuag at ddyn diniwed, efe a'u bwriodd yn ol gyda ffyrnigrwydd, gan waeddi; pe torid ei dafod ef allan, ni allai gyhoeddi barn wahanol! Yn falch o'r cyfle, efe a waeddodd allan, nes yr oedd ei lais yn adsain fel taranfollt drwy y lle: "Yr ydych yn codi terfysg! swyddogion, deuwch yma!" Dyma yr arwydd i ddechreu y golygfeydd gwarthruddfawr hyny a bardduant y gymmanfa hon, tra y pery syniad o gyfiawnder yn mynwes dyn, â'r enw o "Gymmanfa Lladron." O'r tu ol i'r milwyr a ddaethant yn awr i'r eglwys, ymruthrodd haid o fynachod penboeth, yn nghyd â thyrfa o wehilion y dref. Gosodwyd llen o bapyr gwyn o flaen yr esgobion; a'r waedd oedd, "Torer i lawr bob dyn a sonia am ddwy natur, neu a wrthyd gydsynio." Yr oedd y rhai a betrusent yn cael eu baeddu a'u cloi i fyny yn yr eglwys. Anfonwyd ysgrifenyddion yr esgobion annibynol ymaith oddi wrth y byrddau, rhag iddynt gofnodi hanes y gweithrediadau ysgeler, a'u gwneyd yn gyhoeddus. Yr oedd y mileindra mor fawr fel y tarawodd Dioscurus Flavianus i lawr, gan ei fathru dan ei draed, er mai Barsumas a gyhuddwyd yn Chalcedon fel ei lofrudd. Diangodd Hilarus, y diacon Rhufeinig, drwy anhawsder mawr, a chyrhaeddodd Rhufain yn ddirgel; yr

oedd wedi gwrthdystio yn ddifrifol yn erbyn eu penderfyniadau, fel rhai hollol anghysson â'r ffydd Gatholig, a chyhoeddi na chaent byth gydsyniad y gadair apostolaidd. Dyna, o ran sylwedd, oedd nodwedd a therfyniad cymmanfa Ephesus, am yr hon y dywedodd yr ymherawdwr Theodosius II, ond dan ddylanwad camarweiniad yn ddiau, nad oedd dim yn ei gweithrediadau yn groes i reol ffydd a chyfiawnder, ond ei bod wedi chwanegu at dangnefedd, a chydfod, a gwirionedd yn yr eglwys.—(*Herzog's Real Encycl.*)

EPHLAL, [אפלל=*barn; 'Αφαμήλ*]: disgynydd o Iudah, o deulu Hezron ac o Ierameel: 1 *Cron.* ii. 37.

EPHOD, [אפד=*gwregysu*, neu *rwymo;* Groeg, *ἐπωμίς*]: yr arwisg, neu y fantell fer a wisgai yr archoffeiriad Iuddewig ar ei wisg laes yn nghyflawniad ei ddyledswyddau. Perthynai ar y cyntaf yn wisg sanctaidd briodol i'r archoffeiriad yn unig (*Exod.* xxviii. 4), ond gwisgwyd hi wedi hyny gan yr offeiriaid cyffredin (1 *Sam.* xxii. 18), ac ystyrid hi fel un o angenrheidiau ei swydd: 1 *Sam.* ii. 28; xiv. 3; *Hosea* iii. 4. Gwisgwyd math o ephod gan Samuel pan yn fachgen yn gwasanaethu yr Arglwydd (1 *Sam.* ii. 18), a chan Dafydd, pan y dygodd yr arch i Ierusalem: 1 *Sam.* xxii. 18. Yr oedd hon yn wahanol i ephod yr archoffeiriad o ran ei defnydd. O lian cyffredin y gwnaed hon, tra yr oedd y llall wedi ei gwneyd "o aur, sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd o waith cywraint." Yr oedd yr ephod yn gynnwysedig o ddau ddarn, y rhai a grogent i lawr y ddwyfron o'r cefn. Yr oedd y ddau ddarn yn cael eu dal yn nghyd ar yr ysgwyddau â boglynau aur. Yn mhob un o'r rhai hyn yr oedd maen onyx wedi ei osod, ac ar bob maen enwau chwech o lwythau Israel. O gylch y canol yr oedd deuben yr ephod yn cael eu cyssylltu â gwregys wedi ei weithio yn gyffelyb. Ar yr ephod, a thros y fynwes, yr oedd y "ddwyfroneg barnedigaeth," yn bedairongl—rhychwant o hyd, a rhychwant o led. Yr oedd wedi ei gwneyd fel math o bwrs neu logell, yn gyffelyb o ran gwaith a defnydd i'r ephod, ac yn cael ei chyssylltu â hi wrth yr ysgwyddau â mân gadwynau o aur pur. Rhedai y cadwynau hyn trwy fodrwyau ar gyrau y ddwyfroneg, a chylyment eu penau yn y boglynau ar ysgwyddau y ddwyfroneg. Ar y ddwyfroneg hon yr ydoedd pedair rhes o feini gwerthfawr, tri maen yn mhob rhes, ac ar bob maen yn ysgrifenedig enw un o ddeuddeg llwyth Israel. Ar wyneb y ddwyfroneg, o'r tu blaen, yr oedd yr Urim a'r Thumim. Ymddengys mai y wisg hon, mewn ffurf gyffelyb, oedd y wisg offeiriadol yn yr hen amseroedd, ac yn mhlith y cenedloedd hynaf. Ceir yn mhlith adfeilion Persepolis ddarluniau o bersonau mewn gwisg gyffelyb. Gan hyny, os oedd yr ephod yn perthyn yn briodol i'r gwisgoedd offeiriadol, neu yn cael ei gwisgo ar y gwyliau, nid yw yn rhyfedd yn y byd ein bod yn ei chael wedi ei gwneyd o lian cyffredin, yn ol fel y defnyddid hi gan yr offeiriaid cyffredin, a chan Dafydd. Gan fod yr ephod yn cael ei hystyried yn Israel fel gwisg swyddol yr archoffeiriad, yr oedd ei gwisgo yr un peth a bod yn archoffeiriad: 1 *Sam.* ii. 28; xiv. 3. Nid oedd y Lefiaid yn arfer gwisgo yr ephod yn wastad: ac ni phenododd Moses ddim neillduol yn nghylch eu gwisgoedd hwy. Ond ar gyssegriad teml Solomon, yr oedd y Lefiaid a'r cantorion, y rhai nad oeddynt o urdd yr offeiriaid, wedi eu gwisgo â llian main. Sylwa Josephus fod y Lefiaid, yn amser y brenin Agrippa, ac ychydig cyn cymmeriad Ierusalem gan y Rhufeiniaid, wedi dymuno ar i'r tywysog hwnw alw Sanhedrim, i'r dyben iddynt hwy gael y rhagorfraint o wisgo y wisg o lian main, fel yr offeiriaid. Gwenieithient i Agrippa y chwanegai hyn at ogoniant ei deyrnasiad. Cydsyniodd Agrippa; ond sylwa yr hanesydd fod hyn yn drosedd ar ddeddfau eu gwlad, y rhai na chawsant eu troseddu erioed o'r blaen yn ddigerydd. Yr ydym yn cael fod yr ephod yn wisg a ddefnyddid weithiau mewn addoliadau paganaidd. Gwnaeth Gedeon ephod allan o ysbail y Midianiaid. Parodd y swm anferth o aur a ddefnyddiodd Gedeon (*Barn.* viii. 26) i wneuthur yr ephod hon, i Gesenius roddi *eilundduw* yn ystyr i'r gair gwreiddiol, megys pe hwnw, ac nid yr offeiriad, a wisgwyd â'r ephod; ond nid oes un prawf bod yr eilun wedi ei wisgo felly, ac nid ydyw y syniad o hyny yn gysson â'r defnydd cyffredin a wneid o honi.—(*Smith, Kitto, Herzog's Real Encyclopædia, Calmet,* &c.)

2. EPHOD, [אפד; Ἐφούδ]. Yr oedd Haniel, mab Ephod, fel pen llwyth Manasseh, yn un o'r dynion a benodwyd i gynnorthwyo Iosuah ac Eleazar pan yr oeddynt yn rhanu Gwlad Canaan. *Num.* xxxiv. 23.

EPHPHATHA. Gair Syriaeg yn arwyddo *ymagor.* Dywedwyd ef gan y Gwaredwr pan yn iachau y dyn byddar, oedd âg attal dywedyd arno, ger llaw Môr Galilea: *Marc* vii. 34.

EPHRA: dinas yn Ephraim oedd hon, a lle genedigaeth Gedeon. Y mae ei gwir safle yn anhysbys; ond tybir mai yr un yw ag Ophrah: *Barn.* vi. 11.

EPHRAM, [y ffurf Syriaeg o *Ephraim*]. Yr hwn a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw Ephram Syrus, ydyw y mwyaf hynod o'r tadau eglwysig Syriaidd yn y bedwaredd ganrif, a'r un modd yr areithiwr a'r emynwr enwocaf. Yr oedd mor hynod am ei dduwioldeb, fel y cyssylltodd y Maroniaid y gair *mar*="arglwydd," â'i enw. Gelwid ef "colofn yr eglwys," "y prophwyd Syriaidd," "y genau deniadol," ac fel bardd duwiol, yn "delyn yr Ysbryd Glân." Ganwyd ef yn Mesopotamia, fel y dywed ef ei hun yn ei esboniad ar Genesis. Yn ol Sozomenus, a'r bywgraffydd Syriaidd, y lle y ganwyd ef ydoedd Nesibis; yn nechreu teyrnasiad Cystenyn Fawr, er ei fod yn byw hefyd yn Edessa. Dywedir mai offeiriad paganaidd ydoedd ei dad, yr hwn a gospodd ei fab am ymddyddan â Christion. Cymmerodd Jacob, esgob Nesibis, y bachgen dan ei amddiffyniad; addysgodd ef; ac wedi hyny gosododd ef yn athraw yn yr ysgol a sefydlasai efe. Dywedir hefyd ddarfod i'r esgob ei gymmeryd gydag ef i gymmanfa Nice; ond y mae hyn yn ammheus. Astudiodd yr Ysgrythyrau yn ddwys, a daeth yn ddysgedig fel duwinydd. Cyrhaeddodd yn fuan enwogrwydd mawr yn mhlith ei gydoeswyr, am ei olygiadau cywir, a'i dduwioldeb neillduol. Yn y flwyddyn B. A. 363, pan roddodd Jovinian Nesibius, yr ymherawdwr, i fyny i'r Persiaid, symmudodd Ephram i diriogaeth Rufeinig. Bu fyw dymmor yn Amed—lle genedigaeth ei fam—ac ymsefydlodd o'r diwedd yn Edessa, yr hon a ystyrid eisoes fel prif ffynonell dysgeidiaeth Syria. Daeth yno i gydnabyddiaeth â'r meudwyod; dewisodd fywyd myn-



Digitized by Google

achol, a bu fyw fel mynach mewn ogof ger llaw y ddinas. Arferai yno, trwy weddi ac ympryd, astudio yr Ysgrythyrau ac ysgrifenu llyfrau duwinyddol, gan fynych bregethu edifeirwch i'r mynachod a'r bobl, a gwrthwynebu o ddifrif bob math o gyfeiliornad ac eilunaddoliaeth. Yn ei weithiau dadleuol, efe a wrthwynebai y gwahanol ffurfiau o eilunaddoliaeth a ffynent yn ei amser ef—y ser-ddewiniaeth Galdeaidd, heresiau Bardesanes a Harmonius, Arius a Sabellius, y Manicheaid a'r Novatiaid, Apollinariaid, Marcion, &c. Dywedir hefyd ddarfod iddo sefydlu ysgol yn Edessa, yr hon a barhaodd wedi ei farwolaeth. Mewn adeg led ddiweddar yn ei fywyd, cymmerodd daith i'r Aipht, a threuliodd yno, medd traddodiad, wyth mlynedd yn mhlith meudwyod y wlad, ac ysgrifenodd amryw lyfrau yn yr iaith Goptaidd. Aeth wedi hyny i Cesarea, yn Cappadocia, er mwyn dyfod i adnabod Basilius Fawr, yr hwn a'i derbyniodd yn dra anrhydeddus, ac a'i hordeiniodd yn ddiacon. Nid arosodd yno yn hir. Dychwelodd yn fuan i Edessa, lle y bu farw yn ystod teyrnasaid yr ymherawdwr Valens. Bu hyn, medd rhai, yn y flwyddyn B. A. 373, ond fe allai na bu cyn B. A. 378.

Yr oedd Ephram yn ysgrifenwr duwinyddol cynnwysfawr a thra enwog. Ceir rhai o'i weithiau yn y Syriaeg, ereill wedi eu cyfieithu i'r Groeg, y Lladin, a'r Armeniaeg. Y mae yr ysgrifeniadau Groeg a briodolir iddo, ac sydd ar gael yn awr, yn cynnwys yn benaf bregethau, homiliau, a thraethodau ysbrydol, o nodwedd esboniadol, ymhoniadol, a meudwyaidd. Yr oedd Photius yn gydnabyddus â deuddeg a deugain o'r cyfryw ddarnau, a thybiai fod dros fil o honynt yn bod. Meddylia Sozomen hefyd y rhaid ei fod wedi ysgrifenu tri chan myrddiwn o bennillion. Sonia am ei draethodau barddonol yn erbyn Bardesames a Harmonius, a dywed fod ei ysgrifeniadau eisoes wedi eu cyfieithu i'r Groeg tra yr oedd yn fyw. Cadarnheir y dystiolaeth hon gan Chrysostom a Jerome. Bu amryw o bregethau Ephram yn cael eu darllen yn addoliad dwyfol yr eglwysi dwyreiniol ar ol y gwersi Ysgrythyrol; ac anrhydeddwyd hwy yr un modd yn y gorllewin, wedi eu cyfieithu i'r Lladin. Am ysgrifeniadau Ephram yn y Syriaeg, gellir nodi, yn gyntaf, ei esboniad ar lyfrau y Beibl. Cafodd yr esboniad hwn, o leiaf ar y Pum Llyfr, ei ysgrifenu yn ystod y rhan olaf o'i oes; canys efe a gyfeiria ynddo at ei homiliau. Nid yw yr esboniad ar y Salmau wedi ei roddi yn yr argraffiad Rhufeinig o'i waith, a dywed golygwyr hwnw nas gallent ddyfod o hyd i lawysgrifau o'r esboniad ar y Testament Newydd, er y tystia ysgrifenwyr Syriaeg diweddarach ddarfod iddo esbonio yr efengylau. Y mae genym gyfieithiad Armeniaidd o'i esboniad ar epistolau Paul. Felly y mae dywediad Gregory o Nyssa, ddarfod i Ephram esbonio yr holl Feibl, o "lyfr cyntaf creadigaeth hyd lyfr olaf gras," yn llythyrenol a hollol wir. Y mae y gweddill o ysgrifeniadau Syriaeg Ephram wedi eu cyfansoddi ar gân; hyny yw, yn llinellau ogyhyd—seithsill yw yr hyd cyffredin. Y maent hefyd wedi eu ffurfio yn bennillion, o bedair llinell i ddeuddeg yr un. Anfynych y talai efe y sylw lleiaf i acen ac odl; a phan y gwnai, ni byddai y pryd hwnw yn dilyn un rheol neillduol. Ei gyfansoddiadau tyneraf yn unig oedd yn meddu gwir deilyngdod barddonol; megys ei alarnadau, ei farwnadau, a'r darnau areithyddol yn mha rai y mae yn dysgrifio barnedigaethau Duw, poenau y damnedigion, dychrynfeydd marwolaeth, gallu a gwynfyd ffydd, cariad y Gwaredwr, a'r cyffelyb.

Yr oedd Ephram yn ddyn uniawn a chywir. Yr ydoedd mewn anrhydedd mawr yn yr hen eglwys Syriaidd fel campwr y ffydd uniongred, yn gystal ag fel areithiwr selog a phoblogaidd, ac ysgrifenwr duwinyddol. Nid yw gwerth athrawiaethol ysgrifeniadau Ephram wedi ei ddangos eto yn gyflawn: y mae Hahn, Uhlman, ac ereill wedi gwneuthur hyny mewn rhan. Y mae Zingerle a Burgess yn gwerthfawrogi teilyngdod barddonol ei weithiau. Ysgrifenai efe i'r bobl yn benaf; ac o blegid hyny dewisodd ysgrifenu mewn mesur, yn ol y dull yn mha un yr oedd heresiau Bardesanes a Harmonius wedi cael eu lledaenu mor helaeth. Yr Ysgrythyrau, o ran ffurf a chynnwys, oedd sylfaen ei holl ysgrifeniadau; eto, ni phetrusai eu gosod mewn gwedd farddonol neu areithyddol, neu ddwyn i mewn ambell i draddodiad anghanonaidd. Yr oedd cryn lawer o addurn allanol o amgylch ei ysgrifau. Gwyddai pa fodd i gynhyrfu ofn a dychryn pan yn darlunio i'r pechadur ei gosp, neu farnedigaethau Duw ar dynged y damnedigion; ond gwyddai hefyd pa fodd i galonogi a chysuro, pan yn pregethu am obaith yr enaid crediniol, neu am lawenydd yr iachawdwriaeth dragwyddol. Clywid ei bregethau yn adsain mewn tônau melus a hyfryd pan y darluniai orphwysfa dawel y cyfiawn, a llawenydd calon y credinwyr; ond yr oedd fel y daran a'r rhyferthwy pan y cystwyai y cyfeiliornwr, neu y ceryddai falchder ac ystyfnigrwydd. Yr oedd yn siaradwr bywiog iawn a medrus, ac yr oedd mesur ei ddoniau barddonol yn dra chymhwys i'w wneuthur yn athraw rhagorol i'r bobl.

1. EPHRAIM—IAID, [אפרים, *gwlad ddyblyg, gefellwlad*, Gesen.; *ffrwythlondeb dyblyg*, Smith; *ffrwythlondeb*, Herzog; 'Εφραιμ]: ail fab Ioseph o'i wraig Asenath. Ganwyd ef yn ystod y "saith mlynedd o amldra;" a dichon fod cyfeiriad at hyn yn yr enw, er y dichon hefyd gyfeirio at deulu amlhaol Ioseph: "Efe a alwodd enw yr ail, Ephraim; o blegid, eb efe, Duw a'm ffrwythlonodd i yn ngwlad fy ngorthrymder;" *Gen.* xli. 52; xlvi. 20.

Yr arwydd cyntaf sydd genym o'r uchafiaeth hwnw a feddai Ephraim ar ei frawd hynaf Manasseh, am flyneddoedd lawer, ydyw yn mendith Iacob ar y plant (*Gen.* xlviii.)—pennod y mae y feirniadaeth lemaf wedi methu taflu y radd leiaf o ammheuaeth ar ei hoedran a'i chywirdeb. Yr oedd llygaid Iacob yn awr, fel llygaid ei dad ar amgylchiad tebyg, wedi tywyllu fel nas gallai weled: *Gen.* xlviii. 10; cymharer xxvii. 1. Bwriad Ioseph, yn ddiau, oedd i law ddeheu Iacob gael ei rhoddi ar ben Manasseh, ei gynfab; ac yr oedd wedi gosod ei feibion mewn trefn i hyny. Ond fel arall y bu. Yr oedd Iacob wedi bod ei hun yn fab ieuangaf; a dengys ei ymadroddion yn eglur nad oedd wedi anghofio hyn, a bod ei gydymdeimlad ef o hyd gyda'r ieuangaf o'r ddau ŵyr. Cofiai yr amser y ffoai gyda'r enedigaethfraint, rhag llid Esau; y diwrnod, ac efe eto yn grwydryn, yr ymddangosodd y Duw Hollalluog iddo ef yn "Luz, yn Ngwlad Canaan," ac y bendithiodd ef mewn geiriau oedd yn flaen-gysgod o'r enw Ephraim; a'r dydd hwnw y cyssylltwyd yr enw Ephrath âg un o drefalon llymaf ei oes: *Gen.* xlviii. 7; xxxv. 16. Ac fel hyn, er gwaethaf rhagdrefn a gwrthdystiad Ioseph, fe wnaed y mab ieuangaf, am yr ail waith yn y teulu hwn,

Digitized by Google

yn fwy na'r hynaf—gosodwyd Ephraim o flaen Manasseh: *Gen.* xlviii. 19, 20.

Ymddengys fod Ephraim tuag un ar ugain oed yr adeg hono. Ganwyd ef cyn dechreuad y saith mlynedd newyn, tua diwedd pa rai y daeth Iacob i'r Aipht, dwy flynedd ar bymtheg cyn ei farw: *Gen.* xlvii. 28. Yr oedd teulu Ephraim wedi cyrhaedd y drydedd genedlaeth cyn marw Ioseph (*Gen.* l. 23); a rhaid mai o gylch y pryd hwn y bu yr ymrafael a grybwyllir yn 1 *Cron.* vii. 21, pan y lladdwyd rhai o feibion Ephraim gan "ddynion Gath, o herwydd dyfod o honynt i waered i ddwyn eu hanifeiliaid hwynt," a phan y galwodd efe ei fab yn Beriah, er cof am y drygfyd a ddaeth ar ei dŷ ef. Y mae yr hanes hwn yn y Croniel yn llawn dyryswch. Y cwestiwn cyntaf a gyfyd yw, *Pa rai* o feibion Ephraim a laddwyd? Nid ymddengys fod yr holl bersonau a enwir yn feibion iddo ef. Suthelah ydyw y cyntaf a enwir, a nodir ei ddisgynyddion ef can belled ag ail Suthelah, os golygir fod yr ymadrodd *ei fab* yn arwyddo disgynydd uniongyrchol, fel y sylwa Houbigant. Yr ydym yn cael achlin gyffelyb o Beriah hyd Iosuah yn *adn.* 25—27. Yn ol fel y saif y testyn gwreiddiol, nid oes ond tri o feibion Ephraim yn cael eu henwi o flaen Beriah, sef Suthelah, Ezer, ac Elead; ac ymddengys i'r rhai hyn oll gael eu lladd gan ddynion Gath, er y dichon mai y ddau olaf yn unig a olygir. Yn y cyfrif a wnaed o deuluoedd Israel, crybwyllir yn Numeri am bedwar allan o lwyth Ephraim wedi hanu o Suthelah, Becher, a Tahan, ei feibion ef, ac o Eran, mab neu ddisgynydd Suthelah: *Num.* xxvi. 35, 36. Y mae yn debyg mai tylwythau Beriah a mab ieuangach yw yr ail a'r trydydd a enwir, os nad ydyw y trydydd yn eiddo Beriah, wedi ei alw ar ol Tahan, ei ddisgynydd: 1 *Cron.* vii. 25. Neu dichon fod un o honynt yn perthyn i ryw fab arall i Ioseph, yn gymmaint ag y dywedir ddarfod i Iacob benderfynu y caffai meibion Ioseph, y rhai a enid o hono ef ar ol Ephraim a Manasseh, eu galw "ar enw eu brodyr yn eu hetifeddiaeth;" *Gen.* xlviii. 6. Diau mai y tir yn mha un y ganwyd dynion Gath oedd y parth dwyreiniol o'r Aipht Isaf, os nad Gosen ei hun. Afraid yw dyweyd ddarfod iddynt gael eu geni yn eu gwlad eu hunain. Y mae yn rhaid fod y pryd hwn lawer iawn o estroniaid wedi ymsefydlu yn yr Aipht—yn enwedig yn Gosen a'i hamgylchoedd. Yn wir, sonir am Gosen, o ran ei thrigolion, fel pe na pherthynai i'r Aipht: *Gen.* xlvi. 34. Yn Llyfr Iosuah, y Sihor, sef y Nilus, yw terfyn yr Aipht a Chanaan; a thebyg yw yr ystyrid y tiriogaethau Philistiaidd fel yn ymestyn oddi wrthi hi: *Ios.* xiii. 2, 3. Y mae felly yn bur debyg y buasai llawer o'r Philistiaid yn ymsefydlu yn Gosen a'i hamgylchoedd—gwlad oedd mor agos atynt, ac mor debyg i Ganaan o ran ei phobl. Neu ynte, fe allai y rhai hyn o Gath fod yn gyflog-ddynion, fel y rhai a gedwid yn ngwasanaeth llywodraeth yr Aipht mewn amseroedd diweddarach, a hefyd gan Dafydd, i ba rai y rhoddid darnau o dir megys i'r fyddin gartrefol. Myn rhai mai dynion Gath oedd yr ymosodwyr cyntaf; a rhaid addef fod rhywbeth yn yr ymadrodd sydd yn cyfreithloni hyn; ond y mae pwys y dystiolaeth yn erbyn y dybiaeth hon, ac yn fwy cysson â rhediad yr hanes yn yr Ysgrythyrau. Ond er mor anhawdd ei esbonio yw yr adroddiad hwn, y mae yn ein cynnorthwyo i gael y cipolwg olaf ar y patriarch Ephraim, yn galaru yn ddigysur yn nghanol ei frodyr; ac o'r diwedd yn gwneuthur coffa am ei golled yn enw ei fab, yr hwn, yn ddiarwybod iddo ef, oedd i fod yn dad yr enwocaf o'r holl ddisgynyddion—Iosuah fab Nun: 1 *Cron.* vii. 27. Y mae yn debyg mai yr adeg hon y bu yr amgylchiad hwnw y sonir am dano yn *Salm* lxxviii. 9: "Meibion Ephraim, yn arfog ac yn saethu â bwa ['bwäau llac,' medd Ewald], a droisant eu cefnau yn nydd y frwydr." Sicr yw nad oes un esampl o hyn i'w gael yn eu hanes wedi hyny.

Nid yw rhifedi y llwyth ar unwaith yn dangos fod yr addewid o fendith Iacob yn cael ei chyflawnu. Pan y cyfrifwyd y genedl yn anialwch Sinai (*Num.* i. 32, 33; ii. 19), yr ydoedd rhif y llwyth yn 40,500, yr hyn a osodai y llwyth uwch ben plant Rahel; rhifai llwyth Manasseh y pryd hwn 32,200, a llwyth Beniamin 35,400. Ond yn mhen deugain mlynedd wedi hyny, pan ar fin buddugoliaethu (*Num.* xxvi. 37), tra yr ydoedd Manasseh wedi cynnyddu hyd 52,700, a Beniamin hyd 45,600, yr oedd Ephraim wedi lleihau hyd 32,500, heb fod ond llwyth Simeon (22,200) yn unig yn llai nag ef. Yr oedd Manasseh y pryd hwn o flaen Ephraim. Yn ystod y daith trwy yr anialwch, safai meibion Ioseph a Beniamin o'r tu gorllewin i'r tabernacl (*Num.* ii. 18—24), a thywysog Ephraim ydoedd Elisama fab Ammihud: *Num.* i. 10.

Yn adeg anfoniad yr ysbïwyr (*Num.* xiii), yr ydym yn cael gafael gyntaf ar y gwron mawr a ddygodd y fath enwogrwydd a mawredd i'r llwyth hwn. Yr ysbïwr dros lwyth Ephraim oedd "Osea mab Nun"—enw yr hwn a newidiodd Moses ar ddiwedd yr amgylchiad, gan ei alw o hyny allan, Iosuah. Dan yr arweinydd galluog hwn, rhaid fod y llwyth, er gwaethaf bychander ei rif, yn sefyll yn uchel yn y genedl; yr hyn a ellir ei gasglu oddi wrth ymddygiad trahaus yr Ephraimiaid amryw droion ar ol y goresgyniad.

Yn ol trefn bresennol y cofnodau yn Llyfr Iosuah, llwythau mawrion Iudah ac Ioseph (Ephraim a Manasseh) a gymmerasant eu hetifeddiaeth gyntaf; ac ar eu hol hwynt y saith llwyth arall: *Ios.* xv, xvi, xvii, ac xviii. 5. Nodir terfynau rhandir Ephraim yn *Ios.* xvi. 1—10. Mae'n amlwg fod yr ymadrodd mewn cryn annhrefn; a thra yr ydym ni yn anwybodus o'r tir-nodau, ac o ystyr lluaws o'r enwau celfyddydol a ddefnyddir i ddysgrifio y terfynau hyn, y mae yn anmhosibl cyrhaedd sicrwydd ar y pwnc. Cydredai cyfran o'r terfyn deheuol â therfyn gogleddol Beniamin. Dechreuai wrth yr Iorddonen, gyferbyn ag Iericho, ac ai yn mlaen hyd "ddyfroedd Iericho," yr hwn, mae yn debyg, yw yr Ain Sultân presennol; oddi yno ai heibio un o'r ceunentydd i fyny yr anialwch—y bryniau diffaeth ac anniwylliedig—i fynydd Bethel a Luz; ac oddi yno trwy Ataroth, yr "Iaphletiaid," Beth-horon isaf, a Gezer—pob un o ba rai, ond un, sydd anhysbys yn awr—hyd Fôr y Canoldir, yn rhywle o amgylch Ioppa, mae yn debyg. Cytuna hyn â'r cofrifiad yn 1 *Cron.* vii, lle y nodir Bethel fel y terfyn dwyreiniol, a Gezer, yr hon oedd rhywle o gylch Ramleh, fel y terfyn gorllewinol. Ceir yn *Ios.* xvi. 8, gyfran, mae yn debyg, o'r terfyn gogleddol (cymharer xvii. 10), os golygir *Nahr el Akhdar*, sydd is law yr hen Cesarea, fel yr afon Canah. Ond fe allai na bu unrhyw israniad penodol ar y diriogaeth a roddwyd i lwythau meibion Ioseph. Hyn yn ddiammheu ydyw y casgliad sydd i'w dynu oddi wrth yr hen ddernyn a geir yn Iosuah (xvii. 14—18), yn yr hwn y cwyna y ddau o blegid na roddwyd ond un rhandir iddynt. Modd bynag, os bu y fath is-ddos-

Digitized by Google

oedd diangfa Iehosaphat o frwydr Ramoth-Gilead bron yn wyrthiol, a thynged dau o'i ddilynwyr, sef Ahaziah ac Iosiah, oedd, ddarfod iddynt gael eu cludo yn farw yn eu cerbydau o wastadedd Esdraelon i Ierusalem.

O hyn allan, y mae hanes Ephraim, mewn dwy ystyr, yn hanes cenedl Israel; canys fe ddaeth y llwyth nid yn unig yn genedl, ond ni chynnwysai y genedl nemawr heb law y llwyth. Nid ydyw hyn yn rhyfedd, a gellir yn hawdd ei esbonio. Ymddengys na chymmerodd Israel erioed feddiant gwirioneddol o'r wlad yn ngogledd Ephraim. Pa un bynag ai diffyg ymdrech o'u tu hwynt, ai ynte ystyfnigrwydd a gwrthwynebiad mawr o du y Canaaneaid oedd yr achos, y mae hyn yn sicr, mai yn y llwythau gogleddol—Manasseh, Aser, Issachar, a Naphthali—yr ydoedd y nifer mwyaf o'r trefi, o ba rai ni yrwyd yr hen drigolion. Ac heb law y diffyg gwreiddiol hwn, y mae llawer yn ffurfiad anianyddol ac amgylchiadau y gyfrau uchaf o Palestina a eglura pa ham nad ymgymmerodd y llwythau hyn erioed âg ymladd rhyfeloedd y deyrnas. Yr oeddynt yn agored i ymosodiadau a chamarweiniad eu cymmydogion paganaidd—y Phœniciaid moethus ar un llaw, a'r Bedouiniaid anrheithgar o Midian ar y llaw arall; yr oeddynt yn agored i ymosodiadau o Syria ac Assyria yn y gogledd, ac o'r Aipht yn y deheu; yr oedd gwastadedd mawr Esdraelon, yr hwn oedd yn dwyn cyssylltiad â holl lwythau y gogledd, yn agorfa naturiol i'r ffyrdd o'r Aipht, a dyffryn yr Iorddonen i lwythau y dwyrain, a rhoddai gyfleusderau da i symmudiadau byddin elynol.

Ond o'r tu arall, yr oedd sefyllfa Ephraim yn wahanol. Yr oedd yn ffrwythlawn a hollol ddiogel yr un pryd. Nis gellid cyrhaedd ei wastadedd ffrwythlawn a'i ddyffrynoedd dyfrog heb ddringo trwy geunentydd serth a chul, ar hyd ffordd anhygyrch i fyddin. Nid oes hanes i un ymosodiad gael ei wneyd ar ganol y wlad, o ddyffryn yr Iorddonen nac o'r gwastadedd arforawl. Yr oedd yn haws i hyn gael ei wneyd o'r gogledd, o wastadedd Esdraelon; ac ymddengys mai o'r tu hwn y gwnaed yr ymosodiad diweddaf oll. Ond yr oedd y fynedfa mor ddyryslyd ac mor hawdd ei hamddiffyn o'r tu hwnw—megys y gwelir oddi wrth y dysgrifiad yn Llyfr Iudith (iv. 6, 7)—fel y gallesid gwrthsefyll ymosodiadau Salmaneser Fawr ei hun, megys y gwrthwynebwyd ymosodiadau Holofernes ar adeg fwy diweddar, pe na buasai am yr ymrysonfeydd a'r ymraniadau oddi mewn i'r wlad. Nid oes ond ychydig iawn o bethau yn yr Ysgrythyr Lân yn fwy galarus na hanes cwymp y llwyth trahaus ac eiddigus hwn o'r man uchel yr oedd ynddo, pan y cafodd y gyfran decaf o Wlad yr Addewid—prif gyssegr a phrif sefydliad y genedl o fewn ei derfynau, ei flaenor ef yn flaenor i'r holl genedl—trwy y diffyg ymddiried oedd ganddo yn barhaus yn ei gydlwythau, tra yr oedd yn aelod o'r cynghrair; a'r terfysg, yr ymraniad, a'r annuwioldeb oedd yn ei nodweddu pan yn ei sefyllfa annibynol, i lawr i'w gaethiwed disymmwth a'i ebargofiant llwyr, yr hyn a derfynodd ei yrfa. Byddai Iudah weithiau yn llwyddo, ac weithiau yn myned yn ol; ond yma, i lawr y rhedai yr yrfa bob cam, ac y mae ei hanes yn ddarlun byw hyd heddyw o gyfleusderau wedi eu dyfetha, a bendithion wedi eu camddefnyddio. "Pan oedd Israel yn fachgen mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aipht......Myfi hefyd a ddysgais i Ephraim gerdded, gan eu cymmeryd erbyn eu breichiau, ond ni chydnabuant mai myfi a'u meddyginiaethodd hwynt. Tynais hwynt â rheffynau dynol, â rhwymau cariad...ond yr Assyriaid fydd ei frenin, am iddynt wrthod troi...Pa fodd y'th roddaf ymaith, Ephraim? y'th roddaf i fyny, Israel? pa fodd y'th wnaf fel Admah ac y'th osodaf megys Seboim?" *Hos.* xi. 1—8.—(*Smith; Kitto; Herzog's Real Encycl.*)

2. EPHRAIM. "Yn Baalhasor, yr hwn sydd *wrth* Ephraim," yr oedd defaid Absalom yn cael eu cneifio, ac yma y llofruddiwyd Amnon, yr hwn oedd un o arwyddion cyntaf y gwrthryfel mawr: 2 *Sam.* xiii. 23. Y mae y gair Hebraeg עִם, a gyfieithir uchod *wrth* (yn y Deg a Thrigain, *ger llaw*), bob amser yn arwyddo agosrwydd gwirioneddol; ac felly y casgliad sydd genym i'w dynu yma ydyw mai tref a feddylir wrth Ephraim, ac nid y llwyth o'r un enw. Tybia Ewald mai yr un ydyw ag Ephraim, Ephron, ac Ophrah yn yr Hen Destament, ac hefyd â'r Ephraim y bu yr Arglwydd Iesu yn byw ynddi. Ond am y tri gair cyntaf, nis gellir yn hawdd penderfynu hyn, canys y maent yn cael eu sillebu gyda'r llythyren *ain*, yr hon ni chyfnewidir ond yn anfynych iawn am *aleph*, â'r hon y dechreuir y gair hwn. Fel y mae gwaethaf, nid yw yn bosibl yn awr penderfynu ei sefyllfa. Y mae y Deg a Thrigain yn chwanegu y dernyn canlynol at *adn.* 34 yn y bennod uchod—"A'r gwyliwr a aeth ac a fynegodd i'r brenin, ac a ddywedodd, Mi a welais ddynion ar ffordd yr Oronen, wrth ystlys y mynydd." Tybia Ewald fod y chwanegiad hwn yn un gwirioneddol, a'i fod yn cyfeirio at Beth-*horon*, yr hon a safai yn ngogledd-orllewin Ierusalem, ger llaw ffordd Nablûs; ond y mae yn sicr nad oes digon o reswm dros dynu y fath gasgliad. Y mae cymmaint o rym ag sydd ynddo yn troi yn erbyn y syniad mai yr un yw yr Ephraim hon a'r un a enwir yn *Ioan* xi. 54, yr hon oedd, mae yn debyg, yn ngogledd-ddwyrain Ierusalem.

3. EPHRAIM: dinas yn y "wlad yn agos i'r anialwch," i'r hon yr aeth ein Harglwydd a'i ddysgyblion pan y bygythiwyd hwy gan yr offeiriaid: *Ioan* xi. 54. Y mae yn debyg mai y parth gwyllt, anniwylliedig, a bryniog, oedd yn ngogledd-ddwyrain Ierusalem, a rhwng trefydd y canoldir a dyffryn yr Iorddonen, a feddylir wrth yr *anialwch* hwn. Os felly, gellir yn hawdd oddef tyb Dr. Robinson, mai yr un ydyw Ephraim ac Ophrah, ac mai y lle a saif ar eu hen fangre yw *et-Taiyibeh*—pentref bychan ar fryn amlwg, o'r hwn y gellir canfod "yr holl lechwedd dwyreiniol, dyffryn yr Iorddonen, a'r Môr Marw." Saif o bedair i bum milltir i'r dwyrain o Bethel, ac un ar bymtheg o Ierusalem.

EPHRAIM, PORTH: un o byrth dinas Ierusalem: 2 *Bren.* xiv. 13; 2 *Cron.* xxv. 23; *Neh.* viii. 16; xii. 39. Y mae yn bur debyg ei fod yn sefyll yn y tu hwnw i'r ddinas oedd yn wynebu ar y man oddi wrth ba un y derbyniodd y porth ei enw; canys dyna yr arfer yn y dwyrain. Felly, rhaid ei fod yn y gogledd, yn y man lle y saif "porth Damascus" yn awr, neu rywle yn agos.

EPHRAIM, COED: coed, neu yn hytrach coedwig, yn mha un yr ymladdwyd y frwydr fawr rhwng byddinoedd Dafydd ac Absalom, y dyrysweh yn mha un a barodd y fath ddinystr i fyddinoedd yr olaf: 2 *Sam.* xviii. 6, 8. Hawdd iawn fyddai credu ddarfod i'r goedwig dderbyn ei henw oddi wrth y man ger llaw pa un y bu

Digitized by Google

Absalom yn cneifio ei ddefaid, yr hwn oedd yn orsaf naturiol i'w fyddinoedd ef cyn y frwydr, yn enwedig fel yr oedd yn dwyn cyssylltiad â llofruddiad Amnon: 2 *Sam.* xiii. 23. Ond yn ngwyneb yr hyn a ddywedir yn xvii. 24, 26, yn nghyd â'r ymadrodd yn xviii. 3, "gwell yw i ti fod i'n cynnorthwyo ni allan o'r ddinas," hyny yw, Mahanaim, yr ydym dan orfod i gasglu fod y lle hwn ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, er bod yn anmhosibl dyweyd yn foddhaol pa ham y crybwyllir am yr enw Ephraim y tu hwnw i'r afon. Tybia Grotius y gall fod yr enw wedi ei gymmeryd oddi wrth y gyflafan a wnaeth y Gileadiaid ar Ephraim wrth rydiau yr Iorddonen (*Barn.* xii. 1, 4, 5); ond bu yr amgylchiad hwnw ar fin yr afon ei hun, pan y rhaid fod Mahanaim a'r goedwig yn sefyll amryw filltiroedd draw oddi wrth y ffrwd, ac ar dir uwch law dyffryn yr Iorddonen. Onid yw yn llawn mor debyg ddarfod i'r goedwig dderbyn ei henw oddi wrth y frwydr hon? Er nad ydyw llwyth Ephraim yn cael ei enwi yn mhlith y gwrthryfelwyr dan Absalom, eto mae'n rhaid ei fod yn cymmeryd y brif ran ynddo; ac yr oedd yr aflwydd yn fwy difrifol nag un a ddaethai ar y llwyth er ys amser maith: ac y mae yn ddigon posibl fod hyn, yn nghyd âg amgylchiadau ereill, wedi bod yn rhwystr cryf iddo ymgyfodi yn deyrnas annibynol.

EPHRAIN, [עפרין, Ephron=*hydd-debyg*; Ἐφρων]: dinas yn Israel, yr hon, yn nghyd â'i phentrefi, a gymmerodd Abiah a byddin Iudah oddi ar Ieroboam: 2 *Cron.* xiii. 19. Ysgrifenir y gair yn y cyfieithiad Cymraeg yn Ephraim; ond cymharer y gwreiddiol am hwn ac am Ephraim, ac fe welir y gwahaniaeth sydd rhyngddynt. Crybwyllir am y lle hwn mewn cyssylltiad â Bethel ac Iesanah; ond gan na wyddys pa le yr oedd y lle olaf, ni ellir penderfynu pa le y safai Ephraim oddi wrth yr hanes uchod. Tybiwyd mai yr un yw yr Ephraim neu yr Ephron yma ag Ephraim, wrth ba un yr oedd tir defaid Absalom; a'r ddinas o'r enw Ephraim oedd ger llaw yr anialwch, ac yn yr hon y bu yr Iesu yn byw am dymmor; ac âg Ophra, yr hon oedd ger llaw Bethel, a'r hon y tybia Dr. Robinson yw y pentref diweddar a elwir *et-Taiybeh.* Ond nis gellir cael mwy na thybiaeth ar y materion hyn.

1. EPHRATAH, neu EPHRATH, [אפרתה, neu אפרת=*ffrwythlawn*; Ἐφραθα ac Ἐφραθ]: yr hen enw ar Bethlehem Iudah, fel y mae yn amlwg oddi wrth *Gen.* xxxv. 16, 19; xlviii. 7; pa rai sydd yn profi yn eglur ei bod yn cael ei galw yn Ephrath neu Ephratah yn amser Iacob. Defnyddir yno yr un ymadrodd ag a ddefnyddir yn gyffredin pan yn chwanegu yr enw diweddar at yr hen, "hono yw Bethlehem;" gwel *Gen.* xxiii. 2; xxxv. 27; *Ios.* xv. 10. Felly nis gall fod wedi cymmeryd ei enw oddi wrth Ephratah, mam Hur; megys y dywed un awdwr, ac fel y gallai un dybied oddi wrth y cyssylltiad oedd rhwng ei ddisgynyddion, Salma a Hur, â Bethlehem, yr hyn a grybwyllir yn lled aneglur yn 1 *Cron.* ii. 50, 51; a iv. 4. Felly ymddengys yn eglur mai y casgliad gwirioneddol ydyw fod Ephratah, mam Hur, yn cael ei galw felly oddi wrth y dref yn mha un y ganwyd hi, ac mai hi oedd perchenog y dref a'r gymmydogaeth—yn wir, fod ei henw yn genedlaethol. Ond os yw hyn felly, yna y mae yn dangos fod mwy o gymundeb rhwng yr Israeliaid yn yr Aipht a'r Canaaneaid nag a feddylir yn gyffredin. Pa fodd bynag, pan y cofiwn mai gwlad Gosen oedd gwlad y terfyn o du Palestina; fod yr Israeliaid yn Gosen yn llwyth o yrwyr defaid a gwartheg (*Gen.* xlvii. 3); bod yn hawdd tramwy rhwng Gwlad Canaan a'r Aipht, o'r amseroedd boreuaf (*Gen.* xii. 10; xvi. 1; xxi. 21, &c.); bod awgrymiadau ar gael o ymdrafodaeth rhwng yr Israeliaid yn yr Aipht a'r Canaaneaid, drwy eu masnach fel ceidwaid anifeiliaid (1 *Cron.* vii. 21)—ac y mae yn naturiol casglu y buasai rhyw gydfasnach rhwng perchenogion neu geidwaid gyroedd a deadelloedd mawr yn Gosen a'r gwiblwythau yn Nghanaan—pan gofier y pethau hyn, fe allai nad ymddengys yn anmhosibl ddarfod i fab Hezron briodi gwraig oedd yn berchenog eiddo yn Ephratah. Ffordd arall i roddi cyfrif am y cyssylltiad oedd rhwng disgynyddion Ephratah a Bethlehem, ydyw tybied nad oedd yr hen Galeb mewn gwirionedd yn fab i Hezron, ond yn unig ei fod yn cael ei gyfrif felly fel pen ar dŷ Hezronaidd. Fel hyn, gallasai fod o lwyth Edomaidd neu Horaidd—syniad sydd yn ymddangos yn debyg oddi wrth enw ei fab Hur—ac wedi priodi Ephratead. Dichon mai ŵyr iddynt oedd Caleb yr ysbïwr. Y mae yn rhyfedd ddarfod i "Salma tad Bethlehem" briodi gwraig o Ganaan. A allasai hi fod mewn rhywfodd o dylwyth Caleb? Os oedd, ac os cafodd Salma Bethlehem, yr hon oedd yn gyfran o etifeddiaeth Hur, mewn canlyniad i hyny, byddai hyny yn rheswm pa ham y gelwir Hur a Salma yn "dad Bethlehem." Eglurhad arall a ellir ei roddi ydyw hwn:—gallasai yr enw *Ephratah* fod wedi cael ei roddi ar un o ferched Beniamin, er cof am farwolaeth Rahel ei fam ef, yn agos i Ephrath. Dichon fod hyn yn cael ei gadarnhau i raddau oddi wrth fod Ioseph, mab arall Rahel, yn galw mab iddo yn Ephraim—gair o'r un tarddiad ag Ephrath, fel yr ymddengys oddi wrth y ffaith fod y gair אפרתי (*Ephraim*), yn golygu yn o gystal Ephratead; hyny ydyw, Bethlehemiad (*Ruth* i. 1, 2), neu Ephraimiad: 1 *Sam.* i. 1. Ond ni byddai y rheswm dros fod disgynyddion Ephratah wedi ymsefydlu yn Bethlehem. Y mae awdwr y *Quæst. Hebr. in Paralip*, yn olrhain yr enw Ephratah o Ephraim. Ond y mae hyn yn anghysson âg ymddangosiad yr enw yn Genesis. Dichon fod yn anmhossibl cyrhaedd un sicrwydd ar y pwnc. Gan hyny, rhaid ymfoddloni ar ddyweyd ei fod yn Genesis, ac fe allai yn y Cronicl, yn cael ei alw yn *Ephrath* neu *Ephratah*—yn Ruth, yn *Bethlehem Iudah*, ond y trigolion yn *Ephrateaid*—yn *Micah* v. 2, yn *Bethlehem Ephratah*—yn *Mat.* ii. 6, yn *Bethlehem, tir Iudah.* Sylwa Jerome, a Kalisch ar ei ol, fod i'r gair Ephratah (*ffrwythlawn*) yr un ystyr ag sydd i'r gair Bethlehem (*tŷ bara*); ac y mae Stanley [*Palest. & Sin.*, td. 164], yn ei ddysgrifiad o ŷdfeusydd y gymmydogaeth fel pe byddai yn cadarnhau hyn.—(*Smith*, &c.)

2. EPHRATAH: ail wraig Caleb mab Hezron, mam Hur, a nain Caleb yr ysbïwr, yn ol 1 *Cron.* ii. 19, 50, ac fe allai 24, a iv. 4.

EPHRATEAD. 1. Un o breswylwyr Bethlehem: *Ruth* i. 2. 2. Ephraimiad: 1 *Sam.* i. 1.

1. EPHRON, [עפרון=*hydd-debyg*, Ges.; Ἐφρών]: mab Sohar, yr Hethiad; perchenog maes ger llaw Mamre, neu Hebron, a'r ogof oedd ynddo, yr hon a brynodd Abraham am bedwar can sicl o arian: *Gen.* xxiii. 8—17; xxv. 9; xlix. 29, 30; l. 13. Rhydd Josephus [*Hynaf.*, i. 14] yr enw yn

Digitized by Google

Ephraim; a'r swm a dalwyd am y tir yn ddeugain sicl.

2. EPHRON: dinas gadarn ar du dwyreiniol yr Iorddonen, rhwng Carnaim a Bethshean, yr hon a ddinystriwyd gan Iudas Maccabeus: gwel 1 *Mac.* v. 46—52; 2 *Mac.* xii. 27. Ymddengys oddi wrth y cyntaf o'r lleoedd hyn ei fod yn sefyll mewn math o ddyffryn cul, a'i fod yn llwyr lanw y bwlch. Y mae ei safle yn anhysbys hyd yma.

EPHRON, MYNYDD. Yr oedd "dinasoedd mynydd Ephron" yn ffurfio un o'r tir-nodau ar derfyn gogleddol llwyth Iudah, rhwng dyfroedd Nephtoah a Ciriath-iearim: *Ios.* xx. 9. Gan fod y ddau le diweddaf hyn, yn ol pob tebyg, yr un a'r Ain Lifta a'r Kuriet el-enab presennol, y mae yn debyg hefyd mai y rhes o fynyddoedd ar du gorllewin y Wady Beit-Hanina (dyffryn traddodiadol y Terebinth), ger llaw Lifta, yr hon a saif ar y tu dwyreiniol, yw mynydd Ephraim. Dichon ei fod yr un lle ag Ephraim.

ER, [ער=*effro*, Ges.; *gwyliadwrus*, Smith; Ηρ]. 1. Cyntafanedig Iudah, o ferch Suah, y Canaanead. Ei wraig ef oedd Tamar, i'r hon, wedi ei farw ef, y ganwyd Phares a Zarah, o Iudah. Yr oedd Er yn ddrygionus yn ngolwg yr Arglwydd; "a'r Arglwydd a'i lladdodd ef." Ni ddywedir beth oedd natur ei bechod; ond y mae yn debyg, oddi wrth y cyssylltiad ag oedd rhyngddo a'r Canaaneaid, trwy ei fam, ei fod yn rhywbeth oedd yn dwyn perthynas â'u heilunaddoliaeth hwynt: *Gen.* xxxviii. 3—7; *Num.* xxvi. 19.

2. Un o feibion Selah, mab Iudah: 1 *Cron.* iv. 21.

3. Mab i Gad: *Gen.* xlvi. 16.

4. Mab Iose, a thad Elmodam, yn achau yr Arglwydd Iesu. Yr oedd yn byw, mae yn debyg, tuag amser y brenin Uzziah: *Luc* iii. 28.

ERAN, [ערן=*eu gwyliadwriaeth*]: mab Suthela, cyntafanedig Ephraim: *Num.* xxvi. 36. Ni cheir yr enw yn achau Ephraim yn 1 *Cron.* vii. 20—29, er fod yno enw arall Eser (עזר), yr hwn a ddichon fod yn llygriad o hono. Eran oedd penteulu yr Eraniaid: *Num.* xxvi. 36.

ERASMUS, DESIDERIUS. Ganwyd Erasmus yn Rotterdam, ar yr 28ain o Hydref, 1467. Enw ei dad oedd Gerard. Ni phriodwyd ei rieni erioed; ac fe barodd y ffaith hon annedwyddwch yn ei fywyd ef ei hun, a dygodd warthnod ei wrthwynebwyr i orphwys arno fel cwmwl du ar hyd ei oes. Pan yn bedair mlwydd oed, anfonwyd ef i'r ysgol; ac o blegid fod ganddo lais da, a'i fod yn rhagori fel canwr, fe'i dewiswyd ef yn un o gantorion eglwys gadeiriol Utrecht. Yn ei nawfed flwydd, gosodwyd ef dan addysg Alexander Hegius, o Deventer. Dangosodd Erasmus, pan yn ieuanc, fod ganddo alluoedd mawr, a thynodd sylw gwŷr enwog. Yn 1480, bu farw ei dad a'i fam; ond yr oedd ei dad, cyn marw, wedi ei osod ef a brawd iddo yn ngofal tri o warcheidwaid. Yr oedd y tri hyn yn wŷr annheilwng; ac ar ol penderfynu ysbeilio y plant o'u heiddo, hwy a gytunasant i'w neillduo i fywyd tragwyddol. Anfonasant Erasmus i fynachdy yn Bolduc, lle y treuliodd dair blynedd o'i oes yn ofer. Anfonwyd ef oddi yno i fynachdy Seion, ger llaw Delft; ac yn 1486, wedi iddo flino ar y caethiwed yr oedd ynddo yno, hwy a'i hanfonasant ef i un arall ger llaw Tergon. Pa fodd bynag, efe a gafodd ei ryddhau o'r lle olaf hwn; a chan ymddiosg o'r enw Gerard, efe a aeth o hyny allan dan yr enw Erasmus. Bu fyw yn 1490 gyda Henry a Bergis, esgob Cambray. Meddai y pryd hwn wybodaeth led eang. Yr oedd yn ysgolaig a duwinydd, a phenderfynodd wneyd ei hun yn ddefnyddiol yn ei ddydd a'i genedlaeth. Yn 1492, ordeiniwyd ef gan esgob Utrecht yn offeiriad, ac efe a barhaodd i ddiwyllio ei feddwl, ac i gasglu gwybodaeth. Yn 1493, efe a ysgrifenodd ei draethawd enwog *De Scribendis Epistolis.* Symmudodd yn 1495 i Paris, a chadwodd ysgol i ddysgu boneddwyr ieuainc Lloegr a Ffrainc. Yno y cyfarfyddodd âg arglwydd Mountjoy; ac edrychai Erasmus ar ei adnabyddiaeth o'r boneddwr ieuanc hwn fel un o'r pethau hapusaf a gymmerodd le tra y bu yno. Y pryd hwn yr ysgrifenodd efe ei *De Copia Verborum,* &c.; ac yn y flwyddyn 1497, gadawodd Paris, ac aeth i fyw i'r Iseldiroedd, i gastell Tornenheus. Ymwelodd â Llundain a Rhydychain, a daeth i adnabod llawer o enwogion Prydeinig duwiol a dysgedig. Parhaodd i fyw yn Rhydychain; efrydiai yn Ngholeg Mair, ac efe a wnaeth gyfathrach â llawer a fu o gynnorthwy mawr iddo ar ol hyn. Dychwelodd Erasmus o Loegr i Paris, lle y cadwodd ei hun drachefn trwy ysgolheigion. Yn y flwyddyn 1498, yr oedd yn parotoi ei *Adages,* ac efrydiai Roeg yn astud iawn. Ymwelodd eilwaith â Lloegr; ond buan y dychwelodd i Paris, lle yr ail argraffodd ei *De Ratione,* &c. Ysgrifenodd Erasmus lythyr cellweirus y flwyddyn hon at fardd breninol Ffrainc, ond ni thueddodd nemawr at ddyrchafu ei gymmeriad. Tua diwedd y flwyddyn, ymwelodd âg Orleans, a bu mewn enbydrwydd mawr yn y daith hono rhag cael ei ysbeilio neu ei lofruddio. Yn y flwyddyn 1500, astudiodd weithiau Jerome, a'r nifer mwyaf o'r tadau; a chyhoeddodd ei *Adages* (Diarebion) y tro cyntaf. Cynnwysa y gwaith hwn tua 4,000 o ddoeth-ddywediadau wedi eu casglu o wahanol awduron Groeg a Rhufain. Y mae yn egluro y cwbl, yn olrhain tarddiad lluaws o honynt, ac yn sylwi yn graff a rhydd ar lawer iawn. Yn 1503—y flwyddyn ddiweddaf i'r pab Alexander—cyhoeddodd Erasmus amryw o'i weithiau, ac wedi hyny efe a aeth i Paris. Yn y flwyddyn 1504, efe a osododd ei feddwl yn ddwys ar efrydiau crefyddol, i'r hyn y bwriadai neillduo y gweddill o'i oes. Yn yr un flwyddyn efe a gyhoeddodd ei *Enchiridion,* yr hwn sydd yn llyfr crefyddol, ac wedi ei fwriadu i ddadlenu ffolbethau Eglwys Rhufain. Yn y flwyddyn 1506, yr oedd yn Lloegr, pan y cyflwynodd ei gyfieithiad o *Timon* Lucian i Dr. Ruthall; y cyhoeddodd gyfieithiad o ymddyddanion ereill o eiddo Lucian; yr ymwelodd â Chaergrawnt, ac yr ennillodd sylw dysgedigion yn gyffredinol. Yn 1508, efe a gafodd radd doethawr yn Turin; bu fyw yn Florence, a chyhoeddodd drydydd argraffiad o'i *Adages.* Yr oedd y pryd hwn hefyd yn athraw i archesgob St. Andrews. Yn 1509, efe a dderbyniodd lythyr oddi wrth Dywysog Cymru, ymwelodd âg Italy, a chafodd groesaw gan gardinal St. George. Yn Rhufain, efe a ysgrifenodd ei *Querela Pacis,* am yr hwn pan glywodd Julius II, efe a anfonodd am Erasmus i ddadleu âg ef; ond er fod y pab hwnw yn arglwyddaidd a ffyrnig ni wnaeth fwy na'i geryddu ef o herwydd ymyryd â materion tywysogion. Tua diwedd y flwyddyn hon, daeth Erasmus i Loegr. Yno, efe a gyfieithodd *Hecuba* Euripides i fydr Lladin, ac ar ol chwanegu ato amryw ganeuon ereill, efe

Digitized by Google

a gyhoeddodd y gyfrol, gan ei chyflwyno i Warham. Yr oedd yn byw y pryd hwn gyda'r enwog Thomas More, ac yno efe a ysgrifenodd mewn un wythnos ei *Praise of Folly*. Yr oedd Erasmus yr adeg hon yn bur dlawd; ac yr oedd yr athrofäau yn Nghaergrawnt, lle y trigai, mor dlawd ag yntau. Yn 1511, efe a gyfieithodd *Saturnalia* Lucian i'r Lladin, ac a'i cyflwynodd i Warham. Yr oedd Warham yn ganonwr mawr, yn wleidyddwr galluog, yn llyswr deheuig, yn gyfaill y dysgedig, ac yn gasawr y cardinal Wolsey. Yr oedd Erasmus yn awr wedi bod yn hir gyda chyfleithiad newydd o'r Testament Newydd, yr hwn, pan orphenodd, a gyflwynodd efe i elusenwr Harri VIII. Cymmerodd boen mawr gyda'r gwaith hwn, ac y mae yn dwyn anrhydedd mawr i'w enw. Rhoddodd Warham yn awr iddo berigloriaeth Aldington, Kent, yn nghyd â blwydddal o ugain punt. Yn 1514, teithiodd Erasmus i Flanders; ysgrifenodd yno grynodeb o hanes ei fywyd, a'r llythyr enwog at y tad Servatius. Dadlenai yn y llythyr hwnw y drygau oedd yn bod yn y tai crefyddol; eto, ar yr un pryd, efe a safai yn eofn i amddiffyn gwir Gristionogaeth. Yn 1515, yr oedd yn ail argraffu ac yn adolygu ei wahanol weithiau. Derbyniodd wahoddiad i Ffrainc yn 1516, gan Francis I. Yn y flwyddyn hono fe gyhoeddwyd ei Destament Newydd, Groeg a Lladin, gyda nodiadau, yn Basle, yn nghyd â gweithiau Jerome, y rhai a gyflwynasai efe i Warham.

Yr argraffiad hwn o'r holl Destament Newydd yn y Roeg wreiddiol yw y cyntaf a argraffwyd ac a gyhoeddwyd ar ei ben ei hun. Yr oedd y Testament Newydd wedi ei argraffu yn y *Complutensian Polyglott* er y flwyddyn 1514, ond ni chyhoeddwyd ef hyd 1522. Y mae yr adnod ammheus hono yn Epistol Cyntaf Ioan (v. 7), yn cael ei gadael allan ganddo yn yr argraffiad hwn a'r ail; ond efe a'i gosododd i mewn yn y tri chanlynol, ar awdurdod un lawysgrif yn unig. Y mae ei gyfieithiad Lladin yn well na'r Vulgate, ac yn fwy cydweddol â'r Groeg. Pa fodd bynag, y mae efe yn defnyddio mwy o'r hen eiriau a brawddegau eglwysig na'r cyfieithwyr Protestanaidd. Ei arnodiadau ef, yn ol tyb Ernesti, a barotodd y ffordd ac a osododd y sylfaen i bawb sydd er y pryd hwnw wedi rhagori mewn deongli yr Ysgrythyrau, er ei fod ef yn cyfeiliorni yn aml o herwydd ei anwybodaeth o'r Hebraeg.

Yr oedd Erasmus erbyn hyn wedi cyrhaedd enwogrwydd rhyfeddol. Ymohebai âg ef ddysgedigion penaf yr holl wledydd. Gofynid am ei farn fel pe buasai oracl, a chyhoeddwyd ei epistolau a'i lythyrau. Modd bynag, ysgrifenodd Faber yn erbyn ei esboniad ar epistolau Paul; ac ysgrifenodd Edward Lee yn erbyn ei syniadau duwinyddol yn gyffredinol. Yr oedd ei Destament Newydd ef wedi cael ei werthu mor gyflym, fel y bu raid iddo fod yn brysur yn ei adolygu yn Hydref y flwyddyn hon. Cymmerodd gryn ddyddordeb yn y dadleuon a fu rhwng y Diwygwyr a'r Pabyddion yn 1518. Gwrthwynebai lythyrau maddeuant y pab Leo X; parchai Luther o blegid ei wrthwynebiad gwrolwych i'w gwerthiant; ac o herwydd hyn, efe a gasäwyd gan y rhai a'i parchent. Y pryd hwn, aeth y gwrthwynebiad i'w Destament Newydd yn fwy ffyrnig; ond er fod Erasmus yn dyner a charuaidd, eto yr oedd yn gadarn a phenderfynol. Yn 1519, efe a dderbyniodd lythyr gan Melanchthon, yn dadgan ei gymmeradwyaeth o'i Destament Newydd a'r aralleiriadau, yn nghyd â dymuniad Luther am ei lwyddiant. Atebodd ef yn garedig, a dywedodd am Luther, "Y mae yr holl fyd yn cydgymmeradwyo ei gymmeriad moesol, ond y mae gwahanol farnau am ei athrawiaethau. Nid wyf fi eto wedi darllen ei weithiau; y mae wedi rhoddi cynghorion da i ni ar lawer o bethau; a rhynged bodd i Dduw fod ei lwyddiant ef yn gyfatebol i'r rhyddid a gymmerodd!" Yn ystod y flwyddyn hon ymosododd Latomus ar syniadau Erasmus, a mynegai "fod rhan fawr o wir dduwinyddiaeth i'w gael mewn duwiolfrydedd calon;" ond buan y gorchfygodd Erasmus ei wrthwynebwr. Derbyniodd y pryd hwn hefyd lythyr oddi wrth Luther; ac efe a'i hatebodd ef, gan ddiolch iddo am ei wasanaeth, gan ei gynghori ef i fod yn gymmedrol, a chan ddymuno iddo lwyddiant. Ymosodwyd eilwaith ar syniadau crefyddol Erasmus yn 1529, ond y tro hwn mor aflwyddiannus ag o'r blaen; ac yr oedd ei dduwioldeb, ei ffydd yn Nghrist, a sancteiddrwydd ei fuchedd, yn profi i'r didwyll a'r ystyriol y rhaid fod ei grefydd ef yn iawn. Yr oedd yn awr yn gyfaill mawr â'r enwog Budæus a Vives. Yn ystod yr un flwyddyn, efe a gyflwynodd i cardinal Pucci argraffiad o *Cyprian;* ac i Jacobus Tutor, *Cicero's Offices, Old Age, Friendship,* a *Paradoxes.* Cyhoeddodd hefyd *The Life of Jerome.* Yn 1520, efe a gyhoeddodd ei *Paraphrase of the Epistle to the Ephesians,* yr hwn a fawrheir gan ddysgedigion a beirniaid. Ymdrechai hefyd yn fawr i heddychu y byd Cristionogol; ac i'r dyben hwn, efe a ysgrifenodd at Campegius, Wolsey, a Harri VIII. Teimlai fwy dros Luther yn ol fel y cryfhäai ei erlidigaeth; ond efe a barhäai i'w gymhell i fod yn gymmedrol—yr hyn y gwyddai Luther a fyddai yn aflwyddiannus; ond yr oedd Erasmus yn ofni yr aflwyddai ymgais Luther at ddiwygiad, ac o blegid hyny efe a ymgadwodd ei hun rhag ymuno âg ef. Rhaid addef, yn wir, nad ydoedd Erasmus yn ddigon penderfynol gyda hyn; a dyma yr achos fod y Diwygwyr yn methu ymddiried ynddo, a bod y Pabyddion yn ei gasau.

Yn 1521, cynnaliwyd llwyrwys nodedig Worms, a rhoddwydd Luther mewn carchar. Yr oedd Erasmus yn cydymdeimlo yn fawr âg ef, a thrwy hyny tynodd ddigofaint y mynachod arno, y rhai a'i casaent mor lwyr ag y casaent Luther ei hunan. Yn 1521, cyhoeddodd waith St. Hilary, a chyhoeddodd ei *Colloquies* godidog ei hun yn Lladin yn yr un flwyddyn; y rhai a ysgrifenodd mewn rhan er mwyn i'r ieuenctyd gael llyfr i ddysgu Lladin, ac i wella eu moesau a'u crefydd ar yr un pryd; ac mewn rhan i geisio gwellhau y byd rhagfarnllyd o'r defosiwn ofergoelus hwnw a goleddai y mynachod yn llawer mwy ymroddgar na gwir dduwioldeb Cristionogol. Cyhoeddwyd anghymmeradwyaeth gyffredinol o'r *Colloquies* gan y duwinyddion yn Paris; a chondemniwyd hwy hefyd mewn cynghor taleithiol yn Cologne, yn 1549. Yn y flwyddyn hon, gwahoddodd Adrian VI. Erasmus i Rufain; ond efe a wrthododd gydsynio, er iddo, ar ddymuniad y pab, awgrymu y moddion mwyaf effeithiol i ddarostwng Lutheriaeth. Ymddengys y cydnabyddir gan Erasmus, cystal a'i gyfeillion, a chan yr holl haneswyr, ei fod yn gwahaniaethu oddi wrth Luther gyda golwg ar ryddid yr ewyllys, ac ar yr un pryd ei fod yn credu fod Eglwys Rhufain yn gyfeiliornus. Gan ei fod ef o duedd gymmedrol, a hyd yn oed llwfr, dymunai ymosod ar y cyfryw gyfeiliornadau trwy reswm yn unig; ac am hyny nis cefnogai Luther; ond er hyny dymunai iddo lwyddiant yn mhob peth ond yn ei

Digitized by Google

syniadau ar ryddid yr ewyllys. Yr oedd hyn yn peri iddo fod mewn penbleth a dyryswch, ac yn ei arwain i ymddwyn yn anghysson; canys tra yr oedd efe o ran ei farn yn Lutheriad, cymmerai drafferth weithiau i argyhoeddi y werin ac i berswadio ei gyfeillion nad oedd efe ddim felly. Yr oedd Erasmus wedi mynegu fod yn angenrheidiol cael diwygiad, a hyd yn oed wedi ei gynnyg; ond petrusai a oedd ddim yn well i'r cyfryw ddiwygiad gael ei attal, yn hytrach na chynhyrfu yr Eglwys Gristionogol trwy y fath sel ac ysbryd ag a ddangosai Luther. Yn 1523, bu Adrian farw, a dilynwyd ef gan Clement II, yr hwn a wahoddodd Erasmus i Rufain; ond gwrthododd fyned, gan fod yn amlwg mai yr amcan oedd ei gadw yn Rhufain, o blegid iddo fod yn rhy bleidiol eisoes i'r Diwygiad. Yn 1524, ysgrifenodd Luther lythyr bywiog a chyffrous at Erasmus, gyda golwg ar y gwrthwynebiad a ddysgwyliai efe oddi wrtho i achos y Diwygiad; i'r hwn yr atebodd Erasmus—ond nid yw yr ateb ar gael. Yn 1525, cyhoeddodd ei *Diatribe de libero Arbitrio*, yn erbyn Luther, ac ysgrifenodd yr olaf atebiad bywiog iddo yntau. Ysgrifenodd Erasmus lythyr hefyd at Œcolampadius. Yn yr un flwyddyn, derbyniodd ryw nodiadau oddi wrth Beda ar ei aralleiriad o Efengyl Luc, am y rhai y diolchodd iddo, gan ddymuno cael rhai cyffelyb ar yr aralleiriadau ereill; ond ymosododd Beda arno yn rhy chwerw. Newidiodd y cyfeillgarwch hwn yn ymosodiad poethlyd, a darlunir Beda fel un yn ymyryd â'r hyn nis gwyddai am dano. Y pryd hyn, cyhoeddodd Erasmus ei *Lingua*, ar iawn ddefnyddio a chamddefnyddio y tafod, a chyflwynodd ef i ganghellydd Poland. Atebodd Œcolampadius ei ymosodiad arno ef, ond ni wrthwynebwyd ef byth gan Erasmus. Yn 1526, cymmerwyd llawer o'i sylw gan y ddadl, yn yr hon yr ymyrai Vives ac enwogion ereill. Yn y flwyddyn hon, cyhoeddodd rai o draethodau Chrysostom, gyda chyflwyniad i John Claymond—y rhai nid ydynt yn mysg ei epistolau. Yn 1527, ysgrifenodd at Polydore Virgil yn nghylch y gwahaniaeth oedd rhyngddynt, ac ymdrechion Virgil i'w cymmodi. Yn y flwyddyn hon, ymosodwyd ar ei Destament Newydd a'i *Colloquies* yn Llundain, ac amddiffynodd yntau hwy mewn llythyr maith at Aldridge; hefyd, fe gyhoeddodd waith Ambrose. Ymddangosodd ei ail *Hyperaspistes* yn erbyn Luther yn fuan ar ol hyny. Ymosodwyd hefyd yn dost arno yn ystod y flwyddyn hon gan fynachod Yspaen, er na wnaeth efe un sylw o'r rhai hyny. Fel hyn, yr oedd y duwinyddion Pabaidd mor wrthwynebol i Erasmus ag oeddynt i'r Diwygwyr; ac y mae yn hawdd canfod nad oedd y naill blaid na'r llall yn barnu ei fod ef yn ymlynwr cryf wrth y ffydd Gatholig. Effaith ei gynllun heddychol ef o ddiwygiad ydoedd hyn oll, yr hyn a derfynodd mewn tramgwyddo y Pabyddion, heb i'r Diwygwyr gael dim ganddynt fel cydnabyddiaeth na chysgod o gydoddefiad.

Yn 1528, derbyniodd Erasmus lythyr boneddigaidd oddi wrth Melanchthon, yr hwn a gyfaddefai nad oedd yn cymmeradwyo dull tanbaid Luther; ond eto ceryddai Erasmus o blegid ei wrthwynebiad. Cyhoeddodd yn awr ddau draethawd mewn dull o ymddyddan, un *Ar Gynaniad yr Ieithoedd Groeg a Lladin*, ac un arall dan yr enw *Cicero Nianus*. Yn yr olaf, y mae yn gwawdio rhai o Babyddion yr Ital a betrusent ddefnyddio na gair nac ymadrodd na byddai yn *Cicero*. Parodd y gwaith yma rai gelynion iddo. Yn 1529, ymadawodd Erasmus o Basle, ac aeth i Friburg. Cyhoeddodd rai darnau o Chrysostom yn Groeg, traethawd Georgius Agricola, a llyfr Lactantius. Cyflwynodd hefyd ddau draethawd o waith Ambrose, na chyhoeddid hwy o'r blaen, i'r duc o Cleves; a chyhoeddodd waith Awstin hefyd, am yr hyn y ceryddodd y Dominiciaid ef yn llym. Yn y flwyddyn hon, cafodd diwygwyr yr Almaen eu galw yn Brotestaniaid. Yn 1530, yr oedd efe yn dra phrysur yn cyfieithu amryw o draethodau Chrysostom; yn ysgrifenu hanes ei fywyd ei hun; yn arolygu cyhoeddiad o waith Algerus, mynach o urdd Benedict, yr hwn a ysgrifenodd ar y sacrament; ac yn cyhoeddi ei *Christian Widow*, yr hwn a gyflwynodd efe i frenines waddolog Hungary. Yn 1531, argraffodd waith Aristotle, yr hwn a gyflwynodd efe i Syr Thomas More. Hefyd, cyhoeddodd gasgliad defnyddiol ac adeiladol o'i *Apophthegms*, cyflwynedig i dduwinyddion Louvaine; amddiffyniad i'w *Colloquies*, yn erbyn y cyhuddiad o gau athrawiaeth; ac anfonodd gasgliad o'i epistolau i Herväginus. Yn 1532, cyhoeddodd *St. Basil* yn Groeg; a chyflwynodd *Terence* i foneddigion ieuainc Poland. Yn 1533, cyflwynodd *Ddaiaryddiaeth Ptolemy* i Fettichius; ac *Esboniad ar y Salmau*, o waith Haimon, i Emstedius. Cyhoeddodd hefyd *Esboniad ar Gredo yr Apostolion*, ar y *Deg Gorchymyn*, ac ar *Weddi yr Arglwydd*, ar ddull holwyddoreg. Yn 1535, dychwelodd i Basle, er ceisio adferiad i'w iechyd, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth. Yn 1536, cyhoeddodd *Esboniad ar y bedwaredd Salm ar ddeg*, yr hwn a ganmolid yn fawr. Yr oedd ei iechyd yn awr yn parhau i waethygu yn gyflym; ac ar y 12fed o Orphenaf, yn y 69ain flwyddyn o'i oedran, ar ol bod yn glaf am fis, bu farw, a chladdwyd ef yn eglwys gadeiriol Basle.

Yn Erasmus, canfyddir dyn, oedd yn ei ieuenctid, pan yn cychwyn ei yrfa, dan anfanteision dirfawr o ddiffyg cyfeillion, cyfoeth, ac addysg briodol, yn gorchfygu yr holl anhawsderau hyn. Efe a ddaeth, nid yn unig yn un o ysgolheigion mwyaf ei oes, ond hefyd a ennillodd ffafr a nawdd y tywysogion, y pendefigion, a'r preladiaid uchaf yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Cyhuddwyd ef o fod yn Armin; ond efe a wadai y cyhuddiad yn ei fywyd, ac y mae ei waith yn gyffredin yn dangos fod ei farn yn yr ystyr hwnw yn ddigon cymmedrol. Yr oedd ei ddull o ysgrifenu yn ddirodres, yn rhwydd, yn gynnwysfawr, yn hyawdl, ac yn eglur; ond dywedir nad oedd bob amser yn glassurol. Y mae y beirniaid yn meddwl hefyd fod ei enwogrwydd yn ymddibynu mwy, ar y cyfan, ar ei ddysgeidiaeth a'i lafur, nag ar sefydlogrwydd neu briodoldeb ei nodwedd grefyddol; er nad oes neb, fe allai, yn ammheu ei dduwioldeb. Yr oedd ei lafur, mewn gwirionedd, yn aruthrol: heb law ei waith ei hun—yr hwn sydd yn gwneyd llawer o gyfrolau mawrion—efe oedd y cyntaf, o leiaf yr oedd yn mysg y rhai cyntaf, a roddodd i'r byd waith argraffedig Demosthenes, Galen, Aristotle, Quintius Curtius, ac amryw ereill o hen awduron enwog Groeg a Rhufain; heb law tadau yr eglwys, megys Ambrose, Athanasius, Awstin, Cyprian, Epiphanius, Gregory Nazianzen, Jerome. Ond y mae yn ddiammheu mai ei rodd fwyaf oedd y gyntaf, sef ei Destament Groeg; ac un o'r pethau rhyfeddaf (bu agos i ni ddyweyd, y digrifaf) yn nglŷn â hwn, oedd llythyr y pab Leo a'i rhagflaenai, yn canmawl yr antur, ac yn noddi yr awdwr. Bwl y pab o blaid y Beibl! medd y Dr

Hamilton—Mor ryfedd! Yr un peth a fuasai i chwi ddysgwyl clywed fod yr efengyl yn cael ei phregethu yn rhad gan werthwr maddeuant pechodau, neu weled deddf goddefiad yn cael ei chyhoeddi gan benaeth y chwilys. Ond yr oedd Leo yn coleddu teimladau caredig at Erasmus, ac fel ereill o'r doctoriaid, yr oedd yn hoff o'r Groeg; ac felly, fel olynwr Pedr, defnyddiodd sel y pysgodwr i awdurdodi cyhoeddiad epistolau Pedr, a'r ysgrifeniadau ereill a fwriadwyd i chwalu Pabyddiaeth. Mewn gwirionedd yr oedd Leo—ysgolhaig, gloddestwr, a dyn hynod o annuwiol—mewn lle anghyfaddas yn nghadair Pedr; a thrwy ganiatau cyhoeddi y fath lyfr, gwnaeth gamgymmeriad, i'r hwn ni buasai dallbleidiwr neu eglwyswr gochelgar byth yn syrthio. Yr oedd y mynachod a'r isglerigwyr yn gwybod gwell pethau. Yr oeddynt hwy yn edrych ar y llyfr, â bwl y pab o'i flaen; ac yn teimlo yn bur debyg fel ag y gellid tybied y teimlai cyfreithiwr ryw hen foneddwr gwladaidd, yr hwn, dan ddylanwad ysfa hynafiaethol, a elai i'w goffrau ac a gyhoeddai hen weithredoedd i'r byd, a brofent mai ymwthwyr a threiswyr yw efe a'i hynafiaid, ac y dylasai yr etifeddiaeth fod ar hyd yr holl amser yn nwylaw rhai ereill. Felly, rhoddodd yr ynfyd-ddyn anffaeledig ei enw wrth lyfr oedd yn cyhoeddi i'r holl fyd fod y winllan yn perthyn, nid i hen amaethwyr Rhufain, ond i ddilynwyr Wickliff, ac i hawlwyr Waldensiaidd! Ni bu erioed y fath gyffro: yr oedd y mynachod yn hysio fel seirff, ac yn bwhwman fel dylluanod, o blegid i'w penaeth anochelgar, nid yn unig ganiatau, ond cefnogi un o'u brawdoliaeth hwy eu hunain i gynhyrfu hen nythle tywyllwch oesoedd a chenedlaethau. O ganlyniad, cyfodwyd tymmestl, nid yn unig yn erbyn y llyfr, ond hefyd yn erbyn yr iaith yn yr hon yr ysgrifenwyd ef. Yr oedd y crefyddwyr uniongred (?) yn diolch i'r nef am nas gallent hwy ddarllen Groeg; ac yr oedd y rhai a honent fwy o wybodaeth nag ereill, yn taenu y gair mai iaith newydd ei dyfeisio ydoedd, yn meddu llythyrenau dyrys, anghristionogol yr olwg arnynt, a'i bod o'r fath ansawdd farwol, fel y byddai pwy bynag a'i dysgai yn sicr o droi yn heretic.

Er fod y llyfr "yn arwydd yr hwn y dywedid yn ei erbyn," eto cafodd ei ddarllen yn helaeth, ac aeth ei waith ar gynnydd. Yn mysg ei efrydwyr boreuaf, yr oedd gŵr ieuanc graddog yn Ngholeg y Drindod, yn Nghaergrawnt. Yr oedd hwn wedi dyfod i drallod yn nghylch mater ei enaid, a chyfarwyddodd ei gyffeswr ef i ymarfer â phenyd, yr hwn a waghaodd ei bwrs ac a ddihoenodd ei gorff; ond ni ysgafnhaodd ei gydwybod, ac ni wanhaodd ei lygredd mewnol. O'r diwedd clywodd am y Testament rhyfeddol dan sylw. Hiraethai am ei feddiannu; ond yr oedd ei gyffeswyr wedi ei rybuddio yn erbyn llyfrau yn yr Hebraeg a'r Groeg, fel ffynnonau pob heresiaeth. Ond yr oedd ei galon ef ar dân; ac er mwyn cael gafael ar y "dwfr bywiol" a ocrai ei glefyd, gallai anturio i beth perygl. Felly, efe a ddiangodd allan unwaith, ac a brynodd y gyfrol newydd, a dygodd "Destament Newydd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist" yn ddirgel i'w ystafell. "Agorodd ef," medd Merle D'Aubigne, "a syrthiodd ei lygaid ar y geiriau, 'Gwir yw y gair ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid.' Rhoddodd y llyfr heibio, a myfyriodd ar y dywediad rhyfeddol. 'Beth!' eb efe, 'St. Paul, y penaf o bechaduriaid, ac eto y mae St. Paul yn sicr o fod wedi ei achub!' Fel yr oedd yn parhau i ystyried, teimlai fel pe buasai anadl esmwyth yn anadlu ar ei ysbryd, neu fel pe buasai cyfoeth lawer yn cael ei roddi yn ei ddwylaw. 'Yr wyf, finnau fel Paul,' eb efe, 'a mwy o lawer iawn. Myfi yw y penaf o bechaduriaid. Ond y mae Crist yn cadw pechaduriaid. Crist—ac nid yr eglwys; Crist—ac nid yr offeren a maddeuant gwerthedig. Ac achubwyd Bliney." Aeth ystyriaethau tebyg, yn tarddu o'r un ffynnonell, trwy feddwl Tindal yn Rhydychain. Fel hyn, nid gwir arwr y Diwygiad Prydeinig oedd na Henry, na gwŷr gwell nag ef, y rhai a roddasant eu cyrff i'w llosgi, sef Cranmer, Ridley, a Latimer; ond y gwir ddiwygiwr oedd y llyfr bendigedig hwnw, yr hwn a luosogodd Prydain er y pryd hwnw wrth y miliynau o gopïau, a'r hwn a wnaeth ei ffordd yma gyntaf fel Testament Groeg Desiderius Erasmus.

Er na ddaeth Erasmus mor ddysglaer a Melanchthon, eto ni wiw anghofio mai efe, yn anad neb o ysgolheigion Ewrop, a fu yn foddion gyntaf i dori cyfaredd ofergoeliaeth; a'i fod wedi llwyddo, hyd yn oed yn nghanol y tiriogaethau Pabaidd, i roddi rhyddid ac annibyniaeth i'r meddwl, na roddant byth i fyny eu safle yno mwyach.

**ERASTUS**, [Ἐραστος]: Corinthiad, ac un o ddysgyblion Paul, anerchion yr hwn a enfyn efe o Corinth at Eglwys Rhufain fel yr eiddo "goruchwyliwr y ddinas;" *Rhuf.* xvi. 23. Y mae yr ymadrodd a gyfieithir fel hyn yn arwyddo trysorydd y ddinas, yr hwn oedd yn swyddog o fri mawr yn yr hen amseroedd: gwel *Hynaf. Jos*, vii. 8, 2. Yr ydym yn cael yr Erastus hwn gyda Phaul yn Ephesus, o ba le yr anfonwyd ef gyda Timotheus i Macedonia: gwel *Act.* xix. 22. Yr oeddynt eill dau gyda'r apostol yn Corinth pan yr ysgrifenodd efe o'r ddinas hono at y Rhufeiniaid. Yr oedd Erastus yn Corinth ar adeg ddiweddarach na hon, ac ymddengys mai dyma le ei breswylfod: 2 *Tim.* iv. 20.

**ERASTUS, THOMAS**: a anwyd yn y flwyddyn 1524, yn Baden, Switzerland, yn ol rhai, ond yn Auggen, ger llaw Mühlheim a Badenweiler, yn ol ereill. Gan i'r pla ei yru ef o Basle, lle yr astudiai dduwinyddiaeth, efe a aeth i Bologna, ac a ymneillduodd yno, ac yn Padua, i astudio athroniaeth a physygwriaeth. Ar ol byw naw mlynedd yn Italy, daeth yn physygwr i Count Henneberg; wedi hyny, yn 1558, i Etholwr y Freiniarllaeth (*Palatinate*), ac ar ol hyny aeth yn broffeswr physygwriaeth i Heidelberg. Pan yn gwrthwynebu yn egniol gyfeiliornadau serddewinol a swyngyfareddol Paracelsus ac ereill, efe a gymmeradwyai roddi angeu yn gosp ar ddewiniaid. O ran ei olygiadau duwinyddol, efe a berthynai i'r ysgol Zwingliaidd. Ar orchymyn Frederic III (1559—1576), yr hwn a'i galwodd ef yn aelod o'r gymmanfa eglwysig, efe a aeth i'r gynnadledd grefyddol oedd rhwng Luther a'r duwinyddion diwygiadol yn Heidelberg, yn 1560, ac yn nghlassordy Maulbronn, yn 1564. Amddiffynai y golygiad Swissaidd am Swper yr Arglwydd mewn traethawd: "Am ystyr geiriau Crist—Hwn yw fy nghorff," &c., ac mewn atebiad i Dr. John Marbach, o Strassburg, yr hwn a ymosodai arno. Yr oedd ei olygiadau yn Zwingliaidd a gwrth-Galvinaidd—nid yn unig ar y Swper Sanctaidd, ond ar lywodraeth a dysgyblaeth eglwysig. Ymosododd gyda rhyw bregeth-

Digitized by Google

wyr a phroffeswyr athroniaeth yn erbyn y blaid Galvinaidd yn Heidelberg; y rhai a ymdrechasant er y flwyddyn 1560 i ddwyn i mewn y ffurflywodraeth a'r ddysgyblaeth Bresbyteraidd; ond er mor benderfynol ydoedd yn ei ymosodiad, aflwyddiannus fu. Efe oedd y cyntaf i syrthio yn ysglyfaeth i'r gyfundraeth newydd. Gosododd ei ohebiaeth âg Undodiaid Transylvania ef yn agored i gael ei gyhuddo o heresiaeth mewn perthynas i berson Crist a'r Drindod. Yn ddiarwybod iddo ef, llwyddodd ei elynion i gael ei esgymuno; ac ni alwyd hyny yn ol hyd 1575. Yn ol ei fynegiad ef ei hun, yr oedd yn mhell iawn oddi wrth Ariaeth, a chredai athrawiaeth y Drindod yn ddigêl. Yn y flwyddyn 1580, gadawodd Heidelberg ac aeth i Basel, lle y bu farw, Ionawr 1af, 1583. Ar ol ei farw, cyhoeddwyd traethawd o'i eiddo ar ddysgyblaeth eglwysig. Cyrhaeddodd y son am dano i Loegr; ac yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, cyfododd sect mewn cyssylltiad â'i olygiadau, o'r enw Erastiaid: gwel dan y gair.—(*Herzog's Real Encycl.*)

**ERECH**, [ארך=*hyd*; 'Ορέχ]: un o ddinasoedd teyrnas Nimrod, yn ngwlad Sinar: *Gen.* x. 10. Y farn gyffredin hyd yn ddiweddar oedd, yn ol awdurdod Ephrem, Jerome, a'r Targumiaid, mai yr un oedd hi ag Edessa neu Callirhoë (*Urfah*), tref yn ngogledd-orllewin Mesopotamia. Dyma farn Von Bohlen, yr hwn a gyssyllta yr enw Callirhoë âg Erech y Beibl trwy y gair Syriaeg *eurhoc*, gan awgrymu y gair Groeg *eurrhöos*. Dywed Bevan nas gellir profi y golygiad yma. Y mae yn debyg i Edessa gael ei hadeiladu gan Seleucus, ac am hyny nis gallasai fod yn amser Ezra (*pen.* iv. 9); ac y mae yr eangder a roddir drwy hyn i dir Sinar yn wrthwynebiad cadarn. Yn nghymmydogaeth Babilon y rhaid chwilio am Erech: y mae Gesenius yn ei gwneyd yr un ag Araca, ar y Tigris yn Susiana; ond diammheu mai yr un ydoedd ag Orchoë, 82 milltir i'r deheu a 43 i'r dwyrain o Babilon; ac y mae enwau diweddar y lle, Worka, Irka, ac Irak, yn dwyn llawer o debygrwydd i'r enw cyntefig. Ymddengys fod y lle hwn wedi bod yn gladdfa breninoedd Assyria yn yr amser gynt, gan ei fod wedi ei hulio â chrugiau, ac yn llawn priddfeini ac eirch. Y mae llythyrenau arwyddluniol "y lleuad" ar rai o'r priddfeini; a thybia y Milwriad Rawlinson y gall nad yw Erech ddim mwy na ffurf o'r gair *larech* (lleuad). Yr oedd trigolion y lle hwn yn mhlith y rhai a drosglwyddwyd i Samaria gan Asnapper: *Ezra* iv. 9.

**EREMITIAID.** Gwel ANCHORETIAID.

**ERFYN.** Gwel ARF.

**ERLID—IGAETH**, [*eryl*, Dr. Pughe; yn hytrach, *er—lid*]: yw gorfodi dyn yn fwriadol i boenau a chospedigaethau; ac mewn ystyr penodol, ei orfodi ef i ddioddef poenau a chospau gwladol o herwydd ei opiniynau crefyddol. Gellir dosbarthu erlidigaethau i dri math penodol:—1. Erlidigaeth feddyliol; sef, pan y bydd ysbryd dyn yn ymgyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn un arall. Erlidigaeth eiriol; sef, pan bydd y naill ddosbarth o ddynion yn arfer geiriau celyd a cheryddon cas am ddosbarth arall. 3. Erlidigaeth weithredol, neu amlwg â'r dwylaw; sef, pan y bydd personau diniweid yn cael eu tynu yn anghyfreithlawn a diachos o flaen gorsedd barn—pan y cymmerir ymaith eu meddiannau ac y niweidir eu personau. Dechreuodd ysbryd erlidigaeth amlygu ei hun yn foreu iawn; cafodd y dyn dan ei lywodraeth cyn diwedd yr ail genhedlaeth bron—ac y mae ei ysmotiau duon i'w canfod ar bron bob dalen o hanesyddiaeth y byd, mewn rhyw ffurf neu gilydd o hyny hyd yn awr. Erlidiwyd Abel gan ei frawd ei hun, Cain; erlidiwyd Ioseph ieuanc gan ei frodyr; erlidiwyd Dafydd gan Saul; erlidiwyd Elias ac Eliseus gan Ahab; erlidiwyd y prophwydi gan freninoedd a 'phobl eu hamseroedd; erlidiwyd y Gwaredwr gan Herod a chan benaethiaid yr Iuddewon; ac erlidiwyd Ioan Fedyddiwr a'r apostolion gan elynion duwioldeb, gwirionedd, a chyfiawnder yn eu dyddiau hwythau. Am anghyfreithlondeb erlidigaeth er mwyn cydwybod, rhaid fod hyny yn eithaf eglur i bob dyn sydd yn perchen y mesur lleiaf o feddwl a theimlad. "Nid efengyl Crist," medd Iortin synwyrgraff, "ydyw alltudio, carcharu, ysbeilio, newynu, crogi, a llosgi dynion o blegid eu crefydd; ond efengyl y diafol. Lle y mae erlidigaeth yn dechreu, y mae Cristionogaeth yn darfod. Nid arferodd Crist ddim tebyg i orfodaeth na thrawsder erioed ond unwaith; a bu hyny er mwyn ymlid dynion drwg allan o'r deml, ac nid er eu gorfodi i fyned i mewn iddi." Tad erlidigaeth ydyw tywysog y tywyllwch—brenin gorthrwm y byd. Efe roes y cynhyrfiad cyntaf i'r ymarferiad creulawn yn un o aelodau y teulu cyntaf a fu ar y ddaiar erioed; ac efe fu y prif offeryn i ddwyn y gwaith yn mlaen drwy yr holl oesoedd. "Y mae erlidigaeth er mwyn cydwybod," medd Dr. Doddridge, "yn anghysson yn mhob modd; canys, 1. Y mae wedi ei sylfaenu ar y dybiaeth wrthun hono, fod gan un dyn hawl i farnu dros ddyn arall mewn pethau crefyddol. 2. Y mae'n amlwg ei fod yn groes i'r egwyddor foesol hanfodol hono, y dylem wneyd i ereill fel yr ydym yn rhesymol ddysgwyl i ereill wneyd i ni. 3. Nid yw mewn un modd yn gyfaddas i ateb y diben hwnw ag y mae ei chefnogwyr yn broffesu sydd ganddynt mewn golwg. 4. Y mae yn eglur ei bod yn tueddu i wneuthur llawer iawn o niwed a dyryswch yn y byd. 5. Pe llwyddai egwyddorion erlidigaeth, fe gaffai y grefydd Gristionogol, a siarad yn ddynol, nid yn unig ei rhwystro, ond ei llwyr ddinystrio. 6. Y mae erlidigaeth mor bell o fod yn angenrheidiol, neu o fod yn cael ei chefnogi gan yr efengyl, fel y mae yn hollol groes i lawer o'i gorchymynion a'i chyfarwyddiadau; ac yn wir, y y mae yn wrthwyneb iddi oll."

Er fod agos bob dosbarth o ddynion, a phob enw o grefyddwyr, wedi goddef erlidigaeth mewn rhyw wedd yn ngwahanol oesau y byd, eto, yn ddiammheu, y prif wrthddrychau a syrthiasant yn ysglyfaeth i'r ysbryd melldigedig hwn ydyw Cristionogion. Ymosodwyd arnynt o bob cyfeiriad bron oddi allan. Gwnaeth yr Iuddewon a allent i'w difodi yn llwyr, a rhoes paganiaeth y byd, yn enwedig yn nhiriogaethau Rhufain, holl rym ei alluoedd ar waith i'w difa oddi ar wyneb y ddaear. Ond cyfododd ymrafaelion ac ymraniadau yn eu plith hwy eu hunain. Ymwahanasant yn bleidiau gwrthwynebol, ceisiodd y naill blaid oruchafiaeth ar y llall; a pha un bynag fyddai drechaf, hi a erlidiai ac a boenai y lleill â holl rym ei chynddaredd penboeth a gwallgof; ac os bu yr erlidigaethau dan yr Iuddewon a'r paganiaid yn fawr, fe ragorodd y rhai hyn arnynt oll. Y mae gwaed lladdedigion Cristionogol gan eu cyd-Cristionogion yn cochi dalenau hanesyddiaeth am oesoedd lawer. Ein hamcan yn awr fydd rhoddi crynodeb, mor gynnwysfawr

Digitized by Google

ag a allwn, o hanes erlidigaeth Cristionogion yn y tair gwedd a nodwyd; sef, gan Iuddewon, gan baganiaid, a chan Cristionogion.

ERLIDIGAETH GAN YR IUDDEWON.

Yr Iuddewon a ddaethant allan gyntaf i erlid Cristionogion. Ar ymddangosiad cyntaf Cristionogaeth, ymranodd Iuddewiaeth yn ddwy blaid, ac o un o honynt y tarddodd yr erlidigaeth. Fe dderbyniodd yr ysbrydol a'r gwir Israel y Messiah gyda llawenydd; ac fel hyn, fe ddaeth had corfforol ac ysbrydol Abraham yn sylfaen yr Eglwys Gristionogol, megys y bwriadwyd o'r dechreuad iddi fod. Credinwyr o Israel yn ol y cnawd oedd aelodau cyntaf yr eglwys; y canghenau gwreiddiol o'r olewydden sanctaidd, yn yr hon yr impiasid y Cenhedloedd yn "erbyn naturiaeth." Ond yr oedd Iuddewiaeth y rhai a wrthodent y Messiah wedi colli y nodwedd ddwyfol a berthynai iddynt, ac ymorweddai ar sail hollol wahanol. O hyn allan, safai y gau Iuddewiaeth (*Rhuf.* iii. 28) yma yn y gwrthwynebiad mwyaf ffyrnig i'r gosodiad dwyfol hwnw yn mha un yr oedd bendithion yn cael eu haddaw i had Abraham yn Nghrist yn unig; a meithrinwyd gelyniaeth anghymmodlawn at Gristionogaeth. A'r unig attalfa ar yr amlygiadau erchyll o'r elyniaeth hon oedd analllu yr Iuddewon hyn, a'u sefyllfa isel a dirmygus yn mhlith y Cenhedloedd. Yr oedd y lluaws credinwyr oedd yn Ierusalem "o un galon ac un enaid" ar y cyntaf yn "cael ffafr gan yr holl bobl." Ond i'r graddau yr adseiniai pregethau Pedr a'r apostolion ereill yn eglurach ac uwch am Grist croeshoeliedig (*Actau* iii. iv.) yr oedd balchder y Phariseaid ac ammheuaeth y Saduceaid yn cael eu ceryddu a'u condemnio yn fwy llym, a theimlent hwythau hyny. Yn fuan, fe ymdorodd eu llid allan mewn ymosodiad amlwg, ac fe gafodd yr apostolion eu carcharu a'u curo: *Act.* iv. 3; v. 40. Parodd gwrthodiad yr apostolion i beidio pregethu Crist ar archiad dyn (*Act.* v. 29, cymharer iv. 19) i amcanion gwaedlyd ymddangos (*Act.* v. 33) y rhai nis attaliwyd ond yn unig trwy gynghor doeth Gamaliel: *Act.* v. 34, &c. Ond ni bu hyn ond am dymmor. O'r diwedd, pan y darfu i Stephan, un o'r saith diacon dewisedig, yn eglurhad yr Ysbryd ac mewn nerth, geryddu dallineb a malais mympwyol yr Iuddewon, fe ymdorodd eu cynddaredd yn erbyn yr eglwys lwyddiannus allan. Yn ol cydsyniad unfrydol y Sanhedrim a'r bobl, efe a labyddiwyd i farwolaeth (*Act.* vi, vii)—y merthyr Cristionogol cyntaf, a hyny yn mhen ychydig flynyddoedd wedi esgyniad Crist. Ei farwolaeth ef ydoedd yr arwydd i erlidigaeth greulawn ymgodi (*Act.* viii. 1, &c.), yn yr hon y cymmerodd Saul ran arbenig. Wedi peth ysbaid, tua'r flwyddyn 44, fe dywalltodd Herod Agrippa drachefn waed y Cristionogion er mwyn ennill ffafr gyda'r Iuddewon. Torwyd pen Iago yr hynaf; a thrwy angel yr Arglwydd y gwaredwyd Pedr rhag yr un dynged: *Act.* xii. O'r diwedd, ychydig cyn dechreu y rhyfel Iuddewig, fe ddisgynodd gelyniaeth farwol yr Iuddewon ar Paul, yr hwn oedd eisoes wedi goddef erlidigaethau llai, ac ar Iago yr ieuangaf, yr hwn a ferthyrwyd. Yn y flwyddyn B. A. 70, fe syrthiodd barn Duw—yn cael ei rhagflaenu gan arwyddion o ddyoddefiadau ofnadwy—ar brif ddinas yr Iuddewon, megys y rhagfynegasai Crist ddeugain mlynedd cyn hyny. Cymmerodd y Rhufeiniaid dan Titus feddiant o'r ddinas, ar ol ei gwarchae bedwar mis, yn ystod pa amser y trengodd un cant ar ddeg o filoedd o'r trigolion. Gwnaed Ierusalem a'r deml yn garnedd o adfeilion, ac fe'u tynwyd hwy yn gydwastad â'r llawr gan dân ac arfau pâl; ond yr oedd y cwmni bychan o gredinwyr Cristionogol yn molianu Duw am eu diogelwch yn ninas fechan Pella, tu hwnt i'r Iorddonen, lle y cymmerasant nodded yn y flwyddyn B. A. 66, ar ddynesiad y fyddin Rufeinig, gan gofio mynegiadau prophwydol eu Harglwydd yn nghylch tynged y ddinas, ac hefyd, yn ol Eusebius, ar ol derbyn cyfarwyddiadau dwyfol ereill. Teimlodd y Cristionogion unwaith eto lid yr Iuddewon dan deyrnasiad yr ymherawdwr Hadrian. Gan gynddaredd, o blegid i dalaeth Rufeinig ymsefydlu dan yr enw Ælia Capitolina ar safle eu hen brif ddinas, yn y flwyddyn B. A. 126, ac o blegid i deml i Iau gael ei hadeiladu yno, fe ddechreuodd yr Iuddewon drachefn, dan arweiniad Barcochba, eu gau Fessiah, wrthryfela yn erbyn y llywodraeth Rufeinig; a dechreuwyd rhyfel gwaedlyd ofnadwy, yr hwn a derfynodd yn eu llwyr ddymchweliad hwynt. Yn ystod y blynyddoedd hyn o wrthryfel, o B. A. 132 hyd B. A. 135, yr oedd holl Gristionogion hyny a syrthiasant i ddwylaw yr Iuddewon ac a wrthodasant wadu Crist, a chymmeryd rhan yn y gwrthryfel, yn gorfod dyoddef y dirdyniadau mwyaf erchyll. Hon, fodd bynag, oedd y weithred annibynol ddiweddaf a wnaeth yr Iuddewon er dangos eu casineb at Gristionogaeth; eto, yn yr holl erlidigaethau paganaidd a fu ar ol hyn, byddai yr Iuddewon, y rhai oeddynt yn wasgaredig drwy yr holl fyd, yn hynodi eu hunain drwy roddi cynnorthwyon egniol i elynion cenhedlig Cristionogaeth. Pa fodd bynag, fe ymwelodd Duw â hwynt yn ei farn; dinystriwyd eu dinas, anrheithiwyd eu gwlad, chwalwyd hwythau i blith pob cenedl, ac felly y maent yn aros er's deunaw cant o flynyddoedd bellach.

ERLIDIGAETH GAN BAGANIAID.

Y mae yn bwysig er iawn ddeall natur yr erlidigaethau hyn, i fod yn hysbys o'r achos o honynt. Y mae llawer wedi bod yn synu fod y Rhufeiniaid—pobl oedd yn hynod am eu hysbryd a'u hymddygiadau goddefgar—wedi arddangos y fath ddiffyg amynedd a'r fath ysbryd erlidgar at Gristionogion. Ond pa beth bynag a ddywedir am oddefiad crefyddol y Rhufeiniaid, rhaid gofalu am fod yn ochelgar iawn. Yr oedd y syniadau am iawnderau cyffredinol dyn, am ryddid crefyddol a rhyddid cydwybod, yn ddieithr iawn yn mhlith golygiadau yr hen fyd. Ac nis gallasai fod yn wahanol; canys y syniad am wladwriaeth oedd yr uchaf a feddid, ac o fewn hwnw yr edrychent ar y daioni uchaf fel yn gynnwysedig: felly yr oedd dadblygiad pob daioni arall perthynol i'r ddynoliaeth yn cael ei osod i ymddibynu ar hwn. Fel hyn yr oedd yr elfen grefyddol yn israddol i'r elfen wleidyddol. Nid oedd dim ond crefyddau gwladwriaethol a duwiau cenhedlaethol i'w cael. Cristionogaeth oedd y gallu cyntaf, a'r unig allu, a orchfygodd yr hen egwyddor hon a ryddhaodd ddynion o gaethiwed y byd, a ddarostyngodd neillduoliaeth a grym goralluog yr egwyddor wleidyddol, drwy ei hathrawiaeth am Dduw cyffredinol i bawb, drwy yr ymwybodolrwydd a ddeffrodd fod delw Duw yr un yn mhawb, drwy y meddylddrych am deyrnas Dduw fel y daioni penaf, yn yr hwn yr hanfodai pob daioni arall, a'r hwn a ddygid yn lle y wladwriaeth fel y sylwedd o'r daioni penaf, drwy yr hyn y gorfodid y wladwriaeth i gydnabod gallu uwch na hi ei hun. Wrth gymmeryd yr olwg yma ar y mater—yr hon a gymmerid gan yr hen fyd - nis gallai ymadawiad oddi wrth grefydd y

wladwriaeth ymddangos yn amgen na throsedd yn erbyn y wladwriaeth. Ond nid dyma yr unig achos o erlidigaeth y Cristionogion. Codai yn aml oddi ar gynddaredd cyffröedig y bobl, y rhai a dybient fod pob drygau oedd mewn bod yn nglŷn â Christionogion; a tharddai yn fynych oddi ar falais personau yr oedd eu manteision a'u helw yn gorwedd mewn pethau gwrth-Gristionogol. Felly gallwn edrych ar achos yr erlidigaeth hon ar Gristionogion yn y wedd driphlyg a ganlyn:—1. Yr oedd crefyddau yr hen fyd yn grefyddau pobl a gwladwriaeth neillduol. Felly, yn mhlith y Rhufeiniaid, yr oedd pob addoliad crefyddol na dderbyniasai gadarnhad a chefnogaeth gyhoeddus, yn cael ei attal dan boen cosp, yn ol deddfau y Deuddeg Tabl. Yr oedd yr Iuddewon wedi cael eu goddef, fel rhagorfraint neillduol, i ymarfer eu crefydd eu hunain, megys y gwneid hefyd, o gyfrwysder, â'r holl genhedloedd a orchfygid; ond fe wneid deddfau neillduol weithiau er attal Rhufeinwr i dderbyn Iuddewiaeth. Yr oedd derbyn a cheisio lledaenu unrhyw "grefydd anghyfreithlawn"—yn enwedig mewn oes mor ddrwgdybus o bob peth newydd, ac o bob cymdeithasau cyfeillgar ag ydoedd oes yr ymherawdwyr Rhufeinig—yr un peth a thori cyfraith y wlad: ond am "grefydd anghyfreithlawn" fel Cristionogaeth, yr hon oedd yn newydd, heb fod yn perthyn i un genedl neillduol, heb deml, heb allor, heb aberth, a'r hon hefyd oedd yn anghymmeradwyo bob crefydd arall, ac yn cael ei nodweddoli gan undeb mwyaf trwyadl ei chefnogwyr, rhaid ei bod hi yn nôd i'r drwgdybiaeth mwyaf llwyr. Yr oedd sefydlogrwydd diysgog y Cristionogion yn eu credo eu hunain, yn ngwrthwyneb i bob awdurdod ddynol, eu gwrthodiad penderfynol i gymmeryd rhan yn seremoniau crefydd y wladwriaeth Rufeinig, hyd yn oed pan na ofynid hyny ond fel dyledswydd berthynol i'r holl ddinesyddion, a'u gommeddiad i offrymu arogldarth mewn modd ofergoelus o flaen cerfluniau yr ymherawdwyr, yn unig fel amlygiad o barch deiliad i'w lywodraethwr, neu i gymmeryd rhan yn y gwledd-wyliau paganaidd a phechadurus ar ddyddiau genedigaeth yr ymherawdwyr, neu ar ol ennill buddugoliaeth, eu lledommeddiad i wasanaethu yn myddinoedd cadfridogion paganaidd—yr oedd hyn oll yn ymddangos yn yr oes archdeyrnol hono yn dra pheryglus, ïe, fel "ystyfnigrwydd anmhlygadwy" yn erbyn y llywodraeth—fel barn a thueddfryd "gelyniaeth benderfynol at Cæsar a'r Rhufeiniaid." 2. Yr oedd lluaws mawr o'r erlidigaethau hyn, pa fodd bynag, heb fod yn dwyn un cyssylltiad uniongyrchol â'r llywodraeth Rufeinig, ond yn deilliaw oddi wrth y bobl. Gan fod y Cristionogion yn gwrthod y duwiau cenedlaethol, edrychai y bobl arnynt fel dynion perffaith annuwiol ac adgas, am y rhai y coelient yn rhwydd y cyhuddiadau mwyaf erchyll—megys eu bod yn cyflawnu drygau ffiaidd, ac hyd yn oed annaturiol, yn eu cyfarfodydd, a'u bod yn lladd eu plant ac yn bwyta cnawd dynol. Priodolid pob drygfyd iddynt hefyd. Os byddai i brinder gwlaw am adeg faith mewn hinsoddau poethion ddwyn sychder mawr; os methai y Nilus ddyfrhau y tir yn yr Aipht; os torai y Tiber dros ei cheulanau yn Rhufain; os disgynai haint dychrynllyd ar y wlad; os dygwyddai daiargryn, neu newyn, neu ryw drychineb arall; ymgynhyrfai llid y bobl yn ebrwydd yn erbyn y Cristionogion. "Gallwn briodoli hyn," ydoedd y waedd, "i ddigofaint y duwiau o herwydd lledaeniad Cristionogaeth." Fel hyn aeth yn ddiareb yn ngogledd Affrica, yn ol Awstin—"Os na bydd gwlaw, cyfrifwch hyny ar y Cristionogion." Yr oedd y pethau hyn yn barhaus yn cynhyrfu y bobl i ymosod ar y Cristionogion. 3. Yn ddiweddaf, yr oedd llawer o erlidigaethau yn cael eu hachosi gan bersonau unigol—offeiriaid paganaidd, gwerthwyr delwau (megys Demetrius: *Act.* xix. 24, &c.), swynwyr (megys Alecsander o Abonitichos, yn yr eilfed ganrif), a phersonau cyffelyb—elw a manteision y rhai oedd yn cael eu niweidio yn fawr gan ledaeniad yr efengyl, a'r rhai, o blegid hyny, a wnaent y defnydd goreu o dymmer y bobl a syniad y llywodraeth er cyrhaedd eu dybenion dialgar.

Y mae yn eglur oddi wrth yr hyn a ddywedwyd am achosion yr erlidigaethau hyn na byddai i Gristionogion gael mwynhau unrhyw dawelwch cyffredinol a sicr i ymarfer eu crefydd, hyd oni byddai Cristionogaeth wedi cael ei derbyn, drwy ddeddfau penodol y wladwriaeth, i restr y crefyddau cyfreithlawn; o fewn yr ymherodraeth Rufeinig, yr oeddynt bob amser yn agored i gynddaredd y bobl a malais personau unigol. Ymdrechwn yn awr roddi crynodeb gynnwysfawr o erlidigaethau yr Eglwys Gristionogol dan y gwahanol ymherawdwyr Rhufeinig. Y mae haneswyr yn gyffredin yn dosbarthu y rhai hyn i ddeg, a gelwir hwynt y "deg erlidigaeth."

I. *Yr erlidigaeth dan Nero.* Yn ol un traddodiad, dygwyd Tertullian, ymherawdwr y byd, i gyssylltiad âg amgylchiadau yr eglwys mor fore a marwolaeth Crist. Dywed Tertullian fod Tiberius (yr hwn a deyrnasai o B. A. 14 hyd B. A. 37), ar ol cael ei gynhyrfu gan adroddiad swyddol o eiddo Pilat, yn neillduol o berthynas i adgyfodiad Crist, wedi cynnyg o flaen y senedd fod i'r Iesu gael ei dderbyn fel un o'r duwiau Rhufeinig; ond pan ymwrthodasant, efe a ymfoddlonodd ar fygwth cospedigaethau ar bwy bynag a ddygai gyhuddiadau yn erbyn y Cristionogion. Nis gallai yn llwyr wrthod yr hanes hwn fel traddodiad disail; ac nid ymddengys yn anghredadwy, os ystyriwn gymmeriad Tiberius, yr hwn yn fynych, os blinid ei gydwybod, neu os cynhyrfid ef gan ryw syniad byrbwyll, a ddygai gynnygion brysiog o flaen y senedd. Dichon hefyd nad oedd y bygythiad hwn o gospedigaeth yn ddim ond effaith cynhyrfiad y foment, ac felly heb ganlyniadau pellach, yn ol Suetonius; a chadarnheir ei syniad yn *Act.* xviii. 2. Fe alltudiodd yr ymherawdwr Claudius (yr hwn a deyrnasai o B. A. 41 hyd B. A. 54), yr Iuddewon o Rufain. Os oedd Cristionogion yn eu plith ar y pryd, y mae yn ddigon tebyg ddarfod iddynt hwythau gael eu halltudio yr un modd; canys ni wneid rhyw wahaniaeth eglur iawn rhwng Iuddewon a Christionogion yn y byd Rhufeinig hyd ar ol dinystr Ierusalem. Heb law hyny, os oedd Cristionogion yn Rhufain y pryd hwn, tebyg iawn mai Iuddewon dychweledig oeddynt. Ond dan Nero, yr hwn a deyrnasai o B. A. 54 hyd B. A. 68, y torodd erlidigaeth briodol y Cristionogion allan gyntaf yn yr ymherodraeth Rufeinig, a hyny yn y flwyddyn B. A. 64—yn mhen un mlynedd ar ddeg ar ugain wedi esgyniad y Gwaredwr. Yr achlysur i hon ydoedd tân dychrynllyd a gymmerodd le yn Rhufain, yr hwn a barhaodd am naw niwrnod, a'r hwn a briodolid yn gyffredinol i'r ymherawdwr fel ei achos. Ond rhag i'r ddrwgdybiaeth orphwys arno ef, ceisiodd daflu yr euogrwydd ar ereill; a chan fod y Cristionogion eisoes yn wrthddrychau adgasedd y bobl, y rhai oeddynt yn barod i goelio unrhyw ddrwg am danynt,

Digitized by Google

efe a'u cyhuddodd hwynt o fod yn awdwyr y trychineb ofnadwy hwn. Daliwyd lluaws o honynt, a marwolaethwyd hwynt drwy yr arteithiau mwyaf echryslawn:—croeshoeliwyd rhai, gwnïwyd ereill yn nghrwyn bwystfilod gwylltion, ac yna rhwygid hwy yn ddarnau gan gŵn; gorchuddiwyd ereill â chwyr a phŷg, ac wedi hyny rhoddid hwynt ar dân er goleuo'r gerddi ymherodrol yn y nos. Weithiau, cyfodai Nero ei chwareufa yn eu goleuni; bryd arall, efe a yrai ei gerbyd ei hun drwy eu canol, a phryd arall efe a safai i edrych, tra yr oedd ysgrechiadau benywod, wrth losgi yn lludw, yn fiwsig melus yn ei glustiau. Yn ol pob tebyg, fe ymwasgarodd yr erlidigaeth hon, a ddechreuodd yn y brifddinas, ar hyd y taleithiau; yr hyn a osododd y Cristionogion, crefydd y rhai oedd heb law hyn yn cael ei hystyried yn anghyfreithlawn, mewn sefyllfa ofnadwy drwy yr holl wlad. Terfynodd yr erlidigaeth, yn ystod y rhan olaf o ba un y merthyrwyd Pedr a Phaul, pan y lladdodd Nero ei hun. Taenwyd y gair, fodd bynag, yn mhlith Cristionogion nad oedd Nero wedi marw mewn gwirionedd, ond ei fod wedi ymneillduo o'r tu hwnt i'r Euphrates, ac y dychwelai efe yn fuan fel yr Anghrist, er mwyn gorphen yr hyn a ddechreuasai efe, sef dinystrio y Babilon hon, prifddinas y byd.

II. *Yr erlidigaeth dan Domitian*, yr hwn a deyrnasai o B. A. 81 hyd 96. Yn ol Tertullian, cynllunioddd Domitian erlidigaeth yn erbyn y Cristionogion, ond ni roddes hi mewn gweithrediad. Fe hysbyswyd yr ymherawdwr yn ddirgel fod yn Mhalestina ddau ŵr, o'r un genedl a Dafydd a'r Iesu, yn llunio bradwriaethau terfysglyd. Yr oedd tuedd derfysglyd y dysgwyliadau Iuddewig am Fessiah yn eithaf adnabyddus eisoes, ac yr oedd iaith y Cristionogion, wrth son am deyrnas Crist, yn cael ei chamddeall yn fynych. Parodd Domitian i'r ddau ŵr a gyhuddwyd gael eu dwyn ger ei fron; ac wedi iddo gael ei argyhoeddi mai gwladwyr tlawd a diniweid oeddynt, efe a'u gollyngodd hwynt adref mewn heddwch. Ond nid ydym i dybied oddi wrth hyn fod yr ymherawdwr wedi galw yn ol y mesurau hyny a fabwysiadwyd unwaith yn erbyn Cristionogion. Yn ol tystiolaeth Dion Cassius [*Hist.* lxvii. 14], ac Eusebius, yr hwn sydd yn dilyn hanes boreuach yn ei *Gronicl*, fe gafodd personau unigol eu herlid am mai Cristionogion oeddynt, ychydig cyn marwolaeth yr ymherawdwr drwgdybus a thrachwantus: condemniwyd rhai i farwolaeth, cymmerwyd ymaith feddiannau ereill, ac alltudiwyd hwynt. Tybir fod 40,000 wedi eu merthyru yn ystod y cyfnod hwn. Ar ei ol, daeth yr ymherawdwr Nerva i'r orsedd, yr hwn a deyrnasodd o B. A. 96 hyd B. A. 98. Gweithredai yr ymherhawdwr hwn yn hollol groes i'w ragflaenorydd. Galwodd yr alltudiedig adref, a gwrthodai wrandaw achwyniadau yn achos anghrefydd ac Iuddewiaeth, ac yn neillduol cyhuddiadau caethion yn erbyn eu meistriaid. Eto, er hyn oll, parhau yn grefydd a ystyrid yn anghyfreithlawn yr oedd Cristionogaeth fel o'r blaen, heb fod ei chefnogwyr yn cael dim ond ffafrau anuniongyrchol.

III. *Yr erlidigaeth dan Trajan*, yr hwn a deyrnasai o B. A. 98 hyd 117. Parodd Trajan, yr hwn oedd ar amryw ystyron yn dywysog uniawn ac anrhydeddus, nid yn unig i erlidigaethau newydd gael eu cyfodi yn erbyn Cristionogion trwy ddeddf a ffurfiodd er attal cymdeithasau dirgelaidd, ond efe oedd y cyntaf a wnaeth gyfraith bendant er cospi Cristionogion. Y pryd hwn (B. A. 110) y daeth Pliny yr ieuangaf—cydymdeimlad canmoladwy yr hwn â phob teimladau dynol pur sydd yn ymddysgleirio mor ardderchog yn ei lythyrau—fel rhaglaw Bithynia a Pontus, i wledydd lle yr oedd lluaws mawr o Gristionogion yn wasgaredig. Dygwyd lluaws mawr o honynt o flaen ei frawdle, a holodd y cyfryw ag oedd wedi gadael Cristionogaeth er ys cryn amser: ond nid rhyw duedd gref sydd mewn gwrthgilwyr yn gyffredin i ddyweyd yn dda am y gymdeithas a adawsant. Gan ddilyn arferiad creulawn y cyfreithiau Rhufeinig, efe a arteithiodd ddwy gaethferch oedd mewn swyddi fel diaconesau yn y cyfundebau Cristionogol, i'r dyben o gael allan y gwirionedd. Ac wedi'r cwbl, y cyfan a gafodd ei wybod oedd, fod Cristionogion yn arfer cyfarfod eu gilydd ar ddydd penodol (y Sabbath); eu bod yn ymuno i ganu mawl i'w Duw, sef Crist; a'u bod yn rhwymo eu gilydd i beidio cyflawnu troseddau, ond i ymgadw rhag lladrad a godineb; i fod yn ffyddlawn yn nghyflawniad eu haddewidion, i beidio attal rhag neb yr eiddo a ymddiriedasid i'w gofal; eu bod wedi hyn yn ymwahanu, ac yn ail gyfarfod y nos i fwyta pryd o fwyd syml a diniwed. Er hyn oll, ystyriai efe anufudd-dod cyhoeddus i drefniadau y wladwriaeth Rufeinig fel yn haeddu cosp. Gan hyny, pwy bynag a wrthodai yn ystyfnig aberthu i'r duwiau, i offrymu perarogl, a thywallt diodoffrymau o flaen delw yr ymherawdwr, ac i felldithio Crist, barnai ef y dylid ei gospi â marwolaeth, ac felly y gwnai; ond rhyddheid y rhai hyny a alwent eu geiriau yn ol, ac a ymostyngent i'r gyfraith. Cydsyniai y ymherawdwr yn hollol â'r golygiadau a'r gweithrediadau hyn. Gorchymynodd na byddai i'r Cristionogion gael eu hymlid gan y gyfraith; ond os byddai iddynt mewn rhyw fodd arall gael eu dal a'u condemnio, y caent ddioddef cospedigaeth; ac yr oedd arferiad wedi gwneud y gosp hon yn farwolaeth drwy'r cleddyf. Syrthiodd llawer yn ebyrth i ddialedd y gyfraith, yn enwedig yn Syria a Phalestina. Bu Simeon, esgob hybarch yr eglwys yn Ierusalem, olynydd Iago, hen ŵr 120 mlwydd oed, a pherthynas agos i'r Arglwydd, farw (yn B. A. 107) o farwolaeth merthyr ar y groes, gan wneuthur cyffes orfoleddus ar ol bod dan ffrewyllau am ddyddiau lawer. Cafodd y rhagorol Ignatius, esgob Antioch, ar ol sefyll ei brawf ger bron yr ymherawdwr, ei daflu i'r llewod yn y Colosseum. Nid llawer gwell oedd sefyllfa y Cristionogion dan Hadrian (B. A. 117 hyd 138). Arweiniwyd Serennius Granianus, rhaglaw Asia Leiaf, gan ymosodiadau y bobl arnynt, i osod eu hachos ger bron yr ymherawdwr; yr hwn, mewn adysgrif a anfonodd efe at olynydd Granianus, a ddywedodd, mai nid gwaedd y bobl, ond cyhuddiadau cyfreithiol yn unig, a wrandewid yn erbyn Cristionogion. Os gellid profi bod y gyfraith wedi ei throseddu, caffai cosp ei gweinyddu; ond os ceid allan fod rhai yn dwyn camgyhuddiadau, cospid hwythau hefyd.

IV. *Yr erlidigaeth dan Antoninus a Marcus Aurelius*, y rhai a deyrnasent o B. A. 138 hyd 189. Yr oedd yr ymherawdwr Antoninus o deimladau tyner a gwladgarol, ac nis gallai oddef y gamdriniaeth a roddid i'r Cristionogion. Tystiodd yn erbyn arferion creulawn y bobl tuag atynt mewn amryw ysgrifau a anfonodd efe i'r taleithiau Groeg. Ceisiodd hefyd amddiffyniad iddynt mewn achosion o gyhuddiadau cyfreithiol. Mewn ysgrif a anfonodd efe at y gymmanfa o ddirprwywyr ymherodrol yn Asia Leiaf, y mae hyd yn oed yn sylfaenu y gosodiad nad oedd Cristionogion

Digitized by Google

yn agored i gosp o herwydd eu crefydd. Er hyny, dygwyddodd amryw ddrygfydau; megys newyn, gorlifiad y Tiber, daeargrynfäau yn Asia Leiaf ac yn Ynys Rhodes, tânau dinystriol yn Rhufain, Antioch, a Carthage, y rhai a gynhyrfasant gynddaredd y bobl yn erbyn y Cristionogion i fesur mwy nag erioed o'r blaen. Alltudiwyd hwynt o'u tai, gommeddwyd iddynt ddangos eu hwynebau, taflwyd pob gwarth a dirmyg a ellid arnynt, cymmerid rhyddid i'w curo a'u baeddu, hyrddiwyd hwy fel anifeiliaid o'r naill fan i'r llall, ysbeiliwyd hwy o'u meddiannau, taflwyd hwynt i garcharau, a defnyddiwyd hyd yn oed geryg y maes yn offerynau dinystr iddynt. Aeth cyflwr y Cristionogion yn wirioneddol warthus yn ystod teyrnasiad yr enwog Marcus Aurelius; yr hwn, fel athronydd Stoicaidd, oedd yn gwbl analluog ac annhueddol i roddi barn briodol ar y grefydd Gristionogol; canys yr oedd yn casau brwdfrydedd y Cristionogion, ac yn awyddus, oddi ar ddibenion gwladwriaethol, i gadw yr hen grefydd mewn grym. Ffurfiodd "ddeddfau newydd" llymion iawn, yn nghylch pa rai y cwyna Melito, esgob Sardis, ond am y rhai nid oes genym ddim gwybodaeth bellach. Gellir casglu beth oedd cynnwys y deddfau hyn oddi wrth nodwedd yr erlidigaethau y pryd hwn, y rhai oeddynt yn wahanol i'r rhai a ddigwyddasent o'r blaen, yn gymmaint ag fod pob Cristion ar ei ben ei hun yn cael ei chwilio, a'i orfodi trwy arteithiau i ymwrthod â'i grefydd. Y mae ysgrifau am yr un cyfnod yn rhoddi hanes dwy erlidigaeth neillduol a fu dan yr ymherawdwr Aurelius. 1. Yr erlidigaeth yn Smyrna, yn 167. Y mae llythyr oddi wrth yr eglwys yn Smyrna at eglwysi Pontus yn mynegu yr hyn a ganlyn. Ceisiodd rhaglaw Asia Leiaf, drwy erfyniau, bygythion, ac arteithiau, gan Gristionogion wadu eu ffydd. "Ar ol cael eu blingo gan y fflangellau nes oedd y cyhyrau a'r rhedweliau yn y golwg, a'u gosod ar bicellau blaenfain, &c., fe barhaodd y merthyron yn ddiysgog," a phob un a barhäai yn ddiysgog a deflid i'r bwystfilod gwylltion. Y pryd hwn y rhoddwyd yr esgob Polycarp, yr hwn oedd ddysgybl i'r apostol Ioan, i farwolaeth, yn ddeg a phedwar ugain oed. Wedi iddo gael ei ddwyn ger bron y rhaglaw, dirgymhellwyd ef i gofio ei henaint, i dyngu i'r ymherawdwr, ac i gydymuno â'r bobl i waeddi, "Ymaith â'r didduw!" Edrychodd Polycarp o'i amgylch ar y dyrfa, pwyntiodd â'i fys; yna gydag ochenaid, a'i lygaid yn ddyrchafedig tua'r nef, efe a ddywedodd, "Ymaith â'r didduw!" Ond pan y gwasgodd y rhaglaw ef yn mhellach, gan ddyweyd, "Melldithia Grist, a mi a'th ollyngaf yn rhydd," meddai yr hen ŵr, "Yr wyf wedi ei wasanaethu ef am chwe blynedd a phedwar ugain, ac ni wnaeth ond daioni i mi erioed; a pha fodd y gallaf ei felldithio ef, fy Arglwydd a'm Gwaredwr?" Wrth i'r rhaglaw barhau yn mhellach i'w ddirgymhell, "Wel," meddai Polycarp, "os myni wybod beth ydwyf, dywedaf yn eglur, Cristion ydwyf. Os myni wybod beth ydyw yr athrawiaeth Gristionogol, penoder awr i'm gwrandaw." Wedi i'r llywodraethwr ei fygwth ef unwaith drachefn trwy ddangos iddo y bwystfilod gwylltion a'r ystanc, ond yn ofer, efe a fynegodd yn y chwareule, "Y mae Polycarp wedi cyhoeddi ei hun yn Gristion!" Ar hyn, mynegwyd y gollfarn. Gwaeddodd y bobl mewn cynddaredd, "Dyma athraw atheistiaeth, tad y Cristionogion, gelyn ein duwiau ni, trwy yr hwn y trowyd cynnifer oddi wrth y duwiau ac oddi wrth yr aberthau!" Cydsyniodd y rhaglaw â chais y bobl i Polycarp farw wrth yr ystanc. Pan yr oeddynt ar fedr ei hoelio ef wrth y coed, efe a ddywedodd, "Gadewch fi fel yr wyf; fe wna yr hwn a'm nerthodd i wynebu y fflamiau fy nghynnorthwyo i sefyll yn ddiysgog wrth yr ystanc." Cyn cynneu o'r fflamiau, efe a anadlodd weddi o fawl i'w Dduw am iddo gael ei "gyfrif yn deilwng i gael ei rifo yn mhlith tystion Crist, a chael cyfranogi o gwpan ei ddyoddefiadau." Ar ol ei ferthyrdod ef, ni chwiliodd y rhaglaw mwy am Gristionogion. 2. Yr erlidigaeth yn Lyons a Vienna, yn y flwyddyn 177. Yr ydym yn cael hanes yr erlidigaeth hon mewn llythyr oddi wrth yr eglwysi hyn at eglwysi Asia Leiaf. Cyn ymdoriad gwirioneddol yr erlidigaeth hon, ni chaffai y Cristionogion ymddangos yn y cyhoedd heb gamdriniaeth; ysbeilid eu tai, a charcherid pob un y gwyddid ei fod yn Gristion. Ar ddyfodiad y llywodraethwr, fe ddechreuodd y chwilys, mewn cyssylltiad â'r hwn y dygwyddodd rhai o'r arteithiau mwyaf ofnadwy y gellir eu dychymygu. Rhoddes y diacon Sanctus, Attalus o Pergamus, "colofnau yr eglwys," yn nghyd âg ereill, yn enwedig y gaethferch iauanc Blandina, brofion o wroldeb Cristionogol oedd bron yn uwchddynol. Arteithiwyd hwy â darnau o bres poeth, y rhai a gyssylltid â rhanau tyneraf eu cyrff, fflangellwyd hwy yn erchyll, rhostiwyd hwynt ar gadair o haiarn poeth, taflwyd hwynt i fwystfilod gwylltion i gael eu llarpio am ennyd; ac yn y diwedd, ar ol dyoddef yr holl arteithiau hyn, ac ereill, weithiau am ddyddiau yn nghyd, rhoddwyd hwynt i farwolaeth. Blinodd Blandina ei phoenydwyr, trwy ei dyoddefaint o bob math o arteithiau o foreu hyd yr hwyr; a chyda chorff wedi ei larpio a'i rwygo yn ddarnau, cafodd nerth ac eofnder ysbryd i ardystio, "Cristion ydwyf, ac nid oes dim drwg yn cael ei wneyd yn ein plith!" Wedi iddi hi a Phonticus, bachgen pymtheg oed, fod bob dydd yn dystion o ferthyrdod ereill, cawsant hwythau o'r diwedd eu merthyru; ond cyn ei lladd, cafodd hi ei fflangellu drachefn, yna ei dirboeni gan frathiadau bwystfilod gwylltion a'r gadair haiarn eiriasboeth, ac yn ddiweddaf oll rhoddwyd hi mewn rhwyd i gael ei chornio gan eidion gwyllt. Y ddau hyn fuont ebyrth olaf yr erlidigaeth hon. Yr oedd yr hen esgob Pothinus eisoes wedi ei ferthyru, ar ol dyoddef yr arteithiau mwyaf yn un o'r carcharau ffieiddiaf, lle yr oedd amryw o'i gydgarcharorion wedi mygu. Yr oedd y Cristionogion hyny a feddent hawliau dineswyr Rhufeinig, yn unol â phenderfyniad yr ymherawdwr, yn cael tori eu penau. Parhaodd cyrff "llu y merthyron" heb eu claddu am beth amser, gan fod yn agored i gael eu hanafu a'u baeddu mewn amryw ffyrdd. O'r diwedd, casglwyd a llosgwyd hwynt; ac i'r dyben o lwyr attal eu hadgyfodiad, fel y tybiai yr erlidwyr, fe daflwyd eu llwch i'r Rhone. Yn ol adroddiad a ledaenid yn helaeth yn mhlith y Cristionogion ar ol dechreuad y drydedd ganrif, tueddwyd yr ymherawdwr Marcus Aurelius gan ryw ddygwyddiad rhyfeddol mewn cyssylltiad â'r rhyfel yn erbyn y Marcommaniaid a'r Quadiaid yn 174, i newid cwrs ei ymddygiadau at y Cristionogion, gan fygwth cospedigaethau ar y rhai a ddygent gyhuddiadau yn eu herbyn. Dywedir fod ei fyddin wedi cael ei hachub rhag dinystr llwyr drwy ddyfodiad ystorm ofnadwy, yr hon a dorodd syched andwyol y milwyr ond a ddychrynodd y gelyn fel y collasant y dydd, a'r hon a ddaeth mewn attebiad i weddïau milwyr Cristionogol y

Digitized by Google

deuddegfed lleng. Galwodd yr ymherawdwr y lleng hon wedi hyny er cof am yr amgylchiad yn "lleng y daran." Tystia Claudius Apollinaris a Tertullian dros wirionedd yr adroddiad hwn, a chydsynia yr holl hen ysgrifenwyr Cristionogol a Phaganaidd yn hyn, bod y fyddin Rufeinig ar y pryd a nodwyd wedi eu hamddiffyn mewn modd nodedig iawn. Nid ymddengys fod y gwrthddadleuon i wirionedd yr hanes hwn yn ddigon pwysig i'w ddymchwelyd. O leiaf, y mae y ffaith fod y waredigaeth hon wedi ei rhoddi mewn atebiad i weddiau y Cristionogion yn cael ei chadarnhau ar dystiolaeth gredadwy, er mai ansicr yw fod teimlad yr ymherawdwr at Gristionogion wedi newid mewn canlyniad i hyn. Os fel hyn y bu, ni pharhaodd yn hir, canys yn fuan efe a briodolodd y cwbl i'r hyn a dderbyniasai gan ei dduwiau ei hun, neu i dynged Stoiciaeth. Ar ei ol ef, cafodd y Cristionogion fwynhau mesur o dawelwch dan deyrnasiad Commodus (B. A. 180 hyd 192), er y sonir am un neu ddau a ferthyrwyd yn ystod y tymmor hwn.

V. *Yr erlidigaeth dan Septimius Severus;* yr hwn a deyrnasodd o B. A. 193 hyd 211. Yr oedd Severus ar y cyntaf yn ffafriol at y Cristionogion, am fod ei gaethwas Cristionogol wedi ei wellhau o glefyd, ond newidiodd ei deimlad yn fuan i ddrwgdybiaeth hollol ddisail. Ysgrifena Clement o Alexandria fel hyn ychydig ar ol marwolaeth Commodus—"Y mae lluaws o ferthyron yn cael eu llosgi, eu croeshoelio, a thori eu penau bob dydd o flaen ein llygaid;" a chynnyddwyd yr erlidigaeth ar wneuthuriad deddf lem yn attal troedigaeth at Iuddewiaeth a Christionogaeth. Ymddengys fod erlidigaeth yn ei ffyrnigrwydd yn yr Aipht ac Affrica Raglawyddol. Y pryd hwn y merthyrwyd Perpetua yn Carthage, ac yn ei merthyrdod rhoddodd esampl ardderchog o cofnder Cristionogol. Yr oedd yn briod, a chanddi blentyn bach; yr oedd yn ferch i dad paganaidd, yr hwn a geisiodd yn mhob modd drwy erfyniau a bygythion ei throi oddi wrth Gristionogaeth; safodd yn cofn yn ngwyneb llys gorlawn lle yr oedd condemniad yn ei haros; fflangellwyd a charcharwyd hi; cymmerwyd pob mantais ar deimladau tyneraf cariad mam a phriod—ond yn ofer. "Rhaid i ewyllys Duw gael ei chyflawnu," ydoedd ei hiaith, a pharhaodd yn ddiysgog. Ac yn yr olygfa olaf, pan yn nghanol tyrfa fawr y chwareudy y taflwyd hi at darw cynddeiriog, hi a barhaodd mor gadarn ag erioed. Syfrdanwyd hi gan ei gorniad ef; ond yr oedd y dyrnod olaf wedi ei adael i'w roddi iddo gan gleddyfwr ofnus, llaw grynedig yr hwn a arweiniodd hi at ei gwddf ei hun. Pan y cafodd y gaethferch Felicitas, ei chydymaith mewn ffydd a dyoddefaint, ei dal gan boenau esgoriad yn y carchar, hi a atebodd rith-dosturi ceidwad y carchar, yr hwn a ddywedasai, "Os yw dy ddyoddefiadau di yn awr mor fawr, pa beth a wnei pan y teflir di at y bwystfilod gwylltion?" trwy ddyweyd, "Myfi fy hun sydd yn dyoddef yn awr; ond y pryd hwnw bydd un arall gyda mi, yr hwn a ddyoddef droswyf, o blegid minnau hefyd a ddyoddefaf drosto ef." Yn Alexandria, fe ddyoddefodd Potamiana, benyw o waed pendefigaidd ac o brydferthwch anarferol, yn ddiysgog hyd y diwedd er gwaethaf yr holl fygythion o boen a gwaradwydd, a chafodd ei merthyru trwy gael ei gollwng yn raddol i bair o byg berwedig. Parhaodd erlidigaethau mewn llawer o fanau yn ystod teyrnasiad Caracalla, olynydd Severus (o B. A. 211 hyd 217); ond fe'u goddefwyd i fesur gan yr anghenfil Heliogabalus, ei olynydd yntau (o B. A. 218 hyd 222), er gwasgu Cristionogaeth, yn nghyd â phob crefydd arall, i'w hauladdoliad Syriaidd ef ei hun. Mabwysiadodd yr ymherawdwr caruaidd Alexander Severus (B. A. 222 hyd 235) y grefydd Gristionogol fel un elfen yn ei ddetholiaeth (*eclecticism*) Blatonaidd. Yr oedd penluniau Abraham, Orpheus, Apollonius o Tyana, a'r Iesu, yn sefyll yn ystlysau eu gilydd yn ei Lararium, a dywedir ei fod yn coledd y bwriad o adeiladu teml i Grist. Yr ydoedd yn fab i fam deilwng, sef Julia Mammaea, noddwraig Origen. Eto nid oedd Cristionogaeth yn grefydd gyfreithlawn; ac yn ystod y teyrnasiad hwn y casglodd Domitius Ulpianus ysgrifau yr ymherawdwyr blaenorol yn erbyn Cristionogaeth.

VI. *Yr erlidigaeth dan Maximin, Gordian, a Phylip;* y cyntaf yn teyrnasu o B. A. 235 hyd 238, yr ail o 238 hyd 244, y trydydd o 244 hyd 249. Dechreuodd yr hon a restrir y chweched o'r deg erlidigaeth, yn ystod teyrnasiad Maximin y Thraciad. Aeth yn elyn penderfynol i Gristionogaeth o gasineb at ei ragflaenorydd, a chynhyrfwyd llid y bobl hefyd yn eu herbyn trwy ddygwyddiad daeargrynfäau arswydus. Erlidiodd yr ymherawdwr hwn yr esgobion hyny yn neillduol a fuont yn gyfeillion agos i Alexander Severus. Yr oedd i gynddaredd y bobl, dan y fath un, ryddid perffaith; ac yr oedd hefyd yn cael ei gefnogi gan y llywodraethwyr gelyniaethus. Y mae yn wir fod erlidigaethau yn cael eu cyfyngu i daleithiau neillduol, a Christionogion trwy hyn yn gallu achub eu hunain trwy ffoi o'r naill dalaeth i'r llall; ond er nad oedd yr erlidigaethau mor ffyrnig ag y buont ar adegau blaenorol, gwnaethant argraff ddyfnach; canys hwy a ddisgynasant ar y rhai oedd yn ystod ysbaid hir o heddwch wedi myned yn anghynnefin â chreulondeb. Er hyny, mwynheid tawelwch mewn rhai taleithiau o'r ymherodraeth. Cynnyddodd y tawelwch hwn yn ystod teyrnasiad Gordian, ac yn neillduol felly yn ystod llywodraeth Phylip yr Arabiad, yr hwn a roddes ei ffafr yn gyhoeddus i'r Cristionogion, ac yn wir dywedir iddo ddyfod yn Gristion ei hun. Ond y mae yr hanes boreuaf sydd genym am hyn yn gwbl anuniongyrchol ac ansicr ar y pwnc, ac wrth sylwi ar fywyd cyhoedd ac anghyhoedd yr ymherawdwr hwn, y mae y pagan i'w ganfod mewn llawer o ffyrdd. Heb law hyny, nid yw Origen, yr hwn a ohebai trwy lythyr â'r teulu ymherodrol, yn dyweyd dim yn ei waith amddiffynol mawr am gyffes o Gristionogaeth gan yr ymherawdwr Rhufeinig.

VII. *Yr erlidigaeth dan Decius,* yr hwn a deyrnasai o B. A. 249 hyd 251. I'r graddau yr oedd yr eglwys wedi mwynhau tawelwch yn y cyfnod olaf, yr oedd yn anmharod i dderbyn y bedydd newydd o dân—erlidigaeth Decius—yr hwn oedd tu hwnt i'r holl erlidigaethau blaenorol o ran helaethrwydd a chreulondeb, ac a amcanai at lwyr ddinystr Cristionogaeth. Gallwn gasglu beth oedd cynnwysiad y ddeddf ymherodrol oddi wrth yr hanesion am y cyfnod yn llythyrau Cyprian a Dionysius o Alexandria. Ar amser appwyntiedig, yr oedd yn rhaid i'r holl Gristionogion yn mhob talaeth o'r ymherodraeth ymddangos i offrymu aberthau yn gyhoeddus. Yr ydoedd y rhai a ffoent yn cael eu dedfrydu i alltudiaeth barhaus, a'u meddiannau yn cael eu cymmeryd ymaith oddi arnynt. Ceisiwyd gan y rhai a arosent yn y wlad i wadu eu ffydd, trwy egluriadau, bygythion, a'r arteithiau mwyaf poenus a pharhaol. Yr oedd llawer o'r rhai a withodent

Digitized by Google

yn neillduol yr esgobion a'r swyddogion eglwysig, yn cael eu dienyddio. Yr oedd y cyfnod tawel diweddaf wedi gwneuthur llawer o Gristionogion, yn enwedig y cyfoethog a'r pendefigaidd, yn glauar a musgrell. Offrymodd llawer o honynt ebyrth ac arogldarth, tra y pwrcasodd ereill dystysgrif gan swyddog y llywodraeth eu bod wedi cydsynio â'r ddeddf. Ystyrid y rhai hyn oll fel wedi gwadu Crist, ac esgymunid hwynt fel gwrthgilwyr. Eto yr oedd esamplau ardderchog i'w cael o eofndra y merthyr Cristionogol, o bob oes a rhyw. Bu raid i Cyprian o Carthage gymmedroli sel y tyrfaoedd a geisient gael eu cloi yn ngharcharau y cyffeswyr; ac yr oedd rhai Cristionogion Rhufeinig, ar ol dyoddef arteithiau o bob math, a dihoeni yn y carchar, pan yn aros awr eu merthyrdod, yn ystyried eu rhan yn un ogoneddus. Trengodd Decius yn y rhyfel â'r Gothiaid, yn mhen ychydig ar ol dechreuad ei deyrnasiad ofnadwy. Ar ei ol, daeth Gallus (B. A. 251 hyd 253), ond ni chafodd y Cristionogion eto fwynhau tawelwch perffaith. Rhwystrwyd ef ei hun, yn groes i'w ddymuniad, gan flinderau gwleidyddol yr ymherodraeth rhag myned yn mlaen gyda gwaith gwaedlyd ei ragflaenorydd; ond fe barodd pla i gynddaredd y bobl ymgodi yn erbyn y Cristionogion. Merthyrwyd dau esgob Rhufeinig, sef Cornelius a Lucius.

VIII. *Yr erlidigaeth dan Valerian;* yr hwn a deyrnasai o B. A. 254 hyd 259. Ar y cyntaf, ymddangosodd mor ffafriol i Gristionogion, nes yr oedd ei balas, fel y dywed Dionysius o Alexandria, megys eglwys; ond trwy ddylanwad ei ffafryn, Macrianus, aeth yn erlidiwr iddynt, a ffurfiodd gynllun pwyllog i ddyfetha yr eglwys. Yr oedd ei ddeddf gyntaf (B. A. 257) yn gorchymyn alltudio yr offeiriaid, yn enwedig yr esgobion, ac yn gommedd cynnulliad Cristionogion yn nghyd dan boen marwolaeth. Ond fe barhaodd esgobion, megys Cyprian o Carthage a Dionysius o Alexandria, i lafurio yn ddiwyd hyd yn oed yn eu halltudiaeth, a chyda chymmaint o lwyddiant ag erioed. O blegid hyny, yn B. A. 258, fe basiwyd deddf arall. Yr oedd pob esgob, presbyter, a diacon, i gael eu rhoddi i farwolaeth yn ddiattreg; yr oedd seneddwyr Cristionogol i gael eu hamddifadu o'u swyddau, ac oni wrthgilient hwy a gollent eu bywydau. Yr esgob Rhufeinig Sixtus a'i bedwar diacon oedd y merthyron cyntaf yn yr erlidigaeth hon. Dyoddefodd Cyprian hefyd erlidigaeth trwy y cleddyf, yn nhalaeth Carthage, Medi 14eg, 258, ar ol cael ei gondemnio gan y llywodraethwr fel "gelyn y duwiau, a blaenor ar gymdeithas anghyfreithlawn." Aeth i gyfarfod angeu gyda thawelwch a llawenydd mawr, gan ddiolch i Dduw am y dystiolaeth y goddefid iddo ei dwyn; ac yr oedd cyn hyn wedi anfon llythyr caruaidd at ei eglwys. Goddefwyd i'w eglwys ddangos yr arwyddion olaf o gariad a pharch i'w gorff. Gwnaed ymdrech i gael gan luoedd o Gristionogion o bob gradd, oedran, a rhyw, i wadu eu ffydd, trwy fflangellau a llafur creulawn yn y mwngloddiau. Eto yr oedd yr holl rym a'r ystrywiau hyn yn gwbl ofer. Yn y flwyddyn 259, cymmerwyd yr ymherawdwr yn gaeth gan y Persiaid, a pheidiodd yr erlidigaeth. Ar ei ol ef daeth ei fab Gallienus i gyflawn awdurdod fel llywodraethwr. Prysurodd i gyhoeddi deddf, trwy ba un y sicrhaodd i'r Cristionogion gyflawn ryddid i ymarfer eu crefydd, a gorchymynodd ar fod i'r cloddfeydd, yn nghyd ág adeiladau a thiroedd ereill, a gymmerasid oddi ar y Cristionogion yn ystod yr erlidigaeth ddiweddaf, gael eu dychwelyd. Fel hyn efe a gydnabyddodd yr Eglwys Gristionogol fel sefydliad cyfreithlawn, a chafodd Cristionogaeth ei dyrchafu o'r diwedd i restr y crefyddau a ystyrid yn unol â'r gyfraith. Felly rhoddwyd un attalfa ar ffordd ymherawdwyr gelynol i Gristionogaeth, ac fe fethodd hyd yn oed gelyniaeth Aurelian ei hun a chael lle i weithredu yn rhydd.

IX. *Yr erlidigaeth dan Aurelian*, yr hwn a deyrnasai o B. A. 270 hyd 275. Tarddodd yr ymherawdwr hwn o deulu isel, a dysgwyd ef yn holl ofergoeledd paganiaeth: felly nis gallai lai na bod yn elyn i Gristionogaeth o'r dechreu. Ystyriai fod llwyddiant yr ymherodraeth yn dwyn cysylltiad agos â gweinyddiad priodol o'r hen ddefodau. Pan mewn perygl o ryfel â'r llwythau Germanaidd, efe a alwodd ar y Rhufeiniaid i'w gynnorthwyo yn mhob modd drwy y seremonïau crefyddol; canys nid oedd yn un gwaradwydd i fuddugoliaethu trwy gynnorthwy y duwiau. Dadganodd ei barodrwydd i glirio pob costau a achlysurid wrth offrymu pob math o ebyrth, ac i'w cynnysgaethu â chaethion i hyny o bob cenedl. Rhaid, gan hyny, fod ebyrth dynol yn cael eu cynnwys. Gallwn gasglu hefyd nad oedd yr ymherawdwr yn wrthwyneb i dywallt gwaed Cristionogion er anrhydedd i'w dduwiau. Yr oedd ei duedd naturiol yn ei weithio i fabwysiadu mesurau celyd a chreulawn; eto ni ddechreuodd efe erlidigaeth yn erbyn y Cristionogion yn mlyneddoedd cyntaf ei deyrnasiad. Yn wir efe a ddangosodd ei fod yn tueddu i gydnabod y grefydd Gristionogol fel crefydd gyfreithlawn. Ond yn y flwyddyn 275, pan yn rhyfela yn Thrace, mewn trefn i arddangos ei ddiolchgarwch i'r duwiau, y rhai yn ol ei dyb ef a'i llwyddasent hyd hyny, ac er mwyn ennill eu ffafr rhagllaw, efe a benderfynodd daflu ymaith bob ammheuon, a chychwyn erlidigaeth yn erbyn y Cristionogion. Ond cyn dwyn ei gynllun i weithrediad, rhoddwyd pen ar ei fywyd trwy frad. Felly nid oedd yr erlidigaeth a fu yn ystod ei lywodraeth ef ond gwan o'i chymharu â'r rhai blaenorol; ond yr oedd un ymladdfa ofnadwy arall rhwng yr Eglwys Gristionogol â phaganiaeth ar gymmeryd lle.

X. *Yr erlidigaeth dan Diocletian*, yr hwn a deyrnasai o 284 hyd 305. O dan yr ymherawdwr hwn y bu y degfed a'r olaf o'r gyfres ofnadwy o ymosodiadau ar Gristionogaeth dan yr ymherawdwyr Rhufeinig. Yr oedd Diocletian hyd y flwyddyn 292 yn gyfranog yn y llywodraeth â Maximianus Herculius, a'r ddau y pryd hwnw yn gyfranog â'r ddau Cæsar, Constantius Chlorus, a Caius Galerius—gelyn ffyrnig y Cristionogion. Am beth amser wedi ei ddyrchafiad i'r orsedd yr oedd Diocletian yn lled oddefol o Gristionogaeth. Nid oedd hyn, mae yn wir, yn tarddu o un duedd bersonol—canys y mae ei ddeddf yn erbyn y Manicheaid, yn y flwyddyn 296, yn arddangos y tueddfryd mwyaf penderfynol at yr hen baganiaeth—ond o gyfrwysder a dybenion gwleidyddol: canys yr oedd y Cristionogion yn awr yn gorff cyfreithlawn, ac yr oeddynt yn lluosog iawn, ac yr oedd pob erlidigaeth hyd yma wedi bod yn foddion i lwyddo Cristionogaeth; ac fe allai hefyd ei fod yn cael ei attal i hyn gan deimlad o ddynoliaeth. O'r diwedd fe ddylanwadodd erfyniadau diflin a pharhaus Galerius i newid ymddygiadau ei dad yn nghyfraith hen a methiantus. Nid oedd y gorchymyn yn 298 i'r holl filwyr gymmeryd rhan yn yr ebyrth ond rhagflaenydd gwan yr erlidigaeth a ddechreuodd yn 303, ar achlysur



Digitized by Google

cyfarfod rhwng Galerius a Diocletian yn Nicomedia, yn Bithynia. Tynwyd i lawr eglwys arddercliog Nicomedia, a chymmerwyd y copiau o'r Ysgrythyrau oedd ynddi, a llosgwyd hwynt. Yn fuan wedi hyn, cyhoeddwyd deddf ymherodrol, yn gorchymyn i holl gynnulliadau crefyddol y Cristionogion gael eu chwalu, i'r holl eglwysi Cristionogol gael eu dinystrio, i'r holl gopiau o'r Ysgrythyrau gael eu traddodi i fyny i'w llosgi, i'r holl Gristionogion a wrthodent ymostwng gael eu hamddifadu o'u hawliau gwladol, i'r holl gaethion Cristionogol golli am byth y gobaith am ryddhad, ac i ddefnyddio yr arteithglwyd yn ddiwahaniaeth yn mhrawf y Cristion a wrthodai wadu ei ffydd. Yn fuan wedi hyn, torodd tân allan yn mhalas yr ymherawdwr; cyhuddai Galerius y Cristionogion o fod wedi ei gynneu, a pharodd i luaws o honynt gael eu dal a'u harteithio. Fe haera Lactantius mai Galerius ei hun oedd y troseddwr. Cyfran yn unig o'r Cristionogion a gydsyniasant i roddi yr Ysgrythyrau i gael eu llosgi; ac esgymunwyd y rhai hyn gan yr eglwys. Yr oedd y rhai a wrthodent wneuthur hyn, a'r rhai yr oedd eu cydwybodau yn rhy dyner i gyflwyno ysgrifeniadau hereticaidd i'r swyddogion gwladol yn lle yr Ysgrythyrau, a thrwy hyny eu twyllo, yn unol â'r ddeddf hon a dwy neillduol a wnaed ar ei hol, yn cael eu cam drin yn mhob modd gan eu gelynion paganaidd. Rhoes gwrthryfel yn Syria achlysur newydd i Galerius ddwyn cyhuddiadau newyddion a thrymion yn erbyn y Cristionogion; ac yn awr fe aeth y gorchymyn trwy yr holl daleithiau ar fod i'r clerigwyr gael eu carcharu fel personau drwgdybus. Yn fuan llanwyd y carcharau, ac yna fe anfonwyd gorchymyn arall, ar fod iddynt oll gael eu gorfodi yn mhob modd dichonadwy i offrymu ebyrth. Rhoddwyd gorchymyn arall i helaethu hwn, fel y cynnwysai yr holl Gristionogion.

Yn awr y dechreuodd uchafnod yr erlidigaeth fwyaf maith a gwaedlyd o'r holl erlidigaethau Cristionogol. Nid oedd un attalfa yn cael ei roddi ar gymmeryd ymaith fywydau, ac yr oedd yr erlidiwr paganaidd yn cymmeryd ei rawd gyda barbareidd-dra penrydd ac annysgrifiadwy. Yr oedd y bwystfilod gwylltion eu hunain fel pe buasent yn arswydo rhag yr erchyllderau a gyflawnid. Dywed Eusebius, yr hwn oedd yn llygad-dyst o lawer o'r gweithredoedd erchyll hyn, mai ofer oedd i'r erlidwyr wthio y Cristionogion yn ysglyfaeth i'r creaduriaid gwylltion. Yr oedd yr eirth a'r pantherod yn cilio draw rhag y merthyron. Yna fe ddyfeisiodd dyn arteithiau mwy ofnadwy. Ar ddechreu yr erlidigaeth hon, fe fflangellwyd cnawd Pedr—Cristion oedd yn dal perthynas â'r llys ymherodrol yn Nicomedia—ymaith oddi ar ei esgyrn; yna fe dywalltwyd halen a gwinegr i'r archollion; ac ar ol hyny, gan ei fod yn parhau yn ddiysgog, fe'i llosgwyd ef i farwolaeth yn araf o flaen tân. Cafwyd o'r diwedd ei fod yn orchwyl rhy annyben i farwolaethu y Cristionogion bob yn un ac un, a chynneuwyd tanau mawrion i'r dyben o ddinystrio tyrfaoedd o honynt ar unwaith. Weithiau, hwy a rwyment y truan wrth faen melin ac a'i taflent i'r môr. Mewn trefn i symmud ymaith bob cyfle i roddi prawf teg, fe adeiladwyd allorau yn nghynteddau y brawdlysoedd, ac ni wrandewid neb yn amddiffyn ei hun oni byddai iddo yn gyntaf offrymu aberth. Yn yr Aipht, yr oedd teuluoedd o Gristionogion, ar ol cael eu harteithio yn mhob modd, yn cael eu dinystrio drwy dân, drwy ddwfr, a thrwy y cleddyf. Newynid rhai, croeshoelid ereill—llawer â'u penau tua'r llawr, wedi eu gadael yn y cyflwr hwnw nes marw o newyn. Yn Alexandria, yr oedd Cristionogion – yn ol tystiolaeth Phileas, esgob Thmuis—yn cael eu sicrhau ar beiriant lle yr oedd eu holl aelodau yn cael eu dirdroi ymaith oddi wrth eu cyrff. Brydiau ereill, byddai yr arteithwyr yn rhwygo yr holl gorff—yr ystlysau, y bol, y coesau, a'r bochau—â phicellau haiarn. Crogid ereill gerfydd y fraich, ac yna tynid eu holl gymmalau ymaith. Yr oedd ereill yn cael eu codi mewn cadwynau oddi wrth y llawr yn y fath fodd ag i beri fod y cadwynau yn tori y cnawd yn fwy dwfn a phoenus. Mewn rhai amgylchiadau, yr oedd yr arteithiedig yn cael eu trin a'u meddyginiaethu yn ofalus i'r dyben o'u tynu eilwaith drwy ddirboenau cyffelyb i'r rhai a ddyoddefasent o'r blaen. Yn Thebais, yr oedd cnawd Cristionogion yn cael ei rwygo oddi arnynt â chregyn gleision nes eu lladd. Yr oedd benywod tyner a hynaws yn cael eu dynoethi yn waradwyddus o flaen y tyrfaoedd; yn cael eu rhwymo rhwng cangenau coed wedi eu tynu at eu gilydd, nes peri iddynt gael eu rhwygo yn ddeuddarn ar ymdafliad y cangenau yn ol. Ac yr oedd hyn oll yn myned yn mlaen yn rheolaidd flwyddyn ar ol blwyddyn! Yr oedd ar wahanol adegau gynnifer a deg, ugain, deg ar ugain, trigain, ie, gant o gyffeswyr yn cael eu lladd ar unwaith —yn ddynion, gwragedd, a phlant. "Fe aeth hyd yn oed y cleddyfau," medd Eusebius, "o'r diwedd yn bwl a thoredig, am eu bod wedi eu gwisgo allan gan waith lawer; blinodd y dienyddwyr, a rhoddasant eu swydd i fyny; ond yr oedd y Cristionogion, hyd yr anadl olaf, yn canu caniadau o fawl a diolchgarwch i'r Duw Hollalluog." Yn Pontus, gwthiai yr arteithwyr fynawydydd miniog i fysedd y Cristionogion oddi wrth yr ewin i lawr; tywalltent blwm poeth toddedig i lawr eu cefnau—heb son am fathau o arteithiau ofnadwy aneirif ereill a ddefnyddient. Nid anfynych y gwthid benywod Cristionogol i ddianrhydedd gwaeth nag angau – oddi wrth yr hyn yr ymryddhaent weithiau drwy hunanladdiad; gweithred yr oedd yr eglwys, wrth ystyried yr amgylchiadau, yn tueddu i edrych yn dyner arni. Yn Antioch, yr oedd Cristionogion yn cael eu rhostio wrth dân araf; yn Cappadocia, fe dorid eu coesau; yn Mesopotamia, crogid hwy gerfydd eu traed, a chynneuid tân araf a myglyd wrth eu penau. Yn Phrygia, cafodd tref Gristionogol gyfan ei hamgylchu gan dyrfa o wŷr arfog; yna fe gynneuwyd tân, a llosgwyd yr holl dref a'i phreswylwyr, yn nghyd â'u gwragedd a'u plant. Pan, o'r diwedd, y blinodd yr erlidwyr ar lofruddio, ac yr ymddangosai yr ymherawdwr fel pe byddai yn dechreu tyneru, hwy a ymfoddlonent ar dynu llygad Cristion allan, neu ar dori ymaith un o'i aelodau. Yr oedd tyrfaoedd mawrion yn cael eu hanafu yn y dulliau hyn a'r cyffelyb, ac yna yn cael eu hanfon i weithio yn y mwngloddiau. Ni wnaed y fath ymdrech reolaidd a threfnus erioed, a hyny gyda'r fath wallgofrwydd Satanaidd, i lwyr ddileu yr efengyl.

Yr oedd yr ymherawdwr eisoes wedi meddwl eu bod wedi ennill buddugoliaeth lwyr; ac amlygasant hyny—ond yn rhy fuan. Pa fodd y gallai eglwys y Duw tragwyddol gael ei diddymu! Fel yr oedd, nid ufuddhawyd yn fanwl i orchymynion yr ymherawdwyr drwy bob rhan o'r ymherodraeth. Ni pharodd Constantius Chlorus, y llywodraethwr yn y gorllewin, ond i ychydig o'r eglwysi gael eu tynu i lawr; ac yr oedd yn fwy rhydd i ddangos ffafr at y Cristionogion; pan, yn

y fl. 305, y rhoddes y ddau Augustus, Diocletian, a Maximianus, eu swydd a'u hurddas i fyny i'r ddau Cæsar, Constantius a Galerius. Yr oedd hyd yn oed Maxentius—yr hwn yn 306 a gyhoeddodd ei hun yn llywodraethwr yn Rhufain, ac yn y diwedd a aeth yn ormesdeyrn, ac i arfer y cyfareddion mwyaf echrys—o gyfrwysdra gwleidyddol yn parhau yn gymmedrol tuag at y Cristionogion. Yr oedd y digywilydd Maximin, mae'n wir—yr hwn a appwyntiwyd yn Cæsar yn 305 gan Galerius—yn elyn mor ffyrnig i Gristionogaeth a Galerius ei hun; a thrwyddo ef dechreuwyd erlidigaeth newydd yn y dwyrain, o'r fath fwyaf gwaedlyd a gwaradwyddus. Aeth penboethni a gormes mor bell, fel, yn y flwyddyn 308, y gorchymynwyd i bob peth bwytadwy a werthid yn y marchnadoedd gael eu taenellu â dwfr neu win aberthol; ac yn y flwyddyn 310, fe dorwyd penau pedwar ar bymtheg ar ugain o gyffeswyr yn Palestina. Ond hwn ydoedd y gwaed olaf a dywalltwyd yn yr erlidigaeth hon. Dygwyd Galerius, ei hawdwr, i ystyried ei weithredoedd ofnadwy mewn clefyd poenus a ffiaidd a'i daliasai. Gwelodd nad oedd yn ngallu dyn i ddyfetha Cristionogaeth yn llwyr, a theimlai mai barn oddi wrth eu Duw hwynt oedd ei glefyd. Yn 311, fe alwodd yn ol y gorchymynion a'r trefniadau erlidigaethus. Cydnabyddodd ei fod wedi methu yn ei amcan i ddwyn y Cristionogion yn ol at grefydd eu cyndadau. Ei ddyben oedd eu hattal hwynt rhag addoli Duw neillduol o'r eiddynt eu hunain; ond yn awr, fe ganiateid hyn, os peidient a gwneuthur dim yn groes i drefniadau y wladwriaeth. Dymunid iddynt yn awr, gan hyny, weddïo ar eu Duw am lwyddiant yr ymherodraeth a'r ymherawdwr, ac am eu llwyddiant eu hunain, ac am iddynt gael o hyny allan fyw yn dawel a heddychol yn eu cartrefi.

### ERLIDIGAETH CRISTIONOGION GAN CRISTIONOGION.

Fe fu erlidigaethau gwahanol sectau o amser Cystenyn hyd y Diwygiad yn dra lluosog; ond pan gyfododd yr enwog Martin Luther i wrthwynebu cyfeiliornadau ac uchelgais Eglwys Rhufain, ac y dechreuodd syniadau y gŵr da hwnw ymledaenu, fe unodd y pab a'i offeiriaid eu holl alluoedd i wrthsefyll eu cynnydd: a galwyd cymmanfa gyffredinol o'r holl offeiriaid yn nghyd. Hon oedd cymmanfa nodedig Trent, yr hon a gynnaliwyd am yn agos i ddeunaw mlynedd yn olynol, er mwyn sefydlu Pabyddiaeth yn gadarnach, a'i haddurno â mwy o odidogrwydd, i'r dyben o rwystro y Diwygiad. Cyhoeddid anathemau ac esgymunid cyfeillion y Diwygiad; a bu bywyd defnyddiol Luther yn fynych yn y perygl mwyaf, er iddo gael marw yn y diwedd mewn heddwch ar ei wely. Dyfeisiwyd cynlluniau afrifed o dro i dro i anrheithio yr eglwys ddiwygiedig, y rhai a roddid mewn grym hyd eithaf gallu gelynion y Diwygiad. Yr un amcan oedd gan y Llynges Anorchfygol (*Invincible Armada*), fel y gelwid hi mewn bôst; yr hon a ddinystriwyd wrth geisio glanio yn Mhrydain yn amser Elizabeth [gwel ELIZABETH]. Rhoddwyd y chwilys yn awr mewn mwy o rym nag erioed, yr hwn a sefydlwyd yn y ddeuddegfed ganrif yn erbyn y Waldensiaid [gwel CHWILYS]. Dygid erlidigaethau dychrynllyd yn mlaen mewn gwahanol barthau o'r Almaen, ac hyd yn oed yn Bohemia, y rhai a barhasant am o gylch tair blynedd ar ddeg ar ugain, pan y tywelltid gwaed y saint yn afonydd ar wyneb y ddaiar. Gwnaed gwledydd Poland, Lithuania, a Hungary, yn ddylif gan waed Protestaniaid.

*Yr Iseldiroedd.*—Holland a'r gwledydd cyfagos. Cyflawnwyd y creulonderau mwyaf echryslawn ar drigolion y gwledydd hyn am hir flynyddoedd gan yr Yspaeniaid creulawn ac ofergoelus; dan lywodraeth pa rai yr oedd y parth yma o'r byd y pryd hyny. Sylwa y Pabydd, Paul, fod y merthyron Belgiaidd hyn yn 50,000 o nifer; ond dywed Grotius ac ereill fod nifer y rhai a ddyoddefasant dan law y dienyddwr yn y parthau hyn dros 100,000. Pa fodd bynag, fe fethodd Satan a'i offerynau eu hamcan yn hyn; canys y canlyniad fu, i'r Iseldirwyr ysgwyd iau yr Yspaeniaid ymaith oddi ar eu gwar, ac ymddyrchafu yn llywodraeth annibynol, yr hon a gydnabyddwyd byth ar ol hyny fel un o'r rhai mwyaf Protestanaidd yn y byd.

*Ffrainc.*—Fe allai na chynnyrchodd un wlad fwy o ferthyron na'r wlad hon. Ar ol arfer llawer o greulonderau barbaraidd at y Protestaniaid, bu yr erlidigaeth fwyaf erchyll arnynt yn 1572, dan deyrnasiad Charles IX. Gwahoddwyd lluaws o'r prif Brotestaniaid i Paris, a chymmerwyd y llw mwyaf difrifol y caent amddiffyniad, ar yr achlysur o briodas brenin Navarre â chwaer brenin Ffrainc. Gwenwynwyd brenines waddolog Navarre, yr hon oedd Brotestant ffyddlawn, trwy gyfrwng pâr o fenyg, cyn i'r briodas gael ei gweinyddu. Nid oedd hyn ond rhagredegydd "y Dydd Du," "Dydd Bartholomeus," y 24ain o Awst, 1572—dydd cyflafan ofnadwy yr Huguenotiaid, a Phrotestaniaid Ffrainc o bob enwad, yn Paris; yr hwn "Ddydd Du" nid oedd ond ernes o luaws cyffelyb iddo trwy yr holl wlad. Wedi i fam y brenin, Henry o Anjou, De Retz, y duc o Guise, ac amryw ereill o Babyddion creulonaf Paris, gael gan y brenin, o'i led anfodd, dori ei lw â'r Protestaniaid, ar noswaith y 23ain o Awst, gorchymynasant ganu y gloch alaru (*tocsin*) cyn i'r brenin orphen eu hawdurdodi, gan faint eu hawydd i dywallt gwaed gwirion, a'u hofn i'r brenin edifarhau. Yr oedd mewn dychryn, â chwys oer yn ei orchuddio, gan faint cynhwrf ei feddwl, ac ofn y canlyniadau ofnadwy. Yn yr ing meddwl a'r cyfyng-gynghor yma, yr oedd y brenin ac ereill wedi gyru boneddwr allan, ychydig cyn toriad y dydd, i ddyweyd wrth y duc o Guise am arbed prifllyngesydd Ffrainc, Coligni; ond yr oedd yn rhy ddiweddar: yr oedd y creuloniaid wedi llofruddio y llyngesydd eisoes mewn dull bradwrus a gwael yn ei dŷ ei hun; a thaflwyd ei gorff drylliedig trwy y ffenestr i'r heol i foddio malais y duc o Guise, yr hwn a giciodd ei gorff gwaedlyd, gan ddywedyd, "Gorwedd yna, fwystfil gwenwynig! ni thaeni di dy wenwyn mwy!" Yna torasant ei ben ymaith, ac a'i hanfonasant i'r brenin a'i fam; ac wedi gwneuthur pob anmharch a allai cynddaredd erlidwyr crefydd ei ddyfeisio ar ei gorff, crogasant ef gerfydd ei draed wrth drostan. Ar y foment hono, canwyd cloch fawr "Llys Cyfiawnder" (?), ac aeth y gyflafan ofnadwy yn gyffredinol trwy yr holl ddinas; pan y llefai yr erlidwyr a'r llofruddion, nes yr oedd pob heol yn diaspedain gan eu bloeddiadau gwallgof, "Lleddwch, lleddwch, trwy orchymyn y brenin!—i angeu â'r Huguenotiaid!" Erbyn hyn nid oedd y llofruddion yn arbed na gradd, na rhyw, nac oedran, trwy holl heolydd Paris: a llofruddiwyd yno y dydd hwnw a'r ddau ganlynol, dros ddeng mil o arglwyddi, pendefigion, boneddigion, a phobl gyffredin. Yr oedd yr olygfa yn ddychrynllyd tu hwnt i bob dysgrifiad,

Digitized by Google

medd Thuanus, pan yr oedd pob heol a phob mynedfa yn adseinio gan ysgrechiadau y cigyddion oedd yn ymgyfarfod i lofruddio ac ysbeilio; gan ruddfanau y rhai oedd yn meirw, a llefau y rhai oedd ar gael eu merthyru. Yr oedd cyrff lladdedigion yn cael eu lluchio trwy ffenestri yn mhob cyfeiriad; ystafelloedd y tai a'r holl fynedfeydd yn cael eu llenwi â chelaneddau; a chyrff meirw rhai ereill yn cael eu llusgo trwy yr heolydd o anmharch arnynt. Yr oedd lloriau y tai, i fyny ac i waered, wedi eu gorchuddio â'r fath ddylif o waed dynol, nes yr oedd y llofruddion yn llithro ac yn syrthio yn fynych arno, gan ymdroi yn ei ganol. Dywedir fod cymmaint o waed yn yr heolydd, fel yr ydoedd yn llifo yn ffrydiau rhuddgoch, cymmysgedig â llaid y ddinas, i'r afon gyfagos. Ar air, y mae iaith yn llawer rhy wan i ddarlunio golygfa mor ofnadwy, ar gynnifer afrifed o wŷr, gwragedd beichiogion, boneddigesau ieuainc, a phlant, o bob gradd ac oedran, yn cael eu hyrddio i angeu yn ddirybudd yn nghanol y dinystr cyffredinol! Yr oedd hyd yn oed pyrth a holl fynedfeydd palas y brenin, wedi eu plastro a'u gorchuddio â gwaed y rhai diniweid! Yn ofer y ceisiai blaenoriaid y gyflafan dawelu yr ystorm ar ol iddi ddechreu; parhaodd y gyflafan erchyll yn Paris am saith niwrnod; ac ymdaenodd fel tân gwyllt o'r brifddinas drwy yr holl deyrnas. Bwriwyd dau gant yn ninas Meaux i garchar; ac ar ol i'r erlidwyr dreisio a lladd nifer mawr o wragedd, ac ysbeilio tai y Protestaniaid, disgynasant mewn cynddaredd ar y carcharorion, a chan eu galw o un i un, medd Thuanus, lladdasant hwy oll mewn gwaed oer, fel defaid yn y farchnad. Lladdwyd 500 o wŷr, gwragedd, a phlant, yn Orleans; ac ymgyfcethogodd y llofruddion â'r ysbail. Cyflawnwyd yr un creulonderau yn Angers, Troyes, Bourges, La Charité, yn enwedig yn Lyons, lle, yn annynol, y dystrywiasant dros 800 o Brotestaniaid, tra yr oedd plant yn ymglymu am yddfau eu rhieni, a rhieni yn cofleidio eu plant; rhoddid rhaffau am yddfau rhai, gan eu llusgo trwy yr heolydd, a'u taflu, wedi eu clwyfo a'u dryllio, yn hanner marw, i'r afon. Yn ol Thuanus, dinystriwyd dros 30,000 o Brotestaniaid yn y gyflafan hon; ond sicrha ereill fod y dinystr yn 100,000. Ar ol hyn, aeth Charles yn ysglyfaeth i arteithiau cydwybod annyoddefol. Byddai wynebau erchyll wedi eu gorchuddio â gwaed yn hofran ddydd a nos o flaen ei ddychymyg. Rhoddodd Ewrop Brotestanaidd un ochenaid ddofn pan glywodd am y gyflafan ofnadwy, a'i melldith ar y llofruddion. Gorchuddiodd y frenines Elizabeth o Loegr ei holl ystafelloedd â du, a gorchymynodd i'w holl lys wisgo galarwisgoedd. Derbyniodd Yspaen y newydd gyda llawenydd, a llongyfarchodd y brenin o blegid ei deyrngarwch i'r eglwys. Ond yr hyn sydd yn chwanegu mwyaf o ysgelerder at y creulonderau, ydyw y dull y derbyniwyd y newydd am y gyflafan ddieflig gan y pab a'i gardinaliaid. Anrhegwyd y cardinal Lorrain, yr hwn a ddygodd y newyddion i Rufain â chant o goronau; a phan ddarllenwyd ei lythyrau fel cenad y pab yn nghymmanfa y cardinaliaid, yn y rhai y sicrheid y pab fod yr holl gyflafan wedi ei chyflawnu trwy orchymyn pendant y brenin, penderfynwyd yn y fan y byddai i'r pab a'i gardinaliaid gerdded yn un orymdaith i Eglwys St. Marc, er mwyn diolch i Dduw yn y modd mwyaf difrifol am ganiatau y fath fendith fawr i esgobaeth Rhufain a'r byd Cristionogol, trwy gael ymwared mor ogoneddus o gynnifer o hereticiaid damniol ar unwaith! Ac ar y dydd Llun canlynol, offrymwyd offeren ddifrifol yn Eglwys Minerva, lle yr oedd y pab Gregory XIII. a'i gardinaliaid yn bresennol. Hefyd, cyhoeddwyd fod iwbili i gael ei chynnal trwy yr holl fyd Cristionogol, er mwyn talu diolchgarwch cyffredinol i'r Hollalluog Dduw am ddinystrio gelynion y gwirionedd ac Eglwys Ffrainc. Ac fel hyn yr oedd Eglwys Rhufain, nid yn unig yn gwneyd y gyflafan fwyaf erchyll, annuwiol, ac ysgeler a geir ar ddalenau hanesiaeth holl oesoedd y byd yn eiddo iddi ei hun, ond yn ei phriodoli hefyd i Dduw! Yn yr hwyr, taniwyd magnel mawr St. Angelo er cyhoeddi llawenydd cyffredinol yr eglwys yn Rhufain; goleuwyd yr holl ddinas â banffaglau; ac nid esgeuluswyd un arwydd o lawenydd a gorfoledd a arferid i ddangos fod Eglwys Rhufain wedi ennill y fuddugoliaeth fwyaf!

Pa fodd bynag, tystia hanesiaeth i greulonderau yr erlidigaeth a gymmerodd le yn amser Louis XIV. ragori hyd yn oed ar y cyflafanau a nodwyd. Nis gall fod yn hyfryd i deimladau un dyn a fyddo yn meddu y radd leiaf o ddynoliaeth, gofnodi y golygfeydd erchyll hyn o ddychryn, creulondeb, ac anrheithiad; eto, er mwyn dangos beth a all ofergoeledd, penboethni, a gwallgofrwydd crefyddol ei gyflawnu; ac er mwyn dal ysbryd erlidigaethus yn destyn ffieiddiad a dirmyg o flaen llygaid y darllenydd, rhoddwn yma grynodeb mor fyr ag y mae yn bosibl o'r ffeithiau. Gyrid y meirchfilwyr a'r traedfilwyr i dai Protestaniaid, y rhai a ddyfethent eu holl ddodrefn, a dorent eu holl wydrau, a luchient eu hŷd a'u gwin allan, gan eu cymmysgu â'r llwch a'r llaid, ac a werthent yr hyn nas gallent ei ddinystrio; ac amddifadwyd y Protestaniaid yn y dull hwn yn unig, yn ysbaid pum niwrnod, o werth miliwn o arian. Ond nid hyn oedd y gwaethaf: gwnaethant ystafelloedd ciniaw y boneddigion yn ystablau i'w ceffylau, a chwipient y preswylwyr—yn foneddigesau, plant, a boneddigion tyner a chyfoethog—fel cŵn oddi amgylch eu tai eu hunain, heb oddef iddynt na bwyta nac yfed. Pan welent y gwaed a'r chwys yn llifo ar hyd eu wynebau prydferth a thyner, tywalltent lestreidiau o ddwfr oer arnynt, a rhoddent dabyrddau pres a chrochanau am eu penau, gan guro y rhai hyny yn barhaus â morthwylion, gefeiliau tân, &c., nes y byddai y dyoddefwyr truain yn gwbl wallgof! Yn Negreplisse, tref yn agos i Montauban, croglasant un Isaac Favin, dinesydd Protestanaidd o'r lle hwnw, wrth drostanau gerfydd pwll ei geseiliau, ac arteithiasant ef ar hyd y nos, trwy dori tameidiau o'i gnawd â gefeiliau. Gwnaethant dân erchyll ei faint o amgylch bachgen bychan, deuddeng mlwydd oed, yr hwn a ddyrchafai ei ddwylaw a'i lygaid tua'r nef, gan lefain, "O Dduw! derbyn fy ysbryd!" a phan welsant fod y plentyn yn penderfynu marw yn hytrach na gwadu ei grefydd, cipiasant ef o ganol y tân pan yr oedd ar losgi i farwolaeth. Seriai y milwyr ddwylaw a thraed dynion, a bronau gwragedd, â haiarn poeth. Yn Nantes, crogwyd amryw wragedd a boneddigesau ieuainc gerfydd eu traed neu bwll eu ceseiliau, gan eu gadael felly yn noethion yn ngolwg y werin farbaraidd. Rhwyment famau a fyddent yn rhoddi bronau wrth bolion, a chadwent eu babanod sugno i ddihoeni i farwolaeth yn eu golwg am ddyddiau a nosweithiau, tra y llefent ac yr ymdrechent am eu bywyd. Rhwyment rai o flaen tânau erchyll; ac wedi iddynt hanner rhostio, gollyngent hwy, yr hon oedd gospedigaeth waeth na marwolaeth

Digitized by Google

ddisymmwth. Crogent wyr a gwragedd, a phlant, yn nghanol mil o ysgrechion arswydlawn—rhai gerfydd eu gwallt, ereill gerfydd eu traed—ar fachau mewn simneiau mawrion o fath ag oedd y dyddiau hyny, a mygent hwy i farwolaeth trwy gynneu gwair gwlyb o danynt. Rhwyment rai dan eu breichiau â rhaffau, a chladdent hwy drachefn a thrachefn mewn ffynnonau neu bydewau dwfr, nes eu llofruddio. Bwrient ereill yn rhwym i'r arteithglwyd, gan ddal ceg gul phiol yn llawn o win poeth wrth eu genau a'u ffroenau, nes i'r ager ddyrysu eu synwyrau, tra y gorfodent hwy yn y cyflwr hwnw i gyfaddef eu bod yn Babyddion. Tynent ddillad ereill oddi am danynt yn llwyr, a phlanent binau a nodwyddau dur yn eu cnawd, o'u pen i'w traed. Mewn manau ereill, rhwyment dadau a gwŷr wrth byst eu gwelyau, a threisient eu gwragedd a'u merched ger bron eu llygaid, yn y dull mwyaf barbaraidd. Llanwent gyrff gwŷr, a gwragedd, a phlant, mewn manau ereill, â gwynt, trwy offerynoliaeth meginau, nes iddynt ymhollti ar eu traws. Os ymdrechai rhywrai i osgoi y creulonderau barbaraidd hyn, trwy ffoi ymaith, erlynid hwy i'r meusydd a'r coedydd, lle y saethid hwy fel bwystfilod gwylltion; ac ni feiddient ymadael â'r deyrnas (creulondeb na arferwyd erioed gan na Nero na Diocletian), dan boen fforffedu eu holl eiddo, gael eu crogi, eu chwipio, neu eu carcharu am eu hoes. Yr oedd y golygfeydd dychrynllyd, creulawn, a barbaraidd hyn yn wledd i lygaid a theimladau yr offeiriaid Pabaidd, y rhai a glywid yn fynych o bell yn crechwen ac yn chwerthin, wrth weled gwrthddrychau eu dialedd coelgrefyddol, annuwiol, a gwallgof, yn yr arteithiau angeuol mwyaf dirdynol ac ofnadwy! Y fath oedd dull Pabyddion Ffrainc yn amser Louis XIV, o wneyd dysgyblion Cristionogol!

*Lloegr a Chymru.* Bu o fewn y gwledydd hyn hefyd erlidigaethau chwerwon. Er i Wickliffe, y diwygiwr cyntaf, gael marw mewn tangnefedd yn ei wely, eto y fath oedd malais ac ysbryd erlidigaethus y Pabyddion, fel y gorchymynasant ar i'w esgyrn gael eu cioddio i fyny a'u bwrw i ddaiargell. Felly, cyfodwyd gweddillion y dyn ardderchog hwn o'r bedd, ar ol bod yno yn tawel orphwys am bedair blynedd a deugain. Llosgwyd ei esgyrn, a bwriwyd y lludw i'r afon ger llaw. Llosgwyd Bliney, Wayman, a lluaws ereill o ddiwygwyr enwog, hyd yn oed o dan deyrnasiad Harri VIII; ond pan aeth Mari i'r orsedd, a elwir gan y Cymry ac ereill, "Mari Waedlyd," y cymmerodd yr erlidigaethau mwyaf creulawn a thanllyd le yn Mhrydain. Llosgwyd Hooper a Rogers mewn tân araf. Arteithiwyd Saunders am hir amser wrth yr ystanc cyn iddo farw. Rhoddwyd Taylor mewn baril o byg (*pitch*), yn yr hwn y gosodwyd tân. Dyoddefodd Cymru ei rhan yn helaeth dan yr erlidigaeth chwerw yma. Danfonodd yr erlidiwr gwaradwyddus a chreulawn hwnw ei genadau gwaedlyd i'r wlad hon, y rhai a helient y Protestaniaid yma, fel yr helir petris ar y mynyddoedd. Yn mysg lluaws o dduwiolion a losgwyd yma, yn wŷr, gwragedd, a phlant, yr oedd yr enwog Ferrar, esgob Tŷ Ddewi, Rawlins White, neu Wynne, o Gaerdydd, a llawer gyda hwy. Yn 1555, llosgwyd trigain o Brotestaniaid enwog, ac yn eu plith Bradford, Ridley, Latimer, a Philpot. Yn y flwyddyn ganlynol (1556), llosgwyd pump a phedwar ugain o bersonau. Ni arbedid na gwragedd, na morwynion ieuainc, nac hyd yn oed y babanod. Tra yr oedd un wraig dduwiol yn y fflamau, a chan ei bod yn agos i'w thymp i esgor, ganwyd ei baban yn nghanol y tân yn ngŵydd yr holl filoedd edrychwyr, pan y neidiodd un o'r edrychwyr oedd fwy dynol na'r lleill, ac y cipiodd y baban truan o ganol yr eirias; ond gorchymynodd yr ynad heddwch annynol ei daflu drachefn i ganol y fflamau, lle yr ymgymmysgodd ei ludw ef â'i fam. Fel hyn, llosgwyd y baban newydd eni am heresiaeth! "O Dduw!" medd un hanesydd wrth adrodd hyn, "y fath yw y natur ddynol wedi ei gadael iddi ei hun!" Yr oedd teimladau yr erlidwyr yn llawn mor greulawn ag oeddynt o uffernol ar y pryd. Sefydlodd y frenines lys ymchwiliad, yr hwn a fu yn achos o ddinystr mwy na phedwar ugain yn chwaneg o bersonau Protestanaidd. Ar y cyfan, nid oedd yr holl nifer a ddyoddefasant ferthyrdod dros grefydd ddiwygiedig dan deyrnasiad Mari yn ddim llai na 277 o bersonau; o'r rhai yr oedd pump o esgobion, 21 o barsoniaid, 8 o foneddigion, 84 o fasnachwyr, 100 o amaethwyr, llafurwyr, a gweision, 55 o wragedd, a 4 o blant. Heb law y rhai hyn, yr oedd 54 chwaneg dan erlidigaeth, saith o ba rai a fflangellwyd, ac un ar bymtheg a fuont feirw mewn carcharau. Nid oedd teyrnasiad Elizabeth chwaith yn rhydd oddi wrth ysbryd erlidigaeth. Gwel ELIZABETH. Os gwrthodai neb gydsynio â'r seremoni leiaf mewn addoliad, teflid ef i garchar, lle y bu lluaws feirw o wŷr ardderchocaf y tir. Llosgwyd ac alltudiwyd lluoedd o'r Ailfedyddwyr Protestanaidd. Dywedir hefyd i Elizabeth roddi dau o'r Browniaid i farwolaeth; ar air, er fod ei theyrnasiad yn nodedig am ei lwyddiant gwladol, y mae yn amlwg nad oedd hi yn deall hawliau cydwybod, canys dywedir fod mwy o gyfreithiau gwaedlyd wedi eu gwneuthur yn ei theyrnasiad hi na neb o'i rhagflaenoriaid; a llychwinwyd ei dwylaw gan waed Pabyddion a Phuritaniaid. Iago I. a ddilynodd Elizabeth: rhoddodd ef gyhoeddiad allan yn gorchymyn yn gaeth i'r holl Brotestaniaid gydymffurfio yn fanwl, heb un eithriad, â holl ddefodau a seremonïau Eglwys Loegr. Rhoddwyd taw yn ebrwydd ar dros 500 o wŷr eglwysig a wrthodasant gydymffurfio. Esgymunwyd rhai, ac alltudiwyd y lleill o'r wlad. Erlidid, ceryddid, a dirwyid yr Ymneillduwyr yn y Star Chamber. Llosgwyd dau barson am heresi—un yn Smithfield, a'r llall yn Lichfield. O blegid y blinderau diddiwedd, a'r erlidiau diorphwys, ymfudodd lluaws mawr i'r Iseldiroedd, ac oddi yno i'r America. Tystiolaethir gan hanesydd cywir fod 22,000 o bersonau, dan y teyrnasiad hwn a'r rhai canlynol, wedi eu halltudio o Loegr i America gan erlidigaeth. Yn amser Charles I, cyfododd erlidigaeth Laud, yr hon a barodd gyfyngder mawr i laweroedd. Dirwywyd y Dr. Leighton am ysgrifenu llyfr yn erbyn y llywodraeth eglwysig, i 10,000*p.*, a chafodd ei fflangellu a'i fwrw i garchar parhaus. Wedi ei fflangellu, rhoddwyd ef yn yr arteithglwyd; torwyd un o'i glustiau ymaith; holltwyd un o'i ffroenau; seriwyd ar ei fochgern y llythyrenau S.S. â haiarn poeth; fflangellwyd ef yr ail waith, a rhoddwyd ef drachefn yn yr arteithglwyd. Yn mhen y pythefnos ar ol hyny, tra yr oedd ei friwiau eto heb iachau, torwyd ei glust arall ymaith, holltwyd y ffroen arall, a seriwyd y fochgern arall yr un fath. Cadwyd ef yn y carchar hyd y Senedd Hir yn amser Cromwell, pan y cafodd ei ryddhau, fel y cafodd ugeiniau ereill oedd mewn cyflwr cyffelyb. Yn mhen tua phedair blynedd ar ol arteithio y Dr. Leighton, cafodd un, William Prynne, dadleuwr enwog o'r

Digitized by Google

gyfraith, ei amddifadu o'i swydd yn y Lincoln's Inn, ei ddiosg o'i raddau yn Rhydychain, ei osod yn yr arteithglwyd, a thori ei ddwy glust ymaith, ei garcharu am ei oes, a'i ddirwyo i 5,000*p.* am ysgrifenu yn erbyn Llyfr y Chwareuon ar ddydd yr Arglwydd. Ac nid oedd y Presbyteriaid, pan y sefydlwyd eu llywodraeth yn Lloegr, yn rhydd oddi wrth y cyhuddiad o fod yn erlidigaethus. Yn 1645, cyhoeddwyd deddf, yn gosod pwy bynag a bregethai neu a ysgrifenai yn erbyn y *Presbyterian Directory* mewn addoliad cyhoeddus, yn agored i ddirwy, nid dros 50*p.*; a charchariad am flwyddyn am y trydydd trosedd, o blegid defnyddio *Llyfr Gweddi Cyffredin* yr Esgobaethwyr, hyd yn oed mewn teuluoedd neillduol. Yn y flwyddyn ganlynol, appeliodd y Presbyteriaid at y senedd, gan bwyso arni i orfodi *unffurfiaeth* mewn crefydd, ac ar iddi lwyr ddinystrio Pabyddiaeth, esgobyddiaeth, heresiaeth, a sismaticiaeth, &c., ond gwrthododd y senedd eu deiseb. Eto, yn 1648, cyhoeddodd y senedd ddeddf, dan eu dylanwad hwy, yn erbyn heresiaeth, ac yn penderfynu fod i ba berson bynag a gredai, a gyhoeddai, neu a amddiffynai y cyfeiliornadau canlynol gael ei roddi i farwolaeth. Y cyfeiliornadau oedd—1. Gwadu bod Duw. 2. Gwadu ei hollalluogrwydd ef, a'i hollbresennoldeb, &c. 3. Gwadu y Drindod mewn rhyw ffordd. 4. Gwadu fod gan Grist ddwy natur. 5. Gwadu yr adgyfodiad, yr iawn, a'r Ysgrythyrau. Dan deyrnasiad Charles II, pasiodd Deddf yr Unffurfiaeth, trwy yr hon yr amddifadwyd 2000 o'r gwŷr eglwysig duwiolaf a feddai yr Eglwys Sefydledig o'u bywiolaethau; yr hyn a gymmerodd le ar y 24ain o Awst, 1662—ffyddlondeb cydwybodol pa rai dros y gwirionedd, y mae Anghydffurfwyr Prydain yn penderfynu ei anrhydeddu y flwyddyn hon, 1862, dan yr enw, "Dau gan mlwyddiant y Ddwy Fil Anghydffurfwyr." Dilynwyd Deddf yr Unffurfiaeth gan y *Conventicle Act*, a Deddf Rhydychain—dan ba rai y dywedir i 8,000 o bersonau gael eu carcharu a'u darostwng i eisieu, a chynnifer drachefn eu gwasgu i'r bedd. Dan y teyrnasiad hwn hefyd erlidiwyd y Cyfeillion (*Quakers*) yn dost, a charcharwyd nifer dirfawr o honynt o blegid eu crefydd. Yn awr gwelwn fel y bu hyd yn oed Prydain yn gwaedu dan ddwylaw llofruddiog penboethni ac erlidigaeth; ac ni fwynhawyd hyd yn oed goddefiad nes yr esgynodd William III. i'r orsedd, yr hwn a ddangosodd ei hun yn gyfaill gwresog a ffyddlawn i hawliau cydwybod. Yr oedd esgyniad y teulu breninol presennol yn argoel dda i ryddid crefyddol; canys y maent bob amser wedi bod yn bleidwyr gonest i oddefiad; ac y mae ysbryd erlidigaeth wedi ei ffrwyno ganddynt i'r fath raddau fel y mae wedi gwywo i raddau dymunol yn y tir; ac ni faidd mwyach dywallt ei ddialedd ar neb o wrthddrychau ei ddygasedd.

*Yr Iwerddon.* Cafodd yr ynys hon hefyd ei throchi i gwaed y Protestaniaid deugain—neu ddeng mil a deugain o ba rai a lofruddiwyd mewn ychydig ddyddiau yn ngwahanol barthau yr ynys dan deyrnasiad Charles I. Dechreuodd y gyflafan ar y 23ain o Hydref, **1641.** Wedi sicrhau y prif foneddigion, a chymmeryd eu heiddo trwy drais, llofruddiasant y bobl gyffredin mewn gwaed oer, tra y ffodd miloedd o'u tai a'u bwthynod i'r coed a'r corsydd yn noethion, lle y trengasant gan newyn ac oerfel. Cafodd rhai eu fflangellu i farwolaeth: dadwisgid ereill yn noethion gan yr erlidwyr, er mwyn eu gwarthruddo; ac yna gyrent hwy, yn feibion ac yn ferched, yn y cyflwr hwnw, fel deadellau o ddefaid, i farw yn y mynyddoedd. Boddwyd cannoedd o honynt yn yr afonydd; torwyd gyddfau y lleill; a dadgymmalwyd aelodau ereill oddi wrth eu cyrff. Ymhyfrydai yr erlidwyr milain weithiau ymryson â'u gilydd er mwyn gweled pwy o honynt a allai dywallt y mwyaf o wawd, a sarhad, a chlwyfau, a phoenau, ar wrthddrychau diniweid eu dialedd. Rhwyment rai yn noethion wrth bolion, ac ymrysonai pedwar neu bump, mwy neu lai, o'r erlidwyr, pwy a allai wneyd yr archollion dyfnaf yn nghnawd y dyoddefwyr â chyllyll, cleddyfau, a bidogau, &c. Baeddid a threisid gwragedd a genethod ieuainc tyner yn mhresennoldeb eu perthynasau agosaf; ie, a hyd yn oed dysgai yr erlidwyr Pabaidd i'w plant ymryson am y goreu i ddynoethi a chlwyfo â chyllyll, a churo ymenyddiau plant Protestaniaid allan â cheryg! Fel hyn, llofruddiwyd llawer o filoedd yn yr Iwerddon mewn ychydig ddyddiau, heb wneuthur dim gwahaniaeth rhwng nac oedran, na rhyw, na gradd, a hyny cyn iddynt feddwl eu bod mewn perygl, na chael dim amser i ddarparu er hunanamddiffyniad; ac ni arferwyd mwy o gieidd-dra a barbareiddiwch mewn un parth arall o'r Deyrnas Gyfunol. Mewn gwirionedd, nid oes un ran o'r deyrnas hon dan fwy o rwymedigaeth i Brotestaniaeth na'r Iwerddon; a gresyn nas gellid ennill corff y genedl bellach i weled hyny.

*Yr Alban, Yspaen, &c.* Heb law yr erlidigaethau gwaedlyd a chreulawn a nodwyd uchod, bu amryw o rai cyffelyb mewn gwahanol barthau o'r byd. Bu yr Alban yn olygfa arswydus o greulonderau a thywallt gwaed am lawer o flynyddoedd olynol, hyd oni waredwyd hi gan y penadur yn y Chwyldroad. Hefyd, bu Yspaen, Italy, Dyffryn Piedmont, a manau ereill, yn olygfeydd o erlidigaethau tra chreulawn. Gwelir hefyd yn amlwg mai Pabyddiaeth bob amser a fyddai â'r llaw benaf yn y gorchwyl drygionus hwn. Y mae hi yn gyfrifol, nid yn unig am waed Protestaniaeth, ond hefyd am waed miliynau o Iuddewon, Mahometaniaid, a barbariaid. Pan orchfygwyd Yspaen gan y Mooriaid yn yr wythfed ganrif, yr oeddynt hwy yn caniatau rhyddid crefyddol cyflawn i'r Cristionogion; ond yn y bymthegfed ganrif, pan drechwyd y Mooriaid, gorfodai Ferdinand y Moriscoaid, hiliogaeth y Mooriaid, wrth y miloedd i gymmeryd eu bedyddio, neu ddyoddef cael eu llosgi neu eu halltuddio; a gwerthid eu plant i fod yn gaethweision. Dyoddefodd miloedd o'r Iuddewon yr un creulondeb, a hyny yn benaf trwy offerynoliaeth llysoedd uffernol y chwilys. Gwnaed cyflafan waeth fyth, os dichonadwy, yn mysg brodorion America Yspaenaidd, lle y dywedir i bymtheng miliwn gael eu haberthu i greulonderau Pabyddiaeth yn ysbaid tua deugain mlynedd o amser. Yr ydys yn cyfrif fod tua deng miliwn a deugain o Brotestaniaid wedi syrthio, ar wahanol amserau, yn ebyrth i erlidigaethau y Pabyddion, ac wedi eu rhoddi i farwolaeth ganddynt o blegid eu crefydd. Da, gan hyny, y dywedodd yr ysgrifenydd sanctaidd, gyda golwg ar yr anrheithiad a gyflawnodd y Fabilon ysbrydol hon, "Ac ynddi y caed gwaed prophwydi, a saint, a phawb a'r a laddwyd ar y ddaiar!" *Dad.* xviii. 24.

Rhaid i ni derfynu yr erthygl hon heb fanylu chwaneg. Pwy, ar ol darllen y crynoad uchod, na theimlai yn ddwys o blegid dirywiad a gwallgofrwydd dynolryw? Onid ydyw yn dangos yn eglur yr eithafoedd truenus y rhed dynion iddynt dan ddylanwad coelgrefydd, penboethni, a

Digitized by Google

rhagfarn? Onid ydyw yr egwyddorion llygredig hyn yn trawsffurfio dynion yn ddychrynllyd, gan eu gwneyd yn llawer gwaeth a chreulonach at eu gilydd na'r anifeiliaid a ddyfethir—yn diddymu pob teimlad dynol o'u mynwesau, ac yn llwyr ddystewi llais cydwybod a rheswm? Y fath rwymau mawrion sydd ar yr Eglwys Gristionogol i ddaioni a thrugaredd Duw o blegid hyny o lwyddiant sydd wedi bod yn egwyddorion Protestaniaeth; a'r fath egni y dylai ei holl aelodau wneuthur er eu lledaenu yn mysg holl genedloedd y ddaiar!

ERNES, [ערבון; 'Αρραβων; Llad., *arrhabo*; Ffr., *arres*; Seis., *earles* ac *earnest*]. Y mae y geiriau hyn i'w cael yn yr Hebraeg, y Deg a Thrigain, a'r Vulgate, yn *Gen.* xxxviii. 17, 18—20, ond fod y Vulgate yn ei gyfnewid yno i'r gair *pignus*. Y mae y defnydd a wneir o'r gair yn yr adnodau hyn yn eglurhad ar ei ystyr cyffredinol; sef yr hyn a roddir neu a dderbynir fel sicrwydd o gyflawniad ymrwymiad. Rhywbeth ydoedd a roddid yn mlaen llaw. Y mae y syniad hwn yn gyssylltiedig â'r holl ystyriaethau neillduol a roddir i'r gair; sef, unrhyw beth a roddir fel sicrwydd o gyflawniad addewid; rhan o ddyled yn cael ei thalu fel sicrwydd o daliad y gweddill; rhan o bris unrhyw beth a delir yn mlaen llaw er cadarnhau y cytundeb rhwng y prynwr a'r gwerthwr; rhan o gyflog gwas yr hwn a delir yn amser cyflogi, i'r dyben o gadarnhau yr ymrwymiad o bob tu. Arferir y gair dair gwaith yn y Testament Newydd, ond bob tro mewn ystyr ffugrol. Yn y lle cyntaf (2 *Cor.* i. 22), cymhwysir ef at ddoniau yr Ysbryd Glân, y rhai a roddai Duw i'r apostolion, a thrwy ba rai y gellir dywedyd ddarfod iddo eu cyflogi hwynt yn weision i'w fab; a'r rhai oeddynt yn ernes, yn sicrwydd, ac yn ddechreuad y bendithion uchel hyny a roddai efe iddynt yn y byd a ddaw, fel cyflogau eu gwasanaeth ffyddlawn. Yn y ddau le olaf (2 *Cor.* v. 5, ac *Eph.* i. 13, 14) cymhwysir ef at y doniau a roddir i Gristionogion yn gyffredinol; ar ba rai, ar ol eu bedydd, y gosodai yr apostolion eu dwylaw, a'r rhai oedd iddynt hwy yn ernes o fwynhad yr etifeddiaeth yn y nef, ond iddynt barhau yn ffyddlawn. Y mae y defnydd a wneir o'r gair yn rhoddi syniad eglur am y pethau mwy a rhagorach a fwynheir yn y byd tu draw i'r bedd. Gwaedda Jerome, yn ei esboniad ar yr adnod olaf a nodwyd, "Os oedd yr ernes mor fawr, pa beth raid fod y meddiant cyflawn!" Y mae gwahanieth eglur rhwng ernes a gwystl. Rhan-dâl yw ernes, ac y mae felly yn arwyddo ei fod o'r un natur a'r cyflawn-dâl; ond fe all gwystl fod yn rhywbeth cwbl wahanol o ran ei natur, ac i'w adfeddiannu gan yr ymrwymydd wedi iddo orphen ei ymrwymiad, megys yn *Gen.* xxxviii. Felly y mae "ernes yr Ysbryd" yn golygu mwy na sicrwydd: y mae yn arwyddo peth o'r un natur, er nad i'r un graddau; ac y mae yn dangos hefyd barhad a chyssylltiad rhagorfreintiau y Cristion yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Yr un cariad, yr un tangnefedd, yr un llawenydd, yr un purdeb, fydd gan y Cristion yn y nefoedd ag sydd ganddo yma; ond yn anmhraethol fwy mewn gradd. Hefyd, os bydd wedi cael ei ddwyn dan ddylanwadau adnewyddol yr Ysbryd Glân yma; os bydd wedi cael ei wneyd yn addfwyn, gostyngedig a gweddïgar, trwy ei ddylanwadau yma; os gwnaed ef yn gyfranog o'r llawenydd a gyfyd oddi ar faddeuant pechod yma; ac os llanwyd ef â gobeithion pur yma am fwynhad cyflawn mewn byd a ddaw;—y mae hyny yn ernes wedi ei roddi gan yr Ysbryd Glân o'r etifeddiaeth dragwyddol sydd yn dyfod iddo.

ERPENIUS. Ganwyd yr ysgolhaig dwyreiniol enwog Thomas Erpenius, neu Thomas van Erpen, yn Gorcum, ar y 7fed o Fedi, 1584. Pan yn ddeg oed, anfonwyd ef i Leyden, lle y derbyniodd ei addysg; ac yn y flwyddyn 1608, efe a ennillodd y radd o athraw yn y celfyddydau yn mhrifysgol y dref hono. Yr oedd yn benaf wedi astudio duwinyddiaeth a llenyddiaeth y dwyrain; ac ar ddiwedd tymmor ei addysg yn yr athrofa, efe a gymmerodd daith i Loegr, Ffrainc, Italy, a Germany, er mwyn ymberffeithio yn fwy yn y parthau hyn. Yn Paris, efe a ddaeth i adnabod Isaac Casaubonus; a gwnaeth y defnydd goreu o addysgiadau Arabaidd Maroniad dysgedig o'r enw Joseph Barbatus, yr hwn a breswyliai y pryd hwnw yn Paris. Dychwelodd Erpenius i'w wlad yn 1612, ac appwyntiwyd ef yn y flwyddyn ganlynol i fod yn broffeswr yr ieithoedd dwyreiniol yn mhrifysgol Leyden—swydd at ba un y chwanegwyd wedi hyny hon, sef deonglydd Arabaidd i'r Iseldiroedd. Anfonwyd ef ddwywaith, sef yn 1620 a 1621, i Paris, dros brifysgol Leyden. Ymddengys ddarfod iddo lwyr ymgyssegru i fyfyrio llenyddiaeth y dwyrain. Cododd wasg Arabaidd yn ei dŷ ei hun, ac ymgymmerodd âg adolygu amryw weithiau, y rhai sydd wedi bod yn dra gwasanaethgar i ddwyn dysgeidiaeth ddwyreiniol i sylw. Bu farw o glefyd heintus ar y 13eg o Dachwedd, 1624, pan yn ddeugain oed. Y gwaith a ddygodd fwy o glod i'w enw ydyw ei *Grammatica Arabica*, yr hwn a gyhoeddwyd yn Leyden yn y flwyddyn 1613. Y mae wedi cael ei adolygu amryw droion gydag ychwanegiadau a chyfnewidiadau; a daeth yn sylfaen i yn agos i bob grammadeg Arabaidd a gyhoeddwyd yn Ewrop o'r pryd hwnw hyd nes y cyhoeddwyd y grammadeg o eiddo Silvestre de Sacy. Gellir nodi y rhai canlynol fel rhai o brif weithiau Erpenius:—*Proverbiorum Arabicorum centuriæ duæ;* cyfieithiad Arabaidd o'r Testament Newydd a Phum Llyfr Moses; a Grammadeg Hebraeg.—(*Penny Cycl.*)

ERTHYGL. Gwel YMADRODDION IACHUS.

ERTHYGLAU FFYDD ydyw y pynciau neillduol hyny mewn athrawiaeth y gofynir i ni eu credu fel rhai sydd wedi eu dadguddio gan Dduw yn ei air. Cymmerant olwg ar ffydd mewn ystyr wrthddrychol (*objective*), neu megys gwirionedd a gofleidir gan y galon a'r gydwybod fel dwyfol ddadguddiad, yn yr hwn yr amlyga Duw ei hun, a'i ewyllys, &c., yn eu perthynas â dynion—a'r hwn, gan hyny, sydd yn cael ei gredu a'i dderbyn ganddynt yn galonog. Y mae y gair *erthyglau* (*cymmalau*, megys yr eiddo bys, neu ranau unedig) yn cyfeirio at gyssylltiad hanfodol, yr hwn sydd yn bod yn naturiol rhwng gwahanol ranau y ffydd hon a'u gilydd. Ni bydd duwinyddion yn arfer y gair yn yr ystyr manwl hwn bob amser, ond mewn ystyr mwy neu lai cynnwysfawr, gan ddynodi prif athrawiaethau ffydd, neu ynte wahanol ranau yr athrawiaethau hyny. Felly, yr hyn a olygant wrth erthyglau ffydd ydyw crynodeb wedi ei gasglu o'r hyn y tybiant hwy y dylid ei gredu, neu ynte wahanol athrawiaethau y gyfundrefn.

Bernir mai un o nodau hanfodol Erthyglau Ffydd

Digitized by Google

ydyw eu bod wedi cael eu *dadguddio*—ac yn ol egwyddor Protestaniaeth, eu bod wedi cael eu dadguddio trwy air ysgrifenedig Duw. Y mae Pabyddiaeth yn awdurdodi pen eu heglwys, yr hwn yw y pab, i gyfansoddi yr erthyglau hyn ar sail traddodiad; ond myn Protestaniaeth mai yr Ysbryd Glân yn unig a all eu penderfynu; ac y mae felly yn ymgadw rhag eu penderfynu heb brawf digonol, neu yn groes i iawn ddeongliad yr Ysgrythyrau. Y maent, pa fodd bynag, drwy y golygiad hwn, yn ystyried y Beibl yn ei undeb â'r Ysbryd Glân, fel y deonglydd drwy ba un y mae meddwl yr Ysgrythyrau yn cael ei agor i amgyffredion cymundeb y saint, y rhai a gynnorthwyir fel hyn i'w deall a'u hesbonio. Gwaith yr eglwys, gan hyny, ydyw ffurfio Erthyglau Ffydd; a rhaid iddi hi eu casglu o air ysgrifenedig Duw, lle y rhaid eu cael, os nad o ran y llythyren, etto yn ddigon amlwg fel na ellir dymchwelyd eu dwyfol awdurdod. Ond y mae yr eglwys, wrth wneud hyn, yn dewis yr aelodau hyny sydd wedi eu cynnysgaeddu â'r ddawn i dreiddio i ddyfnderoedd ac uchelderau gwybodaeth Gristionogol, ac i ddeongli gair Duw, yn y fath fodd ag i ymddangos yn rhesymol a chyfreithlawn i feddyliau Cristionogion. Pa fodd bynag, nid yw hyn oll yn dangos fod rheswm yn analluog i gyrhaedd rhyw gymmaint o wybodaeth o'r athrawiaethau hyn. Y cwbl a gynnwysa yw hyn:—er bod rhai athrawiaethau yn canmawl eu hunain i gydwybodau dynion drwy y profion naturiol, hanesyddol, a moesol sydd o'u gwirionedd (*Rhuf.* i. 18, &c.; ii. 14, &c.; *Act.* xiv. 17; xvii. 26, &c.), eto y mae ereill yn cael eu hadnabod yn unig fel y dadguddir hwy drwy ddylanwad ac effeithiau y prynedigaeth. O blegid hyn, sonia duwinyddion am "erthyglau pur" ac "erthyglau cymmysgedig;" hyny yw, dirgeledigaethau sydd uwchlaw rheswm i'w hamgyffred, a'r rhai ydynt faterion ffydd yn unig, a gwirioneddau a ellir eu dysgu yn ngoleuni natur er eu bod yn cael eu dadguddio yn y Beibl, ond y rhai sydd i'w credu am eu bod wedi eu dwyfol ddadguddio. Ond tra y mae y dosbarthiad hwn ar erthyglau ffydd yn dal perthynas â'u tarddiad, ac wedi ei wneud mor foreu a'r cyfnod ysgoleigaidd, y mae dosbarthiad arall, yr hwn a geir yn fynych mewn duwinyddiaeth Brotestanaidd, yr hwn sydd yn dwyn perthynas â'u gwrthddrych, sef, "erthyglau hanfodol," ac "erthyglau anhanfodol;" hyny yw, athrawiaethau y mae yn angenrheidiol, ac ereill nad ydynt angenrheidiol i ni eu credu er iachawdwriaeth. Wrth hanfod neu sylfaen ffydd y meddyliai yr hen dduwinyddion sylfaen Cristionogaeth ei hun, neu yr hyn oedd sail ac achos ffydd ac iachawdwriaeth. Hwy a edrychent ar dair sylfaen wahanol:—(1) y *sylweddol*, neu wir wrthddrych ffydd; sef, y Duw tri yn un, yr hwn sydd raid ei dderbyn yn grediniol yn Nghrist y Cyfryngwr: (2) y *peiriannol*, neu offerynol—gair Duw, yr hwn ydyw had ailenedigaeth a sylfaen ffydd: (3) y *pendant* (*dogmatical*), yr hon a gynnwys y brifran o'r gwirionedd nefol, at yr hwn—fel y gwirionedd er mwyn pa un y cafodd yr holl athrawiaethau ereill eu dadguddio—y maent oll yn cyfeirio, ac o'r hon, fel eu hachos digonol ac uniongyrchol, y mae ffydd yn deilliaw. A'r sail hon i ffydd y mae a fyno heresiaeth—i geisio ei dymchwelyd. Yn mhlith yr athrawiaethau anhanfodol, cyfrifir athrawiaeth y cwymp, yr athrawiaeth am angylion, anfarwoldeb dyn cyn y cwymp, anghrist, creadigaeth neu genhedliad yr enaid, &c. Ond tra y caniateir rhyw gymmaint ar faterion fel hyn, rhybuddir pawb rhag ymhoniadau ac anghywirdeb mewn cyssylltiad â hwynt, rhag iddynt yn ddiarwybod gloddio dan sylfaeni rhyw athrawiaeth hanfodol, a myned eu hunain yn euog o'r pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Ond nid oedd hyd yn oed yr erthyglau hanfodol yn cael eu hystyried oll yr un mor bwysig. Rhoddid pwys arnynt yn ol eu perthynas â'u gilydd ac â'r amcan uniongyrchol neu eithaf oedd i'w gyrhaedd drwyddynt. Felly gelwid hwynt yn *gyntaf* ac yn *ail* o ran *gradd*—y rhai cyntaf yn hanfodol i iachawdwriaeth, a'r olaf, er nad yn hanfodol, eto ni ellid eu gwadu. Cynnwysai yr olaf y cyfryw a berthynent i'r priodoliaethau dwyfol, undeb y ddwy natur yn Nghrist, pechod gwreiddiol, etholedigaeth, &c. Ail ddosbarthwyd y rhai cyntaf wedi hyny fel hyn:—1. Yr athrawiaethau sefydlog; sef y rhai sydd yn gosod i lawr sail ffydd yn y galon, neu yn ei chynnyrchu yn uniongyrchol (megys, "ewyllysia Duw fod pob dyn yn gadwedig)." 2. Yr athrawiaethau daliadol, y rhai ydyw sylfaen hanfodol achos uniongyrchol ffydd (megis gwirionedd Duw, ei hollalluogrwydd, &c.); neu ragflaenol, sef y rhai nad ydynt yn gweithio ffydd gadwedigol, nac yn anhebgorol i hyny, ond eto sydd yn angenrheidiol er mwyn hyder priodol yn yr athrawiaethau hyn, ac iawn amgyffred o honynt; yr hyn sydd yn cynnyrchu ac yn cyfansoddi ffydd (megys, y rhai sydd yn dal perthynas â dadguddiad dwyfol, bodolaeth Duw, Duwdod Crist, llygredd yn, &c.). 3. Yr athrawiaethau hanfodol, sef y rhai y mae a fynont yn uniongyrchol âg iachawdwriaeth, ac sydd yn cynnyrchu ffydd oddi mewn (megys yr athrawiaeth am gariad Duw at ddyn, yr iawn, &c.). 4. Yr athrawiaethau canlyniadol; sef y rhai y byddai i ffydd pe hebddynt ddiflanu yn fuan (megys, tragwyddoldeb Duw, swydd freninol Crist, gras effeithiol, &c.). Gellir yn hawdd weled y cyfatebiaeth sydd rhwng y gwahanol ddosbarthiadau hyn.

Hunnius yn gyntaf oll a arferodd ddosbarthiad yr erthyglau hyn i rai hanfodol ac anhanfodol, a hyny i ddybenion dadleuol; canys fe ddaliai Hunnius fod y Diwygwyr wedi ymadael oddi wrth y ffydd mewn rhai pynciau sylfaenol. Y mae gwedd lem uniongred yr oes i'w ganfod ar yr holl ddosbarthiad hwn. Ond y mae pwysigrwydd gwyddorol yn gystal ac ymarferol yn cael ei gyssylltu âg ef yn hanes duwinyddiaeth ac yn yr eglwys. Y cyntaf, yn gymmaint a'i fod yn parotoi y ffordd i ddosbarthiad y gyfundrefn yn ol perthynas yr athrawiaethau unigol â sylfaen neu ganolbwnc y cwbl; yr ail, am ei fod yn cynnyrchu sel i ddal yr athrawiaethau hanfodol, a goddefiad rhydd o berthynas i'r lleill, ac am iddo osod gwahaniaeth rhwng barnau heresiaidd ac anuniongred.

O ran cyfansoddiad yr erthyglau fel cyfangorff, y mae y dosbarthiad i erthyglau pur ac erthyglau cymmysgedig yn haeddu sylw—cydrêd yr olaf âg athrawiaethau rhagflaenol y dosbarthiad arall, a ffurfiant fath o borth i athrawiaethau priodol iachawdwriaeth. Ond os edrychwn am undeb yn yr erthyglau sylfaenol hyn, neu ynte erthyglau ffydd yn gyffredinol, bydd hyny, yn ol natur yr achos, nid mewn meddylddrych cyffredinol gwahanedig (*abstract*), cyffelyb i'r hwn a gynnyg Hahn, pan y dywed, "nid oes ond un erthygl sylfaenol, sef yr ysbryd crefyddol ei hun, yr hwn sydd yn ffurfio egwyddor hanfodol bodofyddiaeth (*ontology*) ac egwyddor lywodraethol Cristiolaeth

(*Cristology*);" ond mewn un sydd yn cynnwys holl bynciau hanfodol ffydd—syniad at ba un y maent oll yn cyfeirio fel eu canolbwnc, ac o ba un y maent oll yn pelydru, yn yr hwn gan hyny y maent yn cael eu sefydlu a'u neillduoli. Gellir gosod allan y meddylddrych hwn mewn amryw ffyrdd gwahanol, yn ol fel y byddwn yn ei gymmeryd oddi wrth y *dyben* mewn golwg, neu oddi wrth *egwyddor* ffydd; er esampl, y *Duw Tri yn un*, fel awdwr iachawdwriaeth, bywyd tragwyddol; neu Grist, Mab Duw, Gwaredwr dynion yn yr Ysbryd Glân; neu *iachawdwriaeth* o Dduw, trwy Grist yn yr Ysbryd Glân; neu *gymmod* dyn â Duw trwy Grist yn yr Ysbryd Glân, &c. Gellir penderfynu gwaith ymarferol erthyglau ffydd drwy eu perthynas agos neu bell â'r meddylddrych sylfaenol hwn.

ERTHYGLAU, Y CHWECH: deddf a aeth drwy ddau dŷ y senedd, ac a gafodd gydsyniad Harri VIII, drwy yr hon y llwyr adferwyd Pabyddiaeth, a'r hon a gynnwysai y pethau canlynol:—Yn sacrament yr allor, ar ol y cyssegriad, nad oes dim o sylwedd y bara a'r gwin yn aros, ond eu bod yn troi yn gorff a gwaed naturiol Crist; nad ydyw y ddwy elfen yn y cymun yn angenrheidiol; nas gall offeiriad, yn ol deddf Duw, briodi; y dylai addunedau o wyryfdod gael eu coleddu; y dylai offerenau dirgel gael eu parhau; fod clustgyffes yn gyfleus ac angenrheidiol, ac y dylid eu cadw yn yr eglwys. Safodd yr archesgob Cranmer yn ardderchog yn erbyn y ddeddf hon tra yr elai trwy Dŷ yr Arglwyddi, gan wrthwynebu ei holl symmudiadau hyd eithaf ei allu; ond bu ei holl ymdrechion yn aneffeithiol.

ERTHYGLAU PERTH, neu y PUM ERTHYGL, i'r rhai y cafodd Iago I, trwy ddichell a bygythion, awdurdod y gymmanfa gyffredinol a'r senedd yn yr Alban, yn 1621. Ei amcan oedd gwneyd Eglwys yr Alban yn gyffelyb i Eglwys Loegr. Yr erthyglau oedd—1. Penlinio wrth fwrdd yr Arglwydd. 2. Cymun dirgel. 3. Bedydd dirgel. 4. Conffirmasiwn plant. 5. Cadw dyddiau gŵyliau.

ERTHYGLAU SMALCALD: rhyw erthyglau a ffurfiwyd yn y lle hwnw gan Luther, ar yr achlysur o gynnal cyfarfod o etholwyr, tywysogion, a llywodraethau. Eu hamcan yn benaf oedd dangos pa mor bell yr oedd y Lutheriaid yn barod i fyned er gochel rhwygiad yr eglwys, ac yn mha ystyr yr oeddynt barod i fabwysiadu yr athrawiaeth o bresennoldeb Crist yn y Sacrament. Y maent wedi eu geirio braidd yn amwys, ac heb fod mor erwin a chyffrous a'r geiriad a ddefnyddiwyd yn y *Confession*, yr *Apology*, a'r *Form of Concord*.

ERTHYGLAU LAMBETH: a alwyd felly o blegid iddynt gael eu ffurfio yn mhalas Lambeth, dan olwg a chynnorthwy yr archesgob Whitgift, yr esgob Bancroft, yr esgob Vaughan, ac ereill o enwogion Eglwys Loegr. Er mwyn i'r darllenydd weled pa mor Galvinaidd oedd yr Eglwyswyr dan lywodraeth y frenines Elizabeth, ni a ddodwn yr erthyglau hyny ger bron:—1. Fod Duw er tragwyddoldeb wedi rhagarfaethu rhyw bersonau i fywyd, ac wedi gadael rhyw bersonau i farwolaeth. 2. Nad yr achos effeithiol o ragarfaethiad i fywyd yw, na rhagweled ffydd, na pharhad, na gweithredoedd da, na dim arall sydd yn y personau rhagarfaethedig; ond ewyllys da Duw yn unig. 3. Y mae y rhai a ragarfaethwyd yn nifer penodol a rhagderfynol, yr hwn nis gellir na'i leihau na'i gynnyddu. 4. Bydd i'r rhai na ragarfaethwyd gael eu condemnio yn anocheladwy o blegid eu pechodau. 5. Nad yw ffydd wirioneddol, fywiol, a chyfiawnhaol, ac Ysbryd Duw yn sancteiddio, nac yn diffodd, nac yn pallu yn llwyr, nac yn diflanu yn yr etholedigion, am byth ac yn hollol. 6. Y caiff y gwir gredadyn, sef yr hwn a gynnysgaethir â ffydd gyfiawnhaol, lawn sicrwydd ffydd y bydd i'w bechodau gael eu maddeu, ac yr achubir ef yn dragwyddol trwy Grist. 7. Na roddir, na chyfrenir, ac na chaniateir gras cadwedigol i bawb, pe yr ewyllysient ei gael. 8. Nad oes neb yn alluog i ddyfod at Grist, oddi eithr i hyny gael ei roddi iddo, ac oddi eithr i'r Tad ei dynu ef; ac ni thynir pawb gan y Tad, fel y gallont ddyfod at ei Fab. 9. Nad oes gan bob dyn nac ewyllys na gallu i fod yn gadwedig." Yr achlysur i wneuthur yr erthyglau yma ydoedd hyn:—Yr oedd rhai personau wedi ymenwogi yn mhrifysgol Caergrawnt trwy wrthwynebu rhagarfaeth. Mewn dychryn rhag y syniadau a draethid, fe aeth yr archesgob a enwyd uchod, yn nghyd âg ereill, i gyfansoddi yr erthyglau hyn, er mwyn attal y grediniaeth mewn athrawiaeth arall. Danfonwyd y rhai hyn, pan eu gorphenwyd, i Gaergrawnt, a gorchymynwyd yn fanwl i'r holl efrydwyr gydymffurfio â hwynt.

ERTHYGLAU EGLWYS LOEGR. Gwel LLOEGR.

ERYR, [נשר=*dyrwygo*, neu *larpio yn ddarnau*]. Y mae yr eryr yn perthyn i'r dosbarth hwnw o adar ysglyfaethus a hynodir yn benaf gan eu maint, eu heofndra, eu galluoedd ehediadol, a'u cynneddfau ymosodiadol; a'r eryr a ystyrir yn frenin y dosbarth hwn, a phob adar ereill, o ran mawredd ei nerth, cyflymder ac uchder ei ehediad, ei ffyrnigrwydd naturiol, a'r arswyd a esyd efe ar ei holl gymdeithion asgellog. Mor fawr ydyw ei wancusrwydd, fel y rhaid iddo gael tiriogaeth fawr iddo ei hun at ei gynnal yn briodol; ac y mae y Creawdwr o blegid hyny wedi ei wneuthur yn greadur unig a neillduedig. Anfynych, os byth, y gwelir dau bâr o eryrod yn yr un gymmydogaeth, er bod y rhyw yn wasgaredig ar hyd bedwar ban y byd. Y mae ei olygon yn gyflym, yn gryf, ac yn graff iawn. Y mae ei big yn gryf a phlygedig yn ei flaen fel bach cyffredin, ond heb fwlch yn y plygiad nesaf i mewn megys yr hwn sydd gan hebogion (*falcons*). Y mae y ffroenau yn orchuddiedig â chroen noeth o liw melyn neu las; y mae y llygaid yn ystlysau y pen, ac yn suddedig dan aeliau mawr; y mae y pen a'r gwddf wedi eu gorchuddio â chyflawnder o blyf hirion a blaenfain; y mae y fron yn llydan, y coesau a'r cluniau yn dra chryf a gewynog. Perthyna yr eryrod priodol i'r rhywogaeth a elwir *aquila*, ac y mae gaddynt fânblu ar hyd y coesau i lawr at y traed; y maent wedi eu gwisgo â phlu llwyd a du-goch, ac y mae y gynffon yn ddu neu yn llwyd-ddu. Mae coesau eryrod y môr yn hanner noethion, ac y mae math o gen caled yn glynu wrthynt; weithiau, bydd gradd o wyn ar y pen, y cefn, a'r gynffon. Mesura y rhai mwyaf o'r ddau ddosbarth hyn dair troedfedd a chwe modfedd, neu fwy, o'r pen i flaen y gynffon, a lledant eu hadenydd hyd saith troedfedd a chwe modfedd; ond y mae y rhai hyn yn llydain iawn mewn cyfartaledd i'w hyd.

Digitized by Google

Y drydedd bluen yn yr adenydd yw yr hwyaf, megys pe buasai Duw yn bwriadu rhoddi terfyn hyd yn oed i gyflymdra eu hediad: ond nid yw eu gallu i barhau ar eu hadenydd yn cael ei leihau nemawr, os dim, drwy eu lled. Y mae ewinedd y bysedd, ol a blaen, yn gryf a blaenllym. Y mae yr Ysgrythyr, dan y gair *nisr*, yn son am y ddau ddosbarth a enwyd, sef yr eryrod priodol a'r môr-eryrod, ac weithiau cymmer i mewn y fwlturod. Preswylia yr adar mawreddog hyn yn Ewrop, ar lanau Môr y Canoldir, Syria, ac yn Arabia - lle bynag y mae mynyddoedd coedwigol mawrion, a chlogwyni uchel. Y maent, fel y dywedwyd, yn perchen bob un ei randir, bob amser yn barau, oddigerth ar lanau y môr, lle y gwelir y môr-eryr weithiau yn lled agos i gymmydogaeth yr eryrod coes-grych. Y mae rhai o'r adar mwyaf a chadarnaf i'w cael yn mhlith y rhai olaf hyn, y rhai a elwir yn eryrod euraidd. Y mae y rhywogaeth hon i'w chael yn aml



Dar. 297.—Yr Eryr.

yn Syria; ac y mae un dosbarth o leiaf o'r môr eryrod i'w canfod ar y glanau, a chanddynt adenydd cryfach o lawer na hyd yn oed y lleill. Nytha y rhai hyn y rhan amlaf yn nghlogwyni Phœnicia, ond y mae y lleill yn trigo yn fwyaf cyffredin rhwng y mynyddoedd. Yn ol eu nerth a'u harfer, ymbortha y rhai cyntaf ar eifrewigod, ysgyfarnogod, gwernieir, chwiboniaid, crwbanod, a seirff; a'r rhai olaf ar bysgod. Y mae y naill a'r llall yn ymlid y catta, y petrus, a'r lysard. Gan mai y môr-eryr yn unig sydd yn aderyn ymfudol, y mae yn symmud i Arabia Ddeheuol yn y gauaf. Nid oes un o honynt mor gas ganddynt furgunod ag y tybir yn gyffredin: maent oll, o ddewis neu angen, yn ymborthi yn achlysurol ar gelanod meirch, &c.; a gwyddys yn dda yn y dwyrain eu bod yn arfer dilyn byddinoedd er mwyn hyn. Y mae cyfeiriadau mynych at yr eryr yn yr Ysgrythyr. Ceir darlun prydferth o hono yn *Iob* xxxix. 27:—

"Ai wrth dy orchymyn di yr ymgyfyd yr eryr?
Ac y gwna efe ei nyth yn uchel?
Y trig efe ac yr erys mewn craig?
Ar ysgythredd y graig, a'r lle cadarn?
Oddi yno y chwilia am fwyd,
Ei lygaid a ganfyddant o bell.
Ei gywion hefyd a sugnant waed,
A lle bynag y byddo celanedd, yno y bydd efe."

Cyfeirio at y syniad cyffredin fod yr eryr yn cynnorthwyo yr ieuanc i ehedeg, gan eu dwyn ar ei adenydd ei hun, y mae Moses, pan y dywed dros Iehofah, "Chwi a welsoch yr hyn a wnaethum i'r Aiphtiaid; y modd y codais chwi ar adenydd eryrod, ac â'ch dygais attaf fi fy hun;" *Exod.* xix. 4. Pan ragfynegai Balaam dynged y cenedloedd a enwai, efe a ddywedodd am y Ceneaid, "Cadarn yw dy annedd; gosod yr wyt dy nyth yn y graig;" gan gyfeirio at yr eryr tywysogaidd, yr hwn, heb law ei fod yn ymhyfrydu mewn ehedeg i'r uchelderau mwyaf, sydd yn dewis y creigiau a'r mynyddoedd uchaf yn nythleoedd: *Hab.* ii. 9; *Obad.* iv. Y mae yr hyn a ddywed Iob am yr eryr, "Lle bynag y byddo celanedd, yno y bydd efe," yn cael ei droi yn ddammeg gan yr Arglwydd Iesu: "Pa le bynag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod" (*Mat.* xxiv. 28); hyny yw, pa le bynag y bydd yr euog, a pha mor gymmysg bynag y byddont â'u da, fe genfydd cyfiawnder dwyfol hwynt â llygaid eryraidd, ac efe a ddial ei lid arnynt: *Luc* xvii. 37. Cyfeirir yn bur aml at gyflymder ehediad yr eryr mewn rhanau o'r Beibl. Yn y melldithion a gyhoeddir yn Deuteronomium, dywedir, "Yr Arglwydd a ddwg i'th erbyn genedl o bell, sef o eithaf y ddaear, mor gyflym ag yr eheda yr eryr;" *Deut.* xxviii. 49. Yn ngalar Dafydd am Saul ac Ionathan, dysgrifir eu gyrfa chwyrnwyllt mewn ymadroddion grymus: "Cynt oeddynt na'r eryrod, a chryfach oeddynt na'r llewod;" 2 *Sam.* i. 23. Gwaeddodd Ieremiah, pan ganfyddodd mewn gweledigaeth fynediad Nebuchodonozor, "Wele, megys cymylau y daw i fyny, a'i gerbydau megys corwynt; ei feirch sydd ysgafnach na'r eryrod. Gwae nyni; canys ni a anrheithiwyd;" *Ier.* iv. 13. At adenydd llydain yr eryr, a chyflymder ei ehediad, y cyfeiria yr un prophwyd yn brydferth iawn mewn lle arall, pan yn dysgrifio darostyngiad Moab gan yr un concwerwr didrugaredd: "Wele, efe a eheda fel eryr, ac a leda ei adenydd dros Moab;" *Ier.* xlviii. 40. Yn yr un modd y dysgrifia efe anrhaith disymmwth Ammon yn y bennod nesaf; ond pan y try efe ei olwg at garneddau ei wlad ei hun, efe a waedda mewn iaith gryfach fyth, "Buanach yw ein herlidwyr nag eryrod yr awyr;" *Galar.* iv. 19. Trwy yr un gymhariaeth y dysgrifia Iob gyflymder amser: "Fy nyddiau a aethant heibio megys llongau buain, megys yr eheda eryr at ymborth;" *Iob* ix. 26. Y mae y cyflymder â pha un y cymmerir bendithion Rhagluniaeth weithiau o afael y meddiannydd, yn cael ei osod allan gan Solomon fel hyn:—"Golud yn ddiau a gymmer adenydd ac a eheda ymaith megys eryr tua'r wybr;" *Diar.* xxiii. 5. Y mae ehediad yr eryr yn llawn mor arddunol ag ydyw o gyflym. Dywedir ei fod, yn ei wibiadau cofn, yn gadael hyd yn oed gymmylau y nef, lloches y daran, y mellt, a'r dymmestl, ac yn ehedeg hyd derfynau y wybren ei hun. Y mae cyfeiriad at yr ehediad uchel hwn yn mhrophwydoliaeth Obadiah, lle y traethir am falchder Moab: "Ped ymddyrchefit megys yr eryr, a phe rhoit dy nyth yn mhlith y ser, mi a'th ddisgynwn oddi yno, medd yr Arglwydd;" *Obad.* i. 4. Cyhoedda y prophwyd Ieremiah dynged Edom mewn ymadroddion cyffelyb: "Ti, yr hon ydwyt yn aros yn nghromlechydd y graig, ac yn meddiannu uchelder y bryn; er i ti osod dy nyth cyn uched a'r eryr, myfi a wnaf i ti ddisgyn oddi yno, medd yr Arglwydd;" *Ier.* xlix. 16. Y mae yr eryr yn byw ac yn parhau yn ei nerth nes myned yn hen iawn; ac ar ol bwrw ei blu, y mae yn adennill ei nerth

Digitized by Google

mor hynod, nes y mae, mewn dull o ddyweyd, yn myned yn ieuanc yn ei ol: *Salm* ciii. 5; *Esa.* xl. 31. Peth rhyfedd yw fod Cyrus, yr hwn a gyffelybir i eryr (canys dyna fel y dylasai y gair "aderyn y dwyrain" gael ei gyfieithu) yn *Esa.* xlvi. 11, a chanddo eryr ar ei faner, yn ol fel y dywed Xenophon, yr hwn yn ddiarwybod sydd yn arfer yr un gair a'r prophwyd, ond fod terfyniad Groeg iddo. Gwelir, fel hyn, mor fawr y tebygrwydd sydd rhwng y prophwyd a'r hanesydd—y rhagfynegiad a'r dygwyddiad. Dywed Xenophon, a hen haneswyr ereill, bod yr aur-eryr â'i adenydd ar led ar faner y breninoedd Persiaidd yn hir cyn i'r Rhufeiniaid ei arfer; a digon tebyg ddarfod i'r Persiaid gipio yr arwyddlun oddi ar yr hen Assyriaid, ar fanerau y rhai y bu hyd oni phlygodd "Babilon Fawr" ei phen dan iau Cyrus: *Hos.* viii. 1; *Ier.* xlviii. 40; xlix. 22; *Esa.* viii. 8. Y mae yr arferiad hwn yn parhau hyd heddyw yn y rhan ogleddol o Asia; ac yn mhlith yr holl lwythau Tyrcaidd, bydd yr eryr bob amser bron yn canlyn y ddraig. Yr oedd gan y Chineaid, yr Indiaid, y Bactriaid, y Persiaid, yr Aiphtiaid, dilynwyr Alexander, yr Etrusciaid, y Rhufeiniaid, y Celtiaid, a'r Arabiaid, arwydd yr eryr, o gerfwaith, neu o fettel, neu grwyn adar wedi eu hystwffio, a'u gosod i fyny fel rhai byw. Byddai y rhai hyn bob amser yn arwyddluniau o fuddugoliaeth gyflym ac anwrthwynebol. Eryr du oedd ar faner Kalid, cadfridog Mahomet, yn mrwydr Aisnadin; ac y mae yr eryr cerfiedig a ganfyddir eto ar furiau amddiffynfa Cairo, ac a osodwyd yno gan Karakoosh, prif weinidog (*vizier*) Salahed-deen, er cof am ei enw a'i weinyddiaeth ef ei hun, yn arddangos rhywogaeth arall o eryrod i bob un a enwyd. Yr *aquila heliaca*, yr hwn a ganfyddir yn y darlun cyntaf, yw y rhywogaeth a geir yn



DAR. 298.—YMOSODIAD ERYR SYRIA AR SEIRFF.

fwyaf cyffredin yn Syria, a gwahaniaethir ef oddi wrth ddosbarthiadau ereill gan yr ysmotyn o bluf gwynion sydd ganddo ar ei ysgwyddau.—(*Kitto*; *Rel. Encycl.*)

ESAIAH, [ישעיהו, sef *Ieshaiahw*, bob amser yn y testyn Hebraeg; ond yn arysgrifau y Rabbiniaid o'r Beibl Hebraeg, ישעיה, sef *Ieshaiah*; Ἠσαιας=*Hesaias*]. Yn nghyfleithiadau y Dr. Morgan a'r Dr. Parry, ac yn argraffiadau Eglwys Loegr o'r Beibl hyd y dydd hwn, *Esay* ydyw y dull y llythyrenir enw y prophwyd hwn yn wastad yn yr Hen Destament. Yn argraffiad John Canne, a rhai ereill, *Esaia* y llythyrenir yr enw. *Esaiah* ydyw y llythyreniad gan "Y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor;" ac *Eshaiah* yn nghyfieithiad y Parch. Thomas Briscoe. *Esaias* (y dull Groeg o'r enw) ydyw y ffurf yn y Testament Newydd gan yr holl argraffiadau Cymreig cyffredin: *Mat.* iii. 3; iv. 14; viii. 17; xii. 17; xv. 7; *Marc* vii. 6; *Luc* iii. 4; iv. 17; *Ioan* i. 23; xii. 38, 39, 41; *Act.* viii. 28, 30; xxviii. 25; *Rhuf.* ix. 27, 29; x. 16, 20; xv. 12. Yn argraffiad y Dr. Parry, ac argraffiadau Rhydychain a Chaergrawnt, *Esay* ydyw yn *Ioan* i. 23; ac yn Meibl y Dr. Morgan, *Esau*; ond yn mhob man arall, *Esaiah* ydyw. Yn Nhestament W. Salesbury, *Esaias*, *Iesaias*, ac *Esau*. Ystyr yr enw Hebraeg ydyw *Iachawdwriaeth Iahw* (talfyriad o *Iehofah*). Y mae y prophwyd yn cyfeirio yn amlwg, yn *Esa.* viii. 18, at arwyddocad ei enw ei hun a'i ddau fab. Ni ddylid cymmysgu enw ei dad Amoz (אמוץ=*Amotz*), fel y gwnaeth Clemens o Alexandria, ac ereill o'r hen ysgrifenwyr oedd yn anhysbys o'r Hebraeg, âg enw y prophwyd Amos (עמוס=*Amos*), yr hwn a fucheddai dan deyrnasiad Ieroboam II. Y mae Amoz yn hollol anhysbys. Dywed rhai o'r Rabbiniaid, ei fod yntau hefyd wedi bod yn brophwyd, a'i fod yn frawd i'r brenin Amaziah; eithr nid ydyw hyn ond dychymyg, wedi ei seilio ar debygolrwydd y ddau enw. Dywed Kimchi (B. A. 1230), yn ei esboniad ar *Esa.* i. 1, "Ni wyddom ddim am na theulu y prophwyd, nac o ba lwyth yr oedd efe yn deilliaw."

Felly, er fod Esaiah, ar amryw ystyriaethau, yr hynotaf o'r holl brophwydi sanctaidd, eto, nid oes genym ond ychydig iawn o'i hanes personol, teuluaidd, nac amgylchiadol. Ni enwir amser na lle ei enedigaeth, ac ni nodir adeg ei farwolaeth na mangre ei feddrod. Y mae y Rabbiniaid Iuddewig yn ddieithriad yn hòni ei fod yn ddisgynedig o achyddiaeth uchel a pharchus, ac yn myned mor bell a dyweyd ei fod yn perthyn yn agos i'r teulu breninol: dywedant ei fod yn frawd i Amaziah, mab Ioas, brenin Iudah: 2 *Bren.* xiv. 1. Yn esboniad D. Kimchi ar *Esa.* i. 1, ceir y geiriau canlynol:—"Yr ydym yn anhysbys am ei deulu, o ba lwyth yr oedd, ond y mae ein doethion wedi trosglwyddo traddodiad i lawr i ni, bod Amos ac Amaziah yn frodyr. R. Solomon hefyd a ddywed, "Hysbysir ni gan ein hynafiaid, bod Amos ac Amaziah yn frodyr." Ceir amryw ereill o'r Rabbiniaid Iuddewig yn dwyn tystiolaethau i'r un traddodiad. Y mae y cyfeiriad a wneir at dad y prophwyd yn yr adnod gyntaf yn

Digitized by Google

dangos ei fod yn ddyn adnabyddus, yn gystal ag yn berson o ryw nôd a safle gymdeithasol, "Esaiah fab Amos." Oni buasai fod enw Amos yn hysbys ac adnabyddus, naturiol fuasai dysgwyl rhyw gyfeiriadau pellach a llawnach ato.

Hefyd, y mae y rhwyddineb a geir gan y prophwyd i draethu ei weledigaethau i'r breninoedd, yn gystal a'r eofndra diofn a amlygir ganddo, yn ddigon cysson â'r traddodiad Iuddewig ei fod yn berthynas i'r teulu breninol; ac ar y cyfan, tueddir ni i gredu tystiolaeth y Rabbiniaid am urddas a phardchusrwydd ei achyddiaeth. Nid oes genym wybodaeth sicr am le genedigaeth y prophwyd; ond hysbysir ni ei fod yn trigiannu yn ystod y rhan gyntaf o'i weinidogaeth brophwydol yn ninas Ierusalem; ac os ydyw y traddodiad Iuddewig am ei ddisgyniad breninol yn gywir, y mae yn debyg mai yn neu ger llaw i'r ddinas y cafodd ei eni. Bernir i'w enedigaeth gymmeryd lle yn rhywle o ddeutu 780 c.c., neu ychydig yn ddiweddarach, ac iddo ddechreu ar ei waith mawr fel prophwyd pan o ddeutu ugain oed. Nid oedd yn hyn yn eithriad i ereill o'r prophwydi; o blegid cawn rai o honynt yn cael eu galw i'w swydd yr un mor ieuanc ag yntau. Yr oedd Esaiah yn briod, ac fe elwir ei wraig yn *brophwydes: Esa.* viii. 3. Ac nid yw mewn un wedd yn annaturiol i ni gasglu y gallasai fod wedi derbyn cymhwysderau cydrywiol ag eiddo ei gŵr, yr hyn a'i gwnelai yn gymhorth addasach iddo yn ei gylch pwysig a chyda'i waith mawr. Bu iddynt ddau o feibion, y rhai a enwid âg ymadroddion arwyddluniol neu brophwydoliaethol; enw un oedd Maher-shalal-hash-baz—yr hyn a arwydda, "Brysia i'r ysbail, Prysura i'r anrhaith"—ac a ragddarbodai ymosodiad ysbeilgar ac anrheithiol yr Assyriaid cedyrn ar genedl Israel, a'r hyn a oddefid i gymmeryd lle fel barn arni am ei gwrthgiliad a'i chalon-galedwch. Enw y mab arall oedd Sear-iasub (*pen.* vii. 3), yr hwn enw a gyflea y meddylddrych cysurlawn, "Y gweddill a ddychwel." Felly yr oedd Esaiah nid yn unig yn prophwydo ei hun, ond yr oedd wedi gosod enwau ar ei feibion ag oedd yn cynnwys ynddynt eu dau hanes y genedl drwy yr holl oesoedd—cosp a chaethiwed am bechu ac anghofio ei Harglwydd, ac eto, arbediad parhaus o weddill i fod yn fywyd newydd wedi hyny i'r genedl. Dadleuir cryn lawer am ysbaid parhad gweinidogaeth brophwydol Esaiah. Rhaid iddi redeg drwy holl deyrnasiad Iotham ac Ahaz; yr hyn a gynnwysai 16 mlynedd i bob un o honynt, neu 32 o flyneddoedd rhyngddynt eu dau. Ond yn chwanegol at hyn, rhaid iddi ymestyn yn ol am ryw gymmaint o amser i deyrnasiad Uzziah, ac ymestyn yn mlaen o leiaf am bedair blynedd ar ddeg i deyrnasiah Hezeciah. Gesyd hanesiaeth y pethau y cyfeirir atynt (*pen.* xxxvi. hyd xxxix) fel wedi cymmeryd lle yn nechreu y bymthegfed flwyddyn o ddyddiau teyrnasiad Hezeciah. Ac felly y mae genym seiliau cedyrn a diammheuol i osod parhad ei yrfa brophwydol o dan y tri brenin olaf a enwir yn *adn.* 1, yn 46 o flyneddoedd. Ond yn chwanegol at hyn, rhaid cael rhyw gymmaint o weddill teyrnasiad Uzziah. Cydolygir gan yr esbonwyr goreu bod y pum pennod flaenaf yn cyfeirio at ddygwyddiadau a gymmerasant le cyn y flwyddyn olaf o'i freniniaeth ef; a barnant fod y prophwyd wedi ei alw at ei waith am yr ysbaid o ddwy neu bedair blynedd cyn gorphen teyrnasiad Uzziah. Felly parhaodd oes brophwydol Esaiah o leiaf rhwng 48 a 50 mlynedd. Ac os dechreuodd, fel y tybiasom, ar ei waith cyhoeddus pan o ddeutu ugain oed, yr oedd yn 70 mlwydd oed pan y mae genym hanes diammheuol ei fod gyda'i waith; sef yn y bymthegfed flwyddyn o deyrnasiad Hezeciah. Myn rhai beirniaid, nid anenwog, megys Gesenius, Jahn, ac ereill, i'w oes brophwydol ymestyn yn mlaen yn lled bell i deyrnasiad Manasseh; a thybia rhai o honynt bod y traddodiad dwyreiniol yn wir, fod y prophwyd yn 120 mlwydd oed pan fu farw; ond tybir nad yw y rhesymau a ddygir dros y syniad yma yn ddigon safadwy, fel y crybwyllir eto.

I. Y mae yr adnod gyntaf o'r llyfr fel hyn — "Gweledigaeth Esaiah mab Amos, yr hon a weledd efe am Iudah ac Ierusalem, yn nyddiau Uzziah, Iotham, Ahaz, a Hezeciah, breninoedd Iudah." Yn ol y Parch. T. Briscoe, fel hyn:—"Gweledigaeth Eshaiah mab Amotz, yr hon a welodd efe am Iwdah a Ierwshalem yn nyddiau Wzzïah, Iotham, Ahaz, a Hezekïah brenhinoedd Iwdah." Egyr ychydig sylwadau ar yr adnod hon y ffordd i ateb amryw ofyniadau perthynol i'r prophwyd a'i ysgrifeniadau.

1. Nid rhagymadrodd i'r bennod gyntaf yn unig ydyw yr adnod hon, nac i unrhyw ran fechan o'r llyfr, fel y mae yn amlwg oddi wrth enwau y pedwar brenin. Y mae yn eglur ei fod yn rhagymadrodd o leiaf i'r rhan hwn o'r llyfr (i—xxxix.) a derfyna yn nheyrnasiad Hezeciah; a chan nad oes un rheswm dros gyfyngu ei gyfeiriad hyd yn oed at y rhan gyntaf, ac nad oes dim yn nghystrawiad yr adnod i'w wneyd yn anghymhwys i fod yn rhagymadrodd yr holl lyfr: cymharer *Hos.* i. 1; *Micah* i. 1. Enw cynnulliadol ydyw y gair *gweledigaeth,* megys yn 2 *Cron.* xxxii. 32: ni cheir y gair Hebraeg *chason* byth yn y lluosog.

2. Gan mai hyn ydyw ystyr naturiol ac amlwg yr adnod, awdurdodir ni i gasglu nad oes un rhan o'r weledigaeth, yr hon a gofnodir yn y llyfr hwn, yn perthyn i deyrnasiad Manasseh. Ymddengys, gan hyny, fod y tybiau sydd yn estyn gweinidogaeth brophwydol Esaiah i deyrnasiad Manasseh yn amddifad o sail hanesyddol. Mae yn wir fod traddodiad Rabbinaidd yn mynegu fod y prophwyd wedi ei lifio drwyddo â llif yn ngheudod coeden, trwy orchymyn Manasseh; ac ymddengys fod y gair, "a dorwyd â llif" (*Heb.* xi. 37) yn cadarnhau y traddodiad, gan nad oes un amgylchiad arall o'r fath yn adnabyddus. Pren merwydd tra hen, a saif yn agos i lyn Siloam ar lethrau Ophel, o'r tu de-ddwyrain i fur Ierusalem, ydyw llanerch draddodiadol y merthyriad. Ond, yr oedd cynddaredd y blaid wrthwynebol i wasanaeth Iehofah, yr hon blaid a gafodd y flaenoriaeth ar ddyrchafiad y tywysog hwnw i'r orsedd, wedi ei chyffroi yn ddigonol gan y prophwyd yn ystod teyrnasiad rhagflaenydd Manasseh i'w cynhyrfu i gyflawnu y llofruddiaeth ysgeler, heb i ni estyn ysbaid ei brophwydoliaeth ef y tu hwnt i'r terfynau a roddir iddi yn yr adnod dan sylw.

3. Y mae yn rhaid fod Esaiah yn hen ŵr erbyn diwedd teyrnasiad Hezeciah. Yn ol yr amseryddiaeth gyffredin, esgynodd Iotham i'r orsedd yn c.c. 758, a bu Hezeciah farw yn 698. Rhydd hyn i ni ysbaid o 60 mlynedd. A chan fod ei weinidogaeth ef wedi dechreu cyn marwolaeth Uzziah (pa hyd, nis gwyddys), os tybir nad oedd yn hynach nag ugain oed pan ddechreuodd brophwydo, buasai yn 80 neu yn 90 ar esgyniad Manasseh.

4. Cylch uniongyrchol ei weinidogaeth ef

oedd Iudah ac Ierusalem. Y mae yn wir y ceir prophwydoliaethau yn y llyfr perthynol i Israel, ac hefyd, i Moab, Babilon, a theyrnasoedd cenedlig ereill; ond nid oedd y prophwydoliaethau wedi eu bwriadu yn y naill amgylchiad na'r llall i fod o les i'r llywodraethau estronol hyny, nac i gael eu traethu wrthynt, eithr i Iudah yn unig, yr hon oedd wedi dyfod yn awr yn unig gartrefle bendithion a gobeithion Hebreaidd. Yr ydoedd pob peth arall oedd anwyl a phwysig yn ngolwg ysbrydol y prophwyd yn troi o amgylch Iudah, ac mewn cyssylltiad â hi yn unig.

5. Y dyb fwyaf naturiol ac amlwg ydyw, fod y "gweledigaethau, ar y cyfan, wedi eu gosod yn y llyfr yn ol eu trefn amseryddol; a byddai yn anmhriodol peidio derbyn y dyb yma heb reswm cadarnach na mympwy dychymygol yn unig. Rhaid cyfaddef nad ydyw y dybiaeth yma mor bendcrfynol fel nas gall fod yn anghywir; ond hyd oni phrofer ei bod felly, gwell ydyw cymeryd yn ganiataol fod trefniad y llyfr ar y cyfan yn seiliedig ar amseryddiaeth briodol, oddigerth, fel y mae yn dra naturiol tybied, pan fyddai amgylchiadau cyffelyb yn gofyn cyssylltu gweledigaethau yn nghyd, a leferid yr un amser.

6. Gan hyny, os cymherir cynnwys y llyfr â'r dysgrifiad a roddir yma o hono, bydd yn hawdd adnabod prophwydoliaethau y gellir eu priodoli gyda sicrwydd i deyrnasiad Uzziah, Ahaz, neu Hezeciah; ond nis gellir bod mor sicr y canfyddir un yn perthyn i deyrnasiad Iotham. Y mae yr ymadrodd yn *pen*. vi. 1, "Yn y flwyddyn y bu farw y brenin Uzziah," yn rhoddi amser y weledigaeth hono yn niwedd teyrnasiad Uzziah, ac nid yn nechreu teyrnasiad Iotham. Gellir cyfeirio yr hyn a flaenora *pen*. vi. i ryw ran flaenorol o deyrnasiad Uzziah, oddi gerth, fe allai, y bennod gyntaf: gellir ystyried hono fel math o gynghor cyffredinol, wedi ei seilio ar yr hyn a ganlyn—math o ragymadrodd cyffredinol, yn cyfateb yn nechreu y llyfr i'r annogaethau sydd yn y naw pennod ar ei ddiwedd. Y mae *pen*. vii. yn ein dwyn ar unwaith o'r flwyddyn y bu farw Uzziah i ddyddiau Ahaz. Nid oes genym ddim, gan hyny, wedi ei adael i deyrnasiad Iotham, os na thybir fod rhai o'r *beichiau* yn *pen*. xiii. hyd xxiii. yn perthyn iddi, neu fe allai rai o'r dywediadau amrywiol yn *pen*. xxviii. hyd xxxv. Fe ddichon nad oedd y prophwydoliaethau a leferid y pryd hyny yn cael eu cofnodi; o blegid gan fod sefyllfa pethau at y rhai y cymhwysid hwy yn gyffelyb ag yn niwedd teyrnasiad Uzziah, yr oeddynt hwythau eu hunain yn debyg o ran eu tuedd i'r rhai sydd yn *pen*. ii—v.

7. Gofynir yn naturiol, Pwy oedd casglwr y llyfr? Yr ateb amlwg, medd Huxtable, ydyw, mai Esaiah ei hun ydoedd, trwy gynnorthwy ysgrifenydd: cymharer yr awgrym tra dyddorol a roddir yn *Ier*. xxxvi. 1—5, am y berthynas oedd rhwng prophwydoliaethau a'u hysgrifeniad. Yr ydym yn gwybod hefyd fod Esaiah yn awdwr; canys yn 2 *Cron*. xxvi. 22, cawn y geiriau hyn:—"A'r rhan arall o weithredoedd cyntaf a diweddaf Uzziah, a ysgrifenodd Esaiah y prophwyd mab Amos:" ac er fod y gwaith hanesyddol hwnw wedi colli, y mae yn amlwg nad oedd meddwl Esaiah yn ddyeithr i ofalon cyfansoddiad ysgrifeniadol: cymharer hefyd 2 *Cron*. xxxii. 32, a sylwer ar y person cyntaf a ddefnyddir yn *Esa*. viii. 1—5. Y mae cyfansoddiad yr holl lyfr hefyd, yr hwn yr hyderwn ei wneyd yn amlwg, yn bleidiol i'r un golygiad. Ar y cyfan, mae y dyb mai Esaiah ei hun oedd y casglwr yn deilwng o gael ei derbyn fel gwirionedd. Y brif wrthddadl sydd yn deilwng o sylw yw yr un a seilir ar *pen*. xxxvii. 38. Dadleuwyd gan rai (Hitzch d.g.) fod Senacherib wedi ei lofruddio yn c. c. 696, ddwy flynedd ar ol esgyniad Manasseh; ond y mae ereill yn ammheu hyn [cymharer *Havernick's Einl.*]: pa fodd bynag, mae yr ymadrodd yn gwbl gysson â'r gred mai Esaiah yw y casglwr, os tybir ei fod wedi byw dwy neu dair blynedd ar ol esgyniad Manasseh, hyd yn oed heb gymmeryd y cyfleusdra o briodoli yr adnod mewn dadl, a'r un o'i blaen, i awdwr diweddarach. Nid ydyw yr enw a roddir yn *pen*. xxxvi. 11, 13, i'r Hebraeg a leferid yn Ierusalem, "iaith yr Iuddewon" (*Iehodith*), yn un prawf o oes ddiweddarach; gan fod yn eithaf posibl, tra yr oedd yr iaith ysgrifenedig yn para yr un yn y ddwy deyrnas, fel y profir gan y llyfrau prophwydol, y gallai dull (cymharer *Barn*. xii. 6) teyrnas Iudah o lefaru fod wedi newid cymmaint oddi wrth iaith teyrnas Israel (oedd yn awr wedi darfod) fel ag i gael enw gwahanol; ac yr oedd yn naturiol i'r enw hwnw, fel enw y deyrnas ei hun, gael ei gymmeryd oddi wrth y llwyth a gyfansoddai gorff y boblogaeth. Am y gwrthddadleuon ereill ar y pen hwn, a ddygir yn mlaen gan ammheuwyr ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, nid oes angenrheidrwydd i ni ymdroi yma i'w hateb, gan y perthynant yn fwy i ddychymygion nag i olrheiniad hanesyddol.

8. Yn yr adnod arweiniol hon, y mae yn angenrheidiol sylwi eto ar y dysgrifiad a rydd o brophwydoliaethau Esaiah: "y *weledigaeth* a weloedd efe" ydyw. Pan y clywom am *weledigaethau*, yr ydym yn dueddol i feddwl am sefyllfa feddyliol yn yr hon y bydd y meddwl wedi ymwahanu yn llwyr oddi wrth wrthddrychau gwir bresennol; ac yn myfyrio, nid ar y pethau hyn, ond ar wrthddrychau a ymddangosant ar y pryd megys yn bresennol—math o freuddwyd, heb fod mewn cwsg. Gweledigaeth felly a gafodd Pedr yn Ioppa. Gweledigaeth o'r fath hefyd sydd yn *Esa*. vi.—yr unig esampl o'r dull yma o weledigaeth hollol sydd yn y llyfr: y mae lluaws o'r fath yn Ieremiah, Ezeciel, a Zechariah. Ond ymddengys fod sefyllfa feddyliol Esaiah yn gyffredin yn wahanol i hyn. Nid ydoedd gwrthddrychau allanol gwir bresennol ddim yn ymgolli o'i feddwl ef; ond ymddengys eu bod yn gydblethedig yn ei olwg, ar brydiau, â'r ysbrydol (megys, er esampl, presennoldeb yr Iehofah), y rhai hefyd oedd wir bresennol, er nad yn ganfyddadwy ond i lygad ffydd; ac ar brydiau ereill yn gydblethedig â'r dyfodol, pa un bynag fyddent ai daiarol ai ysbrydol, y rhai a ymddangosent i'r prophwyd megys yn wir bresennol. Yn yr ystyr yma, nid yw ei brophwydoliaethau ef i'w golygu fel mynegiadau, yn nhraddodiad pa rai y defnyddiai yr Ysbryd Glân alluoedd meddyliol a chorfforol y prophwyd fel offerynau yn unig yn ei law ei hun, ond fel gweledigaeth, sef dysgrifiad gan y prophwyd ei hun, dan gyfarwyddyd dwyfol (2 *Tim*. iii. 16), o'r hyn yr ymddangosai iddo ef ar y pryd ei fod yn ei *weled*. Os ydyw y golygiad yma yn gywir, fe ganlyn, gyda golwg ar y dysgrifiadau a rydd y prophwyd o'r hyn a ymddangosai megys ger ei fron, nas gallwn fod yn sicr ar unwaith pa un ai darlunio yr hyn oedd yn wir bresennol y mae, ynte a oedd y gwrthddrychau a ddarlunid megys yn bresennol yn perthyn i'r dyfodol. Er esampl, ar yr olwg

Digitized by Google

gyntaf. gellid deall fod y dysgrifiad a roddir o sefyllfa Iudah yn *pen.* i. 5—9, yn portreiadu ymosodiad fel pe buasai yn wir bresennol, felly gallai ein harwain, naill ai i gyssylltu yr hanes yn 2 *Bren.* âg ymosodiad tybiol, neu i estyn amser y brophwydoliaeth hyd Ahaz neu Hezeciah. Ond wrth gofio mai gweledigaeth ydyw, gwelir y gellir ei chymmeryd fel rhagfynegiad a bygythiad, a'i bod gan hyny wedi ei llefaru dan deyrnasiad Uzziah. Yn gyffelyb y mae *pen.* iii. 8; v. 13; x. 28—32—oll yn rhygfynegol. Felly, yn yr ail ran, y mae *pen.* lxiv. 11. Yn mhellach, byddai yn ddigon cysson â'r dull yma o weled-iad prophwydol pe canfyddem y prophwyd yn darlunio rhyw amser dyfodol megys pe byddai bresennol, ac o'r safle hwnw yn mynegu rhywbeth dyfodol pellach fyth—weithiau fel yn y dyfodol, a phryd arall fel yn y presennol. Ac, mewn gwirionedd fel hyn y mae Esaiah yn darlunio tynged ddyfodol pobl Dduw yn yr ail ran o'i brophwydoliaeth. Cymharer *pen.* xlii. 13—17; xlix. 18; xlv. 1—4; liii. 3–12; lxiii. 1–6, fel dangosiad o'r modd y mae pethau perthynol i'r gorphenol, y presennol, a'r dyfodol, yn cael eu cydblethu mewn gweledigaeth.

Sylwyd uchod fod yn perthyn i ansawdd gweledigaeth brophwydol gyffredin Esaiah, beidio a cholli golwg ar y presennol. Mewn gwirionedd, yr oedd hyn yn hanfodol i'w swydd briodol ef. Ei bryder cyntaf ac uniongyrchol ef oedd yn nghylch ei gydoeswyr, fel argyhoeddwr pechod a meithrinydd duwioldeb y credinwyr. Hyd yn oed pan fyddai ei weledigaeth yn syllu yn mlaen fwyaf ar y dyfodol, ni byddai byth yn colli golwg ar y presennol, ond (fel y canfyddir hyd yn oed yn yr ail ran) byddai yn gwneyd i'w brophwydoliaethau daraw trwy gynghor a cherydd ar sefyllfa pethau fel yr oeddynt yn bod o'i amgylch. Y canlyniad o hyn oll ydyw, ein bod ni yn fynych yn canfod anhawsder i wahaniaethu rhwng ei ragfynegiadau ef a'i geryddon o aflywodraeth presennol. Ond nid oedd ei gydoeswyr yn teimlo dim o'r fath anhawsder. Yr oedd yr Hebread eilunaddolgar ac annuwiol yn adnabod ei ddarlun ei hun yn y fan; ac yr oedd y duwiol yn cael ei gadarnhau a'i gysuro.

II. Er mwyn teimlo grym gweinidogaeth brophwydol Esaiah ar ei gydoeswyr, rhaid i ni ystyried perthynasau estronol Iudah ar y pryd, a'i hagwedd gymdeithasol a chrefyddol oddi mewn. Prinion ydyw ein defnyddiau at hyn, a rhaid eu casglu mewn rhan o'r 2 *Bren.* a'r 2 *Cron.*, ac mewn rhan o ysgrifeniadau y prophwydi oedd yn cydoesi âg ef, sef Iael (fe allai), Obadiah, a Micah, yn Iudah; a Hosea, Amos, ac Ionah, yn Israel. O'r rhai hyn, Micah a rydd i ni y cynnorthwy mwyaf.

1. Dan Uzziah yr oedd sefyllfa wladol Iudah wedi ymadnewyddu llawer iawn ar ol yr ymosodiadau a ddyoddefasai dan Amaziah. Yr oedd amddiffynfeydd Ierusalem ei hunan wedi eu hadgyweirio; yr oedd cestyll wedi eu hadeiladu yn y wlad; yr oedd trefniadau newyddion yn y fyddin, a darpariadau o gadoffer amddiffynol wedi eu sefydlu; ac yr oedd llwyddiant mawr wedi ei ennill mewn rhyfeloedd yn erbyn y Philistiaid, yr Arabiaid, a'r Ammoniaid. Parhaodd y llwyddiant yma ar hyd teyrnasiad Iotham, oddigerth tua'i diwedd, pan y bygythiwyd blinderau oddi wrth gynghrair Israel â Syria. Gwel Iotham. Y canlyniad o'r llwyddiant yma oedd cyflawnder o gyfoeth; a bu hyn, gyda chynnydd mewn nerth milwrol, yn achlysur i ddynion beidio ymorphwys ar Iehofah, ac i'w harwain i ymddiried mewn gallu daiarol. Heb law hyny, yr oedd annhrefn mawr yn y weinidogaeth fewnol, yr hyn oll—pa un bynag ai moesol ai crefyddol—o blegid natur y wladwriaeth fel llywodraeth ddwyfol, oedd yn haeddu cerydd prophwydol. Gorchwyl penodol Esaiah, a phrophwydi ereill, oedd dyrchafu eu llais fel diwygwyr cyhoeddus, cystal a chyflawnu y gwaith a berthynai i athrawon crefyddol er addysgu gwir wasanaethwyr Duw a galw yr anghrefyddol i edifarhau. Am hyny y mae y prophwyd yn dyfod yn fwyfwy i sylw cyhoeddus gyda'i genadwri ddwyfol, wedi ymddilladu yn null y prophwydi yn gyffredinol, ac ymwregysu mewn crys o rawn bras a du, neu o leiaf o liw tywyll (cymharer *Esa.* xx. 2; l. 3; 2 *Bren.* i. 8; *Zech.* xiii. 4), gan arwyddo trwy yr alarwisg hon, fod Iehofah yn llefaru wrth ei bobl mewn gofid ac anfoddlonrwydd. Gwel Sachliain. Y mae efe yn myned allan o'i dŷ, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn Ierusalem (cymharer *pen.* vii. 3; xxxvii. 5), i leoedd o ymgynnulliad cyhoeddus, i gynteddau a phyrth y deml yn benaf yn ddiammheu, fel Crist a'i apostolion ar ol hyny, gan gyhoeddi gair Iehofah yn nghlyw y bobl.

2. Gwelir rhediad a thuedd ei genadwri yn amser Uzziah ac Iotham yn *pen.* i—v. Y mae *pen.* i. yn dra chyffredinol o ran ei chynnwysiad. Wrth ei darllen, gallwn ddychymygu ein bod yn clywed llais gŵr Duw, fel y safai, fe allai, yn nghyntedd yr Israeliaid, gan fynegu wrth y tywysogion a'r bobl feddyliau cyffredinol Iehofah am eu hymddygiad, a dynesiad ei gospedigaethau. "Cenedlaeth bechadurus ydynt; digiasant Sanct Israel. Er mor flodeuog yr ymddengys eu sefyllfa fydol yn awr, y mae y gŵr yr agorwyd ei lygaid yn gweled golwg arall o'i flaen (1—9)—y wlad yn anrheithiedig, a Sion wedi ei gadael megys lluestty mewn gwinllan—(darlun a wiriwyd yn rhyfel Syria ac Ephraim, ac yn fwy fyth yn yr ymosodiad Assyriaidd, yr amgylchiad mawr â'r hwn y mae a fyno holl ran gyntaf y llyfr). Pobl Sodom a Gomorrah, o'r fath ag ydynt, gwrandawant! gallant fyned rhagddynt gyda'u haddoliad defodol, gan *sengu* cynteddau Iehofah: er hyny y mae efe yn eu ffieiddio: y mae eu dwylaw yn llawn o waed; gorthrymant yr amddifad a'r weddw; y maent yn cymmeryd gwobr ac yn gwyro barn. Bydded iddynt ddiwygio; ac os na wnant, llysg Iehofah eu pechodau yn ffwrn ei farnedigaeth. Sion a burir, ac felly a achubir; tra y dinystrir y pechaduriaid a'r gwrthgilwyr oddi wrth Iehofah sydd ynddi yn nghanol eu hoff eilunaddoliaeth." Y mae yr arweiniad yma yn dra chyfaddas ar ddechreu y llyfr; y mae yn seinio cyweirnod y cyfan:—tân barnedigaeth yn dystrywio, ond yn puro y gweddill, oedd baich prophwydoliaeth Esaiah.

Mae y mynegiadau cyhoeddus ereill a berthyn i'r cyfnod yma (*pen.* ii—iv), yn cael eu hystyried gan bron yr holl feirniaid fel un brophwydoliaeth—prif syniad yr hon ydyw, y byddai i lwyddiant presennol Iudah gael ei ddinystrio gan ei phechodau, er mwyn gwneuthur lle i wir ogoniant duwioldeb a rhinwedd; tra y mae *pen.* v. yn ffurfio mynegiad gwahanol, prif gynnwys yr hon ydyw, y byddai i Israel, gwinllan Iehofah, gael ei hanrheithio. Mae yr eilunaddoliaeth a geryddir yn y pennodau hyn i gael ei ystyried fel eilunaddoliaeth personau unigol; canys yr oedd Uzziah ac Iotham yn gwasanaethu Iehofah. Rhagflaenir hwy gan y weledigaeth am ddyrchafiad y

mynydd, ar yr hwn y trigai Iehofah, yn uwch na phob mynydd arall, ac y byddai yn ffynnonell goleuni a chyfnewidiad moesol i holl ddynolryw: *pen.* ii. 2—4.

Yr ydym yn cyfarfod â'r un weledigaeth bron yn yr un geiriau yn *Micah* iv. 1—3. Yr oedd y ddau brophwyd yn cydoesi, a dichon yn hawdd i'r naill glywed y llall, a defnyddio yr un geiriau. Cymharer amgylchiad bron yr un fath yn 1 *Pedr* v. 5—9, ac *Iago* iv. 6—10; canys y mae yn ddiammheu fod Pedr ac Iago wedi clywed eu gilydd yn llefaru yn gyhoeddus yn fynych yn Ierusalem. Pa un oedd y llefarwr cyntaf o'r geiriau, nis gellir penderfynu yn y naill amgylchiad na'r llall. Y mae ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau, mewn llawer amgylchiad, yn defnyddio geiriau ysgrifenwyr ysbrydol blaenorol; a pha ham nas gallai llefarwyr wneuthur yr un modd? Yn yr amgylchiad hwn, y mae yn ddigon tebyg y gallai Esaiah neu Micah fod yn sefyll ger llaw tra yr oedd y llall yn cyhoeddi gair Iehofah; ac iddo yntau ei hun, dan yr un arweiniad dwyfol, wedi hyny adrodd yr un geiriau. Megys y prophwydi yn yr Eglwys Gristionogol, cyfarwyddir rhai i dewi, a *barnu*, tra y llefarai y lleill; felly y gallwn gredu fod amgylchiadau yn dygwydd yn fynych pan y gwrandewid ar brophwydoliaeth un prophwyd yn ei wisg dywyll arwyddocaol, ac y cadarnheid hi gan brophwydi ereill, fod un neu fwy yn sefyll ger llaw, ac yn chwanegu eu tystiolaeth hwythau: "Hwn *yw* gair Iehofah:" cymharer 1 *Bren.* xxii 11, 12.

Wedi adfywio eneidiau y duwiolion fel hyn â darluniad o ogoniant dyfodol (dan deyrnasiad y Messiah), y mae Esaiah yn cael ei adgofio gan amgylchiadau prudd presennol. Tra phell ydyw pobl Dduw hyd yn hyn o feddu y cymmeriad uchel o fod yn athrawon i'r bobloedd. "Y maent oll yn awr ar gyfeiliorn. Y mae paganiaeth yn gorlifo y tir â swynwyr a dewiniaid, âg arian ac aur, â meirch a cherbydau, ac âg *eilunod!* Iehofah, na fadden idbynt! Y mae dydd barn Iehofah yn dyfod, pan y diflana ardderchogrwydd dyn o flaen ei ogoniant ef, pan y teifl yr eilunaddolwyr Hebreaidd eu heilunod mewn dychryn i bob cornel—i'r waudd ac i'r ystlumod. Wele, Iehofah-Zabaoth (Arglwydd y Lluoedd) yn cymmeryd ymaith bob trefn o'r llywodraeth, heb adael ond gweddillion y bobl yn unig i arglwyddiaethu (os gwnant hyny hefyd) ar y ddinas anrheithiedig. Edrych arnynt! y maent mor ddigywilydd a Sodom! O fy mhobl! y rhai a'th dywysant sydd yn peri i ti gyfeiliorni, a'th dywysogion yn dy orthrymu: beth sydd i chwi a guroch ar fy mhobl, ac a faloch ar wynebau y tlodion? medd Iehofah. Edrychwch eto ar eu merched gyda'u clustdlysau ac addurniadau y pen, eu gwisgoedd gwychion, eu cadwynau a'u breichledau. Cymmer Iehofah y cwbl ymaith, heb adael iddynt ond gwarth a sachlian yn eu lle. Ië, cyll Sïon ei meibion a'i merched (gan faint y nifer sydd wedi troseddu!), ac wedi eu hanrheithio o'r cyfan, hithau a eistedd ar y ddaiar. Eto, fe ddaw o'r barnau hyn burdeb a thangnefedd. Ac efe, sef Blaguryn Iehofah (*pen.* iv. 2), a ymddengys mewn gogoniant, a'r cadwedig a dardda o'r ddaiar, a llewyrcha y rhai a ddiangasant o Israel yn rhagorol ac yn hardd. Yna bydd Sïon oll yn sanctaidd, a bydd y golofn dân y nos, a'r cwmwl cysgodol y dydd, fel cynt, yn hyfrydwch ac yn noddfa: rhaid amddiffyn yr hyn sydd werthfawr! Hyfryd fydd y diogelwch a'r amddiffyn yn y dyddiau hyny."

Gwelir y prophwyd eto yn y gynnulleidfa gyhoeddus. Ac yn gyntaf y mae yn galw sylw trwy adrodd dammeg (y winllan) mewn agwedd dawel a digynhwrf: *pen.* v. Ond pan aiff yn mlaen i egluro y ddammeg, y mae ei dôn yn newid, ac y mae yn tywallt allan wae chwephlyg, mewn cyffro dychrynllyd. Cyfeirir hi yn erbyn y cybyddion a gydiant faes wrth faes, gan dori y terfynau a amgylchent etifeddiaethau bychain y perchenogion, parhad cyfan y rhai oedd yn elfen hanfodol yn ngwladwriaeth gyntefig Israel (cymharer 1 *Bren.* xxi. 3); yn erbyn y meddwon gloddestgar, yn erbyn y pechaduriaid rhyfygus, y rhai a herient waith barn Duw, a fygythiai y prophwyd arnynt (cymharer esampl gyffelyb o gyssylltiad gloddest âg anghrediniaeth caled yn Israel: *Amos* v. 18; iv. 3—6); yn erbyn y rhai a lygrant foesau da; yn erbyn ammheuwyr hunanol; ac yn erbyn llygrwyr gwastraffus cyfiawnder a barn. Y mae Iehofah yn estyn allan ei law mewn digofaint llidiog. Yma ceir dialedd ofnadwy yn y ffugrau dychrynllyd a bentyra y prophwyd, nes o'r diwedd y clywir Iehofah, o ganol cwmwl mwg ei ddigofaint, yn chwibianu ar ryfelwyr cedyrn anwrthwynebol (yr Assyriaid), y rhai a ymdyrant o eithaf y ddaiar at yr ysglyfaeth; ar ol yr hyn y mae pob dysgrifiad penodol yn diflanu mewn delweddau o ofid ac anobaith.

Gellir gofyn, pa effaith a gaffai y fath fygythion ar y cyffredin o'r gwrandawyr Hebreaidd? Nid gan Esaiah yn unig yr oedd yr un personau yn eu clywed. Yr oedd y gorthrwm a gondemniwyd ganddo ef (*pen.* iii. 14, 15; v. 7—10), yn cael ei gondemnio hefyd gan Micah (*pen.* ii. 1, 2); mae y gwyro barn (*Esa.* i. 23; v. 23) yn cael ei nodi hefyd gan Micah (*pen.* iii. 1—3, 9—11; vii. 3); ac y mae y cyssylltiad o eilunaddoliaeth, swynwyr, a meirch, a geir yn *Esa.* ii. 6—8, 15, i'w gael hefyd yn gyffelyb yn *Micah* v. 10—15. Nis gallasai fod cyd-darawiad y dystiolaeth brophwydol heb bwys ynddi yn ngolwg y rhai oedd yn meddu rhywfaint o ffydd yn Iehofah. Ond gallasai y rhai bydol eu meddyliau, pa mor ddystaw bynag y gwrandawent gondemnio anfoesoldeb gwarthus, gael achlysur i betruso, pan y cyssylltai y prophwyd amlhad arian, ac aur, a meirch, a cherbydau, âg eilunod, fel pethau gwaharddedig, neu pan y nodai dlysau ac addurniadau benywol mewn gwawd mor ddiarbed fel gwrthddrychau o ddigofaint Iehofah. Ond y mae deddf Duw trwy Moses yn cyhoeddi gwaharddiadau cyffelyb (*Deut.* xvii. 16, 17); ac yn wir, nid oes odid ddalen o'r llyfrau prophwydol heb gyfeirio drachefn a thrachefn at y Pum Llyfr. Nid oedd y wladwriaeth Hebreaidd wedi ei bwriadu i fod yn llywodraeth fasnachol, ond cyfundrefn o etifeddiaethau bychain dan lywodraeth ddwyfol. Yr oedd cynnydd mewn bydolrwydd a gorwychedd, pa un bynag ai yn y llys ai mewn cymdeithas yn gyffredinol, gyda'r gwŷr neu y gwragedd, yn ei symmud yn mhellach bellach oddi wrth y cyfansoddiad gwreiddiol, ac oddi wrth Iehofah eu Duw. Yr oedd rhywbeth tebyg i symledd Spartaidd yn perthyn yn hanfodol i gynllun y llywodraeth Hebreaidd.

3. Yn y flwyddyn y bu farw Uzziah, cafodd y prophwyd weledigaeth lewygol, yr hon y bu efe ofalus, pan yn casglu ei brophwydoliaethau yn nghyd yn mhen hir amser ar ol hyny, am ei chofnodi, er mwyn amryw bethau, gystal ag o blegid iddo ddyfod i ddeall fod ei weinidogaeth yn ofer gyda golwg ar y rhan fwyaf o'i gydoeswyr, ac o

blegid yr anrhaith (er nad oedd eto yn ddiobaith) oedd yn aros ei bobl. Yr ydym yn gweled yn amgylchiad Pedr yn Ioppa (*Act.* x. 9—16), fod y fath sefyllfa o lewyg, er yn ddiammheu o darddiad dwyfol, eto yn ateb o ran ei ffurf i sefyllfa flaenorol y gwrthddrych, gyda golwg ar y corff a'r meddwl. Yr oedd Esaiah y pryd hwn (fel y gellir casglu oddi wrth gyflead yr hanes) wedi bod eisoes am ryw hyd yn ei weinidogaeth; a gallwn fod yn sicr ei fod yn galaru o blegid bychander ei lwyddiant. Gan ei fod yn gweled yr hyn a welai o'i amgylch, ac yn rhagweled yr hyn a ragwelodd, a allai efe lai na theimlo yn ddwys wrth ganfod cyn lleied a fedrai wneuthur, er ei holl ymdrech, at lesoli ac achub ei anwyl wlad? Yn y weledigaeth hon, gwelodd Iehofah, yn mherson y Mab (*Ioan* xii. 41; cymharer *Mal.* iii. 1), yn eistedd ar eisteddfa uchel, a'r seraphiaid o'i amgylch—moliant y rhai oedd yn llenwi y cysegr megys â mwg arogldarth. Tarawyd Esaiah, megys Ioan yn Patmos, gan fraw a dychryn: teimlai ei bechadurusrwydd ei hun a phawb yr oedd efe mewn cyssylltiad â hwy, a chyhoeddodd wae arno ei hunan, fel pe buasai wedi cael ei ddwyn ger bron Iehofah i dderbyn ffrwyth ei weithredoedd. Ond, megys yn Patmos y gosododd Mab y dyn ei law ar Ioan, gan ddywedyd, "Nac ofna!" felly ehedodd seraph, mewn ufudddod amlwg i ewyllys Iehofah, gan gymmeryd marworyn oddi ar yr allor mewn gefail, a'i osod i gyffwrdd â genau Esaiah—y prif offeryn a fedd dyn er drwg neu dda—a thrwy hyny ymadawodd ei anwiredd âg ef, ac addaswyd ef i ymuno â'r seraphiaid yn mha wasanaeth bynag y gelwid arno i'w gyflawnu. Ac yn awr, clywai alwad gras y Brenin Mawr: "Pwy a anfonaf? a phwy a ä drosom ni?" Yna y dywedodd Esaiah, "Wele fi! anfon fi." Onid oedd efe wedi bod yn dwyn tystiolaeth Iehofah o'r blaen? Diammheu ei fod; ond yn awr, wedi ei ddwyn dan ddylanwad dwysach o wirionedd pethau dwyfol, ymdeimlai megys pe na buasai wedi gwneuthur hyny. Pa weinidog wedi ei ddysgu gan y nef sydd nad yw yn deall hyn? A pha beth oedd natur ei waith i fod? "Dywed wrth y bobl *hyn* (nid *fy mhobl*), Gan glywed clywch, ond na ddeallwch; trymha eu clustiau; a chau eu llygaid. Po mwyaf wrandawant ar dy eiriau, caletaf yr änt; ni feiddiant, ni chânt dderbyn y genadwri fel yr edifarhaont." Dyma neges dorcalonus i un a garai ei bobl fel y carai Esaiah hwynt! O'r diwedd y mae ochenaid gofid yn tori allan: "Pa hyd, Arglwydd?" "Hyd oni wneler y wlad yn gwbl anghyfannedd —gan achub gweddill bychan o'r anrhaith llwyr, gweddill yr had sanctaidd, i fod yn gyff i flaguro, ond a dorir ac a losgir drachefn a thrachefn—ac eto i ymadnewyddu yn y diwedd."

Dull arall oedd y weledigaeth, gan mwyaf, i ddarlunio yr hyn, mewn blaenorol a dyfodol, a gyhoeddir yn barhaus; sef bron y llwyr ddinystr o'r Hebreaid, gan adael er hyny weddill wedi eu puro. Ond er mai y rhagddywediad hwn oedd y prif amcan, eto gellir bod yn sicr fod y prophwyd ysbrydoledig, wrth gasglu ei brophwydoliaethau yn mhen llawer o flynyddoedd wedi hyny, yn gweled ynddo hefyd ffrwyth ei weinidogaeth; yr hyn a gafodd effaith nid bychan o angenrheidrwydd ar ei deimladau personol ar y pryd y rhoddwyd y dadguddiad iddo. Y mae yn myned at ei waith yn adnewyddol, ond yn dra digalon gyda golwg ar y presennol, eto fel seraph o ran ei sel, a'i ysbryd wedi ei nefoleiddio, ac nid heb obaith gyda golwg ar y dyfodol. Yr "had sanctaidd" oedd i fod yn sylwedd; a'i orchwyl ef oedd meithrin yr had sanctaidd hwnw.

Golygfa effeithiol, yn ei pherthynas â theimladau y prophwyd ei hun, a geir y tro nesaf yr ymddengys y prophwyd ger bron, a chanddo fab o'r enw Sear-iasub="gweddill-a-ddychwel." Enw ydyw hwn a roddwyd yn amlwg fel arwydd; ac y mae yn dangos ar unwaith y gofid a arteithiai galon y prophwyd, yn nghyd â'r gobaith yn yr hwn y cai gysur.

4. Aeth rhai blyneddoedd heibio rhwng *pen.* iv, a *pen.* vii, ac yr oedd yr olygfa wladyddol wedi newid yn ddirfawr. Mae gallu Assyriaidd Ninefeh yn awr yn bygwth cenedl yr Hebreaid. Y mae Tiglath-pileser eisoes wedi ysbeilio Pecah o rai o barthau prydferthaf ei diriogaethau, sef y wlad o'r tu dwyreiniol i'r Iorddonen, a dyffryn Môr Galilea, gan symmud y trigolion, fe allai, i boblogi y gwagle eang oedd yn anghyfannedd, eto o fewn muriau Ninefeh, c. c. 746. Wedi i'r fyddin Assyriaidd fyned ymaith, cododd teyrnas Syriaidd Damascus i sylw; ymunodd ei brenin, Resin, â brenin Israel, oedd yn awr yn egwan, ac fe allai âg amryw fân lywodraethau ereill o amgylch, er mwyn ffurfio grym digonol (fel y tybia rhai) i wynebu Assur. Y mae Ahaz yn sefyll draw, ac wedi dyfod yn wrthddrych i ymosod arno gan y cynghreiriaid: y mae eisoes wedi cael ei orchfygu ddwywaith (2 *Cron.* xxviii. 5, 6); ac yn awr y mae y cynghreiriaid yn bygwth cydymosod arno—c. c. 741. Mae y newydd fod "Aram yn gwersyllu yn Ephraim" (*Esa.* vii. 2), yn llenwi calon y brenin a'r bobl â dychryn, ac y mae y brenin wedi myned o'r ddinas i ddarparu, fel yr ymddengys, pa fodd i gadw y llyn dwfr uchaf rhag syrthio i ddwylaw y gelyn. Yn y cyfamser, y mae dan gyfarwyddyd Iehofah yn myned allan i gyfarfod y brenin, yr hwn a amgylchynid yn ddiammheu gan osgordd luosog o'i swyddogion ac o edrychwyr. Cyfarwyddir y prophwyd i gymmeryd gydag ef y bachgen a elwid Seariasub, oedd mor llawn o addewid arwyddocaol, er rhoddi mwy o bwys i'w genadwri. "Nac ofna," medd efe wrth y brenin, "canys pen Syria, a Syria yn unig, yw Damascus; a phen Damascus, ac nid Ierusalem, yw Resin; ac o fewn pum mlynedd a thrigain y torir Ephraim rhag bod yn bobl, neu yn deyrnas mwy: mor bell a hyny y bydd Ephraim oddi wrth gael ei chyssylltu âg Iudah! Hefyd, pen Ephraim yn unig yw Samaria, a phen Samaria yw mab Remaliah. Os ydych am gael eich sicrhau, credwch hyn!"

"A wyt ti yn petruso? Gofyn i ti arwydd i'th sicrhau mai fel hyn y bydd." Y mae y brenin ieuanc wedi penderfynu eisoes na ddilynai efe y cynllun a gymhellai Esaiah arno: y mae ei fryd ar wneyd cynghrair âg Assyria. Gallai gofyn arwydd beri dyryswch; canys beth pe rhoddid un......? Y mae Ahaz gyda math o barch hanner gwawdus, yn gwrthod "temtio Iehofah." "O dŷ Dafydd! a ydych ddim yn foddlawn ar flino amynedd prophwyd gonest a chynghorwr doeth, fel y rhaid i chwi gael taflu eich diystyrwch ar Dduw hefyd sydd yn llefaru trwof fi? Iehofah ei hun, er maint eich annheilyngdod chwi, a ddyry i chwi arwydd na bydd i wladwriaeth Israel eto ddiflanu. Wele, *morwyn* a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, a thi, O fam! (cymharer *Gen.* xvi. 11; *Luc* i. 31), a thi a elwi ei enw ef Emmanuel. Ymddengys i mi fy mod yn gweled y plentyn wedi ei eni eisoes! Wele ef acw! Hufen a mel, helaethrwydd o'r danteithfwyd goreu, a fwyty efe, pan, ddeg neu

Digitized by Google

ugain mlynedd yn mlaen, y daw efe i oedran pwyll; yna bydd i ddifrod Syria ac Israel ddarfod; canys cyn hyny, bydd tir y ddau frenin y dychryni di gymmaint rhagddynt yn anghyfanedd. Ond"—yma y mae y bygythiad sydd yn ymgymmysgu â'r addewid yn Seariasub yn ymddangos—"ar dy bobl ac ar dŷ dy dadau, nid yn unig yn dy amser di, ond ar ol hyny, y dwg Iehofah elyn mwy ofnadwy nag a adnabu Iacob erioed...Assur, yr hwn y mynit ti ei gyflogi i'th ynnorthwyo (*pen.* v. 20), ond yr hwn a fydd yn ellyn a eillia y cyfan, ac a anrheithia y tir fel na bydd ei drigolion ond gwasgarog ac ychydig." Y mae Esaiah yn rhagfynegu ymosodiad drachefn; cymharer *pen.* xxxvi.

Nis gellir ammheu mai at enedigaeth y Messiah y cyfeirir yma; yn wir, y mae hyd yn oed Ewald yn gweled hyn. Ond y mae yn anhawdd penderfynu ystyr manwl *adn.* 15, 16. Yr ystyr a roddir uchod ar y cyfan sydd gan Hengstenberg yn ei *Christology*, cyf. ii. Yr anhawsder penaf ydyw, fod y prophwyd yn darlunio Crist fel yn ymddangos, ar y pryd hyny, gan gyfrif o'i enedigaeth ef hyd anrheithiad Syria ac Israel, o fewn ychydig flyneddoedd. Pa fodd bynag, y mae yr anhawsder yn cael ei leihau wrth ystyried fod y prophwyd yn mynegu am y dyfodol fel yr oedd yn cael ei ddangos iddo ef mewn *gweledigaeth*, ac yn y fath weledigaethau prophwydol yn fynych nid yw y pellder rhwng amgylchiadau o ran amser yn cael eu dirnad gan y gweledydd, yr hwn, fe allai, a ddichon yn ei syniad ei hun o'r weledigaeth (cymharer 1 *Pedr* i. 10) gamsynied perthynas amser gyda golwg ar y dygwyddiadau. Gallai eglurder ymddangosiad y dygwyddiad dyfodol iddo ef dwyllo ei farn gyda golwg ar ei hagosrwydd. Y mae genym amgylchiad lled gyffelyb yn y Testament Newydd yn syniad yr apostolion ac ereill am berthynas yr amser rhwng dyfodiad Crist i farnu Ierusalem â'i ail ddyfodiad yn niwedd y byd.

5. Fel y dechreuai ymherodraeth Assyria fygwth gw'adwriaeth yr Hebreaid fwyfwy â chwbl ddinystr, yr oedd y rhagfynegiad am y Messiah, Adferwr Israel, yn dyfod yn fwy pendant ac eglur. Y mae Micah (*pen.* v. 2) yn cyfeirio at Bethlehem, ac yn llefaru (*pen.* v. 3) am "yr hon a esgoro" fel gwrthddrych gweledigaeth brophwydol oedd bron ger llaw. Onid oedd Micah ac Esaiah yn ymgynghori â'u gilydd yn y dyddiau tywyll hyn, pan yr oedd anghrediniaeth yn ffynu, gyda golwg ar y gobaith hyfryd, yr hwn y cyfeiriai Ysbryd Crist, oedd ynddynt, eu meddyliau ato? cymharer *Mal.* iii. 16.

Yr oedd y brenin wedi rhoddi ei fryd ar gynghrair âg Assyria. Y mae Esaiah yn gwrthwynebu hyn yn bendant: cymharer *pen.* x. 20. Mewn llywodraeth ddwyfol, byddai negesydd Iehofah yn ymddangos yn fynych fel cynghorwr gwladyddol. "Nac ofna Aram ac Israel, canys darfodiad buan a fydd iddynt: nac ymddiried yn Assur, canys hi a fydd dy orthrymydd creulonaf." Y fath oedd rhediad lleferydd Esaiah. A thrwy gyfarwyddyd dwyfol y mae yn defnyddio amryw foddion i wneyd ei dystiolaeth yn fwy effeithiol. Y mae yn cymmeryd rhol fawr (*pen.* viii. 1), ac yn ngŵydd tystion (er mwyn i'r ffaith fod yn gadarnach, ac i'r arwyddocâd fod yn amlycach) y mae yn ysgrifenu arni mewn llythyrenau breision, cyfaddas i dynu sylw cyhoeddus, y geiriau *Brysia i'r Ysbail*, *Prysura i'r Anrhaith* (yn ein cyfieithiad ni, Maher-shalal-has-baz), yr hon rol, y mae yn debyg, a grogai yn ngolwg y bobl, yn nghyntedd y deml (fe allai): cymharer *offeiriad* yn *adn* 2. Ac yn mhellach, ymddengys i fab iddo gael ei eni, bron ar yr un pryd, o'i wraig, yr hon, fel yr ymddengys, oedd yn perchen dawn brophwydol, canys dyma yr ystyr a roddir bob amser i'r gair *prophwydes*, ac nid yw mewn un man yn arwyddo *gwraig prophwyd* yn unig. Y mae Iehofah yn gorchymyn i'r prophwyd alw y mab yn *Brysia i'r Ysbail, Prysura i'r Anrhaith*, gan chwanegu, yr hyn a dystiai Esaiah ar bob achlysur, cyn y gallai y bachgen siarad, y byddai i olud Damascus ac ysbail Samaria gael eu dwyn ymaith o flaen brenin Assyria.

Yr oedd pobl Iudah wedi ymranu yn ddwy blaid wladyddol. Yr oedd y llys dros Assyria, ac yn wir wedi ffurfio cynghrair â Thiglath-pileser. Ond yr oedd y blaid boblogaidd dros ymuno â Syria ac Ephraim, i wrthsefyll Assyria; mewn rhan, o blegid fod arnynt ofn cynghrair yr oeddynt eisoes wedi dyoddef mor chwerw oddi wrtho: ac mewn rhan, fe allai, o dan ddylanwad cydymdeimlad perthynasol, oedd yn eu tynu at Israel, a hyd yn oed at Aram, yn hytrach nag at yr estroniaid Assyriaidd. "Nac ofnwch neb ond Iehofah yn unig! ofnwch ef, ymddiriedwch ynddo ef, efe a'ch gwared chwi." Dyma ystyr yr holl annogaeth yn *pen.* viii. 5—ix. 7; yn yr hon, pa fodd bynag, y mae efe yn rhagfynegu gofid dyfodol o blegid gwrthod ei gynghorion ef, ond yn ymgysuro wrth feddwl am enedigaeth yr Achubwr Mawr.

Gyda golwg ar waith diweddar Tiglath-pileser yn symmud poblogaeth Galilea, dywed y prophwyd "megys yn yr amser cyntaf y dygodd ddarostyngiad i dir Zabulon a Naphthali," y rhai oedd ar oror orllewinol Môr Galilea, "felly yn yr amser diweddaf y dygai anrhydedd i'r parthau hyn." Rhagfynegiad tywyll y pryd hyny, ond a wnaed yn amlwg i ni trwy i'r dygwyddiad gymmeryd lle: *Mat.* iv. 16.

Pa fodd bynag, ni dderbyniwyd cynghor dwyfol y prophwyd, trwy beidio ofni yr Assyriaid, ac ymddiried yn Iehofah. Nis gallai anghrediniaeth ddeall ei allu a'i ffyddlondeb ef am hyny, tybiai yr anghredinwyr y buasai sefyll ar wahan oddi wrth Assyria yn ddinystr iddynt, ac felly gyrasant Iudah i gynghrair a fu bron yn llwyr anrheithiad iddi.

6. Traddodwyd prophwydoliaeth y pryd hyn yn erbyn teyrnas Israel (*pen.* ix. 8—x. 4), yr hon a gynnwys bedwar pennill, neu bedair rhan, a phob un yn terfynu gyda'r mynegiad arswydus yma:—"Er hyn i gyd ni ddychwelodd ei lid ef, ond eto y mae ei law ef yn estynedig." Gan fod y darn yma mor nodedig, ac yn esampl deg o ddull mawreddog a barddonol y prophwyd o draddodi ei genadwri ddwyfol, ni a roddwn y pedwar pennill yn gyflawn ger bron, gyda'r arweiniad (*pen.* ix. 7), o gyfieithiad llythyrenol y Parch. T. Briscoe; a chaiff y darllenydd ei gymharu â'r cyfieithiad cyffredin:—

"Gair a anfonodd IEHOFAH yn erbyn Iacob,
Ac efe a syrthiodd ar Israel (ix. 7).
A gwybydd y bobl oll,
(Sef) Ephraim a thrigiannydd Samaria;
O herwydd mewn balchder, ac mewn mawredd calon, iddynt ddywedyd,
Y priddfeini a syrthiasant, ond â cherrig nadd yr adeiladwn;
Y sycamorwŷdd a dorrwyd,
Ond yn gedrwŷdd ni a'u newidiwn.
Gan hyny y dyrchafa IEHOFAH dywysogion Rezin yn eu herbyn hwynt,
A'u gelynion a arfoga Efe;



Digitized by Google

erbyn Babilon; ac a osodwyd yn gyntaf, naill ai o blegid iddo gael ei lefaru yn gyntaf, neu o blegid mai Babilon yn y weledigaeth brophwydol, yn enwedig pan y casglai y prophwyd ei lyfr ynghyd, oedd, o'r holl lywodraethau daiarol a wrthwynebent bobl Dduw, i gael ei tharaw i lawr yn gyntaf gan saeth y brophwydoliaeth. Ac eto, nid Babilon, ond Ninefeh, oedd y ddinas ymherodrol. Ond nid rhagddyfaliad yn tarddu oddi wrth graffder gwladyddol yn unig oedd gan Esaiah; ond gwybodaeth sicr ac anffaeledig, mai Babilon a fyddai yn safle y llywodraeth, ac yn brif wrthwynebydd i bobl Dduw. Nid yn unig dywedodd wrth Hezeciah, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, pan oedd Ninefeh eto yn safle yr ymherodraeth, y dygid ei feibion yn gaeth i Babilon, ond y mae yn rhagddywedyd hefyd yn y *baich* hwn am uchelgais llwyddiannus a gogoniant y ddinas hono, ac am ei chwymp diweddaf. Cymh. yr hyn a ddywedir yn *pen.* iii. 4. Hyd yn oed pe caniateid fod y rhan hono o'r brophwydoliaeth yn waith prophwyd diweddarach nag Esaiah (yr hyn nid oes un achos cyfiawn yn galw am ei gredu), arosai y pwnc mor ddyrys i ammheuwyr ag erioed; canys o ba le y dysgodd ei awdwr y byddai diwedd Babilon y fath ag a ddarlunir yma, yn *pen.* xiii. 19—22. Ni bu un adeg ar lenyddiaeth Hebreaidd y gallesid rhagdybied hyn am Babilon yn neillduol, mwy nag am ddinasoedd eraill. Ofer y dyfyna ammheuwyr *pen.* xvii. 1. Ni ddywedir dim yno am ddiwedd Damascus; ac y mae yn ddigon amlwg y buasai y fath ddyrnod ag a roddwyd gan Tiglath-pileser, er esampl, yn ddigon i wneyd i Damascus beidio bod yn ddinas, mewn cymhariaeth i'r hyn a fuasai; ac i wneyd llawer o'i heolydd yn anghyfannedd. Mor wahanol ydyw yr iaith a lefarwyd am Babilon! ac mor rhyfeddol y gwiriwyd hi gan amser! Y mae genym iaith gyffelyb, ac wedi ei gwirio yr un modd, gyda golwg ar Idumea: *pen.* xxxiv.

Y mae y gân am fuddugoliaeth (*pen.* xiv. 2—23) yn y "baich" hwn yn un o'r darnau mwyaf barddonol sydd yn llenyddiaeth unrhyw iaith. Y mae yn nodedig fod cwymp Babilon, sydd yn *adn.* 24, 25, yn cael ei gyssylltu â'r dyrnod a roddwyd i ymherodraeth Ninefeh yn ninystr byddin Senacherib (canys y mae y wyrth fawr hon o farn ddwyfol yn ymwthio drachefn i olwg y prophwyd), yr hwn ddinystr y mae yn debyg a fu yn achlysur i ddyrchafu Babilon ar draul ei chydymgeisydd gogleddol. Yr eglurhad ydyw, fod Babilon i'w hystyried megys gwedd arall yn unig ar lywodraeth Assur (cymharer 2 *Bren.* xxiii. 29), fel yr oedd dinystr byddin Senacherib yn rhagbarotoad i ddinystr llwyrach awdurdod Assur a gyhoeddir yn y "baich" hwn. Y mae y brophwydoliaeth yma yn rhagarweiniad i'r ail ran o'r llyfr; canys yr un yn fyr ydyw y darlun a dynir yma o Babilon, âg Iacob mewn caethiwed ganddi, ac yn gorfod gollwng ei hysglyfaeth o'i gafael (*pen.* xiv. 1—3) ag a ddarlunir yn llawnach yn *pen.* xlvii; tra y saif yr adnodau diweddol am fyddin Senacherib (*adn.* 24—27) mewn perthynas gyffelyb i'r gweddill o'r baich ag y saif yr hanes cyflawn yn *pen.* xxxvi, xxxvii, i'r pennodau o xl. hyd xlviii.

(2.) Achlysurwyd y baich byr a ffrwythlawn yma yn erbyn Philistia (*pen.* xiv. 29—32) yn y flwyddyn y bu farw Ahaz, gan wrthryfel y Philistiaid yn erbyn Iudah; a chofnodir eu hymgyrch llwyddiannus yn 2 *Cron.* xxviii. 18. "Os oedd gwialen Iudah yn sarff, byddai un Assyria yn wiber—yn sarff danllyd hedegog: uded ei phyrth hi wrth weled y mwg sydd yn mynegu dynesiad y fyddin ymosodol! Ond Sion a orphwysai yn ddiogel dan nawdd ei brenin." Y mae hon yn iaith brophwydol amlwg, fel yn ddiau y teimlai y casglydd pan yn nodi yr amser: cymharer *pen.* xxxvii.

(3.) Y mae "baich Moab" (*pen.* xv, xvi), yn nodedig am y dull marwnadol yn yr hwn y galara y prophwyd o blegid dinystr Moab, a dull tristfarddol (*dramatic*) yr xvi. 1—6, yn yr hwn y mae *adn.* 3—5, yn erfyniad y Moabiaid ar Iudah, ac *adn.* 6 yn atebiad Iudah. Y mae cryn lawer o'r baich yma yn helaethiad o *Num.* xxi. 27—30, ac fel dynwarediad o'r geiriau hyny y gellir rhoddi cyfrif am ansawdd yr arddull yn y lle hwn. Y mae yn sail ymddangos eto wedi ei helaethu yn *Ier.* xlviii. Y mae y ddwy adnod ddiweddaf (*Esa.* xvi. 13, 14), y rhai nid ydynt yn rhoddi un sail i ammheu mai Esaiah a ysgrifenodd y cyfan, yn adgofio fod ystyr y bygythiad wedi ei arfaethu er cynt (sef yn *Num.* xxi. a xxiv. 17), ond o fewn tair blynedd y byddai iddo ddechreu cael ei gyflawnu yn hollol hyd yn oed yn amser Ieremiah. Am berthynas Moab âg Israel, gwel Moab.

(4.) Y mae y brophwydoliaeth nesaf (*pen.* xvii. xviii), yn dechreu gyda'r geiriau hyn:—"Baich Damascus;" ac eto ar ol y drydedd adnod tynir y sylw oddi wrth Damascus, a throir yn gyntaf at Israel, ac yna at Ethiopia. Ymddengys Israel megys mewn cyssylltiad agos â Damascus, ac yn wir yn ymddibynol arni, ac megys wedi mabwysiadu ei defodau crefyddol, "canghenau dyeithr: *adn.* 10 (cymharer 2 *Bren.* xvi. 10, am Ahaz), y rhai ni fyddant o les iddi. Y mae hyn yn ein dwyn at amser cynghrair Syria ac Ephraim; o leiaf, nid oedd Ephraim eto wedi diflanu. Y mae *pen.* xvii. 12—14, cystal ag xviii. 1—7, yn cyfeirio drachefn at yr amgylchiad yn *pen.* xxvii. Ond pa ham y gwneir hyn yn y lle yma? Ymddengys mai yr ateb yw, er y byddai Assyria yn ddinystr i Aram ac Israel, ac er y byddai iddi fygwth hyd yn oed Iudah ("ni," *adn.* 14), eto na byddai iddi orchfygu Iudah (cymharer y troad sydd yn *pen.* xiv. 31, 32). Ac â'r syniad olaf hwn y mae *pen.* xviii. mewn cyssylltiad anwahanol; canys galwad yw o longyfarchiad i Ethiopia (dylai *gwae* yn *adn.* 1 o'n cyfieithiad ni fod yn *O!* fel *pen.* lv. 1; hefyd, gadawer "gan ddywedyd" allan o *adn.* 2), cenadau yr hon y tybir yn brophwydol eu bod wedi dyfod i Palestina i wybod am gynnydd ymosodiad yr Assyriaid (cymharer *pen.* xxxvii. 9), y rhai a ddanfonir yn ol gan y prophwyd gyda'r newyddion da am gwymp Assur, a ddysgrifir yn *adn.* 4—6. Yn *adn.* 7, ceir troedigaeth Ethiopia:—canys "y bobl uchel, ac wedi eu heillio" eu hunain yw y *rhodd* a ddygir i Iehofah (cymharer *Act.* viii. 26—40, a sefyllfa bresennol Ethiopia). Y mae y rhagfynegiadau mynych hyn am waredigaeth Sion rhag Assur, mewn cyssylltiad â goruchafiaeth Assur ar elynion Sion, yn un o elfenau mwyaf pwysig gweinidogaeth gyhoeddus y prophwyd; amcan mawr yr hon oedd sefydlu ymddibyniad ei gydwladwyr yn hollol ar Iehofah.

(5.) Yn "Baich yr Aipht" (*pen.* xix.), ymddengys mai myned yn mlaen y mae y prophwyd gyda'r un pwnc. Yr oedd Israel (2 *Bren.* xvii. 4) a Iudah (*Esa.* xxxi.) yn dueddol i edrych tua'r Aipht am noddfa rhag yr Assyriaid. Y mae yn debyg mai er mwyn gwrthweithio y duedd hon y cyfarwyddir y prophwyd yma i brophwydo llwyr

Digitized by Google

ddarostyngiad yr Aipht dan farn Duw: yr oedd i gael ei rhoddi i fyny i Assur ("arglwydd caled" a "brenin cadarn;" *adn.* 4, nid y Sammetichaidd), ac hefyd i oddef y trychineb mwyaf arswydus trwy ymrysonau gwladol a thrwy sychder; os nad yw y sychder yma yn arwyddlun wedi ei seilio ar ddefnyddioldeb neillduol y Nilus, a'r parch a roddid iddi: *adn.* 1—15. Ond y canlyniad fyddai i lawer o ddinasoedd yr Aipht gydnabod Iehofah yn Dduw iddynt, ac ymuno yn un frawdoliaeth â'i addolwyr ef yn Israel ac yn Assur. Cyfeiriad sydd yma yn ddiau at amser y Messïah: cymharer diwedd "baich Tyrus." Tybir gan lawer mai Bethsemes, *Ier.* xliii. 13, yw "dinas distryw" (*pen.* xix. 18), a ddynodir felly am ei bod yn hynod fel trigfod eilunaddoliaeth.

(6.) Y mae ymadrodd yn nghanol y *beichiau* yn dwyn Esaiah ger bron mewn gwedd newydd, yr hon nas gwelir ef ynddi ond yn yr amgylchiad yma yn unig. Nid peth anghyffredin yn yr Hen Destament a'r Newydd (cymharer *Act.* xxi. 11) oedd i brophwyd chwanegu gweithred at yr hyn a lefarai, i arwyddo yr ystyr. Sargon, nas crybwyllir am dano ond yma yn unig, oedd brenin Assyria; yr hwn, mae yn debyg, oedd rhwng Salmaneser a Senacherib. Yr oedd ei fyddinoedd yn awr yn neheubarth Palestina, yn gwarchae ar Asdod. Tybia rhai, gyda gradd o debygolrwydd, fod Tirhacah, brenin Moroë, a Sethos, brenin yr Aipht, mewn cynghrair yn awr â'u gilydd. Er mwyn rhoddi mwy o rym yn y rhybudd a roddwyd eisoes yn "maich yr Aipht"—ar iddynt beidio edrych tuag yno am gymhorth—gorchymynir i Esaiah ymddangos yn yr heolydd, ac yn y deml yn Ierusalem, wedi dattod y sachlian oddi am ei lwynau, a diosg ei esgidiau oddi am ei draed, heb ddim ond ei arwisg am dano. "Felly yr arwain brenin Assyria gaethiwed yr Aipht, a chaethglud Ethiopia." Gorchymynwyd iddo ymddangos fel hyn dros dair blynedd (o bryd i bryd, fel y gellir tybied) yn gyhoeddus, er mwyn argraffu y wers yn ddyfnach trwy ei mynychu.

(7.) Yn "Maich anialwch y môr," enw prydyddol am Babilon (*pen.* xxi. 1—10), cynllunir darluniadau a delweddau i arwyddo cwymp Babilon gyda chyflymder, aruthredd, a mawreddogrwydd barddonol digyffelyb, yn rhagori yn y pethau hyn hyd yn oed ar Æschyles ei hun. Y Mediaid, fel o'r blaen (*pen.* xiii. 17), ydyw y caethgludwyr. Er mwyn cysuro Iudah, oedd yn gruddfan dan "yr anffyddlawn a'r dinystrydd" (*adn.* 2), a "dyrniad" parhaus (*adn.* 10) Assur —Ninefeaidd a Babilonaidd—y mae Ysbryd Duw yn cynhyrfu y prophwyd i lefaru y pethau hyn. Yn *adn.* 3, 4, mae y bardd ysbrydol yn darlunio teimladau y Babiloniaid mewn dull gwawdus.

(8.) Y mae "baich Dumah,"yn yr hwn nis gall y gweledydd weled dim ond y nos, gofyner iddo y peth a ofyner; a "baich Arabia" (*pen.* xxi. 11 —17), yn perthyn, fel yr ymddengys, i ryw ymgyrch Assyriaidd.

(9.) Yn "Maich glyn gweledigaeth" (*pen.* xxii. 1—14), y mae yn ddiau mai Ierusalem a ddynodir, a hyny mewn tristwch, o blegid iddi fod mor hir yn gartref gweledigaeth brophwydol, a'r effaith wedi y cwbl mor fychan. Y weledigaeth a ddarlunir ydyw Ierusalem yn ystod ymosodiad arni: yn mysg y fyddin elynol, enwir Elam a Cir, cenedloedd yn ddiammheu a anfonasant filwyr i fyddinoedd Ninefeh a Babilon. Y mae yn debyg mai yr olaf a olygir yma. Casglir nad ymosodiad Senacherib ydyw, oddi wrth y darluniad dibaid o annuwioldeb a difaterwch (*adn.* 11, 12), a'r gosp o farwolaeth a fygythir (*adn.* 14), gan fod duwioldeb Hezeciah mor amlwg, ac iddo achub y ddinas (cymharer 2 *Cron.* xxxvi. 12, 16). Heb hyn, y mae y newyn yn 2 *Bren.* xxv. 3, yn taflu goleu ar *Esa.* xxii. 2. Nid yw fod *adn.* 9—11 yn cytuno â 2 *Cron.* xxxii 3 —5, yn profi dim: cymmerid yr un cynllun yn ngwyneb unrhyw ymosodiad (cymharer *Esa.* vii. 3). Y mae y rhan gyntaf o *adn.* 2, a 12, 13, yn dysgrifio sefyllfa pethau cyn yr amser presennol a ddychymygir yma. Yr addysg a fwriedid yn y rhagfynegiad yma gyda golwg ar gydoeswyr Esaiah oedd, eu cynhyrfu i dduwioldeb ac ymorphwysiad gostyngedig ar Iehofah, yn hytrach nag unrhyw ymddiried cnawdol.

(10.) Y mae yr ymadrodd sydd yn *pen.* xxii. 15—25 yn nodedig yn Esaiah, o herwydd ei fod yn brophwydoliaeth yn erbyn un dyn. Cymharer gair Amos (*pen.* vii.) yn erbyn Amaziah, ac Ieremiah (xx.) yn erbyn Pasur. Y mae yn debyg fod Sebna mor annuwiol a hwythau. Yr oedd efe yn un o swyddogion uchaf y brenin, ac ymddengys iddo fod yn arweinydd plaid yn erbyn Iehofah (*adn.* 25, "y llwyth oedd arno"). Dyeithrddyn ydoedd yn Ierusalem—estron, fe allai, fel y casgla Ewald oddi wrth ffurf Hebraeg ei enw—a gymmerwyd i mewn, fe ddichon, gan Ahaz rhagflaenor Hezeciah: yr oedd yn dra rhwysgfawr yn ei radd (*adn.* 18, cymharer 2 *Sam.* xv. 1), ac yn ymddiried cymmaint yn ei ddyrchafiad fel y "trychodd fedd uchel" iddo ei hun yn y graig (ar yr ochr orllewinol, fe allai. neu dde-orllewin i Ierusalem, lle y mae llawer o'r cyfryw wedi eu naddu), fel arddangosiad rhwysgfawr o'i fawredd (cymharer 2 *Cron.* xxxii. 23, ymyl y ddalen). Gellir tybied ei fod wrth y gorchwyl yma pan y daeth Esaiah ato i draddodi ei genadwri. Yr oedd Sebna yn dychymygu fod ei awdurdod wedi gwreiddio yn ddigon dwfn a diogel; ond mae Iehofah am ei dreiglo ymaith fel treiglo pel i wlad bellenig, rhag maint y gwarth ydyw i dŷ ei feistr! Bydd i wisg orwych ei swydd, a'i wregys llydan ardderchog, fyned i addurno gŵr arall, sef Eliacim. Ymddengys fod *pen.* xxxvi. 3, yn arwydd dirywiad ei awdurdod, ac hefyd yn dangos dyrchafiad Eliacim i swydd flaenorol Sebna. Fe allai iddo gael ei ddiraddio a'i alltudio gan Hezeciah, ar ol y dygwyddiad yn *pen.* xxxvii, pan y dychrynwyd pechaduriaid yn Sïon, ac y dyrchafwyd dros amser y blaid oedd ffyddlawn i Iehofah. Os oedd ei gwymp yn ganlyniad distryw yr Assyriaid, bydd yn haws i ni ddeall y bygythiad yn erbyn y person, cystal a chyflead y bygythiad hwnw yn yr hanes.

(11.) Y "baich" olaf sydd yn erbyn Tyrus (*pen.* xxiii). Yr unig fai a noda Esaiah fel achos o'r farn yn erbyn Tyrus, ydyw ei balchder (*adn.* 9; cymharer *Ezec.* xxviii. 2, 6); a gallwn ddeall fel yr edrychai y Tyriaid, yn falch o'u cynnydd mawr a'u hymddangosiad allanol, gyda dirmyg ar arferion mwy syml pobl y llywodraeth ddwyfol. Ond nid dyma yr unig achos. Yr oedd haint eu heilunaddoliaeth wedi cyrhaedd Ierusalem: 1 *Bren.* xi. 5, 33; 2 *Bren.* xi. 18; xxiii. 13. Heb law hyny hefyd, yr oedd Tyrus yn gymmydoges beryglus: *Salm* lxxxvi. 7; *Ioel* iii. 6; *Amos* i. 9. Am hyny yr oedd yn perthyn i Iehofah, fel amddiffynwr ei addoliad ei hun, ac fel arweinydd a dialydd ei bobl briodol ei hun, gospi Tyrus. Ymddengys fod Salmaneser wedi ei somi pan yn gwarchae arni bum mlynedd; ond fod Nebuchodonosor wedi bod yn fwy llwyddiannus, gan iddo ef o leiaf ysbeilio prif faesdrefi rhan o'r ddinas;

Digitized by Google

y Testament Newydd at Grist: efe yn awr yw y prophwyd a achub y rhai a gredant ynddo.

Eglura y cipolwg yma i arferion Hebreaidd, i raddau, yr achos o aflwyddiant y weinidogaeth brophwydol. Yr oedd y gwatwar o "air Iehofah" wedi meddiannu meddyliau y bobl, neu o leiaf yn eu dyrysu; tra yn mhellach yr ydoedd lleisiau gwrthwynebol y gwahanol brophwydi, y gau a'r gwir, yn rhoddi esgus iddynt y pryd hyny, megys y rhydd yn mhob oes i'r bydol a'r ammheuol, i anghredu y cyfan.

"A ellwch chwi, wŷr doethion, ddim cymhwyso yr un craffder a doethineb at eich ymddygiadau yn eich perthynas â Duw, ag a arfer y llafurwr yn ei wahanol orchwylion, yr hyn a roddodd Duw i chwi megys ag iddo yntau?" *adn.* 23—29.

*Pen.* xxix. Yr oedd Ierusalem i gael ymweled â hi gan berygl a dychryn dirfawr, ac yna i gael ei gwaredu yn ddisymmwth: *adn.* 1—8 (ymosodiad Senacherib eto!); ond yr oedd y bygythiad a'r addewid yn ymddangos mor ddammegol; ac ni fedr na'r prophwydi, na'r llywodraethwyr, na'r doethion, wneyd dim o'r ddammeg: *adn.* 9—12. Ar y prophwydi a'r offeiriaid a lefarant yn ol eu dychymygion eu hunain, ysywaeth, y gwrendy y bobl; ac y mae hyd yn oed yr hyn a alwant yn dduwioldeb neu yn grefydd yn cael ei lywodraethu, nid gan ei wir genadon ef, ond gan y rhai twyllodrus: *adn.* 13 (cymharer ymddygiadau yr Iuddewon at eu rabbiniaid ac at Grist: *Mat.* xv. 8, 9); ond dyrysir eu holl gynlluniau ymffrostgar; canys tröir Libanus (y tir gwyllt) yn ddoldir, a'r doldir a gyfrifir yn goed: dygir dysgyblion gostyngedig Iehofah i anrhydedd a llwyddiant, a darostyngir y doethion yn eu golwg eu hunain i ddirmyg a gwarth: *adn.* 13—24.

Un esampl o arweiniad twyllodrus y prophwydi a'r offeiriaid hyn (*pen.* xxxi.) yn erbyn y gwir brophwydi (*adn.* 10, 11), ydoedd eu gwaith yn pleidio cael cymhorth yr Aipht yn erbyn Assyria. Gorchymynir i Esaiah wrthdystio yn erbyn hyn, yr hyn a wna yn egniol yn *pen.* xxx. 1—17, ac yn *pen.* xxxi. 1—3, gan ddangos ar yr un pryd annigonolrwydd pob cynlluniau dynol, a'r angenrheidrwydd o ymddiried yn Iehofah yn unig am waredigaeth. Yn *pen.* xxx. 18—33, ac yn *pen.* xxxi. 4—9, chwanegir rhagfynegiad am gwymp Assyria, a'i ganlyniadau at bob cyfarchiad (*pen.* xxx. 19—24), mewn ymadroddion, y rhai, pan y darllenir hwy yn ngoleuni yr amgylchiad, sydd yn bur eglur, ond a ymddangosent yn ddiammheu i'r bydol a'r anghrediniol ar y pryd fel ynfydrwydd noeth.

Fel y nesâ yr amser, y mae ysbryd prophwydoliaeth yn dyfod yn fwyfwy dysglaer; y mae y waredigaeth wyrthiol rhag Assur, trwy yr hon y dygwyd *enw* Duw (*pen.* xxx. 27) i'r fath agosrwydd gogoneddus, yn rhoddi rhagolygiad eglurach ar yr amser y deuai Duw mewn gwirionedd i deyrnasu, trwy ei Eneiniog, a phan y byddai rhinwedd a chyfiawnder yn ffynu yn mhob man (*pen.* xxxii. 1—8, 15, 20), yna byddai yr Iehofah galluog fel brenin yn preswylio yn mysg ei bobl (*pen.* xxxiii. 17, 22); a byddai efe ei hun yn fôr o ogoniant ac yn amddiffyn o'u hamgylch, yn yr hwn y suddai yr holl lyngesoedd gelynol. Ar yr amlygiad gogoneddus hwnw o agosrwydd yr Iehofah (a ddangosid yn ninystr Assyria), byddai i'r pechaduriaid yn Sïon, a wrthodent yr Iehofah yn ei weision y prophwydi, gael eu llenwi â dychryn, rhag y byddai i'w farn ofnadwy ef ddisgyn arnynt hwythau hefyd: *pen.* xxxiii. 14. Cymhlethir dysgrifiadau o ofid ac anobaith a ragflaenent yr awr hono gyda'r rhagfynegiadau gogoneddus hyn (*pen.* xxxii. 9—14; xxxiii. 7—9), a'r weddi daer a offrymid wedi hyny gan y duwiolion: *pen.* xxxiii. 2.

Diau y rhaid cymmeryd y rhagfynegiad sydd yn *pen.* xxxiv. fel cyfeiriad penodol at Idumea (dangosir hyn yn yr her sydd yn *adn.* 16, ar iddynt gymharu y cyflawniad â'r brophwydoliaeth). Pa fodd bynag, arweinir ni gan gyflead y brophwydoliaeth, a chan *pen.* liii. 2, i'w chymmeryd mewn ystyr cyffredinol cystal ag arwyddluniol.

Y mae y cyfeiriad at "lyfr Iehofah" (*adn.* 16), megys un yn cynnwys y rhagfynegiad hwn, yn deilwng o sylw neillduol. Megys yr oedd gair llefaredig y prophwyd yn *air* Iehofah, felly hefyd gelwir ei air ysgrifenedig ef yma yn *llyfr* Iehofah. Dengys hyn y modd yr ystyriai Esaiah ei ysgrifeniadau prophwydol. Felly y mae, yn *pen.* xxx. 8, yn cyfeirio at gofnodiad ysgrifenedig lle yr oedd wedi gosod ei dystiolaeth i lawr mewn perthynas i'r Aipht. Yn *pen.* xxx. 9, yn lle "Mai pobl wrthryfelgar yw y rhai hyn," &c., darllener "Canys pobl wrthryfelgar yw y rhai hyn," &c., fel y mae gan y Parch. T. Briscoe.

Fel y mae ystyr cyffredinol i *pen.* xxxiv, felly y mae *pen.* xxxv. yn arwyddo gwaredigaeth Israel megys o gaethiwed, mewn ymadroddion cyffredinol, yn ymlawenychu yn eu hymdaith ddiogel a dedwydd trwy yr anialwch. Gellir ammheu a olygir i'r dysgrifiad gael ei gymhwyso at unrhyw waredigaeth o gaethiwed dymmorol ai peidio, er agosed yw y darluniad i'r hyn a roddir yn yr ail ran. Ymddengys yn hytrach fel darlun o'r Israel ysbrydol yn ymdaith i'w Sïon dragwyddol: *Heb.* xii. 22.

11. Yn *pen.* xxxvii.—xxxix, y mae y tymmor a ragfynegwyd mor fynych, er yn ddiau yn lled dywyll, o'r diwedd wedi dyfod. Y mae yr Assyriaid gyda byddinoedd a ymddangosent yn anorchfygol, ger llaw! Yn nghanol y dychryn cyffredinol a ddilynodd, yr oedd holl obaith y llywodraeth am ymwared, wedi y cyfan, yn ymgrynhoi yn Esaiah. Daeth swyddogion uchaf y llywodraeth (Sebna hefyd!) ato ef yn enw eu brenin, gan gyffesu eu bod yn awr yn y perygl mwyaf dychrynllyd (*pen.* xxxvii. 3); ac erfynient ei weddiau. Dyma brawf nodedig o ffyddlondeb cymmeradwy y prophwyd yn y weinidogaeth y bu ynddi mor hir. Yr atebiad byr a roddodd Iehofah drwyddo ydoedd, y byddai i frenin Assyria glywed newydd a'i gyrai yn ol i'w wlad ei hun, i farwyno. Dengys yr amgylchiad mai y newydd y cyfeirid ato oedd dinystr ei fyddin. Am hyny, mynegodd Hezeciah i Senacherib, oedd yn awr yn Libnah, nad ymostyngai efe iddo, gan hysbysu ar yr un pryd ei fod ef yn sicr o gael ei amddiffyn gan Iehofah (cymharer *adn.* 10). Bu hyn yn achos i frenin Assyria anfon llythyr o her i Iehofah ei hun, fel un heb fod yn fwy galluog i amddiffyn Ierusalem nag oedd y duwiau gwarcheidiol wedi bod i amddiffyn y gwledydd a orchfygasai efe. Pan ledodd Hezeciah y llythyr hwn ger bron Iehofah yn y deml, er mwyn iddo ef ei ddarllen a'i ateb (*adn.* 17), gorchymynwyd i Esaiah anfon ateb llawnach i'r brenin duwiol (*adn.* 21—35), amcan amlwg yr hyn oedd, dynodi ystyr y dygwyddiad dyfodol yn fwy cyflawn, yn enwedig i bobl Dduw eu hunain.[1] Ni orchymynwyd i Esaiah ddywedyd

[1] Mor debyg i arddull Esaiah ydyw yr holl ymadrodd. Y mae *pen.* xxxvii. 26, yn cyfeirio at y rhagfynegiadau lluosog am orchfygiad a chwymp Assur a geir yn y rhan flaenorol o'r llyfr (cymh. *pen.* xliv. 8; xlvi. 9—11, &c.).

Digitized by Google

prawf yr hyn a nodwyd, bod y darnau yma a ammheuir mor fawr yn Llyfr Esaiah, yn bodoli yn hir o flaen Cyrus, wedi eu corpholi yn ngwaith y prophwyd, ac yn cael eu derbyn fel ei eiddo ef.

4ydd. Mae llenyddiaeth fwyaf hynafol yr Iuddewon yn priodoli y rhanau mwyaf ammheuedig i Esaiah. Ysgrifenodd Iesus Sirach—y cyfeiriwyd ato o'r blaen—tua thri chan mlynedd cyn Crist; ac y mae efe yn cyfeirio at Esaiah, ac yn priodoli iddo y darnau neillduol y ceisiwyd profi mai arall a'u cyfansoddodd.

Gan fod Esaiah yn rhagfynegu y caethgludiad a'r dychweliad o hono mor eglur a phe byddai yn cofnodi hanes, ac nid yn prophwydo y dyfodol, myn rhai mai ar ol y dychweliad y cyfansoddwyd rhanau o hono; ond nid yw hyn ddim amgen nag ymdrech i wanychu prophwydoliaeth. O blegid i Ysbryd yr Arglwydd ddadlenu y dyfodol yn oleu o flaen y prophwyd, a'i alluogi i'w ddarlunio mor gywir a llythyrenol, ceisir troi y brophwydoliaeth yn hanesyddiaeth; ond nid yw hyn ond y casineb a welir mor fynych at y gwyrthiol a'r goruwchnaturiol.

IV. Y peth nesaf a ddaw dan sylw yw arddull y prophwyd Esaiah. Y mae y defnyddiau ar y pwnc yma mor amryw a lluosog, fel mai y gorchwyl anhawddaf ydyw dethol y goreuon, a'u crynhoi i gylch cymmedrol o faint.

Gan i elfenau barddoniaeth Iuddewig fod am amser maith yn anadnabyddus, buwyd yn meddwl mai mewn rhyddiaith y cyfansoddodd Esaiah ei holl waith. Bod rhanau o'r llyfr wedi eu hysgrifenu mewn iaith rydd, sydd ddiddadl; ond bod rhanau helaeth o hono wedi eu cyfansoddi yn rheolau barddoniaeth Iuddewig, a brofwyd gan Lowth mor ddiddadl a hyny. Ac nis gellir iawn ddeall nac esbonio yn gywir y rhanau barddonol o'r Beibl, heb feddu dirnadaeth meddwl eglur a chryno o neillduolion arbenig y farddaniaeth hono. Esgob Lowth oedd y cyntaf i alw sylw atynt, ac hyd y dydd hwn efe yw yr awdurdod wreiddiol oreu arnynt.

Dywed Hengstenberg, fod "arddull Esaiah yn gyffredinol yn cael ei nodweddu gan symledd ac arucheledd; bod ei grebwylliadau yn sefyll yn y canol rhwng moelni Ieremiah a ffrwythlonrwydd Ezeciel. Mewn ystyr arall, y mae ei arddull yn cyfatteb i'r mater yr ymdrinir âg ef, ac yn newid yn ol yr alwad am hyny. Yn ei gyhuddiadau a'i fygythion, y mae yn ddifrifol a chynhyrfus. O'r ochr arall, yn ei gysuron a'i addysgiadau, y mae yn dyner a swynol. Yn y rhanau hollol farddonol, y mae yn llawn o dân a brwdfrydedd. Y mae yn byw mor lwyr ac mor hollol yn nghanol y dygwyddiadau a ddarlunir ganddo, nes yw yr hyn *a ddaw* mor gynnefin ganddo *a'r hyn sydd*, neu yr hyn *a fu*."

Tybir nad ysgrifenodd neb ar y pwnc yma yn rhagorach ac yn fwy i'r pwrpas nag Ewald, yn ei ragymadrodd i'w gyfieithiad o'r rhanau hyny o'r llyfr y tueddir ef i'w cydnabod fel gwaith Esaiah; ac nis gallwn ninnau wneyd yn well na dethol rhai o'i sylwadau yn y lle yma:—

"Yn Esaiah, canfyddir awduriaeth brophwydol wedi esgyn i'r pwynt uchaf. Yr oedd pob peth yn cydweithio i'w ddyrchafu i ucheledd nas gallasai un prophwyd o'i flaen nac ar ei ol ei gyrhaedd fel ysgrifenydd. Gyda golwg ar y prophwydi ereill, y mae pob un o'r rhai pwysicaf yn cael eu gwahaniaethu gan ryw un ardderchogrwydd arbenig, a rhyw un dalent neillduol; ond yn Esaiah, y mae pob math o dalentau, a phob rhyw brydferthion a berthyn i ymadroddiad prophwydol wedi cydgyfarfod, gan gyd-dymmeru a chydgyfaddasu eu gilydd. Nid rhyw un ansawdd sydd yn ei ardderchogi ef gymmaint, ond cyfartaledd a pherffeithrwydd y cyfan.

"Nis gellir lai na chanfod, megys hynodrwydd penaf mawredd hanesyddol y prophwyd, ei fod yn meddu gallu naturiol a bywiogrwydd ysbryd nas ceir ond yn anfynych hyd yn oed mewn prophwydi. Pur anaml y canfyddir y tri nodwedd amrywiol a ganlyn wedi ymgyfarfod yn yr un person; sef, yn gyntaf, y cynhyrfiad prophwydol mwyaf dwfn, a'r syniad mwyaf pur; yn ail, y bywiogrwydd ymarferol mwyaf diflino a llwyddiannus yn nghanol pob helbulon a newidion bywyd allanol; ac yn drydydd, y rhwyddineb a'r prydferthwch hwnw i osod allan y meddwl, sydd yn rhagorfraint y gwir fardd yn unig. Ond ceir yr ymgyfarfyddiad triphlyg yn Esaiah i'r fath raddau ag nas canfyddir mewn un prophwyd arall: ac i effaith cydweithrediad parhaus y tri gallu ardderchog hyn y rhaid priodoli mawredd gwreiddiol digyffelyb ei athrylith. Y mae Esaiah yn sefyll, fel prophwyd ac awdwr, ar yr uchelfan dawel, heulog hono, yr hon, gyda golwg ar y ddwy gangen yma o hen lenyddiaeth, oedd i gael ei meddiannu mewn amser priodol gan ryw un ysbryd nodedig; yr hwn a ymddengys megys wedi bod yn disgwyl am dano ef; a'r hwn, pan y daeth ac yr esgynodd i'r uchelfan, a ymddengys yn ei gadw, ac yn ei wylio hyd y diwedd fel *y* dyn y dysgwyliai am dano. Y mae Esaiah gyda golwg ar y syniadau a draetha, y pynciau yr ymdrina â hwy, a dull ei ymadroddion, yn dangos ei hun bob amser fel y prophwyd breninol.

"Gyda golwg ar y pwnc olaf a nodwyd, nis gellir dywedyd fod ei ddull ef o ddangos ei feddwl yn un llafurus a chelfyddydol: yn hytrach, y mae yn dangos symledd goruchel a difaterwch am addurniadau allanol, gan ymollwng yn rhydd i'r prif beth a ofyn pob syniad; yr hwn, er hyny, a lifa rhagddo bob amser yn un ffrwd anorchfygol; ac nid yw byth yn methu cyflawnu ei amcan ar y dde a'r aswy yn y lle priodol, a hyny heb na blinder nac ymdrech.

"Y mae cynnydd a dadblygiad yr araeth bob amser yn fawreddog, gan ddywedyd llawer mewn ychydig eiriau, y rhai er hyny sydd eglur a dealladwy, gan osod allan y syniad yn hyawdl a chyflawn, yr hwn a allai ymgolli yn hawdd yn yr eang a'r annherfynol; ond ffrwynir, crynhoir, a thymmerir y gorlawnder yn wastad yn y lle priodol: y mae pob syniad yn cael ei adrodd yn drwyadl a chyflawn, heb fod byth yn rhy amleiriog. Yn yr ymadroddion byrion hyny gweir yr hunanlywodraeth llym yma yn fwyaf godidog, y rhai a roddant i ni, trwy ddelweddau a meddyliau byrion, ryw syniad annilys o rywbeth annherfynol, tra y safant ger bron er hyny yn gyflawn ynddynt eu hunain, ac wedi eu darlunio yn eglur; megys, viii. 6—ix. 6; xiv. 29—32; xviii. 1—7; xxi. 11, 12; tra yn y darn hir, xxviii.—xxxii, os ydyw y cyfansoddiad yn llaesu yma ac acw am foment, gwna hyny yn unig er mwyn ymgodi drachefn yn ei holl nerth mawreddog. Yn y cyflawnder cyfoethog a ffrwythlawn yma o feddyliau ac ymadroddion, anfynych yr ymddengys y gyffelybiaeth a ddefnyddir ar wahân, ac yn gyflawn ynddi ei hun (xxxi. 4, 5): yn gyffredin, gwasgir hi i'r darluniad o'r gwrthddrych y bwriedir iddi ei egluro, yn yr hwn yr ymgolla; ïe, ac ymgyll cyffelybiaeth ar ol cyffelybiaeth yn fynych yn yr un darluniad; ac eto llawer o edafedd yr ymadrodd, y rhai a ymddangosant am foment wedi eu cydwau a

Digitized by Google

ereill yn ein hargyhoeddi mai yr un a'r unrhyw brophwyd sydd yn llefaru, yn unig mewn dull a theimlad gwahanol. Nid yw dull cyfansoddiad ymadroddion neillduol yn amrywio cymmaint mewn unrhyw brophwyd arall ag y gwna trwy yr holl dair adran i'r rhai y dosberthir y rhan yma o'r llyfr, tra yr ymdrina y prophwyd dan ddylanwad cyffro tanbaid y pyneiau mwyaf amrywiol. Ei orchwyl, ar amserau, yw cysuro, cynghori, gwaradwyddo, a cheryddu: dangos, megys o'r nef, delw nefol gwas yr Arglwydd; ac yn gyferbyniol i hyny, ffrewyllu ffolineb a gorwaelder eilunaddoliaeth; dysgu pa ymddygiad a ofyn yr amseroedd, a cheryddu y rhai sydd yn ymlusgo ar ol yr amser, ac yna eu tynu yn mlaen â'i esampl ei hun—ei weddïau, ei gyffesiadau, a'i ddiolchgarwch—gan barotoi a llyfnhau iddynt fel hyn y ffordd erbyn dynesiad gwrthddrych dyrchafedig yr oruchwyliaeth newydd. Fel hyn, y mae tymmer yr arddull, er nad ydyw braidd mewn un man yn rhoddi darluniad o weledigaethau a elwir felly yn briodol, eto y mae yn amrywio i newidiadau parhaus; ac adnabod y newidiadau hyn yn gywir yw pwnc mawr y deongliad."—*Propheten*, ii. 407-409.

Y casgliad sydd i'w dynu oddi wrth y dyfyniadau uchod o feirniadaeth y dysgedig Ewald ar arddull farddonol y rhanau a gydnebydd efe o'r llyfr ydyw, nad oes un anhawsder i ganfod yn yr ail ran, ar ol cymmeryd i ystyriaeth ein sylwadau blaenorol ar y llyfr, yr un athrylith ardderchog ag a ganfyddir yn y rhan gyntaf. Ac y mae y feirniadaeth ar athroniaeth farddonol holl ranau gwahanol y llyfr yn ein dwyn ar unwaith i'r penderfyniad a gadarnhawyd gan y profion a gasglwyd yn nghyd o'r blaen; sef, fod yr holl lyfr wedi tarddu o'r un meddwl, a bod y meddwl hwnw yn un o'r offerynau mwyaf mawreddog ac amrywiol ei ddoniau a ddefnyddiodd Ysbryd Duw erioed i amlygu ei feddwl i'r byd.

V. Y prif gyfansoddiadau ar Esaiah yw y rhai canlynol:—*Commentarius in Librum Prophetarium Isaiæ*, gan Vitringa (1714), lle y mae toraeth o ddefnyddiau; *Scholia*, gan Rosenmüller 1818; yr hwn, er ei fod yn rhesymolaidd (*rationalistic*), sydd yn ddifrifol a gwerthfawr, yn enwedig o blegid y defnydd llawn a wna o Jerome a'r esbonbonwyr Iuddewig; *Philologisch-Kritischer und Historischer Commentar*, gan Gesenius (1821); *Prophet Isaiah übersetzt und ausgelegt*, gan Hitzig (1833); a Knobel (1843), yn y *Kurzgefasztes Exegetisches Hanbuch zum Alt. Testam.*, y rhai, er fod pob un o'r tri yn ammheugar, sydd yn bur werthfawr o blegid y defnyddiau geiryddol a hanesyddol sydd ynddynt; *Propheten des Alten Bundes*, gan Ewald ; yr hwn, er ei fod yntau yn ammheugar, sydd yn anhebgorol angenrheidiol o blegid ei feirniadaeth athronyddol gywir ar y farddoniaeth; yr ail gyfrol o *Christology*, gan Hengstenberg, a gyfieithwyd yn *Clark's Foreign Theological Library* (1856); *Prophet Jesaja übersetzt und erklärt*, gan Drechsler (1861). Y ddau brif waith Seisonig yw *Bishop Lowth's Isaiah: a new translation, with Notes, &c.;* ond y mae ei newidiadau dibaid o'r testyn Hebraeg i'w hammheu yn barhaus; a'r *Dr. Ebenezer Henderson's Translation and Commentary* (1857). Hefyd, annogem holl efrydwyr Esaiah i ddarllen Cyfieithiad Cymraeg Ioan Tegid ar *Isaiah;* ac yn enwedig *Llyfr y Prophwyd Eshaiah, wedi ei gyfieithu o newydd a'i drefnu* (*cyn agosed ag y dichon*) *yn ol yr Hebraeg, gan y Parchedig Thomas Briscoe S. T. B., Islywydd ac Athraw hynaf Coleg yr Iesu, Rhydychain* (1853).

Yr ydym yn ddyledus am sylwedd y rhan fwyaf o'r erthygl hon i erthyglau galluog ar *Esaiah* sydd yn Ngeiriaduron Ysgrythyrol y Dr. Smith a'r Dr. Kitto, at y rhai y chwanegasom amryw sylwadau o waith awdwyr ereill, yn nghyd â'r eiddom ein hunain.

ESARHADON [אסר־חדן, tybia Gesenius fod y gair yn gyfystyr â'r gair Assyriaeg *Athro-dâna*= dawn o dân;" Ἀσορδὰν]: un o'r enwocaf o freninoedd Assyria. Yr oedd yn fab i Senacherib (2 *Bren.* xix. 37) ac yn ŵyr i Sargon, olynydd Salmaneser. Tybir yn gyffredin mai efe oedd mab hynaf Senacherib; ac ymddengys mai dyma dyb Polyhistor, yr hwn a barodd i Senacherib osod ei fab Asordanes ar orsedd Babilon yn ystod ei fywyd ei hun. Ond gwahanol i hyn yr ymddengys oddi wrth yr arysgrifiadau, y rhai a ddangosant fod rhaglaw Babilon—yr hwn a elwir Asordanes gan Polyhister, ond Aparanadius (Asaranadius?) gan Ptolemy—yn ŵr gwahanol iawn i Esarhadon. Felly ni wyddys ddim yn wirioneddol am Esarhadon hyd ei esgyniad i'r orsedd (o ddeutu 680 c. c.), yr hyn a gymmerodd le yn dawel ac heb un anhawsder pan y llofruddiwyd ei dad ac y ffodd ei frodyr euog: 2 *Bren.* xix. 37; *Esa.* xxxvii. 38. Hwyrach y gellir casglu oddi wrth hyn mai efe oedd y mab hynaf ar farwolaeth ei dad, gan fod Assaranadius, rhaglaw Babilon, wedi marw cyn hyn.

Ymddengys oddi wrth gofgolofnau Esarhadon ei fod yn un o'r rhai grymusaf, os nad y grymusaf, o holl freninoedd Assyria. Bu ei arfau yn ymddisgleirio dres holl Asia, rhwng y culfor Persiaidd, mynyddoedd Armenia, a Môr y Canoldir. Tua'r dwyrain y bu yn ymfrwydro â'r llwythau Mediaidd, "enw y rhai ni chlywsai ei dad erioed;" tua'r gorllewin, lledaenodd ei ddylanwad dros Cilicia a Cyprus ; tua'r deheu, ymestynai ei awdurdod dros yr Aipht a thros Ethiopia. O herwydd yr annheyrngarwch oedd i'w ganfod yn Babilon, ac o herwydd y gwrthryfel aml a fu yn erbyn breninoedd Assyria o'r blaen, ar ol i Esarhadon ddarostwng meibion Merodach-Baladan, y rhai a flaenorent y blaid genedlaethol, efe a ddygodd Babilon dan lywodraeth uniongyrchol coron Assyria, ac a ddiddymodd yr hen ffurf-lywodraeth raglawyddol. Ni thynodd efe Babilon i lawr yn dalaeth, ac ni cheisiodd ei gwneuthur yn rhan o'r ymherodraeth, ond unodd hi â'i lywodraeth yn yr un modd ag yr oedd Hungary, hyd 1848, wedi ei huno âg Awstria, trwy gadw y ddwy goron ei hun, a byw weithiau yn un brifddinas ac weithiau yn y llall. Efe yw yr unig frenin Assyriaidd a deyrnasodd yn Babilon, lle yr adeiladodd balas, o'r hwn y cafwyd priddfeini yn ddiweddar â'i enw ef arnynt. Parhaodd ei lywodraeth ef ar Babilon dair blynedd ar ddeg—o 680 c. c. hyd 667 c. c.; a sicr yw mai yn yr ysbaid hwn y daliwyd Manasseh, brenin Iudah, gan "dywysogion llu brenin Assyria" yn Ierusalem, ac y dygwyd ef megys gwrthryfelwr o flaen y brenin i Babilon, lle y cadwyd ef yn garcharor: 2 *Cron.* xxxiii. 11. O'r diwedd, adferodd Esarhadon ef i'w orseddfainge, gan iddo gael allan ei fod yn ddiniwed, neu ynte am ei fod yn maddeu ei euogrwydd, a thrwy hyny rhoddes brawf o hynawsedd na chanfyddir yn aml mewn teyrn dwyreiniol. Ymddengys mai o gyffelyb ysbryd y darfu iddo, yn ol yr arysgrifiadau, roddi tiriogaeth ar y Culfor Persiaidd i Merodach-Baladan yr hwn a ymostyngodd dan ei awdurdod ac a gymmerodd nodded yn ei lys.

Digitized by Google

Fel adeiladydd gweithiau mawrion, y mae Esarhadon yn enwog iawn. Heb law ei balas yn Babilon, am yr hwn y crybwyllwyd, efe a adeiladodd o leiaf dri ereill mewn gwahanol barthau o'i lywodraeth, iddo ei hun neu i'w fab. A mynegir ar un arysgrif, ddarfod iddo adeiladu deg ar ugain o demlau yn Assyria a Mesopotamia. Ymddengys fod rhyw orwychion neillduol yn perthyn i'w weithiau. Disgrifia ei demlau fel "yn ymddisgleirio gan aur ac arian," ac ymffrostia o'i balas yn Ninefeh ei fod "y fath adeilad na wnaed erioed ei gyffelyb gan ei dadau y breninoedd o'i flaen. Y palas deheu-orllewinol yn Nimrud yw yr un sydd wedi cadw oreu o'i holl weithiau. Y mae yr adeilad yma, yr hwn a waghawyd gan Mr. Layard, yn hynod o herwydd neillduolrwydd ei gynllun, yn gystal ag o herwydd y raddeg wrth ba un yr adeiladwyd ef. Cyfettyb yn ei amlinellau cyffredinol bron yn gwbl i balas Solomon (1 *Bren.* vii. 1—12); ond y mae yn fwy nag ef, canys y mae y neuadd fawr yn 220 troedfedd o hyd, a 100 troedfedd o led, a'r porth neu y ragystafell yn 160 troedfedd o hyd. a 60 troedfedd o led.—Gwel Layard's *Nin.* a *Bab.* td. 634. Yr oedd arno yr addurniadau cyffredin o deirw adeiniog, geufilod (*sphinxes*) cawraidd, a cherfleehau; ond methwyd a chael cymmaint o hono i'n casgliadau hynafiaethol ag a gafwyd o adeiladau llai, a hyny o blegid iddo gael ei ddinystrio gan dân, drwy yr hwn y creisionwyd ac yr holltwyd y ceryg a'r alabaster. Y mae hyn i'w resymu yn fwy am fod sail i gredu fod celfyddwyr Phœniciaidd a Groegaidd yn gweithio rhai o'r addurniadau.

Annichonadwy gwybod am ba hyd y teyrnasodd Esarhadon, na threfn y digwyddiadau a gymmerasant le Ychydig a wyddys o'i hanes heb law yr hyn a geir o'i gofnodion ef ei hun; ac nid ydynt wedi eu trosglwyddo i lawr i ni fel hanesion blwyddol, ond mewn ffurf o grynodeb cyffredinol. Y mae yn sicr oddi wrth ganon Ptolemy ddarfod iddo deyrnasu dair blynedd ar ddeg yn Babilon, a diammheu na theyrnasodd lai na hyny yn Assyria. Pa fodd bynag, fe allasai deyrnasu yn hwy; canys nid ydyw yn annhebyg ei fod yn mhen amser yn teimlo yn ddiogel rhag annheyrngarwch y Babiloniaid, a'i fod wedi adsefydlu yr hen lywodraeth raglawyddol yn y wlad. Dichon i Saosduchinus gael ei osod yn llywodraethwr yn Babilon drwy ei awdurdod ef yn 667 c. c., ac hwyrach iddo symmud i Ninefeh, a pharhau i lywodraethu yno am dymmor yn hwy. Ymddengys, oddi wrth ei weithiau mawrion a'i gadgyrchiadau, nad oedd modd fod ei deyrnasiad yn fyr. Tybir iddo farw o ddeutu 660 c. c., ar ol teyrnasu ugain mlynedd. Ymddengys iddo gael ei ddilyn gan *Asshur. bani pal*, neu Sardanapalus II., y tywysog i ba un yr adeiladasai efe balas yn ystod ei fywyd. Gwel ASSYRIA.—(*Smith, Kitto.*)

ESAU [עֵשָׂו, *blewog, garw*, Ges.; 'Ησαῦ]. Amgylchynir tarddiad ac ystyr yr enw hwn â gradd o amwysedd. Y mae Simon, yr hwn a dardd y gair o עשה, yn ei gyfieithu y *pilis opertus*=gorchuddiedig â blew; ac ymddengys bod ystyr cyffelyb i'w gael yn *Gen.* xxv. 25. Y mae Cruden, fodd bynag, yn esbonio y gair fel pe golygai "un sydd yn gwneud," gweithredydd, neu oruchwyliwr. Ymddengys ddarfod i'w gyfenw Edom (coch) gael ei roddi iddo oddi wrth y "cawl coch" a ddeisyfodd ef gan Iacob: *Gen.* xxv. 30. Esau ydoedd mab hynaf "Isaac fab Abraham" (*Gen.* xxv. 19) o Rebecca "ferch Bethuel y Syriad, o Mesopotamia, chwaer Laban y Syriad." Gan iddynt fod am dymmor (tua phedair mlynedd ar bymtheg; cymharer xxv. 25, 26) yn anmhlantadwy, "Isaac a weddiodd ar yr Arglwydd dros ei wraig," a hi a feichiogodd. Dan arweiniad rhyw deimladau neillduol, aeth Rebeccah i "ymofyn â'r Arglwydd;" a mynegwyd iddi y genid o honi efeilliaid, y byddent yn wahanol o ran eu cymmeriadau, a'r hyn a ymddangosai yn rhyfeddach fyth y dyddiau hyny, y byddai i'r hynaf wasanaethu yr ieuangaf. Ar adeg yr esgoriad, yr oedd y plentyn a anwyd gyntaf "yn goch drosto i gyd fel cochl flewog; a galwasant ei enw ef Esau." Ganwyd Iacob yn ebrwydd ar ei ol.

Yn mhen ysbaid, fe welwyd beth oedd gwahanol ddoniau a thueddiadau y ddau fachgen. Yr oedd cyfansoddiad lledneis a thueddfryd tawel Iacob yn ei ogwyddo ef i gyflawnu gorchwylion bugail, ac i dreulio ei ddyddiau o fewn ac o amgylch ei babell; ond gyrid Esau gan angerddoldeb ac uchder yr ysbryd oedd yn ei fynwes, i chwilio am waith a chynnaliaeth yn nhrafferthion, anturiaethau, a pheryglon helwriaeth: ac fel y mae yr arfer gyda rhai o natur fel yr eiddo ef, efe a gyrhaeddodd enw mawr iawn drwy ei fedr a'i cofndra.

Y mae bywyd heliwr, o angenrheidrwydd, yn fywyd ansicr a chaled; aiff dyddiau heibio pan y bydd efe, er gwaethaf gwyliadwriaeth fanwl ac ymdrechion egniol, wedi methu dal na chanfod ysglyfaeth. Bydd llwythau helwrol yn aml iawn yn America, ar ol llafur a gwyliadwriaeth hir a chaled, yn gorfod myned ymaith heb ddim, a than raid i aros heb fwyd am ysbaid o amser a fyddai yn angeu i bobl wedi eu magu mewn trefydd, ac yn byw ar gynnyrch rheolaidd y tir. Somwyd Esau mor fawr unwaith fel y bu wiw ganddo, yn flinedig drwy ymdrechion ofer, yn lluddedig o angen bwyd, ac yn brudd o herwydd methu dal ysglyfaeth, droi tua thŷ ei dad i ymofyn help yn ei adfyd. Pan gyrhaeddodd adref, cafodd ei frawd yn mwynhau dysglaid ddanteithiol o gawl, perarogl yr hwn a'i hudodd yntau i ddeisyf gan Iacob gael cydfwyta âg ef o hono. Gwelodd ei frawd y cyfyngder yr oedd Esau ynddo, a phenderfynodd wneyd y goreu a allai o hono. Gan hyny, efe a esyd bris ar y bwyd. Yn gymmaint ag mai Esau ydoedd yr hynaf, yr oedd ganddo ragorfreintiau gwerthfawr iawn. Gwnaeth Iacob ammod âg Esau, os rhoddai efe y rhai hyn iddo ef, y caffai yntau y cawl yn eu lle. Dan effaith cnofeydd newyn a dychryn, efallai rhag angeu disymmwth, gwerthodd ei enedigaethfraint i'w frawd ieuangaf, a chadarnhaodd y cyfan trwy lŵ. Wedi i Iacob gael yr hyn a ddymunai, efe a roddodd yr ymborth angenrheidiol i Esau.

Pan yn ddeugain mlwydd oed, priododd Esau ddwy wraig—Iudith a Basemath. Ymddengys ddarfod i ryw anghydfod ddygwydd o'r blaen yn y teulu; canys pan yr oedd Esau yn anwylyd ei dad, o herwydd, mae'n debyg, anrhegion o'r helwriaeth a roddasai efe iddo, yr oedd Iacob yn hoff iawn gan ei fam. Gwnaed y pleidgarwch hwn, a'i ganlyniadadau naturiol mewn teimladau anhawddgar, yn fwy a helaethach drwy briodas Esau. Yr oedd Iudith a Basemath yn Ganaaneaid, ac o herwydd hyny yn anghymmeradwy gan Isaac a Rebeccah. Tristawyd yr olaf yn ddwys iawn. "Blinais ar fy einioes," meddai, "o herwydd merched Heth;" *Gen.* xxvii. 46. Ymddyeithrodd Esau drwy hyn oddi wrth dŷ ei dad; a thebyg yw fod hyd yn oed pleidgarwch y tad iddo wedi cael ei attal i raddau. Fel hyn, paro-

Digitized by Google

towyd y ffordd i ryw fesur i'r enedigaeth-fraint gael ei throsglwyddo i'r mab ieuangaf.

Daeth yr amser o'r diwedd i gwblhau y cytundeb rhwng y ddau frawd. "Y mae Isaac yn glaf hyd angeu." Yr oedd ei awch at fwyd a'i nerth wedi darfod, ac ni ellid ei ddigoni ond â bwydydd neillduol. Mae yn dymuno cael rhyw flasusfwyd o helwriaeth, ac y mae yn cyfarwyddo Esau, yr hwn sydd yn myned i'w ymofyn. Ar hyn, teimla Rebeccah fod yr adeg i weithio wedi dyfod. Os nad yw yr Hitiaid Cas, trwy y mab hynaf, i gael meddiannu eiddo y teulu, rhaid yw drwy rhyw fodd gadarnhau a chwblhau gwerthiant yr enedigaeth-fraint. Yr oedd un peth hanfodol o hyn yn aros—bendith y tad. Pe rhoddid hon i Esau, byddai pob gobaith wedi darfod; canys fe barai hon, fel "ewyllysiau" yn ein dyddiau ni, i'r etifeddiaeth a phenogaeth y llwyth ddisgyn i Esau a'i wragedd.

Yr oedd Isaac, fodd bynag, wedi colli ei olwg —yn wir yr oedd ei holl synwyrau wedi pylu a gwanychu. Nid anhawdd gan hyny oedd ei dwyllo i gredu mai Esau oedd Iacob. Trefnodd Rebeccah ei mesurau, ac er gwaethaf ofnau Iacob hi a lwyddodd. Nid yw Isaac, y mae yn wir, heb ddrwgdybio; ond y mae y celwydd a ddywed Iacob yn gwneud y twyll yn llwyddiannus. Cyhoeddir y fendith, ac felly sicrheir yr eiddo a'r benogaeth a chwennychwyd. Y mae rhyw gyferbyniad poenus i'w ganfod rhwng yr anwyldeb a ddangosai yr hen dad dall a thwylledig at y twyllwr, a'r moddion iselwael a ddefnyddiodd y fam a'r mab i gwblhau eu hamcan.

Pa fodd bynag, y mae Esau yn dychwelyd o'r maes, yn nesau at ei dad methiant a dall, gan ddywedyd pwy ydyw. "Ac Isaac a ddychrynodd â dychryn mawr iawn, ac a ddywedodd, Pwy? pa le mae yr hwn a heliodd helfa, ac a'i dug i mi, a mi a fwyteais o'r cwbl cyn dy ddyfod, ac a'i bendithiais ef?—bendigedig hefyd fydd efe." Ar hyn y mae Esau yn cyffroi, ac yn erfyn ar ei dad ei fendithio yntau hefyd—"Bendithia fi, ie finnau, fy nhad." Wedi iddo erfyn hyn drachefn a thrachefn, a hyny yn nghanol dagrau, dywed Isaac wrtho, "Wele, yn mrasder y ddaiar y bydd dy breswylfod, ac yn mysg gwlith y nefoedd oddi uchod; wrth dy gleddyf hefyd y byddi fyw, a'th frawd a wasanaethi: onid bydd *amser* pan feistrolech di, ac y torech ei iau ef oddi am dy wddf:" *Gen.* xxvii.

Wedi ei amddifadu fel hyn am byth o'i enedigaeth-fraint drwy y fendith ddi-alw-yn-ol, yn naturiol iawn fe gasaodd Esau Iacob, a phenderfynodd chwilio am gyfle i'w ladd ef, ac edrychai at ddyddiau galar ei dad fel yr adeg oreu i hyn. Mynegodd Esau ei fwriad mewn rhyw fodd; clywodd ei fam, perswadiodd hithau ei mab ieuangaf i ffoi at ei ewythr Laban, yr hwn oedd yn byw yn Haran, i fyw gydag ef, hyd oni byddai amser wedi dyhuddo llid Esau. Yn y cyfamser, ymgryfhasai Esau yn fawr yn Idumea: yn mhen blynyddoedd, pan fwriadai Iacob ddychwelyd oddi mewn terfynau yr Iorddonen, efe a ofnodd rhag ei oddiweddyd ef gan ei frawd hynaf ar y ffordd, er mwyn dial ei lid arno. Gan hyny, efe a ddanfonodd genadon at Esau, er mwyn, os byddai modd, attal ei ddigofaint. Ymddengys ddarfod i Esau ateb y deuai efe i gyfarfod ei frawd. Gan hyny, pan fynegwyd i Iacob fod Esau yn dyfod gyda phedwar cant o wŷr, efe a ofnodd yn fawr, rhag fod yr elyniaeth hono yr oedd ei gydwybod yn dyweyd ddarfod iddo ei haeddu yn parhau. Pa faint, gan hyny, ydoedd ei syndod, pan y gwelodd Esau yn rhedeg, â breichiau estynedig, i'w groesawu a'i gofleidio? Ac Esau "a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd ef, a hwy a wylasant." Yr oedd Iacob wedi parotoi anrheg i Esau, dan obaith ennill ei ffafr; ond y mae Esau, gyda'r gwresogrwydd sydd yn nodweddu a'r hunanymwadiad sydd yn addurno natur fel yr eiddo ef, ar y cyntaf yn ei gwrthod yn foesgar—"Y mae genyf fi ddigon, fy mrawd, bydded i ti yr hyn sydd genyt;" *Gen.* xxxiii.

Dengys hyn oll, os ennillasai Iacob gyfoeth, fod Esau wedi ennill dylanwad, a gallu, a chyfoeth hefyd; ac y mae y warogaeth a delir iddo yn anuniongyrchol gan Iacob, ac mewn modd uniongyrchol a thrwy yr arwyddion parchusaf gan fenywod a phlant teulu Iacob, yn arwain i'r dyb ei fod wedi gwneud ei hun yn oruchaf yn holl wlad Idumea.

O'r pryd hwn allan, ychydig iawn o son am Esau sydd yn yr Ysgrythyr Lân. Yr oedd yn barod i fyned gydag Iacob, neu ynte i anfon diffynlu gydag ef, ond parodd ofnau a drwgdybiau Iacob iddo wrthod y cynnygion cyfeillgar hyn; a hwy a ymwahanasant yr un dydd ag y bu iddynt gyfarfod, ar ol cymdeithas yn yr hon yr ymddengys Iacob yn debyg iawn i was o flaen ei arglwydd, ac y daw Esau allan gyda'r holl haelioni a'r boneddigeiddrwydd a deimla natur uchel pan yn maddeu cam, ac yn ewyllysio gwneuthur da i'r troseddwr. Dychwelodd, medd yr hanes, "ar hyd ei ffordd ei hun i Seir;" *Gen.* xxxiii. 16.

Cyferfydd Iacob ac Esau drachefn ar adeg y defodau a gedwid mewn cyssylltiad â chladdedigaeth tad; ond ni chynnwys Llyfr Genesis un hanes manwl am yr hyn a gymmerodd le.

Daw Esau unwaith eto i sylw (*Gen.* xxxvi.) mewn taflen achyddol, yn mha un y cyssylltir llinell hir o ddisgynyddion hyglod âg "Esau, tad yr Edomiaid:" *Gen.* xxxvi. 43.

Os yw y braslun a roddwyd uchod yn unol â'r hanes Ysgrythyrol, nid yw duwinyddion yn gyffredin wedi ymddwyn yn gyfiawn at gymmeriad Esau. Gellir olrhain y syniad niweidiol a goleddid yn ei erbyn ef hyd gyfnod maith yn ol. Os nad Targum Jonathan a roddes fod i'r geufarn hon, fe'i cefnogodd ac a'i lledaenodd, drwy chwanegu darnau heb hawl at yr hanes a roddir yn Genesis. Y rheswm, meddir, na ddarfu i Esau ladd ei frawd ar unwaith ydoedd, rhag (fel ag y bu gyda Chain ac Abel, y buasai plentyn gwryw arall yn cael ei eni, yr hwn hefyd a fuasai yn ei amddifadu ef o'i etifeddiaeth; efe a benderfynodd, gan hyny, aros hyd farwolaeth Isaac, pan y byddai yn eithaf diogel iddo ladd Iacob a chadw yr etifeddiaeth hefyd. Ceir syniadau cyffelyb yn y Targum. Yr oedd tadau yr eglwys, yn neillduol Awstin, yn gosod allan Esau fel cynnrychiolwr y damnedigion, ac yn edmygu Iacob fel cynnrychiolwr yr etholedigion. (*Kitto; Smith.*)

**ESBAAL.** Gwel ISBOSETH.

ESBAN [אשבן, 'Ασβαν]: Horiad ydoedd Esban; un o bedwar mab Dison, mab Seir yr Horiad: *Gen* xxxvi. 26; 1 *Cron.* i. 41. Nid oes dim tebyg i'r enw wedi ei ganfod yn mhlith llwythau diweddar Idumea.

**ESBONIADAETH.** Gwel DEONGLIADAETH.

ESCOL [אשכל, *swp, clysdwr*, Ges.; 'Εσχωλ]: brawd Mamre yr Amoriad, ac Aner; ac un o gymdeithion Abraham yn ei hynt ar ol y pedwar

Digitized by Google

brenin a gymmerasant Lot ymaith: *Gen.* xiv. 13, 24. Yn ol Josephus [*Hynaf.* i. 10, adr. 2] efe ydoedd y blaenaf o'r tri brawd, ond y mae y Beibl yn gadael hyn mewn ansicrwydd: cymharer *adn.* 13 âg *adn.* 24. Yr oedd eu cartref yn Hebron (*pen.* xiii. 18), ac ysgatfydd i'r enw Escol aros yn gyssylltiedig âg un o ddyffrynoedd ffrwythlawn yr ardal hono hyd ddyfodiad yr Israeliaid, y rhai a esbonient yr enw y pryd hwnw fel yn arwyddocaol o'r "swp" mawr a gawsant hwy yno.

ESCOL, DYFFRYN: sychnant yn nghymmydogaeth Hebron, yr hon a chwiliwyd gan yr ysbïwyr a ddanfonasai Moses o Cades-Barnea. Gellir casglu oddi wrth ymadroddion dan orhanesion a roddir am yr amgylchiad hwn mai dyma y lle pellaf i ba un yr aeth yr ysbïwyr: *Num.* xxxii. 9; *Deut.* i. 24. Ond byddai hyn yn gwbl groes i'r hyn a ddywedir yn *Num.* xiii. 21, ddarfod iddynt fyned mor bell a Rehob. Cymmerasant o'r dyffryn ffrwythlawn glystwr anferth o rawnwin; yr hyn, medd yr hanes, a barodd i'r dyffryn gael ei alw Dyffryn Escol, neu "Ddyffryn y Clysdwr:" *Num.* xiii. 22, 24. Gwir fod yr enw Escol yn Hebraeg yn arwyddo swp neu glystwr, ond bu yr enw hwn yn y gymmydogaeth yma ganrifoedd cyn hyn, pan yr oedd Abraham yn byw yno gyda'r tywysogion Aner, Escol, a Mamre, y rhai oeddynt Amoriaid; ac hwyrach mai dyma y modd y dygwyd enw yr arwr hwnw i iaith y congcwerwyr yn unol âg arferion argyfenwol oedd mewn bri y dyddiau hyny.

Dywed Eusebius gyda mesur o betrusder, yn ei *Onomasticon*, fod "dyffryn y grawnwin" tua Gophna, pymtheg milltir o ogledd Ierusalem, ar ffordd Neapolis. Dywed Jerome ei fod yn ngogledd Hebron, ar y ffordd i Bethsur. Sonia y teithiwr Iuddewig Ha-Parchi am dano fel pe buasai yn ngogledd y mynydd ar ba un y safai hen ddinas Hebron; a chafwyd yn ddiweddar bod yr enw yn cael ei gyssylltu â ffynnon o ddwfr rhagorol, yr hon a elwir *Ain-Eshcali*, mewn nant sydd yn croesi dyffryn Hebron o'r gogledd-ddwyrain i'r deheu-orllewin, a thua dwy filltir i ogledd y dref. Teg yw dywedyd nad ydyw yr hanes dyddorol hwn etto wedi cael ei gadarnhau gan deithwyr a sylwedyddion ereill.

ESDRAS, LLYFR CYNTAF: y cyntaf o ran trefn o'r llyfrau Apocryphaidd yn y Beibl Cymraeg, yn yr hwn y ceir hwynt ar wahan oddi wrth y llyfrau canonaidd, megys y gwna Luther yn y Beiblau Almaenaidd, yn lle eu cydrwymo hwynt yn ol eu trefn hanesyddol. Y mae dosbarthiad y pedwar llyfr sydd ar enw Ezra yn hynod o ddyrus. Yn y Vatican, ac argraffiadau lled ddiweddar ereill o'r Deg a Thrigain, y mae Llyfr Cyntaf Esdras fel y mae genym ni yn cael ei alw yn Llyfr Cyntaf Esdras yn ei berthynas â llyfr Canonaidd Ezra, yr hwn a osodir ar ei ol, ac a elwir yn Ail Lyfr Esdras. Ond yn y Vulgate, y mae 1af Esdras yn golygu Llyfr Ezra, ac 2il Esdras yn golygu Llyfr Nehemiah, yn ol yr hen drefniad Hebraeg a nodir gan Jerome, yn yr hwn nid oedd llyfrau Ezra a Nehemiah ond dwy ran o un llyfr a elwid Llyfr Ezra; ac y mae 3ydd a 4ydd Esdras yn arwyddo yr hyn a elwir genym ni yn 1af ac 2il Esdras. Y rhai olaf hyn, yn nghyd â Gweddi Manasseh, yw yr unig lyfrau Apocryphaidd a dderbynir dan yr enw i'r Beiblau Rhufeinig, gan fod y rhan arall o'r Apocrypha wedi cael ei gyhoeddi yn ganonaidd gan gymmanfa Trent. Ymddengys, mai y rheswm dros gau Trydydd Llyfr Esdras allan o'r canon ydoedd hwn: na wyddai y tadau Tridentaidd yn 1546 fod y cyfryw lyfr yn Groeg. Canys nid yw yn yr argraffiad Complutensiaidd (1515), nac yn y Biblia Regia; ni welsai Vatablus (tua 1540) erioed gopi Groeg, a dywed yn y rhagymadrodd i'r llyfrau apocryphaidd nad oedd yn bod ond yn unig mewn rhyw lawysgrifau, ac yn argraffedig yn y Beiblau Lladin. Dywed Baduel hefyd—duwinydd Protestanaidd Ffrengig, tua 1550—nas gwyddai efe am neb a welsai erioed gopi Groeg o hono. O blegid hyn yr ymddengys iddo gael ei adael allan o'r canon, er bod iddo cystal hawl i dderbyniad ag sydd gan Tobit, Iudith, &c. Dywedwyd fod cymmanfa Trent, wrth gau allan ddau lyfr Esdras, yn dilyn canon Awstin. Ond nid oedd: y mae Awstin [*De Doctr. Christ.* llyfr ii. 13] yn eglur nodi "dau lyfr Esdras" yn mhlith y llyfrau canonaidd; ac y mae yn eithaf amlwg mai y llyfr a adwaenom ni wrth Lyfr Cyntaf Esdras ydoedd un o'r rhai hyn. Felly y mae yn eithaf sier hefyd y cynnwysid ef yn mhlith y rhai a gyhoeddwyd yn ganonaidd gan drydedd cymmanfa Carthage, B. A. 397, lle y rhoddir yr un enw, sef "dau lyfr Esdras." Ond gellir sylwi yma fod Awstin a chymmanfa Carthage yn arfer y gair "canonaidd" mewn ystyr eangach o lawer na ni; ac amlwg yw mai sail derbyniad y llyfrau hyn fel rhai canonaidd mewn unrhyw ystyr ydoedd eu bod i'w cael yn y copïau Groeg o'r Deg a Thrigain a geid y pryd hwnw. Y mae llyfrau Esdras yn cael eu rhifo yn yr holl argraffiadau cyntaf o'r Beibl Seisoneg, fel yn y Vulgate. Yn chweched erthygl Eglwys Loegr, y mae'r llyfr cyntaf a'r ail yn dynodi Ezra a Nehemiah, a'r trydydd a'r pedwerydd yn golygu y rhai a adwaenir genym ni wrth yr enw Cyntaf ac Ail Lyfr Esdras. Yn y rhestr o arolygwyr neu gyfieithwyr Beibl yr Esgob, a anfonwyd gan yr Archesgob Parker at Syr William Cecil, gyda'r gyfran a adolygid gan bob un, ymddengys fod Ezra, Nehemiah, Esther, a llyfrau Apocryphaidd Esdras, yn cael eu cynnwys oll dan y teitl ESDRAS. Barlaw, esgob Chichester, ydoedd y cyfieithydd, a chyfieithydd llyfrau Iudith, Tobias, a Sapientia hefyd. Yn Meibl Geneva y mabwysiadwyd gyntaf y dosbarthiad sydd yn ein Beiblau ni, lle y gosodir enwau EZRA a NEHEMIAH wrth y ddau lyfr canonaidd, a gelwir y ddau lyfr Apocryphaidd yn Gyntaf ac Ail Lyfr Esdras; lle y mae ffurf Groeg i'r enw yn dangos nad yw y llyfrau hyn i'w cael yn Hebraeg na Chaldaeg.

Am hynafiaeth y llyfr hwn, a'r lle a roddid iddo yn yr eglwys foreuol, digon yw crybwyll fod Josephus yn dyfynu yn helaeth o hono, ac yn dilyn ei awdurdod; ïe, er myned yn groes i lyfrau canonaidd Ezra a Nehemiah, drwy yr hyn yr arweiniwyd ef i gamsyniadau hanesyddol a gau syndau dybryd. Dyfynir ef gan Clemens Alexander; ac y mae 'r ymadrodd enwog, "Y mae y gwirionedd yn aros; efe a barha yn nhragwyddoldeb, efe a fydd byw ac a orchfyga yn oes oesoedd," yn cael ei nodi gan Cyprian fel wedi ei gymmeryd o Esdras (gwel 1 *Esdras* iii. iv). Cyfeiria Awstin hefyd at yr un ymadrodd, ac awgryma y gall fod yn brophwydoliaeth am Grist, "canys," medd efe, "cydnabyddir Crist yn yr efengyl fel y gwirionedd." Y mae efe yn rhoi dan yr enw Esdras, ein Esdras cyntaf ni, a llyfrau canonaidd Ezra a Nehemiah. Y mae Athanasius hefyd a thadau ereill yn dyfynu o Lyfr Cyntaf Esdras; ac fe allai nad oedd un frawddeg a ledaenwyd yn

Digitized by Google

fwy na'r eiddo Esdras yn y llyfr cyntaf, *pen.* iv. 41, "Mawr yw gwirionedd, a threchaf." Ond er ei fod yn dra hynod na dderbyniasai cymmanfa Trent y llyfr hwn i'w canon eang hwy, nis gall fod dim yn eglurach ar y llaw arall na'n bod ni yn ymddwyn yn iawn pan yn ei restru yn mhlith y llyfrau Apocryphaidd, nid yn unig ar sail ei anghywirdeb hanesyddol, a'i anghyssondeb â'r gwir Ezra, ond hefyd ar sail tystiolaeth yr egiwys foreuol. Addefa pawb na wybuwyd erioed iddo fod yn Hebraeg, ac na bu erioed yn rhan o'r canon Hebreig. Sieryd Jerome yn ddiystyrllyd, yn ei ragymadrodd i Ezra a Nehemiah, am y breuddwydion a geir yn nhrydydd a phedwerydd llyfr Esdras, a dywed eu bod i'w gwrthod yn hollol. Yn ei Prologus Galeatus, efe a noda yn eglur nifer y llyfrau yn y canon, sef xxii.—yn cyfatteb i'r llythyrenau yn yr egwyddor Hebreig, a dywed fod y lleill i gyd yn Apocryphaidd. Y mae, wrth gwrs, yn cau allan Llyfr Cyntaf Esdras. Dilynai Melito, Origen, Eusebius, Athanasius, Gregory Nazianzen, Hilary o Poictiers, Cyril o Ierusalem, a lliaws ereill o'r tadau, a chymmanfa Laodicea, yr un canon, gan gyfrif pob peth na chynnwysai yn Apocryphaidd.

Mewn perthynas i gynnwysiad y llyfr, a'i awdwr neu awduron, y mae 'r bennod gyntaf yn adysgrif bron air am air, oddigerth un neu ddau o fanau a dalfyrir ac a aralleirir, o'r ddwy bennod olaf yn 2 *Cronicl;* a gwelir ynddo rai llygriadau o'r testyn, a dangosir fod gwahanol gyfieithwyr Groeg wedi ei ddefnyddio. Pennodau iii, ix, a'r v, hyd ddiwedd *adn.* 6, ydyw rhanau gwreiddiol y llyfr, y rhai a gynnwysant y chwedl am y tri Iuddew ieuanc yn llys Darius; ac adysgrif i fesur mwy neu lai o Lyfr Ezra—ond fod y pennodau yn cael eu trawsgyfleu a'u hail drefnu—yn nghyd â chyfran o Lyfr Nehemiah, ydyw y gweddill o'r llyfr. Canfyddir oddi wrth hyn fod gan y casglydd amcan dyblyg mewn golwg. Un oedd dwyn i mewn a rhoddi awdurdod Ysgrythyrol i'r chwedl am Zorobabel; yr hon a allasai fod heb sail hanesyddol iddi, a'r hon a allasai fod yn waith ar ei ben ei hun ar y pryd. Y llall oedd egluro tywyll bethau Llyfr Ezra, a gosod yr adroddiad, fel yr oedd yr awdwr yn ei ddeall, mewn trefn hanesyddol; yn yr hyn y mae yn amlwg iddo fethu yn llwyr. O blegid, heb grybwyll y croesddywediadau aneirif ereill, y mae dyweyd fod gwrthwynebiad y paganiaid wedi ei ddangos i Zorobabel ar ol iddo gael ei anfon i Ierusalem gan Darius gyda'r fath rwysg, a bod y gwrthwynebiad hwnw wedi parhau "hyd deyrnasiad Darius" (v. 73), ac iddynt gael eu gostegu trwy appel at gyfraith Cyrus, y fath anghyssondeb noeth ag sydd yn ddigon ynddo ei hun i beri anghrediniaeth yn awdurdod y llyfr. Rhydd le i'r dybiaeth mai cydgasgliad cymmysglyd o fân ddarnau ydyw, wedi ei wneud gan wahanol bersonau. O leiaf, gwaith ofer yw ceisio cyssoni ei wahanol ranau â'u gilydd, nac â'r Ysgrythyr.

Mewn perthynas i'r amser a'r lle y gwnaed y casgliad, y dernyn gwreiddiol o hono sydd yn rhoi yr eglurhad mwyaf. Rhydd hwn ar ddeall fod yr awdwr yn berffaith hyddysg yn yr Hebraeg, os nad yn yr iaith hono yr ysgrifenodd y llyfr. Yr oedd yn eithaf cydnabyddus hefyd â llyfrau Esther a Daniel (1 *Esdr.* iii. 1, 2, &c.), a llyfrau ereill yr Ysgrythyr (*pen.* iii. 20, 21, 39, 41, a 45, wedi ei chymharu â *Salm* cxxxvii. 7). Ond nad oedd efe yn byw dan freninoedd Persia, nac yn gydoeswr â'r dygwyddiadau y rhydd efe hanes am danynt, a ymddengys oddi wrth y modd diwahaniaeth yn mha un yr arfera efe yr ymadroddion "Mediaid a Phersiaid," a "Phersiaid, a Mediaid," yn ol fel y dygwyddai efe fod yn efelychu iaith Daniel neu Lyfr Esther. Ymddengys fod y cyfeiriad yn *pen.* iv. 23, at "fordwyo ar fôr, ac afonydd," i'r dyben i "ladd ac i ladrata" yn lled awgrymu fod yr awdwr yn preswylio yn yr Aipht, a'i fod yn gydnabyddus âg afreoleidd-dra y môr-ladron Groegaidd yno. Y mae geirweddiad *adn.* 73 yn y bummed bennod yn sawru yn gryf o Roeg, yn hytrach na Hebraeg. Pa fodd bynag, os oedd y chwedl am Zorobabel ar y cyntaf, fel y mae yn ddigon tebyg ei bod, yn ddarn ar ei ben ei hun, ac os cydgorfforwyd ef wedi hyny â'r adroddiad a gymmerwyd o Lyfr Ezra, ni phrawf y frawddeg Roeg hon ddim o berthynas i'r iaith yn yr hon yr ysgrifenwyd y chwedl wreiddiol. Y mae yr ymadrodd yn *pen.* iv. 40, "Ac y hi yw 'r cadernid; a'r deyrnas, a'r gallu, a'r mawredd, drwy yr holl oesoedd," yn meddu tebygrwydd mawr i'r fawl-gân a ganfyddir mewn rhai copïau o Weddi yr Arglwydd, yr hon a gedwir genym ni—"eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd." Ond dywed Lightfoot fod yr Iuddewon yn ngwasanaeth y deml, yn lle dywedyd Amen, yn arferyd y gydgan, "Bendigedig fyddo enw gogoniant ei deyrnas ef yn oes oesoedd." Felly gellir cyfrif am y tebygrwydd sydd rhyngddynt trwy fod y naill a'r llall wedi eu cymmeryd o'r un man. Am chwaneg o hanes yr amseroedd a gynnwysir yn y llyfr hwn, gwel ar EZRA, ac AIL LYFR ESDRAS.

ESDRAS, AIL LYFR: yr hwn a elwir felly gan ei awdwr (2 *Esdras* i. 1), a'r hwn a restrir felly yn ol yr argraffiad Cymraeg o'r Apocrypha, a adnabyddir yn fwyaf cyffredin, yn ol cyfrif y cyfieithiad Lladin, fel *pedwerydd* Llyfr Ezra [gwel 1 ESDRAS]; ond nid yw y trefniant felly yn y llawysgrifau Lladin; ac yn y cyfieithiadau Arabaidd ac Ethiopaidd o'r llyfr gelwir ef yn Llyfr Cyntaf Ezra. Y mae enw gwreiddiol y llyfr, sef "Dadguddiad Ezra," yr hwn a geir mewn ambell hen restr o'r llyfrau canonaidd ac apocryphaidd, yn llawn cymhwysach enw arno.

1. Adwaenid y llyfr hwn am adeg faith yn unig wrth hen gyfieithiad Lladin, yr hwn a geir yn rhai o hen lawysgrifau y Vulgate. Arferwyd y cyfieithiad hwn gan Awstin, ac y mae yn debyg ei fod, fel y rhanau ereill o'r *Vetus Latina*, yn bod cyn amser Tertullian. Darganfyddwyd testyn Arabaidd arall gan Mr. Gregory tua chanol yr eilfed ganrif ar bymtheg, mewn dwy lawysgrif Bodleiaidd, a chafodd cyfieithiad Seisonig o hwn gan Simon Ockley ei roddi gan Whiston yn y gyfrol ddiweddaf o'i *Primitive Christianity*, yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain, 1711. Chwanegodd Fabricus wahanol ddarlleniadau y testyn Arabaidd at ei argraffiad ef o'r Lladin, yn 1723. Cyhoeddwyd trydydd argraffiad Ethiopaidd, yn 1820, gan Lawrence, gyda chyfieithiad Seisoneg a Lladin, yr un modd hefyd allan o lawysgrif Bodleiaidd a adawsid yn hollol ddisylw, er ei bod yn cael ei dyfynu gan Ludolf yn ei eiriadur. Ail argraffwyd y cyfieithiad Lladin gan Gfrörer, gyda'r amryw ddarlleniadau yn y Lladin a'r Arabaeg; ond ni chyhoeddasid eto y testyn Arabaeg gwreiddiol.

2. Gwnaed y tri chyfieithiad yn uniongyrchol allan o'r Groeg. Fel hyn y mae yn amlwg y bu gyda'r cyfieithiad Lladin, a'r Ethiopaeg; ac yn ol pob tebyg, gyda'r Arabaeg. Ceir arwyddion



Digitized by Google

eglur o'r testyn Groeg yn epistol Barnabas (*pen.* xii.; 2 *Ezra* v. 5), ond y mae y cyfeiriadau tybiedig yn y tadau apostolaidd yn bur ansicr. Y tyst nesaf i'r testyn Groeg yw Clement o Alexandria, yr hwn a ddyfyna yn eglur o'r llyfr fel gwaith y prophwyd Ezra. Ond y mae ammheuaeth wedi cyfodi ai nid cyfieithiad o'r Hebraeg oedd y Groeg ei hun; ond y mae y rhesymau ieithyddol â pha rai yr amddiffynir y dybiaeth am Hebraeg gwreiddiol yn gwbl anfoddhaol; ac yn niffyg profion uniongyrchol i'r gwrthwyneb, rhaid tybied ddarfod i'r llyfr gael ei gyfansoddi yn yr iaith Roeg. Cadarnheir y casgliad hwn yn mhellach gan nodwedd mewnol y llyfr, yr hwn sydd yn cyfeirio at yr Aipht fel y lle yn mha un y cyfansoddwyd ef.

3. Y mae y testyn Lladin cyffredin, yr hwn a ddilynir yn y cyfieithiad Seisoneg, yn cynnwys dau ffugddodiad (*pen.* i, ii; xv, xvi), nad ydynt i'w cael yn y cyfieithiadau Arabaidd ac Ethiopaidd, a'r rhai a wahenir oddi wrth y gwir ddadguddiad yn y llawysgrifau Lladin goreu. Y mae yn eglur fod y naill a'r llall o'r darnau hyn wedi eu cyfansoddi yn y cyfnod Cristionogol: y mae ynddynt arwyddion o ddefnyddiad yr Ysgrythyrau Cristionogol (er esampl, *pen.* i. 30, 33, 37; ii. 13, 26, 44, &c.; xv. 8, 35; xvi. 54); a mwy na hyny, y maent yn llawn o ysbryd gwrth-Iuddewig. Megys, yn y bennod agoriadol, fe orchymynir i Ezra geryddu pobl Israel am eu gwrthryfeloedd parhaus (*pen.* i. 1—23), o blegid pa rai y mae Duw yn bygwth eu bwrw hwynt ymaith (*pen.* i. 24—34), a rhoddi "eu tai i bobl a ddêl." Ond er eu gwrthryfel, y mae Duw yn cynnyg unwaith eto eu derbyn hwynt (*pen.* ii. 1—32). Gwrthodir y cynnyg (*pen.* ii. 33), ac yna gelwir y Cenhedloedd. Yna y mae Esdras yn gweled Mab Duw yn sefyll yn nghanol tyrfa fawr, "â choronau ar benau pob un o honynt, a phalmwydd yn eu dwylaw," fel arwydd o'u harddeliad buddugoliaethus o'r gwirionedd. Y mae nodwedd y ddwy bennod olaf (xv., xvi.) yn wahanol. Cynnwysant hwy brophwydoliaeth lem am y gwaeau oedd i ddyfod ar yr Aipht, Babilon, Asia, a Syria, ac ar yr holl ddaiar, yn nghyd â chynghor i'r etholedigion i wylio yn nghanol yr holl dreialon hyn a'u cyfarfyddent hwy. Ceir dernyn ffugiol arall llai yn y cyfieithiad Lladin, yn *pen.* vii. 28, lle y mae "fy mab Iesu" yn cyfateb i "fy Messiah," yn y cyfieithiad Ethiopaidd, ac i "fy mab Fessiah," yn y cyfieithiad Arabaidd. Ar yr un pryd, ceir dernyn hir yn y cyfieithiadau Ethiopaidd ac Arabaidd ar ol *pen.* vii. 35; ond ni cheir ef yn y Lladin, er ei fod yn dwyn holl arwyddion purdeb ac anghymmysgedd, ac yn adnabyddus i Ambrose. Y mae y bennod yn cynnwys dysgrifiad rhyfedd o sefyllfa ganol eneidiau, ac yn terfynu trwy wadu yn bendant effeithiolded eiriolaeth ddynol ar ol y marw. Cyfeiriodd Vigilantius at y bennod er cadarnhad i'w olygiadau, a thynodd arno ei hun drwy hyny gerydd llym Jerome. Dichon mai yr amgylchiad hwn, yn nghyd â'r syniad Iuddewig am dani, a barodd iddi gael ei gwrthod mewn amseroedd diweddarach.

4. Y mae y dadguddiad gwreiddiol (*pen.* iii—xiv), yn cynnwys cyfres o ddadguddiadau a gweledigaethau angelaidd, yn y rhai y dysgir Ezra yn rhai o ddirgeledigaethau mawrion y byd moesol, lle hefyd y sicrheir yn nghylch buddugoliaeth lwyr y cyfiawn yn y pen draw. Y mae y dadguddiad cyntaf (*pen.* iii; v. 15, yn ol y Deg a Thrigain) yn cael ei roddi gan yr angel Uriel i Ezra, yn y ddegfed flwyddyn ar ugain ar ol dystrywio y ddinas, mewn atebiad i'w achwynion fod Israel yn cael ei hesgeuluso gan Dduw, tra yr oedd y Cenedloedd yn arglwyddi arnynt; a'r prif bwnc yw natur anchwiliadwy bwriadau Duw, ac arwyddion yr amseroedd diweddaf. Y mae yr ail ddadguddiad (*pen.* v. 20; vi. 34), yn myned yn mlaen yn mhellach fyth gyda'r addysg hon, ac yn dadblygu gweithrediad graddol trefniadau Rhagluniaeth, ac agosrwydd yr ymweliad o flaen yr hwn y rhaid i ddrygioni gyrhaedd ei eithafnod ofnadwy. Y mae y trydydd dadguddiad (*pen.* vi. 35; ix. 25) yn y gwrthddadleuon a gyfyd oddi wrth gyfyngder ymddangosiadol y terfynau o fewn pa rai y mae y gobaith am ddedwyddwch wedi ei gau, ac yn dysgrifio dyfodiad y Messiah a golygfa olaf y farn. Ar ol hyn, ceir tair gweledigaeth. Y weledigaeth gyntaf (*pen.* ix. 26; x. 59) ydyw gwraig (Seion) mewn gofid mawr, yn galaru o blegid marwolaeth ei hunig fab (y ddinas a adeiladwyd gan Solomon), yr hwn a anwyd iddi ar ol bod yn annhlantadwy am ddeng mlynedd ar ugain, a'r hwn a fu farw ar ddydd ei briodas. Ond tra yr oedd Ezra yn edrych, "ei hwyneb hi a ddysgleiriodd yn ddisymmwth, a'i phryd a dywynodd, ac nid ymddangosodd y wraig mwy, ond yr oedd dinas wedi ei hadeiladu." Yr ail weledigaeth (*pen.* xi, xii) ydyw eryr (Rhufain), yr hwn a "ddaeth i fyny o'r môr," ac "a ledodd ei esgyll dros yr holl ddaiar." Fel yr edrychai Ezra, aeth yr eryr trwy ryw drawsffurfiadau rhyfedd, nes yr oedd ar un adeg heb ond "tri phen a chwech o esgyll bychain;" ac o'r diwedd, un pen a adawyd, pan yn ddisymmwth y daeth llew (y Messiah) allan, a chyda lleferydd dyn: efe a geryddodd yr eryr, ac fe'i llosgwyd ef. Y drydedd weledigaeth (*pen.* xiii.) mewn breuddwyd, ydyw dyn (y Messiah) yn ehedeg "gyda chymylau y nef," yn erbyn yr hwn y mae holl genedloedd y ddaiar wedi ymgasglu, nes y mae efe yn eu dinystrio hwynt âg anadl ei enau, ac yn cydgasglu holl lwythau colledig Israel, ac yn cynnyg Seion, wedi ei thrwsio a'i hadeiladu i'w bobl. Y mae y bennod olaf (*pen.* xiii.) yn adgofffhau ymddangosiad yr Arglwydd, a welasai Moses yn y berth, i Ezra; wrth orchymyn yr hwn y mae efe eto yn derbyn y ddeddf a losgasid, a thrwy gymhorth ysgrifenyddion y mae yn ysgrifenu pedwar ar ddeg a phedwar ugain o lyfrau (y pedwar ar ugain llyfrau canonaidd yr Hen Destament, a deg a thrigain o lyfrau dirgeledigaethau mawrion), ac fel hyn parotoir y bobl i gyfarfod y brofedigaeth olaf dan arweiniad y ddeddf adferedig.

5. Dadleuir llawer yn nghylch amser ysgrifeniad y llyfr, er fod nifer y gwahanol opiniynau ar hyn yn llai na'r rhai a goleddir yn nghylch llyfr Enoch. Dywed Lücke mai yn amser Cæsar yr ysgrifenwyd ef; ond barna Van der Vlis mai yn fuan wedi marw Cæsar. Tybia Lawrence ei fod yn ddiweddarach na hyny (tua 28—25 c.c.); ac y mae Hilgenfeld yn cytuno âg ef yn hyn, er ei fod yn profi y mater trwy resymau tra gwahanol. Ar y llaw arall myn Gfrörer ei fod yn perthyn i amser Domitian; ac yn hyn dilynir ef gan Wiesler, a chan Bauer. Y mae deongliad manylion gweledigaeth yr eryr, yr hon sydd yn rhoddi y prif gynnorthwy i benderfynu yr amser y cyfansoddwyd y llyfr, yn dra ansicr; a hyny o blegid fod yn anhawdd edrych ar hanes y cyfnod oddi ar yr un safle ag y gwnai yr awdwr hyny; ac y mae yr anhawsder hwn yn cael ei fwyhau trwy y cyfeiriad a wneir at anrhaith Ierusalem,

Digitized by Google

yr hwn a all fod yn cael ei awgrymu yn unig gan amgylchiadau Ezra, yr awdwr dychymygol: neu ynte, ar y llaw arall, fe ddichon fod yr amgylchiad o ddinystr Ierusalem wedi awgrymu Ezra fel cyfrwng y dadguddiad newydd.

6. Prif nodweddau yr "eryr â thri phen," y rhai y mae yn amlwg sydd yn cyfeirio at amgylchiadau hanesyddol, ydyw y "deuddeg asgell adeiniog, a'r wyth adenydd gwrthwyneb, a'r tri phen;" ond er bod yr ysgrifenydd yn deongli y rhai hyn yn benodol am freninoedd (*pen.* xii. 14, 20), a theyrnasoedd (*pen.* xii. 23), y mae, a hyny o fwriad, fe allai, mor dywyll yn ei gyfeiriadau fel nad yw y deongliad ond yn cynnyddu anhawsderau y weledigaeth ei hun. Un pwynt yn unig a ellir ei ystyried yn sicr:—nis gall yr eryr fod yn gysgod o un ymherodraeth arall ond Rhufain. Nis gellir tybied mewn un modd ei fod yn arddangosiad o deyrnas Groeg. Prin y buasid yn dysgrifio gallu y Ptolemiaid mewn iaith y gellid yn briodol ei chymhwyso at Rhufain (*pen.* xi. 2, 6, 40): ac am y gyfres o freninoedd a noda Hilgenfeld i gyfateb i'r "deuddeg asgell," nid oes ond tebygrwydd gwan rhyngddi a dysgrifiad y weledigaeth. Ond wedi penderfynu mai at Rufain y cyfeiria y weledigaeth, y mae cryn anhawsder i egluro llawer o ranau tywyll o honi. Y mae yr ail aden (hyny yw, brenin) yn teyrnasu cyhyd arall a'r llall (*pen.* xi. 17). Ymddengys bod y ffaith hon yn cyfeirio at Octavian, a llinell y Cæsariaid; ond wedi hyny, nid ellir dyfod i un penderfyniad tebyg i gywir gyda golwg ar y rhif *deuddeg*. Os tybir fod y cyfnod yn darfod gyda theyrnasiad Trajan, nid oes un eglurhad boddhaol i'w roddi ar y tri phen. Drachefn, os yw y tri phen yn gosod allan y tri Flavius, yna rhaid fod y *deuddeg* yn arddangos y naw Cæsar (o Julius Cæsar hyd Vitellius), a'r tri ymhonwr, Piso, Vindex, a Nymphidius, y rhai na allasent ond prin gael eu dwyn o fewn cylch dadguddiad Iuddewig. Y mae Volkmar yn cynnyg esboniad newydd; sef, bod dwy aden yn gosod allan *un* brenin; ac ymresyma efe fod yr arwyddlun yma wedi ei ddewis er mwyn cuddio y dadguddiad yn well rhag llygaid dyeithr. Felly y mae y deuddeg aden yn arddangos y chwe Cæsar (o Julius Cæsar hyd Nero); yr wyth "adenydd gwrthwyneb," yn arwyddo y traws-ymherawdwyr, Galba, Otho, Vitellius, a Nerva; a'r tri phen yn golygu y tri Flavius. Y mae yn y dybiaeth hon lawer o bethau yn gysson â'r weledigaeth; ond eto y mae yn hollol groes i'r deongliad a roddir gan Ezra (*pen.* xii. 14); ac y mae tybiaeth Volkmar fod y *deuddeg* a'r *wyth* wedi ei ysgrifenu yn y llawysgrif wreiddiol yn y fath fodd ag i awgrymu y syniad am ddosbarthiad, yn dra annhebyg. Y mae Van der Vlis, a Lücke hefyd yn yr argraffiad olaf o'i lyfr, yn edrych ar y deuddeg brenin hyn fel arwyddlun cyffredinol o'r gallu Rhufeinig; ac er eu bod yn edrych ar y tri phen fel yn cyfateb i'r tri wŷr dan lywodraeth Rhufain, ni cheisiant roddi eglurhad ar y manylion ereill. Y mae y cwbl hyd yma yn anmhenderfynol ac ansicr, ac y mae yn debyg mai felly y bydd hyd onis gellir taflu goleuni tanbeidiach ar hanesyddiaeth Iuddewig, ac ar y dull o feddwl yn ystod y cyfnod rhyfedd o C.C. 100 hyd B.A. 100.

7. Ond er bod amseriad y llyfr yn cael ei adael heb ei benderfynu, mae uwch law ammheuaeth mai cynnyrch Iuddew ydyw. Weisse yn unig sydd yn gwahaniaethu ar y pwnc hwn oddi wrth farn unfrydol ysgolheigion diweddar; ac y mae y gwahaniaeth sydd rhwng ansawdd ac arddull y twyll-chwanegiadau a wnaed yn ystod y cyfnod Cristionogol â'r gweddill o'r llyfr, yn ddigon ynddo ei hun i brofi gwirionedd y syniad. Y mae yn debyg i'r Dadguddiad gael ei ysgrifenu yn yr Aipht; ac y mae yn sicr mai yno yr ysgrifenwyd y bennod gyntaf a'r bennod olaf.

8. Y mae arddull a nodwedd Dadguddiad Ezra yn debyg ar amryw ystyron i'r eiddo Enoch [gwel ENOCH, LLYFR]. Y mae rhagddysgwyliadau gogoneddus yn cael eu cymmylu gan ragrybuddion pruddaidd am dynged y byd. Y mae y meddylddrych am fuddugoliaeth yn ymgolli yn y syniad am ddialedd. Nid yw dedwyddwch dyfodol yn cael ei gadw ond i ychydig iawn (*pen.* vii. 70; viii. 1, 3, 52—55): *pen.* vii. 1—13. Y pwnc mawr ydyw, nid pa fodd y cospir yr annuwiol, ond pa fodd y cedwir y cyfiawn, er mwyn y rhai y crewyd y byd;" *pen.* ix. 13. Y mae "gwaeau y Messïah" yn cael eu dysgrifio gyda rhyw fanylrwydd ofnadwy, yr hwn sydd yn debyg iawn i draddodiadau diobaith y Talmud (*pen.* v; xiv. 10, &c.; ix. 3, &c.): ac ar ol teyrnasiad o bedwar can mlynedd (*pen.* xxviii—xxxv), dywedir, "bydd marw fy mab Crist, a phob dyn byw, a'r byd a dröir i'r hen ddystawrwydd saith niwrnod, fel yn y dechreuad cyntaf, ac ni adewir neb;" *pen.* vii. 29. Yna y daw yr adgyfodiad a'r farn—"diwedd yr amser hwn, a dechreuad anfarwoldeb;" *pen.* vii. 43. Y mae cryn debygrwydd rhwng rhai o'r athrawiaethau sydd yn y llyfr ac athrawiaethau Paul, fel y mae y cymhariaethau yn ymdebygu i eiddo y Dadguddiad. Y mae perthynas yr Adda cyntaf â'i hiliogaeth bechadurus, a gweithrediad y ddeddf (*pen.* iii. 20, &c.; vii. 48; ix. 36)—cyflwr diflanedig y byd (*pen.* iv. 26)—arfaeth dragwyddol Duw (*pen.* vi, &c.)—ei ragluniaeth a'i hirymaros (*pen.* vii. 11, 64)—ei waith yn sancteiddio ei bobl o'r dechreuad (*pen.* ix. 8), a'u rhagorfreintiau neillduol a pharhaol, yn cael eu traethu yn eglur; a thraethir hefyd am weithredoedd da mewn cyssylltiad â ffydd (*pen.* viii. 33; ix. 7).

9. Cafodd un traddodiad sydd yn y llyfr dderbyniad helaeth iawn yn yr amser gynt, a defnyddid ef fel math o addurn i'r chwedl am darddiad y Deg a Thrigain. Dywedir fod Ezra, mewn atebiad i'w weddi, ac mewn trefn iddo gael ei ysbrydoli i adysgrifenu yr holl ddeddf a losgwyd, wedi cael gorchymyn i gymmeryd gydag ef lechau, a phump o ddynion, ac ymneillduo ddeugain niwrnod. Wedi iddo wneuthur hyn, rhoddwyd cwpan iddo i'w yfed, ac allan o law fe adfywhawyd ei ddeall, a chryfhawyd ei gof; ac am ddeugain niwrnod a deugain nos, efe a ddywedai wrth ei ysgrifenyddion yr hyn a ysgrifenent, ac fe ysgrifenwyd pedwar ar ddeg a phedwar ugain o lyfrau, o ba rai y cyflwynwyd pedwar ar ugain i'r bobl yn lle y rhai a gollasant: *pen.* xiv. 20—48. Adroddwyd y chwedl ryfedd hon mewn amryw ffyrdd gan Irenæus, Tertullian, Clement o Alexandria, Jerome, a lluaws ereill; a thebyg yw ei bod yn tarddu oddi wrth y traddodiad a soniai am Ezra fel cynnrychiolwr pobl "y Synagog Fawr," i'r rhai yr oedd y gwaith o adolygu y llyfrau canonaidd yn cael ei briodoli yn gyffredinol mewn amseroedd diweddar.

10. Er fod y llyfr yn cael ei briodoli i'r prophwyd Ezra gan Clement o Alexandria, ac yn cael ei ddyfynu gyda pharch gan Tertullian ac Ambrose, ni chafodd ei ystyried gan yr eglwys fel yn perthyn i'r llyfrau canonaidd. Y mae Jerome yn siarad yn ddirmygus am dano; anfynych y ceir ef yn mhlith llawysgrifau y Beibl

Digitized by Google

Lladin. Chwiliodd yr archesgob Lawrence 180 o lawysgrifau; ac ni chafwyd y llyfr ond mewn tri ar ddeg o honynt, ac yr oedd wedi ei drefnu yn wahanol yn mhob un o'r rhai hyn. Y mae i'w gael, fodd bynag, yn y copïau argraffedig o'r Vulgate o flaen cymmanfa Trent, yr hon a'i taflodd ef o blith y llyfrau canonaidd. Y mae y llyfr yn cael ei restru gan Eglwys Loegr yn mhlith y rhai sydd i'w darllen "er esampl buchedd;" ond ni wneir un defnydd o hono yn yr addoliad cyhoeddus. Gwrthododd Luther a'r Eglwys Ddiwygiedig ef yn gwbl ac yn hollol; ond yr oedd mewn bri gan luaws o gyfrinwyr, canys fe deimlent hwy gryn swyn yn ei gynnwysiad.

ESEAN, [עֶשְׁעָן, atteg, cynnaliaeth; Gesen., Σομα]: un o ddinasoedd Iudah, yn y mynydd-dir, ac yn perthyn i'r un dosbarth o ddinasoedd a Hebron: *Ios.* xv. 52. Ni cheir yr enw ond yno yn unig, ac ni wyddys am y lle yn awr.

ESEC, [עֵשֶׁק; gorthrymder, Ges.; 'Ασηλ]: Beniaminiad; un o ddisgynyddion Saul; tad i deulu mawr ac enwog o saethyddion; neu yn ol yr ystyr llythyrenol, "sathrwyr y bwa;" 1 *Cron.* viii. 39. Y mae yr enw yn cael ei adael allan o'r rhestr sydd yn 1 *Cron.* ix.

ESGID. Gwel SANDAL.

ESGOB—ION, ['Επίσκοπος; o 'επι, ar, dros; ac σκοπα, yr amser perffaith canolig o σκέπτομαι, edrych; Ll. *episcopus*; Gwydd., *easpag*; S. *bishop*]: golygwr, arolygwr, edrychwr dros; gwyliadwr; goruchwyliwr. Ceir y gair *episcopos*, yn unigol neu luosog, yn y Testament Groeg, mewn pump o fanau; sef *Act.* xx. 28, lle y cyfieithir ef yn y Beibl Cymraeg yn *golygwyr* (W. S. ymyl y ddalen, *escopion*; J. W., *arolygwyr*). Yn y pedwar man canlynol, cyfieithir ef yn y Beibl Cymraeg yn *esgob* neu *esgobion*:—*Phil.* i. 1 (W. S., *episcopion*); 1 *Tim.* iii. 2 (W. S., *escob*); *Tit.* i. 7 (W. S., *episcop*); 1 *Pedr* ii. 25 (W. S., *escob*).

Gan fod cryn ddadl yn mysg Cristionogion yn nghylch "swydd esgob," ei hawdurdod, &c., yr ydym yn ystyried fod o bwys mawr i'r efrydydd Ysgrythyrol ddeall ystyr y gair yn fanwl yn ei holl gyssylltiadau, yn enwedig yn ei gyssylltiadau Ysgrythyrol; ac y mae y dadleuon egniol sydd wedi bod ar y pwnc, o dro bwygilydd, er nad wedi cymmodi barnau gwahanol, eto, y maent wedi dwyn ffeithiau Ysgrythyrol a hanesyddol yn nglŷn â'r pwnc i'r amlygrwydd mwyaf. Yn y Deg a Thrigain, o ba le yr ymddengys i ysgrifenwyr y Testament Newydd gymmeryd y gair, defnyddir ef—

1. I ddynodi arolygwr y fyddin: ceir ef yn yr ystyr yma yn *Num.* xxxi. 14; *Barn.* ix. 28; 2 *Bren.* xi. 15—yn ateb i'r gair Hebraeg פְּקוּד (*pecod*), yr hwn a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg, *swyddog* neu *swyddogion*.

2. Arolygwr gweithwyr: 2 *Cron.* xxxiv. 12, 17—yn ateb i'r gair Hebraeg מְפֻקָּד (*miphcad*), a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg *golygwyr*.

3. Arolygwr tŷ yr Arglwydd: 2 *Bren.* xi. 18—yn ateb i'r gair Hebraeg פְּקֻדָּה (*pecoduth*), a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg *goruchwylwyr*.

4. Cyfieithir אֵל (*El*), enw Duw, hefyd yn *episcopou*, megys pe dywedid Rhagluniaeth, fel y tybir: *Iob* xx. 29. Cymharer *Doeth. Solom.* i. 6. Y gair sydd yn ein cyfieithiad ni yw *Duw*.

5. Defnyddir y gair *episcopos* yn *Neh.* xi. 9, 14, 22, am *swyddog* gwladol neu grefyddol. Yn y ddwy adnod olaf, lleferir am *episcopos* neu *arolygwr* yr offeiriaid a'r Lefiaid; ac etyb i'r gair Hebraeg פָּקִיד (*pâcid*): cymharer 1 *Mac.* i. 51. *Swyddog* yw y gair Cymraeg a ddefnyddir yn *Nehemiah*, a *gwyliadwyr* yn *Maccabeaid*.

6. Gelwir Eleazar mab Aaron yn *episcopos* yn y Deg a Thrigain (*Num.* iv. 16), am ei fod yn arolygu y tabernacl a'i ddodrefn; ac etyb i'r Hebraeg פְּקֻדַּת (*peciduth*). Y gair Cymraeg yma yw *swydd*—"swydd Eleazar."

7. Yn *Esa.* lx. 17, lle y mae y prophwyd yn rhagfynegu gogoniant a dedwyddwch yr eglwys ar ddyfodiad y Cenedloedd i mewn, cyfieitha y Deg a Thrigain yr un gair yn *episcopos*, yr hwn a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg yn *drethwyr*, fel hyn;—"A gwnaf dy swyddogion yn heddychol, a'th *drethwyr* yn gyfiawn." Yn ol y Deg a Thrigain—"A mi a appwyntiaf dy lywodraethwyr mewn heddwch, a'th esgobion (*arolygwyr*) mewn cyfiawnder." Y mae rhai yn meddwl mai oddi wrth yr ymadrodd yma yn benodol y mae arolygwyr eglwys Crist yn cael eu galw yn *episcopoi* (esgobion) yn y Testament Newydd. Y mae Clement o Alexandria (B. A. 204), yn ei Epistol at y Corinthiaid (adr. 44, argraffiad Russel), yn cario y pwnc yn mhellach fyth, ac yn dyfynu y testyn o Esaiah yn ol yr ystyr yma:—"Mi a appwyntiaf dy arolygwyr (esgobion) mewn heddwch, a'th wasanaethwyr (diaconiaid) mewn cyfiawnder;" ac y mae yn dwyn y testyn yn mlaen fel prophwydoliaeth am waith yr apostolion yn sefydlu y *ddwy* swydd, *esgobion* (neu *henuriaid*, cymharer adr. 44) a *gwasanaethwyr* (diaconiaid), yn yr eglwys.

Ond y cwestiwn pwysig gyda golwg ar y pwnc ger bron—esgobion yr Eglwys Gristionogol—cystal a phob pwnc arall perthynol i'r sefydliad ysbrydol yma—y cwestiwn mawr ydyw, Yn mha le yr ydym i gael rheolau a chyfarwyddiadau mewn perthynas iddo? Pa le y mae yr awdurdod wrth yr hon yr ydym i ffurfio ein syniadau ac i rwymo ein cydwybodau? Dynion sydd yn cynllunio cyfansoddiad y llywodraeth wladol. Nis gall neb o honynt hwy hòni eu bod dan unrhyw arweiniad dwyfol. Er mwyn cael egwyddorion a deddfau y fath lywodraethau, rhaid appelio o angenrheidrwydd i'w llyfrau cyfraith hwy eu hunain. Ond pa fodd y saif yr amgylchiad gyda golwg ar yr eglwys? Y mae hithau yn deyrnas—yn deyrnas ysbrydol, nad yw o'r byd hwn—yn deyrnas Crist. Ganddo ef y mae wedi ei sefydlu; ac efe ydyw ei hunig ben. A oes gan y deyrnas hon hefyd ddim llyfr cyfraith? Oes: ac y mae hon i'w chael yn nghofnodau ysbrydol anffaeledig Ysgrythyrau y Testament Newydd. I'r llyfr cyfraith hwnw, gan hyny, ac i hwnw yn unig, y dylai Cristionogion appelio gyda golwg ar swyddau eglwys Crist, ei threfn, a'i dysgyblaeth, gystal a'i hathrawiaeth. Dyma un o'n hegwyddorion penaf. Fel y dywedodd Chillingworth—duwinydd dysgedig o Eglwys Loegr—wrth gyfarch Pabydd enwog—"Y *Beibl*, meddaf, a'r Beibl *yn unig*, yw crefydd Protestaniaid.........Yr wyf yn gweled yn amlwg â'm llygaid fy hun, fod pabau yn erbyn pabau, a chynghorau yn erbyn cynghorau; fod rhai tadau yn erbyn tadau ereill, a'r un tadau yn eu herbyn eu hunain; fod cydsyniad tadau un oes yn erbyn cydsyniad tadau oes arall. Hònir fod cyfieithiadau ac egluriadau o'r Ysgrythyr yn bod; eithr nid oes ond ychydig, os dim, o honynt ar gael. Nid oes un traddodiad ond yr Ysgrythyr a all fod wedi deilliaw o'r ffynnon; ond gellir profi yn

Digitized by Google

bendant fod pob traddodiad, naill ai wedi ei ddwyn i mewn ar oes benodol ar ol Crist, neu brofi nad oedd i mewn yn y gyfryw oes. Mewn gair, nid oes digon o sicrwydd mewn dim ond yn yr Ysgrythyrau yn unig, i un dyn ystyriol adeiladu arno. Yr Ysgrythyrau, gan hyny a'r Ysgrythyrau yn unig, yw yr hyn y mae genyf fi sail i'w gredu. Dyma ydyw fy mhroffes: yn ol hyn y byddaf byw; ac er mwyn hyn, os bydd achos, y bydd i mi golli fy mywyd, nid yn unig yn ewyllysgar, ond yn llawen, er y byddai yn ddrwg genyf i Gristionogion ei gymmeryd oddi arnaf. Cynnygier i mi unrhyw beth o'r llyfr hwn, a gofyner a wyf yn ei gredu, ai peidio; a bydded iddo ymddangos mor anamgyffredadwy ag yr ymddangoso, mi a'i cydnabyddaf â'm llaw, ac â'm calon, gan wybod nas gall un prawf cadarnach fod na hyn:—*Felly y dywedodd Duw, am hyny y mae yn wirionedd.* Mewn pethau ereill, ni bydd i mi gymmeryd rhyddid un dyn i farnu oddi arno, ac ni chaiff un dyn gymmeryd fy rhyddid innau. Ni feddyliaf fod neb yn waeth dyn, nac yn waeth Cristion; ac ni bydd i mi garu neb yn llai am fod ei farn yn wahanol i mi; ac â pha fesur y mesurwyf i ereill, yr wyf yn dysgwyl iddynt hwythau fesur i minnau. Yr ydwyf yn berffaith sicr nad yw Duw yn gofyn, ac am hyny ni ddylai dynion ofyn, mwy na hyn:—credu fod yr Ysgrythyrau yn air Duw; ymdrechu canfod eu gwir ystyr; ac ymddwyn yn ol eu cyfarwyddyd yn mhob peth."—*Chillingworth's Relig. of Prot.*, vi. adr. 56.

Yr ydym oll yn dal yr egwyddor yma—mai y Testament Newydd yn unig ydyw llyfr cyfraith teyrnas Crist—yn afaelgar; ac nid ydym yn foddlawn i ollwng ein gafael o honi gyda golwg ar unrhyw bwnc. Yn y llyfr hwn y mae cyfansoddiad y deyrnas ysbrydol i'w ganfod. Yno, gan hyny, y mae i ni chwilio am y cyfansoddiad hwnw.

Y mae rhai Cristionogion yn tybied, fel y sylwa Dwight, fod Duw, a hyny yn fwriadol, wedi gadael pwnc llywodraeth yr eglwys heb ei egluro ond o ran yn unig yn y Testament Newydd—llyfr cyfraith yr eglwys. Pa beth bynag arall oedd yn angenrheidiol tuag at wneyd y drefn yn gyflawn, y maent yn meddwl ei fod ef wedi ei adael i gael ei gyflawnu gan ddoethineb Cristionogion, fel y gallai amgylchiadau a chyfleusderau yr eglwys, mewn gwahanol oesau a gwledydd, ei ofyn. Hyd yn oed pe caniateid fod y dyfaliad yma yn gywir, yr hyn nis gellir ei ganiatau—er hyny, yr hyn sydd yn meddu awdurdod a rhwymedigaeth arnom ni ydyw y drefn eglwysig hono sydd yn yr Ysgrythyrau yn unig, ïe, pe buasai yn anorphenol; ac nis gallai yr hyn a ddygid i mewn i'r drefn gan ddynion fod yn rhwymedig ar gydwybod un Cristion—dim amgen na chynghor neu annogaeth ddynol.

Yn awr, fe addefir ar bob llaw, fel y tybir, fod y drefn eglwysig sydd yn y Testament Newydd, wedi ei dadguddio yno, naill ai yn *gyflawn* neu *mewn rhan.* Os ydyw y drefn hon wedi ei dadguddio yno yn gyflawn, yna, gallwn ei chanfod oll yn y Testament Newydd, ac nis dichon fod angenrheidrwydd i ni chwilio am dani mewn un man arall. Os mewn rhan y dadguddiwyd y drefn yno, yna rhaid fod dadguddiad rhanol yn ddigonol; a'r rhan hon ydyw y cwbl sydd yn meddu, neu a all feddu, unrhyw awdurdod i rwymo cydwybodau dynion. Pa chwanegiadau bynag at hyny—fel y sylwyd ar bwnc arall yn y gwaith hwn—a pha mor ddoeth neu angenrheidiol bynag y gwnaethpwyd y cyfryw chwanegiadau gan ddynion, nis gallant hòni yr awdurdod neu y rhwymedigaeth leiaf ar gydwybodau Cristionogion. Ofer yw dywedyd yn ngwyneb hyn fod yr eglwys wedi ei gadael yn ben-agored a diamddiffyn rhag annhrefn. Y mae yr atebiad i'r wrthddadl hon yn amlwg a chyflawn:—gadawyd yr eglwys fel y dewisodd doethineb anfeidrol ei gadael. Ped addefid, yn groes i wirionedd a gweddusder, nad ydyw y sefyllfa y gadawyd yr eglwys ynddi y sefyllfa oreu, er hyny byddai y clwyf heb un feddyginiaeth; canys nis gellir chwanegu at eiriau Duw.

Y mae rhai yn meddwl nas gellir gwybod trefn yr Eglwys Gristionogol fel y dylid ei gwybod, heb fod yn adnabyddus o waith y rhai a elwir "tadau yr eglwys o'r canrifoedd cyntaf." Yr oedd llawer o'r tadau, fel y sylwa Dwight, yn ddynion da, ac yr oedd rhai o honynt yn ddynion doethion. Y mae gwerth yn fynych yn eu tystiolaeth gyda golwg ar ffeithiau. Cynnorthwyant ni ar lawer achlysur i gael allan wir ystyr geiriau ac ymadroddion Ysgrythyrol. Yr oedd rhai o honynt hefyd yn esamplau nodedig o dduwioldeb. Ond y mae eu hopiniynau, eu barnau, a'u gosodiadau yn gwbl amddifad o awdurdod; a safant ar yr un tir yn hollol, gyda golwg ar hyny, ag y saif dynion ereill yn awr, a fyddont yn meddu yr un cymmeriad. Pe gellid cael sicrwydd o awdurdodaeth (*authenticity*) epistolau lleiaf Ignatius; neu, pe buasai ei lawysgrif ddiammheuol ef ei hun yn ein meddiant, ni ddylid ystyried yr holl osodiadau a'r gorchymynion a gynnwysant, oddigerth y rhai a ddyfyna o'r Ysgrythyrau, yn ddim amgen na'i gynghorion neu ei hyfforddiadau ef ei hun.

Y mae gwaith y tadau yn awr yn gyrhaeddadwy i bawb sydd yn deall Seisoneg; a chan yr ymddengys mai eu tystiolaeth hwy ydyw y brif sylfaen ar ba un y pwysa pleidwyr esgobion taleithiol (*diocesan bishops*), dichon fod o beth pwys i ni wneyd ymchwiliad byr i deilyngdod eu tystiolaeth.

Un peth a ellir ei ddywedyd yn ddibetrus am dystiolaeth y tadau ydyw, nas gall roddi dim awdurdod ddwyfol i unrhyw sefydliad. Nid yw y tadau ond tystion dynol, ac ni ddylid edrych arnynt gyda dim mwy o ymddiried na rhyw dystion dynol ereill, a fyddont yr un mor gredadwy. Y mae "pob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb" wedi ei roddi i ni yn yr Ysgrythyrau (2 *Pedr* i. 3). Nis gall tystiolaeth y tadau gan hyny, chwanegu dim at yr hyn a gynnwys yr Ysgrythyrau: nis gall achosi rhoddi dim heibio, na newid dim.

Eto, y mae tystiolaeth y tadau yn mhell o fod yn deilwng o'r gred a roddir iddi weithiau gan ddynion enwog.

Un peth sydd yn lleihau gwerth eu tystiolaeth yw, fod y rhai a dystiolaethant ar y pwnc yma wedi rhoddi tystiolaeth gyfeiliornus am bethau ereill. Y mae Irenæus yn tystio mai Linus a wnaed yn esgob Rhufain gan Paul a Phedr; ac Anacletus ar ei ol ef; a Chlement ar ei ol yntau. Tystiolaetha Tertullian mai Clement oedd esgob cyntaf Rhufain, ar ol Pedr. Y mae Eusebius yn dadgan mai Linus oedd esgob cyntaf Rhufain, ar ol Paul a Phedr; drachefn, mai Pedr oedd esgob cyntaf Antioch; drachefn, mai Euodius oedd esgob cyntaf Antioch. Mynega Jerome yn bendant fod Pedr wedi eistedd yn Rhufain am bum mlynedd ar ugain, hyd y flwyddyn olaf i Nero; ac eto, mai Ignatius oedd trydydd esgob Antioch ar ol yr apostol Pedr. Y mae Damascus, esgob

Rhufain, yn sicrhau fod Pedr wedi dyfod i Rufain yn nechreu teyrnasiad Nero; ac wedi eistedd yn y gadair esgobol yno am bum mlynedd ar ugain. Ond ni theyrnasodd Nero ond pedair blynedd ar ddeg; ac, yn ol tystiolaeth unfryd hynafiaeth, efe a roddodd Pedr i farwolaeth. Dywed Origen ei fod ef wedi darllen yn ngwaith merthyr mai Ignatius oedd ail esgob Antioch ar ol Pedr. Y mae Epiphanius yn dadgan fod Paul a Phedr yn esgobion Rhufain ar yr un pryd, o angenrheidrwydd; canys yr oedd y ddau yn cydoesi.

Y mae yr esamplau hyn yn profi fod y tadau, pa mor ddiffuant bynag oeddynt, a pha mor foddhaol bynag ydyw eu tystiolaeth am ffeithiau oedd yn cymmeryd lle ger bron eu llygaid, yn derbyn hanesion traddodiadol heb ymchwilio i'w cywirdeb a'u cyssondeb; a'u bod yn credu ac yn cofnodi llawer o bethau a ddygwyddasant cyn eu hamser hwy, heb fod ganddynt ddim seiliau iddynt, na dim prawf o'u gwirionedd.

Drachefn: y mae cyfansoddiadau lluaws o'r tadau, os nad pob un o honynt, wedi eu ffugio, eu llygru, ac mewn rhan wedi eu colli. O barth i Epistolau Ignatius, y rhai yr appelir atynt yn arbenig gyda golwg ar y ddadl hon, am esgobion, dywed Mosheim ei fod ef yn ystyried "awdurdodaeth yr Epistol at Polycarp yn dra ammheus;" ac y mae yn dadgan fod "ei holl epistolau yn orchuddiedig dan y tywyllwch mwyaf, ac yn llwythog gan lawer o anhawsderau." Nid ydyw yn ddiogel, gan hyny, ymddiried i benderfyniad pethau mor ansicr, yn ddiammheu, ar unrhyw bwnc o bwys, heb fod genym rhyw dystiolaeth amgenach o'i blaid.

Pa fodd bynag, nid ydyw tystiolaeth y tadau yn gyffredinol, cyn belled ag y mae o werth, yn pleidio esgobion taleithiol ac arglwyddaidd, fel y ceir gweled eto yn achlysurol. Ond nis gallwn ni appelio at ddim, na neb, fel awdurdod, ond at lyfr cyfraith yr eglwys yn unig—y Testament Newydd: nid appeliwn at ddim o'i flaen, at ddim gydag ef, nac at ddim ar ei ol. Yr ydym yn rhwym wrth yr hyn oll sydd yn hwnw; ac nid ydym yn rhwym wrth ddim nad ydyw ynddo. O blegid hyn, yr ydym yn credu fod yn gwbl beryglus i'r eglwys gymmeryd ei harwain gan amgylchiadau a chyfleusderau, gyda golwg ar ei threfn, na'i swyddogion, na dim arall a berthyn iddi. Y mae yn eithaf amlwg a sicr mai cymmeryd ei harwain gan amgylchiadau a chyfleusderau, yn lle gan lyfr cyfraith anffaeledig yr eglwys, a yrodd Eglwys Rhufain, ac eglwysi ereill a ddilynasant ei hesampl, i'r fath bellafoedd oddi wrth y gwirionedd, gyda golwg ar y pwnc hwn, cystal a llawer o bethau ereill, fel y ceir achlysur i ddangos pan ddeuwn at esgobion y cyfryw eglwysi. Os dywedir fod apostolion wedi cymmeryd eu harwain gan amgylchiadau, gyda golwg ar rai trefniadau eglwysig, y mae yr ateb yn barod—yr oeddynt hwy yn anffaeledig; a diammheu fod Rhagluniaeth wedi trefnu ar i bob amgylchiadau angenrheidiol yn nglŷn â'r eglwysi ddygwydd yn eu hoes hwy, fel y gallent gyflwyno i ni gynllun perffaith a chyflawn o drefn eglwys, cystal ag o athrawiaeth ffydd, yn eu hysgrifeniadau anffaeledig. Ni chaniateir i ni fyned gam dros y terfynau a osodasant hwy i ni gyda golwg ar drefn yr eglwys, mwy na'i hathrawiaeth, heb fod yn euog o geisio bod "yn ddoeth uwch law yr hyn a orchymynwyd;" a rhaid cofio mai "y neb sydd ffyddlawn yn y lleiaf, sydd ffyddlawn hefyd mewn llawer; a'r neb sydd anghyfiawn yn y lleiaf, sydd anghyfiawn hefyd mewn llawer;" *Luc* xvi. 10. Ac os na chedwir at lythyren y gyfraith, fel y mae yn y deddflyfr dwyfol, byddwn yn agored i gael ein cyfarch gyda'r cwestiwn—"Pa ham yr ydych chwi yn troseddu gorchymyn Duw trwy eich traddodiad chwi? Fel hyn y gwnaethoch orchymyn Duw yn ddirym trwy eich traddodiad eich hun. Eithr yn ofer y'm hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth;" *Mat.* xv. 3, 6, 9.

Yn awr, fe ganiata Cristionogion yn gyffredinol y dengys y Testament Newydd yn amlwg fod rhyw swyddogion penodol i fod yn eglwys Crist ar y ddaiar. Pa wahaniaeth barn bynag a ddichon fod yn mysg Cristionogion am natur y swyddogion eglwysig a ddynoda y Testament Newydd, nid oes odid neb nad addefant fod y gyfrol sanctaidd wedi sefydlu rhyw fath o swyddogaeth yn yr Eglwys Gristionogol.

Fe addefir hefyd fod yr hyn oll a ddywed y Testament Newydd am y swyddogion hyn o awdurdod ddwyfol; ac nad oes awdurdod o'r fath mewn dim arall, ac o ganlyniad, nas gall dim arall fod yn rhwymedig ar gydwybod Cristionogion.

Y mae yn amlwg fod yr apostolion, ar sefydliad yr eglwysi Cristionogol, yn gosod rhyw bersonau neillduol (y dychweledigion cyntaf at Gristionogaeth, fel y gellir casglu, os byddai eu cymhwysderau ereill yn gymmesur) i arolygu achosion ysbrydol; ac ar achlysuron, achosion tymmorol yr eglwysi: *Act.* xiv. 23; 2 *Tim.* ii. 2. Yr enw a roddir i'r rhai hyn yn y Testament Newydd yw *henuriaid* (πρεσβυτεροι=*presbuteroi*), o blegid eu hoedran. Y mae y gair *presbuteros* neu *presbuteroi* (henuriad neu henuriaid), yn unig neu luosog, yn cael ei ddefnyddio 67 o weithiau yn y Testament Newydd [*Wigram's Greek Concor.*, d.g. πρεσβύτερος]. Yn yr efengylwyr, cymhwysir y gair yn gyffredin at swyddogion yr Iuddewon; canys ymadroddion mynych yn yr efengylwyr ydyw, "henuriaid y bobl," "yr archoffeiriaid a'r henuriaid," &c. Cyfieithir y gair hefyd weithiau yn *hynafiaid;* megys "traddodiad yr *hynafiaid;*" yn y *Datguddiad*, cyfeiria y gair bob amser at y rhai oedd yn eistedd o amgylch gorseddfainc yr Oen. Ond yn yr *Actau* yn gyffredin (yn enwedig o *pen.* xi. hyd ddiwedd y llyfr), ac yn yr epistolau bob amser, defnyddir y gair i arwyddo swyddwyr yn yr Eglwys Gristionogol. Ceir ef yn yr *Actau* a'r epistolau, yn dwyn yr ystyr yma bedair ar bymtheg o weithiau. Pum waith yn unig, fel y dangoswyd ar ddechreu yr erthygl hon, y defnyddir y gair *episcopos* (esgob) yn y Testament Newydd. Mewn un o'r manau hyny (1 *Pedr* ii. 25), cymhwysir yr enw at yr Arglwydd Iesu Grist. Yn y pedwar lle arall, y mae yn dynodi swyddogion eglwysig. Defnyddir y gair *episcopê* unwaith (1 *Tim.* iii. 1) i ddynodi *swydd esgob;* dwywaith (*Luc* xix. 44; 1 *Pedr* ii. 12) i ddynodi *ymweliad;* a defnyddir ef unwaith (*Act.* i. 20) yn gyfystyr â'r gair Hebraeg sydd yn *Salm* cix. 8, i ddynodi *swydd Iudas Iscariot fel apostol. Episcopeo=arolygu* neu *esgobyddu*, a ddefnyddir unwaith (1 *Pedr* v. 2) yn yr ystyr yma; ac unwaith yn *Heb.* xii. 15—lle y cyfieithir ef yn eithaf priodol yn "edrych yn ddyfal." Dyma yr holl fanau y defnyddir y gair *episcopos* (esgob), a phob gair arall sydd yn deilliaw o hono, neu yn dal perthynas âg ef yn y Testament Newydd.

I. Y pwnc cyntaf yr amcenir ei brofi yn awr ydyw, mai yr un personau ydyw esgobion a henuriaid; ac mai yr un ydyw eu swyddau. Can-

Digitized by Google

fyddir hyn yn amlwg yn yr Ysgrythyrau canlynol:—"Ac o Miletus efe (Paul) a anfonodd i Ephesus, ac a alwodd ato *henuriaid* (*presbuterous*) yr eglwys; a phan ddaethant ato, efe a ddywedodd wrthynt, Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn *olygwyr*" (*episcopous=esgobion*): *Act.* xx. 17, 28. Beth, gan hyny, a all fod yn amlycach na bod henuriaid ac esgobion yn enwau cyfystyr yma am yr un personau?

Eto: "Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit *henuriaid* (*presbuterous*) yn mhob dinas megys yr ordeiniais (appwyntiais) i ti. Os yw neb yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlawn, heb gael y gair o fod yn afradlawn, neu yn anufudd: canys rhaid i esgob (*episcopos*) fod yn ddiargyhoedd, fel goruchwyliwr Duw;" *Tit.* i. 5—7. Yn awr, pa fodd y gallai yr apostol ddwyn yn mlaen y rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd fel rheswm dros ethol henuriaid diargyhoedd, pe buasai swydd y ddau yn wahanol? Y gwir yw fod yr holl henuriaid oedd yn eglwys Ephesus (prif ddinas Ionia, yn Asia Leiaf, oedd Ephesus), yn ol tystiolaeth yr apostol Paul, wedi eu "gosod (*etheto*=wedi eu gwneuthur, neu wedi eu happwyntio) yn esgobion (arolygwyr) gan yr Ysbryd Glan." Y mae Paul a Phedr, fel y gwelir yn ebrwydd, yn siarad yr un iaith wrth yr un personau—iaith nad oes iddi, fel y mae yn amlwg, ond un ystyr.

Ysgrifena Pedr fel hyn:—"Yr henuriaid sydd yn eich plith, attolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriad...Porthwch braidd Duw...gan fwrw golwg *arnynt*" (*episcopountes*=gan eu hesgobaethu, gan eu harolygu). Yr oedd yr henuriaid, gan hyny, yn ol Pedr, i weinyddu "swydd esgob"—i "borthi (*poimainô*=i ofalu am) praidd Duw, gan eu harolygu." Yr oedd yr holl henuriaid yr ysgrifenai yr apostol Pedr atynt yn preswylio yn Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia Briodol, a Bithynia—taleithiau yn gwneyd i fyny ddwy ran o dair o'r wlad fawr a elwid Asia Leiaf, yr hon y pryd hyny oedd yn llawn o eglwysi a Christionogion. Yr oedd yr holl henuriaid oedd yn yr holl eglwysi hyn yn cael eu cynghori gan yr apostol i weinyddu *swydd esgob* yn yr eglwysi. Rhaid, gan hyny, fod yr holl *henuriaid* yr ysgrifenai Pedr atynt yn *esgobion*, cyn y buasai yn rhesymol iddo attolygu arnynt gyflawnu dyledswyddau swydd esgob. Nis gellir osgoi y canlyniadau amlwg sydd yn deilliaw oddi wrth yr ysgrythyrau dan sylw.

Drachefn, pan ddaeth rhai o Iudea i Antiochia, gan drallodi yr eglwys oedd yn y ddinas hono, trwy ddysgu fod yn rhaid enwaedu ar y Cenedloedd er iachawdwriaeth, anfonwyd "Paul a Barnabas, a rhai ereill o honynt, i fyny i Ierusalem, at yr apostolion a'r henuriaid, yn nghylch y cwestiwn yma....Ac wedi eu dyfod hwy i Ierusalem, hwy a dderbyniwyd gan yr eglwys, a chan yr apostolion, a chan yr henuriaid; a hwy a fynegasant yr holl bethau a wnaethai Duw gyda hwynt....A'r apostolion a'r henuriaid a ddaethant yn nghyd i edrych am y mater yma." Wedi gorphen yr ymdrafod, dywedir, "y gwelwyd yn dda gan yr apostolion a'r henuriaid, yn nghyd â'r holl eglwys, anfon gwŷr etholedig o honynt eu hunain i Antiochia, gyda Phaul a Barnabas. A hwy a ysgrifenasant gyda hwynt fel hyn; "Yr apostolion, a'r henuriaid, a'r brodyr, at y brodyr y rhai sydd o'r Cenedloedd yn Antiochia, a Syria, a Cilicia, yn anfon anerch;" *Act.* xv. 3, 4, 6, 22, 23.

Gyda golwg ar yr ymadroddion Ysgrythyrol hyn, gellir sylwi fod yr eglwys yn Antiochia wedi anfon ei chenadau i Ierusalem er cael penderfyniad ar y pwnc mwyaf pwysig a gynhyrfai yr eglwys yn ystod y ganrif gyntaf. At yr apostolion a'r henuriaid yn Ierusalem (dan gyfarwyddyd Paul a Barnabas yn ddiau) yr anfonodd yr eglwys yn Antiochia ei chenadau yn nghylch y cwestiwn yma. Pan ddaeth y cenadau hyn i Ierusalem, derbyniwyd hwy gan yr holl eglwys, a chan yr apostolion, a chan yr henuriaid. Cyflwynodd y cenadau eu holl sylwadau ar y "cwestiwn yma" i'r holl eglwys a'i swyddogion, a thrafodwyd y pwnc yn gyhoeddus yn ngŵydd yr holl gorff ymgynnulledig yma. Dechreua Pedr ac Iago eu hareithiau ar yr achlysur â'r cyfarchiad, "Ha wŷr frodyr;" ac y mae yn amlwg fod yr holl eglwys yn cymmeryd rhan yn yr ymdrafodaeth; canys dywedir yn bendant—"A'r holl liaws a ddistawodd, ac a wrandawodd ar Barnabas a Phaul." Anfonodd eglwys Ierusalem "wŷr etholedig" at eglwys Antiochia gyda Barnabas a Phaul, sef "Iudas a Silas, gwŷr rhagorol yn mhlith y brodyr." Cludwyd y genadwri gan y gwŷr hyn i Antiochia, wedi ei hysgrifenu yn enw yr holl eglwys, gan ddechreu fel hyn:—"Yr apostolion, a'r henuriaid, a'r brodyr, at y brodyr y rhai sydd o'r Cenedloedd yn Antiochia,......yn anfon anerch." Penderfynodd eglwys Ierusalem a'i swyddogion y cwestiwn a osodwyd ger eu bron, a chymmeradwywyd eu penderfyniad "gan yr Ysbryd Glân." Iaith yr anerch sydd fel hyn:—"Yn gymmaint a chlywed o honom ni, i rai a aethant allan oddi wrthym ni eich trallodi chwi â geiriau......a dywedyd fod yn rhaid enwaedu arnoch, a chadw y ddeddf, i'r rhai ni roisem ni gyfryw orchymyn. Ni a welsom yn dda, wedi i ni ymgynnull yn gytûn, anfon gwŷr etholedig atoch. ......Ni a anfonasom gan hyny Iudas a Silas... Canys gwelwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân, a chenym ninnau, na ddodid arnoch faich chwaneg na'r pethau angenrheidiol hyn: bod i chwi ymgadw oddi wrth yr hyn a aberthwyd i eilunod," &c. Y mae yr ystyriaeth leiaf yn ddigon i'n harghoeddi fod y cwestiwn mawr yn nghylch enwaediad wedi ei benderfynu yn eglwys Ierusalem, trwy gymmeradwyaeth yr Ysbryd Glân, gan yr apostolion, a chan yr henuriaid, a chan y brodyr. Nid gan yr apostolion; nid gan yr henuriaid; nid gan y naill a'r llall yn nghyd; ac nid gan y brodyr; ond trwy lais unfryd unfarn holl gorff yr eglwys, yn aelodau a swyddogion. Y mae yr iaith a ddyfynwyd eisoes yn gwbl bendant ac anwrthwynebol ar y pwnc. Nid oedd yma esgob, gwahanol i'r henuriaid a'r apostolion, yn y gynnulleidfa hon. Nid oedd Iago yn dwyn y fath swydd yno yn awr, pa fodd bynag y bu yno ar ol hyny. Nid yw yr anerch i Antiochia yn myned ymaith yn ei enw ef, oddi eithr fel apostol ac fel aelod o'r eglwys oedd yn trafod y pwnc; ac nid yn y naill gymmeriad na'r llall, yn ddim pellach nag fel un yn meddu un bleidlais yn mhenderfyniad cyfarfod yr eglwys. A chan na chrybwyllir am y fath esgob neu esgobion mewn un rhan o'r drafodaeth, mae yn anmhosibl fod unrhyw berson yn yr eglwys yn meddu awdurdod esgobyddol, yn ol ystyr breladaidd diweddar y gair. Yr oedd yr eglwys hon yn Ierusalem wedi bod er ys pymtheng neu un ar bymtheg o flyneddoedd erbyn hyn; ac yr oedd wedi bod am o ddeutu deuddeng mlynedd yr unig Eglwys Gristionogol oedd yn y byd. Gellid tybied, gan hyny, y rhaid fod hon wedi ei sefydlu yn ol y wir drefn Gristionogol briodol.

Digitized by Google

Mynegir yn bendant fod ynddi henuriaid; ac yr oedd hefyd dan olygiad digyfrwng yr apostolion. Pe buasai esgobion preladaidd neu daleithiol yn rhan o'r drefn Gristionogol, y mae yn anhawdd dyfalu pa ham na buasai y fath esgob wedi ei sefydlu cyn yr amser yma yn Ierusalem. Nid oedd y fath esgob chwaith yn yr eglwys yn Antiochia, nac yn eglwysi Syria na Cilicia. Y *brodyr* yn eglwys Antiochia a anfonasant y cenadau. Cyfeiriwyd y llythyr hefyd *at y brodyr* oedd yn Antiochia, Syria, a Cilicia. Ymddengys, gan hyny, yn amlwg nad oedd un esgob uwchraddol, nac esgobion o fath yn y byd, gwahanol i'r henuriaid, yn yr eglwysi Cristionogol, ar yr amser yma.

Heb law hyn, nid yw hyd yn oed tystiolaeth y tadau yn profi fod gwahaniaeth rhwng esgob a henuriad. Y mae hyd yn oed tystiolaeth Ignatius, pe yr addefid ei bod yn ddiffuant, yn ofer i brofi fod gwahaniaeth rhwng esgob a henadur. Y mae yn amlwg wrth eiriau Ignatius ei hun nad oedd yr esgob y llefara efe am dano, ond henuriad neu fugail un eglwys yn unig. Y mae yn annog Polycarp i bregethu; i edrych nad esgeuluser y gwragedd gweddwon; i adnabod ei holl blwyfolion, hyd yn oed y gweision a'r morwynion; ac i arolygu o leiaf yn mhob priodas. Yn ei epistol at eglwys Magnesia, llefara am esgobion yr eglwys hono yn y rhif luosog.

Y mae Clement o Rufain yn defnyddio y geiriau *henadur* ac *esgob* i ddynodi yr un swyddog.

Dywed Polycarp yn ei Epistol at y Philippiaid, "Bydded yr henuriaid yn llawn o dduwioldeb; ac yn drugarog wrth bawb, gan ddwyn yn ol y rhai a änt ar ddisperod." Yr oedd Polycarp gan hyny yn ystyried y dylasai henuriaid eglwys Philippi gyflawnu swydd esgob. A'r hyn sydd hynotach fyth—tra na soniai Paul ddim am henuriaid eglwys Philippi, ond yr esgobion, ni sonia Polycarp ddim am yr esgobion, ond am yr henuriaid; yr hyn sydd yn myned yn mhell i brofi mai yr un rhai oedd esgobion a henuriaid eglwys Philippi, fel rhai Ephesus a Creta, gan nad oedd ond 64 mlynedd rhwng amser Polycarp a'r apostol Paul.

Irenæus, wrth gyfarch hereticiaid ei oes, a ddywed, "Yr ydym yn eu herio i ddangos y traddodiad hwnw, a drosglwyddwyd oddi wrth yr apostolion trwy olyniad o henuriaid." A thrachefn: "Mae yn perthyn i ni wrandaw ar y rhai sydd yn henuriaid yn yr eglwys; y rhai, fel y dangosasom, sydd yn meddu eu holyniad oddi wrth yr apostolion; y rhai, yn nghyd â'r olyniad esgobyddol, a dderbyniasant ddawn y gwirionedd."

Yr esgob Stillingfleet, wrth sylwi ar yr ymadrodd yma, a ddywed, "Y fath ddyrysweh dyeithr a gyfyd hyn, o angenrheidrwydd, yn meddwl dyn am olyniad o awdurdod esgobyddol, uwch law yr henuriaid, oddi wrth yr apostolion, pan y mae efe mor amlwg yn priodoli y ddau olyniad i'r henuriaid a'r esgobion hefyd, am y rhai y llefara.

Tertullian eto, wrth draethu am drefniadau addoliad cyhoeddus a llywodraeth yr eglwys, a ddywed, "Yn y rhai hyn oll, rhyw henuriaid cymmeradwy sydd i lywyddu."

Firmilian, esgob Cesarea, a ddywed, "fod yr henuriaid wedi eu cynnysgaethu âg awdurdod i fedyddio, i arddodi dwylaw, ac i ordeinio."

Eto, cydnabyddir mai yr un personau ydoedd henuriaid ac esgobion yr eglwysi cyntefig, hyd yn oed yn y bedwaredd ganrif, gan Jerome [*Com. in Tit.* i. 7; *Ep.* 82, *Ad. Oceanum*, *Ep.* 84, *Ad. Evagr.*, ac *Ep.* 146, *Ad. Evangelum*]: gan Ambrosiaster neu Hilary o Rufain [*Com. in* 1 *Tim.* iii. ac *Eph.* iv. 11]; hefyd, i ryw raddau, gan y *Constitutiones Apostolicæ* (llyfr iii. pen. 11): o ran sylwedd gan Chrysostom hefyd [*Hom.* i. *in Philipp.* i. 1]; a hefyd gan Theodoret [ar *Philipp.* i. 1, a 1 *Tim.* iii].

At y rhai hyn, chwanegaf dystiolaethau ychydig o haneswyr eglwysig diweddar o enwogrwydd. Mosheim a ddywed, "Yn y ganrif gyntaf, yr oedd llywyddion yr eglwys yn cael eu galw yn henuriaid neu esgobion—enwau a gymhwysir yn y Testament Newydd yn ddiammheuol at yr un gradd o ddynion."

Neander hefyd a ddywed ar y pwnc fel hyn:—"Fod yr enw *episcopoi*, neu esgobion, yn gwbl gyfystyr â'r enw *presbuteroi*, neu henuriaid, sydd hollol amlwg oddi wrth yr ymadroddion hyny o'r Ysgrythyr lle y defnyddir y ddau air yn gyfystyr (yma, cyfeiria at yr Ysgrythyrau a nodwyd eisoes); ac oddi wrth y rhai sydd yn enwi swydd diacon yn ddigyfrwng ar ol swydd esgob, gan nas gallai trydedd swydd fod rhwng y ddwy swydd eglwysig hyn (*Phil.* i. 1; 1 *Tim.* iii. 1, 8). Y mae defnyddiad cydgyfnewidiol y ddau air hyn (esgob a henuriaid) yn dangos eu bod yn berffaith gyfystyr. Hyd yn oed pe na buasai y gair *esgob* yn ddim mwy o'r dechreu na theitl gwahanredol llywydd yr eglwys, eto, hyd yn oed yn yr amgylchiad yma, buasai y fath gydgyfnewidiad yn hollol anoddefadwy. Hefyd, yn y llythyr a ysgrifena Clement (*pen.* xlii.), dysgybl Paul, yn enw yr eglwys oedd yn Rhufain, y mae y diaconiaid yn cael eu henwi yn ddigyfrwng ar ol yr esgobion, megys swyddogion llywyddol y cymdeithasau." Cyffelyb hefyd yw tystiolaeth Guericke, ac amryw ysgrifenwyr enwog ereill y gellid eu nodi.

Rheswm arall a ddygir yn mlaen dros fod gwahaniaeth rhwng esgob a henuriad, a thros fod y blaenaf yn meddu awdurdod ar yr olaf, ac ar bob swyddogion eglwysig ereill, ydyw, nodweddiad a chommissiwn Timotheus a Thitus, megys yr amlygir hwy yn yr epistolau a gyfeiriwyd atynt gan yr apostol Paul. Dywedir fod "Timotheus yn esgob Ephesus, ac yn esgob Creta; a bod Paul wedi eu cyfarwyddo fel y cyfryw, i ordeinio henuriaid neu bresbyteriaid yn eglwysi Ephesus a Chreta."

Yn ateb i'r haeriad yma, gellir dywedyd yn bendant nas gellir profi fod Timotheus wedi bod yn esgob Ephesus, na Titus yn esgob Creta, mewn unrhyw ystyr—llawer llai yn yr ystyr breladaidd neu daleithiol o'r gair *esgob*. Nid yw yr Ysgrythyrau yn dyweyd hyn mewn un man, nac mewn un modd. Mae Whitby, yr hwn oedd yn amddiffynwr gwresog i esgobyddiaeth, yn dadgan nas gall efe "ganfod dim mewn unrhyw ysgrifenydd o'r tair canrif gyntaf am esgobyddiaeth Timotheus na Thitus, nac unrhyw awgrymiad eu bod yn dwyn yr enw hwnw mewn un modd." Mewn gwirionedd, mae y Dr. Whitby yn rhoddi y ddadl i fyny yn hollol, fel un anamddiffynadwy.

Y mae yn sicr mai efengylwr oedd Timotheus; a nis gallasai fod yn esgob taleithiol yn Ephesus, o leiaf hyd ar ol ysgrifeniad yr ail lythyr ato; o blegid y mae Paul yn ei gyfarwyddo (2 *Tim.* iv. 5) "i wneuthur gwaith efengylwr;" ac yn ei gyfarwyddo hefyd i ddyfod ato ef yn ebrwydd i Rufain: 2 *Tim.* iv. 9, 21. Pregethwr neu genadwr teithiol oedd efengylwr, fel y mae yn ddigon hysbys, ac nis gallasai fod yn esgob taleithiol; gorchwyl yr hwn yw llywodraethu, ac aros gan

Digitized by Google

hyny yn ei esgobaeth ei hun. Heb law hyn, yr oedd esgobion ereill yn Ephesus pan yr ysgrifenwyd yr Epistol Cyntaf at Timotheus, sef y rhai y danfonodd Paul am danynt i Miletus: *Act.* xx. 17, 28. Y gwirionedd nas gellir ei wadu ydyw, fod Paul wedi gadael Timotheus yn Ephesus gydag awdur lod anghyffredin, fel pregethwr neu efengylwr ysbrydoledig ac enwog, fel y gallai "rybuddio rhai na ddysgont ddim amgen" (na'r athrawiaeth y dysgwyd ef ynddi gan yr apostol); "ac na ddaliont ar chwedlau, ac achau anorphen." Pan orphenodd y gorchwyl yma, a phethau ereill oedd mewn cyssylltiad naturiol â hyny, efe a ddychwelodd at yr apostol Paul, yn ol ei gyfarwyddyd. Y mae yr hyn sydd wir am Timotheus yr un mor wir am Titus. Nid arosodd Titus yn Creta ond am amser byr, cyn dychwelyd at Paul i Nicapolis (*Tit.* iii. 12). Wedi hyny, anfonwyd ef i Corinth; ac ar ol hyny, ceir ef gyda'r apostolion yn Rhufain; a'r hanes diweddaf a geir am dano ydyw, ei fod wedi myned i Dalmatia: 2 *Tim.* iv. 10. Gan hyny, ni bu Titus erioed, cyn belled ag yr ymddengys, yn sefydlog yn Creta; o leiaf nid oedd felly yn yr amser a nodir yn yr epistol; ac nid oes dim wedi ei hysbysu ar y pwnc ond a geir yn yr epistol.

Hyd yn oed ped addefid fod Timotheus a Titus yn esgobion, ac wedi ymsefydlu yn Ephesus a Chreta, nis gellir dangos fod ganddynt unrhyw awdurdod nad oedd yr esgobion neu yr henuriaid ereill oedd yn y lleoedd hyny yn ei meddiannu, oddi gerth yr hyn a ddeilliai oddi wrth y commissiwn yma a roddid iddynt gan Paul; ac oddigerth nad oeddynt yn rhagori mewn doethineb, duwioldeb, ac ysbrydolrwydd. Hyd oni ddangoser yn wahanol, nis gall y ddadl yma ateb dim dyben er profi fod Timotheus a Thitus yn esgobion gwahanol ac uwchraddol i esgobion neu henuriaid ereill; ac nis gellir dangos yn wahanol.

Seilir dadl arall o blaid uwchafiaeth esgobyddol ar yr henuriaid, ar yr ail a'r drydedd bennod o'r Dadguddiad. Yma cyfeirir pob un o saith llythyr Crist at saith eglwys Asia, "at angel yr eglwys," a nodir yn mhob un o'r llythyrau. Yn awr, dywedir fod "yr angel" yn dynodi esgob, oedd yn uwch na swyddogion ereill yr eglwys o ran awdurdod. Yn mysg yr epistolau hyn, cyfeirid y cyntaf "at angel yr eglwys oedd yn Ephesus." Am hyny, haerir fod un swyddog yn eglwys Ephesus, ac o ganlyniad yn mhob un o'r eglwysi ereill a nodir, oedd yn uwch na'i gydswyddogion; neu, mewn iaith briodol, oedd yn esgob taleithiol.

Yn awr, er caniatau pob peth a'r a ellir yn rhesymol ei ganiatau i'r hòniad yma, rhaid i ni ddadgan fod sail yr ymresymiad yn rhy wan ac ansicr i adeiladu arno un casgliad neu benderfyniad. Y mae y gair *angel*, ystyr yr hwn yw *cenad* neu *un anfonedig*, yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn y Dadguddiad i ddynodi llawer; ac ymddengys yn amlwg mai felly y defnyddir ef yn yr epistolau hyn; o blegid mewn tri o'r epistolau yma, tröir y rhagenw unigol *ti*, i'r lluosog *chwi*. Yn yr epistol "at angel yr eglwys sydd yn Smyrna," dywedir, "Nac ofna ddim o'r pethau yr ydwyt i'w dyoddef. Wele, y cythraul a fwrw rai o honoch chwi i garchar, fel y'ch profer, a chwi a gewch gystudd ddeng niwrnod;" *Dad.* ii. 10. Wrth "angel yr eglwys sydd yn Pergamus" hefyd, dywedir, "Mi a adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt yn trigo; sef lle mae gorseddfainc Satan: ac yr wyt yn dal fy enw i, ac ni wedaist fy ffydd i; ïe, yn y dyddiau y bu Antipas yn ferthyr ffyddlawn i mi, yr hwn a laddwyd yn eich plith chwi, lle y mae Satan yn trigo;" *adn.* 13. Ac at angel yr eglwys sydd yn Thyatira, y mae Mab Duw yn dywedyd, "Eithr wrthych chwi yr wyf yn dywedyd, ac wrth y lleill yn Thyatira, y sawl nid oes ganddynt y ddysgeidiaeth hon, a'r rhai ni adnabuant ddyfnderau Satan, fel y dywedir; ni fwriaf arnoch faich arall. Eithr yr hyn sydd genych, deliwch hyd oni ddelwyf;" *adn.* 24, 25. Os addefir hyn, a gŵyr pawb nas gellir ei wadu, fe syrth yr haeriad fod yn eglwysi Asia esgob taleithiol, nac esgob o fath yn y byd, gwahanol i'r henuriaid, i'r llawr.

Heb law hyn, defnyddir y gair *angel*, yn unig neu luosog, yn y Testament Newydd, o gylch 194 o weithiau; ond nid ydyw mewn un man yn arwyddo esgob neu henuriad eglwysig. Y mae yr enw, gan mwyaf o lawer, yn arwyddo yr "ysbrydion gwasanaethgar" a anfonai Duw o'r nef, yn genadon ar negeseuau pwysig at ddynion; megys yr angel a anfonwyd at Mair, at Zechariah, at fugeiliaid Bethlehem, at Ioseph, at Pedr, at Cornelius, &c.; ac y mae cenadon Satan weithiau yn cael eu galw yn angelion yn y Testament Newydd. Mewn saith o fanau cyfieithir y gair yn *genad* neu *genadau*. Mewn tri o'r manau hyny, cymhwysir y gair at Ioan Fedyddiwr—y genad a anfonwyd o flaen wyneb y Messïah, i barotoi y ffordd o'i flaen ef; sef yn *Mat.* xi. 10; *Marc* i. 2; a *Luc* vi. 27. Yn *adn.* 24 o'r un bennod, gelwir y ddau ddysgybl a anfonodd Ioan Fedyddiwr at yr Iesu, i ofyn "Ai ti yw yr hwn sydd yn dyfod ai un arall yr ym yn ei ddysgwyl?" (*adn.* 19) yn *angelion*, a gyfieithir yn ein Beiblau ni yn *genadau*. Hefyd, yn *Luc* ix. 52, mae y rhai a anfonodd yr Iesu o flaen ei wyneb i dref y Samariaid, i barotoi iddo ef, yn cael eu galw yn angelion, a gyfieithir genym ni yn genadau. Y mae y swmbwl a roddwyd yn nghnawd yr apostol Paul hefyd, fel nas tra dyrchefid ef gan odidowgrwydd y dadguddiedigaethau a roddwyd iddo, yn cael ei alw yn angel Satan—"cenad Satan" yn ein cyfieithiad ni: 2 *Cor.* xii. 7. Y mae Iago (v. 25) hefyd yn galw y ddau ŵr a anfonodd Iosuah mab Nun o Sittim (*Ios.* ii. 1), i edrych ansawdd Gwlad Canaan, ac a guddiasai Rahab y butain mewn bolldeidiau llin (*adn.* 6), yn angelion, ac a gyfieithir genym yn genadau. Yn mhob man arall o'r 194 o weithiau y ceir y gair yn y Testament Newydd, angel neu angelion ydyw y gair yn y Testament Cymraeg; a gallwn ddywedyd yn hyf nad ydyw yn cael ei gymhwyso mewn un man at esgob neu henuriad eglwys, fel y cyfryw. Yn yr ystyr o genad ar ryw neges neillduol, ac nid fel cenad yr efengyl, y mae y gair yn cael ei arfer yn wastad yn y Testament Newydd, ac yn wir, yn yr Hen hefyd; ac os deallir yr ail a'r drydedd bennod o'r Dadguddiad yn llythyrenol, mae yn sier mai cenadau ydoedd "angylion" eglwysi Asia, wedi eu dewis gan yr eglwysi, fel yr oeddys yn arfer ar achlysuron penodol (2 *Cor.* viii. 19, 23), i gario y llythyrau oddi wrth Ioan at yr eglwysi: dichon eu bod yn henuriaid neu esgobion yr eglwys, a dichon yn hawdd nad oeddynt. Ond tebycach o lawer ydyw mai mewn ystyr arwyddluniol a phrophwydol y dylid ystyried yr angelion (cenadau) hyn, a'r saith eglwys fel y dylid ystyried holl Lyfr y Dadguddiad: yna arwyddai y cenadau hyn holl swyddogion yr eglwysi Cristionogol, ac arwyddai y saith eglwys (yn y rhai nid oedd dim gwahanol i lawer o eglwysi ereill yn amser Ioan) holl eglwysi Crist

Digitized by Google

y pryd hyny, a hyd ddiwedd amser. Gan hyny, nid yw yr angelion dan sylw yn dwyn dim perthynas â'r pwnc.

Ond pe cydnabyddid mai un esgob oedd yn mhob un o saith eglwys Asia ar ddiwedd y ganrif gyntaf, pan ysgrifenai Ioan ei lythyrau atynt, ni phrofai hyny ddim mai felly y dylai eglwysi fod; canys y mae yn sicr fod amryw henuriaid yn eglwys Ephesus (un o'r saith) pan oedd yr eglwys dan gyfarwyddyd uniongyrchol ac anffaeledig yr apostol Paul; ac yr oedd y rhai hyny oll wedi eu gosod yn esgobion ar yr eglwys gan yr Ysbryd Glân (*Act.* xx. 17, 28). Yr oedd hyn gan hyny yn sefydliad o eiddo Duw ei hun. Am hyny, os oedd eglwys Ephesus y pryd hyn (tua diwedd y ganrif gyntaf), naill ai yn wirfoddol, neu o ryw angenrheidrwydd, wedi newid y sefydliad hwn, yr oedd wedi newid y sefydliad dwyfol—ffaith nas dichon fod yn bleidiol i amddiffynwyr esgob fel swyddog gwahanol i henuriad.

Dadl arall o blaid uchafiaeth esgobion ar henuriaid ydyw, "fod olyniad didor o esgobion wedi bod, oddi wrth yr apostolion hyd yn bresennol—fel yr oedd apostolion wedi derbyn eu hawdurdod oddi wrth Grist, felly fod yr esgobion cyntaf wedi derbyn eu hawdurdod oddi wrth yr apostolion; ac felly fod pob olyniad o esgobion wedi derbyn eu hawdurdod hwythau oddi wrth y rhai a'u rhagflaenent. Yn y dull yma yn unig, meddir, y mae yr awdurdod esgobyddol, cystal a'r swyddogion, yn meddu hanfod briodol a chyfreithlawn y dydd heddyw."

Pe buasai y ddadl yma yn cael ei dwyn yn mlaen yn awr am y tro cyntaf, gallesid tybied yn rhesymol fod yr awdwr o honi yn cellwair â'i wrthwynebydd; canys, yn un peth, y mae yn sicr mai dychychymygol yn unig ydyw yr olyniad dan sylw, ac nas gellir byth ei brofi. Y mae Irenæus yn dadgan fod yr olyniad a'r esgobaeth hefyd wedi disgyn hyd ei amser ef (B. A. 184) trwy gyfres o henuriaid—ac nid esgobion. Yn ol tystiolaeth y gŵr hwn (y tyst goreu ar y pwnc dan sylw), presbyteraidd yn unig, ac nid esgobyddol, ydyw yr awdurdod sydd gan swyddogion yr eglwysi Cristionogol.

Heb law hyn, rhaid i'r henuriaid a'r esgobion olrhain yr olyniaeth, os olrheiniant hi o gwbl, trwy Eglwys Rhufain. Fe fu pedwar o babau un amser ar unwaith yn yr eglwys hon; ac yr oedd pob un o honynt yn condemnio eu gilydd fel trawsfeddiannwyr. Mae yn bwnc anhawdd penderfynu trwy ba un o'r pedwar hyn y llifodd yr awdurdod esgobyddol hyd atom ni! Gellir profi hefyd, trwy yr awdurdodau hanesyddol mwyaf credadwy, fod llofruddion, lladron, puteiniaid, a'r anffyddeliaid mwyaf anystyriol ac annuwiol wedi bod yn babau Rhufain laweroedd o weithiau; a gwaeth fyth, pe b'ai fodd, fe fu putain unwaith yn bab Rhufain, dan yr enw Ioan VIII, neu Siwan. Merch ydoedd y pab yma i genadwr Seisonig; yr hon, ar y cyntaf, a ddiangodd oddi wrth ei rhieni, ac a aeth mewn dillad mab i astudio i fonachlog, lle y syrthiodd mewn cariad â mynach o'r enw Fulda. Diangodd y ddau oddi yno, ac ymsefydlasant yn Athen, lle y buont yn astudio yn ddiwyd, ac yn cydfyw mewn anlladrwydd. Bu farw y mynach, ac aeth hithau—mewn dillad mab fyth—i Rufain, lle y sefydlodd ysgol a ddaeth i fri mawr; ac ar farwolaeth Leo IV, etholwyd hi yn unfryd i fod yn bab yr eglwys! Llanwodd y gadair Babaidd yn llwyddiannus am tua dwy flynedd, pan ddaeth y dirgelwch i'r amlwg yn ddisymmwth. Mewn gorymdaith, pan yn cerdded o flaen ei chardinaliaid, mewn rhwysg ac urddas anghyffredin, daeth ei gwewyr arni yn y fan, ac esgorodd ar fab yn nghanol yr heol—a dywedir iddi hi a'i gordderchfab gael eu gadael yno i drengu! Tybir y bydd pob dyn o bwyll a duwioldeb yn hwyrfrydig i gredu fod awdurdod ddwyfol o unrhyw natur wedi diferu o ddwylaw, mor lawn o waed a phob aflendid, i benau neb o'u holynwyr y bu eu dwylaw halogedig arnynt. Y gwir yw, fod yr un grym yn yr hyn oll a ellir ei ddadleu ar y pwnc yma o blaid henuriaid ag sydd o blaid esgobion; canys, mewn gwirionedd, y ddwy swydd hyn, fel y dangoswyd yn helaeth—un ydynt.

Mae dadl arall hefyd, a ddygwyd yn fynych o blaid uchafiaeth esgob ar yr henuriad; sef, fod yr Eglwys Iuddewig yn cynnwys archoffeiriad, offeiriaid cyffredin, a Lefiaid; a'i bod yn gysgod o'r Eglwys Gristionogol. Gan hyny, penderfynir y dylai yr Eglwys Gristionogol gynnwys tair gradd o swyddogion—esgob, offeiriaid (henuriaid), a diaconiaid. Gan nad ydyw y Testament Newydd—llyfr cyfraith eglwys Crist—yn rhoddi un awgrym o'r natur yma, ofer fyddai treulio amser i wrthwynebu syniad mor ddisail. Pa fodd bynag, gellir sylwi yn fyr wrth fyned heibio fod yr Eglwys Gristionogol yn cynnwys y tair gradd y dadleuir o'u plaid, heb esgobion taleithiol, nac esgobion o fath yn y byd, gwahanol i'r henuriaid: Crist ydyw archoffeiriad mawr ein cyffes ni, yn lle Aaron; cyfateb yr henuriaid neu yr esgobion i'r offeiriaid cyffredin; a chyfetyb y diaconiaid i'r Lefiaid.

Yn awr, tybiwn ein bod wedi gosod i lawr y ddadl yn deg, drwy yr hon y ffurfir, hyd yn oed trwy awdurdod y tadau a haneswyr eglwysig cymmeradwy, cystal a thrwy y Testament Newydd ei hun, mai yr un personau oedd henuriaid ac esgobion, ac mai yr un swydd yn hollol oedd swydd y naill a'r llall yn eglwysi Cristionogol cyntefig y Testament Newydd. Gan hyny, wrth ysgrifenu ar esgobion, yr ydys ar yr un pryd yn ysgrifenu ar henuriaid.

Gwelir hefyd oddi wrth y profion Ysgrythyrol a nodwyd mai dychymyg ddynol, ddiweddar mewn cymhariaeth, ac heb ddim sail Ysgrythyrol iddi, ydyw, fod gwahaniaeth hanfodol rhwng swydd esgob a swydd henuriad—fod y flaenaf yn uwch o ran gradd na'r olaf—a bod pob awdurdod eglwysig wedi ei hymddiried i'w ddwylaw ef.

II. Yr ail bwnc mawr i'w brofi, yn nglŷn â hyn ydyw, mai henuriaid neu esgobion, a diaconiaid neu wasanaethwyr [gwel DIACON], ydyw yr unig ddau ddosbarth o swyddogion a sefydlodd yr apostolion i fod yn barhaus yn yr Eglwys Gristionogol hyd ddiwedd amser; canys pa le bynag y crybwyllir yn yr Ysgrythyrau am swyddogion yr eglwys yn nghyd, ni chrybwyllir byth am fwy na dau ddosbarth.

Yn *Phil.* i. 1, dywedir, "Paul a Thimotheus, gweision Iesu Grist, at yr holl saint yn Nghrist Iesu y rhai sydd yn Philippi, gyda'r esgobion a'r diaconiaid." Nid oes son am henuriaid yn yr eglwys hon wrth eu henwau. Crybwyllir am "y saint, gyda'r esgobion a'r diaconiaid," mewn modd penodol. Pe buasai yn yr eglwys yma henuriaid ar wahân oddi wrth yr esgobion, nis gellir gwybod pa ham y gadawsid hwy allan heb eu crybwyll. Pe yr addefid fod yr henuriaid yn swyddogion is law i'r esgobion, byddai raid cydnabod, er hyny, eu bod uwch law y diaconiaid; ac y mae yn beth rhy ryfedd i'w gredu yn wyneb hyn

Digitized by Google

y buasai y llythyr hwn yn peidio cael ei gyfeirio atynt hwy, pan y mae wedi ei gyfeirio at "y diaconiaid." Buasai pwysfawrogrwydd eu swydd hwy yn yr eglwys yn peri fod yn dra phriodol i gynnwys y llythyr gael ei gyflwyno atynt hwy yn bersonol—yn llawer mwy felly nag iddo ef gael ei gyfeirio at y diaconiaid. Pe buasai wedi ei gyfeirio at esgobion, henuriaid, a diaconiaid, meddyliesid yn ddiau gan amddiffynwyr esgobyddiaeth breladaidd, y buasai yn gwbl benderfynol o blaid tair gradd o swyddi eglwysig. Fel y saif yn awr, a chan nad oes unrhyw ymadrodd arall yn yr Ysgrythyrau yn dyweyd yn wahanol, y mae yr un mor benderfynol nad oes dim ond dwy swydd yn yr Eglwys Gristionogol.

Yn 1 *Tim.* iii. y mae yr apostol Paul yn rhoddi cyfarwyddiadau helaeth i'r cenadwr ieuanc Timotheus yn nghylch cymhwysderau swyddogion eglwysig, ac yn trafod y pwnc yn fanylach ac eangach nag y ceir ef yn un man arall yn y Testament Newydd. Ond ni chanfyddir fod unrhyw swyddogion yn cael eu crybwyll, hyd yn oed yn y lle hwn, heb law esgobion a diaconiaid. Onid yw yn rhyfedd, os oedd swyddog rhwng y ddau, gwahanol i esgob a diacon, ac yn cael ei adnabod wrth yr enw *henadur*, na buasai crybwylliad yma am y fath swyddog? Cydnebydd pawb agos fod nodwedd a dyledswyddau henadur yn fwy pwysig na'r eiddo diacon; eto, dynodir y diacon yma yn fanwl, pan na roddir yr awgrym lleiaf am yr henadur. Gellir sylwi yn mhellach nad ydyw swydd a dyledswyddau henadur, fel person gwahanol i esgob, yn cael eu dangos mewn un man yn y Testament Newydd.

Hefyd, cydnabyddir gan amryw Esgobaethwyr dysgedig, yn esgobion ac ereill, fod yn anmhosibl profi o'r Ysgrythyrau fod mwy na dau ddosbarth o swyddogion yn yr Eglwys Gristionogol. Y mae yr esamplau canlynol o'r cydnabyddiad yma yn ddigon i'r pwrpas ar hyn o bryd. Yn y llyfr enwog hwnw, a elwir *The Institution of a Christian Man*, yr hwn a gymmeradwywyd yn bendant gan yr archesgob Cranmer, a'r esgobion Jewell, Willet, a Stillingfleet, a chan y brenin a'r senedd, dywedir, "Nid oes dim crybwylliad yn y Testament Newydd am unrhyw raddau, ond diaconiaid neu weinidogion, a henuriaid neu esgobion."

Y Dr. Reynolds, proffeswr duwinyddiaeth yn Rhydychain, a ddywed fod "pawb a lafuriasant am y pum can mlynedd o'i flaen ef yn dysgu fod pob bugeiliaid, pa un bynag ai dan yr enwau o esgobion ai henuriaid, yn meddu yr un gallu ac awdurdod yn ol gair Duw."

Polycarp hefyd (B. A. 140), yn ei Epistol at y Philippiaid, a ddywed, "Rhaid i chwi, gan hyny, ymostwng i'r henuriaid a'r diaconiaid."

Y mae hyn mor amlwg yn yr Ysgrythyrau a nodwyd dan y penawd hwn, ac amryw o'r Ysgrythyrau a'r tystiolaethau dan y penawd blaenorol, fel nad oes achos helaethu yn mhellach ar y mater.

III. Dengys yr Ysgrythyrau yn amlwg fod amryw o esgobion neu henuriaid, cystal ag amryw ddiaconiaid, i fod yn mhob eglwys. Profir hyn yn ddiammheuol yn y Testament Newydd, am nad ydyw byth yn crybwyll gymmaint ag unwaith am henuriaid neu esgobion, mewn cyssylltiad âg eglwys neu eglwysi, ond yn y rhif luosog. Canfyddir hyn yn y gwahanol adnodau a ddyfynwyd eisoes, ac mewn amryw ereill. Ni a nodwn rai o honynt er egluro y pwnc yma.

Yn *Act.* xiv. 21, 23, dywedir, "Ac wedi iddynt bregethu yr efengyl i'r ddinas hono (Derbe), ac ennill llawer o ddysgyblion, hwy a ddychwelasant i Lystra, ac Iconium, ac Antiochia; ac wedi iddynt ordeinio (*etethân*=appwyntio) henuriaid yn mhob eglwys," &c. Nid un henuriad, ond amryw, a hyny "yn mhob eglwys."

Gallesid dysgwyl y buasai adnod mor bendant a hon, pe na buasai dim ond hi yn llyfr cyfraith yr eglwys ar y mater, yn ddigon i brofi y dylai "*pob* eglwys" ddewis mwy nag un henadur neu esgob i'w bugeilio a'i phorthi; ond nid ydyw yr adnod hon ond dechreuad cyfres o brofion cyffelyb.

"Ac o Miletus efe a anfonodd i Ephesus, ac a alwodd ato henuriaid (nid un ond nifer lluosog) yr eglwys (yr un eglwys oedd yn y ddinas hono); a phan ddaethant ato, efe a ddywedodd wrthynt, Edrychwch arnoch eich hunain [y rhif lluosog sylwer], ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn esgobion;" *Act.* xx. 17, 28.

Y mae yr ymadroddion pendant hyn yn dangos yn rhy eglur i ofyn unrhyw esboniad, fod amryw o henuriaid yn eglwys Ephesus y pryd hwn; a bod yr Ysbryd Glân wedi gwneuthur (*etheto*=*to constitute*) yr holl henuriaid hyny yn esgobion (arolygwyr) ar yr eglwys hono.

"Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid (amryw eto) yn mhob dinas;" *Tit.* i. 5.

"A oes neb yn eich plith yn glaf? galwed ato henuriaid (lluosogrwydd fyth) yr eglwys" (*Iago* v. 14; cymharer 1 *Pedr* v. 1, 2); sef yr eglwys y dygwyddai i un neu chwaneg o'i haelodau fod yn glaf.

Y manau ereill yn y Testament Newydd y crybwyllir am henuriaid mewn cyssylltiad âg eglwys neu eglwysi, yw y rhai canlynol:—*Act.* xi. 30; xv. 2, 4, 6, 22, 23; xvi. 4; xxi. 18; 1 *Tim.* v. 17; a gwelir eu bod yn lluosog yn mhob un o honynt yn ddieithriad.

Mewn dau fan yn unig yn y Testament Newydd y crybwyllir am esgobion mewn cyssylltiad âg eglwys; ac y maent yn lluosog yn y ddau fan hyny; sef yn *Act.* xx. 28, a fu dan sylw eisoes; ac yn *Phil.* i. 1:—"Paul a Thimotheus, gweision Iesu Grist, at yr holl saint yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn Philippi gyda'r esgobion (lluosog) a'r diaconiaid" (lluosog yr un modd).

Y mae yn achos o ryfeddod pa ham y cymmerodd yr eglwysi Cristionogol hyn fel rheol yn lled fuan ar ol dyddiau yr apostolion, i ethol dim ond un henuriad neu esgob ar "bob eglwys;" ac amryw o ddiaconiaid yn mhob un; pan yr ystyriom fod y Testament Newydd yn dangos tuag ugain o weithiau, fel y profwyd eisoes, fod amryw o henuriaid neu esgobion yn bod yn mhob eglwys; tra nad ydyw yn dangos yn bendant ond unwaith yn unig, fod amryw o ddiaconiaid i fod mewn eglwys, sef yn *Phil.* i. 1—yr adnod a ddyfynwyd olaf genym. Nid mewn cyssylltiad âg eglwys y llefara yr apostol am ddiaconiaid yn 1 *Tim.* iii. 8—13, ond mewn cyssylltiad â'u cymhwysder i'r swydd. Y mae hyn yn rhy amlwg i ofyn am eglurhad. Nid yw y "seithwyr da eu gair," a neillduwyd gan eglwys Ierusalem i "wasanaethu byrddau," yn cael eu galw mewn un man yn y Testament Newydd yn ddiaconiaid. Y mae un o honynt, Phylip, yn cael ei alw yn *efengylwr*: *Act.* xxi. 8. Wrth eu gwasanaeth yn eglwys Ierusalem yn unig y bernir mai diaconiaid oeddynt. Gwel DIACON.

Digitized by Google

Tybir y rhaid olrhain y ddefod neu y traddodiad o ddewis un esgob neu henuriad yn mhob eglwys, i syniad boreuol a chyfeiliornus Eglwys Rhufain am uchafiaeth esgob ar bob swyddog eglwysig arall; ac y mae yn dra sicr fod yr apostol yn cyfeirio at y syniad yma pan yn dywedyd fod "dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes" (2 *Thes.* ii. 8), yn ei amser ef; ac y mae yn ddiammheuol genym mai hyn a barodd iddo roddi y siars fawr i henuriaid neu esgobion eglwys Ephesus: *Act.* xx. 17—35.

Gellir tybied mai at yr henuriaid neu yr esgobion oedd yn eglwys Thessalonica y cyfeiria yr apostol pan y dywed, "Ac yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai (lluosog) sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich *llywyddu* (*pröistamenous*) chwi yn yr Arglwydd;" 1 *Thes.* v. 12. Y mae y gair *pröistamenous* (llywyddu), sydd yn yr adnod hon, yn rhoddi sail i gasglu yn deg mai henuriaid neu esgobion yr eglwys, ac nid cenadon yr efengyl, fel y cyfryw, a olygir. Y mae yn deilwng o sylw mai *llywodraethu* y cyfieithir y gair Groeg (*pröistamenous*) sydd yma, yn y Testament Cymraeg. Dywed Kitto nad ydyw y gair Groeg priodol am lywodraethu, sef *archein,* yn cael ei gyssylltu mewn un man yn y Testament Newydd â henuriaid neu esgobion yr eglwysi, gan ei fod yn swnio yn rhy unbenaethol (*despotic*). Defnyddir ffurf arall (*pröestötes*) o'r gair *pröistamenous*, mewn cyssylltiad â henuriaid eglwys, yn 1 *Tim.* v. 17. Llywyddu—nid llywodraethu—ydyw ei ystyr yn y fan yma hefyd.

Meddylir mai yr un swyddogion eglwysig, sef henuriaid neu esgobion, a olygir hefyd wrth "flaenoriaid" (*égoumenoi*=arweinwyr, *leading men*) yn *Heb.* xiii. 7, 17, 24. Pa fodd bynag, y mae yma luosogrwydd o honynt, fel yn mhob man arall yn y Testament Newydd. Ond heb law fod y Testament Newydd yn mhob man yn ddieithriad yn dangos fod amryw esgobion neu henuriaid "yn mhob eglwys" yn amser yr apostolion, y mae lluaws o ysgrifenwyr eglwysig, yn nghyd â rhai o dadau hynaf yr eglwys, yn dwyn tystiolaeth i'r un gwirionedd.

Syr Peter King [*Prim. Church*, td. 10], a ddywed, "Y mae yn anhawdd gwybod ar yr olwg gyntaf, a oedd mwy nag un esgob yn mhob eglwys yn nyddiau yr apostolion a'r amseroedd cyntefig: fod yr Ysgrythyrau Sanctaidd a Chlement Romanus yn crybwyll am amryw yn mhob eglwys sydd sicr; ac ar y llaw arall, y mae mor sicr fod Ignatius, Tertullian, Cyprian, a'r tadau canlynol, yn sicrhau nad oedd, ac na ddylai fod, ond un mewn eglwys."

Yn awr sylwer: dywed King fod "yr Ysgrythyrau Sanctaidd a Chlement Romanus yn crybwyll fod amryw o esgobion mewn un eglwys;" ac er hyny, dywed yn yr un paragraph "fod yn anhawdd gwybod a oedd mwy nag un esgob yn mhob eglwys yn nyddiau yr apostolion a'r amseroedd cyntefig!" Yr achos o'r dyryswch yma yn meddwl King oedd, "fod Ignatius, Tertullian, Cyprian, a'r tadau canlynol, yn sicrhau nad oedd ac na ddylai fod ond un mewn eglwys!" Ond gan fod "yn sicr fod yr Ysgrythyrau Sanctaidd," hyd yn oed pe na buasai Clement Romanus, yn sicrhau "fod amryw o esgobion i fod yn mhob eglwys," nid ydyw tystiolaethau gwrthwynebol "Ignatius, a'r tadau canlynol," yn petruso dim ar ein meddyliau ni; gan yr ystyriwn fod un dystiolaeth, heb son am ugain neu ragor, o'r "Ysgrythyrau Sanctaidd" ar bob pwnc perthynol i eglwys Crist, yn drymach yn ein meddwl na mil o dystiolaethau gwrthwynebol "Ignatius, a'r tadau canlynol." Pa fodd bynag, yr ydym yn ystyried tystiolaeth Clement Romanus (yn enwedig gan ei bod yn gysson â'r Ysgrythyrau Sanctaidd) yn llawer pwysicach na thystiolaeth "Ignatius, Tertullian, Cyprian, a'r tadau canlynol" yn nghyd; gan fod Clement yn byw, yn ol tystiolaeth King ei hun, mor fore a B.A. 70—yn oes Ioan yr Efengylwr, os nad yn oes rhai o'r apostolion ereill hefyd; tra nad oedd Ignatius yn byw hyd B.A. 105; Tertullian, B.A. 200; Cyprian, B.A. 250; a'r tadau canlynol yn ddiweddarach fyth, yn nghanol yr oesau Pabyddol mwyaf llygredig.

Baxter hefyd a ddywed [*Pope's Councils Abr.*, pen. i. adr. 16], "Y mae prawf hanesyddol llawn am bob eglwys o sefydliad yr apostolion, fod yn hanfodol iddi gynnwys cymdeithas o Gristionogion, bugeiliaid (*pastors*—nid un, ond amryw) a phobl wedi ymgasglu yn nghyd er mwyn cymundeb sanctaidd.

Eto, medd Baxter—"Dechreuwyd y dyb gan Scotus, ac eangwyd hi gan y deon Petavius, yr hon a ddadleuwyd yn helaeth gan y Dr. Hammond, mai *un* esgob yn mhob eglwys a sefydlodd yr apostolion ar y dechreu........ Ond o'm rhan i, yr wyf yn credu fod yr haeriad heb ei brofi, nad oedd ond un henadur mewn eglwys y pryd hyny; ac yr wyf yn meddwl fod llawer o destynau Ysgrythyrol yn cyflawn brofi i'r gwrthwyneb. Yr oeddynt mor bell yn yr hen eglwysi o feddu cyn lleied ag a dybia y Dr. Hammond a Petavius, fel yr oeddynt yn lluosogi swyddogion; ac felly yr oeddynt yn rhoddi rhan fawr o'r eglwys oedd yn meddu doniau defnyddiol yn y swydd: yr oeddynt yn gwneuthur hyny i'r fath raddau, fel y dywedodd y tyst mwyaf credadwy yn fuan ar ol hyny, sef Gregory Nazianzen, fod y llywyddion eglwysig bron yn fwy lluosog na'r deiliaid."—*Baxter's Pope's Councils Abridged*, pen. i. adr. 20, 21, 25.

Mae yn amlwg fod Baxter yn credu tystiolaeth "yr Ysgrythyrau Sanctaidd," fod yr apostolion wedi sefydlu *amryw* o henuriaid neu esgobion yn mhob eglwys.

Y Dr. Payne o Exeter a ddywed—"Yr wyf yn cymmeryd yn ganiataol fod yn mhob eglwys, yn gyffredinol o leiaf (yn amser yr apostolion) fwy o fugeiliaid nag un:" *Payne's Church of Christ Consid.*, td. 50.

Neander hefyd, wrth sylwi ar wahanol ddoniau yr eglwysi cyntefig, a'r rhyddid a roddid yn nyddiau yr apostolion i'r doniau hyny i weithredu ar y byd er ei dröedigaeth, ac yn yr eglwysi er eu hadeiladaeth, a ddywed fod yn yr eglwysi rai yn meddu doniau nodedig i lywyddu neu arwain y praidd (*charisma cuberneseos*, doniau i lywyddu neu arwain); a bod y cyfryw ddoniau "yn gofyn swydd gyfatebol, at yr hon y byddai cymhwysder wedi ei roddi, yn ol cyfraniad y ddawn hono, i ateb i gyfansoddiad yr eglwys. Yr oedd hon yn gorff cyfan, wedi ei gyfansoddi o aelodau cyfartal—pob aelod yn beiriant yn y cyfundeb, a hwnw yn gorff wedi ei fywhau gan Ysbryd Crist. Yr oedd yr holl aelodau hyn, megys peiriannau o'r un cyfansoddiad cyfan, ac o'r un Ysbryd, yr hwn oedd yn rhoddi bywyd ynddynt, yn cydweithredu pob un yn ei le priodol, er mwyn yr amcan cyffredinol; ac yr oedd rhai o'r aelodau hyn hefyd yn cydweithredu yn y cyfansoddiad yma megys arweinwyr tra nodedig. Ond prin y gallai y corff yma weithredu mewn ffordd naturiol, yn ol hanfod bywyd Cristionogol a chyfeillach

Digitized by Google

Gristionogol, trwy roddi yr arweiniad yn nwylaw un person yn unig. Nid oedd ffurf unbenaethol o lywodraeth yn gyfaddas i ysbryd cymundeb Cristionogol.

"Byddai yn rhy hawdd i orbwysiad un person, fel arweinydd unigol y cyfan, attal rhyddweithrediad bywyd yr eglwys, a chydweithrediad rhydd yr holl aelodau, y rhai y mae yn angenrheidiol iddynt deimlo yn wastad fod eu llwyddiant yn deilliaw o'u cydannibyniaeth. Gallai un person, ar yr hwn yr ymddibynai pob peth, gyrhaedd gormod o bwysigrwydd mewn cyferbyniad i'r cyfan; ac felly dyfod yn ganolbwynt, o amgylch yr hwn yr ymgasglai pawb, fel ag i gymylu yr ystyriaeth o'u perthynas â'r *unig un hwnw*, yr hwn ydyw gwir ganolbwynt pawb. Yr oedd perthynas yr apostolion â chorff cynnulledig y Cristionogion yn cyfateb i'w sefyllfa neillduol hwy yn unig yn nghyfansoddiad yr eglwys; ac o blegid hyny nis gellid trosglwyddo eu sefyllfa hwy i unrhyw swyddog arall; gan mai hwynt-hwy yn unig oedd y cyfryngau i ddwyn gair ac ysbryd Crist i'r holl oesoedd—y tystion etholedig o'i ymddangosiad a'i wasanaeth ef, o'i adgyfodiad i sefyllfa newydd a mwy gogoneddus:—hwynt-hwy oedd y dolenau cydiol trwy y rhai y cyssylltid yr holl eglwys â Christ. Yr oedd y berthynas hon o ymddibyniad ac israddoliaeth, a seiliwyd yn natur cynnydd graddol yr eglwys, y fath nas gallai ei chyffelyb fod byth mwyach. Mor bell oedd yr apostolion hyn eu hunain, i'r rhai y perthynai y sefyllfa yma yn arweiniad yr eglwys, oddi wrth feddwl am arfer unrhyw awdurdod treisiol yn ei hamgylchiadau; ac oddi wrth arglwyddiaethu ar y ffydd, sylfaen yr hon unwaith a osodwyd, a'r hon oedd yn awr yn ei hamlygu ei hun gyda rhyddid, ac yn rhoddi agweddiad i bob peth trwy rinwedd ei gallu mewnol ei hun yn unig! Y fath barch a ddangosent hwy i ryddweithrediad y corff cynnulledig! Yr oeddynt yn ymdrechu yn egniol i ennill cydweithrediad rhydd y cymdeithasau yn mhob amgylchiad a berthynai i'r cymdeithasau hyny. Y mae Pedr ac Ioan yn gosod eu hunain yn yr un dosbarth a swyddogion llywyddol ereill y cymdeithasau; ac nid yn hòni lle uwch na hwy fel arweinwyr cyffredinol yr eglwys. Mor anhawdd y gellid canfod un person yn y cymdeithasau yn meddu ynddo ei hun bob cymhwysder i arwain amgylchiadau y corff, yr hwn yn unig a feddiannai hyder pawb! Pa faint haws ydyw canfod amryw benau teuluoedd yn mhob cymdeithas, gwahanol gymhwysderau y rhai yn nghyd a allant gyflawnu diffygion pob un fel person unigol?—un yn meddu mwy o hyder yn y peth hyn, a'r llall mewn dosbarth arall o'r gymdeithas, y rhai yn nghyd, gan hyny, a allent fod yn addas i'r fath swydd. Y mae unbenaeth mewn pethau ysbrydol yn gwbl anghydweddol âg ysbryd Cristionogaeth; canys y mae hon yn cyfeirio yn mhob man at y teimlad o gydangen a chyd-gynnorthwy; ac at yr angenrheidrwydd a'r fantais fawr o gynghor cyffredin cystal a gweddi cyffredin. Lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn enw yr Arglwydd, y mae efe yno yn y canol."—*Neander's Gener. Hist. of the Christian Rel. and Church*, i. 249, &c.)

Byddai yn hawdd chwanegu tystiolaethau o'r un natur o amryw ysgrifenwyr enwog ereill ar hanes yr eglwys; ond hyderir fod hyn, yn nghyd â thystiolaeth bendant yr Ysgrythyrau a nodwyd, yn profi tu hwnt i ddadl fod amryw esgobion neu henuriaid, cystal ag amryw ddiaconiaid, i fod "yn mhob eglwys."

IV. Am *gydraddoldeb* yr esgobion neu henuriaid, yr ydym wedi dangos yn fynych nad oes un sail Ysgrythyrol i ddyrchafu *un*, dan yr enw "esgob taleithiol," nac unrhyw enw arall, yn uwch nag esgobion neu henuriaid ereill a fyddon mewn eglwys. Nid yw yr Ysgrythyrau a nodwyd uchod, sef yr holl rai sydd yn cyfeirio at henuriaid neu esgobion yn y Testament Newydd, yn awgrymu yn y mesur lleiaf y fath uwchafiaeth; ond yn hollol i'r gwrthwyneb, y maent yn llefaru am yr holl swyddogion hyn bob amser fel rhai hollol gydradd.

Heb law hyny, y mae yr egwyddor o gydraddoldeb yn mysg arweinwyr yr Eglwys Gristionogol wedi ei gosod i lawr yn bendant gan yr Arglwydd Iesu ei hunan, yn ei anerchiad i'r apostolion, yn *Marc* x. 42, 43, ac yn yr ymadroddion cyferbyniol sydd yn yr Efengylau ereill.

"Chwi a wyddoch fod y rhai a dybir eu bod yn llywodraethu ar y Cenhedloedd, yn träarglwyddiaethu arnynt; a'u gwŷr mawr hwynt, yn träawdurdodi arnynt. Eithr nid felly y bydd yn eich plith chwi: ond pwy bynag a ewyllysio fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog (*diaconos* =gwas) i chwi."

Yr oedd Iago ac Ioan, fel y mynegir yn y cyddestyn, wedi gofyn i'r Arglwydd Iesu a ganiatäai efe eu dyrchafu hwy eill dau i anrhydedd ac awdurdod arbenig yn ei deyrnas. Pan glybu y deg disgybl arall am yr uchelfrydedd yma yn eu dau gydymaith, hwy a ddechreuasant fod yn anfoddlawn iddynt, gan y dichon eu bod hwythau yn awyddus am ddyrchafiad cyffelyb. Er mwyn diffodd y teimlad yma ynddynt oll, y mae Crist yn llefaru y geiriau a ddyfynwyd. Y mae yn amlwg fod y geiriau hyn yn llwyr anghefnogi pob dymuniad am awdurdod neu ddyrchafiad neillduol uwch law eu gilydd yn meddyliau yr apostolion, fel arweinwyr neu lywyddion ei deyrnas ysbrydol ef; ac y mae yn eu hysbysu yn bendant mai lle priodol yr uchelfrydig yn eu plith hwy oedd bod "yn was i bawb." Y mae yn amlwg, gan hyny, mai ewyllys eu Hathraw Mawr oedd iddynt hwy fod yn gydradd; ac y mae yn gwahardd iddynt yn bendant ymawyddu am uchafiaeth ac awdurdod ar eu gilydd. Y mae cydraddoldeb pendant yn cael ei orchymyn yma yn amlwg gyda golwg ar yr *apostolion;* a chan nad yw y Testament Newydd yn dangos nac yn awgrymu mewn un man, fod neb o henuriaid neu esgobion eglwysi yn uwch na'u gilydd, mewn un modd, a chan fod Paul yn llefaru am danynt yn yr Actau a'r Epistolau, ac yn eu cyfarch bob amser fel rhai cwbl gydradd, gellir casglu yn deg mai ewyllys Pen yr Eglwys ydyw iddynt fod felly, gan ystyried eu gilydd yn hollol gyfartal.

Cyfystyr â'r anerchiad crybwylledig o eiddo Crist yn Marc, ydyw y cyfarwyddiadau a rydd yn *Mat.* xxiii. 6—12, wrth sylwi ar ymddygiadau yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Am y rhai hyn, dywed ein Iachawdwr eu bod yn caru cael eu "cyfarch yn y marchnadoedd, a'u galw gan ddynion, Rabbi, Rabbi. Eithr (eb efe) na'ch galwer chwi Rabbi: canys un yw eich athraw chwi, sef Crist; a chwithau oll brodyr ydych. Ac na elwch neb yn dad i chwi ar y ddaear: canys un Tad sydd i chwi, yr hwn sydd yn y nefoedd. Ac na'ch galwer yn athrawon: canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist. A'r mwyaf o honoch a fydd yn weinidog (*diaconos*=gwas) i chwi. A phwy bynag a'i dyrchafo ei hun, a ostyngir; a phwy bynag a'i gostyngo ei hun, a ddyrchefir."

Yr oedd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn

Digitized by Google

caru ac yn ceisio ymddyrchafu; yn "caru y lle uchaf mewn gwleddoedd, a'r prif gadeiriau yn y synagogau," a'u cyfarch wrth deitlau o anrhydedd. Y mae Crist yn rhybuddio yr apostolion yn erbyn yr ysbryd yma, a'i ganlyniadau; ac er mwyn eu sicrhau rhag y fath duedd uchelfrydig, y mae yn gwahardd yn bendant iddynt ymgeisio at ddyrchafiad a theitlau. Y mae yn eithaf amlwg nad ydyw esgobion neu henuriaid eglwysi yn ddim mwy diogel rhag y demtasiwn, y perygl, a'r pechod hwn, nag oedd yr apostolion; a rhaid fod yr hyn oedd yn foddion diogelwch i'r naill yr un mor angenrheidiol a defnyddiol i'r lleill. Pe buasai Pen yr Eglwys wedi gorchymyn, neu hyd yn oed ganiatau, i'r apostolion gymmeryd eu galw yn Rabbi, athrawon, meistriaid, parchedigion &c., fe fuasai hyny yn sicr o gael ei ddadleu fel gwarant awdurdodol i lywyddion dilynol yr eglwys —esgobion neu henuriaid—i gymmeryd teitlau cyffelyb, ac ymgeisio am y cyfryw anrhydedd. Yn awr, y maent wedi eu gwahardd yn bendant i'r apostolion. Ni all neb wadu hyny. Pa ham gan hyny nad ydynt, yn ol yr un dull o ymresymu, yn waharddedig i esgobion neu henuriaid yr eglwys, a phob swyddog arall ynddi.

Pa fodd bynag, y mae yn eithaf amlwg wrth yr Ysgrythyrau a nodwyd, a rhai cyffelyb, fod yr apostolion, dan gyfarwyddyd pendant eu Hathraw, i ystyried eu gilydd yn berffaith gydradd; a chan nad oes un awgrym i'r gwrthwyneb yn y Testament Newydd gyda golwg ar esgobion neu henuriaid eglwysi—yn hytrach, y mae yr holl Ysgrythyrau sydd yn cyfeirio atynt yn pleidio y golygiad—y mae'n rhaid i ni gasglu eu bod yn gydradd, a bod yn bechod i neb o honynt, dan unrhyw esgus, ymgeisio am uwchafiaeth ar eu brodyr.

V. *Cymhwysderau* esgobion neu henuriaid yr Eglwys Gristionogol.

Trinir y pwnc yma yn rheolaidd a ffurfiol yn 1 *Tim.* iii., a *Titus* i., a chyfeirir ato yn achlysurol mewn rhai manau eraill yn y Testament Newydd.

Dengys yr apostol, yn ei epistolau at Timotheus a Titus, fod y cymhwysderau hyn i fod yn gadarnhaol a nacaol. Ymdrinir âg amryw o'r un cymhwysderau yn y ddau epistol, y rhai a gydgorfforir yn y sylwadau canlynol. Yn yr Epistol Cyntaf at Timotheus (*pen.* iii.) yr ymdrinir â hwynt helaethaf; gan hyny, ei drefn ef yno a ddilynir yma.

Y cymhwysderau cadarnhaol sydd yn ofynol mewn esgob neu henuriad yw y rhai sydd yn canlyn :—

1." Rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd." Dyma y cymhwysder cyntaf a nodir hefyd yn *Titus:* "Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid yn mhob dinas, megys yr ordeiniais i ti. Os yw neb yn ddiargyhoedd... canys rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd, fel goruchwyliwr Duw;" *Tit.* i. 5—7. "Raid i'r escob fod yn ddifaiedic," yn ol W. Salsbri yn Timotheus: "yn ddiargywedd"=diniwed, yn Titus (ar ymyl y ddalen, "dyveiadwy"). *Blameless*=difeius, difrycheulyd, ydyw y gair Saesneg. "O fuchedd ddidramgwydd neu ddiniwed," medd yr esgob Hall. *Anepilēpton*, ydyw y gair Groeg—person nas gellir profi dim drwg yn ei erbyn; un nas gellir ei archolli mewn un man. Troellymadrodd ydyw y gair, wedi ei gymmeryd oddi wrth ddyrnodiwr medrus a chywrain, yr hwn a amddiffyna bob rhan o'i gorff yn y fath fodd ag y byddo yn anmhosibl i'w wrthwynebydd ei daraw. "Rhaid i esgob, neu arolygwr diadell Crist," medd Doddridge, "fod yn ddifeius yn mhob peth o ran ei ymarweddiad moesol, gan y gallai unrhyw beth diffygiol ynddo ef ddwyn gwarth ar ei swydd, a bod yn attalfa fawr i'w ddefnyddioldeb."

2. "Rhaid i esgob fod yn ŵr un wraig." Yr un modd yn *Titus* i. 6; "Heb fwy nag un wraig ar unwaith," ydyw yr esboniad cyffredin. Ond, os hyn oedd meddwl yr apostol, buasai mor hawdd iddo ddywedyd, "Rhaid i esgob fod heb fwy nag un wraig ar unwaith," ag oedd iddo ddywedyd yn ei ddau epistol y "rhaid i esgob fod yn ŵr un wraig." Credu yr ydym ni, wrth y cyd-destyn ac wrth Titus (i. 6), fod yr apostol yn meddwl y peth a ddywedodd yn llythyrenol —y "rhaid i esgob fod yn ŵr un wraig." Os na "raid i esgob fod yn ŵr un wraig," y mae amryw o'r cymhwysderau a ofyna yr apostol mewn esgob yn ei epistolau at Timotheus a Titus (yr unig fanau yn y Testament Newydd yr ymdrinir â'r cymhwysderau hyn yn rheolaidd a ffurfiol), yn ofer ac afreidiol!

Fe allai hefyd fod yr apostol yn trin y pwnc yma—y "rhaid i esgob fod yn ŵr un wraig"—mor helaeth a phendant, am ei fod yn gweled "dirgelwch yr anwiredd yn gweithio eisoes" (2 *Thes.* ii. 7), sef, "dirgelwch Babilon fawr, mam puteiniaid a ffieidd-dra y ddaear" (*Dad.* xvii. 5), sef Eglwys Rhufain, yr hon sydd "yn gwahardd priodi, ac yn erchi ymattal oddi wrth fwydydd," &c., 1 *Tim.* iv. 3: gwel hefyd *adn.* 1, 2.

Ni ddangosir mewn un man y "rhaid" i genhadwr neu "efengylwr" "fod yn ŵr un wraig, a chanddo blant, a thŷ," &c., fel y "rhaid" fod gan esgob neu henadur. Ymddengys fod y cenhadon neu yr efengylwyr at eu dewisiad yn hyn o beth, sydd mor bwysig gyda golwg ar esgob. Nid oes dim prawf fod Apollos, na Thimotheus, na Thitus, na'r apostol Paul ei hun, yn ŵr priod, er fod Phylip (*Act.* xxi. 8, 9), Cephas (Pedr), a'r apostolion ereill (1 *Cor.* ix 5). Ond nid esgobion neu henuriaid eglwysi neillduol oedd yr apostolion (y cenhadon) a'r efengylwyr.

3. "Rhaid i esgob fod yn *wyliadwrus*:" *nephaleon*=nid yn feddw. "Hyn yw," medd Clarke, "rhaid iddo fod yn effro; canys y mae yr hwn sydd yn yfed yn dueddol i gysgu; ond y mae yr hwn a ymattalio rhag yfed yn debycach i ofalu am ei orchwyl, a'r hyn a fyddo dan ei ofal." "Y mae yn angenrheidiol iddo fod yn *ddyfal*," medd Doddridge, ac nid yn un o dymmer ddiog a segur, yn un a gysgai uwch ben ei swydd uchel a chysegredig." Nid yw y cymhwysder yma yn cael ei nodi yn yr Epistol at Titus.

4. "Rhaid i esgob fod yn sobr." Felly hefyd yn Titus i. 8: "pwyllog" medd W. S.; ond cyfieitha yr un gair yn Titus yn "ddoeth:" *sophrona*, ydyw y gair gwreiddiol; ac arwydda doeth, pwyllog, difrifol: "yn meddu meddwl gwir reolaidd: un yn gallu llywodraethu ei nwydau," medd Macknight.

5. "Rhaid i esgob fod yn weddaidd:" "cymhwys," medd W. S.: *cosmoin*=yn drefnus, yn wylaidd: "yn foddus," ar ymyl y ddalen: "yn rheolaidd a threfnus," medd Doddridge, "gan wylio rhag pob math o anweddusder, a osodo ddynion yn agored i ddirmyg, hyd yn oed pan na byddo dim tra drygionus yn eu hymddygiad." Nid yw hyn yn cael ei nodi yn yr Epistol at Titus.

6. "Rhaid i esgob fod yn *lletygar*." Yr un

Digitized by Google

modd yn *Tit.* i. 8: "lleteuwr," medd W. S: *philoxenon*=cyfaill dyeithriaid. "Yr oedd yn dra angenrheidiol i esgobion yr amser gynt," medd Macknight, "fod yn llettygar i frodyr dyeithr tlodion ac erlidiedig."

7. "Rhaid i esgob fod yn athrawaidd:" *didacticon*=un galluog i ddysgu. Yn ol *Titus* i. 9, "yn dal yn lew y gair ffyddlawn yn yr addysg:" "yn dalha yn lew (yn ffest) y gair ffyddlon wrth yr athrawiaeth."—W. S. Yn ol yr iaith wreiddiol, "yn dal yn gadarn (*antechomenon*=yn ymlyngar yn ngwyneb gwrthwynebiad) addysg (*didachon*=athrawiaeth) y gair credadwy" (*pistow logow*=gair sicr, gwir). Hyny yw, rhaid iddo ddal athrawiaeth gair sicr, gwirioneddol, yr apostolion. Y mae y cymhwysder yma yn angenrheidiol mewn esgob neu henadur, nid yn unig, "fel y gallo gynghori yn yr athrawiaeth iachus," ei hun, ond hefyd, fel y gallo "argyhoeddi y rhai sydd yn gwrthddywedyd: canys y mae llawer yn anufudd, yn ofer siaradus, ac yn dwyllwyr meddyliau, yn enwedig y rhai o'r enwaediad: y rhai y mae yn rhaid cau eu safnau, y rhai sydd yn dymchwelyd tai cyfan, gan athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn budr-elw;" *Tit.* i. 9—11. Rhaid gan hyny i esgob neu henuriad fod "yn alluog i ddysgu," yn un peth, fel y gallo adnabod y gau athrawon, y rhai sydd "heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon," sef dysgeidiaeth yr apostolion; a pheidio eu derbyn i dŷ, na dywedyd Duw yn rhwydd wrthynt;" 2 *Ioan* 10.

8. "Rhaid i esgob fod yn dirion:" "rrywiog," W. S. *epieicê*=ymroddgar, tyner, amyneddgar. "Yn gymmedrol yn ei holl ddymuniadau a'i nwydau," medd Doddridge.

9. "Rhaid i esgob fod yn anymladdgar." Nacaol ydyw y gwreiddiol—*anarchon*=nid yn ymladdgar, nid yn gynhenus, nid yn ymrysongar."

10. "Rhaid i esgob fod yn ddiariangar." "Nid cybydd."—W. S. Nacaol ydyw y gair gwreiddiol hefyd—*aphilargyron*=nid yn garwr arian. "Nid yn ymhyfrydu mewn tyru arian," medd Doddridge, "hyd yn oed er eu bod yn eiddo cyfiawn a phriodol iddo ef ei hun." Byddai yn enbyd i esgob neu henadur o'r fath duedd gybyddlyd gael ei demtio, fel Iudas, i "ddwyn yr hyn a fwrid yn y gôd;" *Ioan* xii. 6.

11, 12. Rhaid i esgob fod yn llywodraethu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod, yn nghyd â phob gonestrwydd." Y mae y ddau gymhwysder yma mor gyssylltiedig, fel y mae yn fwy cyfaddas ymdrin â hwy yn nghyd nag ar wahan. "Yn a ŵyr reoli ei dŷ i hun yn dda."—W. S. *Proistamenon*=llywyddu, ydyw y gair gwreiddiol a gyfieithir yma yn "llywodraethu." "Un yn llywyddu (*preside*) ei dŷ ei hun yn dda," medd Doddridge. "Yn cynnal ei blant tan ufuddtra, yn nghyd â phob honestrwydd." —W. S. "Yn cadw ei blant mewn ufudd-dod gyda phob difrifwch" (*semnotêtos*=sobrwydd; gweddusder).—*Doddridge.* Yn *Tit.* i. 6, "â chanddo blant ffyddlawn (*pista*=cyfiawn, cyfreithlawn; yn credu), heb gael y gair o fod yn afradlawn (*asôtias*=anfoesol, gwastraffus), neu yn anufudd." "Ac yddo blant ffyddlon, yr ei nyd enllibir o nwyfiant ("rhwyf, tra, wtres, ormodedd, reiat," ymyl y ddalen) neu vot yn anvydd." "A chanddo blant crediniol, heb gael eu cyhuddo o anlladrwydd, neu aflywodraeth."—*Doddr.* Yr oedd yn anhebgorol angenrheidiol fod esgob neu henuriad "yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlawn," &c., fel y gallai yr eglwys gael prawf diammheuol oddi wrth ei "fedr" ymarferol "yn llywyddu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod gyda phob difrifwch," ei fod yn gymhwys, o ran ei fedr llywyddol, i "gymmeryd gofal dros eglwys Duw;" "canys os na fedr un lywyddu (*prostênai*) ei dŷ ei hun, pa fodd y cymmer efe ofal dros eglwys Duw?" Yr oedd yn rhaid fod gan esgob "dŷ ei hun," nid yn unig er mwyn ei wraig a'i blant, ond hefyd er mwyn rhoddi prawf i'r eglwys ei fod "yn llettygar," &c.

13. Ac y mae yn rhaid i esgob neu henuriad hefyd gael "tystiolaeth dda gan y rhai oddi allan." Yn ol W. S., "A' rraid iddaw hefyt gaffael gair da can ddieithred:" hyny yw, rhaid i'w fuchedd flaenorol fod mor ddifrycheulyd, fel y rhaid i'r byd—"rhai oddi allan" i'r eglwys—roddi gair da iddo. "Rhag iddo syrthio i waradwydd, ac i fagl diafol." "Rrag digwydd mewn gwarth, a magl diawl."—W. S. "Rhag iddo gael ei demtio gan Satan," medd Whitby, "i ymchwel at ei bechodau blaenorol; neu iddo, trwy gael ei geryddu gan y rhai y byddo wedi ei osod yn esgob arnynt, o blegid ei ddrwg fuchedd blaenorol, gael ei demtio gan ddiafol i wrthgilio."

14. "Rhaid i esgob fod yn caru daioni" (*Tit.* i. 8): *philagathon*=cyfaill dynion da: "yn caru y rhai da," ar ymyl y ddalen. "Yn addfwyn neu dirion" (*benigen*).—*Doddr.*

15. "Rhaid i esgob fod yn gyfiawn:" *dicaion*= uniawn, gonest, teg. Rhaid iddo ymddwyn yn gyfiawn yn ei holl weithrediadau, at ei frodyr, ac at "y rhai oddi allan." A rhaid ei fod wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd: a thybia Parkhurst fod cyfeiriad at hyn yn y gair gwreiddiol bron yn mhob man yn y Testament Newydd.

16. "Rhaid i esgob fod yn sanctaidd:" *osion*= yn dduwiol, yn bur. Y mae y gair hefyd yn arwyddo *trugarog, caredig.*

17. "Rhaid i esgob fod yn dymherus:" *engcratê* =yn gymmedrol. Y mae y gair yn arwyddo, meddu awdurdod ar ei flysiau, ei dueddiadau, a'i nwydau ei hun: bod yn feistr arno ei hun. Rhaid iddo ymddwyn megys un yn meddu llywodraeth gyflawn arno ei hun yn mhob peth, a than bob amgylchiad, fel y byddo yn esampl gyfaddas i'r eglwys y byddo yn arolygwr arni.

Dyma y cymhwysderau cadarnhaol, yn ol y cyfieithiad Cymraeg, a ofynir mewn esgob neu henuriad, yn yr Epistol Cyntaf at Timotheus (*pen.* iii), ac yn yr Epistol at Titus (*pen.* i).

Y cymhwysderau nacaol a ofynir yn yr un pennodau yw y rhai canlynol, gan ddilyn trefn yr Epistol at Timotheus:—

1. Rhaid i esgob beidio bod yn wingar: "nid yn wingar," medd yr apostol yn y ddau epistol: "nyd yn *gor*-hoffi gwin, medd W. S. yn *Titus: mê paroinon*=nid yn tra hoffi gwin. "Nid yn llymeitiwr gwin," medd Clarke. Dywed Kype fod y gair yn arwyddo tra-arglwyddiaethol, sarhaus, trahaus-falch. "Nid un a eistedd yn hir uwch ben y gwin, nac un math arall o ddiod gref."—*Doddr.*

2. Rhaid i esgob beidio bod yn darawydd:— "nid yn darawydd," medd y ddau epistol: "nid ymffustwr," medd W. S. yn *Tim.*, ac "nyd trawar," yn *Titus*: "nid yn barod i ymladd a chynnyg cam, fel un mewn gwin," ymyl y ddalen: *mê plêctên*="nid tarawydd," ydyw y cyfieithiad llythyrenol: y mae yn arwyddo hefyd *nid cablwr;* ac arwydda hefyd, yn ol Chrysostom ac ereill, "nid un yn archolli cydwybod ei frodyr trwy iaith warthruddus "ac edliwgar." Y mae

Digitized by Google

Theophylact yn cyssylltu y ddau ystyr, ac yn dywedyd, "nid yn taraw â'r dwylaw, nac yn anamserol â geiriau chwerwon ac anhynaws." Cymmer Wahl yr ystyr blaenaf, gan sylwi fod y gair yn cael ei gyssylltu â *paroinon*=gwingar; o blegid fod meddwdod a dyrnodiau yn cydfyned â'u gilydd yn fynych. Y mae Doddridge hefyd yn eu cyssylltu, fel hyn:—"Nid yn eistedd yn hir uwch ben y gwin, nac unrhyw ddiod gref arall, nac yn meddu cyn lleied o lywodraeth arno ei hun ag i fod yn barod i daraw y rhai a'i hanfoddlonant." "Nid yn erlidiwr y rhai a ddichon wahaniaethu oddi wrtho ef," medd Cobbin.

3. Rhaid i esgob beidio budr-elwa:—"nid yn budr-elwa," medd y ddau epistol. "Nid chwannog i fudr elw," medd W. S. yn *Tim.*; ac, "nyd budr-elw-wr," yn Titus: *mê aischrocerdê*=nid yn chwannog neu awchus am elw gwael neu fudr, nid yn defnyddio moddion isel ac anghyfiawn i chwanegu cyfoeth. "Nid yn ymlynu wrth unrhyw ddull gwael a dianrhydeddus er mwyn elw."—*Doddr.* Mae yn nodedig nad yw yr ymadrodd yma yn cael ei ddefnyddio un amser yn y Testament Newydd ond i ddynodi "budr-elw" swyddogion eglwysig—esgobion neu henuriaid a diaconiaid; sef, yn y manau canlynol yn unig: 1 *Tim.* iii. 3, 8; *Tit.* i. 7; 1 *Pedr* v. 2.

4. Rhaid i esgob beidio bod yn newyddian yn y ffydd: "nid yn newyddian yn y ffydd" ydyw y cyfieithiad Cymraeg: *mê neophyton*="nid newydd ei blanu," ydyw y Groeg. "Un newydd ei hyfforddi" (*neocatêchêtos*), meddai Chrysostom; hyny yw, yn y grefydd Gristionogol. "Un wedi ei ddychwelyd yn ddiweddar oddi wrth Iuddewiaeth neu baganiaeth at Gristionogaeth, a newydd ei blanu yn yr eglwys," medd Parkhurst. "Nid yscolhaig ieuanc," medd W. S. "Ni ddylai esgob fod yn un newydd ei ddychwelyd at Gristionogaeth," medd Doddridge. "Y mae yr enw *henadur*," medd Kitto, "yn profi fod oedran, profiad, a gair da, yn gymhwysderau anhebgorol angenrheidiol mewn esgob yn amser yr apostolion. Yr oeddynt i fod yn wŷr priod, a chanddynt deulu (1 *Tim.* iii. 4), a phlant dychweledig (*Tit.* i. 6)." Y mae y golygiadau hyn yn berffaith gysson â'n sylwadau ar yr 2, 11, a'r 12, o'r cymhwysderau cadarnhaol.

Y rheswm dros na ddylai esgob fod yn "newyddian yn y ffydd" ydyw, "rhag iddo ymchwyddo, a syrthio i ddamnedigaeth diafol." "Rrac iddo wedy ymchwyddaw gwympo mewn enllib (Gr. *crima* =barn) diawl." "Rhag iddo, ac yntau heb fod yn ddigon adnabyddus o egwyddorion Cristionogaeth, ac heb ei sefydlu yn y dyledswyddau a ddysg, gael ei ddyrchafu gan falchder, mewn canlyniad i'w sefyllfa nodedig, a chymmeryd iddo ei hun awdurdod a llywodraeth na fwriadodd Duw erioed iddo eu cael; ac yn wyneb hyny, iddo syrthio yn rhwydd i farnedigaeth diafol, yr hwn, wedi meddwi gan hunandyb, a gyfododd ryfel gwallgof yn erbyn Duw, er mwyn cael y dyrchafiad mawr hwnw y tybiai efe fod ei anrhydedd ei hun yn meddu hawl iddo."—*Doddridge.*

5. Rhaid i esgob beidio a bod yn gyndyn. "nid yn gyndyn;" *Tit.* i. 7. "Nyd yn gyrrith (anhydyn, gyndyn)."—W. S.; *mê authade*=nid yn hunan-foddhaol, nid yn hunan-dybus; nid am ei foddlau ei hun a diystyru ereill. "Rhaid, gan hyny, iddo beidio bod yn hunan-foddgar, yn ystyfnig, yn anynad, ac yn drahaus."—*Doddr.*

6. Rhaid i esgob beidio a bod yn ddigllawn: "nid yn ddigllawn:" *Tit.* i. 7. *Mê orgilon*=nid yn dueddol i ddigofaint, nid yn nwydwyllt, nid yn hawdd ei ddigio.

Dyma y cymhwysderau nacaol a ofynir gan yr apostol mewn esgob neu henuriad; ac yr ydym yn credu fod y ddwy gyfres hyn—y gadarnhaol a'r nacaol—yn gyflawn; ac nad oes dim gwahanol yn cael ei ofyn yn y swyddogion hyn mewn un man arall o'r Testament Newydd.

VI. Neillduad esgobion neu henuriaid i'w swydd.

Dwy esampl yn unig sydd genym yn y Testament Newydd am osodiad henuriaid neu esgobion yn eu swydd; ac nid oes dim sôn am "arddodiad dwylaw" yn y naill na'r llall o'r hanesion hyny.

Yr esampl gyntaf ydyw *Act.* xiv. 23, lle y dywedir yn ein cyfieithiad ni fel hyn:—"Ac wedi ordeinio iddynt henuriaid yn mhob eglwys, a gweddïo gydag ympryddiau, hwy a'u gorchymynasant hwynt i'r Arglwydd, yr hwn y credasent ynddo." "Ac wedy ordeiniaw o hanynt yddwynt Henafiait trwy etholedigaeth ym-pop eccles, a' gweddiaw," &c.—W. S. "Ac wedi iddynt trwy bleidlais unfryd y bobl, osod henuriaid yn mhob eglwys, y rhai oedd i ofalu am danynt wedi iddynt hwy (Paul a Barnabas) fyned ymaith i barthau ereill."—*Doddr.*

Ystyr briodol y gair Groeg, *cheirotonêsantes*, a gyfieithir genym ni *ordeinio*, medd Kitto, ydyw, "*wedi ethol* trwy ddangosiad dwy'aw." Cyfieithir yr un gair yn briodol yn 2 *Cor.* viii. 19—yr unig fan arall lle y mae yn y Testament Newydd—yn *a ddewiswyd*. "Ni a anfonasom gydag ef hefyd y brawd, [yr hwn y mae ei glod yn yr efengyl trwy yr holl eglwysi; ac nid hyny yn unig, eithr hefyd *a ddewiswyd* gan yr eglwysi i gydymdaith â ni â'r gras hwn."

Yn *Act.* x. 41: cyfieithir gair arall, sydd o'r un gwreiddyn, sef *procecheirotonêmenois*, yn *etholedig*. "Nid i'r bobl oll, eithr i'r tystion etholedig (a ddewiswyd) o'r blaen gan Dduw."

Ymddengys, gan hyny, yn ddigon amlwg oddi wrth yr adnod dan sylw (*Act.* xiv. 23), mai eglwysi Derbe, Lystra, Iconium, ac Antiochia, oedd yn "ethol eu henuriaid, "trwy ddangosiad dwylaw;" ac mai yr apostolion—Paul a Barnabas—a'u *gosododd* hwynt yn yr eglwysi.

Yr esampl arall am osodiad henuriaid neu esgobion yn yr eglwysi, yw *Tit.* i. 5; "Er mwyn hyn y'th adewais yn Creta, fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit henuriaid yn mhob dinas fel yr ordeiniais (yr appwyntiais) i ti."

Y gair Groeg sydd yma am *gosodit* ydyw *catastêsêis*. Ceir y gair yma mewn dau fan ar ugain yn y Testament Newydd, a chyfieithir ef yn *gosod* ddeunaw gwaith yn y Beibl Cymraeg; a hyny, medd Kitto, ydyw ei wir ystyr.

Yn yr esampl arall (*Act.* xiv. 23), Paul a Barnabas oedd yn *gosod* yr henuriaid, a ddewiswyd gan yr eglwysi trwy ddangos neu estyn allan eu dwylaw; ac yma Titus oedd yn *gosod* henuriaid neu esgobion yn mhob dinas yn Creta, yr hwn a anfonasai Paul yno, fel cenad dros amser yn unig (*Tit.* iii. 12), i wneuthur hyny, ac i "drefnu pethau ereill oedd yn ol" yn yr eglwysi.

Nid oes genym yma ddim crybwylliad am yr eglwysi yn dewis neu yn ethol yr henuriaid a osodai Titus arnynt, "trwy ddangosiad dwylaw;" ond gan mai felly y gwnai yr apostol Paul, yr hwn a'i hanfonodd ef yn genad drosto ei hun i Creta, gellir casglu ei fod yntau yn dilyn esampl yr apostol. Rhydd dull yr eglwys yn Ierusalem

Digitized by Google

hefyd, yn *Act.* vi. 3, yn neillduo diaconiaid, sail i ni gasglu yr un peth. Wedi i'r brodyr yn Ierusalem "edrych yn eu plith am seithwyr da eu gair," cymhwys i "wasanaethu byrddau," a'u "gosod hwy ger bron yr apostolion," dododd yr apostolion "eu dwylaw arnynt hwy;" ond nid awgrymir mewn un man yn y Testament Newydd fod hyd yn oed yr apostolion, y rhai oedd yn gallu cyfranu doniau neillduol trwy "arddodiad dwylaw," yn dodi eu dwylaw ar esgobion neu henuriaid wrth eu gosod yn eu swydd; gan hyny, y mae Cristionogion difrifol yn petruso a ydyw yn weddus i rai a gyfaddefant nad ydynt yn meddu un awdurdod i gyfranu na dawn na rhinwedd, i ddynwared yr apostolion, trwy arddodi eu dwylaw ar rai a neillduir i bregethu yr efengyl, neu i gymmeryd gofal unrhyw eglwys neillduol.

Y mae rhai yn dadleu fod gwaharddiad yr apostol i Timotheus (*pen.* v. 22), i beidio "dodi dwylaw yn ebrwydd ar neb," yn esampl iddynt hwy i ddodi dwylaw ar rai wrth eu neillduo i swydd eglwysig. Os caniateir mai "at arddodiad dwylaw" wrth neillduo rhai i swydd y cyfeiria yr apostol yn yr adnod dan sylw, wrth ysgrifenu at Timotheus, rhaid cofio, er hyny, fod Timotheus yn meddu "dawn" neillduol, yr hwn a "roddwyd iddo trwy brophwydoliaeth, gydag arddodiad dwylaw yr henuriaeth" (1 *Tim.* iv. 14), a thrwy "arddodiad dwylaw" yr apostol Paul hefyd (2 *Tim.* i. 6); a dichon ei fod yntau (Timotheus) hefyd, fel "efengylwr" dwyfol, wedi derbyn y "ddawn" yn ddigyfrwng gan yr apostol a'r henuriaeth, yn meddu gallu i'w throsglwyddo i ereill hefyd; ond nid oes un prawf o hyn yma. Pa fodd bynag, y mae rhai yn barnu mai nid at "arddodiad dwylaw" er neillduo rhai i swydd y mae yr apostol yn cyfeirio yn 1 *Tim.* v. 22, wrth orchymyn iddo beidio "dodi dwylaw yn ebrwydd ar neb;" ond mai gwahardd y mae yr apostol iddo "ddodi dwylaw yn ebrwydd ar neb" dan achwyniad, er ei geryddu. A rhaid i ni gyfaddef, wedi darllen y cyd-destyn yn bwyllog, fod y golygiad yma yn ymddangos i ni yn ddigon cysson:—"Yn erbyn henuriad na dderbyn achwyn, oddi eithr dan ddau neu dri o dystion. Y rhai sydd yn pechu, cerydda," &c. "Cadw y pethau hyn" (gyda golwg ar achwyniadau a cheryddon) "heb ragfarn, heb wneuthur dim o gyd-bartïaeth. Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb," mwy na henuriad, fel un euog, teilwng o gerydd, heb brawf digonol ei fod yn euog; "ac na fydd gyfranog o bechodau rhai ereill:" hyny yw, na fydd gyfranog o bechodau y rhai sydd yn derbyn achwyniad yn erbyn henuriaid, heb ddigon o dystiolaeth, ac yn "dodi eu dwylaw yn ebrwydd" ar bersonau, fel rhai euog, cyn eu profi yn euog, gan eu ceryddu mewn "rhagfarn a chyd-bartïaeth:" "ac na fydd gyfranog o bechodau y rhai sydd yn pechu," trwy beidio eu ceryddu ar ol cael digon o dystion eu bod yn euog. Bydd yn bwyllog a diragfarn o'r naill ochr a'r llall: "cadw dy hun yn bur;" 1 *Tim.* v. 19—22.

Beth bynag a feddylir o'r golygiad yma, rhaid cyfaddef fod yr ymadrodd, "Na ddod ddwylaw yn ebrwydd ar neb," yn rhy gyffredinol a digyssylltiad âg unrhyw swydd, i neb feddwl am seilio cyfundrefn arno o "arddodiad dwylaw" wrth neillduo rhai i swyddi eglwysig; heb son dim am y "ddawn" oruwchnaturiol oedd yn yr "efengylwr" Timotheus.

Cyfeirir hefyd at *Act.* xiii. 2, 3, am awdurdod i "arddodi dwylaw" wrth neillduo rhai i fod yn henuriaid neu esgobion; ond y mae yn amlwg nad oes yma ddim cyfeiriad mewn un modd at y fath beth. Yn un peth, dywedir yn bendant mai at waith penodol y "dywedodd yr Ysbryd Glân," yn ddigyfrwng, "am neillduo iddo *ef* Barnabas a Saul;" ac y mae yn berffaith eglur nad i fod yn henuriaid neu esgobion eglwys yr oeddynt hwy yn cael eu neillduo. Nid i bregethu chwaith yr oeddynt yn cael eu neillduo; canys yr oedd y ddau, ac amryw ereill oedd yn yr eglwys oedd yn Antiochia, yn "brophwydi ac athrawon" (*adn.* 1) eisoes. Yr ydym yn darllen yn *Act.* ix. 20, am Paul, gryn wyth neu ddeng mlynedd cyn yr amgylchiad yma:—"Ac yn ebrwydd yn y synagogau efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw." Gwel hefyd *adn.* 22. Aeth Paul wedi hyny i Ierusalem. Yr oedd ar y dysgyblion ei ofn (*adn.* 21); ond tystiolaethodd Barnabas wrthynt "pa fodd y gwelsai efe yr Arglwydd ar y ffordd," ac iddo ef ei anfon. Ymddengys hefyd wrth hanes Apolos yn myned i bregethu (*Act.* xviii. 24—28), a "phawb a wasgarwyd" o'r eglwys oedd yn Ierusalem (*Act.* viii. 1, 4; xi. 19—21), cystal a hanes mynediad Paul i bregethu—ymddengys oddi wrth yr hanesion hyn nad oedd y fath ddefod yn bod yn y dyddiau hyny. Ond yr hyn a fynegodd Barnabas am Saul oedd, "pa fodd y gwelsai efe yr Arglwydd ar y ffordd, ac mor hyf a fuasai efe yn Damascus yn enw yr Iesu."

Heb law hyny, y mae yn gwbl anhysbys wrth *Act.* xiii. 1—3, pa un ai y "prophwydi a'r athrawon" yn yr eglwys oedd yn Antiochia, ynte yr eglwys, ai y naill a'r llall yn nghyd, a ddarfu "ymprydio a gweddïo, a dodi eu dwylaw ar Barnabas a Saul, cyn eu gollwng ymaith i'r gwaith y galwasai yr Ysbryd Glân hwynt iddo." Pa fodd bynag, nid oes yma un gradd o sail i'r ddefod o "arddodiad dwylaw" wrth neillduo rhai i fod yn esgobion neu henuriaid ar eglwysi neillduol.

Drachefn, cyfeirir at 1 *Tim.* iv. 14, a 2 *Tim.* i. 6 (y rhai y sylwyd arnynt eisoes mewn rhan), fel awdurdod dros "arddodiad dwylaw," wrth neillduo esgobion neu henuriaid i'w gwaith. Ond ymddengys mai "dawn ddwyfol," ac nid swydd esgob, a gyfranwyd i Timotheus "trwy arddodiad dwylaw yr henuriaeth," a'r apostol Paul. Gan hyny, y mae yn afreidiol sylwi dim chwaneg ar hyn, gan yr ymddengys nad oes yma un cyfeiriad at y gorchymyn o neillduo esgobion neu henuriaid i'w swydd.

Ysgrythyrau ereill y cyfeirir atynt i gefnogi y ddefod o "arddodiad dwylaw" ydyw *Act.* viii. 17, 18. Mae yn wir fod yma "osodiad dwylaw," ond gosodiad dwylaw yr apostolion (sef yr apostolion Pedr ac Ioan) oedd; a hyny hefyd ar gredinwyr cyffredin (*adn.* 16), ac nid esgobion neu henuriaid, nac unrhyw swyddogion eglwysig ereill; ac effaith y "gosodiad dwylaw" sanctaidd hyn ar y rhai a'i cawsant oedd—"a hwy a dderbyniasant yr Ysbryd Glân." Y mae y rhai sydd yn pleidio y golygiadau hyn yn ystyried nad ydyw "gosod dwylaw" yn awr ond dynwarediad; ac felly nad ydyw yn ddim llai na rhyfyg.

Crybwyllir hefyd am "ordeinio" yn *Marc* iii. 14; "Ac efe a esgynodd i'r mynydd, ac a alwodd ato y rhai a fynodd efe: ac efe a ordeiniodd ddeuddeg, fel y byddent gydag ef, ac fel y danfonai efe hwynt i bregethu." "Ac ef a *'ossodes* ddauddec, y vot o hanwynt y gyd ac ef, val yd anvonei ef wy i precethy."—*W. S.* "Ac o honynt efe a ddewisodd (ac) a osododd ddeuddeg," &c.—*Doddr.* Y gair Groeg a ddefnyddir yma am



Digitized by Google

"*ordeiniodd, ossodes,a ddewisodd* (ac) *a osododd,*" yw *epoiêse.* Defnyddir y gair dros bum cant o weithiau yn y Testament Newydd, a'i ystyr cyntefig ydyw *gwneuthur, cyflawnu;* ac felly y cyfieithir ef fynychaf o lawer yn y Beibl Cymraeg. Nid ydyw yn cael ei gyfieithu *ordeinio* mewn un man arall; ac y mae yn sicr fod ei gyfieithu felly yn y lle hwn yn wallus, gan nad oes yma ddim cyfeiriad at yr hyn a ystyrir yn gyffredin yn "ordeinio; ac nid oes yma un o'r defodau cydfynedol, a arferir gan amryw enwadau, megys "arddodiad dwylaw," &c. Heb law hyny, "gwneuthur" (*epoiêse*) rhai yn genadon, a'u "danfon hwynt i bregethu," oedd yma, a hyny gan Ben Mawr yr Eglwys ei hunan, ac nid eu "gosod yn henuriaid" mewn cynnulleidfa neillduol. Am hyny, nid yw yr adnod dan sylw yn dal dim perthynas â neillduad a gosodiad henuriaid neu esgobion yn mhob eglwys.

Y mae un adnod eto lle y defnyddir y gair *ordained* (ordeinio) yn y Beibl Seisneg, at yr hon y cyfeiria rhai fel adnod yn dwyn perthynas â'r hyn a olygir yn awr yn ordeiniad; sef *Act.* i. 22; "Gan ddechreu o fedydd Ioan hyd y dydd y cymmerwyd ef i fyny oddi wrthym ni, y rhaid i un gael ei ordeinio i fod yn dyst gyda ni o'i adgyfodiad ef."—*Seis.* "Bod un o'r rhai hyn gyda ni yn dyst o'i adgyfodiad ef."—*Cymr.* "Y bydd dir bot vn o hanwynt yn test oy gyfodiat ef."—*W. S.* "Y dylai un o'r rhai hyn fod yn dyst gyda ni o'i adgyfodiad ef."—*Doddr.* Y gair Groeg a gyfieithir yma yn y Seisneg yn *ordeinio,* ydyw *genesthai*=bod, dyfod. Nid oes yn y Groeg, mwy na'r Gymraeg, ddim son am ordeiniad yma; a phe buasai, ni phrofasai ddim gyda golwg ar esgobion neu henuriaid; canys apostol a ddewisid yma, a hyny gan yr Arglwydd ei hun; yr hwn a barodd i'r coelbren syrthio ar Matthias.

Yr ydym yn awr wedi sylwi ar yr Ysgrythyrau y cyfeirir atynt fel rhai yn dwyn rhyw gysylltiad â neillduad a gosodiad esgobion neu henuriaid yn eu swydd, ac yr ydym wedi profi nad oes dim ond dwy o'r rhai hyny yn unig (*Act.* xiv. 23, a *Tit.* i. 5), fel yr awgrymwyd o'r blaen, yn dwyn gwir berthynas â'r pwnc. Yr ydym wedi dangos hefyd nad ydyw arddodiad dwylaw, hyd yn oed ddwylaw yr apostolion, yn cael ei gyssylltu mewn un man yn y Testament Newydd â neillduad henuriaid neu esgobion i arolygu eglwysi.

VII. *Dyledswyddau* esgobion neu henuriaid. Nid oes genym gyfarwyddiadau penodol gyda golwg ar ddyledswyddau henuriaid neu esgobion, mewn ffurf o orchymynion pendant; ond gellir casglu beth ydynt hyd sicrwydd oddi wrth amryw Ysgrythyrau.

Y mae ystyr y gair *esgob* (*episcopos*=edrych dros), yn arwyddo fod yr henuriaid i arolygu yr eglwysi y gosodir hwynt ynddynt; a chadarnheir hyn gan annogaeth yr apostol i henuriaid eglwys Ephesus (*Act.* xx. 28). Edrychwch arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr (*episcopous*=esgobion), i fugeilio eglwys Duw." Y gair gwreiddiol yma am fugeilio ydyw *poimainein;* ac y mae yn arwyddo *porthi, gwylio,* ac *arwain,* fel y gwna bugail gyda'i braidd. Gorchymynai yr apostol i arolygwyr (esgobion) neu henuriaid eglwys Ephesus ymddwyn at yr eglwys fel yr ymddyga bugail at ei braidd. "Yr wyf yn eich annog yn ddifrifol i ofalu am danoch eich hunain ac am yr holl braidd, ar yr hwn y gwnaeth yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr (*inspectors*) neu esgobion: edrychwch gan hyny ar i chwi ymddwyn yn deilwng o'ch ymddiried pwysig, gan ofalu yn ddiwyd am borthi eglwys Duw."—*Doddridge.* Y mae annogaeth Pedr hefyd (*pen.* v. 2) i henuriaid eglwysi Pontus, Galatia, Cappadocia, Asia, a Bithynia, yn profi yr un peth. "Porthwch (*poimante*=bugeiliwch) braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrw golwg arnynt" (*episcopountes*=gan eu harolygu, gan esgobyddu arnynt). "Goddefwch i mi eich annog i borthi praidd Duw sydd yn eich plith, sef eglwysi Crist, ar ba rai y galwyd chwi i lywyddu; gan gyflawnu swydd esgob, trwy eu harolygu yn deilwng yn ol gwir ystyr yr enw." —*Doddridge.* Ymddengys wrth yr adnod hon mai y ffordd i'r henuriaid i "borthi neu fugeilio praidd Duw" oedd, *trwy eu harolygu,* neu "gan fwrw golwg arnynt." Hyny ydyw, yr oedd yr apostol yn golygu fod arolygu yr eglwys, yn briodol, yn borthi neu fugeilio yr eglwys. Eu harolygu a'u bugeilio fel yr arolyga isfugail y praidd a osoder dan ei ofal gan y pen bugail, gan edrych yn fanwl na byddo yr un o'r defaid yn pallu mewn dim; nac yn dyoddef o eisieu ymborth cyfaddas; nac "yn myned ar gyfeiliorn;" gan ymdrechu ymdrech deg mewn pryd, os dygwydda hyny, am eu "dychwelyd at Fugail ac Esgob eu heneidiau;" 1 *Pedr* ii. 25. "Gan edrych yn ddyfal na *bo* neb yn pallu oddi wrth ras Duw; rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny, *ac* yn peri blinder, a thrwy hwnw lygru llawer; na bo un puteiniwr, neu halogedig, megys Esau" (*Heb.* xii. 15, 16), yn mysg y praidd. Dylai yr henuriaid neu yr esgobion wneuthur hyn, "nid trwy gymhell, eithr yn ewyllysgar; nid er mwyn budr-elw, eithr o barodrwydd meddwl; nid fel rhai yn träarglwyddiaethu ar etifeddiaeth *Duw,* ond gan fod yn esamplau i'r praidd;" 1 *Pedr* v. 2, 3. O blegid hyn, tybia rhai fod yr enw bugeiliaid (*poimenas*) yn cael ei gymhwyso unwaith (*Eph.* iv. 11) at esgobion neu henuriaid eglwysi; tra y tybia ereill fod bugeiliaid ac athrawon, yn yr adnod hon, cystal ag apostolion, prophwydi, ac efengylwyr, yn golygu dynion neillduol yr oes apostolaidd, wedi eu cymhwyso i'w gwaith trwy wyrth [*Payne's Church of Christ,* td. 43]. Yn mhob man arall yn y Testament Newydd, lle y ceir y gair *poimên* ddeunaw gwaith, cyfeiria at yr Arglwydd Iesu ei hun, neu at fugeiliaid praidd yn yr ystyr lythyrenol.

Dylai yr henuriaid neu yr esgobion *lywyddu* yr eglwys yn deilwng; canys hyn ydyw gwir ystyr y gair *pröistêmi* yn yr ychydig fanau y cysylltir ef â henuriaid neu esgobion. Y mae yr adnodau canlynol yn cadarnhau y syniad yma, y dylai esgobion neu henuriaid lywyddu yr eglwys. Rhaid i esgob fod "yn llywyddu ei dŷ ei hun yn dda, yn dal ei blant mewn ufudd-dod, yn nghyd â phob onestrwydd; o blegid oni fedr un lywyddu ei dŷ ei hun, pa fodd y cymmer efe ofal dros eglwys Dduw?" 1 *Tim.* iii. 4, 5. "Cyfrifer yr henuriaid sydd yn llywyddu yn dda, yn deilwng o barch dau-ddyblyg; yn enwedig y rhai sydd yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth;" 1 *Tim.* v. 17. Y mae yn debyg mai yr un personau —esgobion neu henuriaid—a feddylir yn *Heb.* xiii. 7, 17, 24, a gyfieithir yn ein Beiblau ni, *blaenoriaid,* ond a elwir yn y Groeg *tôn êgoumenôn*—"y rhai sydd yn eich arwain, neu yn eich llywyddu;" y rhai, medd yr apostol, oedd yn gwylio dros eneidiau yr eglwys Hebreaidd yr ysgrifenai efe ati, megys y gwylia arolygwr dros y gweithwyr a osoder dan ei ofal; neu fel y gwylia

Digitized by Google

bwys wedi cymmeryd lle yn foreu, er yn raddol; fel, erbyn diwedd yr ail ganrif, a dechreu y drydedd, y daeth y cyfnewidiadau hyny yn amlwg ac yn dra phwysig, yn enwedig yn oes Cyprian, esgob Carthage (B. A. 250). Trefna Neander y cyfnewidiadau hyn yn nghyfansoddiad yr eglwys Gristionogol yn dri dosbarth:—1. Gwahaniaethu yr esgobion oddi wrth yr henuriaid—yr hyn a gynnyddodd yn raddol i unbenaeth esgobyddol. 2. Gwahaniaethu rhwng y gwŷr llen (*clergy*) a'r gwŷr lleyg (*laity*), a ffurfio brawdoliaeth offeiriadol (*sacerdotal caste*), cwbl wrthwyneb i'r cynllun efengylaidd. 3. Lluosogi swyddogion eglwysig.

Rhoddwn dalfyriad byr o'r dull y dygwyd y cyfnewidiadau hyn yn mlaen, yn ol Neander, a haneswyr enwog ereill.

1. Y radd gyntaf o'r cyfnewidiadau hyn oedd, gwahaniaethu rhwng yr esgobion a'r henuriaid, trwy ffurfio esgobyddiaeth, yn ol ystyr anysgrythyrol y gair *esgob;* neu, sefydlu uwchafiaeth un henuriad, fel esgob (arolygwr) ar yr henuriaid ereill a fyddent mewn eglwys. Yr oedd yr esgobion a'r henuriaid, yn yr oes apostolaidd, fel y dangoswyd eisoes, yn gydradd, a'r enwau yn gwbl gyfystyr. Yr oedd holl orchwylion eu swydd yn gyffelyb; ac yr oedd eu llywyddiaeth yn cael ei gyfyngu o fewn un eglwys. Yr oedd arolygiad cyffredinol yr holl eglwysi yn cael ei arfer gan yr apostolion;—swydd wedi hyny a roddwyd i'r esgob taleithiol, ac yna i'r penesgob, ac yn olaf i'r pab. Y mae yn sicr gan hyny fod Esgobyddiaeth, yn ol ystyr presennol y gair, sef goruchafiaeth yr esgob ar yr henuriaid, fel sefydliad yr Eglwys Gristionogol, yn beth a ddaeth i fod ar ol yr oes apostolaidd. Bernir i hyn ddyfod i weithrediad yn raddol ac anymwybodol, fel yr oedd dirgelwch yr anwiredd—a ragwelwyd gan Paul—yn gweithio ei ffordd yn mlaen yn mysg Cristionogion; a phan nad oedd apostolion mwyach yn y byd, i'w wahardd a'i wrthweithio. Bernir mai yr henuriad hynaf, yr hwn a appwyntid fynychaf i lywyddu yr eglwys, a lwyddodd yn raddol i gael goruwch awdurdod ar ei gyd-henuriaid, ac a ddaeth o'r diwedd i gael, neu i fynu cael, ei gydnabod fel esgob ar henuriaid ereill yr eglwys. Ond er hyn, parhaodd yr enwau *esgob* a *henuriad* i gael eu hystyried yn gyfystyr am hir amser [*Polyc. Ep.*, pen. v; *Iren. Adv. Haer.*, iii. 2, 3; iv. 26, 43, 44; v. 20; *Euseb.*, v. 24]. Tua chanol y drydedd ganrif (yn oes Cyprian), amser tra manteisiol i gynnydd awdurdod esgobol, ymgorffolodd henuriaid amryw eglwysi dan lywyddiaeth un esgob fel eu penaeth [*Cypr. Ep.*, v. a xii—*Ad. cler. de lapsis*]. Ond er fod esgobion yn awr wedi cael goruwchreolaeth yn mhrif orchwylion yr eglwys, a bod y gwahaniaeth rhwng cyssegriad esgob a henuriad wedi dechreu; eto, unig ragorfreintiau arbenig yr esgobion, hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif, heb law yr unig hawl i bleidleisio yn y cymmanfaoedd eglwysig (*synods*), oedd ordeinio y gwŷr llên, a chorffirmio.—*Chrys. Hom. in* 1 *Tim.* iii. 8; *Jerome Ep.* 85; *Jerome Dial. adv. Luciferianos.*

2. Yr ail radd yn y cyfnewidiadau eglwysig a gymmerasant le, ar ol i'r eglwysi fyned yn mhellach fyth oddi wrth yr apostolion a'u cynllun, oedd gwahaniaethu rhwng y gwŷr llên a'r gwŷr lleyg, neu rhwng y rhai a elwid bellach yn offeiriaid, a'r eglwys. Fel yr oedd yr ysbryd yma yn cynnyddu, yr oedd y swyddi eglwysig yn cael eu rhyddhau fwyfwy oddi wrth ddylanwad ac awdurdod yr eglwys. Ymddengys fod y gwahaniad yma yn cael ei achosi i raddau gan gamymddygiadau yr eglwysi a'r swyddogion. Yr oedd rhai o'r eglwysi yn camddefnyddio y perffaith ryddid a fwynhäai yr holl aelodau yn oes yr apostolion i lefaru wrth y bobl, fel y cynhyrfid hwy gan yr Ysbryd Glân, i fyned yn afreolus; yr hyn, heb law awydd am ddyrchafiad, a barai i'r swyddogion, o'r tu arall, hòni awdurdod nas caniateid iddynt gan yr apostolion, nes yr aethant o'r diwedd mor bell oddi wrth ysbryd Cristionogaeth ag i fabwysiadu cynllun yr Hen Destament o "offeiriadaeth," gan ystyried y diaconiaid yn cyfatteb i'r Lefiaid, yr henuriaid i'r offeiriaid, a'r esgob i'r archoffeiriad, sef Aaron [*Tertull. de Bart.*, *pen.* xvii; *Cypr. Ep.*, 66]. Fel canlyniad naturiol o hyn, cymmerodd y gwahaniaeth rhwng y swyddogion a'r eglwys, rhwng yr athraw a'r dysgybl, yr arweinydd a'r arweiniedig, ffurf mwyfwy unbenaethol a thräarglwyddaidd. Parodd y syniad yma am debygrwydd yr "offeiriadaeth Gristionogol," fel y'i gelwid, i Iuddewaeth, yn nghyd â helaethiad yr eglwysi, a mwy o wahanol raddau yn eu haelodaeth, i bellder mwy fyth gymmeryd lle rhwng swyddogion yr eglwysi a'r aelodau; a hyny, hefyd, nid yn unig gyda golwg ar eu sefyllfa swyddol, ond hefyd gyda golwg ar gymmeriad personol, fel na chai yr aelodau mwyach ymyryd dim â threfniad amgylchiadau cyffredinol yr eglwys. Pan ddefnyddiwyd yr enw *clêros* neu *clêricos* (clerigwr) gyntaf i wahaniaethu y gwŷr llên oddi wrth yr eglwys neu y *laos* (gwŷr lleyg), ymddengys mai yr unig ystyr a roddid iddo oedd *clêroumenoi;* sef rhai wedi eu galw trwy appwyntiad rhaglunïaethol Duw i lywyddu dros amgylchiadau yr eglwys:—Cymharer *Act.* i. 17, 25; 1 *Pedr* v. 3; âg *Iren. Adv. Haer.*, i. 28; iii. 3; *Clem. Alex. Quis. div.*, *pen.* 42; *Euseb.* v. 1, 28; *August. in Ps.* lxvii. 19; *Hom.* 3 *in Act. App.* Ond yn y drydedd ganrif, gan nad oedd y clerigwyr mwyach yn cynnal eu hunain trwy lafur eu dwylaw, fel y gwnai yr henuriaid cyn hyny, ond yn cael eu cynnal o'r drysorfa gyffredin a godid trwy gyfraniadau wythnosol neu fisol, aed i roddi yr esboniad Lefiticaidd ar y gair *cleros*, gan ei alw yn glerigwr Duw; yr hyn a seilid ar *Num.* xviii. 20, 21; *Deut.* x. 9; xviii. 1, 2. Pa fodd bynag, yr oedd rhyw gymmaint o awdurdod yn cael ei oddef hyd yn hyn i aelodau yr eglwys; canys goddefid iddynt wrthwynebu etholiad clerigwr [*Cyp. Ep.* 33; *Ael. Lamp. vita Alex. Leo*]. Llenwid esgobaethau gweigion, yn y drydedd ganrif, gan esgobion y dalaeth yn unig, trwy gydsyniad eglwys y lle; ac mewn rhai amgylchiadau, dywedir y byddai yr eglwys ei hun, heb ddysgwyl wrth yr esgobion, yn dewis olynydd i'w hesgob blaenorol. Yr oedd y gwŷr lleyg hefyd y pryd hyny yn cymmeryd rhan yn niarddeliad aelodau, ac yn eu derbyniad yn ol. Hefyd, yr oedd gan amryw bersonau anghlerigol ddylanwad neillduol ar amgylchiadau yr eglwys: un o'r dosbarthiadau hyn a elwid cyffeswyr, sef y rhai a barhäent yn ddiysgog i gyffesu Crist dan yr erlidigaeth lymaf. Yr oedd dosbarth arall hefyd, a elwid y *seniores plebis* (y werin hynaf)—math o ganolwyr rhwng y gwŷr llên a'r gwŷr lleyg—a gafwyd yn yr eglwysi Affricaidd gogleddol yn y bedwaredd ganrif, y rhai a wahaniaethid yn bendant oddi wrth y clerigwyr priodol; ac eto yr oeddynt yn meddu rhyw arolygiaeth yn yr eglwys:—Cymh. *Ambros. Com. in* 1 *Tim.* v. âg *Oblat. Milev. De schism. Donat.*, td. 169.

3. Y cyfnewidiad olaf y sylwn arno yw, lluosogi

Digitized by Google

ac y maent oll, fel arglwyddi ysbrydol, yn aelodau o Dŷ yr Arglwyddi. Yn yr holl hen gynghorau Saesnig, a alwai y brenin er cydymgynghoriad, yr esgobion yn wastad fyddai y prif bersonau ynddynt. Pan ddygir cwyn llofruddiaeth i'r Tŷ yn erbyn pendefig, bydd yr esgobion yn ymneilltuo, gan y credir nad cymmesur i weinidogion trugaredd a thangnefedd ymyryd â materion gwaedlyd. Da iawn fyddai iddynt ymddwyn yn gysson â hyn fel Dirprwywyr Eglwysig wrth gasglu y degymau.

Etholir esgob yn Lloegr fel y canlyn:—Pan fyddo marw esgob, mynegir y digwyddiad i'r frenhines trwy gyfrwng y deon, a'r cabidwl neu'r glwysgor (*chapter*); a danfonir trwydded (*license*) gan y frenhines at y deon a'r cabidwl i fyned yn mlaen i ethol olynydd. Gelwir y drwydded hon o eiddo y frenhines yn *congé d'eslire;* yr hon sydd fel y canlyn. Ni a'i llanwn i fyny âg enwau esgob diweddar ac esgob presennol Llanelwy, gan mai dyma y digwyddiadau diweddaf o'r fath a gymmerodd le yn Nghymru. Yr ydym yn rhoddi y rhybuddion, &c., yn yr iaith Saesnig, gan y gellir dibynu felly ar eu cywirdeb manwl:—

"VICTORIA, by Divine favour of England, Scotland, France, and Ireland, Queen, Defender of the Faith. To our beloved in Christ, the Dean and Chapter of our Cathedral Church of St. Asaph, greeting. The said church having become vacant and deprived of the comfort of a pastor, by the death of the most Reverend Father in Christ, JOSHUA HUGHES, lately Bishop of St. Asaph, we have been humbly besought, on your part, to grant you our licence to select another bishop and pastor. We, being favorably disposed towards your petition in this behalf, have concluded that that license should be granted to you according to the tenor of these presents: Asking that in the faith and love by which you are held attached to us, and useful and faithful to our kingdom. As witness my hand, at Westminster, the —— day ——, in the —— year of our reign, A.D. 1889."

Gyda'r drwydded hon, sydd yn 'proffesu' awdurdodi y deon a'r cabidwl i ethol olynydd, anfonwyd y llythyr canlynol; yr hwn a elwir yn '*letter missive;*' yn yr hwn yr hysbyswyd enw y neb oedd i'w ethol ganddynt:—a hwnw yr oedd raid i'r deon a'r cabidwl ei ethol!

"VICTORIA R.—Trusty and well beloved, we greet you well. Whereas the Bishopric of St. Asaph is at this present time void, by the death of the most Reverend Father in God, Dr. JOSHUA HUGHES, late Bishop there; We let you weet, That for certain considerations, as at this present moving, we of our princely disposition and zeal being desirous to prefer unto the same see a person meet thereunto; and considering the virtue, learning, wisdom, and other the good gifts wherewith the Reverend ALFRED GEORGE EDWARDS, Doctor in Divinity, is endued; we have been pleased by these our Letters to name and recommend him unto you to be elected and chosen to the said Bishopric of St. Asaph. Wherefore we require you, upon receipt thereof, to proceed to your election, according to the laws of this our realm and our *congé d'eslire* herewith sent unto you, and the same election so made to certify unto us under your common seal. Given under our sign, at our Palace at Westminster, the —— day of ——, in the fifty second year of our reign."

Ar dderbyniad y *congé d'eslire*, anfonwyd y rhybudd canlynol gan y deon a'r cabidwl at bawb oedd yn meddu unrhyw hawl i gymmeryd rhan yn yr etholiad:—

"In the choir of the Cathedral Church they intend on —— day of —— to proceed to the election of a new Bishop and pastor of St. Asaph; and at the same hour and place to proceed to the whole business of the said election, with all its incidents, emergencies, and dependencies whatsoever, until the final despatch of the said election, as, God willing, we ought to proceed."

Ar ol yr etholiad rhagrithiol hwn gymmeryd lle, yr oedd raid gwneyd cofnod o hono yn *Llyfr Cofnodau y Cabidwl*, fel y canlyn:—

"At the day, hour, and place (aforesaid), immediately after Morning Prayer, the Dean and Chapter of the said church (the Royal licence of *congé d'eslire* and letter recommendatory for choosing another Bishop being first read), with one assent and consent, did elect unto the said see the Rev. ALFRED GEORGE EDWARDS, and by them so elected Bishop, did openly and solemnly declare in the body of the said church, before all the people there," &c.

Pe na buasai i'r deon a'r cabidwl ethol Dr. Edwards, ac anfon hysbysiad o hyny i'r Goron o fewn un-niwrnod-ar-hugain ar ol eu derbyniad hwy o'r *congé d'eslire*, a'r llythyr (*letter missive*) uchod; neu pe buasai rhywun neu rywrai o honynt yn goddef neu yn gwneyd unrhyw beth yn groes i'r gorchymyn, buasai pob un o'r cyfryw, a'r neb fuasai yn eu cymmhell, yn eu cyfarwyddo, neu yn eu cefnogi, yn agored i holl beryglon, cospedigaethau, a dirwyon deddf y *præmunire*, y rhai a ddisgrifir gan Blackstone fel y canlyn: —'O'r funyd y profir y person yn euog, y mae efe y tu allan i amddiffyniad y brenin; bydd ei gorph yn parhau yn ngharchar wrth ewyllys y brenin; a bydd ei holl eiddo ansymmudol a phersonol (*real and personal*) yn myned yn eiddo y Goron.'——'Nis gall roddi cyfraith ar neb, na chodi iawn gan neb am y colledion a'r niweidiau gwaethaf; ac nis gall un dyn yn ddiogel weinyddu cysur, na chynnorthwy, nac ymgeledd iddo.' Dyna gospedigaeth chwerw!

Ar ol yr etholiad yr oedd raid gofyn cydsyniad Dr. Edwards, trwy fod dirprwywr (*proctor*), yn gweithredu dros y deon a'r cabidwl, yn myned ato, ac yn dangos iddo yr hysbysiad canlynol am yr etholiad, gan ofyn am ei gymmeradwyaeth o hono:—

"We, the Dean and Chapter, being come, and prayers to Almighty God, before all things, being humbly offered up, did, according to the statutes and ecclesiastical laws of the famous Kingdom of Great Britain, canonically proceed to the election aforesaid," &c.: and, "after mature and serious consideration, had between ourselves, concerning a fit person in that behalf to be elected, we did, at length, agree to give our votes for you."

Ai tybed nad oes yma ragrith cywilyddus yn y ffeithiau a nodir uchod, a chabledd hefyd yn y cyfeiriad at 'weddio ar yr Hollalluog Dduw' am arweiniad i ddewis esgob, pan y gwyddant yn dda nad oedd wiw iddynt ddewis neb ond Dr. Edwards!

Ar ol yr etholiad, anfonodd y deon a'r cabidwl yr hysbysiad canlynol, dan eu sêl gyffredin, i'r Goron, yn hysbysu yr etholiad.

"We, the Dean and Chapter of St. Asaph, by virtue and authority of your Majesty's royal licence to us, most graciously made and granted for electing another Bishop of the said Cathedral Church, being capitularly assembled in the said Cathedral Church of St. Asaph, and having materially and seriously considered of a person meet to be elected thereto, at length we have unanimously agreed to elect Dr. ALFRED GEORGE EDWARDS."

Y peth nesaf oedd cadarnhau y dewisiad; yr hyn a wnaed, fel yn gyffredin, yn *Bow Church, Cheapside*, yn ninas Llundain, yn ol gorchymyn y Goron, a threfniadau Archesgob Caergaint. Wedi myned trwy y seremoniau arferol gwnaeth yr esgob lŵ o ffyddlondeb ac ymostyngiad i'r frenhines; a dadganiad yn erbyn Simoniaeth (*Simony*) neu gyssegr-fasnach; a llŵ o ufudd-dod i'r archesgob hefyd. Ar ol hyny, cyhoeddwyd fod yr etholiad wedi ei gadarnhau.

Digitized by Google

Y cam nesaf oedd ei gyssegru i'r swydd; yr hyn a wnaed yn ol y ffurfwasanaeth sydd yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin*.

Ar ol ei gyssegriad, ond nid cyn hyny, ac wedi i'r holl ffurfiau a seremoniau uchod gael eu cyflawni, yr oedd raid i'r esgob ymddangos yn bersonol o flaen y frenhines, i ymbil am feddiannau tymmhorol (*temporalities*) yr esgobaeth ganddi. Pan yn appelio am y rhai hyn, yr oedd raid iddo dalu gwarogaeth iddi trwy fyned ar ei liniau, a rhoddi ei ddwylaw rhwng dwy law y frenhines, a hithau yn eistedd ar ei gorsedd, a chymmeryd y llŵ difrifol canlynol ger ei bron:—

"I, Alfred George Edwards, Doctor of Divinity, now elected, confirmed, and consecrated Bishop of St. Asaph do hereby declare that Your Majesty is the only supreme Governor of this your realm in spiritual and ecclesiastical things, as well as in temporal; and that no foreign prelate or potentate has any jurisdiction within this realm; and I do acknowledge that I hold the said Bishopric, as well the spiritualities as the temporalities thereof, only of your Majesty. And for the same temporalities I do my homage presently to your Majesty. So help me God!"

Caiff y darllenydd farnu pa faint o anrhydedd ydyw yr uchod i neb ag sydd wedi cymmeryd rhan ynddo. Yn marn llawer, fel ninnau, y mae yn dra annheilwng, a rhagrithiol, o'r dechreu i'r diwedd—heb sôn dim am Esgobyddiaeth fel trefniant crefyddol. Fel hyn, y mae yn rhaid i bob deon, a chabidwl, ac esgob, ac archesgob, wneyd pan yn yr amgylchiadau hyn. Dyma ddeddf y wlad—a rhaid ymostwng mor isel a hyn, neu golli holl fanteision y swydd!

Dymunwn alw sylw neillduol hefyd at y llŵ diweddaf uchod. Ynddo y mae yr esgob wedi "dadgan ei fod yn dal yr Esgobaeth, ei phethau ysbrydol a thymmhorol fel eu gilydd (meddai), oddi wrth eich Mawrhydi yn unig. Ac am y pethau tymmhorol hyny yr wyf yn ymostwng yn awr i'ch Mawrhydi. Felly cynnorthwyed Duw fi!" Yn awr, pa gyssondeb sydd i neb haeru, yn wyneb llŵ mor ddifrifol a hwn, mai 'eiddo yr Eglwys' ydyw y degymau, a'r holl waddoliadau a manteision daearol, ac ysbrydol hefyd, sydd ynglŷn â hi? Dyma yr esgob diweddaf a aeth i'r swydd yn Nghymru, ar ei liniau—ac ar ei lŵ—wedi dadgan, yn y modd mwyaf difrifol ag y gellir ei wneuthur ar y ddaear, ei fod yn derbyn y cwbl yn unig o law brenhines Prydain!

Cymru.—Yn ol cyfrifon a wnaed gan y Parch. Henry William Clarke, B.A., un o glerigwyr yr Eglwys Sefydledig, ac a gyhoeddwyd y flwyddyn hon (1890), dan y teitl canlynol:—"*The Past and Present Revenues of the Church of England in Wales*"—ymddengys fod holl dderbyniadau yr Eglwys yn Nghymru dros dri chant a phump ar hugain o filoedd o bunnau yn y flwyddyn (325,226*p.*)—yr hyn a wna efe i fyny fel y canlyn:—

| Holl dderbyniadau plwyfydd esgobaeth | | | P. |
|---|---|---|---|
| Bangor ... | ... | ... | 45,895 |
| Etto | etto | Llandaf ... | 66,559 |
| Etto | etto | Llanelwy.. | 74,206 |
| Etto | etto | Tŷ Ddewi. | 102,712 |
| Holl dderbyniadau y plwyfydd | | | *P.*289,372 |
| O'r Drysorfa Gyffredin i'r Esgobion ... | | | 17,100 |
| I'r Cabidyliaid (*Chapters*), ac i Athrofa Llanbedr, a 4 Archddiacon ... | | | 14,923 |
| Symiau pellach i Gabidwl Bangor ... | | | 1,616 |
| Etto | Llanelwy, &c. ... | | 2,215 |
| Y cyfan ... ... | | | *P.*325,226 |

Y mae Mr. Clarke yn chwanegu at yr uchod yr hyn a ganlyn:—

"Gellir cymmeryd hwn fel y swm lleiaf; gan fy mod wedi gadael allan o'r cyfrif y taliadau mawr blynyddol a wneir i giwradiaid trwy gymdeithasau yn Llundain a'r Esgobaethau, a thrwy gyfraniadau lleol. Y mae hefyd swm mwy yn cael ei dalu iddynt nag sydd yn gynnwysedig yn y cyfrif uchod; yr hwn a gedwir allan o'r golwg, ond a dderbynir gan glerigwyr oddi wrth ardrethoedd yr eisteddleoedd, taliadau a wneir am eu gwasanaeth yn claddu ac yn priodi, &c., a chasgliadau a wneir yn yr Esgobaethau i wneyd y symiau a dderbynia y clerigwyr mewn bywoliaethau tlodion yn fwy. Gallwn yn ddiogel chwanegu pum mil o bunnau (5,000*p.*) ar gyfer y rhai hyn; a hanner can mil o bunnau (50,000*p.*) am giwradiaid at yr uchod. Felly, yr ydym yn cael cyfanswm o dri chant a phedwar ugain o filoedd (380,000*p.*) yn cael ei dalu i'r Eglwys Sefydledig yn y pedair esgobaeth Gymreig—gyda phoblogaeth Eglwysig o dri chant a hanner o filoedd (350,000), gan gyfrif y plant sydd ynddynt, allan o boblogaeth o filiwn a thri chwarter (1,750,000).

"Wrth ddarllen yr uchod, yr ydym yn cael ein taraw gan y swm bychan a gyfrenir gan y cynnulleidfaoedd tuag at gyflogau y clerigwyr. Nid oedd y swm a dderbyniwyd oddi wrth yr eisteddleoedd, taliadau, ac offrymau, mewn tair esgobaeth ond 4,738*p.*, oddi wrth 748 o eglwysydd a chapeli; sef, 7*p.* yn y flwyddyn ar gyfartaledd oddi wrth bob un tuag at gyflogau y clerigwyr! Yn esgobaeth Tŷ Ddewi yr oeddynt yn fwy trugarog: gan fod y cyfartaledd yn cyrhaedd 10*p.* yn y flwyddyn oddi wrth bob eglwys.

"Pe byddai y clerigwyr yn dibynu am eu cynnaliaeth, fel y mae yr Anghydffurfwyr, ar eu cynnulleidfaoedd, byddent yn dlotach na'r llygod sydd yn eu heglwysydd. A than amgylchiadau felly, gallai Esgob Llanelwy feddu achos gwirioneddol o angenoctyd a thrueni i'w osod ger bron pobl Lloegr. Nid ydym yn darllen nac yn clywed am Anghydffurfwyr Cymreig 'yn anfon yr het o gwmpas' Lloegr."

Dyna dystiolaeth un o glerigwyr yr Eglwys ei hun am dani, a hyny mor ddiweddar a dechreu y flwyddyn hon—1890.

Nifer archesgobion Lloegr a Chymru ydyw dau: ac y mae pedwar-ar-ddeg-ar-hugain o esgobion yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig yn Lloegr a Chymru. Dengys y rhestr isod enwau eu hesgobaethau, a'r symiau a dderbyniant yn flynyddol. Telir eu cyflogau iddynt yn awr gan y Dirprwywyr Eglwysig.

Archesgobion.

| | | |
|---|---|---|
| Caergaint (Canterbury) ... | ... | 15,000*p.* |
| Caerefrog—(York) ... | ... | 10,000*p.* |

Esgobion Lloegr.

| | | |
|---|---|---|
| Llundain ... ... | ... | 10,000*p.* |
| Westminster... ... | ... | 2,000*p.* |
| Durham ... ... | ... | 7,000*p.* |
| Winchester ... ... | ... | 6,500*p.* |
| Bath a Wells ... | ... | 5,000*p.* |
| Carlisle ... ... | ... | 4,500*p.* |
| Caerlleon ... ... | ... | 4,200*p.* |
| Chichester ... ... | ... | 4,200*p.* |
| Caerloyw (Gloucester) a Bristol | ... | 5,000*p.* |
| Ely ... | ... | 5,500*p.* |
| Exeter (gyda Chanoniaeth) | ... | 4,200*p.* |
| Henffordd (Hereford) ... | ... | 4,200*p.* |
| Lichfield ... ... | ... | 4,200*p.* |
| Lincoln ... ... | ... | 4,500*p.* |
| Liverpool ... ... | ... | 3,500*p.* |
| Manchester ... ... | ... | 4,200*p.* |
| Norwich ... ... | ... | 4,500*p.* |
| Newcastle-on-Tyne ... | ... | 3,500*p.* |
| Peterborough ... | ... | 4,500*p.* |
| Ripon ... ... | ... | 4,200*p.* |
| Rhydychain (Oxford) ... | ... | 5,000*p.* |
| Rochester ... ... | ... | 3,100*p.* |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Salisbury ... ... ... | 5,000*p.* |
| St. Albans ... ... ... | 4,500*p.* |
| Sodor a Man ... ... ... | 2,000*p.* |
| Southwell ... ... ... | 3,500*p.* |
| Truro ... ... ... | 3,000*p.* |
| Windsor ... ... ... | 2,000*p.* |
| Wakefield ... ... ... | 3,000*p.* |
| Worcester ... .. ... | 5,000*p.* |
| ESGOBION CYMRU. | |
| Bangor ... ... ... | 4,200*p.* |
| Llandaf ... ... ... | 4,200*p.* |
| Llanelwy ... ... ... | 4,200*p.* |
| Tŷ Ddewi ... ... ... | 4,500*p.* |
| Y cwbl yn flynyddol ... | 173,600*p.* |

Gwelir fod bywoliaethau esgobion Prydain yn rhai breision. Dylid sylwi fod gradde g bresennol cyflogau y clerigwyr uchod wedi ei sefydlu ar ol i'r hyn a elwir yn 'ddiwygiad eglwysig' ddechreu, yn 1837. Yr oedd cyflogau amryw o honynt yn llawer uwch cyn hyny; ond fel y mae yn fwyaf cywilyddus i'r Dirprwywyr Eglwysig, yr hyn a gynnilwyd o'u cyflogau a wariwyd yn helaeth, am dymmhor, ar eu palasau.

Ychydig o lywodraeth sydd gan yr Eglwys Esgobawl arni ei hun. O herwydd ei chyssylltiad â'r deyrnas, gorwedda pob awdurdod arni, yn mron, yn nau dŷ y senedd; er yr ystyrir ei bod yn cael ei llywodraethu gan 2 archesgob, a 34 o esgobion—pedwar ar hugain o bai rai, heb law yr archesgobion, sydd yn meddu seddau yn Nhŷ yr Arglwyddi. Y ddeddf ydyw hon:—Pan y bydd marw esgob, cymmerir ei le gan yr esgob a bennodwyd gyntaf o'r rhai fydd heb fod yn Nhŷ yr Arglwyddi. Yn awr y mae 10 o'r 34ain allan; sef, esgob Exeter yr hwn a bennodwyd yn 1885; Salisbury, 1885; Ely, 1885; Manchester, 1886; Wakefield, 1888; Caerlleon, 1888; a Llanelwy, 1889:—ynghyd â thri esgob arall; sef, Westminster, Sodor a Man, a Windsor, y rhai nid ydynt yn meddu hawl i fod yn Nhŷ yr Arglwyddi.

Heb law yr esgobion sydd mewn cyssylltiad âg esgobaethau, y mae 10 o Esgobion Cynnorthwyol (*Suffragan Bishops*); y rhai sydd yn gyffredin mewn bywoliaethau da, ond heb gyflogau esgobawl. Y mae ynddi hefyd 24ain o Esgobion Trefedigaethol (*Colonial Bishops*), y rhai sydd wedi rhoddi eu hesgobaethau i fyny; y rhai y gellir eu galw i weithredu os bydd amgylchiadau anghyffredin yn digwydd.

Perthyna i'r Eglwys 30ain o Ddeoniaid—cyflogau blynyddol pa rai sydd yn gwahaniaethu rhwng 3,000*p.* yn Durham a 700*p.* yn Mangor. Y mae cyfartaledd eu cyflogau yn 1,450*p.* yn y flwyddyn.

I gynnorthwyo yr esgobion yn mhellach yn nghyflawniad gwaith eu swyddi, y mae 86ain o Arch-ddiaconiaid (*Archdeacons*); y rhai sydd yn gyffredin yn meddu bywoliaethau da. O dan yr Arch-ddiaconiaid, y mae 810 o Ddeoniaid Gwladol (*Rural Deans*), y rhai sydd yn fath o arolygwyr ar glerigwyr y plwyfydd. Gellir tybied fod yr esgobion, gyda'u cyflogau mawr, yn cael 'byd da yn helaethwych beunydd' yn ngwyneb yr holl gynnorthwy hwn; a bod yma lawer iawn mwy na digon o swyddogion i gyflawni hyny o waith a wneir rhyngddynt a'u gilydd.

Rhifedi bywoliaethau yr Eglwys ydyw tua 14,200. Ond y mae holl rifedi y clerigwyr o bob gradd tua 23,000—o'r archesgobion i lawr hyd y ciwradiaid, a'r clerigwyr sydd heb fod yn gweinyddu y swydd.

CYLLID YR EGLWYS.—Am swm ei holl dderbyniadau blynyddol, y mae cryn wahaniaeth barn. Da fyddai cael gwybodaeth gywir, pe y gellid; ond er fod llawer cais wedi ei wneuthur at hyn, aflwyddiannus fu y cwbl. Yn ol rhai, tybir fod yr Eglwys Esgobawl yn derbyn yn Lloegr a Chymru gymmaint a deng mil o filoedd o bunnau (10,000,000*p.*) yn y flwyddyn, o'r gwahanol ffynnonellau hyn:—degymau, gwaddoliadau, gwerth y palasau a'r parsondai, a'r tiroedd cyssylltiedig â hwynt, arian yr eisteddleoedd, ac arian y wenwisg (*surplice fees*). Ond golyga eraill fod y swm yn rhywle tua saith mil a chwarter o filoedd o bunnau (7,250,000*p.*) yn y flwyddyn. Nid oes dim yn cael ei gyfrif yn y naill na'r llall ar werth blynyddol yr eglwysydd cadeiriol, a'r eglwysydd eraill; yr hyn a chwanegai y swm yn ddirfawr.

Rhaid cofio fod tai yr esgobion bob amser i'w galw yn 'balasau;' a gwnaed cyfraith (2 a 3 *Vic. pen.* 18) i awdurdodi yr esgobion i godi arian ar eu hesgobaethau, i adeiladu palasau teilwng o'u cyflogau tywysogaidd! Ond ymddengys nad oedd hyn yn ddigon iddynt; canys sefydlwyd Dirprwyaeth Eglwysig (*Ecclesiastical Commission*) i ystyried "amddifadrwydd ysbrydol yr eglwysydd," &c. Sefydlwyd y ddirprwyaeth yn 1837, pan y cynnwysai bump o esgobion, ac wyth o wŷr lleyg. Yn 1840, newidiwyd cyfansoddiad y ddirprwyaeth fel ag i gynnwys 49 o aelodau; sef, 26 o esgobion, 3 o ddeoniaid, a'r 20 eraill yn wŷr lleyg. Cyfansoddiad presennol y ddirprwyaeth (1890) sydd fel y canlyn:—y 2 archesgob, 31 o esgobion, 5 o weinidogion y goron fydd yn aelodau o gynghor y deyrnas, 4 o farnwyr, 3 deon, a 12 o lëygwyr enwog.

Amcan y ddirprwyaeth, fel y mynegwyd, yn 1840, oedd gwellhau sefyllfa y bywoliaethau eglwysig (*benefices*), lle y byddai y boblogaeth yn fawr, ond y gwaddol yn brin, fel nad oedd yn ddigon i gynnal clerigwr; ac "i chwanegu nifer clerigwyr ac eglwysydd, ac i wneyd darpariaeth fwy addas er addysg grefyddol poblogaeth oedd yn cynnyddu mor gyflym." Mewn geiriau eraill, yn ol un o'r cyfreithiau seneddol sydd yn rheoli eu dyledswyddau, amcan eu sefydliad oedd "symmud y diffyg ysbrydol oedd mewn rhanau poblog o'r wlad;" neu mewn geiriau eraill, cymmhwyso y gwaddoliadau eglwysig yn well at anghenion yr Eglwys.

Yn awr, gadawer i ni daflu golwg pa mor ffyddlawn y bu Dirprwywyr yr Eglwys Sefydledig i gyflawni y ddyledswydd bwysig a chyfrifol hon. Canfu y dirprwywyr, yn fuan ar ol eu sefydlu, fod nifer fawr o honynt yn sefyll mewn angen mawr am balasau newyddion! Ni oddef ein terfynau i ni nodi y manylion am bob un o'r palasau ysblenydd hyn; ond daeth y dirprwywyr yn fuan i weled fod ar yr esgobion canlynol angen am balasau newyddion; a gwariwyd y symiau anferth hyn arnynt:—

| | |
|---|---|
| Caerloyw a Bristol ... ... | 23,968*p.* |
| Exeter ... ... ... | 3,500*p.* |
| Henffordd ... ... | 800*p.* |
| Lincoln ... ... ... | 52,194*p.* |
| Llandaf ... ... ... | 9,054*p.* |
| Manchester ... ... | 19,037*p.* |
| Norwich ... ... ... | 5,000*p.* |
| Ripon ... ... ... | 14,724*p.* |
| Rochester ... ... | 28,157*p.* |
| Rhydychain ... ... | 6,469*p.* |
| Worcester ... ... | 7,900*p.* |
| Cyfanswm ... ... | 170,743*p.* |

Digitized by Google

adeg. Dywedir fod yn Syria, Asia Leiaf, Groeg, ac ar ororau gogleddol Affrica, lawer o'r esgobaethau ditlanedig hyn. Pan anfonir cenadwr Pabaidd, o dan y cymmeriad o esgob, i wlad heb Gristionogaeth ynddi, lle na bydd y dychweledigion wedi eu dwyn dan un reolaeth a threfn eglwysig, nid yw y pab yn cyssegru y cenadwr fel esgob y wlad hono, ond fel esgob un o'r esgobaethau ditlanedig; yr hwn y tybir iddo adael ei esgobaeth, a myned i deithio i barthau eraill. Felly, pan ymwrthododd Prydain âg Eglwys Rhufain, parhaodd ei holyniad annhoredig o'i hesgobion yn yr esgobaethau Saesnig, gan ranu yr ynys yn ddosbarthiadau, gyda golwg ar amgylchiadau yr Eglwys Babaidd; ar bob un o ba rai y gosodwyd esgob, a elwid *esgob mewn rhan.*

Pan y danfonwyd y Dr. Richard Smith yma fel esgob gan y pab, yn amser Charles I, daeth yma fel Esgob Calcedon. Arolygir dosbarth Llundain gan esgob a elwir Esgob Olena; y dosbarth dwyreiniol, gan Esgob Ariopolis; y dosbarth gorllewinol, gan Esgob Pella; y dosbarth canol, gan Esgob Cambysopolis; dosbarth sir Lancaster, gan Esgob Tloa; dosbarth Caerefrog, gan Esgob Trachis; y dosbarth gogleddol, gan Esgob Abydos; ac y mae dosbarth Cymru dan ofal ficer apostolaidd Esgob Apollonia. Y mae pob dosbarth yn Mhrydain Fawr yn cael ei ranu yn ddeoniaethau gwladol hefyd.

Dyma pa fath ydyw esgobyddiaeth Eglwys Sefydledig Lloegr, yr hon sydd wedi deilliaw yn uniongyrchol o esgobyddiaeth Eglwys Rhufain; a'r hon, fel y gwelir wrth ei chymmharu â'r esgobyddiaeth a ddarlunir yn y rhan gyntaf o'r erthygl hon, nis gall fod yn annhebycach nag ydyw i'r esgobyddiaeth syml ac ysbrydol, yr hon a geir yn y Testament Newydd.

Esgobion Llundain, Durham, a Winchester, sydd i fod yn nesaf o ran gradd i'r archesgobion.

ESGOBAETH. Cyn y cyfnod Cristionogol, arferid y gair hwn yn gyffredin yn ei ystyr llythyrenol a gwreiddiol am swydd arolygwr. Esgob y gelwid llywydd llysoedd cyfreithiol yr Atheniaid; ac hefyd, y dirprwywr a bennodid i drefnu ac i arolygu talaeth fyddai yn ddarostyngedig i'r weriniaeth. Y mae yn eithaf sicr fod y geiriau *esgob*, a *phresbyter* neu *henuriad*, yn eiriau yn golygu yr un swyddogion. Cymmharer *Act.* xx. 17, â xx. 28; *Phil.* i. 1; 1 *Tim.* iii.; *Titus* i. 5, 7; a 1 *Pedr* v. 1, 2.

Ceir ἐπισκοπή—*episcopê* bedair gwaith yn y Testament Newydd; sef yn *Luc* xix. 44, lle y cyfieithir ef *ymweliad*, mewn cyssylltiad â dinystr Ierusalem:—"Ac ni adawant ynot faen ar faen, o herwydd nid adnabuost amser dy *ymweliad.*" "Can na adnabust amser dy ofwy."—W. S. "Amser ymweliad Duw, pan yr achubodd ei bobl trwy anfon y Messïah addawedig."—*Mann.* "O blegid nad adnabuost, ac nad ystyriaist appwyntiad amser dy *ymweliad* trugarog."—*Doddridge.* "Amser erledigaeth," medd Whitby a Macknight; ac er prawf o hyny, dyfynant *Esa.* x. 3; *Ier.* vi. 15; a x. 15. Y Deg a Thrigain, Schleusner, a Wahl, a'i hystyria fel math o ymweliad rhagluniaethol Duw:—yr amser y dengys Duw ei hun yn rasol i ti. Felly y ceir Theophylact hefyd dan y gair.

*Ymweliad* hefyd y cyfieithir y gair yn 1 *Pedr* i. 12. Yma, medd Whitby, Pyle, a Macknight, arwydda ymweliad trwy erledigaeth. "Yn nydd eu hymweliad hwynt—yr amser y pregethir yr efengyl yn eu plith."—*Doddr.*

Yn 1 *Tim.* iii. 1, yr unig fan arall lle y mae y gair Groeg, cyfieithir ef yn "swydd esgob."

Felly, wrth *esgobaeth* yn yr Actau, y mae i ni ddeall *swydd.*

Yn ei gyssylltiad âg Eglwys Loegr, mae y gair yn gyfystyr â'r dalaeth yn yr hon y bydd y swyddog gwladol, a elwir esgob, yn arolygu gorchwylion eglwysig yr Eglwys Sefydledig. *Bishopric* yw yr enw Saesneg; ac y mae yn gyfystyr â'r geiriau Saesnig *diocese*, *see*, a *district.* Yn amser Cystenyn Fawr, ac ar ol hyny, defnyddiwyd y gair *esgobaeth* (*diocese*) i arwyddo un o barthau gwladol yr ymherodraeth. Yr hen air Cymraeg am esgobaeth oedd *esgobot*, neu *esgobawt;* megys yn y *Trioedd*—"Tair Archesgobot ynys Prydein: un o Lundein; yr eil o Gaer Efrawg; a'r drydedd o Gaer Lleon ar Wysg."—*Myv. Arch.*, ii. 3.

Dywedir y gosodwyd sylfaen y dosbarthiad esgobaethol presennol yn amser y seithdeyrn Saxonaidd. Yn amser y goresgyniad, yr oedd dwy archesgobaeth a thair-ar-ddeg o esgobaethau; sef, Caergaint, Caerefrog, Llundain, Winchester, Chichester, Rochester, Salisbury, Bath a Wells, Exeter, Worcester, Henffordd, Coventry a Lichfield, Lincoln, Norwich, a Durham.

Y cyntaf a newidiodd y trefniant yma oedd Harri I. Ni wnaed un cyfnewidiad arall o bwys hyd 1541, pan y gwnaeth Harri VIII. chwech o esgobaethau newyddion; a bu diddymiad y mynachlogydd yn gymmhorth mawr i'w sefydlu. Rhoddodd hyn gyfleusdra i Harri i roddi eglwysydd eang ac ysblenydd, ac etifeddiaethau mawrion, at gynnal yr esgobion. O'r flwyddyn 1541 hyd 1836, ni wnaed un cyfnewidiad.

Yn amser y chwyldroad, fe gydnabyddwyd Eglwys Bresbyteraidd Ysgotland fel yr eglwys wladol yno. Ar ol hyny, y mae yr Eglwys Esgobawl yn Ysgotland ar yr un tir ag y mae yr Ymneillduwyr yn Lloegr.

Am enwau, rhifedi, a chyllid yr esgobaethau yn Lloegr, Cymru, a'r Iwerddon, gwel ESGOB.

ESGOBYDDIAETH, [o *esgob*]: y drefn eglwysig hono sydd wedi ei sylfaenu ar dair gradd o swyddogion yn yr eglwys—esgobion, offeiriaid, a diaconiaid (*bishops, priests, and deacons*). Ystyrir hwynt oll yn 'offeiriaid;' ar ba rai yr ystyrir yr esgob yn benaeth, ac yn llywodraethwr arbenigol yn yr holl gynnulleidfaoedd fydd o fewn y dalaeth a bennodir iddo. Ac am hyny, efe a elwir yn Esgob Talaethol.

Dechreudod y ddadl ynghylch esgobyddiaeth yn fuan ar ol y diwygiad, a dygwyd hi yn mlaen yn dra brwdfrydig rhwng yr Esgobyddion ar un llaw, a'r Henaduriaid a'r Annibynwyr ar y llall. Yn mysg yr eglwysi Protestanaidd tramor, y mae y rhai a ddiwygiwyd gan Luther a'i gydlafurwyr gan mwyaf yn esgobyddol; tra y mae y rhai a ddilynant athrawiaethau Calvin yn gyffredinol wedi bwrw ymaith y drefn esgobyddol fel un o lygriadau Pabyddiaeth. Yr oedd y ddadl yn cael ei hystyried yn fwy pwysig yn Lloegr nag ar y Cyfandir. Dadleuwyd yn dyn gan un blaid fod y drefn esgobyddol yn hanfodol i gyfansoddiad yr eglwys; tra y barnai pleidiau eraill ei bod yn ormes beryglus ar hawliau dynion, dros yr hon nid oes un awdurdod Ysgrythyrol. Rhoddwn yma resymau y ddwy ochr mor fyr ag y gallwn.

I. *Y rhesymau dros Esgobyddiaeth.* Dadleuir,

1. Fod natur swydd yr apostolion y fath, fel y mae adeiladaeth yr eglwys yn gofyn cael rhyw olynwyr iddynt yn y gweinyddiadau hyny na

Digitized by Google

pherthynant i swyddogion yr eglwys yn gyffredinol.

2. Bod Timotheus a Titus yn esgobion Ephesus a Creta; gorchwyl y rhai oedd rhoddi mewn grym awdurdod a phenogaeth gyffelyb i'r hyn a hônir yn awr gan esgobion taleithiol: 1 *Tim.* i. 3; iii. 19, 22; 2 *Tim.* ii. 2; *Tit.* i. 5, &c., a iii. 10.

3. Y mae rhai hefyd yn ymresymu oddi wrth y crybwylliad am yr angylion yn y Datguddiad, y rhai a ystyriant fel esgobion taleithiol yn saith eglwys Asia, yn enwedig angel eglwys Ephesus, er fod yno amryw henuriaid neu esgobion ar yr un pryd yn mhell cyn ysgrifeniad yr epistolau hyny: *Act.* xx. 17, 18, 28. Gwel Esgob.

4. Dadleuir fod rhai o'r eglwysi a ffurfiwyd yn y dinasoedd mawrion yn ystod bywyd yr apostolion, ac yn enwedig eglwys Ierusalem, yn cynnwys y fath nifer mawr fel nad oedd yn bossibl iddynt ymgynnull yn yr un lle.

5. Bod llawer o brofion yn ngweithiau ysgrifenwyr eglwysig ar ol yr oesoedd apostolaidd, y rhai a elwir tadau yr eglwys, yn dangos fod y sefydliad esgobawl yn apostolaidd.

II. *Y rhesymau yn erbyn Esgobyddiaeth.*—Dadleuir, fel ateb i'r rhesymau uchod—

1. Bod swydd yr apostolion yn swydd anghyffredin; bod yn rhaid iddynt hwy feddu ar y cymhwysderau hyn:—Yr oedd yn anhebgorol i'r apostolion fod wedi gweled yr Arglwydd Iesu ar ol ei adgyfodiad. Am hyny, dywed Paul (1 *Cor.* ix. 1), "Oni welais i Iesu Grist ein Harglwydd?" gan gyfeirio at ei daith i Damascus, a'r weledigaeth yn y deml: *Act.* ix. 3—6; xxii. 6—10, 17—21. Yr oedd yn angenrheidiol hefyd i'r apostolion feddu gallu i wneuthur gwyrthiau; canys hyny oedd y prawf pendant o ddwyfoldeb eu hanfodiad. "Arwyddion apostol yn wir a weithredwyd yn eich plith chwi," medd Paul (2 *Cor.* xii. 12), "mewn arwyddion a rhyfeddodau, a gweithredoedd nerthol." Gan hyny, dadleuir nas gall fod "olynwyr" i'r apostolion yn y dyddiau presennol, a hefyd nad oes dim yn perthyn i ordeiniad, conffirmasiwn, ac esgymundod—gorchwylion a roddir ganddynt hwy i'r esgob taleithiol—nas gellir ei gyflawnu heb ddoniau gwyrthiol gan yr eglwys a'i swyddogion cyffredin.

2. Nad oedd gan Timotheus a Titus breswylfa sefydlog yn eglwysi Ephesus a Chreta, ond yn unig iddynt gael eu hanfon yno yn genadau dros amser: 2 *Tim.* iv. 9, 13, 21; *Tit.* iii. 12. Dywedir hefyd yr ymddengys oddi wrth leoedd ereill yn y Testament Newydd, mai math o swyddogion teithiol, a elwid efengylwyr (2 *Tim.* iv. 5), oedd Timotheus a Titus, megys Silfanus, Apollos, &c., a bod lle cryf i gasglu fod yr Epistol Cyntaf at Timotheus wedi ei ysgrifenu cyn y rhai a ysgrifenodd yr apostol o Rufain yn ystod ei garchariad yno; a thybia rhai fod yr Ail felly hefyd. At hyn chwaneger, yr ymddengys fod yr efengylwyr hyn wedi eu cynnysgaethu â doniau anghyffredin i gyflawnu eu swydd a'u cenadwri: 1 *Tim.* iv. 14; *Eph.* iv. 11; 2 *Tim.* iv. 5. Ac er fod Timotheus gyda Phaul pan y galwodd ato henuriaid Ephesus (*Act.* xx 17—35), nid yw yr apostol yn rhoddi yr awgrymiad lleiaf ei fod yn rhoddi iddo unrhyw awdurdod anghyffredin, nac yn dywedyd un gair wrth yr henuriaid am ufuddhau iddo; yr hyn sydd yn rhoddi lle cryf i gasglu nad oedd y fath beth yn bod, nac i gymmeryd lle.

3. Gyda golwg ar angylion Saith Eglwys Asia, dywedir, o ran dim sydd yn epistolau ein Harglwydd atynt (*Dad.* ii, iii), y gallai nad oeddynt ond bugeiliaid y gwahanol eglwysi; neu wedi eu dewis yn mhob un o honynt, fel cenadon penodol i fod rhwng pob eglwys a'r apostol. Gwel Esgob.

4. Attebir y pedwerydd rheswm—

(1.) Trwy ddywedyd y gall y gair *mouriadês* arwyddo nifer mawr yn unig, ac nad ydyw yn golygu amryw fyrddiynau, mewn ystyr manwl a llythyrenol. Cymharer y gair Groeg yn *Luc* xii. 1.

(2.) Ni ddygir prawf digonol o'r Ysgrythyrau fod y fath nifer o bobl mewn un lle penodol ag y tybir gan yr Esgobaethwyr yn eu sylwadau ar hyn; gan y gallai y myrddiynau o Iuddewon crediniol y lleferir am danynt yn y testyn crybwylledig, cystal a'r nifer a grybwyllir yn *Act.* ii. 14, a iv. 4, olygu y rhai oedd yn ymgasglu yn nghyd ar y gwyliau mawrion o wahanol fanau a gwledydd, o'r rhai y gallai mai ychydig oedd yn preswylio yn y ddinas hono: *Act.* vii. 1—3.

(3.) Os oedd y nifer mawr ag y tybir yn yr wrthddadl, gallai fod amryw esgobion yn mhob dinas, fel yn wir y dengys yr Ysgrythyrau fod (*Act.* xiv. 28; xx. 17, 28; *Phil.* i. 1; *Tit.* i. 5), ac fel y mae eto yn mysg rhai nad addefant Esgobyddiaeth Daleithiol. Ac er fod Eusebius yn cymmeryd arno roddi rhestr o esgobion Ierusalem, dylid cofio fod y Cristionogion wedi eu gwasgaru oddi yno dros ysbaid maith, yn amser ac ar ol y rhyfel Rhufeinig, ac wedi symmud i barthau ereill; yr hyn o angenrheidrwydd a fwyha yr anhawsder a addefa Eusebius ei hun, gyda golwg ar olyniad yr esgobion yn y rhan fwyaf o'r manau a grybwyllir ganddo.

5. Gyda golwg ar yr hen ysgrifenwyr, sylwir—

(1.) Er fod Clement Romanus yn annog y Corinthiaid i ddilyn esampl yr Eglwys Iuddewig, lle yr oedd yr archoffeiriaid, yr offeiriaid cyffredin, a'r Lefiaid, yn adnabod eu swyddi penodol, ac yn gwasanaethu ynddynt, eto, nid ydyw efe byth yn crybwyll fod yr henuriaid a'r esgobion yn wahanol, nac yn cyfeirio eglwys ymrysongar Corinth at unrhyw benaeth eglwysig yn eu plith, fel canolbwnc undeb; yr hyn a wnaethai efe yn ddiammheu pe buasai y fath esgob taleithiol yn ein mysg. Na: ymddengys yn amlwg ei fod ef yn llefaru am yr henuriaid fel rhai oedd yn gwasanaethu swydd esgob yn eu plith—*Clem. Ep.*, *adr.* 39.

(2.) Nid ymddengys chwaith fod Irenæus yn gwneud un gwahaniaeth rhwng esgobion a henuriaid. Mae yn wir ei fod ef yn crybwyll am olyniad o esgobion oddi wrth yr apostolion; yr hyn oedd yn ddigon cydweddol â'r dyb eu bod yn gynnulleidfaol neu blwyfol, ac heb fod yn gwbl anghydweddol â'r dyb eu bod yn gyd-esgobion neu gyd-henuriaid yn yr eglwysi hyny.

(3.) Caniateir fod Ignatius mewn llawer man yn gwahaniaethu rhwng esgobion a henuriaid, ac yn gofyn i'r holl eglwys ufuddhau i'r esgob; ond gan y tybia efe yn fynych fod pob un o'r eglwysi yr ysgrifenai efe atynt yn ymgynnull yn yr un lle, gan eu darlunio fel rhai yn tori yr un bara, yn amgylchynu yr un bwrdd, ac yn annog yr esgob i adnabod ei holl braidd, hyd yn oed wrth eu henwau, cesglir y rhaid ei fod ef yn llefaru am esgobion eglwysi unigol, ac nid am esgobion taleithiol.

(4.) Bod Polycarp yn annog y Cristionogion yn Philippi i ymostwng i'w henuriaid a'u diaconiaid, heb son un gair am unrhyw esgob.

(5.) Bod Justin Ferthyr yn llefaru am lywydd, ond er hyny yn ei ddynodi fel un a fyddai yn bresennol bob amser ar weinyddiad Swper yr

Digitized by Google

gyfiawn yn ngolwg y gyfraith. Nis gallai wasanaethu fel rheithiwr, na bod yn dyst mewn unrhyw lys barn, na dwyn cynghaws yn erbyn neb er adferu tiroedd neu arian fyddai yn ddyledus iddo. Yn ol un o ddeddfau Edward VI, yr oedd taraw, neu dynu allan erfyn i daraw, yn yr eglwys neu y fynwent, yn haeddu esgymundod. Y mae y troseddau a gospid yn amser Edward III., 1373, drwy esgymundod, yn cael eu henwi mewn rhyw erthyglau a gyhoeddwyd pan yr oedd Wittlesey yn archesgob yn Nghaergaint; y mae'r nifer mwyaf o honynt yn gyfryw ag a dueddent i fod yn niweidiol i bersonau neu feddiannau y clerigwyr. Yn ol un o ddeddfau Iago I., yr oedd pob Pabydd a wrthodai gydsynio â chrefydd y wlad, yn cael ei ystyried yn mhob ystyr fel person wedi ei esgymuno yn gyfreithlawn. Yr oedd y ddeddf eglwysig yn gwrthod claddedigaeth i'r rhai a esgymunwyd â'r "esgymundod mwyaf;" a cheir gorchymyn i'r gweinidogion i'r pwrpas hwnw yn yr wythfed canon a thrigain, ac yn nghyfeireb gwasanaeth y claddu. Yr oedd y gyfraith yn cydnabod dau esgymundod: y *lleiaf*, yr hwn oedd yn cau y troseddwr allan o gymundeb yr eglwys; y *mwyaf*, yr hwn oedd yn cau allan o'r cymundeb hwnw, ac hefyd o gymdeithas y ffyddloniaid, &c. Y mae'r bummed ganon a thrigain yn gorchymyn yn ddifrifol i'r gweinidogion bob chwe mis, "ryw Sul ar bryd gwasanaeth," yn yr "eglwys blwyf ac yn eglwys gadeiriol yr esgobaeth y maent yn byw," gyhoeddi yn esgymunedig y sawl fyddont wedi eu hesgymuno yn gyfreithlawn, "fel y rhybuddier ereill i ymwrthod â'u cyfeillach a'u cymdeithas, a'u cyffroi yn hytrach i geisio gwrit *de excommunicato capiendo* i'w dwyn drwy hyny, a dyfod â hwy yn ol i iawn drefn ac ufudd-dod." Y mae erthygl xxxiii. hefyd yn dyweyd: "Y dyn trwy eglur gyhoeddiad yr eglwys a iawn dorer ymaith oddi wrth undeb yr eglwys, ac a esgymuner, a ddylid ei gymmeryd gan holl luaws y ffyddloniaid megys dyn cenedlig a phublican, hyd oni chymmoder ef yn gyhoedd drwy benyd, a'i dderbyn i'r eglwys gan farnwr y byddo iddo awdurdod i hyny." Yn ol un oddeddfau George III., y mae esgymundodau, a'r hyn oedd yn eu dilyn, yn cael eu hattal, oddigerth yn yr amgylchiadau neillduol a nodir yn yr act; ac yn lle dedfryd o esgymundod, megys fyddai yn arfer cael ei chyhoeddi gan y llysoedd eglwysig, mewn achosion o wrthnysigrwydd, y mae y troseddwyr i gael eu cyhoeddi yn wrthnysig, a'u cyfeirio i'r canghell-lys. Gynt, yr oedd gwrit i ddal yr esgymunedig yn cael ei rhoddi yn y canghell-lys, wedi i'r esgob ddyweyd fod deugain niwrnod wedi myned heibio er pan gyhoeddasid y ddedfryd o esgymundod yn yr eglwys, a bod y troseddwr heb ymostwng. Yna fe dderbyniai yr uchel-sirydd y gwyslythyr, a rhoddai y troseddwr yn ngharchar y sir hyd oni sicrhäai yr esgob ei fod wedi ymgymmodi. Pa bersonau bynag fydd yn dwyn arnynt eu hunain y ddedfryd yn awr, ni ellir eu carcharu yn hwy na chwe mis. Yn yr Alban, pan y mae'r esgymundod lleiaf yn methu cyrhaedd yr amcan mewn golwg, y mae'r gweinidog yn dadgan ffurf drwy ba un y mae'r troseddwr anedifeiriol yn cael ei gyhoeddi yn "esgymunedig, wedi ei gau allan o gymundeb y ffyddloniaid, ei wahardd i fwynhau eu rhagorfreintiau, a'i draddodi i Satan, i ddinystr y cnawd, fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu." Yna rhybuddir y bobl i ochelyd pob cymdeithas ddiangenrhaid ag ef. Yn yr amseroedd gynt, yr oedd person esgymunedig yn yr Alban yn colli pob hawliau gwriogaethol (*feudal rights*), ond yn awr nid yw y ddedfryd yn dwyn i'w chanlyn unrhyw gospedigaeth wladol. Nid yw diarddeliad dyn o eglwys Gristionogol yn awr yn effeithio dim ar ei achosion tymmorol a gwladol; nid yw yn ei osod ef yn agored i ddirwyon a chospau; nid oes a fyno â gorchwylion yr ynad heddwch; nid yw yn cyfnewid dim ar y berthynas naturiol a gwladol rhwng gwŷr a gwragedd, rhieni a phlant, meistriaid a gweision; nid yw yn amddifadu y dyn o'r rhyddid i fyned a dyfod i'r addoliad cyhoeddus; ond y mae yn ei symmud ef o gymundeb yr eglwys a'i rhagorfreintiau; gwneir hyn fel y byddo cywilydd ganddo am ei bechod, ac fel y dyger ef i edifarhau; fel yr amddiffyner anrhydedd Crist, ac fel y symmuder bob maen tramgwydd oddi ar y ffordd.—Gwel EGLWYS.

ESGYNIAD CRIST. Deugain niwrnod ar ol ei adgyfodiad (*Act.* i. 3) cymmerwyd yr Arglwydd Iesu Grist i fyny i'r nefoedd, ac eisteddodd ar ddeheulaw Duw (*Marc* xvi. 19). Yn ol yr adroddiad mwy amgylchiadol yn *Luc* xxiv. 50, efe a aeth gyda'i ddysgyblion hyd yn Bethania, ac a gododd ei ddwylaw ac a'u bendithiodd; a thra yr oedd yn eu bendithio, ymadael o hono ef oddi wrthynt, ac efe a ddygwyd i fyny i'r nef. Yn *Act.* i. 9, dywedir, "A hwynt-hwy yn edrych, efe a ddyrchafwyd i fyny, a chwmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt." Yn y geiriau hyn, fe'n hysbysir pa beth a welodd y dysgyblion â'u llygaid corfforol. Yn y geiriau canlynol (10—12), hysbysir i ni pa beth a ddywedodd y ddau angel wrthynt. Felly yn hanes y dyrchafiad, y mae peth yn weledig a pheth yn anweledig. Yr oedd dyrchafiad yr Arglwydd oddi ar y ddaiar i'r uchelder, hyd nes y derbyniwyd ef gan gwmwl allan o'u golwg, yn weledig. Ond anweledig oedd ei fynediad i'r nef ei hun—y derbyniad i ogoniant y nefoedd. Hysbyswyd hyn iddynt gan yr angelion (*adn.* 11); a chymmerodd le yn unol â rhagfynegiad y Gwaredwr ei hun cyn iddo ddyoddef: *Ioan* xiv. 2. Fe ymddangosodd yr Iesu lawer gwaith o fewn ystod y deugain niwrnod i'w ddysgyblion; ond ymddangosai iddynt, a diflanai o'u gŵydd, yn hollol annysgwyliadwy. Ond yn ei ddyrchafiad efe a ganiataodd i'r apostolion, gyda'u gilydd, olwg arafaidd, bwyllog, ac eglur ar ei fynediad oddi wrthynt i'r nefoedd, er mwyn rhoddi iddynt y sicrwydd cryfaf y dichon i'r synwyrau corfforol fod yn gyfrwng o hono. Cawsant y sicrwydd mwyaf nad oedd eu Harglwydd yn perthyn mwyach o ran ei gorff i'r ddaiar, ond ei fod ef yn awr wedi gorpen ei waith—wedi myned at ei Dad, oddi wrth yr hwn y daethai allan. Yr oedd ei ymadawiad â'r ddaiar yn wrthddrych eu gwelediad corfforol; yr oedd ei fynediad i'r nef, yn ystyr mwyaf priodol y gair, yn wrthddrych dadguddiad. Marc a Luc sydd yn rhoddi y crybwylliadau hanesyddol am esgyniad y Gwaredwr—fe allai, am fod amcan y ddau ysgrifenydd hyn yn eu harwain at hanes yr esgyniad, yn hytrach na Matthew ac Ioan. Y mae Matthew yn gosod allan y Gwaredwr yn fwy arbenig fel brenin ysbrydol ac anweledig, yn teyrnasu ar orseddfainc Dafydd yn nghanol ei ddeiliaid ysbrydol, ac yn bresennol gyda hwynt. Yn Ioan, y mae gogoniant person y Gwaredwr fel Duw ddyn—fel un wedi uno nefoedd a daiar yn ei berson a thrwy ei waith, ac fel un sydd yn llywodraethu y ddau. Mae y ddau fyd dan ei awdurdod

Digitized by Google

yn ol dysgrifiad Marc a Luc; ond eto y mae yn ymddangos yn eu hanesion hwy fel yn gweithredu yn hytrach o'r nefoedd, ac felly y mae hanes yr esgyniad yn dyfod yn fwy naturiol yn eu hefengylau a'u hanesion hwy. Ond y mae ysgrifenwyr ereill y Testament Newydd yn dwyn tystiolaeth i'r esgyniad: *Ioan* iii. 13; *Ioan* vi. 62; xx. 17; 1 *Pedr* iii. 22; *Rhuf.* x. 6; *Eph.* iv. 8—10; 1 *Tim.* iii. 16. Gallasem ddysgwyl yn mlaen llaw y buasai amgylchiad mor hynod ag esgyniad gweledig Crist i'r nefoedd yn cael ei ddysgrifio gan y pedwar efengylwr. Ac y mae rhai wedi gwneuthur anhawsder o hyn. Ond mewn gwirionedd, ar yr olwg gyntaf yn unig y mae felly. Yn chwanegol at yr hyn a ddywedwyd am ddyben a nodwedd neillduol yr efengylwyr, a hefyd y cyfeiriadau a'r crybwylliadau lluosog am yr esgyniad mewn manau ereill, y mae y cyssylltiad rhwng esgyniad ac adgyfodiad Crist yn ddigon o eglurhad ar y mater. Y mae yr esgyniad yn ganlyniad angenrheidiol i'r adgyfodiad. Nid adgyfodi i fywyd fel yr oedd ganddo cyn ei farwolaeth ddarfu iddo, ond i fywyd newydd a gogoneddus; ac o ganlyniad, i fyd cyfaddas i'r fath fywyd. Nis gallwn feddwl ond am ddau fath o fynediad o'r byd hwn i'r nefoedd; un trwy farwolaeth, a'r llall trwy esgyniad gweledig corff ac enaid—y cyfryw ag a hysbysir i ni oedd esgyniad y Gwaredwr. Pe buasai wedi ymadael eilwaith trwy farw, yn mha le y buasai grym ei adgyfodiad? Fel gorchfygwr pechod ac angeu, nis gallwn feddwl am ei esgyniad ond yn y modd y cymmerodd le. Heb law hyny, yr oedd yr apostolion yn edrych ar eu Harglwydd fel wedi eu gadael ar ol ei adgyfodiad: nid oedd ganddynt fwynhad cysson o'i bresennoldeb ar ol iddo adgyfodi: yr oedd rhywbeth sydyn ac annysgwyliadwy yn ei ymddangosiadau iddynt; ac o ran dim a wyddent, gallasai pob ymddangosiad fod yr olaf. Felly nid oedd yr esgyniad yn cael edrych arno mor bwysig a'r adgyfodiad. Yr oedd pob peth o bwys mewn ystyr athrawiaethol yn ymgyfarfod yn yr adgyfodiad:—yr oedd ei yrfa ddaiarol fel yn terfynu yn ei adgyfodiad. Y mae ei esgyniad, a thywalltiad yr Ysbryd, yr hyn oedd yn cymmeryd lle ar ei esgyniad, yn ffrwyth ei adgyfodiad, ac yn ogoneddiad ei gorff fel canlyniad ei fuddugoliaeth ar angeu. Y mae holl gynnwysiad y Testament Newydd gan hyny yn seiliedig ar esgyniad y Gwaredwr i'r nefoedd, a'i eisteddiad ar ddeheulaw Duw; a'r cwbl yn gynnwysedig yn ei adgyfodiad fel amlygiad a phrawf o ddigonolrwydd ei aberth yn iawn.

Nis gallwn ddeall wrth y nefoedd i ba un yr esgynodd Crist, ond y nefoedd yn ei hystyr eangaf, megys yn y geiriau canlynol:—"Ai gwir yw y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaiar? wele y nefoedd a nefoedd y nefoedd nis gallant dy gynnwys di;" 1 *Bren.* viii. 27. "Cyfuwch a'r nefoedd ydyw;" *Iob* xi. 8. "Yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd;" *Salm* ii. 4. "Gorseddfa yr Arglwydd sydd yn y nefoedd;" *Salm* xi. 4, &c. Y mae y nefoedd yn yr ystyr yma yn wrthgyferbyniol i'r ddaiar (*Gen.* i. 1); ac i'r gyfundrefn y perthyna 'y ddaiar iddi—yn gynnwysedig o'r planedau, yr haul, a'r lleuad. Dysgrifir hi fel gorseddfainc a phreswylfa neillduol yr Anfeidrol: *Salm* ii. 4; xi. 4; ciii. 19; cxv. 3; cxxiii. 1; *Esa.* lxvi. 1; *Amos* ix. 6; *Act.* vii. 49; *Mat.* xvi. 19, &c. Lle y triga y saint mewn gogoniant: *Mat.* vi. 20; xix. 21; *Luc* vi. 23; x. 20; *Heb.* x. 34; 1 *Pedr* i. 4, &c. "Gwneler dy ewyllys ar y ddaiar megys y mae yn y nefoedd;" *Mat.* vi. 10. Oddi wrth y cyfeiriadau hyn, y mae yn amlwg fod y Beibl yn golygu wrth y nefoedd le penodol, gwahaniaethol oddi wrth y ddaiar, ac yn diriogaeth o'r greadigaeth weledig lle nad oes bechod o'i mewn, lle y preswylia yr angylion sanctaidd a'r saint sydd wedi eu perffeithio, lle nid oes na phechod na melldith, y lle y mae Duw yn amlygu ei ogoniant mewn modd nad yw mewn un man arall. Yn yr athrawiaeth am yr esgyniad, y mae o bwys i feddu syniad cywir ac ysgrythyrol am y nefoedd. Y mae y duwinyddion Lutheraidd yn deall y gair *nefoedd* am absennoldeb lle neillduol. Dywedant fod yr un berthynas rhwng y nefoedd a'r ddaiar, ag sydd rhwng tragwyddoldeb ac amser. "Nid yw y berthynas sydd rhwng tragwyddoldeb ac amser yn un amserol; ac nid yw y berthynas rhwng nefoedd a daiar yn un leol. Tragwyddoldeb ydyw *achos* amser. Nid yw y nefoedd y tu allan ac uwch law y ddaiar; ond ei hamgyffred a threiddio drwyddi y mae, a hyny hefyd nid mewn modd lleol."—*Schoberlein.* Nid fel hyn y mae y Beibl yn llefaru am y nefoedd. Uchafiaeth yr Anfeidrol ar ddeddfau amser a lle ydyw ei hollbresennoldeb a'i dragwyddoldeb. Ond nid yw y Beibl yn galw hyn yn nefoedd. Gosodir allan berthynas hollbresennoldeb Duw â'r nefoedd mewn ymadroddion fel y rhai hyn—Y mae yn y nefoedd, y mae hefyd ar y ddaiar, ac yn uffern (*Salm* cxxix. 8, 9): "Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti; os cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno," &c. Lleferir am y nefoedd fel lle gwahaniaethol oddi wrth y ddaiar, mor wirioneddol ag ydyw y môr ac uffern yn wahaniaethol oddi wrth y ddaiar. Y mae Duw yn hollbresennol i bob peth; ac y mae pob peth yn rhanedig i nefoedd a daiar. Y mae yn hollbresennol i'r ddwy; ond nid i'r un graddau: y mae ei bresennoldeb yn y nefoedd yn wahanol—yn fwy tanbaid. Y nefoedd yw ei orseddfainc, ei breswylfa, ei deml ei gyssegr: *Esa.* lxvi. 1; *Salm* ii. 4; 2 *Sam.* xxii. 7; *Dad.* vii. 15; *Heb.* ix. 24. Felly nid ffurf hanfodiad Duw, ei uchafiaeth i le, ydyw y nefoedd; ond yn hytrach o lawer, man neu gylch ei ddadguddiad o hono ei hun i greaduriaid dibechod a pherffaith. Y mae Duw yn mhob man; ond nid pob man ydyw y nefoedd, ond y man lle nad oes pechod; y man lle y mae ewyllys Duw yn cael ei gwneuthur yn berffaith; y man lle y mae Duw yn amlygu ei ogoniant, a'r man lle y mae ei holl breswylwyr yn ogoneddedig. Ar ol y farn, bydd y gwrthgyferbyniad rhwng y nefoedd a'r ddaiar wedi diflanu, a'r ddaiar wedi ei chyfnewid i fod yn arddangosfa dadguddiad perffaith Duw o hono ei hun. Gwelodd Ioan yr Ierusalem newydd yn dyfod oddi wrth Dduw i waered o'r nefoedd, a phabell Duw gyda dynion (*Dad.* xxi. 2, 3, 5, 10, 11, 23); ond hyd hyny, y mae y gwrthgyferbyniad rhwng y nefoedd a'r ddaiar (*Mat.* xvi. 19; xix. 21; *Luc* xv. 7) yn wrthgyferbyniad dau le. A phan esgynodd Crist i'r nefoedd, efe a symmudodd o un lle i le arall, ac nid o le i absennoldeb pob lle. Nis gall fod ammheuaeth, gan hyny, pan y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd wrthym fod yr Arglwydd Iesu wedi gadael y ddaiar a myned i'r nefoedd, ei fod wedi newid dau le. Efe a aeth i barotoi lle i'w ddysgyblion (*Ioan* xiv. 2), "Y mae Crist *uchod* yn eistedd ar ddeheulaw Duw;" ac ar y ffaith hon y seilir yr annogaeth i'r saint "i geisio y pethau sydd *uchod*, nid y pethau sydd ar y ddaiar" (*Col.* iii. 1, 2). Yma, yn amlwg, y mae y *ddaiar* yn wrthgyferbyniol i'r *uchod* lle y mae

Digitized by Google

Crist. A'r lle y mae y saint wedi marw yn myned ato (*Phil.* i. 23), "o'r lle hefyd yr ydym yn dysgwyl yr Iachawdwr;" *Phil.* iii. 20.

Yr oedd ei esgyniad yn angenrheidiol yn gyntaf oll er ei fwyn ei hun fel Duw-ddyn. Yn y ddynoliaeth a gymmerodd i undeb â'i berson, ni a allwn wahaniaethu rhwng yr hyn sydd yn hanfodol i'r ddynoliaeth; sef yr hyn nis gall fod hebddo a bod yn ddyn—sef enaid yn preswylio mewn corff, yn meddu ar holl gynneddfau enaid a galluoedd corff, a'r cyfan yn berffaith—ac hefyd yr hyn nad yw yn hanfodol i ddyn; sef y gwendid sydd wedi ymaflyd ynddo mewn canlyniad i'r cwymp, a hyny yn dybenu mewn caethiwed marwolaeth. Yn ei ymgnawdoliad, cymmerodd Crist y ddynoliaeth, yn ddarostyngedig i wendidau a marwolaeth—ac yn hyn yr oedd dyfnder ei ddarostyngiad yn gynnwysedig—ond nid er mwyn cadw meddiant tragwyddol o'r gwendidau hyn. Efe a'u gwisgodd er mwyn ymryddhau trwy farwolaeth oddi wrthynt. Trwy angeu y mae wedi gorchfygu angeu: efe yw blaenffrwyth y ddynoliaeth, wedi ei ryddhau oddi wrth wendidau y cnawd a chaethiwed marwolaeth. Y mae wedi adgyfodi o'r bedd, ac wedi esgyn i'r nef mewn corff gogoneddedig. Nid ydyw wedi ymddiosg o hanfodion y ddynoliaeth: y mae yn wir ddyn yn y nefoedd. Y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo yn gorphorol. Y mae efe yn ben uwch law pob peth i'r eglwys. Y mae wedi ei ddyrchafu goruwch pob tywysogaeth ac awdurdod, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw. Yr oedd y ddaiar, gan hyny, yn anghymhwys i fod yn drigfan briodol iddo. Yr oedd ei esgyniad oddi ar y ddaiar yn angenrheidiol iddo ei hun. Felly yr aeth adref; o herwydd y nefoedd yw ei gartref (*Ioan* xiv. 2), ac a wnaeth drigolion y nefoedd yn fwy sicr o berthynas i'r hyn a gyflawnodd ar y ddaiar (1 *Tim.* iii. 16). O'r nefoedd y daeth i'r byd (*Eph.* iv. 9; *Ioan* iii. 13), ac yr oedd yn gymhwys iddo ddychwelyd yno.

Yr oedd ei esgyniad yn *angenrheidiol* hefyd er mwyn cyflawniad ei waith fel Cyfryngwr, ac er mwyn ei eglwys. 1. Yr oedd ei esgyniad yn sicrwydd ei fod wedi myned i barotoi lle i'w bobl (*Ioan* xiv. 2, &c.), ac y byddai iddo eu dwyn ato ei hun i weled ei ogoniant ac i gyfranogi o'i lawenydd. Efe a aeth yno fel eu rhagflaenor (*Heb.* vi. 20), i wneuthur darpariaeth ar gyfer eu dyfodiad; neu ynte i sicrhau mynedfa iddynt yno. Ei esgyniad ef a agorodd byrth y nefoedd. Barn llawer o'r hen dadau eglwysig oedd, nad oedd mynedfa i'r nefoedd cyn i Grist esgyn. O blaid hyn defnyddiant eiriau fel y canlyn:—"Ni esgynodd neb i'r nef ond yr hwn a ddisgynodd o'r nef, sef Mab y dyn yr hwn sydd y nef;" *Ioan* iii. 13. Ac hefyd, "Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi." Nid parotoi y nefoedd fel lle a feddylir: yr ydoedd felly yn flaenorol; yr oedd y trigfanau yno o'r blaen; ond yr wyf yn myned i barotoi "lle *i chwi*." Y mae yr un ymadrodd ddwywaith yn dangos mai yn ei gyssylltiad â hwynt a'r dysgyblion, ac â chredinwyr yn gyffredinol, yr oedd yn angenrheidiol parotoi y lle. Yn gyntaf ac yn benaf y parotoi oedd yn angenrheidiol oedd i Grist ei hun fod yno. Ei bresennoldeb ef sydd yn gwneuthur y nefoedd yn gartref, yn drigfa barod i'w bobl. Y mae Crist yn gweddïo ar i'r dysgyblion gael bod gydag ef, i weled ei ogoniant: *Ioan* xvii. 24. Gogoniant y nefoedd i'r saint ydyw gogoniant Crist. Y mae esgyniad Crist, gan hyny, yn barotoad angenrheidiol ar y nefoedd i fod yn gartref i dduwiolion. Defnyddir hefyd *Heb.* xi. 40, i'r un perwyl: "Gan fod Duw yn rhagweled rhywbeth gwell am danom ni, fel na pherffeithid hwynt hebom ninnau." Yr oedd y fynedfa i'r sanctaidd sancteiddiolaf, i'r nef ei hun, wedi ei hagor gyntaf, pan aeth Crist i mewn fel y blaenffrwyth, trwy ei adgyfodiad a'i esgyniad. Ni pherffeithid saint yr Hen Destament heb saint y Testament Newydd. Nid oedd y nefoedd i'r duwiolion cyn esgyniad Crist yr hyn yr oedd ar ol hyny. 2. Trwy ei esgyniad y mae yr Arglwydd Iesu yn parhau yn y gweinyddiad o'i swyddau fel Cyfryngwr, ac yn mwynhau yr holl ogoniant sydd yn perthyn i'r cyfryw. (1.) Y mae yn gweinyddu ei swydd offeiriadol yn y nefoedd. Wedi aberthu ei hun ar y ddaiar, yn y tabernacl gweledig hwn, efe a aeth i'r nef ei hun, i ymddangos ger bron Duw drosom ni: *Heb.* ix. 24; 1 *Ioan* ii. 1, 2. Y mae yn cyflwyno ei aberth yn barhaus ger bron y Tad, ac ar sail ei haeddiant yn eiriol drosom, yn sicrhau i ni ddyfodfa hyderus at y Tad, a derbyniad i'n personau, i'n gweddïau, ac i'n gwasanaeth: *Heb.* vii. 25; *Eph.* iii. 12; *Heb.* iv. 15, 16. *Dad.* viii. 3. (2.) Yr oedd yn angenrheidiol iddo ddychwelyd at ei Dad, er mwyn iddo anfon yr Ysbryd Glân i ddysgu, cyfarwyddo, cynnorthwyo, a dyddanu ei eglwys: *Ioan* xiv. 16; xvi. 7. Ac felly er nad ydoedd mwy yn y byd (*Ioan* xvii. 11); er ei fod wedi gadael y byd (*Ioan* x. 28), eto trwy ei Ysbryd fe fyddai gyda hwynt hyd ddiwedd y byd (*Mat.* xxviii. 20); ni adawai hwynt yn amddifaid (*Ioan* xiv. 18), ond gwnai ei drigfan gyda hwynt (*Ioan* xiv. 23), arosai gyda hwynt (*Ioan* vi. 56). Addawodd yr Ysbryd i'w ddysgyblion cyn ei esgyniad; ond ar ol ei esgyniad y cyflawnwyd hi: "Wedi ei ddyrchafu ef trwy ddeheulaw Duw, ac iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awr hon yn ei weled ac yn ei glywed;" *Act.* xi. 33. Nid oedd yn weddus, ac yn wir yn unol â threfn a gosodiad dwyfol nis gallasai gyflawnu yr addewid hon hyd ei esgyniad; "Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith;" *Ioan* xvi. 7. Er mwyn anrhydeddu y Mab, a gosod gogoniant ar ei waith, penderfynodd y Tad i dywalltiad yr Ysbryd fod yn wobr iddo am ei ufudd-dod, yn ganlyniad ei fuddugoliaeth, yn ffrwyth ei eiriolaeth, yn addurn ar ei sefyllfa ogoneddus, ac yn wystl o'i haelioni breninol. Cadwyd y rhodd hon i'w chyfranu ar adeg ei goroniad, pan yr esgynodd i wisgo ei urddas a'i allu mawr fel Cyfryngwr. Nid oedd yr Ysbryd wedi ei roddi eto—yn y cyflawnder y bwriadodd y Tad iddo gael ei dywallt—o herwydd na ogoneddasid yr Iesu eto: *Ioan* vii. 37. Yr oedd y fath rodd i'w cyfranu, yn ol bwriad Duw, ar esgyniad y Cyfryngwr i'w ogoniant. (3.) Esgynodd i'r nefoedd er mwyn eistedd fel brenin ar ddeheulaw ei Dad, i lywodraethu ac amddiffyn ei ddeiliaid, i eangu a chadarnhau ei deyrnas, i ddarostwng holl elynion ei deyrnas ef, a'n hiachawdwriaeth ninnau—y diafol, pechod, y byd, marwolaeth, ac angeu—pa beth bynag sydd yn gwrthwynebu ei ogoniant, ei wirionedd, a'i achos; a pha beth bynag, gan hyny, sydd yn gwrthwynebu ein hiachawdwriaeth ni. "Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd, eistedd ar fy neheulaw hyd oni osodwyf dy elynion yn faine i'th draed;" *Salm* cx. 1; *Heb.* x. 12, 13. "Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed;" 1 *Cor.* xv. 25. Gwanhaodd a



Digitized by Google

maeddodd yr Arglwydd Iesu ei elynion yn fynych yn ystod ei fywyd; ond yn y frwydr fawr ar y groes, efe a'u dymchwelodd ac a'u hymlidiodd yn llwyr; ond trwy ei esgyniad buddugoliaethus efe a gaethiwodd gaethiwed,"—fel y buddugoliaethwyr gynt, efe a rwymodd ei elynion wrth olwynion ei gerbydau, ac a gafodd fwynhau anrhydedd ei fuddugoliaeth. Y mae cyfranogiad y Cyfryngwr o lywodraeth y Tad ar bob peth yn cael ei alw yn y Beibl yn "eistedd ar ddeheulaw Duw;" *Mat.* xxvi. 64; *Marc* xiv. 62; xvi. 19; *Act.* vii. 55; *Rhuf.* viii. 34; *Eph.* i. 20; 1 *Pedr* iii. 22; *Heb.* viii. 1.

Gan fod y rhai sydd yn ymdrechu esbonio ymaith ffeithiau gwyrthiol yr Ysgrythyrau yn gwneyd yr un modd âg esgyniad Iesu Grist, ni a roddwn olygiadau ychydig o dduwinyddion unfongred ar y mater. Y mae Mr. Maurice [*Theological Essays*], er nad mewn geiriau, yn gwadu yr esgyniad; eto y mae, er yn proffesu traethu arno, yn myned heibio iddo fel ffaith hanesyddol yn mywyd y Gwaredwr. Nid yw yn ymddangos ei fod ef yn golygu mwy wrtho na bod yr Arglwydd Iesu yn anweledig er fod ganddo gorff. Gallesid dywedyd yr un modd am dano ar ol ei adgyfodiad, cyn ei esgyniad. Er mor bendant ac amgylchiadol ydyw y Testament Newydd am fynediad yr Arglwydd i'r nefoedd—"a gymmerwyd i fyny i'r nef;" "ymadael o hono ef oddi wrthynt;" "a ddygwyd i fyny i'r nef;" "a ddyrchafwyd i fyny;" "efe yn myned i fyny;" —eto nid yw hyn, sef y ffaith fawr o'i esgyniad gwirioneddol i'r nefoedd, yn ymddangos fel yn cael lle o gwbl yn syniadau Maurice am yr esgyniad.

Fel y canlyn y dywed rhai o'n prif dduwinyddion:—"Yr oedd mynediad Crist i'r nefoedd yn cynnwys ei absennoldeb corfforol o'r ddaiar."—*Calvin.* "Esgynodd Crist i'r nefoedd; hyny yw, cymmerodd feddiant o'r nefoedd yn ei gorff gwirioneddol ei hun."—*Bullinger.* "Yr oedd esgyniad Crist i'r nefoedd yn gynnwysedig mewn symmudiad gwirioneddol a lleol o'r byd hwn, ac mewn symmudiad i nefoedd y gogoniant."—*Wolleb.* "Y mae dal fod Crist yn bresennol o ran ei gorff ar y ddaiar yn dattroi yr athrawiaeth am esgyniad Crist."—*Wendelin.* "Y mae yn sicr am esgyniad yr Arglwydd Iesu (1) Ei fod yn cynnwys cyfnewidiad lle mewn ystyr gwirioneddol a sylweddol. (2) Fod y man yr aeth iddo yn lle pendant; yn mha un y mae yn preswylio fel yn ei balas breninol, ac yn ei gorff gogoneddus ei hun. (3) Nad yw y lle hwn yn mhob man, ond uchod: *Col.* iii. 1. (4). Mai y nefoedd, yn ystyr uchaf a mwyaf priodol y gair, a feddylir: *Phil.* iii. 20; *Act.* iii. 21; *Heb.* ix. 24; 1 *Pedr* iii. 22. Nid y nefoedd awyrol, na seryddol yn ein golwg ni; ond yn mhell o olwg dynion ar y ddaear: *Eph.* iv. 11."—*Pictet.* "Y nefoedd i ba un yr esgynodd Crist ydyw—nid y Duwdod ei hun, ond y drydedd nef; nid i'r cyssegr o waith llaw, ond i'r nef ei hun:" *Heb.* ix. 24. "Nid ydym i ddeall esgyniad Crist mewn ystyr ffugrol, nac yn dynodi cyfnewidiad yn ei gyflwr daiarol, ond gwir symmudiad o'r ddaiar i'r nefoedd."—*Bucan.* "Efe a esgynodd fel Duw-ddyn (*Eph.* iv. 9) yn wirioneddol o'r ddaiar i'r nefoedd; eto yn y ddynoliaeth y cyflawnodd yr esgyniad. Pwy ydoedd awdwr yr esgyniad? neu pa beth ydoedd achos effeithiol yr esgyniad? Crist ei hun, trwy rinwedd hollalluog ei Dduwdod; ond o herwydd mai yr un ydyw gallu dwyfol y Tad a'r Mab; priodolir yr esgyniad hefyd i'r Tad: *Act.* ii. 34. I ba le yr esgynodd? I'r nefoedd: sef i'r man lle mae tragwyddol hapusrwydd yn teyrnasu; uwch law y byd llygredig hwn, ac o ganlyniad uwch law yr holl nefoedd."—*Wyttenberg.* "Wrth y nefoedd y meddylir, lle gwahaniaethol oddi wrth y ddaiar, lle y mae Duw yn dadguddio ei ogoniant yn fwy tanbaid nag yn un man arall."

Y mae golygiadau y duwinyddion Lutheraidd ar yr esgyniad yn gyffelyb i'r eiddo Maurice, fel y nodwyd uchod, ac yn gynnwysedig mewn dal mai anweledig yn unig ydyw corff Crist—ei fod ar y ddaiar yn awr mor wirioneddol a chynt, ond ei fod yn anweledig. Ac y mae y cyfeiliornad hwn yn codi oddi ar eu camolygiad am natur undeb y ddynoliaeth â'r Duwdod yn mherson y Gwaredwr. Y maent yn dysgu fod dynoliaeth y Gwaredwr yn hollbresennol trwy rinwedd ei hundeb â'r Duwdod. Ei bod felly o ran meddiant pan oedd efe ar y ddaiar, ond ei bod yn ymattal oddi wrth ddefnyddio ei hollbresennoldeb hyd ei esgyniad. Ac fel canlyniad i hyn dywedant na pheidiodd ei ddynoliaeth a bod ar y ddaiar ar ol ei esgyniad, ac mewn gwirionedd fod ei ddynoliaeth yn mhob man, yn y nefoedd ac ar y ddaiar.

Rhoddwn ychydig ddyfyniadau eto i ddangos pa fodd y mae yr ymadroddion "eistedd ar ddeheulaw Duw," ac "ar ddeheulaw y Tad," yn cael eu deall gan dduwinyddion. Gellir dweyd mewn gair mai cael eu deall yn ffugrol y maent gan y Calviniaid yn gyffredinol. "Cymhariaeth wedi ei benthyca oddi wrth dywysogion, y rhai sydd yn gosod swyddogion danynt i lywodraethu ac i weinyddu barn ydyw:" *Salm* xlv. 10; 1 *Bren.* ii. 19; *Mat.* xxi. 20.—*Calvin.*

"Eistedd ar ddeheulaw Duw, ydyw meddu yr awdurdod agosaf at Dduw." "Eistedd ar ddeheulaw Duw sydd ymadrodd cymhariaethol yn arwyddo anrhydedd uchaf Crist, a'r awdurdod a roddwyd iddo gan ei Dad, trwy yr hwn y mae nid yn unig yn llywodraethu y dynion a brynwyd ganddo ef, ac yn eu cyfoethogi â phob bendith, ond hefyd trwy yr hwn y mae yn llywodraethu gyda'r gogoniant mwyaf bob creadur yn y nefoedd ac ar y ddaiar." "Pa beth a feddylir wrth 'eistedd ar ddeheulaw un?' Ymadrodd ffugrol ydyw, yn arwyddo fod y lle uchaf o awdurdod a gogoniant gan y neb sydd yn mwynhau yr anrhydedd, a'i fod yn gydgyfranog o bob llywodraeth a goruchafiaeth." "Nid yw eistedd yn arwyddo *lle* penodol, ond *sefyllfa;* ac wrth 'eistedd ar ddeheulaw Duw' y meddylir meddu sefyllfa o'r gogoniant uchaf." "Crist ydyw gwrthddrych y dyrchafiad; hyny yw, person Crist—ac nid ei natur ddynol yn unig." "Priodolir *eistedd* i berson, ac nid i natur." "Y mae Crist o ran ei ddwy natur yn eistedd ar ddeheulaw Duw." "Y mae tragwyddol Fab Duw yn Dduw-ddyn, ac fe bery felly byth; y mae wedi ymddiosg o ffurf Duw ac wedi ymddiosg o hono am byth."

Y mae y duwinyddion Lutheraidd, a Luther ei hun yn eu mysg, yn deongli yr ymadrodd dan sylw mewn rhan yn llythyrenol ac mewn rhan yn ffugrol. Wrth "eistedd ar ddeheulaw Duw" y deallant hwy gyfranogiad y natur ddynol yn mhriododoliaethau y natur ddwyfol. "Eistedd ar ddeheulaw Duw" ydyw cyfranogiad Crist o ran ei ddynoliaeth yn holl ogoniant a mawredd y natur ddwyfol; o herwydd o amser ei esgyniad y cymmerodd y natur ddynol feddiant gweithredol o'r gogoniant dwyfol."—*Schmid.* Gwelir, gan hyny, mai nid i *berson* Crist, ond i'w *natur ddynol,* y priodolir eisteddiad ar ddeheulaw Duw.

Digitized by Google

Y mae syniadau cywir am esgyniad Crist i'r nefoedd yn angenrheidiol mewn trefn i ragflaenu amryw gyfeiliornadau sydd wedi ffynu o bryd i bryd; megys eiddo yr Eutychiaid, y rhai a haerent fod dynoliaeth y Gwaredwr wedi ei chyfnewid i'w Dduwdod, neu wedi ei llyncu i fyny megys gan ei Dduwdod: yr eiddo llawer o'r Lutheriaid, fel y gwelsom, a haerant fod yr Iesu o ran ei ddynoliaeth yn hanfodi yn mhob man: a chyfeiliornad y Pabyddion o barth i draws-sylweddiad, a chyfeiliornad y Lutheriaid o barth i gydsylweddiad. Y mae y ddau olaf yn haeru fod corff Crist yn bresennol ar y ddaiar mewn llawer o fanau ar unwaith, sef yn mhob man lle y mae yr offeren yn Swper yr Arglwydd. Yn unol âg athrawiaeth esgyniad y Gwaredwr y mae y syniadau uchod yn gyfeiliornus. Efe a esgynodd yn weledig i'r nefoedd—yr hyn sydd yn anghysson â hollbresennoldeb Duw—ac felly y mae yn ddyn yn y nefoedd; ac o ganlyniad nid yw o ran ei ddynoliaeth yn mhob man ar y ddaiar. Hanfod creadur ydyw bod mewn un man ar unwaith. A phe gallai fod mewn chwaneg nag un man, pa ham nad allai fod yn annherfynol, ac o ganlyniad yn Dduw. Y mae trwy ysgogiad gwirioneddol a lleol wedi myned trwy ac i'r nefoedd, ac mewn ffurf weledig corfforol wedi, yn ol iaith yr Ysgrythyr, ei "dderbyn i fyny," "wedi ei ddyrchafu," "myned i fyny," "dygwyd i fyny," wedi myned i'r nefoedd, wedi gadael y byd, wedi myned at y Tad, &c.; ac y mae yn awr yn y nefoedd, "yr hwn sydd raid i'r nef ei dderbyn hyd amseroedd adferiad pob peth."

ESLI, [Gr., 'Εσλι]: ydoedd fab i Nagge neu Naggai, a thad Näum yn achau Crist: gwel *Luc* iii. 25.

ESROM. Gwel HESRON.

ESSENIAID, ['Εσσηνοί; Seis., *Essenes*]: un o dair sect fawr yr Iuddewon. Y ddwy arall oedd y Phariseaid a'r Saduceaid. Y mae tarddiad yr enw yn bur ansicr. Y mae rhai yn ei gyssylltu â'r gair Hebraeg sydd yn arwyddo *puritan*, neu y gair sydd yn arwyddo *ymneillduad*, neu *was Duw*; tra y tybia ereill mai y gair Hebraeg sydd yn arwyddo *iachau* ydyw gwreiddyn yr enw, gan gadarnhau eu syniad trwy gyfeirio at y ffaith fod yr Esseniaid yn proffesu eu bod yn ddosbarth galluog i iachau corff a meddwl. Ereill a dybiant ei fod yn tarddu o'r gair Hebraeg sydd yn arwyddo *trochi*. Y mae Philo yn ei darddu o'r gair Groeg sydd yn arwyddo *sanctaidd*; tra y tardda Epiphanius ef o'r gair Groeg sydd yn arwyddo *llwyth cadarn*. Tebycach, medd Hervey, ydyw ei fod yn dyfod o'r gair Hebraeg sydd yn arwyddo *gwledydd*, neu o'r gair sydd yn arwyddo *y distaw*, *y cyfriniol*. Y mae De Wette, yn dewis y gair Syriaeg sydd yn arwyddo *duwiol*. Gwelir wrth hyn fod ystyr yr enw yn dra anmhenderfynol, hyd yn oed gan yr hynafiaethwyr a'r dysgedigion penaf; ac nid llawer mwy penderfynol ydyw yr hanes am eu dechreuad.

Bernir mai yr achos o'r tywyllwch sydd yn gorchuddio dechreuad yr Esseniaid ydyw, eu bod ar y dechreu yn cynnrychioli tueddiad, yn hytrach na chorff neu sect wahanol a rheolaidd. Canlyniad a ddeilliodd oddi wrth eu harferion oedd y cymdeithasau a ffurfiwyd o honynt; ac nid rhan hanfodol o'u syniadau. Gwahaniaethir hwynt fel sect gan eu hawydd i gyrhaedd purdeb dychymygol, yn hytrach na chan grynodeb penodol o athrawiaethau; ac, fel yr Asideaid o amser cynnarach [gwel ASIDEAID], nid edrychai y bobl gyffredin arnynt ond fel cangen o'r Phariseaid oedd yn fwy selog na'r lleill dros fanyldeb y gyfraith. Canlyniad naturiol oedd cynnydd Esseniaeth o'r teimlad crefyddol a achlysurwyd gan y llywodraeth Roegaidd; ac y mae yn hawdd olrhain y cynnydd trwy gyfrwng yr hyn a'i haddfedodd. Yr oedd ymdrech parhaus yn mysg yr Iuddewon manylaf, er oes y Maccabeaid, am gyrhaedd rhyw safon penodol o sancteiddrwydd. Edrychid ar bob dosbarth o'r diofrydwyr hyn gan eu holafiaid fel rhai o ymddygiadau ymarferol rhy ansanctaidd, ac ymdrechent gario deddfau purdeb buchedd yn mhellach fyth na'u rhagflaenwyr; a saif yr Esseniaid ar derfyn eithafol y feudwyaeth gyfriniol yma, yr hon yn raddol a ymgorffolodd yn gymdeithas ymneillduol. Rhoddodd cymdeithasau y Phariseaid fod i ereill a rwymid gan reolau tynach; a rheolau yr Esseniaid a wnaed yn raddol y rhai tynaf oll. Ymddengys fod Iudas, yr Esseniad cyntaf y crybwyllir am dano (tua 110 C.C.), yn byw mewn cymdeithas gyffredin [*Jos B. J.*, i. 3., adran 5]. Dywed traddodiad fod Menahem, cydymaith Hillel, yn gyfaill i Herod; ac iddo fod yn foddion i gael ffafr y brenin i'w sect [*Jos. Ant.*, xv. 10, adr. 5]. Ymneillduodd yr Esseniaid yn raddol oddi wrth drafferthion ac anturiaethau masnach, ac aethant i'r anialwch er mwyn rhoddi eu syniadau am grefydd mewn grym gweithredol; ond yr oeddynt yn parhau, ar y cyfan, yn ffyddlawn i'w hen ffydd Phariseaidd. Ystyrir fod yr Esseniaid yn sefyll yn yr un berthynas â'r Phariseaid ag y safent hwythau gyda golwg ar y bobl gyffredin. Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt a'r Phariseaid yn gynnwysedig yn benaf yn llymder eu harferion, ac nid yn erthyglau eu ffydd.

Ymddengys i'r sectau hyn—y Phariseaid, y Saduceaid, a'r Esseniaid—gyfodi ar ddirywiad y llywodraeth Iuddewig, ar ol caethiwed Babilon; ac yr oedd cymmaint o ddylanwad gan athroniaeth feudwyaidd ar eu cyfodiad a'u cynnydd ag oedd gan ddiraddiad cenedlaethol a dirywiad moesau. Crefydd, yn mhob sefyllfa, ydyw y peth cyntaf, gan ei bod yn wirfoddol—yn rhyw gyfeiriad naturiol sydd yn y galon at Dduw. Rhyw ail feddwl yn yr enaid ydyw athroniaeth—y peth a geir trwy y gallu o ymresymu; yr hyn, er ei fod weithiau wedi bod yn foddion i buro crefydd, sydd wedi bod mor fynych yn foddion i'w llygru.

Tra yr oedd y Phariseaid yn ymegnïo i ddal i fyny yr hyn a aeth heibio, gyda'u holl ddylanwad traddodiadol, yn ddiwahaniaeth—a'r Saduceaid yn ymlynu yn dỳn wrth hen sefydliadau Moses, ac yn gwrthod pob peth traddodiadol a thybiedig—yr oedd yr Esseniaid yn cymmeryd ffordd arall, yr hon a fwriadent i weithredu mewn dull newydd a grymus er gwellhau drygau cymdeithas, heb esgeuluso pob daioni traddodiadol; gan ymdrechu, nid diwygio ac adgyweirio yn unig, ond iachau ac adfywio. Er mwyn cyrhaedd yr amcan yma, ymroddasant i ddilyn dull myfyrgar o fyw, ac i arfer y llafur hwnw, trwy yr hwn yn unig, yn ol eu barn hwy, y gellid uno meddylgarwch âg ymarferiad, a gweithio allan y daioni y bwriadodd Duw i ddyn ei gyflawni. Dan ddylanwad y syniadau hyn, ni wnai yr Esseniaid ond ychydig gyfrif o seremonïau allanol y Phariseaid; a safent draw yn gydwybodol oddi wrth ammheugarwch ac ysbryd cul a bydol y Saduceaid, gan

Digitized by Google

hon. "Dyma athrawiaethau dwyfol yr Esseniaid yn nghylch yr enaid," medd Josephus; "y rhai sydd yn abwyd anocheladwy i'r rhai fyddent unwaith wedi profi eu hathrawiaeth."

Dywed Neander fod rhaghanfodiad yr enaid hefyd yn un o athrawiaethau yr Esseniaid. Credant iddo ddisgyn, fel y crybwyllwyd eisoes, o ryw fro nefol; iddo gael ei garcharu yn y byd corfforol hwn; ac ar ol bucheddu yn deilwng o'i haniad goruchel, y rhyddheir ef drachefn, pan yr esgyn i hanfod nefol, gyfaddas i'w natur. Mae rhai yn meddwl mai dan ddylanwad yr athrawiaeth yma o eiddo yr Esseniaid y gofynodd y dysgyblion gynt i'r Arglwydd Iesu, am y dyn dall, "Pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?" *Ioan* ix. 2. Gellir olrhain yr athrawiaeth yma, medd Neander, yr hon ydoedd sylfaen meudwyaeth yr Esseniaid, i hen draddodiad dwyreiniol cystal ag i Blatoniaeth Alexandria. Y dwyrain, mewn gwirionedd, oedd lle genedigol yr athrawiaeth hon; o ba le y gweithiodd ei ffordd gyntaf i dir Groeg, lle y perffeithiwyd hi i raddau mawr gan Pythagoras a'i olynwyr.

Yr oeddynt yn proffesu hefyd eu bod yn meddu dawn i brophwydo, gan dynu eu casgliadau oddi wrth eu darlleniad o'r llyfrau dwyfol, yn enwedig yr ysgriteniadau prophwydol, ac oddi wrth eu harferiad o buredigaethau gofalus a diwyd. Mae y deon Aldrich yn nodi tri o'i hymdrechiadau llwyddiannus o'r natur yma, y rhydd Josephus hanes am danynt; yr hwn a ddywed ei hun, mai "anfynych y maent yn methu yn eu rhagfynegiadau." Buasai yn beth rhyfedd, mewn gwirionedd, pe buasent, trwy gymhorth eu dysgeidiaeth a'u sylw manwl a chraffus ar ddygwyddiadau, yn methu profi eu hunain weithiau yn wir brophwydi; yn enwedig os oeddynt yn arfer gwneuthur fel y gwnaeth un o honynt, yr hwn, pan dybiodd iddo fethu prophwydo yn gywir am farwolaeth un Antigonus, a gwynai wrth fintai o'i ddysgyblion, y rhai nid oeddynt debyg o droi clustfyddar ato:—"O rhyfedd! da yw i mi farw yn awr, gan fod gwirionedd yn farw o'm blaen, ac i rywbeth a ragddywedais fod yn anwiredd; canys y mae yr Antigonus hwn heddyw yn fyw, yr hwn a ddylasai fod wedi marw heddyw; a'r lle y dylasai fod wedi ei ladd yw tŵr Straith, yr hwn sydd chwe chant o ystadiau oddi yma." Pa fodd bynag, daeth y newydd mewn pryd, yr hwn a ryddhaodd yr athraw o dristwch, ac a sefydlodd naill ai gwirionedd neu ddylanwad y prophwyd? Yr oedd Antigonus wedi marw [*Jos. De Bell. Jud.*, i. 3, 5].

Yr oedd eu crefftau, eu masnach, a'u galwedigaethau y fath ag a dueddent i lesau dynoliaeth. Yr oeddynt yn trin y ddaear, yn gwneuthur celfi defnyddiol, ac yn magu anifeiliaid; ond nid oeddynt byth yn parotoi arfau rhyfel. Yr oeddynt yn gochel yn ofalus rhag cymmeryd rhan hyd yn oed mewn gorchwylion tangnefeddus, os tybient y rhoddent ryw achlysur i ddrygioni. Pa fodd bynag, ni wiw celu fod rhai o'u syniadau yn terfynu ar eithafoedd, a bod rhai o'u harferion yn dangos mursendod oedd braidd yn ddirmygus.

Ymddengys fod eu moesau yn dra chanmoladwy. Yr oeddynt yn gwylio rhag digofaint fel goruchwylwyr gofalus. Yr oeddynt yn gwybod pa fodd i lywodraethu eu holl nwydau. Yr oeddynt yn nodedig o ffyddlawn, ac yn wir weinidogion heddwch. Gellid ymddiried mwy i'w gair, nag i lŵ rhai dynion. Yn wir, yr oeddynt yn gochel llŵon yn ofalus, gan ymresymu yn deg hefyd, fod y dyn nas gellid ei gredu heb iddo dyngu wedi ei gondemnio eisoes.

Prif amcan eu hymchwiliadau, pa un bynag ai i lyfrau yr hynafiaid ynte i rinwedd llysiau, oedd casglu y fath ddoethineb ag a'u galluogai i weinyddu, fel meddygon medrus, er iachau y corff a'r meddwl.

Esgymunid y personau y profid eu bod yn euog o droseddau gwarthus o'r gymdeithas. Byddai ambell un o'r rhai a esgymunid felly yn marw yn druenus; a derbynid ereill yn ol, wedi myned dan y gospedigaeth lymaf a allai trueni ac eisieu ei gweinyddu; canys ystyrient eu hunain fyth dan ammodau a rheolau eu cymdeithas; a gwaherddid iddynt bob ymborth ond llysiau a dyfent yn wylltion.

Gorchwyl anhawdd oedd cael derbyniad i'w cymdeithasau. Yr oedd yn rhaid iddynt gael prawf o ddeuddeng mis ar broselyt, er mwyn iddynt gael sicrwydd pa cyn belled y gallai yr ymgeisydd oddef llymder eu dysgyblaeth. Ar ddiwedd blwyddyn y prawf, gwisgid yr hwn a gymmeradwyid mewn gwyn, a rhoddid gwregys a math o twyall fechan iddo, a gwneid ef "yn gyfranog o ddwfr y puredigaeth;" hyny yw, fel y tybir, bedydd. Yna, byddai raid iddo fyned dan brawf am ddwy flynedd yn mhellach. Os canfyddid y pryd hyny y byddai y proselyt yn deilwng, derbynid ef i'r gymdeithas. Ond yr oeddynt i wneud rhyw addunedau yn gyntaf; yr hyn a ymddengys braidd yn anghysson â'r hyn a ddywed yr un awdurdod (Josephus) am wrthwynebiad yr Esseniaid i lŵon. Amcan yr addunedau neu y llŵon hyn oedd rhwymo y proselyt i fod yn dduwiol tuag at Dduw, ac yn gyfiawn at ddynion; i gasau y drwg, a chynnorthwyo y da; i beidio niweidio neb, na thrwy ei ewyllys ei hun na thrwy orchymyn ereill; i fod yn ffyddlawn i bob dyn, yn enwedig y rhai mewn awdurdod; i garu y gwirionedd a chasau anwiredd; i gadw ei ddwylaw yn lân oddi wrth ladrad, a'i enaid yn bur oddi wrth fudr-elw; i beidio cuddio dim oddi wrth y frawdoliaeth, ac i beidio dadguddio dim o'u cyfrinion i ereill, hyd yn oed pe rhoddid ei fywyd mewn perygl o blegid hyny; i ddysgu athrawiaeth yr Esseniaid yn ddigyfnewid i ereill o'r frawdoliaeth; ac i gadw eu llyfrau ac enwau eu swyddogion (angelion) yn berffaith ddirgel.

Pan ddelai eu prawf parotoadol i ben, dosberthid y brodyr a fyddent newydd eu derbyn yn bedwar dosbarth; ond ystyrid hwy eto yn wahanol i'r hen aelodau. Yr oedd y gwahaniaeth gyda golwg ar oedran yn cael ei ystyried mor fanwl, fel os cyffyrddai un o'r hynafiaid â brawd ieuanc, byddai raid i'r blaenaf fyned dan buredigaeth trwy ddwfr, yr un modd a phe buasai wedi cyffwrdd â dieithrddyn.

Yr oedd yr Esseniaid yn ystyried fod pob dygwyddiad yn mywyd dyn, fel pob peth arall, dan reolaeth yr ewyllys Ddwyfol, ond eto heb wadu rhyddid dyn. Yr oeddynt yn llefaru ar y pwnc yna, nid am ei fod yn gywir mewn ystyr athronyddol; ond er mwyn magu teimladau duwiolfrydig yr oeddynt yn dysgu fod pob peth yn ymddibynu ar dynged benodol, yr hon oedd yn llywodraethu ar bob peth, ac heb yr hon ni ddygwyddai dim i ddyn.

Nid oeddynt yn offrymu yn y deml yn Ierusalem, er y byddent weithiau yn anfon anrhegion yno. Calon bur, yn ol eu barn hwy, oedd yr offrwm goreu. Nid ystyrient fod golchiadau crefyddol yn ddim amgen na seremoniau sanctaidd.

Digitized by Google

Nid oeddynt hwy yn cadw caethion; ond yr oeddynt oll yn rhydd yn gwasanaethu eu gilydd. Yr oeddynt hefyd yn casau tra-arglwyddiaeth, fel peth dinystriol i gydraddoldeb naturiol, anghrefyddol, a chroes i ddeddfau natur. Yr oeddynt yn ystyried natur fel mam ac athrawes gyffredinol pawb. Yr oeddynt yn ystyried holl ddynolryw yn frodyr—nid mewn enw, ond mewn gwirionedd.

Fel hyn, tra yr oeddynt yn ofalus i gadw ufudd-dod yn eu cymdeithasau, heb yr hyn nis gall un gymdeithas fodoli, nid oedd yr uchaf yn eu plith hwy yn dal un swydd ond er lles i'r cyffredin yn unig; ac nid oeddynt yn gyfoethocach nac yn well eu gwisg nag ereill, nac yn meddu un math o awdurdod wladol.

Nid oeddynt yn goddef i resymeg fod yn mysg pyngciau eu myfyrdod, gan nad oedd, yn ol eu barn hwy, o ddim lles at fwynhau rhinwedd. Yr oeddynt hefyd yn gochel arddansoddiaeth (*metaphysics*) fel peth yn perthyn i byngciau rhy uchel i ddyn; etto yr oeddynt yn ei haddef gyda golwg ar fod Duw, a chreadigaeth y byd. Moesoldeb—y foesoldeb a ddysgent eu hunain o Moses —oedd prif bwngc eu myfyrdod a'u gofal.

Ymddengys fod Pliny [*Hist. Nat.*, v. 17] wedi cael ei synu yn fawr gan yr Esseniaid. "Y maent yn preswylio," eb efe, "ar hyd glanau y Môr Marw, gan ochel bod mor agos iddo ag i gael eu niweidio. Pobl unig ydynt; ac y maent yn rhyfeddach na neb arall; heb fenywaid yn eu plith, gan lwyr ymwrthod â chyfeillach y gwahanol rywiau; heb arian, ac yn preswylio mewn llwyni palmwydd. Chwanegir at eu cymdeithas gan rai yn dyfod atynt bob dydd o'r newydd—rhai wedi blino ar helbulon y byd, ac yn ffoi i ymneillduaeth rhag ei ystormydd. Fel hyn y mae pobl heb un enedigaeth yn eu plith, er mor anhygoel yr ymddengys, wedi parhau heb adfeilio am oesoedd olynol. Mor ffrwythlawn iddynt hwy ydyw y blinder bywyd a deimlir gan ereill!"

Y mae Philo yn cyttuno â Pliny trwy eu darlunio fel rhai yn ffoi o breswylfeydd cyffredin dynion, ac yn byw mewn pentrefydd neu sefydliadau wedi eu codi ganddynt iddynt eu hunain.

Mae yr un ysgrifenydd yn llefaru yn gyffelyb i Josephus am eu golygiadau a'u tueddiadau crefyddol. Nid oeddynt yn aberthu anifeiliaid. Yr oeddynt yn dra gofalus am sefydliadau a thraddodiadau eu hynafiaid, yn enwedig y rhai am y seithfed dydd, y rhai a ddysgent yn ddiwyd i'w dysgyblion, pa rai oedd yn dra lliosog. Yr oedd y seithfed dydd yn sanctaidd ganddynt hwy, ar yr hwn yr aent yn fynych i leoedd cyssegredig, a elwid synagogau, lle y gosodid y rhai ieuaingc i eistedd yn ddosbarthau rheolaidd yn ol eu hoedran, dan olygiad eu henaduriaid. Yna, darllenai un ac eglurai y llall y llyfrau cyssegredig. Dull dammegol yn benaf a arferent. Yr oedd rhinwedd, sancteiddrwydd, cyfiawnder, a chynnildeb, yn mysg pyngciau penaf eu haddysg; ac nid oeddynt yn esgeuluso dyledswyddau dynion i'r llywodraeth. Yr oedd eu haddysgiadau yn cael eu dilyn gan ddarpariadau a rheolau; ac yr oeddynt yn rhoi bri mawr ar gariad at rinwedd, cariad at ddyn, a chariad at Dduw. Rhoddasent lawer o brofion o'u cariad at Dduw; yn mhlith y rhai y cyfrifai Philo fod eu bywyd diwair trwy eu hoes, eu llwyr ymattaliad oddi wrth dyngu, a'u gwaith yn priodoli pob daioni i Dduw, a dim o'r drwg a ddigwydd yn y byd. Rhoddent brawf o'u cariad at rinwedd trwy ddiystyru cyfoeth, anrhydedd, a phleserau; trwy eu hunan-lywodraeth, eu hamynedd, eu gwroldeb, eu dull syml o fyw, eu gwylder, a'u parch i gyfraith; tra y profent eu cariad at ddyn yn ddiammheuol drwy eu cymmwynasgarwch, eu cydraddoldeb ymarferol, eu gwaith yn gwneuthur da i bawb yn ddiwahaniaeth, ac yn rhoddi yr hyn oll oedd ganddynt i fod yn eiddo cyffredin. Yr oedd pob Esseniad yn frawd i bob dyn arall, a dim chwaneg. Dangosent eu dyngarwch yn nodedig at y claf a'r oedranus. Gwylid y blaenaf ganddynt yn y modd mwyaf gofalus a charedig. Ac ni welwyd erioed barch i'r oedranus mewn mwy o fri nag yn mysg yr Esseniaid. Yr oedd pob un o honynt yn ymdrechu dangos eu caredigrwydd i henaint yn mhob dull; a chanfyddai yr hen ei hunan yn eu plith fel pe buasai yn nghanol plant tyner eu calonau. Yn nghanol yr holl chwerwder, a holl erlidwyr a gelynion dirgel a chyhoeddus yr Iuddewon, medd Philo, ni fedrodd neb erioed ddwyn prawf, na chyhuddo un Esseniad o drosedd. Nis gellir gwadu rhinweddau y dynion hyn, medd Dr. Beard; canys y mae pob ysgrifenydd yn rhoddi parch iddynt fel dynion haelfrydig, gan roddi clod i'w brawdoliaeth a'u cydgyfranogiad cyffredinol o'u heiddo. Dangosodd brenhinoedd gymmeradwyaeth i'w sefydliadau, y rhai a ystyrient yn anrhydedd i gael amlygu eu parch iddynt.

Gellir nodi rhai defodau ereill oedd yn eu plith nad ystyrient mor bwysig. Yr oeddynt yn dra hoff o wisgoedd gwynion; gan dybied eu bod yn arwyddlun o burdeb bywyd, dros yr hyn yr oeddynt mor ymroddgar. Ewyllys y mwyafrif oedd eu cyfraith. "O ganlyniad," medd Josephus, "pan fyddai deg o honynt yn eistedd ynghyd, ni lefarai dim un o honynt tra y byddai y naw ereill yn ei erbyn. Gochelent boeri yn eu canol, nac ar y llaw ddeheu."

Pan ddygid cyhuddiad o drosedd yn erbyn rhywun, yr oedd eu manylder mor nodedig a'u cyfiawnder. Ni roddid dedfryd yn erbyn neb, os na byddai cant o leiaf yn unfryd ar y mater: ond yr oedd penderfyniad y nifer hwn yn anghyfnewidiol. Yr oedd eu dull o fyw yn dra ffafriol i iechyd a hirhoedledd. Yr oedd amryw o honynt yn byw dros gan mlynedd. Yr oeddynt yn diystyru poen; ac nid oedd trallodion bywyd ond pethau dibwys yn eu golwg; ïe, yr oedd amryw o honynt yn barod i ddywedyd gydag Iob, "Ni fynwn fyw byth." Yr oedd eu tawelwch a'u sefydlogrwydd diysgog pan yn dioddef dan ddwylaw y Rhufeiniaid yn ystod "y rhyfel Iuddewig" yn dangos nad peth anghyffredin yn eu plith oedd ysbryd merthyron a meudwyaid; ïe, hwy a ddioddefent yr arteithiau creulonaf, ac angeu ei hun, yn hytrach na bod yn anffyddlawn i'w hargyhoeddiad neu fradychu eu hurdd; a chafwyd prawf yn y rhai hyn o fewn Palestina o effaith yr un ddysgyblaeth ag yr oedd Sparta mor falch o'i hystyried yn eiddo iddi ei hun yn unig. Yr oedd eu syniadau meudwyaidd yn eu harwain yn naturiol i ddibrisio y corph, ac i esgeuluso y gofal cyffredin a gymmerid o hono, yn enwedig yn mysg yr hynafiaid Yr oeddynt yn ystyried olew, gan hyny, yn atlendid; ac os eneinid hwynt yn groes i'w hewyllys, byddent yn myned dan lanhâd gofalus.

Y mae Josephus yn rhoi hanes am fath arall o Esseniaid, y crybwyllwyd eisoes am danynt; y rhai nid oeddynt yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth y rhai a ddisgrifiwyd yn barod. Y prif wahaniaeth rhyngddynt oedd gyda golwg ar briodas. Nid oedd y rhai hyn mor ddibarch i rinwedd ac anrhydedd y rhyw fenywaidd a'r

Digitized by Google

lleill; ac yr oeddynt yn ystyried fod priodas yn ordinhad ddwyfol, wedi ei threfnu i gadw yr hiliogaeth ddynol rhag diflanu; ac nid ystyrient fod yn gyfiawn ei chondemnio na'i gochelyd. Ar yr un pryd yr oeddynt, dan ddylanwad ammheuaeth cyffelyb i ymattaliad eu brodyr Essenaidd ereill, yn arfer y gochelgarwch mwyaf; a rhoddent y benywod a fwriadent briodi ar brawf am dair blynedd. Os dalient y prawf, hwy a'u priodent yn weithredol. Ond fel dyledswydd yn unig yr edrychent ar briodas, ac o ganlyniad yr oeddynt yn credu yr un egwyddorion meudwyaidd a'r Esseniaid ereill, ac yn eu hymarfer hyd y gallent.

Dywed Philo fod yr Esseniaid yn nghylch 4,000 o nifer; ond ystyria Josephus eu bod yn fwy na hyny, a chyfrif y rhai oedd yn wasgaredig trwy holl Balestina ac yn y gwahanol ddinasoedd, cystal a'r rhai oedd yn eu sefydliadau penodol ar lan y Môr Marw.

Y mae yn nodedig na chrybwyllir dim am y sect hon yn ysgrifeniadau yr apostolion, nac yn llenyddiaeth foreuaf yr Hebreaid. Nid ydyw yr ysgrifeniadau Talmudaidd chwaith yn eu crybwyll yn bendant dan eu henwau; ond dywedir eu bod yn cyfeirio yn fynych at eu harferion a'u hathrawiaethau; ac atynt hwythau eu hunain dan yr enwau "duwiolion," "gweiniaid" (gan fyfyrdod), "a'r ymneillduwyr," &c. Hefyd, mae y pedair gradd o burdeb a ddynodir gan y doctoriaid [*Chagiga*, 18, a *ap Frankel*, pen. 451] yn cyfateb yn nodedig i'r pedwar dosbarth y dywed Josephus fod yr Esseniaid wedi eu trefnu [*Jos. B. J.*, ii. 8, adr. 10]; ac y mae cyfatebiad nodedig hefyd yn amseroedd y prawf yn y ddau amgylchiad.

Dywed Frankel fod yr Iuddewon goreu yn teimlo fod perygl mawr yn Esseniaeth fel cyfundrefn, a'u bod yn ymuno i'w gwrthwynebu. Yr oeddynt yn dychrynu rhag y perygl o gyssylltu meudwyaeth âg awdurdod ysbrydol, gan gredu nad oedd y fath athrawiaeth yn cael ei dysgu yn ysgrifeniadau sanctaidd Moses a'r prophwydi. Yr oedd y gallu gwyrthiol a briodolid i gyfrinwyr yn achos o ammheuaeth iddynt hwy, yn hytrach na pharch; ac yr oeddynt yn condemnio yr honiadau i ddoethineb ddwyfol yn y modd mwyaf penderfynol.

Yr oedd natur Esseniaeth y fath yn ei ffurf eithafol fel nas gallai effeithio ond ychydig ar Gristionogaeth. Yr oedd ei thueddiadau ymarferol yn gwbl groes i athrawiaeth yr apostolion. Yr oedd y peryglon a gynnwysai yn llawer mwy amlwg i lygad y Cristion nag oeddynt i'r doctoriaid Iuddewig. Yr unig debygrwydd rhwng Esseniaeth a Christionogaeth ydyw yr elfenau gwir Iuddewaidd sydd yn y naill a'r llall; ac y mae yr ysgrifenwyr diweddar a ddilynant gyfeiliornad Eusebius, trwy son am gymdeithas y Therapeutiaid fel am y frawdoliaeth Gristionogol, yn gwbl anefengylaidd. Yr oedd sefyllfa yr Esseniaid mewn ystyr genedlaethol yn debyg i'r sefyllfa y galwyd Ioan Fedyddiwr iddi yn bersonol. Yr oeddynt yn nodi terfyn yr hen oruchwyliaeth, a'r angen am y newydd; ond yr oedd eu cynllun hwy yn amddifad o un addewid. Yn lle y genadwri am "deyrnas" ddyfodol, yr unig beth a allent hwy gyhoeddi oedd purdeb ac ymneillduaeth personol. Ymddengys olion Esseniaeth mewn amseroedd diweddar yn y Clementiaid; ac ymddengys fod yr hanes rhyfedd a rydd Epiphanius am yr Esseniaid yn cyfeirio at ryw gymmysgedd o athrawiaethau yr Esseniaid â ffug-Gristionogaeth. Ni cheir gair am yr Esseniaid mewn hanesyddiaeth ar ol y rhyfel Iuddewig. Yn wir, fe newidiodd cymmeriad Iuddewiaeth ar ol hyny; ac ymddengys fod Phariseaeth feudwyaidd wedi dyfod yn beth agos i ammhossibl.

Haneswyr hynaf yr Esseniaid yw Josephus a Philo; ond y mae pob peth o bwys sydd ynddynt hwy yn y Talmudau, a phob hen lenyddiaeth arall, wedi eu corffoli yn nghyfansoddiadau gwych Frankel, Jost, Hilgenfield, Volkmar, Gfrörer, Dähne, ac Ewald. Gwel THERAPEUTIAID.


ESTEMOA, neu ESTEMO. [אשתמוע a אשתמה =*ufudd-dod*, Ges.; *Εσθαμα*]: tref o Iudah, yn y mynyddoedd; un o'r nifer hwnw lle yr ydoedd Debir: gwel *Ios.* xv. 50. Yr oedd Estemoa, a'i meusydd pentrefol, wedi ei neillduo i'r offeiriaid: gwel *Ios.* xxi. 14; 1 *Cron.* vi. 57. Yr oedd yn un o'r lleoedd y bu Dafydd a'i ganlynwyr ynddo yn fynych yn ystod tymmor ei grwydriadau; ac i'w gyfeillion yno yr anfonodd efe anrhegion o ysbail yr Amaleciaid: gwel 1 *Sam.* xxx. 28; cymharer *adn.* 31. Yr oedd y lle yn adnabyddus yn amser Eusebius a Jerome, er fod eu dysgrifiad hwy o'r lle yn rhy dywyll ac anmhennodol i alluogi neb i benderfynu dim yn ei gylch yn awr. Ond y mae yn dra thebyg mai hi ddarganfyddwyd gan Dr. Robinson yn Semu'a, pentref tua saith milldir i'r deheu o Hebron, ar y ffordd fawr o el-Milh, yn cynnwys cryn lawer o hen adfeilion, ac yn nghymmydogaeth pentrefydd ereill sydd eto yn dwyn enwau cydbentrefydd Estemoa yn y rhestr sydd yn *Ios.* xv.; megys Anab, Socoh, Iattir, &c. Yn y rhestr o ddisgynyddion Iudah sydd yn 1 *Cron.*, ceir Estemoa fel yn tarddu oddi wrth Isbah, tad Estemoa (1 *Cron*, iv. 17); ac y mae Gedor, Socoh, a Zanoah, y rhai oeddynt oll yn drefydd o'r un gymmydogaeth, yn cael eu llenwi yn yr adnod ganlynol. Ymddengys i Estemoa gael ei sylfaenu gan ddisgynyddion gwraig Aiphtaidd Mered, a bod y tair tref arall wedi eu hadeiladu gan hiliogaeth ei wraig Iuddewig. Ymddengys yr enw yn *adn.* 19, fel pe buasai yn perthyn i berson gwirioneddol Estemoa y Maachathiad.

ESTON, [אשתון, *merchedaidd*, *gwreigeiddiol;* Ges., *'Ασσαθον*]: enw sydd yn dygwydd yn achlinachau Iudah: 1 *Cron.* iv. 11, 12. Mehir oedd dad Eston, ac yn mhlith enwau ei blant, ceir dau, sef Bethrapha ac Irnabas, y rhai sydd yn ymddangos fel enwau lleoedd, ac nid personau.

ESTRYS—IAID, [יענה=*yaanah*; Gr., *στρουθος;* Arab, *nea-mah*, *thar-eds jammel*; hyny yw, camel-aderyn]. Fe grybwyllir am yr estrys yn fynych iawn yn y Beibl, a hyny weithiau mewn ymadroddion prydferth a manwl iawn: gwel *Lef.* xi. 16; *Deut.* xiv. 15; *Iob* xxx. 29; xxxix. 13; *Esa.* xiii. 21; xxxiv. 13; xliii. 20; *Ier.* l. 39; *Galar.* iv. 3; *Micah* i. 8. Y mae dau fath, os nad dwy rywogaeth, o'r estrys. Nid ydyw un math byth yn cyrhaedd i saith troedfedd o uchder, ac y maent wedi eu gorchuddio yn benaf â phlu llwyd a thywyll. Y mae y math arall yn tyfu weithiau dros ddeg troedfedd o uchder, a'u pluf o liw du gloewlyfn. Y mae pluf mawr adenydd a chynffonau y gwrywaid yn y ddau ddosbarth yn wyn; ond yn mhlith y benywod, pluf y cynffonau yn unig sydd felly. Yr estrys yw yr anifeiliaid mwyaf yn mhlith y creaduriaid adeiniog. Y maent i'w cael yn blith draphlith yn Asia ac Affrica, ond y mae y nythleiriau yn mysg y ddau fath bob amser ar wahân. Ceir y

Digitized by Google

rhai llwydion gan amlaf is law y cyhydedd, tra y mae y rhai duon, y rhai sydd yn tyfu fwyaf yn Caffraria, i'w cael fynychaf yn y gogledd i'r cyhydedd. Dygwyd un o'r rhai hyn ychydig flynyddoedd yn ol i Lundain; ac yr oedd mor dal fel y gallai bigo ei fwyd oddi ar drawst oedd wedi cael ei osod un droedfedd ar ddeg oddi wrth y llawr. Y mae yr estrys cyffredin yn pwyso tua phedwar ugain pwys; a gellir casglu fod yr un a nodasom uchod tua deugain pwys trymach.



Dar. 299.

Y mae pen yr estrys yn fychan, ac nid yw yn gyfansoddedig o esgyrn cryfion; y mae y big yn wastad yn lled debyg i'r eiddo hwyaden, gydag ewin ar y blaen, ac yn llydan yn y bôn; y mae y llygaid, y rhai sydd o liw llwyd-oleu, yn alluog i ganfod gwrthddrychau yn eglur bellder mawr o ffordd; y mae cyfryngau y clyw yn fawr ac agored, er y dywedir fod yr estrys yn y tymmor cymmharu yn bur fyddar; y mae y gwddf, yr hwn sydd hir a main, i raddau mawr yn noeth, heb fod arno ef na'r pen ond ryw ychydig o flew gwynion a dysglaer, ac yn y tymmor cymmharu y maent yn troi i liw pinc neu goch tywyll; tua'i waelod y mae yn cyfnewid i liw cyffredinol y pluf; y mae yr adenydd, y rhai sydd o dair i bedair troedfedd o hyd, heb y pluf, yn hollol noeth oddi tanynt, ac y mae tua phen asgwrn blaen yr aden o bob tu ddau blufyn blaenfain tebyg i'r eiddo draenog, y rhai yn ddiammheu sydd yn cael eu defnyddio fel offerynau hunan-amddiffyniad; y mae y cluniau, y rhai sydd bron yn noeth o blu, ac o liw coch tywyll, mor lawn a gewynog a'r eiddo dyn cryf, ac y mae y coesau, y rhai sydd o hyd cyfatebol i'r gwddf, wedi eu gorchuddio â rhyw resi caled a llydain o gen, ac yn terfynu trwy ymwahanu yn ddau fys; y mae yr un nesaf i mewn, gan mai efe yw yr hwyaf, wedi ei arfogi âg ewin cryf a llydan; a'r un nesaf allan, yr hwn nid yw ond hanner hyd y llall, heb yr un. Y mae y pluf mawr, a brisir gymmaint mewn masnach, yn ugain o ran nifer yn mhob aden; y mae pluf y gynffon bron bob amser yn ddiwerth, gan eu bod wedi eu tori a'u gwisgo. Y mae traed fforchog, gwddf hir, a chefn bwaog yr adar hyn yn llawn ddigon ynddynt eu hunain i awgrymu i'r dychymyg greadur o fath y camel: ond nid yr ymddangosiadau allanol hyn ydyw yr unig bethau yn mha rai yr ymdebygant; y mae y cylla wedi ei ffurfio yn y fath fodd fel yr ymddengys yn meddu tair poten (*ventricle*); ac y mae neillduolion cyfansoddiadol ereill, megys asgwrn y ddwyfron, yr hwn nid yw ar ffurf cilbren llong fel mewn adar, ond ar ddull tarian crwn, er amddiffyn y fynwes; yr hyn, gyda'r ffaith eu bod heb y cyfansoddiad gewynol hwnw sydd yn angenrheidiol er eu galluogi i ehedeg, sydd yn peri fod yr adar hyn yn debyg iawn i anifeiliaid pedwar-troed, ac yn enwedig y dosbarth adgnoawl.

Y mae yr estrysiaid yn greaduriaid deadellog —cyrhaeddant o deuluoedd yn cynnwys gwryw gydag un neu amryw adar benywaidd, ac hwyrach nythaid neu ddau o gywion, hyd finteioedd o yn agos i gant o nifer. Cadwant draw oddi wrth ddwfr yn yr anialwch gwyllt a chras, gan ymgymmysgu yn ddibryder â heidiau o fualfeirch, asynod gwylltion, &c. Er nad ydynt ond anfynych, os byth, yn sychedig, eto y mae yn eglur oddi wrth natur eu bwyd, yr hwn a gynnwys yn benaf hadau a llysiau, y rhaid iddynt yn fynych fyned i diriogaethau mwy ffrwythlawn, yr hyn a allant yn hawdd ei wneyd am eu bod wedi eu cynnysgaethu â galluoedd i ysgogi yn gyflym iawn; ac y maent yn aml yn peri cryn ddinystr mewn meusydd diwylliedig. Yn gymmaint a bod yr offerynau archwaethu yn bur ddiawch yn yr adar hyn, byddant yn llyncu pob math o sylweddau yn ddiwahaniaeth, ac yn mhlith pethau ereill, ceryg: y mae yn debyg hefyd eu bod, fel adar dofion, yn difa lysardiaid, nadroedd, ac adar ieuainc a ddygwyddant ddyfod ar eu ffordd. Nid yw eto wedi ei benderfynu yn hollol pa un a yw y ddau rywogaeth yn amlweddog (*polygamous*) ai peidio, er fod tystiolaethau yn ymddangos fel yn symmud ymaith bob ammheuaeth yn nghylch y ffaith. Ond nid oes un ansicrwydd yn bod mewn perthynas i'r nyth; yr hwn sydd fath o gawg crwn, wedi ei grafu yn y pridd, gydag ymyl dyrchafedig o'i amgylch, ac o faintioli digonol i gynnwys nifer mawr o wyau; canys fe welwyd o ddeuddeg i tua thrigain ynddynt, heb law tuag un ran o dair o'r nifer hwn fyddent wedi eu gosod oddi allan i ymyl dyrchafedig y nyth. Tybir fod y rhai hyn yn porthi y cywion pan y deorir arnynt gyntaf, naill ai pan mewn cyflwr newydd, neu ynte pan wedi llygru, a phan y byddo y sylwedd wedi troi yn bryfaid. Y mae yr wyau hyn wedi eu dodwy ar wahanol amserau, megys y rhai oddi fewn i'r nyth; ac nid yw yr adar a ddeorir ond rhan o gynnwys y nyth, hyd oni bydd y tymmor wedi myned heibio. Y mae yr wyau o wahanol faintioli—rhai yn cyrhaedd i saith modfedd o dryfesur yn y ffordd hwyaf, ac ereill yn llai, gyda rhyw bliagyn gwyn budr, a rhyw fân ysmotiau o liw rhwd drosto; a phwysant yn agos i dri phwys. O fewn y trofanau, cedwir hwynt yn ddigon cynhes yn ystod y dydd, fel nad oes angen i'r adar eistedd; ond oddi allan i'r rhai hyn y mae un neu chwaneg o'r benywod yn eistedd yn barhaus, a chymmer y gwryw y ddyledswydd hono i'w chyflawnu wedi machlud haul. Y pryd hwnw gellir clywed rhuad byr yn ystod y tywyllwch; ac ar brydiau ereill, gwneir math o sŵn gwahanol, tebyg i gwynfan colomenod, gwaedd plentyn cryglyd, a chwythlais gŵydd. Diammheu fod y gwahanol leisiau hyn yn amlygiad o wahanol deimladau; ond gellir casglu fod y rhuad yn amlygu y teimlad o ddigofaint oddi wrth y mynegiad fod gweision y llew (*jackals*) a llwynogod wedi eu cael yn ymyl nythod yr adar hyn, wedi eu cicio i

Digitized by Google

farwolaeth. Y mae y ffaith hon yn fwy credadwy yn gymmaint a bod y creadur olaf a enwyd yn lladratäwr mawr ar eu hwyau; a gellir sylwi yma, fel prawf nad yw y peiriannau arogli yn llawn mor ddiawch yn yr estrys ag y dywedir weithiau, bod y Caffrariaid a'r Hottentotiaid, pan yn ysbeilio nythod bob dydd er eu mantais eu hunain, bob amser yn tynu yr wyau gyda ffon mewn trefn i attal y fenyw rhag darganfod y lladrad trwy gyfrwng y sawyr a adewir ar ol dwylaw dynion; canys felly ni pharhaent i ddodwy, ond gadawent y lle yn hollol. Dichon y rhydd hyn gyfrif am y nifer bychan o wyau a geir yn aml yn eu nythod.

Er fod yr estrys yn meddu ar ddigon o nerth i gludo dau ddyn gyda chyflymder, ac er y gellir ei ddofi yn hawdd, hyd yn oed ar ol ei ddal yn ei gyflawn faintioli, yn wir gellir ei wneyd yn hollol deuluaidd a chyfeillgar, ac er nad yw mewn un modd y creadur hurt y credir ei fod, eto y mae ei wancusrwydd, yr hwn a arwain i ddinystr cywion ac adar doflon ereill, yn nghyd â'r anhawsder i reoli ei alluoedd, yn rhwym o'i wneuthur yn greadur peryglus a diwerth i fod o amgylch preswylfeydd. Er eu bod yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn greaduriaid diwerth, eto gallwn fod yn sicr na phenododd Rhagluniaeth eu preswylfod hwy yn yr anialwch yn ofer; ac y maent yn bod eto, nid yn unig yn Affrica, ond yn nhiriogaeth Arabia, i'r dwyrain a'r deheu o Palestina tu hwnt i'r Euphrates; ond mae yn ammheus a ydynt yn cyrhaedd mor bell i'r dwyrain a Goa, er fod adaryddion Ffrengig diweddar yn nodi y lle hwnw fel un o derfynau eu preswylfod.

Dywedir nad ydyw cig estrys ieuanc yn ddrwg ei flas; ond gellir olrhain y ffaith fod yr aderyn yn cael ei ddadgan yn "aflan" yn ol deddf Moses i ddau achos. Un ydoedd ei wancusrwydd direol am yr hwn y soniwyd eisoes; a gallai fod bwriad hefyd i osod rhwymau ar yr Israeliaid er mwyn eu diddyfnu hwynt oddi wrth hoffder at fywyd crwydrol, yr hyn a gynnyrchid ynddynt gan hela yn yr anialwch; canys rhaid oedd chwilio am yr estrys ar y gwastadedd diffaeth, lle ni ellid eu dal ar draed heb arfer ystrywiau. Pan yn cael eu herlyn, hwy a fwriant gerryg a llwch o'r tu ol iddynt gyda grym mawr; ac er bod yn rhaid wrth hir amynedd a medrusrwydd yn yr heliwr, eto y mae arfer naturiol yr aderyn o ffoi ar gylch yn rhoddi mantais i Arabiaid ar feirch da i'w goddiweddyd a'u lladd. Ond nis gall dim fod yn fwy dyddorol na'r olwg ar lu o'r creaduriaid hyn yn ffoi gyda'u cyflymder anarferol, fel pe byddent yn gwatwar y march a'i farchog, eu hadenydd yn gwasanaethu fel hwyliau a rhwyfau iddynt, a'u traed yn eu cludo o'r golwg mor rwydd ac mor esmwyth nes peri eu bod bron yn ddideimlad i boen a lludded.

**ESTHAOL**, [אשתאל = ymgiliad; Ἐσθαόλ]: dinas yn nyffryn Iudah—y *Shefelah.* Hon ydyw y ddinas gyntaf o'r dosbarth cyntaf o ddinasoedd y dyffryn hwnw; *Ios.* xv. 33. Enwir hi yn gyffredin mewn cyssylltiad â Soreah (Heb. *Zareah*). Dwy ddinas oedd Sorah ac Esthaol a roddwyd i lwyth Dan o'r tu allan i Iudah: *Ios* xix. 41. Rhyngddynt hwy, o'r tu ol i Ciriath-iearim, yr oedd Mahaneh-Dan, yr amddiffynfa yn yr hon yr ymnoddai byddin fechan y lle hwnw yn ystod eu hymrysonau parhaus â'r Philistiaid. Yma, yn mysg ereill o hen wroniaid y llwyth, y treuliodd Samson ddyddiau ei febyd, ac y teimlodd gynhyrfiadau Ysbryd Iehofah arno gyntaf; ac yma, ar ol ei wrhydri olaf, y cludwyd ei gorph, i fyny ar hyd llethrau y bryniau, i'w orphwysfa ddiweddaf yn meddrod Manoah ei dad: *Barn.* xiii. 25; xvii. 2, 8, 11, 12. Y mae y berthynas rhwng Esthaol, Sorcah, a Chiriath-iearim yn cael ei nodi yn yr achau yn 1 *Cron.*

Y mae Eusebius a Jerome yn crybwyll ddwywaith am Esthaol: yn gyntaf fel Astod Iudah a ddysgrifir megys rhwng Azotus ac Ascalon, dan yr enw *Astho*; ac yn ail, fel Esthaul Dan, ddeng milldir i'r gogledd o Eleutheropolis. Mae y sefyllfa olaf yn cyttyno â'r cyfeiriadau sydd yn y Beibl. Ond mewn amseroedd diweddar ceir fod yr enw wedi diflanu. Adnabyddwyd Sorah yn ddiweddar fel *Surah* [*Rob.* ii. 14, 16, 224; iii. 153]; ond y mae yr enw cyfystyr i Esthaol heb ei ganfod hyd yn hyn. Y mae Schwarz yn son am bentref o'r enw *Stual*, i'r gorllewin o Sorah. Heb law efe, ni enwir hi gan un teithiwr arall, nac mewn un map. Mae y sefyllfa yn rhy bell i'r gorllewin i fod o'r "tu ol i Ciriath-iearim, os yr un yw *Kuryet-el-enob* a Ciriath-iearim. Y mae y pentref a nodir ar fapiau Robinson a Van de Velde, dan yr enw *Yeshûah*, ac a grybwyllir gan y blaenaf (iii. 155), yn nes i'r sefyllfa angenrheidiol; ond y mae tebygrwydd y ddau enw yn rhy fychan i ganiatau eu bod yn gyfystyr.

**ESTHAULIAID**: gyda'r Sareathiaid, yr oeddynt yn mysg teulu Ciriath-iearim: 1 *Cron.* ii. 53.

**ESTHER**: [אסתר, *y blaned Gwener*, Smith; Ἐσθήρ], yr enw Persiaidd ar Hadassah, merch Abihael fab Simei, fab Cis, gŵr o lwyth Beniamin. Meddylia Gesenius bod yr enw Esther yn deilliaw o *Aster* neu *Sitareh*—geiriau yn dynodi seren; ac mai yr ystyr a roddir iddo pan yn cael ei gyfeirio at Hadassah yw, seren ffodus. Y mae yr eglurhad a roddir ar ei henw Hadassah, trwy chwanegu ei henw newydd, oedd yn fwy adnabyddus, yn y frawddeg, "hono yw Esther" (ii. 7), yn cyfatteb yn hollol i'r arferiad o chwanegu enwau diweddar crefydd er mwyn egluro yr hen enwau fyddo wedi myned allan o arferiad: gwel *Gen.* xxxv. 19. 27; *Ios.* xv. 10, &c. Gwyryf Iuddewig brydferth ydoedd Esther. Yr oedd ei chyndad Cis wedi bod yn mhlith y caethion (sef y gyfran o honynt oedd o lwyth Beniamin) a ddygwyd o Ierusalem gan Nebuchodonosor pan y cymmerwyd Iehoiachin yn gaeth. Collodd ei rhieni pan yn ieuangc, a magwyd hi gan ei thadmaeth a'i chefnder Mordecai, yr hwn oedd mewn swydd yn nhŷ Ahasferus, brenin Persia, ac yn preswylio yn "Susan y brenhinllys." Pan y torwyd Fasti o fod yn frenines, ac y casglwyd holl wyryfon glanaf y deyrnas i Susan, fel y gallai y brenin ddewis un o honynt i lanw ei lle, fe ddisgynodd ei lygad ar Esther, a hi a goronwyd yn frenines yn lle Fasti yn nghanol rhwysg a llawenydd mawr. Nis gwyddai y brenin am ei hachyddiaeth a'i theulu; ac felly, pan y mynegodd Haman yr Agagiad, ei brif weinidog, fod yr Iuddewon oedd ar wasgar drwy ei ymherodraeth yn hil beryglus a niweidiol, efe a roddes iddo yn eithaf diofal gyflawn allu ac awdurdod i'w lladd hwynt oll—ieuangc a hen, gwragedd a phlant—a chymmeryd eu holl feddiannau. Y mae'r moddion a ddefnyddiodd Esther i wrthdroi y trychineb hwn rhag ei phobl a'i chenedl, dan berygl colli ei bywyd ei hun, ac i droi at Haman y llif dinystriol a fwriadodd efe i ymdywallt ar yr Iuddewon, yn nghyd â llwyddiant ei chynlluniau, drwy yr hyn y

Digitized by Google

y rhai hyn dan ryw lyfr arall, megys Ruth neu Esdras. Cymmer Origen, yn bur hynod, gyfeiriad gwahanol yn ei Epistol at Affricanus. Y mae yn amddiffyn canoniaeth y chwanegiadau Groegaidd hyn, er yn addef nad ydynt yn yr Hebraeg. Ei brif ymresymiad, yr hwn sydd annheilwng o ysgolhaig mawr, ydyw. fod y Deg a Thrigain yn cael ei arfer yn yr eglwysi—ymresymiad y gellir ei ddefnyddio yr un mor deg am yr holl lyfrau anghanonaidd. Yr oedd Affricanus, yn ei epistol at Origen, wedi dadgan ei farn fod yn hanfodol angenrheidiol i lyfr fod yn yr Hebraeg cyn y gellid ei ystyried yn ganonaidd, megys y gwnaeth Jerome yn ddiweddarach. Y mae cymmanfa Trent yn cyhoeddi holl Lyfr Esther yn ganonaidd, a dywed Vatablus fod ammheuaeth yn bod, cyn y penderfyniad hwnw, pa un a oedd Esther i gael ei osod yn y canon ai nad oedd—rhai awdwyr yn dywedyd y dylai, ac ereill yn gwadu. Y mae wedi hyny yn egluro y mynegiad trwy ddyweyd fod holl ddigwyddiadau y saith bennod olaf yn ammheus. Y mae Sixtus Senensis, er gwaethaf penderfyniad y gymmanfa, yn dilyn esampl Jerome wrth son am y chwanegiadau hyn, ac yn meddwl eu bod wedi eu cymmeryd yn benaf o Josephus; ond y mae y syniad olaf hwn yn annhebyg. Y mae dull a threfn Josephus yn eu traethu yn dangos eu bod eisoes ar led yn mhlith yr Iuddewon Hellenaidd fel rhanau o Lyfr Esther; megys y gwyddom oddi wrth y modd y mae yn dyfynu o lyfrau anghanonaidd ereill fod eu syniadau hwythau ar led hefyd; yn nghyd âg ereill sydd yn awr yn ngholl. Canys y mae yn ddigon tebyg mai oddi wrth y cyfryw y cafodd Josephus ei chwedlau yn nghylch Moses, yn nghylch Sanballat, a'r deml ar fynydd Gerizim, ac ymgyfarfyddiad yr archoffeiriad âg Alexander Fawr. Ond yn gymmaint ag na dderbyniwyd y rhai hyn gan y Deg a Thrigain, hwy a ddiflanasant. Pa fodd bynag, y mae'r purdeb rhyfeddol yn mha un y cadwyd y canon Hebraeg, trwy gymhorth Rhagluniaeth Duw, yn cael ei osod allan mewn goleuni cryf iawn pan y cymharwn ef â'r gyfrol yn y Groeg. Gellir sylwi yma fod Iuddewon Alexandria, wrth golli neillduolrwydd eu cymmeriad cenedlaethol, trwy fabwysiadu yr iaith Roeg ac enwau Groeg, yn ymddangos hefyd fel yn colli eu heiddigedd, ac yn myned i ofalu llai am eu trysor mawr cenedlaethol, sef "oraclau Duw."

Cyhuddwyd Luther o wrthddadleu yn erbyn Llyfr Esther fel un anghanonaidd, a chadwyd yr ymadroddion canlynol o'i ysgrifeniadau er prawf o hyn:—"Yr wyf yn chwyrndaflu Llyfr Esther i'r Elbe." "Yr wyf yn gymmaint gelyn i Lyfr Esther, fel y mynwn pe na buasai mewn bod; canys y mae yn Iuddeweiddio gormod, ac yn cynnwys cryn lawer o ddyhirwch Cenedlig." Ac mewn un o'i weithiau, yr hwn a gyfeiriwyd at Erasmus, ar ol dyweyd, "mewn perthynas i Lyfr y Pregethwr, er y gallwn yn gyfiawn ei wrthod, eto yr wyf yn ei dderbyn, rhag colli amser i ymgymmeryd â dadl yn nghylch y llyfrau a dderbynid i'r canon Hebraeg"—y mae yn chwanegu, "yr hwn ganon yr ydych yn ei ddirmygu yn fawr pan y cymmherwch y Diarhebion a'r Gân Serch (fel y gelwch hi yn wawdus) â dau Lyfr Esdras, ac Iudith, Susanna, y Ddraig, a Llyfr Esther; ond er eu bod yn cynnwys yr olaf hwn yn eu canon, eto y mae, yn fy marn i, yn deilyngach na'r cwbl i gael ei adael allan." Y mae Sebastian Smith, pa fodd bynag, yn amddiffyn Luther trwy sylwi nad ydyw yn llefaru am Lyfr Esther ond o'i gymharu â llyfrau Solomon; a thybia Carpsov fod Luther yn cyfeirio at Lyfr Esther fel y mae yn y Deg a Thrigain, gyda'r chwanegiadau ffugiol. Ond pa fodd bynag am hyn, y mae yn sicr fod Sixtus o Sienna, un o dduwinyddion mwyaf dysgedig Eglwys Rhufain, yn dal yr un golygiadau mewn perthynas i effaith y chwanegiadau hyn, gan ddweyd "fod ei awdurdod, yn amser Gregory a'r hen dadau ereill oedd yn ammheu canonyddiaeth y llyfr, yn cael ei ddrwg dybio o blegid y chwanegiadau ffugiol a roddwyd ato; felly, er ei fod wedi cael ei ysgrifenu yn Hebraeg, ac yn cael ei dderbyn gan yr Hebreaid, yr oedd ei dderbyniad yn yr Eglwys Gristionogol yn bur ddiweddar, ac yr oedd yn cael ei wrthod fel ffug gan Athanasius; hyny yw, gan awdwr y *Festal Epistle* a'r *Synopsis Scripturæ*, y rhai y mae llawer yn ammheu a ydynt yn wir gynnyrchion i Athanasius, ai peidio. Yn y cyntaf o'r ddau hyn dywedir fod "llyfrau ereill, heb fod yn y canon, y rhai a orchymynodd y tadau i gael eu darllen gan egwyddoriaid (*catechumens*) er addysg mewn crefydd, megys Doethineb Solomon, Ecclesiasticus, Esther, Iudith, Tobit, Athrawiaeth yr Apostolion, a'r Bugail;" a sylwir yn y *Synopsis* fod rhai llyfrau ammheus, megys Doethineb Solomon, a rhai anghanonaidd, megys Enoch; ac am Esther dywedir fod rhai o'r hynafiaid yn dyweyd ei fod yn cael ei dderbyn i ganon yr Hebreaid."

Gellir sylwi yma mai amcan mawr y llyfr yw dangos dyfnder a phrydlondeb gweithrediadau Rhagluniaeth. Nid yw yn rhoddi barn gymmeradwy ar holl weithrediadau Mordecai nac Esther. Ei ddyben ydyw adrodd hanes, a'r hanes hwnw yn dangos mawredd, manylwch, a phrydlondeb ymyraeth yr Arglwydd yn ngwaredigaeth ei bobl. Ac os hon yw y wers fawr a gyfleir, nid yw y farn a ffurfir am rai o ymddygiadau yr is-offerynau, megys Esther, Mordecai, Haman, ac Ahaserus, yn un rheol i gymmeradwyo nac i anghymmeradwyo yr holl lyfr. Ond pa ammheuon bynag a fu yn mhlith rhai Cristionogion mewn perthynas i Lyfr Esther, nid ymddengys i'w wirionedd gael ei ammheu erioed gan yr Iuddewon, na chan yr Eglwys Gristionogol fel cyfangorff. Y mae corff yr eglwys a'r prif feirniaid yn mhob oes wedi ei dderbyn fel cyfran bwysig o wir air Duw.

**ETHOLEDIGAETH.** Ni a gymmerwn y gair a gyfieithir *ethol* yn *Marc* xiii. 20—"Eithr er mwyn yr etholedigion a etholodd, efe a fyrhaodd y dyddiau"—yn brif air yr erthygl. Pan y defnyddiwn y gair *ethol* yn y sylwadau canlynol, dealler mai yr un ydyw a'r gair a gyfieithir *ethol* yn yr adnod uchod. Y mae y gair uchod yn cynnwys tri o syniadau:—1. Dewisiad. Y mae y syniad hwn yn cau allan bob esboniad ag sydd yn gwneuthur ethol yn weithred ddamweiniol neu yn weithred o angenrheidrwydd. Y mae cyssylltiad mor agos ag sydd rhwng enaid a chorff, rhwng dewisiad y meddwl a'r dadganiad o hono mewn gair neu weithred. Am hyny fe ddefnyddir y gair yn gyffredin ar achlysur amlygiad o ddewisiad. 2 Dewisiad rhai allan o, neu o blith ereill. Nid yw y gair ei hun yn penderfynu pwy yw y *rhai*—pa un ai pethau ynte personau—pa un ai cenedl o bersonau ai personau unigol. Ni a allwn dybied fod dewisiad yn cael ei wneuthur gan berson, heb fod unrhyw arbenigrwydd yn cael ei osod ar y ffaith o'i fod yn dewis allan o blith ereill. Fe geir esampl o hyn

Digitized by Google

yn *Act.* xv. 40; "Eithr Paul a ddewisodd Silas." Y mae y gair *dewis* yn y fan hon yn cynnwys, nid *allan* o, ond *yn olynol i*: mewn cyfeiriad at ddewisiad blaenorol Paul a Barnabas i fod yn gydymaith iddo. Ond y mae y gair *ethol* ynddo ei hun, yn annibynol ar ei eiriau cyssylltiedig, yn cynnwys dewisiad rhai o blith ereill. 3. Y mae y gair yn cynnwys fod yr etholwr yn dewis gwrthddrychau *iddo ei hun.* Ond pa faint a gynnwysir yn y geiriau "iddo ei hun," cyssylltiad y gair yn yr adnodau lle y defnyddir ef yn unig a all ddangos. Yr adnodau lle y cyfieithir y gair hwn yn *dewis* yn y Testament Newydd ydynt y rhai canlynol:—*Luc* x. 42; "Mair a ddewisodd y rhan dda." *Luc* xiv. 7; "Fel yr oeddynt yn dewis yr eisteddleoedd uchaf," &c. *Ioan* vi. 7; "Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg." *Ioan* xv. 16; "Nid chwi a'm dewisasoch i, ond myfi a'ch dewisais chwi." *Ioan* xv. 19; "I mi eich dewis allan o'r byd." 1 *Cor.* i. 9; "Pethau dirmygus a ddewisodd Duw." *Iago* ii. 5; "Oni ddewisodd Duw dlodion y byd." *Mat.* xx. 16; "Ychydig wedi eu dewis."

Mewn llawer o'r manau y defnyddir y gair *ethol* neu *ddewis*, y mae y tri syniad a nodwyd uchod i'w gweled yn eglur. Fel esampl yn etholiad y deuddeg: fe'u dewisodd o blith ereill (*Luc* vi. 13), "o honynt"—sef ei ddysgyblion "efe a etholodd ddeuddeg:" iddo ei hun (*Marc* iii. 14), "fel y byddent gydag ef." Yr oedd y gwahoddedigion yn y wledd (*Luc.* xiv. 7) yn dewis eisteddleoedd—yr *uchaf* allan o'r holl eisteddleoedd—iddynt hwy eu hunain eistedd ynddynt. Felly hefyd, pa le bynag y defnyddir y gair. Y mae dwy adnod lle y cyfieithir dau air arall yn *ethol.* Un ydyw *Act.* x. 41; "Nid i'r bobl oll, eithr i'r tystion etholedig o'r blaen gan Dduw," &c. Ystyr llythyrenol *ethol* yn yr adnod hon ydyw pleidleisio trwy estyn neu godi llaw. Y mae rhyw hynodrwydd mawr mewn bod Pedr yn defnyddio y gair hwn i ddarlunio dewisiad Duw o'r apostolion. Y llall ydyw 2 *Thes.* ii. 13; "I Dduw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth," &c.: gair a ddefnyddir hefyd yn *Phil.* i. 22; "A pha beth a ddewisaf nis gwn:" ac yn *Heb.* xi. 25; "Gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Duw," &c. Nid ydyw y gair hwn, yn annibynol ar ei gyssylltiadau, yn cynnwys mai allan o blith ereill y dewisid, megys prif air yr erthygl. Ond y mae yn cynnwys meddwl cryfach na dewisiad yr ewyllys yn unig; sef, fod y meddwl yn ymaflyd yn gadarn yn ngwrthddrych ei ddewisiad; ond nid ydyw gwahaniaethu y ddau air o unrhyw bwys er mwyn ffurfio barn ar athrawiaeth etholedigaeth. Y mae *ethol* i'w wahaniaethu oddi wrth y gair a gyfieithir *arfaethu.* Arfaethu ydyw gosod ger bron. Fe'i defnyddir am y bara gosod, a osodwyd ger bron yr Arglwydd (*Mat.* xii. 4); ac am unrhyw beth y gall person ei osod ger bron ei feddwl fel gwaith i'w gyflawnu, fel y dywedodd Paul (*Rhuf.* i. 13), "I mi yn fynych arfaethu dyfod atoch." Gwrthddrych arfaethu yw gwaith; gwrthddrych ethol yw peth neu berson. Ond y maent mor gyssylltiedig yn athrawiaeth yr efengyl fel y sonir am (*Rhuf.* ix. 11) "arfaeth yn ol etholedigaeth Duw." Y mae *ethol* i'w wahaniaethu oddi wrth y gair a gyfieithir *rhaglunio* neu *rhaglunieithu.* Meddwl llythyrenol rhaglunio yw rhagderfynu, neu dori llinell derfynol yn mlaen llaw. Mae arferiad y gair yn ei gyssylltiad â Duw yn cynnwys iddo, cyn dechreu gweithio, dori allan â'i feddwl anfeidrol derfynau ei weithrediadau. Y mae y gair *arfaethu* yn gosod pwys ar fod ei waith o fewn ei fwriad: *rhaglunio,* ar fod terfynau ei weithrediadau o fewn ei fwriad hefyd: ac y mae y ddau i'w gwahaniaethu oddi wrth *ethol,* â'r gwahaniaeth sydd rhwng bwriadu gweithio a dewis personau.

Amrywiaeth barn am yr hyn a ddadguddir yn y Beibl o barth yr athrawiaeth a gynnwysir yn y gair *ethol,* sydd wedi, ac yn rhanu duwinyddion i'r ddau ddosbarth mawr, o Galviniaid ac Arminiaid. Ac er fod y pynciau a elwir yn Galvinaidd yn bump o ran nifer, y mae rhai o'r Calviniaid mwyaf selog yn barnu y dylid ystyried etholedigaeth fel yr unig un o'r pump, ag y mae y farn am dano i benderfynu i ba ddosbarth o dduwinyddion y mae unrhyw ysgrifenydd yn perthyn. Y farn Galvinaidd ar y pwnc ydyw—i Dduw, o dragwyddoldeb, o'i ewyllys da, ddewis rhai o'r hil ddynol yn ddiammodol i holl fendithion yr iachawdwriaeth; a bod y dewisiad hwn o honynt yn cynnwys ei benderfyniad i'w rhyddhau o afaelion pechod a thrueni, i gyfranu iddynt bob gras angenrheidiol i'w cymhwyso i ogoniant, i'w nerthu i barhau mewn sancteiddrwydd hyd angeu, ac i'w cymmeryd ato ei hun i'r nefoedd yn y diwedd—a'i fod yn gwneuthur mewn amser yn ol ei ragfwriad tragwyddol. Y mae duwinyddion Arminaidd yn barnu mai y cwbl a gynnwysir yn yr etholedigaeth y sonir am dani yn y Beibl, yw i Dduw o dragwyddoldeb, o'i ewyllys da, ddewis y sawl a gredent yn Nghrist o'r hil ddynol, ac a barhaent i gredu hyd angeu, i fwynhau gogoniant y nef; a chan ei fod o dragwyddoldeb yn rhagweled pwy a gredent a phwy a barhaent, ei fod, ar gyfrif ei ragwybodaeth o'u ffydd a'u sancteiddrwydd, wedi penderfynu cyn seiliad y byd gadw pob un a gedwir: ac yn mhellach, ei fod erioed, o'i ewyllys da wedi dewis personau a chenedloedd yn ddiammodol i'r mwynhad o freintiau allanol yr efengyl—fel y dewisodd genedl Israel gynt. Mae Dr. Summer, y diweddar archesgob Canterbury, yn ei lyfr ar *Apostolical Preaching,* a Dr. Whately, archesgob presennol Dublin, yn ei gyfrol a elwir *Essays on some of the difficulties in the Writings of the Apostle Paul,* ac ereill o dduwinyddion Arminaidd Eglwys Loegr wedi dadleu yn ddiweddar yn rymus dros y golygiad olaf hwn, fel y cyfan o athrawiaeth y Beibl ar etholedigaeth. Y mae o bwys i sylwi fod duwinyddion Calvinaidd yn credu pob syniad cadarnhaol am etholedigaeth ag y mae duwinyddion Arminaidd yn ei gredu. Y maent yn dal etholiad cenedloedd a phersonau i freintiau allanol yr efengyl, a chadwedigaeth dragywyddol y rhai a barhant hyd y diwedd, mor gryf a'r Arminiaid. Ac y maent hefyd yn dal rhyw bethau chwanegol at y rhai hyn; sef, fod yr iawn ddefnydd o'r breintiau, a'r ewyllys i gredu yn Nghrist, a'r parhad mewn ffydd hyd y diwedd, yn gynnwysedig yn yr "iddo ei hun" ag sydd yn rhan o feddwl y gair *ethol.* Y mae y gwahaniaeth rhyngddynt yn wahaniaeth barn, nid ar y pwnc a ddarfu i Dduw ddewis neb, neu a ddarfu iddo ef ddewis rhai o blith ereill, neu a ddarfu iddo ddewis cyn seiliad y byd—ond i ba beth y darfu eu dewis. I freintiau crefyddol er mwyn credu, ac i'r nefoedd mewn canlyniad i barhad mewn credu, medd yr Arminiaid. I'r cwbl—i'r breintiau, i'r credu, i'r parhad, ac i'r nefoedd—medd y Calviniaid. Y mae, gan hyny, yn gamddarluniad hollol o'r farn Galvinaidd i ddywedyd ei bod yn cynnwys fod Duw yn ethol pechaduriaid i'r nef yn annibynol (*irrespective*) ar eu ffydd, a'u

sancteiddrwydd, a'u gweithredoedd da. Nid yw gwrthbrofi hyn yn cyfiwrdd yn y mesur lleiaf â'r syniad Calvinaidd.

Fe gytunai y Calvin mwyaf selog â'i frawd Arminaidd i ddyweyd nad oes yn y Beibl y fath etholedigaeth ag etholedigaeth i'r nef, ar wahân oddi wrth ffydd a sancteiddrwydd; ac i gondemnio y golygiad, os oes rhywrai yn proffesu ei goleddu, fel heresi dinystriol i'r dyn ei hun, ac fel cabledd ar gymmeriad sanctaidd Duw. Ond tra y mae y Calviniaid yn gwadu fod Duw yn ethol neb i'r nef yn annibynol ar eu sancteiddrwydd, y maent hefyd yn gwadu ei fod yn ethol neb yn ammodol ar eu sancteiddrwydd. Y maent yn gwrthwynebu y dywediad hwn, am eu bod yn tybied ei fod yn cynnwys bod sancteiddrwydd yn y galon o'r dyn ei hun, ac nid o ras Duw tuag ato—ac am eu bod yn dal fod sancteiddrwydd, er yn y dyn, nid o hono—a bod cynnyrchu tueddiadau sanctaidd, ie, y cyffroadau cyntaf i fywyd duwiol yn y galon, a meithrin y gras a blenir yno nes iddo ddwyn ffrwyth mewn gweithredoedd da, nid yn unig yn gystal a'r nef ei hun, ond mwy na hyny, yn nglŷn â'r nef ei hun, o fewn amcanion etholedigaeth Duw. Y mae y Calviniaid yn dal mor gryf a'r Arminiaid fod parhad mewn gras hyd angeu yn angenrheidiol tuag at gyrhaedd y nef; ac yn gosod pwys ar y gorchymynion i ddyfal barhau, o herwydd y cyssylltiad anwahanol sydd rhwng ufudd-dod iddynt a mwynhad o'r nef: ond y maent yn credu fod cynnyrchu ysbryd ufudd-dod i'r gorchymynion hyny o fewn amcanion etholedigaeth, yn nglŷn â'r parhad hyd y diwedd, ac â'r nefoedd ar ol hyny. Y mae y Calviniaid o'r un farn a'u brodyr Arminaidd y byddai y syniad o fod Duw yn ethol pechaduriaid yn unig i fwynhau nefoedd, heb eu hethol hefyd i'r holl rasau angenrheidiol i'w cymhwyso i fyned yno, yn arwain i benrhyddid pechadurus. Ond nid ydynt yn cydnabod hon yn etholedigaeth oll; ac y maent yn ei chondemnio yn hytrach fel etholedigaeth o waith dychymyg dyn, heb feddu ar fwy o debygrwydd i'r etholedigaeth ddwyfol nag y mae eilun o waith dwylaw a dychymyg dyn yn debyg i'r gwir Dduw. Y mae y farn Galvinaidd am benarglwyddiaeth Duw yn etholedigaeth pechaduriaid yn agored i'w chamddeall. Y mae y Calviniaid yn dal fod Duw o'i benarglwyddiaethol ras wedi dewis rhai o blith ereill i fywyd, gan ddefnyddio y gair *bywyd* i gynnwys holl waith achubol yr Ysbryd ar galon pechadur. Ond nid ydynt trwy ddal y golygiad hwn yn credu fod Duw yn dewis oddi ar fympwy, neu dan effaith rhyw nwyd afresymol. Yn hytrach y mae eu syniadau am berffaith ddoethineb yr "unig ddoeth Dduw" yn eu harwain yn anocheladwy i'r casgliad fod ganddo reswm boddhaol i'w feddwl anfeidrol ei hun am ddewis rhai i fywyd, yn hytrach nag ereill; ond yn nglŷn â'r casgliad hwn, y maent yn dal nas gwelodd Duw yn dda amlygu i ni pa beth oedd y rheswm hwnw yn mhellach na hyn—fod y dadguddiad am gyflwr dynolryw yn ngwyneb deddf Duw a llygriad cyffredinol ei natur yn profi yn eglur mai nid y rheswm oedd, fod unrhyw ragoriaeth naturiol, neu unrhyw deilyngdod i ennill ffafr Duw, yn y rhai a etholir uwch law y rhai na etholir. Y mae eu golygiadau ar hyn yn ddosbarthedig i'r ddau ganlynol:—1. Gan fod Duw yn ddoeth, fod ganddo reswm am gadw rhai yn hytrach nag ereill. 2. Gan fod pawb yn yr un cyflwr pechadurus, mai nid rhagoriaeth gwreiddiol y rhai a gedwir yw y rheswm hwnw. Ond y mae Calviniaid, am eu bod yn gwadu nad rhagoriaeth mewn dyn yw y rheswm, yn cael eu darlunio fel pe dywedasent nad oedd gan Dduw reswm o gwbl am ei fwriadau grasol; ond y mae y gred ddiysgog o ddoethineb Duw fel penarglwydd yn cynnwys o angenrheidrwydd y farn fod y gweithredoedd o ras ag y mae yn gyflawnu yn ol rhyddid ei ewyllys ddwyfol yn meddu ar y nodwedd o resymoldeb—rhesymoldeb a gydnabyddid gan bawb pe buasai wedi amlygu pa rai oedd ei resymau, a phe buasai pawb yn gallu eu dirnad ar ol eu dadguddio. Ac y mae y duwinydd Calvinaidd yn selio y farn hon ar y dadguddiad a roddir o Dduw "yn gweithio pob peth yn ol *cynghor* ei ewyllys ei hun."

Y mae syniadau rhai Calviniaid ar *wrthodedigaeth* yn deilwng o le yn y sylwadau hyn. Y mae yn amlwg nad yw y gair *ethol* yn cynnwys y syniad o wrthod. Os ydyw dewis rhai o blith ereill i fywyd yn cynnwys fod y rhai hyn yn well o gael eu dewis, nid yw hyny yn tybied fod yr ereill, na ddewiswyd mo honynt, yn ddim gwaeth nag a fuasent pe na buasai un wedi ei ddewis o honynt. Gan hyny, y mae y Calviniaid sydd yn dal gwrthodedigaeth, yn ei ddal fel casgliad y maent yn ei dynu oddi ar yr athrawiaeth o etholedigaeth, ac nid oddi ar feddwl y gair ei hun. Ac y mae yr Arminiaid yn gyffredin yn barnu fod y casgliad yn un naturiol, ac yn gwrthwynebu etholedigaeth y Calviniaid ar gyfrif ei fod, yn eu tyb hwynt, yn arwain yn anocheladwy i wrthodedigaeth.

Dywed John Wesley, "Chwiliwch allan i mi rhyw etholedigaeth nad ydyw yn cynnwys gwrthodedigaeth, ac mi gytunaf yn llawen iddi; ond gwrthodedigaeth nis gallaf byth gytuno iddi tra y credaf fod yr Ysgrythyr o Dduw." Ond dealler nad ydyw duwinyddion Calvinaidd, wrth ddefnyddio y gair hwn, yn barnu fod Duw yn awdwr pechod, na'i fod yn gyfranog o bechod, yr un pechadur; na'i fod trwy unrhyw weithrediad o'i allu yn ei gadw yn ei bechod; na'i fod yn gwrthod un pechadur chwaith a dry ato am fywyd. Yn hytrach, y maent yn dal fod pob un a dry ato yn edifeiriol ac yn ffyddiog yn profi trwy hyny ei fod o'r rhai etholedig. Y mae eu meddwl wrth ddefnyddio y gair yn cynnwys dau syniad:—1. Fod Duw fel un cyfiawn yn penderfynu cospi pechadur o herwydd ei bechod. Ni a enwasom hwn yn gyntaf am ei fod yn wirionedd ag y mae Calviniaid ac Arminiaid yn cytuno ynddo; er, fe allai, y ceir llawer o'r ddwyblaid nad ydynt yn cydnabod y priodoldeb o alw cosp gyfiawn Duw ar bechadur yn weithred o wrthodedigaeth. Y mae hwn yn benderfyniad, nid i'r creadur bechu, ond i'r pechadur ddyoddef o herwydd ei bechod. Ac y mae yn amlwg hefyd nad ydyw y rhan hwn o'r meddwl sydd gan dduwinyddion wrth ddefnyddio y gair *gwrthodedigaeth*, yn gasgliad oddi ar eu barn am etholedigaeth, ond yn wirionedd mawr yn meddu ar ei brofion ei hun. Y mae hyn yn eglur os ystyrir etholedigaeth fel gweithred o ras ac o benarglwyddiaeth, a gwrthodedigaeth fel gweithred o gyfiawnder—etholedigaeth yn benderfyniad i gyfranu bywyd i bechadur, er nad oedd yn haeddu hyny; a gwrthodedigaeth yn benderfyniad i weinyddu cosp, am ei fod yn haeddu hyny. Ond yn yr ail syniad cynnwysedig yn y gair, nid yn unig y mae gwahaniaeth barn rhwng Calviniaid ac Arminiaid, ond gwahaniaeth hefyd rhwng y Calviniaid a'u gilydd. 2. Fod Duw fel Penarglwydd yn penderfynu peidio dewis y rhai a gollir. Fe ellir

Digitized by Google

dosbarthu golygiadau duwinyddion ar y pwnc hwn i ddau ddosbarth. Y mae rhai yn golygu fod etholedigaeth ddiammodol i fywyd, a'r wrthodedigaeth a ddarlunir yn y geiriau uchod, yn anwahanol gyssylltiedig â'u gilydd, fel nas gellir credu y naill heb hefyd gredu y llall. Yn y dosbarth hwn y mae yr Arminiaid sydd yn gwadu etholedigaeth, am eu bod yn tybied ei fod o angenrheidrwydd yn cynnwys gwrthodedigaeth; a'r Calviniaid sydd yn credu gwrthodedigaeth, am eu bod yn tybied ei fod yn gasgliad angenrheidiol oddi wrth yr athrawiaeth o etholedigaeth. Yn y dosbarth arall y mae y Calviniaid sydd yn credu nad ydynt yn gyssylltiedig â'u gilydd, ac sydd yn credu etholedigaeth ddiammodol mor gryfed a neb o'u brodyr Calvinaidd, ac yn anghredu gwrthodedigaeth mor gryf a neb o'u brodyr Arminaidd.

O'r duwinyddion Calvinaidd ag ydynt yn credu gwrthodedigaeth, ni a gymmerwn John Calvin ei hun fel anghraifft; ac er mwyn gwneuthur cyfiawnder â'i olygiadau, ni a ddyfynwn o'i ysgrifeniadau frawddegau ag sydd yn eu gosod allan yn gryno ac yn eglur. Yn ei *Institutes of the Christian Religion*, llyfr iii, pen. 23, y mae yn ysgrifenu fel hyn:—"Y mae llawer, dan yr esgus o amddiffyn cymmeriad Duw, yn addef athrawiaeth etholedigaeth, ond yn gwadu fod neb yn wrthodedig. Y maent yn gwneuthur hyn yn eu hanwybodaeth a'u plentynrwydd, am nas *gall* fod etholedigaeth heb wrthodedigaeth cyferbyniol iddi:—y rhai hyny y mae Duw yn myned heibio iddynt y mae yn eu gwrthod, a hyny heb un rheswm ond ei fod yn gweled yn dda eu cau allan o'r etifeddiaeth a fwriadodd i'w blant. Pa fodd y medr y rhai hyny sydd yn gwadu fod neb wedi eu gwrthod gan Dduw esbonio y geiriau canlynol o eiddo Crist (*Mat.* xv. 13)? 'Pob planhigyn yr hwn nis planodd fy Nhad nefol a ddiwreiddir.'" Fe ddywedir yn amlwg yn y geiriau hyn fod pawb nas gwelodd y Tad nefol yn dda eu planu fel prenau sanctaidd yn ei ardd wedi eu tynghedu a'u neillduo i ddinystr. Hefyd *Rhuf.* ix. 22,23;"Beth os Duw yn ewyllysio dangos ei ddigofaint, a pheri adnabod ei allu, a oddefodd trwy hir-ymaros lestri digofaint, wedi eu cymhwyso i golledigaeth; ac i beri gwybod golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, y rhai a ragbarotodd efe i ogoniant?" Y mae Awstin yn esbonio yr adnod hon yn gywir pan y mae yn dywedyd fod Duw, pan y mae ei allu wedi ei gyssylltu â goddefiad, nid yn caniatau ond yn llywodraethu. Fe ddywedir mewn adnod flaenorol fod Duw wedi cyfodi Pharaoh, ac yn caledu y neb y myno. Am hyny cynghor dirgel Duw ydoedd achos ei galedwch. Nid yw Paul yn priodoli cymhwyso i golledigaeth i unrhyw achos ond cynghor dirgel Duw. Yn ngwyneb yr wrthddadl, nad ydyw yn gyfiawn cospi dynion am bethau ag yr oedd arfaeth Duw yn achos penaf o honynt, y mae yn ateb—"Y mae yn rhaid i bawb addef yr hyn a ddywed Solomon yn *Diar.* xvi. 4; 'Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun; a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg.' Gan fod trefniad pob peth yn llaw Duw; gan fod einioes ac angeu yn ei feddiant ef, y mae yn trefnu y cwbl â'i gynghor penarglwyddiaethol yn y fath fodd ag y genir dynion, y rhai sydd wedi eu tynghedu o'u genedigaeth i farwolaeth sicr, a'r rhai sydd i'w ogoneddu yn eu dinystr." Yn ngwyneb y gwahaniaeth a wneir rhwng ewyllysio a goddef, er mwyn profi fod yr annuwiol yn golledig yn ol goddefiad, ac nid yn ol ewyllys Duw, y mae efe yn dywedyd, "Er fod dinystr pechaduriaid yn dibynu ar arfaeth Duw, y mae achos a defnydd eu dinystr ynddynt eu hunain. Fe syrthiodd dyn am fod Duw wedi ordeinio, ond fe syrthiodd trwy ei fai ei hun."

O'r ochr arall y mae Dr. Edward Williams, yn ei *Defence of Modern Calvinism*, yn dadleu yn gryf dros etholedigaeth, ac yn dangos nad ydyw yr athrawiaeth hon yn cynnwys mewn un modd wrthodedigaeth y colledigion, yn mhellach na'u bod yn cael eu cospi yn gyfiawn o herwydd eu pechodau. Y mae yn dangos nad yw *peidio dewis yn unig* yn tybied nac yn cynnwys penderfyniad neu arfaeth; ond yn hytrach fod peidio dewis yn beidio penderfynu; a bod y cam farn ar y pwnc yn codi oddi ar y dybiaeth fod peidio ethol yn weithred bendant, ac am hyny yn gofyn am benderfyniad pendant. Y mae yn dangos fod syniadau Calvin ar y pwnc wedi eu seilio ar y farn oedd ganddo, nad oedd unrhyw reswm digonol yn bod am unrhyw ddygwyddiad, ond ewyllys Duw. Y mae yn gwrthwynebu y farn hon trwy ddangos ei bod yn priodoli yr achos o bechod i fwriad ac ewyllys Duw—ac nad yw yr atebiad a roddir i'r rheswm hwn, sef fod yr hyn sydd ddrwg yn y cyflawnwr o bechod, yn dda yn yr arfaethwr o hono, a hyny o herwydd mai amcan y pechadur wrth gyflawnu oedd hunanfoddhad, ac amcan Duw wrth arfaethu oedd y daioni mwyaf yn y diwedd—yn rhyddhau Duw o'r cyhuddiad o fod yn awdwr pechod. Wrth derfynu ei sylwadau ar y rhan hon o'r ddadl, y mae yn amlwg mai y ddau wirionedd mawr ag sydd raid i'r meddwl ymaflyd ynddynt er mwyn ei gadw rhag peryglon o'r ddau tu, ydynt fod *pob* daioni o'r Creawdwr, fel nad yw y creadur i gyfranogi âg ef o ddim o'r clod, a bod *pob* drwg o'r creadur, fel nad ydyw y Creawdwr yn cyfranogi âg ef o ddim o'r bai; a mwy, ei fod yn ddirgelwch nas amlygwyd eto, a allasai Duw rwystro dyfodiad pechod i'w lywodraeth yn gysson â'r cyfansoddiad a roddodd i'w greaduriaid moesol, ai nis gallasai; ac os gallasai, pa ham na wnaeth; ac os gallasai a chan na wnaeth, pa fodd y mae hyny yn gysson â daioni ac â sancteiddrwydd ei natur ei hun. Gan na ddadguddiwyd hyn, o herwydd fe ddichon nad oes ond meddwl Duw yn unig yn ddigon mawr i allu ei ddirnad, nid oes i ni ond ymgymmeryd ein hunain â'r holl fai o bechod, gan deimlo eiddigedd sanctaidd rhag i'r gronyn lleiaf o hono gael ei osod yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol wrth ddrws Duw, trwy unrhyw esboniad o'r eiddom ni ar ymadroddion y Beibl.

Y mae amrywiaeth barn wedi bod yn mhlith Calviniaid eu hunain am etholedigaeth. Gellir ei alw yn amrywiaeth barn am drefn y bwriadau yn meddwl Duw. Yr oedd yr amrywiaeth hwn yn eu rhanu i ddau ddosbarth mawr; y rhai a elwid yn Supralapsarians ac yn Sublapsarians. Nid oedd y ddadl hon wedi dechreu yn nyddiau Calvin; ac am hyny nid yw yn amlygu ei farn yn ei ysgrifeniadau mor eglur, fel y mae yn bosibl penderfynu yn bendant pa un o'r ddau olygiad yr oedd yn ei ddal. Ac y mae duwinyddion y ddau ddosbarth wedi cael rhyw sail i dybied oddi ar ryw ymadroddion o'i eiddo ei fod o'u barn hwy. Ni ddefnyddiwyd y geiriau uchod i ddarlunio y ddau ddosbarth hyd gymmanfa fawr Dort (*Synod of Dort*), yr hon oedd yn cynnwys cynnrychiolwyr oddi wrth holl eglwysi y Diwygiad; yr hon a gyfarfu er mwyn ffurfio erthyglau yn cynnwys eu barn, na fyddai dadl mwyach yn ei chylch ar y pum pwnc Calvinaidd; a'r hon a eisteddodd 145 o weithiau o Dachwedd

13eg, 1618, hyd Mai 9fed, 1619. Ac er i'r Calviniaid yn y gymmanfa hono fod yn unol eu barn yn erbyn y golygiadau Arminaidd ar etholedigaeth, nid oeddynt yn unol yn eu plith eu hunain am yr athrawiaeth hono; ond hwy a gytunasant i adael allan o'r erthyglau a dynwyd allan yno yr holl bethau ag yr oeddynt yn anghytuno yn eu plith eu hunain yn eu cylch. Ychydig o ran nifer yw y dosbarth cyntaf, o'i gymharu â'r ail. Eu prif ddynion ydynt Beza a Dr. William Twisse, yr hwn oedd yn 1643 yn gadeirydd yr *Assembly of Divines at Westminster;* a'r hwn hefyd oedd y duwinydd olaf yn Lloegr yn meddu ar unrhyw enwogrwydd a fu yn amddiffyn y golygiadau hyn.

Y mae barn y Supralapsarians fel y canlyn:—Fod Duw wedi ethol o dragywyddoldeb o blith dynion (y rhai nid oedd yn eu hystyried y pryd hwnw wedi syrthio nac wedi eu creu) rai i fywyd a rhai i ddinystr tragwyddol, o'i ewyllys da ei hun, er mwyn dangos ynddynt ogoniant ei drugaredd a'i gyfiawnder; a'i fod wedi ordeinio yn ei arfaeth foddion i gyrhaedd yr amcanion hyn; mai y moddion hyn gyda golwg ar bawb oeddynt creadigaeth dyn yn uniawn, cwymp Adda, condemniad dynolryw ynddo a'u llygredigaeth trwyddo; mai y moddion neillduol i gyrhaedd ei amcan ar y cadwedigion ydynt aberth Crist drostynt a gwaith yr Ysbryd yn eu dychwelyd ac yn eu cadw rhag syrthio; mai y moddion neillduol i gyrhaedd ei amcan ar y colledigion ydyw gwrthod iddynt y gras angenrheidiol i'w cadw. Y sail ar ba un y mae Dr. Twisse yn adeiladu ei resymiad o blaid y golygiad hwn ydyw, mai yr hyn sydd gyntaf yn y bwriad dwyfol sydd o angenrheidrwydd yn olaf mewn cyflawniad; a chan mai gogoniant ei ras yn y cadwedigion a gogoniant ei gyfiawnder yn y colledigion yw yr hyn sydd yn cymmeryd lle olaf; mai hyn oedd y peth cyntaf yn mwriad Duw. Ac y mae yn gwrthwynebu y farn fod etholedigaeth yn rhagdybied cwymp dynolryw yn Adda, am fod hyny yn cynnwys nad oedd ffynnonell uwch i'r cynghor tragwyddol na llygredd dyn. Y brif wrthddadl i'r golygiad hwn ar etholedigaeth yw ei bod yn olrhain cwymp dyn a'i godiad i'r un gwreiddyn, a'i fod yn gwneuthur Duw yn awdwr pechod, ac yn tueddu i ryddhau y pechadur oddi wrth ei gyfrifoldeb i Dduw am ei bechod, yn gymmaint a bod y ymp ei hun o fewn yr arfaeth dragwyddol fel moddion i gyrhaedd ei hamcan; ond y mae y rhai sydd yn ei dal yn gwadu ei fod yn cynnwys fod Duw yn awdwr pechod, neu yn arwain i hyny yn ol rhesymiad teg. Y mae barn y Sublapsarians fel hyn:—"Fod Duw, yn y rhagolwg ar ddynolryw wedi eu creu ac wedi syrthio, wedi penderfynu o'i ras gadw rhai o honynt, a bod y penderfyniad i gyrhaedd yr amcan hwn yn cynnwys hefyd benderfyniad i wneuthur drostynt ac ynddynt y cwbl a fyddai yn angenrheidiol tuag at eu cadw.

Y mae y golygiad cyntaf yn gosod etholedigaeth yn fwriad dwyfol cyn y meddwl am greu; yr olaf yn ei osod yn fwriad, yn y rhagolwg y syrthiai dyn ar ol ei greu. Yn erbyn y cyntaf, fe ddywedir ei fod yn taflu cwmwl ar sancteiddrwydd a daioni Duw; yn erbyn yr ail, ei fod yn taflu cwmwl ar ei ddoethineb a'i annibyniaeth, trwy ei fod yn peri i feddwl Duw ddibynu ar ffaeledd y creadur. Ond y mae yn amlwg fod y ddadl hon yn ddadl ar yr hyn nas dadguddiwyd yn y Beibl; a'i bod yn cynnwys ymchwiliad trwy resymiad dynol i fwriadau dirgelaidd y Duwdod. Erbyn hyn y mae Calviniaid yn gyffredinol, os nad yn unfrydol yn barnu mai yr olaf o'r ddwy yw y farn gywir; sef i Dduw, yn ol ei ragwybodaeth dragwyddol, weled dynolryw mewn sefyllfa o bechod a thrueni, ac iddo o'i ewyllys da, a'i anfeidrol gariad, ac yn ol ei ddoethineb perffaith ddewis rhai o honynt i fywyd tragwyddol, gan gospi y lleill yn ol ei gyfiawnder am eu pechod.

Un rhan o'r Beibl ag sydd wedi bod yn destyn dadl rhwng duwinyddion Arminaidd a Chalvinaidd am ei ystyr yw y nawfed bennod o'r llythyr at y Rhufeiniaid. Y mae yr Arminiaid yn ei hesbonio fel hyn:—Fod cenedl Israel yn mwynhau dan yr hen oruchwyliaeth freintiau allanol crefydd fel eglwys, y rhai a enwir yn *adn.* 4, 5; "y mabwysiad, a'r gogoniant, a'r cyfammodau," &c.: fod y cenedloedd dan yr oruchwyliaeth newydd wedi eu derbyn i mewn i'r eglwys yn gydradd â'r Iuddewon: fod yr Iuddewon fel cenedl wedi eu cau allan o'r eglwys, ac yn cael derbyniad iddi fel personau ar yr un tir a'r Cenedloedd: fod yr Iuddewon o herwydd hyn yn cyhuddo Duw o dori ei addewid i Abraham, yr hon oedd yn cynnwys eu huchafiaeth grefyddol hwy ar y Cenedloedd: fod yr apostol yn ateb y cyhuddiad trwy ddangos nad oedd yr addewid i had Abraham o fendithion crefyddol yn cynnwys yr holl had: fod Duw fel penarglwydd wedi gweled yn dda ddewis Isaac o feibion Abraham ac Iacob o feibion Isaac, a rhai, sef y deg llwyth, o Iacob i'r mwynhad o freintiau allanol crefydd, a'i fod yn gwneuthur hyny yn ddiammodol, ac nad oedd cenedl Israel eu hunain yn ei gyhuddo o anghyfiawnder am wneuthur hyn; ac nad oedd ganddynt gan hyny le i'w gyhuddo o anghyfiawnder am ei fod oddi ar yr un hawl benarglwyddiaethol yn dewis y Cenedloedd yn awr i fwynhau yr un breintiau eglwysig a hwynthwy; ac nad oedd ganddynt chwaith le i gwyno fod y Penarglwydd Dduw wedi newid sail aelodaeth yn ei eglwys o fod yn berthynas naturiol âg Abraham i fod yn ffydd yn Nghrist, a bod y Cenedloedd trwy gredu yn aelodau o honi, a bod yr Iuddewon trwy anghredu wedi eu cau allan o honi: bod yr etholedigaeth y sonir am dani yma yn ddiammodol; ond mai etholedigaeth ydyw i freintiau yr oruchwyliaeth hon, y rhai ydynt yn foddion cymhwys i gynnyrchu ffydd, megys ag yr oedd cenedl Israel wedi ei hethol i freintiau eglwysig yr hen oruchwyliaeth trwy waedoliaeth. Sylwer fod yr Arminiaid yn credu etholedigaeth ddiammodol i freintiau allanol crefydd; ond ammodol i fywyd tu draw i'r bedd.

Y mae y Calviniaid yn ei hesbonio fel hyn:—Fod yr apostol yn y bennod flaenorol wedi darlunio bendithion *ysbrydol*—mai yr etholedigion i'w mwynhau ydynt Genedloedd ac Iuddewon: bod yr apostol yn y drydedd bennod wedi dangos mai had Abraham oedd pawb a gredent, pa un a fyddent ai Cenedloedd ai Iuddewon: nad oedd Duw wrth wneuthur hyn yn tori yr addewid a roddodd i Abraham, gan nad oedd holl hiliogaeth naturiol Abraham yn cael eu cynnwys yn y rhai a gyfrifid yn had iddo yn yr addewid: fod Duw fel penarglwydd wedi dewis Isaac o blant Abraham ac Iacob o blant Isaac yn llinell yn yr hon yr oedd breintiau allanol crefydd i redeg, a bod yr un hawl ag oedd gan Dduw i ddewis y naill genedl yn hytrach na chenedl arall i'r breintiau allanol ganddo i ethol y naill berson yn hytrach na pherson arall i fendithion ysbrydol yr efengyl: bod y cyntaf yn ddiam-

Digitized by Google

modol, a bod yr ail yn gyffelyb, yn ddiammodol; a bod y geiriau yn *adn.* 23, "y rhai a ragbarotodd efe i ogoniant," yn profi mai am ethol i feddiannu a mwynhau bendithion ysbrydol y mae yn llefaru. Y mae gwahaniaeth barn rhwng esbonwyr Calvinaidd a'u gilydd am y cyfeiriadau at Isaac ac Iacob. Y mae rhai yn barnu eu bod yn cynnwys fod y ddau hyn, fel personau, wedi eu hethol i fywyd; tra y mae ereill yn barnu eu bod yn cynnwys yn unig fod y personau yn cael eu henwi am eu had, a bod eu had wedi eu hethol i ragorfreintiau allanol crefydd. Y mae y rhai olaf hyn yn seilio eu barn ar y ffaith fod *adn.* 13, "Iacob a gerais, eithr Esau a gaseais," wedi ei dyfynu o *Mal.* i. 2, 3; lle y mae yn amlwg mai wrth Esau y meddylir yr Edomiaid, a bod *casau Esau* yn cael ei esbonio mewn bod Duw wedi gosod mynyddoedd Edom yn ddiffaethwch, a'i etifeddiaeth i ddreigiau yr anialwch: ond nid yw y barnau gwahanol am etholedigaeth bersonol Isaac ac Iacob, ac am golledigaeth Ismael ac Esau, yn cyffwrdd dim â'r esboniad ar amcan y bennod, yn yr hyn y mae yr holl Galviniaid yn gwahaniaethu oddi wrth yr holl Arminiaid. Y mae y ddwy blaid yn cytuno yn y golygiad, ac yn cytuno fod y bennod hon yn ei gynnwys—fod Duw o'i benarglwyddiaethol ras wedi ethol yn ddiammodol genedl Israel o blith holl genedloedd y byd, i fod yn eglwys iddo ei hun i fwynhau holl freintiau allanol crefydd. Ond yn y frawddeg uchod, y mae yr Arminiaid yn gosod y pwys ar y geiriau olaf ynddi, ac yn dywedyd fod yr apostol yn rhesymu fod yr un hawl gan Dduw i ethol unrhyw genedl arall, neu ryw rai o blith pob cenedl, i fwynhau breintiau crefyddol fel y moddion i ffurfio eglwys i ddiwedd y byd:—tra y mae y Calviniaid yn gosod pwys ar y geiriau cyntaf ynddi, ac yn dyweyd fod yr apostol yn rhesymu fod yr un hawl gan Dduw i ddewis pwy bynag a fyn i feddiannu unrhyw fraint allanol ac unrhyw fendith ysbrydol hefyd, fel y gwelo yn dda. Y mae yr Arminiaid, wrth esbonio y bennod, yn dadleu dros benarglwyddiaeth gras o fewn terfynau breintiau allanol crefydd—y Calviniaid dros benarglwyddiaeth gras heb un terfyn iddo, ond terfyn sancteiddrwydd natur a chyfiawnder deddf Duw.

Y mae y naill yn barnu fod cenedl Israel yr Hen Destament yn cyfateb i genedloedd y pregethir Crist iddynt: tra y mae yr olaf yn barnu ei bod yn cyfateb i bob un sydd mewn undeb gwirioneddol â Christ hyd ddiwedd y byd. Y mae y naill yn gweled yn y bennod benarglwyddiaeth Duw yn gwneuthur y broffes o ffydd yn llwybr derbyniad i'r eglwys, yn lle perthynas naturiol âg Abraham: y mae y llall yn gweled yn yr un bennod y gwirionedd hwn, ac yn chwanegol fod penarglwyddiaeth Duw yn "rhagbarotoi i ogoniant," ac yn trugarhau wrth bechaduriaid, i roddi iddynt y gras o ffydd tuag at eu dwyn i'r eglwys. Fel y dywedwyd o'r blaen, y mae yr holl benarglwyddiaeth a gydnabyddir yma gan yr Arminiaid yn cael ei chydnabod gan y Calviniaid hefyd; ond y mae yr olaf yn barnu fod ei thiriogaeth yn eangach nag a gydnabyddir gan y cyntaf. Y mae yr Arminiaid yn dadleu yn erbyn yr esboniad Calvinaidd ar y bennod hon, na ddichon etholedigaeth cenedl i freintiau byth ddangos etholedigaeth personau i fywyd, am fod bywyd yn cael ei sicrhau yn yr olaf i'r person, tra nad yw yn cael ei sicrhau yn y cyntaf i'r genedl. Y mae y Calviniaid yn ateb, nad ydyw yr wrthddadl yn deg, o blegid fod breintiau yn cael eu sicrhau i'r genedl a etholir iddynt gan benarglwyddiaeth Duw dros yr amser y bwriadwyd iddi eu mwynhau; ac yn gyffelyb fod bywyd yn cael ei sicrhau i'r personau a etholwyd i'r bywyd hwnw. Ac y maent yn dal yn mhellach, nad yw y gwahaniaeth rhwng cenedl a phersonau, na rhwng breintiau allanol a bendithion ysbrydol crefydd, yn effeithio dim ar wirionedd mawr y bennod; sef, rhyddid ewyllys Duw, fel penarglwydd doeth a da, i gyfranu y fendith a fyno i'r neb y myno.

Y mae yr un gwahaniaeth rhwng eu hesboniad o *Rhuf.* xi. 5; "Felly, gan hyny, y pryd hwn y mae gweddill yn ol etholedigaeth gras." *Adn.* 7; "Ni chafodd Israel yr hyn y mae yn ei geisio; eithr yr etholedigaeth a'i cafodd, a'r lleill a galedwyd." Esboniad yr Arminiaid ydyw—Mai tybiaeth ddisail ydyw fod Iuddewon duwiol dan yr hen oruchwyliaeth yn cael eu galw yn etholedigion, mewn cyferbyniad i Iuddewon o waedoliaeth; mai yr etholedigion yn yr adnodau uchod ydynt yr Iuddewon ag oeddynt yn byw y pryd hwnw, y rhai a gredasant yn Nghrist, a'r rhai a ddewiswyd i'r eglwys trwy ffydd:—nad ydyw y gair yma yn cael ei ddefnyddio am genedloedd crediniol, ond yn unig am Iuddewon crediniol. Yr esboniad Calvinaidd ydyw, fod y gair *felly*, yn nechreu *adn.* 5, yn brawf fod y "saith mil o wŷr," a hwy yn Iuddewon duwiol, mewn cyferbyniad i Iuddewon o waedoliaeth, yn cael eu hystyried gan yr apostol yn "weddill yn ol etholedigaeth gras:" ac er mai am Iuddewon crediniol y mae yr apostol yma yn ysgrifenu, mai nid y cyferbyniad a wneir ganddo yw cyferbyniad ffydd a gwaedoliaeth, ond cyferbyniad gras Duw a gweithredoedd dyn; a chan mai gwrthddrych gras Duw yw yr annheilwng, mai meddwl yr apostol ydyw fod etholedigaeth Duw wedi ymaflyd yn rhai o'r Iuddewon yn eu cyflwr syrthiedig o ddrwghaeddiant, i roddi ffydd iddynt, er mwyn eu gwneuthur yn aelodau cymhwys o'i eglwys. Ac felly fod y geiriau mor briodol i'w defnyddio am y Cenhedloedd crediniol ag ydynt am yr Iuddewon crediniol.

"Megys yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad;" *Eph.* i. 4. Y mae rhai Arminiaid yn barnu fod yr etholedigaeth, yn yr adnod hon, yn un bersonol o ran ei gwrthddrychau, a bod Duw wedi ethol dynion i fywyd, nid fel pechaduriaid, ond fel credinwyr "ynddo ef:" bod y geiriau "cynghor ei ewyllys ef," yn cynnwys fod gan Dduw reswm am eu hethol, a bod "ynddo ef" yn dangos mai y rheswm yw eu ffydd yn Nghrist, yr hon a ragwelodd cyn seiliad y byd. Y mae Arminiaid ereill yn barnu mai yr etholedigaeth yn yr adnod ydyw bwriad Duw, trwy gyhoeddiad yr efengyl, i ffurfio eglwys ar y ddaiar ar sail ffydd yn Nghrist, ac nid ar sail perthynas âg Abraham: mai holl wirionedd yr adnod ar y pwnc hwn ydyw i Dduw ddewis dynion yn aelodau byw i'w eglwys ar eu gwaith yn credu, pa un a fyddent ai Iuddewon ai Cenedloedd: bod yr apostol, yn *pen.* iii. 5—11, yn dywedyd fod y Cenedloedd yn gydetifeddion â'r Iuddewon crediniol yn Nghrist trwy yr efengyl "yn ol yr arfaeth dragwyddol:" a bod y geiriau hyn yn *pen.* iii. yn cynnwys gwir ystyr geiriau yr apostol yn nechreu y bennod gyntaf. Y mae esbonwyr Calvinaidd, tra yn cytuno â'r esboniad Arminaidd am yr arfaeth yn *pen.* iii., yn barnu fod rhyw wirionedd arall yn cael ei ddadguddio yn nechreu y bennod gyntaf, mai y gwir-



Digitized by Google

ionedd hwnw ydyw, i Dduw, cyn seiliad y byd, ddewis dynion yn y rhagolwg o'u pechadurusrwydd; nid yn y rhagolwg o'u ffydd, mewn undeb yn y bwriad fel un cyfanwaith gogoneddus âg etholiad yr Iesu i fod yn Gyfryngwr gyda'r amcan o'u gwneyd yn sanctaidd, a'i fod yn ol yr etholedigaeth dragwyddol yn eu bendithio â phob bendith ysbrydol, âg edifeirwch, â ffydd yn Nghrist, â nerth i barhau hyd y diwedd mewn ffydd, er mwyn cyrhaedd arnynt ac ynddynt amcan ei etholiad o honynt. Y mae y Calviniaid hefyd yn cymmeryd y gair *pob* yn yr adnod yn ei ystyr eangaf, ac yn seilio arno eu barn fod *pob* gweithrediad o eiddo yr Ysbryd Glân ar galon pechadur er mwyn ei sancteiddio yn ffrwyth etholedigaeth Duw o'r pechadur hwnw i'w sancteiddio. Mewn cyssylltiad â'r athrawiaeth hon, y mae meddwl y gair *rhagwybod* yn *Rhuf.* viii. 29, "o blegid y rhai a ragwybu, a ragluniodd efe," &c., ac yn 1 *Pedr* i. 2, "etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw," &c., wedi bod yn destyn dadl. Gellir cymmeryd y gair yn ei ystyr cyntaf, o wybodaeth flaenorol am berson neu beth. Os cymmerir ef yn yr ystyr hwn, gellir gofyn, Ai yn ol rhagwybodaeth y pechai dyn? ai yn ol rhagwybodaeth y credai? ac ai ar ol pechu yr etholwyd ef? Y mae y cyntaf yn fwy cysson â'r golygiad Calvinaidd; a'r ail â'r golygiad Arminaidd. Ond nid hwn yw yr esboniad cyffredin a roddir i'r gair gan y naill ochr neu y llall yn yr adnodau uchod. Y mae hefyd dau ail ystyr i'r gair:—un yw cymmeradwyaeth flaenorol i bersonau, fel rhai yn caru, neu fel rhai a gerir; y llall ydyw ordeiniad blaenorol i fendithion.

Yr esboniad Arminaidd cyffredin ar y geiriau, "y rhai a ragwybu, a ragluniodd efe," &c., sydd fel y canlyn:—Mai "y rhai a ragwybu" ydynt y credinwyr, y rhai a ddarlunir yn *adn.* 28, fel "y rhai sydd yn caru Duw;" i Dduw eu cymmeradwyo yn y rhagolwg arnynt fel rhai a'i carent —i Dduw raglunio y rhai hyn i ogoniant tragwyddol ar gyfrif eu cariad—bod y rhai a ragordeiniwyd i ogoniant wedi eu galw i garu Duw gan yr efengyl yn ei chyhoeddiad cyffredinol; ac nad yw yr alwad yn yr adnod i'w chyfyngu i'r rhai a ufuddhant iddi; bod y rhai a alwyd yn cael eu cyfiawnhau, ond nid pawb; a bod y rhai, er nad pawb o honynt a gyfiawnhaodd efe, yn cael eu gogoneddu. Y mae Calvin a Beza yn esbonio y gair *rhagwybod* yn yr ystyr o gymmeradwyaeth; er hyny, nid cymmeradwyaeth o bechaduriaid am eu bod yn caru Duw, ond cymmeradwyaeth o honynt fel rhai a gerir ganddo. Y mae duwinyddion Calvinaidd ereill yn ei esbonio yn yr ystyr o fwriad neu ordeiniad blaenorol, gan appelio at yr adnodau canlynol i gadarnhau eu golygiad:—*Act.* ii. 23; "Wedi ei roddi trwy derfynedig gynghor," mewn cyfeiriad at ei ddoethineb, a "rhagwybodaeth Duw," at ei ewyllys neu ei fwriad. *Rhuf.* xi. 2; "Ni wrthododd Duw ei bobl, y rhai a *adnabu* efe o'r blaen;" ond yn fwyaf neillduol at 1 *Pedr* i. 20, lle y mae y gair *rhagwybod* wedi ei gyfieithu yn rhagordeinio, "yr hwn yn wir a ragordeiniwyd cyn sylfaenu y byd." Eu dull o esbonio *adn.* 29 yn unol â'r golygiad hwn sydd fel y canlyn:—Fod yr apostol yn y bennod yn darlunio galwad, cyfiawnhad, a gogoneddiad pechaduriaid fel effaith cariad Duw tuag atynt hwy, ac nid fel effaith eu cariad hwy tuag ato ef—fod y geiriau "y rhai a ragwybu" yn dal cyssylltiad uniongyrchol, nid "â'r rhai sydd yn caru Duw," ond â'r rhai "sydd wedi eu galw yn ol ei arfaeth ef;" bod y cyssylltiad yn y gair *o blegid* yn cynnwys eu bod wedi eu galw am ei fod wedi rhagfwriadu hyny cyn seiliad y byd; a bod y rhagfwriad tragwyddol wedi sicrhau i'r rhai a ragordeiniwyd, eu lluniad ar ddelw Crist, eu galwad, eu cyfiawnhad, a'u gogoneddiad. Sylwer fod y gair *y rhai*, yn *adn.* 29 a 30, yn ol y golygiad Arminaidd, i'w ystyried yn *rhai*, nid pawb; tra yn ol y golygiad Calvinaidd y mae i'w ystyried yn *bawb*, fel y maent hefyd yn esbonio mai "y rhai sydd yn caru Duw" yn *adn.* 28, ag y mae pob peth yn cydweithio er eu daioni yw *pawb* a'r sydd yn caru Duw: a'r esboniad y maent yn ei roddi ar y gair *y rhai* yn yr adnod hon y maent yn ei roddi arno yn yr adnodau canlynol yn y bennod:—

1 *Pedr* i. 2; "Etholedigion yn ol rhagwybodaeth Duw Dad, trwy sancteiddiad yr Ysbryd i ufudddod a thaenelliad gwaed Iesu Grist."

Fel y mae y Calviniaid, wrth esbonio *Eph.* i. 4, yn barnu fod Paul yn cyfeirio at ethol, fel y mae yn ddewisiad tragwyddol o eiddo Duw, cyn seiliad y byd, felly, wrth esbonio hon, maent yn gyffredin yn barnu fod y geiriau "trwy sancteiddiad yr Ysbryd," y rhai sydd yn cynnwys neillduad yr Ysbryd Glân o bersonau o angenrheidrwydd mewn amser, yn profi fod yr etholedigaeth yn hon yn cyfeirio, nid at y bwriad tragwyddol, ond at waith y bwriad, at y dewisiad mewn gweithred o fewn terfynau amser, trwy waith yr Ysbryd Glân yn dychwelyd pechaduriaid: ond y gair yn yr adnod hon ar yr hwn y maent yn gosod pwys yn y ddadl, ydyw y gair *rhagwybodaeth.* Gan y defnyddir hwn eto yn y bennod hon yn *adn.* 20, lle y cyfieithir ef yn *rhagordeinio*, maent yn dal mai yr un esboniad y dylid ei roddi ar yr un gair yn y ddwy adnod. Ac os mai *rhagwybod* y dylai y gair fod yn *adn.* 20, attebant i Dduw ragwybod y byddai yr Iesu yn aberth, o herwydd ei fod wedi ei ragordeinio; ac felly, a chaniatau mai *rhagwybod* yn ei ystyr cyffredin a feddylir yn *adn.* 2, i'r rhagwybodaeth hono yn gyffelyb fod yn seiliedig ar ragordeiniad neu ragfwriad. Y mae y Calviniaid a'r Arminiaid yn cytuno fod ethol yn yr adnod hon yn meddwl gwaith Duw mewn amser yn dewis rhai allan o'r byd; ond yn gwahaniaethu am natur y rhagwybodaeth, yn ol yr hon y mae yn dewis: y cyntaf yn dal mai eu cwymp a ragwelwyd gan Dduw, ac mai eu codiad personol a ragordeiniwyd ganddo; yr olaf mai eu ffydd a ragwelwyd, ac mai trefn yr efengyl a ragordeiniwyd.

"Byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sier: canys, tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn" (sef ffydd, rhinwedd, &c., y rhai a enwir yn *adn.* 5, 6, 7), "ni lithrwch chwi ddim byth;" 2 *Pedr* i. 10. Y mae yr Arminiaid yn dwyn yr adnod hon yn mlaen er mwyn dangos nad yw etholedigaeth Duw o ddynion i'w cadw yn sicrhau cadwedigaeth pechaduriaid; ond yn fwriad ammodol ar waith y pechadur ei hun yn credu ac yn ufuddhau. Ac mai nid Duw a'i gwnaeth yn sier yn ei ddewisiad ef o bechadur, ond mai y pechadur sydd i'w wneuthur yn sier yn ei ddewisiad ef o Dduw, ac yn ei barhad mewn gras. Y mae y cwbl a ddywedir gan Arminiaid am y pwys a'r angenrheidrwydd i bechadur ddewis Duw yn Dduw, a Christ yn Waredwr iddo, yn cael ei gydnabod gan Galviniaid; ond y maent hefyd yn dyweyd yn chwanegol mai o ras penarglwyddiaethol Duw tuag ato y mae yn gweled ei ogoniant ac yn gwneuthur dewisiad o hono. Y dull y mae y Calviniaid yn esbonio yr adnod uchod

Digitized by Google

sydd fel hyn:—Fod y gair *gwneuthur* yn cael ei ddefnyddio ddwywaith ynddi; ac eto fod gwahaniaeth rhyngddo yn y rhan gyntaf ac yn rhan olaf yr adnod: fod "*gwneuthur* y pethau hyn" yn yr ystyr o gyflawnu dyledswyddau, a "*gwneuthur* galwedigaeth ac etholedigaeth yn sicr," yn weithrediadau i'w gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd yn ol meddwl grammadegol y gair—mai meddwl llythyrenol yr olaf o'r ddau yw gwaith dyn yn gwneuthur *iddo ei hun, neu o'i ran ei hun* yr alwedigaeth a'r etholedigaeth yn sicr—mai Duw sydd yn galw, ac mai Duw sydd yn ethol—ac nad yw yn bosibl, ïe, mai disynwyr yw son am ddyn yn gwneuthur gweithredoedd neu fwriadau Duw yn sicr: ac mai rhoddi cwbl ddiwydrwydd i chwanegu at ffydd rinwedd, &c., yw y ffordd i ddyn wneuthur ei ran ef tuag at sicrhau iddo ei hun alwedigaeth ac etholedigaeth Duw—yn gymmaint a bod gan ddyn ei ran ef, a Duw ei ran yntau, yn y gorchwyl o'i gadw rhag llithro dim byth. Y mae y Calviniaid yn gosod cymmaint o bwys a'r Arminiaid ar yr angenrheidrwydd am barhau hyd y diwedd, ac ar weithredoedd da; ond maent yn credu fod yr ymdrech i barhau, a'r ymdrech i gyflawnu gweithredoedd da, a'r parhad yn nglŷn â'r ymdrech, wedi eu sicrhau am byth i bob un mewn undeb â Christ, a bod hyny yn weithred o benarglwyddiaethol ras i bechadur, ac o gyfiawnder i Grist.

"Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti ac arall? a pha beth sydd genyt a'r nas derbyniaist? Ac os derbyniaist, pa ham yr wyt ti yn gorfoleddu, megys pe bait heb dderbyn?" 1 *Cor.* iv. 7. Y mae y ddwy ochr yn cytuno fod yr apostol yma yn llefaru am alluoedd naturiol, am y gwahanol ddoniau yn yr eglwys; ac nid am y gras sydd yn cyfnewid calon pechadur. Am hyny, y mae yr Arminiaid yn dal nad oes a wnelo yr adnod â'r pwnc mewn dadl o gwbl; tra y mae y Calviniaid yn dal fod doniau naturiol a duwioldeb mewn calon, er mor wahanol oddi wrth eu gilydd, ar yr un tir a'u gilydd o ran eu bod yn rhoddion yr un penarglwydd Dduw, yr hwn sydd yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall. Y dull y mae yr Arminiaid yn ei ddefnyddio i roi i Dduw y clod o gadw pechadur, ac ar yr un pryd i wadu etholedigaeth gras, sydd fel y canlyn:—Fod Duw yn rhoddi i bob dyn ei Ysbryd, a bod hyny yn cynnwys ei fod yn rhoddi i bob dyn ras digonol i dderbyn Crist, a bod gan ddyn allu i ddefnyddio y gras hwn, neu i'w wrthod—gallu i ewyllysio myned at Grist, ïe pan nad yw yn myned; gallu i weddïo ac i gredu—bod y gallu ei hun yn waith yr Ysbryd Glân, ond ei fod yn allu i'w ddefnyddio gan y dyn, tra y mae y dylanwad dan yr hwn y mae yn ei ddefnyddio o ras Duw yn unig; ac am hyny, bod yr holl glod o gadw pechadur i'w roddi i Dduw yn unig, gan mai Duw a roddodd ras iddo; ond nad yw hyn mewn modd yn y byd yn arwain i'r athrawiaeth o etholedigaeth, yn gymmaint a'i bod y modd a ddefnyddia y gras hwnw ar law y dyn. Maent yn dal mor gryf a'r Calviniaid fod pob meddwl a dymuniad da yn y galon; a bod yr holl allu sydd ganddi i weddïo, i gredu, ac i iawn ddefnyddio moddion gras, o Dduw; ac am hyny, bod yr holl glod i'w roddi iddo ef yn unig. Y mae y Calviniaid yn barnu fod dyn, er yn bechadur, yn y meddiant o alluoedd naturiol creadur, fel y mae yn gyfrifol i Dduw am y cwbl ag ydyw, a bod pob daioni, pob tynerwch cydwybod, pob hawddgarwch sydd ynddo, i'w olrhain i Dduw ac i Ysbryd Duw: ond, a chaniatau fod gras digonol yn cael ei roddi i bob dyn i dderbyn Crist, a bod y gallu gan bob un i wneuthur hyny, erbyn dyfod at y cwestiwn pa fodd y mae y naill yn defnyddio y gallu hwnw, a'r llall heb ei ddefnyddio, gan fod y ddau yn yr un cyflwr llygredig wrth natur, heb ddim gwahaniaeth ysbrydol rhyngddynt, yr unig esboniad sydd ganddynt i'w roddi yw mai Duw a roddodd i'r naill y duedd i ddefnyddio y gallu ag oedd ganddo. Y mae yr Arminiaid yn cyfarfod â hyn trwy ddyweyd, os yw etholedigaeth yn esbonio pa fodd y mae un yn derbyn Crist, a'r llall yn ei wrthod, nad yw yn esbonio pa fodd y mae yr un dyn ar un adeg yn gwrthod, ac ar ol hyny yn derbyn Crist; os yw yn esbonio y gwahaniaeth rhwng dau ddyn, nid yw yn esbonio y gwahaniaeth rhwng yr un dyn ar ddwy adeg. Y mae y Calviniaid yn ateb trwy ddyweyd fod penarglwyddiaethol ras yn gweithredu yn ol doethineb; a bod rheswm yn bod, gwybyddus, er hyny, iddo ef yn unig, pa ham y mae yn gweithio "ewyllysio a gweithredu" mewn pechadur ar un adeg yn fwy nag adeg arall; a bod y dymmer meddwl ei hun, yr hon sydd yn ffafriol i ffydd pechadur yn Nghrist, i'w phriodoli i ras Duw tuag ato.

Fe roddir gan rai Calviniaid, a chan Calvin ei hun, bwys ar *Act.* xiii. 48; "A chynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragwyddol, a gredasant." Y maent yn tybied fod y gair *ordeinio* yma yn cynnwys y meddwl o benderfyniad gan Dduw o etholedigaeth gras, tra y mae Calviniaid ereill yn ymwrthod â'r adnod fel prawf o etholedigaeth, am eu bod yn barnu mai meddwl yr ymadrodd yw, Cynnifer ag oeddynt wedi eu tueddu—wedi penderfynu, wedi gwneuthur eu meddwl i fyny, i gael bywyd tragwyddol. Y mae yr Arminiaid yn cytuno â'r golygiad olaf. Y mae ymadrodd a ddefnyddir gan yr Arglwydd Iesu yn cael ei ddwyn yn mlaen gan y Calviniaid o blaid eu pwnc: *Ioan* vi. 37; "Yr hyn oll y mae y Tad yn ei *roddi* i mi:" *Ioan* xvii. 24; "Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi,' &c.: *Ioan* x. 29; "Fy Nhad i, yr hwn a'u *rhoddes* i mi," &c. Y mae yr Arminiaid yn barnu mai y rhai hyn a roddwyd i Grist gan ei Dad oedd yr Iuddewon duwiol yn unig ag oeddynt yn byw y pryd hwnw, y rhai oeddynt yn barod i dderbyn yr Arglwydd Iesu; mai y Tad a'u dysgodd ac a eglurodd ogoniant Crist iddynt, a thrwy hyny i'r Tad eu rhoddi i Grist fel ei ddysgyblion, am eu bod o'r blaen yn gredinwyr, er eu cynnydd yn mhob gras a gwybodaeth; a bod *rhoddi* yn cynnwys gwaith y Tad yn trosglwyddo i ofal ac addysg Crist dduwiolion yr hen oruchwyliaeth, y rhai oeddynt yn byw y pryd hwnw. Y mae Calviniaid yn barnu mai y rhai a roddwyd oedd, nid credinwyr i fod yn ddysgyblion, ond pechaduriaid i fod yn gredinwyr; ac mai amcan rhoddiad y Tad oedd sicrhau y byddai pechaduriaid i ddiwedd y byd yn credu yn Nghrist i fywyd, fel na byddai i'w angeu fyned yn ofer; megys y mae sicrhad na fwrid allan yr hwn a gredai yn Nghrist, felly y mae sicrhad y credai y rhai a roddwyd i Grist gan ei Dad i'w cadw; ac nad oes dim yn nghyssylltiadau yr adnodau ag sydd yn dangos y dylid cyfyngu y geiriau at dduwiolion dyddiau Crist, na'u hesbonio fel canlyniad eu ffydd hwy, ond yn hytrach fel rhan o'r drefn i gynnyrchu y ffydd oedd ganddynt.

Y mae yr adnodau lle y dadguddir parodrwydd Duw i dderbyn pawb a gred, a'i ewyllys da tuag at y byd, yn cael eu dwyn yn mlaen fel rhesymau yn erbyn yr athrawiaeth o etholedigaeth yn ol

Digitized by Google

yr esboniad Calvinaidd o honi. Fe ddywedir gan yr Arminiaid mai meddwl yr ymadrodd "ethol o dragwyddoldeb," o angenrheidrwydd yw bwriad tragwyddol Duw i ddewis pechaduriaid i fywyd o fewn terfynau amser: ac i'r darluniad hwn, nid yw y Calviniaid yn wrthwynebol. Ac fe ddywedir yn mhellach, mai bwriad i ethol ydyw bwriad i achub: bod yr Ysgrythyr yn dywedyd yn bendant fod Duw "yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig," nad yw "yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol"—bod bwriad ac ewyllys Duw o angenrheidrwydd yn cytuno; ac am hyny, mai bwriad Duw oedd dewis a chadw pwy bynag a gredai. Y maent yn dadleu fod y dadguddiad mai ewyllys Duw yw fod pob dyn yn gadwedig yn anghysson â'r farn Galvinaidd am etholedigaeth gras. Y mae Calvin yn cyfarfod â'r wrthddadl trwy ddyweyd mai meddwl yr apostol yn yr adnod ydyw—nad oes na phobl na chenedl yn cael eu cau allan o fendithion yr efengyl, ond fod Duw yn ewyllysio i'r efengyl gael ei gosod ger bron pawb yn ddiwahaniaeth.

Y mae Calviniaid ereill yn gosod pwys ar y ffaith nad ydyw yr adnod yn tystio fod Duw yn ewyllysio *cadw* pawb, ond fod y ferf yn y *passive voice*—ei fod yn ewyllysio i bawb gael eu cadw; a bod hyn yn cynnwys fod yr Arglwydd yn y cyhoeddiad o'r efengyl yn ewyllysio i ddynion ei derbyn; fel y mae pob gorchymyn o eiddo yr Arglwydd yn cynnwys ei ewyllys i ddynion ufuddhau iddo. Y mae dadleuon lawer wedi bod rhwng y ddwy blaid yn nghylch *ewyllys Duw*. Y mae Calviniaid yn dal mai un ydyw ewyllys Duw, ond fod Duw yn ei dadguddio mewn dwy ffordd—y naill trwy ei air, yr hwn sydd yn cynnwys addewidion a gorchymynion, a'r hwn yw unig reol ymarweddiad i ddynion; y llall trwy ei weithredoedd, y rhai ydynt yn amlygu yr hwn a fwriadodd ei wneuthur a'i odde. Am y dadguddiad cyntaf a enwyd, y mae Calviniaid ac Arminiaid yn cytuno, ond nid am yr olaf. Ac y mae y Calviniaid yn dadleu fod Duw wedi bwriadu gwneuthur y cwbl a wnaeth; ac yn gwneuthur yn hollol yn ol ei fwriad, ac fod y cwbl a wyddom ni o'i fwriadau yn wybyddus i ni yn ei weithredoedd; ac am hyny fod pob anhawsder ag sydd yn erbyn yr etholedigaeth dragwyddol mor gryf yn achubiaeth pechaduriaid o fewn terfynau amser. Y maent yn cyfeirio at adnodau lle y priodolir, nid yn unig y teimlad a'r gallu, ond y defnydd y mae pechadur yn ei wneuthur o'i allu, i waith Duw ynddo at *Act.* v. 31, lle y dywedir fod yr Iesu yn rhoddi edifeirwch: at *Phil.* i. 29, lle y dywedir "i chwi y rhoddwyd bod i chwi, er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond hefyd ddyoddef erddo ef:" ac at *Iago* i. 18; "o'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni," &c.: a bod pob anhawsder sydd yn eu cyfarfod pan yn son am ras Duw yn ethol rhai i edifarhau ac i gredu, ac i'w hennill, yn cyfarfod yr Arminiaid yn gystal a hwythau pan y maent yn priodoli i Dduw y clod o roddi edifeirwch a ffydd i bechaduriaid, ac o'u hennill o'i wir ewyllys. Y mae y rhesymiad hwn o eiddo y Calviniaid yn cael ei ddadblygu yn helaeth ac yn fanwl gan John Howe mewn wyth pregeth ar *Eph.* i. 11; "Yn yr hwn y'n dewiswyd hefyd, wedi ein rhaglunaethu yn ol arfaeth yr hwn sydd yn gweithio pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun." Nid ydyw Calviniaid yn barnu fod gan Dduw ddwy ewyllys, groes neu wahanol i'w gilydd; ond bod ei ewyllys yn cael ei dadguddio mewn dau lwybr, ac mai y dadguddiad o honi yn ei air yw unig reol ymarweddiad dyn: ond bod ganddo fwriadau yn ei ewyllys nas dadguddia mo honynt oddi eithr yn ei weithredoedd; a chan mai un ewyllys fawr sydd gan Dduw, nad oes un gwir anghyssondeb rhwng y ddau ddadguddiad o honi, ond ymddangosiadol yn unig i ni, o herwydd ein hanwybodaeth o feddwl Duw. Y mae yr anhawsderau y mae y Calviniaid yn ymdrechu eu cyfarfod trwy ddosbarthu yr hyn y mae Duw yn ei ewyllysio yn ol y dull y dadguddir hwynt, y mae yr Arminiaid yn ymdrechu eu cyfarfod trwy wneuthur gwahaniaeth rhwng ewyllys benarglwyddiaethol Duw a'i ewyllys ammodol. Yn ngweithredoedd ewyllys benarglwyddiaethol Duw y maent yn cynnwys yr hyn a benderfynodd ef ei hun ei wneuthur: yn y llall, y maent yn cynnwys yr hyn y penderfynodd Duw ei oddef i'w greaduriaid cyfrifol ei wneuthur. Yn ol yr olaf, y maent yn barnu fod bwriadau Duw yn ddibynol ar weithredoedd rhydd ei greaduriaid; a'r esampl gryfaf o hyn ag sydd ganddynt yw y geiriau a ddywedir am Eli, yn 1 *Sam.* ii. 30; "Medd Arglwydd Dduw Israel, gan ddywedyd y dywedais, Dy dŷ di a thŷ dy dad a rodiant o'm blaen i byth; eithr yn awr medd yr Arglwydd, Pell fydd hyny oddi wrthyf fi, canys fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm dirmygwyr a ddirmygir."

Tra y mae y Calviniaid yn meddwl wrth anghyfnewidioldeb Duw, nad ydyw yn cyfnewid ei amcan nac egwyddorion ei lywodraeth, y mae yr Arminiaid yn barnu fod ei holl anghyfnewidioldeb yn gynnwysedig yn yr olaf yn unig. Y mae yr esboniad Calvinaidd o'r rhan hon o'r pwnc yn cael ei osod allan yn mhregethau Dr. Chalmers oddi ar *Act.* xxvii. 31; "Dywedodd Paul wrth y canwriad a'r milwyr, Onid erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch chwi fod yn gadwedig." Y mae yn dangos nad oes dim yn ammodol yn meddwl Duw, ond fod y ffurf ammodol ar eiriau Paul yn dangos fod cyssylltiad anwahanol yn meddwl Duw rhwng yr amcan o gadw a'r moddion i gyrhaedd yr amcan. Yn yr un dull y maent yn esbonio holl eiriau ammodol y Beibl, fel geiriau sydd yn gosod allan gyssylltiad moddion ac amcanion yn mwriadau Duw. Y mae yr esboniad Arminaidd o hono yn cael ei osod allan gan Richard Watson, yn ei adolygiad o'r bregeth uchod o eiddo Chalmers. Yn cyf. vii. o'i weithiau, y mae Watson yn barnu nad oedd y geiriau (*Act.* xxvii. 22), "Ni bydd colled am einioes un o honoch," yn fwriad dwyfol, ond yn unig yn addewid ammodol ar aros yn y llong. Ar un ochr, y mae Chalmers yn rhesymu oddi ar y geiriau "Ni bydd colled am einioes un o honoch," fod gan Dduw fwriad i'w cadw; a bod y geiriau ereill a enwyd yn dangos cyssylltiad anwahanol moddion ac amcanion yn y bwriad hwnw; tra y mae Watson yn rhesymu oddi ar y geiriau "Onid erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch chwi fod yn gadwedig," fod bwriad Duw i'w cadw yn ammodol ar eu gwaith hwy yn aros yn y llong.

Y mae yr Arminiaid yn barnu fod etholedigaeth ddiammodol i fywyd yn anghysson â phriodoliaethau moesol Duw, â'r dadguddiad o'i gariad tuag at y byd, ac o'i ras, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn—o'i gyfiawnder, am yr hwn y dywedir nad ydyw Duw dderbyniwr wyneb. Y mae y Calviniaid, mewn atebiad, yn dyweyd fod anhawsder i gyssoni priodoliaethau moesol Duw yn mhob cytundraeth, a bod yr anhawsder yn codi, nid oddi ar etholedigaeth Duw o bersonau i fywyd, ond oddi ar ei fod wedi

Digitized by Google

goddef dyfodiad pechod i'w lywodraeth o gwbl: anhawsder nad oes modd ei osgoi oddi eithr trwy dybied fod pechod yn ddrwg ag yr ydoedd yn anmhosibl ei attal yn gysson â'r cyfansoddiad a dderbyniodd dyn: ac nid yw hyn eto ond symmud yr anhawsder gam yn ol—o ddyfodiad pechod i waith Duw yn creu un yn meddu ar y fath gyfansoddiad. Y mae y Calviniaid yn dal mai y cyssondeb rhwng cyfiawnder, a sancteiddrwydd, a daioni Duw, â dyfodiad pechod i'w lywodraeth yw yr anhawsder mwyaf; ac nad ydyw ei waith yn dewis rhai o'r pechaduriaid i fywyd yn chwanegu dim at yr anhawsder hwnw, ond yn ei adael lle yr oedd o'r blaen.

Fel y mae yr Arminiaid yn barnu fod etholedigaeth ddiammodol yn cymylu ar briodoliaethau moesol Duw, mae y Calviniaid yn barnu nad yw, ond fod ei wadu yn cymylu ar briodoliaethau naturiol Duw—ar ei allu, ei wybodaeth, a'i ddoethineb: fod y gyfundrefn Arminaidd yn gadael sefyllfa dragwyddol dynion yn anmhenderfynol tu allan i lywodraeth Duw; yn ei ddarostwng ef i fod yn edrychwr yn unig; o fod yn benarglwydd galluog a doeth, i fod yn was, yn cael ei arwain gan yr hyn y mae yn ei weled yn ei greaduriaid: ac mai sarhad ar Dduw ydyw gwneuthur ei gynlluniau yn ddibynol ar ewyllys gyfnewidiol y creadur. Y mae yr Arminiaid yn barnu fod yr athrawiaeth Galvinaidd yn cymylu ar onestrwydd Duw yn gwahodd pawb at yr Arglwydd Iesu; a bod hyny yn hollol anghysson â'i ddewisiad o rai i fywyd. Y mae y Calviniaid yn ateb, fod y gwahoddiadau eu hunain yn y bwriad dwyfol; ac nad oes anghyssondeb, o herwydd fod y bywyd a'r derbyniad o Grist fel cyfrwng bywyd yn anwahanol gyssylltiedig yn meddwl Duw; a bod gwadu yr athrawiaeth hon yn cymylu ar ddoethineb Duw yn myned i draul anfeidrol fawr, yn anfon ei Fab i gadw pechaduriaid, heb sicrhau y cedwid cymmaint ag un drwyddo; a bod sicrhau amcanion y prynedigaeth yn disgyn yn hollol ar y creadur cyfnewidiol.

Y mae Arminius yn dadleu yn erbyn yr athrawiaeth Galvinaidd, ei bod yn ddianrhydedd i'r Arglwydd Iesu; ei bod yn gosod bwriad Duw yn sail iachawdwriaeth, yn lle person Crist; mai person Crist yw sail etholedigaeth gras; ac am hyny fod dynion yn cael eu hethol i fywyd fel credinwyr, o herwydd eu perthynas â Christ. Y mae y Calviniaid yn ateb, eu bod hwy yn dal fod cyssylltiad anwahanol rhwng iachawdwriaeth pechadur a pherson yr Iesu; a bod y cyntaf wedi ei seilio ar yr olaf; ond fod y ddau, yn nghyd â'r cyssylltiad rhyngddynt, yn mwriadau tragwyddol Duw; a bod gosod y ffydd sydd yn cyssylltu pechadur â'r Iesu tu allan i waith etholedigaeth mewn gwirionedd yn seilio iachawdwriaeth dyn ar rywbeth ynddo ef, ac nid ar ras Duw tuag ato; ac yn lle bod etholedigaeth ddiammodol yn ddianrhydedd i'r Iesu, bod ei gwadu yn ddianrhydedd i ras.

Y mae yr Arminiaid yn dal fod yr athrawiaeth hon yn effeithio ar gyfrifoldeb dyn: fod cyfrifoldeb dyn yn seiliedig ar fod ganddo ewyllys rydd i benderfynu pa fodd i weithredu; fod etholedigaeth ddiammodol yn cynnwys fod dewisiad yr ewyllys o Grist mewn ffydd yn dyfod o fewn bwriadau tragwyddol Duw; a bod i Dduw dueddu yr ewyllys i wneuthur y dewisiad yn drais ar ei rhyddid, ac yn ddarostyngiad ar ddyn o fod yn berson cyfrifol i fod yn beth anghyfrifol. Y mae y ddwy blaid yn cytuno fod ewyllys dyn, mewn canlyniad i'r cwymp, wedi ei darostwng dan lywodraeth natur lygredig; ac fel y cyfryw, ei bod yn analluog i ddewis yr hyn sydd dda, ond bod ei neillduolrwydd gwreiddiol o feddu rhyddid i farnu a dewis yn parhau. Y mae y Calviniaid yn barnu fod yr holl gaethiwed, yn yr hwn y mae yr ewyllys, i'w briodoli i'r llygredd sydd yn natur dyn mewn canlyniad i'r cwymp; ac nad yw etholedigaeth gras yn cymmeryd oddi arni y gradd lleiaf o'i rhyddid gwreiddiol. Y mae wedi bod yn bwnc o ddadl, a oes cyssylltiad anwahanol rhwng actau yr ewyllys a'r cymhelliadau sydd ger bron y meddwl, ai ynte a oes gan yr ewyllys ryddid i benderfynu rhwng y cymhelliadau ei hun: ond nid yw y ddadl hon yn cyffwrdd â'r athrawiaeth dan sylw; o herwydd barn y Calviniaid ydyw mai Duw a roddodd ei gyfansoddiad i bob creadur, a'i fod ef yn abl i weithredu ar anian yn gysson â'r deddfau a roddodd iddi; ac yn gyffelyb, ei fod yn abl i weithredu ar ewyllys dyn yn unol â'r cyfansoddiad a roddodd i'r ewyllys, heb wneuthur trais ar ba ryddid bynag sydd yn perthyn iddi. Nid yw ei barn yn ei gorfodi i benderfynu natur na graddau rhyddid ewyllys fel cynneddf yn yr enaid. Ac nid ydynt chwaith yn dyweyd fod Duw yn gweithredu ar ewyllys fel pe bai yn gareg, neu yn rhywbeth heb law ewyllys: ond fel y mae yn ysgogi y seren yn gysson â'r ddeddf a roddodd iddi, ac â'r nodweddau sydd yn perthyn iddi, felly y mae yn ysgogi ewyllys yn gysson â phob deddf a roddodd iddi hithau ac â'i holl nodweddau; a'i fod yn abl i wneuthur y naill fel y llall, am mai efe a roddodd ei gyfansoddiad i bob un, a'i fod yn groes i'n barn am allu a doethineb Duw iddo roddi i unrhyw wrthddrych y fath gyfansoddiad ag a'i gosodai tu allan i'w allu ef ei hun i weithredu arno a thrwyddo fel y gwel yn dda. Y maent yn barnu fod gallu Duw trwy yr efengyl yn gweithredu ar yr ewyllys yn anwrthwynebol; fod y gallu hwnw yn gweithredu yn groes i bob llygredd sydd yn yr ewyllys, ond yn berffaith gysson â holl nodweddau yr ewyllys. Y maent felly yn gochel y casgliad ag sydd yn ymddangos i'r Arminiaid yn anocheladwy oddi ar eu syniadau; sef eu bod, trwy briodoli i Dduw y gallu sydd yn penderfynu yr ewyllys i weithredu, yn priodoli iddo hefyd y gwaith a wneir gan y dyn ei hun, ac yn ysbeilio yr ewyllys o'i rhyddid a'i gallu. Fel y mae yr Arminiaid oddi ar eu syniadau am ryddid ewyllys dyn i gredu neu i beidio credu yn ymwrthod âg etholedigaeth ddiammodol, felly y mae y Calviniaid oddi ar eu syniadau am ryddid ewyllys Duw i gadw y sawl y myno, yn credu yr athrawiaeth. Ac ni a allem edrych ar y gwahaniaeth yn eu barnau ar etholedigaeth fel gwahanol ymdrechion i gyssoni rhyddid ewyllys Duw i gynnyrchu yn y galon a fyno pa deimladau da bynag a fyno, i'r rhyddid ewyllys dyn ag sydd yn hanfodol iddo fel creadur cyfrifol. Ac yn ngwyneb anmhosiblrwydd i esbonio yr anhawsder, y cwbl sydd genym i'w wneyd yw credu y ddau wirionedd oddi ar eu profion eu hunain: ar un llaw, fod gan Dduw fel penarglwydd ryddid perffaith i ewyllysio cadw, ac i gadw y neb y myno; ac ar y llaw arall, fod gan ddyn, fel creadur cyfrifol, ryddid perffaith i ddewis Crist neu i beidio; a bod gan Dduw y gallu a'r doethineb i weithredu yn ol ei ewyllys rydd ei hun ar ewyllys rydd y pechadur, heb gymmeryd ei rhyddid oddi arni, ac yn gysson â phob nodwedd sydd yn perthyn iddi fel cynneddf yn yr enaid.

Y mae y Calviniaid yn barnu fod y gair *ethol*, neu *ddewis o blith ereill*, yn cynnwys ynddo ei hun

y syniad o ryddid; ac nid oes ganddynt wrthwynebiad i'r Arminiaid ddefnyddio y gair am waith Duw yn dewis rhai cenedloedd o blith ereill i fwynhau breintiau crefyddol; ac y maent eu hunain yn arfer y gair yn yr ystyr hwn fel *rhan* o'r gwirionedd. Ond y maent yn gwrthwynebu eu harferiad o'r gair i ddynodi gwaith Duw yn cadw i fywyd y rhai a gredant, fel arferiad annhriodol; y maent yn ystyried y gwirionedd "na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol," fel deddf a sicrhawyd gan yr iawn—fel deddf yn cynnwys cyfiawnder tuag at yr hwn a fu farw; a bod cadw yr hwn a gred, nid bellach at ddewisiad y penarglwydd, ond yn weithred o angenrheidrwydd cyfiawnder tuag at yr Iesu. Ac nid yn unig, nid ydynt yn barnu fod *cadw yr hwn a gred* yn caniatau y rhyddid sydd mewn dewisiad; ond nid ydynt yn barnu chwaith ei fod yn cynnwys personau fel gwrthddrychau dewisiad. Y maent yn dal mai nid dewis personau yw hyn, ond dewis nodweddau i ymddwyn mewn rhyw ddull neillduol tuag atynt, yn mha galonau bynag y ceir hwynt; dewis edifeirwch, a ffydd, a sancteiddrwydd, fel nodweddau rhinweddol a dymunol i'w cymmeradwyo lle bynag y gwel hwynt; ac mai personau yw gwrthddrychau etholedigaeth bob amser yn y Beibl.

Y mae y Calviniaid yn tybied fod y gyfundrefn Arminaidd yn rhanu y clod o gadw pechadur rhyngddo ef a Duw, tra nad ydynt chwaith yn barnu fod Arminiaid duwiol yn gwneuthur hyn mewn teimlad nac mewn ymarferiad. Ac y mae yr Arminiaid, yn ngwyneb y cyhuddiad hwn ar eu cyfundraeth, yn haeru eu bod hwy yn rhoddi yr holl glod i Dduw, ac nad ydynt yn ei ranu â neb arall. Y maent yn dywedyd yn bendant fod dyn wedi colli pob tuedd i ddaioni yn y cwymp; pob ewyllys a gallu i droi at Dduw. Yn ngwyneb yr anallu llygredig hwn, fod Duw yn nhrefn yr efengyl wedi rhoddi gras digonol i fod yn gadwedig i bob dyn, fel nad oes neb yn ddiesgus; ond ar ol derbyn y gras digonol, na ddichon neb ei weithio allan mewn edifeirwch a ffydd, oddi eithr dan ddylanwad yr Ysbryd Glân; ac am hyny fod yr holl ogoniant o gadw pechadur, o'i ddechreuad cyntaf mewn tuedd i'w orpheniad mewn perffeithrwydd dibechod, i'w roddi i Dduw yn unig, fel gwaith ei rad ras. Gan eu bod yn rhoddi yr holl glod o gadw pechadur i Dduw, ac yn cydnabod yn eu profiadau na fuasent hwy erioed wedi dewis Duw oni buasai iddo ef yn gyntaf eu caru a'u dewis hwy, ac oni buasai i'w Ysbryd weithredu ynddynt i ewyllysio, a phenderfynu eu hewyllys i sancteiddrwydd. Y mae y Calviniaid yn dal eu bod yn credu mewn gwirionedd etholedigaeth gras, a bod y gwahaniaeth rhyngddynt yn wahaniaeth am ystyr geiriau ac ystyr adnodau. Arwyddair Calviniaeth yw "Yr holl ogoniant am bob daioni i Dduw." Arwyddair Arminiaeth ydyw, "Yr holl gyfrifoldeb am bob drwg i'r pechadur." Safle y naill yw Duw—safle y llall yw dyn; y cyfeiliornad y mae y naill yn tueddu, yw priodoli y drwg i Dduw yn gystal a'r da; y cyfeiliornad tueddol i'r llall yw priodoli y da i ddyn yn gystal a'r drwg. Ond tra yr ymcffir yn y ddau wirionedd, "Pob da o'r Creawdwr," a "phob drwg o'r creadur," fe gedwir yr holl wirionedd sydd yn y ddwy gyfundrefn, ac fe ochelir yr eithafion cyfeiliornus y mae y ddwy mewn perygl i syrthio iddynt.

Yn hanes dadleuon ar yr athrawiaeth hon, y mae yn angenrheidiol edrych yn ol mor bell a dyddiau Awstin, esgob Hippo, yr hwn a anwyd 354 c. c. Y gwirionedd a ddygwyd i eglurder ganddo ef oedd llygredd cyffredinol y natur, cyssylltiad y llygredd hwnw â phechod Adda, ac anallu dyn i achub ei hun o'i sefyllfa bechadurus, yn nghyd â'i angen am ras Duw, yr hwn yn unig a all ei achub. Oddi ar hyn, fe dynodd y casgliad mai yr unig achos pa ham y cedwir rhai yn hytrach nag ereill yw gras Duw tuag atynt, yn penderfynu eu hewyllys i blygu i drefn yr efengyl: yr hyn sydd yn cynnwys yr athrawiaeth o etholedigaeth ddiammodol. Am fil o flynyddoedd cyn y Diwygiad Protestanaidd, trwy ddarllen ac efrydu ysgrifeniadau Awstin, yr oedd y farn Galvinaidd am etholedigaeth yn cael ei choleddu gan luaws o dduwinyddion Eglwys Rhufain. Yr oedd ol ei ysgrifeniadau ef ar syniadau Anselm a Wicliff, y rhai oeddynt yn Galviniaid megys yntau.

Cyn y Diwygiad, ac yn wir ar ei ol hefyd, nid yw Eglwys Rhufain wedi cyhoeddi barn awdurdodol ar etholedigaeth, er bod y rhan fwyaf o'i duwinyddion wedi coleddu syniadau Arminaidd ar y pwnc. Pwnc mawr y Diwygiad oedd—nid etholedigaeth, ond cyfiawnhad trwy ffydd. O'r Diwygwyr, yr oedd Luther ei hun yn dal y golygiadau Calvinaidd, fel y gwelir yn ei lyfr yn erbyn Erasmus, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1525, er fod yr Eglwys Lutheraidd ar ol ei ddyddiau ef yn dal y golygiad Arminaidd. Yr oedd Zuinglius yn dal y golygiad Calvinaidd, ond yr oedd yn ei resymu oddi ar natur a phriodolaethau Duw; ac nid fel Awstin, oddi ar lygredigaeth y ddynoliaeth. Yr oedd Melancthon, pan yn ieuanc, yn dal syniadau am etholedigaeth ag oeddynt yn uwch na syniadau Calvin ei hun; ond y mae lle cryf i farnu ei fod wedi ymwrthod â hwy, ac hefyd hyd yn oed â'r farn Galvinaidd, cyn diwedd ei oes. Yr oedd Cranmer a Ridley i raddau helaethach dan ddylanwad Melancthon a Bullinger—un o'r un cyfansoddiad fel dyn, ac o'r un syniadau fel duwinydd, a Melancthon—nag yr oeddynt dan ddylanwad Luther na Chalvin; ac am hyny, y mae delw Melancthon a Bullinger ar y Diwygiad yn Lloegr, ac ar erthyglau ei heglwys. Er fod y Diwygwyr yn Lloegr eu hunain yn Galviniaid, y mae yr erthygl ar *etholedigaeth* wedi ei geirio yn y fath fodd, fel y mae dadl gref wedi ei dwyn yn mlaen gan yr Eglwyswyr eu hunain, Pa un ai etholedigaeth Galvinaidd neu etholedigaeth Arminaidd a gynnwysir ynddi?. Y mae yn debyg i'r athrawiaeth gael ei gadael o bwrpas yn annhenderfynol yn yr erthygl, fel y byddai i'r ddwy blaid gael aros mewn undeb â hi. Calvinaidd oedd duwinyddion Eglwys Loegr gan mwyaf yn nyddiau teyrnasiad Elizabeth; ond trwy ddylanwad archesgob Laud, fe ddygwyd syniadau Arminaidd i'r eglwys; ac y mae ol y dylanwad hwnw yn aros hyd y dydd hwn, ac fe'i gwelir yn y ffaith fod y rhan fwyaf o'i gweinidogion, ac o'r gweinidogion efengylaidd yn Arminiaid o ran eu barnau. Yr oedd syniadau Arminaidd am etholedigaeth yn cael eu dal am ganrifoedd yn nglŷn â syniadau hollol anefengylaidd. Ond y mae etholedigaeth Arminius yn cael ei chredu yn nglŷn â'r syniadau mwyaf efengylaidd am ras Duw, ac am yr angenrheidrwydd am waith y Drindod i achub y pechadur—yr hwn nid yw yn meddu na'r teilyngdod, na'r gallu, na'r ewyllys i achub ei hun—gan gyfundeb y Wesleyaid. Yr amddiffynwr mwyaf medrus, hyawdl, ac efengylaidd o blaid eu syniadau, yw Richard Watson. Yr amddiffynwyr mwyaf enwog o

Digitized by Google

blaid y golygiadau Calvinaidd ydynt y Puritaniaid; ac o honynt hwy, yn benaf Dr. Owen a John Howe. Ac fe ellir priodoli y diffyg ysbryd i ddadleu ar y pwnc hwn yn y dyddiau hyn i barodrwydd Arminiaid efengylaidd i roddi heb betrusder yr *holl* glod o bob dolen yn iachawdwriaeth pechadur o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, i Dduw—yn Dad, yn Fab, ac yn Ysbryd—yn unig, am yr hyn yr oedd y Calviniaid yn fwyaf eiddigeddus:—ac i barodrwydd Calviniaid efengylaidd, i osod yr *holl* gyfrifoldeb a'r *holl* fai ar ddyn o'i sefyllfa bechadurus, ac o'i wrthodiad o Grist; am yr hyn yr oedd yr Arminiaid yn fwyaf selog.

1. ETAM, [עיטם=*lle bwystfilod rheibus*; Αἰτάν]: dinas yn llwyth Simeon, a nodir yn y rhestr sydd yn 1 *Cron.* iv. 32. Ymddengys i Etam gael ei rhoi yn y rhestr hon yn fwriadol er dangos fod nifer y dinasoedd yn bump, er mai pedair ydynt yn y rhestr gyferbyniol, yn *Ios.* xix. 7. Ymddengys fod holl ddinasoedd Simeon, yn eithafoedd deheubarth y wlad.—*Jos. Ant.*, vi. 1, adr. 23.

2. ETAM: lle yn Iudah, a amddiffynwyd ac a gadarnhawyd gan Rehoboam: 2 *Cron.* xi. 6. Gellir tybied oddi wrth ei sefyllfa yn y rhestr hon ei bod yn agos i Bethlehem a Tecoa; ac yn unol â hyn, crybwyllir yr enw yn mysg y deg dinas a rydd y Deg a Thrigain yn y testyn yn *Ios.* xv. 60; "Tecoa ac Ephratha, yr hon yw Bethlehem, Phagor ac Aitan (Ethan)." Y mae rhai yn credu y dichon mai y lle hwn oedd preswylfod Samson, gan fod clogwyn Etam yn un o lawer cyffelyb oedd yn y wlad; ac y mae ffynnon En-haccore yn mysg amryw ereill yn un o brif hynodrwydd Etam. Yma, yn ol Josephus [*Ant.* viii. 7, adr. 3] a'r Talmudiaid, yr oedd Solomon yn cael dwfr i ddyfrhau ei erddi a'i randiroedd hyfryd, ac oddi yma y cyflenwid Bethlehem a'r deml.

3. ETAM: enw a geir yn rhestr teuluoedd Iudah (1 *Cron.* iv. 3), ond yn cyfeirio, fe allai, at yr un lle ag a nodwyd ddiweddaf, gan fod Bethlehem yn cael ei henwi yn yr adnod ganlynol.

ETAM, CRAIG: clogwyn neu graig uchel (canys dyma ystyr y gair *selà*), i agen (yn ol yr Heb., a gyfieithir i'r Gymraeg yn "gopa") yr hon yr aeth Samson ar ol dial ar y Philistiaid am losgi ei wraig—merch i'r hwn a elwid y Timniad. *Barn.* xv. 8, 11. Yr oedd yr amddiffynfa naturiol yma yn rhandir Iudah [*Jos. Ant.*, v. 8, adr. 8]; ac yn agos iddi, wrth ei godre, fe allai, yr oedd Lehi ac En-haccore: *Barn.* xv. 9, 14, 17, 19. Y mae yr holl enwau hyn wedi diflanu yn awr; o leiaf, nid oes un o honynt wedi eu canfod o fewn y cylch cyfyng yr ymddengys i Samson gyflawni ei wrhydri. Y mae Van de Velde [ii. 14] yn barnu mai yr un oedd Lehi a Lekiyeh, sydd ychydig i'r gogledd o Beerseba: ond nid oes dim ond yr enw yn tueddu i gadarnhau hyny. Pa fodd bynag, yr oedd yr enw Etam yn cael ei roddi i ddinas oedd yn nghymmydogaeth Bethlehem, a gadarnhawyd gan Rehoboam (2 *Cron.* xi. 6), a'r hon, fel y mynega ereill, oedd yn sefyll yn eithafoedd y wlad anwastad o amgylch Urtas. Ymddengys fod y lle yma yn gyfleus i anturiaethau Samson. Yr oedd yn ddigon pell o Timnah i ymddangos yn noddfa ddiogel rhag digofaint y Philistiaid; tra ar y llaw arall, nid oedd yn rhy bell iddynt hwy i chwilio am dano ef; canys yr oedd ganddynt warchodlu hyd yn oed yn Bethlehem, oedd yn mhellach fyth o Philistia, a hyny yn amser eu gelyn galluog, y brenin Dafydd. Y mae Craig Etam, Ramath-lehi, ac En-haccore, i'w canfod eto yn mysg yr amryw glogwyni a'r gwahanol ffynnonau sydd yn y diriogaeth o amgylch Urtas.

ETIFEDD. Yr oedd y trefniadau Hebreig mewn perthynas i etifeddion o nodwedd syml iawn. Dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd, yr oedd yr eiddo yn cael ei ranu rhwng meibion y gwragedd cyfreithlawn; ac yr oedd cyfran fwy yn disgyn i un—yr hynaf yn gyffredin—nag i'r lleill, ac i'r hwn y perthynai y ddyledswydd o gynnal benywod y teulu: *Gen.* xvi. 10; xxix. 36; xxv. 5. Yr oedd meibion gordderchadon yn cael eu gadael yn unig âg anrhegion (*Gen.* xxv. 6); ond weithiau gosodid hwy ar yr un tir a'r meibion cyfreithlawn (*Gen.* xlix. 1, &c.); ond dichon fod hyn yn cymmeryd lle yn unig pan y byddai'r plant wedi cael eu mabwysiadu gan y wraig gyfreithlawn: *Gen.* xxx. 3. Mewn amser diweddarach, gofelid yn fanwl am gau allan meibion y gordderchadon: *Barn.* xi. 1, &c. Nid oedd gan ferched un gyfran yn y dreftadaeth (*Gen.* xxxi. 14); ond derbynient gynnysgaeth, yn cynnwys llawforwyn, neu ryw eiddo arall: *Gen.* xxix. 24, 29. A chymmerent ran weithiau gyda'r meibion, fel arwydd o ffafr neillduol: *Iob* xlii. 15. Y mae rheol cyfraith Moses mewn perthynas i etifeddiad eiddo fel y canlyn:—Yr oedd i gael ei ranu yn mhlith y meibion, yr hynaf i dderbyn deuparth o'r eiddo (*Deut.* xxi. 17), a'r lleill ranau cyfartal. Os na byddai meibion, disgynai i'r merched (*Num.* xxvii. 8), ar yr ammod iddynt beidio priodi neb ailan o'u llwyth eu hunain; os amgen, collent yr eiddo: *Num.* xxxvi. 6, &c.; [*Jos. Ant.*, iv. 7, adr. 5]. Os na byddai merched, trosglwyddid yr etifeddiaeth i frawd y trangcedig; ac os na byddai brawd, yna i'r ewythr o du y tad; ac os na byddai hwn i'w gael, yna elai y cwbl i'r perthynas agosaf: *Num.* xxvii. 9—11. Pan y gadewid gweddw heb blant, yr oedd gan y perthynas agosaf o du ei gŵr hawl i'w phriodi; ac os gwrthodai, yna fe ddisgynai yr hawl i'r nesaf ato (*Ruth.* iii. 12, 13.): arno ef yr oedd y rhwymedigaeth yn gorphwys i adferu eiddo y weddw (*Ruth* iv. 1, &c.), os byddai wedi cael ei werthu neu ei roddi yn ngwystl. Gelwid y rhwymedigaeth hon, "cyfiawnder (neu hawl) yr etifeddiaeth;" ac yr oedd yn cael ei harfer mewn amgylchiadau ereill heblaw mewn cyssylltiad â phriodas: *Jer.* xxxii. 7, &c. Oni ddeuai rhywun yn mlaen i briodi gweddw, arosai yr etifeddiaeth yn ei meddiant hyd ei marw, ac yna disgynai i'r perthynas agosaf. Dyben y trefniadau hyn oedd attal estroniaid i lenwi y wlad, a chadw yr etifeddiaeth yn yr un teulu: *Deut.* xxi. 15—17. Mae achos Achsah, i'r hon y rhoddodd Caleb faes, yn eithriad (*Ios.* xv. 18, 19; *Barn.* i. 15); ond hwyrach, hyd yn oed yn yr amgylchiad hwnw, fod y tir yn cael ei ddychwelyd i ddisgynyddion Caleb wedi marw Achsah, neu yn mlwyddyn yr Iwbili. Yn gymmaint a bod y tir fel hyn wedi ei gyfyngu yn fanwl, prin yr oedd y syniad am etifeddfraint, fel y deallir ef genym ni, yn adnabyddus i'r Iuddewon. Yr oedd olyniad yn hawl, ac nid yn ffafr. Yr oedd gadael eiddo trwy destament yn afreidiol: y peth tebycaf i hyny y mae genym hanes am dano yw y fendith, yr hon, yn yr hen amseroedd, oedd yn cyfleu y syniad o fanteision tymmorol ac ysbrydol: *Gen.* xxvii. 19, 37; *Ios.* xv. 19. Y mae y cyfeiriadau at ewyllysiau yn ysgrifeniadau Paul wedi

Digitized by Google

eu cymmeryd oddi wrth arferion Groeg a Rhufain (*Heb.* ix. 17), o ba leoedd y dygwyd yr arferiad i Iudea. Sonia Josephus am amryw ewyllysiau mewn cyssylltiad â'r rhaglawiaid Rhufeinig, megys Herod.

Mewn perthynas i eiddo personol, gallwn dybied fod gan y meddiannydd ryw awdurdod arno, o leiaf yn ystod ei fywyd. Dichon fod y caniatâd a roddid i gaethwas i fwynhau cyfran o'r etifeddiaeth gyda'r meibion yn dwyn perthynas â'r eiddo personol hwn: *Diar.* xvii. 2. Hanner yr eiddo personol a roddwyd yn gynnysgaeth i wraig Tobit: *Iob* viii. 21. Y mae dosbarthiad yr eiddo yn ystod bywyd y tad yn cael ei arwyddo yn *Luc* xv. 11—13. Y mae gwahaniaeth yn cael ei wneud rhwng "eiddo personol," ac "eiddo tirol:"—nis gellid rhanu yr olaf hyd ar ol marw y tad: *Luc* xii. 13.

Y mae tebygolrwydd neillduol rhwng arferion yr Hebreaid a'r Groegiaid mewn perthynas i etifeddion; yn enwedig etifeddesau, y rhai oeddynt yn mhob un o'r ddwy genedl yn rhwym o briodi eu perthynas agosaf. Nid oedd yr eiddo yn aros gyda'r gŵr, hyd yn oed am ysbaid ei fywyd; ond disgynai i fab yr etifeddes mor fuan ag y byddai wedi cyrhaedd yr oedran cyfaddas; ac yr oedd efe hefyd yn dwyn enw ei daid o du ei fam, ac nid enw ei dad. Yr oedd y dyben o hyn yn y ddwy wlad yr un; sef, cadw enw ac eiddo pob teulu yn y teulu hwnw.

ETIFEDDIAETH. Y mae'r deddfau a'r gosodiadau wrth ba rai y penderfynir y modd i feddiannu a threfnu eiddo yn un o'r dylanwadau sy'n effeithio fwyaf ar wladlywiaeth teyrnasoedd; ac y mae, gan hyny, o bwys mawr cael allan natur a pherthynas y deddfau a'r gosodiadau sydd yn dal cyssylltiad â'r mater hwn, y rhai a drosglwyddir i ni gydag awdurdod y Beibl wrthynt. Gellir crybwyll hefyd, pan y mae y ddau ogwyddiad mawr sydd yn arwain i gyfoeth helaeth ar un llaw, ac i dlodi a chyfyngder ar y llaw arall, yn myned bob dydd yn fwy amlwg, cynhyrfus, ac andwyol, fod yn angenrheidiol i'r rhai sydd yn cymmeryd y Beibl yn arweinydd astudio seiliau cymdeithas, a'r deddfau perthynol i ddosbarthiad eiddo, yn ofalus, fel y maent yn cael eu hamlygu yn yr ysgrifeniadau dwyfol hyny sydd yn cynnwys ewyllys ddadguddiedig Duw.

Yr ewyllys hono, mewn gwirionedd, fel y mae yn ffynnonell pob peth crëedig, ac yn enwedig y ddaear a'i phreswylydd deallgar, dyn, ydyw sail wreiddiol y meddylddrych am berchenogaeth, a'r deddfau wrth ba rai y rheolir ei etifeddiaeth. Rhoddwyd y ddaear gan Dduw, fel ei chreawdwr, i ddyn, i'w dal, ei diwyllio, a'i mwynhau: *Gen.* i. 28, &c.; *Salm* cxv. 16; *Eccles.* v. 9. Y mae y cofnodau cyntaf sydd genym yn rhy fyr a darniol i ni gael ynddynt unrhyw fanylion mewn perthynas i ddosbarthiad neu drosglwyddiad eiddo tirol yn yr hen amseroedd; ond ymddengys wrth y lleoedd y cyfeiriwyd atynt, fod y ffaith bwysig wedi ei sefydlu tu hwnt i ammheuaeth; sef, bod sail y syniad am berchenogaeth i'w gael, nid yn ngoruchafiaeth creulondeb ac anghyfiawnder, na llwyddiant y cleddyf, nac mewn unrhyw gytundeb dychymygol, ond yn ewyllys a rhodd Creawdwr a Thad haelionus dynolryw. Y mae yn llawn mor eglur hefyd fod y rhodd wedi cael ei chyflwyno, nid i unrhyw gyfran fwy cymmeradwy na'r gweddill o'r hil ddynol, ond i'r hiliogaeth ei hun—i ddyn, fel y cynnrychiolid ef gan ein cyndad Adda, yr hwn a dderbyniodd y rhodd gyntaf i fod at ei wasanaeth. Yr oedd dosbarthiad rhanau o'r ddaiar rhwng personau unigol, a throsglwyddiad y cyfryw ranau—neu, mewn geiriau ereill, deddfau cyffredin perchenogaeth—yn cael eu penderfynu yn ol yr amgylchiadau neillduol yn mha rai y byddai person unigol, teulu, neu lwyth, wedi ei osod yn ei berthynas â'r byd a'i drigolion ereill; ond anmhossibl yn awr, pan nad oes genym dystiolaeth ysgrifenedig, yw cael allan beth oedd y deddfau hyn, a diles, os nad gwaeth na hyny, fyddai ceisio dychymygu beth oeddynt. Pa fodd bynag, y mae hyn yn eithaf sicr, os oedd tuedd ynddynt mewn un modd i wneuthur niwed—i ddyrchafu a mawrhau yr ychydig ar draul gwasgu y lluaws—yr oeddynt wrth hyny yn myned yn anghyfiawn; ac nid yn unig yn colli eu nawdd dwyfol, ond yr oeddynt hefyd, trwy wrthwynebu dybenion rhoddiad y ddaiar i ddyn, yn gweithredu yn groes i'r ewyllys ddwyfol, yn myned dan wrthodiad a chondemniad Duw. Yr oedd ammod daliad y tir yn myned yn ddirym, ac yr oedd yn gyfiawn dychwelyd at egwyddorion cyntaf, ac ail ddosbarthiad, yn gystal ar ran y rhoddwr gwreiddiol ag ar ran y rhai yr oedd efe yn ddiduedd yn bwriadu gwneuthur lles iddynt.

Rhoddwyd yr egwyddorion hyn mewn grym, ar wahanol amseroedd o hanes dynolryw, gan law weledig Duw ei hun, yn yr ymweliadau rhagluniaethol dychrynllyd hyny a ddadwreiddiasant sylfeini cymdeithas, gan eu hail ffurfio o newydd. Yr oedd y diluw yn fath o ddilead o rodd Duw. Cymmerodd y Creawdwr y ddaiar yn ol i'w law ei hun, yr hon yr oedd dynion wedi ei llenwi âg anghyfiawnder a thrais. Pa fodd bynag, ar ol y gospedigaeth arswydus hono, rhoddwyd yr ymddiried unwaith eto i ddyn, i'w dal—nid iddo ei hun, ond i Dduw, ac i gael ei defnyddio a'i gwellhau er hyrwyddo yr ewyllys ddwyfol trwy chwanegu daioni dyn. A pha ymddygiad bynag y bu dyn yn euog o hono oedd yn groes i'r amcan dwyfol; eto mewn ymddiried, ac nid mewn meddiant hollol, er mwyn amcanion Duw, ac nid ein hamcanion ni, y mae y ddaiar yn gyffredinol, a phob rhan o honi, wedi cael ei dal, ac yn cael ei dal. Mewn gwirionedd, tenant ydyw dyn, ac nid meddiannydd y ddaiar. Ei defnydd dros amser yn unig, ac nid meddiant parhaus o honi, a fwynheir ganddo ef. Ymdeithydd a phererin yn y tir, fel ei holl dadau, yw arglwydd y deng mil o erwau llydain, gystal a'r ymnoddwr tlawd di-arian; ac y mae efe, fel y llall, yn rhwym o gofio, nid yn unig fod i eiddo ei ddyledswyddau yn gystal a'i hawliau, ond hefyd mai ar ammodau amserol y mae ei deitlau goreu yn cael eu dal, a'u bod yn agored i gael eu diddymu wrth ewyllys awdurdod hollalluog, ac yn agored i archwiliad digyfeiliorn gyda golwg ar eu tarddiad a'u defnyddiad, a hyny mewn llys lle nad oes derbyn wyneb, lle y gosodir cyfiawnder wrth linyn, a barn wrth bwys: *Esa.* xxviii. 17.

Gwelodd y Rhoddwr Mawr yn dda, o'i ddoeth ddybenion, ddyfnhau yr argraff a fwriadai efe i roddiad cyntaf y ddaiar gael ar feddwl dyn, trwy ail roddiad pendant o Balestina i'r patriarch Abraham: *Gen.* xiii. 7, &c.; xvii. 8, &c. Pa fodd bynag, aeth llawer o flynyddoedd heibio cyn i'r addewid gael ei chyflawni. Yn y cyfamser, nid yw y sylwadau a geir am sefyllfa meddiant yn yr oesoedd patriarchaidd ond ychydig a phur anmhenderfynol. Pa fodd bynag, yr oedd cynnyrch y ddaiar yn cael ei gasglu a'i ddal fel meddiant yn bur foreu. Ymosododd trais ar feddiant; ac

Digitized by Google

enniliid yr eiddo drachefn yn ol trwy drais. Torodd rhyfeloedd allan o nwydau y galon ddynol, a dechreuwyd teimlo angen am lywodraeth wladol. O ganlyniad, dechreuodd cyfreithiau cyfansoddiadol wneyd eu hymddangosiad. Y pen teulu o angenrheidrwydd oedd yr uchaf yn y teulu. Ei ewyllys ef oedd y gyfraith. Yr oedd ei ragoriaeth nerth yn rhoddi y llywodraeth yma iddo. Yr oedd yr un dylanwad yn sicrhau ei throsglwyddiad i'r mab, yn hytrach nag i'r ferch. O hyny hefyd y tarddodd hawliau y cyntafanedig. Yn sefyllfa foreuol cymdeithas—a elwir y patriarchaidd—y cafodd meddiant tirol ei ddechreuad; er, mae yn wir, nad ystyrid hyny o'r pwys mwyaf gan y rhai a arweinient fywyd crwydrol, y rhai a ymsymmudent yn barhaus yn ol eu cyfleusdra o'r naill fan i'r llall. Anifeiliaid oedd y prif eiddo y pryd hyny: *Gen.* xxiv. 25. Ond os delid tir, delid ef fel tirfeddiant; ac nis gallasai unrhyw ammodau ereill fod, nes i berthynasau cymdeithas ddyfod yn fwy dyrys a chelfyddydol, mewn canlyniad, yn ol pob tebygolrwydd, i gynnydd poblogaeth a diffyg cymhariaethol ymborth. Pan yr aeth Ioseph i'r Aipht, canfu mai tirfeddiant oedd yn ffynu yn y wlad; yr hyn a gyfnewidiodd efe i ddaliad tir am amser, neu, o leiaf, i dir-ddaliad ammodol. Ceir awgrymiadau ereill yn Genesis yn cadarnhau y sylwadau cyffredinol a wnaed yn barod. Nid ymddengys fod merched yn cael unrhyw etifeddiaeth [gwel ETIFEDD]. Tuedda yr eithriadau a nodir i'r rheol hon yn fwy i'w chadarnhau na'i gwanhau. Fel hyn, cofnodir fod Iob (llyfr yr hwn a ystyrir gan rai yn hynach na llyfrau Moses; ond ystyria pawb ef o gylch yr amser hwnw) wedi rhoddi etifeddiaeth i'w ferched yn mhlith eu brodyr (*Iob* xlii. 15); cofnodiad sydd ynddo ei hun yn profi hynodrwydd y weithred, ac yn cadarnhau yr hyn a ddywedwyd eisoes, fod yr etifeddiaeth yn gyffredin yn dilyn llinell wrywol. Y mae hanes Iacob ac Esau yn dangos pa mor uchel y prisid y rhagorfreintiau a roddid i'r cyntafanedig. Yr oedd y rhai hyn, yn ddiammheu, yn yr oes batriarchaidd yn enwedig, yn fawrion iawn. Yr oedd y mab hynaf, a gynnysgaethid megys yn gyntaf gan natur i lywodraethu, yn meddu dylanwad ac awdurdod, dan ei dad, ar yr holl deulu a'r rhai a berthynent iddo; a phan byddai farw y tad, byddai efe yn ebrwydd, a hyny megys trwy awdurdod Rhagluniaeth, yn cymmeryd lle ei dad. Fel hyn, byddai efe, trwy ddyfod yn ben y teulu neu y llwyth, yn dyfod hefyd yn naturiol megys i feddiant o'r etifeddiaeth. Ar y dechreu, ymddengys fod y mab hynaf yn cymmeryd meddiant hollol o eiddo ac awdurdod ei dad; a phan y daeth rhanu yr eiddo wedi hyny i arferiad, byddai efe fyth yn cadw y rhan fwyaf—rhan ddwbl, os nad chwaneg: *Gen.* xxvii. 25, 29, 40. Mae yn amlwg fod meibion ereill, yn amser Abraham, a rhai hefyd o feibion gordderchadon, yn cydgyfranogi â'r mab hynaf. Gwelir hyn yn hanes bwriad Agar ymaith: "Bwrw allan y gaeth-forwyn hon a'i mab (meddai Sarah); o herwydd ni chaiff mab y gaethes hon gydetifeddu â'm mab i, Isaac;" *Gen.* xxi. 10. Mae yr ychydig gyfeiriadau sydd yn Genesis am drosglwyddiad meddiannau o law i law yn dra dyddorol, ac yn dwyn tebygrwydd neillduol i'r hyn a gymmer le yn y dwyrain hyd y dydd dwn: *Gen.* xxi. 22, &c.; xxiii. 9, &c. Y mae pryniad ogof Machpelah yn lle beddrod teuluaidd gan Abraham, a gofnodir yn yr ymadrodd olaf, yn dangos mor ddiogel oedd meddiant yn y dyddiau hyny, ac mor hawdd oedd trosglwyddo etifeddiaeth hyd yn oed i feibion y meibion. Cymharer *Gen.* xlix. 29. Mae yn amlwg fod y tad yn arfer trefnu ei eiddo yn ystod ei fywyd, oddi wrth *Gen.* xxiv. 35, lle y dywedir i Abraham roddi i Isaac yr hyn oll oedd ganddo. Cadarnheir y mynegiad yma yn mhellach yn xxv. 5, 6, lle y dywedir fod Abraham wedi rhoddi i feibion ei ordderchwragedd roddion, gan eu hanfon hwynt oddi wrth Isaac ei fab tua'r dwyrain, i dir y dwyrain, ac efe eto yn fyw. Pa fodd bynag, ni byddai meibion y gordderchadon bob amser yn eu hanfon ymaith â rhodd; ond cydgyfranogent â'r rhai a alwn ni yn blant cyfreithlawn, yn etifeddiaeth a hawliau y tad. Fel yr oedd Dan a Naphthali, meibion Bilhah, llawforwyn Rahel, yr hon a roddodd hi i'w gŵr tra yn anmhlantadwy ei hun, felly hefyd yr oedd Gad ac Aser, dan yr un amgylchiadau, meibion Zilpah, llawforwyn Leah: *Gen.* xxx. 2—14. Pan fyddai y mab hynaf farw yn oes ei dad, cymmerai y mab nesaf ato ei le; ac os byddai y mab hynaf yn gadael gweddw ar ei ol, cymmerai y mab nesaf hi yn wraig iddo (*Gen.* xxxviii. 7, &c.); a chyfrifid hiliogaeth y fath briodas i'r mab hynaf a fyddai wedi marw. Pe dygwyddasai i'r ail hefyd farw heb hiliogaeth, cymmerai y trydydd ei le: *Gen.* xxxviii. 11. Tra y cydnabyddid ac y sefydlid hawliau y cyntafanedig yn gyffredinol, eto trosglwyddid hwy weithiau i'r mab ieuangaf. Ymddengys fod bendith y tad neu y taid yn hanfodol i drosglwyddiad awdurdod a meddiant; yr hyn mewn effaith oedd debyg i ewyllys neu destament gyda ni: ac nid ydym yn amddifad o esamplau fod y gymunrodd destamentol yma (os goddefir ei galw felly) yn dirymu y cyfreithiau arferol, ac yn rhoddi y flaenoriaeth i'r mab ieuangaf: *Gen.* xlviii. 8, &c. Yr oedd hawliau neillduol o barch i rieni yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo trwy roddion arbenig, megys y dengys rhodd Iacob i Ioseph: *Gen.* xlviii. 22. Yr un modd yr oedd ymddygiadau drwg y mab hynaf, gystal a meibion ereill, yn ei ddarostwng, os nid i golli yr etifeddiaeth, eto i fod dan ddylanwad niweidiol melldith ei dad wrth farw (*Gen.* xlix. 3, 4); tra yr arweinid y mab daionus a fyddai yn ffafr ei dad, er yn ieuangaf, gan fendith ei dad, i ddisgwyl, ac fe allai i fwynhau, yr etifeddiaeth gyfoethocaf o ddedwyddwch personol a chymdeithasol: *Gen.* xlix. 8—22.

Ail roddwyd yr addewid a wnaed i Abraham o Wlad Canaan yn ddiffrifol i Isaac: *Gen.* xxvi. 3. Y rheswm a roddir am wneuthur hyny ydyw, "Am wrandaw o Abraham ar fy llais i, a chadw fy nghadwriaeth, fy neddfau, a'm cyfreithiau;" tra y mynegir yn bendant fod trigolion cyntaf y wlad i gael eu difeddiannu a'u dileu o blegid mawredd eu pechodau. Y mae meddiant o dir yr addewid yn gynnwysedig yn mendith olaf Isaac i Iacob wrth farw (*Gen.* xxviii. 3, 4); ac y mae Duw yn gweled yn dda sicrhau rhoddiad yr etifeddiaeth addawedig: *Gen.* xxviii. 15; xxxv. 10—12. Pa fodd bynag, yr oedd y rhodd yn ymddibynu, o ran amser a dull ei chyflawniad, ar yr ewyllys ddwyfol, fel yr ymddengys oddi wrth *Gen.* xxxiii. 17; lle y dywedir fod Iacob, ar ei ddyfodiad i dir Canaan, wedi prynu "rhan o'r maes y lledasai efe ei babell ynddo, o law meibion Hemor, tad Sichem, am gan darn o arian." Er mor hir yr oedid cyflawniad yr addewid, ni phallodd hyder teulu Abraham erioed: felly Ioseph, pan yn marw yn nhir yr Aipht, a sicrhaai i'w frodyr yr ymwelai Duw â hwy, ac y rhoddai feddiant iddynt o Wlad Canaan, gan eu tynghedu,

Digitized by Google

yn yr hyder yma, pan arweinid hwy i w hetifeddiaeth, ar ddwyn o honynt ei esgyrn ef gyda hwy o wlad yr Aipht: *Gen.* l. 25.

Yr oedd addewid a roddwyd fel hyn, ac a ail adroddwyd fel hyn, yn dyfod yn rhwydd, ac yn wir yn anocheladwy, yn egwyddor sylfaenol y sefydliad hwn o feddiant a wnaeth Moses, pan y llwyddodd o'r diwedd i gyflawni yr ewyllys ddwyfol yn ngwaredigaeth Israel o'r Aipht. Y mae yn sier hefyd fod y defodau a'r arferion y dangoswyd eu bod yn ffynu yn mysg y patriarchiaid yn meddu dylanwad mawr ar y cyfreithiau a sefydlodd ac a awdurdododd y deddfwr Iuddewig. Dosbarthwyd tir Canaan yn mysg y deuddeg llwyth a ddisgynasant trwy Isaac ac Iacob o Abraham. Dosbarthwyd yr etifeddiaeth trwy goelbren yn mysg teuluoedd meibion Israel, yn ol eu llwythau, ac yn ol rhif a maint teuluoedd pob llwyth. Ond nid oedd i lwyth Lefi etifeddiaeth; eithr wyth dinas a deugain a'u meusydd pentrefol a roddwyd i'r Lefiaid, pob llwyth i roddi yn ol rhif y dinasoedd a syrthient i'w ran: *Num.* xxxv. 1, &c. Nid oedd yr etifeddiaeth a geffid fel hyn byth i fyned o'r llwyth y perthynai iddo: yr oedd pob llwyth i ymgadw yn fanwl o fewn ei etifeddiaeth ei hun. Ni oddefid i etifeddes gan hyny briodi allan o'i llwyth ei hun, rhag i'r etifeddiaeth fyned trwy ei phriodas hi i lwyth arall: *Num.* xxxvi. 8—9. Bu y cyfyngiad yma yn achos i etifeddesau briodi eu perthynasau agosaf: fel hyn, priodwyd merched Salphaad â meibion brawd eu tad: *Num.* xxxxi. 11, 12: cymharer *Jos. Ant.*, iv. 7, adr. 5. Ai yr etifeddiaethau yn gyffredinol i feibion: y cyntafanedig i gael "deuparth," "canys efe yw dechreuad nerth ei dad." Os byddai gan ddyn ddwy wraig, un yn gu a'r llall yn gas, ac os mab yr un gas a fyddai y cyntafanedig, efe fyddai yr etifedd: *Deut.* xxi. 15. Os na byddai i ŵr feibion, äi yr etifeddiaeth i'r merched: os na byddai iddo ferch, äi i'w frodyr ef; pan na fyddai brodyr, rhoddid hi i frodyr y tad; os na byddai i'r tad frodyr chwaith, äi i feddiant y câr nesaf: *Num.* xxvii. 8—11. Iehofah oedd perchenog y tir, ac nis gellid ei drosglwyddo yn barhaus. Pa dir bynag fyddai wedi ei werthu, dychwelid ef bob deng mlynedd a deugain i'w berchenog blaenorol. Yr oedd gwerth a phris y tir yn cyfodi neu yn gostwng yn naturiol yn ol nifer y blynyddoedd a fyddai heb dreiglo cyn y deng mlynedd a deugain nesaf, neu yr Iwbili. Os gallai yr hwn a werthodd y tir, neu gâr iddo, brynu y tir cyn blwyddyn yr Iwbili, yr oedd i gael ei ddychwelyd iddo trwy i'r pwrcasydd dalu gwerth cynnyrch y blynyddoedd a fyddent yn weddill hyd yr Iwbili. Nis gellid gwerthu tai mewn pentrefi neu ddinasoedd heb gaerau am byth; ond yr oeddynt i gael eu dychwelyd yn mlwyddyn yr Iwbili, a gellid eu hadbrynu yr amser a fynid cyn hyny. Os gwerthai dyn dŷ annedd mewn dinas gaerog, yr oedd at ei ddewisiad i'w brynu yn ol yn nghorff blwyddyn lawn ar ol ei werthu; ond os gadewid ef heb ei brynu, perthynai i'r pwrcasydd, ac ni ddychwelid ef yn ol i'r hwn a'i gwerthodd hyd yn oed yn mlwyddyn yr Iwbili: *Lef.* xxv. 8—34. Ni chaniateid i Lefiaid werthu tir yn meusydd pentrefol eu dinasoedd, er y gallent werthu y dinasoedd eu hunain, y rhai er hyny y gellid eu hadbrynu pan y mynid; ac yr oedd yn rhaid eu dychwelyd yn mlwyddyn yr Iwbili i'w perchenog cyntaf: *Lef.* xxvii. 16.

Yr oedd y rheolau a sefydlodd cyfraith Moses yn gwneyd ewyllysiau neu destamentau, o leiaf gyda golwg ar feddiant tirol, bron, os nad yn hollol, afreidiol; gan hyny, nis canfyddir dim darpariad o'r fath yn y gyfraith hono. Gallai peth anhawsder ddygwydd weithiau pan y methai perthynasau agos; ond cyfarfyddid hyn gan y gyfraith draddodiadol, yr hon a roddai gyfarwyddyd manwl ar y pwnc [*Misch. Baba Bartha*, iv. 3, 8, 9]. Dilynai eiddo personol y tir yn naturiol, neu gallesid ei gymunroddi ar lafar yn unig. Canfyddir crybwylliad am ewyllysiau neu lythyrau cymmun mewn cyrnod diweddarach ar y wladwriaeth Iuddewig; ond tybir iddynt gymmeryd y syniad oddi wrth genedloedd estronol. Ymddengys y defnyddid hwy mewn teuluoedd tywysogaidd, fel y cesglir oddi wrth Josephus [*Ant.*, xiii. 16, adr. 7; xvii. 3, adr, 2; *De Bell. Jud.*, ii. 2, adr. 3]; ond prin y mae y fath arfer yn ddigon i benderfynu fod ewyllysiau ar arfer gyffredin yn mysg y bobl. Pa fodd bynag, crybwyllir testament neu ewyllysiau yn bendant yn y Testament Newydd (*Gal.* iii. 15), lle y mae "testament" ar ymyl y ddalen am *ammod: Heb.* ix. 17. Y mae Michaelis [*Comm.*, i. 43] yn sierhau fod yr ymadrodd a gyfieithir yn 2 *Sam.* xvii. 23; 2 *Bren.* xx. 1, "a wnaeth drefn ar ei dŷ," a, "threfna dy dŷ"—yn cyfeirio at ewyllys neu destament. Ond nid yw ei resymau mewn un modd yn ddigonol, gan mai ystyr llythyrenol yr ymadrodd yw, "dyro orchymynion i'th dŷ." Yr eithaf a allai y fath ymadrodd gynnwys, yn dybiadol, gyda golwg ar eiddo personol diweddaf dyn cyn marw ydyw, y dylai drefnu ei eiddo, a gwyddom nad oedd tadau yn arfer rhanu eu da yn mysg eu plant yn ystod eu bywyd: *Luc* xv. 12.

Y mae etifeddiaeth, yn ol cyfraith Lloegr, pan fyddo etifedd tirol farw, heb un ddarpariaeth gyda golwg ar ei etifeddiaeth, yn myned i un arall fel etifedd cyfreithlawn.

Y mae cyfraith etifeddiaeth gyda golwg ar dras neu berthynas, a gymmer le ar ol y laf o Ionawr, 1634, yn cael ei rheoli gan gyfraith 3 a 4 William IV, pen. 106. Dwy ffordd, yn ol cyfraith Lloegr, sydd i feddiannu eiddo tirol; sef, trwy berthynas neu trwy bryniad. Perthynas neu olyniad etifeddol, a arwydda yr hawl drwy yr hon y perchenoga dyn etifeddiaeth dirol fel etifedd yn ol y gyfraith i berson a fo marw. Nis gall fod etifedd gan ddyn yn ystod ei fywyd, er y gall fod iddo "edlin" (*heir apparent*), neu "etifedd tebygol" (*heir presumptive*). *Edlin* yw yr hwn y rhaid iddo fod yn etifedd os bydd efe byw i'r etifeddiaeth ddisgyn iddo; ac etifedd tebygol yw yr hwn a all gael ei ddifuddio trwy enedigaeth etifedd agosach.

Y mae etifeddiaethau, a elwir hefyd treftadaethau (*hereditaments*=pethau y gellir eu hetifeddu neu eu cymmeryd trwy berthynas) yn amrywiol. Y penaf o'r rhai hyn yw y Goron, neu yr hawl i fod yn frenin yr Ymherodraeth Frytanaidd; disgyniad etifeddol i'r hon a wahaniaetha mewn un peth pwysig oddi wrth hawl i etifeddiaeth neillduol, yn gymmaint a phan na byddo meibion i'r brenin, mai y ferch hynaf a gymmer yr holl etifeddiaeth, ac a gau allan y chwiorydd ieuangaf. Gyda golwg ar etifeddiaeth dirol neillduol, y mae yr holl ferched, os na fydd brawd, i gael rhanau cyfartal, y rhai a elwir cydetifeddesau (*parceners* neu *coparceners*). Y mae urddau (*dignities*) ac anrhydedd, megys barwniaethau a phendefigaethau ereill, yn ddisgynadwy yn ol eangder y trwyddedau wrth ba rai y lluniwyd hwy. Os byddent wedi eu gwneud trwy wŷs ar y dechreu, gelwir hwy urddau cydnabod (*dignities in fee*), a disgynant i'r benywod. Yn olaf, y mae pob tref-

Digitized by Google

tadaeth neu dda ansymmudol, a phob blwydd-dalion, swyddi, a pha beth bynag arall a ddelir ar ammod, yn "ddisgynadwy" (*descendible*), a hyny pa un bynag a fyddant mewn meddiant, at ddychweliad, olfeddiant, neu mewn disgwyliad. Felly hefyd y mae pob urddau a theitlau i bethau y gellid eu dal ar ammod, a dysgwyliad edlin neu etifedd tebygol. Rhydd-feddiannau disgynadwy hefyd ydyw yr etifeddiaethau a wneir gan ammod-rwymau oesol; y rhai, er nad ydynt dreftadaethau, y gellir eu hetifeddu tra y parhaont, megys pe byddent felly.

Pan fyddo marw perchenog, disgyn i'retifedd, heb iddo ef wneuthur dim, na thalu dim am hyny. Y mae cyfraith bresennol etifeddiaeth ddisgynadwy yn gwahaniaethu gyda golwg ar y ddau beth hyn, oddi wrth yr hen arferion gwriogaethol oddi wrth ba rai y deilliasant. Yn ol yr hen arferion gwriogaethol, ar farwolaeth deiliad dan ammod, yr oedd gan yr arglwydd dan yr hwn y delid y meddiant, hawl i'w gadw a'i attal nes y byddai i'r etifedd—am yr hwn y gwneid cyhoeddiad—ymddangos, a thalu swm o arian a elwid rhyddhad (*relief*), fel cydnabyddiaeth am ei ganiatad i fyned i'r dreftadaeth; yna, roddid meddiant iddo, a chymmerai yntau y "llŵ o ffyddlondeb." Ac os gwasanaeth marchog a fyddai y dreftadaeth, gwnai warogaeth hefyd i arglwydd y cyfoeth. Yr oedd hyn oll yn debycach i rodd nag i ddilyniad rhwydd etifedd yn bresennol. Pa fodd bynag, rheolir disgyniad i hawlfeddiant (*copyhold*) fyth yn lled debyg. Ond nid oedd etifedd gynt yn rhwym i'r un graddau ag yn bresennol i dalu dyledion y tenant trancedig gyda golwg ar yr eiddo a ddisgynai iddo. Y mae cyfraith bresennol disgyniad etifeddiaeth yn cymmedroli hawl etifedd yn fawr, gyda golwg ar un peth, i'r etifeddiaeth ddisgynedig; canys er ei bod yn ei wneyd ef yn feddiannwr cyflawn, fel pe buasai wedi ei phrynu; hyny yw, wedi ei chael mewn ffordd wahanol i dreftadaeth, mor bell ag y mae hawl mwynhad ac awdurdod trosglwyddiad yn myned; eto, nis caniateir iddi ar ei farwolaeth ef ddisgyn, fel pe buasai wedi ei phrynu; ond dadgenir y bydd iddi ddisgyn fel pe buasai efe erioed heb ei chael. O leiaf, dyma y gyfraith newydd (adr. 1, 2, o'r gyfraith). Rhaid i'r etifedd bob amser fod yn etifedd "pwrcaswr" (*purchaser*) diweddaf yr etifeddiaeth. Nis gellir deall pwysigrwydd ymarferol y rheol yma heb wybod y person a ddynodir gan y gyfraith fel "etifedd" i un arall.

Am etifeddiaeth annibynol (*in fee simple*), y rheol sylfaenol ydyw, y gall rhyw berson o dras (*kin*) un arall—hyny yw, un wedi disgyn o'r un cyff cenedl (*ancestor*), pa mor bell bynag—fod yn etifedd i un arall; ond nas gall un person cyssylltiedig âg ef trwy briodas neu gyfathrach fod yn etifedd iddo. Os etifedda y tad eiddo y tad, nis gall ei fam ei ddilyn ef; canys er y gall hi fod yn etifeddes i'r mab, nis gall fod yn etifeddes i'r tad—o'r hwn, ac nid o'r mab, y mae yn "rhaid olrhain y disgyniad."

Ar y llaw arall, os etifedda y tad eiddo y mab, gall y fam ei ddilyn ef; canys, er nas gall hi fod yn etifeddes y tad, gall fod yn etifeddes y mab. Nid oedd y warogaeth, y tir-afael, neu y tir-ddaliad, a all yn awr ddisgyn i dras y pwrcasydd yn ddiderfyn, yn ddim mwy gynt na hawl dros fywyd a roddid i dir-ddaliwr o blegid rhyw wasanaeth milwrol a wnaeth efe i'r rhoddwr. Caniatawyd i'r warogaeth ddisgyn wedi hyny i hiliogaeth y derbyniwr cyntaf, ac mewn amser i'w etifeddion cyfachol. Dygwyd hyn oddi amgylch drwy gyfrwng tyb neu ddychymmyg yn unig; canys yr oedd y syniad wedi gwreiddio mor ddwfn mai "y gwaed" disgynedig o'r pwrcaswr neu y derbyniwr cyntaf yn unig a allai fod yn etifedd iddo, fel na ddygwyd y gyfraith wriogaethol erioed i ganiatau etifeddion cyfachol neu gyd-drasol, fel y cyfryw, i fod yn etifeddion. Ond pan y caniatawyd gwarogaeth o hynafiaeth —hyny yw, pan oddefwyd i dderbynydd ddal gwarogaeth fel pe buasai wedi disgyn iddo oddi wrth ryw gyff cenedl pell ac anhysbys—yna, caniataodd y gyfraith i berthynasau cyd-drasol, pa mor bell bynag—sef perthynasau wedi disgyn o ryw gyff cenedl cyffredinol, pa mor bell bynag —i fod yn etifeddion. Canys nis gwyddid pa mor bell y gallai fod y cyff cenedl y tybid iddo fod yn bwrcasydd, na phwy ydoedd; ac yr oedd yn ddigon tybied y *gallai* yr etifedd fod wedi disgyn o hono.

Ond er i'r gyfraith fyned mor bell a hyn, ni chaniatâai, o blegid rhesymau y ceisiodd rhai eu hegluro, i etifeddion llinachol pwrcasydd tybiedig yr hen warogaeth ei hetifeddu, nac i'w berthynasau o hanner gwaed, sef personau heb ddisgyn o'r un tad a mam a'r pwrcaswr, nac unrhyw etifeddion llinachol iddo, a fyddent wedi disgyn o un ochr yn unig.

Gwnaed chwaneg o wrthodiadau yn ol yr un rheol, yr hon wedi hyny a sefydlwyd; sef, y rhaid i etifedd y warogaeth fod yn etifedd y person a'i pwrcasodd ddiweddaf, cystal ag yn gâr "o waed coch cyfan" i'r gwir bwrcasydd. Y canlyniadau ymarferol o'r rheol yma oedd y rhai canlynol:—Os byddai plentyn i'r gwir bwrcasydd wedi dyfod yn etifedd iddo, ac wedi cael meddiant, nas gallai plentyn iddo o wraig arall ddilyn, am mai hanner brawd ydoedd yn unig i'r person a'i daliodd ddiweddaf; ac os byddai brawd y tad yn etifedd i'r mab, ac wedi dyfod i feddiant, nas gallai brawd y fam ddilyn, am mai perthynas trwy briodas yn unig oedd i'r person a'i daliodd ddiweddaf.

Y mae yr holl wrthodiadau a'r ffugiadau hyn, perthynol i'r hen wriogaethau, wedi eu dileu yn awr trwy gyfraith newydd—effaith yr hon ydyw, fel y sylwyd eisoes, caniatau i holl berthynasau y pwrcasydd fod yn mysg ei etifeddion, rhai o hanner gwaed yn gystal a rhai o "waed coch cyfan," ac er dim a fyddont i neb o'i etifeddion. Gwna hyn, trwy ddarparu y gall pob hynafiad, o dad i fab, fod yn etifedd i ryw un o'i hiliogaeth; y gall rhyw berson a fyddo yn perthyn i'r pwrcasydd trwy hanner gwaed fod yn etifedd iddo, a bod y disgyniad yn mhob amgylchiad i'w olrhain o'r pwrcasydd. Er hyny, nis gall y wraig na'i pherthynasau etifeddu eiddo y gŵr, na'r gŵr na'i berthynasau etifeddu eiddo y wraig. Er hyny, lliniarir y gwrthodiadau hyn i raddau trwy effaith cyfraith gwladol a charedigrwydd, yr hon a ystyrir megys yr un a chyfraith etifeddiaeth.

Pwngc o gyfraith ydyw y drefn trwy yr hon yr etifedda perthynasau eiddo y pwrcasydd. Nid deall cyfraith etifeddiaeth ydyw yr anhawsder ymarferol i wybod pwy ydyw yr etifedd, ond sicrhau y ffeithiau ar ba rai y mae y gyfraith i weithredu. Y mae y gyfraith newydd yn dadgan y tybir mai perchenog olaf y tir oedd y pwrcasydd, os na ellir profi nad felly yr oedd; ac y mae y rheol hon yn lleihau yr anhawsder i olrhain y disgyniad.

Y mae y gyfraith berthynol i etifeddiaeth sydd

yn gwneuthur y mab hynaf, ei frawd nesaf ato' &c., yn unig etifedd, gan gau allan y plant ereill, y neiod, y nithoedd, &c., yn cael ei galw Cyfraith y Cyntafanedig (*the Law of Primogeniture*). Trwy rinwedd y gyfraith hon, os bydd dyn farw mewn meddiant o etifeddiaeth dirol, o'r hon y cafodd gyflawn feddiant, heb wneuthur unrhyw ddarpariad trwy ewyllys neu destament, aiff yr etifeddiaeth i'r etifedd yn ol y gyfraith, neu i'r etifedd cyffredin. Ac y mae un yn etifedd yn ol y gyfraith, trwy fod yn fab hynaf y rhai a fyddont yn yr un radd o berthynas i'r person tranccdig, neu fod yn gynnrychiolydd y cyfryw fab hynaf. Cyfraith berthynol i Brydain bron yn hollol yw hon. Nid oedd ar arfer gan yr hynafiaid; ac y mae wedi ei dileu yn awr yn y manau y bu mewn arferiad ar y Cyfandir ac yn Unol Daleithiau yr America. Nid yn y wlad hon yn unig y dewisir gwrywod, yn hytrach na benywod, yn etifeddion. Yr oedd yr Iuddewon, yr Atheniaid, a'r Arabiaid, er nad y Rhufeiniaid, yn rhoddi yr etifeddiaeth i'r meibion, gan gau y benywod allan. Fodd bynag, nis gwneir hyn yn awr yn mysg cenedloedd estronol yn gyffredin. Y mae cryn ddyddordeb yn hanes cyssylltiadau dewisiad plentyn y mab hynaf a fyddai farw yn ystod bywyd y pwrcasydd, yn hytrach na'r mab ieuangaf. Ymddengys nad oedd y gyfraith wedi ei sefydlu ar y pwnc yma nes i'r rhan fwyaf o reolau cyfraith etifeddiaeth gael ei sefydlu. Yr oedd braidd yn ammheus pan y cadwodd y brenin John ei nai Arthur o'r orsedd, trwy ei hawlio iddo ei hun.

Y mae llawer o awdwyr enwog wedi ysgrifenu ar y materion hyn; megys Hale, Sullivan, Robinson, Blackstone, Wright, Smith, Selden, Robertson, Watkins, Cruise, &c. Ceir y rhesymau dros y cyfnewidiadau newyddion a wnaed yn nghyfraith etifeddiaeth yn *First Report* y *Real Property Commissioners.*

ETHAM: trydydd gwersyllfa yr Israeliaid ar eu mynediad o'r Aipht. Gwel Exodus, Yr.

1. ETHAN, [אֵיתָן,= *sefydlogrwydd, cadernid;* Αἰθάμ]: un o bedwar person ("Ethan yr Ezrahiad, a Heman, a Chalcol, a Dard, meibion Mahol"), y rhai oedd mor enwog am eu doethineb, fel y crybwyllir hyny er anrhydedd i Solomon, gan fod ei ddoethineb ef yn fwy. Gwahaniaethir Ethan, yn 1 *Bren.* iv. 31, fel "yr Ezrahiad," oddi wrth y lleill, y rhai a elwir yn "feibion Mahol." Y mae rhai yn meddwl y gellir cymmeryd *mahol* fel gair heb fod yn enw priodol, ond enwad yn arwyddo meibion cerddoriaeth, dawnsio, &c. Ac felly y byddai mor gyfaddas am Ethan ag am y lleill. Cadarnheir y syniad yma trwy fod yr enwau ereill yn cael eu cyssylltu âg Ethan yn 1 *Cron.* ii. 6, megys "meibion Zerah;" hyny yw, Ezra—yr un a'r Ezrahiaid. Mae y prawf yma o gyfattebiad, a geir trwy y cyssylltiad yma o'r enwau, yn rhy gryf i'w osgoi; a rhaid penderfynu gan hyny am Ethan a'r lleill, y rhai yr oedd traddodiad am eu doethineb wedi disgyn hyd amser Solomon, mai yr un rhai oeddynt ag a ymddengys yn 1 *Cron.* ii. 6, fel "meibion Zerah," yr hwn oedd ei hun yn fab i'r patriarch Iudah. A hyn y cytuna amseryddiaeth yr Iuddewon, yr hwn a'u cyfrif hwy fel prophwydi yn ystod eu harosiad yn yr Aipht [*Seder Olam Rabba*, td. 52], er fod gan yr Iuddewon draddodiad yn rhoddi Ethan am Abraham, Heman am Moses, a Chalcol am Moses [*Jer. Com. in* 2 *Bren.* iv. 31.)

2. ETHAN, mab Cisi *(Cushaiah)*, Lefiad o feibion Merari, oedd yn benaeth y teulu hwnw yn amser y brenin Dafydd (1 *Cron.* vi. 44), am yr hwn y lleferir fel cantor. Appwyntiwyd y Lefiad Ethan, gyda Heman ac Asaph—dau arall o benau teuluoedd y Lefiaid—"i leisio â symbalau pres;" 1 *Cron.* xv. 17, 19. Gellir casglu oddi wrth ymadroddion ereill sydd yn y llyfrau hyn, lle y rhoddir yr enwau yn Asaph, Heman, *Ieduthun*, fod y ddau enw yn perthyn i'r un dyn, neu eu bod yn gyfystyr; ond nid oes brawf pendant o hyn, ac nid oes dim i ddangos mai yr un person oedd Ethan y cantor ag Ethan yr Ezrahiad, enw yr hwn sydd o flaen *Salm* lxxxix, er fod yn ddigwyddiad hynod fod i ddau berson o'r enw Heman ac Ethan gael eu cyssylltu mor agos mewn dau lwyth gwahanol.

3. ETHAN: Lefiad o feibion Gersom: un o hynafiaid Asaph y cantor: 1 *Cron.* vi. 42. Yn achyddiaeth wrthdroawl y Gersomiaid (*adn.* 21), saif Ioah yn lle Ethan fel mab Zimmah.

ETHANIM. Gwel Mis.

ETHBAAL, [אֶתְבַּעַל=*yn mwynhau ffafr a chymhorth Baal:* Ἐθβάαλ]: brenin Sidon a thad Iezebel, gwraig Ahab: 1 *Bren.* xvi. 31. Darlunia Josephus [*Ant.*, viii. 13, adr. 1] ef fel brenin y Syriaid, gystal a'r Sidoniaid. Dywedir fod hyn yn dangos mai yr un person oedd efe a'r Eithobalus y crybwyllir am dano gan Menander [*Ios. c. Apion.*, i. 18], offeiriad Astarte, yr hwn, ar ol iddo lofruddio Pheles, a drawsfeddiannodd orsedd Tyrus am ddeuddeng mlynedd ar hugain. Gan fod deng mlynedd a deugain rhwng marwolaeth Hiram a Pheles, gellir amseru teyrnasiad Ethbaal o gylch 940—908 c.c. Y mae amrywiad yr enw yn hawdd ei egluro: Ethbaal=*gyda Baal:* Ithobalus=*Baal gydag ef*, yr hwn a ystyrir yn well o ran ystyr na'r llall. Y mae sefyllfa Ethbaal yn dangos i ryw raddau yr achos o'r eiddigedd eilunaddolgar a ddangosai Iezebel.

ETHER, [עֶתֶר=*cyflawnder;* Ἰεθάκ, Ἐθέρ]: un o ddinasoedd Iudah yn y dyffryn a roddwyd i Simeon: *Ios.* xv. 42; xix. 7. Yn y rhestr gyferbyniol o ddinasoedd Simeon, yn 1 *Cron.* iv. 32, rhoddir Tochen am Ether. Y mae Eusebius yn ei *Onomasticon* yn crybwyll ddwywaith am dano, fel Ether ac fel Iether, gan gamsynied yr olaf am Iattir, fel yr ymddengys—dinas yr offeiriaid lle yr oedd cyfeillion Dafydd yn ystod ei orthrymderau dan Saul. Yr oedd yn lle go fawr y pryd hyny, dan yr enw Iethira neu Etera, yn bur agos i Malatha, yn nghanol rhandir Malatha; sef yn y wlad anial islaw Hebron, ac i'r dwyrain o Beerseba. Nid oes unrhyw adfeilion wedi eu canfod hyd yn hyn y gellir ystyried eu henw yn cyfateb i Ether; ond dywed Van de Valde [*Memoir*, 311] iddo glywed am *Tel Athar* yn y cyfeiriad yma.

ETHIOPAEG, [Gwel Ethiopia]: iaith yr Ethiopiaid. Y mae i'r Ethiopaeg dair o ieithweddau (*dialects*), sef yr hen Ethiopaeg, neu y Gees; y Zigre, a'r Amharaeg. Y mae yr hen iaith a elwir yr Ethiopaeg briodol yn awr wedi diflanu fel iaith lefaredig, fel nad ydyw ar arfer ond mewn llyfrau a chan ddynion dysgedig; ac am hyny, gelwir hi gan y brodorion *lesana mas'haf*, sef iaith llyfrau. Diflanodd oddi ar lafar pob parth o'r wlad, medd Nicholson, er dechreuad y bedwaredd ganrif ar ddeg, a chymmerwyd ei lle yn llys y penadur gan yr Arabaeg. Pa fodd bynag, y mae yn parhau, eb efe, i fod yn iaith y

Digitized by Google

defodau crefyddol, yn iaith amgylchiadau cartrefol y llywodraeth, ac arferir hi hefyd mewn gohebiaeth gyfrinachol. Llenwir ei lle yn awr ar lafar gwlad gan y ddwy ieithwedd arall; a'r debycaf iddi ydyw y Tigré, tra y mae yr Amharaeg yn dra gwahanol iddi. Nid oes, ac ni bu, un math o ysgrifeniadau, na gwladol nac eglwysig, yn un o'r ddwy ieithwedd yma; gan hyny, yr hen Ethiopaeg, neu y Geez, yn unig sydd yn teilyngu sylw yma.

Cangen ydyw yr hen Ethiopaeg o'r cyff cyffredinol o ieithoedd a elwir y Semitaidd (y ddau cyffredinol arall, yn ol Schlegel, yw y Chineaidd a'r Ind-Ewropaidd); a'r Ethiopaeg yw yr unig iaith o'r cyff hwn (y Semitaidd) a ysgrifenir o chwith i dde. Y mae ei hegwyddor (*alphabet*) yn cynnwys chwech ar hugain o gydseiniaid, wedi eu trefnu mewn dull neillduol. Gwel Egwyddor, tabl ii. col. 4. Dywedir fod pedair ar ugain o'r cydseiniaid hyn yn cyfateb i'r un nifer ag egwyddor yr Arabaeg; tra y defnyddir y ddwy arall i ddynodi sain y $\pi$ a'r $\psi$ Roeg. Y mae sain y llafariaid yn saith o nifer; ond ni ddynodir hwy gan lythyrenau yn yr ysgrifeniad, na chwaith gan nodau nac acenion, fel yn yr Hebraeg a'r Arabaeg, ond gan amrywiad bychan yn ffurf y cydseiniaid, ar ddull hen egwyddor Dêvanâgari yr Hindwaid: a dywedir y defnyddir yr un cynllun yn orgraffau amryw o ieithoedd diweddar yr India. Y mae Gesenius wedi olrhain rhai o'r llythyrenau ysgrifenedig i'r rhai cyferbyniol yn egwyddor y Phœniciaid. Y mae y tebygrwydd mwyaf hefyd rhwng y llythyrenau Ethiopaeg yn gyffredinol a'r rhai sydd yn y cerfiadau Himjarite—amgylchiad sydd yn cytuno yn dda â'r dyb fod hen gyssylltiad rhwng deheubarth Arabia a Habesh. Yn mhellach, y mae Sepsius [*Zwei Sprachvergl. Abhandlungen*, td. 74) wedi dwyn rhesymau nodedig i brofi y rhaid fod gan yr egwyddor Dêvanâgari ryw ddylanwad ar y llythyrenau Ethiopaeg. Y mae amryw o'r llythyrenau Ethiopaeg yn fudion—yn awr, o leiaf—yn llafariad yr iaith: y mae tair *h*, dwy *s*, dwy *f*, *alph*, ac *ain*, yn cael eu seinio yn gyffelyb, er y dynodir hwy â llythyrenau gwahanol yn yr ysgrifeniad.

Y mae Gesenius yn cyfrif fod tuag un ran o dair o wraidd geiriau cyssefin yr Ethiopaeg yn yr Arabaeg hefyd; ac y canfyddir rhan fawr o'r gweddill yn yr Hebraeg, yn y Galdaeg, ac yn yr ieithweddau Syriaeg. Dywedir fod cyfatebiad amlwg rhwng holl gyfansoddiad gramadegol yr Ethiopaeg a'r Arabaeg; tra y mae ynddi rai pethau cyffelyb i'r Syriaeg, a phethau ereill neillduol iddi ei hun yn unig. Prif agweddau ei chyfansoddiad yw y rhai canlynol:—Mae y ferf yn meddu deg treigliad cyntaf y ferf Arabaidd, oddi gerth yr wythfed a'r nawfed; yn lle pa rai y mae iddi ddau dreigliad arall sydd heb fod yn yr Arabaeg. Mae ffurfiad yr enwau yn tebygu mwy i'r Hebraeg; ond y mae i enwau yn fynych derfyniadau llafarol gormodol, y rhai a ddullweddir mewn amgylchiadau neillduol, yn debyg i'r terfyniad *n* yn yr Arabaeg. Am dreigliad yr enwau, ffurfir y lluosog gwrywaidd a benywaidd gan ragddodiad (*ân, ât*), yn ol cynllun cyffredin yr holl lwyth ieithyddol Syriaidd-Arabaeg; neu trwy newid y llythyrenau gwreiddiol, yn ol y dull a elwir y lluosog-*toredig* yn ngramadeg yr Arabaeg. Dynodir sefyllfa y gystrawen, a pherthynas yr enw sydd yn gyfartal i'r cyflwr gwrthddrychol (*objective case*), trwy newid y llafariaid terfynol. Ffurfir yr ansoddeiriau benywaidd o'r gwrywaidd, yn debyg i'r Arabaeg, trwy olddodi *t*. Nid oes ffurf deuol i'r ferf nac i'r enw.

Nid oes gan yr Ethiopiaid na gramadeg na geiriadur rheolaidd o'u hen iaith—dim ond brodd-iaduron (*vocabularies*) yn unig; yn y rhai y dosberthir y geiriau yn ol y pynciau y cyfeiriant atynt. Yr oedd yr Ethiopaeg bron yn anadnabyddus yn y wlad hon hyd amser Job Ludolf (neu Leutholf), yr hwn a feistrolodd yr iaith trwy gymhorth brodor Ethiopaidd. Cyhoeddodd ei eiriadur a'i ramadeg Ethiopaeg yn Llundain, yn 1661; a chyhoeddwyd argraffiad wedi ei wellhau a'i helaethu yn fawr wedi hyn yn Frankfort, yn 1702. Ychydig o gynnydd mewn gwybodaeth o'r iaith Ethiopaeg a wnaed ar ol cyhoeddi y ddau waith hyny.

Ychydig iawn o lenyddiaeth sydd yn yr iaith Ethiopaeg, ac nid yw hono gan mwyaf yn Feiblaidd ac eglwysig. Mae yr Ethiopiaid yn meddu cyfieithiad cyflawn o'r Hen Destament a'r Newydd, a wnaed gan awdwr anhysbys o gyfieithiad Groeg Alexandria; ac ymddengys nad ydyw yn hynach na'r bedwaredd ganrif. Y mae ganddynt hefyd waith ffugiol (*apocryphal*) neillduol iddynt eu hunain, a elwir *Llyfr Hanoch;* yr hwn y tybia De Sacy iddo gael ei ysgrifenu yn ystod teyrnasiad Herod Fawr; a thybia rhai mai o hwnw y dyfynodd yr apostol Iudas, *adn.* 14.—Gwel Enoch, Llyfr. Hefyd, y mae ganddynt gyfieithiad o'r *Didascalia*, yn nghyd â 56 o ganonau, ac 81 o reolau (*constitutions*) yr Eglwys Gristionogol, y rhai a ystyrient hwy yn apostolaidd; heblaw casgliad o benderfyniadau y cynghorau, talfyriadau o ysgrifeniadau y tadau boreuol, ffurfweddïau, traethodau ar y merthyron, a hanes y saint. Y mae ganddynt hefyd amryw emynau, y rhai nid ydynt wedi eu hysgrifenu mewn unrhyw fesur, ond ymddengys fod ynddynt ryw fath o bersain; ac y mae pob tair neu bum llinell yn terfynu yn fynych yn yr un gydsain, yr hyn sydd yn gwneud math o odl. Mae llenyddiaeth gyffredin yr Ethiopiaid yn gynnwysedig o ychydig groniclau, y rhai y tybir eu bod o gryn ddyddordeb: ond y mae y rhan fwyaf o honynt yn anhysbys hyd yn hyn. Dygodd Bruce gopi o un o honynt i Ewrop, a elwir *Cronicl Axum*, yr hwn a gedwir yn awr yn ngholeg Chelsea, yn meddiant y teithiwr hwnw, yn mysg amryw lawysgrifau ereill a adawodd ar ei ol. Y mae gan yr Ethiopiaid hefyd ychydig o draethodau meddygol: a dyna eu holl lenyddiaeth hyd y mae yn hysbys.

ETHIOPAEG, Y CYFIEITHIAD. Y mae amryw gopïau o hwn mewn gwahanol lyfrgellau yn Ewrop, er mai anfynych y ceir copïau cyflawn. Gwnaed y cyfieithiad o'r Hen Destament o Roeg y Deg a Thrigain, yn ol y newidiad Alexandriaidd, fel y mae yn amlwg wrth drefniad y llyfrau, ac wrth fod llyfrau yr Apocrypha wedi cael eu derbyn i mewn yn ddiwahaniaeth. Dosberthir ef yn bedair rhan:—Y Gyfraith (*the Octateuch*) yn cynnwys y Pum Llyfr (*Pentateuch*), a llyfrau Iosuah, y Barnwyr, a Ruth; y Breninoedd, yn dri ar ddeg o lyfrau—yn cynnwys dau Lyfr Samuel, dau Lyfr y Breninoedd, y ddau Groniel, dau Lyfr Ezra (Ezra a Nehemiah), Tobit, Iudith, Esther, Iob, y Salmau; Solomon, yn bum llyfr—y Diarhebion, y Pregethwr, y Caniadau, Doethineb, a Sirach; y Prophwydi, yn ddeunaw o lyfrau—Esaiah, Prophwydoliaeth a Galarnad Ieremiah, Baruch, Ezeciel, Daniel, a'r deuddeg prophwydi lleiaf; yn olaf, dau lyfr y Maccabeaid. Heblaw hyn, y mae llyfr ffugiol Enoch ganddynt; yr hwn

Digitized by Google

a roddant yn nesaf i Lyfr Iob. Unig ddefnydd beirniadol y cyfieithiad yma ydyw, y prawf a rydd gyda golwg ar destyn y Deg a Thrigain. Gwnaed cyfieithiad y Testament Newydd o'r Groeg gwreiddiol. Mae yn dilyn trefn geiriad y Groeg yn bur gaeth, ac wedi gwneud camsyniadau y gellir rhoddi cyfrif am danynt yn unig trwy egluro y geiriau hyny sydd yn yr iaith Roeg yn ymdebygu i'w gilydd o ran ystyr. Mae yn anhawdd penderfynu pa gopi a ddilyna, ond y mae yn cyttuno yn fynych â'r Peshito a'r Itala. Nis gellir penderfynu amseriad un o'r cyfieithiadau hyn; ond priodolir hwy gyda chryn debygolrwydd i ddechreuad y bedwaredd ganrif. Ni argraphwyd ond rhanau bychain o'r cyfieithiad blaenaf yn unig; ond y mae y Testament Newydd oll wedi ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd yr Efengylau o newydd gan **T. P. Plath, M.A.**, yn 1826.

**ETHIOPIA**, [כוּשׁ=*cush; du; llosgaf*; Αἰθιοπια]: yw yr enw y cyfieithwn ni, gan mwyaf, yr enw Hebraeg *Cush*. Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn defnyddio yr enw yn ei ystyr geiryddol eangaf, i ddynodi unrhyw wlad lle y preswyliai rhai o bryd tywyll, neu rai y byddai yr haul wedi llosgi eu gwynebau; megys *Αἰθίοψ* (*Act.* viii. 27), *Αἰθιόπισσα* (*Num.* xii. 1), *Αἰθίοπες* (2 *Cron.* xiv. 12), o *αἴθομαι*, *llosgi*· ac *ὤψ*, *y wyneb*. Mae y wlad hon yn gorwedd o'r tu deheu i'r Aipht, ac yn cynnwys yn yr ystyr eangaf, Nubia ddiweddar, Sennar, Kordofan, a gogledd Abyssinia; ac yn yr ystyr gyfyngaf, teyrnas Moroë, o gyssylltiad canghenau Glas a Gwyn y Nilus hyd derfyn yr Aipht. Yr unig gyfeiriad y gellir nodi terfyn amlwg ydyw y gogledd, lle y noda y Syene y dosbarthiad rhwng Ethiopia a'r Aipht: *Ezec.* xxix. 10. Nis gellir rhoddi ond dysgrifiad cyffredinol o'i therfynau mewn cyfeiriadau ereill, megys y Môr Coch tua'r dwyrain; ac anialwch Lybia tua'r gorllewn; ac ucheldiroedd Abyssinia tua'r de. Fe allai mai math o gyfaddasiad ydyw yr enw Ethiopia o'r enw Aiphtaidd brodorol *Ethaush*, yr hwn sydd yn lled debyg i ffurf Roegaidd yr enw, sef *Aithiops;* yr hwn, fel yr awgrymwyd, a olygai y Groegiaid yn dynodi pryd tywyll. Newidiodd yr Hebreaid yr enw brodorol Cus i un tiriogaethol; ond gan ei gyfyngu, yn yr ystyr olaf, at sefydliadau Affricanaidd hiliogaeth Cus. [Gwel Cus.] Nid ymddengys fod yr Hebreaid yn bur adnabyddus âg Ethiopia ei hun, er fod yr Ethiopiaid yn eithaf hysbys iddynt trwy gyfrwng eu hymdrafodaeth â'r Aipht. Pa fodd bynag, yr oeddynt yn hollol hysbys o'i sefyllfa (*Ezec.* xxix. 10); a dysgrifia hi fel gwlad ddyfradwy "wrth ochr dyfroedd Cus;" yn ol yr Hebraeg—"o'r tu hwnt i afonydd Ethiopia;" yn ol ein cyfieithiad ni (*Esa.* xviii. 1; *Zeph.* iii. 10), gan y dyfrheir hi gan ddwy gangen y Nilus, a chan yr Astaboras neu y Sacazze. Mae y Nilus yn disgyn yn ffrwd gyflym yn y parth yma o'i gyrfa; ar yr hon y mae llawer o raiadrau: ymddengys fod cyfeiriad at eu difrodau yn y geiriau sydd yn *Esa.* xviii. 2, "yr hon yr ysbeilia yr afonydd ei thir." Ymddengys hefyd fod yr Hebreaid yn hysbys o'i nodweddau trofanol (*tropical*), gan fod y geiriau a gyfieithir genym ni yn "dir sydd yn cysgodi âg adenydd" (*Esa.* xviii. 1), yn arwyddo "tir y cysgod ar bob ochr," gan fod y cysgod yn disgyn tua'r gogledd a thua'r deheu ar wahanol dymmorau o'r flwyddyn—amgylchiad y sylwir arno gan amryw o'r hen ysgrifenwyr: cymharer yr ymadrodd yn *Strabo.* ii. 133, â *Virg. Ecl.*, x. 68, *Plin.* ii. 75. Ystyrir hefyd fod y cychod papyrus ("llestri brwyn," *Esa.* xviii. 2), y rhai oedd dra chyfaddas i nofio y Nilus uchaf, y rhai y gellid eu cario ar gefn dynion pan yn angenrheidiol, yn un o arferion arbenig y wlad. Y mae Heliodorus yn cadarnhau hyn yn ei *Æthiopia*, x. 460, a Bruce hefyd, yr hwn a ddywed mai yr unig fath o gwch sydd yn Abyssinia ydyw yr un a elwir *Tancoa;* yr hwn a wneir o gorsenau, y rhai a gyssylltir wrth ddarn o'r pren Acacia, a ddefnyddir fel cilbren y cwch. Bydd y corsenau wedi eu plethu yn ofalus yn mlaen llaw, a rhwymir blaenau y planigion yn ddiogel. At gyflymder y "llestri brwyn" hyn y cyfeiria *Iob* ix. 26—y "llongau buain," â'r rhai y cyffelyba efe gyflymder dyddiau dyn ar y ddaear yma. Yr oedd yr Hebreaid yn masnachu yn lled helaeth âg Ethiopa: ei "marsiandïaeth" (*Esa.* xlv. 14) oedd ebony, ifori, peraroglau, aur [*Herod.* iii. 97, 114], a meini gwerthfawr: *Iob* xxviii. 19; *Hyn. Ios.* viii. 6, adr. 5. Mae y wlad gan mwyaf yn fynyddig; ac y mae y trumau yn ymddyrchafu yn raddol tua'r deheu, nes y cyrhaeddant yr uchder o 8,000 o droedfeddi yn Abyssinia.

Ond tybir mai y rhan y cyfeiria yr ysgrifenwyr Ysgrythyrol ati fynychaf ydyw y rhan hono o'r wlad sydd yn Nubia Uchaf, yr hon a fu mor enwog gynt fel teyrnas Ethiopia, neu lywodraeth Moroë. Isel, ar y cyfan, yn ngraddeg gwareiddiad, oedd y cenhedloedd Ethiopaidd; er, fel y sylwa Heeren, fod rhai llwythau Ethiopaidd wedi eu diwyllio yn llawer gwell na'r lleill, a bod y rhai a breswylient mewn dinasoedd yn lled wareiddiedig, y rhai a adeiladent demlau ac adeiladau ereill; y rhai, er nad oeddynt yn meddu llythyrenau, a ddefnyddient fath o fatheinciau (*hieroglyphics*); ac yr oedd ganddynt lywodraeth a chyfreithiau, ac ymdaenodd eu clod o blegid eu cynnydd mewn gwybodaeth, ac yn y celfyddydau buddiol yn yr oesoedd boreuaf dros ran fawr o'r ddaiar. Yn wir, y mae wedi bod yn destyn dadl bwysig yn mysg hynafiaethwyr, pa un ai o Ethiopia y disgynodd gwareiddiad i'r Aipht, ai o'r Aipht yr esgynodd i Ethiopia. Addefir fod hyn, fel amryw bynciau hanesyddol ereill sydd mewn dadl, yn gofyn yr ymchwiliad manylaf. Ymddengys oddi wrth adroddiad fod trefedigwyr crefyddol wedi dyfod i lawr yn dra boreu o Moroë i'r Aipht. "Yn Moroë," medd Herodotus (ii. 29), "dinas fawr yr Ethiopiaid, y mae y bobl yn addoli Zeus a Dionysius (Ammon ac Osiris), gan eu hanrhydeddu yn fawr. Y mae ganddynt oracl i Zeus; ac y maent yn gwneud eu rhuthrgyrchau pa bryd bynag, ac i ba le bynag y gorchymynir hwy gan attebion oraclaidd y duw hwnw." Ymddengys wrth hyn fod offeiriaid Moroë yn anfon trefedigion i wledydd ereill; ac yr oedd yr Aipht yn un o'r manau cyntaf y gellid meddwl yn naturiol iddynt anfon iddi. Dywedir fod addoliad Ammon (Zeus neu Jupiter y Groegiaid a'r Rhufeiniaid), a ddygwyd i lawr ar hyd y Nilus ganddynt hwy, yn ffurf o addoliad symlach a phurach na'r gymmysgedd ynfyd o dduwiau a arferwyd wedi hyny yn yr Aipht. Coffadwriaeth oedd gorymdaith y Llong Sanctaidd, gyda llun Ammon ben nyharen, a gymmerai le bob blwyddyn yn Thebes, ac a gludid ar draws y Nilus i ochr Lybia, ac yn ol yn mhen ychydig ddyddiau—coffadwriaeth oedd hyn am fynediad cyntaf y duw o Ethiopia ar hyd yr afon. Mae y seremoni yma wedi ei cherfio ar amryw o demlau yr Aipht a Nubia, ac yn enwedig ar deml fawr

Digitized by Google

y Cornak. Dichon mai at hyn y cyfeiria Homer, pan y llefara am ymweliad Jupiter âg Ethiopia, ac am ei absennoldeb dros ddeuddeng niwrnod. Ymddengys hefyd mai o diriogaethau pellaf Ethiopia y disgynodd addoliad Isis ar hyd yr afon Nilus. Dywed Diodorus [iii. 3] fod pobl Moroë uchaf yn addoli Isis a Phan, heblaw Hercules a Zeus, gan ystyried y rhai hyn megys cymmwyn aswyr penaf yr hil ddynol. Canfyddwyd penau Isis gan Cailliaud yn Naga, gerllaw Shendy (tua 17 gradd, hydred gogleddol), yn Nubia Uchaf; ac yr oedd y cerfiad yn dwyn pob arwydd o arddull gwreiddiol, er fod y gelfyddyd yn llawer garwach yn yr un darluniau yn nhemlau yr Aipht. Rhoddir pen Isis uwchlaw pen Typhon, megys yn rhai o demlau yr Aipht. Dywed haneswyr, y gellir tybied wrth ddull a cherfiadau y temlau hyn yn Naga, eu bod yn ddiweddarach na'r rhai sydd yn El Mecaourah, y rhai hefyd sydd yn nghymmydogaeth Shendy, mewn dyffryn yn yr anialwch, cryn bellder oddi wrth y Nilus, ac o gylch deuddeng milldir i'r gogledd o Naga. Y maent yn wyth o demlau bychain: 34 troedfedd o hyd yn unig ydyw y fwyaf o honynt. Cyssylltir hwy yn nghyd gan orielau (*galleries*) a rhodfeydd, a nifer mawr o ystafelloedd bychain: ac amgylchynir y cyfan gan amgeufa ddyblyg. Nid oes na beddau na gweddillion anneddau i'w canfod yn y lle. Y mae yno weddillion cronfa (*tank*) fawr i'w canfod, yn cael ei hamddiffyn rhag y tywod gan gaerau o ddaiar o'i hamgylch; dwfr yr hon, fe allai, a ddefnyddid at wasanaeth crefyddol. Nid oedd y defnyddiau a arferid ond bychain, mwy na'r adeiladau eu hunain, gan nad yw y meini ond anfynych yn fwy na throedfedd o hyd, a hanner troedfedd o uchder. Nid oes na cherfiadau na batheiniau yn addurno y muriau; ond y mae amryw o fatheiniau ac o luniau yn ol arddull yr Aipht ar chwe cholofn porth y deml fwyaf. Dywed Cailliaud yr ymddengys fod y deml hon yn llawer diweddarach na'r lleill. Y mae Moroë Briodol yn gorwedd rhwng yr afon Astaboras (sef yr Atbara neu y Tacazzè bresennol) ar y tu dwyrain, a'r Nilus ar y tu gorllewin. Er nad yw wedi ei llwyr amgylchynu gan yr afonydd, eto cafodd ei galw yn ynys; o blegid, fel y sylwa Pliny, ystyrid yr holl ffrydiau sydd yn llifo o'i hamgylch fel cangenau o'r Nilus; felly fod yr enw a roddwyd iddi fel "gwlad yr afonydd," yn dra phriodol. Y mae ei harwyneb bron gymmaint dair gwaith a Chymru, sef tuag ugain mil o filldiroedd ysgwâr; ac y mae yn cyfateb yn lled agos i dalaeth bresennol Atbara, rhwng y lledredau gogleddol 13 a 18 gradd. Mewn amseroedd diweddar cyssylltwyd rhan fawr o honi â theyrnas Sennar, a pherthyn y rhanau ereill i Abyssinia. Y mae dinas o'r un enw ar ynys Meroë, sef prif ddinas y deyrnas; sefyllfa yr hon a ganfyddwyd yn agos i le a elwir Assur, o gylch ugain milldir i'r gogledd o dref Shendy, dan y 17 gradd o'r lledred gogleddol. Darlunir yr adfeilion godidog hyn o hen demlau, pyramidiau, ac adeiladau ereill a ganfyddir yn yr holl randir yma, gan Cailliaud, Gau, Rüppel, Belzoni, Waddington, Hoskins, a theithwyr ereill; y rhai a dystiant y rhaid fod gwareiddiad a chelfyddyd mewn sefyllfa uchel yn mysg yr hen Ethiopiaid. Dywedir fod maint yr adfeilion yma yn llawer mwy nag adfeilion Napata yn agos i Berkal, ac yn fwy nag unrhyw rai ereill a archwiliwyd hyd yn hyn yn Nubia: y maent hefyd mewn sefyllfa fwy adfeiliedig, ac ymddengys pentyrau mawrion o ddaiar yn mhob man, y rhai a ymddengys fel adfeilion tai annedd, gystal ag adeiladau cyhoeddus. Adfeilion hen demlau a phyramidiau ydyw y rhai olaf, megys yn Napata. Nis gellir olrhain gweddillion yr un o'r temlau gyda dim sicrwydd; ond ymddengys fod y mur oedd o flaen y fwyaf o honynt wedi bod yn bum troedfedd ar ugain o drwch. Saif y pyramidiau yn dyrau gyd-a'u gilydd ar derfyn yr anialwch. Mae y mwyaf o honynt o gylch trigain troedfedd yn ei waelod; ond y mae y rhan fwyaf o honynt yn llawer llai, ac yn gyffredin mewn sefyllfa dra adfeiliedig. Y mae cyssegroedd allanol bychain yn gyssylltiedig â'r rhan fwyaf o honynt; a chanfu Cailliaud fod pen un o honynt yn fwaog, a bod maen clo yn y top, fel rhai mynydd Berkal. Tybir mai yn hen ddinas gyssegredig a neillduedig Moroë yr oedd ysgol yr offeiriaid, a safle gyntefig Jupiter Ammon; ac mai oddi yno yr anfonwyd trefedigion a chenadau crefyddol, y rhai a ddygasant eu crefydd a gwareiddiad o Ethiopia cyn belled a'r Delta a'r Oasis yn anialwch Libya. Yn ol traddodiad y wlad, enw ydoedd El-Macourah ar yr hen Ffaciriaid neu y meudwyaid a breswylient yr hen adeiladau a ddarluniwyd.

Dywed Josephus, yn ei hanes am ymosodiad Moses ar yr Ethiopiaid, pan yn gadlywydd byddin yr Aipht, fod yr Ethiopiaid o'r diwedd wedi ymneillduo i Seba, dinas freninol Ethiopia; a alwyd wedi hyny gan Cambyses yn Moroë, yn ol enw ei chwaer [*Jos. Ant.*, ii. 10, adr. 2]. Rhoddwyd yr un enw gan Strabo a Diodorus Siculus. [Gwel hefyd *Maunert's Geog. of the Greeks and Rom.*, x. 199]. Y mae lle yn cael ei alw fyth yn Merawe gryn bellder i'r gogledd o'r ynys, ac yn agos i Fynydd Berkal, lle y tybia Heeren y bu sefydliad o'r llywodraeth gyntefig ar yr un enw. Y mae barn Josephus mai yr un oedd Moroë a Seba, yn cytuno yn dda â'r mynegiad sydd yn *Gen.* x. 7, mai mab hynaf Cus oedd Seba; a chan fod ei enw yn cael ei ysgrifenu â *samech* (סבא), ac ni ddylid ei gymmysgu âg un o'r ddau Seba, y dechreuir eu henwau hwy â *Shin* (שבא), y rhai y crybwyllir am danynt fel hiliogaeth Sem (Shem): *Gen.* x. 28; xxv. 3. Yn awr, fe roddir y Seba Affricaidd yma yn yr un dosbarth a'r Sheba Arabaidd, fel gwlad gyfoethog a phellenig: *Salm.* lxxii. 10. Yn *Esa.* xliii. 3, dywed Duw wrth Israel, "Myfi a roddais yr Aipht yn iawn drosot, Ethiopia hefyd a Seba am danat:" ac yn *Esa.* xlv. 14; "Llafur yr Aipht, a marsiandïaeth Ethiopia (Cus), a'r Sebeaid hirion a ddeuant atat ti, ac eiddot ti fyddant." Y mae Charles Taylor, golygydd cywrain ond dychymmygol Calmet, yn meddwl, yn dra hynod hefyd, mai wrth y geiriau gwreiddiol a gyfieithir "y Sebeaid hirion," y meddylir, dynion o faintioli byr, neu gorachod; ac yna casgla mai yr un rhai oedd yr Ethiopiaid a'r corachod y sonia hen hynafiaethwyr am danynt. Ond arwyddocâd amlwg yr ymadrodd Hebraeg yw hir, tal (cymharer 1 *Cron.* xi. 23); a dysgrifir yr Ethiopiaid gan Herodotus [iii. 114], fel dynion mawrion, neu ddynion o gorffolaeth uchel, hir; a sierha Solinus [*Polyhist*, pen. xxx] eu bod yn ddeuddeg troedfedd o uchder. Fel ereill o lwythau Cusaidd Affrica, yr oedd eu croen yn ddu; at yr hyn y cyfeirir yn amlwg yn *Ier.* xiii. 23; "A newidia yr Ethiopiad (y Cusiad) ei groen?" Dywed Bruce iddo ganfod Seba yn Azab—porthladd ar gyffiniau dwyreiniol Affrica, gerllaw y fynedfa i'r Mor Coch; ac yn hyn dilynir ef gan Heeren: tra y meddylia ereill am le a elwir Subah, tua 15 gradd o'r lledred gogleddol, lle y mae rhai o'r adfeilion

Digitized by Google

Nubiaidd mwyaf arddercho; ond credir nad yw y naill farn a'r llall ond tybiau yn unig.

Yn mysg llwythau ereill o Affrica y dywedir eu bod mewn cynghrair â'r Aipht, y mae Ezeciel (xxx. 5) yn crybwyll enw *Chub* gydag Ethiopia; yr hwn a gyssyllta Michaelis â *Kobê*—tref fasnachol a ddarlunir gan Ptolemy megys ar lan gorllewinol y Môr Coch. Ond yn y cyfieithiad Arabaidd a wnaed o'r Deg a Thrigain, yn lle *Chub*, rhoddir "pobl Nubia." Buasai yn hawdd i adysgrifenydd roddi y llythyren *caph* yn lle *num;* a chan mai *nub*, ac nid *chub*, ydyw yn llawysgrif De Rossi, tybir mai *nub* ydyw y darlleniad cywir. Y mae dwy gymmydogaeth mewn cyssylltiad â Moroë a elwir fyth yn *Cuba* a *Nuba;* y rhai y dywedir eu bod yn llawn o aur. Y mae y Succiaid, y rhai, yn nghyd â'r Ethiopiaid (Cusiaid) a'r Lubiaid, oedd yn rhan o luoedd Sisac (2 *Cron.* xii. 3), yn cael eu galw yn y Deg a Thrigain yn Troglodytiaid; hyny yw, preswylwyr yr ogofeydd —y bobl a adnabyddid yn ddiau gan y Groegiaid wrth yr un enw, fel preswylwyr ogofeydd y mynyddoedd sydd ar du gorllewin glanau y Môr Coch [*Diod. Sic.*, iii. 32; *Strab.*, xvii. 785]. Yr oeddynt yn nodedig o ran eu cyflymder i redeg, a'u medrusrwydd i ddefnyddio y ffon dafl; ac am hyny defnyddid hwy, fel y dywed Heliodorus [*Æthiop*, viii. 16], fel gwŷr traed yn y byddinoedd. Y mae Pliny [*Hist. Nat.*, vi. 29, 43], yn crybwyll am dref o'r enw *Syche* yn y gymmydogaeth hono; ac y mae lle eto yn yr un diriogaeth a elwir Suakim, a ddysgrifir gan Burckhardt yn ei *Travels in Nubia*. Pa fodd bynag, os ydyw y gair *Sukküm* o darddiad Hebraeg, dynodai rai yn byw mewn bythod; sef tabernaclau wedi eu gwneyd o ganghenau coed; a dywedir fod y Shangalliaid sydd yn preswylio y wlad hono, yn trigo, hyd yn oed yn awr, mewn pebyll yn ystod yr haf; ond yn y gauaf yn dychwelyd i'w hogofäau creigiog.

Yr oedd y gwledydd a adnabyddir genym ni, fel Nubia a Sennar, yn cael eu preswylio yn oes Herodotus gan ddwy genedl wahanol, un o ba rai a ddynoda efe dan yr enw cyffredinol Ethiopiaid, a'r llall fel Affricaniaid ymfudol, yn byw math o fywyd crwydrol. Mae y gwahaniaeth yma wedi parhau hyd y dydd heddyw. Yn mysg y trigolion cyntaf, mae y lle cyntaf yn deilwng i'r Nubiaid—dynion o gyrff hardd, cryf, a gewynog, heb ddim o agwedd y negro yn perthyn iddynt. Maent yn ymarfogi â'r waewffon, y cleddyf, a tharian o groen yr afonfarch (*hippopotamus*). Deheubarth Dongola yw gwlad y Scheygiaid; a'u rhyfelwyr gan mwyaf yn wŷr meirch, wedi eu harfogi â gwaewffon deuflaen, cleddyf, a tharian fawr: cymharer *Ier.* xlvi. 9, "yr Ethiopiaid (Cusiaid) sydd yn dwyn tarian." Yr oeddynt yn gwbl annibynol hyd oni ddarostyngwyd hwy gan Mehemet Ali, pacha (*pashâ*) yr Aipht. Yn eu gwlad hwy y cyfarfyddir gyntaf â'r cofadeiliau pigdyrol a addurnent yr hen Moroë; ac y mae hyd yn oed eu henw wedi ei gadw yn eu prif sefydliad, Merawe; er y rhaid chwilio am yr hen Moroë yn mhellach i'r de. Yn nesaf y daw tiriogaeth y Berberiaid, a elwir felly yn yr ystyr manylaf; y rhai, er eu bod yn siarad Arabaeg, sydd yn perthyn yn amlwg i'r hil Nubiaidd. Uwchlaw y tiriogaethau hyn, tu hwnt i'r Tacazzè, ar hyd y Nilus, gellir ystyried fod corff mawr y trigolion, er wedi ymgymmysgu weithiau âg ereill, yn Arabiaid o darddiad. Y mae amryw lwythau brodorol yn awr fel cynt rhwng dyffryn y Nilus a'r Môr Coch, yn mysg y rhai y mae yr Arabiaid yn anamlach. Diau eu bod mewn rhan yn hiliogaeth i'r Succiaid (*Sikum*) neu y Troglodytiaid, ac i'r Ichthyophagiaid, neu y bwytawyr pysgod. Ymdaena rhai o honynt dros ddyffrynoedd yr Astaboras, neu y Tacazzè; y rhai a orfodir weithiau i symmud eu gwersylloedd gan orlifiadau yr afon, a phrydiau ereill gan ymosodiadau ofnadwy y Zimb, neu gacwn y meirch, a ddarlunir gan Bruce: y rhai, yn ol ei farn ef, yw "y gwybedyn sydd yn eithaf afon yr Aipht;" *Esa.* vii. 18. Llwyth Ethiopaidd hynod arall yn yr hen amseroedd oedd y Macrobiaid—a elwid felly o blegid y tybid eu bod yn hirhoedlog. Darlunid hwy gan genadau Cambyses fel cenedl hynod o dal, y rhai a etholent y talaf yn eu plith i fod yn frenin. Yr oedd ganddynt y fath gyflawnder o aur, fel y rhwyment eu carcharorion â chadwyni aur—amgylchiad a ddwg i'n cof ddysgrifiad Esaiah o Ethiopia a Seba yn *pen.* xlv. 14.

Gyda golwg ar wareiddiad hynafol Ethiopia Briodol, neu deyrnas Moroë, yr oedd mewn cyssylltiad agos â chrefydd y wlad; sef addoliad Ammon a'i gyd-dduwiau: ac "Oraclau Ammon" oedd ei phrif gynnaliaeth. Yr oedd ei llywodraeth yn nwylaw dosbarth o offeiriaid, y rhai a ddewisent frenin o'u plith eu hunain; a pharhaodd y ddefod yma hyd deyrnasiad yr ail Ptolemy yn yr Aipht, pan y darfu i Ergamenes, oedd yn frenin ar y pryd, lofruddio yr offeiriaid yn eu cyssegrleoedd, a myned yn unbenaeth holloL

Am hanes Ethiopia cyn y chwyldroad diweddaf hwnw, ychydig o hysbysrwydd yn unig sydd ar gael; ond y mae yn ddigon i ddangos ei hynafiaeth mawr, a'i dyrchafiad boreu. Mae yn sicr fod ei llywodraeth yn annibynol a phwysig yn y cyfnod Persiaidd, yr hon y methodd Cambyses yn lân ei darostwng. Ond ei chyfnod mwyaf blodeuog oedd rhwng 800 a 700 c.c., pan y cyfododd tri o freninoedd cryfion yn eu plith, Sabaco, Sevechus, a Tarhaco, neu Tirhacah; y rhai a estynasant eu buddugoliaethau dros ran helaeth o'r Aipht. Tybir mai yr un oedd Sevechus a So neu Sua, brenin yr Aipht, at yr hwn yr anfonwyd cenadwri gan Hosea, brenin Israel (2 *Bren.* xvii. 4), teyrnasiad yr hwn a derfynodd 722 c.c. Yr oedd efe fel hyn yn gydoeswr â Salmanassar, brenin Assyria, fel yr oedd Tirhacah â phenaeth nesaf Assyria, Senacherib; yr hwn, yn nghylch 714 c. c., a attaliwyd rhag ymosod ar yr Aipht gan y "swn" yn unig fod Tirhacah yn dyfod yn ei erbyn ef: 2 *Bren.* xix. 9. Y mae bron yn ddiammheuol mai at Tirhacah a'i bobl y cyfeiriwyd y brophwydoliaeth hynod sydd yn *Esa.* xviii—i'w hysbysu o gwymp disymmwth llu yr Assyriaid o flaen Ierusalem: "Gwel y tir sydd yn cysgodi âg adenydd, yr hwn sydd tu hwnt i afonydd Ethiopia: yr hwn a hebrwng genhadau hyd y môr, ac ar hyd wyneb y dyfroedd, gan ddywedyd, Ewch genhadon cyflym, at genhedlaeth wasgaredig ac ysbeiliedig; at bobl ofnadwy er pan ydynt, ac eto cenhedlaeth wedi ei mesur a'i sathru, yr hon yr ysbeiliodd yr afonydd ei thir" (*Esa.* xviii. 1, 2); neu, yn ol Kitto, "Ho! tydi dir â'r adenydd trystiog [sef, byddinoedd yn nhrwst rhyfel, megys yn *pen.* viii. 8] sydd tu hwnt i afonydd Cus [canys saif y wlad o'r tu deheu i'w hafonydd mawrion], yr hwn a hebrwng ei genadau hyd y môr [Coch], ac mewn llestri papyrus ar ddyfroedd [y Nilus]: Ewch! chwi genadon cyflym, at genhedlaeth bybyr a gwrol—cenhedlaeth ofnadwy er pan ydyw, ac eto—cenedlaeth alluog a gorlethol, yr hon y mae yr afonydd yn croesi eu gilydd yn ei gwlad," &c. Ail adroddir y darluniad

Digitized by Google

yma am genedl. yr Ethiopiaid, bron air yn air yn *adn.* 7; ac awgrymir y byddai i'r bobl bellenig hyn, wedi eu synu gan weithredoedd nerthol Duw Iacob, anfon rhodd i le ei breswylfod ef yn Sïon. Diammheu eu bod yn mysg y "llawer" a ddysgrifir yn 2 *Cron.* xxxii. 23, a "ddygasant roddion Iehofah yn Ierusalem, a phethau gwerthfawr i Hezeciah brenin Iudah, fel y dyrchafwyd ef o hyny allan yn ngwydd yr holl genedloedd." Sylwir gan Gesenius fod y dysgwyliad am gwbl dröedigaeth yr Ethiopiaid yn cael ei fynegu yn fynych gan y proplwydi Hebreaidd (*Esa* xlv. 14: *Zeph.* iii. 10; *Salm* lxviii. 32; lxxxvii. 4); a chwanega, "Gall y rhai a gymmerant hyfrydwch i olrhain y cyflawniad o'r cyfryw ragfynegiadau mewn hanes canlynol, ei ganfod yn *Act.* viii. 43 (yn nychweliad trysorydd y frenines Candace at Iuddewiaeth a Christionogaeth), ac yn fwy drachefn yn y ffaith mai Abyssinia ydyw yr unig lywodraeth Gristionogol fawr sydd yn y byd dwyreiniol hyd y dydd hwn." Dywed Wilkinson fod llun ac enw Tirhacah, yn nghyd â'i ymgyrch yn erbyn Senacherib, wedi eu cofnodi ar furiau teml Theban. "Fe allai," eb efe, "fod Sethos wedi rhanu y deyrnas âg ef yn nechreu ei lywodraethiad; ac wedi llywodraethu ei hun yn yr Aipht Isaf, tra yr oedd y penaeth Ethiopaidd yn llywodraethu y wlad uchaf; a gall hyn ddangos pa ham nad yw enw Sethos ar gofadeiliau Thebes. Mae yn anhawdd penderfynu pa un ai trwy briodi rhai o deulu breninol y wlad yr oedd gan Tirhacah a Sabaco hawl i orsedd yr Aipht, ai ynte a gyfyngid y llywodraeth ar y cyntaf i'r Thebiaid; ond arwydda y parch a roddid gan eu holynwyr i'r cofadeiliau a gyfodasant eu bod wedi myned i'r orsedd trwy hawl yn hytrach na thrwy drais a grym arfau" [*Anci. Egypt*, i. 140]. Y mae Megasthenes yn llefaru am odidogrwydd milwrol Tirhacah, yn Strabo [xv. 1, 6], lle y crybwyllir am *Tearcôna tòn Aithiopa* gyda Sesostris a Nebuchodonosor fel un a dreiddiodd i Ewrop, ac a aeth yn mlaen cyn belled a cholofnau Hercwlff (*the Pillars of Hercules*) - terfyn cyffredin buddugoliaethwyr mawrion. Teyrnasodd Tirhacah, yn ol Julius Africanus, am ddeunaw mlynedd; ond yn ol Eusebius, am ugain mlynedd. Y blaenaf a'i geilw yn *Tarcos*, a'r olaf yn *Taracos.* "Yr oedd dwy freninllin ar unwaith âg ef," medd Gesenius, "yn Sais a Tanis; a diammheu mai yn Thebes yr oedd ei arosfa yntau. Yn y blynyddoedd olaf o'i deyrnasiad ef y syrthiodd y Dodekarchy, pan yr ymgiliodd yr Ethiopiaid i'w teyrnas gyntefig [*Herod.*, ii. 139]. Oddi wrth y cyssylltiad yma, gellir cael eglurhad boddhaol ar waith Esaiah yn crybwyll mor fynych am berthynas wladol agos yr Aipht ac Ethiopia (gwel yn neillduol *pen.* xx. 3—6). Gwelir yr un peth yn y prophwydi olaf; yr hyn a brawf fod y ddwy wlad yn parhau i fod ar delerau cyfeillgar â'u gilydd: *Ezec.* xxx. 4, &c.; *Ier.* xlvi. 9; *Nahum* iii. 9; *Dan.* xi. 43. Yn olaf, defnyddir Ethiopia yn benaf fel enw teulu cenedlaethol a breninol oedd yn awr mewn bri."

Os eir yn ol tua dwy ganrif, hyd deyrnasiad Asa, brenin Iudah (950 c. c.), ceir son am Zerah, yr Ethiopiad, yn myned allan yn ei erbyn ef, â llu o fil o filoedd o wŷr, a thri chant o gerbydau: 2 *Cron.* xiv. 9. Mae yn anhawdd penderfynu pa un ai penaeth ai cadlywydd Ethiopaidd oedd hwn, ynte anturiwr Cusaidd yn unig; ond y mae yn amlwg mai Affricaidd yn benaf oedd ei lu, ac nid Arabaidd, oddi wrth y mynegiad ei fod yn cynnwys Lybiaid yn gystal a Chusiaid (2 *Cron.* xvi. 8]; ac oddi wrth y crybwylliad am y cerbydau rhyfel, y rhai ni arferwyd erioed yn Arabia. Am amseroedd pellach yn ol na hyn, y mae hanesyddiaeth yn ddistaw. Y mae yn wir y dywed Pliny [*Hist. Nat.*, vi. 35], ar ol sylwi fod Ethiopia wedi ei dystrywio gan ei rhyfeloedd â'r Aipht, yr hon a ddarostyngai weithiau, ac a wasanaethai bryd arall, ei bod yn rymus a godidog cyn belled yn ol a rhyfel Caerdroiau, pan oedd Memnon yn teyrnasu. Y mae cofadeiliau hefyd mewn bod sydd yn ein sicrhau fod yr hynafiaeth uchel a briodolir i lywodraeth Moroë gan hen draddodiad yn eithaf cywir. Canfyddwyd enw Rameses neu Sesostris ar amryw o adfeilion Nubia; ac y mae yn eithaf adnabyddus mewn hanesyddiaeth fel ei gorchfygwr [*Herod.*, ii. 100]. Nid yw yn rhyfedd gan hyny fod y Pharaohaid wedi estyn eu buddugoliaethau i Ethiopia, yn nyddiau y rhai yr oedd y pethau hyn yn cael eu cyflawnu; a pha'n yr oedd Mehemet Ali wedi llwyr feddiannu yr Aipht, pan y danfonodd ei fab i ddarostwng Ethiopia; yr hwn a dreiddiodd, nid yn unig i Meroë, ond yn llawer pellach i'r deheu. Nis gellir rhoddi cyfnod Rameses yn ddiweddarach na 1500 c. c. Ond y mae enw Pharaoh Thutmosis, yr hwn a yrodd Hycsos ymaith, a ganfyddwyd gan Champollion ar demlau Nubiaidd Amada, a'r cerfiadau a gafwyd yno, yn dangos graddau o wareiddiad na's gellir ei briodoli ond i genedl oedd yn bod er's hir amseroedd. Y mae hyn yn ein dwyn yn agos i oes Moses, pan y mae traddodiad Iuddewig, fel y mynega Josephus, yn priodoli gorchfygiad Meroë i Moses ei hunan, fel cadlywydd byddin yr Aipht; ac y mae traddodiad Aiphtaidd yn cytuno, mai yr Ethiopiaid a sylfaenasant lywodraethau hynaf yr Aipht.

Ymddengys fod llywodraeth Meroë yn debyg i lywodraethau mwyaf canolbarth Affrica yn bresennol, yn cynnwys nifer o wahanol lwythau heb gael eu cyssylltu yn nghyd gan unrhyw rwymyn gwladol cadarn, ond gan un ffurf gyffredin o grefydd, a osodwyd yn nwylaw yr offeiriaid—llwyth llywodraethol y wlad. Y mae pob lle i gasglu, fel y crybwyllwyd eisoes, fod gwahanol gangenau o'r llwyth offeiriadol wedi lledaenu o Meroë i'r Aipht; ac y mae hen gofadeiliau yn Ethiopia yn cadarnhau y traddodiad cenedlaethol a adroddir gan Diodorus Siculus, mai yn Meroë y dechreuodd addoliad Ammon ac Osiris, ac yn rhoddi sail gref i'r farn fod masnach a gwareiddiad, gwybodaeth a chelfyddyd, wedi disgyn i'r Aipht o Nubia a gororau uchaf y Nilus. Un achos mawr o lwyddiant ac ardderchogrwydd boreuol Ethiopia oedd, ei bod yn ganolbwynt y fasnach a ddygid yn mlaen rhwng India ac Arabia, ar un llaw, a chanolbarth Affrica, ac yn enwedig yr Aipht, ar y llaw arall. Eglurir hyn yn dda gan Heeren, yr hwn a ddywed, "Po bellaf yr esgynir i'r oesau hynafol, agosaf oll yr ymddengys y cyssylltiad rhwng yr Aipht ac Ethiopia." Anfaml y mae y beirdd Hebreaidd yn crybwyll am y naill heb y llall; a darlunir trigolion y ddwy wlad fel cenedloedd masnachol. Pan y mae Esaiah yn mawrygu buddugoliaethau Cyrus, llefara am eu darostyngiad hwy iddo fel ei wobr ardderchocaf: *Esa.* xlv. 14. Pan y cofnoda Ieremïah frwydr fawr Nebuchodonosor â Pharaoh-Necho, yn agos i Carchemis, ceir yr Ethiopiaid mewn cynghrair â'r Aiphtiaid: *Ier.* xlvi. 9. Pan fygythia Ezeciel yr Aipht â dymchweliad, cyssylltir hi âg Ethiopia bell: *Ezec.* xxx. 4. Y mae profion yn mhob rhan o hanes yr

Aipht fod cyssylltiad agos rhwng y ddwy wlad. Cafodd llywodraeth foreuol yr Aipht ei tharddiad yn y gororau pellenig hyn. Sefydlodd Thebes a Moroë un drefedigaeth gyffredinol yn Lybia; ymosododd buddugoliaethwyr Ethiopaidd fwy nag unwaith ar yr Aipht; gweithiai breninoedd yr Aipht hefyd yn eu tro eu ffordd trwy rym arfau i Ethiopia; canfyddir yr un addoliad, yr un defodau ac arferion, a'r un dull o ysgrifenu, yn y ddwy wlad; ac, o dan Psammetichus, ymneillduodd plaid ardderchog a lluosog o'r deiliaid anfoddog i Ethiopia. Yr oedd yr Aipht hefyd, cyn belled ag y cyrhaedd hen hanesyddiaeth yn ol, yn llawn o nwyddau y gororau deheuol. O ba le y cafodd hi y llysiau peraidd, a'r cyfferi i berarogli ei meirw? O ba le y cafodd y perarogl a losgai ar ei halloriau? O ba le y cafodd yr holl swm o gotwm yn yr hwn yr ymwisgai ei thrigolion—oedd mor brin yn ei thir ei hun? O ba le y daeth y sŵn boreuol i'r Aipht am wledydd aur Ethiopia, y rhai yr aeth Cambyses allan i'w darganfod, ac y collodd hanner ei fyddin yn yr antur? O ba le y daeth y fath gyflawnder o ifori ac eboni, a weithiai hen gelfyddydwyr Groeg a Phalestina mor gywrain? O ba le yr ymdaenodd enw cyffredinol a boreuol Ethiopia, sydd yn ymrithio yn hanesyddiaeth draddodiadol cynnifer o genedloedd, ac a fawrygir gan y prydyddion Iuddewig, gystal a chan y beirdd Groegaidd? O ba le, ond oddi wrth y gydfasnach fawr i'r hon yr oedd Ethiopia yn safle ac yn ganolbwynt? Nodir allan ei phrif rodfa hyd heddyw gan gadwen o adfeilion yn cyrhaedd o ororau Môr yr India hyd Fôr y Canoldir. Y dolenau o'r gadwen hon rhwng Arabia Felix a Moroë oedd Adule, Azab, ac Axum; a Thebes ac Ammonium rhwng Moroë, yr Aipht, a Charthage: *Heeren's Anci. Nat. of Africa*, i. 289, &c.

Mae yn ddiammheu mai brenines Moroë oedd y frenines Candace, y sonir am dani yn *Act.* viii. 27; canys y mae yn debyg fod ffurf Iuddewiaeth yn cael ei phroffesu gan ran o drigolion Moroë, fel yr ymddengys fod hefyd mewn talaeth gyfagos o Abyssinia. Y mae y prophwydi (*Esa.* xi. 11, er esampl) yn cyfeirio weithiau at yr Iuddewon oedd ar wasgar yn Cus (Ethiopia). Ethiopiad oedd Ebedmelech, eunuch cymmwynasgar y brenin Sedeciah, yr hwn a ddangosodd y fath garedigrwydd i'r prophwyd Ieremiah: xxxviii. 7; cymharer *Act.* viii. 27. Y mae Josephus yn galw y frenines Seba, a ymwelodd â Solomon, yn "frenines yr Aipht ac Ethiopia;" ac â hyn y cyttuna traddodiad yr Abyssiniaid, y rhai sydd yn ei hòni fel eu brenines frodorol, ac yn rhoddi yr enw Maqueda iddi: a hònant fod iddi fab o Solomon, a elwid Menilec; a enwid fel teitl, Dafydd I. Eto, y mae yn ddiammheuol mai yn Arabia Felix yr oedd Seba, er y dichon fod llywodraeth eu penaduriaid, yn yr hen amseroedd, yn cyrhaedd ar draws y Môr Coch i oror Ethiopia.

**ETHIOPIA, EGLWYS.** Gwel Abyssinia, Eglwys.

**ETHNAN,** [אתנן=*dawn; cyflog;* 'Εσθανάμ]: o hiliogaeth Iudah: un o feibion Helah, gwraig Assur, "tad Tecoa;" 1 *Cron.* iv. 7.

**ETHNI,** [אתני=*haelioni;* 'Αθανί]: Lefiad o feibion Gersom, un o gyndadau Asaph y cantor: 1 *Cron.* vi. 41.

**ETHNIG:** Cymreigiad o'r gair Groeg ἐθνικός, yn arwyddo *cenedl-ddyn, pagan*, dyn digred. Unwaith y ceir y gair yn y Testament Cymraeg, sef yn *Mat.* xviii. 17; "Bydded ef i ti fel yr *ethnig* a'r publican." "Bit ef y-ty megis *cenedlic* a Phublican" (ymyl y ddalen, "*anffyddlon* a thollwr").—W. S. Yr unig fan arall lle y defnyddir y gair yn y Testament Newydd, a hyny yn y rhif luosog, ydyw *Mat.* vi. 7, lle y cyfieithir ef yn *cenedloedd:* "A phan weddïoch, na fyddwch siaradus fel y *cenedloedd.*" Yn ol W. S, "A phan weddiych di, na vydd val yr *hipocritæ*" (ymyl y ddalen, "*ffucwyr*"). Cymreigiad ydyw *hypocritæ* o'r Groeg ὑποκριτής: o'r hwn hefyd y mae *hypocrite* y Seison; a'i ystyr ydyw twyllwr, ffugiwr, rhagrithiwr; ond ystyr priodol y gair Groeg *ethnicoi* ydyw *cenedloedd*, fel y mae yn y cyfieithiad Cymraeg cyffredin. Mae y cyfieithiad Seisoneg hefyd yn briodol yn y ddau le; sef, *heathens* a *heathen.* Doddridge a aralleiria yr ymadrodd blaenaf (*Mat.* xviii. 17) fel hyn:—"A bydded ef gan hyny i ti hyd yn oed fel y *cenedl-ddyn* a'r tollwr (*publican*), yr hwn y gwnelit gymmwynas iddo yn unig fel dyn, ond yr hwn y gochelit ei gymdeithas am ei bod yn warthus, ac i'r hwn nid ydwyt dan y rhwymedigaethau y mae brodyr Cristionogol danynt i'w gilydd." Yr ymadrodd arall (*Mat.* vi. 7) a aralleiria fel hyn:—"Ond pan weddïoch chwi, na ddefnyddiwch luaws o eiriau ofer, fel yr arfer y cenedloedd (y paganiaid) wrth gyfarch eu duwiau." "Yr oedd y Paganiaid," med Young, "yn llenwi eu hemynau i'w duwiau âg ail adroddiadau gwag." "Mae yn agos i gant o ben nillion mewn un dernyn o'r bardd Groegaidd Æschylus," medd Hammond, "wedi eu llenwi âg ail adroddiad o'r un gweddïau ar y duwiau." Dywedir fod tuedd amlwg yn yr Iuddewon, yn enwedig y Phariseaid, yn amser ein Iachawdwr, i ddilyn yr arfer baganaidd hon yn eu gweddïau; a diau mai at hyny y cyfeiria yr Arglwydd Iesu, pan y cyhudda yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid o fod mewn "rhith yn hir-weddïo" (*Mat* xxiii. 14; *Marc* xii. 49); gan hyny, mor briodol ydyw y gwaharddiad a rydd efe yn y geiriau dan sylw, "A phan weddïoch chwi, na fyddwch siaradus fel y Cenedloedd."

ETHNOPHRONIAID, [*Ethnophrones*]: Paganeiddwyr; sef rhai yn proffesu Cristionogaeth, gan gyssylltu rhyw ofergoelion paganaidd wrthi, megys serddewiniaeth, daroganiaeth, a swyngyfaredd o bob math, a'r cyffelyb bethau ynfyd; y rhai hefyd sydd yn cadw gwyliau, amseroedd, a gloddestau, fel y cenedloedd paganaidd. Y mae Eglwys Rhufain wedi cymmysgu llawer iawn o baganiaeth â'i haddoliad, fel y dengys Dr. Middleton, ac ereill; ac y mae y Jesuitiaid wedi mabwysiadu yr egwyddor yma i raddau helaeth yn eu cenadaeth yn mysg yr Hindwaid a'r Chineaid; hyny yw, y maent hwy wedi myned yn hanner Paganaidd, er mwyn ennill y Paganiaid i fod yn hanner Cristionogol.

EUBULUS, [Εὔβουλος=*cynghorwr da*]: Cristion oedd yn Rhufain pan yr ysgrifenai Paul ei Ail Epistol at Timotheus, yr hwn oedd yn un o'r pedwar "brodyr oll," a enwyd gan yr apostol, oedd yn anfon eu hanerchion at yr efengylwr ieuanc i Ephesus: 2 *Tim.* iv. 21.

EUCHITIAID, [*Euchitæ*, o εὐχή, *gweddi*]. Gweddïwyr: enw a gymhwyswyd ar wahanol amserau at y rhai a fyddent nodedig, neu o leiaf a broffesent fod yn nodedig o dduwiol. Y mae

Digitized by Google

Buck yn eu dynodi fel sect o hen hereticiaid, y rhai a ffurfiwyd yn gorff crefyddol am y tro cyntaf tua diwedd y bedwaredd ganrif, er fod eu hathrawiaeth a'u dysgyblaeth yn Syria, yr Aipht, a gwledydd dwyreiniol ereill, er cyn Crist. Fe'u galwyd hwy fel hyn, medd Buck, o blegid eu bod yn gweddïo yn ddibaid, gan feddwl fod gweddi yn unig yn ddigonol i'w hachub. Math o gyfrinwyr oeddynt, eb efe, yn credu, yn ol y syniad dwyreiniol, fod dau enaid yn preswylio mewn dyn—un da ac un drwg: ac yr oeddynt yn awyddus am fwrw allan yr enaid drwg, neu yr ellyll (*demon*), ac i brysuro dychweliad y da i mewn, sef Ysbryd Duw, trwy fyfyrdod, gweddi, a chanu emynau. Yr oeddynt hefyd, medd Buck, yn cofleidio syniadau cyffelyb i'r Manicheaid, y rhai a gawsant yn naliadau yr athronwyr dwyreiniol. [Gwel MANICHEAID.] Defnyddiwyd yr un enw yn y ddeuddegfed ganrif, medd efe, i ddynodi rhyw benboethiaid oedd yn blino yr eglwysi Groegaidd a dwyreiniol, y rhai a gyhuddid o gredu Trindodaeth ddyblyg, o ymwrthod â phriodas, o ymattal oddi wrth gig, o ymddwyn yn ddirmygus at y sacramentau o fedydd a Swper yr Arglwydd, ac amryw ddefodau allanol addoliad, gan gredu mai unig hanfod crefydd yw gweddi gyhoeddus; ac o gredu effeithiolrwydd cadwedigol ymbiliau parhaus ar y Bôd Goruchaf ar iddo yru allan yr ysbryd drwg, yr hwn a breswyliai yn mynwes pob dyn marwol.

Dywedir i'r sect yma gael ei sefydlu gan berson a elwid Leucopetrus, prif ddysgybl yr hwn oedd Tychicus. Cymhwysid yr enw at y Pauliciaid; ac yn y canoloesoedd at y Waldensiaid, duwioldeb syml y rhai oedd yn hynod o ddirmygus yn ngolwg mynachod ac offeiriaid sarhaus a rhagrithiol Eglwys Rhufain. Yr oeddynt yn cael eu galw hefyd yn Massilliaid a Bogomitiaid,—geiriau o'r un ystyr.

Ystyria Robinson y gair Euchitiaid fel enw cyffredinol ar yr Ymneillduwyr, cyfystyr i Puritaniaid ac Anghydffurfwyr. Dyma sylwedd yr hanes a rydd efe am danynt.

Yr oedd y cyff cynteflg a chyffredinol yma, a elwid Euchitiaid, neu Ymneillduwyr, yn cael eu rhanu a'u hadranu gan y clerigwyr yn amryw ddosbarthiadau o hereticiaid. Yr oeddynt yn camddarlunio eu hathrawiaethau, yn duo eu cymmeriadau; ac, mor fynych ag y gallent, byddent yn cynhyrfu tywysogion i'w herlid. Aeth rhai o'r Ymneillduwyr hyn i goleddu syniadau newyddion, ac aethant yn Euchitiaidd, Manicheaidd, Ariaidd, ac Athanasiaidd. Galwyd ereill o honynt ar enwau y gwledydd lle y byddent yn lluosog, megys Bulgariaid, Macedoniaid, Armeniaid, &c. Gelwid ereill ar enw rhyw athraw enwog yn eu plith, megys Pauliciaid, Paulianiaid, Novatiaid, a llawer mwy o'r un dosbarth. Anghydffurfwyr yn unig, gan hyny, oedd yr Euchitiaid Manicheaidd, a chyffelyb oedd y lleill, os oedd i'r geiriau, mewn gwirionedd, ryw ystyr penodol o gwbl, yr hyn sydd ddigon ammheus, os ystyrir yr hanesion anghysson a roddir am danynt gan wahanol haneswyr eglwysig.

EUDOXIAID: sect oedd yn y bedwaredd ganrif a alwyd ar enw eu harweinydd, Eudoxius, patriarch Antiochia a Chaer Cystenyn, amddiffynwr mawr i athrawiaeth yr Ariaid. Yr oeddynt yn credu fod y Mab wedi ei greu o ddim; fod iddo ewyllys annibynol a gwahanol i'r Tad, &c. Yr oeddynt yn credu llawer o athrawiaethau ereill yr Ariaid a'r Eunomiaid.

EUERGETES, [Εὐεργέτης=*noddwr*]: cyfenw cyffredin a theitl o anrhydedd yn y taleithiau Groegaidd, ac a roddid yn Athen trwy bleidlais gyffredin, fel y dengys Plato, Demosthenes, ac ereill; ac yr oedd wedi myned mor hynod erbyn dyddiau ein Iachawdwr, fel yr oedd yn ddiareb. Gellir casglu hyn oddi wrth *Luc* xxii. 25—yr unig fan yn y Testament Newydd lle y mae y gair, yr hwn a gyfleithir yno yn "bendefigion." Yr oedd y teitl yn cael ei arfer gan ddau o'r Ptolemiaid, Ptol. III, Euergetes I, 247—222 C.C., a Ptol. VII, Euergetes II (170) 146—117 C.C. Cymmerwyd yr Euergetes a grybwyllir yn y prolog i Ecclesiasticus yn lle pob un a nodwyd, yn ol y gwahanol olygiadau a gymmerir o hanes y llyfr.

EUMENUS II. [Εὐμένης], brenin Pergamus, a ddilynodd ei dad Attalus I, 197 C.C.; oddi wrth yr hwn y cafodd ffafr a chynghrair Rhufain. Yn y rhyfel âg Antiochus Fawr, yr oedd ei wasanaeth o'r pwys mwyaf i weriniaeth gynnyddol Rhufain; ac ar ol brwydr Magnesia (190 C. C.), lle yr arweiniai ei fyddin ei hunan [*Just.*, xxxi. 8, adr. 5; *App. Syr.*, 34]. Ar ol yr heddwch a wnaed, 189 C.C., aeth i Rufain i hawlio gwobr ei ffyddlondeb, a rhoddodd y senedd iddo daleithiau Mysia, Lydia, ac Ionia (oddigerth rhyw ychydig), Phrygia Lycaonia, a Gorynys Thrasia [*App. Syr.*, 44; *Polyb.*, xxii. 7; *Liv.*, xxxviii. 56]. Parhaodd ei ddylanwad yn Rhufain yn ddidor hyd y rhyfel â Perseus, gyda'r hwn y dywedir iddo ddwyn yn mlaen ohebiaeth fradwrus [*Liv.* xxiv. 24, 25]; ac ar ol gorchfygu Perseus (167 C.C.), edrychid arno gydag ammheuaeth y methodd er pob egni ei symmud. Ni ddywedir yn fanwl pa bryd y bu farw, ond rhaid fod hyny wedi dygwydd yn 159.

Crybwyllir am y tiriogaethau helaeth a roddwyd iddo o lywodraethau blaenorol Antiochus yn 1 *Mac.* viii. 8; ond dywedir fod anhawsder mawr yn y testynau Groeg a Lladin i ddeall yn fanwl pa diriogaethau a roddwyd iddo. Dywedir fod "Rhufain wedi rhoddi iddo wlad India a Media, a Lydia, a'r rhanau prydferthaf o wledydd Antiochus." Dywedir fod yn y mynegiad yma ryw gamsyniadau pwysig, ac y mae amryw o wŷr dysgedig wedi ysgrifenu yn helaeth er ceisio eu heglurhau, megys Grimm, Wernstorf, ac ereill.

EUNICE, [Εὐνίκη]: mam Timotheus. Iuddewes oedd hi, er iddi briodi Groegwr, ac er bod iddi enw Groegaidd, yn arwyddo *buddugoliaeth dda*—enw un o'r Nereidiaid, merched Oceanus. Y mae yn amlwg ei bod yn credu yn Nghrist; ac yr oedd hyd yn oed ei mam Löis yn byw mewn ffydd yn y Messïah oedd i ddyfod, os na bu fyw i'w weled yn mherson Iesu o Nazareth.

EUNOMIUS: oedd un o benaethiaid sect yr Ariaid yn ystod y bedwaredd ganrif, a brodor o Dacora, Cappadocia, tref yn nhalaeth Cesarea. Cyfreithiwr ydoedd ar y dechreu; a dywedir iddo fod am ryw amser yn y fyddin. Yna aeth yn ddysgybl i Actius, dan yr hwn yr efrydiodd athrawiaeth Cristionogaeth yn llwyddiannus, fel y deallid hi gan y Gwrthdrindodiaid. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn Antiochia tua B.A. 360; a thrwy ddylanwad Eudoxius, Esgob Caer Cystenyn, etholwyd ef yn esgob Cyzicum, yn yr un flwyddyn. —*Theod.*, ii. 29; *Philos. Hist. Eccl.*, vi. 1—3. Arweiniodd ei waith yn mynegi ei olygiadau yn llawn, a'i anewyllysgarwch i roddi ei law wrth gyffes Ariminum, yn nghyd â thuedd Actius, iddo roddi ei swydd i fyny [*Socr.*, iv. 7; *Sojom.*, vi. 8,

Digitized by Google

gwneir hwynt yn offerynau i'w gyflawni. Nid yw dysbaddiad, yn enwedig ar fabanod, yn ddim anbytach na thoriad rhyw aelod arall a wneir gan feddygon. Dywed Chardin mai un o bob pedwar yn unig sydd yn byw; a dywed Clot Bey, prif feddyg y Pasha, fod dwy ran o dair yn meirw. Y mae Burkhardt, gan hyny, yn gamsyniol pan y dywed mai rhyw ddau o bob cant sydd yn meirw yn yr amgylchiad. Mae yn debyg fod Daniel a'i gyfeillion wedi dyoddef y driniaeth, er cyflawni yr hyn a ragfynegwyd yn 2 *Bren.* xx. 17, 18; *Esa.* xxxix. 7; cymharer *Dan.* i. 3, 7. Yr oedd llys Herod, wrth gwrs, yn cynnwys eunuchiaid [*Jos. Ant.*, xvi. 8; adr. 1; xv. 7, adr. 4], megys hefyd yr oedd llys y frenines Candace: *Act.* viii. 27. Golyga Michaelis [ii. 180] hwy fel canlyniad priodol o amlwreicaeth truenus y dwyrain; ond nid yw ei sylw mor deg, pan y dywed ei fod yn tueddu i gyfartalu y rhywiau mewn gwledydd lle y gwneid y fath wastraff ar wragedd, gan nad ydyw y gwledydd yr anrheithir eu gwragedd yn gyffredin yn cynnyrchu llawer o blant gwryw ar y llaw arall.

Gyda golwg ar y tri dosbarth a grybwyllir yn *Mat.* xix. 12, y mae y cyntaf i'w restru gydag esamplau ereill o ddiffyg naturiol: yr olaf, os cymmerir yn llythyrenol (a dywedir fod ymddygiad personol Origen yn ei egluro: *Euseb. Eccl. Hist*, vi. 8), sydd esampl o wahanol ddull dynol y grefydd feudwyol, a werthfawrogid gan yr Iuddewon yn fwy na'r gorchymyn dadguddiedig — *Schöt. Hor. Heb.*, i. 159. Ond fe ddichon hefyd fod i eunuch (cymharer 1 *Cor.* vii. 32, 34) ystyr ffugrol.

Yn y cyfieithiad Cymraeg o Esther, y gair "ystafellydd" (ymyl y ddalen, "eunuch") ydyw y cyfieithiad parhaus o'r gair Heb. *saris;* a chan ei fod yn cael ei ddefnyddio hefyd yn *Act.* xx. 23, lle y mae yr ymadrodd gwreiddiol yn dra gwahanol, y mae peth gofal yn angenrheidiol. Gall y gair *coitônos* yn yr Actau, arwyddo "ystafellydd" yn unig. Felly yr oedd dynion o ddylanwad cyhoeddus, fel y dengys cerfiad Groeg, a welir yn *Walpole's Turkey* [ii. 559], er anrhydedd P. Aelius Alcibiades, "ystafellydd yr ymherawdwr," ymadrodd yn dangos natur ei nawddogaeth yn fanwl.

EUNUCHIAID, mewn ystyr crefyddol, yw y rhai a dybiant, trwy gamddeall y natur ddynol, y gallant ddadwreiddio eu tueddiadau anmhur, trwy ymostwng i wneyd yr aberth adgas o ddysbaddiad, a'u cymhwyso eu hunain, mewn dull mwy sanctaidd a chymmeradwy, i gyflawni dyledswyddau crefyddol. Dywedir fod yr enwog Origen yn coleddu y syniad truenus yma, ac wedi myned yn wirfoddol trwy yr oruchwyliaeth annynol. Dywedir y gellir canfod personau yn yr eglwys yn mhob oes dan ddylanwad yr hudoliaeth yma; ond fod y syniad cyfeiliornus yn ffynu mwy yn Rwssia, hyd yn ddiweddar, os nad eto, nag mewn un man arall, lle y gellir canfod cannoedd o eunuchiaid, yn enwedig yn y fyddin a'r llynges. Yr oedd yn St. Petersburgh yn ddiweddar res o fasnachdai gofaint arian—oll yn perthyn i'r sect eunuchaidd; ond fod y llywodraeth yn awr yn defnyddio moddion i attal eu cynnydd. Dywedir fod y sect yma, tua diwedd y drydedd ganrif – yn ebrwydd ar ol Origen—wedi myned mor orphwyllog dan ddylanwad eu hoff syniad, fel yr oeddynt, nid yn unig yn dyspaddu y rhai a goleddent eu syniadau hwy, ond pawb ereill y gallent gael gafael arnynt. Galwyd y sect hefyd yn Valesiaid, oddi wrth Valesius—Arabiad oedd wedi bod yn arweinydd iddynt.

EUODIAS, [Εὐοδίας, neu yn hytrach Εὐωδία =aroglber]: chwaer Gristionogol oedd yn aelod o Eglwys Philippi, yr hon oedd mewn cweryl â chwaer arall o'r eglwys hono, a elwid Syntyche. Y mae Paul yn eu dysgrifio fel rhai "a gydlafuriasant âg ef yn yr efengyl;" ac yn dymuno ar ei "wir gymhar" oedd yn yr eglwys "gymhorth y gwragedd hyny i synied yr un peth yn yr Arglwydd:" *Philip.* iv. 2, 3.

EUOGRWYDD. Gwel PECHOD.

EUPHRATES, [פרת; Εὐφράτης]: yn ol barn rhai, sydd air o darddiad Arianaidd, gan mai y llythyren gyntaf yw '*v*, yr hon yn y Sanscrit sydd yn *hu*, ac yn y Groeg, Εὖ; a'r ail elfen yw *fra*—banyn yn arwyddo cyflawnder. Felly, ystyr y gair yw "afon ddaionus a chyflawn." Nid annhebyg ydyw fod yr enw wedi cael ei dalfyru yn fuan ar lafar gwlad i'w ddull diweddar, *Frat*, yr hwn sydd bron yr un sain yn hollol ag a amlygir gan y llytherenau Hebreig. Ond dynodir hi fynychaf yn y Beibl gan y gair *han-nahar*, sef "yr afon," afon fawr Asia, mewn cymhariaeth i ffrydiau byrion Palestina.—*Stanley, S.* a *P. App.*, adr. 34.

Yr Euphrates yw y fwyaf, yr hwyaf, a'r fwyaf pwysig o lawer o afonydd Asia Orllewinol. Y mae dwy ffynnonell benaf ei tharddiad yn mynyddoedd Armenia; un o honynt yn Domly, 25 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Erzeroum, ac ychydig fwy na gradd o'r Môr Du; a'r llall ar lethr gogleddol y trum mynyddig a elwir Ala-Tagh, yn agos i bentref Diyadin, ac heb fod yn mhell o fynydd Ararat. Cafodd y flaenaf, neu yr Euphrates ogleddol, ei galw yn *Frat* o'r dech reuad, ond adnabyddir hi hefyd dan yr enw *Karasu* (yr Afon Ddu); a'r olaf, neu yr Euphrates ddeheuol, a elwir y *Murad Chai*, ac nid *Frat*, er mai hon mewn gwirionedd yw y brif afon. Mae y ddwy afon yn llifo ar unwaith tua'r gorllewin neu y de-orllewin, gan fyned trwy lawer o barthau mwyaf gwyllt a mynyddig Armenia, a chyfarfod yn Kebban-Maden, yn agos i 39 gradd o'r hydred dwyreiniol o Greenwich—un wedi llifo 400, a'r llall 270 o filltiroedd. Yma, ar ol ymgyfarfyddiad y ddwy afon, ymgyfuna yn un corff o ddwfr 120 llath o led, cyflym, a thra dwfn: llifa wedi hyny tua'r deheu, ond gwna ei rhedfa droellog ei ffordd trwy drumau y Taurus a'r Anti-Taurus; ac ymddengys yn barhaus fel pe byddai am ymarllwys i Fôr y Canoldir; ond fe'i rhwystrir i wneyd hyny gan drumau hirion Amanus a Libanus, y rhai sydd yma yn cydredeg hyd oror Syria, ac heb fod yn mhell oddi yno. Ymddengys yr afon o'r diwedd megys yn rhoddi i fyny ei bwriad o ymarllwys i Fôr y Canoldir; a thua hydred 36 gradd, try tua'r de-ddwyrain, ac aiff yn mlaen yn y cyfeiriad yma dros fwy na mil o filltiroedd, ac ymarllwysa i gulfor Persia. Mae y rhan olaf o'i rhediad, o Hit i waered, trwy ddyffryn isel, gwastad a marianol dros yr hwn y mae yn dueddol i ymledu a chroni. Uwch law Hit, ac oddi yno i Sumeïsat (Samosata), mae y wlad ar hyd ei glanau gan mwyaf yn agored, ond yn fryniog: tua'r gogledd o Sumeïsat, rhed yr afon mewn dyffryn cul, yn mhlith mynyddoedd uchel, lle y dygwydd arni luaws o wylltrediadau. Ystyrir fod holl redfa yr afon yn 1730 o filltiroedd – yn agos i 250 yn hwy na'r Tigris, ac heb fod yn llai ond 200 milltir na'r Indus; ac y

Digitized by Google

mae mwy na dwy ran o dair (1,200 milltir) o'r pellder yma yn fordwyol i gychod, ac hyd yn oed i agerlestri bychain, fel y prawf hynt y Mil. Chesney. Y mae lled yr afon yn fwy yn y pellder o 700 neu 800 milltir o'i genau, sef o'i chyssylltiad â'r Khabour hyd bentref Werai. Mae yno ar gyfartaledd yn 400 llath; tra yn is i lawr, o Werdi hyd Lamlun, y parha i leihau, fel nad yw ei lled yn y lle olaf yn fwy na 120 o latheni; ac y mae ei dyfnder hefyd yn lleihau o 18 troedfedd, ar amcanrif, hyd 12 troedfedd. Yr achos o'r dygwyddiad hynod yma ydyw cwbl ddiffyg o ffrydiau yn rhedeg iddi o'r tu isaf i'r Khabour, a'r defnydd a wneir o honi i fwydo y tir. Y mae tuedd hefyd yn yr afon yn y parth yma o'i rhedfa—y cyfeiriwyd ato o'r blaen—i lifo ymaith ac ymdreulio yn y corsleoedd eang, y rhai sydd yn gorchuddio y fro farianol fwyfwy bob blwyddyn tua'r gorllewin a'r deheu o'r afon. O blegid hyn y mae rhedfa isaf yr afon yn amrywio yn barhaus; ac y mae yn ammheus yn bresennol a oes dim o ddyfroedd yr Euphrates, oddi gerth ar amseroedd pan y bydd yn llawn iawn o ddwfr, yn ymarllwys i'r Shatel-Arab.

Achosir gorlifiad blynyddol yr Euphrates gan ᵓoddiad yr eira yn ucheldiroedd Armenia, yr hyn a ddygwydd yn mis Mai. Cyfyd y Tigris yn gynnarach, gan y dyhysbydda ystlys trum mawr Armenia. Anfynych y gorlifa y Tigris dros ei cheulenydd, ond gorchuddia yr Euphrates fröydd llydain ar bob ochr, o Hit i waered. Amcan mawr y dyfrweithydd mawrion a briodolir i Nebuchodonosor [*Abyden. Fr.*, 8], oedd rheoli y gorlifiadau, trwy droi y dyfroedd trwy lifddorau i'r camlesydd oedd wedi eu parotoi iddynt, gan eu dosbarthu dros ran eang o'r wlad.

Y mae yr Euphrates wedi bod o gryn bwys bob amser fel llinell masnach rhwng y gorllewin a'r dwyrain. Sonia Herodotus [i. 185] am bersonau —masnachwyr y mae yn debyg—a arferent ei mordwyo yn rheolaidd o Fôr y Canoldir i Babilon. Y mae hefyd yn dysgrifio y cychod a ddefnyddid ar yr afon [i. 194], ac yn crybwyll mai eu llwythi penaf oedd gwin; yr hwn y tybiai efe, fel yr ymddengys, a geid o Armenia. Pa fodd bynag, tebycach ydyw mai o Syria yr oeddynt yn ei gael, gan fod Armenia yn rhy oer i gynnyrchu gwin. Y mae cychod tebyg i'r rhai a ddarlunia efe, o blethwaith coed, wedi eu pygu â phyg, yn cael eu defnyddio fyth ar yr afon. Ymddengys fod Alexander wedi cludo llestri o gryn faintioli i Babilon ar hyd yr Euphrates, y rhai a adeiladodd efe yn Cyprus a Phœnicia. Yr oeddynt wedi eu gwneuthur yn y fath fodd fel y gellid eu tynu yn ddarnau oddi wrth eu gilydd; a cherid y darnau fel hyn i Thapsacus, lle y rhoddid hwynt drachefn yn nghyd, ac y gwthid hwy i'r dwfr [*Aristob. ap Strabo*, xvi. 1, adr. 11]. Anfantais y fynedfa oedd, yr anhawsdra i gludo llwythi yn ol yn erbyn y llif. Yn ol Herodotus [i. 194] torwyd y cychod a ddisgynasant ar hyd yr afon yn ddarnau, a gwerthwyd hwy yn Babilon; a dychwelodd y perchenogion ar eu traed i Armenia, heb gymmeryd dim gyda hwy, ond y crwyn yn unig. Dywed Aristobulus fod y Gerhaeaid wedi bod yn esgyn ar hyd yr afon mewn ysgraffau, nid yn unig i Babilon, ond i Thapsacus, o'r lle y carient eu nwyddau i bob cyfeiriad. Peraroglau a chynnyrchion ereill Arabia oedd eu prif farsiandiaeth. Mae digon o seiliau ar y cyfan i gredu fod marsiandwyr amryw genedloedd trwy ystod yr holl gyfnod Babilonaidd a Phera iaidd yn defnyddio y fynedfa yma ac mai trwyddi hi yr oedd y dwyrain a'r gorllewin yn cyfnewid eu cynnyrchion mwyaf pwysig.

Crybwyllir am yr Euphrates gyntaf yn yr Ysgrythyrau fel un o bedair afon Eden: *Gen.* ii. 14. Y mae ei hynodrwydd yn cael ei awgrymu yno yn ddigon amlwg trwy beidio cyssylltu un eglurhad wrthi megys wrth y ffrydiau ereill. Clywir yn nesaf am dani yn y cyfammod âg Abraham (*Gen.* xv. 18), lle yr addewir yr holl wlad o'r "afon fawr, afon Euphrates," hyd afon yr Aipht i'r had etholedig. Canfyddir yn Deuteronomium ac yn Iosuah fod yr addewid yma yn cael ei chadw mewn cof ar amser yr ymsefydliad yn Ngwlad Canaan (*Deut.* i. 7; xi. 24; *Ios.* i. 4); ac ymddengys oddi wrth ymadrodd yn Llyfr Cyntaf Cronicl fod llwyth Reuben yn ymestyn mewn gwirionedd hyd yr Euphrates, hyd yn oed cyn amser Saul: 1 *Cron.* v. 9. Yma daethant i gyssylltiad â'r Hagariaid, y rhai a ymddangosant ar ganol yr Euphrates yn ngherfladau Assyriaidd yr ymherodraeth ddiweddaf. Ond ymddengys mai Dafydd a gymmerodd lawn feddiant am y tro cyntaf o'r addewid, trwy y buddugoliaethau a gafodd ar Hadadezer, brenin Sobah, a'i gynghreiriaid, y Syriaid yn Damascus: 2 *Sam.* viii. 3—8: 1 *Cron.* xviii. 3. Amcan ymosodiad Dafydd oedd "ennill ei derfynau wrth yr afon Euphrates;" ac ymddengys iddo fod yn gwbl lwyddiannus yn ei amcan, yn gymmaint ag y dywedir fod Solomon, ei fab, yr hwn nid oedd ddyn rhyfelgar, ond yn unig wedi etifeddu llywodraeth ei dad, "yn llywodraethu ar yr holl deyrnasoedd, o'r afon (Euphrates) hyd wlad y Philistiaid, ac hyd derfyn yr Aipht;" 1 *Bren.* iv. 21. Cymharer 2 *Cron.* ix. 26.

Fel hyn, cyrhaeddodd llywodraeth Israel, yn ystod teyrnasiad Dafydd a Solomon, ar bob llaw hyd derfynau llawn yr addewid—gan mai yr Euphrates oedd terfyn eu hymherodraeth tua'r gogledd-ddwyrain, ac afon yr Aipht tua'r deorllewin. Collwyd y llywodraeth eang yma ar ymraniad yr ymherodraeth yn amser Rehoboam; ac ni chlywir son mwy am yr Euphrates yn yr Ysgrythyrau hyd fynediad Necho yn erbyn y Babiloniaid, yn amser teyrnasiad Iosiah. Bu yr Afon Fawr am ryw ysbaid yn derfyn rhwng yr Assyriaid a'r Hittitiaid; ond croeswyd hi lawer gwaith gan fyddinoedd ymherawdwyr Ninefeh —y rhai, o'r diwedd, a sefydlasant eu llywodraeth dros y gwledydd oedd ar y tu deheu i'w glanau. Yr oedd yn anhawdd croesi yr afon bob amser; ac yn y lle yr oedd gradd o gyfleusdra naturiol i wneud hyny yr adeiladwyd amddiffynfa gadarn Charchemis—a hyny, fe allai, yn bur foreu, er mwyn amddiffyn y sefyllfa. Am hyny, pan benderfynodd Necho gynnyg llwyr orchfygu Syria, cyfeiriodd ei ymosodiad ar "Charchemis wrth Euphrates" (2 *Cron.* xxxv. 20)—yr hon a gymmerodd ac a ddaliodd, gan helaethu ei lywodraeth o'r Aipht hyd yr Euphrates, ac adnewyddu hen ogoniant brenhinoedd Ramesside.

Ond nid oedd ei fuddugoliaeth i fod ond ber. Yn mhen tair blynedd wedi hyny, gwnaeth y Babiloniaid—y rhai oedd yn perchenogi llywodraeth Assyria yn y parthau hyn—ymosodiad, dan arweiniad Nebuchodonosor, ar Necho; a gorchfygasant ef, "yr hwn oedd wrth afon Euphrates yn Charchemis" (*Ier.* xlvi. 2), ac ennillasant holl Syria a Phalestina. Yna, "ni ddaeth brenin yr Aipht mwyach o'i wlad: canys brenin Babilon a ddygasai yr hyn oll a oedd eiddo brenin yr Aipht, o afon yr Aipht hyd afon Euphrates;" 2 *Bren.* xxiv. 7.

Digitized by Google

**EURYCH—OD**, [*aur*; צרפי]: yn *Nehem.* iii. 8, 31, cyfieithir y gair Heb. yn *gofaint aur* a *gof aur*; ac yn *adn.* 32, *eurychod.* Yn *Barn.* xvii. 4, *toddydd* y cyfieithir ef; ac yn *Mal.* iii. 2, *toddydd*, ac *adn.* 3, *purwr.* Defnyddir y gair *eurych* ar lafar gwlad mewn ystyr dirmygus, yn gyfystyr â thincer. "Fel dau eurych."—*Diareb.*

**EUSEBIAID**: dilynwyr Eusebius o Cesarea, esgob tra dysgedig yn y bedwaredd ganrif, yr hwn a goleddai y dyb am israddoliaeth personau y Duwdod; yr hyn a barodd iddo gael ei gyhuddo o fod yn Ariad, er fod amryw yn meddwl fod hyny yn gyhuddiad annheg, os cymmerir yr enw *Ariad* yn ei ystyr manylaf. Y mae Mr. Milner yn dywedyd am yr Eusebius yma, yr hwn oedd yn hanesydd eglwysig tra enwog, ei fod y dysgedicaf o'r holl Gristionogion yn yr oes heno. Gwel EUSEBIUS.

**1. EUSEBIUS O CESAREA**: yr hwn a gyfenwid *Pamphili* (hyny ydyw, *Cyfaill Pamphilus*), a anwyd 360 neu 370 B. A., yn Palestina, y mae yn debyg; o leiaf, efe a dreuliodd flynyddoedd ei ieuengctid yno, lle y cyfarfyddodd â Chonstantinus, ac y derbyniodd y cymhelliad cyntaf i dduwioldeb a dysgeidiaeth. Gan fod ei fywgraffiad gan Acacius yn ngholl, ni wyddys ond ychydig am ei addysg, heblaw yr hyn a ddywed efe ei hun yma a thraw ar ddamwain. Yn mhlith ei athrawon, y mae yn enwi yr esgob dysgedig a hyawdl Meletius. Pan ar ymweliad âg Antioch, daeth i gydnabyddiaeth â'r henadur Dorotheus – ysgolhaig Beiblaidd enwog, yr hwn a glywodd efe yn pregethu. Cymmhellid ef gan natur a thuedd i wneuthur defnydd o'r trysorau cyfoethog o ddysgeidiaeth oedd yn enwogi cymmaint ar Palestina y pryd hwnw—llyfrgelloedd eglwysig gwerthfawr yr esgob Alexander o Ierusalem, a Pamphilus o Cesarea. ·Ond tynwyd ei sylw yn benaf gan weithiau Origen. Dichon ei fod yn cael ei dueddu i hyn gan ddylanwad Pamphilus, yn gystal a chan yr hudoliaeth oedd yn y Blatoniaeth Newydd i Gristionogion ieuainc deallus. Tra yr ydoedd Pamphilus yn ngharchar dan erlidigaeth Diocletian, treuliodd Eusebius amryw ddyddiau gydag ef i barotoi molawd ac amddiffyniad i Origen. Ysgrifenodd Eusebius, yn ei flynyddoedd diweddaf, gyda chryn edmygedd, am ei gyfaill merthyredig, a bu gorfod arno ei hun i ffoi rhag yr ystorm oedd yn ymgynhyrfu. Aeth i Tyrus, ac oddi yno i'r Aipht, lle y bu yn dyst o'r cyflafanau barbaraidd oedd yn cael eu dwyn yn mlaen ync, ac am dymmor yn "gyffeswr." O herwydd drwgdybiaeth, yn codi oddi ar ysbryd plaid, fe'i cyhuddwyd ef –yn nghymanfa Tyrus, yn 335, gan yr esgob Potamon, o Heraclea, ei gydgarcharor—o fod wedi diangc rhag yr erlidigaeth drwy foddion gau ac annheg. Y mae yn wir nad oedd natur Eusebius yn benboeth, ac yn chwennych merthyrdod; ond yr oedd yn rhy frwdfrydig a chrefyddol i wadu ei ffydd.

Cyfrinachol yn benaf ydoedd llafur Eusebius, hyd nes y torodd y ddadl Ariaidd allan. Yn y cyfamser, cafodd, yn y trychinebau oedd yn trallodi yr eglwys, helaethrwydd o ddefnyddiau a chynhyrfiadau i weithiau amddiffynol. Cymmerodd ran yn yr ymrysonfa Ariaidd, yn groes i'w ewyllys. Pan y darfu i Arius, drwy genhadon a llythyrau, ac wedi hyny yn ei berson ei hun, geisio ei gynnorthwyo, gobeithiai Eusebius y gallai wneuthur cymmod drwy gydymostyngiad y ddwy blaid: ac yr oedd ei olygiadau athrawiaethol a'i dueddfryd hefyd yn ei arwain ef i gymmeryd y llwybr canol hwn. Ysgrifenodd ddau lythyr at Alexander, ac un arall at Euphrasion, i ddangos fod Arius yn cael ei gamddarlunio.

Safodd gyda'r blaid gyfryngol hefyd yn nghymmanfa Nice. Tystia Sozomen ddarfod i Eusebius y pryd hwnw gael yr anrhydedd o eistedd ar ddeheulaw Cystenyn, a'i longyfarch. Cesglir hyn oddi wrth y dull yn yr hwn y mae Eusebius ei hun yn crybwyll am y llefarwr ar yr achlysur hwnw, ac oddi wrth y ffaith ddarfod iddo ddatgan ei fawl i Cystenyn yn nghanol "gweision Duw." Rhaid priodoli mynegiad Theodoret, fod Eustathius o Antioch, a mynegiad Theodosius o Mopsuesta, fod yr esgob Alexander yn Alexandria wedi cael yr anrhydedd hwn, i sel bleidgarol yr Athanasiaid.

Yr oedd y parch a goleddid i Eusebius o gryn bwys yn y ddadl, er y gellir ystyried yr hanes a rydd efe fel yn bleidgar. Ar ol dadl ystormus, cafodd y Cyffes Ffydd a barotowyd gan Eusebius ei gymmeradwyo, ar ol chwanegu ato yr adranau adnabyddus yn nghylch Duwdod gwirioneddol Crist. Gwrthwynebodd y gair *homoousios* ("cydsylweddol â'r Tad"); ac nid yw yn ei grybwyll yn un o'i ysgrifau dilynol i gymmanfa Nice. Yr oedd cariad at heddwch, ac ewyllys yr ymherawdwr, yn drech na'i holl ammheuon. Gyda graddau o anghydsyniad meddwl gan hyny, ac yn otnus, efe a lawnododd y gyffes, gan barhau i gadw ei le yn mhlith yr Ariaid.

Pa fodd bynag, dygwyd ef i brawf llym pan y cynnygiwyd iddo batriarchaeth Antioch, ar ddiswyddiad Eustathius, yn 331. Wedi ychydig betrusder, fe wrthododd y dyrchafiad; mewn rhan, o herwydd fod diswyddiad esgobion yn effeithio ar drefn eglwysig, ond yn benaf o herwydd fod y cynhyrfiadau tanllyd yn Antioch yn ddychryn i ddyn oedd â'i fryd ar ymchwiliadau llenyddol mewn tawelwch. Canmolodd Cystenyn y gwrthodiad anghyffredin hwn o ddyrchafiad eglwysig. Cymmerodd Eusebius ran, yn ystod parhad y ddadl, yn y mesurau a fabwysiadwyd yn erbyn y blaenoriaid Niceaidd. Ymddengys mai efe oedd yn llywyddu yn nghymmanfa Tyrus, yn 335, yr hon a alwyd yn nghyd i brofi Athanasius. Ar gyssegriad Eglwys y Bedd Sanctaidd, fe sonid am Sabeliaeth Marcellus o Ancyra, ac appwyntiwyd ef gan bwyllgor cymmanfa Caer Cystenyn i ysgrifenu gwrthbrofiad o honi. Yn y flwyddyn 336, yr hon sydd enwog am y gylchwyl ar y ddegfed flwyddyn ar ugain o deyrnasiad Cystenyn, fe ysgrifenodd Eusebius ei arwyrain ar Cystenyn, yr hon a gynnwysa ei holl dduwinyddiaeth. Fe goleddai yr ymherawdwr y parch mwyaf at Eusebius ar ol Cymmanfa Nice, ac ymddiriedai iddo hyd yn oed gyfrinachau ei fywyd crefyddol. O herwydd y farn uchel oedd ganddo am ddysgeidiaeth Eusebius, efe a ymddiriedodd iddo y gorchwyl o barotoi 50 o lawysgrifau memrwn o'r Beibl i eglwysi y brif ddinas. Gan roddi heibio bob gwaith arall, fe ymroddodd Eusebius gyda diwydrwydd diflino at y gorchwyl hwn; a thra yn ei ganol, yn llafurio hyd yr anadl olaf, bu farw.

Yr oedd yn Eusebius gyfuniad o lawer o ragoriaethau meddwl a chalon. Ar amseroedd tawel, a phan heb fod yn awyrgylch y llys, yr oedd ei gymmedroldeb, ei foddlonrwydd, a'i duedd heddychlawn, y fath ag i'w gyfaddasu i fod yn un o'r esgobion goreu. Yr oedd ynddo ddigon o ben-

Digitized by Google

derfyniad i aberthu tueddiadau personol er mwyn dyledswydd, ond yr oedd yn ddiffygiol yn y meddwl trefnus a rheolaidd, a'r sefydlogrwydd hwnw a oedd yn llawn mor hanfodol i'w amgylchiadau. Y mae yn hynod ei fod, tra yn y ddadl âg Athanasius yn amlygu hyd yn oed bleidgarwch eithafol, er hyny yn ymddangos ar fin aberthu y gwirionedd pan yr oedd yn cael ei ddwyn yn mlaen yn erbyn Cystenyn. Y mae ei dduwinyddiaeth, yr hon a dreinwyd yn ei phrif byneiau gan Origen, yn cael ei nodweddu gan yr un neillduolion a'r eiddo yntau. Mewn dysgeidiaeth gyssegredig a chyffredinol, y mae yn rhagori ar yr holl dadau eglwysig, heb adael allan hyd yn oed Origen a Jerome. Yr oedd ganddo hefyd radd o gyfaddasder a gallu i wahaniaethu pyneiau hanfodol oddi wrth y rhai nad oeddynt felly: ond y mae efe yn mhob peth yn ymddangos fel casglwr; gan hyny, fe ellir dywedyd ei fod ef yn ymdeithio ar wyneb Cristionogaeth, yn hytrach nag yn treiddio i'w chyssegr nesaf i mewn. Y mae ei feddwl pwyllog ac ystyriol, trwy yr hwn y daliai berthynas â duwinyddion Antioch, yn amlygu ei hun yn ei ysgrifau hefyd. Y mae dau beth neillduol yn taflu cwmmwl ar gymmeriad Eusebius. Un peth oedd ei berthynas âg Ariaeth. Tra yr oedd personau brwdfrydig, megys Hilary a Jerome, ar unwaith yn ei warthruddo fel llumanwr Ariaeth, ac ail Gymmanfa Nice, yn 787, yn ei gondemnio ef fel y cyfryw, yr oedd ereill yn ei gyhuddo ef o fod yn ddyblyg yn ei ymddygiadau. Yr oedd ychydig yn ei amddiffyn ef megys un uniongred yn ol Cymmanfa Nice, yn mhlith y rhai yr oedd Athanasius, ar y dybiaeth fod Eusebius wedi troi oddi wrth Ariaeth i'r ffydd uniongred. Y gwirionedd ydyw, nid oedd Eusebius yn Niceaidd nac yn Ariaidd yn ei farn; ond glynai bob amser wrth ei ffurf ei hun ar athrawiaeth y Drindod. Glynai yn dditrifol wrth athrawiaeth Origen am y Gair, ac ewyllysiai osod allan Dduwdod Crist yn ymadroddion syml y Beibl. Ond fe'i gyrwyd ef gan y ddrychiolaeth Sabelaidd i lwybr Ariaeth, tueddiadau yr hon nid oedd yn eu canfod yn eglur. Hyn a barodd y cyfnewidiolrwydd amlwg oedd yn ei ddysgrifiad o'r athrawiaeth am Grist.

Y mae efe yn gosod dechreuad (*origin*) y Mab mewn rhyw gyssylltiad damweiniol â hanfod y byd. Yr oedd ar y byd, fel cyfangorff mawr o ranau aneirif, angen am ben i drefnu a llywodraethu y cyfan, ac i'w gadw rhag crwydro yn rhy bell oddi wrth Dduw. Nis gallai y Tad fod y pen hwn, canys byddai gogoniant ei Dduwdod annherfynol yn ormod i bethau crëedig ei oddef. Gan hyny, wedi i'w gariad benderfynu creu y byd, i'r dyben o drosglwyddo iddo fywyd y cariad hwnw, efe a genhedlodd y Mab i ddechreu; nid o un angenrheidrwydd yn ei natur, ond o rydd ewyllys. Efe, fel math o fod cyfryngol rhwng ffynnonell berffaith pob peth a chreaduriaid egwan, oedd i fod yn sail yr hyn oll a grëid, yr organ a rheol fywiol drwy ba un yr oedd pob peth mewn bod i gael eu cyfuno yn nghyd. Byddai ei alw ef yn greadur, a thybied ddarfod iddo ddeilliaw fel creaduriaid ereill oddi wrth un arall, yr un peth a gwadu ei Dduwdod; canys y cenedledig yn unig sydd fel yr hwn a genedlodd; ac yr oedd y Mab yn wastad gyda'r Tad, cyn bod amser. Ond y mae natur y cenedliad hwn, fel y berthynas sydd rhwng y Mab a'r Tad, uwchlaw amgyffred dyn. Y cyffelybrwydd agosaf ydyw arogl blodau. Felly y Mab ydyw y perarogl sydd yn deilliaw oddi wrth y Tad—ei ddelw berffaith, ei ogoniant hanfodol uwch law pob creadur. A'r uniganedig Fab yn unig y mae y Tad yn dal y cyssylltiad hwn; ac fel y mae yr enw yn arwyddo, y mae rhyngddynt berthynas naturiol. Ond mae y dechreuad hwn yn cynnwys y syniad am ei Fabolaeth ef fel bod personol ar wahân oddi wrth y Tad. A chan mai y Tad yw yr unig achos cyntaf annibynol ac anghenedledig, y mae sail gyntaf bodolaeth y Mab yn y Tad. Felly nid yw y Mab yn meddu mawrhydi cyfartal i'r Tad; ac er ei fod cyn amser, nid yw yn ddiddechreu a thragwyddol. Mae y meddylddrych am fodolaeth y Tad yn rhagflaenu y syniad am fodolaeth y Mab. Rhaid i'r Mab hefyd, fel ail Dduw israddol i'r Tad, addoli y Tad. Yr undod hwn o eiddo y Tad fel prif achos cyntaf pob peth, ydyw sylfaen undod y Drindod; canys y mae yn anmhossibl meddwl am dri hanfod personol mewn un, heb fod y tri yn tarddu o'r un. Y mae bodolaeth Duw yn annibynol ar y Drindod: nid yw hyn yn gynhenid yn ei fodolaeth, ond yn gynnyrch gweithred rydd o eiddo yr ewyllys Ddwyfol. Fel hyn y mae israddoliaeth a chydraddoliaeth yn athrawiaeth Eusebius yn myned ar draws eu gilydd o hyd. Trwy ei holl ymadroddion am urddas dwyfol, &c., y rhai a gymhwysai efe at y Gwaredwr, gellir yn aml weled arwyddion o'r syniad Arlaidd am dduwdod israddol. Gan hyny, nid rhyfedd ei fod yn cael ei ystyried gan rai yn Ariad, a chan ereill yn uniongred.

Gorchwyl pur anhawdd yw dyfod i benderfyniad am deilyngdod Eusebius fel awdwr hanes bywyd Cystenyn, am yr hwn y mae yn agored i gael ei gyhuddo, nid yn unig o orfoli y gwrthddrych, ond o gamddarlunio ffeithiau. Ond wrth ffurfio barn, dylid cofio am ddylanwad rhodres ysgrifeniadau hanesyddol yn yr oes hono—bod Cystenyn yn ymddangos i esgobion eglwysig y cyfnod hwnw fel offeryn yn llaw Duw er lledaenu ac er llwyddo Cristionogaeth; a bod Eusebius yn ysgrifenu braslun o ragoriaethau yr Ymherawdwr fel Cristion, yn hytrach na bywgraffiad cryno—bod ei arddull chwyddedig yn gyfryw ag oedd yn y llys Byzantiaidd yr adeg hono; a bod cyfeillgarwch personol agos rhwng Eusebius a Chystenyn. Nad ysgrifenwyd mo hono er gweniaeth neu fawrygiad personol, sydd amlwg oddi wrth y ffaith mai ar ol marw Cystenyn y cyfansoddwyd ef, a bod yr awdwr bob amser wedi dangos ei hun uwchlaw y cyfryw ddybenion a chymhelliadau hunanol.

Y mae pwysigrwydd eglwysig Eusebius yn nglyn yn benaf â'i ysgrifeniadau, y rhai y gellir eu rhanu yn bedwar dosbarth.

I. Ei weithiau hanesyddol. (1). *Yr Hanesyddiaeth Eglwysig*, mewn deg o lyfrau. Ymgymmerodd yr awdwr â'r gwaith hwn gydag ymwybyddiaeth o'r anhawsderau oedd ar y ffordd, a defnyddiodd bob cynnorthwyon cyrhaeddadwy. Gyda'i holl ragoriaethau, y mae ynddo lawer o ddiffygion a beiau pwysig. Nid yw yn gyfluniol nac unffurf. Prin y crybwyllir am bethau gwir hanfodol, ond fe ymhelaethir ar faterion dibwys. Mae ffyddlondeb yr hanes yn colli weithiau drwy anghywirdeb a hygoeledd, ac weithiau drwy gael ei lunio i redeg o fewn sianel gul rhagfarnau duwinyddol. Y mae gwendidau Cristionogaeth, bydolrwydd esgobion, &c., yn cael eu cuddio. Y mae ystyriaethau athrawiaethol yn tywyllu ac yn bychanu ei orwel (*horizon*) hanesyddol. Ceir hyd yn oed wallau amseryddol ynddo. Er hyny, nis gellir rhoddi gormod o bris arno am ei gyd-

Digitized by Google

ffurfiad trwyadl â'r awdurdodau yr ymgynghorid â hwynt. Y mae yr hanes yn llawn hefyd o hen draddodiadau, hysbysrwydd wedi ei dderbyn gan rai oedd a fynont â'r materion yn y llyfr, a phrofiadau personol. Mae natur yr awdurdodau yr ymgynghorid â hwynt, pa un bynag ai personau, ai llyfrau, ai traddodiadau, yn cael eu hysbysu yn ofalus; a phan y bydd yr hanes yn ddiffygiol mewn awdurdodau boddhaol, fe nodir hyny yn benodol. (2). *Ei Amseryddiaeth*, yr hwn fu am ganrifoedd yn safon. Y mae yn gynnwysedig o ddwy ran: yn gyntaf, braslun o hanes y byd hyd 325 B. A.; yn ail, crynodeb o hwn ar lun tafleu, ac wedi ei estyn i lawr hyd 378 gan Jerome. Cafwyd cyfieithiad Armeniaidd o hwn yn Nghaer Cystenyn yn y flwyddyn 1792, gydag amryw gyfnewidiadau a chwanegiadau. 3. *Hanes bywyd Cystenyn*, yn bedwar llyfr, wedi ei ysgrifenu ar ol y flwyddyn 337. 4. *Molawd Cystenyn*, wedi ei ysgrifenu yn 336. 5. Y traethawd ar *Ferthyron Palestina*. 303—310, yr hwn a gyhoeddir yn awr yn gyffredin fel yr wythfed llyfr o'i hanesiaeth. 6. Rhan o lythyr at Constantia ar ddelw Crist. 7. Yn nghholl—Casgliad o'r hen Ferthyrdraethau; Hanes Bywyd Pamphilus, yn dri llyfr; hanes eglwys Ierusalem; a'i waith ar y Pasc.

II. Yn nesaf at ei weithiau hanesyddol, o ran cynnwys a theilyngdod llenyddol, y mae ei ysgrifeniadau amddiffynol, a gyfansoddwyd cyn 324. Cynnwysant, 1. *De Præparatione Evangelica*, yn bymtheg llyfr. Y mae yn y llyfr hwn yn gwneuthur ymchwiliad i amrywiol gyfundraethau yr hen athronwyr am ddechreuad a tharddiad y byd (*cosmogony*) ac am ddwyfol ddoethineb (*theosophy*): y rhan buraf o ba rai, yn ol ei farn ef, a gymmerid o ysgrifeniadau sanctaidd yr Iuddewon. Y mae yn tynu rhesymau oddi wrth gyfeiliornadau y paganiaid a syniadau yr athronwyr o blaid Cristionogaeth. 2. *De Demonstratione Evangelica*—yn ugain llyfr, deg o ba rai sydd wedi colli. Cynnwysa hwn brofion pellach o wirionedd y ffydd Gristionogol, y rhai sydd wedi eu cyfeirio yn benaf yn erbyn yr Iuddewon, ac wedi eu cymmeryd o'r Hen Destament. 3. *Theophany*; sef, adgynnyrchiad o gynnwys y ddau lyfr cyntaf. Cafwyd ef gan Tattam, o dywyllwch di-nôd mynachdy Nitriaidd wedi ei gyfieithu i'r Syriaeg. 4. *Eclogai prophêticai*—yr ymresymiad oddi wrth brophwydoliaeth, yr hwn ni ddefnyddiwyd yn y llyfrau blaenorol. 5. Y traethawd a ysgrifenwyd i wrthbrofi y cyferbyniad a wneid rhwng Crist ac Apollonius o Tyana, yr hwn a ysgrifenwyd, mae yn debyg, cyn y flwyddyn 312. 6. *Amddiffyniad i Origen*, yn nghyd âg un neu ddau ereill sydd yn awr wedi eu colli.

III. Ei WEITHIAU ATHRAWIAETHOL AC ESBONIADOL. Nid yw ei ysgrifeniadau athrawiaethol yn dangos cymmaint o allu a'r gweithiau ereill a enwyd. Yn mhlith y rhai hyn, gellir nodi y ddau a ysgrifenodd efe yn erbyn Marcellus, cyn y flwyddyn 336. Lled gyffelyb o ran teilyngdod yw ei weithiau esboniadol hefyd, a hyny o blegid ei anwybodaeth o'r Hebraeg, a'i ymlyniad wrth arddull Origen. Y mae y rhan fwyaf o'i esboniadau ar y Salmau ar gael yn awr, yn nghyd â'r degfed llyfr ar Esaiah, yr hwn a ysgrifenwyd ar ol y flwyddyn 324. Ceir cyfran fechan hefyd o'i Esboniad ar Ganiad Solomon. Ysgrifenodd un llyfr yn cynnwys rhestr o enwau lleoedd yn Palestina, a darluniad o honynt; un arall o'r enw *Y Deg Canon Efengylaidd*, i ysgrifenu yr hwn y cymhellwyd ef gan Gyssondeb yr Efengylau o waith Ammonius; ac un arall yn symmud ymaith yr anghyssonderau ymddangosiadol sydd yn mhennodau cyntaf a diweddaf yr Efengylau.

2. EUSEBIUS: esgob Emesa, Phœnicia, a ddisgynai o deulu pendefigaidd yn Edessa, lle y gosododd efe sylfaen dysgeidiaeth Feiblaidd a chyffredin, ac yna ymwelodd âg ysgolion Eglwysig amryw wledydd. Yr oedd Eusebius o Cesarea a Patrophilus o Scythapolis yn mhlith ei athrawon ysgrythyrol. Yr oedd yr egwyddorion deongliadol a dderbynid gan Ysgol Antioch yn cyfateb yn neillduol i'w ddeall ymarferol; ac yno y dygwyd ei olygiadau ef ei hun i ffurf benodol. Cymhellwyd ef gan yr awydd oedd ynddo am gael sylfaen athronyddol i'w gyfundraeth, ac hefyd er mwyn dianc rhag yr ordeiniad offeiriadol oedd yn cael ei gymhell arno gan yr esgob Euphonius, i fyned i ymweled âg Alexandria. Ond yn y flwyddyn 340, yr oedd drachefn yn preswylio yn Antioch. Yr oedd ei dalentau fel esboniwr ac areithiwr eisoes yn tynu sylw cymmanfa Antioch (341) ato fel olynydd i Athanasius yn Alexandria; ond gwyddai Eusebius yn dda am ymlyniad y bobl wrth y gŵr enwog hwnw, a phetrusai yn nghylch ei gymhwysderau i lenwi y fath sefyllfa. Dewisodd yn hytrach esgobaeth Emesa. Ond yr oedd ar yr Emesiaid ofn ei gyfundraeth seryddol; yr hon, y pryd hwnw, a gynnwysai ser-ddewiniaeth a swyngyfaredd; a hwy a wrthwynebasant ei osodiad yn y swydd. Fe ffôdd Eusebius i Laodicea. Dygodd patriarch Antioch faterion i drefn, a chaniatawyd i Eusebius ddechreu ar ei orchwylion. Ond, o blegid rhyw reswm—naill ai am fod drwgdybiau y bobl yn attal iddynt gymdeithasu yn rhwydd âg ef, neu ynte am ei fod yn dewis yn hytrach ymchwiliadau gwyddorol mewn llonyddwch—efe a dreuliodd ei ddyddiau diweddaf yn Antioch, lle y dysgodd efe Diodorus o Tarsus. Yn mhlith ei gyfansoddiadau lluosog, y prif rai, yn ol barn Jerome, yw y rhai a ysgrifenodd efe yn erbyn yr Iuddewon, y Paganiaid, a'r Novatiaid; yr Esboniad ar y Galatiaid yn ddeg llyfr; a phregethau byrion ar yr Efengylau.

3. EUSEBIUS: esgob Laodicea, Syria, ydoedd frodor o Alexandria. Y mae yn esampl godidog o gariad, hunan-ymwadiad, a sel mewn cymmwynasgarwch; yr hyn a ddangosodd efe yn nghanol yr erlidigaethau oedd yn bod y pryd hwnw, ac yn enwedig yn ystod pla ofnadwy a ysgubai dros yr ymherodraeth yn nheyrnasiad Gallus. Yn y flwyddyn 263, pan oedd rhyfel cartrefol yn dyrysu yr Alexandriaid, efe a eiriolodd yn effeithiol gyda'r cadfridog Rhufeinig ar ran y miloedd yn marw o newyn. Yn 264, parodd y cynhwrf yn Syria, o herwydd cyfeiliornadau Paul o Samosata, i Eusebius adael ei gartref. Fe aeth i cymmanfa Antioch fel dirprwywr, a chymmerodd le yr oedranus a'r methiantus esgob Dionysius, a gadawodd argraff mor dda ar ei ol fel yr appwyntiwyd ef yn esgob Laodicea. Fel y cyfryw, fe'i cyfrifir yn mysg athrawon penaf yr eglwys. Ei olynydd ydoedd ei gyfaill rhagorol Anatolius. Ni ddywedir dim am Eusebius fel awdwr.

4. EUSEBIUS, o Nicomedia: arweinydd yr Eusebiaid yn y ddadl Ariaidd, a elwid gan ei blaid yn "Eusebius Fawr." Y mae ei uchelgais diderfyn, ond hollol ddiofal yn nghylch moddion; ei fawrhad o'r esgobaeth yn unig er mwyn gogoniant bydol; ei fydolrwydd llys-garol, yn nglyn â'i sel dros ffurfiau athrawiaethol, a rhyw reddf neillduol oedd ynddo yn ei alluogi i fesur rhes-

Digitized by Google

ymau, dynion, ac amgylchiadau; ei fedrusrwydd, ei ddysgeidiaeth, a'i hyawdledd; y mae 'r pethau hyn oll yn dangos pa mor gymhwys ydoedd i fod yn llys esgob a blaenor plaid. Disgynai o un o deuluoedd mwyaf pendefigaidd yr ymherodraeth; yr hyn oedd yn fanteisiol er ennill cymmeradwyaeth Cystenyn iddo, ac hefyd er llwyddiant ei gynlluniau uchel a chwyddedig. Ar y cyntaf, yr oedd yn esgob Berytus yn Phœnicia. Ond nid oedd y sefyllfa hono wrth ei fodd; a chyn hir, trwy ddylanwad Constantia, mae yn debyg, efe a sicrhaodd esgobaeth Nicomedia. Pan yr adeiladwyd Caer Cystenyn, fe gynlluniodd Eusebius, er gwaethaf y cyfreithiau eglwysig, i gael lle iddo ei hun yn y llys newydd; ac yn 338, efe a lwyddodd drwy awdurdod Cystenyn. Felly, efe a roddodd yr esampl gyntaf o'r blys hwnw a welid yn wastadol wedi hyny am esgobaeth y brif ddinas, yr hon a ystyrid fel canolbwnc llywodraeth eglwysig yn gystal a'r wladwriaeth. Fel Arius, a blaenoriaid ereill y ddadl Ariaidd, fe fu yntau yn eistedd unwaith wrth draed Lucian yn Antioch, lle yr oedd cyfundraeth groes i'r ffydd uniongred yn nghylch person Crist wedi cyfodi. Felly fe ddaliodd yntau yr athrawiaeth am israddoliaeth, ac yr oedd Arius yn prisio yn fawr y cydymdeimlad a'r cynnorthwy a roddai Eusebius iddo mor selog. Mae yn wir ddarfod iddo drwy gallineb hunanol lawnodi y gyffes uniongred yn nghymmanfa Nice, ond nid oedd dim a'i tueddai i gydnabod yr anathemau. Yn fuan wedi hyn, cafodd gyfle, trwy ddyfodiad cenadaeth o Feletiaid Aiphtaidd i Nicomedia, i gadarnhau Ariaeth mewn cynghrair â'r ymranwyr hyn. O blegid rhyw reswm—yn nghylch pa un y mae gwahanol draddodiadau yn anghytuno—cafodd Eusebius ei alltudio i Gallia, lle yr anfonwyd Arius hefyd. Ond yn fuan wedi i'r olaf gael ei alw adref, fe lwyddodd Eusebius i gael ei ryddhau. Wedi cael ei adferu i'w urddas blaenorol, ac i ffafr yr ymherawdwr, efe a lafuriodd yn selog i sefydlu Ariaeth. Mabwysiadwyd cynllun cyfrwysddwfn i geisio dymchwelyd blaenoriaid y gyffes uniongred yn ol cymmanfa Nice; ac yr oedd Eusebius yn y cyfamser yn arfer iaith gyfatebol i olygiadau hanner-Ariaeth. Cafodd y dyrnod cyntaf yr effaith a fwriadwyd iddo:—fe symmudwyd Eustathius o Antioch. Yn Nghaer Cystenyn, Eusebius oedd pen yr esgobion hyny a lwyddasant i gael Athanasius o'i swydd drwy gyhuddiadau gwleidyddol; a diammheu fod y rhwysg â pha un y ceisiodd Eusebius gan Alexander ail dderbyn Arius i gymmundeb yr Eglwys, wedi ei fwriadu gyda'r amcan o gael esgobaeth y brif ddinas iddo ei hun. Y weithred hynod olaf a gyflawnodd Eusebius ydoedd cyfranogi yn y cynllwyn i osod yr Eglwys Orllewinol dan ddylanwad Ariaeth, trwy gael dedfryd o gollfarnedigaeth yn erbyn Athanasius; ac ar ol methu yn hyny, ei waith yn cynnorthwyo i sefydlu hanner-Ariaeth yn mhenderfyniadau cymmanfa Antioch yn 341.

5. EUSEBIUS, esgob Samosata, ar yr Euphrates, ydoedd brif amddiffynwr eglwys uniongred y Dwyrain yn erbyn Ariaeth, yn ystod teyrnasiad Valens. Ar ol hir ddadl, fe gydbenderfynodd yr Ariaid a'r Niceaid yn nghymmanfa Antioch, 341, i ddewis Meletius fel patriarch—canys tybiai y ddwy blaid ei fod yn cymmeradwyo eu golygiadau; ac fe roddwyd tyst-ysgrif yr etholiad, wedi ei llawnodi yn briodol gan y ddwy ochr, yn nwylaw Eusebius. Ond rhoddodd pregeth gyntaf Meletius ben ar obeithion yr Ariaid. Fe gyhoeddodd yn eofn yn nghlustiau Cystenyn ei gred yn Nuwdod perffaith Crist. Yn herwydd hyny, fe anfonwyd cenad oddi wrth yr ymherawdwr i Samosata i ymofyn am y dystysgrif. Gwrthododd Eusebius ei rhoddi, am y byddai yn tori cyfammod wrth hyny, heb gael cydsyniad y llawnodwyr oll. Pan ddaeth ail genad, gan fwgwth tori ymaith ei law ddeheu os parhäai i wrthod, estynodd Eusebius ei ddwylaw a thystiodd y byddai yn well ganddo golli y ddwy na rhoddi yr ysgrif. Cafodd y sefydlogrwydd hynod hwn ei effaith briodol ar Cystenyn. Wedi marw Julian y Gwrthgiliwr, fe gynnorthwyodd Eusebius i basio deddf yn ail gadarnhau y ffydd Niceaidd mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn Antioch yn y flwyddyn 363. Parodd yr erlidigaeth dan Valens wedi y flwyddyn 364 iddo ymdrechu â'i holl nerth i gynnal i fyny y blaid uniongred. Teithiodd, yn ngwisg milwr, drwy esgobaethau Syria, Phœnicia, a Phalestina, mewn trefn i ordeinio gweinidogion mewn eglwysydd oedd wedi colli eu bugeiliaid. Mewn etholiad esgobol yn Cesarea, yn Nghappadocia, yn 370, lle yr ymdrechai yr Ariaid i sicrhau dyn o'u golygiadau hwy, fe ddyrchafai ef ei lais yn mhlaid Basil. Aeth yn gyfaill mynwesol i Basil ar ol hyny. O'r diwedd, fe ymddrylliodd yr ystorm uwch ei ben; a chyhoeddodd yr ymherawdwr ddedfryd i'w alltudio. Ei ofal cyntaf oedd am ddiogelwch y genad a anfonwyd i'w gymmeryd ymaith. Ymadawodd yn nhawelwch y nos. Prysurodd lluaws o'r bobl ar ei ol mor bell a Geugma, gan erfyn arno beidio eu gadael yn ddiamddiffyn: ond yr ateb a roddai efe ydoedd eu hadgofio o'i ddyledswydd i ufuddhau. Tra yn Thrace, ei alltudfan, gohebai yn barhaus â Basil a Gregory Nazianzen yn nghylch materion pwysicaf yr eglwys. Pan derfynodd yr erlidigaeth ar farwolaeth Valens (378), awdurdodwyd ef gan gymmanfa a gynnaliwyd yn Antioch yn y flwyddyn 379, i ail drefnu esgobaethau drylliedig Syria drwy appwyntio esgobion uniongred. Pan y cyrhaeddodd yn nghyflawniad y gwaith hwn i Doliche, tref fechan yn nhalaeth Comagene, fe'i tarawyd ef â chareg gan wraig o'r blaid Ariaidd—yr hyn a roddodd derfyn ar ei fywyd. Pan yn marw, efe a lwyddodd i gael gan yr edrychwyr o'i amgylch i addaw peidio erlyn y llofruddes. Mae Eusebius wedi myned bron yn hollol i dir anghof, ond yn unig fod ei enw yn mhlith y merthyron ar y calanîaduron Rhufeinig a Groegaidd. Ac etto, y mae epistolau Basil a Gregory Nazianzen yn llawn o ganmoliaethau ei ddoethineb, ei dduwioldeb, ei farn union, a'i ddiwydrwydd yn cyflawni ei ddyledswyddau.

6. EUSEBIUS, archesgob Thessalonica, tua'r flwyddyn 600. Enwogodd y gŵr hwn ei hun fel gwrthwynebydd dysgedig Monophysiaeth; pleidwyr yr hon oedd yn ymluosogi, ac yn cynnal eu cyfarfodydd yn ddirgelaidd dros holl esgobaeth Illyria. Wedi i'r esgob Rhufeinig, Gregory Fawr, glywed am y ffaith, gan ei fod yn dwyn sel dros burdeb dihalog "Dyweddi Crist," efe a ddefnyddiodd y cyfle, fel esgob y fam eglwys, i gymhell ar Eusebius y ddyledswydd o lwyr ddifa yr heretic-iaid. Ond dewisai efe wasanaeth ei ysgrifbin yn hytrach na defnyddio y cyfryw fesurau llymion; ac wedi iddo gael ei gynhyrfu gan ymosodiad ffyrnig mynach o'r enw Andreas, efe a ysgrifenodd ddeg o lyfrau yn erbyn cyfeiliornadau yr Aphthartodocetiaid—plaid o bobl oedd yn dal fod corff Crist yn anllygredig, ac nad oedd yn agored i farw.

7. EUSEBIUS, esgob Vercelli, yn Piedmont:

un o'r triwyr hyny, y rhai, dan Cystenyn yn y gorllewin, a ddioddefasant gymmaint o dreialon ar ran cyfundraeth uniongred cymmanfa Nice, a anwyd yn ynys Sardinia; a dywed traddodiad i'w fam Restituta, yr hon a aeth i fyw yn weddw i Rufain, ei osod yn nwylaw y pab Eusebius, i gael ei addysgu, ac iddo gael ei fedyddio a'i enwi gan y swyddog hwn yn y flwyddyn 311. Tra yr oedd am dymmor yn ddarllenwr (*lector*) yn Rhufain dan y pab Sylvester, efe a ddewiswyd yn unfryd gan y bobl a'r offeiriaid yn esgob Vercelli. O blegid neillduedd yr esgobaeth hon, yr oedd sefyllfa yr eglwys yn galw arno i ddyfod allan yn erbyn Ariaeth. Ar gais Liberius, yr esgob Rhufeinig, efe a lwyddodd, yn nglyn â dirprwywyr ereill, i berswadio yr ymherawdwr Cystenyn, yr hwn oedd y pryd hwnw yn Gâl, i alw cymmanfa yn Milan (355). Yr oedd dybenion y ddwy blaid yn hollol groes i'w gilydd. Ewyllysiai y blaid gatholig yn y gorllewin adennill anrhydedd Athanasius, yr hwn yn waradwyddus a gondemniwyd gan gymmanfa Arles yn 353; ond ewyllysiai yr ymherawdwr gael ail gadarnhad ar y penderfyniad hwnw, gan dybied y byddai i'r prif rwystr ar ffordd dychweliad y gorllewin at Ariaeth gael ei symmud drwy hyny. Rhagwelai Eusebius hyn, a phenderfynodd nad elai i'r gymmanfa. Ond yr oedd enw o'r fath bwys a'r eiddo ef, yr hwn a allai droi y glorian y naill ochr neu y llall, yn anhebgorol i'r ddwy blaid. Anfonodd y blaid uniongred, yr Ariaid, a'r ymherawdwr, lythyrau ato yn deisyf arno ddyfod. O'r diwedd, efe a gydsyniodd. Cynnygiodd, wedi myned yno, eu bod i ddyfod i gytundeb mewn perthynas i'r wir ffydd cyn ymyraeth dim âg achos Athanasius. Pan glywodd yr ymherawdwr, yr hwn a anghoflodd ei urddas gymmaint fel y daeth yn mlaen ei hun i gyhuddo Athanasius, efe a rwygodd yn ddarnau y credo Niceaidd a ddygasid yno i gael ei lawnodi, gan ddadgan na chaffai dim o'r fath ei wneud. A phan y dywedodd yr esgobion catholig ei bod yn groes i gyfraith yr eglwys i gondemnio neb heb ei glywed, efe a daranodd allan yr ateb trahaus:—"Yr hyn a ewyllysiaf fi, hyny a gaiff fod yn ddeddf." A phan y deisyfent arno beidio gwthio yr heresi Ariaidd i mewn i'r eglwys, gan ei adgoffa am derfynau yr awdurdod wladol, ac am farn Duw, yn angerddol gan ddigofaint am y fath iaith, efe a gydiodd yn ei gleddyf. Ond nid oedd y cyfryw foddion dychryn yn cael un effaith ar Eusebius. Tra y llawnodai cannoedd o esgobion gwangalon y penderfyniad gwrth-Niceaidd, yr oedd holl gymhelliadau yr ymherawdwr i adferu heddwch drwy ymostyngiad y naill blaid, yn hollol ofer gydag ef. Yna, wedi i'r bwriadau gwaedlyd oedd yn meddwl yr ymherawdwr ar y cyntaf gilio ymaith, efe a benderfynodd alltudio Eusebius i Scythopolis, yn Palestina. Yno efe a dderbyniwyd yn groesawgar gan yr Iuddew enwog Josephus. Yr oedd y ffyddloniaid yn mhell ac yn agos yn cydymgais i leihau trallodion ei alltudiaeth. Anfonwyd cenadaeth ato gyda llythyrau ac anrhegion o Vercelli. Yn y cyfamser, wedi i bob gobaith am ei ennill i wadu ei ffydd drwy ddefnyddio moddion tyner ddiflanu, fe gynnyddodd y llymder tuag ato yn fawr. Gwahanwyd ef oddi wrth ei glerigwyr, torwyd i'w dŷ, yspeiliwyd ei gynnwys, a llusgwyd ef ei hun yn noeth drwy yr heolydd, a thaflwyd ef i ddaeardy tywyll. Wedi i'r bryntni hwn fethu siglo ei sefydlogrwydd, fe'i symmudwyd i Cappadocia, ac oddi yno i Thebaid. Pan ryddhawyd ef ar ddyfodiad Julian i'r orsedd, efe a aeth yn gyntaf i Alexandria er mwyn cynnorthwyo Athanasius a chymmanfa Alexandria, yn 362, i ymgais am adferiad yr eglwys ddwyreiniol. Awdurdodwyd ef gan y gymmanfa i gyfanu y rhwygiadau a wnaed gan Miletus yn Antioch. Eusebius oedd y dyn priodol i'r gwaith; ond o herwydd ymyriad anamserol ac annoeth esgob Lucifer o Cagliari, bu gorfod arno adael Antioch heb benderfynu dim o du y naill blaid na'r llall. Ar ol teithio trwy y dwyrain er cysur mawr i lawer o eglwysi trallodedig, efe a aeth drosodd i Illyria yn 363, ac i derfynau Italy. Pan gyrhaeddodd yno, medd Jerome, fe dynodd holl Italy ei gwisgoedd galar. O'r pryd hwn, efe a gadwodd ddau beth yn neillduol mewn golwg. Yr oedd yr hyn a welsai efe yn y dwyrain wedi cadarnhau ei farn fod bywyd Cristionogol yn cyrhaedd perffeithrwydd mewn mynachaeth; gan hyny, fe ymgyssegrodd ef a'i glerigwyr i fywyd mynachol. Fel hyn, efe oedd y dyn cyntaf yn y gorllewin i gyssylltu meudwyaeth y lleiandy â dyledswyddau yr offeiriad; ac efe oedd cynllun Awstin a'r oesoedd ar ei ol. Amcan arall yn ei olwg oedd gwrthweithio Ariaeth. Yr oedd Ariaeth, drwy ddylanwad amgylchiadau gwleidyddol, wedi cyfodi ei phen gydag awdurdod newydd yn Milan dan yr esgob Auxentius. Mewn trefn i ymosod arni yn ei hamddiffynfa gadarnaf, efe a aeth i Milan yn ddisymmwth yn 364. Ond daeth gorchymyn oddi wrth yr ymherawdwr Valentinian I, yr hwn a gydymdeimlai âg Auxentius; a bu raid i Eusebius fyned yn ol i'w esgobaeth. Nis gallai bywyd mor hunanymwadol lai nag ennill coron merthyrdod. Yr oedd ei feddargraff yn ei glodfori fel merthyr. Yn ol traddodiad, fe'i llabyddiwyd ef i farwolaeth gan yr Ariaid. Gan hyny, rhoddir iddo le fel merthyr yn rhestr y saint.

**EUTYCHIAID**: sect a gyfododd yn y bummed ganrif, ac a alwyd ar enw Eutyches, abad mewn mynachlog yn Nghaer Cystenyn, lle y bu yn preswylio am ddeng mlynedd a deugain, pan y daeth allan o blaid Cyril, yr hwn a ddiswyddwyd gan Theodosius ar ol cynghor Ephesus. Pan ddaeth y Nestoriaid allan i egluro dwy natur Crist yn y fath fodd ag i'w wneyd yn ddau berson gwahanol, yr hyn oedd yn ynfydrwydd amlwg, fe ymddengys i Eutyches, er mwyn gochel hyn, syrthio i eithafoedd arall, sef i hòni mai un natur yn unig oedd i'r Arglwydd Iesu, sef y natur ddwyfol; yr hon, yn ol ei dyb ef, oedd wedi sugno iddi ei hun y natur ddynol mor lwyr, fel nas gellid ei gwahaniaethu yn y Gwaredwr. Oddi wrth y dyb yma, casglid mai mewn ymddangosiad yn unig yr oedd ein Harglwydd yn ddynol. Cyfododd llawer o anhawsderau y ddadl hon oddi wrth ystyr y gair Groeg *hypostasis*, yr hwn a ddefnyddid weithiau i arwyddo elfen neu sylwedd, a phryd arall i arwyddo person; ac am hyny, "ymryson yn nghylch geiriau" oedd y ddadl, yn hytrach nag yn nghylch athrawiaeth; yr hyn a fu yn achos o gynneu yr holl ddrwg anwydau a'i dilynodd.

Dechreuodd Eutyches ledaenu ei opiniynau tua B.A. 348, pan yr oedd braidd wedi myned yn hen; a chondemniwyd hwy yn ebrwydd gan gymmanfa a gynnaliwyd gan Flavian yn Nghaer Cystenyn. Y flwyddyn ganlynol, cymmeradwywyd yr un syniadau gan gynghor yn Ephesus; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, condemniwyd hwy drachefn gan gynghor Calcedon. Y fath oedd cyfnewidioldeb ac anghydweledïad cynghorau a chymmanfaoedd!

i fyned yn mlaen yn y llafur hwnw—y rhai o'r diwedd a attaliwyd, o herwydd afradlonedd y bardd, fel y dywedir.

Yn 1764, cyhoeddodd gyfrol o hen ganiadau Cymreig, gyda chyfieithiadau Lladin, a rhagymadrodd dysgedig—"*Dissertatio de Bardis.*" Dyrchafodd y gwaith hwn ef yn uchel fel hynafiaethydd a beirniad; ac o hwn y cafodd Grey sylwedd rhai o'i ganiadau mwyaf prydferth. Cafodd yr anrhydedd hefyd o ohebu ar bynciau llenyddol gyda'r esgob Percy, yr hwn a feddyliai yn uchel am ei alluoedd. Yn 1772, cyhoeddodd gân Seisnig, a elwid, *The Love of our Country;* a chyhoeddwyd amryw o'i ganiadau Cymreig yn y llyfr a elwir *Blodau Dyfed.* Yn 1776, cyhoeddodd ddwy gyfrol 12pl.—un yn 280, a'r llall yn 326 o dudalenau, o bregethau Cymreig, wedi eu cyfieithu o waith Tillotson, Doddridge, ac ereill —y pregethau cyntaf a gyhoeddwyd yn gyfrolau yn y Gymraeg. Rhoddodd Paul Panton, Ysw., Plas gwyn, Pentraeth, Môn, flwydd-dal o 20p. iddo, tua diwedd ei oes, ar yr ammod fod ei holl lawysgrifau i gael eu trosglwyddo iddo ef (Mr. Panton), ar ol i'r "bardd a'r offeiriad" farw: o ganlyniad, aeth yr holl gasgliad, yn cynnwys cant o gyfrolau, i lyfrgell y Plas gwyn; ac y maent yn awr yn meddiant etifedd y Plas gwyn, Barton Panton, Ysw., y Gareg Lwyd, Caergybi. Dywedir fod Mr. Evans, nid yn unig yn wladgarol, ond yn ddyngarol a charedig iawn, a'i fod yn meddu llawer o ansoddau ardderchog. Bu farw yn Cynhawdref, lle ei enedigaeth, yn Awst, 1789.

EVANS, EVAN (*Ieuan Glan Geirionydd*). Yr oedd yn un o'r beirdd mwyaf talentog a llwyddiannus, ac yn un o'r duwinyddion mwyaf cymmeradwy.

Ganwyd ef Ebrill 20fed, 1795, mewn tyddyn o'r enw Tan y celyn, ar lan afon Geirionydd, yn nghwr deheuol pentref Trefriw, ger llaw Llanrwst, yn sir Gaernarfon. Yr oedd ei fam, Elizabeth Prichard, yn disgyn o deuluoedd parchus oedd yn preswylio yn Nhan y celyn er's hir o amseroedd cyn ei geni hi. Ei dad, Robert Evans, oedd frodor o Lanbedr, Dyffryn Ardudwy, yn sir Feirionydd, ac wrth ei gelfyddyd yn saer llongau; a thra yn Nhrefriw yn dilyn ei alwedigaeth, priododd Elizabeth Prichard, mam gwrthddrych ein cofiant. Ganwyd iddynt bump o blant, sef tair merch a dau fab; ac Ieuan oedd yr ieuangaf ond un; a thrwy farwolaeth hwnw, aeth Ieuan yn ieuangaf o'r plant oedd yn fyw, ac yn unig fab.

Yr oedd tad a mam Ieuan yn aelodau ffyddlawn (a "duwiol iawn," fel yr arferai eu mab talentog ddywedyd bob amser, wrth son am danynt) gyd â'r Methodistiaid Calvinaidd, er cyn iddynt briodi; a chawsant y fraint o "barhau hyd y diwedd;" ac yr oedd yn ddiammheu gan bawb a'u hadwaenent eu bod "yn gadwedig." Trwy eu hofferynoliaeth hwy ill dau y dygwyd Methodistiaeth gyntaf i Drefriw; ac i'w diwydrwydd hwy, a theulu Mr. Rogers, y priodolir cynnydd a llwyddiant yr achos yn y gymmydogaeth. Yn hen ysgubor Tan y celyn, lle y bu pregethu dros lawer o flynyddoedd, y traddodwyd rhai o'r pregethau cyntaf gan y Methodistiaid yn y parth yma o'r wlad. Dygwyd Ieuan bach i fyny, wrth gwrs, yn eglwys y Methodistiaid yn Nhrefriw; a phan y daeth i addfedrwydd oedran, ar ol ymadael â'i ddireidi plentynaidd (am yr hyn yr oedd yn nodedig, ac y cafodd aml gerydd, a phwys y wialen hefyd weithiau, gan ei fam dduwiol), dangosodd duedd dduwiolfrydig a difrifol; a pharhaodd felly hyd ddiwedd ei oes. Mewn amser cyfaddas, derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd yn Nhrefriw; a pharhaodd yn aelod gweithgar a chymmeradwy gyda hwy hyd nes yr oedd o gylch 25ain oed.

Yr oedd tad Ieuan yn fwy o ysgolhaig na'r cyffredin o bobl yn ei amser; ac yr oedd yn gryn fardd a llenor. Cyfansoddodd amryw emynau, rhai mân bethau ereill rhagorol. Ysgrifenodd lyfryn bychan hefyd o hanes Methodistiaeth; ond ni chyhoeddwyd ef; ac nid ymddengys, medd bywgraffydd Ieuan, iddo ei ysgrifenu ar fwriad ei gyhoeddi, er ei fod yn cynnwys llawer o hanesion tra difyrus ac adeiladol.

Ond, fel lliaws o ddynion mawr daionus pob oes, "mab ei fam" ydoedd Ieuan mewn modd arbenig. Yr oedd hi yn meddu galluoedd meddyliol cryfion, gwybodaeth eang, teimladau tyner, tymmer addfwyn, a'r fath hunan-lywodraethiad nodedig dan y profedigaethau chwerwaf a'r croesau trymaf a'i cyfarfu, fel mai anhawdd yw cyfarfod ei chyffelyb; ac yr oedd hefyd yn ysgolheiges dda mewn Cymraeg a Seisoneg. Yr oedd hyn oll, yn nghyd â'i duwioldeb oedd yn amlwg i bob dyn, yn ei chymhwyso yn nodedig i fod yn fam ac yn athrawes ardderchog ac effeithiol yn ei theulu; ac y mae ol ei thalentau, ei llafur, a'i duwioldeb ar y rhan fwyaf o'i hiliogaeth hyd y dydd hwn. Y fath fendith annhraethol, dros oesoedd a chenedlaethau, ydyw mamau fel hyn i wlad eu genedigaeth! Ond, er nad esgeulusai Elizabeth Evans na dysg, na moesau, na chrefydd yr un o'i genethod; eto *Ifi*, fel yr arferai hi ei alw—ei hunig fab—oedd canolbwynt ei hymdrechion a'i gofal penaf; ac yr oedd ei hargraff yn amlwg arno yn mhob ystyr hyd ddiwedd ei oes.

Pan y daeth i oedran addas i fyned i'r ysgol, anfonid ef gyda'i chwiorydd at un, Mr. Griffiths, oedd y pryd hyny yn cadw ysgol yn eglwys Trefriw. Anfonwyd ef yn mhen rhyw ysbaid wedi hyny i Ysgol Rad Llanrwst, lle y cafodd gyfeillion boddhaol yn William ac A. Ll. Roberts, meibion Cefn y coed; a llawer camp plentynaidd, ddi reidus, a chwareuwyd yn nghymdeithas eu gilydd. Nid yw yn hysbys pa hyd yr arosodd yn yr ysgol hon; ond gwyddys ei fod yn deall gramadeg, ac yn gallu cyfansoddi Seisoneg yn ddestlus, ac yn deall ychydig o Ladin, pan ymadawodd o honi. Ar ol hyn, bu gartref yn Nhan y celyn dros amryw flynyddoedd, yn amaethu y tyddyn gyda'i dad. Yn y cyfamser, gwerthwyd Tan y celyn am bris uchel, o herwydd cyfleusdra ei safle, i estroniaid; cyfodwyd ei ardreth yn afresymol: er hyny, glynu yn eu hen gartref yr oedd Robert Evans a'i deulu er eu colled, nes o'r diwedd y gorfu iddynt ei roddi i fyny, oddigerth un cae a pherllan, ar ol cael eu gwasgu gan uwchder yr ardreth, a chroesau ereill, i gryn dlodi.

Tua diwedd y flwyddyn 1816, aeth Ieuan i Dal y bont, i gadw ysgol ddyddiol; ac ymddengys mai yno y dechreuodd droi ei feddwl o ddifrif at farddoni. Yno y cyfansoddodd ei "Awdl ar Farwolaeth y Dywysoges Charlotte," yr hon a ennillodd y tlws yn Eisteddfod Llanelwy, yn 1817 neu 1818. O gylch yr un amser hefyd y cyfansoddodd ei awdl ar "Farwolaeth Charles o'r Bala," ac amryw ddarnau ereill.

Yn y flwyddyn 1818, aeth Ieuan i wasanaeth y Parch. John Parry o Gaerlleon, lle y bu yn cyfieithu Boston ar *Bedwar Cyflwr Dyn*, ac yn cynorthwyo Mr. Parry gyda *Goleuad Gwynedd*—enw misolyn a gyhoeddid ganddo.

Digitized by Google

Tra yr ydoedd yn Nghaerlleon, ysgrifenodd draethawd ar brynedigaeth neillduol, mewn ffordd o atebiad i bregethau a gyhoeddasid gan y Parch. Samuel Davies ar brynedigaeth gyffredinol. Atebodd Mr. Davies drachefn; ond ni ddaeth Ieuan allan eilwaith yn uniongyrchol; eithr ar annogaeth John Elias, cyfieithodd a chyhoeddodd bedair o bregethau gan J. Harrison ar y pwnc mewn dadl. Dywedir fod darllen gwaith yr enwog Dr. Williams o Rotherham, yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, wedi effeithio cyfnewidiad pwysig yn marn Ieuan ar brynedigaeth.

Ysgrifenodd Ieuan lawer o draethodau o bryd i bryd yn *Ngoleuad Gwynedd* tra bu yn Nghaer, ac yn eu plith, "Taliesin Ben Beirdd." Efe hefyd yn gyffredin a fyddai yn ysgrifenu yr atebiadau, y cyfieithiadau, &c., heb law ambell ddarn o farddoniaeth; a dywedir hefyd mai efe oedd awdwr y rhan fwyaf o'r ysgrifau dienw oedd yn y cyhoeddiad hwnw, yn ystod ei arosiad gyda Mr. Parry.

Bu yn Nghaerlleon hyd y flwyddyn 1820, pan y cafodd anwyd trwm, ac y gorfu iddo ddychwelyd i'w hen gartref, Trefriw, i ymiachau. Y pryd hyn y cyfansoddodd ei awdl, "Hiraeth Cymro am ei Wlad," a "Chywydd y Bedd."

Bu amser maith heb wybod mai ei awdl ef ar y "Dywysoges" oedd y fuddugol. *Plorator* oedd y ffugenw wrth yr awdl hono; ac ymddengys nad oedd Ieuan wedi anfon ei enw priodol i mewn. Hysbyswyd yr enw buddugol yn y newyddiaduron; ond nid oedd neb yn ateb, fel y meddyliodd awdurdodau yr Eisteddfod fod yr awdwr wedi marw, neu yn celu ei enw yn fwriadol. Ar ddamwain, daeth Robert Thomas, Bettws y Coed, i edrych am Ieuan, a mynegodd iddo fel yr oedd pethau gyda golwg ar yr awdl fuddugol yn Llanelwy. Tranoeth, yr oedd gan Robert Evans, tad Ieuan, ryw neges i fyned i Lanberis, a galwodd gyda Gutyn Peris, a mynegodd mai ei fab ef oedd *Plorator*. Dywedir fod yr hen fardd "yn prancio gan lawenydd" pan glywodd, ac yn bloeddio, "Sir Gaernarfon am byth!—dyma fardd eto i roddi pluen yn nghap Eryri!" Cyfarwyddodd Ieuan i ysgrifenu at Syr Thomas Mostyn, llywydd yr eisteddfod, mae yn debyg, i arddel y ffugenw; yr hyn a wnaeth, gan roddi y pennill cyntaf ac olaf o'r awdl yn ei lythyr. Yr oedd hyn o gylch amser eisteddfod Gwrecsam, a gynnaliwyd y 13eg a'r 14eg o Fedi, 1820. Aeth Ieuan i'r Eisteddfod, a chyfarfu â thri boneddwr ar yr heol, i'r rhai y gofynai pa le yr ymgyfarfyddai y beirdd? Wedi i un o honynt ofyn a oedd efe yn fardd, atebodd yntau ei fod wedi cyfansoddi ychydig, ac yn mysg pethau ereill, awdl y "Dywysoges." dan y ffugenw *Plorator*. Yr ydym yn helaethu ar hyn am mai hwn oedd y pegwn ar yr hwn y troai ffawd Ieuan Glan Geirionydd. Rhoddodd un o'r boneddigion nodyn iddo yn y fan i fyned i Neuadd y Beirdd. Wedi i Ieuan roddi y nodyn i'r drysor, ac i hwnw ei drosglwyddo i'r cadeirydd, Arglwydd Mostyn, yr hwn a gyfododd ar ei draed, gan floeddio—"Dyma *Plorator* wedi ei gael!" Galwyd Ieuan yn mlaen; ac wedi i'r boneddwr anrhydeddus ymaflyd yn ei fraich, a'i osod i eistedd yn y gadair, gofynodd iddo, Pa un ai tlws ai arian a ddewisai gael am ei awdl i'r Dywysoges? Atebodd Ieuan yn dra boneddigaidd, fod ganddo rieni y dymunai eu cynnorthwyo, ac am hyny y dewisai arian. Effeithiodd dewisiad gostyngedig y bardd teyrngarol, a'r mab gofalus, yn ddwys ar bawb oedd bresennol, yn enwedig y prif foneddigion, fel y bu rhai o honynt yn coffa yn barchus am dano yn mhen blynyddoedd ar ol hyny. Yn fuan ar ol yr olygfa yma yn yr eisteddfod, galwyd ffugenw y buddugwr ar awdl "Hiraeth Cymro am ei Wlad," pan y cyfododd Ieuan yr ail waith yn nghanol bloeddiadau cymmeradwyol y dorf, i dderbyn y wobr. Rhoddwyd yr ysnoden am ei wddf gan Angharad Llwyd, awdures enwog y traethawd Seisoneg buddugol ar *Hanes Môn*, yn Eisteddfod Freninol Beaumaris, yn 1832. Yr oedd cryn awydd y pryd hyny yn mysg yr Eglwyswyr, fel y mae eto yn wir, am gael dynion ieuainc athrylithgar i'r "offeiriadaeth;" a gwelent ar unwaith ddefnydd gobeithiol yn Ieuan Glan Geirionydd. Rhoddwyd y cynnyg o'i flaen ar unwaith fel yr ymddengys, cyn iddo ymadael o'r eisteddfod; ac addawodd Richards o Gaerwys, Jenkins, Ceri, ac ereill, iddo bob cynnorthwy. Wedi i Ieuan osod y cynnyg ger bron ei rieni ac ereill o ymddiried, ymgynghorodd â John Elias a Richard Llwyd o Fôn. Yn fuan, dechreuodd Ieuan ddarparu i fyned i wasanaeth yr Eglwys Sefydledig. Ysgrifenodd Mr. Richards o Gaerwys lythyr iddo, yn ei gyfarwyddo at ei frawd, y Parch. T. Richards, Berriew. Tybir i hyn oll gymmeryd lle yn ystod y flwyddyn 1820, sef blwyddyn eisteddfod Gwrecsam.

Tra yn Berriew, cyfansoddodd Ieuan ei "Awdl ar ymweliad y brenin Sior â Mon," i Eisteddfod Caernarfon, 1821; yr hon a gollodd y wobr am ei bod yn hwy deirgwaith nag y gofynai yr hysbysiad. Tua'r un amser ysgrifenodd draethawd ar "Wladgarwch," i gystadleuaeth Cymmrodorion Llundain, am yr hwn y derbyniodd y wobr yn Rhagfyr, 1821. Yn eisteddfod fawr Aberhonddu, Medi, 1822, efe a ennillodd y wobr a gynnygiai Syr Charles Morgan am y chwe englyn byrfyfyr goreu ar Theophilus Jones, hanesydd Brycheiniog.

Yr oedd yn ymgeisydd am wobr y "traethawd ar Forladrad," a ennillwyd gan S. Roberts, Llanbrynmair; a chyfaddefai yn ddigon hunanymwadol fod Roberts wedi tra rhagori. Y mae darnau barddonol ar gael hefyd, yn ei ysgrifenlaw pan oedd yn ieuanc, ar "Farwolaeth Picton," ac "Ymadawiad Goronwy Owain â Mon;" ond nid yw yn hysbys a oedd efe yn cystadlu ar y testynau hyn ai peidio.

Ar ol gadael Berriew, aeth i St. Bees, lle yr oedd y Dr. Ainger yn llywydd; a bu yno hyd 1826, pan y dychwelodd adref drachefn i Drefriw. Yn y cyfamser, cafodd glefyd trwm, fel y bu rhagddarbod am ei einioes. Dywedai iddo gael cysur mawr ar y pryd, trwy i gyfaill ddywedyd wrtho, "Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, Ieuan; canys ni buasai yr Arglwydd yn darpar mor bell a hyn ar gyfer dy les di a'th rieni oedranus, pe buasai am oddef i angeu dy symmud o ymyl y pulpud i'r bedd!"

Goddefodd Ieuan oediad dros amryw fisoedd cyn cael cyflawn gymmeradwyaeth ei athraw, o herwydd achwyniadau bradwrus rhyw rith gyfaill iddo o blegid ei syniadau ar rai pynciau crefyddol. Pa fodd bynag, ar ol iddo wella o'r clefyd crybwylledig, cafodd ei alw i Lundain o flaen esgob Caerlleon i'w holi; ac ar ol arholiad maith, pasiodd gyda chymmeradwyaeth fawr. Fe allai mai pan yn aros am y cerbyd wrth Bont y Pair, i fyned gydag ef i Lundain, y cyfansoddodd y pedwar englyn ar "Bont y Pair, Bettws y coed."

Cafodd urddau eglwysig a thrwydded i ddarllen y gwasanaeth Cymraeg yn Eglwys St. Martin, Caerlleon, Chwefror 19, 1826, gan y Dr. Bloom-

Digitized by Google

field, esgob Caer; ar Ragfyr 17eg, yn yr un flwyddyn, cafodd guradaeth Christleton. Ar ol bod yn darllen yn y ddau le am rai blynyddoedd, yn Christleton y bore, a Chaer y prydnawn, rhoddodd y gwasanaeth Cymraeg yn Nghaer i fyny i gyfaill ieuanc oedd wedi bod yn yr ysgol ar unwaith ag ef, yr hwn a fethai yn lân a chael lle i ddechreu; gan ymfoddloni ar Christleton yn unig er mwyn hwnw. Tra yr oedd yn y lle hwn, cyfansoddodd lawer o emynau; ac yn 1829, cyhoeddodd lyfr o emynau Cymreig at wasanaeth St. Martin, a chasgliad arall o emynau yn y *Caniedydd Crefyddol*, yn 1841, at wasanaeth yr Eglwys yn Nghymru; ac y mae y ddau gasgliad yn cynnwys llawer o'i emynau ef ei hun. Yn Christleton hefyd y cyfansoddodd ei awdl ar "Wledd Belsassar," yr hon a ennillodd y gadair yn Eisteddfod Freninol Dinbych, 1828; ac yma y cyfansoddodd ei awdl ar "Gantre'r Gwaelod." Arosodd yn Christleton hyd Ebrill 21ain, 1843, pryd y symmudodd i guradaeth barhaus Ince.

Ysgrifenodd lawer i'r gwahanol gyhoeddiadau misol, yn enwedig y *Gwyliedydd*. Yn 1831, yr oedd yn ysgrifenu hanes brwydr fawr Waterloo yn bennodau, pan fu farw ei fam. Yn y cyfamser, ysgrifenodd lythyr byr i'r *Gwyliedydd* ar ei marwolaeth; ond ni chyhoeddodd y golygydd ef, oddi eithr y llinellau oedd yn mynegi y dygwyddiad yn unig. Ymddengys hefyd iddo ysgrifenu llythyr bron yr un amser ar farwolaeth Syr Thomas Mostyn; ac ni chafodd ond rhan o hwnw chwaith ymddangos. Archollodd yr ymddygiad anniolchgar ac angharedig yma o eiddo y golygydd feddwl tyner Ieuan yn fawr dros ben; ac nid ydys yn gwybod iddo ysgrifenu llinell byth mwyach i'r *Gwyliedydd*. Gadawodd y pennodau ar frwydr fawr Waterloo fel yr oeddynt ar y pryd, yn anorphenedig.

Ar y 5ed o Fai, 1829, priododd â Miss Wilson, Vicar's Cross, yr hon oedd yn foneddiges dra rhinweddol a chyfoethog; ac i'r undeb dedwydd hwnw, fel y bernir yn gyffredin, yn hytrach nag i unrhyw ddyrchafiadau eglwysig teilwng a gafodd, y dylid priodoli y gwasanaeth mawr a wnaeth i'w wlad a'i genedl. Yn 1830, gyrodd gylch-lythyr at yr esgobion Cymreig, yn erfyn eu nawdd a'u cefnogaeth i ddwyn allan gyhoeddiad Cymraeg ar gynllun y *Saturday Magazine*, oedd mor dderbyniol gan y Seison ar y pryd; a chafodd ei "oddef i ddwyn allan y fath gyhoeddiad, os ceid lle i ddysgwyl y byddai hyny o wir leshâd." Yn ganlynol i'r goddefiad hwn, dechreuodd gyhoeddi y *Gwladgarwr*. Bu yn dra llafurus ar y cyhoeddiad godidog hwn am dair blynedd, pan orfu iddo, o ddiffyg cefnogaeth briodol, ac ar ol goddef colled drom, drosglwyddo y gwaith i Mr. Edward Parry, awdwr *The Marches of Wales*, o Gaerlleon. Parhaodd Ieuan i gefnogi y cyhoeddiad wedi hyny, fel gohebydd, ac yn mhob modd arall hyd y gallai. Ieuan oedd awdwr y sylwadau ar gerddoriaeth a ymddangosent yn y *Gwladgarwr* dan yr enw "Peryddon;" a dywedir mai i'r gwersi difyrus ac eglur hyny y dylid priodoli deffroad archwaeth pobl y chwareli llechi at gerddoriaeth. Pa fodd bynag, y mae yn hysbys mai ychydig iawn o ddim gwerth oedd ar gerddoriaeth yn Gymraeg cyn hyny.

Yn 1838, cyhoeddodd gasgliad o dônau at wasanaeth yr addoliad cyhoeddus, dan yr enw *Seraph;* ac, fel y bu sylwadau "Peryddon" yn un arweiniad i'r wyddor gerddorol, bu y *Seraph* yn flaenffrwyth cynauaf toreithiog o gasgliadau o dônau, a chyfansoddiadau cerddorol ereill. Er hyn oll, goddefodd Ieuan golled arianol drom gyda'r *Seraph*, fel y *Gwladgarwr*.

Yn 1843, cyhoeddodd draethawd bychan dan yr enw, *The Claims of the Church in North Wales*, i wrthdystio yn erbyn uno esgobaethau Llanelwy a Bangor, trwy ddangos yr afresymoldeb o'r amcan, a'r camwri a wneid â'r genedl trwy hyny. Math o adolygiad oedd y traethawd hwn ar adroddiad y dirprwywyr (*commissioners*) oedd wedi bod yn edrych ansawdd yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Ysgrifenodd hefyd lawer ar wahanol amserau yn Gymraeg a Seisoneg ar yr "Achosion o Ymneillduaeth yn Nghymru" (*Causes of Dissent in Wales*); a bernir fod ganddo rhyw law yn rhoddiad y testyn hwnw yn bwnc i ymgystadlu arno.

Yn ystod ei arosiad yn Ince, fe gyhoeddodd *Gasgliad o Emynau* at wasanaeth yr eglwys yno. Yno hefyd y cyfansoddodd "Hynt y Meddwyn," a "Phryddest yr Adgyfodiad," yr hon a ennillodd y gadair farddol yn Eisteddfod Rhuddlan, 1850. Bu-rhoddiad y gadair fel hyn i bryddest, yn lle i awdl, yn achos o gynhwrf mawr yn mhlith beirdd y gynghanedd ar y pryd Pa fodd bynag, gellir edrych ar roddiad y gadair farddol am y bryddest dan sylw, yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes barddoniaeth Cymru; canys, er na chafodd y bryddest ar ol hyny hyd yn hyn gydymgais â'r awdl am y gadair mewn eisteddfod, eto, fe'i dyrchafwyd byth ar ol hyny yn gydradd â'r awdl o ran gwobr; ac yn Eisteddfod Dinbych, 1860, yr oedd gwobr y bryddest yn uwch o'r hanner na gwobr yr awdl. Y mae yn debygol fod amser wrth y drws pan y rhoddir cadair i'r naill a'r llall; neu y gadewir i'r ddwy gydredeg eto fel yn Rhuddlan am yr un gadair. Gwych oedd Ieuan Glan Geirionydd am greu cyfnodau: dangosasom eisoes ei fod wedi dechreu cyfnod newydd mewn cerddoriaeth; a dyma ef eto yn begwn cyfnod newydd mewn barddoniaeth. Dengys hyn ei fod yn un o feddyliau arweiniol ei oes. Nid ydys yn gwybod am ddim barddoniaeth arall a ysgrifenodd tra yn aros yn Ince, oddigerth "Galarnad" ar ol ei anwyl wraig.

Yn 1844, cyhoeddodd y gyfrol gyntaf o'r *Beibl Darluniadol:* ac y mae yn ddrwg genym gofnodi na throdd yr anturiaeth hono allan fawr well, mewn ystyr arianol, nag anturiaethau clodwiw ereill y gwladgarol Ieuan Glan Geirionydd. Er iddo ef, a'i gyfaill galluog Erfyl, ymdrechu ymdrech deg am hir amser o'i blaid, bu raid iddo o'r diwedd ei drosglwyddo i ddwylaw y cyhoeddwr, heb ei adael ef ond golygydd am dâl iddo. Ymddengys fod amryw yn ysgrifenu y *Beibl Darluniadol*, yn enwedig Erfyl, yr hwn a ysgrifenodd fwy na neb arall o hono; ond Ieuan oedd yn dethol y defnyddiau, ac yn golygu y gwaith. Yn 1847, cyhoeddwyd yr ail gyfrol; ac yn 1850, daeth y drydedd gyfrol allan, yr hon a derfyna gyda Llyfr Malachi.

Yn lled fuan ar ol hyn, bu farw ei briod. Bu agos i'r brofedigaeth chwerw hono lethu ei feddwl tyner yn lân, ac anmharodd ei iechyd yn fawr mewn canlyniad. Fel yr oedd ei iechyd yn para i waethygu, tra yr oedd adgofion pruddglwyfus am ei wraig hawddgar a da yn llanw ei feddwl cymdeithasgar, ddydd a nos, tra yr arosai yn Ince, penderfynodd roddi ei swydd i fyny, a dychwelyd i hoff wlad ei enedigaeth, gan fwriadu gorphen ei yrfa yn agos i hen gartref anwyl ei dad a'i fam —yn Nhrefriw. Felly, tua diwedd y flwyddyn 1852, rhoddodd ei benderfyniad mewn grym, er somedigaeth a galar dirfawr i holl drigolion Ince,



Digitized by Google

fel yr amlygodd ymddiriedolwyr yr eglwys y gweinyddai ynddi yn y modd mwyaf gwresog a pharchus. Ar ei ymadawiad o Ince, sefydlwyd blwydd-dal iddo o 100p. tra y byddai byw, fel arwydd o barch a chydnabyddiad o werthfawrogrwydd ei wasanaeth cyhoeddus a neillduol, a fu mor lwyddiannus yn ystod yr holl amser y bu yn preswylio yn y gymmydogaeth. Ar ol dychwelyd i'w hen gartref, i Drefriw, bu yn glaf iawn am ysbaid maith; ac yr oedd ei feddwl yn hynod o isel a phruddglwyfus; ond diau fod adgofion am garedigrwydd mawr trigolion Ince yn llawer o gysur i'w feddwl ar ol ei ymadawiad.

Nid ydym yn gwybod pa un ai yn Christleton ai yn Ince yr ydoedd pan y galwyd ef i balas esgob Bangor i gyfarfod amryw wŷr eglwysig ereill, i gynnyg golygiaeth y newyddiadur uchel-eglwysig hwnw iddo, a elwir y *Cymro*, er mwyn i dalent Ieuan ei wneyd yn boblogaidd. Addawodd Ieuan dderbyn yr olygiaeth, dan yr ammod iddo gael llawn awdurdod ar y papur, i'w wneud yn bapur y genedl, ac nid papur plaid, fel yr oedd yn cael ei ddwyn yn mlaen; ac yn enwedig dan yr ammod iddo gael cau allan o hono bob ymosodiadau ar yr Ymneillduwyr. Dywedodd wrthynt oll yn y lle, nad oedd dim yn gwneyd mwy o niwed i'r Eglwys Sefydledig yn Nghymru, nag ymosodiadau y *Cymro*, a chyhoeddiadau ereill yr Eglwys, ar Ymneillduaeth. Ond ni chydsyniai yr Eglwyswyr â'i ammodau; am hyny, gwrthododd yntau olygiaeth y *Cymro*.

Ar ol ymadael âg Ince, aeth i breswylio i Drefriw, yn mis Tachwedd, 1852; a mawr y lles a wnaeth yno yn ystod y flwyddyn a hanner y bu yn y gymmydogaeth. Llwyddodd i sefydlu cymdeithasau elusenol yn y lle, er lleshad y dosbarth tlotaf o'r pentrefwyr; a chafodd nawdd yr Arglwydd Willoughby iddynt, a boneddigion ereill, y rhai a gyfranent yn helaeth at yr amcan clodfawr.

Nid oes dim o'i ganiadau, a gyfansoddodd tra yn Nhrefriw y pryd hyn ar gael, ond ei ganig dlos "Glan Llyn Geirionydd;" a'i emyn felus, "Yr Ochr Draw;" y rhai a gyfansoddodd pan ar ei glaf wely, yn fuan ar ol dyfod i Drefriw. Dywedir iddo hefyd, ar ol cael gradd o adferiad iechyd yn Nhrefriw, ysgrifenu cyfansoddiad barddonol i'r ieuenctyd, yr hwn y bwriadai ei gyhoeddi yn llyfryn. Tystiai un o'i gyfeillion barddonol mai hyny oedd fwyaf dan sylw ei awen yn ystod ei arosiad diweddaf yn Nhrefriw; ac y cymmerai ei rodfa yn fynych tua godreu Gallt yr Ysfa, ger llaw Trefriw, gyda glasiad y dydd, i gyfansoddi darnau o hono. Pa fodd bynag, ymddengys i'r cyfansoddiad hwnw golli rywfodd; a diammheu ei fod yn golled i'r genedl, yn enwedig i'r ieuenctyd; gan na bu neb yn Nghymru erioed yn addasach at y fath orchwyl nag efe. Hyderwn y daw y cyfansoddiad eto rywbryd i feddiant y genedl.

Yn mis Gorphenaf, 1854, symmudodd Ieuan o Drefriw i Rhyl, i wasanaethu fel curad y lle, am 80p. yn y flwyddyn! Curad fyth! ar ol treulio y fath oes faith yn yr Eglwys fel gweinidog, Cristion, gwladgarwr, a llenor; tra yr oedd ereill—Eglwyswyr o waed, heb fod o hil yr Ymneillduwyr, fel yr oedd yr enwog Ieuan Glan Geirionydd—heb fod y filfed ran o'i werth, mewn unrhyw ystyr, yn ymdroi yn eu rectoriaethau a'u parsoniaethau yn werth llawer o gannoedd yn y flwyddyn!

Ymddengys fod ar rai o'r Eglwyswyr callaf eu hunain gywilydd yn awr, wedi iddi fyned yn rhy ddiweddar, o blegid ymddygiad gwael yr esgobion at Ieuan Glan Geirionydd. Ceisiant esgusodi yr esgobion Cymreig, trwy ddywedyd fod Ieuan wedi taflu ei hun o afael dylanwad yr esgobion Cymreig, trwy gymmeryd curadiaeth yn Lloegr, dan nawdd yr Arglwydd Mostyn; a dywedant mai ymddygiad cyffelyb a gauodd Goronwy Owain o anwyl wlad ei enedigaeth, am yr hon yr hiraethai hyd ddydd ei farwolaeth. Ond beth a wnaethai y ddau lenor tlawd, ar ol dyfod o'r coleg, ond cymmeryd yr "offeiriadaeth" gyntaf a agorai iddynt, fel y gallent fwyta "tamaid o fara?" Am Goronwy Owain, cawn weled pa fodd yr ymddygwyd tuag ato ef pan ddeuwn at ei gofiant. Addefa amddiffynwyr yr esgobion fod bai ar wŷr Eglwysig y Dywysogaeth ar y pryd, am na buasent hwy yn darparu lle i Ieuan yn ei wlad ei hun; ond y gallai nad oedd yntau yn ymofyn am le, gan ei fod yn ymddiried yn yr Arglwydd Mostyn. Dichon fod peth gwir yn hyn; ond nid mwy gwir na bod Ieuan yn dywedyd wrth gyfaill iddo pan yn Ince, "â'i ddagrau yn treiglo dros ei ruddiau," ddarfod iddo ef gael ei somi, cydrhyngddynt oll, am le, yn ol eu haddewid, yn anwyl wlad ei enedigaeth. A phan ddaeth yno, yn ei hen ddyddiau, ar ol treulio oes o lafur caled yn ngwasanaeth yr Eglwys a'i wlad, y lle goreu a gafodd ynddi yn y diwedd, ydoedd curadiaeth Rhyl! Ysgrifenodd at esgob Llanelwy i ofyn am fywoliaeth yn ei esgobaeth ef, gan osod ei hawliau ger ei fron; a'r holl ateb a gafodd oedd, dau air neu dri yn unig yn cydnabod derbyniad ei lythyr, ac enw yr esgob, "Short," ar ei ddiwedd. Y fath ofid a barai triniaeth mor gywilyddus o anmharchus i feddwl tyner a gwladgarol Ieuan! Ond mae hyn yn ddigon i ddangos pa fath gydymdeimlad sydd gan esgobion Cymru at oreugwyr y genedl, a phob peth cenedlaethol.

Ni bu ei lafur yn faith yn Rhyl—dim ond hanner blwyddyn; ond ni bu "was drwg a diog" yn ngwinllan ei Arglwydd, pa le bynag y byddai. Bu yn foddion i ddiwygio llawer ar yr eglwys yn Rhyl—yr adeilad yn gystal a'r gynnulleidfa—yn ystod yr amser byr y bu yno yn trigannu.

Yn ei ddyddiau olaf, tra yn nghanol ei gynnefin iechyd, cyfododd math o benddüyn, a elwir *carbuncle*, ar ei wegil; yr hwn, yn ddiarwybod iddo ef a'i gyfeillion, a drodd allan yn angeuol mewn ychydig amser; ac ar yr 21ain dydd o Ionawr, 1855, pan yn drigain oed, bu farw y llenor, y bardd, y gwladgarwr, a'r Cristion llafurus, Ieuan Glan Geirionydd.

Claddwyd ef ar ddydd Gwener, y 26ain o Ionawr, yn mynwent Trefriw, ei lan enedigol, mewn beddgist brydferth o dywodfaen naddedig, yn cael ei hamgylchu gan reiliau haiarn, wedi eu planu mewn cylch hirgrwn o geryg nadd, a adeiladwyd yn ol ei gynllun a than ei gyfarwyddyd ei hun, yn fuan ar ol marwolaeth ei fam. Y mae pedair o feddgelloedd dan y gistfaen, wedi eu gweithio yn ystlysau eu gilydd, âg agoriad gwahanol i bob un, o'r pen dwyreiniol. Yr ydoedd wedi darparu y ddwy gell ganol i gynnwys ei hoff rieni; a'r ddwy arall—un iddo ei hun, ar y naill ochr i'w rieni, a'r llall i'w wraig, ar yr ochr arall.

Yn nechreu y flwyddyn hon (1862), cyhoeddodd ei nai, Mr. W. J. Roberts (*Gwilym Cowlyd*), gasgliad cryno, taclus, a gwir werthawr o farddoniaeth, tônau cynnulleidfaol, a thraethodau Ieuan Glan Geirionydd, gyda bywgraffiad helaeth; i'r hwn yr ydym yn ddyledus am lawer o ddefnyddiau yr erthygl hon.

Digitized by Google

Prif nodweddau Ieuan fel bardd oedd eglurder, coethder, dillynder, darluniadaeth, arabedd, teimlad byw, ac amrywiaeth; ac yn y peth olaf hyn yr oedd "ei fawr nerth—cuddiad ei gryfder." Yr oedd yr un mor gartrefol a meistrolgar yn mhob cangen o farddoniaeth a'u gilydd. Gellid meddwl wrth ddarllen "Gwledd Belsassar," "Drylliad y *Rothsay Castle*," "Gorllifiad Cantre'r Gwaelod," "Cyflafan Morfa Rhuddlan," &c., na bu ei feddwl yn cartrefu gyda dim erioed ond y mawreddog, y cynhyrfus, yr aruthrol, a'r trychinebus. Wrth ddarllen "Rhiangerdd Cwmdyli," "Yr hen amser gynt," ac "Ymdrech Serch a Rheswm," gellid meddwl ei fod wedi treulio ei holl amser yn y bryniau a'r cymmoedd, fel bugail gwladaidd, diofal, llawen-galon, a serchus, heb feddwl am ddim ond ei braidd a'i "anwylyd wiw," a'i fod yn bur hoff o "noswaith lawen." Wrth ddarllen "Hen Forgan a'i Wraig," gellid tybied mai hen ffarmwr cynnil, gofalus, a lled ymyrgar ydoedd; yn perchen hen wraig annillyn, ddiofal, grintachlyd, a digon anhydrin; ac nid Miss Wilson, ddysgedig, foneddigaidd, a rhinweddol, o Vicar's Cross. Wrth ddarllen "Ymadawiad o Tan y Celyn," "Hiraeth Cymro am ei Wlad," "Cywydd y Bedd," "Glan yr Iorddonen," &c., gellid meddwl na chyfododd yr awdwr erioed ei ben i fyny; ac na welodd na haul, na lloer, na ser, nac awyr las yn ystod ei holl fywyd; ond ei fod wedi treulio ei oes yn edrych i fol y cwmmwl du, i eigion trallodau ac anffodion; ei fod yn syllu yn barhaus i galon y ddaiar, gan chwilo yn bruddglwyfus am "dawel fan" i orphwys yn ei mynwes, allan o gyrhaedd y "gofid blin sy dan haul;" a'i fod o'r diwedd wedi llwyr flino ar ei einioes, ac ar y llafur blin a roddwyd iddo i ymguro ynddo, nes myned i "Lan yr Iorddonen ddofn," "mewn blys myn'd trwyddi," pan y tarawyd ef â braw, "ac ofn ei 'stormydd enbyd," nes peri iddo "oedi'n nychlyd," yn y fan hono, ar ei glan, yn syllu yn bruddglwyfus ar "rym ei dŵr, a'i thonog genlli;" ac yn ei "flys" a'i "ofn," iddo dori allan i lefain,—

"O! na b'ai modd i mi
Ysgoi ei hymchwydd hi,
A hedfan uwch ei lli
I'r Ganaan hyfryd!"

Ac yn yr un teimlad yr ymddengys iddo weddïo,

"O Dduw! rho im' dy hedd,
A golwg ar dy wedd;
A maddeu 'n awr fy meiau mawr,
Cyn 'r elwy i lawr i'r bedd:
Ond im' gael hyn, nid ofnai'r glyn,
Na cholyn angau 'n hwy;
Dof yn dy law i'r ochr draw,
Heb friw na braw, ryw ddydd a ddaw,
Uwch law pob loes a chlwy."

Ni oddef ein terfynau i ni gyferbynu "Molawd Arglwydd Gwydir," a phryddest "Yr Adgyfodiad," "Hanes y pysgotwyr trwstan," a'r cyffelyb. Ar air, y mae y cwbl o'i waith yn dangos yr amrywiaeth mwyaf hynod a gwrthgyferbyniol, a'r meddwl mwyaf ffrwythlawn a darfelyddol; ac yn ei ganiadau mwyaf hoenus, a hyd yn oed mwyaf digrifol, mae yn amlwg fod yr awdwr yn dal llygad diysgog ar les a moesau ei ddarllenwyr, gystal ag ar eu difyrwch; ac i goroni y cyfan, y mae eneiniad crefydd a gwir Gristionogaeth i'w deimlo, fel anadl esmwyth a hyfryd, yn treiddio trwy yn agos ei holl ganiadau.

Mae yr un ansoddau dymunol yn ei holl gyfansoddiadau rhyddieithol: mae yr iaith yn naturiol, dillyn, a seml; a'r testynau yn wastad â thuedd ynddynt i goethi chwaeth, i ddyrchafu moesau, ac i feithrin crefydd yn mynwes y darllenydd. Fel enghraifft i ddyn ieuanc i'w ddilyn, yn mhob peth, nid oes lawer a osodem ni o flaen Ieuan Glan Geirionydd. Mae yr hyn a ddywedodd Eben Fardd am ei "Hiraeth," ei "Felsassar," a'i "Adgyfodiad," yn neillduol, yn hollol wir am ei gyfansoddiadau yn gyffredinol; a diau, fel y prophwydodd Bardd Clynog am y rhai hyny, hwy lwyddant oll, yn ddiffael—

"I gario enw Geirionydd
Ar lif ei ddawn i'r olaf ddydd."

EVANS, HUGH: a anwyd, fel y tybir, yn sir Faesyfed, neu ar gyffiniau sir Amwythig, o'r lle y symmudodd yn ei ieuenctid i ddinas Worcester, lle y bu yn preswylio dros rai blynyddoedd. Tua dechreu y rhyfel gartrefol, aeth i fyw i Coventry, lle yr ymunodd, meddai Rees, â chymdeithas grefyddol; a dywed Richards yn bendant mai cymdeithas y Bedyddwyr ydoedd. Ymddengys nad Bedyddiwr oedd ar y cychwyn; canys dywed Richards iddo gofleidio eu syniadau yn fuan, a'i dderbyn yn gyflawn aelod yn eu plith. Tybir i hyn ddygwydd yn 1642 neu 1643. Ar ol hyny, annogwyd ef i arfer ei ddawn fel pregethwr; a dywed Rees iddo gael ei osod dan ofal ac addysg Jeremiah Ives; yr hwn, os nad oedd ar y pryd, a ddaeth yn fuan wedi hyny i fod yn weinidog y Bedyddwyr, ac yn un o ddadleuwyr enwocaf yr oes. Yn y flwyddyn 1646 neu 1647, dychwelodd Mr. Evans i wlad ei enedigaeth; a dywed Richards nad oedd mwy nag un neu ddwy o eglwysi wedi eu cynnull yn nghyd yn holl Gymru. Yn 1650, appwyntiwyd ef, medd Rees, gan ddirprwywyr y Gymdeithas er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru, i fod yn bregethwr teithiol yn siroedd Maesyfed a Brycheiniog. Dywed Richards iddo, ar ddechreuad ei weinidogaeth yno (Maesyfed, dybygem), pan oedd eto dan 30 oed, lwyddo i gasglu cynnulleidfa barchus, gyda'r hon yr arosodd hyd ddiwedd ei oes: a'r hon a barhaodd yn yr eglwys hyd ddyddiau Richards. Ymddengys, ar y cyfan, ei fod yn weinidog i eglwys, ac yn bregethwr teithiol hefyd; a dywed Walker ei fod yn derbyn cyflog am y naill wasanaeth a'r llall; ac os oedd yn gwneyd gwaith dau, medd Richards, yr oedd yn iawn iddo gael cyflog dau. Y mae yn ymddangos, medd yr olaf, iddo fod am ryw ysbaid yr unig weinidog y Bedyddwyr oedd yn Nghymru oll. Y mae rhai yn meddwl mai Vavasor Powell a'i bedyddiodd. Tybia Richards mai Bedyddwyr oedd ei holl ddilynwyr, ac nad oedd yn goddef cymmundeb cymmysg, er fod rhai o'r eglwysi cymmydogaethol yn arfer hyny; ac nad oedd ei ddilynwyr ef chwaith yn arfer canu yn eu haddoliad cyhoeddus, oddigerth yn unig, fe allai, wrth fwrdd yr Arglwydd.

Bu Hugh Evans farw yn mlodau ei ddyddiau, tua'r flwyddyn 1656. Cafodd ei wrthwynebu yn egnïol yn ystod ei fywyd gan y Crynwyr; a dywedir i un o honynt, o'r enw John Moon, gyhoeddi traethawd o gylch yr amser y bu farw, i warthruddo ei gymmeriad, gan ei alw yn "offeiriad Cymreig dall sir Faesyfed," yr hyn a ddyfynir gan ei holl fywgraffwyr fel esampl o ymosodiad Moon arno; ond os na ddywedodd Moon rywbeth gwaeth na hyny am dano, nid rhyw bwysig iawn yn sicr oedd y gwarthrudd a fwriodd y Crynwr hwnw ar ei gymmeriad. Pa fodd bynag, daeth dau o'i gyfeillion allan i'w amddiffyn yn dra selog, yn yr un traethawd; sef, un John Price o Faes y Gelli, ger Nant y-mêl, yn sir Faesyfed, a

Digitized by Google

William Bound o'r Garth, yn sir Drefaldwyn; y rhai a'i darluniant fel dyn duwiol, a gweinidog ffyddlawn i Iesu Grist.

**EVANS, JOHN**, oedd frodor o Geredigion; ac yr oedd yn un o'r "Ddwy Fil" a nacaodd ymostwng i Ddeddf yr Unffurfiad. Tröed ef allan o Fangor, ger llaw Castell Newydd yn Emlyn. Yr oedd ei ddychweliad i'r ffydd yn dra nodedig. Ar ol bod yn halogi y Sabbath yn y bore, aeth i wrandaw pregeth yn yr hwyr, trwy offerynoliaeth yr hon y daeth yn ddyn newydd. Mewn amser, cafodd ei alw i'r weinidogaeth, a'i ordeinio gan y Presbyteriaid. Er nad oedd ei dalentau yn helaeth, yr oedd ei sel yn fawr dros ben. Llafuriodd yn dra diwyd, a choronwyd ei lafur â llwyddiant. Bu yn gweinyddu am lawer o flyneddoedd i'r gynnulleidfa yn Cellan, yn agos i Lanbedr. Cynnygiodd ei brif noddwr, David Llwyd Gwynne, barsonoliaeth gyfoethog iddo; ond ni feiddiai ei derbyn. Bu farw yn fuan ar ol i Ddeddf yr Unffurfiad, yn 1662, gael ei rhoddi mewn grym. Dywed Rees fod Palmer yn tybied mai yr un person oedd John Evans o Wrecsam, tad y Dr. John Evans; ond nid ydyw hyny yn gywir.

**EVANS, JOHN**, oedd fab i Matthew Evans, a anwyd yn Great Sutton, ger llaw Ludlow. Yr oedd ei daid a'i dad wedi bod yn barsoniaid, y naill ar ol y llall, yn Penegoes, yn agos i Fachynlleth, yn sir Drefaldwyn. Cafodd ei addysg yn Balliol College, yn Rhydychain. Yr ydoedd yntau yn un o'r "Ddwy Fil Anghydffurfwyr." Gadawodd y brif ysgol yn gynt nag y bwriadai, am nas gallai ymostwng i ymwelwyr y Senedd. Ar ol dychwelyd at ei dad i Gymru, ordeiniwyd ef yn henadur yn Mrycheiniog gan y Dr. Mainwaring, esgob Ty Ddewi, Tachwedd 28ain, 1648; ond gwelodd achos yn fuan ar ol hyny i newid ei feddwl yn nghylch Cydymffurfiad. Yr oedd ei dad yn amddiffynwr selog i'r awdurdodau gwladol, ac ysgrifenodd y naill amryw bapurau ar y pwnc at y llall. Ond parhaodd ef yn sefydlog yn ei syniadau; ac ymddengys iddo gael ei dderbyn yn fuan yn un o bregethwyr teithiol Cymru; a llafuriodd mewn gwahanol barthau o'r wlad yn ddifrifol, yn ddiwyd, ac yn gymmeradwy. Aeth wedi hyny yn athraw i Ysgol Rad Dolgellau; ac oddi yno, aeth yn athraw Ysgol Rad Croesoswallt, lle y goddiweddwyd ef gan Ddeddf yr Unffurfiad. Wedi iddo gael ei amddifadu o'i gynnaliaeth gyffredin, darostyngwyd ef a'i deulu i dlodi mawr, fel y bu raid iddo werthu llawer o'i lyfrau at ei gynnaliaeth.

Yn 1668, efe a ymsefydlodd yn Ngwrecsam. Ymddengys, medd Richards, fod yr Ymneillduwyr yno wedi ymranu yn ddwy eglwys ar ol ymadawiad Mr. Mostyn, un yn Bresbyteraidd a'r llall yn Annibynol, yn gymmysg a'r Bedyddwyr. I'r eglwys olaf hon yr aeth Mr. Evans yn weinidog, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth, er gwaethaf pob erlidigaeth a ymosododd arno. Pan oedd yr erlidigaeth boethaf, byddai yn cymmull ei gynnulleidfa i'w dŷ ei hun, neu ryw dai ereill a'i derbynient yn y gymmydogaeth. O blegid ei ddysg, byddai rhai boneddigion o raddau uchel yn anfon eu plant ato, i fyrddio ac i gael addysg dros amryw flyneddoedd; yr hyn oedd yn gymhorth mawr iddo dan erlidigaethau blinion. Dymunwyd arno yn daer, tua'r flwyddyn 1681, gan esgob y dalaeth, Dr. W. Lloyd, yr hwn, ar y dechreu, a ddangosai barch neillduol ato, i dderbyn bywoliaeth dda ganddo; ond efe a wrthododd yn benderfynol; o blegid yr hyn yr erlidiodd yr esgob ef gyda llymder anghristionogol; a phan appeliodd at yr ynadon am nawdd rhagddo mewn llys gwladol, yn lle ei amddiffyn, hwy a roddasant ddirwy drom arno yn olynol, ac a ymddygasant ato fel un heb fod dan nawdd y gyfraith. Ond, fel y mae mwyaf nodedig, er mor llym a haerllug y gorthrymid ef gan yr Eglwyswyr, efe a ddiangodd yn well na llawer nad erlidid hwy mor awyddus. Bu yn cadw ei ddrysau dan glo parhaus am rai blyneddoedd; ac ni bu yr achwynwyr mwyaf cyfrwys ac ymroddgar erioed yn alluog i gael y dirwyon a osodid arno; ac ni attafaelwyd ei berson erioed ond unwaith, a hyny ar y ffordd fawr, er lluosoced y gwarantau a roddwyd i'w ddal: a rhyddhawyd ef y pryd hyny yn fuan trwy gyfrwng gŵr urddasol, yr hwn a gymmerai ei blaid yn dra charedig ar wahanol amserau. Y mae lle i feddwl fod ei aml galedi, a'i deithiau mynych yn y nos, wedi anmharu ei iechyd yn fawr, ac wedi dwyn gwendid arno, a'i dilynodd hyd ddiwedd ei oes.

Bu iddo ddwy o wragedd. O'r gyntaf, cafodd ferch, yr hon a briododd Mr. Timothy Thomas, o Morton, caplan Mrs Baker o Suiney, yn agos i Groesoswallt. O'r briodas hon, ganwyd mab, yr hwn hefyd a alwyd ar yr enw Timothy, a'r hwn wedi hyny a aeth yn weinidog i'r Bedyddwyr yn Pershore, yn sir Worcester, lle y dilynwyd ef gan ei fab o'r un enw—y ddau yn ddynion talentog a duwiol.

Ail wraig Mr. John Evans oedd ferch y milwriad Gerrard, llywydd castell Caerlleon, a gweddw yr enwog Vavasor Powell—gwraig o ysbryd ardderchog, a deall cryf iawn. O'r briodas ddedwydd hon y deilliodd y Dr. John Evans, a gaiff eto fod yn wrthrych cofiant byr genym. Dywedir fod John Evans "yn ŵr o ddysg helaeth, o sobrwydd a difrifwch mawr, o ymddyddan dihalog, yn bregethwr diwyd a doeth, ac yn Annibynwr uchel."—*Palmer*, iii. 523. Cofnodir gan Matthew Henry derfyn ei yrfa, fel hyn:—"Ychydig amser cyn ei farwolaeth, llefarai gyda mwy o ddifrifwch na chyffredin, gan ymlawenychu yn yr Arglwydd Iesu Grist fel craig ei iachawdwriaeth; a phan y dywedwyd wrtho ei fod yn myned i dŷ ei Dad, atebodd yn llawen, 'Ni bydd yn dda arnaf fi nes cyrhaedd yno." Dymunodd rhai oedd yn bresennol arno roddi rhyw gynghor daionus unwaith eto; i'r rhai yr atebodd, 'Ewch at Dduw mewn gweddi.' Bu farw Gorph. 16eg, 1700, yn y 72ain flwyddyn o'i oedran; a Mr. David Jones, bugail yr Eglwys Gynnulleidfaol yn yr Amwythig a draddododd ei bregeth angladdol oddi ar *Act.* xxi. 14.

**EVANS, JOHN, D. D.**: mab John Evans o Wrecsam, o'i ail wraig, gweddw yr enwog Vavasor Powell [gwel EVANS o WRECSAM]. Ganwyd ef yn Ngwrecsam, yn y flwyddyn 1680. Wedi derbyn addysg dros ryw ysbaid, dan arolygiad y gweinidogion Ymneillduol enwog Rowe a Jollie, dywedir iddo fyfyrio *Pool's Synopsis*, a'r ysgrifenwyr Cristionogol o'r drydedd ganrif, gyda James Owen, yn sir Amwythig. Yn 1702, ordeiniwyd ef yn Ngwrecsam; ac yn 1704, dewiswyd ef yn gynnorthwywr i'r Dr. Williams, yr hwn a ddilynodd yn 1617, ar gynnulleidfa Annibynol; yr hyn a achlysurodd sylfaeniad capel wedi hyny yn Broad-street, Fframc Fechan. Aeth hefyd yn ddarlithiwr yn Slater's Hall; ac o blegid ei ddysg a'i dalentau, gwnaed ef yn ddoctor duwinyddiaeth gan brifysgolion Edinburgh ac Aber-

Digitized by Google

deen. Cymmerodd ran lled helaeth yn y ddadl Ariaidd; ac yr oedd yn gwbl groes i lawarwyddo unrhyw erthyglau o ffydd. Fel pregethwr, dywedir ei fod yn dra hyawdl; ac fel ysgrifenydd, yr oedd yn gymmeradwy gan dduwinyddion o bob enwad. Y cyfansoddiadau a ysgrifenodd oedd "Pregeth ar Dymmer Gristionogol" (*Christian Temper*), am y rhai y dywedai Dr. Watts eu bod y crynodeb mwyaf cyflawn o'r dyledswyddau a berthynent i fywyd Cristionogol a gyhoeddwyd yn oes yr awdwr. Hefyd, cyhoeddodd rai pregethau achlysurol ereill; a gwaith rhagorol arall wedi ei gyflwyno i bobl ieuainc; a nodau gwerthfawr, yn egluro yr Epistol at y Rhufeiniaid, am yr hwn y dywedai y Dr. Doddridge, "Yr esboniad ar y Rhufeiniaid, a ddechreuwyd gan Henry, ac a orphenwyd gan y Dr. Evans, yw y goreu a welais erioed." Dechreuodd hefyd ysgrifenu hanes Anghydffurfiaeth; ond ni chafodd einioes i'w orphen. Bu farw Mai 16eg, 1730.

EVANS, JOHN, D.D.: prelad enwog, yr hwn oedd frodor o sir Gaernarfon, a anwyd yn y Plas Du, yn mhlwyf Llanarmon. Cafodd ei addysg yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain, lle y derbyniodd ei raddau. Wedi cymmeryd urddau eglwysig, cafodd barsoniaeth Llanaelhaiarn, yn ei sir enedigol; ac ar Ionawr 4ydd, 1701, cyssegrwyd ef i esgobaeth Bangor. Yn 1715, symmudwyd ef i esgobaeth Neath, yn yr Iwerddon. Yno, dangosodd duedd i buro dysgyblaeth yr Eglwys; o blegid yr hyn y cafodd lawer o flinder a sarhad gan y Dean Swift, yr hwn oedd yn dal swydd uchel yn yr esgobaeth. Y mae llythyrau tuchanol Swift at yr esgob i'w gweled yn ei waith. Er gwaethaf ymosodiadau llymion a sarhaus y Dean Swift, crybwyllir am yr esgob Evans gan gydoeswyr ereill gyda pharch ac edmygedd. Bu farw, Mawrth, 1724. Megys y treuliodd ei fywyd yn yr Eglwys Sefydledig, gadawodd ei holl eiddo at ei gwasanaeth hi ar ol marw. Gadawodd ei etifeddiaeth bersonol at adeiladu tŷ yn Ardbraccan; i bwrcasu tir at wasanaeth parson Llanaelhaiarn, yn esgobaeth Bangor; i bwrcasu tiroedd eglwys a degymau gwŷr lleyg, trwy gydsyniad llywodraethwyr Rhodd y Frenhines Ann, er budd ac er gwaddoli amryw eglwysydd yn esgobaeth Neath, y rhai oedd i fod dan awdurdod esgobion yr esgobaeth hono yn unig. "Yr oedd yn anhawdd dychymygu," medd Ware, "am ddosbarthiad mwy doeth a phriodol o feddiannau a gafwyd oddi wrth yr Eglwys, na'u cyflwyno fel hyn i'w gwaddol hi eilwaith." Y mae darlun o'r esgob Evans yn Mhalas Lambeth, a baentiwyd yn 1707.

EVANS, THEOPHILUS: pummed mab oedd efe i Charles Evans, Pen y Wenallt, yn Ngherediğion. Ganwyd ef yn 1694, a chafodd ei ordeinio yn ddiacon yn 1718, ac yn offeiriad yn 1719. Ei guradiaeth gyntaf oedd Tir yr Abad, yn sir Frycheiniog, o ba le y symmudodd i Lanlleonfel. Yn 1728, rhoddodd esgob Tŷ Ddewi fywioliaeth fechan Llanfynydd iddo, yn yr hon y bu am ddeng mlynedd, ac a roddodd i fyny pan y cyflwynwyd iddo fywioliaeth Llangammarch. Yn 1739, cafodd fywioliaeth Llanfaes gan esgob Tŷ Ddewi, yr hon a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Yn 1763, rhoddodd fywioliaeth Llangammarch i fyny i'w fab yn nghyfraith, Hugh Jones; yr hwn a'i newidiodd wedi hyny am Llywel.

Y cyfansoddiad cyntaf a gyhoeddodd ydoedd y llyfr Cymraeg tra adnabyddus hwnw, a elwir *Drych y Prifoesoedd*, yn 1716; yr hwn a ail argraphwyd, gyda llawer iawn o chwanegiadau ganddo ef ei hun, yn 1740, yr hwn a ddarllenwyd ac a fawrygwyd er hyny hyd yn bresennol; ac o'r hwn y mae amryw argraffiadau wedi eu cyhoeddi. Math o hanes byr o'r hen Frytaniaid ydyw y llyfr, fel y mae yn eithaf hysbys i lawer; wedi ei seilio yn benaf ar chwedl Gruffydd ab Arthur (Sieffre o Fynwy), a Chronicl Caradog o Lancarfan. Y mae Evans yn adrodd sylwedd y chwedlau hyny fel pe byddent wirioneddau hanesyddol cedyrn a diammheuol, yn y dull mwyaf hyawdl, Cymreigaidd, ac ystwyth. Ni ddylid rhoddi ond ychydig o hyder yn Evans fel hanesydd Cymreig; ond fel ysgrifenydd ystwyth, ieithweddiadol (*idiomatic*), a Chymreigaidd, mae yn sicr nad oes neb etto wedi rhagori arno, ac yn fwy teilwng o gael ei efelychu gan y rhai a fynant ymenwogi fel Cymreigwyr ieithweddiadol.

Yn 1739, cyhoeddodd ei *Bwyll y Pader;* sef math ar eglurhâd neu esboniad ar Weddi yr Arglwydd, mewn amryw bregethau. Mae yr un ansoddau cyfansoddiadol bron yn y pregethau hyn ag yn *Nrych y Prifoesoedd;* ac y maent, o blegid ystwythder eu hiaith, yn deilwng o ganmoliaeth gyffelyb. Yn 1752, cyhoeddodd *A History of Modern Enthusiams;* ac yn 1759, cyhoeddwyd argraffiad arall o hono—pob un o ba rai sydd yn awr yn hynod o anhawdd eu cael. Yn y gwaith hwn, y mae yn trin Anghydffurfwyr yn dra chwerw; ond y mae yn dyfynu o'u hawdwyr hwy eu hunain yn bur onest, ac yn nodi y pethau a ystyria efe yn fwyaf gwrthwynebus yn egwyddorion eu prif arweinwyr.

Priododd Alice, merch Morgan Evan o'r Gelli galed, yn sir Forganwg, o'r hon y bu iddo dri mab a dwy o ferched, un o ba rai a briododd Hugh Jones, ficar Llywel; a hi oedd mam Theophilus Jones, hanesydd sir Frycheiniog. Bu Theophilus Evans farw yn 1769.

EVANS, THOMAS: pregethwr teithiol oedd, gyda'r Bedyddwyr; ac yr oedd yn gyff cenedl i lawer o wŷr a fuant enwog yn eu dydd gyda'r enwad yn Nghymru. Mab ydoedd i amaethwr parchus o'r un enw, oedd yn byw mewn lle a elwid y Pentre, yn mhlwyf Llanafan Fawr, yn sir Frycheiniog, yn agos i lan yr afon Wy (*Wye*), lle y gwahana y sir hono oddi wrth sir Faesyfed. Nid ymddengys pa bryd yr ymunodd â chrefydd, ond gellid medáwl, medd Richards, ei fod yn "cofio ei Greawdwr yn nyddiau ei ieuenctid." Fe allai iddo gael ei ddychwelyd i'r ffydd dan weinidogaeth y duwiol a'r llafurus Hugh Evans, ac iddo ddyfod yn aelod o'r gymdeithas i'r hon yr oedd efe yn fugail; er nad ymddengys eu bod yn perthyn dim i'w gilydd yn ol y cnawd, er eu bod o'r un cyfenw.

Canfyddwyd cymhwysder ac awydd yn Thos. Evans yn foreu i ddysgu ereill; a thybir iddo ddechreu pregethu o gylch y flwyddyn 1651 neu 1652; canys yn y flwyddyn ganlynol (1653) cymmeradwywyd ef gan Bwyllgor y Gweinidogion, fel un addas i waith y weinidogaeth; ac o ganlyniad, cafodd ei appwyntio gan Ddirprwywyr y ddeddf er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru, am yr hyn y rhoddid iddo 30p. yn y flwyddyn.

Dyma gopi o'r tystlythyr (*certificate*) a gafodd i'w awdurdodi i'r swydd o fod yn bregethwr teithiol yn Nghymru:—

"*Gan y Dirprwywyr er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru.*—Gan fod pump o weinidogion a enwyd yn Neddf y Senedd, a amserwyd y 25ain o Chwefror,

Digitized by Google

1649, a elwir, *Deddf i chwanegu Lledaenu yr Efengyl yn Nghymru*, wedi cymmeradwyo Mr. Thomas Evan, yr ieuengaf, yn ol tuedd y ddeddf ddywededig, fel person addas i waith y weinidogaeth, ac wedi ei gyflwyno ef, trwy eu cynghor i ni, er mwyn ei gefnogi yn ngwaith y weinidogaeth. Yr ydym ni, gan hyny, yn ol archiad a chyfarwyddyd a roddwyd i ni gan y pwyllgor o bump, yn Nedd, yn gorchymyn ar fod i Mr. John Price, trysorydd, dalu o hyn allan i'r dywededig Thomas Evans, y swm o ddeg punt ar ugain, yr hyn a farnasom ni yn addas iddo fel cyflog a chefnogaeth yn ngwaith y weinidogaeth. Bydd y gorchymyn yma, a'i dderbyneb (*acquittance*) yntau, yn ddigon o awdurdod i'r dywededig drysorydd. Amserwyd dan ein dwylaw ni, yr 16eg o Fai, yn mlwyddyn ein Harglwydd, 1653. John Williams, &c."

Ar ol hyn, ymroddodd Thomas Evans yn ddiwyd a ffyddlawn i ledaenu gwybodaeth o Grist, nid yn unig yn ei gymmydogaeth ei hun, ac yn mysg pobl Mr. Hugh Evan, â'r hwn yr oedd yn gyssylltiedig; ond hefyd mewn parthau mwy pellenig o'r wlad. Yn 1654, aeth ar daith trwy Forganwg; ac yr oedd yn Nghymdeithasfa y Bedyddwyr a gynnaliwyd y flwyddyn hono yn Aberafon, yn y sir hono. Pa fodd bynag, ymddengys iddo gyfyngu ei lafur, gan mwyaf, o fewn y cymmydogaethau cyfagos, lle yr oedd yn ddefnyddiol a chymmeradwy.

Y lle y pregethai Thomas Evans yn fwyaf sefydlog, fel yr ymddengys, cyn yr Adferiad, oedd eglwys plwyf Maesmynys; i'r hon yr oedd wedi ei appwyntio yn weinidog, ac o'r hon, yn mysg y "Ddwy Fil" ereill, y bwriwyd ef allan gan Ddeddf yr Unffurfiad. Ar ol hyny, dioddefodd lawer o galedi a phrinder, ac erlidigaethau chwerwon, dan y teyrnasiad adgas hwnw a'r un dilynol, dros yr ysbaid hirfaith o bum mlynedd ar ugain; a thua therfyn yr erlidigaeth greulawn hono, gorphenodd yntau ei yrfa, ac aeth i mewn i'w etifeddiaeth. Mynegir iddo fod unwaith yn ngharchar Brycheiniog o blegid ei anghydffurfiaeth: ond nid yw hysbys dros ba hyd y carcharwyd ef; ac nid ymddengys iddo fod yn ngharchar ond unwaith; nac iddo ef, na'i gyfaill teilwng a'i gydlafurwr ffyddlawn yn yr Arglwydd, Henry Gregory, gael fawr o dynerwch ar ddwylaw ei erlidwyr.

Yn 1686, ymfudodd amryw o'i gyfeillion o sir Faesyfed i Pennsylvania, yn America; ac yno, yn 1688, mewn lle a alwasant hwy y pryd hyny Pen y Pec--ond yn awr a elwir Lower Dublin – y sefydlwyd eglwys o Fedyddwyr gyntaf erioed yn y dalaeth hono. Yn mysg yr ymfudwyr Cymreig bythgofiadwy hyny, ceir enwau Samuel Jones, John Eaton, George Eaton, &c.; y rhai a gyrhaeddasant wedi hyny raddau uchel o barch yn mysg eu cydymfudwyr rhinweddol a llafurus. Dengys y dyfyniad canlynol o lythyr Cymraeg, a ddanfonwyd gan Samuel Jones at Caleb Evans, mab hynaf Thomas Evans, mor anwyl oedd coffadwriaeth eu hen arweinydd yn Nghymru, i'r ymfudwyr Cymreig crefyddol hyny yn mhen blyneddau ar ol ei gladdu:—

"Gallaf ddywedyd mewn gwirionedd gyda'r apostol, fy mod yn llawenhau yn ddirfawr wrth weled cymmaint o blant eich tad yn rhodio mewn gwirionedd. Cynnorthwyed yr Arglwydd fi i ddilyn y cynghorion iachus a roddodd efe i mi ac ereill! Yr wyf yn cofio yn dda mor nerthol, mor eglur, ac mor ddifrifol y pregethai, ac mor wir bwysig y byddai ei addysgiadau a'i gymhwysiadau; ac nis gallaf byth anghofio y fath frawd caredig y cefais i ef. Cynnorthwyed Duw chwi i rodio yn llwybrau daionus eich tad, a chynnysgaedded chwi â deuparth o'i ysbryd ef; a llwydded a bendithied yn helaeth eich llafur yn ei winllan!"

Amserwyd y llythyr sydd yn cynnwys y dyfyniad uchod, o Bennsylvania, yn Mawrth, 1709; a dengys yn amlwg mor werthfawr oedd ei goffadwriaeth yn ngolwg ei gyfeillion yn mhen cymmaint o amser ar ol iddo gael ei roddi yn ei fedd.

O gylch y flwyddyn 1675, pan y rhaid ei fod tua deg a deugain oed, efe a briododd ferch ieuanc dduwiol, o sir Faesyfed. Bu fyw ar ol hyny tua thair blynedd ar ddeg; ac yn 1688, bu farw, gan adael gweddw a chwech o blant bychain ar ei ol—yr hynaf heb fod dros 12 mlwydd oed. Yr oedd yr holl blant amddifaid hyn (pedwar mab a dwy ferch) yn nodedig am eu duwioldeb boreuol. Galwyd dau o'r meibion i'r weinidogaeth. Bu pedwar neu bump o'r ŵyrion hefyd yn weinidogion y Bedyddwyr, ac yn eu plith yr enwog Hugh Evans o Bristol. O'i orŵyrion, bu tri o leiaf yn y weinidogaeth—un o ba rai oedd Dr. Caleb Evans, o Bristol; ac o gylch deugain mlynedd yn ol, yr oedd dau neu chwaneg o'i or-orŵyrion (*great great grandsons*) yn weinidogion y Bedyddwyr, ac un o honynt oedd y teilwng a'r llafurus John Evans, awdwr *Y Crynodeb o Enwadau y Byd Cristionogol.* Gwel EVANS, JOHN, Worship street.

EVANS, JOHN, Worship street, Llundain: a anwyd yn Wysg, yn sir Fynwy, yn 1767. Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed, dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr yn Bristol, lle yr oedd wedi bod am ryw ysbaid yn myfyrio dan yr enwog Robert Hall. Yn 1787, aeth yn aelod o Brifysgol Aberdeen; o ba le yr aeth, yn 1792, i Brifysgol Edinburgh, lle y cafodd y radd o M.A. Tua'r flwyddyn 1792, dilynodd Anthony Robinson fel gweinidog cynnulleidfa o Fedyddwyr, yn Worship street, Llundain; ac ar yr achlysur hwnw cyhoeddodd *Address* er mwyn cynhyrfu adfywiad crefyddol yn mysg y Bedyddwyr Cyffredinol. Yn fuan ar ol hyny, cyhoeddodd ei *Address to Young People*, ar bwysfawrogrwydd crefydd, a'r angenrheidrwydd o honi; ac yn 1795, cyhoeddodd ei *Sketch of the Denominations of the Christian World.*

Tua yr un amser, agorodd athrofa i nifer benodol o ddysgyblion yn Islington, a chyrhaeddodd glod mawr yn fuan fel athraw ieuenctyd. Yn 1815, ymosododd afiechyd arno a'i hamddifadodd o ddefnydd ei aelodau hyd ddiwedd ei oes. Yn 1819, derbyniodd y radd o D.C.L. o un o Brifysgolion America; ac yn yr un flwyddyn, ymddangosodd ei *Memoir of the Life and Writings of William Richards, LL.D.*; ac yn 1820, cyhoeddodd *Richards' Welsh Nonconformists' Memorial*, neu *Cambro-British Biography*, gyda nodau ac eglurnadau.

Yn 1821, rhoddodd ei athrofa i fyny ar farwolaeth ei drydydd mab, yr hwn a fwriadasai i fod yn olynwr iddo. Yr oedd mor gwbl analluog i symmud, fel y byddai yn rhaid ei gario oddi ar ei lwth i'r pulpud; a pharhaodd i bregethu hyd o fewn ychydig o wythnosau i'w farwolaeth; yr hyn a ddygwyddodd ar y 25ain o Ionawr, 1827. Dywedir iddo ddangos awydd dirfawr, trwy ystod ei holl fywyd, am wneud pawb o'i amgylch yn ddedwydd; ac ymdrechodd ymdrech deg i gymmodi golygiadau yr holl enwadau Cristionogol. Yr oedd yn nodedig o hyawdl fel siaradwr difyfyr; a chymmeradwywyd ef yn fawr o blegid ei ddull syml, anhoniadol, ac eto tra phwysig o lefaru.

Digitized by Google

Heb law y cyfansoddiadau a grybwyllwyd, cyhoeddodd ysgrifeniadau a darluniadau lleol ar dduwinyddiaeth, ac amryw bynciau ereill. Yn ei ragymadrodd i'r pedwerydd argraffiad ar ddeg o'i *Sketch of the Denominations of the Christian World*, dywed, er fod can mil o gopïau o'r gwaith wedi eu gwerthu, na dderbyniodd ef am yr hawlysgrif ond deg punt yn unig.

EVANS, JOHN, Bala. Ysgrifenodd John Evans hanes byr o'i fywyd ei hun, o'i enedigaeth hyd ei argyhoeddiad; yr hwn a gyhoeddwyd, gyda chwanegiadau, gan y Parch. Simon Llwyd, Bala, yn yr hen *Drysorfa*, llyfr iii. Ail gyhoeddwyd yr hanes hwnw, gyda sylwadau ar hanes bywyd John Evans, yn y *Traethodydd*, llyfr v; ac y mae crynoad o'r un defnyddiau yn *Methodistiaeth Cymru*, llyfr i. Heb law hyn, nid ydym yn gwybod am ddefnyddiau at hanes y dyn da hwn, oddigerth y cyfeiriadau sydd ato yn *Nrych yr Amseroedd*, ac yn *Hanes y Methodistiaid* sydd yn yr argraffiadau cyntaf o'r *Cyffes Ffydd*.

Ganwyd John Evans mewn lle a elwir Glan Afon, yn mhlwyf Gwrecsam, sir Ddinbych, Hyd. 30ain, 1723. Enw ei dad oedd William Evans, llafurwr; a'i fam ydoedd Ann Evans, bydwraig. Symmudodd ei rieni, pan yr oedd tua phedair blwydd oed, i Adwy'r Clawdd, yn yr un plwyf, i dyddyn bychan o'u heiddo eu hunain. Er nad oedd ei rieni yn gyfoethog, yr oeddynt yn byw yn gysurus, a pherchid hwy yn fawr fel pobl onest a geirwir gan bawb o'u cydnabod. Ymddengys fod eu holl grefydd yn gynnwysedig y pryd hyny mewn moesau da, a myned i'r eglwys ar y Sabbathau; pa fodd bynag, bu eu symmudiad i Adwy'r Clawdd yn foddion diarwybod iddynt hwy i ddwyn Methodistiaeth i'r ardal, fel y ceir gweled eto. Dywed John Evans y cynghorai ei fam ef yn fynych i ymgadw rhag lladrata, dywedyd celwydd, tyngu, a thori y Sabbath. Dyma ddyn mawr arall wedi cael ei hyfforddi yn mhen ei ffordd gan ei fam; ac nid ymadawodd effaith ei chynghorion hi, yn y pethau a nodwyd, â John Evans ar hyd ei oes; canys dengys ei holl fywyd na bu dyn gonestach, geirwirach, a mwy dihalog ei ymadroddion, cystal a'i ymarweddiad, nag ef erioed yn Nghymru.

Nid yw hysbys pa faint o ysgol a gafodd John Evans; ond dywed ei hun i'w rieni ei roddi yn yr ysgol yn ieuanc; ac ymddengys ei fod yn ddysgwr diwyd a chyflym, gan ei fod yn medru darllen ei Feibl yn Gymraeg a Saesneg yn dda pan oedd o ddeutu naw neu ddeg oed. Dysgodd ysgrifenu a rhifyddu hefyd, yn yr ysgol, fel yr ymddengys; er mai wedi dyfod i fwy o oedran, ac wedi gadael yr ysgol, fel y gellir tybied, y cynnyddodd yn y gwybodau hyny. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg fod ei rieni wedi rhoddi mwy o ysgol iddo, a gwell addysg deuluaidd hefyd o lawer, nag a arferid y dyddiau hyny yn gyffredin; ac, yn wir, nac a roddir yn y dyddiau hyn chwaith gan y rhan fwyaf o rieni o'u sefyllfa hwy i'w plant.

Yr oedd yn cael hyfrydwch mawr pan ydoedd tua deg oed yn darllen y rhanau hanesiol o'r Beibl Cymraeg; a byddai yn myned i dai y cymmydogion yn y nos, i adrodd o'i gof yr hanesion hyny am Noah a'r diluw, am Abraham yn myned o'i wlad, am Ioseph yn cael ei werthu gan ei frodyr, am Israel yn myned trwy y Môr Coch, a'r cyffelyb: ac mor anaml oedd Beiblau y pryd hyny yn y wlad, a chyn lleied yn medru darllen, fel yr oedd yn credu, ar ol tyfu i fyny i oedran gŵr, fod y cyfryw hanesion mor ddieithr i'r trigolion ag oeddynt i bobl dduon Affrica. Nid oedd eto yn cael ond ychydig flas a hyfrydwch yn y rhanau athrawiaethol o'r Beibl; ac yr oedd ei awydd i ddarllen pob rhan o'r Beibl yn lleihau fel yr oedd efe yn tyfu i fyny i oedran a chorfforolaeth, ac yn cael mwy o ddifyrwch mewn chwarëyddiaethau a chyfeillion ofer. Er maint oedd ymdrech ei fam ofalus, nis gallai ei attal i ddilyn cyfeillion llygredig yn eu campau chwareugar ar y Sabbathau. Yr oedd swn ei gymdeithion yn eu chwarëyddiaethau yn ormod o hudoliaeth iddo i'w gwrthsefyll; a mynai dreulio ei amser yn eu cymdeithas lygredig ar y Sabbathau, o foreu hyd yr hwyr. Pa fodd bynag, yr oedd y campau llygredig hyn yn bur ddrud iddo, hyd yn oed y pryd hyny; o blegid ar ol treulio ei amser felly, a cholli ei gyfeillion, byddai yn dychwelyd adref y nos Sabbathau dan lwythi trymion o ofn marw, a myned i'r bedd a'r farn, y rhai a fyddent ar amserau bron llethu ei feddwl yn llwyr; ac i chwanegu trychineb ei feddwl, byddai cerydd llym a difrifol ei fam yn ei aros am ei gamymddygiad, yr hyn a chwanegai lawer at ddychrynfeydd ei gydwybod. Yn nghanol ei holl afiaeth chwareugar, cafodd ei gadw rhag cyflawni pechodau rhyfygus a chyhoeddus, megys lladrad, godineb, meddwdod, tyngu, &c.; a mawr oedd ei ymdrech i wneyd plastr o'r cyfryw rinweddau allanol i'w osod ar friwiau ei gydwybod euog; heb wybod eto, medd efe, fod "cyfraith Duw yn dal ar egin y pechodau hyny yn y galon." Cwyna nad oedd efe yn gwybod hyd yn hyn fod trachwantau y galon yn bechodau gwaeddfawr yn erbyn Duw, yr hwn sydd yn dal dyn yn euog am ei feddyliau halogedig, gystal ag am ei weithredoedd drwg.

Pan oedd rhwng deuddeg a thair ar ddeg oed, rhoddodd ei rieni ef yn brentis o wehydd am dair blynedd, pryd y cynnyddodd mewn corffolaeth a chryfder tu hwnt i nemawr o'i gyfoedion. Wedi bwrw ei brentisiaeth, cyfododd awydd cryf yn ei feddwl am fyned yn filwr, yr hyn a barai ofid blin i'w fam ofalus a thyner galon; a hyny a'i rhwystrodd lawer gwaith rhag ymuno â'r fyddin. Pa fodd bynag, aeth unwaith hyd yn oed ar draws dymuniad ei fam, a'i dueddiadau ei hun i ufuddhau iddi, i Gaerlleon, gan lwyr fwriadu ymuno âg adran o'r gwŷr meirch oedd yno ar y pryd; ond erbyn iddo gyrhaedd yno, yr oedd y gwŷr meirch wedi ymadael o'r ddinas er y diwrnod o'r blaen; ac er iddo gael annogaeth daer i ymuno â'r gwŷr traed oedd yno ar y pryd, nis mynai, am mai ar y gwŷr meirch yr oedd efe wedi rhoddi ei fryd. Credaifod "dirgel law Rhagluniaeth" yn yr amgylchiad, am fod gan Dduw orchwyl arall iddo i'w gyflawni.

Wedi bod am dymmor ar ol hyn yn dilyn ei grefft fel gwehydd, cyfododd awydd arno i fyned i weithio i waith plwm oedd yn y gymydogaeth. Ar ol myned i'r gwaith hwnw, a dechreu ymgymmysgu â'r mwnwyr halogedig oedd yno, cwyna ei fod wedi colli pob argraff grefyddol oedd ar ei feddwl cyn hyny bron yn llwyr; a chyfododd awydd cryf yn ei feddwl am fyned i Loegr, er mwyn gweled digon o'r byd; ac nid oedd dim pellach o'i feddwl na myned i breswylio i "Gymru fynyddig." "Ond i Gymru," meddai, "y gorfu dyfod, yn gwbl groes i'r duedd ydoedd ynof. Yr wyf hyd heddyw," meddai, pan oedd mewn gwth o oedran, "wrth edrych yn ol, a chofio fel y bu, yn rhyfeddu y ffordd a gymmerodd yr Arglwydd i'm gyru o'm cymmydogaeth

fy hun i gymmydogaeth nad oeddwn yn adnabod un dyn na dynes ynddi, nac ynof y duedd leiaf erioed i fyned iddi; sef i'r Bala—lle yr wyf yn preswylio er's dwy flynedd ar bymtheg a deugain.

Mae yn ammheus, medd Mr. Hughes [*Method. Cymru*, i. 483] pa un a oedd pregethu achlysurol gan y Methodistiaid wedi cyrhaedd ardal John Evans cyn iddo ef ei gadael ai peidio: tybia rhai fod pregethu weithiau mewn ardal tua dwy filldir i'r gorllewin o Adwy'r Clawdd y pryd hyny; er nad oes un lle i feddwl y clywodd John Evans neb o'r Ymneillduwyr yn pregethu cyn ymadael o'i fro ei hun. Dygwyd pregethu gan y Methodistiaid i Adwy'r Clawdd mewn modd tra annisgwyliadwy iddo ef a'i deulu.

Tra yr oedd John Evans yn y gwaith mŵn, cododd ymrafael chwerw rhwng ei lettywr ef a gŵr y tŷ nesaf iddo; a thyfodd yr ymrafael mor arswydus rhyngddynt, fel y bygythiodd gŵr y tŷ nesaf, yn nghlyw John Evans, y lladdai efe ei lettywr. A rhag y gallai y bygythiwr, yn ei nwyd aflywodraethus, roddi ei fygythiad mewn grym, dywedodd J. Evans y bygythiad wrth ei lettywr; ac annogodd ef i fod ar ei wyliadwriaeth. Mynegwyd yr un peth gan ereill wrth y llettywr, yr hwn mewn canlyniad a gyfododd warant i ddal y bygythiwr, a'i ddwyn ger bron ynad heddwch; a gwysiwyd John Evans, yn mysg ereill, fel un or tystion.

Dywed Shakspeare fod ffrwd yn amgylchiadau dynion, yr hon, os dilynir hi, a arwain i lwyddiant [*There is a tide in the affairs of men, which, taken at the flow, leads on to fortune*]. Yn awr y dygwyddodd y "ffrwd" yma yn mywyd John Evans—yr hon a'i hysgubodd ef i'w chanlyn; nid trwy iddo ei dilyn, yn ol awgrym y bardd, ond megys yn hollol ddiarwybod iddo ef. Ac os nad arweiniodd ef i lwyddiant tymmorol mawr (er iddo gael llawn ddigon yn yr ystyr hyny hefyd), arweiniodd ef i anrhydedd foesol a chrefyddol, a bery yn hwy na'r ddaiar. Mae yn ammhossibl darlunio y pegwn yma, ar ba un y troai oes ddyfodol John Evans, yn well nag yn ei eiriau dysgrifiadol ef ei hun, lle y ceir darlun byw o ansawdd cymmeriad moesol y dyn rhyfedd hwn.

"Yn awr," medd efe, "y mae bys Duw i'w weled yn dechreu gweithio i ddwyn ei amcan i ben. Canys ar y ffordd wrth fyned o flaen yr ustus, daeth meddyliau dwys a difrifol ataf, mai peth mawr a phwysig oedd cymmeryd llŵ, ac mai rhaid oedd wrth gymmeryd llŵ ddywedyd y dull y dywedodd y dyn bob sillaf a llythyren; ac onid e, y byddai y llŵ yn llŵ drwg, a bod llŵ drwg yn bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân—yr hwn bechod nad oedd maddeuant o hono, nac yn y byd hwn nac yn y byd a ddaw. Gweithiodd yr ystyriaethau hyn mor rymus ar fy meddwl, fel y darfu i mi ymroi na chymmerwn i un llŵ; nid am fod genyf un duedd at un ochr o'r pleidiau mwy na'u gilydd, ond bod arnaf ofn na chofiwn y dull yn gymhwys ag y dywedodd y dyn. Wedi myned o flaen yr ustus, galwyd y tystion yn mlaen, a rhoddwyd eu llwon iddynt, a myfi oedd y diweddaf a alwyd; a dywedais wrth yr ustus nad oeddwn yn chwennych myned ar fy llŵ, o herwydd na buaswn erioed ar fy llŵ. Yntau a ddywedodd fod yn rhaid i mi fyned ar fy llŵ fel tyst ar yr achos. Minnau a atebais nad awn i ddim ar fy llŵ. Yntau a ddywedodd os nad awn, yr anfonai fi i'r carchar: minnau a ddywedais fod yn well genyf hyny na chymmeryd fy llŵ, â'r dagrau yn treiglo o fy llygaid. Pan welodd yr ustus hyny, deallodd mai ofn cymmeryd fy llŵ oedd arnaf, ac nid cyndynrwydd i roddi fy nhystiolaeth yn yr achos; a bu yn fwy tyner wrthyf, a dywedodd, 'Nid yw llŵ yn gofyn ond y gwir hyd eithaf eich gwybodaeth.' Minnau a greffais ar y gair 'hyd eithaf eich gwybodaeth,' ac a ddywedais fy mod yn foddlawn i gymmeryd fy llŵ, os cawn ddywedyd 'hyd eithaf fy ngwybodaeth.' Ac felly y bu. Cymmerais fy llŵ, gan ofalu dywedyd y gair hwnw, 'hyd eithaf fy ngwybodaeth.' Rhwymwyd y bygythiwr am ei fygythion, ac achosion ereill a dystiwyd i'w erbyn, i'r sessiwn fawr."

Fe ddengys hyn yn amlwg ansawdd neillduol meddwl y dyn, ac mor ofalus oedd i ddywedyd y gwir yn fanwl i'r llythyren, ac mor ddychrynedig ydoedd rhag dywedyd y mymryn lleiaf yn groes i wirionedd llythyrenol; er nad oedd hyn oll eto yn ddim ond effaith cydwybod dyner, a fagesid ynddo gan gynghorion ei fam ofalus. Ac y mae yn nodedig fod yr un manylrwydd petrusgar yn ei eiriau a'i ymddygiadau wedi dilyn John Evans hyd ei fedd, fel y gwiriwyd yr Ysgrythyr hono yn llythyrenol ynddo ef, "Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd, a phan heneiddio nid ymedy ef â hi."

Ond er i John Evans gael dywedyd fel pawb ereill, "hyd eithaf fy ngwybodaeth" ar ei lŵ, eto goddiweddwyd ef drachefn â dychryn anaele, rhag ei fod wedi dywedyd rhyw air, ar ei lŵ, nad oedd yn berffaith gysson â'r gwirionedd manylaf; gan fod argraff ddofn ar ei feddwl fod "llŵ drwg" yn bechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Ac os dygwyddodd iddo ef wneyd y cyfryw lŵ, er yn ddiarwybod, ei fod wedi "pechu y pechod hwnw;" ac o ganlyniad, "fod pob gobaith am iachawdwriaeth wedi darfod." Ac, fel y dywed ef ei hun, er nad oedd y sail leiaf i'r fath brofedigaeth, eto syrthiodd i'r fath ofn a dychryn am ei gyflwr, mewn canlyniad, fel nad oedd yn cael esmwythdra i'w feddwl dros lawer o wythnosau, na nos na dydd. Wedi cael ei faeddu yn arswydus dros ennyd o amser gan yr ofnau a'r dychrynfeydd disail hyn, fel mai prin, eb efe ei hun, y dianghodd â'i fywyd a'i synwyrau ganddo, cafodd waredigaeth annysgwyliadwy trwy gyfarfod yn ddamweiniol, mewn tŷ cymmydog, â *Saith Bregeth Mr. Robert Russel*. Y bregeth gyntaf yn y casgliad oedd am y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Wedi darllen y bregeth yn awyddus, eb efe, "symmudwyd fy ofnau mor lwyr ag y bydd yr haul gwresog yn llyncu i fyny wlith y wawr." Ond er hyn i gyd, yr oedd y sessiwn yn nesau, ac yr oedd yntau i ymddangos yno yn dyst rhwng y pleidiau ymrafaelgar; ac fel yr oedd yr amgylchiad yn agosau, ail ymosododd yr ofn i gymmeryd llŵ ar John Evans mor lym ag o'r blaen; ac yr oedd yr ofn a'r trallod yn chwanegu fwyfwy, fel yr oedd yr amser yn byrhau. Cynnyddodd ei ddychryn rhag cymmeryd llŵ drachefn yn y sessiwn i'r fath raddau ar ei feddwl, fel y penderfynodd adael y wlad o'r achos; a'r Sabbath o flaen y sessiwn, gadawodd dŷ ei dad heb yngan gair wrth neb; gan fwriadu myned i sir Fflint, i rai o'r gweithiau mŵn oedd yno. Tra yr oedd ar ei daith yno, cofiodd iddo glywed fod gwaith mŵn helaeth yn sir Aberteifi; ac mai trwy y Bala yr oedd y ffordd iddo ef yno. Ar hyn, trodd o'r ffordd y cychwynodd, yn ddisymmwth, a chyfeiriodd ei gamrau tua'r Bala; ac ar ol teithio tua deng milldir ar ugain, cyrhaeddodd y dref hono yn hwyr y Sabbath hwnw. "Ni wyddwn i ddim y pryd hwnw," medd efe ei hun,

Digitized by Google

"am amcan Duw i ollwng yr ofnau disail uchod arnaf. Ond yn awr y gwn mai moddion oeddynt i'm codi o blith fy nghyfeillion llygredig a'm cymmydogion tywyll, i'm hanfon i le yr oedd yr efengyl yn dechreu gwawrio."

Erbyn iddo gyrhaedd y Bala, yr oedd yn hwyr, ac yntau yn flin a lluddedig; ac yr oedd y dref a'i thrigolion yn hollol anadnabyddus iddo; ac nid oedd ganddo yntau ond ychydig o arian at gael bwyd a lletty. Daeth i'w feddwl y gallai fod rhai gwehyddion yn y dref; a gofynodd i rywun a'i cyfarfu, a wyddai efe am ryw wehydd yn y lle a fuasai yn debyg o roddi lletty noswaith iddo, gan ei fod yntau o'r un gelfyddyd. Yr oedd hefyd wedi penderfynu gweu am ychydig amser yn y lle, os tarawai wrth waith, er mwyn chwanegu ychydig at arian ei daith i sir Aberteifi. Cyfarwyddwyd ef i dŷ hynafgwr o'r un gelfyddyd ag yntau, o'r enw Edward William; a mawr oedd ei lawenydd pan y gwahoddwyd ef yn garedig i'r tŷ, ac y dangoswyd parodrwydd i'w lettya dros y nos. Wedi iddo ofyn a oedd arnynt eisiau gweithiwr, dywedodd yr hen Edward, yn bur garedig, gan ei bod yn Sabbath, y byddai cystal oedi yr ymddyddan hwnw hyd dranoeth, pan y caent hamdden i siarad yn mhellach yn nghylch y peth; canys yr oedd Edward William yn grefyddwr duwiol—yn un o'r Methodistiaid cyntaf yn y Bala; ac yn ei dŷ ef yr oedd yr "wyth neu ddeg" a ddeffrowyd "yn eu heneidiau ychydig amser a aethai heibio, trwy bregethiad Mr. Harris a Siencyn Morgan, yn arfer ymgynnull at eu gilydd ar y Sabbathau, i ddarllen, gweddïo, a chanu mawl."

Nid yw yn hollol sicr, medd yr hen *Drysorfa*, pwy oedd y "naw neu ddeg" personau hyny; ond y mae yn hysbys fod y rhai canlynol yn eu plith; sef Evan Moses, a'i frawd Siôn Moses, gofaint o'r Bala; a Margaret Morris, a fu wedi hyny yn wraig John Evans; a bernir mai y lleill oedd Thomas Rowlands, Ty'n y Nant, yn Nhrefbenmaen, a'i chwaer Margaret Rowlands; Dafydd Sion Hugh, a'i wraig; Ellis Evan; Owen Owens, siopwr yn y Bala; ac Edward Williams, y gwehydd, a'i wraig. Yr oedd Evan a Sion Moses yn wŷr hynod yn eu hoes, medd yr hen *Drysorfa*; ac yr oeddynt yn bregethwyr cymmeradwy.

Yn mhen ychydig fynydau ar ol i John Evans eistedd yn nhŷ E. William y noswaith hono, daeth y cyfeillion crybwylledig i'r tŷ; a dechreuasant yn ddioed ar eu gorchwyl arferedig o ddarllen, gweddïo, a chanu mawl. Yr oedd John Evans wedi synu wrth weled a chlywed y rhai hyn, gan nas gwelsai neb erioed o'r blaen wrth y gwaith hwnw gyda'r fath fywiogrwydd ac egni difrifol. Yr oedd yn methu dirnad beth oeddynt; "ond pa beth bynag oeddynt," medd efe, "nid oeddwn yn cael dim o'i le yn yr hyn oeddynt yn ei ddywedyd nac yn ei wneuthur."

Y bore dranoeth (sef dydd Llun), ar ol bwyta, darllen, a gweddïo, cyttunodd Edward William â John Evans, i aros gydag ef i weu. Erbyn hyn, dechreuodd John Evans, er dalled oedd, medd efe, feddwl mai yr Arglwydd a drefnasai iddo gael lletty, gwaith, a chyflog mor rwydd a hyn, mewn lle cwbl anadnabyddus iddo, tra yr oedd efe wedi dyfod yno ar y fath ffrwst, mor ddifeddwl, ac wedi rhagddarpar cyn lleied ar gyfer ei daith; a theimlai ei galon dros amser yn llosgi o gariad at Dduw, am ofalu fel hyn, yn ei Ragluniaeth ddaionus am dano. Ond er yr argraffiadau hyn ar ei feddwl, ac er holl diriondeb Rhagluniaeth fel hyn tuag ato, cwyna y bu am ysbaid hanner blwyddyn wedi hyny heb gael lle i feddwl fod un cyfnewidiad trwyadl wedi ei weithio yn ei galon, gan ei fod wedi dychwel, yn yr ysbaid hwnw o amser, at ei hen bleserau megys cynt.

Ymddengys fod yr erlidigaeth wedi bod mor chwerw a llem ar Howel Harris y tro diweddaf y bu yn y Bala, cyn dyfodiad John Evans yno, fel nad oedd neb o bregethwyr y Methodistiaid yn beiddio dyfod yn nes yno, ar y pryd yr aeth John Evans gyntaf yno, na Llanuwchllyn, lle y cyrchai pregethwyr o'r Deheudir weithiau, i le a elwid y Weirglodd Gilfach—i'r lle yr elai ychydig o bobl y Bala i wrandaw arnynt; "a phregethwyr da a fyddai yn dyfod y rhan amlaf," medd J. Evans. O gylch y pryd hyn, sef yn lled fuan ar ol ei fynediad ef i'r Bala, pan yr oedd tua 18 oed, yn y flwyddyn 1742, llwyddodd yr hen Edward William, ar un nos Sabbath, trwy ei fawr daerni, i ddenu ei was, J. Evans, gydag ef i'r Weirglodd Gilfach, gryn chwe milldir o'r Bala, i wrandaw rhyw ŵr dyeithr yn pregethu. Ymddengys mai dyma y tro cyntaf iddo glywed neb o'r Ymneillduwyr yn pregethu; ac yr oedd yn synu yn fawr wrth glywed y gŵr yn gweddïo ac yn pregethu heb lyfr; ac er hyny, yn llefaru mor gall a dehenig. Ond yr holl effaith a gafodd y bregeth hon arno, ac amryw ar ol hyny, medd efe, oedd ei ddifyru. Yr oedd y difyrwch a fwynhâai dan y pregethau yn ei ddenu i wrandaw yn fynych; a bu gwrandaw yn foddion i oleuo ei feddwl, nes deall, eb efe, "mai trwy ffydd y cyfiawnheir pechadur, ac nid trwy weithredoedd; ac y gallai dyn fod yn broffeswr, ac er hyny yn rhagrithiwr, heb wirionedd gras ynddo." Un o'r pethau cyntaf a amlygwyd iddo yn yr amser yma, medd efe, oedd ei gyflwr truenus, a chaledwch ei galon; yr hyn a barai iddo ofni yn fynych nad oedd ei gyflwr yn dda.

Yn y flwyddyn 1744, efe a briododd Margaret Morris, merch i un Morris ap Robert, yr hwn oedd yn aelod gyda'r Ymneillduwyr Presbyteraidd yn y Bala, y rhai a arolygid ar y pryd gan weinidog o'r enw Mr Baddy o Ddinbych, yr hwn a arferai fyned i'r Bala yn achlysurol i ymweled a chysuro y praidd bychan amddifad oedd yno. Yr oedd Morris ap Robert yn rhagori ar y rhan fwyaf o'i gyfoedion o ran dawn a gwybodaeth grefyddol, fel y prawf y traethawd a ysgrifenodd dan yr enw *Cynghor difrifol i'r Cymry* a'r cywydd a gyfansoddodd ar Lyn Tegid. Yr oedd ei ferch Margaret wedi ymuno â'r ychydig Fethodistiaid oedd yn y Bala pan y priododd John Evans hi; ond nid oedd ef yn proffesu gyda hwy ar y pryd, er yr ymddengys ei fod yn ddiechlynaidd o ran ei fywyd, ac yn profi argraffiadau dwysion y gwirionedd yn fynych ar ei feddwl.

Dywed John Evans mai ychydig o bregethu oedd gan y Methodistiaid yn y Bala y flwyddyn y priododd ef, o blegid yr erlid mawr a fu ar Howel Harris yno y troion cyntaf y daeth yno i bregethu. Mae yr hanes tarawiadol a rydd John Evans o'r erlid crybwylledig a fu ar H. Harris pan y daeth i gynnyg yr efengyl gyntaf i drigolion y Bala, a geir yn yr *Ymddyddan cyntaf rhwng Scrutator* (Mr. Charles o'r Bala) â *Senet* (John Evans), yn rhy werthfawr i'w gadael allan.

"Dywedais eisoes," medd *Senet* am Harris, "iddo ddyfod y tro cyntaf o ddeutu y flwyddyn 1739, ac iddo bregethu wrth dalcen yr *Hall* mewn llonyddwch. Yr oedd y bobl yn gyffredin yn meddwl mai dyn ydoedd a welsai ryw weledigaethau rhyfedd; a'i fod yn chwennych adrodd y rhai hyny: ac fe gawsai groesaw ganddynt yn y

Digitized by Google

dafarn, pe buasai hyny yn dderbyniol ganddo. Daeth yr ail waith yn yr haf, yr un flwyddyn. Safodd y tro hwnw wrth gefn yr *Hall;* ond lled aflonydd fu ei wrandawyr y pryd hyn—rhai am ei dynu i lawr, a rhai am lonyddwch iddo, fel y buont agos a churo eu gilydd. Y drydedd waith y daeth efe yma oedd yn nghylch dechreu y flwyddyn 1740. Dyma y tro y cafodd yr anmharch mwyaf a ddygwyddodd iddo yn ei holl fywyd, er iddo fod yn fynych mewn anmharch ac enbydrwydd mawr. Yr oedd amryw yn y wlad a'r dref wedi cael gradd o sobrwydd meddwl wrth ei wrandaw y tro o'r blaen; a hwy a ddaethant at eu gilydd i dŷ gwraig weddw oedd yn byw tua chanol y dref, gan ddysgwyl cael ei wrandaw y tro hwn. Yn y cyfamser, yr oedd byddin luosog o wrthwynebwyr yn cael ei pharotoi. Yr oedd parson y plwyf wedi anfon i annog y plwyfolion i ddyfod i'r Bala i amddiffyn yr efengyl! Felly, nifer lluosog o honynt, a'r parson o'u blaen fel arweinydd, a ddaethant i mewn i'r dref. Yna y parson, fel pen y gâd, a lefodd yn groch am i bawb o'r dref oedd yn caru yr Eglwys ddyfod allan i'w hamddiffyn. Ar hyn, cododd llawer o drigolion y dref i chwanegu y fyddin. Y parson wedi hyn a arweiniodd y llu yn gyntaf at dŷ tafarn! Rhoddwyd baril o gwrw ar y gareg farch, i bawb i yfed a fynent i'w cymhwyso i ymosod. Ar ol yfed yn dra helaeth, ymddiosgodd amryw o honynt at eu crysau; a daethant fel hyn, â'u pastynau yn eu dwylaw, a gweld arswydus arnynt, at y tŷ lle yr oedd y bobl wedi ymgynuull i wrandaw y gŵr yn pregethu. Dychymygwch, os gellwch, yn eich meddwl y fath olwg ac agwedd arswydus oedd ar y llu yn myned i'r gâd, gan floeddio i'r ffrwydr, fel pe buasai 'llu uffern gethern gau,' wedi cydymgodi; a pha fath fraw oedd wedi meddiannu yr ychydig drueiniaid oedd yn dysgwyl am danynt. Yma, crybwyllaf fy meddwl, mai yn eu hanwybodaeth yr oeddynt yn gwneuthur hyn; a'u bod yn tybied eu bod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. Ac wrth ystyried hyny, nis gallaf lai na chodi fy nwylaw, a dywedyd, 'O anwybodaeth yr amseroedd hyny!' Ond i fyned yn mlaen â'r hanes: daethant fel hyn at y tŷ, pan oedd Mr. Harris yn darllen ei destyn—*Act.* ix. 4: 'Saul, Saul, pa ham yr wyt yn fy erlid i?' Ond ni chafodd ymadroddi ond ychydig. Torwyd y ffenestri yn ebrwydd; a dringodd rhai ar ben y tŷ, ar fedr ei dynu i lawr. Ereill a ddaethant i mewn, ac a ddwrdiasant Mr. Harris i ddyfod allan, ac onid e, y tynent y tŷ ar eu penau hwynt oll. Allan y bu raid iddo fyned, a rhai o'i wrandawyr gydag ef, fel defaid i safnau y cwn. Yr oedd yn nifer ei wrandawyr amryw wŷr cryfion a chalonog, yn ymroddi i sefyll o'i ddeutu, i'w achub a'i amddiffyn hyd y gallent; ond er grymused oeddynt, ni allasant achub nemawr arno rhag y dorf fileinig hon. Yr oedd y meibion a'r merched, y naill mor greulawn a'r llall: y merched yn ei drybaeddu â thom yr heol; a'r meibion, â'u dyrnau a'u pastynau, yn ei guro yn ofnadwy; er bod y gwŷr uchod yn achub hyd y gallent, ac yn derbyn y dyrnodiau. Torasant amryw archollion ar ei ben; ac yr oedd ei waed yn lliwio ceryg yr heol. Y dorf greulawn a'i dilynasant, gan ei faeddu yn ddibaid, o'r dref hyd y ffordd sydd yn myned gydag ochr y llyn tua Llanycil; ac yma bu Mr. Harris i lawr dan eu traed hwy dros ennyd o amser, fel y tybiodd yn sicr yr äent â'i fywyd. Hyny, yn ol pob tebygolrwydd a wnaethent, oni buasai i'r Arglwydd, mewn modd hynod, ragflaenu. Gwnaeth hyn, trwy roddi yn nghalonau tri o wŷr lled gyfrifol o'r gymmydogaeth—rhai o nifer yr erlidwyr hefyd—i ymorchestu i'w achub. Hwy a ymwrolasant drosto yn y cyfwng caletaf; a thrwy orchest fawr, hwy a dyciasant i gadw ei einioes o ddwylaw rhai gwaedlyd oedd yn ei guro, ac yn sychedu am waed ei galon. Yr oedd John Morgan, yr ysgolfeistr Cymreig, wedi dyfod gydag ef i'r dref, i wrandaw arno: ac felly yn nod neillduol i gynddaredd yr erlidwyr. Cafodd, trwy ryw fodd, afael ar ei geffyl, ac a wnaeth y goreu o'i ffordd i ddianc. Ond ar y ffordd wrth ochr y llyn, craffwyd arno; ac wrth ei lusgo i lawr, fe lynodd ei droed yn yr wrthafl. Y mae torlan uchel yn y fan hono, ar ddisgyniad serth o fin y ffordd i'r llyn. Hwy wnaethant ymdrech mawr i daflu y ceffyl, ac yntau ynglŷn wrtho, dros y dibyn i'w ddyfetha. Ond yn hyn fe'u lluddiwyd gan yr Arglwydd yn ei ragluniaeth dirion. Dyma i chwi rywfaint o olwg ar y diwrnod terfysglyd hwnw, yn mha un yr ymddangosodd Duw yn hynod o blaid ei weision, gan achub eu bywydau o ddwylaw dynion gwaedlyd."

Yn y flwyddyn 1744, pan briododd John Evans â Margaret Morris, y dechreuodd efe wrandaw ar y Methodistiaid. Nid oes hysbysrwydd, hyd y gwelsom ni, pa un ai Presbyteriaid, ai rhyw gangen arall o'r Ymneillduwyr, oedd y rhai a bregethent yn Llanuwchlyn, ar y rhai yr äi efe a'i hen feistr duwiol, Edward William, i wrandaw yn achlysurol cyn hyny. Byddai yn cael ei lenwi yn gyffredin wrth wrandaw, gan fwynhad o gariad Duw; a thybiai yn fynych y pryd hyny ei fod wedi cael gwir grefydd. Dywed nas gwyddai fod nemawr i'w gael mewn crefydd ond hyny.

Ar ddydd y Sulgwyn, 1745, bu oedfa dra hynod yn y Bala, "tebyg, mewn rhyw fesur," medd J. Evans, "i hono yn Ierusalem, ddau gant ar bymtheg, a mwy, o flynyddau o'r blaen." Mae John Evans yn terfynu ei hanes ei hun, yn ddisymmwth, "ar hanner dryll ymadrodd," fel sylwa y Parch. Simon Llwyd, cyn gorphen adrodd hanes "Dydd y Pentecost" hwnw yn y Bala; ond y mae yn eglur, fel y dywed Mr. Llwyd, mai yn y cyfarfod hwnw, ar y Sulgwyn crybwylledig, y cafodd John Evans wir argyhoeddiad i fywyd; ac efe a lwyr ymroddodd o hyny allan i ddilyn buchedd newydd.

Bu John Evans ugain mlynedd ar ol ei dröedigaeth cyn dechreu pregethu;[1] ond o'r diwedd, fe ganfu rhai o'r brodyr yn y Bala fod ynddo gymhwysder at y gwaith, a rhoddasant iddo annogaeth i ddechreu. Bu yn ddiwyd iawn, yn enwedig y Sabbathau, i fyned i gonglau tywyll yr ardaloedd cymmydogaethol, i draethu yr efengyl yn ei phurdeb Ysgrythyrol i bechaduriaid tywyll ei oes; ac yr oedd halltrwydd ei athrawiaeth, a phurdeb difrycheulyd ei ymarweddiad, fel halen, yn llaw yr Arglwydd, i attal llygredigaeth, i ba le bynag yr elai.

Dioddefodd John Evans lawer o erlid creulawn a chwerw o blegid ei grefydd; a bu raid iddo ffoi

[1] "Yn yr ysbaid rhwng erlidigaeth Mr. Harris, a dechreuad John Evans ar y gwaith o bregethu," medd yr *Hen Drysorfa*, "yr hyn oedd dros ugain mlynedd, gan nad oedd yr un o bregethwyr y Deheudir wedi dyfod i'r Bala dros rai blynyddau, cafodd Evan Moses annogaeth i lefaru yn gyhoeddus;—gôf, o ran ei gelfyddyd; gŵr o ysbryd effro a gwresog iawn yn ei grefydd, âg arwyddion neillduol o dduwioldeb arno; ac felly y parhaodd, dan lawer o erlidigaeth, yn ffyddlawn hyd angeu. Gan fod yn angenrheidiol cynnal y cyfarfodydd, dros ryw amser, cyn dydd, o achos yr erlid, arfer Evan Moses oedd cynnull ei frodyr yn nghyd, trwy fyned at eu drysau a'u ffenestri; a'i air fyddai, 'Cyfod, frawd,' neu fel y mae y traddodiad 'Cyfod frawd, a thyr'd at yr Arglwydd.'"

Digitized by Google

am ei einioes, lawer gwaith o'r manau yr elai i bregethu iddynt, rhag yr erlidwyr. Er mwyn cael gwaredigaeth o hono o'r wlad, amcanodd rhai boneddigion yn nghymmydogaeth y Bala ei bresio yn filwr yn ngwasanaeth y brenin. Bu raid iddo ffoi o'i dŷ unwaith o achos hyny; ac mewn cae ŷd yn mhlwyf Llanycil y bu yn ymguddio rhag ei erlidwyr. Fel yr oedd yn myned yn fyfyrgar ar hyd un o heolydd y Bala, tarawodd un o'r erlidwyr ef â chareg, nes tyllu ei wefus isaf, a thori un o'i ddannedd; a syrthiodd yntau i lesmair ar yr heol. Cafodd wybod ar ol hyny pwy oedd yr adyn; ond yn lle ei gospi, yn ol ei haeddiant, pan gyfarfu âg ef yn Bettws Gwerfil Goch, heb arian yn ei logell, talodd J. Evans am giniaw iddo! Dyma y fath ddynion oedd y Methodistiaid. Nid rhyfedd i'r efengyl lwyddo mor gyflym ac effeithiol yn nwylaw rhai mor debyg i Grist a'i apostolion.

Anfonwyd John Evans rywbryd gan ei frodyr yn y Bala i Gymdeithasfa Trecastell, yn sir Frycheiniog, i ymofyn am gyhoeddiad Harris a Rowlands, ac ereill o efengylwyr y Deheubarth; a chafodd gymdeithas dau ŵr o Lanbrynmair ar ei daith. Yr oedd y tri yn gwbl anadnabyddus o'r ffordd ac o'r wlad, ac yr oedd ganddynt fynyddoedd anhygyrch i'w croesi. Yn Rhaiadr Gwy, rhoddwyd rhyw nodau iddynt, fel arwyddion ffordd ar y mynyddoedd oedd o'u blaen; ond wedi iddynt fyned i ganol y mynyddoedd, yr oeddynt yn methu canfod y marciau a roddwyd iddynt; a theimlent bryder mawr rhag eu bod wedi colli y ffordd. Tra yr oeddynt yn y cyfyng-gynghor yma, daeth gŵr ar ddull bugail atynt yn ddisymmwth; a gofynodd iddynt, Ai nid i Gymdeithasfa Trecastell yr oeddynt yn myned? Dywedasant hwythau mai ïe. "Yr ydych wedi colli y ffordd," medd yntau: "ewch ar eich union rhwng y ddau fryn acw; a phan eloch o'r mynyddoedd, cewch weled tŷ ffarm ar ochr y ffordd. Mae gŵr o'r un grefydd a chwithau yn byw yno: cewch letty cysurus gydag ef heno." Fel yr oeddynt yn rhyfeddu at y waredigaeth fawr a gawsant mewn lle mor anial, troisant eu llygaid yn ol, er mwyn cael ail olwg ar eu cymmwynaswr; ac er fod y lle yn hollol noeth, heb un man i ymguddio ynddo, er eu syndod, yr oedd y bugail wedi diflanu o'u golwg! Ar hyn, dywedodd John Evans, "Angel oedd, yn sicr i chwi!" Wedi myned yn mlaen yn ol cyfarwyddyd y bugail, cawsant y tŷ, fel y mynegasid wrthynt; a chawsant fwyd a lletty cysurus gan y gŵr a'r teulu. Pan gyrhaeddasant Drecastell dranoeth, rhoddwyd ar ddeall iddynt fod Rowlands, Harris, a Whitfield i bregethu yno am un ar ddeg y bore hwnw; a therfynai y Gymdeithasfa gyda'r pregethau hyny. Gyda golwg ar gyfarfyddiad John Evans a'i ddau gydbererin â'r "bugail," a'i ddiflaniad o'u golwg ar ganol y mynydd noethlwm, amlwg, "ffurfied y darllenydd ei farn ei hun am syniad John Evans," medd awdwr *Methodistiaeth Cymru;* "ond hyn sydd sicr," eb efe, "anfynych y cyfarfyddid â neb llai darostyngedig i ddychymyg ac ofergoeledd na John Evans; a sicr hefyd ydym, nad oes dim yn y syniad yn milwrio yn erbyn amlygiadau yr Ysgrythyrau."

O ran agwedd ei gorff, yr oedd John Evans o ymddangosiad mawreddog a pharchus; yn dalach yn ei amser nag odid neb yn nhref y Bala; yn meddu llygaid bywiog, llymion, a threiddgar; yn hynod o lanwaith a thrwsiadus, o ran ei ddull yn ei wisg; a brasgamai, wrth gerdded, yn syth a boneddigaidd. Gallasai dyn craffus ddeall ar yr olwg gyntaf arno, ei fod yn rhagori yn fawr ar ei gydwladwyr yn gyffredin. O ran ei feddwl, yr oedd yn gyflym ac yn dreiddgar; ac yr oedd ei wybodaeth gyffredinol mewn llenyddiaeth, hanesyddiaeth, daiaryddiaeth, ac yn enwedig mewn duwinyddiaeth, yn llawer helaethach nag odid neb yn ei oes a gafodd cyn lleied o fanteision.

Teithiodd lawer trwy wahanol siroedd Cymru, gan mwyaf ar ei draed, i bregethu yr efengyl i'w gydwladwyr; a mawr oedd y derbyniad croesawgar a gaffai gan bawb a garent glywed "geiriau gwirionedd a sobrwydd." Ei brif amcan, wrth bregethu, oedd goleuo deall ei wrandawyr am eu cyflwr colledig wrth natur, a'u harwain at Grist croeshoeliedig am achubiaeth a gorphwysdra i'w heneidiau; ac ymdrechai argyhoeddi eu cydwybodau, yn hytrach na thanio eu serchiadau. O ran traddodiad ei bregethau, yr oedd yn bwyllog, arafaidd, a synwyrol; ac ymgadwai yn egnïol ar ganol llwybr y gwirionedd, gan lwyr ochelyd dychymmygion disail ac ofer-siarad. Gellir dywedyd fod ganddo ffurf yr ymadroddion iachus yn ei bregethau; a thraddodai hwy gyda symlrwydd mawreddog, mewn geiriau gweddus, cymmeradwy, ac Ysgrythyrol, yn ei lais naturiol ei hun. Dywedodd rhywun mewn digrifwch wrtho, na byddai efe yn chwysu fawr wrth bregethu; ac atebodd yntau, "Nid rhaid chwysu wrth ddyweyd y gwir."

Dull llawer o bregethwyr cyntaf y Methodistiaid oedd annelu yn benaf at gynhyrfu nwydau a serchiadau y gwrandawyr, heb ofalu cymmaint am eu porthi â gwybodaeth ac â deall. Fe allai fod y pregethwyr cynnorthwyol, neu y cynghorwyr, fel y gelwid hwy ar y pryd, wedi cymmeryd eu cynllun oddi wrth arweinydd mawr cyntaf y diwygiad, sef Howel Harris; yr hwn oedd yn nodedig, ac yn dra mynych, yn ofnadwy o danllyd, cynhyrfus, a hyawdl. Yr oedd John Evans yn gwbl wahanol. Yr oedd ei ddull ef mor dawel a digyffro, fel y galwodd rhai o'i gydbregethwyr gyfeisteddfod, dan arweiniad mwy o sel ddiniwed dros y diwygiad nag o wybodaeth, i ystyried a fyddai ddim yn well i John Evans roddi y gwaith pwysig o bregethu yr efengyl i fyny, gan fod cyn lleied o arddeliad arno, a chyn lleied o "hwyl" yn wastad yn ei bregethau. Yr oedd hyn cyn i Mr. Charles fyned i'r Bala; a chyn sefydlu y cyfarfod misol. Pa fodd bynag, daeth y cyfeillion diniwed i benderfyniad unfryd mai gwell fyddai i John Evans beidio pregethu mwyach; a phenodwyd un o'r brodyr i gario y genadwri iddo, yr hwn a ddywedodd wrtho, "Y mae y brodyr wedi bod yn ystyried eich achos, John Evans; a chan nad oes ond ychydig o arwyddion fod yr Arglwydd yn arddel eich gweinidogaeth, maent wedi dyfod i'r penderfyniad mai doeth fyddai i chwi roddi y pregethu i fyny." "Ho! mi glywaf," meddai J. Evans: "Wel, ewch chwithau atynt yn ol, a dywedwch wrthynt y pregethaf fi nes y gwelwyf yma rywun a fedro bregethu yn well na mi yn dechreu arni hi:" cystal a dywedyd ei fod yn ei ystyried ei hun yn well pregethwr na neb oedd yn y cyfeisteddfod hwnw; a diammheuol ei fod yn gywir. Yr oedd yn dda i'r diwygiad yn y Bala, ac yn Nghymru oll yn wir, fod J. Evans yn ŵr o'r fath wroldeb meddwl fel na chymmerai ei rwystro yn y gwaith mawr gan y fath wŷr o gynghor. Yr oedd yr eglwysi Methodistaidd erbyn hyn yn dechreu cynnyddu mewn gwybodaeth, cystal ag mewn gras; ac yr oedd mwy o angen yn dyfod yn barhaus am wŷr fel J. Evans, i'w harwain a'u dysgu yn y gair a'r athrawiaeth.

Digitized by Google

Yr oedd sylwadau John Evans mor synwyrol, a'i atebion ar bob amgylchiad, megys y dangoswyd uchod, mor barod a phriodol, fel na byddai neb, hyd yn oed Jones o Edeyrn, ar eu mantais wrth geisio ffraethebu âg ef. Y mae amryw o'i ddywediadau a'i atebion yn werth eu cofnodi dros byth.

Yn *Ymddyddan* II. rhwng *Scrutator* a *Senex*, dywed John Evans am Rowlands, Llangeitho, "Yr oedd doniau ac arddeliad Mr. Rowlands y fath nas dichon gwrandawyr yr oes bresennol gynnwys dim amgyffred addas am danynt. Nid oes neb nas gwrandawodd ef a ddichon ddychymygu dim yn addas am danynt. Cyffelybais ef yn aml yn fy meddwl i'r Tachmoniad hwnw oedd yn mhlith cedyrn Dafydd: efe oedd y penaf o'r tri chyntaf; ac er godidoced oedd y lleill, eto ni chyrhaeddasant y tri chyntaf. O! rhyfedd y fath awdurdod a dysgleirdeb oedd gyda'i weinidogaeth; a'r modd rhyfedd yr effeithiai ar y gwrandawyr!" Am ganiedydd Pant y celyn, dywedai, "Melus yw cofio hefyd am lafur y Parchedig William Williams; yr hwn oedd yn nodedig am ehediadau cryfion, tanllyd, ac athrawiaeth oleu, yn cael ei thraddodi gyda llawer o ireidd-dra ysbrydol." Canmolai y Parch. Peter Williams, fel "gŵr cryf o gorff ac o feddwl, a phregethwr da;" a'r Parch. Howel Davies, fel "gŵr tirion, mwynaidd, a phregethwr ennillgar iawn."

Yr oedd ei ddull o iawn gyfranu gair y gwirionedd yn y cymdeithasau neillduol yn nodedig o fuddiol ac addysgiadol, ac yn wastad i'r pwrpas. Ei ddull cyffredin oedd holi ei frodyr a'i chwiorydd yn yr eglwys, gan ofyn un holiad i hwn, ac un arall i'r llall; a phryd arall, byddai ganddo ryw un pwnc neillduol, a ofynai i gynnifer o'r cyfeillion ag a allai yn ol yr amser; megys, "Pa fodd yr ydych yn teimlo at bechod?" "A ydych chwi yn caru yr Arglwydd Iesu?" "A ydych yn newynog ac yn sychedig am gyfiawnder," &c. Os dywedai yr atebydd, "Yr wyf yn meddwl fy mod;" dywedai yntau, "Wel, edrychwch chwi ati ar eich bod yn gywir;" a throai at un arall. Byddai weithiau yn cael atebion lled ddigrifol; ond nid oedd dim a'i taflai ef o'i bwyll a'i ddifrifwch arferol. Unwaith, pan yn ymddyddan â hen frawd hynod o ddisyml, a elwid Rowland o'r Pandy, dywedodd yr hen Rowland wrtho, "Yr wyf yn meddwl, John Evans, fod pechod yn gwneuthur daioni mawr i mi." "Beth a ddywedir genych?" meddai John Evans, "ni wnaeth pechod ddaioni i neb erioed." "Do, yn wir, John Evans," meddai Rowland, "fe wnaeth ddaioni i mi: y mae wedi fy ngyru i weddio llawer iawn." "Yr ydych yn camgymmeryd yn fawr, Rowland Robert," meddai John Evans, yn ei ddull grymus a phenderfynol ei hun: "nid ydyw pechod yn gwneyd dim ond caledu eich calon; eithr os oes rhywbeth yn eich gyru i weddio yn ei erbyn, o Dduw yn unig y mae hyny."

Yr oedd ei dynerwch at y rhai y caffai yr arwydd lleiaf ynddynt eu bod yn ymofyn am fod yn gadwedig yn dra nodedig; a chymmerai blaid hyd yn oed y rhai tywyllaf a symlaf, pan y gwelai yr arwydd lleiaf arnynt o betrusder yn nghylch eu cadwedigaeth. Ymunodd bachgenyn gweini pur syml—yr hwn nid ystyrid mor synwyrol a'r cyffredin—unwaith â'r gymdeithas eglwysig, yr hwn a ddaeth yn bur adnabyddus wedi hyny yn mysg yr hen Fethodistiaid dan yr enw Abram Jones, o'r Ceunant, yn Waen y Bala. Yr oedd Abram wedi bod yn y gymdeithas er's deudro neu dri, heb i neb ddywedyd gair wrtho, pan y dywedodd un o'r brodyr, "Nis gwn i beth i feddwl o Abram yma: y mae yn dyfod atom er's rhai troion bellach;" ond cyn i'r brawd hwnw gael hamdden i archolli Abram yn mhellach, atebodd John Evans, "Amser a ddengys beth yw Abram." Cafwyd dros drigain mlynedd o brawf ar Abram Jones; ac yn ystod y tymmor maith hwnw, dangosodd yn llawer amlycach na'r cyffredin, trwy broffes ddianwadal, ac ymarweddiad mor ddifrycheulyd, ei fod yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd dwyll. Y noson cyn ei farw, dywedodd Abram Jones, "Bûm yn nhŷ y Gŵr dros drigain mlynedd: ond yrŵan, yn ystod y flwyddyn yma, y cefais wybod meddwl y Gŵr. Cefais rywbeth i lynu am yr holl amser hwnw; ond cefais wybod ei feddwl yn nghorff y flwyddyn yma." Ac felly y bu farw mewn tangnefedd yn y mwynhad o lawn sicrwydd gobaith.

Un tro, ar ol y bregeth yn Llanuwchllyn, cynnygiodd gwraig ei hun i'r gymdeithas, yr hon oedd yn bur dywyll am drefn iachawdwriaeth, ac wedi byw y rhan a aethai heibio o'i hoes yn dra anfucheddol. Wedi i amryw adrodd eu meddyliau, a dangos petrusder mawr i'w derbyn, gofynwyd meddwl John Evans, yr hwn a ddywedodd, "Wel, y cam cyntaf tuag at fyned trwy y porth cyfyng yw troi y wyneb ato:" ac felly, âg un ymadrodd syml, efe a ddigaregodd y ffordd o flaen y wraig, yr hon oedd mewn trallod dwys ar y pryd am fod yn gadwedig. Dro arall, yn y Bala, ymddyddanai Mr. Charles â gwraig oedd yn gofyn am aelodaeth eglwysig, yr hon y teimlid pryder mawr i'w derbyn, o blegid ei thywyllwch. Yr oedd clyw J. Evans erbyn hyn yn bur drwm gan henaint; ac aeth Mr. Charles ato, gan ddywedyd, yn niwedd yr adroddiad, "Pur dywyll ydyw hi, John Evans." Atebodd yntau yn ei dôn araf, gadarn ei hun, "Wel, Mr. Charles, tywyll oeddych chwithau pan ddaethoch atom ni gyntaf: fe allai y daw y wraig yn mlaen o'r goreu er hyny: gadawer iddi geisio, beth bynag." Fe chwarddodd Mr. Charles, yn llawen; a chaniatawyd i'r wraig ymuno â'r cyfundeb.

Yr oedd ei ddiduedd rwydd fel swyddog eglwysig yn dra nodedig, ac yn esampl deilwng i'w efelychu gan bawb yn yr un sefyllfa ag ef. Ymddygai at y cyfoethog a'r tlawd yr un modd; a daliai y ddysgyblaeth eglwysig i fyny, "heb ragfarn, heb wneuthur dim o gydbartiaeth." Pan yr elai rhai ato i achwyn ar ymddygiadau ereill, fel y mae llawer eto yn rhy chwanog i wneuthur, yn lle dilyn cyfarwyddyd yr Ysgrythyr, sydd yn dywedyd, "dos ac argyhoedda ef rhyngot ti ac ef ei hun," fe wrandawai John Evans arnynt yn amyneddgar; ac ar ol iddynt orphen eu chwedl, efe a ofynai, "A oes genych rywbeth yn chwaneg i'w ddywedyd ar hyn?" Os atebid na byddai, dywedai yntau, "Wel, dyna eich ochr chwi: pan glywaf yr ochr arall eto, mi roddaf fy marn ar y peth."

Mewn cymdeithasfa chwarterol unwaith yn y Bala, lle yr oedd y Parch. Mr. Jones o Langan, y Parch. Nathaniel Rowlands, ac amryw wŷr enwog ereill, a Mr. Charles yn eistedd yn ymyl J. Evans, fel y gallai egluro iddo yn fyr yr hyn yr ymdrinid âg ef, am fod clyw J. Evans weithiau yn bur drwm—y pwnc yr ymdrinid âg ef ar y pryd oedd Ffydd. Dywedai un mai goleuni yn yr enaid oedd ffydd; ac arall, mai perswadiad y meddwl i gymmeryd Duw ar ei air ydoedd, &c. Yna dywedodd Mr. Jones, Llangan, mai *menter* oedd ffydd—mentro y bywyd am byth ar Grist. Yna dywedodd Mr. Charles wrth J. Evans, "Ym-

Digitized by Google

drin am y gras o ffydd y maent." "Beth y maent yn ei ddywedyd yw ffydd?" meddai. Y maent yn dywedyd amryw bethau da am dani," meddai Mr. Charles; "ond yr hyn a ddywedwyd olaf ydyw, mai menter—mentro'r bywyd yw ffydd." "Ie," meddai John Evans, "menter ydyw ffydd; ond gwybydder hyn, menter â'i llygaid yn ei phen ydyw. Y mae ffydd yn mentro, ac y mae rhyfyg yn mentro hefyd; ond y gwahaniaeth yw hyn, mae yn rhaid i wir ffydd gael sail i fentro arni bob amser, a hyny yw tystiolaeth Duw yn ei air."

Mewn cymdeithasfa arall yn y Bala, pan ymddyddenid â phregethwr ieuanc a dderbynid yn aelod o'r gymdeithasfa, gofynodd Mr. Charles i John Evans, "Pa un ai chwaneg o ras y mae Duw yn ei roddi i un Cristion ragor Cristion arall, pan y mae yn ei alw at y gwaith o bregethu yr efengyl, ynte a ydyw efe yn rhoi ysbryd y weinidogaeth fel peth ar ei ben ei hun i bregethwr, yr hwn nad yw efe yn ei roddi i Gristion arall?" Atebodd J. Evans, "Y mae yn rhoddi pob un o'r ddau; sef ychydig chwaneg o ras nag i Gristion cyffredin, ac ysbryd a dawn y weinidogaeth." Ar achlysur arall, annogodd Mr. Charles John Evans i ofyn rhywbeth i amryw bregethwyr ieuainc yr ymddyddenid â hwy; yntau a ofynodd "Beth yw eich amcan chwi wrth bregethu i'r bobl? At beth yr ydych yn amcanu yn mhob pregeth?" Gan nad atebai y gwŷr ieuainc yn y fan, dywedodd Mr. Charles, "Fe allai y byddai yn well i chwi, John Evans, ddywedyd iddynt at beth y dylent amcanu. Byddai yn dda i ni i gyd glywed: pregethwyr ydym oll, ac at yr un peth y dylem amcanu." "Wel," medd yntau, "chwi a ddylech yn gyntaf peth amcanu at oleuo deall y bobl a fyddo yn gwrandaw arnoch. Nid oes dim modd iddynt hwy gael gwir les wrth eich gwrandaw, tra byddo eu deall yn dywyll. Ymdrechwch agoryd llygaid eu deall hwynt, i ddeall yr hyn a ddadguddiodd Duw yn ei air i ddyn. Yn nesaf, amcenwch at ddeffroi eu cydwybodau euog a chysglyd. Annelwch saethau geiriau y Goruchaf at eu calonau, i edrych a welo Duw yn dda eu bendithio i godi cyffro yn eu cydwybodau i waeddi allan fel y dorf ar ddydd y Pentecost, wedi eu dwysbigo yn eu calon, 'Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?' Drachefn, amcenwch yn mhob pregeth a bregethoch am ennill eu serchiadau i garu Crist, a'r trysorau sydd yn yr efengyl ar gyfer pechaduriaid euog ac andwyol, ac i garu gair yr iachawdwriaeth hon, ac i garu crefydd Crist, a'i bobl, a'i waith yn y byd. Ac yn olaf, cofiwch bob amser amcanu ar fod eich holl bregethau yn annogaethol i sancteiddrwydd buchedd, ac ymarweddiad dichlynaidd a Christionogol yn y byd. Pregethwch ffydd a'i ffrwythau sanctaidd." Dro arall, mewn cymdeithasfa, pan yr ymdrinid âg Etholedigaeth Gras, gofynodd John Evans, gan nad oedd yn clywed, "Am ba beth yr ydych yn ymddyddan?" "Am etholedigaeth," oedd yr ateb. Gofynodd yntau eilwaith, "A oes rhyw rai yn eich plith yn petruso o berthynas i'r athrawiaeth am etholedigaeth? Os nad oes, y mae pethau ereill mor angenrheidiol i ymdrin arnynt, a phethau hefyd sydd i'w profi yn gystal a'u gwybod." Ac atebodd y Parch. John Jones, o Edeyrn, "John Evans, amaethwr ydwyf fi: pe byddai i chwi fy ngweled mewn un cae, ni byddai hyny yn profi nad oes genyf gaeau ereill." "Gwir," medd yntau; "ond pe gwelwn i chwi yn yr un cae o hyd, mi allwn gasglu nad oes genych yr un arall."

Mewn cynnadledd yn Nghymdeithasfa y Bala, unwaith, pan oedd John Evans ar ei draed, ac yn siarad yn bur floesg a lled anhawdd ei ddeall, â'i wyneb at y prif weinidogion oedd gyda'u gilydd dan y pulpud, cyfododd y Parch. John Elias, a dywedodd wrtho yn uchel, "Trowch at y bobl, John Evans—dywedwch wrth y bobl." Edrychodd yntau ar Mr. Elias â golwg dreiddiol, a dywedodd, yn ei ffordd rymus o lefaru, "Beth! ai nid pobl ydych chwi?" nes yr oedd Mr. Elias, er ei ddewrder, yn gorfod cilio i'w le yn bur wylaidd; a da oedd ganddo eistedd yn un o'r "bobl" i wrandaw y cynghor.

Mewn cymdeithasfa unwaith yn y Deheudir, rhwymodd John Evans un o'r tafodau llithricaf a fu erioed yn Nghymru âg un pwyth bychan. Cwyno yr oedd nad oedd neb o bregethwyr y Deheudir yn galw heibio i ychydig frodyr tlodion a duwiol oedd yn y Graig, gerllaw Machynlleth, wrth ddyfod i'r Gogledd i efengylu, gan erfyn arnynt beidio anghofio y praidd bychan amddifad hwnw. Yna, cyfododd Mr. Jones, o Langan, a dywedodd, "Wel, John Evans, nid oes neb o honynt hwy oddi yno yn dyfod i ddywedyd wrthym, '*Dewch.*'" "Wel, syr," meddai John Evans, "a ydych chwi wedi anghofio ddarfod dywedyd wrthych, '*Ewch?*'" Bu raid i ŵr ffraeth Llangan eistedd, gan wenu, dan argyhoeddiad.

Fel cyfaill a brawd, yr oedd ei larieidd-dra, ei dynerwch, ei garedigrwydd, a'i ffyddlondeb, tu hwnt i bob ammheuaeth. Pan oedd Mr. Charles yn glaf iawn, o blegid dadwreiddiad ei fawd ar ol iddi rewi, pan ar ei daith yn pregethu, byddai John Evans yn ymweled âg ef bob dydd; a chyn ymadael, byddai bob amser yn darllen rhan o'r Ysgrythyrau, ac yn gweddio gydag ef: a rhyw ran am ddyoddefaint yr Arglwydd Iesu a ddarllenai bob tro. Gofynodd Mr. Charles o'r diwedd iddo pa ham yr oedd efe yn darllen rhyw ran o'r hanes am ddyoddefaint Crist bob tro yn ei glywedigaeth. "Y mae rhyw ddiben genych yn hyn, y mae yn debyg," ebe fe. "Oes, syr," meddai John Evans, "y mae diben yn fy ngolwg. Nid oes dim dyddanwch i bechadur o un man ond sydd yn tarddu o ddyoddefiadau a marwolaeth Crist. Ac nid oes un esampl wedi bod erioed ar y ddaiar yn debycach o ddyfod â ni i ddioddef yn amyneddgar nag esampl ei ddyoddefiadau ef—yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid, fel na lwfrhaom, ac nad ymollyngom yn ein heneidiau."

Daeth yn dywydd gerwin unwaith pan yr oedd Mr. Charles ar gychwyn i'w gyhoeddiad, fel y tybiai na ddylasai gychwyn ar y fath dymmestl; ac anfonodd i ofyn i John Evans, a ddylasai efe fyned ar y fath dywydd tymmestlog? A'r ateb i'r genad oedd, "Dywedwch wrth Mr. Charles, os meistr yw efe, y gall aros gartref; ond os gwas, y dylai fyned i'w ffordd yn llawen."

Yr oedd Mr. Charles a John Evans rywbryd yn croesi mynydd Migneint gyda'u gilydd, ar eu taith i bregethu, ar ddiwrnod tra ystormus, pan y dywedodd Mr. Charles, ar ben y mynydd, "John Evans, os na wnawn ryw ddaioni ar ben ein taith, byddwn y bobl ffolaf yn y byd." "Wel, Mr. Charles," meddai yntau, "os gwnawn ryw ddaioni, byddwn y bobl gallaf yn y byd."

Un tro, cyfarfu Crynwr â John Evans ar un o heolydd Caerlleon; ac wrth sylwi ar ei wisgiad dirodres, ei agweddiad syml, a'i gerddediad pwyllog, meddyliodd ei fod yn perthyn i'r frawdoliaeth, a dywedodd wrtho, "Y mae yr Ysbryd

Digitized by Google

yn dywedyd wrthyf dy fod di yn un o honom ni." "Wel," ebai John Evans, "os ysbryd a ddywedodd hyny wrthyt, ysbryd celwyddog ydyw." Nis gallesid rhoddi ergyd drymach i un o'r Cyfeillion, na dywedyd fod yr ysbryd yn dywedyd celwydd wrtho.

Adroddid unwaith wrth John Evans fod ymrafael tost wedi cymmeryd lle rhwng rhyw ŵr a gwraig, oedd yn perthyn i'r eglwys, y mae yn debygol; a dywedai yr adroddwr, "Y maent yn dywedyd mai ar y wraig y mae y bai." Dywedodd yntau, "Na: ei bai ei hun sydd ar y wraig."

Yr oedd Margaret, gwraig John Evans, yn gryn dduwinyddes. Nid peth anfynych fyddai ei gweled hi yn darllen Caryl ar Iob, i aros i'r ffwrn dwymno. Yr oedd Margaret ryw dro yn siarad â chyfaill a ddaethai i'r tŷ, ynghylch yr angenrheidrwydd o rodio canol y ffordd mewn barn ac ymarferiad; a dywedodd John Evans, yr hwn oedd yn clywed o ryw gornel o'r tŷ, "Y mae yn ddigon gwir mai canol y ffordd a'i piau; ond mi feddyliwn i na bydd un o honoch chwi eich dwy yn ddim hwy ar ganol y ffordd nag y byddwch wrth groesi o'r naill ochr i'r llall." Gofynodd Margaret, gwraig John Evans, iddo unwaith, yn ddisymmwth, "John," meddai hi, "a fyddwn ni yn adnabod ein gilydd yn y nefoedd?" "Wel, byddwn yn siwr," meddai yntau: "a ydych chwi yn meddwl y byddwn ni yn ffolach yno nag yr ydym yma?" Yna, yn mhen ennyd, efe a ddywedodd, "Ond, Marged, gallwn ni fod yn ymyl ein gilydd am fil o flynyddau, heb wneyd fawr neu ddim sylw y naill o'r llall, gan faint gogoniant a rhyfeddodau Person y Gwaredwr Mawr, fydd yn llanw ein holl sylw a'n bryd."

Y mae llawer o ddywediadau ac atebion ereill John Evans ar gof rhai hen bobl o ddeutu y Bala, ac fe allai mewn rhai manau ereill hefyd, ac y mae amryw o honynt yn argraffedig; ond y mae y rhai a gofnodwyd yma yn ddigon i ddangos ansawdd meddwl y dyn rhyfeddol hwn—un o golofnau cyntaf a chadarnaf achos y Methodistiaid yn Nghymru.

Yr oedd yn meddu llygad craff i ganfod rhinweddau a ffaeleddau proffeswyr crefydd; ac yr oedd ganddo wroldeb ysbryd digyffelyb i geryddu y rhai a fyddent yn rhodio yn afreolus, beth bynag fyddai eu sefyllfa; ond gwnelai hyny yn wastad mewn cariad ac addfwynder, er yn ffyddlawn a didderbyn-wyneb. Yr oedd yn wrthwynebydd cadarn i Antinomiaeth, mewn barn a buchedd; a llwyddodd yn rhagorol, mewn undeb âg ereill o'r un ysbryd ag ef, i waredu Methodistiaid ei oes rhag syrthio i'r gau athrawiaeth hono, yr hon oedd yn ffynu i gryn raddau yn Nghymru y pryd hwnw. Yr oedd hefyd yn dra gwrthwynebol i orphwylledd crefyddol (*enthusiasm*), gan yr ystyriai hyny megys "tân dieithr," cwbl wahanol i wir waith yr Ysbryd Glân. Ar doriad cyntaf y diwygiad allan, a phan oedd yr achos etto yn wan, byddai rhai gwragedd mewn manau yn cymmeryd y flaenoriaeth mewn cymdeithasau crefyddol—mewn cynnulliadau o'u rhyw eu hunain yn benaf; ond gosododd John Evans ei wyneb yn erbyn yr arfer, gan farnu mai y rheol apostolaidd yw, "Tawed eich gwragedd yn yr eglwysi." "Fel blaenor i'r gymdeithas grefyddol yn y Bala," medd Mr. Llwyd, "ymddygodd fel tadmaeth tirion, gan eu maethu hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, heb dräarglwyddiaethu ar y praidd." Ystyriai fod meithder mewn cyfarfodydd crefyddol yn anfuddiol; ac am hyny, safai yn ei erbyn yn benderfynol. "Ychydig yn fyr, ac i'r pwrpas," oedd ei arwyddair ef yn wastad; a mynych y dywedai, "Pan fyddo y bobl yn dechreu blino, y mae yr addoli yn darfod." Yr oedd yn dra nodedig hefyd am brydlondeb gyda moddion gras; ac nid oedd dim a'i blinai yn fwy na gwaith y bobl—yn enwedig crefyddwyr—yn llusgo dyfod i'r moddion o'u dechreu i'w diwedd. Rhoddodd wers unwaith ar hyn i bobl y Bala, nad anghofiasant hi tra y bu efe byw.

Un tro, pan yr oedd efe i bregethu yno, nos Wener, aeth i'r capel, yn ol ei arfer, bron i'r mynyd erbyn yr amser, pan nad oedd ond un neu ddau wedi ymgynnull ynghyd. Dechreuodd y gwasanaeth yn ddioed, ac ni bu yn hir cyn gorphen. Pan ar yr heol yn myned adref, cyfarfu amryw oedd yn myned tua'r capel âg ef, a gofynent iddo, "I ba le yr ewch chwi, John Evans?" "Mi af adref," medd yntau, yn fyr. Gofynent hwythau, "A ydych chwi ddim yn meddwl dyfod i'r oedfa?" Aeth yntau yn ei flaen, yn arafaidd a syth, fel arferol, gan ddywedyd wrth fyned, "Y mae yr oedfa wedi darfod." Yr oedd ei gyssondeb hefyd yn mhob moddion crefyddol yn nodedig. Cyrchai i'r cyfarfodydd yn brydlawn a chysson, hyd yn oed ar ol iddo golli ei glyw i'r fath raddau, fel nas gallai ddeall bron un gair a ddywedid. "Mi af yno," ebe fe, "i addoli yr Arglwydd." Mynych y gosodai Mr. Charles ef allan fel esampl i'r holl eglwys i'w ddilyn. "Dyma John Evans," meddai, "er ei fod yn hen iawn, ac yn drwm iawn ei glyw, yn dyfod i'r moddion yn gysson: a pheth sydd ryfedd, ni welsoch mo hono ef erioed yn cysgu mewn un cyfarfod." Yr oedd hefyd yn berffaith gysson, o ddechreu ei oes grefyddol faith hyd ei diwedd, gyda'r ddyledswydd deuluaidd. Er nad oedd ei deulu yn cynnwys, tua diwedd ei oes, ond efe ei hunan a hen wraig a weinyddai arno, eto darllenai y Beibl a gweddïai, hwyr a boreu, fel arferol, hyd yn oed yn ei wely, yn ei saldra olaf; ac er fod ei gof wedi pallu, ac wedi dyrysu i raddau, er hyny nid anghofiodd y ddyledswydd deuluaidd hyd y dydd olaf o'i fywyd.

Yr oedd John Evans—nid yn unig o blegid ei oedran, ond yn benaf o herwydd doethineb a dwysder ei gynghorion a'i sylwadau—yn cael y blaen yn nghyfarfodydd misol a chymmanfaoedd blynyddol a chwarterol y cyfundeb. Ar neillduad cyntaf pregethwyr o'r cyfundeb i weinyddu yr ordinhadau yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin, 1811, John Evans oedd yn dechreu y gwasanaeth pwysig hwnw, fel y mynegir yn yr hanes sydd yn *Llyfr y Cyffes Ffydd* fel hyn:—"Yn gyntaf, y gŵr hynaf a pharchusaf yn y Corff, John Evans o'r Bala, a ddarllenodd 1 *Tim.* iii; ac wrth ei ddarllen, a wnaeth ychydig sylwadau addas a syml ar y cynneddfau gofynol yn ngweinidogion yr efengyl yn y bennod hono. Ac wedi iddo ddarfod darllen, gweddïodd ar yr achos, yn syml ac yn addas iawn." Mewn lle arall yn yr un hanes, fe ddywedir, "Mr. John Evans, o'r Bala, oedd ŵr cadarn iawn yn yr Ysgrythyrau, dianwadal a sefydlog yn egwyddorion y grefydd Gristionogol. Bu y gŵr hwn yn sefyll yn dyst ffyddlawn o blaid y gwirionedd, mewn athrawiaeth a dysgyblaeth, ynghylch trigain mlynedd a phymtheg. Nid yn fynych y gwelir y cyffelyb."

Pan yr ymunodd efe gyntaf â'r Methodistiaid Calvinaidd, yr oedd yr achos yn Nghymru dan erlidigaeth dost, ac o ganlyniad yn isel, ac yn lled annhrefnus; ond cafodd efe y fraint, fel y cydnabyddai yn fynych, o weled y cyfundeb wedi

Digitized by Google

llwyddo yn rhyfeddol, a dyfod i drefn ddymunol a rheolaidd, mewn cymmhariaeth i'r hyn a welsai efe. Efe oedd y cyntaf a gynnygiodd drefn reolaidd i adeiladu capeli i'r Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru, yr hon drefn a gymmeradwywyd mewn cymmanfa yn sir Gaernarfon. Y drefn a sefydlwyd ar ei annogaeth ef oedd, i bob aelod o'r cymdeithasau neillduol roddi dimai yn yr wythnos, sef chwech a dimai yn y chwarter, at adeiladu capeli yn y manau y byddai achos am danynt. "Hyn oedd dechreuad y casgliad chwarterol," medd Mr. Llwyd. Diwygiodd Mr. Charles y cynllun ar ol hyny; a thrwy ei annogaeth, rhoddwyd caniatâd i bawb chwanegu at ei gyfraniadau yn ol eu hewyllys a'u hamgylchiadau.

Yr oedd ei ddiwydrwydd mewn ystyr dymmorol, yn gystal ag ysbrydol, braidd yn ddigyffelyb. "Ni fwytaodd efe fara seguryd," meddai Mr. Llwyd; "ond trwy chwys ei wyneb y bwytaodd fara, hyd onid oedd yn agos i ddeg a phedwar ugain oed. Byddai yn pregethu ar y Sabbathau yn wastad, ac yn achlysurol ar amserau ereill hefyd; ond nid oedd ei holl lafur ysbrydol yn ei luddias i ddilyn ei alwedigaeth yn feunyddiol. Pan aeth i'r Bala gyntaf, bu yn dilyn ei gelfyddyd fel gwehydd am rai blynyddoedd; wedi hyny, bu yn rhwymo llyfrau dros amryw flynyddoedd; a thros y gweddill o'i oes, dilynodd y gelfyddyd o wneuthur canwyllau. Mor ofalus am ei alwedigaeth ydoedd, fel na chai dim ond afiechyd ei attal at ei ddyledswydd. Fel esampl o'i fanylwch gyda'i alwedigaeth, adroddir ei fod un nos Sabbath yn pregethu yn Nglîwm-tir-mynach; ac yn ebrwydd ar ol dibenu, hwyliai i gychwyn adref. Gan ei bod yn noswaith dywyll a gwlawog, erfyniai y cyfeillion arno aros hyd dranoeth: dywedodd yntau fod achos penodol yn galw am iddo ef fod gartref yn foreu y dydd canlynol. "Ho! John Evans," meddai un o'r cyfeillion, "ymddiriedwch i Ragluniaeth, ac aroswch." "Na," meddai John Evans: "ni wna Rhagluniaeth doddi y gwêr, a gwneud canwyllau; rhaid i mi wneud hyny, neu bydd heb ei wneud." Dengys *Ymddyddan* iii. yn yr hen *Drysorfa* ei fod wedi parhau i ddilyn ei alwedigaeth yn ddiwyd nes yr oedd dros 90 mlwydd oed. Mynodd ddal i weithio tra y gallodd; ac wedi iddo fethu, cafodd ei gynnal yn barchus gan ei frodyr yn sir Feirionydd.

Yr oedd yn nodedig o ddiargyhoedd yn ei fuchedd, ac mor gyfiawn yn ei fasnach, fel yr oedd ei enw da fel y cyfryw yn ddiareb yn yr holl wlad. Prynodd geffyl unwaith gan gymmydog, a thalodd am dano. Yn mhen ennyd wedi hyny, dywedodd cymmydog arall wrtho y talai y ceffyl fwy o bunt nag a roddodd efe am dano. "Os felly," medd yntau, "y mae yn gymmhwys i'r gŵr gael y bunt;" ac anfonodd hi iddo yn ddioed. Bryd arall, anfonwyd bachgenyn o'r wlad i anfon gwêr iddo, yr hwn a ddywedodd, "Y mae fy nhad yn dywedyd fod arno eisieu hyn a hyn y pwys am dano." "Wel, fy machgen i," meddai John Evans, "yr wyf fi heddyw yn rhoddi chwaneg am y gwêr na hyny; a chaiff dy dad hyn a hyn am dano."

Fel cymmydog, yr oedd yn gymmwynasgar a charedig—nid yn unig i'w frodyr crefyddol, ond i bawb a ddeuent ar ei ofyn. Gan ei fod yn fwy ysgolhaig na chyffredin yn y dyddiau hyny, a bod ei wybodaeth o'r gyfraith wladol yn dra eang, ac ystyried ei sefyllfa, byddai yn cael ei alw yn fynych i heddychu rhwng cymmydogion, ac i ysgrifenu cytundebau, ewyllysiau, &c.; a gwyddai pawb yn ei ardal fod John Evans yn barod bob amser i wneud iddynt gymmaint o ddaioni ag a allai; ac o blegid hyny, yr oedd ei barch, megys y teilyngai, yn fawr; ac nid ofnai neb a'i hadwaenai roddi yr ymddiriedaeth lwyraf iddo.

Nid oedd dim a roddai gymmaint o foddhâd iddo, yn ei ddyddiau diweddaf, a son am lwyddiant crefydd mewn gwahanol leoedd, yn enwedig yn y manau yr oedd mwyaf o wrthwynebrwydd ar y dechreu i dderbyn yr efengyl. Dywedai gyda hyfrydwch, wrth son am achos crefydd yn Adwy'r Clawdd, "Myfi a gafodd y fraint o ddwyn y marworyn cyntaf yno. Yr oedd fy nhad a'm mam wedi fy ngwrthwynebu i ddwyn pregethu yno dros ennyd, gan ddywedyd fod yr Eglwys Sefydledig yn ddigon. Ond wedi cael adferiad o glefyd trwm, cawsant eu hystwytho i ganiatau i mi ddyfod â phregethwr i gadw oedfa yn y tŷ. Y cymmydogion a ddaethant ynghyd; ac wedi darfod y bregeth, gofynasant, 'Ai gŵr wedi bod mewn *trance*, neu weledigaeth, oedd y pregethwr?' gan ei fod yn traddodi pethau dieithr i'w clywedigaeth. 'Nage,' ebe finnau: 'oni chlywsoch y gŵr yn cymmeryd ei destyn o'r Beibl?'" Nid yw John Evans yn mynegi pwy oedd y pregethwr a ddygwyd ganddo i Adwy'r Clawdd gyntaf, na pha ryw amser y bu hyny; ond sicr yw, meddai Mr. Hughes, ei bod rhywbryd rhwng 1744 a 1751.

Yr oedd ei glefyd olaf gan mwyaf yn ei ben, yr hyn a barai beth dyryswch yn ei synwyr ar amserau; er hyny, yr oedd yn dawel, llawen, a thra chrefyddol; ac ymddangosai heb nemawr o boen corfforol hyd y diwedd. Dywedodd wrth gyfaill, "Yr wyf yn barnu fy mod wedi cael dyrnod; ond gan mai prif wynfydedigrwydd dyn yw mwynhâd o gymdeithas Duw, dymunol yw myned lle y ceir ei fwynhau yn ddidor." Pan aeth cyfaill unwaith i ymweled âg ef ar ei glaf-wely, yr oedd mewn ofnau mawr rhag na dderbyniai yr Arglwydd ef; ond pan grybwyllodd hwnw eiriau yr Arglwydd Iesu wrtho, "Y neb a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim," dywedodd yntau, gan ddyrchafu ei ddwylaw plethedig, â'r dagrau yn llenwi ei lygaid, "Pa beth a wna pechadur gwael o'm bath i yn well nag ymaflyd yn yr addewid werthfawr?" Dywedodd wrth un o'i gyfeillion, bryd arall, a ofynodd iddo am sail ei hyder yn wyneb angeu, "Nid oes genyf am fy mywyd ond yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd Iesu o Nazareth." Pan ofynodd un arall iddo, pa fodd yr oedd yn ymdeimlo, dywedodd yntau, "Yr wyf yn bur ddiboen; ac yr wyf yn cael amser da yn fy saldra: er hyny, yr wyf yn meddwl fod angeu yn agos; ond y mae fy amser yn llaw yr Arglwydd. Y mae yn well arnaf fi nag oedd ar Iesu o Nazareth. Llawer diwrnod blin, a noswaith hefyd, a gafodd efe; ond yr wyf fi yn cael amser tirion iawn: llawer loes chwerw a gafodd Iesu yn nyddiau ei gnawd; ond myfi, er haeddu gwialenodiau, sydd yn cael trugareddau!" Pan aeth dau ŵr ieuanc i ymweled âg ef, yn ei ddyddiau olaf, gofynasant a oedd ganddo ddim i'w ddywedyd wrthynt hwy, "Oes;" meddai yntau, "os bydd genych ymborth a dillad, ymfoddlonwch ar hyny."

Bu fyw yn llafurus, duwiol, a rhinweddol iawn, fel y dengys ei holl hanes; ac fel canlyniad naturiol i'r fath fywyd sanctaidd a difrycheulyd, bu farw mewn tangnefedd; a chafodd fynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd, ar y 12fed dydd o Awst, 1817, ar fin ei 94ain flwydd

Digitized by Google

anghyfaddas i blant difeddwl, cyffredin; ac yn wir, byddai yn gochel y cyfryw rai, megys yn naturiol, o'i febyd. Cerddai efe, gan mwyaf, wrtho ei hun, yn synfyfyriol, pan yn myned i'r ysgol ac yn dychwelyd o honi; a meddyliai plant ereill mai yswildod a thuedd anghyfeillgar oedd yr achos o'i ymneillduedd; pan, mewn gwirionedd, mai dal ar bob cyfle y byddai efe i holi ei hun, i brofi ei hun, i farnu ei hun, ac i geryddu ei hun. Yr oedd y pryd hyny wedi dechreu adnabod ei hun a drwg pechod. Yr oedd yn dechreu deall nad oedd dim yn nghreadigaeth Duw yn rhyfeddach, yn ardderchocach, ac yn druenusach na'i enaid ei hun; ac yn ngwyneb y pethau hyn, yr oedd yn dechreu gweled yr angenrheidrwydd anhebgorol am Gyfryngwr. Pan ofynid iddo pa bryd y dechreuodd argraffiadau crefyddol gyntaf ar ei feddwl, nis gallai ateb; canys yr oedd er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lân.

Fe ddywedir yn y *Traethodydd* yr ymddengys fod ei dad, er yn ddiacon gyda'r Annibynwyr, yn bwriadu i John fod yn barson yn yr Eglwys Sefydledig; ond nid yw ei fywgraffydd yn myn egu hyn. Pa fodd bynag, cafodd ysgol dda. Ei athrawes gyntaf oedd ei fam, yr hon a'i dysgodd i ddarllen y Beibl cyn iddo fod yn bedair; a hwn a fu yn brif lyfr ei fyfyrdod a'i hyfrydwch hyd ddiwedd ei oes. Dyma "y brophwydoliaeth a ddysgodd ei fam iddo." Pan oedd yn lled ieuanc, anfonwyd ef i'r ysgol i Bencader, at ŵr eglwysig o'r enw Mr. Evans. Bu wedi hyny yn yr ysgol am ryw ysbaid gydag un, Mr. Jones; ac oddi wrth hwnw, symmudwyd ef at un arall o'r enw Mr. Jones, mab Maes y Noni. Yr oedd y gŵr hwn wedi ei ddwyn i fyny yn Rhydychain, er mwyn ymgyfaddasu at wasanaeth yr Eglwys Sefydledig. Ymddengys fod y gŵr hwn yn ysgolhaig da, ac yn ddyn o deimladau crefyddol a duwiol; ac yr oedd gan John Evans barch mawr iddo. Y mae'n debyg fod y ddau—yr athraw a'r dysgybl—o dueddiadau meddyliol pur debyg i'w gilydd; fod y naill fel y llall yn bur drallodus a phruddglwyfus eu meddyliau ar amserau, ac ymddengys eu bod yn deall eu gilydd yn rhagorol. Dywedir mai ar amserau y byddai John Evans yn dysgu yn dda; ac y byddai y prydiau hyny yn synu ei athraw a'i gydysgoleigion; pan ar amserau ereill y byddai yn bruddglwyfus, claf, a hynod o drallodus ei feddwl. Byddai ei athraw tynergalon yn cydymdeimlo yn ddwys âg ef, ac yn goddef iddo lawer iawn o'i ffordd ei hun; a hyny yn ddiau oedd y goreu o lawer ar les meddwl o fath ei feddwl ef. Dywed ei fywgraffydd y byddai galluoedd ei feddwl, ambell waith, pan gaent gyfle gan brudd-der, ing, a thrallod, fel pelydron yr haul ar ddiwrnod cawodog, nes synu pawb o'i amgylch. Bu dan addysg y boneddwr hynaws a dysgedig hwn am lawer o flyneddoedd; a dysgodd y Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg gydag ef yn lled wych. Methodd pob un o'i athrawon a chael ganddo ddysgu ond ychydig iawn o rifyddiaeth. Yr oedd ei feddwl ef, fel yr eiddo Coleridge, Byron, Robert Hall, Foster, a llawer gyda hwy, o'i flaen ac ar ei ol, yn rhy hedegog i ymlusgo rhwng conglau ffugrau a llinellau: yr uchelderau, cestyll y creigiau, y tyrau uchel, ïe, a bryniau tragwyddoldeb, oedd hoff breswylfeydd ei feddyliau goruchel ef. Hyfryd rodfeydd ei ddychymmyg a'i fyfyrdod oedd ymherodraeth fawr Dadguddiad Dwyfol. Pan oedd tua 19eg oed, symmudwyd ef i athrofa Caerfyrddin; ac er na bu yno yn hir, bernir i'r gŵr call a duwiol oedd yn athraw yno, sef y Parch. D. Peters, wneyd llawer o les iddo. Dywedir i Mr. Peters ddyfod o hyd iddo unwaith ar ei ben ei hun, yn pregethu yn egnïol, pan y dywedodd ei athraw, "John, John, pa le y mae y gwrandawyr?" "Nid wyf yn gwybod yn siwr, *my dear sir*," medd yntau—"eu colled hwy yw hyny."

Ymddengys fod pregethu ar ei feddwl er yn ieuanc iawn. Byddai yn pregethu yn fynych pan yn fachgen bychan yma a thraw ar hyd y meusydd. Dywedai ei chwaer y byddai yn myned allan yn fynych i'r caeau i fyfyrio, gweddïo, a phregethu, pan ydoedd yn hogyn bychan; ac y byddai amryw o deulu y tŷ, a rhai o'r cymmydogion, ar amserau, yn myned am y gwrychoedd i wrandaw arno gyda hyfrydwch mawr. Dywedir ei fod yn Mhencader, pan o bymtheg i un ar bymtheg oed, yn cadw ysgol; a bod yno ddau o ddysgyblion ereill yn yr ysgol, a elwid J. Lloyd a Thomas Davies; ac y byddai'r tri ar amserau yn pregethu, pob un yn ei dro, a'r ddau arall yn gwrandaw ac yn barnu. Yr oedd un o honynt heb fod yn proffesu crefydd ar y pryd; ac ystyriai Mr. Evans ar ol hyny ei fod yn beth rhyfygus iawn iddynt bregethu, tra heb enw o grefydd. John Lloyd a ystyrid yr ymadroddwr penaf y pryd hyny. Yn fuan ar ol hyn, fe ymunodd John Evans â'r Trefnyddion Calfinaidd; Thomas Davies â'r Bedyddwyr; a John Lloyd â'r Annibynwyr: a bu pob un o honynt yn weinidogion parchus a defnyddiol ar hyd eu hoes.

I gymdeithas Gwaen Ifor yr aeth at y Trefnyddion Calvinaidd y tro cyntaf; ond ni bu yno ond y tro hwnw, cyn symmud i'r New Inn. Aeth ei dad i'w anfon yno; ac ar y ffordd, collodd ef yn ddisymmwth: wedi troi yn ei ol i chwilio am dano, cafodd ef ar ei liniau yn ochr y clawdd yn gweddïo. Dywedir na byddai un amser, ar ol hyny, yn pasio y llanerch, heb naill ai myned ar ei liniau i weddïo, neu ocheneidio yn ddwys tua'r nef wrth fyned heibio. Wedi cyfodi, aeth gyda'i dad tua'r New Inn; a chyflwynodd ei dad ef i un Thomas Bona, neu fel y gelwid ef, y Dr. Bona, yr hwn oedd flaenor yn y New Inn ar y pryd. Wrth ei gyflwyno, dywedodd ei dad, "Dyma fe i chwi: mi fethais i yn lân a gwneyd *Dissenter* o hono." Yr oedd yn un ar bymtheg oed yn niwedd y flwyddyn hono.

Yn lled fuan ar ol i John Evans ymuno â'r Trefnyddion yn y New Inn, symmudodd i Lanpumsaint i gadw ysgol; ac yno y dechreuodd bregethu mewn lle yn agos i Lanpumsaint, a elwid y "Llain," lle yr oedd gŵr da yn byw, a elwid Joshua Phillips, brawd i'r diweddar John Phillips, Meidrim, a fu yn bregethwr gyda'r Trefnyddion Calvinaidd am lawer o flyneddoedd. Testyn cyntaf John Evans oedd, "Os myn neb ddyfod ar fy ol i...cyfoded ei groes," &c. Cafodd oedfa lewyrchus a thra dylanwadol y tro cyntaf hwnw, fel y torwyd allan i folianu Duw yn hir cyn iddo ddiweddu. Cymmerodd hyn le pan nad oedd John Evans ond yn nechreu y 18eg flwyddyn o'i oedran. Aeth son am y bregeth rymus hono yn fuan i'r New Inn, fel y mynwyd ei gael yno yn ebrwydd i bregethu. Erbyn iddo fyned yno, yr oedd y lle yn orlawn: yr oedd ei berthynasau, ei gyfoedion, a'i gymmydogion o bob parth wedi ymgasglu ynghyd. Gan nad oedd efe ond pur ieuanc, fel y nodwyd, syrthiodd ofn arno yn ngwyneb y fath gynnulleidfa luosog o'i berthynasau a'i gydnabod; ac oedfa sech, led ddilewyrch, a gafodd mewn canlyniad. Pa fodd bynag, ni effeithiodd hyny ddim er ei iselhau yn ngolwg ei wrandawyr; a dichon i'r tro fod o les mawr iddo



Digitized by Google

yntau yn y pen draw. Yn y Cefn byrach y derbyniwyd ef i'r cyfarfod misol gyntaf. Am 10, yr ail ddydd, rhoddwyd ef i weddïo ar ddechreu yr oedfa, o flaen y Parch. D. Rees, Llanfynydd, a Mr. Lloyd, o Gaio. Yn Nghydweli y pregethodd gyntaf mewn cymmanfa; ac yr oedd arddeliad anghyffredin ar ei genadwri. Dywedir fod pob peth sydd yn angenrheidiol i wneyd dyn yn bregethwr cymmeradwy wedi cydgyfarfod yn John Evans. O ran ymddangosiad ei gorff, yr oedd yn ddyn lled dal, prydferth, a boneddigaidd; yr oedd ganddo wynebpryd hardd, synwyrol, ac ennillgar; yr oedd ei gyfarchiad yn foesgar, deniadol, a phendefigaidd; yr oedd ei ymadrodd yn llithrig, hyawdl, ac addurniadol; yr oedd ganddo lais cryf, soniarus, treiddiol, a pheraidd; ac yr oedd ei holl ymarweddiad yn argyhoeddi cydwybodau ei wrandawyr ei fod yn ddyn oedd "yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni." Dywedir y byddai rai prydiau, ar gychwyniad ei yrfa weinidogaethol, yn bur daranllyd; ond ymddengys na ddilynodd y dull hwnw ond am ychydig o amser; canys nid oedd taranau Demosthenes, na mellt fflamllyd Cicero, yn cydweddu â'i gorff nac â'i feddwl efengylaidd. "Cymmoder chwi â Duw" oedd ei hoff genadwri ef cyn cyrhaedd canolddydd ei weinidogaeth; ac yn "fab dyddanwch" y parhaodd hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd wedi ei eni i fod yn bregethwr: yr oedd ei boblogrwydd digyffelyb, ac yn enwedig yr arddeliad cyffredinol oedd ar ei weinidogaeth, yn tystiolaethu hyny yn mhob cydwybod dyn a'i adwaenai. Yr oedd ei drysordy yn wastad yn llawn, o'r hwn y "dygai allan bethau newydd a hen." Yr oedd yn dra hoff am ryw ysbaid ar ol dechreu pregethu o drin cryn lawer ar weinidogaeth angylion. Yr oedd unwaith yn pregethu yn ddoniol ar y pwnc yn Nghaerfyrddin, pan y gofynodd y Parch. D. Charles iddo, "O ba le y daethoch heno, Mr. Evans bach?" "O Banc y Felin, *my dear sir*," oedd yr ateb. "Ho!" meddai Mr. Charles, "yr oeddwn innau yn meddwl mai o'r nefoedd y daethoch."

Pan oedd yn 29ain oed, efe a briododd wraig weddw o'r enw Mrs. Jones, yr hon oedd yn byw yn Llwynffortun. Yn y flwyddyn ganlynol, efe a aeth at yr Eglwys Sefydledig, ac urddwyd ef yn ddiacon gan Watson, esgob Llandaf. Fel prawf o'i fedr yn y Lladin a'r Groeg; ceisiodd yr esgob ganddo gyfieithu rhanau o waith Lladin Grotius ar *Wirionedd y Grefydd Gristionogol*, a rhai adnodau o'r Testament Groeg, yr hyn a wnaeth yn llwyddiannus. Yna bu yn gurad am beth amser yn Mynyddislwyn, ac wedi hyny yn Casnewydd. Pen y bont, a Threlalas. Yr oedd yr eglwysydd yn mhob man y pregethai Mr. Evans yn cael eu gorlenwi gan wrandawyr; ond yr oedd ei bregethau yn rhy hallt gan goegfoneddigion y cymmydogaethau—y rhai ni fynent y curad gwyllt, Methodistaidd, i bregethu iddynt; a llwyddasant i'w amddifadu o'i guradiaeth. Yna dychwelodd adref i Lwynffortun, lle y bu dros amser yn ddigon gofidus ei feddwl. Yr oedd pregethu ar ei galon ef; a byddid yn ei ymofyn yn achlysurol i bregethu mewn gwahanol eglwysydd yma a thraw, y rhai a orlenwid yn wastad â gwrandawyr. Yn mhen rhyw ysbaid ar ol hyn, cafodd guradiaeth Llanddowror, hen eglwys yr enwog Griffith Jones; ond nid hir y bu yno chwaith cyn tori allan i bregethu mewn llanau ereill, lle y cai dderbyniad. Cauwyd drysau yr eglwysydd yn ei erbyn mewn rhai manau; a phregethai yntau i'r tyrfaoedd lluosog oddi ar y beddfeini. Canfu Mr. Evans yn lled fuan nad oedd iddo ddinas barhaus yn yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd gormod o bregethu Crist yn ei galon ef i gymmeryd ei gyfyngu o fewn muriau culion rhyw lan neu ddwy; ac yr oedd hen wrandawyr y llanau wedi arfer gormod â phregethau clauar, o lyfr, i wrandaw yn gysurus ar weinidogaeth danllyd, fywiog, ac argyhoeddiadol John Evans. Felly, ar ol rhyw flwyddyn o grwydr, dychwelodd at ei hen frodyr, y Methodistiaid; a threuliodd weddill ei oes yn eu mysg, yn dra defnyddiol a chymmeradwy. Ni chafodd John Evans ei gwbl urddo yn yr Eglwys Sefydledig; a phan y dywedodd cyfaill wrtho unwaith, "Mr. Evans, dim ond un urdd a gafodd y Parch. R. Hill; ac yr oedd ef yn arfer dywedyd ei fod wedi treulio ei oes â dim ond un fotas: pe buasech chwi yn cael ei un ef, neu efe yn cael eich un chwi, fe fuasid yn meddu pâr fel hyny." "Gwir iawn," meddai yntau; "ond ni fuasai yn taraw er hyny; o blegid botasau yr un troed oedd y ddwy." Yr oedd gormod o awydd pregethu i bawb, yn mhob man, ar Evans i gael urdd! Gwnaeth ei arosfa am y rhan fwyaf o weddill ei oes yn Llwynffortun, yn Nyffryn Tawy, yr hwn sydd un o'r dyffrynoedd mwyaf dymunol sydd yn Ynys Prydain. Oddi yma, aeth ar lawer o deithiau meithion trwy yr holl Dywysogaeth i bregethu yr efengyl, a mawr fyddai y dysgwyliad am dano, a'r croesaw gwresog a gaffai yn mhob man yr elai; ac anfynych yr ymadawai o un lle heb weinyddu cysur cryf i'r saint, ac argyhoeddiad dwys i'r anghrediniol.

Esgusodir ni am roddi sylwedd darluniad bywiog ei fywgraffydd o Mr. Evans mewn cymmanfa.

"Dyma ddydd y gymmanfa wedi dyfod. Y mae rhyw foneddwr haelfrydig yn y gymmydogaeth yn rhoddi cae cyfleus yn ymyl y dreflan i gynnal y cyfarfod. Yn y cae y mae esgynlawr wedi ei hadeiladu; ac mae pedrolfeni a cherbydau o bob ochr i'r esgynlawr, yn ffurfio cylch fel hanner lleuad. Gwelir y miloedd yn dechreu ymgasglu oddi yma ac oddi draw—rhai mewn cerbydau, rhai ar feirch, ac ereill ar eu traed: mae y ffyrdd a'r llwybrau yn frithion gan ddieithriaid a phererinion. Dyma y cyfarfod yn myned i ddechreu am ddeg o'r gloch y dydd olaf: mae rhyw frawd anwyl yn rhoddi emyn allan; yna yn darllen rhan o'r Beibl, ac yn gweddïo nes y mae yr holl dyrfa yn ymgrynhoi ac yn cynhesu. Yn y cyfamser, y mae Mr. Evans, Llwynffortun, yn dyfod i'r cae yn mraich rhyw gyfaill: ar ei ddyfodiad, dyma y dyrfa fawr yn ymagor, ac yn ymranu yn ddwy linell: yn awr, rhaid iddo fyned drwy yr holl seremonïau—"Pa sut yr ydych chwi? a pha fodd yr ydych chwithau?" a rhaid ysgwyd dwylaw â lluaws; ac ar amserau, y mae pedwar neu bump yn ymaflyd yn y bysedd a estynir atynt, ar unwaith. Fe blyg ei ben ar un acw, ac fe wena yn siriol ar arall yma; a siarad gymmaint ag a all, yn ol yr amser, am y perthynasau a'r cyfeillion. Eir yn mlaen fel hyn, o gam i gam, dan gyfarch yn barhaus, nes cyrhaedd yr esgynlawr. Wedi myned i fyny, rhydd rhyw dro apostolaidd, gan edrych yn ddifrifol ar y gwyddfodolion: yna, â'i wyneb yn orchuddiedig yn ei het, dyrchafa ochenaidiau a saethweddïau i'r nef am y dylanwadau dwyfol. Bydd pawb yn barod i gyfodi ar ei ddyfodiad: aiff yntau rhagddo gan gyfarch y rhai o'i ddeutu yn lled fanwl; ac o'r diwedd, eistedda yn mysg ei frodyr, fel brenin mewn llu. Wrth wrandaw y bregeth fywiog o'i flaen, efe a gyfyd ar ei draed, mewn mwynhad helaeth o'r ymadrodd; a mwyheir ei fwynhad ef wrth weled

Digitized by Google

y miloedd yn cydfwynhau y bregeth. Gwrandawr heb ei fath ydoedd; ac yr oedd ei ddull ef yn gwrandaw yn mwyhau boddhad y cannoedd a edrychent arno. Er fod y bregeth hon yn rhagorol, eto y mae lluaws mawr yn y dyrfa luosog, yn hiraethu am yr 'Amen.' 'Yn awr, pwy sydd nesaf?' yw y gofyniad; a'r ateb yw, 'Mr. Evans, Llwynffortun.' Gyda hyn, dyma y pregethwr difrifol, a'r areithiwr hyawdl ar ei draed, yn myned i gyfarch y dorf luosog. Egyr y Beibl—try y dalenau â'i law, ac edrych ar y dyrfa ac am y testyn bob yn ail: ar ol ei gael, enwa y llyfr, y bennod, a'r adnod, gan ddywedyd, 'Yma y gwelir geiriau i'w darllen fel hyn.' Yna darllena ei destyn yn rymus, medrus, soniarus, eglur, a hwylus: gyda hyn, bydd y llaw chwith yn tacluso y napcyn gwddf, a'r llaw dde yn graddol ysgogi, ac yn effeithiol awgrymu parodrwydd areithyddol y pregethwr i fwrlymu allan ffrydiau llifeiriog o hyawdledd. Yn ebrwydd bellach, bydd holl beiriannau llafar yr areithiwr ffraeth ar lawn waith. Y mae yn rhagymadroddi oddi wrth rai o'r cyd-destynau; ac wrth fyned yn mlaen, y mae ei 'lygaid yn canfod pob peth gwerthfawr;' ac y mae ei ddawn yn ei osod allan yn y modd goreu. Daw at ei destyn yn ddisymmwth, yn destynol neu yn bynciol, fel y dygwyddo; ond pa fodd bynag, pregetha yn ddoniol. Ar ol galw yn nhrysorfa ei destyn, fe ddwg allan feichiau trymion o bethau gwerthfawr ei gynnwysiad; ac erbyn y byddo wedi gwasgaru y cludiadau hyn, daw yn ddiarwybod i bawb at ei destyn drachefn. Yna tyn rhyw ddeilen olewydden oddi arno, a chyhwfana hi, nes y byddo pawb yn ymdeimlo yn ddedwydd: gwna hyn y naill dro ar ol y llall, nes y byddo yn ymddangos ei fod wedi dyhysbyddu ei destyn. Y mae yn awr yn 'angel yn ehedeg yn nghanol y nef, â'r efengyl dragwyddol ganddo.' Erbyn hyn, fe geir gweled y gynnulleidfa fel egin mis Mai, ar ol cawodydd maethlawn y gwanwyn, i gyd yn lloni ac yn adfywio. Y mae ei ymadroddion yn disgyn ar y gwrandawyr 'fel gwlaw ar irwellt,' ac fel cawodydd maethlawn ar laswellt. Yn awr, dacw bobl y cyrau eithaf yn dechreu dofi: dacw y coegddyn yn gymhen iawn yn rhoddi benthyg ei glust; dacw y dysgedig â'i wyneb myfyrgar, yn gwisgo ambell wên yn awr a phryd arall; yn y fan draw, yn ei *gig*, y mae ynad heddwch a'i foneddiges yn gwrandaw wrth eu bodd: y mae yr annysgedig, yntau, wedi cael ei wareiddio gan ddylanwad y pregethwr; y mae y difeddwl a'r ieuanc, am yr amser presennol, boed a fyno, wedi eu darbwyllo i dalu teyrnged o wrandawiad i'r hyn a draethir gan y llefarwr; y mae yr hen ŵr a'r hen wreigan, wrth bwys eu ffyn, y rhai y mae 'eu cnawd a'u calon yn pallu,' yn teimlo dyddiau ieuenctid unwaith eto yn ail ymaflyd ynddynt. Y mae yntau yn awr yn feistr y gynnulleidfa, yr hon a wneir i fyny o filoedd a miloedd o wahanol sefyllfaoedd, tymmerau, synwyrau, a dygiad i fyny. Y mae yn eu trin i gyd fel y myno ei hunan: difyra hwy fel y difyra y fam ei phlentyn sugno. Y mae ei ymddangosiad apostolaidd, boneddigaidd, a sanctaidd, yn *awr* yn llanw eu llygaid: y mae ei barabl per a melus yn adsain yn eu clustiau. 'Mor weddaidd ar y mynyddoedd' oedd traed yr efengylwr hwn yn cyhoeddi heddwch, 'yn dywedyd wrth Sïon, Dy Dduw di sydd yn teyrnasu.' Dacw bawb yn ymadael, ac yn barod i ddywedyd fel y dywedwyd am ei Feistr Mawr, 'Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.'"

Ofer, ar ol y darluniad bywiog yma o waith bywgraffydd Mr. Evans, yw treulio lle i brofi ei enwogrwydd; ond rhaid dywedyd gair am y parch mawr a delid iddo gan bob gradd o ddynion, a chan y gwahanol enwadau crefyddol. Yr oedd Mr. Evans fel rhyw ganolbwynt dymunol, lle yr ymgyfarfyddai y cyfoethog a'r tlawd yn nghyd. Yr oedd hyd yn oed y *gypsies* yn ei adnabod, yn ei hoffi, ac yn ei fendithio. Pan ddygwyddai yr Arglwydd Dynefor gyfarfod â Mr. Evans, gorchymynai i'w gerbydwr sefyll; ac ymddyddanai â Mr. Evans megys ei gydradd. Yr oedd y Dr. Burgess hefyd, esgob Tŷ Ddewi, yn hoff o gael siarad âg ef. Pan fyddai cyhoeddiad Mr. Evans mewn ardal, dywedir y byddai dynion meddwon yn ymattal oddi wrth eu rhysedd dros amser, er mwyn cael ei wrandaw. Yr oedd ei barch ef yn fawr at y gwahanol enwadau crefyddol; ac fel y gellid dysgwyl, yr oeddynt hwythau yn dra hoff o hono yntau. Byddai ef yn gofidio yn fawr pan ymrysonent â'u gilydd—pan "genfigenai Ephraim wrth Iudah, a phan gyfyngai Iudah ar Ephraim." Mab tangnefedd oedd efe: a charai weled pawb yn byw mewn heddwch a dedwyddwch. Byddai yn pregethu yn lled fynych yn amryw o gapeli yr Annibynwyr, megys Henllan, Trelech, Pen cader, Capel Isaac, Gwernogau, &c.; a siaradai yn dra pharchus am eu gweinidogion. Pregethai hefyd yn nghapeli y Bedyddwyr, yn enwedig Cwm-Ifor.

Yr oedd yn cael ei flino ar hyd ei oes gan y clefyd a fu yn cael ei ystyried gynt gan y werin yn addurn dynion enwog, sef y pruddglwyf. Y mae eistedd llawer, neu gadw y corff mewn rhyw ystum arall, a ducddo i rwystro treuliad rhwydd yr ymborth, yn dwyn y clefyd hwn yn fynych ar ddynion digon bychain eu meddyliau, a fyddent mewn galwedigaethau a ofynent gam ystum ar y corff. Y mae yn wir hefyd fod eistedd llawer i fyfyrio yn dra meithringar i'r clefyd anhyfryd hwn; a bod rhai dynion gwir fawr yn cael eu blino yn dost ganddo; megys Dr. Watts; Robert Hall; Williams, Pant y celyn; Dewi Wyn o Eifion, ac ereill; ac y mae yn bur debyg mai clywed am wŷr fel hyn a barodd i rai dynion bychain gymmeryd arnynt fod yn bruddglwyfus. Ond yr oedd John Evans, Llwynffortun, yn bruddglwyfus wrth natur—yr oedd wedi etifeddu y clefyd oddi wrth ei dad; a mawr y gofid a gafodd o'i blegid ar hyd ei fywyd. Yr oedd efe yn wir bruddglwyfus; ac y mae yn dra sicr fod ei fyfyrdod parhaus ar bethau dwysion crefydd a byd arall yn mwyhau ei glefyd naturiol.

Byddai yr anhawsder anhyfryd hwn yn ei arwain weithiau i feddwl a dywedyd pethau a ymddangosent i ereill yn bur ddigrif, ond a fyddent bron llethu ei feddwl terfysglyd ef yn lân. Fe feddyliai ambell dro y byddai wedi cyflawni rhyw fawrddrwg, gwladol neu eglwysig, heb un math o sail i'r gyfryw dyb, ond ei ddychymmyg terfysglyd ef ei hun yn unig; ac yr oedd ei frodyr crefyddol a'i gydnabod wedi dyfod i ddeall hyny yn burion; canys gwyddai pawb fod ffug mor ddieithr i John Evans, Llwynffortun, ag ydoedd elusengarwch a gonestrwydd i Iudas Iscariot. Unwaith, yn Tal-llychau, cyn dechreu y cyfarfod, galwodd ar hen flaenor parchus o'r neilldu, a dywedodd, "Nis gallaf bregethu heddyw: y mae yn rhaid i chwi fy nghymmeryd i'r carchar." "Ni a awn yno ar ol y cyfarfod, Mr. Evans bach," meddai yr hen ŵr. "A ydych chwi yn meddwl, druan," meddai yntau, "mai hyny a fyddai yn oreu?" "Ie, ie," medd yr hen flaenor. "O'r

Digitized by Google

goreu, o'r goreu," meddai yntau. Dywedai yn fynych fod awydd mawr arno, gannoedd o weithiau, roddi ei hun i fyny i'r awdurdodau gwladol. "Ond," meddai ei gyfeillion, "ni chymmerent hwy ddim o honoch, Mr. Evans bach." Dywedodd unwaith wrth flaenoriaid Nant caredig, yn y lle yr oedd yn aelod, tra y bu yn Llwynffortun:—"Y mae yn rhaid i chwi fod yn ddifrifol iawn heddyw—y mae genych waith pwysig i'w gyflawni—y mae yn rhaid i chwi fy nhori i allan!" "Wel," meddai un o'r blaenoriaid, "cofiwch hyn, Mr. Evans bach; os allan y torir chwi unwaith, mai peth pur anhawdd fydd i chwi ddyfod yn eich ol." "Ai e, druan?" meddai yntau: "os felly, gadewch iddi." Unwaith, yn Llanfynydd, mewn cyfarfod misol, dymunodd yn daer ar i'r brodyr ei dori allan o hono. "Y mae yn rhaid i ni gael eich clywed yn pregethu unwaith yn rhagor, Mr. Evans bach," meddai Mr. Charles, Caerfyrddin; "ac yna ni a siaradwn â chwi." I bregethu y dodwyd ef; ac fe bregethodd nes yr oedd pawb wedi synu; ac ni bu son mwyach yn y cyfarfod hwnw, wrth gwrs, am y "tori allan." Er yr holl wendidau naturiol hyn, a'u cyffelyb, "fe arhódd ei fwa ef yn gryf trwy ddwylaw grymus Dduw Iacob."

Fe allai nas gellir ystyried John Evans mor fawr o ran ei alluoedd meddyliol a rhai o'i gydoeswyr yn y weinidogaeth; megys John Elias, Christmas Evans, y ddau Richards, Williams o'r Wern, ac ychydig ereill; ond y mae yn ddiammheuol fod ei gof, ei hyawdledd, ei dynerwch, ei foneddigeiddrwydd, a'i dduwioldeb diffuant, yn gyfartal i'r rhai penaf yn ei oes. Byddai yn arfer gweddïo yn uchel wrth fyned i'w wely; a phan oedd yn ysgol Maes y Noni, yr hon a gedwid gan ei athraw yn nhŷ ei dad, dywedir y byddai gweinidogion y tŷ yn dywedyd y naill wrth y llall, "Dystewch—y mae John Evans yn gweddïo." Yr oedd yn hynod o ddidderbyn wyneb hefyd; ac yr oedd ei ddifrifwch a'i foneddigeiddrwydd y fath fel y derbynid ei gynghorion a'i geryddon ef yn gyffredin yn yr un ysbryd ag y rhoddid hwynt. Yr oedd unwaith yn llettya gyda theulu cyfrifol; ac yr oedd yn agos i hanner nos cyn iddo gyrhaedd yno: ar ol swpera gofynodd Mr. Evans yn siriol a chyfeillgar, a ellid cael darllen pennod a gweddïo: atebwyd ei bod yn hwyr iawn; a bod y gweinidogion wedi myned i gysgu. "Wel," meddai yntau, "os ydyw wedi myned yn rhy hwyr i gadw dyledswydd deuluaidd, gadewch i ni gael rhyw gymmaint o ymddyddan crefyddol serch hyny, i chwalu tipyn ar y niwl oddi ar y gydwybod. A ydych chwi, Mr. P., yn cael hamdden y dyddiau hyn i feddwl am eich enaid? Yr wyf yn ofni, *my dear sir*, fod y byd yn cael gormod o le yn eich calon. Ac am danoch chwithau, Miss P., yr wyf yn cofio fod arwyddion gobeithiol arnoch chwi rai blynyddoedd yn ol; ond bûm yn meddwl eich bod yn ddiweddar wedi myned braidd yn wylltach. Yn awr yw yr adeg i chwi eich dau i ymbarotoi erbyn marw; ac nid oes dim a wna les y pryd hyny ond grym duwioldeb." Ychydig a allasai gymmeryd y rhyddid yma heb dramgwyddo y pleidiau; ond yr oedd ei ddull ef mor foneddigaidd, syml, a diffuant, fel y derbynid oddi wrtho ef yr hyn ni feiddiai ond ychydig ereill ei gynnyg; a dywedir i'r ddau y cyfeirid atynt uchod gael lles parhaus oddi wrth yr ymddyddan.

Yr oedd hefyd yn nodedig o dyner ei deimladau at bob math o greadur. Dywed y Beibl fod "y cyfiawn yn ofalus am fywyd ei anifail;" ac felly yr oedd Mr. Evans. Ni oddefai i neb sathru y pryfyn distadlaf: "Peidiwch, druain," eb efe: "y mae ganddo ei deimladau tyner, fel ninnau." Cyfarfu ef a chyfaill â mintai o *gypsies*; a chyfarchodd well iddynt yn dra boneddigaidd a lednaws, yr hyn a ddychwelasant hwythau iddo ef yn ol gyda'r parch mwyaf. Yna dywedodd ei gyfaill: "Mr. Evans, nid oes dim addewid i'r rhai yma, oes e?" "Oes druain, oes druain," meddai yntau: "Y rhai a ddisgynant i'r llwch a ymgrymant ger ei fron ef." Fe fedrai ef, er hyny, daflu gair mor gyrhaeddgar a neb, pan fyddai achos: ymddengys fod rhyw ysfa neillduol wedi disgyn ar ryw ddau frawd yn y deheudir unwaith am fyned i'r America; ac iddynt awgrymu mewn cyfarfod misol y dylasent gael eu hanfon yno: "Ah! na, druain," meddai yntau; "os myned i ddanfon, ni a ddanfonwn rai gwerth eu danfon." Bu hyn yn foddion i dori yr ias Americaidd ar y ddau gyfaill hyny am byth.

Crybwyllwyd eisoes ei fod yn haelfrydig ei feddwl at y gwahanol enwadau crefyddol. Mewn cyfeiriad at hyn, fe allai, y dywedodd yr enwog Christmas Evans, y byddai pobl y mil blynyddoedd oll fel Mr. Evans, Llwynffortun. Wrth osod ei feddwl allan ar fedydd, pan yn bedyddio baban, dywedodd, "Y mae y brodyr parchus ereill yn golygu fod llawer o ddwfr yn angenrheidiol: gwneled pawb ateb cydwybod yn hyn; ond y Nefoedd a'n gwaredo rhag ffraeo ynghylch y masgl, a bod yn ddifater am yr ŵy. Gofynwyd unwaith i ddau frawd gwahanol eu golygiadau am y dull, 'A ydych chwi yn sicr mai bedydd trwy drochiad sydd yn iawn?' 'O! ydwyf, yn eithaf sicr.' 'A ydych chwithau yn sicr mai taenellu y dwfr sy gywir?' 'O! ydwyf, yn eithaf sicr.' 'A ydych chwi yn sicr eich bod yn credu yn Nghrist?' 'Gobeithiaf fy mod.' 'A ydych chwithau yn sicr eich bod yn credu yn Nghrist?' 'Gobeithiaf fy mod.' Felly, y mae dynion, druain, yn sicr mewn pethau ansicr, ac yn ansicr mewn pethau y dylent fod yn sicr. 'Fy mrodyr a'm chwiorydd anwyl! na fydded i ni ymrwystro gyda'r cysgodau; ond awn trwyddynt at y sylwedd mawr ei hun." Tybia rhai y byddai y duedd haelfrydig, dyner hon, oedd yn llenwi ei fynwes eang, yn ei arwain, weithiau, dros y terfynau. Yr oedd yn cyd-deithio unwaith â dyn dieithr, a gofynodd iddo a oedd efe yn perthyn i ryw gangen o eglwys Crist: dywedodd yntau nad oedd. "Gobeithio, serch hyny," meddai Mr. E., "eich bod yn ddyn duwiol." Gofynwyd iddo, bryd arall, am ddyn oedd wedi syrthio dros bont yn feddw, a boddi yn yr afon, beth oedd ei farn am ei gyflwr: "Dylem gymmeryd yn araf iawn y ffordd yna," meddai yntau, "o blegid nid oes neb a ŵyr na chafodd drugaredd rhwng y bont a'r afon." Nid pob Cristion sydd yn meddu syniadau mor eang am drugaredd Duw.

Fel pregethwr, gellir dywedyd yn ddibetrus fod John Evans yn meddu y prif elfenau angenrheidiol at y gwaith. Ni byddai efe un amser yn amcanu at yr ehediadau uchaf mewn areithyddiaeth gyssegredig; ond anfynych iawn y cyfodai i siarad, na byddai pawb o'i wrandawyr yn barod i ddywedyd, "Dyma bregethwr o'r iawn ryw." Yr oedd yn nodedig o fedrus i ddwyn ei bynciau i gyrhaedd ei wrandawyr; a gallai wisgo ei syniadau â'r iaith fwyaf coeth, ac â'r cymhariaethau mwyaf destlus a chymmeradwy. Gallai bortreiadu y gwrthddrychau y siaradai am danynt ger bron eich llygaid. Pan y soniai am y creaduriaid yn myned i'r arch, byddech yn gweled Noah

Digitized by Google

o flaen eich llygaid, yn hen ŵr parchus yr olwg arno, yn sefyll wrth y drws i'w derbyn; a'r holl lwybrau wedi eu britho gan bedwar-carnolion ac ymlusgiaid heb rifedi, nes y byddech yn barod i gilio oddi ar y ffordd. Pan y darluniai y ddwy anian yn y Cristion, byddech yn gweled pechod yn "hen ddyn" crebachlyd, gwywedig, yn myned wanach, wanach; a gras yn "ddyn newydd," gwrol, yn myned gryfach, gryfach. Pan lefarai am ddioddefiadau y Gwaredwr â'i lais soniarus, toddedig, braidd na feddyliasech eich bod yn gweled yr hoelion yn ei ddwylaw a'i draed, nes bod yn barod i ddywedyd fel Thomas, "Fy Arglwydd a'm Duw!"

O ran ei ddull o draddodi, lled unffurfiol oedd. Llifai ei hyawdledd yn un ffrwd risialaidd, heb nemawr o amrywiaeth mewn nac agwedd na llais, o'r dechreu i'r diwedd. Y mae i bob meddwl annibynol ei ddull priodol ei hun; ac amlwg yw mai dyma ddull naturiol Mr. Evans; a buasai yn antur ffol i neb geisio ei ddynwared: ond am dano ef, yr oedd yn mhell uwch law y ffoledd o ddynwared neb arall. Yr oedd ei boblogrwydd ef, fel y sylwa ysgrifenydd medrus yn y *Traethodydd*, yn ymddibynu i raddau mawr ar bereiddra ei lais, ar ei ddull deniadol a boneddigaidd, ac ar gyflawnder a llithrigrwydd digyffelyb ei ymadroddiad. Tybir na buasai yn alluog i luchio pelenau poethion mewn ychydig eiriau, fel Ebenezer Morris neu John Elias, mwy nag y gallasent hwythau gaethiwo sylw cynnulleidfa, a'i chadw am ddwy awr mewn hwyl nefolaidd, heb ddyrchafu eu llais, na gwneyd yr ymddangosiad lleiaf o egni corfforol. Nis gallai efe ddyweyd ei feddwl mewn cylch bychan; a phe cynnygiasai at hyny, mae yn dra thebyg nas gallasai orchfygu y teimladau, fel yr arferai wneuthur. Prydferthwch oedd ei brif nodwedd ef fel pregethwr. Yr oedd ei berson yn brydferth, ei wynebpryd yn brydferth, ei agwedd yn brydferth, ei lais yn brydferth, ei iaith yn brydferth, a'i feddyliau yn brydferth. Ar fyr, yr oedd wedi ei wisgo oll â phrydferthwch digyffelyb. Y mae yn dra sicr fod llawer yn mwynhau gwledd fawr ar sŵn ei lais tyner a soniarus, heb sylwi ar ystyr ei genadwri. Nid oedd ei hyawdledd ef yn llifeiriant angerddol, yn rhuthro ar draws pob rhwystrau, ac yn rhwygo y cwbl o'i flaen, fel hyawdledd J. Elias o Fôn. Nid oedd un amser yn ymarllwys yn llifeiriant annysgwyliadwy, nes "synu, pensyfrdanu dyn," fel hyawdledd Ebenezer Morris. Nid oedd yn rhedeg rhwng creigiau mor serth ac mor uchel a hyawdledd Christmas Evans. Nid oedd yn afon lydan, lonydd, ddofn, fel hyawdledd Charles, Caerfyrddin. Nid oedd yn ateb cynnifer o wahanol ddybenion, nac yn rhedeg trwy randiroedd mor amrywiol a hyawdledd Ebenezer Richards, neu Williams o'r Wern. Ond er hyny, yr oedd yn un o'r afonydd prydferthaf a welwyd erioed—o faintioli mwy na chyffredin, yn dolenu ar hyd ac ar led dyffrynoedd breision, fel pe buasai yn anghofio pen ei thaith yn nghanol hawddgarwch y golygfeydd oedd ar ei glanau. Gallesid meddwl wrth ei wrandaw ef, nad oedd dim haws na phregethu. Yr oedd yn meistroli holl deimladau y galon heb amcanu at hyny. Yr oedd ei areithyddiaeth fel yr enfys, yn anghymharol o hardd, ac ar yr un pryd yn ymddangos mor agos nes arwain rhai i gredu y gallasent ei efelychu. Yr oedd John Evans yn pregethu fel y dywedai Horace ei fod yntau yn prydyddu: "Mi brydyddaf fi," meddai hwnw, "fel y meddylio pawb a'm darllenont y gallant hwythau brydyddu yr un modd; ond pan geisiant wneuthur, hwy a gânt chwysu." Felly gyda golwg ar John Evans, fel pob dyn gwreiddiol gwir fawr arall, fe chwysodd llawer un wrth geisio ei efelychu; ond ni lwyddodd neb i gyrhaedd y nôd. Ond, medd yr un ysgrifenydd, yr hyn a'i gwnaeth mor ddefnyddiol yn ei ddydd oedd yr *eneiniad*. Hyn oedd ei addurn penaf, ac a barai fod "myn'd" yn ei bregethau. Dyma beth nas gellir ei ddysgrifio, mwy nag y gellir dywedyd beth yw bywyd naturiol. Ond hebddo, nid yw y dynion mwyaf doniol ond fel delwau yn symmud ac yn siarad trwy rym peirianwaith. Byddai John Evans yn gyffredin dan "effaith yr eneiniad oddi wrth y sanctaidd hwnw," ac am hyny byddai ei bregethau "fel tân y toddydd, ac fel sebon y golchyddion."

Treuliodd amryw o flyneddau diweddaf ei oes yn y Cross Inn, lle y bu farw ei wraig gyntaf, ac y priododd yr ail waith â Miss Rachel Davies, merch Mr. J. Davies, Pentwyn, Llwynon. Symmudodd o'r Cross Inn i Bentwyn; ac yr oedd ei iechyd erbyn hyny wedi adfeilio llawer. Nid âi ond ychydig iawn oddi cartref yn ystod y flwyddyn olaf o'i fywyd; ond byddai yn myned i'r capel y perthynai iddo, yr hwn oedd yn agos i'w dŷ, mor fynych ag y gallai hyd y diwedd. Yr oedd wedi penodi lle ei feddrod o flaen y capel; ac arferai fyned i'r fan wrth fyned i foddion gras ac wrth ddychwelyd o hono. Safai yno am ennyd, ac ymgollai mewn myfyrdodau a gweddïau. "Cleddwch fi fan hyn, druain," ebe efe: "peidiwch a'm dodi yn nes i'r mur, rhag i mi fod dan y bargod." Wrth son am farwolaeth amryw frodyr enwog o wahanol enwadau, awgrymodd ei fod yntau yn prysur addfedu i ogoniant, yn y geiriau canlynol:—"Y maent hwy wedi myned; ac y mae yn debyg na byddaf finnau yn hir bellach. Un o'r *winter apples* wyf fi; ond yr wyf yn disgwyl y byddaf finnau yn addfed tua *November*; ac y cymmer fy Nhad nefol fi ato ei hun." Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, dywedodd wrth ei anwyl wraig, "Ni chollir ddim o honof:—na wneir, na wneir." Gofynodd hithau, "A gawsoch ryw ymweliad cysurus yn ddiweddar, John Evans bach?" "Do, do!" meddai yntau, â'r dagrau yn llifo dros ei ruddiau, "Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, ni ddemnir. Ni chollwyd neb erioed a gredodd yn y Mab. Yr wyf finnau yn credu â'm holl galon." Fel hyn yr hunodd yr efengylwr ffyddlawn a defnyddiol yma, gan bwyso ar ei Anwylyd, y 4ydd dydd o Hydref, 1847, yn 68 oed, i'r mis; wedi bod yn llafurio yn ddiwyd a llwyddiannus am hanner canrif yn ngwinllan ei Arglwydd.

**EVANS, CHRISTMAS.** Y mae ysgrifenu hanes bywydau dynion wedi bod yn arferiad o ddechreuad amser hyd yn awr; a diau fod hwn yn un o'r ffurfiau mwyaf dylanwadol a fedd llenyddiaeth yr oesoedd. Dywed Robert Hall, "Fe allai mai bywgraphiaeth yw y mwyaf dymunol o'r holl gyfansoddiadau llenyddol. Awgryma y rhestr o amgylchiadau trwy ba rai yr arweinir y darllenydd y fath liaws o feddyliau cyferbyniol a chynnhariaethol iddo: a thra y mae efe yn dilyn cwrs y dygwyddiadau perthynol i wrthddrych y cofiant, gorfodir ef yn ddirgelaidd i daflu golwg ar ei hanes ei hun. Ni chaniateir mewn un math arall o weithiau i ni olrhain y cymmeriad mor fanwl, neu i ddesgrifio mor gywir y rhagoriaethau a'r diffygion, yr harddwch a'r anafwch, y da a'r drwg, perthynol i unrhyw berson."

Digitized by Google

Mae rhanau meithion o'r Beibl yn gynnwysedig o fywgraphiadau. Mae hyn yn dangos fod yr Hollalluog am i ni fabwysiadu y dull effeithiol hwn o goleddu y da, a gochel y drwg. Ond dylai fod ynom onestrwydd y cofianwyr, neu y bywgraphwyr Beiblaidd. Y mae ofn digio cyfeillion neu berthynasau y marw yn peri nad oes un o bob deg, neu, fe allai, un o bob ugain, o'n cofianwyr yn ysgrifenu yr hanesion mor gyflawn a theg a phe byddent yn eu hadrodd ar yr aelwyd. Ni ddylai y pethau hyn fod; canys y mae cymmaint, os nad mwy, o addysg i'w gael yn gyffredin oddi wrth wendidau a ffaeleddau dynion mawr ag sydd oddi wrth eu rhagorion a'u gwir fawredd.

Dyma ni yn dwyn dan sylw un o'r dynion mwyaf hynod a gynnyrchodd Cymru yn yr oesoedd diweddaf. Mae yn beth tra chyffredin yn ein dyddiau ni i gylymu enwau yr enwogion, "John Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern." Dyma dri o ddynion a fuont yn blaenori fel pregethwyr hyawdl yn eu gwahanol enwadau am lawer o flyneddoedd. Diau y gellir dywedyd hefyd fod holl Gymru yn gorfod eu cydnabod fel y tri penaf yn yr ystyr hyny am rai degau o flyneddoedd. Yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng eu gwahanol ddoniau; ond yr oeddynt oll yn cytuno mewn un peth, sef cario dylanwad ar gynnulleidfaoedd Cymru. Yr oeddynt yn debyg i'w gilydd mewn amryw ystyriaethau ereill. Yr oeddynt wedi hanu o deuluoedd iselradd, ac wedi ymgyrhaedd am wybodaeth a dysgeidiaeth eu hunain, er fod Mr. Williams wedi cael yr enw o fraint athrofaol; ond ni wnaeth yr athrofa ryw lawer o argraph arno ef, yn ol ei addefiad wrth yr ysgrifenydd; gan hyny, ar y cyfan, gellir eu gosod allan yn lled gyffelyb i'w gilydd fel hunan-addysgwyr *(self-taught)*. Ond yr ydym yn ymneillduo i gymmeryd golwg ar un o honynt ar hyn o bryd, sef yr un a ddaeth i'r byd gyntaf.

I. *O'i enedigaeth, hyd ei symmudiad i Fôn.* Ganwyd Christmas Evans ar ddydd Nadolig, 1766. Yr oedd hyn rhwng saith ac wyth mlynedd cyn eni ei gydlafurwr, J. Elias, a thua phymtheng mlynedd o flaen W. Williams. Yr oedd yn arferiad, mewn rhanau o sir Gaerfyrddin o leiaf, gan mlynedd cyn geni C. Evans, i alw y rhai a enid ar ddydd Nadolig yn *Christmas*. Gallem gyfeirio at amryw o'r enw hwnw yn y cyfnod hwnw fel y ceir hwy mewn hen lyfrau perthynol i'r parthau hyny. Ond nid yw o ryw lawer o bwys uniongyrchol am enw, achau, lle genedigol, nac amgylchiadau dynion; nid ydyw yn llawer mwy pwysig mewn gwirionedd na gwisgoedd, teganau chwareu, a natur ymborth, mebyd dynion mawr. Er hyn i gyd, y mae yn rhaid traethu ar y lle genedigol, y perthynasau, yr addysg, a'r amgylchiadau, er mwyn i'r darllenydd ffurfio barn am yr anhawsderau o dan ba rai y llafuriodd gwrthddrych y cofiant; ac hefyd am natur a graddau y cynnydd, yn gystal ag am amlygiadau graddol y gwahanol alluoedd meddyliol a chorfforol o dan arweiniad gras Duw. Lle o'r enw Ysgarwen, ar dir Dyffryn-llunod, yn mhlwyf Llandysul, sir Aberteifi, a gafodd fod yn lle genedigol y dyn mawr hwn. Enw ei dad oedd Samuel Evans; a galwai Christmas ei hun yn fynych yn moreu ei oes yn "Christmas Samuel Evans." Mae genym rai ysgrifiyfrau o'i waith yn awr o'n blaen, yn y rhai y cawn ef yn galw ei hun "C. S. Evans," rai gweithiau ar ol myned heibio ei ddeugeinfed flwydd o'i oedran. Bydd yr ysgrifenydd yn manylu ychydig ar rai pethau yn yr ysgrif hon —rhai o honynt yn bwysig, a rhai heb fod o lawer o bwys (cyffelyb i'r uchod), nad ydynt wedi eu nodi gan un o'i gofianwyr. Fe allai y byddai yn fuddiol i'r darllenydd wybod fod y Parch. W. Morgan, o Gaergybi, wedi ysgrifenu y cofiant cyntaf a ddaeth allan i Christmas Evans, yn 1839: yr oedd hyny yn fuan ar ol marwolaeth yr hen frawd. Yn mhen ychydig flyneddoedd ar ol hyny, cyhoeddodd y Parch. D. Phillips yn New York, a'r Parch. D. R. Stephen yn y wlad hon, gofiannau Seisnig. Chwanegodd Mr. D. Owen (Brutus) ddarnau gwerthfawr at drysorfa gofiannol Mr. Evans, trwy gyhoeddi *Christmasia*, yr hwn sydd wedi ei ail gyhoeddi gyda chwanegiadau. Crydd oedd Samuel Evans; ac yr oedd ei amgylchiadau y fath fel na chafodd ei blant ond ychydig neu ddim dysg. Yr oedd Christmas yn ddwy ar bymtheg oed *cyn medru gair ar lyfr.* Ar ol colli ei dad, pan oedd y bachgen tua naw mlwydd oed, bu yn gweithio mewn ffermydd hyd nes cawn ei hanes yn bregethwr. Nid yw ef nac ereill wedi cofnodi dim yn hynod yn hanes ei febyd, heb law ychydig o waredigaethau, y rhai yr arferai ef edrych arnynt trwy ei oes gyda mawr bryder, a diolchgarwch i Dduw am ei ofal rhagluniaethol am dano y pryd hyny. Cafodd brofi rhyw fath o argraffiadau crefyddol pan yr oedd efe tua naw mlwydd oed. "Pryd hyny," meddai, "dychrynid fi yn fawr gan ofn marw, a dydd y farn, nes peri i mi wneud llawer o ryw fath o weddiau. Ond ni byddai y cyfryw bethau dychrynllyd yn arosol ar fy meddwl, eithr yn diflanu ymaith, ac yn dyfod yn awr ac eilwaith." Yn y cyflwr yna, y mae yn debyg, y bu efe am wyth neu naw mlynedd. Yr oedd y pryd hyny tua dwy ar bymtheg mlwydd oed, ac yn gweini yn Nghastell Hywel gyda'r enwog Barch. D. Davies, yr hwn oedd yn gweinidogaethu i'r Presbyteriaid Arminaidd yn Llwyn-rhyd-owen. Yr oedd adfywiad crefyddol yn y lle hwnw ar y pryd; a hyny fu yn achlysur i ddeffro Christmas am fater ei enaid. Ymunodd â'r eglwys hono pan oedd tua deunaw mlwydd oed; ac yn fuan dechreuodd bregethu. Mae hyn yn dangos ei fod wedi bod yn ddiwyd i ddysgu darllen a chyrhaedd tipyn o wybodaeth yn y flwyddyn ddiweddaf hon, gan ei fod yn ddwy ar bymtheg "cyn medru gair ar lyfr." Mae yn werth i'r darllenydd gael ei hanes yn dechreu pregethu, fel yr ysgrifenwyd ef ganddo ef ei hun; canys bydd yn rhoi calondid i ambell un ofnus a digalon, ac yn rhybudd i flaenoriaid a gweinidogion i beidio taraw i lawr yn fyrbwyll y sawl na allont fyned yn mlaen yn hwylus yn eu gwaith yn dechreu pregethu. Mae yn syndod meddwl am yr hyn a ddaeth Christmas, wrth ei weled yn dechreu gafael yn y gwaith o bregethu efengyl Crist mor ffaeledig a chloff. "Dechreuais bregethu mewn cyfarfod gweddi," meddai, "yr hwn a gynnelid mewn tŷ yn mhlwyf Llangeler. Dechreuodd yr enwog Davies, o'r Mynydd bach, ac Abertawe, bregethu yn mhen wythnos ar fy ol, yn yr un tŷ neu fwthyn.[1] Cyfoedion oeddym hefyd o ran oedran, yn gystal ag o ran pregethu. Ond y mae efe wedi huno er ys amryw flyneddoedd; dadfeiliodd ei gyfansoddiad ef er cryfed oedd, ac ymollyngodd o dan ddwylaw angeu. Fy mhregeth gyntaf, yr oeddwn wedi ei chyfleithu o Esgob Beveridge [*Thesaurus Theologicus*]. Yr

[1] Bu Mr. Davies, Abertawe, yn weinidog enwog yn mhlith yr Annibynwyr. Daeth âg un o'r argraffiadau pedwar-plyg goreu a fedd ein hiaith o'r Beibl allan. Mae y papyr, yr argraff, a'r nodau byrion a chynnwysfawr yn anrhydedd i goffadwriaeth Mr. Davies.

Digitized by Google

oedd yr hen Christmas Evans, o'r Henfryn, yn dywedyd ar ol ei gwrandaw, 'Pe buasai Mr. D. Davies, o'r Castell Hywel, yn ei gwrandaw, buasai arno gywilydd pregethu ei hun.' Ond nid oedd genyf fi hyder ynof fy hun;—gwyddwn am fy nhlodi. Mae genyf gof hefyd i mi gael gafael yn y saith pregeth argraffedig o waith Mr. Rowlands, Llangeitho; ond wedi cymmeryd y rhai hyny yr oedd yntau hefyd, fel y deallais wedi hyny. Dysgais un o honynt ar fy nghof, a phregethais hi yn agos i Gamnant, yn ymyl Llwyn-rhyd-owen; ac yr oedd Mr. Davies, o'r Gamnant, yn un o'm gwrandawyr; ac efe a fawr synodd i glywed y fath bregeth o ben glaslanc tlawd: ond cyn pen wythnos, diflanodd y clod hwnw fel cicaion Ionah; canys cafodd Mr. Davies afael yn y llyfr lle yr oedd y saith pregeth. 'Ond,' ebe fe, 'nid wyf etto yn darfod tybied fod rhywbeth mawr yn mab Samuel y crydd; canys yr oedd ei weddi gystal a'r bregeth.' Ond er darostyngiad i mi wed'yn, yr oeddwn i yn gwybod mai gweddi wedi ei dysgu bob gair oedd o lyfr gweddi y Parch. Griffith Jones, Llanddowror." "Yr oeddwn wedi dechreu," ebe gwrthddrych ein cofiant, "cyn casglu dealltwriaeth, a chyn i'r llestri megys agor i dderbyn.' 'Cefaist ef mewn lle anial, a thi a'i harweiniaist ef oddi amgylch; a pheraist iddo ddeall, a chedwaist ef fel canwyll dy lygad.' "

Yn y cyfnod yma, y mae hanes yr anffawd o golli ei lygad yn dyfod mewn cyssylltiad â gwrthddrych ein sylwadau. O herwydd fod ei amgylchiadau yn isel, a bod eisieu arno gynnal ei hun yn yr ysgol, cymmerodd daith amser y cynauaf (fel y bydd llawer o weithwyr yn gwneud yn y Deheubarth hyd y dydd hwn) i sir Henffordd, er mwyn ennill ychydig o arian at hyny. Ymddengys fod rhyw ddigalondid, ac amgylchiadau ereill, wedi achosi gwrthgiliad mawr yn ei feddwl yn y daith hon. Felly, yn lle bod y daith yn help i'w gyfaddasu at waith y weinidogaeth, bu yn fagl ac yn brofedigaeth lem iddo. Dywed efe yr hanes fel y canlyn:—"Bwriedais roddi heibio y gwaith o bregethu, a'r ysgol hefyd, a myned i weini i'r byd fel o'r blaen. Ond cefais gerydd llym am hyny, trwy i ddyn, neu yn hytrach bump neu chwech o ddynion, wedi cytuno i'm gorthrechu a'm llabyddio, fy nharaw ar fy llygad â chwibren, fel y collais ef yn y man; a tharawyd fi â dyrnod arall ar rydweli fawr y pen, fel y buais farw am ryw hyd. Y noson hono, gwelais mewn breuddwyd ddydd y farn wedi dyfod, a chanfyddwn Iesu ar y cymylau, a'r byd oll ar dân; a finnau mewn ofn dirfawr, ac eto mewn rhyw hyder a thaerni yn gwaeddi am ei heddwch. Atebai yntau, gan ddywedyd, 'Yr oeddyt ti yn meddwl myned yn bregethwr, ond pa beth a wnei yn awr? y mae y byd ar dân, ac y mae yn rhy ddiweddar.' Dygodd hyn fi yn ol o'm gwrthgiliad; a diolchais lawer pan ddeffroais am mai yn y gwely yr oeddwn. Gadawodd y tro hwn argraff ddwfn arnaf." Gan fod y chwedl wedi ei thaenu ar led fod C. Evans yn ymladdwr mawr, ac mai yn un o'r ymladdfeydd enwog hyn y collodd ei lygad, bydd yr hanesyn uchod yn symmud ymaith y dyb hono o feddwl y darllenydd. Mae Mr. Evans mewn lle arall yn chwanegu, *na bu efe erioed yn ymladd.* Felly, beth bynag oedd amcan y "pump neu chwech o ddynion" tuag ato, ymddengys mai nid ymladd yr oeddynt. Pan edrychom ar y pregethwr ieuanc hwn yn teithio tua sir Henffordd—yn cael gwaith yn nghanol Seison—yn tynu llid pump o honynt yn ei ben—yn gwrthgilio mor bell a meddwl rhoi i fyny bregethu Crist, yr ydym yn barod i ddyweyd mai peth hollol ddamweiniol oedd i Christmas Evans ddyfod yn bregethwr. Ond gellir dyweyd yr un peth wrth ddilyn hanes Saul o Tarsus, yr hwn oedd yn "llestr etholedig" gan Dduw i ddwyn oddi amgylch waith a bery mewn cof am yr oes dragwyddol. "Amser a damwain a ddigwydd iddynt oll" yw 'n hochr ni i'r pwnc; ond y mae ei fwriadau ef allan o'n golwg ni, yn goruwchreoli y cyfan i ddwyn oddi amgylch ei amcanion mawrion a phwysig.

Ymddengys iddo ar ol hyn ddyfod yn bregethwr lled dda a chymmeradwy tra yn ei gylch Arminaidd; canys cawn ef yn cael gwahoddiad gan wahanol enwadau yn y cymmydogaethau hyny. Cynnorthwyai y Parch. W. Perkins, gweinidog yr Annibynwyr ac ereill yn Mhencader, Pant-y-croiddyn, Crug-y-maen, a lleoedd ereill. Gwasanaethai y Bedyddwyr yn Mhen-y-bont, Llandysul; gwasanaethai hefyd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Nghefn Llanfair. Yr oedd hyn yn profi ei fod yn gymmeradwy o ran ei fuchedd, yn gystal ag o ran ei ddawn pregethwrol. Bu fel hyn am tua thair blynedd.

Dyma ni yn awr yn ei gael yn ymuno â'r Bedyddwyr yn Aberduar. Y modd y cymmerodd hyny le ydoedd trwy iddo geisio argyhoeddi Bedyddiwr o'i gyfeiliornad. Yn lle hyny, argyhoeddodd y Bedyddiwr ef, a bedyddiwyd ef yn Afon Duar, yn 1788, gan y Parch. Timothy Thomas—tad yr hen weinidog parchus o'r enw hwnw sydd yn awr yn Nghastellnewydd Emlyn. Yr oedd ei ymadawiad o Lwyn-rhyd-owen yn hollol ddidramgwydd; canys edrychid arno yn barchus gan y Parch. D. Davies, a'r aelodau ereill ar ol hyny. Yr oedd wedi cynnal ei hun am chwe mis gyda Mr. Davies, ei weinidog, yn Nghastell Hywel yn yr ysgol; a dyna, y mae yn debyg, yr holl fantais athrofaol a gafodd yn ei oes. Yr oedd cryn ddiwygiad yn Aberduar y pryd hyny. Yr oedd naw neu ddeg yn cael eu derbyn yno yr un Sabbath a Christmas Evans. Yr oedd yn cael ei boeni yn barhaus gan feddyliau isel am dano ei hun; ac nid ymadawodd y meddyliau poenus hyn âg ef hyd nes y daeth i'r Gogledd. Mae ei brofiad ef yn un effeithiol ar yr adeg hon:—"Yr oeddwn yn clywed y pregethwyr dieithr hyn yn llawer mwy doniol a duwiol na fi. Nid oeddwn yn teimlo dim effaith na rhinwedd yn fy mhregethau i. Tybiais mai un achos o hyny oedd, o blegid fy mod yn dysgu y rhan fwyaf o fy mhregethau ar fy nhafod leferydd, a thrwy hyny yn cau allan gynnorthwyon yr Ysbryd Glân, gan feddwl eu bod hwy yn cael eu pregethau o'r nefoedd. Cyfnewidiais fy ffordd. Cymmerwn destyn heb fyfyrio arno, ac ymdrechwn ddyweyd y pethau a ddeuent ataf ar y pryd. Ac os drwg o'r blaen, gwaeth yn awr: nid oedd genyf yn awr na synwyr, na gwres, na bywyd, ond rhyw dôn wanaidd, dlawd, a dieffaith ar neb. Meddyliais nad oedd a fynai Duw â fi fel pregethwr, na dim arall, ond mai clamp o gnawd oeddwn i gyd. Yr oedd clywed fy llais fy hun yn gweddïo, neu yn pregethu, yn fy nigaloni: barnwn ef fel peth yn tarddu oddi ar galon galed, ac mai rhyw fath o wag weddïo oeddwn. Tybiwn bob pregethwr yn wir bregethwr ond fy hunan; nid oedd genyf hyder yn y goleuni oedd genyf fi ar y Beibl; credwn fod pawb o'm blaen. Gwelais ddaioni Duw yn fawr yn hyn wedi hyny, am iddo fy nghadw rhag syrthio mewn cariad â'm dawn fel dyn ieuanc

Digitized by Google

ac i mi dybied yn dda am danaf fy hun, yr hyn a fu yn llongddrylliad i lawer cyn ac wedi hyny. Nid oedd genyf (ebai) gyfaill o dan haul, wrth yr hwn y gallaswn ddyweyd fy meddwl, a dangos y pla oedd yn fy nghalon. Ni feiddiwn agor fy mynwes; canys tybiaswn, pe bai neb yn gwybod fel yr oedd gyda mi, y buasent yn penderfynu mai dyn di-gyfnewid oeddwn, ac y dywedasent hyny wrth bawb." Nid ydym yn cael ei fod wedi trysori llawer o wybodaeth athrawiaethol tra yn Llwyn-rhyd-owen; yr oedd dysgu darllen, ysgrifenu, a rhyw gymmaint o ri'ydddeg, heb law cyfieithu pregethau, eu dysgu, a'u traddodi, yn myned â'i holl amser. Cydnebydd fod gwrandaw y gweinidogion hyn—D. Morris; Jones, Llangan; Davies, Castellnedd; a Peter Williams, wedi bod o fudd mawr iddo, er cael goleu ar faterion athrawiaethol yn y cyfnod hwn.

Yn 1789, daeth, ar gais yr enwog John Jones, o Ramoth, a rhyw bregethwyr ereill, i roddi tro i'r Gogledd am y waith gyntaf. Pregethai wrth ddyfod yn y Bont Newydd (Maesyfed), y Dolau, Llanidloes, Llanbrynmair, Dolgellau, Trawsfynydd, Harlech, Frondanwy, a siroedd Môn ac Arfon. Darfu iddo foddloni i aros yn Lleyn yn 1789, gyda rhyw fân gangenau oedd yn perthyn i'r Bedyddwyr. Yr oedd pregethu ganddynt yn Llangïan, Salem, Rhoshirwaun, Galltraeth, a Nefyn y pryd hyny. Yn fuan ar ol hyn y cafodd waredigaeth i raddau mawr oddi wrth y meddyliau pruddaidd a nodwyd. Un peth oedd yn achosi y gofid hwnw iddo, oedd ei fod yn meddwl nad oedd ei weinidogaeth wedi bod erioed o *fudd* i neb, heb son am argyhoeddi pechaduriaid. Yn awr, pan y mae y bobl yn dyfod i'r gyfeillach, ac yn tystio eu bod wedi eu dwyn yno trwyddo ef, dywed, "Lled anhawdd oedd genyf gredu tystiolaeth y bobl oedd yn dyfod i'r gymdeithas eu bod wedi cael eu hargyhoeddi trwof fi; o blegid yr hen feddyliau gwaelion ac isel oedd wedi fy nilyn cyhyd: etto, gorfu arnaf gredu, er ei fod yn rhyfedd yn fy ngolwg. Parodd hyn i mi ddiolch i Dduw, a chwanegodd fy hyder mewn gweddi; disgynodd megys awel hyfryd arnaf o fryn Caersalem newydd; a theimlais dri pheth mawr teyrnas nefoedd, sef cyfiawnder, heddwch, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân." Ordeiniwyd ef yn Lleyn yn 1790, i fod yn fath o weinidog, neu genhadwr gan y Bedyddwyr yn y rhan hono o'r wlad. John Evans, o'r Roe, a Thomas Morris, o Fôn, oedd y gweinidogion a wnaethant hyny. Yn y flwyddyn ag y priododd Christmas Evans eglwysi bychain y Bedyddwyr yn Lleyn, y priododd ef Catherine Jones, yr hon a fu yn gynnorthwy mawr iddo; o herwydd ei duwioldeb a'i hymroddiad penderfynol i'w gynnorthwyo yn mhob modd yn ei waith pwysig am lawer iawn o flyneddoedd.

Y mae efe yn coffhau fod gwrandaw D. Jones, Pont y pool; Rowlands, Llangeitho; a Howel Harris, yn y Deheudir; ac R. Roberts, Clynog; ac E. Richards, Caernarfon, wedi bod yn dra manteisiol iddo ar ddechreuad ei weinidogaeth. Yr ydym yn cael fod ei weinidogaeth wedi bod yn dra llwyddiannus am yr ychydig amser y bu yn Lleyn. "Bedyddiais," meddai, "o gylch hanner cant yn y flwyddyn gyntaf yn Ty'n-y-donen; ac yr oedd pedwar ugain gyda ni yr ail flwyddyn yn y gyfeillach yno." Cafodd y boddlonrwydd o glywed gan un o flaenoriaid y Methodistiaid yn Lleyn, yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol iddo fyned oddi yno, "Y mae eich plant ysbrydol chwi yn heidiau gyda ni yn y soseiadau hyd heddyw." Llafuriodd mor galed nes y bu agos iddo a cholli ei iechyd yn Lleyn; pregethai yn fynych bum waith ar y Sabbath, heb law cerdded ugain milltir.

Ymwelodd â'r Deheudir unwaith yn ysbaid yr amser y bu yn Lleyn; a bu ei daith yn llwyddiannus anarferol, o herwydd yr oedd rhyw ddeffroad hynod yn dilyn ei bregethu i bob man yr elai. Dyma y pryd yr oedd y dawn a fu wedi hyny am flyneddoedd yn syfrdanu, yn argyhoeddi, yn adeiladu, ac yn cysuro Sïon Duw, yn dechreu dyfod i'r golwg. Ychydig gyda dwy flynedd yr arosodd Mr. Evans yn Lleyn. Wedi ystyried yr achos yn ol a blaen, daeth i'r penderfyniad o symmud i sir Fôn, ac ymsefydlodd yn Llangefni yn 1791, lle y bu am ddeunaw mlynedd ar hugain yn llafurio yn ffyddlawn.

II. *Christmas Evans yn Môn, a hanes Sandemaniaeth yn y Gogledd.* Dyma ni wedi dilyn C. Evans i Langefni ar ddydd Nadolig, 1791, pan yn 25 mlwydd oed. Yr oedd yn "ddiwrnod garw dros ben o rew ac eira. Pa fodd bynag, cychwynais, â'm gwraig wrth fy ysgil; a thrwy ddaionus law Duw, daethom i Langefni y noson hono yn ddiangol." Y swm o gyflog oedd yn cael ei addaw iddo, oedd 17p. y flwyddyn. Dylem gofio fod yr amaethwyr yn rhoi rhoddion gyda hyny o wahanol fathau o ymborth; ond hyny oedd yr arian a dderbyniodd yn flyneddol am tuag ugain mlynedd. Yr oedd yno ddeg o leoedd pregethu yn Môn yn cyduno i wneud y cyflog o ddwy bunt ar bymtheg; sef, Llangefni, Caergybi, Llanfachreth, Capel gwyn, Amlwch, Capel newydd, Llanfair, Beaumaris, Pencarneddi, a Llanerchymedd. Gwelir mai gwaith graddol iawn yw dwyn yr eglwysi yn mhob enwad i ystyried eu dyledswydd mewn cyssylltiad â'u gweinidogion. Yr oedd yn sir Fôn y pryd hwn dair o eglwysi yn ddigon pwysig i fod yn aelodau o Gymmanfa y Bedyddwyr yn Nghymru; sef, Llangefni, Beaumaris, a Llanfachreth (nid oedd ond un gymmanfa gan y Bedyddwyr y pryd hyny yn y Dywysogaeth); ac etto i gyd, y maent yn gadael i'r brawd oedd eisoes wedi cyffroi Cymru â'i ddoniau nerthol, eu gwasanaethu am ddwy ar bymtheg o bunnoedd, a hyny am lawer o flyneddoedd ar ol iddo ef fod yn foddion yn llaw Duw i chwanegu cannoedd at rifedi yr aelodau a'r gwrandawyr. Dywed Mr. Morgan am achos y Bedyddwyr yn Môn cyn i Mr. E. fyned yno:—"Er ys tua saith o flyneddoedd cyn iddo ef ddyfod i sir Fôn, yr oedd cenhadon wedi eu hanfon o'r Deheudir gan gorff y Bedyddwyr, er mwyn gwneud ymdrech at sefydlu yr achos yno yn yr enwad." Mae y cofianwyr ereill wedi dilyn y camsyniad hwn. Dechreuwyd y genadaeth hon trwy Mr. Evans, o'r Dolau, a'r Dr. Llewelyn, awdwr yr hanes cyntaf sydd genym, a gyhoeddwyd yn 1768, am gyfieithiadau ac argraphiadau y Beibl Cymraeg. Cyfranodd y Dr. ei hun yn enwog, a chafodd flaenoriaid y *Baptist Fund* yn Llundain i gydweithredu. Dygid y gwaith cenadol yn mlaen dan olygiad y gweinidogion Joshua Thomas, Llanllieni (*Leominster*), a W. Williams, Aberteifi. Dechreuwyd pregethu yn y Gogledd—ïe, yn sir Fôn hefyd, dan nawdd y genadaeth hon yn Mai, 1776; sef yn agos i 17 o flyneddoedd cyn i Mr. Evans fyned i'r sir hon. Ffurfiwyd yr eglwys gyntaf o Fedyddwyr yn Môn, yn cynnwys 15 o aelodau, yn Mehefin, 1779. Derbyniwyd yr eglwys hon i'r gymmanfa yn 1780, Beaumaris yn 1785, Llanfachreth yn 1786; wedi hyny, Llanerchymedd, a lleoedd ereill. Yr oedd cymmanfa y Bedyddwyr Cymreig yn

Digitized by Google

Llanerchymedd, yn 1788, pryd y cyfarfu cenadon oddi wrth 39 o eglwysi oeddynt yn ngwahanol siroedd Cymru. Dim ond eglwys Penyfai, sir Forganwg, o'r 40 eglwysi oedd yn ffurflo y gymmanfa, oedd heb anfon cenadon. Pregethodd naw o enwogion y Deheubarth yn y gymmanfa. Yr oedd Llanerchymedd y pryd hwn yn gangen o Lanfachreth. Trefnodd Mr. Evans Fedyddwyr Môn yn ddosbarthiadau, fel y gallai roddi ei wasanaeth iddynt oll yn eu tro. Yn mhen ugain mlynedd, yr oedd y gorsafoedd pregethu wedi dyblu; a "derbyniwyd ugain, neu rai yn fwy, bob blwyddyn dros amryw flyneddoedd."

Ymwelodd Mr. Evans â'r Deheubarth yn 1792, ar ol bod mor llwyddiannus yno yn 1791. Ond ni chafodd gymmaint o fwynhad y tro hwn, o herwydd fod dadl Arminiaeth wedi dechreu yno. Gwnaeth y ddadl hon rwygiadau pwysig yn mhlith y Bedyddwyr ar ol hyny yn y Deheudir. Darfu mynediad Mr. Evans i gymmanfa Felin Foel, yn 1794, roddi mwynhad nodedig iddo, a chodi ei enw i sylw Bedyddwyr y De yn gyffredinol fel pregethwr doniol.

Bu felly yn dra llwyddiannus yn Môn am amryw flyneddoedd; ond daeth Sandemaniaeth yn "gwmmwl du ar eglwysi Gwynedd, a diferodd o hono wlaw dinystriol." Mae hanes yr amgylchiad hwn yn un pwysig mewn cyssylltiad â'r dyn enwog hwn, yn gystal ag mewn cyssylltiad âg achos y Bedyddwyr yn y Gogledd. Dechreuodd hyn trwy i'r pregethwr hynaf a mwyaf dylanwadol oedd gan yr enwad gael gafael yn llyfrau Glass, Sandeman, a M'c Lean. Yr ydym yn cyfeirio at yr enwog John Jones, o Ramoth: efe a gafodd y llyfrau uchod gan Robert Roberts, o'r Rhosddu, ger llaw Gwrecsam. Dechreuodd y cyffro hwn tua 1797, neu 1798. Nis gallwn yma wneyd yn well na rhoddi geiriau Mr. Evans ei hun:—"Effeithiodd y trefniant Sandemanaidd arnaf, fel y parodd ddiffodd ysbryd gweddi dros yr annuwiolion am eu tröedigaeth. Yn rhyw fodd, gyrodd bethau ysgatfnaf teyrnas nefoedd yn fwy ar fy meddwl na'r pethau trymaf: collais yr hyn a wisgai fy meddwl â sêl, a hyder, a thaerni yn y pulpud am ddychwelyd eneidiau at Grist. Ciliodd fy nghalon yn ol rywfodd, fel y collais dystiolaeth cydwybod dda. Nos Sabbathau, wedi bod yn trin yn arw a didderbyn-wyneb am gyfeiliornadau y dydd hwnw, byddai fy nghydwybod fel yn anfoddlawn, ac yn dannod i mi fy mod wedi colli yr agosrwydd at, a rhodio gyda Duw; a bod rhywbeth gwerthfawr yn eisieu genyf yn awr. Attebwn innau fy mod yn gwneud yn ol y gair. Ond parhau i ddyweyd yr oedd fod rhywbeth gwerthfawr yn eisieu. Yr oeddwn i wedi cael fy ysbeilio i raddau dirfawr o ysbryd gweddi, ac o ysbryd pregethu." "Dechreuodd yr ysbryd Sandemanaidd gerdded trwy siroedd Meirionydd, Caernarfon, Môn, a Dinbych; a'r effaith gyntaf a ymddangosodd ydoedd, dadymchwelyd y gwrandawyr. Yr oedd y trefniant Sandemanaidd wedi ei ddarparu ar gyfer yr ysgydwad yma, gan ddywedyd, mai i Babilon yr oedd y lliaws gwrandawyr yn wastad yn perthyn. Collasom yn Môn yr hen wrandawyr bron i gyd oll: ymunodd llawer o honynt â chynnulleidfaoedd ereill. Fel hyn, darfu iddi bron lwyr dynu i lawr yr hyn a fuwyd yn ei adeiladu am o ddeuddeg i bymtheg o flyneddoedd, a'n gwneyd yn blaid isel a gwael yn ngolwg y wlad unwaith drachefn. Canlynodd graddau o'r un effeithiau trwy y siroedd ereill a enwyd, oddi eithr Meirionydd; canys yno hi a ddringodd trwy ryw fantais i fath o oruchafiaeth ar hen gymmydogaethau lle bu ———; yr hon a barotôdd Meirion, dybygid, at dderbyn Sandemaniaeth."

Cynnaliwyd cyfarfod, rywbryd tua 1799, yn Ramoth; yr hwn oedd un o'r cyfarfodydd hynotaf a fu erioed yn Nghymru. Yn hwn, darfu i John Jones, yr hwn oedd wedi ei ordeinio yn Ramoth yn 1789, ymneillduo yn hollol oddi wrth y Bedyddwyr. Dywed Mr. Evans am y cyfarfod hwn: —"Yr oedd y cyfarfod hwn wedi ei drefnu i gynnyg sefydlu a phenderfynu y dadleuon newyddion oedd yn ein mysg yn awr trwy siroedd y Gogledd, 'ac i gael gweled pwy oedd am ddiwygio yn ol y gwirionedd, a phwy oedd am aros yn yr hen Fabilon fawr' (fel y dywedent), sef cyfundeb yr hen Fedyddwyr. Yr oedd amryw o bregethwyr o amryw fanau wedi ymgynnull yno; sef, John Prichard, Pwllheli; Evan Evans, Garn; John Hughes, Garn; William Foulkes, Nefyn; Williams, Ynys-yr-arch; a C. Evans, Môn. Darfu i'r brawd Evans, o'r Garn, a minnau bregethu yno am ddeg yn y boreu. Canlynodd cyfeillach yn y prydnawn, pan ddarfu i'r brawd John Jones osod ger ein bron ei benderfyniad i ymneillduo oddi wrth gorph y Bedyddwyr yn Nghymru, ac uno â Bedyddwyr Ysgotland; a dangosodd amryw lythyrau, y rhai oedd wedi eu cael oddi wrth Mr. A. M'c Lean, y rhai oedd Jones wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg er mwyn adeiladaeth yr eglwys. Wedi hyny, efe a dynodd allan o'i logell bapurlen fawr, wedi ei hysgrifenu yn ddillynaidd a manwl, yn cynnwys rhes helaeth o resymau, yn dangos pa ham yr oedd efe yn ymneillduo oddi wrth y Bedyddwyr yn Nghymru. Cyhoeddodd y rhesymau hyny i'r byd wedi hyny mewn argraff. Yr oedd rhai yn gwrandaw gyda theimladau trallodus a gofidus iawn ar erthyglau yr ymneillduaeth oedd i gymmeryd lle yn ddioed, wrth feddwl fod yr hen undeb Cristionogol oedd wedi bod rhyngom bellach er ys rhai blyneddoedd â'n gilydd i gael ei dori, heb y gobaith lleiaf i gael ail undeb. Nid oedd yno neb o'r gweinidogion presennol ar y pryd hwnw yn alluog i ateb a dadymchwel nemawr ar yr erthyglau newyddion a godai y diwygiwr. Yr oeddwn innau fy hun wedi cael fy llyncu gan amryw o'r pynciau—megys 'ffydd noeth' (*alias* ddigariad), yn y 'gwirionedd noeth' (*alias*, nid yn y cariad o hono); canys yr oedd yn gofyn y cywreinrwydd pellaf i allu cau allan bob agweddau o gariad a serch y galon tuag at fod yn iach yn y ffydd. Ond, pa fodd bynag, darfu i mi ddal dadl hirfaith â Jones yn y cyfarfod hwnw yn erbyn ei neillduaeth fyrbwyll ef, gan ddangos nad allai yntau fod yn bur yn ol y grefydd apostolaidd, yn ol ei farn ef ei hun am dani; 'o herwydd yr wyt ti,' meddwn (o blegid 'ti a thithau' oedd y drefn ddiwygiedig yr amser hwnw o anerch ein gilydd) 'yn ein condemnio ni am ein bod yn myned oddi amgylch i bregethu, gan ddywedyd mai mewn un lle y dylai yr eglwys ymgynnull, a bod ganddi ddau weinidog, o leiaf, yn y lle hwnw. A pha ham yr wyt ti yn ein condemnio ni am yr hyn y byddi di yn byw ynddo wedi yr ymneillduaeth hon? canys bydd genyt ychydig frodyr yn Llanuwchllyn, Trawsfynydd, Dolgellau, Harlech, Ramoth, Bryn-y-bwbach, ac wedi hyny yn Criccieth; a bydd tori bara mewn amryw o'r lleoedd uchod; a thi, frawd, a fydd yn weinidog yr amryw fanau, ar yr un cynllun yn gymhwys ag yr wyf finnau yn Môn.' Teimlodd Jones yr ymresymiad; ac yn lle addef nas gallasai ateb yn deg, cyffrôdd yn fawr, gan ddyweyd, 'Mai ysbryd cecra i wrth-

Digitized by Google

wynebu oedd yn y Bedyddwyr, a minnau gyda hwynt, ond ei fod wedi tybied pethau gwell am danaf fi o'r blaen.' Yna, efe a gyfododd ar ei draed wrth y bwrdd dan y pulpud, ac mewn ysbryd cyffrous, a chyda byrbwylldra mawr, efe a ymaflodd yn y Beibl, gan ddywedyd, 'Ei fod ef, yn enw yr Arglwydd, yn ymneillduo oddi wrth Fedyddwyr Babilonaidd Cymru, a'i fod, mewn cydwybod, yn ymneillduo oddi wrth eu cyfeiliornadau mewn barn ac ymarferiadau, at y gwirionedd, ac i gyfundeb y brodyr yn Ysgotland, y rhai sydd yn derbyn y gwirionedd.' Yna, eisteddodd i lawr. Yr oedd pawb yn edrych yn syn arno tra bu yn cyflawni y ddefod o dori ei hun o blith y Bedyddwyr yn Nghymru; ac yr oedd rhai yn edrych gyda syndod, cryndod, a dagrau, megys ar losgfynydd yn bwrw allan fwg a gwreichion, yr hyn oedd yn achosi ocheneidiau trymion i dori allan. Ereill oeddynt yn edrych mor lawen a phe buasai cryn Iwbili wedi dechreu, neu fel y gwnai lladron a drwg-ddynion yn y chwyldroad Ffrengig, yn tori allan mewn gobaith o gael elw yn ninystr ereill; ereill oeddynt fel rhai wedi syfrdanu, na wyddent beth a fyddai diwedd y pethau hyny. Yr oedd yr olygfa yn arswydus. Yr ysbryd oedd yn cerdded trwy y cyfarfod ydoedd yn cyd-daraw âg archwaeth y sawl a dybygem ni o'r blaen yn bobl lled ddiweddi a dideimlad, ac yn dra amddifad o serchiadau crefyddol, neu wresogrwydd yn yr ysbryd, a thaer weddi, ac aberthu moliant. Yn y chwyldroad hwn, aeth yr olaf yn mlaenaf. Darfu i'r bobl hyn droi allan yn siaradwyr mawrion yn erbyn gwresogrwydd mewn crefydd, ac aethant mewn un-dydd un-nos yn barchedicaf o'r brodyr, ac edrychid arnynt fel rhai o dan gynnydd gwyrthiol. Cafodd y rhywogaeth hyn o grefyddwyr haf-gwaith ffrwythlawn, megys ———, ac ereill. Byddai rhai o honynt yn teithio deugain milldir i Ramoth at Jones, ac yn trin yn arw ar bregethwyr poblogaidd ar hyd yr holl ffordd...... Ond eu gwaith, meddent, oedd 'cadarnhau eneidiau' y disgyblion yn y ffydd.

"Bu y canlyniad o hyn yn drwm iawn i'r Bedyddwyr yn y Gogledd. Darfu iddo eu taflu yn ol o ddeg ar ugain i ddeugain o flyneddoedd, yn ol pob tebygolrwydd. Llwyddodd Jones i gasglu ychydig o ddynion o'r ysbryd Sandemanaidd yn Ramoth a Harlech. Yn mhob man arall, megys Caernarfon, gydag Edward Francis; a'r Glynceiriog, gyda John Edwards; ni wnaeth ddim mynediad yn mlaen o ran derbyn ond ychydig, oddi eithr y rhai o blith yr hen Fedyddwyr a fyddent heb garu gweddio, a rhodio gyda Duw. Yr oeddynt yn gwrthwynebu yr achos cenadol a'r Feibl Gymdeithas; ac yr oeddynt ar ffordd y Bedyddwyr ereill i lwyddo, ac yn cadw drws agored i dderbyn yr aelodau terfysglyd, a'r rhai diserch atynt, yr hyn oedd yn caledu meddyliau dynion drwg at wir ddysgyblaeth, ac yn eu cefnogi mewn gwrthddywediadau ac ysbryd sych anymostyngol. Enwogasant eu hunain yn y pethau hyn hyd gorph y dydd hwn. O bob cyfarfod a fu erioed yn Nghymru a Lloegr (nis gwn am yr Alban), i'm gwybodaeth i, nid wyf yn gwybod am y fath ledrith wedi dyfod allan o hono mor niweidiol i deimladau crefyddol.

"Cylymaf wrth hanes y cyfarfod hynod hwn yn Ramoth ddarlun o John Jones; yr hwn sydd yn awr yn nhragwyddoldeb er ys rhai blyneddoedd. Byddaf finnau—tynwr y darlun—yn nhragwyddoldeb yn fuan, gobeithio—wedi ein golchi oddi wrth ein holl bechodau yn ngwaed yr Oen. John Jones, o ran agwedd ei gorph, oedd dal, tua chwe throedfedd o hyd, neu drosodd, yn crymu ychydig yn ei wddf o'r tu gwegil; yn ddyn teneu, gwisgi; coesau a thraed heirdd; yn gringoch o ran lliw ei wallt, a hwnw yn grych, ac yn cael ei godi ar ei dalcen. Yr oedd ei dalcen yn uchel, ei lygaid yn graffus, a'i lais yn gryf ac yn uchelseiniol, ond yn tueddu i'r sych a'r cras, ac nid i'r meddal (*soft*). O ran tymmer ei feddwl, yr oedd yn feistrolgar, ac ni allasai ddyoddef ei wrthwynebu; un cydradd, chwaethach uwch nag ef, ni chaffai fyw yn agos iddo. Yr oedd fel Cæsar ar y pen hwn; gwell oedd ganddo fod yn benadur mewn *pentref* na bod yn ail yn *Rhufain* ei hun. Cymmerodd anghydfod le rhyngddo ef a Mri. Joseph Richards, ei gydweinidog cyntaf, a Robert Morgan, ei ail gydweinidog, am iddynt gynnyg ei wrthsefyll yn rhai o'i fympwyau. Y mae yn lled debygol y buasai wedi tori ei gymmundeb â Bedyddwyr Ysgotland, pe buasai byw ychydig yn hwy, am fod Mr. William Jones, o Lundain, wedi anturio gwrthwynebu eu barn am y mil blyneddoedd, a theyrnasiad personol Crist gyda'i saint ar y ddaear. Clywais am y tebygolrwydd o hyny, feddyliwn, ar sylfaen dda. Fel pregethwr, cyn iddo wasgu ei hun, yr oedd o duedd boblogaidd yn ei ddawn; ac hefyd, er ei waethaf, yr oedd mawredd ac awdurdod yn ei leferydd ag oedd yn ei osod allan a'i brofi yn ddyn o alluoedd gweddol. Er fod ei lais yn tueddu i'r sych, eto yr oedd yn gryf a gwrol, er ei fflangellu â dysgyblaeth Sandemaniaeth. Y dyn doniol hwn a yrwyd, trwy ei dymmer feistrolgar, i ganlyn y fath fesurau ag a fuant mor niweidiol i achos y Bedyddwyr yn y Gogledd! Yr wyf yn synu fod dyn ag oedd yn Gymreigiwr da, ac yn deall Seisoneg yn dda, ac yn medru Lladin, Groeg, a Hebraeg, fel ag i allu eu darllen a gwneyd defnydd o eiriaduron, ac wedi darllen llawer ar dduwinyddiaeth; eto wedi myned i roddi cymmaint o bwys ar Sandemaniaeth, fel nad oedd arwyddion o ailenedigaeth—bywyd ffydd ar Fab Duw—cymmeriad moesol—doniau efengylaidd, a defnyddioldeb i ddychwelyd pechaduriaid—o ddim gwerth na sylw yn ei olwg ef, heb gadw y cusan sanctaidd, golchi traed, &c. Ni chaffai neb arall ond pleidwyr selog y pethau hyn ddrws ei bulpud ef yn agored. Ni thynai ei het pan y clywai rai o'r dynion mwyaf llwyddiannus yn nychweliad eneidiau at Grist yn pregethu, neu yn gwneyd rhyw wasanaeth neu ddyledswydd grefyddol."

Y mae Mr. Morgan yn tori yr hanes yma yn sydyn; o blegid fod rhyw ddy ysgrifiadau a chyferbyniadau am bersonau ynddo, y rhai y barna Mr. M. fod yn well eu gadael allan. Mae Mr. Evans ar ol hyny yn dangos fod rhyw les wedi deilliaw oddi wrth Sandemaniaeth; megys yn laf, Gwneud iddo chwilio i sylfeini ei grefydd a'i byngciau, fel pe buasai yn dechreu y gwaith pwysig; 2il, Ei alluogi i ddadleu yn wrol ar wahanol byngciau y ffydd. Bu hyn yn ddefnyddiol iawn iddo mewn cyssylltiad â Sabeliaeth, a rhai pethau ereill oeddynt yn ymgodi yn Nghymru y pryd hyny.

III. *Christmas Evans yn dysgu Seisoneg hyd ei symmudiad i Gaernarfon.*—Sylwasom eisoes nad oedd Christmas Evans wedi cael ond ychydig iawn o fanteision addysg. Rhydd y dernyn canlynol ryw ddrychfeddwl i'r darllenydd am natur a helaethrwydd ei ddysg; yn nghyd â'r dull a gymmerodd i ymestyn at hyny, yn mhen tuag wyth mlynedd ar ol sefydlu yn Llangefni. "Mi a ddysgais," meddai, "ddeall Seisoneg, i allu

Digitized by Google

gwneyd defnydd o waith awduron cyn dyfod i Fôn. Yr oedd ysbryd darllen ynof trwy fy oes, ac yn awr wedi darllen yr holl awdwyr goreu o'r Seison.[1] Yr oeddwn yn caru yn fawr y beirniaid ar destynau, os byddent yn deall trefn iachawdwriaeth. Ond o herwydd fy llafur i deithio a phregethu, ni ymdrechais i ddeall dim o'r grammadeg Seisoneg, hyd nes oeddwn yn dair ar ddeg ar ugain oed, pan yr aeth Mr. John Williams i New York—tad yr enwog Dr. Williams, New York. Dysgais y rhan fwyaf o Eirlyfr Richards ar fy nhafod leferydd. Dygwyddodd fod y Seison yn Liverpool, yn Byrom a Lime street, wedi gwneyd i mi bregethu Seisoneg candryll fel yr oedd. Parodd hyny i mi wneud y peth yn fater gweddi, i ddymuno cymmhorth yr Ysbryd i mi ddysgu Seisoneg, fel y gallwn, i ryw raddau, fod o ychydig fendith i'r Seison, gan fod rhyw arwydd fod Duw yn fy ngalw i hyny. Ni lwyddais erioed mewn dim er lles dynion heb ei wneyd yn fater gweddi. Ni ddysgais byth i bregethu ond Seisoneg candryll; ond eto, buais o ryw wasanaeth yn Mristol, a rhai lleoedd ereill, drwy ras Iesu Grist. Yr oeddwn tua deugain oed pan ddysgais ddarllen y Beibl Hebraeg a'r Testament Groeg, a thrin geiriaduron Parkhurst ar y ddwy iaith. Deallais, pe buaswn i yn dechreu oddifrif ar y Seisoneg, y buaswn wedi gorfodi anhawsderau mawrion; ac hefyd y buaswn, heb lafur mawr, ond diwydrwydd am ugain mlynedd, megys yn fy oriau segur, yn deall pob gair Hebraeg atebol i bob gair Cymraeg yn y Beibl, ac felly y Groeg hefyd. Yr oeddwn i yn meddwl yn wastad fod anmhosiblrwydd gwneyd hyny, o blegid nid oedd genyf neb i'm hannog ati hi o ddifrif. Ond deallais wedi hyny fod y peth yn bossibl, canys profais hyny i raddau. Ond rhoddi y gwaith heibio a wnaethum, o herwydd fod fy oedran wedi myned yn rhy bell cyn dechreu."

Darllenasom am Dr. Doddridge unwaith wedi myned i ystafell lle yr oedd rhyw foneddigion ieuainc yn chwareu cardiau, ac un o honynt ar y pryd yn gorfod myned ymaith, a thrwy hyny achosi bwlch yn nifer y chwareuwyr, pan yr annerchwyd y Dr. gyda "Efallai y gwnewch chwi chwareu, syr." "O! nid oes dim gwrthwynebiad genyf fi," meddai y Dr., ac yn nesau at y bwrdd. Ond cyn eistedd, dyma fe yn gofyn yn dra sobr, "O Arglwydd! bendithia y cardiau hyn i fod er ein lles, &c." Ond cyn iddo ddyweyd nemawr o eiriau gweddi, casglwyd y cardiau, a chuddiwyd hwy o'r golwg, ac edrychid yn syn arno, pan y gofynwyd iddo, pam yr oedd yn gweddio ar y mater. I'r hyn yr atebodd, "Nid wyf yn arfer gwneyd dim heb ei wneyd yn gyntaf yn fater gweddi." Buasai llawer yn edrych ar weddi Mr. Evans, yn "dymuno cymhorth yr Ysbryd i mi ddysgu Seisoneg," yn debyg i weddi y Dr. Doddridge.

Yr hyn a'i harweiniodd, fel y gwelir, i fod mor awyddus i ddysgu Seisoneg oedd ei ymweliadau mynych â Liverpool. Yr oedd y Seison yn garedig iawn iddo ac yn awyddus neillduol am ei wrando yn pregethu. Ar ol hyny, bu yn pregethu llawer yn yr iaith hono yn awr ac eilwaith, yn y dref uchod, yn Mryste—yr hon a elwid Bristol gan yr hen Gymry saith neu wyth gan mlynedd yn ol, gwel Carnhuanawc—a lleoedd ereill, ac yr oedd yn gallu gwneyd yn rhwydd iawn, er fod ei Seisoneg yn lled ganolig. Y mae un o'i ysgriflyfrau Seisonig yn awr ger ein bron wedi ei ysgrifenu ganddo tua 1800, 1801, ac 1802. Mae ynddo Seisoneg lled dda ar y cyfan, ac ystyried mai yn 1799 y dechreuodd Mr. Evans ddysgu gramadeg.

Y mae efe yn nodi rhyw bethau ereill fuant yn feichus ac yn boenus iddo yn sir Fôn; sef,

1. *Dyledion addoldai.*—Diammheu fod annoethineb mawr wedi bod yn y byrbwylldra gyda'r adeiladu addoldai yn Môn y pryd hwnw, fel mewn llawer o fanau ereill. Yr oeddynt yn ymddiried y buasai Christmas Evans yn myned i'r Deheudir i gasglu; gan hyny, tybient y gallent anturio myned i draul fawr heb ofn y canlyniad. Dywed ef am hyn, "Yr wyf yn gostyngedig farnu na fu blinder y cenhadon yn India, nac mewn un lle arall, dan y fath bwn ag y buais i yn achos dyledion y tai addoliad; ac nid ydynt hwy yn gorfod gofalu am eu cynnaliaeth eu hunain fel y gorfu arnaf fi fy holl amser yn Môn; o blegid yr oedd y cyfeisteddwyr yn Llundain yn gofalu am danynt hwy, pan yr oeddwn i dros flynyddoedd ddim ond derbyn dwy bunt ar bymtheg am fy ngwasanaeth." "Yn yr amser hyny," medd Morgan, "yr oedd Mr. Evans yn gorfod teithio a gwerthu llyfrau, y rhai a ysgrifenodd ar wahanol faterion, i gael ei gynnaliaeth, gydag ychydig gynnorthwy oedd yn ei gael o'r drysorfa yn Llundain." Dywed Mr. Evans yn mhellach, "Yr oedd y pregethwyr ereill yn ieuainc ac yn anmhrofiadol, a'r aelodau yn gadael y cwbl arnaf fi, fel plant i'w tad. Byddwn yn cael fy ngwasgu yn nyfnder y nos i erfyn ar i Dduw gadw ei achos rhag gwarth. Bu yr addewidion o gymhorth Duw Iacob i'w achos yn y byd, o gysur mawr i mi. Chwiliwn yr addewidion sydd yn cynnwys gofal Duw am ei achos, lledwn hwy ger ei fron mewn gweddi, nes oeddwn weithiau mor hyderus a phe buaswn yn gweled pob hatling yn cael ei thalu. Llafuriais lawer i osod casgliadau o geiniog yr wythnos i fyny; ond nid da y llwyddais yn hyny. Cesglais at yr amrywiol addoldai o fil i ddau cant ar bymtheg yn rhyw le, ond y mae cannoedd wedi hyny yn aros heb eu talu ar y tai a adeiladwyd heb fy nghydsyniad i. Yr oedd amryw heb ddoniau addas, nac ysbryd duwiol, a rhai âg ysbryd duwiol heb ddawn gweinidogaethol—rhai yn cael eu gwthio o'u hanfodd, ac ereill yn dringo er gwaethaf pawb, i'r weinidogaeth; y rhai a lwyddasant i berswadio y brodyr i adeiladu tai cyfarfodydd rhy ddrudion i'n hamgylchiadau."

2. *Dadl Ffwleriaeth.*—Daeth y ddadl hon fel ffrydlif gref, fel yr oedd yn rhaid i bob aelod yn nghylch y Bedyddwyr, ac hefyd mewn enwadau ereill, fod o du, neu yn erbyn Ffwleriaeth; yn enwedig pregethwyr.

Nid oedd yn bossibl iddynt fod yn *neuter*. Yr oedd yr aelodau a'r gwrandawyr yn gwrandaw pregethau er mwyn eu beirniadu, a gweled pa ochr i *Ffwleriaeth* oedd y pregethwyr yn gymmeryd. Yr oedd hyn yn attalfa i argyhoeddiadau efengylaidd, a dylanwad grasol a brawdol yn yr eglwysi, i fesur mawr. Dywed Mr. Evans, am y cynhwrf,

"Aeth rhai yn uchel Galviniaid, yn uwch nag oeddynt o'r blaen mae yn debygol; aeth rhai ieuainc anmhrofiadol ar eu penau i gors Arminiaeth. Yr oeddynt felly yn ddiymwad mewn llawer o'u pregethau o leiaf, ac felly yn eu harchwaeth a'u hysbryd, os nad oeddynt yn drwyadl felly. Yr oedd person Crist, gras Duw, iawn y groes, cadwen iachawdwriaeth, gallu a nerth yr Ysbryd

1 Meddwl Mr. Evans efallai ydoedd ei fod wedi darllen yr holl awdwyr goreu yr oedd ei chwaeth a'i amgylchiadau ef wedi caniatau iddo eu cyrhaedd; canys ni fuasai wedi darllen yr holl awdwyr goreu, pe yn darllen o'i febyd.

Digitized by Google

Glân, wedi eu taflu i raddau mawr o'r tu cefn; a'r ochr arall yn colli yn arw trwy roddi terfyn ar yr aberth ynddo ei hun, ac nid yn ei osodiad cyfammodol fel iawn—a bron ammheu dywedyd wrth yr esgyrn sychion, *Clywch air yr Arglwydd.* Wrth ystyried yn ol a blaen, a bod yn ddidueddd, er i bersonau neillduol gael llesâd oddi wrthi, ar y cyfan yr wyf yn meddwl fod y drygedd yn gwrthbwyso y daioni, o herwydd yr hyn a ganlyn:—Er fy mod hefyd yn meddwl mai y ffordd oreu i wrthwynebu Arminiaeth ydyw y ffordd a fabwysiadwyd gan Mr. Fuller; hefyd, y mae Ffwleriaeth yn cynnwys mwy o dyniad yn ol (*check*) ar Antinomiaeth nag ar Arminiaeth.

"Yr oedd eglwysi Cymru wedi cael ymosodiad ffyrnig a grymus ychydig o flynyddoedd cyn hyny yn y Deheudir; ac wedi cael profi llawer mwy trwy Arminiaeth nag a brofasant erioed trwy Antinomiaeth. 'Ië, medd un, yr oeddych yn Antinomiaid yn gyffredinol.' Nac oeddem yn ddiammheu, ond fe aeth rhai gweinidogion ac eglwysi yn fwy i'r ochr hono wedi i Ffwleriaeth ddyfod i mewn. Yr oedd yn ddieithr yn mhulpudau Cymru er ys deugain mlynedd. Yr wyf fi yn cofio, i glywed un pregethwr yn dywedyd yn erbyn gwahodd pawb at Grist, ac annog pawb i gredu yr efengyl, heb gwestiyno digonoldeb y cymmod ar gyfer pawb a gredent: ac ni chlywyd un yn gwadu nad oedd y ddeddf foesol yn rheol bywyd, ond yn gwaeddi am ei chael wedi ei hysgrifenu â gwaed Iesu o'r newydd ar y galon. Ac ni chlywais i son, ac yr oedd yn beth dieithr i bregethau a llyfrau Cymru i roddi terfyn ar yr iawn ynddo ei hunan; ond golygai yr enwadau Calvinaidd ef wedi ei osod dros y rhai oedd yn eu cynnrychioli. Myfi, yn y llyfr bach oedd y cyntaf, hyd eithaf fy ngwybodaeth, a soniodd (yn Nghymru mewn llyfr argraffedig) am iawn cydbwys â beiau, ac nid iawn yn cydraddu â theilyngdod y Person Dwyfol, yr hwn oedd yn ei roddi. Mae yn edifar genyf am y gair *cydbwys*; gwell genyf eiriau Williams:—

"Pe buasai mil o fydoedd
Yn cael eu prynu 'nghyd,
A'r cyfryw bris, buasent
Yn llawer yn rhy ddrud."

"Fel y dywedir uchod, yr oedd sefyllfa yr athrawiaeth (ar y pen hwn) pan y daeth Ffwleriaeth i mewn i Gymru. Ond pa ddrwg a wnaeth hi? Bu yn achlysur o derfysg ac anghydfod, trwy roddi cyfle i lawer o bregethwyr ieuainc, o dan yr enw Ffwleriaid, i fyned yn Arminiaid rhongca o ran ysbryd, athrawiaeth, ac archwaeth; fel pe buasent yn amcanu cyferbyniaeth, ac nid canlynedigaeth, i'r enwog Fuller. Yr oedd ei bregethau ef yn efengylaidd, a gwaed y groes yn fywyd yn nghorff ei athrawiaeth, fel y mae rhediad y gwaed trwy y galon yn y corff naturiol, neu fel y mae yr haul yn fywyd yn y trefniant heulaidd. Drwg arall a darddodd ar ei dyfodiad i mewn oedd gyru rhai eglwysi a gweinidogion oddi wrth eu hen egwyddorion erioed, i fod yn ddigon pell oddi wrth Ffwleriaeth, fel na addefent anfeidroldeb yr iawn ynddo ei hun o'u bodd; a phetrusent alw pechaduriaid at Grist. Ond yr wyf yn hyderu y daw y bobl hyn yn ol at yr hen egwyddorion Calvinaidd a wn i oedd ganddynt er ys deugain mlynedd."

3. *Afiechyd.*—Er mor gryf oedd ei gyfansoddiad, yr oedd yntau yn agored i afiechyd. Rhwng gofid meddyliol, a llafur corfforol, yntau yn awr yn tynu yn agos at ei drigeinfed flwyddyn, ac yn cymmeryd ei daith i'r Deheudir i gasglu at un o gapelydd Môn, cymmerwyd ef yn glaf, a bu yn yn gorwedd dan ofal meddyg yn Aberystwyth am amryw fisoedd. Tybiwyd y pryd hwn fod ei farwolaeth wrth y drws; ond er iddo fod yn glaf am naw mis, cafodd wellhau.

4. *Ymosodiad rhyw un ar ei gymmeriad.*—Y mae pawb yn unfrydol yn cyduno i ddyweyd fod ei gymmeriad moesol yn ddifwlch o'i ddechreuad yn Llwyn-rhyd-owen, hyd ei orpheniad yn Nghaernarfon. Ni chawsom erioed eglurhad llawn ar yr ymosodiad. Dywed Mr. Evans am dano,

"Darfu ——— wneyd cynnyg i dori fy nghymmeriad; trwy godi anwiredd arnaf; yr hwn, er nad oedd pechadurusrwydd ynddo, eto yr oedd yn anwiredd, ac wedi dygwydd er ys pedair a ddeg ar ugain o flynyddoedd yn ol, yn ol eu haddefiad hwynt—er na ddygwyddodd erioed."

Ni ddaeth ei frodyr yn y weinidogaeth i gymmeryd plaid Mr. Evans, fel yr oedd efe yn disgwyl; na chwaith, fel yr oedd rhai o honynt hwythau eu hunain yn mhen blynyddoedd ar ol hyny yn golygu y dylasent wneud. Yr ydym yn mawr gymmeradwyo y cyfaddefiad canlynol o eiddo Mr. Morgan ar y pen hwn, a hyny yn mhen tua thair ar ddeg o flynyddoedd ar ol yr amgylchiadau uchod.

"Pa bethau bynag o gamddeall a gymmerodd le rhwng rhai brodyr (un yn neillduol ag sydd yn weinidog parchus yn ei gylch), a Mr. Evans, fel un o'r gweinidogion hynaf ac uwchaf ei gymmeradwyaeth, nid yn unig yn Môn, ond yn Nghymru yn ei ddydd, y mae hyn yn eglur i mi heddyw, y dylesid derbyn ei gynghorion gyda chydnabyddiaeth o'i oed a'i brofiad o leiaf, a gwneyd ymroad i'w amddiffyn fel tad offerynol i'r achos yn mhlith y Bedyddwyr yn Môn. Pa beth bynag a all yr ysgrifenydd ei ddyweyd fel esgusodiad am beidio cymmeryd mwy o ran amddiffynol, o herwydd ieuengusrwydd oed, dieithrwch yr amgylchiadau, a gochelgarwch, er ei fod wedi dangos y pryd hwnw barch didwyll i'r hen weinidog oedranus, y mae yn cael ei argyhoeddi yn eglur y dylesid gwneyd mwy o ymdrech i amddiffyn cymmeriad y diniwed; ac y mae yn benderfynol o'r farn, ac yn teimlo hyfrydwch wrth ddyweyd, o barch i goffadwriaeth y marw, pe buasai yn gweled pethau y pryd hyny fel y mae yn eu gweled yn awr, ac yn meddu ar yr un cyffelyb wroldeb, y buasai yn gwneyd cynnyg i ddwyn y difeius yn ei freichiau trwy y saethyddion i dir diangol, ac na adawsai i gymmeriad gweinidog o barchedigaeth Mr. Evans, syrthio yn gamweddus ar yr heol heb amddiffynwr.

Dywed Mr. Evans am y gofidiau hyn, "Yr wyf yn synu llawer na buaswn yn syrthio i'r bedd yn y tro hwn a ddaeth arnaf yn fy henaint, yn nghyd â phlentyrau o ofidiau o bob math; ond daliwyd fi i fyny gan yr Arglwydd." Hefyd, "yr oedd pob peth yn awr yn cyduno i fy nghael o Fôn—ysbryd annhlygedig y rhai a'm tramgwyddasant, ysbryd gwrol ynof finnau, ac yn credu fod gwaith i mi i'w wneyd yn nghynauaf Mab y dyn yn rhyw le arall."

5. *Marwolaeth ei briod.*—Cymmerodd hyn le yn nghanol y cymylau tywyll oedd megys yn ei amgylchu ef yn y tymmor hwn; yr hyn yn ddiau oedd yn chwanegu yn fawr at ei drallodion a'i orthrymderau. O'r diwedd, ni a'i cawn yn ymadael â Môn, er cymmaint fu ei lwyddiant, ei enwogrwydd, a'i gysuron yno yn ysbaid y 35 o flyneddoedd y bu yno; sef o 1791 hyd 1826. Yr ydym yn ei gael, yn ol ei eiriau ei hun, "yn awr

Digitized by Google

yn ymadael heb feddu dim o'r byd hwn, ond y ceffyl oedd o danaf, ac ychydig arian yn fy llogell; a phrin y gallaswn ddyweyd fod y rhai hyny yn rhydd genyf." Dyma Mr. Evans yn sefydlu yn Nghaerffili, yn Medi, 1826. Yr oedd amryw weinidogion lled enwog wedi bod yn Nghaerffili, a'r Twyn-gwyn, yn gwasanaethu yr eglwys hon; sef Dafydd Jones, Pont y pool; Maurice Jones, o Ferthyr; Morgan Rhys, Pen y garn; John Hier, Maesaleg, a Thomas Morris, a aeth i'r America yn 1795. Ar ol hyny, Miles Edwards, Joseph Price, James Lewis, Dafydd Richards, a Griffith Davies. Fel hyny yr oedd rhai o brif enwogion y Bedyddwyr yn niwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu yr un bresennol, wedi bod yno yn llafurio cyn i Mr. Evans ddyfod yno.

Yn fuan ar ol sefydlu yn Nghaerffili, efe a ail briododd Mary Evans, o sir Fôn; yr hon a fu yn wraig ffyddlawn a gofalus iddo am y gweddill o'i oes, ag sydd yn awr yn fyw yn Môn.

Darfu yr eglwys a'r gweinidog ymostwng ger bron Duw mewn taerineb mawr, trwy gynnal cyfarfodydd gweddi am beth amser, i ofyn am lwyddiant, ac am dywalltiad o'r Ysbryd Glân yn helaeth ar yr eglwys, ac ar y gwrandawyr. Y canlyniad o hyn a fu iddynt dderbyn o gylch saith ugain yn y ddwy flynedd y bu Mr. Evans yma. Cymmerodd rhywfaint o anghydfod le rhwng Mr. Evans a rhywrai yn Nghaerffili. Ond "Ni threuliais," medd efe, "ychydig o amser, sef dwy flynedd, mewn mwy o gysur erioed, o blegid fod arch Duw wedi ymddangos yno; a thelynau o gylch saith ugain wedi canu. Buasai yn dda genyf gael gorphen fy nyddiau yno, ond ni chefais, o blegid pethau nad oeddynt yn dwyn euogrwydd i mi, ond yn sicr i ryw rai. Nid doethineb yw eu crybwyll. Yr wyf yn caru yn barhaus lawer o'r brodyr a'r chwiorydd sydd yno, ac yn dymuno llwyddiant iddynt; ac na osoder yn erbyn neb o honynt hwy a minnau, yn y farn, y camsyniadau, ond y dyger ni yn rasol i gyffaddef a theimlo ein beiau yma ar y ddaiar, lle y mae ffynnon maddeuant wedi ei hagoryd."

Nid oedd Mr. Evans yn un enwog am lywodraethau eglwys, o blegid yr oedd yn agored i gynnhyrfiad tymmerau, fel y cawn nodi eto. Yr oedd hyn yn rhwystr mawr iddo lywodraethu, neu flaenori, yn mhob man lle y bu.

Dyma ni yn awr wedi dyfod at ei symmudiad i Gaerdydd; yr hyn a gymmerodd le yn Hydref 1828. Nid oedd yr eglwys hon ond un ieuanc, wedi ei chorffoli yn 1821; ond yr oedd yn un led boblogaidd. Yr oedd James Perrott, Griffith Davies, a Robert Pritchard (yn awr o Ddinbych), wedi bod yn llafurio yn Nghaerdydd, ac yr oedd saith mlynedd o lafur y brawd diweddaf wedi bod yn dra llwyddiannus yno. Dilynodd llwyddiant Caerffili Christmas Evans i Gaerdydd. Derbyniwyd llawer iawn yn yr amser cyntaf wedi iddo fyned yno; ond "cyfododd oerfelgarwch ac anghariad rhyngddo a rhai o'r eglwys; ac am nad oedd ei dymmer naturiol ef y fath addfwynaf, aeth yn ofidus arno, a symmudodd i Gaernarfon yn 1832."[1]

Ymddengys mai yr achos o ddechreu yr ymryson a gymmerodd le rhwng Mr. Evans a rhai o aelodau y Bedyddwyr yn Nghaerdydd, oedd iddo geisio attal yr hen ddefod Babaidd hono sydd hyd y dydd hwn yn ffynu yn mhlith yr Ymneillduwyr i fesur mwy neu lai, mewn gwahanol fanau; yr hon a wneir ar ol claddu, sef gweddïo yn gyhoeddus dros berthynasau y marw. Ffurf newydd o'r gweddïo Pabyddol dros y marw, sef gweddïo un allan o'r purdan, yw y ddefod hon. Defod arall debyg iddi hi ydyw y gweddïo cyhoeddus mewn diolchgarwch am "ryddhâd" ar ol esgor, sydd yn cael ei arfer mewn rhai lleoedd ymneillduol. Gweddillion y ddefod Babaidd o "eglwysa," neu "ryddhau" y rhai fyddant wedi esgor ydyw hon. Yr oedd Mr. Evans am attal yr hen ddefod; a hyn fu'n achlysur iddo adael Caerdydd yn y diwedd. Dywed Christmas Evans am y ddefod, "yr hyn (sef y cyfryw fath o weddïau) yr wyf wedi sylwi sydd yn myned yn arferiad gan lawer o bregethwyr Cymru; a rhigymu llawer o weddïau ar y fath achlysuron, heb fawr neu ddim, o'u calonau ynddynt, eithr wedi eu dala gan ddrwg effaith rhyw ymarferiad gwenieithus, sydd wedi tycio yn ormodol mewn cymmydogaethau, wedi dechreu gan bregethwyr, y rhai a ddisgwyliant ennill dynion atynt heb law trwy bregethiad o'r commisiwn."

Diammheu y bydd cydymdeimlad yr Ymneillduwr egwyddorol, a llawer o'r Eglwyswyr hefyd, gyda Mr. Evans yn yr amgylchiad hwn; canys y mae llawer o'r Eglwyswyr eu hunain yn awyddus iawn i fwrw allan o'u heglwys yr hen ddefodau Pabaidd hyn, a llawer ereill.

Yr oedd ef yn arfer myned rai prydiau i gyfarfodydd blyneddol Lerpwl, ar ol ymsefydlu yn y Deheudir, fel pan yn byw yn Môn. Mae genym yn un o'i ysgrifiyfrau, yr hwn a ysgrifenodd yn 1826 ac 1827, pan ydoedd yn Nghaerffili, gynllun o'i daith i Lerpwl. Mae yn debyg mai y Pasc yn 1827 neu 1828, oedd hyn. Cymmer y daith iddo 19 o ddyddiau. Mae yn cyrhaedd Lerpwl mewn pedwar diwrnod, sef un i fyned i'r Fenni, un arall i'r Amwythig, y trydydd i Gaer, a'r pedwerydd i Lerpwl. Wedi treulio wythnos yn Lerpwl, ac wythnos yn Môn, y mae yn dyfod mewn pedwar diwrnod o Fangor i Gaerffili ar y cerbyd trwy yr Amwythig. Mae yn syndod i rai sydd yn gallu myned o Gaerdydd neu Gaerffili i Lerpwl, ac yn ol, mewn un dydd, i feddwl pa fodd yr oedd amynedd yr hen deithwyr cerbydau 35 mlynedd yn ol yn dal am wyth niwrnod, ac heb un to i'w cadw rhag gerwindeb yr hin. Daeth Mr. Evans yn 1832 i Gymmanfa Lerpwl; a chan ei fod wedi rhoi eglwys Caerdydd i fyny, a bod eglwysi y Bedyddwyr yn Nghaernarfon a Threffynnon yn awyddus iawn am ei gael yn weinidog, gosododd y mater o flaen y brodyr oedd wedi dyfod yno. Yr oedd y rhan fwyaf yn meddwl mai Caernarfon oedd y lle y cynghorent ef i dreulio gweddill ei oes. Felly y bu: daeth i'r penderfyniad o sefydlu yn Nghaernarfon. Aeth yn ol i Gaerdydd i werthu ei ddodrefn mewn cerbyd bychan a roddwyd iddo gan deulu Mr. Rushton, ac ereill, yn Lerpwl, a dychwelodd, a'i briod gydag ef, i'r Gogledd. Cyrhaeddasant Gaernarfon ar nos Wener, yn cael eu tynu gan y ceffyl oedd wedi cario Mr. Evans i Gaerffili yn 1826.

IV. *Sefyllfa yr achos pan ddaeth Christmas Evans i Gaernarfon, hyd ei farwolaeth.*—Dyma ni wedi dilyn hanes Christmas Evans hyd ei sefydliad yn Nghaernarfon, yn fras. Digon tebyg y bydd y darllenydd yn gweled cryn wahaniaeth rhwng yr amserau a'r dyddiadau sydd yn yr erthygl hon, a'r rhai a ganfyddir yn y cofiantau gan y Parchedigion W. Morgan, D. Phillips, a D. R. Stephen, mewn rhai amgylchiadau. Yr oll a all yr ysgrifenydd ddyweyd ar

[1] *Hanes y Bedyddwyr*, td. 630.

hyn yw, ei fod wedi cael llawer o drafferth i geisio cyssoni dyddiadau y cofiannwyr mewn amryw fanau, a'i fod yn meddwl fod y rhai sydd yn yr ysgrif hon yn gyflawnach a chywirach nag y ceir hwy yn y gweithiau uchod. Un o brif hanfodion hanes yw cywirdeb dyddiadau. Teimla yr ysgrifenydd rwymau i gydnabod iddo wneud defnydd o'r gweithiau uchod, yn enwedig y cyntaf a'r olaf, yn nghyd â gwaith Brutus; ond am waith Mr. Phillips, nid yw fawr yn amgen na chyfieithiad o waith Mr. Morgan. Yr oedd achos y Bedyddwyr yn dra isel yn Nghaernarfon pan ddaeth Mr. Evans yno. Yr oedd dyled fawr—tua 800p. ar y capel—a dim ond tua 30 o aelodau; a rhai o'r rhai hyny dan ddylanwad cyfundraeth J. R. Jones, o Ramoth—ymrysonfeydd a rhwygiadau wedi cymmeryd lle—pethau felly wedi tarfu y gwrandawyr, a'u hanfon i'r cynnulleidfaoedd mawrion oedd gan yr enwadau ereill yno. Felly yr oedd cryn lawer o ddiffyg trefn, ac o achosion digalondid i Mr. Evans yn Nghaernarfon, er fod Seison Lerpwl yn addaw na chaffai fod mewn angen cynnaliaeth yno. Ond cyn pen y flwyddyn, dywed:—"Mae pethau yn ffafriol ar ddiwedd un flwyddyn o'm harosfa yma. Mae genyf achos mawr i ddiolch i Dduw am ei ras i mi yn y lle hwn. Mae yma lawer o bethau yn well nag oeddynt flwyddyn yn ol. Yr oedd y cwbl yma fel anialwch gwag erchyll—îc, trigfa dreigiau, lle y gwnaent eu gorweddfa ddydd a nos, Sul a gŵyl. Nis gwn pa beth a wel yr Arglwydd fod yn dda i'w wneyd yma eto er mawl gogoniant ei ras ef. Y pechod o feddwdod, ac ysbryd anghydfod, oedd y ddau fwystfil mwyaf enbyd a gyfarfyddais i yn y dref hon. Simon James, yr hwn a fu yma yn llafurio, a fu farw cyn gweled fawr o drefn yma. O! y mae rhyw anfantais fawr i ail godi yr achos lle y byddo wedi ei rwystro unwaith; o blegid y mae Satan drwy hyny yn cael mantais ddyblyg yn ei erbyn, trwy ddwyn gwarth o herwydd proffeswr anfoesol, a chodi gwrthddadleuon parhaus o herwydd hyny, fel y mae crefydd yn agored i gael ei llethu yn ei gwendid." Ni ddylid anghofio fod blaenoriaid pob enwad o grefyddwyr yn y dref wedi dangos y parch a'r gymmeradwyaeth fwyaf a allasent i Mr. Evans yn mhob modd—yr Eglwyswyr, y Trefnyddion Calfinaidd, y Wesleyaid, yn gystal a'r Annibynwyr. Mae efe yn nodi hyn yn ei ysgrifau gyda pharch a diolchgarwch. Cyfeillgarwch anghyffredin a sefydlwyd rhyngddo ef a'r enwog Gwilym Caledfryn, yr hwn a alwai gydag ef amryw weithiau bob wythnos; ac hefyd, a ymunodd â Mr. Jones, o Lerpwl, i anrhegu Mr. Evans â darlun tra chostfawr. Gwelsom mai un o'r "ddau fwystfil mwyaf enbyd" oedd yn erbyn llwyddiant yr efengyl yno oedd y pechod o feddwdod. Darfu hyn ei ddwyn i fod yn ddirwestwr pan ddechreuodd dirwest yn Nghymru; a pharhaodd i ymarfer dirwest hyd ei fedd. Cyfansoddodd draethawd ar "Ddirwestiaeth," yr hwn a gyhoeddwyd yn llyfryn gwerth chwe cheiniog. Cynnwysa y llyfryn hwn lawer o'i ddawn neillduol a nerthol ef. Clywsom ef hefyd amryw droion yn areithio yn dra doniol ar yr egwyddor hono, nes gyru tyrfaoedd o bobl i'r cyffroadau mwyaf a welsom erioed, trwy chwerthin a galaru braidd ar yr un anadl. Parodd dau beth mewn cyssylltiad â dirwest ofid mawr iddo, yn ol fel y dywedai wrth yr ysgrifenydd; sef yn 1af, "Fod rhai yn gwneud crefydd o'r peth, ac yn cymmeryd gosodiadau yr efengyl, yrhai ydynt wedi eu hamcanu i dynu dynion at Grist a'i groes, i berswadio dynion i ddyfod yn *deetotals*. Peth ynfyd a drwg, dybygaf fi," meddai, "yw lladrata cymhellion yr efengyl sanctaidd at ddim arall. Mae yn ynfyd, o herwydd mai nid wrth ddala dannedd dynion ar y maen llifo trwy fygwth dydd y farn olaf arnynt, fel y gwna ——, y daw dynion yn *deetotals*. Mae yn ddrwg, o blegid mai lladrata llestri y cyssegr at wasanaeth na fwriadwyd hwy ydyw." 2il, "Codi dynion o ganol llaid meddwdod i areithio, i lanw pulpudau â chabledd yn gymmysg â ffolineb; a hyny yn fynych cyn i'r llaid sychu a chael ei *frwshio* oddi arnynt, a rhai gweithiau cyn iddynt gael ymdreiglfa arall yn y llaid." Yr oedd yr ysgrifenydd a'r gweinidog uchod oedd yn "bygwth y farn" yn perthyn i'r un enwad a Mr. Evans, ac hefyd yn ddirwestwyr. Darbwyllodd meddyg yr ysgrifenydd, pan yn agos i angeu, i gyfnewid er mwyn iechyd, tuag ugain mlynedd yn ol. Cyfnewidiodd y brawd arall hefyd tua 24 o flyneddoedd yn ol. Ond safodd Mr. Evans ei dir hyd farw; a bu farw yn nhŷ un o'r dirwestwyr ffyddlonaf yn yr enwad; sef y Parch. D. Davies, Abertawe: a barnai llawer o gannoedd am dano, fel am Williams o'r Wern, iddo wneyd niwed mawr i'w gyfansoddiad, trwy wneud y fath gyfnewidiad yn ei *diet* yn ei henaint. Dyma'r pryd y cyhoeddodd C. Evans ei ddarlithiau ar y "Dadguddiad," y rhai a ddaw dan ein sylw wrth drafod ei weithiau awdurol. Casglodd un o'r enw John Edwards, gynt o Langollen, 400p. at y capel; a thalwyd hwy gan Mr. Evans.

Ni a welwn ddoethineb mawr yn nhrefn ddoeth Rhagluniaeth yn arwain Mr. E. oddi amgylch yn niwedd ei oes. Pe arosasai yn Môn, nid ydyw yn debyg y cawsem ddim o'i weithiau awdurol, ond y llyfrynau bychain a gyfansoddai, ac a werthai yn ei deithiau, er mwyn ennill tipyn o arian, i helpu y cyflog bychan oedd yn ei gael i'w gynnal ef a'i wraig, heb law ambell ysgrif yn *Seren Gomer*. Ond yn Nghaerdydd, cafodd hamdden am rai blyneddoedd i barotoi ei bregethau i'r wasg; y rhai sydd yn llawn bywyd meddyliol, ac a fyddant yn addysgiadol i'r oesoedd dyfodol. Er nas gellir canfod ynddynt nerthoedd pregethwrol y Christmas hwnw oedd yn synu ac yn gwefreiddio cymmanfaoedd, eto ceir ynddynt rywbeth o'r fflam feddyliol oedd yn eu hawdwr. Tra y bu Mr. Evans yn Nghaernarfon, ymwelodd â chymmanfaoedd a chyfarfodydd ereill yn Môn ac Arfon, a lleoedd ereill yn Ngogledd a Deheubarth Cymru. Yr oedd hyn yn adfywiad i'w feddwl, yn lloni ei hen gyfeillion, ac yn adeiladaeth i'r eglwysi yn y fan lle y treuliasai brif dymmor ei fywyd. Pregethodd mewn pump o gymmanfaoedd Môn tra bu yn Nghaernarfon. Meddyliodd am gasglu at dalu y gweddill o'r ddyled oedd ar ei gapel; a chymmerodd daith i'r perwyl hyny trwy y Gogledd yn 1837, ac i'r Dehendir yn 1838. Dyma y daith olaf. Pregethodd yn enwog yn Nghymmanfa Mynwy: a dyma'r gymmanfa olaf iddo bregethu ynddi, canys yr oedd yn y bedd yn mhen tua chwech wythnos ar ol hyn. Ar ol Cymmanfa yr Argoed, bu yn glaf am beth amser yn Nhredegar. Ar ol gwella, aeth oddi yno trwy Gaerffili a Chaerdydd, a chyrhaeddodd Abertawe erbyn y 14eg o Orphenaf. Cyfarfyddodd â charedigrwydd mawr yn y lleoedd uchod, lle yr oedd wedi bod mor ddefnyddiol yn gweinidogaethu; mewn gair, cyfarfyddodd â'r caredigrwydd mwyaf yn mhob lle trwy yr holl daith, o Ebrill 28ain, pan adaw-

Digitized by Google

odd Gaernarfon, nes iddo gyrhaedd Abertawe. Pregethodd ar Ddydd yr Arglwydd, Gorphenaf 15fed, yn nghapel y Parch. D. Davies. Dyma y dydd sanctaidd diweddaf i Mr. Evans cyn myned i'r breswylfa ogoneddus, i fwynhau tragwyddol gymdeithas ei Arglwydd. Ei destynau y dydd hwn oedd, "Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist," a dammeg y mab afradlawn. Yr oedd yn pregethu mor hwylus ac mor gryf, o ran corph a meddwl, y dydd hwn, fel y gallesid tybied ei fod i fyw ugain mlynedd yn rhagor, o leiaf. Pregethodd nos Lun, yn Seisoneg, yn nghapel y Parch. D. R. Stephen, ar "bregethu edifeirwch a maddeuant pechodau," &c. Mae Mr. Stephen wedi cofnodi ychydig o'r bregeth hon; a diau y byddai yn werth i'r darllenydd gael y sylwadau olaf a draddododd Christmas Evans o'r areithfa.

"Gan ddechreu yn Ierusalem." "Pa ham yn Ierusalem?" meddai; "Yr oedd yn rhaid i'r apostolion ddechreu yno, o blegid fod ei thrigolion wedi bod yn dystion o fywyd a marwolaeth Crist. Yno y pregethodd, y cyflawnodd wyrthiau, y croeshoeliwyd ef, ac yr adgyfododd drachefn. Yma, lle y bu yn y gwarth mwyaf, yr oedd i gael ei ddyrchafu gyntaf. Croeshoeliwyd ef fel drwg-weithredwr; ond yn awr, rhaid ei ddyrchafu fel Brenin yn yr un man. Dyma lle y cafodd flaenffrwyth ei adgyfodiad. Ar ddydd y Pentecost, yr oedd holl Ierusalem yn ei erbyn. Yr oedd llynges y gelyn yn gref, a'i gwŷr yn lluosog; ond nid oedd ganddo ef ond rhyw ddeuddeg o agerlongau. O Iesu! a wnei di wrthsefyll y gelyn gyda'r ychydig longau bychain yna? 'Gwnaf,' ebe Iesu. Dechreuodd y frwydr; y mae yr agerlongau bychain yn nesu at y llongau rhyfel mawrion, yn taflu eu bachau arnynt, ac yn sicrhau eu hunain yn nerthol wrth y *four-deckers*. Mae saethau dychrynllyd yn dilyn, y cyflegrau ar waith; mae y mwg, y tywyllwch, a'r dyryswch mawr yn gordoi y cyfan. Gwrandewch! nid oes i'w glywed ond rhyw ochain, a gruddfan! Mae y tanio wedi darfod. Dyna 'r cymylau yn chwalu, a goleuni'r nef yn tori ar yr olygfa ryfeddol; ac O ryfeddod! O wyrth! mae y llongau bychain wedi cymmeryd tair mil o garcharorion yn yr un ymladdfa."

"'*Yn Ierusalem*, Arglwydd?' 'Ië.' 'O Arglwydd! ond yno y darfu y dynion dy groeshoelio di: nid ydym i bregethu i'r *rhai hyny?*' 'Ydych; pregethwch hi i bawb!' 'I'r dyn a blethodd y goron ddrain, ac a'i rhoddodd ar dy ben?' 'Ië; dywedwch wrtho y gall ef gael coron gogoniant allan o'r gwarth hwnw.' 'Beth pe cyfarfyddem â'r dyn a hoeliodd dy ddwylaw sanctaidd, a'th draed ar y groes, a'r dyn a wanodd dy ystlys, a boerodd yn dy wyneb?' 'Pregethwch yr efengyl iddynt oll mai Myfi yw'r Achubydd; fod croesaw i bawb i gyfranogi o fendithion fy iachawdwriaeth; fy mod i yn Arglwydd ar bawb, ac yn gyfoethog tuag at bawb a alwant arnaf fi.'"

Wrth ddyfod i lawr o'r pulpud, dywedodd yn ddigon uchel i lawer glywed, "Dyma y bregeth olaf i mi." Ond ar y pryd, nid oedd neb o'r rhai a'i clywsant yn meddwl fod hyny yn debyg o fod yn ffaith. Ond yn y noson hono, cymmerwyd ef yn glaf iawn; ac yr oedd yn gwaethygu trwy ddydd Mawrth. Dydd Mercher, yr oedd yn well; ond dydd Iau yr oedd yn gwaethygu eilwaith. Pan ymwelodd y meddyg âg ef ddydd Iau, gofynai Mr. Evans iddo yn awyddus, "Pa bryd yr ydych yn meddwl y gallaf fi ddechreu ar fy ngwaith etto?" Tua dau o'r gloch y bore, dydd Gwener, galwodd am bawb oedd yn y tŷ at ei wely. Diolchodd i'r Parch. D. Davies a'i briod am eu caredigrwydd, a dywedodd, "Yr wyf yn eich gadael; yr wyf wedi llafurio yn y cyssegr am 53 o flyneddoedd; a fy hyder a'm cysur yn yr adeg bwysig hon yw, na lafuriais heb y gwaed yn y llestr. Pregethwch Grist i'r bobl, frodyr. Edrychwch arnaf fi ynof fy hun, nid wyf yn ddim ond colledigaeth; ond edrychwch arnaf yn Nghrist, yr wyf yn nefoedd a chadwedigaeth." Yna, adroddodd mewn llais hyfryd a gorfoleddus:—

"Dyma'r wisg ddisglaerwen oleu,
Guddia'm noethni hyd y llawr;
Fel nad ofnwyf byth ymddangos,
Mwy o flaen dy orsedd fawr;"

gan gyfeirio at gyfiawnder Crist. Yna, efe a daflodd ei law fel pe buasai yn gweled ei hun yn myned yn y cerbyd, gan ddywedyd, "*Good-bye! —drive on!*" Ac efe a ddisgynodd yn dawel i'w gwsg angeuol. Yr oedd hyn nos Iau, neu bore ddydd Gwener, Gorphenaf 20fed, 1838. Claddwyd ef yn nghladdfa y Bedyddwyr, ddydd Llun, y 23ain, pryd y gweinyddodd ar yr amgylchiad y gweinidogion canlynol:—J. Saunders, Aberystwyth (A.); D. R. Stephen, a D. Davies (B.); D. Roberts (M.), o Abertawe; a Joshua Watkins (B.), o Gaerfyrddin. Dyma ni wedi olrhain y dyn gwir fawr a thalentog hwn o'i febyd i'w fedd. Gorphenodd ei yrfa yn ei ddeuddegfed flwyddyn a thrigain o'i oed.

V. *Nodweddau personol a naturiol Christmas Evans.* Nid ydym yn golygu priodoleddau naturiol unrhyw ddyn yn glod neu anghlod i'w feddiannydd ond mor bell y byddo efe ei hun wedi diwyllio ei feddwl, wedi cynnyddu mewn gwybodaeth a defnyddioldeb, wedi eangu ei ddylanwad moesol, cymdeithasol, a chrefyddol; a hyny yn ol y manteision a fyddont wedi digwydd syrthio i'w ran oddi wrth ei nodweddau personol, cyfryngau addysg, a phethau o'r fath. Y mae mantais ac anfantais, mewn cysylltiad â defnyddioldeb dyn, yn cyfodi oddi wrth agweddiad ei gorff; sef, pa un a fydd yn gorff iach, cryf, a dianaf, ai na fydd:—oddi wrth ansawdd ei feddwl; sef, pa un a fydd y galluoedd yn fywiog a nerthol, ai peidio: —oddi wrth ei sefyllfa yn y byd; sef, pa un a fydd dyn yn gyfoethog neu yn dlawd, yn gallu cynnal ei deulu yn gysurus, neu yn meddu teulu mawr heb ddigon ar eu cyfer:—oddi wrth le preswylfod dyn—oddi wrth nifer ei lyfrau—oddi wrth natur ei gymdeithion—oddi wrth ansawdd ei ddysg, a llawer o bethau ereill. Mae llawer un yn meddu y pethau a nodwyd, a'r pethau a adawyd heb eu nodi hefyd, yn y modd mwyaf manteisiol er cynnydd a llwyddiant; ond o herwydd diogi, trachwant, neu ryw ddrygau ereill, yn camddefnyddio y manteision hyny. Maent yn eu defnyddio er eu gwarth, yn hytrach nag er eu clod—er drwg, yn hytrach nag er daioni. Hefyd, dylid sylwi fod rhai nodweddau yn fanteisiol mewn rhai ystyriaethau, ac anfanteisiol mewn ystyriaethau ereill, tuag at gyrhaedd y nod o enwogrwydd mewn defnyddioldeb a mawredd. Er enghraifft, os bydd y dychymyg a'r darfelydd yn nerthol a hedegog, ac heb gyfartaledd o bwyll a barn i'w rheoleiddio, maent yn gosod eu meddiannydd mewn sefyllfa anfanteisiol: os bydd y serchogrwydd a'r caredigrwydd mor nerthol mewn dyn, fel na all ddyweyd, "Na," yn rgwyneb y sawl fyddo yn ei gyfeillach, y mae efe o dan anfantais agos gymmaint a'r draul sydd yn yr eithafoedd arall; sef yr un nas gall fod yn nghwmniaeth neb o'r braidd heb dallu dirmyg a sarhad i'w

Digitized by Google

wyneb. Yr un modd y mae dyn o natur fywiog a gwresog yn agored i boethder tymmerau. Gallem ddilyn y llwybr hwn yn fanwl; ond yr ydym wedi myned yn ddigon pell arno, i atteb ein dyben presennol. Nid oes un dyn gan hyny yn meddu yr holl fanteision naturiol, ac nid oes ond ychydig iawn o ddynion yn gwneyd defnydd priodol o'r manteision a feddant. Yr oedd y nodweddau canlynol yn bur amlwg yn Christmas Evans. (1.) Yr oedd yn un o deimlad cryf. Gellir olrhain y nodwedd hwn mewn llawer o deithi ei fywyd. Crafter arno yn teimlo dros y tlawd. Mae ei holl gofiannwyr yn nodi y gallai unrhyw grwydryn o Wyddel, neu o ryw genedl arall, dynu oddi wrtho y tamaid olaf yn y tŷ o fara. Mynych y byddai ei wraig o herwydd hyn yn gorfod gwneud bara erbyn y pryd nesaf; a phrydiau ereill, byddai yn cuddio peth o'r bara, rhag i'w phriod gael gafael ynddo, a'i ranu yn llwyr, a'u gadael hwy eu hunain heb ddim, a thrwy hyny ei gosod hi dan yr angenrheidrwydd o barotoi mewn byr amser yr hyn y dylai pob gwraig gael tipyn o hamdden i'w wneuthur. Yr oedd ei deimlad bywiog a'i natur dda yn ei gario yn y peth hyn i eithafoedd. Cawn y teimlad yma hefyd yn dangos ei hun o dan effaith ymosodiadau, neu geryddon personol tuag ato. Gwelwyd ef lawer gwaith, pan fyddai wedi dyweyd rhywbeth yn fyrbwyll, yn cael ei alw i gyfrif gan ryw ddyn penderfynol a phwyllog; yr hwn na byddai fel pregethwr yn deilwng i ddattod carai Christmas Evans; ond o dan rym y cerydd, teimlai Christmas Evans nes tywallt dagrau fel plentyn. Nid unwaith, na dwywaith, ond ugeiniau o weithiau, y cymmerodd hyn le. Gellir canfod effaith y teimlad hwn hefyd yn un o'r achosion o'i ymadawiad o Fôn. Dywed ef ei hun nad oedd yr ymosodiad a wnaed arno o duedd i effeithio dim ar ei gymmeriad moesol. Dywed hefyd fod yr amgylchiad wedi dygwydd er ys 34ain o flynyddoedd. Yr oedd yn rhaid fod hyn yn cyfeirio at ryw amser yn fuan iawn ar ol iddo ddyfod i Langefni, canys ni bu ond o fewn ychydig fisoedd i 35 o flyneddoedd yn Môn. Daeth yno Rhagfyr 25ain, 1791, ac ymadawodd yn Awst, 1826. Diammheu, gan hyny, fod pob dyn yn barod i dystio fod ei ymddygiad yn gadael i beth mor ddibwys effeithio ar ei deimladau mor gryf, yn nesau at blentynrwydd. Diau y gallem ganfod gradd helaeth o'r un teimlad yn ei ymadawiad o Gaerffili; ac wedi hyny o Gaerdydd. Er fod y teimlad tanbaid hwn yn anfanteisiol mewn rhai cyssylltiadau i un yn llanw swydd o'r fath ag a lanwai C. Evans, eto, ar y cyfan, mantais fawr oedd meddu y fath deimlad iddo ef. Trwy wresogrwydd a chryfder ei deimlad, yr oedd yr efengyl, yn ei haddewidion, yn ei graslonrwydd, yn ei darpariadau gogoneddus, yn ei doddi ef fel cŵyr o flaen y tân. Trwy y fantais oedd yn ymgodi oddi wrth y nodwedd yma, yr oedd yn gallu taflu ei enaid mawr i'r gwirioneddau teilwng a ddarluniai mor alluog o flaen ei gynnulleidfaoedd. Gwyddai pawb nad ceisio ganddynt deimlo y peth nad oedd efe yn ei deimlo ei hun yr oedd Mr. Evans. Fel hyn, gwelir fod awchlymder y teimlad a feddlannai C. Evans yn achlysur o'i wendidau ar un llaw, ac yn ddefnydd—ie, yn un o brif ddefnyddiau ei fawredd ar y llaw arall. Mae Mr. David Owen (Brutus) yn darlunio gwres y teimlad hwn yn mhregethau Christmas Evans gyda nerth anarferol:—"Yr oedd gan Christmas Evans enaid gwresog iawn. Yr oedd yn wresog yn yr hyn oll a gymmerai mewn llaw. Darllenai iddo ei hun yn gyflym iawn, fel ag yr oedd yn troi dalenau y llyfr yn barhaus. Ysgrifenai gyda y rhwyddineb mwyaf, ac nid ydoedd seibiant i'w ysgrifell; a phan yn pregethu, yr oedd yn myned yn olwyth tanllyd mawr, yn llanw y capel â'i wreichion. Mae y darllenwyr yn adnabod ac wedi clywed pregethwyr sydd yn arferol o wneuthur hwyliau wrth bregethu, neu fel ag y mae rhai yn galw yr hwyl wneuthur hon, 'gwynt carthen.' Nis gall dim fod yn wrthunach na'r hwyl hon; ac y mae yn annichonadwy i bregethwyr wneuthur mwy o wawd o honynt eu hunain nag ysgrechian ac wban yn yr hwyliau gwneuthur hyn; ac mewn gwirionedd, y mae sŵn hogi llawlif yn fwsig melus mewn cyferbyniad i nadau yr hwyliau 'gwynt carthen.' Nis gall dim fod yn ddiflasach na'r ffug-hwyliau hyn, ynghyd â'r tân dyeithrol a gynneuir gan ffyliaid o bregethwyr yn y pulpudau. Ond yr oedd hwyliau rhyfeddol Christmas Evans yn hwyliau naturiol; ac yr oedd ei dân ef yn dân naturiol, ac o'r rhywogaeth iawn. Gwresogid, a thanid ef gan ei bwnc, ac nid gan wynt meginau balchder a hunan-glod. Wedi iddo ef arloesi y ffordd, a symmud y rhwystrau, a gosod sail yr adeilad i lawr, dechreuai arllwys mewn iaith gref fawreddog—dechreuai wresogi, dyrchafai colofnau mwg, ymsaethai gwreichion poethlyd; ac erbyn hyn, yr oedd dan ddylanwadau ei bwnc:—y pwnc yn ei boethi ef, ac yntau yn poethi y pwnc; ac yna, torai y fflamau mawrion allan, a'r llosgnwy tanllyd yn ffonydd a rhaiadrau mawrion, yn dylenwi drwy daleithiau oerion calonau y bobl, nes y toddent yn ngwres y ffwrneisiau y teflid hwynt iddynt gan ymarllwysfa anorchfygol ei ddoniau. Tân ei bwnc ydoedd y tân a ennynai ynddo ef; ac megys ag yr ymaflai efe yn ei bwnc, yr oedd ei bwnc yn ymaflyd ynddo yntau; a'r fflam a ennynid cyd-rhyngddynt a wnelai i'r gwrandawyr gydgyfranogi o'r gwres. Yr oedd rhyw lenyrch neillduol yn y rhai y cymmerai Christmas Evans dân—dim ond gosod traed arnynt; dim ond cyffwrdd â'r hen addewid yn Eden, a gosod y sawdl waedlyd ar ben y ddraig; dim ond cyffwrdd â chariad Duw yn disgyn i waelod pydew llygredigaeth i gyfodi pechadur o'i ddyfnderoedd â rhaff trugaredd; dim ond cyffwrdd â'r Bugail yn myned ar ol y defaid crwydredig a gyfeiliornasant yn yr anialwch, i'w haraelio adref i gorlan Israel; dim ond sengi ar Galfaria, a tharaw tant ar y fuddugoliaeth fawr a gafwyd ar alluoedd y tywyllwch yno; dim ond sefyll wrth ddrws y bedd newydd y bu yr Arglwydd yn cysgu ynddo, ac edrych ar y wawr yn tori bore y trydydd dydd;—yr oedd yn myn'd yn fynydd o dân, a'r dynion a'i gwrandawent yn myn'd yn dân hefyd. O Arglwydd Dduw!—maddeuwch i mi, fy narllenwyr—yr wyf yn cael fy ngorchfygu gan yr adgofion am dano. Mae ei sŵn yn fy nghlustiau yr awrhon! Nefoedd yn yr anialwch ydoedd gwrandaw arno!"

2. Nodwedd naturiol arall oedd *llawenydd a difyrwch* yn C. Evans.—Yr oedd y nodwedd hwn yn ei alluogi i ddifyru pob cwmni, lle y dygwyddai fod, os byddai ef mewn hwyl. Mae rhai dynion sydd o duedd naturiol i fod yn sobr a syml yr olwg arnynt yn barod i gondemnio y rhai sydd yn llawen ac yn ddifyrus, heb ystyried fod hyny mor naturiol i'r rhai sydd o'r duedd hono ag yw symlrwydd i'r lleill. Un tro, pan ar ei daith i sir Benfro, prynodd bâr o fotasau yn Aberystwyth, â thopiau melynion iddynt, yn ol yr arferiad o

Digitized by Google

wisgo yn yr amser hwnw. Ymddangosent yn hardd gyda chlôs o *gersimere.* Wedi iddo gyrhaedd gwaelod sir Aberteifi, cafodd letty iddo ei hun a'i geffyl gyda thyddynwr gwaddolog. Ar ol iddo fyned i'r gwely, clywai y morwynion a'r llanciau yn ymddyddan am ganwyllau cyrph, ac ysbrydion, &c. Ond efe a gysgodd; a phan gyfododd bore dranoeth, yr oedd un o'r morwynion, yr hon nad oedd wedi dygwydd glanhau botasau fel hyny o'r blaen, wedi rhoi iraid dros y botasau, y topiau melynion, a'r cyfan. Buasai peth fel hyn yn ddigon i gyffroi llidiogrwydd llawer un, pe na buasai ond meddwl am y golled. Ond ni fu bydolrwydd, mwy na balchder, erioed yn attalfa i ddifyrwch Christmas Evans. Pan y gwelodd y botasau, dywedai, "Wel, fy ngeneth fach i, ti gefaist afael ar ryw wmbredd o weddillion y canwyllau cyrph i'w rhoi ar y botasau yma, onid do?" Pan oedd yn byw yn sir Fôn, yn llettya ryw noswaith yn agos i Gaergybi, ar ol pregethu yno, yr oedd bachgenyn tua saith mlwydd oed yn cysgu yn agos ato. Oriau cyn y dydd, dyna'r bachgen yn gwaeddi "Mam" gyda'i holl nerth. Deffrôdd hyny C. Evans, a gofynodd iddo, "Beth wnei di â dy fam yn awr, 'machgen i?" "Eisieu bara llaeth," meddai y bachgen. "Pa beth a wneit ti â bara llaeth, pe ceit ti ef?" meddai C. Evans. "Ond ei fwyta fe," ebe y bachgen. "A fwytei di'r peth gwirion hwnw?" ebe C. E. "Gwnawn," ebe'r bachgen, ac yn ail gyffroi i waeddi "Mam." Er mor syml a phlentynaidd y gall peth fel hyn ymddangos i rai, bu yn ddifyrwch i C. Evans am ddyddiau, ac am flyneddoedd ar droion pan gyfarfyddai â'r bachgen hwnw drachefn. Un tro, pan yn nghyfeillach amryw weinidogion mewn tŷ, ar ol bod yn cynnal cyfarfod pregethu, meddyliodd am ryw ddifyrwch ar draul y brodyr oedd yn tori gryn ffugr gyda'u *breast-pin.* Yr oedd yno *poker* bychan tlws; ac efe a'i rhoddes i'r forwyn fach, gan ddyweyd wrthi, "Glanhâ hwn, 'ngeneth i, mor lân ag y gelli di." Daeth yr eneth âg ef yn fuan, a gosododd Mr. Evans ef yn ei *frest;* a chan ei fod ef yn ddyn o gorpholaeth mor fawr, nid oedd y *poker* bach fawr o beth yno. Yna anerchodd y brodyr, gan ddweyd, "'Does bosib, frodyr, na elwir finnau yn Mr. Evans yn awr; yr ydych chwi yn Mr. hyn a Mr. arall, a 'Christmas' y mae pawb yn fy ngalw i yn barhaus." Cafodd y brodyr oedd heb ddim *breast-pin* hwyl neillduol; ac yr oedd rhai o'r lleill yn ddigon o ddynion i fwynhau y difyrwch, yn enwedig wrth weled y rhai o feddyliau bychain yn teimlo. Pan oedd yn ddirwestwr, yr oedd wedi clywed am un brawd yn dadleu yn erbyn dirwest, trwy ddyweyd "fod diod frâg yn gwneyd daioni i'r bustl."—"O! ïe," meddai C. E., "dyna hi: mae 'fe wedi cael gafael yn y dirgelwch. Yr oedd pawb, braidd, wedi rhoi cynnyg o'r blaen:—un yn dyweyd, 'Mae hi'n dda i gysgu'—y llall yn dyweyd, 'Mae hi'n dda i gadw un yn effro'—arall, 'Mae hi'n dda i'r pen—i'r bola—i'r ysgyfaint—i'r afu,' &c.: yr oeddynt wedi dyhysbyddu agos yr holl restr; ond rywfodd, yr oedd y bustl wedi ei ollwng yn anghof. Ond E—— a wnaeth y darganfyddiad mawr;" ac yna, rhoddai bwyslais gwichiadol, fel y gŵyr y rhai oedd yn arfer âg ef, "ïe, mae hi yn dda i'r bustl." Yr oedd hyn mewn cyfeillach gyda'r ysgrifenydd ac eraill. Yr oedd y duedd ddigrifol hon yn nerthol iawn ynddo trwy ei oes; a gallesid cael cannoedd lawer o hanesion bychain o'r fath uchod, pe buasai lle i'w rhoddi. Mae Mr. D. Owen yn nodi hanesyn difyrus am hen weinidog duwiol, yr hwn oedd deiliwr wrth ei grefft, yn amser Buonaparte, yn ofni y Ffrangcod. C. Evans a roddai gynghor tra sobr iddo, gan ei annog "i ymddiried yn yr Arglwydd," gan chwanegu, mai "yr Arglwydd sydd yn llywodraethu breninoedd," &c. Ond poeni Christmas a'r pregethwyr ereill yr oedd yr hen frawd yn barhaus, gan ddyweyd, "Pa beth a wnawn ni, os daw y *French* i'r wlad?" "O! frawd," ebe C. Evans, "pan ddelont yma, y mae yn rhaid i chwi roddi y nodwydd yn mhen y llathen, rhoddi y llawes goch sydd yn dal y nodwyddau ar *front* eich het, dodwch y gwnïadur i hongian wrth eich trwyn, a chymmerwch yr haiarn a'r slibwrt gyda chwi; a phan glywoch fod Boni wedi glanio, chwibanwch yn y gwniadur er codi y wlad; a phan gyfarfyddwch â'r fyddin, curwch y slibwrt â'r haiarn; rhwng gweled y llawes goch a chlywed y sŵn, dychryna Boni a'i fyddin, ac a ffoant ymaith. Dilynwch hwy yn ddiarbed gyda'r nodwydd yn mhen y llathen." Rhoddodd hyn dawelwch ar yr hen frawd hwnw am Buonaparte, a difyrwch i'r lleill. Yr oedd yn parhau yn y digrifwch hwn i'r diwedd. Un o'r dyddiau o fewn cylch wythnos neu ddwy i'w farwolaeth, yr oedd y selni a oddefodd yn Nhredegar ar ol Cymmanfa yr Argoed wedi effeithio er ei deneuo yn fawr; a dywedai wrth ei briod, pan yn gwisgo ei ddillad yn y bore, "Mari, mae Evan Evans, o'r Garn, wedi bod yma neithiwr." "Pa beth sydd yn peri i chwi feddwl hyny?" meddai Mrs. Evans. "Ond yw e' wedi newid coesau â mi? Coesau Evan yw y rhai hyn; ond y mae fy rhai i wedi myned." Gŵyr y rhai a adwaenent yr hen frawd Evan Evans ei fod yn anarferol o deneu. Yr oedd llawer o'i bregethau yn llawn o'r nodwedd hwn; ond rhaid i ni ymattal rhag ymhelaethu, am fod ein terfynau yn gyfyng.

3. Yr oedd ganddo *dymmerau cyffrous a bywiog.* Ni a nodasom eisoes fod y nodweddiad hwn, fel y teimlad, yn cynnwys mantais ac anfantais. Mae perthynas agos rhwng y tymmerau a'r teimladau. Mae yn gofus gan yr ysgrifenydd fod unwaith gyda D. R. Stephen, a James Richard, Pont-y-pridd. "O! na bawn i," ebe'r cyntaf, "yn gallu bod fel chwi—yn bwyllog, doeth, a gochelgar; ni thynwn fy hun i drafferthion a gofidiau, fel yr wyf." "O! ïe," ebe Richard, "chwi a wnewch hanner dwsin o droion effeithiol a daionus, tra y byddaf fi yn tynu cynllun at un peth." Un fel D. R. S. oedd C. Evans; gwnelai rywbeth tra y byddai ereill yn siarad am dano. Un o'r anfanteision yn y nodwedd hon yw, fod ei meddiannydd yn wyllt, ac yn digio yn ebrwydd. Ond y mae ganddo y fantais y gall faddeu mor ebrwydd a hyny; tra y mae y dyn araf, pwyllog, sydd yn ymddangos yn stoicaidd pan ei digir, yn teimlo anhawsdra mawr i faddeu i'r hwn a wnaeth unrhyw beth yn ei erbyn.

4. *Galluoedd meddyliol nerthol a bywiog.* Yr oedd yn ei fachgendod yn dangos nerth cof pan yn cofio pregethau dynion ereill. Yr oedd ei feddyliau, ei grebwyll, a'i ddeall, yn gryfion anarferol, ac yn fywiog dros ben. Yn benaf, yr oedd ei alluoedd yn rhai parod a chynhwylliadol (*suggestive*), yn hytrach na galluoedd adfyfyriol (*reflective*). Gwelai rywbeth mewn amrantiad, braidd, cyn llwyred â phe buasai uwch ei ben am wythnos. Mae y meddyliau yn taraw y rhai o alluoedd cynhwylliadol fel mellt gwibiog a gwyllt; tra y maent yn llewyrchu yn raddol ar yr adfyfyriol, fel codiad haul, yr hwn sydd yn dechreu yn nhoriad y wawr, ac wedi hyny yn



Digitized by Google

ymddangosiad gwanaidd brenin y dydd, yr hwn sydd yn llewyrchu fwy-fwy hyd hanner dydd. Rhoddwn yma rai enghreifftiau o'r galluoedd parod a bywiog a nodwyd. Yr oedd Mr. Evans unwaith yn y Fenni, yn myned i areithio mewn cyfarfod cenadol, pan oedd D. R. Stephen yn yr athrofa. Yr oedd ef a D. R. S. yn gyfeillion er pan oedd yr olaf yn fachgenyn. "Yn awr, Stephen," ebe C. E., "pa beth ydych yn ddarllen." "Yr wyf wedi bod yn darllen areithiau Robert Owen, o Lanark, ar ei gyfundraeth i gynnyrchu y *new moral world*," ebe D. R. S. Yr oedd hyn tua'r amser cyntaf y cynnygiodd y dyn hwnw ei gyfundraeth ffol i'r byd. "Wel," ebe C. E., "rho'wch glywed sut mae e'n dweyd." Yna, dechreuodd D. R. S. fyned dros y pethau yn fanwl, ac yntau fel pe buasai yn yfed y cyfan. Cyn pen awr, yr oeddynt yn y cyfarfod cenadol. Ar ol i C. Evans gael ei alw i areithio, dechreuodd ddyweyd am yr efengyl dan y cymmeriad o Haul y Cyflawnder, yn goleuo y byd pechadurus mewn ystyr achubol a moesol. Llewyrchiad yr Haul hwn yn India trwy Carey, Ward, a Marshman, &c. Wrth drin y dosran moesol o'r pwnc, daeth ar draws Robert Owen a'i gyfundraeth; gan ddyweyd, "rhyw *rushlight* fach yw *New Moral World* Robert Owen; a dim ond rhyw chwa wanaidd o wyntoedd uffern fydd yn ddigon i'w diffodd hi." Yna, aeth yn mlaen i wneyd sylwadau ar ffolineb y trefniant gyda'r fath fanylwch a phe buasai wedi myfyrio y pwnc er ys pythefnos. Mae gan Brutus rai enghreifftiau nodedig o'r gallu hwn yn Mr. Evans. Yr oedd Brutus, pan yr oedd efe yn sir Gaernarfon, a C. Evans yn Môn, yn cyfeillachu yn fynych gyda'u gilydd. Un diwrnod, yr oedd Brutus yn ymddyddan â Catherine Evans (gwraig C. Evans, yr hon oedd yn meddu galluoedd naturiol lled gryfion), a dywedai wrthi, yn mhlith pethau ereill, "fod H. E. o N. gynt, wedi dyfod yn ol o America." Yr oedd myned i America, neu ddyfod oddi yno yn y dyddiau hyny yn beth o gryn bwys. Yr oedd C. Evans yn ddystaw, ac yn edrych ar ryw lyfr ar y pryd. Gyda bod Brutus yn dyweyd felly, dyna fe yn codi ei lygad mawr, ac yn dyweyd, "Daw Huwcyn yn ei ol o uffern, ond iddo gael caniatad gan yr Hollalluog." "Pa beth yw y dwli yna a ddywedi?" ebe Catherine, "oni ddeuai pawb o uffern, pe rhoddid iddynt ganiatad gan yr Hollalluog." Gallesid meddwl fod yr atebiad parod yma o eiddo ei wraig wedi ei orchfygu, a'i wneyd yn ddigon tawel. Ond yr oedd efe mewn moment yn barod, a dywedai, "Na ddeuent, na ddeuent, Cadi fach; canys cadwai y diawliaid hwynt yno. Ond elai Huwcyn yn drech na'r diawliaid; ac efe, o'u rhan hwy, a ddeuai yn bensych ei wala oddi yno." Un tro, pan oedd C. Evans i bregethu mewn Rhylnos, yn agos i Langefni, daeth dyn ieuanc yn ddygwyddiadol heibio. Mae yn dra thebyg mai Brutus ei hun oedd y dyn ieuanc hwn. Rhoddwyd y dyn ieuanc i bregethu o flaen C. Evans, testyn yr hwn oedd, "Byddaf angeu i ti, O! angeu; byddaf dranc i ti, y bedd." Sylwodd y pregethwr, "fod y Seisoneg yn wahanol; sef, 'O! angeu, byddaf yn bläau i ti.'" Pan glywodd Christmas hyn, dangosodd ei gymmeradwyaeth. Pan aeth yntau i ben yr ystôl, ymaflodd yn y drychfeddwl uchod, a thrinodd ef yn dra galluog. Sylwodd ar angeu fel wedi troi allan yn *inoculator*[1] mawr; blwch mawr ar ei gefn, yn llawn *points* o ddefnydd marwoldeb, a'i fod wedi *inoculatio* pob un o blant Adda â'r defnydd hwn, fel y maent oll dan ddedd marwolaeth. "Ond yn awr," meddai, "ar ol iddo ef *inoculatio* holl deulu codwm Eden, wele yr hen *inoculator* hwn yn cael ei daflu yn ol. Aeth Mab y dyn yn farwol i fro marwoldeb; ond yno efe a ddihunodd mewn anfarwoldeb. Cafodd afael yn angeu yn mhorth bedd newydd Ioseph; ac, i'w ryfeddu byth, â defnydd ei anfarwoldeb ei hun, *inoculatiodd* farwoldeb yn angeu; ac yn moreu yr adgyfodiad y gwelir ei hen gelain drengedig yn adfeiliad beddau y saint; a hwythau âg un llais yn bloeddio, megys pe agorai tragwyddoldeb ei safn, 'O! angeu, pa le y mae dy golyn? O! uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth?'" Rhywbeth fel yna oedd rhediad ei sylwadau; a chynnyrchai effaith anghyffredinol. Mae yr ysgrifenydd yn cofio clywed Mr. E. yn pregethu oddi ar *Col.* ii. 14, 15; a chafodd y fraint o'i glywed yr ail waith yn ei phregethu yn Nghymmanfa Caergybi, yn 1837. Yr oedd ganddo amryw sylwadau newydd yno—yn cael eu cyfaddasu at y lle a'r pryd. Un sylw oedd, oddi wrth, "ac a'i cymmerodd hi oddi ar y ffordd," &c. Dywedai, "Ar ol gwneyd y *lôn bôst* (y gair arferol am *turnpike-road* yn Môn) newydd yna, gadawyd yr hen *lôn bôst*, â'i *gates* arni fel o'r blaen. Nid oedd i neb dalu toll wrth ei theithio; ond yn unig iddynt ei gadael, heb fyn'd i drafferth i dynu y clwydi ymaith. Trwy hyny, yr oedd rhai yn cymmeryd y fantais i godi toll ar rai personau, sef y rhai oeddynt yn anwybodus o'r gyfraith. Ond darfu Mr. Stanley, pan ddeallodd ef hyny, dynu y clwydi oddi ar y ffordd, fel na byddai un esgus i gael dimai oddi wrth neb. Felly Mab Duw—nid oedd yn ddigon ganddo 'ddileu yr ysgrifen-law, yr ordeiniadau,' a'i gwneyd yn ddirym a diniwed; ond yr oedd yn rhaid ei chymmeryd hi 'oddi ar y ffordd,' fel na byddai yn rhwystr nac yn ddychryn i un o'r credinwyr gwanaf yn yr eglwys." Gallem ddyfod â lluaws o enghreifftiau chwanegol, er egluro ei alluoedd parod a chyflym i gymmeryd gafael mewn rhywbeth, a'i weithio allan yn arddercheg mewn sydynrwydd, pe bai ein terfynau yn caniatau.

VI. ***Ffaeleddau a gwendidau yn y dyn mawr hwn.***—Ni a nodasom ar y cyntaf fod cymmaint o addysg i'w gael oddi wrth ffaeleddau a gwendidau dynion mawr ag sydd oddi wrth eu pethau rhagorol hwy. Er hyny, anfynych y ceir cyffyrddiad â hyn mewn cofiantau. Mae ofn digio perthynasau a chyfeillion yn attalfa i roddi mewn argraff hyd yn oed y pethau sydd yn wybodus i bawb o honynt. Ond pa ddyn, yn enwedig dynion mawr, sydd heb eu gwendidau? Dangosasom yn barod fod yr un elfenau naturiol yn ddefnyddiau mawredd, ac yn tueddu i arwain i ffaeleddau. Er ein bod yn nodi gwendidau y dyn mawr, C. Evans, nid ydym yn rhoi i fyny i neb, gyda golwg ar barchu ei goffadwriaeth. Dosbarthwn ein nodiadau ar ei ddiffygion a'i wendidau i rai personol, a rhai gweinidogaethol.

***Ffaeleddau personol.***—1af, ***Byrbwylldra.*** Yr oedd hyn yn ymgodi oddi wrth ei dymmerau cyffrous, a bywiogrwydd ei natur. Gŵyr y sylwgar fod y nodweddion hyn yn gyffredin yn dilyn eu gilydd. Dywedir fod "pwyll yn well nag aur;" ac yr ydym wedi profi hyny filoedd o weithiau: rai prydiau wrth weled ei ogoniant yn ei waith, a phrydiau ereill wrth weled ei eisieu. Nid yw

[1] Dechreuodd yr *inoculatio* yn y wlad hon o 1721 i 1730. Yn niwedd y ganrif ddiweddaf y darganfyddodd Edward Jenner, Ysw., frech y fuwch (*cow-pox*). Ond nid oedd mewn bri ac ymarferiad cyffredinol hyd yn mhell yn y ganrif hon. Felly, tebyg na wyddai C. Evans am *vaccination* y pryd hwnw.

Digitized by Google

y Rhoddwr Mawr, yn ei ragluniaeth, yn rhoddi yr holl bethau gwerthfawr i'r un person; ond y mae yn rhoddi rhai o honynt i un, ac ereill i'r lleill. Yr oedd C. Evans yn dra diffygiol yn y peth hwn. Mae genym farn Brutus ar y byrbwylldra hwn yn dra eglur a chryno wrth ddesgrifio y dull y bu Mr. Evans "mewn cynnifer o frwydrau poethion gyda'i frodyr." Dywed:—"Y mae coffadwriaeth yr hen *reverend* wedi, ac yn dyoddef o blegid y cyhuddiad hwn. Yr oedd yn cael ei roddi yn gadeirydd, ac yn cael ei gyfansoddi yn farnwr i benderfynu ymrafaelion; a gwyddai rhai am ei ochr wan, a gweithient yn mlaen ar yr ochr wan hono, nes ei ennill; ac yntau, yn ddiddrwg ac o feddwl didwyll, a roddai, ar ryw achlysuron, bleidlais y cadeirydd o un ochr neu y llall; a'r rhai a ddylanwadodd arno yn y modd hwn ydoedd y rhai a'i cyhuddent fwyaf. Yr oedd mwy o fai wedi bod ar y bobl nag oedd o'i du ef." Diau fod "bai" ar y sawl a ddefnyddient weniaith a ffalsder, er cael y cadeirydd i wyro barn; ond yr oedd diffyg o'r fath mewn cadeirydd mor fyr ei bwyll, fel na ddylasid ei benodi i'r swydd hono rhagor nag unwaith. I'r byrbwylldra hwn y priodolir llawer iawn o'i ofidiau trwy ei oes.

2. *Anwadalwch.* Cymmydog agos i fyrbwylldra ydyw anwadalwch. Maent braidd bob amser yn dilyn eu gilydd; ac ni fyddai ond peth ofer a ffol i ni geisio cau ein llygaid rhag gweled y diffyg hwn yn gryf yn Mr. Evans. Canfyddir ef yn nghyfnewidiadau ei gredo crefyddol. Ar ol dechreu ei yrfa gyda'r Arminiaid yn Llwynrhyd-owen, dyna fe gyda'r Bedyddwyr Calfinaidd yn Aberduar. Wedi hyny, ni a'i cawn ef yn coleddu Sabeliaeth, ar ol myned i sir Fôn. Yn mhen ychydig flyneddoedd, cawn ef dan ddylanwad J. R. Jones, Ramoth, yn gohebu â Mr. A. Mc'Lean, o Ysgotland, gan ddyweyd wrtho ei fod wedi ei ennill i'w ffydd ef, ac yn nodi yn lled fanwl bynciau y ffydd hono.[1] Yn mhen ychydig drachefn, dyna y gyfundraeth hono yn cael ei thaflu gyda'r gwynt—yr hen bregethu hwyliog yn dyfod i mewn, yn lle y dyweyd oeraidd oedd wedi bod—"ffydd y pen" yn rhoddi lle i "ffydd yn y galon"—y mân seremoniau, y pregethu rhagfarnllyd, y condemnio pawb ereill, a'r holl iâ ogleddol a fu agos a rhewi achos y Bedyddwyr trwy Ogledd Cymru, ac a fu yn foddion i'w daflu, yn ol barn Mr. Evans ei hun, hanner can mlynedd yn ei ol, yn cael eu taflu ymaith ar unwaith; Mr. Evans yn gweddïo am fodd i ymwrthod â Sandemaniaeth; yn cael gweledigaeth; yn ffurfio cyfammod â Duw i gadarnhau yr ymwrthodiad; y cyfammod hwnw yn cynnwys 13 o benau:—y maent oll yn adnodau yn mhennod bwysig *anwadalwch* y dyn mawr hwn. Edrychwn arno yn fanylach yn yr ymrysonau oedd yn ei feddwl mewn perthynas i Sandemaniaeth. Ar ol iddo goleddu yr athrawiaeth hono, a defnyddio ei holl ddylanwad i dynu yr eglwysi gydag ef yn y Gogledd, a rhai eglwysi yn y Deheudir, ni a'i cawn ef yn darllen *Appendix* Mr. Fuller yn erbyn Mr. Mc'Lean; yr hyn a droes ei farn ef am ffydd. Wrth ddarllen ar ol hyny atebiad Mc'Lean, ni a'i cawn yn troi yn ei ol. Yna, daeth *Strictures* Fuller ar Sandemaniaeth allan; ac wrth ddarllen y gwaith hwnw, dyma ni yn ei gael eilwaith yr un farn â Fuller. "Sefydlwyd ef wedi hyny yn ei farn, a gwelodd waelodion y ddadl," medd Mr. Morgan; ac y mae ef yn chwanegu, "fod hyn yn dangos ystwythdra efengylaidd ysbryd a chydwybod Mr. Evans, yn rhoddi ffordd i'r gwirionedd." Gofala Mr. Phillips am gyfieithu hwn yn "*evangelical flexibility of his disposition and conscience in the reception of divine truth.*" Os ydyw y gair *anwadalwch*, a ddefnyddiwyd, yn rhy gryf, maddeued fy mrodyr i mi am ei ddefnyddio. Gallem ddilyn y nodweddiad hwn yn Mr. Evans yn mhellach yn mlaen yn ei oes ef. Cawn ef i gryn fesur yn coleddu athrawiaeth Fuller; ar ol hyny yn dadleu dros "iawn cydbwys," yn erbyn y Parch. Thomas Jones; ac ar ol argraffu hyny, a'i wasgaru trwy Gymru, yn cyfaddef ei fai a'i gamsyniad, ac yn galw ei eiriau yn ol. Yr oedd llawer iawn o'r duedd yma yn peri gryn effaith arno yn ei holl gyssylltiadau, ei feddyliau, a'i gyfeillachau, &c.

[1] "*Memoir.*" By D. R. S.

3. Yr oedd yn *uchelgeisiol* (*ambitious*). Rhyw un ffurf o hunanoldeb yw yr uchelgais, neu yr uchelfryd. Ffurf arall o hunanoldeb yw cybydddod. Mae y cybydd am droi pob peth y rhydd efe ei law arno yn gyfoeth iddo ei hun; megys y dywed John Foster yn ei bregeth ar "*Ariangarwch,*" "ei fod yn resyn meddwl nas gall dyn fod yn nghwmni un a fo am gyfoethogi ei hunan am gymmaint ag ychydig fynydau, heb iddo ddechreu myfyrio pa fodd y gall wneyd arian o hono." Ffurf arall o hunanoldeb yw balchder. Yr oedd C. Evans yn hollol rydd oddi wrth y ddau ffurf olaf; ond yr oedd yn ngafael y cyntaf. Gellir dyweyd fod ymgais am glod a chanmoliaeth yn perthyn, i raddau mwy neu lai, i bob dyn, ond fod rhai dynion yn gallu llywodraethu a chuddio y duedd hon yn well nag ereill. Ond nid oedd yr hen frawd enwog, C. Evans, yn gwneyd esgus o guddio dim arni. Yr oedd ei ymgais am lywodraeth ac am ganmoliaeth yn dra amlwg. Cawn y duedd hon yn ymddangos yn gref yn ei awydd am lywodraethu eglwysi Môn, ac yn ei ddull yn llywodraethu. Yr oedd yn Môn 28 o weinidogion a phregethwyr yn llafurio fel cynnorthwywyr i Mr. Evans. Galwai y rhai hyn i gyfrif am eu ffydd—weithiau yn gyhoeddus. A chan fod amryw o honynt, fel y nododd Brutus, yn "gwybod am ei ochr wan ef," yr oedd y dull y terfynid y materion yn ymddibynu i fesur mawr ar y gallu a'r ystwythdra fyddai yn nghydwybodau y personau, i ganiatau clod a llywodraeth i'r hen frawd. Canfyddir hyn hefyd yn ei dramgwydd tuag at yr eglwysi, am beidio dewis y rhai y mynai efe iddynt eu dewis yn weinidogion, a hyny ar ol iddo ef ddarfod â hwy. Mewn perthynas i ymgais Mr. Evans am ganmoliaeth, yr oedd y rhan fwyaf o'i gyfeillion mor adnabyddus o hyn, fel yr oeddynt yn parotoi eu hunain, ac yn cyfaddasu eu hymadroddion i'w glodfori, ac i siarad yn barchus am y rhai a berchid ganddo ef; ac hefyd i gellwair y rhai y byddai C. Evans yn siarad yn ysgafn am danynt, gan y gwyddent y byddai ymddwyn yn wahanol yn sier o greu ystorm, pa un bynag ai yn fwriadol, ai yn ddifwriad y dygwyddai hyny. Gan hyny, er mwyn ymddwyn yn gymmeradwy gan yr hen frawd, byddai yn ofynol i'r cyfeillion wybod ei farn ef am y rhai a ddeuent dan sylw, rhag iddynt droseddu mewn amryfusedd. Mae yr ysgrifenydd yn cofio iddo droseddu yn hollol ddifeddwl yn 1837, pan yn nghyfeillach Mr. Evans yn Nhreffynnon. Troes yr ymddyddan am y diweddar weinidog oedd yn y dref uchod, ag oedd er ys ychydig amser cyn hyny wedi myned at Eglwys Loegr. Yr oeddwn yn meddwl er ys blyneddoedd cyn hyny yn uchel am ddoniau ac athrylith y brawd hwnw, ac yn

golygu hefyd ei fod wedi cael ymosodiadau tra erlidigaethus oddi wrth amryw cyn ei ymadawiad â'r Bedyddwyr. Dywedais fy meddwl ar hyn yn lled lwyr, cyn sylwi fod yr ystorm yn ymgasglu. Ond ar fy ngwaith yn gorphen traethu, troais fy llygad at wyneb mawr Mr. Evans, a gwelais fy mod wedi troseddu; a chefais glywed ychydig o eiriau nerthol yn fy argyhoeddi o'r camwedd. Daeth i'm cof mewn amrantiad yr hyn a fu yn help mawr i mi ymryddhau; a dywedais, "Hyn, Mr. Evans, oedd un peth a barodd i mi ei olygu yn ddyn o chwaeth, a galluoedd uchel; dygwyddodd i mi weled ychydig ddyddiau yn ol hen lythyr a ysgrifenodd pan yn Athrofa Bradford, er ys tua 12 neu 13 o flyneddoedd, at Mr. Jones, o Lerpwl; yn yr hwn yr adroddai yr hwyl oedd y myfyrwyr ac ereill wedi gael y nos cyn hyny, wrth ei glywed ef yn adrodd pregeth Christmas Evans iddynt. Yna yr oedd yn manylu, gan ddyweyd wrth Mr. Jones yn ei lythyr Seisoneg y sylwadau ardderchog a gynnwysai y bregeth." Aethum yn mlaen i adrodd rhai sylwadau oedd yn y bregeth, gan fy mod yn gweled fod hyny yn gwrthweithio y teimladau cyffrous oedd wedi eu cynhyrfu yn Mr. Evans; a gorphenais trwy ddyweyd, "fy mod yn tybied nas gallai dyn heb wir chwaeth, a llawer o alluoedd, wneyd y fath beth." Yna atebodd fi; ond yr oedd erbyn hyn wedi dyfod yn llawer mwy llariaidd; "Ië, mi fûm innau yn meddwl felly am dano; ond fe droes e' yn fy erbyn i wedi hyny." Fe wel y darllenydd, gan hyny, mai ei reol ef i feddwl yn fawr neu yn fach am alluoedd dynion, oedd yn ol y graddau o glod neu gymmeradwyaeth a roddent iddo ef. Yn hyn yr oedd yn hollol blentynaidd. Gwelais rai personau lled benderfynol yn gwrthwynebu Mr. Evans rai prydiau mewn pethau felly; ond caent deimlo nerthoedd ei ddoniau yn lled fuan. Mae yr hanesyn a nodir gan gofianwyr Mr. Evans am y gymmanfa yn Lerpwl, yn 1832, pan oedd y gweinidogion yn dyweyd eu barnau ynghylch sefydliad Mr. Evans yn Nghaernarfon, neu yn Nhreffynnon, yn egluro y mater sydd dan ein sylw. Yr oedd Mr. Evans yn Nghymmanfa Lerpwl yn rhoi yr achos o flaen y gweinidogion oedd yno, er mwyn cael eu barn hwy ynghylch ei sefydliad yn un o'r ddau le uchod. Yr oedd pob un yn dyweyd ei farn yn y modd doethaf, i fod yn gydweddol â theimladau yr hen frawd, yr hwn oedd yn ei chweched flwydd wedi y trigain. Gweinidogion siroedd Dinbych a Fflint a ddangosent awydd mawr am ei gael i Dreffynnon, er mwyn iddo fod yn eu cymmydogaeth hwy; ond rhai Môn ac Arfon a ddadleuent dros Gaernarfon. Dygid yn mlaen amryw resymau perthynol i amgylchiadau y lleoedd, a'i gysuron yntau. Ond daeth un gweinidog yn mlaen, fel pe buasai yn myned i roddi gorpheniad ar yr holl ddadleuon, ac a ddywedai yn ddiniwed, "O! Mr. Evans, y mae eich dawn chwi yn taraw yn well yn Nghaernarfon, nag yn Nhreffynnon o lawer." Yr oedd amcan y brawd hwn fel y lleill, i siarad yn barchus, a defnyddio ychydig o weniaith, ond ei fod mor ddi-lygaid, fel na welai fod tuedd ei ddadl i ddiraddio yr hen frawd fel pregethwr. Mae pawb oedd yno yn debyg o gofio y cyffroad digllawn a feddiannai Mr. Evans wrth ei anerch, wrth ofyn iddo, "O ba le'r wyt ti yn dyfod? Pa bryd y daethost ti allan o'r cogwrn?" &c., tra y byddant byw.

4. *Anochelgarwch.* Cynghorir ni i "fod yn gall fel y sarph." Mae hyn yn cynnwys bod yn ochelgar a gofalus i beidio gwneyd niwed, yn gystal ag i wneyd daioni. Canfyddir anochelgarwch yn gryf yn ei ymddygiad yn gadael i rai annoeth adeiladu cynnifer o gapeli yn Môn, a myned i ddyled mor ddi-drefn, gan ymddiried y buasai Mr. Evans yn casglu y cyfan; a hyny yn peri y fath ofid iddo yntau ar ol hyny o bryd i bryd. Mae Mr. Morgan yn nodi hyn dan y cymmeriad o ddiniweidrwydd [gwel td. 86], pan y dywed, "Buais bron a dyweyd ei fod yn *fetus* ddiniwed, ac mai dyna oedd achlysur y rhan fwyaf o'i ofidiau yn ei holl daith lafurus yn y byd." Yr oedd hyn yn dra anfanteisiol iddo yn mhlith dynion yn meddu dichellion ac amcanion drwg. Ni ofalai ef pwy fyddai yn bresennol pan yn dyweyd ei farn yn rhwydd am bawb, ac am bob peth. Ac yr oedd yn dra mynych angen gochelgarwch yn y farn a goleddai, yn gystal a dull y traddodiad o honi. Gallasem nodi amryw enghreifftiau o hyn; ond cyfyngai hyny eto yn ormodol ar derfynau ein hysgrif.

5. *Plentynrwydd, a diffyg gwroldeb.* Gallesid meddwl, wrth ei weled ambell dro, â'i olwg llewaidd, a'i ddull penderfynol, ei fod yn un a fuasai yn *mynu* cario allan ei gynlluniau er gwaethaf pob gwrthwynebiad, a gwrthwynebwyr; ond ychydig o beth a'i digalonai rai troion, ac a barai iddo wylo fel plentyn. Gwelodd yr ysgrifenydd Mr. Evans yn wylo'r dagrau yn hidl, pan oeddym yn ymddyddan am y ddadl fu rhyngddo a'r Parch. T. Jones, Dinbych; o blegid i Mr. Jones farw heb iddo ef gael hamdden i gymmodi âg ef. Wrth reswm, nis gall neb lai na pharchu teimladau mor dyner yn mhawb; ond pan fyddo hyny yn myned i eithafedd, y mae yn nodwedd anfanteisiol. Dylid sylwi hefyd fod dynion mawr bywiog yn fynych yn agored i'r fath blentynrwydd; er eu bod yn synu miloedd o bobl â'u hathrylith a'u doniau, wrth anerch cynnulleidfaoedd. Canfyddir hefyd y nodweddiad hwn yn ei waith yn rhoddi y fath bwys ar freuddwydion a gweledigaethau, fel y golygai efe hwynt yn fath o arweinyddion oddi wrth Dduw er ei les ef, a lles yr achos. Nid oedd nemawr o symmudiad pwysig yn cymmeryd lle yn holl fywyd Mr. Evans nad oes breuddwydion a gweledigaethau ynglŷn â hwy. Yn yr un dosbarth y tueddir ni i roddi ei "gyfammodau" ef â'r Hollalluog, er fod ei gofianwyr yn eu golygu yn dra gwahanol. Mae y Parch. W. Morgan, D. D., yn nodi iddo wneyd tri "chyfammod neillduol, a gofnodwyd ganddo a fu rhyngddo ef â Duw yn Nghrist yn ei achosion pwysfawr fel Cristion a gweinidog yr efengyl." Mae dau o'r cyfammodau hyn wedi eu hargraphu yn llawn, sef yr un a wnaed ar ol cael ei waredu oddi wrth Sandemaniaeth, a'r un a wnaed ar ei ymadawiad o Gaerffili. Mae y cyntaf yn cynnwys 13 o benau, fel y nodwyd eisoes; a'r llall yn cynnwys 15. Mae ger fy mron ysgrifiyfr o'i eiddo, yn yr hwn y ceir cyfammod arall, heb law y tri a nodir gan Mr. Morgan. Mae y cyfammod hwn wedi ei wneyd gan Mr. Evans, Mawrth 18fed, 1806, yn cynnwys 17 o benau. Mae rhediad y cyfammodau oll yn debyg i'w gilydd, yn gyfansoddedig yn benaf o weddiau byrion. Nid oes genym wrthwynebiad i'r cyfammodau mor bell ag y maent yn weddiau; er ei fod yn beth hollol afreidiol i neb ysgrifenu ei weddiau, yn gymmaint ag mai peth rhyngddo ef a Duw ydynt. Ond pan elo dyn i ddynwared cyfammodau yr Hen Destament, neu i ysgrifenu cyfammod yn cynnwys, "Gwna di Arglwydd fel ar fel, a gwnaf finnau yn gyfatebol," nis gallwn edrych ar y peth ond fel peth

cwbl blentynaidd. Hawdd yw galw peth felly yn ddefosiwn; ond y mae eisieu defnyddio trefn a rheol Feiblaidd yn ein defosiynau, yn enwedig y rhai sydd yn athrawon y bobl. Gwelwn duedd blentynaidd Mr. Evans hefyd yn ei waith yn dychymygu ei fod mewn angen am gyfferiau meddygol, ac yn cymmeryd llawer o honynt heb fawr neu ddim angen. Dywed Brutus, wrth draethu ar ei gryfder corphorol, "Yr oedd ei gorph o gyfansoddiad cadarn; a phe na buasai felly, syrthiasai dan bwys blinder a lludded flynyddoedd lawer cyn iddo ymadael â'r fuchedd bresennol. Pregethodd gannoedd, os nad miloedd o weithiau yn yr awyr, â'i chwys yn byrlymu allan, ac yn rhedeg yn bistylloedd ar hyd ei ruddiau; ac yn y capeli, äi allan o'r pulpud yn ei chwys i'r hin oer; ac ni chaffai hyn nemawr neu ddim argraff arno ef i niweidio ei iechyd braidd un amser. Dywedir i'w lais ddal yn gryf hyd derfyn ei oes; ac yn wyneb y mil myrdd o'r bloeddiadau uchel a rhyfeddaf erioed a roes dyn, y mae yn rhyfedd na buasai ei gydau-ymadrodd yn ddrylliau flynyddoedd cyn i angeu ddistewi ei lafar. Cymmerodd, na ŵyr neb gymmaint, o *opium*, *bark*, pelenau, dyferynau, *patents*, a phob cymmysgedd; a phan welai efe rywun yn cymmeryd cyfferiau meddygol, yr oedd yn rhaid iddo ef gael eu profi; ond y fath ydoedd cryfder ei gyfansoddiad, fel nad oeddynt yn cael mwy o effaith arno ef na phe rhoddasid hwynt yn ngholuddion y mammoth." Cawn yr un gwendid plentynaidd ynddo pan yn meddwl fod arno angen am lawer iawn o ddillad am dano, ac ar ei wely, &c. Dywed yr un awdwr galluog ar hyn, "Yr oedd yn rhyfedd am gynhesrwydd i'w gorph, a rhoddai lawer o ddillad am dano; a phan yn diosg, yr oedd yn ymbilo fel winwyn; plyg ar ol plyg yn cael ei dynu, fel y gallesid meddwl mai o ddillad yr oedd wedi ei gyfansoddi. Nid oedd dim modd agos a chael digon o ddillad i roddi arno yn y gwely; canys gan nad faint a grugid arno, yr oedd fel merch y gele, yn gwaeddi, 'Moes, moes,' yn barhaus." "Yr oedd Christmas Evans unwaith yn cysgu mewn tŷ yn sir Gaernarfon; ac wedi myned i'r gwely, aeth y forwyn i'r ystafell, a gofynodd a oedd digon ar y gwely? 'Craf rywbeth eto,' ebe Christmas Evans. Rhoes yr eneth wrthban arno, ac un drachefn, a thrachefn, a thrachefn, a gofynodd, 'A oes digon arnoch 'rwan?' 'Chwilia am hen bilyn eto,' ebe Christmas Evans. Daeth yr eneth â hen gyfrwy menyw, ac a'i taflodd ar ei gefn yn y gwely. Pilyn y galwant gyfrwy merch neu wraig yn y Gogledd."

*Ffaeleddau a diffygion gweinidogaethol.*—1af, *Diffyg barn.* Pan yn cyfansoddi, yr oedd ei ddychymyg a'i ddarfelydd mor fywiog a hedegog, fel y dywed y Parch. D. R. Stephen, "Yn lle bod Mr. Evans yn hela am ffugrau, yr oedd y ffugrau yn ei hela ef, ac yn ymbentyru arno cyn iddo gael amser i drefnu eu lleoedd priodol." Dywed Mr. Stephen am y diffyg barn ynddo:—"Yr oedd diffygiadau pwysig yn nghyfansoddiad ei feddwl. Nid oedd ganddo y gallu i amgyffred a chymharu holl ranau unrhyw fater neu bwnc—y rhai lleiaf fel y rhai mwyaf. Gan hyny, yr oedd weithiau yn cymmeryd golwg unochrog ar ei bwnc; a phan wedi chwilio a myfyrio yr ochr hyny, tybiai fod y gwaith wedi ei orphen. Yr oedd hyn yn ymgodi mewn rhan oddi wrth gryfder ei ddychymyg, ac mewn rhan oddi wrth ddiffyg diwylliant ei alluoedd i ymresymu. Yr oedd ef yn ddiffygiol yn y gallu naturiol sydd gan rai i ymresymu, yn eu galluogi i wneyd hyny yn well na holl ddysgeidiaeth yr ysgolion. Mewn ymresymiad, ni ddarfu iddo ragori; ac yr oedd diffygion o'r fath hyn yn fynych yn ganfyddadwy yn ei bregethau a'i ysgrifeniadau. Trwy hyny hefyd, gallasai dyn cyfrwys ei ddarbwyllo mewn pethau cyffredin, wrth ddyweyd hanner chwedl wrtho; ond buasai dyweyd yr hanner hyny wrth lawer o ddynion ereill yn eu tynu i ofyn cwestiynau a ddygent allan yr *holl* wirionedd. Gan hyny, yr oedd braidd ei holl wendidau yn ymgodi oddi wrth ddiffyg barn." Pan oedd Mr. Evans ryw dro yn dadleu mewn cyhoeddiad misol ar Galfiniaeth, gyda y Parch. H. Williams, Amlwch, gorphenodd y ddadl trwy roddi ol-ysgrif yn cynnwys, "Gall y darllenydd weled fy holl olygiadau i yn Llythyrau Paul, a gwaith Dr. Owen." Yn hyn, yr oedd Mr. Evans yn cymmeryd yn ganiataol mai fel yr oedd efe yn deall Paul oedd y ffordd iawn; ac hefyd fod Dr. Owen a Paul yn hollol yr un farn â'u gilydd. Ceir y diffyg hwn yn arwain Mr. Evans i gamddefnyddio y ffugrau. Yr oedd hyn i'w ganfod yn y rhan fwyaf o'i bregethau a'i ysgrifau. Ei Alpha a'i Omega ef o barth pregethu oedd, *cynnyrchu effaith.* Mae ei gofianwyr yn rhoi enghraifft nodedig o'i waith yn dadleu, fod cadw y rheolau yn ddibwys mewn cymhariaeth i gynnyrchu effaith. Ceir y diffyg hwn hefyd yn ei arwain i annhrefn yn ei gyfansoddiadau. Yn fynych, cawn benau ei bregethau a'i draethodau yn cynnwys eu gilydd mewn rhan, neu yn gwbl. Gŵyr y sylwgar fod yn well heb godi penau o gwbl, os na fydd y penau yn hollol wahaniaethol. Yn ngweithiau Mr. Evans, cawn ormod o benau; a'r rhai hyny, rai prydiau, fel y ffugrau sydd yn ngweithiau William Cobbett, yn dal dim perthynas â rhaniad neu ddosbarthiad y pwnc.

2. *Diffyg trefniad a llywodraethiad eglwys.* Yr ydym eisoes wedi dangos fod y diffyg hwn yn dilyn Mr. Evans, ac yn achosi gofidiau iddo trwy ei oes, wrth drafod ei ddiffygiadau personol; gan hyny, nid oes achos ymhelaethu arno. Deuwn yn awr at ei ragoriaethau.

VII. *Rhagoriaethau Christmas Evans.*—1af, *Gonestrwydd.* Yr oedd mor ddidwyll fel na chyhuddwyd ef erioed o fod yn perthyn i'r teulu dichellgar, cyfrwys-ddrwg, a gwenieithus a gyfarfyddir yn rhy fynych, hyd yn oed yn mysg crefyddwyr. Yr oedd yr egwyddor hon yn un o brif elfenau cymmeriad C. Evans, ac yn cael ei chario allan yn mhob agwedd a berthyn iddi. Yr oedd yn onest fel cyfaill; a phan fyddai rhywbeth ar ei feddwl yn anghymmeradwyo rhyw un o'i gyfeillion, neu yn erbyn rhyw nodwedd yn ymddygiadau neu gymmeriad cyfaill, nid oedd arno y pryder lleiaf yn traethu ei feddwl yn llawn a didwyll. Ond nid oedd yn un o'r rhai mwyaf craff i ganfod twyll a dichell yn ereill: gan hyny, fel y dywed Brutus, "Gwnaeth dynion dichellgar lawer o ddrwg i C. Evans, a llawer gwaith y rhoddasant ei ddwylaw ef yn y tân i wasanaethu eu hachosion eu hunain, a chael eu dibenion eu hunain oddi amgylch. Ond ar yr un pryd, wrth ystyried diniweidrwydd ei galon, y mae yn rhyfedd na buasai dynion dichell-ddrwg yn cymmeryd mwy o fantais arno; o blegid, yn gymmaint a'i fod mor ddiddrwg ei hun, yr oedd yn anhawdd iawn ganddo feddwl yn ddrwg am ereill." Yr oedd yn onest fel crefyddwr, fel gweddiwr, fel cynghorwr, fel pregethwr, ac yn mhob cyssylltiad crefyddol arall. Yr oedd yn ddidwyll, â'i holl enaid yn y gwaith—"nid fel

Digitized by Google

boddlonwr dynion," ond fel un yn gyfrifol i'w Arglwydd am y cyfan. Cariai allan ei onestrwydd i'r mân bethau yr arferai â hwynt. Unwaith, pan oedd arno eisieu gwerthu ei geffyl, cymmerodd dyn y gwaith hyny mewn llaw drosto. Y mae yn wybyddus ei fod yn arferiad i ddangos rhinweddau a chuddio beiau yr anifeiliaid mewn ffeiriau wrth eu gwerthu. Aeth C. Evans i roi tro i'r ffair, i weled a oedd neb yn prynu y ceffyl. Yr oedd dyn ar y pryd yn cynnyg am dano; a phan welodd ef C. Evans, tybiodd mai ei geffyl ef oedd yr anifail yr oedd ar fedr ei brynu; a gofynodd, "Eich ceffyl chwi yw hwn, Mr. Evans?" "Ië, siwr," ebe C. E. "Pa faint yw ei oed?" ebe y prynwr. "O! arhoswch chwi: rhaid ei fod yn dair ar hugain; canys y mae gyda fi er ys ugain mlynedd," ebe C. E. "A ydyw ef yn sicr ar ei draed?" ebe y dyn. "O! nac ydyw; onid e, ni buaswn yn ymadael âg ef," meddai Mr. E. Ar hyn, dymunodd y *jockey* arno fyned i'r tŷ, gan ddyweyd, "Os byddwch chwi yma, ni werthaf y ceffyl heddyw." Ond er hyny, fe brynodd y dyn uchod y ceffyl, ac am y pris gofynedig, er iddo gael y cymmeriad a roddai Mr. Evans iddo. Yr oedd ei onestrwydd yn amlwg yn ei ddull didderbyn-wyneb o geryddu rhyw rai a feddyliai efe oedd yn camymddwyn. Yr oedd, yn 1821, yn nhŷ Mr. Joseph, Merthyr Tydfil, gyda y Parch. D. Saunders, ac amryw weinidogion ereill. Yr oedd Mr. Saunders wedi bedyddio, ychydig cyn hyny, y Parch. Daniel Davies, D. D., yn awr o Aberafon. Yr oedd ar C. Evans eisieu gweled y "pregethwr dall," i "edrych a oes rhywbeth yn ei ben ef." Anfonwyd am dano, a dyfarnodd C. E. ef, "yn debyg iawn i Andrew Fuller; gan hyny, rhaid fod mawredd ynddo." Gyda bod hyny drosodd, dyna Thomas bach, plentyn Mr. Saunders, yn dyfod i'r ystafell. Yna, galwai amryw o'r brodyr ar Thomas atynt. Ond rhedai Thomas at liniau ei dad. Yna, dywedai Mr. S., yr hwn oedd yn nodedig o siaradus, ac yn arfer dyweyd yr un gair drosodd, a throsodd, yn ei gyfeillach, ac yn ei bregethau, a phob amser,—"Hynod yw tynfa plentyn at ei dad—at ei dad—mae e'n d'od heb ei alw at ei dad, yn hytrach nag atoch chwi sy'n galw arno; mawr yw serch plentyn at ei dad, a mawr yw serch tad at ei blentyn. Wyddoch chwi ddim am y teimlad hwnw, Mr. Evans—fu genych chwi ddim un plentyn erioed." Mr. Evans a ddangosai ei anghymmeradwyaeth yn ei chwyrniad arferol, gan ddyweyd, "Naddo, Saunders—na chwithau ddim ond un." Sylwai rhywun fod Thomas bach yn blentyn bywiog a chyflym. "Ydyw," ebe Mr. S., "mae ganddo bâr o goesau da, ac y mae gan ei dad goesau da hefyd; llawer o beth yw cael coesau cedyrn, iachus, heb fod yn agored i chwyddo. Mae tuedd chwyddo yn eich coesau chwi, Mr. Evans, onid oes?" Gwelwyd fod C. E. yn gwgu; a gwnaed ymgais i droi yr ymddyddan am bethau ereill, megys pregethwyr, *stages* cymmanfa, &c. Oddi wrth hyn, cymmerai Mr. S. achlysur i ddyweyd, "Y pregethwyr sydd yn dyweyd, nid y rhai sydd yn gwaeddi, a glywir oreu mewn cymmanfa. Mae tuedd yn y rhai sydd yn gwaeddi i fyned i wichiad. Yr y'ch chwi, Mr. Evans, yn gwneud hyny pan yn yr hwyl fawr; ond clyw y bobl fi wrth ddyweyd yn mhellach o lawer nag y clywant chwi wrth wichiad." Yr oedd yr ystorm yn ymgasglu; ond ni ddywedodd C. E. ddim y pryd hyn. Daeth rhywun â'r *Magazine* i'r bwrdd, yn cynnwys darlun. Dywedai amryw eu barnau am y darlun; ond troai Saunders at y "dyn dall," a dywedai, "Allwch chwi ddyweyd dim am hwn; gwnawn i lawer drosoch chwi; ond pe gallwn, byddai arnaf ofn rhoi benthyg fy llygaid i chwi, rhag ofn na fyddech yn ddigon gonest i'w rhoi yn ol." Erbyn hyn, dyna argae amynedd C. E. wedi tori; a dywedai, gyda nerth ei ddawn, "Saunders, ewch, a darllenwch Lord Chesterfield, rhag eich c'wilydd, a dysgwch un o'r gwersi blaenaf mewn moesgarwch, sef peidio *insul'o* y cwmpeini, a nodi eu diffygion, &c. Ydych chwi yn meddwl nad yw y brawd yna yn gwybod ei fod yn ddall heb i chwi ddyweyd wrtho, ac edliw iddo ei fod heb lygaid, a bod genych chwi bâr o lygaid gwerth iddo gael eu benthyg? Mae arnaf gywilydd meddwl fy mod yn d'od o sir Aberteifi, wrth feddwl fod creadur mor ddifoes wedi ei fagu yno." "Begio pardwn! begio pardwn!" ebe Saunders. "Yr ydych yn rhy ffol i'ch pardynu," ebe C. E.: "ni wyddoch pan y byddoch yn pechu. Dyweyd wrth un, ''Does dim llygaid genych chwi;' wrth arall, 'Fu'r un plentyn genych chwi;' 'Mae'ch coesau chwi yn chwyddo;' 'Yr y'ch chwi yn gwichian wrth bregethu; ond y fi sy'n dyweyd!'" Gyda hyny, cyfryngodd Dr. Jenkins, a chafwyd tawelwch.

Yn mhen rhyw ysbaid, teimlai Mr. Evans duedd i gael tori ei wallt. Ar ol i'r eilliwr fyned trwy y gwaith hwnw, cafwyd *rum* i'w rwbio yn mhen yr hen frawd, rhag ofn iddo gael anwyd. Efe ei hun oedd wedi cael y cyfarwyddyd ryw dro at wneyd felly. Mr. Saunders, er mwyn gwneyd iawn am y troseddau o'r blaen, mae'n debyg, a fynai rwbio y *rum* yn mhen Mr. Evans â'i law ei hun. Fel yr oedd efe yn cyflawni ei swydd, rhoddai C. E. gyfarwyddiadau iddo, i rwbio yr arleisiau, &c. "O! na," meddai Mr. S., "ar yr iâd y mae eisieu rhwbio—yn yr iâd y mae perygl, yr iâd sy'n agored i anwyd—ie, siwr, yr iâd sy'n wan—peth *odd* yw'r iâd." Gyda hyny, dyna Christmas Evans yn tori ar ei druth dwl ef, gan ddyweyd, "Yn enw pob synwyr, pa beth sydd ar eich iâd chwi? Eich iâd chwi sy'n wan, ac yn *odd*—yn dyweyd yr un gair ddwsin o weithiau; a meddwl eich bod yn *witty* wrth *insulto* dynion, a dyweyd, ''Does dim llygaid genych chwi—'Does dim plentyn genych chwi—Mae'r dropsi yn eich coesau chwi,' a phethau cyffelyb." Gyda hyny, dyna'r brodyr ereill yn cyduno i geisio cael tawelwch; ac felly y bu. Dywedai y Dr. Davies yr hanesyn uchod wrthyf dros ugain mlynedd yn ol. Y mae yn dangos mor ddidderbyn-wyneb ydoedd yr hen frawd, ac nad oedd yn un i ddal digofaint, ond arllwysai ei holl feddwl yn onest ar unwaith. Ni chafodd Mr. Saunders ei ystyried yn ddyn meddylgar fel bardd nac fel pregethwr. Clywais C. Evans yn adrodd yn ddifyrus, gan ei gymharu fel pregethwr i arwerthwr (*auctioneer*); o herwydd ei fod yn dal cymmaint ar eiriau, ac yn dyweyd yr un pethau drosodd, a throsodd. "Fel y bydd hwnw," meddai, "yn gwerthu, ac yn dyweyd, 'Tri-swllt-ar-ugain—punt a thri swllt—*twenty three shillings*—wedi'i gynnyg;' yn agos fel yna y mae Saunders yn pregethu."

2. Yr oedd yn un *maddeugar*. Os byddai rhai yn troseddu yn ei erbyn, nid oedd raid iddynt ond prin grybwyll am ei faddeuant; yr oedd yn barod iddynt. "O!" meddai yr hen frawd, "peidiwch â son am dano, gadewch iddo gael ei gladdu; digon tebyg fod bai arnaf finnau; bydded y cwbl yn ddystaw rhyngom ni." Y mae Mr. Morgan yn nodi hanesyn sydd yn dangos, nid yn unig ei fod yn faddeugar, ond hefyd yn rhydd iawn oddi

wrth ragfarn enwadol, ac ystyried yr amser yr oedd efe yn mlodau ei ddyddiau yn Môn. Dygid cyhuddiad pwysig yn erbyn pregethwr perthynol i enwad arall; a phe gallesid profi y cyhuddiad, buasai ei gosp yn drom iawn. Yr oedd y person hwnw wedi bod yn dadleu yn y cyhoeddiadau misol ar bynciau crefyddol yn erbyn Mr. Evans; ac wrth wneyd hyny, yn ol ei dyb ef, wedi defnyddio dull ac iaith annhêg a diystyrllyd. Pan glywodd Mr. E. am sefyllfa ei wrthwynebydd, a natur y cyhuddiad, &c., teimlodd yn fawr drosto, a gweddïodd lawer mewn taerineb am i Dduw ei ddiogelu o afaelion ei elynion, a gelynion Ymneillduaeth, y rhai oeddynt yn ei erlid. Pan ddaeth y newydd am y prawf yn y llys, ac am ryddhâd y person, ffrydiodd ei ddagrau allan, a chwympodd ar ei liniau i ddiolch i Dduw yn wresog am ei ofal rhagluniaethol am ei anwyl blentyn, ac am ei achos yn mhlith yr Ymneillduwyr. Gan ein bod wedi ymhelaethu peth ar dynerwch ei deimladau, yr hyn sydd yn arwain at faddeugarwch, afreidiol yw chwanegu enghreifftiau ar y pen hwn.

3. Yr oedd yn un *llafurus* nodedig. Hyn, gyda mawredd ei ddychymyg, a nerth ei feddwl a'i gorph, fu yn achosion o'r safle uchel a gymmerodd fel pregethwr yn Nghymru. Yr oedd yn darllen, yn myfyrio, ac yn cyfansoddi bob amser, pan na byddai yn cysgu, yn gweddïo, yn teithio, neu yn pregethu. A byddai hyd yn oed wrth deithio yn darllen, neu yn myfyrio, y rhan fynychaf. Mae Brutus yn sylwi ar ei lafur yn rhagorol:—"Sylwyd yn barod i raddau ar yr anfanteision y llafuriodd efe danynt, ac iddo fyned yn ddyn mawr er eu maint a'u hamldra, fel ag y bydd ei enw yn fri ac yn anrhydedd i genedl y Cymry dros yr oesoedd sydd eto yn ol. Cymmaint o Hebraeg, Groeg, a Lladinaeg a wyddai, gyda Seisoneg hefyd—nid eu gwlawio fel manna o'r nefoedd a wnaed arno; o blegid cymmaint o wybodaeth ag a gyrhaeddodd efe ynddynt, efe a'i cyrhaeddodd trwy ddiwydrwydd yn unig. Yn ofer y siaredir ar y mater hwn: ni allasai neb dreulio oes yn fwy diwyd. Nid oedd i'w weled yn segur unrhyw amser; ac yr oedd wedi dwyn ei hun i'r fath arferiad o ddiwydrwydd, fel ag yr oedd yn ail natur iddo. Pan yn rhodio yn ei ardd, yn y fynwent yn mhlith y beddau, neu ar y ffordd fawr, neu ar lwybrau y meusydd, yr oedd ei feddwl mewn gweithrediad; ac yn fynych, byddai yn cael ei lyncu i'r fath raddau gan bwnc ei fyfyrdod, fel mai braidd y gwyddai pa un ai dydd ai nos, haf ai gauaf, ydoedd. Yr oedd wrthi yn ddiwyd, o pan gyfodai o'i wely hyd pan elai iddo yn yr hwyr. Pan yn teithio ar ei geffyl o fan i fan, byddai yn fynych yn darllen; ond pan na byddai yn darllen, byddai ei feddwl fel y môr yn dygyfor; ac wedi iddo ddisgyn oddi ar ei geffyl, a myned i dŷ, ac eistedd i lawr, ei orchwyl cyntaf yn gyffredin fyddai ysgrifenu ei fyfyrdodau. Yr oedd ganddo unwaith geffyl o'r enw Lemon; ac yr oedd ar ei gefn un prydnawn yn myned at ei gyhoeddiad, ac yn darllen rhyw lyfr. Yr oedd dwfr ar ochr y ffordd, a throdd Lemon ato i'w ddisychedu ei hun; ac wedi iddo dori ei syched, dechreuodd bori y gwelltglas a dyfai o'r dwfr, ac aeth yn mlaen o gam i gam hyd nes yr oedd hyd ei dor yn y dwfr, a chliniau Christmas Evans yn ei fotasau yn y dwfr hefyd, ac yntau yn ymborthi ar gynnwysiad y llyfr; a Lemon, yn ol ei archwaeth yntau, yn ymborthi ar welltglas y llyn; ac yn yr agwedd hon y cafodd rhyw ddyn ef ag ydoedd yn myned i'r cyfarfod, a'r hwn hefyd a'i dilynodd. Cyfansoddodd, digon tebyg, filoedd o bregethau, ac ysgrifenodd braidd bob un o honynt yn lled lawn; ac y mae yn debygol na adawodd neb yn Nghymru fwy o bregethau ar ei ol na Christmas Evans. Ceid ef fynychaf yn ei gartref yn ysgrifenu neu yn darllen. Pob gwybodaeth ag ydoedd i ryw raddau yn dwyn perthynas â gwybodaeth y Beibl, neu mewn rhyw ffordd â gwybodaeth dduwinyddol, fe fynai Christmas Evans afael mewn rhyw gyfran o honi. Yr oedd ganddo ryw gymmaint o wybodaeth yn yr ieithoedd Hebraeg, Groeg, a Lladin; gwybodaeth o'r iaith Seisonig; ac am y Gymraeg, gwyddai am nertholdeb ei geiriau, a pha fodd i roddi min arnynt; a chyrhaeddodd hyn o ddim, ond trwy egni, llafur, a diwydrwydd. Yr oedd ei wybodaeth hanesyddol yn rhagorol; ac olrheiniai yn rhigl hanesion ymherodraethau a brenhiniaethau Caldea, yr Aipht, Groeg, a Rhufain. Yr oedd yn gydnabyddus â hanesion Asia, Affrica, Ewrop, ac America. Yr oedd yn hyddysg iawn mewn hanesyddiaeth eglwysig, ynghyd â braidd bob hanesyddiaeth; ond duwinyddiaeth oedd flaenaf ganddo. Yn y palas duwinyddol y cartrefai efe; ar hyd llwybrau a rhodfeydd yr ardd dduwinyddol y rhodiai efe wrth fodd ei galon; ar y dolau duwinyddol yr ymhyfrydai ei enaid ef. Gwyddai ryw gymmaint am seryddiaeth, daearyddiaeth, morwriaeth, a'r celfyddydau; ond duwinyddiaeth ydoedd ei brif bwnc." Y mae tystiolaeth dyn ag oedd mor gyfarwydd â Mr. Evans, ac â'i arferion yn Môn, a hyny am lawer iawn o flyneddoedd, yn dra gwerthfawr. Y mae genym hefyd brofion nad oedd wedi llacio ei afael mewn llafur yn ei hen ddyddiau. Yr oedd yn 60 mlwydd oed yn myned i Gaerffili. Mae yn awr ger fy mron lyfr trwchus, yn cynnwys rhai cannoedd o bregethau a gyfansoddodd yn Nghaerffili, ac fe allai fod rhagor yn bod gan rywrai ereill, yn perthyn i'r un cyfnod. Nid rhyw esgyrn pregethau ydynt chwaith, ond rhai yn cynnwys sylwadau gafaelgar, ac yn fynych yn gwneud i ddynion bychain, fel nyni, ddyweyd wrth eu darllen, "Onid yw yn hynod na buaswn innau wedi gweled y drychfeddwl yna o'r blaen?" Dilynwn ef yn ei lafur yn Nghaerdydd, yn parotoi ei bregethau i'r wasg, y rhai a argraffwyd yn Nghaerfyrddin tra yr oedd Mr. Evans yn fyw; a'r rhai a argraffwyd yn Nghaerdydd ar ol ei farwolaeth, a llawer ereill na welsant oleu dydd, ond o bulpudau ac esgynloriau cymmanfaoedd, hyd y dydd hwn. Gwelwn ef drachefn yn parotoi ei ddarlithiau ar y Dadguddiad yn Nghaernarfon, pan yn agos i 70 mlwydd o'i oedran. Hefyd, yn anfon rhai darnau i'r cyhoeddiadau; yn cyhoeddi llyfryn ar "Ddirwest;" heb law teithio a phregethu mewn cymmanfaoedd yn y De a'r Gogledd. Chwanegwn hyny at ei lafur beunyddiol yn Nghaernarfon, a'i deithiau casglyddol diweddaf. Diau y gallasai efe ddyweyd yn deilwng, pe buasai yn cymharu ei hun â'i holl gyfoedion gweinidogaethol, fel y dywedai Paul, "Mi a lafuriais yn helaethach na hwynt oll." Yr oedd Mr. E. yn mesur duwioldeb pregethwr wrth ei duedd i lafurio. Y mae ei gynghor i'r Parch. D. R. S. ar y pen hwn yn werthfawr:—"Fy machgen anwyl! Yr wyf fi yn hen ddyn, a chwithau yn awr yn dechreu eich gweinidogaeth. Gadewch i mi wasgu un peth ar eich meddwl a fydd o bwys i chwi. Yr holl weinidogion a adnabum i, ac a ddaethant yn ddiddefnydd, neu i warth, *dynion segur oeddynt.* Nid oes arnaf fawr o ofn am foesau a duwioldeb

Digitized by Google

gweinidog ieuanc pan ddealiaf ei fod yn alluog ac yn ewyllysgar i ymaflyd yn ei waith yn iawn, i eistedd i lawr gyda'i lyfr, &c. Dyna Mr. ——, am yr hwn yr oeddym yn ymddyddan: y mae yn ddyn o dymmerau annedwydd ac am lawer o flyneddoedd wedi bod yn ymyraeth â phob math o ddadleuon a rhwygiadau crefyddol. Diau y buasai wedi myned yn ddrylliau, ac wedi disgyn i warth, pe buasai yn ddyn segur. Ond ei lafur a'i cadwodd. Glynodd wrth ei lyfr, ac wrth ei waith; a hyny a'i diogelodd. Mae dyn diog yn agored i demtasiwn. 'Does dim eisieu i'r demtasiwn fyn'd i chwilio am dano ef; y mae efe yn nghongl yr heol, yn aros ac yn disgwyl am dani hi. Y mae hyn yn fwy pwysig i weinidog yr efengyl, pan yr ystyriom ei sefyllfa, ei ddyledswyddau, ei dueddiadau neillduol, a'i chwantau, &c. Cofiwch hyn, a glynwch wrth eich llyfr."

4. *Haelioni* hefyd oedd un o ragoriaethau Mr. Evans. Dynion enwog yw S. Morley, Ysw., Syr S. M. Peto, &c.—yn rhoi eu miloedd o bunnoedd bob blwyddyn at achosion crefyddol ac elusenol; ond un enwog hefyd oedd y "wraig weddw," a roddodd y "ddwy hatling." Yr oedd ei haelioni hi mor fawr fel y tynodd sylw ein Iachawdwr. Felly y gellir dyweyd am C. Evans, pan gofiom na bu ei gyflog yn fwy na 30*p*., tra bu yn treulio 37 o flyneddoedd yn y Gogledd. Traethasom yn barod i fesur ar y pwnc sydd yn awr dan ein sylw, wrth sôn am C. E. fel dyn o deimlad. Pan feddyliom ei fod yn rhoi punt yn y flwyddyn at y Feibl Gymdeithas, deg swllt at Athrofa y Fenni, &c., allan o gyflog yn cynnwys dim rhagor na 11*s*. 6½*c*. yr wythnos (sef 30*p*. yn y flwyddyn), ac yn rhoi gyda hyny, fwyd, dillad, arian, a phethau ereill i dlodion, a hyny am lawer o flyneddoedd yn sir Fôn, lle y treuliodd ei oes weinidogaethol mewn ystyr, nid oes eisieu chwanegu er darbwyllo y darllenydd i gredu fod Mr. Evans yn haelionus.

5. *Duwioldeb* hefyd oedd yn nodweddiad o'r fath gryfaf ynddo. Fe allai y bydd rhywun yn barod i feddwl fod duwioldeb yn cynnwys y rhagoriaethau ereill yr ydym wedi eu nodi; sef, gonestrwydd, maddeugarwch, llafur, a haelfrydedd. Ond yn hyn yr ydym yn gwahaniaethu. Y mae dynion heb fod yn hollol ddidwyll yn ddynion duwiol; y mae dynion heb feddu cymmaint o faddeugarwch ag a ddylent yn dduwiol; a dynion dilafur yn ddynion duwiol, ni a hyderwn; a dynion yn llawn o ystranciau, fel Ionah, yn dduwiol. Ni chlywais, ac ni welais ddim erioed yn cael ei roddi yn erbyn cymmeriad moesol Mr. Evans, ond yn unig rhyw wendidau fel y rhai a nodwyd yn yr ysgrif hon. Yr oedd ei dduwioldeb mawr i'w ganfod yn ei waith yn gweddio ar Dduw yn y dirgel. Dywedir ei fod yn fynych yn ymneillduo i'w ystafell i weddi gynnifer a deuddeg gwaith yn y dydd. Yr oedd yn gydnabyddus o'r temtasiynau a'r pechodau oeddynt barod i'w amgylchu ef; ac yr oedd yn hollol adnabyddus o'r unig ffordd i'w gorchfygu. Y mae amryw weddïau yma ac acw yn ei ysgriflyfrau, y rhai ydynt wedi eu hysgrifenu, y mae yn amlwg, heb un golwg i neb allu eu darllen ond efe ei hun; canys y maent yn dra anhawdd eu deall rai prydiau. Yr oedd ei brofiad crefyddol hefyd yn arwydd o'i dduwioldeb. Mae profiad tra dymunol yn rhedeg trwy ei holl weithiau; ac hefyd yn ei gyflawniadau cyhoeddus.

6. *Ei gymhwysderau pregethwrol.* Dyma lle yr oedd prif ragoroldeb gwrthddrych ein cofiant. Gellir dywedyd yr un peth am agos holl bregethwyr enwog Cymru a Lloegr. Ni buasai sôn am Williams o'r Wern, mwy na rhyw bregethwr arall, oni buasai ei alluoedd i dynu allan "egwyddorion" (fel y dywedai efe) y gwirionedd, ac anfon ei appeliadau at y teimlad i'r byw. Ni buasai son am John Elias, mwy na rhyw ddynion da ereill oeddynt yn ei amgylchynu yn ei enwad parchus yntau, oni bai ei ddoniau areithyddol, y ffrydiau o hyawdledd fyddai yn disgyn oddi wrtho fel rhaiadrau nerthol ar y gynnulleidfa. Felly hefyd, ni buasai Christmas Evans yn fwy na llawer ereill o'r Bedyddwyr, na chymmaint a rhai oedd yn fyw yn ei oes ef, oni bai nerthoedd a chyflymdra ei ddychymyg, ei ymroad, a galluoedd creedigol ei feddwl. "Yr oedd ei feddwl," meddai D. R. S., "yn gallu esgor mewn ychydig fynydau ar yr hyn a fuasai yn ddigon o *fortune* i lawer un am ei oes." Nid oedd gan Mr. Evans flas ar y sawl a fuasai yn dal yr un drychfeddwl, ac yn ei droi yn ol a blaen, ac yn ei ddangos yn y ffordd hyn, a'r ffordd arall; ond y sawl a fuasai yn ei daflu o flaen y bobl, ac yn gadael rhyngddynt hwy ag ef. Dywedodd ei farn unwaith wrth yr ysgrifenydd yn ddystaw am bregethwr lled boblogaidd oedd yn pregethu y pryd hyny:—"Welwch chwi, fe elai Mr. ——— dros y môr âg *un idea*." Dro arall, pan oedd brawd lled enwog a phoblogaidd yn pregethu, ac yn dal ar yr un peth, heb symmud llawer o'r un man gyda'i ddrychfeddyliau, fel y nodwyd, dywedodd Mr. Evans yn nghlust yr ysgrifenydd, "Wyddoch chwi i ba beth yr wyf yn ei gyffelybu?" "Na wn," ebe finnau. "I un yn eistedd wrth ben y ford i *garvio*, ac yn tori *slice* da o gig; ac ar ol hyny, yn ei dori, a'i dori, a'i falu, nes ydyw o'r diwedd mor faned a bwyd cyw iâr." Nid oedd perygl i neb gael ei flino o herwydd cael ei gadw gyda'r un peth tra yn gwrandaw Mr. Evans. Nid oedd ganddo ef gymhwysderau i ymdroi gyda phethau bychain mewn amgylchiadau ereill, yn gystal a phregethu neu areithio. Unwaith, yr oedd dyn pur gyfrifol yn aelod yn un o'r canghenau oedd dan ei ofal gweinidogaethol ef, ac yr oedd y brawd yn gwisgo *topee* ar ei dalcen. Dyma rai o'r hen frodyr yn dyfod yn ddefosiynol iawn at Mr. Evans i'w annog i argyhoeddi y brawd o'r balchder oedd yn ei gynhyrfu i wisgo ei wallt fel hyny. "A ydych chwi yn meddwl," meddai Mr. E., "nad oes genyf fi ddim i'w wneyd ond ymladd â'r diawl am dusw o wellt." Felly y terfynodd y ddisgyblaeth oedd wedi blino cymmaint ar yr hen frodyr duwiol. Dyma oedd un o'r anfanteision mawr oedd iddo lynu wrth Sandemaniaeth; sef, mai pethau bychain oedd y prif elfenau gwahaniaethol yr oeddynt yn ymranu o'u plegid. Yr oedd eisieu meddwl i ymaflyd yn y pethau bychain fel eiddo J. R. Jones:—fe allai y gallem ei alw yn feddwl *mathematical*, neu feddwl *microscopic*. Yr oedd J. R. Jones, ar ol ymranu oddi wrth y Bedyddwyr, a ffurfio enwad bychan ei hun, yn Nghymru; wedi hyny, yn ymranu eilwaith oddi wrth Robert Morgan a'i blaid. Pe byddem oll yn myned ar yr egwyddor hono fel enwadau, byddem yn fil o enwadau cyn hir, wrth chwyddo pethau bychain yn bethau mawrion. Y mae D. R. S. yn dywedyd am C. Evans yn Nghynnadledd Cymmanfa Trosnant, ar ol iddo ddyfod i Gaerffili, a phawb o'r ieuenctyd yn dysgwyl ei glywed ef yn gwneyd rhyw wrhydri mawr yno; ond ni ddywedodd ragor nag un gair, pan oedd un arall yn siarad ac yn dyweyd nas gwyddai am air Cymraeg am *libel*; "Cabl-draeth," ebe Mr. Evans. Dyna'r oll a gafodd y rhai oedd

Digitized by Google

yn disgwyl cymmaint wrtho. Lled debyg ydoedd yn Nghymmanfa y Bontfaen, y flwyddyn ar ol hyny:—dim ond un frawddeg a gafwyd ganddo yn y gynnadledd yno. Y mae yr ysgrifenydd yn cofio amgylchiad cyffelyb yn Nghymmanfa Dinbych. Yr oedd Mr. E. yn y gynnadledd, yn dyweyd dim pan oedd yr holl bethau yn cael eu dadleu a'u trin yn ol a blaen; a gofynodd un brawd, fe allai er mwyn tynu Mr. Evans i ddyweyd rhywbeth, yn hytrach nag er mwyn cael goleuni ar bwnc bach o'r fath hyny,—"Pa fodd fyddai oreu i ni, Mr. Evans, er dangos ein meddyliau ar y mater dan sylw?" Buasai llawer un yn falch o'r cyfle, ac yn codi ar ei draed, ac yn areithio am ddeg neu bymtheng mynyd. Ond ni ddarfu Mr. Evans ddyweyd na gwneyd dim ond codi ei law dde. Nid pethau bychain oedd yn myn'd â'i fryd ef, ond pethau mawrion. Yr ydym wedi traethu yn barod am alluoedd naturiol Mr. E.; ond yn awr, y mae y galluoedd hyny genym *yn eu gwaith*, mewn yni a nerth, a hyny yn cydgyfarfod â bywiogrwydd ei dymmer, a'i alluoedd i draddodi pregeth. Y mae yr holl bethau hyn yn cydgyfarfod i wneyd cymhwysderau pregethwrol Mr. E. Y mae yr enwog Brutus wedi rhoddi i ni well desgrifiad o C. E. yn y golygiad hwn na neb o'r cofianwyr; a hyny, fe allai, am ei fod yn cofio y pethau, wedi eu teimlo, ac yn dyfynu o'i gof: ac hefyd, o herwydd fod ei chwaeth yn tueddu mor gryf at farddoniaeth mewn rhyddiaith, fel yr oedd C. Evans. Nis gallaf ar y pen hwn, gan hyny, wneyd yn well na dyfynu y darnau canlynol o'i *Chrismasia:* —"Yr ysbryd aflan yn myned allan o ddyn, ac yn rhodio ar hyd lleoedd sychion."—Sylwa Mr. Evans:—"Mi welaf yr ysbryd aflan yn ymgyfodi fel draig asgellog a chynffonog, ac yn tynu cylchoedd yn yr awyr er ysbio am le i gyfanneddu. Wedi taflu ei olygon tanllyd ar ryw gymmydogaeth, gwelai fachgen ieuanc yn mlodau ei ddyddiau, ac yn nghrytder ei nerth, yn eistedd ar ymyl trwmbal ei gert, yn myned i ymofyn calch. 'Dacw fe!' ebe yr hen ddraig uffernol, 'y mae ei wythïenau yn llawn gwaed, a'i esgyrn yn llawn mêr. Mi daflaf wreichion y danllwyth fawr i'w fynwes; gosodaf ei holl nwydau ar dân; arweiniaf ef o ddrwg i waeth, nes y cyflawno bob pechod yn un chwant; mi a'i gwnaf ef yn llofrudd, ac a suddaf ei enaid byth dan dònau tanllyd a berwedig y gerwyn fawr.' Gyda hyn, mi a'i gwelaf yn disgyn yn holl angerddoldeb ei natur; ond pan yn ymyl y llanc, clywai y ddraig ef yn canu:—

> 'Pan ydoedd Iesu ar y gro's,
> Aeth hanner dydd fel hanner nos;
> Pan ddaeth pechadur caeth yn rhydd,
> Aeth hanner nos fel hanner dydd.'

'Rhy sych ydyw y lle hwn i mi,' meddai y ddraig, ac ymaith â hi."

"Yn nesaf," ebai ef, "mi a'i gwelaf yn hofran yn yr awyr yr ail waith, gan wibdremu am le i orphwys. Ac ar weirglodd feillionog, yn ymyl afon loyw ei dyfroedd, gwelai eneth ddeunaw oed yn mhlith y gwartheg, ac yn cyfodi ambell flodeuyn prydferth yma ac acw. 'Wele hi!' meddai Appolion lawn dinystr a chelanedd, 'mi a wenwynaf ei meddwl; mi a äf â hi yn mhell ar gyfeiliorn o lwybrau y gelyn Hollalluog: gwnaf hi yn butain; ac yn y pen draw, mi a'i taflaf hi dros y dibyn, nes suddo byth yn y berw digofus tragwyddol.' Prysurodd i ddisgyn: a phan nesaodd at yr eneth yr oedd yn canu yr emyn ganlynol, gyda llais a doddai y creigiau, ac mewn hwyl nefolaidd a phêr lesmeiriol:—

> 'Daw dydd i'r cyfiawn, trannoeth teg,
> Daw im' ychwaneg ystyn;
> Daw im' o'r bedd godiad i fyw;
> Deheulaw Duw a'm derbyn.'

'Rhy sych ydyw y lle hwn i mi!' meddai y ddraig, ac ymaith â hi.'"

"O'r weirglodd, efe a esgynodd fel *balloon* mawr, ac mewn cynddeiriogrwydd adnewyddol, gan chwythu mwg a thân allan o'i safn, a bygwth dinystr a damnedigaeth i'r holl greadigaeth. 'Mi a fynaf le i breswylio ac i gyfanneddu ynddo,' meddai, 'er gwaethaf arfaeth, cyfammod, a gras;' a gwelai hen wraig wrth ddrws bwthyn yn nyddu â'r droell fach. 'A!' ebe ef, 'mi a'i gwelaf; y mae yn aeddfed i'r danchwa fawr; mi a roddaf iddi brofiad o aelwydydd eirias-boeth y wâl ddamniol, ac a'i dyrnaf yn y ffwrnes ofnadwy.' Gyda hyn, wele ef yn disgyn ar fargoldy bwthyn, a chlywai yr hen wraig â llais crynedig, ond mewn rhyw deimladau nefolaidd, yn dywedyd,—'Y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symmudant, ond fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd, sydd yn trugarhau wrthyt.' 'Rhy sych ydyw y lle hwn i mi!' meddai y ddraig, ac ymaith â hi. Gallesid meddwl y buasai somedigaeth yr ysbryd aflan, yn ei yru i wangalondid: ond nid felly; yr oedd yn benderfynol i fynu lle i breswylio, ac ymgododd drachefn, er nodi rhyw fan y gallai lettya ynddo, a chael ei roesawu. Gwelai dŷ tafarn mewn pentref bychan, a dywedai, 'Acw y preswyliaf, a phawb a ddelo dros ei drothwy a arweiniaf i gaethiwed, gan eu sicrhau mewn cyffion tragwyddol.' Disgynodd fel mellten—aeth i'r tŷ, ac i'r parlwr; ond yno yr oedd pac o weinidogion y Testament Newydd yn siarad am fuddugoliaeth fawr Calfaria, ac yn newid cyhoeddiadau â'u gilydd. Nid arosodd yr ysbryd aflan ddim yn eu sŵn; ond ymaith âg ef ar ffrwst, gan udan allan, 'Rhy sych ydyw y lle hwn i mi, mi ddychwelaf i'm tŷ o'r lle y daethum allan!'"

Y mae y sylwadau uchod yn hollol wreiddiol, a gwir farddonol. Meddylier hefyd am ei sylw nerthol ar gais y gŵr goludog yn y trueni, yn gofyn am i Abraham ddanfon "Lazarus i drochi pen ei fys mewn dwfr, &c." Ebe Mr. Evans,

"Dichon y tybia Difas, pan y ceisiai beth cyn lleied a defnyn o ddwfr oer wrth ben bys, i ddiffodd byd o dân, y buasai cael hyny o ariandŷ trugaredd yn dechreu agor cloion y gagendor, ac yn gychwyniad ar fasnach trugaredd rhwng nef ac uffern; canys buasai yr hwn a roddes ddyferyn o ddwfr yn abl i roddi môr, a'r hwn a agorodd y gagendor annringadwy i ollwng pen bys, a'i ddefnyn trwyddi, y buasai gobaith i weled miloedd o gerbydau iechydwriaeth yn dyfod trwyddi er lleshad i wlad y poenau; ond nacawyd defnyn o ddwfr i ddihuno neu i greu dysgwyliad daioni yno."

Hawdd iawn fyddai lluosogi enghreifftiau, gannoedd lawer, o rai na argraffwyd erioed, yn gystal a'r rhai a argraffwyd. Diau fod llawer o bethau fel y rhai uchod wedi myned ar goll, oddi eithr eu bod yn aros yn nghof rhywrai. Heb law hyn, mae ysgriflyfrau yr hen frawd enwog ac anwyl wedi chwalu yma ac acw, yn feddiannau personol i hwn a'r llall. Cafodd yr ysgrifenydd fenthyca oddi ar amryw bersonau i wneud trysorfa fechan o'r ysgrifau tuag at barotoi hyn o erthygl. Ni wnawn eto ond dyfynu y darluniad

Digitized by Google

iad milwrol a roddir gan Brutus, o bregeth C. Evans ar fuddugoliaeth Crist ar y groes.

"Darluniad o'r prynedigaeth trwy allu. Nid cytuno âg uffern a wnaeth Iesu, ond ei gorchfygu. Nid talu i'r cryf-arfog y draul a aeth arno i adgyweirio y tŷ iddo ei hun. O! nag e: eithr dyfod arno a'i orchfygu, a gosod bwyeill gras i dori i lawr yr holl waith newydd, a'i holl arfogaeth ef, yn yr hon yr oedd yn ymddiried—sigo pen y diafol, ond anrhydeddu y gyfraith—croeshoelio pechod, ond mawrhau y ddeddf—llyncu angeu, ond boddloni cyfiawnder â haeddedigaethau, gwaed, ac ufudd-dod hyd angeu y groes. Yr oedd yn prynu o ddwylaw cyfiawnder Duw; ond trwy orthrech a chryfder y mae yn gwaredu oddi wrth alluoedd y tri brenin a oresgynasant y byd yn nghwymp y dyn cyntaf. Dywedir pedwar peth am y prynedigaeth trwy allu hefyd yn y testyn hwn. Yn gyntaf, i'r Iesu ysbeilio y tywysogaethau; yr hyn sydd yn profi eu bod yno yn un wersyllfa ofnadwy, wedi ymgasglu gyda thywysog y byd hwn i Galfaria i ryfel â'r Ail Adda. Y mae *ysbeilio* yn gryfach gair na phe dywedasid iddo wneyd iddynt encilio, a ffoi: dilynodd hwy yn ngherbyd y groes, megys trwy eu gwersyll, nes cyrhaedd trwyddynt o'r pen bwy gilydd: agorodd ddrysau gwersyllfa greulonach na'r hen Bastile yn Ffrainc, a charcharau Algiers; cafodd afael mewn llawer o feibion a merched y gaethglud yno mewn cadwyni, a gollyngodd hwy yn rhyddion ar y groes, ond y cwbl bron yn anweledig i'r byd isod yma. 2. Efe "a'u harddangosodd hwynt." Ystyr y gair, medd rhai, ydyw, Efe a wnaeth ymddangosiad o honynt. Daliodd hen sarff Eden, a chafodd hi i gawell haiarn y groes, â'i phen wedi ei ysigo dan ei sawdl ef, gan ei dangos ar y groes i deulu y byd nefol, a holl wlad distryw. Ei ystyr, medd ereill, yw, Efe a'u diosgodd—i ddangos ei bod wedi myned mor galed ar fyddin uffern yn y prydnawn ar y groes, nad oedd cymmaint o oddefiad iddynt ag i'r lleng yn Gadarenia, i ffoi i genfaint o foch, na chario neb o'u harfau rhyfel gyda hwynt o'r maes; ond bod yn rhaid iddynt, yn ddiammodol, roi eu hunain i fyny yn garcharorion rhyfel i Fab Mair, yr Ail Adda. Er i Pharoah waeddi, "Ffown!" ond yr oedd yn rhy ddiweddar: ffoi a hoffai y cythreuliaid tua thri o'r gloch brydnawn, ond ffoi nis gallent; canys iaith buddugoliaeth y groes oedd, Lloriwch eich harfau wrth droed y groes. Gythreuliaid! Lloriwch eich arfau o flaen hoelion dur a choron ddrain, i ddifwyno balchder eich gogoniant. A llefaru mewn iaith filwraidd yn ol y testyn, nid oedd yn mysg holl fyddin uffern, ond ychydig fynydau ar ol y gair "Gorphenwyd," ddim un yn ei wisg filwraidd, ond fel pe buasent oll wedi ymwisgo mewn gwarth—y capan rhyfel wedi syrthio oddi ar eu penau; bwclau eu gwregysau wedi ymddattod; eu cleddyfau a'u gwaewffyn yn syrthio o'u dwylaw, fel pe tarawsid hwy gan y parlys mud. Pob unicorn wedi colli corn ei dalcen; teirw Basan yn benfoelion; llewod wedi colli eu crafangau a'u dannedd; a'r ci mawr, a holl gethern-gŵn uffern mor fud a chŵn yr Aipht pan gychwynodd Israel allan. 3. Dywedir iddo gaffael y tir uchaf yn y diwedd arnynt; canys dywedir, "arnynt, arni hi," sef y groes. Disgynodd Iesu i barthau isaf y ddaiar, pan oedd byddinoedd Satan, pechod, ac angeu, a'r bedd, yn meddiannu uchelfanau y wlad; ond ymladdodd ei ffordd trwy y dyfnderau, nes cyrhaedd yr uchelleoedd, a throi ei elynion i lawr i'r cymmydd duon. Synodd y prophwyd wrth ei weled yn camu mor wisgi o ddyfnderau tir Edom i fyny i ben gelltydd buddugoliaeth, a gofynodd, 'Pwy yw hwn yn dyfod o Edom? A ydyw yn fyw?' Ydyw yn fyw ei wala; ac y mae yn dyfod i fyny o Bozrah! 'Pa fath olwg sydd arno?' 'Y mae yn goch ei ddillad!' 'O! fe'i clwyfwyd yn farwol?' Do: ond fe ddaeth yn fyw. Nid ei waed ei hun, ond eu gwaed hwy, sydd ar ei ddillad. 'A ydyw ddim wedi gwanychu yn yr ymdrech?' Nac ydyw: y mae yn hardd yn y wisg goch, ac y mae 'yn ymdaith yn amlder ei rym,' heb golli y mymryn lleiaf arno. 4. Dywedir am brynedigaeth trwy allu o ddwylaw y tri brenin, ydyw iddo orfoleddu arnynt hwy ar y groes (*triumphed over them*). Cafodd oruchafiaeth ogoneddus ar holl byrth uffern. Geiriau yn cyfeirio at oruchafiaethau milwraidd Groeg a Rhufain, ac Israel yn dwyn pen Goliath i Gaersalem, a merched Israel yn canu a dawnsio. Yr oedd yr oruchafiaeth hon bron i gyd yn anweledig i ddynion, ond bod rhyw fellt yn gweithio o'r cwmwl tywyll—gogwyddo ei ben y mae ef—ac amdoi yn nillad y bedd. A wyddoch pwy yw hwna a amdöir? Na wyddai nemawr o'r byd isod mai Crëwr y nef oedd wedi disgyn at ddynion. A wyddoch chwi beth a wnaeth efe heddyw? Na wyddom.


"Gwnaeth gongcwest ar Galfaria fryn,
Am dano canodd myrdd cyn hyn;
Fe faeddwyd uffern faith i gyd:
Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
Fe wnaeth y ddwyblaid ddig yn un.,
A gwaed Iachawdwr mawr y byd."

"Ni chychwynodd neb o oruchafiaethau y Cesariaid ac Alexandriaid y byd yn eu marwolaeth, ac o'u beddau. Pryd hyny y gwanychent hwy fel dynion ereill. Dacw Julius Cesar yn ei amdo fel dyn arall; ond dyma fab Mair yn ennill buddugoliaeth wrth farw, ac yn ei chychwyn allan o'r bedd yn mhen tri diwrnod. Buddugoliaeth a goruchafiaeth yn lledaenu a myned fwyfwy; y mae yn gryfach yn mhen tri diwrnod ar lan y bedd nag oedd wrth y groes; a deg niwrnod a deugain wedi hyny yr oedd wedi cyrhaedd o byrth Ierusalem, trwy byrth y ddinas nefol yn nhragwyddoldeb, ac ugain mil o gerbydau nefol, gyda llawen floedd a sain udgorn, yn hercyd Mab y dyn yn ol i dŷ ei Dad. Goruchafiaeth na anghofir ydyw hon; y mae holl fwäog oruchafiaethau penaf cedyrn byd wedi colli pob lliw a llun o'u mawredd, ond yn unig yn nhudalenau hanesyddiaeth: ond mae goruchafiaeth yr Iesu yn cerdded y byd yn awr, a'i bywyd heb ddarfod; ac y mae yn cael ei ysgrifenu â bys y Duw byw yn nghalonau miloedd lawer. Mae merched Israel wedi tewi er ys talm i ganu wrth weled Dafydd, â phen Goliath yn ei law: mae y bywyd, y canu, a'r dawnsio wedi darfod, ond mae Iesu yn fyw yn awr, a sigodd ben y sarff, ac mae cwmpeini newydd o ferched Salem a meibion Seion yn cael eu hysbrydoli i fyned ar gân waredigol yn mlaen trwy y nef a'r ddaiar, gan ddywedyd, 'Iddo ef, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd yn ei waed ei hun.' Pan gano yr udgorn olaf, pan ymddangoso Iesu ar y cwmwl, pan y llosgo y ddaiar, pan elo y nefoedd heibio fel llyfr, pan gyfodo y meirw, pan yr agorir llyfrau y farn, fe fydd buddugoliaeth Iesu yn ei gogoniant."

Gobeithio y byddwn ni a Mr. Evans yn cael cydlawenhau "pan yr agorir llyfrau y farn," yn y canlyniad o'r fuddugoliaeth fawr uchod.

**EWIG**, [אילה, ἐλαφος] ydyw cymhar neu fenyw y carw. Y mae yn greadur hoffus, o ffurf-

Digitized by Google


EWROP.
EUROPE.
Milltiroedd Prydeinig
British Miles
0 100 200 300 400 500
Kilometres
200 400 600 800 1000
Principal Railways
Steamship Routes
Limit of Navigation
Dwyreiniol o Greenwich 40
Longitude East 50 of Greenwich
50
60
70
80
Nova Zembla
Burroughs St.
Waygatz I.
Kolguev I.
C. Buskoi
Tundra
G. of Obi
Obdorsk
Berezov
R. Obi
R. Irtish
Tobolsk
Tobol R.
Ishim R.
Siberian
SIBERIA
Mezen
Mezen R.
Archangel
Pinega R.
N. Dvina R.
Yarensk
Ustiug
Vologda
Kostroma
Jaroslav
Kinejma
Vladimir
Moscow
Tula
Jeletz
Tambov
Saratov
Voronej
Pavlovsk
Kamishin
Tzaritzin
Sarepta
R. Volga
Astrakhan
Samara
Stavropol
Simbirsk
Kasan
Kama R.
Viatka
Perm
Ekaterinburg
Orenburg
Ural R.
Uralsk
Orskaia
R. Irghiz
Emba R.
Salt Swamp
Guriev
Dead G.
CASPIAN SEA
Sea of Aral
Khiva
Karaboghaz Gulf
C. Apsheron
Baku
Derbend
Krasnovodsk
Astrabad
Teheran
Tabriz
Resht
L. Van
Erzerum
Kars
Erivan
R. Aras
Tiflis
Poti
Batum
Trebizond
Sinope
Sivas
Diarbekir
Mosul
R. Tigris
R. Euphrates
Aleppo
Iskanderun
Tripoli
Beirut
Damascus
Acre
Jerusalem
Dead Sea
Larnaka
Nicosia
Sea of Azov
Azov
Rostov
Taganrog
Mariupol
Kertch Str.
Kaffa
Livadia
Kuban R.
Circassia
Caucasus Mount.
Georgievsk
Mozdok
Kizlar
Stavropol
Manitch R.
R. Don
R. Donetz
N. Tcherkask
Tchirskaya
Kozlov
Penza
Syzran
Nikolsk
Slobodsk
Solikamsk
Tcherdyn
Sarapul
Ufa
Ufa R.
Zlatoust
Ural Mountains
Timan Mounts.
PERSIA
ARMENIA
TURKEY IN ASIA
SYRIA
BLACK SEA
RUSSIA
40
50
30

# EWROP.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | | | |
|---|---|---|---|
| B., *neu* Bay ... | Machwy. | Mt., *neu* Mountain ... | Mynydd. |
| Bank, Banks ... | Bryn, Bryniau. | Mts., *neu* Mountains... | Mynyddoedd. |
| C., *neu* Cape ... | Penrhyn. | New ... ... | Newydd. |
| Castle ... ... | Castell. | North, Northern ... | Gogledd, Gogleddol. |
| Coast ... ... | Arfordir. | Ocean ... ... | Cefnfor. |
| Ch., *neu* Channel ... | Sianel. | P., *neu* Port ... | Porth. |
| East, Eastern ... | Dwyrain, Dwyreiniol. | Pen., Pena., Peninsula | Gorynys. |
| English Miles ... | Milldiroedd Saesnig. | Plateau ... ... | Gwastadedd uchel. |
| Equator .. ... | Cyhydedd. | Pt., *neu* Point ... | Pwynt. |
| Firth, *neu* Frith ... | Morgainge. | R., *neu* River ... | Afon. |
| Ft., *neu* Fort ... | Caerfa, Amddiffynfa. | Ruins of ... ... | Adfeilion. |
| G. of, *neu* Gulf of .. | Llyngclyn. | S., *neu* Sound ... | Culfor. |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Machwy | St., *neu* Saint ... | Sant. |
| Hd., *neu* Head ... | Penrhyn. | Sea, *neu* Sea of ... | Môr. |
| Hills ... ... | Bryniau. | Shoal, Shoals ... | Bas-le, Bas-leoedd. |
| I., Isle, *neu* Island ... | Ynys. | South, Southern ... | Deheu, Deheuol. |
| Is., Isles, *neu* Islands... | Ynysoedd. | St., *neu* Strs., Straits... | Culfor, Culforoedd. |
| L., *neu* Lake ... | Llyn. | Town ... ... | Tref. |
| Land ... ... | Tir. | Tropic ... ... | Trofan. |
| Loch, *neu* Lough ... | Llwch:—llyn agored i'r [môr. | West, Western ... | Gorllewin, Gorllewinol. |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Africa ... ... | Affrica. | Iceland ... ... | Ynys yr Iâ. |
| Asia Minor ... | Asia Leiaf. | Italy ... ... | Yr Ital. |
| Athens ... ... | Athen. | London ... ... | Llundain. |
| Austria ... ... | Awstria. | Rome ... ... | Rhufain. |
| British Isles ... | Ynysoedd Prydeinig. | Russia .. ... | Rwssia. |
| Constantinople ... | Caer Cystenyn. | Scotland ... ... | Ysgotland. |
| Egypt ... ... | Yr Aipht. | Spain ... ... | Yspaen. |
| England ... ... | Lloegr. | The Alps... ... | Yr Alpau. |
| France ... ... | Ffrainge. | The Hague ... | Yr Hague. |
| Germany... ... | Yr Almaen. | Turkey ... ... | Twrci. |
| Greece ... ... | Groeg. | Turkey in Asia ... | Twrci yn Asia. |
| Ireland ... ... | Yr Iwerddon. | Wales ... ... | Cymru. |

Y MAE mynyddoedd a bwrdd-diroedd Scandinavia yn gorwedd yn nghymmydogaeth y cefnfor sydd yn golchi glenydd gogledd-orllewinol Ewrop, lle y mae eu hwyneb gorllewinol yn ymgodi yn serth uwch law y dwfr. O ithfaen y mae y mynyddoedd hyn wedi eu ffurfio yn benaf, ac amrywiant mewn uchder o 2,000 hyd yn 8,000 o droedfeddi. Ymestynant o'r gogledd-ogledd-ddwyrain i'r de-de-orllewin, a gogwyddant yn raddol i Fôr y Baltic—oddi wrth yr hwn y mae gwastadeddau mawrion Rwssia yn ymestyn hyd at fynyddoedd yr Ural; pa rai sydd yn gadwen ithfaenol arall, ac yn ffurfio y terfyn rhwng Ewrop ac Asia.

Y mae mynyddoedd Germany, y rhai nid ydynt ond o uchder cymmedrol, yn rhedeg yn drumiau trwy ganol y wlad; ac oddi yno y maent yn gogwyddo yn raddol tua'r gogledd, nes myned yn ddyffryn isel, yr hwn nid ydyw ond ychydig uwch law gwyneb y môr.


Ymestyna Mynyddoedd yr Alpau o'r dwyrain i'r gorllewin am tua naw cant o filldiroedd. Ffurfiant amryw gadwyni, ac y mae y rhai uchaf o honynt yn ymledu i amryw gyfeiriadau o gymmydogaeth Mynydd St. Gothard, yr hwn sydd yn ffurfio math o gnewyllyn i'r holl gyfundrefn fynyddig hon. O'r amryw ganghenau o'r gyfundrefn, y rhai uchaf ydynt yr Alpau Penninaidd a Berneaidd, sydd ar y naill law a'r llall yn amgau dyffryn y Rhone Uchaf. I'r gogledd o'r Alpau Berneaidd y mae bwrdd-dir o uchder cymmedrol, yn ymestyn o droed y Jura, ac yn cynnwys dyffrynoedd llynau Switzerland. Yn yr Alpau y mae y bryniau uchaf yn Ewrop; ac ymddengys mai ithfaen sydd yn gwneyd i fyny ran fawr o honynt. Y mae creigiau calch hefyd yn nghadwen y Jura. Ond y mae yn rhaid eu bod wedi eu codi i'w safle bresennol ar ol cyfnod yr ail ffurfiadau, y rhai sydd yn gwneyd i fyny yr haenau sydd ar eu hystlysau.

Math o ganghenau o'r Alpau ydyw yr Appennines—y rhai sydd yn ymestyn trwy orynys Italy. Gwneir hwynt i fyny yn benaf o greigiau calch yr ail ffurfiad, ac y maent o uchder cymmedrol.

Y mae y gadwen o fynyddoedd a elwir y Pyrenees yn ymestyn o Fôr y Canoldir yn y dwyrain i lenydd Cefnfor y Werydd yn y gorllewin, am tua 560 o filldiroedd. I'r deheu a'r gorllewin o honynt y mae bwrdd-dir Canolbarth Yspaen; yr hwn sydd yn ffurfio y rhan mewnol o'r gorynys, mor bell i'r de a chadwen y Sierra Morena. Yr ochr arall i'r gadwen hono y mae dyffryn ffrwythlawn Guadalquivir (gwastadedd Andalusia), rhwng yr hwn a llinell arforawl Môr y Canoldir y mae cyfran o gadwen y Sierra Nevada. Y mae copäoedd rhai o'r mynyddoedd hyn yn llawn mor uchel a brigau y Pyrenees.

Y mae mynyddoedd Ffrainge, y rhai a gyssylltir yn benaf ar y dwyrain â chyfundrefn mynyddoedd y Jura, yn ymestyn o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin, ac o uchder cymmedrol. Y mae mynyddoedd yr Auvergne, yn nghanolbarth y wlad, yn llosg-fynyddoedd; a cheir yno olion amryw o hen losg-eneuau hyd heddyw.

Digitized by Google




Digitized by Google

# EWROP.

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAPIAU.

| | | | |
|---|---|---|---|
| B., *neu* Bay | Machwy. | Mt., *neu* Mountain | Mynydd. |
| Bank, Banks | Bryn, Bryniau. | Mts., *neu* Mountains | Mynyddoedd. |
| C., *neu* Cape | Penrhyn. | New | Newydd. |
| Castle | Castell. | North, Northern | Gogledd, [illegible] |
| Coast | Arfordir. | Ocean | Cefnfor. |
| Ch., *neu* Channel | Sianel. | P., *neu* Port | Porth. |
| East, Eastern | Dwyrain, Dwyreiniol. | Pen., Pena., Peninsula | [illegible] |
| English Miles | Milldiroedd Saesnig. | Plateau | [illegible] |
| Equator | Cyhydedd. | Pt., *neu* Point | [illegible] |
| Firth, *neu* Frith | Morgainge. | R., *neu* River | [illegible] |
| Ft., *neu* Fort | Caerfa, Amddiffynfa. | Ruins of | [illegible] |
| G. of, *neu* Gulf of | Llyngclyn. | S., *neu* Sound | [illegible] |
| H., Havn., *neu* Haven | Porthladd, *neu* Machwy | St., *neu* Saint | [illegible] |
| Hd., *neu* Head | Penrhyn. | Sea, *neu* Sea of | [illegible] |
| Hills | Bryniau. | Shoal, Shoals | [illegible] |
| I., Isle, *neu* Island | Ynys. | South, Southern | [illegible] |
| Is., Isles, *neu* Islands | Ynysoedd. | St., *neu* Str., [illegible] | [illegible] |
| L., *neu* Lake | Llyn. | Town | [illegible] |
| Land | Tir. | Tropic | [illegible] |
| Loch, *neu* Lough | Llwch:—llyn agored i'r [môr. | West, Western | [illegible] |

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU [illegible]

| | | | |
|---|---|---|---|
| Africa | Affrica. | Iceland | [illegible] |
| Asia Minor | Asia Leiaf. | Italy | [illegible] |
| Athens | Athen. | London | [illegible] |
| Austria | Awstria. | Rome | [illegible] |
| British Isles | Ynysoedd Prydeinig. | Russia | [illegible] |
| Constantinople | Caer Cystenyn. | Scotland | [illegible] |
| Egypt | Yr Aipht. | Spain | [illegible] |
| England | Lloegr. | [illegible] | [illegible] |
| France | Ffraingc. | [illegible] | [illegible] |
| Germany | Yr Almaen. | [illegible] | [illegible] |
| Greece | Groeg. | [illegible] | [illegible] |
| Ireland | Yr Iwerddon. | [illegible] | [illegible] |

Y MAE mynyddoedd a bwrdd-diroedd Scandinavia [illegible] yn golchi glenydd gogledd-orllewinol Ewrop [illegible] uwch law y dwfr. O ithfaen y mae y mynyddoedd [illegible] mewn uchder o 2,000 hyd yn 8,000 o droedfeddi [illegible] de-de-orllewin, a gogwyddant yn raddol [illegible] mawrion Rwssia yn ymestyn hyd at fynyddoedd [illegible] ac yn ffurfio y terfyn rhwng Ewrop ac Asia.

Y mae mynyddoedd Germany, y rhai [illegible] trwy ganol y wlad; ac oddi yno y maent [illegible] ddyffryn isel, yr hwn nid ydyw ond [illegible]

Ymestyna Mynyddoedd yr Alpau [illegible] Ffurfiant amryw gadwyni, ac y mae [illegible] mydogaeth Mynydd St. Gothard, [illegible] fynyddig hon. O'r amryw ganghenau [illegible] a Berneaidd, sydd ar y naill law [illegible] Berneaidd y mae bwrdd-dir o [illegible] dyffrynoedd llynau Switzerland [illegible] mai ithfaen sydd yn gwneyd [illegible] y Jura. Ond y mae yn rhai [illegible] y rhai sydd yn gwneyd i fy[illegible]

Math o ganghenau o'r Al[illegible] Gwneir hwynt i fyny yn [illegible]

Y mae y gadwen o fyn[illegible] lenydd Cefnfor y Werydd [illegible] honynt y mae bwrdd-dir [illegible] mor bell i'r de [illegible] lawn Guad[illegible] cyfran o [illegible] a brig[illegible]

Y m[illegible] oedd [illegible] myn[illegible]

Ymestyna cadwen y Mynyddoedd Carpathiaidd am tua phum cant o filldiroedd o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain, ac o derfynau gogleddol dyffryn y Danube hyd Saxony.

Gorchuddir Twrci a gwlad Groeg â llawer o fynyddoedd. Er nad ydynt yn drumiau rheolaidd, gellir dywedyd fod eu rhediad cyffredinol o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain. Perthyna iddynt rai o fynyddoedd enwocaf yr hynafiaid—megys y Pindus, Helicon, a Parnassus, &c.

Yn Mhrydain, y mae y Mynyddoedd Grampiaidd (*Grampian Hills*) yn ymestyn trwy ganolbarth a gorllewinbarth Ysgotland; a cheir mynyddoedd yn Cumberland yn ngogledd-orllewin Lloegr, a llawer o fynyddoedd a bryniau hefyd o fewn y Dywysogaeth. Y mae mynyddoedd Cymru a Cumberland o'r ffurfiad cyntaf; ac y mae ffurfiadau y Mynyddoedd Grampiaidd yn benaf o ithfaen a chreigiau crisialaidd eraill.


Gyda golwg ar fwrdd-diroedd Ewrop, y mae eu huchder canolog (*mean height*) yn debyg fel y canlyn:—Bwrdd-dir canolbarth Yspaen yn 2,000 o droedfeddi; bwrdd-dir Germany Ddeheuol (Bavaria, &c.), yn 1,600; a bwrdd-dir y rhan ddeheuol o Norway yn 4,000 o droedfeddi uwch law arwyneb y môr.

Yn gymmaint a bod y grefydd Gristionogol yn blodeuo yn Ewrop yn fwy nag mewn un rhan arall o'r byd, ni a ddodwn yma amcan-gyfrifon diweddar am rifedi y rhai sydd yn proffesu y crefyddau a arddelir yn ngwahanol barthau y byd:—

| | |
|---|---|
| Y *Protestaniaid*—y rhai sydd yn preswylio yn ngogledd-orllewin Ewrop, America Ogleddol, ac Awstralia, &c. ... ... ... ... | 70,000,000 |
| Y *Pabyddion, ac Eglwys Groeg*—y rhai a breswyliant yn neheubarth, dwyreinbarth, a gogledd-ddwyrain Ewrop, ac yn Syria, Armenia, ac America Ogleddol a Deheuol ... ... ... ... | 217,000,000 |
| Yr *Iuddewon*—y rhai sydd i'w cael yn mhob gwlad, o'r bron, ar wyneb y ddaear ... ... ... ... ... ... ... | 5,000,000 |
| Y *Mahometiaid*—y rhai sydd yn trigo yn Twrci yn Ewrop, ac Asia, Arabia, Persia, Affghanistan, India, a Gogledd Affrica, &c. ... ... | 120,000,000 |
| Y *Brahminiaid*—y rhai sydd yn byw yn India ... ... ... | 130,000,000 |
| Y *Buddhistiaid, a dilynwyr Confucius*—cartref pa rai ydyw China, Mongolia, Japan, Ceylon, ac ynysoedd yr Ynysfor Malayaidd... ... ... | 500,000,000 |
| Yn ddiweddaf oll—y *Paganiaid* ... ... ... ... | 100,000,000 |
| | 1,142,000,000 |

Digitized by Google

iad dillynaidd. Cyfeirir ato yn aml yn llyfrau barddonol y Beibl fel arwyddlun o gyflymder a bywiogrwydd (*Gen.* xlix. 21; 2 *Sam.* xxii. 34); o dynerwch a hynawsedd (*Diar.* v. 19); o wyleidd-dra benywaidd (*Can.* ii. 7; iii. 5); o hiraeth dwys (*Salm.* xlii 1); ac o serch mam (*Ier.* xiv. 5). Mae yn nodedig am fod yn sicr ar ei droed wrth lamu yn mysg y creigiau; a chyfeiria Dafydd a Habacuc at y nodwedd yma sydd yn perthyn iddo: "Gosod y mae efe fy nhraed fel traed ewigod, ac ar fy uchelfanau y'm sefydla;" *Salm.* xviii. 33; *Hab.* iii. 19. Cyfeirir at ei yswildod a'i bellder yn byw o drigfanau dynion yn *Iob.* xxxix. 1; ac at ei ofnusrwydd, o herwydd yr hyn y mae yn bwrw ei lydnod ar swn taranau: gwel *Salm.* xxix. 9. Yn y cyfieithiad presennol, y mae'r adnod ddiweddaf a nodwyd fel y canlyn: "Llef yr Arglwydd a wna i'r ewigod lydnu, ac a ddynoetha y coedydd." Y mae'r cyfieithiad hwn wedi peri cryn ddadl yn mhlith dysgedigion, y rhai sydd yn gwahaniaethu yn fawr yn eu barn mewn perthynas i'r ymadrodd. Y mae yr esgob Lowth, yn ei *Lectures on the Sacred Poetry of the Hebrews*, yn dadleu nad yw y cyfieithiad hwn yn cytuno yn dda â'r cydymadroddion, o



Dar. 300.—Yr Ewig.

natur nac urddas. Dywed ef mai y darlleniad yn y Syriaeg am בילות=*ewigod*, ydyw אלות=*derw;* a barna efe bod y dderwen yn cael ei tharaw â mellten, yn cyfateb yn rhagorol i'r cyd-destynau. Y mae ereill yn dadleu nad oes angenrheidrwydd am y cyfnewidiad hwn, ac nad yw yn briodol. "Y mae yn ffaith hollol hysbys," meddant, "fod yr ewig yn llydnu drwy anhawsder a phoen dirfawr. Cyfeiria Iob at yr amgylchiad hwn—'A fedri di wylied yr amser y bwrw yr ewigod loi? Ymgrymant, bwriant eu llydnod, ac ymadawant â'u gofid;' *pen.* xxxix. 1, 3. Gan hyny, onid yw yn debygol y gallai fod yr anifail hwn yn cael ei gynnorthwyo i esgor trwy gynhyrfiad ofn ynddo, a chyffroad ei gyfansoddiad gan y daran drystfawr?—dygwyddiad naturiol yn cael ei osod allan drwy y frawddeg Hebraeg adnabyddus—'Llef yr Arglwydd.'" Pa beth bynag am gywirdeb y golygiad olaf hwn, y mae lluaws o'r prif feirniaid, ac yn eu plith y dysgedig Bochart, yn cytuno nad oes un angen am y cyfnewidiad cyntaf a nodwyd, ac nad ydyw yn oddefol.

Y mae un adnod arall yn cynnwys enw yr anifail hwn sydd wedi bod yn destyn i lawer o ddadleu yn mhlith beirniaid Ysgrythyrol. Yn ol ein cyfieithiad ni o *Gen.* xlix. 21, dywed Iacob, wrth fendithio ei feibion—"Naphtali fydd ewig wedi ei gollwng, yn rhoddi geiriau teg." Dadleuir fod anghyssondeb yn y gymhariaeth yn y wedd hon—Naphtali, oedd yn wryw, yn cael ei gyffelybu i ewig, oedd yn fenyw, ac ymadroddion yn cael eu priodoli yma i anifail, "yn rhoddi geiriau teg." Y mae Bochart, er mwyn symmud yr anhawsder hwn, yn cynnyg newid ar wahannodiad y gwreiddiol, drwy yr hyn y mae yn gosod yr ymadrodd fel hyn:—"Naphtali sydd bren taenedig, yn bwrw allan gangenau prydferth." Mae yn wir fod y gyffelybiaeth yn cael ei dwyn yn fwy unffurf drwy y cyfnewidiad hwn; ond, megys y dywed un beirniad dysgedig arall, "fe ymddengys fod y gymhariaeth o bren wedi cael ei chadw yn fwriadol gan yr hen batriarch i'w chymhwyso at ei fab Ioseph, yr hwn a gyffelybir i geingciau ffrwythlawn pren; ac y mae ail adroddiad o'r un meddylddrych mewn cyssylltiad â Naphtali yn ymddangos yn bur annheoygol." O blegid hyn, y mae yr un beirniad yn cynnyg y darlleniad canlynol:—"Naphtali sydd garw yn ymbrangcio yn rhydd; y mae yn bwrw allan geingciau taenedig," neu "gorngauau mawreddog." Drwy hyn, fe gedwir neillduolrwydd y gyffelybiaeth, a chyfeirir at ffrwythlonrwydd y llwyth, a brasder y tir a roddid iddo yn etifeddiaeth. Yr oedd rhandir Naphtali yn wlad goediog brydferth, yn cyrhaedd hyd fynydd Libanus, ac yn cynnyrchu pob rhyw ffrwyth. Dywedai Moses am Naphtali (*Deut.* xxxiii. 23), y byddai efe "yn llawn o hawddgarwch, a chyflawn o fendith yr Arglwydd." Y mae Josephus yn llefaru yn uchel am ffrwythlonrwydd Galilea, lle yr oedd rhandir Naphtali. Dywed teithwyr nad oes odid ddim i'w gymharu â ffrwythlonrwydd toreithiog ardal Kesroan; yr hon, medd Volney, sydd gyffelyb i ystlysau mynydd Libanus. Y mae ynddi forwydd i'r sidanbryf; a gwinllanoedd yn cynnyrchu gwin rhagorol; olewydd mor dal a derw; dolydd, porfeydd, ŷd, a ffrwyth o bob math. Y mae yn orlawn o anifeiliaid mawr a bach, adar, a bwystfilod. Diammheu fod gwlad mor brydferth, yn yr hinsawdd mwyaf tymmerus yn Syria, yn effeithio mewn rhyw fodd i gryfhau tueddiadau caredig a hynaws, ac ymddygiadau canmoladwy y preswylwyr. Ymddengys fod hyn yn ddigon o gyflawnhad i waith Iacob yn darlunio cymmeriad a sefyllfa Naphtali trwy gyfeiriad at hydd neu garw, yn hytrach nag at unrhyw fwystfil gwyllt a chreulawn; megys y gwna am rai o'r plant ereill.

EWROP: un o brif randiroedd y ddaear, yn cynnwys y rhan ogledd-orllewin o'r hen gyfandir, yr hwn a elwir hefyd yr Hen Fyd. Hwn ydyw y lleiaf, ond y mwyaf diwylliedig, o bum cyfandir mawr y belen ddaiarol. Y mae wedi ei amgylchu â dwfr, oddigerth ar y tu dwyreiniol yn unig, lle y gwahenir ef oddi wrth Asia gan linell derfynol, yr hon a wneir i fyny o'r afon Kara, mynyddoedd ac afon Ural, a'r Môr Caspiaidd. Y mae Cefnfor y Gogledd yn golchi ei lanau gogleddol; Môr y Canoldir, Môr Marmora, a'r Môr Du, y rhai deheuol; a therfynir ei orllewin gan Gefnfor yr Atlantic. Cyfrifir ei hyd mwyaf yn 3,400 o filltiroedd; ei led yn 2,400. Y mae ei hyd mwyaf yn ymestyn o Benrhyn Rocca, yn Portugal, i ben Culfor Karskaia; a'i led mwyaf o Benrhyn Matapan, yn Groeg, i'r Penrhyn Gogleddol yn Lapland.

Yn ol chwedloniaeth y beirdd Groegaidd, fe dderbyniodd Ewrop ei henw oddi wrth Ewropa, merch i frenin Tyrus, yr hon a gariwyd yno gan Iau. Y mae Bochart yn tarddu yr enw o'r gair Phœniciaidd *urappa;* yr hwn a ystyria efe yn

Digitized by Google

gyfystyr â'r Groeg *leuco-prosôpos*="o liw gwyn neu deg;" a thybia ei fod yn cael ei gymhwyso at Ewrop, o herwydd tegwch gwynebau y preswylwyr. Mae M. Gebelin ar y llaw arall yn tybied fod yr enw yn deilliaw o'r gair Phœniciaidd *wrab*= *gorllewin*, fel yn arwyddo gwlad yn gorwedd yn y cyfeiriad hwnw o Asia. Ond y mae yn anmhossibl penderfynu yn sicr beth yw ystyr yr enw; a phe buasai hanes darganfyddiad America wedi ei golli, cawsid yr un anhawsder i ddychymmygu o ba le y cafodd y Byd Newydd ei enw.

I. *Ei darganfyddiad a'i hanes.* Y mae yr hanesion boreuaf sydd i'w cael am Ewrop yn gynwysedig yn ysgrifeniadau y Groegiaid, y rhai a breswylient y parth deheu-ddwyreiniol o'r Cyfandir. Yn raddol, fe ymestynodd gwybodaeth ddaiaryddol o Ewrop o'r wlad hono i'r gogledd a'r gorllewin. Yr oedd Homer, yr hwn y mae yn debyg oedd yn byw fil o flynyddoedd cyn Crist, yn gydnabyddus â'r gwledydd o amgylch y Môr Ægeaidd. Yr oedd ganddo hefyd syniad cyffredinol lled gywir am y rhai hyny ar lanau deheuol y Môr Du; ond y mae yr hyn a ddywed efe am y gwledydd yn y gorllewin i Groeg, ar lanau Môr y Canoldir, yn gymmysgedd o chwedl a gwir, ond yn cynnwys mwy o'r cyntaf. Ymddengys nad oedd ei gydwladwyr yn ei oes ef wedi ymweled â'r moroedd hyn, a'i fod ef wedi cael ei wybodaeth oddi wrth y Phœniciaid. Mae yn debyg fod y bobl hyn wedi bod am beth amser yn morio i'r gwledydd uchod, ond eu bod yn unol âg arfer gyfrwys cenedloedd masnachol, yn taenu ffug hanesion am y tiriogaethau anhysbys hyn, er mwyn attal cenedloedd ereill rhag dilyn eu llwybr, a chydgyfranogi â hwynt o fanteision eu marsiandiaeth bellenig. Y mae yn debyg hefyd ddarfod i'r Phœniciaid, yn hir cyn hyn, lwyr amddifadu y Groegiaid o'u rhyddid i hwylio yn Môr y Canoldir; canys pan ddechreuodd y Groegiaid ffurfio trefedigaethau oddi allan i'w gwlad eu hunain, hwy a gymmerasant feddiant i ddechreu o lanau y Môr Ægeaidd, ac wedi hyny glanau y Môr Du. Gan nad yw glanau y môr hwn yn gyfaddas iawn i amaethyddiaeth, oddigerth rhyw gyfran fechan o orynys y Crimea, hwy a godasant eu sefydliadau cyntaf ar y glanau Asiaidd yn benaf; gan hyny, ychydig a chwanegwyd drwy y trefedigaethau hyn at y wybodaeth ddaiaryddol o Ewrop. Ond rhoddwyd terfyn ar forwriaeth y Phœniciaid tua chwe chant a hanner o flynyddoedd cyn Crist; a hyny, y mae yn debyg, o herwydd goresgyniad eu gwlad gan y Persiaid. Tua'r amser hwn hefyd, fe ddechreuodd y Groegiaid ffurfio trefedigaethau yn mharthau deheuol Italy, ac ar Ynys Sicily, a morio ar hyd a lled Môr y Canoldir. Felly, yn nyddiau Herodotus, bedwar cant a hanner o flynyddoedd cyn Crist, yr ydym yn cael fod, nid yn unig y gwledydd ar bob tu i Fôr y Canoldir a glanau gogleddol y Môr Du, yn lled adnabyddus i'r Groegiaid, ond ddarfod iddynt, wrth ddilyn llwybr y Phœniciaid, anturio heibio i Golofnau Hercules, a hwylio mor bell a'r Cassiterides, neu yr Ynysoedd Alcam, wrth ba enw y mae yn rhaid i ni olygu holl ranau deheu-orllewin Prydain. Mynegir hefyd ddarfod i rai o'u morwyr hwylio drwy y sianel rhwng Lloegr a Ffrainc, a myned i mewn i Fôr y Gogledd, ac efallai mor bell a'r Baltic.

Fel hyn fe ddarganfyddwyd rhan fawr o lanau Ewrop, tra y parhâai y rhanau mewnol yn gwbl anhysbys. Pan y dechreuodd y Rhufeiniaid ar eu buddugoliaethau, fe wnaed y diffyg hwn i fyny mewn rhan. Ar ol cael buddugoliaeth ar Italy, fe oresgynwyd Yspaen a deheubarth Ffrainc, a chyn hir wedi hyny, Sicily, Groeg, a Macedonia. Gorchfygodd Cesar Galia a'r gwledydd yn ngorllewin yr afon Rhine, yn nghyd â'r rhandiroedd a orweddant rhwng gwahanol gangenau yr afon hono lle y mae yn ymarllwys i'r môr. Cafwyd rhyw gymmaint o hysbysrwydd am natur ein hynys ninnau a'i thrigolion drwy y ddwy ymgyrch a wnaeth efe i Brydain. Felly, mewn ychydig dros ddau can mlynedd, fe ddarganfyddwyd canolbarth yr holl wledydd hyn, nad oedd ond eu glanau yn adnabyddus o'r blaen. Yn y cyfamser, ni helaethwyd dim at y wybodaeth a gyrhaeddwyd o'r blaen am y glanau, canys fe gollodd y Groegiaid eu hysbryd darganfyddol pan y collasant eu rhyddid, ac nid oedd yn y Rhufeiniaid un duedd at anturiaethau morawl. Ar ol sefydlu y gallu ymherodrol yn Rhufain, aeth buddugoliaethau y Rhufeiniaid yn mlaen yn llawer arafach, a buan y sefydlwyd terfynau yr ymherodraeth. Rhaid priodoli hyn yn benaf i natur y gwledydd oedd yn taraw ar y terfynau. Y mae'r tiriogaethau yn ngogledd y Danube gan mwyaf yn wastadeddau, a phreswylid hwy gynt gan genedloedd crwydrol, y rhai ni ellid eu darostwng dan lywodraeth reolaidd. Y cyfryw ydyw y gwledydd rhwng y mynyddoedd Carpathiaidd a'r Môr Du; felly, ychydig barhaodd goresgyniad Dacia gan Trajan, a bu raid cyn hir ei rhoddi i fyny. Buan y chwanegwyd y gwledydd rhwng yr Alpau a'r afon Danube at yr ymherodraeth; ond gan fod y cenedloedd a breswylient y wlad i'r gogledd o'r afon hono heb ymadael eto â'u bywyd crwydrol, llwyddasant i ochelyd yr iau Rufeinig. Y chwanegiad mwyaf pwysig at yr ymherodraeth, ac at wybodaeth ddaiaryddol, ydoedd goresgyniad Prydain yn ystod y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol.

Wedi cwymp yr ymherodraeth Rufeinig, fe ddaeth y barbariaid, gan mwyaf o Asia, ac a oresgynasant Ewrop; a bu aflywodraeth echryslawn ar y Cyfandir am oesoedd lawer wedi eu dyfod. Ffurfiwyd ymherodraeth y Visigothiaid yn Yspaen, eiddo y Ffranciaid yn Gâl, y Lombardiaid yn Italy, y Saxoniaid yn ngogledd Germany, yr Avariaid yn y deheubarth, ac wedi hyny y Saxoniaid a'r Angliaid, neu yr Anglo-Saxoniaid yn Mhrydain. Ond yr oedd ymherodraeth Groeg yn Nghaer Cystenyn—yr unig weddillion o'r holl ymherodraeth Rufeinig—yn parhau eto yn nwyrain Ewrop. Tua'r flwyddyn 800, fe ddaeth y Concwerwr a'r llywodraethwr mawr Carlymaen, ac a gydwasgodd yr holl dryblith, dros amser, yn un ymherodraeth fawr, yn cynnwys y rhan fwyaf o orllewinbarth Ewrop. Modd bynag, yr oedd ei olynwyr yn analluog i ddal ynghyd yr hyn a ffurfiasid gan athrylith eu rhagflaenor; ac o adfeilion ei feddiannau eang, fe gyfododd gwahanol deyrnasoedd Ffrainc, Germany, Italy, Lorraine, Provence, Burgundy, &c. Yn y ddegfed ganrif, fe ddaeth cenedloedd mawr y gogledd allan o ganol eu dinodedd, a rhestrwyd Rwssia, Sweden, Norway, a Denmark, yn mhlith y galluoedd Ewropaidd; ar yr un pryd, yr oedd y Mooriaid, y rhai a etifeddent y rhanau tecaf o Yspaen, o'r wythfed ganrif hyd hyny, yn dechreu cilio o flaen breninoedd Cristionogol Leon, Castile, Arragon, a Portugal. O'r diwedd, yn y bymthegfed ganrif, pan gymmerwyd Caer Cystenyn gan y Tyrciaid, yn y flwyddyn 1453, gellir edrych ar holl brif randiroedd Ewrop fel wedi eu sefydlu. Ychydig yn chwaneg a ellir ei ddyweyd, heb law fod yr Iseldiroedd Unedig wedi ymwahanu oddi wrth y

Digitized by Google

llywodraeth Yspaenaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac na ffurfiwyd unbenaeth Prwssia hyd y ddeunawfed ganrif. Gwnaeth y rhyfel a dorodd allan drwy chwyldroad Ffraingc, yn 1789, gyfnewidiad am dymmor ar wedd a chyflwr y Cyfandir, gan fod Napoleon I. yn buddugoliaethu yn mhob man. Ond ar ol cwymp ei ymherodraeth ef, cafodd yr hen drefn, i fesur, ei hadferu. Megys y sefydlwyd y gwahanol wladwriaethau yn nghynnadleddau 1815, y maent yn parhau etto; oddigerth fod Groeg wedi ymwahanu oddi wrth ymherodraeth Twrci, yn 1827; teyrnas yr Iseldiroedd wedi ymranu, yn 1831, i deyrnasoedd Belgium a Holland; ac ymherodraeth Awstria, mewn canlyniad i ymosodiad Napoleon III. arni, yn 1859, wedi gollwng Lombardy i'w law—ac yntau drachefn wedi ei throsglwyddo i deyrnas Sardinia. Ond y cyfnewidiad pwysicaf o'r cwbl ydyw fod Germany wedi ymffurfio yn ymherodraeth fawr a chref yn nghanol Ewrop—cyfansoddiad yr hon sydd yn dyddio o Ebrill 16eg, 1871. Gwelir manylion pellach mewn erthyglau dan enwau y gwahanol wledydd yn nghorph y gwaith hwn.

*Ei nodweddion anianyddol.*—Dyma yw y lleiaf o chwe rhaniad mawr y ddaear, os chwanegir holl ynysoedd Oceania at Awstralia. Y mae arwynebedd Ewrop, yn ol y cyfrifon diweddaraf, yn 3,794,447 o filldiroedd petryal; a'r boblogaeth yn cael ei hystyried, yn ol y cyfrifon isod, yn 346,645,039—tua'r bedwaredd ran o boblogaeth yr holl fyd—yr hwn a gyfrifid yn y flwyddyn 1886 yn 1,413,795,216. Felly, yr oedd ar y cyfandir hwn, y pryd hyny, 87 o breswylwyr gogyfer a phob milldir petryal. Ond gan y cyfrifir fod Rwssia yn Ewrop yn cynnwys 2,081,022 o filldiroedd petryal, heb gyfrif Transcaucasia, neu fwy na hanner y Cyfandir, a bod ei phoblogaeth yn 91,861,910, neu fwy nag un ran o bedair o boblogaeth holl Ewrop, y canlyniad yw, mai o ddeutu 32 o drigolion sydd yn Rwssia gogyfer a phob milldir petryal, tra y mae yn y parthau eraill o'r Cyfandir tua 145 o drigolion ar gyfer pob milldir petryal.

*Rhaniadau gwladol.* Y nifer o wladwriaethau (*states*) annibynol sydd yn awr yn Ewrop ydyw deuddeg-a-thrigain—chwech-ar-hugain o ba rai a berthynant i Germany, a phump-ar-hugain i Zwitzerland. Ond os cyfrifir Norway a Sweden yn un wladwriaeth, a Zwitzerland yn un, a Germany yn un hefyd, nid ydyw nifer y gwladwriaethau ond ugain. Y mae y tabl canlynol yn cynnwys maintioli pob gwlad, a'i phoblogaeth, yn ol y cyfrifon a gasglwyd olaf. Ond gan fod cyfnewidiadau yn rhif y boblogaeth yn cymmeryd lle yn barhaus, a digwyddiadau eraill yn achlysurol, dymunwn gyfeirio y darllenydd am y manylion diweddaf am bob gwlad at yr erthyglau sydd yn nghorph y gwaith dan enwau y gwahanol wledydd.

TEYRNASOEDD EWROP.

| Enw y Deyrnas. | Mesur mewn milldiroedd petryal. | Poblogaeth yn ol y cyfrifon diweddaf. | Prifddinas pob Teyrnas. | Yr afon ar lan pa un y saif y brif ddinas. | Blwyddi cyfrif y bobl. |
|---|---|---|---|---|---|
| Teyrnas Gyfunol Prydain | 121,607 | 35,246,282 | Llundain ... | Thames ... | 1881 |
| Portugal ... ... | 37,965 | 4,708,178 | Lisbon ... | Tagus ... ... | 1881 |
| Yspaen ... ... | 196,173 | 17,268,600 | Madrid ... | Manzanares ... | 1884 |
| Ffraingc ... ... | 204,090 | 38,218,903 | Paris .. | Seine ... ... | 1887 |
| Belgium ... ... | 11,373 | 5,974,743 | Brussels ... | Senne ... ... | 1887 |
| Yr Iseldiroedd [a] ... | 12,680 | 4,450,870 | Amsterdam ... | Amstel ... | 1887 |
| Denmarc ... ... | 14,789 | 2,130,100 | Copenhagen ... | Y Sound ... | 1888 |
| Ymherodraeth Germany. | 208,683 | 46,840,587 | Berlin ... | Spree ... ... | 1885 |
| Awstro-Hungary [b] ... | 261,649 | 41,827,700 | Vienna ... | Danube ... | 1884 |
| Switzerland ... ... | 15,981 | 2,926,750 | Berne ... | Aar ... ... | 1888 |
| Italy ... ... ... | 110,655 | 29,699,781 | Rhufain ... | Tiber ... ... | 1885 |
| San Marino ... ... | 33 | 8,000 | San Marino ... | Ausa ... ... | 1884 |
| Groeg... ... ... | 24,977 | 2,187,208 | Athen ... | Morgaingc Ægina | 1889 |
| Twrci yn Ewrop, &c., &c.. | 125,239 | 8,988,110 | Caer Cystenyn | Bosphorus ... | 1881 |
| Roumania ... ... | 46,314 | 5,376,000 | Bucharest ... | Dumboritza ... | 1881 |
| Servia ... ... | 18,757 | 1,973,060 | Belgrade .. | Danube ... | 1888 |
| Montenegro ... ... | 3,486 | 220,000 | Cetigne ... | Bojana.. ... | 1882 |
| Rwssia yn Ewrop ... | 2,081,022 | 91,861,910 | St. Petersburg | Neva ... ... | 1885 |
| Sweden ... ... | 173,974 | 4,748,257 | Stockholm ... | Llyn Mælar ... | 1888 |
| Norway ... ... | 125,000 | 1,990,000 | Christiana ... | Christiana Fiord. | 1888 |
| Y Cyfan ... ... | 3,794,447 | 346,645,039 | | | |

[a] Cynnwysir Holland yma. [b] Gwelir y manylion am Awstria *d.g.* Hungary.

*Arwynebedd.*—Y mae o ddeutu dwy ran o dair o arwynebedd y cyfandir hwn yn wastadedd; yr hwn sydd yn ymestyn dros ranau dwyreiniol a chanolbarthol y cyfandir; sef, o'r Mynyddoedd Uralaidd i'r Môr Caspiaidd ar y tu dwyreiniol, i Scandinavia a'r Mynyddoedd Carpathiaidd ar y tu gorllewinol; ac y mae yn ymestyn, yn y cyfeiriad gwrthwynebol, o Fynydd Caucasus a'r Môr Du i Gefnfor y Gogledd. Yn nghanolbarth Ewrop y mae y gwastadedd anferth hwn yn ymestyn i'r gorllewin, rhwng Môr y Baltic a mynyddoedd Germany, nes y mae yn terfynu ar lanau Môr y Gogledd. Yn yr holl ddosbarth eang hwn o wlad nid oes dim mynyddoedd, nac hyd yn oed bryniau, gyda'r eithriad o Fryniau Valdai, yn Novgorod; y rhai sydd tuag 1,100 tr. o uchder; ac yn gwahanu y dyfroedd, gan eu cyfeirio i Fôr y Baltic, y Môr Du, a Môr Caspia.

*Mynyddoedd.*—Y mae y rhan ddeheu-orllewinol o'r Cyfandir, o'r mynyddoedd Carpathiaidd i Fôr y Werydd, yn hynod fynyddig; ac felly y mae Scandinavia yn yr ongl ogledd-orllewinol. Gan eithrio Bryniau Valdai, gellir rhanu mynyddoedd Ewrop yn saith dosbarth:—dau o ba rai (sef, yr Uraliaid a Mynydd Caucasus) sydd yn ffurfio y terfyn rhwng Ewrop ac Asia:—

1. Cyfundrefn Prydain:—yr uchaf o ba rai ydyw Ben Nevis, yn 4,406 tr. o uchder. Nid ydyw hwn yn cyrhaedd llinell yr eira, er fod llawer o fynyddoedd Ysgotland yn cael eu gorchuddio mewn rhan âg eira am gryn ysbaid o'r flwyddyn.

Digitized by Google

2. Y gyfundrefn Hesperiaidd:—yn cynnwys yr amryw gadwyni o fynyddoedd sydd yn Yspaen—yr uchaf o ba rai ydyw Cerro Mulhacen, yn 11,663 troedfedd o uchder. Y mae amryw o honynt yn cyrhaedd llinell yr eira: yr hwn sydd ar y Pyrenees yn 8,000 o droedfeddi.

3. Y gyfundrefn Sardo-Corsicaidd: yr hon a gyfyngir i ynysoedd Corsica a Sardinia. Monte Rotondo, yn Corsica, ydyw yr uchaf—pen yr hwn sydd yn 9,068 tr. uwch law y môr.

4. Y gyfundrefn Alpaidd yn neheu Ewrop: yr hon sydd yn cynnwys, 1af, Cadwen yr Alpau, yn yr hon y mae Mont Blanc yn Savoy yn 15,781 o droedfeddi; ac amryw eraill o 10,000 i 15,000 o droedfeddi. Uchder llinell yr eira yno ydyw 8,900 o droedfeddi. 2il, Mynyddoedd Ffrainge—yr uchaf o ba rai sydd yn 5,632 troedfedd. 3ydd, Yr Apennines, sydd yn ymestyn ar hyd Italy a Sicily. Y mae yr uchaf, sef, Mynydd Ætna, yn 10,874 tr. Uchder llinell yr eira yn Sicily ydyw 9,500 o droedfeddi. 4ydd, Y Mynyddoedd Slavo-Helenaidd, ar y deheu i'r Danube a'r Save. Y pigyn uchaf ydyw Mynydd Olympus, yn Thessaly, 9,749 tr., ar yr hwn y mae llinell yr eira yn 9,000 tr. 5ed, Y Mynyddoedd Carpathiaidd—yn cynnwys yr holl fynyddoedd rhwng y Danube, Dniester, Vistula, a'r Rhine. Mynydd Botschetje, yn Transylvania, ydyw yr uchaf:—9,528 tr. Llinell yr eira yn y mynyddoedd Carpathiaidd ydyw 6,000 tr.

5. Y gyfundrefn Scandinaviaidd, yn Norway a Sweden; yr hon sydd yn ymestyn i 1,150 mill. Yr uchaf ydyw Skageslöestinden, yn 8,670 tr.; Dovrefield, yn y canol, yn 7,620 tr.; a Kiolen yn y gogledd, yn 6,200 tr. Y llinell eira yn y deheu ydyw 5,000 tr.

6. Y gyfundrefn Uralaidd, rhwng Rwssia a Siberia: yr hon sydd yn ymestyn o Orenburg i Gefnfor y Gogledd, am 1,300 milldir. Nid ydyw ar gyfartaledd uwch law 2,000 tr.; gyda'r eithriad o Konjak-Ofski (hyd 59°. 45′) yn 5,397 troedfedd.

7. Y gyfundrefn Caucasaidd; yr hon sydd yn ymestyn o'r Môr Du, am saith cant o filldiroedd i'r Môr Caspiaidd, gan ffurfio terfyn deddwyreiniol Rwssia yn Ewrop—cyfartaledd uchder yr hwn ydyw 8,500 tr. Yn y gadwen hon y mae Mynydd Elburz, yr uchaf, yn 18,571 tr., yr hwn sydd yn 2,790 tr. uwch na Mont Blanc. Y mae llinell yr eira yno yn 11,000 tr.

*Tirforoedd.*—Cyfrifir arwynebedd y tirforoedd (*inland seas*) a berthynant i Ewrop yn 1,483,000 o filldiroedd petryal; a chyfrifir eu maint fel y canlyn:—Y Môr Gwyn, yn ngogledd Rwssia, 40,000; y Baltic, rhwng Sweden a Rwssia, 135,000; Môr y Canoldir, neu y Môr Mawr, yn neheu Ewrop, 1,149,287; y Môr Du, yn neheu Rwssia, 172,000; y Môr Caspiaidd, 178,000. Mesura y Cefnfor Germanaidd, neu Fôr y Gogledd, rhwng Prydain a'r Cyfandir, 244,000. Gelwir y fynedfa o hono ar y deheu yn Sianel Lloegr, a'r man culaf arni yn Gulfor Dover; yr hwn sydd tuag 20 milldir ar ei draws, a thua 200 troedfedd yn ei fan dyfnaf. Eir i mewn i Fôr y Baltic trwy sianel sydd yn rhedeg rhwng Denmarc a Sweden. Yn mharthau gogleddol y môr hwn, y mae morgeingciau Bothnia, Finland, a Riga. Ar du gorllewinol Ffrainge a gogledd Yspaen, y mae rhan o Gefnfor yr Atlantig, a elwir Machwy Biscay. Yn neheu Yspaen, rhwng Ewrop ac Affrica, y mae mynedfa i Fôr y Canoldir dan yr enw Culfor Gibraltar, yr hwn sydd tua phedair milldir ar bymtheg ar ei draws yn y man culaf, a thua 1,000 o droedfeddi o ddyfnder. Cyfrifir hyd Môr y Canoldir yn agos i 2,300 o filldiroedd, ac yn 1,080 mill. o led yn y man lletaf. Ei arwynebedd yw 1,149,287 mill. pet., a'i ddyfnder mwyaf dros 13,800 o droedfeddi, neu yn agos i filldir a chwarter. Y mae ei ddyfroedd yn fwy hallt na dyfroedd yr Atlantig, ag y mae gorllif grymus o hono yn rhedeg i'r cefnfor hwnw. Bychan iawn ydyw llanw Môr y Canoldir; ac mewn rhai parthau, prin y gwyddys ei fod. Yr achos o hyn ydyw y fynedfa gul sydd iddo. Braich o Fôr y Canoldir ydyw Morgainge Venice, neu y Môr Adriaidd, yr hwn sydd i'r dwyrain o Italy, ac yn neheu Awstria; a braich arall o hono ydyw yr Ynysfor (a elwid gynt y Môr Ægeaidd) rhwng Groeg ac Asia Leiaf, yr hwn sydd yn llawn o ynysoedd a fuont unwaith yn dra enwog. Y mae dyfroedd yr Ynysfor yn cyfarfod yr eiddo Môr Marmora mewn sianel gul, o ddeutu milldir a hanner o led yn ei man cyfyngaf, yr hon a elwir y Dardanelles. Y mae dyfroedd y Marmora drachefn yn ymgyssylltu â'r Môr Du trwy Gulfor Caer Cystenyn, yr hwn sydd gulach na'r Dardanelles; ac y mae dyfroedd y Môr Du yn rhedeg i Fôr Azof trwy Gulfor Yenikale, tua milldir a hanner o led. Gelwir y parth dwyreiniol o Fôr y Canoldir sydd yn taro ar Twrci yn Asia, y Levant (oddi wrth y gair Ffrengig *levant*=cyfodiad), o blegid fod yr haul, i breswylwyr glanau gogleddol a deheuol y môr hwn, yn ymddangos fel pe byddai yn codi yn y parth hwnw o'r terfyngylch. Nid yw dyfroedd y Môr Caspiaidd i'w canfod fel yn ymgyssylltu â'r eiddo Môr y Canoldir; ac y mae rhes o'r mynyddoedd Caucasaidd yn rhedeg rhwng y ddau. Yn gymmaint a bod Cyfandir Ewrop mor fylchog, trwy fod cynnifer o foroedd, machwyon, a morgeingciau yn ymwthio i'w ystlysau, y mae hyd ei lanau, ar linell union, yn fwy, yn ol ei faintioli, na glanau un cyfandir arall ar wyneb y ddaear; ac yn mesur agos i ugain mil o filldiroedd—yr hyn nid ydyw ond pum mil yn llai nag amgylch-fesur yr holl fyd. Gan ei fod yn gorwedd bron yn gwbl o fewn y cylch tymherus, y mae yn well nag un o honynt ar les iechyd, cyfleusderau, ac ymdrafodaeth masnachol ei drigolion. O blegid hyny, y mae trigolion y gwahanol wledydd sydd yn Ewrop yn rhagori arnynt oll mewn gallu i fasnachu, a chyfoeth.

*Ynysoedd.*—Yn mhlith yr ynysoedd a berthynant i Ewrop, y rhai pwysicaf mewn ystyr wleidyddol a masnachol yw yr Ynysoedd Prydeinig. Dan yr enw hwn, fe gynnwysir Prydain Fawr a'r Iwerddon, ynghyd â'r ynysoedd bychain sydd rhyngddynt, ac o'u hamgylch. Y benaf o'r rhai diweddaf hyn ydyw Ynys Manaw yn Môr y Werydd; yr hon sydd mewn pellder cyfartal o'r tair gwlad—Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon; Ynys Môn, yr hon a wahenir oddi wrth gorph Cymru gan afon Menai; Ynysoedd Scilly, ar gyfer Cernyw, y rhai a elwid gynt y Cassiterides neu Ynysoedd yr Alcam; Ynys Wyth, yr hon sydd yn y deheu i sir Hants, ac yn ffurfio cyfran o honi; yr Hebrides, neu ynysoedd gorllewinol Ysgotland; Ynysoedd Orkney a Shetland, yn ngogledd Ysgotland; ac Ynysoedd y Sianel—Guernsey, Jersey, Alderney, a Sark—y rhai a orweddant ar ogledd-orllewinol Ffrainge. Yr ynysoedd pwysicaf yn ngogledd Ewrop, yn nesaf at yr Ynysoedd Prydeinig, yw y rhai hyny a berthynant i Denmarc, sydd yn gorwedd yn y sianel sydd yn arwain i Fôr y Baltic; o ba rai, y benaf yw Zealand, ar wyneb yr hon y mae

Digitized by Google

prif ddinas y wlad. Y mae yr ynysoedd a elwir yr Azores, neu yr Ynysoedd Gorllewinol, y rhai a ystyrir yn gyffredin fel yn perthyn i Ewrop, yn gorwedd tuag 800 milldir i'r gorllewin o Portugal—eiddo yr hon ydynt. Y mae Ynys yr Iâ, yr hon a berthyn i Denmarc, a'r hon sydd yn enwog am ei ffynnonau berwedig, a'i llosgfalau, yn sefyll ar ymyl cylch y gogledd, gyda'i phen uchaf yn Nghefnfor y Gogledd. Ynysoedd Faroe, y rhai sydd yn ngogledd-orllewin Ynysoedd Shetland, ac yn eiddo Denmarc, a ffurfient unwaith y nawngylch cyntaf (*first meridian*), at yr hwn yr oedd pob cenedl yn cyfeirio yr hydred. Gresyn na pharhaodd yn nawngylch cyffredinol i'r holl fyd, er mwyn symleiddio y dull o gyfrif yr hydred mewn gwahanol wledydd. Yr ynysoedd mwyaf gogleddol o amgylch Ewrop ydynt Ynysoedd Loffoden, yn ngorllewin Norway; Spitzbergen, a Nova Zembla, yn y Cefnfor Gogleddol; a Greenland, yn yr un cefnfor. Yr ynysoedd pwysicaf yn neheudir Ewrop, yn Môr y Canoldir, ydynt:—Corsica, yn Môr Tuscany; Sardinia, i'r deheu o Corsica, ac yn cael ei gwahanu oddi wrthi gan gulfor Bonifacio; yr ynysoedd Baleariaidd, sef, Majorca, Minorca, Iviza, Formentara, a Cabrera, yn nwyrain Yspaen; Sicily yn neheu-orllewin Naples, ac yn cael ei gwahanu oddi wrthi gan gulfor Messina; Malta, islaw Sicily, ac yn perthyn i Brydain; yr ynysoedd Ioniaidd, sef Corfu, Cephalonia, Zante, &c., yn neheu-orllewin Twrci yn y Môr Ioniaidd; Candia neu Crete, yn neheu-ddwyrain Groeg; ynysoedd y Môr Ægeaidd, neu yr Ynysfor, yn y dwyrain a'r deheu-ddwyrain i Groeg; a Cyprus, yn y Levant, yr hon a berthyn i'r Aipht.

*Penrhynoedd.*—Y prif rai yn Ewrop ydynt, y Penrhyn Gogleddol, ar Ynys Mageröe, yn ngogledd Lapland, yr hwn a ystyrir yn gyffredin fel y pwynt mwyaf gogleddol o gyfandir Ewrop, gyda'r eithriad o Benrhyn Nordkyn; y pwynt gogleddol o Nova Zembla; y Naze, sef, y rhan fwyaf deheuol o Norway, ar y Skager-rack; y Shaw, neu ogledd-dir uchaf Jutland, yn Denmarc; Penrhyn La Hague, yn Ffraingc; Penrhyn Ortegal a Phenrhyn Finisterre, yn Yspaen —y diweddaf o ba rai a ystyriai yr hynafiaid, megys yr arwydda yr enw (Ll. *finis*, pen draw; a *terra*, y ddaear), fel y pwynt eithaf yn y byd; Penrhyn Roca, ger llaw Lisbon, a Phenrhyn St. Vincent, yn Mhortugal; Penrhyn Ewropa, yn Yspaen; Penrhyn Spartivento, a Phenrhyn di Leuca yn Italy; a Phenrhyn Matapan yn Groeg; Penrhyn Passaro, yn Sicily; ac eraill llai pwysig. Yn yr Ynysoedd Prydeinig, Penrhyn Dunnet, ac nid Penrhyn Wrath, yw y pwynt mwyaf gogleddol o Brydain Fawr; hefyd, Pwynt Lizard, ac nid y Pentir (*Land's End*), ydyw y pwynt mwyaf deheuol. Y man mwyaf gogleddol yn yr Iwerddon ydyw Penrhyn Malin, a'r mwyaf deheuol ydyw Penrhyn Mizen, yr hwn sydd ar Ynys Clare.

*Afonydd.*—Prif afonydd Ewrop ydynt y rhai canlynol:—Y mae yr afon Volga, yr hon sydd yn tarddu o lyn bychan yn Mryniau Valdai yn Rwssia, sydd tua 500 o droedfeddi o uchder, yn rhedeg am 2,400 o filldiroedd ar hyd y wlad hono, ac yn disgyn i'r Môr Caspiaidd. Y mae yr Ural, yr hon a gyfyd yn mynyddoedd Ural, yn rhedeg am bellder o 1,040 o filldiroedd, ac yna yn disgyn i'r Môr Caspiaidd; y Don, yr hon, wedi rhedeg am 995 mill., a ddisgyna i'r Môr Du, neu i Fôr Azof—caingc o hono; y Dnieper, wedi rhedeg am 1,230, a ddisgyn i'r Môr Du, ger Kherson; y Dniester, yr hon a lifa o'r mynyddoedd Carpathiaidd, ac ar ol rhedeg am 500 o filldiroedd, a ddisgyn i'r un môr ger llaw Akerman; y Danube, yr hon a dardd yn y Goedwig Ddu, ar y Schwarzwald; a chan lifo trwy Bavaria, Awstria, a Thwrci, am 1,725 o filldiroedd, a ddisgyn i'r Môr Du ger llaw Ismail; y Rhine a'r Rhone, y rhai a darddant yn yr Alpau Swissaidd, ac a redant mewn cyfeiriadau gwahanol. Y mae y gyntaf, ar ol rhedeg trwy Lyn Constance, a thua'r gogledd trwy yr Almaen, a Ffraingc, a'r Iseldiroedd, am 800 milldir, yn disgyn i Fôr y Gogledd. Yr olaf, ar ol rhedeg trwy Lyn Geneva, ac am beilder o 645 milldir i'r deheu trwy Ffraingc, a ddisgyn i Fôr y Canoldir, yn Môrgaingc Lyons; yr Arno a'r Tiber, yn ngorllewin Italy, y rhai a ddisgynant i Fôr Tuscany; y Po a'r Adige, yn nwyrain Italy, y rhai a ddisgynant i'r Môr Adriaidd; y Xucar a'r Ebro, yn Yspaen, a ddisgynant i Fôr y Canoldir; y Douro a'r Tagus, yn Portugal, ynghyd â'r Guadalquivir, yn Yspaen, a ddisgynant i'r Atlantig; y Dwina a'r Onega, yn Rwssia, a ddisgynant i'r Môr Gwyn; y Vistula a'r Oder, yn yr Almaen, a redant i'r Môr Du; a'r Elbe, yn yr un wlad, a lifa i Fôr y Gogledd, ger llaw Hamburg.

*Llynoedd.*—Prif lynoedd Ewrop ydynt y rhai canlynol:—Y Ladoga a'r Onega, yn Rwssia, yw y ddau lyn mwyaf yn Ewrop—y cyntaf yn 130 milldir o hyd a 70 o led, a'r olaf yn llai; y Peipus a'r Ilmen, yn yr un wlad, y rhai sydd gryn fesur yn llai. Y mae'r olaf o'r ddau hyn wedi ei gyssylltu â Llyn Ladoga ar un tu, a'r afon Volga ar y tu arall, drwy gamlasau; ac felly y mae llinell gyssylltiadol yn rhedeg ar draws y wlad rhwng Môr y Baltic yn y gogledd, a'r Môr Caspiaidd yn y deheu; llynoedd Wener, Wetter, a Mæler, yn Sweden, y rhai, gyda'r afon Gotha, a ffurfiant linell gyssylltiadol rhwng canol Môr y Baltic a'r fynedfa iddo. Yn neheudir Ewrop, ceir llynoedd Constance, Lucerne, a Geneva, yn Switzerland; a llynoedd Maggiore, Garda, a Como, yn Italy. Rhoddir yma daflen gymmhariaethol o honynt:—

| Llynoedd. | Gwledydd. | Arwyneb. yn filldiroedd petryal. | Troedfeddi uwch gwyneb y môr. | Dyfnder mwyaf, yn droedfeddi. |
|---|---|---|---|---|
| Ladoga ... | Rwssia ... | 6,597 | 59 | 1,188 |
| Onega ... | Rwssia ... | 3,761 | ... | ... |
| Ilmen ... ... | Rwssia ... | 336 | 107 | ... |
| Peipus ... | Rwssia ... | 1,356 | ... | 45 |
| Saima... ... | Rwssia ... | 679 | 256 | ... |
| Enara... ... | Rwssia ... | 685 | 149 | ... |
| Wener ... | Sweden ... | 1,998 | 143 | 292 |
| Wetter ... | Sweden ... | 716 | 295 | 288 |
| Mæler ... | Sweden ... | 472 | ... | 432 |
| Geneva ... | Switzerland... | 221 | 1,230 | 1,056 |
| Neufchatel ... | Switzerland... | 85 | 1,427 | 480 |
| Lucerne ... | Switzerland... | 41 | 1,380 | 900 |
| Zurich ... | Switzerland... | 43 | 1,342 | 600 |
| Constance ... | Switzerland... | 183 | 1,289 | 964 |
| Neusiedl ... | Hungary ... | 148 | 333 | 13 |
| Balaton ... | Hungary ... | 382 | 455 | 39 |
| Maggiore ... | Italy ... ... | 63 | 685 | 2,625 |
| Como ... ... | Italy ... ... | 42 | 697 | 1,924 |
| Garda... ... | Italy ... ... | 552 | 227 | 951 |

*Hinsawdd.*—Y mae yr hinsawdd yn gwahariaethu yn fawr oddi wrth hinsawdd gwledydd sydd o fewn yr un lledred mewn parthau eraill o'r ddaear. Gwyddis yn dda fod glanau dwyreiniol Gogledd America yn llawer iawn oerach na glanau gorllewinol Ewrop, yn yr un lledred

Digitized by Google

Ond y mae gwledydd dwyreiniol Ewrop yn lled debyg eu hinsawdd i lanau dwyreiniol America. Y mae neillduolion hinsawdd Ewrop yn cael eu cynnyrchu gan gyfandiroedd Asia ac Affrica, a chan y cefnfor. Y mae Asia yn ei oeri, ac Affrica yn ei boethi, a'r cefnfor yn ei gymmedroli. Y mae y gwledydd dwyreiniol, yn gymmaint a'u bod yn agored i wyntoedd llymion a threiddiol canolbarth Asia, yn oerach na'r gwledydd gorllewinol; a pho pellaf i'r gorllewin yr eir, cynhesaf ydyw. Dyna paham y mae yr Iwerddon yn gynnhesach na Phrydain Fawr; a'r Ynysoedd Prydeinig yn gynhesach na gwledydd gorllewinol y Cyfandir; a'r gwledydd gorllewinol yn gynhesach na'r gwledydd dwyreiniol. Pe buasai mynyddoedd Ural yn ddigon uchel i attal y gwyntoedd o Asia, buasai hinsawdd Rwssia yn gynnhesach. Ond tra y mae Asia yn lleihau y tymmheredd, y mae Affrica yn ei gynnyddu. Y mae'r poethwyntoedd oddi ar y cyfandir hwnw (y rhai a elwir y *silano* yn Yspaen, a'r *sirocco* yn neheudir Italy), o'r bron yn annioddefol. Pe buasai Môr y Canoldir yn gulach nag ydyw, byddai y gwres yn fwy fyth; canys y mae gwastadeddau Yspaen, yr hon sydd agosaf at Affrica, yn boethach na dyffrynoedd deheuol Italy; a'r eiddo Italy yn boethach na Groeg. Mantais fawr i'r tair gorynys fawr hyn ydyw eu bod yn wledydd uchel, mynyddog; yr hyn sydd yn lleihau y gwres yn mhob un o honynt. Ond yn ngwyneb dylanwadau gwrthwynebol y ddau gyfandir a nodwyd, y mae'r cefnfor yn effeithio i dymmheru a chymmedroli yr hinsawdd. Mae yn ngwledydd y gogledd, megys Sweden, Lapland, a gogledd Rwssia, hafau poethion iawn, o herwydd hyd mawr eu dydd a byrder eu nos am ran o'r flwyddyn. Y mae yno swm mawr o wres, trwy fod mwy yn cael ei ennill y dydd nag a gollir y nos. Dyma yw yr achos o gyflymder tyfiant yn y parthau hyny. Hauwyd a medwyd haidd, yn lledred 70°, o fewn y tymmhor byr o saith wythnos; hyny ydyw, un ran o bedair o'r amser a gymmer i ffrwytho ac aeddfedu yn Mhrydain. Nid ydyw preswylwyr y gogledd yn gweled gwanwyn. Daw yr haf ar eu gwarthaf ar unwaith. Yn y deheu drachefn, ni cheir un gauaf, heb law yn y parthau mwyaf mynyddig, gan mai anfynych y bydd eira yn disgyn; a phan y gwna, nid erys yn hir; ac nid yw y coed un amser yn gwbl ddiddail. Y mae nifer y dyddiau y bydd eira yn disgyn arnynt yn cynnyddu fel y symmudir o'r deheu i'r gogledd. Yn Malta, o'r braidd y gwelir eira un amser; yn Sicily, fe syrth am tuag un dydd yn y flwyddyn; yn Paris am tua 12eg niwrnod; yn Copenhagen, am 30ain niwrnod; ac yn St. Petersburg, am 171 diwrnod. Mae dyfodiad y gwanwyn yn fwy graddol ar hyd gwledydd y gorllewin. Y mae y gwahaniaeth rhwng haf a gauaf yn llawer mwy yn y dwyrain nag ydyw yn y gwledydd gorllewinol. Y mae y parthau olaf hyn, am eu bod yn ymylu ar y cefnfor, yn agored i gyfnewidiadau mwy disymmwth yn yr hin.

Mae y tri dylanwad cyffredinol hyn, ynghyd â sefyllfaoedd a dylanwad y mynyddoedd, uchder ac iselder y tir, yn rhoddi modd i ni wahaniaethu yn Ewrop dri hinsawdd cyffredinol, y rhai y gellir eu disgrifio fel y canlyn:- Meddylier am driongl mawr, gyda'i dri phegwn yn cyfeirio i'r deheu-orllewin, i'r gogledd, ac i'r dwyrain—un at Benrhyn St. Vincent, yn Portugal; un arall at Benrhyn y Gogledd, yn Lapland; a'r llall at ben uchaf y Môr Caspiaidd. Galwn yr ystlys hono sydd yn ymestyn o Benrhyn St. Vincent yn y deheu-orllewin yn ystlys y cefnfor; galwn yr ochr hono sydd yn ymestyn o Benrhyn y Gogledd hyd at ben uchaf y Môr Caspiaidd yn ystlys Asiaidd; a gallwn adnabod y darn hwnw sydd yn cyrhaedd o'r Môr Caspiaidd hyd Benrhyn St. Vincent, yn ystlys ddeheuol. Wrth fyned, yn y gauaf, o'r deheu i'r gogledd, ar hyd ystlys y cefnfor, y mae yr oerni yn cynnyddu. Drachefn, wrth ddilyn yr ystlys ddeheuol tua'r dwyrain, fe geir yr oerni yn cynnyddu yn amrywiol ac afreolaidd. Ond wrth fyned ar hyd yr ystlys Asiaidd, o'r deheu i'r gogledd, y mae yr oerni yn parhau yn lled agos yr un fath. Y mae gwres yr haf yn cael ei reoleiddio gan ddeddfau cyffredinol eraill, megys y crybwyllwyd uchod. Yn y gogledd, y mae y poethder yn cael ei achosi, i raddau mawr, gan hyd y dyddiau; ond ar du y cefnfor i'r triongl a nodwyd uchod, y mae ardymmheredd rheolaidd y môr yn cymmedroli y gwres hwnw. Ar yr ystlys Asiaidd, y mae y poethder, weithiau, yn annioddefol; a hyny yn benaf o herwydd yr oerni llym a deimlir yn ystod y gauaf. Ar yr ystlys ddeheuol drachefn, sef y parthau a wynebant ar Fôr y Canoldir, y mae y gwres yn amrywio yn hynod, yn ol y gwyntoedd, ac achosion lleol eraill, ond yn lleihau yn gyffredinol tua'r dwyrain.

*Trigolion Ewrop.*—Y mae trigolion Ewrop, yn mron i gyd, yn perthyn i ddau ddosbarth o'r hil ddynol—a elwir y Caucasaidd a'r Mongoliaidd. Derbynia y cyntaf ei enw o ororau y Caucasus—lle yr ymddengys y tarddodd y cenhedloedd Japhetaidd o honynt. Y diweddaf a darddasant o Mongolia, yn nghanolbarth Affrica—o'r hon y daeth lluoedd dirifedi o farbariaid crwydrol i ddwyrain a chanolbarth Ewrop.

*Ieithoedd.*—Perthyna yr holl ieithoedd a siaredir yn awr yn Ewrop i ddau deulu mawr; sef, yr Indo-Ewropaidd, neu Aryaidd, a'r Finno-Tartariaidd. Siaredir y gyntaf gan y cenhedloedd a berthynant i'r dosbarth Caucasaidd; a siaredir y diweddaf gan olynwyr y Mongoliaid. Rhenir y tafod-ieithoedd a siaredir yn Ewrop i bedair cangen; sef, y Celtaidd yn y gorllewin; y Teutonaidd yn y gogledd a'r gogledd-orllewin; y Sclafonaidd yn y canol a'r dwyrain; a'r Groeg-Ladinaidd yn y deheu. Y mae yr holl rai hyn, gyda'r cangenau Indiaidd a Medo-Persiaidd yn Asia, wedi tarddu, neu yn perthyn yn agos, i'r Sanscrit—yr hon a restrir yn awr yn mysg yr ieithoedd meirw. Y mae y Sanscrit yn cael ei chyfrif yn un o'r ieithoedd hynaf, yn iaith gyflawn hefyd, ac yn un hynod o goeth; ac yr oedd hi yn cael ei siarad gan hen genedl a ddisgynodd o Japheth, mab hynaf Noah; a thybir ei bod wedi dyfod o Persia, a gweithio ei ffordd i ogledd India, gan yru ei thrigolion blaenorol i ranau deheuol y wlad hono, neu i'r mynyddoedd sydd yn ei chanolbarth. Y mae yn dra thebygol fod y bobl yma oedd yn siarad y Sanscrit yn gangen o'r un cyff a'r Cymry, ac eraill o'r teulu Celtaidd, y Teutoniaid, y Sclafiaid, a'r Heleniaid; pa rai, yn yr hen oesoedd, a ymfudasant i Ewrop—nid gyda'u gilydd—ond ar adegau gwahanol: mewn canlyniad i'r hyn y daeth y cangenau gwahanol uchod o ieithoedd i fodolaeth. Gwel IAITH, &c.

*Diwylliant.*—Y mae trigolion Ewrop yn llawer mwy diwylliedig na thrigolion parthau eraill y byd—mewn amaethyddiaeth, llaw-weithfeydd, masnach, celfyddydau cyffredin bywyd, gwyddoriaeth, llenyddiaeth, a gwareiddiad yn gyffredinol. Y mae Ewrop yn hynod iawn hefyd am ei

Digitized by Google

ffrwythlondeb cyffredinol, ac egni ei thrigolion. Y mae agos holl drigolion un o'r parthau ereill, sef America, yn hiliogaeth yr Ewropeaid—yn benaf o Loegr, Yspaen, a Phortugal; a hwy sydd yn anfon trefedigion i barthau ereill y byd, lle y mae y trigolion yn ychydig o rifedi, megys Awstralia; ac y maent yn gorchfygu y gwledydd sydd yn orlawn o drigolion, megys Hindostan.

4. *Anifeiliaid Ewrop.*—Nid ydyw Ewrop yn gyfoethog o ran amrywiaeth rhyw ei hanifeiliaid. Y mae 1,779 o wahanol rywiau o anifeiliaid sugno (*mammals*) yn awr yn adnabyddus; o'r rhai nid oes yn Ewrop ond 223 yn unig; ac o'r 223 hyny, nid oes ond 70 yn perthyn i Ewrop yn neillduol, heb fod mewn un man arall. Y mae y gweddill i'w cael yn Ewrop, ac mewn rhai o brif barthau eraill y byd, megys Asia, Affrica, America, ac Ynysoedd Môr y De (*Oceania*).

Mae anifeiliaid pedwar carnol Ewrop, fel pob parth arall, yn cael eu hystyried yn ddau ddosbarth; sef, anifeiliaid gwylltion, ac anifeiliaid dofion.

Nid yw rhywiau yr anifeiliaid gwylltion sydd yn awr yn Ewrop (y mae llawer o'r rhywiau oedd gynt yma wedi diflanu o flaen cynnydd gwareiddiad) ond ychydig o nifer; ac nid oes lawer o hynodion neillduol yn perthyn iddynt o ran dosbarthiad daiaryddol na chyfaddasiad lleol. Mae cyssylltiad agos y cyfandir hwn hefyd â chyfandir Asia yn peri fod gwahaniaethu yn fanwl rhwng rhywiau y ddau gyfandir yn orchwyl pur anhawdd. Hefyd, y mae llawer o anifeiliaid deheubarth Ewrop i'w cael yn ngogledd Affrica; a cheir y rhan fwyaf o'r pedwar-carnolion sydd yn cyfanneddu parthau gogleddol ein cyfandir ni yn y lledredau cyferbyniol yn Asia ac America. Onder nad ydyw milofyddiaeth (*zoology*) Ewrop yn nodedig o ran na rhif, na maint, na hynodrwydd ei hanifeiliaid, eto gwneir y diffyg yma i fyny i raddau helaeth o blegid yr adnabyddiaeth fanwl sydd genym o arferion a dulliau yr anifeiliaid lleiaf, gan fod eu hanes naturiol wedi ei olrhain yn ofalus gan amryw anianyddion galluog a llafurus.

Y prif anifeiliaid gwylltion pedwar-carnol yma yn Ewrop, ydyw yr arth, y blaidd, y baedd gwyllt, lynx, carw llychlyn, yr elk, y carw coch, yr iwrch, yr afr wyllt, yr Alpafr, y ddafad wyllt, a'r ych gwyllt—yr un, fe allai, ag a elwir yn y *Trioedd* yn "ych banog."

Cyfrifir fod yn Ewrop 119 o rywogaethau o fwystfilod sydd yn bwyta cig. Yr unig rai erchyll ydyw yr arth, y blaidd, a'r lynx; ond ymddengys y ceid y llew hefyd unwaith yn neheubarth y cyfandir. Dywed Herodotus ei fod gynt yn nhir Groeg, rhwng yr afonydd Nestus ac Achelous. Crybwylla hefyd fod byddin Xerxes yn cael ei blino gan lewod, ar ei mynediad o Acanthus i Therme. Y mae dau ryw o'r arth yn Ewrop, sef yr arth rhuddgoch cyffredin (*ursus arctos*), ac arth y gogledd, neu yr arth gwyn (*ursus maritimus*). Yr oedd yr arth rhuddgoch i'w ganfod unwaith yn mhob parth o gyfandir Ewrop. Dywed y *Trioedd* fod Ynys Prydain, ar y dechreu, yn "llawn bleiddiau, eirth, ac ychain banawg." Y mae eirth i'w cael yn wasgaredig dros y parthau mwyaf anghyfanneddol o'r Cyfandir—o'r cylch gogleddol hyd gribau yr Alpau a'r Pyrenees. Creadur unig anghymdeithasgar ydyw; a bydd yn gauafu yn ngheudod pren neu ogof, lle yr erys efe hyd y gwanwyn heb gymmeryd cynnaliaeth. Tybir fod y creadur yn cael ei feithrin yn ystod yr amser hwnw gan y brasder a fydd wedi ymdyru yn helaeth dan y croen yn ystod yr haf. Y mae Cuvier yn darlunio arth du perthynol i Ewrop, gwahanol i arth du yr America; ond ni welodd ond un esampl o hono erioed yn fyw, ac ni wyddai ei arferion. Mae yn debyg mai amrywiaeth ydoedd o'r arth rhuddgoch. Yn y cylch rhewllyd, o amgylch y pegwn gogleddol yn unig, y ceir arth y gogledd; ond bydd weithiau yn crwydro cyn belled i'r gogledd ag Iceland, neu hyd yn oed eithafoedd gogleddol Norway a Lapland. Mae y blaidd i'w gael yn lluosog yn awr yn nghoedwigoedd mawrion gwahanol barthau o Ewrop; ac y mae mewn amryw o ardaloedd mynyddig Ffrainc. Pan y blinir ef gan newyn, disgyna i'r ffermydd, ac ymosyd weithiau hyd yn oed ar y preswylwyr. Yr oedd y lynx unwaith i'w gael yn gyffredin yr nghanolbarth Ewrop; ond y mae yn awr wedi ei ddileu, oddi gerth mewn rhai parthau o Yspaen, yr Apennines, a pharthau gogleddol y Cyfandir. Y mae tua chymmaint ddwywaith a'r gath wyllt, yr hon y dywedir ei bod fyth i'w chael yn Mhrydain, ac mai brodor oddi yma ydyw.

Y mae yn Ewrop ychydig o greaduriaid gwylltion pedwar-troediog ereill, sydd o anian reibus, eithr nid ydynt ond diniwed mewn cymhariaeth; megys y llwynog, y pryf llwyd, neu y byrhwch (*badger*), y dyfrgi, ac amryw o rywogaethau o'r gwenci (*weasel*); megys y ffwlbart, y fronwen, y llygoden ffreinig, &c.

Ychydig o'r creaduriaid a elwir cnofilod (*rodentia*) sydd yn Ewrop. Yr oedd y llostlydan (*beaver*) yn cael ei gyfrif gynt fel un o anifeiliaid Prydain; ond dywedir nad ydyw i'w gael yn awr ond yn nghymmydogaethau y Rhone, y Danube, a'r Rhine, ac afonydd mawrion cyffelyb. Dywedir fod y ballasg (*porcupine*) i'w ganfod yn achlysurol yn Italy, a pharthau ereill o ddeheudir Ewrop. Y mae y wiwer hedegog hefyd i'w chael yn Denmarc a Lapland; a rhywogaeth neu ddau o'r turla (*lemming*).

Yr oedd y baedd gwyllt yn cael ei ystyried gynt yn un o greaduriaid gwylltion cynnwynol Ynys Prydain, ac yn un o wrthddrychau penaf helwriaeth; eithr anfynych y ceir ef yn awr ond yn nghoedwigoedd mawrion canolbarth Ewrop, lle y ceir yr arth rhuddgoch, ac anifeiliaid gwylltion cyffelyb.

Dywedir fod yma un creadur pedair llawiog, a elwir epa Barbary, neu magot, yr hwn a gyfannedda glogwyni Gibraltar; ac felly sydd ar derfynau eithaf Ewrop: ac er ei fod yn awr yn cael ei ystyried yn frodor, dywedir nad ydyw yn debyg ei fod yn breswylydd cyntefig Gibraltar.

Dywedir fod yn Ewrop gynniter a saith ar ugain o rywiau o'r llawednogion (*cheiroptera*), y rhai sydd fath o ystlumod bychain, diniweid. Y mwyaf cyffredin ydyw yr hwn a adnabyddir yn Nghymru dan yr enw cyffredin *ystlum*, sef *flitter-mouse* y Seison; y rhai a breswyliant mewn ogofäau, adeiladau adfeiliedig, mewn clochdai, ac yn ngheudyllau hen goed—lle y gauafant, wedi ymlapio yn daclus yn eu hesgyll crwyn, ac ymhongian gerfydd eu traed ol. Dywed Jenyns fod cymmaint ag un ar bymtheg o rywiau o'r ystlumod yn Ynys Prydain.

Ychydig o anifeiliaid yn cnoi eu cil sydd yn wylltion yn Ewrop; sef, rhyw wyth neu naw o rywogaethau. Y mae pump o'r rhai hyny o rywogaeth y carw. [Gwel CARW.] Yn yr Alpau yn unig y ceir yr afr wyllt a'r Alpafr yn awr, ac anaml y maent yno. Yn Corsica a Sardinia, y mae y ddafad wyllt, a dywed rhai ei bod yn Rwssia



Digitized by Google

hefyd. Y mae yr ych gwyllt yn awr yn bur anaml, ac nis ceir ef ond yn nghoedwigoedd Rwssia a Pholand yn unig.

Yn mysg anifeiliaid dofion Ewrop, y rhai sydd yn llawer mwy pwysig na'r rhai gwylltion, enwir y march, yr asyn, yr ŷch, y ddafad, yr afr, y mochyn, y ci, y gath; ac yn mharthau mwyaf gogleddol Ewrop, gellir chwanegu y carw llychlyn (*reindeer*).

Nid oes rywogaethau o'r march yn awr, ond rhai wedi deilliaw o rai wedi eu dofi; ond tybir iddynt fod unwaith yn frodorol yn Tartary, ac mewn rhyw barthau ereill o Asia. Bernir mai o'r wlad flaenaf y dygwyd hwy ar y cyntaf i ogledd a dwyrain Ewrop; pan y mae yn debyg iddynt gael eu dwyn i barthau deheuol a gorllewinol y cyfandir hwn o Barbary ac Arabia. Yr oedd meirch Yspaen yn enwog yn amser y Rhufeiniaid: ar ol hyny, y mae yn debyg iddynt gael eu cymmysgu â hiliogaeth Barbary ac Arabia yn ystod teyrnach y Mooriaid. Gellir eu hystyried y rhai ysgafnaf a chyflymaf o hen rywogaethau Ewrop, ac yn dynesu agosaf i'r meirch Arabaidd; ond y maent wedi dirywio yn fawr yn y ganrif olaf, o blegid na chymmerwyd digon o ofal i gadw y rhywogaethau goreu o honynt. Mae y meirch Yspaenaidd goreu yn gyffredin o bedair troedfedd a chwech neu wyth modfedd o uchder, ac yn dra thebyg i Arabiaid prydferth Barbary, a elwir y Barbiaid: rhai Andalusia, Granada, ac Estremadura yw y goreuon. O ororau Môr y Gogledd y mae y meirch trymaf yn Ewrop yn dyfod, a'r rhai lleiaf o ogledd Sweden ac o Corsica. Nid oes fawr o hynodrwydd yn meirch yr Almaen, ac Italy; ond y mae Switzerland a Holland yn cynnyrchu meirch tynu rhagorol. Y mae meirch Ffrainc yn rhywogaeth galed a defnyddiol; ond nid ydynt mor fawr a phrydferth a meirch Prydain: gwellhawyd y rhywogaeth yn ddiweddar trwy eu cymmysgu âg ystalwyni Prydeinaidd. Y mae y Prydeiniaid yn gofalu mwy am fagu meirch nag un wlad, oddigerth Arabia; ond tra yr ymdrecha yr Arabiaid gadw y rhywogaeth wreiddiol yn bur, y mae y Prydeiniaid yn eu gwellhau trwy eu cymmysgu â rhywogaethau ereill, nes y mae y meirch Prydeinaidd yn rhagori ar y rhai Arabaidd o ran maint a chyflymder, ac yn gyfartal yn fynych o ran cymmesuredd, er nad ydynt yn llawn mor alluog i oddef blinder. Gwel MARCH.

Ystyrir yr asyn yn Ewrop yn llawer is law y march. Creadur ydyw sydd yn cael ei esgeuluso a'i anmharchu. O Asia y mae wedi dyfod yn wreiddiol, ac nid ymddengys fod yr hinsawdd yma yn dygymmod cystal âg ef ag â'r march; canys teimla fwy oddi wrth oerder yr hin, ac y mae yn dirywio yn y gwledydd gogleddol—yr hyn sydd yn un achos ei fod mor ddirmygedig. Y mae yn greadur prydferth a bywiog yn mharthau deheuol Ewrop; ac nid yn annhebyg, o ran ymddangosiad a defnyddioldeb, i asynod dwyrain Asia a'r Aipht. Asynod Yspaen a Malta ydyw y rhywogaeth oreu sydd yn Ewrop. Un o'r prif ddefnyddiau a wneir o'r creadur yma ydyw cynnyrchu mulod (bastardiaid), o'r rhai y gwneir defnydd helaeth yn mharthau deheuol Ewrop, i ddwyn pynau, lle y maent yn dra defnyddiol, gan eu bod mor sicr ar eu traed a'r asyn, tra y maent yn fwy a chryfach.

Mae yr ŷch, yr hwn sydd o'r llwyth mwyaf o'r anifeiliaid sydd yn cnoi eu cil, yn dra gwasanaethgar i ddyn, er na ddefnyddir ef mor fynych at amaethu y tir er pan ddaeth y march i arferiad cyffredinol. Gwareiddiwyd ef ar y dechreu gan genedloedd Caucasiaidd dwyrain Asia, o'r lle y tybir iddo gael ei gludo i Affrica ac Ewrop; ond y mae rhai yn tybied y dichon fod y rhywogaethau dofion ar y cyfandir yma wedi deilliaw o'r rhywogaethau oedd yma unwaith yn wylltion —yr unig weddillion o ba rai yw tarw gwyllt yr Alban (*Bos Scoticus*), yr hwn a gedwir fyth mewn parc neu ddau yn y gogledd. Mae yn dra thebyg mai hwn oedd y rhywogoeth a elwid *urus* gan Cæsar, a hen ysgrifenwyr ereill; ond yr hyn sydd yn peri ammheuaeth mai hwn oedd rhiant ein hŷch dof ni ydyw y gwahaniaeth dyfyniadol pwysig sydd rhyngddynt mewn amryw bethau, yn enwedig o ran ffurf y pen. Mae yr un gwahaniaeth hefyd i'w ganfod yn yr amryw benau o ffurfiad diweddar a ddarganfuwyd yn y ddaiar, y rhai y tybir eu bod yn perthyn i'r hen *urus*. Y rhywogaethau mwyaf o wartheg yw rhai Podolia a'r Ukraine, a Twrci, Hungary, a'r llywodraethau Rhufeinaidd. Tybir i'r rhywogaethau Rhufeinaidd gael eu cludo yno gan y Gothiaid, gan fod yr holl ddarluniau o ychain a ganfyddir ar yr hen gerfiadau yn dynodi rhywogaeth lai, tebycach i'r rhai a welir yn awr yn Tuscany, o ffurf harddach, ac yn hollol wŷn. Y mae rhywogaeth fawr o ychain yn Denmark—gwreiddyn rhywogaethau Holland a Holstein. Y rhai olaf hyn yw rhiaint y rhywogaethau anniwylliedig sydd yn Mhrydain.

Ymddengys i'r ddafad ddeilliaw yn y dechreu o ddwyrain Asia, o'r lle y trosglwyddwyd hi i Affrica, lle y cyrhaeddodd fwy o berffeithrwydd nag yn ei gwlad gynhenid. Blew, ac nid gwlân, sydd ar yr holl rywogaethau gwylltion o'r ddafad: ymddengys mai diwylliad a newidiad hinsawdd a fu yn achosion o newidiad gorchudd y ddafad. Tybir i holl rywogaethau y ddafad ddof ddeilliaw naill ai o'r rhywogaeth a elwir Argali (*Ovis ammon*), neu o wahanol rywogaethau y Musmon (*Ovis musmon*), un o ba rai sydd fyth yn wyllt mewn rhai o ynysoedd Ewrop; megys Candia, Sardinia, a Chorsica. Ymddengys y bu rhywogaeth bur fawr o'r ddafad wyllt yn Mrydain gynt, yn meddu cyrn a chynffon mawrion. Dywed Pennant y cafwyd darlun o'r fath anifail ar faslun a gymmerwyd o fur Antonius yn agos i Glasgow. Dywed Boethius fod rhywogaeth o ddafad yn St. Kilda yn meddu cyrn cymmaint ag ŷch, ac yn cyrhaedd hyd y ddaiar. Y rhywogaethau mwyaf pwysig ar y cyfandir a elwir y Merino, y rhai sydd yn gwahaniaethu oddi wrth rywogaethau Prydain, trwy fod gwlân ar eu talcen a'u bochgernau. Mae eu gwlân o'r fath feinaf a phrydferthaf, o'r hwn y gwneir y brethyn teccaf. Y rhywogaethau yma sydd yn y rhan fwyaf o'r Yspaen. Ond Prydain sydd yn meddu y rhywogaeth werthfawrocaf o'r ddafad, a chymmeryd pob peth i ystyriaeth; canys y mae yn dwyn y swm mwyaf o'r gwlân goreu, heb law fod ei chig yr ymborth mwyaf danteithiol a maethlawn i ddynion. Gwel DAFAD.

Y mae Cuvier yn tybied fod pob rhywogaeth o'r afr ddof wedi deilliaw o'r *capra ægragos*—rhywogaeth wyllt sydd yn cyfanneddu mynyddoedd Persia, lle y gelwir hi *paseng* gan y trigolion. Dywed hefyd y canfyddwyd y rhywogaeth yma ar yr Alpau; ond tybia ereill mai amrywiaeth ydyw yr afr wyllt a geir yno, rhwng yr arf ddof a'r *Ibex*. Ymddengys fod yr afr wedi ei dofi o flaen y ddafad: o leiaf yr oedd felly yn ngorllewin Ewrop am oesau lawer. Creadur caled ydyw yr afr, a bydd fyw ar yr ymborth garwaf, gan y

cyfannedda y parthau mynyddig, lle y megir hi yn benaf. Yn Asia y ceir y rhywogaethau lluosocaf a phrydferthaf o'r afr ddof. Y mae y rhywogaeth Gymreig yn fawr, yn meddu blew hirion, ac yn gyffredin yn wŷn neu frithwyn. Y mae yn Yspaen rywogaethau moelion hirflew, ac yn meddu clustiau sythion. Y mae defnyddioldeb llaeth yr afr yn ddigon hysbys. Er nad yw cig gafr mewn oedran yn cael ei ystyried yn werthfawr, eto y mae cig y mynn yn bur flasus. Gwneir defnydd o'r blew mewn gwahanol weithfeydd, a thrinir y croen i wneyd menyg a phethau defnyddiol ereill.

Gradd led isel sydd i'r mochyn yn mysg anifeiliaid dofion, er fod ei gig yn ymborth maethlawn, ac yn cael ei ddefnyddio yn helaeth gan y werin. Un o'i ragoriaethau ydyw, y ceidw yn dda am amser maith, wedi ei halltu, heb sychu a chaledu, na cholli ei rinweddau maethlawn. Mae yn ddiammheu mai baedd gwyllt cyffredin (*sus scrofa*) Ewrop yw dechreuad ein rhywogaethau dof ni. Yr oedd unwaith yn naturiol yn y tri pharth yma o'r byd, er ei fod yn awr wedi ei ddileu o amryw wledydd, megys Prydain Fawr. Y rhywogaeth Brydeinig ydyw y moch rhagoraf yn Ewrop, y rhai a besgir i faint aruthrol. Y mae gan bob bwthynwr yn yr Iwerddon ei fochyn, fel rhan reolaidd o'i sefydliad: ac y mae halltu cig moch i'w allfori yn un o brif ranau masnach yn y wlad hono. Mae rhywogaeth o foch hynod o goes-hir yn Mhortugal ac Yspaen. Y mae moch Poland a Rwssia yn rhuddgoch, ac yn bur fychain.

Ystyrir mai y prif rywogaethau o'r ci yn Ewrop, yw yr *Albanian*, am yr hwn y crybwylla yr haneswyr a'r beirdd hynaf; y *Matin* Ffrengig, yr hwn a ystyrir gan ysgrifenwyr y wlad hono y pwysicaf o rywogaeth y cŵn, a dechreuad llawer o honynt; y milgi Gwyddelig; y ci mawr Danaidd; a'r milgi cyffredin. Y dosbarth arall a gynnwys y cŵn cyfrwysaf a mwyaf defnyddiol:—y spaniel, y bytheuad, y ci defaid (y bugail), a'r ci blaidd; ac i'r dosbarth hwn y perthyn spaniel yr Alpau, ci mynydd St. Bernard—math o rywogaeth Yspaenaidd, hynod o brydferth a chyfrwys, a gedwir gan fynachod y fonachlog hono, oddi wrth ba un y cafodd ei enw, er mwyn achub pererinion anffodus, y rhai a gollant yn fynych yn eira yr ardal anghyfannedd hon. Danfonir dau o'r cŵn cyfrwys a defnyddiol hyn allan gyda'u gilydd, un i gario mantell, a'r llall i gario basged yn cynnwys ymborth a meddyglyn: gyda'r darpariadau hyn, y maent wedi darganfod ac achub lluaws a fuasent feirw gan anwyd a blinder. Y dosbarth olaf yw y rhai sydd yn meddu safnau pur fyrion, megys y mastiff, y bwldog, &c. Yr oedd rhywogaethau Prydeinaidd o'r mastiff mor enwog gynt, fel y sefydlodd yr ymherawdwyr Rhufeinaidd swyddog yn yr ynys, gorchwyl yr hwn oedd anfon y cŵn hyn i Rufain i baffio yn y chwareule; ac mewn amseroedd diweddar yn ein gwlad ni, pan oedd ymladdau creulawn rhwng cŵn ac anifeiliaid gwylltion yn ddifyrwch cyffredin y mawrion, yr oedd magu y bwldog a'r mastiff yn cael sylw neillduol.

Y mae naturiaethwyr yn gwahaniaethu llawer yn eu barnau gyda golwg ar y gath ddof, a chyda golwg ar y parth o'r byd y perthyn iddo yn ddechreuol. Tybia rhai y rhaid ei bod yn perthyn i hinsawdd boeth, o blegid ei bod mor rynllyd, ac yn ymgripio bob amser mor agos i'r tân ag y gallo. Cred Cuvier mai brodor o'r coedwigoedd Ewropaidd ydyw; a'i bod o'r un rhyw a'r gath wyllt a ganfyddir yn bresennol, ond ei bod wedi ei chyfnewid trwy gael ei dofi a'i diwyllio. Er cadarnhau hyn, dywedir fod cathod mewn rhai manau, yn agos i goedwigoedd a fforestau, yn dueddol i fyned i grwydro i'r coed, ac yn dychwelyd yn fynych i'w sefyllfa wyllt gyntefig.

Y mae carw Llychlyn, yr hwn sydd wyllt wrth natur yn ngogledd Ewrop, yn dyfod yn dra gwasanaethgar i'r Laplandiaid ar ol ei ddofi. Mae yn ddefnyddiol fel ymborth, gwisg, ac anifail gwaith. O ran ei gyfansoddiad, y mae wedi ei gymhwyso i groesi diffeithleoedd llawn o eira, y rhai nas gellid eu tramwy heb yr anifail hwn! Pan gyssylltir ef wrth ysled, tyn bwysau mawr, a hyny yn gyflym. Cyfrifir cyfoeth y Laplandiad yn ol rhif y ceirw Llychlyn a fyddo yn ei feddiant. Yn ystod y gauaf, pan fyddo yr eira yn gorchuddio yr holl ddaiar, ac y llewygai yr ŷch a'r march, caiff carw Llychlyn ddigon o ymborth, trwy bori math o fwsogl a dyf yn helaeth yn y parthau rhewllyd hyny. Turia y carw yma am y llysieuyn hwn yn yr eira, fel y turia mochyn mewn cae porfa. Rhoddwyd cynnygion er ei ddofi yn Mhrydain, ond ni lwyddwyd hyd yn hyn; a phe llwyddid, ni byddai o nemawr o wasanaeth yma.

*Adar* Ewrop ydynt yn llawer lliosocach na'r anifeiliaid. Cyfrifir fod yma dros 490 o rywogaethau trigiannol, heb law llawer o rai ymfudol; ond rhaid i ni gyfyngu ein hunain at y rhai mwyaf neillduol. Ni cheir ond ychydig o adar yn y gororau gogleddol, a'r rhai hyny gan mwyaf yn perthyn i'r llwythau nofiadol. Mae y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn hefyd i'w canfod yn mharthau gogleddol Affrica ac America. Un o adar hynotaf gogledd Ewrop yw dylluan fawr yr eira, yr hon a ymbortha yn benaf ar gorieir yr Alban ac ieir y mynydd (*grouse*), y rhai sydd yn dra lluosog yn y gororau gogleddol. Y mae dau aderyn ysglyfaethus creulawn arall yn lluosog yn y gwledydd gogleddol, yn enwedig yn Lapland; sef hebog Iceland, yr hwn nis canfyddir ond yn anfynych mewn hinsoddau tynerach; a dylluan arall erchyll ei maint (*strix lapponica*), yr hon a breswylia ddiffaethleoedd Lapland yn unig. Y mae rhif rhywogaethau yr adar yn cynnyddu yn ddirfawr, fel y deuir i hinsoddau tynerach, y rhai a ymborthant yn benaf ar ffrwyth y ddaiar ac ar wybed. Ceir amryw fathau o'r coblyn y coed (*woodpecker*) yn nghoedwigoedd Norway; un o ba rai sydd yn hynod, am mai tri bys sydd ganddo i'w droed. Yn mysg yr adar arddechocaf a mwyaf arswydus sydd yn nghanolbarth a deheudir Ewrop, gellir nodi yr eryr euraidd a'r eryr breiniol. Preswylia y blaenaf yn mharthau anial yr Alban a'r Iwerddon, ac yn nghreigiau a mynyddoedd uchaf y cyfandir. Ceir y llall gan mwyaf yn y gwledydd deheuol. Y mae pedwar rhywogaeth o fwlturiaid i'w cael yn yr Alpau—dau o ba rai a geir yn ngogledd Affrica a gorllewin Asia. Aderyn ardderchog ydyw y fwltur barfog, yr hwn nis ceir yn unman braidd ond yn yr Alpau. Mae yn aderyn pur ffyrnig a gwaedlyd; ac y mae dros bedair troedfedd a hanner o hyd, o flaen ei big i flaen ei gynffon; ac ym osyd ar ddefaid a geifr, ac weithiau hyd yn oed ar yr afr wyllt a'r Alpafr, gan eu lladd. Mae y ddylluan glustfawr yn cyfateb yn nghanolbarth Ewrop i ddylluanod mawr yr eira yn y gororau gogleddol: mae yn gyffredin yn nghoedwigoedd yr Almaen a Hungary, a chanfyddir hi weithiau, er yn anfynych, yn Mhrydain. Mae yr afr

Digitized by Google

ehedydd (*great bustard*) i'w gael o eithafoedd gorllewinol canolbarth Ewrop hyd gyffiniau Asia. Y grugiar goch ydyw yr unig aderyn neillduol i Ynys Prydain. Ceir yr adar hyn rhwng canolbarth Ewrop ac eithafoedd ei chyffiniau gogleddol. Y rhywogaeth fwyaf yw ceiliog y coed, yr hwn sydd aderyn ardderchog, ac a breswyliai unwaith yn nghoedwigoedd yr Alban. Cyfanneddir parthau creigiog anial Yspaen a Thwrci gan ddau fath o grugiar y graig o lwyth gwahanol i'r un yn y parthau gogleddol. Ar ororau Môr y Canoldir, ceir cydgyfarfyddiad o ednod Ewrop, Affrica, ac Asia: yno ceir y pelican, y llwybig, a'r fflamednog, er nad ydynt yn awr yn lluosog. Ychydig o adar Ewrop sydd yn nodedig o ran prydferthwch eu plu, y rhai sydd mor ysblenydd yn yr hinsoddau poethion; ond gwneir hyn i fyny yn dda mewn llawer amgylchiad gan felusder eu cân. Y mae yr eos, y gantores oreu yn yr holl fyd, i'w chanfod yn fynych yn Mhrydain a gwledydd ereill Ewrop, er nad ydyw gyfyngedig i Ewrop yn unig. Mae yn ymweled â ni yn y tymmor cymharu, cystal a llawer o delorion ereill, y rhai sydd yn gwneud ein coed a'n gwrychoedd yn fyw gan londer yn ystod y gwanwyn a'r haf. Mae peroriaeth y fwyalchen a'r fronfraith, heb son am yr amryw linosau telorol sydd yn llenwi ein llwyni, yn rhy adnabyddus i ofyn unrhyw ganmoliaeth. Ond nid ydyw Ewrop yn amddifad o adar tra phrydferth eu lliw, y rhai a geir yn benaf yn ei pharthau deheuol: mae crepianog y mur, â'i esgyll rhosynog dysglaer, i'w gael yn fynych yn Italy; tra y mae y gegid euraidd (*golden oriole*), y gwenyn-fwytäwr Ewropaidd, y gopog (*hoopoe*), a'r rholydd, i'w cael yn lluosog yn y ddwy Sicily yn ystod y gwanwyn a'r gauaf; ac y mae amryw o linosau (*linnets*) Prydain yn dra phrydferth; megys y llinos bengoch, y llinos felen, y llinos werdd, &c.—heb law eu bod yn delorion godidog.

*Ymlusgiaid.*—Cyfrifir eu bod yn 73 o nifer, ac yn gyffredin yn rhai diniweid. Y neidr frech gyffredin ydyw yr unig sarff wenwynig braidd sydd yn Ewrop. Y mae llawer math o'r lysard mewn tai yn mharthau deheuol y Cyfandir, megys yn Italy; ond nid ydyw y rhan fwyaf o honynt yn perthyn yn unig i Ewrop, gan y ceir hwy ar ororau cyferbyniol Môr y Canoldir. Y mae morgrwban (*turtle*) bwytadwy godidog yn preswylio y môr yma, yr hwn sydd yn lled debyg ei ymddangosiad i benllorcan (*loggerhead*) yr India orllewinol, ond ei fod yn llawer mwy blasus. Yr ymlusgiad hynotaf sydd yn Ewrop ydyw y *proteus anguinus*, yr hwn sydd debyg ei ffurf i lysard y dwfr, neu elen gyda choesau anmherffaith. Y mae i'w gael yn llyn Zirknitz, yn Carniola, ac yn fynychaf yn ngwaelod daiargellau Maddalena yn Adelsberg. Tybia Syr H. Davy, ac ereill, nad ydyw yn breswylydd naturiol gwyneb y ddaiar, ond iddo gael ei yru i fyny o ryw lyn tanddaiarol, trwy gilfachau yn y creigiau. Ammheuir hefyd fod hwn yn anifail perffaith, a thybia rhai mai rhith (*larva*) rhyw un arall ydyw; ond profwyd fod ganddo dagellau (*gills*) ac ysgyfaint mewnol. Y mae ei lygaid yn hollol anorphenol, ac o dan y croen.

*Trychfilod.*—Y maent, gydag anifeiliaid modrwyog eraill, yn lliosog yn Ewrop; ond ychydig o honynt sydd yn gofyn sylw arbenig yn y darluniad hwn. Mae'r ysgorpion mewn tai yn fynych yn Sicily, er mawr anghysur, a pheth enbydrwydd hefyd i'r trigolion. Y gwybedyn cyffredin ydyw un o'r rhywogaethau o drychfilod mwyaf blinderus sydd yn ein plith ni; ac mewn lleoedd tesog, cysgodol, lle y mae llawer o ddwfr croew llonydd, y maent bron mor flinderus i rai personau ag ydyw moscito yr hinsoddau poethion—i'r rhai y maent yn dra thebyg. Yn Sweden, a gwledydd gogleddol ereill, lle y mae yr haf yn fyr, ond yn bur boeth, dywedir fod y moscito yn lluosocach nag yn nghoed y trofanau (*tropics*) yn America.

*Pysgod.*—Ceir llawer yn ngororau Ewrop sydd yn werthfawr iawn fel ymborth i'r bobl. Y prif bysgod, yn yr ystyr yma, yw y penwag (*herring*), y brwyniad (*anchovy*), a'r tynni (*tunny*)—dal a pharotoi y rhai sydd yn rhoddi gwaith i lawer o'r trigolion. Mae y penweig yn ymweled â gororau gorllewinol Ewrop yn heigiau mawrion, tua diwedd yr haf, er mwyn bwrw eu grawn neu silodi; a'r pryd hyny delir hwy yn rhifedi aneirif, yn enwedig ar ororau Prydain, lle y byddant yn dra lluosog. Tybid gan yr hen naturiaethwyr, a hyd yn oed gan Cuvier, fod y penweig yn ymfudo o'r moroedd gogleddol yn y gwanwyn, ac yn dychwelyd yno ar ol silodi; ond y farn ddiweddaraf yw, mai preswylio y mae y pysgod hyn yn nyfroedd dyfnion ein gororau, ac yn dyfod i'r glenydd er mwyn silodi, ac yna yn dychwelyd drachefn i ddyfnder y môr, lle yr arosant dros y gauaf a'r gwanwyn. Yn ngororau Cernyw yn unig y delir penweig Mair (*pilchard*), y rhai sydd o'r un llwyth a'r penweig cyffredin, lle yr ymddangosant yn Gorphenaf: y maent yn myned ymaith yn y gauaf, ac yn dychwelyd tua dechreu Ionawr. Yn Môr y Canoldir, yn benaf, y ceir y brwyniaid, lle yr änt yn heigiau anferth o faint trwy gulfor Gibraltar yn y gwanwyn, er mwyn silodi; ar ol yr hyn y dychwelant drachefn i ddyfnder y cefnfor. Y bysgodfa fwyaf gynnyrchiol ydyw un Gorgona—ynys fechan ar y tu gorllewin i Leghorn, lle y pysgotir trwy ystod y misoedd Mai, Mehefin, a Gorphenaf. Yn y nos y pysgotir y brwyniaid; a denir hwy at y cychod trwy gynneu tân ynddynt ar hyd y nos. Er mwyn gwneyd saws yn benaf y pysgotir hwy; yr hwn sydd dra adnabyddus, ac a werthfawrogir fel cyffaeth blasus.

Yn Môr y Canoldir y ceir hefyd y tynni. Yr oedd y pysgodyn hwn yn dra hysbys i'r hynafiaid, ac yn rhan fawr o'u masnach. Sylwid ar yr amser y deuai i Fôr y Canoldir o'r cefnfor, a sefydlid pysgodleoedd i'w ddal yn y lleoedd y byddai luosocaf. Yn nghanolbarth y môr hwnw y pysgotir y tynni yn awr yn benaf; yn enwedig ar hyd gororau Catalonia, yn Provence, yn Liguria, yn Sicily, ac yn Sardinia. Mae y pysgodyn yma yn ymweled â gororau Prydain hefyd; ond nid yn heigiau, fel tynni Môr y Canoldir.

Ceir yr eog (*salmon*), yr hwn sydd un o'r pysgod gwerthfawrocaf a phrydferthaf, yn holl foroedd gogledd Ewrop, Asia, ac America. Yn ol Cuvier, y mae yn dyfod o foroedd y gogledd, ac yn myned yn heigiau mawrion i afonydd y gwledydd gogleddol yn y gwanwyn, er mwyn silodi. Tua diwedd y gauaf y mae yr eog yn gadael y môr mewn hinsoddau tymmerus; ond mewn ororau mwy gogleddol, mae yn myned i'r afonydd pan ddechreuo y rhew doddi ar ororau y cefnfor. Er fod yr eog yn gyfyngedig, gan mwyaf, i'r parthau mwyaf gogleddol, nid yw yn hysbys pa cyn belled i'r de y mae yn cyrhaedd; ond tybir ei fod yn myned yn llawer pellach na'r 45ed radd o ledred. Ond nid ydyw i'w gael yn helaeth yn afonydd gororau gorllewinol Ffrainc.

Mae y cornbig (*pike*), yr hwn sydd bysgodyn

Digitized by Google

iach, yn dra rheibus; ac yn lled gyffredin yn nyfroedd croew y Cyfandir hwn.

*Coed a llysiau.*—Y mae coed a llysiau deheu Ewrop yn debyg i'r rhai sydd yn Nghanolbarth Asia a Gogledd Affrica; a dywedir nad oes yn Ewrop gymmaint ag un llysieuyn cynhenid nad ydyw i'w gael yn un o'r ddau gyfandir uchod. Rhenir y ddaear gan naturiaethwyr i bump-ar-hugain o ddosbarthiadau llysieuol—pob dosbarth yn tyfu planhigion priodol iddo ei hun, gan mwyaf. Y mae tri o'r rhai hyn mewn rhan o fewn terfynau Ewrop:—y gogledd, y canol, a'r deheuol. Yn Sicily, er esampl, heb law y winwydden, tyfir dau rywogaeth o'r fflamgoed yn y parthau mwyaf diffaeth; ac y mae un o honynt yn bren di-ddail a gwenwynig. Fe dŷf rhywogaeth arall, blodeuog, o'r fflamgoed, yn yr Aipht, yn nghymdeithas y gwarchlys (*castor-oil tree*), ynghyd â mochlys Sodom (*solanum Sodomæum*). Hefyd, ffrwythlona y palmwydd, y peisang (*pisang*), a'r ellygen yn helaeth; yr *aloes* Americanaidd hefyd, a'r reis. Yn Avola, amaethir y gorsen sugr. Cynnyrchir planhigyn cotwm hefyd o'r fath oreu ar lanau y Simeto. Y mae y gorsen fawr Italaidd yn cadw lle y bambw, ac yn rhoddi digon o ddellt hirion i gynnal y winwydden, er gwaned ydyw. Mae'r ffigysbren, yr olewydden, pren yr afal euraidd, y winwydden, ac ŷd yr India, yn tyfu megys yn eu hinsoddau naturiol yn yr holl ororau deheuol hyn o'r Cyfandir. Ni cheir yr olewydden, hyd yn oed mewn dyffrynoedd, yn ddim pellach i'r gogledd na 44 gradd; ac ni chynnyrcha y winwydden win da tu hwnt i 48 gradd, ond mewn lleoedd cysgodol. Y mae y pinwydd sypynog, y ffynnidwydd, a rhywogaethau eraill, yn tyfu ar hyd glanau y moroedd, ac yn cymmeryd lle tyfolion mwy deheuol. Yn mhellach fyth i'r gogledd, lle y dechreua y winwydden ballu, ceir meusydd ëang o wenith, a grawn eraill, yn ei lle. Yn uwch, cyfarfyddir yn mhob man â'r coed cedyrn sydd yn tyfu yn Mhrydain; megys y llwyfen (*elm*), y bisgwydden (*lime*), y derw, yr onen (*ash*), y wernen (*alder*), y ffawydden (*beech*), y fedwen (*birch*), yr helyg, a'r poblyswydd, &c.; ynghyd â phorfeydd gwelltog a meusydd ffrwythlawn, adnabyddus yn ngwledydd yr eurafalau a'r myrtwydd. Yn mhellach etto i ogledd y Cyfandir, yr aethwydd (*aspens*), y rhuddwern (*bird-cherries*), y bedw, y pisgwydd, y gwern, y meryw (*juniper*), y pefrwydd (*spruce-firs*), a'r sybwydd (*pines*), ydyw y coed mwyaf cyffredin: a haidd a cheirch ydyw yr unig ydau a gyfodir; ond meithrinir pytatw yn yr haf byr ac oer yno.

Y mae amrywiaeth y llysiau yn neheudir a gogledd Ewrop yn llawn mor amlwg ag amrywiaeth y coed; ond byddai nodi yr holl rywogaethau yn llawer rhy faith. Mae amrywiadau o'r fath i'w canfod hyd yn oed yn yr un gwledydd, fel yr elir yn uwch i'r hinsawdd ar hyd llethri y mynyddoedd. Yn Sicily, er esampl, yn y dyffrynoedd, y mae y tyfolion yn dra thebyg i dyfolion y gororau trofanol (*tropical*); ond ar hanner y ffordd i benau y mynyddoedd, y maent yn cyfnewid i ansawdd tyfolion canolbarth Ewrop; ac yna, ânt fel y rhai mwyaf gogleddol ar ben Etna, tua 9,000 o droedfeddi uwch law y môr; a thebyg ydynt ar fynyddoedd eraill, fel yr elir yn mlaen i'r deheu. A phan eir i Sulitelma, yn Lapland, ni cheir un math o dyfolion uwch law 3,440 troedfedd o wyneb y môr.

Saith math o lysiau ŷd sydd yn cael eu tyfu yn Ewrop; sef, gwenith, haidd, ceirch, rhŷg, miled (*millet*), ŷd India, a reis. Gellir tyfu y pytatw ar dir lawer uwch nag ŷd.

*Mŵnau.*—Ceir fod aur yn Rwssia, Awstria, a Chymru; arian, yn Awstria a'r Almaen; alcan (*tin*) yn Mhrydain; copr yma hefyd, ac Awstria; plwm, yn Yspaen a Phrydain; haiarn, yn mhob man, yn enwedig yn Mhrydain, Rwssia, Sweden, a Norway; arian byw, yn Yspaen ac Awstria; zinc, yn Mhrydain a Belgium; glô, yn Mhrydain a Belgium; a halen o bob math agos yn mhob gwlad. Nid ydyw Ewrop yn gyfoethog o fetteloedd gwerthfawr; ond y mae y rhai mwyaf defnyddiol yn dra helaeth yn y Cyfandir hwn. Y mae gweithiad y cloddfeydd aur yn America ac Awstralia yn ymddibynu, i raddau mawr, ar y cyflawnder o arian byw a geir o Ewrop. O Brydain y ceir tua'r drydedd ran o'r haiarn a ddefnyddir yn Ewrop, agos yr holl alcan, a thua hanner y copr a'r plwm.

*Crefyddau.*—Gellir rhanu crefyddau Ewrop, er mor amrywiol ydynt mewn llawer o bethau, i dri dosbarth—yn cyfatteb i'r tri dosbarth o bobl, ac o ieithoedd, y cyfeiriwyd atynt o'r blaen. Er esampl, y mae y cenhedloedd sydd o darddiad Caucasaidd, yn y cyffredin, yn Gristionogion:—y rhai sydd o darddiad Mongolaidd ydynt oll, yn mron, yn baganiaid:—tra y mae y Tyrciaid, y rhai a ystyrir fel yn ffurfio math o ddolen gyssylltiol rhwng y Cristionogion a'r paganiaid, yn proffesu Mahometiaeth. Etto, yr ydym yn cael fod cenhedloedd sydd yn siarad y cangen-ieithoedd Teutonaidd wedi cofleidio Protestaniaeth, at ba rai y dylem chwanegu y canghenau Celtaidd sydd yn Nghymru ac Ysgotland. Y mae y rhan fawr arall o'r Celtiaid, a'r teuluoedd Groeg-Lladinaidd, yn Babyddion. Y mae y cenhedloedd sydd yn siarad yr ieithoedd Sclafonaidd yn perthyn i Eglwys Groeg. Nid ydym heb eithriadau i'r dosbarthiad uchod:—er esampl, ceir trigolion Groeg, yn lle bod yn Babyddion, yn glynu yn gadarn wrth Eglwys Groeg; a'r Awstriaid, er eu bod yn siarad un o'r cangen-ieithoedd Teutonaidd, ydynt yn proffesu Pabyddiaeth i raddau pell. Rhoddwn yma amcangyfrif o drigolion a chrefyddau Ewrop.

Y CENHEDLOEDD

| | |
|---|---|
| Celtaidd a Groeg Lladinaidd ... | 105,030,000 |
| Teutonaidd .. ... ... | 110,500,000 |
| Sclafonaidd.. ... ... | 94,500,000 |
| Mongolaidd a Tartaraidd ... | 30,274,421 |
| Iuddewaidd.. ... ... | 5,230,300 |
| Y Crwydraid (*Gypsies*), &c. ... | 1,110,318 |
| **Y cyfan ... ...** | **346,645,039** |

CREFYDDAU.

| | |
|---|---|
| Pabyddion ... ... ... | 161,500,000 |
| Eglwys Groeg ... ... | 86,000,000 |
| Protestaniaid ... ... | 83,760,000 |
| Mahometiaid a Phaganiaid ... | 7,595,000 |
| Iuddewon ... ... ... | 5,640,000 |
| Mân grefyddau eraill ... | 2,150,039 |
| **Y cyfan ... ...** | **346,645,039** |

EWYLLYS [*will; voluntas, θελημα, βουλη*]. Priodolir ewyllys i Dduw. Y mae hyn yn gynnwysedig yn mherffeithiau moesol ei natur—ei ddoethineb, cyfiawnder, daioni, sancteiddrwydd, geirwiredd, &c. Y mae y rhai hyn yn rhagdybied ewyllys, neu ryddid, yn Nuw; ac nis gellir ffurfio un syniad am danynt ar wahân oddi wrth ewyllys. Pa beth ydyw doethineb ond dewisiad o'r dybenion goreu ac o'r moddion goreu i'w sicrhau?—yr hyn nis dichon fod heb ewyllys. Ni

Digitized by Google

ddywedem fod neb yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda, os byddai yn gweithredu dan angenrheidrwydd gorfodol yn y cwbl a wnai. O'r braidd y dywedem fod gallu yn bosibl, yn ei ystyr uchaf, heb ryddid; o herwydd yr hwn a wnai beth dan orfodaeth, ac am na allai wneuthur yn amgen, ni ddywedid mewn ystyr priodol ei fod yn weithredydd, ond yn hytrach yn ddioddefydd. Y mae pob cenedl sydd yn addoli, drwy hyny yn cydnabod ewyllys a rhyddid yn Nuw; o herwydd ni byddai un cymhelliad i addoli bod nad allai weithredu yn ol ei ewyllys, ac o ganlyniad oddi wrth yr hwn na byddai dim i'w ddisgwyl na dim i'w ofni. Nid ydyw yn un gwrthwynebiad i ryddweithrediad ewyllys yn Nuw, ei fod bob amser yn ewyllysio yr hyn sydd oreu, ac yn gweithredu yn y modd goreu, ac nas gall wneuthur yn amgen. Codi y mae hyn, nid o angenrheidrwydd gorfodol, y sydd yn anghysson â rhyddid, ond o berffeithiau moesol ei natur, y rhai nas gallant hanfodi heb ryddid. Y mae y gair *ewyllys* yn cael ei gymhwyso at Dduw mewn gwahanol ystyron yn y Beibl. 1. Ei ewyllys greadigol: *Dad.* iv. 11; "O herwydd dy ewyllys di y maent ac y crewyd hwynt." Hon ydyw deddf uchaf pob peth creedig: *Rhuf.* ix. 19; *Eph.* i. 11. Y mae yr angylion yn offerynau i wneuthur ei ewyllys: *Salm.* ciii. 21:—tywysogion: *Esa.* xliv. 28; *Act.* xiii. 22:—dynion yn gyffredinol: 1 *Pedr* ii. 15: a phob creadur. Y mae yn dadguddio ei ewyllys yn y gyfraith: *Rhuf.* ii. 18. 2. Trefn dragwyddol ei ras, yn seiliedig ar ei ewyllys, i achub pechaduriaid yn ei Fab. Gelwir hi yn "ddirgelwch ei ewyllys." Y mae hefyd yn amlygiad o foddlonrwydd ei ewyllys: *Eph.* i. 5, 9; *Gal.* i. 4. Yn y drefn hon y mae yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig: 1 *Tim.* ii. 4:—na bydd neb yn golledig: 2 *Pedr* iii. 9:—o'r cwbl a roddes y Tad i Grist na chollai ddim o hono: *Ioan* vi. 39. 3. Galwad yr efengyl ar ddynion i gredu a gwneuthur ewyllys Duw: *Ioan* vi. 40; *Mat.* vii. 21. Y mae holl alwadau a gorchymynion Duw yn golygu ein sancteiddiad a'n gogoneddiad. "Hyn yw ewyllys Duw, sef eich sancteiddiad:" 1 *Thes.* iv. 3; *Mat.* vi. 10; *Heb.* xii. 14; *Eph.* v. 17; *Heb.* xiii. 21. Y mae ewyllys achubol Duw yn cael ei chyflawnu mewn pechaduriaid trwy adenedigaeth; o herwydd hyny y dywedir, "o'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni trwy air y gwirionedd:" *Iago* i. 18; *Heb.* x. 10. Felly y mae cael y gallu i adnabod ewyllys Duw: *Rhuf.* xii. 2; *Eph.* v. 17:—ac i wneuthur ewyllys Duw o'r galon: *Eph.* vi. 6; *Heb.* xiii. 21:—a gweddio yn ol ei ewyllys: 1 *Ioan* v. 14:—yr hwn sydd yn gwneuthur ei ewyllys sydd yn parhau yn dragywydd: 1 *Ioan* ii. 17. 4. Arweiniad neillduol ei ragluniaeth: *Rhuf.* i. 10; xv. 32. 5. Yr hyn sydd wedi ei osod gan ewyllys Duw i ddynion i'w ddyoddef er eu daioni hwy a'i ogoniant ei hun: *Mat.* xxvi. 42; *Luc* xxii. 42; 1 *Pedr* iv. 19; *Heb.* x. 36.

Priodolir ewyllys hefyd i ddyn; wrth yr hon y meddylir gallu yr enaid i benderfynu drosto ei hun, hyn neu arall, ac i ddewis drwg neu dda. Trwy y cwymp y mae dyn wedi colli ei ryddid, ac wedi syrthio dan gaethiwed pechod: *Rhuf.* vii. 15, &c.:—o ganlyniad, y mae ei gogwydd at ddrwg, ac y mae yr ewyllys yn "ewyllys y cnawd," wedi ei dal gan ddiafol wrth ei ewyllys ef: 2 *Tim.* ii. 26. Eto, nid ydyw wedi colli y gallu naturiol i ddewis; ond ansawdd sanctaidd yr ewyllys sydd wedi colli. Trwy ailenedigaeth, adferir yr ansawdd sanctaidd a gollwyd, ac o ganlyniad y mae "parodrwydd ynddo i ewyllysio" y da: 2 *Cor.* viii. 11. "Cyferbynir ewyllys y Cenedloedd," sef eu chwantau pechadurus, âg "ewyllys Duw:" 1 *Pedr* iv. 2, 3. Wrth natur y mae pob dyn yn gwneuthur "ewyllysiau y cnawd a'r meddyliau;" *Eph.* ii. 3: y mae holl alluoedd yr enaid dan ddylanwad ac yn ngwasanaeth y cnawd. Wrth ewyllys, yn 1 *Cor.* xvi. 12, y meddylir, bwriad: yn *Luc* xxiii. 25, gallu.

Gan fod *yr ewyllys* yn destyn dadleuon dyrus mewn athroniaeth a duwinyddiaeth, ni a gymmerwn adolygiad arnynt dan ddau ddosraniad; sef, Ewyllys Duw, ac Ewyllys Dyn.

I. Ewyllys Duw. Y mae yr Ysgrythyrau yn dangos i ni mai Duw ydyw creawdwr a chynnaliwr pob peth: mai efe ydyw llywodraethwr a rheolwr pob peth; ac fel y cyfryw, y mae yn rhaid fod ganddo ei gynlluniau gyda golwg ar y cyfan; a thrwy ei ragluniaeth a'i lywodraeth ar y byd y mae yn cyflawnu ei fwriadau ac yn dwyn ei gynlluniau i weithrediad. Dangosir ef yn y Beibl fel yn dwyn y cyfan i ben yn ol cynghor ei ewyllys ei hun: ac y mae hyn yn gysson â'r syniadau y rhaid i ni ffurfio am weithrediadau bod sydd yn anfeidrol yn mhob perffeithrwydd. Ni feddylir, wrth ddywedyd ei fod yn trefnu pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun, ei fod yn gweithredu heb resymau digonol i ddoethineb a daioni anfeidrol. Yn y cwbl y mae yn gweithredu oddi ar y rhesymau goreu ac yn unol â holl berffeithiau moesol ei natur. Ond nid yw yn gweled yn dda i amlygu holl resymau ei weithrediadau i ni:—y maent uwch law ein hamgyffrediad, ac o ganlyniad, nis gallwn ond eu holrhain i gynghor ei ewyllys ei hun. Nis gall neb ammheu nad oes ganddo "hawl berffaith i ewyllysio a gwneuthur pa beth bynag sydd heb fod yn anghysson â chyfiawnder cyffredinol."—*Dr. E. Williams.* Hyn ydyw ei ddarnodiad ef o benarglwyddiaeth y Goruchaf. Y mae holl fwriadau, a gweithrediadau yr Anfeidrol i'w priodoli i berffeithrwydd hanfodol ei natur: ac hefyd, i ewyllys a bwriadau Duw y mae priodoli, mewn rhyw ystyr, y cyfan sydd yn cymmeryd lle yn llywodraethiad y byd. Gan mai efe yw achos cyntaf a llywodraethwr goruchaf y cwbl, nis gall fod yn amgen. Y mae y Beibl yn amlwg yn priodoli llywodraethiad pob peth i'w ewyllys ef.

Y mae yr un anhawsderau yn ein cyfarfod mewn cyssylltiad âg ewyllys Duw ag sydd mewn cyssylltiad âg arfaethau Duw. Y mae arfaethau Duw yn gorphwys ar ei ewyllys, a'u heffeithioldeb yn cael eu sicrhau gan ei hollalluogrwydd. Ewyllys Duw ydyw ffynnonell pob peth: achos cyntaf pob ysgogiadau a dygwyddiadau: nis gellir ei lluddias, rhaid iddi gael ei chyflawnu. "Y mae yn gwneuthur yr hyn a fyno oll." Y mae hyn yn gynnwysedig yn y drychfeddwl o ewyllys hollalluog; o herwydd nis gellir lluddias un ewyllys ond trwy ewyllys gryfach, ac nis gall fod un gryfach nag un hollalluog. Y mae hyn yn gynnwysedig yn yr hapusrwydd dwyfol; o herwydd nis gall neb fod yn berffaith hapus os na chyflawnir ei ewyllys; ac y mae yr Anfeidrol yn berffaith hapus. Er fod yr ewyllys ddwyfol yn gweithredu yn y byd moesol a naturiol trwy ail achosion, neu achosion cyfryngol (*mediate*), eto dibynant yn yr eithaf am eu heffeithioldeb ar yr achos cyntaf. Yn chwanegol at y gosodiad mai ewyllys Duw ydyw achos pob peth sydd mewn bod, ni a allwn fyned yn mhellach, a dyweyd y gallasai beri i bob peth, y sydd ynddo ei hun yn bosibl, ddyfod i fod pe dewisasai. Nid ydyw hyn eto ond casgliad angenrheidiol oddi wrth ei

Digitized by Google

hollalluogrwydd. Yn y fan yma y mae dirgelwch mawr ewyllys Duw yn dyfod i mewn, yn ei pherthynas â chreaduriaid moesol a chyfrifol; o herwydd ymddengys fel casgliad hawdd oddi wrth y sylwadau blaenorol y gallasai Duw attal dyfodiad pechod i fod trwy weithred o hollalluogrwydd, pe dewisasai. Ond gan nas gallwn ammheu ei hollalluogrwydd, y mae yn rhaid ei fod wedi dewis caniatau iddo ddyfod i fod. Neu pe dewisem osod i fyny amddiffyniad o blaid ewyllys Duw yn yr achos, nis gallem wneuthur hyny ond ar draul ei hollalluogrwydd. Y mae yr un anhawsder yn ein cyfarfod yn ei berthynas â chadwedigaeth pechaduriaid. Gan nas gallwn ammheu hollalluogrwydd Duw, yr ydym yn gofyn yn mha ystyr didwyll y mae yn "ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig?" Mae yn eglur ei fod yn ewyllysio cadwedigaeth pob dyn, gan fod y Beibl yn tystiolaethu hyny: y mae yn amlwg hefyd nad yw yn ewyllysio cadwedigaeth pob dyn mewn ystyr sydd yn sicrhau cyflawniad ei ewyllys; o herwydd ni bydd pawb gadwedig. O herwydd yr anghyssondeb ymddangosiadol hwn, nid rhyfedd fod dadleuon maith a dyrys wedi bod o barth i ewyllys Duw—ei gweithrediadau—a'r egwyddorion sydd yn ei llywodraethu. Y mae y mater hwn yn rhan hanfodol o'r ddadl rhwng Calviniaid ac Arminiaid. Addefir ar bob llaw fod Duw wedi dadguddio ei ddeddf i fod yn rheol bywyd ac ymarweddiad—fod y ddeddf hon yn amlygiad o ewyllys Duw mewn perthynas i'r hyn y dylai dyn fod a gwneuthur; ac yn dangos hefyd pa beth fydd y canlyniadau o ufudd-dod neu anufudd-dod i'r ewyllys ddwyfol yn y fath ddadguddiad o honi. Ar y pen hwn nid oes dim ammheuaeth na dadl. Ond y mae gwirionedd arall, sef fod Duw yn llywodraethu y byd, a bod dynion, ynghyd â'u gweithredoedd, eu pechodau, a phob peth a berthyn iddynt, dan ei lywodraeth, a'i fod yn eu defnyddio i gyrhaedd ei amcanion. Yn mhellach, y mae hyn yn cynnwys fod pob dygwyddiadau—pob peth sydd yn cymmeryd lle yn y byd—mewn rhyw ystyr yn amlygiadau ac yn ganlyniadau ewyllys Duw, neu yr hyn y mae efe wedi bwriadu ac wedi trefnu i gymmeryd lle. Addefir fod pob peth sydd yn cymmeryd lle—yn cynnwys holl weithredoedd dynion, ac o ganlyniad eu tynged dragwyddol—wedi cael eu rhagweled gan Dduw, a bod ei ragluniaeth mewn rhyw fodd yn trefnu y cyfan. Nis gellir gwadu, heb wadu ei hollalluogrwydd, nas gallasai efe attal unrhyw beth, neu bob peth a ddaeth i fod rhag dyfod, pe buasai yn ewyllysio hyny; ac felly y mae yn rhaid i bob peth sydd yn dyfod i fod—gweithredodd dynion, a'u trueni, neu eu hapusrwydd—mewn rhyw ystyr fod yn unol âg ewyllys Duw; sef yr hyn y mae yn ei ddymuno ac wedi ei fwriadu. Ond y mae llawer o ddygwyddiadau yn cymmeryd lle, megys gweithrediadau pechadurus dynion, sydd yn wrthwynebol i, ac yn anghysson âg ewyllys Duw fel y mae wedi ei dadguddio yn y gyfraith foesol; ac o ganlyniad rhaid i ni ddal naill ai nad yw y gyfraith yn amlygiad o ewyllys Duw, neu ynte nad yw y digwyddiad yn amlygiad o ewyllys Duw; neu ynte, y mae yn rhaid gwneud rhyw wahaniaethau trwy ba rai y gellir dangos yr hyn sydd yn wirionedd yn y naill a'r llall, ac o ganlyniad eu cyssoni â'u gilydd.

Y mae yn ddiammheuol fod y gyfraith yn amlygiad o ewyllys Duw, ac yn dangos ei fod mewn rhyw ystyr yn ewyllysio, fel y mae yn gorchymyn, i'w holl greaduriaid rhesymol rodio yn ffyrdd sancteiddrwydd, a thrwy hyny fod yn dragwyddol ddedwydd. Y mae Arminiaid yn dal mai hyn ydyw yr unig amlygiad gwirioneddol o feddwl ac ewyllys Duw; ac nad yw dygwyddiadau, sef yr hyn sydd yn cymmeryd lle yn y byd, mewn unrhyw ystyr yn amlygiad o ewyllys Duw—yn ddadguddiad o'r hyn y mae efe yn ei ewyllysio ac yn ei ddymuno, nac yn ddangosiad o'r hyn y mae efe wedi ei arfaethu. Y mae Calviniaid, ar y llaw arall, yn dal fod dygwyddiadau fel y cyfryw, ac o ganlyniad pob dygwyddiadau, yn amlygiad i ni mewn rhyw ystyr o ewyllys Duw. Dadleuant hwy fod hyn yn gynnwysedig o angenrheidrwydd yn ei benarglwyddiaeth a'i lywodraeth ar bob peth; ac yn mhellach hefyd, yn yr ystyriaeth y gallasai efe attal pob peth sydd wedi cymmeryd lle, ac y gwnai hyny, oni buasai mewn rhyw ystyr yn unol â'i ewyllys, ac yn meddu rhyw gyfaddasrwydd mewn trefn i'w chyflawniad. Gan nad ydyw Arminiaid yn ystyried yr hyn sydd yn cymmeryd lle, y gweithredoedd sydd yn cael eu cyflawnu, yn amlygiad mewn unrhyw ystyr o ewyllys Duw, a'u hystyried ynddynt eu hunain, y maent yn gorfod cyfaddef fod llawer o bethau yn cymmeryd lle, megys gweithredoedd pechadurus dyn, sydd yn hollol ac yn mhob ystyr yn wrthwynebol i ewyllys Duw. A chan fod hyn yn ymddangos yn anghysson â hollalluogrwydd a goruchafiaeth Duw ar bob peth, gorfodir hwythau, fel y Calviniaid, i ddwyn rhyw wahaniaethau i mewn i'r ystyriaeth o ewyllys Duw, er mwyn egluro a chyssoni yr hyn, heb hyny, sydd yn ymddangos yn anghysson. Ac y mae y ddadl rhwng y Calviniaid a'r Arminiaid dan y pen hwn yn gynnwysedig yn yr ymofyniad, Pa un o'r gwahaniaethau a wneir rhwng y ddwy blaid sydd fwyaf cysson â golygiadau cywir am gymmeriad a pherffeithiau Duw, fel yr amlygir ef yn yr Ysgrythyrau?

Y gwahaniaeth Calvinaidd a wneir o barth i ewyllys Duw ydyw y gwahaniaeth sydd rhwng ewyllys arfaeth (*voluntas decreti*), ac ewyllys gorchymyn (*voluntas præcepti*). Yr un gwahaniaeth ydyw hwn a'r gwahaniaeth rhwng ewyllys ddirgeledig ac ewyllys ddadguddiedig. Ymadroddion ereill am yr un gwahaniaeth ydyw *voluntas*=ευδοκιας, a *voluntas*=ευαρεστιας, ac hefyd *voluntas beneplaciti* a *voluntas signi*. Ewyllys ddirgeledig Duw ydyw ei reol iddo ei hun i weithredu: ei ewyllys ddadguddiedig ydyw ei reol i'w greaduriaid. Arfaeth Duw ydyw y cyntaf; ond ei orchymynion a'i waharddiadau ydyw yr ail. Ewyllys Duw, hyny yw yr ewyllys a gyflawnir yn effeithiol ac yn ddieithriad, ydyw y naill; ond yr amlygiadau o'r ewyllys a roddir i ni yn rheol bywyd ac ymarweddiad (*voluntas signi*) ydyw y llall. Pe gofynir, ar ba sail y gwneir y gwahaniaeth hwn; yr ateb ydyw, ar sail ffeithiau a amlygir yn y Beibl. Heb gau yr Anfeidrol allan o'i lywodraeth ar y byd, rhaid dywedyd fod ganddo ewyllys sydd yn rheoli ac yn llywodraethu pob peth; a'r unig amlygiad o'r ewyllys hon ydyw y dygwyddiadau sydd yn cymmeryd lle dan ei oruchreolaeth, ac felly y mae hi yn ddirgeledig hyd y cyfryw ddadguddiad gweithredol. Y mae pob dygwyddiad sydd yn cymmeryd lle yn dadguddio i ni rywbeth o'r hyn y mae yr Arglwydd wedi bwriadu ei gyflawnu, neu o'r hyn lleiaf ei ganiatau. Yr ewyllys ddirgeledig (*voluntas arcana*) ydyw yr ewyllys drwy yr hon y mae yn penderfynu dygwyddiadau a'u canlyniadau: yr ewyllys ddadguddiedig (*voluntas revelata*) ydyw yr hon trwy ba un y mae yn penderfynu dyledswyddau.

Digitized by Google

Y mae y Calviniaid yn dal fod y gwahaniaeth hwn yn cyfateb i wahaniaeth amlwg a geir yn y Beibl, a'i fod yn angenrheidiol er mwyn dangos y gwirionedd am ewyllys Duw yn ei pherthynas â'i ragluniaeth ef ei hun ar bob peth; a'r gwirionedd am ei ewyllys yn ei pherthynas â dyledswyddau dyn. Ni phroffesir fod y gwahaniaeth hwn yn symmud ymaith bob dirgelwch; o herwydd nid ydyw. Er fod gwahaniaeth rhwng ewyllys ddirgeledig a dadguddiedig Duw, nis gallwn ddyweyd fod y blaenaf yn anghysson â, nac yn wrthwynebol i'r olaf, heb fyned dan sail moesoldeb a chrefydd. Y gyfraith foesol ydyw yr ewyllys ddadguddiedig; ac o ganlyniad y mae yn dragwyddol ac anghyfnewidiol gyfiawn; ac ofnadwy fyddai y canlyniadau o ddyweyd fod gan Dduw ewyllys arall ddirgeledig, anghysson â'r ddadguddiedig. Nis gall fod yn Nuw ddim sydd yn anghysson â'i gyfraith, na dim yn anghysson â'i air. A phe arweiniai y cyfryw wahaniaeth ag a nodir allan yma, ddynion i feddwl fod anghyssondeb neu wrthwynebiad rhwng y ddwy ewyllys, dylid yn ddioed ei ddileu a'i alltudio o arferiad; ond er na ddylid meddwl am foment fod anghyssondeb rhyngddynt, ni ddylid meddwl chwaith fod y gwahaniaeth dan sylw yn cyssoni y gwirionedd am y ddwy ewyllys; o herwydd nid ydyw. Y cyfan y mae yn ei wneyd yw dadgan a chyhoeddi y ddau wirionedd ochr yn ochr, a'u gadael heb eu cyssoni. Y mae yn wir fod dynion wedi meddwl cyn hyn fod y gwahaniaeth dan sylw yn wasanaethgar i egluro a chyssoni, i fesur o leiaf, y dirgelwch mawr o ddyfodiad pechod a'i ganlyniadau i fod. Yr anhawsder i'w gyssoni ydyw, Pa fodd y mae Bod hollalluog yn goddef pechod? Os dywedir, Am ei fod yn ewyllysio, y gofyniad nesaf ydyw, Onid yw ei ewyllys yn wrthwynebol i ddrwg? A'r ateb i hyn ydyw, fod ei ewyllys ddadguddiedig yn ei wahardd, yn ei gondemnio, ac yn gorchymyn y gwrthwyneb i ddrwg. Yn hyn nid oes dim anhawsder. Yr anhawsder neu'r dirgelwch yw, Pa fodd y mae yr ewyllys ddirgeledig yn wrthwynebol i bechod, ac eto yn ei oddef? Pa fodd y mae yn caru hapusrwydd ei greaduriaid, ac eto yn caniatau i gynnifer fyned i ddistryw. Nis gellir taflu dim goleuni ar y dirgelwch mawr hwn trwy unrhyw wahaniaeth a wnawn rhwng yr ewyllys ddirgeledig a'r ddadguddiedig. O herwydd er ei wneyd, y dirgelwch ydyw, Pa fodd y mae yr hyn sydd yn cael ei wahardd yn y naill yn cael ei oddef yn y llall? Nid oes genym ond disgyn yn ol ar y gwirionedd, fod ewyllys Duw yn anamgyffredadwy, a bod rhyw ystyr dirgeledig yn yr hwn y mae pob peth sydd yn cymmeryd lle yn unol âg ewyllys Duw. Os gofynir, Pa ham ynte y gwneir y gwahaniaeth? Nid oes genym ond ateb fel o'r blaen, fod dwy athrawiaeth bwysig i'w cadw ar y mater—ewyllys Duw yn ei pherthynas â gweithredoedd Duw ei hun, a'i ewyllys yn ei pherthynas âg ymddygiadau ei greaduriaid. Ac y mae y gwahaniaeth dan sylw yn fuddiol i gadw y ddau wirionedd yn gyfochrog; o herwydd bod y ddau yn wirionedd, er nad yw yn eu cyssoni. Yn wir ni byddai dim yn well prawf nad yw yr holl wirionedd genym ar athrawiaethau mor ddyfnion a'r rhai hyn, na'n bod yn alluog i'w cyssoni. Prawf fyddai hyny ein bod wedi aberthu y naill wirionedd i'r llall.

Y mae pwysigrwydd y dosbarthiad hwn rhwng ewyllys ddirgeledig a dadguddiedig, mewn trefn i gadw y ddau wirionedd cyferbyniol rhag cael eu haberthu y naill i'r llall, i'w ganfod yn y modd y mae Arminiaid yn cymylu llywodraeth Duw ar bob peth ac ar bawb, drwg a da, trwy wadu fod pob peth sydd yn cymmeryd lle, a'u holl ganlyniadau, mewn rhyw ystyr, yn amlygiadau o ewyllys Duw. Y mae yn wir yr arweinir hwynt i hyn gyda'r dyben goreu, sef eu hawydd i ymwrthod â phob syniad a all mewn un modd roddi achos i ammheuaeth o barth i ddaioni a chyfiawnder Duw. Tybient hwy fod eiddigedd dros gymmeriad moesol Duw yn arwain o angenrheidrwydd i wadiad o'r hyn y tybiai y Calviniaid na ellid ei wadu heb wadu hollalluogrwydd Duw a'i lywodraeth ar bob peth. Yma y cwestiwn rhwng y ddwy blaid ydyw, Pa beth yw natur, ac eangder, a graddau dylanwad Duw yn ei ragluniaeth gyda golwg ar y gweithredoedd pechadurus a gyflawnir gan ddynion. Nid oes un cwestiwn mwy dyrys na hwn wedi cael ei ofyn erioed—nid amgen ydyw na'r dirgelwch mawr—Pa fodd y daeth pechod a'i ganlyniadau i fod dan lywodraeth Bod o anfeidrol ddaioni, sancteiddrwydd, a gallu? Y mae y dirgelwch hwn yn amlwg uwch law gallu dyn i'w amgyffred. Ac er nas gall unrhyw gyfundrefn symmud y tywyllwch sydd yn gorphwys arno, y mae y naill gyfundrefn yn cynnwys mwy o wirionedd o barth iddo na'r llall. Nas gall unrhyw gyfundrefn o ffurfiad dyn gynnwys y cwbl sydd yn ddiammheuol; eto dylem ymestyn at gynnwys, yn ein syniadau am dano, yr hyn sydd wedi ei ddadguddio, er bod cyssoni y gwahanol elfenau a berthyn iddo uwch law ein gallu. Y mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu nad yw Duw yn awdwr pechod: pa beth bynag yw natur a graddau gweithrediad ei ragluniaeth gyda golwg ar weithredoedd pechadurus dynion, nad yw o'r natur hwnw nac i'r graddau hwnw sydd yn ei wneuthur ef yn awdwr pechod. Nid oes un anhawsder i addef ac i amgyffred y gwirionedd hwn, os gwedir *pob* gweithrediad o eiddo Duw gyda golwg ar weithredoedd pechadurus dynion. Y mae yn amlwg iawn os nad oes un gweithrediad o'i eiddo yn yr achos, na byddai eisieu dyweyd nad yw yn awdwr pechod; o herwydd ni byddai sail hyd yn oed mewn ymddangosiad i'r cyhuddiad ei fod. Ond wrth symmud ymaith yr anhawsder yn y modd yma, yr ydym yn ei symmud ymaith trwy wadu fod dim a wnelo yr Anfeidrol â'i greadigaeth ei hun—yn nygiad i mewn a gosodiad i fyny y llywodraeth a'r drefn hono y mae efe yn ei gwneuthur yn wasanaethgar i'r amlygiad gogoneddusaf o holl berffeithiau ei natur. I'r graddau yr addefwn weithrediad ewyllys Duw yn ngweithredoedd pechadurus dynion y mae dirgelwch yn ymgasglu ar y mater. Ond i'r graddau y gwadwn hyny yr ydym yn colli rhagluniaeth, ac yr ydym ar yr un pryd heb gael ymadael â phechod a'i ganlyniadau. Pe byddai gwadu llywodraeth Duw yn nyfodiad pechod i fod yn foddion i'n rhyddhau oddi wrtho, gwelem ryw ennill o hyny. Ond gan nas gallwn wadu hanfodiad y drwg mawr hwn, y mae yn rhyw gysur i feddwl mai nid er gwaethaf yr Hollalluog y gwnaeth ei ymddangosiad—fod hyd yn oed pechod dan ei lywodraeth ef. Pe dywedem, er mwyn cadw ein gafael yn llywodraeth Duw, fod a wnelo ei ewyllys â gweithredoedd pechadurus dynion—ond ddim pellach na'i fod yn eu *caniatau*. Yn gyffredin i'r graddau hyn yr addefir fod a wnelo ewyllys Duw â gweithredoedd pechadurus dynion: ac nis gellir dyweyd llai na hyn heb wadu ei lywodraeth o gwbl. Ond pe yn y fan hon y safem, ac nad aem ddim pellach na dyweyd mai caniatau

Digitized by Google

i bechod ddyfod i fod y mae—nid caniatau, bid sicr, trwy beidio gwahardd: y mae yn gwahardd pob pechod: ond caniatau trwy beidio rhwystro—ni byddai hyn yn ein rhyddhau oddi wrth anhawsderau o barth i egwyddorion llywodraeth Duw; a chyfarfyddid ni eilwaith â'r ymofyniad, Pa ham y mae Bod o anfeidrol berffeithrwydd yn caniatau yr hyn y mae yn ei gasau, a'r hyn y mae ganddo allu i'w attal? Y mae y Diwygwyr a Chalviniaid yn lled gyffredinol yn meddwl ac yn dyweyd nad yw y gair *caniatau* ddim yn cynnwys yr oll y mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu i briodoli i ewyllys Duw gyda golwg ar bechod: hyny yw, nid caniatau yn yr ystyr o fod yn edrychydd disylw a difater yn yr achos y mae. Nid absennoldeb ewyllys a bwriad yn y mater a briodolir iddo. Nid edrych ar bechod gydag ewyllys nacaol, gan adael iddo; ond yn ngeiriau Cyffes Westminster "y mae hollalluogrwydd, doethineb anchwiliadwy, a daioni anfeidrol Duw yn amlygu eu hunain mor bell yn ei ragluniaeth fel y mae yn ymestyn hyd at y cwymp cyntaf, a holl bechodau ereill dynion ac angylion, a hyny nid yn unig trwy oddefiad noeth, ond trwy eu terfynu, yn ei ddoethineb a'i allu, a'u trefnu a'u llywodraethu i'w ddybenion sanctaidd ei hun; eto yn y fath fodd fel y mae y pechadurusrwydd o honynt yn tarddu o'r creadur, ac nid o Dduw—yr hwn, gan ei fod yn berffaith sanctaidd a chyfiawn, nid ydyw ac nis gall fod yn awdwr pechod." Yn Nghyffes Ffydd y Methodistiaid Calvinaidd ceir yr un syniad, "Y mae Duw yn ei ragluniaeth ddoeth, sanctaidd, a chyfiawn, yn cynnal ac yn llywodraethu yr holl greaduriaid a'u holl weithrediadau, ac y mae ei ragluniaeth ef yn cyrhaedd dros bob man—pob dygwyddiadau, cyfnewidiadau, ac amserau......y mae ei goruwchreolaeth yn cyrhaedd dros weithrediadau pechadurus dynion; er hyny nid yw yn un achos nac achlysur o bechadurusrwydd un o honynt." Ni gawn yr un gwirionedd yn rhedeg trwy y Beibl mewn gwahanol ffyrdd—y disgrifiadau a gawn am natur a manylrwydd llywodraeth Duw—y cyssylltiad sydd rhwng gweithredoedd pechadurus dynion a chyflawniad bwriadau Duw—a'r gweithrediad a briodolir i ewyllys Duw mewn cyssylltiad â gweithredoedd neillduol o eiddo dynion pechadurus; megys yr annogodd Dafydd i gyfrif Israel: 2 *Sam.* xxiv. 1.

Y casgliad oddi wrth hyn yw, nad yw ewyllys Duw yn ymddibynu ar ewyllys y creadur. Haeriad yr Arminiaid ydyw, fod yn bosibl i Dduw syrthio yn fyr o'i fwriad, gael ei somi yn ei amcanion, a chael ei attal yn nghyflawniad yr hyn a arfaethasai. Y mae yr haeriad hwn yn groes i eiriau pendant y Beibl: "Ond ein Duw ni sydd yn y nefoedd; efe a wnaeth yr hyn a fynodd oll;" *Salm* cxv. 3:—"Y Goruchaf a lywodraetha yn mreniniaeth dynion, ac a'i rhydd i'r neb y myno efe;" *Dan.* iv. 17:—"A holl drigolion y ddaear a gyfrifir megys yn ddiddim; ac yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear. Ac nid oes a attalio ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur;" *Dan.* iv. 35:—"Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf;" *Esa.* xlvi. 10:—"Dywedais, a mi a'i dygaf i ben; mi a'i lluniais, a mi a'i gwnaf;" *adn.* 11:—"Tyngodd Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd, Diau megys yr amcenais, felly y bydd; ac fel y bwriedais, hyny a saif;" *Esa.* xiv. 24. Y mae llawer o ymadroddion cyffelyb. Nid yw Calviniaid yn proffesu cyssoni effeithioldeb ewyllys Duw yn ei ragluniaeth â rhyddid ewyllys dyn; ond dadleuant fod o bwys i gadw y ddau, a bod y ddau i'w cael yn rhedeg trwy yr oll o'r Beibl. Y gwahaniaeth mawr a wna Arminiaid yn ei berthynas âg ewyllys Duw ydyw rhwng *ewyllys flaenorol* (*voluntas antecedens*) ac *ewyllys ddilynol* (*voluntas consequens*). Trwy ei "ewyllys flaenorol," ewyllysiai iachawdwriaeth pawb: trwy ei "ewyllys ddilynol," ewyllysiai gadw y rhai a ragwelai y byddai iddynt edifarhau a chredu. Y mae yr ewyllys flaenorol yn tarddu o gymmwynasgarwch ei natur: ymddibynai yr un ddilynol ar ei ragwybodaeth o ymddygiadau dynion. Y mae y gyntaf yn aneffeithiol, ac yn ddarostyngedig i gael ei dyrysu: y mae yr ail yn effeithiol, naill ai yn nghadwedigaeth dynion neu eu damnedigaeth. Dyma y gwahaniaeth a wneir gan y Jesuitiaid, yr Arminiaid, a rhai Lutheriaid, am ewyllys Duw. Y mae yn anghysson ynddo ei hun, ac yn dangos anghyssondeb yr holl gyfundrefn y perthyna iddi, ac absennoldeb golygiadau cywir am briodoliaethau Duw. Mae yn gosod yr ewyllys ddwyfol i ewyllysio yr hyn nad yw byth yn cymmeryd lle: mae'n ewyllysio i bechod beidio dyfod i fod, ac eto y mae yn dyfod: yn ewyllysio cadwedigaeth pawb, ac eto y mae llawer yn golledig. Y mae yn rhaid, gan hyny, ei fod naill ai yn anewyllysgar, neu yn analluog, i roddi ei ewyllys mewn gweithrediad. Y mae dywedyd fod Duw yn anewyllysgar yn anghysson â dyweyd mai ei ewyllys ef ydyw. Y mae hyn yr un peth a dyweyd fod dwy ewyllys wrthwynebol yn Nuw, a bod y naill yn cael ei chyflawni, ac nad yw y llall ddim. Y mae dyweyd nas gall roddi ei ewyllys mewn gweithrediad yn anghysson â'i hollalluogrwydd. Y mae y gwahaniaeth dan sylw, gan hyny, yn hunan-wrthwynebol, gan ei fod yn gwneuthur yr Anfeidrol i ewyllysio, ac i beidio ewyllysio, ar unwaith. Y mae priodoli ewyllys ammodol iddo i achub holl ddynolryw yn priodoli ewyllysio peth iddo pan y gŵyr na ddaw i ben. Y mae y golygiadau hyn yn gwneuthur holl fwriadau a gweithredoedd y Creawdwr i ymddibynu ar ewyllys ei greaduriaid. Gyda'r syniadau hyn, y mae un drefn ogoneddus, yn yr hon y mae holl briodoliaethau ei sancteiddrwydd, ei wybodaeth, a'i ewyllys, mewn cydgordiad yn ammhosibl.

Os ydyw ewyllys Duw o barth i iachawdwriaeth dynion wedi ei seilio ar ei ragwelediad o'u ffydd a'u hedifeirwch, y mae yr Unig Ddoeth, o ganlyniad, yn ymddibynu am ei fwriadau a'i gynlluniau arnynt hwy. Y mae holl hanes y byd fel cyfres o ddygwyddiadau moesol y tu allan i oruwchreolaeth y Creawdwr. Y peth uchaf a briodola y gyfundrefn hon iddo ydyw rhagweled yr hyn a gymmer le. Nid ydyw yn gallu esbonio pa beth sydd wedi trefnu pob peth. Ond y mae Calviniaeth yn priodoli y cwbl i ewyllys Duw mewn cydgordiad â holl berffeithiau ei natur. Y mae hyn yn gadael lle i ddynion benderfynu eu cymmeriad eu hunain, a'u tynged tragwyddol eu hunain. Mae yn wir mai ffurf arall ar y dirgelwch mawr ydyw hwn. Nis gallwn dynu y llinell rhwng ewyllys Duw ac ewyllys dyn; ond ni oddefa y Beibl i ni ammheu fod y gyntaf yn oruchaf ar bob peth, a bod yr olaf yn rhydd yn mhob peth. Nid yw ewyllys Duw yn gweithredu yn yr un modd, nac i'r un graddau, wrth ganiatau a llywodraethu y drwg ag ydyw wrth gynnyrchu y da. Yn ngweithredoedd da dynion, y mae yr ewyllys ddirgeledig a dadguddiedig, yr ewyllys arfaethol (*voluntas decreti*), a'r

ewyllys orchymynol (*voluntas præcepti*) yn cydgordio â'u gilydd. Yn ngweithredoedd drwg dynion, nid ydynt yn cydgordio; eto nid ydynt yn anghysson, o herwydd y mae y gorchymyn yn gwahardd pob pechod, tra y mae y Llywodraethwr mawr yn gweled yn dda i ganiatau gweithredoedd drwg dynion, a'u goruwchreoli i'w dibenion daionus ei hun. Felly, nid ydyw ewyllys Duw yn ngweithredoedd drwg dynion yn ddangosiad o'i ewyllys yn yr un modd ac i'r un graddau ag ydyw yn eu gweithredoedd da. Ond nis gellir cau allan weithredoedd drwg dynion o arfaeth Duw, am eu bod o fewn cylch ei ragluniaeth—am eu bod yn cael eu goruwchreoli i ddibenion doeth a sanctaidd, ac am ei fod wedi arfaethu neu benderfynu eu caniatau, gan y gallasai eu hattal pe dewisasai. Prif ddadl Arminiaeth yn erbyn y gosodiadau hyn ydyw, eu bod yn anghysson âg ewyllys rydd dyn. Y mae hyn yn ein harwain i adolygu y dadleuon sydd wedi bod mewn perthynas i ewyllys dyn, a'i pherthynas âg ewyllys Duw.

II. Ewyllys Dyn [*will*]. Cyfeiriwn y darllenydd at y gair Deall yn y gwaith hwn, am ddosbarthiadau o gynneddfau y meddwl. Yr ewyllys ydyw y gynneddf sydd yn penderfynu, yn dewis, yn gwrthod. Y mae pob dyn yn ymwybyddus, yn teimlo ynddo ei hun, fod ganddo allu i ffurfio penderfyniad o barth i'r pethau sydd yn ymddibynu ar ei benderfyniad ei hun. I'r gallu hwn y rhoddir yr enw *ewyllys*. Er mwyn gwahaniaethu rhwng y gynneddf a'r gweithrediad, gelwir yr olaf yn *ewyllysiad* (*volition*). Defnyddir *ewyllys* yn fynych am y ddau; ond tueddai at eglurdeb a chywirdeb i gadw y gwahaniaeth hwn mewn iaith, fel y maent yn wahaniaethol mewn gwirionedd. Nis gallwn wybod dim am yr ewyllys ond trwy yr ewyllysiadau, mwy nag y gallwn wybod am unrhyw gynneddf arall ond trwy ei gweithrediadau. Yr ydym yn llefaru am briodoliaethau elfenau naturiol ac am gynneddfau yr enaid, ond nis gwyddom am y naill na'r llall ond trwy eu gweithrediadau. Yr ydym yn gwybod fod y tân yn meddu gallu i losgi, am ei fod yn llosgi; ac yn gwybod ein bod ni ein hunain yn meddu gallu i feddwl, am ein bod yn meddwl. Y mae ychydig o osodiadau amlwg am yr ewyllys nad oes nemawr, os dim, gwahaniaeth barn yn eu cylch, y rhai a grybwyllwn cyn cyfeirio at y ddadl o berthynas i ryddid yr ewyllys, yr hon sydd yn cymmeryd cymmaint o le mewn dadleuon athronyddol a duwinyddol.

Rhaid fod gwrthddrych i bob gweithred o eiddo yr ewyllys. Y mae yr hwn sydd yn ewyllysio yn ewyllysio rhywbeth. Fel nas gall dyn feddwl heb feddwl am rywbeth, na chofio heb gofio rhywbeth, felly nis gall ewyllysio heb ewyllysio rhywbeth. Rhaid i bob un sydd yn ewyllysio feddu rhyw syniad mwy neu lai eglur am yr hyn y mae yn ei ewyllysio. Yn hyny mae yr hyn sydd yn cael ei wneuthur yn wirfoddol yn gwahaniaethu oddi wrth weithrediadau greddf neu arferiad.

Gwrthddrych uniongyrchol ewyllysiad ydyw gweithrediad o'n heiddo ein hunain. Ni a allwn *ddymuno* i ereill weithredu mewn modd penodol, ond ni fyddai yn briodol i ni ddyweyd ein bod yn ewyllysio hyny, heb ddefnyddio y gair *ewyllysio* mewn ystyr anmhriodol. Defnyddir, mae yn wir, y geiriau *ewyllysio* a *dymuno* yn fynych yn yr un ystyr mewn iaith gyffredin, megys pan y dywed dyn ei fod yn dymuno neu yn ewyllysio i'w blant fod yn dda. Ac y mae dymuniad ac ewyllysiad yn cytuno yn hyn—fod gwrthddrych y ddau, ac o ganlyniad fod rhyw radd o ddealltwriaeth yn gydfynedol â'r ddau. Y mae y ddau hefyd yn meddu elfen arall sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth y ddau ddosbarth mawr arall o gynneddfau y meddwl—*deall* a *theimlad*—ac yn eu cyfansoddi yn drydydd dosbarth dan y pen *ewyllys* a *dymuniad*. Yr elfen gyffredin hon sydd yn clymu ewyllys a dymuniad yn un dosparth ydyw y duedd sydd yn y ddau i sicrhau neu i gyrhaedd eu dybenion neu eu gwrthddrychau eu hunain. Y mae ymdrech, tuedd, chwant—y mae yn anhawdd gwybod pa un o'r geiriau yw y goreu—yn y ddau i weithredu ac i sicrhau eu gwrthddrychau. Gelwir hwy gan Syr W. Hamilton, cynneddfau ymdrechgar (*exertive or conative powers*). Er fod ewyllys a dymuniad yn cytuno â'u gilydd yn y ffaith fod rhywbeth ymestyngar yn y ddau, eto y mae yn fwy pwysig sylwi ar y gwahaniaeth nag ar y tebygolrwydd sydd rhyngddynt. Y mae yn bossibl i ddyn ddymuno yr hyn nad ydyw yn ei ewyllysio, a hefyd ewyllysio yr hyn nad yw yn ei ddymuno. Y mae yn bosibl i ddyn fod yn sychedig, ac eto gwrthod yfed: ei ddymuniad yn tynu un ffordd, a'i ewyllys yn penderfynu yn groes i hyny. Nid yw ein dymuniadau dan ein llywodraeth ein hunain: maent yn codi yn naturiol ac angenrheidiol yn mhresennoldeb y gwrthddrychau sydd yn effeithio arnom yn ddymunol neu yn annymunol. Yr ydym wedi ein cyfansoddi i dderbyn hyfrydwch oddi wrth rai gwrthddrychau, ac nis gallwn beidio ei deimlo. Ond ni a allwn ymwrthod â gwrthddrych y dymuniad, er ei deimlo. Ac ni a allwn beidio rhoi ein hunain mewn amgylchiadau i'w deimlo. Y mae yn bosibl i ddymuniad fod yn bechadurus yn gystal a gweithred, ond nid dim pellach na'i fod yn gyssylltiedig âg ewyllysiad. Wrth osod ein hunain yn mhresennoldeb gwrthddrychau dymunol, y mae y dymuniad yn myned yn wirfoddol. Mae sefydlu y meddwl ar wrthddrychau cyfaddas i gyffroi dymuniadau yn weithred wirfoddol. Ond nid oes dim cymmeriad moesol mewn teimlad a gyffroir yn y meddwl yn mhresennoldeb gwrthddrych cyfaddas i hyny, os nad oedd gweithred o eiddo yr ewyllys yn cymmeryd lle i sicrhau presennoldeb y gwrthrych neu ynte i sefydlu y meddwl arno. Cyssylltiad y dymuniadau â'r ewyllys sydd yn peri fod drwg neu dda moesol yn perthyn iddynt. —*Butler's Sermons*, i, ii, v; *Analogy*, pen. iv. 5.

Drachefn, rhaid i ni wahaniaethu rhwng yr ewyllysiad a'r farn sydd yn ei blaenori, a'r weithred sydd yn ei dilyn. Er engnhraifft, y mae dyn yn penderfynu cerdded allan er mwyn ei iechyd. Y mae yn gwneuthur hyny, am ei fod yn barnu fod myned allan yn lles iddo. Nid oedd y farn hono yn wirfoddol. Yr ydoedd yn credu fod iechyd yn werth defnyddio moddion i'w sicrhau: nid oedd y grediniaeth hono chwaith yn wirfoddol. Y mae y teimlad o werth iechyd yn rhan o'i gyfansoddiad. Mae y farn fod myned allan i'r awyr yn llesol iddo yn ganlyniad o brofiad blaenorol ac o ystyriaeth ddyladwy o gyssylltiad achosion ac effeithiau. Nis gall y dyn wrth ei deimlad na'i farn. Ond er fod yn ymwybyddus o'i deimlad o werth iechyd, ac yn ymwybyddus fod ymarferiad yn yr awyr agored yn foddion cyfaddas i'w gryfhau, eto y mae mor ymwybyddus fod defnyddio y moddion i gyrhaedd y dyben yn ei allu ef ei hun. Trwy ymdeimlo âg ef ei hun y gŵyr yn berffaith fod defnyddio y moddion, neu beidio, yn gorphwys ar ei ddewisiad ef ei hun. Y mae penderfynu un o'r ddwy ochr

yn weithred yr ewyllys, ac yn weithred yn ein gallu ein hunain. Os gofynir, pa fodd y gwyddom; yr ateb ydyw, ein bod yn teimlo fod y gallu hwnw yn ein meddiant: ac nis gall fod dim prawf sicrach na mwy uniongyrchol. Nid oes genym brawf uwch o'n bodolaeth; ac y mae yr un prawf genym o'n rhyddid. Y mae hyn yn dangos fod gwahaniaeth rhwng y farn, a'r teimlad blaenorol, a'r ewyllysiad dilynol. Er eu bod hwy yn gyfryw nas gall y dyn wrthynt, y mae yn teimlo ei hun er hyny yn rhydd i weithredu, neu beidio, yn eu gwyneb. Drachefn: tybier fod y dyn wedi penderfynu cerdded, ond iddo gael ei daro â diffrwythder yn ei aelodau: yma eto rhaid gwahaniaethu rhwng penderfyniad y meddwl, yr hwn sydd bob amser yn ein gallu, ac ysgogiad y corph, yr hwn a ddichon fod yn ein gallu, neu beidio, yn ol amgylchiadau. Nid canlyniad uniongyrchol gweithrediad yr ewyllys ydyw ysgogiad yr aelod; ond canlyniad uniongyrchol cyfnewidiad yn y gewynau a'r cyhyrau. Effeithio ar y gewynau yn gyntaf oll y mae yr ewyllys, a throsglwyddo y gallu yn mlaen at yr aelodau corphorol y mae y gewynau. O ganlyniad, y mae penderfyniad yr ewyllys fel o'r blaen, pan na bo ysgogiad yn yr aelod o herwydd anallu y gewynau i drosglwyddo nerth yr ewyllys yn mlaen. Nid yw dyn yn ymwybodol o'r cyfnewidiad sydd yn cymmeryd lle yn y gewynau: yn fwyaf cyffredin nis gŵyr ddim am danynt, hyd yn oed eu bod. Ond y mae yn ymwybyddus o hono ei hunan, ac o hono ei hunan yn meddu gallu i benderfynu gweithrediadau ei ewyllys ei hun. Nid ydyw y teimlad o allu y mae yn ymwybyddus o hono yn gynnwysedig yn mherthynas yr ewyllys âg ysgogiad y corph, o herwydd y mae cyfundrefn gewynol yn cyfryngu rhyngddynt. Nid ydyw chwaith yn mherthynas yr ewyllys â'r gewynau, o herwydd dichon i ddyn golli nerth y gewynau trwy afiechyd heb golli ei deimiad o allu ar benderfyniadau ei ewyllys. Yn mha beth gan hyny y mae y teimlad hwn yn gynnwysedig? Nis gall fod yn gynnwysedig mewn dim ond yn ymwybyddiaeth y dyn o allu ynddo ei hun i benderfynu gweithrediadau ei ewyllys. Y mae gan ddyn yr ymwybyddiaeth uchaf o'i hanfodiad personol ei hun; y mae ynddo hefyd ymwybyddiaeth o allu i ddewis rhwng dau benderfyniad gwrthgyferbyniol.

Sylw arall o bwys am yr ewyllys ydyw—fod ei holl weithrediadau pwysig yn cael eu rhagflaenu gan rywbeth yn ansawdd flaenorol y meddwl sydd yn ei gogwyddo a'i thueddu at y cyfryw benderfyniadau. Pe byddai y meddwl mewn stâd o annhueddrwydd perffaith, heb ddim cymhelliad neu resymau i weithredu, neu i beidio gweithredu, byddai mewn stâd o lwfrdra diymdrech a diamcan, neu ynte byddai ei weithrediadau yn ddiystyr ac yn ddireol, heb fod yn rhinweddol nac yn feius. Y mae creaduriaid sydd wedi eu cynnysgaethu â'r gallu i ddewis a gwrthod, wedi eu cynnysgaethu hefyd â rhyw egwyddorion i'w harwain yn yr ymarferiad o hono.

Nid oes na drwg na da nad ydyw mewn cyssylltiad â'r ewyllys. Er i ddyn wneuthur y gweithredoedd goreu neu waethaf yn y byd, trwy ddamwain neu dan ddylanwad gorfodaeth, ni pherthynai iddo na rhinwedd na bai. Dewis gwneuthur y naill neu y llall sydd yn ei wneyd yn rhinwedd neu yn bechod. Rhaid i bob gweithred wir rinweddol fod yn wirfoddol. Nid yw yn angenrheidiol i weithred rinweddol fod yn weithred allanol. Mae ewyllys dyn yn hanfodi mewn ffurfiau ereill heb law mewn penderfyniad i weithredu. Pa le bynag y mae dewisiad y mae yno ewyllys. Y mae dewisiad lle bynag y mabwysiedir unrhyw wrthddrych neu y rhoddir y flaenoriaeth i'r naill ar y llall. Y mae dewisiad, ac o ganlyniad ewyllys, pa le bynag y gwrthodir yn bwyllus unrhyw wrthddrych a gynnygir i ni. Y mae dewisiad gan hyny nid yn unig mewn ewyllysiad neu benderfyniad i weithredu, ond hefyd mewn dymuniad neu ymwrthodiad gwirfoddol. Y mae dewisiad mewn dymuniad am gynnydd sancteiddrwydd yn y byd. Mor bell ag y mae gweithrediadau ereill y meddwl—ei weithrediadau deallol—yn gyssylltiedig â'r dymuniadau a'r ewyllysiadau hyn, y maent yn cyfranogi o ansawdd foesol.

Dewisiad o'r hyn sydd yn iawn er ei fwyn ei hun sydd yn cyfansoddi rhinwedd. Nid yw dyn yn dewis yn annibynol ar gymhelliadau. Y mae yn bosibl i ddyn ddewis yr hyn sydd ynddo ei hun yn iawn oddi ar amryw gymhelliadau. Gellir ei ddewis am mai y mwyaf cyfleus ydyw; neu, am mai y mwyaf dymunol; neu, am mai y mwyaf llesol; neu yn olaf, am mai yr iawn ydyw. Nid yw dyn yn gweithredu yn rhinweddol ond wrth wneuthur yr olaf. Nid yr hyn a wneir sydd yn cyfansoddi rhinwedd y gwneuthurwr, ond ei fwriad wrth wneuthur. "Nid yw yn ddigon i beth gael ei wneuthur mewn unrhyw fodd, er mwyn iddo gael ei wneuthur yn ddoeth neu yn dda. Rhaid i'r gweithredydd yn gyntaf feddu gwybodaeth, rhaid iddo hefyd feddu dewisiad, a dewis y peth hefyd er ei fwyn ei hun; ac yn drydydd, rhaid iddo weithredu gyda bwriad sefydlog."—*Aristotle.*

Y mae y gydwybod yn cyhoeddi dedfryd o gymmeradwyaeth neu anghymmeradwyaeth ar weithrediadau yr ewyllys. Yr ewyllys yn yr ystyr a eglurwyd uchod ydyw tiriogaeth y drwg a'r da, y rhinweddol a'r beius; ac nid oes dim yn cyfranogi o'r ansoddau hyn ond i'r graddau y bydd cyssylltiad rhyngddo a'r ewyllys. Ond y mae hyn yn cynnwys fod yr ewyllys yn cyflawnu ei gweithrediadau yn y mwynhad o'r rhyddid sydd yn hanfodol iddi. Y mae rhyddid yn hanfodol i'r ewyllys, ac yn un o'r elfenau sydd yn gwneyd dyn yn weithredydd moesol a chyfrifol. Wrth hyn nid ydym i ddeall fod dyn yn rhydd yn unig i weithredu: fe ddichon iddo gael ei amddifadu o'r gallu i weithredu, megys pan yr ewyllysia dyn ysgogi ei fraich, a hithau yn gwrthod ufuddhau o herwydd iddi gael ei tharo â diffrwythder. Y mae gallu uwch gan ddyn na gallu i weithredu fel yr ewyllysia; y mae ganddo allu i ddewis fel yr ewyllysia; a phan yn dewis y mae ynddo ymwybyddiaeth o allu i ddewis yn wahanol. Pan ddywedwn fod gan ddyn allu i ddewis, yr ydym yn dadgan ffaith fawr yn ei gyfansoddiad—ffaith nas gellir ei chasglu oddi wrth ffeithiau dyfnach, na'i holrhain i elfenau mwy cyntefig. Dadguddir i ni ei bod yn ffaith, nid trwy ymresymiad, ond trwy oleuni uniongyrchol y meddwl; neu, mewn geiriau ereill, trwy ymwybyddiaeth uniongyrchol y meddwl. Y mae hyn yn un o wirioneddau cyntaf y meddwl; ac nis gall fod un gwirionedd arall yn meddu hawl gwell i dderbyniad. Nid oes un gwirionedd arall a ddichon osod hwn o'r naill du.

Y mae hyn yn ein harwain at y dadleuon sydd wedi ac yn bod o barth i *natur* y rhyddid a briodolir i'r ewyllys. Nid oes neb a wâd fod gan ddyn ewyllys, ei fod yn ewyllysio gwneuthur hyn neu arall, a'i fod yn gweithredu gyda bwriad ac

Digitized by Google

amcan ac ystyriaeth. Y mae y ffaith o hanfodiad ewyllys yn nghyfansoddiad meddwl dyn allan o ddadl, os na ddywedwn fod y rhai hyny sydd yn haeru nad oes dim gwahaniaeth rhwng dymuniad ac ewyllys yn gwadu gwir hanfod ewyllys. Nid oes dim ystyriaeth a phwyll, bwrw y draul, a chyfrif y gost, yn perthyn i ddymuniad. Ond teimlad ydyw o angenrheidrwydd yn enaid dyn yn mhresennoldeb y gwrthddrych sydd yn meddu cyfaddasrwydd i'w gyffroi. Y mae neillduolrwydd ewyllys, ac o ganlyniad cyfrifoldeb a llywodraeth foesol, yn cael eu haddef mewn geiriau tra yn cael eu gwadu mewn gwirionedd gan amddiffynwyr y fath olygiad a hwn am natur yr ewyllys. O'r farn hon y mae Dr. Th. Brown a Dr. Payne.

Y mae Hooker [*Ecclesiastical Polity*, ll. i. 7], yn gwneyd sylwadau da ar y pwnc hwn.[1]

Er addef hanfodiad yr ewyllys fel cynneddf ddiledryw yn enaid dyn y mae yr ymofyniad yn ymgynnyg, Pa fodd y penderfynir yr ewyllys? Pa ham y mae yr ewyllys yn penderfynu dros y naill ac yn erbyn y llall? Athrawiaeth rhyddid yr ewyllys ydyw, mai yr ewyllys ei hun ydyw yr achos o'r penderfyniad hwn, a bod gallu hunan-benderfynol yn wreiddiol yn yr ewyllys. Appelia y rhai sydd yn dal yr athrawiaeth hon at eu hymwybyddiaeth bersonol dros y ffaith fod ganddynt ewyllys, ac yn mhellach fod yr ewyllys, ar ol i bob peth gael ei gyflwyno i'r meddwl—pob ystyriaethau, dros ac yn erbyn—yn ymdrechu, yn casglu nerth, ac yn penderfynu o honi ei hun. Y mae hi yn dewis o honi ei hun pa gymhelliad i'w ddilyn, pa ochr i'w gymmeryd, pa wrthddrych i'w goffeidio. Yn ol y golygiad hwn, y mae yr ewyllys yn weithredydd gwreiddiol ac annibynol. Y mae amddiffynwyr y golygiad hwn yn gwneuthur addefiadau weithiau sydd yn ymddangos fel yn ei liniaru, os nad yn ymylu ar ei wadu. Dywedant nad ydym i ddeall fod dyn yn annibynol yn ei weithrediad ar bob teimladau a chymhelliadau. Er enghraifft, y mae gan ddyn sydd yn feddiannol ar ewyllys rydd allu i gyflawni ei ddyledswyddau tuag at ei wlad a'i berthynasau; eto, nid yw y gallu hwn ganddo yn annibynol ar serchiadau sydd wedi eu planu yn ei natur. Ni ddywedai y rhai sydd yn dal ewyllys rydd ei bod yn ddigonol yn yr amgylchiad tybiedig heb y serchiadau, nac ychwaith fod y serchiadau yn ddigonol heb yr ewyllys. Y mae y serchiadau cymmwynasgar yn ein gogwyddo at weithredoedd cymmwynasgar; eto, heb gynnorthwy yr ewyllys y maent yn ildio i ystyriaethau hunanol. Nid ydyw yr ewyllys chwaith yn ddigonol i'n dwyn trwy wasanaeth caled yn achos ein cyd-ddynion heb symbyliad y serchiadau. Addefa y rhai sydd yn dadleu dros y golygiadau hyn fod yr ewyllys yn ddiffygiol fel ffynnonell gweithrediad; a bod y diffyg hwn yn hanfodi hyd yn oed yn ewyllys y dyn cyntaf cyn iddo bechu. Y mae hwn yn ddiffyg naturiol yn perthyn i'r ewyllys fel cynneddf, ac nid fel cynneddf lygredig. Ar y cyfrif hwn, priodolant i'r dyn cyntaf yr angenrheidrwydd am ras goruwchnaturiol i gyflawni dyledswyddau ysbrydol, fel y mae cynnorthwy naturiol y serchiadau yn angenrheidiol er cyflawni dyledswyddau naturiol. Ond er hyn, eu hathrawiaeth hwy ydyw, fod yn yr ewyllys allu gwreiddiol hunan-benderfynol i ymgodi uwch law pob cymhelliadau, pa mor gryfion bynag y byddont; a pha faint bynag y byddo yr atdyniad i benderfynu trwy rym appeliadau allanol neu gymhelliadau mewnol, penderfynu ei hun y mae yr ewyllys, ac nid *cael ei phenderfynu*. Er mwyn gwneyd yn ddealladwy osodiad y rhai sydd yn gwadu yr athrawiaeth hon am yr ewyllys, dylid sylwi ei bod yn gynnwysedig o ddau beth:—yn gyntaf, fod gan ddyn ewyllys; ac yn ail, fod yr ewyllys yn hunan-benderfynol. Yn awr, dywedir gan y dosbarth hwnw o athronwyr sydd yn bleidiol i angenrheidrwydd [gwel ANGENRHEIDRWYDD], yn hytrach nag i ewyllys rydd yn yr ystyr uchod, fod y gwahaniaeth hwn yn ddisail. Ilònent hwy fod gan ddyn *ewyllys*, ac fel y cyfryw ei fod yn rhydd; nas gall fod yn amgen, hyny ydyw ei natur. Trwy yr ewyllys, y mae dyn yn gweithredu yn wirfoddol ac yn ddiorfodaeth. Gwadant hwy fod yn bosibl i ni fyned yn ol yn mhellach na'r ffaith o ewyllys:—mai yn hyn yn unig y mae rhyddid yr ewyllys yn gynnwysedig, ac nas gallwn fyned yn ddyfnach na hyn heb ymddyrysu mewn anghyssonderau. O'r farn hon y mae Locke—na'r hwn ni bu erioed ymchwiliwr mwy teg, nac un yn fwy dan ddylanwad cariad at wirionedd. Yn ei ymresymiad ef, y mae y mater yn ymagor i ddau gwestiwn; sef yn gyntaf, A ydyw yr *ewyllys yn rhydd?* ac yn ail, A ydyw dyn *yn rhydd i ewyllysio?* Y mae yn penderfynu yn erbyn y cyntaf ar y tir fod yr ewyllys *yn rhyddid ei hunan;* ac felly, ei fod yn anmhriodol dyweyd fod rhyddid yn rhydd—mor anmhriodol ag ydyw dywedyd fod cyfoeth yn gyfoethog, ac nid y dyn sydd yn ei feddu. Wedi penderfynu yn erbyn y priodoldeb o ddyweyd fod yr ewyllys yn rhydd, yna y mae yn dyfod at y cwestiwn, Ai y dyn sydd yn rhydd i ewyllysio? Y mae yn ateb hwn trwy ddyweyd nad yw dyn yn rhydd yn hollol gyda golwg ar unrhyw weithred benodol; o herwydd y mae dan angenrheidrwydd o'i chyflawni neu beidio ei chyflawni; megys, y rhaid i ddyn naill ai aros gartref neu fyned oddi cartref. Mor belled a hyn, cydsynia y ddwy blaid. Wedi penderfynu fod yn rhaid i ddyn ddewis y naill ffordd neu y llall, y mae yn dyfod yn nesaf at y gwir gwestiwn rhwng y ddwy blaid, sef, A ydyw dyn yn rhydd i ddewis yr un a fyno o'r ddwy? A'r cwestiwn hwn y mae yn ei benderfynu yn y modd digwmpas a ganlyn. "Gan fod yn amlwg nad yw dyn yn rhydd yn mhob amgylchiadau i ddewis neu beidio—hyny yw, fod yn rhaid iddo wneuthur un o ddau beth—yr ymofyniad nesaf ydyw, *A ydyw dyn yn rhydd i ewyllysio yr un a fyno o'r ddau?* Y mae afresymoldeb mor amlwg ar wyneb y cwestiwn hwn ag i'n hargyhoeddi nad yw rhyddid yn perthyn i'r ewyllys fel damwain (am mai ei hanfod yw rhyddid). Y mae gofyn, A ydyw dyn yn rhydd i symmud neu aros, i siarad neu bod yn ddistaw, *yr un a fyno?* yr un peth a gofyn, A all dyn ewyllysio yr hyn y mae yn ei ewyllysio, neu gael ei foddio gyda'r hyn sydd yn ei foddio (*mynu* ydyw ewyllysio)? Cwestiwn ydyw hwn nad ydyw yn angenrheidiol ei ateb; ac os oes rhywun yn meddwl ei fod, rhaid fod hwnw yn tybied fod un

[1] "But of one thing we must have special care, as being a matter of no small moment; and that is, how the will, properly and strictly taken, differeth greatly from the inferior natural desire which we call appetite. The object of appetite is whatsoever sensible good may be wished for; the object of will is that good which reason doth lead us to seek. Affections, such as joy, and grief, and fear, and anger, with such like, being as it were the sundry fashions and forms of appetite, can neither rise at the conceit of a thing indifferent, nor yet choose, but rise at the sight of some things. Wherefore it is not altogether in our power whether we will be stirred with affections or no. Whereas actions which issue from the disposition of the will are in the power thereof to be performed or stayed."

Digitized by Google

weithred o'r ewyllys yn penderfynu un arall, ac un flaenorol yn penderfynu hono, ac felly yn mlaen yn ddiddiwedd." Ar y tir hwn, y mae yn ateb, nad yw dyn yn penderfynu ei ewyllys ei hun. Ac y mae yn rhaid addef—y mae amddiffynwyr rhyddid yr ewyllys yn ei addef—fod y cwestiwn, *A ydyw dyn yn rhydd i ewyllysio yr un a fyno* (ewyllysio) *o'r ddau?* yn cynnwys anghysondeb ynddo ei hun; o herwydd y mae yn tybied gweithred neillduol o eiddo yr ewyllys fel ammod ei chyflawniad. Rhaid fod y gallu yn flaenorol i'w weithrediad; o ganlyniad, nis gall unrhyw weithrediad neillduol o'r gallu fod yn ammod o hanfodiad y gallu. Yr hyn a ddywed amddiffynwyr rhyddid yr ewyllys yn erbyn hyn ydyw, nad yw y dull uchod o eirio eu hathrawiaeth yn hanfodol i'r athrawiaeth ei hun. Pa eiriau bynag a ddefnyddir i'w gosod allan—ac addefant fod yn anhawdd ei geirio yn hollol mewn modd nas gellir dyweyd rhywbeth yn ei herbyn—yr hyn a ddadleuant drosto ydyw, fod dyn yn awdwr gwirioneddol ac annibynol o'i ewyllysiadau ei hun. Nis gallwn wneuthur yn well mewn trefn i alluogi y darllenydd i weled yn glir pa beth yn union yw y pwnc mewn dadl, a pha beth sydd i'w ddyweyd y naill ochr a'r llall, na rhoi dyfyniad neu ddau. Dyma frawddeg gan Archesgob Whately —un o brif feddylwyr yr oes bresennol, ac amddiffynydd rhyddid yr ewyllys, er ei fod yn credu fod athrawiaeth angenrheidrwydd ynhollol ddiniwed:—"Deued amddiffynwyr angenrheidrwydd yn mlaen, ac esboniant eu golygiadau eu hunain; ac yna, ni a welwn fod eu syniadau yn gyfryw ag sydd yn hollol gyfeiliornus, neu ynte yn hollol ddiniweid. Os eu meddwl ydyw, wrth ddyweyd fod pob peth yn sefydlog ac angenrheidiol, nad oes y fath beth a gweithrediad gwirfoddol, yna ni a allwn appelio at brofiad cyffredinol yn eu herbyn. Ond os y cwbl a ddeallir ganddynt ydyw, fod pob dygwyddiad yn ymddibynu ar achosion digonol i'w gynnyrchu, ac nad oes dim ynddo ei hun yn 'ddygwyddiadol, yn ddamweiniol, ac yn ansicr' (*contingent, accidental, or uncertain*).... a bod yn afresymol dyweyd y gallasai unrhyw beth ddygwydd yn wahanol i'r hyn y gwnaethai, *tra y mae yr holl amgylchiadau perthynol yn aros yr un*—yna y mae yr athrawiaeth yn ddiammheuol wir, ond yn hollol ddiniwed, ac yn gysson â rhyddid a chyfrifoldeb." Y mae yr archesgob yn y frawddeg hon yn mabwysiadu y syniadau a wrthwynebai; o herwydd fe ddywed nad oes dim yn "ddygwyddiadol, yn ddamweiniol, nac yn ansicr, ynddo ei hun;" a thybier i'r holl amgylchiadau perthynol fod yr un, "afresymol ydyw dyweyd y gallasai unrhyw beth ddygwydd yn wahanol i'r hyn a wnaeth." Hyn ydyw athrawiaeth Angenrheidrwydd. Tybier am ddau ddyn mewn amgylchiadau hollol gyffelyb—yn fewnol ac allanol: tybier fod y gogwydd mewnol, a phob peth allanol mewn ffurf o gymhelliadau a gwahoddiadau, yn eu holl amrywiaeth, yn hollol gyffelyb—ïe, yn berffaith yr un. Tybier fod pob peth ond gweithred benodol yr ewyllys yr un yn y ddau amgylchiad. Yn awr, athrawiaeth rhyddid yr ewyllys ydyw, y dichon i'r ddau ddyn hyn, gyda thuedd fewnol a chymhelliadau allanol perffaith a hollol yr un, eto weithredu yn wahanol: ac athrawiaeth angenrheidrwydd yw, y bydd iddynt weithredu yn gyffelyb. Fel y canlyn y mae J. S. Mill yn esbonio Angenrheidrwydd, heb olwg ar un cymhwysiad duwinyddol o'r athrawiaeth:—"Os edrychir ar angenrheidrwydd athronyddol yn gywir, nid yw ond hyn:—Os dywedir wrthym pa beth ydyw y cymhelliadau sydd o flaen y meddwl, ac hefyd pa beth yw ei gymmeriad a'i dueddfryd, gallwn gasglu yn anffaeledig pa fodd y gweithreda. Pe meddem adnabyddiaeth berffaith o ddyn, ac hefyd yr holl gymhelliadau sydd yn gweithredu arno, gallem ragfynegu ei weithredoedd gyda chymmaint sicrwydd ag y gallem ragfynegu unrhyw ddygwyddiad anianyddol. Ac nid yw hyn ond profiad pob dyn—dadganiad mewn geiriau o'r hyn y mae pawb yn brofiadol o hono. Ni phetrusai neb ragfynegu pa fodd y gweithredai nifer o ddynion ond iddo gredu ei fod yn berffaith adnabyddus o'u cymmeriadau, eu cymhelliadau, a'u hamgylchiadau. Pa ammheuaeth bynag a deimlai, fe darddai hyny oddi wrth ei ansicrwydd am gymmeriad ac amgylchiadau y personau; ac nid oddi wrth unrhyw wendid yn ei feddwl am y gosodiad, pe byddai y cyfan yn adnabyddus iddo y gallai ragfynegu y canlyniadau. Ac nid yw y llawn sicrwydd hwn yn anghysson â'r hyn a elwir ein teimlad o ryddid." Ni a welwn fod yr archesgob, wrth ysgrifenu dros ewyllys rydd neu hunan-benderfynol, yn dadgan mewn iaith gref yr afresymoldeb o wadu angenrheidrwydd yn yr ystyr a eglurir uchod. Y mae y gair *angenrheidrwydd* ei hun wedi camarwain llawer o barth yr hyn a olygir wrtho yn y ddadl hon, fel pe byddai yn anmhosibl i ddyn fod yn weithredydd rhydd os byddai yn ddarostyngedig i unrhyw fath o angenrheidrwydd. Ond os caniateir fod dyn yn weithredydd rhydd, y mae Whately yn foddlawn i addef angenrheidrwydd yn yr ystyr o *sicrwydd moesol.* A hyn ydyw yr ystyr a berthyn i'r gair yn y dadleuon hyn. Yr unig sicrwydd a ddadleuir drosto ydyw y sicrwydd sydd yn tarddu o duedd y galon. Y mae sicrwydd y bydd i duedd lygredig ymarllwys mewn gweithredoedd pechadurus. Ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw orfodaeth nac unrhyw sicrwydd ond y bydd i unrhyw duedd neu anian weithredu yn unol â hi ei hun. Nid oes unrhyw orfodaeth i hyny: pe felly, peidiai â bod yn duedd. Yr unig angenrheidrwydd yn yr achos ydyw angenrheidrwydd sydd yn gysson â natur tuedd, ac yn hanfodol iddi. Y mae angenrheidrwydd neu sicrwydd moesol yn gwahaniaethu oddi wrth angenrheidrwydd anianyddol fel y mae yr angenrheidrwydd i weithredu yn unol â'n tueddfryd yn gwahaniaethu oddi wrth yr angenrheidrwydd i deimlo poen pan wedi derbyn archoll. Yr ydym yn teimlo poen yn annibynol ar yr ewyllys. Ond nid yw angenrheidrwydd moesol yn ddim amgen na sicrwydd y bydd i unrhyw duedd weithredu yn unol â'i hansawdd ar gyflwyniad cymhelliadau penodol i hyny. Nid yw hyn yn amgen na'r sicrwydd y mae pawb yn ei deimlo y bydd i'r anian lygredig mewn plentyn arwain i fywyd pechadurus. Y mae o bwys i gadw mewn golwg natur yr angenrheidrwydd a ddadleuir drosto yn erbyn ewyllys hunan-benderfynol. Nid oes dim yn fwy cyffredin nag i ddynion sydd yn dadleu dros angenrheidrwydd gael eu cyhuddo, fel pe byddai hyny yn wadiad o'r ffaith fod gan ddyn ewyllys o gwbl. Ni a edrychwn gan hyny pa beth oedd golygiadau y dynion sydd wedi enwogi eu hunain fwyaf trwy eu gwrthwynebiad i'r gallu hunan-benderfynol a briodolai ereill i'r ewyllys. Enw Awstin sydd yn sefyll uchaf yn y rhestr fel athronydd a duwinydd. Yn ei ymresymiadau nerthol a brwdfrydig yn erbyn Pelagius, nid oedd dim un pwnc yn cael ei godi i fwy o amlygrwydd na'r gallu sydd i'w briodoli i

Digitized by Google

ewyllys dyn. Hònai Pelagius fod gan yr ewyllys allu gwreiddiol ac annibynol i'w phenderfynu ei hun. Gwadai Awstin hyny; a hònai yn y gwrthwyneb fod dyn drwy y cwymp wedi colli ewyllys rydd. Y mae Awstin yn defnyddio y geiriau, *ewyllys rydd* (*liberum arbitrium*) mewn ystyr driphlyg. Yn gyntaf oll, mae yn ei ddefnyddio am y *gwirfoddolrwydd* sydd yn perthyn i'r ewyllys fel y cyfryw, yn gyferbyniol i orfodaeth allanol a grym gorthrechol greddf anifeilaidd. Mae y gwirfoddolrwydd hwn yn perthyn i bob sefyllfa o eiddo dyn. Y mae yn perthyn iddo wrth gyflawnu drwg a da—cyn y cwymp, yn y cwymp, ac ar ol y cwymp—ac hefyd yn ei achubiaeth trwy ras, yn ei ddechreuad mewn ailenedigaeth, ac hefyd yn ei barhad a'i berffeithiad.

Y mae Awstin yn dangos pa fodd y mae y gwirfoddolrwydd hwn yn gysson âg angenrheidrwydd trwy ei gymharu â'r dymuniad cyffredinol sydd am ddedwyddwch. Nid yw dyn yn teimlo gorfodaeth i ddymuno ei hapusrwydd: yn hytrach y mae yn gwneuthur hyny gyda'r gwirfoddolrwydd a'r rhyddid mwyaf, ac eto y mae yn ei wneuthur gyda'r angenrheidrwydd mwyaf. Y mae pechod y dyn anianol yn wirfoddol (*voluntaria*): eto yn y cwbl y mae yn ei wneuthur nis gall peidio pechu. Y mae sancteiddrwydd y perffaith yn wirfoddol, eto nis gall lai na bod yn sanctaidd. Y mae dyn yn gweithredu gyda'i ewyllys, ac nid yn ei herbyn. Nid oes dim yn ei orfodi yn groes i'w dueddiad; ond myned gyda'i duedd y mae. Felly mae yn weithredydd rhydd, ac o ganlyniad yn gyfrifol. Pa beth chwaneg sydd yn ofynol i gyfrifoldeb na bod dyn yn gweithredu yn wirfoddol, ac heb orfodaeth. Defnyddir ymadroddion fel y rhai canlynol yn fynych gan Awstin ar y mater. "Pa ham y gwneir pwnc eglur yn dywyll? y mae dyn yn rhydd i wneuthur drwg, gan ei fod yn gweithredu gydag ewyllys rydd i ddrwg." "Y mae dyn yn rhydd i dda, tra y bydd yn gweithredu gydag ewyllys rydd." "Nid yw dynion yn cael eu gorfodi i bechod fel pe byddent yn anewyllysgar; ond os ydynt mewn oed i ddewis, y maent yn parhau mewn pechod o'u hewyllys, ac yn myned o bechod i bechod trwy eu hewyllys." "Gyda'i ewyllys y mae dyn yn pechu, a chyda'i ewyllys y mae yn byw yn sanctaidd." Yn gyffelyb y mae pechadur yn ei ddychweliad trwy ras yn rhydd, am ei fod yn gweithredu yn wirfoddol ac heb orfodaeth. "Nid amddifedir dyn o ewyllys trwy ras, ond cyfnewidir hi o ddrwg i dda" (*voluntas humana non tollitur, sed a mala mutatur in bonum*). "Mae yn sicr pan y byddom yn ewyllysio ein bod yn ewyllysio; ond iddo ef y mae priodoli ein bod yn ewyllysio." "Y mae rhai yn ewyllysio credu, y mae ereill nad ydynt; o herwydd fod ewyllys rhai yn cael ei pharotoi gan Dduw, ac nad yw ewyllys ereill." Barn Awstin ydoedd fod ewyllys pechadur yn cael ei chyfnewid a'i phenderfynu trwy ras, ond er hyny ewyllys ydyw, ac ewyllys hefyd sydd yn rhydd.

Yr ail ystyr yn mha un y defnyddia Awstin y geiriau, *ewyllys rydd*, ydyw am y gallu i ddewis drwg neu dda—yr un a fyno. Y gallu hwn oedd gan ein rhieni cyntaf cyn y cwymp, ond trwy y cwymp collasant y gallu i ddewis y da. Yn y modd yma eto y mae Awstin yn esbonio pa fodd y mae pechod ein natur, pechod gwreiddiol, yn wirfoddol, a bod dyn yn gyfrifol am dano; sef, am ei fod yn ffrwyth ewyllys hunan-benderfynol yn ein tad cyntaf. Nid yn unig y mae dyn wrth bechu yn pechu yn wirfoddol—hyny yw, gyda'i duedd, gyda'i ewyllys, yn hollol ddiorfod—ond hefyd pechodd y dyn cyntaf pan yr oedd ganddo ewyllys hunan-benderfynol ydoedd; ffynonell pechod gwreiddiol. Y mae gwreiddyn a tharddiad pechod yn hollol rydd, ac y mae yn rhaid hefyd ei farnu wrth ei wreiddyn. Ond ar ol ei wreiddyn, y mae pechod yn peidio a bod yn rhydd yn yr ystyr hwn, ond yn angenrheidiol, ac y mae ein natur dan gaethiwed iddo; ond nid yw hyn yn dadwneud ei darddiad hunan-benderfynol. Edrychir ar ewyllys dyn yn y ddynoliaeth, fel ffrwd o ewyllys yn tarddu o'i ffynnonell yn ewyllys y dyn cyntaf, fel y daeth o law ei Greawdwr. Yn ei ffynnonell y mae yr ewyllys hon yn rhydd yn yr ystyr cyflawnaf; hyny yw, yn hunan-benderfynol: ond yn y cwymp collodd y rhyddid hwn, a derbyniodd iddi ei hun anian lygredig; ac yn unol â'i natur y mae hi dan angenrheidrwydd neu gaethiwed i ddrwg. Os gofynir pa ham, gan fod dyn yn ddarostyngedig i ryw fath o angenrheidrwydd, yr ymddygir tuag ato fel pe byddai yn rhydd ac yn gyfrifol. Atebir yn gyntaf, yn unol â syniad cyntaf Awstin am ryddid yr ewyllys, am ei fod yn wirfoddol, ac yn pechu gyda'i ewyllys, ac nid yn ei herbyn. Ond atebir yn nesaf, yn unol a'r ail syniad am ryddid yr ewyllys, fod yr ewyllys yn rhydd yn ei ffynnonell gyntaf mewn ystyr hunan-benderfynol, a bod dyn wedi colli y gallu hwn trwy ei bechod, ac nad yw y golled a dynodd arno ei hun yn ei ryddhau oddi wrth gosp. Y mae cyfatebrwydd rhwng effaith pechod gwreiddiol ar yr ewyllys ac effaith arferiad arni. Y mae ewyllys y dyn sydd wedi ei eni dan ddylanwad pechod gwreiddiol yn cael ei ystyried yr un a'r ewyllys a gyflawnodd y pechod hwnw, yn union, fel y mae ewyllys sydd dan ddylanwad arferiad yr un a'r ewyllys a ffurfiodd yr arferiad. Wrth feddwl am ewyllys pob dyn unigol, gellir dyweyd ei bod yn rhydd mewn pechod, o herwydd gyda a thrwy ei ewyllys y mae yn pechu. Ond wrth feddwl am ewyllys dyn yn y ddynoliaeth, y mae hi yn weithredydd gwreiddiol, annibynol, a hunan-benderfynol. Ac yn y gweithrediad o'r gallu hwn y gollyngodd ewyllys dyn bechod i fod, ac y dangosir nad yw Duw yn awdwr pechod.

Ond y mae Awstin yn defnyddio y gair *ewyllys rydd* mewn ystyr arall eto—y trydydd ystyr—gwahanol oddi wrth y ddau flaenorol; sef yr ystyr yn mha un y dywedir "Os y Mab a'ch rhyddha chwi rhyddion fyddwch yn wir:"—rhyddid oddi wrth gaethiwed pechod, oddi wrth lywodraeth tueddiadau llygredig. Nid rhyddid i ddewis y drwg neu y da ydyw hwn, ond rhyddid *oddi wrth* y drwg a chaethiwed *i'r* da. Y mae yr apostol Paul yn llefaru am ddau wasanaeth, neu gaethiwed—un i gyfiawnder, a'r llall i bechod. Y mae Awstin yn ei ddilyn gan ddywedyd, "Y mae yr ewyllys yn wastad yn rhydd ynom, ond nid yw yn wastad yn dda; naill ai y mae yn rhydd oddi wrth gyfiawnder a than gaethiwed i bechod, neu y mae yn rhydd oddi wrth bechod a than gaethiwed i gyfiawnder." Yma y mae y gair *rhydd* yn arwyddo, nid rhyddid i wneuthur drwg neu dda, ond rhyddid oddi wrth ddrwg a rhyddid oddi wrth dda. Mae stâd yn yr hon y mae yr egwyddor dda yn hollol lywodraethol, ac y mae dyn dan iau iddi. Yn y stâd hon y mae yr ewyllys mor gref o blaid y da, fel nas gallai weithredu yn ei erbyn heb y trais mwyaf arni ei hun. Y mae stâd meddwl yn yr hwn y mae yr egwyddor ddrwg yn hollol lywodraethol, ac nis gallai dyn weithredu yn ei herbyn. Y mae ewyllys rydd, yn yr ystyr hwn, yn arwyddo ewyllys yn rhydd oddi wrth iau

Digitized by Google

cyfiawnder, neu iau pechod. Yn yr ystyr hwn i'r gair, y mae ewyllys rydd yn anghysson â gallu i ddewis; o herwydd, fel y mae y gair yn arwyddo, y mae mor bell oddi wrth fod yn alluog i wneuthur drwg neu dda fel nas gall ddewis y drwg ar un llaw, na dewis y da ar y llaw arall. Ewyllys wedi ei phenderfynu yn hollol ydyw hon o blaid y drwg neu y da.

Oddi wrth yr adolygiad hwn o syniadau Awstin, ni a welwn, nad yw o blaid rhyddid ewyllys ddim pellach nag sydd yn gynnwysedig yn y ffaith fod gan ddyn ewyllys, ac nad ydyw yn gwneud dim yn groes i'w ewyllys. Hefyd y mae yn gwadu ewyllys hunan-benderfynol i ddyn dan y cwymp, gan ei fod yn cael ei benderfynu i ddrwg gan bechod gwreiddiol, ac i dda gan ras achubol—eto yn y fath fodd fel mai gweithredu yn wirfoddol y mae yn y ddau. Ni a welwn fod Awstin yn dal at y golygiad fod yr ewyllys yn rhydd o ran y dull o weithredu. Yr ydym yn gweithredu yn wirfoddol ac heb orfodaeth pan yr ydym yn gweithredu mewn ystyr gwirioneddol. Nid yw gweithred y'n gorfodir i'w chyflawnu yn eiddo i ni ein hunain, ond i arall. Yr ydym yn gweithredu gyda phwyll a dewisiad, gan roddi y flaenoriaeth i'r naill ar y llall oddi ar egwyddorion penodol ac i ddybenion penodol. Ond y mae cwestiwn am ffynnonell y gweithrediad, yn gystal a'r modd. Dywedir nad yw y *modd* o weithredu yn penderfynu dim o barth i *ffynnonell* y gweithrediad. Yr ydym yn gweithredu fel yr ydym yn ewyllysio: ond y mae cwestiwn eto yn aros pa fodd yr ydym yn dyfod i ewyllysio. Y mae dyn yn ymwybodol o'i ryddid: y mae yn teimlo mai yn wirfoddol, yn ewyllysgar, y mae yn gwneud y cwbl. Y mae Awstin yn dal hyn yn y geiriau cryfaf yn mhob ffurf o ymadroddi; eto y mae yn dadleu nad yw hyn yn profi fod dyn yn ffynnonell wreiddiol, annibynol, a hollol i weithrediadau ei ewyllys. Y mae dull rhydd o weithredu yn cydhanfodi â ffynnonell gweithrediad y tu allan i'r ewyllys. "Pan yn ewyllysio, yr ydym yn ewyllysio; ond efe sydd yn ein dwyn i ewyllysio." "Y mae i ddyn gael ei orfodi i ewyllysio yn wrthddywediad mewn gair; o herwydd os gorfodir ef nid yw yn ewyllysio. Nis gall ewyllysio yn anewyllysgar." Eto, nid oes dim gwrthwynebiad mewn dywedyd fod y dyn wedi cael ei greu i ewyllysio; o herwydd nis gall yr ewyllys wrthwynebu cyn iddi ddyfod i fod. "Y mae Duw yn gwneuthur fel y byddo i ddyn wneuthur:" hyny yw, y mae Duw yn ennill y dyn i weithredu (*ut faciat homo facit Deus*). "Gweithredir ar ddynion fel y byddo iddynt hwythau weithredu; nid fel na byddo iddynt weithredu." Y mae dyn yn gweithredu—dyna'r effaith; ond gweithredir arno—dyna'r achos sydd yn myned dan y cwbl. Mae yr holl achos o rydd weithgarwch dyn yn ddyfnach na'r dyn ei hun. Eto, nid cael gweithredu arno i wneuthur dim ei hunan, i fod yn ddiymdrech, yn ddiysgogiad, yn oddefol ei hun; ond yn hollol i'r gwrthwyneb—wedi cael ei wneuthur yn weithredydd y mae. "Nid ydyw fod dyn yn gweithredu yn rhydd yn peri nad oes ffynnonell i weithrediadau ei ewyllys. Nid ydyw dyn yn cael ei orfodi i fod am fod iddo darddiad. Cyn iddo ddyfod i fod, a oedd rhywbeth i'w orfodi? Mae ffynnonell i'r ewyllys, ond eto nid oes orfodaeth arni; ac os nad ydym i chwilio am ei ffynnonell, yr achos ydyw, nid am nad oes ffynnonell iddi, ond o herwydd ei bod yn rhy amlwg. Y mae yr ewyllys o'r hwn y perthyna iddo:—ewyllys yr angel o'r angel, ewyllys dyn o ddyn, ac ewyllys Duw o Dduw. Y mae Duw wrth weithio ewyllys dda mewn dyn yn peri i ewyllys dda ddyfod i fod yn yr hwn y perthyna iddo." Nis gall iod iaith gryfach am wir natur yr ewyllys fel ewyllys fywiol, weithgar, ewyllysgar, ac yn eiddo i ni ein hunain. Y mae efe yn hòni gwreiddioldeb mewnol i'r ewyllys—yn tarddu o honom ein hunain. Ar yr un pryd y mae yn dysgu mor bendant nad yw y gwreiddioldeb hwn yn hollol annibynol ar ffynnonell y tu allan i ni. Y mae bod gweithrediadau grasol yn codi o'n hewyllys ein hunain mor gysson â'u bod yn cael eu dwyn i fod gan ras Duw, ag ydyw bod dyn yn cael ei eni o ddyn yn gysson â'i fod yn cael ei greu gan allu dwyfol. Y mae yr ewyllys yn achos, ac eto heb fod yn achos cyntaf. Y mae hi yn achos, ac felly y mae dyn yn rhydd. Nid yw yn achos cyntaf; ac o ganlyniad, nid yw yn rhydd oddi wrth angenrheidrwydd. Ië, pe buasai yn achos cyntaf, nis gallasai fod yn rhydd oddi wrth angenrheidrwydd ei natur ei hun.

Yn athrawiaeth Awstin, y mae rhyddid ac angenrheidrwydd mewn undeb â'u gilydd. Y mae rhyddid sydd yn anghysson âg angenrheidrwydd yn yr ystyr y defnyddir y gair yn yr erthygl hon yn ddychymygol ac yn anmhosibl. Mae perffeithrwydd mewn daioni neu ddrygioni yn cynnwys angenrheidrwydd fel elfen hanfodol ynddo. Yr ydym yn priodoli angenrheidrwydd o ochr daioni i Dduw, i angylion, ac i saint perffeithiedig; ac yn gysson â hyn, yr ydym yn priodoli iddynt weithrediad ewyllys ddiledryw. Ar y llaw arall, y mae angenrheidrwydd yn perthyn i ysbrydion a dynion drwg mewn sefyllfa o gosp o ochr drwg, a hyny yn gysson â gweithrediad ewyllys wirioneddol ynddynt. Y mae yr ewyllys oruchaf yn hanfodol dda; ac nis gall weithredu yn anghysson â'i natur. Y mae y rhyddid a'r angenrheidrwydd uchaf yn cydgyfarfod yn Nuw.

Y mae pob dychymyg am ewyllys hunan-benderfynol, sydd yn priodoli gallu mewn dyn i ffurfio ac i gyflawnu penderfyniadau drwg neu dda, sanctaidd neu ansanctaidd, pan y myno, yn hollol wrthwynebol i egwyddorion natur dyn, ac i air Duw. Yn gyntaf, y mae pob ymdrechiadau i effeithio ar feddwl ac ymddygiadau dynion trwy addysg, o bob natur, ac o fewn pob cylch—y teulu, y wladwriaeth, a'r eglwys—yn seiliedig ar y dybiaeth fod yn bosibl i ddynion effeithio ar ewyllysiau eu gilydd. Er mwyn gwneuthur hyn yn effeithiol, rhaid i ni wneuthur ein hunain yn gydnabyddus â chymmeriad moesol, dulliau o feddwl, a thueddiadau ac arferion y cyfryw ag y mynwn ddylanwadu arnynt. Ond os ydym i feddwl am ewyllys rydd yn yr ystyr o fod yn hollol annhueddol i bob cymhelliadau, ac i bob penderfyniadau blaenorol o'i heiddo, yna yr unig synwyr a all fod yn yr ymdrechiadau i effeithio ar ddynion, ydyw y dichon o *bosibl* i'r ewyllys ymostwng i gymmeryd effeithio arni gan un neu ragor o'r holl ystyriaethau a gyflwynir i'w sylw. Ond am unrhyw debygolrwydd y bydd iddynt effeithio ar yr ewyllys, nid oes dim. Yn ail, y mae y cyfryw syniad am ryddid yr ewyllys yn hollol anghysson â bod dyn yn meddu cymmeriad. Adwaenir pren wrth ei ffrwyth. Y mae pob un yn gweithredu yn unol â'i gymmeriad, ac yn ei ymddygiad y mae ei gymmeriad yn cael ei amlygu. Y mae neillduolrwydd naturiol ac ewyllysiadau moesol yn ymuno mewn cymmeriad, ond eto yn y fath fodd fel mai yr olaf ydyw yr egwyddor lywodraethol. Cymmeriad ydyw

hollalluogrwydd yn gareg sylfaen eu cyfundrefn i fesur mawr, eto defnyddiant yr iaith gryfaf wrth lefaru am ewyllys dyn. Dywedant fod yr ewyllys yn ysgogi ei hun—ei bod yn feistres ei gweithrediadau ei hun—fod yn ei gallu i weithredu neu beidio. Addefant fod yr ewyllys yn egwyddor ysgogiad iddi ei hun, ond nid yr egwyddor gyntaf:—ei bod yn achos iddi ei hun o'i gweithrediadau; ond ail achos yn unig, ac nid y cyntaf:—daliant hefyd nad ydyw bod ei gweithrediadau yn tarddu o ffynnonell y tu allan iddi ei hun yn effeithio dim ar ei gwirfoddolrwydd. Mewn atebiad i'r cwestiwn, Pa fodd y mae yn bosibl i'r ewyllys gael ei hysgogi gan allu oddi allan, ac eto heb deimlo gorfodaeth, ond bod y cyfan yn myned yn mlaen fel yn ysgogi ynom ein hunain? dywedant fod dau fath o angenrheidrwydd—angenrheidrwydd gorfodaeth, ac angenrheidrwydd anian neu duedd. Y mae angenrheidrwydd gorfodaeth yn wrthwynebol i duedd, ac o ganlyniad a deimlid yn orfodaeth. Ond y mae angenrheidrwydd tuedd, neu yr hyn sydd yn gwneuthur tuedd i fod yr hyn ydyw, yn cael ei deimlo yn duedd, ac nid gorfodaeth. Gwelir, oddi wrth y braslun hwn, fod syniadau duwinyddion y canoloesoedd yn cytuno â syniadau Awstin ar y mater dan sylw. Ffurfient eu cyfundrefn bron yn hollol trwy gyfres o ymresymiadau oddi wrth hollalluogrwydd; ac yna, er mwyn amddiffyn cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw a chyfrifoldeb dyn, priodolant ewyllys i ddyn fel egwyddor arall eu cyfundrefn. Y mae y gyfundrefn hon yn cynnyg cyssoni y ddwy egwyddor â'u gilydd fel y gwelir: ond y mae hon, fel y mae yn rhaid i bob un, fethu; o herwydd y mae dyn yn cael ei ddal yn gyfrifol fel achos cyntaf—eto nid yw ond ail achos.

Rhaid i ni ddychwelyd i roddi crynodeb byr o olygiadau y Diwygwyr. Nid oddi ar dir athroniaeth yr edrychent hwy ar yr ewyllys, ond yn ngoleuni y Beibl; ac o ganlyniad, ni phriodolent nemawr o bwysigrwydd i'r cwestiwn ond yn ei berthynas â chwymp dyn, a'i adferiad trwy ras. Addefent fod gan ddyn ewyllys wirioneddol dan y cwymp, a bod yr ewyllys hono, fel cynneddf naturiol, fel gallu i ddewis a gwrthod, yr un o ran ei holl briodoliaethau hanfodol ag ydoedd cyn y cwymp. Addefent hefyd fod gweithrediad yr ewyllys yn berffaith rydd, yn yr ystyr o fod yn wirfoddol, neu yn rhydd oddi wrth orfodaeth, wedi y cwymp. Y mae geiriau Cyffes Cymmanfa Westminster ar hyn yn cynnwys, nid yn unig syniadau y duwinyddion Puritanaidd, ond hefyd syniadau y Diwygwyr hefyd; sef,—"Y mae Duw wedi cynnysgaethu ewyllys dyn â'r rhyddid naturiol hwnw, fel nad yw nac yn cael ei gorfodi, nac ychwaith yn cael ei phenderfynu trwy angenrheidrwydd natur, i dda na drwg." Y mae hyn yn gymhwysiadwy at ewyllys dyn cyn ac wedi y cwymp, ac yn mhob amgylchiadau; ac nid yw yn dysgu chwaneg na bod dyn wedi ei gynnysgaethu â gallu naturiol i ddewis a gwrthod, heb unrhyw orfodaeth allanol. Nid effeithiodd y cwymp i newid cyfansoddiad naturiol y meddwl; nac, o ganlyniad, yr ewyllys, fel rhan o'r cyfansoddiad hwnw. Nid amddifadwyd ef trwy y cwymp o'r hyn sydd yn ei gyfansoddi yn greadur rhesymol a chyfrifol; ac y mae ewyllys rydd oddi wrth orfodaeth yn ei gweithrediadau—cynneddf i ddewis a gwrthod yn hollol wirfoddol, a gallu i roddi mewn gweithrediad ei hewyllysiadau—yn hanfodol i hyny. Y mae y gallu hwn yn ei feddiant yn awr; ac ni ddarostyngwyd ef trwy y cwymp i weithrediad unrhyw ddylanwad tu allan iddo ei hun, ac yn annibynol ar ei ddewisiad. Yr oedd y Diwygwyr yn dal hyn; ac yn yr ystyr hwn, ni buasent yn gwadu ewyllys rydd. Yn eu barn hwy, ac yn marn duwinyddion Protestanaidd yn gyffredin, nid oedd dim yn chwaneg yn angenrheidiol fel sail cyfrifoldeb dyn am ei weithredoedd, na bod yr ewyllys yn hollol rydd oddi wrth bob gorfodaeth allanol, ac oddi wrth bob anallu naturiol yn y gynneddf o ewyllysio. Ond nid yn yr ystyr hwn y defnyddid yr ymadrodd "ewyllys rydd" gan y rhai a ddadleuent drosti y pryd hyny, ond mewn ystyr hollol wahanol; sef, am allu moesol dyn pechadurus i wneuthur da fel drwg. Y mae Calvin yn hollol bendant a dibetrus ar y pwnc fod gan ddyn ryddid naturiol, nas dichon iddo gael ei amddifadu o hono. Nid oes ganddo wrthwynebiad i'r ymadrodd "ewyllys rydd" ynddo ei hun, pe na ddefnyddid ef ond i osod allan y rhyddid naturiol, di-orfod, a gwirfoddol, sydd yn perthyn i greadur rhesymol a chyfrifol fel y cyfryw. Nid oedd Calvin, ac nid oedd neb o'r Diwygwyr, yn dadleu dros y rhyddid naturiol hwn ar dir athroniaeth, ac yn erbyn yr hyn a elwir "angenrheidrwydd athronyddol," yn ystyr Jonathan Edwards o'r gair. Nid oedd gan y Diwygwyr unrhyw *theory* o barth i natur y rhyddid naturiol a briodolent i ddyn. Ymfoddlonent yn unig ar ddyweyd fod y cyfryw ryddid ganddo, ac nad allai dim ei amddifadu o hono. Yr oedd Edwards yn dal fod gan ddyn ryddid naturiol; ond yr oedd yn myned yn mhellach, ac yn dangos pa beth, yn ei farn ef, oedd natur y rhyddid naturiol hwnw. Yr oedd ganddo ef gyfundrefn, neu *theory* o ryddid. Ac yn y gyfundrefn hon y mae yn ceisio egluro yr egwyddorion sydd yn llywodraethu gweithrediad ewyllys dyn fel cynneddf naturiol; ac y mae yn proffesu ei seilio ar ymchwiliad i weithrediadau yr ewyllys—eu hachosion, a'u canlyniadau. Ar y tir hwn, y mae yn gwrthbrofi gallu hunan-benderfynol yr ewyllys, ac yn profi—o'r hyn lleiaf, nid oes neb wedi gallu dangos ar dir ymresymiad yn mha le y mae gwall yn ei brawf—fod sicrwydd moesol yn perthyn i holl weithrediadau yr ewyllys. Nid rhyfedd fod gwrthwynebwyr Edwards yn hòni—er ei fod ef yn dal rhyddid naturiol yr ewyllys mewn geiriau—fod ei gyfundrefn athronyddol yn ei dattroi. Ond am y Diwygwyr, nid oedd ganddynt unrhyw gyfundrefn o'r fath. Ymfoddlonent hwy ar ddal fod dyn fel y cyfryw yn meddu rhyddid naturiol, ac nad yw wedi ei golli trwy bechod gwreiddiol, ac nad yw chwaith yn ei golli trwy ailenedigaeth. Edrychir yn gyffredin ar allu hunan-benderfynol yr ewyllys fel yn hanfodol i Arminiaeth; ac ar angenrheidrwydd athronyddol fel yn hanfodol i Galviniaeth. Ac felly, y mae Arminiaid yn gyffredinol yn dadleu dros y gallu hunan-benderfynol; ac y mae y prif dduwinyddion Calvinaidd, er amser Edwards, wedi dal yr athrawiaeth o angenrheidrwydd, ac wedi ei defnyddio o blaid eu duwinyddiaeth. Ond fel prawf nad ydyw yr athrawiaeth o angenrheidrwydd athronyddol yn hanfodol i Galviniaeth, nid oes mwy yn angenrheidiol na'r ffaith, nad oedd Awstin na Chalvin—dau brif amddiffynydd athrawiaethau gras, ac hefyd dau brif dduwinydd anysbrydoledig yr Eglwys Gristionogol—ddim yn defnyddio y gyfundrefn o angenrheidrwydd athronyddol fel attegion i'w duwinyddiaeth. Y mae hyn yn fantais fawr i Galviniaeth ar dir ymresymiad. Nid yw yn ymddibynu ar y naill na'r llall o'r ddwy

gyfundrefn o barth i benderfyniadau yr ewyllys. Er fod y Diwygwyr yn dal rhyddid naturiol yr ewyllys, hyd yn oed dan y cwymp; eto, eu prif ymgais yw profi fod dyn yn gaeth trwy bechod; ac er fod ganddo gynneddf naturiol i ddewis da neu ddrwg, eto dewis y drwg y mae efe yn ddieithriad. Pa beth yw yr achos o hyn? Am nad yw yn ewyllysio; o herwydd, nid oes un rhwystr allanol iddo droi at Dduw. Y mae yn ngafael anallu i ewyllysio troi oddi wrth bechod at Dduw; ond anallu yn codi o'i gariad at bechod ydyw. Y mae y Diwygwyr, er addef rhyddid naturiol dyn, yn gwadu rhyddid ysbrydol iddo wrth natur. Dysgant fod dyn dan y cwymp wedi colli y gallu i ewyllysio yr hyn sydd yn ysbrydol; hyny yw, yr hyn sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth: a'i fod yn sefyll mewn angen am weithrediadau hollalluog Ysbryd Duw tuag at ei achubiaeth. Gwrthddadleuir yn erbyn yr athrawiaeth o anallu ysbrydol dyn i droi at Dduw—fod dynion yn cael eu gorchymyn a'u galw i ufuddhau, ac na buasai, neu yn hytrach na allasai, y Duw mawr roddi y cyfryw orchymyn oni buasai fod gan ddyn allu i ufuddhau: ac hefyd, dywedir na allasai ateb unrhyw ddyben i roddi gorchymynion i ddynion, oni bai fod yn eu gallu i ufuddhau. Yr ateb a roddir i'r wrthddadl hon ydyw:—yn gyntaf, fod y dynion sydd yn ei gwneuthur yn cymmeryd arnynt ddeall holl resymau yr Anfeidrol am ei ymddygiadau, onid e, ni ddywedent na allasai fod ganddo resymau dros roddi gorchymynion i ddynion, er eu bod yn analluog i ufuddhau. Y mae rhyfyg y fath wrthddadl yn ddigon o atebiad. Ond gellir myned yn mhellach, a dangos fod rhesymau yn cael eu hawgrymu yn y Beibl dros roddi gorchymynion i ddynion, er eu bod yn analluog i roddi ufudddod iddynt. Y mae holl ddyledswyddau dyn yn gynnwysedig mewn cariad at Dduw, a ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist. Am y dosbarth cyntaf—ein dyledswydd i garu Duw—ni chollodd y Deddfroddwr ei hawl i orchymyn, er i ddyn golli ei allu i ufuddhau. A rhesymol hefyd oedd i Dduw gadw ei hawliau o flaen y dyn, er ei fod wedi gwrthryfela. Fe fuasai peidio a gwneud yn rhoddi achlysur i ddyn i anghofio ei rwymedigaethau. Y mae yn gyfiawn ac yn dda, gan hyny, i gyhoeddi y ddeddf yn ei hyd a'i lled, er mwyn dwyn dyn i adnabyddiaeth o'i ddyledswydd, ac hefyd i'w ddwyn i deimlad o'i euogrwydd, ac o'i anallu. Os ydyw dynion yn bechaduriaid, y mae yn bwysig iddynt ddeall hyny; ac nid oes un llwybr i hyny ond galw arnynt i wneuthur yr hyn a ddylent, a dangos iddynt yn mha le y maent yn ddiffygiol. Mor bell, gan hyny, oddi wrth fod gorchymynion Duw yn profi gallu dyn, y mae yn bosibl ei fod yn gorchymyn er mwyn ei ddwyn i deimlo yn hollol wrthwyneb, sef ei anallu i ufuddhau. Ac y mae y gyfraith yn llaw Ysbryd Duw yn foddion argyhoeddiad. Gyda golwg ar y dosbarth arall o ddyledswyddau, sef edifeirwch a ffydd—er eu bod yn wahanol i'r dosbarth cyntaf mewn rhai ystyriaethau, o gymmaint a'u bod yn codi o drefn Duw i achub pechaduriaid—eto, yn hyn y maent yn gyffelyb—y gallasai fod gan Dduw reswm dros eu gorchymyn yn annibynol ar allu dyn i ufuddhau; īe, er mwyn dangos iddo ei anallu. Os nad all dynion edifarhau a chredu yr efengyl heb Ysbryd Duw, y mae yn bwysig iddynt wybod hyny, er mwyn iddynt deimlo eu hanallu; a thrwy hyny gael eu dwyn i geisio trugaredd. Yn unol â hyn, y mae Calvin yn cymmeradwyo dywediad a ddefnyddiai Awstin yn fynych:—"Y mae Duw yn gorchymyn yr hyn nas gallwn, fel y gwybyddom pa beth y dylem ei geisio ganddo ef." Ac heb law hyny, y mae y Beibl yn rhoddi lle i ni gasglu ei bod yn rhan o drefn rasol Duw er ein hiachawdwriaeth i alw arnom i gyflawni yr hyn nis gallwn; a thrwy hyny, gynnyrchu ynom deimlad o'n trueni a'n hanallu. Felly, nid gorchymyn i ddynion edifarhau a chredu, am eu bod yn alluog i hyny yn flaenorol, y mae Duw; ond mewn trefn, yn ei ddoethineb, i gyfranu gras, a'u dwyn felly i ufuddhau. Y mae hyn yn cael ei egluro yn ngwyrthiau y Gwaredwr, pan y byddai yn gorchymyn i'r cloff rodio, a'r gwywedig estyn allan ei law: nid am y gallent, ond am ei fod ef yn bwriadu rhoddi nerth iddynt mewn cyssylltiad â'r gorchymyn, ac mewn rhan trwy ei offerynoldeb.

Ond gwrthddadl arall, a'r anhawddaf ydyw:—Fod dyn yn gyfrifol am ufuddhau neu anufuddhau: yr hyn ni allai fod oni bai fod ganddo allu i ufuddhau. Addefir ar unwaith ar bob llaw, fod dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd—ei fod yn euog, ac yn tynu arno ei hun ŵg Duw trwy anufudd-dod. Ac nid oes un athrawiaeth i'w derbyn fel gwirionedd, os bydd yn anghysson â'r gwirionedd mawr hwn. Nis gall dyn fod yn gyfrifol am beidio gwneud yr hyn nad oes ganddo allu o gwbl, o un math, i'w gyflawni. Y mae y rhai sydd yn dal anallu dyn, yn dal hefyd fod y peth y mae dyn yn gyfrifol am dano mewn rhyw ystyr o fewn ei allu. Y mae y Beibl yn dysgu yn amlwg nad yw dyn syrthiedig, cyn iddo gael ei eni drachefn, yn alluog i gyflawni dim sydd yn ysbrydol dda ac ynglŷn âg iachawdwriaeth; tra, ar y llaw arall, y mae mor eglur yn dysgu fod dyn trwy beidio ewyllysio a gwneuthur yr hyn a orchymynir gan Dduw, yn tynu euogrwydd arno ei hun, ac yn gosod ei hun yn agored i gospedigaeth ddwyfol. Yn awr, erbyn edrych ar y ddau osodiad yma yn ngoleuni egwyddor, y mae synwyr a chyfiawnder naturiol yn dysgu hyn—nas gall dyn fod yn euog o beidio gwneyd yr hyn nad oes ganddo allu o *un math* i'w gyflawni—y mae yr anhawsder sydd yn yr wrthddadl yn codi yn naturiol.

Y mae y ddau osodiad Ysgrythyrol yn ymddangos yn anghysson â'u gilydd; sef, fod dyn yn analluog i ewyllysio, ac eto ei fod yn cael ei ddal yn euog am beidio gwneyd. Yn yr amgylchiadau hyn, y cwestiwn sydd yn naturiol yn ymgodi ydyw—A oes ystyr yn mha un y mae dyn yn analluog, ac ystyr yn mha un y mae yn alluog i gyflawnu yr hyn sydd ysbrydol dda? Yn awr, yr ateb y mae Calviniaid yn roddi i'r cwestiwn hwn ydyw—Fod dyn yn amddifad o duedd, o gariad at yr hyn sydd dda, ac yn yr ystyr hwn y mae yn analluog: ond ar y llaw arall, y mae ganddo gynneddfau naturiol—nid yw yn amddifad o ddim sydd yn angenrheidiol tuag at gyflawniad y ddyledswydd, ond cariad—ac yn yr ystyr hwn y mae ganddo allu. Y mae y cwbl yn troi ar y gwahaniaeth sydd rhwng *anallu naturiol ac anallu moesol*. Y mae y cyntaf yn codi oddi ar ryw achos y sydd yn annibynol ar ein hewyllys ein hunain. Y mae yr ail yn codi o ddiffyg ewyllys neu gariad at yr hyn a orchymynir. Gellir dyweyd fod gan ddyn allu naturiol i gyflawnu yr hyn sydd ysbrydol dda, o herwydd nad oes un ddeddf anianyddol, na nerth allanol, yn gweithredu yn annibynol ar ei ewyllys, yn ei attal i'w gyflawnu: ond ar y llaw arall, mewn ystyr foesol, y mae yn analluog, o herwydd fod diffyg ewyllys

neu barodrwydd ynddo ei hun i'w gyflawnu. Felly y mae ystyr yn mha un y mae dyn yn alluog i wneuthur yr hyn a orchymynir iddo, ac ar yr un pryd y mae ystyr yn yr hwn y mae yn analluog—y mae yn alluog naturiol, ond yn analluog foesol. Y cwbl sydd yn angenrheidiol tuag at gyfrifoldeb ydyw gallu naturiol. Ni ellir dyweyd fod gallu moesol yn angenrheidiol tuag at gyfansoddi cyfrifoldeb; onid e, ni byddai raid i ddyn ond peidio cyflawnu ei ddyledswydd, a byddai yn rhydd oddi wrth ei rhwymedigaethau. Gwelir gan hyny fod cyfrifoldeb yn gysson âg anallu moesol. Fod y gwahaniaeth hwn yn un nid mewn geiriau yn unig, ond yn un gwirioneddol, sydd amlwg; o herwydd fod gwahaniaeth mawr rhwng sefyllfa y dyn sydd, o herwydd rhyw orfodaeth allanol, yn analluog i wneuthur yr hyn a ddymunai, a'r dyn sydd yn rhydd i wneuthur pa beth bynag a ewyllysiai neu a ddymunai. Addefir gan y rhai sydd yn dadleu dros anallu moesol dyn, nad yw yn ddarostyngedig i unrhyw allu gweithredol y tu allan iddo ei hun, sydd yn gosod gorfodaeth arno i bechu. Y mae dyn yn pechu am ei fod yn ewyllysio gwneyd; a'r unig achos uniongyrchol ei fod yn gwneyd ydyw ei ddewisiad ei hun. Yn awr, gellir ymresymu fod creadur rhesymol y sydd, heb unrhyw orfodaeth y tu allan iddo ei hun, yn wirfoddol yn dewis ac yn ewyllysio pechod, a'r hwn sydd yn pechu yn unig am ei fod yn ewyllysio gwneyd—yn gyfrifol am ei bechod. Y mae y gwahaniaeth hwn yn un gwirioneddol a phwysig. Un o'r pethau goreu yn nhraethawd Edwards *Ar yr Ewyllys* ydyw, dangos nad oes dim yn angenrheidiol fel sail cyfrifoldeb ond gallu naturiol, sef gallu i wneuthur yr hyn y mae dyn yn ewyllysio. Er fod y gwahaniaeth hwn yn un pwysig, eto prin y mae yn cyfarfod yr holl anhawsder. Dangos yr ydys trwyddo fod dyn yn alluog i *wneuthur* pa beth bynag a ewyllysio. Nid yw hyny yn cyfarfod yr holl wrthddadl; o herwydd gosodiad duwinyddion Calvinaidd ydyw, nid nas gall dyn *wneuthur* yr hyn y mae yn ei ewyllysio, ond nas *gall ewyllysio.* Felly, i gyfarfod yr wrthddadl, dylid dangos fod ystyr yn mha un y *gall dyn ewyllysio,* tra ar yr un pryd y mae yn analluog i ewyllysio. Gan fod yr erthygl hon wedi myned eisoes yn faith, rhaid i ni gyfeirio at erthyglau ereill, lle yr ymdrinir â'r un mater mewn gwahanol gyssylltiadau.—GALLU AC ANALLU, GRAS, FFYDD, PECHOD GWREIDDIOL, ANGENRHEIDRWYDD, ETHOLEDIGAETH, ARFAETH. Heb law yr hyn a geir ar y mater hwn mewn llyfrau duwinyddol yn gyffredinol, gellir cyfeirio yn neillduol at Awstin (*Bassani*, 1797, c. xiv), *Yn erbyn Pelagiaid, Am Ras ac Ewyllys rydd, Am Lygredigaeth a Gras*; *Calvin, Instit., ll.* ii. pen. ii; hefyd, *De libero arbitrio Tractatus*, sef *Traethawd ar ryddid yr Ewyllys*; *Luther, De servo arbitrio; Aquinas, Summa Theologica; Locke, on the Understanding; Edwards, Essay on the Freedom of the Will; Dr. E. Williams, Essay on Equity and Sovereignty;* argraffiad newydd o'i holl waith dan olygiad Evan Davies 1862; *Whately's Difficulties of St. Paul; Müller on Sin; Mozley, Augustinian Doc. of Predestination; Cunningham, Historical Theology; Sir W. Hamilton's Notes on Reid*; *Lect. & Discus.*; *Isaac Taylor's Essays*:—un o honynt yn draethawd a gyhoeddwyd er ys llawer o flynyddoedd fel rhagdraith i'r *Essay on the Will*, gan Edwards.

EXODUS, LLYFR, [ואלה שמות=*Llyfr yr Enwau*, ἔξοδος=*ymadawiad, mynediad allan*]: ail lyfr Moses, a gafodd ei enw Groeg, *Exodos*, am ei fod yn rhoddi hanes *ymadawiad* yr Israeliaid o'r Aipht. Cafodd yr enw Hebraeg, *Llyfr yr Enwau*, neu yn hytrach *Llyfr Enwau* (sef *enwau meibion Israel*), oddi wrth y ddau air Hebraeg cyntaf yn y llyfr. Y mae Iesu Grist yn ei alw yn *Marc* xii. 26, yn *Llyfr Moses*, "Oni ddarllenasoch chwi yn *Llyfr Moses*, y modd y llefarodd Duw wrtho yn y berth?" *Exod.* iii. 6.

Gyda'r llyfr hwn y mae hanes briodol yr Israeliaid yn dechreu, gan barhau yr hanes hyd eu dyfodiad i Sinai, a gwneuthuriad y tabernacl yno. Y mae yn ein trosglwyddo yn gyntaf i'r Aipht, ac yn ein gosod yn y lle y cyflewyd yr Israeliaid yn y wlad hono. Nid ydym yn cael hanes cyflawn am bobl Israel yn ystod y cyfnod yma. Nid oes le i'r fath hanes, yn ol ystyr manwl y gair, yn y talfyriad hanesyddol a roddir i ni o deyrnas Dduw, gan mai darluniad yn unig o sefyllfa a chyflwr y bobl yw y cwbl sydd yn angenrheidiol. Yr ydym yn casglu hyd foddlonrwydd oddi wrth y desgrifiad, pa fodd yr oedd yr Arglwydd yn parotoi ei bobl yn nacaol gogyfer a'r amcan mawr a ragfwriadasai Duw gyda golwg arnynt. Dyma bwnc pwysig yr hanes yn y *Pum Llyfr* am ystod yr holl gyfnod o bedwar can mlynedd.

Gellir dosbarthu cynnwysiad Llyfr Exodus yn ddwy brif ran. Y rhan hanesyddol, *pen.* i. 1—xviii. 27; a'r rhan ddeddfwriaethol, *pen.* xix. 1—xl. 38.

I. *Y rhan hanesyddol.*—Gellir dosbarthu y rhan yma eto yn ddwy adran:—y parotoad i waredu Israel o gaethiwed yr Aipht; a chyflawniad y waredigaeth hono.

1. Y mae yr adran hon—y parotoad i waredu Israel o gaethiwed yr Aipht (*pen.* i. 1—xii. 36)—yn cynnwys y manylion canlynol:—Cynnydd mawr hiliogaeth Iacob yn ngwlad yr Aipht, a'u gorthrymder tost dan y "brenin newydd" a gymmerodd yr orsedd ar ol marwolaeth Ioseph (*pen.* i); genedigaeth, addysg, a ffoad Moses (*pen.* ii); ei alwad ddifrifol i fod yn waredwr ei genedl (iii. 1—iv. 17), a'i ddychweliad i'r Aipht mewn canlyniad i hyny (iv. 18—31); ei ymgais aflwyddiannus i gael gan Pharaoh ollwng yr Israeliaid ymaith, yr hyn a fu yn achlysur yn unig i chwanegu a thrymhau eu beichiau (v. 1—21); parotoad pellach Moses ac Aaron i'w swydd, a hanes eu hachau (v. 22—vii. 7); yr arwyddion a'r rhyfeddodau trwy gyfrwng y rhai o'r diwedd y dygwyd Israel o dir y caethiwed, a sefydliad y Pasc (vii. 8—xii. 36).

Pur amgylchiadol (*circumstantial*) ydyw Llyfr Exodus yn ei hanes o fywyd Moses, fel nas gellir ei ystyried yn cyfranogi o ansawdd bywgraffiad cyffredin; a chanfyddir mai yr amcan penodol, yn ei fanylion, ydyw dangos pa fodd y parotowyd Moses, hyd yn oed o'i ddyddiau boreuaf a'i ddygiad i fyny, trwy oruchwyliaeth wyrthiol, i fod yn offeryn etholedig Duw i waredu ei bobl. Dangosir yma, yn dra eglur, yr alwad a gafodd Moses i'w swydd gyssegredig; yr hyn a ddangosir yn y dosranau cyntaf (i—vi), lle y ceir hanes cyfnod pwysig cyntaf ei fywyd. Nid oedd yma ddim lle i ddewisiad dynol, na hunan-gais: nid oedd dim ond galwad uniongyrchol yr Iehofah yn unig a allai benderfynu amgylchiad mor bwysig. Datguddiodd yr Iehofah ei hun iddo trwy ei enw cyfammodol (*Iâh*), a rhyngodd bodd iddo ei allugi i gyflawnu y fath wyrthiau na chyflawnwyd gan neb erioed o'i flaen. Nid tuedd naturiol, na gogwydd ei feddwl ei hun a barodd i Moses dderbyn y swydd, ond ei ymostyngiad yn unig i

Digitized by Google

ewyllys ddadguddiedig Duw—ei *ufudd-dod* yn unig a ddylanwadodd ar y *deddfroddwr* hwn i dderbyn ei genadwri. Y mae perthynas allanol Moses hefyd a'i bobl yn cael ei darlunio yn fanwl (cymh., er esampl, *pen.* vi. 14, &c.). Ar y sylfaen gadarn hon y mae ei awdurdod bersonol ef a'i frawd Aaron yn cael ei seilio, a'r parch parhaus a deilyngai ei osodiadau. Yn y dosranau nesaf, rhoddir hanes pur fanwl am y modd y gogonedd-odd yr Arglwydd ei hun yn Israel, ac y gwared-odd ei bobl o dir y caethiwed. Y mae yr hanes yn awr, yn *pen.* vii., yn troi, megys, oddi wrth Moses yn bersonol at Israel yn gyffredinol, neu yn hytrach, Israel fel pobl Dduw. Ceir prawf bob dydd bellach o ras, cyfiawnder, a mawrhydi Duw Israel. Ceir eglurhâd yma trwy ffeithiau ar y gwahaniaeth sydd rhwng llywodraeth ddwyfol a phaganiaeth, o'r hon y saif yr Aipht megys cynnrychiolydd. Gellir darlunio yr hanes yma yn deg megys hanes goruchafiaeth Israel, neu yn hytrach Duw Israel, ar y gallu pagan-aidd, fel yr ymddengys yn ei ysbryd mwyaf gwrthnysig yn erbyn Duw. Y mae y byd yn cael ei orchfygu, a hyny gyda mwy o nerth, y naill dro ar ol y llall. Arwydda y Pasc ddiddym-iad y gallu bydol ar y naill law, tra ar y llall y mae yn mawrygu dydd genedigaeth pobl Dduw. A chyda y sefydliad yma o'r Pasc y terfyna adran gyntaf y rhan gyntaf o gynnwysiad y llyfr.

2. Yn yr adran hon, ceir hanes cyflawniad gwaredigaeth Israel o'r Aipht, o'u hymadawiad oddi yno hyd eu dyfodiad i Fynydd Sinai; lle y ceir adroddiad (1.) am yr ymadawiad, a'r gor-chymynion a roddir yn gyssylltiedig â hyny am gadw y Pasc, a chyssegriad y cyntafanedig (xii. 37—xiii. 16); y mynediad at y Môr Coch, y myn-ediad trwyddo, a dinystr Pharaoh a'i lu yn nghanol y môr, ynghyd â chân fuddugoliaethus Moses ar yr achlysur (xiii. 17—xv. 21). (2.) Y prif ddyg-wyddiadau ar y daith o'r Mor Coch i Fynydd Sinai, dyfroedd chwerwon Marah, rhoddiad y soflieir a'r manna, cadw y Sabbath, y cyflenwad gwyrthiol o ddwfr o'r graig yn Rephidim, a'r frwydr yno â'r Amaleciaid (xv. 22—xvii. 16); dyfodiad Iethro i wersyll Israel, a'i gynghor gyda golwg ar lywodraeth wladol y bobl (xviii.).

Gellir ystyried *pen.* xvi—xviii. megys terfyniad y rhan gyntaf o'r llyfr, a math o arweiniad hefyd i'r ail ran, lle y ceir crynoad o'r amlygiad fod Duw yn preswylio yn nghanol ei bobl, a math o gyhoeddiad rhagbaratoawl o'r gyfraith ei hun yn ei hagweddau cyntefig a sylfaenol. Y mae yr adran arweiniol hon yn rhoddi i ni brawf chwan-egol o ofal Duw am ei bobl; y modd y darpara efe ymborth a dwfr iddynt, a'r modd yr amddi-ffyna efe hwynt rhag ymosodiad eu gelynion. Yn *pen.* xv. 22, &c., crybwyllir, nid yr holl fanau, ond y prif fanau y gwersyllai yr Israeliaid, lle y dangosodd Iehofah ofal neillduol am ei bobl. Yn yr hanes a roddir yn *pen.* xviii. am y trefniadau gwladol a wnaed trwy annogaeth Iethro, canfydd-ir y gwahaniaeth mawr sydd rhwng trefniadau cyfnewidiol dyn a'r deddfau dwyfol y dechreuwyd y pryd hyny eu sefydlu, am y rhai, gan mwyaf, y traethir yn y llyfr o hyn allan:—yr hyn a'n dwg at ail ran cynnwysiad y llyfr.

II. *Y ddeddfwriaeth.*—Yma ceir hanes sefydliad y llywodraeth ddwyfol ar Fynydd Sinai. Neill-duir y bobl i Dduw, fel "breniniaeth o offeiriaid a chenedlaeth sanctaidd" (xix. 6); traddodir y Deg Gorchymyn, a'r deddfau sydd i reoli bywyd cymdeithasol y bobl (xx. 1—xxiii. 19); addewir Angel fel eu harweinydd i Wlad yr Addewid, a chadarnheir y cyfammod rhwng Duw a Moses, Nadab ac Abihu, a'r deg henuriad a thrigain, fel cynnrychiolwyr y bobl (xxiii. 20—xxiv. 18); rhoddir cyfarwyddiadau ynghylch y tabernacl, yr arch, y drugareddfa, allor y poeth-offrwm, neillduad Aaron a'i feibion i'r swydd offeiriadol, eu gwisgoedd, y seremoniau wrth eu cyssegru, allor yr arogldarth, y trosolion, yr olew sanctaidd, etholiad Bezaleel ac Aholiab at waith y tabernacl, cadwraeth y Sabbath, a rhoddiad dwy lech y gyfraith i Moses (xxv. 1—xxxi. 18); pechod y bobl gyda'r llo aur, eu gwrthodiad mewn canlyn-iad i hyny, a'u dychweliad i ffafr Duw trwy eir-iolaeth Moses (xxxii. 1—xxxiv. 35); yn olaf, gwneuthuriad y tabernacl, a phob peth perthynol i'w wasanaeth, yn ol y cyfarwyddiadau a roddwyd o'r blaen (xxxv. 1—xl. 38).

Ar fyr, rhydd y llyfr grynoad o hanes foreuol Israel fel cenedl; ac y mae i'r hanes dri chyfnod amlwg—lle, yn gyntaf, y gwelir cenedl wedi ei chaethiwo; yn nesaf, cenedl wedi ei gwaredu; ac, yn olaf, cenedl wedi ei neillduo, a thrwy gyd-blethiad o'i threfniadau crefyddol a gwladol wedi ei chyssegru i wasanaeth Duw.

Ar ddechreuad y ddeddfwriaeth, rhoddir cryn-oad byr o'r cyfreithiau, a'r Deg Gorchymyn fel arweiniad. Y Deg Gorchymyn ydyw y gyfraith sylfaenol, gan y cynnwys sylwedd yr holl ddeddf-wriaeth. Dadblygiad yn unig o'r Deg Gorchymyn ydyw y manylion deddfwriaethol ereill. Dangos y mae y manylion hyny y fath allu ac eangder sydd yn y ddeddf ei hun, a'r fath gyflawnder o reolau a threfniadau a ddeilliant o'r Deg Gorchy-myn, sydd mor syml ac mewn cyn lleied o eiriau. Ar y sylfaen hon y gwneir cyfammod âg Israel, yn yr hwn yr eglura Duw ei hun yn ol dealltwr-iaeth ac angenion y bobl. Nid oedd yn bosibl i'r Israeliaid gael cymmundeb â Duw nes i'r cyf-ammod hwn gael ei gwblhau, ei gadarnhau, a'i gyssegru gan ddeddfau ac offrymau, trwy yr hyn yr oeddynt yn derbyn dadguddiadau chwanegol o hono ef. Dyma sylwedd yr hyn a amlygir o ddechreu *pen.* xix. hyd ddiwedd xxiv. Sylwedd yr hyn a eglurir yn y pennodau canlynol ydyw, fod Duw yn preswylio yn mysg yr Israeliaid. Wrth fod Duw yn preswylio yn eu plith hwy y meddylir, fod y cymmundeb yn un parhaus ar ochr Duw, a bod yn bosibl, ar ochr y bobl, iddynt ymgadw mewn cymmundeb â Duw. Yna, fe roddir dysgrifiad o'r tabernacl, yr hwn yr oedd-ynt i'w ddeall yn arwyddocaol. Pa fodd bynag, nid ydyw yr arwyddion cyssegredig yn cael eu hamlygu yn gymmaint mewn geiriau pendant, ag yn rhediad yr holl ddysgrifiad. Y mae yr arwyddion yn dechreu gyda'r canolbwynt—y sanctaidd sancteiddiolaf; yr hwn sydd yn uno ynddo ei hun y gyfraith a droseddwyd ac arwydd o drugaredd ddwyfol; ac felly yn gosod allan gymmodiad Duw â'r bobl. Dilynir hyn gan ddarluniad o'r cyssegr, yn arwyddo y bendithion a gyfrenir i ddeiliaid y llywodraeth ddwyfol trwy gyfrwng y sanctaidd sancteiddiolaf, a gwasan-aetha fel coffadwriaeth parhaus o ddyrchafiad Israel, gan gyfeirio ar yr un pryd at yr achos o hyny. Yn olaf, rhoddir darluniad o'r gynteddfa, yn arwyddo cyfranogiad y bobl o'r bendithion hyny, a'u dynesiad cyssegredig at yr Arglwydd. Eir yn mlaen oddi wrth y cyssegr i ddysgrifio y personau oedd i weinyddu ynddo—yr offeiriaid—y rhai a ddynodir wrth eu gwahanol wisg-oedd (xxviii), a'r dull o'u cyssegru (xxix). Yna, megys canlyniad angenrheidiol, rhoddir dysgrifiad o'r gwasanaeth yn y cyssegr gan yr offeiriaid

Digitized by Google

hyny, ond heb fanylu, gan ymgyfyngu yn unig at y poethoffrwm a'r arogldarth—y blaenaf yn arwyddo yr is-wasanaeth parotoawl, a'r olaf yn arwyddo swydd uchaf yr offeiriaid. Ond, gan fod hyn yn foddion i sefydlu crefydd gyhoeddus, yr oedd yr holl genedl yn cyfranogi yn y gwasanaeth; ac am hyny, y mae y dysgrifiad o'r personau gweinyddol yn terfynu yn dra phriodol gyda'r bobl (xxx). Fel canlyniad priodol o hyn, rhoddir dysgrifiad o ddefnydd a natur llestri y gwasanaeth, megys y noe bres at olchiadau cyssegredig, parotoad yr arogldarth ac olew yr eneiniad (xxx. 17—38). Wedi gwneyd y trefniadau hyn, yr oedd dynion yn meddu Ysbryd Duw i gael eu happwyntio i wneyd y tabernacl cyssegredig a'i holl ddodrefn (xxxi. 1—11). Yn nesaf at y darluniad o'r cyssegr, yr offeiriadaeth, a dull yr addoliad, rhoddir darluniad o'r dyddiau a'r amseroedd cyssegredig (xxxi. 12—18). O'r rhai hyn, y Sabbath yn unig a appwyntir yma, yr hwn a ystyrir megys canolbwynt a chnewyllyn yr holl amserau cyssegredig ereill. Wedi i Dduw roddi dwy lech y dystiolaeth i Moses, gallasai gwneuthuriad a threfniad y tabernacl ddechreu ar unwaith, oni buasai i'r gwaith gael ei attal gan eilunaddoliaeth ysgeler y bobl, a'r gosp a gawsant am y trosedd hwnw—yr hyn yw testyn yr hanes yn xxxii—xxxiv. Er yr hyn oll a wnaeth Iehofah dros Israel ac yn eu gŵydd, eto gwrthgiliasant hwy oddi wrtho yn y modd mwyaf anystyriol; a gellir edrych ar y gwrthgiliad truenus hwn fel rhagarwydd o'u hymddygiadau dyfodol, canys dengys yr hanes eu bod yn syrthio yn fynych i'r un trosedd atgas mewn oesoedd dilynol. Y mae cyssylltiad agos rhwng hanes y trosedd hwn a'r hanesion blaenorol, lle y gwelir trugaredd a ffyddlondeb grasol Duw ar y naill law, ac anniolchgarwch digywilydd Israel ar y llaw arall, mewn cyssylltiad agos â'u gilydd. Y cyssylltiad yma ydyw y prif bwngc yn hanes y llywodraeth ddwyfol. Yr oedd y dygwyddiad pwysig a galarus yma yn tori ar draws hanes gwneuthuriad a gorpheniad y tabernacl, fel na buasai yn bosibl myned yn mlaen gyda hanes yr olaf cyn adrodd hanes y gwrthgiliad; ac yna y mae yr hanes, hyd ddiwedd y llyfr, yn dyfod yn fwy amgylchiadol fel y mae y testyn ei hun yn dyfod yn fwy pwysig. Yn benaf oll, dangosir yn ffyddlawn fod pob peth yn cael ei wneuthur yn ol gorchymynion Iehofah.

Gyda golwg ar *gyfander* yr hanes dysgrifiadol hwn yn Exodus, y mae cynllun sefydlog, yn ol yr egwyddorion a nodwyd uchod, yn cael ei ddilyn yn gysson ac amlwg trwy yr holl lyfr; yr hyn a rydd y sicrwydd mwyaf o gyfander y llyfr, ac mai yr un person oedd awdwr pob rhan o hono. Yn ofer, gan hyny, y llafuria beirniaid diweddar i geisio profi fod amryw awduron i'r llyfr, ac hyd yn oed ddarnau wedi eu cyssylltu ynghyd yn ddiofal, a rhai yn perthyn i'r cyfansoddiad gwreiddiol ac yn chwanegiadau diweddar, mewn cymhariaeth i'r lleill.

Peth tra anffodus ydyw, y goddefir i ragfarnau tybiadol gael lle yn y ddadl. Y mae De Wette a'i ddilynwyr yn ystyried pob peth sydd yn debyg i wyrth fel prawf o gyfansoddiad diweddar. Y maent hwy yn barnu nas gallasai yr hoffder at bethau rhyfedd—yr hyn yw y cwbl a welsant hwy yn hanesion y gwyrthiau—fod yn yr oes foreuaf a symlaf. Ond y mae hyn yn olygiad pur hynod, hyd yn oed yn ol eu tybiau hwy eu hunain; canys nid traddodiadau boreuaf unrhyw genedl ydyw y rhai symlaf, ond yn hollol i'r gwrthwyneb; a rhaid fod gan ail ysgrifenydd a geisia addurno y cyfansoddiad â phethau disail amcan penodol yn gwneuthur hyny. Pa fodd bynag, nid yma ydyw y lle i ymresymu â'r rhai sydd yn gwadu posiblrwydd gwyrthiau, nac â'r rhai sydd yn cymmeryd hanes gwyrthiau yn brawf digonol o ddiweddarwch cyfansoddiad. Mae yn wir na syrthiodd Knobel i'r cyfeiliornad yma. Y mae ei waith ef yn rhoddi rhai o'r plâau yn ei restr wreiddiol, yn dangos ei fod ef yn rhydd o leiaf oddi wrth ragfarnau tybiadol beirniaid fel De Wette. Ond nid ydyw ei brofion beirniadol yntau ei hun yn benderfynol. Y mae ei waith yn darnio adnodau, megys *pen.* viii. 11, a xiii. 15, 16, 27, pan yr atebo hyny ei amcan, mor gwbl ddiawdurdod, ac yn ganlyniad mor amlwg o ymlyniad tyn wrth gyfundrefn, fel nad yw ei lafur yntau yn y cyfeiriad yma yn ddim mwy boddhaol na'i ragflaenoriaid.

Ar y cyfan, y mae pob lle i gasglu na bydd craffder beirniadol byth yn alluog i wahaniaethu rhwng yr hyn a elwir yn wreiddiol ac yn ddiweddar yn Llyfr Exodus. Nid oes dim yn ymddangos yn annaturiol yn y dyb y gallai fod Moses wedi corpholi hen draddodiadau, geneuol neu ysgrifenedig, neu y naill a'r llall, yn ei gofnodau; ac y mae rhai beirniaid uniongred yn tybied y dichon mai ysgrifenydd diweddarach a osododd ynghyd y defnyddiau a adawyd gan y Deddfroddwr mawr heb eu cyssylltu. Y maent yn casglu hyn oddi wrth y sydynrwydd y dygir rhai pynciau i mewn yn yr hanes, megys dygiad yr achau i mewn yn *pen.* vi. 13—27, a'r sylwadau yn *pen.* xi. 3; xvi. 35, 36. Gellir egluro y dyryswch ymddangosiadol yn *pen.* xi. 1—3, trwy ystyried yr adnodau hyn megys rhai rhwng ymsangau.

Mewn perthynas i *eirwiredd* Llyfr Exodus, gellir dywedyd fod ammheuwyr gwahanol oesoedd wedi bod yn drwg-dybied agos i bob rhan o hono; ond y mae yn berffaith sicr fod pob ymchwiliad a wnaed i'w gynnwysiad hyd yn hyn yn tueddu i sefydlu geirwiredd yr hanesydd. Y mae ei gymharu âg ysgrifenwyr ereill, ac archwiliad i hen gofadeiliau a cherfiadau, yn cadarnhau—neu o leiaf, nid ydynt yn gwrthwynebu —y mynegiadau mwyaf pwysig sydd yn yr holl lyfr. Fel hyn, er esampl, y mae chwedl Manetho o Hyksos, er mor ammheus ydyw, ac er mor wahanol yr eglurir y chwedl gan wahanol ysgrifenwyr, yn cyfeirio o leiaf at ryw gyssylltiad boreuol rhwng yr Israeliaid a'r Aiphtiaid; ac y mae yn cadarnhau yr hyn a arwyddir yn llyfrau Moses, sef fod brenin estronol yn rheoli yr Aipht pan oedd Israel yn trigo yno. Y mae Manetho hefyd yn llefaru am ddieithriaid o'r dwyrain, y rhai oedd yn meddiannu parth dwyreiniol yr Aipht Isaf. A dengys ei hanes fod yr Israeliaid wedi dyfod yn bobl luosog a chryfion. Yn ol *Exod.* xii. 37, yr oedd rhif y gwŷr, heb law gwragedd a phlant, a ymadawsant o'r Aipht, yn 600,000. Yr oedd yr holl genedl, yn ol y cyfrif yma, tua dwy filiwn a hanner. Y mae yn ddiammheu fod yn anhawdd rhoddi cyfrif am y cynnydd dirfawr yma, os tybir (fel y mae amryw bethau yn rhoddi lle i gasglu) mai 215 mlynedd yn unig oedd gwir arosiad meibion Israel yn yr Aipht. Rhaid cofio, mae yn wir, fod y nifer a aeth gydag Iacob i'r Aipht yn llawer mwy na "deg a thrigain o eneidiau" [gwel IACOB]; a rhaid ystyried hefyd fod ffrwythlondeb yr Aipht yn anghyffredin (fel y tystia y prif ysgrifenwyr, megys Strabo, Aristotle, Seneca, &c.), yn enwedig y parth hwnw o'r wlad lle y preswyliai yr Israe-

Digitized by Google

iaid. Eto, dywed y beirniaid y byddai yn fwy dymunol pe gellid caniatau 430 o flynyddoedd i gynnydd y genedl nag unrhyw gyfnod byrach.

Chwedl ydyw genedigaeth Moses, yn ol De Wette, wedi ei ffurfio er mwyn egluro ystyr eiryddol ei enw. Ond y gwir yw, y mae symledd prydferth yr hanes yn ei gosod ar dir llawer uwch na'r chwedlau am Romulus, Cyrus, a Semiramis, â'r rhai y cymharwyd hi gan Knobel ac ereill. Ac am ystyr eirdarddol yr enw, mae yn dra sicr mai Aiphtaidd ydyw (o'r geiriau Coptaeg *dwfr* a *chymmeryd*, fel y dengys Gesenius a Knobel dan y gair); ac os felly, y mae De Wette naill ai yn chwareu â geiriau, neu yn gamsyniol yn ei ieithyddiaeth. Ond nid yw hyn yn profi nad ydyw yr holl hanes yn ddim ond chwedl. Gwybodaeth a gafwyd allan yn bur ddiweddar, mewn cymhariaeth, yw ieithyddiaeth; ac nid ydyw gwirionedd hanesyddiaeth yn sefyll neu yn syrthio gydag egluriadau geirdarddiadol.

Y mae gwrthddadleuon ereill sydd o natur bur fympwyol. Tybia Knobel fod y gorchymyn i ddinystrio y plant (*pen.* i. 15) yn dra ammheus, gan mai nid dinystrio y bobl oedd amcan y brenin, ond eu defnyddio fel caethion. Yr oedd gofyn i'r bydwragedd weithredu fel gelynion eu pobl, a gorchymyn ar fod i bob gwryw a enid o feibion Israel gael ei fwrw i'r afon, yn ol ei farn ef, yn wallgofrwydd na fuasai y brenin byth yn euog o hono. Ond, nid ydym yn gwybod yn sicr mai Hebrëesau oedd y bydwragedd. Fe ddichon mai Aiphtesau oeddynt; ac heb law hyny, mynegir yn bendant na wnaeth y bydwragedd "yn ol yr hyn a ddywedasai brenin yr Aipht wrthynt; eithr cadwasant y bechgyn yn fyw;" a rhoddasant esgus i'r brenin dros eu hymddygiad (*adn.* 19). A phan welodd y brenin nad ufuddhaodd y bydwragedd i'w orchymyn annynol, "Pharaoh a orchymynodd i'w *holl bobl*, gan ddywedyd, Pob mab a'r a enir, bwriwch ef i'r afon." Gorchymyn i'r bydwragedd *ladd* pob mab (nid oes sôn am i'r bydwragedd eu *bwrw i'r afon; adn.* 16) a wnaeth Pharaoh; ond ymddengys iddo roddi *holl bobl* yr Aipht (pan welodd nad ufuddhäai y bydwragedd iddo) ar waith i fwrw plant gwryw Israel i'r afon. Gyda golwg ar wallgofrwydd y weithred, y mae hyny yn gwbl addefadwy; ond gwyddys yn dda, trwy hanesion diammheuol, y gall breninoedd, fel pob caethfeddiannwyr ereill, weithredu yn groes i'w helw, dan ddylanwad ofn neu ddrwg nwydau. Yn wir, y mae Knobel ei hun yn cymharu yr hanes yma i chwedl y brenin Bocchoris, yr hwn a orchymynodd ar fod i bawb aflan yn y tir gael eu bwrw i'r môr [*Josep. Ap.*, i. 34], ac â dinystr y caethion Spartaidd [*Plut. Lycurg.*, 28]. Y mae Knobel hefyd yn dadleu yn mhellach nad ydyw yn hawdd cyssoni y fath orchymyn â rhif meibion Israel ar eu hymadawiad. Ond gellir tybied fod gorchymyn y brenin yn cael ei osgoi mewn llawer o amgylchiadau (y mae genym sicrwydd i'r bydwragedd ei osgoi); ac y mae yn debyg hefyd na bu yn hir mewn grym.

Drachefn, y mae De Wette yn dadleu gyda golwg ar alwad Moses, *nas gallasai* efe benderfynu fel hyn dyfod yn waredwr i'w bobl. Ond sylwa Hävernick yn briodol mai mympwy ydyw hyn, ac nid penderfyniad beirniadol.

Gyda golwg ar y deg pla, yr oedd llawer o honynt yn naturiol y fath ag y gallesid eu dysgwyl yn yr Aipht, er fod eu llymder a'u dilyniad cyflym y naill ar ol y llall yn amlwg oruwchnaturiol. Yr oedd hyd yn oed trefn eu dilyniad y fath ag yr addefir fod achosion naturiol i'r drefn hono. Dilynir llygriad yr afon gan bla y llyffaint. O'r llyffaint meirw, cyfyd y llau a'r gymmysgbla ("heidiau ednog," *ymyl y ddalen*), y rhai a ddilynir gan yr haint ar yr anifeiliaid, a'r cornwyd ar ddynion, &c.

Y mae y rhan fwyaf o'r pläau, er nad mor erchyll yn eu dull, nac mor gyflym yn eu dilyniad, yn dygwydd hyd heddyw yn yr Aipht. Dywedir am bla y locustiaid yn bendant, "na bu y fath locustiaid o'u blaen hwynt, ac ar eu hol na bydd y cyffelyb;" *Exod.* x. 14. Mae yr holl deithwyr yn yr Aipht wedi sylwi mai gan wynt o'r de-orllewin y dygir heidiau o locustiaid yno yn gyffredin, a hyny yn y gauaf neu y gwanwyn; ond y mae Denon yn crybwyll am eu dyfodiad gyda gwynt y dwyrain. Y mae Lepsius yn crybwyll iddo fod mewn cawod o locustiaid yno fel llwch eira, y rhai a ddaethant o'r anialwch yn gannoedd o filoedd i'r dyffryn. "Yr oeddynt yn disgyn ar gyffiniau y dyffryn," eb efe, "yn gawodau." Parhaodd y tywalltiad yma o honynt am chwe diwrnod, ac yn hwy, yn wir; ond yn gawodydd ysgafnach. Gwelodd ef genllysg hefyd yn yr Aipht. Yn Ionawr, 1843, synwyd ef a'i gyfeillion gan ystorm. "Cynnyddodd yr ystorm," eb efe, "yn ddisymmwth yn hyrddwynt dychrynllyd, y fath ag nas gwelais erioed yn Ewrop; a disgynai y cenllysg arnom yn y fath gyflawnder, nes troi y dydd agos yn nos." Sylwa hefyd ar haint a welodd ar anifeiliaid, "yr hwn a gludodd ymaith 40,000 o wartheg."—*Letters from Egypt*, 49, 27, 14.

Y mae sefydliad y Pasc (*pen.* xii.) wedi bod yn destyn beirniadaeth lem; ac yn cael ei alw yn chwedl ddisail. Dywedir nad yw yr amgylchiad yn hanesyddol, ond mai cynnyg diweddar ydyw i egluro dechreuad y seremoni trwy ei phriodoli i amser Moses. Y mae y beirniaid yn sefyll yn benaf ar y gwahaniaeth rhwng y cyfarwyddiadau a roddwyd ynghylch y Pasc cyntaf, a'r rhai a roddwyd ynghylch Pascau dyfodol. Ond wrth ystyried yr amgylchiadau nodedig dan ba rai y sefydlwyd y Pasc cyntaf, nid oes un achos rhesymol i ryfeddu fod y cyfarwyddiadau ynghylch y sefydliad mewn amserau dyfodol ychydig yn wahanol.—Gwel PASC.

Ond, o'r holl ymosodwyr ar Lyfr Exodus, Colenso ydyw y mwyaf haerllug ac ynfyd, ac efe yw y diweddaf. Gwel PUM LLYFR MOSES.

Y mae yn amlwg fod o'r pwys mwyaf i achos y beirniaid newyddonol (*neological*), fel y gelwir hwy, allu rhoddi y syniad ar feddwl y darllenwyr mai cyfansoddiad diweddar ydyw y llyfr hwn, gan fod y gwyrthiau sydd yn y rhan gyntaf o hono yn gwthdaro yn amlwg yn erbyn yr egwyddorion ar ba rai y seiliant hwy eu beirniadaeth arnynt. Y mae eu pleidwyr, gan hyny, wedi ymdrechu yn egniol i brofi mai chwedlau dychymygol yw y gwyrthiau hyn, a roddwyd i mewn yn nhreigliad amser; ac o ganlyniad, nad yw y llyfr ei hun ond cyfansoddiad diweddar. Ac nid ydyw yn rhyfedd fod y fath ymdrechion egniol yn cael eu gwneuthur, gan fod efallai a hanfod hanesion y gwyrthiau a roddir yn y llyfr hwn yn gwbl groes i egwyddorion rhesymoliaeth a'i beirniadaeth; y rhai ni oddefant mewn un modd fod pobl wedi cyfodi ac ymffurfio yn genedl dan y fath amgylchiadau gwyrthiol; ac ni oddefant y fath gred neillduol, na'r fath annibyniaeth, mewn ystyr grefyddol, yn nghanol holl genedloedd ereill yr hen amser. Yn wir, y mae sylwedd ysbrydol y cyfan, y syniad dwyfol sydd yn

treiddio ac yn cyfuno ei holl fanylion, ynddo ei hun y fath wyrth, y fath olygfa neillduol a rhyfeddol, yn rhoddi y fath gadarnhâd naturiol i'r holl ryfeddodau eu hunain, fel y mae yn anmhosibl gwadu yr olaf heb i ail wyrth gael ei hachosi, a roddai rediad annaturiol i hanes yr Iuddewon. Heb law hyn, nid yw y rhan o'r llyfr sydd yn cynnwys y gwyrthiau yn amddifad o brofion hanesyddol lluosog i'w cadarnhau. Gan i ddygwyddiadau yr hanes gymmeryd lle yn yr Aipht ac Arabia, y mae genym gyfleusderau digonol i brofi cywirdeb hanesion Llyfrau Moses; ac yn sicr, ni chanfyddir ynddynt ddim yn dangos yr anwybodaeth leiaf o sefydliadau a defodau yr Aipht. Ond yn y gwrthwyneb, y mae yn gwbl amlwg fod yr awdwr yn berffaith hysbys o'r sefydliadau hyny, ac o'r ysbryd oedd yn treiddio trwyddynt. Y mae Exodus yn cynnwys cyflawnder o ddygwyddiadau a dysgrifiadau manwl, y rhai a gadarnheir yn barhaus gan ymchwiliadau a darganfyddiadau diweddar, fel y profir yn ddiammheuol yn ngwaith Hengstenberg, Raumer, Lepsius, ac ereill. Mae yr ysgrifenydd yn dangos adnabyddiaeth fanwl o ddefodau yr Aipht; megys, er esampl, gwaith merch Pharaoh yn myned i'r afon i ymolchi. Mae yn wir nad oes ond gwragedd o radd isel yn awr yn myned i'r afon i ymdrochi; ond dywed Herodotus [ii. 35], yr hyn hefyd a ddengys y cofadeiliau, nad oedd y gwragedd gynt yn yr Aipht dan unrhyw attalfa; ond ymddengys ar y cyfan eu bod yn fwy cyhoeddus na'r dynion. Heb law hyn, rhaid cofio fod yr Aiphtiaid yn tybied fod rhinwedd goruwchnaturiol yn nyfroedd y Nilus. Y mae yr ysgrifenydd yn llefaru am gerbydau a "dewis gerbydau" (xiv. 7) fel rhan bwysig o fyddin yr Aiphtiaid; ac yn dangos fod y brenin ei hunan yn arwain y fyddin. Cadarnheir y darluniad yma yn helaeth a diammheuol yn y cofadeiliau: mewn gwirionedd, fe ymddengys yn bur amlwg mai gwŷr traed a cherbydau yn unig oedd yr holl fyddinoedd a arweiniai Pharaohaid yr Aipht i ryfel. Mae y dysgrifiad o fynediad Israel trwy y diffeithwch hefyd yn dangos y fath gydnabyddiaeth drwyadl â'r lleoedd, fel y mae yn creu y parch mwyaf yn meddyliau teithwyr diweddar a gochelgar ein hamser ni at y Pum Llyfr. Nid yw sefydliad a natur gŵyl y Pasc, a'r dygwyddiadau cyssylltiedig, yn llai cadarnhaol, oddigerth na fabwysiedir y cyfleusdra anobeithiol yr ymorphwys y rhesymolwyr arno, trwy briodoli i'r ŵyl hono arwyddocâd gwreiddiol hollol wahanol, sef arwyddocâd anianyddol—tyb sydd yn dwyn ei bleidwyr i wrthdarawiad â holl hanes yr Israeliaid. Y mae trefniadau y tabernacl hefyd, a ddysgrifir yn yr ail ran o Lyfr Exodus, yn rhoddi goleuni tra phleidiol ar awdurdod hanesyddol y dygwyddiadau blaenorol; a'r gwrthddadleuon gwanaf oll yn ei erbyn ydyw, fod trefniadau adeiladol y tabernacl yn rhy gelfyddydol, a'r defnyddiau yn rhy werthfawr a phrinion i ateb i sefyllfa ac amgylchiadau yr Israeliaid mewn cyfnod mor foreu, &c. Ond ymddengys i'r beirniaid anghoflo mai pobl oedd yr Israeliaid yn y cyfnod hwnw a ddaethant o'r Aipht, pobl yn meddu cyfoeth, coethder, a chelfyddydau yr Aipht, y rhai a fawrygir hyd y dydd hwn yn y gweithiau a'r cerfiadau destlus sydd wedi disgyn hyd atom ni oddi wrth yr hen Aiphtiaid; fel nas gall ymddangos yn rhyfedd fod yr Hebreaid yn meddu y defnyddiau a'r wybodaeth angenrheidiol i adeiladu y tabernacl. Heb law hyn, yr unig achos o sefydliad pabell fel cyssegr i'r Hebreaid y pryd hyny, oedd eu preswyliad yn yr anialwch, yr hyn oedd yn gwbl gysson â'u dull crwydrol ar y pryd o fyw. Gan hyny, y mae y beirniaid sydd yn rhoddi amseriad diweddarach nag amser Moses i'r babell gyssegredig, yn gwneyd camsyniad pendant gyda golwg ar eu hachos eu hunain; tra y mae beirniaid ereill, megys De Wette, Von Bohlen, a Vatke, yn llawer mwy cysson â'u golygiadau eu hunain, trwy ystyried hanes gwneuthuriad y tabernacl fel chwedl yn unig yn Exodus, wedi ei dwyn i mewn er mwyn priodoli mwy o hynafiaeth ac awdurdod i deml Solomon. Pa fodd bynag, y mae holl rediad y fath dyb ddirdynedig, yn annibynol ar yr amgylchiad fod y deml o angenrheidrwydd yn rhagdybied hanfod cyssegr cyffelyb llawer hynach, yn tueddu yn uniongyrchol i dori ymaith ran o'r hanes Iuddewig, a hyny ar dir hollol fympwyol. Mewn gwirionedd, y mae yr arddull syml, a'r golygiadau sydd yn rhedeg trwy yr holl hanes, yn brawf diammheuol o'i hawdurdod a'i gwreiddioldeb. Nid oes gymmaint a rhith o ol llaw farddonol i'w ganfod yn *Exod.* xviii.; ac nis gall hyd yn oed y beirniaid mwyaf ammheugar wadu ein bod yn rhodio yma ar dir hollol hanesyddol. Gellir honi yr un peth ar dir teg am *pen.* xx—xxiii. Pa fodd gan hyny y mae yn bosibl fod yr un llyfr yn cynnwys y fath gymmysgedd dieithr ag a haera ei wrthwynebwyr am y llyfr hwn? Y profion mwyaf nodedig yn erbyn y fath dyb yw hanesion cyffelyb i'r rhai a geir yn *Exod.* xxxii. &c., lle y gwneir y cwynion mwyaf llym yn erbyn yr Israeliaid, lle y cyfranoga archoffeiriad y bobl gyfammodol, yn y modd mwyaf cywilyddus, yn eilunaddoliaeth ei bobl. Darlunir yr holl ddygwyddiadau hyn mewn ymadroddion eglur a dirodres, heb yr arwydd lleiaf o addurniadau diweddar, nac o gau foliant oesoedd blaenorol. Yn wir, mae yr holl ddarluniad yn arwyddo yr ammhleidgarwch a'r gwirionedd manylaf.

Y mae llawer o bethau ereill a adroddir yn y llyfr hwn yn cael eu hammheu gan y rhesymolwyr, megys y mynediad trwy y Môr Coch, rhoddiad y manna, &c.; ond ymdrinir â'r rhai hyn mewn erthyglau ereill (gwel YR EXODUS, MANNA, Y MOR COCH).

Ymdrinir âg awduriaeth, amseriad, a llenoriaeth Llyfr Exodus dan Y PUM LLYFR.

**EXODUS, YR** [*Yr Ymadawiad*]: yr oedd yr Exodus yn un o'r dygwyddiadau mwyaf pwysig; yn un o'r prif gyfnodau yn hanes cenedl Israel. Efe oedd genedigaeth y genedl, a'r caethiwed yn yr Aipht oedd y gwewyr blaenorol—y gofidiau ag y mae bob amser yn angenrheidiol i bersonau neu genedloedd fyned trwyddynt i sefyllfa ragorach. Trwy yr ymadawiad o'r Aipht y sicrhawyd i feibion Israel annibyniaeth cenedlaethol, yn eu perthynas â chenedloedd ereill. Gellir edrych ar holl oruchwyliaethau rhagluniaeth, o alwad Abraham hyd roddiad y ddeddf, fel darpariadau tuag at sefydlu plant Israel yn genedl sanctaidd i Dduw; ac yr oedd pob dygwyddiad, o alwad Abraham hyd gorfforiad y genedl yn yr anialwch, yn gwasanaethu i'r amcan hwn; fel yr oedd pob dygwyddiad, er dechreu y byd, yn cyfeirio at alwad Abraham, ac yn parotoi y ffordd i hyny. Galwad Abraham oedd sylfaen y Ddwyflywiaeth. Yr oedd efe yn dal perthynas bwysicach â hi na neb o'i hiliogaeth, ond yr Arglwydd Iesu; ac fel y cyfryw, yr oedd amgylchiadau ei fywyd ef yn fath o rag-bortread o'r genedl yn y gwahanol sefyllfaoedd yr aeth o oes i oes drwy-

Digitized by Google

ddynt. Dechreuwyd neillduad y genedl yn neillduad eu tad: yr hyn a wnaed gydag ef yn bersonol a wnaed wedi hyny, yn mhen pedwar can mlynedd, a'i hiliogaeth yn genedlaethol. Yr oedd ymdaith Israel yn yr Aipht hefyd yn amgylchiad o'r fath bwysicaf mewn cyssylltiad â'i neillduad a'i chorffoiad fel cenedl. Nid oes dim grym yn yr wrthddadl hono, Pa ham yr arweiniodd Iehofah ei bobl neillduedig i fysg cenedl o eilunaddolwyr; onid oedd tuedd uniongyrchol yn hyny i wrthweithio amcan eu neillduad? Mae yn amlwg mai nid cymmeryd yr hâd sanctaidd allan o'r byd ydyw carictor y neillduad sydd ar yr eglwys dan yr Hen Destament na than y Newydd: neillduad *yn* y byd ydyw. Nid yw y neillduad yn amcan iddo ei hun, ond yn foddion i lefeinio y byd â'r un egwyddorion. Yr oedd Israel, fel y mae yr eglwys eto, wedi eu bwriadu i fod yn oleuni i'r byd: er eu bod wedi eu cymmeryd allan o fysg y Cenedloedd, yr oedd hyny o ryw fantais i'r Cenedloedd, heb law mai y neillduaeth hwnw oedd yr unig foddion posibl i gadw gwybodaeth o Dduw yn y byd. Felly, carictor angenrheidiol neillduaeth plant Israel oedd, eu bod yn genedl neillduedig, etto yn neillduedig yn mysg ereill; ac nis gallasent gan hyny ymdaith yn mysg un genedl ond cenedl eilunaddolgar; felly, gyda golwg ar y perygl i golli y wybodaeth am y gwir Dduw trwy ddylanwad eilunaddoliaeth, yr un peth iddynt oedd bod yn yr Aipht a phe buasent mewn rhyw wlad arall. Ond yr oeddynt yn derbyn llawer o fanteision yno, nas gallasent eu cael mewn un wlad arall yn y byd. Nid oedd dim cydymdeimlad rhwng yr Aiphtiaid o'r dechreu a'r Hebreaid; a throdd hyny yn fantais i'r olaf. Pe buasent yn debyg i'w gilydd o ran chwaeth a thueddiadau, mae yn ddiammheu na fuasai Rhagluniaeth erioed wedi eu harwain i dir Ham. Ond yn lle hyny, yr oeddynt yn gwbl amddifad o gydymdeimlad y naill at y llall. Y mae tystiolaethau hen haneswyr, yn gystal a chofadeiliau yr Aiphtiaid eu hunain, yn cyd-ddyweyd â'r Beibl am eu hadgasedd tuag at ddyeithriaid, ac yn enwedig tuag at fugeiliaid, fel plant Israel, a ddilynent fywyd crwydrol, ac a drigent mewn llucstai. Yr oedd pob bugail yn ffieidd-dra yn eu golwg (*Gen*. xlvi. 34). Ond gwasanaethodd hyn er llesâd yr Hebreaid; o blegid rhoddwyd gwlad Gosen iddynt i drigo ynddi, am yr hon y dywedir mai prin yr edrychid arni fel rhan o wlad yr Aipht. Cadwyd yr Hebreaid trwy hyn, a hyny pan oeddynt yn lluosogi mor fawr, ar wahân; a gwneid y didoliad yn fwy fyth gan falchder crefyddol a chenedlaethol yr Aiphtiaid. Yr oedd eu hymddidoliad hwy (yr Aiphtiaid) fel cenedl yn fwy nag eiddo un genedl yn y cynamseroedd. Yr oeddynt yn ymffrostio yn uchder eu gwareiddiad; edrychent ar genedloedd ereill yn mhell is law iddynt; ac nid anhawdd iddynt oedd ymgadw yn mhell oddi wrth y bugeiliaid Hebreaidd a ffieiddient mor fawr: ond yr oedd eu crefydd, yn fwy na'u harferion cymdeithasol, yn peri iddynt ymddidol oddi wrth Israel. A diammheu mai hyn oedd prif gymhwysderau yr Aipht fel gwlad ymdaith i feibion Israel. Eto, er eu bod yn bobl yn preswylio eu hunain yn ngwlad Gosen, nid oedd yn bosibl iddynt lai na derbyn mantais oddi wrth wareiddiad uchel yr Aiphtiaid. Effeithiai eu hymdaith yn eu mysg er eu dyrchafu mewn amaethiad—symbylu eu galluoedd—eu haddysgu yn y celfyddydau—a rhoddi iddynt syniad am drefn wladwriaethol. Diammheu y gwelir arnynt olion y ddysgyblaeth a gawsant yn yr Aipht yn eu hymostyngiad i reolau a deddfau, a'u cydffurfiad rhwydd â phob trefniad, yn yr anialwch ac yn Nghanaan. Trwy ymdaith yn mysg pobl oedd yn gyfangorff unol, yn genedl o wareiddiad uchel, yn genedl wedi ei dysgyblu uwch law holl genedloedd y cynoesoedd, mewn darostyngiad i ddeddf, cafodd plant Israel eu parotoi yn raddol erbyn yr amser y gwneid hwythau yn freniniaeth. Ond nid gwlad Gosen oedd i fod yn arosfa barhaus iddynt. Ac o herwydd hyny yr oedd yn angenrheidiol eu diddyfnu o'r Aipht. A daeth y wlad, oedd ar y cyntaf y fwyaf manteisiol, mewn amser y fwyaf anfanteisiol iddynt. Ar y dechreu, caffent ffafr yn ngolwg yr Aiphtiaid: wedi hyny, edrychid arnynt gyda diystyrwch: ond o'r diwedd, wrth weled eu lluosogiad cyflym, daeth yr Aiphtiaid i eiddigeddu wrthynt: ofnasant rhag y byddai i'r bugeiliaid fyned mewn amser yn elfen mor bwysig fel ag i beryglu gallu yr Aiphtiaid eu hunain. Yr eiddigedd a'r ofnau hyn a roddes fod i'w mesurau gorthrymus, trwy y rhai y ceisient leihau eu nifer a gwanychu eu hymadferth. Ond yr oedd hyn eto yn un o oruchwyliaethau Rhagluniaeth. Yr oedd yn rhaid i Israel wrth y gorthrymder a'r caethiwed blin. Nis gallasai dim arall eu diddyfnu oddi yno; a phrin yr oedd hyn hefyd yn gallu. Yr oeddynt hwy a Pharaoh yn gyffelyb yn hyn o beth. Er holl doster y plâau a roddai Duw arno ef a'i bobl, parhau i ymgyndynu a wnai: ac er trymed y beichiau a osodai yntau ar ysgwyddau yr Israeliaid, yr oedd eu hirarosiad yn y wlad wedi creu annhuedd ynddynt i ymadael; a chan fod y gorthrymder yr oeddynt dano wedi eu nychu, wedi gwanychu eu hymadferth, ni buasent yn meddwl am wneuthur un ymegniad am ryddhâd o'u caethiwed, oni buasai i Iehofah mewn modd gwyrthiol gyfryngu ar eu rhan. Darfu i gaethiwed yr Aipht eu parotoi i ymadael oddi yno; ond yr oedd yn angenrheidiol iddynt wrth ddysgyblaeth yr anialwch i'w puro oddi wrth effeithiau darostyngol y caethiwed hwnw.

Amlygodd Duw ei fwriad i waredu yr Israeliaid wrth Moses yn y berth, yr hwn a awdurdododd fel offeryn i gyflawnu y bwriad. Mewn undeb âg Aaron ei frawd, darfu i Moses, trwy gyfarwyddyd dwyfol, gynnull ynghyd henuriaid y bobl, gan eu hysbysu o'r amcan hwn. Wedi hyny, y mae Moses, gydag Aaron fel genau drosto, yn ymddangos yn enw Iehofah, ger bron Pharaoh, ac yn gofyn ganddo ganiatâd i bobl Israel i fyned daith tridiau i'r anialwch, i gadw gŵyl i'r Arglwydd (*pen*. xliii. 18). Er fod yr Arglwydd yn gwybod y byddai i'r brenin galedu ei galon yn erbyn y cais, eto, gan nad yw efe yn dewis rhoddi beichiau trymion ar warau ei greaduriaid, gan ei fod yn gwneuthur ei iau yn esmwyth, nid yw yn anfon Moses at Pharaoh gyda'r cais mwyaf yn gyntaf; nid yw y tro cyntaf yn hawlio rhyddhâd llwyr a diammodol y genedl. Canlyniad y cais hwn ydyw, nid yn unig y gwrthodiad o hono o du Pharaoh, ond dyblu tasgiau yr Israeliaid. Yr oedd yr Arglwydd eisoes wedi hysbysu Moses mai trwy ryfeddodau mawr, a chyda llaw uchel y darostyngid Pharaoh; o herwydd hyny, nid oedd gwrthnysigrwydd Pharaoh yn ngwyneb y cais yn effeithio er digaloni Moses, ond parodd somedigaeth fawr i'r bobl. Gan fod Moses yn hòni bod yn genad dros Dduw, dysgwylient y buasai ei gais cyntaf yn llwyddo; a phan welsant fod ei ymddangosiad ger bron Pharaoh ar eu rhan wedi gwneuthur eu sefyllfa yn waeth nag o'r

Digitized by Google

blaen, ymliwiasant âg ef, "am beri i'w drygsawr ddrewi ger bron Pharaoh, a cher bron ei weision. gan roddi cleddyf yn eu llaw i'w lladd hwynt." Yna y mae Moses yn ymgynghori â Duw; "Pa ham y drygaist y bobl hyn? I ba beth y'm hanfonaist? Canys er pan ddaethum at Pharoah, i lefaru yn dy enw di, efe a ddrygodd y bobl hyn; a chan waredu ni waredaist dy bobl;" *Exod.* v. 20—33. Mewn atebiad, y mae yr Arglwydd yn ei sicrhau y byddai iddo orfodi Pharaoh, trwy farnedigaethau mawrion, i ollwng meibion Israel: *Exod.* vi. 1—6. Yna, y mae yr Arglwydd yn anfon y barnedigaethau hyn ar wlad yr Aipht. Gwel PLAAU. Y mae swynwyr Pharaoh, Iannes ac Iambres (2 *Tim.* iii. 8), yn alluog ar y cyntaf i chwanegu, ond nid i attal, y trueni a ganlynai y pläau; ond ar ddygwyddiad y trydydd o'r pläau, gorfodir hwy i gydnabod, "Bys Duw yw hyn:" ond y mae Pharaoh yn caledu ei galon yn ngwyneb y barnedigaethau hyn, fel na fynai ollwng Israel ymaith. Y mae y naw pla cyntaf yn methu gweithio yr effaith a ddymunid ar galon Pharaoh: y mae ei ystyfnigrwydd yn parhau er gwaethaf yr holl drueni a achosid gan ei ystyfnigrwydd. Ond y mae y degfed pla, sef marwolaeth y cyntafanedig, o ddyn ac anifail, yn llwyddo i gyrhaedd amcan y cyfan; ac yn gwneud Pharaoh, nid yn unig yn ewyllysgar i ollwng y bobl, ond yn awyddus i'w gyru ymaith. Bu Pharaoh a'r Aiphtiaid "yn daerion ar y bobl, gan eu gyru ar ffrwst allan o'r wlad; o blegid dywedasant, Dynion meirw ydym ni oll:" *Exod.* xii. 31—33. Mae yn amlwg nad oedd un ammod yn perthyn i'r caniatâd, neu yn hytrach y dymuniad am iddynt fyned allan o'r wlad. Cais cyntaf Moses oedd i Pharaoh adael i'r bobl fyned daith tri diwrnod i'r anialwch, i aberthu i'r Arglwydd eu Duw: *Exod.* iii. 18. Dangosai Moses i Pharaoh nad oedd yn rhesymol iddynt aberthu i Iehofah yn ngwlad yr Aipht, am fod eu haberthau hwy yn ffieiddbeth yn ngolwg yr Aiphtiaid: *Exod.* viii. 26. Yr oedd y cais hwn yn ammodol; o blegid yr oedd y penodiad o dridiau yn arwyddo y byddai i'r bobl ddychwelyd ar ol gorphen eu gwasanaeth i'w Duw. Pe buasai Pharaoh yn caniatau y cais ar yr ammod hwn, ac i'r bobl, yn lle dychwelyd, ymdaith yn mlaen tua Chanaan, buasai hyny, er nad yn gam, eto yn dwyll â Pharaoh. Ond, gan fod Pharaoh wedi gwrthod y cais, yr oedd trwy hyny yn diddymu yr ammod oedd yn gyssylltiedig âg ef. Ar y cyntaf, yr oedd trafodaeth Duw â Pharaoh yn cael ei ddwyn yn mlaen ar dir cyfeillgar; ymostyngai i ofyn ffafr ganddo, gan gyssylltu ammod o du y bobl â derbyniad y ffafr o law Pharaoh; ond trwy fethiant y drafodaeth gyfeillgar yma, y mae Duw yn sefyll ar dir gwahanol; y mae, nid mwyach yn ceisio ffafr, ond yn hawlio rhyddhâd ei bobl, a hwnw yn rhyddhâd llwyr a diammodol. Trugaredd â Pharaoh oedd hyn: pe buasai yr holl gynllun wedi ei hysbysu i Pharaoh ar y cyntaf, buasai yn llawer anhawddach iddo wrandaw ar lais yr Arglwydd. Ond pe buasai ei galon yr tyneru yn ngwyneb y cais cyntaf i roddi seibiant i'r Israeliaid am dridiau, gwnaethai hyny ofynion dilynol Iehofah yn hawddach cydffurfio â hwynt. Ar ol y nawfed pla, pan rybuddiodd Pharaoh Moses i beidio ymddangos ger ei fron mwyach, dan boen marwolaeth, ac y dywedodd Moses, "Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy" (*Exod.* x. 27—29), ni wnaed un cais ar Pharaoh am ollwng y bobl ymaith. Newidiodd yr achos unwaith eto. Y mae yr adeg i Moses fod yn erfynydd wedi myned heibio—Pharaoh sydd i fod yn erfynydd o hyn allan. Daw ymadawiad y bobl yn fwy o drugaredd i'r Aiphtiaid nag iddynt hwy eu hunain. Wedi i'r amgylchiad gymmeryd y wedd yma, y mae yn naturiol meddwl, nid yn unig nad oedd yr Israeliaid yn cyssylltu un ammod â'u gollyngiad ymaith, ond nad oedd yr Aiphtiaid eu hunain yn rhoddi eu dychweliad yn ammod. Gan mai trugaredd â'r Aipht fyddai eu hymadawiad, trugaredd fwy fyddai eu habsennoldeb parhaus; o blegid yr oeddynt yn gweled, os dychwelent, yr ymwelai Iehofah â'r Aipht â'r un drygau drachefn. Nid yw gwaith Pharaoh yn ymlid ar eu hol, i'r dyben o geisio lluddias eu hymadawiad, yn un prawf i'r gwrthwyneb: nid oedd hyny ond effaith y dallineb barnol a anfonodd Duw arno: yr oedd hyny yn angenrheidiol i gyflawniad mesur ei anwiredd. Meddyliodd Pharaoh hefyd, fe ddichon, wrth weled mai nid trwy ffordd gwlad y Philistiaid, yr hwn oedd yn agos, yr aethant; ac am y tybiai fod yr anialwch wedi cau arnynt (*Exod.* xiv. 3), eu bod wedi colli nawdd eu Duw, ac felly y gallai efe eu dwyn yn ol i'r caethiwed. Ond, pa fodd bynag, y mae yn amlwg ei fod ef a'i bobl, ar ymadawiad Israel ymaith, nid yn unig yn foddlawn, ond yn awyddus i beidio gweled eu hwynebau mwy. Yn wyneb cael eu "gyru" fel hyn o'r wlad, nis gallent gael amser i ddarparu ymborth cyfaddas iddynt eu hunain; am hyny hwy a bobasant y toes a ddygasant o'r Aipht yn deisenau croew, dilefeinllyd. Gellir ystyried yr amgylchiad yma mewn tri golygiad:—amseryddol, hanesyddol, a daearyddol.

I. *Yr amser.*—Yn *Exod.* xii. 40, 41, dywedir, "A phreswyliad meibion Israel, tra y trigasant yn yr Aipht, oedd deng mlynedd ar ugain a phedwar can mlynedd. Ac yn mhen y deng mlynedd ar ugain a phedwar can mlynedd, ïe, o fewn corff y dydd hwnw, yr aeth holl luoedd yr Arglwydd allan o wlad yr Aipht." Mae y Deg a Thrigain a'r Salmau yn chwanegu yma ar ol "yr Aipht," y geiriau "ac yn Nghanaan," tra y mae yr Alex. a llawysgrifau ereill hefyd yn chwanegu ar ol "meibion Israel," y geiriau, "a'u tadau." Ymddengys yn dra thebyg mai egluriadau ydyw y chwanegiadau hyn; ac os gadewir hwy allan, ymddengys yr ymadrodd yn gwneud ysbaid yr arosiad yn yr Aipht yn 430 o flynyddoedd; yr hyn nid ydyw mewn ystyr pendant yn gyfriflad cywir. Gallai y "preswyliad" yn hawdd gynnwys yr ysbaid ar ol yr addewid i Abraham, tra y bu y patriarch hwn a'i hiliogaeth yn "ymdeithio yn nhir yr addewid megys [mewn] tir dyeithr" (*Heb.* xi. 9); canys ni ddywedir yn bendant yn y testyn Hebraeg, "A phreswyliad meibion Israel yn yr Aipht," ond gellir darllen "y rhai a drigasant yn yr Aipht;" ac felly y mae yn y Seisoneg: yna safai y 40fed adnod o *Exod.* xii., heb y gair Italaidd *oedd*, fel hyn: "A phreswyliad meibion Israel, y rhai a drigasant yn yr Aipht ddeng mlynedd ar ugain a phedwar can mlynedd." Y mae Paul yn llefaru am hyd y cyfnod o roddiad yr addewid i Abraham hyd ddodiad y ddeddf fel 430 o flynyddoedd: *Gal.* iii. 17, gan gymmeryd y dygwyddiad cyntaf yr un a gofnodir yn *Gen.* xii. 1—5. Gyda golwg ar "gorff y dydd hwnw" megys dechreuad y cyfnod, gallai gyfeirio naill ai at fynediad Abraham i mewn, neu at amser yr addewid. Y mae ymadrodd arall o'r un ffurf yn y ddau Destament, ac am hyny yn dra boddhaol gyda golwg ar gywirdeb y testyn, sydd yn taflu goleu ar yr eglurhad a gyn-

Digitized by Google

sylfaeniad Teml Solomon tua 1010 c. c., fyddai o gylch 642 o flynyddoedd, neu bedair blynedd yn mhellach nag a gafwyd hyd yn hyn oddi wrth fynegiadau rhifyddol y Beibl. Rhaid cofio hefyd fod y casgliadau a dynir oddi wrth gadwad y prif bascau yn ein harwain bron i'r un amser. Ceir cyfleusdra eto yn fuan i ddangos yn fyr y modd y mae hanes yr Aipht yn cytuno â'r penderfyniad yma. Rhoddwn ddewisiad Usher o'r 480 mlynedd o'r neilldu, gan y gorphwys ar brawf llawer gwanach na'r cyfrifiad hir, a chrybwyllwn y prif resymau a gymhellir gan Bunsen a Lepsius o blaid yr amseriad Rabbinaidd. Crybwyllwyd eisoes fod y cyfrifiad yn ol yr achau, ar ba un y mae yr amseriad yma yn gorphwys, yn annigonol. Pa fodd bynag, dygir amryw dystiolaethau hanesyddol yn mlaen gan yr ysgrifenwyr hyn, sydd, yn ol eu tyb hwy, yn arwain i'r amseriad yma, neu yn ei gadarnhau. Y pwysicaf o'r rhai hyn ydyw yr hanes tybiedig o'r Ymadawiad, a roddir gan Manetho, yr hanesydd Aiphtaidd, yr hwn a rydd y dygwyddiad ynghylch yr un amser a'r amseriad Rabbinaidd. Ond mae yr hanes yma, yn ol tystiolaeth Josephus, yr hwn sydd wedi ei gadw a'i drosglwyddo i ni, yn gwbl amddifad o awdurdod, gan y dengys Manetho ei hun mai cofnod ydyw o hynafiaeth ansicr, gan ysgrifenydd anadnabyddus, ac nid rhan o groniclau yr Aipht. Tybiwyd hefyd fod cyfeiriad at yr amseriad yma yn enw un o ddinasoedd y trysorau a adeiladwyd gan yr Israeliaid i Pharoah yn ystod y gorthrymder, sef Raamses: *Exod.* i. 11—yr un lle, fe allai, a Ramases, a grybwyllir mewn lle arall, prif ddinas rhandir o'r enw. Gwel Rameses. Mae yr enw yr un ag enw rhai o freninoedd yr Aipht yn y cyfnod y gesyd y cynllun yma yr Ymadawiad ynddo. Os ydyw y chwedl a roddir gan Manetho wedi ei seilio ar draddodiad cywir, y gorthrymwr mawr oedd Rameses ii., yr ail frenin o'r 19eg deyrnach, teyrnasiad yr hwn a roddir yn y 14eg ganrif, neu y 13eg, c. c. Haerir yn mhellach mai y brenin Rameses cyntaf sydd ar y cofadeiliau Aiphtaidd, ac yn nghofresi Manetho, oedd taid y brenin hwn. Rameses i, yr hwn oedd y brenin olaf o'r 18fed deyrnach, ac a deyrnasai tua 60 mlynedd o bellaf o flaen ei ŵyr. Rhaid sylwi, pa fodd bynag, fod rhesymau cryfion dros gymmeryd yr amseriadau byraf a briodolir i'r ddau frenin, yr hyn a wnai i deyrnasiad yr ail ateb i'r cyfrifiad Rabbinaidd o'r Ymadawiad; ac yn yr amgylchiad yma, byddai raid gosod mynegiad Manetho o'r neilldu, gan y gosodai yr Ymadawiad yn amser mab y brenin hwn, a byddai raid trawsnewid yr hanes Beiblaidd, rhag i adeilad Rameses ddygwydd cyn esgyniad Rameses i. Mae yn amlwg fod y ddadl na bu brenin o'r enw Rameses cyn Ramases i, yn wan fel un nacaol, yn enwedig gan fod enwau llawer o freninoedd yr Aipht, yn neillduol rhai o'r cyfnod a briodolir i'r Ymadawiad, heb fod ar gael. Y mae bron yn colli ei holl rym pan y canfyddir fod mab Aahmes, Amosis, pen y 18fed deyrnach, a gyfleir yn y 17eg ganrif, ac yn yr 16eg c. c., yn dwyn yr enw Rameses—enw nas gallasai, braidd, o blegid ei ystyr (mab Ra. neu yr haul, duw Heliopolis, un o wyth dduw mawr yr Aipht), fod yn anghyffredin; am hyny, gallasai Raamses gael ei henwi oddi wrth frenin neu dywysog boreuach, oedd yn dwyn yr enw yn mhell cyn Rameses i. Y mae anhawsderau mawrion yn hanes yr Aipht i dderbyn y cynllun mewn cyssylltiad â'r hanes Beiblaidd, anhawsderau mor fawrion fel y tybir nas gellir eu symmud ond trwy wrthod credu ansawdd yr hanes hwnw: os felly, cwbl ofer yw seilio dadl ar ddygwyddiad mor ansicr ag ydyw un enw o'r fath a nodwyd. Y mae anhawsderau Hebreaidd y cyfnod ar ol yr Ymadawiad yn llawn mor bwysig, ac wedi peri i Bunsen amseru rhyfel Moses tu hwnt i'r Iorddonen yn gynt, a chrynhoi llywodraethiad Iosuah i 40 mlyn. yn yr anialwch, a thrwy hyny aberthu ei hawl, fel y tybir, i ymresymu ar fanylion yr hanes a berthyn i gyfnod boreuach. Achoswyd y crynhoad dan sylw gan ddiffyg lle i'r Barnwyr. Y mae amseryddiaeth dygwyddiadau a geir felly yn agored hefyd i'r wrthddadl a ddygir yn erbyn y cynlluniau mwyaf, yn gymmaint ag nas gallasai yr Israeliaid fod yn Mhalestina yn ystod rhyfelgyrchoedd dwyreiniol

angenrheidrwydd yn gofyn ymwrthod â phob credintaeth yn nodwedd y cyfrif Beiblaidd o'r amseroedd cyn Abraham. Nis gellir dadleu mewn nodyn fel hyn ynghylch y seiliau ar ba rai y mae y cyfrifiadau hyn wedi eu gosod: pa fodd bynag, dylid cofio y gellir ystyried mai cwbl ieithyddol ydyw y seiliau hyny. Y mae yn wir fod yr ysgrifenydd yn llefaru am "ffeithiau a thraddodiadau," ond ystyrir yn awr gan y prif ddysgedigion nad yw ei ffeithiau ef ddim amgen na chyfundrefn ieithyddol; ac y mae natur traddodiad y fath fel nas gall fod yn arweinydd diogel mewn amseryddiaeth. Pa cyn bell'ed y gellir cymmeryd iaith yn arweinydd sydd bwnc tra anhawdd ei benderfynu. Ond y mae yn sicr nad oes un ysgolhaig Semitaidd wedi derbyn cynllun Bunsen. Usher yn unig sydd yn cymmeryd y 480 mlynedd i'r amser o'r Ymadawiad hyd Sylfaeniad Teml Solomon. Cymmer y lleill, oddigerth Bunsen, gyfnodau hwy, yn ol eu eglurhad hwynt ar rifau ereill y cyfnod hwn; ond cyfrifa Bunsen wrth y cenedlaethau. Rhaid mynegu hefyd, fel gocheliad, fod perygl mawr cymmeryd yr achau Hebreaidd i fesur amser, yn gyffredinol, gystal ag yn yr amgylchiad yma.

| | Hales. | | Jackson. | | Usher. | | Petavius. | Bunsen. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | C. C. | | C. C. | | C. C. | | C. C. | C. C. |
| Y Cread .. .. .. .. .. .. | 5411 | .. | 5426 | .. | 4004 | .. | 3983 | (Adda) tua 20,000 |
| Y Dylif .. .. .. .. .. .. | 3155 | .. | 3170 | .. | 2348 | .. | 2327 | (Noah) tua 10,000 |
| Ymadawiad Abraham o Haran.. | 2078 | .. | 2023 | .. | 1921 | .. | 1961 | |
| Yr Ymadawiad (*The Exodus*) .. | 1648 | .. | 1593 | .. | 1491 | .. | 1531 | 1320 |
| Sylfaeniad Teml Solomon .. .. | 1027 | .. | 1014 | .. | 1012 | .. | 1012 | 1004 |
| Dinystr .. .. .. .. .. .. | 586 | .. | 586 | .. | 588 | .. | 589 | 586 |

Y mae cyfnod y breninoedd, o sylfaeniad Teml Solomon, yn bur agos yr un yn nghyfrifiadau Jackson, Usher, a Petavius. Y mae Hales yn ei hwyhau trwy dybied fod cyfrwng o 11 mlynedd rhwng teyrnasiad dau frenin ar ol Amaziah; ac y mae Bunsen yn ei fyrhau trwy dynu teyrnasiad Manasseh i lawr o 55 i 45 mlynedd. Y mae y cynllun blaenorol yn annhebyg ac yn anfeirniadol. Canlyniad yn unig yw yr olaf o angenrheidrwydd tybiedig: fel hyn y mae yn afreidiol, ac mor anfeirniadol o ran ei ffurfiad ag ydyw y lleill. Dengys y tabl hwn y prif amseriadau yn yr hanes Ysgrythyrol yn ol pump o wahanol ysgrifenwyr. Mae hyn yn ddigon i ddangos beth a feddylir yn y testyn wrth y Cyfnod Hir, Byr, a Rabbinaidd. Gellir mynegu yn fyr fod yr amseryddiaeth a ddilynir yma wedi ei chael allan trwy chwilio, yn mysg pethau ereill, i amseriad dinystr Teml Solomon; cydamseriad Iosiah a Pharaoh Necho; cydamseriad Hezeciah a Thirhacah; cydamseriad Rehoboam a Sisac, amseriad yr Ymadawiad; amser dechreuad y 430 mlynedd arosiad yn yr Aipht; amser y gwasgariad ar Wastadedd Sinar; amser y Dylif; ac amser Creadigaeth Adda.

Digitized by Google

**Pharaohaid** y 18fed, y 19eg, a'r 20fed deyrnach, gan yr ymddengys nad yw yn bosibl taflu rhyfelgyrchoedd Ramases III, yn bellach yn ol nag amseriad Bunsen, i ddechreu gorchfygiad Palestina orllewiniol gan yr Hebreaid. Rhaid i ni gan hyny gymmeryd 1652 C. C. fel amseriad mwyaf boddhaol yr Ymadawiad.

II. *Hanesyddiaeth yr Ymadawiad.*—Y mae yr Ymadawiad yn begwn arbenig mewn hanesiaeth Feiblaidd. Gyda'r Ymadawiad yr oedd yr oruchwyliaeth batriarchaidd yn diweddu, a'r Ddeddf yn dechreu, pryd hefyd yr oedd yr Israeliaid yn newid o fod yn deulu i fod yn genedl. Y mae o bwys gan hyny i ni sylwi pa fodd yr arweiniodd amgylchiadau blaenorol y bobl i'r amgylchiad yma. Yr oedd dyrchafiad Ioseph, a chyflead ei berthynasau "yn y man goreu yn y wlad" i berchenogion anifeiliaid, cystal a'u bod ar wahân, cyn belled ag yr oedd yn bossibl, oddi wrth yr Aiphtiaid a'u dylanwad, yn dra manteisiol i luosogiad yr Israeliaid ac i gadwad eu cenedlyddiaeth. Yr oedd yr erledigaeth hefyd a ddilynodd yn tueddu i'w rhwymo ynghyd yn dynach, ac i lacio yr afael a allasai fod gan yr Aipht a'i defodau arnynt. Yr oedd y pethau hyn a'u cyffelyb yn peri fod yr Israeliaid yn barod, pan fynegodd Moses ei genadwri wrthynt, i fyned allan fel un gŵr o dir eu caethiwed. Gwel IOSEPH ; MOSES.

Y mae hanes yr Ymadawiad ei hun yn dechreu gyda therfyniad y deg pla. Gwel PLAAU YR AIPHT.

Pan ar gychwyn, gwnaeth pobl Israel yn ol gair Moses; a benthyciasant gan yr Aiphtiaid dlysau arian, a thlysau aur, a gwisgoedd. Cyfeirir at yr amgylchiad hwn yn y lleoedd canlynol: *Gen.* xv. 14—y lle yr addawa Duw i Abraham y deuai ei had allan o wlad eu cystudd "â chyfoeth mawr." Yn *Exod.* iii. 21, 22, y mae eu hysbeiliad o'r Aiphtiaid yn cael ei grybwyll fel addewid o eiddo Duw. Dywedir hefyd mai yr hyn a wnai y peth yn bosibl oedd eu bod i gael hawddgarwch yn ngolwg yr Aiphtiaid. Y mae y geiriau *benthycio* ac *ysbeilio* yn cael eu defnyddio yma yn y cyfieithiad Cymraeg. Crybwyllir am yr un peth hefyd yn *pen.* xi. 2, 3, mewn ymadroddion cyffelyb; ond yma fel gorchymyn oddi wrth Dduw i'r bobl. Y mae Bush yn ceisio symmud yr anhawsder a deimlir yn yr amgylchiad, trwy ddyweyd mai yr holl ran a gymmerodd Duw yn y peth oedd rhagfynegu y cymmerai le; ond na ddarfu iddo ei orchymyn iddynt. Ond y mae y geiriau hyn yn cynnwys gorchymyn amlwg. Yn *Exod.* xii. 35, 36, lleferir am yr amgylchiad fel wedi cymmeryd lle. Pa fodd bynag yr esbonir yr amgylchiad, y mae yn rhaid gwneuthur hyny yn gysson â'r ffaith fod yr Israeliaid yn gwneuthur hyny dan gyfarwyddyd dwyfol. Y mae yr hen esbonwyr yn cyfreithloni yr "ysbeiliad" trwy ddwyn yn mlaen y gwirionedd mai Duw Israel ydyw Creawdwr a Meddiannydd pob peth, a bod ganddo hawl i drosglwyddo meddiannau o'r naill i'r llall, fel y gwelo efe yn dda. Dyma a ddywed Awstin, Luther, a Calvin, fel eglurhâd ar yr amgylchiad. Dywed y cyntaf—gan fod yr Aiphtiaid wedi camddefnyddio y meddiannau a roddasai Duw iddynt i amcanion eilunaddolgar, fod yr Arglwydd wedi eu dwyn oddi arnynt mewn ffordd o gerydd arnynt, a'u rhoddi i Israel, y rhai a'u defnyddient at ei gyssegr a'i wasanaeth ef. Ond er fod gan yr Arglwydd hawl i drosglwyddo ei bethau ei hun fel y gwelo yn oreu, eto, y mae y dyryswch yn aros, os tybir ei fod yn gwneuthur hyn trwy orchymyn echwyniad twyllodrus o du yr Israeliaid. Nid oes dim anhawsder yn y ffaith ei fod Ef yn gwneyd Israel yn feddiannwyr ar lawer o gyfoeth yr Aiphtiaid; ond y mae anhawsder mawr yn y dybiaeth ei fod yn awdurdodi Moses i orchymyn iddynt i echwyna yr aur a'r arian, gan roddi ar ddeall i'r Aiphtiaid y byddai iddynt eu dychwelyd, os gwyddai yr Israeliaid na ddeuent byth yn ol. Yn ngwyneb hyn, y mae rhai [*Kitto's Cycl.*] yn dadleu fod yr Israeliaid, wrth fenthyca gan yr Aiphtiaid, yn meddwl am ddychwelyd; ond y mae hyny yn dra annhebyg. Gwyddai Moses ar y cyntaf fod Iehofah am fudo ei winwydden o'r Aipht am byth; hysbysodd yr Arglwydd iddo yn y berth y dygai efe Israel o adfyd yr Aipht i wlad y Canaaneaid; os felly, a yw yn debyg fod y bobl yn adeg eu hymadawiad yn anhysbys o hyn? A ydyw yn debyg eu bod, pan y gyrid hwy ymaith gan Pharaoh, yn bwriadu dychwelyd yn mhen tridiau. Os *benthyca* yr oeddynt, mae yn rhaid eu bod yn benthyca heb feddwl ad-dalu; ac er eu bod wedi gwneuthur mwy o ddaioni i'r Aipht na'r cyfoeth mawr a ddygasant oddi yno, eto, os ydyw y darlleniadau sydd yn rhoddi ar ddeall mai echwyna neu fenthycio yr oeddynt yn gywir, mae yn rhaid fod y drafodaeth yn dwyllodrus: ond gan fod yr un geiriau yn cael eu harfer yn y gorchymyn dwyfol ag a ddefnyddir yn yr hysbysiad o'r ffaith, yr oedd y drafodaeth yn cael ei chadarnhau gan Dduw—ac yn hyn y gorwedda yr anhawsder.

Y mae eglurhâd Winer, Hengstenberg, a Kurtz yn symmud yr holl anhawsder. Nid yw y geiriau Hebraeg a gyfieithir *benthycio* ac *echwyna* o angenrheidrwydd yn cynnwys y meddwl hwnw. Y mae Hengstenberg yn gwadu fod y gair a gyfieithir *benthycio* yn arwyddo hyny mewn un lle yn yr Hen Destament; ond y mae yr haeriad hwn yn anghywir. Ystyr y gair yn 2 *Bren.* vi. 5, yn ddiammheuol ydyw benthyg; ond gyda'r eithriad yma, nid ydyw yn cynnwys y meddwl hwn. Ei ystyr cyffredin ydyw gofyn, erfyn am beth; ac nid benthycio: ac ystyr cyffredin y gair arall ydyw rhoddi, nid echwyna. Yn *Exod.* xii. 35, 36, dywedir fod yr Israeliaid wedi benthycio gan yr Aiphtiaid, a bod yr Aiphtiaid wedi echwyno i'r Israeliaid. Dylasai y gair cyntaf fod yn *gofyn*, a'r olaf, *rhoddi*. Mae y gair olaf i'w gael yn 1 *Sam.* i. 28, y lle y dywedir fod Hannah wedi rhoddi ei mab i'r Arglwydd. Mae y naill air, ebe Kurtz, yn golygu yn y lle cyntaf, yn ei ystyr cynhenid, gofyn neu ddymuno; a'r llall, rhoddi y dymuniad. Ond nid yw y geiriau eu hunain yn rhoddi ar ddeall o ba natur y mae y deisyfiad—pa un ai ammodol, ynte diammodol —pa un a yw yr hyn a ofynir i fod yn feddiant parhaus, ynte i gael ei ddefnyddio am dymmor penodol. Mae yn rhaid myned at y cyd-destynau i wybod hyny. Ond y mae yn amlwg, fel yr ydym wedi sylwi eisoes, fod amgylchiadau y *gofyn* a'r *derbyn* yn yr achos yma yn ffafriol i roddi i'r geiriau eu hystyr gynhenid a mwy cyffredin. Nid oedd yr Aiphtiaid yn dysgwyl am ddychweliad yr Israeliaid: ond pe gellid dangos eu bod, ni byddai hyny yn ddigon o reswm dros feddwl mai echwyno yr oeddynt iddynt. Ond os nad oeddynt, y mae yn rhaid fod y ddwyblaid yn golygu y rhoddi a'r derbyn yn gwbl ddiammodol. Ond y mae yr hanes yn rhoddi ar ddeall i ni fod elfen oruwchnaturiol yn perthyn i'r dygwyddiad. Yr oedd parodrwydd yr Aiphtiaid i ymadael â'u pethau gwerthfawr yn codi, nid oddi ar ddim cariad cyffredinol ynddynt at yr

Digitized by Google

Israeliaid, ond oddi ar ryw deimladau hoffus tuag atynt a gynhyrfwyd yn eu mynwesau ar y pryd. Cyffyrddodd Duw Israel â'u calon: a "chafodd yr Hebreaid hawddgarwch yn ngolwg yr Aiphtiaid." Yr oedd yma wyrth mor wirioneddol ag oedd agor y môr yn mhen tridiau wedi hyny, ac mewn rhyw ystyr yn fwy rhyfedd. Dyma y caethion truain, oedd yn ffieidd-dra yn ngolwg yr Aiphtiaid, y rhai yr oedd eu holl gydymdeimlad yn wrthwyneb i'r eiddynt hwy, wedi cael hawddgarwch yn eu golwg: nid wedi cael eu ffafr yn raddol, ond ar unwaith; a theimlai yr Aiphtiaid ryw dynfa atynt, am yr hyn nis gallasent roddi un cyfrif. Ac y mae yn amlwg fod hyn yn un o'r prif amgylchiadau yn yr Exodus; o blegid fe roddir arbenigrwydd iddo yn yr addewid i Abraham. Drachefn, y mae yr ystyron hyn a roddir i'r ddau air crybwylledig yn taflu goleu ar feddwl y gair a gyfieithir *ysbeilio*. Mae y gair *ysbeilio*, mae yn rhaid addef, yn gyfleithiad cywir o'r gwreiddiol; ond dylid cofio mai nid yr un peth yw ysbeilio a lladrata, neu chwilena. Y mae y cyntaf yn cynnwys y drychfeddwl o orthrech neu drais yr olaf o dwyll neu ddichell; a dwyn oddi ar un trwy drais ydyw ystyr y gair Hebraeg. Felly, y mae yn amlwg fod y gwahanol eiriau yn taflu goleu ar eu gilydd. Pe buasai yr Israeliaid yn benthycio gan yr Aiphtiaid, a'r Aiphtiaid yn echwyno iddynt hwythau, ni fuasai yma ddim tebyg i ysbeiliad; gwnaethid y peth trwy dwyll, ac nid trwy drais. Ond, dyma ddyryswch eto; os rhoddion oeddynt, pa ham ynte y sonir am ysbeilio? Yr atebiad goreu i hyn ydyw, fod yr Aiphtiaid yn gweithredu dan fath o orfodaeth. Duw oedd yn eu hysbeilio, yn fwy nag Israel. Edrychir ar "y cyfoeth lawer" fel ysbail y fuddugoliaeth a gafodd Iehofah ar yr Aipht. "Y mae Moses," ebe Hengstenberg, "yn darlunio rhoddion yr Aiphtiaid fel yr ysbail a ranodd Duw rhwng ei luoedd (*Exod.* xii. 41); a thrwy hyny yn galw sylw at y ffaith fod rhoddiad y trysorau hyn, y rhai yn allanol a ymddangosent fel ffrwyth haelioni yr Aiphtiaid, yn dyfod oddi wrth roddwr arall; fod ymddygiad yr Aiphtiaid, yr hwn a gymmerai le heb ddim gorfodaeth oddi allan, yn effaith dylanwad dwyfol oddi mewn, yr hwn oedd mor gryf fel nas gallasent ei wrthsefyll." Ac yr oedd rhoddi ysbail yr Aipht i Israel yn gysgod o'r un peth mewn oesoedd dilynol. Gellir edrych ar yr Aipht fel cynnrychiolydd y byd paganaidd yn ei berthynas â theyrnas Dduw. Dywedir yn *Zech.* xiv. 14, gyda chyfeiriad diammheuol at yr amgylchiad hwn, y "cesglir golud yr holl genedloedd o amgylch, aur ac arian, a gwisgoedd lawer iawn," sef golud yr holl bobloedd a ryfelant yn erbyn Ierusalem.

Ar hanner nos, yn yr Aipht, y noson y lladdwyd y cyntafanedig (*Exod.* xii. 29), cymhellodd Pharaoh yr Israeliaid i ymadael (*adn.* 31, 32); ïe, gyrodd hwynt allan o'r wlad ar ffrwst (*adn.* 33, 39). Cychwynasant ar unwaith o Rameses (*adn.* 37), yn ystod y nos, fel yr ymddengys (*adn.* 42), ond yn agos i foreu y 15fed dydd o'r mis cyntaf (*Num.* xxxiii. 3). Wedi gwneyd tair o deithiau, neu daith tua diwrnod, hwy a wersyllasant wrth y Môr Coch. Yma y goddiweddodd Pharaoh hwy, ac y gwnaed y wyrth fawr o agor y mor o'u blaen, trwy yr hyn yr achubwyd hwy ac y dinystriwyd Pharaoh a'i holl fyddin. Y mae rhai yn meddwl na ddinystriwyd Pharaoh yn y Mor Coch; ond y mae yr hanes nid yn unig yn gwahardd y fath dyb (*Exod.* xiv. 18, 23, 28), ond yn ei wrthwynebu yn bendant yn *Salm.* cxxxvi. 15. Awgrymwyd yn ddiweddar mai croesi trwy fasle (*ford*) a wnaeth yr Israeliaid. Pe gellid rhoddi cyfrif fel hyn am fynediad diogel yr Israeliaid trwodd, buasai boddi yr Aiphtiaid yn fwy rhyfedd nag o'r blaen. Mae yn hollol amlwg nad ydyw achosion cyffredin yn ddigonol i egluro gwaredigaeth y naill a dinystr y lleill. Ond pe buasai hyd yn oed felly, gellid gofyn, a ydyw yn rhesymol meddwl y buasai achosion cyffredin, neu naturiol, yn peri i'r dygwyddiad gymmeryd lle yn y gwir amser priodol? a byddai i'r atebiad nacaol o angenrheidrwydd ddangos yr anghywirdeb o gynnyg egluro y dygwyddiad ar gyfrif defnyddio moddion naturiol. Byddai yn fwy rhesymol gwadu y dygwyddiad; ond nis gellid cynnyg gwneud hyn yn wyneb y profion anwrthwynebol sydd o'r dygwyddiad.

III. *Daiaryddiaeth yr Ymadawiad.*—Y mae penderfynu pa ffordd a gymmerodd yr Israeliaid wrth adael yr Aipht yn un o'r pynciau anhawddaf mewn daiaryddiaeth Feiblaidd. Rhaid penderfynu y pethau canlynol yn gywir, neu yn agos felly:—sefyllfa tir Gosen; hyd pob taith diwrnod; safle y wersyllfa gyntaf (Rameses); a chyfeiriad y daith.

Gellir casglu oddi wrth yr hanes Ysgrythyrol fod tir Gosen yn rhan o'r Aipht; ond nid o'r hyn a ystyrid y pryd hyny fel yr Aipht Briodol. Rhaid, gan hyny, mai talaeth ddwyreiniol allanol ydoedd o'r Aipht Isaf. Teithiodd yr Israeliaid, gan droi allan o dref yn Gosen, am ddau ddiwrnod tua'r Mor Coch; ac yna, aethant i'r diffeithwch, taith diwrnod neu lai oddi wrth y môr. Yr unig ffordd, gan hyny, y gallent fyned oedd ar hyd y dyffryn a elwir yn awr y *Wâdi-t-Tumeylât;* canys yr oedd pob llain arall o dir diwylliedig, neu a ellid ei ddiwyllio, yn rhy bell oddi wrth y Môr Coch. Rhaid fod Rameses, fel y gwelir eto, yn sefyll yn y dyffryn yma, yr hwn fel hyn a gyfatebai mewn rhan o leiaf i Gosen. Dywed rhai ei fod yn ateb yn hollol i'r ardal hono, am fod yn amlwg mai dyffryn ar ei ben ei hun ydyw, ac y buasai unrhyw diriogaeth lai yn annigonol i gynnal yr Israeliaid. Gwel GOSEN.

Nid peth anhawdd ydyw penderfynu yn bur agos beth oedd hyd taith diwrnod yr Israeliaid. Gan fod gwragedd, plant, ac anifeiliaid gyda hwy, nis gellir tybied y teithient fwy na phymtheng milltir yn y dydd; ac ar yr un pryd, mae yn annhebyg y teithient lawer llai na hyn. Yr oedd y tair taith, gan hyny, yn cyrhaedd y pellder o tua phum milltir a deugain. Ond ymddengys yn bur amlwg nad oeddynt yn myned mewn cyfeiriad uniawn, fel y gellir ystyried nad oedd yr holl bellder o'r man y cychwynasant—Rameses—hyd lan y Môr Coch, yn ddim mwy, mewn llinell uniawn, na thua deng milltir ar ugain. Wrth fesur o lan orllewinol hynafol Môrgainc Arabia yn uniawn i'r dwyrain o'r *Wâdi-t-Tumeylât*, rhydd y pellder o ddeng milltir ar ugain yn llinell union sefyllfa Rameses yn agos i'r gwarchglawdd a elwir yn awr *El-'Abbâseeyeh*, heb fod yn mhell o ben dwyreiniol y dyffryn. Mae yn amlwg hefyd oddi wrth hanes y ddwy daith oedd o flaen yr Israeliaid, iddynt gychwyn o le yn y safle yma:—"A phan ollyngodd Pharaoh y bobl, ni arweiniodd yr Arglwydd hwynt trwy ffordd gwlad y Philistiaid, er ei bod yn agos;" o blegid dywedodd Duw, "Rhag i'r bobl edifarhau pan welont ryfel, a dychwelyd i'r Aipht; ond Duw a arweiniodd y bobl o amgylch, trwy anialwch y Môr Coch:" *Exod.* xiii. 17, 18. Nid yw yr ymadrodd gwreiddiol yn arwyddo, o

Digitized by Google

ef, ac ar ei farchogion" (*adn.* 17). Yn awr, cymmerodd amgylchiad anghyffredin le: canys "angel Duw, yr hwn oedd yn myned o flaen byddin Israel, a symmudodd ac a aeth o'u hol hwynt; a'r golofn niwl a aeth ymaith o'u tu blaen hwynt, ac a safodd o'u hol hwynt. Ac efe a ddaeth rhwng llu yr Aiphtiaid a llu Israel; ac yr ydoedd yn gwmwl ac yn dywyllwch i'r Aiphtiaid, ac yn goleuo y nos i Israel: ac ni nesaodd y naill at y llall ar hyd y nos" (*adn.* 19, 20). Yna y daw gwahaniad y dyfroedd, yr hyn a roddwn yn ngeiriau yr hanesydd sanctaidd ei hun: "A Moses a estynodd ei law ar y môr; a'r Arglwydd a yrodd y môr yn ei ol, trwy ddwyreinwynt cryf ar hyd y nos, ac a wnaeth y môr yn sychdir, a holltwyd y dyfroedd. A meibion Israel a aethant trwy ganol y môr ar dir sych: a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt, o'r tu deheu, ac o'r tu aswy. A'r Aiphtiaid a erlidiasant, ac a ddaethant ar eu hol hwynt; sef holl feirch Pharaoh, a'i gerbydau, a'i farchogion, i *ganol y môr*." Y mae rhwystrau yn awr yn dygwydd i'r Aiphtiaid: cymmerir olwynion y cerbydau ymaith mewn modd goruwchnaturiol, fel yr oeddynt, "ar y wyliadwriaeth fore," "yn gyru yn drwm;" yr hyn, yn nghyfieithiad y Dr. Morgan, a adroddir fel hyn:—"Canys efe (yr Arglwydd) a dynodd ymaith olwynion ei gerbydau ef, ac a'i dûg ef yn drwm." Y mae yr Aiphtiaid, o blegid hyn, yn cael eu cythryblu yn aruthr; a chymhellant eu gilydd i ffoi oddi wrth Israel. Yna, "estynodd Moses ei law ar y môr: a dychwelodd y môr cyn y bore i'w nerth; a'r Aiphtiaid a ffoisant yn ei erbyn ef: a'r Arglwydd a ymchwelodd [ysgytiodd, *ymyl y ddal.*] yr Aiphtiaid *yn nghanol y môr*. A'r dyfroedd a ddychwelasant, ac a *orchuddiasant gerbydau, a marchogion, a holl fyddin Pharaoh*, y rhai a ddaethant ar eu hol hwynt i'r môr: ni adawyd o honynt gymmaint ag un. Ond meibion Israel a gerddasant ar dir sych yn nghanol y môr: a'r dyfroedd oedd yn fur iddynt, ar y llaw ddeheu, ac ar y llaw aswy. A gwelodd Israel yr Aiphtiaid yn feirw ar fin y môr; a'r bobl a ofnasant yr Arglwydd, ac a gredasant i'r Arglwydd ac i'w was Moses" (*adn.* 28—31). Gellir casglu rhai manylion ereill ynghylch yr amgylchiad oddi wrth gân fuddugol Moses ar yr achlysur, megys "*y dyfnderau* a doisant fyddin Pharaoh: disgynasant *i'r gwaelod* fel careg:" iaith sydd yn arwyddo, beth bynag a ellir ganiatau gyda golwg ar ei hansawdd brydyddol, fod y wyrth wedi cymmeryd lle yn y dyfroedd dyfnion. "Dy ddigofaint a anfonaist allan, ac efe a'u hysodd hwynt fel sofl. Trwy chwythad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd ynghyd: y ffrydiau a safasant fel pentwr; *y dyfnderau* a geulasant *yn nghanol y môr.* Ti a chwythaist â'th wynt; y môr a'u tôdd hwynt: soddasant fel plwm yn y *dyfroedd cryfion*"—yr hyn oll ni buasai ond chwydd-iaith (*bombust*) pe na buasai y gwynt mor wyrthiol ag unrhyw ran arall o'r amgylchiad, a phe na buasai y môr yn fawr a dwfn: *Exod.* xv. 5—10; cymh. *Salm* cvi. 9, &c.

Y fath ydyw rhediad ac ystyr yr hanes sanctaidd. Pe darllenai rhyw ddyn deallus, heb wybod dim am dybiau dynion dysgedig, yr hanes a roddir yn Exodus, â map o'i flaen, tybir yr arweinid ef i benderfynu fod taith yr Israeliaid yn cyfeirio o'r gorllewin tua'r dwyrain, i fyny at y Môr Coch, a bod y fan lle y croesasant wedi ei amgylchynu gan fynyddoedd ar ochr yr anialwch, a'u bod yn wynebu ar ddyfroedd dyfnion nas gellid eu rhydio. Casglai y cyfryw ddarllenydd hefyd fod ysgrifenydd Exodus yn amcanu darlunio y waredigaeth o'r dechreu i'r diwedd, fel gwaith Duw. Pe buasai yr Israeliaid mewn lle y gallesid ei rydio neu ei groesi trwy ryw ddull naturiol, buasai gorchwyl Pharaoh yn ynfydrwydd. Ond gwyddai efe eu bod wedi eu dyrysu—fod y mynyddoedd o'u hol ac ar y naill law iddynt, tra yr oedd "dyfnderau" y môr o'u blaen. Am hyny, efe a ymdeimlai yn sier o'i ysglyfaeth, ac felly ymosododd ar unwaith i'w herlid. Nid oedd dim a allasai ei ddyrysu a'i gospi ef, ac a waredai yr Israeliaid ar yr un pryd, ond gweithred ddwyfol. Ac y mae y golygiad yma, yr hwn a gymmerai y darllenydd annysgedig, meddylgar, a diragfarn, yn cynnwys pob peth pwysig a berthyn i'r amgylchiad. Ond y mae anhoffder o wyrthiau wedi ennill dylanwad ar feddwl rhai, ac y mae dysgeidiaeth, dan effaith y dylanwad hwnw, wedi ceisio nodi y fan yn fanwl. Y mae hyny wedi cynnyrchu golygiadau a thybiau sydd i raddau mwy neu lai yn groes i'r Ysgrythyrau, neu wedi arwain rhai i ymdrafod â phethau sydd mewn cymhariaeth yn ddibwys. Cyn belled ag y mae anhoffder at wyrthiau wedi cael dylanwad yn y tybiau a goleddir, cymmaint ag a ddywedwn yn awr ydyw, mewn peth a osodir allan mor amlwg fel yn perthyn i wyrth, nad oes ond un canlyniad i fod—rhaid i'r rhai a wadant y wyrth wrthod yr hanes; a llawer gwell fyddai gwneuthur hyny yn onest na chynllunio tybiau sydd mewn rhan, os nad yn hollol, fympwyol. Nis gellir egluro hanes sydd yn amlwg wyrthiol (yn marn ei hysgrifenydd) yn foddhaol yn ol unrhyw egwyddorion rhesymolaidd (*rationalistic*). Nid egluro yr Ysgrythyr ydyw hyny, ond ei gwyrdroi.

Nid ydyw natur yr erthygl hon yn gofyn i ni sylwi yn fanwl ar y gwahanol dybiau a goleddir gyda golwg ar daith yr Israeliaid. Digon yw gosod pob prawf a all, yn ol ein barn ni, arwain y darllenydd i dynu casgliadau boddhaol. Er hyny, dichon y dylid cyfeirio yn fyr at yr hyn a ysgrifenodd y Proffeswr Lepsius ar y pwnc. Nid yw efe yn rhoddi eglurhâd helaeth ar ddaiaryddiaeth yr Ymadawiad, nac yn cynnyg dim ond un cyfatebiad, sef Rameses, yr hon a dybia efe yr un a'r hen le Aiphtaidd a elwir yn awr *Aboo-Kesheyd*, sydd tuag wyth milltir oddi wrth hen ben y môrgainc. Y rheswm a rydd efe dros y cyfatebiad yma ydyw, fod cofgolofn o faen o Rameses II. yn eistedd rhwng y duwiau Tum a Ra, wedi cael ei chanfod yma; ac am hyny ei fod yn cael ei addoli yn y lle oedd, o angenrheidrwydd, yn dwyn ei enw. Ond gallesid gyda'r un priodoldeb ei alw yn Ra-Tum, a chyfatebai o ran geirdarddiad i Patumos neu Pithom. Mae y casgliad a dŷn y proffeswr Lepsius, sef, gan mai *Aboo-Kesheyd* yw Rameses, y rhaid fod Gosen o fewn y parth dwyreiniol i'r Aipht Isaf, is law Heliopolis, yn nodedig o ddisail; canys yr oedd Rameses yn nhir Gosen, ac nid ugain milltir i'r dwyrain oddi yno, a chymmerodd fwy na thaith dau ddiwrnod i'r Israeliaid i fyned oddi yno i'r Môr Coch, yr hyn a wna ei chyfleu tuag wyth milltir oddi wrth y mor yn ynfydrwydd. Mae y tyb, gan hyny, yn awgrymu dau beth ammhosibl.

Er mwyn i'r darllenydd gael *gweled* cynllun o daith yr Israeliaid o'r Aipht i Ganaan, rhoddwn fap o honi mewn cyssylltiad â'r erthygl ar ISRAEL.

EZECIEL, [יחזקאל=*Iechezecel*, am יחזק אל, *Duw a nertha*, neu o חוק האל, *nerth Duw;* 'Ιεζεκιήλ]: un o'r pedwar prophwyd mwyaf,

Digitized by Google

ysgrifeniadau yr hwn, yn y canonau Hebreig ac Alexandriaidd, a roddir yn nesaf i rai Ieremiah. Mab Busi, ac fel Ieremiah a Zechariah, perthyna i'r llwyth offeiriadol: *Ezec.* i. 3. O'r crybwylliad cyntaf am ei alwedigaeth i'w swydd fel prophwyd, hyd at yr amseriad olaf a roddir i ni (*Ezec.* xxix. 17), yr ydoedd wrth afon Chebar ffrwd neu afon yn Babilon, yr hon a ymarllwysai i'r Euphrates. Gan ei fod yn ei brophwydoliaethau yn rhifo oddi wrth gaethgludiad y brenin Iehoiachin (i. 2; xxvi. 1; xxx. 20; xxxi. 1; xxxii. 1), ac hefyd yn galw y caethgludiad "ein caethgludiad ni" (xl. 1), y mae sail dda i'r farn fod yr offeiriad Ezeciel yn mhlith y nifer mawr o swyddogion ac o enwogion Ierusalem a gymmerwyd gyda'r brenin drachefn yn gaeth i Babilon (2 *Bren.* xxiv. 14—16) un mlynedd ar ddeg cyn dinystr Ierusalem: c. c. 599. Y mae y prophwyd yn nechreuad ei lyfr (i. 3) yn dyweyd wrthym fod Chebar, lle y trigai, yn perthyn i deyrnas Babilon, sef Caldea. Nid yw yn annhebyg mai mewn tref fechan o'r enw Tel-abib (iii. 15), ar lan y Chebar, y gwnai efe ei gartref. Yr oedd ganddo dŷ, yr oedd yn briod, ac ni gawn grybwylliad am farwolaeth ei wraig: iii. 4; viii. 1; xxiv. 18. Galwyd ef i'r swydd brophwydol yn y bummed flwyddyn o gaethgludiad Iehoiachin: i. 2. Ni ddywedir wrthym pa beth oedd ei oedran pan gaethgludwyd ef i Babilon. Y mae y gydnabyddiaeth fanwl a dyrys yn niwedd ei brophwydoliaethau, a mesurau ac amgylchiadau y deml, yn peri i rai gasglu ei fod wedi dechreu ar y swydd offeiriadol cyn ei gaethgludiad: [*Hynaf.* 10. 6. 3]. Gallwn olrhain ei lafur cyhoeddus am 23 o flynyddoedd o leiaf; o herwydd fe ddechreuodd yn y bummed flwyddyn o'i gaethgludiad, ac yn y seithfed flwyddyn ar ugain ni gawn amseriad un o'i brophwydoliaethau (xxix. 17); a hwn yw yr amseriad olaf a grybwylla. Nid oes dim sicrwydd am amgylchiadau ereill ei fywyd. Yn mhlith y traddodiadau am dano, gallwn hysbysu fod yr hyn a elwid ei feddrod yn cael ei ddangos yn y canoloesoedd yn agos i'r afon Euphrates, ac nid yn mhell oddi wrth Bagdad.

Ni a gawn helaethach defnyddiau yn ei brophwydoliaethau i'n cynnorthwyo i ddeall neillduolrwydd a dyben ei weinidogaeth yn mhlith ei gydoeswyr. Wedi bod wrth afon Chebar am bum mlynedd y galwyd ef gan Dduw i fod yn brophwyd iddo, ac i lefaru wrth ei gydgenedl yn ei enw. Yr oedd neillduolrwydd yn ei amgylchiadau, gan ei fod yn cael ei alw i lefaru dros Dduw mewn gwlad estronol. Yr oedd yn cydoesi âg Ieremiah yn mlynyddoedd olaf y prophwyd hwnw. Ac er fod cyffelybrwydd mawr rhwng cenadwri y ddau, a'r ddau yn llefaru wrth yr un genedl, ac am ysbaid yn cydbrophwydo, eto yr oedd gwahaniaeth yn eu hamgylchiadau; gan fod Ieremiah yn preswylio yn Ierusalem, ac o fewn terfynau y tir sanctaidd, lle y gelwid ar yr holl brophwydi hyd yn hyn i lefaru yn enw Iehofah. Yn hyn, yr oedd tebygolrwydd rhwng Ezeciel a Daniel —fod y ddau allan o'u gwlad, ac yn Babilon, a'r ddau hefyd yn cydoesi. Yr oedd Daniel yn enwog am ei dduwioldeb pan ysgrifenodd Ezeciel: xiv. 14; xxviii. 3. Ond yr oedd cylch llafur y ddau brophwyd enwog hyn yn wahanol. Yr oedd Ezeciel yn llafurio yn mhlith ei frodyr—y gaethglud. Galwyd Daniel i lefaru dros Dduw Ezeciel mewn llys paganaidd, ac i ddefnyddio dylanwad ei swydd uchel o blaid ei gydgenedl. Yr oedd Ezra hefyd yn Babilon, ac yn mhlith y gaethglud yno, yn "ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses:" *Ezra* vii. 6. [Gwel EZRA.] Ond nid oedd yn gyfrwng gweledigaethau a phrophwydoliaethau yr Arglwydd i'r genedl fel Ezeciel. Yr oedd Ieremiah wedi bod yn prophwydo am flynyddoedd yn Ierusalem cyn i Ezeciel ddechreu yn Caldea, a hyny heb nemawr lwyddiant. O'r diwedd, galwyd Ezeciel i draddodi yr un cenadwriaethau wrth y genedl oedd mewn caethiwed. Ond yr oedd ei weinidogaeth yn fendithiol, nid yn unig i'r gaethglud, ond hefyd i'r gweddill o'r genedl oedd eto yn eu dinas a'u gwlad. Yr oedd amgylchiadau y genedl yn Babilon, ac yn enwedig fod yn eu mysg gau-brophwydi yn prophwydo celwydd yn enw yr Arglwydd, fel y'n dysgir gan Ieremiah (*Ier.* xxix. 21), yn dangos mor angenrheidiol ydoedd i brophwyd fel Ezeciel gael ei godi i gyflawnu ei swydd yn eu mysg. Yr ydoedd prophwydoliaethau Ieremiah yn cyrhaedd y gaethglud, a phrophwydoliaethau Ezeciel yn cyrhaedd Ierusalem. Ac ni allasai lai na bod y cydgordiad hynod sydd rhwng y ddau was enwog hyn yn eu cenadwriaethau i'r bobl, yn effeithio i ddeffro eu sylw ac i'w parotoi i wrandaw. Yr oedd Ezeciel, fel y prophwydi yn gyffredin, heb law rhagfynegu amseroedd dyfodol, wedi ei godi i draddodi cenadwri Duw wrth ei oes. Ac yr oedd y cyfaddasrwydd mwyaf rhwng y cyfan a lefarai â sefyllfa ac agwedd meddwl y rhai y cyfeiriai ei rybuddion, ei fygythion, ei annogaethau, a'i addewidion atynt. Dynion arbenig i'w hoes oedd y prophwydi. Pa beth oedd ansawdd meddwl y gaethglud ar y pryd—y mae Ezeciel, ac hefyd Ieremiah, yn hysbysu i ni: *Ier.* xix. Yr oedd lluaws y genedl wedi cael eu twyllo i gredu, er fod cynnifer wedi eu halltudio o'u gwlad, ac yn eu plith llawer o'r rhai a safai uchaf mewn swyddau a pharch, eto, na byddai i'w dinas sanctaidd a'u gwlad ddyoddef llwyr ddymchweliad. Yr oedd y dallineb hwn yn cryfhau gyda chynnydd yr achosion oedd yn prysuro eu dinystr hollol. Yr oedd y teimlad hwn hefyd yn eu caledu yn erbyn pob ymdrech i'w dwyn i edifeirwch, ac i'w hennill i ymwrthod â'u heilunaddoliaeth. Ac heb hyn, yr oedd yn anmhosibl iddynt byth mwy gael ffafr Duw, dychweliad i'w gwlad, ac adsefydliad eu crefydd a'u llwyddiant gwladwriaethol a phersonol dan nawdd y Goruchaf. Ond nid hawdd, fel y gwelwyd, oedd dadwreiddio y syniad dinystriol hwn. Yr oedd eu llygredigaeth yn cryfhau, ac yr oedd y genedl mewn caethiwed. Rhoddent eu hunain i fyny, yn nechreuad y gaethgludiad yn enwedig felly, i anobaith, fel na byddai yn bosibl i ddinystr ddisgyn ar Ierusalem a'r cyssegr: *Ezra* xii. 21—28. Yr oedd y bobl yn cael eu cadarnhau yn yr heddwch peryglus hwn gan hudoliaethau dynion a merched a lefarent wrthynt "heddwch, ac nid oedd heddwch," "ac a welant iddi weledigaethau heddwch, ac nid oes heddwch:" *Ezec.* xiii. 10, 16, 17—23: cymharer hefyd *Ier.* vi. 14; xxix. 8, 9. Perswadient y bobl nad adawai yr Arglwydd ei deml (*Ier.* vii. 4), na chospid y plant am anwiredd y tadau (*Ezec.* xviii), nad oedd y bobl ddim wedi haeddu anfoddlonrwydd yr Arglwydd, ac na bydd yr Arglwydd yn anffyddlon i'w addewidion. Amcan gweinidogaeth Ezeciel oedd myned dan wraidd yr holl hyder twyllodrus hwn, eu hennill i deimlad o'u pechadurusrwydd, ac i wir edifeirwch. Er mai y rhan hono o'r genedl oedd mewn caethiwed oedd y mwyaf gobeithiol, o'u cymharu â'u brodyr oedd wedi eu gadael yn eu gwlad (*Ier.* xxiv), ac er fod Ezeciel yn cael ei barchu ganddynt (viii. 1;

xiv. 1; xx. 1); eto, galwyd arno i fyned trwy ymdrech galed yn ei weinidogaeth yn eu mysg; a hyny mewn rhan o herwydd eu calon-galedwch naturiol (ii. 4, &c.; xii. 1, &c.), o herwydd bod eu cyssylltiad â'r deml a gwasanaeth Duw wedi ei dori, a'u bod wedi eu hamgylchynu â dylanwadau eilunaddolgar; ac yn enwedig o herwydd eu gau hyder yn y deml yn Ierusalem (*pen.* vii. 4); hir oediad y farnedigaeth a gyhoeddwyd (*pen.* xii. 22), a llwyddiant byrbarhaol y brenin Zedeciah (2 *Cron.* xxxvi. 13).—Gwel Zedeciah.

Daeth Ezeciel allan yn nerth Duw i wrthwynebu y meddyliau annuwiol hyn, trwy ddangos mai nid teml o geryg ydyw teml yr Arglwydd, fod yn rhaid i'r bobl eu hunain fod yn gyssegr iddo (*pen.* xi. 16), a bod yn rhaid i farn Duw ddisgyn ar y genedl o herwydd eu pechodau. Y mae yn ymdrechu i ddwyn y bobl i deimlo yn briodol yn ngwyneb y dinystr oedd yn mron syrthio ar Ierusalem. Mae yn eu hargyhoeddi yn llym o'u pechodau, yn edliw iddynt eu rhagrith yn gwneuthur proffes o barch i Dduw, ac eto wedi hollol ymddyeithro yn eu calonau oddi wrtho (*pen.* xx. 3). Y mae y prophwyd yn cyfarfod yr holl obaith gau, yr heddwch twyllodrus, a'r hudoliaethau gwenieithus a ffynent yn mysg y bobl, trwy ddangos iddynt, yn gyntaf, fod y bygythion yn erbyn tŷ Dduw, yn erbyn y mynydd sanctaidd, yn erbyn Ierusalem, yn erbyn y genedl, yn cael eu cyflawnu eisoes, fod dinystr wedi eu goddiweddyd (*pen.* iv, v, vii, xii, xv, xix, xxi, xxiii, xxiv). Ac yn ail, y mae yn dangos iddynt fod y dinystr hwn wedi eu goddiweddyd fel canlyniad o'u drygioni, eu heilunaddoliaeth, a'u llygredigaeth dwfn a chyffredinol fel cenedl (vi. 1—7; viii. 1—16; xvi. 15—36; xx. 30—39; xxii, xxiii). Cyhoeddir barnedigaethau hefyd ar y rhai oedd yn twyllo y bobl, sef y gau brophwydi (xiii; xiv. 6—11; xxii. 28). Diwrnod hynod yn mhrofiad y prophwyd oedd y diwrnod y disgynodd y farnedigaeth ar Ierusalem (xxiv. 1, 2) gan fod hyn yn gadarnhad i'w awdurdod ac ar unwaith yn chwalu i'r gwynt y gau noddfeydd y llechasai y bobl ynddynt. Ond yr oedd tân barnedigaethau Duw, nid yn unig yn dinystrio, ond hefyd yn puro. Trwy weinidogaeth rymus y prophwyd, a'r amlygiadau chwerw o anfoddlonrwydd yr Hollalluog, purwyd y genedl yn llwyr o eilunaddoliaeth. Pan ddaeth y bobl, neu lawer o honynt, i deimlo mai o herwydd eu heilunaddoliaeth yr oedd digllonedd yr Arglwydd wedi cynneu yn eu herbyn, taflent ymaith eu heilunod, ymneillduent oddi wrth eilunaddolwyr, ac ymgeisient at ryw ddiwygiad allanol, ond eto heb edifarhau o herwydd eu pechodau a throi at yr Arglwydd. Ond y mae y prophwyd wedi ei anfon i gyfodi ei lef yn erbyn rhagrith a hunangyfiawnder y rhai a geisient sicrhau ffafr Duw trwy gyflawniadau allanol ac ymddangosiadau rhagrithiol mor uchel, os nad yn uwch, nag yn erbyn unrhyw ffurf arall o lygredigaeth. Y mae hyn i'w weled yn y dysgrifiadau a roddir o'r genedl, megys "Rhai y mae llygaid iddynt i weled, ac ni welant, clustiau iddynt i glywed, ac ni chlywant;" *pen.* xii. 2; a phan y mae yn galw arnynt i wneyd iddynt "galon newydd, ac ysbryd newydd:" *pen.* xviii. 31. Hefyd, yn yr addewidion a roddir iddynt, "A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi;" *pen.* xxxvi. 26. Dangosir hefyd nid yn unig yn y modd anuniongyrchol hwn, ond hefyd mewn geiriau pendant, fod y genedl, yn eu dychryn, yn ymroddi i ymddangosiad o dduwioldeb: *pen.* xiv. 1—3; xx. 3. "Deuant hefyd atat fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen fel fy mhobl, gwrandawant hefyd dy eiriau, ond nis gwnant hwy;" xxxiii. 31, 32. Gelwir arnynt i feithrin uniondeb ysbryd a chyfiawnder, a phurdeb cyffredinol: *pen.* xvii. 5—9. Yn ngwyneb y gwaith y galwyd Ezeciel i'w gyflawnu, nid rhyfedd ei fod yn sefyll mewn angen am i'w dalcen fod fel adamant, yn galetach na'r gallestr: *pen.* iii. 8, 9. Ar ol cael ei gymhwyso yn arbenig i'w waith, ni a'i cawn yn ffyddlawn i Dduw, ac i'r rhwymedigaethau a osodid arno, "pa un bynag a wnelont hwy ai gwrando ai peidio;" *pen.* ii. 5, 7; iii. 11, 27. Galwyd Esaiah i gyhoeddi ei brophwydoliaethau yn brydlawn, i roddi mantais i'r genedl i osgoi y farnedigaeth oedd o'u blaen: dechreuodd Ieremiah gyflawnu ei swydd ar ol i'r digllonedd dwyfol dori allan yn eu herbyn: ond galwyd Ezeciel i fod yn enau dros Dduw yn mhlith y genedl ar ol ei halltudio o'i gwlad; ac nid yn ofer chwaith, er mai tŷ gwrthryfelgar ydoedd; o herwydd trodd llawer at yr Arglwydd. Ac ar ol cael caniatad i ddychwelyd i'w gwlad, cymmerodd rhan fantais ar y caniatad, er iddynt trwy hyny orfod gwneuthur aberth o feddiannau bydol; ac fel cenedl, meddyginiaethwyd hwy o'u hymlyniad wrth eilunaddoliaeth.

Ar ol edrych ar Ezeciel yn y cyflawniad o'i swydd yn galw ei genedl i edifeirwch ac i ddychwelyd at yr Arglwydd, ni a edrychwn ar ei *brophwydoliaethau*, a'r rhaniad a ellir ei wneyd o honynt. Dosberthir hwy yn hawdd i ddau ddosbarth—y rhai a lefarwyd cyn, a'r rhai a lefarwyd ar ol dinystr y deml. Y mae 24 o bennodau yn mhob dosbarth. Y mae y dosbarth cyntaf yn dilyn trefn amser, ac yn cynnwys—1. Galwad y prophwyd, a'i awdurdodiad i'w swydd, trwy fod y nefoedd yn agoryd, ac arwydd o'r gogoniant dwyfol yn cael ei roddi iddo, a hyny wrth afon Chebar, yn Caldea, tra y mae gogoniant Iehofah yn ymadael â'r lle sanctaidd yn Ierusalem: *pen.* i.—iii.; xi. 22, 23. Yr oedd hyn yn ddangosiad amlwg nad ydyw gogoniant yr Arglwydd yn cael ei gyfyngu i le penodol, ac mai efe ei hun ydoedd cyssegr ei bobl yn mhlith y gaethglud: *pen.* xi. 16—23. 2. Cyfres o weledigaethau a phrophwydoliaethau, yn mha rai y dangosir cyfiawnder dinystr Ierusalem trwy ddysgrifiad manwl o'i phechodau: *pen.* viii—xix. 3. Amryw gyfarchiadau a phrophwydoliaethau pellach am natur y farn a'r euogrwydd a'i hachosodd; a chwanegir y brophwydoliaeth arwyddluniol olaf am ddinystr Ierusalem, yr hwn a dderbyniodd y prophwyd ar y diwrnod y dechreuodd y gwarchae: *pen.* xxiv. Y mae yr ail ddosbarth yn cynnwys barn Duw yn erbyn saith o genedloedd estronol (Ammon: xxv. 1—7; Moab: *adn.* 8—14; y Philistiaid: *adn.* 15—28; Tyrus, xxvi—xxviii. 19; Sidon, *adn.* 20—24; a'r Aipht, xxix—xxxii.). Trwy ddinystr y rhai hyn y palmantwyd y ffordd i ddychweliad Israel. Nid Iudah ac Israel ydyw yr unig bobl a geryddir. Y mae y cenedloedd a ddefnyddia yr Arglwydd i geryddu ei bobl yn fynych yn cael eu cospi eu hunain. Ac nid ydyw y rhai hyny yn diane sydd yn gallu llawenhau yn nghwymp Iudah. Mae y prophwyd wedi ei wisgo â mawredd dwyfol sydd yn adolygu cenedloedd ereill, ac yn cyhoeddi barn arnynt am eu hanwireddau, tra y mae yn rhaid iddo osod ei wyneb fel adamant hyd yn oed yn erbyn ei genedl ei hun. Nid oes y fath olygfa i'w chael yn llenyddiaeth un oes na gwlad, ond yn y Beibl yn unig. A'r rheswm ydyw, am nad oes yn un wlad arall ddynion wedi eu galw a'u hysbrydoli gan Dduw

i gyhoeddi cyfraith Duw i'w greaduriaid, ac i alw arnynt i ymostwng i Greawdwr nefoedd a daear: *pen.* xxxiii. (2). Adferiad cenedl Israel, a'u buddugoliaeth ar eu holl elynion: *pen.* xxxiii.—xxxix. (3.) Ei gogoniant, y deml newydd, rhaniad newydd y wlad yn y dyddiau diweddaf (xl.—xlviii).

Oddi wrth *pen.* xxxvi. a xxxvii., gwelwn sefyllfa anrheithiedig y tir sanctaidd (xxxvi. 3—5); dangosir y genedl iddo fel dyffryn llawn o esgyrn sychion (xxxvii. 2, 11), yn hollol farw, ac i bob golwg ddynol yn anobeithiol byth o gael byw. Defnyddia y prophwyd y geiriau *bywyd* a *marwolaeth* yn fynych; ac y mae y syniadau a arwyddant yn cael eu cymhwyso at sefyllfa y genedl ar y pryd, ac at y sefyllfa o hapusrwydd a addewir iddynt mewn canlyniad i ddychweliad. Trwy y Beibl, y mae marwolaeth yn cael ei osod allan fel cyflog pechod—fel canlyniad trosedd o gyfraith Duw; a hyny i ddyn yn bersonol; ac yn yr Hen Destament i genedl o ddynion. Gosododd yr Arglwydd *einioes* ac *angau* o flaen y genedl Iuddewig yn nechreuad ei hanfodiad cenedlaethol (*Deut.* xxx. 19); ac arni ei hun yr oedd yn ymddibynu ei dewisiad o'r naill neu'r llall. Y mae yr Arglwydd yn ymddwyn tuag ati yn ei raglunïaeth yn ol fel y mae hithau yn parchu ei gyfraith, ac yn ffyddlawn i'w addoliad neu beidio: *Esa.* xxii. 14; xxvi. 14, 19, 21: *Hos.* ix. 16; xiii. 1, 14; *Zech.* x. 9. Y mae llawer o gyfeiriadau cyffelyb sydd yn dangos fod bywyd a marwolaeth yn cael eu priodoli i genedl. Yn mha beth yr oedd marwolaeth y genedl yn gynnwysedig? Marwolaeth ydyw y gosp eithaf; felly, marwolaeth cenedl Israel ydoedd ei hysgariad oddi wrth ei gwlad, ei chyssegr, a'i Duw—hyny yw, ei chaethgludiad: ac fel cenedl, nis gallasai ddisgyn i drueni dyfnach. Hyn oedd y gosp a fygythid arnynt am anufudd-dod: *Lef.* xxvi. 38, 39; *Deut.* iv. 26, 27; xxviii. 64—68; xxix. 22—28; xxx. 17, 18; xxxii. 30. Y mae y prophwydi, o'r rhai cyntaf hyd y rhai diweddaf, yn dal hyn o flaen y genedl fel y gosp eithaf; ac y mae y gymhariaeth yn un eithaf briodol. Marwolaeth y corph ydyw ysgariad yr enaid oddi wrtho; marwolaeth yr enaid ydyw ei ysgariad oddi wrth Dduw: felly, marwolaeth y genedl hon oedd ei halltudiad o'i gwlad, a'i hysgariad oddi wrth ei Duw a'i gyssegr. Yr oedd hyn hefyd yn cael ei ddilyn gan ymollyngdod cyffredinol; yr holl gyssylltiadau cenedlaethol yn dattod; teyrnas Iudah yn colli ei rhagoriaeth; a thŷ breninol Dafydd yn colli y lywodraeth. Ni a gawn gwynfan am dywysogion Israel: *Ezec.* xix. 1—9. Ond er mor isel eu sefyllfa, yr oedd gobaith adgyfodiad i genedl oedd wedi marw, a'i hesgyrn yn aml ar wyneb y dyffryn, ac yn sychion iawn. Y mae yr Arglwydd yn eu harbed er mwyn ei enw mawr; yn rhoddi addewidion iddynt am chwaneg na dychweliad i'w gwlad—am lanhad oddi wrth eu holl eilunod, ac nid yn unig am ymwrthodiad allanol âg eilunaddoliaeth, ond am wir ddychweliad at Dduw, yn dechreu mewn tynu y galon gareg o'u cnawd, a rhoddi iddynt galon newydd o gig—eu hadferu i heddwch Duw, eu glanhau oddi wrth eu holl anwireddau, a'u harddel fel ei bobl—eu bendithio â llwyddiant tymmorol, fel y byddant yn barod i ddyweyd, "Y tir anrheithiedig hwn a aeth fel gardd yr Arglwydd;" symmud ymaith eu gwaradwydd yn mysg y cenedloedd, ac estyn ei amddiffyn drostynt: *pen.* xxxvi. 21—38. Y mae yr addewidion hyn yn annhebygol iawn o gael eu cyflawni wrth edrych ar sefyllfa Israel fel dyffryn llawn o esgyrn sychion. Pan y mae yr Arglwydd yn gofyn i'r prophwyd, "Ha fab dyn, a fydd byw yr esgyrn hyn?" y mae yntau yn edrych yn ol at Dduw, ac yn dywedyd, "O Arglwydd Dduw! ti a'i gwyddost." Ond y mae bod y prophwyd wedi cael ei alw i lefaru yn enw Duw wrth y gaethglud mewn gwlad estronol yn awgrymu fod yr Arglwydd ei hun trwy ei air a'i Ysbryd am gyflawni yr addewidion blaenorol. Y mae y prophwyd yn derbyn gorchymyn i brophwydo yn gyntaf am yr esgyrn meirwon, "O, esgyrn sychion! clywch air yr Arglwydd;" ac yn ail i brophwydo tua'r gwynt, gan ddywedyd, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, O anadl! tyred oddi wrth y pedwar gwynt, ac anadla ar y lladdedigion hyn fel y byddont byw;" *pen.* xxxvii. 1—14. Y mae diwedd y bennod hon yn cynnwys dysgrifiad o lwyddiant yr eglwys trwy y byd, dan lywodraeth y Messïah, pan na bydd ond un bugail iddynt oll. "Gwnaf hefyd â hwynt gyfammod hedd, ammod tragwyddol a fydd â hwynt, a gosodaf hwynt, ac a'u hamlhaf, a rhoddaf fy nghyssegr yn eu mysg hwynt yn dragywydd;" *pen.* xxxvii. 26. Yn y ddwy bennod ganlynol, ni a gawn ddysgrifiad o elynion diweddaf teyrnas Crist, dan eu pen tywysog Gog. Gosodir hwynt allan trwy gasgliad o deyrnasoedd gogleddol y byd—Persia, Ethiopia, Libya, ac ereill o ystlysau y gogledd. Yn *pen.* xxxviii. 3, 5, 6, &c., bygythir dinystr arnynt, "Anfonaf dân ar Magog;" ac fe roddir i Gog "le bedd yn Israel." "Wele fe ddaeth ac fe ddarfu y diwrnod am yr hwn y dywedais" (*pen.* xxxix. 8); sef, y cwbl a lefarwyd am elyniaeth y byd yn erbyn teyrnas y Messïah, a'r dinystr a gyhoeddwyd ar ei gelynion. Y mae hyn yn cytuno â'r hyn a geir yn *Dad.* xx. 7, 8, am yr offerynau a ddefnyddia Satan i ryfela ar ol ei ollyngiad yn mhen y mil blynyddoedd; "Ac efe a ä allan i dwyllo y Cenedloedd sydd yn mhedair congl y ddaiar, Gog a Magog" [gwel erthyglau]. Y mae cyfeiriadau Ezeciel at y Messïah yn amlwg; o herwydd y mae Iehofah yn ei alw yn Fugail ac yn Frenin ei bobl, ac yn ei nodi allan fel ei was Dafydd, gan sicrhau y bydd iddo deyrnasu fel y cyfryw ar ei bobl, a hyny hefyd pan yr oedd gorseddfainc a theyrnwialen Dafydd wedi eu colli. Y mae natur ysbrydol ei deyrnas yn cael ei gosod allan yn y prophwydoliaethau gogoneddus am y deml newydd: *pen.* xl—lxviii. Nis gallwn ammheu nad dysgrifiad o deyrnas ysbrydol y Messiah dan arwyddluniau cysgodol yr hen oruchwyliaeth a gynnwysir yn y gweledigaethau hyn. Y mae hyn i'w ganfod trwy y prophwydoliaethau yn gyffredin, ac yn y cyfeiriadau atynt yn y Testament Newydd. Ond pa un a ydyw y cyfan i'w ysbrydoli, nid yw mor hawdd penderfynu: ai ynte a oes gyfeiriad at ddychweliad Israel o'u holl grwydriadau yn y dyddiau diweddaf i'w gwlad, a rhyw ddyfodol gogoneddus iddynt yno. Ond ni chafodd y prophwydoliaethau hyn eu cyflawniad yn y deml a gododd Zorobabel, sydd amlwg; gan na chyflawnwyd yr addewid am undeb Israel ac Iudah dan Dafydd eu brenin y pryd hwnw, ac ni pharhaodd y deyrnas hono yn dragwyddol.

Y prif esboniadau ar y prophwyd hwn, "a esgeuluswyd fwyaf o'r prophwydi," yn mysg y tadau, yw Origen, Jerome, a Theodoret; yn mysg yr Iuddewon, y Rabbiniaid Dav. Kimchi, ac Abarbanel; y Diwygwyr, Oecolampadius a Calvin; ac o'r Pabyddion, Pradus a Villalpandus. Yn mysg esbonwyr diweddarach, y rhai penaf yw Marck, Venema, Newcome, Greenhill, Fairbairn, Henderson, a Hävernick.

Digitized by Google

EZEL, MAEN [האבן האזל=*yn myned*, neu *yn dangos y ffordd; τὸ Ἐργὰβ ἐκεῖνο*]: maen tra anadnabyddus yn nghymmydogaeth preswylfod Saul, y fan lle yr ymadawodd Dafydd âg Ionathan, pan y ffodd Dafydd y tro diweddaf o'r llys: 1 *Sam.* xx. 19. Pan y crybwyllir yr ail waith am y lle (*adn.* 41), golyga y beirniaid fod y darlleniad Hebraeg ("a gyfododd *yn agos* i'r deheu") yn sicr o fod yn anghywir. Dywedant fod y gwir ddarlleniad yn cael ei arwyddo gan y Deg a Thrigain, gan y rhai y rhoddir *ergob* yn y ddau le am *argob*—yn *adn.* 19, am y gair Hebraeg *eben*, "maen," ac yn *adn.* 41 am *han-negeb*, "y deheu." Y mae yn ddiammheuol mai y dull Groegaidd ydyw *ergob*, o'r Hebraeg *argob*=twr o feini. Gan hyny, dywedir mai gwir ddarlleniad *adn.* 41 ydyw, "A Dafydd a gyfododd o ymyl y twr meini," yn agos i'r hwn yr oedd Ionathan ac yntau wedi trefnu yn mlaen llaw y byddai iddo aros (*adn.* 19).

EZEM, neu ESEM [עצם=*asgwrn; nerth; Αἰσεμ*]: un o drefydd Simeon: 1 *Cron.* iv. 29. Yn y rhestr yn *Ios.* xix. 3, mae yr enw ychydig yn wahanol, sef Azem neu Asem.

1. EZER [עזר=*cymhorth; Ἐζέρ*]: mab Ephraim, yr hwn, ynghyd â'i ddau frawd, a laddwyd gan ddynion Gath, y rhai a anwyd yn y tir, o herwydd myned o honynt i dir Gath i ddwyn anifeiliaid y trigolion: 1 *Cron.* vii. 21. Y mae Ewald yn meddwl i hyn gymmeryd lle cyn i Israel fyned i'r Aipht.

2. EZER [Ἰεζούρ]: offeiriad y crybwyllir am dano yn llyfr *Nehem.* xii. 42.

3. EZER, un o benau cenedl y Sorathiaid, tad Husah, o hiliogaeth Hur, o lwyth Iudah: 1 *Cron.* iv. 4.

EZIONGABER, neu EZION-GEBER [עציון גבר=*asgwrn cefn y cawr; Γασίων Γαβέρ; Vulg.* Asiongaber]: un o'r manau olaf a enwir fel gwersyllfa yr Israeliaid cyn iddynt fyned i "anialwch Sin, hwnw yw Cades:" *Num.* xxxiii. 35, 36; *Deut.* ii. 8. Wedi hyny, bu yn borthladd i longau Solomon; a darlunir y lle megys yn sefyll "wrth Elath, ar fin y Môr Coch, yn ngwlad Edom" (1 *Bren.* ix. 26), o ba le yr aethant "i Ophir, ac a ddygasant oddi yno bedwar cant ac ugain o dalentau aur, ac a'u dygasant i'r brenin Solomon" (*adn.* 28). Yma hefyd yr adeiladodd Iehosaphat longau (2 *Cron.* xx. 36) "i fyned i Ophir am aur" (1 *Bren.* xx. 36); ac yma hefyd y drylliasant, wrth droi allan i'r mor, fe allai ar y creigiau danneddog sydd yn sefyll ar bob tu [*Stanley, Syr. & Pal.* 2]. Ymddengys i'r anffawd yma ddygwydd fel cerydd dwyfol ar Iehosaphat, brenin duwiol Iudah, o herwydd iddo ymgyfeillachu "âg Ahaziah, brenin Israel, yr hwn a ymroddasai i ddrygioni;" 1 *Cron.* xx. 35. Y mae Wellsted [ii. *pen.* ix] yn dywedyd ei fod yn canfod Eziongaber yn Dahab; ond prin y gellir ystyried fod y lle hwnw "yn ngwlad Edom" (er y dichon i'r llongddrylliadau gymmeryd lle ar yr un creigiau ag a ddarlunia Wellsted); ac ni chytuna y golygiad chwaith â Josephus [*Antiq.*, viii. 6, *adr.* 4], megys heb fod yn mhell o Elath. Dywed Josephus, yn y lle a nodwyd, fod Eziongaber yn cael ei galw hefyd yn Berenice. Yn ol map diweddaf Kiepert, y mae yn sefyll yn *Ain el-Ghudyân*, tua deng milltir i fyny o wely yr Arabah, sydd yn awr yn sych, ond oedd y pryd hyny, fel y tybia efe, yn ben gogleddol y môrgainc, yr hwn a allasai fod gynt yn eangach megys Morgainc Suez. Mae yn debyg mai dyma ydyw y lle tebycaf i fod yn safle yr hen Eziongaber. Wrth gymharu 1 *Bren.* ix. 26, 27, â 2 *Cron.* viii. 17, 18, gellir tybied i'r coed gael eu nofio o Tyrus i'r pwynt nesaf ar lan Môr y Canoldir, a'u trosglwyddo oddi yno dros y tir i ben Morgainc Akabah, lle yr ymddengys i'r llongau gael eu hadeiladu; canys prin y gellir meddwl fod digon o goed yn y gymmydogaeth hono i'r perwyl.

EZNIAD, neu ESNIAD, YR [העצני; ὁ Ἀσωναῖος]: yn ol 2 *Sam.* xxiii. 8, enw arall oedd "Adino yr Ezniad" ar Ioseb-bassabet, Tachmoniad, "penaeth y tywysogion," yr hwn "a eisteddai yn y gadair." Pa fodd bynag, mae yr ymadrodd yn un o'r rhai mwyaf dyrys yn yr holl Feibl, a hyny, yn un peth, o blegid fod yr un dyn yn dwyn dau enw mor wahanol, heb un rheswm yn cael ei roddi am hyny: ac hefyd, o blegid yr anghyssondeb rhyngddo a'r ymadrodd cyferbyniol yn 1 *Cron.* xi. 11; lle y ceir geiriau Hebraeg am "Adino yr Hezniad," heb fod yn annhebyg o ran ymddangosiad, ond yn arwyddo "efe a ysgydwodd (cyfieith. Cym., 'a ddyrchafodd') ei waywffon." Yr holiad a gyfyd yn y meddwl yn naturiol ydyw, pa un ai eglurhad gan ysgrifenydd diweddarach ydyw y geiriau yn y Cronicl ar eiriau Samuel, ai ynte y gwreiddiol yw y rhai sydd yn y Cronicl, a bod y rhai yn Samuel wedi goddef rhyw lygriad. Ffurf y gair Ezniad yn y testyn gwreiddiol (y *Chetib*) yw Etzno, yr hwn a newidiwyd i Etzni gan yr ysgrifenydd Masoraidd, er mwyn cael rhyw ystyr o hono, fel yr ymddengys. Etzno ydyw yn Jerome, gan ei gymmeryd fel treigliad o'r gair Etz="coed."

Y mae Kennicott a Gesenius wedi gwneyd archwiliad manwl i'r testyn; a'u penderfyniad hwy ydyw, mai darlleniad y Cronicl sydd gywir.

1. EZRA [עזרא=*cymhorth; Ἔσδρας*]: penaeth un o'r ddau deulu ar ugain o offeiriaid a ddychwelasant o'r caethiwed gyda Zorobabel ac Iesuah: *Neh.* xii. 2. Ond yn y rhestr sydd braidd yn gyferbyniol yn *Neh.* x. 2—8, ysgrifenir enw yr un person yn Azariah; ac y mae yn debyg mai yr un ydyw ag Ezra, yn *Ezra* vii. 1.

2. EZRA: dyn o lwyth Iudah: 1 *Cron.* iv. 17.

3. EZRA: ysgrifenydd ac offeiriad enwog, wedi disgyn o Hilciah—archoffeiriad dan deyrnasiad Iosiah, o fab ieuangaf yr hwn, sef Azariah, y disgynodd Seraiah, tad Ezra—person hollol wahanol i Seraiah yr archoffeiriad y crybwyllir am dano yn *Ezra* vii. 1. Mae yr hyn oll a wybyddir o wir hanes Ezra yn gynnwysedig yn y pedair pennod olaf o Lyfr Ezra, ac yn *Neh.* viii., a'r xii. 26. Gellir casglu oddi wrth yr ymadroddion hyn mai offeiriad dysgedig a duwiol oedd Ezra, yn preswylio yn Babilon, yn amser Artaxerxes Longimanus. Nid yw dechreuad ei ddylanwad gyda'r brenin yn hysbys: ond yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, cafodd ganiatad, er gwaethaf y mynegiad anffafriol a anfonwyd gan Rehum a Simsai, i fyned i Ierusalem, ac i gymmeryd cymdeithas o Israeliaid gydag ef, ynghyd âg offeiriaid, Lefiaid, cantorion, porthorion, a Nethiniaid. Rhoddir rhestr o'r rhai hyn, yn cynnwys 1,754, yn *Ezra* viii.; a diammheu fod y rhai hyn yn ffurfio rhan o'r rhestr gyflawn o'r caethion dychweledig a roddir yn *Neh.* vii., ac megys cyfysgrif o *Ezra* ii. Cymmerodd taith Ezra a'i gyfeillion o Babilon i Ierusalem bedwar

Digitized by Google

mis o amser; a dygasant i fyny gyda hwynt offrwm gwirfoddol helaeth o aur ac arian, a llestri arian, a roddwyd nid yn unig gan yr Iuddewon oedd yn Babilon, ond gan y brenin ei hun a'i gynghoriaid. At dŷ Dduw y rhoddwyd yr offrymau hyn, i'w harddu, ac i brynu eidionau, myheryn, ac aberthau ereill angenrheidiol at wasanaeth y deml. Yn chwanegol at hyn, awdurdodwyd Ezra i gael arian o drysorau y brenin o'r tu hwnt i'r afon, at unrhyw angenion angenrheidiol; a rhyddhawyd yr holl offeiriaid, y Lefiaid, a gweinidogion ereill y deml oddi wrth dreth. Cafodd Ezra awdurdod hefyd i osod henuriaid a barnwyr yn Iudea, yn meddu awdurdod bywyd ac angeu dros yr holl droseddwyr.

Rhoddwyd y genadwri fawr yma i Ezra ar ei ddymuniad ei hun (vi. 6); ac ymddengys mai ei amcan mawr ef oedd achosi diwygiad crefyddol yn mysg yr Iuddewon oedd yn Palestina, a'u dwyn yn ol i gydymffurfio â chyfraith Moses, yn yr hyn yr oeddynt yn dra dirywiedig. Y gorchwyl cyntaf gan hyny a wnaeth, oedd gorfodi y rhai oedd wedi priodi gwragedd dieithr, o'r Cenedloedd, i ymadael â hwy; yn mysg y rhai yr oedd lliaws o offeiriaid a Lefiaid, yn gystal ag Israeliaid ereill. Cyflawnwyd hyn mewn ychydig mwy na chwe mis ar ol ei ddyfodiad i Ierusalem. Gyda hanes cyflawn am y gorchwyl pwysig hwn y terfyna hunan-gofiant Ezra yn ddisymmwth; ac nid ydym yn clywed dim mwyach am dano hyd yr 20fed flwyddyn i Artaxerxes, 13 mlynedd ar ol hyny, pan y canfyddwn ef drachefn yn Ierusalem gyda Nehemiah (*Neh.* viii) "y Tirsatha." Tybir yn gyffredin fod Ezra wedi parhau yn llywydd hyd nes i Nehemiah ddyfod yn ei le; ond gan mai cenadwri o natur amserol yn unig oedd gan Ezra, "i ymweled âg Iudah, ac âg Ierusalem (*Ezra* vii. 14), ac i ddwyn yno yr arian a'r aur a offrymodd y brenin a'i gynghoriaid, o honynt eu hunain, i Dduw Israel" (*adn.* 15); a chan nad oes dim sôn am dano yn Ierusalem rhwng yr wythfed a'r ugeinfed flwyddyn i Artaxerxes, y mae yn ymddangos yn debyg ddarfod iddo ef, ar ol gweithio allan y diwygiad crybwylledig, a gosod henuriaid a barnwyr yn meddu awdurdod i fyned yn mlaen, ddychwelyd ei hun at frenin Persia. Y mae hyn ynddo ei hun yn beth a ellid ei ddysgwyl, ac yn beth a wneir yn debyg hefyd gan ymddygiad cyffelyb Nehemiah; ac y mae hefyd yn rhoddi rheswm dros derfyniad disymmwth hanes Ezra, ac am ddirywiad yr Iuddewon, a'u dychweliad at eu hen arferion afreolaidd; yr hyn sydd yn amlwg yn Llyfr Nehemiah. Prin y gallasai y fath ddirywiad, a'r fath sefyllfa ar bethau yn Ierusalem yn gyffredinol ddygwydd, pe buasai Ezra wedi aros yno. Pa un a ddychwelodd efe i Ierusalem gyda Nehemiah, neu ar wahân iddo, nid ymddengys yn sicr; ond gan na chrybwyllir am dano yn hanes Nehemiah hyd ar ol gorphen y mur (*Neh.* viii. 1), y mae yn debyg, fe allai, iddo ddilyn Nehemiah rai misoedd yn ddiweddarach, ar ol cael danfon am dano, fe allai, i'w gynnorthwyo yn ei waith. Swyddi o natur offeiriadol ac eglwysig yn unig a gyflawnai efe dan lywodraeth Nehemiah, megys darllen ac egluro cyfraith Moses i'r bobl yn ystod wyth niwrnod gŵyl y y pebyll, gweddïo yn y gynnulleidfa, a chynnorthwyo yn nghyssegriad y mur, ac i ddwyn y diwygiad crefyddol yn mlaen, yr hwn a gyflawnwyd mor lwyddiannus gan y Tirsatha (y llywydd). Ond yn y swyddi hyny, efe a lenwai y lle blaenaf, gan y cyssylltir ef yn fynych â Nehemiah y Tirsatha (*Neh.* viii. 9; xii. 26), tra na chrybwyllir am Eliasib yr archoffeiriad fel yn cymmeryd unrhyw ran yn y diwygiad o gwbl. Wrth selio y cyfammod a ddysgrifir yn *Neh.* x., fe allai mai fel aelod o deulu Seraiah neu Azariah y seliodd Ezra.

Gan na chrybwyllir am Ezra ar ol ymadawiad Nehemiah i Babilon, yn y ddeuddegfed flwyddyn ar ugain i Artaxerxes, a chan fod pob peth wedi syrthio i ddyryswch yn ystod absennoldeb Nehemiah (*Neh.* xiii.), nid yw yn annhebyg y gallai fod Ezra wedi marw neu wedi dychwelyd i Babilon cyn y flwyddyn hono. Y mae yn amlwg na wyddai Josephus—yr hwn a ddylai fod ein hawdurdod uchaf, ond yr Ysgrythyrau—ddim am amser na lle ei farwolaeth. Mae yn dywedyd yn annilys ei fod wedi marw yn hen ŵr, ac wedi ei gladdu mewn modd anrhydeddus yn Ierusalem [*Antiq.*, xi. 5, *adr.* 5]; a gesyd ei farwolaeth dan archoffeiriadaeth Ioacim, ac o flaen llywodraethiad Nehemiah! Ond dywed Nehemiah ei fod ef yn byw yn amser archoffeiriadaeth Eliasib, a llywodraethiad Nehemiah; ac yr oedd traddodiad Iuddewig cryf ei fod wedi ei gladdu yn Persia. Fel hyn y dywed Benjamin o Tudela am Nehar-Samorah—rhyw le, fel yr ymddengys, ar y Tigris Isaf, ar gyffiniau Persia; Zamuza, yn ol y Talmudiaid, neu Zamzumu—"Yn y lle hwn y mae beddrod Ezra yr offeiriad a'r ysgrifenydd, lle y bu efe farw ar ei daith o Ierusalem at y brenin Artaxerxes" [*Benj.*, i. 116], traddodiad sydd yn sicr yn cytuno yn dda â hanes Nehemiah. Y



Dar. 265.—Beddrod Ezra.

mae y beddrod yma yn cael ei ddangos hyd y dydd hwn fel beddrod Ezra [*Benj.*, ii. 116].

Gyda golwg ar hanes traddodiadol Ezra, mae yn dra anhawdd barnu pa ran o honi sydd yn meddu unrhyw sail hanesyddol. Y prif weithiau a briodolir iddo ef gan yr Iuddewon, ac ar sail eu tystiolaeth hwy gan Gristionogion hefyd, yw y rhai canlynol:—1. Sefydliad y Synagog Fawr, yn yr hon, medd yr Iuddewon, yr oedd Ezra yn llywydd; a Daniel, Haggai, Zechariah, Malachi, Zorobabel, Mordecai, Iesuah, Nehemiah, &c., yn aelodau, a Simeon y Cyfiawn, yr olaf o honynt, yr hwn a fu fyw hyd amser Alexander Fawr! 2. Sefydliad canon yr Ysgrythyr, ac adferiad, diwygiad, ac adysgrifeniad yr holl gyfrol sanctaidd yn ol y trefniad triphlyg o honi, yn gyfraith, prophwydi, ac ysgrifeniadau sanctaidd (*Hagiographa*), ynghyd â'r dosbarthiad yn adnodau (*pesucim*); y llafarnodau, fel y trosglwyddwyd

Digitized by Google

hwy trwy draddodiad oddi wrth Moses, a gwellhad y *Ceri*. 3. Dygiad y llythyrenau Caldeaidd i arferiad, yn lle yr hen Hebraeg neu y Samaritan. 4. Cyfansoddiad llyfrau y Cronicl, Ezra, Nehemiah, ac y mae rhai yn chwanegu Esther hefyd; a dywed llawer o'r Iuddewon mai efe a ysgrifenodd lyfrau Ezeciel, Daniel, a'r deuddeg prophwyd. 5. Sefydliad y synagogau. Rhoddir hanes cyflawn o'r rhan fwyaf o'r gweithrediadau hyn yn *Prideaux's Connexion*, cyf. i. 308—348, a 355—376; ac hefyd yn *Buxtorf's Tiberias*. Ceir cyfeiriadau i'r prif awdurdodau Rabbinaidd, ac ereill, yn Winer. Rhoddir crynodeb o'r rhesymau a brofant mai chwedlau ydyw y rhan fwyaf o'r mynegiadau Iuddewig hyn yn *Stehelin's Rabbin. Literat.*, td. 5—8, y penaf o ba rai a gesglir oddi wrth ddystawrwydd yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain, o lyfrau yr Apocrypha, ac o Josephus (a gellid chwanegu Jerome hefyd), ac oddi wrth y ffaith y gellir eu holrhain i awdwr pennod yn y *Mishna*, a elwir *Pirce Afoth*. Digon yma yw sylwi fod y dysgrifiad nodedig a roddir o Ezra (vii. 6), fel "ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses," yr hyn a ail adroddir yn *adn.* 11, 12, 21, mewn cyssylltiad â'r mynegiad ei fod wedi parotoi "ei galon i geisio cyfraith yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur, ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau" (vii. 10), a'r gorchymyn a gafodd i "ddysgu cyfreithiau ei Dduw i'r rhai nis medrent" (*adn.* 25), a'i ddiwydrwydd mawr yn darllen yr Ysgrythyrau i'r bobl: y mae y pethau hyn oll yn rhoddi y tebygrwydd mwyaf i'r hanes a briodola iddo adysgrifiad cywir o'r Ysgrythyrau, a lledaeniad helaeth i lawer o'r cyfryw gopïau. Rhaid fod Llyfrau Nehemiah a Malachi wedi eu chwanegu yn ddiweddarach, fe allai trwy awdurdod Malachi ei hun. Fe ddichon mai rhyw draddodiad o'r fath a roddodd achos i'r chwedl Iuddewig sydd yn gwneuthur Ezra a Malachi yr un person. Ond nis gellir sicrhau fod Ezra wedi rhoddi unrhyw lyfrau yn y canon nad oeddynt yn cael eu cydnabod eisoes fel rhai ysbrydoledig, gan nad oes sail ddigonol i briodoli y ddawn brophwydol iddo ef. Fe ddichon nad oedd hyd yn oed y llyfrau yr oedd efe yn awdwr iddynt yn cael eu hystyried yn bendant o ansawdd Ysgrythyrol, nes i Malachi roddi ei awdurdod iddynt. Ond nid ymddengys fod digon o sail i ffurfio barn bendant ar fanylion y pwnc. Er hyny, gellir dyweyd fod dygiad y llythyrenau Caldeaidd i arferiad, a dechreuad cyfarfodydd penodol i wrandaw darllen yr Ysgrythyrau, yr hyn a ddygodd i mewn wasanaeth rheolaidd y synagog, yn bethau tebyg i rai a ddygwyddasant o gylch yr amser yma. Am awduriaeth Ezra, gwel CRONICL; a'r erthygl ganlynol, LLYFR EZRA.

EZRA, LLYFR. Y mae Llyfr Ezra yn llefaru drosto ei hun wrth bob un a'i darlleno yn ystyriol a diragfarn gyda golwg ar ei natur a'i gyfansoddiad. Mae yn amlwg mai parhâd ydyw o Lyfrau y Cronicl; ac yn wir, y mae yn cael ei alw gan Hilary, esgob Poitiers, yn *Sermones dierum Esdræ* [*ap. Cosin's Canon of Scr.*, 51]. Llyfr newydd, o angenrheidrwydd, ydyw hwn, megys yn dechreu hanes y caethion dychweledig, ar ol cael eu cadw am ddeng mlynedd a thrigain, megys, oddi wrth fywyd cenedlaethol. Ond pan y lleferir am y llyfr fel *cronicl*, yr ydys ar unwaith yn dangos ei natur; yr hyn hefyd a brofir yn ddigonol gan ei gynnwysiad. Mae yn gynnwysedig, fel dau lyfr y Cronicl, o ddedflyfrau hanesyddol yr amserau, a gedwid o bryd i bryd gan y prophwydi, neu bersonau awdurdodedig ereill, y rhai oeddynt yn llygaid-dystion o'r rhan fwyaf o'r pethau a gofnodid—amryw hanesion y rhai a gorffolwyd wedi hyny ynghyd, ac wedi eu talfyru neu eu helaethu gan awdwr diweddarach. Yr awdwr hwnw yn ddiammheu, yn Llyfr Ezra, oedd Ezra ei hun, fel yr ymddengys wrth y pedair pennod olaf, yn gystal ag wrth y pennodau blaenorol. Tra y mae holl Lyfr Ezra, gan hyny, wedi ei osod ynghyd ganddo ef, etto, mewn ystyr fanwl, y pedair pennod olaf yn unig sydd o'i gyfansoddiad gwreiddiol ef ei hun. Ac fe dybir nad ydyw yn anhawdd nodi allan yn lled fanwl o ysgrifeniadau pwy y cyfansoddwyd y chwe phennod ereill. Dywedir am y bennod olaf o'r 2 Cronicl, a'r gyntaf o Ezra, fod yn debygol iddynt gael eu hysgrifenu gan Daniel. Y mae hyn yn cael ei egluro fel y canlyn:—Y mae yn anhawdd darllen Llyfr Daniel yn fanwl heb sylwi yn arbenig ei fod ef, tra yn dywedyd yn *pen.* ix., y gwyddai efe fod deng mlynedd a thrigain y caethiwed, a ragfynegwyd gan Ieremiah, bron ar ben—yr hyn a barodd iddo ef weddio yn daer am adferiad Ierusalem; a thra y cofnoda yn fanwl weledigaeth hynod a gafodd yn atteb i'w weddi, eto, nad yw yn gwneyd y sylw lleiaf o osodiad Cyrus, trwy ba un y cyflawnwyd prophwydoliaeth Ieremiah, ac y cyflawnwyd dymuniad ei galon a'i weddi yntau hefyd at Dduw dros yr Israel; a'r hyn a raid fod yn un o ddygwyddiadau rhyfeddaf ei holl fywyd, heb anghofio hyd yn oed amgylchiadau ffau y llewod. Y mae yn pasio dros y flwyddyn gyntaf i Cyrus yn hollol ddystaw, at yr hon y gwneir cyfeiriad yn *Dan.* i. 21, ac yn myned yn mlaen yn y *pen.* x. at y drydedd flwyddyn i Cyrus. Buasai y fath ddystawrwydd yn gwbl anesguradwy, oddi eithr fod Ezra yn cyflawnu y diffyg. Pe rhoddid y bennod gyntaf o Ezra rhwng *Dan.* ix. a x., gwnai y cyfwng i fyny yn gywir, a chofnodai yr amgylchiad yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus, oedd mor bwysig yn mywyd Daniel. Ac nid hyny yn unig, ond y mae dull y cofnodiad yn cyfatteb yn fanwl i ddull Daniel. Y mae *Ezra* i. 1—"Yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Persia"—yn fanwl yn null *Dan.* i. 1; ii. 1; vii. 1; viii. 1; ix. 1; x. 1; xi. 1. Y mae yr enw (*adn.* 1, 2, 8), "Cyrus brenin Persia," yr un ag a ddefnyddir yn *Dan.* x. 1. Y mae y cyfeiriad at brophwydoliaeth Ieremiah yn *adn.* 1 yn gyffelyb i'r cyfeiriad yn *Dan.* ix. 2, a'r hyn a ddilyna yn naturiol. Y mae rhoddiad testyn y cyhoeddiad, *adn.* 2—4 (cymharer *Dan.* iv.), y crybwylliad o enw "Mithredeth y trysorydd," *adn.* 8 (cymharer *Dan.* i. 3, 11), cyfeiriad at y llestri cyssegredig a roddasai Nebuchodonozor yn nhŷ ei dduwiau ei hun, *adn.* 7 (cymharer *Dan.* i. 2), rhoddiad enw Caldeaidd Zorobabel, *adn.* 8, 11 (cymharer *Dan.* i. 7), a holl sefyllfa leol yr hanesydd, yr hwn, y mae yn amlwg, a ysgrifenai yn Babilon, nid yn Ierusalem—y mae yr holl amgylchiadau hyn yn cyfeirio mewn dull nodedig at Daniel fel yr ysgrifenydd: *Ezra* i. Ac nid oes dim annhebygolrwydd yn y dyb, os Ezra a drefnodd bapyrau Daniel, y gallai feddwl y byddai rhoddi y bennod dan sylw yn fwy cyfleus yn y Croniclau nag yn y casgliad o brophwydoliaethau Daniel. Prin y mae yn angenrheidiol crybwyll y ceir amryw o bennodau y prophwydi Esaiah a Ieremiah yn Llyfr y Brenhinoedd; megys, er esampl, *Esa.* xxxvi.—xxxix. yn 2 *Bren.* xviii.—xx. Daniel, gan hyny, oedd awdwr *Ezra* i.

Mewn perthynas i *Ezra* ii., cyn belled a'r i-i.

Digitized by Google

lle y newidir yr enw Sesbassar i Zorobabel yn *adn*. 2, y mae y crybwylliad am Nehemiah y Tirsatha yn *adn*. 2, a'r 63, ac am Mordecai yn *adn*. 2, ar unwaith yn arwyddo awdwr gwahanol a llawer diweddarach; ac ni raid chwilio yn hir cyn canfod o ba le y daeth, o blegid canfyddir hi yn gyflawn, oddigerth ychydig wahaniaeth geiriol, yn y vii. bennod o Nehemiah—i'r lle y perthyn yn ddiammheuol [gwel LLYFR NEHEMIAH]. Ysgrifenwyd y rhan yma am hyny gan Nehemiah; a gosodwyd ef yn y sefyllfa yma gan Ezra, neu fe allai gan rywun diweddarach, am y dwg berthynas â'r dychweliad o'r caethiwed a fynegir yn *pen*. i., er ei fod mewn ystyr amseryddol allan o le. Pa un a oedd y dyfyniad ar y dechreu yn cyrhaedd cyn belled a iii. 1, sydd anmhenderfynol. Cyrhaedda y rhan nesaf o *pen*. iii. 2, hyd *pen*. vi. Y mae y rhan yma—oddigerth chwanegiad eglurhaol helaeth gan Ezra, yn cyrhaedd o iv. 6, i 63; yr hyn, yn dra afreidiol, sydd wedi dyrysu cymmaint ar yr esbonwyr—yn waith ysgrifenydd oedd yn cydoesi â Zorobabel ac Iesuah, ac yn llygad-dyst o ail adeiladiad y deml yn nechreu teyrnasiad Darius Hystaspis. Y mae y manylion a roddir o'r holl amgylchiadau—megys galar yr hen bobl a welsant y deml gyntaf, enwau y Lefiaid a gymmerasant ran yn y gwaith, enwau llywodraethwyr y cenedloedd a'u rhwystrasant, yr ymadrodd (*adn*. vi. 15), "A'r *tŷ hwn* a orphenwyd," &c., rhif yr aberthau a offrymwyd ar ei gyssegriad, a holl rediad yr hanes—yn arwyddo un oedd yn gweithredu yn y fan a'r lle. Pwy, gan hyny, a fuasai mor debyg o gofnodi y digwyddiadau nodedig hyn ag un o'r prophwydi hyny a gymmerasant ran arbenig yn eu cyflawniad, ac un gangen o ddyledswyddau y rhai oedd parhau y croniclau cenedlaethol? Mai y prophwyd Haggai ydoedd sydd sicr, pan y sylwir ar y cyd-darawiadau canlynol yn yr arddull:—

1. Y mae yr ymadrodd, "y prophwyd," sydd drwy yr holl ran yma o Ezra, yn ymlynu mewn modd neillduol wrth enw Haggai. Fel hyn, darllenir yn v. 1, "Yna y prophwydi, Haggai *y prophwyd*, a Zechariah mab Ido, a brophwydasant," &c.; a vi. 14, "A lwyddasant trwy brophwydoliaeth Haggai *y prophwyd*, a Zechariah mab Ido." A'r un modd yn *Hag*. i. 1, 3, 12, a ii. 1, 10, gelwir ef "Haggai y prophwyd."

2. Y mae dynodiad Zorobabel ac Iesuah yr un gan y ddau ysgrifenydd. "Zorobabel mab Salathiel, ac Iesuah mab Iosadac:" cymharer *Ezra* iii. 2, 8; v. 2, â *Hag*. i. 1, 12, 14; ii. 2, 4, 23. Gwelir fod y ddau ysgrifenydd yn gyffredin yn eu henwi ynghyd, ac yn yr un drefn. Nid yw Zechariah, ar y llaw arall, yn eu henwi o gwbl gyda'u gilydd; ond eu galw yn syml y mae efe yn Zorobabel ac Iesuah. Yn vi. 11, yn unig y mae yn chwanegu "Mab Iosadac."

3. Y mae y dysgrifiad yn *Ezra* v. 1, 2, o'r effaith a gafodd pregethiad Haggai a Zechariah ar Zorobabel, Iesuah, a'r bobl, yr un a *Hag*. i., ond yn unig wedi ei dalfyru. Mae *Hag*. ii. 3, yn cyfeirio at yr amgylchiad a gofnodir yn *Ezra* iii. 12

4. Y mae y ddau ysgrifenydd yn nodi amser y gweithrediadau a gofnodant wrth flwyddyn "Darius y brenin;" *Ezra* iv. 24; vi. 15: a chymharer *Hag*. i. 1; ii. 10, &c.

5. Y mae *Ezra* iii. 8, yn cynnwys yr un rhifiad o'r rhai a weithiasant, sef "Zorobabel, Iesuah, a'r *rhan arall* o'u brodyr," megys *Hag*. i. 12, 14, lle y ceir "Zorobabel, ac Iesuah, a holl *weddill* o'r bobl." Hefyd, cymharer *Ezra* vi. 16 â *Hag*. ii. 2.

6. Y mae y ddau ysgrifenydd yn defnyddio yr ymadrodd hwn, "gwaith tŷ yr Arglwydd" (*Ezra* iii. 8, 9: cymharer â *Hag*. i 14). A defnyddia y ddau yr ymadrodd hwn hefyd, "sylfaenwyd teml yr Arglwydd;" *Ezra* iii. 6, 10, 11, 12: cymharer â *Hag*. ii. 18.

7. Y mae y ddau ysgrifenydd yn ddiwahaniaeth yn defnyddio yr ymadroddion—"tŷ yr Arglwydd," a "theml yr Arglwydd;" ond y blaenaf yn llawer mynychach na'r olaf. Fel hyn, y mae yr ysgrifenydd yn Ezra yn defnyddio yr ymadrodd "y tŷ" bump ar hugain o weithiau, ar gyfer chwe gwaith y llefara am "y deml." Llefara Haggai am "y tŷ" saith waith, ond am "y deml" ddwywaith.

8. Y mae y ddau ysgrifenydd yn cyfeirio yn bennodol ac yn fynych at gyfraith Moses. Cymharer *Ezra* iii. 2, 3—6, 8, a vi. 14, 16—22, â *Hag*. i. 8, 10; ii. 17, 15—13, &c.

Y mae y fath debygoliaeth nodedig mewn dwy ran mor fyr o'r Ysgrythyr yn profi, fel y tybir, eu bod wedi eu cyfansoddi gan yr un ysgrifenydd. Ond ni ddylid cymhwyso y sylwadau uchod at *Ezra* iv. 6—23, yr hon adran sydd chwanegiad ymsangol gan awdwr llawer diweddarach, a wnaed dan deyrnasiad Artaxerxes Longimanus. Y mae'r casglydd, yr hwn a roddodd i mewn *pen*. ii.—ysgrif a wnaed dan deyrnasiad Artaxerxes, i egluro dychweliad y caethion dan Zorobabel—yn gwneyd sylw yma o ddau amgylchiad hanesyddol, un o ba rai a ddigwyddodd dan deyrnasiad Xerxes, a'r llall dan deyrnasiad Artaxerxes, er egluro y gwrthwynebiad a roddwyd gan y Cenedloedd i ail adeiladu y deml yn nheyrnasiad Cyrus a Cambyses. *Dywed* eu bod, yn nechreu teyrnasiad Xerxes—sef cyn i Esther fod mewn ffafr—wedi ysgrifenu i'w gynhyrfu yn erbyn yr Iuddewon: amgylchiad, yn wir, a ddichon fod wedi ei dueddu i wrandaw ar gynnygiad Haman; a rhydd destyn y llythyrau a ddanfonwyd at Artaxerxes, ac ateb Artaxerxes, ar sail pa rai y gwnaeth Rehum a Simsai wrthwynebiad cadarn i'r Iuddewon ail adeiladu y ddinas. Y mae yn ddiammheu i'r llythyrau hyn ddyfod i ddwylaw Ezra yn Babilon: ac arweiniasant, fe ddichon, i'r ymdrechion a wnaeth efe er gogwyddo y brenin o blaid Ierusalem, yr hyn a derfynodd yn ei awdurdodiad ef ei hun yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad y brenin hwnw. Yn *adn*. 24, y mae hanes Haggai yn myned yn mlaen mewn cyssylltiad âg *adn*. 5. Y mae y crybwylliad am Artaxerxes yn *pen*. vi. 14 o'r un natur. Gwaith Ezra ei hun yw y pedair pennod olaf, yn dechreu â *pen*. vii., gan barhau yr hanes ar ol yr ysbaid o ddeunaw mlynedd a deugain—o'r chweched i Darius, hyd y seithfed i Artaxerxes. Yr unig hanes am Iudea yn ystod y cyfwng yma ydyw yr hyn a roddir yn y rhan ymsangol a nodwyd; oddi wrth yr hwn y gellir casglu nad oedd neb yn Palestina yn yr adeg hono i ysgrifenu y Croniclau. Rhoddir hanes yr Iuddewon yn Persia ar yr un cyfnod yn Llyfr Esther.

Dywedir gan rai nad ydyw testyn Llyfr Ezra mewn sefyllfa dda:—fod llawer o lygriadau amlwg yn yr enwau a'r rhifau, ac fe allai mewn rhai pethau ereill hefyd. Y mae wedi ei ysgrifenu mewn rhan yn Hebraeg, ac mewn rhan yn y Galdaeg. Y mae y Galdaeg yn dechreu yn *pen*. iv. 8, ac yn parhau hyd ddiwedd vi. 18. Yn y Galdaeg wreiddiol hefyd y rhoddir llythyr neu gyhoeddiad Artaxerxes: vii. 12—26. Ni bu dim ammheuaeth o bwys erioed ynghylch canoneiddrwydd Llyfr Ezra, er nad oes dyfyniadau o hono i'w cael yn y Testament Newydd.

Digitized by Google

Ystyrir fod y cyfnod a gymmer Llyfr Ezra i mewn yn bedwar ugain mlynedd—o'r flwyddyn gyntaf i Cyrus, 536 c. c., hyd ddechreu yr wythfed flwyddyn i Artaxerxes, 456 c. c. Cynnwysa lywodraethiad Zorobabel ac Ezra, archoffeiriadaeth Iesuah, Ioiacim, a rhan o Eliasib, a theyrnasiad y brenhinoedd canlynol:—

| | Blyn. | Mis. |
|---|---|---|
| Cyrus ... ... ... ... ... ... | 7 | 0 |
| Cambyses ... ... ... ... ... | 7 | 5 |
| Magus, neu y Ffug-Smerdis... ... | 0 | 7 |
| Darius Hystaspis ... ... ... | 36 | 0 |
| Xerxes ... ... ... .. ... ... | 21 | 0 |
| Artaxerxes (yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad yr hwn y terfyna cofnodion Ezra) ... ... ... | 8 | 0 |
| Blynyddoedd ... ... ... | 80 | 0 |

Y mae dechreu Llyfr Ezra yn cyttuno air yn air â diwedd Ail Lyfr y Cronicl, ac yn terfynu yn ddisymmwth, fel y crybwyllwyd o'r blaen, â hanes ysgariad yr Iuddewon a'r gwragedd dyeithr a briodasant; yr hyn a wnaed trwy awdurdod Ezra. Gan nad oes i Lyfr Ezra derfyniad rheolaidd, ystyrid ef er yn foreu fel yn ffurfio rhan o Lyfr Nehemiah, cynnwysiad yr hwn sydd gyffelyb iddo. Ond gan mai casgliad o gofnodau am bethau hynod a digyssylltiad a ddigwyddasant ar ddiwedd y caethiwed, ac yn ebrwydd ar ol hyny, ydyw Llyfr Ezra, heb fod un ymgais at gyfansoddiad celfydd ynddo, nis gellir ystyried ei fod heb derfyniad rheolaidd fel yn ddigon o reswm i'w olygu fel y rhan gyntaf o Nehemiah. Pa fodd bynag, y mae yn debyg mai tebygrwydd cynnwysiad llyfrau Ezra a Nehemiah a fu yr achos iddynt gael eu rhoddi ynghyd yn y Beibl Hebraeg.

Y mae trefniad y digwyddiadau sydd yn Llyfr Ezra yn amseryddol. Gellid dosbarthu y llyfr yn ddwy ran—y gyntaf yn cynnwys *pen.* i.—vi.; lle y ceir hanes dychweliad y caethion ac ail adeiladiad y deml, ac yn cynnwys yr ysbaid o'r flwyddyn gyntaf i Cyrus, 536 c. c., hyd y chweched flwyddyn i Darius Hystaspis, 515 c.c.

Yr ail ran a gynnwys hanes personol Ezra yn ymfudo i Palestina, yn y seithfed flwyddyn i Artaxerxes. Hunan-gofiant ydyw y rhan olaf hwn, yn cynnwys *pen.* vii.—x. o Ezra, am yr ystod o ddeuddeg neu dri mis ar ddeg, yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Artaxerxes Longimanus.

Heb law y llyfr hwn sydd wedi bod dan sylw —yr unig lyfr a dderbyniwyd dan yr enw yma i'r canon Hebraeg—rhoddwyd yr enw Ezra ar dri o lyfrau eraill hefyd; sef, ar Nehemiah, ac ar ddau lyfr Esdras, sydd yn yr Apocrypha. Gwel ESDRAS.

EZRAHIAD [אזרחי=*dyeithr; ὁ Ζαρίτης*]: enwad neu deitl a gyssylltir wrth ddau berson, sef Ethan (1 *Bren.* iv. 31; *Salm* lxxxix. teitl), a Heman (*Salm* lxxxviii. teitl). Y mae y gair yn deilliaw yn naturiol o Ezrah, neu o Zerac, yr hwn sydd bron yr un peth yn yr Hebraeg; ac am hyny, yn 1 *Cron.* ii. 6, dynodir Ethan a Heman fel meibion Zerah, mab Iudah. Y mae Ethan a Heman arall yn cael eu henwi yn y rhestr yn 1 *Cron.* vi., ac mewn manau eraill.

EZRI [עזרי=*fy nghymmhorth*; Εσδρι]: mab Celub, arolygwr y brenin Dafydd "ar weithwyr y maes, y rhai oedd yn llafurio y ddaear;" 1 *Cron.* xxvii. 26.



EDEYRN DAFOD AUR.—Ffug enw yr hen Rammadegwr Cymreig oedd "y Tafod Aur;" a gelwid ef felly am yr un rheswm, mae'n debyg, ag y gelwid un o'r hen dadau eglwysig yn "Ioan Aurenau." Tua'r flwyddyn 1270 y cyfansoddodd Edeyrn ei Rammadeg, meddir. Dywedir fod Geraint Fardd Glâs wedi cyfansoddi Rheithiadur Cerddorol yn mhell cyn hyny; a bod Einion Offeiriad wedi chwanegu at waith Geraint; ac mai oddi wrth hyny y tynodd Edeyrn ei Ddosbarth. Dosbarth ar y llythyrenau Cymreig, yr ymadroddion, a mesurau Cerdd Dafod, ydyw. Cyfansoddwyd ef ar orchymyn a dymuniad y tri arglwydd canlynol:—Llywelyn ab Gruffydd, Tywysog Aberffraw, brenin Cymru; Rhys Fychan, Arglwydd Dinefwr ac Ystrad Tywy; a Morgan Fychan ab Morgan ab Caradog ab Rhydderch ab Caradog ab Iestyn ab Gwrgant, arglwydd y cyfoeth rhwng Nedd ac Afan, a Chilfai, ac arglwydd Penrhaith Morganwg. Cyhoeddwyd yr hen Ddosbarth yn Llanymddyfri, o dan olygiad Ab Ithel, yn 1856; ond lled ddiwerth ydoedd pan yr ystyrir ei fod yn Rammadeg Cenedlaethol y Cymry, yn ol rhaith gwlad ac arglwydd.

EDNYFED FYCHAN. Cadlywydd enwog, a gwladweinydd galluog, i'r tywysog Llewelyn ab Iorwerth ydoedd. Disgynodd o Marchudd ab Cynan, penaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Tregarnedd oedd enw ei brif balas, ar lan yr afon Cefni, yn Môn; a dywedir fod ei ddylanwad a'i gyfoeth wedi bod yn fawr yn y wlad hono. Cafodd ei ddanfon gan ei dywysog yn gadflaenor ar fyddin o Gymry, i amddiffyn y cyffiniau rhag y Saeson; y rhai oeddynt, y pryd hwnw, dan lywyddiaeth Iarll Caerlleon. Llwyddodd Ednyfed i ladd tri o'u prif gadswyddogion, a lluoedd o filwyr cyffredin, ac i'w gorchfygu. O herwydd ei lwyddiant, parodd ei dywysog iddo ddwyn yn ei arfbais "ben tri o Saeson," fel arwydd o'i fuddugoliaeth. Bu ganddo ddwy wraig; sef, Gwenllian, merch Rhys, Tywysog y Deheubarth; o'r hon y ganwyd Goronw, arglwydd Trecastell, yn Môn; Gruffydd o'r Henglawdd; Iorwerth, arglwydd Abermarlais; Einion; Rhys; ac amryw ferched. Ei ail wraig oedd merch Llywarch ab Bran, o'r hon y ganwyd iddo Llywelyn, arglwydd y Creuddyn; Tudur, o'r Nant, a Llangynhafal; a Hywel, esgob Llanelwy. Olrheinia llawer o brif deuluoedd Gwynedd a'r Deheudir eu hachau iddo. Yr oedd Syr Gruffydd Llwyd, o Dregarnedd, yn orŵyr iddo; yr hwn a ddygodd y newydd am enedigaeth etifedd iddo i Iorwerth I. yn Nghastell Rhuddlan; sef, Iorwerth, II. tywysog cyntaf Cymru. Yr oedd Owen Tudur hefyd yn seithfed disgynydd o hono; ac felly yr oedd efe yn un o hynafiaid Cymreig Harri VII. Ac y mae gwaed Ednyfed Fychan, meddir, yn ngwythïenau y teulu brenhinol presennol.

EDWARDS, CHARLES. Efe oedd awdwr *Hanes y Ffydd Ddiffuant.* Ganwyd ef yn Rhyd-y-croesau, plwyf Llansilin, yn sir Ddinbych. Yr oedd efe yn ysgolhaig gwych, er nad oes sicrwydd iddo fod erioed yn Rhydychain; ac yr oedd yn ŵr o dalentau disglaer, yn awdwr Cymraeg rhagorol, ac yn bryderus ynghylch lles ysbrydol ei gydwladwyr. Cafodd *Hanes y Ffydd* ei gyhoeddi gyntaf yn Llundain, yn 1671, yr hyn oedd saith mlynedd ar hugain wedi marwolaeth y Ficer Pritchard o Lanymddyfri,

Digitized by Google

a dwy flynedd a deugain cyn genedigaeth y Parch. Daniel Rowlands o Langeitho. Cafodd ail argraphiad o'r gwaith ei ddwyn allan yn Rhydychain, yn 1676; a thrydydd argraphiad yn y flwyddyn ganlynol. Cafodd amryw argraphiadau o'r llyfr eu cyhoeddi ar ol ei farwolaeth hefyd. Golygodd amryw lyfrau eraill hefyd; sef, *Diffyniad Ffydd Eglwys Loegr*, *yn* 1670, *Dadseiniad Meibion y Daran*, o waith Morus Cyffin; yr *Hyfforddiadau Cristionogol*, gan Thomas Gouge; *Ymarfer o Dduwioldeb*, *Llwybr Hyfforddi i'r Nefoedd*, ynghyd â *Llyfr y Resolution*. Dywedir iddo gymmeryd rhan hefyd yn nghyhoeddiad amryw lyfrau eraill. Llafuriodd lawer tuag at gyflenwi diffygion llenyddol ac ysbrydol ei gydgenedl; a bu dylanwad ei weithiau yn fawr arni er daioni. Y mae lle ei breswylfod, ac adeg ei farwolaeth, yn anhysbys.

EDWARDS, WILLIAM, Groeswen, Morganwg. Pont-wneuthurwr enwog ydoedd efe. Ganwyd ef yn y fl. 1719, mewn tyddyn o'r enw Bryn, yn mhlwyf Eglwys Ilan, neu Elian, yn Morganwg. Bu ei dad farw pan yr oedd efe yn ddwyflwydd oed; a gadawodd weddw, a thri mab, ac un ferch, ar ei ol—yr ieuangaf o ba rai oedd William. Ymroddodd y meibion hynaf i gynnorthwyo eu mam trwy drin y tyddyn; a chafodd William ei roddi mewn ysgol, yn yr hon y dysgwyd iddo ddarllen ac ysgrifenu ychydig yn Gymraeg; ac ymddengys mai dyna'r oll a ddysgodd. Dilynodd yntau esampl ei frodyr nes yr oedd efe yn 16eg oed; ond o herwydd y gallu oedd yn ymddangos ynddo i adeiladu ac i adgyweirio muriau, ymgymmerodd â'r alwedigaeth o adeiladydd, a daeth yn fuan yn enwog gyda'r gwaith. Cafodd fanteision yn fuan i weled gweithwyr celfydd yn y gymmydogaeth, a sylwodd yn fanwl arnynt, ac ar eu harfau. Erbyn iddo gyrhaedd 27ain oed, yr oedd ei enwogrwydd mor adnabyddus fel y dewiswyd ef i gynllunio pont dros yr afon Taf, ac i wneyd y gwaith. Y telerau ar ba rai y cynnygid y gwaith oedd, cael pont a safai am saith mlynedd; a gadawyd i'r cymmerydd ddefnyddio y cynllun a farnai oreu. Yr oedd yr anturiaeth yn un fawr, gan fod y ffrwd yn y fan hono yn rhedeg yn gyflym; ac yr oedd yr afon hefyd yn ddarostyngedig i godi yn uchel ar amserau—a hyny yn gyflym iawn. Dechreuodd ar y gwaith yn 1746, a gorphenodd hi yn yr adeg a bennodwyd. Yr oedd y bont yn cynnwys tri bŵa; a barnai gŵyr cyfarwydd ei bod yn un o'r rhai rhagoraf, os nad yr oreu oll yn y Dywysogaeth. Yn anffodus, o herwydd fod llifeiriant ofnadwy yn yr afon, a choed wedi eu dadwreiddio gan y storm, ac wedi eu cario yn erbyn y bont, cododd y dwfr, a chariwyd hi ymaith yn mhen dwy flynedd a hanner ar ol ei hadeiladu. Ymosododd ar y gorchwyl eilwaith; ac yn hytrach na'i gwneyd o dri bŵa, penderfynodd na chai y nesaf fod ond yn un bŵa, er fod yn rhaid i'r bŵa fod yn 140 troedfedd, ac yn 35 troedfedd o uchder. Pan yr oedd hon drachefn ar gael ei gorphen, yn 1751, siomwyd ef eilwaith, trwy fod pwysau y gwaith ceryg wedi gwthio y maen clô o'i le; ac mewn canlyniad, syrthiodd yr holl adeilad i'r afon islaw. Er hyn i gyd, ni orchfygwyd ei ysbryd; ond derbyniodd addysg oddi wrth yr amgylchiad, a daeth yn fwy celfydd yn ei alwedigaeth. Ymroddodd y drydedd waith ar y gorchwyl, yn ol cynllun yr ail bont; ond fod gwelliant bychan wedi ei wneyd ynddi; sef, fod tri o dyllau crynion, agored, yn mhob talcen o honi, er ysgafnhau y pwysau; ac yr oeddynt gyda hyny yn chwanegu at harddwch y gwaith. Gorphenwyd hon yn 1755; sef, yn mhen naw mlynedd o ddechreuad y gyntaf; ac y mae hi yn sefyll hyd heddyw —yn addurn i'r rhan hono o'r wlad, ac yn anrhydedd i athrylith alluog ac ysbryd anorchfygol yr adeiladydd ieuangc o'r Groeswen. Gelwir hi yn 'Pont-y-pridd.' Ac hyd nes yr adeiladwyd pont Caerlleon, yn y flwyddyn 1830, rhychwant hon oedd y fwyaf oedd yn adnabyddus o fewn y byd.

Cododd y bont uchod William Edwards i enwogrwydd; a daeth galwadau mynych am ei wasanaeth. Y bont nesaf a adeiladodd oedd dros yr Wysg, yn sir Fynwy—un fawr a hardd iawn. Ar ol hyny cododd y rhai canlynol:—pont tair bŵa dros yr afon Tawy—sef, Pont-ardawe—dros yr un afon, tua deng milldir uwch law Abertawe; Pont y Bettws, yn sir Gaerfyrddin; Pont Llanymddyfri, yn yr un sir; Pont Wychbri, yn ymyl Treforris; Pont Aberafon, yn Morganwg; a Phont Glasbury, ger llaw Hay, yn sir Frycheiniog, dros yr Wy—yr hon sydd yn bum bŵa, yn un ysgafn a hardd iawn o wneuthuriad.

Yr egwyddorion a gadwai mewn golwg wrth adeiladu y pontydd—yn enwedig ar ol y rhai cyntaf—oedd y rhai canlynol:—eu bod yn gadael y ffyrdd mor wastad ag oedd yn bossibl, er hwylusdod i'w croesi; eu cael mor lydain ag y gellid, er caniatau pob rhwyddineb i'r llifogydd; a gwneyd yr holl waith yn gadarn, fel y gallent barhau. Y mae craffder a meddwl ymarferol William Edwards i'w canfod yn amlwg yn yr ammodau hyn; ac yn enwedig pan y meddylir ei fod yn anterth ei boblogrwydd tua saith ugain mlynedd yn ol.

Ond nid adeiladu pontydd oedd ei unig orchwyl. Yr oedd ganddo dyddyn yn cael ei drin ar hyd ei oes; ac ar y Sabbothau, byddai yn pregethu i wahanol gynnulleidfaoedd yr Annibynwyr. Dechreuodd bregethu pan yn 30ain oed; ac yn fuan ar ol hyny, dewiswyd ef yn weinidog i eglwys y Groeswen—yn yr hon yr oedd efe yn aelod. Yr oedd yn ŵr cyfrifol yn mhob ystyr yn ngolwg pawb a'i hadwaenai.

Bu farw yn 1789, yn 70ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Ilan. Yr oedd ganddo chwech o blant—pedwar o feibion, a dwy ferch; a dywedir fod yr un gallu i adeiladu pontydd yn ymddangos yn ei ail fab, Dafydd, ag oedd yn hynodi ei dad.

EIDIOL GADARN. Iarll Caerloyw. Efe, yn ol y *Brutiau*, oedd yr unig Frython a ddiangodd o'r wledd a elwir "Brad y Cyllill Hirion," tua'r flwyddyn 460. Dywedir mai fel hyn y bu. Yr oedd Hengist wedi cynllunio dinystr y pendefigion Brutanaidd, gyda'r bwriad o gael coron Prydain iddo ei hun; ac wedi parotoi gwledd fawr ger llaw Gwaith Emrys (*Stonehenge*), yn yr hon yr oedd tua thri chant o Frythoniaid, a'r un nifer o'i swyddogion ef. Gorchymynodd i'w swyddogion gymmeryd dagr bob un yn ei lawes i'r wledd; a phan y rhoddai efe yr arwydd, yr oedd pob un i blanu ei ddagr yn nghalon y Prydeiniwr agosaf ato. O dan gochl o gyfeillgarwch gyda Gwrtheyrn, llwyddodd gydag ef i gael gan y Saeson a'r Brythoniaid i eistedd bob yn ail wrth y bwrdd; a phan yr oedd pawb yn ei afiaeth, neidiodd Hengist

Digitized by Google

ar ei draed, a gwaeddodd! Ar hyny, syrthiodd pob Brython, ond Gwrtheyrn ac Eidiol yn unig, yn aberth i'r fradwriaeth. Llwyddodd Eidiol i gael gafael ar ddarn o bren oedd o dan ei draed, a lladdodd tua thrigain o Saesoniaid yn feirw; a diangodd rhag dialedd y gweddill. Cafodd Eidiol gyfleusdra i ddial ei gam; o blegid, mewn brwydr a gymmerodd le yn fuan ar ol hyny, cymmerodd Hengist yn garcharor, a thorodd ymaith ei ben. Dywed y *Trioedd* ddarfod iddo ladd 660 o'r Saeson "yn mrâd Caersallwg, â chogail gerdin, o fachlud haul hyd yn nhywyll." Tybia Davies, yn "*Myth. of the Druids*," mai yr un ydyw Eidiol ag Emrys Wledig (*Aurelius Ambrosius*). Gelwir ef gan Taliesin yn Eidiol ab Nêr; ond nid ydyw hyn ond barddoniaeth, i ddangos ei gryfder a'i allu rhyfeddol. Nid ydyw Nennius, wrth sôn am y gyflafan, yn enwi Eidiol; ond y mae hynafiaethwyr Saesnig yn cydnabod yr enw, Eldol, neu Edol; ac yn dyweyd ei fod yn iarll Caerloyw yn 461.—Gibson's "*Camden*;" Dugdale's "*Baronage*."

ELLIS, Parch. DAFYDD. Ganwyd ef yn Hafod-y-meirch, yn mhlwyf Dolgellau, yn 1739; a derbyniodd ei addysg dan Edward Richard, yn Ystrad Meurig, yn sir Aberteifi. Bu yn gurad yn Llanberis, yn sir Gaernarfon; yn Llangeinwen, Môn; yn Derwen, yn sir Ddinbych; ac ar ol hyny yn Amlwch. Wedi hyny, cafodd barsoniaeth Llanberis. Bu farw Gorph. 1795, pan yn 56ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Criccieth. Llafuriodd gyda diwydrwydd mawr yn adysgrifenu gwaith yr hen feirdd allan o hen lyfrau oedd wedi hanner pydru, ac yn barod i gael eu llosgi. Gadawodd ei holl ysgrif-lyfrau prydyddol i Dafydd Ddu; yr hwn oedd yn gyfaill caredig iddo; a daethant wedi hyny i feddiant Owen Williams, o Waenfawr.

ELLIS, ELLIS OWEN. Awdwr *Oriel y Beirdd*. Ganwyd ef yn Bryn coch, yn mhlwyf Abererch, yn Eifionydd, yn 1813; a daeth i enwogrwydd fel arlunydd. Yr oedd ei dad, Owen Ellis, yn gallu olrhain ei achau o Blaidd Rhudd, pen un o bum costoglwyth Cymru; a Margred, merch i'r bardd enwog John Roberts (*Sion Lleyn*), oedd ei fam. Yn ieuangc, dadblygwyd tueddiadau cryfion a naturiol ei athrylith. Pan yn 14eg oed, rhwymwyd ef yn egwyddorwas o saer; ond ei hoff waith oedd tynu lluniau pob peth fyddent o'i gwmpas: ond ni chafodd nemawr o gefnogaeth gan ei rieni, na manteision chwaith i'w berffeithio ei hun yn y gelfyddyd.

Dywedir fod arlun a wnaeth efe wedi ei weled gan Syr R. W. Vaughan, o Nannau, a'i fod wedi ei foddio gymmaint ynddo fel y dygodd Ellis Owen Ellis i gydnabyddiaeth â Syr Martin Archer Shee, yr hwn oedd ar y pryd yn Nannau yn tynu llun y barwnig, i'w roddi yn neuadd y sir, yn Nolgellau. Er mwyn rhoddi prawf o'i allu i'r boneddwr hwn, tynodd lun Syr Robert ei hun; a digwyddodd un peth digrifol ar y pryd. Pan yr oedd Syr Robert yn eistedd ger bron y dyn ieuangc, gofynodd iddo "gau ei gêg." Iaith lled anfoesgar oedd hon, i'w harfer tuag at foneddwr; ond ar y pryd yr oedd yn angenrheidiol cael ganddo wneuthur hyny, er mwyn cael ffurf ei wyneb yn gywir. Chwarddodd y barwnig yn galonog; a dywedodd mai dyna oedd y tro cyntaf i neb erioed beri iddo "gau ei gêg." Dangoswyd ei waith i Syr Martin; a boddhawyd ef mor fawr ynddo fel y rhoddodd lythyrau iddo at rai o brif arlunwyr y brif ddinas. Aeth yno tua 1834, a chafodd dderbyniad croesawgar gan amryw o honynt; a daeth yn gydnabyddus â rhai o brif arlunwyr y blynyddoedd hyny. Ymgododd yn gyflym i sylw, a dangosodd amryw o'i ddarluniau yn Westminster, ac Exeter Hall; yn mysg pa rai yr oedd "Cwymp Llywelyn ein Llyw ola'," "Brwydr Morfa Rhuddlan," a "Charadog o flaen Cæsar yn Rhufain:"—yr oll o ba rai oedd yn hawlio sylw arbenig pawb a'u gwelsant.

Nid arosodd yn Llundain ond am ddwy neu dair blynedd. Daeth yn ol i Liverpool, a phriododd ferch ieuangc o'r enw Miss Sydney Griffiths, tua 1837. Gweithiai drwy y dydd fel asiedydd; ac yn y nos difyrai ei hun gyda'i ddarluniau. Ystyrir fod ei "Mawrth Ynyd;" "*Genius of the Fine Arts appearing to Leo* x.;" "Y Dewiniaid;" a'i "ddarlun o Dic Aberdaron," yn gynnyrchion rhagorol. Bu am amser byr ar ol hyny yn Llundain, yn y *Government School of Design*, yn ymberffeithio; ac ar ol dychwelyd adref, ymgymmerodd â phrif waith ei oes, sef "Oriel y Beirdd"—yr hon a gynnwysa arluniau tua chant o feirdd a llenorion Cymreig. Mesura y darlun tua phedair troedfedd wrth ddwy. Gwaith *crayon* ydyw. Yr oedd efe yn gydymaith dyddan, ac yn siaradwr doniol iawn. Wedi gorphen yr "Oriel," cymmerwyd ef yn glaf, a bu farw Mai 17eg, 1861, yn 48ain oed. Claddwyd ef yn hen fynwent Abererch, yn ol ei ddymuniad. Gŵr dysyml oedd efe, eiddil o gorph, ac yn crymu ychydig. Yr oedd ei wallt yn hir a garw, drwy yr hwn yr hoffai dynu ei fysedd yn fynych; ac yr oedd efe yn meddu ar lygad siriol. Yr oedd yn hynafieithydd Cymreig rhagorol, ac yn Gymro twymn-galon a gwladgarol; a meddai wybodaeth gyffredinol helaeth. Yr oedd beddargraph iddo yn un o destynau Eisteddfod Caernarfon; a'i hen gyfaill, Ioan Madog, a ennillodd y wobr.

EVANS, Parch. BENJAMIN. Yr oedd efe yn weinidog ar eglwys Annibynol y Drewen, yn sir Aberteifi. Ganwyd ef Chwefror 22ain, 1740, yn Ffynnon Adda, yn mhlwyf Meline, yn sir Benfro. Tyddynwr cyfrifol oedd ei dad; ac yr oedd efe yn ddiacon gyda'r Bedyddwyr yn Rhydwilym. Yr oedd ei fam yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Mrynberian. Dechreuodd bregethu pan tua 27ain oed; ac ar gais eglwys Annibynol Llanuwchllyn ymgymmerodd â bod yn weinidog arni yn 1769. Byddai yn fynych yn troi allan i bregethu yn y pentrefi di-grefydd yn y rhanau hyny o'r sir. Yn mysg manau eraill, aeth i Abermaw, lle yr ardrethodd dŷ i addoli. Ond gwrthododd yr ustusiaid drwyddedu y lle. Appeliodd yntau at yr awdurdodau yn Llundain am wŷs a elwir *mandamus* yn eu herbyn; a gorfodwyd hwynt, er eu gwaethaf, i ganiatau hyny iddo.

Cyfarfyddodd âg aml wrthwynebiad gan erlidwyr y blynyddoedd hyny. Un tro, pan yr oedd yn myned i bregethu i Ddolgellau, gosodasant dair o fenywod i'w wylio ar y bont, gyda'r amcan o'i daflu drosti i'r afon; a safai y dynion ger llaw i weled ac i fwynhau yr olygfa. Ond pan ddaeth efe ar y bont, a gweled eu hamcan, efe a'u cyfarchodd yn garedig a siriol; ac nis gallai un o honynt ei niweidio. Symmudodd o

Digitized by Google

Lannwchlyn o herwydd ei fod yn ofni fod sefyllfa y lle yn anfanteisiol i'w iechyd: a bu yn weinidog ar gynnulleidfa Saesnig yn Hwlffordd, yn sir Benfro, am ddwy flynedd. Ar ol hyny, symmudodd i eglwys Drewen, yn Mehefin, 1779, lle y llafuriodd gyda llwyddiant mawr. Yr oedd yr eglwys, ar ei ddyfodiad ati, yn llawn o syniadau Ariaidd ac Undodaidd; ond trwy ei bregethau, ei ymresymiadau, a'i weddïau, ennillodd oruchafiaeth arnynt. Ar ol hyny bu yn Hawen, a Glynarthen, a Phenrhiwgaled.

Dywed y Parch. D. Morgan fel hyn am dano, yn ei *Hanes Ymneillduaeth*:—

"Meddai wybodaeth helaeth iawn am bob pwngc a berthynai i'w weinidogaeth; yn ysgolhaig campus mewn amryw o ganghenau llenyddiaeth; yn fedrus i osod allan ei feddwl ar wahanol bethau yn ddawnus; yn draddodwr bywiog, hyawdl, synwyr-gall, a phwysig; ac yn orlawn o gariad a sêl dros lwyddiant teyrnas yr Arglwydd Iesu, ac iechydwriaeth ei gyd-ddynion."

Cyhoeddodd amryw lyfrau; sef, *Amddiffyniad i Fedydd Babanod; Holwyddoreg ar Egwyddorion y Grefydd Gristionogol*, &c.; *Sylwadau ar Ddadleuaeth yr Ariaid a'r Undodiaid*, &c. Bu farw Mawrth 2il, 1821, yn 81ain oed, a chladdwyd ef yn mynwent Hawen.

EDAR, TWR: lle nad ydyw yn cael ei enwi ond yn unig yn *Gen.* xxxv. 21. Yr oedd gorphwysfa gyntaf Iacob rhwng Bethlehem a Hebron, "tu hwnt i dŵr Edar." Yn ol Jerome, yr oedd yn fil o latheni o Bethlehem. Y mae yr enw yn arwyddo 'praidd,' ac y mae yn hollol gysson âg arferion bugeiliol y dosbarth. Y mae Jerome yn gweled ynddo brophwydoliaeth am yr hysbysiad o enedigaeth Crist, ac o'r bugeiliaid; ac ymddengys fod traddodiad Iuddewig fod y Messiah i gael ei eni yno.

EDWARDS, THOMAS *(Twm o'r Nant)*: prydydd nodedig yn ei ddydd. Ganwyd ef yn Pen-porchell Isaf, yn mhlwyf Llannefydd, ger Dinbych, yn y flwyddyn 1739. Yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, yr oedd yn hanu o deuluoedd hynafol o du ei dad a'i fam, er nad oeddynt hwy ond isel o ran eu hamgylchiadau a'u dysg pan y ganwyd eu mab Thomas, yr hwn oedd yr hynaf o ddeg o blant. Wedi bod o'i rieni yn Pen-porchell am dymmor byr ar ol priodi, symmudasant i le bychan ger llaw, a elwid Coed Siencyn, lle yr arosasant oddeutu blwyddyn. Yna daethant i'r Nant Ganol—fferm fechan ar derfyn plwyf Henllan, heb fod yn mhell o Nantglyn. Yr oedd yn y Nant Uchaf ddau o blant, ac enw un o honynt yn Thomas, ac elai plant y ddwy Nant at eu gilydd i chwareu. Er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt, galwyd un yn *Twm o'r Nant*, a'r llall yn *Thomas Williams;* ac o hyn y deilliodd y ffugenw a fabwysiadwyd ganddo ef ar ol hyn. Addysgwyd ef gan ei fam pan yn blentyn i beidio tyngu na chablu trwy gymmeryd enw Duw yn ofer; ac ymddengys iddo gofio yr addysg yma ar hyd ei oes. Pan oedd Thomas Edwards o ddeutu saith oed, sefydlwyd ysgol râd yn Nantglyn, a chafodd ei anfon yno i ddysgu y llythyrenau. Nid oedd wedi bod yno nemawr o amser na chafodd y frech wen; ac erbyn iddo wellhau, tybiai ei rieni ei fod yn rhy gryf i fyned i'r ysgol eilwaith, ac mai gwell iddynt hwy oedd cael ei wasanaeth ar y fferm. Pa fodd bynag, pan oedd tuag wyth oed, bu yn yr ysgol drachefn am dair wythnos; ac wedi medru sillebu a darllen ambell air, yr oedd yn awyddus iawn am ddysgu ysgrifenu. Yr oedd ei alluoedd dyfeisiol ar waith yn ceisio cael defnyddiau ysgrifenu; a'r ffordd a gymmerai i wneuthur ingc oedd gwasgu ffrwyth yr ysgaw, ac ysgrifenu â hwnw ar ochrau dalenau y llyfrau y digwyddai iddo gael gafael ynddynt. Tua'r pryd hwn aeth masnachdy ar dân yn Ninbych; a phrynodd ei fam, yn yr arwerthiad a wnaed ar yr eiddo a waredwyd, ychydig leni o bapur, y rhai yr oedd eu cornelau wedi llosgi, a gwnodd hwynt i fyny yn gopi iddo. Aeth yntau at gymmydog i geisio gan hwnw ysgrifenu llythyrenau y wyddor ar ben uchaf y dalenau; ac fel hyn daeth yn alluog i ysgrifenu yn weddol. Yr oedd wedi ysgrifenu amryw gerddi cyn bod yn naw oed. Yr oedd yn ddiwyd anghyffredin gyda'r gorchwyl hwn. Pan ddeuai oddi wrth ei waith i'w brydau bwyd, ysgrifenu a wnelai, heb fwyta, nes y byddai yn amser troi i'r maes yn ol; ac ni byddai ganddo i'w wneuthur ond cipio tamaid o fara ac ymenyn yn ei law. Dygai hyn ef i flinder yn fynych, o herwydd nid oedd ei dad yn cymmeradwyo ei ddull o gario yn mlaen; ac wedi ei geryddu gan ei dad yn y maes un diwrnod, efe a aeth adref, ac a losgodd becyn o'i ysgrifeniadau. Yr oedd tua deg oed y pryd hwnw. Yn mhen rhyw gymmaint ar ol hyn, anfonwyd ef i Ddinbych am bythefnos i ddysgu Saesneg.

Ymffurfiodd saith o ddynion ieuaingc Nantglyn yn gwmni i chwareu Interliwd, ac aeth Thomas Edwards gyda hwynt i gymmeryd rhan yn y chwareyddiaethau hyn. Gwnaeth Interliwd gyflawn ei hun cyn bod yn bedair ar ddeg oed, yr hon a roddodd efe i Hugh o Langwm. Aeth yn mlaen i gyfansoddi rhai eraill yn y blynyddoedd dilynol, y rhai a chwareuid yn y pentrefi cylchynol. Parhaodd i ysgrifenu a chwareu Interliwdiau nes bod o ddeutu un ar hugain oed, pan y darfu iddo, o herwydd ei fod yn teimlo euogrwydd cydwybod roddi y gwaith i fyny. Yn mis Chwefror, 1763, aeth i'r ystâd briodasol. Bu yn byw am ychydig amser ar dyddyn bychan ger llaw y Bylchau; ond symmudodd oddi yno i'r Alafowlia, yn agos i'r dref hon. Arosodd yno am ddwy flynedd; ac yr oedd yn ystod yr amser hwn yn cario coed o Waenynog i Ruddlan; ac ymddengys ei fod yn dra medrus gyda'r gwaith o'u llwytho. Yn ol ei dystiolaeth ei hun, efe oedd y cyntaf a ddyfeisiodd y ffordd i lwytho coed gyda'r *crane*: yr hyn oedd yn welliant mawr ar yr hen ddull o arfer trosolion. Tua'r adeg hon y cyfansoddodd efe yr interliwd ar "Weledigaeth Cwrs y Byd," a bu yn ei chwareu yn swydd Fflint. Yn fuan wedi hyny, cyfansoddodd un arall, â'i thestyn oedd "Ynghylch Cyfoeth a Thlodi;" a thrachefn, "Y Brenin a'r Ustus," a'r "Esgob a'r Hwsmon"—y rhai a werthent yn hwylus. Wedi rhoddi y chwareu heibio, medrodd godi gwedd i gario o Gaer i Ddinbych; ac yr oedd yn gwneyd bywoliaeth led gysurus y pryd hwn. Trodd, pa fodd bynag, at ei hoff waith o gario coed drachefn. Yna symmudodd i swydd Drefaldwyn, a dilynodd yr un gorchwyl yno. Aeth oddi yno i sir Gaerfyrddin. Gwnaeth wrhydri yn y rhan hono o'r wlad gyda'r hen alwedigaeth; ond bu raid iddo roddi y gwaith o gario coed i fyny yno, gan fod ei amgylchiadau yn dyrysu; ac aeth i gadw toll-borth, heb fod yn mhell o Landeilo Fawr. Credai mewn gweledigaethau ac ysbrydion, fel y dengys y dyfyniad

Digitized by Google

canlynol o'r hanes, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun :—

"Mi a welais fy hun, ryw noswaith, *hearse* yn myned trwy y *gate*, a hithau yn nghauad; a gweled y ceffylau a'r *harness*, y *postilion*, a'r *coachman*, a siobau rhawn fydd ar dopiau *hearses*, a'r olwynion yn pasio y ceryg yn y ffordd fel y byddai olwynion eraill; a'r claddedigaeth yr un modd, mor debyg, yn elor ac yn frethyn du—neu, os rhywun ieuangc a gleddid, byddai fel cynfas wen: ac weithiau y gwelid canwyll gref yn myned heibio. Unwaith, pan alwodd rhyw drafaeliwr yn y *gate*, 'Edrychwch acw,' eb efe, 'dacw ganwyll gorph yn dyfod hyd y caeau a'r ffordd fawr ger llaw.' Felly ni a ddaliasom sylw arni yn dyfod, megys o'r tu arall i'r lan; weithiau yn agos i'r ffordd, waith arall ennyd yn y caeau; ac yn mhen ychydig, bu raid i gorph ddyfod yr un ffordd ag yr oedd y ganwyll; o blegid fod yr hen ffordd yn llawn o eira. A thro arall rhyfedd, am hen ŵr o Gaerfyrddin, a fyddai yn cario pysgod i Aberhonddu, a'r Fenni, a Mynwy, ac yn dyfod â *Gloucester cheese* teneuon ganddo yn ol:—yr oedd fy mhobl i yn gwybod ei fod ef ar ei daith, ac yr oedd yr hin yn ddrycinog iawn, o wynt ac eira lluchio; a chanol y nos, fe glywai fy merched i lais yr hen ŵr yn y *gate;* a'u mam a'u galwodd hwynt i agor ar frys, ac erchi ar i'r hen ŵr ddyfod at y tân. Codi a wnaeth y ferch; ond erbyn myned allan, nid oedd yno neb: a thranoeth dyma gorph yr hen ŵr yn dyfod ar drol, wedi marw yn yr eira ar fynydd Tre'r Castell :—a dyna'r gwir am hwnw. Llawer yn rhagor a ellid adrodd o'r fath bethau; ond nid ydynt ddim gwerth eu hadrodd, am nad oes fawr a'u coeliant."

Cymmerodd dŷ i'w ferched i gadw tafarn yn Llandeilo, ac ymaflodd yntau drachefn yn y gwaith o gario coed. Er mor fedrus oedd Thomas Edwards gyda'r gorchwyl hwn, yr oedd yn anffodus yn ei amgylchiadau. Efe a fethodd yn ei amgylchiadau o leiaf bedair gwaith; ac nid rhyfedd, o herwydd bu farw tua hanner cant o'i geffylau yma, yn Ninbych, a saith ar hugain yn sir Gaerfyrddin, naill ai mewn canlyniad i ddamweiniau neu afiechyd. Daeth o'r Deheudir, ac ymsefydlodd yn Ninbych drachefn; ac yma y trigiannodd efe hyd ddiwedd ei oes. Nid oedd ganddo na cheffyl na mèn yn dyfod yn ol; a throdd drachefn at y gwaith o chwareu interliwdiau, fel y buasai o'r blaen. Yr oedd gan ei dad dŷ, ac ychydig o dir, rhwng Nantglyn a Llansannan; a phan y bu efe farw, darfu i ryw gyfreithiwr o'r dref hon gymmeryd meddiant o honynt am ryw hen ddyled, a throwyd mam y bardd allan. Yn fuan ar ol hyny, clafychodd y cyfreithiwr, ac anfonodd Twm lythyr caled ato; a bu farw, meddir, dan ysgrechian, "Ow! y tir i Twm o'r Nant;" ac felly y bu. Trodd yn saer maen yn niwedd ei oes, a chadwai weithwyr. Bu ar ymweliad â'r gwladgarwr enwog, Mr. W. A. Maddocks, yn Nhremadog, am ryw dymmor, a mynodd y boneddwr arlunydd i dynu darlun o hono; a dywedir ei fod yn un hynod gywir. Pan ddychwelodd yn ol i Ddinbych, yr oedd ei iechyd yn gwanhau; a bu farw y 3ydd o Ebrill, 1810, yn 71ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent yr Eglwys Wen, a rhoddodd Cymdeithas Gwyneddigion Llundain gôf-faen marmor coffadwriaethol iddo oddi mewn i'r eglwys. Yr oedd wedi dechreu parotoi careg fedd iddo ei hun, ac wedi tori y tri gair canlynol arni:—"Llyma y claddwyd." Y mae y geiriau hyn ar un pen i'r gareg yn awr, a'i feddargraph yn gyflawn wedi ei gerfio ar y pen arall.

Nid oes dadl nad oedd Thomas Edwards yn feddiannol ar athrylith fawr, arabedd parod, ac awen gref iawn. Mewn rhai ystyron yr oedd yn mron ar ei ben ei hun yn mysg beirdd ei wlad. Gelwid ef yn fynych '*y Shakespeare Cymreig;*' ond wrth gwrs, yr oedd hyn yn ormod o ganmoliaeth iddo. Eraill, gyda llawn mwy o brid-oldeb, fe allai, a'u cymmharent i Aristophanes, y bardd Groegaidd, am fod y naill a'r llall yn ysgrifenu yn geryddol yn fynych; ac yr oedd Aristophanes yn dra phoblogaidd gyda'r werin, fel Twm o'r Nant. Nid oedd y naill na'r llall yn hynod am burdeb eu chwaeth; ond yn hytrach i'r gwrthwyneb—ymostyngent yn fynych i gyfarfod chwaeth anghoeth y bobl. Modd bynag, nid oes dadl na ddarfu i Twm o'r Nant wneyd llawer o les yn ei ddydd, yn ei ffordd ef. Trwy gyfrwng ei duchangerddi llymion, a'i interliwdiau miniog, efe a geryddodd ac a gywilyddiodd gybyddion a chribddeilwyr crafangol, offeiriaid annuwiol a gormesol, cyfreithwyr, a goruchwylwyr anghyfiawn ei oes. Ac yr oedd ei arswyd yn fawr arnynt i gyd.

EDWARDS, THOMAS *(Caerfallwch)*: yr hwn a anwyd yn niwedd y flwyddyn 1779, o fewn tref-ddegwm Caerfallwch, yn mhlwyf Llaneurgain, sir Fflint. Cafodd addysg led dda, ac ystyried amgylchiadau ei rieni, a chyflwr isel addysg pan yr oedd efe yn fachgen. Pan yn 14eg oed, rhwymwyd ef gyda chyfrwywr a breswyliai yn y Wyddgrug. Gan fod ei feistr yn derbyn newyddiaduron Saesnig, ac yn feddiannol ar nifer lled dda o lyfrau, cafodd gryn gyfleusderau i gasglu gwybodaeth. Ar ol gorphen ei amser yn y fan hon, cerddodd ef, a chyfaill iddo, i Lundain i ymofyn am waith; ond methasant a chael dim: felly gorfu arnynt gerdded adref dan gardota. Pan yr oedd Thomas Edwards tuag un ar hugain oed, priododd Miss Margaret Jones, o Dre-llyniau, yn mhlwyf Helygen. Gan iddo dderbyn rhyw gymmaint o gynnysgaeth gyda hi, galluogwyd ef i ddechreu masnach fel cyfrwywr; ond yn 1802, rhoddodd i fyny yr alwedigaeth hono, a chymmerodd swydd fel ysgrifenydd mewn gwaith glô yn Llaneurgain. Yn 1803, ail briododd â Miss Wynn, o Laneurgain; o'r hon y cafodd saith o blant. Yn y flwyddyn 1806, dyrchafwyd ef gan un o berchenogion y gwaith glô i'w prif cyfrif-dŷ yn Llundain; ac yn 1815 aeth yn ysgrifenydd i swyddfa y diweddar Mr. N. M. Rothschild, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth. Tra y bu yn ngwasanaeth y gŵr hwn, cafodd Thomas Edwards gyfleusderau i weled cryn lawer ar y byd, gan y byddai yn fynych yn myned gyda'i feistr i'r Cyfandir i drin achosion arianol. Gwnaeth unwaith gymmaint o wasanaeth i'r cwmni yn yr Almaen fel y cafodd fil o bunnau yn anrheg ganddynt. Priododd Thomas Edwards drachefn, y drydedd waith, â Miss Webster, o'r Fynachlog, Llaneurgain; a bu iddynt saith o blant o'r briodas hon. Bu farw yn Llundain, Gorphenaf 4ydd, 1858, a chladdwyd ef yn mynwent Highgate.

Er i Caerfallwch dreulio y rhan fwyaf o'i oes yn Lloegr, etto ni chollodd ei gariad at ei wlad, ei genedl, a'i iaith. Ysgrifenodd ddarnau barddonol rhyddieithol i'r cyhoeddiadau Cymreig—ar y cyntaf, dan yr enwau "T. ap Edwart ap Eurgain," a "Zabulonum Caerludd;" ac yn ddiweddarach, dan yr enw "Caerfallwch." Nid oedd yn rhagori fel bardd; ond y mae ei draethodau ar yr Iaith Gymraeg yn werth eu darllen. Yr oedd yn bleidiwr cryf i orgraph Dr. Pughe. Yn 1845, cyhoeddodd lyfr â'i enw "*Analysis of*

*Welsh Orthography;*" ond ei waith penaf oedd ei "Eiriadur Saesneg a Chymraeg," yr hwn a gyhoeddwyd yn 1850, gan Mr. P. M. Evans, o Dreffynnon. Y diffyg y ceisiai ei lanw yn benaf yn y geiriadur oedd cael geiriau Cymreig pur am eiriau Saesnig perthynol i'r celfyddydau.

Yr oedd Caerfallwch yn ddyn prydweddol, hawddgar, elusengar, a diargyhoedd. Arferai wrandaw ar y cyntaf yn hen gapel Methodistaidd Jewin Crescent; ond yn 1829, o herwydd arferiad ammhriodol o awdurdod ychydig o wŷr blaenaf y cyfundeb, o herwydd ei olygiadau ef ac eraill, yn yr eglwys hono, ynghylch rhyddfreiniad y Pabyddion, gadawodd yr enwad, a throdd at yr Annibynwyr.

EVANS, ROBERT, Llanrwst. Un o bregethwyr boreuol y Trefnyddion Calfinaidd oedd efe. Ganwyd ef yn y fl. 1750. Gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth, yn byw yn y Groesffordd, ger Llanrwst. Dechreuodd bregethu yn 1770. Yn ei weithdy ef y cyfarfyddai yr ychydig Fethodistiaid oedd y pryd hwnw yn y dref. Aflonyddwyd arnynt yn fynych yn eu cyfarfodydd crefyddol mewn modd annheilwng; a chyda hyny, ymosodwyd ar eu cymmeriadau, gan daenu chwedlau celwyddog am danynt. O herwydd y chwedlau annymunol a chelwyddog hyny, daeth ustus heddwch, o'r enw Mr. Cyffin, â haid o langciau aflywodraethus gydag ef, un noswaith, i'r cyfarfod eglwysig a gynnelid yn nhŷ Robert Evans. Ar eu dyfodiad i mewn, gofynai Mr. Cyffin, "Pa beth yr ydych yn ei wneyd yma?" "Cynghori ein gilydd ynghylch pethau bywyd tragwyddol," oedd yr atteb a gafodd yn fwynaidd. "Pa le y mae y 'Weddi dywyll' gen' ti?" ebai y boneddwr. "Yn wir, syr, bydd yn ddigon tywyll arnom yn fynych." "Wel (ebai Mr. Cyffin), a fedri di bregethu?" "Mi fyddaf yn arfer cynghori ychydig weithiau, syr," ebai yntau. "Wel, rhaid i ti bregethu i mi yn awr," ebai y boneddwr. Ei amcan oedd cael rhyw syniad am natur yr hyn a gymmerai le yno. Er ceisio ymesgusodi, bu gorfod arno wneyd; a phan ddisgynodd o'r pulpud, galwodd Mr. Cyffin ef ato, a chanmolodd ei bregeth yn fawr; a rhoddodd gini iddo—"am eich pregeth ragorol," meddai.

Yr oedd efe yn ddarllenydd mawr, yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau, ac yn bregethwr rhagorol. Dywedwyd mai efe a aeth gyntaf o Gymru i bregethu i'r ychydig Fethodistiaid oedd yn Llundain, tua'r flwyddyn 1782. Pan yn dychwelyd oddi yno yn Mai y flwyddyn hono, o herwydd rhyw annhrefn fu yn mysg y ceffylau oedd wrth y cerbyd, syrthiodd ar ei ben i lawr, a bu farw yn mhen ychydig funydau, pan nad oedd ond 32ain oed. Claddwyd ef yn barchus gan ei gyfeillion yn Llundain; ac anfonasant anrheg o 60*p.* fel arwydd o'u cydymdeimlad â'i weddw.

EVANS, SAMUEL. Ganwyd ef mewn tyddyn-dŷ o'r enw Llwyn Piod, ger St. Clears, yn sir Gaerfyrddin, yn 1793. Dysgodd y gelfyddyd o argraphu. Pan y bu Gomer farw, yn 1825, symmudwyd swyddfa y *Seren* o Abertawe i Gaerfyrddin; a bu raid i Mr. Samuel Evans ymgymmeryd â'i golygiaeth; a pharhaodd i wneyd hyny hyd y flwyddyn 1850. Cyhoeddodd argraphiad diwygedig o Eiriadur Dr. Richards, o Lynn, yn y fl. 1839. Ar ol symmudiad *Seren Gomer*, fel y gelwid hi, o Gaerfyrddin, bu yn golygu *Seren Cymru;* yn yr hon y cyhoeddodd lythyrau ar "Lythyreg y Gymraeg." Yn 1852, symmudodd i Gaerdydd; lle y bu yn golygu y *Bedyddiwr* am y pedair blynedd olaf o'i fywyd; a chyfieithodd gyda hyny lawer o Esboniad y Dr. Gill i'r Gymraeg. Yr oedd efe yn un o'r pwyllgor o bump o brif lenorion a bennodwyd gan Eisteddfod y Fenni i benderfynu orgraph y Gymraeg; a chyhoeddwyd hi o dan yr enw *Gomerydd.* Yr oedd efe yn aelod gyda'r Bedyddwyr. Bu farw Awst 30ain, 1856, yn 63ain oed, wedi llafurio yn rhy galed gyda llenyddiaeth, meddir; a chladdwyd ef yn mynwent y Tabernacl, yn y dref hono.

ELLIS, JOHN: un o gerddorion mwyaf adnabyddus Cymru yn niwedd y ganrif ddiweddaf, ac yn nechreu yr un bresennol. Gelwir ef yn gyffredin "John Ellis, o Lanrwst." Ganwyd ef mewn amaethdy bychan o'r enw Caer Geryg, yn mhlwyf Llangwm, sir Ddinbych, yn y flwyddyn 1750. Cafodd ei ddwyn i fyny yn gyfrwywr (*saddler*) o ran ei alwedigaeth. Yn 1780, efe a symmudodd i Lanrwst i drigianu, yn fuan ar ol priodi, i gario yn mlaen ei alwedigaeth yn y dref hono. Yr oedd efe yn hanner cant oed cyn ymuno mewn aelodaeth â'r Methodistiaid—yr hyn a gymmerodd le yn 1800. O hyny allan ymddengys ei fod wedi rhoi llawer o'i amser i ddiwygio a gwellhau y canu cynnulleidfaol, yn enwedig yn mysg y Methodistiaid, gan mai mewn cyssylltiad â hwy fel enwad yr oedd efe; a diammheu iddo wneyd llawer yn y ffordd hon yn ei ddydd. Elai o gwmpas, yn mhell ac yn agos drwy y cymmydogaethau, yn ol arfer selog hen gerddorion y cyfnod hwnw, i ddysgu i'r cynnulleidfaoedd ganu. Gwneir hyny i raddau yn awr, er fod y gelfyddyd mewn sefyllfa wahanol i'r hyn ydoedd. Bu farw ei wraig gyntaf, a phriododd yntau ail wraig yn y flwyddyn 1811, yr hon oedd ysgolfeistres yn Llanrwst—o'r hon y bu iddo amryw blant. Dywedir mai ei ail wraig a ysgrifenodd weithiau y cerddor ar gyfer eu dwyn allan trwy y wasg, y rhai a gyhoeddwyd o dan y teitl "*Mawl yr Arglwydd.*" Daethant allan yn rhanau: argraphwyd y gyntaf gan Ismael Dafydd yn Nhrefriw, a'r ddwy eraill yn Llundain, lle y bu John Ellis am rai misoedd yn arolygu y gwaith fel yr elai drwy y wasg. Y mae y tônau *Elliot*, *Heol-y-Bont*, a *Llanrwst*, a llawer eraill o'i gyfansoddiad, yn cadw eu poblogrwydd etto, fel y maent yn gwir haeddu; ac y mae ei Anthem "Molwch yr Arglwydd," yn cael ei chanu yn aml. Bu ei ymdrechiadau yn foddion i wellhau y canu yn fawr; ond ymddengys nad oedd efe yn gwellhau fawr ar ei amgylchiadau. Yr oedd arferion hunan-ymwadol y Cristionogion gynt yn dra theilwng o'u hefelychu gan Gristionogion y dyddiau hyn. Symmudodd o Lanrwst i Lanfyllin. Nid hir iawn y bu yn y lle diweddaf, ond aeth i Liverpool, ac arferai fyned i gapel Bedford street, lle y pennodwyd ef yn flaenor y gân. Sonir am ymddiddan a fu rhyngddo a'r diweddar Griffith Solomon, pan y gofynodd iddo pa fodd yr oedd arno? "Digon isel fy amgylchiadau yn wir," attebai John Ellis. "Wel, wel, chwi aethoch yn dlawd, John Ellis, dan ganu." Bu farw yn Liverpool yn 1834, wedi cyrhaedd yr oedran teg o 84ain mlwydd.

ELLIS, ROBERT (*Cynddelw*): bardd, llenor, a phregethwr enwog gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanrhaiadr-yn-Mochnant,

Digitized by Google

yn y flwyddyn 1812. Perthyn i'r werin yr oedd ei rieni—ond yr oeddynt yn bobl barchus. Yn gymmaint ag nad oedd eu hamgylchiadau yn dda, ac nad oedd addysg yn cael ei werthfawrogi i'r graddau y dylasai gan lawer o rieni y pryd hwnw, ni chafodd Robert Ellis ond ychydig, nac yn wir ddim moddion addysg yn ei ieuengctid, ond a gafodd yn yr Ysgol Sabbothol, a thrwy ei ymdrechion personol ei hun. Pan yn bur ieuangc aeth i wasanaethu gydag amaethwyr y gymmydogaeth. Ac wrth gyflawni ei orchwylion ar hyd y meusydd y dechreuodd feddwl, a thalu sylw i bethau. Ymddengys iddo ymuno â'r Bedyddwyr yn Llansilin pan yn lled ieuangc: ond nid hir y bu y gweinidog a'r eglwys heb ganfod ynddo gymmhwysderau i fod yn ddefnyddiol mewn gwahanol gylchoedd. Ac yn enwedig yr oedd yn dra defnyddiol gyda'r Ysgol Sabbothol, ac yn selog drosti. Yr oedd undeb ysgolion yn mhlith y Bedyddwyr ar y pryd, yn cyrhaedd un ffordd o Gynwyd i Lansilin, ac i Rhosllanerchrugog mewn cyfeiriad arall—pellder o ugain milldir o leiaf o'r naill ben i'r llall. Arferai R. Ellis am gryn amser fod yn bresennol yn nghyfarfodydd yr undeb hwn, a chymmeryd rhan ynddynt drwy areithio o blaid yr ysgol, &c. A derbyniol iawn oedd ei wasanaeth gyda'r gwaith bob amser. Annogwyd ef i ddechreu pregethu, a thraddododd yntau ei bregeth gyntaf yn mis Hydref, 1834. Yr oedd y Parch. John Williams, wedi hyny o'r Drefnewydd, y pryd hwnw yn y Rhos; a chan fod ei addysg foreuol wedi bod mor ddiffygiol, yr oedd Mr. Ellis yn awyddus am gael ychydig gyfarwyddyd ac addysg; ac aeth at Mr. Williams, yr hwn oedd ddyn caredig, ac yn barod i roddi pob cefnogaeth i ddynion ieuaingc o feddwl. Ni bu o dan hyfforddiad Mr. Williams ond am ychydig fisoedd, o herwydd ei fod yn gorfod ei gadw ei hun, a moddion cynnaliaeth yn brin ganddo; ond gwnaeth y goreu o'i amser. Yr oedd William Roberts —wedi hyny Dr. Roberts (*Nefydd*)—a James Spencer yno gydag ef; a ffurfiodd Ellis gyfeillgarwch mawr â'i athraw, ac â'i ddau gydysgolhaig.

Ar derfyn tymmor ei arosiad yn y Rhos, bu yn pregethu yn Rhuddlan ar brawf; ond o herwydd rhyw anghydwelediad rhwng yr ymddiriedolwyr a diaconiaid yr eglwys, ni sefydlodd efe yno. Maes cyntaf ei lafur gweinidogaethol oedd Llanelian a Llanddulas, ac ordeiniwyd ef yno yn y fl. 1837. Ni bu tymmor ei arosiad yno ond byr, sef tua dwy flynedd; ond bu yn hapus a llwyddiannus yno. Yn 1839, cafodd alwad oddi wrth eglwys y Bedyddwyr yn Glynceiriog; a chyn diwedd y flwyddyn hono efe a sefydlodd yn y lle hwnw. Ymgodai i'r golwg yn gyflym tra y bu yno; ac fel 'Robert Ellis, o'r Glyn,' yr adwaenid ef am gryn dymmor. Yno yr oedd efe pan y priododd gyda Miss Hannah Davies, o Gynwyd; o'r hon y bu iddo bedwar o blant. Bu yn ddiwyd a gweithgar yn ystod yr amser y bu efe yn y Glyn gyda gwahanol ranau y gwaith, a gwahanol symmudiadau cyhoeddus. Symmudodd i Sirhowy, yn swydd Fynwy, yn 1847. Cafodd amryw bethau i'w ofidio cyn pen hir ar ol ei ymsefydliad yno. Torodd lladron i mewn i'w dŷ un nos Sabbath, tra yr oedd y teulu yn yr addoliad, a lladratasant gryn swm o arian. Bu farw Isaac, ei hoff blentyn ieuangaf; ac yn fuan ar ol hyny, hunodd ei anwyl briod hefyd yn yr angeu. Trallod mawr iddo oedd hyn; ond cafodd lawer o gydymdeimlad dan ei brofedigaethau. Bu yn dra gwasanaethgar a defnyddiol yn Sirhowy hyd 1862, pan y symmudodd i gymmeryd gofal eglwys y Bedyddwyr yn Nghaernarfon. Ac yno, gyda chymmeradwyaeth a llwyddiant, y bu yn llafurio nes y darfu i angeu roddi terfyn ar ei fywyd defnyddiol. Yr oedd er's rhai misoedd cyn ei farw yn gwaelu o ran ei iechyd, gan fod anhwyldeb wedi ymaflyd yn y cylla; ac yr oedd yntau o angenrheidrwydd yn gwanhau. Y tro diweddaf y pregethodd oedd yn nghyfarfod pregethu Glynceiriog, Awst 1af a'r 2il, 1875. Pregethodd deirgwaith yn y cyfarfod hwnw—os nad gyda'i nerth arferol, gyda llawn mwy o deimlad nag erioed. Darlithiodd drachefn yn Llanrhaiadr yn Mochnant, Awst 3ydd, ar "Feirdd a Barddoniaeth Cymru;" ond pallodd ei nerth ar ol siarad am dri chwarter awr, a bu raid iddo roi i fyny. Yr oedd yn ei fryd fyned i'r Deheudir, i edrych am ei feibion, ac i geisio adnewyddiad i'w iechyd. Ond nid aeth yn mhellach, modd bynag, na Garth Eryr, Llangedwyn, hen gartref ei briod, yr hon oedd yno yn ei ddisgwyl; a gwaelu yn gyflym yr oedd bob dydd, nes y bu farw dydd Iau, Awst 19eg, 1875, yn 63ain ml. oed. Yn yr amaethdy hwnw y digwyddai Cynddelw fod yn gwasanaethu pan ddechreuodd bregethu—oddi yno y cafodd ei ail wraig—yno y bu farw—ac oddi yno hefyd yr hebryngwyd ei weddillion i dŷ ei hir gartref yn mynwent hen gapel Glynceiriog, gan dyrfa liosog a galarus.

Yr oedd yn un o'r dynion mwyaf llafurus a diwyd, yn nghylchoedd ei weinidogaeth, gyda symmudiadau cyhoeddus, a chyda'i ysgrifell. Yn mysg ei gynnyrchion llenyddol, gellir nodi ei "*Esboniad ar y Testament Newydd*," yn dair cyfrol; "*Tafol y Beirdd;*" "*Darlithiau ar Fedydd a Hanes y Bedyddwyr;*" "*Egwyddorion Deongliyddiaeth Ysgrythyrol;*" "*Cofiant y Parch. Ellis Evans, D.D.;*" "*Cofiant y Parch. John Williams, Rhos;*" "*Geiriadur Cymreig Cymraeg,*" &c., &c. Heb law hyn, bu yn arolygu gweithiau amryw o awduron Cymreig eraill, mewn rhyddiaith a barddoniaeth. Ysgrifenai yn feunyddiol i gylchgronau ei enwad, a chyhoeddiadau eraill; a bu yn olygydd i'r "*Greal*" am amryw flynyddoedd. Yr oedd galw mawr am ei wasanaeth: teithiai lawer i bregethu mewn cyfarfodydd a chymmanfaoedd, ac i ddarlithio ar hyd a lled y wlad. Pan y goddiweddwyd ef gan angeu, yr oedd ganddo amryw gynlluniau llenyddol mewn bwriad i'w cario allan. Yr oedd wedi parotoi rhan o draethawd ar "Y Ddau Gyfammod," i fod yn un o gyfrolau cyfres y Bedyddwyr; ac ar osod yn y wasg gyfrol o'i weithiau barddonol, o dan y teitl "*Mwyar Berwyn.*" Yr oedd yn dduwinydd rhagorol, ac yn hynod gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau; gan ei fod wedi ymgydnabyddu yn helaeth â hwynt pan yn ieuangc. Yr oedd efe yn gartrefol iawn hefyd gyda hanesyddiaeth eglwysig; ac am lenyddiaeth Gymreig, anfynych y gellid cyfarfod â neb oedd yn fwy cyfarwydd ynddo. Gallai ddyweyd hanes ac adrodd gweithiau yr hen feirdd Cymreig nes synu pawb. Un o hynafiaethwyr penaf ei wlad yn ddiau ydoedd efe. Ymhyfrydai yn fawr mewn pob peth hynafol. Yr oedd yn deall yr iaith Gymraeg yn dda, ac yn fardd campus; ac yn un o'r dynion mwyaf hawddgar, siriol, a ffraeth y gellid byth eu cyfarfod. Colled fawr i'r Bedyddwyr, yn Ngogledd Cymru yn neillduol, yn gystal ag i lenyddiaeth Gymreig yn gyffredinol, oedd ei farwolaeth.

Digitized by Google

EMMANUEL, VICTOR, II., brenin Italy, yr hwn a anwyd yn Turin, Mawrth 14eg, 1820. Tystiolaeth ei fam oedd, ei fod, pan yn blentyn, yn hawdd i'w drin—ond yn bur anhawdd ei ddysgu, gan faint ei hoffder at redeg a neidio; ond er hyny, nad buan yr anghofiai yr hyn a ddysgai unwaith.

Gellir dyweyd ddarfod i'w fywyd cyhoeddus ddechreu gyda rhyfel 1848, pan y darfu i deyrnas fechan Sardinia wrthsefyll holl allu ymherodraeth Awstria, yn mhlaid rhyddid ac annibyniaeth yr Ital. Trychinebus i Sardinia a fu rhyfelawd 1848—49; a buasid yn tybied fod holl obeithion yr Ital wedi eu llethu ar faes Novara. Rhoddodd yr ysbrydlawn Carlo Albert ei orsedd i fyny i'w fab, ac ymneillduodd i ddiweddu ei ddyddiau mewn alltudedd ac anobaith; ond er tywylled y diwrnod, ni pheidiodd Victor Emmanuel a gobeithio am ryddhâd yr Ital. "*L'Italia sarà,*" meddai; a chipiwyd y gair fel arwyddair gan bob Italiad gwladgarol. Aeth Victor Emmanuel ei hunan i babell Radetzky i ddadleu yr ammodau heddwch. Dywedodd y maeslywydd buddugoliaethus wrtho na pheidiai a myned rhagddo, os nad ymrwymai Victor Emmanuel i wneyd y pethau hyn—diddymu cyfansoddiad Sardinia, peidio arfer lluman cenedlaethol yr Ital, adferu yr hen ffurf-lywodraeth, a bod mewn cynghrair agos âg Awstria. Cyn i Radetzky o'r braidd orphen enwi yr ammodau hyn, dywedodd Tywysog Piedmont wrtho:—"Gadlywydd! yn hytrach na dodi fy enw wrth y fath ammodau, gwell fyddai genyf golli cant o deyrnasoedd. Ni fradychaf byth mo wystlon fy nhad. Yr ydych yn dymuno rhyfel hyd yr eithaf—bydded felly! Mi a alwaf ar y genedl, a chewch weled yr hyn fydd genych i'w wneyd pan y cyfyd holl Piedmont i'ch erbyn. Os rhaid ymostwng, mi a ymostyngaf. Y mae ein gwehelyth yn gynnefin â ffordd alltudiaeth, ond nid â ffordd gwaradwydd." Gwelodd Radetzky mai peryglus fuasai iddo yru gelyn mor benderfynol yn gynddeiriog gan anobaith; felly, efe a ysgafnhaodd ei ammodau, gan adael anrhydedd ac annibyniaeth Piedmont heb gyffwrdd â hwy. Dyma waith pwysig cyntaf Victor Emmanuel fel teyrn; canys yr oedd efe er yr adeg yr ymddiorseddodd ei dad, yn frenin Sardinia, fel yr awgrymwyd eisoes. Gan na fynai y senedd gynnorthwyo y brenin i gadw yr ammodau a wnaeth efe âg Awstria, efe a'i dadgorphorodd hi, ac a appeliodd at y genedl am gefnogaeth, gan fygwth diddymu y cyfansoddiad os gommeddent. Bu hyn yn foddion i beri i'r wlad ethol cynnrychiolwyr mwy cymmedrol. Yn ystod y cynnhwrf hwn y dywedodd Victor Emmanuel y geiriau clodfawr hyn:—"Y mae brenhinoedd cywir (*galantuomini*) wedi bod mor brinion, fel mai gwych o beth fyddai cychwyn y rhestr." Hyn a fu yn achos iddo gael ei gyfenwi yn "*Rè Galantuomo.*"

Yn fuan wedi pasio Mesur y Corphoriaethau Crefyddol yn y fl. 1855, bu farw mam y brenin, ynghyd â'i wraig a'i frawd, o fewn ychydig i'w gilydd; a dywedai y Pabyddion mwyaf eithafol nad oedd hyn ond barn arno am leihau breintiau yr offeiriaid. Ond er fod yr offeiriaid yn ceisio ei ddychrynu, a'r pab yn bygwth ei esgymuno, cariwyd y mesur:—un o ddarpariaethau yr hwn oedd, rhoddi i'r llysoedd gwladol awdurdod ar yr offeiriaid. Bu i waith Sardinia yn ymuno â Phrydain a Ffraingc yn rhyfel y Crimea ganlyniadau na ragwelwyd mo honynt ar y pryd gan neb, ond gan Victor Emmanuel a Cavour; canys rhoddodd hyny hawl i Sardinia i gael ei chynnrychioli yn Nghynghorfa Paris; ac arweiniodd hefyd i gynghrair rhwng Ffraingc a Sardinia. Gwelai pawb fod hadau rhyfel yn y cynghrair hwn, yn gymmaint a'i fod yn peri pryder yn Awstria, ac yn cynnyrchu gobaith yn yr Ital. Yn 1859, gan hyny, aeth Piedmont i'r maes fel pen campwr yr Ital yn erbyn Awstria; ond aeth allan yn fwy hyderus y tro hwn nag yr aethai y tro o'r blaen, o herwydd yr oedd Ffraingc yn awr yn ei chynnorthwyo. Dangosodd Victor Emmanuel ei hun yn rhyfelwr dewr anghyffredin. Gorchfygwyd yr Awstriaid mewn amryw frwydrau, a gyrwyd hwynt allan o Lombardy—yr hon a chwanegwyd at Sardinia. Ond ni chafodd yr Italiaid mo'u boddloni yn yr heddwch a wnaed yn Villafranca, ac anhawdd iawn fu ganddynt roddi Nice a Savoy i Ffraingc am ei chynnorthwyo.

Yn 1860, ymgyssylltodd archdduciaeth Tuscany, duciaeth Parma, a thaleithiau pwysig eraill, â Sardinia; a chyda chymmhorth Garibaldi, ac eraill, llwyddodd Sicily a Naples, ac amryw o daleithiau y pab hefyd, i ymryddhau oddi tan lywodraeth ormesol eu harglwyddi, gan gydnabod uchafiaeth brenin Sardinia. Pan chwanegwyd y taleithiau hyn at ei lywodraeth, cyfenwodd Victor Emmanuel ei hun yn 'frenin yr Ital,' a chydnabuwyd ef felly gan holl Ewrop. Ar ol y "Rhyfel Saith Wythnos," yn y fl. 1866, chwanegwyd Venetia hefyd at diriogaethau y brenin:—ond i'r Prwssiaid, ac nid iddynt eu hunain, ysywaeth, y rhaid i'r Italiaid ddiolch am hyny. Ar yr 20fed o fis Medi, 1870, darfu i fyddinoedd Victor Emmanuel feddiannu Rhufain; ond nid aeth y brenin ei hun i fyw i'r ddinas hono am gryn amser ar ol hyny.

Fel brenin, nid oes, ac ni bu, odid neb mwy didwyll ac unplyg na Victor Emmanuel. Er nad oedd ganddo enaid diwylliedig, na chorph urddasol, etto yr oedd ganddo allu anghyffredin i lywodraethu. Dywedodd M. Thiers unwaith mai efe oedd y llywodydd craffaf a gyfarfu âg ef erioed, a dywedir fod M. Gambetta hefyd o'r un farn ag ef.

Cymmysglyd ydoedd ei gymmeriad fel dyn. Yr oedd yn bur lân oddi wrth ragrith, ac am hyny yr oedd ei feiau, yn gystal a'i rinweddau, yn hollol amlwg. Dyn gonest, trugarog, a maddeugar ydoedd. Nid ar frys y digiai—ac wedi digio, nid yn hir y daliai ddig. Pechodau anifeilaidd, ac nid pechodau cythreulig, oedd y pechodau parotaf i'w amgylchu ef. Gŵyrai yn hytrach ar y tu hwnw nag ar y tu arall: ac y mae mae pob lle i feddwl y buasai efe yn ddyn lled ddifrycheulyd pe na buasai merched yn y byd. Yr oedd ei ddull o fyw yn hynod. Ni fwytâai ond dwywaith yn nghorph y pedair-awr-ar-hugain, sef hanner nos a hanner dydd—a hyny bob amser ar ei ben ei hun, ac yn fynych dan gerdded yn ol a blaen, yn lle eistedd. Nid oedd ganddo ddim hyfrydwch mewn cwmnïaeth, na dim chwaeth at wychder a moethau. Diaddurn iawn yr olwg arnynt oedd yr ystafelloedd y byddai efe byw ynddynt; a bu farw ar wely haiarn cyffredin, heb fod iddo na gortho na lleni.

Os yw gwaith dyn yn gosod iddo ei hun nôd uchel ac anrhydeddus, ac yn ei gyrhaedd o'r diwedd trwy ddoethineb, a gonestrwydd, ac amynedd, yn arwydd o fawredd, yna yr oedd Victor Emmanuel yn ddyn mawr.

Bu farw yn Rhufain, Ionawr 9fed, 1878.

Digitized by Google

EN-SEMES ["ffynnon yr haul."] Ffynnon oedd yn ffurfio un o'r tir-farciau ar derfyn gogleddol Iudah (*Iosuah* xv. 7) a therfyn deheuol Beniamin: *Ios.* xviii. Ymddengys oddi wrth y crybwyllion hyn ei bod rhwng "rhiw Adummim"—y ffordd sydd yn arwain i fyny o ddyffryn yr Iorddonen o du y deheu i *Wady Kelt*—a ffynnon Enrogel, yn nyffryn Cedron. Gan hyny yr oedd hi o du y dwyrain i Ierusalem a Mynydd yr Olewydd. Yr unig ffynnon sydd yn bresennol yn atteb i'r safle hon ydyw yr *Ain-haud*, neu yr *Ain Chôt*—'Ffynnon yr Apostolion'—o ddeutu milldir islaw Bethania, gorphwysfa gyntaf y teithiwr ar y ffordd i Iericho. Gan hyny, yr un ydyw y ffynnon hon ag En-semes. Y mae safle *Ain-haud* yn gyfryw fel y mae pelydrau yr haul arni trwy y dydd. Nid ydyw hyn yn ammhriodol mewn ffynnon oedd wedi ei chyssegru i'r goleuad hwnw.

ERBURY, WILLIAM: un o'r Anghydffurfwyr cyntaf yn Nghymru. Ganwyd ef yn Roath, ger llaw Caerdydd, yn y flwyddyn 1604. Yn Ngholeg Brazenose, Rhydychain, y derbyniodd ei addysg; ac mewn amser priodol graddiodd yn B.A. yno. Ar ol derbyn urddau eglwysig, yn Nghasnewydd y bu efe yn gweinidogaethu gyntaf, ac oddi yno symmudwyd ef i ficeriaeth St. Mair, Caerdydd. Ymddengys iddo gael ei droi allan o'r eglwys yn 1638, am wrthod darllen Llyfr y Chwareuon, a dwyn i mewn arferion anghydffurfiol eraill. Tybir ei fod wedi troi yn bregethwr teithiol yn y blynyddoedd hyn, a myned o'r naill fan i'r llall i bregethu; ac yn 1642, o herwydd yr erledigaeth a ffynai yn Nghymru, diangodd i Loegr, lle y gwnaed ef yn gaplan i un o gatrodau y senedd. Nid ydyw yn ymddangos iddo fod yn preswylio yn Nghymru wedi hyn, ond ei fod yn ymweled â'r wlad yn achlysurol. Yn ystod yr ymweliadau hyn, pregethai yma â thraw, er na wahoddid ef i bulpudau rheolaidd, gan y cyhuddid ef o ddal syniadau cyfeiliornus a chymmysglyd ar amryw o athrawiaethau Cristionogaeth. Ar un llaw, cyhuddid ef o ddal syniadau Socinaidd, ac ar y llaw arall o fabwysiadu golygiadau yr Antimoniaid. Byddai yn anhawdd profi y naill na'r llall oddi wrth ei weithiau. Yr oedd hyn, dybygid, i raddau yn gamddarluniadau, er fod yn rhaid addef fod ei syniadau ar berson a marwolaeth Crist yn gymmysglyd, ac yn anhawdd eu deall. Ymddengys fod ei synwyrau i raddau wedi dyrysu er's rhai blynyddau cyn marw—yr hyn a gymmerodd le yn 1654, ac efe yn 50ain mlwydd oed. Ysgrifenodd amryw lyfrau yn yr iaith Saesnig.

ERSKINE, EBENEZER: sylfaenydd yr Ymwahanwyr (*Seceders*) yn yr Alban. Ganwyd ef yn Dryburgh, yn swydd Berwick, yn y fl. 1680. Ar ol iddo orphen ei addysg yn mhrif athrofa Edinburgh, ordeiniwyd ef yn 1703 yn weinidog i eglwys Portmoak, yn swydd Kinross; ac yn 1731, derbyniodd alwad i fyned i Stirling. Ac mewn pregeth a draddododd efe yn y flwyddyn ganlynol, o flaen cymmanfa eglwysig Perth, condemniodd frawdleoedd a thadogaeth eglwysig, ac amddiffynodd hawliau yr eglwysi a phurdeb y pulpud. Ceryddwyd ef yn ffurfiol am hyn gan y gymmanfa; er hyny, ni fynai Erskine ymostwng, eithr cyfiawnhaodd ei syniadau yn gyhoeddus. Cymmerwyd ei achos, gan hyny, i'r gymmanfa gyffredinol; ac ar ol cryn lawer o ddadleuaeth, diswyddwyd ef, ynghyd âg amryw eraill yn y fl. 1740. Ymffurfiodd y rhai hyn yn henaduriaeth, a dyma fu dechreuad y *Secession Church*. Bu farw Erskine yn Edinburgh yn y fl. 1754.

EVANS, JOHN *(I. D. Ffraid)*: Ganwyd ef yn Tŷ Mawr, Llansantffraid Glan Conwy, Gor. 23ain, 1814. Mab ydoedd efe i David a Grace Evans; ac efe oedd yr hynaf o chwech o blant. Yr oedd ei dad yn fab i Hugh ac Elizabeth Evans, o'r Croesau; a'i fam yn ferch i John a Catherine Roberts, o'r Tŷ Mawr, Llansantffraid. Yr oedd y teuluoedd hyn yn Fethodistiaid er yn foreu; a dywedir mai rhai o honynt a roddodd yr achles gyntaf i Hywel Harris ar ei ymweliad cyntaf neu yr ail â'r Gogledd: ac y mae amryw o honynt yn golofnau yr achos yn y lle hyd heddyw. Ymddengys na chafodd I. D. Ffraid ond ychydig o fanteision addysg, ac nad oedd gan neb unrhyw ddirnadaeth, pan oedd yn cychwyn ei yrfa, ei fod i feddiannu y fath safle yn yr ardal, ac yn Nghymru. Nid oedd yn llawn un ar ddeg oed cyn iddo gael ei rifo yn mhlith ysgolheigion Thomas Lloyd, Abergele; a chafodd y pleser, pan yn un-ar-bymtheg, o eistedd am ychydig fisoedd wrth draed yr athraw enwog John Hughes, o Wrexham. A dyna'r holl ysgol ddyddiol a gafodd I. D. Ffraid! Ond beth oedd rhyw demigau felly o hyfforddiad boreuol at wneyd dyn yn athraw gwlad, yn ddyn hysbys yr ardal, ac mor adnabyddus ag yr oedd efe fel gwron rhyddfrydiaeth ac Ymneillduaeth ar y llwyfan, ac yn y wasg.

Bendith i'n gwlad ni ydyw, fod y dydd wedi gwawrio arni pan nad ystyrir fod hyd yn oed mab gwerinwr wedi gorphen ei ysgol nes y bydd wedi cael gwell addysg na hyn, neu fod y neb sydd â'i fryd ar fywyd cyhoeddus wedi derbyn yr hyn a elwir yn addysg dda nes y bydd wedi pasio arholiadau yr ysgol rammadegol a'r athrofa gydag anrhydedd, neu ynte dderbyn ei raddau yn un o'r prif-ysgolion. Nid ystyrir yn gyffredin fod dyn ieuangc yn dechreu ei addysg mewn gwirionedd hyd nes y bydd wedi gadael ei ddeunaw oed. Ond yr oedd I. D. Ffraid yn eithriad i'r rheol hon; gan ei fod ef yn gwasanaethu yn masachdy ei ewythr, Mr. Williams, yn ennill ei fywoliaeth, cyn bod yn ddeuddeg. Ac fel y mae athrylith bob amser yn medru gweithio ffordd iddi ei hun, a dyfod i'r golwg trwy bob anfanteision, defnyddiodd I. D. Ffraid ei oriau hamddenol—yr oriau a ddefnyddid gan ieuengctyd yr ardal yn gyffredin i chwareu, os nad i ryw beth gwaeth—i ddiwyllio ei feddwl, ac i addysgu ei hun. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth efe oedd astudio grammadegau y Gymraeg a'r Saesneg. Ymgydnabyddodd wedi hyny â hanesiaeth—yn enwedig â hanesiaeth Feiblaidd. Cyhoeddodd lyfryn ar hanes yr Iuddewon pan yn un ar bymtheg, a chyfansoddodd eirlyfr Saesneg a Chymraeg pan yn bur ieuangc. Pan yn un ar hugain, cyhoeddodd lyfryn o farddoniaeth, gan mwyaf o'i waith ei hun, dan yr enw "*Difyrwch Bechgyn Glanau Conwy;*" yn yr hwn y cawn amryw awgrymiadau o'r safle yr oedd yr awdwr i'w chymmeryd yn y byd barddonol. Tua'r pryd hwn yr ymunodd Mr. John Evans âg eglwys y Methodistiaid yn Llansantffraid. Yr oedd er erioed wedi ymgadw oddi wrth orwagedd y byd, gan ymbleseru yn ngwahanol ganghenau llenyddiaeth a chrefydd. A meddai, er's rhai blynyddoedd, gangen o Gymdeithas y Cymreig-

Digitized by Google

yddion wedi ei sefydlu yn Llansantffraid. Yma y dechreuodd efe arfer ei ddawn yn gyhoeddus ar wahanol byngciau llenyddiaeth. Yr oedd efe hefyd wedi cael ei ddewis yn ysgrifenydd cyfarfodydd Ysgolion Sabbothol y dosbarth cyn iddo ymuno â chrefydd. Felly, rhwng pob peth, gellir dywedyd iddo dyfu i'r eglwys fel i'w hinsawdd naturiol, ac ymddadblygu ynddi yn raddol, nes cyrhaedd ei lawn faint. Dechreuodd bregethu yn 1840. Ordeiniwyd ef i'r holl waith yn 1853. Yn 1836, priododd Anne, merch Mr. Thomas Williams, masnachydd, o Lansantffraid —cymmydoges agos iddo; yr hon a ymddug iddo chwech o blant—tri mab, a thair merch. Bu farw ei briod yn 1850, a chollodd ei fab hynaf trwy ddamwain ofidus yn 1862. Priododd eilwaith, yn 1854, â Miss Hannah Williams, o Gonwy, yr hon a adawodd i alaru ar ei ol. Efe a gadwai fasnach bur eang yn mhentref Llansantffraid ar hyd ei oes; yr hon, wrth reswm, a hawliai gryn lawer o'i amser a'i egnïon, ac a fuasai lawn digon i lenwi meddwl a dwylaw dyn cyffredin—ond nid oedd ond ail beth ganddo ef. Ac felly, dan fasnachu, llenydda, barddoni, dadgyssylltu yr Eglwys Sefydledig, a phregethu, y treuliodd I. D. Ffraid ei oes yn ddiwyd, disglaer, a llwyddiannus.

Bu farw yn dawel ar y 4ydd o Fawrth, 1875. Ei eiriau olaf oedd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan, rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi." Claddwyd ef yn mynwent eglwys blwyfol Llansantffraid gan dorf anarferol o liosog; a thalodd gwasg Cymru, yn Gymraeg a Saesneg, y deyrnged uchaf o barch i'w goffadwriaeth. Felly, gellir dyweyd am dano iddo fyw yn ddiwyd, marw yn ddedwydd, cael claddedigaeth tywysog, a chael dagrau gwladgarwch, llenyddiaeth, a chrefydd i eneinio ei fedd.

O ran ei ddyn oddi allan, ymddangosai I. D. Ffraid yn ei flynyddau olaf yn llafn tal, eiddil, unionsyth, a hoyw; gyda phrydwedd tywyll, gwyneb tolciog, yn cael ei nodweddu gan linellau amlwg, bochgernau uchel, trwyn lluniaidd a chul, aeliau trymion, llygaid bywiog, talcen uchel, ond cul, a chnwd toreithiog o wallt crych brith-wyn, yr hwn a fu gynt yn ddu ddisglaer, gyda chudynau na fynent ymostwng i grib na llaw, yn toi ei babell lathraidd. Yr oedd yn hawdd adnabod wrth ei edrychiad ei fod yn llawn nwyfiant a hoenusrwydd meddwl, a bod pob rhyw rith a ffurfioldeb yn hollol ddyeithr iddo, ac na fedrent ffynu yn yr un awyrgylch ag ef. Yr oedd hefyd yn gyfaill ffyddlawn yn ngwir ystyr y geiriau.

Fel dyn yn ei ardal, yr oedd I. D. Ffraid yn ŵr o gynghor cyffredinol, ac yn arweinydd y bobl mewn materion cymdeithasol a gwleidyddol. Yr oedd ei argyhoeddiadau yn ddwfn ac yn gryfion, ac yr oedd ei onestrwydd uwch law ammheuaeth. Ymgydnabyddodd yn lled drylwyr er yn foreu â materion plwyfol yn eu holl agweddau, ac â'r ffiniau lle y dylai cydwybod deyrnasu yn y pethau hyny. Rhaid cyfaddef fod pregethwyr Cymru, fel rheol, wedi arfer ymgadw yn ddyeithr i'r festri blwyfol, ac i fwrdd y gwarcheidwaid; ac ymfoddloni, gan mwyaf o honynt, ar draethu yr efengyl i'r bobl ar y Sabbath, a gadael i'w gelynion eu llethu ar hyd yr wythnos. Y mae yn anhawdd meddwl am ddim sydd yn fwy dirmygus na dyn yn proffesu bod yn ddysgawdwr y bobl, ond heb ymgynnyg at wneyd dim drostynt ar hyd yr wythnos, nac yn alluog i ddyweyd gair ar unrhyw bwngc heb fod ganddo bapyr ysgrifenedig o'i flaen, mur wrth ei gefn, a dau ganwyllbren un ar bob ochr iddo! Ond yr oedd I. D. Ffraid yn ddigon o ddyn i anturio gyda'r bobl i'r festri, i ddynoethi trais ac anghyfiawnder y dreth eglwys, cynllunio ei dinystr, ac yn y diwedd ei chladdu, heb obaith iddi am adgyfodiad!

Blynyddoedd cyffrous yn Nant Conwy a'r Creuddyn oedd 1851—59, ac asgwrn y gynnen oedd y Dreth Eglwys. Cafodd amryw o'r plwyfi brofi yn y blynyddoedd hyny beth oedd amseroedd blinion; ond o'r diwedd, yr egwyddor wirfoddol a gafodd y maes, a hyny mor lwyr nes yr oedd y Dreth Eglwys wedi darfod am dani yn y parthau hyny o'r wlad yn mhell cyn i gyfraith ei diliad gael ei chynnyg i senedd y deyrnas: ac I. D. Ffraid oedd un o brif arweinwyr y bobl drwy yr holl ymrysonfa hono. Yr oedd rhai o'r areithiau a draddododd efe yn festri Llansantffraid y pryd hwnw yn anghymmharol mewn gwawdiaith a hyawdledd. A disgynent ar y gwrthwynebwyr fel llifeiriant, gan ysgubo pob peth o'u blaen.

Wedi dechreu o hono gymmeryd y llwybr hwn i wasanaethu ei genedl, aeth yn mlaen yn yr un cyfeiriad, gan gymmeryd ei bennodi yn oruchwyliwr Cymdeithas y Dadgyssylltiad mewn parthau o Ogledd Cymru. Gyda bod etholiad 1868 drosodd, pan y pleidleisiodd y rhan fwyaf o'r Deyrnas Gyfunol dros ddadgyssylltu a dadwaddoli yr Eglwys yn yr Iwerddon, ymgymmerodd I. D. Ffraid â thrin pwngc y dadgyssylltiad yn ei holl agweddau, mewn cyfres o ysgrifau yn "*Maner ac Amserau Cymru*," a gyhoeddir yn yr un swyddfa a'r gwaith hwn, dan y teitl, "Llythyrau Adda Jones:" ac ymddangosent bob wythnos am flynyddoedd. Daeth y cyntaf o'r llythyrau nodedig hyn allan yn rhifyn Ionawr 27ain, 1869; a'r diweddaf, fel y tybiwn, yn rhifyn Ionawr 13eg, 1875—yr hwn a wnelai i fyny 483 o lythyrau. Yn y rhuthr hwn ar gyssylltiad crefydd â'r llywodraeth, efe a deithiodd dros lawer o faes, a ymosododd ar lawer o amddiffynfeydd, a gorfu iddo fwy nag unwaith fesur arfau â rhai o gewri yr oes, drwy y wasg ac ar y llwyfan; ond nid gormod ydyw dyweyd iddo ddyfod allan o'r holl ymrysonfeydd hyny â'i arfogaeth yn anrhydeddus.

Cafwyd yma enghreifftiau rhagorol o alluoedd I. D. Ffraid fel dadleuydd, yn y wasg ac ar y llwyfan. Nodwn yr ornest a fu rhyngddo âg "S. R.," golygydd y "*Dydd*" ar y pryd; yr hwn, er ei fod ei hun yn un o ddadgyssylltwyr boreuaf y Dywysogaeth, a anghymmeradwyai gynnygiad Mr. Watkin Williams, neu yn hytrach y dull y dygwyd y cynnygiad hwnw ger bron senedd 1870 i ddadsefydlu yr eglwys yn Nghymru; a nodwn hefyd y rhan a gymmerodd yn erbyn y Parch. H. T. Edwards, M.A., yn awr Deon Bangor, yn "Nadl y Rhyl," yr hon a barhaodd am bedair noswaith; sef, Mai y 19eg, yr 20fed, yr 21ain, a'r 22ain, 1874.

Dylid cadw mewn côf fod I. D. Ffraid, yn y gwrthdarawiad uchod âg S. R., yn ymwneyd â gwron llawer brwydr; ond y mae ei lythyrau ar yr achlysur hwnw yn mhlith y pethau cyfoethocaf, o ran nwyfiant, arabedd, a chywreinrwydd rhesymegol, sydd yn yr iaith; ac y maent yn peri i ni yn fynych wrth eu darllen gofio am Joseph Addison, tywysog yr arddull hwn yn yr iaith Saesnig. Yn "Llythyrau Adda Jones," y mae yn gallu pwyo ei wrthwynebydd nes peri

Digitized by Google

iddo ochain, a'i ogleisio nes peri iddo chwerthin â'r un anadl—tra yn difyru ac yn addysgu y darllenydd ar y pryd. Cydnabyddir hefyd ei fod, wrth ymwneyd â Deon Bangor yn y ddadl gyhoeddus a fu yn Rhyl, yn ymwneyd â phendragon amddiffyniad yr eglwys yn Nghymru, yr hwn sydd ddadleuydd poethwyllt a rhwysgfawr, yn crychlamu o'r naill bwngc i'r llall yn ol ei flys a'i fympwy, gan ymddiried mwy i nerth ei lais a llifeiriant ei hyawdledd i effeithio ar y dorf, nag i'w ffeithiau a'i resymau. Ond er y cwbl, cydnabyddir yn ddieithriad i'r ddadl hono gael ei dwyn yn mlaen, mor bell ag oedd a fynai I. D. Ffraid â hi, mewn modd galluog a hollol foneddigaidd. Yr oedd efe wedi astudio ei bwngc yn bur fanwl yn ngoleu egwyddorion Cristionogaeth a ffeithiau hanesyddiaeth, ac yr oedd yn ei ddeall yn drwyadl. Meddai hefyd y fath hunan-lywodraeth fel y medrai ddyweyd y peth a fynai, a'r pryd y mynai: ac yr oedd ei ystôr o arabedd a natur dda y fath fel yr oedd efe yn medru dofi tymmerau ei wrthwynebwyr mwyaf nwydwyllt, a brathu hefyd heb adael dim gwenwyn ar ol. Yr oedd ganddo ryw allu greddfol i weled gwendid ei wrthwynebydd, a gwendid ei ddadl, a rhyw fedrusrwydd neillduol i ddynoethi y gwendidau hyny mewn modd chwareus a barddonol, er mantais fawr i'w ochr ei hun. Yr unig anfantais oedd ganddo yn y ddadl hono oedd—fod yr ystafell yn hytrach yn rhy fawr i atteb i'w lais ef. Ond fe ddichon mai anhawdd fuasai cael dyn âg ynddo gynnifer o gymmhwysderau yn cydgyfarfod; a theimlai ei gyfeillion yn y diwedd, fel yn y dechreu, fod yr achos oedd ganddo i'w amddiffyn yn hollol ddiogel o dan ei warchodaeth ef.

Ond er mor enwog oedd efe yn ei gyssylltiad â gwleidyddiaeth grefyddol—fel llenor, bardd, a beirniad yr oedd efe yn fwyaf adnabyddus trwy Gymru. Gwir nad ysgrifenodd efe ond pur ychydig o farddoniaeth wreiddiol; ac nad oes, fe ddichon, un dernyn o'i eiddo wedi dyfod yn boblogaidd. Ond er hyny, ystyrid ef yn unfrydol yn un o brif feirniaid barddonol y genedl. Arferai am flynyddoedd feirniadu prif gyfansoddiadau ein heisteddfodau cenedlaethol; ac yr oedd gweled enw I. D. Ffraid ar y rhaglen yn ddigon o wystl mai cyfiawnder a chwareu teg oedd i gael teyrnasu yn yr ymrysonfa. Dichon nad oedd dyn yn Nghymru a feirniadodd fwy nag I. D. Ffraid yn ystod yr un amser. Canys o gyfarfodydd ysgolion y dosbarth, i ba rai yr oedd yn fywyd, hyd yr eisteddfod genhedlaethol, i lwyfan pa un yr oedd yn addurn, yr oedd efe yn rhwym ar hyd y blynyddoedd yn tafoli ac yn mesur cyfansoddiadau beirdd a thraethodwyr; ac yr oedd ei feirniadaeth bob amser yn addysgiadol a boddhaol.

Ond ei brif orchest lenyddol, yn ddiau, yw ei gyfieithiad o "*Coll Gwynfa*" Milton; a gorchest mewn gwirionedd ydoedd hon ag a fuasai yn ddigon i beri i'r cryfaf ei galon i ddelwi a phetruso wrth feddwl ymaflyd ynddi. Gosododd ef ei fryd ar adeiladu y tŵr hwn yn nghanol gofalon a thrafferthion ynghylch llawer o orchwylion eraill, a phrofodd fod ganddo ddigon o yni, gwydnwch, a phenderfyniad i ddal at y gorchwyl nes ei orphen. Gorchest yn ddiau ydoedd cyfieithiad y Dr. Owain Pughe o "*Goll Gwynfa,*" a bydd ei waith yn anrhydedd iddo byth fel ysgolhaig Cymreig. Etto, mae'n rhaid cyfaddef mai y peth pennodol hwnw sydd yn gosod mwyaf o fri ar gyfieithydd cyntaf "*Coll Gwynfa,*" yw yr hyn sydd yn gwneyd ei lyfr yn annerbyniol i gorph y genedl. Y mae gormod o'r ysgolhaig ynddo. Mae ei eiriau mor ddyeithr, ei frawddegau wedi eu dirwasgu gymmaint, a'i gystrawen yn fynych mor ddyryslyd fel y gellir dyweyd ei fod yn llyfr seliedig i'r Cymro —a gorchest mewn gwirionedd fyddai cael dyn i'w ddeall, heb gymmhorth geirlyfr. Ond anturiodd I. D. Ffraid at y gorchwyl o drosglwyddo meddyliau Milton i Gymraeg dealladwy i werin Cymru, a llwyddodd i wneuthur hyny heb anafu urddas a mawrhydi brenhinol y gwaith; a diau mai ynglŷn â'r gwrhydri llenyddol hwn yn benaf y trosglwyddir enw I. D. Ffraid i lawr i genedlaethau dyfodol.

Gyda'i fod yn gorphen cyfieithu "*Coll Gwynfa,*" a chyn i'r gwaith ddyfod o'r wasg, efe a ddechreuodd gyfieithu "*Nos Feddyliau*" Young, yr hyn oedd orchwyl gogyhafal a'r llall. Dechreuodd ar y gwaith ar y 10fed o Chwefror, 1864, a chwblhaodd ef ar yr 16eg o Dachwedd, 1866; ac y mae y gwaith yn awr, gyda chofiant o'r awdwr, yn aros yn llawysgrif y cyfieithydd yn barod i'r wasg.

Rhaid i ni bellach gael gair arno fel pregethwr. Y mae yn hysbys mai nid mewn pregethu yr oedd ei nerth ef. Yr oedd yn bregethwr rhagorol, y mae yn wir; ond teimlai y rhai oedd yn gynnefin âg ef bob amser braidd fod y dyn yn fwy na'r bregeth.

Lluddiwyd ef gan y pethau canlynol i fod yn bregethwr effeithiol a phoblogaidd. Yr oedd ei anianawd yn naturiol oer: ychydig a ddarparai ar gyfer y pulpud; ond ymddiriedai, fe allai, ormod i'w wybodaeth a'i barodrwydd naturiol. Ei syniad am bregethu oedd, mai anerch deall y gwrandawyr a ddylid, ac nid cyffroi eu nwydau. Gyda hyny, nid oedd ond ychydig o beroriaeth yn ei lais, na nerth yn ei beiriannau llafar. Ystyrid ef gan rai yn 'bregethwr sych,' yn enwedig os na chai hwyl: er hyny, safai yn lled gyfartal â'r cyffredin o'i frodyr.

Ei nodwedd fawr oedd eangder gwybodaeth—eangder, dealler, ac nid dyfnder. Nid oes braidd bwngc tu fewn i holl gylch efrydiaeth dyn, na wyddai I. D. Ffraid rywbeth am dano; a gallai ddwyn y wybodaeth hono o dan deyrnged i'r amcan a fyddai ganddo ar y pryd gyda hwylusdod a chyflymdra rhyfeddol. Yr oedd hyn, ynghyd â'i graffder a'i hunan-feddiant nodedig, yn ei wneyd yn ddyn gwerthfawr mewn cymdeithas, ac yn peri iddo ragori mewn ymddiddanion cyfrinachol, ac yn nghynnadleddau y cyfarfod misol, yn hytrach nag yn y pulpud. Yr oedd y cyflawnder o gymmhariaethau oedd ganddo, a'r nodwedd neillduol oedd i rai o honynt, yn ei wneyd yn fwy hapus hefyd fel areithiwr nag y gallasai fod fel pregethwr. Yr oedd y ddawn hon ynddo yn ei wneuthur yn un o'n dynion mwyaf dedwydd a phoblogaidd mewn cyfarfod ysgolion—lle, pwy bynag fyddai yn areithio, yr ymddisgleiriai efe yn gyffredin fel haul yn mhlith y sêr. Nid oedd yn amcanu byth at arddull araethyddol—er y byddai ar adegau yn wir hyawdl; ond gwasgai y gwirioneddau at y bobl mewn dull ymddiddanol, gan ddefnyddio cymmhariaethau cartrefol, a chymmhariaethau a ddeallid gan bawb ar unwaith, ac a fyddent yn debyg iawn o wneyd lle iddynt eu hunain yn nghôf y gwrandawyr dros byth. Nid oedd ganddo nemawr chwaeth at bwngc o athrawiaeth; ond yn yr ymarferol yr oedd cuddiad ei gryfder ef. Yr oedd yn ddyn ag oedd yn

Digitized by Google

medru teimlo yn ddwys, ac yr oedd gan wirioneddau yr efengyl awdurdod hollol arno, a phrofai yn helaeth o'i gorfoledd. Ond yn y pulpud, argraphai ar feddwl ei wrandawyr mai un pur sych ac iach ei ysbryd ydoedd. Mewn gair, yr oedd yn amddifad o'r gallu rhyfedd hwnw sydd yn anhebgorol i wneyd siaradwr cyhoeddus o'r radd flaenaf—y gallu i ddwyn y tân o'i galon ei hun i gyffwrdd â chalon y gynnulleidfa, nes eu rhoddi hwythau ar dân. Ond yr oedd ganddo un gallu rhyfedd ac arbenig, na welid ei gyffelyb ond anfynych gan neb; sef, y cyflymder mell-tenaidd oedd yn ei feddwl i ddal rhyw feddylddrych newydd a fflamiai ar ei ysbryd, a'i ollwng allan yn ddibetrus i'r dyrfa, nes gwreichioni a goleuo yr holl awyrgylch. Byddai pethau goreu ei bregethau braidd bob amser yn ddifyfyr, ac anfynych y gallai eu hail adrodd heb eu ammharu. Yr oedd y meddylddrychau difyfyr hyny, y rhai a ddeuent gyda'r fath sydynrwydd, yn ardderchog ar brydiau, a thaflent mewn eiliad fwy o oleuni ar y pwngc mewn llaw nag a geid mewn ambell draethawd. Dyma mewn gwirionedd oedd ei ragoriaeth ef. Dyma a roddai hawl iddo i gael ei gyfrif yn mysg prif bregethwyr Cymru. Ond yr oedd i'r gallu hwn ei gydymaith o wendid; neu yn hytrach, pur anaml y byddai yn gwneyd ei ymddangosiad; a byddai yn absennol braidd bob amser ar yr adegau mwyaf pwysig. Erbyn adegau felly byddai yn parotoi mwy nag arferol; ac felly, nid oedd y ddawn neillduol hon yn cael cymmaint o chwareu teg i'w dadblygu ei hun ag ar adegau cyffredin. Am yr un rheswm, efe a bregethai, fel rheol, yn well yn y boreu nag yn yr hwyr.

Dyn rhyfedd oedd I. D. Ffraid. Ystyrid ef gan bawb a'i hadwaenent yn ddyn mawr, ac at bob gweithred dda yn gymmeradwy; ond po agosaf yr elid i'w gartref, mwyaf oll o'i fawredd, ei ddylanwad, a'i ddaioni a deimlid; a mwyaf oll hefyd oedd y parch a delid iddo gan bob gradd.

EVELYN, JOHN: awdwr "*Sylva.*" Ail fab oedd i Richard Evelyn, Ysw., o Wotton, Surrey, lle y ganwyd ef, Hydref 31ain, 1620. Cafodd ei addysg yn ysgol Lewes, a Choleg Baliol, Rhydychain. Aeth drosodd i'r cyfandir yn 1641, a gwasanaethodd am dymmor byr fel gwirfoddolwr yn Flanders. Yn lle cymmeryd arfau yn achos y brenin, aeth drachefn oddi cartref yn 1644, a threuliodd y saith mlynedd dilynol ar y Cyfandir. Astudiodd anianyddiaeth naturiol gyda dyfalwch, a diwylliodd ei chwaeth yn y celfau teg, a gwnaeth ei hun yn gydnabyddus â moesau ac â masnach preswylwyr y gwledydd yr ymwelodd â hwynt. Yn 1647, priododd ferch Syr Richard Brown, llysgenhadwr Prydain yn Paris: ac yn hawl ei wraig, daeth i'r meddiant o Sayes Court, ger Deptford; ac yno y preswyliodd ar ol ei ddychweliad i Loegr yn 1652. Bu fyw mewn neillduaeth hyd nes yr adferwyd Siarl II. i'r orsedd; ac wedi hyny mwynhaodd lawer o ffafrau y brenin a'r llys. Yr oedd yn un o aelodau cyntaf y gymdeithas frenhinol, a pharhaodd drwy ei oes i ysgrifenu i'r "*Transactions.*" Ei hoff efrydiau oeddynt garddwriaeth, a'r gelfyddyd o blanu coed. Ysgrifenodd amryw draethodau ar hyn, y rhai a gasglwyd ynghyd yn y pummed argraphiad (1729) o'i "*Sylva.*" Amcan "*Sylva,*" prif waith Evelyn, ydoedd cefnogi y gwaith o blanu coed, fel mater o lesiant cenedlaethol. Y mae hanes manwl am ei ardd wedi ei roddi yn y "*Pilosophical Transactions.*" Ysgrifenodd amryw lyfrau eraill. Ar farwolaeth ei frawd, yn 1699, daeth Evelyn i feddiant o etifeddiaeth y teulu yn Wotton, lle y bu farw Chwefror 27ain, 1706, yn llawn o ddyddiau ac anrhydedd, yn y 86ain mlwydd o'i oedran. Yr oedd yn efrydydd diwyd ac ymroddgar; o ran ei gymmeriad yn gynllun o foneddwr; ac yn noddwr haelfrydig i ddynion dysgedig a da. Y mae yn adnabyddus yn awr, yn benaf, trwy gyfrwng y cofiant a ysgrifenodd efe o hono ei hun.

EVANS, THOMAS, o Faes-y-coed:—ffermdy sydd ar waelod y dyffryn is law Caerwys, yn ymyl y ffordd haiarn rhwng Dinbych a Wyddgrug. Symmudodd oddi yno amryw flynyddoedd cyn marw, i balasdy bychan ger llaw, a elwir Fron-deg, yn mha le y bu farw Mehefin 30ain, 1864. Adwaenid ef drwy yr holl wlad fel 'Thomas Evans, o Faes-y-coed;' ac yr oedd mor adnabyddus, mae'n debyg, ag un blaenor fu yn mysg y Methodistiaid o fewn y ganrif bresennol. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Pentre isaf, yn agos i Henllan, ger Dinbych. Anfonwyd ef i ysgol y Parch. E. Richardson, i Gaernarfon; lle yr oedd yn gydysgolhaig â'r Parch. John Elias. Yno yr ymunodd âg eglwys y Methodistiaid, pan yn agos i 16eg oed; ac yn mhen deng mlynedd dewiswyd ef yn flaenor ar eglwys hen Gapel y Dyffryn—yr hwn sydd etto i'w weled rhwng Bodfari a Llandyrnog.

Yr oedd Mr. Evans yn amlwg yn mysg ei gyfeillion fel gŵr ieuangc o feddwl cryf, ac yn meddu gallu i draddodi yn rhwydd a dylanwadol; a bu amryw o weinidogion yr ardaloedd yn daer arno i ymroddi i'r weinidogaeth—ond yn aflwyddiannus. Cyrhaeddodd safle bwysig yn y cyfarfod misol y perthynai iddo, ac yn nghymdeithasfaoedd y cyfundeb; a llafuriodd yn ddiwyd fel swyddog yn eglwysi Caerwys a'r Ddôl. Yn nghorph y blynyddoedd diweddaf o'i fywyd, o herwydd ei fod yn dioddef yn dost oddi wrth gryd y cymmalau, caethiwyd ef yn gwbl i'w dŷ. Bu ganddo saith o blant, a dyfasant i fyny—y rhai ydynt oll, ond Miss Evans, wedi meirw; sef, y Parch. Edward Evans, o Newark, Ohio; Mr. Roger Evans, gynt o Borth Menai; Mr. Thomas Evans; Mr. William Evans, o Dreffynnon; Miss Anne Evans, o Gaerwys; Mr. John Evans, o Blas yn Nghaerwys; a Mr. Ebenezer Evans. Bu ganddo ddau eraill a fuont feirw yn fabanod.

Yr oedd efe yn feddiannol ar feddwl arddansoddol cryf, ac yn ŵr o benderfyniad di-ildio; etto, mor dyner ei deimladau a phlentyn tuag at blant, tlodion, a'r diniweid; a thuag at bawb a ymddangosent iddo fel yn dioddef ar gam. Ond ar bob cwestiwn o egwyddor, yr oedd yn ammhossibl ei blygu nes yr argyhoeddid ef ei fod yn camgymmeryd; ond anfynych iawn y gellid gwneyd hyny. Yr oedd efe yn fawr ei barch yn mysg ei gydnabod; er nad oes neb a all ddyweyd ei fod wedi ymgeisio am na dyrchafiad nac anrhydedd. Dyma fel yr ysgrifenodd y Parch. Owen Thomas am dano yn ei gofiant galluog am y Parch. John Jones, Tal-y-sarn:—

"Yr oedd ei dduwioldeb personol, ei gydnabyddiaeth helaeth a manwl â'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac, yn neillduol, ei ddawn anghyffredin i holi cwestiynau, ac i arwain yr ymddiddan mewn cymdeithas, yn peri fod ei wasanaeth yn y cyfarfodydd eglwysig yn nodedig o werthfawr. Gan ei fod yn cael ei

gydnabod yn gyffredinol fel un o'r dynion callaf, a chraffaf, a mwyaf crefyddol yn mhob cylch y tröai ynddo, yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr yn nghyfarfod misol y sir y perthynai iddi, ac felly hefyd yn y gymdeithasfa chwarterol. O ran cydnabyddiaeth âg awdwyr duwinyddol diweddar, megis Jonathan Edwards, Dr. Bellamy, Dr. Dwight, Dr. Williams, Andrew Fuller, ac eraill, nid oedd odid un yn mhlith yr hen bregethwyr i'w gystadlu âg ef; ac yn ddiddadl nid oedd cymmaint ag un o honynt yn rhagori arno. Yr oedd wedi dechreu ar y cylch hwn o efrydiaeth pan ydoedd tua deunaw mlwydd oed, a pharhaodd arno yn gysson a diflino am dros drigain mlynedd. Ac etto, nid oedd yn ei rwymo ei hunan yn gaeth wrth unrhyw awdwr. Dygai bob peth a ddarllenai at y Gair Sanctaidd i'w brofi; a theimlai yn ddigon annibynol i ymadael â'i awdwyr anwylaf, pan y tybiai eu bod hwy yn ymadael â Gair Duw."

O'r llyfrau uchod, yr un yr hoffai ei ddarllen fwyaf oedd '*The Equity of Divine Government and Sovereignty of Divine Grace*'—*Cyfiawnder y Llywodraeth Ddwyfol a Phen-arglwyddiaeth Gras Duw*:—awdwr yr hwn oedd Dr. Williams, o Rotherham. Yr oedd yn eglur fod y llyfr hwn wedi cael dylanwad cryf iawn arno. Darllenodd y gyfrol lawer gwaith drosodd; ac yr oedd yn amlwg ei fod wedi meistroli y cwestiynau dyrus yr ymdrinid â hwynt ynddo, ac wedi mabwysiadu y syniadau. Byddai bob amser yn barod i ymddiddan arnynt; ac yn hynod ymdrechgar i'w cymmhell ar bregethwyr ieuaingc. Bu ei ddylanwad yn fawr ar lawer drwy hyn.

Yn y blynyddau hyny yr oedd syniadau uchel Galvinaidd yn teyrnasu yn nghorph y Methodistiaid; ond yr oedd amryw yn coleddu syniadau mwy ëang a rhyddfrydig—wedi eu seilio ar anfeidroldeb yr iawn, galwad gyffredinol yr efengyl, a'r bygythion sydd ynddi ar y neb a wrthodai ei derbyn, &c., &c. Yn mysg y rhai diweddaf hyn ystyrid amryw o weinidogion y Gogledd, ac eraill yn y Deheu, heb law y rhai canlynol, yn gyfeiliornus eu barn; a chyhuddid hwy yn gyffredin o fod yn 'y *system* newydd,' fel y gelwid hi:—y Parchn. Thomas Jones, o Ddinbych; Robert Roberts, o'r Rhos; John Hughes, o Wrecsam; a John Jones, o Dal-y-sarn, &c., &c. Yr oedd sir Fflint, yn enwedig, yn faes lle y byddai y syniadau hyn yn gwrthdaraw yn erbyn eu gilydd: ac yr oedd Mr. Thomas Evans, o Faes-y-coed, yn un y gwneid llawer o ymosodiadau arno. Ond er ei fod yn gyndyn yn ei ymlyniad wrth ei olygiadau, ymddygodd fel Cristion drwy y cwbl.

Ar gais taer un cyfaill yn enwedig ymroddodd i ysgrifenu llyfr ar y pyngciau yr oedd cryn ddadleu wedi bod yn mherthynas iddynt; a chyhoeddwyd ef yn y flwyddyn 1863, pan yr oedd efe yn 80ain oed. Teitl y llyfr ydyw, *Myfyrdodau Duwinyddol, neu Sylwadau ar Gyssondeb Athrawiaeth yr Efengyl*; yr hwn a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon. Fel hyn y dywed efe am ei olygiadau, ac am yr hyn a'i cymmhellodd i ysgrifenu y llyfr, &c.:—

"Tua diwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreuad yr un bresennol, bu gradd o gynnhwrf yn Nghymru, yn enwedig yn Ngogledd Cymru, ynghylch yr athrawiaeth Galvinaidd; a'r achlysur o hyny oedd y cynnydd mawr fu ar y Wesleyaid ar y pryd. Lliosogodd eu pregethwyr, ac adeiladwyd capelau; casglwyd cynnulleidfaoedd, a sefydlwyd llawer o eglwysi ganddynt yn y Gogledd; a bu hyny yn achlysur i lawer o bregethwyr talentog, a selog hefyd, rai o honynt, yn mhlith y Calviniaid, ymroi yn egnïol i bregethu yn erbyn Arminiaeth. Trwy hyny, aethant i eithafion yr ochr arall: aethant dros ben Calviniaeth—yn Uwch-Galviniaid, fel y gelwid hwynt gan rai. Yr oedd rhai wedi myned mor bell yr ochr hono, fel yr oedd tuedd beryglus iawn yn eu hathrawiaeth. Yr oedd yn arwain at Antinomiaeth a phenrhyddid cyfundraeth y Dr. Crisp, ac eraill, ar Gyfrifiad, ac ar yr Iawn: ac arferent ymadroddion cyfyng a therfynol mewn ystyr fasnachol; megys, 'clorian wastad y mae cyfiawnder yn ei gofyn'—'gwerth am werth'—'cydbwys'—'iawn gormod nid yw iawn'—'iawn rhy fychan nid yw iawn'—'cydbwys sydd iawn,' &c. Bu hyny o niwed mawr i gannoedd o wrandawyr yr efengyl yn y Dywysogaeth. Parhaodd effeithiau y pregethau hyny ar lawer am amser maith; a phrin y gellir dywedyd eu bod wedi darfod yn llwyr hyd yma."

"Ond trwy drugaredd, fe welodd yr Arglwydd yn dda godi dynion talentog a ffyddlawn, a digon craffus hefyd, i weled effeithiau niweidiol pregethu felly; a chynnorthwyodd hwynt i bregethu yr efengyl yn egnïol ac effeithiol iawn i bawb yn ddiwahaniaeth—'y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu.'"

"Y profion fyddai genyf at bob pwngc heb law yr Ysgrythyrau fyddai ystyried a chwilio a fyddai dim tuedd ynddo i gymmylu un briodoledd yn y Bod Anfeidrol, na chwaith i roddi un math o esgus i ddyn dros fyw yn ei bechodau; ac hefyd, a fyddai un duedd ynddo i wrthweithio yn erbyn pyngciau eraill 'yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.' Ac felly, daethum yn raddol i ymsefydlu yn yr egwyddorion sydd wedi eu crynhoi yn y traethawd canlynol. A gallaf ddyweyd eu bod, gan mwyaf, wedi gwreiddio yn fy meddwl er's yn agos i hanner cant o flynyddoedd bellach; ac yr wyf wedi cael y fantais i roddi llawer prawf arnynt o hyny hyd yn awr, ac nid wyf yn gweled achos eu newid."

"Wrth weled fod traethodau a wneir gan dduwinyddion mawr, a dynion dysgedig iawn, y rhan amlaf yn rhy ddyfnion ac aneglur i ddarllenwyr cyffredin, a deiliaid yr Ysgolion Sabbothol, i allu gwneyd fawr o ddefnydd o honynt, meddyliais am wneuthur prawf, i edrych a allwn gyfansoddi ychydig o bennodau byrion, at wasanaeth y dosbarthiadau hyn yn benaf, ar byngciau athrawiaethol, mewn iaith rwydd, blaen, ac eglur; ac os byddwn yn defnyddio geiriau mwys, yr ymdrechwn ddangos fy meddwl iddynt yn y fan hono, a pheidio gadael lle i'r darllenydd gymmeryd un meddwl pan y byddai genyf finnau feddwl arall; a thrwy hyny, y gallwn, fe allai, agor y drws i athrawon, ac eraill, i fyned i mewn i ystafelloedd athrawiaethau yr efengyl, a dwyn allan i'r goleuni 'bethau newydd a hen.'"

Nid ychydig a ddioddefodd Mr. Evans, fel y dywedyd yn barod, o herwydd ei olygiadau, yn y blynyddoedd hyny. Cyfeiria at hyn yn y brawddegau canlynol—y rhai a ddangosant dynerwch ei ysbryd drwy y cwbl:—

"Ond cafodd rhai o honom y fraint o ddioddef ychydig dros flynyddoedd lawer—ïe, am ugain neu ddwy ar hugain—o herwydd ein golygiadau ëang ar athrawiaeth yr iawn, a hyny oddi wrth rai brodyr oedd anwyl iawn genym. A'r achos ein bod mor ddioddefgar oedd, ein bod yn barnu eu bod hwy yn gweithredu yn gydwybodol yn ol eu barn ar y pryd, a bod eu sêl yn gryfach na'u gwybodaeth."

"Cefais annogaeth gan rai o'm brodyr anwyl i roddi ychydig o hanes yr ymdriniaeth a fu ar y pethau oedd mewn dadl y pryd hwnw, a'r ymosod fu ar rai o honom o herwydd ein golygiadau ar athrawiaeth yr Iawn. Ond nis gallaf wneuthur hyny heb fyned yn rhy bersonol; a thrwy hyny glwyfo meddyliau a briwo teimladau llawer o berthynasau a chyfeillion brodyr ymadawedig, y rhai oedd heb fod yr un farn a ni, wrth grybwyll eu henwau a'u geiriau, &c."

Cafodd gladdedigaeth anrhydeddus, a theimlai pawb a'i hadwaenai eu bod wedi colli cyfaill anwyl a ffyddlawn; a bod eglwys Dduw wedi colli aelod a swyddog disglaer a gweithgar.

Digitized by Google

# F.



**F.** Nid yw F yn dechreu un gair Cymraeg gwreiddiol. Treigliad yw F o B neu M, yn nghyfansoddiad ymadroddion; megys *Bara*, dy *Fara*; *Mam*, ei *Fam*. Gan hyny, pan y bo F yn dechreu y gair yn Gymraeg, bydd y cyfryw air naill ai yn dreigliad o air yn dechreu â B, neu M, neu ynte yn Gymreigiad o air estronol. Y mae ychydig esamplau yn y Beibl o honi yn dechreu geiriau gwreiddiol yn y tair sefyllfa a nodwyd.

FAGDDU, Y: [*magddu*=*mag—du*, medd y Dr. Pughe; אפל=*tywyllwch dudew*]: magle düwch, ffynnon düwch, tywyllwch eithaf; uffern. Ni arferir y gair yn y Beibl Cymraeg un amser heb y fannod *y* o'i flaen; megys, "Dysgwyliasom am oleuni, ac wele dywyllwch; am ddysgleirdeb, ac yn *y fagddu* yr ydym yn rhodio;" *Esa*. lix. Cyfieithir yr un gair yn *Exod*. x. 22, yn y cyfieithiad cyffredin yn *dywyllwch dudew;* a chan y Dr. M. *tywyllwch niwlog*. Gair prydyddol ydyw yn *Iob* iii. 6; x. 22; xxviii. 3; xxx. 26. Yn y lle cyntaf, *tywyllwch* yn unig y cyfieithir y gair—"Y nos hono, *tywyllwch* a'i cymmero:"—yn ol y Dr. M., "Cymmered *niwl* y nos hono." Yn yr ail le, *y fagddu* ydyw. Yn y ddau le arall, *tywyllwch* ydyw y cyfieithiad. Yn *Iob* xxiii. 17, defnyddir y gair yn gyffelybiaethol i arwyddo *blinder* neu *adfyd:* "O herwydd na thorwyd fi ymaith o flaen *y tywyllwch*, ac na chuddiodd efe y *tywyllwch* o'm gŵydd:"—yn ol y Dr. M, "O herwydd na thorwyd fi ymaith *o flaen tywyllwch*; ac na chuddiodd efe *niwl* o'm gŵydd." Yn *Salm* xi. 2, arwydda y gair *gynllwynfa* neu *lechfa* (*ambush*): "Canys wele y drygionus a annelant fwa, parotoisant eu saethau ar y llinyn, i saethu *yn ddirgel* y rhai uniawn o galon:" ar ymyl y ddalen, "mewn *tywyllwch*:" Dr. M., "mewn *dirgelwch*." Defnyddir y gair yn *Esa*. lx. 2, i arwyddo *anwybodaeth*: "Canys wele, tywyllwch a orchuddia y ddaiar, *a'r fagddu* y bobloedd:" yn ol y Dr. M., "Canys wele tywyllwch a orchuddia y ddaiar, a *chwmwl* y bobloedd."

FALL, Y.' Dan y gair hwn y mae Charles yn ein cyfarwyddo i edrych *mall;* ond erbyn troi yno, nid yw y gair *mall* ganddo, eithr *mallder, malldod;* ond y mae ystyr y geiriau hyn yn y Beibl yn dra gwahanol i ystyr *y fall:* ystyr *mallder* ydyw llygriad, gwywder, pydrni, &c. Gwel Mallder. Yn yr Hen Destament (Cymraeg), saif "y fall" bob amser am y gair Hebraeg בליעל=*Belial*, o'r gwraidd *beli-di*, neu *het*, a *ial*=*defnydd, budd;* yna ystyr cyntefig y gair yw *diddefnydd, anfuddiol;* ac fel sylweddair, *annefnyddioldeb, peth diddym, diwerth, diffrwyth;* ac yna, mewn amser diweddarach, ac yn y Testament Newydd, daeth i fod yn enw ar Satan, cyfystyr â'r Groeg ὁ πονηρός=yr un drwg, ac a gyfieithir unwaith (*Eph*. vi. 16) "y fall." Mae yn dra sicr mai Cymreigiad ydyw "y fall" o'r gair Hebr. *Belial*, neu, fel y dywedir y dylid ei seinio, *Felial*, yna "y fall." Mewn lluaws o fanau yn y cyfieithiad Cymraeg, cedwir y gair gwreiddiol *Belial* heb ei gyfieithu: megys *Barn*. xix. 22; xx. 13; 1 *Sam*. i. 16; ii. 12; xxv. 17, 25. Mewn deuddeg o fanau yn yr Hen Destament Cymraeg, ceir "y fall," fel cyfieithiad o'r gair; sef *Deut*. xiii. 13; 1 *Sam*. xxx. 22; 2 *Sam*. xvi. 7; xx. 1; xxii. 5; 1 *Bren*. xxi. 10, 13; 2 *Cron*. xiii. 7; *Salm*. xviii. 4; *Diar*. vi. 12; xvi. 27; xix. 28.

Yn *Deut*. xv. 9, "drwg" y cyfieithir y gair: "Gwylia arnat, rhag bod yn dy galon *ddrwg* (Heb. *Belial*) feddwl." Yn 2 *Sam*. xxiii. 6, "yr anwir" y cyfieithir y gair: "*A'r anwir* (Heb. *Belial*) fyddant oll fel drain." Yn *Iob* xxxiv. 18, "drygionus" ydyw y cyfieithiad: "A ddywedir wrth frenin, *drygionus* (Heb. *Belial*) ydwyt?" Felly yn *Nah*. i. 11: "Cynghorwr *drygionus*" (Heb. *Belial*). Yn *Salm*. xli. 8, cyfieithir y gair yn "aflwydd:" "*Aflwydd* (Heb. *Belial*), meddant, a lŷn wrtho ef." Y cyfieithiad yn *Salm*. ci. 3, yw "anwir:" "Ni osodaf ddim *anwir* (Heb. *Belial*) o flaen fy llygaid." Ac yn *Nah*. ii. 1, "chwalwr" y cyfieithir y gair: "Daeth y *chwalwr* (Heb. *Belial*) i fyny o flaen dy wyneb." Gwall mawr yn y cyfieithiadau ydyw defnyddio y gair gwreiddiol weithiau, a'i gyfieithu brydiau ereill i luaws o wahanol eiriau; yr hyn sydd yn anfantais mawr i ddeall y testynau gwreiddiol yn gywir.

Defnyddir y gair *Belial* unwaith yn y Testament Groeg, a gadewir ef heb ei gyfieithu yn y Testament Cymraeg: "A pha gyssondeb sydd rhwng Crist a *Belial?*" 2 *Cor*. vi. 15. Yma, gosodir Belial yn wrthgyferbyniol i Grist; ac amlwg ydyw ei fod yn arwyddo *yr un drwg*—diafol, neu Satan. Unwaith, fel y crybwyllwyd, y ceir "y fall" yn y Testament Newydd: "Wedi cymmeryd tarian y ffydd, â'r hon y gellwch ddiffoddi holl bicellau tanllyd *y fall;*" *Eph*. vi. 16. Cyfieithiad ydyw "y fall" yn y lle hwn, fel yr awgrymwyd, o πονηρος (*ponêros*); "ac y mae yn ddiammheu," medd Barnes, "mai at elyn mawr pobl Dduw—yr hwn, mewn ffordd o hynodrwydd, a elwir yr un drwg—y cyfeirir yma." Y mae y gair Groeg, a gyfieithir yma "y fall," yn cael ei ddefnyddio gryn ddeunaw a thrigain o weithiau yn y Testament Newydd; ac yn mhob man yno, ond y lle hwn, cyfieithir ef, pan yn sylweddair, naill ai "y drwg" (*Mat*. xiii. 19, 38), neu "yr un drwg" (1 *Ioan* ii. 13, 14; iii. 12); ac unwaith, "drygioni" (1 *Ioan* v. 19). Pan yn ansoddair—fel y mae gan mwyaf o lawer—"drwg" ydyw y cyfieithiad.

FANIAH: [פניה=*magwraeth yr Arglwydd*, neu *arfau yr Arglwydd;* Βανιας]: *Vania* ydyw yr enw

Digitized by Google

yn nghyfieithiad y Dr. Morgan. Un o'r Israeliaid a gyttaliasant â gwragedd dyeithr, ac a roddasant eu llaw ar eu bwrw allan: *Ezra* x. 36.

**FASNI**: [וַשְׁנִי=*a'r ail;* Βασνί]: yn 1 *Cron.* vi. 28, dangosir mai cyntafanedig Samuel ydyw. Ar ymyl y ddalen, Ioel yw yr enw; ac yr ydym yn gwybod wrth 1 *Sam.* viii. 2 (cymharer 1 *Cron.* vi. 33; xv. 17) mai Ioel oedd mab hynaf Samuel. Bernir, gan hyny, fod llygriad nodedig wedi digwydd yn 1 *Cron.* vi. 28. Gadawyd enw Ioel allan, a chymmerwyd enw Fasni, sydd yn arwyddo "a'r ail," ac yn darlunio Abïah, fel enw priodol.

**FASTI** [וַשְׁתִּי=*yn yfed; edeu;* Pers. *prydferthwch; tlysferch;* 'Αστίν]: gwraig Ahasferus, brenin Persia, yr hon ydoedd lân yr olwg; ac o blegid iddi wrthod dangos ei hun yn ddiorchudd ger bron tywysogion y llys a'r bobloedd, ar archiad y brenin, fel y gwelent ei glendid, bwriwyd hi allan o'r freniniaeth, trwy gynghor Memuchan, un o dywysogion brenin Persia, rhag i'w hesampl hi o anufudd-dod i'r brenin beri i arglwyddesau Persia a Media ddilyn ei hol, trwy beidio anrhydeddu eu gwŷr: *Esth.* i. 10—22. Hyn a arweiniodd i ddyrchafiad Esther i'r frenhiniaeth: *Esth.* ii. Gwel AHASFERUS, ESTHER.

**FERMILION**: gwel YSGARLAD.

**FICER** [Llad. *vicarius*=un yn lle un arall]: gelwir gweinidog pob plwyf yn Mhrydain yn *rector*, oddigerth na byddo y degymau tirol yn cael eu neillduo; ac yna gelwir ef yn ficer, megys *is*-swyddog, yn lle *rector;* a phan y byddo neillduad o'r fath yn perthyn i rectoriaethau, cymmer ficeriaid le rectoriaid. Yr oedd y gwaddoliadau a wneid gynt, trwy gyfrwng y rhai y rhoddid rectoriaethau a'u helw at wasanaeth priodol a pharhaus rhyw gorphoriaeth grefyddol neu eglwysig a fyddai yn meddu nawdd bywiolaethau, yn neillduoliad. Yr effaith o hyn oedd gwneuthur y cyfryw gorphoriaethau crefyddol yn berigloiion parhaus, trwy ganiatau iddynt gadw y degymau a'r tiroedd eglwys yn eu dwylaw eu hunain, heb eu rhoddi i unrhyw ddarllenydd; ac appwyntio rhaglaw, a elwid ficer, i gyflawni y gwasanaeth. Y mae yn debyg nad oedd ficeriaid ar y dechreu yn cael eu cynnysgaethu âg un ran o'r degymau; ond yn ol deddf 15 Richard II., *pen.* 6, deddfwyd, y byddai raid i feddiannydd gweinidogaeth y lle, yn ngwyneb pob neillduoliad, ddarparu ar fod i'r ficer gael ei waddoli yn briodol a digonol; ac yn ol deddf 4 Henry IV., *pen.* 13, y byddai raid i un gael ei ordeinio yn ficer parhaus, a'i osod yn ei le yn ganonaidd yn mhob eglwys a neillduid felly, a chael ei waddoli yn briodol, yn ol doethineb perchenog y fywoliaeth. Hyn a roddodd ddechreuad i waddoli ficeriaethau, yr hyn yn gyffredin a gynnwysai ddegymau bychain perthynol i'r fywoliaeth a fyddai yn anhawdd i'r neillduolwyr eu casglu, a rhyw ran o dir yr eglwys. Ond pe na byddai y degymau bychain yn ddigon i wneud y drydedd ran o swm y fywoliaeth, yna caniateid i ran o'r degymau mawrion, megys ŷd a grawn, wneud y diffyg i fyny; yr hyn oedd yr achos fod llawer o ficeriaethau yn awr wedi eu gwaddoli felly. Pan fyddo ficer wedi ei waddoli, ac yn dyfod i mewn trwy osodiad yn ei swydd, bydd ganddo *curam animarum actualiter* (gofal gweithredol eneidiau); ac nis gellir ei symmud ymaith wrth ewyllys y rector—yr hwn, yn yr amgylchiad yma, ni feddu ond *curam animarum habitualiter* (gofal defodol eneidiau) yn unig; ond lle na byddo'r ficer wedi ei waddoli, nac wedi dyfod i mewn trwy osodiad yn y swydd yn ol y ddefod, gan y rector y bydd "gofal gweithredol eneidiau," a gall droi y ficer ymaith. Pan fyddo gwaddoliad, y mae gan y ficer hawl gyfartal, er nad mor fawr, yn yr eglwys, ag sydd gan y rector. Gan y ficer, yn yr amgylchiad yma, y mae y fynwent a thir yr eglwys; a chan mai ganddo ef y mae rhydd-ddaliad tir yr eglwys, gall hawlio holl ddegymau y plwyf, oddigerth yr ŷd a degymau mawrion ereill. Pa fodd bynag, y mae gan lawer o ficeriaid ran o'r degymau mawrion; ac mewn rhai bywoliaethau, oedd ar wahân gynt trwy fod yn feddiant gwŷr lleyg, pan gaffont eu huno, rhoddir yr holl dir eglwys a'r degymau i'r ficeriaid. Ond nis gall degymau fod yn perthyn i'r ficer mewn un ffordd ond trwy rodd, cyttundeb, neu hir feddiant; canys i'r rector y perthyna y degymau mewn gwirionedd, ac etto y mae y ficeriaid yn gyffredin yn cael eu gwaddoli â'r tir eglwys a'r degymau—yn enwedig y mân ddegymau. Trwy ddeddf seneddol, 1 a 2 William IV., *pen.* 45, y rector, yn ol ei fraint gyffredin, yw noddwr y ficeriaeth. Ond gellir sefydlu yn wahanol; canys os gwystla y rector ei rectoriaeth, y mae nawddogaeth y ficeriaeth yn myned i roddwr y gwystl. Ac yn ol deddf, 19 Edward II., *pen.* 41, os daw ficeriaeth yn wag pan fyddo y rectoriaeth hefyd yn wag, gan noddwr y rectoriaeth y bydd hawl i roddi y ficeriaeth. Gall y rector, y noddwr, a'r esgob, greu ficeriaeth, a'i gwaddoli; a phan fyddo y rectoriaeth yn wag, gall y noddwr a'r esgob wneuthur hyny; ond yn ol 17 Edward III., *pen.* 51) nis gall yr esgob ei hun greu ficeriaeth heb gydsyniad y noddwr. Gall ficeriaeth gael ei haduno â'r rectoriaeth, megys pan fyddo y ddwy yn wag, ac yn rhodd un person, os rhydd y noddwr ei ddarllenydd yn rector—yr hwn, o angenrheidrwydd, a osodir yn y swydd yn ol y ddefod—(yn ol 11 Henry VI., *pen.* 32) una hyny y rectoriaeth â'r ficeriaeth. Gwel RECTOR.

**FINEGR.** Gwel GWIN.

**FOE, DANIEL DE**: mab James Foe, cigydd o blwyf St. Giles, a anwyd yn Llundain yn 1661. Ychydig a fynegir am ei flynyddoedd boreuaf. Anfonwyd ef gan ei dad, yr hwn oedd Ymneillduwr, i goleg Ymneillduol yn Newington Green, lle y bu am bedair blynedd. Gan mai hyn oedd yr unig addysg a gafodd, rhaid penderfynu ei fod wedi ymroddi i astudio gyda llwyddiant mawr. Rhoddir gwahanol resymau dros ei waith yn rhoddi *De* o flaen ei enw teuluaidd Foe. Dywed rhai mai er mwyn cuddio ei ddechreuad isel y defnyddiodd ef, gan gredu y buasai y chwanegiad yma at ei enw yn sicrhau yr amcan hwnw. Ymddangosodd De Foe yn gyntaf fel awdwr yn 1683, pan oedd o ddeutu 22 mlwydd oed, pan y cyhoeddodd lyfryn gwleidyddol ar y rhyfel a ddygid yn mlaen y pryd hyny rhwng yr Awstriaid a'r Tyrciaid. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, parodd i'w gasineb at James II. a'i lywodraeth, a'i zel o blaid Protestaniaeth, iddo ymrestru dan y duc o Monmouth—bradwriaeth ryfygus ac annhrefnus yr hwn a fu yn achos i gynnifer gael eu colli. Bu ein hawdwr mor ffodus a dianc rhag y dynged hono a ddygwyddodd i nifer mawr o'i gyfeillion. Bu De Foe am rai blynyddoedd

Digitized by Google

mewn masnach, yn gyntaf fel gweithiwr hosanau a masnachwr gwlan; ac yngl ŷn â'r rhan yma o'i fasnach, dywed Wilson, yn ei *Life and Times of De Foe*, iddo fod ar fwy nag un fordaith yn Yspaen. Wedi hyny, sefydlodd weithfa pridd-feini (*bricks*) ar lanau y Tafwys (*Thames*), yn nghymmydogaeth Tilbury Fort, y rhai a ddadforid o'r blaen bob amser o Holland. Diau fod dygiad y gwaith yma i mewn o fudd mawr i'r wlad; ond ni bu o nemawr elw i De Foe. Yr oedd ei ddarfelydd bywiog, ei dymmer danbaid, y dyddordeb mawr a gymmerai mewn gwleidyddiaeth, a hoffder o lenyddiaeth, yn ei anghymhwyso i fod yn fasnachydd llwyddiannus. Dyrysodd ei amgylchiadau, a bu raid iddo fyned drwy lŷs y torgedaeth (*bankruptcy*): pa fodd bynag, gwnaeth y fath egni anrhydeddus i dalu i'w holl ofynwyr, fel y cawsant eu boddloni yn hollol ynddo.

Yn 1687—8, cafodd ei dderbyn yn fwrdais o ddinas Llundain; ac yn 1695, gwnaed ef yn gyfrifydd i'r dirprwywyr er trefnu y tollau ar wydr —gorchwyl o fyr barhad, canys collodd y swydd yn 1699, pan ddilewyd y dreth. Yn nechreu 1700, cyhoeddodd ei *True-born Englishman*—llyfryn yn ateb i gabledd ar y brenin William, a ysgrifenasid gan Tutchin. Boddhaodd yr amddiffyniad yma y brenin; yr hwn, nid yn unig a ffafriodd yr awdwr â gwrandawiad, ond a roddodd wobr fwy sylweddol iddo, sef arian. Yr oedd ganddo sail i obeithio, gan ei fod wedi ennill ewyllys da y brenin, y byddai iddo gael rhyw alwedigaeth gyhoeddus yn fuan; ond dinystriwyd ei holl obeithion trwy farwolaeth y brenin, ac esgyniad y frenines Anne. Nis gallai ddysgwyl un ffafr oddi wrth y llywodraeth newydd, gan ei fod bob amser yn wrthwynebus i deulu Stuart a'i bleidwyr. Wedi i'r ffynnon yma sychu, heb ddim argoel iddi ail agor, fe droes De Foe o ddifrif at ei bin-ysgrifenu—ar yr hwn yn unig y gallai yn ddiogel ymddibynu am ei gynnaliaeth. Yn awr, dechreuodd ysgrifenu gyda diwydrwydd diflino; ond teimlodd ei golled yn fuan am ei noddwr — y brenin. Rhoddodd dramgwydd chwerw i lawer o bersonau galluog yn y llywodraeth trwy gyhoeddi llyfryn duchanllyd (*ironical*), a elwid, *The shortest way with the Dissenters* ("Y Ffordd feraf gyda'r Ymneillduwyr"). Gwrthwynebai y blaid uchel-eglwysig y llyfr fel cabldraith; a chynnygiwyd gwobr am ddal yr awdwr. Penderfynodd Tŷ y Cyffredin yn ilidiog, Chwefror 25ain, 1702, ar i'r llyfr cableddus hwn gael ei losgi gan y dienyddwr cyffredin; a gwnaeth ysgrifenydd y llywodraeth y cyhoeddiad canlynol yn hysbys :—"Cyhuddir Daniel De Foe, neu De Fool, o ysgrifenu llyfryn cableddus a maleisus, a elwir *The shortest way with the Dissenters*. Dyn teneu, canolig o faint ydyw, tua deugain mlwydd oed, o bryd tywyll, â gwallt o liw cochddu, ond yn gwisgo perwig: trwyn cam, gên deneu, llygaid gleision, a dafad fawr wrth ei enau. Pwy bynag a ddalio y dywededig Daniel De Foe, ac a'i traddodo i un o brif ysgrifenyddion ei Mawrhydi, neu i un o ynadon heddwch ei Mawrhydi, fel ag i'w ddwyn i'r ddalfa, caiff wobr o 50*p.*, y rhai a delir cyn gynted ag y dygir ef i'r ddalfa." Daliwyd ef yn fuan ar ol hyn: dirwywyd ef, rhoddwyd ef ar yr arteithglwyd, a charcharwyd ef. "Fel hyn," eb efe, "dinystriwyd fi yr ail waith; canys collais trwy yr amgylchiad yma dros 3,500*p.*" Yn ystod yr amser y bu yn ngharchar Newgate, ysgrifenodd gân i'r arteithglwyd, ac addfedodd ei gynllun i gyhoeddi *The Review* ("Yr Adolygydd")—papyr a ysgrifenid yn gwbl ganddo ef ei hun, ac a barhaodd i ymddangos ddwywaith neu dair yn yr wythnos dros fwy na naw mlynedd o amser. Ar ol iddo fod yn garcharor am fwy na blwyddyn, erfyniodd Harley, yr hwn oedd yn ysgrifenydd y llywodraeth ar y pryd, ar y frenines am ei ryddhad, yr hon ar unwaith a anfonodd arian i'w wraig oedd mewn angen mawr; ac ar ol peth oediad, a daliodd y ddirwy, ac a'i gollyngodd ef yn rhydd. Pan yn rhydd unwaith eto, cymmerodd De Foe dŷ yn Bury St. Edmunds; i'r lle y symmudodd ei wraig a'i blant, ac yr ail ddechreuodd ar ei lafur llenyddol. Gwylid ef eto yn awchus a gofalus gan ei elynion lluosog. Dywedir i erlyniadau ffugiol gael eu dechreu yn awr yn ei erbyn, a bod cynllun wedi ei lunio i'w gipio ef i fyny fel crwydryn tra ar daith i Exeter, a'i ladrata fel milwr. Yn 1706, arganmolwyd De Foe wrth y frenines gan Arglwydd Godolphin fel person cymhwys a phriodol i'w anfon i'r Alban i ddwyn yr Undeb yn mlaen. Wedi ymddiried y gorchwyl yma iddo, preswyliodd yn Edinburgh hyd ddiwedd 1707, pan, ar ol dychwelyd i Lundain, yr ysgrifenodd hanes y pwnc a fu yn ei bleidio. Am ei wasanaeth yn ystod y genadwri yma, caniataodd y frenines dâl-wobr (*pension*), yr hyn ni chaniatawyd iddo ef ei fwynhau yn hir o blegid cyfnewidiadau gwleidyddol; a gorfodwyd ef unwaith eto i ennill ei fywoliaeth trwy ysgrifenu. Dygodd ei ymosodiadau yn ei lyfrynau gwleidyddol ef yn awr, yr ail waith, i ddyryswch. Dirwywyd ef i swm o 800*p.*, o blegid dau bapyryn—un o'r enw, *What if the Queen should die?* ("Beth pe byddai i'r Frenines farw?"); a'r llall, *What if the Pretender should come?* ("Beth pe deuai yr Ymhònwr?"); ac o herwydd nas gallai dalu, trosglwyddwyd ef drachefn i Newgate. Ni bu ei ail garchariad mor hir a'r cyntaf; canys rhyddhawyd ef gan y frenines yn Tachwedd, 1713.

Ar ol marwolaeth Anne, yn 1714, ymosodai ei elynion arno o bob parth, fel y gorfodwyd ef er hunan-amddiffyniad i ysgrifenu hanes ei ymddygiad gwleidyddol, a'r dioddefiadau yr aeth drwyddynt. Pwysodd ymosodiadau parhaus ei elynion ar ei feddwl mor drwm nes iselhau ei ysbryd, a gwaethygu ei iechyd; yr hyn a derfynodd mewn ffit o'r parlys mud. Pan ymadferodd, parhaodd i ysgrifenu; ond meddyliodd y byddai yn ddoeth iddo adael ei hen faes o duchanau a gwawdiau gwleidyddol, a rhoi cais ar un newydd. Troes ei feddwl ffrwythlawn a chyfoethog yn awr i weinyddu difyrwch ac adeiladaeth i'w genedl trwy ffug-hanesion, a chyhoeddodd y rhan gyntaf o'i waith anghymharol, a elwir *The Adventures of Robinson Crusoe* ("Anturiaethau Robinson Crusoe")—poblogrwydd yr hon chwedl a ragorodd ar bob un a fu o'i blaen. Ceisiwyd bychanu teilyngdod y gwaith hwn o blegid ei ddiffyg gwreiddioldeb; "ond mewn gwirionedd," medd Syr Walter Scott [*Prose Works*, iv. 245], "ymddengys mai yr unig beth a wnaeth chwedl Selkirk, a gyhoeddasid ychydig flynyddoedd cyn hyny, oedd rhoddi iddo y syniad noeth am ddyn yn byw mewn ynys anghyfannedd, fel y mae yn gwbl ddibwys pa un ai o'r chwedl hono neu ryw un gyffelyb, y cymmerodd De Foe yr awgrym." Parodd y llwyddiant a'r elw mawr a gynnyrchodd y rhan gyntaf iddo gyhoeddi ail a thrydydd ran —teilyngdod pob un o ba rai sydd, yn marn y beirniaid, yn llawer llai na'u rhagflaenorydd, yn enwedig yr olaf. Cyhoeddwyd talfyriad bychan o'r gwaith poblogaidd a dyddorol hwn yn Gymraeg tua 40 neu 50 mlynedd yn ol; o ba un yr

Digitized by Google

ymddangosodd amryw argraffiadau; ac yr ydym yn deall fod argraffiad o'r gwaith cyflawn yn cael ei ddwyn allan yn awr (1863) yn Gymraeg.

Nid attebai ddyben i ni nodi yr holl lyfrynau lluosog a gyhoeddodd De Foe. Nid ydyw *The Adventures of Captain Singleton; The Fortunes of Moll Flanders; The History of Colonel Jack; The Fortunate Mistress; The Memoirs of a Cavalier;* a *The History of the Plague,* y rhai mwyaf poblogaidd o'i gyfansoddiadau a ddilynasant *Robinson Crusoe,* ond rhan fechan o'i ysgrifeniadau. Cyhoeddodd ei fywgraffwyr—Chalmers a Wilson—restrau o ysgrifeniadau De Foe; ond y mae yn dra thebyg eu bod yn anghyflawn, a bod llawer o'i gyfansoddiadau, y rhai nid oeddynt ond o ddyddordeb amserol yn unig, wedi colli.

Bu Daniel De Foe farw yn ddeg a thrigain oed, ar y 24ain o Ebrill, 1731, yn mhlwyf St. Giles, Cripplegate. Gadawodd weddw ac amryw blant ar ei ol, yn mysg y rhai yr oedd Norton De Foe, awdwr y *Memoirs of the Princess of the House of Orange,* yr hwn a wawdir yn *Pope's Dunciad* fel fel hyn:—

"O Daniel ac Ostræa y deilliodd ein Norton;
Ca'dd wyneb ei dad a thafod ei fam ffraethlon."

Cyhoeddodd Sophia, merch ieuengaf Daniel De Foe, ddau draethawd ar y "Chwydd-wydr." Priododd Henry Baker—gŵr o ddysg helaeth.

Nid oes ond un farn yn mysg y beirniaid am ryddiaith Daniel De Foe; sef, ei fod yn ddyn o dalent dra anghyffredin, ac yn un o brif ysgrifenwyr ei oes: ond am ei farddoniaeth, yr hon nid ystyrir ond prin yn deilwng o'r enw, nid ydyw o nemawr werth mewn un ystyriaeth.

Pe buasai De Foe mewn amgylchiadau cysurus, y mae pob lle i gasglu y buasai yn ysgrifenu llawer llai, ac mai angen yn unig a'i gwnaeth ef yn ysgrifenydd llyfrau, ac yn ei yru yn barhaus at y wasg. Yr oedd dadleuon yr amser yn ei gynnysgaethu âg ystôr dihysbydd o bynciau; ac yr oedd tanbeidrwydd ysbryd plaid yn cael ei ddangos gan bawb yn eu llyfrynau, y rhai a ddefnyddid fel arfau y rhyfel wleidyddol. Yr oedd gan De Foe ddau reswm dros gymmeryd y dull yma o ysgrifenu:—yn gyntaf, dyma oedd y ffordd sicraf i sicrhau gwerthiad buan, ac i ddwyn angenrheidiau arianol iddo; ac yn ail, yr oedd yn wleidyddwr selog ei hunan. Yr oedd yn ysgrifenu yn erbyn teulu Stuart, fel Diwygiwr; yn erbyn y Pabyddion, fel Protestaniad; ac yn erbyn yr Eglwys, fel Ymneillduwr cydwybodol. Pa fodd bynag, nid ymgyfyngai efe at y pynciau cyffredin mewn dadl rhwng y sectau; ond traethai ar gyllidaeth, masnach, torgedaeth, yr undeb â'r Alban, &c.; a'r cwbl yn annibynol ar ei *Review,* yr hwn a gynnwysai erthyglau ar newyddion tramor a chartrefol, gwleidyddiaeth, a marsiandïaeth. "Yr oedd ffrwythlondeb talent De Foe," medd Syr Walter Scott, "yn rhyfeddol. Ysgrifenai ar bob achos ac ar bob pwnc; a hyny, fel yr ymddengys, heb ond ychydig o amser i barotoi at y pwnc mewn llaw, gan ddibynu yn unig ar y trysor oedd eisoes yn ei gof a gafodd trwy ddarlleniad boreuol, a'r awgrymau a gasglai mewn cymdeithas—o ba rai, nid ymddengys y collai efe yr un." Am ei *Review,* tybir nad oes un copi cyflawn o hono yn awr ar gael. Pa faint bynag o ddyddordeb a chynhwrf a barai yn amser ei gyhoeddiad, nid ymddengys iddo fyw yn hir ar ol ei awdwr. Ond nid ynglŷn â'r dosbarth yma o ysgrifeniadau, er eu bod hwy yn ddiammheuol alluog, yr oedd enw a chlod De Foe i gael eu trosglwyddo i'r oesoedd dyfodol. Trwy ei ystoriau poblogaidd y cafodd efe yr enw mawr a fwynha mor deilwng. Gellir ystyried fod y rhai hyn o dri math:—1. Hanes o ddygwyddiadau nodedig; megys, *The Journal of the Plague Year,* a'r *Memoirs of a Cavalier.* 2. Hanes morwyr, gwiblongau, lladron, twyllwyr, ac ysbeilwyr; megys *Robinson Crusoe,* môrladradau y *Captain Singleton,* hanes y *Colonel Jack, Moll Flanders,* a *Roxana.* 3. Darluniadau o ymddangosiadau goruwchnaturiol; megys *The Life of Duncan Campbell, A Treatise on Spirits and Apparitions,* a'r drydydd ran, ddirywiedig, mewn cymhariaeth i'r rhan gyntaf, o *Robinson Crusoe,* ac *Apparition of Mrs. Veal.* Ceir hanes manwl am y cyfansoddiad tra chywrain yma, a'i lwyddiant cyflawn, yn *Sir Walter Scott's Biography of De Foe,* lle yr ail argraffwyd holl hanes yr *Apparition.* Gellir priodoli cywirdeb gwybodaeth forwrol De Foe i'w waith yn preswylio yn Limehouse, lle y preswyliai lluaws o forwyr, ac i'w gyfeillach â Dampier. Rhaid mai yn ystod ei garchariadau y daeth i gydnabyddiaeth â buchedd ddirywiedig, ac â thriciau hocedwyr a phuteiniaid.

Ystyria y beirniaid mai lled anghoeth oedd arddull Daniel De Foe; ond yr oedd yn syml, ac yn dra effeithiol. Ansawdd nodedig ei ysgrifeniadau ef ydyw, yr ymddangosiad naturiol o wirionedd a roddir i ffug ynddynt. Y mae efe, trwy ddysgrifiadau neillduol a manwl, y rhai nad änt byth yn ddiflas, o blegid ei fedrusrwydd yn eu hadrodd, yn mwyhau eu tebygolrwydd, ac yn chwanegu eu dyddordeb, nes cludo y darllenydd i'w ganlyn, gan ei orfodi i deimlo megys pe b'ai yn darllen gwir hanes. Mae yn ddiammheuol na roddodd un awdwr argraff ar feddyliau cynnifer o bersonau eu bod yn darllen gwirioneddau, yn hytrach ffugchwedlau, gymmaint ag a roddodd Daniel De Foe.

**FRANCIS, ENOCH:** a anwyd tua'r flwyddyn 1689, yn Pant-y-llaethdy, yn Nyffryn Teifi; ac yr oedd yn un o'r dynion addfwynaf y gellid ei gyfarfod. Ymunodd, pan yn bur ieuanc, âg eglwys y Bedyddwyr, yr hon a ymgyfarfyddai mewn gwahanol fanau yn y parthau hyny. Pan oedd yn bedair ar bymtheg oed, galwyd ef i bregethu yr efengyl. Wedi iddo fod yn pregethu am ysbaid ar brawf, ordeiniwyd ef yn gynnorthwywr i'w hen weinidog, y Parch. John James: ar farwolaeth yr hwn yr appwyntiwyd Mr. Francis i fod yn olynydd iddo. Enwogodd ei hun yn fuan fel un o'r gweinidogion mwyaf ymroddgar a galluog. Tua'r flwyddyn 1718, priododd wraig hynod o dduwiol o Flaenrhymni, yn mhlwyf Gelligaer, Morganwg; ac yn fuan ar ol priodi, aeth i fyw o Gapel Iago yn agos i Lanybydder, yn sir Gaerfyrddin. Pregethai yn gysson yn ei dŷ ei hun, ac mewn amryw fanau ereill yn Nyffryn Teifi, o Lanbedr i Gastell Newydd Emlyn. Y fath oedd ei boblogrwydd, fel yr oedd ei gyhoeddi i bregethu mewn unrhyw fan yn ddigon i dynu tyrfaoedd lluosog i'w wrandaw. Dywedir mai anfynych y byddai yn traddodi pregeth heb dywallt dagrau, a phrin y byddai neb o'i wrandawyr yn llygad sych. Byddai yn arfer rhoddi taith flynyddol i bregethu trwy Ogledd Cymru; pryd yr ymwelai â holl eglwysi ei enwad ei hun yn y parth hwn o'r Dywysogaeth. Gan ei fod o duedd hynod o addfwyn, ac heb fawr o bleidgarwch sectarol yn ei lywodraethu, byddai brodyr o enwadau ereill yn ei wahodd yn fynych i bregethu yn eu pulpudau.

Ar y 23ain o Awst, 1739, collodd ei anwyl wraig; a syrthiodd gofal chwech o blant ieuainc

Digitized by Google

amddifaid arno ef ei hun yn unig; ond nid oedd yn mwriad ei Dad Nefol ei adael yn hir dan y baich; canys ar y 4ydd o Chwefror, 1740, bu yntau farw, yn yr 51ain flwyddyn o'i oedran. Tra yr oedd yn pregethu yn Abergwaen, cymmerwyd ef yn glaf, ar ei ddychweliad o Langloffan, sir Benfro; ac ar ol dyoddef am ychydig ddyddiau, efe a hunodd yn yr Iesu. Yr oedd yn mwynhau y tangnefedd meddwl mwyaf hyfryd yn ystod ei salwch olaf, oddigerth ar amserau y rhoddai ochenaid ddwys, gan ddywedyd, "O! fy chwe phlentyn amddifaid!" Ychydig o funydau cyn iddo farw, dywedodd wrth y wraig oedd yn gofalu am dano, "Mi a dreuliais lawer blwyddyn i wahodd ereill at fy Iachawdwr bendigedig: yn awr, yr wyf yn myned ato fy hunan." Claddwyd ef yn Cilfawyr, yn y bedd a agorwyd bum mis cyn hyny i dderbyn corff ei wraig serchog. Yr oedd galar mawr dros ben ar ei ol trwy yr holl wlad, yn mysg pob enwad o grefyddwyr. Ystyrid ei farwolaeth yn golled gyffredinol. Gofalwyd yn helaeth am ei chwe phlentyn, dros y rhai y pryderai mor ddwys ar ei wely angeu, gan Dad yr amddifaid. Yr oedd un o'i dri mab yn ŵr ieuanc hynod o dduwiol; a bu farw yn 1749, yn y ddeunawfed flwyddyn o'i oedran. Daeth y ddau ereill yn weinidogion enwog. Yr ieuangaf oedd yr enwog Benjamin Francis, o Horsley, yn sir Gaerloyw; awdwr poblogaidd yr emynau Seisonig a Chymreig, y rhai a wnaethant ei enw yn anfarwol.

FRANCISCUS, FRANCISCIAID: ganwyd Franciscus, Francis, neu Francisco Bernardone, yn 1182, yn Assisi Spoleto. Cymmerodd Pietro Bernardone, masnachydd cyfoethog, lawer o ofal i ddwyn ei fab i fyny, a threuliodd lawer o arian ar ei addysg; ond cafodd somedigaeth chwerw yn ymddygiadau penrhydd a diofal ei fab pan yn ieuanc; ond wedi iddo dyfu i fyny, gwnaeth ef yn gyfranog yn ei fasnach. Cymmeradolwyd llawer ar ei uchelgais—oedd wedi ei yru i'r rhyfel a ddygid yn mlaen gan Assisi yn erbyn Perugia—trwy iddo gael ei garcharu am flwyddyn o amser. Ar ei ddychweliad adref, cymmerwyd ef yn glaf gan glefyd llym, yr hwn a wnaeth holl ddifyrwch y byd yn ddiwerth yn ei olwg; a thra wedi ei neillduo oddi wrth gymdeithas, yn unigol a digalon, dechreuodd weddïo ar ei Greawdwr. Tra yr oedd yn Rhufain, i'r lle yr aethai ar bererindod, clywai lais, pan oedd yn gweddïo, yn gorchymyn iddo ymdrechu i ail sefydlu y deyrnas ddwyfol. Gwerthodd ryw eiddo oedd yn perthyn i'w dad, a'i geffyl ei hun yn y fan, a rhoddodd yr arian i'r offeiriad. Ar ol ei ddychweliad i Assisi, effeithiodd pregeth a draddodwyd ar *Mat.* x. 9, 10, mor ddwys arno, fel y diosgodd ei esgidiau, ac yr ymadawodd â'i ffon a'i bwrs, gan roddi gwregys a rhaff o'i amgylch, a dechreuodd bregethu edifeirwch. Erbyn y flwyddyn 1210, yr oedd ei ddilynwyr yn un ar ddeg o nifer. Gan mai ei amcan oedd dyrchafu ei gydwladwyr o laid pechod, efe a dynodd allan gynllun o fuchedd sanctaidd. Yr oedd ei ddisgyblion i bregethu edifeirwch, nid yn unig â geiriau genau, ond hefyd trwy rym esampl a gwir hunan-ymwadiad, gan edrych at Dduw am eu gwobr. Yr oedd tlodi i fod yn hyfrydwch iddynt, a chan ymwadu i chysuron bywyd, yr oeddynt i ymddibynu ar elusenau. Yr oedd eu cyrff i gael eu cospi trwy ymprydio. Yr oeddynt i ufuddhau yn ddiymholiad i'w huwchafion; ac nid oedd neb i gludo y genadwri i'r Saraceniaid a'r cenedloedd heb eu cydsyniad hwy. Er mwyn ymgadw yn berffaith ddiwair, gwaherddid iddynt siarad â gwraig pan yn unigol. Yr oedd llymder eu bywydau i gael ei ysgafnhau trwy arfer cariad brawdol, a'r holl sarugrwydd Phariseaidd a wisgai eu gwedd i gael ei gynnal gan yr ysbryd ymddiriedgar a llawen oedd i'w llywodraethu. Yr oeddynt i roddi sylw arbenig i'r tlodion. Galwodd Franciscus eu cymdeithas *Fratres Minores* (y brodyr lleiaf), a gosododd arnynt *minister general* (weinidog cyffredinol), o flaen yr hwn yr oedd pob brawd oedd yn byw yn Italy i ymddangos unwaith yn y flwyddyn, a phob un o'r tu hwnt i'r Alpau a'r môr, unwaith bob tair blynedd. Wedi iddo gael awdurdod geiriol oddi wrth y Pab Innocent III. i'w gynlluniau, dychwelodd Franciscus i Assisi, ac ymgyfiwynodd ef a'i ddilynwyr i holl lymder bywyd meudwyaidd. Yn awr, ymunodd un *Clora Sciffi*, benyw lân odiaeth, ac o deulu tra chyfoethog, â'i gymdeithas; ac yn 1212, sylfaenodd Urdd y Clarissiaid, yr hon urdd a ymestynodd yn raddol i wledydd ereill. Yr oedd y pab wedi rhoddi rheol buchedd iddynt o waith Benedict; ac yn 1224, cawsant un oddi wrth Franciscus, oedd wedi ei chadarnhau gan y pabau, a'i gwisgo â g awdurdod gyffredinol gan Gregory IX., 1253. Ar ol ei marwolaeth, yn 1253, cafodd Clara ei seintio gan Alexander IV. Yn 1212, anfonodd Franciscus ei ddisgyblion bob yn ddau a dau i wahanol wledydd Italy; aeth yntau ei hun i Toscana, lle y rhoddodd Count von Casentius iddo Fynydd Alverna; ennillodd ddisgyblion yn Perugia; sefydlodd ei fynachlog gyntaf yn Cortona, tra yr oedd mynachdai yn cael eu ffurfio yn Pisa a dinasoedd ereill. Wedi cael dilynwyr yn Florence, dychwelodd i Assisi, a danfonodd chwech o frodyr i Maraco, y rhai a gawsant eu coroni â merthyrdod. Gan ei fod yn penderfynu myned i Affrica (1213), efe a aeth trwy Piedmont i Yspaen, lle y lluddiwyd ef ar ei-daith gan afiechyd. Yn y cyfamser, yr oedd yr urdd yn llwyddo yn Italy. Yn 1216, galwyd ynghyd y gymdeithasfa gyffredinol gyntaf o'r Franciscaid, yr hon a benderfynodd fod cenadon i gael eu hanfon i bob gwlad. Sefydlasant fynachdai yn Lisbon a manau ereill: croesawyd hwy yn Ffrainc, ond ni wnaethant fawr o gynnydd yn yr Almaen. Nid oeddynt hyd yn hyn wedi cael awdurdod ffurfiol y pab, ond yr oedd yr urdd wedi cynnyddu yn rhyfeddol. Yn ol un hanes (yn yr hon y mae gormodiaith) yr oedd 5,000 o frodyr yn nghymmanfa gyffredinol 1219, yr hon a benderfynodd anfon cenhadon i Yspaen, yr Aipht, Affrica, Groeg, yr Almaen, Prydain, a Hungary. Llwyddodd Cäsarius o Spires i blanu yr urdd yn y dref hono. Aeth Franciscus i Ptolemais, lle, tra yr oedd yn garcharor gan y Saraceniaid, yr ymdrechodd droi y Sultan, a chafodd ei ryddhau. Wedi i Elias—i'r hwn yr ymddiriedasai Franciscus drefniad yr urdd yn ei absennoldeb—fabwysiadu rhyw gyfnewidiadau, dychwelodd Franciscus i Italy. Yn 1223, gwnaed cydnabyddiaeth ffurfiol o'r urdd gan Honorius III. Bu Franciscus farw, ar y 4ydd o Hydref, 1224, yn Assisi, a seintiwyd ef yn 1228, gan Gregory IX. Yr oedd ei gymdeithas, yn mhen 24 mlynedd ar ol ei farwolaeth, yn meddu 8,000 o fynachdai, a 200,000 o fynachod mewn 24 o daleithiau. Yr oedd cynnydd digyffelyb yr urdd i'w briodoli mewn rhan fawr i'r ffafrau a wastreffid arni gan y pabau.

Tra yr oedd Franciscus ar fynydd Alverna, yn 1224, medd y chwedl, er mwyn ymprydio yno am ddeugain niwrnod; ac fel yr oedd ef yn ymwneyd mewn gweddi daer ar ddydd dyrchafiad y Groes,

ac yn myfyrio ar ddyoddefiadau ein Harglwydd, ymwelodd Crist âg ef fel seraph, ac argraffodd arno nodau ei archollion. Yr oedd y parch, gan hyny, a goleddid am ei goffadwriaeth yn myned gryfach gryfach. Dywedir i Franciscus ei hun adrodd y dygwyddiad yma; fod y Franciscan Leo, yr hwn a fu yn rhwymo yr archollion yn fynych, yn bresennol ar y dygwyddiad, a bod y pab Alexander IV., y santes Clara, ac amryw o drigolion Assisi, wedi eu gweled. Cadarnhaodd Gregory IX. y gwyrthiau hyn mewn tri o bablythyrau; cydsyniodd Nicholas III. â hwy, a chaniataodd Benedict XII. i ŵyl gael ei chynnal er coffadwriaeth am danynt. Y mae Bartholomäus de Pisis Albrizzi (1401), Francisciad Italaidd, yn ei *Liber conformitatum*, yn nodi deugain o gyfatebion rhwng Franciscus a Christ, ac yn haeru fod prophwydoliaethau yn llefaru am dano; ei fod wedi cyflawnu gwyrthiau a rhagfynegu pethau dyfodol; ei fod wedi ei groeshoelio a'i osod yn uwch na'r angylion.

Pa fodd bynag, dechreuodd haul llwyddiant wywo y blodau prydferth a feithrinasid gan urdd y Francisciaid. Collodd y symlrwydd a'r gostyngeiddrwydd ar ba rai yr oedd wedi ei seilio ar y dechreu. Y mae Matthew Paris [*Hist Maj. Engl.*, 1242], Benedictiad Seisonig, yn mynegu fod y Dominiciaid a'r Francisciaid yn Mhrydain yn cyfodi adeiladau ardderchog a gwychion, yn pentyru cyfoeth, yn ymyryd â llythyrau cymun boneddigion a'r gwŷr mawr, ac yn gweithredu fel cynghorwyr, ystafellyddion, trysorwyr, ac areithwyr i'r breninoedd, gan gyfaddasu eu pregethau at amgylchiadau, diystyru yr hen urddau, dwyn yr offeiriaid i ddirmyg, a chymhell eu hunain fel cyffeswyr i'r mawrion a'u gwragedd. Ymddengys nad annhebyg oeddynt mewn gwledydd ereill. Agorodd gorchymynion y pab Innocent IV., a'r pab Alexander IV., y ffordd i'w dyrchafu fel proffeswyr yn y prif ysgolion. Fel hyn, yn 1257, daeth y Dominiciaid, Thomas Aquinas, a'r Francisciad, Bonaventura, yn ddoctoriaid mewn duwinyddiaeth yn mhrifysgol Paris. Nid oedd yr olaf yn anhysbys, er ei fod yn amddiffyn ei urdd yn erbyn ymosodiadau William o St. Amour, fod llawer o lygredigaethau wedi ymlusgo i mewn; ac y mae yn eu ceryddu yn llym mewn amryw o'i draethodau, gan daer annog glanhau yr urdd oddi wrth y llygriadau oedd yn ei difwyno. Yr oedd y ffafrau parhaus a roddai y pabau i'r urddau cardotawl yn arwain i wrthdarawiadau mynych rhyngddynt a'r brifysgol. Rhyddhaodd Boniface VIII. (1295—6) y Francisciaid oddi wrth awdurdod frawdlysol yr esgobion; a chadarnhaodd John XXII., ac Alexander V., eu holl ragorfreintiau blaenorol. Er mwyn osgoi pabysgrif (*bull*) a roddwyd gan Alexander V., cafodd y brifysgol ddeddf frenhinol, yn gwahardd i'r Francisciaid a'r Awstiniaid yr hawl o bregethu ac o wrandaw cyffesiadau yn eu heglwysydd; ac areithiodd Gerson yn erbyn yr arferiad o'r pulpud yn 1409. A phan y rhyddhaodd Eugene IV. y mynachod oddi wrth ryw orchymynion pwysig a wnaed gan frodoriaeth dduwinyddol y brifysgol, cauodd y frodoriaeth hwy allan yn hollol yn 1441.

Yn mhen amser, magodd gorawydd am y flaenoriaeth ddadleuon blin rhwng y ddwy urdd gardotawl. Tra yr ymffrostiai y Dominiciaid yn uchder eu hynafiaeth, eu gwisg hardd, a theilyngdod apostolaidd eu pregethwyr, dadleuai y Francisciaid eu bod hwythau yn rhagori mewn gostyngeiddrwydd a llymder eu dysgyblaeth. Gyda golwg ar eu hathrawiaeth, hònai y Dominiciaid eu bod hwy, yn Enwoliaid ac Awstiniaid, tra yr edrychent ar y Francisciaid fel Sylweddoliaid a hanner Morganiaid. Heb law hyny, yr oedd y Francisciaid yn pleidio beichiogiad dihalog y Forwyn Fair; ond yr oedd y Dominiciaid yn gwrthwynebu y syniad i chwanegu y cwerylon yma; yr oedd dwy blaid yn awr yn ymryson am y flaenoriaeth yn yr urdd Franciscaidd. Arweinydd un o'r ddwy oedd Elias, y crybwyllwyd am dano eisoes—dyn o feddwl bydol, dialgar, yr hwn a gynnygiasai o'r blaen leihau meudwyaeth yr urdd; ac yn awr, ar ol cael ei alw gan Gregory IX. i adeiladu eglwys newydd er anrhydedd i St. Franciscus, a orchymynodd, yn groes i'r rheol, ar fod i gasgliadau gael eu gwneuthur yn holl eglwysydd yr urdd. Pen y blaid arall oedd Anthony o Padua, amcan yr hwn oedd cadw hen lymder yr urdd heb ei ddifwyno. Ar ol i Elias gyfarfod â llawer o lwyddiant ac anffodion, efe a etholwyd o'r diwedd gan gymmanfa gyffredinol, yn 1236, i fod yn llywydd, yr hyn a gadarnhawyd gan y pab. Etholodd y blaid arall John o Parient i fod yn llywydd arni. Elias a gydnabyddai y tywysogion a'r preladiaid; a pharodd i'r llymder afresymol a arferai, dan nawdd y pab, at ddilynwyr ei brif wrthwynebwr, Cäsarius o Spires, i Gregory IX. ei ddiswyddo yn 1239. Ennillodd y blaid fanwl oruchafiaeth dan arweiniad ei olynwr, Albert o Pisa; ac ar etholiad Crescentius de Jesu, yn 1244, llwyr ddiddymwyd dylanwad Elias. Pa fodd bynag, ni ddiddymwyd ei blaid, a chan iddi gael cefnogaeth Innocent IV., trwy leihau llymder y rheol yn 1245, a thrwy benderfynu y gallai y Francisciaid feddiannu eiddo yn ddarostyngedig i awdurdod y gadair Babaidd. Yr oedd hyd yn oed Crescentius, yr hwn a ddiswyddwyd yn 1247, yn tueddu at y blaid benrydd. Rhoddodd ei olynydd, John o Parma, a gyhuddid o heresi, ei swydd i fyny yn wirfoddol; a Bonaventura, dan nawdd y blaid lymaf, a ddewiswyd yn ei le. Canlynodd tri olynydd Bonaventura ei esampl ef, yr hwn, er y newidiadau a ddygwyd i mewn gan Innocent III., ac a gadarnhawyd gan y pab, a ymlynai fyth wrth y rheol gyntefig. Gwnaeth Nicholas III. newidiadau newyddion eto yn y rheol. Penderfynodd efe mai gan y cynghorau efengylaidd yn unig yr oedd y Francisciaid yn rhwym; y gallent ddefnyddio beth bynag a fyddai yn angenrheidiol at eu cynnaliaeth, ond nid gwir feddiannu dim, gan mai y pab oedd y gwir feddiannydd; na ddylai fod ganddynt ddim afreidiol, na benthyca dim; nad oedd y rhai a fyddent yn myfyrio, neu mewn gwasanaeth dwyfol, yn rhwym i weithio dim â'u dwylaw; ac na byddai i Francisciad bregethu mewn esgobaeth heb ganiatâd ei esgob, na myned i unrhyw leiandy (*nunnery*) heb genad y pab. Cyfododd y blaid, dan arweiniad Peter John, o Oliva, wrthwynebiad yn erbyn pabysgrif Nicholas, ac ymladdasant yn erbyn llywodraeth dyner y llywydd, Matthias o Aquas Spartas, yn 1287. Wedi i Chwil-lyswr Naples (1307) alltudio yr arweinydd, ffodd ei ymlynwyr am nawdd at Clemens V., yn Avignon. Gan eu bod yn anewyllysgar i ufuddhau i orchymyn y pab, yr hwn a fynai gymmodi y ddwy blaid trwy gyfrwng y gydgynghorfa, hwy a etholasant lywydd; ond penderfynodd Clemens yn eu herbyn yn 1314. Ar ol ei farwolaeth ef, ymdrechasant gyfodi i annibyniaeth yn Ffrainc; cymmerasant fynachdai Narbonne a Beziers trwy drais, a gwnaethant eu gwisgoedd yn fwy syml. Ymostyngodd y rhan fwyaf i John XXII.; cospwyd y rhai gwrthryfelgar, a llosgwyd rhai o honynt.

Digitized by Google

Yn 1321, cyfododd dadl ynghylch pa un a oedd Crist a'r apostolion yn meddu eiddo: haerai y Dominiciaid eu bod, a haerai y Francisciaid nad oeddynt. Yn 1322, gofynodd y pab farn yr enwog Ubertinus o Casale, Francisciad o'r fath fanylaf, yr hwn a sicrhaodd fod yr apostolion, fel preladiaid yr eglwys, yn meddu trysorfa gyffredinol at gynnal y tlodion a gweision yr eglwys; ond fel personau unigol, nad oeddynt yn meddu eiddo bydol. Pa fodd bynag, yr oedd gan Grist a'r apostolion, yn ol deddf natur, yr hyn oedd angenrheidiol at eu heisieu tymmorol, a dim chwaneg. Cafwyd peth heddwch ar ol hyn; ond yn 1322, torodd dadl allan drachefn. Parhaodd yr ymrysonau hyn am hir amser, yn y rhai y byddai y pab weithiau yn erbyn y gydgynghorfa, a hono drachefn yn erbyn y pab, hyd amser llywodraethiad Benedict XII. a Charles VI., pan yr unwyd y pleidiau ymrysongar ynghyd.

Y gynnulleidfa a sefydlwyd gyntaf o'r Francisciaid manylaf oedd y Clareniciaid, yn nosbarth Ancona, yn 1303—17, gan Angelus, meudwy Celestinaidd. Sefydlwyd ail gynnulleidfa, tua 1336, gan John des Vallées, yr hwn a adeiladodd fynachlog yn y lle afiach a elwid Bruliano, yn agos i Foligno. Adeiladodd ei olynwr, Gentile o Spoleto, bedair mynachlog; a chafodd ganiatad i dderbyn mynachod a dysgyblion. Cyhuddodd y Francisciaid eiddigus hwy o roddi nawdd i hereticiaid, a diddymodd Innocent VI., yn 1355, y pabysgrif a gyhoeddwyd gan Clement VI. o'u plaid. Yn 1368, sefydlodd Paolucci o Foligno, y sect a elwid y Sylwedyddion (*Observanti*), yn niffeithwch Bruliano, ac o herwydd mai sandalau (*zoccoli*) coed a wisgent, galwyd hwy yn Zoccolanti. Yr oedd ei gymdeithion yn arfer byw yn y modd tlotaf. O blegid ymdrech Paolucci, mewn cynghorfa gyhoeddus i gael ganddynt ymostwng i'r pab, alltudiodd trigolion Perugia hwy allan o'u gwlad. Parhaodd yr ymryson rhwng y ddwy blaid wedi hyny hyd Gynghorfa Trent, pan y caniatawyd i bob urdd reolaidd i feddiannu peth eiddo yn gyffredin, yr hyn a gadarnhawyd gan Pius IV. yn 1566.

Fel yr oedd y pleidiau Franciscaidd yn cynnyddu ac yn cryfhau, adeiladwyd lleiandai Franciscaidd, lle y gallai benywod ymneillduo oddi wrth y byd, i fyw bywyd crefyddol a meudwyaidd; i'r rhai y ffurfiwyd amryw reolau caethion i'w dilyn; y rhai a newidid, y chwanegid atynt, y tynid oddi wrthynt, ac a ddiddymid, yn ol mympwyon eu gwahanol arweinwyr, a'r gwahanol babau.

Bernir mai amcan diffuant Franciscus oedd gwellhau sefyllfa foesol ei oes, trwy roddi mewn ymarferiad yr hyn a bregethid gan ereill; ac fel aelodau yr Eglwys Babaidd yn gyffredinol, tybiai mai trwy weithredoedd da, o hunanymwadiad llym, a phenydiau, a'r cyffelyb, y gellid dwyn o amgylch ei amcanion yn fwyaf effeithiol.

FRANKLIN, BENJAMIN, LL. D., F. R. S, a anwyd yn Boston, New England, yn Ngogledd America, Ionawr 17eg, 1707. Yn Ecton, pentref yn sir Northampton, yn Mhrydain, yr oedd teulu ei dad wedi bod yn preswylio, ar etifeddiaeth fechan o'u heiddo eu hunain, er's tri chan mlynedd o leiaf cyn ymfudiaeth ei dad i'r America. Yr oedd ewythr i Franklin wedi methu cael allan pa mor hir cyn hyny yr oeddynt wedi bod yn preswylio yno. Fe allai eu bod yno byth, medd efe, er pan sefydlwyd cyfenwau, pan y cymmerasant hwy y cyfenw Franklin—enw yn arwyddo tir-feddiannydd (*freeholder*). Ymddengys fod teulu Franklin wedi ymuno yn foreu â'r Protestaniaid yn amser y Diwygiad; a phan y trowyd y Ddwy Fil Anghydffurfwyr allan o'r Eglwys Sefydledig yn amser Charles II., ymunodd Josias, tad Franklin, a brawd iddo, o'r enw Benjamin, â chynnulleidfa un o'r Anghydffurfwyr yn Ecton. Dioddefasant erlidigaeth chwerw o blegid hyny; ac yn mhlith crefyddwyr ereill o'r gymmydogaeth hono a ymfudasant i America rhag yr erlidigaeth, aeth Josias Franklin, a'i wraig, a thri o blant yno yn 1682, ac ymsefydlasant yn Boston, New England, America, lle ganwyd iddynt bedwar o blant ereill o'r briodas gyntaf. Yn mhen ryw ysbaid ar ol hyn, bu farw gwraig gyntaf Josias Franklin, a phriododd yntau yr ail waith âg Abiah Folger, merch Peter Folger, un o'r ymsefydlwyr cyntaf yn New England, am yr hwn y crybwylla Cotton Mather yn barchus yn ei *Ecclesiastical History* o'r dalaeth hono, fel "Sais duwiol a dysgedig," yr hwn oedd yn awdwr amryw ddarnau barddonol ar wahanol byngciau yr oes—un o ba rai a argraffwyd yn 1675, wedi ei gyflwyno i'r llywodraethwyr ar y pryd, yn dadleu dros ryddid cydwybod, a'r afresymoldeb o erlidigaeth grefyddol.

Bu i Josias Franklin ddeg o blant o'r briodas olaf a grybwyllwyd; a Benjamin (gwrthddrych y sylwadau hyn) oedd yr ieuangaf, ond dwy chwaer; ac yr oedd yn un o ddau ar bymtheg o blant, a chyfrif plant y ddwy briodas. Yr oedd ei dad wedi ymsefydlu yn America er's tua phedair blynedd ar hugain cyn geni ei fab ieuangaf.

Yr alwedigaeth a ddilynai ei dad oedd gwneud sebon a chanwyllau—i'r hyn nid oedd wedi ei ddwyn i fyny; ac ymddengys mai prin yr oedd ei fasnach yn ddigon i'w gynnorthwyo i gynnal ei deulu lliosog yn gysurus. "Gallai dynu darluniau yn lled hardd, ac yr oedd ganddo ychydig wybodaeth gerddorol. Yr oedd ei lais yn soniarus a dymunol, fel, pan y chwareuai ar ei grwth, ac y canai Salmau gyda hi â'i lais, megys yr arferai wneuthur ar ol gorphen gwaith y dydd, yr oedd yn dra hyfryd ei wrandaw. Yr oedd ganddo hefyd beth gwybodaeth mewn llawofyddiaeth (*mechanics*), a medrai drin arfau amryw grefftau yn bur gelfydd." O'r holl wŷr enwog a gyfodasant eu hunain, trwy nerth eu talentau ac egni eu diwydrwydd eu hunain, heb ormesu dim ar neb arall, i sefyllfa uchel mewn cymdeithas, nid ydyw hanesyddiaeth yn dangos y fath wahaniaeth nodedig rhwng dechreu a diwedd gyrfa fawr, fe allai, ag a ddengys yn ngyrfa Benjamin Franklin. Y mae yn dra ffodus hefyd, yn yr amgylchiad yma, ein bod yn meddu cyflawnder o hysbysrwydd am y gwahanol gynlluniau a ddefnyddiodd efe mor lwyddiannus i orchfygu holl anfanteision ei sefyllfa gyntefig, ac i ddyrchafu ei hun o'r dinodedd a'r tlodi mwyaf i gyfoeth ac anrhydedd; ac uwchlaw y cwbl, yn ngwyneb bod heb athrawon a'r cynnorthwyon cyffredin i gyrhaedd gwybodaeth, y modd y llwyddodd i gyfoethogi ei feddwl mor gyflawn â thrysorau llenyddiaeth a gwyddoriaeth, fel ag y daethant i fod, nid yn unig yn ffynnonell prif ddedwyddwch ei fywyd, ond i'w osod hefyd yn uchel yn mysg ysgrifenwyr ac athronyddion godidocaf ei oes a'i amser. Mae yn debyg nad oes yn holl fywgraffyddiaeth y byd hanes mwy addysgiadol, yn enwedig i ddynion ieuaingc, na hanes bywyd Franklin; a diau nas gellir cael gwell esampl o ddiwydrwydd, llwyddiant, ac anrhydedd.

Digitized by Google

Y mae Franklin yn dyweyd ystori ei fywyd boreuol mor dda ei hun, fel y mae braidd yn anmhossibl ei hadrodd yn well. Ysgrifenwyd yr hanes yma mewn dull o lythyr at ei fab, yr hwn a ysgrifenwyd ar y dechreu, fel yr ymddengys, heb ddim bwriad i'w gyhoeddi. "Cyfodais fy hun," ebe fe, "o'r tlodi a'r dinodedd yn yr hwn y'm ganwyd, ac y treuliais flynyddoedd boreuaf fy oes, i sefyllfa o gyfoeth, a rhyw radd o anrhydedd yn y byd. Gan y dilynid fi yn wastad â llwyddiant, nes y cyrhaeddais hyd yn oed oedran lled fawr, fe allai y dymunai fy olafiaid wybod y moddion a ddefnyddiais; y rhai (diolch i Ragluniaeth) a lwyddasant mor dda gyda mi. Dichon hefyd yr ystyria rhai hwy yn deilwng o'u hefelychu, os cânt eu hunain mewn amgylchiadau cyffelyb." Yr oedd Franklin wedi dysgu darllen o'i febyd; ac ymddengys y bwriedid ei ddwyn i fyny, ar y dechreu, i waith y weinidogaeth efengylaidd; ac felly, rhoddwyd ef mewn ysgol rammadegol pan oedd yn wyth mlwydd oed. Ymddengys fod ewythr iddo, o'r un enw ag ef, yn cefnogi yr amcan, yr hwn a gynnygiodd roddi amryw gyfrolau o bregethau iddo, y rhai a ysgrifenasai efe mewn llaw fer o'i ddyfais ei hun, pan yn eu gwrandaw ar wahanol amserau. Lliwiwr sidan cyffredin oedd yr ewythr hwn, oedd yn awr mewn gwth o oedran; ond yr oedd yn ddarllenwr ac ysgrifenydd mawr yn ei ddydd, ac wedi llenwi dwy gyfrol bedwarplyg o farddoniaeth, o'i lawysgrif ei hun. Ond yr hyn yr oedd falchaf o hono oedd ei law fer, yr hon yr oedd yn dra awyddus i'w nai ei dysgu. Ond ni bu Franklin ieuangc flwyddyn gyfan yn yr ysgol, cyn i'w dad ddechreu meddwl y byddai addysg golegol yn rhy ddrud iddo ef i'w dwyn, heb law nad oedd pregethu yn America ond proffes dlawd ar ol y cyfan. Gan hyny, symmudwyd ef o'r ysgol ramadegol, a rhoddwyd ef mewn ysgol arall am flwyddyn i ddysgu ysgrifenu a rhifyddu; ac yna, cymmerodd ei dad ef adref, pan nad oedd fwy na deng mlwydd oed, i'w gynnorthwyo yn ei orchwyl ei hun. Y mae yn tynu darlun o hono ei hun, ar y pryd hwn, pan yn tori pabwyr (*wick*) canwyllau, yn eu bwrw i'r moldiau, yn gwerthu yn y fasnachfa, yn rhedeg i negeseua, ac yn cyflawni gorchwylion defnyddiol ereill cyffelyb.

Y mae Franklin yn dwyn tystiolaeth anrhydeddus i'w dad yn y sylwadau canlynol:—"Yr oedd yn dra hoff o gael rhyw gyfaill gwybodus o'i gymmydogion wrth ei fwrdd mor fynych ag y gallai, â'r hwn y medrai ddal cyfeillach fuddiol; a gofalai bob amser am ddwyn rhyw byngciau adeiladol neu gywrain i'r ymddiddan, a dueddent i ffurfio meddyliau ei blant. Trwy y moddion syml yma, tynai ein sylw yn fore at yr hyn oedd gyfiawn, doeth, a buddiol mewn cymdeithas. Ni byddai byth yn siarad nac yn gwneyd un sylw ar yr ymborth a fyddai ar y bwrdd o'i flaen, na byth yn crybwyll gair pa un a fyddai wedi ei goginio yn wael neu wych—a fyddai y blas yn dda neu ddrwg—a fyddai wedi ei grasu yn rhy uchel neu rhy isel—pa ddysglaid a fyddai oreu neu waelaf—na dim o'r cyffelyb bethau dibwys. Wedi cael fy arfer fel hyn o'm hieuengctid i sylwi cyn lleied ar bethau felly, yr wyf fi wedi bod yn hollol ddifater byth ar ol hyny pa beth a fwytawyf neu a yfwyf; ac yr wyf yn sylwi cyn lleied hyd yn oed yn awr ar y cyfryw bethau, fel y byddai yn orchwyl caled i mi gofio, yn mhen ychydig oriau ar ol ciniawa, o ba beth yr oedd y ciniaw yn gynnwysedig."

Yr oedd Benjamin yn dangos cymmaint o anhoffder at fasnach ei dad fel yr ofnai yr hen ŵr y byddai iddo dori yn rhydd o'r gorlan, a myned i'r môr, megys yr aethai un o'i frodyr hynaf o'r blaen, fel y barnai, ar ol dwy flynedd o brawf, y byddai yn well iddo edrych am ryw alwedigaeth arall i'w fab, a fyddai yn fwy cydweddol â'i dueddiadau. Wedi ei gymmeryd o amgylch i weled amryw grefftwyr wrth eu gwaith, penderfynwyd o'r diwedd iddo gael ei rwymo yn brentis gyda chefnder i'w dad, yr hwn oedd gyllellydd (*cutler*). Ni bu ond ychydig ddyddiau yn unig gyda'r gorchwyl yma ar brawf cyn i'w dad feddwl fod y swm a ofynai ei gefnder am brentisiaeth Benjamin yn rhy uchel; ac o ganlyniad, cymmerwyd ef adref drachefn.

Dechreuwyd sylwi yn awr ar y duedd gref oedd yn meddwl Franklin ieuanc at lyfrau. Yr oedd wedi dangos hoffder dirfawr o'i febyd at ddarllen. Byddai yn rhoddi pob ceiniog o arian a gaffai i brynu llyfrau. Nid oedd y casgliad bychan oedd gan ei dad yn cynnwys nemawr o lyfrau a roddent iddo ef fawr o ddyddordeb; er hyny, darllenodd y rhan fwyaf o honynt. "Yr oeddwn yn dra hoff," medd efe, "o hanesion am fordeithiau. Y gwaith a gefais gyntaf oedd cyfansoddiadau Bunyan, yn gyfrolau bychain ar wahân. Gwerthais y rhai hyn er mwyn prynu casgliad hanesyddol gan R. Burton, yn cynnwys o ddeugain i ddeg a deugain o gyfrolau bychain rhad." Cafodd un gwaith ei sylw nodedig, yr hwn a ddarllenodd drachefn a thrachefn—*Hanes Bywydau Enwogion Groeg a Rhufain*, gan Plutarch—yn enwedig hanes Numa a Solon, y cyfreithwyr; Demosthenes a Cicero, yr areithwyr; ynghyd âg Alexander, Pompey, Julius Cesar, ac eraill sydd yn hynod mewn hanesyddiaeth. Cynnyrchodd hanesion yr hen fywgraffydd effaith fawr ar ei feddwl. Y mae yn crybwyll am lyfr arall yr oedd yn dra hoff o hono, o waith Daniel De Foe, awdwr *Robinson Crusoe*, a elwid *Essay on Projects*, yr hwn a adawodd effaith dda arno tra y bu byw; a thybia iddo effeithio ar rai o brif ddigwyddiadau ei fywyd.

Parodd i'w duedd foreu a pharhaus at lyfrau i'w rieni ei roddi yn brentis o argraffydd gyda'i frawd, James, yr hwn oedd newydd ddychwelyd o Brydain, ac wedi sefydlu argraffdy yn Boston. Teimlai fwy o hoffder at y gorchwyl hwn na dim a gynnygiwyd iddo hyd yn hyn. Yr oedd Franklin y pryd hyn tua deuddeng mlwydd oed; a rhwymwyd ef i fod yn brentis gyda'i frawd nes y byddai yn un ar hugain mlwydd oed, heb gael cyflog gweithiwr ond am y flwyddyn olaf yn unig o'i brentisiaeth. Cynnyddodd yn gyflym yn ei grefft, a daeth yn fuan o wasanaeth mawr i'w frawd. Arweiniodd yr amgylchiadau hyn ef i garu llenyddiaeth gydag egni newydd. Fel yr oedd efe yn dyfod yn adnabyddus â phrentisiaid llyfrwerthwyr, byddai y rhai hyny yn rhoddi benthyg llyfr iddo yn fynych, yr hwn yr eisteddai i fyny ar hyd y nos i'w ddarllen, fel y gallai ei ddychwelyd yn y boreu. Y mae y fath ymdrechion yn fynych yn dra niweidiol, gan y gwanhânt yr iechyd i'r fath raddau fel na bydd y wybodaeth a ennillir yn ddigon o daledigaeth; ond, yn ffodus, nid felly y bu gyda Frankl n. Yn mhen ychydig amser, mwyhaodd ei foddion i gyrhaedd gwybodaeth yn fawr. Caniataodd masnachydd haelfrydig, o'r enw Matthew Adams, a fyddai yn ymweled â'r argraffdy, iddo fyned i'w lyfrgell ef pan y mynai, a chymmeryd y llyfr a ddewisai gydag ef adref i'w ddarllen.

Digitized by Google

Daeth awydd arno tua'r pryd hyn am ysgrifenu rhywbeth ei hunan; ac, fel llawer dyn o athrylith, a llawer di-athrylith hefyd, dechreuodd ysgrifenu prydyddiaeth. Annogodd ei frawd ef i ysgrifenu dwy o ganeuon, ac anfonodd un trwy yr heolydd i'w gwerthu. Enw un o honynt oedd *Lighthouse Tragedy*, yn cynnwys hanes llongddrylliad y Cadben Worthilake, a dwy o'i ferched. Càn llongwr oedd y llall, ar gymmeriad llong môr-leidr, a elwid y *Teach*, neu y *Blackbeard*. Cafodd y gân gyntaf werthiad mawr iawn, o blegid ei bod ar ddigwyddiad diweddar. Y mae yn cyfaddef fod y llwyddiant yma yn ymborth blasus i'w hunanoldeb ar y dechreu; ond nid oedd y teimlad hwnw i barhau yn hir. Yr oedd ei dad yn ddyn o ddeall cryf, ac yn arfer edrych yn is na gwyneb pethau; ac nid digon ganddo ef oedd odliad a chlec geiriau; ond gallai efe benderfynu a oeddynt yn cynnwys synwyr a gwir farddoniaeth. Wedi iddo gael boddlonrwydd nad oedd caniadau ei fab yn cynnwys na'r naill na'r llall, efe a'i hargyhoeddodd mai sothach truenus yn unig oedd ei ganiadau; a chwanegai yr hynafgwr doeth yn mhellach, mai cardotwyr yn gyffredin oedd gwneuthurwyr caneuon (*balladmakers*). Bu hyn yn foddion effeithiol i roddi terfyn buan ar farddoni Benjamin Franklin.

Trodd Benjamin ei sylw yn nesaf at ysgrifenu rhyddiaith; ond yr oedd y gorchwyl hwnw hefyd i fyned dan feirniadaeth gyffelyb. Mewn dadl a gyfododd rhyngddo a chyfaill iddo, o'r enw John Collins—"fe allai," ebe fe, "er mwyn dim ond tipyn o ddadl"—yr oedd efe yn meddwl, er fod gan Collins gyflawnder helaethach nag ef o eiriau, eto, fod ei resymau ef yn gryfach. Pan ymadawsant, heb benderfynu y pwngc—dygwyddiad cyffredin yn y fath amgylchiadau—efe a ysgrifenodd grynodeb o'r ddadl rhyngddynt, ac a anfonodd gopi i Collins. Atebodd Collins hyny; ac wedi i dri neu bedwar o lythyrau gael eu hysgrifenu ar y ddwy ochr, syrthiodd yr ohebiaeth i ddwylaw yr *hen* Franklin. Parodd hyn iddo sylwi wrth ei fab, er ei fod ef yn sillebu ac yn gwahannodi yn well na Collins—am yr hyn yr oedd i ddiolch i'w grefft fel argraffydd—eto, fod Collins yn rhagori llawer arno o ran eglurdeb, trefn, ac ymadroddiad destlus. Yr oedd y mab yn rhy gall i sori neu ddigio wrth ei dad o blegid y feirniadaeth ddiduedd hon: yn y gwrthwyneb, derbyniodd hi yn barchus a diolchgar, a phenderfynodd nad arbedai unrhyw lafur i wellhau ei arddull; a rhydd hanes manwl a dyddorol o'r moddion a ddefnyddiodd at hyny.

"Yn nghanol y penderfyniadau hyn," ebe fe, "tarewais wrth gyfrol unigol o'r *Spectator*. Nid oeddwn erioed o'r blaen wedi gweled un gyfrol o'r gwaith hwnw. Prynais hi, a darllenais hi drosodd a throsodd drachefn laweroedd o weithiau; a rhoddai i mi hyfrydwch dirfawr. Yr oeddwn yn ystyried y cyfansoddiad yn ardderchog; a chwennychwn, os oedd modd, ei efelychu. Er mwyn hyn, cymmerais rai o'r pyngciau; ac ysgrifenais awgrymau byrion o'r syniadau oedd yn mhob ymadrodd, gan eu gosod o'r neilldu am ychydig ddyddiau. Yna, mi a ymdrechwn adysgrifenu y traethodau mewn ffurf briodol, heb edrych ar y llyfr, gan adrodd pob meddwl yn llawn, fel yr oedd yn y gwreiddiol, trwy ddefnyddio y geiriau mwyaf priodol y gallwn feddwl am danynt. Wedi hyny, cymharwn fy ysgrif fy hun â'r *Spectator*. Canfyddwn amryw wallau, y rhai a wellhawn; ond gwelwn fod arnaf eisieu ystôr o eiriau, a rhwyddineb i'w cofio a'u defnyddio; yr hyn y tybiwn y buaswn wedi ei gyrhaedd cyn hyn, pe buaswn yn parhau i gyfansoddi penillion. Buasai yr angen parhaus am eiriau o'r un ystyr, ond o wahanol hydau i ateb i'r mesur, neu o wahanol seiniau i ateb i'r odl, yn fy ngorfodi i chwilio am eiriau cyfystyr, ac yn fy ngwneyd yn hyddysg ynddynt. Oddi ar y gred yma, cymmerais rai o'r traethodau yn y *Spectator*, a throais hwy ar gân; ac yn mhen amser, wedi i mi eu hanghofio yn ddigonol, trown hwy drachefn i iaith rydd. Weithiau hefyd, byddwn yn arfer cymmysgu fy nghrynodau yn nghyd; ac yn mhen ychydig wythnosau wedi hyny, ymdrechwn eu trefnu yn ol y cynllun goreu ar a allwn, cyn cynnyg eu ffurfio yn wahanranau, a'u gwneyd yn draethodau. Yr oeddwn yn gwneuthur hyn er mwyn cyrhaedd cynllun i drefnu fy meddyliau yn rheolaidd. Wrth gymharu fy nghyfansoddiad wedi hyny â'r gwreiddiol, byddai llawer o wallau yn ymddangos, y rhai a ddiwygiwn; ond cawn y byddhad o feddwl weithiau fy mod yn ddigon ffodus i wellhau y meddwl neu yr arddull; a chefnogai hyn fi i obeithio y llwyddwn, mewn amser, i ysgrifenu yr iaith Seisonig yn ddestlus; yr hyn oedd un o brif wrthddrychau fy uchelgais. Yr amser a roddwn at yr ymarferion hyn, ac i ddarllen, oedd y nos, ar ol gorphen llafur y dydd; a'r boreu, cyn i mi ddechreu gweithio."

Dywedodd y Dr. Johnson, yn mhen llawer o flynyddoedd ar ol hyn, y byddai raid i bwy bynag a fynai feistroli yr iaith Seisonig, a bod yn gyfansoddwr destlus ynddi, dreulio ei oriau, ei ddyddiau, a'i nosweithiau, i ddarllen a myfyrio ysgrifeniadau Addison, y rhai a geir, gan mwyaf, yn y *Spectator*. Yr oedd Franklin wedi canfod hyn o flaen y doctor, ac wedi ei roddi mewn ymarferiad llwyddiannus, pan nad ydoedd eto ond plentyn. Pe gwnelai ein gwŷr ieuainc ninnau yn gyffelyb â chyfansoddiadau a chyfieithiadau Ellis Wyn, Edward Samuel, a Theophilus Evans, byddai yn gymhorth mawr iddynt i gyrhaedd ystwythder, ieithwedd (*idiom*), a destlusrwydd yr iaith Gymraeg.

Yr oedd dyfalbarhad a hunanymwadiad Franklin—hyd yn oed yr amser yma, pan nad oedd ond 16 mlwydd oed—i gyrhaedd ei brif amcan, ac i goethi galluoedd ei feddwl, yn esampl deilwng i bob gŵr ieuanc ei hefelychu. Tua'r pryd hwn, tarawodd yn ddamweiniol wrth lyfr yn argymhell llysieufwyd i arfer gyffredin, a chafodd un rheswm, yn anad dim arall a ddefnyddiai dros hyny, effaith dioed ar feddwl Franklin, sef rhadlonrwydd llysieufwyd mewn cymhariaeth i gigfwyd, &c.; ac o blegid hyn, ac ystyriaethau ereill, penderfynodd yn y fan ddilyn y dull hwnw o fyw rhag llaw. Yn ebrwydd ar ol iddo wneyd y penderfyniad yma, gofynodd i'w frawd a roddai efe hanner yr hyn a gostiai ei ymborth hyd yn hyn, iddo ef ei hun; a'r hyn y cydsyniodd ei frawd yn y fan. Gwelodd yn awr y gallai efe, trwy y cynllun newydd hwn, arbed hanner yr hyn a roddai ei frawd iddo. "Yr oedd hyn," eb efe, "yn drysorfa newydd i brynu llyfrau, heb law mantais arall a gefais drwy y cynllun. Tra yr elai fy mrawd a'r gweithwyr ereill o'r argraffdy i ymofyn eu prydiau, aroswn i yno fy hun; ac wedi gorphen fy mhryd cynnil (yr hyn yn gyffredin ni byddai ond teisen o fara caled, neu dafell o fara cyffredin, dyrnaid o *raisins*, neu bastai o dŷ'r cogydd, a gwydraid o ddwfr), cawn y gweddill o'r amser, nes y dychwelent hwy, i fyfyrio; ac yr oedd fy nghynnydd yn fwy, o blegid fod fy mhen yn gliriach, a'm hamgyffred yn gyflymach, yr hyn sydd ganlyniad naturiol i gymmedroldeb mewn bwyta ac yfed."

Tua'r pryd hwn y meistrolodd y gelfyddyd o rifyddiaeth, trwy gyfrwng *Cocker's Arithmetic*,

Digitized by Google

ar ol methu ei dysgu yn yr ysgol; cyrhaeddodd gryn wybodaeth hefyd o fesureg, trwy ddarllen draethawd ar forwriaeth. Yn mysg pethau ereill a ddarllenai y pryd hwn, mae yn crybwyll *Locke on the Human Understanding*, a'r *Port-Royal Art of Thinking*, ynghyd â dau draethawd bychan ar y celfyddydau o Resymeg ac Areitheg a gafodd, hyd y cofiai, ar ddiwedd *Greenwood's English Grammar:* yn yr hwn hefyd y cafodd olwg ar ddull Socrates o ddadleu, neu ei ddull o ymresymu, trwy ofyn holiadau i'r gwrthddadleuwr, a thrwy ei dynu i wneyd addefiadau a droir yn gelfydd wedi hyny yn ei erbyn ef ei hun. Dywed Franklin iddo ddyfod yn orhoffus o'r dull yma o ymresymu, gan y canfyddai ef yn dra diogel iddo ef ei hun, ac yn dra anfanteisiol i'r gwrthwynebydd; ond rhoddodd y dull yma heibio wedi hyny, gan y teimlai mai mantais ydoedd i gyfrwysdra yn hytrach nag i'r gwirionedd, a'i fod yn addasach i ennill buddugoliaethau mewn dadleuon nag i argyhoeddi a hyfforddi. Fe allai y dylid crybwyll, er anrhydedd Socrates, nad ei amcan ef wrth sefydlu ei gynllun cywrain o ymresymu oedd rhoi arfau yn nwylaw dadleuwyr cecrus i anafu eu gilydd; ond sefydlu cyfundrefn newydd, eangach a manylach, i olrhain y gwybodau a'r celfyddydau nag oedd yn bod o'i flaen ef.

Ychydig amser cyn yr adeg dan sylw o fywyd Franklin, yr oedd ei frawd wedi sefydlu papyr newydd, sef yr ail a ymddangosasai hyd yn hyn yn America. Yr oedd hyn yn achlysur i ddwyn y rhan fwyaf o lenorion Boston ar amserau i'r argraffdy, a byddai Franklin ieuanc yn eu clywed yn ymddyddan yn fynych am yr erthyglau a ymddangosent yn y newyddiadur, a'r gymmeradwyaeth a roddid i ryw rai o honynt. O'r diwedd, aeth ei awydd yn angerddol am gyfranogi mewn clod o'r natur yma, a phenderfynodd roi cynnyg er gwybod pa fodd y llwyddai gohebiaeth o'i waith yntau. Am hyny, ysgrifenodd bapyr mewn llaw ffugiol, a rhoddodd ef dan ddrws yr argraffdy yn y nos, lle y cafwyd ef yn y boreu; a chyflwynwyd ef i sylw y beirniaid, pan yr ymgyfarfuant fel arferol. "Darllenasant ef," medd efe; "esboniasant arno yn fy nghlyw; a chefais yr hyfrydwch annhraethol o ganfod ei fod yn gymmeradwy ganddynt. Ac wrth ddyfalu pwy oedd yr awdwr, nid oedd neb yn cael eu henwi ond dynion o gryn ddysg a medrusrwydd yn eu plith." "Yr wyf yn tybied," medd efe yn mhellach, "fy mod wedi bod braidd yn ffodus yn fy meirniaid, ac nad oeddynt mewn gwirionedd lawn mor graffus ag y credwn i eu bod." Pa fodd bynag am hyny, wedi cael ei gefnogi yn y cynnyg cyntaf yma, rhoddodd amryw bapyrau yn y wasg yn yr un dull, gan gadw ei gyfrinach hyd nes yr oedd wedi dyhysbyddu ei ychydig wybodaeth ar y pynciau hyny, medd efe, yn lled lwyr. Yna gwnaeth ei hun yn hysbys; a daeth ei frawd a'i feirniaid i edrych arno, mewn canlyniad, yn ddyn o gryn bwys fel llenor.

Rhoddodd y papyr newydd yma gyfleusdra iddo ar ol hyny, yn bur annysgwyliadwy, i ymryddhau oddi wrth ei brentisiaeth gyda'i frawd, yr hwn a ymddygai ato bob amser yn galed; ond gwnaeth ei glod llenyddol iddo fod yn wrthddrych o fwy o genfigen ac anhoffder. Rhoddodd erthygl a gyhoeddasant yn y papyr dramgwydd i'r llywodraeth leol; a dedfrydwyd ei frawd, fel perchenog y papyr, nid yn unig i fis o garchar, ond i beidio argraffu y cyhoeddiad tramgwyddus yn hwy. Yn wyneb yr amgylchiadau yma, penderfynwyd i'r papyr ymddangos o hyn allan yn enw Benjamin, yr hwn a gymmerai ei ofal yn ystod carchariad ei frawd. A rhag y dadleuid fod y perchenog blaenorol yn ymguddio yn nghysgod un o'i brentisiaid, rhoddwyd y weithred a'i rhwymai gyda'i frawd i fyny iddo ef; ac ar yr un pryd, er mwyn sicrhau budd ei wasanaeth i'i frawd, llawnodwyd weithredoedd newyddion an y gweddill o'r amser, y rhai a gedwid yn gyfrinachol. "Cynllun pur ddistadl oedd hwn," meddai Franklin; "pa fodd bynag, rhoddwyd ef mewn gweithrediad yn ddioed; a chyhoeddwyd y papyr mewn canlyniad dan fy enw i am lawer o fisoedd. O'r diwedd, cyfododd dadl newydd rhyngof fi a'm brawd: cymmerais i arnaf hawlio fy rhyddhad, gan dybied na feiddiai efe ddwyn y gweithredoedd newyddion i'r amlwg yn gyhoeddus. Nid oedd yn deg ynof i gymmeryd y fantais yma arno; ac am hyny, yr wyf yn ystyried hyn yn un o wallau cyntaf fy mywyd: ond nid oedd yr annhegwch o fawr bwys yn fy ngolwg pan dan effaith soriant o blegid y dyrnodiau a roddai fy mrawd i mi mewn drwg anwydau—er nad oedd efe yn gyffredin yn ddyn drwg ei natur. Fe allai fy mod innau yn rhy drahaus a heriadol."

Pa fodd bynag, gan y canfyddai y byddai i'w frawd, mewn canlyniad i'r ymryson yma, gymmeryd gofal am roddi iddo y fath enw drwg yn mysg pawb yn Boston o'r un alwedigaeth ag ef, fel na byddai i neb yno roddi gwaith iddo, penderfynodd fyned i New York—y man agosaf lle yr oedd argraffydd. O ganlyniad, wedi gwerthu ei lyfrau er mwyn cael ychydig arian, aeth ar fwrdd llong i'r ddinas hono, heb amlygu ei fwriad i neb o'i gyfeillion, y rhai y gwyddai a'i gwrthwynebent ef. Yn mhen tri diwrnod, yr oedd wedi cyrhaedd pen ei daith, yn agos i dri chan milltir oddi cartref, pan yn ddwy ar bymtheg oed, heb un math o gymmeradwyaeth i'w ganlyn er cael lle, ac heb adnabod un person yn y ddinas, nac ond ychydig iawn o arian yn ei logell; a gwaeth na'r cwbl, wedi iddo ymofyn gyda'r unig argraffydd oedd yn debyg o roddi gwaith iddo, canfu, er ei alar, nad oedd gan hwnw ddim iddo i'w wneuthur; ac mai yr unig ffordd y gallai hwnw fod o wasanaeth iddo oedd ei annog i fyned yn mlaen i Philadelphia, gan milldir yn mhellach, at fab oedd ganddo yno, yr hwn y credai a allai roddi gwaith iddo.

Y mae darluniad manwl Franklin o'r fordaith hon o New York i Philadelphia yn ddyddorol dros ben; ond nis gallwn ond rhoddi cipolwg arni yn unig. Goddiweddwyd y llong yr aeth ynddi gan dymmestl erchyll ar y fordaith: achubodd ef un dyn rhag boddi. Tiriasant o'r diwedd mewn lle o'r enw Amboy, ar ol bod am ddeng awr ar hugain heb na bwyd na diod, ond ychydig *rum* drwg. Cymmerwyd Franklin, mewn canlyniad i'r gwlychu a'r hir ddirwest, yn glaf gan lucheden boeth. Yr oedd wedi darllen fod yfed dwfr oer yn helaeth yn feddyginiaeth ragorol rhag hyny; rhoddodd brawf ar y cynghor; aeth i'w wely, a chwysodd yn ddwys mewn canlyniad i'r dwfr oer; ac erbyn iddo godi dranoeth, yr oedd y llucheden wedi ei adael. Yr oedd ganddo ddeng milltir a deugain i'w cerdded o Amboy i Burlington—o'r lle yr oedd wedi clywed fod cychod yn croesi i Philadelphia. Cychwynodd ar ei daith y boreu dranoeth: cerddodd ar hyd y dydd trwy wlaw trwm, nes oedd yn wlyb at y croen yn mhell cyn y nos; a chymmerodd letty y noswaith hono, yn flin a lluddedig, mewn gwestty salw y tarawodd wrtho gyda'r nos. Yr oedd golwg mor druenus arno y bore canlynol, fel y



Digitized by Google

barnai wrth yr holiadau a ofynid iddo, y tybid mai gwas yn dianc oddi wrth ei feistr ydoedd, ac ofnai yn fawr gael ei gymmeryd i fyny fel y cyfryw. Erbyn nos y dydd canlynol, yr oedd wedi cyrhaedd o fewn deng milltir i Burlington, lle y llettyodd mewn gwestty bychan a gedwid gan un Dr. Brown. Canfu y gŵr hwn wrth ymddyddan â Franklin ei fod yn fachgen anghyffredin; a ffurfiwyd cyfeillach rhyngddynt yn ystod yr hwyr hwnw, a barhaodd hyd ddiwedd oes y Dr. Brown. Pan gyrhaeddodd Burlington y bore canlynol, ar ddydd Sadwrn, daeth i wybod er ei ofid tost fod y cychod newydd gychwyn, ac na byddai un yn croesi eto hyd y dydd Mawrth canlynol. Trodd yn dra digalon i dŷ hen bobyddes yn y dref, lle y cafodd werth ceiniog o *gingerbread* i'w fwyta. Cynnygiodd yr hen wraig iddo gael aros gyda hi hyd amser y cychod: yr hyn a dderbyniodd. Wedi cael ciniaw cysurus gan yr hen wraig, aeth tua glan yr afon gyda'r nos, lle y cafodd ar ddeall, er ei lawenydd, fod cwch ar groesi i Philadelphia y pryd hyny. Rhedodd i dalu i'r wraig cyn cychwyn, yr hon a ymddygasai yn dra charedig ato; a'r cwbl y cymmerodd dâl am dano oedd peint o gwrw. Cyrhaeddodd Philadelphia, ar ol mordaith annyben a lled beryglus, erbyn wyth neu naw o'r gloch bore dranoeth, sef bore dydd Sabbath.

"Yr wyf wedi rhoddi hanes y daith hon yn fanwl," eb efe; "ac felly, gwnaf gyda golwg ar fy nyfodiad i'r ddinas yma, fel y galloch gymharu dechreuad mor ddinôd â'r hyn a gyflawnais wedi hyny yn y lle. Pan gyrhaeddais Philadelphia, yr oeddwn yn fy nillad gwaith, gan fod fy nillad goreu yn dyfod ar hyd y môr. Yr oeddwn yn bur fudr, am fy mod wedi bod cyhyd yn y cwch: yr oedd fy llogellau yn llawn o grysau a hosanau; ac yr oeddwn yn gwbl anadnabyddus o bob enaid byw yn y lle; ac ni wyddwn yn y byd pa le i chwilio am letty. Yr oeddwn yn bur lluddedig ar ol cerdded cymmaint, ac wedi bod yn rhwyfo ar hyd y nos heb gysgu. Yr oeddwn hefyd yn dra newynog; ac nid oedd genyf ddim ond un *dollar* o arian yn fy llogell, gan fy mod wedi rhoi tua swllt o bres am fy nghludo dros yr afon. Gan fy mod yn eu cynnorthwyo i rwyfo, yr oeddynt yn gwrthod tâl genyf ar y dechreu; ond gorfodais hwy i'w gymmeryd. Y mae dyn weithiau yn fwy haelfrydig pan yn meddu ychydig o arian na phan yn meddu llawer; a hyny, fe allai, yn un peth, er mwyn celu ei dlodi. Cyfeiriais yn ebrwydd tua phen yr heol, gan edrych yn awyddus ar bob ochr, nes y daethum i Market street lle y gwelwn blentyn â chanddo dorth o fara. Yr oeddwn wedi bod yn ciniawa yn fynych cyn hyn ar fara sych. Gofynnais pa le yr oedd wedi prynu y dorth; ac aethum ar fy union i siop y pobydd a nodwyd allan gan y bachgen. Gofynais am ryw nifer o deiseni caled, gan ddysgwyl cael rhai cyffelyb i rai Boston; ond ymddengys nad oeddynt yn gwneyd y cyfryw yn Philadelphia. Yna gofynais am dorth dair ceiniog; ond nid oeddynt yn gwneyd bara o'r pris hwnw. Gan nas gwyddwn y gwahanol brisiau, nac enwau y gwahanol fathau o fara, gofynais iddynt roddi i mi werth tair ceiniog o ryw fath o fara. Yna, rhoddwyd i mi dair rholen fawr, chwyddog. Yr oeddwn wedi synu at y swm, ond cymmerais hwy; a chan nad oedd genyf le iddynt yn fy llogellau, cerddais ymaith â rholen dan bob cesail, gan fwyta y llall wrth fyned ar hyd yr heol. Fel hyn, aethum ar hyd Market street, cyn belled a Fourth street, gan fyned heibio i dŷ Mr. Read—tad fy ngwraig mewn amser dyfodol. Yr oedd hi yn sefyll yn y drws ar y pryd, yn sylwi arnaf, ac yn meddwl, yn ol pob rheswm, fod golwg hynod o ddigrif ac amrosgo arnaf. Troais, wedi pasio y drws, am y gornel, ac aethum drwy Chesnut street, gan fwyta fy rholen ar hyd y ffordd; ac wedi troi fel hyn, cefais fy hun drachefn yn mhorthfa (*wharf*) Market street, yn agos i'r cwch yn yr hwn yr oeddwn wedi dyfod i'r dref. Neidiais iddo, ac yfais o'r afon. Wedi cael fy nigoni ar y rholen gyntaf, rhoddais y ddwy ereill i wraig a'i phlentyn oedd wedi dyfod gyda ni ar hyd yr afon yn y cwch, yr hon oedd yn dysgwyl am gael myned yn mlaen. Wedi ymadnewyddu fel hyn, cerddais eilwaith i'r heol, yn yr hon erbyn hyn yr oedd lluaws o bobl mewn dillad glanwaith—oll yn myned yr un ffordd. Ymunais innau â hwy, heb ddim arall i'w wneyd; ac felly, arweiniwyd fi i dŷ cwrdd mawr y Crynwyr, yn agos i'r farchnad. Eisteddais i lawr yn eu plith; ac ar ol edrych am ennyd o'm hamgylch, ac heb glywed neb yn dywedyd un gair, a minnau eisoes yn dra chysglyd, o blegid llafur a diffyg gorphwysdra y nos o'r blaen, mi a syrthiais i gwsg trwm; a pharheais felly nes y terfynodd y cyfarfod, pan y bu rhywun yn ddigon caredig i'm deffro. Hwn, gan hyny, oedd y tŷ cyntaf yr aethum iddo—o leiaf, yn yr hwn y cysgais gyntaf—yn Philadelphia."

Wedi ymadnewyddu fel hyn trwy ei orphwysfa rad yn nghapel y Crynwyr, trodd allan i chwilio am letty; ac arweiniodd Crynwr ieuanc caredig ef i letty rhad a chysurus mewn tŷ o'r enw Crooket-billet, yn Water street, lle y gorphwysodd trwy 'r gweddill o'r dydd, ac y cysgodd trwy 'r nos. Wedi cyfodi y bore dranoeth, a thacluso cymmaint ag a allai arno ei hun, aeth i dŷ Mr. Andrew Bradford, yr argraffydd. Ond erbyn ymofyn, nid oedd gan hwnw ddim gwaith iddo ar y pryd; a chyfarwyddodd ef at argraffydd arall oedd newydd ymsefydlu yn y dref, o'r enw Keimer. Bu ychydig yn fwy llwyddiannus gyda hwn, yr hwn a'i rhoddodd ar waith i osod hen wasg mewn hwyl i weithio; ac yna cafodd waith rheolaidd ganddo. Aeth wedi hyn i letty yn ddamweiniol i dŷ Mr. Read, yn nrws yr hwn yr oedd wedi gweled yr eneth ddyddorol hono, oedd yn edrych arno yn bwyta ei rolen bara sych, ac yn cario dwy arall—un dan bob braich—y diwrnod cyntaf y tiriodd yn Philadelphia. Yn y tŷ hwn y cafodd Franklin yr hyfrydwch o "syrthio mewn cariad," fel y dywedir. Daeth i ddeall fod y rhïan a'i gwelodd ef yn ei ddull mwyaf aflerw yn un addfwyn, ac heb fod yn annhueddol i briodi. Buasai cael hanes lled fanwl o garwriaeth dyn mor wyliadwrus a Franklin, fel y sylwa un o'i fywgraffwyr, yn beth tra dyddorol, ac yn enwedig un o'i lythyrau ar y pwnc hwnw; ond ymddengys nad oes dim o'r fath ar gael. Bu yn Philadelphia am rai misoedd heb i'w berthynasau yn Boston wybod dim beth oedd wedi dyfod o hono; pan o'r diwedd y dygwyddodd i frawd-yn-nghyfraith iddo, oedd yn gadben ar long fasnachol, glywed am dano ar un o'i fordeithiau, yr hwn a ysgrifenodd ato i erfyn yn daer arno ddychwelyd adref. Yr oedd ei frawd-yn-nghyfraith yn dygwydd bod, pan gyrhaeddodd yr ateb ef, yn nghymdeithas Syr William Keith, llywodraethwr y dalaeth. Dangoswyd y llythyr i'r boneddwr hwnw, yr hwn a synodd yn fawr pan glywodd oedran yr ysgrifenydd; a dywedodd yn y fan yr ymddangosai iddo ef fod y gŵr ieuanc yn meddu talentau gobeithiol; ac os sefydlai efe argraffdy yn Philadelphia—lle yr oedd yr argraffu yn druenus—y byddai yn sicr o lwyddo: o'i ran ei hun, gwnai efe bob peth yn ei allu o'i blaid, a gofalai am iddo gael gwaith y llywodraeth i'w argraffu. Ni welodd ei frawd-yn-nghyfraith yn dda, o blegid rhyw resymau, hysbysu Franklin o fwriadau haelfrydig y boneddwr tuag ato; yr hyn a fynegodd wedi hyny iddo yn Boston. Pa fodd bynag, fel yr oedd ef a Keimer yn gweithio un diwrnod yn

Digitized by Google

yr argraffdy, gwelent drwy y ffenestr ddau foneddwr mewn gwisgoedd gwychion—un o ba rai a adnabu Keimer fel y Llywydd Keith (y llall oedd y Milwriad French, Newcastle, yn nhalaeth Delaware), yn dyfod ar draws yr heol yn union tua'r argraffdy, a chlywsant hwy yn curo gydag awdurdod ar y drws. Rhedodd Keimer i lawr yn ddioed, mewn llawn ddysgwyliad ei fod i gael rhyw nawdd gan y llywodraeth; ond gofynodd ei anrhydedd am Mr. Benjamin Franklin, ac aeth i fyny i'r llofft; "a chydag ymostyngiad a moesgarwch," meddai Franklin, "cwbl anghyffredin i mi, dymunodd gael cydnabyddiaeth â mi, gan fy meio yn garedig am beidio gwneyd fy hun yn hysbys iddo pan ddaethum gyntaf i'r dref; a dymunai arnaf ei ddilyn ef i dafarn, lle yr oedd ef a'r Milwriad French yn myned i brofi ychydig o win ardderchog Madeira." Yr oedd Franklin wedi synu at hyn, a Keimer wedi ei daraw â syfrdandod. Pa fodd bynag, efe a aeth gyda'r llywydd a'r milwriad i'r dafarn; a thra yr oedd, am y tro cyntaf yn ei fywyd, yn profi gwin Madeira, cynnygiodd Syr William ar iddo sefydlu argraffdy yn y dref. Dangosai fod pob tebygolrwydd iddo am lwyddiant; a phan yr awgrymodd Franklin y dichon na wnai ei dad ei gynnorthwyo, cynnygiodd y llywydd ysgrifenu llythyr ato ei hun, a fyddai yn dra thebyg o argyhoeddi yr hen foneddwr i roddi ei gydsyniad i'r antur. Penderfynwyd, gan hyny, i Franklin ddychwelyd i Boston gyda'r llong gyntaf a hwyliai yno, gyda llythyr cymmeradwyaeth y llywydd at ei dad. Gwahoddai ei anrhydedd ef yn fynych ar ol hyny i giniawa gydag ef—anrhydedd yr edrychai Franklin arni yn ammheus; yn enwedig gan yr ymddyddanai y llywydd gydag ef bob amser yn y modd mwyaf tyner, caredig, a chyfeillgar.

Yn ol y cytundeb yma, dychwelodd Franklin adref tua diwedd Ebrill, 1724. Yr oedd wedi bod yn absennol am saith mis: ac yn ystod yr holl amser, nid oedd wedi clywed dim oddi wrth ei deulu, ac nid oedd yntau wedi rhoddi un hysbysrwydd o hono ei hun iddynt hwythau. Er hyny, nid oedd ei groesaw adref yn ddim llai gan yr holl deulu, oddigerth ei frawd James, yr hwn a ymddygodd ato braidd yn anfoesgar. Pan yr aeth ato i'r argraffdy, wedi ymwisgo mewn gwell dillad nag a fu ganddo erioed tra yn ei wasanaeth ef, â chanddo oriadur hardd yn ei logell, a chryn bum punt o arian yn ei bwrs—wedi i'w frawd edrych arno, o'i goryn i'w sawdl, aeth yn mlaen gyda'i waith, heb ddywedyd yr un gair wrtho! Ymddengys i'r ymddygiad ffol yma wneuthur i Benjamin ymddwyn yn fwy hèriadol (*provoking*) nag y dymunasai fod. Ar hyn, trodd yn sarhaus oddi wrth ei frawd, ac aeth at y gweithwyr. "Yr oedd y gweithwyr," medd Franklin, "yn fy holi yn awyddus lle yr oeddwn wedi bod; pa fath oedd y wlad, a pha fodd yr oeddwn yn ei hoffi. Siaredais yn uchel am Philadelphia, a'r bywyd difyr oedd arnom yno; a dywedais fy mod am ddychwelyd yno eto yn ddioed. Gofynodd un o honynt i mi pa fath arian oedd genym yno—pan y dangosais iddynt ddyrnaid o arian gwynion. Yr oedd hyn yn gywreinrwydd iddynt hwy, anhysbys iddynt o'r blaen, gan mai papyr oedd yr arian traul yn Boston. Gofelais hefyd am ddangos fy oriadur iddynt; ac yn y diwedd, tra y parhäai fy mrawd yn sorllyd a drwg ei dymmer, rhoddais swllt iddynt at ddiod, ac aethum ymaith. Clwyfodd hyn fy mrawd hyd at yr enaid; canys, yn fuan ar ol hyny, pan y ceisiodd fy mam ganddo gymmodi â mi, gan ddymuno ein gweled ar delerau da, dywedodd nad anghofiai, ac na chymmodai efe byth â mi. Yn hyn, pa fodd bynag, efe a gamsyniodd."

Synodd ei dad yn ddirfawr, pan ddeallodd amcan ei ymweliad; a pharodd cynnwys llythyr y llywydd iddo synu mwy fyth. Ar ol hir ystyriaeth, daeth i'r penderfyniad o wrthod rhoddi cynnorthwy i'r cynllun, gan farnu fod ei fab eto yn rhy ieuanc i drefnu y fath orchwyl; gan chwanegu ei fod ef yn meddwl mai tra annoeth yn y llywydd oedd cynnyg y fath beth. Dychwelodd Franklin unwaith eto i Philadelphia; ond gyda bendith ei dad a'i fam y waith hon, medd efe: ac annogai ei dad ef yn ddifrifol i fod yn ddiwyd, gonest, a chynnil, ac i beidio bod yn sarhaus—i'r hyn yr oedd yn ofni ei fod yn rhy dueddol; gan ddywedyd y byddai y pethau hyn yn debyg o'i wneuthur yn gymhwys, mewn amser cyfaddas, i ymaflyd yn y gorchwyl yr annogai y llywydd ef i'w gymmeryd yn awr yn anmhrydlawn. Ar ol dychwelyd, aeth Franklin at y llywydd i fynegi canlyniad y daith; i'r hyn yr atebodd Syr William, fod ei dad yn *rhy* wyliadwrus; a chwanegodd, "Gan na rydd ef gynnorthwy i chwi, mi a wnaf hyny fy hunan." Yna, trefnwyd ar i Franklin fyned ei hun i Lundain i brynu pob peth angenrheidiol at y sefydliad cynnygiedig; a chymmerodd y llywydd arno ei hun roddi cred-lythyr (*letter of credit*) iddo am y swm o 100*p*. at ei draul, ac i roddi iddo lythyrau i'w ddwyn i sylw "amryw wŷr ddylanwad."

Yr oedd Franklin i fyned i Lundain mewn cludlong gyffredin, o'r enw *Amis*, yr hon oedd yn mordeithio yn flynyddol (a'r unig un oedd yn gwneyd felly y pryd hyny) rhwng Llundain a Philadelphia. Fel yr oedd amser y llong i gychwyn yn nesau, yr oedd Franklin yn dyfod yn anesmwyth am ei gredlythyr a'i lythyrau cymmeradwyaeth: a phob tro y galwai gyda'r llywydd am danynt, byddai ei anrhydedd yn ei droi heibio trwy ryw esgus cymmeradwy. O'r diwedd, pan yr oedd y llong ar gychwyn, anfonwyd Franklin ar ei bwrdd, gyda sicrwydd y byddai i'r milwriad French ddwyn ei lythyrau iddo yn ddioed. Yn ganlynol, daeth y boneddwr ar y bwrdd gyda bwrnel o fryslythyrau (*despatches*), y rhai a roddwyd yn nghôd y cadben, gan hysbysu Franklin fod y rhai a fwriedid iddo ef wedi eu rhwymo i fyny gyda'r lleill, ac y cyflwynid hwy iddo cyn tirio yn Llundain. Cyflawnwyd y fordaith yn llwyddiannus; a phan gyrhaeddasant yr afon Tafwys (*Thames*), caniatawyd i Franklin chwilio y gôd am y llythyrau a ddysgwyliai; ond nis gallai ganfod yr un wedi ei gyfeirio ato ef ei hun, na rhai wedi eu cyfeirio mewn un dull megys i'w ofal ef. Pa fodd bynag, detholodd rhyw chwech neu saith, y rhai y tybiai y rhaid eu bod wedi eu bwriadu at ei wasanaeth. Yr oedd un o'r rhai hyn wedi ei gyfeirio at argraffydd y brenin. Am hyny, aeth Franklin at y boneddwr hwnw, gan obeithio y gallai rhywbeth o ddefnydd iddo droi allan; ond cyn gynted ag yr agorodd yr argraffydd y llythyr, llefai, "O! oddi wrth Riddlesden y mae hwn!" (dyhiryn o gyfreithiwr, fel y gwyddai Franklin yn dda, o Philadelphia)—"yr wyf wedi canfod yn ddiweddar mai dyhiryn noeth ydyw; ac ni bydd dim chwaneg a wnelwyf fi âg ef na'i lythyrau;" a chan droi ar ei sawdl, aeth yn mlaen gyda'i alwedigaeth. Ar fyr, canfuwyd nad oedd un o'r llythyrau oddi wrth y llywydd; ac felly, yr oedd Franklin unwaith eto yn y sefyllfa fwyaf anghysurus. Cymmerodd y cyfleusdra i fynegu

Digitized by Google

hyn wrth foneddwr o'r enw Denham, yr hwn oedd yn gyd-deithiwr iddo yn y llong, a'r hwn a ddywedodd wrtho mai twyllwr cyflawn oedd y llywydd—yn mwynhau yr hyfrydwch ffol o dwyllo pobl, oddi ar gariad at hunanoldeb a phwysigrwydd, trwy addaw pethau mawrion na fwriadai ac nas gallai eu cyflawnu. Yr oedd mor bell o fod yn alluog i roddi credlythyr am 100*p.*, fel yr ymddengys nad oedd neb a'i coeliai am werth chwe cheiniog.

Fel hyn, cawn ein hanturiwr ieuanc wedi ei daflu unwaith eto ar ei adnoddau ei hun, a chanddo y ddinas fawr, y "Fabilon niwlog," i grwydro oddi amgylch ynddi i chwilio am ei fara beunyddiol. Yn ffodus iddo ef, yr oedd yn haws iddo gael gwaith ac ymborth yn Llundain y dyddiau hyny nag ydyw yn bresennol. Nid hir y bu cyn cael gwaith gyda'r "enwog Mr. Palmer." Hynododd ei hun yma, fel arferol, trwy ei ddiwydrwydd a'i alluoedd. Yn mysg llyfrau ereill y rhoddwyd ef i weithio arnynt, yr oedd *Wollaston's Religion of Nature.* Yr oedd rhai rhanau o'r llyfr hwn yn ymddangos iddo ef yn weiniaid a chyfeiliornus; am hyny, parotodd lyfryn bychan arddansoddol (*metaphysical*) i'w wrthwynebu. Dyrchafodd hyn ef yn ngolwg ei feistr, fel dyn o dalent, er fod y boneddwr hwnw yn dra chroes ei farn i lawer o bethau a amddiffynid yn y traethawd. Yr oedd yn dysgu yr athrawiaeth o sylweddoliaeth, yr hon oedd mewn bri mawr yn mysg "rhydd-dybwyr" y ddeunawfed ganrif; ond dywedir ei bod yn gwbl groes i wir athroniaeth, a'i fod yntau ar ol hyny yn ystyried ei fod wedi ymddwyn yn annoeth. Ond defnyddiodd y rhan fwyaf o'i amser hamddenol at waith mwy buddiol, sef darllen lluaws mawr o lyfrau a fenthycid iddo ar delerau penodol gan lyfrwerthwr oedd yn y drws nesaf at ei letty yn Little Britain. Pa fodd bynag, bu ei lyfr yn foddion i'w wneyd yn adnabyddus i rai llenorion yn Llundain; ac yn mysg ereill, yr hynod Dr. Mandeville, awdwr *Fable of the Bees;* a'r Dr. Pemberton, cyfaill Syr Isaac Newton, yr hwn a addawsai y cawsai weled y dyn mawr hwnw rywbryd, ond ni ddygwyddodd hyny byth. Daeth yn adnabyddus hefyd o gylch yr un amser i Syr Hans Sloane, casglydd ac anianydd enwog, yr hwn a sylfaenodd yr Amgueddfa Brydeinig, a'r hwn a glywsai fod Franklin wedi dwyn rhyw bethau cywrain drosodd o'r America, ac yn mysg y pethau hyny, yr oedd pwrs o *asbestos,* yr hwn a brynodd efe ganddo am bris mawr.

Symmudodd wedi hyny oddi wrth Mr. Palmer at Mr. Watts, yr hwn a roddai iddo fwy o gyflog. Pan aeth at Mr. Watts, yr oedd y gweithwyr ereill yn gwario y rhan fwyaf o'u cyflog am gwrw, tra mai dwfr yn unig a yfai efe. Yr oedd yn llawer iachach a chryfach na'r lleill, ac yr oedd ei ben hefyd yn gliriach. Yr oedd yn cael ei wawdio a'i lysenwi (ei enw cyffredin am beth amser yn eu plith oedd yr *American Aquatic*); ond ni pharai dim felly iddo ef ymwadu â'i egwyddorion; ac y mae yn amlwg hefyd i rym diysgog ei esampl dda effeithio yn raddol ar ei gydweithwyr; canys efe a ddywed:—

"Yn ol fy esampl i, rhoddodd amryw o honynt eu brecwest meddwol o fara a chaws a chwrw heibio, trwy ganfod y gallent wneyd yn llawer gwell, fel finnau, trwy gael meiliad da o botes iachus, gyda bara, pupur, ac ymenyn; yr hyn ni chostiai oll fwy na pheint o gwrw, sef ceiniog a dimai. Yr oedd hwn yn frecwest llawer mwy cysurus, cystal a rhatach, a byddai eu penau yn glir ar ei ol. Yr oedd y rhai a barhäent i ddiota eu cwrw trwy y dydd, yn colli eu cred yn fynych, trwy beidio talu, yn y dafarn; ac arferent fy ny anwad i yn aml, pan fyddai eu *goleuni*, fel y dywedent, wedi *diffodd*, i gael cwrw. Byddai raid i mi wylio wrth fwrdd y cyfrif, nos Sadwrn, a chasglu oddi arnynt weithiau gryn ddeg swllt ar ugain i dalu y ddyled yr aethwn yn gyfrifol am dani drostynt yn ystod yr wythnos. Yr oedd hyn, ynghyd a'm bod yn cael fy nghyfrif yn duchanwr (*satirist*) da, yn fy ngwneyd yn berson lled bwysig yn eu cymdeithas. Yr oedd fy sefydlogrwydd hefyd gyda'm gwaith (ni chedwais erioed 'Sant Llun,') yn fy ngwneyd yn gymmeradwy gan fy meistr; a chan fy mod yn gyssodwr anghyffredin o gyflym, rhoddid fi ar bethau y byddai eu heisieu yn fuan, am y rhai y telid yn gyffredin yn well. Felly yr oeddwn yn myned yn mlaen yn awr yn dra dymunol."

Wedi i Franklin fod o gylch deunaw mis yn Llundain, ar ol gweithio yn galed yn ystod yr holl amser wrth ei alwedigaeth, heb dreulio ond ychydig o arian, heb law ar lyfrau ac i weled ambell chwareufa, daeth i'r penderfyniad yn ddisymwth i ddychwelyd i'r America. Hysbysodd Mr. Denham, sef y boneddwr y daethai yn adnabyddus âg ef ar y fordaith o America i Loegr, ei fod am ddychwelyd i Philadelphia i agor ystordy yno; a chynnygiodd ddeg punt a deugain yn y flwyddyn i Franklin fel ysgrifenydd iddo. Yr oedd y cyflog yn llai nag a wnelai yn awr fel cyssodwr; ond gan y dechreuai hiraethu am weled gwlad ei enedigaeth drachefn, derbyniodd y cynnyg.

Yr oedd yn tybied yn awr ei fod wedi canu yn iach am byth i argraffu. Rhoddodd ei le i fyny ac ymroddodd yn hollol at ei orchwyliaeth newydd, gan dreulio ei holl amser naill ai gyda Mr. Denham, o dŷ i dŷ yn prynu nwyddau, neu i hyrwyddo y gweithwyr, &c.; ond pan oedd pob peth yn barod ar fwrdd y llong, yr oedd ganddo rai dyddiau wedi hyny cyn cychwyn.

"Yn y cyfamser," eb efe, yn ei lythyr at ei fab, "galwyd am danaf un diwrnod gan foneddwr nad adwaenwn ond wrth ei enw yn unig, sef Syr William Wyndham. Aethum i'w dŷ: yr oedd wedi clywed am ryw wrolgampau a gyflawnais wrth nofio rhwng Chelsea a Blackfriars, a'm bod wedi dysgu y gelfyddyd o nofio i Wygate â boneddwr ieuanc arall mewn ychydig oriau. Yr oedd dau fab iddo ef ar fyned i drafaelio; ac yr oedd yn awyddus am iddynt ddysgu nofio cyn troi allan; a chynnygiodd i mi wobr dda os cymmerwn arnaf eu dysgu. Nid oeddynt eto wedi dyfod i'r ddinas, ac nid oedd yn hysbys pa faint a fyddai raid i mi ddysgwyl: am hyny, nis gallasom dderbyn y cynnyg. Arweiniwyd fi trwy y dygwyddiad yma i feddwl, pe dymunaswn aros yn Llundain, gan agor ysgol yno i ddysgu nofio, y dichon y gallaswn ennill cryn lawer o arian. Yr oedd y syniad yma wedi fy nharaw mor drwm ar y pryd, fel pe buaswn yn cael y cynnyg yn gynt, y buaswn yn rhoddi i fyny y meddwl am ddychwelyd i'r America. Ond, fe fu genych chwi (ei fab) a minnau orchwyl mwy pwysig, yn mhen rhai blynyddau ar ol hyn, i'w benderfynu âg un o feibion Syr William Wyndham—y pryd hwnw Arglwydd Egremont. Ond gadawn hyny yn bresennol."

Yn ol ei gytundeb â Denham, aeth Franklin gydag ef i'r llong ar yr amser penodol; ac ar ol mordaith hir, cyrhaeddasant Philadelphia ar yr 11fed o Hydref, 1726. Un mlwydd ar ugain oed yn unig oedd Franklin y pryd hyn; a dywed ei fod wedi ffurfio cynllun tra ar y môr, ac wedi ei ysgrifenu, er rheoli ei ymddygiad dyfodol dros ei holl fywyd. Yn anffortunus, collwyd hwn; er hyny, dywed ei hun ei fod wedi sefyll ato yn lled agos hyd ddiwedd ei oes. Er nad oedd Franklin

Digitized by Google

eto ond ieuanc o ran dyddiau, etto yr oedd wedi cael adnabyddiaeth fwy o'r byd na llawer yn ddeg a deugain oed.

Yn mysg dygwyddiadau ereill a gymmerasant le yn Philadelphia yn ei absennoldeb, yr oedd y foneddiges i'r hon yr oedd efe wedi ymrwymo bod yn ffyddlawn cyn cychwyn i Brydain, wedi priodi. Nid ymddengys i hyn achosi llawer o boen meddwl i Franklin. Yn wir, ymddengys ar y cyfan mai rhyw garwr lled lac ei afael ydoedd; canys er iddo dyngu ffyddlondeb parhaol i Miss Read ar ei ymadawiad, ni chymmerodd amser i ysgrifenu ati byth ond unwaith yn ystod yr holl amser y bu yn absennol. Fe brofodd Franklin wedi hyny ei fod ef yn ddiffuant yn ei ymrwymiad, pe buasai yn cael amser cyfaddas i'w gyflawni; ond pa brawf oedd ganddi hi o hyny? Am hyny, ymunodd hi â gŵr ieuanc oedd yn cymmeryd mwy o amser i'w denu na Franklin: ond ysywaeth, trôdd hwnw allan yn ddyhiryn; a chanfuwyd wedi hyny fod ganddo wraig arall yn fyw pan y priododd Miss Read. Pan ddeallodd hi hyny, nacaodd gydfyw âg ef; ymsuddodd yntau mewn dyled; a diangodd, tua'r flwyddyn 1727, i'r West Indies, a bu farw yno.

Newydd arall a gafodd Franklin ar ei ddychweliad i Philiadelphia oedd, fod ei hen ffug noddwr—y llywydd—wedi cael ei droi o'i swydd, ac yr edrychid arno yn gyffredin gyda dirmyg. Cyfarfu Franklin âg ef lawer gwaith ar ol hyny; ond ni chymmerodd byth arno gofio am y tro gwael a wnaethai âg ef ar ei fynediad i Brydain.

Ar ol i'w feistr newydd, Mr. Denham, fod mewn masnach am ond ychydig fisoedd, cymmerwyd ef a Franklin yn glaf iawn: bu farw ei feistr, ac yn brin y diangodd â'i fywyd ganddo. Fel hyn, gadawyd Franklin unwaith eto ar y byd heb le ac heb amddiffyn. Pan wellhaodd, annogwyd ef gan ei frawd-yn-nghyfraith, Mr. Holmes, i ddychwelyd at ei hen orchwyl. Cafodd le a chyflog da gan ei hen orchwylydd, Keimer, yr hwn oedd yn awr mewn gwell tŷ nag o'r blaen, â chanddo siop mewn cyssylltiad âg ef. Yr oedd Keimer yn hollol anwybodus yn ei orchwyl; am hyny, yr oedd holl bwys y gwaith, ynghyd â dysgu pedwar neu bump o brentisiaid bonglerus yn disgyn ar Franklin. Yr oedd yn rhaid iddo droi ei law at bob math o orchwyl: efe oedd yn gwneyd yr inc, yn cerfio addurniadau, yn bwrw golwg dros y siop; ac, fel y sylwa ei hun, yr oedd yn was pob gwaith. "Yr oedd ein hargraffdy yn fynych," eb efe, "yn ddiffygiol o'r swm angenrheidiol o lythyrenau; ac nid oedd y fath beth yn America y pryd hwnw a gwneuthurwr llythyrenau. Yr oeddwn wedi gweled y gelfyddyd yn Llundain, ond nid oeddwn wedi sylwi ond ychydig arni. Pa fodd bynag, llwyddais i wneud rhyw fath o fold, trwy ddefnyddio y llythyrenau oedd genym i'w ffurfio mewn clai, i'r hon y bwriwn y plwm; ac fel hyn llwyddais yn weddol i wneyd y diffygion mwyaf i fyny. Er hyn oll, cyn gynted ag y canfu Keimer fod y prentisiaid yn alluog i wneyd ei wasanaeth ef heb arolygiad eu hyfforddwr, cymmerodd y cyfle cyntaf a gafodd i gweryla â Franklin, yr hwn a derfynodd yn eu hymadawiad. Yn y cyfamser, cynnygiodd gŵr ieuanc o'r enw Meredith, yr hwn oedd newydd ddyfod yn rhydd o'i brentisiaeth gyda Keimer, fyned yn rhanog gyda Franklin mewn sefydliad newydd. Cyfeillion Meredith oedd i roddi yr arian, a Franklin i roddi ei farn, ef fedr, a'i brofiad, er gwneyd yr antur yn llwyddiannus. Pa fodd bynag, tra yr oedd ef a'i gyfaill yn parotoi yn ddirgel er rhoi eu cynllun mewn gweithrediad, llwyddodd taerineb mawr Keimer i'w gael yn ol ato ef am ychydig fisoedd, er ei gynnorthwyo i gyflawni cytundeb a wnaethai i argraffu rhyw ariannodau (*paper money*) i dalaeth New Jersey, ar y rhai yr oedd amryw gerfiadau ac arwyddluniau i fod, nas medrai neb arall eu gwneuthur. Ymosododd Franklin yn y fan ar y gorchwyl o ffurfio gwasg bres-lafn (*copper-plate printing press*)—y gyntaf a welwyd erioed yn America. Ar ol gorphen hyn, aeth gyda Keimer i Burlington i arolygu y gorchwyl, yr hon fel yr ymddengys, a roddodd foddhad cyffredinol, ac a ddygodd elw da i Keimer; tra y ffurfiodd Franklin yntau gydnabyddiaeth â holl wŷr penaf y dalaeth, y rhai a'i hoffent o blegid rhagoriaeth ei dalentau a'i alluoedd. Yn mysg y rhai hyn, y mae yn crybwyll Isaac Decon, yr arolygwr cyffredinol, mewn modd arbenig. "Hen ŵr call, craffus, oedd efe," medd Franklin, "yr hwn a ddywedodd wrthyf ei fod wedi dechreu ei hun, pan yn ieuanc, trwy hwylio clai mewn berfa i wneuthurwyr priddfeini—iddo ddysgu ysgrifenu wedi tyfu i fyny—iddo gario y did i dirfesurwyr, y rhai a'i dysgasant ef i fesur tir; ac yr oedd yn awr, trwy ei ddiwydrwydd, wedi ennill etifeddiaeth dda; ac, medd efe, yr wyf yn rhagweled y bydd i chwithau weithio y dyn yma (Keimer) allan o orchwyl, ac ennill cyfoeth yn Philadelphia. Nid oedd ganddo ef y pryd hyny un dychymyg fy mod yn meddwl ymsefydlu yno mewn un man."

Yn fuan ar ol iddo ddychwelyd i Philadelphia, cyrhaeddodd y llythyrenau a'r wasg a archasai o Lundain; ac wedi gorphen gyda Keimer, cymmerodd ef a'i gyfaill dŷ, a dechreuasant ar eu gorchwyl. "Prin yr agorasom ein llythyrenau," eb efe, "ac y rhoddasom ein gwasg mewn trefn, cyn i George House, un o'm cydnabod i, ddyfod â chydwladwr atom, a gyfarfyddasai ar yr heol yn ymofyn argraffydd. Yr oedd ein holl arian yn awr wedi eu treulio ar amryw bethau y gorfodid ni eu prynu; a daeth pum swllt y gwladwr yma—ein blaenffrwyth—mor brydlawn, fel y rhoddasant fwy o hyfrydwch i mi nag unrhyw goron a ennillais er y pryd hyny hyd yn awr; a gwnaeth y diolchgarwch a deimlwn i House fi yn fwy parod yn fynych ar ol hyny nag y buaswn, fe allai, oddigerth hyny, i gynnorthwyo dechreuwyr ieuainc." Yr oedd Franklin, y gauaf cyn hyn, wedi awgrymu cynllun wrth amryw o'i gyfeillion, i ffurfio cymdeithas i wellhau eu gilydd; ac yn ol y cynllun hwnw, yr oeddynt wedi arfer ymgyfarfod bob nos Wener, dan yr enw *Junto*. Yr oedd holl aelodau y gymdeithas yma yn ymdrechu cael gwaith iddo; a llwyddodd un o honynt, o'r enw Breintnal, i gael gan y Crynwyr roddi deugain papyrlen o'u hanes, a barotoid gan ddynt ar eu cost eu hunain, i Franklin i'w hargraffu. "Gweithiasom yn dra chaled ar hwn," medd efe, "am fod y pris yn bur fychan. Unplyg oedd y gwaith: yr oeddwn i yn cyssodi papyrlen y dydd o hono, a Meredith yn ei weithio allan wrth y wasg. Byddai yn un ar ddeg y nos yn fynych, a mwy na hyny weithiau, erbyn y darfyddwn chwalu fy llythyrenau erbyn dranoeth; canys byddai rhyw fân orchwylion (*jobs*) a anfonid i ni gan ein cyfeillion yn ein cadw yn ol. Ond mor benderfynol oeddwn i barhau i wneyd papyrlen bob dydd, fel, pan wedi trefnu fy ffurfleni (*forms*), un noswaith, ac yn meddwl fod gwaith y diwrnod trosodd, y torwyd un o honynt trwy ddamwain, ac y gwnaed dau dudalen

Digitized by Google

(gwaith hanner diwrnod) yn bastai (*pie*); ond chwalais hwy yn y fan, a chyssodais hwy drosodd drachefn cyn myned i'r gwely. Yr oedd y diwydrwydd yma, oedd yn amlwg i'r holl gymmydogion, yn dwyn i ni enw da ac ymddiried." Y canlyniad fu, i'w masnach gynnyddu, a chynnygion manteisiol ddyfod iddynt yn lliosog.

Daethant yn fuan i ystyried eu hunain yn alluog i sefydlu papyr newydd—yr hyn oedd wedi bod bob amser yn hoff amcan gan Franklin; ond dygwyddodd grybwyll y cynllun yn ddifeddwl wrth un a ddaethai ato i ymofyn gwaith. Aeth hwnw at ei hen feistr, Keimer, a mynegodd y peth iddo yn ddirgel; a phenderfynodd yntau yn y fan eu rhagflaenu trwy gyhoeddi cynnygion o bapyr newydd ei hun. Mae y cynllun a gymmerodd Franklin i somi y fradwriaeth yma yn dra nodedig. Yr oedd papyr arall yn cael ei gyhoeddi yn y lle, ac wedi bod mewn cylchrediad am rai blynyddoedd; ond yr oedd wedi bod yn druenus o wael ar hyd yr amser, a'r unig achos ei fod yn gallu myned yn mlaen oedd nad oedd yno un arall. Pa fodd bynag, gan nad ydoedd Franklin yn alluog i ddechreu ei bapyr ei hun yn ddioed, efe a ymosododd, mewn cyssylltiad â chyfaill, i ysgrifenu cyfres o lythyrau difyr i'r papyr yma dan y ffugenw *Busy-body* (Ymyrwr), y rhai, wrth gwrs, a argraffodd y cyhoeddwr gyda pharodrwydd. "Trwy hyn," eb efe, "sefydlwyd sylw y cyhoedd ar y papyr hwnw; a dibrisiwyd cynnygion Keimer, y rhai a ddirmygem ac a wawdiem. Er hyny, dechreuodd Keimer ei bapyr; ond cyn iddo fyned yn mlaen dri chwarter blwyddyn, heb ddim mwy na deg a phedwar ugain yn unig o dderbynwyr, efe a'i cynnygiodd i mi am ychydig; a chan fy mod i yn barod bellach er's peth amser, i'w ddwyn yn mlaen, cymmerais ef mewn llaw yn ebrwydd, a throdd allan i mi yn mhen ychydig flynyddau, yn dra manteisiol." Parodd rhai sylwadau a gyhoeddodd yn y papyr ar y pwnc trefedigol—y siaredid cymmaint y pryd hyny yn ei gylch—gyffro mawr yn mhlith prif ddynion y lle, yr hyn a ddygodd i'r cyhoeddwyr lawer o gyfeillion yn y Gydgynghorfa; a phenodwyd hwy ar y cyfle cyntaf a gafwyd yn argraffwyr i'r dalaeth. Digwyddodd amgylchiadau ereill hefyd yn dra ffodus i Franklin, a derfynasant yn ei ddadgyssylltiad â Meredith: yr hwn oedd yn greadur diog, meddw, gan fod yn fwy o rwystr i'r sefydliad na dim arall. Dygwyd y dadgyssylltiad yma yn mlaen trwy i dad Meredith fethu talu gofynion y sefydliad fel yr addawsai; am hyny, cynnygiodd Meredith dori y cyssylltiad, gan adael y cwbl i Franklin, ond iddo ef gymmeryd y ddyled arno ei hun, a rhoddi deg punt ar ugain i Meredith i droi allan. Daeth dau gyfaill yn mlaen, heb eu gofyn, i gynnyg eu cynnorthwy i Franklin; yr hyn a'i galluogodd, tua'r flwyddyn 1729, pan nad oedd eto ond pedair ar ugain oed, i ymsefydlu mewn bywoliaeth, gyda golygiadau gobeithiol o'i flaen, er yr holl somedigaethau yr aethai drwyddynt.

Nis gallwn ddilyn y dyn ieuanc diwyd, galluog, gonest, a llwyddiannus hwn mor fanwl o hyn allan. Dyma ni yn awr wedi ei gael ar ben y ffordd i gyfoeth, anrhydedd, a dedwyddwch; ond ceir ef yn cadw y cymmeriadau hyny i fyny ar hyd ei oes gyda'r un gofal, diwydrwydd, a chynnildeb, ag a'i dygasant ef i'w sefyllfa lwyddiannus bresennol. Yn fuan ar ol i Meredith ei adael, cyhoeddodd lyfryn ar bapyr-nodau—pwnc y dadleuid yn frwd arno yn y dalaeth—yr hwn a ddygodd Franklin i'r fath boblogrwydd, fel y rhoddwyd ef ar waith i argraffu y nodau hyny, pan y penderfynwyd eu dwyn allan. Yna agorodd fasnachdŷ i werthu pob nwyddau papyr a llyfrau; yr hyn a drodd allan mor ennillfawr iddo, fel y galluogwyd ef yn fuan, nid yn unig i dalu ei holl ddyled, ond i'w ddyrchafu, ynglŷn â'i argraffdy, a'i alwedigaethau ereill, i lawnder a chyfoeth. Ystyriai Franklin ei hun yn awr mewn sefyllfa i briodi; a chan nad oedd ganddo ond ychydig o amser i'w golli gyda hyny, rhoddodd ail gynnyg i'w hen gyfeilles, Miss Read; yr hon, o herwydd amlwreicaeth adgas ei gŵr arall, oedd yn rhydd eto i briodi. Felly, efe a'i priododd hi: yr hon, medd efe ei hun, "a fu yn anrhydedd ac yn fendith" iddo. Yn fuan, ar ol hyn ceir ef yn cymmeryd y flaenoriaeth fel dinesydd yn Philadelphia. Sefydlodd lyfrgell fenthyca—y gyntaf a fu erioed yn America; ac er iddi ddechreu gyda deg a deugain yn unig o danysgrifwyr, daeth mewn amser i enwogrwydd drwy yr holl wlad hono; ac o'r diwedd, corfforwyd y meddianwyr trwy freinlen freiniol. Ond tra yr oedd eto yn ei babandod, rhoddodd lawer o gyfleusderau i'w sefydlydd i'w goethi ei hun: o'r hyn y gwnaeth efe y defnydd goreu, gan y cyssegrai awr neu ddwy bob dydd, fel y dywed ei hun, i fyfyrio—yr hyn oedd yr unig ddifyrwch a gymmerai.

Yn 1732, dechreuodd gyhoeddi ei *Almanack* clodfawr, dan yr enw *Richard Saunders*, ond a adnabyddid wrth yr enw *Poor Richard's Almanack*. Parhaodd i gyhoeddi hwn bob blwyddyn am bum mlynedd ar ugain. Casglwyd y diarebion a'r gwirebau nodedig oedd yn wasgaredig yn ngwahanol rifynau hwn, wedi hyny, yn un traethawd cryno, dan yr enw *The Way to Wealth*; yr hwn oedd mor boblogaidd, fel yr aeth yn hysbys i'r holl genedl Seisonig yn y wlad hon, yn gystal ag yn America. Cyfieithwyd y traethodyn dyddorol hwn i'r Gymraeg yn 1839, gan Thomas Roberts, Llwynrhudol, dan yr enw *Y Ffordd gaffael Cyfoeth, neu Risiart Druan*; ac er fod y cyfieithydd yn amcanu "addasu y llyfyr bychan hwn at ddull a môdd y Cymry yn siarad mewn iaith rwŷdd a hawdd ei dŷall," eto y mae yr iaith mor glogyrnog a mympwyol, fel na ddaeth, ac na ddaw byth yn boblogaidd yn Nghymru, er teilynged ydyw ei gynnwysiad, heb ei ail gyfieithu. Rhoddwn ddyfyniadau gwreiddiol o'r gwaith, a rhai pethau hynod ereill o waith yr awdwr, cyn diweddu yr erthygl hon.

Yn mhen y flwyddyn (1733) ar ol i Franklin sefydlu ei Lyfrgell fenthyca, dechreuodd fyfyrio ieithoedd. "Gwnaethum fy hun yn fuan," eb efe, "yn gymmaint meistr yn y Ffrancaeg, fel y gallwn ddarllen llyfrau yn yr iaith hono yn rhwydd. Yna dechreuais ar yr Italaeg. Yr oedd genyf gyfaill hefyd yn ei dysgu yr un pryd. Byddai hwn yn fy hudo yn fynych i chwareu gwyddbwyll (*chess*) gydag ef. Yr oeddwn yn gweled hyn yn cymmeryd gormod o'm hamser i efrydio; ac o'r diwedd, gwrthodais chwareu chwaneg, ond ar yr ammod y byddai i'r gorchfygwr hawl i orfodi y llall, naill ai i ddysgu rhanau o'r gramadeg ar dafod leferydd, neu trwy gyfieithu hyn a hyn, &c.—yr hyn yr oedd y gorchfygedig i'w gyflawni ar ei anrhydedd cyn cyfarfod y tro nesaf. Gan ein bod yn chwareuwyr lled gyfartal, llwyddasom fel hyn i guro yr iaith Italaeg i'n gilydd. Wedi hyny, dysgais yr iaith Yspaenaeg gyda llai o drafferth, fel ag i fod yn alluog i ddarllen llyfrau yn hono hefyd. Crybwyllais eisoes mai blwyddyn yn unig a gefais o hyfforddiad mewn ysgol i ddysgu Lladin, a hyny

Digitized by Google

pan yn bur ieuanc, a'm bod ar ol hyny wedi esgeuluso yr iaith hono yn hollol. Ond wedi dysgu y Ffrancaeg, yr Italaeg, a'r Yspaen·eg, yr oeddwn yn synu wrth weled fy mod, pan yn edrych dros Destament Lladin, yn deall llawer mwy o'r iaith hono nag a ddysgwyliaswn; a chefnogodd hyn fi i ymosod o ddifrif i'w hail fyfyrio; a llwyddais yn fwy, gan fod yr ieithoedd ereill wedi llyfnhau fy ffordd yn ddirfawr."

Yn 1736, dewiswyd Franklin yn ysgrifenydd y Gydgynghorfa, ac yn fuan wedi hyny, appwyntiwyd ef yn Benllythyrwr y Dalaeth. Rhoddodd y dyrchafiad yma gyfleusdra teg i Franklin i addalu angharedigrwydd, ac yn wir anghyfiawnder Bradford (unig gyhoeddwr papyr newydd yn y dref heb law Franklin), yr hwn, tra yr oedd efe yn Benllythyrwr, a wnai ei egni i rwystro lledaeniad papyr Franklin, trwy ei gadw yn y post, &c., dros amser cyfaddas. Yr oedd Franklin yn awr mewn sefyllfa y gallasai ad-dalu iddo; ac ychydig sydd a fuasent yn peidio defnyddio y cyfleusdra: ond yr oedd enaid Franklin yn rhy fawreddog, a'i egwyddorion hefyd yn rhy uniawn i gymmeryd un fantais o'r fath ar neb. Wedi cael y dyrchafiad yma, o'r hwn yr oedd mor deilwng, trodd ei feddwl at achosion cyhoeddus, gan ddechreu, fel y dywed ei hun, gyda phethau bychain. Yn gyntaf, efe a wellhaodd wyliadwriaeth y ddinas; wedi hyny, bu yn foddion i sefydlu cymdeithas tân-yswiriad; yna sefydlodd gymdeithas athronyddol; a llwyddodd hefyd i sefydlu athrofa yn y ddinas i addysgu ieuenctyd. Tua'r flwyddyn 1744, pan oedd rhyfel rhwng Ffrainc a Phrydain, yr oedd yr Indiaid yn gwneyd rhuthrgyrchoedd peryglus ar ororau Pennsylvania, ac yn gosod bywydau llawer o'r trigolion yn y perygl mwyaf. Ceisiwyd ffurfio cartreflu yno i amddiffyn y dalaeth; ond anghytunai y swyddogion gwladol ynghylch y cynllun, gan fod perchenogion tiroedd a'r gydgynghorfa yn methu cydweled ynghylch y trethi; ac felly gadawyd y dalaeth fel yr oedd o'r blaen, yn ddiamddiffyn. Yn y cyfwng yma, neidiodd Franklin i'r adwy, a galwodd gyfarfod cyhoeddus o ddinaswyr Philadelphia, i'r hwn y cynnygiodd ffurfio cymdeithas wirfoddol i amddiffyn y dalaeth. Cymmeradwywyd y cynllun yn unllais, a llawnodwyd ef gan ddeuddeg cant o bersonau yn ddioed. Taenwyd cylch-lythyr trwy y dalaeth yn ebrwydd; a chyrhaeddodd nifer y llawnodiadau mewn amser byr i ddeng milo bersonau. Yna dewiswyd Franklin yn Filwriad (*Colonel*) Byddin Philadelphia, ond nid ystyriai efe yn addas iddo dderbyn yr anrhydedd hono. Erbyn hyn, yr oedd pob rhan braidd o'r llywodraeth wladol yn rhoddi iddo ef ryw ddyledswyddau i'w cyflawni.

"Rhoddodd y llywydd fi," eb efe, "yn y ddirprwyaeth heddwch; dewisodd gorfforaeth y ddinas fi yn un o'r cynghor cyffredin; ac yn fuan wedi hyny yn alderman; ac etholodd y dinaswyr yn gyffredinol fi yn fwrdais, i'w cynnrychioli yn y gydgynghorfa. Yr oedd y sefyllfa olaf yma yn fwy dymunol genyf, gan fy mod wedi blino o'r diwedd yn eistedd i wrandaw dadleuon, yn y rhai, fel ysgrifenydd, nis gallwn gymmeryd un rhan; ac a fyddent yn fynych mor ddiflas fel y temtid fi i ffurfio pedrolau (*squares*) a chylchau dychymygol, neu rywbeth arall i ddifyru fy hun; a chanfyddais y byddai fy ngwaith yn dyfod yn aelod yn eangu fy ngallu i wneuthur daioni. Ni hoffwn awgrymu nad oedd yr holl ddyrchafiadau yn boddhau fy uchelgais; canys y mae yn ddiau eu bod: o blegid wrth ystyried fy nechreuad isel, yr oeddynt yn bethau mawrion i mi; ac yr oeddynt yn fwy boddhaol fyth, am eu bod yn gynnifer o dystiolaethau cyd-darawol o farn dda y cyhoedd am danaf, ac yn gwbl heb eu ceisio genyf."

Hyd yn hyn, gwelsom y bachgen tlawd, dinôd, yn ffoi oddi cartref rhag digofaint ei frawd, i ddinas fawr ddieithr New York; ac wedi cael somedigaeth yno am waith, yn myned wedi hyny i Philadelphia, heb braidd ddim arian yn ei logell; yn cael gwaith yno ar ol hir ymdrech; ei ddiwydrwydd rhyfeddol yn ei ddyrchafu i sylw gwŷr o ddylanwad; y rhai hyny yn ei berswadio i fyned i Lundain, gan addaw ei gynnorthwyo, ac yn ei somi yn y modd mwyaf cywilyddus; ei ddiwydrwydd ei hun yn ei ddyrchafu yno drachefn; yn dysgu amryw bethau pwysig yno; yn dychwelyd i Philadelphia yn ol; yn ymddyrchafu yno o radd i radd, trwy nerth ei dalent a'i egni ei hun fyth, nes cael ei ddyrchafu yn naturiol i eistedd yn mysg cynnrychiolwyr ei wlad.

Mae yn bryd weithian i ni ddwyn y dyn rhyfedd ac anghyffredin hwn i sylw ein darllenwyr dan gymmeriad newydd. Bu fyw i gyflawni gorchwylion gwladwriaethol a dynasant sylw, nid yn unig ei wlad ei hun, ond yr holl fyd gwareiddiedig; a bu yn brif foddion i ddwyn amgylch bethau mor fawrion ynddynt eu hunain, ac mor bwysig yn eu canlyniadau, a dim a berth yn i hanesiaeth ddiweddar. Ond fel athronyd. yr ydym am ddwyn Franklin i sylw yn awr—mewn cyssylltiad yn benaf â'i ddarganfyddiadau trydanol clodwiw. Nis gallwn yma, wrth reswm, roddi ond golygiad tra chyffredinol o'r darganfyddiadau pwysig hyn; ac ymdrechwn wneyd hyny mewn dull mor eglur, fel y gall rhai cwbl anhysbys o'r pwnc ei ddeall.

Mae y gair Seisoneg, *electricity*, yn deilliaw o'r gair Groeg *electron*—yr enw a roddid i wefr (*amber*)—yr hwn y gwyddid, hyd yn oed yn yr hen amseroedd, ei fod, trwy ei rwbio, yn dyfod i feddiannu y briodoledd hynod o dynu ato bethau pur ysgeifn, megys darnau bychain o bapyr, pan y rhoddid hwy yn agos ato. Meddyliwyd ar y dechreu mai i'r sylwedd hwnw yn unig, sef gwefr, yr oedd y briodoledd attynol yn perthyn, ac am hyny y galwyd y peth yn wefr, neu *electricity:* a gwefr oedd y gair a arferid yn hir gan y Cymry am dano; ond y gair mwyaf arferedig yn awr, ar ol i'r gelfyddyd ddyfod yn fwy adnabyddus, ydyw *trydaniaeth.* Yn mhen rhyw ysbaid o amser, canfyddwyd fod un neu ddau o sylweddau, heb law gwefr, yn meddu yr un briodoledd attynol; ac fel hyn y safodd y wybodaeth hyd tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg; pan y canfu yr athronydd enwog, William Gilbert, meddyg o Lundain, ac y mynegodd yn ei draethawd Lladin ar y tynfaen (*magnet*), fod yr un briodoledd yn perthyn yn gyfartal i'r adamant, ac amryw feini gwerthfawr ereill—i wydr, brwmstan, cŵyr selio, ystor, ac amryw sylweddau ereill. Dyma y pryd y gellir amseru genedigaeth gwyddor trydaniaeth; yr hon, pa fodd bynag, a barhaodd yn ei babandod am dros ganrif wedi hyny; a phrin, yn wir, y gellid ei hystyried yn ddim amgen na chasgliad o ffeithiau annosbarthus, ac yn cael eu deall yn anmherffaith, hyd oni chododd Franklin i'w chwilio allan. Yn mysg y ffeithiau a ddarganfuwyd yn ystod yr amser a nodwyd, gellir nodi y rhai canlynol fel y rhai mwyaf pwysig. Yn gyntaf, chwanegwyd llawer at restr y sylweddau a ddangosent trwy eu rhwbio eu bod yn meddu y briodoledd o drydaniaeth. Canfyddwyd hefyd fod y sylweddau a attynasid

Digitized by Google

drydan, yn gystal ag un; ac o'r diwedd, llwyddodd i ffurfio yr hyn a elwir yn awr y cluder trydanol (*electrical battery*). Gellir ystyried hyn megys yn gorphen yr hyn a elwir cynllun trydanol Franklin; a dywed dysgedigion ei fod yn ddiammheuol yn un o'r dosbarthiadau prydferthaf a ganfyddir yn holl gylch gwyddoriaeth.

Yr oedd Franklin bellach yn dra awyddus am droi ei ddarganfyddiadau i ymarferiad, er lles y byd. Yr oedd rhai wedi tybied o'i flaen ef fod y mellt a'r "goleuni gogleddol" (*aurora borealis*) o'r un natur a thrydan a gynnyrchid mewn dulliau ereill; ond efe oedd i drefnu hyn hefyd yn gyfundrefn reolaidd. Mewn papyr a amserwyd Tachwedd 7, 1749, y mae yn nodi pob tebygrwydd adnabyddus rhwng mellt a thrydaniaeth. Yn y lle cyntaf, sylwa nad yw yn rhyfedd fod effeithiau y naill yn gymmaint mwy nag effeithiau y llall; canys os tery dau faril gwn wedi eu trydanu, ac a fyddont mewn dwy fodfedd i'w gilydd, nes gwneud swn uchel, yn mha bellder y tery cwmwl o ddeng mil o erwau wedi ei drydanu, ac yn arllwys ei dân allan: a pha mor fawr y rhaid i'r fath glec fod! Yna sylwa ar redfa droellog a thonog fflach mellten, yn gystal a gwreichion trydanol mewn rhai amgylchiadau; y tuedd sydd mewn mellt, fel trydaniaeth, i gymmeryd y tywysydd goreu; ac ar y ffeithiau fod mellt, yn gystal a thrydaniaeth, yn toddi metteloedd, yn llosgi rhai sylweddau, yn rhwygo ereill, yn taraw pobl yn ddeillion, yn distrywio bywyd anifeilaidd, ac yn gwrthdroi pegynau cwmpawd y morwr, &c.

Yr oedd wedi dyfod i wybod er's peth amser fod gallu nodedig gan sylweddau pigfain i dynu ac i wrthyru y tân trydanol. Yr oedd yn cael ei arwain i gasglu hyn yn naturiol gan egwyddorion sylfaenol ei gyfundrefn; er yr ymddengys nad oedd eto wedi deall yr achos o hyny, a rhai pethau hynod ereill, yn foddhaol iddo ei hun. Ond gan ei fod yn gwybod y ffaith, cawn ef yn terfynu y papyr crybwylledig fel y canlyn:—"Y mae yn amlwg yr attynir yr hylif trydanol gan bethau pigfain. Nid ydym yn gwybod a ydyw y briodoledd hon mewn mellt, ai peidio; ond gan eu bod yn cytuno yn mhob peth yr ydym ni hyd yn hyn yn alluog i'w cymharu, nid annhebyg yw eu bod yn cytuno yn hyn hefyd. Pa fodd bynag, gwneler y prawf."

Tra yr oedd ei feddwl yn llawn o'r syniad yma, bu am gryn amser cyn cael cyfleusdra wrth ei fodd i roddi prawf ar ei wirionedd. Y cynllun a gynnygiai gyntaf oedd codi pigdwr yn Philadelphia, ar ben yr hwn y bwriadai blanu gwialen haiarn bigfain mewn cacen o ysdor, i'r hon y tybiai y byddai i'r cymylau wrth ei phasio drosglwyddo rhan o'u trydaniaeth; ond tra yr oedd yn dwys fyfyrio y cynllun hwn, tynwyd ei sylw yn ddamweiniol, un diwrnod, at farcutan bapyr a roddid i hedeg gan blentyn; a phenderfynodd yn y fan fod hon yn ffordd rwyddach i gyrhaedd y cymylau na'r llall. Am hyny, cymmerodd gadach sidan mawr yn ddioed, gan ei ledu â dau bren croes, ac â'r offeryn syml yma y bwriadai dynu y fellten i lawr o'r cymylau! Yn fuan ar ol hyn, canfu fod tymmestl o daranau yn nesau, ac aeth allan i gae oedd gerllaw y ddinas, yn yr hwn yr oedd penty (*shed*), heb fynegi ei fwriad i neb ond ei fab, gan wybod, os byddai ei ymdrech yn aflwyddiannus, na byddai ond testyn gwawd, fel y mae ymbrofion athronyddol wedi bod yn rhy fynych, er niwed mawr i wyddoriaeth. Yr oedd y prawf yma yn cael ei wneyd yn Mehefin, 1752.

Wedi dyrchafu y barcutan, rhwymodd agoriad wrth ben isaf y llinyn cywarch, ac yna, cyssylltodd y llinyn cywarch gyda llinyn sidan (gan na rêd y fellten ar hyd sidan) wrth goeden, ac arososodd dan y penty i ddysgwyl y canlyniad. Bu yno yn bryderus am gryn amser heb weled dim arwydd trydaniaeth. Yr oedd cwmwl llawn o drydan, yn ol ei farn ef, wedi pasio heb gynnyrchu dim effaith ar y barcutan bwysig, a fwriedid i ddarostwng mellt y nefoedd i wasanaeth dyn! Ond o'r diwedd, pan yr oedd ffydd Franklin, druan, ar ballu, gwelai ryw edafedd rhyddion oedd yn y llinyn cywarch yn codi ac yn sefyll yn syth, yn hollol fel pe buasent yn cael eu gwrthyru y naill oddi wrth y llall gan drydaniaeth. Rhoddodd ei figwrn yn y fan ar yr agoriad, ac er ei lawenydd annhraethol, gwelai y wreichionen drydanol, oedd mor adnabyddus iddo ef, yn neidio o hono. Dywedir fod cyffro ei feddwl mor fawr ar ei orpheniad yma o'i ddarganfyddiad—oedd i wneyd ei enw yn anfarwol—fel y rhoddodd ochenaid ddofn a dwys, a theimlai ei hun yn foddlawn i farw yn y fan! Fel yr oedd y gwlaw yn cynnyddu, yr oedd y llinyn yn dyfod yn well tywysydd, a'r agoriad yn rhoddi trydaniaeth allan yn helaeth. Pe buasai y llinyn cywarch wedi ei wlychu trwyddo, gallasai yr ymbrofwr hyf orfod talu am ei ddarganfyddiad trwy golli ei fywyd—fel yr oedd yn barod i wneuthur: ond buasai hyny yn golled annhraethol i'r byd.

Dygodd Franklin wedi hyny y mellt i'w dŷ, trwy gyfrwng gwialen haiarn wahanedig (*insulated*), a gwnaeth bob ymbrofion â hi, wrth ei hamdden, a'r a ellid gyflawni â thrydaniaeth. Ond ni orphwysodd efe yma. Nid oedd ei feddwl bywiog ac ymarferol ef yn foddlawn hyd yn oed ar y darganfyddiad ysblenydd a wnaeth, heb allu ei droi i fod yn ddefnyddiol i'r byd. Meddyliodd y gellid ei ddefnyddio at gadw adeiladau rhag cael eu niweidio gan fellt, trwy foddion syml a rhad—dim mwy na chyssylltu gwialen fettel bigfain wrth yr adeilad, gan roddi ei blaen uchaf yn uwch na'r rhan uchaf o'r adeilad, a phlanu ei bôn yn y ddaiar. Dywedodd y byddai y fellten yn sicr o gipio hon yn hytrach nag un rhan arall o'r adeilad, ac y llithrai y fellten ar hyd y tywysydd yma i'r ddaiar heb wneyd dim niwed; a chafodd y boddhad annhraethol o weled ei gynllun yn ateb y diben. Yr oedd tuedd gref yn athroniaeth Franklin bob amser i fod o ryw ddefnydd ymarferol. Tybir nad oedd tywyswialen y mellt yn ddim ond effaith rhai o ymbrofion trydanol dechreuol Franklin, y rhai yr arferai eu gwneuthur yn ei amser hamddenol, er difyru ei hun a'i gyfeillion. Mewn un o'i lythyrau at Mr. Collinson, a amserwyd mor foreu a 1478, ceir ef yn cyfeirio, mewn dull hanner cellweirus a difrif, at ei ymbrofion trydanol, fel y canlyn:—"Gan ein bod yn cael ein blino braidd am nad ydym hyd yn hyn wedi bod yn alluog i wneyd dim yn y dull yma er lles dynolryw, a chan fod y tywydd poeth yn dyfod, pan na bydd ymbrofion trydanol mor ddymunol, cynnygir rhoddi terfyn arnynt am y tymmor mewn dull go ysmala, trwy gael difyr-gymdeithas ar lanau y Skuylkill. Tânir gwirod genym yn y cyfamser, gan wreichionen a anfonir o'r naill ochr i'r llall heb un tywysydd ond y dwfr yn unig:—prawf a gyflawnwyd genym rywbryd o'r blaen er syndod i lawer. Lleddir twrci erbyn ciniaw gan *ergyd drydanol*, a rhostir ef wrth *fêr trydanol*, o flaen tân wedi ei gynneu gan y *gostrel drydanol*: pan yr yfir iechyd da holl drydanwyr enwog Lloegr, Holland, Ffrainc, a Germany, mewn *gwydrau trydanol*, &c.

Holland, Ffrainc, a'r Almaen, mewn *cwpanau trydanol*, yn swn ergydion gynau o'r *cluder trydanol*."

Bychan a wyddai yr athronydd enwog, pan yn ysgrifenu y llythyr difyrus hwn, ac yn cwyno nad oedd wedi bod yn alluog hyd yn hyn i wneyd nemawr o les i ddynolryw trwy gyfrwng trydaniaeth, fod yr amser mor agos, pan y gwnelai ei ddarganfyddiadau godidog y lles mwyaf i'r byd. Beth pe buasai byw i weled tywysyddion mellt er diogelu llongau, a wnaed gan Syr W. Snow Harris; y bellen a'r cloc trydanol, gan Mr. Alexander Bain; ac uwch law y cwbl, y pellebyr trydanol, a ddyfeisiwyd gan Oerstead, ac a berffeithiwyd gan Wheatstone—pe gwelsai y pethau mawrion a rhyfedd hyn, sydd o'r fath les annhraethol "i ddynolryw," a gwybod eu bod oll wedi eu sylfaenu ar ei ddarganfyddiadau godidog ef ei hun, mae yn ddiammheu y diangasai llawer ochenaid mor foddhaol o'i fynwes haelfrydig a hono a roddodd, pan welodd ei farcutan syml yn llwyddo i dynu y mellt o'r cymylau, am y tro cyntaf, ar feusydd Philadelphia. Ac yn benaf oll, beth pe gwybuasai am y cynnygion ardderchog sydd o bryd i bryd yn cael eu gwneuthur i uno Ewrop ac America trwy gyfrwng pellebyr trydanol, er cymmaint ydyw yr anhawsderau sydd ar ei ffordd, o herwydd meithder y môr, sef 2,500 o filldiroedd. Diammheu y buasai yn neidio o lawenydd at y fath feddylddrych mawreddog; yr hyn, er iddo fethu y cynnyg cyntaf, sydd yn dra sicr o gael ei gario allan eto gan ryw athrylith a ymddengys yn y byd; canys y mae y fath feddylddrych yn rhy aruchel i syrthio i'r llawr am byth.

Ni lwyddodd darganfyddiadau ardderchog Franklin, ar eu dadganiad cyntaf, i dynu llawer o sylw yn Mhrydain; ac yn wir, cafodd y gofid o ddeall nad oedd ei bapyr ar debygolrwydd mellt i drydaniaeth, pan y darllenwyd ef gan gyfaill i'r Gymdeithas Freninol, yn ddim amgen na thestyn chwerthin gan y corff dysgedig hwnw. Ond yn Ffrainc, dygwyddodd yn ffodus i'r hanes a gyhoeddwyd yn Llundain am ei ymbrofion, ddisgyn i ddwylaw y naturiaethwr godidog hwnw, Buffon —yr hwn a'i synodd gymmaint, fel y mynodd ei gyfieithu i'r Ffrancaeg, a'i argraffu yn Paris. Gwnaeth hyn ef yn hysbys ar unwaith trwy holl Ewrop; ac ymddangosodd cyfieithiadau o hono yn ebrwydd mewn amryw ieithoedd Ewropaidd ereill, ac yn Lladin. Cafodd y gyfundrefn a gynnygiai wrthwynebiad tanbaid yn Ffrainc, ar y cyntaf, gan yr Abbé Nollet; yr hwn yr oedd ganddo gyfundrefn ei hun i'w hamddiffyn; ac fel y dywed Franklin, nis gallai gredu ar y dechreu fod y fath waith wedi dyfod o'r America; ond dywedai y rhaid mai wedi cael ei lunio yr oedd gan ei elynion yn Paris. Pa fodd bynag, cefnodd ei holl bleidwyr ar yr Abbé o'r diwedd, a bu fyw i weled ei hun y diweddaf o'i sect. Dechreuodd ymbrofion Franklin ddyfod yn fwy poblogaidd yn Mhrydain hefyd yn raddol; ac o'r diwedd, cafwyd hyd yn oed gan y Gymdeithas Freninol ail ystyried y papurau a ddarllenasid yuddi o'r blaen. Gwiriodd un o'i haelodau y prawf godidog o ddwyn i lawr y mellt o'r cymylau; a phan y darllenwyd iddynt yr hanes am ei lwyddiant ef, "buan," meddai Franklin, "y gwnaethant fwy nag iawn i mi am y diystyrwch a daflasant arnaf yn flaenorol. Dewisasant fi yn aelod, heb i mi wneyd unrhyw appeliad am yr anrhydedd, a phleidleisiasant ar i mi gael fy nerbyn heb dalu y costau arferol; yr hyn oedd yn bum gini ar ugain; a byth ar ol hyny, rhoddasant i mi eu *Transactions* yn rhad. Anrhegasant fi hefyd â bathodyn aur Syr Godfrey Copley, am y flwyddyn 1753—cyflwyniad yr hwn a ddilynid gan araeth brydferth y llywydd, Arglwydd Macclesfield, yn yr hon yr anrhydeddwyd fi yn fawr." Rai blynyddoedd ar ol hyn, pan oedd yn y wlad yma gyda'i fab, cyflwynodd Prifysgol St. Andrews iddo y radd o Doctor yn y Gyfraith (LL. D.); a dilynwyd ei hesampl gan Brifysgolion Edinburgh a Rhydychain. Etholwyd ef hefyd yn aelod o lawer o gymdeithasau dysgedig trwy holl Ewrop.

Nid oedd un athronydd yn awr yn sefyll ar uwch tir na'r dyn hynod yma; yr hwn ar y dechreu oedd yn un o'r rhai mwyaf dinôd o'r bobl, ond a gyfododd ei hun i'r holl anrhydedd yma heb gymhorth braidd i ddim addysg ond a gyrhaeddodd ei hunan. Pwy a ddywed, ar ol darllen yr hanes yma, fod dim mwy yn angenrheidiol er cyrhaedd gwybodaeth na phenderfynu ei chyrhaedd?—fod unrhyw rwystr ar ffordd dyn i ddringo i'r enwogrwydd meddyliol uchaf, oddi eithr difaterwch a diogi dyn ei hunan? Dirgelwch llwyddiant y dyn hwn gyda golwg ar ddiwylliad ei feddwl oedd, ei fod bob amser yn effro ac yn fywiog gyda'r gorchwyl; nad oedd yn gadael i unrhyw gyfleusdra i wneyd hyny golli; ei fod, pa mor dlawd bynag fyddai, yn hebgor ychydig geiniogau, hyd yn oed er prinhau ei brydau bwyd, i dalu am fenthyg llyfrau nas gallai eu prynu; a'i fod, pa mor caled bynag y byddai yn gweithio, yn mynu ychydig oriau bob wythnos, hyd yn oed er gorfod aros ar ei draed dros hanner ei nosweithiau, ar ol llafur caled y dydd, i'w darllen a'u myfyrio. Mae yn sicr nad yw pawb yn cael eu cynnysgaethu â gallu meddyliol mor gryf ac mor dreiddgar ag a gafodd ef; ond yr oedd ei ddiwydrwydd, ei ddyfalbarhad, a'i hunan-lywodraeth, yn esamplau y gall pawb eu dilyn: ac er mai ychydig a allant ddysgwyl am lwyddo i wneyd darganfyddiadau fel y rhai a wnaeth efe, eto, gallant dderbyn addysg a chefnogaeth oddi wrth ei esampl.

Pe dilynem y gweddill o hanes Franklin, canfyddem enwogrwydd y gwladgarwr yn gyfartal i enwogrwydd yr athronydd, yn gwisgo y cyfan â mawredd; a chanfyddem yr hwn oedd ar y dechreu yn grefftwr tlawd ac anadnabyddus, yn eistedd ger bron breninoedd—yn cymdeithasu â gwleidiadwyr penaf ei oes, fel eu cyfartal, ac yn cyd-drefnu rhyfeloedd a chynghreiriau cenedloedd cryfion. Y mae yn hysbys fod lluaws o ddynion, ar ol ymgodi, neu gael eu codi, o iselder mawr i ben pinacl dyrchafiad, yn anghofio eu hunain, yn pendroni, ac o ganlyniad yn cwympo o ran eu cymmeriad a'u hymdrech blaenorol i wneuthur daioni: ond nid felly Franklin. Yr oedd efe mor hunan-feddiannol ar ben bryn dyrchafiad ag ydoedd yn ngwaelod dyffryn darostyngiad. Yr oedd efe mor barod ac mor awyddus, yn uchder ei ddyrchafiad, i leshau ei wlad, a'r byd oll, yn wir, ac yn enwedig ei ddinas ei hun, ag ydoedd pan yn gweithio ei ffordd i fyny. Nid oedd yn angenrheidiol i gynlluniau daionus gael eu dechreu ganddo ef ei hun yn unig, er cael ei gefnogaeth a'i egni ef; ond yr oedd mor barod i hyrwyddo cynlluniau rhai ereill, os unwaith yr argyhoeddid ef eu bod o duedd i wneuthur lles cyffredinol. Ni chawn nodi ond un esampl o hyn allan o lawer. Tua'r flwyddyn 1752, yr oedd meddyg enwog a gwladgarol yn Philadelphia, a elwid Dr. Bond, yn ystyried fod

Digitized by Google

cyflwr tlodion y dref yn druenus pan ymwelid â hwy gan afiechyd; a daeth i'w feddwl i sefydlu clafdy ar gynllun eang yn y dref. Wedi bod yn ymdrechu yn hir ei hun, yn ofer, i roddi ei gynllun gwladgarol mewn gweithrediad, o'r diwedd aeth i ofyn cymhorth Dr. Franklin. Cyn gynted ag y gosodwyd yr amcan o'i flaen ef, ymaflodd yn y gorchwyl â'i holl egni—yn llawn mor egniol a phan yn sefydlu athrofa yn y dref, o'i gynlluniad ei hun. Appeliodd at y gydgynghorfa am gynnorthwy; a'r canlyniad fu, sefydlu clafdy ardderchog, sydd yn anrhydedd i Philadelphia hyd y dydd hwn.

Yn awr, rhoddwn olwg fer ar weithrediadau gwladol Franklin. Yr oedd trefedigaethau yr America y pryd hyn (1744), yn cael eu blino yn aruthrol ar amserau gan ymosodiadau yr Indiaid ar eu gororau; yn enwedig pan fyddai Prydain a Ffrainc mewn rhyfel â'u gilydd. Yr oedd pob trefedigaeth ar ei phen ei hun yn rhy wan i'w hamddiffyn ei hun, neu yn rhy anewyllysgar i wneyd hyny, gan y cai trefedigaethau ereill yr un budd heb gyfranu dim at y draul; ac felly, gadewid yr holl drefedigaethau yn ddiamddiffyn, tra yr oedd rhuthrgyrchau y gelynion yn dyfod yn fwy erchyll a niweidiol yn barhaus. Yn ngwyneb hyn, yr oedd rhyw gynllun o undeb rhwng y trefedigaethau yn dyfod yn fwy-fwy pwysig. Er mwyn dwyn hyn oddi amgylch, cyfarfu dirprwywyr o New Hampshire, Massachussets, Rhode Island, New Jersey, Pennsylvania, a Maryland, yn Albany. Dr. Franklin, wrth gwrs, oedd y dirprwywr dros Pennsylvania; a rhoddodd ef gynllun o flaen y gynghorfa, a alwyd "Cynllun Undeb Albany." Yn y cynllun hwn, cynnygid ar i appeliad gael ei wneyd at awdurdodau Prydain am ddeddf seneddol i sefydlu llywodraeth gyffredinol yn y trefedigaethau, i gael ei gweinyddu gan lywydd cyffredinol o appwyntiad coron Prydain, a chan gydgynghorfa, yn cynnwys aelodau wedi eu dewis gan ddirprwywyr y gwahanol drefedigaethau; eu rhif i fod yn gyfartal i'r symiau a delid gan bob trefedigaeth i'r drysorfa gyffredinol, gan drefnu ar yr un pryd na byddai i un drefedigaeth gael mwy na saith, na llai na dau o gynnrychiolwyr:—fod yr holl awdurdod weithredol i gael ei chyflwyno i'r llywydd cyffredinol:—fod y ddeddfwriaeth i fod yn nwylaw y gydgynghorfa a'r llywydd cyffredinol yn gyfartal; a bod cydsyniad y llywydd yn angenrheidiol er gwneyd unrhyw ysgrif yn gyfraith:—fod y llywydd a'r gydgynghorfa i gael awdurdod i gyhoeddi rhyfel a heddwch, ac i benderfynu cynghreiriau â'r cenedloedd Indiaidd; i drefnu masnach gyda hwy, ac i brynu tiroedd gweigion ganddynt, naill ai yn enw coron Prydain neu yr undeb; i sefydlu trefedigaethau newyddion; i wneyd cyfreithiau i lywodraethu y rhai hyny nes iddynt ymffurfio yn llywodraethau gwahanol; i ffurfio byddinoedd, adeiladu amddiffynfeydd, ac i drefnu llongau arfog, ac i ddefnyddio moddion ereill er mwyn yr amddiffyniad cyffredin. Ac i'r diben i wneyd hyn yn effeithiol, yr oedd y llywydd a'r gydgynghorfa i gael awdurdod i wneyd cyfreithiau, ac i osod y cyllidau a'r trethi a fyddent yn angenrheidiol er lles cyffredinol yr holl drefedigaethau:—fod yr holl gyfreithiau i gael eu hanfon i Brydain i gael cymmeradwyaeth y brenin; ac os nad anghymmeradwyid hwy yn ystod tair blynedd, yr oeddynt i aros mewn grym:—fod yr holl swyddogion milwrol ar y tir a'r môr i gael eu henwi gan y llywydd cyffredinol, ac i gael eu cymmeradwyo gan y gydgynghorfa gyffredinol; a bod swyddogion gwladol i gael eu henwi gan y gydgynghorfa, ac i'w cymmeradwyo gan y llywydd. Dyma dalfyriad o'r cynllun a gynnygiodd Dr. Franklin i'r gynghorfa yn Albany, 1754; a dyma ffynnonell a chnewyllyn llywodraeth Unol Daleithiau yr America y dydd heddyw. Ar ol dadleu ar y cynllun dros amryw ddyddiau, cytunwyd arno yn unfrydol gan yr holl ddirprwywyr oedd yn bresennol; ac anfonwyd copi o hono i bob cynghorfa, ac un i gynghor y brenin. Cyfarfu y cynllun godidog hwn â thynged ryfedd. Gwrthodwyd ef gan senedd Prydain, am ei fod yn rhoddi gormod o awdurdod i gynnrychiolwyr y bobl; a gwrthodwyd ef gan gynghorfa pob trefedigaeth yn America, am ei fod yn rhoddi mwy o awdurdod i'r llywydd—cynnrychiolwr y goron—nag a ymddangosai iddynt hwy yn briodol, mewn cynllun o lywodraeth a fwriedid i wŷr rhyddion. Fe allai, medd y Dr. Stuber—awdwr hanes bywyd Franklin—nas gellid cael gwell prawf o ragoroldeb y cynllun, os ystyrir sefyllfa America a Phrydain ar y pryd, na'r gwrthodiad dyblyg yma o hono.

Rhaid i ni frysio i ganol yr helynt a ddilynodd hyn, heb gymmeryd amser i ddyfalu mai y gwrthodiad hwnw o gynllun mor ardderchog a fu yn achos o'r holl gythrwfl blin a ddilynodd. Ar ol hyn, gosododd senedd Prydain amryw drethi trymion ar drefedigaethau yr America; cyfyngodd Prydain fasnach y trefedigaethau iddi ei hun; a gwnaeth lawer o bethau ereill, tra annymunol i deimladau y trefedigion, cystal ag afresymol i lywodraeth a fynai i'r byd gredu ei bod yn rhyddfrydig.

Yr oedd masnach y Ffrancod—tra yn meddiannu Canada—yn cyrhaedd yn bur bell, hyd yn oed i gyrau y sefydliadau Prydeinaidd. Heb law y niwed a wnelid i fasnach y pân (*fur*), yr hwn oedd yn bur eang, dioddefai y trefedigion anghyfleusderau parhaus oddi wrth ymosodiadau yr Indiaid ar eu gororau. Yn 1753, gormeswyd ar derfynau Virginia. Wedi hir gwyno, gyrwyd corff o filwyr allan dan arweiniad Mr. Washington—ymddygiad yr hwn y flwyddyn o'r blaen, er ei fod yn bur ieuanc, a ddangosai ei fod yn deilwng o'r fath ymddiried. Pan yn teithio i gymmeryd meddiant o sefyllfa gyssylltiol Alleghany a Monongahela, hysbyswyd ef fod y Ffrancod eisoes wedi codi amddiffynfa yno. Ymosodwyd arno gan gymmaint arall o wŷr ag oedd ganddo ef; er hyny, gallodd encilio yn drefnus i Fort Necessity; ac wedi cael telerau anrhydeddus, dychwelodd ef a'i wŷr i Virginia. Gwelodd Prydain yn awr fod yn rhaid iddi ymyryd: ac yn 1755, anfonwyd y Cadlywydd Braddock gyda byddinoedd, ac awdurdod i chwanegu atynt o'r trefedigion, i ddifeddiannu y Ffrancod o'r manau a gymmerasant. Pan oedd y gwŷr oll yn barod, nis gallent fyned i'r ymgyrch, o ddiffyg pedrolfeni i'w cludo. Neidiodd Franklin unwaith eto i'r adwy, a chafodd ef a'i fab gant a hanner o bedrolfeni yn ebrwydd—am y rhai yr ymrwymodd i dalu ei hun os dygwyddai iddynt niwed. Syrthiodd Braddock i gynllwyn; a lladdwyd ef ac amryw o'i wŷr yn yr amgylchiad. Yr oedd Washington yn ei ganlyn fel cadweinydd iddo, ac wedi ei rybuddio yn ofer o'i berygl; ac yn awr, enciliodd yn fedrus o'r perygl gyda'r gweddill o'r fyddin, nes ffurfio cyssylltiad â rhan ol byddin Dunbar—ar yr hwn yn awr y syrthiodd prif arweiniad y fyddin. Ond bu raid i Washington ddinystrio yr holl bedrolfeni, rhag iddynt syrthio

i ddwylaw y gelyn; ac oni buasai i'r llywydd Shirley ymrwymo i dalu am y pedrolfeni, am eu bod yn ngwasanaeth y llywodraeth, buasai dinystr disymmwth yn syrthio ar fywoliaeth Franklin o blegid ei wladgarwch.

Ymdaenodd dychryn trwy yr holl drefedigaethau ar ol cwymp Braddock; ac yr oeddynt yn ymarfogi yn mhob man. Yr oedd dylanwad y Crynwyr mor fawr yn Mhennsylvania, fel nas gellid pasio ysgrif yno i orfodi y trigolion i ymarfogi. Yn ngwyneb hyn, dygodd Franklin ysgrif i'r gynghorfa, yn cynnyg ffurfio cartreflu o wirfoddolion; a chan nad oedd y Crynwyr yn erbyn i ereill, a ewyllysient ymladd drostynt hwy, wneyd hyny, goddefasant i'r ysgrif basio; a chyn pen ychydig amser, yr oedd yn Philadelphia fyddin o 1,200 o wŷr—ar yr hon y gwnaed Franklin, unwaith eto, yn filwriad.

Gwnaeth y gelyn ymosodiad yn fuan ar y parth gogledd-orllewinol o'r dalaeth; a gorchymynodd y llywydd i Franklin fyned yno i amddiffyn y dalaeth. Ar ol iddo adeiladu amddiffynfa gadarn yno, gan lwyr somi y gelyn yn y parth hwnw, galwyd arno i ddychwelyd i Philadelphia yn ebrwydd, at orchwyl pwysig arall perthynol i'r llywodraeth.

Yr oedd amddiffyn y trefedigaethau yn gôst ddirfawr i Brydain; a'r unig ffordd effeithiol iddynt ei lleihau, oedd arfogi y trigolion, a'u dysgu i ddefnyddio arfau i'w hamddiffyn eu hunain. Ond nid oedd Prydain yn dewis i'r Americaniaid ddyfod i ddeall eu nerth eu hunain, rhag y deuai yr amser na byddent foddlawn iddi hi wneyd marchnad unllaw o honynt; am hyny, gwyliai y fam-wlad yn eiddigus bob ysgogiad yn y trefedigion i ffurfio cyrff o filwyr cartrefol; ac aeth mor bell yn y teimlad eiddigus yma, hyd yn oed pan oedd rhyfel yn anrheithio y tir, ag i ddadgorffori y byddinoedd cartrefol, ac i sefydlu byddinoedd rheolaidd yn eu lle.

Hefyd, yr oedd y dadleuon rhwng meddianwyr y tiroedd a'r bobl yn para yn eu llawn rwysg, er fod rhyfel yn anrheithio y gororau. Yr oedd y gynghorfa yn sicrhau fod cyfiawnder yn gofyn trethu etifeddiaethau tirol, er cael moddion i amddiffyn y wlad; ond ni roddai y llywodraethwyr tirfeddiannol eu cydsyniad—heb yr hyn nis gellid gwneuthur unrhyw ysgrif yn gyfraith. Wedi eu cythruddo gan gyndynrwydd y tirfeddiannwyr, a chan ofn ymosodiadau y gelyn, penderfynodd y gynghorfa appelio at y fam-wlad am waredigaeth. Ffurfiwyd deiseb at y brenin, yn ei lys, yn mynegi yr anghyfleusderau a'r peryglon yr oedd y trigolion yn agored iddynt, o blegid gofal y tirfeddianwyr am eu lles personol, gan esgeuluso lles cyffredin y trigolion, ac yn erfyn am waredigaeth. Appwyntiwyd Franklin i gyflwyno y ddeiseb i'r llys yn Mhrydain, fel cynnrychiolydd Pennsylvania; ac ymadawodd o'r America yn Mehefin, 1757. Ar ei laniad yn Lloegr, galwodd gynnadledd o'r tirfeddianwyr, y rhai oedd yn preswylio yn Mhrydain, gan erfyn arnynt yn daer i gydsynio â'r cais rhesymol a osodid ganddo o'u blaen, er lles ac amddiffyniad yr holl drefedigion; ond pan welodd na wrandawent ar unrhyw resymau, ac na dderbynient unrhyw delerau, gosododd y ddeiseb o flaen y llys. O'r diwedd, cydsyniodd y llywydd Denny i basio cyfraith i roddi treth ar y tiroedd, heb roddi dim ffafr i deulu Penn. Dychrynodd hyn, ac ymdrechiadau diflino Franklin, y tirfeddianwyr yn aruthr; a chodasant blaid gref yn erbyn i'r gyfraith gael ei rhoddi mewn grym; ond ni roddai Franklin ei amcan i fyny er neb na dim; canys yr oedd efe yn genad dros ei wlad; a gwyddai y perygl yr oedd ynddo; ac yr oedd yn ddigon galluog i'w ddangos yn ei wir liw i'r llys. Ar ol hir ddadl, gwnaed cynnygiad ar i Franklin ymrwymo yn ddifrifol, fel dyn o anrhydedd, na byddai i'r tirfeddianwyr gael eu trethu ond yn gyfartal i eiddo arall yn y drefedigaeth; yr hyn a dderbyniodd, ac a gyflawnodd i'r llythyren, er boddhad i bob plaid.

Wedi cyflawni y gorchwyl pwysig yma, arosodd Franklin yn llys Prydain, fel cynnrychiolydd talaeth Pennsylvania. Parodd i'r wybodaeth eang oedd ganddo o sefyllfa y trefedigaethau, a'r sylw gofalus a roddai bob amser i'w llesad, iddo gael ei appwyntio i'r un swydd gan drefedigaethau Massachussets, Maryland, a Georgia. Bu ei ymddygiad gonest, ymdrechgar, ac anrhydeddus yn y sefyllfa bwysig hon, yn foddion i'w wneyd yn anwylach fyth gan ei gydwladwyr. Cafodd yn awr hamdden i fwynhau y cyfeillion hyny a ennillasai ei rinweddau pan yr oedd efe yn mhell oddi wrthynt. Mwyhaodd y meddyliau uchel a goleddent o'r blaen am dano yn fawr, trwy adnabyddiaeth bersonol. Tua'r pryd hyn y cafodd urddau anrhydeddus y prif ysgolion a'r Gymdeithas Freninol, y soniwyd am danynt eisoes.

Yr oedd talaeth Canada y pryd hyn yn meddiant y Ffrancod, y rhai a ymsefydlodd yno gyntaf. Yr oedd ei sefyllfa yn dra manteisiol i fasnachu â'r Indiaid; ac yr oedd y fasnach hono yn hynod o ennillfawr. Yr oedd masnachwyr Ffrainc yn cael marchnad ardderchog yma i'w nwyddau, ac yn cael symiau mawrion o bân (*fur*) am danynt; yr hwn a werthent am brisiau uchel yn Ewrop. Tra yr oedd meddiant o'r wlad eang hon yn dra manteisiol i Ffrainc, yr oedd yn hynod o flinderus ac anghyfleus i drigolion y trefedigaethau Prydeinig. Yr oedd yr Indiaid bron yn gyffredinol yn coleddu cyfeillach â'r Ffrancod—gan y rhai y byddent yn cael cyflawnder o arfau a chadddarpariaethau. Pa bryd bynag y dygwyddai rhyfel, byddai yr Indiaid bob amser yn barod i syrthio ar y gororau; a gwnelent hyny yn fynych, hyd yn oed pan fyddai Prydain a Ffrainc mewn heddwch. O blegid hyn, yr oedd o bwys i Brydain gael meddiant o Canada; ond nid oedd Prydain hyd yn hyn yn deall y fantais yma yn drwyadl.

O gylch yr amser yma, cyhoeddodd Franklin ei draethawd ar Canada; yn yr hwn y gosyd allan mewn modd goleu a nerthol y fantais fawr a ddeilliai o orchfygu y dalaeth hono. Yn ganlynol i hyn, cynlluniwyd ymosodiad yn ei herbyn, dan arweiniad y Cadlywydd Wolfe. Y mae ei lwyddiant yn eithaf hysbys. Yn y cytundeb yn 1762, rhoddodd Ffrainc Canada i fyny i Brydain; a thrwy ymadael â Louisiana yr un pryd, collodd ei holl feddiannau yn nghyfandir America.

Er mor brysur oedd Franklin y pryd hyn gyda gwladyddiaeth, yr oedd yn medru sicrhau peth amser, yn nghanol y cyfan, at athroniaeth. Heb law ei fod yn parhau i berffeithio ei ddarganfyddiadau trydanol, efe a ddarganfu gynllun i rewi dwfr trwy ageriad ar yr amser poethaf yn yr haf. Gwnaeth ddarganfyddiadau lled bwysig hefyd, yn 1760, ynghylch tymmestloedd yn Ngogledd America; ac efe a berffeithiodd yr offeryn cerdd gwydr, a alwyd ganddo yn *Armonica.*

Yn haf 1762, dychwelodd i'r America. Fel yr oedd efe yn wastad â'i lygad yn ei ben am ryw ddarganfyddiad, sylwodd ar ei fordaith ar yr effaith nodedig a gai ysgydwad y llong ar olew a

Digitized by Google

fel hyn: "Buasai mor hawdd i ni rwystro i'r haul fachludo. Hyny nis gallem ei wneuthur. Ond gan iddo fachlud, ac y dichon na chwyd am hir amser eto, gadewch i ni gael mwynhau cystal nos ag y gallom. Aiff cynnildeb a diwydrwydd lawer o'r ffordd at ein digolledu." Pa fodd bynag, yr oedd y syniadau tawel hyn yn dra gwahanol i'r rhai a amlygid gan gorff mawr o'r trefedigion, y rhai a ddangosent duedd yn mhob man i wrthwynebu y trethiad hyd eithaf eu gallu. Yr oedd pobl y gwahanol drefydd a dinasoedd yn rhoddi llawn rwysg i'w dygasedd. Chwyfid baneri hanner cyn uched a hwylbreni; cerid yr *act* ei hun, wedi ei hanmharchu â phen marw yn lle pais arfau y brenin, o amgylch yr heolydd; ysbigid y gynau ar y murganllawiau; a chyflwynwyd yr holl bapyrau bathedig, oddi gerth bwrnel neu ddau, i'r fflamau. Ond yr oedd gweithrediadau heb law y rhai hyn yn cael eu cyflawni. Tra yr oedd y werin fel hyn yn rhoddi rhwysg i'w nwydau cyffröedig, yr oedd y llywodraethau lleol yn ffurfio cynlluniau effeithiol i wrthweithio canlyniadau yr *act*. Appwyntiwyd cenadau gan naw o gynghorau i fyned i gydgynghorfa yn New York, er mwyn dadleu ac amddiffyn eu hawliau. Ar ol eistedd am dair wythnos, cytunodd y gydgynghorfa ar bedwar ar ddeg o benderfyniadau, y rhai a basiwyd yn unfryd, yn dadgan hawl pob Prydeinwr i gael ei drethu yn unig trwy gydsyniad ei gynnrychiolydd ei hun. Yr oedd cynnrychiolwyr y trefedigaethau yn eistedd yn y cynghorfäau, ond nid oedd gan ddynt lais yn Nhŷ y Cyffredin; am hyny, nid oedd yn gyfreithlawn cymmhwyso unrhyw gyfraith i osod trethi a basid yn y Tŷ hwnw at y rhai nad oeddynt yn cael eu cynnrychioli yno. Gorfododd y trefedigion y llywodraeth o'r diwedd i wneyd sylw o'u cwynion, ac yna torodd llifeiriant o hyawdledd allan yn senedd Prydain, yn egluro egwyddorion y cyfansoddiad, cyfraith trethiad, a dyledswyddau a hawliau y trefedigaethau; yr hyn, pe gwrandewsid arno yn gynt, fe allai a ragflaenasai basio yr *act* o gwbl. Yn wyneb hyn, trodd Granville, prif amddiffynydd y *stamp act*, i edliw i'w wrthwynebwyr y difaterwch a ddangosasant pan oedd y ddadl o flaen y tŷ. "Pan gynnygiais i drethu America," eb efe, "gofynais i'r Tŷ a oedd yno ryw foneddwr a wrthwynebai yr hawl. Gofynais hyny fwy nag unwaith, ac ni feiddiodd neb ei wadu. Y mae amddiffyniad ac ufudd-dod yn bethau cyssylltiedig. Y mae Prydain Fawr yn amddiffyn America; gan hyny y mae America yn rhwym o ufuddhau." Yr oedd llawer o'r aelodau yn gwneyd yr edliwiad yma, canys yr oedd yr ysgrif wedi pasio heb ond i ddadl wan gymmeryd lle yn Nhŷ y Cyffredin arni, ac heb raniad yn Nhŷ yr Arglwyddi. Ond nid oedd dim pall yn awr ar y dyddordeb a ddangosid, pan y cymmerodd y trefedigaethau y pwnc i fyny eu hunain yn y modd mwyaf egnïol; a thraddododd llawer o wleidyddwyr penaf eu hoes eu hareithiau mwyaf hyawdl ar hawliau ac iawnderau y trefedigaethau. Y canlyniad fu, diddymu yr *act* yn mhen tua blwyddyn ar ol ei phasio, a chyn iddi erioed gael ei rhoddi mewn gweithrediad; canys, fel y dywedodd Franklin, yn mysg pethau ereill, ar ei arholiad o flaen Tŷ y Cyffredin, yr oedd y trefedigaethau yn benderfynol o amddiffyn eu hawliau i gael eu trethu yn unig gan eu cynnrychiolwyr eu hunain, ac na roddent yr hawl yma byth i fyny.

Yn y flwyddyn 1766, gwnaeth Franklin daith trwy Holland a'r Almaen, a chafodd y croesaw mwyaf gan ddysgedigion y ddwy wlad.

Pan oedd yn Holland, dysgodd, oddi wrth geidwaid y dyfroedd, yr effaith a gaffai lleihad y swm o ddwfr yn y camlesydd er afrwyddo mynediad cychod. Pan ddychwelodd i Loegr, gwnaeth amryw arbrofion, y rhai a dueddent i gadarnhau ei syniad. Anfonodd eglurhad ar ei brofion mewn llythyr i'w gyfaill, Syr John Pringle, fel y gwelir yn ei sylwadau athronyddol.

Yn y flwyddyn ganlynol, ymwelodd â Ffrainc, ac nid oedd ei groesaw yno yn llai nag yn yr Iseldiroedd a'r Almaen. Cafodd ei gyflwyno i'r brenin, Louis xv., a'r teulu breninol—gan y rhai y derbyniwyd ef yn garedig.

O gylch y pryd hyn, syrthiodd amryw lythyrau a ysgrifenasid gan Hutchinson, Oliver, ac ereill, at bersonau mewn sefyllfaoedd uchel yn Mhrydain Fawr, i ddwylaw y Dr. Franklin. Yr oedd y rhai hyn yn cynnwys yr enllib mwyaf sarhaus yn erbyn prif swyddogion talaeth Massachussets, ac yn annog yn eiddigus ar i fesurau grymus gael eu defnyddio i orfodi y bobl i ufuddhau i fesurau y llywodraeth. Trosglwyddodd Franklin y rhai hyn i'r ddeddfwriaeth, a chyhoeddwyd hwy. Anfonwyd copïau o honynt wedi eu hardystio i Brydain Fawr, ac anerchiad yn erfyn ar y brenin i ddiswyddo y personau oedd wedi gwneyd eu hunain mor atgas yn ngolwg y bobl, ac wedi dangos eu hunain mor wrthwynebus i'w llesad. Parodd cyhoeddiad y llythyrau hyn i Mr. Whately a Mr. Temple ymladd gornest, gan yr ammheuid pob un o honynt o fod yn offerynol i gael y llythyrau. Er mwyn gochel pob dadl chwanegol ar y pwnc, mynegodd y Dr. Franklin, yn un o'r papyrau cyhoeddus, mai efe a'u hanfonodd i'r America, ond na roddai unrhyw eglurhad ar y dull y cafodd hwy; ac y mae hyny yn aros byth yn ddirgelwch. Yn fuan ar ol hyn, dygwyd deiseb cynghorfa Massachussets ger bron y cyfringynghor i'w harchwilio; ac yr oedd Franklin yn bresennol fel dirprwywr y dalaeth. Tra yr oedd yr archwiliad yn myned yn mlaen, cymmerodd y cyfreithiwr cyffredinol, Wedderburn, y cyfleusdra i wneyd yr ymosodiad bryntaf a mwyaf sarhaus ar gymmeriad Franklin; yr hyn a gefnogid yn y modd mwyaf anfoneddigaidd gan yr hyfrydwch a'r gymmeradwyaeth a ddangosai arglwyddi y cynghor. Safodd Franklin yr holl amser i wrando, heb ddangos y radd leiaf o gythrudd meddwl; ond pan ddychwelodd adref, dywedir iddo daflu ymaith y dillad a wisgai yn y llys gyda dirmyg, gan ddywedyd nas gwisgai hwy byth eto nes y derbyniai ryw foddhad. Pa fodd bynag, dywedir iddo eu gwisgo drachefn pan yn llawnodi y cytundeb â Ffrainc fel Prifgenadwr America yn llys Paris. Pa foddhad a gafodd cyn hyny, nis gwyddys, os nad oedd gweled America yn rhydd oddi tan iau Prydain, ac yn llywodraeth annibynol, yn gwneyd y boddhad hwnw i fyny.

Gwrthododd llys Prydain ddeiseb y trefedigaethau, gan ddadgan ei fod yn warthus a chythruddol; ac er iddynt ddirymu y *Stamp Act*, ar yr egwyddor o angenrheidrwydd, ar y pryd, eto pasiasant *act* arall, yn hòni hawl y senedd i rwymo y trefedigaethau yn mhob amgylchiad ac yn mhob ystyr. Ac yn unol â'u syniadau, gosododd llywodraeth Brydain drethi ar wydr, ar bapyr, ar ledr, ar baent, ar de, &c., yn America. Hefyd, difreiniwyd rai o'r trefedigaethau; rhwystrwyd ereill i roddi eu mesurau deddfwrol mewn grym, gan swyddogion y brenin; dirmygid cwynion gostyngedig y trefedigion; a gwneid llawer o bethau ereill, megys o fwriad, i gynhyrfu a ffyrnigo yr Americaniaid at eu mam-wlad.

Digitized by Google

Er hyn oll, ac er y sarhad personol a fwriwyd ar Franklin yn llys Prydain, y cyfeiriwyd ato uchod, ac er iddynt ei ddiswyddo, yn mhen deuddydd ar ol y sarhad hwnw, o fod yn Benswyddog Llythyrfa y Trefedigaethau; eto, gwnaeth ef ei egni i gael gan y llywodraeth roddi heibio eu mesurau gorthrymus ac afresymol, ac i geisio cymmodi y ddwy blaid wrthwynebus. Gwnaeth hyny trwy ymddyddanion, a thrwy lythyrau at brif swyddogion y llywodraeth. Tynodd gynllun allan, yn cynnyg dileu yr actau gwrthwynebus ar unwaith, a chyfarfod rhai o ddymuniadau penaf y trefedigion; ond yr oedd holl swyddogion y llywodraeth ar y pryd fel pe buasent dan effaith rhyw ddylanwad cudd, oedd yn eu dallu; a gwrthodasant gynllun Franklin fel un rhy eang a honiadol. Yn y cyfamser, galwyd arno i ymweled amryw weithiau â'r Arglwydd Chatham, yr hwn a ddymunai ei holi am y cynllun a ffurfiasai, a'r hwn, trwy gydsyniad Franklin, a ddygodd o'r diwedd ger bron y senedd. Yr oedd hyd yn oed Franklin yn teimlo fod yr ymddygiad yma o eiddo Chatham yn anrhydedd mawr iddo; canys nid gorchwyl hawdd oedd cael ymddiddan wyneb yn wyneb â'r gwleidyddwr mawr hwnw; ac yr oedd Franklin wedi ymdrechu cael hyny o'r blaen, ond yn ofer. Ond yn awr, nid yn unig yr oedd wedi cael goddefiad i ymddyddan, ond ymwelid ac ymgynghorid âg ef gan un o'r gwleidyddwyr mwyaf a thrahausaf a welodd Prydain erioed. Wrth ysgrifenu at ei fab, dywed ei fod yn teimlo hyn yn anrhydedd mawr iddo. "Yr oedd y fath ymweliad, gan y fath ddyn, ar orchwyl mor bwysig," eb efe, "yn gryn weniaith i'm hunanoldeb; ac yr oedd yr anrhydedd yn rhoddi i mi fwy o hyfrydwch, gan iddo ddygwydd yn mhen y flwyddyn union i'r amser y cymmerwyd cymmaint o drafferth i'm sarhau ger bron y cyfringynghor."

Pa fodd bynag, wrth weled fod pob ymdrech, a phob ymddyddan yn gwbl aflwyddiannus i gymmodi Prydain â'i threfedigaethau, dychwelodd y Dr. Franklin i'r America, yn 1775, yn ebrwydd ar ol dechreuad y rhyfel rhwng y ddwy wlad. Tranoeth ar ol ei ddychweliad, etholwyd ef gan ddeddfwriaeth Pennsylvania yn genadwr i'r gynghorfa. Yn fuan ar ol hyny, etholwyd ef a dau ereill i fyned ar ymweliad i'r gwersyll yn Cambridge, i ymdrechu, mewn cyssylltiad â'r Pencadlywydd, Washington, i ddarbwyllo y milwyr, y rhai yr oedd amser eu gwasanaeth ar ben, ar yr angenrheidrwydd iddynt aros ar y maes i amddiffyn achos eu gwlad; a buont yn llwyddiannus.

Yn ngauaf yr un flwyddyn aeth i Canada, i ymdrechu cael ganddynt ymuno yn achos rhyddid cyffredin; ond methodd a llwyddo yno, o blegid ymrysonau crefyddol oedd rhwng y Canadiaid a'u cymmydogion, y rhai oedd wedi llosgi rhai o'u capelydd.

Yn 1776, appwyntiwyd Franklin a phedwar ereill yn bwyllgor i ffurfio dadganiad annibyniaeth y trefedigaethau Americanaidd; yr hyn a orphenwyd yn Ngorphenaf y flwyddyn hono. Yn Medi yr un flwyddyn, pan aeth yr Arglwydd Howe i'r America, âg awdurdod ganddo i gytuno â'r trefedigaethau, Franklin a ddewiswyd i gymmeryd y rhan benaf yn y gylafaredd; ond terfynwyd hyny yn fuan, gan y gwrthodai yr Americaniaid bob telerau yn awr, ond cwbl ryddid ac annibyniaeth y Taleithiau.

Pan welodd Franklin y byddai pob cynnyg, a phob meddyginiaeth arall, yn aneffeithiol bellach, rhoddodd ei holl alluoedd cryfion a bywiog ar waith i drefnu a diogelu achosion ei wlad yn ei ffurf newydd ac anturiaethus. Mewn cynghorfa a ymgynnullodd yn Philadelphia, y flwyddyn hono (1776), cynnygiwyd sefydlu ffurf newydd o lywodraeth i dalaeth Pennsylvania, ac etholwyd Dr. Franklin yn llywydd; a chanddo ef yr oedd y llaw benaf yn nghynllun llywodraeth y dalaeth hono.

Penderfynodd y gydgynghorfa yn awr geisio gwneyd cynghrair â Ffrainc, a dewiswyd Franklin, wrth gwrs, i ddwyn hyny oddi amgylch, mewn cyssylltiad â dau ereill, o'r enw Adams a Jay. Felly, wedi rhoddi yr holl arian a allai hebgor at wasanaeth y gynghorfa, efe a adawodd America unwaith eto, i fyned i Ewrop. Er fod Ffrainc yn gwybod y byddai cyfathrach fasnachol âg America yn dra manteisiol iddi hi; ac er ei bod hefyd, yn ddiau, yn hoffi gwanhau ymherodraeth Brydain, trwy wahanu y trefedigaethau oddi wrthi; eto yr oedd yn lled hwyrfrydig, ar y dechreu, i wneyd y cynghrair. Ond o'r diwedd, llwyddodd anerchiad Franklin, ac yn enwedig llwyddiant arfau yr America yn erbyn y cadfridog Burgoyne, i gael gan Ffrainc gydsynio: felly, yn Chwefror, 1778, cytunwyd ar gynghrair, ymosodol a diffynol—yr hyn a ddygodd Ffrainc i ryfel â Phrydain. Yn fuan ar ol hyn, galwyd y ddau ddirprwywr arall yn ol, ac etholwyd Franklin yn unig Brif Lysgenadwr yr Unol Daleithiau yn Llys Ffrainc; a bu yn y swydd hyd 1785.

Yr oedd yn anmhosibl i'r Taleithiau gael person cymmhwysach i'r fath swydd bwysig. Edrychid arno, yn ystod yr holl amser y bu yn llys Ffrainc, gyda pharch ac edmygedd, nid yn unig gan wŷr y llys, ond gan holl lenorion y wlad hefyd. Yn nghanol ei holl ofalon gwladol, yr oedd yn ddiflino hefyd yn achos gwybodaeth a chelfyddyd; a byddai yn fynych, ar ddymuniad athrawon a doctoriaid Paris, yn rhoddi ei bresennoldeb yn y brif athrofa—yr hyn a ystyrid gan y corff dysgedig hwnw yn anrhydedd mawr. Yr oedd ganddo hyfrydwch mawr, yn ystod yr holl amser y bu yn Ffrainc, yn casglu gwŷr o dalent ac athrylith y genedl o'i amgylch; ac yr oedd ei gartref yn Passy, un o faesdrefi gorllewinol Paris, yn fan cyfarfod cylch eang o gyfeillion llenorol a chelfyddydol. Mor fawr oedd ei glod, fel yr appelid ato gan bersonau o bob gradd a dosbarth am ei gynghor a'i gyfarwyddyd ar y pynciau mwyaf gwahanol ac amrywiol. Yr oedd pob dyfais, pob cynnyg, a phob darganfyddiad, yn cael eu cyflwyno iddo, fel pe buasai yn perchen gwybodaeth gyffredinol ac anffaeledig, ac y gallasai roddi penderfyniad digyfeiliorn ar y cynlluniau mwyaf amrywiol a gwahanol.

Yn fuan ar ol cwblhau y cynghrair â Ffrainc, trwyddo ef yn benaf y llwyddodd yr Unol Daleithiau i gael benthyg arian yn Holland a Ffrainc: yr hyn a fu yn llawer er hyrwyddo terfyniad y rhyfel. Bu aflwyddiant olynol arfau Prydain yn America, ac yn enwedig cymmeriad Cornwallis, yn effeithiol i argyhoeddi y genedl Seisonig fod yn anmhosibl darostwng yr Americaniaid. Yr oedd masnachwyr Prydain hefyd yn uchel eu llef am heddwch; fel y gorfu ar y weinyddiaeth, o'r diwedd, ffrwyno eu cyndynrwydd eu hunain. Felly ffurfiwyd erthyglau darbodol am heddwch; ac ar y 30ain o Fedi, 1782, llawnodwyd hwy yn Paris gan y Dr. Franklin, a'r dirprwywyr ereill, ar ran yr Unol Daleithiau, a chan Mr. Oswald ar ran Prydain Fawr. Dyma sylfaen y cytundeb terfynol, yr hwn a gwblhawyd ar y 3ydd o Fedi, 1783 - a lawnodwyd gan y Dr. Franklin, a'r lleill

Digitized by Google

o un tu, a chan Mr. David Hartly ar y tu arall.

Ar y 3ydd o Ebrill, 1783, gwnaed cytundeb o gyfeillgarwch a chydfasnach rhwng yr Unol Daleithiau a Sweden yn Paris, gan y Dr. Franklin a'r Count Von Krutz. Yn 1785, gwnaed cytundeb cyffelyb â Prwssia—ychydig amser cyn i Franklin fyned o Ewrop.

Yn awr, wedi iddo orphen prif amcanion ei lysgenadaeth, trwy sefydlu annibyniaeth America, a thra y teimlai fod amdrymder henaint yn ei oddiweddyd, cynnygiodd ei swydd i fyny; ond gwrthododd y gydgynghorfa ei derbyn y tro cyntaf, gan fod ei wasanaeth yn rhy werthfawr i fod hebddo. Ail gynnygiodd ei swydd i fyny yn mhen amser; a chan y cwynai nad oedd yn iach, derbyniwyd hi y waith hon; a dychwelodd yntau i'r America yn Medi, 1785: ond ni chaniateid iddo lwyr ymneillduo o wasanaeth cyhoeddus. Croesawyd ef adref gyda'r brwdfrydedd mwyaf, ac etholwyd ef yn ddioed yn aelod o brif Gynghor Gweinyddol Philadelphia; ac yn fuan wedi hyny etholwyd ef yn llywydd y dalaeth. Yn 1787, yr oedd efe yn dal lle yn y gynnadledd a benderfynodd Erthyglau y Cynghrair Undebol, a chymhellai roddi pleidlais gyffredinol i'r bobl. Yr oedd cynhyrfiadau America ar y pryd, a sefyllfa ddyryslyd y llywodraeth, yn rhoddi grym neillduol i syniad a fynegodd yr amser hwnw; sef, mai y perygl mwyaf a ddylid ei ofni a'i wylio, oedd diffyg ufudd-dod yn y deiliaid.

Wedi sefydlu cyfansoddiad y wlad, parhaodd yn ddiflino i chwanegu lles ei wlad a diwylliad y bobl. Yn 1785, sefydlwyd dwy gymdeithas yn Philadelphia, wedi eu seilio ar yr egwyddorion mwyaf rhydd, coethedig, a dyngarol; sef, Cymdeithas Philadelphia er esmwythau trueni y carcharau cyhoeddus; a Chymdeithas Pennsylvania er rhwyddhau diddymiad Caethiwed, a gwaredu y Negroaid rhyddion a ddelid yn anghyfreithlawn mewn Caethiwed, ac er gwellau sefyllfa yr hiliogaeth Affricanaidd. Dr. Franklin oedd llywydd y ddwy gymdeithas ddyngarol hyn. Yn 1788, cynnyddodd ei wendidau corfforol, fel y gorfodwyd ef i ymneillduo yn hollol oddi wrth orchwylion cyhoeddus y llywodraeth; er hyny, parhaodd i gefnogi pob achosion daionus, a phob sefydliadau dyngarol, hyd angeu. Canfyddir iddo ysgrifenu ei enw, fel llywydd y Gymdeithas er diddymu Caethfasnach wrth gofeb a gyflwynwyd i dŷ cynnrychiolwyr yr Unol Daleithiau, Chwef. 12fed, 1789, yn erfyn ar y tŷ arfer yr awdurdod a roddwyd iddo gan y cyfansoddiad i'w lawn eangder, er anghefnogi gwneuthur masnach o'r hil ddynol. Dyma, er ei glod diddarfod fel dyngarwr, oedd y weithred gyhoeddus ddiweddaf a gyflawnodd. Yn y ddadl a achoswyd gan y gofeb fythgofiadwy yma, gwnaed llawer o ymdrechiadau i gyflawnhau y fasnach. Mewn canlyniad, ymddangosodd traethawd bychan yn y *Federal Gazette*, am Mawrth 25ain, y flwyddyn hono, dan y ffugenw Historicus, a ysgrifenwyd gan Dr. Franklin, yn cynnwys araeth, medd efe, a draddodwyd yn senedd (Divan) Algiers, yn 1687, yn wrthwynebol i erfyniad deiseb y sect a elwid *Erika* (Puritaniaid), am ddiddymu morladrad a chaethfasnach. Gwawdiaeth ydyw y ffug araeth Affricanaidd yma ar araeth a draddodwyd gan Mr. Jackson o Georgia. Y mae yr holl resymau a ddefnyddir o blaid caethfasnach Negroaidd yn cael eu cymhwyso gyda'r un grym i gyfiawnhau lladrata a chaethiwo Ewropiaid. Y mae ar yr un pryd yn dangos gwagder y rhesymau a ddefnyddir o blaid caethfasnach, ynghyd â nerth meddwl a chraffder yr awdwr, hyd yn oed yn ei hen ddyddiau. Y mae yn enghraifft mor nodedig hefyd o allu yr awdwr i ddynwared arddull amseroedd a chenedloedd ereill ag ydyw dammeg enwog yr awdwr yn erbyn erledigaeth. Ac, megys y bu yr olaf yn achlysur i lawer chwilio yr Ysgrythyrau er mwyn ei gweled, felly bu y llall yn achos i amryw chwilio hen lyfrgellau, er mwyn canfod y gwaith y cymmerwyd hi allan o hono; tra yr oedd yr awdwr yn cael difyrwch nid ychydig wrth glywed am eu symleiddrwydd. Gan nad ydyw ei ddammeg yn erbyn erledigaeth ond ber, caiff hono ymddangos ar ol yr erthygl hon.

Tua diwedd y flwyddyn hon (1789), cynnyddodd gwendid ac afiechyd y Dr. Franklin yn gyflym; ac ar yr 17eg o Ebrill, 1790, bu farw yn esmwyth a thawel, gan derfynu bywyd hir a gwir ddefnyddiol, o bedair blwydd a phedwar ugain, a thri mis.

Bu farw er galar cyffredinol i bawb a'i hadwaenent, ac edmygid ef yn fawr hyd yn oed gan y rhai oedd yn groes eu golygiadau iddo. Gwisgodd Cydgynghorfa yr Unol Daleithiau alarwisg ar ei ol am fis o amser, a gwnaeth Cymmanfa Gyffredinol Ffrainc yr un modd, er nad am gyhyd o amser.

Ymddengys mai prif agweddau ei gymmeriad oedd egni a phenderfyniad amcan. Yr oedd yn ddyn tra llwyddiannus yn mhob ystyr; ond y mae ei holl lwyddiant i'w briodoli i'w ymdrechiadau ei hun, a gwêniadau Rhagluniaeth arno—yr hyn a gydnabyddai yn ostyngedig. Ymgyssegrodd i ddiwyllio ei feddwl a'i dalentau o'i ieuengctid; a phan y cyflawnodd hyny i raddau, cyfeiriodd ei egnion i fuddioli a gwellau ei gyd-ddynion. Yr oedd ei feddwl yn hynod o athronyddol ac ymarferol; ac oddigerth ei syniad am fywyd perffaith, ychydig o sylw a roddai i bynciau duwinyddol. Traddodai ei holl syniadau ar faterion gwladol a chymdeithasol, wedi eu cyfansoddi yn y modd mwyaf gofalus ac eglur, mewn ffurf o draethodau, neu trwy gyfrwng y newyddiaduron. Nid oedd o gwbl yn areithiwr; am hyny, ychydig a ymddiriedai i'w allu ymadroddol. Os byddai rhyw bwnc mawr i gael ei ddadleu, ysgrifenu arno a wnai efe; ac fel rheol, yr oedd ei ysgrifeniadau o'r fath nodwedd, fel y byddent yn cael sylw dyfal a dylanwad mawr ar y cyhoedd. Yr oedd ei feddwl braidd yn ddiffygiol o grebwyll (*imagination*), ac ychydig o ddyddordeb a gymmerai yn y celfyddydau coeth, megys barddoniaeth, a'r cyffelyb; ond am wyddoriaeth (*science*) a phob sefydliadau o natur ymarferol, yr oedd yn gefnogwr sefydlog a chadarn iddynt. Yr oedd yn ddyn hoff o waith caled, ac yn arfer gweithio yn galed. Beth bynag a gymmerai mewn llaw, rhoddai ei holl alluoedd ar waith i'w gyflawni; ac felly llwyddodd, lle y buasai rhai mwy diegni yn methu. Daeth yn gymmwynaswr i'w wlad ac i'w gyd-ddynion yn gyffredinol, ac ennillodd iddo ei hun enwogrwydd cymmeradwy a pharhaus; tra y treuliai miloedd o'i gydoeswyr, oedd wedi cael llawer mwy o fanteision nag ef, eu nerth am ddim, ac y gadawent eu talentau i rydu o ddiffyg eu defnyddio yn briodol.

Yr ydym yn credu fod yn anhawdd cael golwg eglurach ar gymmeriad cyffredinol Dr. Franklin, fel dyn, nag a geir yn ei lythyr cymmun; ond y mae yn rhy faith i'w ddyfynu yma. Ei gynnwys, yn fyr, yw—ei fod yn rhoddi yr holl arian a ennillodd, tra yn ngwasanaeth y llywodraeth

Digitized by Google

aeth, dros ben yr hyn a allasai ennill yn bersonol trwy ei fasnach at sefydliadau cyhoeddus, megys clafdai, ysgolion, colegau, ac i wneyd rhyw welliadau cenedlaethol: er esampl, rhoddodd fil o bunnau o'r arian hyny at wneyd yr afon Schuylkil yn fordwyol. Rhoddodd hefyd yr holl lyfrau a brynodd â'r arian hyny, tra yn ngwasanaeth y llywodraeth, i wahanol gymdeithasau a llyfrgellau cyhoeddus. Ei syniad ef oedd, na ddylasai neb gymmeryd mantais oddi wrth gyflogau mawrion am wasanaethu eu gwlad, i gyfoethogi eu teuluoedd eu hunain; am hyny, ni roddodd efe ddim i'w berthynasau, ond a allodd ennill trwy ei lafur personol, heb gymhorth swyddi gwladol ennillfawr.

Yn awr, rhoddwn ychydig esamplau o rai o gyfansoddiadau byrion mwyaf poblogaidd y Dr. Franklin. Yr esampl ganlynol a gymmerwyd o'r gwaith y cyfeiriwyd ato yn agos i ddechreu y bywgraffiad uchod, a elwir, *Y Ffordd i Gyfoeth, megys y dangosir hi yn amlwg mewn hen Almanac Pennsylvanaidd, a elwir "Rhisiat Druan."*

"DDARLLENYDD MWYN,—Clywais nad oes dim a rydd gymmaint o foddhad i awdwr a chanfod fod ei waith yn cael ei ddyfynu yn barchus gan ereill. Bernwch, gan hyny, mor fawr y rhaid fy mod i wedi fy moddhau trwy y dygwyddiad yr wyf am ei adrodd wrthych. Sefais yn ddiweddar gyda'm ceffyl, lle yr oedd mintai o bobl wedi ymgasglu, mewn arwerthfa ar eiddo masnachwr. Gan nad oedd awr yr arwerthiad wedi dyfod eto, yr oeddynt yn ymddyddan am galedi yr amseroedd; a galwodd un o'r cyfeillion ar hen ŵr glân a syml, â'i wallt yn wyn, 'Attolwg, f' ewythr Abram, beth a feddyliech chwi o'r amseroedd? Oni lwyr ddifethir y wlad gan y trethi trymion hyn? Pa fodd byth y byddwn alluog i'w talu? Beth a fyddai eich cynghor chwi i ni?' Safodd yr ewythr Abram ar ei draed, ac atebodd, 'Os ydych am gael fy nghynghor i, mi a'i rhoddaf i chwi yn fyr; 'canys y mae gair i gall yn ddigon,' fel y dywed *Rhisiat Druan*. Unasant i ddymuno arno adrodd ei feddwl; ac wedi iddynt ymgasglu o'i amgylch, efe a aeth yn mlaen fel hyn:—'Gyfeillion,' eb efe, 'mae yn wir fod y trethi yn bur drymion; a phe y trethi a osodir arnom gan y llywodraeth a fyddai yr unig rai i'w talu genym, byddai yn haws i ni eu dwyn; ond y mae genym ni lawer o rai ereill, sydd yn llawer trymach ar rai o honom. Trethir ni gymmaint ddwywaith gan ein diogi, cymmaint deirgwaith gan ein balchder, a chymmaint bedair gwaith gan ein ffolineb; ac nis gall y dirprwywyr ein gwared oddi wrth y trethi hyn, trwy ganiatau gostyngiad. Er hyny, gadewch i ni wrando ar gynghor da, a gellir gwneyd rhywbeth erddom: 'Y mae Duw yn helpu y rhai a helpant eu hunain,' fel y dywed *Rhisiat Druan!*'"

Dyna esampl o'r cyfansoddiad poblogaidd a nodwyd. Ni chaniata lle i ni roddi mwy o'r cyfansoddiad yn gyflawn fel yna, gan fod arnom eisieu dyfynu rhai o'i gyfansoddiadau ereill; am hyny, ni wnawn ond dethol diarebion *Rhisiat Druan* yn unig, allan o'r cyfansoddiad, heb ei enwi ef mwyach; ond dylai y darllenydd gofio mai Franklin, dan enw arall, oedd *Rhisiat Druan*, neu *Poor Richard*:—

Y mae diogi, fel rhwd, yn difa yn gyflymach nag y treulia llafur, tra y mae yr agoriad a ddefnyddir yn loyw bob amser.

A wyt ti yn caru bywyd? Yna, paid a gwastraffu amser; canys hwnw yw y defnydd sydd yn hwyhau bywyd.

Nid y llwynog cysglyd sydd yn dal adar; a bydd digon o gysgu yn y bedd.

Os amser ydyw y peth gwerthfawrocaf o bob dim, yna rhaid mai gwastraffu amser yw yr afradlonedd mwyaf; canys amser wedi ei golli nis ceir byth; ac y mae yr hyn a elwir genym ni yn ddigon o amser yn wastad yn ddigon bychan.

Y mae diogi yn gwneyd pob peth yn anhawdd; ond diwydrwydd a wna bob peth yn hawdd; a rhaid i'r hwn na chwyd o'i wely yn brydlawn yn y boreu duthio ar hyd y dydd; ac er hyny, rhy brin y dal ei orchwyl cyn y nos. O'r tu arall, y mae diogi yn teithio mor araf, fel y mae tlodi yn sicr o'i ddal yn fuan. Gyr di dy orchwyl, ac na âd i'th orchwyl dy yru di:

A chynnar i wely, a chynnar i godi,
Ddwg iechyd, doethineb, a chyfoeth gwir iti.

Ni raid i ddiwydrwydd obeithio; a'r hwn sydd yn byw ar obaith, a fydd farw dan ymprydio. Nid oes ennillion heb ofidion: yna helped dwylaw, gan nad oes genyf dir.

Mae yr hwn sydd yn meddu crefft yn meddu etifeddiaeth; a'r hwn sydd yn meddu galwedigaeth, yn meddu swydd o elw ac anrhydedd.

Edrych i mewn i dŷ y dyn gweithgar y mae newyn; ond ni feiddia fyned iddo.

Talu dyled y mae diwydrwydd, tra y mae anobaith yn eu mwyhau.

Diwydrwydd yw mam llwyddiant; a rhydd Rhagluniaeth bob peth i ddiwydrwydd.

Yna ardd yn ddwfn tra mae'r diog yn cysgu,
A thi a gei ŷd i'w gadw ac i'w werthu.

Y mae un heddyw yn werth dau yfory; gan hyny, na adewch hyd yfory yr hyn a ellwch ei wneuthur heddyw.

Defnyddiwch eich offerynau heb ddyrnfolau (*mittens*), gan gofio nad yw dynion sydd yn gwisgo menyg yn dal llygod.

Y mae diferynau parhaus yn treulio y ceryg; a thrwy ddiwydrwydd ac amynedd, cnodd y llygoden y rhaff angor, nes ei thori yn ddau ddarn; ac y mae dyrnodiau bychain yn cwympo y derw mawrion.

Defnyddia dy amser yn dda, os wyt am gael hamdden; a chan nad wyt sicr o funyd, na threulia awr yn ofer.

Y mae bywyd hamddenol a bywyd diog yn bethau gwahanol. Mynai llawer fyw ar eu callineb, heb lafur; ond methant o ddiffyg ystôr.

Ffowch rhag pleserau, a hwy a'ch dilynant chwi. Gan y wraig sydd yn nyddu y mae crys eang; ac os bydd genyf finnau ddafad a buwch, dywed pawb, 'Bore dawch,' wrthyf.

Ni welais i, o'u mudo a'u hysgog,
Bren erioed, na theulu serchog,
Yn llwyddo fel y rhai sefydlog.

Y mae tri symmudiad cyn waethed a phe b'ai y tŷ yn myned ar dân.

Cadw di dy fasnachdy, a'th fasnachdy a'th geidw dithau.

Os mynwch orphen eich gorchwyl, ewch; os na fynwch, danfonwch.

Yr hwn a fyno lwyddo wrth aru,
Rhaid iddo naill ai dal ai gyru.

Fe wna llygaid y meistr fwy o waith na'i ddwylaw.

Y mae diffyg gofal yn gwneyd mwy o golled i ni na diffyg gwybodaeth.

Peidio edrych ar ol eich gweithwyr yw gadael eich pwrs yn agored.

Nid trwy ffydd, ond trwy ddiffyg o honi, y gwaredir dynion yn eu perthynas â gorchwylion y byd hwn.

Os mynwch was ffyddlawn, ac un a hoffwch, byddwch was i chwi eich hun.

Gall ychydig esgeulusdod wneyd drwg mawr. O ddiffyg hoel collwyd y pedol, o ddiffyg pedol collwyd y march, ac o ddiffyg march collwyd y marchogwr.

Os na wyr dyn sut i gynnilo yr hyn a ennillo, gall gadw ei drwyn ar y maen llifo ar hyd ei oes, a marw yn y diwedd heb fod yn werth grôt.

Y mae cegin fras yn gwneyd llythyr cymmun teneu.

tywysogion Ewrop, a chyda'r Ymherawdwr Maximilian I., yr hwn, pan y symmudodd i Italy yn 1496, a roddodd iddo ef y rhaglawiaeth ymherodrol. Gyda golwg ar amgylchiadau yr ymherodraeth, yr oedd efe yn perthyn i'r blaid a arweinid gan yr Etholydd Berthold, o Mayence, i gymhell diwygiad yn y cyfansoddiad ymherodrol; ac yn 1500, pan ddaeth y ffurflywodraeth a geisid gan y blaid hon i weithrediad, gosododd yr ymherawdwr ef yn ben arni. Un o'i weithredoedd mwyaf pwysig oedd sefydlu prif-ysgol Wittenberg. Llefarai am hono fel ei ferch; ac nid arbedodd na gofal na chost er cael yr athrawon goreu iddi. Wrth alw Luther a Melancthon iddi, daeth yn ddiarwybod yn achosydd o ddiwygiad y brif-ysgol. Nid oedd efe yn meddwl dim am ddiwygiad yn yr eglwys. Er ei fod ef o blaid y celfyddydau caeth, er mwyn y brif-ysgol, eto ni chymmerodd efe ochr un o'r pleidiau gyda golwg ar hyny. Yr oedd efe o hyd yn Babydd cydwybodol; a phan yr oedd eisoes yn Etholydd, efe a aeth ar bererindod, yn 1493, i Balestina; yn Ierusalem, gwnaed ef yn Farchog y Bedd Sanctaidd; a chasglodd 5,000 o weddillion (*relics*) i'w eglwys gadeiriol yn Wittenberg. Bu yn dra awyddus hefyd yn ei ddyddiau boreuaf i gael rhodd anrhydeddus y pab—y Rhosyn Euraidd; a chafodd ef hefyd, ond yr oedd yn rhy ddiweddar i fod o un defnydd iddo. Dywedir iddo gael y syniad cyntaf am hynodrwydd Luther mewn breuddwyd [*D'Aubigné's Hist. Ref.*, i. 265]. Ar noson Gŵyl yr Holl Saint, 1517, pan yr oedd Luther newydd hoelio ei *Theses* (gosodiadau, neu bynciau) i fyny, fe ddywedir i'r Etholydd weled mynach, mewn breuddwyd, yn ysgrifenu rhyw *Theses* ar Gastell Wittenberg, â llythyrenau mor eglur fel y gellid eu darllen yn Schweinitz. Tyfodd ei bin ysgrifenu mor hir fel y cyrhaeddodd Rufain, ac yr ysgydwodd goron driphlyg y pab. Pan yr oedd Frederick ar estyn ei law i ymaflyd ynddo, efe a ddeffrodd. Ymosododd Luther yn egnïol yn erbyn cyfundrefn Eglwys Rhufain; a safodd Frederick yn bwyllog i edrych arno, ond heb ei wrthwynebu na'i gefnogi. Yn Llwyrwys Augsburg, 1518, a alwyd ynghyd gan Maximilian er mwyn sicrhau yr olyniaeth ymherodrol i'w ŵyr, Frederick, am y tro cyntaf, dymunodd ar y cenad Pabaidd, Cajetan, i gyfryngu ac ymddwyn yn garedig at Luther. Parodd i'r cais adnewyddol i anfon Luther i ateb i Rufain, neu o leiaf ei ddiswyddo o'i sefyllfa yn Wittenberg, i Frederick betruso am amser. Bu i'w ofal rhag colli athraw mor bwysig o'r brif ysgol, a hunanamddiffyniad eofn Luther, lwyddo gydag ef. Dywedodd nad oedd Luther hyd yn hyn wedi ei brofi yn heretic, a gwrthododd yn bendant ei ddiswyddo. Yr oedd ffafr yr Etholydd wedi dyfod yn awr o'r pwys mwyaf i Luther. Trwy farwolaeth Maximilian I., daeth yr Etholydd yn rhaglaw yr ymherodraeth. Tybiwyd y gallai ddyfod hyd yn oed yn ymherawdwr. Yn yr ymryson rhwng ŵyr Maximilian, a'r brenin Charles o Yspaen, a'r brenin Francis o Ffrainc, yr oedd yn ddigon posibl uno mwyafrif o blaid Etholydd Saxony. Buasai hyn o'r pwys mwyaf, nid yn unig i'r Diwygiad, ond hefyd i holl achos cenedlaethol yr Almaen mewn amser dyfodol. Ond nid oedd digon o uchelfrydedd yn Frederick i ymryson am yr anrhydedd ymherodrol. Yr oedd efe yn deall yn rhy dda fod bron yn anmhosibl cadw taleithiau galluog yr ymherodraeth mewn ufudd-dod. Wedi ymgynghori â'r duc Philip, o Solms—ei brif weinidog—ofnai hwnw nad oedd ei feistr yn alluog i arfer yr awdurdod gyntefig yn ddigon effeithiol. Gan fod Frederick hefyd o'r un farn, efe a orchymynodd i'w weinidog gyhoeddi hyny yn hysbys.

Heb law hyny, yr oedd Frederick yn gyffredin yn bur ddoeth, ac yr oedd yn awr yn agos i drigain mlwydd oed; ac nid oedd yn dewis cymmeryd y fath faich arno ei hun yn niwedd ei oes. Yn lle caniatau i'w etholiad ei hun gymmeryd lle, efe a roddodd ei bleidlais o blaid y brenin Charles o Yspaen. Gyda hyn hefyd y darfu y rhaglawiaeth. Mae yn wir fod yr ymherawdwr wedi ei appwyntio ef yn rhaglaw y llywodraeth ymherodrol—yr hyn, yn ol dymuniad y blaid oedd am ddiwygiad gwladol, oedd i fod yn absennoldeb yr ymherawdwr: ond ni sefydlodd dirprwywyr ymherodrol y llywodraeth yma; ac am hyny, ni chyflwynasant y weithred oedd yn awdurdodi Frederick III. i fod yn rhaglaw. Fodd bynag, yr oedd, fel Etho'ydd, yn parhau i noddi Luther. Pan ddygodd Eck sêl-warant (*bull*) y pab gydag ef o Rufain yn Hydref, 1519 ac yr ymdrechodd ei roi mewn grym yn Saxony yn erbyn Luther, nacaodd Frederick yn bendant ei gynnorthwyo yn hyny; a dywedodd lawer gwaith y dylai Luther gael ei brofi mewn rhyw le diogel, ac o flaen barnwyr duwiol a dysgedig. Caniataodd hefyd i Luther losgi sêl-warant y pab yn ddifrifol a chyhoeddus yn ddigosp. Ond y weithred fwyaf pwysig a wnaeth ar ran Luther oedd, ei gymmeryd i fyny ar ei ffordd o Gymmanfa Worms, a'i ddwyn yn ddiogel i'r Wartburg [*D'Aubigné's Hist. Ref.*, ii. 276]. Gan nad oedd yn ddigon gwrol i wrthwynebu ac anufuddhau i'r penderfyniad yn gyhoeddus, gorchymynodd yn ddirgel i lywodraethwr y castell a marchog arall i amddiffyn Luther fel hyn rhag erledigaeth. Wedi i gythrwfl dori allan fel hyn yn gyhoeddus yn Wittenberg, anfonodd Luther at yr Etholydd ei fod yn bwriadu dychwelyd yn gyhoeddus. Erfyniodd yr Etholydd arno beidio dyfod, gan nas gallai efe ei amddiffyn. Atebodd Luther:—"Mi a ddeuaf dan nawdd llawer uwch; ac nid wyf yn bwriadu ceisio nawdd o un math gan eich Anrhydedd; ïe, y mae yn fy mwriad i fod yn fwy o nawdd i'ch Anrhydedd Etholyddol nag y gallwch chwi fod i mi."

Yr oedd y symmudiad yn Wittenberg wedi cyrhaedd nôd eisoes ag yr oedd tuedd ofalus a gochelgar yr Etholydd, a'i hwyrfrydigrwydd i ddefnyddio moddion effeithiol, wedi methu ei gyrhaedd. Yr oedd ei nawdd i Luther yn codi ar y dechreu, medd Ranke, oddi ar amcanion gwleidyddol: wedi hyny, daeth i'w ystyried yn ddyledswydd a ofynai cyfiawnder; ond uwch law y cwbl, yr oedd yn teimlo parch diffuant i'r Ysgrythyrau Sanctaidd—at y rhai y bu Luther yn achos iddo gynnyddu mor ardderchog. Yr oedd yn canfod y gellid gwrthddywedyd pob peth arall, pa mor gywrain bynag yr ymddangosai. Gair Duw yn unig oedd yn sanctaidd, yn fawreddog, ac yn wirionedd pur. Llanwodd y syniad goruchel yma ei feddwl âg ofn parchus. Hyn hefyd a'i rhwystrodd i gyfranogi yn weithredol yn achos Luther, cystal ag i beidio penderfynu dim yn erbyn trefniadau newyddion Wittenberg. Pa mor annerbyniol bynag oedd y pethau hyny iddo, ni feiddiodd eu condemnio.

Effeithiodd creulonderau y rhyfel werinol arno ef yn y modd llymaf; ond ni bu efe byw i weled ei diwedd. Bu farw ar y 5ed o Fai, yn y flwyddyn 1525, ar ol derbyn y cymmun yn y ddwy elfen

Digitized by Google

ychydig oriau cyn hyny, gan gyffesu ei hun yn ddysgybl o'r grefydd Brotestanaidd.

FULLER, ANDREW. Nid oes odid un ysgrifenydd duwinyddol wedi cynnyrchu mwy o son am dano yn Nghymru nag Andrew Fuller; ac eto nid oes ond ychydig o'r rhai a wnant ddefnydd mynych o'i enw yn gwybod, trwy ymchwiliad personol, pa rai oedd ei olygiadau duwinyddol, ac yn synied yn gywir am ei gymmeriad. Nid oes neb wedi cael mwy o gam nag y mae y gŵr enwog hwn wedi ei dderbyn oddi ar ddwylaw Calviniaid Cymreig. Tadogwyd iddo yn fynych olygiadau na ddarfu iddo erioed eu harddel; ïe, yn wir, olygiadau ag y bu efe yn cymmeryd cryn drafferth i'w gwrthwynebu. Trwy hyny fe gynnyrchwyd rhagfarn cul i'w erbyn, a thybiaeth pur gyffredin yn mysg yr anllythyrenog mai dyn gwael a brwnt ydoedd.

Ganwyd ef Chwefror 6ed, 1754, yn Wickenberg Ely, yn swydd Caergrawnt. Yr oedd i'w rieni, Robert a Philippa Fuller, dri o blant—yr ieuengaf o ba rai ydoedd Andrew. Amaethwyr bychain oeddynt; a chyda y gorchwyl hwnw hefyd y treuliodd Andrew Fuller yr ugain mlynedd cyntaf o'i oes. Ni chafodd unrhyw fanteision addysg erioed, ond cymmaint ag oedd i'w gael mewn ysgol rydd a chyffredin yn Soham. Ni bu erioed yn euog o annuwioldeb rhyfygus a chyhoeddus. Teimlodd argraffiadau crefyddol pan yn bur ieuanc. Darostyngwyd ef i drallod dwys am ei gyflwr ger bron Duw yn fynych; ac yn y trallod hwnw awgrymai rhyw ymadroddion ysgrythyrol cysurlawn i'w feddwl, nes y gorlenwid ef â llawenydd. Yr oedd y trallod hwnw ynghyd â'i symmudiad gan adnod o'r Beibl, mor debyg i'r dysgrifiad a roddid gan ei gyfeillion crefyddol o argyhoeddiad, nes y tybiodd droion ei fod wedi profi gwir gyfnewidiad. Ond diflanai ei deimladau crefyddol yn bur fuan, ac ymollyngai yntau i'r un ysgafnder ac oferedd ag o'r blaen. Ond pan o ddeutu un ar bymtheg oed, profodd drallod a gorfoledd anghymharol ddyfnach na'i holl brofiadau blaenorol, newidiwyd holl dueddiadau ei galon, a rhoddwyd cyfeiriad newydd i'w holl fywyd. Hyd ddiwedd ei oes, edrychai ar y cyfwng hwn yn ei hanes fel adeg ei ddychweliad at Dduw. Ymunodd âg eglwys y Bedyddwyr yn Soham yn fuan ar ol hyny, a chafodd ei fedyddio. Yn mhen ychydig o fisoedd wedi ei ymuniad â'r eglwys, dygwyddodd amgylchiad yr hwn a roddodd yr ysgogiad cyntaf i'w feddwl at bynciau duwinyddol. Syrthiodd un o'r aelodau i feddwdod, a diarddelwyd ef am hyny gan y gweinidog. Achlysurodd hyny ddadl dduwinyddol yn yr eglwys ar allu pechaduriaid i wneuthur ewyllys Duw, ac i ymgadw rhag pechu. Dadleuai y rhan amlaf o'r aelodau dros lygredigaeth hollol y natur ddynol, ynghyd â'r fath ymddibyniad llwyr ar ras attaliol a chynnorthwyol Duw, ag oedd yn anocheladwy, yn ol pob ymresymiad teg, yn dinystrio cyfrifoldeb dyn am ei bechod. Y mae yn wir nad oeddynt hwy yn cydnabod hyn, ond yn dadleu yn wahanol. Ond gan eu bod yn gwrthwynebu dysgyblaeth eglwysig am feddwdod, o herwydd eu syniadau am lygredigaeth dyn a gras Duw, y mae yn rhaid mai dyma ydoedd tueddiad naturiol eu golygiadau. Ar y llaw arall, ceisiai y gweinidog, Mr. Eve, wahaniaethu rhwng yr hyn a alwai efe yn allu mewnol a gallu allanol. Cydnabyddai nad oedd gan ddyn llygredig ddim gallu i gyflawnu yr hyn sydd ysbrydol dda; ond honai fod ganddo allu i roddi ufudd-dod allanol i orchymynion Duw, yn nghyd âg i ymgadw oddi wrth bechodau rhyfygus. Aeth y fath deimladau anghysurus rhwng Mr. Ewe a'i eglwys nes y gorfu iddo yn fuan ymadael. Coleddai Andrew Fuller barchedigaeth mawr tuag at y gweinidog; ond cydnabyddai gyda chryn gywilydd, flynyddoedd ar ol hyny, ei fod yn cydsynio y pryd hwnw â'r dosbarth amlaf o'r eglwys yn eu golygiadau Antinomaidd. Yn fuan ar ol hyn, tarawyd ef gan sylw o eiddo Dr. Gill [*Cause of God and Truth*], yn yr hwn y gwahaniaethai rhwng "yr hyn sydd yn ngallu ein llaw a'r hyn sydd yn ngallu ein calon." Ond ni chyrhaeddodd olygiadau sefydlog ar y pwnc hyd nes yn mhen talm o amser y darllenodd *Edwards ar yr Ewyllys*, yn ol cyfarwyddyd y Parch. Robert Hall o Arnsby. Eglurai Edwards yn foddhaol y gwahaniaeth rhwng y gallu naturiol a gallu moesol; dangosai hefyd mai sylfaen rhwymedigaeth dyn ydoedd ei allu naturiol neu gynneddfol, tra mai ei bechod ydoedd ei anallu moesol, neu ei annhueddfryd. Ymorphwysodd yn ngolygiadau Edwards o hyny allan, a dadleuodd drostynt hyd ddiwedd ei oes.

Wedi ymadawiad Mr. Eve, bu yr eglwys am flyneddoedd heb weinidog. Treulid y Sabbath mewn cyfarfodydd gweddi. Yn y cyfarfodydd gweddi hyn byddai un o'r diaconiaid yn egluro rhyw ran o'r Ysgrythyr, ac yn gwneyd rhai sylwadau ymarferol. Bu Andrew Fuller yn myned trwy y gwasanaeth hwnw ar ddau achlysur: y tro cyntaf yn dra llwyddiannus, ond yr ail waith yn bur anffodus. Yn ngwanwyn 1774, bu gwraig oedranus berthynol i'r eglwys hono farw, ac amlygodd ddymuniad cyn marw ar i Andrew Fuller draddodi pregeth angladdol ar achlysur ei chladdedigaeth; yr hyn a wnaeth. O hyny allan byddai yn arfer esgyn i'r pulpud a phregethu. Yn y flwyddyn 1775, cafodd ei ordeinio yn weinidog i'r eglwys yn Soham. Nid oedd ei olygiadau duwinyddol am y blyneddoedd cyntaf o'i weinidogaeth, fel y gallesid dysgwyl, ond cymmysglyd, anaeddfed, a gor-Galvinaidd. Fel hyn y dywed ef ei hun—"Y prif ysgrifeniadau yr ymgydnabyddais â hwynt gyntaf, oeddynt eiddo Bunyan, Gill, a Brine. Darllenais lawer ar *Gorph Duwinyddiaeth Gill*, a chefais addysg helaeth oddi wrth lawer rhan o hono. Ond canfyddais fod rhyw wahaniaeth rhwng cyfundrefn Bunyan a'r eiddo ef; o blegid er ei fod, megys Gill, yn dal etholedigaeth ac arfaeth, yr ydoedd hefyd dros roddi cynnygiad o'r efengyl yn rhad i bawb yn ddiwahaniaeth. Nid oeddwn yn medru cyssoni y pethau hyny y pryd hwnw; ac am hyny tybiais nad ydoedd Bunyan, er ei fod yn ddyn mawr a da, mor glir yn ei olygiadau am athrawiaethau yr efengyl a'i gynoeswyr. Cefais hefyd yr un pethau yn mhob un o hen ysgrifenwyr yr unfed a'r eilfed ganrif ar bymtheg. Yr oeddynt oll, fel Bunyan, yn gwahodd pechaduriaid o bob gradd at Grist er cael eu hachub ganddo: cyssondeb yn hyn âg etholedigaeth bersonol nid oeddwn yn abl ei ddeall. Y mae yn wir fy mod yn canfod y Beibl yn gyflawn o gymhelliadau a gwahoddiadau ar bechaduriaid; ond yr oeddwn yn tybied fod dau fath o sancteiddrwydd—un a feddiennid gan ddyn yn ei sefyllfa o ddiniweidrwydd, yr hwn ydoedd yn rhwymedig ar ei holl had; a'r llall a dderbynid oddi wrth Grist, yr hwn ydoedd yn rhwymedig yn unig ar ei bobl. Nid oeddwn eto wedi dysgu fod yr un pethau ag a ofynir gan y ddeddf yn cael eu cyfranu gan ras yr efengyl. Y cymhelliadau hyny i edifeirwch a ffydd a roddir

Digitized by Google

yn y Testament Newydd i rai diailanedig a dybiwn ni yn cyfeirio at ryw edifeirwch a ffydd allanol ag oedd o fewn gallu dyn, ac y gellid cydsynio â hwy heb ras Duw. Effaith y golygiadau hyn arnaf ydoedd, nad oedd ond ychydig genyf i'w ddweyd wrth yr annychweledig mewn ffordd o'u cymhell at bethau ysbrydol dda, a phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth."

Ond trwy astudio pamphled Dr. Abraham Taylor [*The Modern Question*], pregeth J. Martin, ar yr "Achosion a'r canlyniadau o beidio ymostwng i gyfiawnder Duw," ynghyd hefyd â gweithiau Bellamy, Brainerd, ac yn benaf, Edwards, cafodd ymwared oddi wrth yr hyn a eilw efe yn gau-Galviniaeth, a'i sefydlu yn y wir a'r hen Galviniaeth. Arweiniodd ei efrydiaeth o'r pynciau rhag-grybwylledig i gyhoeddiad yn mhen blynyddoedd o lyfr pwysig a galluog ar yr "Efengyl yn haeddu pob Derbyniad, neu rwymedigaethau Dynion i gredu pa beth bynag a ddadguddiodd Duw."

Ond i ddychwelyd. Er fod syniadau duwinyddol Andrew ieuanc yn nechreuad ei weinidogaeth yn gymmysglyd ac anaeddfed iawn, fel pob dyn ieuanc arall, yr oedd ei dduwiolfrydedd a'i gydwybodolrwydd yn ddwfn a chryf iawn. Gwelir hyny oddi wrth y dyfyniadau canlynol o'i ddyddlyfr; y rhai a ddyfynwn o herwydd eu rhagoriaeth, yn gystal ag er mantais i'r darllenydd ffurfio syniad cywir am gymmeriad Fuller.

Ionawr 10fed, 1780. Adduned ddifrifol, neu adnewyddiad cyfammod â Duw:—

"O fy Nuw! (na ddigied yr Arglwydd wrthyf am ddywedyd felly)—yr ydwyf, ti a'i gwyddost, wedi bod yn ymchwilio am dy wirionedd. Yr ydwyf wedi deisyf yn ddifrifol am i ti fy nghyfarwyddo ato, fy ngwreiddio, sefydlu, ac adeiladu ynddo, megys y mae yn yr Iesu. Yr ydwyf wedi canfod gwirionedd yr ymadrodd sydd yn dywedyd, 'Da yw bod y galon wedi ei chryfhau â gras;' am hyny yr ydwyf heddyw yn adnewyddu fy ngweddi tuag atat, ac yn dymuno ymgyfammodi mewn difrif a thydi.

O Arglwydd Dduw! Yr ydwyf yn cael fy hun mewn byd ag y mae miloedd yn proffesu dy enw:—rhai yn pregethu, ereill yn ysgrifenu, ac ereill yn siarad am grefydd. Y maent oll yn proffesu ymchwilio am y gwirionedd, a bod ganddynt Grist ac ysgrifenwyr ysbrydoledig o'u plaid. Y mae arnaf ofn rhag i mi gael fy nhroi oddi wrth symledd yr efengyl. Yr ydwyf yn teimlo fy neall yn llawn o dywyllwch, fy ewyllys yn barod i gyfeiliorni, a'm tymmerau yn barod i weithredu. O! goleua fy neall, dysg uniondeb i'm hewyllys, a bydded i bob gallu a feddaf gael ei gadw o fewn terfynau dy wasanaeth di.

Na fydded i mi gael fy nghamarwain gan gyfrwysdra y drygionus, na chan dduwioldeb y rhinweddol—y rhai, er eu duwioldeb, sydd yn agored i gamgymmeriadau. Na chaniata chwaith i mi gael fy nghamarwain gan fy nychymyg fy hun. Ti a roddaist i mi benderfyniad, Arglwydd, i beidio derbyn unrhyw wirionedd ar ail law, ond i chwilio am y cwbl yn ffynnonell bur dy air di. Ond gan fy mod megys ereill yn agored i gyfeiliorni, y mae arnaf ofn, Arglwydd, rhag i mi gael fy nhynu oddi wrth y gwirionedd gan fy nychymyg. Oni addewaist 'hyfforddi y rhai llariaidd mewn barn, a dysgu dy ffordd i'r rhai gostyngedig?' 'Ti a wyddost nad ydyw fy nghalon yn awr yn ymfalchïo, na'm llygaid yn awr yn ymddyrchafu.' 'O! tywys fi a'th gynghor; ac yna cymmer fi i ogoniant.'

Gorphenaf 1af. Fy enaid a ddarostyngwyd heddyw wrth feddwl am bla fy nghalon. Cefais amser dedwydd mewn gweddi heno. Trwy ddrych fy llygredigaeth, yr ydwyf yn gweled—O! yr wyf yn canfod gwerthfawredd y gwaed a lifodd ar Galfaria. O! na byddai i'r meddyliau a gefais heno gael eu hysgrifenu yn arosol ar fy nghalon. Ond och! yr wyf yn ofni y bydd i un awr o bechu eu dileu oll.

4ydd. Mor ryfeddol! Y pethau hyny nas gallwn feddwl am danynt ddeuddydd neu dri yn ol, heb ffrydlif o ddagrau, yn awr ni wnânt ond ychydig argraff ar fy meddwl; yr hwn sydd yn lluddedig, marwaidd, a braidd yn ammheus. Pa bryd y bydd fy nghariad yn un fflam dragwyddol? Yr ydwyf yn ofni fod rhyw brofedigaeth yn ymyl. Cadwed yr Arglwydd fi!

10fed. Cyffrowyd fi heno gan wahanol deimladau wrth fyned ar hyd ffordd, yn yr hon y cefais, amryw flynyddoedd yn ol, lawer o orfoledd a thrallod. Yma gwelais fy hun yn golledig, acw y cefais olwg ar Geidwad; yma y darostyngwyd fi gan ofn ac anobaith, acw y lleddfwyd hyny gan olwg ar ffyddlondeb Duw; yma y galerais uwch ben fy sefyllfa fy hun, acw uwch ben sefyllfa yr eglwys; ychydig yn y blaen, cefais gymhorth i obeithio am yr eglwys wrth feddwl am *Salm* cxxii. 1, 2, 8, 9. O! y fath amgylchiadau rhyfedd er hyny! Trwy gymhorth Duw yr ydwyf yn aros hyd heddyw: 'Pan ddarostyngir fy enaid ynof, bydded i mi dy gofio o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid o fryn Misar.'

12fed. Nid yn unig y mae pellder annhraethadwy rhwng yr hyn ydwyf a'r hyn a ddylwn fod, ond rhyngwyf fi a'r Cristionogion cyntaf—ïe, saint y Beibl drwy yr oesoedd. Yr ydwyf wedi bod yn meddwl yn ddiweddar nas gallaf edrych arnaf fy hun mewn gweddi fel Cristion, ond fel pechadur yn ymdreiglo at draed Crist am drugaredd."

Yn 1776, priododd Mr. Fuller Sarah Gardiner, aelod o'r eglwys yn Soham; a chafodd lawer o achos i lawenhau mewn diolchgarwch am ei ddewisiad o gydmar bywyd. Derbyniai oddi wrth ei eglwys yn gydnabyddiaeth am ei weinidogaeth y swm aruthrol o dair punt ar ddeg y flwyddyn! I wneyd y diffyg i fyny, dechreuodd gadw siop; wedi hyny, i gadw ysgol; ond trodd y ddwy anturiaeth allan yn aflwyddiannus. Effeithiodd ei aflwyddiant amgylchiadol ar ei feddwl, nes y darostyngwyd ef i waeledd iechyd—oddi wrth yr hyn y cafwyd cryn drafferth i'w waredu. Clywodd yr eglwys yn Kettering am ei brofedigaethau, a rhoddodd wahoddiad cynhes iddo i ddyfod yn weinidog arni. Bu yn hir iawn cyn gallu penderfynu cydsynio. Ni wnaeth y gwahoddiad am y tymmor anmhenderfynol hwnw ond chwanegu at ei brofedigaethau. Dirdynwyd ef gan betrusder ac ofnau o bob math. Ymgynghorodd â'i frodyr yn y weinidogaeth, ymgynnulledig mewn cymmanfa. Cynghorent hwy ef i dderbyn y gwahoddiad. Appeliodd wedi hyny at dri o *arbitrators* penodedig rhyngddo ef a'r eglwys—gwnaeth y rhai hyny yr un modd. Wedi hyny, ymgynghorodd â Mr. Robinson, Cambridge; a chynghorodd hwnw ef i ymadael yn mhen blwyddyn. Ac o'r diwedd, cynnygiodd aros yn Soham, os gallai yr eglwys yno ddyweyd mai eu barn gydwybodol ydoedd, mai ei ddyledswydd ydoedd aros yn eu plith. Dywedai Dr. Ryland am dano:—"Byddai i'r rhai nid ofnant Dduw beryglu llwyddiant teyrnas gyda llai o bryder a hunanymholiad nag a gostiodd iddo ef i benderfynu ymadael âg eglwys fechan dlawd, yr hon na rifai uwch law deugain o aelodau."

Yn Hydref, 1782, sefydlwyd Mr. Fuller yn yr eglwys yn Kettering. Trwy ei sefydliad yno, daeth i gyssylltiadau newyddion a lluosocach, ac eangwyd llawer ar faes ei lafur. Daeth yn aelod pwysig a dylanwadol o gymmanfa sir Northampton. Profodd ef a gweinidogion ereill y gymmanfa hono ddylanwad grymus a daionus iawn oddi wrth ddarlleniad llyfr President Edwards, a

Digitized by Google

Nid ydym ni yn gallu canfod dim yn ysgrifeniadau Fuller ei hun yn debyg i'r hyn a elwir yn *Fulleriaeth* yn Nghymru. Y mae efe yn dadleu dros neillduolrwydd yr iawn; ond ei fod yn credu mai yn y bwriad a'r cymhwysiad o hono—ac nid yn hanfod yr iawn—yr ydoedd y neillduolrwydd hwnw. Yr ydoedd yr iawn o angenrheidrwydd yn anfeidrol, gan mai "Efe yw yr iawn." Fel y gallesid dysgwyl, yr oedd yn ymwrthod âg iawn masnachol, ac iawn cydbwys, ac â'r tebygolrwydd rhwng rhoddi iawn a thalu dyled. I gyfiawnder moesol, ac nid i gyfiawnder masnachol, y rhoddwyd iawn, yn ol Fuller. Gan fod yr iawn yn anfeidrol, yr ydoedd yn ddigonol dros bechodau yr holl fyd; ond nid ydoedd wedi ei fwriadu, ac ni byddai iddo gael ei gymhwyso ond at yr etholedigion. Yr ydoedd Fuller hefyd yn ymwrthod â chyfiawnhad tragwyddol Gill; yr hwn sydd yn egluro cyfiawnhad fel bwriad tragwyddol o eiddo Duw, yn terfynu mewn amser yn nghydwybod y pechadur. Y mae Fuller yn edrych arno fel cyhoeddiad o bechadur yn gyfiawn, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist. Y mae yn dal yn gryf dros athrawiaeth y cyfrifiad, ac yn ymwrthod âg athrawiaeth trosglwyddiad. Am allu ac anallu dyn, nid ydyw ei syniadau ond eglurhad ac amddiffyniad o eiddo Jonathan Edwards.

FOSTER, JOHN. Ysgrifenodd y gŵr mawr hwn—un o feddylwyr dyfnaf a mwyaf gwreiddiol y ganrif hon—gryn lawer er cyfarwyddo dyn i ysgrifenu hanes ei fywyd ei hun, dan yr enwad: —*On a Man's writing Memoirs of himself*; ac *Decision of Character*. Yr hyn a fynai efe i'r dyn a ysgrifeno hanes ei fywyd ei hun ei wneuthur ydyw – nid cofnodi ffeithiau a dygwyddiadau bywyd, ond darlunio sefyllfaoedd olynol ei feddwl, ac olrhain cynnydd yr hyn a ellir ei alw yn gymeriad, neu nodweddiad. Ond rhaid i ni yma ddilyn y dull cyffredin wrth ysgrifenu hanes ei fywyd ef, a chwilio am amlygrwydd o'r pethau a nodwyd yn ei fuchedd, fel y dadguddir hwy gan ffeithiau.

Yr oedd John ac Ann Foster, tad a mam gwrthddrych y cofiant hwn (eu mab hynaf), pan anwyd ef, mewn tyddyn bychan yn mhlwyf Halifax, rhwng Wainsgate a Hebdenbridge. Heb law trin y tyddyn, yr oedd ei dad yn dilyn yr alwedigaeth o wehydd. Yr oedd efe yn ddyn o feddwl cryf, ac o duedd ddarllengar a myfyrgar; a bu hyn yn benaf yn attalfa iddo gymmeryd gwraig a gofal teulu nes yr oedd dros ddeugain oed. Y gŵr a'i hargyhoeddodd o'r ddyledswydd o wneyd proffes gyhoeddus o grefydd Crist oedd yr enwog Mr. Grimshaw: yr hyn a wnaeth gydag eglwys fechan berthynol i'r Bedyddwyr yn Wainsgate; lle y bu wedi hyny yn arweinydd ffyddlawn a defnyddiol am hir flyneddoedd. Yr oedd Mrs. Foster yn wraig o ddeall cryf, o gywirdeb diammheuol, ac o dduwioldeb diffuant. Bu y ddau fyw i oedran teg. Gorchymynodd yr hen ŵr i'r cofiant nodedig a ganlyn gael ei gerfio ar ei gareg fedd:—"Newidiodd John Foster y bywyd hwn am un gwell, Mawrth 21ain, 1814, yn yr wythfed flwyddyn a phedwar ugain o'i oedran, ac yn y drydedd a thrigain ar ol i Dduw roddi sicrwydd cyflawn iddo ei fod yn un o'i feibion." Bu farw Mrs. Foster, Rhagfyr 19eg, 1816, yn y drydedd flwyddyn a phedwar ugain o'i hoedran.

Ganwyd John Foster—eu mab hynaf—Medi 17eg, 1770. Pan oedd yn ddeuddeg oed, medd efe, teimlai ryw syniad poenus ei fod yn ddyn cyflawn, er mor chwithig ydoedd. Yr oedd hyn yn amlwg yn ei ddull a'i ymddyddanion. Yr oedd ei sylwadau ar ddynion a dygwyddiadau yn debyg i eiddo dynion wedi tyfu i fyny—yr hyn a barodd i'w gymmydogion ei alw yn "hen ddyn." Yr oedd yn feddylgar ac yn ddystaw—yr hyn a barai iddo ochel cymdeithas pob plant chwareugar a difeddwl. Chwanegodd ei duedd naturiol at unigrwydd o ddiffyg cymdeithion ieuainc gartref; canys yr oedd ei unig frawd Thomas yn ieuangach nag ef o bedair blynedd; ac nid oedd ganddynt chwiorydd. Yr oedd difrifwch gwastadol ei rieni—yr hyn a achosid mewn rhan, yn ddiau, gan eu hoedran pan yn priodi—yn anfanteisiol i'r arferiad rhydd ac iachus o'r serchiadau. Yr oedd hyny yn tueddu i fagu, yn hytrach nag iachau, y prudd-der naturiol oedd yn meddwl Foster ieuanc; yr hyn a barai iddo ar amserau "gilio oddi wrth gymdeithas ddynol i unigedd mewnol oeraidd," lle y teimlai fel pe buasai "wedi ei ddadgyssylltu oddi wrth yr holl greadigaeth." Yr oedd llawer o'i deimladau yn eiddo iddo ef ei hun mor hollol, fel y tybiai nas gellid eu hadrodd, neu y teimlai nas gallai efe wneuthur hyny. Yr oedd ei syniadau yn danbaid o fywiog; ac yr oedd pob peth hynod a ddarllenai, cystal a golygfeydd natur, yn cael argraff ddofn ar ei feddwl bywiog. O ran ei chwaeth feddyliol, y *mawreddog*, yn hytrach na'r *prydferth*, a effeithiai fwyaf arno ef. Yr oedd creigiau uchel, coed mawrion, ogofäau erchyll llosgfalaidd, rhaiadrau, a thymmestloedd, yn wrthddrychau ei edmygedd penaf. Yr un modd yn mysg dynion—y mawr a'r gwronol a gynhyrfai ei ddyddordeb ef yn wastad Yr oedd ynddo gasineb greddfol o'i fabandod at bob math o greulondeb. Yr oedd "yn casau y pryf copyn am y lladdai wybed, ac yn casau cigyddion am y lladdent anifeiliaid."

Yr oedd ei ymddygiadau at ei rieni bob amser yn ganmoladwy; ac er i'w serchiadau ieuainc gael eu ffrwyno o blegid y pethau a grybwyllwyd, eto nis gallai neb roddi arwyddion amlycach o gariad at ei rieni ar ol tyfu i fyny nag a roddodd efe, trwy gyfranu yn helaeth, yn ol ei allu, at eu cynnaliaeth a'u cysur yn eu hen ddyddiau. Dechreuodd eu cynnorthwyo yn foreu, trwy weu gyda'i dad. Yr oedd yn gweithio wrth y gwaith nyddu, trwy roddi y gwlân ar droell law, nes oedd yn bedair ar ddeg oed. Am y tair blynedd canlynol, bu yn gweu y pethau a elwir "gwaith tew." Ond tra yr oedd wrth y gorchwyl yma, "nid oedd ganddo un meddwl am fod yn grefftwr yn barhaus." Yr oedd yn cwbl gredu fod rhywbeth arall yn ei aros—nid o blegid fod ganddo unrhyw syniad fod ei alluoedd yn fwy na'r cyffredin, ond yn hytrach o herwydd y dymuniadau a'r cynlluniau a goleddai. "Yr oeddwn yn teimlo fy hun er yn fachgen," eb efe wrth Mr. Hughes, "fel diethrddyn yn y lle; ac un o'm syniadau boreuaf oedd cynllunio ffordd i'w adael. Teimlai fy nghalon ryw anghoethder a'm tristäai, cyn bod fy ngwybodaeth yn alluog i wneyd cymhariaethau." Gan ei fod fel hyn yn llawn o feddyliau a dymuniadau ar bynciau nad oedd ei gydnabod yn gwybod dim am danynt, nid ydyw ryfedd yn y byd mai gweuwr pur ganolig oedd, a bod yr hwn a'i rhoddai ar waith yn penderfynu yn barhaus peidio cymmeryd dim chwaneg ganddo. Gan nad oedd y pethau a weuai efe yn gofyn dim gallu meddyliol, mae yn naturiol dysgwyl fod y fath orchwyl yn ddiflas iddo.

Byddai yn myfyrio yn ddyfal yn ystod yr amser y bu gyda'i rieni, er yn afreolaidd. Arferai gau ei hun yn fynych am hir amser yn yr

Digitized by Google

ysgubor; ac yna deuai allan a gweuai am ddwy awr neu dair, "gan weithio," medd un a'i gwelodd, "fel ceffyl." Llenyddiaeth Seisonig yn unig, o angenrheidrwydd, a gai ei sylw a'i ymdrech yn ystod yr amser yma, gan nas gallai ei addysg gartrefol roddi dim arall yn ei gyrhaedd. Pa fodd bynag, yr oedd ei dad yn awyddus am roddi addysg uwch iddo; a phan nad ydoedd ond pedair neu bump oed, rhoddai ei law ar ei ben, a dywedai, "Fe fydd y pen yma yn dysgu Groeg ryw ddiwrnod." Yr oedd ysgol ramadegol dda yn y gymmydogaeth; ond y mae pob lle i gasglu na chaniatäai amgylchiadau rhieni Foster iddo ei mwynhau; a bod ei gynnorthwy wrth y gwehydd yn rhy angenrheidiol i'r teulu allu ei hebgor.

Ond, os oedd llawer o bethau anghydnaws ac anfanteisiol yn amgylchiadau Foster, yr oedd eu dylanwad moesol a chrefyddol gan mwyaf yn iachus a buddiol iddo. Yr oedd ei rieni yn esampl barhaus o'i flaen o dduwioldeb a difrifwch diŵyro. Yr oedd eu tŷ hefyd yn gyrchfa eu cymmydogion Cristionogol, y rhai a ymgasglent yno bob nos Fawrth i gynnal cymdeithas grefyddol; a therfynid y moddion yn wastad gan yr hen Mr. Foster, yr hwn nid anghofiai byth un dymuniad yn ei weddi—"O Arglwydd, bendithia y bechgyn!" gan olygu John a'i unig gydymaith ieuanc, ar y pryd, Henry Horsfall. Yr oedd difrifwch mawr adroddiad y dymuniad yma yn gwneyd argraff ddwfn ac amlwg ar feddwl y ddau fachgen ieuanc. Ni chaniata lle i ni olrhain duwioldeb boreuol Foster; ond profodd amser ei bod o'r iawn ryw, a "dysgleiriodd fwy-fwy hyd hanner dydd." Pan oedd tua phedair ar ddeg oed, mynegodd wrth ei gydymaith ieuanc a nodwyd, y pryder dwys oedd ar ei feddwl wrth gymharu ei gymmeriad â gofynion y ddeddf sanctaidd; a chwanegai mai yr unig waredigaeth a deimlai oedd, ymorphwys ar aberth Iesu Grist am dderbyniad gyda Duw.

Yn mhen chwe diwrnod ar ol ei eilfed flwyddyn ar bymtheg oed, derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Hebdenbridge. Annogai ei fugail hybarch, y Dr. Fawcett, a chyfeillion ereill a sylwent gyda dyddordeb dwys ar ei feddylgarwch a'i dduwioldeb, ar iddo gyflwyno ei dalentau i'r weinidogaeth Gristionogol. A oedd hyny eisoes yn ei feddwl ai peidio, nid yw hysbys; pa fodd bynag, dangosodd yn fuan ar ol ei dderbyniad y dymunai gydsynio âg annogaethau ei gyfeillion, ac wedi rhoddi profion boddhaol o'i alluoedd, "neillduwyd" ef i'r swydd weinidogaethol mewn cyfarfod crefyddol i'r pwrpas. Er mwyn cael addysg uchraddol, aeth yn fuan dan addysg y Dr. Fawcett, yn Brearley Hall, lle yr oedd ganddo nifer o wŷr ieuainc dan addysg ragbarotoawl i waith y weinidogaeth. Treuliai Foster ran o bob diwrnod i gynnorthwyo ei rieni yn yr alwedigaeth o weu. Y rhan arall o'r dydd, ymroddai mor angerddol i fyfyrio, fel yr ofnid y niweidiai ei iechyd. Treuliai nosweithiau cyfain yn fynych y pryd hyny, i ddarllen a myfyrio: ei hoff ymneilldufa oedd coedgell yn ngardd y Dr. Fawcett. Yr oedd ei ymarferion ysgoleigaidd yn costio llafur mawr iddo, a'i gynnydd yn bur arafaidd. Yr oedd amryw o rai heb feddu hanner ei alluoedd yn myned trwy y gwersi a roddid iddynt yn llawer rhwyddach. Un cynllun a gymmerai i ymwellau mewn cyfansoddiad, oedd cymmeryd paragraphau o wahanol awdwyr, gan ymdrechu eu hail gyfansoddi, o ymadrodd i ymadrodd, yn mhob dull o adroddiad a'r a allai. Ei ystum wrth y gorchwyl yma oedd eistedd â llaw ar bob glin, a chan symmud ei gorff yn ol ac yn mlaen, arosai am hir amser yn gwbl ddystaw, nes y byddai ei ddychymyg i ail ffurfio ei ddefnyddiau wedi paliu. Yr enw a roddai ar y gorchwyl yma oedd *gwahens* (*pumping*). Yr oedd yn bur gas ganddo rai ffurfiau o ymadroddion oedd ar arfer yn mysg rhai pobl grefyddol, a thystiai pe buasai bosibl y glanhasai efe bob llyfr oddi wrthynt trwy ddeddf seneddol; a dywedai yn fynych, "Y mae arnom eisiau rhoddi gwyneb newydd ar bethau"

Gan fod llyfrgell y Dr. Fawcett at ei wasanaeth, yr oedd cylch ei ddarlleniad yn dra eang, ond dan lywodraeth trefn a gofal. Darllenai ei hoff awdwyr yn dra astud a gofalus. Mewn llenoriaeth gyffredinol, yr hyn a roddai fwyaf o foddhad iddo oedd teithiau a mordeithiau, gan y porthai y rhai hyny ei ddarfelydd cryf a'i hoffder o'r mawreddog a'r rhamantus, yr hyn a lynodd wrtho hyd ei ddiwedd. Mewn duwinyddiaeth ymarferol, yr oedd yn dra hoff o *Watson's Heaven taken by storm*—gwaith y dywed y Dr. Doddridge iddo gael ei ddarllen gan y milwriad Gardiner ar noswaith ei dröedigaeth nodedig.

Yr oedd Brearley Hall yn amgylchedig gan goed mawrion, cauadfrig; oddi gerth ar y tu deau, lle y wynebai ar lethr dyffryn hyfryd. Yr oedd yr olygfa yn dra chydweddol â thymmer Foster. Ar un achlysur, darbwyllodd gyfaill ieuanc iddo i rodio gydag ef ar hyd glan yr afon, o'r bore hyd yr hwyr, er mwyn gweled, fel y dywedai, fel yr effeithiai y goleuni yn ei ddynesiad cyntaf ar yr olygfa amgylchynol. Pan oedd unwaith, yn mhen rhai blynyddau ar ol hyn, ar ymweliad â'i rieni, collwyd ef yn ddisymmwth o'r tŷ, ar wlaw trwm, ac aeth at raiadr oedd yn y gymmydogaeth; ac ar ei ddychweliad, dywedodd, "Yr wyf wedi deall y peth yn awr, ac wedi cael rhai syniadau ar y pwnc, na fynwn eu colli ar frys. "Nid oedd un dyn," medd un o'i gyfeillion boreuol, "yn gyfaddasach i ysgrifenu ar *Decision of Character* nag ef. Yr oedd yn reddf yn ei feddwl o'i amser boreuaf. Efe a ffurfiai ei benderfyniadau, ac äi yn mlaen i'w cyflawni, yn gwbl diysgog. Yr oedd efe yn archwilio pob peth bob amser a ddeuai o fewn cyrhaedd ei sylw; ac nid oedd na gwynt na thywydd, na nos na dydd, a allent ei rwystro—efe a gyflawnai ei amcan."

Dangosai yn ei bregethau, fel yn ei ymddyddanion, ei fod yn feddyliwr gwreiddiol a dwfn; ac o blegid hyny, byddai ei bregethau yn fynych uwch law amgyffred gwrandawyr cyffredin. Yr oedd yn pregethu unwaith yn Thornton, ger llaw Bradford, ar y geiriau; "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd." Ei bwnc oedd dangos sefyllfa ofnadwy yr hil ddynol, pe na buasai ffordd o ddyfodfa at Dduw wedi ei threfnu; ond arweiniodd ei ddull newydd ef o drin y pwnc un hen frawd (oracl y cylch bychan y troai ynddo), i ddywedyd; "Ni wn i yn y byd at ba beth yr oedd efe yn cyfeirio heddyw, os nad oedd yn gwneyd dammegion." "Y mae efe yn myned i'n cymmeryd i'r ser eto," oedd sylw cyffredin ei wrandawyr. Er hyny byddai ei bregethau nid yn anfynych yn gadael effeithiau iachusol ac annileadwy ar feddyliau ei wrandawyr, yn enwedig y rhai mwyaf meddylgar o honynt.

Ar ol treulio tua a thair blynedd yn Brearley, gwnaed cais ar iddo gael derbyniad i Goleg y Bedyddwyr yn Bristol. Aeth i'r sefydliad yn fuan ar ol marwolaeth y llywydd enwog hwnw, y Dr. Caleb Evans; ac yn fuan ar ol i'r athraw uchawdurol, Robert Hall, symmud i Gaergrawnt;

Digitized by Google

ond llanwyd ei le yn alluog gan Joseph Hughes, sylfaenydd ac ysgrifenydd y Feibl Gymdeithas Frutanaidd a Thramor. Nid oedd efe ond blwyddyn ac wyth mis yn unig hynach na Foster. Yr oedd eu meddyliau yn dra chydnaws; ac aeth yr athraw a'r dysgybl yn fuan yn gyfeillion.

Ar ol gadael y coleg, y lle cyntaf y bu yn bregethwr rheolaidd ynddo oedd Newcastle on Tyne—mewn hen oruwch-ystafell, a elwid *Tuthill Stairs*, a ddefnyddid gynt yn Gapel y Maer, ond a ddelid gan gynnulleidfa y Bedyddwyr byth er y flwyddyn 1725. Ni chynnwysai nemawr dros gant o bersonau; ac nid oedd canolrif y gynnulleidfa cyn i Foster fyned yno, nac yn ystod ei arosiad, ddim yn cyrhaedd y nifer hwnw. Ond er lleied oedd y gynnulleidfa, yr oedd yno rai personau galluog i werthfawrogi y pregethwr, a'r rhai a gymmerent ddyddordeb neillduol yn ei bregethau. "Yr wyf wedi arfer edrych gormod, ond yn anfwriadol," eb efe, wrth ei gyfaill Mr. Horsfall, "ar yr ochr dde i'r gynnulleidfa. Y mae rhyw hanner dwsin o gyfeillion synwyrol yn cydeistedd ar yr ochr hono; ac ni fedrwn yn fy myw beidio edrych arnynt. Byddaf weithiau yn anghofio fod genyf neb arall yn gwrando arnaf. Y mae ganddynt gymmaint o edrychiadau arwyddocaol; y maent yn sylwi mor neillduol a manwl; yn gafael mor gyflym mewn pob peth hynod, fel y maent yn fath o ddrych i'r pregethwr i weled ei hun ynddo. Byddaf weithiau, pa un bynag a gredwch chwi ai peidio, yn dywedyd rhyw bethau ffraeth. Deall rhai o'r dynion hyn mewn moment, a gwenant; a minnau, gan anghofio fy sefyllfa, a hudir bron yn ddiarwybod i wenu fy hun."

Ychydig dros dri mis yr arosodd Mr. Foster yn Newcastle: aeth yno Awst 5, 1792, ac ymadawodd tua diwedd Tachwedd. Ymddengys wrth yr hyn a ddywed ef ei hun ei fod yn dra ymneillduedig yn ystod yr amser yma. Yr oedd agwedd ei feddwl yn ddiddysgyblaeth, a'i ymroddiad i efrydiaeth yn anwadal; a'i ragolygiad ar fywoliaeth ddyfodol yn anmhenderfynol.

"Yr wyf yn dychymygu," medd efe wrth ysgrifenu at gyfaill oedd yn efrydydd yn Brearley, "mor wahanol ydyw sefyllfa y teulu yr ydych chwi ynddo oddi wrth sefyllfa y teulu y mae fy nghoelbren i wedi syrthio ynddo yn bresennol. Ymddengys y teulu yma fel math o amgueddfa ddigrif-foesol, yn cynnwys esamplau o bob math hynod a gynnyrchir yn y byd o ddynion. Yn awr sylwch ar y gwahaniaeth. Y mae Mrs. Foster ac un o'r llawforwynion wedi myned er's tro bellach i Lundain, ac y mae yr holl dŷ wedi ei adael i Mr. Foster, un lawforwyn, a mi fy hun. Y mae un o'r cŵn sydd yn cadw y weithfa wedi brathu Mr. Foster mor dost, er's tair wythnos, fel y bu raid iddo aros yn y tŷ; ac yn awr nid yw yn dyfod hyd yn oed o'i ystafell wely. Yn awr yr wyf yn brecwesta, yn ciniawa, yn yfed te, ac yn swpera, yn hollol ar fy mhen fy hun; oddi gerth fod Pero yn ei osod ei hun ar un ochr i'r bwrdd, yr hwn sydd gi pur haelfrydig—y cyfaill ffyddlonaf a feddaf, a chydymaith ewyllysgar fy holl anturiaethau. Gan nad oes genyf, fel y gwyddoch, na phriod na phlant, byddaf yn difyru fy hun yn fynych gyda Pero. Yr wyf yn camsynied os na bydd enw Pero ar gael yn hir ar ol i enwau eich coegynod a'ch mursenod hunan-dybus chwi fyned ar ddifancoll. Er nad yw y dref ond rhyw ddau neu dri chan llath yn unig o'r tŷ, ni byddaf fi byth yn gwneyd sylw o honi, nac yn myned iddi, ond ar y Sabbath. Yr wyf yn rhodio yn y meusydd yn fynych, lle y myfyriaf ar y gwartheg a'r ceffylau, yr adar a'r glaswellt; neu wrth ochr yr afon, lle y sylwaf ar symudiad y llif, effaith y gwynt, neu, os gyda'r hwyr, lle y gwelaf adlewyrchiad y lleuad a'r ser yn y dyfroedd. Pan yn dueddol i ddarllen, y mae genyf gyflawnder o lyfrau at law. Pan mewn agwedd syniad l, gallaf gau fy hun i fyny mewn ystafell unigol, a cherdded ar hyd y llawr, neu daflu fy hun i gadair, neu ledorwedd ar fy mwrdd; neu, os byddaf am freuddwydio, gallaf ymestyn ar y gwely. Pan yr ehedo y dydd ymaith, byddaf yn gorwedd yn mynwes y nos, ac yn cysgu yn drwm nes y gwawrio un arall: yna, byddaf yn deffro yn unigol fyth: byddaf yn cyfodi, naill ai i edrych ar fy oriadur, ac yn ymdaflu ar y gwely i syllu ar yr wybren fortuol, neu........ yn tremio mewn synfyfyrdod ar amryw olygfeydd bywyd, ac yn ymollwng ar adenydd dychymyg dros gysgodau ardaloedd y dyfodol......... Y fath, fy nghyfaill, yw y sefyllfa a'r dull yr wyf fi yn treulio bywyd ymaith."

Ar amser arall, y mae yn mynegi ei deimlad mewn tôn gryfach fyth: "Yr wyf weithiau yn teimlo adolygu yr hyn a aeth heibio yn dra dyddorol. Y mae y cyfnewidiadau trwy y rhai yr aeth fy ngolygiadau a'm teimladau wedi bod yn lluosog ac yn fawrion. Nid ydynt erioed wedi bod yn aros yn hir yn sefydlog; ac ni buont erioed fe allai mewn sefyllfa fwy ansicr ac anwadal nag yn bresennol. Yr wyf yn ymdeimlo yn ymwybodol fy mod yn meddu galluoedd mawrion, ond eu bod heb eu cyfuno yn ddedwydd, na'u dwyn allan yn gyflawn. Y mae rhai arferion o'r fath fwyaf annedwydd a pheryglus wedi gwreiddio, ac yr wyf yn ofni nas gellir eu dadwreiddio heb anhawsder mawr." Cyfeirio y mae yma at yr hyn a eilw mewn lle arall, "yr hen arfer annymunol o grwydriad myfyriol musgrell ac anwadal." "Pan yn ddwy ar ugain oed," medd efe, "yr wyf yn teimlo y rhaid i mi *ddechreu byw*: y mae genyf eto i raddau mawr fy egwyddorion i'w sefydlu, fy nghynlluniau i'w ffurfio, a fy ngwaith i'w ddethol, yn gystal a'm harferion i'w cyrhaeddyd. Dyma lafur cawraidd! pa fodd y cyflawnaf ef?" Mewn llythyr arall diweddarach, efe a ddywed, "Mor dywyll yw y dyfodol eto! Mor ansicr a chyfyng yw ein rhagolygiadau! Nis gwn ar y ddaiar pa beth a fydd fy ngorchwyl nesaf, nac yn mha le y bydd! Yr wyf yn lleddybied nad pregethu a fydd; ond mi a'i gadawaf i'r dyfodol yn y lle y mae yn gorwedd, ac o'r lle nis gall dyfaliadau ei wahodd."

O Newcastle, dychwelodd Mr. Foster at ei gyfeillion yn sir York; ond gadawodd hwy drachefn yn nechreu 1793, pan y gwahoddwyd ef i bregethu i gynnulleidfa o Fedyddwyr a ymgyfarfyddai yn Swift's Alley, Dublin. Y mae agos y cwbl a wyddus o ddygwyddiadau ei fywyd yn ystod y tair blynedd ganlynol mewn un o'i lythyrau at Mr. Hughes, a amserwyd Hydref 17eg, 1796. Y mae yr ymadroddion arweiniol yn rhy nodedig i'w gadael allan:—"Mae eich llythyr wedi creu ynof hyfrydwch digon cryf i wneyd ail ymdrech âg ymwybodolrwydd euog o esgeulusdra. Y mae fy nystawrwydd yn ymddangos yn ddieithr hyd yn oed i mi fy hun; ac nis gwn a fydd yn llai yn eich golwg chwi, tra y sylwaf fy mod, pan yn ymddyddan â chwi y tro diweddaf, yn teimlo fy hun yn cael fy llethu gan ryw israddolder a chwithigrwydd poenus, y rhai a gynnyddent am lawer o fisoedd wedi hyny, pan y bwriadwn ysgrifenu, i fath o benderfyniad i fod yn anadnabyddus nes y deuwn yn hollol deilwng i gael fy adnabod. Yn y cyfamser yr oeddwn yn coleddu penderfyniad sefydlog o gynnyg iawn ar amser mwy cyfaddas, mewn cyfeillach fwy teilwng: yr oeddwn yn cipio pob cyfleusdra yn awyddus i gael hysbrwydd yn eich cylch; ac yr wyf yn eich sicrhau o galon nad ydwyf eto wedi dysgu

Digitized by Google

anffyddlondeb gan y byd, ac nad yw fy mharch atoch wedi lleihau y radd leiaf. Un o'm rhagddysgwyliadau mwyaf hyfryd yw, y caf fy hun eto yn yr un ystafell a chwi a Mrs. H.—yn profi (a aliaf obeithio hyd yn oed i raddau mwy?) mwynhad tebyg i'r hyn a brofasom gynt."

"Ychydig dros flwyddyn," eb efe, "y pregethais yn Dublin, a threuliais un mis o hyny yn dra difyrus yn Cork. Nis gellir dychymygu am ddim mwy annyddorol nag ydyw cymdeithas y Bedyddwyr yn Dublin. Yr oedd y gynnulleidfa yn dra bechan pan y dechreuais i yno, ac yr oedd bron wedi myned yn ddim pan y rhoddais hi i fyny yn wirfoddol. Golwg ddiysbryd oedd ar y lle y pregethwn i gydag ychydig iawn o ddyddordeb, ac y gwrandewid arnaf gyda llai fyth. Yr eglwys, heb law ychydig iawn o wrandawyr rheolaidd neu ddamweiniol, oedd yn gwneyd i fyny yr holl gynnulleidfa. Yr oedd yn gynnwysedig o ddau deulu cyfoethog—pobl y byd hwn yn hollol; tri neu bedwar o deuluoedd mewn masnach, yn ceisio dynwared ymddangosiad a phwysigrwydd y lleill; rhyw haner dwsin o bobl dlodion, cwbl ddigyssylltiad â'u huwchraddolion Cristionogol, ac mor ddisylw ganddynt, fel yr oedd y pellder mwyaf rhyngddynt a'u gilydd; a rhyw un neu ddau o bersonau annynol, y rhai oedd wedi blino a diflasu ar y fath gymdeithas. Nid oedd enaid Foster wedi ei lunio i ymgyssylltu â'r fath fintai; ac yr oedd fy nghyfeillion yn llai nag y gellir tybied fod yn bosibl i gyfeillion dyn cyhoeddus fod."

"Yr oeddwn yn ceisio ac yn cael gradd o addaliad yn mysg genethod ysgol rad oedd yn gyssylltiedig â'r gynnulleidfa - wrth y rhai y siaradwn gyda difyrwch, ac i'r rhai y rhoddwn wobrau am ddysgu, gan ddarllen iddynt amryw lyfrau difyrus. Hefyd, yr oeddwn yn cael difyrwch mewn crwydriadau unigol, mewn llyfrau, papyrau newydd, ymddiddan â'r ychydig oedd yn gyfeillion, gan mwyaf heb fod yn perthyn i'r eglwys, ac mewn dyfalu ar amrywiadau y brif ddinas."

Ar ol iddo dreulio amryw fisoedd yn sir York, dychwelodd eilwaith i Dublin, i geisio sefydlu ysgol uchraddol a gwyddonol; ond ar ol cael prawf am wyth neu naw mis, gwelodd nad atebai iddo ei chynnal yn hwy. Yn ystod ei arosiad yn Dublin y waith hon, daeth i gyssylltiad âg amryw Weriniaethwyr penboeth; ac ymunodd â hwy i geisio sefydlu cymdeithas dan yr enw "Meibion Brutus"—o blegid yr hyn y bu agos iddo gael ei daflu i garchar.

Tra yr oedd yn Dublin yn awr y dechreuodd feddwl am ysgrifenu i'r wasg. Dechreuodd gyfansoddi yr hyn a alwai yn "fath o draethawd moesol;" ond yr oedd ei hwyrfrydigrwydd i ysgrifenu, a'i anfoddlonrwydd i'r hyn a ysgrifenodd, yn arwyddo, fel y dywed ei hun, y byddai yn bur hir cyn gorphen. "Pa fodd bynag," eb efe, "yr wyf yn penderfynu ei orphen rywbryd."

Yr oedd hefyd wedi meddwl cyfansoddi rhestr o ddarlithiau ar bynciau moesol a llenyddol, i'w traddodi ar nos Sabbathau yn Leeds, lle yr oedd wedi bod yn pregethu yn achlysurol, ac wedi ennill rhai edmygwyr; ond o blegid y tybiai rhyw hen frawd oedd yno ar y pryd yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, y mae yn debyg, yr hwn ni enwir, nad oedd hyny "yn bregethu yr efengyl," siomwyd Foster yn yr amcan hwn hefyd.

Yr oedd y wisg glerigol, yr hon yr oedd braidd yn rhaid iddo ei harfer tra yn Dublin, yn dra anghymmeradwy ganddo; ac nid esgeulusai unrhyw gyfleusdra i ddadgan ei ddirmyg at bob ffurfiai eglwysyddol o'r fath. "Y mae cryn amser bellach," eb efe, yn yr un llythyr at Mr. Hughes, ar ol dychwelyd o Dublin, "er pan newidiais, yn bur briodol hefyd, y wisg glerigol, am ail argraphiad o gôb a chynffon iddi, o frethyn llwyd; ac yr wyf wedi pregethu yn y ddiwyg yma mewn amryw fanau, ar ol dychwelyd i Loegr; ond yr wyf heb bregethu o gwbl yn ddiweddar. Eto, ar y cyfan, y mae yn bur ddrwg genyf na chawn gyfleusdra i bregethu yn amlach. Pan yr ystyriwyf anfeidrol werth crefydd, a thywyllwch truenus meddyliau dynion (yn enwedig pan syllwyf ar wynebau dyddorol pobl ieuanc, ar y rhai yn unig, fe allai, y gellir gweithredu), argyhoeddir fi yn rymus y dylai dyn fel fi fod yn rhywbeth mewn cynnulleidfaoedd ar y Sabbath heb law yr hyn wyf—dim ond gwrandäwr pur esgeulus. Ond beth a ddylwn ei wneuthur? Ofer fyddai i mi ddymuno yr hyn am boddhäai i fy hun—y gallu o godi cyfarfod o'r eiddof fy hun, ac heb fod dan lywodraeth un dyn, ac heb hyd yn oed enw o'r hyn a elwir eglwys, i bregethu yn rhad i bwy bynag a ddewisai fy ngwrando.

"Mae gan yr enwad crefyddol yn yr hwn y mae fy nghoelbren i wedi syrthio achosion pwysicach i feddwl am danynt na lliw gwasgod. Y mae fy syniadau i wedi goddef peth cyfnewidiad. Yr wyf wedi rhoddi heibio, er esampl, yr athrawiaeth o dragwyddol gospedigaeth; ac nis gallaf gyffesu unrhyw farn ar byngciau neillduol Calviniaeth, am nad oes genyf un, ac nas gwelaf fod yn bosibl ffurfio un boddhaol. Nid ydwyf yn Socin; ond yr ydwyf yn petruso rhwng yr athrawiaethau uniongred ac Ariaidd, ac y mae ynof ryw duedd at yr olaf. Y mae yn bwne o ymchwiliad pwyllog a maith, fe allai; ac yr wyf yn teimlo diffuantrwydd sydd yn fy sicrhau y rhaid i'r canlyniad, beth bynag a fyddo, fod yn ddiogel. Yn y sefyllfa yma ar fy meddwl a'm teimlad, yr wyf newydd ysgrifenu at Mr. David, o Frome, i ofyn a ŵyr efe am ryw gynnulleidfa o Ariaid eisieu pregethwr; gan ei hysbysu, yn y cyfamser, nad wyf yn dewis y fath gynnulleidfa am fod fy marn yn cytuno â hwy yn benderfynol, ond oddi ar argyhoeddiad mai yno yn unig y gallwn gael yr anmhleidgarwch a'r rhyddid a hoffwn... ..Yr oeddwn yn teimlo tuedd i wenu at eich addefiad fod y tân dychymygol yn treio, neu y lluddiwyd fi gan ymwybodolrwydd galarus o rywbeth tebyg ynof fy hun. Yn wir, yn wir, y mae yn rhy fuan.........Pan y byddaf yn rhagdybied weithiau fod tynged yn bwriadu fy amddifadu o gylch melus cariad a dyddanwch teuluaidd, byddaf bron a phenderfynu cymmeryd antur mawreddog yr arwr, gan gludo gwareiddiad i genedloedd anwar mewn rhyw hinsawdd bellenig."

Preswyliai Mr. Foster, tra yn Dublin, gyda'r diweddar Mr. John Purser, a gwnaeth ei hun yn anwyl gan yr holl deulu, yn enwedig y bobl ieuainc a'r gwasanaethwyr. Arferai ddarllen rhyw gyfansoddiadau ffugiol yn fynych i'r teulu yn yr hwyr. Yr oedd yn dra hoff o waith Mrs. Radcliff, a chyfieithiadau o Schiller. Yr argraff a wnaed gan Foster ar feddwl un o'i gyfeillion ieuainc yno oedd—ei fod yn "gyfaill gostyngedig, a chwennychai roddai peiriant eu meddwl ar waith."

Carasem roddi esampl o *Ddyddlyfr* Mr. Foster, a ysgrifenodd yn Dublin, lle y rhydd ddarluniad treiddgar o syniadau mewnol ei feddwl dwfn yn ystod yr amser hwnw; ond rhaid prysuro yn mlaen.

Yr oedd Foster, er yn ieuanc, yn dra gwrth-

Digitized by Google

wynebus i bob math o wisgoedd pregethwrol neillduol, ac i bob seremoniau a defodau eglwysig; ac yr oedd ei atgasrwydd yn cynnyddu atynt, fel yr oedd yntau yn cynnyddu mewn oedran a phrofiad. Yr oedd wedi dangos awydd neillduol yn fynych, "am gael capel iddo ei hun, heb hyd yn oed hanfod yr hyn a elwir eglwys yn perthyn iddo. Yn ngwyneb i anghydfod chwerw dori allan unwaith rhwng dwy gymdeithas grefyddol, dywedodd ei fod "yn cael digon o gadarnhad, pe buasai ei angen, i'w hen syniad, fod eglwysi yn sefydliadau anfuddiol a niweidiol; ac mai goreu po cyntaf eu diddymid." Y mae rhediad cyffredinol ei ysgrifeniadau yn arwyddo ei fod yn anghymmeradwyo pob math o ffurf cymdeithas grefyddol. Yr oedd efe yn credu fod mwy o ymddangosiad nag o wirionedd mewn undeb aelodaeth eglwysig; a bod, o leiaf, ei fuddioldeb yn cael ei orbrisio. Yr oedd yn wrthwynebol i bob sefydliad eglwysig ond addoliad cyhoeddus a Swper yr Arglwydd. Ni weinyddodd yr ordinhad o fedydd erioed; a dywedir na bu erioed, ar ol tyfu i fyny, yn bresennol ar ei gweinyddiad; a gwyddys ei fod yn coleddu ammheuaeth am y priodoldeb o'i pharhau. Wrth ysgrifenu at gyfaill, Medi, 1828, efe a ddywed, "Yr wyf er ys talm wedi teimlo llwyr ddiflasdod at yr hyn sydd yn dwyn yr enwad cyffredinol o *eglwys*, gyda'i holl bleidiau, ymrysonau, gwaradwyddiadau, yn cystal a'i hanrhydedd. Ychydig lai ydyw fy nymuniad i na dilead pob sefydliad eglwysig, o bob gradd a dull; fel y gallo *crefydd* fod yn rhydd, fel elfen ysbrydol a moesol fawreddog, heb gael ei maglu mwyach, a'i gŵyrdroi, a'i halogi gan ffurfiau ac egwyddorion corfforiaethol."

O ran ei syniadau gwladol, dilynai Foster, cyn belled ag yr oedd ei gyssylltiadau personol ef yn cyrhaedd, lwybr unigol. Yr oedd gan ei athraw tyner—Dr. Fawcett—barch sefydlog at bethau fel yr oeddynt, ac ofnai bob newydd-deb; ac yr oedd ei gyfeillion ieuangach hefyd o duedd i oeri ei frwdfrydedd ef, yn hytrach nag i'w wneyd yn fwy angerddol. Yr oedd y dysgwyliadau am wellhad gwladol cyffredinol, a gynnyrchwyd gan y Chwyldroad yn Ffrainc mewn llawer o fynwesau tanbaid a dyngarol, wedi ei wneyd ef yn werinlywodraethwr penderfynol. Ond er "na pheidiodd efe byth ag edrych ar freniniaeth, a'i holl wâg rwysg, fel gwawdiaeth ddifrifol ar ddynoliaeth," eto dywedir i'w ymlyniad wrth weriniaeth fyned dan ryw fath o gyfnewidiad yn mhen amser. Parodd edrych yn ddyfnach i'r natur ddynol iddo fod yn llai ei hyder yn ngweithrediad buddiol unrhyw gynllun gwladol. Dysgwyliai fwy oddi wrth ymdrechiadau personol, oddi wrth addysg yn ei hystyr eangaf, ac oddi wrth egwyddorion Cristionogol, am wellhad dynolryw. "Tra byddo y natur ddynol yn llygredig," medd efe yn ei draethawd ar yr *Epithet Romantic*, "fe ŵyrdroir byd yn oed y cynlluniau a'r ymdrechiadau goreu i wellhau y byd, pe byddai eu hegwyddorion cyn bured a'r nefoedd; a daw chwyldroadau, darganfyddiadau mawrion, cynnydd gwyddoriaeth, a ffurfiau newyddion ar wladyddiaeth, i fod yn ddim amgen na'r hyn y gellir ei alw yn beiriant ardderchog llygredigaeth."

Yn Chwefror, 1796, dychwelodd Foster unwaith eto i sir York; ac yn gynnar yn 1797, gwahoddwyd ef i fod yn weinidog eglwys y Bedyddwyr Cyffredinol yn Chichester. Arosodd yno tua dwy flynedd a hanner, lle yr ymroddodd gyda mwy o egni nag erioed i gyflawni ei ddyledswyddau gweinidogaethol; gan bregethu yn gyffredin dair gwaith bob Sabbath, ac ymdrechu mewn llawer ffordd i ddiwygio y gynnulleidfa. Ond er iddo gael llawer o garedigrwydd personol yno, ychydig o gefnogaeth i ddilyn ei lafur a gafodd. Yr oedd math o ddifaterwch crefyddol yn treiddio trwy yr holl gynnulleidfa; ac o blegid aml farwolaethau a symmudiadau, nid hir wedi hyny y bu yr holl gymdeithas heb ddiflanu. Defnyddid y capel wedi hyny yn achlysurol gan wahanol enwadau crefyddol. Ond yn nghanol yr holl aflwyddiant yma ynglŷn â'i swydd fel pregethwr, yr oedd cynnydd meddyliol, moesol, a chrefyddol Foster yn ddigon eglur. Dywedir fod y budd a dderbyniodd, yn yr ystyr yma, oddi wrth ei gyfeillach â Mr. Hughes, yn anmhrisiadwy; a bod rhwymau y cymundeb Cristionogol yn gyffredinol i'r gŵr ardderchog hwnw yn fawrion iawn, pe na buasai wedi gwneyd dim ond symbylu egniadau, a magu duwioldeb un o ysgrifenwyr crefyddol mwyaf gwreiddiol a dylanwadol ei oes.

Tua chanol haf, 1799, ymadawodd Foster o Chichester, ac aeth i breswylio am ysbaid at Mr. Hughes i Battersea. Eglura natur ei orchwylion yno mewn llythyr at ei gyfeilles, Mrs. Mant, gyda'r hon y trigai yn Chichester.

"Mewn rhyw ffordd neu gilydd," ebe fe, "yr wyf wedi bod braidd yn brysur er pan ddaethum yma. Yr wyf wedi treulio llawer dechreu nos mewn cyfeillachau dyddorol. Pregethais ar amryw Sabbathau, a chymmerais daith o gylch deugain milldir, fe allai, i'r wlad, i bregethu i'r *cenedloedd* mewn lle, sef math o dwll glo; ac i saint tlodion a rhinweddol ereill, mewn siop fechan. Yr oeddwn yn sefyll o'r tu ol i'r cownter, ac yr oedd rhai o'r canwyllau oedd yn hongian uwch ben yn taraw yn fy merwig. Mi hoffwn yn fawr bregethu fel hyn bob nos trwy yr wythnos. Nid antur ddamweiniol oedd hon o'r eiddof fi; ond y mae wedi bod yn gynllun rheolaidd dros beth amser—yr hyn a alwant yn genadaeth—yn yr hwn y mae amryw bregethwyr ar waith, yn myned o amgylch y wlad i leoedd anghysbell, lle nad aeth yr efengyl braidd erioed o'r blaen, gan ymdrechu sefydlu math o orsafau crefyddol. Yr wyf fi wedi bod yn y gwaith hwn am bythefnos, ac arosaf felly am beth amser eto; a byddaf gyda gorchwyl nad oedd genyf un dysgwyliad am dano pan adewais chwi. Mae y gymdeithas a wnaeth sefydliad ryw amser er hyny yn Sierra Leone yn Affrica, wedi dwyn ugain o fechgyn duon i Loegr i dderbyn addysg Ewropaidd, er mwyn eu hanfon yn ol, wedi iddynt dyfu i fyny, i ymdrechu goleuo cenedloedd paganaidd Affrica. Y maent wedi eu gosod mewn tŷ yn Battersea yn awr, hyd oni threfner rhyw sefydliad parhaus ar eu cyfer; a dymunwyd arnaf finnau—ac yr wyf wedi cytuno—i gymmeryd eu gofal am ychydig fisoedd. Gellwch ddychymygu gan hyny fy ngweled yn eistedd mewn cadair ysgolfeistr, a golwg pur bwysig arnaf, yn cael fy amgylchynu gan un ar ugain o wynebau duon—yn rhoddi gorchymynion allan, yn gofyn cwestiynau, ac yn gweinyddu hyfforddiadau *yn raslawn*—yn ddyn anferth o ddoeth mewn cymhariaeth i'm dysgyblion. Mae y rhan fwyaf o honynt wedi bod dan addysg dros amryw flyneddoedd mewn ysgol yn Sierra Leone cyn dyfod yma; ac o ganlyniad, y maent yn siarad Seisoneg yn lled dda. Eu hoedran gan mwyaf yw o ddeg hyd bymtheg neu un ar bymtheg. Hen wraig ddu, a'i merch, yw golygwyr y teulu. Y mae yr hynaf yn wraig nodedig o dduwiol a dedwydd. Y mae wedi gweled gwahanol barthau o'r byd, ac wedi myned trwy lawer o brofedigaethau llymion; a phroffesa ei bod wedi teimlo—ac amlwg ydyw ei bod yn teimlo—ymroddiad a sirioldeb crefyddol mor hynod, fel nas cyfarfyddir y cyffelyb ond yn dra anfynych. Yr wyf wedi canfod ei bod yn fwy cyfleus i mi yn bresennol fwyta gyda hi a'i merch—geneth fel y gallwn dybied, sydd o gylch ugain oed."

Digitized by Google

dynion i unigedd, yr ydym yn ymgyflwyno mewn modd neillduol i bresennoldeb y Duwdod. Eto y mae rhai dynion yn cilio i unigedd i ddyfeisio neu i gyflawni troseddau. Y mae hyn megys dyn yn myned i gyfarfod ac i hèrio llew yn ei ddiffeithle tywyll ei hun, yn ngoror ei breswylfod ofnadwy.

212. Amser ydyw y gormesdeyrn mwyaf. Fel yr ydym yn myned rhagom mewn oedran, y mae yn trethu ein iechyd, ein haelodau, ein cynneddfau, ein nerth, a'n golygwedd.

213. Nid fel gwisg newydd y mae ieuenctid—yr hon y gallwn ei chadw yn hardd ac yn deg trwy ei gwisgo yn gynnil. Rhaid i ni wisgo ieuenctid bob dydd, tra y byddo yn ein meddiant, a buan y gwisga allan.

214. Y mae bwrw golwg ar ein ieuenctid megys ped edrychem yn ol ar yr hyn oedd yn wlad deg a gobeithiol, ond sydd yn awr wedi ei gwneyd yn anghyfannedd gan ryferthwy gorlifol—o'r hwn yr ydym newydd ddianc.

215. Neu y mae fel ymweliad â bedd cyfaill a niweidiwyd genym, yr hwn y mae marwolaeth wedi ein lluddias i wneyd iawn iddo.

218. Nid sylwi yr ydwyf fi, ond edrych yn unig; canys nid ydyw canwyll fy llygad wedi ei llenwi â meddwl."

Mae y gweddill yn llawn mor nodedig, ac yn dangos yn mha fath syniadau gwreiddiol a dwfn yr ymhyfrydai efe, pan nad ydoedd eto ond o ddeutu ugain oed; ond rhaid i ni ymattal ar hyn, er yn anewyllysgar, i ddychwelyd at yr hanes.

Pan y dychwelodd o'r Iwerddon, dywed wrth Mr. Hughes ei fod eisoes wedi dechreu cyfansoddi "math o draethawd moesol;" ond ni chrybwyllodd ar ba bwnc. Pa fodd bynag, nid oes un ar gael o'i draethodau boreuol, ond yr un *Ar Fawredd Dyn*—yr hwn, er nad ydyw ond bychan (tua 10 td. 12plyg)—sydd yn dwyn yr un ddelw o wreiddiolddeb ac annibyniaeth meddwl ag a ganfyddir yn ei holl waith.

Wedi i Foster aros tua phedair blynedd yn Downend, o blegid y dystiolaeth uchel a roddai Mr. R. Hall i'w gymmeriad a'i alluoedd, gwahoddwyd ef i fod yn weinidog i gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yn Sheppard's Barton, Frome. Symmudodd yno yn Chwefror, 1804. Dywed mewn llythyr at Mrs. Mant, ar ol rhoddi darluniad o dref hynafol a gwrthun Frome, iddo fyned yno, i gynnulleidfa lle y bu un Mr. Job David yn weinidog am hir amser, ond a adawyd ganddo, neu a fwriwyd allan, ar ol iddo droi yn Sosiniad, a gwneyd y gynnulleidfa bron yn ddim cyn i Foster fyned yno. Wrth roddi darluniad maith a manwl, fel y medrai efe, ac mewn dull na fedrai neb arall ei wneyd, o'r tŷ a'r trigolion lle y llettyai, dywed nad oedd yn cadw dim cyfeillach braidd â'r teulu, nac ond ychydig â neb arall yn y lle, fel yr oeddynt yn meddwl—er yn dra chamsyniol, medd efe—mai efe oedd y dyn mwyaf myfyrgar yn y byd; a'u bod yn ymddwyn yn dra charedig ato, fel meudwy myfyrgar, yn hytrach nag fel cyfaill cymdeithasgar. Dywed, er lleied oedd y gynnulleidfa pan ysgrifenai y llythyr hwn, nad oedd yn llawn mor fechan a phan yr aeth gyntaf i Frome; yr hyn a ddengys fod llwyddiant yn dechreu gwenu o'r diwedd, hyd yn oed ar ei bregethu. Dywed hefyd ei fod yn gorfod cymmeryd peth mwy o drafferth yn awr i wneyd ei bregethau, gan nas gallai ymddiried cymmaint i gyffroad y foment; yr hyn a ddengys iddo arfer pregethu gynt bron yn ddifyfyr.

Tra yr oedd yn Frome y cyhoeddodd y Traethodau (*Essays*), trwy y rhai y cyrhaeddodd Foster ei glod mawr a theilwng. Ymddengys i'r rhai hyn gael eu dechreuad yn ei ymddyddan â chyfeilles ddyddorol (Mrs. Foster, ar ol hyny)—i'r hon y cyflwynodd hwy, tra yr ydoedd hi ar ymweliad â'i brawd-yn-nghyfraith—y diweddar Dr. Joseph Mason Cox, o Overn. "Yn ein hamryw ymddyddanion tra yr oeddych yma," meddai Foster yn y llythyr a fwriadai i fod yn arweiniad i'w draethodau, "nis gallasem lai na chanfod, gan ba fath fyd eang o bynciau i'w hystyried yr ydym yn cael ein hamgylchynu. Ni chanfyddai unrhyw drem i'r pellderau a chwiliai am derfyn—un terfyn i luosogrwydd amrywiol ac afrifed y testynau—er y canfyddai derfyn yn fuan i'r gallu o'u holrhain a'u hamgyffred.........Yn y llythyrau hyn, bydd i mi adnewyddu rhai o'r pynciau a ddenent ein bryd a'n dyddordeb pan mewn cyfeillach, ac fe allai y bydd i mi adgofio rhai o'r awgrymau neu'r golygiadau a ymgyflwynent i ni ar y pryd, er mwyn eu hegluro yn helaethach a manylach."

Wrth ysgrifenu at Mrs. Mant, o Frome, Meh. 20fed, 1804, dywed ei fod wedi ymroddi er's llawer o fisoedd a aethant heibio at orchwyl llenyddol oedd ganddo mewn llaw, a'i fod yn dysgwyl bod felly eto am fisoedd a blyneddoedd, os byddai byw. "Wedi bod yn segur," eb efe, "agos dros fy holl oes, yr wyf o'r diwedd yn dechreu dyfod yn ddiwyd; ac yr wyf yn gobeithio y parhaf felly dros y gweddill o fy oes. Hyderaf y gorfodir fi i hyny gan ystyriaeth o ddyledswydd: yn awr, y mae y diffyg o'r un *mettel*, a barodd i mi golli pob gobaith o'r diwedd o ennill trwy ddarganfyddiadau breuddwydiol, yn swmbwl chwanegol i mi. Y mae rhan o'r llafur yma wedi bod ar gyfrol a ysgrifenais, a ddanfonir genyf yn mhen pythefnos neu dair wythnos i gael ei hargraffu—oddi wrth yr hyn, pa fodd bynag, nid wyf yn dysgwyl fawr o fantais arianol, gan nad yw ond cynnyg cyntaf person cwbl anadnabyddus. Os bydd y cynnyg cyntaf yma yn llwyddiannus (yr hyn sy brawf pur ansicr), dichon y cynnyrchaf chwaneg, a bydd gwell gobaith dros yr ail gynnyg, os bydd yr ysgrifenydd wedi ennill rhyw sylw trwy y cyntaf. Tybiaf y cymmer y gyfrol hon lawer o fisoedd i'w hargraffu. Y mae wedi ei hysgrifenu ar ychydig iawn o bynciau—mewn rhan yn foesol, mewn rhan yn athronyddol (fel yr arferir galw llawer o bethau yn awr), ac mewn rhan yn grefyddol."

Yn ei lythyr nesaf at yr un gohebydd (Ebrill 25ain, 1805), y mae yn egluro yr achos o oediad cyhoeddi y gwaith, fel hyn:—"Pan yr ysgrifenais ddiweddaf atoch, credaf i mi ddywedyd wrthych fy mod wedi gorphen cyfansoddi y gwaith—ar yr hwn yr oeddwn wedi bod er's blwyddyn neu ddwy cyn hyny. Mor ffol oeddwn, hyd yn oed mor ddiweddar a phan y dywedais hyn! Mae yn wir fy mod wedi ysgrifenu mwy na digon i wneyd cyfrol lled fawr; ond nid oeddwn wedi dechreu ei hadolygu a'i chywiro, mewn trefn i'w rhoi yn y wasg. Pan y dechreuais ar y gwaith hwn, ac yr aethum beth yn mlaen, canfyddais fod genyf waith dychrynllyd ar fy llaw. Canfyddais, er fy syndod a'm gofid, nad oedd odid baragraph, na braidd ymadrodd, nad oedd yn gofyn gwellhad, ac weithiau fod tudalenau cyfain nas gellid eu gwellau, ond y rhaid eu llosgi, ac ysgrifenu rhywbeth newydd yn eu lle. Y mae hyn yn fynych wedi bod yn orchwyl anhyfryd a blinderus—llawer mwy felly na'r ysgrifeniad cyntaf. Ar y cyfan, yr wyf yn credu yn wir fod yr adolygiad a'r ail drefniad yma o'r gwaith wedi costio llawn cymmaint ymdrech meddwl a'r ysgrifeniad gwreiddiol o hono. Ond

Digitized by Google

doethaf a hanoeddynt erioed o'r hil ddynol- syniadau a roddasant awdurdod i drawsarglwyddiaeth y llywodraethau mwyaf drygionus, sydd fyth yn gweithredu yn rymus yn yr un ffordd, hyd yn oed yn y wlad hon. Edrychwch ar Ffrainc, y mae ei holl feddwl a'i dysgyblaeth yn awr yn ddarostyngedig i gyfundrefn o addysg sydd yn gwbl at ewyllys gormesdeyrn: fe ddylai pob peth gael ei wneyd yn mhob gwlad, sydd eto heb ei llwyr waseiddio, er gochel tynged mor druenus, tuag at yr hon yr ydym ni wedi bod, er's blynyddau bellach, yn nesau yn bur gyflym mewn gwirionedd yn y wlad hon. Os nad oes gan 'gefnogwyr' yr *Eclectic Review* obaith y gallant ei 'gefnogi,' heb aberthu y rhyddid a'r ansawdd wrol yma, bydded iddynt roddi eu gorchwyl diddiolch heibio, a chwilier am ereill i gymmeryd gwaith gwir eofn a rhydd mewn llaw, yr hwn a ddylai ddadgan yn ei hysbysleni, mewn geiriau eglur, mai y Beibl yn unig sydd i gael ei ystyried yn gyssegredig, ond dim arall ar y ddaiar—fod pwnc arall o bob natur i gael ei ystyried yn rhydd i'w drafod; a bod pob cynlluniau, sefydliadau, ac ymarferion, megys pethau o awdurdod ddynol yn unig, yn gwbl agored i gael eu trafod a'u chwilio yn ol y rheswm dynol. Gall y 'cefnogwyr' hercian yn mlaen am ennyd eto dan eu baich; ond gallant fod yn sicr, os nad ennillant gymmeradwyaeth galonog yr Ymneillduwyr a meddylwyr annibynol, mai suddo a wnant yn y diwedd; canys gyda golwg ar eu cyfeillion yn yr Eglwys, ni bydd iddynt hwy byth eu helpu heb ryw ymrwymiadau a phrofion mwy sefydlog a phendant o waseidd-dra ac ufudd-dod.

Y fath huttrwydd oedd dechreu peth ar y fath gynllun! Yr oeddynt hwy yn meddwl, yn ddoeth ddigon, fel y tybiaf, y gellid cyfyngu yr holl orchwyl o gadw anmhleidgarwch i ryw ddau neu dri o bynciau noethion, ac y gellid gochel y rhai hyn yn hawdd a didramgwydd. Nis gallent hwy weled y cyrhaeddai y pwnc yma o anmhleidgarwch, o angenrheidrwydd, at ddeng mil o bethau yn ystod ymchwiliad a beirniadaeth gyffredinol: yr ymyrai â phob cyfansoddiad ar hanes, gwladyddiaeth, bywgraffiaeth, cynlluniau llywodraeth, dadleuon gwladyddol ac eglwysig, trefniadau cenadol, addysg, hawliau cydwybod, ac ymchwiliad i bleidiau, mesurau, a rhagolygiadau presennol."

Pan y rhoddodd Foster ei weinidogaeth i fyny yn Frome, yr oedd dan syniad poenus fod ei lafur fel gweinidog Cristionogol wedi ei orphen am byth; ond yn mhen ychydig gyda blwyddyn ar ol priodi, lleihaodd y dolur yn ei wddf i'r fath raddau, fel y caniatawyd iddo lefaru yn gyhoeddus unwaith eto. "Yn ystod yr haf a rhan o'r gwanwyn," eb efe, "yr wyf wedi pregethu bob Sabbath yma ac acw, ac yn gyffredin ddwywaith .........Yr wyf wedi dyfod yn gynnefin â phulpudau, ysgrif-fyrddau, ystolion, boncyffion, a phob math o bethau i gadw lle pulpudau." Mewn llythyr at ei fam yn ddiweddarach, dywed,—"Yr wyf wedi dychwelyd o daith arall i bregethu, o bellder lled fawr, a barhaodd amryw ddyddiau .........Gwelaf wrth fy nyddlyfr fy mod wedi bod yn pregethu er pan ydwyf yma mewn pedwar ar ddeg o fanau; rhai o honynt dair neu bedair milldir o'r pentref hwn, ac amryw cyn belled a deuddeg neu bymtheg milldir. Cynnulleidfaoedd bychain ydyw llawer o'r rhai hyn, ac amryw o honynt yn cynnwys pobl dlodion gan mwyaf. Y mae cael bod yn foddion i wneyd rhyw radd o ddaioni yn foddhad mawr i mi; ac yr wyf yn ei theimlo yn fantais fawr fy mod mewn amgylchiadau i allu pregethu efengyl Duw yn rhad. Y mae y fantais yma yn rhoddi mwy o bwys i addysg grefyddol dyn, yn enwedig mewn rhai lleoedd anwybodus, lle y dysgir y bobl yn ddiwyd gan y clerigwyr, ac ereill o elynion yr Ymneillduwyr, fod genym hunan elw mewn golwg yn ein holl weithrediadau prysur, yn myned o amgylch i bregethu. Yr wyf yn mhob man yn cyfarfod â moesgarwch, ymddygiad gweddus, ac yn fynych yn cael sylw tra charedig."

Chwanegwyd at ddedwyddwch teuluol Foster, oedd eisoes mor lawn o foddhad yn ei brif berthynas, trwy enedigaeth mab iddo, yn Ionawr 1810. Wrth gydnabod llon-gyfarchiadau un o'i gyfeillion ar yr amgylchiad yma, efe a ddywed—"Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am eich holl ddymuniadau daionus a'ch cyfarchiadau cyfeillgar, trwy y rhai yr amlygwch eich caredigrwydd. Yr wyf yn barod i goleddu eich barn, cyn belled ag y mae yn bosibl i mi, mai gwall y rhieni yn ddiau ydyw os na bydd plant yn achos o foddhad iddynt, yn y pen draw, yn hytrach na gofid. Yn yr amgylchiad dan sylw, fe fydd mwy, yn ol pob tebygolrwydd, o ymdrech trefnus, a mwy o gyttundeb cydweithredol i ragflaenu drwg, ac i gyfranu daioni, nag yn y rhan fwyaf o amgylchiadau; a gall hyn fod yn wir, ac heb lawer o ddiolch iddo fod chwaith; canys ymddengys i mi bob amser fod addysg, a'i gymmeryd yn gyffredinol, yn un o'r pethau a drefnir yn fwyaf truenus o ddim ar y ddaiar. Os trydd y cydymaith allan i fod yn un da, nid wyf fi yn gofalu llawer am iddo fod yn rhyw nodedig o gampus. O ddiffyg daioni y mae y byd yn druenus; a phe byddai pawb yn dda, ni byddai eisiau i neb fod yn hynod o alluog. Yr wyf yn barod i obeithio y bydd y byd, erbyn y daw efe yn ddyn, os dygwydd hyny byth, ychydig yn well nag yw yn awr, ac y bydd wedi gwneyd cynnydd amlwg tua'r sefyllfa pan na bydd ond ychydig o eisiau talentau mawrion. Afreidiol, ar yr un pryd, yw dywedyd y byddai yn hyfryd gweled mab yn meddu rhai cymhwysderau i fod yn offeryn yn y cynnydd dedwydd." Wrth ysgrifenu at gyfaill arall, dywed—"Er fy mod i yn hoffach o enethod na bechgyn, eto y mae yn well genyf fod hwn yn fachgen, o blegid y gellir gwneyd bachgen, os tyf i fyny mewn cynneddfau ac egwyddorion da, yn offeryn daioni helaethach na geneth a fyddo yn meddu hyd yn oed yr un cynneddfau ac egwyddorion; ac ymddengys yn rhy debyg y gall yr oes yr ydym ni yn wynebu arni fod yn hynod o arw, ac yn fath fel y gallai caredigrwydd ddymuno braidd na byddo dim ond dynion i ddioddef ei thrychineb."

Yn haf 1812, aeth Foster ar daith i Gymru, yn nghymdeithas Mr. a Mrs. Stokes o Worcester, a dau gyfaill arall. Dywed fod yr hyfrydwch a fwynhaodd wrth syllu ar y golygfeydd mawreddog, yn enwedig yn nghymmydogaeth y Wyddfa, yn angerddol, nes cyrhaedd bron i radd bryddol. "Cymmerwyd y daith yma genyf fi, mewn gwirionedd," medd efe, "yn llawer mwy er mwyn amrywio fy syniadau, a'u cadw yn ystôr yn y darfelydd, nag oddi ar unrhyw ystyriaeth o gael yr hyfrydwch o weled yn unig."

Yn Awst 1815, ymwelodd â Bristol a Frome, yn nghymdeithas Mrs. Foster, lle y cafodd hyfrydwch dirfawr yn nghyfeillach ei hen gyfeillion crefyddol. Tra yr arosai yn Bristol, lle yr oedd Mr. Hall ar ymweliad, cafodd ei glywed yn pregethu amryw weithiau, pan nad oedd wedi ei glywed ond dwywaith neu dair o'r blaen yn pregethu. Tystia na chlywodd erioed, ac nad oedd yn dysgwyl clywed byth eto, tebyg i Hall fel pregethwr. "Yr wyf yn tybied," eb efe, "fod pob dyn o feddwl dan yr argraff, wrth wrando arno, ei fod yn rhagori ar bob pregethwr arall, fe allai, yn yr holl fyd. Y mae y dystawrwydd a'r tawelwch yn rhai o'r cynnulleidfaoedd

Digitized by Google

mawrion, tra y bydd yn pregethu, yn annhraethadwy; a hyny mewn rhan, y mae yn wir, o blegid gwendid ac iselder ei lais, er ei fod ef yn ddyn cryf, corffol; ond yn benaf o blegid awdurdod galluog ei feddwl, yr hwn a ddeil bob meddwl arall yn gaeth tra yn nghyrhaedd ei lais. Nid oes ganddo ddim o arferion cyffredin areithwyr, dim ystumiau gwneuthur, dim coegsiarad, na dim chwydd areithyddol. Ei hyawdledd ef yw nerth galluog yr ysbryd, yn bwrw allan gyfres gyflym o feddyliau eglurhaol, ymresymiadol, dysglaer, teimladol, neu fawreddog—ac weithiau yr holl rai hyn ynghyd. Ac y mae yr holl ddull yn syml, naturiol, difrifol; weithiau yn oer, ond yn fynych yn danllyd ac angerddol. Ymddengys fod ganddo gyflawn awdurdod ar y pwnc a fyddo dan ei sylw, ac ar y pynciau o bob ochr, at y rhai y cyfeiria er eglurhad. Y mae yn meddu yr un gallu godidog yn ei ymddiddanion cyffredin ag yn ei bregethau. Yr hyn sydd oreu yn yr hanes ydyw, fod awdurdod crefydd yn goruwch-lywodraethu pob gallu arall yn ei feddwl."

Tra y bu Foster yn preswylio yn Bourton, cynnyddodd ei deulu i bump o blant, o ba rai y bu dau farw yn eu babandod. Rhydd hanes difyrus ac adeiladol dros ben, yn ei lythyrau at ei fam, o'r modd y treuliodd wyth mlynedd o'i amser yn Bourton, yn ei fyfyrgell, ar ei deithiau i bregethu, a chyda'r plant gartref. Wrth ysgrifenu ar y pwnc olaf yma, dywed—"Mewn goruwch-ystafell (*garret*) yr wyf fi yn darllen, myfyrio, ac ysgrifenu; ac y mae y plant yma yn gwneyd sŵn mawr y munyd yma, wrth redeg yn ol ac yn mlaen i dwymno eu hunain yn y tŷ odanaf. Yr wyf wedi sylwi yn arbenig ar yr effaith wahanol a wna plant pobl ereill ar ddyn, rhagor ei blant ei hunan. Yr oedd pob sŵn a dwndwr plant, yn mhob sefyllfa y bum i o'r blaen ynddi, yn dra anghyfleus i mi, os byddai arnaf eisieu darllen, meddwl, neu ysgrifenu. Ond nid wyf byth yn malio pa faint o drwst a wneir gan y plant hyn, os paid a bod yn yr ystafell lle y byddaf yn gweithio." Yn hyn, fel mewn llawer o bethau mwy pwysig, y mae llawer yn teimlo yn dra gwahanol i Foster: gallant oddef trwst pawb a phob peth, wrth ddarllen, myfyrio, neu ysgrifenu, yn well na dwndwr eu plant eu hunain. Teimlant y bydd ganddynt awdurdod arnynt hwy; ac nis gallant un amser oddef eu trwst hwy pan wrth y gorchwylion crybwylledig. Nis gwyddom a ydyw y gwahaniaeth yma yn hanfodol rhwng dynion o feddyliau anghyffredin a rhai cyffredin, ai peidio. "Pan y byddaf gyda'r plant," medd Foster, "yr wyf yn dueddol i beri iddynt wneyd mwy o sŵn, ac i ymuno â hwy i wneyd y terfysg yn fwy fyth, fel y bydd eu mam yn cwyno weithiau y bydd eisieu ein chwipio gyda'n gilydd. Gyda golwg ar hoffi asbri a bywiogrwydd, nid wyf yn teimlo fy hun fawr hynach nag oeddwn ugain mlynedd yn ol. Yr wyf yn casau pob math o sobrwydd anystwyth, ffurfiol, ac afreidiol; pe amgen, byddwn yn hen ddyn crintachlyd i blant, ac nis gallwn gael cyfeillach rwydd a hyfryd gyda hwy. Rhaid mai drwg mawr i rieni yw difrifoldeb Puritanaidd parhaus gyda'u plant, yn enwedig pan fyddo gwahaniaeth mawr yn eu hoedran, fel sydd rhyngof fi a'r plant. Ond nid wyf fi yn teimlo tuedd at hyn; ac o ganlyniad, nid yw ei ochel yn bwnc o ymdrech neu hunanymwadiad."

Y mae y sylwadau hyn, er y gallant ymddangos ar yr olwg gyntaf wedi eu hysgrifenu ar beth lled ddibwys (pe byddai rhywbeth teuluaidd yn ddibwys), yn agoriad rhagorol i gymmeriad y dyn nodedig hwn: dangosant ei fod yn myfyrio pa fodd i ymddwyn hyd yn oed at ei blant bychain ei hun. Dangosant elfen arall hefyd o'i gymmeriad, o blegid yr hon yr oedd yn cael ei barchu a'i hoffi yn ei holl gyssylltiadau, a'r hon, pe cai lywodraeth gyffredinol ar y byd, a'i gwnai fel hanner nefoedd; sef ei awydd i wneyd pawb, o bob oedran a sefyllfa, yn ddedwydd.

Tua diwedd y flwyddyn 1817, gadawodd Foster Bourton, a daeth i drigo unwaith eto i Downend. Dywed fod y gynnulleidfa erbyn iddo fyned yno y waith hon, ar ol 14 mlynedd o absennoldeb, bron oll yn newydd. Mynega hefyd fod y gwrandawyr yn dra gwahanol o ran eu cymmeriad; canys tra yr oedd nifer bychan o honynt yn dra diwylliedig, yr oedd y nifer mwyaf o lawer yn berffaith werinol; ac un o'r pethau a barodd iddo benderfynu myned yno o gwbl oedd ei awydd i gael prawf pa mor bell yr oedd yn ymarferol a buddiol cyfaddasu pregethau at y cyfryw werinwyr. Ymddengys nad oedd y Seison, o leiaf, hyd yn oed yn mysg Ymneillduwyr yn oes Foster, ddim yn meddwl fod yn "ymarferol" cyfaddasu pregethau at ddynion gwerinaidd, anniwylliedig. Pe buasai Foster yn dyfod i Gymru ar y pryd, ac yn deall iaith ac arferion y werin bobl, cawsai arbed y drafferth o wneyd y "prawf" yr anturiai arno mor bryderus yn Downend. Rhyfedd na buasai efe, yn anad un dyn, yn cofio mai un o brif nodweddau goruchwyliaeth y Gwaredwr ydyw, fod "y tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt."

Pa fodd bynag, fel y mae yn resynus dywedyd, trodd ei "brawf" ef yn Downend allan yn hollol aflwyddiannus; canys yn mhen tua chwe mis ar ol iddo ymsefydlu yn eu plith, ni theimlai un petrusder am y priodoldeb o roddi y sefyllfa i fyny. Symmudwyd ymaith gan angeu neu newidiad preswylfeydd y rhan fwyaf meddylgar a difrifol o'r dosbarth yr ymdrechai efe yn benaf eu llesau; attaliodd ereill eu presennoldeb, gan ddewis dull o bregethu mwy cyfaddas i gynhyrfu y teimladau nag i fagu duwioldeb diwylliedig; ac yr oedd agwedd ddifraw yr ychydig y dygai arfer hwy i'w heisteddleoedd bob Sabbath yn fwy annymunol na'u habsennoldeb, gan y gallesid gobeithio, mewn barn cariad, pe buasent absennol, y gallai eu bod yn derbyn rhyw les mewn lle arall. Yn un o'i lythyrau godidog at y Dr. Bompas, dywed nas gallasai lai na gobeithio fod yn bosibl i ddull naturiol o lefaru, yn gyssylltiedig â sylwadau a chymhwysiadau pwrpasol, heb ddilyn yr arfer ddwl a ffurfiol gyffredin o draddodi gwirioneddau crefyddol, a hyny mewn iaith rymus ac eglur, fod yn effeithiol er tynu sylw hyd yn oed y meddyliau mwyaf anniwylliedig; ond cwyna fod y cynnyg wedi methu mwy yn Downend nag mewn un man arall. Ar yr un pryd, mynega ei benderfyniad o beidio newid ei ddull naturiol o lefaru, am y dull bloeddiog, dadyrddog, oedd yn rhy fynych ynglŷn â phregethiad yr efengyl, bydded y canlyniadau o'i ddull o bregethu y peth y byddont; er y tybiai y gallasai yntau, trwy ymdrech a llafur, gyrhaedd y dull a anghymmeradwyai.

O gylch yr amser yma, gwahoddwyd ef i gymmeryd rhan yn ngŵyl flynyddol Cymdeithas y Beibiau yn Kingswood. Ar ol ymesgusodi o blegid afiechyd corfforol, efe a ddywed,—"Yn awr, godderer i mi awgrymu, mewn ychydig eiriau, mai teimlad llawer iawn o bersonau sydd yn arfer bod yn y cyfarfodydd hyn ydyw, fod ynddynt ormod o lefarwyr, yn hytrach na bychan, a llawer

lawer gormod o duedd yn y rhai fyddant yno i wneuthur areithiau. Yn ol fy marn neu fy chwaeth i—yr hyn a ddichon fod yn cyfranogi o gildynrwydd neu fympwy—ond, yr wyf yn cydnabod fy mod i yn llwyr gasau ac yn ffieiddio yr ysbryd a'r dull sydd ar gynnydd yn y cyfarfodydd hyn. Yn ol yr hyn a welais o honynt, ymddengys i mi eu bod, i raddau mwy nag y maent yn ddim arall, yn arddangosiad o rodres, gweniaith, a choegymddangosiad. Mae dynwarediad gwatwarus ffurfiau a seremonïau y prif gynnulliadau gwladol—y dadwrdd a'r curo dwylaw—y math o ymryson areithio sydd yno, lle yn fynych y bydd yn rhy amlwg mai prif amcan yr areithiwr fydd ymddysgleirio yn foddhaol—a'r holl ganmol eu gilydd atgas a gormodol:—mae yr holl wageddau hyn, a dyweyd y lleiaf, yn rhoddi golygfa goegchwareuol ar yr holl achos (mewn llawer o amgylchiadau, o leiaf yr oeddwn i yn gorfod teimlo felly), a thrwy hyny, yn ol fy marn i, yn ymadael yn warthus a diangenrhaid âg urddas, synwyr, a gwirionedd syml. Fe lawenycha pob dyn da o blegid fod arian yn cael eu codi, a phoblogrwydd yr achos da yn cael ei fwyhau; ond rhaid y galara o herwydd fod yn angenrheidiol, os yw yn angenrheidiol hefyd, i gymmaint o'r moddion i wneuthur y daioni hwn gael ei dreulio gan ddynion i chwyddo gwag ogoniant eu gilydd, ac i droi pethau pwysig yn goegarddangosiadau."

Ymddengys, oddi wrth ei lythyrau at ei gyfeillion tua'r pryd hyn, y buasai yn hoffi ymryddhau oddi wrth y llafur o feirniadaeth gyfnodol, ac ymroddi i barotoi cyfansoddiadau o ddyddordeb parhaus ac annibynol. Ond yr oedd ei wrthwynebiad i'r gorchwyl o ysgrifenu—heb sôn am yr ymroddiad meddyliol oedd yn angenrheidiol—yn rhoddi achos teg i'w gyfeillion ofni am ei lwyddiant. Y ddau gyfansoddiad a ddilynasant y Traethodau (*Essays*), ar ol cymmaint o oediad, a ddygwyd allan mewn canlyniad i'w gyfeillion ddymuno arno amddiffyn dau sefydliad cyhoeddus o'r pulpud. Ei ddarlith ar Genadaethau (*Missions*) a draddodwyd yn Medi, 1818; a'i bregeth ar ran Cymdeithas yr Ysgol Frytanaidd a Thramor (yr hon a helaethodd efe er gwneyd y traethawd ar *The Evils of Popular Ignorance*) yn y Tachwedd canlynol. Cyhoeddwyd y gwaith olaf yn 1820; ac ymddengys oddi wrth ei lythyr at Mr. Hughes—er yr holl lafur a roddodd ar y cyfansoddiad er ei wneyd yn ddiwall—mai talu yn ddigon gwael a wnaeth iddo. "Yr wyf yn gwarantu i chwi," medd efe wrth Mr. Hughes, "fod yn llawer haws arfer tôn wenieithgar, a dywedyd, 'Pa ham nad ysgrifenwch?'—'Byddai yn dda genym eich gweled yn amlach drwy y wasg?'—'Pa fodd y gellwch dawelu eich cydwybod heb wneyd mwy er lles y cyhoedd?'—a sothach fel hyn, yn llawer haws nag ymadael âg ychydig o sylltau pan fyddo un *wedi* gwneuthur rhywbeth o'r fath. Eto y mae llawer un wedi credu ei fod yn gweinyddu y llwyeidiau melusaf i'm hunan i trwy druthio yn y dull rhagrithiol yma. Yr wyf yn llawer rhy foesgar i'w hatteb trwy ofyn, 'A ddarfu ichwi *brynu* yr hyn a gyhoeddais ychydig amser yn ol?' Mewn gwirionedd, byddaf yn gadael iddynt deimlo y mwynhad dyblyg o gredu eu bod wedi fy nhwyllo *i*, ac o wybod eu bod wedi *cadw eu harian*."

Pa fodd bynag, canfyddir ei fod yn brysur wrth y gwaith o wellhau yr *Essay on the Evils of Popular Ignorance* at ail argraffiad, cyn pen blwyddyn a hanner ar ol cyhoeddi yr argraffiad cyntaf—llafur y cwyna yn dost o'i blegid, am fod mor gas ganddo ysgrifenu. Mae yn rhyfedd, braidd, fod rhyw wrthwynebiad atgas at ysgrifenu yn mhrif ddynion yr oes ddiweddaf; megys Adam Smith, Coleridge, Hall, a Foster. Ymddengys fod archwaeth yr oes hon yn gwbl wahanol; megys y ceir esamplau yn Hamilton, De Quincy, Macauley, Lytton, ac ereill.

Yn Hydref, 1821, symmudodd Foster o Downend i Stapleton, o fewn tair milltir i Bristol. Yr oedd ganddo wrthwynebiad pendant i breswylio yn y ddinas—mewn rhan o blegid ei iechyd, ac mewn rhan er mwyn osgoi ymwelwyr segur yn y boreu.

Yn y flwyddyn ganlynol, cydsyniodd â chais ei gyfeillion yn Bristol i draddodi darlith unwaith bob pythefnos yn Broadmead Chapel. Yr oeddynt wedi trefnu hyn, fel ag i ochel bod ar ffordd y gwasanaeth mewn lleoedd ereill o addoliad hyd yr oedd yn bosibl; trwy yr hyn y ffurfiwyd cynnulleidfa—yr hon, er nad oedd yn lliosog, a gynnwysai fwy, mewn cyfartaledd, o bobl feddylgar a diwylliedig, nag un gynnulleidfa arall yn y dref. Yr oedd yn barotach i dderbyn y cynnyg yma, am ei fod yn bwriadu eisoes cyhoeddi cyfrol o ddarlithiau cyn gynted ag y gallai eu parotoi. "Os gallaf ddwyn fy hun rywbryd at y gorchwyl o ysgrifenu unwaith eto," eb efe wrth Mr. Hughes, Ebrill 27ain, 1821, "yr wyf yn meddwl mai y cynnyg nesaf fydd cyfrol o ddarlithiau, neu o bregethau wedi eu troi yn draethodau, o blegid na wnaethum ddim o bwys yn y pulpud er's cyhyd o amser."

Yn mhen dwy flynedd wedi hyny, canfu Mr. Foster na chaniatäai ei iechyd iddo draddodi ond un ddarlith yn y mis yn unig. Pan ymsefydlodd Mr. Hall yn Bristol, penderfynodd Foster roddi darlithio yno i fyny fel peth afreidiol, ac yn ymylu ar fod yn ymyrgar.

Y gorchwyl nesaf a gymmerodd mewn llaw, heb sôn am ei gyfansoddiadau i'r *Eclectic Review*, oedd ei arweiniad i *Rise and Progress of Religion*, gan Doddridge; ac ystyrir hwnw yn un o'r pethau goreu a ysgrifenodd o ran buddioldeb crefyddol.

Yn ystod ei arosiad yn Downend, dechreuodd iechyd Mrs. Foster fyned yn ansefydlog, a hyny i'r fath raddau, ar amserau, fel yr ofnid yn fawr am y canlyniad. Yr oedd cyfansoddiad Foster ei hun hefyd wedi ei niweidio trwy ormod o fyfyrdod ac ymroddiad.

Ar ol iddo symmud i Stapleton, bu farw ei unig fab, John, o'r darfodedigaeth; yr hwn y tystia ei athrawon ei fod yn fachgen o gynneddfau cryfion, a dealltwriaeth bywiog a goleu, ond ei fod o dymmer hynod o dawel a dystaw. Wrth ysgrifenu at Mr. Hill, golygydd yr *Eclectic Review*, dywed Foster, mewn tôn alarus:—"Lleiheir fy awydd i gasglu llyfrau gwerthfawr i'r ystafell yma yn fawr bellach, ar ol diffoddiad fy rhagobeithion iddynt fod ar ol hyn yn ffynnonell hyfforddiad a boddhad iddo ef. Nid oes arno eisieu y fath foddion gwybodaeth yn awr. A pha faint o bethau a ŵyr efe erbyn hyn, y rhai nas gall unrhyw lyfrau eu mynegu! Crybwyllodd yn ddiweddar yn ei afiechyd, mai un amgylchiad hyfryd yn y byd goruchel sydd i ddyfod ydyw, y tywyna gwybodaeth i'r enaid yn y byd hwnw heb y llafur arafaidd o ymdrechu ei chael." Y mae ei lythyrau yn ateb i gydymdeimlad ei amryw gyfeillion ar yr achlysur galarus o farwolaeth ei unig fab, yn arddangosiad o fawreddogrwydd meddwl, ymroddiad, a duwioldeb tra anghyffredin, heb sôn am odidogrwydd

Digitized by Google

eu cynnwysiad a'u cyfansoddiad: ond ni chaniatâ ein gofod i ni ddyfynu un o honynt.

Mae yn amlwg wrth gyfansoddiad meddwl ac arferion Foster, mai sylwedydd craffus a meddylgar oedd efe ar ddyn a'i gymmeriad, yn hytrach nag ymdrechydd egnïol mewn amgylchiadau a dygwyddiadau. Yr oedd pob ffurfiau a defodau yn atgas yn ei olwg; ac y mae yn hawdd credu "na theimlodd efe erioed yr awydd lleiaf i wneyd ymchwiliad i amgylchiadau swyddol cymdeithasau a phwyllgorau." Er hyny, ar un amgylchiad pwysig, ni theimlai yn foddlawn i sefyll "yn edrychydd," heb wneyd egni mawr o blaid yr hyn a ystyriai yn achos teilwng, pan y gwelodd ef yn cael ei adael mewn perygl a gwarth. "Yr wyf yn ofni," eb efe wrth gyfaill yn 1826, "y bydd raid i ni, y Bedyddwyr rhyddfrydig, fyned i rywbeth tebyg i ryfel gyda golwg ar faterion perthynol i Serampore." Mae yn amlwg mai cyfeiriad sydd yma at yr anghydfod a fagodd ar ol marwolaeth Fuller (1815), rhwng cenadon Serampore (sef Carey, Marshman, a Ward), a phwyllgor Cymdeithas Genadol y Bedyddwyr, y rhai a weithredasant dros ryw ysbaid fel dau gorff gwahanol. Ni chymmerodd Foster un dyddordeb neillduol yn yr amgylchiad, nes y dychwelodd Dr. Marshman i Brydain, yn 1826. Cyn hyny, fel y cyfaddefa ei hun, yn onest, yr oedd efe yn cyfranogi o'r rhagfarn a dyfai yn raddol yn erbyn yr aelod o frawdoliaeth Serampore, yr hwn o'r diwedd a beryglodd yr holl undeb. Ond argyhoeddwyd ef gan y mynegiadau a'r egluriadau a wnaed gan Dr. Marshman, fod y rhagfarnau hyny, gan mwyaf, wedi eu seilio yn hollol ar gamddarluniadau noethion. Wedi i Foster gael yr argyhoeddiad yma, ar ol ymchwiliad manwl a diduedd i'r pwnc, heb law ysgrifenu arweiniad o 70 td. i *Fynegiad* (*Statement*) Dr. Marshman, aeth i ohebiaeth eang ar y pwnc, er mwyn cywiro camsyniadau, neu i erfyn cynnorthwy arianol. Parhaodd Foster i bleidio brawdoliaeth Serampore hyd 1837, pan y cymmerodd ail undeb le, braidd yn erbyn ewyllys Foster, â Chymdeithas Genadol y Bedyddwyr, yr hyn a'i rhyddhaodd oddi wrth ddirfawr lafur a choll amser.

Gwnaed chwanegiad mawr at fwynhad cymdeithasol Mr. Foster gan ymsefydliad y Parch. W. Anderson yn Bristol, fel athraw uchawdurol a gwyddonol i Goleg y Bedyddwyr, yn 1825; ac yn fuan ar ol hyny, gan ddychweliad Mr. Hall i dreulio ei flyneddoedd olaf yn ardal ei weinidogaeth foreuol. Er fod Hall ac yntau yn gwahaniaethu gyda golwg ar amgylchiad Serampore, er hyny cyfeillachent yn fynych ac yn gynhes â'u gilydd; a buasai eu cyfeillachau yn llawer amlach oni buasai sefyllfa iechyd Mr. Foster, a'i bellder o'r dref. Pan y bu farw Mr. Hall, ni theimlodd neb y golled anadferadwy hono yn ddwysach na'i gyfaill Foster. "Yr oedd ei golli," eb efe, "yn creu teimlad o amddifadrwydd, yn ymylu ar anobaith. Ni ddiflana y cof am dano byth o feddyliau y rhai a'i clywsant yn pregethu ac yn ymddyddan, yn ystod y pum mlynedd y bu yn preswylio yma." Penderfynwyd i Foster draddodi pregeth angladdol ar ei ol; ond lluddiwyd ef i wneyd hyny gan afiechyd: ond gwnaeth y diffyg i fyny yn odidog yn ei draethawd a elwir *Observations on Mr. Hall as a Preacher*.

Yn 1829, gwahoddwyd Mr. Foster i gymmeryd rhan mewn ordeiniad gweinidog ar y gynnulleidfa yn Swift's Alley, yn Dublin. Y mae ei atebiad yn arwyddo fod ei wrthwynebrwydd at bob ffurfiau a defodau mewn crefydd yn cryfhau fel yr oedd yntau yn cynnyddu mewn oedran."

"Yn ateb i'ch cais," eb efe, "tra yr wyf yn teimlo eich bod yn dra charedig, ac yn cynnyg i mi fwy o anrhydedd nag a allaf hòni, dymunaf adrodd i chwi hanesyn syml; sef, fy mod i wedi bod bron ar hyd fy oes, ac yn fwy felly yn y rhan olaf o honi, yn arfer gwawdio ein hordeiniad Ymneillduol ni, fel gweddill o'r arch-lywodraeth eglwysig; yr hon yr wyf fi bob amser yn ei chasau yn angerddol, fel dynwarediad tlawd yn ein plith ni, y rhai nad oes genym sefydliad eglwysig, o seremoni yr honir ei bod yn meddu pob priodoldeb a chyssondeb mewn eglwys sefydledig. Mae yn dwyn ymddangosiad—ac, er y cydnabyddir hyn yn ochelgar, ei fod yn gwneuthur, ac y deallir ei fod yn gwneuthur, math o hòniad—ei fod yn cyflwyno rhyw fath o addasrwydd, cymhwysder, ac awdurdod *neillduol*, i gyflawni dyledswyddau gweinidog Cristionogol. Y mae yn cynnwys syniad fod y seremoni yn creu rhywbeth mwy, a rhywbeth mwy effeithiol a chyssegredig, yn y berthynas rhyngddo ef â'r bobl, nag a allai fod mewn cytundeb pwyllog ac ystyriol rhyngddynt hwy i dderbyn eu gilydd i'r berthynas hono. Yn awr, fy nymuniad i ydyw, ar fod i bob syniad ac ymarferiad o'r natur yma—yn fyr, *pob peth offeiriadol* (*sacerdotal*) *a seremonïol—gael ei garthu allan o'n trefn grefyddol*. Mae y difrifwch ordeiniadol hwn, sydd yn cyfranogi i gryn raddau o weddillion ofergoeledd, wedi myned yn ddiweddar braidd yn ddigrifol, o blegid fod yr appwyntiad cyssegredig tybiadol hwn yn cael ei ddattod mor rwydd ac mor fynych, mewn cymhariaeth i'r amser gynt; ac yna ymaith yr aiff, neu ymaith y gyrir y gweinidog a'r bugail, a crdeiniwyd mor ddifrifol, i chwilio am rywle arall erbyn yr amser a ddaw. Wrth ddywedyd hyn oll, dymunwn i chwi beidio meddwl fy mod yn edrych ar y peth yn rhyw bwnc pwysig iawn, fel pe bawn yn tybied fod y cerpyn yma o arch-swyddogaeth eglwysig *wedi ei heintio â'r pla*, a'i fod yn alluog i wneyd rhyw ddrygau dychrynllyd i'n cyfansoddiad crefyddol. Meddwl yr wyf yn unig y byddai yn fwy cydweddol â synwyr cyffredin, ac â symlrwydd crefyddol, proffes yr Ymneillduwyr, ymadael â'r fath wag seremoni. Yr wyf fi wedi gweithredu ynol y farn neu y syniad yma. Mewn dau fan lle y bûm i yn dal gweinidogaeth sefydlog, gwrthodais, heb ond ychydig iawn o wrthwynebiad ar ran y bobl, bob appwyntiad ffurfiol o'r fath. Yr wyf yn gwybod am amryw ereill wedi gwneyd yn gyffelyb. Ni ordeiniwyd erioed mo Mr. Hall, na Mr. Jay o Bath, fel y clywais.[1] Ond pa un bynag ai cywir ai anghywir ydwyf fi yn y fath farn neu syniad—neu galwch ef yn fympwy, neu ragfarn—bydd yn amlwg i chwi a Mr. Cross, ar ol y fath eglurhad, y byddai yn hollol anghysson—braidd yn ddigrifol felly—i mi gymmeryd un rhan mewn ordeiniad, a rhoddi lle i ddywedyd am danaf fy mod hyd yn oed wedi 'cymmeryd mordaith,' 'ac wedi myned dros y môr,' i weinyddu yn y fath orchwyl."

Wrth ysgrifenu at ei fam ar bwnc cyffelyb, dywed: —"Yr wyf yn pregethu yn wastad, yn y naill fan neu'r llall; a byddai yma ddigon o waith mewn cylch bychan o amgylch y lle hwn i un neu ddau o'r fath yn chwaneg. Mi a ddymunwn yn fawr pe byddai llawer mwy o ddynion call ac addysgedig yn ein cymdeithasau yn cael eu defnyddio yn y gorchwyl buddiol o bregethu, heb fod o'r hyn a elwir y dosbarth rheolaidd o bregethwyr."

Yr oedd Mr. Foster yn dra selog o blaid rhyddfreiniad y Pabyddion; ac wedi hyny, yn 1831, o blaid ysgrif y Diwygiad Seneddol; fel yn wir yr oedd dros bob peth a ystyriai efe yn

[1] Yn ateb i hyn, dywed Mr. Jay o Bath fod yr hyn a glywodd Mr. Foster am dano ef yn ddisail—ei fod wedi ei ordeinio; ond mai gwir ydyw na ordeiniwyd Mr. Hall erioed.

Digitized by Google

ddiwygiad; ac ysgrifenodd lawer, ar y pryd, dros y naill a'r llall. Yr oedd efe, fel llawer un arall y pryd hyny, yn gobeithio y buasai y fath fwyafrif mawr a phenderfynol oedd o blaid y Diwygiad, yn yr etholiad cyffredinol, yn ddyrnod marwol i Doryaeth yn y wlad hon; ond canfu yn fuan (fel y dadgana yn fynych yn ei lythyrau ar ol hyny) nad oedd sail digonol i'w obeithion; a mynega y rhaid i'r wlad hon fyned trwy lawer o gyfnewidiadau mawrion a phwysig eto cyn y caiff hawliau dyn ac egwyddorion gwir ryddid y llywodraeth a ddylent gael yn Mhrydain.

Yn 1832, gwaethygodd iechyd Mrs. Foster yn fawr, ar ol bod am gryn ysbaid cyn hyny yn dra ansefydlog. Yr oedd efe yn dywedyd mai iddi hi yr oedd yn ddyledus am yr holl gysur teuluaidd a fwynhaodd yn ddidor yn ei chyfeillach am yn agos i chwarter canrif, yn gystal ag am y cynnydd meddyliol mawr a gyrhaeddodd yn ystod yr amser hwnw. Tystiai yn wastad nad adnabu efe neb yn gyfartal iddi o ran nerth a chywirdeb meddyliol, yn gystal ag amgyffrediad dwfn a choeth; ac yr oedd ei bryder yn y rhagolwg prudd-aidd o'i cholli yn angerddol tu hwnt i ddisgrifiad. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1832, ymddangosodd arwyddion amlwg yn ei hafiechyd, yr hwn oedd wedi bod hyd hyny yn anmhenderfynol, ei bod yn llithro i'r darfodedigaeth; a bu farw Medi y 9fed o'r flwyddyn hono. Nis gall ymroddiad pwyllog a duwiol y dyn mawr hwn yn ngwyneb y fath amgylchiad alaethus, fel yr ymddengys yn ei amryw lythyrau godidog ar y pwngc, lai na synu, yn gystal a boddhau, pob dyn ystyriol. Nodwn un esampl fer o'r ymroddiad mawreddog dan sylw. "Ië," ebe fe, yn un o'i lythyrau at Mr. Hill ar yr amgylchiad galarus—"Ië, *Efe* a gymmerodd ymaith yr hyn a roddodd *Efe* i mi, a'r hyn oedd mor anwyl ac mor werthfawr i mi; ac ni ddymunwn i, a chredaf nad ydwyf, yn gwrthryfela yn erbyn ei oruchwyliaeth Ef. Ni ddymunwn hyd yn oed na gofidio na chwyno uwch ben yr hyn y bydd yn unol â'i ewyllys drugarog a thosturiol ef ei gymmeradwyo. Mi a ddylwn, ac a ddymunwn, fod yn ddiolchgar iddo ef am ganiatau y mwynhad o honi i mi mor hir. Yn sicr, nid ewyllysiai un o honom, pe *gellid* gwneud y fath eithriad yn y ddeddf dragwyddol, ail alw yn ol ein hanwyl gyfeillion ymadawedig o'r oruchafiaeth a feddant ar bechod, a gofid, a marwolaeth, i'r hon y dyrchafwyd hwynt. Pa mor fawr bynag ydyw ein hamddifadrwydd ni, mor annhraethol fwy ydyw eu cynnydd hwy yn ngraddolaeth eu hanfod! Ië, byddem yn annheilwng o gael ein caru ganddynt, fel yr hyderaf ein bod yn cael hyd yn oed yr awr hon, pe gallem goleddu y fath ddymuniad am foment."

Yn haf 1833, aeth Mr. Foster ar daith yr ail waith i Ogledd Cymru; ond cyn myned, yr oedd wedi goddef colled ofidus arall, trwy farwolaeth Mr. Anderson, â'r hwn yr oedd wedi ffurfio y cyfeillgarwch anwylaf, er na bu ond byr; ac i alluoedd a chymmeriad yr hwn yr oedd ganddo y parch mwyaf. Yr oedd Mr. Stokes, ei gydymaith yn y wibdaith i Gymru, wedi dymuno arno ysgrifenu hanes y daith. Yn ateb i'r cais hwn, dywed yntau fod ei feddyliau, hyd yn oed pan ar y dramp ddifyrus, ac yn nghanol y golygfeydd Cymreig mawreddog, yn gwibio mor fynych at ei anwyliaid (gan feddwl ei wraig a'i gyfeillion ymadawedig) i ororau mor bell ac annhraethol mwy mawreddog na hyd yn oed mynyddoedd cribog Cymru, fel nas gallai mewn un modd wneud dim i bwrpas ar y wibdaith hyfryd hono. "Credaf," ebe fe, "nad oedd yn llai dyddorol i mi, wrth glywed fy meddwl yn sibrwd yn aml, yn nghanol y golygfeydd ardderchog, 'Ni welaf fi y pethau godidog hyn mwyach.' Yr oedd syniad athrist arall yn llenwi fy meddwl yn fynych wrth feddwl dychwelyd adref—nad oedd *mwyach yn gartref* yn yr un ystyr ag yr oedd wedi bod ar fy nychweliad o wibdeithiau yn y blynyddoedd gynt. Os nad oeddwn i weled y gwrthddrychau dyddorol hyn a welais ar fy nhaith byth mwyach, nid oeddwn chwaith i weled y person anwyl a fyddai bob amser o'r blaen yn fy nerbyn adref mor serchog a chroesawgar. Yr oedd hi wedi myned i weled golygfeydd—pa mor ddirfawr wahanol i bob peth y buom ni yn syllu arnynt! Ond yr ydym ninnau hefyd, anwyl gyfaill, yn prysur fyned ar y ffordd yn yr un daith, tua'r un ardaloedd dirgeledig. Pa mor annhraethol wahanol ydyw natur a graddau y cynnhyrfiad, y syndod, a'r rhyfeddod sydd yn ein disgwyl yno, i bob peth a deimlasom erioed wrth syllu ar y golygfeydd daearol hyn!" Er mor ymroddgar y dymunai Foster fod i ewyllys y Brenin Mawr, ac er mor nerthol, philosophaidd, a duwiol oedd ei feddwl, eto y mae yn hawdd canfod, wrth dòn ei holl lythyrau, ac amryw o'i ysgrifeniadau ereill, byth ar ol hyn, y byddai marwolaeth ei anwyl wraig dduwiol a thalentog yn ymruthro i'w feddwl megys yn ddirybudd, yn mha le bynag y byddai, a pha orchwyl bynag a gyflawnai. Y mae ei ddarluniadau bywiog, grymus, a mawreddog, a gallwn ddywedyd aruthrol, o'r teimladau hyn, yn demtasiwn gref i ddyfynu yn helaeth o honynt; ond rhaid ymattal.

Yn ebrwydd ar ol dychweliad Mr. Foster o Gymru, derbyniodd y newydd galarus ei fod ar fin cael ei amddifadu o gyfaill—meddwl am golli yr hwn a effeithiai yn ddyfnach ar ei feddwl na dim a gyfarfu, ond yr un golled fawr a nodwyd eisoes, yr hwn nis gadawodd ef byth, hyd yn oed yn ei fynydau mwyaf siriol a chymdeithasgar. Yr oedd ansawdd meddwl y dyn hwn mor wahanol i ddyn cyffredin—mor ddwfn, mor dduwiolfrydig, mor ffyddlawn a dihoced, mor ddidoledig, mor aruthrol alluog, ac mor angerddol ymlyngar wrth y cyfeillion dethol edig a garai, fel nas gall dyn cyffredin amgyffred angerddoldeb ei deimladau a'i syniadau pan y collai hwynt. Efe ei hun yn unig a all roddi rhyw awgrym i ni o'u maint a'u natur. "Y mae ein hen gyfaill ardderchocaf Hughes," medd efe wrth Mr. Coles, "yn sefyllian (*lingering*) fyth ar fin y terfyn:—a chyda'r fath ragolygon bendigedig! Derbyniais genadwri heddyw a drosglwyddwyd mewn nodyn oddi wrth ei fab at Mr. Cottle, yn dymuno cael clywed oddi wrthyf unwaith eto—yr amlygiad olaf o gyfeillach deugain mlynedd. Ysgrifenaf ato y waith hon, i ganu yn iach iddo am y tro olaf yn y byd hwn, gyda theimladau mor brudd-aidd ag nas gallaf eu darlunio ond gyda hyfrydwch mor angerddol wrth feddwl am ei fuchedd a aeth heibio, yn gystal ag am y rhagolygon dedwydd sydd o'i flaen. Y mae wedi bod yn hynod o ffyddlawn yn ngwasanaeth ei Arglwydd. Mor ryfeddol yw meddwl am yr hyn y mae ein cyfeillion gwerthfawr, y naill ar ol y llall, wedi myned ac yn myned i'w weled! Ac O! beth yw yr olygfa hono, y dull hwnw, yr hyfrydwch hwnw o hanfod, a feddiennir yn awr gan rai o honynt, ac nad oes ond ychydig wythnosau o bellaf rhwng ein cyfaill godidog hwn a bod yn eu mwynhau? Y fath attyniad bywiog, neillduol, a nerthol i ni i'r byd arall yw meddwl fod yno gynnifer o rai

Digitized by Google

a garwn ac a werthfawrogwn wedi myned mor ddiweddar !"

Llyncodd dadl Serampore, yn nghyd â'r dygwyddiadau prudda dd a nodwyd, a rhai ereill cyffelyb, feddwl Mr. Foster mor llwyr, fel y bu am yn agos i naw mlynedd heb barotoi dim i'r wasg, heb law y sylwadau ar Mr. Hall fel pregethwr, ac argraffiad newydd (y nawfed) o'r Traethodau (*Essays*), wedi eu hadolygu yn fanwl ganddo, am y tro diweddaf, ar annogaeth Mr. Anderson—"y cyfaill llenyddol craffus" y cyfeiria ato yn y rhagymadrodd; heb law dau lythyr ar yr Eglwys a'r Egwyddor Wirfoddol, y rhai a ymddangosasant yn y *Morning Chronicle*, Hydref yr 2il a'r 3ydd, 1834; a phump o lythyrau ar y Tugel (*Ballot*), at olygydd yr un newyddiadur, yn 1835.

Pan symmudwyd yr *Eclectic Review*, yn 1837, i ddwylaw golygydd arall, caniataodd Foster i'w enw sefyll ar restr y gohebwyr, ond heb ymrwymo i ysgrifenu mwy nag ambell erthygl yn achlysurol.

O gylch yr amser yma, bu farw ei unig frawd, yr hwn oedd ieuangach nag ef o rai blynyddoedd. Hefyd, bu farw Mr. Fawcett (mab y Dr. Fawcett, ei hen athraw), "cyfaill fy ieuenctid," medd efe, "o gylch yr un oedran a mi fy hun, yr hwn oedd yn ddyn anwyl a gwerthfawr." Ail agorodd y digwyddiadau galarus hyn ei holl adgofion pruddaidd am ei anwyl wraig, a'i gyfeillion mynwesol ereill; ac y mae y ffrwd o feddyliau dyfnion a mawreddog a ail dywalltwyd yn nghylch y byd arall, ei olygfeydd rhyfedd ac annirnadwy, a'n hagosrwydd ninnau iddo, yn ddigon braidd i lethu meddwl ystyriol, a lled egwan, wrth eu darllen.

Terfynodd Mr. Foster ei lafur llenyddol âg erthygl ar *Polack's New Zealand*, a ymddangosodd yn yr *Eclectic Review* am Gorphenaf, 1839 Mewn llythyr at Mr. Greaves, yn Ebrill, 1840, â'r hwn, tra yr arosai yn Brearley, yr oedd Foster yn dal perthynas ddyblyg o gyfaill a dysgybl, y mae yn adolygu amgylchiadau eu hadnabyddiaeth foreuol, a'u llwybrau yn y byd yn eu hoes wedi hyny. Y mae y llythyr hwn yn faith, ac, fel ei holl lythyrau, yn dra dyddorol. Mae yn dechreu fel hyn:—"Y fath yspaid o amser ydyw i edrych yn ol drosto!—agos i hanner canrif! Mor bell y mae y gofalon ieuengaidd hyny, y golygfeydd cyfeillgar hyny, yr ymddiddanion cymdeithasgar hyny, yr anturiaethau bychain hyny, wedi cilio yn ol! Cynnifer o'r rhai y cyfeillachasom â hwy yn wastadol ac yn achlysurol sydd wedi diflanu o'r byd! Mor wahanol ydym ni ein hunain yn awr i'r hyn oeddym y pryd hyny! Ac yna, yr adfeddwl, yr hwn nid ydyw yn fwy annyddorol a nodedig am ei fod bron yn rhy eglur i'w roddi mewn geiriau, nad all yr holl bethau hyn byth ddychwelyd mwy!"............... Bu farw y cyfaill hawddgar hwn i Mr. Foster yn yr un wythnos ag y bu yntau ei hun farw. Yr oedd Mr. Greaves, medd Foster, "yn ddyn nodedig o garuaidd, yn llawn caredigrwydd a chydymdeimlad at angenion a theimladau rhai ereill. Yr oedd ei galon wedi ei ffurfio at gyfeillgarwch, ac yr oedd ganddo ddirnadaeth gyflym a chraffus am yr hyn oedd briodol yn ymddygiad ac amryw berthynasau bywyd dyn. Yr oedd ei archwaeth wedi ei ffurfio yn ol y cynlluniau goreu; ac er nad ydoedd yn awdwr ei hun, yr oedd yn barod bob amser i wneud pob math o gymmwynasau defnyddiol i'w holl gyfeillion llenyddol.

Yn haf 1840, ymwelodd Mr. Foster â'i gyfeillion yn Bourton—â'r rhai yr oedd yn gydnabyddus er's mwy nag ugain mlynedd; a chwyna yn brudd, mewn llythyr at Mr. Hill, mor ychydig oedd o'i hen gyfeillion yn aros, ac mor wahanol oedd ymddangosiad yr ychydig hyny!

Pan ddychwelodd i Stapleton, ar ol hir oedi, rhag mor gas ganddo y gorchwyl, ymosododd ar drefnu ei lyfrgell, "yr hon oedd wedi ei heintio," medd efe, "gan lwch, tawch, a llyfr-wyfynod, ac yn dryblith o sothach ac ychydig bethau gwerthfawr, wedi eu cydbentyru yn un gymmysgfa annosbarthus." Yr oedd pob cynnorthwy yn cael ei roddi i Mr. Foster, a oddefai efe, yn hyn o orchwyl blinderus ac annymunol ganddo: er hyny, effeithiodd yr ymdrech, yn nghyd â myllder y tywydd arno, fel y gorfodwyd ef, ar ol gorphen y gorchwyl, i gymmeryd cyfferi meddygol. Cynyddodd y trymder clafychlyd a deimlai er's dau neu dri mis yn ol, nes y daeth yn dra blinderus; a pharai fwy o ofn i'w gyfeillion, o herwydd nad oedd erioed o'r blaen wedi teimlo ond ychydig o boen yn ei ben—yr hyn oedd yn hynod braidd mewn dyn mor ymroddgar i lafur llenyddol.

Yn lled fuan ar ol ei ddychweliad adref, derbyniodd y newydd annysgwyliadwy o farwolaeth ei gyfaill gwerthfawr, y Parch. Thomas Coles; yr hyn, fel pob amgylchiad o'r fath, a effeithiodd yn ddwys ar ei feddwl, fel y traetha yn ddifrifddwys, yn ol ei arfer, mewn llythyr nerthol at Dr. Stenson.

Yn haf 1841, treuliodd Mr. Foster amryw wythnosau gyda Mr. (wedi hyny, Syr John) Easthope a'i deulu: treuliwyd rhan o'r amser yn Ynys Wyth (*Isle of Wight*). Dyma y tro olaf yr ymwelodd â Llundain. Yr oedd wedi bod yno am rai wythnosau yn ngwanwyn a haf 1836, yn nhŷ yr un cyfaill, lle y cafodd garedigrwydd mawr gan bob aelod o'r teulu. Treuliodd lawer o'i amser ar y ddau amgylchiad i sylwi ar wahanol orchwylion celfyddyd yn yr Amgueddfa Brydeinig, a manau ereill.

Tua diwedd Rhagfyr yr un flwyddyn, cafodd ymosodiad o'r *bronchitis*—"ymweliad tra rhyfedd," eb efe, "i ddyn na chyfyngwyd i'w wely am un diwrnod dros ddeng mlynedd a deugain." Bu raid iddo aros yn ei ystafell am yn agos i ddau fis. Dangosodd yr amynedd mwyaf ar hyd yr amser; a dengys ei lythyrau, y rhai a ysgrifenodd pan ddaeth yn alluog, pa mor awyddus oedd i gael llesad ysbrydol oddi wrth yr ymweliad. "Yr wyf yn gobeithio," medd efe, mewn llythyr at Mr. Hill, Chwefror, 1842, "na bu y tymmor yma o garchariad heb fod o wir lesad i mi gyda golwg ar yr achos mwyaf pwysig oll. Dygodd gydag ef lawer adfeddwl dwys, difrifol, a phoenus. Y mae adolygu y bywyd wedi bod yn dra difrifol i mi—y fath ddiffyg dirfawr o *fywyd* crefydd, o ysbryd ymroddiadol, o gariad, o zêl, ac o ffyddlondeb cydwybodol. Yr wyf yn gwir synu pa fodd y gallaswn—ni ddywedaf, fod yn *foddlawn* ar y fath dduwioldeb isel, a bron ammheus, canys *ni* bûm erioed yn *foddlawn* arni—ond pa fodd y gallaswn ei *goddef*, heb i'm holl enaid gyfodi yn ei herbyn, a galw yn angerddol ar y Cynnorthwywr Hollalluog i ddyfod i'm gwaredu, ac heb roddi i fyny byth nes cyrhaedd y sicrwydd bendigedig o gadwedigaeth. Ac heb law hyny, y llwyth difrifol o euogrwydd sydd wedi ymdyru; a'r dyfodol arswydlawn! a'r bywyd mor agos i'w derfyn! O! y fath anobaith tywyll oni buasai y goleuni bendigedig hwnw a dywyna oddi wrth Dywysog y Bywyd—yr unig Waredwr Hollalluog oddi wrth yr ail farwolaeth! Yr wyf yn gweddïo yn daer am wir edifeirwch a ffydd

Digitized by Google

fywiol ynddo Ef. Gweddïwch drosof! Fel hyn, yr wyf yn gobeithio fod y profiad yma o ball iechyd corff wedi cael effaith ddymunol ar iechyd yr *enaid*. Nid wyf yn meddwl dywedyd fod yr ymarferion meddyliol hyn yn bethau newyddion, a ddygwyd o amgylch gan yr ymweliad yma; ond y maent ar gynnydd mawr yn yr adeg ddiweddar hon, pan y mae y bywyd ar encil. Y mae genyf achos neillduol i ddiolch yn wresog am bob peth sydd yn eu grymuso ac yn eu mwyhau. Mae gwaith mawr eto i'w wneuthur yn yr enaid annheilwng hwn: ar gynnorthwy dwyfol yn unig y mae fy holl ymorphwysiad; ac yr wyf yn gobeithio, ac yn difrifol hyderu (hyderu yn y cynnorthwy hwnw ei hun) y bydd i bob diwrnod a allaf gael eto i aros ar y ddaiar gael ei dreulio fel rhan o amser i barhau—a bron na ddywedwn, yn *danbaid*, mewn ymbiliau am drugaredd ddwyfol yn Nghrist, a pharhau hefyd hyd y dydd a'r awr olaf o'm bywyd, os caniateir i mi y pryd hwnw ymwybodolrwydd. Yr wyf yn fynych yn gwneyd cymhariaethau gostyngedig rhwng fy nghyfran i a llawer deng mil sydd yn dioddef yn awr holl drueni anghysur anobeithiol. Pa ham yr wyf fi yn cael y fath diriondeb, a miliynau mor druenus?"

Aeth Mr. Foster i Bourton am y tro diweddaf, yn nghanol Medi, 1842. Arosodd yno tua chwech wythnos; a phan ddychwelodd, yr oedd yn edrych braidd yn gryfach a mwy bywiog. Ymddengys iddo gael mwynhad mawr yn ei ymweliad; a'i fod wedi ei foddhau gan groesawiad serchog a charedigrwydd ei berthynasau a'i hen gydnabod, ac wedi cael difyrwch mawr wrth grwydro o amgylch ar hyd ei hen lwybrau. Wrth ysgrifenu, tra yr oedd yno, at un o'i neiaint, y mae yn sylwi ar sefyllfa amgylchiadau y wladwriaeth fel hyn:—

"Yr wyf yn tybied eich bod chwithau wedi cael haint y Chartiaid yn y parth yna o'r wlad. Haid o greaduriaid hurt a niweidiol ydynt. Y mae rhai o'u harweinwyr yn ddyhirod drwg; ac y mae yr holl lwyth yn felldith gwlad. Y maent wedi gwneuthur a allent hwy i ddyrysu yr ymdrechion er cael yr unig fudd cyffredin y mae y gobaith lleiaf i'w gael yn bresennol, nac am hir amser i ddyfod; sef cyfnewidiad neu ddilead *Deddf yr Yd*—peth a fyddai ar unwaith yr ymwared fwyaf i fasnach, ar yr hyn y mae cynnifer o filoedd yn ymddibynu. A thra y maent yn gwneuthur y niwed yma, y maent yn baldordd yn nghylch cael *pleidlais gyffredinol*—peth mor bell allan o'n cyrhaedd, am hir amser, a dim a allent freuddwydio am dano. Ac eto, os nad allant gael hyn, meddant hwy, ni dderbyniant unrhyw gyfnewidiad arall er gwellhau eu sefyllfa. Y fath ynfydion! Ac os bernir wrth eu gweithrediadau diweddar, y maent *hwy eu hunain* yn hollol anghyfaddas i gael y fath bleidlais. Peth mor brydferth a gweithfawr a fyddai pleidlais i ddynion—hoff waith pa rai yw myned o amgylch, gan floeddio, a sarhau, er mwyn rhwystro ac attal cyfarfodydd pwysig i chwilio am y moddion goreu i leihau trueni y bobl! Na, na: y mae ganddynt lawer iawn i'w ddysgu cyn y byddant yn gymhwys i wneyd etholiad ystyriol a doeth o aelodau i'r senedd. Mi a ewyllysiwn i'r bobl gael pleidlais gyffredinol, pe byddent wedi eu haddysgu yn well, a phe byddent yn fwy meddylgar, yn fwy sobr, ac yn fwy moesol; ond nid yn eu sefyllfa bresennol o anwybodaeth ac anghoethder. Yr achos eu bod felly, gyda golwg ar rai o leiaf, yw eu gwall hwy eu hunain. Ond syrth y prif achos o hyny wrth ddrws y llywodraeth a'r Eglwys; y rhai sydd wedi eu gadael yn y sefyllfa alarus yma o genedlaeth i genedlaeth. Dylasai fod cynllun o *addysg gyffredinol* wedi ei sefydlu yn mhell cyn hyn, a fuasai yn mynu addysgu *pawb*, mewn rhyw ddull gweddus, megys ag y mae yn Prwssia, a rhai parthau o'r Almaen. Ond ni thalodd uchel-wleidyddwyr ac uchel-Eglwyswyr erioed, oddigerth ychydig yn ddiweddar, un sylw i'r pwnc.

Tua Nadolig y flwyddyn hon, cafodd Mr. Foster ei flino unwaith neu ddwy gan boeri gwaed; a thrachefn o gylch canol Ionawr, 1843. Ni chyfyngwyd ef i'w wely, nac hyd yn oed i'w ystafell, gan yr ymosodiadau hyn; ond bu raid iddo aros yn y tŷ am lawer o wythnosau. Pan ddaeth y tywydd yn dynerach, anturiodd allan eto; ac nid ymddangosai fod sefyllfa ei iechyd nemawr yn wahanol i'r hyn oedd yr haf blaenorol. Yr oedd braidd yn deneuach a mwy llesg; ac nid oedd mor dueddol nac mor alluog i fyned oddi amgylch. Yr oedd ei beswch hefyd ar amserau yn dra blinderus iddo.

Yr oedd yn parhau i deimlo dyddordeb mawr mewn amgylchiadau cyhoeddus, yn enwedig y pwnc mawr o addysg genedlaethol. Mor angerddol oedd ei bryder am i ryw foddion gael ei ddefnyddio i ddyrchafu corff y genedl, fel y buasai yn cydsynio â mesur a fuasai yn dwyn hyn oddi amgylch yn effeithiol, hyd yn oed pe dilynasid ef gan rwymedigaethau anghysson â'r hyn a ystyriai ef yn wladyddiaeth gyfiawn a goleuedig. Ysgrifenodd lawer, yn enwedig o lythyrau, yn rymus ac yn egnïol ar y pwnc yma. Yr oedd efe dros *ryw* fath o gynllun o addysg cenedlaethol, yn hytrach na gadael y miliynau yn y sefyllfa farbaraidd a phaganaidd y dangoswyd trwy esamplau mor ddychrynllyd eu bod ynddi o ddiffyg addysg. Ofnai yn fawr y byddai i wrthwynebiad cyndyn yr Ymneillduwyr ar un llaw, a thrahausder sarhaus yr Eglwyswyr ar y llaw arall, beri i gynllun cymmedrol Arglwydd John Russell syrthio i'r llawr; ac felly achosi i anwybodaeth farbaraidd barhau a chynnyddu dan lywodraeth atgas ac annioddefol yr Eglwys Sefydledig. Nid oedd efe yn cymmeradwyo cynllun Arglwydd John Russell mewn un modd; ond yr oedd yn well ganddo *ryw* gynllun o addysg rhydd, cenedlaethol, na bod heb un, fel yr oedd y deyrnas hon.

Y tro diweddaf yr ymddangosodd Mr. Foster ar unrhyw achos cyhoeddus oedd yn Mehefin, 1843, yn nghyfarfod blynyddol Coleg y Bedyddwyr yn Mristol, pan y cymmerai ran, fel yr arferai er ys llawer o flyneddoedd, yn yr arholiad duwinyddol. Yr oedd ei iechyd yn awr mor adfeiliedig, fel nad oedd neb o'i gyfeillion yn dysgwyl cael mwynhau ei bresennoldeb adeiladol a'i gynnorthwy pwysig; ond y fath ydoedd ei frwdfrydedd dros addysg o bob math, fel nad oedd dim ond cwbl anallu corfforol a allai ei attal rhag rhoi ei gynnorthwy i'w hyrwyddo.

Tua dechreu Medi, dechreuai arwyddion ei afiechyd ymddangos yn eu holl agweddau gwaethaf, fel y cyfyngwyd ef, ar y 24ain o'r mis, i'w ystafell—yr hon nis gadawodd byth mwyach. Nid oedd dim ammheuaeth nad oedd ei ysgyfaint wedi bod yn ddrwg er's llawer o flyneddoedd; er hyny, ychydig iawn o'r anniddigrwydd sydd yn dilyn y clefyd hwnw a ganfyddid ynddo ef ond pur anfynych. Yr oedd ei sylwadau crefyddol, a'r cynghorion a roddai i'r rhai oedd o'i amgylch, yn dra difrifol ac effeithiol; ond anfynych y caniatäai ei beswch a'i wendid dirfawr iddo ymddyddan ond ychydig. Pa fodd bynag, llefarodd yn faith unwaith ar "Y ddyledswydd o weddi ddyfal, barhaus, a thaer;" a phryd arall, ar yr angenrheidrwydd anhebgorol o ymorphwys ar drugaredd Duw yn Nghrist Iesu, gan derfynu yn y geiriau hyn:—"Nis gallwn ni ddim yn ein nerth ein hunain: rhaid i ni edrych at Iesu—un

Digitized by Google

hunig Gyfryngwr, ein hunig Waredwr, a'n hunig obaith." Ond nis gallasai unrhyw gynghorion fod hanner mor effeithiol a'r amynedd cysson a ddangosai, a'r sylwadau mynych a wnai i gondemnio ei hun, yr hyn a ddangosai deimlad dwfn o ddrwg pechod.

Un noswaith, pan yr ymddangosai yn bur flinedig, dywedwyd wrtho, "Yr ydych yn ymddangos yn hynod o lesg heno, Mr. Foster." "Ydwyf," meddai yntau, "mi a lesghaf allan o'r bywyd marwol hwn yn bur fuan bellach." Pan y dywedwyd wrtho am y mynych ymofynion caredig a wneid am dano gan ei gyfeillion yn y gymmydogaeth, dywedodd yntau—"Yr un ateb sydd i fod yn wastad i bob ymofynion yn fy nghylch i bellach; a'r olaf a fydd y goreu oll." Ar y Sabbath cyn ei farwolaeth, tra yr oedd cyfaill yn darllen iddo un o bregethau Doddridge, efe a syrthiodd i gwsg; a phan ddeffrodd, dywedodd mewn tôn a ddangosai deimlad tra diolchgar, "Swydd hynod o ddiddiolch ydyw darllen i bobl gysglyd."

Pan yn dechreu myned yn glaf, arferai lefaru llawer iawn am werth amser, ac weithiau byddai yn dyfynu Young ar y pwnc. Pwnc arall fyddai yn destyn ei ymddyddan oedd y sefyllfa ddyfodol. Ar ol marwolaeth rhyw gyfaill, ymddangosai yn anesmwyth am wybod dirgelion y byd anweledig. Pan glywodd am farwolaeth cyfaill unwaith, dywedodd—"Po agosaf y dyneswyf," eb efe, "trwy gynnydd oedran a llesgedd at y prawf mawreddog, mwyaf ymchwilgar—braidd nad allwn ddywedyd, anesmwyth o ymchwilgar—yr wyf yn myned yn barhaus gyda golwg ar olygfeydd mawrion y sefyllfa ddyfodol. Y rhyfeddod yw, wedi y cyfan, a'r cywilydd hefyd, fod mor anhawdd cadw y meddwl mewn parotoad parhaus a difrifol erbyn 'y daith fawreddog a diweddaf,' fel yr arferai ein cyfaill ddywedyd." Ar achlysur arall o'r un natur, llefodd unwaith, "Ni ddeuant yn ol i ddywedyd wrthym!" ac yna, ar ol dystawrwydd byr, tarawodd ei law yn bwysig ar y bwrdd, a dywedodd gydag edrychiad angerddol o ddifrif a dwys, "Ond ni a gawn wybod *yn ebrwydd!*"

Byddai yn eistedd am ychydig oriau bron bob dydd hyd ei farwolaeth. Fel yr oedd yn gwydyd yn dynesu at y terfyn, dymunai yn bod ei fod yn dynesu at y terfyn, dymunai yn fynych gael ei adael yn unig am ychydig amser, gan ddywedyd fod ganddo lawer o bethau y dylai feddwl yn ddwys am danynt, ac mai peth anhawdd oedd meddwl pan mewn llesgedd mawr.

Dangosai garedigrwydd a chydymdeimlad neillduol yn ystod ei holl selni at y rhai oedd yn gwasanaethu arno, a byddai yn dra awyddus am roddi cyn lleied o lafur iddynt ag oedd yn bosibl. Ni oddefai i neb eistedd i fyny gydag ef, hyd yn oed am ran o'r nos—ni wrandawai ar y fath gynnyg; a phan gymhellid hyny arno, dywedai y byddai yn gymmaint o flinder i'w feddwl fel nad allai gysgu.

Pan yn siarad unwaith gydag un o'i ddwy wasanaethyddes—pob un o ba rai oedd wedi bod gydag ef am o ddeutu deng mlynedd ar ugain—crybwyllodd am rai pethau nad oedd ganddo nerth i'w cyflawnu; ac yna dywedodd, "Ond mi allaf weddïo: a pheth gogoneddus yw hyny." Ar achlysur arall, dywedodd wrth ei wyliedyddes, "Ymddiriedwch yn Nghrist—ymddiriedwch yn Nghrist." Dro arall, clywodd ef yn ail adrodd wrtho ei hun y geiriau—"O! angeu, pa le y mae dy golyn? O! uffern, pa le y mae dy fuddugoliaeth? Ond i Dduw y byddo y diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist."

Ar y 3ydd o Hydref, ysgrifenodd at Syr J. Easthope, gan ei hysbysu nad oedd efe yn dysgwyl byw mwy nag ychydig fisoedd yn hwy; ond er ei fod yn teimlo ei hun yn analluog i ddal ymweliad personol, eto "na ddywedai yn awr Ffarwel." Pa fodd bynag, yn mhen dau ddiwrnod yn ddiweddarach, yr oedd ei lesgedd wedi cynnyddu mor gyflym, fel y cyfyngodd ei ddisgwyliad am fyw i ychydig ddyddiau yn unig; a therfynodd ei lythyr olaf â'r geiriau hyn:—"Yr wyf yn eich cyflwyno i drugaredd Duw, ac yn dymuno dywedyd wrthych yn dra serchus—*Ffarwel.*" Yr oedd ei dawelwch mawreddog, cyn gynted ag y deallodd nad oedd un gobaith iddo am adferiad, yn nghyd â'i hollol ymostyngiad i'r drefn ddwyfol, yn taraw pawb a'i gwelent â syndod dwys a chrefyddol.

Un o'r cyfansoddiadau diweddaf a ddarllenid iddo oedd pregeth o waith y Dr. Doddridge ar "Analluogrwydd yr enaid diailanedig i fwynhau gogoniant y byd nefol." Effeithiodd y bregeth hon gymmaint ar ei feddwl, fel y dymunodd ar ei ferched i addaw ei darllen bob mis, gan ddyweyd ei fod yn meddwl nas gallai neb ei darllen yn fynych heb i'r effaith fod yn dda. Yn ystod y ddau neu y tri diwrnod olaf o'i fywyd, yr Ysgrythyrau (yn benaf y Salmau), ar ei ddymuniad ei hun, yn unig a ddarllenid iddo. Ar ddydd Sadwrn, y 14eg o Hydref, y diwrnod cyn ei farwolaeth, cwynai fod rhyw ddyryswch yn ei ben, a blinid ef yn dost wrth gymmeryd ei anadl; gan hyny, bu raid iddo ymattal y diwrnod hwnw oddi wrth ei arfer gyffredin o wrandaw ar rywun yn darllen iddo; a chan y canfyddai fod ymddyddan wedi myned yn ormod o faich iddo, dymunodd ar iddo gael ei adael yn unig yn ystod y prydnawn a chyda'r nos. Pan ddymunwyd cael aros i fyny gydag ef y noson hono, efe a wrthododd yn benderfynol, er iddo fyned yn llawer gwanach, trwy gael ymosodiad maith gan beswch. Nid aeth ei hen weinyddes ffyddlawn i'w ystafell y noson hono, rhag ei flino, fel yr arferai fyned bob nos yn ystod y pythefnos cyn hyny; ond tua phedwar o'r gloch y bore, aeth at ddrws yr ystafell i wrandaw; ac wedi cael boddlonrwydd oddi wrth y swn a glywai ei fod yn cysgu, dychwelodd heb fyned i mewn. Tua chwech o'r gloch aeth at y drws drachefn; a chan nad oedd yn clywed dim swn y waith hon, aeth i mewn, a chanfu ei fod wedi marw! Yr oedd ei freichiau wedi eu hestyn yn esmwyth ar y gwely, a'i wyneb mor dawel a digyffro yr olwg a gwyneb person mewn cwsg hyfryd. Newydd ehedeg ymaith yr oedd yr enaid mawreddog, canys ei dalcen yn unig oedd wedi oeri. Cymmerodd hyn le ar fore dydd Sabbath, Hydref 15fed, 1843.

Ar y dydd Sadwrn canlynol, rhoddwyd ei gorff yn y bedd—yr hwn a agorasid ddwy flynedd ar bymtheg union yn ol, i dderbyn ei fab—yn y gladdfa a berthyn i gapel Downend, lle y bu gynt yn pregethu.

Yr oeddym yn bwriadu gwneyd amryw sylwadau ar nodweddiad Mr. Foster, yn enwedig fel awdwr; ond gan y credir fod digon o ddefnyddiau yn yr erthygl hon, fel y mae, i amlygu holl brif hynodion cymmeriad Mr. Foster fel dyn, llenor, Cristion, a phregethwr, tybir mai afreidiol ydyw ymhelaethu.

FWLTUR—IAID, [דאה=*chediad cyflym, ymsaethiad*; γύψ]. Er fod yr enw Hebraeg *daah* yn

cael ei gymhwyso at y "boda" a'r "barcud du;" eto y mae yn amlwg fod y gair a'i amrywiadau yn arwyddo yr holl adar rheibus israddol, y rhai y tybid eu bod yn perthyn i rywogaeth y fwlturiaid; tra y mae fwlturiaid yr Aipht yn unig yn cynwys tri math o leiaf, heb law y fwltur barfog (*peres*), a'r fwltur gwyn burgunaidd (*racham* neu *nephron*); ac mewn ymadroddion ereill, drachefn, canfyddir yr eryr (*neser*) dan amgylchiadau sydd yn ein harwain i gredu mai fwlturiaid a olygir, neu o leiaf nad ydynt yn cael eu cau allan. Yr oedd y gymmysgedd yma o ansoddau gwahanol y rhywogaethau, y rhai y gellir eu gwahaniaethu yn hawdd yn bresennol trwy ddosbarthiad celfyddydol, yn anhysbys i'r hynafiaid, ac y maent eto yn annealladwy i ysgrifenwyr dwyreiniol, y rhai, fel yr hen Roegiaid, oedd mor anwybodus o'r ansoddau hyn, fel yr oeddynt yn ystyried mai "eryr o rywogaeth ddychrynllyd," oedd aderyn y credir yn awr nad oedd ddim amgen na cheiliog y coed. Y mae yr esbonwyr gorllewinol diweddar, yn eu hawydd i wahaniaethu rhwng eryrod a fwlturiaid, yn tybied na chrybwyllir byth fod eryrod yn ymborthi ar furgunod; a chan farnu am yr holl lwyth o fwlturiaid fel haid o fwytawyr burgunod, awgrymant nad ydynt un amser yn ymosod ar ysglyfaeth byw. Maent yn gamsyniol yn y ddau amgylchiad. Y mae eryrod, oddigerth rhai rhywogaethau, yn dilyn byddinoedd, er nad mor luosog a'r fwlturiaid; ac y mae y fwlturiaid yn ymosod ar ysglyfaeth byw, os bydd y cyfryw yn lled amddifad o foddion amddiffynol, ac heb fod yn drymion; ond gan nas gallant afael yn rymus â'u crafangau, ac nad ydynt alluog i wneyd archollion pwysig â'u hewinedd, y maent yn difa eu hysglyfaeth yn y fan a'r lle; tra y mae yr eryr yn ei gipio i fyny i'r entrych, ac felly yn fwy agored i gael ei frathu gan seirff a gipiant heb eu llwyr ladd, na'r fwlturiaid, y rhai sydd yn gwneyd pob ymlusgiaid yr ymosodant arnynt yn chwilfriw.

Gwahaniaethir y fwlturiaid oddi wrth yr eryrod, nid yn gymmaint o blegid eu maint a'u cryfder ag o herwydd fod penau a gyddfau y fwlturiaid yn ddiblu, yn cael eu gorchuddio yn unig gan fanblu ysgeifn, neu ychydig flew yn wasgaredig. Y mae llygaid y fwltur hefyd yn sefyll allan yn fwy na llygaid yr eryr, y rhai sydd wedi eu claddu yn ddwfn yn y tyllau. Y mae ewinedd y fwltur hefyd yn fyrach, ac heb fod mor fachog. Gorchuddir y tu mewn i'r aden â manblu tew, ac yn hyn y maent yn wahanol i bob adar ysglyfaethus ereill. Nid yw eu hystum chwaith mor syth a'r eryr, ac y mae eu hediad yn afrwyddach a thrymach.

Y mae yn bwnc o ddadl pa un ai trwy gymhorth eu llygaid ai eu ffroenau yr arweinir hwy at eu hymborth. Y mae rhai naturiaethwyr enwog yn barnu eu bod yn defnyddio y ddau synwyr i olrhain eu hysglyfaeth, yr hyn sydd dra thebyg. Mae eu hediad uchel, a'u llygaid pellweliadol yn dra manteisiol iddynt ganfod unrhyw anifail methedig, neu un wedi marw. Fe fernir fod ysgogiadau rhyw un o'r haid yn cael eu gwilio gan y lleill, ac felly fod math o gymmundeb telegraphol yn cael ei gynnal rhyngddynt gyda golwg ar y gwrthddrych y chwiliant am dano.

Y mae llwyth mawr y fwlturiaid yn wasgaredig ar hyd rhanau eang o'r ddaiar, ond yn benaf yn y parthau poethion, lle y gwnant wasanaeth neillduol i'r trigolion trwy lanhau y meusydd, y pentrefydd, ac hyd yn oed y dinasoedd, o furgunod pydredig anifeiliaid. Fel y cilir o hinsoddau poethion i barthau tynerach, collir presennoldeb y fwlturiaid yn raddol, nes o'r diwedd yr eir allan o derfynau yr hiliogaeth. Pa fodd bynag, y mae eu terfynau eithafol yn nes i'r parthau oerion o'r ddaiar nag y gellid meddwl ar yr ystyriaeth gyntaf. Yn America, ceir fod y fwltur tyrcaidd (*cathartes aura*) yn cyrhaedd o Terra del Fuego i Nova Scotia; ac y mae y fwltur du (*cathartes atratatus*) yn gyffredin yn Carolina. Canfyddir rhywogaethau o honynt hefyd yn mharthau deheuol a chanol Ewrop, heb son am fwltur yr Aipht neu y fwltur barfog (*gypætos barbatus*), yr hwn sydd yn ffurfio dolen gydiol rhwng y fwlturiaid diog a gwancus ar un llaw, a'r eryrod ffyrnig a rheibus ar y llaw arall. Gellir nodi y fwltur lludliw (*vultur cinereus*) a'r fwltur melyn (*vultur fulvus*) neu y *griffon*—pob un o ba rai a geir yn mynyddoedd canolbarth Ewrop; ac y maent yn lled gyffredin yn y parthau deheuol, a thros y rhan fwyaf o'r byd yn yr arddrych dwyreiniol. At y rhai hyn gellir chwanegu fwltur yr Aipht, neu gyw Pharoah (*neophron percnopterus*).

Gellir ystyried fod rhywogaeth fwltur yr Aipht yn gyfartal yn yr arddrych ddwyreiniol i'r fwltur tyrcaidd yn yr arddrych gorllewinol, gan eu bod yn dra thebyg o ran ffurf, arferion, ac eangder eu preswyliad. O holl fwlturiaid yr arddrych dwyreiniol, fwltur yr Aipht ydyw y lleiaf; ond y mae er hyny yn un o'r rhai mwyaf lluosog, yn enwedig yn yr Aipht a pharthau cyfagos Ewrop, Asia, ac Affrica: gwelwyd ef hyd oed yn Italy a Switzerland, a gwelwyd ef unwaith neu ddwy yn Mhrydain. Nid yw yr adar sydd yn ysglyfaethu burgunod mor angenrheidiol fel ysglyfwyr y cyfryw bethau mewn hinsoddau tymmerus ag ydynt yn y gwledydd poethion, lle yr ymdyra y fwlturod yn heidiau mor luosog o bellderoedd dirfawr, fel y mae pob teithwyr yn adrodd yr amgylchiad gyda syndod. Eglurir hyn yn nodedig gyda golwg ar ddau o'r rhywogaeth, y rhai a gymmerir yn fynych y naill am y llall; sef y boda tyrcaidd (*turkey buzzard*) a'r fwltur du, y rhai a ystyrir mor ddefnyddiol yn nhaleithiau gogleddol a deheuol America, fel na faidd neb eu lladd dan boen dirwy drom. Dywed M. Descourtilz fod y boda Tyrcaidd yn cael ei alw yn Charleston "y pum punt," oddi wrth y ddirwy sydd am ei ladd. "Perchir yr adar yma fel hyn," medd efe, "o blegid y gwasanaeth a wnant i'r ddinas a'r gymmydogaeth trwy symmud pob burgunod ymaith, ar y rhai yn unig yr ymborthant. O ganlyniad, pe ba'i dim ond cyw iar yn marw, byddai ei holl esgyrn wedi eu glanhau cyn pen ychydig amser. Y mae y fwlturiaid yn hedfan o amgylch ar hyd y dydd i chwilio am ryw furgun neu weddillion anifeilaidd; a chyn gynted ag y canfyddant ddim, disgynant yn llengoedd i ymryson am yr ysglyfaeth, a buan y diflana pob mymryn ond yr esgyrn noethion o'r golwg. Y maent mor ddofion fel y byddai yn hawdd eu curo i lawr â ffon. Yr oedd arnaf flys mawr defnyddio y llwybr yma i sicrhau un o honynt; ond nid oeddwn yn teimlo awydd i dalu y pum punt dirwy." "Y mae y nifer mawr o'r adar hyn (y fwltur du) sydd yn yr hinsoddau poethion," medd Ulloa, "yn ddarpariad naturiol ardderchog; heb y rhai y parai y pydredd, a achosir gan boethder parhaus a dirfawr, i'r awyr fod yn gwbl anghyfaddas i ddyn breswylio ynddi. Mae yr adar hyn yn gyffredin yn Carthagena, yn hulio penau y tai: hwy sydd yn glanhau y ddinas oddi wrth bob amhuredd a achosid hebddynt gan furgunod. Ychydig o anifeiliaid a leddir

Digitized by Google

nad ydynt hwy yn cael eu hysgarthion; a phan y bydd hyny yn rhy brin, chwiliant am bob burgunod ereill. Y mae eu harogliad mor dreiddgar fel y galluoga hwy i olrhain ysglyfaeth yn y pellder o dri neu bedwar o ystadau; yr hwn nis gadawant nes y bo yr holl esgyrn yn lân a sychion." "Gwelais geffyl yn syrthio ar yr heol," meddai Wilson, "ac yn marw. Llusgwyd ef allan i Hampstead, a blingwyd ef. Yr oedd y lle am gan llath o'i amgylch yn ddu gan yr adar hyn: yr oedd llawer o honynt yn eistedd ar benau bwthynod, tai, ac ar wrychoedd yn y golwg; a thrigain neu bedwar ugain o honynt ar ochr gallt fechan. Cyfrifais unwaith ddau gant a dau ar bymtheg ar ugain o honynt, ond credaf fod llawer mwy o honynt; heb law y lluaws oedd yn hedfan yn yr awyr uwch ben ac o amgylch yn y pellder. Anturiais fyned yn ochelgar hyd o fewn tua deg llath ar ugain i'r burgun, lle yr oedd tri neu bedwar o gŵn, ac ugain neu ddeg ar ugain o fwlturiaid yn prysur ddifa yr ysgerbwd. Pan welais nad oeddynt yn gwneyd un sylw o honof, anturiais yn nês, nes yr oeddwn o fewn tua deg llath atynt, ac eisteddais ar y llethr. Nid oeddynt eto yn gwneyd fawr o sylw arnaf fi. Byddai y cŵn weithiau, wrth gael eu curo gan adenydd y fwlturiaid, yn chwyrnu ac yn cyfarth arnynt; yr hyn a barai iddynt yn achlysurol neidio i fyny, ond disgynent yn ddioed drachefn. Sylwais fod y fwlturiaid yn ymosod ar eu gilydd yn fynych, gan ymladd â'u hewinedd a'u sodlau, a tharaw fel ceiliog, â'u hesgyll ar led, a phlanu eu hewinedd yn mhenau eu gilydd. Yr oedd y benywod, a chredaf fod y gwrywod hefyd, yn gwneyd math o swn hisaidd, â'u pigau yn agored, yn hollol fel y swn a wneir gan haiarn gwynias mewn dwfr; ac yr oeddynt yn trwynffychian (*snuffling*), yn union fel y bydd ci wrth lanhau ei ffroenau. Pan welais nad oeddynt yn sylwi arnaf, ymgripiais yn nes fyth atynt, nes yr oedd fy nhraed o fewn llathen i goesau y ceffyl, ac eisteddais drachefn. Neidiasant oll ychydig droedfeddi oddi wrth y burgun; ond pan welsant fi yn llonydd, dychwelasant yn fuan, fel o'r blaen. Gan fod y cŵn yn eu haflonyddu yn fynych, dwrdiais y rhai hyny adref: ond nid oedd fy llais yn dychrynu y fwlturiaid. Cyn gynted ag yr aeth y cŵn ymaith, ymdyrodd y fwlturiaid yn y fath nifer, fel y cyfrifais ddau ar bymtheg ar ugain ar yr ysgerbwd ac o'i amgylch ar unwaith, ac amryw o'i fewn, fel nad oedd braidd fodfedd o hono yn weledig. Deuai un allan weithiau gyda darn mawr o'r perfedd, yr hwn a amgylchynid mewn moment gan amryw ereill, y rhai a dynent yr ysglyfaeth yn ddarnau o'i big gan ei lyncu yn ddioed. Byddent yn hisio ar amserau ar ol i'r cŵn fyned ymaith. Yr oedd rhai o honynt â'u holl benau a'u coesau yn waed drostynt, a golwg erchyll arnynt. Pan ddaeth y cŵn yno eilwaith, dwrdiais hwy ymaith drachefn, yr hyn a ymddangosai yn boddhau y fwlturiaid; ac erlyniai rhai o honynt eu gilydd hyd o fewn troedfedd i'r lle yr eisteddwn. Sylwais eu bod weithiau yn estyn eu gyddfau ar y ddaiar, er mwyn gwthio yr ymborth i lawr."

Y mae naturiaethwyr yn dosbarthu llwyth y fwlturiaid i'r rhywiau canlynol:—

*Y fwltur melyn* (*vultur fulvus*). Hwn ydyw *vultur gryphus* Linnæus, *vultur* Cuvier, a *golden vulture* (fwltur euraidd) Goldsmith. Y mae hefyd yn cael ei alw yn *griffon*. Y mae y pen a'r gwddf yn cael eu gorchuddio gan fanblu byrion, gwynion, yn tyfu yn agos at eu gilydd. Amgylchir y rhan isaf o'r gwddf gan dorch o blu hirion, eiddil, gwynion, ac weithiau âg ychydig amliw arnynt. Ar ganol y frest y mae rhes o fanblu gwynion. Lliw yr holl gorff, yr edyn, a bôn y gynffon yw melyn wineu (*yellow brown*), neu liw Isabella; y mawr blu (*quills*) a phlu y gynffon, du goch; y big, glas-felyn, a'r bôn yn dywyllach—lliw cnawd, medd Temminck; cylch y llygad, lliw collen; y traed, llwyd neu wineu goleu. Y mae y big yn fawr ac yn nerthol, medd Cuvier, a'r ffroenau ar hyttraws yn agos i'r bôn. Mae mant uchaf y big, medd Goldsmith, yn agos i saith modfedd o hyd. Y mae y big yn union, ond fod blaen y mant uchaf yn troi i lawr yn fachog am flaen y mant isaf, megys y mae pigau yr holl lwyth. Y mae yr aderyn oll yn hwy na phedair troedfedd, medd Knight—pedair troedfedd a hanner, medd Goldsmith, o flaen y big i flaen y gynffon; ond o flaen y big i flaen yr ewinedd, pum modfedd a deugain. Y mae y fenyw yn fwy na'r gwryw.

Y mae pen a gwddf y cywion yn orchuddiedig gan fanblu lledwyn, cymmysg, a gwineu; a'r gweddill o'r corff yn felyn dysglaer, ac ysmotiau llwydion neu wynion mawr ar hyd-ddynt.

Ceir y rhywogaeth yma o fwlturiaid yn mharthau mynyddig gogledd Ewrop, Silesia, y Tyrol, Dalmatia (lle y maent yn lluosog), Yspaen (y maent yn lluosog ger llaw Gibraltar), yr Alpau, y Pyrenees, Twrci, Ynysfor Groeg, gogledd Persia, a gogledd Affrica.

Y mae y fwltur hwn yn gwneyd ei nyth yn gyffredin ar ben y creigiau uchaf a mwyaf anhygyrch, ac weithiau yn mrig prenau uwchaf y goedwig; ac yn Sardinia, yn mrig y derw talaf, lle y bydd y nyth o fanwydd a gwraidd dros dair troedfedd ar ei draws. Lliw yr wyau—sef dau o nifer yn gyffredin, er y dywed rhai y dodwyant bedwar weithiau—yw gwyrdd tywyll, neu lwydwyrdd, ac ychydig ysmotiau llwydgoch ar hyd-ddynt, a'r plisg yn arw. Maent yn ymborthi yn gyffredin, fel yr holl lwyth, ar furgunod, at y rhai yr ymdyrant bron yn wastad yn heidiau lluosog. "Pan y disgynant unwaith ar eu hysglyfaeth," medd Bennett, "anfynych y gadawant ef tra y byddo tamaid o'r cnawd yn aros, fel nad yw yn beth anghyffredin eu gweled yn clwydo ar ysgerbwd marw am ddyddiau yn olynol. Nid yw byth yn cynnyg cludo rhan o hono ymaith i ddiwallu ei gywion, ond portha hwy trwy arlwyo tamaid wedi hanner ei gnoi o'i gylla i'w pigau. Y mae weithiau, ond pur anfynych, yn ymosod ar greaduriaid byw; a phan y gwna hyny, ar greaduriaid cwbl analluog i amddiffyn eu hunain yr ymesyd; canys nid oes ganddo y fantais a fedd llwyth yr hebogiaid mewn ymrysonfa, o wneyd archollion â'u hewinedd; gan hyny, rhaid iddo ymddibynu yn unig ar ei big. Pa fodd bynag, nid yw un amser yn dinystrio creaduriaid ereill, ond pan nas gall gael burgunod i ddiwallu ei newyn. Ar ol ymborthi, gellir ei weled yn sefyll am oriau yn yr un ystum, gan ddysgwyl yn amyneddgar i'r ymborth dreulio yn ei gylla, nes i newyn ei symbylu i ymddyrchafu i'r awyr i chwilio am ei ymborth drachefn. Os cynhyrfir ef yn llym ar ol pryd llawn, bydd yn analluog i hedeg nes yr arllwysa gynnwys ei gylla; ond yn ebrwydd ar ol ymysgafnhau felly, gall ymgodi i'r fath uchder aruthrol, fel, er mor fawr ei swm ydyw, yr aiff yn hollol allan o olwg llygad dyn. Pan y delir ac y carcherir ef, nid ymddengys ei fod yn gofalu dim yn mha sefyllfa y gosodir ef, os caiff ei ymborth yn rheolaidd."

Digitized by Google

*Y fwltur lludliw* (*vultur cinereus*). Ymddengys mai hwn ydyw Fwltur Bengal Latham, a *Grauer Geier* y Germaniaid. Brodor o Ewrop ydyw. Canfyddir ef ar fynyddoedd uchel a choedwigoedd eang Hungary, y Tyrol, a'r Pyrenees; deheubarth Yspaen ac Italy; yn achlysurol yn Dalmatia; ond yn fwy mynych yn Sardinia; yn Sicily; anaml y ceir ef yn Italy, a byth yn y coedwigoedd; a thra anfynych yn yr Almaen.

Ei ymborth yw anifeiliaid meirw a burgunod, ond nid ydyw byth yn ymosod ar greaduriaid byw, rhag y rhai yr ymddengys ei fod yn ofnus, gan fod yr anifail lleiaf yn ei ddychrynu, medd Temminck.

Dywed Gould fod hwn yn gwahaniaethu gradd oddi wrth wir rywogaeth y fwlturiaid, yr hyn a ganfyddir yn agoriad ei glustiau, ei ewinedd bachog, ei big nerthol, a noethder rhan o'i wddf.

*Fwltur Pondicherry* (*vultur Ponticerianus*). At faint gŵydd ydyw hwn; ac y mae pilen neu dagell hir, lac, a noeth, yn dechreu tua modfedd yn is na'i glustiau, ac yn ymledu i ffurf gron yn y canol; y mae y pen a'r gwddf oll yn noeth ac o liw cnawd, ond fod ychydig flew byrion yn wasgaredig arnynt; gorchuddir y frest gan fanblu gwineu bychain, ac o'i hamgylch y mae rhai gwynion hirach.

Gorchuddir pen a gwddf y cywion i raddau mwy neu lai gan fanblu byrion.

Canfyddir hwn yn Bengal (ac fe allai dros holl gyfandir India) Java, a Sumatra.

*Fwltur yr India* (*vultur Indicus*). Y mae y pen a'r gwddf yn gwbl noeth o blu; yr holl blu uchaf yn llwydfelyn, cymmysgedig â gwineu a gwyn; y rhanau isaf yn felyn ddysglaer digymmysg; gorchuddir y frest â manblu ysgafn, byrion, agos at eu gilydd, o liw gwineu tywyll; y big, yn ddu, ond y blaen yn oleuach; croen noeth y pen yn llwyd-dywyll. At yr un faint a thwrci ydyw. Ei hyd, tair troedfedd a thair modfedd.

Y mae i'w gael yn yr India a Ceylon.

Y mae yn dra ysglyfaethus. Erys ar hyd y dydd ar lan y môr, er mwyn ysglyfaethu y pysgod meirw a deflir i'r lan gan y tonau. Y mae y rhywogaeth yn byw yn gyffredin ar furgunod, a dywedir y bydd yn cyfodi cyrff o'u beddau. Y mae hediad y fwlturiaid yma yn drwm; ac, fel eu cydryw, ymgasglant weithiau i faes y gwaed.

*Fwltur Kolbe* (*vultur Kolbii.*) Gorchuddir y pen â manblu o liw haiarn, y rhai sydd yn lled wyn ar du ol y gwddf; torch o blu llac, o liw haiarn neu wyn budr, o amgylch ei war; y big yn lled ddu; cylch y llygad, du; y cefn a'r edyn, lliw haiarn neu lwyd wineu; y mawr blu, duon; y bol, lliw haiarn lled oleu; y traed, lled wineu; yr ewinedd, duon. O ran maint, y mae yn llai na'r fwltur melyn, ond o ran ymddangosiad a lliw ei blu y mae yn bur debyg iddo, er fod yn hawdd eu gwahaniaethu. Y mae holl blu esgyll a rhanau isaf hwn yn grynion yn eu blaenau, tra y mae plu y griffon neu y fwltur melyn yn hirion a blaenfeinion. Nid ydyw torch hwn mor hir nac mor fawr a thorch y griffon, heb law fod cryn wahaniaeth yn y lliw.

Ceir hwn yn Barbary, a gwahanol barthau o Affrica, India, a Java.

*Y fwltur cymdeithasgar* (*vultur auricularis*). Hwn ydyw *oricon* Le Vaillant a'r Ffrancod. Y mae ei ben a'r rhan fwyaf o'i wddf yn goch ac yn noeth, oddigerth ychydig flew anhawdd eu canfod: y big yr un lliw a chorn, ac amliw melyn arni yn y bôn: cylch y llygad o liw castan (*chesnut*). Y mae plygion o groen coch noeth yn dechreu o'r tu ol i'r clustiau, ac yn amgylchynu rhan o honynt, ac yna yn disgyn amryw fodfeddi yn is, mewn dull afreolaidd, ac yn agos i fodfedd o led yn y parth lletaf. Gorchuddir y gwddf â blew lled dduon.

Y mae y rhywogaeth fawr yma yn offeryn tra chymmhwys i lanhau tiroedd Affrica oddi wrth furgunod pydredig elephantiaid, hippopotamiaid, rhinocerosiaid, a giraffiaid. Aderyn y mynyddoedd yn hollol ydyw hwn; ac yno, yn nghilfau y creigiau uchaf, yr erys y nos, i'r lle hefyd yr ymgilia y dydd ar ol diwallu ei wanc. Gwelodd Le Vaillant heidiau mawrion o honynt yn eistedd yn yr haul, ar glogwyni uchel eu preswylfeydd; a byddai cadwyn hirfaith o honynt weithiau yn gorchuddio cribau serth y mynyddoedd dros bellder maith. Y mae eu cynffonau wedi gwisgo wrth rwbio yn erbyn y creigiau ac yn erbyn y ddaiar yn y dyffrynoedd, o blegid yr ymdrech caled a wnant i ymddyrchafu i'r awyr; ond wedi iddynt unwaith gael gwynt dan eu hedyn, y mae eu hediad yn fawreddog a nerthol. Ymgyfodant yn uwch, uwch, nes o'r diwedd yr änt, er mor aruthrol yw eu maint, allan o olwg dyn; ond er uched yr esgynant, bydd eu llygaid telescopaidd hwy ar waith yn barhaus; a'r foment y syrth rhyw anifail yn farw, bydd heidiau o'r fwlturiaid hyn o'i amgylch yn y fan. Pe dygwyddai heliwr ladd rhyw anifail rhy fawr iddo ei gario, os gedy ef ar y maes i fyned i chwilio am gynnorthwy, pa mor fuan bynag y dychwel, bydd lluaws o'r fwlturiaid hyn wedi amgylchu ei helwriaeth cyn iddo ef ei gyrhaedd yn ol, er na bydd un o honynt yn y golwg pan y byddo efe yn ei adael.

Brodor o ddeheubarth Affrica ydyw yr aderyn mawr hwn; ond canfyddir ef rai prydiau yn Athen, ac am hyny rhaid ei restru yn mysg adar Ewrop, er nad ydyw Mr. Gould yn crybwyll am dano yn ei waith ardderchog a elwir, *The Birds of Europe.*

*Y fwltur barfog* (*gypäetus barbatus*). Hwn ydyw yr enwog *Lämmergeier—fwltur yr ŵyn;* yr hwn a eilw yr Italiaid yn *avoltoio barbuto;* y Germaniaid, *bartadler;* a'r Saeson, *bearded vulture*=y fwltur barfog. Gwyn budr ydyw ei ben, a rhesi duon yn cyrhaedd o fôn y big hyd uwch law ei lygaid; a rhes ddu arall yn dechreu o'r tu ol i'r llygaid, ac yn myned dros y clustiau. Lliw y rhan isaf o'r gwddf, y frest, a'r bol, yw melyn orains. Lliw y cefn a gwisg yr edyn yw llwyd wineu, ond fod rhes wen ar hyttraws canol pob pluen; yr edyn, a phlu y gynffon, llwyd wyn, a bôn y plu yn wynion; y gynffon yn hir, ac yn meinhau at y blaen; y big a'r ewinedd yn dduon; y traed yn leision; cylch y llygad o liw melyn; cauad y llygad, coch. Hyd yr aderyn, tua phedair troedfedd a saith modfedd.

Y mae lliw yr aderyn yn amrywio yn ol ei oed, fel y canlyn:—bydd plu gwineu, i raddau mwy neu lai, ar dop y pen; blaenau plu rhan isaf y gwddf, y frest, a'r bol, yn fynych yn dduon; y rhes wen ar ganol plu y cefn a'r esgyll yn amrywio yn eu maint yn ol yr oed; y bol yn fynych yn llwyd wineu, neu wedi ei fritho â gwyn; a lliw cylch y llygad o felyn orains, tywyllach neu oleuach yn ol yr oed.

Y mae pen a gwddf yr adar ieuainc yn ystod y ddwy flynedd gyntaf yn wineu ddu; y rhan isaf o'r corff, llwydwineu ac ysmotiau o wyn budr; y rhan uchaf o'r cefn, ysmotiau gwynion mawr; yr edyn, lled ddu, âg ysmotiau dysgleiriach; y mawr blu, gwineu ddu; cylch y llygaid, gwineu; y traed, gloewon.

Digitized by Google

Y mae yn preswylio mynyddoedd uchaf Ewrop, Asia, ac Affrica; y Pyrenees, yr Alpau Helvetiaidd, Sardinia, Groeg, a'r Tyrol. Yn Asia, ceir ef yn y Caucasus, mynyddoedd Himalaya, a mynyddoedd Siberia a Phersia. Ceir ef hefyd ar fynyddoedd uchel canolbarth Affrica, a thua gororau y Môr Coch; yn benaf yn y parthau mwyaf anhygyrch o'r mynyddoedd hyny, a lle y mae lluaws o adar mawrion ereill.

"Y mae hwn yn annhebyg i'r gwir fwlturiaid," medd Mr. Gould, "y rhai a wahaniaethir gan eu gyddfau noethion—yn arwyddo eu tuedd i ymborthi ar furgunod; tra y mae gwddf y fwltur barfog wedi ei orchuddio yn dew gan blu, yn yr hyn yr ymdebyga i'r gwir eryrod, heb law ei fod, fel yr eryrod, yn dra hyf ac ysglyfaethus, gan yr ymesyd yn greulawn a ffyrnig ar anifeiliaid mwy nag ef ei hun; am hyny, y mae yn elyn tra enbyd i'r alpafr ieuanc, yr afr wyllt, ysgyfarnog y mynydd, ac amryw adar o wahanol faintioli. Wedi gorchfygu ei ysglyfaeth, ymbortha y fwltur barfog arno yn y fan, gan fod ffurf uniawn ei ewinedd yn ei analluogi i'w gario yn mhell, fel yr eryrod. Nid yw hwn yn bwyta cnawd mewn sefyllfa bydredig, oddigerth na byddo yn dra newynog; am hyny y mae natur wedi trefnu nad yw y rhywogaeth yn lluosog; tra ar y llaw arall, y mae y fwlturiaid, y rhai sydd wedi eu trefnu i lanhau y ddaiar oddi wrth furgunod pydredig, a thrwy hyny o'r gwasanaeth mwyaf i ddyn, yn dra lluosog.

*Fwltur yr Aipht* (*neophron percnopterus*). Hwn ydyw *vautour ourigourap*, Le Vaillant; *rhachamah*, neu Gyw Pharaoh neu Iar Pharaoh, Bruce ac ereill; *avoltoio aquilino* a *caporaoccajo* yr Italiaid; a Fwltur Meltesaidd Latham. Y pen a'r rhan flaenaf o'r gwddf yn unig a orchuddir â chroen noeth o liw melyn du-las; yr holl blu yn wyn pur, oddigerth y mawrblu, y rhai ydynt dduon; y mae plu y gwegil yn hirion a llac; bôn y big, melyn; cylch y llygaid, melyn; y ddau fant, lled ddu; y traed, melyn du-las; yr ewinedd, duon. Hyd yr aderyn yw dwy droedfedd ac ychydig o fodfeddi.

Y mae lliw plu yr aderyn yn newid yn ol ei oedran, gan fod naill ai yn wineu tywyll yn gymmysgedig âg ysmotiau llwydion, neu lwydwineu dysglaer, cyssylltiedig â plu gwynion a melynion. Pan fyddo yr aderyn yn y sefyllfa yma, y mae y rhan noeth o'r pen yn ddu-las; bôn y big yn felynwyn; cylch y llygaid yn wineu; a'r traed yn wyn du-las.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, y mae y rhan noeth o'r pen yn ddu-las, ac yn orchuddiedig gan fanblu llwydion anaml; bôn y big a'r traed yn lludliw; yr holl blu yn wineu tywyll, cymmysgedig âg ysmotiau melyn wineu; y mawr blu mwyaf yn dduon; a chylch y llygaid yn wineu.

Canfyddir yr aderyn (ond anfynych) yn ngogledd Ewrop, yn Switzerland, ac yn nghymmydogaeth Geneva. Ceir ef yn fynych yn Yspaen, ar y Pyrenees, yn Portugal, Malta, Twrci, ac yn yr Ynysfor; ond nid mor lluosog mewn un man ag yn Affrica. Ceir ef yn Rwssia mor bell i'r gogledd ag Astracan; Arabia a Phersia; a cheir ef yn y Deccan, medd y milwriad Sykes.

Yn 1825, lladdwyd un o'r adar hyn yn agos i Kilve, yn Somerset. Ymborthi yr oedd, pan welwyd ef gyntaf, ar ysgerbwd dafad wedi marw, ac yr oedd wedi ymlenwi mor drwm, fel yr oedd naill ai yn analluog i ehedeg, neu yn rhy ddiog, a lladdwyd ef yn rhwydd. Gwelwyd aderyn arall, ar yr un pryd, yn yr un gymmydogaeth, a ymddangosai o'r un rhywogaeth; ond diangodd.

Nid yw y fwlturiaid hyn yn cydymgasglu yn lluoedd mawr, oddigerth at furgunod tra hoff ganddynt, ond yn myned yn gyffredin bob yn ddau, y gwryw a'r fenyw—y rhai nid ymadawant â'u gilydd ond anfynych. "Yn y cymmydogaethau lle y preswylia yr adar hyn," medd Mr. Yarrell, "y mae pâr o honynt yn ymlynu yn gyffredin wrth bob teulu o'r brodorion. Maent yn clwydo ar goed yn y gymmydogaeth, neu ar y gwrychoedd neu y cloddiau sydd o amgylch eu hanifeiliaid. Y maent i gryn raddau yn ddofion ac yn ddiniwed. Nid yw y trigolion un amser yn eu niweidio: yn y gwrthwyneb, y mae yn dda ganddynt eu gweled, ac y maent yn eu llochi, gan eu bod yn glanhau eu tir oddi wrth bob ysgerbydau a burgunod. Os na chant ymborth arall, bwytant lyffaint, lysardiaid, a nadroedd."

*Y fwltur breninol* (*sarcoramphus papa*). Hwn ydyw *cozcaquauhtli* (brenines y fwlturiaid) y Mexicaniaid. Mae croen noeth y pen a'r gwddf o liw dysglaer; y cefn yn rhuddgoch âg amliw du; bôn y big yn orains, ac yn ymestyn rhwng y ffroenau fel math o grib neu bleth lac, ac yn syrthio ar y naill ochr i'r big pan fyddo y pen yn syth. Y mae cylch ysgarlad o amgylch y llygad, pan y mae cylch y llygad ei hun bron yn ddi-liw; ac ochr y pen yn borphor tywyll. Gorchuddir y gwegil â manblu lled dduon. Mae amryw grychiadau llydain o groen o'r tu ol i'r llygad ar bob ochr, o'r lle y cyfyd plyg tew, yn ymestyn ar hyttraws y gwddf tuag i lawr, o liw gwineu goch, cymmysgedig â glas, yn cael ei nodi gan amryw linellau o flew duon byrion. Y mae lliw coch dysglaer y rhan uchaf o'r gwddf yn gwanhau fel yr ä yn is i lawr, nes y trydd yn y rhan isaf yn felyn. Y mae torch lydan, esmwyth, o amgylch pen isaf y gwddf, o fanblu lludliw.

Y mae edyn cryfion y fwltur breninol yn ei alluogi i ymgodi i eithafion yr awyr; ac y mae ei arogliad llym a'i lygaid treiddgar yn ei alluogi, tra yn yr uchelderau, i edrych dros ran eang o'r wlad am ei ymborth. Gan fod y fwltur hwn yn dra amyneddgar mewn newyn, dywedir nad ydyw byth yn ymosod ar nac adar nac anifeiliaid byw, pa mor fychain bynag a fyddont; er, pan yn dra newynog, o ddiffyg cael y burgunod a hoffa, yr ymbortha ar nadroedd a lysardiaid. Gwelir yr aderyn hwn yn achlysurol yn Florida, yn yr Unol Daleithiau; yr hyn, fe allai, ydyw ei derfyn gogleddol eithaf. Y mae yn gyffredin yn Paraguay; ond dywed D'Azara nad ydyw yn myned yn mhellach na 32 gradd lledred deheuol. Ymddengys fod yr adar hyn yn lluosog yn nghanolbarth America.

*Y fwltur Chineaidd* (*vultur Leuconotus*). Lliw y fwltur hwn yw gwineu ddu; y rhan isaf o'r cefn, gwyn, fel y mae yr edyn oddi tanynt, ac felly hefyd y mae o'r tu mewn i'r cluniau. Pan gauir yr edyn, ni welir y gwyn ar y cefn: y pen, gwineu ddu, gyda blew tywyll byrion: y mae y tu ol i'r gwddf wedi ei orchuddio â manblu gwynion, a'r tu blaen o liw cnawd du-las, ac yn noeth; am waelod y gwddf y mae torch o wyn budr; y mae plu gwynion yn hongian ar bob ochr dros waelod y gwddf a'r frest; bôn y big, du; y big, lliw corn, a'r blew yn ddu; cylch y llygad, du; y coesau, gwyn budr a chen duon hyd-ddynt; a'r ewinedd yn dduon. Mae yr aderyn at yr un faint a thwrci.

Y mae arogl anhyfryd ar holl lwyth y fwlturiaid; a phan fyddont feirw, nid oes un creadur a fwyty eu burgun; ond gadewir hwy lle y cwympant, i sychu a chrimpio yn yr haul, nes y byddont fel cyrn.

Digitized by Google

FARADAY, MICHAEL: gwyddonydd Saesnig enwog. Ganwyd ef yn Newington, Surrey, 1794. Yr oedd Faraday yn un o'r dynion hyny a weithiasant eu ffordd i ddyrchafiad ac enwogrwydd er gwaethaf pob anfanteision o ran sefyllfa ac addysg. Gôf, wrth ei alwedigaeth, oedd ei dad; ac ni chafodd y mab ond addysg elfenol ammherffaith, a rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda llyfr-rwymydd. Treuliodd ei amser hamddenol i wneyd y fath arbrawfiadau fferyllol ag oedd o fewn ei gyrhaedd; ac ymdrechodd wneyd peiriant trydanol. Teimlai awydd cryf i adael ei alwedigaeth, a throi yn efrydydd gwyddonol. Talodd boneddwr a'i hadwaenai drosto, fel y gallai fod yn bresennol yn narlithiau Syr Humphry Davy. Digwyddodd hyn yn 1812. Ysgrifenodd yntau lawer o'r sylwadau a wrandawodd, ac anfonodd at Syr Humphry i ddeisyf am ei gynnorthwy; ac ni bu ei appeliad yn ofer. Yn gynnar yn 1813, daeth lle yn wâg yn y fferyllfa yn heol Albemarle, a chynnygiwyd ef i Faraday, a dechreuwyd cyssylltiad rhyngddo â'r sefydliad brenhinol a barhaodd ar hyd ei oes. Bu gyda Syr Humphry Davy ar y Cyfandir, fel ei ysgrifenydd, a chynnorthwywr gwyddonol, o Hydref, 1813, hyd Ebrill, 1815. Ar ol ei ddychweliad llwyr ymroddodd i'w efrydiau neillduol. Yn 1821, bu yn cynnorthwyo Davy yn ei ymchwiliadau fferyllol. Etholwyd ef yn aelod gohebol o Athrofa y Gwyddorau yn 1823, ac yn aelod o'r Gymdeithas Freiniol yn 1825. Yn 1827 y cyhoeddodd efe ei waith cyntaf, "*Chemical Manipulation;*" a phennodwyd ef yn ddarlithydd fferyllol yn Athrofa Filwraidd Woolwich, a bu yn cyflawni y swydd hon am flynyddau. Ymddangosodd papur o'i eiddo ar drydaniaeth yn y "*Philosophical Transactions*," yn 1831; ac o'r pryd hwnw allan ysgrifenai yn flynyddol iddo. Casglodd ynghyd ei ysgrifeniadau, a chyhoeddodd hwynt dan y teitl "*Experimental Researches in Electricity*," yn dair cyfrol. Ni wnaeth neb fwy o wasanaeth i fferylliaeth yn y peth hwn nag a wnaeth Faraday. Tra yn dwyn yn mlaen ei arbrawfiadau llwyddiannus a gorchestol, sefydlwyd cadair fferylliaeth yn y sefydliad brenhinol, yn 1833; ac yn naturiol, Faraday a bennodwyd y cyntaf i'w llanw. Yn 1835, pennododd y brenin flwydd-dâl o 300*p.* iddo, yn gydnabyddiaeth am ei arbenigrwydd neillduol fel darganfyddwr. O hyn allan yr oedd ei yrfa yn myned yn fwy anrhydeddus o hyd. Graddiodd Rhydychain ef ar yr achlysur o gyfarfyddiad y Gymdeithas Brydeinig yn y brifysgol. Gwnaed ef yn un o wyth cymdeithion tramorol Athrofa y Gwyddorau. Anrhydeddwyd ef â gwahanol urddau o Prwssia ac Italy. Cyflwynwyd iddo fathodyn y Gymdeithas Frenhinol, a bathodyn Romford. Yn 1858, caniataodd y frenhines iddo gartrefu yn Hampton Court; ac yno, ac yn heol Albemarle y treuliodd ei flynyddau olaf. Bu farw yno Awst 25ain, 1867, yn 73ain oed.

FENTON, RICHARD. Ganwyd ef yn Nhŷ Ddewi, yn sir Benfro, yn 1746. Ymroddodd i efrydu y gyfraith yn Llundain, a daeth i gydnabyddiaeth âg amryw o lenorion enwog yr oes, yn mysg pa rai y gellir enwi Dr. Johnson, Goldsmith, a David Garrick. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol; a chyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth cyn bod yn llawn ugain oed. Efe a fu ar ol hyn yn ddadleuydd ar gylchdeithiau cyfreithiol yn yr Iwerddon, Lloegr, a Gogledd a Deheudir Cymru; ond ymroddodd am yr ugain neu y deng mlynedd ar hugain diweddaf o'i oes yn hollol i lenyddiaeth. Ysgrifenodd "*A Historical Tour through Pembrokeshire*," yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain, yn 1810, ac a ystyrir yn llyfr o deilyngdod uchel. Ysgrifenodd hefyd "*A Tour in Quest of Genealogy*," a "*Memoirs of an Old Wig*," y rhai a gyhoeddwyd yn ddienw. Cyfieithodd "*Deipnosophista*," o waith Athenæus, a chyfansoddodd rai Chwareuon. Ysgrifenodd hefyd attebiad chwerw i sylwadau y Dr. Burgess, esgob Tŷ Ddewi, ar ei "*Historical Tour.*" Yn marn gŵr a'i hadwaenai yn dda, yr oedd "yn ŵr o ddiwydrwydd diflino, o chwaeth farddonol uchel, llawen ei fryd, boneddigaidd ei ymddygiad, ac yn meddu y wybodaeth gyffredinol helaethaf o neb a adwaenai erioed." Priododd ferch i ŵr oedd yn gyfaill mynwesol i'r ail Dduc o Marlborough. Bu farw yn Tachwedd, 1821, yn 75ain oed; a chladdwyd ef yn Maenorowen, ger llaw Abergwaen, yn sir Benfro.

FENELON, FRANCIS DE SALIGNAC DE LA MOTTE: archesgob Pabaidd Cambray: un o'r dynion mwyaf rhinweddol, ac un o'r ysgrifenwyr Ffrengig mwyaf galluog. Ganwyd ef yn Chateau de Fenelon, yn Perigord, Awst 6ed, 1651. Hanai o deulu enwog mewn cyssylltiad â'r eglwys, ac â'r wladwriaeth. Derbyniodd ei addysg yn gyntaf yn Cahors, ac wedi hyny yn Paris; a gwnaeth y fath gynnydd yn ei efrydiau fel y mynegir ei fod yn pregethu pan yn bymtheg oed, a hyny gyda llawer o dderbyniad. Pan yn bedair ar hugain oed, cymmerodd urddiau eglwysig, a dechreuodd ar ei wasanaeth gweinidogaethol yn mhlwyf St. Sulpice. Pennododd archesgob Paris ef yn benaeth ar sefydliad cynnwysedig o ddychweledigion benywaidd at Babyddiaeth; a pharodd ei lwyddiant yn y swydd hon, ynghyd â theilyngdod ei draethawd ar Addysg Benywod, i Louis XIV., yn 1686, ei anfon ar genadaeth i Poitou, gyda'r amcan o geisio dychwelyd y Protestaniaid i'r ffydd Babaidd. Ar un ammod, yr oedd Fenelon yn barod i dderbyn y pennodiad hwn; sef, nad oedd un math o orfodaeth i gael ei ddefnyddio er cefnogi ei egnion; ond dywedir iddo wneuthur llawer o gyfeillion drwy ei hyawdledd deniadol. Yn 1689, dewiswyd ef gan M. de Beauvilliers yn athraw i'r Duc o Burgundy, a'i frodyr ieuangach, y duciaid o Anjou a Berri. Bu Fenelon yn hynod lwyddiannus i ffurfio cymmeriad y duc o Burgundy, etifedd tebygol coron Ffraingc, yr hwn oedd ddyn ieuangc tra rhinweddol; ond o herwydd ei farwolaeth gynnarol, diflanodd y gobeithion a goleddid am dano. Dyrchafwyd Fenelon yn archesgob Cambray yn 1694. Yr oedd cyn hyn wedi amddiffyn syniadau Madame Guyon, mewn llyfr o dan y teitl "*Explication des Maximes des Saints*," ac achosodd hyny ddadl rhyngddo â Bossuet, ei athraw blaenorol; ac yn y diwedd, condemniwyd y llyfr gan y pab Innocent XII., a throwyd ef o'i esgobaeth gan Lewis XIV. Darllenodd Fenelon gondemniad y pab ar ei lyfr yn ei eglwys gadeiriol ei hun. O hyn allan, bu fyw yn ei esgobaeth, gan gyflawni ei ddyledswyddau crefyddol yn fanwl—a phawb yn edrych arno fel athronydd Cristionogol teilwng o bob anrhydedd. Y mae ei weithiau mewn llenyddiaeth, athroniaeth, a duwinyddiaeth wedi anfarwoli ei enw. Yr oedd yn hollol gyfarwydd â gweithiau rhagoraf llenyddiaeth hen a diweddar, ac yn nodedig am ei ddyngarwch a'i haelioni. Yr oedd Fenelon, o ran ei

Digitized by Google

berson a'i arferion, yn un o'r dynion mwyaf hoffus. Efe a gyfansoddodd lawer o weithiau rhagorol; ac yn mhlith y rhai penaf, gellir enwi ei "*Dialogues of the Dead,*" a'i "*Dialogues on Eloquence,*" &c. Ond yr enwocaf o'i weithiau yn ddiammheuol ydyw ei ramant, "*The Adventures of Telemachus,*" yn yr hwn yr ymdrechai osod allan pa fath addysg a ddylai tywysog ei gael—yr hwn a gyfansoddwyd at wasanaeth ei ddysgybl, y Duc o Burgundy. Cyhoeddwyd ef ar y cyntaf heb ganiatâd yr awdwr, trwy un a bennodwyd i gyfieithu y llaw-ysgrif; ac yn gymmaint a'i fod yn cynnwys sylwadau a roddent dramgwydd i'r brenin, attaliwyd ei gylchrediad. Ond er fod Fenelon yn cael ei gadw o lys ei wlad ei hun, a'i frenin yn edrych yn wgus arno, yr oedd tramorwyr yn talu gwarogaeth uchel iddo. Daeth y gwaith hwn yn hynod boblogaidd, a chyfieithwyd ef i holl ieithoedd Ewrop. Prysurwyd marwolaeth Fenelon trwy i'w gerbyd gael ei ddymchwelyd, yr hyn a'i taflodd i dwymyn, o'r hon y bu farw yn mis Gorphenaf, 1715, yn 63ain mlwydd oed.

Yr oedd Fenelon yn ddyn hawddgar, o dymmer siriol, a'i holl ymddygiadau yn gysson â'i egwyddorion. Ychydig a gysgai, ac ychydig 'a fwytâai; ac yr oedd ei holl bleser yn gynnwysedig yn nghyflawniad ei ddyledswyddau. Yr ymarferiadau corphorol a gymmerai yn ystod yr amser y bu yn archesgob Cambray oedd cerdded a marchogaeth. Rhoddai yn mron ei holl waddol i feddygdai, i glerigwyr a addysgid ganddo, i fynachod neu leianod mewn cyfyngder, i foneddigion wedi syrthio i dlodi, a phobl o bob gradd oedd o fewn cyrhaedd ei haelfrydigrwydd. Gadawodd ar ei ol gymmeriad disglaer fel dyn hawddgar, goleuedig, a rhinweddol. Pan ar fin marw, yr oedd efe yn dawel a digyffro, yn pwyso ar ei Waredwr; a'i iaith yn ei ddiodd-efiadau mwyaf ydoedd, "Nid fy ewyllys i, ond yr eiddot ti a wneler!" Fe gasglwyd ei gynnyrchion llenyddol ynghyd, a chyhoeddwyd hwynt mewn naw o gyfrolau pedwarplyg. Cyfansoddodd weithiau ar athroniaeth, duwinyddiaeth, a llenyddiaeth gyffredinol. Y mae ei arddull yn llithrig a phleserus, ac yn llawn purdeb a chyssondeb.

FICHTE, JOHANN GOTTLIEB. Ganwyd yr athronydd dyfnddysg hwn yn Rammenau, yn Lusatia Uchaf, ar y 14eg o fis Mai, 1762. Derbyniodd ei addysg yn mhrif athrofeydd Jena, Leipzig, a Wittemberg. Yn 1788, aeth i Zurich fel dysgawdwr (*tutor*), lle y daeth yn gydnabyddus â merch odidog ei chymmeriad a theg o bryd, â'i henw Johanna Rahn, yr hon a briododd yn mhen dwy neu dair blynedd ar ol hyny. Pan oedd yn Zurich y dechreuodd efe astudio athroniaeth Kant; ac yn 1791, aeth i Königsberg i'w weled ef. Cyhoeddodd ei waith cyntaf, dan y teitl "*Adolygiad Beirniadol ar bob Dadguddiad,*" yn 1792. Yn 1793, etholwyd ef yn athraw athroniaeth i brifysgol Jena. Yna daeth yn gydnabyddus â Goethe, Schiller, Novalis, y ddau Schlegel, a llawer o enwogion eraill. Yn 1795, cyhoeddodd ei "*Wissenschaftslehre*"—damcaniaeth gwybodaeth—yn cynnwys cyfundraeth athronyddol o'i eiddo. Yn 1799, cyhuddwyd ef o anffyddiaeth; ac o blegid hyny aeth o Jena, ac ymsefydlodd yn Berlin; ond yn mhen ychydig flynyddoedd dewiswyd ef i lanw cadair athroniaeth yn Erlangen. Yn 1805, appwyntiwyd ef yn athraw mewn athroniaeth yn Erlangen. Yn 1808, cyhoeddodd ei "*Anerchiad i bobl yr Almaen,*" i alw arnynt i fwrw ymaith iau Bonaparte, ac i adsefydlu annibyniaeth eu gwlad. Etholwyd ef yn 1810 yn Rheithor Prifathrofa Berlin. Yn nifer ei gyd-athrawon yr oedd Humboldt, De Wette, Schleiermacher, a Neander. Yn 1813, cymmerwyd gwraig Fichte yn glaf wrth weini ar y clwyfedigion a'r cleifion yn yr ysbyttai. Pan y gwellhaodd hi, tarawodd yr haint ei gŵr, a bu efe farw o hono yn mhen ychydig ddyddiau, sef ar y 27ain o Ionawr, 1814. Dywed un cymmhwys i farnu am Fichte fel hyn:—"Ni bu dealltwriaeth mor gryf, enaid mor fawr, mor ddyrchafedig, mor gadarn, ac mor dawel, yn ymdrin â phyngciau athronyddol er amser Luther." Math o ddelfrydiaeth dragoriannol (*transcendental idealism*) yw ei athroniaeth, yr hon a ddysgir yn benaf yn ei "*Wissenschaftslehre.*" Y mae yn anhawdd, os nad yn annichon, rhoi crynodeb o'i ddysgeidiaeth mewn ychydig eiriau; ond gellir dyweyd mai yr hyn a geisia ei brofi ydyw y cyssylltiad angenrheidiol sydd rhwng ffurf gwybodaeth a mater gwybodaeth. Yr oedd ei athroniaeth yn un dufewnol i'r eithaf. Ni olygai fod dim yn bod yn wirioneddol ond 'y myfi' mewnol, a chredai fod pob peth arall yn greadigaeth o eiddo 'y myfi' hwnw. Hônai fod mater a ffurf ein gwybodaeth yn tarddu o'r meddwl, neu y myfi, ac yn ffrwyth ei weithrediad a'i weithgarwch. Y myfi sydd yn gosod ei hun i lawr fel 'y myfi,' a'r 'nid myfi,' neu yr hyn a edrycha fel yn bod y tu allan iddo ei hunan, a chydnabydda y diweddaf fel yn un a'r cyntaf. Ffurf pob gwybodaeth felly ydyw, gosodiad, gwrthosodiad, a chyfosodiad (*thesis, antithesis, synthesis*). Nid myfi unigol a phersonol ydyw y myfi creadigol hwn, ond y myfi anfeidrol a hollol, o'r hwn y tardda y myfi unigol. Nid oedd yr hyn a ddysgai yn ddiweddarach yn wahanol ond yn unig mewn ffurf.

FORBES, EDWARD: anianydd enwog. Ganwyd y gŵr hwn yn Douglas, yn Ynys Manaw, yn y fl. 1815. Yr oedd o'i febyd yn ymhyfrydu yn hanes anian. Aeth, yn 1831, i brif athrofa Edinburgh, i astudio meddyginiaeth; ond yn y flwyddyn 1836, penderfynodd beidio myned yn feddyg, ac ymgymmerodd â hanes anian fel galwedigaeth. Ar ol ymweled â Norway, Sweden, Ffraingc, a'r Almaen, er mwyn helaethu ei wybodaeth am ei hoff bwngc, efe a draddododd gyfres o ddarlithiau arno yn Edinburgh; ac yn 1841, cyhoeddodd lyfr ar "*British Starfishes:*"—gwaith a'i dyrchafodd i radd uchel fel anianydd. Yn yr un flwyddyn, aeth allan gydag eraill dan nawdd y llywodraeth ar hynt wyddorol i Asia Leiaf. Yn nghorph yr amser y bu yn absennol, gwnaeth lawer o ddarsylliadau a darganfyddiadau pwysig mewn milofyddiaeth, llysieuaeth, a daeareg ynysoedd a glenydd y Canolfôr, y rhai a gyhoeddodd efe a Mr. Spratt yn 1846. Yn y flwyddyn ganlynol, pennodwyd ef yn athraw llysieueg yn Ngholeg y Brenin yn Llundain. Heb law y gweithiau a enwyd, ysgrifenodd Forbes lawer i'r cyfnodur-on gwyddorol hefyd. Gwnaeth hefyd fap daeaeregol a henfodegol (*palæontological*) o'r Ynysoedd Prydeinig, ynghyd â map o'r byd, â'i enw "*Distribution of Marine Life.*" Pan fu farw Jameson, athraw *Natural History* yn athrofa Edinburgh, pennodwyd Forbes yn olynydd iddo. Er fod Forbes yn ddyn nodedig am graffder a helaethrwydd ei wybodaeth, etto nid oedd efe

Digitized by Google

yn ŵr dyfeisgar fel Linnæus neu Cuvier. Bu farw Tachwedd 18fed, 1854.

FOX, CHARLES JAMES: y gwladofydd a'r areithydd seneddol enwog. Ail fab ydoedd i Arglwydd Holland, a ganwyd ef Ionawr 13eg, 1749. Ar ol gorphen ei ysgol yn Eton a Rhydychain, treuliodd ddwy flynedd ar y Cyfandir; a chyn dychwelyd o hono adref, etholwyd ef yn aelod seneddol dros Midhurst, yn 1768. Trwy ddylanwad ac esampl ei dad, tyfodd i fyny yn anfoesol ac yn afradlawn. Cefnogodd y weinyddiaeth yn ei mesurau gwaethaf, a gwobrwywyd ef â'r swydd o arglwydd y morlys; ond rhoddodd hi i fyny yn 1772. Yn 1773, cafodd le wrth fwrdd y drysorfa; ond diswyddwyd ef yn fyrbwyll yn 1774, mewn canlyniad i anghyttundeb a fu rhyngddo ag Argl. North. Ymunodd Fox, gan hyny, â'r wrthblaid; a bu yn wrthwynebydd cryf i'r weinyddiaeth tra y parhaodd rhyfel yr America. Yn 1780, etholwyd ef dros ddinas Westminster, yr hon a gynnrychiolodd yn mron yn ddi-dòr hyd ddydd ei farwolaeth. Pan y cwympodd Arglwydd North, yn 1782, pennodwyd Fox yn ysgrifenydd tramor; ond pan y bu farw yr Ardalydd Rockingham, efe a roddodd ei swydd i fyny. Ar ol hyn, ymgyssylltodd Fox âg Arglwydd North, a chymmerodd y ddau swydd yn ngweinyddiaeth y Duc o Portland; ond buan yr aeth y llong a lywiai yn ddrylliau ar Fesur India Fox. Yna daeth Pitt i awdurdod, ac ymgymmerodd Fox eilwaith âg arwain yr wrthblaid; ac o hyny allan, bu ymdrech faith rhwng y ddau gydymgeisydd hyn. Yn 1788, aeth Mr. Fox drosodd i'r Cyfandir gyda'r foneddiges a gydnabyddai yn wraig iddo; ac ar ol treulio rhai dyddiau gyda'r hanesydd Gibbon yn Lausanne, aeth rhagddo i Italy; ond pan glafychodd y brenin, galwyd ef yn ol i'r wlad hon. Dadleuai ar yr achlysur hwn fod gan Dywysog Cymru hawl i gymmeryd y rhaglywiaeth; ond dadleuai Pitt yn erbyn hyny, a chefnogwyd ef yn ei waith gan y senedd a'r wlad. Rhoddodd Mesur y Rhaglywiaeth, prawf hynod Warren Hastings, a'r Chwyldroad yn Ffraingc, gyfleusdra digyffelyb iddo i ddangos ei dalentau a'i hyawdledd. Edrychai ar y chwyldroad fel bendith, tra yr edrychai Burke arno fel melldith; a pharodd yr anghydwelediad hwn rwyg yn y blaid, na chyfanwyd mo hono byth. Pan y bu farw Mr. Pitt, yn 1806, galwyd Fox eilwaith i awdurdod, fel ysgrifenydd tramor. Tra yn ei swydd y waith hon, efe a gychwynodd gylafaredd am heddwch gyda Ffraingc, ac ymdrechodd ei oreu i ddiddymu caethwasiaeth. Efe a fu farw o'r dyfrglwyf ar y 13eg o fis Medi, 1806, yn 57ain mlwydd oed; a chladdwyd ei gorph yn Westminster Abbey. Ni adawodd Fox ddim gweithiau llenyddol ar ei ol, oddi eithr ei areithiau, a "*History of the Reign of James* II." Ysgrifenwyd "*The Life and Times of C. J. Fox*" gan Iarll Russell. Fel areithydd, yr oedd Fox yn y radd flaenaf. Cyrhaeddodd y sefyllfa hon trwy amaethiad graddol a gofalus ei athrylith naturiol, ac felly y cyrhaeddodd uchelfan ei ymgais. Yr oedd efe is law Pitt mewn yni araethyddol, ac yn llai tanbaid na Burke; ond mewn parodrwydd, eglurder, a chyflawnder, yr oedd yn ddigymmhar. O'i gymmharu â'i gynllun henafol, Demosthenes, yr ydym yn cael fod gwahaniaeth barn yn mysg y beirniaid—rhai yn hòni, ac eraill yn gwadu, fod tebygolrwydd rhyngddynt. Y gwirionedd, dybygid, yw, fod y ddau olygiad yn gywir. Yr oedd efe yn debyg, ac etto yn annhebyg, mewn rhai nodweddion; ond mewn eraill, yr oedd yn dra thebyg iddo.

FOX, GEORGE: sylfaenydd plaid y Crynwyr, neu y Cyfeillion. Ganwyd ef yn Drayton, yn swydd Leicester, yn y flwyddyn 1624. Cadw defaid oedd ei waith ar y cyntaf, a rhwymwyd ef wedi hyny yn freintwas i grydd. Pan oedd yn bedair ar bymtheg oed, daeth i'w feddwl ei fod wedi derbyn gorchymyn dwyfol i ymroddi yn gwbl i grefydd. O blegid hyny, gadawodd ei berthynasau a'i gyfeillion, gwnaeth iddo ei hun wisg ledr, cerddai hefyd o fan i fan, ymprydiai lawer, ciliai i leoedd anghyfannedd i ddarllen y Beibl, ac i fyfyrio, ac eisteddai weithiau mewn ceubren dros ddiwrnod cyfan. Tua'r fl. 1647, dechreuodd bregethu yn gyhoeddus, gan lefaru yn erbyn gweinidogion urddedig, a phob ffurf grefyddol, yn gystal ag yn erbyn y pechodau mwyaf cyffredin. Yn Derby, gan ryw farnwr Bennet, y galwyd ef gyntaf yn Grynwr, o herwydd i Fox beri i'w wrthwynebwyr yn y llys *grynu wrth air yr Arglwydd.* Yn 1653, dygwyd ef o flaen Cromwell; yr hwn, wedi cael allan fod ei fwriadau yn heddychol, a'i gollyngodd ef yn rhydd. Cafodd achos i ddiolch fwy nag unwaith i'r amddiffynydd am ei ryddhau pan y byddai yr ynadon sirol wedi ei draddodi i garchar am aflonyddu ar weinidogion wrth weinyddu eu swydd. Yn 1666, dechreuodd drefnu ei ddilynwyr yn gymdeithas unedig. Yn 1669, priododd weddw barnwr Cymreig o'r enw Fell; ac yn fuan ar ol hyny, aeth i'r America i broselytio. Wedi iddo ddychwelyd, taflwyd ef i garchar, ond rhyddhawyd ef yn bur fuan; ac yna aeth i'r Iseldiroedd, lle y gwnaeth lawer o ddysgyblion. Yn 1681, ymwelodd drachefn â'r Iseldiroedd. Yr oedd ei iechyd erbyn hyn yn gwaelu, gan faint y llafur a'r dioddefiadau a gafodd; ond parhaodd i bregethu yn achlysurol yn Llundain hyd o fewn ychydig ddyddiau i adeg ei farwolaeth — yr hyn a ddigwyddodd Ionawr 13eg, 1690.

Yr oedd pregethiad a bywyd George Fox yn ardystiad tanllyd ac ymarferol yn erbyn ffurfioldeb crefyddol, bydolrwydd, a chaethiwed ysbrydol; ond barna pawb, oddi eithr ei ddysgyblion, ei fod, wrth ysgoi un eithaf, yn rhedeg i eithaf arall. Yr oedd ei syniadau am ddysgeidiaeth yr Ysbryd yn ei arwain i roddi rhy ychydig o werth ar ddysgeidiaeth yr Ysgrythyrau, yn gystal ag ar ddysgeidiaeth gyffredin. Ysgrifenodd lawer; a chyhoeddwyd ei ysgrifeniadau mewn dwy gyfrol unplyg, yn cynnwys:— 1. Dyddlyfr ei fywyd, yr hwn a ganmolir yn uchel iawn gan feirniaid galluog. 2. Ei lythyrau, &c. 3. Ei weithiau athrawiaethol.

FOX, JOHN: duwinydd a hanesydd eglwysig enwog, yr hwn a anwyd yn Boston, yn swydd Lincoln, yn 1517. Yn Rhydychain yr addysgwyd ef; ond pan wybuwyd ei fod wedi llyngcu egwyddorion y Diwygiad, cyhuddwyd ef o heresi, a bwriwyd ef allan o'r athrofa. Cafodd hawddfyd byr yn ystod teyrnasiad Edward VI.; ond pan esgynodd y frenhines Mari i'r orsedd, gwelodd Fox yn ddoeth i gilio i'r Cyfandir, lle y cynnaliodd ei deulu wrth gywiro y wasg i'r argraphydd, Oporinus o Basel. Yno y meddyliodd ac y parotodd Hanes y Merthyron; a chyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf yn Strasburg yn un gyfrol 8plyg, yn Lladin, yn 1554. Pan fu

Digitized by Google

farw Mari, efe a ddychwelodd adref, a derbyniwyd ef yn garedig gan y Duc o Norfolk; yr hwn a'i cymmerodd i'w dŷ, ac a roddodd flwydd-dâl iddo—ac yn nhŷ y pendefig caredig hwn y bu efe byw hyd ddydd ei farwolaeth. Yn 1563, cafodd eisteddfa prebendur yn eglwys gadeiriol Salisbury; a dyrchafasid ef yn uwch pe buasai yn barod i gyflawni y defodau gofynol.

Ysgrifenodd Fox lawer o lyfrau, ond yr unig un a ddarllenir yn awr ydyw ei "*Ferthyr-draeth.*" Y mae llawer o ysgrifenwyr Pabaidd wedi ceisio dangos fod yr hanesion a gofnodir yn y llyfr hwn yn anghredadwy—yn gwbl, neu ynte mewn rhan. Ond nid oes ond camgymmeriadau bychain a dibwys wedi eu canfod ynddo, fel a geir yn ysgrifeniadau pob dyn, a'r rhai hyny yn codi oddi ar hygoeledd a gormod sêl. Y mae geirwiredd a gonestrwydd yr awdwr yn anwadadwy. Dylid dyweyd hefyd, er clod i Fox, ei fod yn mhell o flaen ei oes yn ei syniadau am ryddid barn a llafar. Bu farw yn 1587.

FRANCIS, Syr PHILIP: awdwr tybiedig llythyrau "Junius." Ganwyd ef yn Dublin yn y flwyddyn 1740, a derbyniodd ei addysg yn Ysgol St. Paul; ac ar ol hyny, cafodd le yn swyddfa ysgrifenydd y llywodraeth. Yn 1760, aeth i Lisbon yn ysgrifenydd i'r llysgenhadwr Saesneg: ac yn 1773, gwnaed ef yn aelod o gynghor Bengal; a chymmaint oedd ei wrthwynebrwydd i fesurau y llywodraethwr Hastings, fel yr ymladdodd ornest âg ef. Pan ddychwelodd i Loegr, yn 1781, etholwyd ef yn aelod seneddol dros fwrdeisdref Yarmouth, yn Ynys Gwyth. Yna ymunodd â'r wrthblaid, a chymmerodd ran amlwg yn y rhan fwyaf o'u mesurau; yn arbenig yn y cyhuddiad yn erbyn Warren Hastings. Ysgrifenodd lawer o lythyrau sydd yn dangos talent anghyffredin, yn gymmysgedig â chryn lawer o falais; ond parhaodd i wadu hyd y diwedd mai efe ydoedd awdwr llythyrau Junius. Os oes rhywun yn ymhyfrydu yn y dadleuon ynghylch awduriaeth y llythyrau hynod hyny, darllened waith Mr. John Taylor, neu ynte gofiant Syr Philip Francis, gan Parkes a Merivale. Bu farw ddiwedd y flwyddyn 1818.

FRANKLIN, Syr JOHN: llyngesydd a fforiwr (*explorer*) morawl enwog. Ganwyd ef yn Spilsby, yn sir Lincoln, Ebrill 16eg, 1786. Pan yr oedd yn bedair ar ddeg oed, aeth i'r llynges, a gwasanaethodd yn mrwydr Copenhagen yn 1801. Yr haf canlynol, aeth gyda'i gefnder, Cadben Flinders, ar hynt i Awstralia. Hynododd ei hun hefyd yn Trafalgar, ac mewn ymosodiad ar Orleans Newydd yn 1814. Yn 1818, pennodwyd ef, a'r Cadben Buchan, i chwilio allan ffordd i India drwy y môr pegynol, ar du y gogledd i Spitzbergen. Ar ol myned yn lled bell ar y daith, niweidiwyd llong y Cadben Buchan gymmaint fel y penderfynodd mai doeth oedd iddo ddychwelyd. Dymunai Franklin fyned rhagddo; ond ni oddefai ei gydlywydd iddo fyned: felly dychwelasant i Loegr. Ond bu ymddygiad Franklin ar yr achlysur hwnw yn foddion i'w ddwyn i'r amlwg fel morwr eofn a medrus. Yn 1819, efe a aeth allan i fforio glanau gogleddol Gogledd America; ac yn ystod yr hynt hwn, darfu iddo ef a'i gymdeithion deithio uwch law pum mil a hanner o filldiroedd, gan ddioddef caledi mawr. Dychwelodd i Loegr yn 1822; a'r flwyddyn ganlynol, priododd wraig ragorol o'r enw Miss Ellen Porden. Yn 1825, pennodwyd ef i fyned eilwaith i fforio i Gefnfor y Gogledd. Pan ddaeth y dydd iddo gychwyn ymaith, yr oedd ei wraig yn glaf, ac ar fin marw; ond ni fynai hi iddo beidio cychwyn ar yr amser pennodedig er ei mwyn hi, a rhoddodd iddo fel anrheg ymadawol faner sidan, gan ddymuno arno ei chodi i ben yr hwylbren pan gyrhaeddai Fôr y Gogledd. Bu farw y wraig ddewr a rhagorol hon y diwrnod ar ol i'w gŵr hwylio ymaith. Dychwelodd i Loegr yn mis Medi, 1827; ac yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd hanes ei ail hynt, a phriododd Miss Jane Griffin, ei ail wraig. Yn 1829, urddwyd ef yn farchog, a derbyniodd y gradd o *D.C.L.* (Doethawr yn y Gyfraith Leygol) gan brifysgol Rhydychain, a bathodyn aur gan Gymdeithas Ddaearyddol Paris. Bu ar ol hyn yn gwasanaethu yn y Canolfor; ac yn 1836, pennodwyd ef yn llywodraethwr Van Diemen's Land. Yn haf 1845, hwyliodd ymaith y drydedd waith gyda dwy long o'r enwau *Erebus* a *Terror*, yn cynnwys 134 o forwyr, i geisio darganfod mynedfa ogledd-orllewinol i'r India. Yn Machwy Baffin, ar y 26ain o Orphenaf, 1845, y gwelwyd y llongau hyn ddiweddaf. Gorchymynasid i Franklin ddychwelyd yn 1847; ond pan y gwelwyd fod yr amser pennodedig wedi myned heibio, dechreuodd y wlad bryderu yn ei gylch ef, a'i gymdeithion. Felly, anfonwyd llongau allan amryw weithiau i chwilio am dano. Anfonwyd y llong ddiweddaf gan yr Arglwyddes Franklin yn 1857, dan lywyddiaeth y Cadben M'Clintock. Cafwyd gwybod y tro hwn fod Franklin wedi marw yn ei long ar yr 11eg o fis Mehefin, 1847, a bod y swyddogion a'r dwylaw wedi gorfod gadael y ddwy long yn y gwanwyn dilynol; ac y mae pob lle i gredu mai trengu a wnaethant oll. Y mae hanes y mordeithiau gwahanol a wnaed i chwilio am Syr John Franklin wedi eu cyhoeddi gan y Cadben M'Clintock, Syr John Richardson, a John Brown. Cyhoeddwyd hanes ei fordaith ddiweddaf gan Sherard Osborn.

FULLER, THOMAS: duwinydd a hanesydd dysgedig. Mab ydoedd efe i Thomas Fuller, periglor Aldwinkle, yn swydd Northampton, lle y ganwyd ef yn 1608. Addysgwyd ef gan ei dad; a phan nad oedd ond deuddeg oed, anfonwyd ef i Goleg y Frenhines, Caergrawnt. Graddiodd yn B.A. yn 1624, ac yn M.A. yn 1628; ac wedi hyny, symmudodd i Goleg Sidney, o'r hwn yr etholwyd ef yn gymmrawd yn 1631; a thua'r un adeg, dewiswyd ef yn gor-beriglor yn eglwys Salisbury. Y berigloriaeth gyntaf a gafodd efe oedd un Broad Windsor, yn swydd Dorset; ond nid oedd yn hoffi trigo mewn plwyf yn y wlad, a theimlai hefyd anesmwythder o herwydd sefyllfa yr achosion cyhoeddus; gan hyny, aeth i Lundain, a gwnaeth iddo ei hun yn mhulpudau y brifddinas y fath enw fel yr etholwyd ef yn ddarlithiwr yn nghapel brenhinol Savoy. Yn 1639, efe a gyhoeddodd ei "*History of the Holy War.*" Yn Ebrill, 1640, yr oedd yn aelod o'r gynnadledd eglwysig a gynnaliwyd yn Westminster, ac y mae wedi rhoddi hanes ei gweithrediadau yn ei "*Church History.*" Yr oedd yn dra selog dros achos y brenin. Gwrthododd, yn 1643, gymmeryd llŵ o ffyddlondeb i'r senedd, ond yn unig ar delerau neillduol; a'r canlyniad fu iddo ymuno â'r brenin yn Rhydychain, lle y pregethodd o flaen ei fawrhydi yn eglwys St. Mair. Cymmedrol oedd y syniadau a draethwyd ganddo yn y bregeth hon. Preswyliai yr

Digitized by Google

Ngholeg Lincoln tra yn aros yn Rhydychain, ac attafaelwyd ei feddiannau, a chollodd ei holl lyfrau, a'i lawysgrifau; ond gwnaed y golled hon i fyny iddo mewn rhan gan roddion o lyfrau oddi wrth Arglwydd Beauchamp ac Iarll Middlesex. Yn 1643, pennodwyd ef yn gaplan yn myddin y brenin. Gyda chyflawni dyledswyddau ei swydd, yr oedd hefyd yn talu sylw manwl i'w hoff efrydiau; a chasglodd lawer o ddefnyddiau ar gyfer ei "*Worthies of England*" y pryd hwnw. Ond daeth y rhyfel i derfyniad, a gyrwyd cyfran o fyddin y brenin, oedd dan Argl. Hopton, i Gernyw; a chaniataodd ei arglwyddiaeth i Fuller wneuthur ei noddfa yn ninas Exeter, lle y dilynai ei efrydiau hanesyddol, ac y pregethai hefyd yn feunyddiol. Dywedir mai yn Exeter y cyfansoddodd ei "*Good Thoughts in bad Times*," yn 1645. Pan orfodwyd y gwarchodlu i roddi y lle i fyny, yn Ebrill, 1646, daeth Fuller i Lundain: ond yr oedd un arall erbyn hyn wedi ei bennodi yn ddarlithydd yn Nghapel Savoy; ac felly, collodd y pennodiad hwnw. Yn fuan wedi hyn, dewiswyd ef yn ddarlithydd yn St. Clement's, Llundain, ac wedi hyny yn St. Bride's. Derbyniodd beriglorïaeth Waltham Abbey yn 1648. Cyhoeddodd ei "*Holy State*" yn 1648, a'i "*Pisgah-sight of Palestine*," &c., yn 1650. Daeth allan amryw lyfrau o'i waith yn ystod y blynyddoedd dilynol. Cyhoeddodd ei "*Church History*" yn y fl. 1655. Mynegir iddo fyned, gydag Arglwydd Berkeley, drosodd i'r Hague, ac iddo gael ei gyflwyno i sylw Siarl II. Gwyddis hyd sicrwydd, pa fodd bynag, mai ychydig cyn yr adferiad yr adsefydlwyd ef yn ddarlithiwr yn Nghapel Savoy, yr hyn a gollodd yn y fl. 1646; ac ar yr un pryd, cafodd drachefn gorberiglorïaeth Salisbury. Pennodwyd ef yn gaplan i'r brenin; a graddiodd prifysgol Caergrawnt ef yn ddoctor mewn duwinyddiaeth. Ar ei ddychweliad o Salisbury, yn Awst, 1661, cafodd ei daraw gan dwymyn—o'r hon y bu farw ar y 15fed o'r mis hwnw, yn 53ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn eglwys Cranford. Ni chyhoeddwyd ei waith mawr, "*The Worthies of England*," hyd ar ol ei farwolaeth.

Heb law y gweithiau y cyfeirir atynt uchod, yr oedd yn awdwr i lawer eraill o rai llai pwysig. Yr oedd yn ddyn oedd yn perchen cof digymhar yn mron. Dywedir fod ei gof mor hynod fel y gallai adrodd pregeth neu araeth, yn mron bob gair, ar ol ei chlywed unwaith. Yr oedd hefyd, yn feddiannol ar lawer o ffraethineb a digrifwch, yr hyn sydd yn amlwg iawn yn ei weithiau lliosog; ac y mae ei weithiau yn cael eu darllen gyda phleser a hyfrydwch gan lawer hyd heddyw. Tueddai Coleridge i'w osod ochr yn ochr â'r bardd Shakspeare mewn athrylith.

FLOYD [NEU FFLOYD] WILLIAM. Mab oedd efe i Nicol, ac ŵyr i Richard Ffloyd, yr hwn a ymfudodd o Gymru tua'r fl. 1680. Ganwyd ef yn Long Island, ger Efrog Newydd, Rhagfyr 17eg, 1734. Ymgymmerodd yn fuan â phleidio hawl y Trefedigaethau yn eu hymrafael â Phrydain Fawr, ac etholwyd ef yn gynnrychiolydd Efrog Newydd yn yr Eisteddiad Cyfandirol a gyfarfu yn Philadelphia, Medi 5ed, 1775 a 1776; a bu felly hyd ddadganiad annibyniaeth y wlad. Dioddefodd golledion enfawr yn ysbaid yr ymrafael hwnw. Yn 1777, gwnaed ef yn gadfridog i lywyddu milwyr cartrefol Long Island; a llanwodd amryw o swyddau uchaf y dalaeth, a bu yn seneddwr hyd ddiwedd ei oes. Yn 1784, prynodd ddarn mawr o dir ger yr afon Mohawk, lle y symmudodd i gartrefu yn 1803; ac oddi wrtho ef y gelwir y lle yn *Floyd* (neu yn *Ffloyd*) hyd heddyw. Bu farw Awst 4ydd, 1821, yn 87ain oed.

FOULKES, THOMAS. Pregethwr gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn 1731, yn Llandrillo-yn-Edeyrnion, yn sir Feirionydd. Priododd ferch i bregethwr o'r enw Gruffydd Siôn; a phriododd yr ail waith weddw o'r enw Mrs. Jane Jones, yr hon oedd yn cadw masnachdy yn y Bala—merch i'r hon a briodwyd gan y Parch. Thomas Charles. Yn lled fuan ar ol hyny, efe a roddodd y fasnach i fyny i Mr. Charles, a'i briod; ac ymroddodd â'i holl egni i wasanaethu crefydd. Nid oedd ei allu fel pregethwr ond bychan, mewn cymmhariaeth i Mr. Charles, a Mr. John Evans, ac eraill; ond yr oedd efe yn hynod yn ei ffyddlondeb. Bu ei ail wraig farw yn 1785; ac yn mhen tua dwy flynedd, priododd ferch i Mr. Simon Llwyd, o Blasyn-dref—awdwr yr *Amseryddiaeth Ysgrythyrol*. Ymaflodd ail waith mewn masnach, a symmudodd i Fachynlleth; a llwyddodd yno drachefn. Bu ei fynediad i Fachynlleth yn ddyrchafiad i Fethodistiaeth yno. Ymlidid a gwarthruddid hwy cyn iddo ef fyned yno: ond pan welwyd fod gŵr o'i sefyllfa ef yn perthyn iddynt, diflanodd y gwrthwynebiad. Yr oedd ei barch yn fawr i John a Charles Wesley; ac ystyriai y cyntaf fel ei 'dad yn y ffydd.' Goddefodd lawer o erlid wrth wasanaethu crefydd, a chyfranodd yn helaeth tuag ei hachosion. Bu farw Mai 15fed, 1802, yn 71ain oed.

FRANCIS, PARCH. BENJAMIN, M.A. Mab ieuangaf Enoch Francis, o Bencelli, ger Castellnewydd-yn-Emlyn. Ganwyd ef yn y fl. 1734. Gwasanaethodd fel gweinidog yn Bristol a Sudbury; ond sefydlodd yn Horsley, yn sir Gaerloew, yn 1757. Ordeiniwyd ef yn 1758; ac arosodd yno hyd ei farwolaeth, Rhagfyr 14eg, 1799, yn 66ain oed. Cyhoeddwyd y llyfrau canlynol o'i waith:—*Aleluia, neu Hymnau i Addoliad Cyhoeddus*, yn 1774; Ail Ran o'r unrhyw, 1786; *Marwnad ar Farwolaeth y Parch. John Thomas, gynt o Faes-y-dorglwyd*, 1787; *Cân am Fedydd, a achlysurwyd gan Draethawd y Parch. B. Evans dros Daenelliad Babanod; Iachawdwriaeth*, 1793; "*De Ultimo Justices*"—neu Gân am y Farn ddiweddaf; *Cân ar Farwolaeth Mr. William Jones*, 1799; *Marwnad Harry John, o Ben-y-garn*. Cyhoeddodd ddarnau yn Saesneg hefyd. Y mae llawer o'i emynau rhagorol mewn arferiad gan y gwahanol enwadau crefyddol hyd heddyw—ac yn enwedig gan y Bedyddwyr.

FYCHAN, PARCH. ABEL. Galwyd ef yn gyffredin 'Abel Vaughan;' a bu yn weinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn sir Ddinbych. Ganwyd ef yn Mhlas Bwcle, Llannefydd, yn Medi, 1784; a phreswyliodd yno hyd ei farwolaeth, yn 1836. Dechreuodd bregethu yn 1806, a bu yn weinidog ar eglwysi y Bedyddwyr yn Nglyn Ceiriog a Rhuthyn—a 30*p.* y flwyddyn oedd ei gyflog am wasanaethu y ddwy eglwys. Yn 1825, ymgymmerodd â gofal eglwysi Cefn bychan a Phen-y-cae, ger Rhiwabon. Bu y Bedyddwyr yn addoli yn Nghefn bychan am ddeuddeng mlynedd, mewn hen ystafell berthynol i'r Crynwyr; ond yn amser Abel Fychan fe adeiladwyd y capel presennol. Cyflawnodd

Digitized by Google

waith mawr yn ystod ei weinidogaeth, ac y mae dylanwad ei fywyd ar yr ardaloedd lle y llafuriai hyd heddyw.

FYCHAN, SYR GRUFFYDD. Yr oedd efe yn ail fab i Gruffydd ap Ieuan, oedd yn meddu etifeddiaethau yn Mhowys, y rhai, y mae yn debyg, sydd yn awr yn meddiant Arglwydd Powys. Dywedir fod Syr Gruffydd wedi ei greu yn farchog rhyfel yn mrwydr Agincourt; a dichon ei fod dan Arglwydd Powys yn llywydd ar y gwŷr a godid yn ei ardal ei hun i wasanaethu yn y frwydr hono. Syrthiodd Dafydd Gam, a'i geraint, Syr Roger Fychan a Syr Watcyn Llwyd, ar faes y frwydr; a thybir fod Syr Gruffydd wedi gwneyd ei ran gyda hwynt i achub y penadur o'r sefyllfa beryglus yr oedd ynddi yn y frwydr hono. Codwyd ei deulu ef i gryn enwogrwydd, gydag eraill cyffelyb, mewn canlyniad i'r frwydr; ac yn fuan cafodd ei alw yn Arglwydd Burgedin, Treflydan y Garth, a'r Gaerfawr. Yr oedd hyn yn gyfnewidiad mawr iddo, pan yr ystyrir ei fod wedi dechreu ei yrfa yn unig fel ail fab i benaeth bychan yn Cecidfa. O herwydd iddo anufuddhau i ryw wasanaeth a ofynwyd gan Henry Grey, Arglwydd Powys y pryd hwnw, rhoddwyd ef i farwolaeth. Cymmerodd y dienyddiad ysgeler hwn ar yr hen filwr dewr le yn muarth y Castell Coch, yn 1447.

FYCHAN, SIMWNT. Bardd galluog a dysgedig oedd, a flodeuodd rhwng 1560 a 1600. Preswyliai yn Tŷ Brith, ger llaw Rhuthyn. Oddi wrtho ef y mae parc mawr a berthynai unwaith iddo, ond sydd yn awr yn perthyn i etifeddiaeth Castell Rhuthyn, yn cael ei alw yn "Dir Simwnt." Yr oedd yn ŵr o gyfoeth, ac yn ddysgybl i Gruffydd Hiraethog; ac yn gydddysgybl â William Lleyn, Siôn Tudur, a William Cynwal, rhwng y blynyddoedd 1550 a 1560. Ysgrifenodd "Cowydd Moliant Siôn Llwyd, Ysgweier, o Iâl," yn 1560; a "Marwnad i Syr Richard Clwch"—gŵr Catrin o Berain, yr hwn a fu farw yn Antwerp yn 1570. Yn Eisteddfod fawr Caerwys, yn 1567, "graddiwyd Lewis ab Edward, neu Lewis Môn, William Lleyn, Owain Ifan neu Owain Gwynedd, a Simwnt Fychan, yn benceirddiaid ar gerdd dafawd." Dyma ffurf y graddiad:—

"Bydded hysbys i bob cyfryw ddyn, fod Eisteddfod ar wŷr wrth gerdd dafawd a thant yn nhref Gaerwys, yn swydd Fflint, y chweched dydd ar hugain o fis Mai, yn y nawfed flwyddyn o deyrnasiad *gras* y Frenhines Elizabeth, ger bron Elis Prys, Ysgwier, *doctor* o gyfraith *syvul*, ac un o gynghoriaid *gras* y frenhines yn *marches* Cymru; William Mostyn, Prys Mostyn, Owain ab Siôn ab Howel Fychan, Siôn ab William ab Siôn, Siôn Lewis Owain, Morys Gruffydd, Simwnt Thelwal, Siôn Gruffydd, *sersiant*, Robert Pilstwn, Iefan Llwyd o Iâl, a William Glyn, Ysgwieriaid; ac ein bod ni, yn henwedig Eisteddwyr, trwy *gommission gras* y frenhines, a'i chynghoriaid, yn rhoddi ac yn caniatau i Simwnt Fychan, Prydydd, radd Pencerdd; ac i bawb ei gynnwys a'i groesawu i bob lle cyfleus, i fyned ac i ddyfod, ac i gael ei rodd wrth ei radd, yn ol y dywysogawl *ystatus*, pan yw oed Crist mil a hanner a saith a thrigain."

Mewn canlyniad i hyn, ffurfiodd Simwnt Fychan Reolau Barddoniaeth; a chafodd farn yr eisteddfod arnynt, a'i chymmeradwyaeth o honynt. Canodd awdl ar y pedwar mesur ar hugain o glod i'r "Meistr Prys Mostyn, o Dalacre, noddwr a phrif golofn yr eisteddfod hono." Y mae yn 37 o dudalenau yn *Nghyf. y Beirdd;* a dywedodd Iolo Morganwg am dani, "mai y traethawd dysgedicaf a ysgrifenwyd erioed yn Ngwynedd ar farddoniaeth Cymraeg ydyw un Simwnt Fychan. Nid oes neb yn dangos beiau ac anafau Cerdd Dafawd yn fwy celfydd nag ef." Cyhoeddwyd Dosbarth Simwnt Fychan yn ddiweddar yn *Nosbarth* neu *Rammadeg Edeyrn Dafod Aur.* Cyfansoddodd hefyd "Gywydd y Cyrtiau Mân," "Cywydd i Dduw," "Marwnad Siôn Wyn o Wedir," a "Chywydd i Forys Wyn o Wedir;" a thybia rhai mai efe oedd awdwr "Araeth Gwgan," er mai enw Einion o'r Fan sydd yn ymddangos wrth yr araeth yn y *Taliesin.* Bu Simwnt Fychan farw ar Ebrill 12fed, 1606.

Digitized by Google

# FF.



FF: y mae hon yn llythyren wreiddiol yn y Gymraeg; hyny yw, y mae yn dechreu llawer o eiriau Cymraeg arbenigol, fel y ceir hwy mewn Geiriadur, ac nid fel treigliad o lythyren neu lythyrenau ereill mewn cyfansoddiad, fel y mae *f* yn dreigliad o *b* neu *m*; neu fel y mae *ph* yn dreigliad o *p*. Y mae *ff* yr un sain yn hollol mewn geiriau ag *ph*; ond er mwyn eu gwahaniaethu wrth eu hadrodd a'u dysgu yn yr egwyddor (*alphabet*), gelwir *ff* yn *eff* (=*eph*), ac *ph* yn *yph* (=*yff*). Nid yw *sain* y Gymraeg yn gofyn *ph* o gwbl; ond dygwyd hi i'r orgraff yn ddiweddar, mewn cymhariaeth, naill ai fel treigliad o *p*; megys yn *gorphen*, ei *pharch*; neu i gynnrychioli *ph* ieithoedd estronol, mewn geiriau a fenthycir o honynt; megys ***Pharaoh, Sephaniah, Philemon, Ephesiaid, philosophi, &c.*** Gwel *Ph.* Defnyddir *ff*, naill ai mewn geiriau gwreiddiol Cymraeg, fel yr awgrymwyd; megys yn *ffau, ffon, ffordd, hoff*; neu i gynnrychioli *f* ieithoedd estronol, mewn geiriau a fenthycir o honynt; megys ***ffydd, ffenestr, perffaith, &c.***

FFA. Y cyfeiriad cyntaf a geir at y plisgrawn hwn mewn hanesyddiaeth a welir yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, lle y dywedir fod ffa, yn mhlith pethau ereill, wedi cael eu dwyn gan Sobi, mab Nahas, Machir, mab Amïel, a Barzilai y Sibadiad, yn anrheg "i Ddafydd a'r bobl oedd gydag ef, i'w bwyta," pan ffoisant i Mahanaim rhag ofn lluoedd Absalom. Ni hysbysir i ni y defnydd a wnaethid o'r plisgrawn hwn gan yr hynafiaid, ac ni chyfeirir at gynauaf ffa chwaith, fel y gwneir yn dra mynych at yr eiddo gwenith a haidd. Y mae y ffaith fod ffacbys, y rhai sydd o'r un rhywogaeth o blanigion a ffa, nid yn unig yn cael eu tyfu, ond hefyd yn cael eu harfer fel ymborth, gan yr Iuddewon, yn ein harwain i dybied yn gryf fod ffa hefyd yn cael eu hamaethu a'u bwyta ganddynt yr un modd; etto, gan nad ydyw na hinsawdd na thir Gwlad Canaan yn gyfaddas iawn at dyfu ffa, y mae yn rhaid i ni gasglu mai ychydig o dir a drefnid at hyny: ac os oeddynt yn arfer llawer o honynt, fod yn rhaid eu bod yn eu cludo o diroedd Canaan i diroedd y Nile, yn yr Aipht, y rhai a ystyrid yn ffafriol i'w tyfiant, yn gyfnewid am eu ffrwythau pur a'u gwinoedd rhagorol, am ba rai yr oedd eu gwlad mor hynod drwy ystod ei llwyddiant anarferol cyntefig, ac oddi tan lywodraeth brenhinoedd cyntaf Israel.

Yr oedd ffa yn adnabyddus hefyd i'r Rhufeiniaid yn adeg foreuaf eu hanesiaeth ysgrifenedig, a derbyniai un o deuluoedd anrhydeddusaf y brifddinas (y Fabii) eu henw oddi wrth amgylchiad oedd yn dwyn perthynas â'r plisgrawn hwn. Y mae cynnydd amaethiad ffa mewn gwledydd ereill, o'r cyfnodau boreuol hyn o hanesiaeth y byd hyd amseroedd diweddarwch, yn amgauedig mewn llawer o ansicrwydd, yr hyn a achlysurid gan y diffyg o gofnodau dilynol yn mherthynas i wyddoniaeth ac ymarferiadau amaethyddol; ond gallwn gasglu gyda gradd o sicrwydd nad oedd y Rhufeiniaid, er eu gorawydd am fuddugoliaeth a gogoniant milwrol, yn anwybodus nac yn esgeulus o'r manteision a ddeilliai iddynt o ddiwylliant amaethyddol yn y gwledydd a ennillid ganddynt. Y mae yn anhysbys pa bryd y dygwyd y plisgrawn hwn i Brydain. Tybia rhai fod hyny wedi cymmeryd lle yn ebrwydd ar ol goresgyniad yr Hispaen gan y Mooriaid; a bod y wlad hono, neu ynte Portugal, wedi anfon y cyflenwad cyntaf o'r grawn i'r ynysoedd Prydeinig. Er y pryd hwnw, y mae ffa wedi ymranu i lawer o rywogaethau, y rhai sydd yn gwneud i fyny ran helaeth o'r planigion garddwrol hyny a amaethir er cynnaliaeth dyn ac anifail.

Nodwedd y planigyn hwn ydyw deugibhadog; hyny yw, yn gyfansoddedig o ddwy hadgoden. Y rhai, er eu bod yn glynu wrth eu gilydd, ydynt yn berffaith ar wahân yn eu rhanau neillduol, oddi eithr yn y llygad, lle y cyssylltir hwynt gan anelwig y planhigyn dyfodol. Pan yn leision, y mae y ddwy yn hawdd i'w dadgyssylltu; ond fel yr addfedant, y mae yn anhaws gwneuthur hyny o lawer, gan fod yr alwyn, oedd o'r blaen yn gweithredu fel glud meddal, wedi caledu fwyfwy fel yr heneiddia. Y mae yr hadgodau yn amgauedig mewn plisgyn lledraidd, hawdd ei ddidoli, a'r hyn sydd yn gyffredin yn ffurfio o ddeutu'r bymthegfed ran o gant o gyfanbwys y grawn. Y mae yr anelwig yn gorwedd yn mônsang yr hedyn, yn union odditan y llygad. Mae y grawn yn cynnwys ynddo ei hun gyflenwad digonol o ymborth cyfluniol ac anghyfluniol er cynnal a chynnyddu y rhanau tyfol, hyd nes y byddant wedi dyfod yn ddigon cryfion, o ran gwraidd a dail, i dynu moddion eu cynnaliaeth o'r ddaear a'r awyr yn ddibrin. Pan y mae y planhigyn ieuangc allan o'r ddaear, y mae yn cynnyddu yn dra chyflym: y mae y gwlydd, neu goesig, yn tyfu yn union-syth, gan daflu allan yn ebrwydd ganghenau o ddail; ac nid yw yn peidio tyfu hyd nes y bydd y grawn (dyben ac amcan ei fodolaeth) wedi ei berffeithio a'i ddwyn i addfedrwydd. Yn hyn o beth, sef tyfiant parhaus y gwlydd, y mae y planhigyn plisgrawnol yn gwahaniaethu oddi wrth y rhai ydrawnol—pa rai a beidiant a thyfu yn mhell cyn yr adeg y bydd yr had wedi perffeithio ac addfedu. Y mae ffa y meusydd yn cymmeryd gwahanol amserau i gyrhaedd perffeithrwydd wedi yr hauer hwynt; ond yn ein gwlad ni, yn y cyffredin, mae y rhywogaeth gauaf yn cymmeryd o naw i ddeng mis, a'r rhywogaeth gwanwyn o bump a hanner i chwe mis. Y mae rhywogaethau cynnaraf y

gerddi, pan wedi eu hau mor ddiweddar yn y gwanwyn ag i beidio cael attalfa gan rew, yn perffeithio eu grawn mewn ychydig gyda phedwar mis.

Yr oedd ffa gynt yn cael eu trin fel rhywogaeth o ffacbys, dan yr enw *vicia faba;* ond yn bresennol, edrychir arnynt fel rhywogaeth neillduol, dan yr enw *faba*. Y mae dwy brif rywogaeth israddol, y rhai ydynt yn hawdd eu didoli—y naill yn cael ei alw yn llysieuaidd, *faba vulgaris arvensis*, *faba vulgaris aquina*, neu *faba vulgaris minor*, ac yn gyffredin ffa man, ffa ceffylau, neu ffa llwydion; a'r llall dan yr enwad llysieuol, *faba vulgaris major*, neu *faba vulgaris hortensis*, ac yn gyffredin ffa gerddi, ffa breision, a ffa gwynion. Ond yn y ddwy brif isrywogaeth hyn, y mae yn amlwg fod lliaws o is-rywogaethau eto; ond gellir dosbarthu y cyfan dan y tri enwad canlynol, sef ffa caeau neu feusydd, ffa gerddi, a ffa y gellid eu tyfu un ai mewn caeau neu erddi. O'r ffa gerddi, y mae cynnifer ag ugain o rywogaethau ac is-rywogaethau, ac o'r ffa meusydd o ddeutu deuddeg. Rhoddwn restr o'r rhai penaf o'r ddwy brif rywogaeth, ynghyd â'u nodweddion.—1. Ffa ceffylau. Gelwir y math hwn hefyd ffa Scotaidd, gan mai efe ydyw yr unig un o'r bron a amaethir yn y wlad hono. Y mae yn rhywogaeth galed iawn, ac yn un tra chynnyrchiol, yn enwedig os bydd yr hin wedi bod yn sych a thesog pan y byddo y callod yn llenwi. Y mae y grawn ar gyfartaliad yn gyfansoddedig o 85.68 o rawn, a 14.31 o blisgyn. 2. Ffa caeau, neu y Tick cyffredin. Y mae y rhywogaeth hwn yn cael yr n sylw yn Lloegr ag y mae y cyntaf yn Ysgotland, ac yn fynych yn myned dan yr enw ffa ceffylau. Y mae yn bosibl mai yr un oeddynt flynyddoedd yn ol, ond fod hinsawdd, tir, a thriniaeth wedi effeithio y gwahaniaeth sydd yn bodoli rhyngddynt yn bresennol. Y mae yn llawn mor gynnyrchiol, ac yn fwy cyfaddas i diroedd ysgeifn, na'r ffa Ysgotaidd. Y mae is-rywogaethau o'r ffa caeau, megys yr Harrow Tick, y Tick fflat, a'r Essex Tick, &c.; ond y maent mor debyg i'w gilydd, fel mai diangenrhaid ydyw rhoddi sylw arbenig iddynt oll. 3. Y ffa Heligoland. Y mae hwn yn rhywogaeth galed, yn gynnarach na rhif 1, y gwlydd yn fyrach, ac yn dra chyfaddas i'w hau ar dir mor ffrwythlawn ag i beri ofn am ormod o gnwd. 4. Y ffa colomenod (*pigeon bean*). Gan y rhywogaeth hwn y mae yr hâd lleiaf o'r cyfan. Y mae yn gynnarol, ac yn ildio yn weddol dda; ond yn fwy cyfaddas i hinsawdd gynhes, megys rhanau deheuol ein hynys. 5. Y *purple field bean*. Y mae grawn y math hwn yn dywyllach eu lliw, yn fyrach, crynach, ac ychydig yn fwy na'r Heligoland. Mae hefyd yn ddiweddarach na'r rhelyw o'r ffa gwanwyn mân, ac yn llai cynnyrchiol. 6. Ffa Rwssiaidd, neu ffa caeau gauaf. Mae hwn yn rhywogaeth galetach nag un arall, a gellir ei hau yn mis Hydref gyda thebygolrwydd cryf o gynnyrchu cnwd toreithiog, yn enwedig os bydd y tir wedi ei sychu, a'r tir heb fod yn dra rhewlyd. 7. Ffa Annfield. Grawn y rhywogaeth hwn yw y mwyaf o'r holl rai a dyfir yn y caeau; eto, nid ydyw cystal ag un o honynt i'r amaethwr. 8. Mazagan cynnar. Y mae y math hwn yn gymhwys i'w hau mewn gerddi, yn gystal a meusydd. Tybia Lawson iddo gael ei ddwyn i'r wlad hon o orsaf Portugaidd ar lanau Affrica. 9. Ffa hirgoden. Gellir hau y rhywogaeth hwn eto un ai yn y caeau neu mewn gerddi. Adnabyddir ef hefyd wrth liaws o enwau ereill—megys y Longpod cynnar, y Longpod mawr, Lisbon, Lisbon cynnar, &c. Haera rhai fod yr enwau hyn yn dynodi rhywogaethau gwahanol; ond y mae Lawson—yr hwn, y mae'n debyg, yw yr awdurdod uchaf ar y pwngc—yn dyweyd mai gwahaniaethau wedi eu dwyn oddi amgylch gan amryfath drinogaeth a hinsawdd gwahanol ydynt. Y mae etto restr o rywogaethau o ffa gerddi, yn mhlith y rhai y rhoddir y Mazagan cynnar, y Longpod cyffredin, Dutch Longpod, Child's Longpod, Longpod gwyrdd, Longpod Twrci, Longpod Johnston, yr Hang-down Longpod cynnar, Imperial Longpod, Sangster, y White Blossom, Red Blossom, y Windsor, y Windsor llydan, y Windsor werdd, y Dwarf Fan, neu Cluster, Marshall's Dwarf, y Prolific, y Toker, ynghyd â thri neu bedwar o fathau ereill ag sydd yn awr wedi eu gadael heibio. Y rhywogaeth a heuir yn fwyaf cyffredin yn Mhrydain ydyw y Windsor a'i is-rywogaethau.

Y mae ansawdd ffa, fel pob hadau amaethyddol ereill, yn dibynu i fesur mawr ar eu durfingdra; a'r pwysau trymaf yn ol y mesur a ystyrir yn gyffredin y safon goreu o'i werth. Y mae hyn yn wir mewn lliaws o amgylchiadau; ond gall fod rhai mathau o rawn, megys ffa, yn eithriadau i'r rheol, yn gymmaint a bod yn rhaid cymmeryd i ystyriaeth amryw bethau ereill; eto, nid ydyw y pwysau yn ol y mesur yn ddifeth, gan fod yn angenrheidiol ystyried fod gwahaniaeth yn bodoli yn maintioli a ffurf y gwahanol fathau o rawn, a hyny mewn canlyniad yn achosi fod y gwagleoedd rhyngddynt yn y mesur yn fwy neu yn llai. O'r holl rywogaethau a broffwyd, ymddengys mai y mwyaf durfing o'r ffa caeau ydyw yr Heligoland, ac o'r ffa gerddi, y White Blossom.

Y mae pob tir o ansawdd almaidd neu gleiog, pan wedi ei sychu, yn gyfaddas i dyfiant ffa; ond y tiroedd goreu i'r perwyl ydynt y rhai sydd heb fod yn glai trwm nac yn bridd ysgafn. Dyfnder, sychder, a sadrwydd tir, ydyw yr angenrheidiau anianyddol er amaethiad priodol ffa. Diau fod cnydau toreithiog wedi tyfu ar diroedd teneuon a gwlybion ar rai prydiau pan y byddo yr hin yn ffafriol; ond eithriad i'r rheol ydyw hyny. Y mae ffurf gwreiddyn y ffa yn amlygiad digonol o'r tir mwyaf rheidiol i'w gynnyrchiad llwyddiannus. Y mae hwnw yn hir, yn blaenfaenio, ac yn treiddio i'r isweryd; o ba le y mae yn tynu rhan helaeth o'i ymborth. Yr adeg gyffredin i hau pob math o ffa, oddi gerth ffa Rwssiaidd neu ffa gauaf, ydyw o ddechreu Chewfror hyd ganol Mawrth. Y mae gwneyd hyny yn gynt na'r amser a nodwyd yn ddiangenrhaid, ac y mae ei ohirio ar ol yr adeg olaf yn peri fod y cynhauaf yn debyg o fod yn ddiweddar, a'r grawn o herwydd hyny yn feinach ac yn llai ei werth. Y mae yn angenrheidiol cymmeryd mantais ar y cyfleusdra cyntaf i lyfnu y tir a'i wneyd yn barod erbyn yr adeg, yn enwedig y tiroedd cleiog trymion; ond y mae yn beryglus gwneuthur hyny os bydd y cyfryw diroedd yn wlybion, gan eu bod yn dueddol i ymgaledu i'r cyfryw radd ag i darfu eginiad a thyfiant y planigion ieuainc i raddau helaeth. Defnyddir amryw ddulliau mewn gwahanol ardaloedd o hau y plisgrawn hwn. Os bydd y tir yn lân ac mewn cywair da, gellir ystyried y drefn o hau ar led yn ddigon goddefol; ond yn y cyffredin, dilys ydyw mai y dull goreu ydyw mewn rhesi, o herwydd amryw resymau. Y mae yn rhoddi mantais i gadw y tir yn lân, os

Digitized by Google

bydd felly eisoes, i lanhau y tir os bydd yn aflan, i weithio unrhyw wrteithiau, a ellid eu defnyddio i'r pwrpas, at wraidd y planigion, ac yn rhwyddhau y llwybr i'r gwynt fyned trwyddynt: yr oll o ba rai sydd yn anhebgorol er eu triniaeth llwyddiannus.

Gyda golwg ar y sylwadau fferyllol sydd yn ofynol er tyfiant ffa, y mae elfenau anghyfluniol y gwlydd a'r grawn yn lled debyg i'r eiddo y cnydau gwynion, ond eto yn dra gwahanol o ran eu swm a'u cyfartaledd perthynasol. Yn y pethau hyn, y maent yn debycach i bytatws a maip. Y mae y gwlydd a'r grawn yn cynnwys cryn lawer o sylweddau alcalig: y mae calch a magnesia, y surau ufelig a phosphoraidd yn elfenau yn nghyfansoddiad y gwlydd a'r grawn. Gan fod y pethau uchod yn hanfodol i lwyddiant y cnwd o ffa, y casgliad naturiol ydyw mai y tiroedd hyny ag sydd yn meddu y sylweddau hyny ydynt y rhai cyfaddasaf i'w tyfiant. Ymddengys fod tyfiant y gwlydd yn dibynu gan mwyaf ar bresennoldeb *potash* a chalch yn y tir, a pherffeithiad y grawn ar *soda, gypsum, a phosphoric acid.* Y mae cyfansoddiad cyfluniol gwlydd a grawn ffa yn amlygu swm helaethach o blorai nag a geir mewn gwenith, haidd, na cheirch. Y mae y ffaith hwn yn dangos yr angenrheidrwydd am fod y tir yn gyfoethog o sylweddau anifeilaidd a llysieuaidd braenedig, yn gystal a'r sylweddau delidfaenol a nodwyd. Ond y mae ffa yn dibynu llai am eu llwyddiant ar y cyntaf na'r olaf. Y gwrteithiau cludadwy goreu at y cnwd ydynt y *nitrates a'r sulphates o soda a potash*, ac esgyrn toddedig; y rhai a gymhwysir yn y ffurf o arwrteithiau, wedi i'r planigion dyfu ychydig fodfeddi o uchder. Tra yn cyfeirio at y gwrteithiau neillduol hyn fel yn dra chyfaddas o ran eu cyfansoddiad i dyfiant ffa, dylid cadw mewn golwg bob amser fod y wir gelfyddyd o amaethyddiaeth yn gynnwysedig mewn gwneyd i'r tir fod yn hunangynnaliol, mor belled ag y byddo modd: a gellir gwneyd hyn i fesur mawr ar y tiroedd hyny sydd o nodwedd ganolog neu uwch law hyny, trwy wellhau eu hansawdd anianyddol, a rhyddhau, drwy driniogaeth ddwfn a llwyr, yr ystôr o sylweddau maethol a barhäai heb hyny yn gloedig, anfuddiol, a diles. Y mae dwfn ysgytiad, maluriad, a glanhad y tir yn ystod tyfiant y cnwd ffa, ac yn wir pob cnwd arall, yn gystal, ac yn fynych yn well na chymhwysiad cyfran o wrtaith, pan y mae y gorchwylion hyny yn cael eu hesgeuluso neu yn cael eu cyflawni yn anmherffaith; canys, trwy ollyngiad yr awyr, ufelai, sur ulyfig, a dwfr, i mewn i'r tir, y mae edrwythau y sylweddau anifeilaidd a delidfaenol a gynnwysir yn y tir yn cael eu rhyddhau er dylanwadu eu gweithrediad neillduol ar yr hyn, heb hyny, a barhäai yn farw; ac y mae y cyfan a geir o'r ffynonnell hon yn gwbl ennill i'r amaethwr, gan ei fod wrth hyny yn dwyn i effeithiolrwydd yr hyn y mae natur wedi ei osod o fewn ei gyrhaedd.

FFACBYS, [עדשים, φακος; נזיד, μελάνθιον]: ffacbys (*lentiles*) ydyw y gair a ddefnyddir yn y cyfleithiad Cymraeg, a gair cyfystyr a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau Ysgrythyrol; a thybiai y beirniaid yn gyffredin ei fod yn ddigon cywir. Ymddengys mai y defnydd penaf a wneid o'r ffacbys oedd i wneyd math o gawl. Ffacbys oedd un o ddefnyddiau y "cawl coch" y gwerthodd Esau ei enedigaeth-fraint am dano i Iacob: *Gen.* xxv. 29—34. Ymddengys y cymhwysid y gair *coch* at beth o liw melyn wineu, yr hyn y rhaid fod lliw y cawl, gan ei fod wedi ei wneyd o ffacbys. Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hefyd yn galw ffacbys yn goch [*Celsius*, i. 105]. Yr oedd ffacbys yn mhlith yr ymborth a ddygwyd i Dafydd pan yn ffoi rhag Absalom (2 *Sam.* xvii. 28); ac mewn maes ffacbys y gorchfygodd Sammah, un o gedyrn Dafydd, y Philistiaid. Ymddengys, oddi wrth *Ezec.* iv. 9, fod ffacbys yn cael eu defnyddio weithiau fel defnydd bara. Diau mai mewn amser o brinder, neu gan y tlodion yn unig, y defnyddid hwy i'r perwyl yma. Dywed Sonnini mai ffacbys wedi eu cymmysgu â haidd bron ydyw unig ddefnydd bara y dosbarth tlotaf yn neheubarth yr Aipht, lle y mae prinder o rawn arall. Gelwir ef yno *bettan;* ac nid ydyw yn ddrwg, er ei fod braidd yn drwm. Ymddengys yn debyg, mewn gwirionedd, fod ffacbys yn y wlad hono, hyd yn oed yn fwy nag yn Palestina, gynt, megys yn awr, yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o ddefnydd ymborth y dosbarth gweithiol. Arwyddoceir hyn gan amryw o hen awduron; ac ymddengys fod y fath sylw yn cael ei roddi i'r grawn yma, fel, trwy ddiwylliad, y daeth rhyw fathau o honynt yn rhywogaeth ardderchog o rawn. Yr oedd ffacbys y parth nesaf o'r Aipht i Balestina, yn cael eu gwerthfawrogi yn nodedig gan yr Aiphtiaid a chenedloedd estronol [*Virg. Georg.*, i. 28]; ac y mae yn debyg mai dyma y rhywogaeth a grybwyllir yn y *Mishna* [*Lib. Kilvim*, xviii. 8] fel rhai heb fod yn fawrion nac yn fychain. Yr oedd swm mawr o ffacbys yn cael eu hallfori o Alexandria [*Aug. Com. in Psalm* xliv]. Y mae Pliny, wrth grybwyll yn ddamweiniol am ddau fath o ffacbys Aiphtaidd, yn dywedyd fod un o honynt yn goch; a'u bod yn rhoddi lliw coch i'r cawl a wneid o honynt [*Hist. Nat.*, xviii. 12]; yr hyn a rydd eglurhad da ar "gawl coch" Iacob. Dywed y Dr. Shaw hefyd [i. 257], fod y ffacbys hyn yn meddalu yn rhwydd wrth eu berwi, ac yn gwneud math o gawl rhuddgoch, a fawrygir yn ddirfawr yn ngogledd Affrica a gorllewin Asia. Wrth ystyried y pethau hyn, y mae yn dra thebyg mai y ffacbys rhuddgoch sydd yn awr mor gyffredin yn yr Aipht ydyw y rhywogaeth y gwneir yr holl gyfeiriadau hyn atynt.

Mae y darluniau beddrodol yn dangos pa fodd y parotöid y cawl ffacbys, neu fel y dysgrifia Wilkinson [*Anc. Egypt.* ii. 387] yr oruchwyliaeth: "Gwelir un wrth y gorchwyl o goginio cawl neu botes, ac un arall yn cludo ffagodau i wneyd tân;



Dar. 301.

a gwelir y ffacbys eu hunain mewn basgedi gwiail yn sefyll ger llaw." Ychydig o sylw a wnaed gan deithwyr ar ffacbys Palestina. Y mae Nau [*Voy. Nauv.*, td. 13] yn crybwyll mai ffacbys, yn nghyd âg ŷd a phys, oedd prif nwyddau masnach yn Tortoura; ac y mae D'Arvieux [*Mém.*, ii. 237] yn sôn am deml Dyrcaidd a fu gynt yn addoldy Cristionogol uwch law y beddrod patriarchaidd yn Hebron, yn nglŷn â'r hon yr oedd cegin eang, lle y byddid yn parotoi cawl ffacbys bob dydd, ac yn ei ranu yn rhad i ddieithriaid a phobl dlodion, er cof am y fargen rhwng Esau ac Iacob, yr

hyn, fel y tybient hwy yn gyfeiliornus, a gymmerodd le yn y fan hono.

Y mae dau dylwyth o ffacbys yn cael eu meithrin yn y parth yma o Ewrop; sef,

1. Ffacbys (*ervum*). Y mae yn perthyn i'r dosbarth hwn y ffacbys cyffredin a dyfir gan amaethwyr dan yr enwad *vicia satva*, a'r ffacbys y cawn hanes am danynt yn 2 *Sam.* xvii. 28; lle y dywedir i Dafydd dderbyn anrheg o honynt, yn mysg pethau eraill, gan Sobi, Machir, a Barzila, pan yn newynog ac ar ffoedigaeth yn yr anialwch rhag brâd a chydfwriad Absalom yn ei erbyn ef. Gelwir y rhai olaf hyn mewn iaith lysieuol yn *ervum lens.* Y maent i'w gweled yn tyfu yn



Dar. 302.

wylltion yn y rhanau mwyaf cynhes o Ewrop, ac amaethir hwynt yn gyfagos i Paris, er mwyn eu hadau, y rhai a ddefnyddir ganddynt i ddybenion cogyddol. Er cymmaint yr arferir hwynt mewn coginiaeth, nid oes dim ammheuaeth nad ydynt yn berffaith afiachus. Y maent nid yn unig yn galed ac yn anhawdd eu treulio yn y cylla, ond haerir eu bod yn achos o'r anhwylderau manwynog trymion ydynt mor gyffredinol yn yr Aipht, lle y maent yn cael eu harfer yn helaeth. Dywed Haller eu bod mor wyntiog yn eu heffeithiau ag i ladd ceffylau.

Y mae y rhywogaeth arall o'r un genedl sef, y *vicia.*

2. Ffacbys (*vicia*): sydd yn un o'r planigion plisgrawnol, ond yn gwahaniaethu ychydig yn ei arddull oddi wrth y rhai sydd yn yr un genedl. Y mae yn cynnwys lliaws o rywogaethau, megys *vicia sativa* (y ffacbys cyffredin), *vicia cracca*, (y ffacbys tuswaidd), *visia villosa*, (y ffacbys mawr Rwssiaidd), *a vicia sylvatica*, (ffacbys y coed): ond un a ammheuthir yn gyffredinol yn ein gwlad ni; sef, y *vicia sativa.*

Y mae cyfansoddiad y grawn yn lled gyffelyb i ffa a phys, ac yn cynnwys rhanau helaeth o'r sylweddau hyny ag sydd yn gefnogaethol i besgiad anifeiliaid. Ond anfynych iawn yr hauir ffacbys yn Mhrydain er mwyn yr had fel ymborth, gan fod tuedd ynddynt i orboethi anifeiliaid. Y mae y ffacbys cyffredin yn myned o dan ddau enw, sef y ffacbys gauaf a'r ffacbys gwanwyn; ond eglur yw mai amgylchiadau a wnaeth y gwahaniaeth rhyngddynt, gan fod yn hawdd cyfnewid eu henwau trwy eu hau ar wahanol adegau. Os heuir y ffacbys gauaf yn y gwanwyn, bydd yr had y flwyddyn ddilynol yn ffacbys gwanwyn; a'r un modd gyda'r ffacbys gwanwyn hefyd. Y mae ffacbys yn ein gwlad ni yn cael eu hau er mwyn cael y cnwd yn borthiant gwyrddlas; ac fel y cyfryw gellir ei gyfrif, yn nesaf at feillion, y gwerthfawrocaf o'r planigion blwyddawl a dyfir gan amaethwyr er porthiant cyffredinol anifeiliaid. Y mae defaid yn pesgi arnynt yn gyflymach nag ar unrhyw borthiant arall, ac arferir hwynt i'r perwyl o fagu meheryn gan y mwyafrif o fagwyr defaid Lloegr. Y mae y ceffylau yn gwella arnynt yn gynt na phan yn ymborthi ar feillion neu unrhyw laswellt arall: ac y mae anifeiliaid corniog yn ireiddio yn rhyfeddol pan eu porthir â hwynt: yn wir, dywedir fod buchod yn rhoddi mwy o ymenyn oddi ar ffacbys nag oddi ar unrhyw borthiant toredig arall. Gwna moch hefyd eu bwyta yn awchus, gan gynnyddu arnynt heb gymhorth porthiant blodiog. Y mae y plisgrawn hwn yn hawdd eu tyfu; yn cynnyrchu cnwd toreithiog o ymborth tra maethlawn ac iachusol; yn gyfryw ag y gellir eu tori ddwy waith mewn tymmor, gyda gofal. Pan y torir hwynt yn wyrddlas, nid ydynt yn tlodi y tir; ac y mae y rhywogaeth gauafol yn ddigon caled i ddyoddef y tywydd gerwinaf yn ein hinsawdd ni, yn tyfu yn gyflym yn nechreu y gwanwyn, ac yn barod i'w tori neu eu pori yn gynt nag un cnwd arall.

Yr unig fan yn yr Ysgrythyrau lle y ceir yr ail air Hebraeg sydd ar ddechreu yr erthygl hon, ynddo, ydyw *Esa.* xxviii. 25, 27. Y mae yn ddiammheu mai yr anhawsder i benderfynu ystyr



Dar. 302.

pendant y gair Hebraeg, *cetzach*, fod gwahanol blanigion yn cael eu nodi megys y rhai a olygir yma wrth ffacbys. Ond os cyfeirir i'r cyddestyn, gellir casglu oddi wrth rai pethau y dylid eu cyfyngu o leiaf at un dosbarth o lysiau, sef rhai yn cael eu meithrin. Fel hyn, yn *adn.* 25; "Onid wedi iddo (yr arddwr) lyfnhau ei wyneb (y tir), y taena efe y *ffacbys* (*cetzach*)?" A thrachefn, yn *adn.* 27; "Canys nid âg ôg y dyrnir *ffacbys*, ac ni thröir olwyn men ar gwmin,

Digitized by Google

eithr dyrnir *ffacbys* â ffon, a chwmin â gwialen." Gellir dysgu oddi wrth hyn fod yn hawdd gwahanu y grawn a elwid *cetzach* oddi wrth y callod, ac am hyny y dyrnid hwy â ffon.

Er y cytunir yn gyffredin mai rhyw had a ddynoda y gair *cetzach* a'r gair Caldeaidd *cetzach*, eto y mae cyfieithwyr wedi cael anhawsder mawr i benderfynu pa rywogaeth a feddylir; am hyny y mae rhai yn ei gyfieithu yn *pys*, ac ereill, megys Luther, y Seison, a ninnau, yn ei gyfieithu yn *ffacbys* (*vetches*), ond heb un prawf dros gywirdeb y cyfieithiad. Y mae Meibonius yn meddwl mai *llysiau'r cwsg* (*white poppy*) ydoedd; tra y tybia ereill mai ystyr y gair yw *had du*. O blaid yr ystyr olaf y mae y rhan fwyaf o'r cyfieithwyr, cystal a'r rhai hynaf. O'r rhai hyn, y mae rhai yn pleidio had y pabi du *(black poppy-seed)*, tra y mae y rhan fwyaf o blaid had du sydd i'w cael yn yr Aipht, &c. [*Celsius Hierobot.*, ii. 70]. Y Deg a Thrigain a'i cyfieithia yn *melanthion*; y *vulgate*, yn *git*; a Tremellius yn *melanthium*; tra mai y gair sydd yn yr Arabaeg yw *shoonez*:—y cwbl yn arwyddo yr un peth, sef had pur ddu sydd yn cael eu meithrin fyth yn y dwyrain, ac yn cael eu defnyddio yn barhaus fel cyffaeth. Dywed Dioscorides [iii. 93], neu yr hen Scholiast y tybir iddo chwanegu geiriau cyfystyr ato, fod y *melanthion* yn cael ei alw hefyd yn babi du gwyllt; fod yr had yn ddu, yn sur, ac yn beraroglaidd, a'u bod yn cael eu rhoddi mewn bara neu deisenau. Ystyria y llysieuwyr yn gyffredinol mai yr un had yw y *melanthium* a'r *nigella*. Yr un hefyd yw y planigyn neu yr had a elwir yn Arabaeg *shoonez*, a'r un a elwir yn gyffredin yn "gwmin du." Am hyny dywed Dioscorides fod math o gwmin yn meddu had fel had *melanthion* neu *nigella*. Yr oedd yn cael ei feithrin yn gyffredin yn yr Aipht; ac y mae P. Alpinus yn crybwyll am dano dan yr enw *suneg Ægyptüs*. Mae yr Arabiaid hefyd yn ei alw yn *hub-alsouda*, heb law *shoonez*, a'r Persiaid a'i geilw *seah dana*—geiriau yn arwyddo "had du." Y mae un rhywogaeth a elwir yn *N. Indiana* gan Dr. Roxburgh, yn cael ei alw yn India *kala jeera*, sef cwmin du, o dylwyth y llysiau a elwir y *ranunculaceæ*. "Yn India yn unig y meithrinir y *nigella sativa*, sef yn y gwledydd mwyaf dwyreiniol, lle y defnyddir ef hyd y dydd hwn, megys yn yr hen amseroedd, fel cyffaeth ac fel meddyginiaeth." [*Rox. Illust. Himal. Bot.*, td. 467].

Os ystyrir yr ymddengys fod yr had yma wedi bod bob amser yn cael ei feithrin yn y dwyrain, gan gymharu ansawdd y *nigella* â'r ymadroddion sydd yn crybwyll am y *cetzach*, canfyddir fod y naill yn cyfateb i'r llall. Yn wir, y mae Rabbi Obadias de Bartenora yn crybwyll mai enw barbaraidd neu werinol y *cetzach*, oedd *nielle*, sef *nigella*. Fel planigion llysieuol yr ystyrir pob rhywogaeth o'r *nigella*; ac y mae amryw o honynt yn tyfu yn naturiol yn Ewrop, ac yn cael eu meithrin yn y rhan fwyaf o barthau Asia. Y mae y dail wedi eu hollti yn ddwfn, llinellog, fel y dengys y darlun; a'r blodau ar y brigyn; ac y mae o dan gwpan blodyn y rhan fwyaf o honynt ambileni deiliog yn amgylchu y blodyn yn fynych hyd ei hanner. Y mae i'r ffrwyth bump neu chwech o hadgibau, y rhai sydd yn gydwasgedig, hirgrwn, a blaenfain; a dywedir eu bod weithiau yn debyg i gorn. Mae wedi eu huno oddi tanynt, ac y mae iddynt amryw gelloedd, y rhai sydd yn cynnwys llawer o had conglog, geirwon, ac o liw du. Mae yn amlwg oddi wrth natur yr hadgibau, fod yn hawdd rhyddhau yr had trwy ddyrnodiau ysgeifn â gwialen, pan fyddont yn aeddfed, fel yr awgrymir yn yr adnodau sydd yn cynnwys y gair *cetzach*.

**FFAIR.** Ymgynnulliad cyhoeddus, neu man cynnulliad, i ddybenion masnachol, neu er mwyn pleser, neu y ddau gyda'u gilydd. Dywedid fod ffeiriau yn cael eu cynnal yn y dechreu ar ddydd gŵyl y sant ag y byddai eglwys y lle y cynnelid y ffair wedi ei chyssegru neu ei chyflwyno iddo, neu ynte ar gylchwyl ei hagoriad: ac yr oedd y tollau yn yr amserau boreuol yn cyrhaedd symiau uchel o arian. Fel yr oedd trefydd yn myned yn fwy ac yn enwocach yr oedd y ffeiriau yn amlhau; ond yr oedd yn rhaid i hyny gymmeryd lle trwy rinwedd breintlythyr. Y mae llawer gweithred seneddol wedi eu pasio er rheoleiddio ffeiriau; ac yn mysg pethau ereill oedd yn orchymynedig yn y cyfryw, yr oedd yn rhaid i bob gwerthwr ceffyl restru y gwerthiad yn rheolaidd: a'r amcan oedd mewn golwg ydoedd rhoddi attalfa ar y meirchladradau oedd yn rhy gyffredin y pryd hwnw. Y mae y rheolau yna, pa fodd bynag, erbyn hyn wedi myned allan o arferiad; a chynnelir y ffeiriau yn bresennol mewn unrhyw fan neu ar unrhyw bryd ag y bydd trigolion tref neu fro yn ystyried yn fwyaf manteisiol i brynwr a gwerthwr.

**FFAWYDD**, [ערמון; דהר; πλάτανος]: arferir y gair Cymraeg *ffawydd* ddwywaith yn y Beibl Cymraeg fel cyfieithiad o'r gair Hebraeg cyntaf (*armon*); a dwywaith fel cyfieithiad o'r ail air (*dâr*). Ceir y gair yn gyfieithiad o *armon* yn nglŷn â'r "gwiail" a ddirisglodd Iacob, ac a osododd yn y cwtterydd o flaen y defaid: *Gen.* xxx. 37. Ceir ef fel cyfieithiad o'r un gair yn *Ezec.* xxxi. 8; lle yr arwyddir ardderchogrwydd y pren, yn enwedig gyda golwg ar ei gangenau godidog ac uchel. Dywedir fod y dysgrifiad yn



Dar. 304.

Ezeciel yn cytuno yn dda â'r pren a elwir planwydd (*platanus orientalus*); a'r enw hwn a ddefnyddir gan yr holl hen gyfieithwyr: ac o blaid hwn y mae y rhan fwyaf o'r beirniaid yn tueddu, heb law fod hwn yn tyfu hefyd yn Mhalestina. Y mae gwahanol gyfieithiadau diweddar wedi defnyddio y castan (*chesnut*), y masarn (*maple*), a'r rhywogaeth o ffawydd a elwir *beech*, i gynnrychioli yr *armon* Hebraeg; ond prin y mae neb yn awr yn ammheu mai y planwydd a feddylir.

Digitized by Google

Gellir sylwi hefyd fod y pren yn cael ei gyssylltu yn Genesis gyda choed ereill o'r un natur; sef poplys a chyll, neu helyg yn ol rhai cyfieithiadau, y rhai sydd yn tyfu oll mewn tir isel ac yn hoffi daiar fras a llaith. Ystyrir fod hyn yn cael ei gadarnhau yn nodedig gan Russell [*Nat. Hist. of Aleppo*, i. 47]; yr hwn a enwa y planwydd, yr helyg, a'r poplys (yn nghyd â'r onen), fel coed sydd yn tyfu yn yr un sefyllfa, yn agos i Aleppo.

Ond collid y cydweddiad yma pe y pren castan a feddylid; canys mewn lleoedd sychion a bryniog y tyf y coed hyny yn gyffredin. Y mae awgrym penodol at brydferthwch y pren hefyd yn yr ymadrodd sydd yn Ezeciel, lle y dywed y prophwyd, wrth ddarlunio mawredd a gogoniant Assyria—"A'r coed *armon* nid oeddynt fel ei changenau hi; ac un pren yn ngardd yr Arglwydd nid ydoedd debyg iddi hi yn ei thegwch." Y mae hyn nid yn unig yn arwyddo ardderchawgrwydd y pren, ond hefyd yn dra phriodol o blegid fod y planwydd (*chenars*, fel y gelwir hwy) yn nyffrynoedd Assyria yn nodedig o ran maint a phrydferthwch, gan eu bod yn rhagori yn y pethau hyny hyd yn oed ar blanwydd Palestina. Gellir teithio llawer yn ngorllewin Asia heb gyfarfod â'r cyfryw goed, yn enwedig mewn cyflawnder yn nghyd, megys y ceir hwy yn goedwigoedd cyfain yn Assyria a Media.

Dywed rhai mai parthau mwyaf gorllewinol Asia ydyw gwlad frodorol y planwydd, er y mynega y proffeswr Royle eu bod yn cyrhaedd cyn belled i'r dwyrain a Cashmere. Mae y bonyn yn uchel, yn syth, ac yn orchuddiedig gan risgl esmwyth, yr hwn a fwrir ymaith bob blwyddyn. Mae y blodau yn fychain, a bron yn anweledig: maent yn tori allan ychydig cyn y dail. Y mae llin coed y planwydd yn feinion, yn galedion, a braidd yn frau, yn hytrach na gwydn: a dywedir fod haenau coed y planwydd, pan yn hen, yn myned braidd yn dduon, ac yn ymddangos fel collen ffreinig.

Pan y tyf y pren mewn daiar wrth ei fodd, bydd y cangenau mawrion yn ymestyn allan o gorff trwchus y pren yn mhob cyfeiriad, yn orchuddiedig gan ddail llydain a gloew-wyrddion. Y mae y llwyth mawr yma o ddail, yn nghyd â llyfnder bonyn y pren, a chydfesuredd ei dyfiad cyffredinol, yn gwneud y planwydd yn un o'r gwrthddrychau ardderchocaf yn y byd llysieuol. Mae y pren yn awr, yn gystal ag yn yr hen amseroedd [*Plin. Nat. Hist.*, xii. 1], yn cael ei gyfrif y cysgod goreu yn nau dymmor y flwyddyn sydd yn tyfu yn y dwyrain. Mae yn yr haf yn cadw pelydrau tanbaid yr haul draw yn effeithiol, ac yn y gauaf yn goddef iddynt dywynu trwy ei gangenau yn rhwydd. O blegid hyn, plenid ef gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn gystal a'r dwyreinwyr, yn agos i adeiladau cyhoeddus a phalasau; a byddai y Groegiaid yn hoff o addurno rhodfeydd eu prifysgolion a'u palasau âg ef, cystal a rhodfeydd cyhoeddus ereill. Ymddengys yr ystyrid y planwydd mewn rhai parthau o'r dwyrain yn gyssegredig, megys ag yr ystyrid y derw yn Ynys Prydain. Rhoddid y rhagoriaeth yma yn y rhan fwyaf o wledydd i'r rhywogaeth ardderchocaf o goed a dyfent ynddynt. Yn Palestina, lle y dywedir nad yw y planwydd yn dra chyffredin, ymddengys mai i'r pren twrpentin y rhoddid y flaenoriaeth dan sylw. Mae y chwedl am Xerxes yn dra hysbys; yr hon a ddywed iddo ef wneyd i'w brif fyddin sefyll o flaen planwydden ardderchog yn Lydia, fel y gallai efe ei hanrhydeddu ac addurno ei changenau â chadwyni aur, breichledau, ac addurniadau ereill—gweithred a gamddeallwyd ac a gamddarluniwyd yn druenus gan Ælian [*Var. His.*, ii. 14].

Mae y planwydd dwyreiniol yn dygymmod yn dda â'n hinsawdd ni, a thyf yma yn bren prydferth; ond ni chyrhaedd y maint mawreddog sydd iddo yn y dwyrain. Y mae Pausanias [viii. 23] yn crybwyll am blanwydden odidog oedd yn Arcadia, planiad yr hon a briodolid gan draddodiad i Menelaus; a phe buasai y traddodiad yma yn wir (yr hyn nid ydyw debyg) buasai raid ei bod, pan yr oedd efe yn ysgrifenu, ac y dywed ei bod mewn cadwraeth dda, dros 1,300 mlwydd oed. Y mae Pliny [*Nat. Hist.*, xii. 1), yn ei sylwadau nodedig ar goed, yn crybwyll am un oedd yn Lucia, yn moncyff yr hon yr oedd ceudwll dirfawr ei faint, yn bedwar ugain troedfedd o amgylchedd, wedi graddol ymffurfio. Dywedir fod L. Mutianus, a fu deirgwaith yn rhaglaw, ac yn llywodraethu y dalaeth, yn nghyd â deunaw o bersonau ereill, wedi bod yn ciniawa ac yn swpera yn gysurus yn y ceudwll hwnw lawer gwaith. Yr oedd gan Caligula hefyd bren o'r natur yma yn ei faenordy (*villa*) ger llaw Velitræ, ceudwll yr hwn oedd yn ddigon i gynnwys pymtheg o bersonau i giniawa ynddo, a nifer priodol i'w gwasanaethu. Galwodd yr ymherawdwr y ceudwll hwnw ei "nyth;" ac y mae yn dra thebyg fod ei gyfaill, Herod Agrippa, yn un o'r pymtheg aderyn a fu yno gydag ef yn nythu. Ceir crybwylliadau am goed cyffelyb gan deithwyr diweddar. Y mae Belon La Roque, ac ereill, yn mynegi fod llwyni o'r planwydd ardderchog yn addurno dyffryn Antioch; ac y mae y teithiwr olaf yn cofnodi yr orphwysfa hyfryd a fwynhaodd efe unwaith dros nos dan gysgod planwydd prydferth yn nyffryn Libanus. Crybwyllwyd eisoes, ar awdurdod Russell, eu bod yn mysg y prif goed sydd yn y planigfeydd ger llaw Aleppo. Y mae Buckingham yn eu henwi yn mhlith y coed oedd yn cysgodi glanau yr Iabboc.

Priodola Evelyn ddygiad y planwydd i Brydain i'r gŵr mawr hwnw, yr Arglwydd Bacon, yr hwn a blanodd rai oedd fyth ar gynnydd yn Verulam yn 1706. Fe allai mai hon oedd y blanigfa gyntaf o unrhyw fri; ond ymddengys oddi wrth *Turner's Herbal*, a gyhoeddwyd yn 1551, fod y pren yn adnabyddus ac yn cael ei feithrin yn y wlad hon cyn geni y canghellwr.


Am y gair Hebraeg arall (*dâr*), a gyfieithir yn *ffawydd* yn y Beibl Cymraeg (*Esa.* xli. 19; lx. 13), cyfieithir ef yn y Beibl Seisoneg yn *pine*, a *pine tree*. Fe allai mai rhywogaeth arall o'r planwydd ydyw hwn; ond nid ydym yn gwybod fod y pwngc yma wedi ei benderfynu.

Y mae gair Hebraeg arall hefyd (*oren*), a geir unwaith yn y Beibl (*Esa.* xliv. 14), a gyfieithir yn y Deg a Thrigain, ac yn y *Vulgate*, medd Royle, â gair cyfystyr i pinwydd (*pine*): â'r hyn y cyttuna amryw feirniaid, ac yn eu plith Calvin a Bochart. Dywed Celsius hefyd fod rhai o'r rabbiniaid yn ystyried *oren* yr un pren a'r *sunober* Arabaidd (a diau mai pinwydd yw hwnw), a'u bod yn fynych yn cyssylltu *arasim*, *aranim*, a *beroschim*, fel coed o'r un natur. *Cedar* sydd gan Luther a'r cyfieithiad Portugeaidd. Dadleua Rosenmüller nad y pinwydd gwyllt cyffredin (*pinus sylvestris*) a olygir, ond yr hwn a alwai yr hynafiaid yn binwydd dôf, yr hwn a feithrinid mewn gerddi o blegid ei ffurf brydferth, a'r ffrwyth peraidd a ddygai, sef cnau Pignole yr Italiaid. Y gair a rydd y Beibl Cymraeg a Seisoneg am *oren* ydyw *onen* (*ash*), yn lle y gair



Digitized by Google

perwydd (*pine*); a hyny, fe allai, am fod amryw gyfieithwyr wedi defnyddio y gair *ornus*, o blegid fod llythyrenau elfenol yr Hebraeg i'w cael hefyd yn y gair Lladin. Y mae Celsius yn gwrthwynebu hyn fel rheswm annigonol dros dybied mai yr onen a feddylid; ac ymddengys nad oes un prawf arall o blaid y syniad. Pa fodd bynag, nid yw yr onen felwlith (*manna ash*, neu *ornus Europæa*) yn tyfu yn Syria; ond gan mai planhigyn yn cael ei faethu ydyw, dichon ei fod wedi ei drosglwyddo yno. Y mae Celsius yn dyfynu o waith awdwr Arabaidd, o'r enw Abu l Fadli, yn rhoddi darluniad o bren a elwir *aran*, yr hwn a ymddengys yn cyfateb yn dda i'r ymadrodd, er nad yw beirniaid wedi penderfynu hyd yn hyn pa bren a feddylir. Dywedir mai pren o Asia Garegog ydyw yr *aran*, o natur pigog, ac yn tyfu mewn dyffrynoedd yn benaf, er y tarewir wrtho yn achlysurol yn y mynyddoedd, ond heb fod mor bigog. Dywedir y gwerthfawrogir y pren yn nodedig o blegid ei rinwedd i lanhau y dannedd. Y mae ei ffrwyth yn tyfu yn sypynau



Dar. 305:

fel grawnwin bychain. Y mae y grawn yn niweidiol tra y byddo yn wyrdd, ac yn chwerw fel afal y derw; ond fel yr addfeda, trydd yn goch, ac wedi hyny yn ddu, a'i flas braidd yn felus, ac yn iachus i gylla dyn; ac ymddengys y gweithreda fel meddyglyn cryfhaol. Tybia Sprengel mai y caprwydd ydyw hwn—yr un a *capparis spinosa* Linnæus. Meddylia Faber mai *rhamnus siculus pentaphylus* Shaw ydyw; a Link a dybia mai yr un yw a *flacourtia sipiaria* Roxburgh; ond dywedir nad yw y pren hwn i'w gael yn Syria. Y gwir yw, fel yr awgrymwyd eisoes, nad ymddengys fod yr anturiaethwyr wedi penderfynu eto pa bren a olygai Esaiah wrth yr *oren*.

Ymddengys i ni mai enw cyffredinol ar lwyth neu ddosbarth o goed ydyw y gair Cymraeg *ffawydd*—yn cynnwys y coed a elwir yn Seisoneg yn *fir-trees* a *pine trees*. Ystyria y llysieuwyr Seisonig y *fir* a'r *pine* yn dylwythau gwahanol o'r un llwyth neu ddosbarth o goed, a phob un o'r ddau dylwyth (*genera=families*) yn cynnwys llawer o rywogaethau (*species*); ac yn wir, y mae pob rhywogaeth hefyd yn cynnwys llawer o amrywiaethau (*varieties*); ond *ffawydd* ydyw yr enw sydd genym ni ar y cyfan.

Yr enw celfyddydol a ddefnyddir am dylwyth y *fir-trees* yw *abies*; a'r enw celfyddydol am dylwyth y *pine tree* yw *pinus*.

Dosberthir yr *abies* yn bedwar o rywogaethau.

I. Y dail yn tyfu yn unigol o amgylch y canghenau, ac yn troi oll tua'r un ochr.

Y mae amrywiaethau y rhywogaeth yma yn dra lluosog. Ni a nodwn nifer o'r prif rai.

1. Y ffawydden arian (*abies picea*). Y dail wedi eu trefnu fel dannedd crib, ac yn cael eu hymylu oddi tanodd gan liw lled-wyn. Y ffrwyth yn syth, ac yn orchuddiedig gan gen pwl, agos i'w gilydd. Brodor o ganolbarth a deheubarth Ewrop, mewn sefyllfaoedd caregog, sychion, a noethion. Ymddengys mai ei hoff le yw ar y Pollino, ac yn nghoedwigoedd Rubia, yn nheyrnas Naples, lle y ceir hwy yn eu llawn ardderchawgrwydd, ac yn tyfu yn aml i'r uchder o 130 i 150 o droedfeddi. Mae yn hawdd eu hadnabod, o blegid fod eu dail oll yn cyfeirio tua'r wybr ac yn flawdaidd oddi tanodd, cystal ag oddi wrth eu ffrwyth hir, syth, a di-goesau, o liw cochwyrdd. Lled ganolig ydyw y byrddau a lifir o fonyn y pren yma, o blegid ei feddalwch; o'r hwn hefyd y tynir pŷg Burgund a thwrpentin Strasburgh. Tuag at dyfu yn llwyddiannus yn y wlad hon, y mae yn gofyn tir cryf, tebyg i'r tir a hoffa y derw, a sefyllfa gysgodol. Torwyd rhai o'r coed hyn yn gant oed, yn cynnwys chwe llwyth, neu 240 o droedfeddi cyfain o goed. Dywedir eu bod yn tyfu yn araf am y pymtheng mlynedd cyntaf, ac yna eu bod yn tyfu yn bur gyflym. Cofnodir am un o honynt yn Mharc Woburn, a fu yn tyfu am 110 o flynyddoedd, yn ol y maint o droedfedd o uchder ac yn agos i dair troedfedd a hanner gyfan yn y flwyddyn. Mae y bonyn weithiau yn cyrhaedd 150 o droedfeddi o uchder, a chwe throedfedd o amgylchedd.

2. Y ffawydden arian Siberiaidd (*abies Sibirica*). Y mae llysieuwyr yn anmhenderfynol gyda golwg ar y pren yma. Y mae Linnæus, Lambert, ac ereill, yn tybied mai yr un ydyw a'r ffawydden arian (rhif. 1); ond y mae y llysieuwyr Rwssiaidd yn ei gwahaniaethu fel amrywiaeth. Darlunia Gamelin y pren fel brodor o Siberia, lle y tyf yn mhob parth mynyddig o'r wlad, yn enwedig yn y parth uchaf, rhwng yr Irtisch a'r Ob, lle y ffurfia goedwigoedd tewion. Yr enw a rydd y Rwssiaid arno yw ffawydd (*pichta*).

3. Ffawydden fawr California (*pinus grandis*). Y dail yn hirion, culion a phwl; o liw lled-wyn oddi tanodd, ac yn troi oll yr un ffordd. Y ffrwyth yn hirgrwn, syth, a braidd yn blygedig, gyda chen pur lydain, anwastad, a mân-bluog, ac yn hwy na'r blodeuddail (*bracteæ*). Canfuwyd y pren yma gan Mr. Douglas yn y dyffrynoedd isel, llaith, yn ngogledd California, lle y tyf i'r uchder o 200 troedfedd. Mae y coed yn feddal; gwyn, ac o ansawdd led wael. Mae y ffrwyth o dair i bedair troedfedd o hyd; y blodeuddail yn fyrion, bylchog, deuddalenog, a phwynt bychan rhyngddynt.

4. Ffawydden y Balm o Gilead (*abies Balsamea*). Y dail yn wastad, o liw arian oddi tanynt, ac oll yn camu at yr ochr uchaf. Y ffrwyth yn rholynog, hirgrwn, syth, cochlas, a'r cen yn grynion, llyfn, ac anwahanedig. Tyf y pren yma yn mharthau oeraf gogledd America, yn unigol a gwahanedig bob amser. Tyfant ar hyd truman yr Alleghanies, cyn belled a llethrau gogledd Carolina. Pren bychan, main, ydyw, heb fod braidd un amser yn hwy na thua deugain troedfedd o uchder, ac o ddeuddeg i bymtheg modfedd o amgylchedd; o gylch pedair neu bum modfedd o hyd ydyw y ffrwyth, a thua modfedd o amgylchedd. Mae ei goed yn ysgafn, o liw melyn,

Digitized by Google

gwelw, ac heb fod ychydig o ystor ynddynt; ac nid ydynt o nemawr o ddefnydd ond i'w hollti i wneud barilau pysgod; ac y maent yn llawer gwaelach at hyny nag amryw rywogaethau ereill o ffawydd. Rhoddwyd yr enw arnynt am fod y balm a wneir o'u rhisgl yn debyg ei liw i Falm o Gilead y cyfferiwyr. Pren bychan bach ydyw hwn yn Mhrydain, yn ymddangos yn dra addurniadol pan yn ieuangc; a phlenir ef fel addurn o amgylch godreu planigfeydd prydferth y boneddigion.

5. Y ffawydd blodeu-ddail mawr (*abies nobilis*). Y dail yn lluosog, crymblyg, ac oll yn troi yr un ffordd, a'r ddau du bron yr un lliw. Y ffrwyth yn hirgrwn, syth, ac yn cael eu gorchuddio gan gen llydain, crynion, a bylchog, ac yn terfynu yn fain a disymmwth. Pren ardderchog ydyw hwn, ac yn ffurfio coedwigoedd mawrion ar fynyddoedd California, lle y canfyddwyd ef gan Mr. Douglas. Dywedir fod y coed o ansawdd ragorol. Mae y ffrwyth o gylch chwe modfedd o hyd.

6. Y ffawydd balm dyblyg (*abies Frazeri*). Y dail yn llinellaidd, diymyl, ac o liw arianaidd o danynt. Y ffrwyth yn hirgrwn a chrych. Brodor o fynyddoedd Carolina a Phennsylvania. Nid yw nemawr fwy na phrysgwydd: anfynych yr aiff dros ddeg troedfedd o uchder; ac yn y wlad hon, y mae yn llawer llai na hyny yn gyffredin. Ei phrif ddefnydd yn y wlad hon ydyw addurno planigfeydd a rhodleoedd.

7. Ffawydd Webb (*abies Webbiana*). Y dail yn llinellog, unig, gwastad, gwasgarog, yn troi oll yr un ffordd, o liw arianaidd oddi tanodd, â bwlch dwfn yn eu blaen. Y ffrwyth yn hirgrwn, syth, pwl, ac yn cael ei orchuddio â chen llydain, crynion, a chyfartal. Mae yn tyfu yn ngogleddbarth oeraf India, lle y darganfu y cadben Webb ef, i'r uchder o bedwar ugain troedfedd, ac o dair i bedair troedfedd o gylchfesur yn agos i'r ddaiar. Ymddengys fod y coed yn werthfawr; a defnyddir hwy yn India fel byrddau ffawydd yn y wlad hon. Ymddengys, wrth yr esamplau a ddygwyd yma, y gellir eu maethu yn effeithiol mewn lleoedd sychion a chysgodol; ond ni oddefant nemawr o rew, mwy na phefrwydd Norway. Yr enw a rydd y brodorion i'r pren yw *oumur*, a thynant fath o baent porphor o'r ffrwyth.

8. Ffynidwydd Canada (*abies Canadensis*). Y dail yn wastad, ac yn ddwy res afreolaidd. Pan yn ieuainc, y mae y dail cystal a'r cangenau yn wlanog. Y ffrwyth yn bur fychan, ar lun wy, ac yn cael ei orchuddio gan gen gwastad. Y sefyllfa fwyaf gogleddol y canfyddwyd y coed hyn yw o amgylch Hudson's Bay. Y mae coedwigoedd mawrion o honynt yn agos i Quebec; ac y maent yn dra chyffredin yn Nova Scotia, New Brunswick, Vermont, a pharth uchaf New Hampshire; ond yn y taleithiau deheuol, nis ceir hwy ond yn yr Alleghanies, a'r trumau cyfagos, lle y tyfant ar ochrau nentydd yn y sefyllfaoedd llymaf. Amrywiaeth ardderchog o'r ffawydd yw y pren yma; a thyf i'r uchder o 70 neu 80 troedfedd, a mesura o ddwy i dair troedfedd o amgylchedd. Y mae o dyfiad araf, gan na chyrhaedda i'w gyflawn faint mewn llai na dau gan mlynedd. Y mae golwg ardderchog ar y pren pan fyddo o bump i ddeg troedfedd ar ugain; ond pan aiff yn hen, y mae ei gangenau hirion a mawrion yn dueddol i gael eu hysigo gan wyntoedd ac eira, ac ymdeifl yr hen fonau noethion allan yn mhell tu hwnt i'r brigau gleision, deiliog, yr hyn a rydd olwg adfeiliedig ar y pren. Lled ddiwerth ydyw y coed, gan nad ydynt na chaled na pharhaus. Y mae y rhisgl yn dra gwerthfawr i gyffeithio crwyn: a dywedir ei fod yn llawer gwell, wedi ei gymmysgu â rhisgl derw, nag ydyw rhisg derw ei hunan. Tynir llawer o ystor hefyd o'i gangenau.

9. Y purwydd arian cwympol (*abies brunoniana*). Y dail yn wastad, yn troi oll yr un ffordd, y blaenau yn fân-ddanneddog, yn troi at i lawr, ac o liw llaeth oddi tanynt. Y ffrwyth yn syth, ar lun wy, pwl, a phur fychan, gyda chen rhyddion, lledgrwn, a phur bwl. Canfyddwyd y pren yma yn nghanolbarthau India, yn nhaleithiau Nepal, Butan, a Gossain Than, lle yr adnabyddir ef wrth yr enwau *tangshing* a *changa-thasi-dhup*. Tyf i 70 neu 80 troedfedd o uchder, a'i fonyn yn lân oddi wrth frigau am o bymtheg i ugain troedfedd, tra y mae yn dra changenog yn ei ben uchaf. Y dail tua modfedd o hyd, yn syrthio ymaith yn bur gynnar; ac y maent mor ryddion, fel y gwna yr ysgydwad lleiaf ar y cangenau iddynt gwympo. Lliw y dail ydyw gwyrdd dysglaer. Mae y coed o ansawdd wael, ac yn dueddol i gamu; ac am hyny yn bur ddiddefnydd.

10. Y ffawydd Mexicaidd cyssegredig (*abies religiosa*). Mae y cangenau pan yn ieuainc yn hollol lyfnion. Y dail yn ddwy res blaenfeinion, ac yn orchuddiedig oddi tanodd gan flawd glaswyrdd. Canfyddwyd y pren gan Humboldt ar fryniau isaf Mexico, rhwng Masatla a Chilpantzingo, yn yr uchder o 4,000 o droedfeddi. Darlunir hwy fel coed uchel, tebyg i'r ffawydd arian, oddi wrth y rhai y mae yn hawdd eu gwahaniaethu o blegid eu dail blaenfeinion. Mae eu blodau yn anadnabyddus. Defnyddir y cangenau i addurno yr eglwysydd yn Mexico. Dywed Lambert fod y ffrwyth yn debyg i ffrwyth cedrwydd Libanus, ond yn llai, ac yn dduach. Yr enw a rydd y Mexiciaid ar y pren yw *oyamel*. Dywedir fod y pren yn ymddangos yn bur brydferth; a bod y dail yn hwy, a'r cangenau yn feinach nag un rhywogaeth arall o'r ffawydd arianaidd.

11. Y ffawydd blewog (*abies hirtella*). Pan yn ieuainc, gorchuddir y cangenau â blew. Y dail yn ddwy res, yn wastad, yn feinion, ac yn orchuddiedig oddi tanodd â blawd glaswyrdd. Canfyddwyd hwy gan Humboldt ar fynyddoedd Mexico, yn agos i El Guarda, rhwng Guchilaque a dinas Mexico, yn tyfu yn yr uchder o 8,000 i 9,000 o droedfeddi. Yn ol ei ddarluniad anghyflawn ef o hono, pren bychan ydyw, tua thri neu bedwar hyd dyn. Mae y ffrwyth a'r blodau yn hollol anadnabyddus. Tua modfedd a chwarter o hyd ydyw y dail.

12. Ffawydd arian India (*abies Smithiana*). Dail ysgafn, pedwar-cornelog, lledwyn oddi tanynt, ac yn gogwyddo tua'r un ffordd. Y ffrwyth yn syth, hirgrwn, â chen crynion, cyfartal iddynt. Tyf yn naturiol ar y mynyddoedd nesaf i'r Himalayah, lle y gelwir ef gan y brodorion yn *raga*. Mae yn bren o faint aruthrol, a'i gangenau bron yn wrthgyferbyniol, yn tyfu yn gyffredin yn ddwy res, y rhai a orchuddir â blew byrion. Y dail yn wyrdd tywyll, o fodfedd i fodfedd a hanner o hyd. Y ffrwyth o bedair i chwe modfedd o hyd, lliw gwineu, ac yn orchuddiedig gan flawd glaswyrdd.

II. Prif nodweddau y rhywogaeth yma ydyw, fod y dail yn tyfu yn unigol o amgylch y cangenau, ac oll yn ymwasgar yn gyfartal.—PEFRWYDD.

Prif amrywiaethau y math yma o ffawydd yw y rhai canlynol:—

1. Pefrwydd Norway (*abies excelsa*). Y dail

Digitized by Google

yn wasgaredig, braidd yn bedwar cornelog, ac yn bigfain. Y ffrwyth yn hirgrwn, crogedig, ac yn cael ei orchuddio gan gen pwl, tonog, a mân-ddanneddog. Tyf yn naturiol yn mharthau mynyddog gogledd Ewrop, lle y mae yn fynych yn brif goed, megys yn Norway. Y mae hefyd i'w gael trwy holl Siberia. Ystyria llwythau crwydrol y parth hwnw ef fel arwydd fod ffynnonau o ddwfr yn agos, gan mai mewn lleoedd llaith a dyfrllyd yn unig y canfyddir y pren. Pan y tyf ar ei ben ei hun mewn tir da, y mae ei ddull tyfol, a'i gangenau hirion, crogedig, yn plygu nes cyffwrdd â'r ddaiar, yn ei wneyd yn un o'r gwrthddrychau harddaf y gall y llygaid ei ganfod yn y parthau hyny. Pan yn ei gyflawn faint, y mae ei uchder o ddeutu 150 o droedfeddi. Lliw gwyn sydd ar y coed wedi eu llifio; ac y maent yn dra pharhaus. Yr enw cyffredin a roddwn ni ar y coed yw ffawydd gwyn. Mae yn dyfod i'w gyflawn faint yn Norway yn ysbaid 70 neu 80 mlynedd. Tua'r oedran hwnw y mae y rhai a dorir yn Norway yn gyffredin i'w hallforio. Hyd y coed a lifir o'r pren yn gyffredin ydyw un droedfedd ar ddeg, neu ddeuddeg troedfedd.

2. Y ffawydd dwyreiniol (*abies orientalis*). Y dail yn bur fyrion, yn gorwedd y naill dros y llall yn rheolaidd fel tô llechi, yn bedeirongl, â blaen caled iddynt. Canfyddwyd y pren gan Lambert ar y mynyddoedd sydd o'r tu dwyrain i Trebisond, uwch law mynachlog St. John. Wedi hyny, canfu llysieuwyr Rwssiaidd ef yn nghoed Mingrelia; a gwelodd Syr George Ouseley ef yn agos i Teflis. Ychydig a wyddys hyd yn hyn am ei natur. Dywedir fod y cangenau pan yn ieuainc yn flewog. Mae y ffrwyth yn fychan, yn grogedig, ac yn debyg i ŵy.

3. Y pefrwydd gwyn (*abies alba*). Y dail braidd yn laswyrdd, yn ymwasgar yn gyfartal o amgylch y cangenau, yn bedwar cornelog, ac yn lled bigog. Y ffrwyth yn gul, fel ŵy, yn meinhau at y blaen, a'r cen yn llyfn ac yn gyssylltiedig. Tyf y pren yn naturiol yn mharthau oeraf Gogledd America. Hyd y bonyn yn gyffredin yw o 40 i 50 troedfedd. Gwael ydyw ansawdd y coed. O lin a geir o'i wraidd, wedi ei fwydo mewn dwfr, y gwna y Canadiaid yr edeu â pha un y gwniant risgl y bedw i wneyd eu ceufadau (*canoes*); ac o ystor a geir o'r pren y pygant eu ceufadau er eu gwneyd yn ddiddos. Dywedir y defnyddir y rhisgl i gyffeithio crwyn.

4. Y pefrwydd du, neu goch (*abies nigra*). Y dail yn ymwasgar yn gyfartal o amgylch y paladr, yn fyrion, ac yn bedwar cornelog. Y ffrwyth yn hirgrwn, yn bwl, ac yn cael ei amgylchu gan gen carpiog. Tyf yn naturiol yn mharthau oeraf Gogledd America, yn enwedig mewn dyffrynoedd rhwng trumau isel, lle y byddo y pridd yn ddwfn, du, a llaith. Yn y cyfryw sefyllfaoedd y ceir y coedwigoedd prydferthaf o'r pren, lle y tyf i'r uchder o 70 neu 80 troedfedd, ac o 15 i 20 modfedd o amgylchedd, er fod y coed mor dŷn yn eu gilydd, fel nad oes ond o bedair i bum troedfedd rhyngddynt. Mae y bonyn yn nodedig, o blegid ei fod yn meinhau mor reolaidd o'i fôn i fyny. Mae y pen ar lun tŵr rheolaidd, a'r brigau yn ymdaflu allan bron yn wastad, ac nid yn gogwyddo tua'r ddaiar fel pefrwydd Norway. Mae y coed yn werthfawr o blegid eu nerth, eu hysgafnder, a'u gwydnwch. Defnyddir y coed i wneyd hwylbreni llongau; ac yn America, lle y bydd derw yn brin, defnyddir y coed hyn i wneyd ais llongau hefyd. O gangenau y pren yma y tynir y *sudd pefrwydd* sydd mor ddefnyddiol ar fordeithiau mawrion i wella yr yscyrfi.

5. Ffawydd Douglas (*abies Douglasii*). Y dail yn ymwasgar yn gyfartal, o liw gwyrdd tywyll, yn lled wyn oddi tanynt, ac yn bwl. Y ffrwyth yn ogwyddol, hirgrwn, a'r cen braidd yn fadruddog, yn llawer byrach na'r blodeuddail, y rhai sydd yn dri-danneddog, y dant ystlysol yn bilenaidd, ac yn llawer hwy a llymach na'r ddau arall. Gwlad frodorol y pren cawraidd yma yw Gogledd America, lle y ffurfia goedwigoedd anferth eu maint. Amrywia maint bôn y coed hyn o ddwy i ddeg troedfedd o amgylchedd, ac o 100 i 180 troedfedd o uchder. Y mae weithiau yn cyrhaedd maintioli llawer mwy. Yr oedd hen fonyn yn ddiweddar—os nad ydyw eto—yn agos i Fort George, ar Afon Columbia, heb ddim rhisgl, ac yn 48 troedfedd o amgylchedd, yn yr uchder o dair troedfedd oddi wrth y ddaiar. Mae y pren yn wyrdd haf a gauaf, yr hwn pan yn hen a orchuddir gan risgl garw, rhychog, o chwech i naw modfedd o drwch; a chan ei fod yn llawn o ystor melyn, y mae yn danwydd rhagorol. Y mae rhisgl y cangenau ieuainc yn llawn iawn o ystor. Mae y coed yn drwm, caled, ac mor dywyll ei liw a'r ywen, heb ond ychydig o geinciau, na dim tuedd i gamu; am hyny, y mae y coed yn mysg y rhai mwyaf defnyddiol. Ymddengys fod hinsawdd Prydain yn gwbl gyfaddas i'w ansawdd; ac ystyrir y coed yn werthfawrocach na'r llurwydd (*larch*) ei hunan.

6. Ffawydd Menzies (*abies Menziesii*). Y dail yn bur fyrion, sythion, braidd yn flaenfain, yn lled wyn oddi tanynt, yn ymwasgar yn rheolaidd o amgylch y paladr, ac yn bur ogwyddol Y ffrwyth yn hirgrwn, ac yn cael eu hamgylchu gan gen llac, rhychog, a hirion. Canfyddwyd y pren hwn gan Mr. Douglas yn ngogledd California; yr hwn a ddywed ei fod o ansawdd odidog.

III. Yn y trydydd rhywogaeth, tyf y dail yn sypynau, gan ogwyddo i lawr.—Llarwydd.

Yr amrywiaethau a nodir o'r rhywogaeth yma yw y rhai canlynol:—

1. Y llarwydd cyffredin (*abies larix*). Y dail yn sypynau gogwyddedig. Y ffrwyth yn hirgrwn a phwl. Tyfant yn naturiol yn mynyddoedd canolbarth Ewrop, yn Rwssia, ac yn Siberia. Y coed mwyaf cyffredin ydynt yn Siberia; a hoffant leoedd sychion, uchel, lle y ffurfiant goedwigoedd mawrion, yn cael eu britho yma ac acw gan ychydig binwydd. Tyf y bonyn yn bur syth, o'r hwn y tardd cangenau gogwyddedig hardd, y rhai a ânt fyrach fyrach o'r bôn i'r brig, yr hyn a bâr i'r pren edrych fel tŵr rheolaidd ac ardderchog. Yn y gwanwyn, pan fydd y dail newydd darddu, ymddangosant yn felyn-wyrdd prydferth—ymddangosiad nad oes i un pren arall yn y goedwig. Maethir y llarwydd yn helaeth er's llawer o flyneddoedd bellach yn Mhrydain a'r Alban, lle y tyf yn rhagorol mewn lleoedd sychion a diffrwyth; ac y mae yn un o'r prenau mwyaf defnyddiol sydd genym. Mae yn tyfu mewn manau mor uchel yn yr Alban ag 1,500 i 1,600 o droedfeddi uwch law y môr; a phan ddelo i'w lawn dwf, tua 80 mlwydd oed, gwna bump neu chwe llwyth o goed defnyddiol.

Trwy ferwi y rhisgl nesaf i'r pren, gan ei gymmysgu â blawd, a'i gladdu am ychydig oriau yn yr eira, parotoa yr helwyr Siberiaidd furum o hono, pan fyddo yr oerni angerddol wedi difetha eu lefain, yr hyn a ddygwydd yn fynych yn y gwledydd oerion rhewllyd hyny.

Y mae rhisgl y llarwydd bron mor ddefnyddiol

Digitized by Google

hefyd i'r cyffeithiwr ag ydyw rhisgl y derw. O'r llarwydd hefyd y tynir y sylwedd a elwir *venice turpentine*, yr hwn a lifa allan yn helaeth pan wneir agenau mewn hen foncyff. Tynir math o fanna hefyd o'r dail, a elwir Manna Briancon.

2. Y llarwydd coch (*abies microcarpa*). Y dail yn sypynau ac yn ogwyddol. Y ffrwyth yn hirgrwn a bychan; eu cen yn syth, ac yn agos at eu gilydd, a'r rhai uchaf yn llawer llai na'r rhai isaf. Mae hwn yn bren prydferth, ac yn dra thebyg ei ansawdd i'r llarwydd cyffredin; ond y mae ei ffrwyth bychan, lliw yr hwn sydd gochlas dysglaer yn yr haf, yn gwneyd digon o wahaniaeth rhyngddynt. Gwlad frodorol hwn ydyw Gogledd America. Ni chyrhaedd hwn ond prin un ran o dair o faint y llarwydd cyffredin; am hyny, nid yw yn agos mor ennillfawr i'r planigwr. Y mae ei goed o ansawdd da, ac mor drwm fel mai prin y nofiant.

3. Y llarwydd du (*abies pendula*). Y dail yn sypynau ac yn ogwyddol. Y ffrwyth, gyda chen lluosog a gwasgaredig, y rhai sydd yn lleihau yn rheolaidd, o fôn y ffrwyth hyd ei flaen. Y cangenau yn wan a chrogedig. Gogledd America ydyw gwlad frodorol hwn hefyd, lle y tyf mewn tir cleiog da, cymmysgedig â thywod, mewn parthau oerion a mynyddig. Pan y maethir ef yn y wlad hon, mae yn dyfod yn bren prydferth, ac ymdebyga yn fawr i'r llarwydd cyffredin, ond fod ei liw yn wyrdd dysgleiriach, ac yntau yn ymddangos yn harddach. Dechreua yn fynych blygu yn yr uchder o 15 neu 20 troedfedd, a pharha i ddisgyn tua'r ddaiar, nes y ffurfia fŵa o'r fath brydferthaf. Nid yw y coed yn agos mor werthfawr a choed y llarwydd cyffredin.

IV. Y bedwaredd rywogaeth yw y cedrwydd. Y dail yn tyfu yn sypynau, ac yn wyrdd bob amser. Gwel Cedrwydd.

Yr ail dylwyth o'r ffawydd yw y pinwydd (*pine trees*). Gwel Pinwydd.

**FFELIX.** Gelwir ef gan Tacitus yn Antonius Ffelix; yn Suidas, Claudius Ffelix; ond yn Josephus a'r Actau, Ffelix yn unig. Yr achos iddo gael ei alw yn Claudius Ffelix oedd am ei fod yn llywodraethwr ar Iudea yn amser Claudius, ymherawdwr Rhufain. Yr oedd ei frawd Pellas, yn un o brif gyfeillion Claudius, a gwnaed Ffelix yn ddyn rhydd gan yr ymherawdwr. Ar ol alltudiad Ventidius Cumanus penodwyd Ffelix, yr hwn oedd yn dygwydd bod yno ar y pryd, i fod yn rhaglaw ar Iudea. Dywed Tacitus [*Ann.*, xii. 54], fod Ffelix a Cumanus wedi bod yn cydlywodraethu y wlad am rai blyneddoedd—fod Cumanus yn Galilea, a Ffelix yn Samaria: ond ystyrir hyn yn gyfeiliornus; a bernir mai yn y flwyddyn 53 neu 54 o. c. y dechreuodd Ffelix lywodraethu. Y mae Josephus yn dyweyd fod y genedl Iuddewig, yn enweuig Jonathan yr archoffeiriad, yn dymuno yn fawr am gael Ffelix yn rhaglaw y flwyddyn o'r blaen. Yr oedd Quadratus wedi ei ddewis yn un o'r barnwyr yn yr ymrafael fu rhyngddynt a'r Samariaid; ac fe allai ei fod wedi ennill eu cymmeradwyaeth wrth ei ymddygiad tirion tuag atynt; ond ar ol iddo gael ei wneyd yn rhaglaw, fe ymddygodd yn ormesol iawn.

Gellir crynhoi hanes ei fywyd cyhoeddus mewn ychydig o eiriau fel hyn:—Yr oedd yn llywodraethu gyda holl awdurdod brenin, a chyda gwaelder ac anfoesgarwch caethwas. Yr oedd yn frawd i Pallas; felly nid rhyfedd iddo gyflawnu y gorthrymderau mwyaf annyoddefol heb ofid meddwl, nes y torodd y fflam allan mewn gwrthryfel amlwg, gan derfynu yn y dinystr a'r trueni mwyaf.

Yr oedd y wlad y pryd hyny yn heidio o ysbeilwyr a gau brophwydi, y rhai oeddynt yn cynhyrfu y bobl i anesmwythder a therfysg. Daeth un gau brophwyd o'r Aipht [*Hynaf.*, xx. 8, adr. 6; *Act.* xxi. 38], yr hwn a dynodd filoedd ar ei ol wrth broffesu y gallai eu gwaredu. Gwasgarwyd ef a'i ganlynwyr yn fuan gan y milwyr Rhufeinig; ond mewn ychydig o ddyddiau cyfododd ereill ar hyd a lled y wlad. Ni ddarfu i Ffelix gyfyngu ei greulondeb at y rhai terfysglyd yn unig, ond dinystriodd pawb yn ddiwahaniaeth. Gorfododd hyn yr hen offeiriad duwiol, Jonathan, yr hwn fu yn fwyaf offerynol i gael y rhaglawiaeth iddo, i ymresymu âg ef yn âml ac i gwyno yn erbyn ei ymddygiad cywilyddus. Cyflogodd Ffelix ddyn o'r enw Doras, pan yr oedd cerydd yr hen ŵr yn ei aflonyddu, i'w lofruddio; a gwnaed hyny yn fuan. Wrth i'r llofruddiaeth hwn fyned heibio heb ei gospi, o blegid y dyn a ddylasai ei ddial oedd wedi ei gynllunio, cyflawnwyd llawer o rai ereill o'r un natur yn mhob man trwy y wlad—yn y deml yn gystal ag yn mhob man arall; ac ni phetrusodd y penaethiaid Iuddewig, nac hyd yn oed yr offeiriaid, gyflogi rhai o'r llofruddion i daflu o'u ffordd unrhyw berson yr oeddynt hwy yn ei gasau.

Gwraig Ffelix oedd Drusila, merch Herod Agrippa. Yr oedd hi wedi addaw y gwnai briodi Epiphanes, mab y brenin Antiochus, os gwnai efe broffes o'r grefydd Iuddewig; ond gan iddo wrthod gwneyd hyny o'r blaen, torwyd y cytundeb. Ar ol hyny rhoddodd ei brawd Agrippa yr ieuangaf hi mewn priodas i Azizus, brenin Emesa, ar ei gydsyniad i gymmeryd ei enwaedu. Ond fel yr oedd ei diweirdeb yn mhell o fod yn gydradd a'i harddwch, perswadiodd Ffelix, yr hwn yr oedd hi wedi ei swyno, hi yn hawdd i adael ei gŵr ac i'w briodi ef, er ei fod yn bagan.

Hwyrach fod Ffelix ei hun wedi dychrynu yn yr adolwg ar bechodau ei fywyd, ac yn y rhagolwg ar y farn oedd yn ei aros, pan ddygwyd yr apostol Paul o'i flaen, ac yr ymresymodd mor ragorol am "gyfiawnder a dirwest," neu ddiweirdeb, a'r "farn a fydd." Anghraifft nodedig oedd hon o effaith y gwirionedd ar feddwl dyn anghynnefin â'r fath ddylanwadau. Gwaeddodd allan, "Dos ymaith ar hyn o amser; a phan gaffwyf amser cyfaddas, mi a alwaf am danat." Ond nid arosodd yr argraff hwn ar ei feddwl yn hir. Y mae yn wir ei fod wedi gyru am Paul fwy nag unwaith; ond y mae yn ymddangos mai amcan arianol oedd ganddo mewn golwg. Yr oedd yn tybied os buasai yn rhoi rhyddid i Paul a'i gyfeillion i ymweled â'u gilydd ac i ymweled âg ef ei hun yn fynych, a dangos caredigrwydd ato, y tueddai Paul i brynu ei ryddid â llwgr-wobr. Ar ol yn agos i ddwy flynedd, penodwyd Porcius Ffestus i fod yn rhaglaw yn ei le, a buasai Ffelix ar ei ddychweliad i Rufain yn dyoddef y gospedigaeth oedd yn ddyledus iddo am ei greulondeb, oni bai i'w frawd Pallas lwyddo i gael gan yr ymherawdwr Nero ei arbed. Dychwelodd i Rufain o. c. 60, gan adael Paul yn ngharchar.

**FFENESTR**, [Ll. *fenestra*]. Y tro cyntaf y ceir y gair *ffenestr* yn y Beibl ydyw yn *Gen.* vi. 16; "Gwna ffenestr i'r arch." Ystyr y gair Hebraeg צהר (*tsohar*) sydd yma, yw goleuni; ac ystyr llythyrenol yr ymadrodd, medd Gesenius, yw, "goleuni a wnei di i'r arch;" ac y mae i'w ddeall fel enw cynnulledig neu luosog, fel y dengys

Digitized by Google

yr ymadrodd sydd yn ei ddilyn; ystyr yr hwn, eb efe, yw, "yn gulydd o hyd y gwnai di hwynt," sef yr agoriadau i'r goleuni. Y Deg a Thrigain a gyfieithant y gair yn ἐπισυνάγων (*episunagôn*) —gair yn arwyddo casglu: "Gan gasglu y cai wneyd yr arch," ydyw eu cyfieithiad hwy o'r ymadrodd, "Gwna *ffenestr* i'r arch;" yr hyn sydd yn dangos, medd Clarke, nad oeddynt hwy yn deall fod y gair yn arwyddo un math o ffenestr neu oleuni. Mae Symmachus yn cyfieithu y gair Hebraeg â gair Groeg yn arwyddo *tryloywder;* ac Aquila yn ei gyfieithu â gair Groeg sydd yn arwyddo *hanner dydd.* Mae Ionathan ben Uzziel yn meddwl mai maen goleu, gwerthfawr, ydoedd, yr hwn a gymmerodd Noah, trwy orchymyn dwyfol, o'r afon Pison. "Y mae yn debyg mai gair ydyw," medd Clarke, "a ddylai gael ei ddeall mewn ystyr cynnulledig, yn arwyddo *adwyon* i'r awyr a'r goleuni:" ac yn hyn y mae Clarke yn cyttuno â Gesenius.

Y mae yn sicr mai gair ffugrol ydyw *ffenestri* yn yr ymadrodd canlynol:—"A *ffenestri* y nefoedd a agorwyd" (*Gen.* vii. 11); yn arwyddo fod agorfeydd "y dyfroedd oddi ar y ffurfafen" wedi eu hagor, nes yr oedd eu cynnwysiad yn cael ei dywallt ar y ddaiar yn bistylloedd. Dywedir hefyd fod ffynnonau y dyfnder mawr wedi eu rhwygo, fel yr ymddengys i'r "dyfroedd oddi ar y ffurfafen," ymuno drachefn â'r "dyfroedd oddi tan y ffurfafen," er boddi y byd.

Nid oedd hen ffenestri y dwyrain ddim amgen nag agoriadau yn y mur, i ollwng awyr a goleuni i mewn. Nid oedd gwydr yn cael ei arfer yno i'r ffenestri; a diau nad oedd gwydr yn adnabyddus yn yr amser boreuaf [gwel GWYDR]. Yn lle gwydr, dellt culion a blethid fel rhwydwaith yn y ffenestri, er mwyn cadw ystlumod ac adar allan; tra ar yr un pryd y deuai awyr a goleuni i mewn trwy y rhwydwaith. Ceir cyfeiriad penodol at y dellt hyn, a ddefnyddid yn y ffenestri dwyreiniol, yn *Can.* ii. 9:—"Wele efe [fy anwylyd] yn sefyll y tu ol i'r pared, yn edrych trwy y ffenestri, yn ymddangos trwy y *dellt.*" Er mwyn cadw yr awyr oer allan yn y gauaf, defnyddid lleni, neu gauadau ag ychydig dyllau ynddynt, i ollwng goleuni i mewn.

Rhoddir darluniad byr o ffenestri y deml yn 1 Bren. vi. 4; "Ac efe a wnaeth i'r tŷ ffenestri, yn llydain oddi fewn, ac yn gyfyng oddi allan;" neu, ar ymyl y ddalen, "ar osgo, ac yn gauad." Ymddengys fod ffenestri y tai yn gyffredin yn ddigon eu maint i ddyn fyned trwyddynt; canys trwy y ffenestr y gollyngodd Rahab yr ysbiwyr (*Jos.* ii. 15); a gwelir fod Dafydd a Phaul wedi cael eu gollwng trwy ffenestri, yn gyffelyb: 1 *Sam.* xix. 12; 2 *Cor.* xi. 33. Trwy y ffenestr hefyd y cwympodd Eutychus o'r drydedd lofft, lle yr oedd Paul yn ymresymu â'r dysgyblion yn Troas: *Act.* xx. 9.

Ymddengys nad oedd ffenestri yn rhan bwysig o hen adeiladaeth; ac yn wir, o'r braidd y cyfeirir atynt yn hen gofadeiliau crefyddol yr Aiphtiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, ac nid oedd natur eu hadeiladaeth hwy yn eu gofyn; ond y mae ffenestri yn rhan bwysig yn mhob dosbarth o adeiladaeth Gothaidd. Byddai adeiladaeth Gothaidd heb ffenestri mor ddiffygiol yn ei ymddangosiad ag a fyddai adeiladaeth Roegaidd heb golofnau. Yn y gwrthwyneb, prin y goddef adeiladaeth Roegaidd ffenestri, gan eu bod, yn lle gwellhau, yn hytrach yn gwaethygu yr ymddangosiad, ac yn niweidio ei agwedd. Y mae yn wir fod rhyw fath o ffenestri yn adeiladau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, megys yn yr Eaechtheum yn Athen, a theml Vesta yn Tivoli; ond ni chrybwyllir hwy ond megys enghreifftiau yn unig, ac i ddangos pa fodd yr oedd agorfeydd o'r fath yn cael eu llunio. Heb law fod ffenestr yn beth tra anfynych yn adeiladaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, nid oeddynt ond ychydig iawn o nifer; ac nid oedd dim mwy nag un rhes o honynt byth yn cael eu gosod yn yr un adeilad: o ganlyniad, yr oedd effaith yr ymddangosiad yn hollol wahanol i'r hyn a fydd pan osodir dwy res, neu chwaneg o ffenestri, y naill uwch ben y llall. Mewn gwirionedd, pa mor gelfydd bynag y cynllunir y ffenestri eu hunain, y mae yn anmhosibl eu cymmodi, yn enwedig llawer o honynt, âg adeiladaeth *golofnog;* am hyny arddull gyfansawdd sydd, mewn gwirionedd, i lawer o'r adeiladau weddar yr honir eu bod yn y dull hynafol pur. Maent wedi eu ffurfio trwy gymhwyso dau ddull gwahanol, y rhai, os nad ydynt yn gwbl anghydweddol, sydd yn dra gwahanol eu nodwedd; sef, y *colofnog* a'r *ffenestrol*, neu yr hwn y mae ffenestri yn un o'i brif nodweddau. Os rhaid cael ffenestri a cholofnau mewn adeilad, dylid gofalu am gadw cydweddiad y dulliau. Nid yn unig y mae pob un yn gofyn gwahanol ddull o addurno y ffenestri, ond y mae gwahanol esamplau o'r un dull yn gofyn hyny hefyd; er esampl, y mae y dull Ionig Groegaidd Blodeuog yn gofyn i'r ffenestri gael eu haddurno yn fwy godidog na chynlluniau mwy cyffredin o'r dull Groegaidd. Y prif beth y llefara penadeiladwyr yn ei erbyn ydyw cymmysgu yr arddulliau, a thrwy hyny anurddo golygwedd yr holl adeilad.

Un o brif fanteision yr arddull Gothaidd yw, fod y ffenestri eu hunain, yn annibynol ar eu haddurniadau, yn rhan o'r arddull. Mantais arall berthynol i'r arddull hwn ydyw, y goddef unrhyw faint; ac y gellir rhoddi ffenestri o'r maint lleiaf, cystal a'r mwyaf, yn yr un uchder yn yr adeilad. Gwel TY; TEML.


**FFESTUS, PORCIUS.** Dilynwyd Ffelix fel rhaglaw gan Porcius Ffestus, yr hwn, ar ei ddyfodiad, a ganfyddodd fod y wlad yn y sefyllfa mwyaf druenus. Yr oedd yr offeiriaid wedi dechreu dangos gelyniaeth at eu gilydd er y flwyddyn ddiweddaf o raglawiaeth Ffelix. Ymddengys mai yr achlysur oedd eu diswyddiad mynych ar ol hyny o'r gwaith yn ceisio mwy o'r degymau nag y medrai yr offeiriaid israddol roddi iddynt. Cynnyddodd yr elyniaeth yn y fath fodd, fel y byddai y gwahanol bleidiau yn lladd eu gilydd pan y cyfarfyddent; a lliwiasant y wlad, a'r trefydd, ac hyd yn oed y deml, â gwaed. Yr oedd yn ofynol gan hyny i Ffestus ddechreu ei lywodraeth gyda'r llymder mwyaf, er attal y galanastra dychrynllyd oedd yn codi oddi wrth yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd yr offeiriaid yn erbyn eu gilydd—yr offeiriaid terfysglyd yn erbyn y Rhufeiniaid, ac unrhyw berson a fuasai yn ymostwng o'i fodd iddynt, a'r ysbeilwyr oedd yn gormesu yr holl wlad. Yn mhen ychydig o amser, ac ar ol iddo gyrhaedd Iudea, aeth Ffestus i Ierusalem, a daeth Ananias, a nifer o'r penaethiaid ato, i ofyn iddo wneyd ymchwiliad i achos Paul, yr hwn oedd wedi ei adael yn garcharor gan Ffelix yn Cesarea. Cydsyniodd Ffestus â hyn; a chyn gynted ag y dychwelodd i Cesarea, fe orchymynodd dwyn Paul o'i flaen: ac a rol clywed yr hyn oedd i'w ddywedyd ar bob ochr, dywedodd nad oedd ef yn ystyried Paul yn euog o un trosedd arbenig. Ond yr oedd Paul wedi

Digitized by Google

appelio at Cæsar, felly gyrodd Ffestus i Rufain.

Yn y cyfamser, yr oedd Agrippa, yr hwn fyddai yn myned i Ierusalem yn fynych, wedi penderfynu adeiladu palas iddo ei hun yn agos i'r deml, fel y medrai weled beth oedd yn cael ei wneud yn y cyntedd nesaf i mewn. Digiodd hyn yr Iuddewon yn fwy; o herwydd yr oeddynt yn tybied y buasai Ffestus a'r Rhufeiniaid yno i'w gwylied hefyd. Felly adeilasant mur digon uchel i gysgodi y lle sanctaidd hwnw. Pan welodd y brenin a'r rhaglaw hyny, gorchymynasant iddo gael ei dynu i lawr; ond llwyddodd yr Iuddewon i gael rhyddid i yru cenadon i Rufain; a chawsant yr hyn a geisid trwy gynnorthwy Poppæa. Bu Ffestus farw yn haf y flwyddyn 63 O.C., ar ol llywodraethu y wlad am yr ysbaid byr o ddwy flynedd. Ond nid yw amseryddwyr yn cyttuno am y flwyddyn. Y mae Josephus yn meddwl ei fod yn farnwr cyfiawn a gweithgar.

FFIEIDD-DRA ANGHYFANEDDOL (τὸ βδέλυγμα τῆς ἐρημώσεως: *Mat.* xxiv. 15). Mae y prophwyd Daniel yn llefaru am y ffieidd-dra hwn mewn tri o fanau yn ei brophwydoliaeth; set *Dan.* ix. 27; xi. 31; a xii. 11. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir gan y Deg a Thrigain, ac yma drachefn gan Matthew, yn *ffieidd-dra*, yn arwyddo unrhyw aflendid crefyddol (*Lef.* vii. 21; xi. 10, 13, 41, a 42); ac yn y rhif liosog, arwydda yn enwedig eilunod: 1 *Bren.* xi. 5, 7; 2 *Bren.* xxiii. 13; 2 *Cron.* xv. 8. Darnodir ef gan Suidas fel πᾶν εἴδωλον καὶ πᾶν ἐκτύπωμα ἀνθρώπου:= "pob math o eilun a phob math o gerflun dynol." Dywedir na ddefnyddir y gair ond yn unig i osod allan eilunaddoliaeth *yr Iuddewon eu hunain.* Os felly, rhaid i ni, wrth geisio egluro y brophwydoliaeth, gyfyngu ein hunain i ryw weithred eilunaddolgar o eiddo yr Iuddewon. Ac ymddengys mai felly y deallid yr ymadrodd gan yr Iuddewon; o herwydd cawn yn Josephus fod traddodiad yn eu mysg y byddai i'r deml gael ei dinystrio, "os byddai i ddwylaw y genedl halogi y lle sanctaidd:" =ἐὰν χεῖρες ἀκεῖαι προμιάνωσι τὸ τέμενος [Ll. J., iv. 6. adr. 3]. Cyfieithir yr ail air, anghyfaneddol, yr anghyfaneddwr, neu syn; hyny yw, yn peri i un synu. Gellir meddwl mai ystyr cyflawn y gair ydyw *anghyfanedd dra yn peri syndod a dychryn.* Pa beth a feddylir wrth y ffieidd-dra hwn sydd yn anhawdd ei benderfynu. Bernir gan lawer mai at y byddinoedd Rhufeinig y cyfeirir, ac yn neillduol at yr eryrod, a lluniau ereill ar eu llumanau, y rhai a addolid ganddynt hwy. Tybir fod yr ymadroddion yn *Luc* xxi. 20, yn cadarnhau y golygiad; "A phan weloch Ierusalem wedi ei hamgylchu gan luoedd." Ond y mae yn amlwg oddi wrth ystyr y gair, fel y nodwyd uchod, yr hwn a arwydda eilunaddoliaeth *yr Iuddewon eu hunain,* ac oddi wrth holl rediad y brophwydoliaeth yn Daniel, nas gellir deall yr ymadrodd yn cyfeirio oll at luoedd y Rhufeiniaid. Am yr ymadroddion yn Luc, a ddyfynwyd uchod, y mae yn amlwg nad ydynt yn cyfeirio at yr un peth ag y cyfeirir ato yn Matthew a Marc. Yn yr olaf, crybwyllir yr arwyddion mewnol o ddinystr Ierusalem: yn Luc, yr arwyddion allanol. Tybia ereill mai at osod i fyny allor eilunaddolgar gan yr Iuddewon eu hunain yn y deml, yn amser Antiochus Epiphanes, y cyfeirir yma. Gelwir yr allor hono yn yr *Apocrypha* wrth yr enw "ffieidd-dra anghyfaneddol." Ond os cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn yr amgylchiad hwnw, y mae yn amlwg mai mewn rhan y gwnaed hyny, gan fod Iesu Grist yma yn cyfeirio at y dyfodol. Cawsant gan hyny eu cyflawni yn mhellach a llwyrach yn ninystr Ierusalem gan y Rhufeiniaid. Gellid meddwl mai at *Dan.* ix. 27, y mae Iesu Grist yn cyfeirio yn arbenig yn Matthew. Yno lleferir am gymmeryd ymaith yr aberth beunyddiol, a gosod i fyny y ffieidd-dra anghyfaneddol. Yn awr, cymmerwyd ymaith yr aberth beunyddiol yn mhen tua thair blynedd a hanner ar ol dechreuad y rhyfel, a hyny gan y blaid Iuddewig, a elwid y Zelotiaid—penaeth y rhai a elwid Ioan, yr hwn a gymmerodd y deml dan yr esgus o'i hamddiffyn hi a'r ddinas. Dywed Josephus i'r blaid hon gyflawni gweithredoedd halogedig yn y lle sanctaidd; ac y mae yn dra thebyg mai at y rhai hyn y cyfeiria yr Iesu yn ei brophwydoliaeth. Yn ol barn llawer o esbonwyr enwog, cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn mhellach drachefn yn hanes yr eglwys, pryd y darfu i esgob Rhufain eistedd ar allor Duw megys Duw, i gael ei addoli, a gwneuthur yr eglwys yn anghyfanedd trwy athrawiaethau cyfeiliornus ac addoliad eilunaddolgar: gwel 2 *Thes.* ii. 4. Am y "lle sanctaidd," yn yr hwn y dywedir y byddai i'r "ffieidd dra anghyfaneddol" ymddangos, mae yn naturiol i ni feddwl am y deml. Gan y rhai a farnant fod Iesu Grist yn cyfeirio yma at luoedd




Dar. 300.

y Rhufeiniaid, cymmerir y "lle sanctaidd" i arwyddo Gwlad Canaan yn gyffredinol; ond y mae hyn yn groes i arferiad ac ystyr cyffredinol y gair, yr hwn a ddefnyddir yn gyfystyr â'r gair Hebraeg *hah-co* ="y lle sanctaidd;" hyny yw, y deml oddi fewn y cyssegr sanctaidd, lle yr oedd allor yr arogldarth, yr hwn a elwid yn Hebraeg *macom*, ac yn Groeg yn *naos.* Yn *Dan.* ix. 27, darllenir, "Ar aden ffieidd-dra (*bydd*) yr anghyfaneddwr," lle y cyfeirir, dybygid, at binaclau y deml, y rhai a elwid yn aml yn adenydd.

FFIGYS. Ffrwyth adnabyddus a blasus ydyw hwn, ac y mae yn ddefnyddiol mewn meddyginiaeth.

Digitized by Google

Gellir rhanu y ffigys i ddau ddosbarth, y rhai sydd yn cynnwys llawer o wahanol fathau; ond ni wnawn ond cymmeryd sylw o ddosbarthiadau y *boccore* a'r *kermouse.* Y mae y *boccore* du a gwyn, neu y ffigys cynnar, i'w cael yn addfed yn Mehefin, er nad yw y *kermouse* braidd felly cyn Awst. Mae hefyd fath o *kermouse* o liw tywyll, yr hwn sydd weithiau yn aros ar y prenau drwy y gauaf. Ond y ffigys sydd yn cael eu hanfon i Loegr—ac y mae tua mil o dunelli o honynt yn dyfod i Brydain yn unig—a anfonir gan mwyaf o Groeg ac Asia Leiaf; ond y maent yn cael eu sychu cyn eu danfon. Ni welir blodau ar y pren byth; o ran mewn gwirionedd, y mae y blodau yn guddiedig yn y ffrwyth. Pan y mae y ffigysbren yn ffurfio ei dail yn y gwanwyn, y mae ar yr un amser yn ffurfio ffigys bychain gwyrddion, sydd yn grynion ac yn agos i faint cneuen. Y blodau ydyw y ffigys bychain hyn; a gellir galw y ffrwyth addfed yn hadgôd, neu yn hytrach yn hadgell—yn cynnwys llawer o hadau. Os agorir un o'r ffigys gwyrddion, ac edrych arni trwy y mwyadur (*microscope*), fe welir nifer o frigau a phledyr, y rhai sydd yn ffurfio y blodau. Fel y mae y ffigys yn cynnyddu mewn maint, y mae y blodau yn cynnyddu hefyd, nes o'r diwedd y mae y pelydr yn cyfnewid i'r hadau bychain llwydion yr ydys yn eu cael bob amser mewn cyflawnder yn nghanol y ffigys y byddwn yn arferol o'u bwyta.

Y sylw cyntaf yn yr Ysgrythyrau o'r ffigys bron ydyw pan y mae ein rhieni cyntaf yn gwnïo y dail ac yn gwneuthur iddynt eu ffedogau. Y mae llawer o gyfeiriadau at y ffigysbren yn y Beibl, ac y mae yn cael ei gyffelybu i amryw bethau.

Dywed Pliny fod ffrwyth y ffigysbren yn well nag unrhyw ymborth i bersonau sydd wedi eu gwanychu gan afiechyd ac yn dechreu gwellhau. Y mae hyn yn ateb i'r hanes a ddarllenir yn 1 *Sam.* xxx. 11, 12: pan yr oedd Aiphtwr mewn llewyg yn y maes, gorchymynodd Dafydd iddynt roddi iddo "ddarn o ffigys," ar ol y bara a'r dwfr a roddwyd iddo. Defnyddir ffigys hefyd fel plastr neu *poultice*, yn enwedig pan na byddant wedi eu sychu: ond er mwyn i'r wyrth fod yn fwy eglur, yr ydym yn darllen fod Duw wedi gorchymyn i'r prophwyd Esaiah roddi talp o ffigys sychion ar gornwyd Hezeciah, gydag addewid raslawn o iachâd i'r dioddefydd.

Y sylw cyntaf yr ydym yn ei gael yn hanesion cyffredin y byd am ffigys ydyw pan y mae Athenæus yn dywedyd fod Amitrochates, brenin Indiaidd, wedi erfyn ar Antiochus mewn llythyr, i anfon iddo ar ei draul ei hun "win melus, ffigys wedi eu sychu, a dysgawdwr athroniaeth."

FFIGYSBREN. Y mae yn debyg mai Persia oedd y lle cyntaf yn mha un yr ymddangosodd y ffigysbren; ond yn awr, mae yn cael ei dyfu trwy y rhan fwyaf o Ewrop, hyd yn oed mor orllewinol a pharthau cynhesaf Lloegr.



Dar. 307.

Y mae y ffigysbren yn perthyn i ddosbarth yr *urticacea*, neu y *nettle tribe;* o herwydd ei fod yn cynnyrchu math o laeth tebyg i'r hyn a gynnyrchir gan y danadl, y merwydd, a'r berwydden. Y mae y llaeth yma yn debyg i'r twythlws; ac felly, gellir yn ddiammheu ei ddefnyddio i wneuthur *india-rubber*, ac i borthi y pryf sidan. Bydd y pren yma yn ffrwytho ddwywaith yn y flwyddyn. Gelwir y cnwd cyntaf o ffigys yn *boccore*, neu ffigys cynnar. Y mae y rhai hyn yn barod yn Mehefin neu Gorphenaf; a phan y byddant wedi addfedu, byddant yn syrthio oddi ar y pren, megys y dywed Nahum (*pen.* iii. 12). Fel y bydd y *boccore* yn addfedu, mae y *kermouse*, neu ffigys yr haf yn cael eu ffurfio. Dyma y ffigys sydd yn cael eu danfon i wledydd ereill. Ni byddant yn addfed hyd Awst, pan eu casglir i'w sychu. Er fod Pliny yn dywedyd fod y pren yma yn dwyn dau gnwd, eto y mae yn rhoddi ar ddeall i ni fod cnwd y gauaf, heb law y rhai a enwyd eisoes. Y mae y cnwd yma yn rhyw fath o *kermouse* fydd yn tyfu ar y pren ar ol i'r lleill addfedu. Y maent ychydig yn fwy tywyll na'r rhai blaenorol, ac yn hwy; a byddant yn addfedu ar ol i'r dail syrthio. Ac os bydd y gauaf heb fod yn oer iawn, gellir eu tynu yn y gwanwyn. Felly yr oedd yn bosibl y gallai Iesu Grist ddysgwyl y byddai un o honynt ar y pren, yn gystal

Digitized by Google

a rhai o'r *boccore* cynnaraf, gan fod yr hanesydd ysgrythyrol yn dywedyd fod dail ar y pren; ac y mae y ffigysbren yn dwyn ffrwyth cyn i'r dail ymddangos. Y mae Mr. Taylor yn tybied mai sycamorwydden oedd y pren a felldithiodd yr Iesu, gan ei bod yn ffrwytho lawer gwaith yn y flwyddyn, a hyny ar wahanol adegau, ac nas gall neb sicrhau a fydd ffrwyth arni neu beidio heb fyned yn agos iawn ati. Ond heb sylwi ar yr awdurdod ar ba un y cyfieithir y gair Groeg yn sycamorwydden, a ydyw yn debygol y buasai i Iesu Grist felldithio pren o'r fath, gan ei fod yn bur bosibl na byddai dim ffrwyth arno ar y pryd hwnw, ac eto heb fod yn anffrwythlawn? Felly, y dybiaeth gyntaf ydyw y gywiraf, gan nas gall "nad oedd amser ffigys" fod yn rheswm pa ham nad oedd ond dail ar y pren.

Yr oedd y ffigysbren yn cael ei nodi fel un o drysorau Palestina: *Deut.* viii. 8. Dywedir am y ffigysbren, ei bod yn arwydd o lwyddiant (1 *Bren.* iv. 25); a'i methiant yn arwydd o gystudd (*Salm* cv. 33). Arferir ffigys mewn meddyginiaeth: 1 *Sam.* xxx. 11, 12. Cymherir y saint i ffigysbren: *Can.* ii. 13. Cymherir yr Iuddewon i ffigysbren ddiffrwyth: *Luc* xiii. 6—9. Cymherir gogoniant Samaria i ffigys cynnar: *Esa.* xxviii. 4. Yr oedd yr Iuddewon annuwiol yn debyg i ffigys drwg: *Ier.* xxiv. 1.

FFIRCYN. Gwel MESUR.

FFLANGELL—U. [φραγέλλιον; *Llad. flagellum*]: ffrewyll, chwip. Y mae yn amlwg mai Cymreigiad ydyw *fflangell* o'r gair Lladin *flagellum*, trwy droi yr *g* yn *ng*, a gadael y terfyniad *um* allan. Dywed Parkhurst mai o'r gair Lladin y tardda y gair Groeg hefyd, trwy newid yr *l* gyntaf yn *r*, a newid y terfyniad *um* yn *ion*. Gwreiddyn y gair Lladin *flagellum* yw *flagrum* (chwip), a thardda hwn drachefn o *flagro*, llosgi, o blegid y boen losgedig a achosa yr offeryn ar y cnawd; ac y mae Horace yn defnyddio geiriau Lladin cyfystyr â "llosgi a fflangellu" (chwipiau), sef fflangellu creulawn. Yr oedd dau fath o fflangell: un math yn cael eu gwneyd o reffynau neu gareiau o ledr; a'r math arall a wneid o wiail, neu o fath o frwyn—defnydd rhaffau y dyddiau hyny. Bernir mai o'r brwyn hyny y gwnaeth yr Arglwydd Iesu y fflangell â'r hon y gyrodd efe y defaid a'r ychain allan o'r deml: *Ioan* ii. 15.

Yr oedd y gosp o fflangellu neu wialenodio yn dra chyffredin yn mysg yr Iuddewon: *Deut.* xxv. 1—3. Dywed yr apostol Paul fod yr Iuddewon wedi ei fflangellu ef bum waith, yn eu synagogau a cher bron eu brawdlysoedd, y mae yn debyg: "Gan yr Iuddewon bum waith y derbyniais ddeugain gwialenod ond un;" 2 *Cor.* xi. 24. Yr oedd cyfraith yr Iuddewon yn gwahardd iddynt roddi mwy na deugain gwialenod ar y tro (*Deut.* xxv. 3); a rhag iddynt fyned dros ben hyny, yr oedd yn ddefod yn eu plith i beidio rhoddi mwy na "deugain gwialenod ond un." Yr oedd y fflangell a ddefnyddid i weinyddu y gosp yn cynnwys tri rheffyn gwahanol o gareiau plethedig; ac am hyny yr oedd pob dyrnod yn cael ei ystyried yn dri gwialenod, gan y torai pob dyrnod dri o friwiau gwahanol yn y cnawd: o ganlyniad, yr oedd tri dyrnod ar ddeg, dros ben yr hyn ni byddai yr Iuddewon byth yn myned, yn cael eu hystyried yn "ddeugain gwialenod ond un." Os byddai "dryganiaeth" y troseddwr yn fawr, yn lle chwanegu y gwialenodiau, yr hyn ni feiddient ei wneuthur heb droseddu eu cyfraith, byddent yn rhoddi y dyrnodiau yn drymach.

Yr oedd fflangellu yn mhlith y Rhufeiniaid yn dra gwahanol, ac ar achlysuron yn llawer mwy gwaradwyddus a chreulawn. Nid oedd eu cyfreithiau paganaidd hwy yn eu cyfyngu at unrhyw nifer penodol o wialenodiau; ond byddent yn fflangellu rhai, yn enwedig caethion, i farwolaeth: ac, fel y mae yn fwyaf gwaradwyddus, dull y paganiaid o fflangellu a arferir yn awr gan feistriaid caethion, hyd yn oed mewn gwledydd Cristionogol, megys yn nhaleithiau deheuol America, lle y mae y barbareiddiwch yma yn arferedig.

Dywed Paul iddo gael ei guro dair gwaith â gwiail (2 *Cor.* xi. 25), gan gyfrif hyn ar wahân oddi wrth y fflangellu a grybwyllir yn yr adnod flaenorol; yr hyn a bâr i'r beirniaid dybied mai yn ol dull creulawn y Rhufeiniaid y dioddefodd y "tair gwaith" hyn; ac y mae yn dra sicr hefyd mai yn ol y dull barbaraidd yma y cafodd yr Arglwydd Iesu ei fflangellu, dan orchymyn Pilat, y rhaglaw Rhufeinig, cyn ei groeshoelio (*Mat.* xxxii. 26; *Ioan* xix. 1), yn ol fel yr oedd efe ei hun wedi rhagfynegi wrth y dysgyblion: *Mat.* xx. 19; *Marc* x. 34.

Y dull y gweinyddid y gosp waradwyddus a chreulawn oedd, dynoethi y dyn hyd ei hanner; yna rhwymo ei ddwylaw wrth bawl isel, fel y byddai ei gefn yn grymedig, ac yn gyfleus i'r fflangellwr arfer ei greulondeb arno yn fwy effeithiol. Byddai y paganiaid weithiau yn dynoethi holl gorff y dioddefwr; megys y gwneir hefyd gan rai o gaethfeistriaid creulawn America.

Ymddengys fod fflangellu wedi cael ei ddwyn yn lled fore i'r Eglwys Babaidd yn benaf, neu eglwysi llygredig cyffelyb, fel penyd am droseddau a phechodau. Bernir i benboethiaid ei fabwysiadu fel hunan-gospedigaeth, gan ei ystyried yn llesol er marweiddio y cnawd; a hyny mewn rhan, fel y tybir, o blegid fod Crist a'r apostolion wedi bod dan y fflangell. Ceir hanes fod rhai personau, yn fuan ar ol i'r eglwys ymlygru i Babyddiaeth, geisio gwneyd iawn am eu pechodau, trwy fyned o'u gwirfodd dan ryw gospau corfforol, a alwent yn "benydiau." Dewisodd llawer, fel yr Abad Regino yn Prum, yn y 10fed ganrif, fod yn gyfranog o'r un dioddefiadau corfforol a Christ, er mwyn bod yn sicrach, meddent hwy, o gael maddeuant trwyddo ef. Daeth y penydiau afreidiol a choelgrefyddol hyn yn bethau cyffredin yn yr 11eg ganrif, pan y gorchymynodd Peter Damiani o Ravenna, abad y mynachdy Benedictaidd yn agos i Gubbio, a wnaed wedi hyny yn esgob cardinalaidd Ostia, ar i fflangellu, fel iawn am bechod, gael ei ystyried fel dyledswydd Cristionogion yn gyffredinol, ac yn enwedig mynachod. Gwnaeth ei esampl ef ei hun, a'i glod am sancteiddrwydd, ei annogaethau yn dra effeithiol. Dechreuodd gwŷr llên a lleyg, meibion a merched, eu cospi eu hunain, trwy gymmeryd eu curo â gwiail, careiau, a thidau. Byddent yn nodi amseroedd penodol i fyned dan y penydiau hyn. Byddai tywysogion yn gorchymyn i'w cyffeswyr eu fflangellu yn noethion. Byddai Louis IX. yn cludo coffryn o ifori gydag ef yn wastad, yn cynnwys pump o gadwyni haiarn bychain, a byddai yn gorchymyn i'w gyffeswr ei fflangellu â hwynt yn llym yn fynych. Rhoddodd goffrynau cyffelyb i amryw dywysogion a thywysogesau oedd yn perthyn i'w dŷ, ac i rai cyfeillion pur grefyddol ereill, fel arwydd nodedig o'i ffafr iddynt. Yr oedd y gred

Digitized by Google

orphwyllog fod fflangellu yn puro oddi wrth bechod yn ffynu trwy holl Ewrop yn y rhan olaf o'r 13eg ganrif. Fel yr oedd yr Eglwys Babaidd yn llygru fwyfwy, dirywiodd y penydiau hyn o'r diwedd i benboethni gwyllt, nes y daeth i fod yn fasnach ffiaidd a gorthrymus yn nwylaw y mynachod a'r cyffeswyr. Ar ol cynghor Constance, yn 1414—18, dechreuodd y gwŷr llên a lleyg ffieiddio y fflangell. Y Cordelieriaid a barhaodd at yr arfer yntyd hwyaf. Yr oedd yn cael ei ystyried yn gyfartal i bob math o iawn am bechodau a aethant heibio. Yr oedd 3,000 o wialenodiau, a chorganu 30 o'r Salmau edifeiriol, yn cael ei ystyried yn ddigon i ddileu pechodau am flwyddyn; 30,000 o wialenodiau yn ddigon i ddileu pechodau am ddeng mlynedd, &c. Bostiai gwraig weddw Italaidd, yn yr 11eg ganrif, ei bod hi wedi gwneyd digon o iawn am bechodau *can mlynedd*, trwy gymmeryd ei fflangellu yn wirfoddol; ac felly, yn ol y nifer gofynol cafodd 300,000 o wialenodiau ar ei chorff noeth. Yr oedd tyb yn ffynu y pryd hyny, pa faint bynag fyddai maint yr euogrwydd, y gellid gochel uffern a chyrhaedd gradd anrhydeddus o sancteiddrwydd trwy y dull barbaraidd yma o hunangospedigaeth. O herwydd hyn, yr oedd fflangellu yn fath o swyn yn ngolwg yr euog a'r hunanol, yr hyn a barai iddynt bechu yn ddiofn cosp ddyfodol; a pharhaodd y twyll a'r rhagrith yma i raddau dychrynllyd, nes y chwalwyd hwy o'r diwedd gan oleuni purach yr efengyl, yn amser y Diwygiad Protestanaidd.

FFLANGELLWYR [*Flagellants*]: enw sect yn y drydedd ganrif ar ddeg, y rhai a dybient mai y ffordd oreu i wneuthur iawn am bechod oedd myned dan fflangelliad trwm. Dywedir mai Rainier, meudwy o Perugia, oedd sylfaenydd y penboethiaid hyn, yn 1260. Cafodd ddilynwyr yn fuan agos yn mhob parth o Italy. Byddai hen ac ieuainc, bychain a mawrion, yn rhedeg trwy y dinasoedd, gan eu fflangellu eu hunain, a chynghori ereill i edifarhau. Cynnyddodd eu rhif yn fuan i ddeng mil o nifer, y rhai a arweinid oddi amgylch gan eu mynachod a'u cyffeswyr, yn dwyn baneri a chroesau. Troisant allan hefyd yn fuan wrth y miloedd, i gardota o wlad i wlad. Yn 1261, aethant yn lluoedd dros yr Alpau i'r Almaen, ac ymsefydlasant yn Alsatia, Bavaria, Bohemia, a Pholand; a chawsant luaws o ddysgyblion. Yn 1296, cyfododd haid fechan o honynt yn Strasburg; y rhai, wedi gorchuddio eu hwynebau, a elent trwy y ddinas ac i'r eglwysydd gan eu fflangellu eu hunain yn gyhoeddus yn y modd mwyaf gwrthun ac atgas. Nid oedd y tywysogion a'r gwŷr mawr yn hoffi y frawdoliaeth newydd yma o fflangellwyr yn dda; ond yr oeddynt yn dra chymmeradwy gan y werin anwybodus. Yr oedd eu hymddynoethiad cywilyddus yn ffiaidd yn ngolwg dynion parchus, o foesau da; heb law fod eu hymddygiadau afreolaidd, a'u haerllugrwydd am elusen, yn faich a syrffed ar y deiliaid tangnefeddus. O herwydd hyn, ac ymddygiadau ereill, gwaharddwyd yr ymarferion hyn o'u heiddo, yn yr Almaen ac yn Italy. Alltudiwyd hwy gyda llymder gan freninoedd Poland a Bavaria o'u taleithiau; a gosododd yr esgobion hefyd eu wynebau yn eu herbyn. Ond er gwaethaf hyn oll, parhaodd y gymdeithas dan ffurf arall, yn mrawdoliaeth y *Beghardiaid* yn yr Almaen a Ffrainc; ac yn nechreu y 15fed ganrif, yr oeddynt mor luosog yn mhlith "Brodyr y Groes" (a elwid felly am eu bod yn gwisgo croesau ar eu dillad o'r tu blaen ac o'r tu ol) yn Thuringia, fel y llosgwyd 91 o honynt ar unwaith yn Sangershausen, yn 1414. Mabwysiadodd y cynghor a gynnaliwyd yn Constance, rhwng 1414 a 1418, fesurau penderfynol yn eu herbyn; ac er y pryd hyny, ni chlywyd dim chwaneg am y frawdoliaeth.

FFLAMINIAID [*Flamines*]: dosbarth o offeiriaid oedd y rhai hyn yn mysg yr hen Rufeiniaid, a sefydlwyd, yn ol Plutarch, gan Romulus; ac yn ol Livy, gan Numa. Dewisid hwy gan y bobl, ac urddid hwy i'w swydd gan y penadur. Tri oedd eu rhif ar y dechreu; ond chwanegwyd hwy wedi hyny i bymtheg—y tri phenaf o ba rai, gan y cymmerid hwy o'r senedd, a elwid y Prif Fflaminiaid (*Flamines Majores*); a'r deuddeg ereill, y rhai a gymmerid o blith y bobl, a elwid yr Is Fflaminiaid (*Flamines Minores*). Pan y dwyfolid yr ymherawdwyr, yr oedd Fflaminiaid yn cael eu cyssegru iddynt hwythau hefyd. Eu dyledswyddau cyffredin oedd edrych ar fod yr anrhydedd hynafol a defodol yn cael ei dalu i'r duwiau a gydnabyddid yn gyhoeddus; ac ar fod pob parch dyladwy yn cael ei roddi i grefydd y llywodraeth: ond yn ol tyb y werin ofergoelus, yr oedd iddynt ffafr a dylanwad gyda'r duwiau, yr hyn a barai fod ganddynt lywodraeth nerthol ar feddyliau y werin.

FFLEMINGIAID, FFLANDRYSIAID, a FFRIESLANDERIAID, sydd enwau a roddir i'r Mennoniaid a'r Ailfedyddwyr, a hyny, fel yr ymddengys, oddi wrth enwau y gwahanol leoedd a breswylient. Gwel MENNONIAID.

FFO, FO, FOE, neu, fel y gelwir ef yn awr yn China *Fuh* (=ffy), oedd dywysog Indiaidd, yr hwn a berchir yn China fel sylfaenydd crefydd a ddygwyd i'r wlad yn y ganrif gyntaf o Gristionogaeth, yr hon oedd wedi bod ar arfer yn India, fel yr hona ei phroffeswyr, am fil o flynyddoedd cyn hyny. Ganwyd Ffo, yn ol y traddodiad, yn y flwyddyn 1,027 c.c. Tra yr oedd ei fam mewn gwewyr arno, tywyllodd y ser, a disgynodd naw o ddreigiau o'r nefoedd. Ganwyd ef trwy ei hochr dde; a bu hi farw yn ebrwydd ar ol ei eni. Ar y foment y daeth efe i'r byd, safodd yn syth ar ei draed, a cherddodd saith o gamrau yn mlaen; a chan gyfeirio un llaw tua'r nef, a'r llall tua'r ddaiar, dywedodd y geiriau hyn yn groew:—"Nid oes neb yn y nef na'r ddaiar yn deilwng o'i addoli ond myfi." Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed, priododd dair o wragedd, a ganwyd iddo fab; ond pan yn bedair ar bymtheg oed, gadawodd ei deulu, ac aeth gyda phedwar o wŷr doethion i'r anialwch. Pan yn ddeg ar ugain oed, gwnaed ef yn dduw; a chan gadarnhau ei athrawiaeth trwy wyrthiau, efe a gasglodd nifer afrifed o ddysgyblion, ac ymledodd ei athrawiaethau dros holl barth dwyreiniol y byd. Galwyd ei offeiriaid a'i ddysgyblion yn China *Seng*, yn Tartary *Lamas*, yn Siam *Talapoins*, ac yn Ewrop *Bonzes*. Yn y 79eg flwyddyn o'i oedran, deallodd fod ei ddiwedd yn nesau: a mynegodd wrth ei ddysgyblion, mai mewn dammegion ac iaith ffugrol yn unig y llefarodd efe hyd yn hyn; ond yn awr, gan ei fod ar gael ei gymmeryd oddi wrthynt, y dadguddiai efe iddynt ddirgelion ei athrawiaeth. "Gwybyddwch gan hyny," eb efe, "nad oes un elfen arall i bob peth ond gwagle a dim; mai o ddim y daeth pob peth, ac mai i ddim y dychwel pob peth; ac yma

Digitized by Google

y rhaid i'n holl obeithion derfynu." Effeithiodd y dadganiad diweddaf yma o eiddo Ffo i ddosbarthu ei ddysgyblion yn dair sect. Sylfaenodd rhai o honynt sect atheistaidd arno; glynodd y rhan fwyaf wrth yr hen athrawiaeth; tra y gwnai ereill wahaniaeth rhwng yr athrawiaeth *allanol* a'r un *cyfriniol*, gan ymdrechu cymmodi y naill â'r llall. Cynnwysa athrawiaeth allanol Ffo ei gynllun o foesoldeb. Y mae yn gwahaniaethu rhwng da a drwg: caiff yr hwn a wnel ddaioni yn ei fywyd ei wobrwyo ar ol marw; a'r hwn a wna ddrygioni ei gospi. Yr unig orchymynion a roddodd i'w ddilynwyr oedd y pump canlynol:—Peidio lladd un creadur byw; peidio cymmeryd eiddo neb arall; gochel anmhuredd ac anniweirdeb; peidio dywedyd anwiredd; ac ymattal oddi wrth win. Dysgir hwy i arfer caredigrwydd; y daioni o adeiladu temlau a mynachdai; a'r gospedigaeth a ddilynai y cyflawniad o bechod, trwy i enaid y troseddwr gael ei drosglwyddo i'r anifeiliaid bryntaf ac aflanaf. Y prif athrawiaethau cyfriniol, y rhai nas gallai ond ychydig eu deall, yw y rhai canlynol:—Mai dechreu a diwedd pob peth ydyw gwagder a dim—fod y bodau dynol cyntaf wedi deilliaw o ddim, ac y dychwelant i ddim—mai gwagder sydd yn cyfansoddi ein hanfod—fod pob peth, byw a difywyd, yn cyfansoddi un hanfod cyfan; yn gwahaniaethu yn unig, nid o ran sylwedd, ond o ran ffurf ac ansawdd—fod elfen wreiddiol pob peth yn bur, yn anghyfnewidiol, ac yn syml; ac am ei fod yn syml, y mae yn berffeithrwydd pob peth arall—ei fod yn berffaith, ac am hyny yn bod mewn llonyddwch didor, heb na rhinwedd, na gallu, na meddwl; ïe, mai absennoldeb meddwl, gweithgarwch, ac angen neu ddymuniad, ydyw ei wir elfen—y rhaid i bwy bynag a ddymuna fod yn ddedwydd ymdrechu yn barhaus i feistroli ei hunan, a dyfod yn debyg i'r elfen gyntefig. Er mwyn hyny, rhaid iddo arfer ei hun i beidio gweithredu, dymuno, teimlo, na meddwl. Y gorchymyn mawr yw hwn:—Ymdrecha dy ddiddymu dy hun; canys, cyn gynted ag y peidi a bod yn ti dy hun, deui yn un â Duw, a dychweli i'w hanfod ef.

Yr oedd dilynwyr ereill Ffo yn mabwysiadu yr athrawiaeth o wagder a dim, yn nghyd â thrawsfudiad eneidiau; ond dysgent eu bod yn myned yn raddol i ddosbarth y Samanœaid, ac yn ymddangos o'r diwedd yn nghyrff Samanœaid perffaith, y rhai nad oes ganddynt feiau i wneyd iawn am danynt, ac nad rhaid iddynt mwyach barchu y duwiau, gan nad ydynt hwy (y duwiau) ond gweision yn unig i Dduw Goruchaf y greadigaeth—nas gellir cynnrychioli y Bod Goruchaf annechreuol hwn âg un math o ddelw, ac nas gellir ei addoli ef, gan ei fod yn mhell uwch law pob addoliad; ond y gellir cynnrychioli, parchu, ac addoli ei briodoliaethau. Y syniad yma oedd ffynnonell addoliad delwau gan frodorion India, a dyma ddechreuad y lliaws mân-dduwiau sydd yn China. Y mae gan yr holl elfenau, pob newidiad yn y tywydd, &c., eu duw neillduol; a gweision neu swyddogion ydyw yr holl dduwiau hyn i'r Duw Goruchaf—y *Seng-wang-Man*.

Er mai eilun y bobl gyffredin gan mwyaf yw Ffo, ac yn cael ei ystyried fel duw dieithr yn China, wedi cael ei gludo yno gan y Budhiaid (*Budhists*) o India; eto y mae ei ddeiliaid wedi bod bob amser yn dra lluosog, a phriodolir rhinweddau mawrion i'r adroddiad parhaus o'i enw, ac hyd yn oed i fyfyrdod arno. Tybirei fod yn gwneyd tynged yn llwyddiannus, a bywyd yn ddiogel; ei fod yn achub eneidiau rhag ymfudo i gyrff anifeiliaid is-raddol; ac yn olaf, ei fod yn sicrhau lle iddynt yn Mharadwys Ffo, lle y mae y tir yn aur melyn, y tyrau yn emau, a'r pentydd yn berlau. "Meddwl am y diafol," medd un o brophwydi Ffo, "a thi a äi yn ddiafol: meddwl am Ffo, a thi a äi yn Ffo."

Gan fod Ffo yn gosod allan adeiladu temlau fel un o rinweddau ei grefydd, cyfodwyd llawer o demlau mawrion ac ardderchog iddo, braidd yn mhob parth o China; ac y mae y rhai hyny, cystal a mynachdai yr offeiriaid, yn llawn o ddelwau ac eilunod. Y maent yn darpar cynnaliaeth i'r offeiriaid, fel y moddion mwyaf effeithiol i gael bod yn gyfranog o'u gweddiau. Hòna yr offeiriaid hyn eu bod yn gwybod i ba anifeiliaid y trosglwyddir eneidiau y meirw; ac y maent yn darlunio y rhai hyny bron yn wastad wrth gyfeillion byw y trancedig fel y rhai mwyaf truenus ac anghysurus, er mwyn cael arian ganddynt am gael mynedfa i enaid y trancedig i well sefyllfa, ac am ei weddïo allan o'r purdan, yr hyn sydd yn un rhan o'u cyfundrefn.

Y mae Mr. Davis yn sylwi, yn ei waith ar y Chineaid [llyfr ii. 94], fod sefyllfa crefydd Ffo yn awr yn China yn mhell o fod yn llewyrchus; a bod y temlau eang ac ardderchog a adeiladwyd yn yr amseroedd gynt mewn cyflwr o ddirywiad ac adfeiliad amlwg. Anfynych y cyfarfyddir âg un o'r temlau naw neu saith uchder llofft mewn cyflwr gweddol o dda, er fod dau neu dri o'r adeiladau nodedig a phrydferth yma i'w cael bron yn mhob ardal. Nid oes dim llai na phedair neu bump o'r temlau naw uchder llofft hyn rhwng Macao a Canton, ar lethri uchel wrth lan yr afon; ac y mae pob un o honynt mewn cyflwr truenus o adfeiliad. Gwel BUDHISTIAETH.

FFOADUR—IAID: un yn dianc o'i sefyllfa, neu un yn gadael ei ddyledswydd; enciliwr; crwydriad. Un yn dianc rhag perygl. Un yn dianc am noddfa dan awdurdod un arall, megys y diangodd Louis-Philippe o Ffrainc, a Kossuth o Hungary, i Brydain. Y mae son am amryw ffoaduriaid yn y Beibl; megys, *Barn*. xii. 4; 2 *Bren*. xxv. 11; *Esa*. xv. 5. Gwel DINASOEDD NODDFA.

FFOL, FFYLIAID, [אויל; αφρων, μωρος]: arferir y gair *ffol* yn y Beibl yn fynych fel sylweddair; megys yn *Salm* xlix. 10; "Yr un ffunud y derfydd am y *ffol* ac ynfyd." *Diar*. x. 23; "Hyfryd gan *ffol* wneuthur ddrwg;" a llawer o fanau ereill yn yr Hen Destament. Y mae yn cael ei arfer hefyd yn yr un ystyr weithiau yn y Testament Newydd, er nad yn agos mor fynych ag yn yr Hen; megys, 2 *Cor*. xi. 16; "Derbyniwch fi *fel ffol*." Nid ydyw y gair *ffwl* byth yn cael ei ddefnyddio yn y rhif unigol am *ynfyd*, mewn un o'r ddau Destament, er fod y rhif lluosog, *ffyliaid*, yn cael ei defnyddio yn fynych yn yr Hen Destament, ac weithiau yn y Newydd hefyd. Defnyddir y gair *ffol* hefyd yn y ddau Destament, fel ansoddair; megys, "mab ffol," "cwestiynau ffol;" ac unwaith, defnyddir yr ansoddair yn lluosog (*ffolion*) yn 1 *Pedr* ii. 15; "Canys felly y mae ewyllys Duw, fod i chwi trwy wneuthur daioni ostegu anwybodaeth dynion *ffolion*."

Yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair *ffol* yw disynwyr, neu hurt (*idiotic*): ond anfynych, os byth, y rhoddir yr ystyr yma i *ffol* yn yr Ysgrythyrau; eithr yn hytrach golyga afresymol, dibwyll, neu ddrygionus: nid un amddifad o

Digitized by Google

reswm, ond un yn peidio defnyddio ei reswm, neu un yn ei gamddefnyddio. Hefyd, un na byddo ei ymddygiad yn cael ei reoli gan reswm a chrefydd. Nid sefyllfa o amddifadrwydd gan hyny, yn ol yr ystyr Ysgrythyrol, ydyw ffolineb, ond sefyllfa o gam-ymddygiad o ran y meddwl neu y corff, neu bob un o'r ddau; megys yr hyn a ddarlunir yn 2 *Sam.* xiii. 12, 13; *Salm* xxxviii. 5, er na ddefnyddir y gair yn y manau hyn yn ein cyfieithiad ni. Yn y Diarebion, ymddengys fod y gair yn cael ei arfer weithiau i arwyddo diffyg dealltwriaeth, ond yn fynychaf arwydda wrthnysigrwydd yr ewyllys.

FFOLENAU.[עפלים, טחורים; ἕδρα; *anus, nates*] Ceir y geiriau Hebraeg yn *Deut.* xxviii. 27; 1 *Sam.* v. 6, 9, 12; vi. 4, 5, 11. Yn y tair adnod olaf yn unig y mae y gair *ffolenau* yn ein cyfieithiad ni. "Clwyf y marchogion" ydyw y cyfieithiad yn y manau ereill. *Emerods* ydyw y cyfieithiad Seisoneg yn mhob un o'r adnodau; yr hwn a gyfieithir yn y geiriaduron â'r geiriau *lledwigwst, clwyf y marchogion,* a *haint y marchogion.* Deillia y gair Seisoneg, medd y Dr. Ogilvie, o'r Groeg αἱμορροΐδες (*ahimorrhoides*)—gair yn arwyddo gorlifiad gwaed. Yr hyn a olygir wrth y gair Seisoneg, medd efe, ydyw plorynau dulas, poenus a gwaedlyd o amgylch y cyfeistedd. Y mae y tybiau am natur y clefyd yn ymddibynu yn benaf ar yr ystyr a roddir i wraidd y ddau air Hebraeg. Ystyr y blaenaf yn amlwg ydyw *chwydd;* yna, chŵydd yn y cyfeistedd, neu yn y rhanau dirgel o'r corff. Ystyr gwreiddyn y gair arall, yn ol Gesenius a Parkhurst, ydyw chwythu, neu anadlu yn drwm megys dan lwyth; ac y mae hefyd yn arwyddo esmwythau y corff trwy egni mawr; yna arwydda fod yn rhwym; ac arwydda y gair Arabaeg, y tybir ei fod yn wreiddyn cyntaf y gair, rhwymedd gyda gorlifiad gwaed. Yn awr, yn 1 *Sam.* vi. 11, lleferir am luniau y ffolenau ar ol iddynt gael eu gwneuthur a'u dodi yn yr arch. Ymddengys gan hyny fod y gair cyntaf yn arwyddo y clefyd, a'r olaf y rhan neu y rhanau oedd dan effeithiau y clefyd; a rhaid fod y ffolenau aur yn cynnwys lluniau y rhanau hyny, fel y peth hanfodol a gynnrychiolid, gan nad oedd y clefyd ond peth dygwyddiadol. Gan yr ymddengys mai rhyw chŵydd heintus oedd natur y clefyd, ni ddygwyd un tyb tebycach i fod yn wir, hyd yn hyn, na'r tyb cyffredin mai chŵydd y lledwigwst *(piles)* gwaedlyd a feddylid, oedd yn adnabyddus i'r Rhufeiniaid dan yr enw *mariscæ* [*Juv.*, ii. 13]. Y mae y clefyd yn dra chyffredin yn Syria yn awr, gan fod diffyg ymarferiad y dwyreinwyr, ac ymborth anghyfaddas, yn anmharu yr iau, yn peri rhwymedd, &c., a'r cwbl yn achosi y clefyd hwn. Gellir casglu oddi wrth 1 *Sam.* v. 12—"A'r gwŷr ni buant feirw, a darawyd â chlwyf y marchogion"—nad oedd y clefyd o angenrheidrwydd yn farwol. Gan fod y "cornwyd," a chlefydau ereill, yn cael eu cyssylltu yn *Deut.* xxviii. 27, â'r hyn a elwir yn Hebraeg *apolim,* y mae yn amlwg mai clefyd, ac nid rhan o'r corff, a arwydda y gair hwnw; ond y mae y cyfieithiadau o hono gan yr awdurdodau mwyaf cymmeradwy yn amrywiol ac ansefydlog. Y mae y Deg a Thrigain, a'r *Vulgate,* yn cyfieithu y gair bob amser yn yr ystyr olaf. Ystyrir gan rai fod gwaith Herodotus [i. 105] yn crybwyll clefyd, a elwir ganddo ef yn *théleia nousos,* fel yr un a flinai y Scythiaid a ysbeiliasant deml y Venus Syriaidd yn Ascalon, fel prawf fod rhyw chwedl yn cynnwys gŵyrdroad o'r hanes Ysgrythyrol ar lafar gwlad hyd amser diweddar. Y mae y Scholiast ar Aristophanes [*Acharn.* 231], yn crybwyll am bla cyffelyb, a anfonwyd ar yr Atheniaid gan Bacchus, ac am iawn a wnaed ganddynt yn ganlynol i'r pla, cyffelyb i'r iawn y crybwyllir am dano yn yr Ysgrythyrau. Y mae yn dra thebyg mai rhyw draddodiad yn mysg y paganiaid am yr amgylchiad Ysgrythyrol oedd gwreiddyn yr holl chwedlau hyn a'u cyffelyb.

FFON, FFYN [*ffy—on*]. Ffon a gymmerir mewn llaw er cynnaliad neu ddiffyniad; llawffon, pastwn. *Ffon bara,* yn arwyddocaol, yw cynnaliaeth dyn. "Tori ffon bara" sydd yn arwyddo newyn: *Lef.* xxvi. 26; *Esa.* iii. 1; *Ezec.* iv. 16; v. 16; a xiv. 13. *Ffon gorsen ddrylliedig* oedd yr Aipht i Israel, yn ddiwerth a niweidiol i bwyso arni; trwy yr hyn y dangosir ofered oedd iddynt hyderu ar yr Aipht am ymwared, yn lle ymddiried yn yr Arglwydd eu Duw: 2 *Bren.* xviii. 21; *Esa.* xxxvi. 6. Yr oedd yr Arglwydd yn defnyddio yr Assyriaid a'r Babiloniaid fel *ffon* yn ei law i geryddu ei bobl, a chospi y teyrnasoedd o'u hamgylch: *Esa.* x. 5, 15; a xiv. 5. "Ffon ei ysgwydd" sydd yn arwyddo iau gorthrymder a chaethiwed; a "dryllio" hono a arwydda dinystr y gorthrymwr a gwaredigaeth y gorthrymedig: *Esa.* ix. 4; *Ier.* xlviii. 17. *Ffon bugail;* bugeilffon, arferedig gan fugeiliaid i arwain, dal, ac amddiffyn eu praidd: *Salm* xxiii. 4; *Zech.* xi. 7, &c. Oddi wrth hyn y mae ffyn swyddol yn arwydd o awdurdod, gofal, ac amddiffyniad, megys berllysg neu ffon a ddygir o flaen brenin, esgob, neu ryw uchel swyddog arall. Dywed Taliesin:—

"Gwae offeiriad byd,
Ni angreifftia gwyd,
Ni phregetha;
Ni warcheidw ei gail,
Ac ef yn fugail,
Nis areilia;
Ni ddiffer ei ddefaid,
Rhag bleiddiau Rhufeiniaid,
A'i *ffon glopa.*"*

*Ffon dafl* oedd offeryn i daflu ceryg—y fath a ddefnyddiodd Dafydd i ladd Goliath: 1 *Sam.* xvii. 40—50; a xxv. 29. *Ffon waew* neu *waewffon* sydd arf rhyfel—picell i drywanu gelyn: 2 *Sam.* xxiii. 21; *Hab.* iii. 14. Oddi wrth hyn y gelwir milwyr yn "ffynwewyr;" *Act.* xxiii. 23. Yr oedd y rhai a ddaliasant ein Hiachawdwr yn dwyn "cleddyfau a ffyn"—arfau ymosodol; ond nid oedd achos am danynt, gan ei fod ef yn barod ac ewyllysgar i roddi ei hun i fyny: *Mat.* xxvi. 47, 55. Pan yn anfon ei apostolion allan i bregethu, gwaharddodd ein Harglwydd iddynt gymmeryd ffon neu ffyn, yn ol Luc; ond llawffon yn unig, yn ol Marc: wrth yr hyn y meddylir nad oeddynt i ymlwytho â phethau afreidiol, ond myned allan i'w teithiau fel ag yr oeddynt, gan ymddiried i ragluniaeth Duw am amddiffyniad a chynnaliaeth, ac am gymhorth yn eu gwaith: *Mat.* x. 10; *Marc* vi. 8; *Luc* ix. 3. "Iacob...., a addolodd â'i bwys ar ben ei ffon;" wedi iddo, wrth farw, fendithio meibion Ioseph. Yr oedd yr hen batriarch, yn yr amgylchiad difrifol, yn ymgynnal ar ei ffon, ac yn addoli Duw ei iachawdwriaeth mewn agwedd dawel a dymunol o ran ei ysbryd pan yn wynebu glyn marwolaeth: *Heb.* xi. 21. Arswydus yw ysgelerder Eglwys Rhufain yn ei gwaith yn gŵyrdroi yr ysgrythyr hon i gefnogi eilunaddoliaeth, drwy ei chamgyfieithu, gan adael allan y rhagddod *ar,* a darllen, "a addolodd ben ei ffon." Felly y mae yn y cyfieithiad Lladin, a elwir y *Vulgate*—yr unig

* *Myf. Arch.,* td. 78. arg. T. Gee, Dinbych.

Digitized by Google

gyfleithiad awdurdodedig yn yr Eglwys Babaidd; a rhaid y gŵyr ei dysgedigion ei fod yn gyfleithiad anghywir ac anonest.

FFONOD, IAU [*ffon*]: ffonawd, ergyd â ffon; ffonodio ydyw curo â ffon, pastynu. "A gurir â llawer o ffonodiau;" *Luc* xii. 47, 48. Cospedigaeth Rufeinaidd oedd ffonodio; yr un, tebygol, a "churo â gwiail," yn *Act.* xvi. 22. Fflangellu oedd y gosp Iuddewig; ac yr oedd y gyfraith yn gwahardd rhoddi dros ddeugain gwialenod i neb, yr hyn sydd brawf o dynerwch, hyd yn oed yn ngweinyddiad cosp. Gellid rhoddi llai, ond nid mwy: *Deut.* xxv. 2, 3. Ond yr oedd y gospedigaeth Rufeinig yn drom a thost, ac nid oedd wedi ei chyfyngu o fewn unrhyw nifer o ffonodiau; gallai fod yn ychydig neu lawer yn ol drygedd y bai. Fe allai mai at hyn y cyfeirir yn y ddammeg wrth y geiriau *ychydig* a *llawer*. Mae troseddu mewn anwybod yn haeddu cosp; ond y mae troseddu yn ymwybodol, ac yn erbyn gwybodaeth, yn haeddu cospedigaeth lawer trymach, yn gymmaint a bod y bai yn llawer iawn mwy ysgeler.

FFORDD, FFYRDD. Yr oedd rhyw lwybrau penodol yn cael eu dilyn er yn foreu yn y dwyrain, lle y teithir gan mwyaf ar gefn rhyw ysgrubliaid; ac yr oedd masnach a theithio yn cael ei ddwyn yn mlaen er yr oesoedd boreuaf braidd, yn finteioedd, mewn cludfeni (*caravans*), dan fath o ddysgyblaeth, er cyd-amddiffyniad wrth fyned o'r naill ddinas i'r llall, ac o'r naill wlad i wlad arall. Yn awr, pa ffordd bynag yr elai mintai o'r fath o ddynion, anifeiliaid, a cherbydau, byddent yn ffurfio math o lwybr, yr hwn, o herwydd fod mor hawdd i deithwyr golli y ffordd yn y gwledydd hyny, a ddilynid yn naturiol gan finteioedd cyffelyb a fyddent wedi hyny yn myned i'r un cyfeiriad. Ymddengys mai yn y dull syml yma y ffurfiwyd ffyrdd gyntaf ar hyd gwyneb y ddaiar, y rhai a weinyddent fel math o rwymau rhwng dinas a dinas, a rhwng gwlad a gwlad. Yr oedd y ffyrdd boreuaf hyn, gan mwyaf, yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin—y llinell ar hyd yr hon y rhedai masnach a gwareiddiad gyntaf ar y ddaiar; ac ar hyd yr hon y parha y bendithion hyny i redeg hyd yn awr, ac y parhant, yn ol barn llawer o athronyddion craffus, i redeg hyd ddiwedd amser, ar hyd yr hon hefyd y rhed yr haul.

Pa fodd bynag, ymddengys mai rhyfel a fu yn achlysur gyntaf i wneuthur ffyrdd celfyddydol. Mae yn eithaf hysbys mai rhyfel a barodd i'r Rhufeiniaid wneyd eu ffyrdd; a diammheu iddynt eu canfod, nid yn unig yn fanteisiol i rwyddhau eu buddugoliaethau, ond i gadw y tiroedd a orchfygasant; ac y mae y gweddillion o'u ffyrdd a ganfyddir yn awr yn Mhrydain, yn dangos mor gelfydd yr oeddynt wedi eu cynllunio, ac mor gyfleus oeddynt fel llinellau i drosglwyddo newyddion o'r naill orsaf i'r llall. I'r Rhufeiniaid hefyd yr oedd Palestina yn ddyledus, gan mwyaf, am ffyrdd cyffelyb.

Mae yn wir yr ymddengys fod rhyw fath o ffyrdd yn Palestina yn llawer boreuach. Defnyddir iaith weithiau sydd yn arwyddo fod ganddynt ryw fath o ffyrdd celfyddydol. Yn *Esa.* xl. 3, 4, dywedir:—"Parotowch ffordd yr Arglwydd, unionwch lwybr i'n Duw ni yn y diffeithwch. Pob pant a gyfodir, a phob mynydd a bryn a ostyngir: y gŵyr a wneir yn uniawn, a'r anwastad yn wastadedd." Nis gellir rhoddi dysgrifiad mwy nodedig o ganlyniadau ffordd hir a phwysig. Nid yw ei bod yn iaith brophwydol ac ysbrydoledig yn un gwrthwynebiad iddi, ond yn hytrach yn cadarnhau ein golygiad ar y pwnc; canys y mae prydyddiaeth, megys appeliad at deimladau oedd yn dra chyffredin, wedi ei seilio yn y fath amgylchiad ar ffaith; canys nis gallasai y fath ddychymyg ag a ganfyddir yma gael ei ddefnyddio pe buasai ffyrdd celfyddydol yn anadnabyddus yn Palestina. Ac nid dychymyg anghyffredin ydyw (cymh. *Esa.* xi. 16; xix. 23; xxxiii. 8; xxxv. 8; xlix. 11; lxii. 10). Yn 1 *Sam.* vi. 12, yr ydym yn darllen:—"A'r buchod a aethant ar hyd y ffordd uniawn i ffordd Bethsemes; ar hyd y brif-ffordd yr aethant, dan gerdded a brefu, ac ni throisant tua'r llaw ddeheu na thua'r aswy. Yn *Num.* xx. 17, dywedir:—"Prif-ffordd y brenin a gerddwn," &c. (*Num.* xxi. 22; *Deut.* ii. 17; *Lef.* xxvi. 22). Y mae yn amlwg fod y rhai hyn yn ffyrdd, yn ol ystyr diweddar y gair, wrth y gyfraith gyda golwg ar ffyrdd rhydd, agored, a da i'r dinasoedd noddfa [gwel Dinasoedd Noddfa, a *Deut.* xix. 3, cymh. â *Mishna, tit. Maccoth*]; a bod yr Israeliaid yn gynnefin eisoes â'r syniad: "Parotoa i ti ffordd," &c. "fel y byddo i bob llofrudd ffoi yno." Y mae yn amlwg gan hyny, wrth yr ymadroddion y cyfeiriwyd atynt, a rhai cyffelyb, er fod Winer yn meddwl yn wahanol, fod yr Hebreaid i ryw raddau o leiaf, yn adnabyddus o ffyrdd celfyddydol er pan yr ymsefydlasant gyntaf yn Ngwlad Canaan. Yn wir, y mae yn dra thebyg fod yr Hebreaid wedi dyfod yn gydnabyddus â ffyrdd yn ystod eu harosiad yn yr Aipht, lle yr oedd natur y wlad, yn enwedig yn y Delta, yn gofyn gwneyd ffyrdd cyffredin, a phrif-ffyrdd, a'u cadw mewn cywair da. Dywed Josephus [*Antiq.*, viii. 7, 4] yn bendant:—"Nid oedd Solomon yn esgeuluso gofalu am y ffyrdd: gwnaeth efe sarn o geryg duon (*basalt*) ar hyd y ffyrdd oedd yn arwain i Ierusalem, er mwyn diogelu y teithwyr, yn gystal ag er mwyn dangos ei gyfoeth." Dywed Winer, mae yn wir, nad yw y Beibl yn cadarnhau haeriad Josephus gyda golwg ar ffyrdd; ond er nad yw y ffyrdd penodol hyn yn cael eu crybwyll, nid ydyw hyny yn profi nad oeddynt mewn bod; canys y mae yr Ysgrythyrau, fel y gwelsom, yn crybwyll am ffyrdd, ac am brif-ffyrdd. Mae yn sicr fod Palestina yn dra dyledus am ei ffyrdd i'r Rhufeiniaid. Yr oedd y Rhufeiniaid wedi ffurfio ffyrdd yn y dwyrain yn gyffredinol, ac yn Mhalestina yn neillduol. Yr oedd y ffyrdd hyn wedi eu ffurfio o geryg milltiroedd, yn gyffelyb i'r ffyrdd a wnaethant yn Italy. Yr enw a roddai y Groegiaid i'r ceryg hyn oedd *sêmeia, stêloi*, a *ciones*. O blegid eu bod yn Palestina, ceir Eusebius, yn ei *Onomasticon*, yn defnyddio yr enwau *en ectoi semeioi* yn fynych, ac ymadroddion cyffelyb. Yr ydoedd darnau o'r ceryg milltiroedd hyn i'w gweled fyth yn amser Reland.

Y mae Reland [iii. 2] yn rhoddi rhestr o ffyrdd mewnol Palestina; ond byddai yn rhy faith i ni ei ddilyn ef yma, heb law y byddai raid dwyn sylwadau helaeth teithwyr diweddarach i mewn, y rhai a ddengys nad ydyw ei sylwadau ef bob amser yn gywir. Rhaid i ni yma gyfyngu ein sylwadau at y ffyrdd oedd yn cyssylltu Palestina â gwledydd ereill.

Yr oedd y Phoeniciaid, fel marchnadyddion, yn cadw cyssylltiad â'r gorllewin ar hyd y môr, ac â'r dwyrain ar hyd y tir. Yr oedd ganddynt ddwy brif-ffordd fasnachol fawr: un yn dyfod o Arabia Ffelix, trwy Petra, a'r llall yn dyfod o

ben gogleddol pellaf Môrgainc Persia, trwy Palestina, i Tyrus.

Yr oedd y ffordd gyntaf y crybwyllwn ni am dani yma, yn rhedeg o Ptolemais, ar hyd goror Môr y Canoldir, i Damascus. Mae y ffordd hon yn aros hyd heddyw. Yr oedd hon yn dechreu yn Ptolemais (Acco), yn rhedeg tua'r de ddwyrain i Nazareth, a chan barhau yn yr un cyfeiriad, heibio i ddyffryn Esdraelon o du y gogledd; ac wedi troi tua'r gogledd-ddwyrain, deuai i Tiberias, lle y rhedai ar hyd Môr Galilea nes cyrhaedd Capernaum; ac wedi pasio yr Iorddonen, braidd uwch law iddi, äi dros sawdl yr Anti-Libanus (Jebel Heish); a chan gadw ar ei hunion yn mlaen tua'r dwyrain-ogledd, deuai i Damascus. Yr oedd y ffordd hon yn cael ei defnyddio at amcanion masnachol a rhyfelgar. Yn hanes y Croesgadwyr (*Crusaders*), y mae yn cael ei galw yn *Via Maris*. Yr oedd yn cyssylltu Ewrop â chanolbarth Asia. Byddai byddinoedd yn dyfod o Asia dros yr Euphrates ar hyd y ffordd hon i ganol Palestina. Yr oedd y ffordd yma yn ffynonell o elw mawr i'r Rhufeiniaid. Ar y ffordd hon, heb fod yn mhell o Capernaum, y gwelodd yr Iesu Matthew yn "eistedd wrth y dollfa," pan y galwodd ef i fod yn apostol.

Yr oedd ffordd arall yn myned ar hyd goror ddeheuol Môr y Canoldir, i'r Aipht. Yr oedd hon hefyd yn dechreu yn Ptolemais, yn rhedeg yn gyntaf i Cesarea, oddi yno i Dioscopolis, ac yn mlaen trwy Ascalon a Gaza, i lawr i'r Aipht. Yr oedd hon hefyd yn llinell cymmundeb pwysig iawn, gan ei bod yn myned trwy y dinasoedd enwocaf, ac yn rhedeg ar hyd y goror i'r Aipht. Os edrychir ar y map, gwelir ar unwaith pa mor bwysig oedd i fasnach ar y tir a'r môr, yn gystal ag fel trosglwyddfa byddinoedd. Yr oedd cangen o'r ffordd yma yn cyssylltu y môr â'r brif-ddinas, gan ei bod yn rhedeg o Cesarea, trwy Diospolis, i Ierusalem. I lawr ar hyd y gangen yma yr anfonwyd Paul at Ffelix: *Act.* xxiii. 23—33. Yr oedd y fintai yn myned trwy Antipatris, ac oddi yno i Cesarea.

Yr oedd trydedd linell o ffordd yn cyssylltu Galilea âg Iudea, yn rhedeg trwy Samaria, oedd rhwng y ddau le: *Luc* xvii. 11; *Ioan* iv. 4; [*Joseph. Antiq.*, xx. 6, 1; *Vita*, adr. 52]. Yr oedd hon yn daith tridiau. Yr oedd yn myned ar hyd dyffryn Esdraelon, ac yn myned i Samaria yn Ginea (Jenin), ac oddi yno i Samaria (Sebaste), yna i Shechem (Nablous), o'r lle yr oedd taith diwrnod helaeth i Ierusalem.

Yr oedd ffordd hefyd, yn amser y Rhufeiniaid, yn myned o Ierusalem i Lyn Gennesareth, trwy Shechem a Scythopolis. Yr oedd cangen hefyd yn myned allan o'r un ffordd yn Scythopolis, tua'r dwyrain trwy Esdraelon i Cesarea; a changen arall ar draws yr Iorddonen i Gadara, ac yn mlaen i Damascus; ac y maeffordd fyth ar hyd yr un llinell o'r wlad, ar y tu deheu o Fôr Galilea, i'r un ddinas enwog.

Yr oedd tair o brif-ffyrdd yn rhedeg o Ierusalem. Yr oedd un yn myned i'r gogledd-ddwyrain dros Fynydd yr Olewydd, heibio i Bethania, trwy agen yn y bryniau, gan droelli ei ffordd yn mlaen i Iericho—yn agos i'r hon yr oedd yr Iorddonen yn pasio, lle y byddai teithwyr yn cymmeryd eu ffordd tua'r gogledd, os ewyllysient fyned trwy Peræa. Hon oedd y ffordd a gymmerid yn gyffredin gan Iuddewon Galilea, wrth fyned a dychwelyd o'r gwyliau yn Ierusalem; trwy yr hyn y gochelent fyned trwy diriogaeth y Samariaid anghyfeillgar; neu, byddai teithwyr yn troi tua'r deheu os bwriadent fyned tua'r Môr Marw. Y ffordd yma a gymmerwyd gan yr Israeliaid pan y cyfeiriasant eu ffordd tua Chanaan. Trwy Peræa y daeth byddinoedd y Syriaid a'r Assyriaid i ymosod ar Israel: 2 *Bren.* viii. 28; ix. 14; x. 32. &c.; 1 *Cron.* v. 26.

Y mae ffordd arall yn arwain o Ierusalem tua'r deheu i Hebron, o'r lle yr äi teithwyr trwy ddiffeithwch Iudea i Aila, fel y dengys adfeilion hen ffordd Rufeinaidd hyd heddyw; neu, gallent gymmeryd cyfeiriad gorllewinol yn mlaen i Gaza—ffordd sydd yn cael ei theithio fyth, yr hon sydd daith deuddydd. Ymddengys mai y ffordd gyffredin o Ierusalem i Gaza yn amser y Rhufeiniaid, oedd yr un a arweiniai trwy Eleutheropolis ac Ascalon. O Gaza, trwy Rhinocorura a Pelusium oedd y ffordd nesaf i lawr i'r Aipht o Ierusalem [*Joseph. Antiq.*, xiv. 14, 2]. Gwnaed miloedd yn garcharorion ar hyd y ffordd hon gan Vespasian pan y gorchfygodd Ierusalem, y rhai a yrid i Alexandria er mwyn eu gyru mewn llongau i Rufain. Yr oedd un o'r ddwy ffordd yma yn myned o Ierusalem i Gaza tua'r gorllewin trwy Ramlah ac Ascalon; a'r llall yn myned tua'r deheu trwy Hebron. Tybia Raumer [*Paläst.*, td. 191] mai y ffordd olaf yma a gymmerwyd gan Phylip (*Act.* viii. 26, &c.); a hyny, mewn rhan, am fod traddodiad yn mynegi mai yn nghymmydogaeth Hebron y bedyddiwyd yr eunuch: ac y mae y ffordd yma o Ierusalem i Hebron yn rhedeg, yn ol yr *Onomasticon*, trwy "ddiffeithwch" Tecoa (Thecua). Ac yma y cenfydd efe reswm dros orchymyn yr angel iddo fyned "tua'r deheu;" canys i'r deheu o Ierusalem yr oedd Hebron yn sefyll: tra y gallasai Phylip, oddigerth iddo gael y gorchymyn yma, fyned tua'r gorllewin trwy Ramlah. Y mae Robinson [ii. 640; i. 320], er caniatau fod ffordd o Ierusalem i Hebron, yn dal allan ddarfod i Phylip gymmeryd trydedd ffordd, yr hon oedd yn arwain ar hyd y Wady Musurr i Betogabra (Eleutheropolis), ac yn tybied y canfyddir y llanerch lle y bedyddiwyd yr eunuch yn *Tell el-Hasy*. Ond, meddai Raumer [*Beiträge*, td. 41], yr oedd y ffordd yma yn rhedeg mewn cyfeiriad de-orllewin, ond gorchymynwyd i Phylip fyned tua'r deheu; a thuag at wneyd hyny, yr oedd yn rhaid iddo fyned trwy Hebron. Er mwyn cadarnhau ei syniad cyntefig, dywed Raumer y tystiolaetha Jerome, yn ei hanes o fywyd Paula, fod ffordd yn myned o Ierusalem i Gaza trwy Hebron. Teithiodd Paula o Ierusalem i Bethlehem, yr hon a saif tua'r deheu o'r ddinas: "Pan y cyrhaeddodd Bethlehem, cymhellodd ei march i gyflymu, a chymmerodd yr hen ffordd sydd yn arwain i Gaza." Yr oedd y ffordd yma yn arwain i Bethsur (ychydig i'r gogledd o Hebron), "lle," meddai Jerome, "tra yn darllen yr Ysgrythyrau, y cafodd yr eunuch ffynnon yr efengyl." "Hon," medd Raumer, "ydyw yr un Bethsur, am yr hon y dywed Jerome yn ei *Onomasticon*, 'Fel yr eloch o Aelia i Hebron, wrth yr ugeinfed gareg filldir, chwi a gyfarfyddwch â Bethsoron; yn agos i'r hon, wrth odre mynydd, y mae ffynnon yn tarddu o'r ddaiar. Dywed Actau yr Apostolion mai yn hono y bedyddiwyd ystafellydd y Frenines Candace, gan Phylip.' O Bethsur aeth Paula yn mlaen i Hebron. Mae yr *Itinerarium Hierosolymitanum* (am y flwyddyn 333) yn crybwyll Bethsur fel y lle y gweinyddwyd y bedydd." Terfyna Raumer trwy sylwi:—"Y mae Robinson yn gywir yn gwrthod traddodiad pan yn wrthwyneb i'r Ysgrythyrau Sanctaidd; ond rhaid iddo hefyd

Digitized by Google

wrthod y ffug dybiau gwyddorol sydd yn gwrthwynebu yr ysgrifeniadau dwyfol. Gall y fath dybiau yn hawdd ddyfod yn sail i chwedlau gwyddorol. Y mae gosod lle bedyddiad yr ystafellydd (yr eunuch) yn *Tell el-Hasy* yn gwrthddywedyd yr Ysgrythyrau; ond y mae Bethsur, yr hwn a gyfrifir fel y lle hwnw er y dyddiau boreuaf, yn cytuno â'r ymadrodd yn Actau yr Apostolion."

Yn awr, rhaid dywedyd gair am yr hon a ystyria Winer fel y drydedd o'r tair prif-ffordd oedd yn myned o Ierusalem. Yr oedd y drydedd ffordd hon yn myned at Fôr y Canoldir yn Iappa (Jaffa)—ffordd a gymmerwyd er amser y Croesgadwyr gan bererinion a fyddent yn myned i'r Ddinas Sanctaidd o'r Aipht ac o Ewrop.

Ceir llawer o sylwadau chwanegol ar y pwnc yma yn *De Wette, Archäologie; Scholz, Archäologie; Heeren, Ideen; Ritter, Erdkunde; Crome, Palästina; Burckhardt, Syria;* heb law y gweithiau y cyfeiriwyd atynt yn nghorff yr erthygl hon.

Gyda golwg ar ffyrdd Prydain, ac Ewrop hefyd yn wir, mae yn ddiammheu mai i'r Rhufeiniaid y mae y cenedloedd hyn, cystal a thrigolion y dwyrain, yn ddyledus am eu syniadau cyntaf yn nghylch ffyrdd rheolaidd. Fe ddywedir mai y Carthaginiaid oedd y rhai cyntaf i ddyfeisio y cynllun o balmantu ffyrdd â cheryg; ond y Rhufeiniaid yn ddiammheu a ddygasant y cynllun yn mlaen i fwyaf o berffeithrwydd ac arferiad cyffredinol; o'r rhai yr oedd miloedd o filldiroedd wedi eu gwneuthur yn Italy yn unig, heb son am yr holl wledydd ereill a ddygwyd dan eu llywodraeth, y rhai oedd yn frithion o'u ffyrdd godidog; y rhai a wneid gan mwyaf mewn gwledydd estronol, i ddybenion rhyfelgar; er y daethant wedi hyny yn dra manteisiol i'r trigolion eu hunain. Yr oedd y ffyrdd Rhufeinaidd milwrol hyn yn cael eu gwneuthur yn gyffredin yn llinellau uniawn o'r naill orsaf i'r llall, heb sylwi ond ychydig ar yr anhawsderau naturiol a ddygwyddent fod ar eu ffordd, y rhai a symmudid yn fynych trwy gyfrwng gweithiau eang, cafniadau dyfnion yn y tir, pontydd, a ffyrdd dan y ddaiar weithiau, lled hirion, trwy fryniau a mynyddoedd. Yr oedd eu ffyrdd yn cyfateb hefyd, o ran cadernid hynod eu gwneuthuriad, i hyfder a gallu y genedl alluog oedd yn eu ffurfio; fel y prawf y ffaith fod esamplau o rai o honynt wedi dal i'w teithio yn barhaus am yn agos i ddwy fil o flyneddoedd heb fod nemawr waeth. Yr oedd y cynllunwyr Rhufeinaidd yn dra gofalus am gael gwaelod da i'w ffyrdd yn wastad; a phan fyddai yn angenrheidiol, byddent yn curo y ddaiar yn dda â cheryg bychain, neu â darnau o briddfeini, a'r cyffelyb. Wedi parotoi y sylfaen fel hyn yn ddyladwy, byddent yn palmantu y ffordd â cheryg mawrion, gan eu gludio yn nghyd yn gadarn: byddai y ceryg weithiau yn bedeirongl, ond yn fwyaf mynych o ddull afreolaidd, y rhai er hyny a gydgyfaddasid i'w gilydd yn ofalus. Cadarnheir yr hanes am eu cadernid gan deithiwr diweddar, yr hwn a ddywed fod gwaelod un o honynt, sydd fyth yn cael ei theithio, wedi ei olchi ymaith yn llwyr gan lifddwfr; ond nad yw y gwyneb, neu y palmant, yn ddim gwaeth, fel y gall dyn gropian o dan y ffordd o'r naill ochr i'r llall, a bod cerbydau yn myned hyd y palmant fel dros bont. Yr oedd y Rhufeiniaid yn gyffredin yn codi eu ffyrdd uwch law gwyneb y tir, ac yn fynych byddai lle i ddau gerbyd fyned wrth ochrau eu gilydd, a llwybr troed, ychydig yn uwch, yn y canol rhyngddynt.

Mewn rhai parthau o Ewrop, yn enwedig yn Italy, dynwaredwyd hen gynllun y Rhufeiniaid o wneyd ffyrdd i gryn raddau, yn enwedig wrth balmantu dinasoedd; ond yn Mhrydain, ychydig iawn a ddilynwyd ar gynllun godidog y Rhufeiniaid, canys yr oedd gwneuthuriad ffyrdd yn dra anmherffaith yma, mewn cymhariaeth, hyd o fewn ychydig flyneddoedd yn ol. Nid oedd llawer o'n prif-ffyrdd presennol ni ond llwybrau, neu, fel y dywedid gynt, "brisg traed" dynion ac anifeiliaid yn unig, wrth fyned o'r naill fan i'r llall; a phenderfynid rhedfa y ffyrdd y pryd hyny, yn llawer mwy gan ddamwain na chan rag-ddarbodaeth am gael ffyrdd da a hylaw. Fel hyn gwneid troadau yn aml yn y ffyrdd er mwyn croesi afon mewn lle y gellid yn hawdd fyned trwyddi, ac elid â'r ffordd yn fynych dros fryn, yn hytrach nag amgylchu ei odre ar dir gwastad er mwyn gochel y drafferth o wneyd ffosydd i sychu y ffordd. Pan ddygwyd gwelliadau yn raddol i mewn yn ngwneuthuriad a chyweiriad ffyrdd, gadawyd y cyfeiriad yn fynych heb ei newid, er mwyn gochel anghyfleusdra a chost ar y pryd i sefydlu rhediad newydd. Nid oes genym ond ychydig iawn o hanes am ein ffyrdd o gwbl, hyd yn ddiweddar; ac y mae hyd yn oed hyny yn arwyddo nad oeddynt yn cael ond ychydig o sylw; ac ar ol i dollbyrth (*turnpikes*) gael eu dwyn i arferiad, ac hyd yn oed mor ddiweddar a dechreu y ganrif bresennol, y mae yn eithaf hysbys fod y rhan fwyaf o ffyrdd y wlad, o ddiffyg gwneuthuriad a chyweiriad cyfaddas, yn ddrwg iawn, ac yn dra anghyfaddas i fasnach.

Cyn pasio cyfraith y tollbyrth gyntaf, yn 1653, fe brofwyd fod y cynllun o wneuthur ac adgyweirio ffyrdd gan blwyfydd yn hollol annigonol er ateb i gynnydd masnach a theithio y deyrnas; er hyny ni ddaeth yr angenrheidrwydd a'r tegwch o gadw y ffyrdd mewn cyflwr cyfaddas o adgyweiriad trwy gyfrwng tollbyrth i arferiad helaeth hyd yn nghylch can mlynedd ar ol pasio cyfraith y tollbyrth. Yn ystod y rhan olaf o'r ganrif ddiweddaf, lluosogodd tollffyrdd yn gyflym; a gwnaed llawer o gynnydd yn nghynllun gwneuthuriad ffyrdd hefyd.

Yn ystod y trigain mlynedd diweddaf, cyfeiriwyd sylw y llywodraeth yn fynych at bwysigrwydd y dosbarth yma o weithiau cyhoeddus; a bu gwneuthuriad Ffyrdd yr Ucheldir a Ffordd Caergybi gan Telford, ac ereill, yn foddion i ddwyn diwygiad mawr i'r gelfyddyd o wneuthur ffyrdd. Gwnaed ffyrdd yr Ucheldir dan olygiad dirprwyaeth yn 1803, a chawsant eu dechreuad yn y ffyrdd milwrol a wnaed mewn canlyniad i wrthryfel 1715 a 1745, y rhai a fuant yn dra buddiol i'r parthau yr arweiniant iddynt. Mae y ffyrdd a wnaed ac a wellhawyd dan gyfarwyddyd a threfniad Dirprwyaeth Ffyrdd yr Ucheldir dros 900 o filldiroedd o hyd, a'r cyfan trwy barth mynyddig; ond y maent oll wedi eu gosod a'u trefnu mor ddeheig, fel nad yw y gelltydd arnynt ond cymmedrol. Y mae y gweithiau a wnaed wrth ffurfio y ffyrdd hyn yn drymion, ac yn cynnwys dros 1100 o bontydd. Dechreuwyd gwellhau Ffordd Caergybi yn 1815; a chafodd Telford a'i gynnorthwywyr galluog gyfleusdra, dan ddirprwyaeth y llywodraeth, i ddwyn i ben gynllun cyfaddas o wneuthur ffyrdd cyfatebol i fasnach eang, ar egwyddorion a ystyrir bron yn berffaith. Er yr ymddengys nad ydyw llawer o'r rhai yr ymddiriedir gwneuthur ac adgyweirio ffyrdd yn deall eto ond ychydig o egwyddorion gwneuthuriad ffyrdd, a'u bod yn dra diffygiol mewn llawer



Digitized by Google

| Talaeth. | Prifddinasoedd. | Mesur. | Poblogaeth. |
|---|---|---|---|
| Côte-d'Or... ... | Dijon | 3,383 ... | 374,510 |
| Côtes-du-Nord ... | St. Brieuc | 2,659 ... | 622,295 |
| Creuse ... ... | Gueret | 2,150 ... | 274,663 |
| Dordogne... ... | Perigueux | 3,546 ... | 480,141 |
| Doubs ... ... | Besancon | 2,018 ... | 291,251 |
| Drome ... ... | Valence | 2,518 ... | 320,417 |
| Eure ... ... | Evreux | 2,300 ... | 377,874 |
| Eure-et-Loir ... | Chartres | 2,268 ... | 282,622 |
| Finistere ... ... | Quimper | 2,595 ... | 462,963 |
| Gard ... ... | Nimes | 2,253 ... | 520,131 |
| Garonne (Haute-) | Agen | 2,429 ... | 479,362 |
| Gers ... ... | Auch | 2,425 ... | 284,717 |
| Gironde ... ... | Bordeaux | 3,761 ... | 705,149 |
| Herault ... | Montpellier | 2,393 ... | 429,878 |
| Ille-et-Vilaine ... | Rennes | 2,597 ... | 589,532 |
| Indre ... | Chateauroux | 2,624 ... | 277,693 |
| Indre-et-Loire ... | Tours | 2,361 ... | 317,027 |
| Isere ... ... | Grenoble | 3,201 ... | 575,784 |
| Jura ... | Lons-le-Saulnier | 1,928 ... | 287,634 |
| Landes ... | Mont-de Marsan | 3,599 ... | 300,528 |
| Loir-et-Cher ... | Blois | 2,542 ... | 268,801 |
| Loire ... | Montbrison | 1,838 ... | 550,611 |
| Loire (Haute-) ... | Le Puy | 1,916 ... | 308,732 |
| Loire-Inferieure ... | Nantes | 2,654 ... | 602,206 |
| Loiret ... ... | Orleans | 2,614 ... | 353,021 |
| Lot.. ... ... | Cahors | 2,012 ... | 281,404 |
| Lot-et-Garonne ... | Agen | 2,067 ... | 319,289 |
| Lozere ... ... | Mende | 1,996 ... | 135,190 |
| Maine-et-Loire ... | Angers | 2,749 ... | 518,471 |
| Manche ... ... | St. Lo | 2,289 ... | 544,776 |
| Marne | Chalons-sur-Marne | 3,159 ... | 386,157 |
| Marne (Haute-) ... | Chaumont | 2,402 ... | 251,196 |
| Mayenne ... ... | Laval | 1,996 ... | 350,637 |
| Meurthe et Moselle | Nancy | 2,025 ... | 365,137 |
| Meuse ... .. | Bar-le-Duc | 2,405 ... | 284,725 |
| Morbihan ... ... | Vannes | 2,625 ... | 490,352 |
| Nièvre ... ... | Nevers | 2,632 ... | 339,917 |
| Nord ... ... | Lille | 2,193 ... | 1,447,764 |
| Oise ... ... | Beauvais | 2,261 ... | 396,804 |
| Orne ... ... | Alencon | 2,354 ... | 398,250 |
| Pas-de-Calais ... | Arras | 2,551 ... | 761,158 |
| Puy-de-Dôme | Cler. Ferrand | 3,070 ... | 566,463 |
| Pyrenees (Basses). | Pau | 2,943 ... | 426,700 |
| Pyrenees (Hautes) | Tarbes | 1,749 ... | 235,156 |
| Pyrenees-Orient. | Perpignan | 1,592 ... | 191,856 |
| Rhône ... ... | Lyon | 1,077 ... | 670,247 |
| Saône (Haute-) ... | Vesoul | 2,062 ... | 303,088 |
| Saône-et-Loire ... | Macon | 3,302 ... | 598,344 |
| Sarthe ... ... | Le Mans | 2,396 ... | 446,603 |
| Savoie ... ... | Chambery | 2,224 ... | 267,958 |
| Savoie (Haute-) ... | Annecy | 1,667 ... | 273,027 |
| Seine ... ... | PARIS | 184 ... | 2,220,060 |
| Seine-Inferieure ... | Rouen | 2,330 ... | 790,022 |
| Seine-et-Marne ... | Melun | 2,215 ... | 341,490 |
| Seine-et-Oise ... | Versailles | 2,164 ... | 580,180 |
| Sevres (Deux-) ... | Niort | 2,317 ... | 331,243 |
| Somme ... ... | Amiens | 2,379 ... | 557,015 |
| Tarn ... ... | Alby | 2,217 ... | 352,718 |
| Tarn-et-Garonne | Montauban | 1,436 ... | 221,610 |
| Var.. ... | Draguignan | 2,349 ... | 293,757 |
| Vaucluse ... .. | Avignon | 1,370 ... | 263,451 |
| Vendee ... | Napoleon Vendee | 2,588 ... | 401,446 |
| Vienne ... ... | Poitiers | 2,691 ... | 320,598 |
| Vienne (Haute-)... | Limoges | 2,130 ... | 322,447 |
| Vosges ... ... | Epinal | 2,266 ... | 392,988 |
| Yonne ... ... | Auxerre | 2,868 ... | 363,608 |
| Cyfanswm ... | | 204,182 | 36,022,921 |

Rhenir y talaethau uchod fel y canlyn, yn saith dosbarth:—sef, 14 yn y gogledd-orllewin; 10 yn y gorllewin; 15 yn y deheu; 7 yn y de-ddwyrain; 11 yn y dwyrain; 9 yn y gogledd-ddwyrain; ac 21 yn y canol-wlad.

Cynnwysa Ffraingc ddeg o drefi gyda phoblogaeth dros 100,000; sef, Paris, Lyons, Marseilles, Bordeaux, Lille, Toulouse, Nantes, St. Etienne, Rouen, a Le Havre. Cyfrifir fod poblogaeth Paris yn 1890 yn 2,500,000. Y mae yn Ffraingc hefyd bedair-ar-bymtheg o drefi sydd â'u poblogaeth rhwng 50,000 a 100,000; a phedair-a-deugain rhwng 20,000 a 50,000. Y mae y trefydd mawr, gan mwyaf, yn ngogledd y wlad.

*Penrhynoedd*—ydynt y rhai canlynol:—Gris-Nez, yn Pas-de-Calais—y pegwn agosaf i Loegr; Barfleur a La Hague, yn Manche; S. Mathieu a Raz Point, yn Finistere—y blaenaf yw y pegwn mwyaf gorllewinol o Ffraingc; a Sicie, yn Var.

*Ynysoedd.*—Ushant, gor. o Finistere; Belle Isle, de. o Morbihan; Noirmoutier ac Ile Dieu, gor. o Vendee; Isle de Re ac Oleron, gor. o Charente Inferieure; Hyeres, de o Var; Corsica, 100 mill. i'r de-ddwyr. o Var—yr hon sydd yn awr yn ffurfio un o dalaethau Ffraingc.

*Morgeingciau, Machwyon, a Chulforoedd* ydynt y rhai canlynol:—Culfor Dover, 20 milldir o led rhwng Pas-de-Calais a Chaint; Morgaingc y Seine; Machwy S. Malo, rhwng Manche a Côtes du Nord; Gironde, rhwng Charente Inferieure a Gironde; Machwy Biscay, rhwng gorllewin Ffraingc a gogledd-orllewin Yspaen; Morgaingc Lions, yn y de-ddwyrain o Ffraingc.

*Arwyneb y wlad.*—Wrth edrych arni yn gyffredinol, gellir dyweyd mai gwastadedd ëang a maith ydyw; ac heb fod fawr o ddim yn rhoi golwg siriol iddi. Y mae yr absennoldeb o goed wedi eu planu er harddu yr olygfa, a'r absennoldeb o wrychoedd hefyd, yn mron drwy'r wlad, yn peri nad ydyw yr olwg yn ddymunol arni.

*Mynyddoedd.*—Y mae y prif gadwyni o fynyddoedd yn gorwedd ar y terfynau yn y de-or. a'r dwyr.; ac yn perthyn, mewn rhan, i'r gyfundrefn Hesperiaidd o fynyddoedd; ond yn benaf i'r gyfundrefn Alpaidd. Gellir eu cynnwys yn y saith dosbarth canlynol:—

*Y Pyrenees:*—rhwng Ffraingc ac Yspaen. Yr uchaf o honynt yw Mynydd Perdu, yn yr Hautes Pyrenees, yr hwn sydd yn 10,994 tr. uwch law arwyneb y môr; a Mynydd Midi, yn Basses Pyrenees, 9,438 tr.

*Yr Alpau:*—rhwng Ffraingc ac Italy, a rhwng pantleoedd yr afonydd Rhone a Po. Y pigyn uchaf o honynt sydd yn perthyn i Ffraingc ydyw Mynydd Blanc, yn Haute Savoie, 15,781 tr., yr hwn ydyw yr uchaf yn Ewrop—os na chynnwysir Mynydd Elburz, yn y Caucasus, yr hwn sydd yn 18,571 tr. o uchder.

*Mynyddoedd Jura:*—rhwng Ffraingc a Switzerland; y rhai sydd yn gwahanu pantleoedd y Doubs a'r Aar. Mynydd Molleson, yn Ain, yw yr uchaf, 6,588 tr.

*Mynyddoedd y Vosges:*—rhwng Lorraine ac Alsace, yn gwahanu y Rhine oddi wrth y Moselle. Ballon de Guebwiller, yn Haut Rhin, yw yr uchaf, 4,690 tr.; Ballon d'Alsace, 4,688 tr.

*Mynyddoedd Cote d'Or:*—yn y dalaeth o'r un enw, yn gwahanu pantleoedd yr afonydd Seine a Loire oddi wrth y Saône. Le Tasselot, 1,968 tr., ydyw yr uchaf.

*Mynyddoedd Cevennes*, yn Languedoc:—yn gwahanu pantleoedd y Rhone a'r Saône oddi wrth bantleoedd y Loire a'r Garonne. Mynydd Mezin, yn Ardeche, 5,794 tr., ydyw yr uchaf.

*Mynyddoedd Auvergne:*—yn gwahanu pantle y Loire oddi wrth bantleoedd y Dordogne a'r Garonne. Mynydd Dor, yn Puy-de-Dôme, ydyw yr uchaf, yn 6,188 tr.

*Afonydd a Phrif Drefydd.*—Y prif afonydd ydynt y Seine, Loire, Garonne, Rhone, a'r Scheldt. Y Seine a lifa mewn cyfeiriad gog. orll. tua'r Sianel Brydeinig; a'r Loire a'r Garonne a lifant mewn cyfeiriad gor., gan ddisgyn

Digitized by Google

i Gefnfor yr Atlantig; tra y mae y Rhone, gyda'r Saône, sydd yn llifo iddi, yn ymdywallt i Fôr y Canoldir. Perthyna y Scheldt, yn benaf, i'r gyfundrefn Belgiaidd o afonydd.

Rhoddir yma enwau y prif drefydd sydd yn gorwedd yn y pantleoedd uchod, neu ar fin y môr.

Ar *Gulfor Dover*—y mae *Dunkerque;* porthladd yn ffurfio amddiffynfa, yr hwn a werthwyd i Ffrainge gan Siarl II. o Loegr. *Calais*, y ddinas agosaf yn Ffrainge i dir Lloegr. *Boulogne*, dinas gaerog fawr, ac ymdrochfa boblogaidd, i'r hon y cyrcha llawer o Loegr yn yr haf.

*Pantle y Seine.*—Dinas fawr, a elwir *Le Havre*, yw porthladd Paris mewn gwirionedd. *Rouen*, gyda phoblogaeth dros 100,000, ydyw y ddinas fwyaf yn ngogledd Ffrainge; ac y mae hi yn hynod am ei gweithfeydd gweu a lliwio. Dywedir fod ei heglwys gadeiriol wedi ei hadeiladu gan William y Concwerwr. *Versailles*, yn yr hon y mae palas brenhinol ardderchog. Dywedir fod y palas yn un o'r rhai harddaf yn y byd. Bu yn breswylfa i frenhinoedd Ffrainge am ysbaid maith o amser. *Paris*, prifddinas Ffrainge, a'r ail ddinas o ran maintioli yn Ewrop, poblogaeth yr hon sydd tua 2,500,000. Hi ydyw y ddinas ardderchocaf ar y Cyfandir. *Fontainebleau*, yn mhalas yr hon yr arwyddodd Napoleon I. ei fod yn rhoi ei swydd fel ymherawdwr i fyny. Reims (pobl. 72,000), yn yr hon y cyfrifir fod prif weithfeydd gwlân y deyrnas. *Troyes*, yn yr hon y dygwyd y pwysau a adnabyddir yn Lloegr fel '*Troy weight*' gyntaf i sylw. *Chartres*, ar yr Eure, yn yr hon y mae eglwys gadeiriol fawr, oedd ar un adeg yn brifddinas y wlad; hyny yw, pan yr adnabyddid hi wrth yr enw Gâl *(Gaul)*, a phan yr oedd hi dan lywodraeth ac yn meddiant y Celtiaid.

*Ar yr Arfordir gogledd-orllewinol.*—*Caen*, lle y mae beddrod William y Concwerwr. *Cherbourg:*—Gelwir hi yn 'Sebastopol Ffrainge;' ac y mae hi yn un o'i phrif sefydliadau morwrol. Y mae hi o fewn golwg o arfordir Lloegr; a dywedir ei bod wedi ei chadarnhau yn ol y cynlluniau goreu. Gellir dyweyd yr un peth am *Brest*—prif orsaf lyngesol Ffrainge, poblogaeth yr hon sydd yn 66,000.

*Ar y Loire.*—*Nantes* (pobl. 118,000), yn yr hon yr arwyddwyd y rheitharch hynod yn ffafr y Protestaniaid a arwyddwyd gan Harri IV., yn 1598. Dinas fasnachol fawr ydyw, yn yr hon yr adeiledir llawer o longau: a chynnwysa lawer o weithfeydd sugr, ac eraill o wahanol natur. *Orleans* (pobl. 49,000), yr hon sydd yn hynod am ei gwaredigaeth oddi tan goron Lloegr, yn y fl. 1428, gan Ioan o Arc; yr hon, o herwydd hyny, a alwyd yn '*Maid of Orleans.*' *Nevers:*—tref hynod am ei gweithfeydd mewn haiarn a dûr. *St. Etienne* (pobl. 111,000); y ddinas fwyaf yn nghanolbarth y wlad, o amgylch yr hon y mae gweithfeydd glô. Gwneir ynddi lawer o ddrylliau, ac arfau rhyfel o bob math, &c.

*Ar yr Arfordir gorllewinol.*—*La Rochelle:*—porthladd ac amddiffynfa gadarn; yr hon sydd yn enwog am y gwarchau a ddaliodd yr Huguenotiaid yn erbyn Louis XIII., yn 1627. *Rochefort:*—un o'r prif orsafoedd llyngesol, a'r drydedd, o ran pwysigrwydd, sydd o fewn y wlad.

*Ar y Garonne.*—*Bordeaux* (pobl. 221,000) yw y ddinas fwyaf yn ngorllewin y wlad; ac y mae hi yn hynod am ei gwin, a elwir *claret*. *Toulouse* (pobl. 140,000) a ystyrir fel prifddinas y deheu mewn llenyddiaeth a'r celfyddydau; ac ynddi y mae y brif weithfa gyflegrau sydd yn Ffrainge. *Montauban*, yn yr hon y mae coleg Protestanaidd.

*Ar y Rhone.*—*Arles:*—yn yr hon y mae tairar-ddeg o gynghorfeydd eglwysig wedi cael eu cynnal. *Avignon:*—tref flodeuog, oedd unwaith yn gartref i'r pabau, ar adeg 'eu caethgludiad Babilonaidd o ddeng mlynedd a thrigain.' *Grenoble* (pobl. 43,000):—dinas gaerog ar yr Isere. *Vienne:*—yn nghymmydogaeth yr hon y mae mwngloddiau plwm ac arian. *Lyon* (p. 377,000) ydyw yr ail ddinas yn Ffrainge, a'r benaf o gwbl yn ei gweithfeydd sidan. Dywedir fod cynnifer a 100,000 o bersonau yn cael gwaith yno ynglŷn â'r gweithfeydd hyn yn unig.

*Ar yr Arfordir de-ddwyreiniol*; ceir *Marseille* (pobl. 360,000)—y ddinas hynaf, a'r porthladd mwyaf yn Ffrainge. Y mae ynddi lawer o weithfeydd; ac y mae ei masnach yn dwyn cyssylltiad â holl ranau y byd. *Toulon* (pobl. 69,000) ydyw prif longarthfa (*dockyard*) Ffrainge; a dywedir fod cynnifer a 6,000 o ddwylaw yn cael gwaith parhaus ynddi. *Nice* (pobl. 52,000), i'r hon, gyda Cannes a Mentône, y mae llawer o gleifion o Loegr, ac o fanau eraill, yn myned yn y gauafau am adferiad iechyd.

*Ar y Scheldt.*—*Valenciennes:*—tref gaerog ar derfynau Belgium, yr hon sydd yn enwog am ei rhwydwaith (*lace*). *Cambrai:*—yr hon sydd yn enwog er's canrifoedd am ei *cambrics*. *Lille* (pobl. 158,000):—dinas gaerog gadarn; ac un o'r prif drefydd yn mha rai y gweithir cotwm, llian, a defnyddiau mewn olew.

*Hinsawdd.*—Nid oes unrhyw wlad arall yn Ewrop lle y mae ei hinsawdd yn rhagori ar hinsawdd Ffrainge; er fod cryn lawer o wahaniaeth yn ei hinsawdd yn y naill fan ragor y llall. Er esampl, ar hyd arfordir y Sianel Brydeinig, ymdebyga i hinsawdd rhanau deheuol Lloegr. Yn nhalaethau y canolbarth, y mae ei hinsawdd yn dra dymunol; er ei bod yn agored i ystormydd o wynt a chenllysg. Yn y deheu, ar derfyn Môr y Canoldir, y mae y gwinwydd, yr olewydd, yr eurafalau, pomgranadau, ffigys, a'r pryf sidan, yn llwyddo. Ceir ynddi fforestydd eang. Y mae gwinwydd yn tyfu ar tua'r ugeinfed ran o'r holl wlad; ac addefir mai y Ffrangcod ydyw y gwneuthurwyr gwin goreu o fewn y byd. Gwnaethant 628,000,000 o alwyni yn 1885.

*Amaethyddiaeth.*—Tyfir digonedd o ŷd yn y wlad i gyfarfod âg angenrheidiau y boblogaeth. Ond nid ydyw y tir yn cael ei amaethu gyda nemawr o allu drwy y wlad, gan mai ychydig o sylw a roddir i'r angenrheidrwydd am newidiad cnydau. Gwael ydyw offerynau amaethyddol y Ffrangcod hefyd. Tyfir gwenith yn benaf yn y gogledd, ŷd India yn y de a'r dwyrain, a rhug drwy'r holl wlad. Ond gwenith a gwinwydd ydyw yr hyn a dyfir yno fwyaf. Ystyrir fod gwerth blynyddol y cynnyrch fel y canlyn:—

| | | |
|---|---|---|
| Cnydau o ŷd | ... | *P.*161,000,000 |
| Cnydau eraill | ... | ... 164,000,000 |
| Gwartheg, ac anifeiliaid eraill | ... | 110,000,000 |
| Y coed a dyfir | ... | ... 9,000,000 |
| Yn gwneyd cyfanswm o | | *P.*444,000,000 |

Cyfrifir fod hyn tua 25*p.* 2*s.* 0*c.* ar gyfer bob pen sydd yn preswylio y rhanau amaethyddol o'r wlad; yr hyn sydd yn uwch nag a geir mewn un wlad arall yn Ewrop, nac mewn un rhan arall o'r byd—gyda'r eithriad o Awstralia; cyfartaledd gwerth cynnyrch amaethyddol yr hon sydd yn cyrhaedd mor uchel a 37*p.* 9*s.* 0*c.* y pen.

Digitized by Google

Y mae y llysiau gwahanol sydd yn naturiol i'r wlad—hanner pa rai sydd yn blodeuo—yn rhifo tua saith mil o rywogaethau.

*Mŵnau.*—Codir llawer o honynt yn Ffraingc—yn enwedig glô, yn y talaethau gogleddol a chanolbarthol; a cheir haiarn drwy'r holl wlad. Ond y mae un ffaith bwysig ynglŷn â'r glô a'r haiarn—nad ydynt i'w cael, fel rheol, mewn gwelyau gyda'u gilydd, fel y ceir hwynt yn Mhrydain; ac nid ydyw y glô a godir yno o lawer cystal a'r hyn a geir yn y wlad hon. Y mae mwngloddiau mawr o halen yn mynydd-oedd y Vosges a'r Jura; a cheir symiau mawr o hono oddi ar y morfeydd hallt sydd ar gyffiniau Machwy Biscay, a Morgaingc Lions, oddi ar ba rai y mae'r dwfr yn codi yn darth, gan adael yr halen ar ol.

*Anifeiliaid.*—Yn mysg yr anifeiliaid pedwar troediog gwylltion, fe geir y blaidd a'r baedd gwyllt yn y coedwigoedd mawr; yr arthes ddu a llwyd yn y Pyrenees; y lynces yn yr Alpau; a'r afr wyllt (*chamois*) yn yr Alpau a'r Pyrenees. Ceir y *marmot*, *ermine*, *hamster*, ac amryw rywogaethau o'r wiwer yn y Vosges; y llostlydan (*beaver*) ar geulenydd y Rhone; y dyfrgi a llygoden y dwfr yn yr holl afonydd, yn mron; a cheir ysgyfarnogod, cwningod, llwynogod, ceirw, ac iyrchod (*roebucks*) drwy yr holl wlad. Mae yr adar, gan mwyaf, o'r un rhywogaethau ag a geir yn Lloegr. Yr ymlusgiaid a gynnwysant amryw rywogaethau o lyffaint, ac ychydig o grwbanod (*tortoises*), ac amryw seirph.

*Trigolion y wlad.*—Gorchfygwyd hi gan y Rhufeiniaid rhwng y blynyddoedd 122 a 50 c.c. Cyn hyny, gyda'r eithriad o'r rhan o honi a adwaenid wrth yr enw Aquitania, preswylid hi gan genhedloedd wedi tarddu o'r cyff Celtaidd. Hen ddosbarth o'r wlad oedd Aquitania, yn cynnwys talaethau Dordogne, Lot, Aveyron, a rhan o Tarn-et-Garonne; a phoblogwyd hi gan y Basquiaid, neu'r Iberiaid. Yr oedd ychydig o ranau o honi ar yr ochr chwith i'r afon Rhine yn cael eu meddiannu gan nifer o Germaniaid. Yn y bummed ganrif, llifodd nifer o wahanol Germaniaid dros y wlad—y rhai a elwid yn *Ffrangcod* (gwŷr rhyddion). Y mae trigolion presennol Ffraingc, gan hyny, yn wreiddiol o darddiad Celtaidd. Ond o herwydd fod y Rhufeiniaid wedi meddiannu y wlad am ysbaid maith, daeth y Lladin i ymgymmysgu, i raddau pell, â'u hiaith; gyda'r eithriad o Lydaw, lle y mae yr elfen Geltaidd yn ymddangos agos yn bur: a'r Basque yn Bearn. Y mae y Ffrangcod yn hynod am eu bywiogrwydd, a'u cariad at wisgoedd, a phob ymddangosiad o wychder. Y maent hefyd yn genedl ddeallus, ac o arferion boneddigaidd, a chwaeth ragorol at yr hyn sydd brydferth. Y mae moesau llawer o honynt yn isel; ac anlladrwydd yn hynod gyffredin yn eu mysg. Yn y brifddinas, er esampl, dywedir fod pob trydedd fam yn ddi-briod, a phob trydydd plentyn â chraith ar ei enedigaeth.

*Iaith.*—Y Geltaeg oedd iaith gyntaf y trigolion; ond cafodd ei chymmysgu, i raddau pell, â'r hen Ladin—iaith y Rhufeiniaid—y rhai a orchfygasant ac a lywodraethasant y wlad am ganrifoedd. Ond y mae y Llydawaeg, tafodiaith o'r cyff Celtaidd, yn parhau i gael ei siarad yn Llydaw. Nis gellir olrhain y Basque, yr hon a siaredir yn nhalaethau y Pyrenees, i un o'r hen deuluoedd o ieithoedd.

*Crefydd.*—Pabyddion ydyw corph mawr trigolion y wlad; ac nid ydyw nifer y Protestaniaid, er eu bod yn cynnyddu yn gyflym, ond ychydig dros ddwy filiwn. Dosberthir hwynt i Lutheriaid a Chalviniaid. Y mae pob sectau crefyddol ar yr un tir a'u gilydd yn wladol; a chan bob sect hawl i rodd o'r drysorfa wladol, os bydd nifer ei haelodau dros gan mil.

*Addysg.*—O'r ysgolion elfenol i'r prif athrofeydd, y mae addysg y deiliaid yn cael ei rheoleiddio gan y llywodraeth. Y mae yr ysgolion elfenol yn ddiffygiol; ac nid ydyw eu dylanwad mor gyffredinol ag y buasai yn ddymunol; ond y mae addysg yn llwyddo yn fwyaf yn y talaethau dwyreiniol, yn mha rai y mae tua naw o bob deg o'r trigolion yn gallu darllen ac ysgrifenu. Y mae addysg uwchraddol—yn yr ysgolion canolraddol, a'r colegau—yn cael ei llywodraethu gan gyfundrefn, a elwir yn 'Brifysgol Ffraingc,' yr hon sydd yn cynnwys y pum cangen canlynol:—addysg, yn ei wahanol gylchoedd, y celfyddydau, y gyfraith, meddyginiaeth, a duwinyddiaeth; ac y mae gan y brifysgol hon sefydliadau dan ei llywodraeth yn Paris, Caen, Toulouse, Dijon, Poictiers, a Rennes. Ond y mae yr Eglwys Babaidd yn cyfranu ei haddysg i'w chlerigwyr yn ei sefydliadau ei hun.

*Llywodraeth.* — Hyd y gwrthryfel mawr a gymmerodd le yn 1789, unbenaeth hollol oedd ffurf y llywodraeth. Ond er hyny, y mae llawer o gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle (fel y gwelir yn y daflen ar ddiwedd yr erthygl hon); y rhai, yn y flwyddyn 1852, a derfynasant yn mhennodiad Napoleon III. yn ymherawdwr. Terfynodd ei lywodraeth ef yn ngorchfygiad hollol ei fyddin yn Sedan. Er y pryd hyny, gweriniaeth ydyw ei ffurf-lywodraeth.

*Y Fyddin*, &c.—Yn 1884, yr oedd y fyddin yn rhifo 439,000. Yn 1889, yr oedd ei nifer yn 556,450 o wŷr dan arfau. Ar adeg o ryfel, gellir codi y milwyr hyd i 2,000,000, gyda 138,301 o feirch, a 3,000 o fagnelau. Yr oedd y llynges yn 1889 yn cynnwys 113 o longau mawr, wedi eu gwisgo â haiarn—gyda 113 o rai eraill, llai; heb law nifer fawr o longau fydd yn gwasanaethu ar y llynges. Ar y llongau hyn, yr oedd 1,795 o swyddogion, a 35,282 o ddynion. Er fod arfau Ffraingc wedi eu coroni â llwyddiant mawr ar lawer adeg, y mae yn debyg y gellir dyweyd mai ychydig o deyrnasoedd sydd wedi bod mor aflwyddiannus, ar y cyfan, ac wedi cael eu gorchfygu yn fwy trwyadl.

*Cyllid y wlad.*—Y mae dyled Ffraingc wedi cyrhaedd swm aruthrol o fawr. Dywedir mai ei dyled hi ydyw y fwyaf a fu ar un wlad o fewn y byd erioed. Ei swm ydyw 1,285,500,000*p.* Y mae hyn agos iawn gymmaint arall a dyled Prydain—yr hon oedd yn 698,430,571*p.* ar y 5ed o Ebrill, 1889. Yr oedd traul flynyddol y wlad am y flwyddyn 1889—90 yn cael ei gyfrif yn 120,478,993*p.* Yr oedd gwerth ei dadforion yn 1887 yn 161,040,000*p.*; a gwerth ei hallforion yn 129,860,000*p.* Derbyniwyd o'r Ynysoedd Prydeinig a'r Trefedigaethau yn y fl. 1888, 24,742,353*p.* Anfonwyd yma, ac i'n Trefedigaethau, yn yr un flwyddyn werth 39,517,865*p.*

Y prif ddefnyddiau a anfonir i'r deyrnas hon oddi yno ydynt ddefnyddiau cotwm, ŵyau, ymenyn, defnyddiau ymborth, awrleisiau ac oriaduron, ŷd o bob math, blodau, ffrwythydd gerddi, prydferthion at wasanaeth merched, menyg, lledr, sidan, sugr, gwinoedd, gwirodydd, gwlaneni, a defnyddiau wedi eu gwneyd o wlân. Yr oedd gwerth yr ŵyau a anfonwyd yma yn 1888 yn cyrhaedd swm mor fawr a 1,053,663*p.*

na rhyddhau ei ddeiliaid oddi wrth eu teyrngarwch.

7. Nad oes gan y pab awdurdod i esgymuno swyddogion y brenin am gyflawni eu gwahanol alwadau a'u swyddau.

8. Nad oes gan y pab un hawl, na thrwyddo ei hun na thrwy ei genadon, i gadw cynghaws, i drafod dim o'r rhagorfreintiau a berthynant i goron Ffrainc, ac nad yw y brenin yn rhwym i amddiffyn ei ragorfreintiau ond yn ei lys ei hun.

9. Na chydnabyddir y teyrniarllod a wnaed gan y pab, fel y cyfryw, yn Ffrainc, ac na oddefir iddynt arfer eu breintiau a'u hawdurdod, mwy na'r rhai a wnaed gan yr ymherawdwr.

10. Nad yw gyfreithlawn i'r pab roddi trwyddedau i eglwyswyr, deiliaid y brenin, nac i neb arall a fyddo yn dal bywoliaethau yn nheyrnas Ffrainc, na rhoddi iddynt na theitlau na manteision yn eu gwahanol alwadau, yn groes i un rhan o gyfreithiau y brenin neu arferion y deyrnas, na gwahardd dyledswyddau a manteision y clerigwyr gwaddoledig, na'r mynachod, na'u rhwystro i feddiannu eu hetifeddiaethau, pan y cymmeront urddau eglwysig ac y proffesont grefydd.

11. Nas gall y pab ganiatau i neb ryddid i fwynhau unrhyw etifeddiaeth na chyllid yn Ffrainc, heb gydsyniad y brenin.

12. Nas gall y pab ganiatau trwydded i eglwyswyr drosglwyddo tiroedd eglwys yn Ffrainc, dan unrhyw esgus, heb gydsyniad y brenin.

13. Y gall y brenin gospi ei swyddogion eglwysig am eu camymddygiadau, hyd yn oed er rhagorfreintiau eu swydd.

14. Nad oes gan neb hawl i ddal bywoliaeth eglwysig yn Ffrainc heb fod naill ai yn frodor o'r wlad, neu wedi ei wneyd yn ddinesydd gan y brenin, neu yn meddu breinlen i'r pwrpas.

15. Nad y pab ydyw yr uchaf mewn cynghor gwladol neu gyffredinol.

16. Nad yw yr Eglwys Galaidd yn derbyn, yn ddiwahaniaeth, yr holl ganonau, a holl epistolau deddfwrol y pab; ond yn ymgadw yn benaf at yr hen gasgliad a elwir *Corpus Canonicum* (y Corff Canonaidd), yr hwn a anfonwyd gan y pab Adrian i Charlemagne tua diwedd yr wythfed ganrif, a'r hwn, yn y flwyddyn B.A. 860, dan benogaeth Nicholas I, a ddadganwyd gan esgobion Ffrainc fel yr unig gyfraith eglwysig yr oeddynt hwy yn rhwym i'w chydnabod, gan hòni fod y casgliad yn cynnwys pob peth perthynol i ryddid yr Eglwys Galaidd.

17. Nad oes gan y pab unrhyw awdurdod, mewn ystyr nac amgylchiad, i ymadael â deddf Duw, deddf natur, na deddfau yr hen ganonau.

18. Nad yw gosodiadau yr ystafell neu y llys apostolaidd yn rhwymedig ar yr Eglwys Galaidd, heb iddynt gael eu cadarnhau gan y brenin.

19. Os bydd i archesgobion neu esgobion prifeglwys appelio at y pab, fod ei sancteiddrwydd yn rhwym i brofi yr achos, trwy ddirprwyaeth neu babgenadau, yn yr esgobaeth o ba un y daw yr appeliad.

20. Pan ddymuna Ffrancwr ar y pab roddi bywoliaeth iddo yn Ffrainc, bydd ei sancteiddrwydd yn rhwym o roddi ysgrif caniatâd iddo, wedi ei selio dan awdurdod ei swyddfa; ac os gwrthodir, bydd yn gyfreithlawn i'r person a hòna y fywoliaeth appelio at senedd Paris, a bydd i'r llys hwnw roddi cyfarwyddiadau i esgob y dalaeth roddi sefyllfa iddo, a bydd y sefyllfa hono mor gyfreithlawn a phe derbyniasai ei hawl dan seliau llys Rhufain.

21. Nad yw cyfarwyddiadau oddi wrth y pab, yn gorchymyn i esgob, neu unrhyw gyflwynydd arall, osod person mewn bywoliaeth ar ei mynediad yn wag, yn oddefol yn Ffrainc.

22. Mai trwy oddefiad yn unig y mae gan y pab yr hyn a elwir yn hawl i attal, neu i gyflwyno bywoliaethau a fyddo gan esgob i'w rhoddi.

23. Nad ydyw gyfreithlawn i'r pab ryddhau rhaglaw unrhyw fynachlog, nac unrhyw gorfforaeth eglwysig arall, oddi wrth gyfreithiau eu hesgobaethau penodol eu hunain, er mwyn gwneyd y person a ryddheir felly yn gwbl ddibynol ar yr esgobaeth sanctaidd."

Yr oedd yr hawl-freintiau hyn yn cael eu hystyried yn rhai nas dylid eu troseddu; a byddai breninoedd Ffrainc yn tyngu yn ddifrifol i'w cadw a'u hamddiffyn.

Parhaodd y canonau hyn, a adnabyddid wrth yr enw *Regale* (Braint y Brenin), mewn llawn rym hyd deyrnasiad Francis I., yr hwn a berswadiwyd gan Leo X. i gydsynio i ddirymu y *Pragmatic Sanction*; ac addawai y pab ar yr un pryd roddi mwy o awdurdod i'r brenin mewn pethau crefyddol nag a feddiannai cyn hyny. Am hyny, gwnaeth Francis gytundeb â'r pab, yr hwn a awdurdodai y brenin i enwi swyddogion eglwysig i holl fywoliaethau Ffrainc. Parodd y cynghrair yma rhwng Francis a Leo anfoddlonrwydd dirfawr i bobl a chlerigwyr Ffrainc yn gyffredinol. Pa fodd bynag, felly y parhaodd pethau i fyned yn mlaen hyd deyrnasiad Louis XIV., yr hwn a ddechreuodd ddadl â'r pab Innocent XI., yn 1678, ynghylch y *Regale* hwn Dygwyd y ddadl yn mlaen gyda sarugrwydd mawr ar bob ochr; ond terfynodd Louis hi, fel y terfynodd Charles II. y ddadl a ddygai yntau yn mlaen, trwy wysio cymmanfa o'i glerigwyr ei hun; a thrwy hyny, rhoddodd her i'r pab. Darfu i'r gymmanfa, yr hon oedd yn cynnwys wyth o archesgobion, chwech ar ugain o esgobion, a deunaw ar ugain o wŷr eglwysig, gadarnhau egwyddorion y *Regale* yn unfrydol, gan eu dadgan ar ffurf pedwar o gynnygiadau, y rhai a gofrestrwyd gan senedd Paris ar y 23ain o Fawrth, 1682. Parhaodd y *Regale* mewn grym hyd y chwyldroad yn 1789, pan y diddymwyd yr eglwys yn ffurfiol, ac ymddangosai braidd fod crefydd ei hun wedi ei llwyr ymlid allan o Ffrainc. Pa fodd bynag, fe adferodd Napoleon yr Eglwys Babaidd drachefn. Yn 1801, gwnaeth efe gynghrair â'r pab; a dywedir mai hono oedd y weithred yr edifarhäai fwyaf o'i phlegid o holl weithredoedd ei fywyd. Mewn canlyniad i'r cynghrair yma, cymmerwyd tiroedd yr eglwys, hyd werth pedwar can miliwn o ffranciau, oddi wrthi. Yr oedd y clerigwyr i gael eu happwyntio a'u talu gan y llywodraeth, tra yr oedd y pab i gadw hawl y sefydliad canonaidd. Nid oedd dim mynachod na llwon crefyddol i gael eu goddef. Pan adferwyd y Bourboniaid, diddymodd Pius VII. y cynghrair. Yn 1815, gwnaed yr Eglwys Galaidd yn fwy dibynol ar Rufain nag y bu erioed cyn hyny. Parhaodd dylanwad yr eglwys, yr hwn a wanychwyd gan chwyldroad 1830, yn yr un sefyllfa ddiymadferth yn ystod teyrnasiad Louis Philippe, a lleihaodd drachefn er chwyldroad 1848. Wedi hyny, ymddengys mai dylanwad y blaid uchel-Babyddol sydd wedi llynu fwyaf yn Ffrainc; ond y mae amryw arwyddion yn ymddangos yn awr (1863), yn yr ymdrafodaeth rhwng yr Ymherawdwr Napoleon III. a'r pab Pius IX., fod ei dylanwad braidd yn lleihau.

Cyfododd rhai dynion tra enwog yn yr Eglwys Galaidd; yn mysg y rhai y gellir enwi Bossuet,

Fénelon, a Pascal, y rhai a ennillasant iddynt eu hunain enwogrwydd parhaus. O holl bleidiau yr Eglwys Galaidd, fe fernir mai yn mysg yr Jaseniaid yr oedd gwir grefydd yn ffynu fwyaf; y rhai, yn yr amser yr oedd y "*Port Royal*" yn awdurdod lenyddol yn Ewrop, oedd yn dra lluosog a dylanwadol. Gwel JASENIAID. Ond yr oeddynt yn rhy ryddfrydig eu hysbryd i Rufain eu goddef, ac am hyny llethwyd hwy gan hoff ellyll llys Rhufain, sef Cymdeithas y Jesuitiaid.

II. *Eglwys Brotestanaidd Ffrainc.*—Pan y dechreuodd y Diwygiad yn yr Almaen a Switzerland, daeth llawer o'r rhai a goleddent yr egwyddorion Protestanaidd o'r gwledydd hyny i breswylio i Ffrainc, gan fod Francis I., oedd yn frenin ar y pryd, yn noddwr haelionus i ddysgeidiaeth. Ond nid oedd eu hegwyddorion yn gwbl ddiwrthwynebiad. Fe wnaeth Prifysgol Paris ddadganiad yn erbyn yr athrawiaethau diwygiadol mor foreu ag 1531. Y flwyddyn hono y ffurfiwyd cynnulleidfa Brotestanaidd gyntaf yn Ffrainc, yn Meaux. Yr oedd Bucer a Melanchthon newydd ymweled â'r gymmydogaeth. Yr oedd Briconnet, esgob Meaux, yn un o ddychweledigion Lefevre a Farrel, y pregethwyr diwygiadol cyntaf yn Ffrainc; a llafuriodd yn ddiwyd yn mysg pobl ei esgobaeth, er eu dwyn i gofleidio y syniadau a fabwysiadodd ef ei hun. Cwynodd y clerigwyr wrth y Sorbonne; ac yn 1533, gorchymynodd senedd Paris ar i ymchwiliad gael ei wneyd i'r amgylchiadau. Y canlyniad oedd, i gleddyf erledigaeth gael ei ddadweinio. Dadgyffesodd yr esgob a dirwywyd ef, ond yr oedd llawer o'i ddychweledigion mewn sefyllfaoedd is yn fwy sefydlog nag ef; a dioddefodd amryw o honynt hyd yn oed i gael eu merthyru dros eu hegwyddorion. Parhaodd Marguerite de Valois, brenines Navarre, yr hon, trwy offerynoliaeth yr esgob a ddaethai yn adnabyddus o egwyddorion y Diwygiad, i noddi yr achos yn ei fabandod. Defnyddiodd y wraig ardderchog hon y dylanwad mawr a feddai ar feddwl lled wan ei brawd Francis, o blaid y ffydd newydd. Ymledaenodd y diwygiad yn brysur yn y wlad dros beth amser, ac yr oedd yn ymddangos ar y pryd y buasai Ffrainc yn dyfod yn wlad Brotestanaidd rymus. Ond twyll offeiriadaeth a gafodd y llaw uchaf, er y cyfan. Llwyddodd Tournon, archesgob Lyons, o'r diwedd, i droi Francis yn hollol yn erbyn y Protestaniaid; a bu holl ran olaf teyrnasiad y brenin hwnw yn un yrfa o erledigaeth waedlyd yn erbyn y rhai a elwid yn Huguenotiaid, Lutheriaid, neu "rai o'r grefydd hono." Cyflawnwyd gweithredoedd erchyll o waedlyd trwy yr holl wlad, yn mysg y rhai y mae cyflafanau Merindole a Cabrières yn sefyll yn amlwg hyd y dydd hwn o ran eu hechryslonrwydd. Yr oedd yr holl greulonderau a arferid yn analluog i attal cynnydd yr egwyddorion hyny, oedd wedi eu sylfaenu ar y gwirionedd, rhag ffynu yn y diwedd.

Yn ystod teyrnasiad Francis, fe gyhoeddodd Calvin ei waith enwog, a elwir *The Institutes of the Christian Religion*, gyda chyflwyniad dysgedig i'r brenin. Er i'r llyfr hwn gael ei ysgrifenu yn ystod amser terfysglyd, y mae yn cael ei anrhydeddu fyth fel gwers-lyfr (*text-book*); a chafodd y dylanwad mwyaf buddiol ar achos Protestaniaeth ar y pryd. Bu farw Francis I. yn 1547, a dilynwyd ef gan Harri II., yr hwn a barhaodd i erlid y Protestaniaid. Gorchymynid i'r llysoedd gwladol gospi hereticiaid. Ond er gwaethaf yr holl ymdrechiadau hyn i'w diddymu, parhaodd yr athrawiaethau diwygiadol i gynnyddu; ac yn nghylch yr amser yma cawsant adgyfnerthiad newydd trwy i'r Ysgrythyrau gael eu cyfieithu i'r Ffrancaeg; a throed Salmau Dafydd ar Gân, a chymhwyswyd hwy at donau cerddorol. Daeth y Protestaniaid yn awr i feddu dylanwad pwysig yn y deyrnas. Yr oedd dau o'u harweinwyr yn dywysogion o waed breninol, brenin Navarre a'r Tywysog o Condé, a chyda hwynt yr oedd yr enwog Coligny. Er fod Paris a'r trefydd mwyaf yn parhau yn Babyddol, yr oedd y parthau gwledig wedi eu trwytho yn helaeth gan y syniadau newyddion; ac yr oedd lluaws o foneddigion y wlad yn Brotestaniaid addefedig. Yn ystod y teyrnasiad yma yr ymffurfiodd proffeswyr y grefydd ddiwygiadol gyntaf yn gorfforaeth, ar ol bod yn y wlad am 30 mlynedd heb unrhyw ffurf.

Yn 1555 y sefydlwyd yr Eglwys Ddiwygiadol addefedig gyntaf yn Paris. Dilynodd yr holl brif drefydd ei hesampl. Ymgynnullodd y gymmanfa gyntaf o Eglwys Brotestanaidd Ffrainc yn ddirgel yn Paris ar y 25ain dydd o Fai, 1559. O blegid perygl yr anturiaeth, ni ddanfonodd ond tair ar ddeg yn unig gynnrychiolwyr yno. Er hyny gosodwyd sylfaen adeiladaeth bwysig i lawr y pryd hwnw. Mabwysiadwyd cynllun cyflawn o lywodraeth eglwysig yn ebrwydd. Dywed rhai mai Presbyteraidd oedd y cynllun o ran ei natur; a'i fod yn dra thebyg i drefn Eglwys yr Alban. Yr oedd eu cynllun yn cynnwys pedwar o wahanol lysoedd eglwysig; sef cynghorfa y gweinidogion (*consistory*); cyflafaredd (*colloquy*); cymmanfa daleithiol; a chymmanfa genedlaethol—y rhai y dywed yr Albaniaid eu bod yn cyfateb yn hollol i'w llysoedd eglwysig hwy. Etholid "cynghorfa y gweinidogion" ar y dechreu gan yr holl gynnulleidfa, dros yr hon yr oedd i reoli; ond llenwid y gwagleoedd wedi hyny trwy awdurdod y "gyflafaredd." Etholid y gweinidogion gan y "gyflafaredd." Yr oedd y gweinidog, wedi ei ddewis fel hyn, i bregethu i'r gynnulleidfa am dri Sabbath olynol; ac ar ol hyny, os na chodai gwrthwynebiad, ystyrid fod y gynnulleidfa yn cytuno â'r appwyntiad. Os codai rhyw wrthwynebiad, cyfeirid y ddadl i'r gymmanfa daleithiol—dedfryd yr hon a ystyrid yn derfynol. Yr oedd nifer y cymmanfäau taleithiol hyn yn gyffredin yn un ar bymtheg o nifer. Ni byddai y gymmanfa genedlaethol yn cyfarfod ond yn anfynych, am fod yr eglwys yn agored i erledigaethau mor llymion, ac am fod ei gorthrymderau yn chwanegu, fel yr oedd hithau yn cynnyddu. Yr oedd ei *Chyffes Ffydd*, a fabwysiadwyd yn y gymmanfa daleithiol gyntaf, yn cynnwys deugain o erthyglau, y rhai sydd yn rhy faith i'w dodi yma. Ymddengys mai Calviniaeth fanwl oedd ei hathrawiaethau. Er fod yr eglwys yn cael ei gorthrymu yn dost gan erledigaeth yn ystod teyrnasiad Harri II., er hyny cynnyddodd yn fawr—mor fawr, fel y dywedir fod Beza, yr hwn a fu farw yn 1605, yn cyfrif fod 2,150 o eglwysi mewn cyssylltiad âg Eglwys Brotestanaidd Ffrainc; ac nid rhai bychain a gweiniaid oeddynt chwaith. Yr oedd 10,000 o aelodau yn rhai o honynt. Yr oedd 7,000 o gymunwyr yn eglwys Orleans; ac yr oedd rhif gweinidogion y cyfryw eglwysi yn gyfatebol i'w nifer; yr oedd dau weinidog yn mhob eglwys yn beth cyffredin; ond yr oedd pump o weinidogion yn Orleans Yr oedd eglwys Ffrainc yn hyn yn debycach i'r rhai a sefydlid gan Paul a'r apostolion ereill na llawer a gyfododd ar ei hol; gan fod ynddi hi, fel yn yr eglwysi cyntefig, amryw o henuriaid neu esgobion yn mhob eglwys: *Act.* xiv. 23; a

Digitized by Google

xx. 17, 28; *Tit.* i. 5, 7. Y pryd hyn, yr oedd 305 o fugeiliaid mewn un dalaeth yn Normandy; a 60 yn Provence. Pan yr oedd Francis II. yn un ar bymtheg oed, dilynodd ei dad Harri II. ar yr orsedd; ac yn yr un flwyddyn y cynnaliwyd y Gymmanfa Brotestanaidd gyntaf. Yn ystod ei deyrnasiad byr ef, o ddau fis ar bymtheg, yr oedd cyflwr y Protestaniaid yn dra pheryglus. Llywodraethid y deyrnas gan ei fam, Catherine de Medicis, gwraig o dalentau a dichellion mawr, a chan y Guises. Yr oeddynt yn cytuno i orthrymu y Protestaniaid hyd eithaf eu gallu. Y pryd hyn y dechreuwyd y "rhyfeloedd crefyddol," y rhai a barhasant am ddeugain mlynedd, sef hyd gyhoeddiad deddf Nantes; ac yn yr ysbaid hwnw, tybir nad aberthwyd dim llai na miliwn o fywydau. Cymmerai olrhain hanes y cyfnod yma yn fanwl lawer gormod o le, heb law nad atebai amcan erthygl fel hon. Ychydig bethau yma ac acw yn unig y gellir eu nodi. Yn 1560, bu farw Francis II., a dilynwyd ef gan ei frawd Charles IX.—bachgen o ddeng mlwydd oed. Yn ystod y rhan gyntaf o'i deyrnasiad ef, gobeithiwyd fod pethau yn troi ychydig yn fwy ffafriol i'r Protestaniaid. Yr oedd arwyddion fod mam y brenin yn awyddus am eu cymmodi, gan eu bod yn awr yn blaid gref yn y llywodraeth; ac ymddangosai ar un adeg eu bod yn debyg o gael dyrchafiad yn y llys. Y pryd hwn y cynnaliwyd cymmanfa o dduwinyddion Pabaidd a Phrotestanaidd yn Poissy, er mwyn ymdrechu dwyn y syniadau gwrthwynebol i gymmod. Trodd y cynnyg allan yn gwbl ofer. Ar ol hyn, duodd yr awyrgylch drachefn, ac ail ddechreuwyd ymosodiadau. Penderfynwyd ar ammodau heddwch fwy nag unwaith, ond troseddid hwy yn ebrwydd. Ar ol terfynu un o'r ammodau hyny, yn 1570, defnyddiodd y llys bob math o ddichell i berswadio y Protestaniaid i deimlo eu bod yn ddiogel, ac i gymmodi eu blaenoriaid. Y gwir oedd mai tawelwch twyllodrus oedd hwn, o flaen ystorm ofnadwy; canys ar noswaith Awst 22fed, 1572, y cyflawnwyd cyflafan erchyll Gŵyl St. Bartholomeus. Yr oedd Catherine waedlyd, yr hon a gymhellai y brenin ieuanc i ganiatau y trosedd dychrynllyd yma, wedi hudo cymmaint ag a allai o foneddigion y taleithiau i'r brif ddinas, trwy gyfrwng y gloddestau ar yr achlysur o briodas Henri o Navarre â Marguerite o Valois, chwaer y brenin, ac yn eu plith yr oedd lluaws o arweinwyr y Protestaniaid—yn hollol ddifeddwl am berygl, ac o ganlyniad, wrth gwrs, yn hollol ddiarfog. Tra yr oedd y rhan fwyaf yn eu gwelyau, dechreuodd y Pabyddion gwaedlyd ar y llofruddiaeth ofnadwy, dan nawdd a thrwy gymhelliad eu gwrones annaturiol a thwyllodrus, Catherine de Medicis! Lladdwyd tua 6,000 o Brotestaniaid yn Paris yn unig. Yn eu plith yr oedd yr haelfrydig a'r gwrol—ond ysywaeth, yr hwn oedd yn rhy hyderus—Coligny, yr hwn a laddwyd mewn gwaed oer yn ei wely, tra y caniatawyd i'r ddau flaenor Protestanaidd arall, brenin Navarre a'r tywysog Conde, am eu bod o waed breninol, achub eu hunain trwy ddadgyffesu. Yr oedd rhif y rhai a laddwyd trwy holl Ffrainc, yn ol un hanes, yn 30,000, ac yn ol hanes arall yn 70,000. Gweithred greulonach, atgasach, a ffieiddiach na hon, ni chyflawnwyd, fe allai, erioed yn enw cyssegredig crefydd. Gwel BARTHOLOMEUS, DYDD.

Ni lwyddodd hyd yn oed y cynnyg mileinig yma i lwyr ddileu Protestaniaeth o Ffrainc. Gadawyd gweddill ffyddlawn er yr holl greulonderau hyn; a dywedir i nifer mawr o'r bugeiliaid ddianc, megys yn wyrthiol; y rhai a fuant ffyddlawn i gadw y lamp yn oleu, hyd yn oed yn nghanol y cefnlliff mwyaf llifeiriol o erledigaeth. Yn ystod y chwe blynedd ar ugain rhwng cyflafan nos Gŵyl St. Bartholomeus a chyhoeddiad deddf Nantes, chwe chymmanfa genedlaethol yn unig a gynnaliwyd; ac yn ysbaid yr holl amser yr oedd yn ymryson parhaus rhwng heddwch a rhyfel. Digwyddodd un peth ynghanol yr holl derfysgoedd blinion hyn a barai lawenydd mawr i galonau trist y Protestaniaid erlidiedig; sef, argraffiad diwygiedig Almaenaidd o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Ond yr oedd dyddiau disgleiriach ger llaw. Yn 1589, esgynodd Henry IV., Protestant, i'r orsedd. Pa fodd bynag, gwelodd yn bur fuan fod ei les a'i lwyddiant yn gofyn iddo fod yn perthyn i'r grefydd fwyaf poblogaidd. Ond er iddo fyned yn Babydd, ni theimlai ar ei galon fod yn erlidiwr: mewn gwirionedd, rhoddodd attalfa ar yr erledigaethau; ac ar y 30fed o Ebrill, 1859, efe a lawnododd ddeddf glodfawr Nantes. Parhaodd hon am yn agos i ganrif i fod yn freintlen o hawliau Protestanaidd, er na roddwyd hi mewn grym yn fanwl ond yn ystod teyrnasiad ei hawdwr yn unig. Er nad oedd yn goddef i'r Protestaniaid fod yn agos i gyfartal â'r Pabyddion, eto cydnabyddai hwy fel plaid yn y llywodraeth. Yr oedd yn caniatau iddynt gryn lawer o ryddid crefyddol. Yr oeddynt yn cael rhyddid i ddilyn eu crefydd; a chydnabyddid eu bod yn gyfaddas i gael derbyniad i'r prif ysgolion, ac i gael swyddi o dan y llywodraeth. Caniateid iddynt gael sefydlu addoliad cyhoeddus mewn lleoedd neillduol, o fewn terfynau pennodol, a rhoddwyd gwaddol blynyddol iddynt hefyd o fil o goronau. Yr oedd y Protestaniaid yn mwynhau heddwch lled gysson nes y llofruddiwyd Henry yn 1610. Dilynwyd ef gan Louis XIII., Pabydd rhagfarnllyd; yr hwn, am y tair blynedd ar ddeg ar ugain y bu yn teyrnasu, a erlidiodd y Protestaniaid yn barhaus; ond er y cyfan, cynnyddu yn raddol yr oedd yr Eglwys Brotestanaidd yn Ffrainc yn nghanol yr holl orthrymder. Dilynwyd y brenin hwn gan ei fab Louis XIV.; yr hwn a gafodd enw dysglaer mewn hanesiaeth; ond un na ennillodd trwy ei ymddygiad at y Protestaniaid. Dilynodd gamrau ei dad, gan lwyr esgeuluso deddf Nantes; yr hon, ar yr 8fed o Chwefror, 1685, a ddiddymwyd. Trwy ddiddymiad y ddeddf hono, dirymwyd yr holl ddeddfau amddiffynol ereill; gwaharddwyd pob math o gynnulliadau crefyddol; ac alltudiwyd yr holl bregethwyr Protestanaidd o'r deyrnas. Trwy gael eu cefnogi gan y weithred gaethiwus hon, dechreuodd y Pabyddion erlid y Protestaniaid gyda zel a chreulondeb adnewyddol. Y canlyniad o ddilead deddf Nantes, a'r creulonderau a ddilynasant hyny, oedd i nifer fawr o'r boblogaeth Brotestanaidd o'r diwedd adael y wlad nad oedd deilwng o honynt. Dychrynodd llywodraeth y wlad yn y rhagolwg o ddiboblogiad eang; ac ymdrechodd, trwy bob moddion yn ei gallu, i attal y ffoedigion trwy drais. Ond er pob ymdrech a wnaed i'w cadw yn y caethiwed, llwyddodd lluaws mawr i ddianc: aeth llawer ymaith mewn gwahanol ffugwisgoedd, a diangodd nid ychydig trwy y caledi mwyaf. Dewisent angeu, yn hytrach na'r creulonderau oedd yn eu haros yn y wlad a reolid gan "y brenin mwyaf Cristionogol!" Cyfrifir fod rhwng 30,000 a 40,000 o Brotestaniaid wedi dianc o Ffrainc yn yr adeg yma, heb adael, fe allai, dros filwn o'u brodyr

Digitized by Google

crefyddol ar eu hol. Cymmerodd y ffoaduriaid noddfa yn Mhrydain Fawr, Switzerland, Holland, Prwssia, Denmarc, Sweden, ac hyd yn oed yn America a'r Cape of Good Hope. Tra y collodd Ffrainc trwy hyn luaws o'i dinasyddion goreu, cafodd y gwledydd a roddasant nawdd i'r Huguenotiaid ddirfawr les, nid yn unig oddi wrth eu hymddygiadau a'u syniadau crefyddol, ond hefyd oddi wrth eu medr a'u diwydrwydd. Y mae yn ein gwlad ni nid ychydig o wŷr anrhydeddus a allant olrhain eu hachau i Brotestaniaid erlidiedig Ffrainc. Ond heb ymfoddloni ar yr ymfudiad cyffredinol a achoswyd gan y brenin a'i weinidogion, cynnygiasant ddarostwng y gweddill o'r hereticiaid. Gwnaed yr ymosodiad erledigaethus mwyaf creulawn ar Brotestaniaid taleithiau Languedoc Isaf, Vivarais, a Cevennes. Llofruddid nifer dirfawr, llenwid y carcharau, ac yr oedd y crogbrenau ar waith beunyddiol. Bu y creulonderau annynol ac annioddefol hyn, yn erbyn y rhai y protestiai hyd yn oed y Pabyddion mwyaf rhyddfrydig, yn y Janseniaid, yn foddion i gyffroi y dioddefwyr o'r diwedd i benboethder aflywodraethus. Y canlyniad fu, rhyfel ofnadwy a gwaedlyd y Camisariaid, yr hon a ddiboblodd ddeheubarth Ffrainc o'r flwyddyn 1702 hyd 1704. Gwel **Ffrainc, Prophwydi; Camisariaid.**

Tua diwedd teyrnasiad Louis xiv., ac yn ystod rhaglawiaeth Philippe d'Orleans, ymddygwyd at y Protestaniaid yn fwy tyner. Er fod yr Eglwys Brotestanaidd yn awr yn mwynhau heddwch allanol, eto ymddangosodd arwyddion buan ynddi o ddirywiad mewnol. Y prif achosion o hyn, fel y bernir, oedd diffyg dynion duwiol a galluog i arwain yr eglwysi. Bu ymdrechiadau canmoladwy Antoine Court, yr hwn a elwid "Adferwr Protestaniaeth Ffrainc," yn dra defnyddiol i symmud y diffygion a nodwyd. Sefydlodd gyfarfodydd gweddïo yn mhob man lle y gallai, a galwodd ynghyd gymmanfäau a chynghorau o weinidogion ac aelodau meddylgar. Trwy gynhyrfu ysbryd gweddi a chariad at drefn, gwnaeth y gŵr duwiol hwnw les mawr i'r holl eglwysi Protestanaidd. Ond tra yr oedd yr eglwysi yn ymadnewyddu yn raddol o'u cyflwr dirywiedig, dychrynwyd hwy drwy i Louis xv. gyhoeddi, ar y 14ydd o Fai, 1724, y gyfraith fawr ddiweddaf yn erbyn Protestaniaeth. Rhoddodd y gyfraith hon holl fesurau llymaf Louis xiv. mewn grym. Nid oedd yn ceisio yn uniongyrchol gan Brotestaniaid ddadgyffesu, nac yn bygwth eu cospi am wrthod, ond yn hytrach eu gorfodi, ewyllysgar neu beidio, i dderbyn holl ddefodau a seremonïau yr Eglwys Babaidd. Yr oedd, er esampl, yn gwneyd bedydd gan gurad pob plwyf yn orfodol yn mhob amgylchiad, ac yn dadgan nad oedd un briodas yn gyfreithlawn a safadwy ond a weinyddid gan offeiriad Pabaidd. Yr unig effaith o wneyd y cynnyg yma i orfodi y bobl i fyned i'r Eglwys Babaidd, oedd eu gyru yn mhellach oddi wrthi. Cefnogwyd Antoine Court gan y lluaws. Amlhaodd cymmanfäau, yn y rhai yr oedd efe wedi rhoi bywyd newydd; ac er mwyn cael bugeiliaid i'r eglwysi, sefydlodd ysgol dduwinyddol yn Lausanne, a barhaodd i gyflenwi yr eglwysi Protestanaidd â'u bugeiliaid hyd amser Napoleon. Mwynhaodd y Protestaniaid heddwch o'r flwyddyn olaf y cynnaliwyd cymmanfa genedlaethol yn Languedoc Isaf. Pan gyrhaeddodd y newydd am gynnaliad y gymmanfa hono i Paris, parodd i'r brenin a'r gweinidogion gychwyn creulonderau gwaedlyd o newydd yn erbyn y Protestaniaid diamddiffyn. Parodd hyn i ymfudiad newydd gymmeryd lle. Dilynwyd yr ystorm gan adeg tynerach; ac ar ol 1760, dechreuodd egwyddorion goddefiad ffynu. Gwnaeth ysgol Voltaire—tra y gwnai niwed dirfawr i achos crefydd a moesoldeb—les gwirioneddol i ledaeniad egwyddorion goddefiad a rhyddid crefyddol. Trwythwyd y genedl yn raddol yn yr egwyddorion hyn. Er fod Louis xvi. yn tueddu braidd at yr egwyddorion gwrthwynebol, eto, gorfodwyd ef o'r diwedd i gydfyned âg ysbryd yr oes; ac yn Tachwedd, 1788, efe a gyhoeddodd Ddeddf y Goddefiad. Y rhagorfreintiau a ganiatawyd trwy y ddeddf hon i'r rhai nad oeddynt Babyddion oedd y rhai canlynol:—

"Yr hawl i Ffrainc, ac i ddilyn eu proffes a'u celfyddyd yn y deyrnas, heb gael eu haflonyddu o blegid eu crefydd; caniatâd i briodi yn gyfreithlawn ger bron swyddogion cyfiawnder; a'r awdurdod i gofrestru genedigaeth eu plant ger bron yr ynad lleol."

Y mae yr un ddeddf yn cynnwys darpariad hefyd at gladdu y meirw, na fynid eu claddu yn ol defodau yr Eglwys Babaidd. Gan i'r chwyldroad Ffrengig cyntaf ddygwydd yn y flwyddyn ganlynol, eangwyd rhagorfreintiau y Protestaniaid yn helaethach fyth. Dadganwyd eu bod yn gymhwys i swyddau gwladol; ac etholwyd mab i athraw Protestanaidd—oedd wedi bod yn hir dan waharddiad—i lywyddu y Gymmanfa Gyfansoddiadol. Trwy gael ei bywiogi fel hyn gan obaith adnewyddol, aeth yr Eglwys Brotestanaidd yn mlaen i ryw raddau i ail sefydlu ei threfniadau allanol cyntaf; ond rhoddwyd attalfa ebrwydd ar y gweithrediadau hyn gan y pellafoedd dirfawr y rhedodd y llywodraeth werinol iddynt yn fuan. Diddymwyd pob crefydd, ac aed i addoli Duwies Rheswm. Cauwyd yr eglwysydd, a gwaharddwyd i'r gweinidogion gyflawni eu swyddi cyssegredig. Ond ni pharhaodd y sefyllfa yma ar bethau yn hir. Yn 1795, cyhoeddwyd "Na rwystrid neb i addoli yn ol ei ddewisiad ei hun, os cydymffurfiai efe â'r cyfreithiau; nas gellid gorfodi neb i gyfranu at draul unrhyw gredo; ac na byddai i'r weriniaeth dalu cyflogau." Gosododd Napoleon yr offeiriaid Pabaidd a'r gweinidogion Protestanaidd yn yr un sefyllfa, oddigerth gyda golwg ar gynnaliaeth arianol. Telid i'r Pabyddion ar y dechreu gan y llywodraeth; ond ni thelid felly i'r Protestaniaid. Er hyny, ni chydnabyddid yr Eglwys Babaidd yn ffurfiol fel crefydd y llywodraeth, ond yn unig fel "crefydd mwyafrif mawr o'r genedl Ffrengig."

Pa fodd bynag, nid oedd Napoleon yn foddlawn ar sefyllfa pethau gyda golwg ar yr Eglwys Brotestanaidd, gan nad oedd yn ei hystyried yn ddigon o dan ei lywodraeth ef ei hun. Am hyny, caniataodd iddi waddol bychan o'r llywodraeth; ond ar yr un pryd rhoddodd ammodau iddi a'i hattaliodd yn gwbl i weithredu yn annibynol. Yr oedd llywodraeth yr eglwys i fod dan lywyddiaeth gweinidogion, llysoedd eglwysig, a chymmanfäau. Nis gallai y cymmanfäau gyfarfod heb ganiatâd y llywodraeth. Mewn gwirionedd, ni oddefid iddynt gyfarfod o gwbl. Yn 1807, nid oedd y Protestaniaid yn meddu mwy na 200 o weinidogion. Pan adferid y Bourboniaid, er i ryddid crefyddol gael ei gyhoeddi, dechreuodd y Pabyddion ddangos arwyddion o'u hawydd i erlid y Protestaniaid. Yn ystod teyrnasiad Louis xviii., gwnaed cyffroadau pwysig yn neheubarth Ffrainc. O'r flwyddyn 1817 hyd 1830, goddefid i'r Eglwys Brotestanaidd fyned yn mlaen yn

Digitized by Google

dawel i ledaenu egwyddorion y gwirionedd, er ei bod yn derbyn gwaddol o'r llywodraeth. Ni newidiodd chwyldroad 1830 rhyw lawer ar sefyllfa y Protestaniaid; ond parhasant yn sefydlog i gynnyddu mewn nifer. Yr oeddynt yn dysgwyl manteision mawr oddi wrth chwyldroad 1848, yr hwn a derfynodd yn ngosodiad Louis Napoleon ar orsedd yr ymherodraeth. Yn hyn, cawsant eu somi yn eu dysgwyliadau. Amcan yr ymherawdwr presennol, mewn pethau eglwysig gystal a phethau ereill, ydyw gweithio allan y syniadau Napoleonaidd a goleddid gan ei ewythr. O ganlyniad, efe a fabwysiadodd egwyddorion Cynghrair 1802. Edrychir ar Eglwys Rhufain fel eglwys y mwyafrif; ac fel y cyfryw, yn haeddu pob parch gan y llywodraeth. Ar yr un pryd, y mae yr ymherawdwr wedi dadgan yn fynych ei fod yn ewyllysio i oddefiad crefyddol cyffredinol fod trwy ei holl lywodraeth. Ar y cyfan, ac ystyried nodwedd gyffredinol y cynllun ymherodrol, y mae mesur helaeth o ryddid wedi cael ei fwynhau. Yn y taleithiau pellaf oddi wrth y brif ddinas, sydd bron dan lywodraeth hollol rhaglawiaid, y rhai sydd dan ddylanwad ofergoelus a gwasaidd yr offeiriaid Pabaidd, y teimlir mwyaf o orthrymder. Yn y lleoedd tywyll a Phabaidd hyny, y mae awdurdod i agor lleoedd o addoliad Protestanaidd wedi cael ei wrthod yn fynych; gwasgarwyd cyfarfodydd crefyddol yn aml, dan yr egus mai cyfarfodydd gwladol oeddynt; a rhwystrir lledaeniad traethodau crefyddol yno hyd y gellir. Mewn rhai amgylchiadau, cafwyd gwaredigaeth trwy appelio at y brif awdurdod yn Paris; yr hyn, pa fodd bynag, sydd bob amser yn orchwyl blinderus. Er yr holl anfanteision hyn, y mae llawer o waith da wedi ei wneuthur yn Ffrainc; ac y mae rhai, yma ac acw, yn dechreu gweled cyfeiliornad y cynllun crefyddol Pabaidd y cawsant eu dwyn i fyny ynddo.

III. *Undeb Eglwys Efengylaidd Ffrainc.*—Yr amser y daeth y blaid yma o Gristionogion i ffurf corfforiaethol oedd 1848. Penderfynodd y Protestaniaid drwy yr holl deyrnas yn y flwyddyn bwysig hono, gynnal cymmanfa, i gymmeryd sefyllfa newydd pethau dan ystyriaeth, ac i gynllunio ar gyfer amser i ddyfod. Cynnaliwyd y gymmanfa gyntaf yn Mai y flwyddyn hono; ond gan nad oedd ei chyfansoddiad yn foddhaol, ni wnaed dim o bwys ynddi ond penodi amser ail gyfarfyddiad. Agorwyd hon ar yr 11eg o Fedi yn yr un flwyddyn. Nid oedd cyfansoddiad y gymmanfa hon ond cyffelyb i'r llall; ac ymgynnullasant heb nawdd y gyfraith. Enwodd naw a phedwar ugain o lysoedd eglwysig aelodau i'w cynnrychioli ynddynt; ond nid oedd y rhai a ddaethant ynghyd yn cyrhaedd y nifer hwnw. Nid oeddynt yn cytuno chwaith yn eu golygiadau. Y pwnc cyntaf a osodwyd dan ystyriaeth oedd, pa un a ddylasent ffurfio Cyffes Ffydd ai peidio, ynghylch yr hyn yr oedd amryw yn gwahaniaethu. Yr oedd y mwyafrif yn barnu y buasai hyny yn gyfleus; tra y dadleuai y lleill yn gyndyn nad oedd Cyffes Ffydd yn angenrheidiol er eu gwneyd yn gyfundeb cytûn ac unol. Gwrthododd y rhai hyn gytuno â ffurfiad Cyffes Ffydd, ac ymneillduasant, gan ymffurfio yn gyfundeb eglwysig gwahanol, dan yr enw "Undeb Eglwysi Efengylaidd Ffrainc." Cynnaliasant eu cymmanfa gyntaf ar yr 20fed o Awst, 1849. Tynasant allan fath o ddadganiad o'u ffydd, a dewisasant eu ffurf o lywodraeth eglwysig. Bob yn ail flwyddyn yn unig y mae eu cymmanfa yn ymgyfarfod. Mae eu rhif wedi bod ar gynnydd parhaus er eu dechreuad, ac y maent yn eangu maes eu gweithrediadau. Yr oedd ganddynt, ychydig amser yn ol, chwech ar ugain o eglwysi, dau ar ugain o weinidogion, ac yn agos i ddwy fil o aelodau. Er mwyn eu galluogi i helaethu eu gweithrediadau crefyddol, y maent yn arfer derbyn cymhorth arianol o wledydd ereill, gan y rhai sydd yn dymuno gweled eu hegwyddorion yn cael eu lledaenu. Maent yn gwbl anghyssylltiedig â'r llywodraeth; ac y maent yn dra ymdrechgar, hyd y mae eu moddion cyfyng yn caniatau, i ledaenu egwyddorion efengylaidd. Un o'u gweinidogion enwocaf yw F. Monod.

**FFRAINC, PROPHWYDI.** Penboethiaid crefyddol oedd y rhai hyn, a gyfodasant yn neheubarth Ffrainc ar ddiwedd yr eilfed ganrif ar bymtheg. Olrheiniwyd eu tarddiad gan M. Grégoire i ryw "Ysgol y Prophwydi" oedd yn Dauphiny, dan arweiniad Calviniad o'r enw Du Serre; ond dywedir yn awr nad ydyw y syniad yma yn gywir. Ymddengys iddynt fod mewn cyssylltiad agos â'r Camisariaid; dan ba enw, yn wir, y cawsant weithiau eu galw. Gwel CAMISARIAID.

**FFREWYLL.** Gwel FFLANGELL.

**FFRWYN** [חסם; χαλινός; Ll. *frænum*]: offeryn a roddir am ben march neu asyn, i'w lywodraethu gan y marchogwr neu y gyrwr, a wneir i fyny o benawr (*head-stall*), genfa (*bit*), ac awenau neu afwynau (*reins*), ac weithiau chwanegir genddal (*curb*), sef tid haiarn fechan wedi ei bachu wrth yr enfa, i'w rhoddi dan ên yr anifail, a rhai pethau ereill, yn achlysurol, yn ol y defnydd a wneir o'r ffrwyn. Yr oedd yr hynafiaid gynt weithiau yn arfer rhoddi cyrt neu fachau trwy ffroenau camelod, mulod, ac asynod, yn lle ffrwyn, i'w harwain lle y mynent; ac ymddengys fod geiriau yr Arglwydd trwy law Esaiah at Hezeciah, am Senacherib, brenin yr Assyriaid, yn cyfeirio at yr arfer o'r bachau a'r ffrwyn:—"Am i ti ymgynddeiriogi i'm herbyn, ac i'th ddadwrdd ddyfod i fyny i'm clustiau i; am hyny y rhoddaf fy mach yn dy ffroen di, a'm ffrwyn yn dy weflau, ac a'th ddychwelaf di ar hyd yr un ffordd ag y daethost;" 2 *Bren.* xix. 28; *Esa.* xxxvii. 29. Arferir y gair weithiau, yn ffugrol, i arwyddo attalfeydd cyfraith a moesau da; ac y mae "gollwng y ffrwyn" yn arwyddo trosedd yn erbyn y pethau hyny: *Iob* xxx. 11. Mae y gair yn arwyddo hunan-lywodraeth yn *Salm* xxxix. 1; "Cadwaf *ffrwyn* yn fy ngenau, tra fyddo yr annuwiol yn fy ngolwg."

**FFRWYTH—AU—YDD,** [פרי]: ystyr y gair Hebraeg yw ffrwyth yn gyffredinol, llysieuol ac anifeilaidd: *Deut.* vii. 13; xxviii. 51. Y mae Dr. Lees yn meddwl mai y gair Hebraeg ydyw gwreiddyn y gair Seisneg *fruit*, trwy i'r *p* Hebraeg gael ei seinio fel *ph*, ac wedi hyny ei throi i *f*—*ff*. Y gwir yw, fod cymmaint o debygolrwydd yn llythyreniad, a sain, ac ystyr y gair Cymraeg *ffrwyth* (Seis., *fruit*; Llad., *fructus*; All., *frucht*) fel y mae yn ddigon possibl eu bod oll wedi tarddu o'r un ffynnonell. Ond a ellir eu holrhain i'r gair Hebraeg *peri*, fel y barna y Dr. Lees, nis gwyddom ni.

Yr oedd gan yr Hebreaid dri enw cyffredinol ar dri dosbarth o gynnyrch y tir, y rhai y gellir eu dynodi yn Gymraeg, megys—1. Ffrwyth y

Digitized by Google

maes; 2. Ffrwyth y winllan; ac yn 3. Ffrwyth y berllan. Dywed duwinyddion fod sylwi ar y dosbarthiad yma, a'r gwahaniaeth rhyngddynt, o bwys mawr er deall y Beibl yn briodol, gan fod prydferthwch a grym dros ddeugain o ymadroddion Ysgrythyrol yn colli trwy beidio sylwi arnynt.

Bernir fod y gair *cayits*, a gyfieithir yn fynych "ffrwythydd haf," yn dynodi rhywogaeth mwy dibwys o ffrwythydd, y rhai oedd yn gyfaddas i'w bwyta yn ddioed yn unig, a'r rhai nas gellid yn gyfleus eu cadw erbyn y gauaf: *Ier*. xl. 10, 12. Gallesid cyfleu *cayts* fel rhywogaeth dan y dosbarth o *ffrwyth y berllan*: ymddengys fel yn arwyddo rhyw enw cyferbyniol, megys "ffrwyth y gauaf," neu rywogaeth o ffrwyth yn y dosbarth hwnw a wahaniaethid am y gellid ei gadw trwy y flwyddyn. Tybir am y cynnyrch a ddynodir gan y trydydd enw cyffredinol, sydd i fod dan sylw yn awr, mai eu prif deithi oedd, y gellid eu cadw a'u *cyffeithio*, fel ffrwyth ein perllanau ninnau; ac fel hyn gallai eu henw cyffredinol gynnwys *cayits*, "ffrwythydd haf," er y cyfeiria yn benaf at "ffrwythydd gauaf." Y tri enw y cyfeiriwyd atynt sydd yn cael eu cyferbynu mor fynych yn yr Ysgrythyrau, ac yn amlygu triad mor helaeth o fendithion, yw, *dagan*, *tirosh*, a *yitzhar*.

1. *Dagan*: "ffrwyth y maes," neu gynnyrch amaethyddiaeth. Yr oedd yr Hebreaid yn trefnu pob math bron o ffrwyth amaethyddol dan y dosbarth yma. Dywed y Dr. Jahn fod y gair yma o ystyr cyffredinol, ac yn cynnwys ynddo ei hun bob math o rawn, megys gwenith, milet, gwenith yr Almaen, heiddwellt y muriau, haidd, pys, ffa, ffacbys, cwmin y waen, puppurlys, llin, cotwm, amryw fath o gucumerau, ac fe allai reis hefyd [*Jahn*, *Bib. Antiq.*, 38]. Nid oes dim ammheuaeth yn awr yn mysg dysgedigion nad yw *dagan* yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rhywogaethau gwerthfawrocaf o'r cynnyrch llysieuol; ac am hyny cyfaddefir yn gyffredin fod ei gyfieithu fel y gwneir yn gyffredin yn "ŷd," ac weithiau yn "wenith," yn lle "pob math o ŷd," neu gynnyrch y maes, yn tueddu i gyfyngu ein syniadau am yr haelioni Dwyfol, yn gystal ag i anmharu prydferthwch yr ymadroddion sydd yn cynnwys y gair. Gellir dwyn yr un wrthddadl yn erbyn y cyfieithiad cyffredin o'r geiriau cydfynedol *tirosh* a *yitzhar*, megys "gwin ac olew." Yn wir, y mae braidd yn rhyfedd na buasai y gydnabyddiaeth sydd agos yn gyffredinol mai gair tra eang ydyw *dagan*, wedi tueddu y dysgedigion cyn hyn i ammheu cywirdeb y cyfieithiad cyfyng a roddir i'r ddau air perthynasol, gan nad ydyw cymmysgu enwau cyffredinol âg enwau pethau neillduol nac yn arferol nac yn naturiol, oddigerth mewn ffordd o esgyniaith (*climax*), llawer llai naturiol yw cyssylltu dosbarth cyffredinol o gynnyrch naturiol yn barhaus â dosbarth neillduol o gynnyrch celfyddydol. Wrth ddarllen am "wlad pob math o ŷd," buasem yn disgwyl i'r mynegiad barhau yn gysson, trwy ddywedyd "grawnwin a ffrwyth:" gan hyny, pan y troir yn ddisymmwth oddi wrth "bob math o ŷd" at gynnyrch penodol a chelfyddydol, megys "gwin" ac "olew," cyfyd ammheuaeth yn y meddwl am gywirdeb y cyfieithiad; a phan y cymmherir y cyfieithiad â'r ymadroddion Hebreig trydd yr ammheuaeth allan yn sicrwydd. Mae llawer wedi sylwi ar anfynychder y crybwylliadau yn ein cyfieithiadau ni am y grawnwin, "ffrwyth" naturiol "y winwydden," mewn cymhariaeth i'r gwin, yr hylif celfyddydol. Mae yn wir fod *yayin* (gwin) yn cael ei ddefnyddio weithiau yn yr un ystyr a *grawnwin* (fel y mae Cato ac ereill yn defnyddio y gair Lladin *vinum*), ac yn yr ystyr yma o "wlad ŷd a gwin" y meddylir yn ddiau yr hyn oedd gwlad Palestina, sef "gwlad ŷd a grawnwin;" ond nid yw y defnydd eilraddol a chymhwysiadol yma o'r gair *yayin* yn gwneyd fod yn afreidiol cael gair mwy cyffredinol am "ffrwyth y winllan," nid yn unig fel ei chynnyrch, ond fel eiddo gwerthfawr ynddo ei hun.

2. *Tirosh*: "ffrwyth y winwydden" yn ei sefyllfa naturiol; yn cynnwys y grawnwin yn ir neu wedi sychu, yn nghyd â'r ffrwyth yn gyffredinol, pa un bynag si pan yn ieuanc yn y sypiau, ynte mewn sefyllfa o addfedrwydd. Y mae *Esa*. lxv. 8, lle y cyfieithir gan y Deg a Thrigain yn *botrui*="grawnwin," a chenym ninnau yn "swp o rawn," yn cyfeirio at y grawnwin ieuainc; tra y mae *Barn*. ix. 13, lle "y dywedodd y winwydden, A ymadawaf fi â'm melyswin (*tirosh*, ffrwyth) yr hwn sydd yn llawenhau Duw a dyn," yn cyfeirio mor amlwg at y ffrwyth addfed yr hwn a roddid ar yr allor fel offrwm, y blaenffrwyth yn gydnabyddiaeth ddiolchgar am ddaioni Dwyfol. "Sychid y grawnwin weithiau yn yr haul," medd y Dr. Jahn [*Bib. Antiq.*, *adr*. 69], "a chedwid hwy yn sypiau, y rhai a elwid yn Hebraeg *gnenabhim eshishah*, *tzimmuocim*: 1 *Sam*. xxv. 18; 2 *Sam*. xvi. 1; 1 *Cron*. xii. 40; *Hos*. iii. 1." Dywedir fod *tirosh* yn tarddu o'r enw berfol *yarash*, "meddiannu trwy etifeddu," ac y cymhwysid ef yn dra naturiol i ddynodi ffrwyth y winllan, yr hwn a ystyrid, yn nesaf i'r *dagan*, yr eiddo gwerthfawrocaf a feddai yr Iuddewon.

Cyfeirir ato hefyd yn benodol fel yr hyn a gynnyrchai win; ac am hyny nid gwin ei hun ydoedd, ond y sylwedd newydd, o ba un y parotöid ef. Cyfieithiad diwygiedig y Dr. Conquest o *Micah* vi. 15, yw—"Ti a hau, ond ni fedi; ti a sethri yr olewydd, ond nid ymiri âg olew (*shemen* nid *yitzhar*); a grawnwin (*tirosh*), ond nid yfi win" (*yayin*). Gan y dynodir sathru yr olewydd megys yn cynnyrchu olew, felly y dynodir *tirosh* fel yn hyn, trwy gael ei sathru yn y gerwyn neu'r gwingafn, a gynnyrcha win, yr hwn a lifai o agoriad i'r llestr is law. Yn nghyfieithiad yr Archesgob Newcome o'r adnod hon, ceir "grawnwin y gwin dewisol;" a sylwa Julius Bate ar yr ymadrodd, gan ddywedyd, "Am hyny y mae yn amlwg mai *tirosh* (y grawnwin) yw yr hyn a wasgir."

Y mae Dr. Jahn yn cymhwyso *tirosh* at y sudd a lifai o'r grawngafn i'r llestr is law, ac yn dywedyd y gelwir ef hefyd yn win newydd a *gleucos*: *Act*. ii. 13. Pa fodd bynag, canfyddir fod hyn yn gyfeiliornus, gan fod y cyd-destynau yn ei wrthwynebu yn amlwg yn y rhan fwyaf o'r ymadroddion sydd yn cynnwys y gair lle y cyssylltir ef âg ŷd, blaenffrwyth, degymau, a chynnyrchion naturiol ereill, ac na chefnogir ef ond gan gyfieithiad ammheus yn unig o ddau ymadrodd. Y cyntaf sydd yn *Ioel* ii. 24: "A'r lloriau dyrnu a fyddant yn llawn o wenith, a'r *tirosh* a fydd yn llifo dros y cerwyni." Nis gellir deall mai sudd y grawnwin a olygir yma, ond rhaid y cyfeiria at y ffrwyth ei hun. Y mae yn berffaith sicr mai y grawnwin a ddodid yn y gerwyn, ac nid y gwin. Yr oedd y gwin yn llifo trwy agoriad i'r llestr a'i derbyniai, fel y byddid yn sathru y grawnwin. Yr oedd y cerwyni neu y cafnau hyn yn fawrion iawn; a phe dodasid y sathrwr mewn un mor lawn fel y buasai y sudd

yn llifo dros yr ymyl, buasai yn analluog i sathru y grawnwin, os nad mewn perygl o gael ei fygu. Gwel CERWYN. Rhoddi darluniad nodedig y mae y testyn, cyferbyniol i'r darlun o'r sychder a'r difrod a ddysgrifir yn y bennod flaenorol, gan ddadgan, nid yn unig y byddai i'r bobl gael digon o *dagan*, *tirosh*, a *yitzhar* (*pen.* ii. 19), ond y caent fwy na digon; canys byddai y lloriau dyrnu (yr "ysguboriau," yn y Gymraeg), lleoedd wedi eu trefnu yn gyffredin i ddyrnu ŷd, wedi eu llenwi â'r rhywogaethau goreu o ŷd wedi ei ddyrnu yn barod, ac y byddai y cerwyni (llestri wedi eu bwriadu nid i gadw ffrwyth, a'r rhai oedd yn anghyfleus i sathru ynddynt pan yn orlawn), wedi eu pentyru â grawnwin a ffrwyth gauaf mor llawn, fel yr äi eu cynnwys drosodd, gan nas gallent ddal ychwaneg. Y mae darlun cyffelyb o gyflawnder yn *Diar.* iii. 9, 10, lle y dywedir y byddai i'r gwinwryfoedd gael eu llenwi mor dyn nes y torent, yr hyn nis gall arwyddo y byddai i'r gwin gael ei golli. *Esa.* lxii. 8, 9, ydyw yr ail destyn lle y tybia rhai fod *tirosh* yn arwyddo hylif. Cyfieithir yr adnod olaf gan y Dr. Lowth fel hyn:—"Y rhai a fedant y cynauaf a'i bwytânt, ac a foliannant Iehofah; a'r rhai a gynnullant y grawnwin a'i hyfant o fewn cynteddoedd fy sancteiddrwydd." Sylwa efe yn briodol fod hyn yn cyfeirio at ddeddf Moses (*Deut.* xii. 17, 18; *Lef.* xix. 23—25), yr hon a orchymyn i'r Israeliaid fwyta degwm eu *dagan*, *tirosh*, a *yitzhar*, ger bron yr Arglwydd; ac ar ol iddynt blanu pob pren ymborth, ar iddynt ei gyfrif yn ffrwyth dienwaededig dros dair blynedd; yna, yn y bedwaredd flwyddyn, y byddai yr holl ffrwyth yn sanctaidd i foliannu yr Arglwydd; ac yn y bumed flwyddyn yr oeddynt i gael bwyta y ffrwyth. "Y mae hyn," medd y Dr. Lowth, "yn egluro grym yr ymadrodd, 'a foliannant Iehofah, ac a'i hyfant o fewn cynteddoedd fy sancteiddrwydd.'" Symmudir yr anghyssondeb ymddangosiadol rhwng yr ymadrodd *shathah*—ystyr penaf yr hwn yw "yfed;" yn ei ail ystyr, sef "sugno." Ac y mae rhai cyfieithiadau yn troi y gair mewn rhai manau i'r ystyr olaf hwn; megys *Salm* lxxv. 8; "O blegid y mae phiol yn llaw yr Arglwydd, a'r gwin sydd goch; yn llawn cymmysg, ac efe a dywalltodd o hono: eto holl annuwiolion y tir a wasgant, ac a sugnant o hono," yn lle "a yfant o hono," fel y mae yn ein cyfieithiad ni, a chyfieithiadau ereill. Ar yr un egwyddor yr ydys yn cymmedroli ystyr "bwyta," pan y sonir am fwyta orains. Yn unol â'r un egwyddor, tardda y Lladinwyr eu henw cyffredin am ffrwyth, *pomum*, o'r gair Groeg *pôma*, "diod," a'u henw am ffrwyth y pren criafol yw *sorbere*, "sugno." Dywed y Dr. Lowth yn mhellach fod yr ymadrodd Hebraeg *yowchlwhw*, yn gyflawn, mewn pump o lawysgrifau (un yn hen), ac y ceir *yishtwhw* hefyd mewn pedwar ar bymtheg o lawysgrifau, a bod tri o honynt yn hen. Os tybir mai *yishtwhw* oedd y darlleniad gwreiddiol, rhaid fod y cyfnewidiad i *yowchlwhw* wedi cael ei wneyd gan hen gopiwr dan ddylanwad y syniad a orphwysai hefyd, fel yr ymddengys, ar feddwl y Dr. Lowth, fod y dull o ymborthi ar ffrwyth y winwydden yn wahanol i yfed, a'r hwn a ddynodid yma trwy ddefnyddio y gair Hebraeg *shatha*. Cadarnheir y golygiad yma gan ddefnyddiad y ferf Hebraeg *cabhats* (rhangymmeriad yr hon a gyfieithir, "y rhai a'i cynnullant"), yr hon sydd yn arwyddo casglu pethau gwasgaredig yn bentwr.

Hefyd, dirymir darnodiad y Dr. Jahn o *tirosh*, fel y sudd a lifai o'r grawnwin sathredig, gan y ffaith fod gair arall yn arwyddo yr un peth yn hollol mewn bod, sef *awsis*, o *awsas*="cyd-sathru i lawr." Nid ydyw yn debyg chwaith ei fod yn enw cyffredinol am win, gan mai enw o'r fath ydyw *yayin*.

3. *Yitzhar:* "ffrwyth y berllan," yn enwedig ffrwyth gauaf, neu ffrwyth cadw, megys aeron y palmwydd, ffigys, olifaid, pomgranadau, llebrawn (*citron*), cnau, &c. Y mae geirdarddiad *yitzhar* yn llwyr gytuno â'r hawl a roddir iddo i ddynodi dosbarth eang a gwerthfawr o ffrwythau. Cyfeiria y geiriaduron yn briodol, fel y tybia y beirniaid yn gyffredin, at y gwreiddyn *tzhar*, yr hwn a arwydda ymddangosiad dysglaer a gloew. Y mae yn amlwg i'r enw gael ei awgrymu gan liw dysglaer llawer o'r rhywogaethau, megys yr olifaid, y llebrawn, a'r orains. Y mae enw yr olew-wydden, *zayith*, a elwir weithiau "y dysgleirbren," wedi tarddu yr un modd, gan mai y gwreiddyn yw *zi*=dysglaer, neu ysblenydd. Y mae enw dosbarth arall yr orains, wedi tarddu yn gyffelyb. Yr enw Lladin, *aurantium*, o *aurum*, "aur," trwy newidiad bychan yn y sillebiad, a ddaw yn yr Italaeg, yr *aranica;* ac o hwnw, trwy Provence, daw yr enw Ffrancaeg *orange;* o'r hwn y daw yr enw Cymraeg "orains," ac hyd yn oed rhan o'r enw sydd yn fwy Cymreig fyth, er nad mor arferedig, sef eurafal; yr hwn hefyd sydd yn enw mwy cyffredinol, gan yr arferir ef am *lemon* cystal ag *orains*. Trwy yr Arabaeg Syriaidd yr ydym yn olrhain yr enw Saracenig ac Yspaenaidd am flodyn erains, *azahar*, yr hwn fe allai a dardd o'r un cyff cyffredin a'r Hebraeg, *tzahar*. Fel hyn y mae y gair *owrowth*, "llysiau y crochan," (*pot-herbs*), yn arwyddo "pethau dysglaer o liw gwyrdd," o'r Hebraeg *aurath*, goleuni, neu dysgleirdeb; yna yr enw Lladin am aur, *aurum;* y Gymraeg, *aur;* y Ffrancaeg, *or;* a'r Seisoneg am fetteloedd dysglaer, *ore*.

Gan fod beirniaid yn gwahaniaethu fel hyn rhwng *dagan* a *hhittahh* (gwenith), a rhwng *awsis* a *yayin*, fe ddylid gwahaniaethu hefyd rhwng *yitzhar* a *shemen*, "olew," y rhai yn anffodus a gymmysgir yn y cyfieithiadau cyffredin. Dywedir fod yn ddiammheuol mai y gair priodol am olew yw *shemen*, ac nid *yitzhar:* gan hyny, gan mai peth neillduol yw *shemen*, ceir ef mewn cysylltiad â llawer o ddybenion neillduol, megys defnyddiau aberthol a chyssegredig, pethau bwytadwy a masnachol, a defnyddir ef i egluro archwaeth, llyfnder, llawnder, ansawdd, ffrwythlondeb, danteithion, &c. Mae defnyddiad *yitzhar* i'r gwrthwyneb. Ni ddefnyddir ef gymmaint ag unwaith mewn ffordd o gymhariaeth nac eglurhad ar unrhyw ansawdd neillduol sydd yn perthyn iddo ef ac i nwyddau arbenig ereill hefyd. Cysylltir ef mewn un ymadrodd yn unig â *zayith*, "olew," ac hyd yn oed yn y lle hwnw (2 *Bren.* xviii. 32), ceidw ei ystyr cyffredinol fel ansoddair yr enw, "ffrwyth cyffeithiedig" Dylai gael ei ddarllen fel hyn:—"Gwlad olifaid cyffeithiedig (*zayith yitzhar*) ac aeron y palmwydd (*debhash*)." Y mae gan Cato ymadrodd cyffelyb: *oleam conditivam*, sef, coed olifaid cyffeithiedig. Dywedir fod i'r enwau Lladin, *malum* a *pomum*, ystyr helaeth tra chyffelyb i'r *yitzhar* Hebraeg. Mae Varro yn gofyn fel hyn:—"Onid yw Italy wedi ei phlanu â choed ffrwythau, fel yr ymddengys fel un berllan (*pomarium*) gyfan?"

Fel hyn yr ydym wedi bod yn ystyried fod y tri enw yma yn cynnwys pob sylwedd llysienol at angen a danteithion yr ymborthai yr Hebreaid

Digitized by Google

arnynt yn gyffredin—o'r rhai y rhoddid blaenffrwyth, neu y telid degwm; ac eglura y golygiad yma ar eu hystyr pa ham yr oedd y gorchymynion a roddwyd yn nghylch offrymau a degymau yn cael eu hamlygu yn ddigonol trwy yr enwau hyn yn unig: *Num.* xviii. 12; *Deut.* xiv. 23. Pe cyfyngasid *dagan* yn y testynau hyn at *wenith*, ni buasai hyny yn rhwymo i roddi blaenffrwyth na degwm o haidd a grawn arall: pe buasai *tirosh* yn arwyddo *sudd y grawnwin*, yna buasai yn hawdd osgoi y ddeddf hon trwy sychu y ffrwyth fel rhesin, neu ei gyffeithio mewn ffyrdd ereill; a phe buasai *yitzhar* yn arwyddo *olew*, buasai yn anhawdd profi o gwbl y rhaid talu degymau, a rhoddi blaenffrwyth dosbarth helaeth a gwerthfawr o gynnyrchion, megys aeron y palmwydd, llebrawn, pomgranadau, &c., a buasai yn anmhosibl gwneuthur hyny oddi wrth y testynau hyn. Er hyny, dyma y testynau mwyaf pendant sydd i'w cael ar y pwnc, ac y mae yn amlwg y bwriadwyd iddynt fod yn bur gynnwysfawr; ac o ganlyniad, gan fod degymau o'r holl ffrwythau hyn yn cael eu talu, mae yn amlwg fod arferiad yn dangos fod yr ymadroddion hyn yn cynnwys —1. Ffrwyth y maes. 2. Ffrwyth y winllan. 3. Ffrwyth y berllan—yn cynnwys ffrwythydd haf a ffrwythydd cyffeithiedig.

Yn awr, rhoddwn dalfyriad o'r ymchwiliad a wnaed i'r ymadroddion Ysgrythyrol sydd yn cyfeirio at *dagan*, *tirosh*, a *yitzhar*, ac yn dangos eu sefyllfaoedd perthynasol:—

1. Y maent yn cydgyfarfod mewn pedwar ar bymtheg o fanau yn y Beibl. Y mae *dagan* i'w gael gyda *tirosh* yn unig saith waith; gyda *yayin* unwaith yn unig, ac y mae *yayin* yno (*Galar.* ii. 12) yn arwyddo grawnwin. Ceir *tirosh* ddeunaw ar ugain o weithiau: mewn deg ar ugain o leoedd, mae yn gyssylltiedig â'r gair *dagan*, yr hwn a gydnabyddir gan bawb fel enw cyffredinol; mewn un ar ugain gydag *yitzhar;* a chwe gwaith yn unig y ceir ef heb *dagan* neu *yitzhar.*

2. Y mae *tirosh* i'w gael saith waith gyda *royshyth* neu *biccowr*, "blaenffrwythau;" deng waith gyda *terŵbhah*, "offrymau," neu *magnasayr*, "degymau," y rhai yn gyffredin a fyddent y ffrwyth a'r grawn a gesglid gynnaraf yn eu sefyllfa naturiol.

3. Cyssylltir *tirosh* a *yayin* mewn tri ymadrodd yn unig: dwy waith mewn ffordd o esgyniaith yn unig (*Hos.* iv. 11; *Esa.* xxiv. 7—10), ac unwaith (*Mica* vi. 16), fel cynnyrchydd gwin, ac nid fel gwin ei hun.

4. Ni chyssylltir *tirosh* yn ddigyfrwng â *shemen* (olew) mewn un man.

5. Cyssylltir y tri enw yn barhaus ac yn agos âg ymadroddion yn arwyddo cynnydd cynnyrch llysieuol, neu âg arwyddion tyfiad ffrwyth y ddaiar, neu fwyhad pethau amaethyddol, yn enwedig ffrwyth y maes a'r winllan. Y maent i'w cael hefyd mewn cyssylltiad â geiriau yn arwyddo cynnyrch ffrwythol neu anifeilaidd, megys weithiau mewn cyssylltiad â'r winwydden, yr olewydd, y ffigyswydd, neu y balmwydden: ond anfynych â'u ffrwyth neillduol fel defnyddiau penodol ymborth; ac anfynychach fyth y cyssylltir hwy â geiriau yn arwyddo y gorchwyl o'u parotoi neu eu cyffeithio, nac â'r llestr neu y dull yr ymborthir arnynt hwy. Yn yr holl olygiadau hyn, y maent yn hollol wrthgyferbyniol i eiriau yn dynodi cynnyrch neillduol neu barotoadau celfyddydol, megys *sayith* (olifaid), *shemen* (olew), *yayin* (gwin), neu *lehhem* (bwyd neu fara).

6. Yn yr ychydig fanau lle y dygwyddant mewn cyssylltiad â phethau neu amgylchiadau neillduol, bydd rhesymau neillduol amlwg dros y cyssylltiad hwnw; yr hyn a gadarnha y golygiad a roddwyd o'u harwyddocad cyffredinol. Prawf ydyw yr eithriadau a gyfarfyddir o wirionedd y rheol.

7. Yn olaf, er fod y tri gair wedi bod yn cael eu defnyddio am yr ysbaid o fil o flynyddoedd (*Num.* xviii. 12, c.c. 1489, hyd *Nehem.* xiii. 12, c.c. 409) gan gynnifer a phedwar ar ddeg o wahanol awdwyr, y rhan fwyaf o ba rai hefyd a ddefnyddient *yayin* a *shemen* mewn cyssylltiad; eto nid oes dim un esampl iddynt gyssylltu *tirosh* â *shemen*, na *yayin* â *yitzhar.* Yn y gwrthwyneb, y mae y triad yma o enwau cyffredinol wedi cael eu gwahaniaethu yn ofalus a chywir oddi wrth eiriau sydd yn dynodi rhai o'u rhywogaethau, neu barotoadau celfyddydol yn unig o honynt.

**FFUGYROL.** Gwel RHETOREG.

**FFURFAFEN** (*ffurf—men*, medd Dr. Pughe; o'r Lladin *firmamentum*, medd ereill): wybr, entrych, nwyfre, yr awyr, y nen, yr eangder fry. Yn *Gen.* i. 7, dywedir i Dduw wneyd y ffurfafen yn nghanol y dyfroedd, i wahanu rhwng y dyfroedd oddi tanodd a'r dyfroedd oddi arnodd. Mae y gair a ddefnyddir ar yr achlysur yn briodol yn arwyddo eangder, neu rywbeth wedi ei ledu neu ei estyn. Yr eangder hwn yn briodol ydyw yr awyrgylch sydd yn amgylchu y ddaiar o bob tu, ac yn gwahanu y dyfroedd sydd yn y cymylau oddi wrth y rhai sydd ar y ddaiar.—*Watson.* Yn unol â hyn, cyfleitha un gŵr dysgedig yr adnod uchod fel y canlyn:—"Yna dywedodd Duw, Bydded eangder yn nghanol y dyfroedd, a bydded yn gwahanu rhwng dyfroedd a dyfroedd. Felly gwnaeth Duw yr eangder, a gwahanodd rhwng y dyfroedd oddi tan yr eangder a'r dyfroedd oddi ar yr eangder: a bu felly. A galwodd Duw yr eangder yn nefoedd."—*The Cambro-Briton*, iii. 219.

Rhai seryddwyr, hen a diweddar, ydynt yn cyfrif y ffurfafen yn ddefnydd hylif; ac ystyriai yr Hebreaid ei bod yn dryloyw, fel crisial neu saphir: *Ezec.* i. 22; *Dan.* xii. 3; *Exod.* xxiv. 10; *Dad.* iv. 6—ac felly yn wahanol i nef Homer, o bres neu haiarn, neu yr hen syniad ei bod yn sylwedd caled.

Yn nghyfundrefn Ptolemy, gelwir y ffurfafen yr wythfed nef neu rôd, gyda golwg ar saith rôd y planedau, y rhai y mae yn eu hamgylchu. Tybir fod iddi ddau ysgogiad—y dyddiol a roddir iddi gan y *primum mobile*, o'r dwyrain i'r gorllewin, o amgylch pegynau yr heulrawd; ac ysgogiad arall cyferbyniol, o'r gorllewin i'r dwyrain, yr hwn a gyflawnir, yn ol Tycho, mewn 25,412 o flyneddoedd; yn ol Ptolemy, mewn 36,000; ac yn ol Copernicus, mewn 25,800—yn yr hwn amser y dychwel y ser sefydlog i'r un manau ag yr oeddent ynddynt ar y dechreu. Gelwir yr ysbaid hwn y Cylch Platonaidd, neu y Flwyddyn Fawr. Gwel SERYDDIAETH.

**FFURF-WASANAETH:** sydd yn arwyddo yr holl ddefodau a berthynant yn gyffredin i wasanaeth neu addoliad dwyfol. Y mae y gair *liturgy* yn Seisoneg, a gyfleithir ffurf-wasanaeth, yn dyfod oddi wrth y Groeg λειτουργία, *gwasanaeth, gweinidogaeth gyhoedd*, yn tarddu oddi wrth λειτος, *cyhoedd*, ac εργον, *gwaith.* Mewn ystyr cyfyngach, mae y gair yn mhlith y Pabyddion yn arwyddo yr offeren, ac yn mhlith

Digitized by Google

Protestaniaid y *Weddi Gyffredin*. Y mae pawb sydd wedi ysgrifenu ar hyn yn cytuno fod y gwasanaeth dwyfol, yn yr oesoedd cyntefig, yn dra syml, gydag ychydig iawn o ddefodau, ac yn gynnwysedig o nifer bychan o weddïau; ond, yn raddol, chwanegwyd at nifer y defodau, a dygwyd i mewn weddïau newyddion, er mwyn gwneyd y gwasanaeth yn fwy mawreddog ac urddasol yn ngolwg y bobl. O'r diwedd, dygwyd pethau yn mlaen mor bell, fel y bu angenrhaid cael rhyw drefn; a gwelwyd fod llwyr achos i ddodi y gwasanaeth a'r dull o'i gyflawni mewn ysgrifen: a hyn ydoedd y peth a alwent yn ffurf-wasanaeth.

Mae y ffurfiau hyn yn gwahaniaethu ar wahanol amserau, ac mewn gwahanol wledydd. Mae gan yr Armeniaid, Coptiaid, Ethiopiaid, Groegiaid, Syriaid, Maroniaid, a Nestoriaid, eu hamrywiol ffurfiau-gwasanaeth, a rhai o honynt o dri i ddeugain o wahanol fathau.

Yn Eglwys Groeg, y mae tair ffurf-wasanaeth yn arferedig; sef, yr eiddo Basil, Chrysostom, a Ffurf-wasanaeth y tra-sancteiddiedig. Mae ffurf-wasanaeth Eglwys Rhufain yn rhanedig i amryw lyfrau, megys y *Breviary* (Crynodeb), yn cynnwys y gwasanaeth plygeiniol, moliannau, &c.; y *Missal* (Llith-lyfr), a ddefnyddir i ddywedyd yr offeren, ac yn cynnwys y blwyddiadur, y rhuddelli cyffredinol, neu ddefodau yr offeren; y *Ceremoniale* (Defod-lyfr), yn cynnwys y ffurfiau priodol i'r pab, megys cyssegriad, bendithiad, seintiadaeth, &c.; y *Pontificale* (Pabiadur), yn desgrifio dyledswyddau esgobion mewn urddiadau, cyssegriad eglwysi, &c.; a'r *Ritual* (Llyfr defodau), yn cynnwys y ffurfiau a ddefnyddir gan yr offeiriaid cyffredin yn yr addoliad cyhoeddus, ac yn y dirgel. Cyflawnir yr holl ffurfiau hyn yn yr iaith Lladin. Y gwasanaeth Yspaenaidd a adnabyddir wrth yr enw Ffurf-wasanaeth Mozarabig. Y Ffurf-wasanaeth Ambrosaidd sydd mewn arferiad neillduol yn Eglwys Milan. Yn Ffrainc, yr oedd gan Eglwys St. Martin grynodeb o'r eiddi ei hun, gwahanol i'r eiddo Rhufain a'r eiddo Tours; ac yr oedd gwahaniaeth cyffelyb yn ffynu yn St. Quintin ac glwysi ereill yn Ffrainc.

Cyn y Diwygiad oddi wrth Babyddiaeth, yr oedd amryfal fathau o'r ffurf-wasanaeth Lladin mewn arferiad yn ngwahanol barthau y deyrnas hon. Yr oedd gan eglwysi cadeiriol Caerefrog, Caerlwydgoed, Henffordd, a Bangor, ac hyd yn oed Aberdeen yn yr Alban, eu gwahanol arferion; ond nid oedd gan yr un eglwys gadeiriol y fath amrywiaeth o lyfrau gwasanaeth ag oedd mewn arferiad yn Sarum. Yr oedd defod-lyfr Eglwys Caercaradog, a sefydlwyd gan yr esgob Osmund yn 1077, yn cael ei ystyried yn wasanaeth tra chyflawn; a bu am ryw ysbaid yn arferedig braidd dros holl Loegr, Cymru, a'r Iwerddon. Yr oedd holl dalaeth Caergaint wedi ei dderbyn, ac esgob Caercaradog yn ei hawl fyddai y blaengeiniad yn nghôr yr esgobion, pa bryd bynag y byddai archesgob y dalaeth yn cyflawni y gwasanaeth crefyddol.

Ffurf-wasanaeth Eglwys Loegr a gyfansoddwyd yn y flwyddyn 1547, ac a gadarnhawyd yn yr ail flwyddyn i Edward VI. Yn y bummed flwyddyn i'r brenin hwn, fe'i hadolygwyd, gan fod rhyw bethau yn gynnwysedig yn y ffurf hono ag oedd yn amlygu cydsyniad âg ofergoeledd yr amseroedd hyny; ac yr oedd gwrthwynebiad iddo wedi ei ddangos gan rai gwŷr dysgedig gartref, a chan Calvin yn enwedig yn mysg y tramoriaid. Gwnaed rhai cyfnewidiadau yn y ffurf-wasanaeth, yn cynnwys y chwanegiad o'r gyffes gyffredinol a'r gollyngdod, a'r cymundeb i ddechreu gyda'r Deg Gorchymyn. Y defnydd o olew yn y bedydd esgob, a'r eneiniad diweddaf, a adawyd allan, yn nghyd â'r gweddïau dros eneidiau ymadawedig, a'r hyn a berthynai i'r gred am wir bresennoldeb Crist yn sacrament y cymun. Y ffurf wasanaeth hwn, wedi ei ddiwygio felly, a gadarnhawyd gan ddeddfau y bummed a'r chweched i Edward VI. *pen.* i. Er hyny, cafodd ei ddiddymu gan y frenines Mary; yr hon a wnaeth ddeddf, fod i'r gwasanaeth sefyll fel yr oedd yn fwyaf arferedig yn y flwyddyn olaf i Harri VIII. Adsefydlwyd *Llyfr Gweddi* Edward VI, gyda rhai cyfnewidiadau, gan Elizabeth. Dygwyd i mewn rai cyfnewidiadau yn mhellach, yn ganlynol i adolygiad ar y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, drwy orchymyn y brenin Iago I., yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, yn enwedig yn ngwasanaeth bedydd neillduol mewn tai gartref, yn amryw ruddelli, a rhanau ereill, gyda chwanegiad o bump neu chwech o weddïau a diolchiadau newyddion, a'r oll o'r gyfran hono o'r Catecism sydd yn cynnwys athrawiaeth y sacramentau. Parhaodd y *Llyfr Gweddi Cyffredin*, wedi ei newid felly, mewn grym o'r flwyddyn gyntaf i'r brenin Iago hyd y bedwaredd ar ddeg i Siarl II., oddi eithr yn amser y Werinlywodraeth, pryd y darfu i'r senedd ddiddymu yr arferiad o hono yn y deyrnas hon, a rhoddi ar y gymmanfa o dduwinyddion i barotoi trefn gwasanaeth crefyddol, a elwir *Hyfforddiadur*, yn ei le, yn 1644; a bu yn cael ei ddefnyddio hyd yr Adferiad. Yr adolygiad diweddaf ar y ffurf-wasanaeth a wnaed yn y flwyddyn 1661. Gwnaed llawer cais am gael diwygiad arno er y pryd hyny; ond hyd yma yn aflwyddiannus.

Yn *Llyfr Gweddi Cyffredin* yr Eglwys Esgobawl Brotestanaidd yn yr Unol Daleithiau, a ddygwyd i arferiad yn 1789, y mae Credo Athanasius wedi ei adael allan; ac y mae yn caniatai rhyddid i'r gweinidog i ddefnyddio, yn lle y ymadrodd "efe a ddisgynodd i uffern," y geiriau, "efe a aeth i le yr ysbrydion ymadawedig."

FFURFWASANETH LLYNLLEIFIAD.

Yn y flwyddyn 1752, cyhoeddwyd math o ffurf-wasanaeth yn Liverpool, adnabyddus wrth yr enw *Liverpool Liturgy*. Cyfansoddwyd hwn gan ryw Henaduriaethwyr dirywiedig—y rhai, wedi blino ar weddi ddiragfyfyr, a dybient fod ffurf yn fwy dymunol. Dywedai Mr. Orton am dano, "Prin y mae yn wasanaeth Cristionogol. Yn y colectau, o'r braidd y mae enw Crist yn cael ei grybwyll; ac y mae yr Ysbryd wedi ei lwyr alltudio o hono." Nid oedd nemawr gwell na chyfansoddiad anffyddaidd.

FFUST—IAU: yr un gair sydd yn Lladin am *ffust* a *fflangell*, sef *flagellum* (gwel FFLANGELL); ac y mae gwneuthuriad ein *ffust* ni ar yr un egwyddor yn hollol a gwneuthuriad *fflangell* neu *chwip*, ond fod y rhan sydd heb fod yn y llaw o'r fflangell, a elwir "carai," yn cael ei gwneyd o ledr neu gortyn, tra y mae y rhan gyfatebol o'r ffust yn bren. Gwneir ein ffust gyffredin ni o dair rhan: y troed-ffust (*hand-staff*), yr hwn sydd bren tua phum troedfedd o hyd, ac o fodfedd i fodfedd a hanner o dryfesur, ac yn meinhau ychydig o'r naill ben i'r llall, yn mhen meinaf yr hwn yr ymeifl y dyrnwr â'i ddwy law. Y wialen-ffust, ial-ffust, a elwir mewn rhai parthau ystwyal (*swiple*), sydd bren tua phedair troedfedd o hyd, o fodfedd a hanner i ddwy fodfedd o

Digitized by Google

dryfesur, gan ffyrfhau ychydig at y blaen, â'r hwn y ffustir yr ŷd; a'r tep (*middle-band*), yr hwn a gyssyllta yr ystwyal a'r troed-ffust yn nghyd, a wneir fynychaf o groen tew wedi ei sychu: ond mewn rhai parthau, gwneir y tep o lin, neu gywarch, ac hyd yn oed o wellt.

Nid ydym yn gwybod fod y gair *ffust* yn y Beibl Cymraeg ond unwaith; a'r tro hwnw y mae yn y rhif luosog. "A dywedodd Arafnah wrth Dafydd, Cymmered ac offrymed fy arglwydd frenin, yr hyn a fyddo da yn ei olwg: wele yr ychain yn boethoffrwm, a'r ffustiau ac offer yr ychain yn lle cynnud;" 2 *Sam.* xxiv. 22. Mae yr un amgylchiad yn cael ei ail adrodd yn 1 *Cron.* xxi. 23; ond yma cyfieithir y gair, nid yn "ffustiau," ond yn "offer dyrnu;" a diau fod hwn yn well na'r cyfieithiad arall. Y mae yn anhawdd iawn i Gymro, heb wybod dim am arferion y dwyrain o ddyrnu, ddeall ystyr na gwerth y cynnyg a roddai Arafnah neu Ornan (canys yr un gŵr a olygir wrth y ddau enw:—gwel Arafnah) i'r brenin Dafydd; ac yr oedd cyfieithu y gair yn *ffustiau* yn chwanegu at yr anhawsder: "Wele yr ychain yn boethoffrwm, a'r ffustiau... yn lle cynnud;" hyny yw, i losgi yr ychain yn aberth. Pa faint o'n ffustiau ni y buasai raid fod gan Arafnah i gyflawni y gorchwyl yma? Yn ddiau, nis gallasai Arafnah fod yn dal cymmaint o dir ag a fuasai yn gofyn cymmaint o "ffustiau" (yn ol ein syniad ni am ffustiau) i ddyrnu ei gynnyrch, ag a fuasent yn ddigon o gynnud i losgi dau o ychain yn boethoffrwm! Ond os deallir y dull dwyreiniol o ddyrnu, fe wel y darllenydd ar unwaith fod cynnyg Arafnah yn bwysig ac yn bwrpasol. Pan y mae Esaiah yn llefaru am arferion cyffredin y gweithrediadau gwladol ac amaethyddol yn Iudea, er dangos mai rhoddion Iehofah ydyw yr holl ddaioni a'r talentau tymmorol a fwynha meibion dynion, efe a ddywed, "Canys ei Dduw a'i hyfforddia ef (yr arddwr) mewn synwyr, ac a'i dysg ef. Canys nid âg ôg (yn hytrach, "offer dyrnu") y dyrnir ffacbys, ac ni throir olwyn men ar gwmin; eithr dyrnir ffacbys â ffon, a chwmin â gwialen. Yd bara a felir; ond gan ddyrnu, ni ddyrn y dyrnwr ef yn wastadol, ac ni ysiga ef âg olwyn ei fen, ac nis mâl ef â'i wŷr meirch;" *Esa.* xxviii. 26—28. Y mae troi olwyn men i ddyrnu ŷd bara yn ymddangos i ni yn orchwyl tra rhyfedd; ond y mae sylwadau teithwyr ar y dull dwyreiniol o ddyrnu yn rhoddi eglurhad boddhaol ar hyn. "Yr ail sylw," medd Norden, "a wneir ar eu dull o ddyrnu, neu yn hytrach, o sathru reis yn yr Aipht, trwy gyfrwng ysledfen, neu gàr llysg (a elwir yn Esaiah, 'mèn'), yn cael ei thynu gan ddau o ychain. Bydd gyrwr y fèn ynddi ar ei liniau, tra y bydd dyn arall yn cymmeryd gofal i dynu y gwellt, ac i'w ryddhau oddi wrth y grawn a fydd oddi tani. Er mwyn sathru y reis, y maent yn ei osod ar lawr yn un fodrwy, ac yn gadael cylch gwag bychan yn y canol." "Wrth ddyrnu eu hŷd," medd Niebühr, "gesyd yr Arabiaid yr ysgubau ar lawr mewn trefn benodol, ac yna gyrant ddau ŷch, yn tynu maen mawr, drostynt. Nid yw y dull yma o wahanu y tywys oddi wrth y gwellt yn annhebyg i ddull yr Aipht." "Y maent," eb efe, mewn lle arall, "yn defnyddio ychain, fel yr hynafiaid, i guro eu hŷd allan, trwy sathru yr ysgubau, a thynu peiriant neu offer amrosgo ar eu hol. Nid rholyn o faen yw y peiriant hwn, fel yn Arabia; na bwrdd o goed â cheryg miniog ynddo, fel yn Syria; ond math o ysledfen yn cynnwys tri rholyn, wedi eu sicrhau â haiarn, ac yn troi ar echelau. Mae yr amaethwr yn dewis lle gwastad yn un o'i feusydd, ac yn cludo ei ysgubau yno, ar gefn asynod neu dromedariaid. Yna ieuir dau ŷch wrth ysledfen; aiff y gyrwr ar hono, a gyr yr ychain yn ol ac yn mlaen, neu ar gylch, dros yr ysgubau; a newidir yr ychain, fel y byddo y lleill yn diffygio. Trwy hyn, dryllir yr us yn chwilfriw: wedi hyny, nithir y cyfan; ac felly y gwahenir y grawn pur oddi wrth y sothach. Mae y dull yma o ddyrnu yn annyben ac anghyfleus, gan ei fod yn difetha y peiswyn, ac yn niweidio ansawdd y grawn." "Gelwir y peiriant hwn," medd Niebühr yn mhellach, "yn *nauridsj*. Y mae iddo dair rholyn, yn troi ar echelydd; a rhoddir haiarn crwn a gwastad yn mhob un o honynt. Gwelodd Mr. Forskal a minnau, lawer gwaith, tua dechreu Mehefin, yn ngororau Dsjise (Gizè), pa fodd yr oeddynt yn dyrnu ŷd yn yr Aipht. Yr oedd pob amaethwr yn dewis lle gwastad, llyfn, mewn maes agored, o 80 i 100 llath o arwynebedd; ac yno y cludai ei ŷd, yn ysgubau, ar gefn asynod neu gamelod. Yna trefnai yr ysgubau yn gylch o ddeutu chwech neu wyth troedfedd o led, a thua dwy droedfedd o uchder; a gyrid dau ŷch yn tynu yr ysledfen (*traineau*) grybwylledig drostynt, drosodd drachefn a thrachefn; a gwneid hyny gyda'r cyfleusdra mwyaf i'r gyrwr, canys yr oedd efe yn eistedd mewn cadair wedi ei sefydlu yn yr ysledfen. Dyrnid dwy gyfres felly o ysgubau yn y dydd; ac yr oeddynt yn troi ac yn symmud pob un o honynt gynnifer ag wyth waith, â phigfforch bren bum pig, a alwent *meddre*. Fel yr oedd y dyrnu yn myned yn mlaen, byddent yn taflu y gwellt i ganol y cylch, yn un pentwr, yr hwn oedd yn cynnyddu yn barhaus. Yna, wedi dyrnu y gyfres gyntaf o ysgubau, byddent yn ail osod y gwellt oedd yn y cylch, ac yn ei ddyrnu drachefn fel o'r blaen. Fel hyn, yr oedd y gwellt yn myned yn llai o hyd, nes o'r diwedd yr ymddangosai fel pentwr o wellt wedi ei falu. Ar ol hyn, yr oeddynt yn taflu y cwbl, â'r bigfforch grybwylledig, rai llatheni o'r fan yn erbyn y gwynt, yr hwn a yrai y gwellt a'r us yn ol, tra y syrthiai y grawn a'r tywys oedd heb eu dyrnu ar wahân yn y fan hono, yn un pentwr arall. Yr oedd dyn yn casglu y torchau llaid, a phob anmhuredd arall, wrth ba rai y glynai yr ŷd, ac yn eu bwrw i ogr. Yna, yr oeddynt yn gwneyd y pentwr yn gylch drachefn, yn yr hwn y canfyddid amryw dywys cyfain, ac yn gyru yr ychain a'r ysledfen drosto am o bedair i chwe awr olynol, gan ddefnyddio gryn ddeuddeg pâr o ychain i'w sathru, nes llwyr wahanu y grawn: yna taflent y pentwr drachefn yn erbyn y gwynt â rhaw (*luhh*), nes ei lwyr lanhau."

Yr oedd yr hen Arabiaid, y Syriaid, yr Aiphtiaid, a'r Rhufeiniaid, yn dyrnu eu hŷd yn yr un dull, fel y gellir gweled yn Bochart [ii. 302, 310]. "Mae y Mooriaid a'r Arabiaid," medd Dr. Shaw, "yn parhau i *sathru* eu hŷd, yn ol hen arfer gyntefig y dwyrain. Yn lle ychain, y maent hwy yn defnyddio mulod a cheffylau yn fynych, trwy eu hieuo yn yr un dull gerfydd eu gyddfau, gan roddi tri neu bedwar yn nghyd, a'u chwipio wedi hyny o amgylch y llawr dyrnu (*neddar*), ar yr hwn y bydd yr ysgubau wedi eu gosod yn agored a thaenedig, yn yr un dull ag y parotoir hwy genym ni i'w dyrnu. Mae yn wir fod hwn yn ddull llawer cyflymach na'n dull ni, ond nid yw mor lanwaith; canys, y mae y gorchwyl yn cael ei gyflawni yn yr awyr agored (*Hos.* xiii. 3), ar

Digitized by Google

ddarn o ddaiar gwastad, wedi e. ddwbio drosto â thail gwartheg, er mwyn rhwystro i'r pridd, a'r tywod, a'r graian godi, hyd y galler; ond er yr holl ddarpariaeth yma, bydd llawer yn codi ac yn ymgymmysgu â'r grawn; ac, ar yr un pryd, dryllir y gwellt, eu hunig borthiant, yn ddarnau mân—amgylchiad y cyfeirir ato yn briodol yn 2 *Bren.* xiii. 7; lle y dywedir fod brenin Syria wedi gwneuthur yr Israeliaid "fel llwch wrth ddyrnu." Gwel DYRNU.

Fe wel y darllenydd fod y fath wahaniaeth dirfawr rhwng "offer dyrnu" y dwyrain a'n "ffustiau" ni, fel yr oedd cynnyg Arafnah i'r brenin Dafydd yn rhesymol ac yn haelfrydig. Mae yn deilwng o sylw hefyd mai "mèn" y cyfleithir yr un gair Hebraeg yn *Esa.* xli. 15, a xxviii. 27, ag a gyfleithir yn 2 *Sam.* xxiv. 22, yn "ffustiau," yr hwn yn 1 *Cron.* xxi. 23, a gyfleithir yn fwy priodol yn "offer dyrnu."

FFWRN—ES—IAU [Fr. *fournaise, fourneau,* o'r Llad. *fornax, furnus*]. Nodir amryw fathau o ffwrneisiau yn y Beibl. Mae pedwar o eiriau Hebreig yn cael eu cyfleithu yn y Beibl yn ffwrn. Y cyntaf y sylwir arno yw תנור (*tanur*), a gyfleithir yn ffwrn yn *Gen.* xv. 17; *Esa.* xxxi. 9; *Neh.* iii. 11; xii. 38. Cymhwysir y gair yn gyffredinol at ffwrn y pobydd. Gwel BARA. Dywed y beirniaid mai y math yma o ffyrnau a feddylir yn Nehemiah; ac y dylai yr ymadrodd, "tŵr y ffyrnau," gael ei gyfleithu "tŵr y pobdai," neu "dŵr ffyrnau y pobyddion." Defnyddir y gair mewn ystyr mwy cyffredinol yn *Gen.* xv. ac *Esa.* xxxi.

Y gair Hebraeg arall a gyfleithir ffwrn yn y Beibl ydyw כבשן (*cibeshan*), yn arwyddo ffwrn doddi neu greisioni (*Gen.* xix. 28; *Exod.* ix. 8, 10; xix. 18)—yn enwedig ffwrn odyn galch; yr hon, fel y mae yn amlwg, oedd yn eithaf hysbys i'r Hebreaid: *Esa.* xxxiii. 12; *Amos* ii. 1.

Y trydydd gair Hebraeg a gyfleithir ffwrn yn y Beibl yw כור (*cur*)—yn arwyddo ffwrn buro: *Diar.* xvii. 3; xxvii. 21; *Esec.* xxii. 18–22. Cymhwysir y gair yn ffugrol at sefyllfa o brofedigaeth neu helbul: *Deut.* iv. 20; 1 *Bren.* viii. 51; *Esa.* xlviii. 10; *Ier.* xi. 4. Fe allai mai yr un ffurf oedd i'r rhai hyn ag a welir ar hen gofadeiliau yr Aipht.

Y pedwerydd gair Hebraeg a gyfleithir ffwrn yw אתון (*attun*)—yn arwyddo ffwrn fawr, wedi ei hadeiladu fel odyn briddfeini, âg agoriad yn ei phen i fwrw y defnyddiau i mewn (*Dan.* iii. 22, 23), a drws yn ei gwaelod i'w tynu allan o honi, heb fod yn annhebyg i odyn galch gyffredin.

Yr oedd y Persiaid yn arfer defnyddio y ffwrn i gospi troseddwyr â marwolaeth: *Dan.* iii. 15, &c.; *Ier.* xxix. 22; *Hos.* vii. 7; 2 *Macc.* vii. 5. Crybwyllir am amgylchiad cyffelyb gan Chardin [*Voy. en Perse*, iv. 276], yr hwn a ddywed fod dwy ffwrn yn cael eu cadw yn eiriasboeth am fis cyfan, yn barod i dderbyn pwy bynag o'r marsiandwyr ŷd a godai y farchnad.

Math arall o ffwrn hysbys i'r hynafiaid oedd ffwrn y crochenydd [*Eccles.* xxvii. 5; xxxviii. 30]; yr hon, yn ol y darluniau Aiphtaidd, oedd debyg i simdde, ac o ddeutu pum troedfedd o uchder.

Y mae ffwrn hefyd weithiau yn arwyddo aelwyd y gof [*Eccl.* xxxviii. 28]. Mae y gair Groeg, *caminos*, yn cael ei gymhwyso at y ddau fath olaf o ffyrnau, ac hefyd i ddysgrifio ffwrn odyn galch [*Xen. Vectig.*, iv. 49]. Mae yn cael ei arfer yn ffugrol yn y Testament Newydd yn yr ystyr yma (*Dad.* i. 15; ix. 2). ac yn *Mat.* xiii. 42, gyda chyfeiriad penodol at *Dan.* iii. 6.

Mae y ffyrnau sydd yn arferedig yn ein plith ni yn dra amrywiol a gwahanol, yn ol y gwahanol ddybenion a wneir o honynt. Gelwir yr alch (*grate*) gyffredin yn ffwrn gan rai celfyddydwyr. Gwneir hon o haiarn, fel y mae yn ddigon hysbys, o wahanol ffurfiau. Cedwir y tanwydd i mewn gan ffyn haiarn, o fewn dwy neu dair modfedd i'w gilydd, er mwyn iddi daflu gwres i'r ystafell, yr hyn yw ei phrif amcan; ac er nad yw ei gwres ond prin yn ddigon i doddi darn o arian teneu, eto cyflawnir llawer o orchwylion fferyllaidd pwysig trwy ei hofferynoliaeth; ac yn wir, y mae llawer o'r fath wedi ei wneyd trwyddi.

Y mae llawer math o ffwrneisiau wedi eu dyfeisio at amcanion fferyllaidd, ar gynlluniau bychain. Nodir ychydig o'r rhai mwyaf pwysig a ddefnyddir. Un o'r rhai hyny ydyw y *ffwrn wynt*, yr hon a boethir i dymmeredd uchel iawn, heb gymhorth megin, trwy gyfrwng tynfa awyrol (*draught*) nerthol. Y mae simdde y ffwrnes wynt yn gul ac uchel, ond nid yn rhy uchel i'r crefftwr edrych trwyddi. Mae gwagle y simdde o gylch 15 modfedd ysgwâr, a'r ffwrn ei hun yn taflu allan o waelod y simdde, ac wedi ei gweithio o'r priddfeini goreu. Pan y byddo eisiau poethder pur nerthol, rhoddir pibelli gwynt i mewn ynddi trwy dwll y lludw. Prif ddefnydd y ffwrn yma yw profi copr a mwnau ereill. Y tanwydd a ddefnyddir yw golosg glo (*coke*), neu gymmysg o olosg glo a golosg coed (*charcoal*).

Math arall yw y *ffwrn chwyth* (*blast-furnace*), yr hon a ddarlunia Mr. Faraday yn ei *Chemical Manipulation*—y fath ag a fu yn cael ei defnyddio am rai blynyddoedd yn fferyllfa y Sefydliad Breninol. Y rhan allanol o honi oedd pot glâs, 15 modfedd o hyd a 13 modfedd o amgylchedd, yn y pen uchaf. Y rhan fewnol oedd pot glâs bychan o saith modfedd o amgylchedd oddi mewn yn y pen uchaf, a'i waelod wedi ei dori ymaith, fel i adael gwagle rhyngddynt o bum modfedd. Pan roddid hwn yn y pot mwyaf, gorphwysai ar ei finion isaf, tra y byddai geneu y ddau yn gydwastad. Llenwid y gwagle rhyngddynt, yr hwn a gynnyddai o'r gwaelod i'r geneu, â llwch potiau gwydr-chwythwyr, wedi eu cymmysgu âg ychydig o ddwfr, a'u gwasgu i lawr â choed. Yna rhoddid alch gron yn y ffwrn o'r fath faint y gorphwysai fodfedd yn uwch na minion y pot mewnol; a'r gwagle o'r tu isaf iddi oedd ystafell yr awyr, a'r gwagle o'r tu uchaf iddi oedd yn ffurfio corff y ffwrn. Torid twll tua modfedd a chwarter o amgylchedd yn y pot allanol, gyferbyn âg ystafell yr awyr, i dderbyn trwyn y fegin. Rhaid gofalu am i'r ffwrn yma fod yn berffaith sech cyn ei defnyddio. Y tanwydd a ddefnyddir i'w phoethi ydyw golosg coed. Y mae y ffwrn yma yn ddigon nerthol i doddi haiarn pur mewn tawddlestr a roddir ynddi yn yr ysbaid o ddeuddeg neu bymtheng mynyd, os bydd y tân wedi ei gynneu yn mlaen llaw. Mae gwres y ffwrn yma yn ddigon cryf i doddi *rhodium*, ac hyd yn oed ddarnau o *blatina* pur.

Ffwrn arall dra defnyddiol yw y *ffwrn goethi*. Gwneir y ffwrn yma o haiarn, wedi ei orchuddio oddi mewn â chlai gwydn ac anhydawdd, yn yr hon y rhoddir math o ffwrn haiarn fechan, tebyg i bobdy, yn gorphwys ar ddau far haiarn a roddir yn nghanol y ffwrn allanol i'w dal. Enw y ffwrn fechan fewnol ydyw *muffle*. Defnyddir y math yma o ffwrn yn benaf at goethi aur ac arian; y rhai a roddir mewn tawddlestr, a'r hwn a roddir

Digitized by Google

yn y *muffle* pan fyddo wedi ei boethi yn wynias. Golosg coed ydyw y tanwydd a ddefnyddir i boethi y ffwrn yma.

Y *ffwrn wrthyrol* (*reverberating furnace*) sydd fath arall o ffwrn, yr hon a ddefnyddir ar gynllun eang i doddi amryw fetteloedd, i wneyd alcalïau, plwm coch, &c. Gan y defnyddir y ffwrn hon at lawer o wahanol ddybenion, gwneir hi ar wahanol ffurfiau, yn ol yr amcan a fydd mewn golwg yn benaf wrth ei defnyddio. Poethir y ffwrn yma â golosg coed, â glo, neu â choed, yn ol yr amgylchiadau.

Ffwrn bwysig arall ydyw *ffwrn olosg haiarn bwrw* (*coke pig-iron furnace*), yr hon a ddefnyddir yn Neheudir Cymru i wneyd haiarn bwrw neu haiarn tawdd (*pig-iron*). Y mae uchder y ffwrn hon o'r gwaelod i'r top yn hanner can troedfedd; o'r gwaelod i dop yr aelwyd yn wyth troedfedd a hanner; o'r aelwyd hyd dop derbynfa y toddion, wyth troedfedd a hanner. Mae lled y dderbynfa hon yn cynnyddu o tua thair troedfedd a hanner hyd nes y mae yn un droedfedd ar ddeg o arwynebedd. Yna y mae mewn-wisg (*lining*) y ffwrn yn dechreu, yn cynnwys dwy res o briddfeini tân, a chyfwng cul rhyngddynt i gynnwys tywod. Chwythir y ffwrn yma â meginau mawrion, y rhai a weithir gan agerbeiriant. Cynnwys tua 5,015 o droedfeddi; ac y mae yn alluog i gynnyrchu can tynell o haiarn tawdd yn yr wythnos.

FFYDDLAWN—DEB—IAID [ffydd—llawn]: gair a gymhwysir yn y Beibl at Gristionogion proffesedig, y rhai a fedyddiwyd fel arwydd o'u ffydd yn Nghrist; a defnyddir y gair hyd heddyw yn yr ystyr yma mewn ysgrifeniadau duwinyddol: 1 *Cor.* iv. 17; *Eph.* vi. 21; *Col.* iv. 9; 1 *Pedr* v. 12: *Act.* xvi. 1. 15; 2 *Cor.* vi. 5; 1 *Tim.* v. 16, a llawer o fanau ereill. Dywed yr apostol wrth Titus (*pen.* i. 6), y dylai plant esgobion fod yn ffyddlawn, er mwyn, yn ddiau, bod yn esamplau i'r praidd.

Y mae ffyddlondeb yn cael ei briodoli yn fynych yn y Beibl i Dduw: *Exod.* xxxiv. 6; 1 *Ioan* i. 9; *Salm* cxix. 75.

Priodolir ffyddlondeb hefyd yn fynych i'r Arglwydd Iesu: *Heb.* ii. 7; iii. 2; *Dad.* i. 5; iii. 14; xix. 11; *Ioan* xvii. 4; *Esa.* xi. 5.

Y mae ffyddlondeb hefyd yn cael ei briodoli i swyddogion cywir: *Heb.* iii. 5; *Col.* iv. 9; 1 *Pedr* v. 12; 1 *Cor.* iv. 2.

FFYNIDWYDD—EN, [ברוש]: ceir y gair mewn amryw fanau yn yr Ysgrythyrau, a chyfieithir ef yn gyffredin yn *ffynidwydd;* megys, 2 *Sam.* vi. 5; 1 *Bren.* v. 8; vi. 15, 34; ix. 11; 2 *Bren.* xix. 23; 2 *Cron.* ii. 8; iii. 5; *Salm* civ. 17; *Esa.* xiv. 8; xxxvii. 24; xli. 19; lv. 13; *Ezec.* xxvii. 5; xxxi. 8; *Hos.* xiv. 8; *Nah.* ii. 3; *Zech.* xi. 2. Y gair *beroth*, yr hwn y dywedir nad yw ond parabliad Armenaidd yn unig o'r un gair, a gyfieithir yn Seisoneg yn *fir* (ffawydd), yn *Can.* i. 17; ond yn ein cyfieithiad ni, ffynidwydd ydyw: "Swmerau ein tai sydd gedrwydd; ein trawstiau sydd *ffynidwydd.*" Y gwirionedd yw, mai rhywogaeth o'r *ffawydd* ydyw y ffynidwydd. Gwel Ffawydd. Dywed Rosenmüller:—"Yn y rhan fwyaf o'r ymadroddion lle y ceir y gair, cyfieithir ef yn yr hen Groeg a Syriaeg yn *gypreswydd.*" Y mae Celsius, yn y gwrthwyneb, yn barnu fod *berosh* yn arwyddo cedrwydd Libanus, ac mai enw cyffredin ydyw *eres* ar y ffawydd (*pinus sylvestris*), gan y tybia efe mai newidiad ydyw *berosh* o *sherbin*—enw Arabaidd ffawydd. Ereill a farnant mai bocs, onen, meryw, &c., yw *berosh.*

Cyfnewidir ychydig ar y gair *berosh*, neu *beroth*, yn y cyfieithiad Caldaeg, trwy ysgrifenu y blaenaf yn *berutha*, a'r llall yn *berath*. Mae y rhai hyn oll yn dal perthynas agos â *bruta*—enw yr eithinfyw (*savine plant*), sef *brathu*, *brathun*, a *brathou* y Groegiaid, yr hwn a drodd yr Arabiaid yn *burasee* a *buratee*. Cymhwysir y gair ganddynt hwy at fath o feryw (*juniper*), a elwir ganddynt hwy yn *abhul* ac *arus*, neu *orus*. Ymddengys y rhaid ystyried llawer o'r enwau hyn yn gyffredinol yn hytrach na neillduol, mewn amseroedd diweddar, pan yr ymdrechir cymmaint i wahaniaethu y naill rywogaeth oddi wrth y llall. Y mae *orus*, a gymhwysid gan yr Arabiaid at y meryw, yn arwyddo ffawydd (*pine-tree*) yn yr Ysgrythyrau, pa un bynag ai yr ystyr cyffredin a gymmerir, gan eu hystyried yn gedrwydd, ai barn Celsius, yr hwn a'u hystyria yn arwyddo y *pinus sylvestris*. Felly, gall fod yr Arabiaid yn cymhwyso y gair *buratee*, nid yn unig at yr eithinfyw, neu fath o feryw, ond at goed ereill hefyd tebyg iddynt, megys y gypreswydden. Mewn llawer o amgylchiadau o'r fath, gan hyny, pan nas gellir penderfynu unrhywiaeth neu debygrwydd yr enw, rhaid i ni gymmeryd ein harwain gan natur y coed, y defnydd a wneid o honynt, a'r sefyllfaoedd lle y dywedir eu bod i'w cael. Canfyddir *eres* a *berosh* mor fynych ynghyd yn yr Ysgrythyrau, fel y gellir casglu fod y cyntaf yn arwyddo y cedrwydd, a'r llall y ffawydd (a gyfieithir yn fynych yn ffynidwydd), sef y llwyth sydd yn cynnwys y meryw, y cypreswydd, a'r cyffelyb.



Dar. 318.—Y Gypreswydden.

Y mae gwahanol rywogaethau o'r meryw yn cael eu rhestru gan lysieuwyr yn nosbarth y cedrwydd; a dynodir y gwir rywogaeth â'r enw *cedrus baccifera*, a'r ffawydd gan yr enw *cedrus conifera*, a'r ffawydd (*pines*) dan yr enw *cedrus conifera*. Y mae amryw fathau o'r meryw, a elwir gan y Groegiaid *arceuthos*, a chan yr Arabiaid *abhul*, i'w cael yn Syria. Mae y meryw cyffredin (*juniperos communis*) yn rhywogaeth dra helaeth, a geir hyd yn oed yn Ewrop ac Asia, yn nyffrynoedd y lledredau gogleddol, ac yn mynyddoedd y rhai deheuol. Yn gyffredin, nid ydynt ond prysgwydd isel; ond mewn rhai sefyllfaoedd, ceir hwy yn 15 troedfedd, ac hyd yn oed

yn 30 troedfedd o uchder. Prysgwydd bythwyrdd ydyw y meryw pigog, o 10 i 12, ac weithiau yn 20 troedfedd o uchder; ac y maent yn dal perthynas agos â'r meryw cyffredin. Canfyddwyd y rhywogaeth yma gan M. Boué ar Fynydd Libanus. Meryw y ffrwyth mawr (*juniperus drupacea*) sydd rywogaeth a ddygwyd i Ewrop o'r dwyrain dan yr enw Arabaeg *habhel.* Pa fodd bynag, cymhwysir yr enw yma yn hytrach at bob rhywogaeth nag at un yn neillduol. Tyf y rhywogaeth yma yn naturiol ar Fynydd Cassius; a thybir mai yr un ydyw a'r meryw mwyaf a ganfu Belon ar Fynydd Taurus; a dyf, yn ol ei ddarluniad ef, i uchder cypreswydden. Y meryw Phœniciaidd (*juniperus Phœnicea*), sydd yr un a meryw mawr Dioscorides, a dyf yn naturiol yn neheubarth Ewrop, Rwssia, a Syria. Y mae y dail yn tyfu y naill dros y llall fel peithynen; ac y mae yn lled debyg i'r gypreswydden, ac yn cyrhaedd yr uchder o 20 i 30 troedfedd. Rhywogaeth fechan ydyw meryw Lycian, a chyffelyb ydyw yr eithinfyw (*juniperus Sabina*), y rhai sydd brysgwydd gwasgarog, ond yn tyfu weithiau i'r uchder o 10 neu 12 troedfedd. Mae yn tyfu yn naturiol yn neheubarth Ewrop a Syria. O'r rhai hyn, y meryw pigog a'r meryw Phœniciaidd yw yr unig rywogaethau a allasent fod yn *berosh* yr Ysgrythyrau. Y mae rhai yn barnu mai coed y meryw pigog, yn hytrach na'r coed a elwir cedrwydd Libanus, ydyw y "coed cedr" oedd mor enwog yn yr hen amseroedd o blegid eu parhad, y rhai a ddefnyddid o herwydd hyny i wneyd cerfluniau. At ryw fath o feryw y cymhwysir yr enw cedrwydd yn awr mewn modd arbenig.

Y *cupressus*, *cuparissos* y Groegiaid, a *suroo* yr Arabiaid, a elwir hefyd ganddynt hwy yn *shuirut-al-hyat*—pren y bywyd—yw cypreswydden fythwerdd (*cupressus sempervirens*) y llysieuwyr. Mae y pren yma yn dra adnabyddus o blegid ei ddull brigfain o dyfu, am fod ei gangenau yn tyfu yn sythion ac yn agos i'r boncyff, ac hefyd am fod ei ymddangosiad cyffredinol yn debyg i aethnen Lombardy, fel y cymmerir y naill yn lle'r llall wrth edrych arnynt mewn darluniau dwyreiniol. Mae hwn yn tyfu yn y parthau deheuol yn gyffredin i'r uchder o 50 neu 60 troedfedd. Gorchuddir ei gangenau gan ddail pur fychain, yn tyfu yn agos i'w gilydd, y naill dros y llall, y rhai a arosant ar y pren am bump neu chwech o flynyddoedd. Dywed Du Hamel ei fod ef wedi sylwi fod tipynau bychain ar risgl ieuanc y gypreswydden, tebyg i lud tragacanth; a bod y gwenyn yn cymmeryd trafferth dirfawr i'w ryddhau oddi wrth y pren, er mwyn ei gael, mae yn debyg, i ffurfio rhyw sylwedd perthynol i'w crwybrau. Tyf y gypreswydden hon yn naturiol yn yr Ynysfor Groegaidd, yn enwedig yn Candia (yr hen Greta) a Cyprus, ac hefyd yn Asia Leiaf, Syria, a Persia. Gellir gweled y pren yma hefyd ar ororau Palestina, ac yn y canolbarth, gan fod y Mahometiaid yn ei blanu yn eu mynwentydd. Tystia Celsius a Jerome hefyd ei fod i'w ganfod yn Syria. Gan fod y gypreswydden mor gyffredin, gallesid dysgwyl crybwylliadau mynych am dani yn yr Ysgrythyrau; ond dengys y cyfieithiadau nad felly y mae, gan nad ydyw yn dygwydd ond unwaith yn unig, sef yn *Esa.* xliv. 14; "Efe a dyr iddo gedrwydd, ac a gymmer y gypreswydden a'r dderwen," i wneyd eilunod. Y gair Hebraeg, a gyfieithir "cypreswydden" yma, yw *tirza*; ac ymddengys nad oes un awdurdod arall dros feddwl mai yr un ydoedd a'r gypreswydden. Ond crybwyllir yn benodol am y gypreswydden yn yr Apocrypha (*Eccles.* xxiv. 13), lle yr arwyddir ei bod yn tyfu ar fynyddoedd Hermon; ac y mae Kitto yn sylwi, os yr Hermon mawr a feddylir wrth hwn, yr eglurir y pwnc gan Pococke, yr hwn a ddywed mai hwn ydyw yr unig bren a dyf tua phen uchaf Libanus. Yn *Eccles.* l. 10, cyffelybir yr archoffeiriad i "gypreswydden wedi tyfu i'r awyr," o blegid ei daldra ac ardderchogrwydd ei ddull. Dywedir fod coed y gypreswydden yn galed, yn beraroglaidd, a'r llin yn nodedig o fân a chyfagos i'w gilydd, yn dra pharhaus, ac o liw coch prydferth—yr hwn, medd Pliny, na chyll byth. Am barhad y gypreswydden, dywed Pliny fod cerflun Jupiter, yn y Cabidwl, yr hwn a wnaed o gypreswydd, wedi bod yno am fwy na chwe chan mlynedd heb yr arwydd lleiaf o adfeiliad ynddo; a bod dorau teml Diana yn Ephesus, y rhai hefyd oedd o gypreswydd, er eu bod dros bedwar can mlwydd oed, yn ymddangos yn hollol newydd.

Defnyddid y coed hyn i amryw ddybenion, megys i wneyd gwinwryfau, polion, tylathau, a thrawstiau. Dywed Virgil [*Georg.*, ii. 442], fod pa beth bynag a fernid yn werth ei drosglwyddo i'r olaflaid, yn cael ei wneuthur o gypreswydd neu goed cedr. Yn yr holl ymadroddion Ysgrythyrol, gan hyny, canfyddir fod y cypreswydd yn ateb yn gyflawn i'r darluniadau a geir o'r *berosh*, ac i'r defnydd a wneid o hono; canys y mae yn dra chyfaddas at adeiladu, heb fod yn ddarostyngedig i adfeiliad; ac am hyny, yn dra thebyg o fod wedi cael ei ddefnyddio yn adeilad y deml, ac hefyd yn y pyrth a'r llawr. Defnyddid y coed hefyd i wneyd byrddau llongau, ac hyd yn oed i wneyd offer cerdd a gwaewffyn. Tybia Faber, medd Rosenmüller, fod yr enw Hebraeg *berosh* yn cynnwys tri math o goed gwahanol, ond tebyg i'w gilydd; sef, y gypreswydden fythwerdd, y thynon (*thyine*), a'r eithinfyw (*savine*). Mae y pren olaf mor debyg i'r gypreswydden, fel yr oedd yr hynafiaid yn ei alw yn fynych wrth yr enw hwnw; ac y mae awdwyr diweddar hefyd yn sylwi ar eu tebygrwydd, yn enwedig gyda golwg ar y dail. "Am hyny," medd Rosenmüller, "hyd yn oed yn mysg y Groegiaid, yr oedd y ddau bren yn cael eu galw wrth yr hen enwau dwyreiniol *berosh, beroth, bruthu*, neu *brathy.*"

**FFYNNON—AU** [ffwn=*tarddell, chwa, pwff*; Ll. *fons*; עין=*llifo, llygad*; πηγή=*lle, agorfa, twll*]. Mewn ystyr manwl a phriodol, defnyddir y gair *ffynnon* genym ni, fel y defnyddia y Seison y gair *fountain* yn ei ystyr blaenaf, i arwyddo tarddiad naturiol dwfr; megys ag y defnyddir y gair *pydew* genym, yn gyfystyr â *well* y Seison, i arwyddo pwll dwfn, celfyddydol, a wneir er cael dwfr o eigion y ddaiar. Pa fodd bynag, nid yw ein cyfieithwyr ni yn sefyll at y rheol hon; ond y maent yn fynych yn galw *pydew* yn *ffynnon*; megys yn *Gen.* xxiv. 13, 16, 20, a llawer o fanau ereill yn yr Hen Destament. A'r un modd yn y Newydd; megys *Ioan* iv. 6, 11, 12.

Cyfieithir pedwar neu bump o eiriau Hebraeg, heb law *ain*, yn ffynnon, megys, *motza*—y gair, yr hwn a gyfieithir yn *Esa.* lviii. 11, yn *ffynnon ddwfr*; yn *Esa.* xli. 18; *Salm* cvii. 33, yn *ffynnonau*; ac yn 2 *Bren.* ii. 21, yn *ffynnonell.* Ei brif ystyr, medd Gesenius, yw *mynediad allan*; *tarddiad*: *Ezec.* xii. 4; xlii. 11; xliii. 11; *Num.* xxxiii. 2. Yn *Dan.* ix. 25, arwydda fynediad gorchymyn oracl allan. Yn *Salm* xix. 6, mae yn

Digitized by Google

arwyddo cyfodiad yr haul, a gyfieithir "ei fynediad ef allan:"—cymh. *Hos.* vi. 3. Yn 1 *Bren.* x. 28, arwydda drosglwyddiad neu fynediad meirch allan o'r Aipht i Solomon. Cyfieithir y gair yn *Iob* xxviii. 1, *gwythen*—"Diau fod gwythen i'r arian:" ac yn *Iob* xxxviii. 27, mae yn arwyddo tarddiad neu dyfiad glaswellt: "Ac i beri i gnwd o laswellt dyfu." Mae y gair gwreiddiol hefyd yn arwyddo *yr hyn a el allan*:—"dim a ddaeth allan o'i gwefusau;" hyny ydyw geiriau: *Num.* xxx. 12; *Deut.* xxiii. 23. Yn 1 *Cron.* ii. 46; viii. 36; ix. 42, y mae yn enw personol—"Mosa." Yr un ystyr cyntefig sydd i'r gair Hebraeg yn yr holl fanau a nodwyd; sef, mynediad allan, tarddiad, *ffynnonell*.

2. *Macor*: o'r gwreiddyn *cur*, cloddio. Arwydda ffynnon wedi cael ei hagor trwy gael ei chloddio—pydew: *Hos.* xiii. 15; *Ier.* li. 36; *Zech.* xiii. 1; lle y cyfieithir y gair yn *ffynnon* neu *ffynnonau*. Yn *Ier.* ii. 13; a xvii. 13, cyfieithir ef yn "ffynnon y dyfroedd byw." Yn *Ier.* ix. 1, cyfieithir y gair yn "ffynnon o ddagrau," gan arwyddo, yn ffugrol, medd Gesenius, y llygad. Ei arwyddocad yn *Lef.* xii. 7, ydyw *ffynnonell y gwaed*, a gyfieithir "cerddediad ei gwaed:" cymh. *Lef.* xx. 18. Yn *Salm* xxxvi. 9; *Diar.* x. 11; xiii. 14; xiv. 27; xvi. 22, cyfieithir y gair yn "ffynnon y bywyd," neu "ffynnon bywyd;" yn arwyddo dedwyddwch; ac yn *Diar.* xviii. 4, cyfieithir ef yn "ffynnon doethineb." Yn yr holl fanau hyn, mae yn arwyddo *ffynnonell* neu *ddechreuad* peth; ond yn *Salm* lxviii. 26, defnyddir ef mewn ystyr gwahanol—i arwyddo *hiliogaeth*: "Bendithiwch Dduw yn y cynnulleidfaoedd, sef yr Arglwydd, y rhai ydych o ffynnon Israel:" cymh. *Esa.* xlviii. 1.

3. *Maian*: o *ain* [gwel y gair]. Ei ystyr yn *Salm* lxxxiv. 6, medd Gesenius, yw *lle ffynnonau*; ond *ffynnon* ydyw yn ein cyfieithiad ni. Barna Gesenius ei fod yn gyfystyr âg *ain* (ffynnon) yn y manau canlynol: *Gen.* vii. 11; viii. 2; *Salm* lxxiv. 15; cxiv. 8; *Ioel* iii. 18; 2 *Bren.* iii. 25; lle y cyfieithir ef yn *ffynnon* neu *ffynnonau*. Yn *Salm* lxxxvii. 7, y mae yn arwyddo *ffynnonell* y fendith, y cysur, a'r hyfrydwch mwyaf, lle y cyfieithir y gair yn *ffynnonau*: "Y cantorion a'r cerddorion a fyddant yno: fy holl ffynnonau sydd ynot ti;" sef yn Sion: cymh. *Esa.* xii. 2.

4. *Mabua*: o *naba*, byrlymu neu ferwi allan. Ceir y gair yma yn *Preg.* xii. 6; *Esa.* xxxv. 7; xlix. 10; lle y cyfieithir ef yn *ffynnon*, a *ffynnonau*.

5. *Gal*: o *galal*, rholio, treiglo. Yr ystyr blaenaf a roddir i'r gair *gal* ydyw *pentwr*; sef pentwr o geryg, fel y cyfieithir ef yn *Iob* vii. 17. Yn *Ios.* vii, cyfieithir ef yn "garnedd" Felly hefyd, yn *Esa.* xxv. 2, arwydda bentwr o adfeilion; tra y mae *carneddau*, yn *Ier.* ix. 10, a li. 37, yn arwyddo yr un peth.

Cymhwysir y gair at ddwfr hefyd, gyda golwg, yn benaf, ar ei chwydd pentyrol, a'i dreigliad yn donau; ac yn unol â'r syniad yma, cyfieithir y gair, yn *Salm* xlii. 7; lxxxix. 9; cvii 25, 29, yn *donau*; ond yn *Can.* iv. 12, cyfieithir y gair yn *ffynnon*.

6. *Ain*: o *in*, llifo. Prif ystyr y gair *ain*, yn ol Gesenius, yw llygad; ac yn yr ystyr yma y defnyddir ef mewn llawer o fanau yn yr Hen Destament

Yr ail ystyr a roddir iddo ydyw ffynnon. Pa un a ydyw yn cael ei galw felly o blegid tebygrwydd ffynnon i'r llygad, ai yn y gwrthwyneb—tebygrwydd y llygad i ffynnon—sydd amheus, medd Gesenius. Yn y manau canlynol, ac fe allai mewn rhai manau ereill hefyd, cyfieithir y gair yn *ffynnon*: *Gen.* xvi. 7; xxiv. 13, 16, 29, 30, 42, 43, 45; *Exod.* xv. 27; *Deut.* viii. 7; *Diar.* viii. 28.

Cafodd amryw o ddinasoedd Palestina eu henwau oddi wrth y ffynnonau hynod yn eu gwahanol gymmydogaethau; megys En-dor, Eneglaim, En-gannim, En-gedi, En-hadah, En-hasor, En-mispah.

Yr oedd rhai dinasoedd yn cael eu galw ar yr enw hwn (*Ain*) yn syml: *Ios.* xv. 32; xix. 7; xxi. 16; 1 *Cron* iv. 32. Hefyd, yr oedd dinas o'r enw yma ar y tu dwyrain i Palestina: *Num.* xxxiv. 11.

Yr oedd Ain weithiau, mewn cyssylltiad â rhyw air arall, yn enw priodol ar ffynnonau; megys, En-semes, En-rogel, En-hatanim, Entappuah, Enaim, Enan. Gwel y gwahanol enwau yn yr erthyglau priodol.

Un gair Groeg (*pêgê*) a ddefnyddir yn y Testament Newydd am ffynnon, yr hwn a gyfieithir felly yn gysson, yn mhob lle, oddi gerth *Marc* v. 29, lle y cyfieithir ef ffynnonell, lle yr arwydda *rediad* neu *ddiferlif*. Yn *Luc* viii. 44, *pusi*="diferlif," ydyw y gair a ddefnyddir.

Yn *Ioan* iv. 6; 2 *Pedr* ii. 17, *well*="pydew," ydyw y cyfieithiad Seisoneg; a diammheu ei fod yn gywirach na'n cyfieithiad ni—"ffynnon." Yn wir, "pydew" ydyw y gair a ddefnyddia y wraig o Samaria yn *Ioan* iv. 11, 12, am ffynnon Iacob.

Yn *Iago* iii. 11, 12; *Dad.* viii 10; xiv. 7; xvi. 4, defnyddir y gair *ffynnon* yn ei ystyr priodol; ond yn *Ioan* iv. 14; *Dad.* vii 17; xxi. 6, rhoddir i'r gair ystyr ffugrol.

Yn mysg pethau ereill deniadol oedd yn Ngwlad yr Addewid i'r genedl oedd yn ymdudo o wlad yr Aipht trwy yr anialwch, nid oedd dim yn fwy dymunol na tharddiad naturiol dwfr o'r ddaiar. Yn lle dyfrhau ei faes neu ei ardd, fel yn yr Aipht, "â'i droed" [*Deut.* xi. 10; *Shaw's Trav.*, td. 408], dysgid yr amaethwr Hebreaidd i edrych yn mlaen at dir "yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd, gwlad afonydd dyfroedd, ffynnonau, a dyfnderau yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd;" *Deut.* xi. 11; viii. 7. Yr oedd yr ychydig ffynnonau dwfr oedd yn anialwch Sinai, er y dichon mai rhai parhaus oeddynt, o'r fath bwys, o blegid eu prinder, fel y mae yn anhawdd i rai mewn hinsoddau lleithach ei amgyffred; ac yr oedd yn ddigon pwysig i gyfiawnhau yr ymadrodd barddonol a gofnodir yn *Num.* xxi. 17, fel arwydd o lawenydd cenedlaethol ar ol canfod un. Y mae ffynnonau Palestina, er nad ydyw y rhan fwyaf o honynt ond o fyr barhad, yn nodedig o blegid eu cyflawnder (tra y parhant) ac o blegid eu harddwch, yn enwedig y rhai sydd yn rhedeg i'r Iorddonen a'r llynoedd ar hyd ei holl wely, fel y dengys Stanley, Burckhardt, a theithwyr enwog ereill. Y mae ffynnon o ddwfr bywiol, yn tarddu o'r ddaiar yn naturiol—*llygad* cymmydogaeth—yn cael ei gwahaniaethu yn yr holl ieithoedd dwyreiniol oddi wrth y *pydew* a gloddir yn gelfyddydol.—[*Stanley*, 509.] Y mae pwysigrwydd y fath ffynnon yn cael ei arwyddo yn amlwg yn yr amryw enwau lleoedd a gyfansoddir o'r gair *En* neu *Ain*. Gall En-gedi (*Ain-jidy*), "ffynnon yr ewig," wasanaethu fel esampl: 1 *Sam.* xxiii. 29; *Reland*, 763; *Robinson*, i. 504; *Stanley*, *App.* 50.

Yr oedd gweithrediadau llosgfalaidd (*volcanic*) grymus yn ymddangos yn foreu yn Mhalestina,

Digitized by Google

yn y ffynnonau cynhes a gyfodent yn agos i Fôr Galilea a'r Môr Marw. Hynodir un o honynt, a elwir gan Josephus yn Callirhöe, fel y lle yr aeth Herod iddo yn ei salwch olaf. Yr un oedd hon, fe allai, ag En-eglaim, "ffynnon y lloi," ar y tu gogledd-ddwyrain i'r Môr Marw. Adeiladodd Phylip, mab Herod, dref o'r enw Tiberias, yn agos i'r ffynnonau poethion sydd o'r tu deheu i Fôr Galilea, fel y dengys Josephus, Hasselquist, Kitto, ac ereill. Dywed Reland, Burckhardt, &c., fod ffynnonau poethion wedi eu canfod tua saith milldir o Tiberias, ac yn Omkeis, sef yr hen Gadara.

Er fod Ierusalem yn ymddibynu yn benaf am ei chyflenwad o ddwfr ar ddwfr gwlaw ei dyfrgistiau, eto dengys ymchwiliadau diweddar ei bod naill ai yn meddu mwy nag un ffynnon barhaus, neu un yn tarddu trwy fwy nag un agorfa neu lygad. Y mae Josephus, Tacitus, ac amryw deithwyr diweddar, yn cadarnhau y syniad yma. —Gwel SILOAM.

Dywed Josephus fod yn y tyraû a adeiladwyd gan Herod ddyfrgistiau âg iddynt bibellau pres i arwain y dwfr o honynt. Dichon mai cerfluniau oedd y rhai hyn yn cynnwys pistylloedd i'r dwfr yn ol cynlluniau y Rhufeiniaid.

Nid oes un ddinas ddwyreiniol yn cael ei chyflenwi â dwfr yn gystal a Damascus. Dywed Poole [*Engl. in En.*, i. 180] fod ffynnonau cyhoeddus yn bethau cyffredin yn y dinasoedd dwyreiniol. Y mae yn debyg mai cyfeirio at ffynnonau o'r fath yn Ierusalem y mae enwau cyffelyb i En-rogel (2 *Sam.* xvii. 17), "ffynnon y ddraig," a "phorth y ffynnon;" *Neh.* ii. 13, 14. Yr oedd llynau Solomon, yn agos i Bethlehem, yn cael eu cyflenwi â dwfr a drosglwyddid iddynt trwy redleoedd tanddaiarol. Fe ddichon mai cyfeirio at y rhai hyn y mae y "ffynnon seliedig" yn *Can.* iv. 12. Y mae hen draddodiad am ffynnon Nazareth, a thybia Roberts [*Views in Pal.*, i. 21, 29, &c.], ac ereill, fod sail i'r traddodiad.

O blegid y gwerth mawr sydd mewn cyflawnder o ddwfr yn y gwledydd poethion, y mae ffynnonau yn cael eu defnyddio yn fynych mewn barddoniaeth ddwyreiniol fel arwyddion naturiol cyfaddas o amryw fendithion parhaus. Y mae ffynnonau yn cael eu defnyddio yn fynych yn yr Ysgrythyrau fel arwyddluniau o adnewyddiad i'r diffygiol; a dynodant hefyd natur barhaol ac anhysbydd y cysuron ysbrydol a gyfrana Duw i'w bobl, pa un bynag ai trwy yr Ysbryd Glân ai trwy ordinhadau yr efengyl.

*Ffynnon bistyll* (*jet d'eau*). Yr enw a rydd y Seison fynychaf ar y math yma o ffynnon ydyw *fountain;* a'r enw a roddant hwy ar yr hyn a alwn ni yn ffynnon neu lygad ffynnon, sef tarddiad naturiol dwfr o'r ddaiar, ydyw *spring*, neu *water-spring*, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth *fountain*, neu "ffynnon bistyll." Y mae ffynnon bistyll yn gynnwysedig o ddwfr yn rhedeg o safluniau, cerfluniau, ac addurniadau cerfiedig ereill mewn cyssylltiad âg adeiladau addurnedig. Yr oedd amryw o hen ddinasoedd Groeg wedi eu haddurno â ffynnonau pistyll. Dywed Pausanias fod Corinth wedi ei haddurno âg amryw o honynt, a chrybwylla am un yn benodol a safai yn agos i gerflun Diana, yn cynnrychioli Pegasus, â dwfr yn llifo trwy ei draed. Darlunia un arall o bres yn cynnrychioli Neptune yn eistedd ar gefn dolphin, o safn yr hwn y rhedai y dwfr. Yr oedd Frontinus, yr hwn a fucheddai dan deyrnasiad Nerva a Trajan, yn arolygwr ar ffynnonau pistyll Rhufain, a'r hwn a ysgrifenodd lyfr [*De Aquæductibus Urbis Romæ Commentarius*] yn traethu, yn mysg pethau ereill, ar drefniad dwfr y ffynnonau pistyll. Y mae ffynnonau pistyll cyhoeddus y Pompeiaid—rhai o ba rai a ystyrir bron yn berffaith—yn dangos eu bod yn eithaf hysbys fod dwfr yn cyfodi i'w lefel, a'u gallu hwy i gymhwyso yr egwyddor mewn ymarferiad.

Yr oedd nid yn unig heolydd, ond hyd yn oed tai annedd y Pompeiaid, yn cael eu haddurno â ffynnonau pistyll; ac ymddengys fod yr hynafiaid yn hysbys o'r ddeddf a bâr i hylifau esgyn yn bistyll syth i uchder cyfatebol i'r pwysau a roddir i weithredu arnynt.

Yr oedd trefniad priodol yr afonydd a lifent trwy ddyfr-ffosydd Rhufain yn bwnc mor bwysig fel yr ymddiriedid ef i ofal swyddog o radd uchel. Ymddengys oddi wrth Frontinus, yr hwn a lanwai y swydd dan yr Ymherawdwr Nerva, fod gollwng y dwfr cyhoeddus i dai annedd yn dwyn cyllid i'r drysorfa gyffredin; ac y mae ei gwynion lluosog ef yn erbyn twyll yn nglŷn â'r gorchwyl, a'i gyfarwyddiadau i'w attal, yn rhoddi rhyw awgrym i ni am ddull ei ddosbarthiad. Yr oedd pob un o'r dyfr-ffosydd yn cael eu llenwi â nifer penodol o bibellau; ac nid oedd un bibell newydd i gael ei rhoddi i mewn heb appelio yn bendant at yr ymherawdwr. Wedi cael caniatad, yr oedd yr arolygwr i roddi cwpan i'r appeliwr, fel y gelwid ef, o faint penodol. Mesur pres (*modulus*) oedd hon, wedi ei sicrhau yn y ddyfrgist, yr hon oedd i fesur y dwfr a elai drwyddi. Gorchymynid ei gwneud o bres, fel na byddai yn hawdd ei phlygu, ac fel na cheffid cymmaint o gyfleusdra i dwyllo y cyhoedd na'r person a fyddai yn ei chael, trwy fwyhau neu leihau yr agorfa. Yr oedd y bibell, ond nid y gwpan, yn eiddo personol; ond er mwyn attal twyll mor effeithiol ag y gellid, gwnaed deddf yn gofyn i'r bibell am hanner cant o droedfeddi oddi wrth y gwpan i fod yr un fesur; ac er mwyn rhwystro i neb dori y pibellau cyhoeddus, yr oedd yn rhaid i bob person dynu ei ddwfr yn ddigyfrwng o un o'r dyfrgistiau yn y rhai y terfynai y dyfrffosydd. Yr oedd yr hawl i gael y dwfr yn gwbl bersonol, ac nid mewn cyssylltiad â thai, fel yr oedd y cyflenwad yn cael ei attal pan y symmudai y tenant. Yr oedd y dwfr ar y dechreu yn cael ei ganiatau; ond o'r diwedd, aed i'w werthu gan yr arolygwyr i'r uchaf ei bris. Am hyny, yr oedd yn rhaid i'r rhai nad oeddynt yn meddu digon o gyfoeth neu ddigon o ddylanwad i gael pibell iddynt eu hunain, ei geisio o'r ffynnonau cyhoeddus [*Pompeii*, ii. 73, &c.]. Mae y nifer mawr o bibellau plwm a gafwyd yn Pompeii yn peri i rai gasglu, fod y rhai hyny yn cael eu defnyddio yn gyffredin wrth wneyd ffynnonau pistyll y ddinas hono. Yr oedd dwfr llawer o'r ffynnonau pistyll yn rhedeg trwy gerfluniau pres, o'r rhai y mae amryw wedi eu cadw yn yr amgueddfa yn Naples.

Y mae rhai dinasoedd yn Italy ac yn y dwyrain wedi eu haddurno â ffynnonau pistyll, sydd mor ddymunol i'r golwg ag ydynt o ddefnyddiol i'r preswylwyr. O bob man yn y byd, ymddengys mai Rhufain bresennol sydd wedi ei chynnysgaethu helaethaf â'r cyfleusderau dymunol hyn, ond dywedir nad yw yr holl helaethder sydd yno yn awr ond prin ddegwm y ffynnonau pistyll godidog a addurnent ac a ddiwallent yr hen ddinas. Y mae llawer o ffynnonau pistyll Rhufain yn dra addurniadol, o faintioli mawr, ac yn bur amrywiol yn eu dull o arllwys y dwfr a drosglwyddir iddynt o'r gwahanol ddyfrffosydd. Y

Digitized by Google

mae ffynnon pistyll Trevi, a'r un sydd yn San Pietro yn Montorio, yn adeiladau dirfawr eu maint, ac y mae y flaenaf wedi ei haddurno yn odidog â cherfluniau. Y mae bron bob math o gynlluniau a allai y dychymyg eu ffurfio wedi cael eu defnyddio gan gelfyddydwyr cywrain Italy yn nghyfansoddiad ffynnonau pistyll y wlad.

Y mae dinas Paris wedi ei chyflenwi yn dda â ffynnonau pistyll, ac y mae llawer o honynt wedi eu cynllunio yn brydferth. Ffynnonau pistyll Versailles a St. Cloud yn Ffrainc, a'r rhai sydd yn Wilhelmshöhe yn agos i Cassel, yw y rhai mwyaf yn Ewrop. Er fod Llundain yn cael ei chyflenwi yn dda â dwfr, y mae yn rhy amddifad o ffynnonau pistyll: eto y maent ar gynnydd.

FFYNNONELL. Wrth ffynnonell yr ydym yn deall yr un peth ag a ddealla y Seison wrth *spring*, wrth gymhwyso y gair at ddwfr; sef yr agorfa trwy ba un y tardda dwfr ffynnon yn naturiol o'r ddaiar. Hwn a elwir gan y Cymry, "llygad y ffynnon;" a chyfieithir y gair Groeg *opê* (ysbïendwll=*peep-hole*, twll, neu agoriad) felly yn *Iago* iii. 11, yn ei berthynas â ffynnon: "A ydyw ffynnon o'r un llygad (lle, twll) yn rhoi dwfr melus a chwerw?"

Rhyw ddwywaith neu dair y ceir y gair *ffynnonell* yn y Beibl Cymraeg. Yn yr Hen Destament, ceir ef yn 2 *Bren*. ii. 21, yn gyfieithiad o'r gair Hebraeg *motza* [gwel FFYNNON, dan y gair *motza*], lle yr arwydda "llygad y ffynnon," neu agorfa tarddiad y dwfr. Yn *Hosea* xiii. 15, cyfieithiad ydyw o'r gair Hebraeg *macor*, ac arwydda yno darddle cysuron. *Marc* v. 29, ydyw yr unig le arall yn y Beibl Cymraeg, hyd yr ydys yn cofio, lle y ceir y gair "ffynnonell;" ac yno y mae yn gyfieithiad o'r gair Groeg *pégê*, yn arwyddo tarddle y gwaed.

Y mae cryn ammheuaeth a dadl wedi bod gyda golwg ar achos ffynnonellau (*springs*). Y mae rhai yn meddwl fod ffynnonellau, yn enwedig rhai parhaus, yn dal cyssylltiad â'r môr, o ba le y mae y tir yn sugno y dwfr trwy wahanol agenau ac agoriadau; a'i fod, yn ei fynediad trwy y ddaiar, yn ymburo ac yn ymgroewi; ac yna yn tori allan trwy agenau fyth, i'r wyneb, mewn manau penodol, yn ddwfr croew, iachus, a defnyddiol. Ond y farn fwyaf cyffredin, a'r debycaf yn ddiammheu o fod yn wir, ydyw, mai gwlaw ac eira, tarth a niwl, ydyw gwir achos ffynnonellau, neu darddiad dwfr o'r ddaiar. Bernir fod y gwlaw a'r lleithder sydd yn disgyn o'r awyrgylch, yn cael eu cymmeryd i fyny mewn tair o wahanol ffyrdd. Y mae un rhan yn ymgasglu yn oferau (*rivulets*) ar wyneb y ddaiar; y mae y rhai hyn yn ymuno yn aberoedd a ffrydiau, yn llifo y naill i'r llall, yn ffurfio afonydd; ac felly yn cael eu trosglwyddo i'r môr. Y mae rhan arall yn cael ei sugno gan y ddaiar, er ei lleitho a'i dyfrhau, ac yn cael ei chymmeryd i fyny drachefn i'r awyrgylch trwy darthiad. Y mae y drydedd ran yn disgyn i'r ddaiar trwy bridd llac a rhwyd-dyllog, neu drwy agenau ac agoriadau yn yr haenenau (*strata*), ond trwy gael ei hattal gan haenenau ereill, caletach a mwy cyfan, y mae yn ymffurfio yn ddyfr-gronfäau tan-ddaiarol, mewn gwahanol ddyfnderau. Wedi i'r rhan yma gael ei chyfyngu fel hyn, y mae yn agored i bwysau y dwfr a fyddo yn llenwi y rhedleoedd trwy ba rai y disgynodd; a phan ddelo y pwysau hwnw yn ddigonol nes gorthrechu y pentwr daiar a fyddo arno, y mae y dwfr yn gweithio ei ffordd i fyny trwy yr haenen llac a fyddo ar ei wyneb, ac yn tori allan yn ffynnonell. Wrth ddisgyn ac esgyn fel hyn, trwy wahanol fetteloedd a mwnau, mae y cyfryw sylweddau yn toddi i raddau, ac yn ymgymmysgu â'r dwfr sydd yn rhedeg felly trwyddynt, yr hyn yw yr achos o'r ffynnonellau mŵn sydd yn ngwahanol barthau y byd. Y mae ffynnonellau cynhes neu boethion yn bethau cyffredin mewn gwledydd lle y mae llosgfalau (*volcanoes*); a hynodir hwy weithiau gan ddyferwadau cynhyrfus. Mae y cyfryw ffynnonellau i'w cael weithiau mewn gwledydd pell oddi wrth fynyddoedd tanllyd; ac yn wir, y mae amryw o wahanol dymmeredd i'w cael yn Ynys Prydain. Cafwyd ffynnonell yn Bosely, yn sir Amwythig, yn y flwyddyn 1711, yr hon y taniai ei dwfr fel gwirf (*spirit*); ac wedi ei danio felly, fe ferwai dwfr arno mewn llestr yn dra chyflym, er fod dwfr y ffynnonell ei hun, cyn ei danio, mor oer ag unrhyw ddwfr arall. Sychodd y ffynnonell hono dros lawer o flynyddoedd; ac yn y flwyddyn 1746, ymddangosodd drachefn ddeg llath ar ugain yn nes i'r afon [*Phil. Trans., rhif.* 334, 482, *adr.* 6].

Ar ochrau ac wrth odreon mynyddoedd y mae ffynnonellau yn tarddu fynychaf, am fod cyflawnder y gwlawogydd sydd yn ymdywallt ar y mynyddoedd, ac yn disgyn trwy yr agenau a'r agoriadau yn y ddaiar lac a'r creigiau, yn gweithio ei ffordd allan yn rhwydd tua'r gwaelodion ac ar yr ochrau.

Y mae parhad ffynnonellau yn cyfateb i'r dyfnder oddi wrth wyneb y tir, i'r hwn y disgyn y dwfr a fyddo yn eu cyflenwi. Y mae y dyfrgronfäau hyn yn ddyfnion yn gyffredin mewn gwledydd haenenol, lle y mae calchfaen neu dywodfaen agenog yn derbyn y dwfr ar leoedd uchel, ac yn ei arwain i waered oddi tan haenenau o glai, trwy y rhai nis gall y dwfr weithio allan ond mewn ychydig fanau yn unig, a hyny mewn lleoedd is na'r manau y derbyniwyd ef i mewn. Y mae yr haenenau cleiog hyn yn fynych mor anhawdd i'r dwfr dreiddio trwyddynt fel y mae tyllau celfyddydol yn y ddaiar yn rhyddhau gwasgiad y golofn ddwfr danddaiarol yn well na'r ychydig ffynnonellau naturiol a fyddont yn y fath leoedd; am hyny, y mae pyllau glo a mŵn yn fynych yn sychu y cyfryw ffynnonellau am gryn bellder. Y mae tymmeredd y ffynnonellau dyfnion hyn yn gyffredin yn cyfateb i dymmeredd yr awyrgylch.

Mewn gwlad a fyddo yn cynnwys talpiau culion ac aml o glai cymmysg â graian, neu glai a thywod, yn gorchuddio creigiau cyfain, y mae ffynnonellau penodol yn bethau tra anfynych; ac yn eu lle, y mae amryw fân darddellau i'w canfod ar hyd y terfyn rhwng y clai a'r graian, neu y clai a'r tywod, yr hyn a elwir gan yr amaethwyr yn wlybaniaeth. Pan barhao sychder am beth amser, bydd y gwlybaniaeth hwnw yn diflanu, ond yn ail ymddangos yn fuan ar ol gwlawogydd.

Y mae ffynnonellau yn cael eu llywodraethu yn gyffredin gan un o dri pheth :—

1. Y maent yn dygwydd yn gyffredin ar derfynau gwastadedd isel, ar fin terfyn clai gwyn sydd yn attal tarddiad y dwfr. Canfyddir hyn yn y parthau marmaidd (*cretaceous*), sydd yn llawn gronynfaen yn Mhrydain.

2. Y maent i'w cael yn fynych mewn cyssylltiad âg agenau mawrion creigiau, a ffurfiwyd yn ystod cydsylweddiad talpiau mwnol. Am hyny ceir ffynnonellau mawrion yn ymdywallt o fynyddoedd calchfaen Prydain.

3. Y mae dwfr yn cael ei arwain i'r wyneb

Digitized by Google

weithiau gan ddadgyflead neu symmudiad haenau, trwy y rhai nis gall y dwfr ymweithio. Y dadgyflead tanddaiarol yma ydyw yr achos o'r rhan fwyaf o ffynnonellau cynhes a phoethion Cymru a Lloegr.

Yn gyffredin, gan hyny, y mae y dwfr sydd yn tarddu o'r ddaiar yn un ffynnonell fawr wedi cael ei sugno i'r ddaiar trwy luaws o fân agenau ac agoriadau ar arwynebedd eang; yn debyg fel y mae y galon yn derbyn y gwaed i'r galon trwy luaws o fân wythienau, ac yn ei daflu allan trwy un redweli fawr. Un o'r ffynnonellau mwyaf, os nad y fwyaf oll, yn Ynys Prydain, yw ffynnon Gwenfrewi (Wenefrede), yn Nhreffynnon, sir Fflint. Dywed Pennant fod y ffynnonell hon yn bwrw i fyny un dunell ar ugain o ddwfr bob mynud, ac nad ydys yn gwybod iddi erioed rewi; ond camsyniad y werin ydyw tybied nad ydyw ei dwfr ddim llai yn ystod sychder. Mae y dwfr yn tarddu o'r graig, ac yn ymgodi mewn ffynnon amlonglog brydferth, uwch ben yr hon yr adeiladwyd capel gan deulu Stanley, o gylch amser Harri VII. Yr oedd y dwfr yn cael ei gyfrif gynt yn dra rhinweddol i iachau clefydau; ac heb law hyny, cyrchai rhifedi mawr o bererinion yno. Byddai pererinion sir Lancaster, hyd yn oed mor ddiweddar ag amser Pennant, i'w gweled yn dra defosiynol yn y dwfr hyd eu bocbgernau am oriau, yn gweddïo ac yn gwneyd amryw ystumiau; a chariwyd y penboethder yma mor bell yn fynych, fel y costiai i'r ymddiofrydwyr eu bywyd.

Y mae graddau y gwahaniaeth sydd rhwng ffynnonellau parhaus a'r rhai a ymddibynant ar y gawod olaf o wlaw, yn dra amrywiol; ond y maent oll yn ymddibynu ar yr egwyddorion cyffredinol a nodwyd eisoes. Un o'r golygfeydd hynotaf yn y graddau a nodwyd ydyw y rhai a elwir "ffynnonellau dyspeidiol" (*the intermitting springs*), sef rhai yn tarddu ar amserau, ac yn peidio ar amserau ereill. Amgylchiad cyffredin yn ngwastad-diroedd marm parthau deheuol Lloegr, ydyw i'r dyffrynoedd fod yn hollol sychion am un ran o'r flwyddyn (yr hydref a'r gauaf), ac yn cael eu dyfrhau yn dda y rhan arall o'r flwyddyn (y gwanwyn a'r haf). Bydd y ffynnonellau yn tori allan yn uwch yn y dyffrynoedd ar rai blynyddoedd nag ereill, yn ol y swm o wlaw fyddo wedi disgyn ar dymmor blaenorol (megys yn yr hydref), ac yn ol gradd ei drosglwyddiad trwy y marm agenol a sugndynol. Y mae hen ddiareb yn sir Wilts, yr hon sydd fel y canlyn:—

"Fel yr estyn y dyddiau fe gryfha'r ffynnonau."

Hynodrwydd arall a berthyn i rai ffynnonellau ydyw, amrywiaeth eu harllwysiad. Y maent weithiau yn rhuthro gyda grymusder mawr, yna yn treio ac yn diflanu. Dywedir fod ffynnonell o'r fath "yn Paderborn yn Westphalia; yr hon sydd yn diflanu ddwywaith mewn pedair awr ar ugain, ac yn dychwelyd yn mhen chwe awr gyda swn mawr; a chyda'r fath rym, fel y mae yn troi tair o felinau yn agos i'w tharddiad." *Phil. Trans.*, rhif. 6, td. 127. Yr enw a roddir ar y rhai hyn ydyw "ffynnonellau cylchgyfnewidiol" (*reciprocal springs*). Y mae y ffynnonellau hyn, sydd yn treio ac yn llenwi, yn tarddu gan mwyaf o greigiau calch agenog a cheudyllog: ceir hwy mewn amryw barthau yn agos i Ddinefwr yn sir Gaerfyrddin, yn Tideswell yn sir Derby, ac yn agos i Settle yn sir York. Y tyb cyffredin gyda golwg ar y rhai hyn ydyw, fod y dwfr yn llenwi ceudyllau tanddaiarol, a bod y rhedleoedd sydd yn arllwys y dwfr o honynt ar lun pibell gam, a bod y ceudwll llawn ar amser penodol yn tori drosodd ac yn llifo allan; ac yna fod y ffrwd yn peidio nes y llenwo y ceudwll drachefn, ac yna y llifa eilwaith, a hyny ar gylch yn lled gysson.

Ffynnonellau yn gyffredin sydd yn cyflenwi llynoedd a phyllau; ac y mae lluaws o afonydd mawrion yn tarddu yn ddechreuol o ffynnonellau.

FFYRLING [Sax., *feorthung*, o *feorth*; Seis., *farthing*, o *fourth*=pedwerydd]. Yr oedd ffyrling yn un o ddarnau bathol cynnaraf y Seison. Bathwyd ffyrlingod arian gan y brenin John: amseriad ffyrlingod Gwyddelig ei deyrnasiad ef yw 1210. Bathwyd ffyrlingod arian hefyd gan Harri VIII. Y cyntaf a fathodd ffyrlingod copr oedd Charles I., yn 1665; a thrachefn yn 1672, pan y gwnaed bathiad helaeth o arian copr. Y bedwaredd (*feorth*) ran o geiniog ydyw ffyrling gopr. Y darn bathol copr hwn oedd y lleiaf yn Ynys Prydain, hyd 1843, pan y gorchymynodd Victoria fathu hanner ffyrling (sef hatling—yr wythfed ran o geiniog) am y tro cyntaf yn Mhrydain.

Y mae dau air Groeg yn cael eu cyfieithu yn y Testament Newydd Cymraeg yn *ffyrling*.

1. *Codrantês*. Ceir y gair yma yn *Mat.* v. 26; *Marc* xii. 42:—dernyn bath a arferid yn Palestina yn amser ein Harglwydd. Yr oedd yn gyfartal i ddwy hatling (*lepton*), fel y dengys yr adnod a nodwyd yn Marc. Rhoddwyd yr enw *codrantês* (L. *quadrans*) ar y dechreu i chwarter dernyn bathol Rhufeinaidd o'r enw *as*, neu ddarn bathol yn cynnwys tri *unciæ*; ac am hyny a elwid hefyd *teruncius*. Dernyn bathol copr Groegaidd pur fychan oedd y *lepton* (hatling) ar y dechreu, saith o ba un gyda'r Atheniaid a wnai *chalcous*. Yr oedd copr bathol Palestina, dan deyrnasiad Tiberius, mewn rhan yn Rhufeinaidd ac mewn rhan yn Roeg-Rufeinaidd. Nid oedd dernyn llai ar arfer gyffredin yn y dosbarth cyntaf na'r *as*, cyfartal i *assarion* y Testament Newydd (gwel isod); ond yn yr ail ddosbarth, yr oedd dau ddernyn llai—un, fel yr ymddengys yn chwarter *assarion*, a'r llall oedd wythfed ran o *assarion*. Mae yn ddiammheu mai y cyntaf, a elwid *codrantês*, a gyfieithir yn ein Beibl ni yn "ffyrling," a'r llall oedd *lepton*, a gyfieithir "hatling."

2. *Assarion*:—ceir y gair yma yn *Mat.* x. 29; *Luc* xii. 6—mewn ystyr briodol, *as* bychan, ond a ddefnyddid yn amser ein Harglwydd fel dernyn Groegaidd cyfartal i'r *as* Lladinaidd. Cyfieithir y gair yn y ddau le genym ni yn "ffyrling." Mae y *Vulgate* yn ei gyfieithu yn Matthew yn *as*, ond yn Luc yn *dipondius* - gair yn arwyddo dernyn bathol cyfartal i ddwy *as*. Yr *assarion*, gan hyny, oedd naill ai yr *as* Rhufeinaidd, neu y dernyn cyfartal o'r bathodau Groeg-Rufeinaidd oedd yn fwy arferedig yn Palestina; neu fe allai bob un o honynt. Y mae rhai yn meddwl mai y tyb olaf yw y cywiraf. Y mae cyfieithiad y *Vulgate* o *Luc* xii. 6, yn peri i rai dybied mai un darn bathol a feddylir yno wrth ddau *assarion*; a dywedant fod hen gerfiadau Groegaidd ar y bathodau yn tueddu i gadarnhau y syniad yma.

FFUGLITH, [ffug—llith; Ll. *legenda*]. Un o ystyron y gair *llith* ydyw deniad, neu yr hyn sydd yn denu: hefyd, y mae yn arwyddo gwers, darlith. Mae *ffug* yn arwyddo hud, hudoliaeth; som, twyll, &c. Yn nghyfansoddiad y gair *ffuglith*, saif *ffug* fel blaenddod ansoddol: yna mae y gair yn arwyddo *gwers ddeniadol* neu ledrithiol,



Digitized by Google

gwers wedi ei seilio ar hud neu ddychymyg, neu ddammeg, yn hytrach nag ar ffaith neu wirionedd. Ystyr y gair Lladin *legenda* ydyw *rhywbeth* i'w ddarllen. Ar y dechreu, llyfr oedd y ffuglith yn yr Eglwys Babaidd, yn cynnwys y gwersi oedd i'w darllen yn y gwasanaeth dwyfol: yna, cymhwyswyd y gair at hanes bywyd y saint, o blegid y darllenid pennod o'r llyfr, neu hanes bywyd rhyw sant, yn y gwasanaeth plygeiniol, a elwir yn Gymraeg yn gyffredin, "Y Plygain." Yr enw a roddir ar y ffuglithiau hyn yn Gymraeg yw "Bucheddau y saint." Cyhoeddwyd lluaws o'r "Bucheddau" hyn yn ddwy gyfrol fawr a drud, gan *The Welsh MSS. Society* (Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig), dan yr enwau *Liber Landavensis* (Llyfr Llandaf, neu Lyfr Teilo); a *Lives of the Cambro-British Saints;* a'r olaf hwn a elwir yn Gymraeg, yn *Bucheddau'r Saint.* Amcan casgliad y "Bucheddau" hyn, medd y Parch. W. J. Rees, eu golygydd, oedd hysbysu pa fodd yr oedd y personau a gofnodent wedi bucheddu, a gosod allan eu dull hwy o fyw fel esamplau i ereill i'w dilyn; ac am hyny, appwyntid iddynt gael eu darllen fel rhan o'r gwasanaeth, fel y gallai y gwrandawyr wybod y manylion am eu hymddygiadau, a chael eu cynhyrfu i'w hefelychu. A chan y darllenid hwy fel hyn, er mwyn trosglwyddo hyfforddiad crefyddol a chynhyrfu ymddygiad duwiol, galwyd hwy yn ffuglithiau (*legends*), mewn cyferbyniad i'r homiliau neu y pregethau, y rhai a leferid, ac a fwriadid fel addysg grefyddol i'r gwrandawyr, trwy roddi gorchymynion a chyfarwyddiadau iddynt, megys yr amcenid i'r "Bucheddau" ateb yr un dyben trwy esampl.

Y dyddiau o'r flwyddyn, ar ba rai yr appwyntid darllen y "Bucheddau" hyn yn gyhoeddus oedd dyddiau gŵyl y "saint" y traethent am danynt, sef dyddiau eu marwolaeth; y rhai hefyd a ystyrid yn ddyddiau eu genedigaeth, gan mai ar y dyddiau hyny yr ystyrid eu bod wedi myned i sefyllfa o ddedwyddwch.

Gyda golwg ar yr amser y cyfansoddwyd ffuglithiau neu "Fucheddau" y "Saint" Cymreig, y mae yn lled anhawdd ei benderfynu; ond bernir yn gyffredin iddynt gael eu casglu a'u hysgrifenu o ddechreu y ddeuddegfed ganrif hyd ganol y drydedd ar ddeg, pan y dymunai hiliogaeth y gorchfygwyr Normanaidd wneyd y cyssylltiad oedd rhwng yr Eglwys Brydeinaidd a'r Eglwys Babaidd yn dynach nag ydoedd; ac er mwyn cymmodi y Cymry â'u hamcan, yr oeddynt yn ysgrifenu dychymygion ffafriol am eu "Saint," y rhai a anrhydeddid yn fawr ganddynt. Bernir i'r holl "Fucheddau" neu ffuglithiau hyn am "Saint" Cymru gael eu hysgrifenu ar y cyntaf yn Lladin, yr hon oedd yn adnabyddus i'r clerigwyr yn gyffredin; ac iddynt wedi hyny gael eu talfyru a'u cyfieithu gan y clerigwyr i'r Gymraeg i'w darllen yn yr eglwysydd. Y mae genym esampl o'r dull yr oedd hyn yn cael ei wneuthur, yn "Muchedd Dewi Sant" [*Lives of the Cambro-British Saints*, td. 102—116, a 402—417], lle y gwelir nad yw y Gymraeg ond talfyriad a chyfieithiad o'r Lladin; megys, mewn amser diweddarach, y talfyra ac y cyfieitha rhai clerigwyr Cymreig bregethau Seisonig, gan eu cyfaddasu i'w cynnulleidfaoedd Cymreig.

Yn awr, gan fod y ffuglithiau hyn yn anhawdd eu cael i ddarllenwyr cyffredin; ac y dichon fod llawer yn awyddus am wybod eu natur, a gweled pa fath bethau a ddarllenid yn y dyddiau tywyll a Phabaidd hyny yn eglwysydd Cymru, fel "rhan o wasanaeth dwyfol," "er addysg ac esampl i'r gwrandawyr," ni a gymmerwn ein rhyddid yma i ddyfynu un o honynt, sef "Buchedd Dewi Sant," yr hwn a ystyrir "y penaf o saint Cymru." Gan fod llythyraeth wreiddiol y "ffuglith" yn gwbl annealladwy i'r darllenydd cyffredin, rhoddir hi yma yn llythyraeth y GWYDDONIADUR, heb newid dim ar y geiriau na'r ieithwedd:—

**BUCHEDD DEWI SANT.**

***Yma y traethir o ach Dewi, ac o dalm o'i fuchedd.***

"DAFYDD fab Sant, fab Credig, fab Cunedda, fab Edyrn, fab Padarn Beisrydd, fab Deil, ab Gorddeil, fab Dwfn, fab Gorddwfn, fab Amgnod, fab Amweryg, fab Omydd, fab Peru, fab Dubun, fab Ongen, fab Afallach, fab Eugen, fab Eirddolen, fab chwaer Fair Wyry, mam Iesu Grist.

Ceredig frenin a wledychawdd dalm o flenyddedd, ac o'i enw ef y cafas Ceredigiawn ei henw; a fab a fu iddaw, ac enw y mab oedd Sant; ac i hwnw ydd ymddangoses angel yn ei hûn, a dywedyd wrthaw, 'Fory,' heb ef, 'ti ei i hely, a thi a geffi dri dyfod geir llaw afon Deifi, nid amgen Carw, a gleisiad, a Haid o wenyn ym mewn pren uch ben yr afon, yn y lle a elwir Henllan yr awr hon, dyro dylyer y tir i fab ni aned eto, efo breufydd (bieu fydd) dau le hyd ddydd brawd, y rhai a ddywespwyd uchod, Linhenllan a Liconivancan (Licomanam).[1]

Oddyna (=yna) y doeth Padrig hyd yn Nglyn Rhosyn, ac y meddylawdd ddwyn yno ei fuchedd; ac angel a ddoeth at Badrig, ac a ddywawd wrtho, 'Adaw di,' heb ef, 'y lle hwn i fab ni aned eto.' Sef a orug (wnaeth) llidiaw, a dywedyd, 'Pa ham y tremygawdd yr Arglwydd ei was, a fu er yn fab yn gwasanaethu iddaw trwy ofn a chariad, i ethol o honaw ynteu yr awr hon fab ni aned, ac ni enir hyd yn mhen deng mlynedd ar hugeint. Ac ymbaratoi a orug Padrig ynddaw ei hun at adaw y lle hwnw yn Arglwydd Grist: a'r Arglwydd eisioes a garai Badrig yn fawr, ac anfones angel ataw o'i ddyhuddaw; a'r angel a ddywawd wrthaw, 'Padrig, bydd lawen: yr Arglwydd a'm hanfones i atat ti i ddangos it' Ynys Iwerddon, o'r eisteddfa y sydd yn Nglyn Rhosyn (a elwir yr awr hon Eisteddfa Padrig); canys ti a fyddi Ebostol yn yr ynys a weli di; a thi a ddioddefi lawer yno yn nghariad Duw, a Duw a fydd y gyda thi, beth bynag a wnelych.' Ac yna y llonyddwyd meddwl Padrig, ac y gedeweis Padrig i Dewi y lle hwnw; a pharotoi llong yn y porthloedd iddaw; a chyfodi o farw ŵr a gladdasid yno ar y morfa er ys pymtheng mlynedd. Cruchier oedd ei enw. A myned a orug Padrig i Iwerddon a'r gŵr hwnw y gydag ef, a hwnw wedi hyny a fu esgob.

Ac yn mhen y deng mlynedd ar hugeint wedi hyn, fal ydd oedd y brenin a elwid Sant yn cerdded ei hun, nachaf (wele) leian yn cyfarfod âg ef; sef a orug ynteu ymafael â hi, a dwyn trais arni, a'r lleian a gafas feichiogi. Enw y lleian oedd Non; a mab a aned iddi, a Dafydd a roed yn enw arno. A gŵr ni bu iddi na chynt na gwedi: diweir oedd hi o feddwl a gweithred.

Cyntaf gwyrth a wnaeth Dewi, er pan gafas hi feichiogi, ni fynawdd hi fwyd namyn bara a dwfr yn ei hoes, ac ni lewes Dewi fwyd namyn bara a dwfr. Eil gwyrth a wnaeth Dewi, a'i fam yn myned i'r eglwys i wrandaw pregeth Gildas Sant. Gildas a ddechreuodd bregethu, ac nis gallei; ac yna y dywawd Gildas, 'Ewch oll o'r eglwys allan,' heb ef, ac eilchwyl profi pregethu a orug, ac nis gallei; ac yna y gofynawdd Gildas, a oedd neb yn yr eglwys ond efe ei hun. 'Ydwyf i yma,' heb y lleian, 'rhwng y ddôr a'r pared.' 'Dos di,' heb y sant, 'oddi eithr yr eglwys, ac arch y plwyf ddyfod i mewn.' A phob un a ddoeth i'w le i eistedd fal y buasei; ac yna pregethu a orug y sant yn eglur, ac yn uchel. Yna y gofynawdd y plwyf iddaw, 'Pa ham na ellesit ti bregethu i ni gynneu, a ninneu yn llawen yn dy

[1] Tua thair milltir i'r dwyrain o Gastell Newydd Emlyn, medd gol. y "Bucheddau."

wrandaw di?' 'Gelwch,' heb y sant, 'y lleian i mewn a yreis i gynneu o'r eglwys.' Heb y Non, 'Llyma (dyma) fyfi.' Heb y Gildas yna, 'Y mab y sydd yn nghroth y lleian hon y sydd fwy ei feddiant, a'i rad, a'i urddas no myfi; canys iddaw ef ei hun y rhoddes Duw fraint a phenaduriaeth holl saint Cymru yn dragwyddawl, cyn dydd brawd a gwedi. Ac am hyny,' heb ef, 'nid oes ffordd i mi i drigaw yma hwy, o achos mab y lleian raco (acw), yr hwn a roddes Duw iddaw benaduriaeth ar bawb o'r ynys hon; a rhaid i mi,' heb ef, 'fyned i ynys arall, a gadaw i'r mab hwn yr ynys hon.' Gwyrth arall a wnaeth Dewi yn yr awr y ganed ef. Ef a ddoeth taraneu a mellt, a chareg a oedd gyferbyn a phen Non a holltes oni fi ddau hanner, ac y neidies y naill hanner iddi dros ben y lleian hyd is ei throed pan ydoedd hi yn esgor. Gwyrth arall a wnaeth Dewi pan fedyddiwyd: ef a ymddangoses ffynnon o'r ddaiar, lle ni buasei ffynnon erioed; a dall a oedd yn dala Dewi wrth fedydd a gafas yna ei olwg; ac yna y dall a wybu fod y mab ydd oedd yn ei ddala wrth fedydd yn llawn o rad Duw; a chymmeryd y dwfr bedydd a orug, a golchi ei wyneb âg ef. Ac o'r awr y ganed dall wynebglawr oedd, ac yna ei olwg a gafas; a chwbl o'r (a'r) a berthynei arno (iddo), sef a wnaeth pawb, moli Duw fal y dyleynt (dylasent).

Y lle y dysgwyd Dewi ynddaw, a elwid *Vetus Rubus*, sef yw hyny yn Nghymraeg, yr Henllwyn. Yno y dysgwyd iddaw ef Seilm (Salmau) yr holl flwyddyn a'i llithion, a'r offerenau: yno y gweles ei gyd-ddysgyblion ef golomen â gylfin aur iddi, yn dysgu Dewi, ac yn gwareu (chwareu) yn ei gylch. Oddyna y daeth Dewi hyd at athro a elwid Paulinus, a dysgybl oedd hwnw i esgob a oedd yn Rhufain; a hwnw a ddysgawdd Dewi oni fu athro. Ac yna y damweiniawdd colli o athro Dewi ei lygeid, o dra gormod dolur yn ei lygeid; a galw a orug yr athro ato ei holl ddysgyblion yn olynol, i geisiaw y ganthynt gynnorthwy am ei lygeid; ac nid ydoedd yr un yn ei allel iddaw; ac yn ddiwethaf oll galw Dewi a orug, 'Dafydd,' heb yr athro, 'edrych fy llygeid, y maent yn poeni.' 'Arglwydd athro,' heb Dewi, 'nac arch i mi edrych dy lygeid; er ys deng mlynedd y deuthum i atat ti i ddysgu, nid edrycheis eto i'th wyneb.' Sef a orug yr athro yna meddyliaw, a rhyfeddu y cywilydd a ddywawd y mab, 'Canys felly y mae,' heb ef wrth y mab, 'dyro dy law ar fy wyneb i, a bendiga fy llygeid, a mi a fyddaf holl iach.' A phan roddes Dafydd ei law ar ei lygeid ef, y buant holl iach. Ac yna y bendigawdd Paulinus Dafydd o bob bendith a geffid yn ysgrifenedig yn y ddeddf hen ac yn newydd.

Yna y doeth angel at Paulinus, a dywedyd wrthaw fal hyn, 'Amser,' heb ef, 'yw i Dafydd Sant fyned oddyma i wneuthur y pethau y sydd dyngedfen y gan Dduw iddaw eu gwneuthur.' Oddyna y doeth Dewi hyd yn Nglastynbri, ac yno ydd adeiliawdd ef eglwys. Dewi a ddoeth i'r lle ydd oedd y dwfr yn llawn o wenwyn, ac a'i bendigawdd, ac a wnaeth y dwfr hwnwyn dwym hyd ddydd brawd; a hwnw a elwir Yr Enaint Twymyn. Oddyna y doeth Dewi hyd yn Nghowlan, a hyd yn Repecwn; oddyna y doeth y Collan a Glasgwm; oddyna ydd adeiliawdd Llanllieni yn nglan Hafren; oddyna y rhoddes gwared i Bebrawg, brenin Erging, a oedd yn ddall; oddyna adeilawdd eglwys yn Ngwent, yn y lle a elwir Rhaglan; oddyna ydd adeilawdd eglwys yn y lle a elwir Llangyfelach yn Ngŵyr. Dau sant a oeddynt yn Nghydweli a elwid Boducad a Nailtrim, a ymroddasant yn ddysgyblion i Dewi. Oddyna ydd ymchoelawdd Dewi hyd y lle a elwid *Vetus Rubus*, ac yno ydd oedd esgob a elwid Goeslan, a hwnw oedd frawd ffydd i Dewi; a Dewi a ddywawd wrthaw, 'Angel yr Arglwydd y ddywawd i mi mai o fraidd y daw un o gant o'r lle hwn i deyrnas nef; ac y dangoses i mi le arall, ac o'r lle hwnw nid ä neb i uffern, o'r (a'r) a fo ffydd dda a chred ganddaw; ac o'r rhai a gladder yn mynwent y lle hwnw hefyd nid ä neb i uffern.'

A dyddgwaith y doeth Dafydd a'i ddysgyblion, nid amgen Aeddan, ac Elwyd, ac Ysmael, a llawer y gydag hwynt i'r lle a fanagasai Duw iddynt, nid amgen yn Nglyn Rhosyn, Hodnant y gelwir y lle hwnw: cyntaf y lle y dan yr awyr y cynneuasant hwy dân fu yno; a phan gynneuasant hwy dân yno y bore glas, y cyfodes mwg, ac y cylchynawdd y mwg hwnw yr ynys hono oll a llawer o Iwerddon; a hyny o'r bore glas hyd bryd gosper. Ac yna ydd arganfu tywysog a elwid Boya (ac Yscot oedd) y mwg hwnw; ac o lid eistedd a orug mewn craig uchel, o'r bore hyd bryd gosper, heb fwyd a heb ddiawd. A'i wraig a fedrawdd arno yno, ac a ofynawdd iddaw, 'Pa ham na fyni na bwyd na diawd?' 'Dioer' (diau), heb ef, 'trist wyf a llidiawg, mwg a welais i heddyw yn cyfodi o Hodnant, ac yn cylchynu llawer o ddinasoedd; y gwr,' heb ef, 'a gynneuawdd y tân hwnw, ei feddiant ef a gerdda y ffordd y cerddawdd y mwg.' Heb ei wraig wrthaw, 'Yr wyt yn ynfyd: cyfod i fyny,' heb hi, 'a chymmer dy wŷr y gyda thi, a lladd y neb a gynneuawdd y tân hwnw, ar dy dir di heb dy genad.' Ac yna y doeth Boya, a'i esgwieriaid *(esquires)* y gydag ef, ar feddwl lladd Dewi a'i ddysgyblion; a phan ddoethant parth a'r lle yr oedd Dewi, y dygwyddasant yn y cryd (*trembling*), hyd na ellynt hwy wneuthur dim drwg i Dewi nac i'w ddysgyblion, onid eu gwatwar, a dywedyd geiriau tremygedig yn eu cyfer, ac ymchoelyd adref. Ac fal y byddent felly, nachaf (wele) wraig Boya yn cyfarfod â hwynt, ac yn dywedyd wrthynt, 'Ein bugelydd ni a ddywedasant i mi ryfarw ein holl ysgryb (ysgrybl), nid amgen ein gwartheg, a'n hychen, an greoedd (meirch), a'n dyfeid (defaid), ac eu bod oll yn feirw, â'u llygeid yn agored, ac yn cwynaw, ac udaw, a gruddfan:' a orug Boya, a'i wraig, a'i dylwyth, a dywedyd, 'Y sant,' heb hwynt, 'y buam ni yn ei watwaru, a wnaeth hyn;' sef y cawsant hwy yn eu cynghor gweddïaw y sant, a cheisiaw ei fodd ef a'i dylwyth. Ac yna y rhoddes Boya yn dragwyddawl Hodnant i Dewi. Ac ymchoelyd adref a orug Boya a'i dylwyth yn nghydag ef; a phan ddoethant adref, hwynt a gawsant eu hanifeiliaid yn fyw ac yn iach. Ac yna y dywawd gwraig Boya wrth ei llawforynion, 'Ewch,' heb hi, 'hyd yr afon y sydd geir llaw y sant, a diosgwch eich dillad, ac yn noeth dywedwch wrthynt eiriau anniwair, cywilyddus! Holl ddysgyblion Dewi a fu anhawdd ganthynt ddioddef y cywilydd hwnw, ac a ddywedasant wrth Dewi, 'Ffown oddyma ymeith,' heb hwynt, 'ni allwn ni ddioddef hyn, nac edrych ar y gwragedd drwg.' Ac yna y dywawd y sant, 'Ponid gwell i ni beri iddynt hwy adael y lle hwn i ni?' Ac yna Dewi a'i ddysgyblion a ddirwestasant y nos hono hyd dranoeth. Tranoeth y dywawd gwraig Boya wrth ei llysferch, 'Tydi forwyn,' heb hi, 'cyfod, ac awn ein dwy i Dwyn Alun i geisiaw cnau.' Heb y forwyn wrth ei llysfam, 'Parod wyf fi i fyned.' A cherdded a wnaethant hyd yn ngwalawd (ngwaelod) y glyn; a phan ddoethant yno, eistedd a orug y llysfam, a dywedyd wrth ei llysferch, 'Dyro dy ben i'm harffed, a mi a'i dihaeddaf' (dihoeddaf=toraf), heb hi. Sef a orug y forwyn dda, ddiwair, wâr, rhoddi ei phen yn arffed ei llysfam; sef a orug y llysfam tynu cyllell a lladd pen y forwyn santes; ac yn y cyfer y dygwyddawdd y gwaed i'r llawr, ydd ymddangosawdd ffynnon, a llawer o ddynion a gawsant iechyd a gwared yno; a hyd heddyw y gelwir y ffynnon hono, Ffynnon Dunawd; canys Dunawd oedd enw y forwyn. Yna y ffoes y llysfam ddrwg, ac ni wybu neb o'r byd hwn pa angeu a'i dug. A Boya a ddechreuawdd ddrygarferthu (ddrygarferion), a Dewi a'i ddysgyblion a lawenhasant. Yna y meddyliawdd Boya ladd Dafydd a'i ddysgyblion; ac eisioes, sef y damweiniodd y bore dranoeth, dyfod ei elyn hyd y tŵr ydd oedd Boya ynddaw yn cysgu: gwedi caffel y pyrth yn agored, a lladd pen Boya yn ei wely; ac yn ddiannod (ddioed) y doeth tân o'r nef, a llosgi yr holl adeiliadeu hyd y llawr. Gwybydded pawb ryladd o'r Arglwydd Dduw Boya, a Satrapa ei wraig, o achos Dewi.

Oddyna yr adeiliawdd Dewi yn Nglyn Hodnant

Digitized by Google

byn wraig wedi marw ei hun mab, a'r wraig yn gwaeddi ac yn disgyriaw (ochain); a phan weles Dewi y wraig yn y drych (sefyllfa) y nerth hwnw, cyssefyll a orug (sefyll a wnaeth), a gollwng y cenadeu o'r blaen. Sef a orug y wraig, druan, a glywsai glod Dewi, syrthiaw ar dal ei deulin, a manegi iddaw fod ei hun mab yn farw: sef a wnaeth Dewi yna, trugarhau wrthi, a throsi gyda hi i'r lle yr oedd y mab yn farw, yn ymyl afon a elwid Teifi. A dyfod i'r tŷ lle yr oedd corff y mab, a gweddïaw yr Arglwydd, a dywedyd, 'Fy Arglwydd Dduw, i ti a ddigynneist (ddisgynaist) o arffed y Tad o'r nef i'r byd hwn o'n hachos ni, bechaduriaid, o'n prynu ni o safn yr hen elyn, trugarha, Arglwydd, wrth y wraig weddw hon, a dyro iddi yn fyw ei hun mab, yn etifedd drachefn, fal y mawrhaer dy enw di yn yr holl ddaiar.' A phan ddarfu i Dewi ei weddi, cyfodi yn holliach a wnaeth y mab, mal ped fai yn cyfodi o gysgu; a Dewi erbyn ei law ddeheu yn ei gyfodi, ac yn ei roddi yn holliach idd ei fam. Sef a orug y mab o'r lle y cyfoded o feirw, canlyn Dewi o feddwl a gweithred, ac ef a fu trwy lawer o flynyddedd yn nghyda Dewi yn gwasanaethu Duw.

Oddyna y cerddawdd Dewi, yn nghyda chenadeu y saint, hyd y lle yr oeddynt yn aros; a phan ddoeth Dewi yno, y cyfodes yr holl saint yn ei erbyn (i'w dderbyn), pan y gwelsant ef yn dyfod, a chyfarch gwell iddaw, a syrthiaw ar dal eu gliniau, ac erchi iddaw bregethu, gan ddrychafael o honaw i ben bryn uchel, y lle y buasai pregeth (yn pregethu) cyn no hyny. Ac esgusaw a wnaeth ef ar dalm o amser wrthynt hwy, a dywedyd na feiddiai ef, ac na allai wneuthur yr hyn ydd oeddynt hwy yn ei erchi iddaw; eisioes (oud) ef a gymmerth fendith y cyffredin, ac a ufuddhaodd iddynt, a gwrthod a orug ef esgynu i ben y bryn, a dywedyd na fynai ef le i sefyll onid ar y llawr gwastad. A dechreu pregethu oddyno a orug Dewi, o gyfraith Crist a'r efengyl, a hyny megys llef corn eglur, ac yn amlwg hyny o bob dyn, i'r pellaf yn gyn eglured ag i'r nesaf, ac yn gyn gyffredined ag y byddei yr haul i bawb pan fai hanner dydd; a hyny a fu ryfedd gan bawb. A phan ydoedd Dewi ar warthaf y llawr gwastad a ddywetpwyd uchod yn pregethu, y cyfodes y llawr hwnw, megys mynydd uchel, dan ei draed ef, a phawb o'r gynnulleidfa hono yn edrych ar hyny; yr hwn y sydd eto yn fryn uchel, yn amlwg gan bawb, ac yn wastattir o bob parth iddaw; a'r gwyrth a'r rhyfeddawd hwnw a wnaeth Duw i'r Dewi yn Llanddewifrefi.

Ac yna yn gytun y rhyngthynt eu hunain, moli Dewi Sant a wnaethant, ac addef yn gyfun ei fod yn dywysog ar saint Ynys Brydein, gan ddywedyd fal hyn: 'Megys y rhoddes Duw benadur yn y môr ar bob cenedl o'r pysgod, ac megys y rhoddes Duw benadur yn y ddaiar ar yr adar, felly rhoddes ef Dewi yn benadur ar y dynion yn y byd hwn; ac yn y modd y rhoddes Duw Matheus yn Iudea, a Lucas yn Alexandria, a Christ yn Nghaerussalem, a Phedr yn Rhufein, a Martyn yn Ffreinc, a Sampson yn Llydaw, y rhoddes y Dafydd Sant fod yn Ynys Brydein.' Ac wrth hyny y gwnaethpwyd Dewi Sant yn benadur, ac yn dywysog ar saint Ynys Brydein, am bregethu o honaw yn y senedd fawr hono i'r holl bobl, yn yr hon ni allawdd neb bregethu namyn efo. A'r dydd hwnw, holl saint yr ynys hon, a'r breninedd oll, a ostyngasant ar eu gliniau i addoli y Dewi, ac a roddasant iddaw fod yn benaf o saint Ynys Brydein, ac ef a'i haeddawdd. A'r dydd hwnw y rhodded i Dewi y noddfaeu (breintiau), ac amddiffyn i bob dyn or (a'r) a wnelei ddrwg, ac a ffoei i nawdd y Dewi. Hon yw noddfa Dewi i bawb or (a'r) a fo yn ninas Rubi yn nawdd Dewi, ac y (o) dan ei amddiffyn o'r byd; rhaid iddaw cenad yw iddaw fyned o Dyfi hyd Deifi, ac o'r byd rhaid iddaw fyned, ac a fo mwy, aed yn rhagor rhag (ger bron) pob sant, a brenin, a dyn yr ynys hon. Noddfa Dewi yw pa le bynag y bo tir cyssegredig i Dewi Sant; ac na lyfaso (feiddia) na brenin, na thywysog, nac esgob, na sant roddi nawdd iddaw yn mlaen Dewi, canys efo a gafas nawdd yn mlaen pawb, ac nis cafas neb yn ei flaen ef, canys ef a osodes Duw a dynion yn benaf o'r holl ynys; ac yna ydd ysgymunawdd hyny o saint o ddirundeb y breninedd, y neb a dorai noddfa Dewi Sant.

Ac oddyna, fal ydd oedd Dewi ddyw Mawrth diwethaf Chwefrawr yn gwrandaw ar yr ysgolheigion yn gwasanaethu Duw, nachaf (wele) y clywai angel yn ymddyddan âg ef, ac yn dywedyd wrthaw fel hyn:- 'Dafydd,' heb yr angel, 'beth a geisiaist ti er ys talm y gan dy Arglwydd Dduw? y mae yn barod it' pan y mynych.' Sef a orug ynteu drychafael ei wyneb i fynydd, a llawenhau, a dywedyd fel hyn:— 'Yr awr hon, Arglwydd, y cymmer dy was di i'th dangnefedd.' Sef a orug yr ysgolheigion a oedd yn gwrandaw y ddau ymadrodd hyn, syniaw arnynt yn fawr, a syrthiaw megys dynion meirw, ac yn ing ar hyny nachaf y clywynt lef ddyddan, ac arogleu tecaf yn llenwi y ddinas. Sef a orug Dafydd yr eilwaith dywedyd yn uchel, 'Arglwydd Iesu Grist,' heb ef, 'cymmer fy enaid, ac na âd fi a fo hwy i drigaw yn y drygeu hyn.' Ac yn ol hyny hwynt a glywynt yr eilwaith yr angel yn dywedyd wrth Dewi, 'Dafydd Sant, ymbarotoa y dydd cyntaf o Fawrth,[1] ef a ddaw dy Arglwydd di, Iesu Grist, a naw gradd nef yn nghydag ef, a degfed y ddaiar i'th erbyn (dderbyn) di, ac a eilw yn nghyda thi o'r rhai a fynyth (fynych) di o ysgoleig, a lleyg, a gwirion, a phechadur, ieuanc a hen, mab a merch, gŵr a gwraig, a fessan (morwyn), a phuten, Iddew a Sarassin (*Saracen*), a hyny a ddaw yn nghyda thydi.' A'r brodyr cymmaint yr un, pan glywsant hyny, trwy wylaw, a chwynaw, ac udaw, ac ucheneidiaw, a ddrychafasant eu llef, ac y dywedasant, 'Arglwydd Ddewi Sant,' heb hwy, 'cannorthwya ein tristyd ni. Ac yna y dywawd Dewi wrthynt hwy, gan eu dyddanu a'u llawenhau, 'Fy mordyr, byddwch wastad ac un feddwl; a pha beth bynag a welsoch ac a glywsoch y genyf fi, cedwch ef, a gorphenwch y peth mwy.'

O'r dydd hwnw hyd yr wythfed dydd, nid aeth Dewi o eglwys i bregethu a gweddïaw. Y chwedl eisioes yn oed un dydd a aeth drwy yr holl ynys hon ac Iwerddon, gan yr angel. Sef fal y dywedai yr angel, 'Gwybyddwch chwi, pan yw yn yr wythnos nesaf y sydd yn dyfod, ydd ä Dewi Sant, eich arglwydd chwi, o'r byd yma at yr Arglwydd.' Yna y gwelid yngyfredeg gan saint yr ynys hon, a saint Iwerddon, o bob parth, yn dyfod i ymweled â Dewi Sant. O bwy yna a allei ddioddef wylofein y saint, neu ucheneidieu y meudwyaid, neu yr offeiriaid a'r dysgyblon, yn dywedyd, 'Pwy a'n dysg ni?' Cwyn y personiaid yn dywedyd, 'Pwy a'n cannorthwya ni?' anobaith y breninedd yn dywedyd, 'Pwy a'n hurdda ni? Pwy a fydd yn dad cyn drugaroced a Dewi? Pwy a weddïa drosom ni ar ein Harglwydd?' Cwynfan y tlodion a'r cleifion, yn udaw, y myneich, a'r gweryddon (gwyryfon), a'r rhai priawd, a'r penydwyr, y gweision ieuainc, a'r morynion, y meibon, a'r merched, a'r rhai newydd eni ar eu bronau, yn gollwng dargeu. Beth a draethaf fi! onid yr un cŵyn oedd gan bawb, y breninedd yn cwynaw eu brawd, yr hyneif yn cwynaw eu mab, y meibion yn cwynaw eu tad. Dyw Sul y canawdd Dewi offeren, ac y pregethawdd i'r bobl; a'i gyfryw cyn nog ef ni chlywspwyd (chlybuwyd), a gwedi ef byth ni chlywir. Nis gwlas dyn eirioed y sawl dynion yn un lle a oedd yno. A gwedi darfod y bregeth a'r offeren, y rhoddes Dewi yn gyffredin ei fendith i bawb a'r a oedd yna. A gwedi darfod iddaw roddi ei fendith i bawb, y dywawd yr ymadrodd hwn:—'Arglwyddi, frodyr, a chwiorydd, byddwch lawen, a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y petheu bychein a glywsach ac a welsawch genyf fi; a minneu a gerddaf y ffordd a aeth ein tadeu ni iddi; ac yn iach iwch', heb y Dewi, 'a phoed grymus fo iwch fod ar y ddaiar, ac fyth bellach nid ymwelwn ni yn y byd hwn.' Yna y clywid gawr (bloedd) gyffredin yn cyfodi, gan gwynaw, ac wylofein, a dagreu, ac yn dywedyd, 'Och na lwnc y ddaiar ni! Och na ddaw

[1] Mae yn debyg iawn mai y chwedl anhygoel hon ydyw unig sail y Cymry i gadw y dydd cyntaf o Fawrth, o oes i oes, yn "Ddydd Gŵyl Dewi Sant."

tân i'n llosgi ni! Och na ddaw y môr dros y tir! Och na syrth y mynyddedd ar ein gwarthaf ni!" A phawb a oedd yna yn myned i angeu. O ddyw Sul hyd ddyw Merchyr wedi marw Dewi, ni lewsant (ymborthasant) na bwyd na diawd, namyn gweddïaw drwy dristyd. A nos Fawrth, yn nghylch canu y ceiliawg, nachaf (wele) lu o engylion yn llenwi y ddinas, a phob rhyw gerddeu a digrifwch yn mhob lle yn y ddinas yn llawn; ac yn yr awr fore, nachaf yr Arglwydd Iesu Grist yn dyfod, ac yn nghyd ag ef naw gradd nef, megys y gaddawsai yn ei fawrhydri, a'r haul yn eglurhau yr holl luoedd.

A hyny dyw Mawrth, y dydd cyntaf o galan Mawrth, y cymmerth Iesu Grist eneid Dewi Sant, yn nghyd â mawr fuddugoliaeth, a llawenydd, ac enrhydedd; gwedi ei newyn, a'i syched, a'i annwyd, a'i lafur, a'i ddirwest, a'i gardodeu, a'i flinder, a'i drallawd, a'i brofedigaethau, a'i feddwl am y byd. Y cymmerth yr engylion ei enaid ef, ac a'i dygant i'r lle y mae goleuni heb ddiwedd, a gorphwys heb lafur, a llawenydd heb dristyd, ac amledd o bob rhyw dda, a buddugoliaeth, a chlaerder, a thegwch. Y lle mae moliant rhyswyr (gwoniaid) Crist; y lle ydd ysgaelusir y cyfoethogion drwg; y lle y mae iechyd heb ddolur, ieuenctid heb henaint, a thangnefedd heb anundeb, a cherddeu heb flinder, a gwobrwyeu heb ddiwedd; y lle y mae Abel yn nghyd â'r merthyri; y lle y mae Enoc yn nghyd â'r rhai byw; y lle y mae Noe yn nghyd â'r llongwyr; y lle y mae Abraham yn nghyd â'r padrieirch; y lle y mae Melchisedec yn nghyd â'r offeiriaid; y lle y mae Iob yn nghyd â'r rhai da eu dioddef; y lle y mae Moesen yn nghyd â'r tywysogion; y lle y mae Aaron gydâ'r esgyb; lle y mae Dafydd gydâ'r breninedd; lle y mae Ysias gydâ'r prophwydi; y lle mae Mair gydâ'r gweryddon (gwyryfon); lle y mae Pedr gydâ'r ebystyl (apostolion); lle y mae Paul gyda gwŷr Groeg; lle y mae Thomas gyda gwŷr yr India; lle y mae Ioan gyda gwŷr yr Asia; lle y mae Matthew gyda gwŷr Iudea; lle y mae Lucas gyda gwŷr Achaia; lle y mae Marcus gyda gwŷr Alexandria; lle y mae Andreas gyda gwŷr Sythia; lle y mae yr engylion a'r archengylion, a cherubyn, a seraphyn, a brenin y breninedd yn yr oes oesoedd. Amen.

Ac fal y coffausam ni Dewi yn ei fuchedd, a'i weithredoedd ar y ddaiar yma, felly y bo cannorthwywr ynteu, ac y crymhao (cryfhao) yn eiriawl i ninneu y geir bron y gwir Greawdwr, ar gaffael trugaredd rhag llaw. Amen."

Dyna esampl o'r hyn a ddarllenid fel "rhan o wasanaeth dwyfol" i genedl y Cymry, o'r ddeuddegfed hyd y bymthegfed ganrif, pan yr oedd Pabyddiaeth yn teyrnasu yma yn ei llawn rym. Gwelir fod yr ysgrifenydd yn priodoli prif wyrthiau yr Arglwydd Iesu yn rhyfygus i Dewi; megys codi mab y wraig weddw o farw, troi y dwfr yn win, &c.; ac y mae yn llefaru y cwbl yn yr iaith fwyaf difrifol, er mwyn twyllo ei wrandawyr hygoelus yn fwy effeithiol. Cyffelyb o ran ansawdd ac ofergoeledd ydyw yr holl ffuglithiau ereill, a elwir "Bucheddau y Saint Cymreig," sydd wedi eu cyhoeddi; sef Buchedd Brynach, Beuno, Cadog, Caranog, Gwynllyw, Illtyd, Cybi, Padarn, Gwenfrewi, Catrin, Margret, Audius, Brendanus, a Tathan. Yr oedd y rhan fwyaf o'r saint hyn, os saint hefyd, yn byw, yn ol y traddodiad am danynt, o'r chweched i'r wythfed ganrif, sef o chwech i bedwar can mlynedd cyn i'w "Bucheddau" neu y ffuglithiau gael eu hysgrifenu arnynt; fel, yn ol pob tebygolrwydd, yr oedd pob *gwir hanes* am danynt wedi colli, heb ddim ond traddodiadau ofergoelus yn eu cylch ar gof a chadw. Felly yr oeddynt yn wrthddrychau cyfaddas yn llaw y mynachod Pabaidd dichellgar i dwyllo y werin bobl.

Mae awdwyr "Bucheddau y Saint" Cymreig, neu y ffuglithiau dan sylw, yn hollol anhysbys, heb law fod yn amlwg wrthynt oll mai mynachod Pabaidd o'r fath fwyaf ofergoelus oeddynt. Cafwyd y rhai a gyhoeddwyd gan y *Welsh MSS. Society* yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn nghasgliad Iarll Macclesfield, ac yn llyfrfa Coleg yr Iesu yn Rhydychain. Adysgrifenwyd neu cyfansoddwyd casgliad lled helaeth o "Fucheddau y Saint" Cymreig yn 1366 gan un John o Tinmouth, mynach o St. Alban's; ond o blegid fod y casgliad hwnw yn annarllenadwy gan effeithiau tân, nis gellir penderfynu ai yr un yw y "Bucheddau" hyny a'r rhai a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, ai ynte talfyriadau o honynt. Pa fodd bynag, y mae orgraff y rhai Lladin a Chymraeg sydd ar gael, cystal a phethau ereill sydd ynddynt, yn profi nad ysgrifenwyd hwy nemawr gynnarach nag amser John o Tinmouth. Y mae amryw sylwadau ar y "Saint" Cymreig yn y gwaith mawr a gyhoeddwyd gan Jesuitiaid Antwerp, sef Bolandus a'i olynwyr, yr hwn y dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1612; ond wrth eu cymharu, canfyddir mai talfyriadau ydynt o'r "Bucheddau" sydd genym ni; ac y mae pob lle i gasglu mai yr un rhai hefyd oedd y rhai a gasglwyd neu a gyfansoddwyd gan John o Tinmouth.

Y cyntaf, fe allai, a gasglodd, neu a gyfansoddodd ffuglithiau ar ddull "Bucheddau y Saint," oedd un James de Varase, tua'r flwyddyn 1290, dan yr enw *Y Ffuglith Euraidd* (*The Golden Legend*), yn cynnwys amryw chwedlau gwneuthur, ffol a rhamantus; ac fe allai mai y rhai hyny a roddasant ddechreuad i'r ffuglithiau Lladin a Chymraeg ar "Saint Cymru," fel y gelwir hwy. Mewn canlyniad i hyny, arferodd y Protestaniaid y gair *legenda*, a gyfieithir genym ni yn ffuglith, i arwyddo chwedlau hanesiol gau a diawdurdod. Cyfansoddwyd lluaws o'r rhai hyn o gylch amser James de Varase, ac ar ol hyny, yn enwedig yn Lladin, y rhai a gyfieithwyd i amryw ieithoedd, yn rhoddi darluniad ofergoelus, a chableddus hefyd yn aml, am wyrthiau Crist a'r apostolion, y rhai a briodolent hefyd yn gamsyniol a thwyllodrus i hen saint ereill, neu rai a ystyrid yn saint gan draddodiad Pabaidd, gan nad beth a allai fod eu gwir fucheddau. Er fod rhai o'r ffuglithiau hyn yn dangos cryn lawer o nerth talent, yn enwedig dychymyg a chrebwyll, eto yr oedd eu hawdwyr yn troseddu yn fynych (pa un ai o fwriad ai o anwybodaeth, nid yw hysbys) yn erbyn amseryddiaeth, yn erbyn hanesyddiaeth, yn erbyn moesau ac arferion, ac yn erbyn tebygolrwydd.

FFYDD, [Ll., *fides*; Ffr., *foi*; Gr., *πιστις*; Heb., אמן=*aimun*].

I. Mewn ystyr athronyddol, gwahaniaethir ffydd a gwybodaeth, er eu bod yn annattodol gyssylltiedig, a bod y ddau yn rhedeg i'w gilydd. Pan y mae yn angenrheidiol gwneuthur y gwahaniaeth, y mae gwrthddrych gwybodaeth yn bresennol o ran amser a lle, yn awr, ac yma; ond y mae ffydd yn credu mewn hanfodiad gwrthddrych sydd heb fod yn bresennol, yn awr, ac yma. Y mae yn wir y dywedir ein bod yn gwybod yr hyn sydd heb fod yn bresennol i'r meddwl, megys fod y fath ddinas a St. Petersburg, pan na byddom yno yn edrych ar ei phalasau a'i heglwysydd: ond yr ymadrodd priodol yn yr amgylchiadau hyn fyddai ein bod yn *credu* ei bod; a phe byddem yno yn ei gweled, yna y gallem ddyweyd ein bod yn *gwybod* ei bod. Y mae yn anhawdd gwahaniaethu ffydd a gwybodaeth yn y

Digitized by Google

graddau isaf yma yn fynych; ond eto os bydd y meddwl yn argyhoeddedig o hanfodiad yr hyn nid yw yn bresennol iddo, y mae ei stâd ar y pryd yn stâd o grediniaeth; ac ar y llaw arall y mae yr argyhoeddiad yn *wybodaeth* os bydd y gwrthddrych yn bresennol. Yn unol â hyn y dywedwn fod ein hargyhoeddiad o hanfodiad y byd allanol a gweledig, yn wybodaeth; o herwydd fod y gwrthddrych yn bresennol. Yr un modd y wybodaeth sydd genym o'n hanfodiad personol ein hunain, o herwydd ein bod yn bresennol i ni ein hunain. Yn awr, gan mai y byd gweledig, ac efe ei hun, ydyw y gwrthddrychau cyntaf sydd yn cyfarch ac yn presennoli eu hunain i feddwl dyn, y mae gwybodaeth yn rhagflaenu ffydd yn yr ystyr naturiol hwn. Y mae argyhoeddiadau dyn yn dechreu mewn gwybodaeth:—mae yn gwybod fod yr hyn sydd o'i flaen mewn bod, am ei fod yn bresennol iddo; y mae yn gwybod ei fod ef ei hun mewn bod, am ei fod yn bresennol iddo ei hun. Y mae gwybodaeth bersonol yn cael ei chyfyngu i'r hyn sydd yn bresennol mewn amser a lle. Ond o'r wybodaeth bersonol hon y mae crediniaeth neu ffydd yn codi, sydd yn cymmeryd i mewn yr hyn sydd yn absennol o ran amser a lle. Ni a *wyddom* y fynyd bresennol am ei fod yn bresennol, ond pan ddywedwn nad oes i barhad ddechreu na diwedd, ffydd ydyw hyny:—yr ydym yn codi uwch law y presennol. Y meidrol ydyw gwrthddrych gwybodaeth yn yr ystyr dan sylw; ond y mae ffydd yn tyfu o wybodaeth, ac yn ymestyn at, ac yn cofleidio yr anfeidrol. Y mae yr hyn sydd yn llenwi lle yn wrthddrych gwybodaeth —y mae yn bresennol i ni; ond pan edrychir ar le (*space*) yn annherfynol, o herwydd nis gallwn mewn dychymyg osod terfyn iddo, yr ydym yn ymgodi uwch law tiriogaeth gwybodaeth i diriogaeth ffydd. Gallem gymmeryd anghraifft oddi wrth gydwybod dyn. Y mae y gydwybod yn gynneddf sydd yn hysbysu i ni am ansoddau moesol gwahanol weithredoedd neu deimladau sydd yn bresennol i ni. Y mae hi yn dyweyd wrthym pa un ai drwg ai da ydynt. Ond ynglŷn â'r wybodaeth uniongyrchol hon, ac yn tarddu o honi, y mae genym grediniaeth am ddaioni neu ddrygioni gweithredoedd, teimladau a phersonau, sydd heb fod yn bresennol. Yr ydym yn credu nid yn unig am y weithred haelionus sydd yn cael ei chyflawnu o flaen ein llygaid neu genym, ei bod yn rhinweddol; ond yr ydym yn credu am haelioni yn mhob lle ac amser ei fod yn rhinweddol. Yn gyffelyb, yn gyssylltiedig â phob gwybodaeth uniongyrchol sydd gan ddyn, y mae ffydd ganddo, yn ei arwain i diriogaeth uwch law y presennol. Y mae y grediniaeth hefyd sydd yn nglŷn â'r wybodaeth yn meddu yr un awdurdod a sicrwydd a'r wybodaeth ei hun. Y mae y grediniaeth fod dau a dau yn bedwar yn mhob byd mor sicr ag ydyw am y ddau a dau afal sydd o'n blaen. Yr ydym mor sicr fod lle yn annherfynol i'n meddwl ni, ag ydyw fod y lle sydd o'n blaen yn hanfodi. Nis gallwn wadu erthyglau y ffydd naturiol hon fwy nag a allwn wadu yr hyn sydd o flaen ein synwyrau corfforol neu yr hyn sydd yn bresennol i ymwybyddiaeth y meddwl.

Nid yn unig y mae y ffydd naturiol ag sydd yn rhoddi cyffredinolrwydd i'r wybodaeth o ba un y mae yn tarddu mor sicr ag ydyw y wybodaeth ei hun, ond hefyd y mae yr un ffydd yn gynnwysedig yn holl weithrediadau cynneddfau deallol neu wybodaethol y meddwl. Y mae cymmaint a hyn o ffydd yn ngweithrediad y cof; o herwydd wrth gofio yr ydym yn credu yr hyn sydd heb fod yn bresennol. Mae ffydd yn gynnwysedig yn ngweithrediadau y gallu ymresymiadol. Pan welwn effaith, yr ydym yn credu fod achos yn bod, er nad ydym yn ei weled. Oddi wrth y gweledig yr ydym yn casglu yr anweledig. Y mae y gynneddf naturiol o gredu, neu ffydd, mor hanfodol i ddyn fel nas gall ddwyn yn mlaen holl weithrediadau y deall heb ffydd. Y mae yn wir nad ydym yn fynych yn rhoddi yr enw *ffydd* ar y gweithrediadau symlaf hyn; eto y mae yn amlwg fod elfen hanfodol ffydd ynddynt, sef rhoddi derbyniad i'r absennol—i'r anweledig. Nid oes dim gwahaniaeth hanfodol rhwng ffydd mewn tystiolaeth i'r hyn y priodolir y gair *ffydd* fynychaf a'r gweithrediadau uchod. Y mae tuedd naturiol mewn dyn i roddi coel i dystiolaeth, ac felly myned yn ol at yr hyn na welodd ei hunan trwy gyfrwng y rhai a'i gwelsant. Fel nad yw ymresymiad yn annibynol ar ffydd, felly hefyd nid yw ffydd yn annibynol ar ymresymiad. Y mae tuedd mewn dyn i gredu tystiolaeth; ond nid pob tystiolaeth yn annibynol ar y tebygolrwydd fod y rhai sydd yn tystiolaethu yn meddu y gwir, ac yn awyddus i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd. Yr ydym, neu ni a ddylem ddefnyddio barn ac ymresymiad i edrych pa mor bell y mae genym seiliau digonol i gredu. Nid yw y duedd naturiol sydd ynom i gredu yn galw arnom i gredu pob peth. Nid yw ffydd yn ddigon heb reswm i'n galluogi i benderfynu pa beth i gredu, mwy nag y gallwn ddwyn yn mlaen holl weithrediadau rheswm heb ffydd. Nid yw ffydd yn anghysson â rheswm. Dichon, ac y mae ffydd yn myned yn mhellach na rheswm; ond nid yw yn wrthwynebol iddi. Gan nad yw gwybodaeth, neu ddeall, yn ei graddau isaf, yn golygu ond yr hyn sydd yn bresennol, yn awr, ac yma, gallwn weled cyn lleied y byddai cylch ein gwybodaeth yn ei graddau uchaf heb weithrediad ffydd. Wrth ddyweyd graddau uchaf gwybodaeth, nid ydym yn meddwl gwybodaeth o wirioneddau neillduol y Beibl; ond gwybodaeth hyd yn oed o erthyglau credo athronyddol. Nis gallem ddyweyd dim, neu y nesaf at ddim, am dragwyddoldeb, anfeidroldeb, sylwedd, achosyddiaeth, daioni moesol, na Duw, heb weithrediad y ffydd naturiol hon. Y mae ffydd a rheswm gan hyny yn hanfodol y naill i'r llall. Nid yw rheswm yn annibynol ar ffydd, ac nid yw ffydd i ymddiried ynddi heb reswm. Y mae yn angenrheidiol fod i ffydd sail neu brawf i bwyso arno. Y mae yn wir fod y meddwl yn credu llawer heb amlygiad neu brawf allanol o wirionedd yr hyn y mae yn gredu; ond y rheswm yw, am fod yr hyn a gredir yn dwyn ei brawf ynddo ei hun. Ni elwir arnom i gredu dim heb brawf; ond y mae y prawf hwnw weithiau yn fewnol ac weithiau yn allanol. Y mae gwirioneddau rhif a mesur yn cario eu prawf ynddynt eu hunain. Nid eu credu yr ydym ar dystiolaeth Euclid neu Newton—er mai hwynt-hwy, o bosibl, fu yr offerynau i'n dwyn i'w gweled—ond ar sail y goleuni a dywynai ynddynt eu hunain. Ond am wirioneddau neu ffeithiau hanesiaeth ac anianaeth, ar brofion allanol y gorphwysa y rhai hyn; ond ni elwir arnom i gredu dim heb brawf gynnwynol neu fenthyciol.

Nid yw yn angenrheidiol symmud ymaith pob anhawsderau a gwrthddadleuon cyn y bydd genym sail ddigonol i gredu. Dylem gredu yr hyn sydd yn meddu profion ar ei wyneb ei fod yn wir, heb aros

Digitized by Google

nes y symmudir ymaith pob gwrthddadleuon yn ei erbyn. Os dilynir y rheol hon, teimlir yr anhawsderau yn cilio, a'r hyn oedd yn ymddangos yn dywyll yn dyfod yn oleuach oleuach. Wrth ddilyn y goleuni sydd genym, syrth chwaneg o oleuni ar ein llwybr; fel y teithiwr mewn gwlad fynyddig fel Cymru yn methu dyfalu yn fynych wrth edrych yn ei flaen pa fodd y dichon iddo lwybro ei ffordd rhwng y mynyddoedd sydd yn ymddangos fel yn cau o'i gwmpas. Ond wrth fyned yn ei flaen ar hyd y llwybr sydd yn amlwg iddo, egyr y mynyddoedd, daw y naill drofa ar ol y llall â chwaneg o'r ffordd i'r golwg, ac, yn lle bod y clogwyni a welai yn y pellder yn rhwystrau anorfod ar ei ffordd, y mae yn dyfod i ddeall nad ydynt ond yn chwanegu at brydferthwch a swyn y daith.

Y mae yn angenrheidiol cofio fod gwirioneddau nas gallwn eu cyrhaedd trwy unrhyw ddirnadaeth o'r deall, na thrwy unrhyw nerth ymresymiadol. Fel yr awgrymwyd, y mae ein hargyhoeddiadau o barth i anfeidroldeb o'r cyfryw: ac i'r cyfryw y perthyn llawer o wirioneddau y Beibl. Pan y mae rheswm yn methu dirnad nac amgyffred y gwirioneddau hyn trwy ei nerth ei hun, yn ngwyneb y profion priodol o'u gwirionedd, mewnol neu allanol, y mae yn gweled mai rhesymol ydyw eu credu. Y mae rheswm yn gofyn i ni feddu prawf priodol bob amser cyn credu; ond nid yw yn gofyn fod y gwirionedd o fewn cylch ei amgyffrediad ef, na'i fod yn rhydd oddi wrth ddirgelwch cyn iddo roddi ei gredinisoth iddo. Mae rheswm bob amser yn attegu ffydd; eto y mae ffydd yn ymgodi yn uwch ac yn myned yn mhellach na chyrhaeddiadau pellaf y deall. Am fod dyn yn meddu cynneddf neu allu priodol i gredu yn yr hyn sydd anweledig ac uwch law ei wybodaeth uniongyrchol ef, y mae yn meddu y gallu naturiol i weithredu ffydd yn ngwirioneddau goruwchnaturiol gair Duw. Y mae y gallu naturiol yn rhagbarotoad at y gras goruwchnaturiol—"yn gyntaf yr anianol, ac wedi hyny yr ysbrydol."

II. Ffydd yn yr ystyr Ysgrythyrol. Y mae y gair Hebraeg אמן (*omen*), o'r un gwreiddyn a'r gair *amen*. Yn wir yr un gair ydyw, ac arwydda *sefydlogrwydd, diysgogrwydd, parhad*. 1. *Gwneuthur yn sefydlog*. Yn yr ystyr yma defnyddir ef am ddwylaw Moses: "bu ei ddwylaw ef *sythion*," neu sefydlog; *Exod.* xvii. 12. 2. Defnyddir ef fel sylweddair, am *golofnau: 2 Bren.* xviii. 16. 3. *I fod yn sefydlog, yn sicr, yn ddiogel, yn barhaus.* "Ei ddwfr fydd sicr;" *Esa.* xxxiii. 16. "A'th dŷ a sicrheir;" "dy orseddfainc a sicrheir byth" (2 *Sam.* vii. 16); "credwch yn yr Arglwydd eich Duw, a chwi a sicrheir" (2 *Cron.* xx. 20); "oni chredwch diau ni sicrheir chwi" (*Esa.* vii. 9); "felly y cywirir eich geiriau" (*Gen.* xlii. 20); "prophwyd ffyddlawn" (1 *Sam.* iii. 20). 4. *Y mae yn wir, bydded felly, amen* (*Deut.* xxvii. 15; *Num.* v. 22); *yn wir* (*Gen.* xx. 12). 5. Defnyddir ef yn arbenig am ofal sefydlog tadmaeth neu fammaeth am blentyn magu: *Esth.* ii. 7. 6. *Gorphwysiad* sefydlog y meddwl ar berson neu beth, credu, ymddiried, ymorphwys, a dibynu. "Yntau a gredodd" (*Gen.* xv. 6): "nid oedd yn eu credu" (*Gen.* xlii. 26): "fel y credant" (*Exod.* iv. 5).

Defnyddir y gair am sefydlogrwydd neu ddiysgogrwydd mewn gwrthddrych y tu allan i'r dyn, ac hefyd am ymddiried diysgog y meddwl yn y gwrthddrych hwnw. Y mae y gair Groeg *pistis* (πιστις) yn cynnwys y ddau ystyr. Yr un modd y mae y Lladin, *fides*, a'r Cymraeg, *ffydd*, a'r Seisoneg, *faith*, o'r un gwreiddyn. Ystyr Beiblaidd cyntaf y gair ydyw:—

1. Y stâd neu yr agwedd meddwl sydd yn arwain dynion i ofni Duw, i arswydo rhag ei fygythion, i gredu ei brophwydoliaethau, ac i adeiladu neu i bwyso ar ei addewidion. Yn yr ystyr yma y defnyddir ef yn *Hab.* ii. 4; "Wele yr hwn a ymchwydda nid yw uniawn ei enaid ynddo, ond y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." Y mae y teimlad gwrthwynebol yn arwain dynion i *ymchwydd* hunanol, i wawdio oediad bygythion Duw (*adn.* 3), ac i ddysgwyl wrth ddaioni daiarol a gweledig, ac i ymfalchio ynddynt fel eu digonedd (*adn.* 5). Ffydd, gan hyny, yn ngwyneb y desgrifiad hwn, yw y dymmer neu yr agwedd meddwl sydd yn arwain dyn at Dduw, er ei fod yn anweledig, ac i roddi ymddiried yn ei allu, ei air, a'i ffyddlondeb, fel yn meddu sicrwydd hollol ac anghyfnewidiol, ac i gymmeryd ei lywodraethu yn mhob dim gan y teimladau hyn. Mae ffydd yn chwilio am le i bwyso y tu allan i'r gweledig a'r daiarol—ar Dduw. Fel y gofynai yr athronydd am le i roddi ei drosol i bwyso, ac yna y symmudai y ddaiar, y mae ffydd wedi cael lle i osod ei throsol i lawr, ond nid ar sylfaen dywodlyd y ddaiar, ond ar Dduw. Yn yr ystyr eang yma gellir priodoli ffydd, nid yn unig i bechadur, ond i'r cyfiawn hefyd. Ni byddai yn anmhriodol dyweyd fod yr Arglwydd Iesu Grist yn gweithredu y dymmer meddwl yma pan yn myned yn mlaen tua gorpheniad ei waith trwy yr holl rwystrau a'r dyoddefiadau oedd yn ei amgylchynu. Gelwir ef yn "ben tywysog ein ffydd" (*Heb.* xii. 2), am ei fod yn gyntaf—yn arweinydd, yn sefyll yn mhen rhestr yr Hen Destament fel un wedi gweithredu ffydd yn Nuw, wedi blaenori yn ei esiampl ei hun pawb fu yn gweithredu ffydd. "A pherffeithydd:"—perffeithiodd ffydd yn ei berson a'i esiampl ei hun, a thrwy hyny efe a ddaeth yn awdwr iachawdwriaeth dragwyddol i bawb a ufuddhant iddo. Ffydd yn yr ystyr hwn ydyw, bod wedi seilio yn ddiysgog, yn ansigledig, gyda golwg ar bethau dyfodol, y pethau yr ydys yn eu gobeithio; a phrawf, arbrawf, cyfrwng sicrwydd yr hyn nid ydym yn eu gweled.

2. Mae i ffydd ystyr mwy neillduol; sef, ffydd pechadur argyhoeddedig ac edifeiriol, yr hon sydd yn cwblhau ei ddychweliad at Dduw, ac a elwir hefyd yn ffydd gyfiawnhaol. O ran y dymmer meddwl, nid yw ffydd yn yr ystyr hwn yn gwahaniaethu oddi wrth yr ystyr mwy cyffredinol a nodwyd. Y mae ffurf neillduol y dymmer hono yn codi oddi ar neillduolrwydd ac arbenigrwydd ei wrthddrych. Gwrthddrych pob ffydd ydyw Duw ei hun yn gyntaf oll - ei wirionedd, ei eirwiredd, ei hollalluogrwydd, a'i ras; ac yn ail, pob gair a lefarodd mewn ffordd o fygythiad ac addewid; ac hefyd, y gweithredoedd a gyflawnodd. Ond y mae holl eiriau a gweithredoedd Duw yn ymgrynhoi ac yn cyrhaedd eu hystyr gyflawnaf yn y dadguddiad o'i fwriad grasol o berthynas i iachawdwriaeth pechadur yn Iesu Grist. Ac felly, dan yr Hen Destament, ffydd ydoedd mewn iachawdwriaeth *addawedig*; ond dan y Newydd, ffydd ydyw mewn iachawdwriaeth neu brynedigaeth *gyflawnedig*. Mae ffydd, o ran yr ansawdd neu y dymmer meddwl, yn gyffelyb; ond y mae ei gwrthddrych yn amrywio o ran yr eglurder gyda pha un y dadguddir ef. Gwrthddrych ffydd yn gyntaf oll i Abraham ydoedd *gallu Duw* i ddwyn bywyd i fodolaeth ac i adgyfodi y marw: "Ac yn gwbl sicr ganddo am yr hyn a addawsai efe

ei fod ef yn abl i wneuthur hefyd' (*Rhuf.* iv. 17—21). I ni, gwrthddrych ffydd ydyw yr amlygiad o allu Duw yn adgyfodiad Iesu Grist: *Rhuf.* iv. 25. Cymharer hefyd *adn.* 24, 17. Felly y mae ffydd pechadur yn ngallu Duw i godi y marw yr un a ffydd yn ei allu i achub—i waredu: o herwydd nid yw gwaredigaeth pechadur ond bywhau y marw—dyfod â bywyd newydd i fod. Ac y mae ffydd yn adgyfodiad Iesu Grist yr un a ffydd yn y prynedigaeth trwyddo ef.

3. Y mae y neillduolrwydd a'r eglurder chwanegol hwn yn ngwrthddrych ffydd yn cynnyrchu neillduolrwydd yn yr ansawdd neu y dymmer meddwl a alwn yn ffydd. Y mae ffydd yn Nghrist nid yn unig yn ffydd yn Nuw, ond y mae yn ansawdd neillduol a gwahaniaethol, yr hon sydd yn dwyn pechadur i bwyso ar y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu—ar y dadguddiad neillduol hwnw o Dduw: o ganlyniad, y mae nid yn unig yn ein dwyn i ymwrthod â phob ymddiried yn y creadur, ond hefyd yn neillduol yn ein dwyn i ymwrthod yn hollol â phob haeddiant personol, yn nghyd â phob ymdrech i weithio allan iachawdwriaeth i ni ein hunain. Ffydd gan hyny yn mhresennoldeb y dadguddiad cyflawn o'i gwrthddrych ydyw, yr ansawdd a'r dymmer meddwl a chalon sydd yn dwyn pechadur, yn yr olwg ar ei euogrwydd a'i gollfarnedigaeth, i gymmeryd gafael ac i bwyso ar y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; ac hefyd i sylfaenu ei obaith ger bron Duw yn hollol ac yn unig ar waed Crist: *Rhuf.* iii. 24, 25, 28. Nid cydsyniad yn unig â gwirionedd rhyw osodiad ydyw ffydd; ond y mae hi yn dwyn y pechadur i berthynas bersonol â pherson yr Arglwydd Iesu Grist: (*Ioan* vi. 29). Y mae y dyn a roddodd ei hun yn flaenorol yn hollol i wasanaeth pechod, ac ydoedd yn ddarostyngedig i farn marwolaeth, yn awr yn ffoi i freichiau yr Arglwydd Iesu fel ei unig Waredwr, ac ynddo ef y mae yn cael yr iachawdwriaeth hono i'w enaid nas gallasai ei chael ynddo ei hun.

Y mae dylanwad ffydd ar fywyd ei pherchenog yn parhau ar hyd ystod ei oes. Bywyd ffydd ydyw ei fywyd. Ond y mae natur ffydd i'w gweled amlycaf yn y ddyfodfa y mae hi yn ei roddi i bechadur i gyflwr o gadwedigaeth. Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, gosodir hyn allan yn benaf. Y mae dyn wrth natur mewn cyflwr o bechod, o gondemniad, o farwolaeth; a thrwy ffydd y mae yn dyfod i gyflwr o ras, ac o gyfiawnhad bywyd. Trwy ffydd yn unig y mae y symmudiad o farwolaeth i fywyd yn cael ei ddwyn oddi amgylch.

> Trwy ffydd, ac nid trwy edifeirwch;
> Trwy ffydd, ac nid trwy gariad;
> Trwy ffydd, ac nid trwy weithredoedd;
> Trwy ffydd, ac nid trwy sancteiddhad.

Y trydydd o'r gwrthgyferbyniadau hyn a ddysgir helaethaf yn y Testament Newydd, ac yn enwedig yn ysgrifeniadau Paul yn erbyn yr Iuddewon a ddysgent nad oedd credu yn Nghrist ddim yn ddigon heb gydymffurfio â seremoniau y ddeddf. Yn wrthwynebol iddynt y mae yr Ysgrythyrau yn dangos nad yw y ddeddf seremoniol yn cyfiawnhau pechadur (*Heb.* ix. 22; x. 1); ac nad yw y ddeddf foesol yn cyfiawnhau (*Rhuf.* iii. 20; *Gal.* iii. 10). Cyhoeddi melldith y mae hi ar bob pechadur; ac er nad yw yr ymadrodd "ffydd yn *unig*" yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, y mae yr ystyr yn rhedeg trwyddo.

Yn wrthgyferbyniol i ffydd yn *unig* fel offeryn cyfiawnhad, yr oedd dau eithafoedd yn nechreuad Cristiongaeth. Dysgai yr Iuddewon mai ufudd-dod i'r gyfraith; ac ar y llaw arall dysgai y paganiaid mai ymchwiliad athronyddol oedd y ffordd i gyrhaedd bywyd. Cyhoeddodd yr Arglwydd Iesu mai nid trwy wneuthur ar un llaw, ac nid trwy wybod ar y llaw arall, ond mai trwy ffydd yn unig y mae i bechadur gyfranogi o'r bendithion sydd ynddo ef. Y mae hyn yn codi o angenrheidrwydd oddi wrth fod Duw trwy ei ddeddf a'i efengyl yn siarad yn fwy uniongyrchol wrth ddyn trwy ei gydwybod: yn ei gydwybod y mae caethiwed a phoen euogrwydd yn cael eu teimlo, yn y gydwybod hefyd y profir maddeuant a rhyddhad. Yn awr, gan mai yn y gydwybod y mae Duw yn gwneyd ei awdurdod yn deimladwy, a chan mai Duw yn y dadguddiad o hono ei hun ydyw gwrthddrych ffydd, y mae yn canlyn mai trwy ffydd yn unig y dichon i bechadur dderbyn maddeuant a chyfiawnhad. Y mae gwybodaeth ac ufudd-dod yn cyfateb i'r deall a'r ewyllys; ac arwain yn anuniongyrchol at Dduw y mae y cynneddfau hyn: ond y mae y gydwybod yn teimlo awdurdod Duw yn uniongyrchol. Felly, nid trwy y gallu ymresymiadol, na chwaith trwy gydymffurfiad yr ewyllys â chyfraith, y mae pechadur yn dyfod i feddiant o'r iachawdwriaeth; ond trwy i'r gydwybod a'r galon gael eu deffroi a'u llonyddu yn yr olwg ar haeddiant digon mawr i orsedd anfeidrol. Trwy ffydd yn unig y dichon hyn fod. Y mae perthynas nes rhwng ffydd a'r gydwybod nag sydd rhwng ffydd ag un gynneddf arall. Nid ffydd ydyw y gydwybod; ond y gydwybod ydyw y gynneddf naturiol y perthyna ffydd iddi yn arbenig, fel y perthyna gwybodaeth i'r deall ac ufudd-dod i'r ewyllys. Y gydwybod ydyw y gynneddf sydd yn meddu awdurdod yn yr enaid, a'r unig gynneddf sydd yn meddu awdurdod. Y mae hi yn oruchaf ar y teimlad, y serch, y meddwl, a'r ewyllys. Y mae yn wir nad ydyw y teimladau a'r ewyllys yn ymostwng bob amser i'r gydwybod, ond hwy ddylent wneyd; ac y mae yr enaid mewn cyflwr o wrthryfel pan na byddont yn gwneyd. *If she had might as she has right, she would command the soul.* Gan mai y gydwybod a ddylai orchymyn yr holl enaid, y mae yr hyn sydd yn llywodraethu y gydwybod yn llywodraethu y dyn. Ffydd yn unig a all wneuthur hyny. Yn y gydwybod yn unig y gwelwn gydgyfarfyddiad cyfiawnhad a sancteiddhad â'u gilydd. Yn y gydwybod y mae y teimlad o euogrwydd ac o bellder oddi wrth Dduw, y rhai a symmudir ymaith trwy faddeuant a chymmeradwyaeth person dyn yn y cyfiawnhad; ond wedi y symmudir ymaith yr euogrwydd trwy faddeuant, y mae y pechadur yn dyfod i garu Duw—yr hyn ydyw ffynnonell bywyd sanctaidd. Ac heb law hyny, y mae y gydwybod yn derbyn ewyllys Duw fel ei rheol, yn teimlo ei hawdurdod, ac yn ei chyhoeddi yn rheol yr holl ddyn. Y mae ffydd yn derbyn Crist a'i gyfiawnder i'r gydwybod, a thrwy hyny i'r holl galon; ac yn y canlyniad y mae Crist yn trigo trwy ffydd yn y galon fel egwyddor o fywyd newydd: *Rhuf.* vi. 1—13; *Gal.* ii. 20.

Ni a gymmerwn yn bresennol olwg mwy cyffredinol ar y gwahaniaeth barn sydd wedi bod rhwng duwinyddion a'u gilydd o barth i ffydd.

Nid oes genym yn yr holl Ysgrythyrau Sanctaidd yr hyn a ellir ei ystyried yn ddarnodiad o ffydd. Y mae rhai yn edrych ar *Heb.* xi. 1, yn gyfryw; ond er fod y geiriau hyny yn desgrifio ffydd, eto desgrifiad o honi mewn gwedd neillduol,

Digitized by Google

i gyfateb i amgylchiadau neillduol yr Hebreaid, a geir ynddynt. Y mae yr apostol yn dwyn ffydd ger eu bron fel yr unig allu i gynnal Cristionogion yn ngwyneb anhawsderau ac erlidiau oddi wrth y byd, ac nid fel y moddion o drefniad Duw i ddwyn pechadur i feddiant o gyfiawnder yr efengyl. Nid ffydd fel y mae yn cyfiawnhau, na ffydd fel y mae yn puro y galon, ydyw ei fater, ond ffydd fel y mae yn gorchfygu y byd. Nid ffydd fel y mae yn ymorphwys am y waith gyntaf ar Fab Duw a'i haeddiant am fywyd tragwyddol, ond fel y mae yn allu yn y credadyn i'w alluogi i dori trwy yr holl rwystrau sydd ar ei ffordd. Pe buasai awdwr yr epistol yn ymdrin arni yn y golygiad cyntaf, y mae yn debyg na buasai ei ddesgrifiad o honi yr un ag ydyw: ac y buasai yn rhoi arbenigrwydd i'w phrif wrthddrych, sef yr Arglwydd Iesu, yn y darluniad. Ond gan mai yn y golygiad olaf yr edrycha arni, y mae yn ei darlunio fel yr hyn sydd yn sylweddu y pethau y gobeithir am danynt, ac fel yr hyn sydd yn brawf o'r anweledig. "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Y ddau air sydd yn gofyn am sylw yn yr adnod ydyw *sail*—*ὑποστασις*, a *sicrwydd*—*ἐλεγχος*. Cyfieithiad y Vulgate o'r cyntaf ydyw *substantia*, yr hwn a ddilynir yn Seisoneg, *substance;* ac fe allai hefyd yn y Gymraeg, *sail:* o blegid y mae y geiriau Lladin a Groeg yn cael edrych arnynt, yn eu defnyddiad yma, yn eu rhanau cyfansawdd—yr hyn sydd yn sefyll o dan beth arall. Y mae y gair i'w gael ddwywaith yn yr epistol hwn, heb law yn y fan hon. Yn y cyntaf, ebe Dr. Owen (*pen.* i. 3), arferir ef i osod allan ddull neillduol o hanfodi yn y natur ddwyfol: yn yr ail le (*pen.* iii. 14), i ddynodi darbwylliad neu argyhoeddiad cryf o'r gwirionedd, yn cynnal ein heneidiau yn y broffes o hono. "Cyfieithir ef yma *sylwedd* (*substance*); ond yn fwy priodol, y mae yn arwyddo bodolaeth gwirioneddol." Mae Aristotle yn ei ddefnyddio yn yr ystyr yma: "O'r pethau ag a welir yn yr awyr, nid oes gan rai ond ymddangosiad yn unig, tra y mae gan ereill wir fodolaeth." Gellir cymmeryd yr arwyddocad yma iddo yn yr ymadrodd hwn:—ffydd ydyw y peth trwy yr hwn y mae gwrthddrychau dyfodol yn hanfodi yn y presennol i'r dyn; nid, mai ffydd sydd yn rhoddi bod i'r pethau ni welir; arosent hwy mewn bod pe na bai un meddwl meidrol i synied am danynt, ac i'w credu; eto, heb ffydd, nid ydynt yn bod i ddyn; fel nad yw lliwiau yn bod i'r dyn a anesid yn ddall, neu seiniau i'r dyn hollol fyddar, neu egwyddorion mawrion rheswm i'r anifail neu i'r dyn gwallgof; felly hefyd, nid oes i'r pethau ni welir—"y pethau sydd o Ysbryd Duw"—hanfodiad i ddyn amddifad o ffydd. Y mae ansawdd ei feddwl a'i serchiadau yn gyfryw a phe na buasent yn bod: "Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; ac nis gall eu gwybod, o blegid yn ysbrydol y bernir hwynt." Ond pan y mae pechadur yn cael ei gynnysgaethu â'r gras hwn, y mae yn feddiannol ar y gallu hwnw sydd yn dwyn yr enaid i gyssylltiad â'r ysbrydol, fel y mae synwyrau y corff yn dwyn y meddwl i gyssylltiad â'r gweledig a'r presennol. Y pethau oedd o'r blaen yn ei olwg fel gwegi, ar gyfrif eu hanweledigrwydd a'u pellder, y maent yn awr yn dylanwadu ar ei feddwl gyda holl nerth y sylweddau pwysicaf mewn bod: y mae ffydd wedi eu sylweddu yn ei enaid: y mae yr amgyffred sydd ganddo am danynt yn cyfateb i'w gwir bwysigrwydd eu hunain. Dyma eiriau Dr. Owen:—"Dyma yr hyn y mae ffydd yn ei weini: y mae yn rhoddi i'r pethau ag y gobeithir am danynt, ac fel y maent yn cael gobeithio am danynt, wir hanfodiad (*real subsistence*) yn meddyliau a chalonau y credinwyr; a hyn yw ystyr y geiriau." Y mae rhai yn tueddu i gymmeryd *upostasis* yma yn yr ystyr o "hyder mewn dysgwyliad;" yr hyn yw gobaith, ac nid ffydd. Y mae rhai yn ei gyfieithu yn *egwyddor*, neu *sail;* yr hyn nid yw yn gosod allan feddwl y geiriau, nac yn ateb i rediad yr ymadroddion. Ond yr ystyr a nodwyd ydyw yr ystyr ag y mae y cyfieithwyr goreu a'r prif hen esbonwyr yn ei gefnogi: "*Illud ex quo subsistunt, extant.*" Ffydd ydyw yr hyn trwy ba un y maent yn bod. "Ffydd ydyw *hanfod* y pethau hyn, a'u *bod* (*essence and subsistence*), sydd yn achosi iddynt *fod*, a *bod yn* bresennol, am ei bod yn credu ynddynt," ebe Œcumenius. Dywed Theophylact i'r un perwyl, "Mai ffydd ydyw hanfod y pethau nad ydynt eto mewn bod, a bod y pethau nad ydynt eto yn ddynt eu hunain yn bod." "Y mae ffydd," ebe Chrysostom, "yn rhoddi sylwedd i'r pethau y gobeithir am danynt." Mae y gair a gyfieithir *sicrwydd* yn golygu arbrofiad (*demonstration*). "Yn gyffredin," ebe Dr. Owen, "golyga *elegchos* argyhoeddiad yn cael ei ddilyn a cherydd. Yn yr ystyr yma, y mae y ferf gydrywiol yn cael ei defnyddio yn y Testament Newydd. Weithiau, cymmerir y gair fel yn gosod allan brawf=*apodeizis*, prawf argyhoeddiadol ac anwadadwy; yr hyn sydd yn gwneuthur peth yn amlwg. Darllena y cyfieithiad Syriaidd, "Dadguddiad o'r pethau nid ydys yn eu gweled." Cyfieithiad Stuart o'r gair ydyw *demonstration, proof, convincing evidence*= prawf, tystiolaeth argyhoeddiadol. "Y meddwl yw, fod ffydd yn y gair a'r addewidion dwyfol yn gystal â, neu yn llanw lle, prawf neu dystiolaeth, gyda golwg ar bethau y byd anweledig; hyny yw, y mae yn boddloni y meddwl o barth eu gwirionedd a'u pwysigrwydd, fel y mae arbrofiad yn arfer gwneuthur." Eto, nid ydym i feddwl mai am fod ffydd yn rhoddi sicrwydd y mae yn cael ei galw yn *elegchos*, ond am fod ei sicrwydd o natur gyffelyb i sicrwydd arbrofiad; y mae yn gyfryw sicrwydd yn y meddwl ag sydd yn brawf digonol o hanfodiad y gwrthddrychau. Dichon dyn fod yn sicr yn ei feddwl ei hun am ddychymygion. Nid yw y ffaith fod dyn yn argyhoeddedig o beth yn brawf digonol o wirionedd y peth; pe felly, byddai crediniaeth ddiammheuol y paganiaid neu y Mahometiaid yn brawf o wirionedd yr hyn a gredir ganddynt. Ond y mae rhyw neillduolrwydd yn y sicrwydd a ddyry ffydd—neu yn hytrach, y sicrwydd ag y mae ffydd yn gynnwysedig ynddo—ag sydd yn peri ei fod yn brawf o wirionedd y pethau a gredir. Y mae *elegchos* yn golygu, nid yn unig darbwylliad yn y meddwl, ond y cyfryw ddarbwylliad ag sydd yn profi gwirionedd y gwrthddrychau. Nid sicrwydd tu mewnol yn unig ydyw, ond yr *act* sydd yn rhoddi i'r dyn ddirnadaeth a phrawf. Cynnyrch ffydd fel *act* ydyw sicrwydd yn y meddwl. Nid crediniaeth farw ydyw am wrthddrychau pell, ond cyfrwng cymundeb yr enaid â hwy. Trwyddi hi y mae yr enaid yn eu gweled, ac yn dirnad am danynt, ac y maent hwythau yn dylanwadu ar yr enaid: trwyddi hi y mae y gallu goruchel sydd yn trigo mewn pethau ysbrydol yn gweithredu ar y dyn; ac os ydyw ffydd yn gyfrwng gweithrediad gallu o'r byd ysbrydol ar feddwl dyn, y mae ar unwaith yn dystiolaeth o'r

Digitized by Google

fath uchaf o'u hanfodiad. Nid cred oeraidd yn yr anweledig ydyw, ond gallu a bywyd yn cymmeryd gafael ynddo. "Natur a phrif nodwedd ffydd," ebe Ebrard, "ydyw, mai gydag actau y mae yn dechreu, ac nid gyda damcaniadau a rhesymau. Fel nad ydyw y plentyn newydd eni yn derbyn addysg yn gyntaf ar yr angenrheidrwydd o anadlu, ac yna yn penderfynu anadlu—ond yn gyntaf yn anadlu, ac yn tyfu i oedran ag y mae yn gallu deall y gweithrediad sydd yn cymmeryd lle wrth anadlu—felly hefyd y rhaid i'r hyn sydd ynom wedi ei eni o'r Ysbryd anadlu i mewn anadl nefol bywyd, cyn y gall gynnyddu i wybodaeth gyflawn. Ac fel mai tynu yr anadl ydyw y prawf sicraf o hanfodiad yr awyrgylch fywiocaol ag yr ydym yn ei hanadlu, felly hefyd gweithred y ffydd hono, sydd yn cymmeryd gafael ar yr anweledig a'r dyfodol, ac yn tynu nerth oddi wrthynt, ydyw y prawf mwyaf boddlonol o'r ffaith mai nid dychymygion disylwedd ydyw y dyfodol a'r anweledig."

Yn awr, ni a gymmerwn olwg ar y gwahanol olygiadau ar *natur ffydd.*

Y mae rhai yn ei gosod allan fel yn gynnwysedig mewn *cydsyniad â gwirionedd yr efengyl.* At yr eithafnod hwn y mae Sandemaniaeth yn tueddu. Yr hyn a arweiniodd ddynion ag sydd yn proffesu eu cred yn nhystiolaethau Gair Duw i goledd syniad mor anysgrythyrol ydoedd hyn. Gan faint eu hawydd am amddiffyn graslonrwydd cyfiawnhad pechadur, y maent yn amddifadu ffydd o bob peth tebyg i deimlad ysbrydol. Os oes rhywbeth ysbrydol mewn ffydd, os ydyw serchiadau y galon yn ymgymmysgu â gwaith deall y pechadur yn rhoddi ei gydsyniad i ffeithiau yr efengyl, yna, dywedant, y mae rhyw rinwedd yn gynnwysedig mewn ffydd; ac y mae meddwl felly am dani yn taflu cwmwl ar raslonrwydd trefn Duw yn y cyfiawnhad. Ond y mae yn amlwg y gellir ystyried ffydd yn fwy na chydsyniad â gwirioneddau yr efengyl, ac eto heb ei gwneyd yn gyfryw ag i gymylu graslonrwydd yr iachawdwriaeth. Y mae sylwi ar fuchedd dynion yn ngwlad efengyl yn ddigon i ddangos geudeb y syniad hwn. Onid ydyw y rhai ag y mae yn rhaid eu cyfrif yn anufuddion i'r efengyl yn cydsynio â'r ffeithiau er pan yn blant? Onid ydynt yn rhoddi yr un math o gydsyniad i'r hanes am Iesu Grist ag y maent yn ei roddi i'r hanes am Julius Cæsar neu Alexander? Eto, er cydsynio â'r gwirioneddau, nid ydynt yn caru Crist, nac yn ufuddhau i'w orchymynion. Ond y mae y Beibl yn dangos fod cariad ac ufudd-dod yn ganlyniadau angenrheidiol gwir ffydd; felly, er nad oes neb yn gwir gredu heb ei fod yn rhoddi cydsyniad i'r ffeithiau am Iesu Grist, eto y mae yn amlwg mai nid cydsyniad â hwy ydyw ffydd yn Nghrist. Y mae holl ddesgrifiadau y Beibl o ffydd yn dangos fod y ffydd hono sydd yn cyfiawnhau yn gyssylltiedig bob amser âg ufudd-dod o'r galon i'r efengyl. "Pa fudd yw, fy mrodyr, o dywed neb fod ganddo ffydd, ac heb fod ganddo weithredoedd? A ddichon ffydd ei gadw ef?" (*Iago* ii. 14)—gair sydd yn dangos mai ffydd ddifudd ydyw hono sydd heb fod yn gyssylltiedig â gweithredoedd da. "Ffydd heb weithredoedd, marw yw:" nid yw yn ffydd o gwbl, o blegid bywyd ydyw hanfod gwir ffydd. Y mae yn amlwg fod y Beibl yn cyssylltu ffydd mewn modd arbenig âg iachawdwriaeth; eto y mae ufudd-dod o'r galon i'r efengyl, yn amlygu ei hun yn y fuchedd, yn hanfodol i iachawdwriaeth (*Mat.* viii. 26; *Iago* i. 23; *Ioan* viii. 31; xv. 14). Nis gall dyn fod yn gadwedig heb garu Duw a Christ, edifarhau am ei bechod, a bod wedi ei aileni: *Rhuf.* viii. 7; 1 *Cor.* 13. 1—4. Y mae gwir ffydd yn sicrhau yr holl bethau hyn. "Pob un sydd yn credu mai yr Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef." "Efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r rhai a gredant yn ei enw ef." Y mae "yn gweithio trwy gariad;" y mae "yr edifeirwch sydd tuag at Dduw" yn gyssylltiedig anwahanol â'r "ffydd sydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist." Y mae "ffydd, gobaith, a chariad," yn rasusau sydd yn cydbreswylio yn yr un galon. Felly, er mai "credu yn yr hwn a anfonodd" Duw Dad ydyw gorchymyn mawr yr efengyl i bechadur, yr hyn yn arbenig sydd yn sicrhau ei gadwedigaeth, eto y mae y grasusau ereill yn anwahanol gyssylltiedig â chadwedigaeth; o blegid y mae credu yn eu sicrhau hwythau hefyd. Ond nid ydyw cydsyniad â ffeithiau yr efengyl yn alluog i gynnyrchu yr un o'r grasau. Dichon i'r farn fod yn gywir, a gadael y galon yn ddiras, a'r fuchedd yn bechadurus; yr hyn sydd yn profi mai nid cydsyniad y deall â ffeithiau yr efengyl ydyw ffydd yn yr efengyl.

Golygiad arall ar natur ffydd ydyw fod ei hanfod yn gynnwysedig mewn crediniaeth o eiddo y deall o wirioneddau yr efengyl; ond nid crediniaeth o'r ffeithiau yn unig, ond crediniaeth o'r holl efengyl—yn cael ei deall a'i hamgyffred yn gywir. Tra y mae rhai yn rhoddi mwy o bwys, yn eu darluniad o ffydd, ar ansawdd y galon neu weithrediad yr ewyllys, y mae y dosbarth yma yn rhoddi mwy o le i ddirnadaeth y deall, gan ystyried ansawdd y galon a gogwydd yr ewyllys yn hytrach fel effeithiau ffydd, nag fel elfenau yn ei chyfansoddiad hi ei hun. Hyn yma ydyw golygiad yr Eglwys Babaidd ar natur ffydd. Y mae yr eglwysi Protestanaidd yn ystyried y gair *credu* yn y Testament Newydd yn gyfystyr â'r geiriau *ymddiried* a *gobeithio* yn yr Hen; ond eto nid yw pawb o'r Protestaniaid o'r farn yma, er eu bod yn rhoddi cymmaint o bwys ac ereill ar effeithiau mwyaf uniongyrchol ffydd. Er mai serchiadau y galon tuag at Grist ac *act* yr ewyllys o ymorphwys arno, sydd yn profi y meddiant o wir ffydd, eto dywedant mai ei hanfod ydyw credu yn syml; crediniaeth y deall o wirioneddau yr efengyl, fel y mae y gwirioneddau hyny yn cael eu deall a'u dirnad. Fel hyn y mae y Drd. Chalmers, Payne, ac ereill, yn esbonio ffydd. Cofier eu bod yn gwneyd gwahaniaeth rhwng y grediniaeth hon a chrediniaeth o ffeithiau yr efengyl; addefant y gellir meddu y grediniaeth hanesiol hono, a bod yn y diwedd yn golledig, ac nid oes neb wedi ymdrechu mwy na Dr. Chalmers i ddangos diffygion crediniaeth hanesiol. Dywedant fod credu yr efengyl yn cynnwys llawer iawn mwy na chredu yr hanes, megys y mae yr efengyl ei hun yn cynnwys mwy na ffeithiau. Tybier fod cyfaill yn adrodd wrthym hanes rhyw amgylchiad hynod, ond ein bod ni, trwy hwyrdrymedd ein clyw neu gamddealltwriaeth o feddwl rhai geiriau a ddefnyddiodd, wedi hollol gamsynied ystyr yr amgylchiad—a ellid yn briodol dyweyd ein bod wedi credu yr adroddiad? Na ellid, yn ddiammheuol. Gallem gredu fod yr adroddwr yn dyweyd y gwir; gallai fod genym yr hyder cryfaf yn ei eirwiredd; gallem hefyd gredu fod yr amgylchiad ag yr ydym wedi ffurfio cam farn am dano wedi cymmeryd lle mewn gwirionedd; ond er y cwbl nis gellid dyweyd ein bod yn credu yr adroddiad o'r gwir amgylchiad a gymmerodd le. Y mae felly yn hanfodol i

Digitized by Google

wir gred mewn peth fod genym ddirnadaeth gywir am dano.

"Y mae tystiolaeth yr efengyl," ebe Dr. Payne, "yn cynnwys amryw osodiadau, a ffydd ydyw crediniaeth o feddwl y gosodiadau hyny—y grediniaeth a roddir iddynt pan y maent yn cael eu hamgyffred yn briodol; a chan nad ellir byth eu deall ar wahan oddi wrth ddylanwad dwyfol ('canys dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw, ac nis gall eu gwybod, o blegid yn ysbrydol y bernir hwynt') ffydd ydyw y grediniaeth a roddir i'r gosodiadau hyn—eu cynnwysiad, y prawf o honynt, a'u gogoniant yn cael eu dadlenu ger bron y meddwl gan yr Ysbryd Glân." Fe wel y darllenydd bellach yn mha bethau y mae y golygiad hwn yn gwahaniaethu oddi wrth y golygiad arall. Yn ol y cyntaf, nid yw ffydd yn ddim mwy na chred i ffeithiau yr efengyl: ond yn ol yr olaf, nid yw y ffeithiau ond rhan o'r efengyl; y mae y berthynas agosaf rhyngddynt â'r dyn yn bersonol, ac y maent yn llawn o ardderchogrwydd a gogoniant. Felly, nid credu yr efengyl ydyw rhoddi coel yn unig i'w ffeithiau; ond ei hadnabod yn ei gogoniant, ei gwerth, ac yn ei pherthynas â'r dyn yn bersonol: ac y mae adnabyddiaeth o Dduw a Christ yn cael llefaru am dano yn gyfystyr a chredu yn Nuw a Christ, fel y peth mawr sydd yn sicrhau bywyd tragwyddol. Ond er fod yr olwg eang yma a gymmerir ar yr efengyl yn gwneyd y golygiad hwn ar ffydd yn hollol wahanol i'r golygiad arall, sef mai crediniaeth o ffeithiau yr efengyl ydyw, eto, os ydyw ffydd yn cynnwys cymmaint a hyn, y mae yn anhawdd gweled pa ham y dywedir fod ei hanfod yn gorwedd yn y deall. Mae yn amlwg fod yr ysgrifenwyr sydd yn dal mai *intellectual belief* ydyw yn ystyried mai elfen fywydol y grediniaeth hono ydyw yr amgyffred sydd yn y meddwl am ogoniant a phwysigrwydd yr efengyl: gall crediniaeth o'r ffeithiau fod heb fod gan y dyn ddim ffydd fywiol—ïe, dichon perchen y ffydd farw gredu mwy o ffeithiau ysgrythyrol na pherchen y ffydd wirioneddol. Mae yn beth posibl i olygiadau y gwir grediniwr fod yn gyfryw am ysbrydoliaeth a chanoneidd-dra rhai llyfrau o'r Beibl, fel ag y gallai perchen y ffydd farw gredu nifer mwy o ffeithiau ysgrythyrol nag efe: ond yr hyn sydd yn gwneuthur ei grediniaeth ef yn ffydd fywiol ac achubol ydyw, fod dirnadaeth am ogoniant yr efengyl yn brif elfen ynddi. Ond os addefir mai hyn yw y prif beth ag sydd yn gwneuthur gwahaniaeth anfesurol rhwng y ffydd farw a'r ffydd fywiol, pa fodd y mae yn briodol dyweyd mai crediniaeth ddeallawl ydyw gwir ffydd? Y mae adnabyddiaeth o ogoniant person, neu amgyffred am ardderchogrwydd neu bwysigrwydd gwirionedd, yn codi oddi ar gydymdeimlad âg ef, neu gariad ato yn y galon. Mae yn wir fod dirnadaeth am ogoniant yr efengyl yn sicrhau y canlyna serchiadau priodol tuag ati yn y galon; ond y mae yr un mor wir na buasai y cyfryw ddirnadaeth yn bosibl oni buasai am hanfodiad y cyfryw serchiadau, i ryw raddau, o'r blaen. Gwaith y galon, neu waith y deall trwy y galon, ydyw adnabod prydferthwch a gogoniant; ac ar y cyfrif hwn y rhoddir lle mawr i weithrediadau y galon mewn cyssylltiad â chredu: "A'r galon y credir i gyfiawnder." Camesboniad ar y gair hwn ydyw dywedyd fod "credu â'r galon" yn gyfystyr a "chredu yn wirioneddol." Mae yn wir nas gall crediniaeth o'r efengyl fod yn ddiffuant heb ei bod yn grediniaeth o'r galon; eto, nid amcan yr ymadrodd ydyw gosod allan ddiffuantrwydd y grediniaeth, ond ei bod yn gwreiddio yn nyfnderoedd mwyaf cuddiedig yr enaid; nid crediniaeth fâs o ciddo y deall ydyw, ond y mae wedi meddiannu ffynnonell gweithrediadau yr holl ddyn, sef y galon, o'r hon y mae bywyd yn dyfod. Mae y gair *calon* yn y Testament Newydd yn meddu ar ystyr cyffelyb i'r gair "arenau" yn Llyfr y Salmau:—rhan ddyfnaf a dirgelaf yr enaid. Ac wrth gymmeryd y gair "credu â'r galon" yn y golygiad hwn, y mae cyferbyniad rhyngddo a'r gair "cyffesu â'r genau." O ran ei hanfod, y mae ffydd yn cartrefu yn nyfnderoedd mwyaf dirgel yr enaid; ond o ran ei hamlygiadau, y mae i ddyfod i'r golwg mewn cyffes gyhoeddus. Ond y mae y cyferbyniad hwn yn colli wrth gymmeryd yr ymadrodd yn gyfystyr â "credu yn ddiffuant." "Cymmerwn sylw o hyn," ebe Calvin ar yr adnod—"fod ffydd yn trigo, nid yn y pen (*in cerebro*), ond yn y galon: ond gan fod y gair *calon* yn cael ei gymmeryd yn fynych am deimlad difrifol a gwirioneddol, nid syniad noeth yn unig yw ffydd, ond hyder cadarn ac effeithiol (*fiducia*)."

Gellir sylwi yn mhellach am rai mathau o wybodaeth, nad oes gan dueddiadau y galon un dylanwad uniongyrchol ar y meddwl yn yr ymofyniad am danynt. Fel y mae Vinet yn sylwi—y mae yn bod gyda gwybodaethau natur megys gyda'r gwlaw, yr hwn y mae Duw yn peri iddo syrthio ar y drwg a'r da; nid yw yn ofynol am galon bur er eu casglu: am nad oes elfenau moesol ac ysbrydol yn perthyn i'r gwrthddrychau, nid yw cyrhaedd y wybodaeth uchaf o honynt yn ymddibynu ar ansawdd foesol y galon. Nid oes, er enghraifft, dim moesol yn nglŷn â gwyddiannau rhif a mesur; ac felly, nid yw ansawdd foesol y meddwl yn meddu un dylanwad uniongyrchol ar y dyn wrth ymarfer â hwy, er y gall feddu dylanwad o natur anuniongyrchol, trwy buro a chryfhau y meddwl. Ond nid ydyw yn bod felly gyda gwirioneddau mawrion yr efengyl. Gwirioneddau ysbrydol yw ei gwirioneddau. Y mae eu prydferthwch a'u gogoniant yn gynnwysedig yn y dadguddiad sydd ynddynt o briodoliaethau moesol yr Iehofah. Gogoniant cariad a phrydferthwch sancteiddrwydd sy'n cyfansoddi ardderchogrwydd gwybodaeth yr efengyl: ac felly, y mae o'r pwys mwyaf pa fath fydd ansawdd calon dyn wrth ymwneyd â hi: nid yw ei dirgelion yn cael eu dadblygu ger bron neb ond y sawl a feddant ar "galon hawddgar a da." "Y pur o galon sydd yn gweled Duw" ynddi; ac i'r rhai a'i carant ef y mae dyfnion bethau Duw wedi eu darparu. "Cariad ydyw y gwir ddeonglydd ar wirioneddau yr efengyl." Yn awr, os ydyw Payne, Chalmers, ac ereill, yn dal allan fod adnabod gogoniant ac ymdeimlo yn briodol â phwysigrwydd yr efengyl, yn nghyd â'i pherthynas â'r dyn yn bersonol, yn elfen hanfodol mewn gwir ffydd, y mae yn anhawdd deall pa fodd y gall hyn gydsefyll â'r pwnc arall y dadleuant drosto; sef, mai crediniaeth ddeallawl ydyw ffydd, gan fod yn amlwg fod y brif elfen yn y grediniaeth yn ymddibynu ar ansawdd y galon.

Yn y wedd yma yr edrychir ar ffydd gan dduwinyddion Protestanaidd yn gyffredinol. Y maent yn ystyried teimlad y galon yn perthyn i'w hanfod, yn hytrach nag fel un o'i heffeithiau; ac yn golygu *credu* yn y Testament Newydd yn gyfystyr âg ymddiried yn yr Hen Destament. Dywed Calvin:—"Y mae genym yn awr ddarnodiad cyflawn o ffydd, os dywedwn ei bod yn wybodaeth ddiysgog a sier (*firma et certa cognitio*)

Digitized by Google

o'r ffafr ddwyfol tuag atom, yn seiliedig ar wirionedd y rad addewid yn Nghrist, ac wedi ei dadguddio i'n meddyliau a'i selio ar ein calonau gan yr Ysbryd Glân." Gyda chyfeiriad at y gwahaniaeth a wnai yr Ysgolwyr rhwng ffydd ffurfiedig a ffydd anffurfiedig, y mae yn dywedyd:—"Pe buasent yn dwys ystyried geiriau Paul, 'A'r galon y credir i gyfiawnder,' hwy a beidient a breuddwydio am y math hwnw o ffydd. Y mae un ystyriaeth a ddylai ar unwaith roddi terfyn ar y ddadl; sef, fod cydsyniad ei hun yn perthyn yn fwy i'r galon nag i'r pen, yn fwy i'r serch nag i'r deall. O herwydd hyn y mae yn cael ei galw yn "ufudd-dod ffydd" (*Rhuf.* i. 5); yr hyn y mae yr Arglwydd yn ei garu o flaen un gwasanaeth arall."..."Maent yn llefaru yn afresymol wrth haeru fod ffydd yn cael ei ffurfio trwy chwanegu serchiadau duwiol at y cydsyniad; o blegid y mae y cydsyniad ei hun—y cyfryw gydsyniad ag a ddarlunir yn yr Ysgrythyrau—yn gynnwysedig mewn serchiadau duwiol. Ond y mae genym reswm cryfach eto: gan fod ffydd yn cofleidio Crist, megys y mae yn cael ei gynnyg gan y Tad, a'i fod yn cael ei gynnyg nid yn unig er cyfiawnhad, ond hefyd er sancteiddhad, fel ffynnon o ddwfr bywiol, y mae yn sicr na ddaw neb i'w adnabod yn iawn heb ar yr un pryd dderbyn sancteiddiad yr Ysbryd. Neu, i ddweyd yn fwy eglur, Y mae ffydd yn gynnwysedig mewn gwybodaeth o Grist: nis gall Crist gael ei adnabod heb sancteiddiad yr Ysbryd; felly, nis gellir mewn un modd ddadgyssylltu ffydd oddi wrth serchiadau sanctaidd."

Cyffelyb i'r eiddo Calvin ydyw golygiadau Dr. Owen a Jonathan Edwards. Dywed y cyntaf yn ei *Draethawd ar Gyfiawnhad*, wrth sylwi ar natur ffydd, er fod llawer o ddarluniadau y Beibl o ffydd yn rhai trawsenwol, eto mai y cyfryw ddarluniadau a ddewisodd yr Ysbryd Glân yn ei anfeidrol ddoethineb eu defnyddio, er addysg ac adeiladaeth yr eglwys. Er eu bod yn drawsenwol, eto y maent y rhai mwyaf cyfaddas i drosglwyddo syniad i ni am ei natur. Y mae ffydd gyfiawnhaol yn cael ei dynodi yn dra mynych yn y Testament Newydd wrth y gair *derbyn*. Gwel *Ioan* i. 12; *Col.* ii. 6. Peidio derbyn Crist ydyw anghredu ynddo: *Ioan* i. 11; iii. 11, 12, 48; xiv. 17. "Yr enwau a'r syniadau wrth ba rai y mae yn cael ei gosod allan yn yr Hen Destament ydynt, pwyso neu ymgynnal ar Dduw a Christ (*Mica* iii. 11; *Can.* viii. 5); bwrw neu dreiglo ein hunain a'n baich ar yr Arglwydd (*Salm* xxii. 8; xxxvii. 5); pwyso ar, dystewi yn, a dysgwyl wrth Dduw (2 *Cron.* xiv. 11; *Salm* xxxvii. 7); glynu wrth yr Arglwydd (*Deut.* iv. 4; *Act.* xi. 23); a hefyd wrth y geiriau *ymddiried* a *gobeithio*, mewn manau afrifed." Y mae Dr. Owen yn gosod ffydd fel bywyd yn yr holl enaid. Nid yw, hyd y gwelsom ni, yn ei chyfleu yn yr un o'r galluoedd mwy na'u gilydd, ond y mae yn treiddio drwy y cyfan—yn y deall, yn oleuni a dirnadaeth ysbrydol o bethau yr efengyl, ac yn enwedig o Grist yn ei addasrwydd fel Iachawdwr; yn y galon, yn gymmeradwyaeth o'r holl iachawdwriaeth; ac yn yr ewyllys, yn act o ymorphwysiad ar Grist a'i gyfryngdod. "Y mae y ffydd trwy yr hon yr ydym yn credu er cyfiawnhad bywyd yn gyfryw act o eiddo yr holl enaid, trwy ba un y mae pechaduriaid argyhoeddedig yn myned allan yn llwyr o honynt eu hunain i bwyso ar Dduw yn Nghrist am drugaredd, maddeuant, bywyd, cyfiawnder, ac iachawdwriaeth, gydag ymorphwysiad y galon ynddo." Eto, er fod ffydd yn trigo yn yr holl alluoedd—yn y deall, y galon, a'r ewyllys—er fod ymorphwysiad a chymmeradwyaeth yn cydweu â'i hanfod, yn gystal a chrediniaeth syml, nid oes gan un o'r grasau le yn y cyfiawnhad ond ffydd yn unig. "Ffydd," meddai, "sydd yn derbyn Crist fel yr 'Arglwydd ein cyfiawnder,' fel yr hwn a 'wnaethpwyd i ni gan Dduw yn gyfiawnder.' Ac fel nas gall un gras nac un ddyledswydd gael lle i gydweithredu â ffydd yn hyn—am nad yw y derbyniad hwn o Grist yn perthyn i'w natur nac yn gynnwysedig yn eu gweithrediad—felly y mae ffydd yn cau allan bob cyfiawnder arall o'r cyfiawnhad ond cyfiawnder Crist yn unig."......"Os edrych at Grist ydyw y ffydd hono sydd yn cyfiawnhaus—ef edrych ato, o dan deimlad o euogrwydd pechod a'n sefyllfa golledig, am ein cwbl, am ein hunig gynnorthwy a'n hymwared, am ryddhad, cyfiawnder a bywyd—yna y mae yn cau allan bob gras a dyledswydd arall; o blegid nid trwyddynt hwy yr ydym yn edrych, ac nid am danynt hwy yr ydym yn edrych."

Y mae Jonathan Edwards yn gwneuthur y sylwadau canlynol ar ffydd; wrth ba rai y gwelir ei fod yntau, fel Dr. Owen, yn ei hystyried fel bywyd trwy yr holl enaid, eto yn golygu y galon neu y serch fel ei phrif eisteddle. Ffydd ydyw crediniaeth o dystiolaeth (2 *Thes.* i. 10); crediniaeth o eirwiredd oddi ar syniad o'i ogoniant a'i ardderchogrwydd, neu o leiaf gyda'r cyfryw syniad (1 *Cor* xiii. 3); crediniaeth o'r gwirionedd, oddi ar chwaeth ysbrydol at yr hyn sydd ragorol a dwyfol. Mae ffydd yn cynnwys adnabyddiaeth o Dduw a Christ: 2 *Pedr* i. 2, 3. Ffydd ydyw derbyn Crist (*Ioan* i. 12), a'i dderbyn i'r galon (*Rhuf.* x. 6, 7). Y mae gwir ffydd yn cynnwys mwy na chrediniaeth yn unig: derbyn yr efengyl ydyw, a rhoddi iddi bob derbyniad: 1 *Tim* i. 14, 15. Y mae yn cynnwys mwy na chydsyniad y deall, o blegid y mae yn cael ei galw yn ufuddhau i'r efengyl: *Rhuf.* x. 16. "Y mae y gair hwn, 'ufuddhau i'r efengyl,' yn ymddangos fel pe bai yn gosod allan fod y galon yn ildio i'r efengyl yn yr hyn y mae yn gynnyg yn ei galwadau: y mae yn rhywbeth mwy na'r hyn a ellir ei alw yn gredu gwirionedd yr efengyl. Mae yn cynnwys ymddiried neu obeithio yn Nghrist (*Eph.* i. 12); rhoddi ei hunan iddo (2 *Tim.* i. 12); ac y mae hyn yn un o ystyron Ysgrythyrol y gair *credu* (πιστευειν). Gwel *Ioan* ii. 24."..."Cariad ydyw yr hyn y mae ffydd yn tarddu o hono; neu y mae yn gynnwysedig mewn ffydd: *Ioan* iii. 18, 19." "Ar y cyfan, y darnodiad goreu, egluraf, a mwyaf perffaith o ffydd gyfiawnhaol, a mwyaf unol â'r Ysgrythyr, ydyw hyn:—ffydd ydyw gwaith yr enaid yn cofleidio yn llwyr y dadguddiad o Iesu Grist fel ein Hiachawdwr. Er fod y gair *cofleidio* yn air trawsenwol, eto y mae yn llawer mwy eglur nag unrhyw air mwy priodol. Y mae yn cael ei alw yn gredu, am mai credu ydyw act gyntaf yr enaid wrth gofleidio dadguddiad; ac y mae cofleidio, pan yn dwyn perthynas a dadguddiad neu beth yn cael ei hysbysu, yn cael ei alw yn fwy priodol wrth yr enw credu, na charu neu ddewis. Pe bai yn dwyn perthynas â pherson yn unig, byddai yn fwy priodol ei alw yn garu. Pe bai yn dwyn perthynas yn unig â rhodd, etifeddiaeth neu wobr, byddai yn fwy priodol ei alw yn dderbyn." Dywed yn mhellach—"Gellir gosod y darnodiad yn y ffurf yma: ffydd ydyw gwaith yr enaid yn glynu wrth ac yn ymorphwys yn y dadguddiad o Iesu Grist fel ein Gwaredwr." "Mae yr holl enaid yn cydsynio â'r gwirionedd,

Digitized by Google

ac yn ei gofleidio. Y mae yr holl feddwl a'r galon yn llwyr ildio i'r dadguddiad, ac yn glynu wrtho, gyda'r grediniaeth, a chyda'r tueddfryd a'r serch. Y mae yn ei dderbyn gyda llwyr grediniaeth a pharch. Derbynir ef gan yr enaid fel yn wir—fel yn deilwng a rhagorol. Gellir dysgrifio ffydd yn well nag y gellir ei darnodi, ar gyfrif tlodi iaith; y mae lluaws o eiriau yn ei dynodi yn well nag un neu ddau."...." Y mae ffydd yn cael ei galw yn fynych yn yr Ysgrythyrau yn *ymddiried*, yn enwedig yn yr Hen Destamen. Yn awr, y mae ymddiried yn cynnwys mwy na chrediniaeth syml. Credu ydyw y cydsyniad âg unrhyw wirionedd a amlygir; ond y mae ymddiried bob amser yn golygu gwirionedd sydd yn dwyn perthynas agos â ni yn bersonol, gyda golwg ar ryw fudd i ni ein hunain."...." Y mae y geiriau gwreiddiol am ffydd a chredu yn golygu mwy na chydsyniad noeth y deall: defnyddid hwy yn fynych i ddynodi ymddiried, yr hyn sydd yn cymmeryd i fewn weithred o eiddo yr ewyllys yn gystal a gweithred y deall: y mae yn arwyddo fod yr hyn a gredir yn cael ei dderbyn fel peth da a dymunol, yn gystal a gwir."

Gallasem chwanegu dyfyniadau ereill o weithiau y prif ysgrifenwyr Protestanaidd, er dangos eu bod yn ymwrthod â'r syniad mai crediniaeth ddeallol ydyw hanfod gwir ffydd; a bod y geiriau *ymddiried, pwyso ar, glynu wrth*, y rhai sydd yn dynodi gwaith y galon a'r ewyllys yn fwyaf neillduol, yn fwy cyfystyr â'r gair *credu* na geiriau ereill sydd yn perthyn yn fwy i waith y deall. Hyn ydyw y golygiad a amddiffynir gan yr esgob O'Brien yn ei waith ar ffydd, yn yr hwn y mae yn dilyn y gair trwy y Testament Newydd, ac yn dangos i foddlonrwydd ei fod yn gyfystyr âg *ymddiried*. Ar yr un pryd, o herwydd fod yr iachawdwriaeth yn cael ei dal ger bron pechadur yn yr efengyl, yr hon sydd yn *gyhoeddiad* neu *dystiolaeth* oddi wrth Dduw—ac o herwydd fod anufudd-dod dynion i'r efengyl, ar ei chyhoeddiad cyntaf, pan oedd Mab Duw ei hun yn pregethu a'i apostolion yn ysgrifenu, yn cymmeryd y ffurf o anghrediniaeth yn y deall—ac o herwydd fod dirnadaeth yn rhan hanfodol o ffydd, yr oedd cymmaint o briodoldeb yn y gair *credu*, yn enwedig credu *yn* Nuw, a chredu *yn* Nghrist, i osod allan ymorphwysiad pechadur ar y Gwaredwr ag un gair a allesid ei ddefnyddio. Fe welir oddi wrth y dyfyniadau a wnaethom fod Calvin, Dr. Owen, Jonathan Edwards, a gallasem chwanegu ymadroddion o'r un ystyr i ddangos fod Luther, Melanchthon, a'u cyd-ddiwygwyr, yn nghyd â'r duwinyddion Puritanaidd, yn cydolygu am ffydd ei bod yn cynnwys gweithrediadau yr holl enaid. Eto fe ellir canfod gwahaniaeth rhyngddynt: tra y mae Dr. Owen yn dal allan fod gwahaniaeth hanfodol rhyngddi a'r grasusau ereill, y mae Jonathan Edwards yn defnyddio geiriau sydd yn ei gwneuthur yr un peth a chariad.

Nis gallwn, wrth adael yr ymdriniaeth yma ar natur ffydd, wneuthur yn well na rhoddi cynnwys sylwadau Schöberlein, yn ei erthygl ar Ffydd, yn *Herzog's Encyclopædia*; yn yr hon y dangosir fod ffydd ar y naill law yn cynnwys, fel ei phrif elfen, gymmeradwyaeth y galon o drefn yr efengyl, ac ar y llaw arall, y cedwir mewn golwg y gwahaniaeth sydd rhyngddi a chariad, ac y gosodir hi allan fel y cyntaf o'r grasusau—fel y gras sydd yn dwyn pechadur i undeb â Christ, trwy yr hwn undeb y mae yn dyfod i feddiant o'r bywyd ysbrydol a thragywyddol sydd yn yr Arglwydd Iesu.

Y mae yr enaid yn dal cymundeb â Duw mewn dwy ffordd—neu yn hytrach, y mae y Beibl yn dangos fod dwy ffurf ar y cymundeb hwnw—*parchedig ofn*, a *chariad:* ond y mae yr ofn a'r cariad yn rhagdybied ffydd fel y cyfrwng trwy ba un y mae yr enaid yn eu derbyn. Y mae ofn sanctaidd yn cyfodi oddi ar adnabyddiaeth grediniol o fawredd Duw, yn ei allu, ei anfeidroldeb, a'i sancteiddrwydd; y mae cariad yn cyfodi oddi ar amgyffred ffyddiog o ddaioni a chariad Duw. Felly, trwy ffydd yr ydym yn cael ein galluogi i amgyffred y dadguddiad o gariad Duw, ac i fyned i mewn i'r cymundeb hwnw âg ef, yr hyn ydyw amcan uchaf ein bod.

Gyda golwg ar ei *ffurf*, nid crediniaeth ddeallol yn unig ydyw ffydd. Pwnc y galon ydyw (*Rhuf.* x. 9, 10): y mae yn ymaflyd yn ei gwrthddrych gyda holl nerth galluoedd dyfnaf yr enaid. "Faith is a matter of the heart, of our inmost personality; a grasping of the sacred object with the deepest powers of the soul. And as all man's faculties are germinally included in the central power of the soul, they all become simultaneously involved in the exercise of faith." Nid yn unig y mae y credadyn yn meddwl ac yn tybied: *gŵyr* i bwy y mae yn credu (2 *Tim.* i. 12): y mae gwybodaeth yn rhan hanfodol o ffydd (*Eph.* iii. 18). Y mae yr enaid, hefyd, yn cael ei lanw â theimlad o lawenydd sanctaidd, yr hwn sydd yn ymffurfio yn gymmeradwyaeth o'r galon o'r gwrthddrych; a chan ei fod, trwy weithred o eiddo yr ewyllys, yn cymmeryd gafael yn mendithion ffydd, y mae yr enaid yn cyrhaedd i sicrwydd a hyder sydd yn dyfod yn sail gadarn i ddymuniad a gobaith: *Heb.* xi. 1; 1 *Pedr* i. 7. Fel hyn, y mae ffydd yn cynnwys, *notitia*=gwybodaeth, *assensus*=cydsyniad, a *fiducia*=hyder. Nid yw yn ffydd gyflawn os bydd un o'r rhai hyn yn ol, er y gallant amrywio mewn graddau: *Marc* ix. 24; *Rhuf.* viii. 38, 39.

Priodol wrthddrych ffydd ydyw y dadguddiad o Dduw i ddyn; yr hwn ddadguddiad a elwir yn y Beibl yn "enw Duw." Y mae ffydd yn ei gofleidio ef yn y dadguddiad o hono—y mae yr holl enaid a'r holl feddwl yn ei dderbyn; felly, yn yr ystyr uchaf, ffydd ydyw undeb ysbrydol yr enaid â Christ; act dderbyngar (*receptive*) yr enaid, trwy ba un y mae yn cyflawn feddiannu gras Crist, ac yn ymgyfodi i fywyd o gariad gydag ef. Ond nis gellir cyrhaedd hyn trwy nerth y dyn ei hun (*Ioan* vi. 29; 1 *Cor.* ii. 5), ond rhaid ei weithredu gan yr Ysbryd Glân, yr hwn sydd yn bendithio moddion gras i'r dyben: *Rhuf.* x. 17; 1 *Cor.* i. 21. Ond rhaid darparu yr enaid at y peth (*Ioan* v. 44) trwy edifeirwch blaenorol, yn yr hwn y mae hunan-hyder a gau ymddiried yn cael eu rhoddi heibio (*Marc* i. 15). Gwaith rhagbarotoawl yr Ysbryd ydyw hyn (*Ioan* vi. 44). Cynnyrch angenrheidiol gwir ffydd ydyw cariad: 1 *Tim.* i. 5; 1 *Ioan* iv. 19.

Wedi ei symmud fel hyn allan o diriogaeth hunanoldeb gau i ras a chymdeithas Crist, yr hwn sydd bellach yn byw ac yn teyrnasu yn nghalon y pechadur (*Eph.* iii. 17), ac yn yr hwn y mae wedi dyfod yn greadur newydd, ac yn cael ei aileni, y mae y credadyn yn cael ei gyflawnu â holl gyflawnder Duw: daeth at Grist yn dlawd ac angenus, ar ddarfod am dano—heb ddim gras na haeddiant; a'r teimlad o dlodi a'i dygodd ato; ond yn yr act o ddyfod at Grist, cafodd ei gyflawnu â'r bendithion sydd yn trigo ynddo ef fel eu ffynonell: trwy gredu ynddo mae yn cael maddeuant o'i bechodau (*Act.* xxvi. 18) a chyfiawnhad (*Rhuf.*

Digitized by Google

iii. 26; v. 1), heb weithredoedd y ddeddf (*Act.* xiii. 29; *Rhuf.* iii. 28). O blegid gan ein bod yn dyfod yn un â Christ trwy ffydd, yr ydym yn sefyll ger bron Duw ynddo ef, fel ei aelodau; ac fel hyn yn dyfod yn gyfiawn ger bron Duw yn nghyfiawnder Crist: *Rhuf.* i. 17, &c. Fel hyn y mae ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder, ac yr ydym ninnau yn byw trwy ffydd: *Rhuf.* iv. 5; *Hab.* ii. 4. Gan mai ffydd ydyw rhwymyn ein hundeb ysbrydol â Christ, y mae yn ein cymhwyso i dderbyn pob dawn ysbrydol.

Ond yn chwanegol at y grasusau, y mae pechadur trwy ffydd yn dyfod yn gyfranog o *fywyd* yr Arglwydd Iesu. O blegid ni oddef Crist iddo ei hun gael ei ranu: y mae pawb sydd yn ei dderbyn trwy ffydd yn ei dderbyn yn gyfan trwy yr Ysbryd: *Gal.* iii. 14; *Eph.* i. 13; *Ioan* vii. 38. Y mae pwy bynag sydd yn credu yn Nghrist wedi ei eni o Dduw, ac yn gorchfygu y byd: 1 *Ioan* v. 1, 4. Y mae ffydd hefyd fel bywyd newydd yn cynnyrchu cariad: yr hyn sydd yn dystiolaeth o'n bod yn gyfranogion o anian Duw, yr hon yw cariad. Y mae yn amlwg fod pwys mawr yn perthyn i athrawiaeth ffydd. Y mae yn tueddu i dynu dyn i lawr o'i falchder, trwy ddangos iddo nad yw ddim, ac nad oes ganddo ddim ynddo ei hun tuag at ei wneuthur yn deilwng i ymddangos ger bron Duw: y mae yn ei gyfeirio at Dduw fel unig ffynnonell iachawdwriaeth, ac yn adeiladu ei iachawdwriaeth ar sail ddiysgog tu allan iddo ef ei hun: y mae yn ei ryddhau yn dumewnol oddi wrtho ei hun, yn ei sefydlu mewn cymundeb bywiol â Duw yn Nghrist, ac yn ei gynnysgaethu âg egwyddorion ysbrydol gwir foesoldeb, at yr hwn y mae yn ei annog trwy y cymhelliadau puraf.

Golygiad arall ar natur ffydd ydyw ei bod yr un peth a *sicrwydd*—fod sicrwydd hawl y dyn yn bersonol yn yr iachawdwriaeth, a'i berthynas gyfammodol â Christ, yn rhan hanfodol o honi. Y mae yn ddiammheu fod rhai o hen Galviniaid Ysgotland, trwy ddilyn y Diwygwyr, ac efallai eu camddeall, wedi gogwyddo yn mhell yn y cyfeiriad yma. Y mae y wedd a roddent hwy (*Y Marrow Divines*)—yn enwedig Marshall, yn ei lyfr, *Gospel Mystery of Sanctification*—yn groes i reswm ac Ysgrythyr; o blegid os yw yn hanfodol i'r act o ffydd fod dyn yn credu ei fod wedi ei ethol er tragwyddoldeb, a bod Crist wedi marw drosto ef yn bersonol, yna y mae yr hyn a osodir fel prif wrthddrych ffydd yn beth nad ydyw yn cael ei ddadguddio yn y gair. Tystiolaeth Duw ydyw yr hyn y mae ffydd yn gredu; ond nid yw y dystiolaeth hono yn cynnwys fod Crist wedi marw dros y dyn hwnw yn neillduol; neu ei fod ef yn eiddo Crist. Y dystiolaeth yw fod bywyd i'r pechadur a gredo yn Nghrist; fod Crist wedi dyfod i'r byd, a rhoddi ei hun yn aberth i gadw pechaduriaid, ac na chollir "pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." "Mae credu fod Crist wedi marw drosof *fi*, neu fod Crist yn eiddo i *mi*, yn yr ystyr ag y mae y cyfryw ymadroddion yn cael eu defnyddio gan y duwinyddion hyn, yr un peth a chredu fy mod wedi fy nghyfiawnhau. Y mae hyn yn ddigon amlwg. Y mae y ddau osodiad yr un peth. Ond yn y Beibl dywedir mai trwy ffydd yr ydym yn cael ein cyfiawnhau. Yn ol y cyfryw ymadroddion, gan hyny, yr ydym yn cael ein cyfiawnhau trwy gredu ein bod wedi ein cyfiawnhau; hyny yw, trwy gredu yr hyn sydd, yn yr adeg yr ydym yn credu, o angenrheidrwydd heb fod yn wir."—*Wardlaw's Systematic Theology.*

Y mae yn amlwg i bawb sydd i ryw raddau yn gydnabyddus â golygiadau y Diwygwyr Protestanaidd, eu bod hwythau yn dal golygiadau a gyfrifir yn eithafol ar sicrwydd fel yn hanfodol i ffydd; er y rhaid barnu fod eu gwrthwynebwyr yn hyn yn myned yn llawer pellach i'r eithafnod gwrthwyneb, heb ddeall ysbryd eu hysgrifeniadau, nac ystyried o ba safle yr oeddynt yn edrych ar y pwnc. Yr oedd y Diwygwyr, ebe y Parch. L. Edwards, yn ei ragdraethawd i *Gorff Duwinyddiaeth Dr. Lewis*, "yn dysgu yn gysson fod pob crediniwr yn sicr fod Duw yn maddeu ei bechodau, ac mai hyn mewn gwirionedd ydyw credu." Dywed Dr. Cunningham, yn ei *Theology of the Reformation*, fod y syniadau hyn, y rhai y mae yn rhaid eu hystyried yn eithafol, i'w priodoli i fesur mawr i ddau achos; yn gyntaf, i'w profiad personol hwy eu hunain fel credinwyr a dynion dychweledig; yn ail, i'r tir a gymmerai y Pabyddion wrth ddadleu yn eu herbyn. Ymddengys fod y Diwygwyr wedi cael eu cynnysgaethu gan yr Arglwydd â'r gras o sicrwydd i raddau helaethach, a'u bod yn ei fwynhau yn fwy cysson, na chredinwyr yn gyffredin. Dyma arfer Duw gyda'r dynion a gyfodir ganddo i gyflawnu gwaith mawr, ac i wynebu anhawsderau mawrion drosto; a gellir olrhain y sicrwydd a feddiennir gan y cyfryw bersonau yn bur fynych hyd at ryw amgylchiadau neillduol mewn cyssylltiad â'u tröedigaeth. Yr oedd felly yn arbenig gyda'r Diwygwyr; yr oedd ymwybyddiaeth o'u bod yn blant i Dduw yn angenrheidiol i'w cynnal, eu dyddanu, a'u harfogi â gwroldeb yn ngwyneb y rhwystrau a'r peryglon y gelwid arnynt gan Ragluniaeth i'w gwynebu. Ond heb law hyny, yr oedd y tir a gymmerai eu gwrthwynebwyr yn gweithio i'w tueddu i fyned yn rhy bell yn y cyfeiriad yma. Hònai y Pabyddion fod yn anmhosibl i'r Protestaniaid gyrhaedd i dir o sicrwydd, yr hyn y tybient hwy eu bod yn ei feddu yn nhystiolaeth ac awdurdod yr eglwys. Gan fod eu gwrthwynebwyr yn gosod cymmaint o bwys ar y sicrwydd a dderbynient trwy yr eglwys, yr oedd yn naturiol i'r Protestaniaid, ar y llaw arall, roddi arbenigrwydd i sicrwydd o natur wahanol. Nis gallwn wneuthur yn well yn y fan hon na rhoddi rhyddgyfieithiad o eiriau Dr. Cunningham:—"Yr oedd y Diwygwyr yn gyffredin yn mwynhau gyda gradd o gyssondeb grediniaeth gref eu bod mewn cyflwr o ras, ac y byddent yn y diwedd yn gadwedig. Teimlent y pwysigrwydd o feddu y gras hwn yn y gwaith caled y galwyd hwy i'w gyflawnu. Gwelent sail ddigonol yn yr Ysgrythyr dros feddwl y gall ac y dylai credinwyr fod yn sicr o'u hiachawdwriaeth eu hunain. Argymhellent hyn ar eu canlynwyr, trwy eu bod yn argyhoeddedig y byddai i sicrwydd personol dueddu ar unwaith i'w diogelu rhag gau resymau y Pabyddion, a'u haddasu i wneuthur ac ymgynnal dan ewyllys Duw o barth iddynt. Yr oedd y Pabyddion, ar y llaw arall, yn ymdrechu i ddangos nas gallai credinwyr feddu llawn a diogel hyder eu bod mewn cyflwr o ras, oddi gerth naill ai trwy ddadguddiad penodol neu trwy dystiolaeth yr eglwys; a'u hamcan yn hyn oedd peri i ddynion deimlo eu hunain yn gwbl ddibynol ar yr eglwys am ddiogelwch a sicrwydd ar bob pwnc o ddyddordeb a phwysigrwydd, a'u hamddifadu o'r nerth a'r hyder ag y mae sicrwydd o gyflwr o ras yn alluog i'w cynnyrchu, wrth sefyll i fyny i ymladd yn erbyn trawslywodraeth eglwysig. Y Diwygwyr, i'r dyben i ddangos fod y sicrwydd a ellir ei gyr-

haedd heb ddadguddiad penodol, neu dystiolaeth yr eglwys, yn gyflawn a pherffaith, a arweiniwyd i wneuthur y sicrwydd hwn yr un peth a'u ffydd yn athrawiaethau gair Duw, ac i'w osod allan fel yn gynnwysedig o angenrheidrwydd yn ngweithrediad ffydd gyfiawnhaol; ïe, weithiau, i roddi hyn fel deffiniad o ffydd gadwedigol, ei bod yn grediniaeth fod ein pechodau wedi eu maddeu, a'n bod wedi ein dwyn i gyflwr o ras." Ond y mae yn ddiammheuol fod y golygiad hwn yn gyfeiliornus, er fod yma, fel y cawn ddangos wrth fyned yn mlaen, beth gwirionedd; hyny yw, y mae cyssylltiad agosach rhwng ffydd a sicrwydd nag a feddylir gan lawer; eto, nid ydynt yn hollol yr un peth; o leiaf, nid ydyw pob credadyn yn *gwybod* ei fod yn gredadyn. Tystiolaethau y Beibl ydyw yr hyn a gredir gan bechadur:—ni elwir arno i ddim tuag at ei ddwyn i gyflwr o ddiogelwch, ond credu yn nhystiolaeth Duw am ei Fab; ond y mae yn amlwg nas gall dyn fod yn sicr o'i gadwedigaeth ei hun, yn unig trwy ddeall a chredu yr hyn a gynnwysir yn y dystiolaeth hon. "Y mae yn rhaid," ebe Cunningham, "i ryw elfen chwanegol gael ei dwyn i mewn, er gwarantu y cyfryw sicrwydd: mae yn rhaid i rywbeth yn sefyllfa y dyn gael ei wybod mewn trefn i gyrhaedd hyny. Ni bydd yn rhaid bob amser efallai wrth hunanymholiad maith tuag at ddyfod i ddeall fod y cyflwr yn ddiogel. Gallai fod amgylchiadau eu tröedigaeth yn gyfryw fel ag i gau allan bob ammheuaeth o'u meddyliau eu bod wedi myned trwodd o farwolaeth i fywyd. Gall fod eu hymwybyddiaeth presennol yn tystiolaethu iddynt ar unwaith ac yn eglur eu bod yn feddiannol ar y pethau sydd ynglŷn wrth iachawdwriaeth. Eto, y mae yn wirionedd, y rhaid i ryw elfen arall chwanegol at dystiolaethau y gair gael ei dwyn i mewn fel rhan o sylfaen eu sicrwydd." Y mae yn rhaid dwyn y meddwl at y gair, a'u dal gyferbyn â'u gilydd: "Yr hwn a gredo a fydd cadwedig"—dyna dystiolaeth y Beibl; "yr wyf finnau yn credu"—dyna dystiolaeth ymwybyddiaeth y credadyn: a thrwy gymharu y ddwy dystiolaeth, y mae yn dyfod i sicrwydd y bydd yntau yn gadwedig.

Y mae Dr. Cunningham yn sylwi nad ydyw mewn un modd yn rhyfedd fod Luther wedi llefaru geiriau anochelgar ar y pwnc hwn, fel ar rai pynciau ereill; ond fod yn rhyfedd fod dyn o'r fath dreiddgarwch a barn ag oedd Calvin wedi dyweyd y geiriau a geir yn ei *Institutes*. Gwel y dyfyniad blaenorol yn yr ysgrif hon; yr hwn sydd yn cynnwys deffiniad Calvin o ffydd, ac a dderbyniwyd yn lled gyffredinol fel desgrifiad o honi gan dduwinyddion Lutheraidd a Chalvinaidd. Yr un pryd, y mae Luther a Chalvin yn cymmedroli llawer ar ddywediadau o'r natur yma mewn rhanau ereill o'u hysgrifeniadau. Y mae Calvin, er enghraifft, yn ei *Instit.*, ll. iii. p. 11. ad. 17, 18, yn dangos y gall y gwir grediniwr gael ei flino gan ammheuon ac ofnau. Pe y cynnullid eu holl ddywediadau ar ffydd a sicrwydd, gellid yn hawdd canfod nad oedd eu golygiadau mor bell ac eithafol ag y meddylid oddi wrth ambell ddywediad yma a thraw. "Barn gyffredinol y Diwygwyr," ebe y Parch. L. Edwards, "oedd, fod pob gweithred o ffydd yn cynnwys ynddi ryw radd o sicrwydd; fod y sicrwydd hwn yn gorchfygu anghrediniaeth, a'i fod yn myned ar gynnydd o angenrheidrwydd, fel y mae ffydd yn cynnyddu. Yn ol eu barn hwy, y mae ffydd bob amser yn edrych allan ar y cadernid a'r digonolrwydd sydd yn nhrefn Duw. Yn lle gorphwys ar yr hyn yw y dyn ei hun, nac ar ddim sydd ynddo, y mae yn gorphwys yn unig ar Grist; ac am hyny, y mae yn sicrwydd. Ond yn ein dyddiau ni, y mae y gwirionedd hwn, oedd yn rhoddi cymmaint o gysur iddynt hwy, bron wedi ei lwyr golli. Yn gyffredin, y rhai sydd yn ei ddal mewn enw, nid ydynt yn ei ddeall; tra y mae ereill, am nad ydynt yn ei ddeall, yn edrych arno gyda rhagfarn."

Er nad ydyw yr efengyl yn galw ar bechadur i gredu ei fod ef yn eiddo Crist, a bod Crist wedi marw drosto ef yn bersonol; er mai nid hanfod ffydd gyfiawnhaol ydyw credu y gosodiadau hyn, ond credu tystiolaeth Duw am ei Fab; eto y mae yn rhaid i ni gofio fod hyder yn perthyn i wir ffydd, a bod pob gweithrediad o honi yn cynnwys hyder i raddau mwy neu lai, yn ol nerth ffydd. Pe na byddai am hyn, byddai yn anhawdd rhoddi cyfrif am y llawenydd a'r tangnefedd sydd yn llifeirio i galon pechadur trwy gredu. Y mae sicrwydd i'w olygu, nid fel gras gwahanol i ffydd, ond fel perffeithiad ffydd: sicrwydd ydyw y blodeuyn sydd yn tyfu oddi arni: ac y mae hyn i'w weled yn yr ystyriaeth fod llawenydd, tangnefedd, a sicrwydd yn fwy neu yn llai yn ol graddau nerth ffydd. Y mae ffydd wan, neu yn hytrach perchen y cyfryw ffydd, yn cael ei flino gan ammheuon ac ofnau; tra y mae yr hwn sydd yn gadarn mewn ffydd yn mwynhau graddau uchel o sicrwydd. Y mae effeithiau unrhyw egwyddor yn rhwym o ddal cyfartaledd â graddau nerth yr egwyddor hono. Y mae ffydd yn gweithio trwy gariad; ac y mae nerth y cariad, yn ei ddylanwad ar galon y dyn yn dufewnol, ac yn ei weithrediadau yn allanol, yn dwyn cyfartaledd i nerth y ffydd; yn gyfryw, fel y mae yn anmhosibl meddwl am ffydd wan a chariad cryf, neu ffydd gref a chariad gwan, yn yr un galon. Mae yn annichonadwy i hyny fod; o blegid os ydyw yn perthyn i ffydd gref ei bod yn sylweddu y pethau am yr Arglwydd Iesu—ei berson, ei waith, a'i haeddiant—mewn graddau llawer uwch na ffydd wan, y mae yn rhaid fod y cyfryw ddirnadaeth am Grist a'i gyflawnder yn cael ei dilyn gan gariad cryfach na'r cariad sydd yn codi oddi ar ddirnadaeth ysbrydol mwy aneglur. Nerth y ffydd, gan hyny, sydd yn penderfynu maint y cariad, a maint a nerth y cariad sydd yn peri fod y credinwyr sydd yn "caru yn fawr" yn rhoddi ufudd-dod mwy cysson a pherffaith i holl orchymynion Crist. Felly, y mae yr hyder sydd genym am ddiogelwch ein cyflwr yn cyfodi oddi ar yr ymwybyddiaeth o ddiffuantrwydd ein ffydd. Yr hyn sydd yn profi i'n meddyliau ni ein hunain ei bod yn ddiffuant ydyw ei heffeithiau, mewn llanw y galon â chariad at Dduw, a'n bod yn cadw ei orchymynion. Ond yn ol nerth yr achos y bydd nerth ac amlygrwydd yr effeithiau: mae y cariad a'r llawenydd a'r ufudd-dod yn fwy neu yn llai perffaith yn ol nerth neu wendid ffydd—achos y cyfan; felly, y mae yr hyder sydd genym am ein diogelwch personol yn cyfateb mewn nerth a diysgogrwydd i nerth a diysgogrwydd ein ffydd. Y mae Dr. Wardlaw yn taflu ei sylwadau ar sicrwydd i fath o gyfresymiad:—Y mae yr hyder am berthynas bersonol â Christ mewn cyfartaledd i effeithiau ffydd; ond y mae effeithiau ffydd mewn cyfartaledd i nerth ffydd ei hunan; gan hyny, yn gyfartal i nerth y ffydd y bydd nerth yr hyder am berthynas bersonol â Christ. Ac y mae yr awdwr hwn—yn gywir, yn ol ein tyb ni—yn gwneyd sicrwydd ffydd a sicrwydd gobaith yr un peth. Gan fod gobaith yn cyfodi

Digitized by Google

oddi ar ffydd, ac mai "sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio" ydyw ffydd, y mae yn rhaid fod gobaith yn cyfateb mewn diysgogrwydd i ffydd mewn nerth. Fel gyda ffydd a chariad, felly hefyd am ffydd a gobaith—y mae eu nerth yn dwyn cyfartaledd y naill i'r llall: os cynnyddu a wna un, cynnyddu o angenrheidrwydd a wna y llall. Lle y mae ffydd mewn llawn sicrwydd, yno hefyd y mae gobaith mewn llawn sicrwydd. Er fod y Diwygwyr Protestanaidd, oddi ar eu hymwybyddiaeth eu hunain o sicrwydd, wedi llefaru weithiau yn anochelgar ar berthynas sicrwydd a ffydd, eto ni ddylid am fynyd eu rhestru gyda rhai duwinyddion diweddarach, y rhai a haerent nad oedd dim yn gredu i fywyd ond credu fod Iesu Grist wedi marw dros y dyn yn bersonol. Os oeddynt weithiau yn ochri at hyn, ochri yr oeddynt wrth amddiffyn gwirionedd pwysig; sef, fod sicrwydd yn gyssylltiedig â ffydd; mai oddi ar anghrediniaeth y mae ammheuon ac ofnau yn cyfodi; mai prawf fod un yn ddyn "o ychydig ffydd" ydyw, ei fod yn petruso; ond fod ffydd gref yn ymlid yr ammheuon ymaith, ac yn sefydlu yr enaid mewn tawelwch, a bod "tangnefedd heddychol" yn ffrwyth ymddiried yr enaid yn Nuw, pan y mae yr ymddiried hwnw yn ymddiried cysson a chadarn, yn codi oddi ar fod "meddylfryd" y galon yn gorphwys arno.

Y prif bwnc mewn dadl rhwng y Diwygwyr a'r Pabyddion oedd *natur* gwir ffydd. Dadleuai y Pabyddion fod ei heisteddle yn y deall, ac mai ei hanfod ydyw cydsyniad (*assensus*): ond yr oedd y Diwygwyr yn gyffredin yn dal fod ei heisteddle yn yr ewyllys, ac mai ei phrif elfen ydyw hyder neu ymddiried (*fiducia*). "Y mae y nifer mwyaf o'r prif dduwinyddion Protestanaidd," ebe Dr. Cunningham, "o'r Diwygiad hyd yn awr, yn derbyn golygiadau y Diwygwyr ar y pwnc, er fod rhai yn cymmeryd yr ochr wrthwyneb; sef, mai cydsyniad y deall i wirionedd Duw ydyw hanfod ffydd gyfiawnhaol, ac mai effeithiau angenrheidiol gwir grediniaeth y deall ydyw cymmeradwyaeth y galon, ac act o ymorphwysiad o eiddo yr ewyllys." Y mae y golygiad arall, sef mai cydsyniad y deall i ffeithiau yr efengyl ydyw ffydd, o duedd niweidiol yn y graddau helaethaf; y mae yn arwain dynion i roddi pwys gormodol ar iachusrwydd syniadau y deall, ac i ddibrisio ansawdd y galon ac ufudd-dod yn y fuchedd. Yn y tir peryglus yma yr oedd proffeswyr diwedd yr oes apostolaidd, at y rhai yr ysgrifenodd yr apostol Iago ei Epistol, yn yr hwn y mae yn dangos cyssylltiad ffydd â gweithredoedd. Ond am y golygiad arall, er ei fod, yn ein tyb ni, fel y ceisiasom ddangos yn yr erthygl hon, yn anghywir, eto, nid yw yn arwain i gyfeiliornadau ymarferol, cyhyd ag y mae ei bleidwyr yn rhoddi lle priodol i'r ystyriaeth fod crediniaeth gywir yn y deall o angenrheidrwydd yn cynnyrchu ymddiried ac ymorphwysiad. Ac nid oes neb yn barotach i gydnabod hyny na Wardlaw a Chalmers. Tra y mae mwy o gyssondeb a symledd yn *ymddangos* yn y dybiaeth sydd yn gwneyd credu yn waith y deall, y mae athroniaeth a'r Beibl yn fwy o du golygiad y Diwygwyr. Y mae athroniaeth felly: o blegid, er fod y gair *credu* yn un o'r geiriau mwyaf cynnefin—mor gynnefin, fel na theimlir fod angen am ei esbonio, ac nad oes geiriau ereill mwy syml i'w cael, eto, nid yw yn sefyll am ddrychfeddwl syml (*simple idea*). Y mae yr act o gredu yn gwahaniaethu yn ol fel y byddo ei gwrthddrychau yn gwahaniaethu: nid yw credu gosodiadau cyssylltiedig â gwybodaethau naturiol yr un peth yn gwbl a chredu gwirioneddau ysbrydol. Heb law hyny, y mae yr act o gredu yn act gyfansawdd (*complex*), yn yr hon y mae amryw weithrediadau o eiddo y meddwl yn cydgyfarfod. Cyn y gellir dyweyd fod un yn credu rhyw osodiad, y mae yn rhaid ei fod, yn gyntaf, yn deall pa beth a ddywedir; yna y mae yn rhaid iddo feddu dirnadaeth briodol am gynnwysiad y gosodiad; yn mhellach, y mae yn rhaid i gynnwys y gosodiad neu y dystiolaeth arganmawl ei hun i'r meddwl gyda phrofion digonol o'i wirionedd; hefyd, y mae yn rhaid fod gan y meddwl amgyffred am ogoniant a phwysigrwydd y dystiolaeth. Gyda golwg ar ystyr Ysgrythyrol y gair *credu*, yr ydym yn barnu fod syniad y Diwygwyr yn gywir; sef, mai ffydd ydyw ymddiried. "Mae y gair *ffydd*, yn yr Ysgrythyrau," ebe Dr. Cunningham, "yn cael ei ddefnyddio, yn yr ystyr uchaf a phwysicaf, *yn unig* am ystâd meddwl yn mha un y mae ymddiried yn Nghrist fel Iachawdwr yn elfen hanfodol."

Y mae addasrwydd arbenig mewn ffydd, yn hytrach nag un gras arall, i fod yn foddion cadwedigaeth. Ffydd, a ffydd yn unig—nid edifeirwch, nid cariad, nid un o'r grasau—ydyw yr hyn y gelwir pechadur i'w hymarfer mewn trefn i ddyfod i feddiant o fywyd tragwyddol. "Yr hwn a gredo a fydd cadwedig;" "Hyn yw gwaith Duw, credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe;" "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi;" "Fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond cafael o hono fywyd tragwyddol." Y mae yr arbenigrwydd a roddir i ffydd fel moddion iachawdwriaeth yn awgrymu fod rhyw wahaniaeth rhyngddi a phob gras arall, a rhyw addasrwydd neillduol ynddi i gael y lle mawr yma yn nghadwedigaeth yr enaid. Nid yw yn ddigon o eglurhad i ddyweyd mai dyma osodiad Duw. Yr oedd rhyw reswm dros y gosodiad hwnw. Y mae gan Dduw ddau amcan gyda golwg ar bechadur yn y drefn o'i gadw i fywyd tragwyddol: cau allan bob sail o orfoledd a hunanhyder ar y naill law; ac ar y llaw arall, dwyn yr iachawdwriaeth yn agos ato, fel ag i gau allan bob sail i lwfrdra ac anobaith: ac megys y mae yr oll o'r drefn, felly mewn modd neillduol y mae gwaith Duw yn gosod ffydd fel moddion neu gyfrwng iachawdwriaeth, yn gwasanaethu i'r ddau amcan. Un o brif wirioneddau y Beibl ydyw fod yr iachawdwriaeth yn hollol o ras: gan mai dyma achos cynhyrfiol yr iachawdwriaeth, yr oedd yn rhaid rhoddi lle i ras i ddyfod i'r golwg yn mhob rhan o honi. Ond ni buasai yn bosibl i ras lewyrchu yn ngwaith y pechadur yn dyfod i afael ar yr iachawdwriaeth, oddi eithr fod y cyfrwng yn berffaith unol â gras. A pha elfenau bynag sydd mewn ffydd, y mae yn rhaid cau allan o honi bob peth tebyg i haeddiant: cyfiawnhau yr annuwiol y mae Duw; nid yn unig un wedi bod yn annuwiol, ond un sydd yn adeg y cyfiawnhâd yn annuwiol; nid yw yn feddiannol ar y pryd ar y sancteiddrwydd y mae y ddeddf yn ei ofyn, nac ar y grasau y mae yr efengyl yn eu cyfranu; nid oes ganddo ond ymorphwys ac ymddiried, yn bechadur damniol, heb ddim haeddiant ynddo ei hun, na dim gras wedi ei gyfranu gan Dduw, ar haeddiant anfeidrol yr Arglwydd Iesu. Pe buasai rhyw gymmaint o haeddiant mewn ffydd, buasai moddion derbyniad yr iachawdwriaeth yn cymylu ei graslonrwydd; buasai ffydd yn rhoddi maeth i falchder y pechadur.



Digitized by Google

Ond gan nad oes ynddi ddim haeddiant, y mae yn berffaith unol â gras: "Am hyny, o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras:" "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd; a hyny nid o honoch eich hunain; rhodd Duw ydyw. Nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb." Y mae bod yn gadwedig trwy ras yn gysson â bod yn gadwedig trwy ffydd; ac y mae ffydd, yn gystal a gras, yn wrthwyneb i weithredoedd. Y mae graslonrwydd y drefn yn peri mai ffydd ydyw yr unig gyfrwng addas: pe rhywbeth arall fuasai y cyfrwng, ni buasai cadwedigaeth mwyach o ras. Ac nid yn unig y mae ffydd heb ddim haeddiant ynddi, ond y mae yn meddu llai o natur gweithred nag un gras. Er fod y Beibl yn ei gosod allan fel gallu mawr y bywyd crefyddol, eto y mae yn amlwg mai yn ei gwendid y mae ei nerth. Iaith ffydd ydyw, "Pan wyf wan, yna yr wyf gadarn." Y mae mor wan fel nad all ymgynnal arni ei hun: ei gwaith ydyw pwyso ar nerth Duw; a'i gwendid felly, ydyw achos ei chryfder, fel mai cryfder hunanol pechadur yw yr achos o'i wendid. Beth sydd yn weithred wanach nag ymddiried? Oddi ar y teimlad o annigonedd y mae un yn rhoddi ei bwys ar un cryfach; ac nid oes un desgrifiad o ffydd yn tueddu i gadw graslonrwydd yr iachawdwriaeth yn ei holl ddysgleirdeb yn fwy na'r desgrifiad o honi fel yn gynnwysedig, o ran ei phrif elfen, mewn ymddiried. Dyma yr olwg a roddir ar gredu yn *Athrawiaeth yr Iawn*, pan ddywedir mai credu sydd yn gofyn lleiaf o allu o bob ymarferiad crefyddol. Nid am nad oes eisieu dylanwadau yr Ysbryd Glân i ddwyn pechadur i gredu—i'w argyhoeddi o bechod ac o'i angen am Grist; ond am nad yw credu yn beth o'r un natur a gweithio. Y mae y gair, "yr hwn sydd yn credu," yn gyfystyr â'r ymadrodd "yr hwn nid yw yn gweithio." Nid rhoddi y mae ffydd, ond derbyn; nid gweithio, ond peidio gweithio—marw. Pechadur wedi dyfod i deimlo nad yw ynddo ei hun ond swp o dlodi a thrueni, ac yn rhoddi i fyny bob gobaith am fywyd tragwyddol trwy y cwbl a all efe wneuthur, ac yn ymgynnal yn hollol ar drugaredd Duw mewn Iawn ydyw pechadur yn credu. Mae'n wir mai nerth Duw—ïe, 'gweithrediad nerth ei gadernid ef'—sydd yn dwyn pechadur balch i'r agwedd yma: ond yr hyn y mae y nerth dwyfol yma yn ei wneuthur yn y pechadur ydyw ei wneyd yn deimladwy o'i wendid ei hun, nes y mae oddi ar y teimlad hwnw yn ymorwedd ar yr Arglwydd Iesu.

Hyn oedd golygiad y Diwygwyr a'r Puritaniaid ar ffydd, ac am ei haddasrwydd fel cyfrwng iachawdwriaeth. Cymmerer y brawddegau canlynol, er enghraifft, allan o waith Goodwin ar yr Ephesiaid:—

"Y mae cyd-darawiad neillduol rhwng ffydd rhad ras; fel mai ffydd, a ffydd ynunig, sydd yn rhoddi i rad ras yr anrhydedd dyledus. Ffydd, o'r holl rasusau, sydd yn derbyn yn gyntaf; ac y mae yn derbyn oddi wrth ddadguddiad. Y mae cariad a llawenydd, y rhai sydd yn rasusau ereill, yn llifeirio o honi hi. Nid ydyw ffydd yn ddim ond derbynydd; nid yw yn gwneuthur dim ond derbyn; nid yw yn rhoddi. A ydyw llaw y cardotyn sydd yn derbyn elusen yn dychwelyd rhywbeth i'r dyn sydd yn rhoddi? Nac ydyw: y cwbl a wna ydyw cymmeryd. Y mae y cardotyn yn wir yn cyflawnu gweithredoedd ereill: y mae yn tynu ei het, yn ymgrymu i'r rhoddwr ac yn talu diolch iddo:—mae yn y pethau hyn roddi; ond nid yw y llall yn gwneyd dim ond derbyn. Y mae cariad yn parchu Duw—yn wasanaethgar a llafurus, ac y mae y Beibl yn son am lafur cariad; ond nid yw ffydd yn gwneud dim ond derbyn." ..."Yr oedd yr hynafiaid yn arfer dweyd mai yr egwyddor dderbyngar yn unig ydyw ffydd—ei bod yn cymmeryd i mewn; ond fod cariad yn rhoddi allan, ac yn dychwelyd rhywbeth i Dduw. Pe buasai Duw yn ein hachub trwy gariad neu trwy sancteiddrwydd, yn rhoddi yr iachawdwriaeth neu yr hawl ynddi trwy y naill neu y llall, pa beth a ddywedasai cariad? Mi a roddais gariad am gariad. Ond nid yw Duw yn cymmeradwyo hyn yna; y mae efe yn gosod yn foddion iachawdwriaeth yr hyn nad yw ond derbynydd yn unig. Y mae yn wir fod ffydd, mewn ystyr ramadegol, yn weithred; ond mewn ystyr wirioneddol, nid yw ond goddefol. Nid ydyw yn rhoddi dim i Dduw, fel ag y gwna cariad; ond yn unig yn gadael i Dduw fod yn dda wrthi. Y mae yn derbyn yr iachawdwriaeth ag y mae gras yn ewyllysio ei weinyddu."

Digitized by Google

# G.



GAAL [געל=*methiant*; Γαάλ]: mab Ebed, a gynnorthwyodd y Sichemiaid yn eu gwrthryfel yn erbyn Abimelech: *Barn.* ix. 22—30, &c.; *Hyn. Joseph.*, v. 7, adr. 3, 4. Nid ymddengys ei fod ef yn frodor o Sichem, na bod y gwrthryfel o un pwys neillduol iddo ef; ond yn hytrach mai un o'r dosbarth hwnw ydoedd, a werth ei wasanaeth ar adeg o gythrwfl i'r uchaf ei bris. Tybir nad yw yr enw *Archontôn* a rydd Josephus iddo, mwy na'r enw *Archôn* a rydd i Zebul, yn arwyddo ei fod mewn unrhyw swydd wladol arbenig; ond yn hytrach ei fod yn cyfeirio ato fel penteulu (*Barn.* ix. 26); a bod ganddo fyddin o wŷr arfog dan ei arweiniad, y rhai, fel yr ymddengys, oedd yn barod i gyflawni unrhyw wasanaeth ar ei archiad. Y mae ei waith yn troi at draddodiadau croes i draddodiadau yr Israeliaid, yn nghyd âg ail sefydliad eilunaddoliaeth yn Sichem, yn dangos mai symmudiad gwrthweithiol oedd ei wrthryfel ef, ac wedi ei seilio ar yr egwyddor o uno y cynfrodorion â'r Israeliaid eilunaddolgar yn erbyn teulu gwrtheilunaddolgar Gideon, a gynnrychiolid gan Abimelech: *Barn.* ix. 26—28. Bu amcanion uchelfrydig Gaal, yr hwn, fel yr ymddengys, a chwennychai fod yn benswyddog, yn foddion i gynhyrfu eiddigedd Zebul, yr hwn a alwodd Abimelech yn ol, ac a lwyddodd i yru Gaal o'r ddinas dan y cyhuddiad o lwfreidd-dra.

GAAS [געש=*daiargryn*; Γαάς]. "O du y gogledd i fynydd Gaas," yn rhandir "mynydd Ephraim," yr oedd Timnath-serah, neu Timnath-cheres, y ddinas a roddwyd, "wrth orchymyn yr Arglwydd," gan feibion Israel i Iosua; ac yno y preswyliai, yn yr hon hefyd y claddwyd ef yn y diwedd: *Ios.* xxiv. 30; *Barn.* ii. 9; cymh. *Ios.* xix. 49, 50. Yn ddamweiniol yn unig y clywir am y ddinas mwyach, fel lle genedigaeth un o gedyrn Dafydd, Hidai neu Hurai "o afonydd Gaas" (ar ymyl y ddalen, "dyffrynoedd Gaas"); 2 *Sam.* xxiii. 30; 1 *Cron.* xi. 32. Crybwyllir yr enw gan Eusebius a Jerome; ond amlwg yw na wyddent ddim am y lle, ac nid ymddengys iddo gael ei adnabod gan neb o deithwyr diweddarach Palestina.

GABA [גבע=*y bryn*; Γαβαά]. Yr un enw a Geba, ond fod sain *a* yn cael ei defnyddio yn lle *e*, yn ol arfer yr Hebraeg, am ei fod yn dygwydd ar ddiwedd brawddeg neu ymadrodd. Ceir yr enw yn ein cyfieithiad ni yn *Ios.* xviii. 24; *Ezra* ii. 26; a *Neh.* vii. 30. Gaba a ddefnyddir yn yr Hebraeg hefyd yn 2 *Sam.* v. 25; 2 *Bren.* xxiii. 8; *Neh.* xi. 31; lle y defnyddiwn ni Geba. Gwel Geba.

GABBAI [גבי=*y cefn*; Syr. *treth-gasglwr*; Γηβί]. Un o benau cenedl llwyth Beniamin, fel yr ymddengys, yr hwn a breswyliai yn Ierusalem: *Neh.* xi. 8.

GABBATHA [Γαββαθᾶ]. Yr unig fan y defnyddir y gair yn y Beibl yw *Ioan* xix. 13; lle y dywed yr efengylwr fod Pilat, ar ol cael ei ddychryn o'r diwedd am geisio gollwng yr Iesu yn rhydd, gan awgrymiad dichellgar yr Iuddewon—"Os gollyngi di hwn yn rhydd, nid wyt ti yn garedig i Cæsar"—wedi myned drachefn i'r Pretorium, ac wedi dwyn yr Iesu allan iddynt hwy, ac eistedd unwaith eto ar y *bêma* (a gyfieithir genym ni "yr orseddfainc") neu y frawdle, "yn y lle a elwir *Lithostrôton* ('y Palmant,' genym ni), ac yn Hebraeg, Gabbatha." Ansoddair ydyw y gair Groeg, yn arwyddo yn llythyrenol *wedi ei balmantu â cheryg*, neu *palmantedig*; a dywedir mai felly yr arferir ef yn gyffredin gan yr ysgrifenwyr Groegaidd; ond eu bod weithiau yn ei ddefnyddio hefyd fel sylweddair am balmant ceryg, pan y dichon fod y gair *edaphos* yn ddealladwy. Tybia Grove mai y gair Caldeaidd *Gabbetha* ydyw, o hen wreiddair yn arwyddo uchder neu grynder—gwreiddyn y gair Hebraeg *Gibeah*, yr hwn sydd enw cyffredin yn yr Hen Destament am fryn moel, crwn, neu dir lled uchel. Os felly, tybia mai wrth Gabbatha y golygid y *bema* (yr orseddfainc) ddyrchafedig; ac mai y "palmant" oedd rhyw frithwaith oedd naill ai yn perthyn i'r *bema* ei hun, neu y llawr o'i hamgylch—rhyw waith cyffelyb i'r un y dywed Suetonius [*Cæsar*, 46] yr arferai Julius Cæsar ei gludo gydag ef er mwyn rhoddi codiad priodol i'r *bema*, neu y frawdle.

Yn y Deg a Thrigain, mae y gair Groeg *lithostrôton* yn ateb i'r gair Hebraeg *rizpa*: 2 *Cron.* vii. 3; *Esth.* i. 6. Mae y gair Groeg, a'r un gair yn Lladin, yn cael ei ddefnyddio yn fynych i ddynodi palmant wedi ei wneuthur o geryg addurniadol o amryw liwiau, a elwir yn gyffredin "palmant o frithwaith" (*tessellated* neu *Mosaic pavement*). Y mae hoffder y Rhufeiniaid o'r dull yma o balmant yn ddigon hysbys. Dygasant y dull hefyd i'r taleithiau Rhufeinig. Dywed Suetonius y byddai Cæsar, pan ar ei deithiau rhuthrgyrchol, yn cludo defnyddiau y palmant brithwaith gydag ef, wedi eu gwneyd yn barod, fel, pa bryd bynag y byddai yn gwersyllu, y gallai eu gosod yn y Pretorium. Y mae amryw ysgrifenwyr enwog yn casglu oddi wrth y pethau hyn, fod y lle yr oedd brawdle Pilat wedi ei gosod ynddo ar yr achlysur yma, wedi ei orchuddio â phalmant brithwaith; yr hwn, fel addurn Rhufeinaidd, a chwanegwyd at y Pretorium yn Ierusalem. Mae dull pendant Ioan o lefaru yn cytuno â'r dyfaliad yma. Ymddengys hyn hefyd oddi wrth yr hanes sydd yn mynegi ei fod o'r *tu allan* i'r Pretorium; canys dywedir i

Digitized by Google

Pilat "ddyfod allan" at yr Iuddewon; y rhai, o blegid rhesymau seremonïol, nid elent i mewn ar yr achlysur yma, cystal ag ar achlysuron ereill: *Ioan* xviii. 28, 29, 38; xix. 4, 13. Heb law hyn, er fod y llywodraethwyr Rhufeinaidd yn profi cwynion, ac yn ymgynghori â'u cydswyddogion *o fewn* y Pretorium (*Act.* xxv. 12), eto yr oeddynt yn traddodi eu dedfryd bob amser yn yr awyr agored. A allasai y palmant brithwaith yma, gan hyny, ar yr hwn yr oedd yr orseddfainc wedi ei gosod, ddim fod wedi cael ei roddi ar ryw ran o'r uchrodfa, gyferbyn â'r lle yr oedd yr Iuddewon wedi ymgasglu ynddo, neu ar ryw uchelfan o'r grisiau, yn union o flaen y brif fynedfa?

Tybia rhai mai yr un oedd y palmant hwn ag y cyfeirir ato yn 2 *Cron.* vii. 3; a chan Josephus, [*De Bell. Ju.*, vi. 1, 8], yr hwn oedd yn nghyntedd allanol y deml; ond er yr ymddengys yr eisteddai Pilat weithiau mewn gwahanol leoedd, megys, er esampl, yn y farchnadle agored [*Jos. De. Bell. Jud.*, ii. 9, 3], eto, mae y dyb y buasai efe ar yr achlysur yma, pan oedd yr Iuddewon yn pwyso arno am ddedfryd ddioed, a phan yr oedd yntau dan ddylanwad dychryn yn *gohirio* yr holl gymmanfa, oedd yn cynnwys llywodraethwyr o bob gradd, yn gystal a'r boblogaeth, i unrhyw le arall, yn dra annhebyg; ac y mae mwy fyth o anhawsderau ar y ffordd i feddwl ei fod mewn un rhan o'r deml. Gyda golwg ar y gair *Gabbatha*, nid ydyw yn sicr fod Ioan yn bwriadu i'r gair Groeg *lithostrôtos* fod yn gyfieithiad o Gabbatha. Dichon y gallai olygu fod yr un lle yn cael ei alw wrth y ddau enw—y naill yn Groeg, a'r llall yn Hebraeg. Eto, gellir dywedyd fod yr enwau *Abadon* ac *Apolyon*, y rhai a ddwg efe i mewn yn gyffelyb (*Dad.* ix. 11), yn eiriau cyfystyr; ac os terddir y gair *Gabbatha* o *gab*, "arwynebedd," gall ateb i'r meddylddrych o balmant; ond os terddir ef, fel y gwneir yn gyffredin, o *gâbah*, "bod yn uchel neu ddyrchafedig," gall gyfeirio yn benaf at yr uchrodfa, neu yr esgynlawr ar ben y grisiau, &c., a ddichon fod wedi ei addurno â phalmant brithwaith. Tybia Schleusner mai palmant brithwaith dyrchafedig oedd, ar yr hwn y gosodid y *bema* o flaen y Pretorium. Y casgliad mwyaf naturiol oddi wrth fynegiad Ioan, yn ol barn Denham, ydyw, mai Hebraeg ydyw y gair *Gabbatha;* ond dadleuir fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn defnyddio yr enw Hebraeg, mewn ffordd o gyfleusdra, i ddynodi yr iaith a leferid yn gyffredin yn Iudea yn eu hamser hwy; sef, fel y dywed rhai, y Syriaeg, neu y Syriaeg-Galdeaidd; a phan y *dywed* Ioan *Hebräisti*, mai ei *feddwl* oedd y *Syriaeg-Galdeaidd*. Ond ni byddai yn briodol trafod y ddadl yn nghylch yr iaith a arferai yr Iuddewon yn Ierusalem yn amser ein Hiachawdwr yn y lle hwn. Pa fodd bynag, gellir sylwi mai *Gepiptha* yw y gair sydd yn yr hen gyfieithiad Syriaeg, yn lle *Gabbatha*.

GABIS [גביש=*rhew*]: rhyw faen gwerthfawr tebyg i rew, yr hwn y tybid mewn gwirionedd mai rhew ydoedd [*Plin. Nat. Hist.*, xxxvii. 2]. Gadewir y gair yn *Iob* xxviii. 18, heb ei gyfieithu, ac ar ymyl y ddalen rhoddir "maen gwerthfawr."

GABRIEL [גבריאל=*gŵr Duw; arwr Duw;* Γαβριήλ]: nid yw y gair ynddo ei hun yn ddynodol, ond megys dysgrifiad yn unig o'r swydd angylaidd. Defnyddir ef fel enw priodol neu deitl yn *Dan.* viii. 16; ix. 21, ac yn *Luc* i. 19, 26. Y mae yn cael ei chwanegu yn y Targumau fel eglurhad ar rai ymadroddion ereill hefyd o'r Hen Destament. Lleferir am Gabriel yn y traddodiadau cyffredin, Iuddewig a Christionogol, fel un o'r archangylion. Dywed Barry mai fel cynnrychiolydd y natur angylaidd yn unig y gosodir Gabriel allan yn yr Ysgrythyrau; nid yn ei fawrhydi a'i allu i wrthsefyll drygioni, fel Michael, ond yn hytrach fel gweinyddwr cysur a chydymdeimlad â dyn. Fel hyn anfonwyd ef at Daniel i egluro iddo mewn ymadroddion dealladwy y weledigaeth am yr hwrdd a'r bwch geifr, ac i'w gysuro ef â'r brophwydoliaeth o'r "deng wythnos a thrigain." Ac felly yn y Testament Newydd, cenad yn dwyn newyddion da ydyw, yn mynegi dyfodiad y Messiah a'i ragflaenor, Ioan Fedyddiwr: *Luc* i. 11, &c. Ei brif nodwedd, gan hyny, yw "cydwas" y saint ar y ddaiar; ac y mae symledd a thynerwch ei genadwri yn ateb i'r cymmeriad hwnw.

Y mae Auberlen yn sylwi mai yr unig angel sydd yn cael ei enwi yn y Beibl, heb law Gabriel, ydyw Michael: *Dan.* x. 13, 21; xii. 1; *Iudas* 9; *Dad.* xii. 7. Y mae yn nodedig fod y cyfeiriadau sydd yn y Testament Newydd at y ddau, yn cadarnhau y cymmeriad a roddir iddynt yn Daniel: cyssylltir Gabriel yn wastad â'r Messiah, ac ymddengys Michael fel amddiffynwr pobl ac achos Duw; Gabriel, fel cyhoeddwr bwriadau Duw, a Michael fel eu cyflawnwr. Gan yr ymddengys mai offerynau i gyflawni gweithredoedd a dadguddiedigaethau (gwyrthiau a phrophwydoliaethau) Duw yn mysg dynion ydyw yr angylion, gellir ystyried y ddau angel sydd yn cael eu henwi yn y Beibl fel cynnrychiolwyr gorchwylion yr angylion yn y byd hwn. Michael yw yr angel sydd yn cyflawni gorchwylion dwyfol, a Gabriel yw yr angel sydd yn eu mynegi. Y mae Michael yn cael ei alw yn "archangel" yn *Iudas* 9; *Dad.* x. 13; xii. 1. Nid yw yr Ysgrythyrau yn dywedyd dim yn bendant am *radd* Gabriel; ond y mae pwysigrwydd ei genadwriaethau, fel y sylwa y Dr. Michelson yn briodol, yn nghyd a'i eiriau ef ei hun—"Myfi yw Gabriel, yr hwn wyf yn sefyll ger bron Duw"—braidd o blaid ei radd uchel; ac y maent yn arwain y meddwl yn naturiol at eiriau Ioan yn *Dad.* viii. 2, lle y dywed, "Ac mi a welais y saith angel y rhai oedd yn sefyll ger bron Duw." Mae yn ymddangos yn hollol debyg, os nad yn sicr, fod Gabriel yn un o'r rhai hyn; ac y mae Bengel, De Wette, ac ereill, yn tybied fod pob un o'r "saith" hyny yn "archangel;" ond tra na fynegir hyny yn y Beibl, ni ddylid edrych ar eu barnau hwy yn ddim mwy na thybiaeth. Y mae dystawrwydd y Beibl gyda golwg ar hyn, fel llawer o bethau ereill cyffelyb, yn ei wahaniaethu yn fawr oddi wrth ysgrifeniadau dychymygol yr Iuddewon, y Mahometiaid, y Tadau, a rhai ysgrifenwyr Cristionogol diweddarach hefyd. Yn yr holl dremiadau difrifol a rydd y Beibl o'r byd arall, y mae yn cadw amcan moesol mawr mewn golwg yn wastad. Beth bynag a ddadguddir ynddo, y mae yn tueddu i ddyrchafu a choethi y meddwl: nid oes dim yn cael ei ddywedyd i foddhau cywreinrwydd blysig ac ymyrgar.

Yn *Llyfr Enoch*, "y pedwar archangel mawr yw Michael, Raphael, Gabriel, ac Uriel," y rhai a ddarlunir megys adroddwyr o sefyllfa lygredig dynolryw wrth y Creawdwr, gan yr hwn y derbyniant eu gwahanol genadwriaethau. Wrth Gabriel y dywed, "Dos, Gabriel, yn erbyn y cawri, y rhai twyllodrus, meibion trythyllwch, a dystrywia feibion y rhai truenus o fysg meibion

Digitized by Google

dynion" [*Scaliger's Notes on the Chron. of Euseb.*, td. 404]. Yn yr ysgrifeniadau Rabbinaidd, darlunir Gabriel fel yn sefyll o flaen yr orsedd ddwyfol, yn ymyl lluman llwyth Iudah. Dywed y Rabbiniaid hefyd mai efe ydyw Tywysog y Tân, a appwyntiwyd i lywyddu addfediad ffrwyth y ddaiar; mai efe yw yr unig angel sydd yn deall Caldaeg a Syriaeg; mai efe a ddysgodd Ioseph yn y deng iaith a thrigain a lefarid ar wasgariad Babel; ac mai efe a Michael a ddystrywiasant lu Sennacherib, ac a losgasant y deml yn Ierusalem [*Eisenm. Ent. Juden.*, ii. 365, &c.].

Edrychir ar Gabriel gan y Mahometiaid gyda pharch dirfawr. Sicrheir mai iddo ef y rhoddwyd yr holl gopi o'r Coran; yr hwn a gyfranodd yntau yn rhanau olynol i Mahomet. Gelwir ef yn y Coran yn Ysbryd y Gwirionedd, ac yn Ysbryd Sanctaidd. Yn ei ddwylaw ef y rhoddir y clorian, yn yr hwn y pwysir gweithredoedd dynion yn y dydd diweddaf [*Sele's Koran; D'Herb. Bibl. Orient.*]. Y fath wahaniaeth dirfawr sydd rhwng yr adroddiadau dychymygol ac ofergoelus hyn a chrybwyllion syml a dirodres yr Ysgrythyrau am yr angel Gabriel!

1. GAD—IAID [גָּד=*llwyddiant; tyrfa*; Γάδ]: seithfed mab Iacob, cyntafanedig Zilpah, llawforwyn Leah, a brawd cyfan i Aser: *Gen.* xxx. 11—13; xlvi. 16, 18.

Dadganiad o orfoledd ydyw yr ymadrodd sydd yn cynnwys rhoddiad yr enw Gad; a dywed y beirniaid fod ystyr yr enw yn yr ymadrodd yn dywyllach na chyffredin o enwau yn y fath amgylchiad. Dywedant mai ystyr yr ymadrodd a'r enw, yn yr hen gopi Hebraeg a elwir y *Cetib* yw, "A Leah a ddywedodd, 'Y mae llwyddiant yn dyfod' (*be gad*), a hi a alwodd ei enw ef Gad;" *Gen.* xxx. 11. Dyma fel y deallai y Deg a Thrigain y gair, y rhai a'i cyfieithasant ef yn *en tuche;* a dilynwyd hwy gan Jerome yn y *Vulgate*, yr hwn a'i cyfieithodd yn *feliciter*. Ond yn y gwelliadau sydd ar ymyl y ddalen gan y Masoretiaid (y *Keri*). y gair a ddefnyddir yw *ba gad*, "y mae Gad yn dyfod." Dyma y syniad a ddilynir hefyd yn hen gyfieithiadau Onkelos, Aquila, a Symmachus. Ond yn mendith Iacob, yr ydym yn canfod y trinir y gair mewn dull gwahanol. Cymmerir "Gad" yma megys yn arwyddo llu ysbeilgar (*gedûd*, gair a ddefnyddir yn wastad i arwyddo hyny); ac ymddengys ei fod yn cyfeirio mewn dull Hebreaidd, anhawdd ei egluro mewn iaith arall, at y bywyd afreolaidd, rhyfelgar, ac ysbeilgar, a ddilynid gan y llwyth ar ol ymsefydlu ar ororau Gwlad yr Addewid. Ystyr yr ymadrodd gwreiddiol sydd debyg i hyn:—"Gad, llu ysbeilgar (*gedûd*) a'i hysbeilia ef (*ye-gûdenû*), ond yntau a ysbeilia (*ya-gûd*) wrth eu sodlau hwythau;" *Gen.* xlix. 19. Eglura Jerome [*De Benedict. Jacobi*] hyn megys yn arwyddo y dial a wnaed gan gedyrn y llwyth ar eu dychweliad o ddarostwng gorllewin Palestina, o blegid ymosodiadau ysbeilgar llwythau y diffeithwch yn eu habsennoldeb. Y mae rhai, yn enwedig y cyfieithiadau Samaritanaidd, y Veneto-Groegaidd, y cyfieithiad Seisoneg, a'n cyfieithiad ninnau, wedi trosglwyddo grym yr ystyr a roddir yma i'r enw, i'r hanes yn *Gen.* xxx:—"Y mae tyrfa (o blant) yn dyfod." Ond ni ddylid anghofio fod y gair *gedûd*—y rhoddir yr un ystyr i *gad* yr *Gen.* xxx. 11, ag iddo yntau—yn meddu ystyr penodol iddo ei hun, ac yn arwyddo cythrwfl a ffyrnigrwydd, yr hyn a bâr fod yn dra anhawdd ei gymhwyso at lu neu fagad o blant; sef yr ystyr a awgrymwyd yn y cyfieithiadau a nodwyd. Er fod cyfeiriadau iaith Iacob yn gwbl gyfaddas i nodweddau llwyth Gad, eto nid ymddengys fod dim cyssylltiad rhwng ei awgrymiadau ef a'r rhai sydd yn ngorfoledd Leah. Eglurhad diwerth ydyw tybied fod Leah yn cyfarch rhyw hen dduw—duw llwyddiant—yr hwn y tybir y cyfeirir ato unwaith, a dim ond unwaith, dan yr enw *Gad*, yn *Esa.* lxv. 11, yr hwn a gyfieithir genym ni, ac ereill, "y llu acw."—Gwel Gad 3.

Nid oes dim o hanes plentyndod a bywyd Gad yn bersonol wedi ei gofnodi yn yr Ysgrythyrau. Pan yr oedd Iacob a'i deulu yn esgyn i'r Aipht, dywedir fod i Gad saith o feibion, y rhai sydd yn nodedig o blegid fod terfyniad lluosog i enwau y rhan fwyaf o honynt, megys pe buasent yn benau teuluoedd, yn hytrach nag yn bersonau unigol: *Gen.* xlvi. 16. Ceir y gofrestr drachefn, gydag ychydig amrywiaeth, pan wnaed y cyfrifiad yn anialwch Sinai: *Num.* xxvi. 15—18. Sefyllfa Gad yn ystod y daith i Wlad yr Addewid oedd o'r tu deheu i'r tabernacl: *Num.* ii. 14. Arweinydd y llwyth ar y cychwyniad o Sinai oedd Eliasaph, mab Reuel neu Deuel: *Num.* ii. 14; x. 20. Enwir Gad yn wastad yn ngwahanol gyfrifiadau y llwythau yn ystod eu crwydriadau—ar anfoniad yr ysbïwyr (*Num.* xiii. 15), a'r rhifiad yn rhosydd Moab (xxvi. 3, 15—18); ond yr unig gasgliad a ellir dynu ydyw arwydd o ddechreuad cynghrair â'r llwyth oedd i fod rhag llaw yn gymmydog nesaf iddo. Gadawodd efe lwyth Aser oedd yn dal y berthynas naturiol agosaf iddo, a chymmerodd ei sefyllfa yn nesaf i Reuben. Mae y ddau lwyth hyn hefyd yn cadw cyfartaledd agos yn eu rhif, heb oddef cymmaint oddi wrth leihad ag a oddefwyd gan y lleill. Ar y cyfrifiad cyntaf, yr oedd Gad yn 45,650, a Reuben yn 46,500: ar yr olaf yr oedd Gad yn 40,500, a Reuben yn 43,330. Achoswyd y cynghrair yma yn ddiammheuol gan debygrwydd galwedigaeth y ddau lwyth. O holl feibion Iacob, y ddau lwyth hyn yn unig a ddychwelasant i'r wlad a adawyd gan eu tadau bum can mlynedd yn ol, heb newid eu galwedigaeth; "Dy weision a fuant drinwyr anifeiliaid o'u hieuenctid hyd yr awr hon"... "Bugeiliaid defaid yw dy weision, nyni a'n tadau hefyd" (*Gen.* xlvi. 34; xlvii. 3). Dyma yr hanes a roddodd y patriarchiaid o honynt eu hunain i Pharaoh. Yr oedd gwareiddiad a gorchwylion yr Aipht wedi newid arferion y rhan fwyaf o'r llwythau; ond parhaodd Reuben a Gad yn ffyddlawn i hen alwedigaeth fugeiliol Abraham, Isaac, ac Iacob; a phan y safodd y gwersyll ar y tu dwyrain i'r Iorddonen, ceir iddynt hwy ddyfod at Moses, gan ddywedyd fod iddynt hwy "anifeiliaid"—"anifeiliaid lawer," a bod y tir lle y maent yn awr ynddo, yn "lle da i anifeiliaid." Am hyny, y maent yn erfyn cael meddiant o'r tir hwn, a pheidio myned dros yr Iorddonen: *Num.* xxxii. 1—5. Pa fodd bynag, nid oeddynt am osgoi y peryglon o ddarostwng Gwlad Canaan: ac wedi i'r gorchwyl hwnw gael ei gyflawni, ac i'r naw llwyth a hanner gael eu cyfran o'r etifeddiaeth, gollyngwyd hwy gan Iosua, "wrth ddrws pabell y cyfarfod, yn Siloh, ger bron yr Arglwydd," at eu "gwragedd, eu plant, a'u hanifeiliaid," y rhai a adawsent ar eu hol yn Gilead. I'w pebyll y dychwelasant, i fwynhau pleserau a pheryglon bywyd rhydd yr Arabiaid, yn yr hwn y trefnwyd iddynt aros; ac yn yr hwn, gydag ychydig o eithriadau, y gedy hanesyddiaeth hwy o'r golwg.

Ymddengys fod y wlad a drefnwyd i Gad, a

Digitized by Google

siarad yn gyffredinol, yn sefyll yn benaf tua chanol y diriogaeth o'r tu dwyrain i'r Iorddonen. Meddiennid y rhandir o Arnon (*Wady Mojib*), tua hanner y ffordd i waered at y Môr Marw, hyd Hesbon, yn union i'r dwyrain o Ierusalem, gan Reuben; ac yn Hesbon, neu yn agos ati, y dechreuai etifeddiaeth Gad. Yr oedd yn cynnwys hanner Gilead, fel y dywed y mynegiad hynaf yn bendant (*Deut.* iii. 12), neu hanner gwlad meibion Ammon (*Ios.* xiii. 25)—y rhandir fynyddig, fe allai, a dramwyir gan rediad yr Iabboc (os *Wady Zûrka* yw Iabboc), yn cynnwys, fel ei thref fwyaf gogleddol, hen gyssegr Mahanaim. Y terfyn eithaf o'r tu dwyrain a roddir yw "Aroer, yr hon sydd o flaen Rabbah:" yr un ag Amman bresennol: *Ios.* xiii. 25. O'r tu gorllewin yr oedd yr Iorddonen: *adn.* 27. Yr oedd y diriogaeth fel hyn yn cynnwys dwy ran wahanol ac annibynol, mewn cymhariaeth: 1. Yr ucheldir; sef y wlad yn gyffredinol o'r tu dwyrain i'r Iorddonen: ac yn 2. Dyffryn dwfn yr Iorddonen ei hun. Yr oedd y blaenaf yn terfynu yn ddisymmwth yn yr Iabboc; a'r olaf yn cynnwys yr holl ddyffryn mawr o'r tu dwyrain i'r afon, ac yn cyrhaedd i fyny hyd at Fôr Cinnereth, neu Gennesaret.

Lled brin ydyw y wybodaeth a gafwyd hyd yn hyn am agwedd ac ansawdd y tir a berthynai fel hyn i lwyth Gad—"gwlad Gad a Gilead." Mae yr olwg arno o'r tu dwyrain i Palestina fel mur o fynydd rhuddgoch, yn hynod o blegid ei wastadrwydd. Y mae yr arwynebedd yn cael ei greithio yma ac acw gan geunentydd, trwy y rhai y gweithia y ffrydiau eu ffyrdd i'r Iorddonen; ond nid ydyw hyn yn effeithio ond ychydig ar olygfa y trum. Pan neseir yn mlaen i ddyffryn yr Iorddonen, daw yr olygfa yn fwy amrywiog; ac wedi cyrhaedd i ben yr ucheldir, dywedir fod golygfa hollol newydd drachefn i'w chael. "Yma," medd Staley [*S. & P.*, 320], "ymddengys gwastadedd eang, tonog, didrefn, o waenydd ac ucheldir, yn orchuddedig gan laswellt ffrwythlawn. Yn y parthau deheuol, y mae ychydig goed i'w canfod yma ac acw, a rhai o honynt wedi eu gorchuddio â chen a mwsogl, a ymddangosant fel gweddillion hen goedwig wedi ei harloesi er's oesoedd yn ol. Mae y parthau gogleddol fyth yn llawn coed ardderchog, megys sycamorwydd, ffawydd, turpant (*terebinth*), celyn, a ffigyswydd dirfawr eu maint. Mae y gwaenlle wedi ei dori gan dri o fylchau dyfnion, trwy y rhai y mae y tair afon—yr *Yarmûk*, yr Iabboc, a'r Arnon—yn llifo i ddyffryn yr Iorddonen a'r Môr Marw. Ar y tu dwyrain, y maent yn ymgolli yn y dyffryn coch eang sydd yn ymuno ar osgo graddol â dyffryn yr Haurân a'r anialwch Assyriaidd." Mae yn wlad hynod o brydferth: nid fel gwastattir unweddog y wlad o amgylch Hesbon, lle yr oedd meusydd praidd Reuben a'r Moabiaid; ond y mae yn cael ei hamrywio yn y modd mwyaf dymunol gan goedydd mawrion cysgodol, megys derw Vallonia, gwifwrnwydd (*laurestinus*), cedrwydd, mefuswydd, &c. Ymddengys y wlad ar amserau fel un parc ardderchog, yn meddu bryniau prydferth, dolydd ffrwythlawn, a llysiau toreithiog. Gwel GILEAD.

Dyma y wlad a benodwyd i'r Gadiaid; ond y mae yn ddiammheu iddynt fyned dros y terfynau hyn yn bur fuan. Y mae cofnodau swyddogol teyrnasiad Iotham, brenin Iudah (1 *Cron.* v. 11, 16) yn dangos eu bod wedi ymsefydlu y pryd hwnw dros holl Gilead, ac yn perchenogi Basan cyn belled a Salcah (y *Sulkhad* ddiweddar)—tref ar eithafoedd dwyreiniol dyffryn ardderchog Haurân; ac yr oeddynt wedi ymestyn yn mhell i'r gogledd a'r dwyrain tu hwnt i'r terfynau a roddwyd iddynt ar y dechreu; tra yr oedd y Manasseaid wedi ymweithio yn mhellach fyth i ororau gogleddol Mynydd Hermon: 1 *Cron.* v. 25. Daethant yn fuan i ddwyn yr enw Gilead arnynt eu hunain—enw sydd mor nodedig yn hanesiaeth foreuol y genedl; ac mewn amryw o'r cofnodau boreuaf, daeth i gymmeryd lle yr enw Gad. Yn Nghân Deborah, dywedir fod "Gilead" yn trigo "o'r tu hwnt i'r Iorddonen;" *Barn.* v. 17. Ymddengys mai un o'r Gadiaid oedd Iephthah, brodor o Mispah (*Barn.* xi. 34: cymh. 31, âg *Ios.* xiii. 26), ac eto y mae yn cael ei alw bob amser "y Gileadiad;" ac felly hefyd Barzilai o Mahanaim: 2 *Sam.* xvii. 27; *Ezra* ii. 61; cymh. *Ios.* xiii 26.

Y mae cymmeriad y llwyth yn cael ei nodi yn amlwg trwy yr holl hanes megys rhai ffyrnig a rhyfelgar—rhai "cedyrn o nerth, gwŷr milwraidd i ryfel, yn medru trin tarian a bwcled, ac wynebau llewod oedd eu hwynebau hwynt, ac megys iyrchod ar y mynyddoedd o fuander." Dyma'r darluniad bywiog a roddir o'r un cedyrn ar ddeg i Gad—"yr un lleiaf ar gant, a'r mwyaf ar fil"—a ymunasant â Dafydd yn ei gyfyngder a'i helbul mwyaf (1 *Cron.* xii. 8), y rhai ni chymmerent eu hattal gan na llif na rhyfel (*adn.* 15). Gan eu bod yn amgylchedig, fel yr oeddynt, gan yr Ammoniaid, y Midianiaid, yr Hagariaid—"meibion y dwyrain"—a llwythau aneirif ereill, y rhai oeddynt mewn cynghrair yn erbyn y dyeithriaid a ddaethent i'w plith i'w difeddiannu o'u tiroedd hyfrytaf, rhaid fod tueddiadau rhyfelgar y llwyth yn cael cyfleusderau mynych i ddangos eu hunain. Cofnodir un o'u brwydrau mawrion yn 1 *Cron.* v. 19—22. Eu gwrthwynebwyr yma oedd llwythau crwydrol Ismaeliaid Ietur, Nephis, a Nodab (cymh. *Gen.* xxv. 15), —pobl grwydrol yn meddu cyfoeth dirfawr o gamelod, defaid, ac asynod, yr hyn hyd heddyw sydd yn gwneyd i fyny gyfoeth eu holafiaid Arabaidd. Wedi i'r ysbail dirfawr yma ddyfod i feddiant y gorchfygwyr, ymddengys iddynt ddilyn, i raddau o leiaf, ddull eu rhagflaenoriaid gorchfygedig o fyw. Awgrymir iddynt weithio eu ffordd yn mhellach i "le" yr Hagariaid hyn. Cofnodir un arall o'r brwydrau hyn yn hanes Iephthah; ond y mae yr hanes yma yn amlygu egwyddorion o natur wahanol ac o radd uwch na'r ffyrnigrwydd yn unig oedd yn angenrheidiol er gwrthsefyll ymosodiadau ysbeilwyr yr anialwch. Y mae rhyw fawrfrydigrwydd hynod yn holl hanes ymddygiad Iephthah—ei ymddyddan mawreddog â henuriaid Gilead; ei ymresymiad ardderchog, ond aflwyddiannus, â brenin Ammon cyn yr ymosodiad; ei adduned fyrbwyll, ei ofid blin o blegid hyny, a'i benderfyniad diysgog i sefyll ati (*Barn.* xi): y mae yr holl bethau hyn yn arwyddion o fawrfrydigrwydd meddwl oedd, fe allai, yn perthyn i gymmeriad y Gadiaid yn gyffredinol. Os chwanegir at hyn deyrngarwch, haelfrydedd, a gwylder Barsilai (2 *Sam.* xix. 32—39), ceir rhyw syniad uchel am y llwyth yr oedd y fath ddynion godidog yn arweinyddion iddo. A thra yn nodi gwroniaid Gad, ni wiw anghofio fod Elias y Thesbiad, yn ol pob tebygolrwydd, yr hwn oedd "un o breswylwyr Gilead" (1 *Bren.* xvii. 1), yn un o honynt.

Ond er yr ansoddau personol godidog hyn, ymddengys fod Gad yn ddiffygiol yn y cynneddfau angenrheidiol i'w alluogi i gymmeryd rhan arbenig neu arweiniol yn nghynghrair y genedl.

Digitized by Google

Gallasai y gwroniaid, y rhai a roddasant gymmaint o gymhorth i Dafydd, pan sefydlodd Isboseth ei lys yn Mahanaim fel brenin Israel, wneyd llawer mwy er cadarnhau ei hawliau. Pe buasai Abner wedi dewis Sichem neu Siloh yn lle Mahanaim—Epraim brysur, tanllyd, yn lle Gad arafaidd—pwy all ammheu na buasai blinderau teyrnasiad Dafydd yn llawer mwy, ac y buasai y deyrnas ogleddol wedi ei sefydlu fe allai gan mlynedd yn gynt? Ni pharodd presennoldeb Dafydd yn yr un ddinas yn ystod ei ffoad rhag Absalom ddim effaith ar y llwyth, ac ni chrybwyllir eu bod hwy wedi cymmeryd un rhan yn yr ymrysonau rhwng Ephraim ac Iudah.

Er fod sefyllfa ac amgylchiadau Gad yn ei wahanu oddi wrth ei frodyr oedd o'r tu gorllewin i'r Iorddonen, eto yr oedd efe yn dal rhyw gyssylltiad â hwy yn barhaus. Gellir casglu yr ystyrid ef megys yn perthyn i'r deyrnas ogleddol. "Oni wyddoch," meddai Ahab yn Samaria, "mai eiddo ni yw Ramoth-Gilead, a'n bod ni yn tewi, heb ei dwyn hi o law brenin Syria?" 1 *Bren.* xxii. 3. Rhandir Gad oedd maes y rhyfel maith a ffyrnig rhwng Syria ac Israel; ac, fel gwlad amaethyddol a phorfaol, rhaid ei bod wedi dyoddef yn chwerw mewn canlyniad: 2 *Bren.* xx. 33.

Cludwyd Gad i gaethiwed gan Tiglath Pileser (1 *Cron.* v. 26); ac yn amser Ieremiah yr oedd dinasoedd y llwyth yn cael eu preswylio gan yr Ammoniaid. "Onid oes meibion i Israel? onid oes etifedd iddo? pa ham y mae eu brenin hwynt (Heb. *Malcham*=Moloch) yn etifeddu Gad, a'i bobl yn aros yn ei ddinasoedd ef?" *Ier.* xlix. 1.

2. **GAD, Y PROPHWYD.** Ymddengys mai "gweledydd," neu "weledydd y brenin," sef Dafydd, oedd ei deitl swyddogol ef (1 *Cron.* xxix. 29; 2 *Cron.* xxix. 25; 2 *Sam.* xxiv. 11; 1 *Cron.* xxi. 9). Gelwir ef hefyd "Gad y prophwyd." Ymddengys iddo ymuno â Dafydd yn yr "amddiffynfa," a'i annog i fyned oddi yno i "goed Hareth:" 1 *Sam.* xxii. 5. Nid yw hysbys pa un a arosodd efe gyda Dafydd yn ystod ei grwydriadau ai peidio: nid ydys yn ei gyfarfod mwyach yn yr hanes Ysgrythyrol hyd yn ddiweddar yn oes y brenin, pan y mae yn ail ymddangos mewn cyssylltiad â'r gosp a weinyddwyd ar y genedl o blegid rhifo y bobl: 2 *Sam.* xxiv. 11—19; 1 *Cron.* xxi. 9—19. Ond y mae yn amlwg ei fod yn ymlynu wrth y sefydliad breninol yn Ierusalem; canys efe a ysgrifenodd lyfr am weithredoedd Dafydd (1 *Cron.* xxix. 29), a bu yn gynnorthwyol hefyd i sefydlu a threfnu y gwasanaeth cerddorol "yn nhŷ yr Arglwydd," trwy yr hyn y trosglwyddwyd ei enw i lawr yn mhell ar ol ei amser ef ei hun: 2 *Cron.* xxix. 25. Y mae Gad, yn sydynrwydd ei ymddangosiad, wedi cael ei gymmharu i Elias [*Jerome, Qu. Hebr.* ar 1 *Sam.* xxii. 25], yr hwn y dichon ei fod o'r un llwyth ag ef, os gellir cymmeryd ei enw fel arwydd o'i hanedigaeth, o'r hyn nid oes dim prawf pennodol. Nid ymddengys fod un sail chwaith i awgrym Ewald [*Gesch.*, iii. 116], ei fod o ysgol Samuel. Pe gellid profi hyny, byddai yn rheswm naturiol dros ei waith yn ymuno â Dafydd.

3. **GAD.** Defnyddir y gair mewn un man yn y Beibl heb fod yn enw ar ddyn nac ar lwyth; sef *Esa.* lxv. 11. Cyfieithiad y Deg a Thrigain o'r gair yn y lle hwn'yw *daimonion*—yn arwyddo yn y lle hwn, yn ol barn Parkhurst, llu neu allu dinystriol y nefoedd, megys taranau, mellt, ystormydd, &c. Y gair a ddefnyddia Jerome a rhai llawysgrifau, yw *tuchê*; a'r Beibl Cymraeg a'i cyfieitha, "y llu acw" (ar ymyl y ddalen, "Gad") Goddef y gair ddau eglurhad, medd Nicholson Os deillir y gair o *gâdad*, yn yr ystyr o *dori*, gall arwyddo *coelbren*; a thrwy ei gyssylltu â gair Arabaidd, yn arwyddo *bod yn newydd, dygwydd, bod yn llwyddiannus*, gellir ei gymmeryd i arwyddo *llwyddiant*. Yn wir, y mae rhai yn canfod "llwyddiant" (*fortune*) yma, er nad fel eilun yn *Gen.* xxx. 11, lle y cyfieitha y Deg a Thrigain *bâgad* yn *en tuchei*: yr hyn a gymmeradwyir gan Selden, ac yn enwedig gan Tuch. Dyma yr ystyr hefyd a rydd Gesenius, Hitzig, ac Ewald i'r gair "Gad" yn eu cyfieithiadau o Esaiah. Y maent oll yn cyfieithu yr ymadrodd, "Y rhai a arlwywch fwrdd i lwyddiant." Y mae y golygiad yma, yr hwn yw yr un cyffredin, yn gwneyd "llwyddiant" yn wrthddrych eilunaddoliaeth. Pa fodd bynag, y mae anghydweledìad mawr yn mysg y beirniaid gyda golwg ar y gwir ystyr a berthyn i'r ymadrodd; a chan fod y seiliau mor brinion, nis gellir gwneyd dim amgen na dyfalu. Y mae y rhan fwyaf, ac yn eu plith rhai o brif esboniadau y Rabbiniaid, cystal a Gesenius, Münter, ac Ewald, yn ystyried mai ffurf oedd Gad dan ba un yr addolid y blaned Iau (*Jupiter*) fel seren fwyaf llwyddiant dedwydd. Tybia ereill, ac yn eu mysg Vitringa, mai cynnrychioli yr haul yr oedd Gad; ac y mae Movers, yr ysgrifenydd olaf o ddim enwogrwydd ar eilunaddoliaeth Syriaidd-Arabaidd, yn meddwl mai y blaned Gwener (*Venus*) a olygid.

Ar y llaw arall, os cymmerir yn ganiatäol fod Gad yn tarddu o *gâdad* yn yr ystyr o *bwyso, pentyru*, gall arwyddo *llu, bagad*; ac y mae Hoheisel, fel y dyfynir ef yn *Scholia* Rosenmüller dan y gair, cystal a Deyling, yn ei *Observat. Miscell.*, yn cynnyg dull yn mha un y gellid ei esbonio os cymmerir yr ymadrodd fel yn arwyddo *llu*, a *rhif*.

**GADARA:** dinas gadarn yn agos i'r afon Hieromax, o'r tu dwyrain i Fôr Galilea, o flaen Scythopolis a Tiberias, un milldir ar bymtheg Rhufeinig oddi wrth y lleoedd hyny [*Hynaf. Jos.* xiii. 13, 3; *Plin. Hist. Nat.*, v. 16; *Euseb. Onom.* d. g.; *Itin. Anton.*, td. 196, 198]. Yr oedd yn sefyll ar ben bryn, wrth droed yr hwn, ar lanau yr Hieromax, dair milldir o bellder, yr oedd y ffynnonau a'r ymdrochfeydd cynhes a elwid Aniatha, fel y dengys yr awdurdodau a nodwyd eisoes. Y mae Josephus yn ei galw yn brif ddinas Peræa; a dywed Polybius ei bod yn un o'r dinasoedd cadarnaf ei hamddiffynfeydd oedd yn y wlad [*Jos. Rhyf. Iudd.*, iv. 7, 3; *Polyb.* v. 71]. Yr oedd rhandir mawr yn gyssylltiedig â hi, a elwir gan Josephus *Gadaritis* [*Rhyf. Iudd.*, iii. 10]; a dywed Strabo [*Geog.* xvi.] fod ffynnonau cynhes iachaol "yn nhiriogaeth Gadara." Ni chrybwyllir am Gadara ei hun yn y Beibl; ond y mae yn amlwg mai yr un ydoedd a "gwlad y Gadareniaid;" *Marc* v. 1; *Luc* viii. 26, 37.

Nis gall fod ammheuaeth am sefyllfa Gadara, sydd yn cael ei dynodi fel hyn mor amlwg. Ar fryn sydd mewn rhan yn unigol, yn eithafoedd gogledd-ddwyrain mynyddoedd Gilead, tuag un milldir ar bymtheg oddi wrth Tiberias, y saif adfeilion helaeth a nodedig Um Keis. Tair milldir i'r gogledd, wrth droed y bryn, y mae gwely dwfn y Sheriatel-Mandhûr, sef yr hen Hieromax; ac yma hefyd y mae ffynnonau cynhes Amatha. Ar y tu gorllewinol y mae dyffryn yr Iorddonen; ac o'r tu deheu y mae Wady el-'Arab, yn rhedeg yn gyfochr a'r Mandhûr. Y mae Um Keis yn gor-

Digitized by Google

wedd ar lethr y trum sydd rhwng y ddau Wady a nodwyd; a chan fod y llethr yn gostwng tua'r dwyrain cystal a thua'r gorllewin, mae y sefyllfa yn gadarn a chyfleus. Mae yr holl le a gymmer yr adfeilion tua dwy fill tir o arwynebedd; ac y mae olion amddiffynfeydd o amgylch y cyfan, er eu bod yn awr bron yn hollol adfeiliedig.

Y sylw hanesyddol cyntaf am Gadara ydyw ei gorchfygiad hi, Pella, a dinasoedd ereill, gan Antiochus Fawr, yn y flwyddyn 218 C.C. [*Hynaf. Jos.*, xii. 3, 3]. Yn nghylch ugain mlynedd ar ol hyny, cymmerwyd hi oddi ar y Syriaid gan Alexander Jannæus, ar ol gwarchaead o ddeng mis [*Hynaf. Jos.*, xiii. 13, 3; *Rhyf. Iudd.*, i. 4, 2]. Cadwodd yr Iuddewon feddiant o honi am beth amser; ond wedi i'r ddinas gael ei distrywio yn ystod eu rhyfeloedd cartrefol, ail adeiladwyd hi gan Pompey er boddhau ei gaethwas rhyddedig Demetrius, yr hwn oedd yn un o'r Gadareniaid [*Jos. Rhyf. Iudd*, i. 7, 7]. Pan y newidiodd Gabinius, rhaglaw Syria, lywodraeth Iudea, trwy ranu y wlad yn bum dosbarth, gan roddi pob un dan awdurdod cynghor, gwnaeth Gadara yn brif ddinas y dosbarthau hyny [*Jos. Rhyf. Iudd.*, i. 8, 5]. Chwanegwyd tiriogaeth Gadara, wedi hyny, yn nghyd â thiriogaeth gyfagos Hippo, at deyrnas Herod Fawr [*Hynaf. Jos.*, xv. 7, 3].

Pa fodd bynag, prif enwogrwydd Gadara yw, mai yno y cyflawnodd yr Arglwydd Iesu ei wyrth trwy iachau y rhai dieflig: *Mat.* viii. 28–34; *Marc* v. 1—21; *Luc* viii. 26—40. Nid oeddynt yn gwisgo dillad, nac yn trigo mewn tŷ, ond yn y beddau. Yr oedd Crist wedi dyfod dros y llyn o Capernaum, ac wedi tirio ar y gornel ddeddwyrain, lle yr oedd gallt serth uchel yn dyfod i lawr i Ddyffryn yr Iorddonen. Cyfarfu y rhai dieflig ef ychydig oddi wrth y lan: ar ochr y llethr cyfagos "yr oedd cenfaint o foch, lawer, yn pori;" a phan aeth y cythreuliaid o'r dyn i'r moch, "y genfaint a ruthrodd oddi ar y dibyn i'r llyn, ac a foddwyd." Pan welodd y meichiaid (ceidwaid y moch) hyn, rhedasant i'r ddinas i adrodd y newydd; a daeth y trigolion cyffroedig i lawr ar frys, "a dechreuasant ddymuno ar yr Iesu fyned ymaith o'u goror hwynt." Eglurir holl amgylchiad yr hanes mewn modd nodedig gan ansawdd a sefyllfa y wlad.

Amgylchiad arall teilwng o sylw ydyw, mai gweddillion mwyaf nodedig Gadara yw ei *beddau* (*tombs*), y rhai sydd yn britho y clogwyni dros gryn belider o amgylch y ddinas. Ymddengys fod y rhan fwyaf o honynt yn ogofäau naturiol yn y creigiau calch, tra y dichon fod rhai o honynt wedi eu cloddio, ac ereill wedi eu trefnu trwy gelfyddyd. Y mae rhai o honynt yn ystafelloedd eang, yn mesur ugain troedfedd ysgwar, â thyllau wedi eu cloddio yn eu hochrau i roddi y cyrff ynddynt. Aeth Buckingham i un o'r ogofäau hyn wrth ddisgyn o'r bryn, ac yr oedd ynddi ddeg o feddau ar hyd mur mewnol yr ystafell, wedi eu cloddio yn syth i'r graig cyhyd a chorff dyn, a thua lled arch, a darn teneu o'r graig yn eu gwahanu; ac yr oedd bwlch bychan wedi ei naddu yn mhob un i ddal lamp. Yr oedd rhai o honynt yn cynnwys ceryg beddau, a'r lleill hebddynt; ac yr oeddynt oll yn dangos graddau mwy neu lai o gelfyddydwaith; ac y mae rhai o honynt fyth yn eu lleoedd. Preswylwyr ogofäau yw trigolion presennol Um Keis—rhai yn trigo yn y beddau, fel y trueiniaid dieflig gynt; ac y maent ar achlysuron bron mor beryglus i'r teithwyr diamddiffyn ag oedd y rhai hyny. Yn Efengyl Matthew (viii. 28), y gair a ddefnyddir ydyw *Gergesiaid*; yr hwn, fel yr ymddengys, sydd yr un a'r gair Hebraeg a Gymreigir *Girgasiaid* yn *Gen.* xv. 21; *Deut.* vii. 1—enw hen lwyth o'r Canaaneaid [gwel GIRGASIAID], y rhai a gyflea Jerome [yn *Com. ad Gen.* xv.], ar lan Môr Tiberias. Dywed Origen hefyd [*Opp.* iv. 140], fod dinas a elwid Gergesa yn sefyll gynt ar ochr ddwyreiniol y llyn. Hyd yn oed er i hyn fod yn wir, byddai yr efengylwyr ereill yn berffaith gywir. Yr oedd Gadara yn ddinas eang, ac yr oedd ei meusydd pentrefol yn cynnwys Gergesa. Rhaid cofio hefyd mai *Geraseniaid* sydd yn y llawysgrifau hynaf, tra y defnyddir *Gadareniaid* mewn rhai ereill. Y cyntaf a ddefnyddia Griesbach a Lachmann; tra y dewisa Scholtz yr olaf; ac y mae y naill neu y llall yn fwy dewisol na *Gergesiaid*.—Gwel GERASA.

Gorchfygwyd Gadara gan Vespasian ar doriad cyntaf y rhyfel allan â'r Iuddewon: lladdwyd ei holl drigolion, a gwnaed y dref ei hunan, a'r holl bentrefydd o'i hamgylch, yn lludw [*Rhyf. Iudd.*, iii. 7, 1]. Yr oedd y pryd hyny yn un o'r dinasoedd mwyaf pwysig ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, ac hyd yn oed yn cael ei galw yn brifddinas Peræa. Mewn amser diweddarach bu yn drigfan esgob; ond syrthiodd yn adfeilion tuag amser y gorchfygiad Mahometaidd, neu yn fuan ar ol hyny.

Y mae adfeilion Um Keis yn brofion amlwg o ardderchogrwydd yr hen Gadara. Y mae chwareufa ar y tu gogleddol i'r bryn, ac yn lled agos y mae gweddillion un o byrth y ddinas. Yn y porth hwn y mae heol yn dechreu—heol uniawn (*via recta*) Gadara—yr hon a redai yn union trwy y ddinas, a rhes o golofnau ar bob tu iddi. Mae yr holl golofnau wedi syrthio. Ar yr ochr orllewinol i'r bryn y mae chwareufa arall helaethach, ac mewn gwell cadwraeth. Safai y brif ran o'r ddinas ar y tu gorllewinol i'r ddwy chwareufa yma, ar ddernyn gwastad o dir. Nid oes yn awr na thŷ, na cholofn, na mur, yn sefyll; eto y mae hen balmant y brif heol bron yn berffaith; ac y mae olion olwynion y cerbydau i'w gweled fyth yma ac acw ar y ceryg: yr hyn a bâr i ddyn adgofio tramwyfäau y Pompeiaid.

**1. GADI** [גדי=*llwyddiannus*; Γαδδί]: mab Susi, un o benaethiaid llwyth Manasseh, yr hwn oedd yn un o'r ysbiwyr a ddanfonwyd gan Moses i chwilio Gwlad Canaan: *Num.* xiii. 11.

**2. GADI**: tad Menahim, yr hwn a aeth i fyny o Tirsah i Samaria, ac a laddodd Salum mab Iabes, ac a deyrnasodd yn ei le ef: 2 *Bren.* xv. 14.

**GADIEL**, [גדיאל=*llwyddiant Duw*, neu *anfonedig oddi wrth Dduw*; Γουδιήλ]: mab Sodi; cynnrychiolydd llwyth Zabulon, yr hwn a anfonwyd gan Moses yn mysg yr ysbiwyr: *Num.* xiii. 10.

**GAFR, GEIFR**, [Cald., *izza;* Phœn., *aza;* Arab., *jidda* a *hedzjaz*]. Am y gwahanol enwau Hebraeg ar yr anifail yma, mae yn ddiammheu ei fod yn arfer gan yr hen genedloedd syml Semitaidd i dra mynychu enwau ar wrthddrychau oedd yn wastadol o flaen eu llygaid; ac yr oedd eu hanifeiliaid dofion, yn enwedig, yn cael llawer o enwau cyffredinol a neillduol, yn ol eu rhyw, eu hoed, eu haniad, eu sefyllfa, a'u dybenion. Felly, y mae y gwahanol eiriau Hebraeg, a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg yn *afr*, yn bur lluosog; megys,

1. *Ez*: dyma yr enw mwyaf cyffredin a roddai

Digitized by Google

yr Hebreaid i afr: Phœn., *aza*. Y mae gan yr ieithoedd Ind-Ewropaidd air cyffelyb yn Sansc., *âga*=gafr; *agâ*=bwch geifr; Alm., *geis* neu *gems;* Gr., *aix*, *aigos*. Bernir fod yr enw yn tarddu o'r Heb., *âzaz*=bod yn gryf, gan gyfeirio at y bwch fel yr ystyr gwreiddiol; ond cymhwysir ef yn benodol at afr fenyw, megys yn *Gen.* xv. 9; xxxi. 38; xxxii. 14; *Num.* xv. 27. Yn *Barn.* vi. 19, cyfieithir *gedi izim* yn fyn gafr; ac yn *Deut.* xiv. 4, cyfieithir *seh izim*, i'r Gymraeg yn llwdn gafr, ac i'r Seisoneg yn afr; ond yr ystyr priodol ydyw diadell o eifr. Defnyddir *izim* fel talfyriad am flew geifr yn *Exod.* xxvi. 7; xxxvi. 14, &c.; *Num.* xxxi. 20, ac yn 1 *Sam.* xix. 13.

2. *Ielim:* cyfieithir y gair yma yn *Salm* civ. 18, yn *eifr*, ond yn y ddau le arall lle y mae y gair, *geifr gwylltion* yw y cyfieithiad; a geifr gwylltion (*wild goats*) ydyw y cyfieithiad Seisoneg yn y lle hwn hefyd, yr hyn yn ddiau yw y cyfieithiad cywiraf. Gwel GAFR WYLLT.

3. *Attud:* ystyr y gair yma, yn ol barn Gesenius, yw *bwch geifr*, pedwar mis oed—cryf a bywiog. Yn y rhif lluosog yn unig y defnyddir y gair yma yn yr iaith wreiddiol; a *bychod* ydyw y cyfieithiad Cymraeg o hono yn gyffredin (*Salm* l. 9, 13). Yn *Ier.* l. 8, arwydda bychod, arweinyddion y praidd; ac oddi wrth hyn y defnyddir y gair yn gyffelybiaethol yn *Esa.* xiv. 9, am "dywysogion y ddaiar," ac yn *Zech.* x. 3, lle yr arwydda *bychod* y penaethiaid. Yn y Beibl Seisoneg, geifr (*goats*) ydyw y cyfieithiad yn *Salm* l. 13, a *Zech.* x. 3; ond y mae yn sicr mai y cyfieithiad Cymraeg yw y cywiraf. Dywedir fod y gair yn deilliaw o *atad*—gosod, parotoi.

4. *Tzaphir:* a geir yn unig yn 2 *Cron.* xxix. 21 ("saith o fychod geifr"); ac yn *Dan.* viii. 5, 8 ("bwch geifr"). Dilynir ef gan *haizim*, ac arwydda bwch o'r geifr. Y mae Gesenius yn ei darddu o *tzâphar*=neidio. Yn y llyfrau diweddaraf o'r Hen Destament yn unig, fel y gwelir, y mae y gair yn cael ei ddefnyddio. Yn *Ezra* vi. 17, ceir y ffurf Caldeaidd o'r gair *tzephir*.

5. *Sâir:* ystyr priodol y gair yma ydyw bwch geifr; gan y tardd o *sâar*, "sefyll yn syth," "ymsythu," "codi gwrychyn." Defnyddir y gair yn fynych yn Lefiticus a Numeri. Yn *Lef.* ix. 3, cyfieithir ef yn "fyn gafr:" "Cymmerwch fyn gafr yn aberth dros bechod;" a'r un modd y mae y cyfieithiad Seisoneg; ond yn *adn.* 15, *bwch* yw y cyfieithiad o'r un gair: "Ac a gymmerodd fwch yr aberth dros bechod y bobl"—Seis., "ac a gymmerodd afr (*goat*) yr aberth dros bechod y bobl." Felly hefyd y gwneir yn *pen.* x. 16: *bwch* ydyw y cyfieithiad cywir. Yn *Dan.* viii. 21, defnyddir y gair fel ansoddair mewn cyssylltiad â'r *tzâphir:* "a'r bwch blewog yw brenin Groeg:" Seis., "a'r afr flewog" (*rough goat*). Y cyfieithiad Cymraeg sydd yn gywir.

6. *Taish:* a ddeillia o *tish*, *taraw*. Yr holl fanau y ceir y gair yma yw *Gen.* xxx. 35; xxxii. 14; *Diar.* xxx. 31; a 2 *Cron.* xvii. 11; lle y cyfieithir ef yn y lluosog *bychod*, oddi gerth yn *Diarebion*, lle y mae y gair yn unigol—*bwch*. Gwel BWCH DIANGOL.

Y mae tri o eiriau Groeg yn cael eu cyfieithu yn y Testament Newydd Cymraeg yn *afr*—*eriphion*, *eriphos*, a *tragos*. Yn *Mat.* xxv. 33, yn unig y ceir *eriphion*, ac *eriphos* yn *Mat.* xxv. 32, a *Luc* xv. 29; ac yn y lle olaf cyfieithir y gair yn *fyn*. Yn *Heb.* ix. 12, 13, 19, a'r x. 4, y ceir *tragos;* a *geifr* ydyw y cyfieithiad yn y pedwar lle. Ei ystyr, medd Drake, yw *bwch geifr*. Y Groeg yn *Heb.* xi. 37, am "grwyn geifr" ydyw *en aigeiois dermasin:* y gair a droir yma yn *eifr* yw *aigeiois*.

Tybir mai y rhywogaethau o eifr oedd yn adnabyddus i'r Hebreaid, neu a feithrinid ganddynt, oedd y rhai canlynol:—

1. *Gafr ddof hir-glustiog Syria;* yr hon y mae ei chyrn yn lled fyrion. ac yn gogwyddo mewn gwahanol ffyrdd. Nid yw y cyrn, meddai Goldsmith, dros ddwy fodfedd a hanner o hyd, o liw du, ac yn gogwyddo ychydig at gefn yr anifail. Hynodrwydd penaf y rhywogaeth yma ydyw eu clustiau mawrion, y rhai sydd yn hwy na phen yr afr, ac yn hongian o bob tu i'w phen yn llawer llaesach na'i thrwyn.



Dar. 309.

Y mae y blew yn hirion, ac o liw llwynog, weithiau bron yn dduon; ac y mae dau hwrwg (*excrescence*) o dan y gwddf, heb fod yn annhebyg i dagellau ceiliog. Y mae y rhywogaeth yma yn gyffredin trwy y dwyrain oll, yn yr Aipht, ac ar ororau Affrica. Cedwir llawer o honynt o amgylch Aleppo er mwyn eu llaeth. Gyrir hwy drwy yr heolydd, a gwerthir eu llaeth i'r trigolion fel yr ânt heibio, trwy eu godro yn y fan, fel y bydd y galwad. Cludwyd y rhywogaeth i Sicily; ond nis gellir eu cadw yn iach mewn hinsoddau poethion.

2. *Gafr Angora*, neu yn hytrach *Anadoli Asia Leiaf*. Y mae clustiau y rhywogaeth yma hefyd yn llawer hwy a lletach na chlustiau ein geifr ni. Y mae cyrn y bwch bron yr un hyd a chyrn bychod geifr Ewrop, ond yn dduon, ac yn troi yn dra gwahanol, gan fyned yn syth ar bob ochr i'r pen, ac yna yn crychdroi ar lun corcdroell. Mae cyrn y fenyw yn llai, ac yn amgylchynu y clustiau, yn debyg i gyrn hwrdd. Y mae yr anifail o liw gwyn dysglaer, ac y mae ei flew yn dra hirion, agos i'w gilydd, main, a llathraidd; ac er mwyn y blew prydferth yn benaf y meithrinir y rhywogaeth yma o eifr. Mae y blew a ddefnyddir, y rhai sydd yn hynod o fain a phrydferth, yn tyfu o dan orchudd o flew hirion a garwach; ac o'r meinflew crybwylledig y gwneir y gwarleni (*shawls*) Cashmere, a werthfawrogir gymmaint gan foneddigesau. Y ffordd a gymmerir i dynu y meinflew, yw cribo yr anifail yn esmwyth a gofalus. Dygwyd nifer mawr o'r rhywogaeth yma i Ffrainc o Persia, yn 1819, y rhai a gyflewyd yn St. Omers, er mwyn eu lluosogi a sefydlu gweithfa gwarleni yno. Gorchuddir y mynod yn helaeth gan y meinflew a'r hirflew; a dywedir eu bod yn edrych yn gryfach na mynod brodorol Ffrainc o'r un oedran. Bernir yn gyffredin fod meinflew y rhywogaeth yma yn gwaethygu pan y symmudir hwy o borfaoedd Angora; ond tybia rhai yr achosir hyny, mewn rhan o leiaf, trwy esgeuluso glanhau a golchi y geifr, yr hyn a wneir yn ddiwyd a gofalus yn Angora. Mewn mynegiad a adroddwyd gan M. Terneaux ger bron

Digitized by Google

Cymdeithas Amaethyddol Paris, dywed fod geifr Angoraidd Ffrainc wedi lluosogi yn dda, a'u bod yn llwyddo cystal a'r rhywogaethau brodorol. Dygwyd y rhywogaeth Angoraidd i Brydain hefyd gan Mr. Towers. Yr oedd Mr. Towers yn dygwydd bod yn Paris pan y dygwyd y geifr yno o Persia gan yr enwog M. Terneaux, yn 1823, a phrynodd bedair (dau fwch a dwy afr) o honynt; a llwyddodd i'w cludo yn ddiogel i'w breswylfod yn Essex. Yr oedd tir y parc, yn Weald Hall, lle y cadwyd hwy, yn llaith ac yn hynod o noeth. Er hyny parhaodd yr anifeiliaid yn iach, a chynnyddasant yn gyflym, fel yr oedd ei ddeadell erbyn 1860 yn saith ar ugain, drwy y pedwar anifail cyntaf. Yr oedd un o'r hen eifr hyn (un foel), yr hon oedd yn hen pan y prynodd hi, wedi dwyn un myn o leiaf, bob blwyddyn, a dygodd ddau fyn y tro, ddwywaith. Y geifr y mae eu cyrn yn croesi eu gilydd a ystyrir y goreu gan y Persiaid; ac yr oedd un o fynod Mr. Towers, yn 1859, yn meddu yr hynodrwydd hwnw. Nid ymddengys eu bod yn teimlo nemawr oddi wrth oerfel, nac yn gofyn cysgod ond ar dywydd pur arw. Y maent yn pori yn y gwanwyn, yr haf, a hydref, fel defaid; ond porthir hwy yn ystod y gauaf â gwair, a gwrthodant bob llysiau gardd; ond eu hoff ymborth yw eithin, y rhai a fwytant yn awchus, heb deimlo dim, fel yr ymddengys, oddi wrth y pigau. Y maent yn niweidiol i berllanau, ond nid gwaeth na geifr cyffredin. Y maent yn hilio yn bur ieuainc: yr oedd dwy o eifr Mr. Towers wedi dwyn mynod cyn eu bod hwy eu hunain yn ddeuddeng mis oed. Y mae blew rhai o honynt yn rhuddgoch, ond gwyn yw blew y rhan fwyaf o lawer; ac y mae y rhai hyn yn werthfawrocach na'r lleill. Y mae y meinflew gwerthfawr yn dechreu colli yn gynnar yn Ebrill; ac y maent yn hawdd i'w cael trwy gribo yr anifail yn ofalus, ddwywaith neu dair, fel y crybwyllwyd, â chrib cyffelyb ag a ddefnyddir at fwng meirch. Daw cryn lawer o'r hirflew yn rhyddion wrth wneyd hyn, ond y mae yn hawdd eu gwahanu oddi wrth y meinflew. Swm y meinflew a geir ar fwch yw tua phedair owns, ac o gylch hanner hyny ar yr afr. Rhaid cael tua dau bwys o'r meinflew hyn i wneyd un gwarlen (*shawl*) o ddeng modfedd a deugain ysgwar; am hyny, rhaid cael cynnyrch tua dego eifr, yn gymmysg o wryw a benyw, er cael digon o ddefnydd i wneyd un warlen. Yr oedd gan Mr. Towers dair gwarlen wedi eu gwneyd o flew ei eifr ei hun, yn 1860, a rhoddodd un o honynt dan feirniadaeth pwyllgor y llaw-weithyddion (*manufacturers*). Nyddwyd y defnydd gan Pease, o Darlington, a gwewyd ef gan Miller a'i feibion, o Paisley. Cymharwyd gwarlen Mr. Towers âg un a wnaed yn yr Alban o feinflew geifr Angoraidd Ffrainc, a barnwyd ei bod yn rhagori. Cymharwyd hi hefyd â gwarlen o waith M. Terneaux ei hun, ac ystyriwyd ei bod yn rhagori ar hono hefyd.—*Trans. of the Society of Arts*, cyf. xlvi.

3. *Gafr yr Aipht*, ydoedd rywogaeth arall yr oedd yr Hebreaid yn hysbys o honi. Cyrn byrion, cordeddog, sydd i'r rhywogaeth yma; blew hirion, rhuddgoch; a chlustiau pur hirion.

4. *Gafr foel yr Aipht Uchaf.* Y mae esgyrn ffroenau y rhywogaeth yma yn dra dyrchafedig; y trwyn yn gwta; a'r ên isaf yn taflu y dannedd allan. Y mae pwrs y fenyw yn bur isel, ac yn debyg i bwrs buwch. Y mae y rhywogaeth yma, yr hon yr effeithir mwy arni gan hinsawdd a thriniaeth nag a wneir ar un arall o'r rhywogaethau dofion, yn meddu blew hirion a geirwon, ac o liw melyngoch; ac yr oedd yn cael ei gwahaniaethu mor fore oddi wrth rywogaethau ereill, fel y ceir darluniau manwl o honi ar gofadeiliau hynaf yr Aipht. Y mae yn debyg fod rhai o'r enwau sydd yn y Beibl, yn ymddangos yn awr yn gyfystyr, yn cael eu cymhwyso gynt at wahanol rywogaethau o wahanol wledydd. Fel hyn, gan fod *tzaphir* yn air o darddiad Caldeaidd, dichon y rhoddid ef i afr o oror fynyddig y gogledd; neu, dichon fod yr enw yn gyfystyr â *tschäfer*, "arweinydd y praidd." Fe allai y gellid egluro amryw o'r enwau ereill yn gyffelyb.

Yr oedd yr afr yn anifail glân dan y gyfraith (*Exod.* xii. 5); ac yr oedd myn gafr yn cael ei ystyried yn gyfartal i oen. Yr oedd geifr yn un o brif ranau diadelloedd yr Hebreaid; ac yr oedd eu llaeth a'u mynod yn ddefnyddiau ymborth beunyddiol iddynt. Yr oedd lladd myn gafr, yn mysg y dosbarthiadau isaf, bugeiliol, yn arwydd o groesawiad i ddyeithriaid, neu o wledd gyffredinol; a dichon fod y gorchymyn—"Na ferwa fyn yn llaeth ei fam"—a adroddir deirgwaith yn nghyfraith Moses, yn yr un geiriau yn hollol (*Exod.* xxiii. 19; xxxiv. 26; *Deut.* xiv. 21), wedi cael ei roddi mewn rhan er mwyn cymhell cymmedroldeb; yr hyn a roddwyd mewn grym yn wastad ac yn llwyddiannus gan wŷr moesol a deddfroddwyr y dwyrain; ac hefyd, er mwyn gwrthwynebu arferiad oedd mewn cyssylltiad â gwleddoedd eilunaddolgar, a'r defodau atgas oedd yn nglŷn â hwy.

O grwyn geifr y gwneir costrelau lledr i ddal gwin a gwirodydd ereill a arferir yn y dwyrain. Eu dull hwy o wneyd y rhai hyn yw tori y pen a'r traed ymaith, yna tynu y croen dros y gwddf, heb agor y bol; ac wedi rhwymo neu wnïo tyllau y traed ac un pen i'r croen yn ddiogel, gadewir iddo sychu a'r blew o'r tu fewn neu y tu allan, yn ol yr hyn yr amcenir ei ddefnyddio. Y mae hen grwyn wedi gwisgo yn dueddol i rwygo: yna mae y priodoldeb o roddi gwin newydd mewn costrelau newyddion yn amlwg: *Mat.* ix. 17. Ymddengys fod Harmer yn gywir wrth dybied fod yr awgrymiad yn *Amos* iii. 12, yn cyfeirio at rywogaeth y geifr hirglustiog:—"Fel yr achub y bugail o safn y llew y ddwy-goes, neu ddarn o glust; felly yr achubir meibion Israel y rhai sydd yn trigo yn Samaria mewn cwr gwely, ac yn Damascus mewn gorweddle."

Y mae amrywiaeth yr afr yn fwy lluosog nag odid un anifail adnabyddus, oddi gerth y ci; ac y mae naturiaethwyr heb benderfynu yn hollol hyd heddyw o ba rywogaeth y tarddodd y geifr dofion gyntaf. Y mae Buffon yn tueddu i feddwl mai yr alpafr (*ibex*) ydyw y cyff cyntefig; tra y tybia naturiaethwyr diweddarach mai rhywogaeth o afr wyllt sydd yn preswylio mynyddoedd y Caucasus a Phersia, a elwir *ægagrus*, ydyw y gwir gyff gwreiddiol. Y mae ereill yn olrhain dechreuad y geifr dofion i rywogaeth sydd yn Ynys Candia, a elwir *bouquetin* (*Capra Ibex Linn.*); tra y dygir rhai rhywogaethau ereill hefyd o eifr gwylltion i'r gystadleuaeth; ond o blaid yr *ægagrus* y mae llais y rhan fwyaf o naturiaethwyr. Gwel GAFR WYLLT.

Y mae yr afr yn breswylydd y rhan fwyaf o barthau mynyddig Ewrop, Asia, Affrica, ac India; ac ychydig o greaduriaid sydd yn fwy gwasanaethgar i ddyn, pan y caiff driniaeth gyfaddas. Ac er nad etyb i'w chadw mewn lle a feithrina ddefaid, eto y mae yn dra gwerthfawr mewn gwledydd creigiog a choediog. Cyfeiriwyd eisoes

Digitized by Google

at y defnydd a wneir o'r blew; ac fe gofia pawb hefyd am y glustog o flew geifr (1 *Sam.* xix. 13—16) a roddodd Michael dan ben y ddelw, i dwyllo cenadau Saul a yrwyd i ladd Dafydd.

Pan yr oedd yr arfer o wisgo perwigau yn y wlad hon, yr oedd galwad mawr am flew geifr i'w gwneuthur; a'r rhai gwynaf a ystyrid y rhai gwerthfawrocaf. Y blew a ddewisid i'r dyben yma oedd y rhai a dyfent ar y cluniau, lle maent yn fwyaf hirion a thrwchus. Yr ydoedd croen gafr, gwyn, da, yn amser Pennant, yn werth gini, er na roddid mwy nag o swllt i ddau swllt am grwyn gwael, o liw tywyll neu felyn. Defnyddir blew geifr yn awr i wneyd perwigau i swyddogion yr eglwys wladol, a gwŷr y gyfraith. Mae y croen, yn enwedig croen myn, yn dra gwerthfawr at wneyd menyg; a dywedir y cymmer ei liwio yn well nag odid un math arall o groen. Fe ddefnyddir y cyrn i wneyd carnau cyllyll, a dywedir y gwna y gwêr ganwyllau gwynach a gwell na gwêr defaid a gwartheg: ac yn ol Pennant, rhoddid mwy o bris am danynt yn y farchnad. Y mae cig y myn yn dda a blasus, fel y crybwyllwyd. Dywed yr un awdwr yr helltid ac y sychid aelodau yr afr yn fynych, y rhai a gyfatebent yn mhob modd i gig moch. Yr enw a roddai y Cymry ar y math yma o gig gafr, medd efe, oedd "coch yr wden." Cig gafr wedi ei dysbaddu chwech neu saith oed, a elwir *hyfr*, a ystyrir oreu, gan ei fod yn gyffredin yn bur flasus a thew. Dywedir fod rhinweddau meddyginiaethol at rai clefydau yn llaeth yr afr, a hoffir y caws a wneir o hono yn fawr mewn rhai parthau mynyddig. Dywed naturiaethwyr nad ydyw llaeth yr afr mor dueddol i dewychu a llaeth buwch; ac am hyny ei fod yn dygymmod yn well â chylla gweiniaid, heb law ei fod yn dra pheraidd a meithrinol. Dywed Gooch mai y ffordd oreu i feithrin babanod, pan nas gall eu mamau eu magu â'u llaeth, ydyw gadael iddynt sugno gafr; "yr hon," medd efe, "sydd yn dra hawdd ei dofi, yn bur hynaws, ac yn hynod o hoff o'i phlentyn maeth; gorwedd yr anifail i lawr, a daw y baban i'w hadnabod yn dda yn fuan; a chyn gynted ag y bydd yn alluog, gwna ymdrech i ymgropian at yr afr i'w sugno. Gwneir defnydd mawr o'r afr i'r dyben yma yr y Cyfandir. Cymmer trigolion rhai pentrefydd fabanod i'w meithrin yn y dull yma; tuthia y geifr, pan elwir arnynt, at y tŷ; aiff pob un at ei phlentyn maeth ei hun; sugna y babanod hwy yn awyddus; a chynnyddant yn rhagorol."

Ymddengys fod yr afr yn gymhwysach yn mhob ystyr i fwynhau bywyd rhydd ac anwaraidd na'r ddafad. Mae o natur fwy bywiog, ac yn meddu mwy o reddf (*instinct*) anifeilaidd. Ymlyna yn rhwydd a serchog wrth ddyn, ac ymddengys ei bod yn ymwybodol o'i garedigrwydd. Mae hefyd yn gryfach ac yn gyflymach, yn fwy gwrol a chwareugar, anwadal a chrwydrol, na'r ddafad. Y mae yn anhawdd ei chyfyngu at ei deadell; ond hoffa ddewis ei phorfa ei hun, a châr grwydro yn mhell oddi wrth y lleill. Ymhyfryda mewn dringo clogwyni serth, trwy fyned i fin perygl: gwelir hi yn fynych yn ymhongian ar glogwyn cribog uwch ben y môr, ac yn sefyll ar ddibyn bychan, peryglus, ac hyd yn oed yn cysgu yno yn ddiogel. Y mae natur wedi ei chyfaddasu i raddau helaeth i grwydro y glogwyni serth hyn yn rhwydd: mae y carn yn wag oddi tano, âg ymylau miniog, gafaelgar iddo, fel y gall rodio ar do tŷ mor rwydd a diogel ag ar dir gwastad. Dywed Pennant, pan y cyplysir dwy o honynt yn nghyd gerfydd eu gyddfau, fel y gwneid yn fynych gynt, os nad eto hefyd, rhag iddynt grwydro yn mhell oddi wrth y ddiadell, y bydd y ddwy, megys o gydsyniad, yn cydneidio dros bellder mawr o'r naill glogwyn i'r llall, heb fethu eu hamcan ond anfynych. Y mae yr afr yn anifail caled, hawdd ei chadw; ac am hyny perchenogir hi gan mwyaf gan y tlodion, sydd heb diroedd breision i'w chynnal. Ond, yn ddedwydd i'w pherchenogion, ymddengys ei bod hi yn hoffach o diroedd gwylltion anniwylliedig nag o'r meusydd ffrwythlawn: y mae yn well ganddi hi y mynydd grugog a'r graig eithinog a mwsoglyd. Dywed Nicholas Hasselgren, fod yr afr yn bwyta 449 o lysiau, ac yn gwrthod 126. Dywed hefyd y bwyty gegid y dwfr llydanddail yn awchus a diogel, tra y bydd farw ar ol bwyta cwcwll y mynach (*monkshood*). Ei hoff ymborth ydyw brigau, blagur, a blodeu grug, eithin, a manwydd ereill a dyfant ar y mynyddoedd.

Ray, yn ei ddosbarthiad o anifeiliaid yn cnoi eu cil ac yn fforchogi yr ewin, a'u dosbartha fel y canlyn:—1. Llwyth yr ych—gwartheg o bob math. 2. Llwyth y ddafad—yn cynnwys pob rhywogaeth o ddefaid. 3. Llwyth yr afr—yn cynnwys yr afr ddof a'i hamrywiaeth, a gwahanol rywogaethau yr afr wyllt, megys y willafr (*chamois*), yr alpafr (*ibex*), a'r afrewig (*gazelles*), &c.

Ail dylwyth pedwarcarnolion Kein yw y rhai sydd yn fforchogi yr ewin. Cynnrychiolydd y cyntaf yw yr ych; yr ail, y ddafad; y trydydd, yr afr; y pedwerydd, y carw; a'r pummed, y mochyn.

Linnæus, yn y deuddegfed argraffiad o'i waith, a wna yr afr (*capra*) yn bedwerydd dosbarth o'r pummed llwyth, ac a'i rhydd rhwng y carw neu yr hydd a'r ddafad. Y rhywogaethau a gynnwys y dosbarth yw yr afr (*hircus*), yr alpafr (*ibex*), yr afr Syriaidd (*mambrica*), y willafr (*rupicapra*—*chamois*), &c., yn nghyd â rhai o'r crychgyrn (*antelopes*).

Y mae Pennant, yn ei *Synopsis*, yn gosod yr afr rhwng y ddafad a'r camelewpard (*giraffe*), a rhydd y crychgorn i ddilyn yr olaf. Yn ei *British Zoology*, gesyd yr afr rhwng y ddafad a'r ddanas (*deer*).

Cuvier a rydd yr afr rhwng y crychgorn a'r ddafad.

Ychydig o amrywiaeth sydd yn nosbarthiad Brisson, Gmelin, Lesson, ac ereill.

Sylwa y Milwriad Hamilton Smith ei fod yn ffaith hynod, na chanfyddwyd, cyn belled ag y mae ymchwiliadau daiaregol yn cyrhaeddyd hyd yn hyn, unrhyw weddillion claddiannol (*fossil remains*) o ddosbarth yr afr na'r ddafad. Ond rhaid cofio nad yw prawf nacaol yn benderfynol nac i bwyso arno, gan nas gwyddys beth a ddarganfyddir trwy ymchwiliadau dyfodol.

**GAFR WYLLT.** Y mae dau neu dri, o leiaf, o eiriau Hebraeg yn cael eu cyfieithu yn y Beibl Cymraeg yn *afr wyllt;* yr hyn sydd yn arwyddo fod amryw rywogaethau o'r afr wyllt yn adnabyddus i'r Hebreaid. O'r rhai hyn, y mae Syria Ogleddol, Arabia, Sinai, a gororau y Môr Coch, yn meddu un rhywogaeth, a adnabyddir gan yr Arabiaid wrth yr enw *beden* neu *bedan* a *taytal;* sef *Capra Iaela* Hamilton, Smith, a *Capra Linaitica* Ehrenberg. Bernir mai hwn yw yr anifail a elwir yn y Beibl *ielim* (yn ol Kitto, *iolim*), bob amser yn y rhif lluosog. Ystyr y gair, medd Drake, yw *geifr gwylltion*, neu *eifr y mynydd;* ac y mae i'w gael yn 1 *Sam.* xxiv. 2; *Iob* xxxix. 1;

Digitized by Google

*Salm* civ. 18; a *Diar.* v. 19. Yn y ddau le cyntaf, cyfieithir y gair yn ein Beibl ni yn "eifr gwylltion;" yn y trydydd, yn "eifr;" ac yn y pedwerydd, yn "ewig." "Geifr gwylltion" (*wild goats*) ydyw y cyfieithiad Seisoneg yn y tri lle cyntaf; ond "ewig" (*hind*) ydyw yn y pedwerydd lle gan y Seison hefyd. Tardda y gair Hebraeg, medd Drake a Kitto, o *iaal*, yr hwn sydd yn arwyddo *esgyn, dringo;* a'r enw Hebraeg ydyw ar yr alpafr (*ibex*), yr hon sydd yn lluosog yn mharthau mynyddig hen diriogaeth Moab.

Y mae y gwryw yn llawer talach a chryfach na'r bwch geifr mwyaf. Y mae y cyrn yn plygu yn rheolaidd tua chefn yr anifail, fel y gwelir yn y darlun isod; ac y mae o 15 i 24 o drumau (*ridges*) ar draws y cyrn, o'r bôn hyd o fewn ychydig i'r blaen. Mae y cyrn tua thair troedfedd o hyd, ac yn drymion: y mae barf o dan yr ên; a lliw y blew ydyw gwineu tywyll; ond gwyn ydyw yr aelodau, a marciau duon rheolaidd ar hyd tu blaen y coesau, a modrwyau o'r un lliw ar y penliniau, ac ar yr egwydydd. Y mae y fenyw yn llai na'r gwryw, yn fwy rhuddgoch, ac nid yw y marciau du a gwyn ar y coesau mor amlwg. Y mae y rhywogaeth yma yn byw yn fân ddeadelloedd, o 15 i 20 o nifer; a neidiant dros bellderoedd aruthrol, o'r naill glogwyn serth i'r llall, gyda grym, medrusrwydd, a rhyfyg digyffelyb. Gwerthir eu cyrn gan yr Arabiaid i



Dar. 310.

wneyd carnau cyllyll, &c.; ond dywedir fod nifer y rhywogaeth yn lleihau yn gyflym.

Y mae gair Hebraeg arall yn *Deut.* xiv. 5, (yr unig fan lle y mae y gair), a gyfieithir genym ni yn "fwch gwyllt," ond yn y Beibl Seisoneg, "gafr wyllt" (*wild goat*), sef *acco.* Talfyriad ydyw y gair, medd Lee, o *accoah;* yr hwn a gyfieithir ganddo ef yn afrewig (*gazelle*). Y mae Schultens yn meddwl fod yr enw wedi ei roddi i'r anifail o blegid ei ochelgarwch, ac o ganlyniad ei duedd i ffoi; ac y mae y Dr. Harris yn nodi yr hyn a ystyria efe yn gadarnhad i'r dyb yma yn Nheithiau Shaw; tra yr ammheua ereill y syniad. Y mae y Deg a Thrigain a'r Vulgate yn cyfieithu y gair Hebraeg i eiriau cyfystyr a *gafrewig;* a thybia rhai mai yr un anifail yw ag a elwir *fishtall*—creadur sydd yn preswylio anialwch Affrica, ac un, fe allai, o'r rhywogaethau mwyaf o'r crychgyrn (*antilopidæ*), gyda mwng hir. Dywedir fod y creadur yma heb gael ei ddysgrifio yn gelfyddydol hyd yn hyn. *Acco*, gan hyny, yn ol barn C. H. Smith, os nad enw arall ydyw ar *zemer* (gwel isod), sydd enw ar rywogaeth o'r geifrewigod, yr hwn fe allai a elwir *ahu*, oddi gerth nad oedd yr alpafr Abyssiniaidd (*capra walie*) yn cyrhaedd gynt cyn belled ag Arabia.

Y gair Hebraeg arall a gyfieithir yn y Beibl Cymraeg yn "afr wyllt," yw *zemer*, yr hwn a geir unwaith yn *Deut.* xiv. 5. Y cyfieithiad Seisoneg o hono yw *chamois* (gwillafr). Anifail ydyw, medd Gesenius, o rywogaeth y danas neu yr afrewig. Dengys Gesenius fod yr enw yn dal perthynas agos â *zamâr*, cerddoriaeth offerynau, *Dan.* iii. 5, 7, 10, 15); ac â *zamâr*, cantor (*Ezra* vii. 24); a bod yr anifail hwn yn cael ei alw yn *zemer* oddi wrth ei duedd i neidio a llamu, gan fod y meddylddrych o neidio neu ddawnsio yn gyssylltiedig â'r meddylddrych o ganu. Cyfeithiad y Deg a Thrigain o'r enw yw *camêlopardalis* (camelewpard); y Vulgate, *camelopardalus*, Luther, yn ei gyfieithiad Almaenaidd, *elend* (elec, gorgarw); a *capra montes* (gafr y mynydd) sydd mewn hen gyfieithiad Yspaenaidd o'r Hebraeg. Y mae pawb yn cydnabod fod *zemer* yn greadur glân, ac yn cnoi ei gil; ond y mae yn dra sicr na buasai cyfraith Moses yn nodi anifeiliaid glân oedd yn gwbl allan o gyrhaedd yr Hebreaid, na rhai a adnabyddid ganddynt, ar y goreu, yn unig oddi wrth yr esamplau a welsant yn yr Aipht o anrhegion wedi eu gyru o Nubia, neu oddi wrth y darluniau oedd ar furiau y temlau. Preswylydd o ogledd Affrica yn unig yw y *camelopardalis* (camelewpard=*giraffe*), ac felly nis gallai ddyfod yn ffordd yr Israeliaid. Y mae yr un wrthddadl yn erbyn yr *elk* (gorgarw), o blegid nad yw y rhywogaeth hono yn ymddangos byth yn mhellach i'r de na gogledd yr Almaen a Pholand; a chyda golwg ar y willafr (*chamois*), a ddefnyddiwyd yn y cyfieithiad Seisoneg, er ei bod gynt i'w chael yn mynyddoedd Groeg, a'i bod fyth i'w chanfod yn nghanolbarth Asia, nid oes dim arwydd iddi fod erioed yn preswylio Libanus, nac unrhyw barth arall o Syria. O blegid hyn, mwy priodol yw cyfeirio at ryw greadur glân, yn cnoi ei gil, oedd yn nghyrhaedd yr Israeliaid a than sylw y deddfroddwr. Gellir sylwi fod y gair *zemer* wedi cyfnewid ychydig arno i *zammar*—yr enw a ddefnyddir fyth yn Persia ac India ar unrhyw rywogaeth fawr o greaduriaid yn cnoi eu cil, yn enwedig rhai o rywogaeth y carw, a elwir yn gyffredin *rusa*, a restrir fel is-lwyth o'r danas (*deer*) yn nghyfieithiad Griffith o *Cuvier's Animal Kingdom.* Ond y mae yn amlwg nad gair yn arwyddo llwyth ydyw *zemer* yn y testyn Ysgrythyrol dan sylw; ond gair yn arwyddo rhywogaeth mewn ystyr fanwl. Y mae *ail* (y carw) yn cael ei grybwyll yr un pryd, a hyny, cystal ag amryw o rywogaethau ereill o'r crychgyrn (*antilopidæ*), yn yr un adnod. Rhaid chwilio gan hyny am ryw anifail na nodwyd allan eto, a rhaid i hwnw fod yn ddigon teilwng i gael ei enwi mewn ordinhad mor bwysig.

Yr unig greadur, yn ol barn C. H. Smith, a etyb i'r gofyniadau hyn, ydyw rhywogaeth o'r ddafad wyllt, sydd yn awr heb fod yn anfynych yn mynyddoedd Mokattam, yn agos i Cairo; yr hon a ganfyddwyd hefyd yn Sinai, ac ar y tu dwyrain i drumau ysgythrog Arabia Garegog, lle yr adnabyddir hi dan yr enw *kebsch*—newidiad bychan o'r hen air Hebraig *cheseb*, neu yn hytrach *chebes*, yr hwn a gymmhwysir yn wir at y ddafad ddof—un yn pori; tra y barna Smith y tardda *zemer* o wreiddyn yn arwyddo tocio, ymborthi ar bryswydd.

Darlunir yr anifail yma yn fynych ar gofadeiliau yr Aipht, lle y rhoddir enw batheiniol (*hieroglyphic*) iddo; ond ammheuir a ydyw yr enw wedi ei ddarllen yn briodol hyd yn hyn.

Digitized by Google

Nid yw y darluniau lliwiedig yn gadael dim amheuaeth mai yr un ydyw a *kebsch* yr Arabiaid a'r amrywiaeth o'r ddafad diweddar, sef math o amrywiaeth o'r ddafad farfog (*ovis tragelaphus*), a drefnwyd yn ddiweddar fel rhywogaeth benodol gan Blyth, dan yr enw *ammortagus barbatus*. Dywed y beirniaid mai y cyfieithiad Yspaenaidd *cabra montes* (=gafr y mynydd), y cyfeiriwyd ato eisoes, ydyw yr unig gyfieithiad cywir o'r Hebraeg; yr hyn sydd yn dangos nas gwyddant hwy am y cyfieithiad Cymraeg, sef "gafr wyllt," yr hwn sydd yn llawn cystal a'r Yspaeneg; "canys," medd Smith, "er nad yw y math yma yn afr mewn ystyr fanwl, eto y mae yn rhywogaeth sydd rhwng yr afr a'r ddafad." Y mae, fel yr afr, yn hoff o ddringo creigiau, ac y mae yn dra diogel ar ei thraed yn mysg y clogwyni mwyaf serth. Y mae yn uwch na'r ddafad ddof fwyaf, er nad ydyw yn fwy ei swm. Yn lle gwlân, gorchuddir hi yn drwchus gan flew meinion rhuddgoch. Y mae y gwddf a'r frest, a'r rhan uchaf o'r aelodau blaen, hyd y gliniau, yn cael eu gorchuddio gan gyflawnder o flew hir, rhyddion, a lled gochion, y rhai sydd yn amddiffyniad cyflawn i'r gliniau a'r barwyden (*brisket*); yr hyn sydd yn dangos fod arferion y rhywogaeth yn gofyn amddiffyniad neillduol, tra yn prancio yn mysg y creigiau serth ysgythrog; ac yn gwneyd yr enw *zemer* (un yn neidio), yn dra arwyddocaol. Y mae y pen a'r wyneb yn gwbl fel y ddafad; y llygaid yn lledlas; a'r cyrn yn felynlas, ac wedi eu gosod yn hollol fel cyrn y ddafad, yn gogwyddo tua'r cefn, ac yn lledu allan, a'r blaenau yn plygu i lawr. Y mae y gynffon, yr hon sydd tua naw modfedd o hyd, yn gron ac yn drom. Yr un ydyw a *Mouflon d' Affrique* a *Mouflon à Manchettes* yr ysgrifenwyr Ffrancaidd; ac y mae yn debyg mai yr un ydyw a *tragelaphus* Caius, yr hwn a ddygwyd o Barbary. Gwel *Bearded Argali* yn *Griffith's Animal Kingdom of Cuvier*.



Dar. 311.

Ymddengys mai prif rywogaethau yr afr wyllt yw y rhai canlynol:—

1. *Gafr wyllt Persia (paseng ægagrus)*, yr hon a gyfannedda yn mynyddoedd y Caucasus a mynyddoedd Persia; a hon, fel yr awgrymwyd eisoes, yn ol barn y rhan fwyaf o naturiaethwyr, yw y cyff cyntefig o'r hwn yr hanodd yr afr ddof. Y mae hon tua phum troedfedd ac wyth modfedd o uchder yn yr ysgwydd, a'r crwmp tua dwy fodfedd yn uwch. Y mae y cyrn yn ffurfio minongl (*acute angle*) â'r talcen, gan ogwyddo yn gysson tua'r cefn; ac y mae cyrn y gwryw tua thair troedfedd o hyd; ond y mae cyrn y fenyw yn llai; ac y mae'r benywaid weithiau yn foelion. Gwineulwyd yw y blew, â rhes ddu ar hyd y cefn: y pen yn ddu tua'r trwyn, a'i ochrau yn rhuddgoch. Y mae blew y fenyw yn fwy gwelw ac unffurf na blew y gwryw.

2. *Yr Alpafr* (*ibex*). Y mae y rhywogaeth yma yn cynnwys dau neu dri o wahanol fathau. Y penaf o'r rhai hyn yw gafr wyllt yr Alpau, oddi wrth yr hon y rhoddir yr enw alpafr i'r rhywogaeth. Mae y math yma at yr un faint a gafr wyllt Persia; tra y mae y cyrn, y rhai sydd tua deng modfedd ar ugain o hyd, yn dra thebyg i gyrn yr *ialim*, a ddarluniwyd eisoes. Dywedir fod nifer y rhesi ar y cyrn yn cyfateb i nifer blynyddoedd yr anifail. Lliw yr alpafr hon, yn y flwyddyn gyntaf, yw llwyd goleu, yn tywyllu i wineu fel y cynnydda yr anifail mewn oedran; ac yn y rhai cyflawn oed y mae yn amrywio o fod yn wineugoch yn yr haf, i wineulwyd yn y gauaf: nid yw y blew byth yn bur hirion nac yn llac. Y mae llinell ddu ar hyd y gwyneb a'r cefn. Lliw y blew o'r tu mewn i'r cluniau a'r morddwydydd yw gwyn tywyll; tra y mae o'r tu fewn i'r clustiau, a'r gynffon oddi tanodd yn wyn: y mae y pen o dan yr ên yn fyr, gwineu tywyll, ac addfain. Maent yn cymharu yn y gauaf, pan y mae arogl y bwch yn drwm: bydd y gwryw yn canlyn y fenyw wedi hyny hyd y gwanwyn; pan y dechreua y fenyw ymgilio i'r cysgod, er mwyn llydnu; yr hyn a gymmer le yn mhen cant a thrigain a deg o ddyddiau ar ol cyfebru—yn gyffredin yn Ebrill. Dilyna y mynod y fam yn mhen ychydig oriau ar ol eu bwrw. Ymddengys fod y math yma o'r alpafr yn gyfyngedig i fynyddoedd uchaf Ewrop; sef yr Alpau, yn enwedig y Rhœtian, a'r Pyrenees, a'u trumau uchaf. Dichon hefyd eu bod fyth i'w cael yn Candia, Groeg, a'r Carpathian. Eu hoff drigfod yw y clogwyni uchaf, ar ben y rhai y mae eira oesol, a thuag yno y ffoant yn wastad pan erlynir hwynt. Maent yn anamlach yn awr nag yn y Tyrol, a dywedir fod y rhywogaeth bron a diflanu o'r Pyrenees.

*Alpafr Abyssinia* sydd fath arall o'r alpafr, yr hon sydd yn dalach na'r math Ewropaidd: y lliw yn wineu budr: y farf yn fer, â blew hirion dan y gwddf hyd y frest, a llinell dywyll ar hyd y cefn ac o'r tu mewn i'r coesau. Ymddengys y clustiau yn fyrach, ond y cyrn yn hwy na rhai y math Ewropaidd, ac yn ffurfio hanner cylch yn nes i'r pen, ac yn gogwyddo llai tua'r cefn. Dywedir fod y math yma yn lluosog yn mynyddoed Abyssinia a'r Aipht uchaf.

Y math arall a nodir gan naturiaethwyr, yw *Alpafr y Caucasus*. Y mae Cuvier yn gwahaniaethu y math yma oddi wrth afr wyllt Persia (*paseng*), trwy fod y cyrn yn driongl, a'r ochr mewnol iddynt yn ffurfio ongl, a'r cylchau neu y clymau ar y cyrn yn taflu allan. Mae y cylchau crybwylledig ar y cyrn yn pellhau oddi wrth eu gilydd fel yr ant yn mhellach oddi wrth y bôn; ac y mae y cylchau a'r crychiadau ar y cyrn yn fwy rheolaidd na'r rhai sydd ar gyrn alpafr Abyssinia. M. Gudenstadt ydoedd y cyntaf a ddarluniodd y math yma, y rhai a ddarganfu efe yn mharthau gogleddol mynyddoedd y Caucasus. O ran maint, y mae yr anifail yn gyffelyb i alpafr Ewrop, ond fod y corff yn lletach ac yn fyrach. Gwineu tywyll ydyw y rhanau uchaf, a'r rhanau isaf yn wyn: y pen yn llwyd, oddi gerth fod rhes ddu o amgylch y safn: tywyll ydyw y frest, a rhes o'r un lliw ar hyd y cefn; a rhes

wen o'r tu ol i'r cluniau: mae yr ên isaf a'r sefnig yn gyffredin yn llwydwyn, a'r tu allan i'r coesau yn dywyll; mae y cyrn tuag wyth modfedd ar ugain o hyd, yn wineu tywyll, ac yn bur gedyrn. Y mae blew yr alpafr yma braidd yn gelyd, yn fwy gwelw yn y gauaf, a gwlân byr, llwydaidd, yn tyfu yn drwchus o amgylch eu bonion. Mae y fenyw yn llai, a'r cyrn yn fyrach, fel alpafr Ewrop. Y mae yr alpafr yma yn gyfartal i alpafr Ewrop, o ran nerth a sioncrwydd, os nad yn rhagori: neidiant dros bellder dirfawr, gyda'r hyder mwyaf rhyfygus. Dywed Monardes iddo weled un yn neidio o ben tŵr uchel, yn disgyn ar ei chyrn, ac yn neidio i fyny mewn moment, heb fod yn ddim gwaeth. Preswylia yn mynyddoedd y Caucasus, tua tharddiad y Terek a'r Cuban; a dichon eu bod i'w cael hefyd yn mynyddoedd uchel dwyreinbarth Persia.

3. *Gafr Wyllt Jemlah* (*Capra Jemlaica*), yr hon a geir yn rhandir Jemlah, rhwng tarddellau y Sargew a'r Sampoo, yn nhrumau uchaf canolbarth Asia, medd y Milwriad Smith, rhwng canghenau dwyreiniol a de-ddwyreiniol mynyddoedd yr Himalaya.

Fe allai mai amrywiaeth o'r un rhywogaeth yw yr afr wyllt a elwir *Jhâral;* yr hon, medd Hodgson, a geir yn wyllt yn ardal Kachâr, yn ddiadellau bychain, neu yn unigol; a dywed ei bod yn hyf, dichellgar, ymladdgar, yn hynod am ddringo, ac yn bur hawdd ei dofi a'i chymhwyso at hinsoddau estronol. Y mae efe yn ei gwahaniaethu oddi wrth alpafr yr Alpau, trwy fod y cyrn yn llai eu swm, a'u minion allanol yn llyfn; ac am ei bod heb farf: ac oddi wrth afr wyllt Jemlah, am nad ydyw y cyrn mor gydwasgedig, na'r blaenau yn troi i mewn, ac am eu bod heb glymau neu gylchau. Tybia efe mai hon ydyw y debycaf i'r afr ddof o unrhyw fath na rhywogaeth a ddarganfyddwyd hyd yn hyn.

Y ddau brif rywogaeth arall yw yr *ialim* a'r *acco* Ysgrythyrol y sylwyd arnynt uchod.

Am y willafr (*chamois*) a'r afrewig (*gazelle*), perthynant hwy i lwyth y carw yn hytrach nag i lwyth yr afr.

**GAGENDOR**, [*agendor*]: agorfa, ceufa, llyngcfa, anoddyn, dyfnder, eigion. "Rhyngom ni a chwithau y sicrhawyd *gagendor* mawr;" *Luc* xvi. 26: (Seis., *a great gulf*). Y gair a gyfieithir yma *gagendor* yw χάσμα, o'r ferf χαίνω=*ymagor, sefyll yn agored:* [χάσμα μέγα="gagendor mawr:" *Hesiod's Theogony*, v. 740]. Dyma yr unig fan y cyfarfyddir â'r gair yn y Testament Newydd. Defnyddir ef yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain. 2 *Sam.* xviii. 17; "A hwy a gymmerasant Absalom, ac a'i bwriasant ef mewn ffos fawr yn y coed, &c." Y mae y gair yn golygu *ymageniad*, neu gyfwng annhramwyadwy; megys gwagle dwfn rhwng dau glogwyn neu ddau ddibyn, heb yr un bont neu dramwyfa i groesi drosodd o'r naill i'r llall. Yn y ddammeg, y mae y gair hwn yn gosod allan y gwahaniad llwyr a gymmer le ar dda a drwg yn y byd ysbrydol, a natur dragwyddol a digyfnewid y gwahaniad hwnw. Ni bydd i'r da ddirywio na syrthio i ddrwg; ac ni bydd i'r drwg byth ddiwygio, nac ymddyrchafu i ddaioni. Ac megys ag y mae y cymmeriadau yn dragwyddol wahanedig, felly y mae y personau: fel y mae yr egwyddorion, felly y mae y lle: "fel na allo y rhai a fynent dramwy oddi yma atoch chwi; na'r rhai oddi yna, dramwy atom ni." Y mae y ddau deulu ar wahanol ochrau y gagendor; a thragwyddoldeb wedi gosod ei sêl wrth gymmeriad pob un. Nid y sefyllfa dragywyddol o wae a gwynfyd, yn ol syniadau rhai, a ddarlunir yn y ddammeg; ond "y sefyllfa ganol" (*intermediate state*), neu ystâd eneidiau ymadawedig yn *Hades*, rhwng angeu a'r adgyfodiad. Hyd yn oed yn y sefyllfa hon, y mae enaid y naill "mewn poenau," a'r eiddo y llall yn "mynwes Abraham;" ac y maent yn cael eu trosglwyddo i'r ddwy ystâd yma yn uniongyrchol ar ol marw. Felly y mae y ddammeg yma yn gwrthbrofi yn eglur yr athrawiaeth Babaidd o berthynas i'r purdan. [*Olshausen's Commentary, &c.*"]

**GAHAM** [גחם; Γαάμ]: mab Nachor, brawd Abraham, o'i ordderchwraig Reumah: *Gen.* xxiii. 24. Nid oes dim hysbysrwydd eto wedi ei gael yn nghylch y llwyth hwn. Fe allai mai ystyr y gair yw llosg-felyn—wedi llosgi yn yr haul, neu felyn-ddu.

**GAHAR**, [גחר=*llechfan;* Γαάρ]. Yr oedd meibion Gahar yn mysg y Nethiniaid a ddychwelasant o'r caethiwed gyda Zorobabel: *Esec.* ii. 47; *Neh.* vii. 49. Yn y rhestr a roddir gan Esdras, Gedur yw yr enw.

**GAIR, GEIRIAU**, [דבר; λογος, ῥῆμα]. Gair, yn ei ystyr cyfyngaf ydyw arwydd penodol o ryw syniad. Mewn iaith ysgrifenedig, gall fod yn gynnwysedig o un lythyren, neu o amryw; o un sill, neu o chwaneg; ac am hyny gall fod yn arwydd o sain syml neu gyfansawdd. Cytunir i'w ystyried fel amlygiad o ryw syniad; ac yn ol natur y syniad, neu yn hytrach yn ol y dull y mynega y syniad hwnw, y caiff ei nodwedd gramadegol, yn ol yr hwn y rhestrir ef mewn un o'r dosbarthau penodol a elwir yn rhanau ymadrodd. Am hyny darluniad Prician o air ydyw, "y rhan leiaf o ymadrodd wedi ei gyfansoddi yn rheolaidd, gan ddeall rhan fel y cyfryw yn ei pherthynas âg ystyr yr holl ymadrodd." O herwydd hyn gall yr un gair fod yn perthyn i wahanol ddosbarthau, yn ol ei wahanol sefyllfa a'i berthynas mewn ymadrodd: o ganlyniad, megys y mae arwyddocâd ymadrodd, bydded ef syml neu gyfansawdd, hir neu fyr, yn ymddibynu ar gydberthynas ei holl ranau, felly y mae arwyddocâd gair mewn ymadrodd yn ymddibynu ar ei berthynas i un arall yn yr un ymadrodd.

Pan fyddo gair yn cynnwys mwy nag un llafariad (*vowel*) ar wahân i'w gilydd, gellir ei ranu yn sillau, a gellir adranu y sillau drachefn yn llythyrenau; ond, pan y gellir rhanu ac adranu gair yn y dull yma, er y gall y sillau neu y llythyrenau arwyddo rhywbeth pan ar wahân oddi wrth eu gilydd, eto ni bydd i'r sillau neu y llythyrenau hyny arwyddocâd annibynol yn yr ymadrodd y defnyddir y gair y byddont hwy yn rhanau o hono. Fel hyn, cymmerer y gair *rhoddi* er esampl, yn yr ymadrodd—

"Dedwydd yw *rhoddi* yn hytrach na derbyn."

Yma, rhanau ydyw *rhodd* ac *i*, o'r gair *rhoddi;* ond nid ydynt ond rhanau o'r sain yn unig; ac nid oes iddynt arwyddocâd ar wahân oddi wrth eu gilydd yn yr ymadrodd. Rhaid cymmeryd *rhoddi* fel un gair yn yr ymadrodd dan sylw; ac yn yr ymadrodd hwn nid oes iddo ond un arwyddocâd, sef anrhegu, cynnysgaethu, neu gyflwyno. Er hyny, gall pob un o'r sillau crybwylledig fod yn air mewn ymadroddion ereill, os bydd arwyddocâd annibynol i bob un, yn ol y

berthynas y saif y naill neu y llall yn y cyfryw ymadrodd. Fel hyn, er esampl, y mae *rhodd* yn arwyddo anrheg, ac *i* yn arwyddo person, yn yr ymadrodd canlynol:—

"Gosod dy *rodd* ger fy mron *i*."

Y mae y Dr. Becker, yn ei *Deutsche Grammatik* (gramadeg Almaeneg), yn dosbarthu holl eiriau iaith yn eiriau syniadol (*notional words*) ac arwyddion o berthynas. Wrth eiriau syniadol y deall efe, y rhai sydd yn amlygu syniadau; hyny yw, pethau sydd yn wrthddrychau y dealltwriaeth; sef y geiriau a elwir yn gyffredin berfau (*verbs*), enwau (*nouns*), ac ansoddeiriau (*adjectives*). Wrth arwyddion perthynas y deall efe y geiriau sydd yn dynodi perthynas rhwng y gwahanol bethau sydd yn wrthddrychau y dealltwriaeth, a amlygir gan eiriau syniadol. Arwyddion perthynas yw naill ai terfyniadau yn unig, sef y llythyrenau neu y sillau terfynol sydd yn dullweddu geiriau syniadol; neu, gallant fod yn eiriau gwahanol, y rhai a eilw efe yn "eiriau perthynasol." Yn yr ymadroddion, "cyfarthodd y ci;" "dynion colledig oeddynt oll;" terfyniadau yn arwyddo perthynas rhwng y pethau a fynegir yn yr ymadroddion yw *odd, ion; edig, ynt.* Yn yr ymadroddion, "byw *mewn* tref;" "ymadael *ar ol* ciniaw;" geiriau perthynasol yw *mewn* ac *ar ol*, yn cyssylltu y syniadau o fyw ac ymadael â'r syniadau o dref a chiniaw. Yn ol hyn, gellir ystyried geiriau syniadol fel sylwedd iaith, a geiriau perthynasol megys yn rhoddi ffurf i iaith, sef yr hyn a elwir yn gyffredin ei chyfansoddiad gramadegol. Mewn ieithoedd sydd yn meddu ychydig o derfyniadau, dylid sylwi fod llawer o'r perthynasau sydd rhwng geiriau a'u gilydd, sef rhwng y syniadau a amlyga geiriau, yn cael eu dynodi gan drefn neu osodiad y geiriau syniadol, cystal a chan arwyddion perthynas. Y mae hyn yn bod i ryw raddau yn mhob iaith, ond yn enwedig mewn iaith o gyfansoddiad ein hiaith ni, sydd yn amddifad o derfyniadau gwahanol i arwyddo gwahanol gyflyrau (*cases*) enwau, nac ond ychydig o derfyniadau i amlygu gwahanol foddau (*moods*) ac amserau (*tenses*) berfau, mewn cymhariaeth i ieithoedd o gyfansoddiad y Groeg a'r Lladin, a rhai ieithoedd ereill o gyfansoddiad cyffelyb. Y mae gallu yr iaith Gymraeg i ddangos perthynas enwau â'u gilydd trwy gyflead, yn enwedig eu perthynas feddiannol, yn rhagori, fe allai, ar unrhyw iaith adnabyddus. Y mae genym lawer o esamplau Ysgrythyrol o hyn, trwy gymharu pa rai â'r Seisoneg y gwelir rhagoriaeth y Gymraeg yn y peth hyn ar unwaith; megys—

C. Pyrth cysgod angeu.
S. The gates of the shadow of death.
C. Cyssegr preswylfeydd y Goruchaf.
S. The holy place of the tabernacle of the Most High.
C. Uchder llwch y byd.
S. The highest part of the dust of the world.
C. Cymun gwaed Crist.
S. The communion of the blood of Christ.
C. Gwrandawydd geiriau Duw, gwybedydd gwybodaeth y Goruchaf, a gweledydd gweledigaeth yr Hollalluog.
S. He, which heard the words of God, and knew the knowledge of the Most High, *and he which* saw the vision of the Almighty.

Gall y Gymraeg gario y dull yma i bellder mawr; megys—

Carnau traed meirch byddinoedd brenin Lloegr,

Dywedir fod cryn raddau o'r rhagoriaeth yma yn perthyn i'r Hebraeg, fel y Gymraeg; megys,

H. Debar ish Höelohim.
C. Gair gŵr Duw.
S. The saying of the man of God.[1]

Y mae y dosbarthiad gramadegol o eiriau a ddewisodd y Dr. Becker yn arwain i ddosbarthu gramadeg yn ddwy brif ran, sef geiryddiaeth (*etymology*) a chystrawen (*syntax*): y rhan gyntaf yn ymdrin â ffurfiau gwahanol eiriau, a'r llall â'u perthynasau pan y cyflëir hwynt mewn ymadrodd.

Gall gair syniadol fod naill ai yn wreiddair neu yn elfen nas gellir ei ddosranu yn mhellach, neu gall fod yn ffurf a ddeillia o'r fath wreiddair; megys, *tân, tanio*—lle nad yw *io* yn derfyniad fel arwydd o berthynas, ond terfyniad sydd yn gwneyd syniad y gair yn wahanol i'r hwn y tardd o hono. Gall gair syniadol hefyd fod yr hyn a eilw y Dr. Becker yn ffurf eilraddol (*secondary form*); megys *mawredd, llydander*, &c.; a dengys yr olaf, er esampl, y treigliadau canlynol:—lled (L., *latus;* Gr., *patos*), lletach, lletaf; llydan, llydander, llydandra, llydanedd, llydaniad, llydanu.

Ni fwriedir haeru, trwy y dosbarthiad yma o eiriau, nas dichon y gallai fod rhai terfyniadau (cystal a rhagddodiadau); megys, *aeth, deb, did, dra,* &c., ar y dechreu yn eiriau syniadol. Barna rhai fod yn debyg fod y cyfryw derfyniadau, ac yn wir pob math o derfyniadau, wedi bod unwaith yn eiriau syniadol; a'u bod, trwy gynnydd arfer, wedi eu cyssylltu yn anwahanol â geiriau neillduol, fel eu hystyrir yn awr, yn mhob ystyr ond ystyr hanesyddol, yn rhan angenrheidiol o'r cyfryw eiriau, er rhoddi iddynt yr ystyr sydd iddynt ar hyn o bryd. Ni fwriedir haeru chwaith nad oedd y geiriau sydd yn awr yn eiriau perthynasol, ar y dechreu yn eiriau syniadol. Yn y gwrthwyneb, mae y Dr. Becker yn addef fod y rhan fwyaf o'r geiriau perthynasol wedi tarddu o fefrau gwreiddiol, ac am hyny eu bod ar y dechreu yn eiriau syniadol; ond eu bod yn awr wedi dyfod i arwyddo perthynasau yn unig, ac nad ydyw eu hystyr yn gwahaniaethu fel y cyfryw oddi wrth derfyniadau treigliad. Dywed fod defnyddiad geiriau perthynasol yn cynnyddu mewn iaith yn ol cyfartaledd lleihad ei threigliadau.

Y mae beirniaid craffus yn ystyried fod dosbarthu geiriau yn syniadol a pherthynasol o gryn bwys mewn ystyr ieithyddol. Y mae amryw yn ammheu a yw yr holl eiriau a eilw y Dr. Becker yn berthynasol wedi eu gosod ganddo ef yn briodol yn y dosbarth hwnw. Y mae efe, er esampl, yn ystyried mai gair perthynasol yn unig ydyw y rhagenw *mi*, yn arwyddo *personoliaeth.* Sylwa hefyd ar gyfryngiaid (*interjections*) nad ydynt "na syniadau na pherthynas syniadau; ac nad ydynt o angenrheidrwydd yn gyssylltiedig â'r ymadrodd." Er y gall y rhan olaf o'r ymadrodd yna fod yn gywir, eto y mae yn dra ammheus a ydyw y rhan gyntaf felly. Fel hyn, er nad oes cyssylltiad angenrheidiol rhwng y cyfryngiad, "O goeden fan!" â chystrawen y ddwy linell ganlynol—

"Y cyfryw dy ddail di, O goeden fan!
Yn dirf, ac ir, a llawn o fywyd gwych,"

eto, y mae yn amlwg fod y cyfryngiad uchod yn cynnwys un o'r syniadau mwyaf pwysig sydd yn y ddwy linell; ac y mae yn anhawdd peidio meddwl fod cyssylltiad agos rhwng y syniad sydd

[1] *Arddcrch, yr Iaith Gymraeg*, gan S. Roberts.

Digitized by Google

yn y cyfryngiad hwn a'r syniad sydd yn y darn ymadrodd o'i flaen yn y llinell gyntaf. Er hyny, nid yw y camsyniadau a nodwyd o eiddo y Dr. Becker yn peri fod yr egwyddor o ddosbarthu geiriau fel rhai syniadol a pherthynasol yn anghywir.

**GAIR DUW.** Gwel BEIBL; YSGRYTHYRAU.

**GAIR DUW.** Yr enw a roddir yn Efengyl Ioan (i. 1) ar yr hwn a "wnaethpwyd yn gnawd" (*adn.* 14) ydyw *Logos* (Λογος)—*Gair.* Yn yr Epistol Cyntaf dynodir ef "yr hyn oedd o'r dechreuad;" a dywedir am dano gan Ioan yn enw yr apostolion, "yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am Air y Bywyd." Yn Llyfr y Dad. (xix. 13), y rhoddir yr enw "Gair Duw" i'r Iesu dyrchafedig, yr hwn oedd yn eistedd ar farch gwyn mewn trefn i fuddugoliaethu ar y bwystfil, y gau brophwyd, a breninoedd gelynol. I'r hwn oedd yn eistedd ar y march gwyn yr oedd llygaid fel fflam dân, "ac yr oedd ganddo enw ysgrifenedig, yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun" (*adn.* 12), a'r enw hwn ydyw "Gair Duw;" ond yn fuan wed'yn, dywedir fod "ganddo ar ei wisg, ac ar ei forddwyd enw wedi ei ysgrifenu, Brenin Breninoedd, ac Arglwydd Arglwyddi" (*adn.* 16). Y mae yr enw olaf yn ei osod allan yn ei berthynas â'r holl fyd fel buddugoliaethwr. Ac y mae ei ystyr yn amlwg i bawb fel buddugoliaethwr. Ond ar y llaw arall y mae yr enw, yr hwn ni wyddai neb ond efe ei hun, yn gosod allan ei hanfod. A'r rheswm pa ham nad yw neb yn ei wybod ond efe ei hun yw, o herwydd fod ei hanfod yn anchwiliadwy; ac er i ddynion weled yr enw, nis gallant amgyffred ei ystyr. Ar ol i Ioan ei ddesgrifio ef fel un parod i ryfel (*adn.* 13), y mae yn chwanegu, "a gelwir ei enw ef Gair Duw." Mae hyn yn ei osod allan fel un, o ran ei natur a'i hanfod, uwchlaw dirnadaeth a dysgrifiad dynol.

Y mae yn amlwg oddi wrth yr adnodau hyn yn ngwahanol ysgrifeniadau Ioan, ei fod ef yn defnyddio *Gair* neu *Logos* i osod allan Iesu Grist—yr hwn a wnaethpwyd yn gnawd, ac a ddyrchafwyd i'r nefoedd. Ond y mae amrywiaeth mawr yn bod o barth i'r ystyr yn mha un y dynodir ef felly. Tybygid nad oes un anhawsder gwirioneddol i gael allan feddwl Ioan wrth ddefnyddio y dynodiad hwn, ond i ni adael i'r Testament Newydd, ac Ioan yn arbenig, fel yr hwn sydd yn ei ddefnyddio yn yr ystyr yr ydys yn ymofyn am dano, gael esbonio eu hunain. Mae yr ymadrodd, *logos*, i'w gael amryw ganoedd o weithiau yn y Testament Newydd, a bron yn ddieithriad y meddwl a'r cyfieithiad o hono ydyw, "Gair." Y mae rhywbeth tebyg i eithriad yn *Mat.* v. 32; "Pwy bynag a ollyngo ymaith ei wraig ond o achos godineb." Yma, ystyr *logos* ydyw achos, rheswm sail. Yn gyffelyb y defnyddir ef yn y manau canlynol: *Act.* x. 29; xviii. 14; xx. 24; *Phil.* iv. 15, 17—"o ba herwydd," "wrth reswm," "cyfrif o ddim," "o ran." Yn *Mat.* xii. 36, cyfieithir ef "cyfrif;" "y rhoddant hwy gyfrif." Yn gyffelyb *Mat.* xxv. 19: "yn gwneuthur cyfrif â hwynt;" "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth;" *Luc* xvi. 2; "rhoddi rheswm;" *Act.* xix. 40: "A rydd gyfrif i Dduw;" *Rhuf.* xiv. 12: "rhoddi cyfrif;" *Heb.* xiii. 17: "a ofyna i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch;" 1 *Pedr* iii. 15: "y rhai a roddant gyfrif;" 1 *Pedr* iv. 5. Yn *Heb.* iv. 13, y mae y cyfieithwyr Cymraeg a Seisoneg wedi gwahaniaethu. Yn y cyfieithiad Cymraeg, "am yr hwn yr ydym yn son," neu "am yr hwn y mae i ni *air;*" yn y Seisoneg, "with whom we have to do;" neu "i'r hwn yr ydym i roddi cyfrif." Yn 1 *Cor.* i. 5, dywed Paul fod y Corinthiaid wedi eu cyfoethogi "mewn pob ymadrodd a gwybodaeth." Yma ystyr y gair *logos* yw athrawiaeth. Yn gyffelyb, 2 *Cor.* viii. 7. Bron yn ddieithriad, heb law yn y cyfeiriadau uchod, cyfieithir *logos*, "gair;" ac y mae y cyfieithiadau uchod, sef *cyfrif* ac *athrawiaeth*, yn gyffelyb eu hystyr i "gair." Yn ysgrifeniadau Ioan—yr Efengyl, yr Epistolau, a'r Dadguddiad—defnyddir *logos* yn fynych; ond nid un amser, ond yn yr ystyr hwn, "gair." Y mae yn amlwg nas gellir cymmhwyso yr ystyron *cyfrif* ac *athrawiaeth* yn Efengyl Ioan (*pen.* i), nac yn ei Epistol Cyntaf (*pen.* i), nac yn *Dat.* xix. Nid yw ychwaith yn gysson â'i ddefnydd Ysgrythyrol i'w ddefnyddio am "un sydd yn llefaru" (*legon*) yn ol rhai; nac am "un addawedig," (*legomenos*) yn ol ereill; na chwaith am "reswm," yn yr ystyr o ddeall neu ddrychfeddwl, yn ol ereill. Y mae hyn oll yn amlwg oddi wrth y ffaith fod Ioan yn galw yr hwn a wnaethpwyd yn gnawd; yr hwn yr oedd cyfeillach a chymdeithas weladwy a theimladwy rhyngddo a'r apostolion; a'r hwn sydd wedi ei ddyrchafu ar ddeheulaw Duw, ac sydd yn dyfod i wneuthur barn ar ei elynion—Hwn, y person hwn, y mae Ioan yn ei enwi y Gair, Gair y Bywyd, a Gair Duw. Yr ymofyniad nesaf ydyw, Yn mha ystyr, neu ar ba gyfrif, y gelwir ef *felly?* Yr ateb sydd wedi cael ei roddi i'r ymofyniad hwn weithiau ydyw, o herwydd mai trwy Iesu Grist y mae Duw wedi rhoddi y dadguddiad uchaf, cyflawnaf, olaf o hono ei hun i ddynion. Dan yr hen oruchwyliaeth: trwy y prophwydi rhoddwyd geiriau unigol, un yma ac un acw, a hyny i'r un genedl hono: ond trwy Grist y mae holl Feddwl neu Air Duw wedi ei ddadguddio i'r byd. Yn ol y golygiad hwn, nid ar gyfrif ei berson, ond ar gyfrif ei swydd; nid o herwydd ei hanfodiad tragwyddol, ond mewn canlyniad i'w anfoniad i'r byd, y gelwir ef yn Air Duw. Ond a ydyw hyn yn gysson â dull yr apostol yn llefaru am dano? Onid ydyw yn amlwg i'r gwrthwyneb? Nid o herwydd iddo ddyfod i ddadguddio Duw y gelwir ef y Gair: ond gosodir ef allan fel y Gair yn ei hanfodiad tragwyddol: "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair." Yn mhellach, y Gair ydyw ffynnonell y greadigaeth, awdwr goleuni a bywyd: y Gair hefyd a wnaethpwyd yn gnawd; ac nid wedi ei wneuthur yn gnawd, y daeth i fod y Gair. Y mae hyn oll yn rhagdybied mai ar gyfrif ei gynhanfodiad tragwyddol y gelwir ef felly, ac nid ar gyfrif ei ymgnawdoliad. "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd;" ac nid trwy ei ymgnawdoliad y daeth i fod y Gair. Y mae ystyriaeth o'r manau ereill y gelwir ef felly yn arwain i'r un penderfyniad. "Yr hyn oedd o'r dechreuad," ond wedi hyny a welwyd gan yr apostolion, yn ei ymddangosiad daearol, hwnw ydoedd Gair y Bywyd, y Bywyd tragwyddol, yr hwn ydoedd gyda'r Tad, ond yn awr a eglurhawyd i'r byd (1 *Ioan* i. 1.)

Gwyddai Ioan o enau yr Arglwydd Iesu yn sefyllfa ei ddarostyngiad fod iddo ogoniant gyd a'r Tad cyn sylfaenu y byd. Rhoddes y Tad i'r Mab fod ganddo fywyd ynddo ei hun. Yn Llyfr y Dadguddiad, y mae y Gwaredwr yn ymddangos fel ffynnonell bywyd bob creadur—yn Alpha ac Omega. Gwyddai Ioan fod yr hwn a wnaethpwyd yn gnawd yn hanfodi o flaen ei ymgnawd-

Digitized by Google

oliad, ei fod yn y dechreuad gyda Duw, ei fod yn Dduw, fod pob peth wedi ei wneuthur trwyddo, mai ynddo ef yr oedd bywyd:—ei fod, cyn ei ymddangosiad yn y cnawd, yn fywyd tragwyddol ynddo ei hun, ac yn ffynnonell bywyd i'r greadigaeth. Yn awr y mae cymhwysder neillduol yn yr enw "Gair" a "Gair Duw" i osod allan yr holl wirioneddau hyn. (1). Ei fod o'r *un hanfod* a'r Tad; o herwydd y mae gair yn ddelw, yn adlewyrchiad y meddwl; felly y mae yr hwn sydd yn Air Duw, yn ystyr cyflawn a pherffaith yr ymadrodd, yn "ddysgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef." (2). *Ei berthynas â'r Tad.* Fel y mae yr hwn sydd yn llefaru yn rhoddi bywyd i'w air, felly y rhoddes y Tad i'r Mab fod ganddo fywyd ynddo ei hun. (3). *Ei fod yn gyfrwng pob dadguddiad o eiddo Duw i'r byd.* Trwy Air Duw y crewyd y bydoedd (*Gen.* i.): trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd (*Salm* xxxiii. 6; *Diar.* viii.); trwy air Duw yr oedd y nefoedd a'r ddaear yn cydsefyll (2 *Pedr.* iii. 5).

Y mae yr enw *Mab* yn gosod allan y ddau wirionedd cyntaf, fe allai, gyda mwy o gyflawnder na'r enw *Gair;* ond yr olaf sydd yn gosod allan gyflawnaf ei berthynas â'r byd fel Creawdwr, Cynhaliwr, ac fel cyfrwng dadguddiad Duw i'w greaduriaid.

Nid yw o bwys i benderfynu pa un a ydyw y cyfeiriadau uchod at Air Duw yn yr Hen Destament i'w deall mewn ystyr personol, mewn trefn i'n galluogi ni i benderfynu a ydyw Ioan yn llefaru am y *Gair* mewn ystyr personol. Dygwyd Ioan oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist ei hun, a chafodd ei ysbrydoli gan yr Ysbryd Glân i adnabod person dwyfol y Gwaredwr fel yn un o ran ei hanfod â'r Tad; yn ei berthynas â'r Tad fel person gwahaniaethol; ac yn ei berthynas â'r greadigaeth fel ffynnonell bywyd a goleuni i bob creadur: *Mat.* xvi. 17; *Ioan* i. 14. Y mae ysgrifenwyr wedi ymofyn yn fynych o ba le y cafodd Ioan ei athrawiaeth am y *logos*, ac wedi ceisio ei holrhain i lyfrau yr Apocrypha, at Philo yr athronydd Iuddewig, ac at Plato. Y mae yn hawdd gweled nad ydyw ysgrifenwyr fel y rhai hyn yn edrych ar y Beibl fel dadguddiad dwyfol, onid e, gwelsent fod geiriau Crist yn esbonio tarddiad athrawiaeth Ioan am berson y Cyfryngwr fel am bob gwirionedd arall perthynol: "Nid cig a gwaed a ddadguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd." Ac am y gwahaniaeth rhwng ystyr y gair *logos* yn ysgrifeniadau Philo a Plato, gyda'r erthyglau ar yr athronwyr hyn, gwel GNOSTICIAETH.

Athrawiaeth Ioan am y "Gair" ydyw ei fod wedi ei wneuthur yn gnawd, yn Iesu o Nazareth, a'i fod cyn sylfaenu y byd, o'r un hanfod a'r Tad, ei fod yn gyfrwng pob dadguddiad o eiddo Duw i'r byd, ac yn ffynnonell pob bywyd naturiol ac ysbrydol. "Y mae i'r Tad fywyd ynddo ei hun, ac efe a roddes i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun;" *Ioan* v. 26. Yma ni a welwn y gwahaniaeth personol rhwng y Tad a'r Mab, ac hefyd unoliaeth hanfod rhyngddynt. Y mae y Gair, yn yr hwn y mae bywyd, yr hwn ydyw bywyd ei hunan, gyda Duw, ac yn Dduw (*Ioan* i. 1). Y mae y Tad yn y Mab, a'r Mab yn y Tad (xiv. 10): yr hwn sydd yn gweled y Mab sydd yn gweled y Tad, o herwydd y mae bywyd y Tad yn y Mab, a thrwy y Mab—y Gair—y mae yn ffrydio allan. Y mae cyfraniad triphlyg o fywyd trwy y Gair: yn gyntaf, trwy y Gair y crewyd y byd; y rhoddwyd bod i fywyd naturiol ac ysbrydol (*Ioan* i. 3; *Col.* i. 16): yn nesaf, trwy y Gair, y Mab, yn unig y mae "bywyd tragwyddol, adnabyddiaeth o'r Tad, a chymdeithas âg ef, yn cael eu cyfranu (*Ioan* i. 14; xiv. 6; xvii. 2): ac yn drydydd, trwy y Mab y mae perffeithiad bywyd naturiol ac ysbrydol (*Ioan* vi. 40; xi. 25; v. 21).

Gan fod y Gair yn gyfrwng pob dadguddiad dwyfol, yr ydoedd yn gyfrwng dadguddiad yr Hen Destament i genedl Israel. Y genedl hon oedd ei "eiddo ei hun," eto "yr eiddo ei hun nis derbyniasant ef" (*Ioan* i. 5, 11).

Gogoniant y Gair a ymddangosodd i Esaiah yn y deml (xii. 41), pan welodd yr Arglwydd yn eistedd ar orseddfainc, a'r seraphiaid yn llefain y naill wrth y llall "Sanct, Sanct, Sanct" (*Esa.* vi. 2, 3). Y mae cymharu yr Hen Destament â'r Newydd yn yr enghraifft hon yn brawf fod yr hwn sydd yn gweled y Gair yn gweled Iehofah. Yn gyffelyb, *Dad.* i. 8; Iesu Grist yw "yr hwn sydd, a'r hwn oedd, a'r hwn sydd i ddyfod, yr Hollalluog."

Y mae yr ymadroddion, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair" (*Ioan* i. 1), ac "o'r dechreuad" (1 *Ioan* i. 1), yn gosod allan y Gair fel y "bywyd tragwyddol, yr hwn oedd gyda'r Tad" (1 *Ioan* i. 2); ac o ganlyniad, y mae "yn y dechreuad" ac "o'r dechreuad," yn arwyddo, o dragwyddoldeb, neu yn ddiddechreuad. Y mae Ioan yn clywed o enau yr Iesu dyrchafedig, "Myfi yw Alpha ac Omega, y dechreu a'r diwedd;" yr hyn nis dichon arwyddo dim llai na thragwyddoldeb. Y mae yr enw sydd yn briodol i'r Iehofah, ac yn gosod allan ei dragwyddoldeb, yn cael ei ddefnyddio gan yr Iesu am dano ei hun.

Y mae yn hawdd gweled mor gyfaddas ydyw y golygiad hwn am y *Logos: Dad.* xix. 11, &c. Y mae yr Iesu yn ymddangos mewn trefn i fuddugoliaethu ar y bwystfil—y gau brophwyd a'i ganlynwyr—ac yna i rwymo Satan am fil o flynyddoedd; yna y bydd i wir ganlynwyr yr Iesu deyrnasu gydag ef am fil o flynyddoedd (xx. 1), ac fe fydd priodas yr Oen (xix. 6—9). Y sicrwydd am ganlyniadau buddugoliaethus, ac ymddangosiad gogoneddus yr Arglwydd Iesu ydyw yr enw a welodd Ioan ar yr Iesu: ac nid yn unig yr enw a welodd ar ei wisg ac ar ei forddwyd —"Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi" (*Dad.* xix. 16), ond hefyd yr enw dirgeledig yr hwn ni wyddai neb ond ef ei hun: *adn.* 12. Y mae fod Ioan yn analluog i ddeall yr enw hwn, na neb ond yr Iesu ei hun, yn dangos gogoniant dwyfol yr hwn oedd yn dwyn yr enw. Y mae yr enw *Logos* yn sicrwydd pan ddaw yr Iesu y bydd y fuddugoliaeth yn eiddo iddo. Os ydyw y *Gair* yn arwyddo tebygolrwydd yr Iesu o ran hanfod i'r Tad, ac mai efe ydyw ffynnonell a chyfrwng gweithredoedd Duw, mewn creadigaeth a phrynedigaeth, y mae yn amlwg pa fodd y mae ei enw yn sicrwydd o orpheniad ei waith.

Yn chwanegol at y sylwadau blaenorol, ni a roddwn grynodeb o sylwadau Alford yn ei esboniad; y rhai a grynhodd, ebe fe, o esboniad Lucke, De Wette, Dorner ar berson Crist, ac esboniad Olshausen.

Y mae *logos* yn cael ei ddefnyddio gan Ioan, heb un esboniad, fel yn dwyn ystyr adnabyddus i'w ddarllenwyr. Rhaid i ni chwilio i mewn i'w ystyr gan hyny yn fwy ar dir *hanesiol* nag ar dir *gramadegol.* Elfenau pwysicaf yr ymchwiliad ydynt—1. Ystyr arferol y gair *logos* yn Ioan ac ysgrifenwyr Beiblaidd ereill. 2. Y wybodaeth hanesiol a feddwn o barth i'r drychfeddyliau a gyssylltir â'r gair. (1). Dan y pen cyntaf, ni a



Digitized by Google

gawn nad yw y gair byth yn cael ei ddefnyddio yn Ioan nac mewn ysgrifenwyr Beiblaidd ereill i arwyddo *y rheswm* neu *y meddwl* dwyfol, na chwaith am reswm na meddwl un creadur. Gosodir allan y drychfeddyliau hyn trwy *ysbryd* (πνευμα); *calon* (καρδια); *meddwl* (νους), neu ddoethineb Duw. Mewn awduron clasurol, nid ydyw *logos* byth yn arwyddo y gynneddf i ymresymu sydd yn enaid dyn, ond y rheswm allanol a roddir dros hyn neu arall. Ystyr Beiblaidd cyffredin y gair ydyw *gair, ymadrodd* (*word, speech*). Wrth air Duw y meddylir *gair creadigol, mynegiadol*, a *gorchymynol Duw*. 2. Mai hyn ydyw ei ystyr yn adnodau cyntaf Ioan, sydd amlwg oddi wrth y cyssylltiad sydd rhyngddynt a hanes y greadigaeth yn Genesis. Nid yw ὁ λόγος yn arwyddo priodoledd yn Nuw, ond gweithrediad sylweddol trwy yr hwn y mae y Tragwyddol a'r Anfeidrol yn achos cyntaf y crëedig a'r meidrol. (3.) Drachefn, y mae *logos* yn Ioan tu hwnt i ammheuaeth yn *bersonol*—nid personoliad, na syniad—nid gair Duw yn llefaru trwy y prophwydi, ac wedi hyny yn helaethach ac yn gyflawn yn Nghrist—ond *person;* o herwydd ni ellir dyweyd ond am berson, a'r "Gair oedd gyda Duw;" "y Gair a wnaethpwyd yn gnawd;" "a Duw oedd y Gair." (4.) Y mae Λογος yr un ag *Iesu Grist*, Mab tragwyddol Duw: cymharer *Ioan* i. 14, 15. (5.) Y mae Iesu Grist yn Air Duw; nid am ei fod ef yn llefaru y Gair (fel pe byddai ὁ λογος=ὁ λεγων, yr hyn sydd yn groes i bob arferiad): na chwaith am ei fod yr hwn a lefarwyd am dano neu a addawyd; yr hyn sydd yn fwy anghysson âg arferiad iaith: ac nid chwaith am mai efe ydyw awdwr a ffynnonell y Gair a leferir yn yr Ysgrythyr—y mae *bywyd* a *goleuni* yn arwyddo chwaneg na'i fod ef yn rhoddi bywyd a goleuni—ond o herwydd fod y gair yn preswylio yn, ac yn llefaru o hono ef, fel y mae y goleuni yn trigo yn, ac yn llewyrchu o hono ef; a'r bywyd yn byw yn, ac yn gweithio o hono ef. (6.) Nid yw y *Logos* a wnaethpwyd yn gnawd yn gynnyrch amser na lle (iii. 31; vii. 58), ond yn cynhanfodi o dragwyddoldeb, ac wedi ei ddadguddio mewn amser a lle, er dybenion grasol y prynedigaeth (iii. 16, 17). (7.) Y λογος a lefarodd yn y gyfraith a'r prophwydi, eto yn anmherffaith ac mewn rhan (*adn.* 17; v. 39, 46); ond yn y Gair personol, efe a lefarodd yn gyflawn o ras a gwirionedd. Efe a wnaeth y bydoedd (*adn.* 3); efe a ymddangosodd i Esaiah (*Esa.* vi; *Ioan* xii. 41); ei ogoniant ef a amlygwyd yn ei allu ar natur (ii. 11); derbyniad o hono ef sydd yn enedigaeth newydd (i. 12, 13); mae ganddo awdurdod ar bob cnawd (xvii. 2); efe sydd yn rhoddi bywyd tragwyddol. Yr oedd hyd yn oed ei ddyoddefiadau ef yn ogoniant iddo, ac yn ogoniant i Dduw (xvii. 1, &c.). Ac ar ol ei ddyoddefiadau y mae ganddo y gogoniant oedd iddo gyda'r Tad cyn sylfaenu y byd (xvii. 24).

2. (1.) Pa fodd y cafodd Ioan y gair *logos* yn barod i'w law fel nad oedd raid iddo ei egluro i'w ddarllenwyr? Ceir yr ateb i hyn trwy olrhain personoliad graddol gair a doethineb Duw yn yr Hen Destament ac ysgrifeniadau Iuddewig. (2). Ni a gawn amlygiadau o'r personoliad hwn yn *Salmau* xxxiii. 4, 6; cxix. 89, 105; cvii. 20; cxlvii. 15, 18. Ond cynnyrch dull barddonol o ymadroddi yn unig ydoedd; o herwydd y mae holl ddull a ieithwedd dadguddiad yr Hen Destament yn ei osod allan fel dadguddiad *Gair* Duw. "*Dywedodd* Duw bydded" yn y greadigaeth. Llefaru yr oedd Duw wrth ddynion, naill ai yn uchel neu ynte mewn gweledigaethau. Y Gair ydoedd yn y prophwydi; y Gair yn y gyfraith; y Gair yn holl ymwneyd Duw â dynion: *Esa.* lv. 10, 11; xl. 8; *Ier.* xxiii. 29. (3.) Ac fel mai gair Duw ydoedd yr ymadrodd am ddadguddiedigaethau Duw yn eu perthynas â dynion; felly doethineb Duw a ddynodai y rhai oedd yn dwyn perthynas â'i hanfod a'i briodoliaethau ei hun. Yr oedd yn naturiol dysgwyl i'w ddoethineb gael ei amlygu ar ol ei air creadigol yn nhrefn dadguddiedigaethau Duw. Hollalluogrwydd a amlygwyd gyntaf, ac yna doethineb a sancteiddrwydd Duw. Yn llyfrau Iob (xxviii. 12, &c.) a'r Diarebion (viii. ix ), y mae doethineb yn cael ei phersonoli; a hyny mewn ymadroddion amlwg a tharawiadol yn Diarebion, a hyn nid yn farddonol yn unig ond yn ymarferol—yn priodoli i ddoethineb Duw ei holl ddadguddiedigaethau o hono ei hun yn y greadigaeth a rhagluniaeth. Felly yr oedd y ddoethineb hon yn cynnwys ynddi ei hun gallu Duw; ac nid oedd eisieu ond y briodoledd uchaf, sef *cariad*, i gyflawnu y drychfeddwl. Ond cadwyd yr amlygiad o hyn hyd y Testament Newydd. (4.) Yn nesaf, ni gawn ddoethineb yn cael ei phersonoli yn llyfrau yr Apocrypha. Yn Doethineb Iesus (i. 1—10), dywedir, "Oddi wrth yr Arglwydd y daeth pob doethineb, a chydag ef y mae hi byth;" "Crewyd doethineb yn gyntaf o'r cwbl" (*adn.* 4; a xxiv. 9—21). (5.) Yr oedd yr Iuddewon yn Alexandria yn hynod am eu *gnôsis*, neu athroniaeth grefyddol; yr hyn a gyfododd o gymmysgedd o'r elfen grefyddol Iuddewig ac athroniaeth y Groegiaid; ac o'r gymmysgedd hon Philo ydyw y cynnrychiolydd cyflawnaf. Y mae ei ysgrifeniadau ef yn frith o anghreifftiau o bersonoliad doethineb a gair Duw. Ond fel y sylwasom o'r blaen, y mae pellder mawr ac eglur rhwng yr hyn a ddeallai efe wrth *logos*, a'r hyn a ddeallir yn y Testament Newydd. Nid oedd Philo yn galw y Messïah yn *logos*, er y gwyddai am y Messïah. Fe ysgrifenodd o B.A. 40 i 50. Wrth *logos* yr oedd efe yn deall drychfeddyliau dwyfol, y rhai a alwai mewn ieithwedd Hebreaidd yn *angelion;* neu un a gynnwysai y drychfeddyliau hyny, yr hwn a alwai yn *archangel.* Am y gwahanol farnau am olygiadau Philo, mae nodyn yn *Dorner on the Person of Christ*, cyf. i, td. 22. (6.) Defnyddiai yr esbonwyr Caldeaidd y cyfryw ymadroddion—"y gogoniant," "y presennoldeb," a "gair Duw"—mewn ystyr personol. (7.) Oddi wrth yr elfenau Alexandriaidd ac Iuddewig hyn cyfododd yn fuan yn mhlith y Cristionogion cyntaf ymadroddion cyffelyb. Yn ysgrifeniadau Paul y mae yr anghreifftiau egluraf. Yr oedd Paul yn gydnabyddus â'r ddwy elfen hyn trwy Gamaliel ei ddysgawdwr; ond nid yw Paul yn defnyddio *logos* mewn ystyr personol am Fab Duw. (8.) Y mae yr Epistol at yr Hebreaid yn cynnwys yr anghreifftiau mwyaf nodedig: *Heb.* i. 1, &c. (9.) Yr oedd y *gnôsis* Alexandriaidd mewn mwyaf o fri yn Ephesus, lle yr ysgrifenodd Ioan ei Efengyl, yn ol pob tebygolrwydd. (10.) Y mae y nodiadau hyn yn esbonio pa fodd y daeth y gair *logos* i arferiad, fel nad oedd yn angenrheidiol i Ioan egluro ei ystyr wrth ei ddarllenwyr. Ac y mae ei fod yn gwrthwynebu mor gryf yn ei ysgrifeniadau syniadau y Gnosticiaid, yn dangos i ni pa ham y mae yn amddiffyn tragwyddol hanfodiad a phriodoliaethau y Gair Dwyfol. (11.) Nid oes dim yn y sylwadau hyn yn awgrymu fod neb o ysgrifenwyr y Testament Newydd wedi mabwysiadu mewn un gradd er *hathrawiaethau oddi wrth gyfundraethau athron-*

Digitized by Google

*yddol.* Y mae eu hathrawiaethau hwy, y rhai ydynt yn hollol wahanol oddi wrth addysg athronyddol, wedi eu derbyn oddi wrth yr Ysbryd Glân. Ac mor bell ag yr oedd athroniaeth ddynol, gyda'i holl ddiffygion a'i ffolineb, yn gwasanaethu, trwy ei geiriau neu ei drychfeddyliau, y gwaith yr oedd yr Ysbryd Glân yn ei ddwyn oddi amgylch trwy yr apostolion, yr oeddynt yn ddarpariadau Rhagluniaeth mewn trefn i ddwyn meddyliau dynion i dderbyn "y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu."

1. GAIUS, [Γαῖος=*daiarol*, neu *llawen*]: un o gydymdeithion Paul (*Act.* xix. 29), yr hwn hefyd a fedyddiwyd gan yr apostol (1 *Cor.* i. 14); yr hyn sydd yn arwyddo mai Paul a'i hennillodd i'r ffydd. Ymddengys mai brodor o Derbe ydoedd (*Act.* xx. 4)—dinas fechan o Lycaonia, yn Asia Leiaf, wrth odre mynyddoedd Taurus, trigain milltir i'r de-ddwyrain o Iconium, a deunaw milldir i'r dwyrain o Lystra. I'r lle hwn y ffoes yr apostol Paul a Barnabas, pan y gwnaed "rhuthr (yn Iconium) gan y Cenedloedd a'r Iuddewon yn nghyd â'u llywodraethwyr, i'w hanmherchi hwy, ac i'w llabyddio" (*Act.* xiv. 2); ac fe allai mai y pryd hyny y dygwyd ef i'r ffydd trwy offerynoliaeth yr apostol. Ymddengys iddo ymsefydlu wedi hyny yn Corinth, ac iddo groesawu Paul yn ystod ei arosiad yn y dref hono; ac mai yn ei dŷ ef yr ysgrifenodd yr apostol ei Lythyr at y Rhufeiniaid: *Rhuf.* xvi. 23. Yn Corinth hefyd y bedyddiwyd ef gan yr apostol: 1 *Cor.* i. 14. Pan yr aeth Paul i Asia, ymddengys i Gaius ac Aristarchus ei ddilyn i Ephesus, lle y buont yn preswylio dros ryw ysbaid; a phan gynhyrfodd Demetrius y gwneuthurwyr delwau i godi y cythrwfl mawr yn nghylch Diana, rhuthrodd yr Ephesiaid i'r orsedd, gan gipio Gaius ac Aristarchus: *Act.* xix. 29.

2. GAIUS: i'r hwn y cyflwynodd yr apostol Ioan ei drydydd llythyr. Y mae amryw esbonwyr yn meddwl mai yr un person ydoedd ag a nodwyd uchod; ond y mae ereill yn gwahaniaethu gan y dywedir mai brodor o Derbe yn Lyaconia oedd hwnw (*Act.* xx. 4), ac nid o Macedonia. Y gwir yw, fod yr enw gynt mor gyffredin, fel y mae yn anhawdd penderfynu yn ddiammheuol pwy oedd y person yr ysgrifenodd Ioan ato. Mae ei ymddygiad yn dra thebyg i ymddygiad lletty-wr Paul yn Corinth, yr hwn oedd yn hynod am ei haelioni a'i gymmwynasgarwch Cristionogol; a dyma y prif rinweddau o blegid y rhai y canmola yr apostol Ioan y Gaius yr ysgrifenai yntau ato. Y mae'n debyg fod Gaius o Derbe yn adnabyddus yn Ephesus, gan iddo fod yno gyda Phaul, mewn perygl mawr, fel y dangoswyd uchod; a chan fod Ioan yn ysgrifenu o Ephesus, y mae cryn le i gasglu mai yr un Gaius oedd hwn a chydymaith Paul, er nad ydyw hyny yn benderfynol.—Gwel Ioan, Trydydd Epistol.

GAL.—Gwel Ffrainc.

1. GALAL, [גלל=*tra theilwng*; Γαλαάλ]: Lefiad, un o feibion Asaph: 1 *Cron.* ix. 15.

2. GALAL: Lefiad arall, o deulu Elcanah: 1 *Cron.* ix. 16.

3. GALAL: Lefiad eto, mab Ieduthun: *Neh.* xii. 17.

GALAR—U, cwynfan, alaeth, tristwch, wylofain, ochain, udo. Y mae dau fath neillduol o alar yn cael eu dysgrifio yn y Beibl; sef galar ar ol y marw, a galar edifeiriol am bechod, y rhai a amlygid mewn dulliau tra thebyg yn ngwledydd y dwyrain; ac am hyny ymdrinir â hwy yn yr erthygl hon mewn cyssylltiad â'u gilydd. Y cyfeiriad cyntaf at un math o alar sydd yn y Beibl, a ddygwyddodd, yn ol barn rhai amseryddwyr, yn y flwyddyn 2130 C.C.; pan fynegwyd i Iob am ddinystr ei blant fel eithafion ei drychineb, efe a gyfododd, ac a rwygodd ei fantell, ac a eilliodd ei ben, ac a syrthiodd i lawr, ac a addolodd (*Iob* i. 20); a chan gydnabod ei ymostyngiad duwiol i drefn Duw (*adn.* 21), efe a eisteddodd yn y lludw (ii. 8). Pan glywodd ei gyfeillion am ei adfyd dirfawr, cytunasant â'u gilydd i fyned ato i gydofidio âg ef, ac i'w gysuro (ii. 11): dyrchafasant eu llef, ac wylasant wrth weled fod ei ddolur ef yn fawr iawn—rhwygodd pob un ei fantell, a thaenasant lwch ar eu penau tua'r nefoedd (*adn.* 12); ac eisteddasant gydag ef ar y ddaiar saith niwrnod a saith noswaith, gan ddysgwyl i'w ofid leihau ychydig cyn dechreu ar eu swydd fel galarwyr (*adn.* 13). Yn *pen.* iii, torant allan i gwynfan o blegid ei sefyllfa anneddwydd. Yn *pen.* xvi. 15, 16, cyfeirir at yr arfer o wnïo sachlen ar y croen, gan halogi y pen â llwch, a diwyno y wyneb â dagrau. Cyfeirir at lefain a gwaeddi mewn galar yn *pen.* xix. 7; xxx. 28. Ystyrid mai rhan dyn annuwiol a'r rhagrithiwr oedd ei gladdu heb i'w wragedd gweddwon wylo ar ei ol: *pen.* xxvii. 13—15. Pan adferwyd Iob o'i ofidiau, daeth ei holl geraint a'i gydnabod ato i gwyno iddo, ac i'w gysuro o blegid ei flinderau blaenorol; yr hyn a ymddengys fel math o alar cysurol, er mwyn mwyhau yr hyfrydwch trwy adgofion am y trallodau oedd wedi pasio: *pen.* xlii. 11. Yn wir, ceir amlygiadau o lawenydd serchiadol a gofid yn cydgyfarfod; megys y syrthiodd Ioseph ar wddf ei frawd Beniamin, ac yr wylodd: *Gen.* xlv. 14: cymharer *Act.* xx. 37, 38, a *Gen.* l. 1. Y mae Llyfr Iob, fel y canfyddir wrth fyned yn mlaen, yn dwyn ger bron agos i holl brif nodweddau galar dwyreiniol, pa mor anhawdd bynag ydyw rhoddi cyfrif am hyny. Yr esampl nesaf o alar, yw galar Abraham am Sarah, yr hyn a ddigwyddodd, yn ol amseriad rhai, yn 1871 C.C. Dengys yr hanes am hyn y dull o alaru a arferid y pryd hyny: *Gen.* xxiii. 2. Yn *Gen.* xxvii. 41, cyfeirir at ddyddiau galar Isaac mewn rhagddysgwyliad o'i farwolaeth gan Esau. Ymddengys mai nifer dyddiau galar yn gyffredin oedd saith, megys am Saul: 1 *Sam.* xxxi. 13: cymharer *Iudith* xvi. 24; *Eccles.* xxii. 12. Ymddengys fod wylo naill ai yr arwydd penaf o alar neu yn enw cyffredin am dano; am hyny pan gladdwyd Deborah, mamaeth Rebeccah, dan dderwen yn Bethel, galwyd y pren *Allon-bacuth*—derwen wylofain: *Gen.* xxxv. 8. Clybu Moses feibion Israel yn wylo drwy eu tylwythau, bob un yn nrws ei babell: *Num.* xi. 10; cymharer xiv. 1; xxv. 6. Y mae y cyfeiriadau at ddagrau mor luosog yn yr Ysgrythyrau, fel y gellid meddwl y gallai y dwyreinwyr wylo agos pan y mynent: cymharer *Salm* vi. 6. Golchodd y wraig draed ein Harglwydd â'i dagrau: *Luc* vii. 38; cymharer *Eccles.* xxxviii. 17. Cadarnheir y syniad yma yn yr hanes am ddyrchafu y llais, ac wylo, a geir yn *Ruth* i. 9; 1 *Sam.* xi. 4; 2 *Sam.* iii. 32; xiii. 36. Ceir amlygiad o dymmer gyffrous y dwyreinwyr mewn dull arall: byddent yn llefain gan lawenydd, ac yn udo mewn galar: *Ioel* i. 13; *Micah* i. 8, &c. Rhwygodd Reuben ei ddillad pan welodd fod Ioseph wedi ei gymmeryd o'r pydew (*Gen.* xxxvii. 29); a mynegodd

Digitized by Google

ei alar trwy ddyweyd nas gwyddai efe pa beth a wnai: *adn.* 30. Pan glywodd Iacob y newydd galarus am golledigaeth ei hoff fab, gosododd sachlen am ei lwynau, a galarodd am ei fab ddyddiau lawer; a'i holl feibion a'i holl ferched a godasant i fyny i'w gysuro ef, tra y rhydd yntau rwysg i ofid dwys, trwy wrthod cymmeryd cysur; "a'i dad a wylodd am ei fab;" *adn.* 30. Ceir hanes hefyd am frodyr Ioseph, ar achlysur tra gwahanol, yn rhwygo eu dillad (*Gen.* xliv. 13); ac y mae y weithred hon y fath amlygiad o alar neu ddychryn fel y crybwyllir am dani mewn llawer o fanau yn yr Ysgrythyrau hyd oes ddiweddaf y llywodraeth Iuddewig: *Act.* xiv. 14. Y mae y cyfeiriadau hefyd at roddi sachlen am y lwynau fel arwydd o alar, bron mor luosog yn yr Ysgrythyrau. Ceir hanes am hyd yn oed orwedd mewn sachlian (1 *Bren.* xxi. 27); ac am wisgo dyn ac anifail â sachlen yn Ninefeh: *Ionah* iii. 8. Syrthiodd brodyr Ioseph i lawr o'i flaen, fel arwydd o ofid (*Gen.* xliv. 14); ac yr oedd hyn, neu orwedd, neu eistedd ar y ddaiar, yn arwydd cyffredin o alar. Cymharer *Salm* xxxv. 14; 1 *Sam.* xxv. 24; *Esa.* iii. 26; xlvii. 1; *Ezec.* xxvi. 16, &c.

Y dygwyddiad nesaf a goffeir ar y pwnc yma ydyw galar yr Aiphtiaid ar ol Iacob, yr hyn a ddygid yn mlaen, fel yr ymddengys, gan alarwyr wrth eu swydd, am ddeng niwrnod a thrigain (*Gen.* l. 3), a elwid yn "ddyddiau arwyl" (*adn.* 4), er fod yn dra thebyg fod y nifer hwn yn cynnwys dyddiau y perarogliad hefyd [*Wilkinson's Anc. Egypt*, v. 454, 459]. Ymddengys fod hwn braidd yn gyfartal i alar am freninoedd, o blegid y parch yn ddiammheu a goleddid at Ioseph. Dywed Herodotus y byddai yr Aiphtiaid yn galaru am frenin dros ddeuddeng niwrnod a thrigain. Adnewyddwyd y galar am Iacob trwy orchymyn Ioseph, â "galar mawr a thrwm iawn," ar ol i gerbydau y claddedigaeth gyrhaedd Gwlad Canaan; a pharhaodd am saith niwrnod: *adn.* 10. Ymddengys i angerddoldeb y galar yma synu hyd yn oed y Canaaneaid, ac am hyny galwasant y lle y cynnelid ef yn Abel-Misraim, sef "galar yr Aiphtiaid;" *adn.* 11. Dengys Diodorus y byddai yr Aiphtiaid ar farwolaeth brenin yn rhwygo eu dillad, yn cau y temlau, yn gwahardd aberthau, ac yn ymattal oddi wrth wleddoedd. Byddai gorymdaith o ddau neu dri chant o bersonau yn crwydro trwy yr heolydd, gan luchio llwch a llaid ar eu penau, a chanu galarnad ddwywaith yn y dydd er anrhydedd i'r trancedig. Yn y cyfamser, byddai y bobl yn ymattal oddi wrth ymolchi, ymiro, pob danteithion, ac hyd yn oed oddi wrth fara gwenith [*Diod*, i. 72, 91]. Y mae yr Aiphtiaid wedi bod bob amser yn enwog o blegid bloeddiadau eu galar: "yr oedd gwaeddi mawr yn yr Aipht" ar farwolaeth pob cyntafanedig yn y wlad: *Exod.* xii. 30. Pan oedd plant Israel yn galaru dan fygythiad anfoddlonrwydd dwyfol (c. c. 1491), "ni wisgodd neb ei harddwisg am dano;" *Exod.* xxxiii. 4: cymharer *Ioel* ii. 16; *Ezec.* xxiv. 17. Gwaharddwyd i'r Iuddewon "wneyd toriadau yn eu cnawd am un marw;" *Lef.* xiv. 28. Nid oedd yr hen Aiphtiaid chwaith, yn ol Herodotus (ii. 61), yn tori eu hunain: ymddengys oddi wrth brophwydi Baal (1 *Bren.* xviii. 28), mai defod Syriaidd oedd yr arfer farbaraidd hono. Ni oddefid chwaith i Israel "wneyd moelni rhwng eu llygaid dros y marw;" *Deut.* xiv. 1. Ni oddefid i'r offeiriaid ddiosg oddi am eu penau wrth alaru (*Lef.* x. 6), na rhwygo eu gwisgoedd, na gwneyd un math o seremoni a'u hanurddai wrth alaru, oddi gerth ar ol eu perthynasau agosaf (*Lef.* xxi. 1—4): ond gwaherddid i'r archoffeiriad wneyd hyd yn oed hyny "nac am ei dad, nac am ei fam" (*adn.* 11); a gwaherddid yr un modd i'r Nazareaid: *Num.* vi. 7. Ymddengys fod y gwaharddiadau gyda golwg ar y pen a'r farf (*Lef.* xix. 27) yn cael eu cyfyngu at achlysuron ar ol y marw yn unig, a'u bod yn gyfreithlawn ar amgylchiadau ereill o alar: cymharer *Ezra* ix. 3; *Iob* i. 20; *Esa.* xxii. 12; *Ier.* vii. 29; *Micah* i. 16. Yr oedd hyd yn oed y bwyd yr ymborthid arno gan alarwyr yn cael ei ystyried yn aflan: cymh. *Deut.* xxvi. 14, â *Hos.* ix. 4, ac *Ezec.* xxiv. 17. Gorchymynid i'r Iuddewon gystuddio eu heneidiau ar ddydd y cymmod (*Lef.* xxiii. 27), ac ar ŵyl caniad yr udgyrn: *Num.* xxix. 1, 7. Galarodd holl dŷ Israel am Aaron dros ddeng niwrnod ar ugain: *Num.* xx. 29. Yr oedd yn ofynol i wraig brydweddol a gaethiwid, yr hon y caniatâai y gyfraith ei phriodi, wylo am ei thad a'i mam fis o ddyddiau; ac ystyria rhai mai fel arwyddion o alar y gorchymynid iddi eillio ei phen a thori ei hewinedd: *Deut.* xxi. 11, 13. Fe wylodd yr Israeliaid am Moses ddeng niwrnod ar ugain: *Deut.* xxxiv. 8; c. c., 1451. Rhoddodd Iosuah a henuriaid Israel lwch ar eu penau, yn gyssylltiedig âg arwyddion ereill o alar, pan y ffoisant o flaen gwŷr Ai (*Ios.* vii. 6), megys y gwnaeth yr un llwyth ar ddeg pan orchfygwyd hwy yn Gibeah, gan wylo yn chwerw (*Barn.* xx. 26): ac felly y gwnaeth holl Israel ar orchymyn Samuel, pan y dywedir iddynt dynu dwfr, a'i dywallt ger bron yr Arglwydd: 1 *Sam.* vii. 6; cymh. *Salm* xxii. 14. Y mae y prophwyd Ioel (ii. 15, &c)., yn gorchymyn ympryd fel rhan o alar cenedlaethol. Cyhoeddwyd ympryd hefyd i holl bobl Ierusalem, ac i'r holl ddieithriaid oedd yn y ddinas: *Ier.* xxxvi. 9: cymmharer *Zech.* vii. 5. Yr oedd ympryd yn cael ei arfer hefyd yn Ninefeh, fel rhan o ymostyngiad cyhoeddus: *Ionah* iii. 5. Yn ol iaith ein Harglwydd, yr oedd "ymprydio" a "galaru" yr un peth: *Mat.* ix. 15. Yr oedd ymostyngiad cyhoeddus yn cael ei ddilyn gan gynnulliadau crefyddol a gweddiau, (*Ioel* ii. 16, 17); gan ymprydiau (*Esa.* lviii. 3); ac weithiau gan yr holl bethau hyn yn nghyd (1 *Macc.* iii. 44, 47, 48).

Y dysgrifiad cyflawn cyntaf o alar am y marw a geir yn 2 *Sam.* iii. 31, 35, pan y gorchymynodd Dafydd i Ioab a'r holl bobl oedd gydag ef rwygo eu dillad, ac ymwregysu mewn sachlian, a galaru am Abner, a Dafydd ei hun oedd yn myned ar ol yr elor; a hwy a gladdasant Abner yn Hebron; a'r brenin a ddyrchafodd ei lef ac a wylodd wrth fedd Abner; a'r holl bobl a wylasant; ac ymprydiodd Dafydd dros ddau ddiwrnod, ac ysgrifenodd alarnad am dano. Ysgrifenid galarnadau gan y prophwydi ar amryw achlysuron trychinebus: *Ezec.* xxvi. 1—18; xxvii. 1—36; *Amos* v. 1, &c. Mae yr amgylchiad yn nghylch merch Iephthah [c. c. 1187], yn rhy anmhenderfynol i fod yn un cyfarwyddyd o'r dulliau o alaru yn y cyfnod hwnw. Caniatawyd dau fis iddi a'i chyfeillesau, "i wylo o herwydd ei morwyndod;" ac elai merched Iuddewig y wlad hono i rywle "bob blwyddyn i alaru am ferch Iephthah y Gileadiad bedwar diwrnod yn y flwyddyn:" *Barn.* xi. 37—40.—Gwel IEPHTHAH. Rhoddir dysgrifiad yn *Salm* xxxv., yr hon a briodolir i Dafydd, o ymostyngiad a arferid gan gyfeillion y claf, er mwyn ei adferu: "A minnau pan glafychent hwy, oeddwn â'm gwisg o sachlen: gostyngais fy enaid âg ympryd, a'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun: ymddygais fel pe buasai yn gyfaill, neu

Digitized by Google

yn frawd i mi: ymostyngais mewn galarwisg, fel un yn galaru am ei fam." Ymddengys y cyfeirir yma at wahanol ddulliau o alaru, ar wahanol amgylchiadau. Anrhydeddwyd Samuel â galar cyhoeddus gan yr Israeliaid: 1 *Sam*. xxv. 1—c. c. 1058. Ysgrifenodd Dafydd alarnad ar farwolaeth Saul: 2 *Sam*. i. 17—27. Ymddengys mai darluniad prydyddol byr oedd hwn, fel yr alarnad ar farwolaeth Abner, o brif nodwedd yr ymadawedig, tebyg i farwnad am frenin Aiphtaidd.



Dar. 312.—Galaru wrth y Bedd.

Ymddengys fod dyrchafiad y dwylaw yn arwydd o ofid: *Salm* cxli. 2; *Galar*. i. 17; *Ezra* ix. 5. Byddai cenadon yn cael eu hanfon i gysuro teulu y marw: felly anfonodd Dafydd rai at Hanun, brenin Ammon, ar farwolaeth ei dad (2 *Sam*. x. 1, 2): "A llawer o'r Iuddewon a ddaethant at Martha a Mair, i'w cysuro hwy am eu brawd" (*Ioan* xi. 19): ac yn canlyn yr Iesu yr oedd "lluaws mawr o bobl, ac o wragedd, y rhai hefyd oedd yn ochain ac yn galaru o'i blegid ef" (*Luc* xxiii. 27); ac yr oedd bagad o bobl y ddinas gyda'r wraig weddw o Nain: *Luc* vii. 12. Yn wir, os dygwyddai rhai gyfarfod â gorymdaith gladdedigol, dysgwylid iddynt ymuno—arfer fel y tybia rhai a eglura eiriau Paul—"Wylwch gyda'r rhai sydd yn wylo;" *Rhuf*. xii. 15. Dywed Herodotus [iii. 66] pan y galarai Cambyses o blegid ei flinderau, y rhwygai y Persiaid eu dillad er amlygu eu gofid yn gyhoeddus.

Yr amgylchiad nesaf o ran trefn hanes ydyw galar Bathseba am Uriah: 2 *Sam*. xi. 26. Dafydd, mewn ymbil taer dros y mab a blantasai hi iddo, a weddïodd ar Dduw dros y plentyn, gan ymprydio a gorwedd ar y ddaiar ar hyd y nos. Rhoddid lludw yn fynych ar y pen yn arwydd o alar: felly "Tamar a gymmerodd ludw ar ei phen, ac a rwygodd y fantell symmudliw oedd am dani, ac a osododd ei llaw ar ei phen, ac a aeth ymaith dan waeddi;" 2 *Sam*. xiii. 19, 20: cymharer *Esa*. lxi. 3; 2 *Esdras* ix. 38. Yr oeddynt hyd yn oed yn ymdrybaeddu mewn lludw: *Ezec*. xxvii. 30.

Y lle cyntaf y sonir am *alarwisg* ydyw 2 *Sam*. xiv. 2, lle yr ymddengys nad oedd y galarydd i ymiro âg olew (cymharer *Mat*. vi. 17). Dywed Herodotus [ii. 36; cymharer 2 *Sam*. xix. 24) fod y bobl gyffredin yn goddef i'w barfau dyfu pan yn galaru.

Y cyfeiriad cyntaf at alarwyr cyflogedig, yn ol tyb y beirniaid, a geir yn *Preg*. xii. 5; "A'r galarwyr." Ystyr gwreiddyn y gair Hebraeg a gyfieithir *galarwyr*, medd Gesenius, yw llef alarus; a chyfeiria at *Micah* i. 8; *Ier*. xxii. 18; xxxiv. 5. Y mae yn ddiau y cyfeirir atynt yn *Ier*. ix. 17—20: Yr oedd y "galar-wragedd" (gwragedd gweddwon, fe allai: cymharer *Salm* lxxviii. 64; *Act*. ix. 39) yn ateb i'r *Præficæ* Rhufeinig [cymharer *Hor. Art Poet*., 429]. Y mae cyfeiriad arall atynt yn 2 *Cron*. xxxv. 25: cymharer *Joseph. Rhyf. Iudd*., iii. 9, 5. Gwragedd oedd y rhan fwyaf o'r galarwyr yn yr hen amseroedd yn yr Aipht, cystal ag yn ddiweddar yn y dwyrain. Yr oedd y galarwyr benywaidd hyn, fel y dengys hen gerfluniau yr Aipht, yn arfer bwrw llwch ar eu penau ger bron corff dyn wedi ei berarogli. Yr oedd galar am y marw yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn dull tra chyffrous a thrystiog, gan wylo ac ochain yn chwerw a chynhyrfus dros ben: *Marc* v. 38. Yr oedd hyd yn oed "gwŷr bucheddol" yn gwneuthur galarnadau mawrion: *Act*. viii. 2. Pan y byddai rhywun farw gynt yn yr Aipht, byddai y gwragedd yn gorchuddio eu hwynebau â llaid, yn rhedeg trwy yr heolydd â'u mynwesau yn agored, yn curo eu hunain, ac yn gwneuthur oernadau truenus. Fel yr elent yn mlaen trwy yr heolydd, ymunai eu cymmydogion â hwy; ac os dygwyddai y trancedig fod yn ŵr mawr, ymunid â hwy gan ddieithriaid hefyd. Byddai y gwŷr yn gwregysu eu gwisg am eu



Dar. 313.—Galaru a Thympanau.

canol, yn rhedeg trwy y dref, yn curo eu dwyfron, ac yn bwrw llaid ar eu penau [*Herod*., ii. 85; *Diod. Sic*., i. 91]. Ymddengys fod y dull diweddar o alaru yn Cairo yn debyg i ddull yr hynafiaid. Dywedir fod y galarwyr yn crwydro trwy yr heolydd, gan lefain, "O! fy nhrychineb!" O! fy mrawd!" "Och! fy meistr!" "O! benteulu!" &c. Y mae tebygolrwydd neillduol rhwng y fath ebychiadau a'r rhai canlynol: "Ah! ah! fy merch!" (*Barn*. xi. 35); "O! fy mab Absalom, fy mab, fy mab Absalom!" (2 *Sam*. xviii. 33); "O fy mrawd!" (1 *Bren*. xiii. 30); "O! fy mrawd! O! fy chwaer! O! Ior! neu O! ei ogoniant ef!" *Ier*. xxii. 18.

Yn mysg arwyddion ereill o alar, byddent yn tori eu gwallt, ac hyd yn oed yn ei dynu o'r gwraidd: *Amos* viii. 10; *Mic*. i. 16; *Esa*. xv. 2; xxii. 12; *Ier*. vii. 27. Tynodd Ezra wallt ei ben a'i farf: *Ezra* ix. 3; *Joseph. Hyn*., xvi. 7, 5. Byddai yr Iuddewon yn myned i benau y tai i wylo (*Esa*. xv. 2, 3; xxii. 1); ac felly hefyd y byddai y Moabiaid: *Ier*. xlviii. 37, 38; *Iudith* viii. 5. Byddent hefyd yn gwneyd rhwygiadau yn eu dwylaw (*Ier*. xlviii. 37, 38); yn taraw y forddwyd (*Ier*. xxxi. 19; *Ezec*. xxi. 12); yn curo eu dwyfronau (*Nah*. ii. 7; *Luc* xviii. 13; xxiii. 48); yn taraw eu dwylaw yn nghyd (*Num*. xxiv. 10); yn curo â'r troed (*Ezec*. vii. 11); yn gostwng y pen i lawr (*Galar*. ii. 10); yn gorchuddio y genau (*Mic*. iii. 7); y wyneb (2 *Sam*. xix. 4); a'r pen (2 *Sam*. xv. 30); ac yn cerdded yn droed-

Digitized by Google

Ionathan, ti a laddwyd ar dy uchelfaoedd.
Gofid sydd arnaf am danat ti, fy mrawd Ionathan:
Cu iawn fuost genyf fi:
Rhyfeddol oedd dy gariad tuag ataf fi,
Tu hwnt i gariad gwragedd.
Pa fodd y cwympodd y cedyrn,
Ac y difethwyd arfau rhyfel!"

Nid yn unig hon ydyw y farwnad hynaf, ond dyma yr hwyaf hefyd sydd yn y Beibl. Canwyd y farwnad odidog hon, fel y mae yn hysbys, ar ol dau berson enwog—tad a mab, brenin a thywysog—a hyny gan un o brif feirdd y byd; ac y mae yn amlwg fod y tywysog yn un o gyfeillion anwylaf a ffyddlonaf y bardd, yr hwn a'i "carai ef megys ei einioes ei hun:" 1 *Sam.* xviii. 1; xx. 41. Er yr holl gydgyfarfyddiadau hyn, nid yw y farwnad ond deg llinell ar ugain. Y mae yn amlwg, gan hyny, na fwriadai y bardd ysbrydoledig wneud dim mwy na chyffwrdd, yn gyffrous a barddonol, â phrif gymmeriadau gwrthddychau ei gân; sef, yn benaf, cadernid y ddau, yr hyn a adroddir dair gwaith yn yr un geiriau—"Pa fodd y cwympodd y cedyrn!" *adn.* 19, 25, 27; heb law y cyfeirir, mewn ymadroddion ereill, deirgwaith yn rhagor at yr un cymmeriad yn *adn.* 21, 22, 23. Cymmeriad arall a nodir yw eu hundeb â'u gilydd: "Saul a Ionathan oedd gariadus yn eu bywyd, ac yn eu marwolaeth ni wahanwyd hwynt;" *adn.* 23. Cyfeirir hefyd yn benodol at eu cyflymder yn yr un adnod—"cynt oeddynt na'r eryrod." Y mae yma gyfeiriad arbenig hefyd at haelioni cyffredinol y brenin yn *adn.* 24. Rhoddir pennill cyfan i adgoffa caredigrwydd nodedig y tywysog Ionathan i'r bardd: *adn.* 26. Credir nas gellir cael cynllun perffeithiach nag yw y gân hon o wir farwnad; ac y byddai yn dda i bob marwnadydd ei myfyrio yn drwyadl. Canfyddir ei bod yn dra gwahanol i farwnadau sychion a hirion yr oes hon; ond y mae yn cyd-daraw yn hynod â darluniad Llywelyn Siôn o farwnad.

Y farwnad nesaf yw yr un a gyfansoddodd Dafydd ar ol Abner, yr hwn oedd "dywysog a gŵr mawr yn Israel:" 2 *Sam.* iii. 38. Cynnwysir y farwnad hon mewn pedair llinell yn 2 *Sam.* iii. 33, 34:—

"Ai fel y mae yr ynfyd yn marw, y bu farw Abner?
Dy ddwylaw nid oeddynt yn rhwym,
Ac nid oedd dy draed wedi eu rhoddi mewn egwyddyd:
Syrthiaist fel y syrthiai un o flaen meibion enwir."

Doethineb Abner, a dull bradwrus ei lofruddiad, ydyw prif bynciau yr alarnad hon.

Un farwnad bersonol bendant eto sydd genym yn y Beibl, sef galarnad yr un bardd breninol (Dafydd) ar ol ei hoff fab drygionus, Absalom: 2 *Sam.* xviii. 33:—

"O! fy mab Absalom,
Fy mab, fy mab Absalom!
O na buaswn farw drosot ti, Absalom,
Fy mab, fy mab!"

"Galargŵyn" ddigymmysg tad wylofus a duwiol ar ol ei fab, ydyw y farwnad hon, heb ddim cyfeiriad ynddi at gymmeriad y gwrthddrych, oddi gerth nad oes awgrym yn y drydedd linell fod y tad yn ofni am gyflwr ei fab.

Ymddengys fod yr Hebreaid yn arfer cyfansoddi marwnadau ar farwolaeth eu henwogion, cystal a galarnadau ar achlysuron trychinebus ereill; a'u bod yn cofnodi y cyfryw mewn llyfr, a elwid y "Galarnadau;" canys yn 2 *Cron.* xxxv. 25, dywedir, "Ieremiah hefyd a alarnadodd am Iosiah, a'r holl gantorion a'r cantoresau a soniant am Iosiah hyd heddyw, a hwy a'i gwnaethant yn ddefod yn Israel; ac wele hwynt yn ysgrifenedig yn y galarnadau." Y mae rhai yn meddwl y gallai mai Galarnad Ieremiah a feddylid wrth y "galarnadau;" ac mai Iosiah ydyw yr hwn y cyfeirir ato yn *Galar.* iv. 20, lle y dywedir —

"Anadl ein ffroenau, eneiniog yr Arglwydd, a ddaliwyd yn eu rhwydau hwynt,
Am yr hwn y dywedasom, Dan ei gysgod ef y byddwn ni byw yn mysg y cenedloedd."

Ond tybia Calmet ac ereill mai cyfeirio y mae y geiriau a ddyfynwyd uchod o'r *Cronicl*, at ryw lyfr o alarnadau o waith y beirdd Iuddewig, sydd yn awr ar goll.

Y marwnadau Cymreig hynaf yw y rhai sydd yn y gân a elwir *Gododin* [*Myv. Arch.*, td. 1, argr. Dinbych]. Y mae rhai Cymry yn meddwl mai arwrgerdd fawreddog ydyw y *Gododin*; ond os ydyw y cyfieithiadau Seisonig yn agos i gywir, ac os ydym ninnau yn deall rhywfaint o'r cyfansoddiad gwreiddiol, y mae yn gwbl amddifad o brif deithi ac ansoddau arwrgerdd. "Arwrgerdd," medd M. Ramsay, "ydyw chwedl yn cael ei thraethu gan fardd er cynhyrfu edmygedd, ac ennyn cariad at rinwedd, trwy ddarlunio gweithred un arwr dan nawdd y nef, yr hwn a gyflawna amcan mawr trwy orchfygu pob rhwystau a'i cyferfydd" [*M. Ramsay, Disc. de la Poes. Epique*, td. 3]. Am destyn y *Gododin*, brwydr Cattraeth, dywedir mai ffaith ydyw, ac nid chwedl, fel y gofyn arwrgerdd. Yn lle un arwr dan nawdd y nef, yn cyflawnu amcan mawr trwy orchfygu pob rhwystr a'i cyfarfyddai, dywedir fod arwyr (pe teilwng o'r enw) y *Gododin* yn dri chant o nifer; y rhai a aethant i'r gad, nid dan nawdd y nef, ond dan effaith meddwdod: ac yn lle cyflawni amcan mawr trwy orchfygu pob rhwystrau, fe'u lladdwyd oll ar y maes, ond tri; y rhai a ffoisant o'r frwydr heb gyflawni unrhyw amcan o bwys, ond achub eu hunain trwy ffoi am eu heinioes. Gan hyny, y mae y *Gododin* yn ddiffygiol o holl brif hanfodion arwrgerdd. "Beth bynag a all testyn y *Gododin* fod," medd Carnhuanawc [*Litr. Rem.*, 123......."gellir dywedyd am y dernyn mai cwbl delynol (*lyric*) ydyw ei ansawdd, a bod y ffeithiau hanesiol a ddygir i mewn yn achlysurol, at y rhai ni wneir ond cyfeirio yn unig, yn bethau rhy gyffredin ac adnabyddus i ofyn chwaneg o hanes nac eglurhad." Y mae yn ymddangos mai casgliad ydyw y *Gododin* o farwnadau byrion, digyssylltiad (llai o ran hyd, at eu gilydd, na marwnad Dafydd am Saul ac Ionathan), ar ol y tywysogion Brutanaidd a laddwyd yn eu meddwdod yn mrwydr Cattraeth gan "wŷr Deifr a Bryneich." Y mae rhai yn casglu hefyd fod mân farwnadau y *Gododin* wedi eu cyfansoddi gan wahanol awdwyr; ac wedi eu hysgrifenu a'u casglu yn nghyd, am y tro cyntaf o ran dim prawf gwahanol sydd ar gael, gan ryw fardd neu feirdd yn y ddeuddegfed ganrif.

Yr esamplau hynafol ereill o alarnadau Cymreig a geir yn y *Myvyrian Archaiology*, argraffiad Dinbych, adr. 1; sef y rhai a briodolir i Taliesin am Owain ab Urien; am Ercwlff; am Mad Ddrud ac Erof; am Aeddon o Fôn; am Cunedda; am Uthyr Pendragon; am Corroi mab Dairy; ac am y Milfeib: y rhai a briodolir i Llywarch Hen am Geraint ab Erbin; am Urien Reged; am Cynddylan; ac am Cadwallawn: un a briodolir i Meigant am Cynddylan: y rhai a ganodd Meilyr am Gruffydd ap Cynan; ac am Talhaiarn a Meilyr; un gan Gwalchmai am Madawg mab Meredydd: y rhai a ganodd Cynddelw am Owain

Digitized by Google

Gwynedd; am Madawg fab Maredydd; am Owain mab Madawg; am Cadwallawn; am Deulu Owain Gwynedd; am Rhiryd; am Einion ab Madawg ab Iddon; am Ithel ap Cadifor Wyddel; am Iorwerth Goch ab Maredydd; am Feibion Dwywg fab Iorwerth; ac am Bleddynt Fardd: un a ganodd Daniel ap Llosgwrn Mew, am Owain Gwynedd: y rhai a ganodd Llywarch ap Llywelyn (Prydydd y Moch) am Gruffydd ap Cynan; am Gruffydd ap Hywel ab Owain; am Hywel ab Gruffydd ap Cynan; am Iorwerth ab Robert; ac am Maredydd ap Cynan: y rhai a ganodd Dafydd Benfras am Llywelyn ab Iorwerth; am Gruffydd ap Llywelyn; am Dri Mab Llywelyn; am Dafydd ap Llywelyn; ac am Gruffydd ab Enyfed: un a ganodd Einiawn ab Gwalchmai am Nest ferch Hywel: y rhai a ganodd Einiawn Wan, am Madawg ab Gruffydd Maelawr; ac am Llywelyn ab Iorwerth: y rhai a ganodd Seisyll am Iorwerth ab Owain; ac am Owain Gwynedd: yr un a ganodd Llygad Gŵr am Hywel ab Madawg: y rhai a ganodd Elidyr Sais am Edward Fychan a Tegwared; am Hywel ab Arthen; ac am Rhodri ab Owain: yr un a ganodd Llywelyn Fardd am Cedifor ab Genillyn: y rhai a ganodd Bleddyn Fardd am Dri Meib Gruffydd ap Llywelyn; am Dafydd ab Gruffydd ap Llywelyn; am Owain ab Gruffydd ap Llywelyn; am Llywelyn ab Gruffydd ap Llywelyn; am Dafydd ab Gruffydd ab Owain ab Madawg; am Goronwy ab Ednyfed; am Hywel ab Goronwy; ac am Dafydd Benfras y Bardd: yr un a ganodd Gruffydd ab Gwrgeneu am Gruffydd ap Cynan ab Owain Gwynedd: y rhai a ganodd Phylip Brydydd am Rhys Gryg; ac am Rhys Ieuainc; y rhai a ganodd Prydydd Bychan am Rhys Ieuanc; am Meredydd ab Owain; am Owain ab Gruffydd ab Rhys; am Rhys Gryg; am Morgant ap Rhys; am Cynan ap Hywel; am Rhys Foel a Samswn ab Meiryg; am Rhys ab Llywelyn; am Madawg Môn; am Bleddynt ab Dwywg; am Gwên ab Goronwy; am Llywelyn ap Rhys; am Blegywryd: ac am Goronwy ab Ednyfedd: yr un a ganodd Gruffydd ab yr Ynad Coch am Llywelyn ab Gruffydd: yr un a ganodd Gwilym Ddu am Trahaiarn Brydydd ab Gronwy: yr un a ganodd Casnodyn am Madawg: y rhai a ganodd Gruffydd ab Maredydd am Tudur ab Goronwy; am Goronwy Fychan; am Hywel ab Gruffydd; ac am Gwenhwyfar: yr un a ganodd Maradawg: yr un a ganodd Lefnyn am Iorwerth Gyriawg: yr un a ganodd Goronwy Ddu am Goronwy Ddu ap Tudur: yr un a ganodd Dewi Mynyw am Rhys Gryg. Byrion, mewn cymhariaeth, yw y rhan fwyaf o'r holl farwnadau yna, er eu bod oll agos yn cael eu canu gan feirdd cyflogedig.

Nis gallwn yn y fan yma nodi yr holl filoedd o alarnadau a ganwyd ar ol cyfnod caniadau y *Myv. Arch.* gan Dafydd ab Gwilym, Rhys Gryg, Dafydd ab Edmwnt, Lewis Glyn Cothi, Tudur Aled, Edmwnt Prys, Huw Morys, a Goronwy Owain, &c., hyd Gwallter Mechain, ac i waered hyd yr oes hon; ond cytunir yn gyffredin mai yr oreu a ganwyd yn yr oes ddiweddaf yw Marwnad yr Esgob Heber, gan Alun (y Parch. John Blackwell), a ganwyd am wobr i Eisteddfod Dinbych, yn y flwyddyn 1828, yr hon sydd yn 144 o linellau.

Y gangen arall o alarnad yw yr hyn a eilw Llywelyn Siôn yn Alargwyn Gwrthwyneb; ac y mae ei ddarnodiad ef o'r rhywogaeth yma o alarnad yn llawn mor nodedig a'i ddarluniad o "Gwyn coll," neu farwnad, fel y canlyn:—

"*Galargwyn Gwrthwyneb* a fydd pan ddigwyddo i ddyn ryw adfyd a thristwch, neu anffod-ddigwydd, o barth corph ag enaid, yn wrthwyneb i'r peth a fyner wrth fodd calon dyn; a chwyner o hynny y gofid eneidloes; a thrybwyll adroddiad, a nwyfiais fyfyrdod, a doeth ystyrbwyll, ar waelder pob gwynfyd daearol; a'i fyrred, a'i ofered, a lleied ei bara, a'i lwyr ddifwyned; a godidoced a rhagored pob gwynfyd nefol; a dyfalu glewfryd yn ymwrthod á phob llawenydd a gwynfyd daearol, ag yn ymgais yn unig a gwynfyd nefol; a'r diddanwch a geir o ddwyfol fryd ag ymddwyn; ag mewn pwyll, a doethineb, ag Ysgrythurol fyfyrdod: a melus y bydd *cerdd alar* pann a'i caner gan fardd awenyddol; am nad oes dim mor gyflwyr gyffredin yn achos a chyflwr pob dyn o'r byd, a galar a hiraethgwyn."—*Cyf. y Beirdd*, td. 40.

Perthyn i'r dosbarth yma o alarnadau y mae amryw o'r Salmau. Gellid nodi, er esampl, *Salm* xlii., yr hon sydd un o'r galarnadau mwyaf tyner a chwynfanus. Cyfansoddodd Esaiah, Ieremiah, ac Ezeciel alarnadau ar gwymp yr Aipht, Tyrus, Sidon, a Babilon, y rhai a welir yn eu gwahanol lyfrau; ond y cyfansoddiad galarnadau mwyaf rheolaidd a pherffaith o'r natur yma sydd yn y Beibl, ac fe allai yn yr holl fyd, yw y llyfr a elwir Galarnad Ieremiah. Gan fod y prophwyd yn galaru yn y llyfr hwnw am ddinystr y deml a'r ddinas sanctaidd, ac am ddadymchweliad yr holl lywodraeth, y mae yn cydgynnull yr holl ddelweddau cyffrous a allai pwnc mor drychinebus eu hawgrymu. Dywed y beirniaid fod y cyfansoddiad yn nodedig o gelfyddydol. Dygir y prophwyd, a dinas Ierusalem i mewn, yn eu tro i dywallt ffrydlif o alarnadau; ac ar y diwedd y mae cydgor o'r bobl yn anfon yr erfyniadau taeraf a mwyaf cwynfanus i fyny at Dduw. Y mae llinellau y Galarnad yn hwy yn y gân wreiddiol na llinellau un math arall o brydyddiaeth Hebreig. Yr oedd hyny yn gwneyd y bersain yn fwy llifeiriol, ac yn gyfaddasach at arddull ofynol galarnad.—Gwel Ieremiah, Galarnad.

Ychydig iawn, mewn cymhariaeth, sydd o alarnadau o'r natur yma yn Gymraeg. Marwnadau sydd yn gorlenwi ein prydyddiaeth alarnadol ni, a hyny, fel y gwelsom uchod, er yr amser boreuaf; ac y mae yn parhau yn debyg hyd yr awr hon; ac y mae lluoedd o honynt yn hynod o undonol a dïawen, ac am hyny yn dra diflas ac anadeiladol i'w darllen. Pa fodd bynag, yr ydym yn tybied fod genym rai caniadau da, hen a diweddar yn y dosbarth yma, a elwir "Galargwyn Gwrthwyneb;" megys, er esampl, yr ydym yn credu mai perthyn i'r dosbarth hwn y mae Cyffes Taliesin; I'w Henaint a'i Feibion, gan Llywarch Hen; Gorllifiad y môr dros Gantref y Gwaelod, gan Gwyddneu; Marw Ysgafyn, gan Meilyr; Marwysgafn, gan Cynddelw; Marwysgawn, gan Bleddyn Fardd; Marwysgafn, gan Dafydd ab Gwilym; Cerdd Uffern, gan Ellis Wynne; Edifeirwch Dafydd, Cwyn Gwraig Weddw Ofidus, Cwyn Gwraig Foneddig mewn adfyd, Cwynfan y Bardd am naw Cymmydog, a Chyffes y Bardd ar ei Wely Angeu, gan Huw Morys; Ei Afiechyd gan Dewi Wyn; Dinystr Ierusalem, gan Eben Fardd; Hiraeth Cymro am ei Wlad, gan Cawrdaf; Gwledd Belsassar, Hiraeth Cymro am ei Wlad, Drylliad y Rothsay Castle, a Gorllifiad Cantre'r Gwaelod, gan Ieuan Glan Geirionydd; Drylliad y Rothsay Castle, gan Gwilym Caledfryn; Gorllifiad y Môr dros Gantre'r Gwaelod; Anerch Eifion ar achlysur marwolaeth ei thri bardd godidog—Dewi Wyn, Pedr Fardd, ac R. ab Gwilym Ddu; ac Ymlidiad y Cenadau Cristion-

Digitized by Google

ogol o Madagascar, yn y flwyddyn 1854, gan Hiraethog; Dinystr Dinasoedd y Gwastadedd, gan Golyddan; ac, fe ddichon, amryw ereill nad ydym ni yn eu cofio ar hyn o bryd.

**GALARNAD IEREMIAH.** Gwel IEREMIAH.

**GALATIA,** [Γαλατία]. Y mae yn anhawdd penderfynu weithiau gyda golwg ar yr enwau a grybwyllir yn y Testament Newydd, pa un a ydynt i'w cymmeryd mewn ystyr gyffredinol, megys yn cyfeirio at ardal a boblogid gan lwyth o bobl, ai ynte a ydynt yn arwyddo rhyw ran benodol o wlad a nodid allan i ddybenion gwleidyddol. Parth o'r natur yma yw Galatia; a bydd yn gyfleus ei hystyried yn gyntaf yn genedlaethol, ac yna fel talaeth Rufeinig.

*Galatia* yn llythyrenol ydyw *Gallia* y dwyrain. Y mae ysgrifenwyr Rhufeinig yn galw ei thrigolion yn *Galli*, yr un fath ag y geilw ysgrifenwyr Groeg drigolion yr hen Ffrainc yn *Galatai*. Y mae rhai esbonwyr yn tybied mai Gorllewin Gâl (*Gaul*) a feddylir yn 2 *Tim.* iv. 10; a dywedir mai *Gallian* yn lle *Galatian* sydd mewn llawer o'r llawysgrifau. Fe ellir cymmeryd yr ymadrodd yn 1 *Mac.* viii. 2, lle y mae Iudas Maccabeus yn gwrandaw hanes gwrolaeth y Rhufeinwyr yn gorchfygu y Galatiaid, naill ai am Ddwyrain neu Orllewin Gâl; canys fe sonir am ddarostyngiad yr Yspaen a gorchfygiad Antiochus brenin Asia yn yr un cyd-destyn. Drachefn, fe ddywedir mai yr un gair ydyw *Galatai* a *Celtai*; ac mai ffrwd oedd y Galatiaid o'u dechreuad o'r cefnllif mawr Celtaidd (y Cymry, yn ol tyb rhai; neu yn hytrach y Brutaniaid neu y Galiaid) a ymdywalltodd i Groeg yn y drydedd ganrif cyn Crist (280 c. c. medd Ryland). Symmudodd rhai o'r rhuthrgyrchwyr hyn i Thrace, gan ymddangos ar ororau yr Hellespont a'r Bosphorus, pan y gwahoddwyd hwynt drosodd gan Nicomedes I, tra yr ydoedd mewn rhyfel gartrefol, i'w gynnorthwyo. Wedi ymsefydlu unwaith yn Asia Leiaf, daethant yn ffrewyll ddychrynllyd ar y cenedloedd amgylchynol, ac estynasant eu rhuthrgyrchau yn mhell ac yn agos. Llwyddodd y breninoedd cymmydogaethol o'r diwedd i'w cyfyngu o fewn terfynau y wlad a alwyd byth wedi hyny yn *Galatia*. Cymmerodd Antiochus I, brenin Syria, y teitl o Soter, mewn canlyniad i fuddugoliaeth a gafodd arnynt; a chymmerodd Attalus I, o Pergamus, y teitl o frenin, er cof am ei lwyddiant yntau yn eu herbyn. Er hyny cafodd y Galatiaid gyfleusdra i roddi rhwysg i'w tuedd aflonydd a'u hoffder at ryfel trwy logi eu hunain i ereill fel milwyr cyflogedig. Y mae yn sicr mai dyma yr eglurhad priodol ar 2 *Mac.* viii. 20, sydd yn cyfeirio at ryw ymryson o eiddo y tywysogion Seleucaidd, yn yr hwn y cymmerai y Galatiaid a'r Iuddewon ran. Canfyddir yn *Joseph. Rhyf. Iudd.*, i. 20, 3, fod rhan o'r Galatiaid, a fuont yn filwyr llys i Cleopatra, yn gweithredu yn yr un swydd i Herod Fawr. Yn y cyfamser, yr oedd y rhyfeloedd a gymmerasant le wedi dwyn yr holl wledydd ar ororau dwyreiniol Môr y Canoldir i gyrhaedd y llywodraeth Rufeinig. Yr oedd y Galatiaid yn ymladd o blaid Antiochus yn Magnesia. Yn y rhyfel Mithriadig, yr oeddynt yn ymladd dros y ddwyblaid. Ar ddiwedd y Werinlywodraeth fe ymddengys Galatia fel teyrnas ymddibynol; ac ar ddechreuad yr Ymherodraeth, fel talaeth [*Ritter, Erdkunde*, xviii. 597—610].

Gellir darlunio talaeth Rufeinig Galatia, heb fod yn fanwl, fel canolbarth gorynys Asia Leiaf, yn nghyd â rhai taleithiau o Asia ar y tu gorllewinol, Cappadocia ar y tu dwyreiniol, Pamphylia a Cilicia ar y tu deheuol, a Bithynia a Pontus ar y tu gogleddol. Byddai yn anhawdd nodi y terfynau yn fanwl. Mewn gwirionedd yr oeddynt yn newid yn dra mynych. Y mae yn ddiammheu fod y dalaeth hon unwaith yn cynnwys Pisidia a Lycaonia, ac am hyny yr oedd Antioch, Iconium, Lystra, a Derbe ynddi—y dinasoedd sydd mor nodedig yn hanes teithiau yr apostol Paul. Ond y mae prif barth Galatia yn gorwedd tua'r gogledd o'r parthau hyny. Yr oedd y Galatiaid wedi ymsefydlu yn dri llwyth, y Tectosagiaid, y Tolistoboiaid, a'r Trocmiaid, ar yr ucheldir rhwng Sangarius a'r Halys. Mae enw y llwyth cyntaf yn cytuno âg enw cynnefin i ni yn hanes Gâl, oedd yn wasgaredig ar hyd Cevennes, yn agos i Toulouse. Tair dinas benaf y llwythau oedd Tavium, Pesinus, ac Ancyra. Yr oedd yr olaf (yr un ag Angora ddiweddar) yn ganolbarth ffyrdd y dalaeth, a gellir ei hystyried fel prifddinas y Galatiaid. Y mae y Galiaid dwyreiniol hyn wedi cadw llawer o'u hen nodwedd, a pheth o'u hen iaith hefyd. O leiaf, dywed Jerome y gellid clywed yr un iaith yn ei amser ef yn Ancyra ac yn Trèves; ac y mae efe yn dyst cywir, gan ei fod wedi bod ei hunan yn Trèves. Pa fodd bynag, prif iaith y lle oedd Groeg; am hyny yr oedd y Galatiaid yn cael eu galw yn *Gallo-græci* [*Manlius* yn *Livy*, xxxviii. 17]. Groeg ydyw y cerfiadau a ganfyddwyd yn Ancyra, ac yn Groeg yr ysgrifenodd yr apostol Paul ei Epistol at y Galatiaid.

Y mae yn anhawdd, ar yr olwg gyntaf, penderfynu yn mha ystyr y defnyddir y gair *Galatia* gan ysgrifenwyr y Testament Newydd, a pha un a ydyw yn cael ei ddefnyddio bob amser yn yr un ystyr. Crybwyllir am deithiau yr apostol Paul trwy y dosbarth, yn Actau yr Apostolion, mewn ymadroddion tra chyffredinol. Yn *Act.* xvi. 6, dywedir yn syml ei fod ar ei ail ymdaith genadol, gyda Silas a Thimotheus, wedi "tramwy trwy Phrygia, a gwlad Galatia." Chwanegir at hyn yn yr Epistol (iv. 13), lle yr awgrymir fod yr apostol yn glaf pan yn mysg y Galatiaid, a'i fod wedi cael derbyniad tra chroesawgar ganddynt (*adn.* 14, 15); ond ni fynegir yma am y daith a gymmerodd. Ar y drydedd daith, dywedir yn *Act.* xvii. 23, iddo "dramwy trwy wlad Galatia a Phrygia." Yr ydym yn gwybod oddi wrth yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, fod yr apostol, tra ar y daith hon, yn casglu i Gristionogion tlodion Iudea, a'i fod wedi rhoddi cyfarwyddiadau i eglwysi Galatia ar y pwnc (1 *Cor.* xvi. 1); ond ni fynegir yma eto â pha leoedd yr ymwelodd. Canfyddir yma fod *eglwysi* Galatia yn cael eu crybwyll yn y rhif luosog, ac felly hefyd yn nechreu yr Epistol at y Galatiaid eu hunain: *Gal.* i. 2. Gellir casglu oddi wrth hyn ei fod wedi ymweled âg amryw ranau o'r wlad, yn aros yn hir yn yr un lle, a ffurfio un eglwys fawr ganolbarthol, fel yn Ephesus a Chorinth. Y mae hyn yn gysson â'r ymadrodd, "gwlad Galatia," a ddefnyddir yn y ddau le yn yr Actau. Gan y crybwyllir am Phrygia yn gyntaf yn un o'r ddau le, ac yn ail yn y llall, gellid casglu fod trefn y daith yn wahanol yn y ddau amgylchiad. Hefyd, gan nad oedd Phrygia yn enw talaeth Rufeinig—dim ond enw lle yn unig—gellir casglu fod Galatia hefyd yn cael ei ddefnyddio yma gan Luc yn yr un dull cyffredinol. Er cadarnhad i hyn, mae yn werth sylwi, tra mai enw lleol, ac nid gwladyddol, a grybwyllir yn *Act.* ii. 9, 10, sef

Digitized by Google

Phrygia, ac nid Galatia, fod y drefn yn hollol wahanol yn 1 *Pedr* i. 1, 2—lle y mae yr enw daiaryddol yn enw talaeth.

Y mae yn debyg fod yr Epistol at y Galatiaid wedi ei ysgrifenu yn bur fuan ar ol ail ymweliad yr apostol Paul â hwy yno. Achosid ei sydynrwydd a'i erwindeb, yn nghyd â'i dôn alarus, gan eu hymadawiad buan hwy â'r athrawiaeth a ddysgwyd iddynt gan yr apostol, yr hon a dderbyniasant ar y cyntaf mor ewyllysgar. Nid dychymyg yn unig ydyw yr hyn a ddywed Thierry [*Hist. des Gaulois, intro.* iv, v.] am yr ansefydlogrwydd sydd yn naturiol i'r hiliogaeth Galaidd. Dengys Josephus [*Hynaf.*, xvi. 6, 2] fod llawer o'r Iuddewon wedi ymsefydlu yn Galatia; ond tueddir ni i gasglu oddi wrth *Gal.* iv. 8, mai Cenedloedd oedd y rhan fwyaf o ddychweledigion yr apostol Paul. Barna Böttger y cyfyngir Galatia yr epistol yn hollol i'r parth sydd rhwng Derbe a Celossa, sef yr oror bellaf o'r dalaeth Rufeinaidd. Yn ol y golygiad yma, cymmerodd yr ymweliad y cyfeiria yr apostol ato le, ar ei daith genadol gyntaf; a gellir casglu mai effaith y llabyddio yn Lystra (*Act.* xiv. 19), oedd "gwendid y cnawd" (*asthena*) y cyfeirir ato yn *Gal.* iv. 13. Mewn ystyr daiaryddol, nid oedd hyn yn anmhosibl, er nad yw yn annhebyg mai yr un parthau a elwir yn Pisidia a Lycaonia mewn un man, a elwir Galatia yn y llall. Gwel GALATIAID, EPISTOL AT.

Y mae perthynas trigolion Galatia â'r Cymry, fel pob peth tra hynafol yn nglŷn â hanes hen genedloedd, yn bur dywyll a dyrus. Y mae hen hanesion credadwy yn profi yr hyn a awgrymwyd eisoes—fod byddin luosog o'r Celtiaid neu y Galiaid (*Gauls*) wedi rhuthro i Macedonia a Groeg tua 280 c. c; ond ai Cymry neu Frytaniaid Prydain oedd y rhai hyny, fel y tybia Howson ac ereill, ac nid Galiaid Ffrainc, sydd yn ymddangos yn dra thywyll ac ammheus. Yn ol Justin, cychwynasant o Pannonia (talaeth Rufeinig rhwng y Danube a'r Alpau, yn cynnwys Hungary, &c.), lle yr oedd eu hynafiaid wedi ymsefydlu er ys talm o'r blaen. Y mae yn debyg i amryw lwythau ereill o'r Celtiaid Galaidd neu Gymroaidd (*Cimbrical*), neu bob un o honynt, ymuno â hwy tua gorllewin yr Almaen. Y mae Justin yn crybwyll fod Tectosagiaid yn eu plith, o ororau Tolosa; ond wrth gymharu llyfr xxiv. 8, â xxii. 3, gwelir fod yr hanes yn dra dyrys. Ymranodd yr ymosodwyr yn ddwy fyddin fawr: un yn cael ei harwain, medd Justin, gan flaenor o'r enw Belgius neu Pausanias Belgos, a ruthrodd i Macedonia, gan beri dychryn a dystryw ffordd y cerddent. Pan gynnygiodd Ptolemæus Ceraunus, brenin neu ormesdeyrn Macedonia, eu gwrthsefyll, gorchfygwyd a lladdwyd ef. Wedi cymmeryd ysbail dirfawr, gan anrheithio ac ysbeilio y temlau, a phob peth a gyfarfyddent, dychwelasant ar hyd yr un ffordd tua'u cartref. Y fyddin arall o'r Galiaid hyn, oedd dan arweiniad un o'r enw Brennus (a Gymreigir gan y Cymry yn Brân), a aethant i Macedonia y flwyddyn ganlynol, sef 279 c. c., ac a orchfygasant Sosthenes, yr hwn a gymmerodd lywodraeth y wlad hono ar ol marwolaeth Ceraunus. Yna aeth Brennus yn mlaen trwy Thessalia, a thua'r deheu cyn belled a Delphi, gan fwriadu ysbeilio cyfoeth dirfawr teml Diana yn y lle hwnw. Pa fodd bynag, gyrwyd y Galiaid ar ffo oddi yno gan drigolion Delphi; ac mewn rhan, fel y dywedir, gan ddaiargryn a gymmerodd le yn ystod yr ymosodiad, yr hon a ddilynwyd gan ystorm aruthrol, a achoswyd, wrth gwrs, yn ol tyb ofergoelus y trigolion, gan y duwiau y bwriadai y Galiaid eu hysbeilio. Dywedir i'r ymosodiad yma ar Delphi ddygwydd yn y flwyddyn 278 c. c. [*Clinton, Fasti Hellenici*]. Yna, dan effaith y somedigaeth, dywed yr hanes i Brennus ladd ei hun. Collodd y Galiaid nifer dirfawr o'u gwŷr yn yr ymosodiad, a mwy fyth wrth ffoi tua'r gogledd o flaen eu gelynion cythruddedig. Gwnaed rhuthr arall i Macedonia yn fuan ar ol hyny gan lu arall o'r Galiaid, oedd heb fod yn mrwydr Delphi, ond a arosasent ar ororau Panonia [*Justin*, xxv. 1, 2]. Wedi iddynt orchfygu y Geltiaid (*Getæ*) a'r Tribaliaid (*Triballi*), cyfarfu Antigonus Gonatus hwy, yr hwn a'u llwyr orchfygodd. Ciliodd y gweddill o'r ymgyrchoedd hyn i Thrace, lle yr oedd gwahanol bleidiau o'r Galiaid wedi bod yn arfer rhuthro, er blinder dirfawr i'r Byzantiaid. Y mae Sestini yn cofnodi amryw fathodau o Cavarus, a brenin oedd ereill y Galatiaid-Groegaidd. Yn ystod rhyfel y Rhufeiniaid yn erbyn Antiochus III, rhuthrodd y rhaglaw C. Manluis i Galatia yn 189 c. c., am yr hyn y derbyniodd wobr buddugoliaethwr yn 186 c. c. [*Livy*, 38, 39]. Yr oedd Mithridates Fawr yn dal Galatia yn ystod ei ryfel â'r Rhufeiniaid, a chanfyddir fod y Galatiaid yn ffurfio rhan hanfodol o'i fyddin. Pa fodd bynag, trodd un o benaethiaid Galatia, o'r enw *Diotarus*, oddi wrth Mithridates i bleidio y Rhufeiniaid; am yr hyn y cafodd ei gydnabod wedi hyny yn frenin gan senedd Rhufain. Dros fab i hwn, a elwid Deiotarus II, y dadleuodd Cicero ger bron Cæsar. Dywedir fod amryw enwau yn Galatia yn dangos perthynas yr ymsefydlwyr newyddion i'w brodyr gorllewinol, megys *Ecobriga, Tolustochora*, &c.

Yn awr fe welir fod perthynas y Cymry â'r Galatiaid yn cyfateb yn hollol i'w perthynas â'r Galiaid, am yr hyn y dywed Carnhuanawc:—

"Os ydyw dyfodiad y Cymry [i Ynys Prydain] yn gorwedd dan y fath orchudd o dywyllwch, nis gellir dysgwyl fod eu haniad cyssefin yn fwy eglur......Os edrychwn ar hanes cynoesol y Cyfandir, cawn weled fod yn nwyreindir Ewropa genedl liosog o bobl yn hanfodi, y rhai a elwid y *Cimmerii;* ac oddi wrth gyffelybrwydd yr enwau, y mae lle i feithrin dychymyg eu bod o'r un haniad a'r Cymry. Yr oedd hefyd yn ardaloedd Llychlyn genedl o bobl a elwid y *Cimbri;* ac y mae un gair o'u hiaith wedi ei drosglwyddo i ni, sef enw ceincfor Llychlyn, fel y deallir, yr hwn a alwent *Morimorusa*, yr hyn yn eu hiaith hwy a arwyddocäai 'Y Môr Marw.' Os ydyw cyffelybiaeth iaith yn ein hawdurdodi i ffurfio barn yn nghylch perthynas cenhedloedd, y mae yn iawn i feddwl fod y *Cimbri* a'r *Cymry* o'r un llwyth cyssefin, yn enwedig pan sylwom ar gyffelybrwydd yr enwau. Ond y mae rhai yn cyrchu lawer yn mhellach na'r amseroedd yma, ac yn haeru fod y Cymry, yn nghyd â'u henw, wedi deilliaw oddi wrth *Gomer*, fab Iapheth; ac y mae yn rhaid cyfaddef fod yr haeriad hwn yn meddu rhith llawn mor gytûn â chywirdeb a nemawr o haeriad anawdurdodol arall. Y mae Iosephus yn dywedyd mai *Gomer* oedd tad y *Gomari*, y rhai a elwid gan y Groegiaid yn *Galatai*. Ac y mae yn brofadwy fod y bobl hyn wedi deillio o dir Gâl, ac felly o'r un tarddiad a'r Cymry."

Gwel CYMRY.

DIWEDD Y BEDWAREDD GYFROL.

DINBYCH, ARGRAPHWYD GAN T. GEE A'I FAB.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google